



Welsh National Library of America

at

Brigham Young University

Provo, Utah

From Griff Roberts

Call Welsh Acc. **709**
No. 233.7 No.


G965c
1862.

230/2205
233.7

21

38







Welsh
2337
G 965 c
1862

Y CRISTION

MEWN

CYFLAWN ARFOGAETH ;

NEU

DRAETHAWD

AM

RYFEL Y SAINT YN ERBYN Y DIAFOL.

GAN

1617-1679

Y PARCH. W. GURNAL, B.D.

GYNT O LAFENHAM, SUFFOLC.

WEDI EI GYFIEITHU GAN

Y PARCH. THOMAS JONES.

1752-1845

DINBYCH :

ARGRAPHWYD A CHYHOEDDWDYD GAN THOMAS GEE.

MDCCCLXII.

1862



CYNNWYSIAD Y PENNODAU.

Ephesïaid vi. 10. "HEB LAW HYN, FY MRODYR," &c.

PEN.	TUDAL.
I. Am galonid ac ymroad y Cristion. Pa ham y mae yn angenrheidiol, a'r modd i'w gael	2
II. Am nerth y saint. Pa le y mae, a pha ham yn drysoreidig yn Nuw	6
III. Am ymarfer ein ffydd ar hollalluog nerth Duw	11
IV. Am ymarfer ein ffydd ar hollalluog nerth Duw, megys wedi ymrwymo er ein cymmhorth	13
V. Lle yr attebïr i wrthddadl arbenig, y gall rhai eneidiau anghysurus ei chodi yn erbyn yr ymresymiad blaenorol	20

Adn. 11. "GWISGWCH HOLL ARFOGAETH DUW."

I. Dangos mai yr enaid di-Grist ac anrasol yw yr enaid heb arfogaeht; a'i drueni	24
II. Yn dangos fod yn rhaid i'r arfogaeht a ddefnyddiom yn 'erbyn Satan fod e ddywfol osodiad—y fath yn unig ag y mae Duw yn appwyntio	28
III. Yn dangos fod yn rhaid i'r arfogaeht a ddefnyddiwn er ein hamdiddiffyniad yn erbyn Satan, fod, nid yn unig o osodiad dwyfol, ond o wneuthuriad dwyfol	30
IV. Am gyfanwydd ein harfogaeht. Rhaid iddi fod yn "holl arfogaeht Duw"	33
V. Am ddefnyddio ein harfogaeht ysbrydol, neu am ymarferiad gras	37

Adn. 11. "FEL Y GALLOCH SEFYLL," &c.

I. Am gyfrwysdra Satan i ddewis yr amserau mwyaf manteisiol i demtio	43
II. Cyfrwysdra Satan yn trin ei demtasiynau; lle y nodir amryw o'r dichellion a arferir ganddo i dwyllo y Cristion	45
III. Am gyfrwysdra Satan yn dewis offerynnau cymmhwys at ei dro i ddwyn yn mlaen ei fwriad i demtio	47
IV. Lle y cymmhwysir yn fyr y pwngc hwn am gyfrwysdra Satan, fel temtiwr i bechod	51
V. Lle y dangosir cyfrwysdra Satan fel blinwr a chyhuddwr am bechod; ac y dadguddir amryw o'i gynllwynion a'i dichellion ef i aflonyddu ysbrydoedd y saint	53
VI. Cymmhwysiad byr o'r ail gangen yn y pwngc, sef am gyfrwysdra Satan fel blinwr a chyhuddwr am bechod	58
VII. Yn cynnwys rhai cyfarwyddiadau tuag at gastellu a diogelu y Cristion rhag rhuthrau a chynllwynion y diafol fel terfysgydd ar heddwch yr enaid	59
VIII. Am fuddugoliaeth y saint ar eu gelyn cyfrwys; ac o ba le y mae fod creaduriaid mor weiniaid yn gallu sefyll yn erbyn cynllwynion Satan	63
I x Dangosiad o'r modd y mae Duw holl ddoeth yn trechu y diafol yn ei demtiad ar y saint i bechod; lle y nodir amcanion Satan, a'r modd y mae yn cael ei attal ynddynt oll; a'r diweddiad da a ddyry Duw ar ei demtasiynau hyn	65
X. Cymmhwysiad byr o'r pwngc mewn dau ddefnyddiad	69

Adn. 12. "O BLEGID NID YW EIN HYMDRECH NI," &c.

PEN.	TUDAL.
I. Yn dangos fod bywyd y Cristion yma yn ymdrechfa barhaus â phechod a Satan, ac anamledd y rhai sydd yn wir ymdrechwyr; y modd y mae i'r gwir ymdrechwyr drin eu hymladfa	72
II. Lle y dangosir pa beth a feddyliwr wrth "waed a chnawd;" a'r modd nad yw, a'r modd y mae y Cristion yn ymdrechu yn erbyn y rhai hyn	78
III. Lle y dangosir pa fath dywysogaeth sy gan Satan; pa fodd y daeth i fod yn fath dywysog; a'r modd y mae i ni wybod a ydym dano, fel ein tywysog, ai nid ydym	83
IV. Am y gallu mawr sydd gan Satan, nid yn unig ar y rhan elfenol a theimladol o'r byd, ond ar y rhan ddeallol hefyd, sef eneidiau dynion	90
V. Am yr amser, y lle, a'r deiliaid, yn y rhai y mae Satan yn rheoli	96
VI. Am ysbrydolrwydd natur y diaffiaid, a'u dirfawr ddrvgioni hwynt	115
VII. Am gas Satan i halogi ysbryd y Cristion, a phechodau y galon	120
VIII. Y modd y mae Satan yn ymgais am lygru meddwl y Cristion â chyfeillornad	123
IX. Am falchder doniau, a'r modd y temtia Satan y Cristion iddo	126
X. Am falchio o herwydd gras	132
XI. Y trydydd math o falchder ysbrydol, sef balchder breintiau	138
XII. Yn dangos pa beth yw y camp-dlws, yr hwn y mae credinwyr yn ymdrechu am dano, yn erbyn y tywysogaethau, yr awdurdodau, a'r drysgau ysbrydol hyn	141
XIII. Annogaeth i daer geisio y nef, a phethau nefol	148

Adn. 13. "AM HYNY, CYMMERWCH ATOCH," &c.

I. Yrachos pa ham y mae yr apostol yn adnewyddu yr un annogaeth; ac hefyd pa wirioneddau y mae i weinidogion eu pregethu yn fynych i'w pobl	152
II. Y goreu o'r saint yn ddarostyngedig i adfeilio yn eu grasusau; a pha ham y mae i ni ymgais am adferiad allan o nychedd mewn gras	153
III. Hyfforddiad gochelus, am yr hyn na allwn, ac am yr hyn a allwn, farnu oddi wrtho fod ein grasusau dan adfeiliad	155
IV. Gair o gyngor er adferiad gras o'i adfeiliad	157
V. "Fel y galloch wrthsefyll yn y dydd drwg ac wedi gorphen pob peth sefyll"	160
VI. Yn dangos fod dydd trallod yn ddrwg, ac yn mha olygiadau; hefyd, ei fod yn anocheladwy, a pha ham y dyllid parotoi i'w erbyn	161
VII. Cymmhwysiad y pwngc	166
VIII. Yr ail ddaed at gymmhell yr annogaeth; yr hon a dynir oddi wrth y fuddugoliaeth sicr a gorona ymdrech yr enaid, os bydd yn yr arfogaeht hon; lle y trinir yn fyr amryw byngciau cynnwysedig yn y ddaed	170

Ephesïaid vi. 14. "SEFWCH GAN HYNY," &c.

I. Lle y dangosir yn fyr yr angenrheidi'rwydd am wrthsefyll temtasiynau Satan. ynghyd â'r perygl o ymroddi iddynt	181
---	-----

PEN.	TUDAL.
II. Lle y dangosir pa beth yw i Cristion sefyll mewn trefn, ynghyd â'i ddyledswydd yn y peth neillduol hwn, a pherygl y rhai a grwydrant o'u lle eu hunain	184
III. Lle y cynnwysir y trydydd arwyddocâd, a'r olaf, i'r gair "Sefwch;" a dyledswydd y Cristion i sefyll ar ei wyliaid phiaeth yn cael ei dangos; a pha ham a pha fodd y dylai efe wyllo	188

Adn. 14. "WEDI AMGYLCH-WREGYSU," &c.

I. Yn cynnwys eglurhâd byr o'r geiriau	192
II. Lle y dangosir mai ddyledswydd y Cristion yw ymgais am farn sefydlog yn y gwirionedd, a'r rhesymau am hyn; ac hefyd beth cymhwysiad o'r pwngc	193
III. Rhai cyfarwyddiadau at gadarnhau barn profesywyr yn y gwirionedd	198
IV. Lle y cynnwysir yr ail ffordd i ni gael ein lwynau wedi eu gwregysu â gwirionedd, &c.	201
V. Cyfarwyddyd neu ddau at wregysu y gwirionedd yn dŷn am danom yn y broffes o hono	204
VI. Am yr ail fath o wirionedd—gwirionedd calon, neu gywirdeb, a'r rhywogaethau o hono	209
VII. Am uniondeb efengylaidd, neu dduwiol, &c.	213
VIII. Dangosiad pa ham y mae purdeb yn cuddio anharddwch y saint	210
IX. Am natur adgas rhagrith, a'i adgasrwydd gan Dduw	223
X. Lle yr anogir pawb i roddi eu hunain ar y prawf, ai cywir ai anghywir ydynt, &c.	229
XI. Y seiliau gwneidiau ar y rhai y mae eneidiau temtedig yn dadlau yn erbyn eu huniondeb eu hunain	232
XII. Pedwar nód neu arwydd o wirionedd calon, neu burdeb	236
XIII. Gair o gyfarwyddyd i'r rhai a geir, ar brawf, yn affacli a ffals o galon	242
XIV. Cynghor i'r rhai a geir, ar brawf, yn uniawn neu gywir o galon, &c.	245
XV. Cynghor a chysur i'r rhai sydd yn ddiffuant, ond yn eneidiau ymollyngar a phetrusgar, &c.	253
XVI. Lle yr agorir ail reswm y gyffelybiaeth; pa ham y gosodir allan wirionedd neu gywirdeb trwy wregys milwr, &c.	257
XVII. Am y nerth adierol sydd gan gywirdeb; ac o ba le y mae	260
XVIII. Am briodoldeb gynniol a chysurol sy gan gywirdeb; egluro hyn mewn amryw esamplau neillduol	261
XIX. Defnyddiad byr, cymhwysiadol, o'r pwngc mewn canghenau cyfredinol, a neillduol hefyd	267

*Adn. 14. "A GWISGO DWYFRONEG CYFLAWN-
DER," &c.*

I. Yn cynnwys agoriad y geiriau	269
II. Pwngc byr oddi wrth gyfundeb y darn hwn o arfogaeith a'r cyntaf; Cyflawnder a gwirionedd	273
III. Lle y pennodir y prif Bwngc oddi wrth y geiriau, Y dylal fod yn ofal arbenig y Cristion i gadw ei ddwyfroneg am dano, &c.	274
IV. Yr ail reswm pa ham y dylai y Cristion wisgo y ddwyfroneg hon o gyflawnder, a chynnal grym duwioldeb mor ofalus, &c.	278
V. Y trydydd rheswm a gymmerir oddi wrth ragoroldeb cyflawnder a Sancteiddrwydd	279
VI. Yn cynnwys yr esampl gyntaf, yn yr hon y mae i'r Cristion ddangos grym Duwioldeb; sef, yn ei ymddygiad tuag at bechod—rhanu hyn i amryw Gangelneu neillduol	283
VII. Ail esampl, yn yr hon y mae i rym duwioldeb gymddangos yn muchedd y Cristion; sef, yn nyledswyddau Addoliad Duw	286
VIII. Trydydd esampl, yn yr hon y bydd raid i rym Duwioldeb ymddangos; sef, yng ngorchwyllion bydol y Cristion	289
IX. Am ddangos grym duwioldeb yn ac i'n perthynasau teuluaidd	291

PEN.	TUDAL.
X. Am ymarfer grym duwioldeb yn ein hymddygiad at ein cymmydogion oddi allan	295
XI. Yn cynnwys naw neu ddeg o gyfarwyddiadau, er cynnorthyw i'r rhai sydd yn chwenych cynnal grym ymarweddiad sanctaidd a chyfiawn	296
XII. Lle y dymchwelir ystrwy a dichell gyntaf Satan a arfer efe i beri i'r Cristion iwrw ymaith ei ddwyfroneg cyflawnder, fel peth sydd yn anafu pluser ei fywyd	303
XIII. Lle y dymchwelir ail ddichell Satan, drwy yr hon y cais efe dwyllo y Cristion o'i ddwyfroneg, gan ei dangos fel peth niweidiol i'w fudd bydol ef	307
XIV. Lle y diddymir y drydedd ddichell a ddefnyddia Satan i ddiartgodi y Cristion o'i ddwyfroneg; a hyny trwy ei frawychu a'r wrthiaith, y gwrthwnebiad, a'r dygasedd gan y byd, a faga hi	309
XV. Yn cynnwys dau ddefnydd o'r pwngc.	310
XVI. Annogaeth i'r saint mewn tair cangen	315

Adn. 15. "A GWISGO AM EICH TRAED," &c.

I. Lle y dadgenir y newydd hyfyrdawn a ddwg yr efengyl, mewn pum peth neillduol, sydd yn ofynol at gyffenwi yr hyfydwch o ryw genhadwri, gyda gair i gyffroi ein hymysgaroedd i dosturio wrth y rhai na chlywiant y newydd hwn erioed	319
II. Galarnad am y derbyniad annhirion sydd i newydd yr efengyl yn y byd, &c.	322
III. Tangnefedd pedwar-plyg yn briodol i'r efengyl, ac yn neillduol Tangnefedd y Cymmod, &c.	327
IV. Cyfrif mwy neillduol pa ham y mynai Duw gymmodi pechaduriaid âg efe i hun trwy Grist	330
V. Cynghor i goffeidio yr hedddech hwn o gymmod, a gynnygir yn yr efengyl	334
VI. Pedwar o gyfarwyddiadau mewn ffordd o gynghor i bechaduriaid	339
VII. Annogaeth, mewn chwech o bethau neillduol, &c.	344
VIII. Fod heddwch cydwybod yn fendith sydd i'w chael o'r efengyl, &c.	347
IX. Cerydd i dri math o ddyinion sydd yn trosedd yn erbyn yr heddwch a ddwg yr efengyl	352
X. Prawf am ein heddwch, oddi wrth bedwar nod ar heddwch neu gysur yr Efengyl	357
XI. Mai yr efengyl yn unig a ddichon uno calonau dnyion, &c.	361
XII. Lle y dangosir y gwahaniaeth sy rhwng yr heddwch a geir gan y saint a hwnw sydd yn mysg yr annuwiolion, &c.	364
XIII. Annogaeth i'r Saint i gynnal heddwch yn eu plith eu hunain, &c.	366
XIV. Dyledswydd y Cristion i sefyll yn barod i bob dioddefiadau, gydag un rheswm, &c.	373
XV. Yr ail reswm am y pwngc, yr hwn a gymmerir oddi wrth ragoroldeb yr agwedd hon o Ysbryd	378
XVI. Rhifedi y gwir Gristionogion ond bychan, &c.	382
XVII. Chwech o gyfarwyddiadau er cynnorthyw i wisgo yr esgid ysbyrdol hon	385
XVIII. Yn dangos pwy yw y dyn y gwisgwyd am ei draed, ac a barotwyd at ddioddefiadau, &c.	388

*Eph. vi. 16. "UWCH LAW POB DIM, WEDI CYM-
MERYD TARIAN Y FFYDD."*

I. Agor y geiriau mewn ymfyniad pedwar-plyg	395
II. Yn dangos rhagoriaeth ffydd uwch law y grasusau ereill mewn pedwar peth neillduol	401
III. Yn dangos fod anghredoniaeth yn flaenor yn mysg pechodau, fel ffydd yn mysg grasusau	409
IV. Rhai rhesymau er ein gwneuthur yn ddirifol i brofi ein ffydd; gydag un cyfarwyddyd a gymmerir oddi wrth ffordd yr Ysbryd yn gweithredu ffydd	411
V. Lle y profir ein ffydd wrth ei huadd-dod; gyda rhai nodau neillduol sydd yn argraphedig ar uffudd-dod ffydd	415

PEN.	TUDAL.
VI. Dau o briodol nodau ffydd—y mae yn ffynnonell gweddi, ac yn unfurf yn ei gweithrediad	418
VII. Annogaeth i bawb mewn cyflwr o anghrediniaeth, i ymgelasio am ffydd, gydag un cyfarwydded tuag at ei chael	422
VIII. Yn cynnwys hyfforddiad drachefn tuag at gael ffydd	424
IX. Yn cynnwys tri hyfforddiad yn mhellach tuag at gael ffydd	427
X. Annogaeth i gredinwyr, uwch law pob dim, i edrych ar eu ffydd, gyda rhai hyfforddiadau er ei chadwraeth	430
XI. Yn dangos mai dyledswydd y Cristion yw addef y gras sydd ynddo, ac nid ei wadu; gyda dattodiad o rai amhenuon, a'r rhai y mae saint gweiniaid yn dadleu yn erbyn gwirionedd eu ffydd eu hunain	438
XII. Darluniad o elyn y saint, a'i ddarpariaeth i'w herbyn, sef picellau tanlyd, a pha beth dynt	442
XIII. Natur danlyd temtasiynau dengar Satan, ynghyd â gallu ffydd i'w diffodd	445
XIV. Y modd y mae ffydd yn diffodd chwantau y cnawd, chwantau y lygaid, a balchder y bywyd	447
XV. Yn dangos y gwahaniaeth rhwng goruchafiaeth ffydd ar y byd, trwy ddiffodd ei bicellau tanlyd, a'r fuddugoliaeth hono a gafodd rhai o'r Ethniciaid goreu. Heifyd, prawf o'n ffydd yn cael ei gynnwys, wrth y gallu yma i ddiffodd temtasiynau dengar Satan, yn fwy neu lai	451
XVI. Attebiad i wrthddadl yn erbyn credu; a rhai hyfforddiadau pa fodd i drin y darian yma, at ddiffodd temtasiynau dengar Satan	452
XVII. Am yr ail math o demtasiynau sydd yn peri ofn, &c.	455
XVIII. Am demtasiynau i gabled; a'r modd y mae ffydd yn eu diffodd, ac yn maeddu Satan yn ei ancanton dyblyg	458
XIX. Y drydedd bicell danlyd o anobaith; a dymchweliad y ddadl benaf sydd gan Satan i'w chymmhell ar eneidiau, &c.	464
XX. Ail ateb ffydd i ddadl Satan, a gymmer efed oddi wrth faintolri pechod	471
XXI. Trydydd ateb ffydd i ddadl Satan, &c.	475
<i>Adn. 17. "CYMMERWCH HEFYD HELM YR IACHAWDWRIAETH," &c.</i>	
I. Lle y dangosir cyssylltad neu gydglymiad grasusau, yn eu dechreuad, eu cynnydd, a'u hadfeiliad	478
II. Am natur gobaiith—pa ham y gelwir ef yn Obaiith Iachawdwriaeth; a pha ham y cyffelybir ef i helm	481
III. Am ddefnyddioldeb gobaiith yn milwriaeth y Cristion; a'r gweithredoedd ardderchog y par iddo anturio arnynt	484
IV. Yn dangos y modd y mae gobaiith yn gwneuthur y Cristion yn foddlaun ar ac yn y gwasanaeth iselaf, &c.	488
V. Yn dangos yr efaith gref sydd gan obaiith ar y Cristion, i'w gynnal mewn cystuddiau; yn enwedigol, pa gynnorthwy a rydd a pha fodd	489
VI. Lle y dangosir fod Duw yn aros yn hir, cyn cyflawni rhai addewidion; swydd gobaiith y pryd hyny, &c.	493
VII. Yn dangos y sicrwydd triphlyg a rydd gobaiith i'r Cristion, gan ei lonyddu i ddisgwyl am gyflawniad yr addewidion, &c.	496
VIII. Yn cynnwys prawf o ba fettel y mae yr helm o obaiith, &c.	502
IX. Dwy ddyledswydd yn cael eu gwasgu ar y rhai sydd, ar ol prawf, yn cael fod y gras yma o obaiith ynddynt	504
X. Amryw esampiau yn y rhai y dylai y Cristion gydymweddau a'i obaiith, a byw yn addas iddo	506
XI. Annogaeth i gryfhau gobaiith oddi wrth dri o resynau.	509
XII. Yn cynnwys chwech o gyfarwyddiadau, pa fodd y mae i'r Cristion gael cryfhau ei obaiith	512
XIII. Ateb i wrthddadl; gyda dwy neu dair o	

PEN.	TUDAL.
ystryiaethau buddiol at iawn ddefnyddio ein profion	518
XV. Cynghor i'r rhai sydd yn fyr o'r helm yma o obaiith	521
<i>Adn. 17. "A CHLEDDYF YR YSBRYD, YR HWN YW GAIR DUW."</i>	
I. Dau sylw cyffredinol oddi wrth y geiriau	523
II. Pa beth a feddylir yma wrth air Duw	525
III. Dangosiad o ddyfodol darddiad yr Ysgrhythyr; ynghyd â digonolrwydd ei thystiolaeth ei hun i brofi hyny	526
IV. Dadl dros darddiad dyfodol yr Ysgrhythyrau sanctiaid yn cael ei thynu oddi wrth eu hynafiaeth, &c.	528
V. Dyfodol darddiad yr Ysgrhythyrau yn cael ei brofi oddi wrth y rhanau prophwyddoliaethol o honynt	529
VI. Dyfodol darddiad yr Ysgrhythyrau yn amlwg yn ein hathrawiaethau	531
VII. Dyfodol darddiad yr Ysgrhythyrau yn cael ei brofi oddi wrth y rhau orchymynol o honynt	531
VIII. Priodoldeb neu addasrwydd yr Ysgrhythyrau i chwilio y galon	534
IX. Priodoldeb y Gair i ddefroli a brawychu y gydwybod	535
X. Priodoldeb cysuroi y Gair i gydwybodaau archolledig	536
XI. Gallu y Gair i ddychwelyd eneidiau at at Dduw	537
XII. Pa ham y gelwir Gair Duw yn gleddyf yr Ysbryd; a'r pwngc a godir oddi ar hyny	540
XIII. Lle y dangosir y modd y gorchfygir erlidwyr gwirionedd Duw a'i Eglwys, trwy y Cleddyf yma	541
XIV. Dangosiad pa fath gleddyf buddugoliaethus yw Gair Duw ar y cyfelliornwr a'r heretic	543
XV. Ein trydydd gelyn, sydd yn fyddin gyfan o lygreddiaethau, &c.	545
XVI. Y pedwerydd gelyn, a'r olaf, sydd i'r Cristion ei wrthsefyll, &c.	546
XVII. Cyhuddiad o ryfig hynod, a cheulondeb mawr, yn erbyn Eglwys Rhufain, am ddiarfogi y bobl o'r cleddyf yma—yr Ysgrhythyrau	548
XVIII. Yn erbyn Eglwys Rhufain etto, am gyfrif annigonolrwydd i'r Ysgrhythyrau	549
XIX. Yn dangos drygioni mawr y rhai a godant y cleddyf yma i amddiffyn unrhyw bechod	550
XX. Annogaeth i ddiolchgarwch am y cleddyf yma—y Gair, &c.	551
XXI. Annogaeth i astudio y Gair	554
XXII. Amryw ddiangfaau a gwrthddadleuon cnawdol, a ddwg rhai i'w hegusodi rhag astudio yr Ysgrhythyrau, yn cael eu symmud	556
XXIII. Yn cynnwys pedwar o hyfforddiadau i'r Cristion wrth drin y cleddyf yma, ar ei amddiffyniad yn erbyn y gelyn, &c.	558
XXIV. Cyfarwyddiadau i'r Cristion pa fodd i drin cleddyf y Gair, er ei amddiffyniad yn erbyn camsyniadau a chyfelliornwyr.	561
XXV. Cyfarwyddiadau pa fodd i drin y cleddyf yma, &c.	565
XXVI. Rhai attebion Ysgrhythyrol wedi eu haddasu at ddadleuon cyffredin y temtior	569
XXVII. Dau hyfforddiad chwanegol, pa fodd i ddefnyddio y Gair, er ein hamddiffyniad yn erbyn y temtasiynau i bechod	573
XXVIII. Y modd i'r Cristion drin cleddyf y Gair	575
XXIX. Pump o hyfforddiadau ar yr un achos	578
XXX. Yn terfynu y traethiad ar y darn yma, a chynghor i weinidogion; i ba rai y gorchymynwyd y cleddyf hwn, yn enwedigol	582
<i>Adn. 18. "GAN WEDDIO BOB AMSER A PHOB RHYW WEDDI A DEISYFIAD YN YR YSBRYD, A BOD YN WYLLADWRUS AT HYN YMA, TRWY BOB DYFAL BARA, A DEISYFIAD DROS YR HOLL SAINT."</i>	
I. Defnyddioldeb ac angenheidrwydd gweddi, &c.	586

CYNNWYSIAD Y PENNODAU.

	TUDAL.		TUDAL.
II. Effaith gweddi ar rasuau y Cristion	588	PEN. LVII. Taliad diolch, a thestyn diolchgarwch	690
III. Llwyddiant gweddi gyda Duw	591	LVIII. Cyfarwyddiadau i ffurfio ein diolchiadau	692
IV. Atteb i'r cwestiwn, Pa ham y mae Duw yn gofyn gweddi.	591	LIX. Pedair rheol yn chwaneu wrth dalu diolch	695
V. Cerydd llym i'r holl rai diweddi, &c.	594	LX. Y ddau gyfarwyddyd olaf yn y ddyledswydd	697
VI. Annogaeth i'r saint ymhelaethu, &c.		LXI. Cerydd i fydd anniolchgar	699
VII. Dwy ystrwg o elldo Satan i attal y gwallth	596	LXII. Annogaeth i ddiolchgarwch	701
VIII. Dichell Satan yn dadleu anhwydeb y corph	596		
IX. Ystrwg Satan gydag anhwyly y galon	597	<i>Adn. 18. "YN YR YSBRYD."</i>	
X. Ei ddechell i attal gweddi trwy orchwyl bydol	598	I. Dangosiad beth yw gweddio yn yr Ysbyrd	703
XI. Digalonidd o ran mawredd y drugaredd sydd i'w gofyn	601	II. Tuag at hyn, fod yn rhaid gweddio gyda deall, &c.	704
XII. Ymgais a bwriad Satan trwy feddyliau gwiblog, &c.	602	III. Fod gwresogrwydd yn rheidiol: dau reswm am hyn	706
XIII. Yr achos blaenaf o feddyliau gwiblog, &c.	605	IV. Trydydd rheswm am y pwngc	708
XIV. All achos o feddyliau gwiblog, &c.	608	V. Rhesymau at ennyn gwresogrwydd mewn gweddi	709
XV. Trydydd achos, a'r feddyginiaeth	609	VI. Cynnorthwy at gynnhyrfu serchiadau, &c.	710
XVI. Pedwerydd achos, a'r feddyginiaeth	610	VII. Diragrithrwydd yn rheidiol	712
XVII. Ystyriaethau cysurold nad iselder ysbryd	611	VIII. Cyfarwyddiadau at brofi diragrithrwydd	713
XVIII. Bwriad olaf Satan i attal derbyniad gweddi	613	IX. Mai gweddio yn Ysbyrd Duw a wna weddi dderbyniol	715
XIX. All beth i attal gweddi y Cristion	614	X. Cynnorthwy yr Ysbyrd i wir Gristion	717
XX. Trydydd a phedwerydd rhwystr, &c.	615	XI. Cerydd i wawdwy, a phrawf i bawb, yn yr achos	719
XXI. Pumed achos, sef diffyg ffydd, &c.	617	XII. Annogaeth, &c., i rai sydd etto heb yr Ysbyrd	721
XXII. Rheolau i wybod a ydym yn arfer ffydd mewn gweddi	619	XIII. Annogaeth i'r saint, na thristaont yr Ysbyrd	723
XXIII. Dichell Satan trwy ofnau disail, &c.	621	XIV. Y ddyledswydd o wyllo, &c.	725
XXIV. Arfogaeth i'r Cristion rhag trawsddadi Satan	622	XV. Ym mha beth y mae gwyllo i weddio yn gynnwysedig	726
XXV. Dadl delir-plyg Satan oddi wrth ymddygiad Duw	623	XVI. Gwylidwriaeth y Cristion o ddeutu gweddi	723
XXVI. Am ryw drugaredd, ai yn atteb i weddi y mae yn dyfod?	627	XVII. Trwy bob dyfal-bara	733
XXVII. Cynnwys cyntaf "Gweddio bob amser."	629	XVIII. Yr ysbryd cyffredinol a ddylai fod yn ein gweddiau, &c.	740
XXVIII. Ei all gynnwysiad, gweddio ym mhob cyflwr	630	XIX. Y saint yn benaf i'w cofio, a pha ham	744
XXIX. Yn drydydd gweddio beunydd	632	XX. Cymmhwysiad y pwngc	746
XXX. Saeth-weddi—ei natur, ei defnydd, &c.	634	XXI. Mai dros yr holl saint y dylem erfyn	749
XXXI. Cerydd i amryw yn achos saeth-weddi	636	XXII. Cymmhwysiad y pwngc	750
XXXII. Annogaeth a chynorthwyon i saeth-weddi	638		
XXXIII. Y ddyledswydd o weddi ddirgel	640	<i>Adn. 19, 20. "A THROSOF FINNAU, FEL Y RHODDER I MI YMADRODD," &c., &c.</i>	
XXXIV. Ymostyngiad Duw—cymundeb a sant	642	I. Deisyf gweddiau ereill, nad ydyw yn anfri i gyfyngdod Crist, &c.	752
XXXV. Annogaeth i ddai cymdelthas a Duw, &c.	643	II. Dyledswydd y bobl o weddio dros weinidogion	756
XXXVI. Gweddi deuluaidd	644	III. Y dymuniad, "Fel y rhodder," &c.	759
XXXVII. Atteb i dair gwrthdriad yn achos y ddyledswydd hon	646	IV. Beth yw dirgelwch, a'r modd y mae yr efengyl felly	763
XXXVIII. Cerydd i rai, a chynghor yn yr achos	647	V. Y rheswm pa ham y mae yr efengyl yn cael ei dirio, &c.	766
XXXIX. Cynghor i rai sydd yn mwynhau y fraint	648	VI. Dyledswyddau oddi wrth natur ddirgel-aidd yr efengyl	768
XL. I benau teuluoedd sy heb weddi deuluaidd yn eu tal	649	VII. Annogaeth i chwilio i ddirgelwch yr efengyl	770
XLI. I benau teuluoedd sydd yn ei harfer	650	VIII. Mai dyledswydd y gweinidog yw cyhoeddi yr efengyl	773
XLII. Gweddi gyhoeddus—bod Duw yn ei gofyn, &c.	652	IX. Annogaeth i weinidogion, &c.	777
XLIII. Atteb i ddau ofyniad am weddi gyhoeddus	655	X. Hyfder yn ddyledswydd mewn gweinidog, &c.	778
XLIV. Y pen hwn yn cael ei ddefnyddio	657	XI. Gweinidogion yn genhadau; eu hurddas a'u dyledswydd	782
XLV. Am weddi anghyffredinol—ei natur, &c.	659	XII. Duw yn anfon genhadau—dynion, nid angylion	786
XLVI. Amserau i'r fath hon o weddi, &c.	662	XIII. Annogaeth i wrandaw ar genhadau Duw	788
XLVII. Rhesymau pa ham y mae i'w harfer	662	XIV. Y modd y dylai gweinidogion gyflawni y swydd!	790
XLVIII. Cyfarwyddiadau at ei chyflawni	666	XV. Pump o sylwadau oddi wrth fod Paul mewn cadwyn	791
XLIX. Am ein diben yn y gorchwyl hwn	668		
L. Cyfarwyddiadau ar ol y ddyledswydd	672		
LI. Am y rhan erfyniol o weddi, &c.	675		
LII. Gwahaniaeth delysfiadau am wahanol roddion	677		
LIII. Am wrth-ymbiliad, dan bump o benau	679		
LIV. Y modd i weddio yn erbyn halogwydd pechol	681		
LV. Y modd i weddio yn erbyn dioddefaint, &c.	684		
LVI. Erfyniad am farn, a'r modd i'w gyflawni	687		

TRAETHAWD

AM

HOLL ARFOGAETH DUW.

Y RHAGDRAETHAWD.

“Heblaw hyn, fy mrodyr, ymnerthwch yn yr Arglwydd, ac yng nghadernid ei allu ef.”
Eph. vi. 10.

YR oedd Paul y pryd hwn mewn rhwymau; etto, heb gael ei gadw mor gaeth ag i fod dan nacâd o bin a phapur. Yr oedd Duw, mae yn debygol, yn rhoddi iddo beth ffafir yng ngolwg ei elynion. Yr oedd Paul mewn dalfa gan Nero, ond Nero yn llawer mwy gan Dduw. A thra yr oedd gan Dduw waith i Paul, efe a gafodd iddo gymmwyn-aswyr yn y llys a'r carchar hefyd.

Os caiff erlidwyr garcharu y saint, gall Duw ddarparu ceidwad cymmwynasgar iddynt.

Ond pa fodd y mae yr apostol mawr hwn yn treulio ei amser yn y carchar? Nid trwy daenu goganau yn erbyn y rhai a'i bwriasai yno, er eu bod yn waethaf o ddynion: dyna sêl na wyddai dioddefwyr duwiol yr oesau hyn nemawr am dani: ac nid tan gall-ddyfeisio pa fodd i gael ei hun allan o'i flinder, trwy weniath fudr, neu ymblygiad pechadurus i fawrion yr oes. Buasai rhai yn arfer rhyw ddadgloadur i agor eu ffordd allan, ac heb betrust pa un ai trwy y drws ai y ffenestr, ond iddynt hwy gael diangc. Nid oedd y gŵr duwiol hwn yn hoffi na rhyddid na bywyd, fel y gwnai ei brynu â'r perygl lleiaf i'r efengyl. Efe a wyddai yn rhy dda am fyd arall, i gynnwys mor uchel am fwynhau hwn: ac felly, nid yw efe yn prisio pa beth a allai ei elynion wneyd iddo, gan ei fod yn gwybod y gallai fyned i'r nef—boddlonent hwy neu beidient. Yn lle hyn, y gofal mawr arno ef ydoedd dros eglwys Crist: ac, fel goruchwyliwr ffyddlawn, y mae yn ymgais am osod y tŷ hwn i Dduw mewn trefn cyn ei ymadawiad. Nid ydym yn darllen am un llythyr yn cael ei anfon i'r llys, at gaffael rhyddid iddo ei hun; ond am lawer at yr eglwys, i'w cynnorthwyo i sefyll yn y rhyddid â'r hwn y rhyddhaodd Crist hwynt. Nid oes y fath ffordd i dalu y pwyth i ddiaraf a'i offerynau, am eu holl lid

i'n herbyn, a thrwy wneyd y daioni a allom, pa le bynag y byddwn. Cystal a fuasai i'r diafol adael llonydd i Paul; o blegid cyn gynted ag y daeth i garchar, y mae yn taro at bregethu; wrth yr hyn y mae pyrth carchar Satan yn ymagor, a phechaduriaid truaain yn dyfod allan. Da oedd i Onesimus ddarfod anfon Paul i garchar: yr oedd gan Dduw neges trwy law Paul ato ef ac ereill, yr hyn ni freuddwydiodd y diafol am dani. Ac nid pregethu yn unig a wna efe yn y carchar; ond, i wneyd i'r diafol yr holl ddrwg a allo, y mae yn anfon ei epistolau at yr eglwys; fel, trwy gael prawf o'i ysbryd yn ei gystuddiau, a darllen am ei ffydd, pan ydoedd bellach yn barod i'w offrymu, y byddai iddynt gael eu cadarnhau yn llawer mwy. Ym mhlith y rhai hyn, nid y leiaf oedd Ephesus ar ei feddyliau, fel y gellwch weled wrth ei arosiad gyda hwynt “dros ysbaid dwy flynedd” (*Act. xix. 10*), ac hefyd wrth ei waith yn danfon am henuriaid yr eglwys hon cyn belled ag i Miletus, ar ei daith olaf i Ierusalem (*Act. xx. 17*), i ganu yn iach iddynt, fel un nad oeddynt i weled ei wyneb mwyach yn y byd hwn. Ac yn sicr, am yr argraff athrista a barodd yr ymadawiad trymddwys hwn ar ysbrydoedd yr henuriaid hyn (te, ar yr holl eglwys a wnaed yn hysbys ganddynt o'r newydd galarus), gallai fod wedi cynhyrfu Paul, yn awr yn ei garchar, i ysgrifenu at yr eglwys hon; fel, trwy fod cymmaint o'i ysbryd ef, te, ac o ysbryd yr efengyl, wedi ei adael, er cyfeillach, yn eu dwylaw, y gallent yn fwy amyneddgar dderbyn y newydd am ei farwol-aeth.

Yn y rhan flaenaf o'r epistol hwn, y mae efe yn ehedeg yn uchel yn nirgelion y ffydd. Yn yr olaf, yn ol ei drefn arferol, y mae yn disgyn at gymhwysiad, lle y cawn ef yn

crynhoi yr holl wirioneddau hyny, megys pelydr, yng nghyd, mewn annogaeth nerthol, i ennyn eu calonau yw fwy, a'u cynhell "i rodio yn addas i'w galwedigaeth;" *Eph. iv. 1.* A hyny a fydd pan fyddo buchedd y Cristion yn ddisglauer, a gras yr efengyl yn adlewyrchu mewn grym duwioldeb ar bob llaw, ac yn ei berthynasau oll; yn debyg i ganwyll mewn gwydr grisialaidd, ac nid mewn cornigyn tywyll, lled oleu ar un ochr, a thywyll ar y llall. Ac am hyn y mae yn rhedeg dros yr amryw berthynasau, o wyr, gwragedd, rhieni, plant, meistriaid, a gweision, ac yn gwasgu y peth at bob un.

Bellach, wedi iddo osod pob un yn ei le priodol, ar ei ddyledswydd neillduol (fel cadflaenor doeth, ar ol trefnu ei fyddin, a'u gosod yn eu rhengoedd yn dachus), y mae yn llefaru yr araeth ganlynol, o flaen y gweryll Ephesiaidd hyn; ac oll mewn iaith filwraidd sy megys yn wgeddu yn creu i alwad y Cristion; hwn yn rhyfela yn burhaus â'r byd, ac â thywysog y byd. Y mae'r araeth ei hun yn cynnwys dwy ran:—

1. Calonogiad byr, etto hyfryd a nerthol: *actn. 10.*

2. Y rhan arall a gynnwys amryw gyfarwyddiadau at wneyd eu rhyfel yn fwy llwyddiannus, yng nghyd â rhai annogaethau ysgrifenedig yma ac acw yn eu plith.

I ddechreu gyda'r cyntaf:—

Y gair er calonogiad i'r frwydr. Gyda hwn y mae'n dechreu ei araeth; "Heblaw hyn, fy mrodyr, ymnerthwch yn yr Arglwydd;" y ffordd oreu, yn wir, yw paratoi i'r annogaethau sy'n canlyn. Nid yw enaid wedi ei feddiannu gan ofn trwm, a'i ddi-galoni gan argraffadau dyfuion o berygl, mewn agwedd i gynghor. Megis y gwelwn mewn llu a yrer i ffoi gan ryw alarm disymmwth, neu dyb am berygl; anhawdd fydd eu byddino mewn trefnu, hyd oni bo'r dychryn a'i parodd wedi myned heibio. Am hyny, mae'r apostol yn gyntaf peth am godi eu hysbrydoedd; "Ymnerthwch yn yr Arglwydd;" fel pe dywedasai, Fe allai fod rhai eneidiau ymollyngar yn cael eu calonau ar ball, wrth weled eu gelynyon mor gedyrn, a hwythau mor anam!—mor llawn eu harfogaeth, a hwythau mor noeth a diarfog—mor fedrus a hyddysg gyda'u harfau, a hwythau mor ddfided a dibrotial. Na fydded i'r meddyliau hyn, nae eraill, eich brawychu; ond cerddwch yn y blaen mewn calondid digryn, gan "ymnerthu yn yr Arglwydd;" ar ei effeithiolwaith ef y mae pwys y frwydr, ac nid ar eich medr na'ch nerth chwi.—Nid y rhan leiaf o ofal a dawn y gweinidog, o ran iawn gyfranu y gair, ydyw gwasgu dyledswydd y Cristion arno, fel ag i beidio gorlwytho ei ysbryd â'r pwys o honi, trwy ei gosod ar ysgwyddau y creadur ei hun, yn lle ar gadernid yr Arglwydd, megis y mae'r apostol yma yn ein dysgu.

Yn y wers, gwelwn laf, Gyfarchiad caredig; "Fy mrodyr."

2il. Annogaeth; "Ymnerthwch.

3ydd. Cyfarwyddyd rhybuddiol, ynglŷn â'r annogaeth: "Yn yr Arglwydd."

4ydd. Helethiad cysurol ar y cyfarwyddyd; "Ac yng nghadernid ei allu ef," neu yn ei gadarn allu ef.

PENNOD I.

Am galondid ac ymroad y Cristion. Pa ham y mae yn angherkeidiol; a'r modd i'w gael.

GADAWN heibio y cyfarchiad; a dechrewn gyda'r annogaeth, "Ymnerthwch;" hyny yw, Ymwrolwch; yn ol ymadroddiad mynych y Beibl, megis 2 *Cron. xxxii. 7.*—"Ymwrolwch, ac ymgadarnhewch: felly yn *Esa. xxxv. 4.* "Dywedwch wrth y rhai ofnus o galon, Ymgryfhewch," neu unweh holl alluoedd eich eneidiau, a chydgesglwch eich holl rym: bydd genych waith i'r cwbl a ellwch, neu a ellwch gael. Oddi yma, y pwngc yw hyn:—

Athr. Y mae'r Cristion, yn anad neb, mewn eisiau o wroldeb ac ymroad. Yn wir nid oes dim a wna efe, nac a ddichon efe wneyd, fel Cristion, heb ei fod yn waith o wroldeb. Y mae ysbryd anwrol islaw dyledswydd isaf y Cristion. "Ymgryfha ac ymwrola yn lew." At ba waith? Ai i gynnal rhyfel yn erbyn y cenhedloedd rhyfelgar hyny? Nag e, ond "i gadw ar wneuthur yn ol yr holl gyfraith a orchymynodd Moses fy ngwas i ti;" *Ios. i. 7.* Y mae yn gofyn mwy o wrolder a mawrfrydigrwydd i fuddhau i Dduw yn ffyddlawn nag i reoli byddin; i fod yn Cristion nag i fod yn gadben. Beth a ymddengys yn llai nag i Gristion weddio? etto, nis gellir cyflawnu hyn yn iawn heb ysbryd tywysogaidd; megis y dywedir am Iacob, ddarford iddo ymddwyn fel tywysog, y pryd na wnaeth efe ond gweddio; ac o herwydd hyn y daeth o'r maes yn wr urddasol gan Dduw. Yn wir, os rhowch chwi enw gweddi ar yr hyn a gyflawnu dyn arianol, nid oes diim sy'n fwy tlodaidd a gorwael. Mae y cyfryw mor bell oddi wrth gyflawni yr anturiaeth hon, ag yw yr ieuengcyn gwledig yn fyr o orchestion y blaenor dewrwyeh. Y mae'r Cristion mewn gweddi yn tyntu yn agos at Dduw gyda gostyngedig hyder fydd, yn ymafny ynddo, ac yn ymdrechru âg ef: ydyw, ac ni ollngw ef mo hono heb gael y fendith—a hyn i gyd yn wyneb ei bechodau ei hun, a chyfiawnder dwyfol yn tanno arno o safn danllyd y gyfraith. Ond, am hyder y llall mewn gweddi, nid ydyw ond basterddyn, naill ai o anwybod-aeth ei feddwl, ai o galedwch ei galon; trwy yr hyn y mae, heb deimlo ei bechodau, ac heb wybod ei berygl, yn rhuthro ar ddyled-

swyddau mewn dall-ddewredd; yr hwn a lesga yn fuan pan ddihuna cydwybod, ac y rhodda yr alarm iddo, fod ei bechodau arno, fel y Philistiaid ar Samson. Och! yna y mae'r adyn truan yn tafu ei erfyn i lawr, ac am ddiange o wriad Duw, gydag Adda euog; ac ni faidd efe edrych yn ei wyneb! Yn ddiâu, nid oes un ddyledswydd, o fewn i gyich rhodio gyda Duw, neu weithio dros Dduw, heb ei bod wedi ei rhesu'n llawn gan lu o anhawsderau, sy fel gelynyon yn saethu trwy y gwrychoedd at y Cristion, tra y mae ar ei daith tu a'r nef. Felly rhaid yw iddo ymladd am bob modfedd o dir wrth fyned ymlaen. Nid ydynt hwy ond rhyw ychydig eneidiau mawrfrydig, a feiddiant gymmeryd y nef trwy drais, sydd yn rhai addas i'r alwedigaeth hon. Er pellach prawf o'r pwng hwn, gwelwch ryw ychydig o'r gorchwylion y mae i bob Cristion ymroddi iddynt.

1. Y mae i bob Cristion gyhoeddi a dilyn rhyfel digymmod yn erbyn pechodau ei fynwes. Y pechodau a fu yn gorwedd yn nesaf i'w galon, y rhai hynych bellach sydd i gael eu sathru dan ei draed. Felly Dafydd; "Yngedwais rhag fy anwiredd." Yn awr, pa fath ymroddiad a chalondid y mae hyn yn ei ofyn? Chwi a feddyliwch ei fod yn brawf dwys ar Abraham, pan ei galwyd i gymmeryd "ei fab, ei fab Isaac, ei unig fab yr hwn a hoffai (*Gen. xxii. 2*), a'i offrymu ef â'i ddwyliaw ei hun, ac nid ereill;" etto, beth oedd hyn wrth hyn? Enaid, cymmer dy chwant, dy unig chwant, plentyn dy hoffder anwylaf, dy Isaac, dy bechod a barodd i ti fwyaf o lawenydd a chwerthin, ac oddi wrth ba un yr addewaist i ti dy hun y cawd mwyaf o fodd, neu fudd; os byth y disgwyli weled fy wyneb er dy gysur, gosod ddwyliaw arno, ac offryma ef—tywallyt ei waed ger fy mron—rhed y gyllell aberth o farhad hyd ei galon; a hyn yn rhydd ac yn llawen, (canys nid aberth bodhaol fydd yr un a offrymir âg wyneb anffoddog), a hyn i gyd yr awr hon, cyn i ti gael un ymgoffeidiad yn rhagor gaundo. Yn ddiâu y mae hon yn wers anhawdd; ni ddichon cig a gwaed oddef yr ymadrodd hwn. Nis gwna ein chwant orwedd ar yr allor mor llonydd ag Isaac, neu fel oen a arweinir i'r lladdfa, yn fud; ond efe a rua ac a ysgrechia; gwna, efe a ysgytia ac a rywga'r galon â'i grochleisiau hyllion. Pwy a all adrodd yr ymladdau, yr ymdrechidau, a'r crynfydd a deinia y Cristion cyn gallu dwyn ei galon i'r gwaith hwn? Neu, pwy a fedr lawn ddadgan yr araethyddiaeth fedrus a chyfrwys a arfer a cyfryw chwant wrth ddadleu o'i blaid ei hun? Y mae Satan weithiau am leihau a briwsion i'r mater. Nid yw ond un bychan:—O! arbed ef; a bydd byw dy enaid er hyn o beth. Dro arall, efe a wenieithia i'r enaid am ddirgelwch y peth. Ti a elli

gadw hwn, a'th air da hefyd: ni byddaf fi, medd y chwant, i'm gwelod yn dy gymdeithas i'th gywilyddio yn mys dy gymydogion; cau fi yng nghell ddirgelaf dy galon, allan o sylw eraill, ond i ti ambell waith adael i mi gael cofleidiad nwyfus dy feddwl a'th serch yn ddirgel. Os ni chaniateir hyn, yna try Satan i beidio gofyn yn groyw ond am oedi y dienydd dros amser, fel merch Jephtha gan ei thad; "Paid â mi am fis neu ddau, ac yna gwna i mi yn ol yr hyn a ddaeth allan o'th enau;" *Barn. xi. 37*. Efe a w'yr yn dda nad oes nemawr o'r cyfryw chwantau, yr oeder eu dienydd, nad ydynt o'r diwedd yn cael eu llawn bardwn, i'e, yn ail gael ffafr gyda'r enaid. Yn awr, y fath ymrodd a ofynir i dori trwy y fath draha a haerllugrwydd, ac er hyn oll i wneyd dienyddiad presennol! Yna y mae cleddyfwyr gwrol y byd wedi dangos eu hunain yn dra anwrol; wedi dyfod o'r maes â banerau buddugoliaeth ac yna wedi byw, i'e a marw, yn gaethion i wael chwant gartref:—fel y medrai un ddywedyd am ymladdwr mawr Rhufeinaid, yr hwn, wrth farchogaeth yn ei orfoleddus gerbyd trwy Rufeinia, oedd â'i lygaid o hyd ar butain orwych oedd yn rhodio yr heol. Gwelwch, eb efe, y modd y mae'r blaenor gwych hwn, ar ol gorchfygu y fath fyddin-oedd cryfion, yn cael ei hun ei orchfygu gan un ddynesig ffol!

2. Y mae i'r Cristion rodio ar wahan: nid yn ol dull y byd: *Rhuf. xii. 2*. Gorchymynir i ni na chydymffurfiom â'r byd hwn; hynych yw, na byddo i ni gydymagweddu âg arferion llygredig y byd. Nid oes i'r Cristion fod o'r fath anian gydsyniol, i dori gwisg ei broffes, yn ol dull yr amseroedd neu fymppy y gymdeithas y tarawo wrthi; megys y gŵr llys hwnw y gofyuwyd iddo pa fodd yr oedd yn medru cadw ei le uchel mewn amseroedd mor gyfnewidiol, pan oedd ganddo, ar un pryd, dywysog o blaid Pabyddiaeth, drachefn yn yr erbyn Pabyddiaeth? Ei ateb oedd, "O'r fer helygon, nid o'r dderwen, y tarddais i." Yr oedd yn un a blygai gyda'r awel. Nid fel hyn. Na: rhaid i'r Cristion lynu wrth ei egwyddorion, a pheidio newid ei foes; ond dangos yn amlyg gŵr o ba wlad yw efe, trwy ddianwad-alwch sanctaidd yn y gwirionedd. Yn awr, pa ddygasedd, pa faglau, pa beryglon y gwna y gwahanolrwydd hwn i'r Cristion fod yn agored iddynt? Rhai a'i hwtiant ac a'i gwatwarant, fel y chwaredid am ben gŵr mewn gwisgidd Yspañaidd yn ein heolydd ni. Fel hyn y gwna'i Mical wawdio Dafydd. Yn wir, y mae y byd yn cyfrif y Cristion fel yr unig ffol-ddyn, am hynodrwydd ei fuchedd. Hyn, fel y meddyliais, a fu yn achlysur i'r llysenw sydd yn gyffredin ar ddyn ynfyd; "Y mae hwn a hwn," meddant, "yn Abraham o ddyn." Ond pa ham yn Abraham? Am i Abraham wneuthur yr

hyn y mae rheswm anianol—eilun y byd— yn ei wawdio fel ynyfdrwydd pur. Efe a adawodd ddaedd meddiannol yn nhŷ ei dad, i fyned ni wyddai i ba le, ac i dderbyn meddiannau ni wyddai pa bryd. Ac yn ddiau, y cyfryw nod o ynyfdion sydd ar y saint oll gan y byd doeth. “Chwi a adwaenoch y gwr a'i ymadroddion,” meddai Iehu wrth ei gymdeithion oedd yn gofyn pa neges oedd gan yr ynyfyd; a hwnw nid oedd yn ddim llai na phrophwyd: 2 *Bren.* ix. 11. Yn awr, y mae hyn yn gofyn calondid i ddiystyru y gwaradwydd sy raid i'r Cristion ddysgwyl ei gyfarfod o herwydd ei wahanolrwydd. Gwaradwydd yw y peth sydd yn fwyaf adgas gan natur falch. I ochelyd hwnw, ni feiddiai llawer gyffesu Crist yn eglur: *Joan* vii. 13. Y mae llawer yn colli y nef am fod arnynt gywilydd myned yno mewn gwsg ynyfdion. Drachefn, megys y gwatwar rhai, felly yr erlid ereill hyd farwolaeth, am ddim ond yr anghydfurfiad hwn sy rhwng egwyddorion ac arferion y Cristion a hwynt. Hon oedd y fagl a osodwyd i ddal y tri llange: rhaid oedd iddynt ddawnsio wrth bibell Nebucodonosor, neu losgi. Dyma yr ystryw a fwrriadwyd i ddal Daniel, yr hwn oedd yn rhodio mor ddifeius, fel y rhoddodd ei wir elynion iddo y gair da hwn, nad oedd ynddo un bai, ond ei wahanolrwydd yn ei grefydd: *Dan.* vi. 5. Y mae yn arhlydedd mawr i Cristion, fe i grefydd ei hun, pan fyddo raid i'w holl elynion ddwydedy, “Ydynt, y maent yn rhai manwl; ac ni waent fel y gwnawn ni.” Yn awr, yn y fath achos a hwn—pan y mae yn rhaid i'r Cristion droi neu losgi, gadael gweddio neu fod yn ysglyfaeth i ddannedd ffyrnig dynion gwaedlyd—pa nifer o ystrywiau efwrws, ac o wahan-nodau er hunan-gadwraeth a ddyfeisiai calon ddauddyblyg ac ofnog? Rheidiol yw i'r Cristion, gan fod cymmaint o wrthwynebiad iddo, fod wedi ei gloi yn dŷn wrth gyfryw ei broffes. Os amgen, fe'i tellir yn fuan oddi ar ei farch.

3. Rhaid yw i'r Cristion ddal ei ffordd tua'r nef yng nghanol yr holl dramgwyddiadau a fyddo yn erbyn ffyrdd Duw, trwy wrthgiliaid a chwympiadau bryntion profesywyr gau. Mae y fath wedi bod bob amser yn yr eglwys; y rhai, trwy eu colliadau trymion mewn barn ac ymddygiad, ydynt wedi gosod maen trangwydd yn y ffordd o broffes. Ac wrth hyn y mae Cristionogion gweiniaid yn barod i sefyll, fel y rhai hyny wrth gorph gwaedlyd Asahel (2 *Sam.* ii. 23), heb wybod a allant hwy anturio ym mhellaeth yn eu profesywyr, gan fod y rhai hyn, oedd mor ryfeddol er doniau, yn gorwedd o'u blaen, yn ymdreiglo yng ngwaed eu profesywyr ladeddig. Y maent, ysgatfydd, ar ol eu profesywyr, wedi troi yn erlidwyr ffyrnig; ac o fod yn gyflawnwyr manwl o ddyledswyddau crefyddol, yn Atheistiaid anghrefyddol. Nid

ydynt yn fwy tebyg i'r hyn oeddynt rai blyneddoedd o'r blaen, nag ydyw dyffryn Sodom, sydd yn gors a siglen, i'r hyn a fu pan oedd mewn ffirwythlondeb—yn detyg i ardd yr Arglwydd. Y mae arnom angen am ymroad sanctaidd i sefyll yn erbyn y fath anghalondid, a bod heb ddiffygio. Felly Iosuah, yr hwn a fu byw i weled holl wersyll Israel, oddi eithr ychydig iawn, yn gwrthgilio, ac yn eu calonau yn troi yn ol i'r Aipht; ac etto, mewn gwroldeb ysbryd, efe a gadwodd ei burdeb; do, efe a ymroddodd, pe buasai heb ddyn a safai gydag ef, y gwasanaethai efe yr Arglwydd.

4. Y mae yn rhaid i'r Cristion ymddiried yn Nuw pan y cuddio ei wyneb. “Y neb sydd yn rhodio mewn tywyllwch, ac heb lewyrch iddo, gobeithied yn enw yr Arglwydd, ac ymddirieded yn ei Dduw;” *Esa.* l. 10. Y mae hyn yn wir yn gofyn duwiol hyder ffydd, i anturio ger bron Duw, fel Esther i'w dydd Ahasferus, pan na byddo gwên i'w gweled ar ei wyneb, nac un deyrnwialen aur o addewid i'w chanfod gan yr enaid, fel yn estynedig i'w gefnogi i nesau, a dyfod i mewn, yn yr ymroad ardderehog hwn, “Os derfydd am danaf, darfydded.” A mwy etto yw ymddiried yn Nuw, nid yn unig pan guddio ei wyneb, ond pan fyddo yn ladd (*Job* xiii. 15), nid yn unig pan fyddo ei gariad tan gudd, ond pan fyddo ei ddigter yn tori allan. Yn awr, i enaid nesau at Dduw trwy ymorphwysiad ffydd, tra y mae Duw fel un yn tanio arno, ac yn saethu ei gilwg fel picellau gwenwyllyd i'w fewn—dyma waith caled; gwaith a brawf ysbryd y Cristion i'r gwraidd. Etto, yr ydym yn cael y fath amian wrol yn y wraig druan hono o Ganaan: y mae hi yn codi i fyny y pelenau a saethodd Crist ati, a chyda gostyngedig hyder ffydd yn eu danfon yn ol yn ei gweddi.

5. Y mae i'r credadyn barhau yn ei yrfa Cristionogol hyd ddiwedd ei oes. Y mae ei waith a'i fywyd i gyd-ddiweddu. Y mae hyn yn ehwanegu pwys at bob anhawsder arall yn ngalwad y Cristion. Gwyddom am aml un a aeth i'r maes, ac a hoffodd filwriaeth am frwydr neu ddwy, ond a gafodd ddigon yn fuan, ac a ddaeth adref yn ol ar frys. Ychydig sydd yn medru dygymmod âg ef fel gorchwyl gwastadol. Y mae llawer yn ebrwydd i gyghwyn gyda dyledswyddau sanctaidd, yn hawdd eu perswadio i ddechreu profesywyr o grefydd, ac mor hawdd eu perswadio i'w thafu ymaith: yn debyg i'r lleuad newydd, yn tywynu ychydig yn nechreu y nos, ond a ä i lawr cyn hanner nos; yn broffesywyr gloewion mewn ieuengetid, ond eu henaint wedi ei amdoi mewn tywyllwch dudew o bechod ac anwiredd. Ô! y parhad hwn sydd yn air caled—y codi y groes yma beunydd—y gweddio hyn bob amser—y gwyllo nos a dydd—a chadw ein

dillad a'n harfogaeth, heb eu troi heibio!—fy meddwl yw, heb oddef ein hunain mewn pall na laciad, o ran dysgwiliad sanctaidd wrth Dduw, a rhodio gyda Duw. Hyn sydd yn peri i lawer fyned ymaith yn athrist oddi wrth Grist; etto, hyn yw dyledswydd y sant—cymmyrd crefydd fel ei waith bob dydd, heb un dydd dyspaid o ddechreu y flwyddyn i'w diwedd. Y mae yr ychydig esampiau hyn yn ddigon i ddangos yr angen sydd ar y Cristion am wrolfryd. Y cy-mhwysiad a ganlyn:—

Defn. 1. Y mae hyn yn rhoi i ni reswm pa ham y mae cynnifer o broffeswyr, a chyn ileid nifer o Gristionogion gwirioneddol—cynnifer yn rhedeg, a chyn lleied o rai yn cael gafaél—cynnifer yn myned i'r maes yn erbyn Satan, a chyn lleied yn dyfod o hono yn orchfygwyr: am fod gan bawb ddymuniaid i fod yn hapus, ond ychydig yn meddu calondid ac ymroad i wynebu yr anhawd-derau sydd yn eu cyfarfod yn y ffordd i dderuswydd. Daeth holl Israel yn llawen allan o'r Aipht, dan arweiniad Moses, ie, â chynnulleidfa gymmysg gyda hwynt; ond, pan wasgwyd ychydig ar eu boliau gan newyn, ac y bu oed i'w dymuniadau gwangus am Ganaan rhag blaen, ie, a phan brofasant angen a rhyfel yn lle digonedd a heddwch, dyna hwy, fel milwyr digalon, yn barod i gefnu ar eu banerau ac encilio yn waradwyddus i'r Aipht. Fel hyn y mae y rhan fwyaf o'r rhai sydd yn professu yr efengyl, yn myned yn glaf o'u hanturiaeth pan ddolant at hyrddiad gwaewffon er prawf pa beth a wnant—ai gwadu Crist, ai dioddef drosto. Och! y mae eu calondid yn pallu! Y maent yn blysiu dyfrododd Bethlehen; ond os yw yn rhaid iddynt ymladd eu ffordd trwy gynnifer o elynion, hwy a ymfoddlonant gyda'u pydew eu hunain, ac a adawnt y nef i ereill, y rhai a anturiant fwy am dani. O! gynnaifer sydd yn ymadael â Christ yn y groesffordd hon! Yn debyg i Orpah, hwy a änt ychydig gamrau gyda Christ; ond pan elo efe i'w tynu oddi wrth eu gobaith bydol, a pheri iddynt ymbarotoi at galedfyd, yna y maent yn ei gusanu yn fwy i'w adael—yn anfoddllawn yn wir i gollu y nef, ond yn fwy anfoddllawn i'w phrynu mor ddrud. Yn debyg i rai bechgynos a wnant ddewisiad plentynnaidd o ryw alwad felld, fyd hono sy gan y cyfaithwyr, o herwydd y dant blysig sy ganddynt i'w thameidiau ammeuthyn; ond, wrth gyfarfod â saws sur o lafur a phoen sydd yn eu canlyn, y maent yn ym-ollwng ac yn blino ar eu gwaith. Y mae danteithfwyd crefydd wedi tynu llawer i'w phrofi, y rhai a dramgwyddant wrth eu gorchwylion anhawdd. Y mae yn rhaid cael ysbryd arall, na ddichon y byd ei roddi na'i dderbyn, i ddilyn Crist yn gyflawn.

Defn. 2. Bydded hyn er annogaeth i chwi, Gristionogion, i lafurio am yr ymroad a'r

gwrolder sanctaidd hwn sydd mor rheidiol at eich profes Gristionogol fel nad ellwch hebdo fod yr hyn yr ydych yn ei broffesu. Y mae yr ofnog yn flaenaf ym mysg y rhai sydd yn teithio i uffern: *Dad.* xi. 8. Y treiswyr a'r glewion sydd yn cipio y nef: *Mat.* xi. 12. Eriod ni ddaru i'r anwrol ei hennill. Na ddywed fod genyt waed brenin ol yn dy wythienau, a'th fod wedi dy eni o Dduw, oni fedri brofi dy achau trwy yr ysbryd ardderchog hwn, i feiddio bod yn sanctaidd er gwaethaf dynion a diaffiaid. Y mae yr eryr yn profi ei chywion wrth yr haul; felly Crist ei blant wrth y gwroldeb a faidd wynebu angau a pherygl er ei fwy ef: *Marc* viii. 34, 35. O! y fath olwg anhawdd yw pechardur hyf a sant ofnus—un yn ymroddi mewn drygioni, a Christion yn anwadal yn ei yrfa sanctaidd—gweled euog-rwydd yn gyru diniweidrwydd i ffoi—uffern yn cadw y maes, dan herio yn ddigrylydd â banerau uchel o halogrwydd amlwg, a r saint yn eu cuddio gan gwilydd, neu yn eu gadael gan ofn! Hwyl a ddylent yn hytrach eu gwisgo yn eu cych, a marw ar y fan, na thraddodi fel hyn enw gogoneddus y Duw y maent yn galw arno i gael ei ddirmygu gan ei elynion. Gan hyny, O! chwi saint, ymgalonogwch, ac ymnerthwch: mae eich achos yn dda; y mae Dduw ei hun yn priodi eich cweryl, ac y mae wedi gosod ei Fab ei hun yn flaenor yn y maes, yr hwn a elwir “Tywysog ein hiachawdwriaeth;” *Heb.* ii. 10. Efe a'ch arwain chwi ym mlaen mewn calondid, ac a'ch dwg ymaith mewn anrhydedd. Efe a fu byw a marw drosoch; efe a fydd byw a marw gyda chwi. Am dosturi a thynerwch at ei filwyr, nid oes cyfelyb iddo. Dywedir am Trajan, ei fod wedi rhwygo ei ddillad i rwymo i fyny archollion ei filwyr. Tywalltodd Crist ei waed, megys balm, i iachau archollion ei saint; ac y mae drylliad ei gnawd i'w rhwymo hwynt i fyny. Am wrolder hefyd, nid oes debyg iddo; eriod ni throdd efe ei gefn ar berygl; naddo, pan oedd lliid uffern a chyfiawnder y nef wedi dyfod i'r maes yn ei erbyn. “Yr Iesu yn gwybod pob peth oedd ar ddyfod arno, a aeth allan, ac a ddywedodd, Pwy yr ydych yn ei geisio?” *Joan* xviii. 4. Am lwyddiant, mae yn anorchfygol: ni chollodd efe frwydr erioed; naddo, pan gollodd ei fywyd, enmill-oid y maes, gan gludo yr yspail gydag ef i'r nef, yng ngherbyd gorfoleddus ei esgyniad. Yno y mae yn ei arddangos ar gyhoedd, er llawenydd annhraethol i saint ac angelion. Yr ydych yng nghael llun ardderchog eich cydfilwyr—pob un yn fab i dywysog. Gwelwch rai, dan ddyoddef gyda chwi yma isod ymdrech mawr o helbulon a phrofedigaethau, yn cymmyrd y nef trwy ruthr a thrais. Eriell, gellwch eu gweled ar ol aml ruthr, enciliaid, ac ail drefniad ar eu ffydd a'u hamynedd, wedi dringo ar furiau'r nef yn gongewer-

wyr. Oddi yno y maent megis yn edrych i lawr ac yn eich galw chwi, eu cydfrodwr ar y ddaear, i ddyfod i fyny'r bryn areu holau, gan uchel-lefain, Deuwch ym mlaen, a bydd y ddinas yn eiddo i chwi, megis y mae yn awr yn eiddom ni, y rhai a gawsom, wedi ychydig ddyddiau o ymladd, ein coronï â gogoniant nefol; ac y mae un munud o'i fwynhau wedi sychu ymaith ein holl ddagrau, iachau ein holl glwyfau, a pheri i ni anghofio llymder yr ymladdfa gan orfoledd y fuddugoliaeth a gawsom. Mewn gair, Gristionogion, y mae Duw a'i angelion yn edrychwyr, yn sylwi ar eich ymddygiad, megis plant y Goruchaf. Y mae pob gwrolwaith a wnelo eich ffydd yn erbyn pechod a Satan, yn peri bloedd yn y nef; y pryd y byddoch yn mathru yn wrol y demtasiwn yma, yn dringo yr anhawsdra acw, neu yn ail emill y tir a gollasoch ychydig o'r blaen allan o ddwyllaw eich gelyniön. Am eich anwyl Waredwr, sy'n sefyll gerllaw, â chyflawnder o nerth newydd i'ch cymhorth mewn caledi, y mae ei galon yn llamu ynddo o lawenydd wrthi weled y prawf o'ch cariad atto, a'ch awyddfryd drosto, yn eich holl ymladdau; ac nid anghofia efe yr holl wasanaeth ffyddlawn a wnaethoch yn ei ryfeloedd ef ar y ddaear. Ond pan ddeloch o'r maes, efe a'ch derbyn gyda'r un fath lawenydd ag y derbyniwyd ef ei hun gan ei Dad ar ei ddechweliad i'r nef. Yn awr, Gristion, os wyt ti yn meddwl dal i fyny fel hyn yn galonog yn erbyn gwrthwynebiad ar dy daith i'r nef, megis y byddai yn dda i ti gael codi dy ysbyrd trwy y fath feddyliau mawrfrydig sy'n gwroli'r enaid, felly edrych mewn modd arbenig ar fod dy egwyddorion wedi eu iawn sefydlu; os angen, bydd dy galon yn ansafadwy: ac y mae calon ansafadwy yn wan fel dwfr; nis dichon ragori mewn gwrolder. Y mae dau beth yn rheidiol at sefydlu ein hegwyddorion:—

1af. Baru sefydlog yng ngwirionedd Duw. Y dyn na w'yr pa beth, neu pwy, y mae yn ymladd o'i blaidd, buan y gellir ei gael i newid ei ochr, neu o leiaf i fod yn annhleidiol (*neutral*). Y mae'r fath i'w cael dan yr enw o broffeswyr; prin y medrant ddangos am ba beth y gobeithiant, na phwy y gobeithiant ynddo; etto, myniant eu cyfrif yn Gristionogion, er rhedeg cyn gwybod eu neges: neu, os oes ganddynt rai egwyddorion daliedig, y maent mor ansefydlog, hyd onid yw pob gwynt yn eu chwythu i lawr fel llechau rhyddion oddi ar ben tŷ. Buan y rhoir sêl ddall ar encliad gwaradwyddus; tra y mae ymrodd sanctaidd, wedi ei seilio ar egwyddorion diysgog, yn codi ei ben fel craig yng nghauol y tonau. "Y rhai a adwaenant eu Duw, a fyddant gryfion, ac a flynant;" *Dan. xi. 32.* Mynegi yr oedd yr angel wrth Daniel, pwy oedd y bobl a safent wrth eu profes a thros Dduw, yn yr awr

hono o brofedigaeth ac erledigaeth a ddygid arnynt trwy Antiochus; nid yr Iuddewon oll: llygrwyd rhai o honynt trwy weniath; brawychwyd eraill trwy fygythion oddi wrth eu profes. Rhyw ychydig, o egwyddorion diysgog, y rhai a adwaenant eu Duw, yr hwn a wasanaethent, rhai seiliedig yn eu crefydd; y rhai'n a fyddent gryfion, ac a flynant. Hyn yw, byddent yn anlygrydwy er gweniaith, ac yn anorchfygol er grym a gor-threch.

2il. Cyfeiriad diragrith at iawn ddiben yn ein profes. Er mor wybodus y byddo dyn ym mhethau Crist, onid bydd ei ddiben yn uniawn yn ei broffes, bydd ei egwyddorion yn crogi yn rhyddion; nid anturia efe nemawr, nac ymhell, er mwyn Crist; dim mwy, na phellach, nag hyd at gadw ei ben ei hun. Dichon rhagrithiwr ddangos rhyw fywiogrwydd am dro, a pheth calondid i orchfygu anhawsdau dros amser; ond efe a ddengys ei ystrange o'r diwedd. Y dyn a fo â gau ddiben yn ei broffes, buan y daw efe hyd ei phen draw, pan wesgir ar y bws troed y mae ei gorn arno; fy meddwl yw, pan ei gelwir i ymwadu â'r peth yr oedd ei galon ddrwg yn cyfeirio ato yr holl amser. Ar hyn y mae ei galondid yn pallu; nis gall efe fyned ym nhellach. O! gwyliwn rhag y trawst-lygad yma ar ein budd, arfwyniaut, anrhydedd, neu ddim islaw Crist a'r nefoedd; o herwydd y rhai'n a ddygant y galon ymaith, fel y dywel y prophwyd am win a gwragedd (*Hos. iv. 11*); hyn yw, ein cariad; ac os dygir ein cariad ymaith, ni bydd nemawr o galondid wedi ei adael dros Grist. Mor galonog oedd Iehu ar y cyntaf! Ac y mae yn mynegi i'r byd mai ei sêl dros Dduw ydoedd. Ond paham y mae ei galondid yn pallu cyn gorphen hanner ei waith? Nid oedd ei galon wedi ei sefydlu yn iawn erioed. Yr un peth ag a gynhyrfodd ei sêl ar y cychwyn, a'i llwfrhaodd ac a'i diffoddodd yn y diwedd; a hyny oedd ei swydd-ymgais. Ei awydd am deyrnas a'i gwnaeth yn wresog yn erbyn tŷ Ahab, i dori ymaith y gwŷr a allasant mewn amser ei ddiorseddu ef. Ar ol gwneyd hyny, a'i sefydlu ei hun, ni feiddiaid efe fyned â gwaith Duw ym mlaen yn drwyadl, rhag iddo gollu yr hyn a gawsai trwy ddiogio y bobl â diwygiad cyflawn. Yn debyg i rai milwyr, wedi iddynt gael ysbaill gyfoethog wrth ddiroddi rhyw dref, nid da yr ymladdant byth ar ol hyny.

PENNOD II.

Am nerth y saint. Pa le y mae, a pha ham yn drysoreddig yn Nuw.

Y MAE'r drydedd gainge yn canlyn; ac yn cynnwys cyfarwyddyd rhybuddiol. Wedi iddo annog y saint yn Ephesus, ac felly y

credinwyr oll, i ymroad a chalondid sanct-
aidd yn eu milwriaeth, rhag i hyn gael ei
gaungymeryd, a magu ynddynt dyb am eu
nerth eu hunain i'r frwydr, y mae'r apostol
yn eu tywys allan o honynt eu hunain am
y nerth hwn, sef at yr Arglwydd; "Ym-
nerthwch yn yr Arglwydd." Oddi yma,
deliawch sylw:—

Athr. Fod nerth y Cristion yn gorwedd yn
yr Arglwydd; nid yddo ei hun. Y mae
nerth y blaenor mewn lloedd ereill yn gor-
wedd yn ei filwyr; y mae efe yn ehedeg ar
eu hadenydd hwynt, fel y dywedodd cadben
auwr unwaith wrth wŷr ei lu. Os brigdorir
eu plu hwynt, os torir eu grym, y mae efe
wedi colli. Ond, ym nyddin y saint, y mae
nerth pob sant, i.e. holl lu y saint, yn gor-
wedd yn yr Arglwydd y lloedd. Gall Duw
orchfygu ei elyunion heb eu dwylaw hwynt;
oud ni fedrant hwy gymaint ag amddiffyn
eu hunain heb ei fraich ef. Un o enwau
Duw ydyw "Cadermid Israel;" 1 *Sam.* xv.
29. Efe oedd nerth calon Dafydd; heb ei
nerth hwn, yr oedd y blaenor gwrol hwnw yn
ymddwyn yn wael hynod gan ofn, wrth air
neu ddau o enau y Philistiaid; ond pan ei
cyunelid yn ei freichiau ef, medrai ofyn
gwaethaf y cawr a waradwyddodd fyddin
gyfau. Efe oedd nerth ei ddwyllaw; "efe a
ddysgodd ei ddwyllaw i ryfela;" ac felly, efe
yw nerth ei holl saint yn y rhyfel hwn, yn
erbyn pechod a Satan. Y mae rhai yn gosod
gofyniad, A oes un pechod yn cael ei weith-
redu yn y byd, heb fod gan Satan ran ynddo?
Ond pe gofynid, A oes un weithred sanctaidd
yn cael ei gwneuthur, heb gymorthwyr neill-
duol Duw yn cydweithio? Atebir hyn
yn *Ioan* xv. 5. "Heb of fi, ni ellwch chiwi
wneuthur dim." O nerth Duw y mae y
meddwl a fo'n dda: "nid o herwydd ein bod
yn ddiagonol o honom ein hunain i feddwl
dim megys o honom ein hunain; eithr ein
digionedd ni sydd o Dduw;" 2 *Cor.* iii. 5.
Nyni apostolion, nyni saint, sydd â *gras*
greddfol genym; etto, y mae hwn fel ōwfr
yng ngwaelod pydew, yr hwn nis ceir i fyny,
er ein holl sugn-weithio ni, hyd oni thlyw-
allto Duw i mewn ei ras cynhyrliol; ac yna
y mae'n dyfod. Y mae ewyllysis yn fwy na
meddwl; egnio ein hewyllys hyd weithrediad
sy fwy na'r ddau:—o Dduw y mae y rhai hyn.
"Duw yw yr hwn sydd yn gweithio ynoch
ewyllysis, a gweithredu o'i ewyllys da ef;"
Phil. ii. 13. Efe sy'n gwneyd y galon yn
newydd; ar ol ei gwneyd yn gymhwys i
ysgwiad nefol, gan ei gosod, megys, yn ei
hiagon le, y mae yna yn ei dirwyn i fyny
trwy ei ras cynhyrliol, ac yn ei gosod i ger-
dded, y meddyliau i ysgogi, yr ewyllys i
gychwyn, a thynu tuag at y gwrthdrych
o'i flaen; etto yma, sefyll a wna y cerbyd;
ac nis gall fyned i fyny i fryn y weithred,
hyd oni roddo Duw ei ysgwydd wrth yr ol-
wyn; "Yr ewyllysis sydd barod genyf;

eithr cwblhau yr hyn sy dda, nid wyf yn
medru arno;" *Rhuf.* vii. 18. Duw sydd
wrth droed yr ysgol, a'i phen uchaf hefyd;
yn awdwr ac yn berffeithydd; i.e. yn helpio
ac yn codi yr enaid ar bob cam yn ei esgyn-
iad at unrhyw weithred dduwiol. Belach,
y mae'r Cristion wedi ei osod ar waith; pa
hyd y ceidw efe yn dŷn ato! Och! enaid
truan! Dim yn hwy nag y dalier ef gan yr
un law ag a'i galluogodd ef i ddechreu.
Buan y treulia efe y nerth a dderbyniodd: yn
ganlynol, i'w ddal ymlaen ar ei yrfa sanct-
aidd, y mae'n rhaid cael nerth adnewyddol
o'r nef ar bob moment. Hyn a wyddai
Dafydd; ac am hynny, pan oedd ei galon
mewn agwedd mor sanctaidd ag y profodl
erioed, a'i bobl trwy eu hoffrwm ewyllysgar
yn dangos yr un peth, etto, y mae efe y
pryd hynny yn gweddio ar Dduw, "Cadw
hyn yn dragwydd yn myrd meddyliau
calon dy bobl; a pharotia eu calon hwynt
atat ti;" 1 *Cron.* xxix. 18. Y mae'n mawr-
ygu y drugaredd a'i gwnaeth yn ewyllysgar,
ac yna yn erfyn am ei ras ym mhellach, i'w
nerthu, a chylwmu cwlwm, fel na syrthiai y
perlau hyn ymaith, oedd newydd eu rhoi yn
gadwyn am eu calonau. Y Cristion, pan yn
llawnaf o gyfraniadau dwyfol, nid yw ond
rhyw wydrn heb droed; ni ddichor efe
sefyll na dal yr hyn a dderbyniodd ddim
yn hwy nag y dalio Duw ef yn ei law nerth-
ol. Am hynny y mae Crist, pan ar fyned i'r
nef, ac ar gymmeryd ei genad gyda ei blant,
yn rhagofyn gofal ei Dad drostynt, pan y
byddai efe wedi myned ymaith; "Y Tad,
cadw hwynt;" *Ioan* xvii. 11. Fel pe dy-
wedasai, Nid addas eu bod yn unig; plantos
druain difedr ydynt; ni fedrant na cherdd-
ed na sefyll heb help. Hwyl gollant y gras
a roddais iddynt, ac a syrthiant i'r magiau
yr oeddwn i yn eu cadw rhagddynt tra fu
gyda hwynt, os byddant ond o'th olwg
nen o'th freichian di ond am foment; Am
hynny, "O Dad! cadw hwynt"

Drachefn, ystyriwch y Cristion fel yn ym-
roddi at ryw ddyledswydd o addoliad Duw;
y mae ei nerth o hyd yn yr Arglwydd. A
fynai efe weddio? Pa le y caiff efe ddefnydd
at ei weddio? Och! nis gŵyr efe beth a
weddia megys y dylai; *Rhuf.* viii. 26. Os
gadewir ef ei hun, efe a weddia ei hun yn
fuan i ryw brofedigaeth neu gilydd, ac a
wadda am yr hyn y byddai yn greulawn i
Dduw ei roddi. Am hynny, y mae Duw yn
rhoddi geiriau yn ein geneuau ni;—"Cym-
merwch eiriau gyda chiwi, a dywedwch;"
Hos. xiv. 2. Wel, yn awr y mae wedi rhoi
geiriau yn ei enau. Och! hwy a rewant yn
ei wefusau, oni chaiff efe beth gwres serch
a chalon i roddi iddynt rediad. A pha le y
ceir y tân hwn? Nid oes wreichionen i'w
chael ar ei aelwyd ef ei hun; oddi eithr rhyw
dân dieithr, o ddmuniadau natur, yr hwn
ni wna y tro. O ba le ynte y mae yn rhaid

i'r tân ddyfod i ddadmer ia y galon, ond o'r nef? Yr Ysbryd, efe sy raid iddo ymestyn ar yr enaid (fel y prophwyd ar y bachgen: 2 *Bren.* iv. 34); ac yna, daw yr enaid i beth cynhesrwydd tyner, a gwres nefol yn ei serchiadau. Rhaid i'r Ysbryd beri yr och-enaid, ac yna yr enaid a ocheneidia;—efe sydd yn ein cynnysgaethu â'r ocheneidiau a'r griddfanau hyn, sydd yn troi hwyliau gweddi; efe sydd yn toddi y galon, ac yna yn tori allan o'r galon mewn ocheneidiau, allan o'r gwefusau mewn areithyddiaeth nefol, ac allan o'r llygaid fel dyfr-ddor yn llif o ddagrau. Etto, ym mhellach, wedi i'r creadur gael nerth i ymdrechu â Duw mewn gweddi, pa beth a fydd ei ennill er hyn oll? Bwriwch ei fod yn wan mewn gras, a all efe weddio ei hun yn gryf, neu ei lygredd yn wan? Na: nid ydyw hyn i'w gael mewn gweddi, fel gweithred y creadur. O'r nef y daw hyn hefyd;—“Y dydd y llefais, y'm gwrandewaist; ac a'm cadarnheist â nerth yn fy enaid;” *Salm* cxlviii. 3. Mewn dyledswydd y cafodd Dafydd y rhodd; etto, nid gan ei ddyledswydd, ond gan ei Dduw. Nid gweddio ei hun yn gryf a wnaeth, ond Duw a'i cryfhaodd yn ei weddi. Wel, trowch olwg unwaith etto at y Cristion, pan ymarfero âg ordinhad arall—gwrandaw ar bregethiad y gair. Nerth yr enaid i wrandaw—o Dduw y mae; “Efe sydd yn agoryd y galon i ddal;” *Act.* xvi. 14. Ie, efe sydd yn agor deall y Cristion i dderbyn y gair, fel ag i ddirnad yr hyn a feddylir ynddo. Y mae yn debvg i ddychymyg Samson, na fêrlwn ni ei ddirnad heb ei anner ef. Efe sydd yn agoryd brw yr enaid i ymddwyn trwyddo, megys y deall i ddirnad am dano, hyd onid yw yr enaid anfrwythlaw yn dyfod “yn lawen fam plant.” Bu Dafydd yn eistedd am hanner blwyddyn dan ddarllenid cyhoedd y gyfraith, a chroth ei galon yn gaudig, hyd oni ddaeth Nathan a Duw gydag ef; ac yn awr yw amsef bywoliaeth. Y mae yn ymddwyn yn ebrwydd i'e, ac yn esgor yn yr un dydd, gan syrthio yn y fan i loesion chwerw o ofid am ei bechodau; a'r rhai hyny nis gadawsant ef nes iddo gael eu tafu allan yn y salm beraidd hono—yr unfed ar ddeg a deugain. Pa ham y bu i'r un gair hwn weithio mwy na'r cwbl o'r blaen? Onid am fod Duw yn awr yn gweithio gyda ei air, yr hyn ni wnaethai o'r blaen? Am hyn y dywedir mai efe sydd yn dysgu ei bobl i wellhau: *Esa.* xlvi. 17. Yn y nef y mae eisteddle yr hwn a ddyysg galonau. Pan y galwo Ysbryd Duw, sydd yn ben meistr, enaid oddi wrth ei is-feistr atto ei hun, ac y dywedo, “O enaid! nid wyt ti ar yr iawn lwybr i gael budd oddi wrth wrandawid y gair; fel hyn ac fel hyn y mae i ti ddirnad am y cyfryw wirionedd, a defnyddio y cyfryw addewid.” yn ddiwed, y mae llygaid ei ddeall yn ymagor, a'i galon yn llosgi o'i

fewn tra y mae efe yn ymddyddan âg ef. Fel hyn y gwelwch wirionedd y pwng hwn, mai yn yr Arglwydd y mae nerth y Cristion. Bellach, rhoddwn rai amlygiadau er prawf.

DOSB. I.

Rhes. 1. Gellir cymmeryd y rheswm cyntaf oddi wrth natur y saint a'u gras:—creaduriaid ydynt hwy, a'u gras hefyd. Yn awr, y mae yn natur creadur ymddibynu ar Dduw, ei Greawdwr, am ei fod, a'i weithrediad hefyd. A fedrwech chwí ddirnad am un ddamwain, heb berthyn i'w hachos—gwyned, heb berthyn i'r pared, neu yr hyn y mae y gwynder ynddo! Mor amhosibl a hyny yw i'r creadur fod, neu weithredu heb nerth Duw. Y mae bod, a gweithredu, ynddo ac o hono ei hun, yn briodolder mor anghyfradadwy o eiddo y Duwdod, fel na ddichon efe ei gyfranu i'w creadur. “Efe sy Dduw, ac nid neb arall.” Pan wnaeth efo y byd, dywedir, yn wir, ei fod wedi gorphen ei waith, sef y greadigaeth; ni wnaeth un math na rhywogaeth newydd o greaduriaid yn chwange. Ond hyd y dydd hwn y mae ei waith o ragluniaeth heb ei orphen. “Y mae fy Nhad yn gweithio hyd yn hyn;” eb Crist (*Ioan* v. 17); hyny yw, yn cynnal ac yn cynnysgaethu yr hyn a wnaeth â grym i fod a gweithredu. Am hyn y dywedir mai Efe sydd “yn gosod ein henaid mewn bywyd.” Dichon gwaith a wnelo dyn o gelfyddyd sefyll am dro, ar ol ei orphen, heb help y gweithydd; megys tŷ, ar ol marw y saer a'i gwnaeth: ond nid yw gweithredoedd Duw, o natur nac o ras, byth oddi ar ei law ef. Ac am hyny, megys y dywedir fod y Tad yn gweithio hyd yn hyn; felly y Mab, i'r hwn yr ymddiriedwyd am waith y prunedigaeth, efe a ddywed i ni ei fod yntau yn “gweithio hefyd.” A phan yr adgyfododd, nid oedd efe yn rhoddi terfyniad ar ei waith, ond mewn modd tebyg i'w Dad yn gorphen gwaith creadigaeth. Y mae Duw wedi gorphen creu; felly Crist wedi gorphen pwreasu trugaredd, gras, a gogoniant i gredinwyr, trwy farw unwaith. Ac megys y gorphwysodd Duw yn niwedd creadigaeth, felly yntau, wedi iddo orphen pryniad trugwyddol, “a pluro ein pechodau ni trwyddo ef ei hun, a eisteddodd ar ddeheulaw y Mawredd yn y goruwelheoedd;” *Heb.* i. 3. Etto, nid yw efe yn darfod â gwaith trwy eiriolaeth drosom gyda Duw, nac â gwaith trwy ei Ysbryd, ynom, dros Dduw. Trwy hyn y mae efe yn cadw ei saint, eu grasau, a'u cysuron, mewn bywyd; ac heb hyn, hwy a redant i lwy'r fethiant. Wrth hyn, gwelwn fel y mae gras yn creadur, y mae y Cristion yn ymddibynu ar Dduw am ei nerth. Ond ym mhellach—

2. Y mae gras y Cristion, nid yn unig yn creadur, ond yn creadur gwan, yn ymladd â gelynyd cryfach nag ef ei hun; ac am hyny,

nis gall gadw y maes heb nerth cynnorthwyol o'r nef. Y gwanaf a wthir i'r wal, oni ddaw cymhorth iddo. Nid yw gras yn y bywyd hwn ond gwan, megys brein yn ei gryd; yr hyn sydd yn rhoddi mantais i Satan ymgyrfhau yn ei ddichellwaith at aflonyddu llywodraeth y brenin ieuange hwn yn yr enaid; i.e., a buan y gwnai efe ddiwedd ar y rhyfel yn nyfethiad gras y credadyn, oni bai fod y nef yn ei gymmeryd dan ei noddod. Y mae yn ddiâu fod mewn gras, pa le bynag y byddo, egwyddor sydd yn peri iddo ddymuno ac ymgais am ei gadw ei hun, yn ol y grym a fyddo ynddo; ond, gan rym gorthrech, y mae yn rhaid y derfydd am dano, oddi eithr ei gynnorthwyo gan Dduw. Fel tân mewn coed irion, yr hwn sydd yn farweddiddo ac yn lleithio y rhan a ennywyd, fe ddifffydd mewn amser, oni chaiff ei chwythu a chwanegu tân at yr ychydig hyn; felly y gwna gras yn y galon. Trwy fuddugoliaeth y mae Duw yn dwyn ei ras i'r galon. Yn awr, megys mewn dinas a orchfygir, er i rai ymrodidi, a bod yn ddeiliaid cywir i'r concwerwr, etto, y mae yno ereill yn cydfwriadu am ysgwyd ymaith yr iau; ac am hyn, y mae yn gofyn yr un gallu i'w chadw ag oedd i'w hennill ar y cyntaf. Y mae yn y Cristion ran ddiadgenedledig, sydd yn anfoddlawn i'r tro newydd hwn yn y galon, ac mor wrthwynebus i ddyfod dan lywiad hyfryd teyrnwialen Crist, ag oedd y Sodomiaid i Lot fod yn farnwr arnynt. Pa beth! y cydymaith hwn—estron—i'n rheoli ni? Ac y mae Satan yn flaenor i'r dorf derfysgus hon yn erbyn y Cristion. Felly, pe ni byddai i Dduw adgyrfhau yn barhaus y drefedigaeth (*colony*) newyddblanedig hon yn y galon, byddai i'r gwŷr genedigol a adawyd (llygredigaethau yr wyf yn feddwl), ddyfod o'u tyllau a'u llochesau cynllwyn, a difa yr ychydig ras sy gan y sancteiddiaf ar y ddaier. Byddai megys bara i'r gwangewyr hyn.

Y *trydydd amlygiad* a ellir ei gymmeryd oddi wrth y bwriad mawr a esyd Duw iddo ei hun yn iachawdwriaeth y saint; i.e., yn y gorchwyl hwnw, o'i ddechreu i'w ddiwedd; ac y mae yn ddeublyg.

1af. Mynai Duw ddwyn ei saint i'r nef yn y fath ffordd ag a fyddai yn fwyaf dangosiadol o'i fawr gariad a'i drugaredd atynt.

2il. Mynai, felly, ddangos ei gariad a'i drugaredd atynt, fel y byddai y taliad yn ol iddo yn fynegiad i'r radd uchaf o'i ogoniant ei hun. Yn awr, i'r ddau beth hyn, fe ymddengys yn fuan mor gymhwys ydyw fod i'r saint dderbyn ganddo ef y cyfan o'u nerth ar hyd eu holl daith i'r nef.

(1.) Y mae y ffordd hon o gyfranu nerth i'r saint yn peri clod dyblyg i gariad a thru-garedd Duw.

(1af.) Y mae yn defnyddu melusder i'r cwbl a fedd neu a wna y credadyn. Pan y

profo radd o gysur yn ei fynwes, o helaeth-dan calon at ddyledswydd, neu o gynnalieith-dan brofedigaethau, wrth ystyried o ba le y daeth y rhai hyn oll, pa gyfaill sydd yn eu danfon i mewn—"Nid o'm pydew fy hun, na chan heb creaduriaid y ceffais hwynt. O! fy Nuw a fu yma, ac a adawodd ar ei ol y pŵer arogl hwn o ddiadnwch yn fy myn-wes. Fry Nuw sydd, heb yn wybod i mi, wedi llenwi fy hwyliau âg awelon ei Ysbryd, a'm dwyn oddi ar feisle fy marweidd-dra fy hun lle yr oeddwn wedi glynu. O! ei hael Ysbryd ef a ddaliodd fy mhen ac a attegodd fy nghalon yn y cyfryw gystudd a phrofed-igaeth; onide, darfuasai am danaf mewn llewyg o anghrediniaeth. Pa fodd na bydd i hyn yn rhwydd beri i enaid grasol garu Duw—ei amddiffyn yn dyfod mor ddigyr-rwng o'r nef? Hyn a gollid pe byddai gan y Cristion ddim nerth at ei helpio ei hun, er i'r ystôr hwnw o nerth ddyfod ar y cyntaf oddi wrth Dduw. Pa un, dybygech chwi, sy'n dangos mwyaf o gariad ac ymostyngiad mewn tywysog, bod iddo roddi i un a hoffai ddogr blyneddol i fyw arno trwy ei ofal ei hun, ai ynte bod i'r tywysog hwn gymmeryd y gofal penaf arno ei hun, a dyfod o ddydd i ddydd i dŷ y gwŷr hwn, edrych i'w fwydgel, i weled pa ymborth sy ganddo, a phetha yw ei draul, a darpar felly yn wastadol drosto, o bryd i bryd? Ysgatfydd y byddai i ryw felchyn a chwennychai fod yn wr iddo ei hun, neu a garai ei dywysog yn llai na'i foddion, ddewis y blaenaf; ond gwr a fyddai yn chwennyach cael calon a chariad ei dywysog, efe a dra-serchai yr olaf. Fel hyn y gwna Duw a'i saint. Mae y Duw mawr yn dyfod, ac yn edrych i'w celloedd; mae'n gweled pa faint yw eu hystôr, ac yn anfon i mewn, yn ol fel y gwelo'r angen. "Gŵyr eich Tad nefol fod arnoch eisieu y pethau hyn;" a chwi a'u cewch hwynt. Gŵyr fod arnoch eisieu nerth i weddio, i wrandaw, a ddiodef drosto, a rhoddir i chwi yn yr awr hôno.

(2il.) Y mae'r ffordd hon sy gan Dduw i drin ei saint yn chwaganu at gyflawnder a sierwydd eu nerth hwynt. Pe byddai'r ystôr yn ein dwylaw ni, buan y ceid ni wedi tori i fyny. Y mae Duw yn gwybod nad ydym ni ond llestri sy'n gollwng; pan fo'm lawnaf, nid yn hir y gwnawn ei ddal; ac am hyn, i wneyd pob peth yn sier, y mae yn ein gosod dan ffrydiau ei nerth ef; a than y pistyll, y mae llestr agenog yn cael yr hyn a gollo. Fel hyn y mae cyflenwad parhaus, er ein colliadau ni. Yn y modd hwn y darparodd Duw dros Israel yn yr amlawch; efe a holltodd y graig, a'r dwfr oedd yn eu canlyn. Nid trafhwng am dro yn unig a gawsant; ond yr oedd yn rhedeg yn ffwrdd ar eu hol hwynt, fel nad ydych yn clywed dim mwy o'u cwynion am ddwfr. Y graig hon oedd Crist. Y mae i bob creadayn Grist wrth ei

gefn, yn ei ddilyn â nerth, fel yr ä ym mlaen i bob amgylchiad a phrawf. Y mae un blodeuyn â gwreiddyn iddo yn nerth llawer mewn blodeuglwm (*posy*), am nad ydynt yn tyfu yno, er eu pereidd-dra, ond yn gwywo tra yr ydym yn eu gwisgo yn ein mynwesau. Nerth Duw sydd megys y gwreiddyn, yn cadw ein gras yn fywiog; ac heb hwn, pe byddai mor ddisglær a'r eiddo Adda, byddai farw.

2. Y bwriad sy gan Dduw yng ngogoneddiad ei saint yw, dangos ei drugaredd a'i gariad atynt, mewn modd ag y bo'r taliad yn ol iddo yn fynegiad i'r radd uchaf o'i ogoniant ei hun: *Eph.* i. 4, 12. Cyrhaeddir hyn yn llawn, yn ei ffordd o nerthu'r saint, nid â nerth o'u heiddo eu hunain, ond o anfoniad eu Duw, fel y byddo eu traul yn gofyn. Pe rhoisai Duw i'w saint ystôr o ras i'w gosod i fyny, gan adael iddynt hwy ei ddefnyddio, efe a fuasai yn ddiaur i'w fawrygu, am fod hyny yn fwy na dim dyled oedd arno i'r creadur: ond ni chwaisai efe ei gwbl-fawrhau, megys yr awrhon, pan y mae'r Cristion nid yn unig yn cael gan Dduw ei nerth cyntaf i ymwastgu â Christ, ond o hyd yn rhwymedig i Dduw am ymarferiad y nerth hwnw ym mhob gweithred o'i yrfa Gristionogol. Megys plentyn yn ymdeithio gyda'i dad—telir am y cwbl; ond ei dad sy'n dwyn y pwrs, nid efe ei hun. Felly y mae côst y Cristion yn cael ei thalu ym mhob cyflwr; ond nis gall efe ddywedyd, Hyn a wnaethum i, neu y llall a ddyoddefais i:—ond, Duw a weithiodd y cwbl ynof fi, a throsof fi. Y mae crib balchder yn cael ei dori yma; nid oes yma le i feddyliau hunan-fawrhaol. Nid oes i'r Cristion ddywedyd, Trugaredd yw fy mod yn sant; ond, ar ol fy mod yn sant, bod fy ffydd yn gref, ffrwyth o'm gofal a'm dyfalwch i yw hyn. Och! Gristion tlawd! pwy a gadwodd dy lygaid yn effro, ac a gynhyrfodd dy ofal? Ai nid hiliogaeth Duw oedd hyn, yn gystal a'th ffydd ar y cyntaf? Ni bydd i un sant ddywedyd am y nef pan ddelo iddi, Hon yw y nef a adeiladais i, yng nghryfder fy nerth. Na: dinas yw yr Ierusalem uchod, "saer ac adeiladydd yr hon yw Duw." Y mae pob gras, ie, pob gradd o ras, yn faen yn yr adeilad hono y gosodir ei maen uchaf mewn gogoniant. Yno y gwel y saint yn fwy amlgw y modd y bu Duw, nid yn unig yn seil-iwr i ddechreu, ond yn rhad-roddwr hefyd, i orphen yr adeilad. Ni chaiff gogoniant y gwaith ei friwsiwni a'i ranu yn ddrylliau—peth i Dduw, a pheth i'r creadur; ond telir y cyfan oll i Dduw, a chydabyddir ef oll yn oll.

DOSE. II.

Defn. 1. A ydychw nerth y Cristion yn yr Arglwydd, nid ynddo ei hun? Yn sicr ynte, y mae'n rhaid i'r dyn di-Grist fod yn greadur tlawd a dirym, yn wag o bob nerth a gallu,

wneuthur dim o hono ei hun tuag at ei achub ei hun. Os nad all y llong symmud, er ei gwrthio i'r môr a gosod ei thaclau a'i hwyliau ar led, hyd oni ddelo'r gwynt a'u llenwïau, llawer llai y dichon y coed, sydd yng nghadlas y saer eu naddu a'u llunio eu hunain yn llong. Oni ddichon y pren byw dyfu, oddi eithr i'r gwreiddyn gyfranau ei sudd, llawer llai y dichon polyn marw, pŵdr, yn y gwrych, ac heb wreiddyn, fyw o hono ei hun. Mewn gair, os nad all y Cristion sy'n meddu bywyd ysbrydol o ras roddi y bywyd hwn ar waith heb nerth oddi uchod, yna yn sicr, am un gwag o'r bywyd newydd hwn, a marw mewn pechod a chanrwydd, ni all efe byth genedlu hwn ynddo ei hun, na chydysniad at ei genedlu. Y mae cyflwr o ddi-adgeneddiad yn gyflwr o analluogrwydd. "Crist, pan oedd-ym ni eto yn weiniaid, mewn pryd a fu farw dros yr annuwiol;" *Rhuf.* v. 6. Ac megys y cafordd Crist y cyfan o ddynolryw wedi eu gorchuddio âg adfeiliau eu cyflwr syrthiedig—mor ddiallu at godi eu hunain oddi tan bwys digder Duw, oedd yn gorwedd arnynt, ag a fyddai un wedi ei gladdu tan furiau tŷ a syrthiodd, i ymachub oddi tan y pwys hwnw heb help—felly y mae'r Ysbryd yn cael pechaduriaid mewn cyflwr mor ddigymlhorth, mor ddi-allu i edifarhau, neu i greu yng Nghrist am iachawdwriaeth ag oeddynt o honynt eu hunain i'w phwreacu. Gwaradwyddus ynte am byth a fyddo iaith y meibion balchder hyny, sy'n erio gallu natur i fyny, fel pe byddai gan ddyn allu a medr naturiol gyda'i briddfeini a'i glai ei hunan i godi adeilad y cyrhaeddai ei nen hyd y nef. "Nid o'r hwn sydd yn ewyllysio y mae, nac o'r hwn sydd yn rhedeg chwraith; ond o Dduw yr hwn sydd yn trugarhau;" *Rhuf.* ix. 16. Y mae Duw ei hun wedi gwastgaru y cyfryw adeiladwyr Babel, ym mwrïadau eu calonau; efe sy'n codi y denl ysbrydol hon yn eneidiau dynion, nid trwy lu, nid trwy nerth o'r eiddynt hwy, ond trwy ei Ysbryd; ac felly, bydd *rhad*, *rhad*, yn gyhoeddedig yn yr achos hyd byth. Gan hyny, os mynai nebsydd yn ei gyflwr naturiol etto fod yn ddoeth i iachawdwriaeth, yn gyntaf, bydded fflw yn ei olwg ei hun, ymadawed â'i ddoethineb enawdol, yr hon nid yw yn dirnad pethau Duw; a gofyned ddoethineb gan Dduw, yr hwn sydd yn rhoddi, ac heb ddamod. Os mynai dyn gael nerth i greu, bydded wan, a bydded farw i'w nerth ei hun, "canyis nid trwy nerth y gorchfyga gwr;" 1 *Sam.* ii. 9.

Defn. 2. Ai yn Nuw y mae nerth y Cristion—onid ynddo ef ei hun? Y mae hyn yn beth a ddylai gadw y Cristion o hyd yn ostyngedig, pan fyddo yn cael yr helaethiad mwyaf mewn dyledswydd, a'r cymhorth mwyaf yn ei yrfa Gristionogol. Cofia, Gristion, pan fyddo dy wisg oreu am danat, pwy a'i gwnaeth—pwy a dalodd am dani.

Nid ydyw dy ras a'th gysur yn waith dy ddwyllaw dy hun, nac yn werth dy haeddiant dy hun. Na fydd, rhag cywilydd, yn falch ar draul un arall. Nid hir yr erys y cynnorthwy a ddefnyddir fel manmaeth i dy falchder. Nid wyt ti yn arglwydd ar y cynnorthwy sy genyt. Y mae dy Dad yn ddoeth; a phan ganiatao i ti fwyaf at dy gynaliaeth ysbrydol, ie, y pryd hynny, efe a geidw y gyfraith yn ei law ei hun; a buan y medr dy ffrwylo, os ofera wnei ar ei ras ef. Rhodia yn isel, gan hynny, ger bron dy Dduw; a hwsmonaetha yn dda y nerth sy genyt, gan gofio mai nerth benthgwy ydyw. Pwy a was-traffa yr hyn y mae yn ei gardota? Neu, pwy a rydd i'r cardotyng hwnw a waria ei elusen mewn segurid? Pan fyddo genyt fwyaf, nid hir y gelli fod oddi wrth ddrws dy Dduw. A pha fodd y gelli edrych yn ei wyneb ef am chwanege wedi i ti afradu yr hyn a dderbyniaist?

PENNOD III.

Am ymarfer ein ffydd ar hollalluog nerth Duw.

Y MAE y bedwaredd gainge yn canlyn, a hono yn cynnwys helaethiad cysuro, ynglŷn â'r annogaeth, yn y geiriau hyn—"Ac yng nghadernid ei allu ef." Yma y mae ymotyniad deublyg yn angenrheidiol at egluro yr ymadrodd:—1. Pa beth ydyw cynnwysiad y geiriau, "cadernid ei allu ef?" 2. Pa beth yw "ymnerthu yng nghadernid ei allu ef?"

1. "Cadernid ei allu ef." Ymadrodd yn ol y dull Hebraeg ydyw; ac, yn ol ystyr, yr un peth yw a'i "gadarn allu ef;" tebyg i'r ymadrodd hwnw (*Eph. i. 6*), "er mawl gogoniant ei ras ef;" hynny yw, er mawl ei ras gogoneddus ef. Ac nid yw ei "gadarn allu" yn arwyddo dim llai na'i nerth hollalluog. Gelwir yr Arglwydd weithiau yn "nerthol a chadarn (megys yn *Salm xxiv. 8*); weithiau yn "gadarnaf," yn ol gradd y gair Hebraeg yn *Salm xlv. 3*; ac weithiau yn "Hollalluog." Yn y cwbl, ni feddylir dim llai na "gallu annherfynol hollalluog Dduw."

2. "Ymnerthu yng nghadarn allu," neu yng nghadernid gallu yr Arglwydd; y mae yn cynnwys y ddwy weithred hyn o ffydd.

1af. Cred ddiysgog gadarn, fod yr Arglwydd yn hollalluog o nerth. "Ymnerthwch yng nghadernid ei allu;" hynny ydyw, bydded eich cred yn gadarn reddfol am y gwirionedd sylfaenol hwn—fod Duw yn hollalluog.

2il. Y mae yn arwyddo gweithred bellach o ffydd, nid yn unig i gredu fod Duw yn hollalluog, ond hefyd fod y nerth hollalluog hwn o eiddo Duw yn rhwym er ei ddiffyniad ef; felly, i ddal i fyny yn galonog yng nghanol pob drygau a phrofedigaethau, gan bwysu ar fraich Duw hollalluog, fel pe bai

ei nerth ef ei hun. Canys hyn yw amcan yr apostol; sef ein curo ymaith rhag pwysu ar ein nerth ein hunain, ac felly caionogi y Cristion i ddefnyddio cadernid Duw hollalluog, mor rydd a phe byddai ei eiddo i hun, pa bryd bynag y rhuthra Satan arno mewn unrhyw fodd. Fel y gwna dyn yr ymosodo lieidr arno; efe a gyfliry y cwbl o'r grym a'r nerth sy gaunddo yn ei holl gorph i amddiffyn ei hun a niweidio ei elyn; felly, y mae yr apostol yn erchi i'r Cristion "ymnerthu yn yr Arglwydd, ac yng nghadernid ei allu ef;" hynny yw, enaid, rhed at dy Dduw, sydd â'i gadarn allu oll wedi ei fwr-iadu a'i gyssegru ganddo ef ei hun at dy nodd a'th amddiffyn. Dos: ymnerthga ac ymgastella ynddo trwy ffydd ddiysgog, fel yr hyn a gauiff ei roddi allau i'r eithaf, er daioni i ti. Oddi yma, y ddau sylwad hyn, ni dybygwng, a dynant allan fraser y geiriau:—

(1af). Y dylai fod yn ofal ac ymgais mawr y Cristion yn mhob prawf a themtasiwn i gadarnhau ei ffydd ar hollalluog nerth Duw.

(2il). Mai dyledswydd a gofal y Cristion yw, nid yn unig credu fod Duw yn hollalluog, ond gorphwys yn gadarn trwy ffydd ar y nerth hollalluog hwn o eiddo Duw, megys wedi ymrwymo er nawdd a chymhorth iddo, yn ei holl helyntion a'i brofedigaethau.

Athr. 1. Dylai fod yn ofal mawr y Cristion, yn mhob prawf, am gadarnhau ei ffydd ar hollalluog nerth Duw. Pan mae yn cymhell ei hun fel gwrthddrych hyder ac ymddiried yr enaid mewn unrhyw fwlech neu orchwyl mawr, yn gyffredin ni a gawn y briodoledd hon yn estynedig yn yr addewid fel yr afael sicraf i ffydd ymaffyd ynddi. Megys y rhydd tad i'w blentyn, ar ffordd arw, ei law i afael ynddi; felly, y mae Duw yn arfer estyn allan ei nerth hollalluog er mwyn i'w saint arfer eu ffydd arno. Abraham, Isaac, a Jacob, oeddynt rai y bu i Dduw brofi eu ffydd uwchlaw y rhan fwyaf o'i saint gynt neu wedi hynny; canys ni buont fyw i weled un o'r pethau mawrion a addawyd iddynt yn cael eu cyflawni yn eu dyddiau; a pha fodd y gwnaeth Duw ei hun yn adnabyddus iddynt er eu cynnalgaeth ond trwy amlygu y briodoledd hon? "Mi a ymddangosais i Abraham, i Isaac, ac i Jacob, dan enw Duw Hollalluog;" *Exod. vi. 3*. Hyn oedd y cwbl a feddent at gadw tŷ eu holl ddyddiau; ac ar hyn y buont byw yn gysurus a marw yn orfoleddus, gan dael yr addewid i'w plant heb ammheu y cyflawniad, am mai Duw hollalluog a addawsai; ac felly, yn *Esa. xxvi. 11*, er addewir trugareddau mawrion Iudah, a chân, yn ysgrifenedig ym mlaen llaw, i'w chanu ar glaerddydd eu hymwared; etto, gan fod gauaf llym o gaethiwed i ddyfod rhwng yr addewid a gwanwyn ei blaendarddiad, mae y prophwyd am hynny, i gadw eu ffydd yn fyw yn y cyfamser, yn

eu galw i ymarfer eu ffydd ar Dduw Hollalluog. "Ymddiriedwech yn yr Arglwydd byth; o herwydd yn yr Arglwydd Dduw y mae cadernid tragwyddol;" *adn.* 4. Felly, pan y mae ei saint yn myned i ffwrn erledigaeth, pa beth yn awr a rydd efe o flaen eu ffydd, at eu cynnal yng ngharchar, ond ei nerth hollalluog ef? "Am hyny, y rhai hefyd sydd yn dioddef yn ol ewyllys Duw, gorchymynant eu beneidiau iddo ef, megys i Grawdwr ffyddlawn, gan wneuthur yn dda;" 1 *Pedr* iv. 19. Y mae "Creawdwr" yn enw o nerth hollalluog. Rhoddwn bell-ach rai rhesymau am y pwnc.

Rhes. 1. Am mai nid gwaith hawdd ydwyf defnyddio y gwirionedd hwn yn suddiant wrth profedigaeth, er mor glae-amlwg y mae yn ymddangos yr awr hon fod Duw yn hollalluog. Y mae yn gofyn ffydd gref yn wir i amddiffyn yr enw hwn o eiddo Duw rhag y cyhuddiadau hyny a gyfyd Satan a rheswm enawdol yn ei erbyn. Yr wyf yn addef fod y pwnc hwn yn ddarn o dduwin-yddiaeth naturiol. Y goleu hwnw sydd yn cael allan fod Duw, a dystia, ond ei ddilyn yn ddyfal, fod y Duw hwn yn hollalluog; etto, mewn calon anianol, tebyg yw i gleddyf rhydlyd, yn anhawdd ei dynu o'r wain, ac felly o ychydig neu ddim defnydd. Y mae y cyfryw wirioneddau mor garcharedig mewn cydywbod anianol, fel mai anfynych y cânt wrandwiad teg ym u ywys y pechadur, hyd oni byddo i Dduw, trwy law uchel ei Ysbryd argyhoeddawl roddi iddynt olyng-dod o'u carchar, a'u dwyn o dŷ eu caethiwed, lle y maent yn cael eu hattal mewn anghyfia-wnder. Yna, ac nid cyn hyny, y cred yr enaid fod Duw yn sanctaidd, trugarog, a hollalluog; fe, y mae rhai o'r duwiolion eu hunain, ac nid y lleiaf eu gras yn eu mysg, wedi profi eu ffydd ynglŷn am dro yn y gors hon—gwrthddadleuon rheswm a theimlad—fel ag i gael llawn waith wrth ddringo dros yr anhawsderau a'r annhebygoliaethau hyny, i ymorphwys, er y cwbl, ar hollalluog nerth Duw. Moses ei hun, seren o'r maintioli aiwyaf am ras—etto, gwelwch fel yr oedd ei ffydd yn ysmician, hyd oni chafodd allan o'r brofedigaeth—"Chwe chan mil o wŷr traed yw i bobl yr ydwyf fi yn eu plith; a thi a ddywedi, Rhoddaf gŷg iddynt i'w fwytia fis o ddyddiau. Ai y defaid a'r gwartheg a leddir iddynt, fel y byddo digon iddynt?" *Num.* xi. 21, 22. Am y tro, yr oedd y gŵr duwiol hwn wedi colli golwg ar hollalluog nerth Duw: ac yna y mae yn dyfeisio pa fodd y gwneid hyn—fel pe y dywedasai mewn geiriau eglur, Pa fodd y gall hyn gael ei gyflawni; canys felly y mae Duw yn deongli ei ymresymiad! "A dywedodd yr Arglwydd wrth Moses, A gwtogwyd llaw yr Arglwydd?" *adn.* 23. Ac felly Mair, yn *Ioan* xi. 32; "Arglwydd, pe buasit ti yma, ni buasai fy mrawd farw:" a'i chwaer Mar-

tha, *adn.* 39: "Arglwydd, y mae efe weithian yn drewi." Yr oeddynt yn ferched grasol; etto, dangosodd y ddwy wendid eu ffydd ar hollalluog nerth Crist; un trwy derfynu y lle, "Pe buasit ti yma, ni buasai efe farw;" fel pe nas gallasai Crist achub ei fywyd yn absennol, gystal ag yn bresennol—anfôn iechyd iddo, yn gystal a'i ddwyn i'w ganlyn. Y llall trwy derfynu yr amser: "Y mae efe weithian yn drewi;" fel pe buasai Crist wedi dwyn ei feddyginiaeth yn rhy ddiweddar, ac na ollyngai y bedd mo'i garcharor wrth e' orchymyn. Ac a oes genyt ti, Gristion, y fath dyb uchel am danat dy hun, ag nad oes ar dy ffydd di ddim eisieu dy ofal a'th ym gais eithaf at ymsefydlu mwy ar hollalluog nerth Duw pan weli fath y rhai hyn yn taro eu traed yn y rhyw hwn o brofedigaeth?

Rhes. 2. Gellir ei gymmeryd oddi wrth yr angen hollol sydd am y weithred hon o ffydd, uwchlaw ereill, i ddal y Cristion mewn awr o brofedigaeth. Oddi allan y cyrchir y cyfan o nerth a chysur credadyn; ac ni fedd efe neb i'w anfôn ar y neges hon ond ffydd. Hon sydd yn myned i'r nef, ac yn galw ar Dduw, megys hwnw yn y ddammeg ar ei gymmydog ganol nos am fara. Gan hyny, pan ballo ffydd, a'r enaid heb fod ganddo neb i fyned i'r farchnad am borthiant, rhaid bod felly dŷ tlawd yn cael ei gadw. Yn awr, nid yw ffydd ddim yn gwll ar feth hyd oni wado, neu o leiaf yr amheuo, yr enaid allu Duw. Yn wir, pan ä y Cristion i ymresymu gyng nghyloch ewyllys Duw, gan sisial yn ei fynwes ei hun, A faddeu efe!—a chub efe!—dichon i hyn beri i ffydd fyned yn gloffi at orsedd gras, ond nid curo yr enaid yn llwyr oddi wrth geisio wyneb Duw. Fe ä ffydd ar allu Duw, fe y pryd hyny, gydag ef yno: "Os myni, ti a elli fy nglanhau i;" *Mat.* viii. 2. Os myni, gelli faddeu; na's gall efe achub—dyma saeth at galon ffydd, a dyma yr enaid yn syrthio wrth droed Satan, heb rym i wrthsefyll mwy. Ar hyn, efe a ä yn ddi-awch at ddyledswydd, yn ddifater pa un a wna ai gweddio ai peidio; fel un pan welo y ffynnon yn hesp, a ddryllia neu a deifl ymaith ei ystên.

Rhes. 3. Am fod Duw yn dyner iawn o'r blodeuyn hwn yn ei goron—y rhan hon o'i enw. Yn wir, nis gellir ei lythyrenu yn gywir, a gadael y llythyren neu y sill hwn allan. Y mae yn hanfodol i enw Duw; ac wrth hyn y mae yn hysbys-wahanedig oddi wrth ei creaduriaid oll. Gellir galw dyn yn ddoeth, trugarog, a galluog:—Duw yn unig yn hollddoeth, holddrugarog, a hollalluog. Felly, pan adawom allan y sill hwn, *holl*, yr ydym yn llysenwi Duw, ac yn ei alw wrth enw ei creadur, i ba un ni wna efe ateb. Yn awr, gwelir yr hoffder a ddengys Duw i'w ragorfraint hon mewn tri pheth:—
(1af.) Yn y gorchymyn dwys y mae yn ei osod ar ei bobl, am roddi iddo ogoniant ei

allu: "Nac ofnwech chwaith eu hofn hwynt. Arglwydd y lluoedd ei hun a sancteiddiwech;" *Esa.* viii. 12, 13: hyny yw, pan y mae eich helynt yn y wedd athrist hon, eich gelynion yn cydgyfeillachu, a chwithau yn ymddangos yng ngolwg rheswm fel pobl wedi eu colli, heb rym i ymladd â'r galluoedd unol sydd yn ymosod arnoch o bob tu. "Yn awr, yr wyf fi yn eich gorchymyn, sancteiddiwech fi, trwy roddi i mi ongoniant fy nerth hollalluog." Credwech fod eich Duw yn alluog o hono ei hun, heb help arall, i'ch amddiffyn chwi a'u dyfetha hwynt.

(2il.) Yn ei lymder at ei blant anwylaf, pan fyddont yn siglo yn eu ffydd, yn lle sefyll yn gadarn, heb resymu na dadleu yn yr achos, gan bwysu ar ei hollalluog nerth ef. Ni wnaeth Zacharias ond gofyn i'r angel, "Pa fodd y gwybyddaf fi hyn? canys hynafgwr wyf fi, a'm gwraig hefyd mewn gwrth o oedran;" *Luc* i. 18. Etto, am ddangos ei anghrediniaeth yn hyn, efe a gafodd y fath arwydd, a fu, nid yn unig yn atteg i'w ffydd, ond yn gomp lem ar ei anghrediniaeth; o blegid efe a darawyd yn fud yn y fan. Y mae Duw yn hoffi cael ei blant i gredu ei air—nid i ammbeu ei allu. Felly, gwir yw geiriau Luther, "Hoff gan Dduw y rhedegwyr, nid y rhesymwyr" (*Deus amat curristas, non queristas*). Yr hyn a wnaeth ffydd Abraham yn glodfawr oedd, fod "yn gwbl sier ganddo, am yr hyn a addawsai efe, ei fod yn abl i'w wneuthur hefyd;" *Rhuf.* iv. 21.

(3ydd.) Yn y ffordd a gymmer Duw o roddi ei ddewis drugareddau a'i waredigaethau mwyaf, gan osod trefn ei ragluniaeth felly, fel y galler dywedyd ar ol ei waith, Nerth hollalluog a fu yma. Am hyny, mae Duw yn gyffredin yn bwrw i lawr y moddion a'r ail achosion hyny, y rhai, pe caent sefyll o amgylch ei waith, a dywyllent ac a rwystrant y llawn olwg ar ei nerth Ef a'i dygodd i ben. "Eithr ni a gawsom ynom ein hunain farn angau, fel na byddai i ni ymddiried ynom ein hunain, ond yn Nuw, yr hwn sydd yn cyfodi y meirw;" *2 Cor.* i. 9. Arosodd Crist hyn ar ol marw Lazarus, fel y tynai efe lygaid eu ffydd hwynt yn fwy syml i graffu ar ei allu ef wrth gyfodi ei gyfaill marw, yn hytrach na'i iachau o'i glefyd, yr hyn ni ddygasai i'w ganlyn dystiolaeth mor lawn-eglor o'i hollalluogrwydd ef. Ie, y mae efe yn fynych yn goddef i allu gwrthwynebus gyfodi yn y cysswllt hwnw o amser, pan y mae yn bwriadu trugaredd i'w bobl, fel y byddai iddo felly gyfodi colofn fwy ardderchog o goffadwriaeth i'w allu ei hun yn ninystr y gallu a fyddo yn ei wrthsefyll. Pe buasai Duw yn dwyn Israel o'r Aipht yn amser y breninoedd a adwaenent Ioseph, y mae yn debygol y gallasant gael ymadawiad caredigol, a'u gwared yn rhwydd. Ond efe a gadwodd hyn erbyn teyrnasiad y Pharaoh balch hwnw a'u gor-

thrymai hwynt yn greulawn, ac a anturiai ei deyrnas, rhag bod heb ddigoni ei chwant arnynt. A pha ham yr oedd raid i hwn fod y pryd? ond am y mynai Duw eu dwyn allan "â braich estynedig." Mawrhad ei allu oedd bwriad mawr Duw: "Ac yn ddiau er mwyn hyn y'th gyfodais di, i ddangos i' fy nerth; ac fel y myneger fy enw trwy yr holl ddaiar;" *Exod.* ix. 16.

(4ydd.) Yn y ffyniant gyda Duw sydd i'r ddad a gymhellir oddi wrth ei nerth hollalluog ef. Y llinyn olaf oedd hwn a feddai Moses wrth ei fwa pan oedd yn erfyn am fywyd Israel: "Y cenedloedd, y rhai a glywsant son am danat, a ddywedant, O eisieu gallu o'r Arglwydd ddwyn y bobl yma i'r tir y tyngodd efe iddynt, am hyny y lladdodd efe hwynt yn y diffaethwch;" *Num.* xiv. 15, 16: a thrachefn, "Mawrhaer, attolwg, nerth yr Arglwydd;" *adn.* 17. Ac ar hyn, efe a lywyddodd am faddeuant iddynt.

Cymhwysiad y pwnc a ddaw i mewn yn nesaf; sef,

PENNOD IV.

Am ymarfer ein ffydd ar hollalluog nerth Duw, megys wedi ymrwymo er ein cymhorth.

Athr. ΜΑΙ dyledswydd y saint yw, a'u gofal a ddylai fod, nid yn unig credu hollalluogrwydd Duw, ond hefyd credu yn gadarn fod y nerth hollalluog hwn o eiddo Duw yn eiddynt hwy, sef wedi ymrwymo i'w hamddiffyn a'u cymhorth, fel ag y byddo iddynt ei ddefnyddio ym mhob bwlech a phroffedig-aeth.

DOSB. I.

1. Mi a brofaf fod nerth hollalluog Duw wedi ymrwymo er amddiffyn y Cristion; ynghyd â seiliau hyny. 2. Pa ham y dylai y Cristion ymarfer ei ffydd ar hyn.

1. Y mae nerth hollalluog Duw yn rhwym er amddiffyniad y saint. Duw a ddug Israel allan o'r Aipht â llaw uchel; ond, wedi iddo eu gosod ar eu traed yr ochr arall i'r Môr Coch, a adawodd efe iddynt hwy chwilio ac ymladd eu ffordd i Ganaan, trwy eu medr a'u grym eu hunain? Wedi iddo agoryd pyrth haiarn tŷ eu caethiwed, a'u dwyn i faes amlwg, a ddfianodd efe, fel yr angel oddi wrth Pedr, ar ol ei ddwyn o'r carchar? Naddo: "fel y dwg gŵr ei fab," felly y dygodd Duw hwythau, yn "yr holl ffordd a gerddasant;" *Deut.* i. 31. Y mae hyn yn gynllun bywiog o daith y saint i'r nefoedd. Duw sydd yn dwyn enaid allan o'r Aipht ysbrydol trwy ei ras achubol. Dydd ei nerth ef yw hwnw, yn mha un y gwna efe yr enaid yn ewyllysgar i ddyfod allan o grafangau Satan. Yn awr, tra y mae y sant ar ei daith, y mae yr holl wlad yn codi i'w erbyn. Pa fodd yr ä y creadur

truan hwn heibio i'r gwaewffyn, ac yn ddi-angol trwy gyfliniau ei holl clyniion? Duw ei hun sydd yn ei orchuddio â braich ei dragwyddol nerth. Trwy allu Duw yr ydym yn gadwedig, "trwy ffydd i iachawdwriaeth;" 1 *Pedr* i. 5. Gallu Duw ydyw yr ysgwydd hono ar ba un y dwg Crist ei ddafad adref, dan lawenhau ar hyd ei holl ffordd: *Luc* xv. 5. Breichiau tragwyddol ei nerth ef yw yr adenydd cryrod hyny (*Exod.* xix. 4), ar y rhai y dygir y saint yn dyner a diogel hefyd i ogoniant. Y mae cwlmw neu rwymau pumplyg ar allu Duw i fod yn geidwad bywyd y saint.

1af. Y berthynas agos sy rhyngddo a'i saint. Ei blant anwyl ef ei hun ydynt; ac y mae gofal gan bawm am yr eiddo. Ie, yr iâr ffol, rhyfedd yw ei chyffro a'i hymgynhyrfaid i gasglu ei chywion dan ei hadenydd pan fo'r bareut yn y golwg! Nid oes ofal cyffelyb i hwnw a fâg natur. Pa faint mwy y bydd i Dduw, sy'n dad i'r cyfryw duedd-iaid yn ei creadur, arfer ei holl nerth i amddiffyn ei blant? Dywedodd, "Diau fy mhobl ydynt hwy; felly efe a aeth yn iachawdw'r iddynt;" *Esa* lxiii. 8. Fel pe dywedasai Duw, A eisteddaf i'n f'm llaw yn fy mynwes, a'm pobl i fy hun yn cael cam fel hyn o flaen fy llygaid? Nis gallaf ei oddef. Y mae'r faan, wrth eistedd yn ei thŷ, yn clywed gwaedd; i'a lefa allan, O! fy mhlent-yn ydyw!—a heif a cwbl ymaith, gan redeg ato. Fel hyn yr ymgynhyrfa Duw wrth gri ei blant: "Clywais Ephraim yn cwyntan, medd yr Arglwydd;" *Ier*. xxxi. 18. Yr oedd ei gŵyn yn cyrhaedd ei glust ef, a'i glyw ef yn cynnhyrfu ei ymysgaroedd, a'i ymysgaroedd yn galw ar ei holl nerth i'w achub.

(2il.) Y mae'r mawr gariad sy ganddo at ei saint yn peri bod ei allu o'u tu. Yr hwn y mae ganddo galon Duw, ni chaiff fod heb ei fraich hefyd. Y mae cariad yn y creadur yn llywio pob serch arall—yn gosod y cwbl o alluoedd y dyn ar waith. Fel hyn, yn Nuw, mae cariad yn gosod ei briodoliaethau oll ar waith. Pan y bu i Dduw unwaith fwriadu gwneuthur lles i ddydd colledig, dyna ei ddoethineb ar waith yn llunio'r ffordd, a'i nerth hollalluog yn ymroddi i godi'r adeilad, yn ol cyfarwyddyd doethineb;—oll yn barod i ddwyn i ben yr hyn y dywed Duw fod ei hoffler arno. Yn awr y mae'r credadyn yn wrthddrych ei gariad anwylaf, ie, yr cariad "â'r hwn y carodd efe ei Fab;" *Ioan* xvii. 26.

1. Y mae Duw yn caru y credadyn fel ffurth bru ei gynghor tragwyddol. Pan gredo enaid, yna y mae arfaeth a chynghor tragwyddol Duw yn esgor mewn perthynas iddo ef, yr hwn y bu iddo ei ethol yng Nghrist er cyn seiliad y byd, ac y bu ei fryd cyhyd yn feichiog arno. A pha fath gariad sy raid ei fod gan Dduw at y creadur hwnw

a ddygodd efe clyd yng nghroth ei arfaeth dragwyddol? Ni chafodd yr adeilad hardd hon, o nef a daear, ei chyfodi ond fel esgylawr (*stage*) ar ba un y byddai iddo ef arddangos mewn amser yr hyn a arfaethodd yn y nef er cyn amser, mewn perthynas i dy achubiaeth di a'r praidd bychan etholedig. Ac am hyny, yn ol yr un radd o hyfrydwech ag oedd gan Dduw er bodddhâd a llawenychiad iddo ei hun, yn y bwriad am hyn cyn bod y byd, y mae'n rhaid ei fod gyda chariad a bodddhâd annirnadwy yn llawenyachu uwch ben yr enaid sydd yn awr yn credu. Ac wedi i Dduw ddwyn ei gynghor yn mlaen mor bell a hyn tuag at ei orpheniad, yn sier efe a rydd ei holl rym ar waith, yn hytrach na chael ei siomi am ei ogoniant o fewn ychydig gamrau i ben ei daith, neu i gwblhâd ei fwriad yn iachawdwriaeth y credadyn. Yr Arglwydd, yr hwn a ddewisodd ei saint, efe—yn ol gweddi Crist dros Iosua, eu cynnrychiolwr—a gerydda Satan a'u gelyniion ol: *Zech*. iii. 2.

2. Y mae Duw yn caru ei saint, fel pwr-cas gwaed ei Fab. Y maent yn costio yn ddrud iddo ef: a'r hyn a gafwyd mor anhawdd, nid yn hawdd ei collir. A'r hwr oedd yn foddolawu i wario gwaed ei Fab er eu hennill, ni naca ei allu i'w cadw.

3. Y mae Duw yn caru ei saint o herwydd eu tebygrwydd iddo ei hun; fel, os câr efe ei hun, ni all efe lai na charu ei wedd ef ynddynt hwy. Ac fel y mae'n caru ei wedd ei hun ynddynt hwy, felly y mae'n amddiffyn ei hun wrth eu hamddiffyn hwy. Pa beth yn y sant sydd yn cynnhyrfu uffern, ond delw Duw? oni b'ai hon, darfyddai y rhyfel yn fuan. Gan rym y casineb sydd yn y panther at ddydd, efe a naid at lun dyn. "Er dy fwyn dy hun y'n lleddir beunydd;" *Salm* xlv. 22. Ac os eiddo Duw yw'r eweryl, yn ddiaid ni chaiff y sant ddim myned i'r rhyfel ar ei gôst ei hun.

(3ydd.) Y mae'r cyfammod yn ymrwymiad am nerth hollalluog Duw. "Myfi yw Duw Hollalluog, rhodia ger fy mron i;" *Gen*. xvii. 1. Y mae cynghair er niweidiad ac amddiffyniad rhwng Duw a'i saint; y mae'n ei roddi oddi tan ei law, a bydd holl rym ei Dduwdod ar waith drostynt. "Arglwydd y lluoedd, Duw Israel, sy Dduw i Israel;" 1 *Cron*. xvii. 24. Nid ydyw Duw yn ei ranu ei hun yn fan ddarnau, ond yn caniatu i'w saint ddadleu hawl yn mha beth bynag a fedd y Dduwdod, fel eu heiddo eu hunain; ac eisteddedd hwnw, pwy bynag fyddo, ar orsedd Duw, a dyged ymaith ei goron, a fedro brofi dim anwiredd ar yr un Sanctaidd. Megys y mae ei enw, felly mae ei natur—Duw yn eadw cyfammod yn dragwyddol. Y mae'r addewidion yn sefyll fel y mynyddoedd o amgylch Ierusalem, heb fodd i'w syflyd; ac y mae'r Cristion gwan, yn gystal a'r cryf, o fewn i'r muriau cyffredin

hyn. Pe byddai'r saint i ymladd ar y maes agored yng ngrwm eu gras eu hunain, yna, byddai y cryf yn fwy tebygol i sefyll, a'r gwan i syrthio yn y frwydr; ond y ddau wedi eu castellu yn y cyfammod, y maent yn ddiogel fel eu gilydd.

(4ydd.) Y mae ymorphwysiad y saint ar Dduw, a'u disgwyliad wrtho yn eu holl gyfyngderau, yn galw am ei nerth i'w cynnorthwyo. I ba le yr â enaid grasol mewn unrhyw ddiffyg, neu berygl, oddi wrth bechod, Satan, neu ei offerynau, ond at ei Dduw mor naturiol a'r cwningen i'w thwll? "Y dydd yr ofnwyf, mi a ymddiriedaf ynot ti," medd Dafydd; *Salm* lvi. 3. Wrth Dduw y mae'n dywedyd, y gwna efe yn hyf i droi i mewn i'w dŷ ef pan ddelo ystorn arno; ac nid yw efe yn ammheu ei groesaw. Felly pan oedd Saul yn ei hela, efe a adawodd ddinas â phyrth a barau iddi, i ymddiried yn Nuw ar faes agored. Yn wir fe ddygsir yr un wers i'r saint oll, i ymwrthod â'u nerth eu hunain, a phwyso ar nerth Duw—â'u synwyr eu hunain, i ymddiried yn nôethineb Duw—â'u cyfiawnder eu hunain, i ddisgwyl y cwbl oddi wrth rad drugaredd Duw yng Nghrist: a gweithred o fydd yw hon, mor foddhaol gan Dduw, fel na waradwyddir y cyfryw enaid yn dragwydd. "Gobaith y trueniaid ni chollir bydd," *Salm* ix. 18. Gallai pagan ddywedyd, pan hedodd aderyn i'w fynwes, wedi ei ddychrynu gan walch—Ni thraddodaf fi mo honot i'th elyn, gan i't' ddyfod ataf am nodded! Pa faint llai y rhydd Duw i law ei elyn yr enaid a wna ei ymguddfa yn ei enw ef, gan ddywedyd, "O Arglwydd! y mae'r cyfryw brofedigaeth yn fy hela, y cyfryw chwant yn fy nilyn; naill ai y mae yn rhaid i ti ei faddeu, neu fe'm demnir—i ti ei farwhau, neu i mi fod yn gaethwas iddo. Cymmer fi i fynwes dy gariad er mwyn Crist; castella fi ym mrechiau dy dragwyddol allu. Y mae yn dy allu di fy achub rhag, neu fy rhoddi yn llaw fy ngelyn. Nid oes genyf hyder ynof fy hun na neb arall. I'th ddwyllaw di y gorchymynaf fy achos a'm bywyd; arnat ti yr wyf yn pwysu." Y cyfryw ymorphwysiad enaid, yn ddiammheu, a gyfyd nerth Hollalluogrwydd i amddiffyn yr enaid hwnw. Y mae Duw wedi tyngu y llw mwyaf a all ddyfod o'i enau bendigedig, sef, *iddo ei hun*, y bydd i'r rhai a ffoant i gymmeryd gafael yn y gobaith hwn ynddo ef, "gael cysur cryf;" *Heb.* vi. 13, 18. Yn wir, fe all hyn fagu mwy o hyder fydd yn y Cristion, i ddisgwyl croesau tirion, pan elo at Dduw am nodded; o herwydd na all efe ddyfod cyn bod disgwyl am dano. Y mae Duw, heblaw gosod ei enw a'i addewidion i fyny, fel tŵr cadarn, yn galw ei bobl i'r ystafelloedd hyn, ac hefyd yn disgwyl am iddynt ddyfod i lechu ynddynt: *Esa.* xxvi. 20.

(5ed.) Y mae presennoldeb a gorchwyl

Crist yn y nef yn gosod rhwymedigaeth gref ar Dduw i ddwyn ei holl nerth i'r maes ar bob achos er amddiffyn i'w saint. Un diben arbenig o'i daith i'r nef, a'i arosiad yno, yw hyn—gallu o hono, fel dadleuwr y saint, fod bob amser yn eiriol am y cyfryw help a chynnorthwyo gan ei Dad ag y byddo eu hangenion hwy yn galw am danynt. Ac, i'n sierhau ni yn fwy am hyn, efe a fynegodd (megys) i ni, ar ba benau yr oedd yn meddwl sefyll, yn ei eiriolaeth, pan yr elai yno. Un o honynt yw hyn—ar i'w Dad gadw ei blant, tra y byddont yn y byd, rhag ei ddrwg: *Joan* xvii. 15. Ac nid yw Crist wedi cymmeryd y gwaith hwn o'i ben ei hun, ond yn ol ei appwyntiad iddo gan ei Dad, mewn golygiad ar yr hyn a ddyoddefodd efe ar y ddaiair, ac felly o ran ei eiriolaeth yn y nef. Yr hwn a'i hordeiniodd yn offeiriad i farw dros bechaduriaid, ni ddiogodd efe mo hono ar ol hyny o'i wisgoedd offeiriadol, megys Aaron; ond appwyntiodd iddo esgyn ynddynt i'r nef, lle y mae yn eistedd yn offeiriad yn dragwydd trwy lŵ Duw. Ac y mae y swydd hon o eiriolaeth wedi ei ffurfio mewn tosturi pur at gredinwyr, fel y caent hwy foddlonrwydd llawn am y cyflawniad o'r hyn oll a adawodd Duw. Felly, y mae Iesu Grist yn sefyll at ei neges, yn y llys, fel ein cenadwr ni, i edrych am i'r cwbl gael ei ddwyn ym mlaen yn deg rhwng Duw a ninnau, yn ol y cytundeb. Ac os bydd i Grist ddilyn ei orchwyl yn ddyfal, a bod yn fydddlawn i gredinwyr yn ei le, y mae pob peth yn dda. Ac onid yw'n gofyn iddo fod felly, gan ei fod yn erfyn dros berthynasau mor anwyl? Bwriwch fod mab i frenin yn diange o ddinas warchaedig, gan adael yno ei wraig a'i blant sy mor anwyl ganddo a'i enaid ei hun; a'r rhai'n oll yn barod i farw trwy gleddyf neu newyn, oni ragflaena cynnorthwy; a allai y tywysog hwn, ar ol cyrhaedd tŷ ei dad, ym-foddloni ar hyfrydwch y llŷs, ac anghofio cyfyngder ei deulu? Neu ynte, yn hytrach, onid elai efe ar frys at ei dad—â'u cri a'u hocheneidiau hwynt o hyd yn ei glustiau—gan ddwyn eu neges hwynt o'i flaen cyn bwyta nac yfed, ac erfyn ar iddo, os carodd ef erioed, i anfon holl rym ei deyrnas i godi'r gwarchae, yn hytrach na bod i un o'i berthynasau drengu? Ha wŷr! sier yw, er fod Crist yn uchder ei ddyrchafiad, ac allan o'r ystorn o ran ei berson ei hun, etto y mae ei blant, a adawyd yng nghanol pechodau a churfeydd Satan a'r byd, o fewn ei galon; ac ni chânt eu hanghofio ganddo am un foment. Yr oedd ei ofal yn ein gorchwyl ni i'w weled yn anfoniad ebrwydd ei Ysbryd, er cynnorthwy i'w apostolion ar ol ei esgyniad. Efe a'i danfonodd yn fuan iawn ar ol ei eisteddiad ar ddeheulaw ei Dad, er cysur digymhar i'w apostolion a ninnau; y rhai, hyd y dydd hwn, i'e,

ac hyd ddiwedd y byd, ydym yn credu, neu a gredant ynddo.

DOSE. II.

Y mae yr ail gangen o'r pwnc yn canlyn:—y dylai credinwyr fod yn edrych ar y nerth hwn o eiddo Duw megys yn rhwym o'u plaid, a'i wasgu adref at eu heneidiau, nes dystewi eu holl amnheuan a'u hofnau yng nghyleh y mater; hyny yw, cynnwysiad y cynghor hwn: "Ymnerthwch yn yr Argwlydd, ac yng nghadernid ei allu ef." Cadarnhewch a chastellwch eich eneidiau o fewn muriau y briodoledd hon—galluog nerth Duw—a wnaed yn eiddo i chwí gan Dduw ei hun.

Iaf, Fel mai dyben pob addewid yw bod er sierhad i'n ffydd, felly yn neillduol y rhai hyny yn mhia rai y mae ei hollalluog nerth ef yn benodol rwymedig; fel y gallom gyfrif y briodoledd hon yn gynnysgaeth i ni, a medi o'i ffrwyth cysurol, mor rydd ag y meda dyn gnwd ei faes ei hun. "Rhodia ger fy mron i," medd Duw wrth Abraham, "myfi yw Duw Hollalluog: ymafla yn hyn fel dy gyfran, a bydd fyw arno." Y mae yr apostol (*Heb. xiii. 6*) yn ein dysgu pa fodd i ddefnyddio addewidion: "Ni'th roddaf di i fyny, ac ni'th lwy'r adawaf chwaith;" *adn. 5*—dyna yr addewid: a'r casgliad a ddyysg efe i ni dynu o honi trwy ffydd yw, yr hyn a ganlyn:—"Fel y gallom ddywedyd yn hyf, yr Argwlydd sydd gymhorth i mi," *adn. 6*. Fel y gallom ni; hyny yw, pob credadyn, ddywedyd yn hyf, sef penderfynu y gwna Duw gymhorth; nid dan lechian ac ofni. Ysgatfydd y gwna; ond ni a allwn ei wirio yn hyf yng ngwyneb dynion a diaffiaid, am mai yr Hollalluog a'i dywedodd. Yn awr, i Gristion beidio cadarnhau ei ffydd ar y briodoledd hyfryd ddigymhar hon, ond eistedd i lawr gan obeithio yn egwan ac ansefydlog, pan y gallai, ie y dylai, fod yn gadarn yn y gred o'r cyfryw addewidion, pa beth yw, ond dibrisio bendith y cyfryw addewidion? Fel pe byddai i un addaw i ŵr dŷ a thir, gan erchi iddo ei sierhan iddo ei hun mor ddiogel ag y dichon y gyfraith rwymo, ac yntau heb ofalu am geisio y sierhad hwn; oni ddeonglid hyn fel distyrwch ar dirioudeb ei gyfaill? Ai mater bychan ydyw fod Duw yn trosglwyddo ei nerth hollalluog i ni trwy addewid, gan erchi i ni ei sierhan hyd yr eithaf i ni ein hunain trwy ffydd, a ninnau yn esgeuluso hyn, gan adael ysgrifeniadau yr addewidion heb eu selio ar ein calonau?

2il. Y mae ein hufudd-dod a'n ffydd yn gryf, neu yn wan, fel y mae ein ffydd ar y sylfaen hon.

(Iaf.) Ein hufudd-dod. Gan mai pientyn ffydd ydyw, y mae'n gyfranog o nerth neu wendid ei wreiddyn. Abraham yn gadaru mewn ffydd, y fath weithred ardderchog o

ufudd-dod a gyflawnodd efe wrth offrynnu ei fab! Gan fod ei ffydd wedi ei hiawn osod ar allu Duw, y mae'n sefyll heb ysgog, dan faich a dafasai ffydd wan i lawr. Nid oes un weithred o ffydd sy'n cryfhau yn fwy at ddyledswydd, na hono sy'n golygu hollalluog nerth Duw yn rhwym i'w chymorthwyo. "Dos yn dy rymusdra yma," meddai Duw wrth Gideon, "oni anfonais i dyd?" *Barn. vi. 14*. Fel pe dywedasai, "Oni allaf fi, oni waaf fi dy ddwyn i trwy dy waith? Aeth Gideon ymaith dan gredu hyn, ac efe a wnaeth yn rhyfeddol. Hyn a ddygodd Abraham gyfiawn o'r dwyrain at droed Duw: er na wyddai i ba le, eto efe a wyddai gyda plwy yr oedd yn myned—Duw Hollalluog! Ond cymmerwch enaid heb ei berswadio o hyn, mor anwastad ac ansefydlog yw efe yn ei yrfa o ufudd-dod! Y mae pob bygythiad gan ddyn, os dyn o allu, yn ei frawychu, am nad yw ei ffydd wedi ei sefydlu ar yr Hollalluog. O herwydd hyny efe a dry heibio ddyledswydd weithiau, i gydymweddau â dyn, ac a draddoda ei hyder i law creadur gwael; am fod ganddo lygaid cnawdol i weled gallu dyn, a'i fod yn fyrru lygaid ysbrydol i weled Duw yn gefn iddo, i'w noddi a'i nerth hollalluog. Pe byddai ei lygaid yn agored i ganfod hwn, nis gyddid ef fel hyn i'w fioi yn ei feddybiau ar ddynesad creadur dirym. "A ffy' gwr o'm bath i?" medd Nehemiah ddaionus: *Neh. vi. 11*. Yr oedd newydd ddyfod oddi wrth orsedd gras, lle y buasai yn galw am help yr Hollalluog: "Cryfha, O Dduw! fy nwyhaw i;" *adn. 9*. Ac yn awr y mae yn ddiau yn dewis marw yn y fan, yn hytrach na dianrhwydeddu ei Dduw trwy enciliad gwaradwyddus.

(2il.) Y mae cysur y Cristion ar gynydd neu ar gil, fel y byddo golygiad ei ffydd ar allu Duw. Os yr enaid a amhnen hwn, neu ei hawl ynddo, dyna ei gysur yn rhedeg allan fel gwaed o wythien agored. Y mae yn wir y dichon enaid ymgropian i'r nef gyda llawn waith, trwy ffydd wan y gobwysiad, gan ymddibynn ar Dduw fel un a ddichon achub, heb yr hyder cryf hwn am ei hawl yn Nuw. Ond y mae y cyfryw enaid yn myned heb fod ganddo ond ystlys-wynt prin, neu yn debyg i long a'i hwyllbrenau ar ei bwrdd mewn perygl gan wynt a thywydd, oni lusgid hi yn mlaen ac i'w canlyn gan ereill sydd yn well eu trefn. Llauer o ofnau, fel tonan ar ol en gilydd, a orchuddiant y cyfryw enaid, hyd onid yw yn fwy oddi tan y dwfr nag uwchlaw iddo: ond un a welo ei hun wedi ei gau o fewn breichiau nerth hollalluog, O! fel yr ä y cyfryw enaid yn gyflym o flaen y gwynt, a'i hwylliau wedi eu llenwi gan orfol-eidd a heddwch! Deued cystnddau, coded ystormydd, y mae yr enaid dedwydd hwn yn gwybod pa le y caiff dirio a'i groesawn. Enw Duw yw ei borthladd: yno y mae yn troi i mewn, mor hyf a gwr yn troi i mewn i'w dŷ

ei hun, pan fyddo cawod yn ei ddal. Y mae yn clywed Duw yn ei alw i mewn i'r naill a'r llall o'i bridoliaethau, megys ystafelloedd; "Tyred, fy mhobl, dos i'w ystafelloedd;" *Esa.* xxvi. 20. Y mae Duw yn eu galw yn eiddo y Cristion; a gwylder ffol fyddai peidio arddel yr hyn y mae Duw yn ei roddi: "Yn ddiaw yn yr Arglwydd (medd un) y mae i mi gyfiawnder a nerth;" *Esa.* xlv. 24. Hyn yw, y mae i mi gyfiawnder yn nghyfiawnder Duw, a nerth yn ei nerth ef. Felly, yn y golygiad hwn, nid oes i Grist ddyweyd mai ei eiddo ei hun yw ei nerth, ac nid eiddo y credadyn, ddim mwy nag y mae i'r gŵr ddyweyd, Eiddo fi ydyw fy nghorff, ac nid eiddo fy ngwraig. Fe all enaid wedi ei berswadio o hyn ganu yn llon â'r ddraen lymaf wrth ei ddwyfron: "Parod yw fy nghalon, O Dduw, parod yw fy nghalon: canaf a chanmolaf;" *Salm* lvii. 7. Pa beth sydd yn ei wneyd mor llon mewn lle mor drymllyd a'r ogof, lle yr oedd y pryd hyn? Efe a ddywed yn y wers gyntaf, lle y cawn ef yn ymochel tan gysgod adenydd Duw hollalluog; ac erbyn hyn, da y gallai efe ganu gofal ac ofn ymaith. Gall enaid â'r ddarpariaeth hon ganddo orwedd yn esmwyth ar wely caled. Ai nid ydych yn meddwl fod y rhai sydd yn byw ar bont Llundain yn cysgu mor dda a'r rhai sydd yn byw yn heolydd goreu y ddinas, gan wybod nas gall y tonau sydd yn rhuo danynt mo'u niweidio? Felly hefyd y dicheon y saint orphwys yn dawel uwch ben llifeiriant angeu ei hun, heb ofni dim niwed.

DOSE. III.

Defn. 1. A ydyw nerth hollalluog Duw yn rhwym er amddiffyniad y saint? Yn sicr ynte caiff gelynyon y saint dynu caled wrth ymdrechu â hwynt, y rhai sydd mor bell uwch law eu nerth. Yr oedd y diafol mor gyfrwys, fel y mynai gael Job allan o'i glawdd, a'i gael i lawr, cyn dechreu arno; ond y mae dynion mor amhwylyllog hyd onid ydynt am frwydro â'r saint, er eu cychwynu gan nerth hollalluog Duw. Mor ffol fyddai cynnyg ar neu eistedd o flaen dinas nad oes modd i warchau arni, fel ag i gadw cynnorthwy heb fyned iddi! Y ffordd i'r nef, nis gellir ei chau. Yn y gwarchau cyfyngaf ar yr eglwys, y mae afon a lawenha y ddinas hon o eiddo Duw, â chymhorth mewn pryd o'r nef: *Salm* xlv. O Dduw y mae holl ffynnonau y saint; ac y mae mor hawdd i ddyng gwael attal ffrydiau dwfr y cymylau, ag ydyw argau y ffrydiau hyn sydd yn llofi yn anweledig, fel gwythienau dwfr yn y ddaear, o ffynnon ei drugaredd ef i fynwes ei bobl. Tybiodd yr Aiphtiaid eu bod wedi dal yr Israelaïd mewn magl pa eu gwelsant yn teithio i'r fath gongl ar fin y môr. Rhwystrwyd hwynt, rhwystrwyd hwynt: ac yn ddiaw felly y darfuasai tu hwnt i adferiad, oni buasai fod y nerth hollalluog oedd yn eu tywys wedi

ymrwymo i'w dwyn ymaith mewn bri a diogelwch. Wel, wedi eu dyfod o'r perygl hwn, dyna hwy mewn anialwch lle nad oedd dim i'w gael i fol na chefn; ac eto, yno y bu raid iddynt fyw am ddeugain mlynedd, heb alwad na llafurio, ac heb gardata na lladrata oddi ar neb o'r bobloedd o'u hamgylch: ni chaent fod yn rhwymedig iddynt am geiniog ar eu ffordd. Pa beth na all nerth hollalluog ei wneyd i ddarpar i'w bobl? A pheth na all ei wneuthur er eu hamddiffyn yn erbyn grym a lid eu gelynyon? Nerth hollalluog a safodd rhwng yr Israelaïd a'r Aiphtiaid; fel nas gallai y trueniaid gymmaint a chael golwg ar eu gelynyon. Cododd Duw gwmwl tywyll fel gorchudd o'u blaen hwy; a thrwy yr holl amser, yr oedd ei lygad ef trwy y cwmwl, yn eu hedrych hwynt i annhrefn a therfysg. Ac a yw yr Hollalluog yn wanach y dyddiau hyn, neu ei elynion yn gryfach, fel y gallant addaw iddynt eu hunain llyddiant gwel? Nac ydyw, y naill na'r llall; ond y mae dynion yn ddallach na gelynyon y saint gynt: hwy a fföent weithiau ar ymddangosiad Duw ym mhilith ei bobl, dan lefain, "Ffown, o blegid y mae yr Arglwydd yn ymladd drostyt." Ond yn y dyddiau hyn, y mae llawer a roddant y bri am eu dymchweliad i Satan ei hun, yn hytrach na chydabod Duw yn y gorchwyl; yn fwy parod i ddywedyd bod y diafol, na bod Duw, yn ymladd i'w herbyn. O! chwi sydd eto heb wisgo ymaith yr argraffiadau a wnaeth hollalluog nerth Duw ryw amser ar eich ysbrydoedd, gwyliwch rhag bod dim a wneloch â'r genedlaeth hon o ddynion, pwy bynag fyddont. Na ddeuwch yn agos i'w pabell; na fwriwch goelbren ym mysg y rhai sydd yn elynion i saint y Goruchaf, o herwydd dynion ar fin distryw ydynt. Y mae gan Dduw y fath gariad at ei saint, fel mai hawdd yw ganddo roddi cenedloedd er eu rhyddhad. Rhwygodd groth yr Aipht i achub bywyd Israel, ei blentyn: *Esa.* xliii. 3.

Defn. 2. Y mae hyn yn dangos eich cyflwr athrist ac alaethus chwi oll, y rhai ydych eto heb Grist. Chwi a welsoch fŵn-glawdd cyfoethog wedi ei agor; ond nid oes geiniog o'r trysor hwn yn dyfod i'ch rhan chwi; gwirionedd yn llwythog o ddyddanwech digymhar, ond y mae yn rhwym i oror arall; y mae yn perthyn i'r saint; ac i'w mynwsau hwy y gwna y gwirionedd—y llong hon—ddilwytho ei holl ddyddanwech. Gwelwch Dduw yn cau y drws arnoch chwi, wrth osod ei blant i wleda da y cyfryw ddanteithion. "Fy ngweision a fwyntant, a chwithau a newynwch; wele fy ngweision a yfant, a chwithau a sychedwch;" *Esa.* lxx. 13. Mae gan Dduw ei nifer gosodedig, y rhai y darpar efeiddynt. Efe a wŷr pa sawl un sydd ganddo yn ei deulu; y rhai hyn, a neb yn rhagor, a gânt eistedd i lawr. Un brif ddysglad ar fwrdd y saint yw hollalluog nerth Duw: gosodwyd

hon o flaen Abraham; ac y mae yn aros o flaen yr holl saint, fel y bwytaont o honi hyd eu digonedd o ddyddanwch: a thithau a newyni. Mae efe yn hollalluog i faddeu; ond ni ddefnyddia efe hyn i ti, yr hwn wyt yn bechadur anedifeiriol. Nid oes genyt ti un cyfaill ar y fainc; ni wna un briodoledd yn holl enw Duw ddadlue drosot ti: trugaredd ei hun a eistedd, ac a rydd ei llais, gyda priodoliaethau ereill, er dy ddamnedigaeth di. Mae Duw yn alluog i achub a chymhorth mewn angen; ond ar pa gydnabyddiaeth ág ef yr wyt ti mor hyf arno, a dysgwyl y rhydd efe ei fraich achubol yn estynedig drosot ti? Er y cyfyd dyn gamol nos i ollwng i mewn blentyn a fyddo yn llefain ac yn curo wrth y drws, etto nid á efe i'r fath boen dros gi a fyddai yn udo ymo. Y mae hyn yn ddarlun digon alaethusam dy gyflwr di, bechadur: etto, nid yw ond y gwirionedd llyfnaf am danat; o herwydd y mae yr un nerth hollalluog ag sydd wedi ymrwymo er iachawdwriaeth y credadyn, wedi ymrwymo mor ddwys hefyd er dienydd a damnedigaeth i ti. Pa ymrwymiad mwy na llw? Y mae Duw ei hun dan lw i fod yn ddinystri i bob enaid anedifeiriol. Mae y llw hwnw a dyngodd Duw yn ei lid yn erbyn yr Israeliaid anghrediniol—na chaent fyned i mewn i'w orphwysfa ef—yn perthyn i bob anghredadur hyd ddiwedd y byd. Yn enw Duw, ystyria! pe ni byddai ond llw dyn, neu dorf o ddynion, fel y rhai hyn yn yr *Actau* (*pen.* xxiii. 12, 13), yn tyngu i ladd y cyfryw un, a thydi i fod y dyn, oni lanwai hyn di ág ofn a braw nos a dydd! Oni ddygai hyn gysur dy fywyd nes eu cael hwynt yn heddychol? A pha beth ynte y sechwyd clustogau y bobl a fedrant gysgu mor swrth, heb fraw na dychryn, er dywedyd wrthynt fod yr Hollalluog Dduw dan lw i'w damnio, gyrrif ac eneidiau, oni ragflaena edifeirwch! O! ystyriwch bechaduriaid! a ydyw yn ddoethineb neu wroldeb i wrthod cynnygion o drugaredd ar law Duw, yr hwn y bydd i'w nerth hollalluog, os gwrthodir hwy, eich dwyn yn fuan i ddwyllaw cyfiawnder! A pha mor ofnadwy o beth yw syrthio yn nwyllaw Duw Hollalluog! nid oes gan y rhai sy'n teimlo ei bwys dafod a ddichon adrodd hyny.

Defn. 3. Mae hyn yn llefaru wrthy chwi, sy'n saint yn wir. Ymnerthwch yn y gred o'r gwirionedd hwn. Gwnewch hwn yn bwne o'ch credo. A'r un gred ag yr wyt yn credu fod Duw, cred hefyd fod y Duw hwn, á'i nerth hollalluog, yn gyfaill sier i ti; ac yna, defnyddia hyn i' th fantais oreu. Megys,

1. Mewn gwasgfeuon cydwybod, sydd yn codi oddi wrth fawredd dy bechod, ffo i gael noddfa yn hollalluog nerth Duw. Yn ddiâu, pan fyddo pechodau yn cael eu taenu o flaen dyn yn eu lliwiau gwaedlyd, a'u dangos gyda'u chwaneigiadau angeuol, a llygad cydwybod yn eu canfod trwy ddrych mwyhaol

profedigaeth, y mae yn rhaid iddynt beri i'r creadur synu gan fraw a dychryn, hyd oni allo yr enaid ddywedyd gyda'r prophwyd, er y llu dirfawr hwn, "Y mae etto fwy gyda mi nag sydd yn fy erbyn." Y mae un hollalluog yn fwy na galluogion lawer. Ni wna yr holl bechodau a'r diafiadid galluog hyn yr un pechod yn hollalluog, na diafol hollalluog. Gosod yr un briodoledd hon yn wnebe yr holl gyhuddiadau a ddygir ganddynt hwy i' th erbyn. Megys pan oedd Ysphaenwr balch yn adrodd rhes o deitlau ei feistr, y darfu i'r cenadwr Ffrengig roi taw arno ág un teitl, yr hwn oedd yn boddi'r cwbl. Mae Duw ei hun (*yn Hos.* xi. 9), ar ol mwyhaol pechodau ei bobl i'r eithaf, yna i ddangos pa beth a all Duw ei wneuthur, yn tori allan i addewid felus; "Ni chyflawnaf angerdd fy lliid."—a pha ham! "Duw ydyw fy, ac nid dyn." "Mi a ddangosaf hollalluogrwydd fy nhrugaredd." Rhywbeth yn debyg i'n dywedial cyffredin, pan darawo plentyn neu wraig i'—Dyu wyf, ac nid plentyn, neu wraig; am hyny, ni tharawaf fi yn ol. Y mae'r ystyriaeth o hyn, fod Duw yn Dduw, yn bwrw ei fod yn hollalluog i faddeu cystal ag i ddial; ac y mae hyn yn beth cysur. Ond drachefni, ystyried fod ei nerth hollalluog yn rhwyu mewn cyfammod i faddeu; mae hyn yn fyw. Fel na ddichon neb rwyo Duw, ond efe ei hun, felly ni ddichon neb dori yr ymrwymiad a wna efe. Ac onid ei eiriau ef yw, y gwna efe "arbed yn helaeth?" *Esa.* lv. 7. Efe a aniba faddeu; fel pe dywedasai, Mi a ddefnyddia drugaredd gyda'ch pechod chwi, ac a dreuliaf y cwbl a feddaf yn hytrach na rhoi lle i neb ddywedyd fod fy naioni i yn cael ei orelygu gan eich drygioni chwi. Y mae ar yr enaid grasol yn yr achos, megys ar flaenor a roddai ei gastell i fyny ar ammodau tirion, er cael arbed ei fywyd, a'i ddwyn yn ddiogel i'w dy, i drigfanu yno mewn heddwch, yn ei dir a'i feddiant; ac am hyn oll y mae ganddo law a sêl y pen-llueddwr. Ar hyn, y mae yn teithio ymaith; ond y mae y milwyr anfoesol yn rhuthro arno, ac yn ei roi mewn ofn am ei fywyd: yntau a apelia at y pen-llueddwr, anrhydedd yr hwn sydd yn awr yn rhwym o'i blaid: rhoddir iddo help yn ddioced, a'i elynion a gospir. Enaid tlawd, pan fyddo Satan yn dy gyhuddo ac yn dy siino á'i ddychrynfeydd, ti a elli ddywedyd, Duw yw yr hwn sydd yn cyfiawnhau; y mae genyf ei law wrth hyn; ac y cawn fy mywyd yn rhodd, wrth roddi fy arfau i lawr, ac ymostwng iddo ef:—a hyn yr wyf yn dymuno ei wneyd. Wele byrth fy nghalon yn agored, i ollwng Tywysog tangnefedd i mewn; ac onid yw yr Hollalluog yn alluog i gyfiawni ei addewid? Yr wyf yn gorchymyn fy hun iddo ef, megys i Greawdwr ffyddlawn.

2. Defnyddia yr hollalluog nerth hwn o

eiddo Duw, a dy hawl ynddo, pan y'th demt-ier i bechod, pan y'th orchfyger, a phan fyddech yn ffioi o flaen wyneb dy lygredd cryf, neu yn ofni y syrthi ryw ddydd trwyddo. Gwna yn hyf i gymmeryd gafael yn y briodoledd hon, ac ymnertha ynddi i wrthsefyll drachefn; a than ymladd, i gael buddugoliaeth arno mewn pryd. Mae yr Hollalluog Dduw yn sefyll o fewn golwg i ti, tra yr wyt yn ymladd yn y glân; ac nid yw yn aros ond am alwad oddi wrthyt pan fyddi yn dralodus yn y frwydr—ac yna efe a ddaw i'th achub. Iehosaphat a waeddodd, pan ydoedd yng nghanol torf o'i elynion, a bu yr Arglwydd yn borth iddo:—yn llawer mwy y gelli di ddisgwyl ei gymhorth yn ymladdfeidd dy enaid. Ffo at orsedd gras â'r addewid hon genyt, "Nid arglwyddiaetha pechod arnoch chwi," a chyn ei dadleu, i helpio dy fydd yn fwy, cysura dy hun â hyn, er nad yw y gair hwn, "hollalluog," yma yn llythyrenol, etto y mae yn gynnwysedig yn hon, a phob addewid; ti a elli, heb chwangegu iod at air Duw, ei ddarllen yn dy enaid. "Nid arglwyddiaetha pechod arnoch chwi," medd y Duw hollalluog; o blegid y mae hon, a'i holl briodoliaethau ef, yn sêl wastadol wrth ei holl addewidion. Yn awr, enaid, dyro dy hawl mewn cwyn heb amheue na ennilli; dyled yw, ac felly yn gyfiaw. Un abl yw yr un y mae dy hawl arno; ac felly nid oes i ti le i ofni colled am draul y gofyniad. A'r hwn a fu mor raslawn a'i rwymo ei hun pan oedd yn rhydd, a fydd mor fyddlawn i gyflawni, gan ei fod yn abl, ar ol ymrwymo. Yn unig, tra yr wyt ti yn disgwyl cyflawniad yr addewid, a chymhorth y nerth hollalluog hwn yn erbyn dy lygredigaethau, gwylia ar i ti ymgadw dan gysgod y briodoledd hon, ac ammod yr addewid hon: *Salm xci. 1.* Ni chysgoda y cysgod heb fod dano. Pa les a wna cysgod, te cysgod craig gadarn, tra yr eisteddod ni yng ngwres yr haul? A pha les bod nerth hollalluog yn rhwym drosom, a ninnau yn tafu ein hunain allan o'r nawdd trwy ruthro yn hyf i safn profedigaeth? Cwympiaidau y saint a fu pan redent hwy allan o'u lloches a'u ham-ddiffynfa: o, herwydd, fel y cwningod, nid ydynt bobl gryfion ynddynt eu hunain; y mae eu nerth hwynt yng nghraig hollalluog-rydd Duw:—yno y mae eu lloches.

3. Defnyddia hyn, Gristion, pan y byddo yn dy le a'th alwad bwys rhyw ddyledswydd neu waith yn gwasgu arnat. Yr wyt, fe allai, yn profi dyledswydd dy alwad yn rhy drom i'th ysgwyddau gweiniad; gwna yn hyf, trwy fydd, i osod pen trymaf dy faich ar ysgwydd Duw. Eiddot ti, os credadyn, ydyw hon, mor sicr ag y dichon Duw ei gwneyd trwy addewid. Pan fyddech ryw dro yn glaf o'th waith, ac ar feddwl, gydag Ionah, am redeg oddi wrtho, calonoga dy hun â geiriau Duw wrth Gideon, yr hwn a alw-

odd efe oddi wrth y ffust, i ddyrnu y mynyddoedd; "Dos yn dy rymusdra yma; a thi a waredi Israel o law y Midianiaid; oni anfonais i dydi?" *Barn. vi. 14.* Cwympa at y gwaith y gosododd Duw di arno, a thi a rwymi ei nerth o'th blaidd. Ffordd yr Arglwydd sydd gadernid. Rhed oddi wrth dy waith, a thi a rwymi nerth Duw i'th erbyn; efe a enfyn ryw ystorn neu gilydd ar dy ol, i ddwyn adref ei was a ddiangodd. Mor fynych y lladdwyd y llwfr-galon mewn ffos, neu dan ryw glawdd, pan y cafodd y milwr gwrol, as afodd ei dir ac a gadwodd ei le, ddiangfa mewn diogelwch ac anrhydedd! A alwyd ti i ddioddef? Na chilia yn ol o herwydd dy ofn na fyddi di byth yn abl i ddwyn y groes. Gall Duw ei gosod mor wastad fel na byddi yn ei theimlo. Er na phrofech di gymhorth hyd nes y delych at ddrws y carchar, ie hyd nes byddo un troed ar yr ysgol, neu dy wddf ar y boncyff, na wanobeithia: "Ym mynydd yr Arglwydd y gwelir," *Gen. xxii. 14.* Ac yn yr awr hono efe a all roddi i ti y fath olwg ar ei wedd dirion ag a bair i wedd anhygar angeu creulawn siriol a bod yn hawddgar yn dy olwg ei ei fwyn ef. Gall roi i ti gymmaint o gysur mewn llaw ag a bair i ti addef ei fod ym mlaen llaw gyda thi, er yr holl waradwydd a'r poen a elli di ei ddioddef drosto. Ac oni bydd iddo gyrhaedd i gymmaint a hyn, etto y mae cymmaint ag a ddwg yr holl draul y gellir dy roi di ynddi ar y ffordd yn drysor parod yn yr addewid hono, "Ffyddlawn yw Duw," &c.; *1 Cor. x. 13.* Fe'i telir ar y dangosiad cyntaf; ac fe all hyn foddioni Cristion, yn enwedig os ystyria, er nad yw efe yn dwyn gydag effo gymmaint o lawenydd y nef a rhai erill, etto efe a'i cyferfydd cyn gynted ag y delo i dŷ ei Dad, lle y mae yng nghadw iddo. Mewn gair, Gristion, pwysa ar dy Dduw, a gwna dy erfyniad beunydd wrth orsedd gras am nerth cynnorthwyol yn barhaus. Ychydig wyt yn ei feddwl mor garedig y cymmer efe dy fod yn gwneyd defnydd o hono: goreu po amlaf; a mwyaf y croesaw po mwyaf a ofyni. Pe amgen, pa ham y dywedasai Crist wrth ei ddysgyblion, "Hyd yn hyn ni ofynasoch ddim," ond i ddadgan ei galon helaeth yn rhoddi, fel yn anhawdd ganddo roddi ei law yn ei bwrs am ychydig? Ac am hyny y mae efe trwy fath o araethyddiaeth gyfeillgar yn eu cymhell i godi yn uwch yn eu gofyniad; fel Naaman, pan ofynodd Gehazi am un dalent, yn deisyf arno gymmeryd dwy. Y cyfryw galon haelionus sy gan Dduw: tra yr wyt ti yn gofyn ychydig dangnefedd a llawenydd, ei archiad ef ydyw, "Lleda dy safn, a mi a'i llanwaf;" *Salm lxxxi. 10.* Dos Gristion, a manwl-chwilia dy galon, o gongl bwygilydd; myn gael allan dy ddiffygion, a gwybodaeth am dy holl wendidau: gosod hwynt ger bron yr Hollalluog, fel y weddw ei llestri gweigion

o flaen y prophwyd. Pe byddai genyt fwy nag a eili eu cael, ti ellit gael llenwi y cwbl. Y mae gan Dduw ddiagon o allu i roddi; ond ni fedd efe rym i ballu. Yma (gyda phareh y dywedwyl) y mae yr Hollalluog ei hun yn wan. Mae hyd yn oed plentyu—y gwanaf yn ei deulu mewn gras—a allo ond dywedyd, “Fy Nhad,” yn abl i’w orchfygu. Am hyn, na fydded i wendid dy ffydd dy ddiagonaloni. Nid oes gynhelliad cryfach ar ymgaroedd trugaredd at gyffroi nerth yr Hollalluog i’th gynhorth, nag yw dy wendid di, pan ei dad-leuir yn y teimlad o hono. Y mae y wyneb llwyd a’r bochau tenenon, ni obeithiaf, yn llwyddo mwy gyda ni, nag iaith ffuantus cardotyn dewr ac ystyfnig. Felly yr enaid a ddel yn llwythog, yn y teimlad o wendid ei ffydd, ei gariad, a’i amynedd, mae ei wir wendid yn dwyn dadl gref i’w ganlyn am gynhorth.

PENNOD. V.

Lle yr atebir i wrthdadd arbennig, y gall rhai encidiau anghysurus ei chodi yn erbyn yr ymresymiad blaenorol.

Gwrthdadd. O! medd rhyw Gristion digalon, yr wyf fi wedi gweddio, drachefn a thrachefn, am nerth yn erbyn y cyfryw lygredd; ac hyd y dydd hwn y mae fy nwy-law yn weiniaid, a’r meibion Serfiaid hyn mor galed, nes yr wyf ar ddywedyd nad yw y pregethwr oll ond yn gwenieithio i mi, wrth dywallt eu holer o gysur ar fy mhen, a dywedyd wrthlyf y caf o’r diwedd y fuddugoliaeth ar fy ngelynion hyn, a gweled y dydd hyfryd yn mha un y bydd i mi gyda Dafydd ganu i’r Argwlydd am fy ngwaredu allan o ddwylaw fy holl elynion. Yr wyf wedi bod yn gweddio am nerth i’r cyfryw ddyledswydd, ac yn cael fy mod ynddi mor ddirym a marwaidd ag o’r blaen. Os yw Duw gyda mi, yn ei gadarn allu i’m cymhorth, pa ham y dygwyddodd hyn oll i mi?

Ateb. 1. Edrych unwaith etto, ddyu truan, i’th fynwes dy hun, a chwilia ai nid oes peth nerth wedi cael ei anfon i ti, a thithau hyd yn hyn heb graffu arno? Dichon hyn fod, i e, ac yn dra chyffredin, yn yr achos hwn; pan fyddo Duw yn ateb ein gweddi, nid yn ol y llythyren, neu gan anfon y peth ei hun, ond y byddo yn dyfod i’n ty trwy y drws cefn, a minnau yn ei ddisgwyl trwy y wyneb-ddôr. Ac yn ddiu yn y modd hwn, fe all y cyfaill yr wyt yn chwilio am dano fod yn dy ddy, a thithau heb wybod. Eraid tlawd, onid hyn yw dy gyflwr? Ti a fuost yn gweddio am nerth yn erbyn y cyfryw chwant, ac yn awr ti a fyynnit i Dduw yn ebrwydd estyn allan ei nerth, i’w daraw yn ei ben, a’i osod yn farw fel na chwa byth mwy ymgynhyrfu yn dy fynwes. Onid hwn yw y drws y buost yn disgwyl am i

Dduw ddyfod i mewn trwyddo; ac heb olwg na newydd fod dy Dduw yn dyfod yn y ffordd hon? Y mae dy lygredd etto yn fyw—fe allai yn fwy o flinder nag o’r blaen; ac yn awr, ti a ofyni, Pa le y mae’r nerth a addawyd i gynorthwyo? Gad i mi ddeisyfarnat cyn i ti dynu y penderfyniad athrist yn erbyn dy Dduw, nac i’th erbyn dy hun—edrych, ai nid yw efe wedi anfon i mewn beth nerth trwy ddrws arall? Ysgatfydd dy fod heb nerth i’w orchfygu mor fuan ag y dymunit; ond, ai ni roddodd efe i ti fwy o nerth erfyniol yn ei erbyn? Yr oedd o’r blaen yn gweddio; ond yn awr yn fwy taer—y mae holl alluoedd dy enaid ar waith yn dadleu â Duw. O’r blaen yr oedd yn fwy tyner a chlanolig yn dy erfyniad; yn awr, y mae genyt sel, ac ni fedri gymmeryd pall; i e, ti a groesawit unrhyw beth yn lle dy lygredd. Pe cymmerai Duw dy bechod ymaith, a danfon i ti groes, ti a’i bendithit ef. Yn awr, enaid tlawd, ai dim, ai dim nerth yw hyn? Oni buasai fod Duw yn dy adgryfhau di, buasai dy bechod wedi gwanhau ysbryd dy weddi, ac nid ei gynyddu. Yr oedd Dafydd yn dechreu ymadnewyddu pan ddechreuodd ail-gaffael ysbryd gweddi. Po cryfaf y eri, cryfaf y plentyn, ni warrantaf. Ymdrechodd Iacob; a gelwir hyn ei nerth ef: *Hos. xii. 4.* Yr oedd i’w weled fod ynddo lawer o Dduw, pan allai gymmeryd y fath afael ar yr Hollalluog a’i gadw, er fod Duw megys yn ei ysgwyd ymaith. Os wyt tithau, enaid, yn cael gallu i ymarfer fel hyn â Duw y nefoedd, ni raid ofni na byddi yn llawer mwy abl i ymladd â phechod a Satan. Os rhoddodd Duw i ti gymmaint o nerth i ymdrechgu ag ef, heb gymmeryd pall, yr wyt wedi llwyddo gyda’r cryfaf. Gorchfyga di gyda Duw; ac efe a orchfyga y blaid arall drosot ti. Drachefn, ysgatfydd, ti a fuost yn gweddio am i ti gael cyfraniad o nerth mwy i ddyledswydd; fel y byddit yn fwy ysbrydol, gwrol, unol, diragrith, a’r cyffelyb, ynddi; ac etto, yr wyt yn cael dy hen afiechyd yn nglyn wrthlyf, fel pe buasit erioed heb adrodd dy anhwydeb wrth Dduw. Wel enaid, edrych unwaith etto â llygad dirgafarn i’th fynwes; er nad wyt yn cael y nerth cymorthwyl y gweddiast am dano; etto, ai nid oes genyt chwantege o nerth ymostyngol? Fe allai fod y blinder a gofaist oddi wrth y gwaeleddau hyn, sydd yn aros yn dy ddyledswydd, yn peri i ti gynnwys barn waelach nag erioed am dy holl ddyledswyddan; i e, y maent yn peri i ti dy ffeiddio dy hun dan y teimlad o honynt, fel pe byddai genyt gymmifer o bryfedd adgas o’th ainglych. Y mae cyflwr lob ar y domen, gyda’i bylorod a’i gornwyddoll oll ar ei gorph, yn ymddangos i ti yn ddymunol, mewn cymhariaeth i’th gyflwr di, sydd a’th enaid, dybygit, yn waeth na’i gorph ef. O! y mae hyn yn dwys flino dy

enaïd, onid yw?—dy fod yn ymddangos o flaen yr Arglwydd gyda'r fath galon farw-aidd, ranedig, sydd yn gwneyd gorchwyl yn waethaf iddo ef sydd yn haeddu yn oreu ar dy law? Ac ai dim yw hyn oll? Yn sicr, Gristion, y mae cymmaint attalfa ar dy lygaid ag ar lygaid Agar, onid e, ti a welit ffrydiad dwyfol ras o'th galon yn y dymmer hon. Yn ddiâu fe farnai ereill ddarfod i Dduw wneuthur gwaith nerthol yn dy enaid. Pa beth sy galetach, a mwy croes i natur, na dwyn ein calonau beilchion ni i ymgwilyddio am y peth y maent o naturiaeth yn ymfrostio ac yn balchio ynddo? Ac ai dim yw i ti fod yn sathru, i e ar wddf dy ddyledswyddau, ac yn eu cyfrif yn achos o ymostyngiad ac ymisel'hâd, tra y mae ereill yn eu gwneyd yn ddefnydd eu hyder a'u hymffrost hunanol? Mae ystôr o rinwedd wedi myned allan o Grist i sychu y fath lif o falchder yn dy galon; llif sydd weithiau mewn rhai grasol yn rhedeg trwy eu dyledswyddau oll, ac i'w ganfod, ysgatfydd, gan rai sydd yn llai eu gras na hwythau.

2. Gristion, deongla yn ddiuedd driniaethau Duw tuag atat. Bwrw i hyn fod yn ol y modd y dywedi—dy fod wedi dadleu yr addewid a dysgwyl wrth y moddion, ac er hyny heb gael dim cryfhad, nae yn dy ras na'th gysur. Yn awr, gochel roddi dim yn ynyd yn erbyn Duw, fel pe na byddai efe yr hyn a addawodd fod. Rhoddi i Satan y peth y mae efe o hyd yn ei lygadu fyddai hyn. Pan fyddo plentyn heb dderbyn yn ebrwydd y peth y mae yn ysgrifenu i'w ofyn gan ei dad, da y byddai i'w dymmer ufuddgar ef ddywedyd, "Y mae fy nhad yn ddoethach na mi; ei ddoethineb ef a ddysg iddo pa beth, a pha bryd, i ddanfon i mi; a'i serchiadau tadol ataf fi, ei blentyn, ni adawnt iddo fy nacau o ddim sydd dda, na cholli cyfle chwaith i'w anfon mewn pryd." Gristion! y mae gan dy Dad nefol ddybenion grasol sydd yn attal ei law yn bresennol; onid e, ti gawsit glywed oddi wrtho cyn hyn.

1af. Fe all Duw fod heb roddi graddau mwy o nerth, i'th roddi di i ddefnyddio yr hyn sydd genyt yn fwy gofalus, fel y gwna mam â'i phlentyn fyddo yn dysgu cerdded. Hi a'i gesyd ar lawr, ac a saif ryw bellder oddi wrtho, gan ei wahodd ati. Y plentyn a delmla ei goesau yn weiniaid, ac a lefa am help ei fam; hithau a gilia yn ol, o fwriad, fel y byddo i'r un bach roddi y cwbl o'i rym bychan ar waith i dynu ar ei hol. Pan ddelo enaid truan i weddio yn erbyn rhyw bechod, y mae Duw yn ymddangos fel un yn cilio yn ol ac yn sefyll draw; y mae y brofedigaeth yn trymha, ac heb ddim help yn wel-edig; a hyn i'r dyben o beri i'r Cristion, er ei wendid, arfer y nerth sydd ganddo. Yn wir, ni a gawn fod teimlad dyn o'i wendid yn foddion arbenig i'w gyffroi i chwangu ei ofal a'i ddiwydrwydd. Un a fyddo yn

gwybod ei wendid, mor dueddol ydyw mewn cymdeithas i'w anghofio ei hun, ac mewn cyffroad i ymwylltio. Os yw yn meddu egwyddor o wir ras, bydd i hyn ei gynhyrfu i fwy o ofn a gwyliadwriaeth, nag un arall sydd wedi cyrhaedd i nerth mwy yn erbyn y fath demtasiynau cryfion. Fel plentyn a fyddo yn ysgrifenu at ei dad am arian, a dim yn dyfod yn ebrwydd, gwna hyn iddo ddefnyddio yn well yr ychydig sydd ganddo; ac yn awr ni chaiff un geiniog ei gwario yn ofer. Fel hyn, pan fyddo Cristion wedi gweddio drachefn a thrachefn yn erbyn rhyw bechod, ac er hyny yn cael ei hun yn wan, agos a'i orchfygu, Ô! mor wagelog y gwna hyn, ie y dylai hyn wneyd y cyfryw un, am bob cymdeithas a phob achlysur! Nid oes achos i hwn roddi dim mantais i'w elyn.

2il. Gall Duw nacau i'r Cristion y nerth cynnorthwyl mewn dyledswydd, neu y grym marwhaol ar lygredd, a fyddo efe yn ei erfyn; a hyn yn gwbl ar ddyben grasol, fel y caffo felly gyfle gwell i egluro ei gariad iddo mewn ffordd a weithia yn fwyaf effeithiol ar slymledd yr enaid, i beri iddo dalu cariad yn ol i Dduw. Ysgatfydd, Gristion, dy fod yn gweddio am drugaredd sydd arnat ei heisieu, neu am dy wared o ryw fawr drallod, ac heb brofi yn y ddyledswydd ddim cymhorth mwy na chyffredin; ond llawer o derfysg ysbryd ynddi, ammheuan, yng nghyd âg ofnau angirediniol ar ei hol: eto, wele, er y diffygion hyny yn dy ddyledswydd, y mae Duw yn gwrandaw dy weddi, ac yn anfon y drugaredd i ti, i'r dyben o fwyhau ei gariad yn dy olwg, a'i wneyd yn fwy melus a hyfyd i'th flas, wrth ei fod yn derbyn dy wasanaeth egwan, ac yn myned heibio i anhwyld ysbryd. Y mae yma nerth llai i'r ddyledswydd, fel y gallech gael prawf mwy o gariad yn y drugaredd. Nid oes dim a effeithia yn fwy na'r gyfryw ystyriaeth ar galon rasol. Gwelwn hyn yn Dafydd: "Mi a ddywedais yn fy ffrwst, pob dyn sydd gelwyddog. Beth a dalaf i'r Arglwydd am ei holl ddoniau i mi?" *Salm cxvi.* 11, 12. Fel pe dywedasai, "Er y genawri gysuro! a gefais oddi wrth Dduw, trwy ei brophwydi, yng nghylech y mater hwn, fy ngweddïau fy hun, a'r rhagluniaethau nodedig hyny oedd yn cynnwys ateb mewn rhan iddynt, a chyflawniad o'r hyn a addawyd; eto, dangos llawer o anghrediniaeth a ddarfu i mi, gan amheu gwirionedd y naill a chyflawniad y llall. Ac a ddarfu i Dduw, er fy holl waelledau i, gwblhau fy nymuniad, a chyflawni ei addewid ei hun? Ô! pa beth a dalaf i'r Arglwydd?" Yn y modd hwn y mae Dafydd yn darllen trugaredd Duw, trwy ddrych ei eiddilwch a'i wendid ei hun; ac y mae i'w gweld yn fawr. Ond, pe buasai i drugaredd ddyfod, fel ateb i weddi wedi ei chyflawni gyda'r fath gryfder ffydd, a gradd uchel o rasau ereill, ag a fuasai yn eiryddhau

ef a'i weddi oddi wrth waeleddau cyffredin, gallasai hyn droi yn fagl, a bod yn achos o ryw feddyliau o human-glod yn y creadur, yn lle rhyfeddu trugaredd.

3ydd. Dichon fod Duw yn cyfranu llai o'i nerth cynnorthwyol, fel y caffo d dangos mwy o'i nerth cynnaliol, yn dal i fyny ras gwan. Nid ydym yn rhyfeddu gweled dyn o gorph cryf, a fwytao ei fwyd yn iachus, ac a gysgo yn dda, yn byw; ond bod corphyn ysig, llawn o nychdod a doluriau, gael megys ei glytio a'i ategu trwy gelfyddyd y physygyr, fel ag i ddal i fyny hyd henaint: y mae hyn yn peri rhyw syndod yn yr edrychwyr. Fe allai mai enaid tlawd crynedig wyt, dy ffydd yn wan, rhuthriadau Satan yn gryfion i'th erbyn, dy lygredd yn fyw a gweithgar, a'th allu marweiddiol yn fychan; hyd onid yw, yn ol dy dyb di, yn ennill tir ar dy ras, yn hytrach nag yn ei golli; yr wyt yn fynych yn barod i feddl y bwrir di yn ddrylliau ar fieslon y diafol. Ac etto, byw yw dy ras hyd heddyw, er ei fod fel llestr agenog. Yn awr, onid yw yn werth rhoi cam o'r neilldu i weled y golwg rhyfedd hwn? Llong agenog a hwybreni a chyfan, yn holltau a drylliau, yn cael ei llusgo ym mlaen gan nerth hollalluog trwy fwr digllawn, â lloedd o bechodau ac o ddiadlaid, yn ddiuogol i'r porthladd! Canwyll wael o frwynen yn dal heb ddiffodd yn wyneb y gwynt tymestlog! Mewn gair, llengeyn ieuangaid mewn gras yn cael ei ddal ym mrechiau Duw, nes trechu'r diafol yn deg! Hyn y mae Duw yn ei wneuthur wrth dy gynnal di. Yr wyt ti yn un o'r plant bychain hyny, o enau y rhai y perffeithia Duw ei foliant, trwy drefnu y fath nerth i ti, fel y cei di, sydd yn faban mewng ras, y fuddugoliaeth ar gawr mewn diglonedd a gallu.

4ydd. Os ar ol hir ddisgwyl am nerth oddi wrth Dduw, y bydd fel yr wyt yn achwyn, chwilia ai nid yw yr hyn sydd yn attal i'w gael ynot dy hun. Y pen yw eisteddle yr ysbrydoedd naturiol; etto, fe ddechon fod y fath attalfeydd yn y corph, nes difuddio yr aelodau o honynt dros amser. Hyd oni byddo y ffordd yn rhydd rhwng Crist—dy ben—a thithau, nis dichon nerth ddyfod i ti. Am hyny, bydd yn ewyllysgar i ymofyn,

(1af.) A ddaethost ti yn wir at Dduw am nerth i gyflawni dyledswydd, marwchau llygred, a'r cyffelyb! Ysgatfydd y dywedi, Do; mi a ddysgwyliais wrth yr ordinhadau hyny sydd yn ffordd ym mha yn y mae efe wedi addaw rhoi allan ei nerth. Ond ai hyn yw y cwbl? Ti a elli ddyfod iddynt hwy, a bod heb ddysgwyl wrth Dduw ynddynt. Ai ni ddarfu i ti ddisgwyl yn gnaudedd am nerth oddi wrthynt; ac felly rhoddi yr ordinhad, fel Rahel ei gŵr, yn lle Duw? Ai nid oes rhyw debygiad yn agwedd dy ysbryd i'r rhai hyny yn *Iago* iv. 13; "Ni a awn i'r gyfryw

ddinas, ac a farchnatawn, ac a emillwn?" Oni ddywedodd dy galon, "Myfi a äf, ac a wrandawaf y cyfryw ŵr, ac a gaf gysur a nerth?" Ac a ryfeddi di dy fod yn wan, ac yn anfrwythlawn? Ai Duw yw yr ordinhadau, i allu dy wneyd yn gryf, neu yn ddyddanus? Gelli eu clywed hwynt yn dy ateb, enaid tlawd, fel y breniu i'r wraig hono, ar warchauad Samaria: "Cynnorthwya, O weddi! neu, O weinidog!" meddi di. Pa fodd y cynnorthwyant hwy, oni chynnorthwya yr Arglwydd? Nid ydynt hwy ond gweision Crist. Efe ei hun sydd yn cadw agoriad ei win-dy; ni allant hwy gymaint ag yfed atoch, pan ddeloch i dŷ eu Meistr. Ac am hyny, enaid tlawd, na orphwys yn fyr o Grist; ond ymwasga trwy dyrfa yr ordinhadau, a gofyn am gael siarad â'r Iesu, gwelwed Iesu, a chyffwrdd âg ef; a daw rhinwedd allan o hono.

(2il.) Gofyn i'th enaid a fuost yn ddiolchgar am yr ychydig nerth a gefaist? Er nad wyt ti o'r fath nerth mewn gras ag i allu rhedeg gyda'r blaenaf, a chydganu â'r talaf o'th frodyr; etto, a wyt ti yn ddiolchgar am fod genyt y radd leiaf o nerth? Er na byddo ond i lefain ar eu hol hwynt, y rhai a weli yn dy flaenu mewn gras—y mae hyn yn werth dy ddiolch. Ni chyrrhaeddodd pawb ym myddin Dafydd i fod yn gydradd â'i ychydig gedym ef, mewn glewder a bri; ac etto, ni ddarfu iddynt ddfreinio eu hunain. Y mae i ti achos i fod yn ddiolchgar am y lle isaf yn myddin y saint. Y cyfraniadau leiaf o drugaredd a gras yr efengyl ni ddylid edrych drostynt. Ar fynediad Moses a'i lu trwy y môr, y maent yn taraw i ganu cyn symmud oddi wrth ei fin, ac i gydnabod yr ymddangosiad rhyfedd o allu a thrugaredd Duw o'u tu, er nad oedd hyn ond megys cam yn eu taith. Yr oedd diffaethwch erchyll o'u blaen, a hwythau yn anabl i fyw ychydig ddyddiau ar y cwbl o'u lluniaeth, er eu goruchafiaeth fawr; etto, mynai Moses gam-mawl Duw am yr honsel hon o'i drugaredd. Gwyddai y gŵr duwiol hwn mai y wir ffordd i gadw cymmeriad gyda Duw, fel ag i dderbyn chwaneg, ydoedd cadw cyrif teg, a thalu i lawr ei ddiolch am yr hyn a dderbyniasid. Os mynnit tithau gael cyfraniadau llawnach o nerth Duw, addef ef yn yr hyn a wnaeth. A wyt ti yn wan? Bendithia Dduw am dy fod yn fyw. A wyt ti gan lesgeidd yn fynych yn methu mewn dyledswydd, ac yn syrthio i brofedigaeth? Galara yn y teimlad o hyn; etto, bendithia Dduw nad wyt yn byw mewn esgeulusdra hollol o ddyledswydd, trwy ddirmyg annuwiol o honi; ac am nad wyt, yn lle syrthio o wendid, yn gorwedd yn y dom o bechod trwy ddrygionio dy galon. Gall yr enaid anniolchgar ddiolch iddo ei hun, am nad yw ei gynnydd yn fwy.

(3ydd.) A wyt ti yn ostyngedig dan y

cymborth a'r nerth a roddodd Duw i ti? Y mae balchder yn cau pibell y dwfr. Os yw y galon yn dechreu chwyddo, y mae yn bryd i Dduw droi ei law i attal y ffrwd; o blegid y mae y cwbl a dywallter ar y cyfrw enaid yn rhedeg drosodd i hunan-glod: ac felly y mae fel dwfr a goller, o ran dim lles a wna i'r dyn, na dim gogoniant a ddwg i Dduw. Nid yw calon falch, na mynydd uchel, byth yn ffrwythlawn. Yn awr, heb law y ffrydd cyffredin yr ymddengys balchder ynddynt, megys wrth ddfifrio ereill, rhoddi gormod bri arno ei hun, a'r cyffelyb, chwi a gewch ddau arwydd arall o hono.

1. Y mae i'w weled mewn anturiaethau hyfion; pan fyddo dyn yn rhedeg i safn profedigaeth, gan ymgynnal ar yr hyder am ei ras a dderbyniodd. Hwn oedd pechod Pedr; a thrwyddo, efe a dynwyd i bellach ymgyrch nag a weddai i gred ostyngedig: fe redodd i wersyll Satan, ac felly fe aeth yn garcharor iddo dros dro. Yr oedd gan y gwŷr da, pan yn ei iawn dymmer, farn isel ddigon am dano ei hun; megys pan ofynodd i'w feistr, "Ai myfi yw?" Ond efe, yr hwn oedd ar un pryd yn ofni, rhag mai efe a fyddai y bradwr, y mae ar dro arall yn methu tybied mor ddrwg am dano ei hun ag i am-mheu y gwai efe wadu ei feistr. Pa beth? efe? Na: er i'r lleill oll ei adael, etto efe a safai wrth ei faner. Ai dyma dy agweddi di, Gristion? Fe allai fod Duw wedi rhoddi i ti lawer o'i feddwl, dy fod yn gyfarwydd yng ngair y bywyd, ac am hyn y beiddi di anturio i anadlu mewn awyr afiach; fel pe na byddai ond ysbrydoedd Cristionogion gwneiniaid, llai eu gwybodaeth, yn y perygl o ymlgyru gan haint cyfeiliornad a heresi. Y mae genyt gyfran helaeth o ras, neu o leiaf yr wyt ti yn meddwl felly; a thi a anturi fyned i le yr ofnai Cristion isel-feddwl y llithrai ei draed dano. Yn ddiaw yr wyt yn awr yn temtio Duw, i oddef i'th wallt gael ei dori, pan wyt mor hyf i osod dy ben ar liniau profedigaeth. 2. Y mae balchder yn ymddangos yn yr esgeulusiad o'r moddion, trwy ba rai y mae i rasau a chysuron y saint gael eu porthi, pan fyddont gryfaf. Fe allai, Gristion, pan fydded dan ofnau ac ammhueon, fod Duw yn cael dy gyfeillach, a'th fod â'th biser yn fynych wrth ei ddrws ef. Ond wedi i ti gael rhyw fesur o heddwch, fod ymddieithriad yn ebrwydd yn tyfu rhyngot a Duw: nid wyt ti a'th biser yn tramwy fel arferol i'r ffynnonau hyn o iachawdwr-iaeth. Nid rhyfedd os wyt ti, er i ti fod yn gyfoethog mewn gras a chysur, yn myned yn ol llaw, gan dy fod yn treulio yr hen ystôr, ac heb yru dim masnach ym mlaen yn bresennol i ddwyn elw i mewn. Neu os wyt heb esgeuluso dyledswydd, fe allai nad wyt yn ei chyflawni gyda'r un ymstyngiad ag oedd o'r blaen yn ei haddurno. Ti a weddiut y pryd hwnw yn y teimlad o'th

wendid, i gaffael nerth; ond yn awr, ti a weddi i ddangos dy nerth, fel y byddo i ereill dy ryfedd. Ac os unwaith, fel Hezeciah, y galwn edrychwyr i mewn, i weled ein trysor, a'n moli ni am ein doniau a'n cysur, yna y mae'n llawn bryd i Dduw, os ydyw yn ein caru, ddanfôn rhyw genadau i ddwyn y rhai hyn oddi arnom, gan eu bod yn dwyn ein calonau ni oddi wrtho ef.

(4ydd.) Os nad yw dy galon yu dy daraw oddi wrth yr hyn a ddywedwyd, ond dy fod wedi disgwyl yn ddiffuant wrth Dduw, ac etto heb dderbyn y nerth a ddymuni; bydded dy ymroad er hyn i fyw a marw gan ddisgwyl wrtho. Ni fynegodd Duw i ni am amser ei ddyfodiad; a rhy hyf a fyddai i ni ei benu o'n penau ein hunain. "Eithr," medd Crist wrth ei ddisgyblion, "aroswch chwi yn ninas Ierusalem, hyd oni wisger chwi â nerth o'r uchelder;" *Luc* xxiv. 49. Fel hyn y dywed wrthyt tithau, "Aros yn Ierusalem; disgwyl wrtho ef yn y moddion a appwyntiodd, hyd oni wisger di â nerth mwy i farweiddio dy lygredigaethau," &c. Ac er dy gysur gwybydd—

(1.) Bydd dy barhâd yn disgwyl fel hyn wrth Dduw yn dystiolaeth o ras cryf ynot. Po leiaf y calonid a gaffech at dyledswydd, mwyaf yw dy ffydd a'th uffudd-dod sydd yn dy dda i fynd mewn dyledswydd. Y gwŷr a fedr fasnachu pan fyddo yr amser yn farw, a'i eiddo oll yn gorwedd ar ei law, a bod er hyn heb dynu ei law ato, ond yn hytrach yn masnachu fwyfwy, yn sier y mae ei ystôr ef yn fawr. Pa beth? heb gysur wrth wrandaw, hebesinwythad i'th ysbryd wrth weddio; ac etto yn fwy chwannog i wrandaw, yn fynychach yn gweddio? O enaid! mawr ydyw dy ffydd a'th amynedd.

(2.) Sierha dy hun y daw nerth pan fydded yn y wasgfa fwyaf: "Y rhai a obeithiant yn yr Arglwydd a adnewyddant eu nerth; ehedant fel eryrod; rhedant ac ni fliniant; rhodiant ac ni ddiffygiant;" *Esa.* xl. 31. Pan yr oedd y dynaidd diweddaff o flawd yn cael ei bobi, dyna y pryd y danfonwyd y prophwyd i gadw ty y wraig weddw. Pan fyddo profedigaeth yn gref, dy ychydig nerth ar ddarod, a thithau bron yn ymroddi i ddwyllaw dy elynion, yna disgwyl gymhorth o'r nef, i'th alluogi i ddal allan dan y brofedigaeth. Fel hyn y bu i Paul: "Digon i ti fy ngras i;" neu disgwyl rym o'r nef, i godi y gwarchae, ac ymlid y temtiwr ymaith. Fel hyn y bu i Iob, pan oedd Satan wedi cael mantais arno—yna y mae Duw yn ei droi ymaith. Fel cymmedrolwr doeth, pan fyddo gwrthdadauwyd cyfrwys yn bwrw yn drwm ar yr attebydd, efe a'i tyn ymaith, rhag iddo ei yru i lawr. "Chwi a glywsoch am amynedd Iob, ac a welsoch ddiwedd yr Arglwydd; o blegid tosturiol iawn yw yr Arglwydd, a thrugarog;" *Iago* v. 11.

EPHESIAID vi. 11.

"Gwisgwch holl arfogaeth Duw, fel y galloch sefyll yn erbyn cynllwynion diafol."

Y MAE'r wers hon yn agoriad i'r un o'r blaen; yn yr hon yr oedd yr apostol wedi annog y credinwyr i ymgalonogi, a'u hysbrydoedd llesmeiriol i roddi pwys ar yr Arglwydd, a chadernid ei allu ef. Yn awr, yn y geiriau hyn y mae yn egluro ei feddwl, ac yn dangos y modd y mynai iddynt wneyd hyn: nid trwy ddyfod yn rhyfygus i'r maes, heb yr arfogaeth a appwyntiodd Duw i'w filwyr oli ei gwisgo, a gwag-ymffrostio eu hyder yng ngallu Duw i'w gwaredu. Mae yr enaid hwnw yn sicr o fod yn fyr o gartref — y nef wyf yn feddwl — yr hwn ni fedd ond rhyw hyder cnawdol ar enw Duw, wedi ei chwythlu i fyny trwy anwybodaeth o Dduw ac efe ei hun. Na: yneb a fynai fod â'i hyder wedi ei osod yn addas ar allu Duw, rhaid iddo yn gydwybodol arfer y moddion a appwyntiwyd er ei ddiffyniad, ac nid rhuthro yn noeth i'r frwydr. Tebygai hyn i'r adyn gorplawyllog hwnw yn Munster, a fynai fyned allan, ac ymlid ymaith yr holl fyddin oedd yn gwarchau ar y ddinas, heb fod ganddo un gwn arall ond ychydig eiriau wedi eu llwytho âg enw Arglwydd y lluoedd. Y rhai i'n, efe a ymhythaodd yn gableddus i'w harfer, gan ddywedyd, "Yn enw Arglwydd y lluoedd, ewch ymaith." Ond buan y lladdwyd ef, fel y dysgai ereill ddoethineb trwy yr hyn a dalodd efe am ei ffolineb. Y fath ymfrost-ynfyd a gewch ei glywed yn dyferu dros wefusau y rhai mwyaf halogedig ac anwybodus yn ein mysge! Y maent yn ymddiried yn Nuw, yn gobeithio yn ei drugarredd, yn gofyn gwaethaf y diafol a'i holl weithredoedd, a'r cyffelyb sothach; a hwythau yn greaduriaid noeth resynol, heb y deryn lleiaf o arfogaeth Duw am eu heneidiau! I droi y cyfryw ryfeg allan o wersyll y saint, y mae efe wedi rhoddi y cyfarwyddyd hwn yng nglyn â'i gynghor — "Gwisgwch holl arfogaeth Duw," &c. Felly mae y geiriau yn tynnu i'r ddwy ran gyffredinol hyn:—

1. Cyfarwyddyd yng nglyn â'r annogaeth o'r blaen, yn dangos y modd y mae i ni mewn ffordd reolaidd "ymnerthu yn yr Arglwydd;" sef, "trwy wisgo holl arfogaeth Duw."

2. Rheswm neu ddadl at gadarnhau y cyfarwyddyd hwn:—"fel y galloch sefyll yn erbyn cynllwynion diafol." Yn y cyfarwyddyd nodwch,

1af. Yr addurn a benmodir ganddo; sef, "arfogaeth."

2il. Rhyw neu natur yr arfogaeth hon;— "arfogaeth Duw."

3ydd. Swm neu gyfanrwydd yr arfogaeth;— "holl arfogaeth Duw."

4ydd. Defnyddiad yr arfogaeth;—"Gwisgwch," &c.

I ddechreu gyda'r cyntaf:—Yr addurn sy raid i bob un ei gael a fynai ymladd rhyfel-

oedd Crist. Y gofyniad yma a fydd, "Pa beth yw yr arfogaeth hon?"

(1af.) Wrth yr arfogaeth y meddylir Crist. Ni a ddarllenwn am "wisgo am danom yr Arglwydd Iesu;" *Rhuf.* xiii. 14. Yma y gosodir Crist o'n blaen dan y gyffelybiaeth o arfogaeth. Nid yw yr apostol yn eu hannog, yn lle gloddest a meddwod, i wisgo arafwch a chynmedrolder; yn lle anlladrwydd a thrythyllwch, i wisgo diweirdeb; fel y gwnai y philosophyddion. Ond ei archeiad yw, "Gwisgo yr Arglwydd Iesu:" i arwyddo mai anarfog ydyw y creadur hyd oni wisger Crist am dano. Nid moesoldeb dyn, a rhinweddau philosophaidd, a yr yn ei hol demtasiwn, a ergydier yn llwyth allan o wn mawr Satan; er, o bosibl, y gallent ddal yn erbyn ergyd gwn llaw, o rym llai. Felly y dyn mewn arfogaeth ydyw y dyn sydd yng Nghrist. Drachefn, grasau Crist:—mae y rhai hyn yn arfogaeth; megys, "gwregys gwirionedd, dwyfroneg cyfiawnder," a'r lleill. Oddi yma yr erchir i ni hefyd "wisgo y dyn newydd" (*Eph.* iv. 24), yr hwn a wneir i fyny o'r holl anrwy rasau, sy fel ei ranau a'i aelodau. A'r enaid anarfog yw yr enaid sydd yn ddiadgenedledig: hyn heb gau allan y dyledswyddau a'r moddion a osododd Duw i'r Cristion eu harfer er ei ddiffyniad.

Wedi agor yr ymadrodd fel hyn, y pwnc a ganlyn sydd yn galw am ein sylw.

PENNOD I.

Dangos mai yr enaid di-Grist ac anrasol ydys yr enaid heb arfogaeth; a'i drueni o herwydd hyn.

Sylw. Y MAE dyn, mewn cyflwr di-Grist a diras, yn noeth ac yn anarfog, ac felly yn anaddas i ymiadd rhyfeloedd Crist yn erbyn pechod a Satan. Neu fel hyn; y mae enaid allan o Grist yn noeth a llwyr amddifod o arfogaeth, i'w amddiffyn yn erbyn pechod a Satan. Duw, ar y cyntaf, a anfonodd y dyn i'r maes, mewn arfogaeth gyflawn, wedi ei greu mewn cyfiawnder a gwir sancteiddrwydd; ond y diafol, trwy ddichell, a'i dynoethodd: ac am hyn, yn ebrwydd ar ol cyflawniad y pechod cyntaf, ni a gawn hyn, sef, "eu bod yn noethion;" *Gen.* iii. 7; hyn yw, yn drueiniaid dirym, wrth ewyllys Satan; yn bobl wedi eu darostwng—eu diarfogi gan eu goresgynwyr balch, ac heb allu sefyll i'w erbyn. Yn wir, fe gostiodd i Satan beth yngyrch i agor yr adwy gyntaf; ond wedi iddo unwaith gael ei ollwng trwy y pyrth, fel goresgynwr, i galon dyn, y mae yn chwerau y brenin: Wele dorf o bechodau ereill yn ymdyru ar ei ol heb ddynod nae ymyrson. Yn lle cyfaddef eu pechodau, y maent yn diane i'r llwyn; ac o'u bodd, ni ddeuant i wrydd Duw; a phan na fedrant

ffoi rhagddo, O! fel y maent yn ymgroes-ddadlau o'i flaen. Y maent yn beio y naill ar y llall—yn taflu y pechod draw—yn lle erfyn am drugaredd. Mor fuan y caledodd eu calonau trwy dwyll pechod. A dyma gyflwr alaethus pob mab a merch i Adda. Yn noethion y mae y gelyn yn ein cael, ac yn gaethweision y mae yn ein gwneyd, hyd oni byddo i Dduw, trwy ei alwad effeithiol, ein gwaredu o'i afael, a'n dwyn i deyrnas ei anwyl Fab. Hyn a ymddengys yn mhellach, os ystyriwn y cyflwr hwn "heb Grist" mewn golygiad pedwar-plyg.

1. Y mae yn gyflwr o ddiethrwech oddi wrth Dduw;—"Eich bod chiw y pryd hwnw heb Grist, wedi eich dieithrio oddi wrth wladwriaeth Israel, ac yn estroniaid oddi wrth ammodau yr addewid, heb oibaith genych, ac heb Dduw yn y byd;" *Eph.* ii. 12. Nid oes a wnelo y cyfryw âg addewid gyfammodol, ddim mwy nag sydd a wnelo pobl Rhufain â dinasfraint Llundain; yr hon sydd yn fraint berthynol i'w dinasyddion ei hun, nid i estroniaid. Y mae efe heb Dduw yn y byd; nid oes iddo hawl i amddiffyniad gan Dduw, ddim mwy nag i ddeiliad nawdd-goll gan ei dywysog. Os digwydd unrhyw ddrwg iddo, y mae y gwelldad yn waith iddo ef ei hun; ond am y saint, y mae gan Dduw ei gaer o ragluniaeth neillduol o'u hamgylch hwynt; ac ni faidd y diafol, er mai atynt hwy y mae ei lid yn benaf, ddyfod ar dir Duw i gyffwrdd âg un o honynt, heb ganiatâd neillduol. Yn awr, pa fath gyflwr alaethus yw hwnw, yn yr hwn y mae enaid wedi ei adael i'r byd llydan, yng nghanol llengau o chwantau a diaflaid, i'w rwygo a'i ddryllo fel ysgyfarnog gan gnud o ftheuaid ac heb un Duw i'w galw ymaith! Os Duw a âd genedl, er mor ryfelgar bynag fyddant, ebrwydd yr amhwyllant; nis medrant gael eu dwylaw; gall torf o blant neu wŷr archolledig godi i fyny a'u hymlid allan o'u dinasoedd caerog, am nad yw Duw gyda hwynt. Hyn oedd gan Caleb ac Iosuah at lonyddu yr Israeliaid, oedd yn derfysglyd wrth y newydd am gawri a dinasoedd caerog: "Canys bara i ni ydynt: ciliodd eu hamddiffyn oddi wrthynt;" *Num.* xiv. 9. O! pa faint mwy y mae yn rhaid i'r enaid hwnw fod fel bara i Satan, a fyddo heb amddiffyn gan yr Hollalluog? Golygwch ddynion o'r deall mwyaf, ac o ddoniau naturiol a chyrnaeddadwy, a hwy yn fyr o ddim ond o undeb â Christ, a gras adnewyddol oddi wrth Grist—O! y fath ffyliaid a wna y diafol o honynt, gan eu harwain wrth ei ewyllys—rhai at un chwant, ereill at chwant arall! Y mae y gwyfach o honynt yn gaethwas i'r naill neu y llall, er i hyny fod i ddynstr corff ac enaid am byth. Yn mha le y mae y dirgelwch, fod dynion o'r fath ddoniau a challineb yn iselu eu hunain i'r fath galedwaith uffernol? Yma y mae: maent mewn

ystâd o ddiethrwech i Dduw, ac felly mor ddirym, o honynt eu hunain, i dori carchar Satan, ag ydyw y caethwas i ddianc o'i gadwen.

2. Y mae cyflwr di-Grist yn gyflwr o anwybodaeth; a rhaid yw i'r cyfryw fod yn noeth ac anfog. Y dyn nad yw yn canfod ei elyn, pa fodd y gall efe droi heibio ei ddyrnod? Un prophwyd yn gweidd y mae yn arwain byddin gyfan o ddeillion lle y mynai: *2 Bren.* vi. 19. Ammherfeithrwydd gwybodaeth y saint yma yw mantais Satan yn eu herbyn; y mae efe yn fynych yn eu dal ar yr ochr ddall. Mor hawdd ynte yw iddo ef, â thŵr o eiriau teg, dwys yr enaid dall allan o'i ffordd, pan na wŷr efe gam o'r iawn ffordd. Yn awr, bod cyflwr di-Grist yn gyflwr o anwybodaeth, gwelwch—"Canys yr oeddych chiw gynt yn dywyllwch, ond yr awr hon goleuni ydych yn yr Arglwydd;" *Eph.* v. 8. Yr oeddych chiw yn dywyllwch, nid yn y tywyllwch; dichon un â llygaid ganddo fod felly. Y mae plentyn y goleuni yn fynych mewn tywyllwch am ryw wirionedd neu addewid; ond er hyny, y mae ganddo lygad ysbrydol, yr hwn ni fedd y dyn di-Grist; ac felly, tywyllwch yw efe. Y tywyllwch hwn ni ddichon gael ei oleuo, ond trwy undeb â Christ; a hyn sydd yn cael ei ddadgan yn y geiriau canlynol; "ond yr awr hon goleuni ydych yn yr Arglwydd." Fel na ellir byth adferu llygad y corph, trwy fedr creaduriaid, ar ol ei dynu allan unwaith, felly ni ellir adferu y llygad ysbrydol trwy addysg dynion nac angylion, ar ol ei golli trwy gwmp Adda. Un ydyw o'r clefydau y daeth Crist i'w hiachau: *Luc* iv. 18. Y mae yn wir fod goleuni rheswm, a gyfrenir i bob dyn wrth natur; ond tywyllwch yw y goleuni hwn, o'i gymharu â goleuni y saint, fel y mae y nos yn dywyll wrth y dydd, ie pan fyddo y loer yn ei llawn ogoniant. Dichon hwn, nos-oleuni rheswm, gadw dyn allan o ryw ffos neu lyn, pechodau mawrion ac amlwg; ond byth ni rydd iddo help i ddiange rhag y llygredd mwy dirgel a welir fel brychau gan y saint yn y pelydr o wybodaeth ysbrydol. Y mae i'r creadur y fath fanylwaith, fel nad oes modd i'w wneyd wrth oleuni canwyll gwybodaeth naturiol. Ie, chwaneg: lle y mae goleuni cyffredin yr Ysbryd wedi ei roddi at y goleu hwn o eiddo natur, etto tywyllwch yw hwnw o'i gymharu â gwybodaeth sancteiddiol yr enaid a gafodd ei adnewyddu. Y mae hwn yn dadguddio gwirioneddau ysbrydol, ac hefyd yn gwresogi y galon â chariad y gwirionedd; ac y mae ynddo, fel yn yr haul, rinwedd genedlaethol a bywhaol, yr hyn nid oes yn y llall; gorwedd yn oer a marw a wna y galon dan y cyfryw oleuadau cyffredinol. Nid oes gan y cyfryw ddim mwy o rym i wrthsefyll Satan na phe byddai heb wybod y gorchymyn; pryd y mae gwybodaeth y Cristion, ie,

pan ei cymmerer yn garcharor gan brofedigaeth, yn ymlid, ac yn dwyn yr enaid yn ol, fel Abraham ei nai o afael ei elynion. Hyn a arwain at y trydydd golygiad.

3. Y mae cyflwr di-Grist yn gyflwr o anallu. "Crist, pan oeddyd ni etto yn weiniaid, mewn pryd a fu farw dros yr annwaid," *Rhuf. v. 6.* Beth all pobl anarfog, heb feddu cledddyf na gwn, ei wneyd at ysgwyd ymaith iau gelyn buddugoliaethus? Y cyflwr awdurdod sy gan Satan ar yr enaid. Gelwir ef y "cryf arfog," yr hwn sy'n cadw yr enaid fel ei neuadd: *Luc xi. 21.* Oni aflonyddir arno o'r nef, nid rhaid iddo ofni gwrthbleidiad oddi mewn; y mae yn cadw y cwbl mewn heddwch yno. Yr hyn a wna Ysbryd Duw yn y sant, hynny, mewn ffordd, a wna Satan yn y pechadur. Y mae yr Ysbryd yn llenwi calon ei eiddo â chariad, llawenydd, ofn, a dymuniadau duwiol; felly y mae Satan yn llenwi calon pechadur â balchder, chwantau, celwydd, &c. "Pa ham y llanwodd Satan dy galon di?" medd Pedr; *Aet. v. 3.* Ac welli ei lenwi fel hyn â Satan—fel y meddw â gwin—nid ydyw efe yn berchen arno ei hun, ond yn gaethwas i Satan.

4. Y mae cyflwr o ddiadgenedliad yn gyflwr o gyfeillach â phechod a Satan. Os yw yn elymiaeth yn erbyn Duw, fel y mae, yna cyfeillach â Satan. Yn awr, peth anhawdd fydd cael gau y cyflwr enaid ymladd o ddiffrif yn erbyn ei gyfaill. A ranwyd Satan? A ymladd y diafol oddi fewn yn erbyn y diafol oddi allan? A wna Satan yn y galon gau allan Satan wrth y drws! Weithiau, yn wir, y mae peth tebyg i ymrafael rhwng Satan a chalon anianol; ond rhyw ffug yw, fel ynladdfa dau rith-gledddyfwr ar chwareufwrdd. Ar y cyntaf, chwi a dybiech eu bod o ddiffrif; ond wrth graffu mor waelog ydynt yn eu cyffyrddiad y naill ar y llall, chwi ellwch yn fuan wybod nad ydynt yn meddwl lladd; a'r peth sydd yn rhoi y cwbl allan o ammhueaeth, ar ol darfod y gamp cwech eu gweld yn ecydymddigrifo ar y gwobrau a gawsant gan eu bedrychwyr; a hyn oedd y cwbl yr ymladdasant am dano. Pan fyddo calon anianol a'i thwrf yn fwyaf yn erbyn pechod, trwy achwyn arno, neu weddio rhagddo, os gwnewch ond dilyn y dyn oddi ar chwareufwrdd y ddyledsdydd—lle yr emillodd enw sant, y tlws y mae yn ymladd am dano—chwi a'i cwech ef a'i chwaint yn y gongl mor gyfeillgar ag erioed.

Defn. 1. Y mae hyn yn chwala y rhyfeddod am fawr oruchafiaeth Satan yn y byd. Wrth i chwi edrych ar led, a gwelod ei ymherodraeth fawr ef, a'r fath lygeidyn o dir sydd yn cynnwys deiliad Crist, y fath bentyrau o eneidiau gwerthfawr sy'n gorwedd dan y troed hwn o falchder, a'r fath fyddin fechan o saint sydd yn teithio dan faner Crist, fe allai y gwna syndod wrth y peth i chwi ofyn, A ydyw uffern yn gryfach na'r

nef—arfau Satan yn fwy buddugoliaethus na chroes Crist? Dim o'r fath beth! Ystyrwch ond yr un peth hwn, chwi a ryfeddwch fod gan Grist neb yn ei ddilyn, yn hytrach na bod ganddo cyn lleied. Y mae Satan yn cael y byd yn anarfog; pan yw tywysog y byd yn dyfod, nid yw yn cael ei wrthwynebu, ond yr holl enaid mewn tuedd i ymroddi iddo, ar yr amnaid cyntaf; ac os y gydwylbod—llywydd dros Dduw yn y creadur—a saif allan dros ennyd, bydd yr holl alluoedd ereill, megys yr ewyllys a'r serchiadau, mewn anfoddlonrwydd, fel milwyr terfysgus mewn dinas, y rhai ni orphwysant nes dwyn cydwylbod i ymddarostwng; neu yn erbyn ei orchymyn ef, agoryd porth y ddinas i'r gelyn, ac yn fradwrs draddodi eu cydwylbod yn garcharor i'w chwantau. Ond pan ddelo Crist i ofyn yr enaid, y mae yn cael ateb dirmygus; "Cilia oddi wrthym: nid ydym ni yn chwennych gwybodaeth y Goruchaf: Ni fynnwn ni y dyn hwn i deyrnasu arnom." Y maent o un fryd a llais i'w erbyn, ac yn ymgodi fel y Philistiaid yn erbyn Samson, yr hwn a alwent yn areithiwr y wlad. "Ni fynnwch chwi ddyfod ataf fi," medd Crist. O! mor bur yw pechaduriaid truan wrth orchwyl y diafol! Ni roddant i fy y y castell y maent yn ei ddal dros Satan, a s ei logsi uwch eu penau. Pharaoh a wrth-safai Moses ar un llaw, ac Israel a lefai i'w erbyn ar y llall; a dyna yr hyn a gaiff Crist ar law Satan a'r pechadur. Yr hyn a leihodd fuddugoliaethau Alexander oedd, ei fod yn gorchfygu barbariaid, heb ddeall, heb arfau, na dysgyblaeth rhyfel; a'r hyn a fwyhaodd yr eiddo Cesar (er nad cymmaint) oedd ei oruchafiaeth ar bobloedd mwy rhyfelgar a gwel eu trefn. Buddugoliaethau Satan ydynt ar eneidiau anwybodus, anrasol, sydd heb arfau, na dwylaw, na chalonau i wrthsefyll; ond pan ymosodo ar sant, y mae yn gwersyllu o flaen dinas âg iddi byrth a barau, ac yn cyfodi yn wastad gyda chywilydd, heb allu cymmyrd y lle gwanaf, tynu y sant gwanaf allan o law Crist. Ond y mae Crist â llaw uchel yn dwyn eneidiau oddi dan ei lywodraeth ef, er gwaethaf holl rym a chyn-ddaredd uffern, sydd fel Pharaoh a'i lu, yn eu hynlid.

2. Y mae hyn yn rhoi i ni reswm pa ham y mae gan y diafol gymmaint o gasineb tuag at yr efengyl. Paham? O herwydd fod hon yn agoryd tŷ arfau ac addurnau i'r enaid. Y gair yw y *tŷ Dafydd* hwnw, "a adeiladwyd yn dy arfau; tarianau fil sy'n crogi ynddo, i gyd yn estylch y cedyrn;" *Can. iv. 4.* Oddi yma y cafodd y saint eu harfogaeth erioed; a phregethiad yr efengyl sydd yn ei ddadgloi. Fel y mae goleu yr efengyl yn cyfodi, felly y mae teyrnas ddu-dywyll Satan yn diflanu: *Dad. xiv. 6.* Yno y mae un angel yn dyfod allan i bregethu yr efengyl dragywyddol; "ac angel arall a ddilynodd,

gan ddywedyd, Syrthiodd, syrthiodd Babilon;" *adn.* 8. Yr ergyd gyntaf a roddodd yr efengyl i deyrnas y tywyllwch, y mae wedi siglo ei sylfaeni hi, a rhoi llengau uffern ar ffo. Y deg a thrigain a anfonodd Crist allan, y maent yn fuan yn dwyn hyn o gyfrif am eu cenadaeth; "Arglwydd, hyd yn nod y cythreuliaid a ddarostyngir i ni yn dy enw di:" ac ateb Crist yw, "Mi a welais Satan megys mellten, yn syrthio o'r nef;" *Luc* x. 17, 18. Fel pe dywedasai, Nid ydych yn adrodd dim newydd i mi: pan anfonais chwi, yr oeddwn yn gweled Satan yn syrthio; gwyddwn y gwnai yr efengyl waith lle y deuai hi. Am hyny, nid rhyfedd fod Satan â'i ymgais am ddfeddianu yr efengyl sydd yn ei ddfeddianu ef. Efe a wŷr fod y fyddin hono ar fin colli, a fyddo â'i harf-dŷ wedi ei chwythu i fyny. Gwir iawn yw fod y diafol yn ymgyndeiriogi yn fwy, i'e dan yr efengyl, yn y fath bechaduriaid mochaid ag sydd wedi eu rhoddi i fyny gan Dduw, i'w meddiannu gan yr ellyll hwnw am wrthod ei ras ef: ond y mae yn cael ei fwrw allan o ereill; y rhai, cyn yr ymddangosiad o ddaion Duw at ddyn yn yr efengyl, a dywysid ganddo i wasanaethu amryw chwantau a phleserau. Yn awr, trwy oleuni yr efengyl, y maent yn gweled eu ffolineb; a thrwy y gras y mae hi yn ei ddwyn, hwy a nerthir i ymwrthod âg ef. Hyn yw y peth sydd yn poeni yr ysbryd aflan; gweled ei hun yn cael ei adael gan ei hen deulu a'i weision, a'r Arglwydd newydd hwn yn dyfod ac yn dwyn ei ddeiliaid oddi arno; ac am hyn y mae yn ymgais, naill ai trwy erlidigaeth i ymlid yr efengyl ymaith, neu trwy ddechell i berswadio pobl i'w gyru hi ymaith o'u cyffiniau. Ac a fu efe erioed yn fwy tebygol i gael hyn i ben gyda ni? I ba fath fri isel y mae wedi dwyn pregethiad yr efengyl? Y mae y pris wedi syrthio i'r hanner, wrth yr hyn oedd rhai blynyddoedd yn ol, i'e, ym mysg y rhai a gyfrifid y marchnatawyr mwyaf ym marchnad y saint. Rhai a fu yn ei chyfrif hi yn werth croesi y moroedd, i'e, hyd India (agos cyn belled ag yr â ereill i gyrechu aur) i fwynhau yr efengyl; anhawdd yn awr ydyw ganddynt goesi yr heol i'w gwrandaw, er mor rhad. Ac y mae rhai yn dyfod—a grynent gynt wrth ei gwrandaw—ond a'i gwnant yn awr yn brif neges ei dirmygu, neu gwerylu â hi. Ie, y mae wedi myned i'r fath radd, nes yw y gair yn bwys mor drwm ar gylla afiach llawer o broffeswyr, fel y mae yn dyfod i fyny yn ebrwydd, a llawer o ddrygnaws gydag ef, yn erbyn y pregethwr, yn enwedig os tarewir ar bechodau a chyfeilioradau yr amseroedd. Mae enwi y rhai hyn yn ddiagon o drosedd, er fod y genedl yn soddi dan eu pwys. Pa fath edliwiadau sydd yn cael eu pentyru ar weinidogion ffyddlawn yr efengyl? Yr wyf yn galw nef a daear i farnu a fuont hwy erioed yn goddef

erlidiaid poethach â'r tafod nag yn yr oes wrthgiledig hon. Y mae cenhedlaeth newydd o broffeswyr wedi neidio i fyny, na fynant eu haddef yn weinidogion Crist; er fod y rhai o'u blaen—mewn gras, yn gystal ag amser, a mwy addas na hwy i farnu am eu hachau ysbrydol—wedi eu haddef hyd farw yn dadau ysbrydol iddynt. Ac onid yw yn rhaid i'r arch fod yn ysgwyd, pan darawer fel hyn ar y rhai sydd yn ei dwyn yn eu personau a'u swydd? Beth y mae y dynion hyn yn ei wneuthur? Och! nis gwyddant: O Dad! maddeu iddynt. Y maent â'r llaw aswy yn tori ymaith y ddeheu; maent yn eu dynoethi eu hunain a'r genedl wrth ddirmygu yr efengyl, a'r rhai sydd yn ei dwyn hi.

Defn 3. Ystyriwch eich cyflwr athrist chwi y rhai sydd yn gwbl noeth ac anarfog. A fedrwech chwi dosturio wrth gardotyn yn eich drws—pan weloch y fath ar ddydd gauaf, a'i gefn yn crynu gan doster oerni—a bod heb dosturio wrth eich cyflwr eich hun—noeth-gyflwr yr enaid—sydd yn llawer mwy alaethus? Trwy hwn yr wyt ti yn noeth i ddigder y nef, ac i falais uffern! Y mae eu noethder hwynt yn eu gorchuddio â chywilydd, ac yn peri iddynt â griddfanau gresynus ymguro a llefain am borth: megys y dywedir am Rwsia, lle y mae gan eu tlodion o herwydd trymder angen, y dull echrwyd hwn o grefu yn yr heolydd; "Rhoddwch i mi, a haciwch fi; rhoddwch, a lladdwch fi." Ac a fedri di adael i Satan ddyfod a hacio dy wddf yn dy wely o syrthni, yn hytrach na derbyn dillad i'th wisgo, i'e arfogaeth i'th amddiffyn? Meddwl yr wyf am Grist a'i ras, sydd yn gynnygiedig i ti yn yr efengyl. Ac na ddyro goel i'th galon wenieithus, os dywed hi wrthyf dy fod yn meddu ar y rhai hyn eisoes. Yr wyf yn ofni y ceir llawer proffeswr gwych mor noeth o ran derbyn Crist, a gwirionedd gras, ag yw y meddwn a'r tyngwyr eu hunain. Y mae y fath yn bod a ymfoddlonant ar Grist mewn proffes, doniau, a dyledswyddau, ond ni cheisiant Grist yn ei ras sylweddol; ac felly derfydd am danynt. Y mae yr addurnau hyn yn wir yn perthyn i'r Cristion, fel ysnoden a phluen i'r milwr; ond ni attaliant hwy belen mewn brwydr: Crist a'i ras a wna hyn; am hyny, boed dy ymgais ama fod yn Grigion o'r galon, yn fwy nag i'r golwg. Y mae gras wedi ei addurno â doniau yn fwy prydferth; ond y rhai hyn, heb ras, ni want ond ysbail gwychach i Satan.

Y mae yr ail gainc, o ran gyntaf gyffredinol y geiriau, yn canlyn; a hono yw, y rhyw neu y fath o arfogaeth y cyfarwyddir y Cristion yma i'w cheisio. Nid rhyw sothach a wna y tro; gwell bod heb ddim nag heb arfogaeth brofedig; ac nid yw dim yn gyfryw ond arfogaeth Duw. Mewn dau olygiad, y mae yn rhaid ei bod o Dduw. 1. Mewn gos-

odiad ac appwyntiad. 2. Mewn gwneuthuriad.

PENNOD II.

Yn dangos fod yn rhaid i'r arfoagaeth a ddefnyddiom yn erbyn Satan fod yn ddwyfol o osodiad—y fath yn unig ag y mae Duw yn appwyntio.

Sylw. 1. RHAIAD YW I'R ARFOGAETH A WISGA Y CRISTION FOD O OSODIAD AC APPWYNTIAD DWYFOL. Nid yw y milwr yn dyfod â dim arfau i'r maes ond a orchymyno ei flaenor: nid ydys yn ei adael ar fympwy pob un i ddwyn yr arfau a welo efe yn dda: magu anhrefn a wnai hyny. Y mae y milwr Cristionogol yntau wedi ei rwympo wrth drefn Duw; er mai ar y ddaear y mae y fyddin, etto yn y nef y mae y cyngor rhyfel yn eistedd; y ddyledswydd hon a wnewel, y moddion acw a arferwch; a'r hwn a wnelo fwy, neu a arfero yn amgen nag a orchymynodd Duw, er i hyny fod gydag ymddangosiad o lwydd yn erbyn pechod, gelwir y cyfryw yn sier i gyfrif am yr hyfdra hwn. Y mae dysgyblaeth rhyfel ddynol yn llym yn y fath achos. Rhoddwyd rhai i farwolaeth gan gynghor rhyfel, i'w pan oeddynt wedi curo y gelyn, am iddynt fyned o'u lleoedd, neu dros y gorchymyn. Y mae Duw yn dra manwl yn y peth hwn; efe a ddywed wrth y rhai a ddyfeisiant eu ffyrdd eu hunain i'w addoli ef, ac a luniant foddion i farwahu llygredd, a chaffael cysur yn eu gweithdy eu hunain, Pwy a geisiodd hyn ar ei chell llaw? Hyn yw bod yn rhy gyfiawn, yn ol ymadrodd Solomon, pan gymmerom ni arnom ddiwygio cyfraith Duw, a rhoddi chwanegiad o'n heiddo ein hunain at ei reol ef. Pwy a dal ei gyflog i'r dyn na roddwyd mo hono ar waith gan Dduw? Y mae Duw yn dywedyd wrth Israel na wna y gau brophwydd ddim lles iddynt am na ddaethant ar ei neges ef; *Ier.* xxiii. 22. Ac felly, ni lesâ ychwaith y ffyrdd a'r moddion hyny nad ydynt o appwyntiad Duw. Nid meddyliau dyn ydyw meddyliau Duw, ac nid ffyrdd dyn ydyw ei ffyrdd ef, y rhai y mae yn eu defnyddio i gael ei amcanion i ben. Pe buasai dyn yn gosod allan luoedd Israel ar eu cychwyniad o'r Aiph, yn sier buasai ei ddoethineb ef yn peri ysbeilio yr Aiphitiaid o'u meirch a'u harfau, fel pethau mwy angenrheidiol i'r fath daith, yn hytrach na benthyca eu dodrefn: a'u clustdlysau: ond mynai Duw iddynt ddyfod allan yn anarfog ac ar draed; ac y mae Moses yn cadw yn dyn at ei orchymyn. Iâ, pan gymmerid meirch mewn brwydr, am fod Duw wedi gorchymyn tori llinynau eu garau, hwy a ufuddhaent, er i hyny ymddangos yn fantais iddynt. Rhyfel Duw oedd ganddynt mewn llaw, ac am hyny gweddus oedd iddynt fod dan ei lywiad ef: yr oeddynt yn gwersyllu ac yn teithio wrth ei archiad, fel

y symmudai neu y gorphwysai yr arch. Wrth ei orchymyn ef yr ymladdent; efe a bennodai y nifer; y moddion a'r arfau a ddefnyddient, o osodiad Duw yr oeddynt oll, megys ar warchauad Ierico. Yn hyn yn ddiaw yr oedd gan Dduw lygad ar ein taith niunau i'r nef, a'n hymlladdiad a'r ysbrydion a'r chwantau melldigedig hyny sydd yn sefyll yn ein ffordd. A pha beth yw yr efengyl o hyn oll, ond bod i ni ymladd yn gyfreithlawn gan ddefnyddio y moddion hyny a gawsom o'i enan of yn ei air? Y mae hyn yn ceryddu dau fath:—

Defn. 1. (1.) Y rhai a ymladdant mewn arfoagaeth nad oes iddi osodiad dwyfol, megys:—

1af. Y Pabydd. Edrychwch i'w arfdy, a phrin y ceir ynddo ddernyn o arfoagaeth Duw. Yn arfoagaeth y pab y maent hwy yn ymladd; ei awdurdod ef ydyw y gweithdy lle y gweithir eu harfau. Byddai yn fath o benyd ar ei ach amynedd i enwi yr holl ddarnau o arfoagaeth, a'r rhai y llwythant eneidiau gwirionllyd; rhy drymion yn wir i'r ysgwyddau cryfaf yn eu mysg eu dwyn; i'e, fwy nag y mae y rhai callaf o honnynt yn bwriadu eu defnyddio—eu hofferenau, plygeiniol-weddiau, nos-wyliadau, pererindodau, grawys-ymprydian, gwialennodiau, addunedau o ddiweirdeb, huan-lymdra, a byd o'r cyfryw sothach! Pa le y cawn ni air Duw am y rhai hyn? Pwy a ofynodd y pethau hyn ar eu dwylaw hwynt? Syrth mil o waeau ryw ddiwrnod ar y twyllwyr hyny sydd wedi diosg y bobl o wir arfoagaeth Duw, a rhoddi yn eu dwylaw y cyrs a'r brwyniach hyn. Gall hyn ein cyfiawnhau ni ger bron Duw a dynion am ein hymadawiad oddi wrthynt hwy, a fynent ein cymhell i anturio bywyd ein heneidiau dan y fath arfoagaeth bapyr, pan y mae Duw wedi darparu ei gwell.

2il. Y Protestant anianol sydd yn ymladd mewn arfoagaeth gnawdol. Yn 2 *Cor.* x. 3, y mae yr apostol yn sôn am filwrio yn ol y cnawd; hyny yw, âg arfau neu foddion a fyddont yn ol tueddiad doethineb gnawdol, nid yn ol gorchymyn Duw; ac felly gwelid yndent. Ac O! y fath nifer bychan a geir yn yr arfoagaeth well ar ddydd brwydr. Yn gyntaf, pan fyddo Satan yn tentio i bechod, er iddo fod heb gael rhywydd dderbyniad heddychol, etto cnawdol yn gyffredin yw y gwrthwynebiad iddo: mae'r nerth y pwysant arno felly—eu nerth eu hunain, nid nerth Duw; y cynhyrriad yn gnawdol, megys ofn dyn yn fwy nag ofn Duw. Lle y mae un a ddywed, Pa fodd y gwnaf hyn a phechu yn erbyn Duw? y mae llawer a ddywedant yn eu calonau, Pa fodd y gwnaf hyn a digio dyn, anoddio fy meistr, cyffroi fy rhieni, a cholli barn dda fy mhregethwyr? Yr oedd Herod yn ofni Ioan, ac fe wnaeth "lawer o bethau" (*Marc* vi. 20); pe buasai

yn ofni Duw, buasai ei ymdrech am wneuthur pob peth. Yn gyffelyb y gellir dywedyd am bob cynhyrfaidau ereill a fyddo â'u tarddiad o'r creadur, ac nid o Dduw; arfog-aeth ydynt na ddeil yn erbyn ergydion. Os mewn cudyn dynol y mae dy nerth yn bod, gellir yn fuan ei dori ymaith: os yn Nuw, fe ddeil. Ti a olygi ei orchymyn ef, Ysgrifenedig yw! Nis gallaf ei wneuthur heb osod fy nhroed ar ddeddf fy ngwneuthurwr, neu gariad Crist; ac yna, nis gallaf fyned at fy ghwant heb fyned ar draws fy lachawdwr yn ei waed: ac am hyny, ymaith demtiwr fiaidd; yr wyf yn dy gasau di a'th gynhyrfaid. Craig ydyw y sylfaen hon, a hi a saif: ond os rhyw olygiad cnawdol fydd yn dy fantoli, gellir cael un arall mwy ei bwys, ac o'r unrhyw, a drŷ y clorian ffordd arall. Y ferch na byddo dyn wrth ei bodd, yn unig o achos ei wisgiad, gellir yn fuan eu hennill pan ddel efe mewn gwisg arall. Gall Satan newid ei wisg; ac yna bydd dy wrthwynebiad di ar ben, pan ddyger ymaith dy ddaid gnawdol. Yn ail, Pan fyddo y gair neu gydwybod yn ceryddu am bechod, beth yw yr arfog-aeth y mae eneidiau euog yn gyffredin yn ymwisgo â hi? Yn ddiâu nid yw hi ond cnawdol. Os nad allant ochel y cyhuddiad a ddwg y rhai hyn, yna hwy a wnant ymgais i'w ysgafnhau, trwy fychanu y drwg. Y mae yn wir, meddant; yr wyf yn addef fy mod wedi gwneyd y bai, ond fy nhynu iddo a gefais. "Y wraig a roddodd i mi, a mi a fwyteais;" hyn oedd arfog-aeth ffygys-ddail Adda. Ni bu y peth ond unwaith neu ddwy, ac mi obeithiaf nad yw hyny ddim yn doriad mor fawr ar y rheolau! Mi a adwaenwn grefyddwyr gwych a wnant gymmaint peth a hyn; yr wyf yn diolch i Dduw, nas gellir fy nghyfrif yn buttain, nac yn lleidr. Dyma yr arfog-aeth sydd i gadw ymaith y dyrnod? Ond oni ddystawa cydwybod wrth hyn, yna hwy a geisiant ddfifyr eu meddyliau trwy daraw at groch gerddoriaeth plaserau cnawdol, fel y byddo i swm y rhai hyn fodd i llall; neu, gyda Chain, hwy a änt oddi ger bron yr Arglwydd, ac ni ddeuant mwyach at yr ordinhadau hyny sydd yn peri cur yn eu pennau, ac yn tori ar gwsig cydwydodau gorphwyllog. Os bydd i'r ellyll er hyn eu haflonyddu, yna hwy a geisiant heddwch trwy ryw waith da neu gilydd, yr hwn a osodant yn erbyn eu drwg; rhaid i'w helusenau a'u cymmwynasau mewn henaint fod yn iawn am drais a gormes y dyddiau gynt. Fel pe byddai yr ychydig thus hwn yn ddi-gon i fygw ymaith y pla o fellidh Duw sydd yn eu daoedd a gasglasant ar gam. Yn y modd hwn y mae trueniaid yn ymaflwyd mewn rhyw orchwyl gorwael, na wna gymmaint a chuddio eu cywilydd, a llawer llai attal pelen digofaint Duw, pan y tania efe arnynt. Nid oes ond arfog-aeth o appwyntiad Duw a wna hyny. Noeth oedd Adda er

ei holl ddaid ffygys, hyd pan ddysgodd Duw iddo wneyd "peisiau crwyn" (*Gen. iii. 21*)— yn ol barn rhai; i ddirgel gysgodi Crist, gwir Oen Duw, cyfiawnder yr hwn yn unig sydd wedi ei appwyntio ganddo ef i guddio ein gwarth ac arfogi ein heneidiau noethion rhag wyneb a dyrnod ei gyfiawnder dialeddol.

2. Y mae yn gerydd i'r rhai a ddefnyddiant arfog-aeth Duw, ond nid yn y modd yr appwyntiodd Duw; yr hyn a ymddengys mewn tri math:—

1af. Pan fyddo dyn yn arfer dyledswydd appwyntiedig gan Dduw, nid fel arfog-aeth er amddiffyn rhag pechod, ond fel gorchudd dros bechod. Pwy a dybiai mai gelyn ydyw dyn a fyddo yn gwisgo addurn Crist yn ei het, ac yn teithio ar ol Crist, yn yr arferiad o holl dyledswyddau ei addoliad? Gall y cyfryw un fyned trwy holl gynteddau y gwylwyr, heb gymmaint a gŵr yn galw arno i sefyll; pawb yn ei gymmeryd fel cyfaill; ac er hyn, y mae rhai o'r fath sydd trwy yr holl amser yn ymladd yn erbyn Crist. Y rhagrithiwr yw y dyn: y mae yn dysgu agweddau, a chanddo air ac iaith yr ysgrhythyr ar ei dafod; ac y mae yn rhodio yng ngwisgiad Cristion, yn hollol yn y bwriad o ddwyn ei gelfyddyd yn mlaen yn ddyfalach; yn debyg i rai lladron pen ffordd yn ein dyddiau ni, y rhai a ysbeiliant mewn diwyg milwyr, fel byddo llai o ammheuaeth am danynt. Dyma ddrigioni erchyll yn wir: cymmeryd arfau Duw, a'u harfer yng ngwasanaeth diafol! O'r holl bechaduriaid, y cyfryw a gânt leiaf o drugaredd! Cyfeillion ffals, gwaeth fydd arnynt na gelynyon cyhoedd!

2il. Y rhai a hyderant yn gnawdol yn arfog-aeth Duw, nid ydynt yn ei defnyddio yn ol appwyntiad Duw. Nid oes i ni roi ein hyder yn arfog-aeth Duw, ond yn Nuw yr arfog-aeth hon, am nad ydyw ein holl arfau yn nerthol, ond yn unig "trwy Dduw;" 2 *Cor. x. 4*. Yr oedd yr arch yn foddion o ddiogelwch i Israel; ond ei moli yn gnawdol, ac ymogoneddu ynddi, a brysurodd ei dymchweliad. Felly, dyledswyddau ac ordinhadau, doniau a grasau, yn eu lle, ydynt foddion er amddiffyniad i'r enaid. Y mae Satan yn crynu, fel y Philistiaid o achos yr arch, wrth weled enaid yn ddyfal yng nghyflawniad dyledswydd, a'r ymarferiad o ras; ond pan hydero y creadur ynddynt, y mae hyn yn enbydus. Megys rhai, wedi iddynt weddio, a dybiant ddarfod iddynt foddio Duw am yr holl ddiwrnod, er mai bychan iawn yw eu gofal am eu rhodiad. Ereill; y mae ganddynt dyb mor dda am eu ffydd, eu diragrithrwydd, a'u gwybodaeth, fel y gellwch mor rwydd gael ganddynt greu mai cŵn ydynt, ag y bydd iddynt hwy byth gael eu dal mewn rhyw gyfeillioniad neu arferiad pechadurus. Ereill; pan y cânt gymhorth mewn dyledswydd, ydynt dueddol i dynu llaw ar hyd eu pen, gyda, "Gwych iawn,

Bernard," ac felly, addawant lwydd iddynt eu hunain, am iddynt gyflawni eu neges mor dda. Beth ydyw tuedd y gyfryw iaith yng nghalonau dynion ond at hyder enawdol yn eu harfogaeth er eu dinystr! Yn sicr, gallwn ddywedyd am lawer o oneidiau, eu bod nid yn unig yn cyfngolli dan weddio, edifarhau, a chredu yn ol rhyw dull, ond eu bod yn cyfngolli trwy eu gweddio, edifarhau, &c. tra y maent a'u hymddiried yn gnawdol yn y rhai hyn. Fel y mae yn dygwedd weithiau fod i'r milwr mewn brwydr gollu ei fywyd o achos ei arfogaeth ei hun—y mae mor drwm fel na fedr efe ffoi ynddi, ac mor dŷn am dano, fel na fedr ymddiosg o honi, a ffoi am ei einioes hebddi. Os cadwedig fyddwn, y mae yn rhaid i ni ddyfod yn noeth at Grist, er ein dyledswyddau oll. Ni ddiangwn ni ddim at Grist tra yr hyderom ynddyt hwy; ac y mae rhai wedi eu cloi ynddynt, fel na fedrant ddyfod hebddynt; ac felly, mewn dydd o brawf, hwy a fethrir dan draed digofaint Duw a chynddaredd Satan. Y mae y publican truan yn taflu ei arfau i lawr, sef pob hyder ynddo ei hun, ac yn llefain am arbediad o ddwylaw tregaredd; "O Dduw, bydd drugarog wrthyf bechadur;" ac y mae yn dyfod ymaith yn iach; aeth i'w dŷ wedi ei gyflawnhau: ond y Phariseaid, dan lwyth o'i gyflawnder ei hun, ac yn falch o hono, y mae yn dal ati, ac yn colli y dydd.

3. Nid ydynt hwythau yn defnyddio arfogaeth Duw, fel y cyfryw, y rhai yn y cyflawniad o ddyledswyddau crefydd, nid ydynt yn golygu Duw trwyddynt; ac y mae hyn yn gwneyd y cwbl yn ddirym ac aneffeithiol. Dyna y pryd y mae y gair yn nerthol, pan ei darllener fel gair Duw. Ac y mae pregethiad yr efengyl yn nerthol i argyhoeddi y gydwytbod, ac adfywio yr ysbryd llesg, pan ei gwrandewir megys ordinhad y Duw mawr, ac nid fel ymarferiad creadur gwael. Yn awr, gellir gwled mewn tri pheth, a ydym ni yn golygu ordeiniad dwyfol yn y moddion? (1af.) Pan ymaflom mewn dyledswydd, ond heb godi ein golwg at Dduw am ei fendith. Pe byddai dy lygad di ar ordeiniad Duw yn y moddion, ti a ddywedit, Enaid, os daw rhyw fudd oddi wrth dy wasanaeth, o'r nef y mae yn rhaid iddo ddisgyn; o blegid appwyntiad Duw ydyw, nid yr eiddo dyn. Ac a allaf fi gael budd, boddloned Duw neu beidio? Neu am y cyfoeth enaid hwn, a allaf fi ei gael a'i ddwyn gyda mi o'r ordinhad heb ei genad ef? Ai ni fyddai yn well i mi edrych i fyny ato ef, trwy fendith yr hwn yr wyf yn byw yn fwy na thrwy fy mara?

(2il.) Y mae i'w weled nad ydym yn golygu appwyntiad Duw pan fyddo genym feddyliau gwael am y moddion. Beth yw yr Iorddonen i mi ymolchi ynddi? Beth yw y pregethu i mi ei wrandaw, lle nad wyf yn clywed ond yr hyn a wyddwn o'r blaen?

Beth yw yr elfenau tlodaidd hyn o ddwfr, bara, a gwin? Ai nid rhesymiadau enaid anghofus o'u hordeinwyr hwynt yw y rhai hyn? Pe byddit ti yn cofio pwy sydd yn gorchymyn, ni byddai i ti ymholi beth yw y gorchymyn. Pa beth? Er na byddo ond clai, os Crist a'i defnyddia, fe egr y llygaid, er y byddai o hono ei hun yn fwy tebygol i dynu y llygaid. Pe byddai dy olwg di ar Dduw, ti a ddywestit dy reswm enawdol â hyn; "Duw yw efe sydd yn fy anfon at y cyfryw ddyledswydd; pa beth bynag a ddywedo efe wrthyf, mi a'i gwnaaf; ie, pe byddai iddo fy anfon—fel Crist y rhai hyuy—i dynu gwin o lestri llawn o ddwfr."

3ydd. Pan fyddo dyn yn gadael heibio ddyledswydd, am nad yw efe yn cael ynddi yr hyn a ddisgwyliodd oddi wrtho. O! medd yr enaid, mi a welaf mai ofer ydyw dilyn y moddion fel y darfu i mi: y mae Satan eto yn fy nhrechu; mi a'u rhoddaf heibio. A wyt ti, enaid, yn cofio mai Duw a'u happwyntiodd? os ydwyf, ti a ddylit yn sicr barhau, yng nghanol digalondid. Yr hwn sydd yn erchi i ti weddio, y mae yn erchi i ti "weddio yn ddibaid." Yr hwn sydd yn erchi i ti wrandaw, y mae yn erchi i ti ddisgwyl wrth byrth doethineb. Dylit ymresymu fel hyn—"Duw sydd wedi fy ngosod i ar ddyledswydd; ac yma y safaf nes y tyuo Duw fi ymaith, ac yr archo i mi adael gweddio ar ol."

PENNOD III.

Yn dangos fod yn rhaid i'r arfogaeth a ddefnyddiwyd er ein hamddiffyniad yn erbyn Satan, fod, nid yn unig o osodiad dwyfol, ond o wneuthuriad dwyfol.

2. Rhaid yw i arfogaeth y Cristion fod yn arfogaeth Duw o ran ei tharddiad a'i gwneuthuriad. Fy meddwl yw, nid yn unig mai Duw sydd i bennodi yr offer a'r arfau a ddefnyddia y Cristion er ei amddiffyniad, ond mae yn rhaid iddynt fod hefyd o'i weithrediad effeithiol ef. Efe sydd i wneuthur eu holl weithredoedd ynddynt ac iddynt. Appwyntiad Duw yw gweddi; etto, nid yw hon yn arfogaeth brofedig, oddi eithr ei bod yn weddi o Dduw, yn tarddu o'i Ysbryd ef. Gobaith—dyna yr helm y mae y sant dan orchymyn i'w wisgo; ond rhaid yw i'r gobait hwn fod yn greadur Duw: "yr hwn a'n hadgenhedlodd ni i obaith bywiol;" 1 *Pedr* i. 3. Ffydd—dyna brifddarn arall yn addurnau y Cristion; ond rhaid ei bod yn "fydd etholedigion Duw;" *Tit.* i. 1. Y mae iddo gymmeryd cyfiawnder a sancteiddrwydd yn ddwyfroneg iddo; ond rhaid ei fod yn wir sancteiddrwydd: "Gwisgwch y dyn newydd, yr hwn yn ol Duw a grewyd mewn cyfiawnder a gwir sancteiddrwydd." Fel

hyn, gwelwch mai nid arfogaeth, fel arfog-aeth, ond fel arfogaeth Duw, a wna enaid yn anorchfygol. Beth bynag a aned o Dduw sydd yn gorechfygu y byd. Ffydd a aned o Dduw, a gobaith a aned o Dduw; ond y mae hil fastardaidd yn cau allan ddyledswyddau a grasau; y rhai hyn, gan eu bod o had llygredig, nid ydynt yn anfarwol.

Defn. A raid i arfogaeth yr enaid fod o wneuthuriad Duw? Cymmerwch eich annog ynte i edrych yn fanwl a ydyw yr arfogaeth sy genych o weithrediad Duw, ai nid ydyw. Y mae anledd o eiddo drwg yn cael ei roddi ar led y dyddiau hyn; yehydig o arfogaeth dda a wisgir gan y llauws o broffeswyr. Y mae math o ail-chwareu gan Satan; os na all efe foddio pechadur gyda'i gyflwr noeth o halogrwydd, yna ä i'w droi heibio â rhywbeth tebyg i ras—rhyw wael sothach na wna les i'r dyn, na niwed iddo yntau. Fel hyn y mae llawer: yn debyg i blant a waeddant am gyllell neu ddagr; ond cylllell o äsgwrn, neu ddagr o bren, a'u boddia gystal a'r rhai goren. Ond iddynt hwythau gael arfogaeth, nid oes fater pa fath. Gweddio sy raid iddynt, ond bychan yw y gofal pa fodd ei cyflawnir. Credu yn Nuw! ydynt: hwy a obeithiant mai nid rhai digred ydynt. Ond pa beth yw credu, pa fodd y daethant iddo, neu a ddeil eu cred mewn dydd drwg: ni bu hyn erioed mewn holiad yn eu calonau. Fel hyn y mae miloedd yn gollledig, dan wâg dybied eu bod yn arfog yn erbyn Satan, augeu, a barn, pan y maent yn resynol ac yn noeth; i.e., yn waeth eu cyflwr na'r rhai sydd yn fyw noeth: meddwl yr wyf am y rhai nad oes ganddynt fretyn o foesoldeb i guddio eu cywilydd o olwg y byd, a hyny mewn dau olygiad:—

1af. Y mae yn y cyfryw rwystr mwy i waith cadwedigol, am fod ganddo y rhith, tra y mae heb y grym; ac y mae hyn yn ddadl ganddo. Dyn cwbl noeth, heb ddim yn debyg i'r wisg briodas am dano—y mae hwnw yn fud. Ni fedd y meddwyn ddim i'w ddywedyd drosto ei hun pan ofynoch iddo pa ham y mae yn byw mor fochynaidd; chwi ellwch ddyfod ato, ac i fewn iddo, a throi hyd yn oed ffroen ei gydwybod i'w erbyn, i saethu argyhoeddiad arno. Ond os ceisiwch ymhel âg un sydd yn gweddio ac yn gwrandaw—un yn ymhöni fod ganddo ffydd a gobaith yn Nuw, dyma ddyw mewn arfogaeth ddysglaerwch; y mae ganddo ei arf yn ei law i gadw draw y pregethwr, a'r gair y mae yn ei ysgwyd arno yn ol hyd ei fraich. Pwy a fedr ddywedyd nad ydyw fi yn un duwiol? Pa ddyledswydd nad wyf fi yn ei harfer? Dyma ddiffyn-glawdd y mae yn ymgadw ynddo? ac y mae yn ei gadw rhag bod yn nöd mor amlwg i sylw neu i gerydd un arall, trwy fod ei ddiffyg penaf oddi mewn, lle nad yw llygad dyn yn canfod iddo. Drachefn, y mae rhwystr mwy i

weithio arno; o blegid fe fu eisoes ymhel âg ef, a methwyd yn y cynnyg. Pa fodd y daeth hwn a hwn i gydnabyddiaeth â'r cyfryw ddyledswyddau i wneuthur y fath broffes? A oedd efe erioed fel hyn? nag oedd: y gair a fu ar waith gydag ef; y mae ei gydwybod wedi ei frwyachu oddi wrth ei gelfyddyd o ddrygioni, at ffurf o broffes; ond gan iddo aros yn fyr o Grist, y mae efe, o ddiffyg cyfnewidiad trwydd, yn anhaws ei symmud na'r llall. Y mae yn glo y rhwystrwyd ei folttau, yr hyn a'i gwnaeth yn fwy anhawdd i droi yr agoriad nag un na ymhelwyd erioed âg ef. Y mae yn hawddach trin ebol gwyllt blewog na farchogwyd erioed, nag un a ddysgodd gast wrth ei dori; äsgwrn yn gwbl o'i le, nag un wedi ei gamosod. Mewn gair, y mae gan y fath un fwy i'w wadu na dyn halogedig. Nid oes gan hwn ond ei chwantau, ei butiniaid, ei folera, a'i lymeitiau; ond y mae gan y llall ei ddyledswyddau a'i rith rasau. O! mor anhawdd ydyw perswadio y fath un i ddisgyn a dal gwrthaf Crist, i fod o hono ef a'i ddyledswyddau yn droedfainge iddo!

2il. Y fath un ydyw y dyfnaf tan gonedmiad. Nid oes neb yn suddo mor ddfwn i uffern a'r rhai sydd yn dyfod yn agosaf i'r nef, am eu bod yn syrthio o'r uchder mwyaf. Megys y mae yn chwaniad, yn y golygiad hwn, at boenau dynion damnedig uwch law diaffiaid, fod rhaff trugaredd wedi cael ei thafu allan iddynt hwy, yr hyn ni bu i ddiapiaid; felly, po mwyaf y byddo i Dduw, trwy ei Ysbryd, ymaros â dyn, dadleu âg ef, ac felly ennill arno yn fwy nag ar ereill, mwyaf poeth o hyny y prawf efe uffern, os colledig fydd. Y mae y rhai hyn yn chwaneu at ei bechod ef; a bydd y coffa am ei bechod yn uffern, gyda'r pwys mwyhaol hwn, yn chwaneu at ei boen. Ni bydd i neb ymadawiad mor alaethus â Christ a'r rhai a aethant hanner y ffordd i'w ganlyn, ac yna a droisant eu cefn arno.

Gan hyny, attolwg, edrychwch ar eich arfogaeth. Nid ymladdai Dafydd mewn arfogaeth heb ei phrofi, er mai arfogaeth breinin ydoedd. Fe allai fod rhai yn ei gyfrif yn rhy ddichlyn. Pa beth? ai nid yw arfogaeth y breinin yn ddiagon da i Dafydd? Fel hyn y dywed llawer. A wyt ti mor fanlydd a chywrain? Y mae y cyfryw ŵr mawr yn gwneyd fel hyn ac fel hyn, ac yn gobeithio dyfod i'r nef yn y diwedd; ac ai ni feiddi di anturio dy enaid yn ei arfogaeth ef? Na, Gristion; paid ti a dilyn estiampl y mwyaf ar y ddaear; dy enaid dy hun wyt ti yn ei anturio i'r frwydr; am hyny, nid oes le i ti fod yn rhy fanwl yng nghylch dy arfogaeth. Dwg dy galon at y gair, fel yr unig faen prawf ar dy ras a'th arfau. Y gair—fel y dywedais—yw tŵr Dafydd, o'r hwn y mae i ti gyrchu dy arfogaeth; os medri gael argraff y tŵr hwn arni, yna y mae hi o Dduw; os

amgen, nid ydyw. Prawf hi gan hyny wrth argraff yr un ysgrythyr hon. Yr arfau a rydd Duw i'w saint i ymladd ei ryfeloedd ef, y maent yn nerthol: "Arfau ein milwriaeth ni nid ydynt gnawdol, ond nerthol trwy Dduw," 2 Cor. x. 4. Y mae gan gledddyf yr Ysbryd ei flaen a'i fin; ac felly, fe wna ei ffordd i'r galon a'r gydwybod, trwy anedifeirwch y naill, a chaledwch y llall; â'r rhai hyn y mae Satan yn arfogi y pechadur yn erbyn Duw, megys âg amwsg dew-lurig-aidd. Ond yno, yn y galon a'r gydwybod, y gwna hwn dori ac archolli, lladd a marw-hau chwant yn ei gastell ei hun, lle y tybia Satan ei fod yn anorchfygol. Ac am y dwyfroneg a fyddo o Dduw, nid yw hi yn plygu ac yn tori wrth bob picell o brofedigaeth, ond y mae hi o'r fath naws ddwyfol fel y mae yn gyru cynhyrfaadau Satan yn ol gyda dirmyg i'w ddannedd; "A ffy gŵr o'm bath i?" yn ol ymadrodd Nehemiah ar achos arall (*pen. vi. 11*); a thebyg yw y lleill oll. Yn awr, profwch ai nerthol ai dinerth yw eich arfau. Beth a ellwch chwi wneuthur neu ddyoddef dros Dduw, yn fwy na rhagrithiwr wedi ei wisgo mewn arfogaeth gnawdol? Mi ddywedaf i chwi beth ydyw siarad y byd, ac os ydych chi yn Gristionogion, glanhewch eich hunain, a sychwch ymaith y budreddi a daflant hwy ar eich arfogaeth ddysglaer. Hwy a ddywedant, "Y mae gan y profeswyr hyn yn wir fwy o siarad am Dduw na nynt; y maent yn fynychach na ni ar fryn dyledswydd; ond pan y deuant i lawr i'w siopau, at helynt a gorchwylion bydol, nid yw y goreu o'u rhif ond fel un o honom ninnau; gallant dasfu llechiâu gorchymynion Duw o'u dwylaw gystal a ninnau; dyfod o'r bregeth, a bod mor gybyddlyd a gwangeus, mor anniddig a digofus a'r gwaethaf; hwy a ddangosant cyn lleied o gariad at Grist ag ereill; a phan y byddo achos o ryw gost, megys helpio Cristion tlawd neu gynnal achos yr efengyl, gellir cael mwy gan estron, neu elyn, na chan frawd profsedig." O Gristionogion! naill ai amddiffynwch enw Crist, dan faner yr hwn yr ydych, debygid, yn teithio, neu teifwch ymaith eich rhith arfogaeth, trwy yr hon yr ydych wedi tynu llygaid y byd arnoch. Ac oni wnewch, Crist ei hun a'ch diswydda chwi, a hyny gyda gwarth ddiagon cyn bo hir. Byth na alw hono yn arfogaeth Duw, yr hon ni wna dy amddiffyn yn erbyn gallu Satan. Cymmer gan hyny amryw ddarnau dy arfogaeth, a phrawf hwynt fel y milwr cyn ymladd; efe a esyd ei helm, neu ben-dryll, yn nod i saethu ato gwpl o belenau; ac yn ol fel y byddo trwy brawf, y bydd iddo ei wisgo neu ei wrthod. Ond bydd di sier o'th fod yn saethu pelenau yr ysgrythyr. Y mae genyt ymfrost am ddwyfroneg cyfiawnder: gofyn i'th enaid a gyflawnaist ti erioed ddyledswydd i ryngu bodd Duw, ac nid er

dy fudd dy hun. Yr wyt wedi gweddio yn fynych yn erbyn dy bechod; clybuwyd gan ereill fawr swm yr ergydion hyn yn dyfod oddi wrthyt, fel pe byddai rhyw frwydr boeth rhyngot a'th lygredd; ond a fedri di yn ddiau ddangos un pechod a leddaist trwy dy holl weddio? Yr oedd Ioseph yn fyw, er i'w siaced gael ei dwyn yn waedlyd at Iacob; ac felly y gall dy bechodau dithau fod, er dy holl edrychiad marwhaol di mewn dyledswydd, a'th groch-lefau yn eu herbyn. Pe byddai i ti fel hyn brofi bob darn, ni byddai i'th galon hygoelus gael ei siomi mor hawdd â sothach y diafol.

Gurthudd. Ond a yw pob arfogaeth a fyddo o Dduw yn nerthol fel hyn? Ni a ddarllenwn am ras gwan, ac ychydig ffydd: pa fodd felly y gall hyn fod yn brawf o'n harfogaeth, a yw hi o Dduw, ai nid yw?

At. Yr wyf yn ateb, Mae gras gwanaidd yn bod, mewn cymhariaeth i ras cryfach; ond y mae y gras gwan hwnw yn gryf a nerthol mewn cymhariaeth i rith o ras. Yn awr, nid wyf yn dy alw i brofi gwirionedd dy ras wrth y fath nerth ag sy'n briodol i ras cryfach, ond, wrth y nerth, neu rym, a'i gwahaniaetha oddi wrth y rhith. Mae gwir ras, pan fyddo wanaf, yn gryfach na'r rhith pan fyddo gryfaf. Y mae ynddo egwyddor o fywyd dwyfol; yr hyn nid oes yn y llall. Yn awr, bywyd, megys y mae yn peri rhagoriaeth—fel y mae chwanen neu wybedyn, o herwydd bywyd, yn rhagori ar yr haul yn ei holl ogoniant—felly y mae yn dwyn nerth. Ysgogiad araf dyn byw, er iddo fod mor wan fel nad allo gerdded ond un ystâd (*furlong*) yn y dydd, etto, gan fod hyny yn dyfod oddi wrth fywyd, y mae yn arwyddo nerth mwy nag sy mewn llong; yr hon, er ei hwyliad cyflym, sydd â'i hysgogiad oddi allan. Fel hyn, y mae yn bosibl i ragrithiwr ragori ar y gwir Gristion, yn y maintioli a'r rhan allanol o ddyledswydd; etto, gan nad yw ei nerth ef oddi wrth fywyd, ond megys oddi wrth wynt a llanw sydd yn ei ddwyn yn mlaen; a chian fod nerth y Cristion yn ddeilliad o egwyddor dufewnol, am hyny y mae gwendid y Cristion yn gryfach na'r rhagrithiwr yn ei ymhelaethiad mwyaf. Ni wnaf enwi ond dwy weithred o ras, pan fyddo wanaf, trwy ba rai y mae y Cristion yn rhagori ar y rhagrithiwr yn ei lawn drwsiad gwyachaf. Chwi a ddywedwch, Y mae gras yn ddiau yn wanaidd iawn pan ddener y Cristion i wneuthur pechod, fe, pechod mawr, y fath ni fynai dyn anianol, ysgatfydd, er llawer, ei fod yn cael ei roddi i'w erbyn. Dichon llanw gras dreio mor isel a ras; etto, yn ei drai, gellir gweled gwir ras yn fwy ei nerth a'i rym na'r llall. (1af.) Ni âd yr egwyddor hon o ras lonydd i'r dyn, nes y byddo iddo, gyda Phedr, wylo yn chwerw-dost, am iddo ddigio Duw mor dda. Dywedwch, O chwi ragrithiwr!

fedwrch chwi ddangos un deigrin a dywallt-
asoch erioed o ddirif, am gam a wnaethoch
â Duw? Chwi fedwrch wylo, ysgatfydd,
wrth edrych ar y gwely o ofid a wna eich
pechodau i chwi yn uffern; ond erioed ni bu
ynoch y fath gariad at Dduw ag i alaru am
y sarhad a wnaethoch i enw Duw. Y mae
gam Awstin ddeongliad da ar ddagrau Esau:
Heb. xii. 17. Efe a wylodd o herwydd
colli y fendith, nid o herwydd ei gwerthu.
Fel hyn y gwelwn ragoriaeth tristwch y
saint uwchlaw gofid rhagrithiwr. Y mae
y Cristion trwy ei dristwch yn dangos ei
fod yn orchfygwr ar y pechod oedd gynt
yn ei drechu ef; tra y mae y rhagrithiwr
trwy ei falchder yn dangos ei fod yn gaeth-
was i waeth chwant na hwnw y mae yn ei
wrthsefyll. Y mae y Cristion yn casau
pechod tra y mae yn ei wneuthur, ond y
mae y llall yn ei garu, ie tra y mae yn
ymattal oddi wrtho.

(2il.) Pan fyddo gwir ras tan droed prof-
edigaeth, efe a gyffir, ie y pryd hyny, yn y
galon ddymuniaid taer am ddial; yn debyg i
garcharor tan law ei elyn, yr hwn sydd yn
meddwl ac yn dyfeisio pa fodd i ddiange, a
pha beta a wna pan ddel allan, gan ddisgwyl
a hiraethu bob moment am ei ryddhâd, fel y
gallo gymmeryd i fyny ei arfau drachefn;
"O Arglwydd Ior! cofia fi attolwg (medd
Samson), a nertha fi, yn unig y waith hon,
fel y dialwyf âg un dialedd ar y Philistiaid
am fy nau lygad;" *Barn. xvi. 28.* Felly y
gweddia yr enaid grasol ar i Dduw ei arbed
am ychydig, a'i nerthu unwaith etto cyn ei
farw, fel y gallo ddial ar ei falchder, ei ang-
hrediniaeth, a'r pechodau hyny trwy ba rai
y bu iddo yn fyfawr ddianrhydeddu ei Dduw.
Ond y mae calon ffals mor bell oddi wrth
fyfyrion dial, hyd onid yw yn hytrach yn
ymchwyddo fel y môr yn erbyn y ddeddf,
yr hon sy fel ceulan yn cadw ei chwant i
mewn; ac y mae yn ddig wrth Dduw, yr
hwn a wnaeth bechod yn naid mor serth,
fel y mae yn rhaid iddo beryglu ei enaid, os
myn ei gael.

PENNOD IV.

*Am gyfanrwydd ein harfogaeth. Rhaid iddi fod
yn "holl arfogaeth Duw."*

Y DRYDEDD gaingc, am ddarpariaeth y
Cristion, yw ei gyfanrwydd—"Holl arfoga-
eth Duw." Rhaid i arfogaeth y Cristion
fod yn gyflawn; a hyny mewn golygiad
triphlyg.

DOSE. I.

1af. Rhaid ei fod yn arfog ym mhob
rhan—pen a thraed, enaid a chorff, gallu-
oedd y naill a synwyrâu y llall; ac heb un
rhan wedi ei gadael yn noeth. Gall picell
hedeg i mewn trwy dwll bychan, fel yr un a

ddygodd genadwri angeu i Ahab, rhwng cys-
sylltiadau y llurig; ac y mae Satan yn annel-
ydd a all saethu at led y geiniog. Os bydd
y dyn yn arfog oll, a dim ond ei lygad yn
noeth ac agored, gall Satan yn fuan ergydio
ei dân-belenau o drachwant trwy y dolen-
dwl hwnw, a rhoddi yr holl dŷ ar dân. Ni
wnaeth Efa ond edrych ar y pren, a phicell
wenwynllyd a'i tarawodd hyd ei chalon. Os
bydd y llygad yn gauad, a'r glust yn agored
i ymddydanion llygredig, buan yr ymlusga
Satan i mewn trwy y twll hwn. Os bydd y
synwyrâu allanol oll dan wyliaid, a'r galon
heb gael ei chadw yn dra dyfal, buan y brad-
ychir y dyn gan ei ffyddiliau ei hun i law
Satan. Y mae i ni elynion ar bob ochr, ac
felly y bydd raid cael arfogaeth ar ddeheu
ac ar aswy; 2 *Cor. vi. 7.* Y mae yr apostol
(*Heb. xii. 1*) yn galw pechod yn elyn parod
i'n hamgylchu. Os bydd un rhan o'r am-
glawdd heb ei wyllo, neu yn wan o ddar-
pariaeth, yno y gwna Satan ei ruthr. Ni a
wyddom fod gelyn, tra y mae yn cael ei guro
ymaith ar un ochr, yn fynych yn dyfod i
mewn i'r ddinas yr ochr arall, trwy ddiffyg
gofal am gadw yr holl fur. Y mae Satan
yn rhanu ei demtasiynau yn amryw fyddin-
oedd; rhydd un ar waith i ymosod yma, a'r
llall i ruthro draw. Ni a ddarllenwn am
ddyrgau cnawdol, a drygau ysbrydol; y
phan fyddech yn gyru Satan ar encil, yn ei
dementiaid i ddrygau cnawdol, fe all fod yn
cael dyfodfa i mewn i'th ddinas trwy y porth
arall o ddrygau ysbrydol. Fe allai dy fod
wedi cadw dy gywirdeb yn y rhan ymar-
ferol o dy fywyd; ond pa arfogaeth sy
genyt i amddiffyn dy ben, dy farn? Os efe
a'th ddeil di ar gip yma, gan lygru dy farn
â rhyw gyfeiliornad, yna nid hir y deil dy
ymarferiad. Efe, yr hwn ni fedrai dy gael
i halogi y Sabbath ym mysg y rhai amlwg
anianol ac atheistaidd, a'th ennill di dan
orchudd rhyddid Cristionogol, i'r unrhyw
egwyddor lygredig. Fel hyn y gwelwn y
diffyg sydd arnom ni o arfogaeth gyflawn,
mewn golygiad ar bob rhan.

DOSE. II.

2il. Rhaid i'r Cristion fod mewn arf-
ogaeth gyflawn, o ran yr amryw ddarnau ac
arfau a wnant i fyny holl arfogaeth Duw.
Yn wir y mae y grasau mewn cydglymiad;
y maent yn crogi yng nghyd fel modrwy
mewn cadwen, ceryg mewn bwa maen, neu
aelodau yn y corff; pigwch un wythien, ac
fe all y gwaed oll redeg o'r corff trwy y
ffrydle hwnw; os esgeuluswn un ddyled-
swydd, ni chawn les un arall. Y mae yr
apostol, yn 2 *Pedr i. 5, 6, 7*, yn cymhell y
Cristion i gyd-ymegniad at gynnyddu yr holl
gorff o ras. Yn wir, iechyd yw hyny, pan
fyddo'r holl gorff yn cynnyddu. "Chwan-
egwch (medd efe) at eich ffydd, rinwedd."
Ffydd yw y gras sydd yn arwain y rhes.

Wel, os oes genyt ffydd, chwanega rinwedd ati. Y mae gwir ffydd o natur weithgar a bywiog: heb weithredoedd da, marw neu farwaidd ydyw. "Y mae ffydd yn tewychu trwy weithredoedd," medd Luther. Hi a gedwir mewn gwedd a chalon trwy fywyd sanctaidd; megys y cnawd, sydd yn baelled dros adeilad y corph, er ei fod yn derbyn ei wres oddi wrth y rhanau bywydol oddi fewn, etto, y mae yn help i gynnal hyd yn oed ffwyd y rhanau bywydol hyny. Felly mae gweithredoedd da ac ymarferiadau grasol yn cael eu bywyd oddi wrth ffydd; etto, y maent yn gynnorthwyon angenrheidiol i gynnal bywyd ffydd. Fel hyn y gwelwn weithiau y plentyn yn meithrin y fam a'i ymddug; ac nid yw efe yn gwneyd ond ei ddyledswydd yn hyny. Yr wyt yn ffrwythlaw mewn gweithredoedd da; etto, yr wyt yng nghyrhaedd ergyd y diafol, oddi eithr i ti chwanegu "at dy rinwedd wybodaeth." Dyma'r ganwyll, heb yr hon nis gall ffydd weled i wneyd ei gorchwyl. A wyt ti yn myned i roddi elusen? Oni bydd gan dy fryd elusengar y llygad hwn o wybodaeth i'w gyfarwyddo—pa bryd, pa fodd, pa beth, ac i bwy y dylit roddi—ti elli ar unwaith wneuthur cam â Duw, â'r neb y byddi yn rhoddi iddo, ac â thi dy hunan. A wyt ti mewn ymddarostyngiad am dy bechod! O ddiffyg wybodaeth yn amcan yr efengyl, fe ddichon Satan gymmeryd mantais ar dy wybodaeth, a'th berswadio nad wyt yn ddi-gon ymddarostyngol, pan wyt, yn ddiâu, agos a boddi gan dy ddagrau, ac yn cael dy ddwyn gan lifeiriant dy ofid tuag anobaith; neu ynte, efe a ddichon, trwy ddangos i ti dy wyneb gwlyb iawn, dy weniethio i hyder cnawdol yn dy ymddarostyngiad. Yr wyt, ysgatffydd, yn gweled enw Duw yn cael ei ddiarhydeddu yn y lle yr wyt yn byw yndo, a'th ysbryd yn cael ei gynhyrfu ynot, fel Paul yn Athen; yn awr, oddi eithr i wybodaeth eistedd yn y cyfrwy, i reoli a ffrwydo dy sel, fe'th ddygir yn fuan dros glawdd a ffos, nes i ti syrthio dros ryw ddi-byn neu gilydd trwy dy ymddygiad afreolaidd. Nid digon chwaith yw gwybodaeth, oni byddi wedi dy arfogi â chymmedrollder. Hwn, mi dybygwn, yw y gras drwy yr hwn y mae y Cristion, fel meist'r ei dŷ ei hun, yn rheoli ei serchiadau, megys gweision, i reswm a ffydd, fel na byddo iddynt ymgyhyrfu yn afreolus, neu dori allan yn drachwantus i ddyuniadau am gysuron y byd hwn, i ofalon am danynt, neu ymhyfrydiad ynddynt. Heb hwn, fe fydd Satan yn rhy galed i ti. Mae hanesydd, wrth adrodd am un o'r brwydrau nodedig a fu rhwng y Saeson a'r Ffrancod, yn dywedyd mai yr hyn a barodd i'r Ffrancod gollu y dydd, ydoedd, cawod o saethau y Saeson a niweidiodd eu march-lu, fel y tafwyd eu byddin oll i an-nhrefn; gan i'w meirch, heb gadw eu rheng-

oedd, sathru i lawr eu dynion eu hunain. Nid yw y serchiadau ond megys y march i'r marchogwr; a gwybodaeth a ddylai fod yn eu marchogaeth. Os bydd i saethau bachog Satan ddisgyn arnynt, nes i'r dymuniadau am y creadur fyned yn afreolus, a gwrthio draw dy ddyuniadau am Grist; ac nes i'th ofal am gadw dy enw, a'th eiddo, daflu i an-nhrefn dy ofal am gadw cydwybod dda; neu nes i'th lawenydd cnawdol am wraig a phlant fathru i lawr neu redeg o flaen dy lawenydd yn yr Arglwydd; barna di i ba ochr y mae y fuddugoliaeth yn debyg o syrthio. Wel, gadawn dy fod yn teithio hyd yn hyn mewn arfogaeth lawn a thaelus tua'r nef, tra yr ydwynt yn nofio mewn llwyddiant; ond ai nid oes i ti hefyd ddarparu erbyn hin a ffordd arw?—am gyflwr cystuddiol yr wyf yn meddwl. Fe fydd i Satan resu y gwrychoedd â mil o demasi-yngau, erbyn dy ddyfod i ffyrdd culion adfyd, lle nis gelli ddianc rhyw y rhyw hon o brofedigaeth, fel yng ngwastattir hawddfyd. Y mae yn bosibl i ti, ar ol diange rhag magl y byd, pan oedd yn denu, gael dy daflu i lawr ganddo pan fyddo yn gwgu; ac er i gymmedroldeb dy gadw rhag meddwi ar win melus y pleserau hyny, etto, o ddiffyg amynedd, ti elli fod yn feddw gan win syndod sydd yn llaw cystudd. Am hyny, medd yr apostol, "at gymmedroldeb, chwanegwch amynedd." Naill ai meddianna dy enaid mewn amynedd, neu ynte fe fydd i ryw gythraul gorphwyllus o anffodlonrwydd dy feddianna di. Rhyw fedlemydd mewn cadwynau ydyw dyn anamyneddgar mewn cystuddiau; ie, yn rhy debyg i'r diafol yn ei gadwynau, sydd yn ymgynddeiriogi yn erbyn Duw, tra y mae mewn llyftheiriau ganddo. Wel, a oes genyt amynedd? Gras rhagorol yn wir; ond nid llawn ddigon. Y mae yn rhaid i ti fod yn dduwiol yn gystal ag yn amyneddgar. Am hyny, medd yr apostol, "at amynedd, dduwioldeb." Mae math o amynedd Atheistaidd a dideimlad; ac y mae amynedd Cristionogol a duwiol. Satan sydd yn syfrdanu cydwybod y naill; ac nid rhyfedd fod hwn heb gwyno, sy heb deimlo. Ond Ysbryd Crist sydd yn hyfryd dawelu y llall—nid trwy gymmeryd ymaith y teimlad o boen, ond trwy ei drechu â'r profiad o'i gariad. Yn awr, y mae duwioldeb yn cynnwys y cwbl o wasanaeth Duw—oddi mewn ac oddi allan. Pa mor fanwl bynag a fyddych yn dy foesau, ac heb fod yn addolwr Duw, nid wyt ti ond Atheist, neu ddyn annuw. Os wyt yn addoli Duw, a hyny yn ddefosiynol, ond nid yn ol y rheol ysgrythyrol, yr wyt yn eilun-addolwr: ac os yn ol y rheol, ond nid mewn ysbryd a gwirionedd, yna yr wyt yn rhagrithiur; ac felly yn syrthio i safn y diafol. Neu, os ydwynt yn rhoddi i Dduw un rhan o'i wasanaeth, ac yn ei nacau o'r llall, y mae Satan fyth yn

cael ei farchnad: "Y neb a dry ei glust ymaith rhag gwrandaw y gyfraith, fydd ffaidd ei weddi hefyd;" *Diar.* xxviii. 9.

Etto, Gristion, nid ydyw dy holl arfog-aeth am danat. Byddai dy dduwioledeb yn wir yn ddiagon, pe byddai i ti fyw mewn byd wrthyt dy hun, neu pe byddit heb ddim gorchwyl heb law cymundeb digyfrwng â Duw. Ond, Gristion, nid oes i ti aros o hyd ar y mynydd hwn o wasanaeth digyfrwng; ac wedi i ti ddisgyn o hono, y mae genyt lawer o frodyr a gweision i'th Dad sydd yn byw gyda thi yn yr un teulu, ac y mae yn rhaid i ti gydymweddau yn addas; os amgen, fe fydd dy Dad yn ddi.

(1af.) Y mae genyt frodyr, cydetifeddiion â thi o'r un addewid; gan hyny, y mae yn rhaid i ti, at dduwioledeb, chwaneu "caredigrwydd brawdol." Os gall Satan eich dwyn i anghydfod, y mae yn rhoddi archoll dwfn i'ch duwioledeb. Prin y gellwch roddi calonau gyda'ch gilydd mewn dyledswydd, y rhai nis gellwch roddi dwylaw i'ch gilydd mewn cariad.

(2il.) Y mae—nid brodyr yn unig—ond gweision, luaws o rai halogedig ac anianol; ac er na chafodd y rhai hyn erioed yr enwau o feibion a merched, etto dylid eu cofio gan deulu Duw; ac fe fyn dy Dad nefol i ti rodio yn ddifeisus, i e yn ennillgar, tuag at y rhai sydd oddi allan. Fel y gallech wneuthur hyn, y mae yn rhaid i ti chwaneu at "garedigrwydd brawdol, gariad." Trwy y gras hwn, ti a fyddi yn ewyllysgar i wneyd daioni i'r gwaethaf o ddyuon; pan feldithiont di, gweddio sydd i ti drostynt hwy; i e, gweddio am ddim llai na Christ a nefoedd iddynt. "O Dad! maddeu iddynt," meddai Crist, tra yr oeddynt hwy yn ei drywanu ef hyd waed ei galon. Ac yn ddiaw, yr wyf yn coelio, fod y diffyg o'r darn olaf hwn o arfog-aeth wedi rhoddi i Satan fantasia fawr yn ein hamserodd ni. Y mae arnom ni ofn rhag i'n cariad ni fod yn rhy eang; ond, yn y golygiad sy genym—oddi eithr ei fod mor eang a'r byd—y mae yn rhy gyfyng, yn ol y gorchymyn sydd yn erchi i ni wneuthur da i bawb. Onid ellir rhoddi arnom ni, weinidogion, am y diffyg o hyn? Gellir: pan fyddo cyfeiriad ein pregethau at y saint yn unig, ac heb ddim ymdrech tuag at achub eneidiau truan sydd yn gaethion, ac heb eu galw allan o feddiant Satan, yr hwn a all eu llusgo i uffern, heb gael dim aflonyddiad, tra yr ydym ni yn cysuro y saint, ac yn pregethu eu rhagorfreintiau hwynt. Yn y cyfamser, bydd y rhai sy dywyll yn dywyll etto, y rhai halogedig yn halogedig etto, a hyn o ddiffyg cariad tosturiol at eu heneidiau, yr hwn a'n cynhyrfai i'w hargyhoeddi a'u hannog hwynt, fel y byddai iddynt hwythau hefyd gael eu dwyn i ffordd y bywyd, yn gystal ag i'r saint gael eu calonogi y rhai sydd yn rhodio ynddi. Gorchu-

wylwyr ydym, i ddarparu lluniaeth i dŷ yr Arglywydd. Y rhan fwyaf o'n gwrandawyr, ni ddylent, ac nid oes iddynt gael, bara y plant; ac a fydd i ni, am hyny, eu gadael heb un gyfran oll? Yr oedd cariad Crist yn tosturio wrth y dyrfa; ac, yn ei bregethiad cyhoeddus, efe a wnai gymhwysiad pen-nodol atynt, megys yn ei bregeth nodedig hono (*Mat.* xxiii.) ag y mae tueddiad y rhan fwyaf o honi at ddeffroi cydwybodau cysgld y Phariseaid rhagrithiol, trwy y taranau o waeau a melldithion a gyhoeddir mor fynych yn eu herbwn. Drachefn, pa fath fantasia fawr a gafodd Satan trwy y diffyg o'r cariad hwn yn ein teuluoedd? Ai nid ydyw i weled, pa cyn lleied o ofal a gymmerir gan lywodraethwyr professedig y cyfyr gymdeithasau, i hyfforddi eu rhai ieuaine? Nag e; y mae yn egwyddor a lyncodd rhai mai nid eu dyledswydd ydyw hyny. O! pa le y mae eu tosturi, pan fedraut edrych ar Satan yn dyfod i mewn i'w tai, a gadael iddo yru plentyn neu was yn ei anwybodaeth a'i halogrwydd i uffern, ac heb wneyd un rhuthr ar y gelyn trwy air o gerydd neu addysg, i achub yr enaid gwirion allan o ddwyllaw y lleiddia! Rhaid i ni, meddant, eu gadael i'w rhyddid: eithr y mae hyny yn lle mor deg ag a allwn roddi i'r diafol. Os rhoddwch i natur lygredig ond digon o'r rhaff hon, buan y taga hi wir egwyddorion Duw a chrefydd yn eu blynyddoedd tyner

DOSB. III.

3ydd. Gellir cymmyrd cyflawnder arfog-aeth y saint, nid yn unig am bob rhan a darn o'i addurnau, ond am gyfanrwydd a pherffeithrwydd pob darn. Megys y mae i'r Cristion ymgais am bob gras, felly y mae efe i wasgu ym mlaen am chwaneuad a chynnydd pob gras; i e, am berffeithrwydd ei hun. Megys y mae iddo chwaneu at ei ffydd rinwedd, felly y mae iddo fyned rhag-ddo "o ffydd i ffydd;" y mae iddo fod o hyd am berffeithiad ei ras. Y mae hyn yn cael ei wasgu yn fynych ar gredinwyr: "Byddwch chi gan hyny yn berffaith, fel y mae eich Tad yr hwn sydd yn y nefoedd yn berffaith. Ac y mae pob un sydd ganddo y gobait hwn ynddo ef, yn ei buro ei hun, megys y mae yntau yn bur;" *Mat.* v. 48; 1 *Ioan.* iii. 3. Dyma i ni *gopi* manwl a chywir; nid fel pe gallem ni ymgystadlu â'r purdeb a'r perffeithrwydd sydd yn Nuw, ond i beri i ni ymdrechu mwy, wrth weled gymmaint yr ydym yn fyr o fod fel ein *copi*, pan ysgrifonom y llaw oreu. Felly, "Cafedd amynedd ei pherffaith waith; fel y byddoch berffaith a chyfan, heb ddiffygio [neu fod yn fyr] mewn dim;" *Iago.* i. 3. Tydi, yr hwn y mae yn galed arnat, dan faich bychan, gyda dy amynedd fechan, oni suddit ti dan un mwy? Am hyny, y mae angen am i amynedd fod o hyd yn cael ei

pherffeithio, rhag i ni o'r diwedd gyfarfod â baich rhy drwm i'n hysgwyddau gweiniaid. Jymmerwch rai rhesymau pa ham y dylai y Cristion fod fel hyn yn perffeithio ei ras.

(1af.) Am fod gras yn ddarostyngedig i adfeiliad; ac yn ganlynol, o hyd mewn eisieu adnewyddiad. Megys mewn byddin, yn enwedig un a fyddo mewn brwydr yn fynvch, y mae ei harfau yn cael aml dolec a Jhoriad: y mae gan un ei helm wedi ei phantio, arall ei gleddyf wedi bylchu, a'r llall ei wn wedi rhwystro; ac am hyny, y mae cyflawniad diffygion o hyd yn angenrheidiol. Mewn un brofedigaeth, y mae gan y Cristion ei helm o obaith wedi ei churo oddi ar ei ben; mewn un arall, ei amynedd dan ddyrnodiau trymion. Y mae arno angen am weithdy arfau wrth law, i wneyd ei golled i fyny, a hyny gyda brys; o herwydd y mae Satan yn fwyaf tebygol i syrthio arno pan fyddo efe amharotaf i dderbyn ei ruthr. "Simon, Simon, Satan a'ch ceisiodd i'ch nithio;" efe a wyddai mai gwanlyd oedd eu darpariaeth y pryd hyny. Yr oedd Crist, eu cadben, ar gael ei gymmeryd oddi wrth ben eu byddin; amfodlondeb yn eu plith eu hunain; ymryson pwy a fyddai fwyaf; a'r adgyflenwad o ras cryfach, yr hwn yr oedd yr Ysbryd i'w ddwyn iddynt, heb ddyfod etto. Yn awr, ei fwriad ydyw syrthio yn ddisymmwrth arnynt; ac am hyny y mae Crist yn ei ofal i'w ragflaenu yn addaw anfon ei Ysbryd yn fuan i'w cymhorth: *Act. i. 4.* Yn y cyfamser, y mae yn eu danfon i Ierusalem i sefyll fel un corph, yn eu cyd-erfyniadau, ac ar eu gwyliadwriaeth, tra y byddai efe yn dyfod i'w cynnorthwyo. Yn hyn y mae yn dangos i ni pa beth i wneyd yng ngwendid ein grasau, a pha le i fyned am gynnorthwyo.

(2il.) Am fod Satan yn ymlenwi'n ei fedr a'i lid. Nid am ddim y gelwir ef "yr hen sarph"—cyfrwys o natur, ond cyfrwysach trwy brawf; lliodiog o natur, ond yn fwy ffyrnig beunydd; fel tarw, mwyaf y baeddir ef, mwyaf ffrochwyllt y gwelir ef. Ac am hyny, yn awr, pan yw ei amser mor fyr, y mae yn llwyr angenrheidiol i ni, sydd i ymladd âg ef, ddyfod mewn iawn osodiad i'r maes.

(3ydd.) Diben holl oruchwyliaethau Duw yw perffeithio ei saint yn eu grasau a'u cysuron. Pa ham y mae efe yn ysgythru ac yn blaen-dori trwy gystuddiau, ond i "lanhau fel y dygont fwy o firwyth," sef firwyth llawnach a thecach? Y mae "gorthrymder yn peri dioddefgarwch;" *Rhuf. v. 3.* Apwyntiad Duw ydyw, i'r dyben hwnw. Y mae yn ei beri; hyny yw, y mae yn cynnyddu amynedd y saint; yn wir, y mae yn gwylltio yr annuwiol, ond yn llarieiddio y duwiol. Bwriad Duw yn mhregethiad yr efengyl ydyw dwyn ei saint yn mlaen o ffydd i ffydd; *Rhuf. i. 17.* Ac yn ganlynol,

y mae wedi cynysgaeddu yr eglwys âg offerynau, a'r rhai hyny â doniau, "i berffeithio y saint, i waith y weinidogaeth, i adeilad corph Crist;" *Eph. iv. 12.* Pa ham y saif yr esgynlawr, a'r gweithwyr arno, onid â yr adeilad i fyny? I ni fod heb gynnyddu dan y fath foddion, dirymu cynghor Duw fyddai hyny. Am hyny, y mae yr apostol yn beio ar yr Hebraeid Cristionogol o achos eu bod heb gynnyddu yn ysgol Crist: "canys lle y dylech fod yn athrawon o ran amser, y mae arnoch drachefn eisieu dysgu i chwi beth ydyw egwyddorion dechreuad ymadroddion Duw; ac yr ydych yn rhaid i chwi wrth laeth, ac nid bwyd cryf;" *Heb. v. 12.*

Defn. O! mor anaml yw y rhai sydd yn ymdrechu fel hyn i fyned rhagddynt yn eu hystâd ysbrydol, ac yn ymgais am berffeithio yr hyn sydd etto yn fyr yn eu gwybodaeth, amynedd, a'r lleill oll. 1af. Dywedwch wrth rai am chwaneu ffydd at ffydd, neu radd mwy o ras at un llai, a chwi a'u cewch hwy yn fwy eu bryd am "gyssylltu tŷ wrth dŷ, a maes wrth faes." Y mae eu heneidiau yn sychedu, maent o hyd yn gwbio am chwaneu; ond o ba beth? Daear, daear: maent yn meddwl na chânt byth eu digon o honi, nes delo angu i gau eu safn â rhawiad o bridd ar eu bedd. Pa fath fywyd poenus y rhaid fod gan y rhai sydd o hyd yn gwaeddi am bwysau trymach, ac etto heb allu gwasgu eu gwangc gybyddlyd i farwolaeth! Ha wŷr! yr unig ffordd, pe credai dynion, i dori y syched hwn am y creadur, a fyddai ennyn math arall, ar ol Crist a'r nef. Cais di ond calon eang, yn mawr sychedu ar ol y rhai hyn; a'r syched arall a adewir i farw, fel syched cryd poeth, pan ddelo natur i'w hiawn dymmer. 2il. Y mae ereill heb ymdrechu fel hyn i berffeithio gras, am fod ganddynt dyb eu bod yn berffaith eisoes; ac ar y ddychymyg hon, hwy a daflant ymaith weddio, gwrandaw, a phob ordinhâd arall fel llinynau sydd i helpio rhyw fabanod mewn gras, y rhai ni ddaethant i'w cyrhaeddiadau uchel hwynt. O! y fath ffyliaid a wna balchder o ddynion! Yn wir, ni byddai y nef yn lle mor dymunol, pe na byddai ynddi well perffeithrwydd nag sydd gan y rhai hyn; math o bobl sydd yn rhy wych i'r byd hwn, ac yn rhy wael i'r llall. Cawsom weled fod Duw yn y dyddiau hyn, tuag at roddi gwelliant o'r gwallgof hwn o falchder, wedi cymmeryd ffordd led debyg i hono ar Nebuchodonosor. Y mae wedi rhoddi iddynt dros amser, yr wyf yn meddwl, galon anifail; goddefodd iddynt syrthio i arferion anifeilaidd; trwy yr hyn y mae yn dangos iddynt pa mor bell y maent oddi wrth y perffeithrwydd yr oedd eu breuddwydion mor ofer-wag am dano. 3ydd. Y mae ereill sydd yn meddu gwir ras, ac yn dymuno ei gynnydd, etto yn cael eu digaloni yn eu hymgais am chwaneu gan ryw or-ddwfn

deimlad o'u tlodi presennol. Erchwch y cyfryw i lafurio am oruchafiaeth fwy ar lygredd, mwy o ffydd yn Nuw, a chariad ato, fel y gallont wneuthur ewylllys Duw yn siriol, a'i ddioddef yn y cystuddiau mwyaf yn amyneddgar, ie yn ddiolchgar; a hwythau, ni cheir ganddynt gredu y bydd iddynt hwy, sydd â'u ffydd mor wan, eu cariad mor oer, a'u hystôr mor fychan, byth gyrhaedd i ddim tebyg i'r fath radd. Cystal y gall-ech berswadio cardotyn âg un geiniog yn ei bwrs, ond iddo fyned a masnachu â hono, y byddai ef yn uchel-faer Llundain cyn ei farw. Ond pa ham, drueiniaidd, y gwnewch chwi fel hyn "ddiystyru dydd y pethau bychain?" *Zech. iv. 10.* Oni wyddoch chwi fod gronyn bychan o hâd mwstard yn ymledu yn bren, a bod gras gwan yn cael ei gyffelybu iddo, o ran ei dwf yn y diwedd, cystal a'i fychander ar y cyntaf? A feiddi di ddywedyd nad oes genyt ddim gras? Os ni feddi ond ychydig, er iddo fod y lleiaf a fu gan neb erioed yn ei gychwyniad, gallaf ddywedyd wrthyt, ddarfod iddo wneyd mwy i'w erot yn hyny, na phe byddai iddo wneuthur y gras hwnw, sydd yn awr mor wan, i fod mor berffaith ag yw gras y saint yn awr yn y nef. (1af.) Efe a wnaeth fwy, o'i ystyried fel gweithred o allu. Mae mwy gagedor rhwng dim gras a meddu gras, nag sy rhwng y gras gwan a'r cryf; rhwng *chaos* (y cymmysgedd dechreul: *Gen. i. 2*) a dim, nag oedd rhwng *chaos* a'r adeilad hardd hono o nef a daear. Gwaith y dydd cyntaf, yn y ddwy greadigaeth, yw mwyaf. (2il.) Ystyr- iwech hi fel gweithred o ras. Mae yn drugar- edd fwy rhai y gras cyntaf o drôedigaeth, na choroni hwnw â gogoniant. Y mae yn rhadlonedd ac ymostyngiad mwy i dywysog briodi llangesig dlawd, nag iddo, ar ol ei phriodi, ei gwisgo fel tywysoges. Yr oedd yn rhydd i wneyd y cyntaf, neu beidio; ond y mae ei berthynas â hi yn ddadl gref am y llall. Yr oedd ar ddewisiad Duw a roddai efe i ti ras neu beidio; ond gan iddo wneyd hyn, y mae ei berthynas â thi, a'i gyfammod hefyd, yn ei rwymo ef i chwaneu mwy-fwy hyd oni byddo wedi dy addasu fel priodas- ferch iddo ei hun mewn gogoniant.

PENNOD V.

Am ddefnyddio ein harfogaeth ysbyrdol, neu am ymarferiad gras.

Y BEDWAREDD gangen, a'r olaf, yn ngosodiad y Cristion, ydyw i defnyddiad o'i arfogaeth: "Gwisgwch holl arfogaeth Duw." Yn fyr, pa ddyledswydd yw hon, "Gwisgwch?" Gan mai saint oedd y rhai hyn y mae yn ysgrifenu atynt, neu o leiaf lawer o honynt, nid gwisgo yn unig trwy drôedigaeth a olygir (gallai rhai o honynt fod yn

fyr o hyny); ond ei feddwl oedd, y dylent hefyd arfer yr hyn oedd ganddynt. Un peth ydyw meddu arfogaeth yn y tŷ; peth arall yw bod wedi ei gwisgo. Un peth yw gras yn yr egwyddor; peth arall yw ei fod mewn ymarferiad. Felly, yr addysg fydd—

Athr. Nad digon ydyw meddu gras; ond rhaid i'r gras hwn gael ei gadw mewn ymarferiad. I'w gwisgo y gwnaed arfogaeth y Cristion. Nid oes dim rhoddi i lawr, na bwrw ymaith ein harfogaeth hyd oni orphenom ein milwriaeth a'n gyrfa. Y mae ein harfogaeth a'n gwisgo o gnawd i'w rhoddi heibio ynghyd. Yna, yn wir, ni bydd eisieu na gwylled na gwarchod, tarian na helm. Y dyledswyddau milwraidd, a'r maes-rasau hyny (fel y gallaf alw ffydd, gobaiith, a'r lleill oll), hwy a gânt eu rhyddhâd anrhydeddus. Yn y nef ni a gawn ymddangos, nid mewn arfogaeth, ond mewn gwisgoedd o ogoniant: ond yma y mae ein harfau i'w gwisgo nos a dydd; rhaid i ni rodio, gweithio, a chysgu ynddynt, onid e, nid ydym yn filwyr iawn i Grist. Y mae Paul yn proffesu ymgais am hyn: "Ac yn hyn yr ydwyf i fy hun yn ymarfer, i gael cydwybod ddi-rwystr tuag at Dduw a dynion yn wastadol;" *Act. xxiv. 16.* Yma, ni a gawn y gŵr duw- iol hwn wrth ei arfau yn ymgynnefino ac yn ymarfer yn ei agweddu; fel rhyw filwr wrtho ei hun yn trin ei wayffon, ac yn ei addasu ei hun cyn y frwydr. Yn awr, y rheswm am hyn ydyw—

DOSB. I.

1. Y mae Crist yn gorchymyn i ni fod â'n harfogaeth am danom: "Bydded eich lwynau wedi eu hymwregysu, a'ch canwyllau wedi eu goleu;" *Luc xii. 35.* Y mae yn llefaru naill ai mewn iaith filwraidd, megys wrth filwyr, neu deuluaid, megys wrth weision. Os fel wrth filwyr, yna y mae, "bydded eich lwynau wedi eu gwregysu, a'ch canwyllau yn llosgi," yn alwad i ni fod yn barod i daith, wedi gwisgo ein harfau (o herwydd ar y cwbl y byddai y gwregys), a'n pabwyrn yn oleu, yn barod i danio ar yr alarm cyntaf o brofedigaeth. Os megys wrth weision—yr hyn sydd yn ymddangos yn fwyaf naturiol—yna, y mae, fel ein meist oddi cartref, yn erchi i ni beidio ymddisg gan ddiogi na chwsg, na diffodd ein canwyllau; ond sefyll, yn barod i agor pan y delo, pe byddai ar hanner nos. Nid cymhwys bod y meist yr sefyll wrth y drws yn curo, a'r gwas oddi mewn yn cysgu. Yn wir, nid oes un ddyledswydd berthynol i'r Cristion heb fod yn cynnwys yr ymarferiad beunyddiol hwn: "Gweddiwch;" ond pa fodd? "yn ddibaid." "Byddwch lawen;" ond pa bryd? "yn wastadol." "Diolchwch;" am ba beth? "ym mhob dim: canys hyn ydyw ewylllys Duw yng Nghrist Iesu tuag atoch chwi;" 1 *The. v. 16, 17, 18.* Tarian y

ffydd, a helm gobaith; mae'n rhaid i ni eu dal hyd y diwedd: 1 *Pedr* i. 13. Swm y cwbl ydyw hyn—y dylem rodio mewn ymarferiad parhaus o'r dyledswyddau a'r grasau hyn. Lle y gosodir y milwr, yno y mae yn sefyll; ac ni ddylai syflud na chysgu nes ei alw ymaith. Pan ddel Crist, hwnw yn unig gaiff ei fendithio, "a gaiff efe yn gwneuthur felly."

2. Y mae mantais Satan yn fawr pan na byddo gras mewn ymarferiad. Pan gafodd y diafol Grist mor barod i dderbyn ei ergyd, a gwrthsefyll ei demtiad, cafodd ddiogon yn fuan. Dywedir, "Ac wedi i ddiabol orphen yr holl demtasiwn, efe a ymadawodd âg ef dros amser" (*Luc* iv. 13); fel pe buasai, yn ei enciliad gwarthus, yn ymgysuro mewn gobaith o ddyfod ar Grist yn ddisymmwrth ryw dro arall mwy manteisiol i'w fwiad; ac yr ydym yn ei gael yn dyfod drachefn, yn y pryd mwyaf tebygol yn wir iddo gyrhaedd ei ddyben, pe buasai ei elyn yn ddyn, ac nid yn Dduw. Yn awr, os oedd yr elyll hyf hwn fel hyn yn gwylio ac yn dal sylw ar Grist o bryd i bryd, onid yw yn gweddu i ti edrych o'th amgylch, rhag iddo, ar ryw dro neu gilydd, dy ddal, er dy ras, yn hepian? A'r hyn y mae efe ar un tro yn ei golli trwy dy wyladwriaeth, gall ei ennill yn fuan trwy dy ddiolfalwch. Yn wir, y mae yn gobethio y diffygi di o ran ymdrech yn barhaus. Yn sicr, medd Satan—wrth weled y Cristion ar ei draed, ac yn wresog mewn dyledswydd—ni ddeil hyn yn hir. Pan gaiff ef yn dyner ei gydwobod ac yn ochelgar o achlysuron i bechu, dywed, Nid yw hyn ond am dro; cyn hir, mi a'i caf yn llac ei fwa, a'i arfogaeth wedi ei diosg; yna, mi a syrthiaf arno. Mae Satan yn gwybod pa drefn yr wyt yn ei chadw yn dy dy a'th ystafell; ac er na fedd efe agoriad i'th galon, etto gall sefyll yn yr ystafell nesaf ati, a gwrandaw yn glustfain pa beth sydd yn cael ei sisial yno. Y mae efe yn hela y Cristion wrth sawyr ei draed; ac os unwaith y gwna efe ond arogl pa ffordd y tuedda ei galon, y mae yn fedrus i ddilyn yr helfa. Os bydd ond un drws heb ei folltio, yn gorchwyl yn ddiſin, un gras mewn anhwylddeb—dyna ddiogon o fantasia.

3. Am ei fod yn orchwyl mor anhawdd, yn waith mor galed i ail gyrhaedd bywiogrwydd gras wedi unwaith ei golli, ac ail godi dyledswydd ar ol ei rhoddi heibio: "Diosgais fy mhais; pa fodd y gwisgaf hi? golchais fy nhraed; pa fodd y diwynaf hwynt?" medd y ddyweddi: *Can.* v. 3. Yr oedd hi wedi rhoddi lle i dymmer ddiog, wedi gorwedd ar ei gwely o syrthni; ac mor anhawdd oedd ei chodi. Y mae ei hanwylud wrth y drws, yn deisyf arni trwy yr holl enwau caruaid a allasai ddwyn i'w chof y berthynas agos oedd rhyngddynt: "Myfi sydd yn cysgu, a'm calon yn effro: llais fy

anwylud yw yn curo, gan ddywedyd, Fy chwaer, fy anwylud, fy ngholomen, fy nichalag, agor i mi"—ac etto nid ydyw hi yn codi—"cansy llanwyd fy mhen â gwlyth, a'm gwallt â defnyau y nos:" ac er hyn nid yw hi yn syflud. Beth ydyw y mater? Hi a ddiogasai ei phais, ac anhawdd yw ganddi ei gwisgo. Yr oedd wedi rhoddi lle i syrthni; ac yn awr, nis gŵyr hi pa fodd i'w ysgwyd ymaith. Da fuasai ganddi gael cyfeillach ei hanwylud, pe buasai efe ei hun yn agor y drws; yr oedd yntau yn deisyf hyn ganddi hithau, ar iddi godi a'i ollwng ef i mewn; ac fel hyn y maent yn ymwahanu. Po hwyaf y byddo enaid wedi esgeuloso dyledswydd, mwyaf yw y drafferth i'w chael i fyny drachefn, mewn rhan gan gywilydd; wedi iddo chwareu y llech, nis gŵyr pa fodd i edrych yng ngwyneb Duw; ac mewn rhan, trwy anhawsder y gwaith, yr hwn a fydd yn ddau cymmaint ag a deimla un arall a fyddo yn rhodio yn yr ymarferiad o'i ras. Yma, y mae y cwbl allan o drefn. Y mae yn gofyn amser a phoen mwy iddo ef gyweirio ei offeryn, nag i un arall chwareu y dôn. Y mae efe yn myned at dyledswydd fel at orchwyl newydd; fel ysgolhaig sydd er ys talm heb edrych ar ei lyfr, a'i wers wedi ei hanghofio; tra y mae hi gan un arall, oedd yn canlyn arni o hyd, megys ar benau ei fysedd. Fe allai mai cystudd yr wyt wedi dy alw i'w ddyoddef, a'th amynedd heb fod mewn ymarferiad, gan na feddyliaist ond ychydig, neu ddim, am y fath amser, tra yr oeddit yn chwareu mewn porfa lawn; ac yn awr, yr wyt yn gwingo ac yn tafu, "fel llo heb ei gynnefino a'r iau;" *Ier.* xxxi. 18. Ond y mae un arall yn llariaidd ac amyneddgar dan yr un fath groes, am ei fod ef wedi bod yn cynhyrfu ei amynedd, ac yn cymhwyso yr iau at ei war. Chwi a wyddoch pa fath derfysg a fydd mewn tref ar ryw alarm swta yn nhrymder y nos—y gelyn wrth y pyrth, a hwythau yn cysgu ynddi; O! y fath gri a glywir yno! Mae un yn fyr o'i ddillad, y llall heb ei gleddyf, a'r trydydd nis gŵyr pa beth i wneyd am bylor; ac fel hyn, mewn dychryn, hwy a redant i fyny ac i lawr, yr hyn ni buasai pe cawsai y gelyn hwynt ar eu gwyliadwriaeth yn disgwyl mewn trefn am ei nesâd. Rhyw ffwrst tebyg fydd mewn enaid a fyddo heb gadw ei arfogaeth am dano; bydd y darn hwn a'r llall ar goll, pan y dylai efe fod yn eu defnyddio.

4. Y mae yn angenrheidiol i ni gadw gras mewn ymarferiad, mewn golygiad ar ereill—ein cydfilwyr. Yr oedd hyn gan Paul mewn golwg pan ydoedd yn ymarfer i gadw cydwobod ddirwyrstr, fel na byddai yn drangwydd i ereill. Gall ofnusrwydd ut beri i ereill redeg; gall anwybodaeth un milwr na fedro drin ei arfau, fod er niwed mawr i'w gydfilwyr o'i amgylch. Y mae

rhai wedi saethu eu cyfeillion, yn lle eu gelyuon. Y mae rhodiad annoeth un profeswr yn peri ei bod yn waeth ar ereill. Ond caniatawn nad wyt ti yn syrthio mor bell ag i fod yn dramgwydd; etto, nis gelli fod mor gynnortawol i'th gyd-frodyr ag y dylit. Gorchymmynodd Duw i'r Reuben-iaid a'r Gadiaid fyned yn arfog o flaen eu brodyr, hyd oni orchfygid y wlad. Fel hyn, Gristion, fe ddylit tithau hefyd fod yn gymhorth i'th gyd-frodyr; y rhai, ysgatfydd, nad ydynt yn meddu'r un radd o heddwch yn eu hysbryd â thydi, na'r un mesur o ras a chysur. Y mae arnat ti helpio y cyfryw weiniaid, a myned o'u blaen, fel pe byddai, yn arfog er amddiffyn iddynt. Yn awr, oni bydd dy ras mewn ymarferiad, yr wyt ti, cyn belled a hyn, yn anwasanaethgar i'th frawd gwan. Ysgatfydd dy fod yn feistr, neu yn dad, a chenyt deulu tan dy ofal. Y mae eu maeth hwynt yn cyfateb i'th lwydd di. Os bydd dy galon di mewn agwedd sanctaidd, goreu oll fydd eu maeth hwynt yn y dyledswyddau yr wyt ti yn eu cyflawni; os marwaidd fydd dy galon, ac ar lawr, y maent yn gollodwyr ar dy law. Felly, megys ag y gwna mammaeth fwyta chwageng er mwyn i'w baban y mae yn rhoddi sugn iddo, gwna dithau yr un modd, er mwyn y rhai sy dan dy ofal. Bydd yn fwy gofalus i ymarfer a maethu dy ras dy hun.

DOSB. II.

Gwrth. O! medd rhyw un, y mae hwn yn waith caled yn wir—ein harfogaeth am danom o hyd, ein gras yn wastadol mewn ymarferiad! A ddarfu i Dduw erioed feddwl i grefydd fod yn orchwyl mor drafferthus ag y gwnai hyn hi?

At. Yr wyt ti yn llefaru fel un o ynyfydion y byd, ac yn dangos dy hun yn wir estron i fywyd y Cristion, wrth lefaru fel hyn—fod ymarfer gras yn faich. Pa ham? Nid yw yn ddim baich i ymarfer yng ngweithrediadau natur—i fwyta, yfed, a rhodio; y mae y cwbl yn hyfryd i ni tra yn ein iawn dymmer. Os bydd un o'r rhai hyn yn amgen, y mae natur dan orthrymiad; os wedi ei sychu, yna anhawdd ydyw anadu; os yn glaf, yna y mae gwrthwynebiad i'r bwyd a fwytawn. Felly, cymmerwch Gristion yn ei iawn dymmer, ei hyfrydwech ydyw bod ar waith yn ymarfer ei ras yn y naill ddyledswydd neu y llall: "Llawenychais pan ddywedent wrthyf, Awn i dŷ yr Arglwydd;" *Salm* cxxii. 1. Yr oedd ei galon yn llamu wrth y cynnygiad. Pan fyddo unrhyw achlysur yn ei dynu oddi wrth gymmundebe â Duw, er hoffed y byddo ganddo, etto y mae yn anghroesawus ac anfoddlawn iddo; yn debyg i chwi, sydd wedi arfer bod yn eich siopau o'r boreu i'r nos, pa mor flin ydyw genych fod am rai dyddiau oddi cartref, er ym mys g cyfeillion hawdd-

gar, am nad ydych lle mae eich gwaith a'ch galwad yn bod? Un wrth ei alwedigaeth yw Cristion ar ei ddyledswydd; mae megys yn ei weithdy, lle y dylai fod, ie, lle y mynai fod; ac am hyny, mae ym mhell o fod yn flin arno. Nid yw crefydd yn ohell i neb, fel i'r rhai sydd yn anfynych yn ymarfer â hi. Y mae ymarfer yn ysgafnhau pethau trymion. Prin y teimlwn ni bwys ein dillad, am eu bod wedi eu haddasu i ni, ac yn cael eu gwisgo beunydd genym; ond byddai yr un pwysau ar ein hysgwydd yn flinder i ni. Felly, y mae y blinder sydd yn nyledswyddau crefydd, i rai anianol, yn cael ei ddwyn ymaith yn y saint, mewn rhan, trwy eu cyfaddasiad at eu hegwyddorion hwy, ac hefyd trwy eu ymarferiad beunyddiol ynddynt. Y disgyblion, pan oeddynt newydd ddyfod i mewn i ffyrdd Crist, ni fedrent weddio llawer, nac ymptydio yn hir—costrelau newyddion oeddynt, a'r gwin hwn yn rhy gryf; ond erbyn iddynt deithio am rai blynyddoedd, yr oeddynt wedi eu cryfhau yn y ddau orchwyl. A ydwy't ti yn cwyno fod ffordd y nef yn arw? yngynnefina yn fwy â hi; gwnaiff hyuy hi yn esmwyth.

2. Pe byddai yr ymarferiad parhaus hwn o ras yn fwy blin i'r enawd, yr hwn yw yr unig achwynydd, byddai i'r fantais felus a ddaw o hyn i'r Cristion, wobrwyo yn helaeth ei holl lafur a'i boen ef.

(*laf.*) Ymarferiad o'th ras a gynnydda dy ras: "Llaw y diwyd a gyfoethoga." Mae dyn gofalus yn cyfrif fod elw cyrhaeddadwy yn colli, nid yn unig pan ladrataer ei arian allan o'i gist, ond pan fyddo yn gorwedd yno heb ei ddefnyddio. Pe buaswn i, medd y masnachwr, yn prynu y cyfryw eiddo a'r arian sydd yn fy mhwr, buasai wedi dwyn i mi hyn a hyn o elw; yr hwn sydd yn awr wedi ei gollu. Felly y gall y Cristion ddywedyd, Pe buaswn i yn dilyn adnabod yr Arglwydd, gallasai fy ngwybodaeth lwyd a thywyll fod wedi cryfhau i ddydd goleu. "Deallais fwy na'm holl athrawon," medd Dafydd. Pa fodd y cafodd efe hyn? Efe a ddywed yn y geiriau nesaf; "o herwydd dy dystiolaethau yw fy myfyrdod;" *Salm* cxix. 99. Yr oedd yn fwy yn yr ymarferiad o ddyledswydd a gras. Nid y rhai goreu eu penau yw yr ysgolheigion mwyaf bob amser, am nad yw eu myfyrdod yn cyfateb i'w dealltwriaeth; ac nid y gŵr a'r ystob fwyaf wrth osod i fyny, sydd bob amser yn prifio y gŵr cyfoethocaf. Bydd i ras bychan, a iawn-faether trwy ymarferiadau beunyddiol, fyned ar gynydd; pan y bydd un mwy, a esgeuluser, yn adfeilio.

(*2il.*) Megys y mae ymarferiad yn cynnyddu, felly y mae yn profi bod gras. A fynai dyn wybod a yw efe yn y gloff, ai nid yw? Cyfoded: ac fe gaiff foddlondeb mwy wrth roddi un tro mewn ystafell na thrwy hir ddadl ac yntau yn ei eistedd. A fynd

di wybod a wyt ti yn caru Duw? Bydd yn fynych yn ymgnio at weithredoedd cariad. Po mwyaſ y chwytter y tân, cyntaf yn y byd y bydd i'w weled; ac felly am bob gras arall. Weithiau, y mae yr enaid yn ammheu a oes ganddo ddim amynedd, dim ffydd, nes y delo Duw a'i osod mewn cyflwr cystuddiol, lle y mae yn rhaid iddo naill ai arfer y gras hwn ai darfod am dano, ac yna fe ddaw yn amlwg. Yn debyg i un yn meddwl nas gall efe noſio; etto, wedi ei fwrw i'r afon, ac yna rhoddi ei holl rym ar waith, y mae gydag ymdrech yn noſio i'r lan, ac felly yn cael gweld pa beth a all efe wneuthur. Mor fynych y clywsom Gristionogion yn dywed- yd, Mi feddyliais na allaswn byth ddiodeff y cyfryw boen; ymddiried i Dduw yn y fath gyfwrng; ond yn awr y mae Duw wedi dangos beth a all efe ei wneyd i mi—beth a wnaeth efe ynoſ. Wele, ti a allesit wybod hyn yn gynt, pe buasit wedi mynych gy- nhyrfu ac ymarfer dy ras.

(3ydd.) Mae ymarferiad gras yn gwahodd Duw i ymgysfranu i'r cyfryw enaid. Mae Duw yn gosod y Cristion ar waith, ac yna yn ei gyfarfod ynddo. "Cyfod dithau, a gweithia, a'r Arglwydd a fydd gyda thi;" 1 *Cron.* xxii. 16. Y mae yn gosod yr enaid i ddarllen, megys yr efnych, yna yn rhoddi gweddio i lynu wrth ei gerbyd ef; ac yna y mae yn dyfod, y genad o'r nef, "Daniél, wr anwyl;" *Dan.* x. 11. Y ddyweddi, wedi colli ei hanwyllyd tra yn ei gwely, y mae yn ei gael wrth ddyfod o'r bregeth: "Nid aeth- um i neppell oddi wrthynt, hyd oni chefais yr hwn oedd hoff gan fy enaid;" *Can.* iii. 4.

DOSB. III.

Defn. 1. Y mae hyn yn syrthio yn drwm ar benau y rhai sy mor bell oddi wrth ymarfer gras, a'u bod yn rhodio yn yr ymarferiad o'u chwantau. Mae calonau y rhai hyn yn debyg i weithdy gwyr, lle nad yw y tân un amser yn diffodd, caudau y ffenestri un amser yn gauad; y maent ar waith o hyd, yn morthwyllo rhyw ddyfais ddrwg neu gil- ydd ar eirion eu calonau. Y mae rhai a roddant rwyg i'w chwantau; yr hyn a fyno eu calonau gresynus a wnant; hwy a loch- ant eu chwantau, fel rhai eu plant—dim ni nacânt iddynt; fel y mae ar gof am Dafydd tuag at Adoniah, ni wnant hwy gymmair a dywedyd wrth eu heneidiau, Pahan y gwnei fel hyn? pahan yr wyt mor falch, mor gybyddlyd, mor halogedig! Y maent yn treulio eu dyddiau dan arlwyio i'r gwest- wyr hyn; megys mewn rhai tafarndai pan a' un gwestywr allan, daw un arall i mewn; nid yw y tŷ byth yn oeri; felly, pan weitier ar un chwant, y mae un arall yn galw am weinyddiad. Megys y mae rhai yn ymarfer gras yn fwy nag ereill, felly y mae masnach- wyr mwy mewn pechod yn gosod mwy o waith ar gerdded nag ereill, ac yn dwyn i

mewn fwy o ddirgofaint mewn diwrnod nag ereill mewn mis. Mewn cymhariaeth a'r rhai hyn, dedwydd yw y bobl sydd wedi eu cadwyno gan attalfa oddi wrth Dduw, ar y dyn oddi allan, neu oddi fewn; fel na allant yru yn mlaen mor wyllt a'r rhai hyn. Y maent, trwy iechyd corph, gallu ac uchder sefyllfa, cyfoeth a thrysor yn eu coffrau, madronod ac anneimladrwydd yn eu cyd- wybodau, yn cael eu hyrddio ym mlaen i lenwi i fyny fesur eu hanwiredd. Yr ydym yn darllen am yr Assyriad, iddo helaethu ei feddwl fel uffern, gan ledi ei ddymun- iadau, fel y gwna dynion a'u codau llawn o arian, i ddal chwang; *Iiab.* ii. 5. Felly y godinebwr, fel pe na byddai ei gorph yn fywiog ddiagon, i gyflawni galwad ei chwant, efe a'i cynhyrfa trwy anfon allan ei gip- dreimiadau anllad; a daw y rhai hyn adref yn llwythog o odineb: efe a chwyt y tân hwn ág odiau anniwair, ac â llanw y bol, tanwydd addas i gegin y cythraul. A'r dyn maleisus, rhag iddo golledu ei chwant o ddim amser, efe a rwyga ei gymmydog yn ddarn- au wrth orwedd ar ei wely; ni fedr efe gysgu heb fod rhyw aberth gwaedlyd o'r fath yn cael ei offrymu i'w chwant ysglyfaethus. O! fel y gall hyn gywilyddio y saint! Pa mor fynych y mae eich sel chwi mor wresog fel na fedr wrch gysgu, nes i'ch calonau fod yn y nef tra yr ydych yn eich gwelyau, ac yno yn ymdawelu trwy olwg ar eich anwyl lachawdwr, a rhyw arwyddion o'i gariad ef?

Defn. 2. Y mae yn gerydd i'r rhai sydd yn gwawdio ac yn gwatwar y saint, tra y maent yn ymarfer eu grasau. Nid oes neb yn cael ei wawdio, fel y sant, yn ei alwed- igaeth. Gall dynion weithio yn eu siopau, a phawb ddilyn eu gorchwylion mor ddyfal ag y mynont, ac ni ryfeddir dim wrth hyn gan y rhai sydd yn myued heibio yn yr heol- ydd; ond os gwelir y Cristion ar waith dros Dduw, yn yr ymarferiad o ryw ddyledswydd neu ras, efe a gaiff ei hwtyo, ei ddirmygu, fe ei gasau. Ychydig yn wir sy mor ddiried, na wnant ryw rith o hoffi crefydd o ran barn; hwy fedrant ganmawl pregeth ar sancteid- drwydd, hoffi ymddyddan am Dduw neu Grist yn y pulpud; ond pan osoder y rhai hyn mewn gweithred o flaen eu llygaid, fel y maent yn gwreichioni yn ymarweddiad y Cristion, y maent yn dra dirmygus ac adgas ganddynt. Y mae y sancteidrwydd yma, mewn bywyd a rhodiad, yn brathu: er iddynt ganmawl dawn y pregethwr, a'i ddarluniad o hono yn y bregeth, etto yn awr hwy a red- ant rhagddo, ac a boerant arno. Y mae yr ymarferiad hwn o ras yn dramgwydd i galon anrasol, ac yn cynhyrfu yr elyniaeth sydd o'i mewn:—megys Michal; ni fedrai hi lai na dirmygu Dafydd, wrth ei weled ef yn dawnsio o flaen yr arch. Y dyn oedd yn moli y pregethwr am ei ymddyddan dawnus yng nghylch sel, efe a ddifenwa Gristion am

ddangos gweithred o sel yn ei le a'i fywyd: mae gras yn awr yn dyfod yn rhy agos ato. Y mae yn rhaid i ddyan anrasol sefyll ryw bellder oddi wrth sancteiddrwydd, rhag i'w belydr effeithio yn rhy ddwys ar ei gydwybod; ac felly, bydd ganddo ryw fath o hoffder ato. Felly y Phariseaid, am y prophwydi gynt, gwyr sanctaidd oeddynt yn eu cyfrif; a hwy a fedrent wastraffu eu harian ar eu beddau hwynt, ac er anrhydedd iddynt; ond am Grist, yr hwn oedd yn fwy na hwynt oll, ei ddirmygu a'i gasau a gafodd ef. Beth yw y dirgelwch o hyn? Y rheswm oedd, am fod y prophwydi hyn wedi gadael y byd, a Christ ynddo.

Y saint yn fyw, a gas w'radwyddir;
Yn feirw, hwythau a gannolir.

Defn. 3. Prawf wrth hyn, a oes genyt ras, ai nid oes. A wyt ti yn rhodio mewn ymarferiad o'th ras? Y neb y mae dillad ganddo, yn sicr efe a'u gwisga, ac ni rodia yn noeth. Mae dynion yn siarad am eu ffydd, eu hedifeirwch, a'u cariad at Dduw. Dyma rasau gwerthfawr! ond pa ham na adawant hwy i ni weled y rhai hyn yn rhodio ar led yn eu hymarweddiad beunyddiol hwynt? Yn sicr, pe byddai y fath lettywyr yn dy enaid, hwy a edrychent allan weithiau trwy y ffenestr, ac a welid ar led yn y ddyledswydd yma, a'r weithred sanctaidd acw. Y mae gras o natur cynhyrfiol, ac nid y fath beth marw, fel delw, ag a ellwch ei gloi mewn cist, ac heb fod neb yn gwybod pa dduw yr ydych yn ei addoli. Na: fe ddengys gras ei hun; fe rodia gyda thi, i bob lle a chymdeithas; fe bryn gyda thi, ac a werth drosot; myn fod â llaw ganddo yn dy holl anturiaethau. Bydd i ras dy gysuro pan fydech ddiffuant a ffyddllawn dros Dduw; ac efe a achwyn ac a'th gerydda pan fydech yn amgen. Ond os ai di i gau ei safn, caiff y nef glywed ei lais; efe a ocheneidia, a alara, ac a ymdrecha, yn debyg i ddyan byw, pan geisier ei dagu. Y mae mor hawdd i mi gredu fod y dyn hwnw yn fyw, a fyddo yn gorwedd yn llonydd tra y mae yn cael ei hoelio i fyny yn ei arch, a bod genyt ti ras, ac heb ei arferyd am amser mewn unrhyw weithred o fywyd ysbrydol. Pa beth, ddynd! A oes genyt ti ras, ac yn cael dy ddwyn mor lonydd, a digyffro, fel yr ynyd i'r cyffion, gan dy chwant? Pa ham yr wyt yn hongian yna, yn hoeliedig wrth dy chwant? Os oes gras ynot, disgyn i lawr, a ni a'i credwn. Ond os wyt ti y fath gaethwas llonydd ag i eistedd yn foddlon dan awdurdod dy chwant, yr wyt yn twyllu dy hun. A oes genyt ti ras, ac heb ddangos dim o hono yn y sefyllfa y'th osodwyd ynddi? Fe allai dy fod yn gyfoethog, a wyt ti yn dangos dy ostyngedd-rwydd tuag at y rhai sydd is dy law? A wyt ti yn dangos meddylfryd nefol, gan anadlu ar ol y nef yn fwy nag ar ol y ddaear?

Ysgatfydd fod dy galon yn chwyddo gan dy gyfoeth! a'th fod yn edrych ar y tlodion fel creaduriaid o rywogaeth is na thi, a'u bod yn anwiw genyt; ac am y nef, nad wyt yn meddwl am dani. Yn debyg i'r tywysog diras hwnw, a ddywedodd, y collai efe ei ran ym mharadwys, yn hytrach nag ym Mharis. A wyt ti yn dlawd? Pa ham na chai gras ei ymarfer yn y cyflwr hwnw? A wyt ti yn foddllawn, yn ddiwyd? Ysgatfydd, yn lle boddloni, dy fod yn anfoddogi; a'th fod, wrth weled ysnoden wych ar ddillad dy frawd cyfoethog, yn grwnnach, yn lle cydweithio â rhagluniaeth, trwy ddiwydrwydd, at gyflawni dy angenion. Yr wyt yn barod i dori dros y clawdd i borfa fras dy gymmydog, i foddio dy chwant fel hyn drwy bechod, yn hytrach na disgwyl am fendith Duw ar dy ddiwydrwydd gonest. Os felly, na dddigia os bydd i ni dy alw wrth dy iawn enw; neu o leiaf, galw i gwestiwn a allwn ni dy enwi yn Gristion, tra y mae dy ymddygiad mor groes i'r enw cyssegredig hwnw, sydd yn rhy sanctaidd i'w ysgrifenu ar bost pwr.

Defn. 1. Cymmerwch eich annog, O! chwi saint Duw, i rodio yn yr ymarferiad o ras. Y mae yn ddyledswydd y gweinidog, ag anadl annogaeth barhaol, a cherydd, os bydd raid, i gadw y tân nefol hwn yn loyw ar allor y saint. Gwelodd Pedr yn angenrheidiol bod ganddo y fegin c hyd yn ei law: "O herwydd pa ham, nid esgeulusaf eich coffau bob amser am y pethau hyn, er eich bod yn eu gwybod, ac wedi eich sierhau yn y gwirionedd presennol;" 2 *Pedr* i. 12. Nid oedd i hynny ei dynu ef oddi wrth y gorchwyl, tra byddai yn y tabernacl hwn; ond efe a ddywed, y byddai iddo eu cyffroi, trwy ddwyn ar gof iddynt: *adn.* 13. Y mae rhyw haint gysglyd yr ydym yn ddarostyngedig iddo yn y bywyd hwn. Er fod Crist wedi deffro ei ddisgyblion ddwywaith, yn cysgu y mae yn eu cael y drydedd waith: *Mat.* xxvi. 45. Naill ai defnyddia di dy ras, neu fe ddefnyddia Satan dy lygredd. Fel y mae un celwrn yn myned i lawr, y mae y llall yn dyfod i fyny. Y mae corph o bechod oddi fewn, a hwnw yn debyg i blaid wrthnysig, yn gwylio am gyfle i gael y llaw uchaf: a haws yw eu cadw i lawr, na'u tynu i lawr. Mae dy amser yn fyr, a'th ffordd yn faith; gwel yw i ti dynu ym mlaen, os nad wyt yn meddwl i'r nos dy oddiweddyd, cyn i ti gyrhaedd o fewn golwg i dŷ dy Dad. Mor anghysurus yw i ymdeithydd yn ffordd y nef, yn anad neb, fyned dan ymbalfalu yn y tywyllwch, gall llawer â chalonau dolurus ei adrodd wrthynt. A pha beth sy genyt ti yma i edrych ato yn debyg i hyn? Ai gofalon a mwyniant bydol? Ai doethineb yw rhoddi cymmaint allan, yn gost ar y tyddyn yr wyt yn ei adael, ac anghofio y peth yr wyt yn ei ddwyn gyda thi? Cyn addfedu

o ffrwyth y peth yr wyt yn awr yn ei blannu, ti elli fod dy hun yn braenu yn y bedd. Y mae yr amser yn fyr, medd yr apostol; 1 Cor. vii. 29. Y mae y byd yn agos i'w borthladd; ac am hynny y mae Duw wedi cwtogi hwyliâu bywyd dyn. Ennyd fechan etto, ac ni bydd mymryn o ddewis pa un ai yn wreigiog, ai heb wragedd, yn meddu cyfoeth, ai heb-ddo y byddwn; ond fe fydd gwahaniaeth dirfawr rhwng y rhai fyddant yn meddu gras, a'r rhai fyddant hebddo; i.e. rhwng y rhai oedd yn gyru ym mlaen fasnach gyflym, yn yr ymarferiad o hono, a'r rhai oedd yn fwy esgeulus. Caiff y naill ffermiad hekaeth i ogoniant (2 Pedr i. 11), tra y bydd y llall mewn colled am ran fawr o'i lwyth, a graiff ei fwrw dros y bwrdd, fel eiddo heb ddim bri arno yn y wlad nesol hono. Ie, a thra y byddech yma, bydd ereill ar eu hennill trwy dy rasau bywiog di. Bydd dy sirioldeb a'th fywiogrwydd yn dy yrfa nefolaidd yn help i ereill a fyddant yn teithio gyda thi. Swrth yn wir fydd hwnw na thyno yn ei flaen, pan welo gynmairt o awch dros Dduw ynot ti sydd yn blaenu y iintai. Ie, bydd i'th ras di roddi attaliad ar bechodau rhai ereill; rhai nad ydynt un amser mewn braw, ond pan ddelo gras allan, i eistedd megys rheolwr yn y porth, ac i'w weled gan y rhai fyddant yn myned heibio. Ni wyr y tyngwr fod y fath fawrhydi gerllaw, pan fyddo y Cristion yn ofni agor ei enau; ac felly fe ä ym mlaen heb ofni dychryn: ond pe buasai yno ond gras ä'i ddagr o sel yn barod, a chalondid i'w dynn allau mewn cerydd doeth, buasai raid i bechodadael y lle, a diange i'w dwll. "Llangeiau (medd Iob) a'm gwelent, ac a ymguddient; a henuriaid a gyfodent, ac a safent i fyny. Tywysogion a attalient eu hymadroddion, ac a osodent eu llaw ar eu genau. Pendefigion a dawent a son, a'u tafod a lynai wrth daffod eu genau;" *pen.* xxix. 8, 9, 10. Ac onid ydyw yr Arglwydd yn haeddu y gwasanaeth goreu a elli di ei wneyd iddo yn dy genedlaeth? A roddodd efe i ti ras i'w gadw yn ystor farw, a heb i fod yn well erddo? Neu, a elli di ddywedyd ei fod ef yn fyr yn ei gariad a'i drugaredd atat? Ai nid ydynt o hyd ar waith er dy les? A yw llygad ei ragluniaeth ef un amser yn gaund? Nac ydyw: ni huna dy Geidwad. Neu, a yw ei olwg un munydyn oddi arnat ti? Nac yw: "Y mae llygad yr Arglwydd ar y cytiawn;" y mae wedi ei sefydlu arno am byth; ac y mae yn ymhoffi yn y gwrth-ddrych gyda hyfrydwch diderfyn. Pa bryd y cauddd efe ei glust neu ei law rhag gwrandaw dy gwynion, neu gyflawni dy ddiffygion? Na wnaeth, erioed! Onid ydyw dy gyflwr yn cael lle llawn yn meddyliau Duw? ac onid meddyliau heddwch, ac nid niwel, y mae efe yn eu cynnwys tuag atat? Ychydig o ddefnyddau o'r olew hwn a geidwad dy olwynion i droi.

EPHESIAID VI. 11.

Fel y galloch sefyll yn erbyn cynllwynion diafol.

YN y geiriau hyn, ni a gawn y rheswm pa ham y dylai y milwr Cristionogol fod fel hyn, yn gyflawn arfog—"Fel y galloch sefyll yn erbyn cynllwynion diafol." Y mae grym y ddau hon yn sefyll yn y ddau fater canlynol:—

1af. Y perygl, os yn anarfog. Nid un gwael, i'w ddiystyru, yw y gelyn; heb llai na'r diafol, yr hwn a ddarlunir fel peirianydd cyfrwys, wrth ei gyllwynion a'i ddechellion.

2il. Y sicrwydd o sefyll yn erbyn ei holl ystrywiau a'i gyllwynion, os byddwn wedi ein harfog fel hyn:—"Fel y galloch sefyll." Megs nad oes dim sefyll heb arfogiaeth, felly nid oes achos ofni y syrthiwn i law y gelyn os byddwn yn arfog.

I ddechreu gyda'r cyntaf, gelyn y saint, diafol, yn cael ei nodi wrth ei gyllwynion: y Groeg yw, *methodeias*: gair yw hwn sydd yn arwyddo *trejn*, neu *fedr trefnus*, a fyddo gan un wrth drin ei bwngc; a y dywedwn, Y mae yn ei drin yn drefnus, neu yn rheolaidd. Ac felly, trwy drosglwyddiad, y mae yn cael ei arfer am gyfrwysdrefn Satan, yn gosod ei gyllwynion a'i ystrywiau ar waith, yn ei ddarpariaeth i ryfel yn erbyn y Cristion. Yn wir y mae gan y milwr medrus ei drefn, gystal a'r ysgolhaig; mae trefn berthynol i reoliad a gosodiad byddin, cystal ag i ffurfiad dadl neu araeth. Y sylw sydd o'n blaen, yw hyn:—

Athr. Gelyn tra chyfrwys ydyw y diafol. Oddi wrth ei ystryw a'i gyfrwysodd y mae perygl mwyaf y Cristion. Feli gelwir "yr hen sarph" (*Dad.* xii. 9, a xx. 2), "y sarph," chyfrwys tu hwnt i greaduriaid ereill; "hen sarph," tu hwnt i seirph ereill. Bu Satan yn rhy gyfrwys i ddyn yn ei berffeithrwydd; pa faint mwy yn awr, yn ei gyflwr anafus, ac heb ei iachau o'r archoll cyntaf a gafodd yn ei ddeall, trwy gwmp Adda! Ac fel y mae dyn wedi colli, felly y mae Satan wedi emuill mwyfwy o brofiad. Efe a gollodd ei ddoethineb yn wir, cyn gynted ag yr aeth yn ddiabol; ond o hynny hyd heddyw y mae wedi chwangu ei gyfrwysdrefn. Er na fedd efe ddigon o ddoethineb i wneyd illes iddo ei hun; etto y mae ganddo gyfrwysdrefn ddigon i ddrygu ereill. Y mae Duw yn dangos i ni ym nhia le y mae ei nerth, pan y mae yn addaw yr ysiga efe ben y sarph; wedi ysigo ei ben, fe fydd marw yn fuan. Yn awr, wrth drin y pwngc hwn o gyfrwysdrefn Satan, ni a gawn ei ystyried yn ei ddau brif fwiad, a dangos ei gyllwynion a'i ddechellion yn y rhai hynny. Ei brif fwiad cyntaf yw deni i bechod. Yr ail ydyw cyhuddo, poeni, a thrallodi y Cristion am bechod. Yn gyntaf Ystyriwn y diafol fel tentiwr i bechod; a

yn hyn efe a ddengys ei ystryw cyfrwys mewn tri pheth.

1af. Wrth ddewis yr amser mwyaf manteisiol i demtio.

2il. Wrth drin ei dentasiynau, gan eu gosod yn y fath drefn a dull ag sydd yn dangos ei ystryw.

3ydd. Yn ei ddewisiad o offerynau addas at ei gais, i ddwyn ei fwriad yn mlaen.

PENNOD I.

Am gyfrwydra Satan i ddewis yr amserau mwyaf manteisiol i demtio.

YN gyntaf, efe a ddengys ei gyfrwydra wrth ddewis yr amserau mwyaf addas a manteisiol i demtio. "Y mae amser i bob peth, ac amser i bob amcan dan y nefoedd," medd Solomon (*Preg.* iii. 1); hyny ydyw, bwlech o amser; yr hwn, ond ei gymmeryd, a rydd rwyddineb a gorpheniad cyffryn i orchwyl. Am hyny, y mae yr un gŵr doeth yn rhoddi y rheswm hwn, am fod dyn yn aflwyddo mor fynych, ac yn cael ei sionni yn ei fwriadau, "Canys ni ŵyr dyn chwaith ei amser: fel y pysgod a ddelir â'r rhwyd niw-eidiol, ac fel yr adar a ddelir yn y delm; felly y delir plant dynion yn amser drwg, pan syrthio arnynt yn ddisymmwrth;" *Preg.* ix. 12. Y mae yn dyfod wedi i'r aderyn hedeg. Dichon cant o filwyr, ar ryw dro, roddi tro i frwydr, ac achub byddin; yr hyn ni wna miloedd dro arall. Gŵyr Satan pa bryd i wneyd ei ddynesiad; pan y bydd fwyaf tebygol (os un amser) i gael derbyniad. Fel y mae gan Grist dafod y dysgedig i lefaru gair mewn pryd o gynghor a chysur i enaid diffygiol ac ammheuol, felly y dengys Satan ei gelfyddyd ddu, a'i fedr uffernol, wrth lefaru geiriau o hud a themtiad, yn ei bryd neu ei amser ef; ac y mae gair yn ei amser yn air ar ei olwynion. Mi a geisiaf ddangos ei gyfrwydra yn yr amserau arbenig a ddewisir ganddo i demtio ynddynt.

1af. Yr amser cyntaf a gymmer efe i demtio ydyw, pan fyddo dyn newydd ei ddychwelyd. Cyn gynted ag y genir y plentyn hwn o ras—y creadur newydd—y mae y ddraig hon yn tywallt ffrwd o demtasiynau ar ei ol. Ni ddysgodd efe i'r Aiphthiaid ond rhan o'i grefft ei hun, pan ddysgodd hwynt yn y bedydd gwaedlyd a chreulawn hwnw a arferasant ar fabanod Israel, trwy eu tafu i'r afon mor fuan ag y genid hwynt. Y mae cri cyntaf y creadur newydd yn peri alarm i holl lengau uffern; ac y maent yn cyffroi wrth hyn gymmaint a Herod a Ierusalem pan aned Crist; y maent hwy hefyd yn eistedd mewn cynghor am ddwyn einioes y brenin hwn sy newydd ei eni. Cyfarfu yr apostolion â mwy o wrthwynebiad ac

erlidigaeth dynol yn eu dyddiau olaf, ar ol eu cynnysgaethu â chyfran helaeth o'r Ysbryd; ond â themtasiynau gan Satan yn eu dyddiau cyntaf, pan yn ddychwelwyr ieu-ainc, fel y gallech sylwi yn yr amryw adroddiadau am danynt. Yr oedd Satan yn gwybod mai gwanaidd oedd gras ynddynt, ac nad oeddynt etto wedi derbyn y cynnorthwy a addawsid ar ddyfodiad yr Ysbryd. A pha bryd y bydd gelyn yn debycach o ennill y dref, nag yn y fath gyflwr isel? Am hyny, efe a roddodd gais arnynt oll. Yn wir, y mae y manteision mor aml fel y gallwn ryfeddu pa fodd y mae dychwelwr ieuanc yn dianc yn fyw; gwybodaeth yn wan, ac yntau mor hawdd ei arwain i gyfeiliornad, yn enwedig mewn amserau o ym-raniad, pan ddelir allan amryw ffyrdd—un yn dywedyd, dyma Grist; arall, daew Grist; a'r Cristion yn barod i dybied fod meddwl gonest gan bawb a ddelo â geiriau da: fel y mae plentyn a gollodd y ffordd i dŷ ei dad, yn dueddol i ganlyn rhyw un a gynnygio ei arwain. Am brofiad, ni ŵyr efe ond ychydig; ac os bu i Adda, oedd â'i wybodaeth mor berffaith, gael er hyny ei dwyllo mor fuan gan y cais a roddwyd arno, cyn iddo gynhesu yn iawn yn ei feddiannau newyddion, pa faint mwy o fantasia sy gan Satan ar ddychwelwr ieuanc? Yn hwn y mae efe yn cael pob gras mewn mawr anhwylyd at wrthsefyll, gan môr wan ydyw, a chan mor gryf y llygredd gwrthwyneb sydd yn gyffredin yn y cyfryw heb ei fawr farweiddio. Y mae hyn yn peri fod gras yn gweithredu gyda mwy o anhawsedd a chymmysgedd; megys mewn tân newydd ei gynneu, lle y mae y mwg yn fwy na'r fflam; neu yn debyg i ddioid newydd ei barilo, yr hon a red yn dew a llwyd. Felly, er fod mwy o rym serchiauau i'w weled yn y cyfryw, hyd onid yw yn gweithio drosodd i fwy o helaethiad dyledswydd nag mewn ereill; etto, y mae yno fwy o waddod y nwydau anianol. Hyn a ŵyr Satan; ac am hyny, y mae yn brysur i gynhyrfu yr hyn y mae yn ei weled eisoes yn gymmysglyd.

2il. Pan fyddo y Cristion â rhyw flinder mawr yn ei gylchynu, y mae hyn fel rhyw ffordd dywyll, neu le anial, yn addas gan y lleidr hwn i alw ynddo am ei bwrs. Y cadben medrus a wna gais yn gyntaf am wneyd adwy yn y mur; yna, efe a wna ruthrigrch ar y ddinas. Cafodd Satan, yn gyntaf, ganiatâd gan Dduw i wanbau Iob yn ei gyfoeth, ei blant, ei iechild, a'i gysuron ereill; ac ar hyn, y mae yn ei demtio i anoddefgarwch, ac aml ddrygau ereill. Y mae yn gadael i Grist ymprydio cyn taraw ato; ac yna, y mae yn syrthio at ei waith;—megys y bydd gelyn yn aros hyd oni wesgir castell gan eisieu o'i fewn; yna, efe a enfyd gynnyg am gydymddiddan, gan wybod mai y pryd tebycaf iddo gael derbyniad ydyw y cyfryw

gyfyngder. Y mae profedigaeth yn dyfod yn gref pan fyddo y ffordd i ymwared yn debyg o fod trwy y pechod y mae Satan yn denu iddo. Pan fyddo un yn dlawd, a Satan yn sisial, Pa beth! a newyni di yn hytrach na chamu dros y clawdd, a dwyn ychydig at dy gynnalïaeth? y mae hyn yn ddigon i roddi cig a gwaed ar sefyll.

3ydd. Pan fyddo y Cristion yng nghylech rhyw orchwyl nodedig dros ogoniaut Duw, yna bydd Satan fel "sarph ar y ffordd, a neidr ar y llwybr; yn brathu sodlau y march, fel y syrthio ei farchog yn ol;" *Gen. xlix. 17.* Fel hyn y safodd efe ar ddeheu-law Iosuah, "Ac efe a ddangosodd i mi Iosuah yr archoffeiriad yn sefyll ger bron angel yr Arglwydd, a Satan yn sefyll ar ei ddeheu-law ef i'w wrthwynebu ef;" *Zec. iii. 1.* Y llaw ddeheu yw y llaw weithio, ac y mae ei safiad yno yn arwyddo ei ym-gais am rwystro Iosuah yn ei orchwyl. Yn wir, ni bu y diafol erioed yn garwr gwaith teml; ac am hyny, y mae y gwaith hwnw cyhyd yn myned i ben. Y fath esgus daclus y mae efe yn ei ddysgu i'r Iuddewon;—"Ni ddaeth yr amser." Yr oedd amser Duw wedi dyfod; ond nid amser y diafol: ac am hyny, y mae efe yn dysgu iddym y ddyfais wael hon, gan ŵyrdroi ystyr rhagluniaeth, fel pe ni ddaethai yr amser, am eu bod hwy mor dlodion. Ond y mae Duw yn dywedyd yn groyw wrthiunt eu bod 'hwy mor dlodion am nad aethant yng nghynt at y gorchwyl: "Edrychosoch am lawer, ac wele yr oedd yn ychydig; a phan y dygasoch adref, chwythais arno. Am ba beth? medd Arglwydd y lloedd. Am fy mhŷ i, yr hwn sydd yn anghyfannedd, a chwithau yn rhedeg bawb i'w dŷ ei hun;" *Hag. i. 9.* Yr oedd gan Paul a Barnabas fwriad duwio yn eu meddyliau i ymweled â'u brodyr yn mhob dinas, a chadarnhau eu ffydd hwynt. Gwyddai Satan y fath ddynod y gallai hyn roddi i'w deyrnas ef, y gallai eu hymwelïad hwynt beri rhwystr iddo ef yn ei gylchdaith; ac y mae yn cynhyrfu ymarafael annedwydd rhwng y ddau ŵr duwio hyn: "A bu cym-maint cynhwrf rhyngddynt, fel yr ymadaw-sant oddi wrth eu gilydd; ac y cymmerth Barnabas Marc gydag ef, ac y mordwyodd i Cyprus;" *Act. xv. 39.* Yr oedd dau am-gylichïad nodedig yn mywyd Crist; sef, ei fynediad i'w weinidogaeth gyhoedd, ar ei fedydd; a'i orphenïad o honi, ar ei ddi-oddefaint: ac ar y ddau dro, ni a gawn y diafol yn rhuthro arno yn greulawn. Po mwyaf cyhoeddus a fyddo dy le di, Cristion, a pho mwyaf ardderchog dy wasanaeth i Dduw, mwyaf y mae i ti ddisgwyl y bydd gan y diafol ryw fwriad enbydus neu gilydd i th erbyn. Am hyny, os oes ar bob milwr cyffredin eisieu arfogaeith yn erbyn temtas-ynau Satan, y mae yr eisieu yn fwy ar y swyddogion sydd yn sefyll ym mlaen y gad.

4ydd. Pan y byddo gando bresennoldob rhyw wrthddrych i awchu ei dentasiwn. Fel hyn y daliodd efe Efa, pan oedd hi yn agos i'r pren, a'r pren yn ei llygaid tra yr oedd efe yn gosod y cynnyg o'i blaen. Yr oedd felly yn ymosod ar ddau borth ar un-waith, fel y byddai fwy anhawdd iddi gadw ei dentasiwn ef rhag effeithio. Ac os darfu i lygaid Efa effeithio ar ei chalon, i'w thynu i chwant afreolaidd, yna, llawer mwy hawdd ydyw iddo ef yn awr, trwy bresennoldeb y gwrthddrych, gynhyrfu a bywiogi y chwant hwnw sydd yn gorwedd yng nghwsg yn y galon. Megys y darfu i Naomi anfon ei merch i orwedd wrth draed Boaz, gan wybod yn dda, os efe a'i goddefai hi yno, fod goibaith y gwnai ei chymmerd i'w wely o'r diwedd. Os gall y Cristion adael i'r gwrthd-drych ddyfod mor agos, bydd Satan yn addaw iddo ei hun y caniateir ei gais mewn amser. Am hyny, os na fynem ymroddi i'r pechod, ni a ddylem fod yn ofalus am beidio rhodio nac eistedd wrth ddrws yr achlysur. Nac edrych â llygad gwibiog ar y glendïd hwnw na fynit dy ddal yn garcharor gando. Na ddal ymddiddan yn dy feddyliau â'r peth nad wyt yn bwriadu ei ollwng i dy galon. Y mae cymdeithas yn magu serch. Ennillwyd rhai trwy hyn i briodi y rhai y meddylasant ar y cyntaf nas gallent eu hoffi.

5ed. Ar ol amlygadu mawrion o gariad Duw, yna, daw y temtiwr. Y cyfryw yw ansawdd wanaidd gras, fel mai nid hawdd yw i'r dyn grasol oddef gwên na gwg oddi wrth Dduw, heb fagl; megys y dywedodd un am genedl y Saeson, Nis gall hi oddef na rhyddid na chaethiwed i'r eithaf. Ac felly nis gall yr enaid. Os bydd i Dduw wenu ac amlygu ei hun ychydig yn gyfeillgar â ni, yna yr ydym yn dueddol i ymgodi a balchïo; os efe a wga, yna yr ydym yn soddi-cym-maint o ran ein ffydd. Fel hyn y mae y naill (gwên) fel tywydd teg a thywynïadau gwresog, yn dwyn chwên llygredd i fyny, a'r llall (gwg) fel rhew llym, yn deifio, fe, ac yn lladd blodau gras. Y mae y Cristion mewn perygl ar bob llaw; am hyny, fe gymmer Satan y fantais hon:—pan fyddo y Cristion yn helaethlawn o gysur, y mae efe fel hocedwr sydd yn taraw at ryw etifedd ieuanc newydd dderbyn ei renti, ac ni âd mo hono hyd oni byddo wedi ei ysgafnhau o'i arian. Fel hyn y mae Satan yn gwylio y pryd hyny am ei gyfle i ddenu y Cristion i ryw bechod neu gilydd; hyn, efe a ŵyr, a ollwng ei lawenydd ef yn fuan i redeg allan. A gafodd dywn erioed lawnach tyst-ïolaeth am y nef na Pheidr? Yn *Mat. xvi. 17*, y mae Crist yn ei ddaagan yn wynfyd-edig, ac yn rhoddi bri arbenig arno, gan ei wneuthur ef fel cynnrychiolydd ei eglwys oll. Nid oes le i amhreu na ddarfu i'r ffafr hon gynhyrfu yr ysbyrd cefnigenus i syrthio arno yn gyflymach. Os parodd siaced fraith

Ioseph i'w frodyr gydfwriadu i'w erbyn ef, nid rhyfedd i falais Satan ei annog i ddangos ei ddygasedd, lle yr oedd Crist wedi gosod y fath arwydd o gariad a bri; ac am hyny, ni a'i cawn ef yn fuan wrth benelin Pedr, ie yn ei ddefnyddio fel ei offeryn i demtio ei feistr, yr hwn a ganfu yn ebrwydd ei droed fforchog ef, ac a geryddodd Pedr gyda "Dos yn fy ol i, Satan." Dyma y dyn, oedd, dybygid, y graig gynneu, yn cael ei osod, trwy ddichell Satan, yn faen tramgwydd, at fod yn rhwystr i Grist. Felly Dafydd, pan oedd wedi derbyn y fath drugareddau rhyfedd—ei orsedd wedi ei sefydlu ar ddiynystr ei elynion, ie, a'i bechod gwaedlyd wedi ei faddeu, ac efe yn awr ar orwedd yn y llwch mewn heddwch—wle Satan yn taro i mewn i gymylu ei brydnawn disglauer ef, ac yn ei demtio i rifo y bobl. Mor awchus yw y gelyn, y pryd hyny yn enwedig, i dafu plentyn Duw i dom pechod, pan fyddo lanaf ei wisg.

6ed. Ar awr marwolaeth, pan fyddo y Cristion ar lawr, a'i nerth corphorol yn pallu; yn awr y mae yr anwr hwn yn syrthio arno. Y cais olaf yn ddiau yw hwn iddo am y gamp; yn awr, neu byth; ei drechu yn awr ac am byth. Fel y dywedant am y sarph naturiol, nad yw hi i'w gweld yn ei llawn hyd nes ei marw; felly y sarph gyfriniol yma, nid yw byth yn ymestyn yn fwy egniol, yn ei chyfrwysdra a'i dichellion, na phan yw ei hamser fel hyn yn fyr. Y mae y Cristion ar roddi cam i dragwyddoldeb; ac yn awr, yntau a sathra ar ei sawdl; ac er na fedr ei dripio, fel ag i rwystro iddo gyrhaedd i'r nef, etto efe a fydd am ei ysgo o leiaf, fel y byddo iddo fyned yno gyda mwy o boen.

PENNOD II.

Cyfrwysdra Satan yn trin ei demtasiâu; lle y nodir amryw o'r dichellion a arferir ganddo i dwyllo y Cristion.

Yr ail fiordd ym mha un y dengys Satan ei gyfrwysdra fel tentiwr, sydd yn y dichellion hyny a arferir ganddo i dwyllo y Cristion yn yr act neu weithred o demtasiwn.

1af. Y mae yn rhoddi gau fanerau allan, ac yn dyfod i fyny at y Cristion dan rith cyfaill; ac felly, y mae y pyrth yn cael eu hagar iddo, a'i gynnygiad yn cael derbyniad llon, cyn i un o honynt fod yn adnabyddus. Am hyn y dywedir ei fod yn "ymrithio yn angel goleuni;" 2 Cor. xi. 14. O bob ystryw, y mwyaf enbydus ydyw, pan yr ymddangoso ym mantell Samuel, ac y byddo yn addurno ei dafod hagr â geiriau teg. Fel hyn, mewn cyfeiliornwaith, y mae yn llygru rhai yn eu barn, trwy ganmawl eu gau dybiau fel gwirioneddau tra efengyl-

aid; ac fel maelddyn cyfrwys, y mae yn rhoddi allan ei hen sotlach—ei gyfeiliornadau sydd wedi sefyll yn hir ar ei law—heb ddim ond rhywfaint o droi arnynt, yn ol dull neu fflasiwn yr amseroedd; a hwy a änt fel goleuni newydd. Tan fantell rhyddid Cristionogol, y mae yn dwyn ym mlaen benrhyddid; trwy grio i fyny yr Ysbryd, efe a ogana ac a fychana yr Ysgrhythyr; trwy fawrygu ffydd, efe a gais ddisceilio difeirwch, a chwythu i fyny weithredoedd da; trwy godi cwyn am lygriad yr eglwys yn ei gweinidogaeth, efe a dyn eneidiau anwadol oddi wrthi, ac a'u difyra hwynt, nes y syrthiont o'r diwedd i ryw bendro, fel nas gallant weled un eglwys mewn bod. Ac nid llai yw ei dyciant, trwy y ddichell hon, ar galonau a bucheddau dynion, nag ar eu barnau hwynt. Tan y dyb o sel, efe a ennyn weithiau fflam enbydus o wylltineb a digder yn y galon, yr hwn, fel tân gwyllt, a wna i ysbryd y Cristion ferwi trosodd i ddymuniadau anghristionogol, ac erfyniad-ar am ddial, lle y dylai efe faddeu. Am hyn, ni a gawn esampl yn y disgyblion (*Luc ix. 54*), lle y mae dau ddyd duwiol yn dymuno am ddyfod tân i lawr o'r nef. Ychydig a feddyliasant hwy o ba le y cawsant y glöyn oedd yn eu poethi felly, hwy oni ddywedodd Crist wrthynt, "Ni wyddoch o ba ysbryd yr ydych chiwi." Weithiau, efe a wna ledrith o dosturi a serch naturiol, yr hyn, ar rai achosion, a all fod yn gynghor da; a thrwy gydol yr amser, ei gais ef yw dwyn ofnogrwydd ym mlaen, a hunan serch pechadurus, a hyn er tynu y Cristion i redeg oddi wrth ei faner, cilio oddi wrth y gwirionedd, neu adael hebio ryw ddyledsydd o'i alwad. Ei ddichell hon a ganfu Crist yn fuan, er iddo gael Pedr yn ddaedleuydd, gan ddywedyd, "Arglwydd, trugarhâ wrthlyt dy hun;" ac efe a gauodd ei safn â'r cerydd llym hwnw, "Dos yn fy ol i, Satan: rhwystr ydwyt ti i mi: am nad ydwyt yn synied y pethau sydd o Dduw, ond y pethau sydd o ddyinion;" *Mat. xvi. 22, 23*. O! y fath angen sydd arnom am chwilio yr ysgrhythyrau, ein calonau ein hunain, a dichellion Satan, fel na byddo i ni groesawu y gelyn hwn, a bod o hyd yn tybied mai Crist yw ein llettywr.

Ail ddichell a arferir ganddo yw ceisio gwybyddiaeth am faterion y saint. Dyma un olwyn fawr yn awrlais y gwladwriaethwyr—cadw yspiywr ym mhob lle, i gael, drwyddynt hwy, wybyddiaeth am gynghorion a symmudiadau eu gelynyon; ac y mae hyn yn rhoddi mantais älddynt at ddyrchwelyd eu bwriadau hwynt, ac hefyd i gael eu bwriadau eu hunain i ben. Nid peth anhawdd yw i hwnw drin ei chwareu yn dda, a fyddo yn gwled llaw ei wrthblaidd. Yr oedd Dafydd yn gwybod pa fodd yr oedd pethau yn myned yn y llys; yr oedd saethau Ionathan yn dwyn newyddion iddo; ac

yn ol hyny yr oedd yn newid ei letty, ac yn rhy galed i Saul, ei elyn mawr. Yr hanesydd inwyaf yn y byd yw Satan; y mae yn orchwyl ganddo i chwilio i dueddiadau, meddyliau, serchiadau, a bwriadau dyn; ac wedi iddo gael allan pa naws sy gryfaf, y mae yn chwilio yn ganlynol pa ffordd y rhed y ffrwd, fel y gallo efe agor rhigol i'r demtasiwn, a thori y ffos yn ol rhediad serch y creadur, ac nid ei gwrthio yn erbyn ffrydlif natur. Yn awr, bydded i ni ystyried amgyffred treiddiol y natur angylaidd; mor gyflym yw efe, trwy air a ddyweder, i ddilyn sawr ei helwriaeth; y mae tafliad llygad, neu ryw beth bychan o'r fath, yn ddigon o arwydd i roddi alarm iddo ef. Ystyriwn ei brofiad mewn difyniaeth calon, wedi iddo fod yn manwl chwilio, ac megys yn difynio cynnifer, yn ei hir ymarferiad, sydd wedi mawr gynnnyddu ei wybodaeth. Ystyriwn hefyd ei ddyfalwch mawr i chwaneuon at bob un o'r rhai hyn: y mae efe o hyd wrth ei wers—ei fyfyrddod am y saint—gan chwilio pa fodd y gall efe eu drygu. Megys y gwelwn yn achos Iob; yr oedd efe wedi sylwi arno, hyd onid oedd yn medru rhoddi ateb difyfyf i Dduw am gyflwr Iob, am ei agwedd bresennol, ac am y moddion iddo ef, yn fwyaf tebygol, gael ei wysylls arno. Heb law hyn oll, y mae gan Satan gyfeillach gyda rhai sydd o fewn ac o amgylch y Cristion; a chan y rhai hyn y mae yn cael gwybod llawer am ei gyflwr; fel yr oedd Dafydd, trwy Husai, o fewn i gynghor Absalom. O ystyried hyn i gyd, y mae agos yn amhosibl i'r creadur ysgogi allan o ystafell ei galon, heb i'r gelyn wybod i ba le y mae yn taeddu; rhyw nywyd lygredig neu gilydd a wna yr enaid yn hysbys iddo, fel y rhai a roddasant llaes Dafydd i Saul, gan fynegi iddo, "Wele Dafydd yn anialwch Engedi;" 1 Sam. xxiv. 1. Fel hyn y gwna y rhai hyn roddi hysbysrwydd i Satan, a dywedyd, Os mynit ti ddal y cyfryw un, y mae wedi myned y ffordd acw; ti a'i cei ef yn anialwch helyntoedd bydol dros ei ben a'i glustiau yn chwantau gofalon y bywyd hwn. Deui o hyd i un arall yn eistedd dan y cyfryw ddeildy, yn ymhyfrydu yn y plentyn hwn, y dawn acw, rhyw rodiad moddwl, neu y cyffelyb: gosod y fagl yno, a thi a'i cei yn ebrwydd ynddi. Yn awr, wedi i Satan gael yr hanes yma, chwi ellwch adael rhyngddo ef a'i chware. Yn sicr nid ydyw efe yn fyr ei hun, pan y mae ei ysgolheigion ef (y Jesuitiaid yr wyf yn feddwl) mor gyflym-fedrus i ymblethu a bwrw eu hunan i unrhyw ddull cyfaddas i'r personau a fynent eu hudo. Ai swydd-ymgais yw y chwant sydd yn boddio y galon? O! y dyfeisiau boddhaol y rhydd efe y cyfryw yn eu cylch! Mor hawdd, ar ol iddo eu chwythu yn llawn o wag obaith, ydyw iddo eu tynu i bechodau erchyll! Megys Haman, yr hwn wrth ym-

gyrhaedd am ffafr ei frenin fddo ef ei hun yn gwbl, a hyrddiwyd i'r ystryw waedlyd hono yn erbyn yr Iuddeuon, er distryw iddo ei hun o'r diwedd. Ai afeindid yw y chwant y mae llygad y creadur yn gwibio ar ei ol? Yn awr, efe a fydd y llatai i ddwyn hwn a'i buttain yng nghyd. Fel hyn, wrth weled Amnon yn y clefyd hwn, yr anfonodd efe Ionadab, cydymaith dwfn ei goryn, i roddi yn ei ben y ddyfaiss wych hon, o gymmeryd arno fod yn glaf; trwy yr hyn y syrthiodd ei chwaer i'w fagl ef: 2 Sam. xiii. 13, &c.

3ydd. Yn ei ddynesiad graddol at yr enaid. Pan dddei i demtio, y mae yn lled wylaid, ac yn gofyn ond ychydig. Efe a wŷr y gall gael, ar amryw droion, y peth y naceid iddo pe byddai yn ei ofyn oll ar unwaith. Goll-yngir ychydig wŷr i ddinas, pan cauid allan fyddin yn dyfod yn un llu. Ac am hyny, fel na roddo le i'w ddrwg-dybio, efe a gyflawna, ysgatfydd, ychydig gynnnyddion cyffredinol, y rhai ni ddadguddiant dydfnder ei ystryw ef. Mae y rhai hyn fel yspiwyf yn myned o'r blaen, tra y mae ei fyddin ef yng nghudd, fel pe byddai mewn rhyw gors gerllaw. Fel hyn yr ymddirwynodd efe i fynwes Efa: nid yw ar yr ergyd gyntaf yn peri iddi gymmeryd a bwyta; na, y mae yn fwy moesgar na hyny: buasai hyn mor hyll a pheri iddi frawychu rhag parhau i ymddyddan a'r fath un; fel y tarfir dysmgodyn oddi wrth yr abwyd, gan swm disymmwrth cared a dafler i'r afon. Na: gofyniad sy ganddo ef, a wna ffordd i hyny, "Ai diau ddyweddyd o Dduw?" Ai nid wyt ti yn camgymmeryd? A allai hyn fod yn ei feddwl ef, sy mor hael a chaniatau i ti fwyta o'r lleill, dy nacau o hwn, y goreu o'r cwbl? Fel hyn y mae efe yn cloddio o'i chwmpas, ac yn rhyddhau gwraidd ei chred; ac yna, y mae y pren yn syrthio yn haws o flaen yr awel nesaf o demtasiwn. Dyma ddichell enbydus yn wir. Y mae llawer wedi meddalu i fyned yn filldir gyda Satan, heb erioed ffridiadu myned dwy; ond, pan unwaith ar y ffordd, hwy a ddenwyd bellach, bellach, hyd na wyddent o'r diwedd pa fodd i droi cefn arno. Fel hyn y mae Satan yn arwain truceiniaid i ddyfnderau pechod, ar hyd grisiau tro, fel nad ydynt yn gweled y gwaelod y maent yn disgyn iddo. Yn gyntaf, efe a gymhell wrthddrych a baro ryw feddyliad; hyn a dania y serchiadau; a'r rhai hyn a fygant i'r ymenydd, ac a gymylant y deall. Wedi i hwn gael fel hyn ei wanhau, y mae Satan bellach yn beiddio dangos ei hun i radd fwy, ac annog yn hyf i'r peth a fuasai, ychydig o'r blaen, yn ffridd gan y creadur. Erioed ni feddyliodd llawer sy heddyw yn gorwedd mewn halogrwydd cyhoedd, y buasai iddynt dreiglo mor bell oddi wrth eu proffes: ond y mae Satan wedi eu twyllo, druceiniaid, a'u dechreuadau lled fychain. O Gristionogion! na roddwch le i Satan,

gymmaint a modfedd yn ei gynnygiadau cyntaf. Yr un a fyddo ar wedd cartotyn, ac un gwylaidd, wrth y drws, a reola y tŷ os caiff ei oilwng i mewn. Os ymollyngi o flaen un, yr wyt yn colli dy rym i wrthsefyll y lleill. Os bydd y gwrym (neu *hem*) wedi gwisgo, y dilledyn oll a ymddettyd, oddi eithr i hyny gael ei drwsio trwy edifeirwch mewn pryd.

4. Y bedwaredd ffordd sy gan Satan yn dangos ei gyfrwysdra fel temtiwr, ydyw ei ystor wrth gefn. Y mae gan gadben cyfrwys yn wastad ryw luoedd newyddion, i daraw i mewn wrth raid, pan fyddo y lleill wedi eu trechu. Anfynych y metha Satan yn y rhan hon: pan gurer un demtasiwn ymaith, buan y bydd ganddo un arall i lenwi yr adwy, a gwneyd y rhes i fyny. Fel hyn y temtioedd efe Grist i anymddiried ac anhyder, gan erchi iddo droi ceryg yn fara; fel pe buasai yn amser bellach iddo dori ato ei hun, gan i'w Dad ei esgeuluso cyhyd (yr oedd efe wedi ymprydio ddeugain niwrnod, a dim cynnorthwy yn y golwg); ac wedi i Grist ddiiffodd y bicell hon â hyn, "Ysgrifenydd, nid trwy fara yn unig y bydd byw dyn, ond trwy bob gair a ddaw allan o enau Duw," yr oedd ganddo ef un arall ar y llinyn, ac efe a'i gollyngodd ato yn chwimmwrth, gan ei demtio i ryfeg: "Yna y cymmerth diafol ef i'r ddinas sanctaidd, ac a'i gosododd ef ar binael y deml; ac a dywedodd wrthe, Os mab Duw wyt ti, bwrw dy hun i lawr; canys ysgrifenydd, y rhydd efe orchymyn i'w angylion am danat; a hwy a'th ddygant yn eu drylaw, rhag taraw o honot un amser dy droed wrth gareg;" *Mat.* iv. 4, 5, 6. Fel pe dywedasai, Os oes genyt yr hyder a broffesi ar Dduw a'i air, dangos hyny trwy fwrw dy hun i lawr; canys y mae genyt air rhyngot a'r llawr, os beiddi di ymddiried ar Dduw. Ac yn wir, er fod gan Grist ei ateb wrth law, a'i fod ef yn barod i dderbyn ei ergyd ar ddeheu ac ar aswy, gan ei fod mor gyflawn-arfog fel nas gallai un demtasiwn ei archolli; etto, craffwn, yr oedd temtasiynau Satan ar Grist yn debyg i "ffordd neidr ar graig" (am yr hyn y llefarai Solomon); sef, heb argraff nac ol: *Diar.* xxx. 19. Ond arnom ni, y maent fel neidr ar dywod neu lwch, yn gadael eu hol, os nad yn y galon, etto yn y dychymyg; yn lliwio yr hyn sydd yn y drws nesaf iddi; ac felly y mae y gwrthddrych a fyddo yno yn barod i lithro i mewn, oni chedwir hi â gofal mawr; yn enwedig, gan ei fod ef fel hyn yn newid ei law, fel wedi ei wrthwynebu ar un ffordd, y mae yn taraw o'r newydd mewn ffordd arall. Ië, gall efe seilio ei demtasiwn nesaf, hyd yn nod ar ein gwrthwynebiad yn y flaenaf. Wrth hyn, mae yn gofyn peth parodrwydd yn ein hagweddu, a medr i drin ein harfau oll er ein hamddiffyniad; yn debyg i ddadleuydd, yr hwn pan droer ef o'i lwybr, pan ei tasger â gofyniad

newydd, neu â dadl anarferol, sydd yn cael ei brofi hyd adref. Ac yn ddia, y mae gan Satan y ffordd hon. Pan demtio efe y Cristion i esgeuluso gwasanaeth addoliad Duw, o herwydd ei achosion bydol, eu hanelled, neu y rhaid eu dilyn, a hyn heb lwyddo; yna, efe a dery yr ochr arall, a bydd am dynu y Cristion i esgeuluso ei alwad ddaiarol trwy ymddangosiad o sel i ddwyn y llall, addoliad Duw, yn mlaen. Neu, efe a ddaw ac a gais, yn gyntaf, farweiddio y galon mewn dyledswydd; ond os bydd y Cristion yn rhy wyliaidwrus iddo yno, yna efe a gais ei chwyddo i fyny â thyb wych am ei ymhelaethiad ynddi; ac o hyd efe a geidw ei demtasiynau cyfrwysaf a phenaf i fod yn olaf.

5ed. Yn ei enciliadau dichellgar. Chwi a gewch elyn yn ffoi, megys wedi ei orchfygu, ond etto ar y bwriad o orchfygu. Dyma y cast trwy ba un y daliodd Iosuah wŷr Ai mewn croglath: *Ios.* iii. 8. Ni a ddarllenwn, nid yn unig am Satan yn cael ei fwrw allan, ond am yr ysbryd aflan yn myned allan o hono ei hun, etto gyda bwriad am ddychwelyd i'w dŷ â chymdeithion gwaeth gydag ef: *Mat.* xii. 43, 44. Nid cael ei guro yn ol y bydd Satan bob amser gan awch a nerth gras yn trechu; ond y mae weithiau yn tynu ymaith, ac yn codi ei warchae ei hun, i gael felly, yn fwy taclus, y Cristion allan o'i furiau a'i gloddiau, a'i gipio i'w afael ar y gwastattir, er methu dyfod ato o fewn ei furiau a'i dyrau. Mae temtasiynau yn gyru y Cristion i'w gastell, fel y gwna golwg ar y ci yru cwningen i'w thwll. Yn awr, y mae yr enaid yn rhodio ei amgylchoedd, yn sefyll ar ei wyliaidwr-iaeth; ac ni faidd esgeuluso dyledswydd, am fod y gelyn wrth ei furiau, yn saethu ei demtasiynau yn ddibaid. Ond pan fyddo Satan fel un yn rhoddi i fyny, a'r Cristion heb gael ei flino â'r un fath gynhyrfaidau a chynt, yn ddia, y mae yn awr yn dueddol i lacau yn ei ddyfalwch, pallu yn ei ddyledswydd, a myned i'w harfer yn anfynych neu yn ffurfiol. Megys y Rhufeinwyr—eu gwroldeb a dfeilliodd wedi i luoedd Carthage beidio a'u blino. Bydded i Satan demtio neu beidio, bod ar ruthr neu enciliad—cadw di at drefn, saf di mewn agwedd ymladd; bydded i'w ffoad gryfhau dy ffydd, ond nid gwanhau dy ofal. Y Parthiaid a wnaent y niwed trymaf i'w gelynydd wrth ffoi; hwy a ergydient eu saethau wrth ddianc: felly gall Satan wneyd â thi, os bydd i'th rith o fuddugoliaeth dy wneyd yn ddiraw.

PENNOD III.

Am gyfrwysdra Satan yn dewis offerynau cymhwys at ei dro ef i ddwyn ym mlaen ei furiad i demtio.

Y TRYDYDD peth y dengys Satan ei gyfrwysdra ynddo fel temtiwr, sydd yn ei ddewisiad

o'r offerynau a ddefnyddir ganddo i ddwyn ym mlaen ei fwriad hwn. Efe, fel y pen gweithiwr, a dyr allan y demtasiwn, ac a ddyry iddi ei llun; ond weithiau y mae ganddo ei is-weithwyr i'w gorphen. Efe a wŷr y gellir dwyn ei waith ym mlaen yn well trwy ereill, ac efe ei hun heb fod yn y golwg. Yn wir, nid oes yr un fath gyfaddasrwydd rhwng y natur angylaidd a natur dyn, ag sydd rhwng y naill ddyn a'r llall; ac am hyn, ni ddichon efe ddynesu mor gyfeillgar atom ni a dyn at ddy. Yn hyn hefyd, megys mewn pethau ereill, y mae yn ddynwared Duw. Chwi a wyddoch mai y rheswm hwn yn benodol oedd gan yr Israeliaid am eu deisyfiad na lefarai Duw wrthynt: *Exod. xx. 19.* Ond fe ddarfu y Moses a Duw hefyd gymmeradwyo eu cais. "Da y dywedasant yr hyn a ddywedasant," medd Duw; "Codaf Brophwyd iddynt o fysg eu brodyr, fel tithau, a rhoddaf fy ngeiriau yn ei enau ef; ac efe a lefarai wrthynt yr hyn oll a orchymynwyf iddynt;" *Deut. xviii. 17, 18.* Ac fel hyn y gwna Satan ddefnyddio gweinidogaeth dynion fel ni ein hunain; a thlrwyddent hwy, megys y mae efe yn dyfod yn fwy cyfeillgar, felly, fe'i drwgdybir ef yn llai pan y mae, fel Ioab, yn cael un arall i wneyd ei neges ef. Yn awr, nid rhyw fath a wna ei dro ef at y gorchwyl hwn; y mae efe yn dra manwl yn newisiad ei offerynau. Nid pob milwr sydd yn addas fel cenadwr i gynnaldudd â gelyn, i fradychu tref, a'r cyffelyb. Y mae Satan yn ystyried pwy a all wneyd ei orchwyl ef yn fwyaf manteisiol; ac yn hyn y mae yn annhebyg i Dduw, yr hwn nid yw, fel efe, yn fanylaidd yn newisiad ei offerynau, am nad oes arno ef eisieu neb, a'i fod mor abl i wneyd gyda'r naill a chyda'r llall. Ond, gan fod gallu Satan yn derfynol, y mae yn rhaid iddo ef glytio ei fyrdra o groen y llew a chroen y llwynog. Yn awr, y rhai y mae Satan am eu defnyddio fel ei offerynau dynt yn benaf o bedwar math:—

1. Personau o le ac awdurdod. 2il. Personau o ddoniau a challineb. 3ydd. Pobl dduwiol, neu, o leiaf, rhai a gyfrifir felly. 4ydd. Pobl o berthynas, neu agos drwy serch.

(1af.) Y mae Satan yn dewis personau o le ac awdurdod. Mae y rhai hyn naill ai yn y wladwriaeth ai yn yr eglwys. Os gall, efe a sicrhâ yr orsedd a'r pulpud fel y ddau dŵr sydd yn rheoli y llu oll. 1. Gwŷr o awdurdod yn y wladwriaeth: ei hen ystryw ef yw lithio y cyfryw. Gall tywysog neu lywydd sefyll yn lle mil; am hyn y dywed Paul wrth Elymas, pan y mynai wŷrdroi y rhaglaw oddi wrth y ffydd, "O gyflawn o bob twyll a phob ysgelder! tydi mab diafol, a gelyn pob cyfiawnder, oni pheidi di a gwro uniawn ffyrdd yr Arglwydd?" *Act. xiii. 10.* Fel pe dywedasai, Yr wyt ti wedi dysgu hyn gan dy dad, y diafol; sef, cynniwair

llysoedd pennaethiaid, ac ymddirwyn i ffafr gyda gwŷr mawr. Y mae dichell ddyblyg gan Satan wrth ennill y cyfryw o'i blaidd yn gyntaf, nid oes gan neb y fath fantais i dynu ereill i'w ffordd. Llygrwch y cadben, ac odid na thyn ef y fyddin oll i'w ddilyn. Pan safodd y pennaethiaid, gwŷr enwog yn eu llwythau, gyda Corah (*Num. xvi. 2, 10*) tyuwyd lliaws yn ebrwydd i'r cydfrad. Os Ieroboam a saif dros eilun-addoliaeth, dyna Israel yn fuan mewn magl; dywedir "iddo yn ewyllysgar fyned ar ol y gorchymyn;" *Hos. v. 11.* 2. Pe safai y pechod o fewn y llys, a'r pla heb gerdded ym mhellach, etto gall pechod y cyfryw un, er iddo fod yn ŵr da, gostio yn ddrud i deyrnas gyfan. "Satan a safodd i fyny yn erbyn Israel, ac a annogodd Dafydd i gyfrif Israel;" 1 *Cron. xxi. 1.* Yr oedd ganddo lid yn erbyn Israel; ac y mae yn talu iddynt hyd adref, ym mhrechod eu brenin, a disgynodd yn haint arswydus ar eu penau. 3. Y cyfryw ag a fyddo mewn lle a swydd yn yr eglwys. Nid oes y fath ffordd i heintio tref gyfan a gwenwyno y ffynnon y tyant eu dwfr o honi. "A'r Arglwydd a ddywedodd, Pwy a dwylla Ahab, fel yr elo efe i fyny, ac y syrthio yn Ramoth-Gilead? Ac un a ddywedodd fel hyn, ac arall oedd yn dyweddy fel hyn." Gall Satan ateb: "Mi a üf allan, ac a fyddaf yn ysbryd celwyddog yng ngenau ei holl brophwyd ef. Ac efe a ddywedodd, Twylli a gorchfygi ef: dos ymaith, a gwna felly;" 1 *Bren. xxii. 20, 22.* Pa fodd y caledir y rhai halogedig yn eu pechodau? Ond i'r pregethwyr wno clustogau dan eu penlinoedd hwynt, a gwaeddi Heddwech, heddwech! dyna y gwaith ar ben. Trwy ba fodd y daw addoliad Duw i gael ei esgeuluso? Dim ond i Hophni a Phineas fod yn waradwyddus eu bucheddau, dyna lawer o rai da a drwg "yn ffieiddio offrwm yr Arglwydd;" 1 *Sam. ii. 17.*

(2il.) Mae yn rhoddi dynion doniol a chall ar waith. Os bydd gan un fwy o ddeall a dyfnder rheswm nag arall, dyna y dyn y mae llygad Satan arno, am ei wasanaeth; ac y mae yn llwyddo mor bell fel nad oes ond ambell un o'r rheng hon i'w cael ym mysg dysgyblion Crist: "Canys yr ydych yn gweled eich galwedigaeth, frodyr, nad llawer o rai doethion yn ol y cnawd, nad llawer o rai galluog, nad llawer o rai boneddigion a alwyd;" 1 *Cor. i. 26.* Yn wir ni fyn Duw ddim i'w deyrnas ef, yn y galon nac yn y byd, gael ei chynnal drwy gallineb anianol: y mae yn orchymyn efengylaidd, fod i ni rodio mewn synlrywydd duwiol heb ddyblygion. Er y gall y sarph ymgrebachu i'w dyblygion, ac ymddaugos y peth nid yw, etto nid ydyw yn gweddu i'r saint ledrithio na chyfrwys-droi o flaen Duw na dynion; ac yn ddiau pan y mae neb o honynt wedi arfer cyfrwysdra y sarph, nid gwynt a fu y canlyniad. Cafodd

Iacob y fendith trwy dwyll; ond fe allasai ei chael yn rhatach trwy ymddygiad di-dwyll. Y mae Abraham a Sarah yn lleddrithio wrth Abimelech, a Duw yn dadguddio eu pechod, ac yn eu ceryddu o'i herwydd trwy enau ethnig. Y mae Asa o'i gall driniaeth gwladol yn cyfammodi â Syria, ie, yn gwystlo llestri y cyssegr, a hyn oll am gymhorth; a pha beth yw ffrwyth y cwbl? "Ynfyd y gwnaethost yn hyn," medd Duw, "am hyny, rhyfeloedd fydd i'th erbyn o llyn allan;" 2 *Cron.* xvi. 9. Ni ffyna callineb pechadurus yn hir yn nwyllaw y saint; ond Satan nid ä o'i ffordd; ymofyn y mae efe am y dynion mwyaf cyfrwys—Balaam, Ahi-topiel, Haman, a Sanbalat—gwŷr i'w rhyfeddu am eu cynghor a'u dichellion dyfnion: dyma y rhai a wnant ei dro ef. Y mae achos drwg mewn angen am areithiwr llyfn, ac eiddo drwg am werthwr dawnus; ac felly, yn neillduol, y mae ei offerynau a ddefnyddia efe i ddenu a llygru meddyliau dynion yn gyffredin yn gymdeithion llawn o ystrywiau, y rhai a hudent ymaith, "pe byddai bosibl, ie, yr etholedigion." Hyn a wnaeth yr apostol mor eiddigus am y Corinthiaid, y rhai yr oedd wedi eu dyweddio i Grist, rhag, megys y twyllodd y sarph Efa, felly, i'w meddyliau hwythau fod wedi eu "llygru oddi wrth y symlwydd sydd yng Nghrist;" 2 *Cor.* xi. 3. Rhaid i hwnw fod yn ddieflyn cyfrwys yn wir a fedr dynu ymaith gariad y ddyweddï oddi wrth ei hanwylyd; etto, y mae y fath hudoliaeth yn offerynu Satan, fel y dygwyd llawer i ehedeg i wyneb y gwirioneddau a'r ordinhadau, ie, i wyneb Crist ei hun, ar ol bod yn ymddangos fel ei ddyweddï gynt. Yn awr, y mae y fath yma o offerynau yn dangos ystrywiau eu meist mewn tri o bethau neillduol:—

1af. Wrth ddefirio enw da gwir genhadau Crist. Hen ddichell Satan yw codi ei gymmeriad ar anfiad gair da y rhai sydd yn weision ffyddllawn i Grist. Fel hyn y dysgodd efe Corah, Dathan, ac Abiram, i roddi ar Moses ac Aaron: "Ac ymgasglasant yn erbyn Moses, ac yn erbyn Aaron, ac a ddywedasant wrthynt, Gormod i chwi hyn; canys y mae yr holl gynnulleidfa yn sanctaidd bob un o honynt, ac y mae yr Arglywydd yn eu mysg: pa ham yr ymgodwch goruwch cynulleidfa yr Arglywydd;" *Num.* xvi. 3. Mynent beri i'r bobl greu mai balchder eu calon hwynt oedd hõni hawl iddynt eu hunain yn unig, fel nad oedd neb ond Aaron a'i frawdoliaeth yn ddigon sanctaidd i offrymu arogldarth; a thrwy arfer y ddichell hon, hwy a hudasant (am dro, ac mewn ystyr) yr holl gynnulleidfa i fod o'u hochr hwynt. Felly, yr oedd y prophwydi celwyddog—cenhadau Satan at Ahab—yn syrthio ar Micheah dduwiol. Ni chafodd ein Hiachawdwr ei hun ei drin ddim gwell gan y Phariseaid a'u cyfeillion. Ac am

Paul—y penaf o'r apostolion—cloddiwyd dan ei weindogaeth, a duwyd ei enw da yntau gan athrawon gau, fel pe na buasai ond rhyw bregethwr gwan a gwael. Yr oedd presenoldeb ei gorff yn wan, meddent hwy, a'i ymadrodd yn ddirmygus:—ai dyma y gwŷr yr ydych yn ei fawrygu?

2il. Trwy orchuddio eu hudwaith a'u cyfeiliornadau â phyniciau da, a gwirioneddau rhagorol. Yr oedd Arius ei hun, ac ereill o offerynau enbydus Satan, ya rhy gall i orlenwi eu hymddiddanion â dim heblaw eu gau dybiau: yr oedd gwirioneddau gwerthfawr yn dyferu oddi wrthynt; ac â'r rhai hyn y taenellent eu hegwyddorion llygredig, ond gyda dyfais a gallu nad oedd yn hawdd canfod trwyddynt. Am hyn, fel y sylwa un, y mae ein Hiachawdwr yn rhybuddio ei ddisgyblion, pan y dywed, "Ymogelwch rhag surdoes y Phariseaid;" hyny yw, rhag eu cyfeiliornadau. Ond pa ham surdoes? O herwrdd ei gymmysgiad dirgelaidd â'r bara iachus. Nid ydych yn gwneyd eich bara o surdoes i gyd (pe felly, ni wnai neb ei fwyta), ond chwi a frwionswch ychydig o hono i gelyrnaid cyfan, a hyn a sura y cwbl. Fel hyn y mae Crist yn mynegu i'w ddisgyblion fod y Phariseaid, yng nghyd âg aml wirionedd yn cynmysgu eu cyfeiliornadau; ac am hyny, y dylent ymogelyd, rhag, gyda'r gwirionedd, iddynt lylgeu y cyfeiliornad hefyd. Drachefn, y mae y surdoes yn debyg iawn i'r toes—o'r un grawn ag ef—yn wahanol mewn dim ond oed a surni. Fel hyn y rhydd Crist amnaid am debygrywydd eu cyfeiliornadau hwynt i'r gwirionedd, wedi eu crafu, fel pe bai, allan o'r Beibl, ond wedi eu suru â'u gau ddeongliadau hwynt. Hyn yn wir sydd yn peri i ddefaid Crist fod yn hawdd eu llygru â chrachen cyfeiliornad; am fod y chwŷn a fâg yr haint mor debyg i'r borfa sydd yn eu maethu hwynt.

3ydd. Fe ymddengys eu cyfrwysdra wrth eu bod yn dal allan egwyddorion sydd yn boddio y cnawd. Y mae hyn yn tynu heigiau mawrion o ereidiau ffol i'w rhywyd. Y mae calon dyn yn mawr serchu iun o grefydd yn ol ei mympwy ei hun, ac yn hawdd ganddi greu mai gwirionedd yw yr hyn a fyddo o blaid ei thuedd ei hun. Yn awr, y mae tri chwant a gais offerynu Satan eu boddio yn eu hathrawiaeth—rheswm anianol, balchder, a rhyddid cnawdol.

(1.) Rheswm anianol. Hwn yw yr eilun mawr, yr hwn y mae y rhan fwyaf ddeallus o'r byd yn ei addoli, gan ei gwneyd yn unig reol i'w cred; ac o'r gwreiddyn chwerr hwn y mae heresiau Ariaeth a Sosiniaeth wedi tarddu. Ac yn ddiâu, y neb nad ä ym mhellach nag y dwg ei reswm ef, efe a ddichon ddal ym mlaen yn ffordd amlwg y ddeddf foesol; ond pan ddelo at ddyfnderoedd yr efengyl, rhaid iddo naill ai troi yn ol, ai boddioni i ffydd ei helpio drosodd.

(2il.) Chwant arall a anwesa Satan ydyw balchder. Mae dyn wrth naturiaeth am fod yn dduw iddo ei hun, er mai wrth ymgyrbo mor uchel y cafodd ei gwmp; a pha athrawiaeth bynag a faetha dyb dda y dyn am dano ei hun, y mae hon yn dderbyniol ganddo. A hyn a hiliodd haig arall o gyfeillionrnadau enbydus—Morganiaeth a Hanner Morganiaeth. Y mae y rhai hyn yn gosod natur ar ei choesan ei hun, ac yn perswadio dyn y gall efe fyned ei hun at Grist, neu o leiaf, gydag ychydig gynnorthwy allanol—cael llaw i'w dywys, neu ddadleuon i'w annog—heb ddim gwaith creadigol yn yr enaid. O! nis gallwn ddirnad mor llithrig yr ä y fath sothach i lawr. Pe dywedai un gweithiwr wrthych fod eich tŷ yn fraenllyd, a bod yn rhaid ei dynu i lawr, a chael y defnyddiau ato oll yn newydd; a phe dywedai un arall, Dim o'r fath beth; y mae y trawst hwn yn dda, a'r dylath acw yn un a saif; ychydig gost a wna y tro. Nid rhyfedd fyddai i chwi wrandaw ar y dyn a fyddai am eich rhoddi i'r draul a'r drafferth leiaf. Y mae gweision ffyddlawn Crist yn dywedyd wrth bechaduriaid—allan o'r gair—fod dyn, yn ei gyfiwr naturiol, yn llygredig a phwdr; nad oes dim o'r hen adeilad a wna wasanaeth; a bod yn rhaid cael y cyfan oll yn newydd. Ond dyma yr Arminiad yn dyfod i mewn, ac yn chwythu i fyny falchder y pechadur, gan ddywedyd wrtho nad yw efe mor ddirym a drwg ag y mae y llall yn ei osod allan. "Os myni, ti elli edifarhau a chredu; neu o leiaf, trwy roddi dy alluoedd naturiol ar waith, gelli gymhell Duw i chwanegu yr hyn ni feddi at yr hyn a feddi." Dyma'r gweithwyr a foddhâ wŷr beilchion yn oreu.

(3ydd.) Y mae Satan, trwy ei offerynau, yn maethu y chwennychiad hwnw am ryddid cnawdol sydd yn y dyn wrth natur. Y mae hwn yn fab Belial, ac heb iau; ac os yw yn rhaid iddo wisgo iau, hono a'i boddia oreu, yr hon fyddo â'r dwbl (*living*) esmwythaf iddi, ac yn gwasgu leiaf ar y cnawd. Ac am hyn, pan na wna pregethwyr cywir y air ddi-finio llymder y gorchymyn, ond gwasgu am ufudd-dod diffuant iddo; yna daw offerynau Satan, ac a ddywedant—Meistriaid gwaith caled yw y rhai hyn na chaniatânt un dydd chwareu yn y flwyddyn i'r Cristion, ond ei rwymo wrth ddyledswydd yn wastadol." Ni a ddangoswn i chwi ffordd rwyddach i'r nef: "Deuwch," medd y Pabydd, "ymgyffesa di ond unwaith yn y flwyddyn i'r offeiriad, täl yn dda iddo am ei boen, a bydd yn fab ufudd i'r eglwys, a ni a'th ryddhawn ym mhob peth arall." "Deuwch," medd y Ffamiliat,¹ "y mae yr

efengyl yn eich breinio â mwy o ryddid nag a glychw chi am dano gan y pregethwyr deddfol hyn: y maent hwy yn peri i chwi edifarhau a chredu, pan y mae Crist wedi gwneuthur hyn oll at eich llaw; a pha beth sydd i chwi wneyd ond meithrin y cnawd?" Yn sicr, y mae rhyw beth yn hyn—fod twyllwyr yn cael marchnad mor rwydd i'w heiddo, tra y mae gwirionedd yn crogi ar y post. Ac ai nid hyn yw y peth?—eu bod hwy yn ymbygu i gynnyg y nef yn rhatach i'w disgyblion, nag y gwna Crist i'w eiddo ef. Yr hwn a wertho rataf a gaiff brynwyr amlaf; er, yn y diwedd, ar y goreu y bydd y newid goreu. Bydd gwirionedd, gyda hunanyrnwadiad, yn well ceiniogwerth na chyfeillionnau, gyda'i holl foddhâd cnawdol.

(4ydd.) Fe wna Satan ddewisiad o'r cyfryw ag y mae iddynt enw mawr am dduw-ioldeb. Nid oes debyg i aderyn byw am dynu adar ereill i'r rhywd. Ond, a ydyw yn bosibl fod i'r cyfryw wneuthur y gwaith hwn i'r diafol? Ydyw: y cyfryw yw dichell Satan, a gwendid y dynion goreu, hyd onid yw y rhai duwiolaf wedi bod yn offerynau ganddo ef i hudo ereill. Wele Abraham yn temtio ei wraig i gelwydd: "Dywed, atolwg, mai fy chwaer wyt ti; fel y byddo da i mi er dy fwyn di, ac y byddwyf fyw o'th blegid di;" *Gen. xii. 13.* Dacw yr hen brophwyd yn arwain gŵr Duw allan o'i ffordd: *1 Bren. xiii. 14, &c.* Yr oedd agwedd dduwiol y gŵr, a pharch i'w oedran, dybygid, yn rhoi grym i'w gynghor. O! fel y dylai hyn beri i chwi wylio, y rhai y mae eich ymdaith hir a'ch blaeniad yn ffyrdde Duw wedi ennill i chwi enw o ragoriaeth yn yr eglwys, at yr hyn a ddywedoch, a wneloch, neu a ddalioch chi; a hyn am eich bod chi yn arweinwyr y rhes, ac ereill yn edrych arnoch chi yn fwy nag ar eu ffordd!

(5ed.) Gwna Satan ddewisiad o'r cyfryw ag y byddo ganddynt, trwy berthynas neu anwylder, hawl neu rym gyda'r rhai y mynai efe eu hennill. Bydd i rai gusanu y plentyn er mwyn y fammaeth, a hofi yr aurheg er mwyn y llaw a fyddo yn ei dwyn. Y mae yn debygol na dderbyniaasai Dafydd o law Nabal yr hyn a gymmerodd efe gan Abigail, dan ddiolch iddi. Anfonodd Satan yr afal i Adda trwy law Efa. Y mae Dalilah yn fwy ei grym gyda Samson na holl rwymanu y Philistiaid. Gwraig Iob sydd yn dwyn iddo y gwenwyn, "Melldithia Dduw, a bydd farw." Y mae rhai yn meddwl ddarod i Satan arbed ei bywyd hi pan laddodd efe y plant a'r gweision—er ei bod o fewn ei afael—gan ei hystyried fel yr offeryn mwyaf tebygol, trwy ei pherthynas a'i anwyledd ef ati, i'w arwain ef i brofedigaeth. Y mae Satan yn rhoddi Pedr, y dysgybl, ar waith i demtio Crist; dro arall, ei gyfeillion a'i geraint.

¹Bu sect y Ffamiliatiaid (yr un rhai a alwyd yn Ranters hefyd) yn lled liosog yn Lloegr yn amser Siarl I, Oliver Cromwell, a Siarl II; ond hwy a ddarfuant o leiaf, o ran enwau—er ys talm bellach. Yr oedd eu hegwyyddorion yn gymmysg-

edd hynod o Antinomiaeth, Morganiaeth, a gau ysbrydoliaeth.

Bu i rai merthyron addef mai y gwaith calet-af a gyfarfuant âg ef oedd trechu erfyniadau a dagrau eu cyfeillion a'u perthynasau. Ni allai Paul ei hun ddyfod allan o'r fagl hon heb doriad calon: "Beth a wneuch chwi yn wylo ac yn tori fy nghalon i?" *Act. xxi. 13.*

PENNOD IV.

Lle y cymhwysir yn fyr y pwngc hwn am gyfrwysdra Satan fel temtiwr i bechod.

Defn. 1. Nac argeisiwch ddichell a chyfrwysdra pechadurus: ni wna hwn chwi ond yn debyg i'r diafol. Y mae callineb y sarph yn cael ei ganmawl; a'i berffeithrwydd ef fel creadur yw hwnw. Yma y mae ei gallineb llythyrenol a chyfriniol ef yn rhagorol: mae yn gall uwch law anifeiliaid y maes, i sylwi ar bethau naturiol; ac fel angel, yn wybodus uwch law dynion mewn pethau cyfriniol, neu ddirgelion. Ond fel mae callineb a gwybodaeth y diafol dan ddirywiad, a'r naill yn ei wneyd yn fwy abl i ddrygu cyrph, a'r llall eneidiau dynion; y mae y rhyw hwn o gallineb a chyfrwysdra i'w gasau yn llwyr genym ni: "Llygad y sarph," fel y dywed un, "nid yw o les ond yn unig yn mhen y golomen."

1af. Na hoffwch gyfrwysdra i ddyfeisio unrhyw bechod. Y mae rhai "yn synwrol i wneuthur drwg;" *Ier. iv. 22.* Fel meistr-iaid yn y gelfyddyd hon, hwy a fedrant, wrth orwedd ar eu gwelyau, fwrw eu hamcanion drygionus i drefn gelfyddwyeh, gan ddangos math o synwyr diaflaidd ynddi. Felly yr Aiphtwyr, y rhai a wnaethant yn gall, fel y tybient, â phlant Israel. Felly Iezebel, yr oedd ei bwriad gwaedlyd hithau wedi ei argraffu mewn llythyren mor hardd fel y gallasai rhai ei darllen yn sant, tra yr oedd hi yn chwareu rhan y diafol. Hon yw y gelfyddyd ddu yn wir, a hi a wna yr enaid a'i harfero mor ddu ag uffern. Nid anhawdd yw i neb ddsygu, er ei fod yn ffol. Bydd di ond yn ddrygionus, ac fe ddsyg y diafol di i fod yn gyfrwys: ond i ti ddyfod am dro i'w ysgol ef, ti a elli yn fuan fod yn ddynd call. Nid oes bechodau yn dangos cyrhaeddiad mewn drygioni yn fwy na'r rhai sydd yn darddiad o gynghor pwyllog ac ystrywiawu dyfnion. Po hwyaf y dygo creaduriaid eu rhai bach yn eu boliau, cryfaf a pherffeithiaf fyddant yn eu hesgoriad; megys yr *elephant* yn anad un. Po hwyaf y byddo pechod yn cael ei lunio a'i ffurfio oddi fewn, a pho mynychaf y byddo i'r pen a'r galon ymgysarfod yn ei gylch, cyflannaf o gwbl fydd y drwg. Mae yma, mewn un, lawer torlwyth o bechodau anffurfiedig; meddwl yr wyf am y cyfryw ag yr ymddygir, ie, yr esgorir, arnynt yn y ffdwan o wyllt nawns difyfr. Mae gweithredoedd o'r fath yma yn dangos gwendid; y lleill, drygionu dwfn.

(2il.) Gochel guddio pechod, wedi i ti ei wneuthur. Mae hyn yn un o ddyfeisiau calon dyn, ac y mae cymnaint medr a chyfrwysdra yn cael eu dangos ynddi ag mewn un rhan o gelfyddyd y pechadur. Y fath gast oedd gan feibion Iacob i ddallu llygad eu tad â siaced waedlyd! A meistrs Ioseph, i ragflaenu ei achwyniad ef, y mae yn ei gyhuddo o'r hyn yr oedd hi yn euog; yn debyg i'r lleidr a ddiangodd wrth grochwaeddi, "Del iweh y lleidr!" Duw a ddsygodd i ddynd wneyd gwisgoedd yn orchudd i'w gorph noeth; ond y diafol a'i ddsygodd ef i wau y mentyll hyn at guddio noethni ei enaid. Po gyfrwysaf yr ymddangosi di yn cuddio dy bechod, mwyaf nodedig yr wyt ti yn chwareu yr ynfyd-ddyn. Nid oes neb dan waradwydd fel y celwyddwr, pan y ceir ef allan; ac felly y bydd yn sicr arnat ti. Y mae dy fantell yn rhy fer i'th guddio rhag llygad Duw; a'r peth a wel Duw, oddi eithr i ti ymgwilyddio yma, efe a'i mynega ar ol hyn i'r holl fydd, pa fodd bynag y diengi yn y bywyd hwn.

(3ydd.) Gochel ddichell ac ystryw pechadurus wrth gyrhaedd y peth sydd ynddo ei hun yn gyfreithlawn. Y mae yn gyfreithlawn i ti gynnnyddu dy dda bydol, a'i drin yn dda i'th hiliogaeth; ond na chymmer gynghor y diafol, yr hwn a fydd am dy roi ar ryw ddichellion a thwyll yn dy fasnach a'th ymdriniaeth. Dichon y cyfryw gael eu cyfrif fel gwyr call am ennyd; ond y mae y prophwyd yn darllen eu tesni: "Yn ei ddiwydd ynfyd fydd;" *Ier. xvii. 11.* Y mae yn gyfreithlawn i ni garu ein heiddo, ein bywyd, a'n rhyddid; ond gwylw'n rhag ystryw pechadurus i'w cadw. Nid doethineb yw ffug chwareu â Duw trwy wadu ei wirionedd, neu lithro oddi wrth ein dyledswydd i gadw bodd gyda dynion. Cleddyfwr gwael yw hwnw a esyd ei enaid yn agored i'w wanu a'i frathu gan euogrwydd, tra y mae yn codi ei ddwyllaw i ymgadw rhag toriad ar y pen. Mae yr hyn a ofnwn yn gyffredin yn cyfarfod â ni yn y drws y byddom yn meddwl diange rhagddo. "Pwy bynag a geisio gadw ei einioes, a'i cyll; a phwy bynag a'i cyll, a'i bywha hi." Gristionogion, fel yr ydych yn caru eich heddwch, byddwch yml o galon gyda Duw a dyn; ymgedwch ar brif ffordd y brenhin. Dos ar hyd ffordd amlwg y gorchymmyn i gaffael dy ddymuniaid; a phaid a neidio dros gae a chlawdd i ddyfod ychydig yn gynt i ben dy daith. Y mae y cyfryw, yn gyffredin, naill ai yn cyfarfod â rhyw attalfa sydd yn peri iddynt droi yn ol gyda chywilydd, neu ynte yn eu doddi i anturio eu gyddfau ar ryw naid erchyll. Hwnw yn sicr a ddaw yn ddiogelaf, os nid yn gyntaf adref, a fyddo yn foddlawn i fyned ychydig o gwmpas, i gadw cyfeillach â Duw. Y mae sylw yr hanesydd Livy yn werth ei gofio gan y Cristion: "Cy-

nghorion dichellgar a addawant yn deg ar y cyntaf; yna troânt yn ddyrus; ac yn y diwedd yn alaethus.

Defn. 2. A ydyw Satan mor gyfrwys? O! na feddwl dy fod yn gyfrwysach nag ef; onid e, efe a'th drecha o'r diwedd. Na phecha gyda meddwl am edifarhau yr ol llaw. Mae yn bosibl dy fod yn awr yn bwriadu hyn; ond wrth eistedd i chwareu gyda'r twyllwr hwn, a wyt yn meddwl cadw a defnyddio dy ystor yn ol dy feddwl dy hun? Ock! y truan gwael: y mae ganddo ef fil o ystrywiau i'th dynu ym mlaen, ac yn ddyfnach, hyd na byddo wedi gadael i ti ddim tynerwch yn dy gydwybod. Megys y triniwyd y rhai wrth chwareu—nid oedd eu bwriad ond i anturio swllt neu ddau; etto, drwy yr hudoliaeth ddirgel yn y chwareu, hwy a chwareuasant hyd yn oed y dillad oddi ar eu cefn cyn darfod. O! y fath nifer sy fel hyn wedi pechu ymaith eu holl egwyddorion, ie, a phroffes ei hun hefyd, fel nad ydynt yn meddu cymmaint a'r fantell hon, ond yn rhedio yn noeth yn eu cywilydd! Yn debyg i blant, a änt i gwch, gan feddwl chwareu yn agos i'r lan, ond a ddygir gan awel gref o wynt i'r môr llydan o halogrwybod. O! pa fodd y gwyddoch chwi, sydd yn awr yn cellwair gyda Satan, na ellwch chwi, er dechreu yn lednais, gael o'r diwedd eich dwyn i lawr i'r môr llydan o halogrwydd? Y mae rhai dynion mor gyfrwys i dwyllo, ac mor gïaidd ar ol cael dynion i'w gafael, fel y byddai yn well i ddyngardota ei fara na benthycio ganddynt. Y cyfryw faelierydd yw Satan—cyfrwys i fwyn ddenu, a chael y creadur i'w lyfrau; a phan ei casto i'w afael, ni cheir fwy o drugaredd ganddo nag a all yr oen ddysgwyl gan y blaidd rheibus.

Defn. 3. Ystyria gyullwynion Satan, a gwna dy hun yn wybyddus o'i ddichellion. Y mae Paul yn ei gymmeryd fel peth caniatöol fod pob Cristion yn eu deall mewn rhyw fesur: "Canys nid ydym heb wybod ei ddichellion ef;" 2 Cor. ii. 11. Nid ydyw hwnw ond cleddyfwr gwael a fyddo heb wybod na sylwi ar ymgiesiadau ei elyn. Yr wyf eisoes wedi pennodi amryw ddichellion neillduol, yr hyn a ddichon fod yn ychydig gymhorth; ac i'th gynnorthwyo etto yn yr ystyriaeth am ddichellion Satan, a'th chwiliad iddynt, cymmer y cynghor triphlyg hwn:—

(1af.) Cymmer Dduw i'th gynghor. Y mae y nef yn edrych dros uffern. Gall Duw fynegi i ti ar bob amser pa ystrywiau sydd yn cael eu dyfeisio i'th erbyn. Ystyria di Satan fel y mae yn greadur Duw; ac felly, nid oes fodd nad yw Duw yn ei adnabod. Yr hwn a wnaeth yr oriadur (*watch*) a wŷr am bob pin o'i mewn. Efe a luniodd y sarph wyr-gam hon, er nad gwyr-gamedd y sarph hon; ac er i ffyrdd Satan yn temtio fod mor annir-nadwy a ffordd neidr ar graig, etto gall Duw eu holrhain; ie, y mae efe ar unwaith yn

canfod ei holl feddyliau. "Y mae uffern yn noeth ger ei fron ef, ac nid oes dö ar ddistryw" (*Iob* xxvi. 6), ac nid oes i'r dinystr-ydd un gorchudd. Drachef, ystyria ef fel carcharor i Dduw, yr hwn sydd yn ei ddal yn dŷn mewn cadwynau; ac felly y mae yn rhaidd ei fod ef sydd yn edrych ar ei ol yn gwybod i ba le yr ä ei garcharor, yr hwn ni all ysgogi heb ei oddefiad ef. Yn ddiweddaf, ystyria Satan fel cenad Duw; o blegid y cyfryw yw efe. Drwg ysbyd oddi wrth yr Arglywydd a flinodd Saul (*1Sam.* xvi. 14), a'r hwn sydd yn rhoi ei neges, a all fynegi i ti pa beth ydyw. Dos ynte ac ardda äg anner Duw, defnyddia dy hawl yng Nghrist, yr hwn a wŷr yr hyn oll a wŷr ei Daç, ac y mae efe yn barod i hysbysu i ti bob peth a fyddo yn berthynol i ti: *Ioan* xv. 15. Efe a ddarluniodd y diafol oedd yn dyfod yn erbyn Pedr, a'r lleill o'r apostolion, ac a'i mynegodd yn flyddlawn iddynt, cyn iddynt hwy feddwl am y fath beth: *Luc* xxii. 31, &c. Trwy law Crist yr ä pob negeswaith yn y nef ac yn uffern: *Mat.* xxvii. 18; *Dat.* i. 18. Yr ydym yn byw mewn amser o weithredoedd mawrion, cynghorion dyfnion, a dichellion ar bob ochr; ac nid oes ond ychydig o'r rhai sydd yn sefyll ym mhen uchaf y byd yn gwybod am y dirgelion gwladol hyn: nid yw y lleill oll yn gwybod ond am ychydig heb law hanes cyffredin. Fel hyn y mae mewn golygiad ar y cynllwynion hyn y lunia Satan yn ei gynghor uffernol yn erbyn eneidiau dynion: nid oes ond ychydig a wŷr ddim o sylwedd am fwriad Satan yn eu herbyn; a'r rhai hyn yw y saint, oddi wrth ba rai nis gall Duw gelu cynghorion ei gariad ei hun; eithr y mae yn anfon ei Ysbryd i ddad-guddio iddynt yma yr hyn y mae yn ei ddarparu iddynt yn y nef (*1 Cor.* ii. 10); ac am hyny, llawer llai y ceta efe yn ystryw niweidiol o eiddo Satan oddi wrthynt.

(2il.) Bydd yn dra chydabyddus ä'th galon dy hun, a thi a adnabyddi yn well ei fwriad ef i'th erbyn, yr hwn a gymmer ei ffurf o demtïad oddi wrth duedd ac agwedd dy galon di. Megys y gwna llueddwr fyned o amgylch dinas, a thremio yn fanwl arni, ac yna gosod ei beiriannau dinystr yn y lle y casto fwyaf o fantais; felly yr amgylchyna Satan, ac yr ystyria y Cristion ym mhob man cyn iddo ei demtio.

(3ydd.) Bydd ofalus i ddarllen gair Duw, gan ddal arno. Yn hwn, ti a gei hanes y brwydrau hynotaf a ymladdwyd gan y cedryn, neu y saint enwocaf ym myddin Crist, yn erbyn Satan, y rhyfelwr mawr. Yma, ti a elli weled y modd y darfu i Satan eu lled faeddu, a'r modd yr ad-emiillasant eu tir ar ol ei gollu. Yma y cei ei gyfrin-gynghor ef yn ddadguddiedig. Nid oes un chwant a'th berygla na chei ddarlunïad o hono yma; na themtasiwn heb fod i ti yn y gair arfogiad i'w herbyn. Y mae son y buasai i ryw

Iuddeu wenwyno Luther, oni buasai y rhagflaeniad dedwydd, trwy fod ei lun wedi cael ei anfon at Luther, gyda rhybudd oddi wrth gyfaill ffyddlawm am iddo ochelyd y cyfryw ddyd, pan y gwelai ef; ac mai trwy hyn yr adnabu efe y lleiddiad, ac y diangodd o'i law. Y mae y gair yn dangos i ti, O Gristion, wynebaw y chwantau hyny, a rydd Satan ar waith i gigyddio dy enaid gwerthfawr:—"Ynddyn: hwy hefyd y rhybuddir dy was: o'u cadw y mae gwobr lawer," medd Dafydd; *Salm* xix. 11.

PENNOD. V.

Lle y dangosir cyfrwysdra Satan fel blinwr a chy-huddwr am bechod; ac y ddiagnodir amryw o'i gynllwynion a'i ddichellion ef i aflonyddu ysbryd-oedd y saint.

Yr ail beth cyffredin a ddengys Satan yn elyn mor gyfrwys yw ei waith yn aflonyddu heddwech y saint, ac yn trallodi eu hysbryd-oedd. Megys mai gwaith yr Ysbryd Glân yw bod, nid yn unig yn Sancteiddydd, ond hefyd yn Ddiddanydd, a'i ffrwythau yn gyfa-iawnder a heddwech; felly y mae yr ysbryd drwg, Satan, yn hudwr i bechod, ac hefyd yn gyhuddwr am bechod; yn demtiwr a blinwr, ac yn wir yn yr un drefn. Megys y mae yr Ysbryd Glân yn gyntaf yn Sancteiddydd, ac yna yn Ddiddanydd; felly Satan, yn gyntaf yn demtiwr, yna yn flinwr. Fe geisiodd meistres Ioseph yn gyntaf ei ddenu i foddio ei chwant ei hun; a chan i'r llinyn hwnw dori, yr oedd ganddi hi un arall—ei gyhuddo a'i gystwyo ef; ac yn lle dadl, yr oedd ganddi hi ei wisg ef i guddio ei malais. Ac nid anhawdd chwaith yw i Satan bigo twll yng ngwisg y Cristion, pan fyddo yn rhodio fwyaf gwyliadwrus. Eisteddle priodol pechod yw yr ewyllys; eisteddle cysur yw y gydwybod. Ni fedd Satan y wybodaeth gyflawn am, na'r awdurdod ar y rhai hyn, gan eu bod tan glo i bawb arall ond Duw; ac am hyny, yr hyn a wna efe, pa un byna ai mewn temtasiynau i aflanhau ai i aflonyddu, sy trwy ddichellion yn fwy na thrwy rym amlwg; ac nid yw efe, wrth gyhuddo, yn wanach nag wrth demtio. Y mae gan Satan, fel y sarph, ffordd ar ei ben ei hun. Mae symmudiad creaduriaid ereill rhag blaen, ond y sarph a â ar ei hosgo fel y dywedwn, tan ymddirwyn ac ymddolenu; fel, pan welch un yn ymlusgo, mai prin y gallwch ddirnad pa ffordd y mae yn tueddu. Felly, y mae gan Satan, yn ei demtasiynau aflonyddus, lawer o ddichellion dyrus, yn troi y ffordd yma a'r ffordd acw, er mwyn celu ei amcanion yn well rhag y Cristion. Hyn a ymddengys fel y canlyn:—

DOSB. I.

Yn gyntaf, efe a flina y Cristion trwy osod ei eppil ddu ei hun wrth ei ddrws ef, a'i

gyhuddo fel tad yr anghenfilod hyny. Ac yn hyny y mae mor nodedig o fedrus, hyd onid oes llawer o anwyl saint Duw yn cael eu dyrystu a'u tristau yn alaethus, fel pe byddent y cablwyr gwaethaf, a'r rhai mwyaf annuwiol o fewn y byd. Ond yn ddiaw, ei waith ef ei hun ydyw rhoddi y cwpan yn y sach, etto y mae efe yn gyfrwys gelgar yn y trosglwyddiad i fynwes y Cristion; ac felly, er ei fod mewn syndod a dychryn wrth yr olwg arnynt, etto, gan ei fod yn eiddigus o'i galon ei hun, ac yn anadnabyddus o'r cyfryw ystrywiau o eiddo Satan, ni fedr efe ddirnad pa fodd y deuai y fath ysgogiadau i'w feddwl, heb eu bod wedi eu magu yn ei galon ddyrgionus ei hun, a'u chwydu o'i llawnder hi. Fel hyn y mae efe yn cymmeryd bai y cabledd arno ei hun, am na all gael allan yr iawn dad. Y mae yn galaru fel un wedi ei dael a'i wrthod gan Dduw: "A phe ni byddai felly," medd efe, "ni byddai genyf ddim o'r fath bryfed uffernol yn ymlusgo yn fy mynwes." Ac yma y mae Satan yn cael ei gais a'i amcan; o herwydd nid yw efe mor ffol a gobeithio y caiff groesaw gyda'r dorf erchyll o feddyliau cableddus ac annuw yn yr enaid hwnw a roddodd nacad iddo pan oedd yn dyfod mewn ffordd ddengar. Na: ond ei fwriad ef yw dial; o herwydd na fyn yr enaid ymroddi i'w chwant ef mewn ffyrdd ereill; am hyny, efe a'i blina ac a'i brawycha â'r impiaiu hyn o gabledd. Megys y gwnaeth efe â Luther, gan ymrithio iddo; a phan wrthwynebwyd ef ganddo, efe a aeth ymaith, ac a adawodd sawr atgas yn yr ystafell ar ei ol. Felly, wedi i'r Cristion guro Satan yn ol yn ei demtasiynau mwy dengar, y mae o'i gynddaredd yn bytheirio allan y drawdod hwn o ysgogiadau cableddus i'w flino a'i frawychu ef, fel y tyno y Cristion o hon ynt ryw benderfyniad athrist neu gilydd. Ac yn wir, y mae pechod y Cristion, yn gyffredin, yn fwy yn y casgliad a dyno efe oddi wrthynt (sef nad yw efe yn blentyn i Dduw, &c.) nag yn y cynhyrfaadau eu hunain. Gan hyny, y cwbl o'r cynghor a roddaf i ti, yn yr achos yma, yw hyn—gwna â'r ysgogiadau hyn fel yr arferir gwneyd â'r crwydriaid a'r dyhirwyr sydd yn cerdedd y wlad. Y rhai hyn, er na fedrwech eu cadw rhag myned trwy eich tref, etto chwi a edrychwch na chant breswyllo yno, ond eu fflangellu, a'u hanfon adref. Felly, rhoddwch y gyfraith ar yr ysgogiadau hyn trwy alaru o'u herwydd, a'u gwrthwynebu, ac ni roddir hwynt arnoch chwi; ie, y mae yn debygol mai anfynychach y cewch eich blino gan y fath ymwelwyr. Ond os bydd i chwi unwaith eu croesawu hwynt, a bod yn famaeth dros Satan iddynt, yna bydd i gyfraith Duw eu bwrw arnoch chwi.

DOSB. II.

Yn ail, Dichell arall gan Satan fel blinwr

yw, mwylhau pechodau y Cristion; ac yn eu herbyn y mae ganddo ddawn nodedig am groch-feio; nid am ei fod yn casau y pechod, ond y Cristion. Yn awr, yn hyn, ei brif ddichell ydyw gosod y cyhuddiad fel yr ynddangoso megys cyhuddiad yr Ysbryd Glân. Efe a wŷr fod saeth o gaweli Duw yn dwinglwyfo; ac am hyn, wrth gyhuddo, efe a ddaw yn enw Duw. Yn debyg i hyn: bwrwch fod plentyn yn gwybod yuddo ei hun ei fod wedi anfoddio ei dad, a rhyw ewyllysiwr drwg iddo, er mwyn ei drallodi, yn ffuglunio llythyr, megys oddi wrth ei dad, ac yn ei drosglwyddo yn ddichellgar i law y mab, yr hwn y mae efe yn ei dderbyn megys oddi wrth ei dad. Yn hwn, y mae efe yn ei gyhuddo o lawer o feiau trymion, yn ei wrthod, ac yn bygwth na chaiff efe byth ddyfod i'w olwg, na derbyn ganddo geiniog o gynnysgaeth. Y mae y bachgen, druan, yn ymwybyddus o aml ymddygiad anufudd, ac yn anwybyddus o'r ddichell, yn ei gymmeryd ato yn ddwys; ac ni fedr na bwyta nac yfed, na chysgu, gan ofid. Dyma wir drallod wedi ei fagu ar sail gau a dychymyglod. Fel hyn y mae Satan yn sylwi pa fodd y mae pethau yn myned rhwng Duw a'i blant; hwn a hwn y mae yn ei weled yn ymarhous yn ei ddyledswydd, yn feius yn y gorchwyl acw, ac efe a wŷr fod y Cristion yn wybyddus o hyn, ac y bydd i Ysbryd Duw hefyd ddangos ei anfoddlonrwydd am y rhai hyn. Dyma ddau annogiad i Satan dynu cyhuddiad llawn, gan grafu i fyny bob chwaneigiad erchyll y gall feddwl am dano, a'i roddi at y Cristion megys peth wedi ei anfon gan Dduw. Fel hyn y dysgodd efe i gyfeillion Iob gasglu i fyny y gwallau hyny a syrthiodd oddi wrtho yn ei gyfyngder, a'u hergydio yn ol i'w wyneb ef, fel pe buasent hwy yn ddiau wedi eu danfon gan Dduw i'w gyhoeddi ef yn rhagrithiwr, a dadgan ei ddigder ef am hyn.

Hol. Ond pa fodd y mae i ni wybod gwahaniaeth rhwng gau gyhuddiadau Satan, a cheryddon Duw a'i Ysbryd?

At. 1. Os byddant yn croesi rhyw weithred neu waith blaenorol o eiddo yr Ysbryd yn dy enaid, eiddo Satan ydynt, nid eiddo yr Ysbryd Glân. Yn awr, y mae i chwi sylwi—ymgais Satan wrth gyhuddo y Cristion, a mwylhau ei bechod, ydyw ei ddiseintio ef, a'i berswadio nad yw efe ond rhagrithiwr. O! medd Satan, yr ydywt ti wedi dangos pa beth ydywt; gwel y fath frycheuyn sydd ar dy wisg: nid brycheuyn plentyn yw hwn. Pwy, o'r rhai fu erioed yn saint, a wnaeth y fath bechod, ac yn y fath fodd? Mi a warantaf i ti nad yw dy holl gysuron a'th hyder y bostiaist am danynt ond ffalsedd. Fel hyn, chwi a welwch fod Satan, ar un dynnod, yn chwilfriwio y cwbl. Rhaid i'r holl adeilad o ras ag y bu Duw lawer blwyddyn yn ei chodi yn yr enaid, yn awr,

ar un awel o'i safn faleisus ef, gael ei chwythu i lawr, ac i'r holl gysuron melus â pha rai y bu yr Ysbryd Glân yn selio cariad Duw, gael eu dileu gan yr un brycheuyn hwn a dyn Satan ar draws yr ysgrifen deg o dystiolaeth y saint. Wel, enaid, er dy gysur, gwybydd, os bu i Ysbryd Duw erioed ddechreu gwaith sancteiddiol neu ddyddanol, gan beri i ti obeithio yn ei drugaredd ef, nid yw efe, ni bydd byth, ac ni ddichon fod, yn genadwr i ddwyn newydd gwrthwyneb i'th enaid; nid ie a nag e yw ei iaith ef, ond ie ac amen, hyd byth. Yn wir, pan fyddo y Cristion yn chwareu y gwam-mal-ddyn, efe a all geryddu; ie, efe a wga, ac a ddywed yn groyw wrth yr enaid am ei bechod; megys y dywedwyd wrth Dafydd trwy Nathan, "Ti yw y gŵr;" hyn a wnaethost ti; ac mae yn darlunio ei bechod ef yn y fath liwiau gwaellyd ag a wnaeth i galon Dafydd doddi, fel pe buasai yn gynnifer o ddefnydd dwfr. Ac nid digon ganddo hyn, ond y mae yn dywedyd wrtho pa fath wialen oedd yn mwyo iddo, i'w ddolurio hyd adref: y byddai i un o'i dŷ ei hun—neb arall ond ei hoff blentyn—gyfodi i'w erbyn; a hyn fel y byddai iddo ddirnad yn well pa mor adgas gan Dduw oedd ei bechod ef, plentyn, a sant, pan gaffai wybod pa beth oedd fod ei anwyl blentyn ef yn rhuthro yn fradwrus am ei goron, ac yn hela yn annaturiol am ei fywyd gwerthfawr. Eitto, trwy hyn oll, ni chlywir un gair gan Nathan yn dysgu i Dafydd ddiseintio ei hun, a galw i gwestiwn waith Duw yn ei enaid. Na, nid oedd ganddo ef ddim o'r fath neges oddi wrth Dduw; yr oedd wedi ei anfon i beri iddo alaru am ei bechod, nid o herwydd ei bechod i ammheu ei gyflwr, yr hwn yr oedd Duw mor fynych wedi ei roddi tu hwnt i ammheuaeth.

2. Pan fyddont yn goganu cyfoeth gras Duw, ac yn bwrw ar y Cristion, fel ag i roddi anair hefyd i enw da Duw; yna, nid oddi wrth yr Ysbryd Glân y maent hwy, ond oddi wrth Satan. Pan fyddo eich pechodau yn cael eu dangos felly, a'u mwylhau o'ch blaen, fel ag i fod tu hwnt i drugaredd natur Duw, neu ynte i ras ei gyfammod ef, yma y mae y diafol yn dangos ei hun: oddi wrth y celwyddwr brwnt hwnw y mae hyn. Areithiwr dros Grist yw yr Ysbryd Glân, i'w ganmawl ef wrth eneidiau, ac i ennill pechaduriaid i gofleidio gras yr efengyl; ac a ddichon y fath eiriau ddyferu o'i enau sanctaidd ef ag a attaliai y briodas, gan leihau bri Crist yn meddyliau y creadur? Chwi ellwch ddeall ym mha le y bathwyd hwynt. Pan glywoch un yn canmawl un arall fel gŵr doeth neu dda, ac o'r diwedd yn dyfod â rhyw *ond* i mewn, yr hyn sydd yn anafu y cwbl, chwi ellwch yn hawdd feddwl mai nid cyfyll i'r gŵr ydyw efe, ond rhyw elyn cyfrwys, sydd, trwy rith ganmawl, yn

chwennyeh gwaradwyddo yn fwy; ac felly, pan arddangosir Duw o'ch blaen fel un trugarog a graslawn, ond nid i'r fath bechadur anferth a thi; fel un yn meddu gallu a grym, ond nid yn alluog i'th achub di, gelli ddywedyd, Ymaith, Satan, y mae dy leferwydd yn dy gyhuddo.

DOSB. III.

Yn drydydd, Dichell arall gan Satan yw traws-ddadleu yn erbyn dyledswyddau a chyflawniadau y Cristion; a thrwy hyn y mae yn peri iddo lawer o ddryswch a blinder. Y mae efe yn yr addoliad mor fuan ag y medri dithau, Gristion, fod, ar dy oreu; ydyw, y mae yn sefyll dan ffenestr dy ystafell, ac yn gwrandaw pa beth a ddywedi wrth Dduw yn y dirgel; ac o hyd yn chwilio pa fodd i roddi cwyn i'th erbyn am dy ddyledswydd. Yn debyg i rai a wrandawnt bregethau, i ddal a chnoi ar eiriau y pregethwyr, fel y gallont ei wneyd ef yn droseddwr o herwydd rhyw air neu gilydd allan o'i le; neu yn debyg i ddadleuwr cyfrwys yn yr ysgolion; yr hwn, tra y mae ei wrthwynebwr yn brysur yn darllen ei fater, sydd yntau yn myfyrio pa fodd i'w wrthbrofi. Ac yn ddiau, y mae Satan mor fedrus yn hyn a'i fod yn abl i dynu ein dyledswyddau yn ddarnau, a'u hacru felly hyd oni ymddangasant yn ffurfiol, er gwresoced fyddont; yn rhagrithiol, er iddynt fod wedi eu prydfferthu â llawer o burdeb. Erbyn darfod dy ddyledswydd, Gristion, y dichellwas hwn a saif i fyny i ddattod dy waith: yma, efe a ddywed, yr oeddit yn chwareu y rhagrithiwr; yn wresog, ond mewn hunan gais; yma yn wibiog, ac acw yn gysglyd; yn fuan drachefn yn ymchwyddo gan falchder; a pha wobr sydd i ti ei disgwyl oddi ar law Duw, ar ol i ti anafu ei waith, a'i hollti oll yn ysglodion? Fel hyn y gwna efe i lawer enaid truan dreulio bywyd blinderus; nid oes dim a wna't nad oes ganddo ef ergyd ato, fel na wyddant pa un oreu—gweddio ai peidio; ac wedi iddynt weddio a gwrandaw, a ydyw yn ateb i ryw ddyben ai nid ydyw. Fel hyn y mae eu heneidiau yn siglo mewn ammheuaeth, a'u dyddiau yn myned heibio mewn gofid, tra y mae eu gelyn yn sefyll mewn congl, ac yn ymfodhau yn y twyll a roddodd arnynt—fel un wedi rhoddi llun pryf copyn yn y ddysgl, yn peri i'r rhai a fyddo wrth y bwrdd naill ai drwgdybio am y bwyd, fel na fedrant ei fwyta, ai bod mewn ofn am danynt eu hunain ar ol bwyta, rhag eu bod wedi eu gwenwyno yn eu bwyd.

Qwest. Ond chwi a ddywedwch, Pa beth a fynech i ni wneuthur yn yr achos hwn i wrthsefyll dadleuon dichellgar Satan mewn perthynas i'n dyledswyddau?

At. 1. Pared hyn i ti fod yn fwy manwl yn yr hyn oll a wnelech. Hyn yw gwir ddyben Duw yn ei oddefiad i Satan eich gwyllo yn y modd hwn; fel y byddo i chwi

—ei biant—fod yn fwy eich gofal; am fod genych un â golwg amoch a fydd yn sier o ddywedyd chwedlau am danoch chwi wrth Dduw, ac o'th gyhuddo di hefyd wrthyt dy hun. Onid yw yn gweddu i ti ysgrifenu dy gopi yn deg, gan fod y fath farnydd yn ei ddarllen ac yn ei fanwl chwilio? Onid yw yn pertlyn i ti wybod yn dda am dy galon, a chwilio yn ddyfal yn yr Ysgrhythrau, i gael gwybod hynt dy enaid, o ran pob dadl mewn achosion cydwobod, pan y mae genyt y fath groes ddadleuwr cyfrwys i'th ateb?

2. Gwnaed hyn di yn fwy gostyngedig Os ydyw Satan yn gallu rhoddi cymmaint i'th erbyn yn dy ddyledswyddau goreu, O' ynte, pa faint a all dy Dduw roddi? Mae Duw, weithiau, yn goddef i wendidau ei bobl fod yn wybyddus i'r annuwiol, sydd yn barod i'w curo a'u grawdio o'r achos, ond i'r dyben o ddarostwng ei bobl. A pha faint mwy isel y dylai y cyhuddiadau hyn gan Satan, sy mewn rhan fawr yn rhy wir ein gosod ni ger bron Duw?

3. Craffa ar dwyll dadl Satan. Hyn, pan ganfyddech, a fydd yn help i ti ateb ei groes ddadl, sydd â'i thwyll yn ddyblyg.

(*1af.*) Efe a haera wrthyt fod dy ddyledswydd a thithau yn rhagrithiol, yn falch, ffurfiol, &c., am fod rhywbeth o'r pechodau hyn i'w gael yn dy ddyledswyddau. Yn awr, Gristion, dysg di wahaniaethu rhwng balchder mewn dyledswydd, a dyledswydd falch; rhagrith mewn dyn, a rhagrithiwr; gwin yn y dyn, a dyn mewn gwin. Y mae gan y goreu o'r saint y fath lygredigaethau yn ymgynhyrfu ynddynt, ac yn eu dyledswyddau: yr adar hyn a ddisgynant hyd yn oed ar offrw Abraham (*Gen.* xv. 11); ond cysura dy hun â hyn—os wyt yn cael plaid o fewn dy fynwes yn dadleu dros Dduw, ac yn ardstyio yn erbyn y rhai hyn; yna, dy fod di a'th wasanaeth yn berffaith mewn ystyr efengylaidd. Y mae Duw yn edrych ar y rhai hyn fel gwaeleddau dy ystâd afiach yma isod, ac yn tosturio wrthyt, fel y gwnei dithau wrth dy blentyn cloff. Mor adgas yw hwnw genym a wawdio un o herwydd diffygion naturiol—cibddelni, bloesgni, &c. Cyffelyb yw y rhai hyn yn dy natur newydd di. Y mae hyn yng ngweddi Crist yn erbyn Satan: "A'r Arglwydd a ddywedodd wrth Satan, Cerydded yr Arglwydd dydi, Satan; sef yr Arglwydd yr hwn a ddewisodd Ierusalem, a'th geryddo: onid pentewyn yw hwn wedi ei achub o'r tân?" *Zech.* iii. 2. Fel pe dywedasai Crist, Arglwydd, a oddefi di i'r ysbryd cenfigenus hwn edliw i'th blentyn gwan, a'i gyhuddo am y gwendidau hyn sydd yng nglŷn â'i ystâd ammherffaith? Nid yw efe ond wedi ei newydd dynu o'r tân; nid rhyfedd fod rhai gwreichion heb eu diffodd, peth llygredd heb ei farwau, rhai pethau anhrefnus heb eu diwygio yn ei le a'i alwad ef. **A'r hyn a**

wnaeth Crist dros Iosuah, y mae yn ddibaid yn ei wneuthur dros ei saint oll, gan eiriol yn achos eu gwendidau gyda'i Dad.

(2il.) Twyll arall gan Satan yw ei ddadleuaeth oddi wrth y pechod sydd yn ein dyledswyddau, at eu bod yn annerbyniol. A dybi di, medd efe, y bydd i Dduw dderbyn y fath ddarnau bylchog oddi ar dy law? Onid Duw sanctaidd yw efe? Yma, Gristion, dysg di wahaniaethu, ac atteb Satan. Y mae derbyniad o ddau fath—derbyniad o beth fel taliad dyled, a derbyniad o beth a gynnigir fel arwydd o gariad, a thystiolaeth o ddiolchgarwch. Efe, yr hwn ni fyn dderbyn arian bylchog, neu hanner y swm, yn lle taliad o ddyled, er hyny, a dderbyn yn garedig ryw ddernyn tolcio, os ei gyfaill a'i denfyn iddo, fel arwydd o'i gariad. Y mae yn wir, Gristion, am y ddyled sydd arnat ti i Dduw, rhaid ei thalu yn arian da a chyfreithlawn; ond, er dy gysur, gwybydd yma mai Crist yw dy dalwr: anfon Satan ato ef; arch iddo ddwyn ei gŵyn yn erbyn Crist, yr hwn sydd yn barod, ar ddeheulaw Duw, i atteb i'w gyfrifon, a dangos ei dâl-gofiant (*discharge*) am y ddyled i gyd; ond yn awr, y mae dy gyflawniadau a'th ufudd-dod di yn dyfod tan olygiad arall (fel arwyddion o'th gariad a'th ddiolchgarwch i Dduw), ac y mae dy Dad nefol o'r fath naw rasol fel y bydd iddo dderbyn dy hatling. Ni wrthyd cariad ddim a anfono cariad. Nid pwysau na gwerth y rhodd, ond "deisyfiad dyn yw ei drugaredd [neu garedigrwydd] ef;" *Diar.* xix. 22.

DOSB. IV.

Pedwerydd dichell o eiddo Satan fel trallodwr yw tynu y Cristion i ddyfnder anobaith, dan rith ymddangosiadau ei fod heb ymddarostwng digon am bechod. Ni a gawn hyn wedi ei bennodi gan yr apostol fel un o ystrywiau y diafol: medd efe, "Fel na'u siomer gan Satan; canys nid ydym heb wybod ei ddichellion ef" (2 *Cor.* ii. 11), sef ei resymidiadau dichellgar ef. Y mae Satan yn gosod pwys ar ei ddichell hon: nid oes un arf yn fynychach yn ei law. Pa le mae y Cristion nad yw wedi ei gyfarfod yn y drws hwn? Yma y mae Satan yn cael y Cristion yn un hawdd gweithio arno, gan fod y naw sydd ynddo yn gweithio gydag ef; am fod y Cristion o hono ei hun yn achwyn am galedwch ei galon, ac yn dueddol i goelio pwy bynag a fyddo o'r un gogwydd a'i feddyliau trwm-fyfyr ei hun; ie, y mae yn meddwl mai gwenieithio iddo mae pawb a fynai ei bersawdo i'r gwrthwyneb. Haws yw lliwio yr enaid hwnw yn ddu sydd o wedd dywyll eisoes, na pheri i'r cyfryw gymmeryd lliw goleu llawenydd a chysur.

Cwest. Ond pa fodd yr attebaf y gelyn cyfrwys hwn, pan fyddo efe fel hyn yn aflonyddu fy ysbyrd â'r ddadl nad wyf wedi fy narostwng yn ddigonol am bechod, &c.?

At. Yr wyf yn atteb megys i'r un o'r blaen; ymgais am ganfod twyll ei ddadl, a thi a roi daw yn fuan arno.

1. Y mae Satan yn dadleu fel hyn: Dylid fod cyfattedbiad rhwng pechod a'th dristwch; ac am hyny, nid wyt ti ddim wedi ymddarostwng digon. Y fath ddadl deg ei hynddangosiad sydd yma, ar yr olwg gyntaf! Am y gosodiad cyntaf, Y dylai fod cyfattedbiad rhwng pechod a thristwch, gall Satan ddangos i chwi ysgrythyr. Yr oedd Manasseh yn bechadur mawr; a thristwch cyffredin ni wnai y tro iddo ef: "A phan oedd gyfng yrno ef, efe a weddiodd ger bron yr Arglywydd i Dduw, ac a ymystyngodd yn ddirfawr o flaen Duw ei dadau;" 2 *Cron.* xxxiii. 12. Yn awr, medd Satan, pwysa di dy bechod gyda dy dristwch yn y clorianau: a wyt ti gymmaint o alarwr, ag a fuost o bechadur? Am gynnifer o flynyddau, ti a ddelaist ryfel yn erbyn yr Hollalluog, dan fathru ei ddeddfau, llwytho ei amynedd nes ydoedd yn gruddfan, yn gwanu ystlys Crist â'th ddaagr waedlyd, tra yr oedditi yn tristau ei Ysbyrd ac yn gwrtwod ei ras—ac a wyt ti yn meddwl y bydd i bigiad bychan—fel cwmml ar dreigl, yn gollwng ychydig ddafnau—gael dderbyniad yn awr? Na: y mae yn rhaid i ti fywdo mewn gofid, fel y buost ym mwydo mewn pechod. Yn awr, i ddangos i chwi y twyll, gwahaniaethwn am gyfattedbiad deublyg mewn tristwch.

(1af.) Am gyfattedbiad (neu gymhwysedd) manwl o dristwch i'r hyn sydd yn hanfodol i natur a drwg haeddiant pechod.

(2il.) Mae cynmhwysedd, yn ol cyfraith a rheol yr efengyl.

Yn awr, nid yw y cyntaf yn bosibl, am fod y sarhad a wnaed, trwy y pechod lleiaf, yn anfeidrol, o herwydd ei wneyd yn erbyn Duw anfeidrol; a phe byddai yn bosibl, etto, yn ol cynmwyriad y cyfammod cyntaf, ni byddai yn dderbyniol, o herwydd nid oedd yn hwnw un gair i roddi goibaith am ailgynyng trwy edifeirwch: ond y llall, yr hwn sydd yn dristwch efengylaidd—y mae hwn yn wir edifeirwch (*Act.* v. 31; *Zech.* xii. 10), yn ffrwyth o ysbyrd yr efengyl, ac i'w brofi yn ol rheol yr efengyl: dyna i ti rodd er dy gymnorthwy. Megys y gwelwch weithiau yn y ffordd fawr: lle y byddo y dyfroedd yn rhy ddwfn i deithwyr, chwi a gewch bont bren, neu sarn, fel y galler ysgoi y llif, a myned ym mlaen yn ddiogel; ac felly, nid oes ond rhai sydd heb lygaid, neu yn fedd-won, a anturiaint fyned trwy y dyfroedd, pan y mae lle i ochel y perygl. Dyn marw wyt ti, os meddylti gyfatted i'th bechod â chyfattedbrwydd o dristwch: buan y byddi dros dy ben, ac yn ymdagu â'th ddagrau dy hun, ond byth heb gael dros y pechod lleiaf a wnaethost. Gan hyny, fel yr wyt yn caru dy fywyd, na ddos ym mlaen; ond tro o'r naill du, i lwybr yr efengyl, a thi a ddiengi o'r perygl.

O! chwi eneidiau tentiedig, pan ddywedo Satau wrthych nad ydych yn ddiagon ymddarostyngol, gwelwch pa le y mae i chwi gael cymmhoorth. "Rhufeiniad wyf fi," medd Paul. "Appelio yr wyf at Caisar." Cristion wyf fi, dywed dithau: apelio yr wyf at gyfraith Crist. A pha beth yw cyfraith yr efengyl am hyn? Y mae tristwch calon yn dristwch efengylaidd: "Hwythau wedi clywed hyn, a ddwys-bigwyd yn eu calon;" *Act. ii. 37.* A Phedr, fel meddyg gonest, nid yw yn cadw y rhai clywyfus hyn yn hwy a'u gwaed yn llof; ond y mae yn ebrwydd yn rhoi plastr yr efengyl wrth y dolur: "Cred yn yr Arglwydd Iesu Grist." Yn awr, y mae pigiad hyd y galon, yn fwy nag archeoll yn y gydwybod. Y galon ydyw eisteddile y bywyd. Y mae pechod, ar ol cael pigiad yno, yn gorwedd i farw. Gwneuthur rhyw beth o'r galon a'i gwna yn gymmeradwy: *Eph. vi. 6.* Yn awr, enaid truan, a eisteddasit ti cyhyd yng nghyffion Satau, pe basait yn iawn deall hyn? A yw dy galon yn dy ryddhau, ynte yn dy gonderanio, pan y byddi yn y dirgel, yn galaru am dy bechod ger bron Duw? Os yw dy galon yn ffâs, nis gallaf dy helpio, na'r efengyl ei hun chwaith: ond os diffuant, y mae i ti hyder ar Dduw: *1 Ioan iii. 21.*

Ail ddadl a arfer Satau yw hon. Y dyn sydd â'i dristwch yn fyr o dristwch rhai na wir edifarhasant erioed, nid yw hwnw wedi ymddarostwng digon: ond, ddyu, y mae dy dristwch di yn llai nag a fu ar rai nad edifarhasant yn iawn erioed; ac am hyny, &c. Wel, y mae y gosodiad cyntaf yn gywir: ond pa fodd y prawf Satau ei ail bwng! Fel hyn: bu yn drwm ar Ahab am ei bechod; ac fe gerddodd mewn sach lian. Bu ar Iudas ofid chwerw. O! medd Satau, oni adwaenit ti hwn a hwn, a fu yn gorwedd dan ddychryn cydwytod, yn rhodio mewn helynt tra athrist gynnifer o fisoedd, a phawb yn ei gymmeryd fel y dychwelwr penaf yn y wlad; er hyn, y mae o'r diwedd wedi syrthio yn ffaidd, a throi yn wrthgiliwr; ond ni theimlaist ti erioed y fath lymder a hwnw, gan dreulio cynnifer o ddyddiau a nosweithiau blinion mewn galar ac wylofain chwerw; am hyny, yr wyt ti yn fyr wrth un a syrthiodd yn fyr o edifeirwch. Yn wir, y mae yma faen tramgwydd blin i enaid mewn awr o brofedigaeth. Yn debyg i long wedi suddo yng nghyff y porthladd, yr hyn sydd yn fwy enbydus i ereill na phe basait wedi colli yng nghanol y môr. Mae llai o dramgwydd trwy bechodau yr annuwlion, sydd yn suddo, fel pe basait, yn y môr llydan o halogrwydd, na thrwy y rhai a argyhoeddwyd o bechod, a flinwyd yn eu cydwytod, ac sydd yn methu mor agos i'r porthladd; fel pe byddai o fewn golwg i achubol ras. Eneidiau tentiedig, nid hawdd y gallant fyned dros y rhai hyn heb daraw. A wyf fi yn

well na'r cyfryw un a drodd allan yn ddrwg yn y diwedd? Yn awr, i roi i ti beth help at gael allan ddichell y ddadl hon, y mae yn rhaid gwahaniaethu rhwng y dychrynfeydd neu yr ofnau sydd yn canlyn tristwch a phriodol natur y gras hwn. Y rhai cyntaf, sydd yn chwanelog, gellir eu gwahanu oddi wrth y llall; fel terfysg y môr a berir gan y gwynt, oddi wrth y môr pan dawelo y gwynt. Oddi wrth y gwahaniaeth hwn, cymmerwch ddau gload:—

(1af.) Fe all un fod yn fyr o ragrithiwr yn y dychrynfeydd sydd weithiau yn canlyn gyda thristwch, ac etto fod yn meddu y gras hwn; tra y mae y llall, er ei holl ddychrynfeydd, yn fyr o hono. Y mae Cristionogion yn rhedeg i aml gamgymeriad wrth farnu yn ol yr hyn sydd yn cyd-ganlyn, yn lle yn ol yr hyn sydd yn hanfodol i natur dyledswyddau a grasau. Weithiau, ti a glywi un yn gweddio gydag ymadrodd cynhyrliol, tra yr wyt tithau ond prin yn gallu cael ryw ychydig eiriau candryll mewn gweddi; ac yr wyt yn barod i'th gyhuddo dy hun, a'i fawrygu yntau; fel pe byddai eur-olchiad yr allwedd yn peri iddo agor y drws yn well. Yr wyt yn gweled un arall yn llawn o lawenydd, yr hyn yr wyt ti yn fyr o hono; ac yr wyt yn barod i benderfynu fod ei ras ef yn fwy, a'th ras dithau yn llai; pryd y gall fod genyt ti fwy o wir ras, a'th fod yn unig yn fyr o oleu i ddangos i ti pa le y mae yn gorwedd. Gwylia rhag barnu wrth bethau chwanelgiadol: fe allai dy fod heb glywed cymmaint o drwst cadwynau uffern, neu o grochlefau y damnedigion yn dy gydwybod, i beri i'th gnawd grynu; ond ai ni welaist mewn Crist yn gwaedu yr hyn a barodd i'th galon dodi a galaru, i.e. ffeiddio a chasau dy chwantau yn fwy na'r diafol ei hunan? Yn ddiau, Gristion, y mae yn beth rhyfedd clywed y claf yn achwyn ar ei physygwyr, pan brofo ei physygwriaeth yn gweithio yn effeithiol i arllwys ymaith ei naws afiach, ac adferu iechyd, yn unig am nad oedd efe mor glaf ag y bu rhai ereill, tra y bu yn gweithio. Enaid, y mae i ti fwy o achos i fendithio Duw am i argyhoeddiadau ei Ysbryd weithio mor dyner arnat, i effeithio hyny ynot, heb ddychrynfeydd a gostiodd mor ddrud i ereill.

(2il.) Y mae hon yn ddadl mor wan fel mai i'r gwrthwyneb y mae. Po fwyaf fyddo y dychrynfeydd, lleiaf ydyw y tristwch am bechod, tra yr aroso y rhai hyn. Y mae y rhai hyn, yn wir, weithiau, yn barotoawl i dristwch; yn myned o flaen y gras hwn, megys Ioan yn llym o flaen Iesu Iariaidd. Ond fel yr aeth Ioan i lawr, pan aeth Crist i fyny (ei gynnydd ef oedd lleihad Ioan); felly, fel yr â gwir dristwch duwiol i fyny, yr ofnau hyn a ânt i lawr. Megys y casgl gwynt y cymylau, ond mai anfynech y tawdd y cymylau i wlaw dwys nes y tawelc

y gwynt a'u casglodd; felly y mae yr ofnau hyn yn codi cymmylau ein pechodau yn ein cydwybodau; ond pan doddo y pechodau hyn i dristwch duwiol, fe ostega hyn yr ystorm yn fuan. Yn wir, megys y mae y gwyntoedd uchel yn chwythu ymaith y gwlaw, felly fe wna yr ofnau hyn gadw yr enaid draw oddi wrth dristwch efengylaidd. Tra y mae y creadur yn croch-lefain ei fod yn ddannedig, y mae efe mor llawn o ofn uffern, hyd omd yw pechod, megys pechod—yr hyn yw priodol wrthddrych tristwch duwiol—heb gael ond prin ei olygu, na galaru o'i herwydd. Mae llofrudd wedi ei gollfarnu mor llawn o ofn anghu a meddyliau am y crogbren, fel y bydd i'r corff lladdedig orwedd o'i flaen, ysgatfydd, heb alar o'i achos ganddo ef. Ond pan ddyger iddo bardwn, yna efe a all dywallt dagrau yn rhwydd yn achos ei gyfaill lladdedig. "A hwy a edrychant arnaf fi yr hwn a wanasant, galarant hefyd am dano fel un yn galaru am ei gyntafanedig, ac ymofidiant am dano ef megys un yn gofidio am ei gyntafanedig." Ffydd ydyw y llygad; y mae y llygad hwn—wrth ganfod ei bechod yn gwanu Crist, a Christ yn maddeu ei bechod—yn effeithio ar y galon; a'r galon yn peri ocheneidiau. Y cymmylau tufewnol hyn a doddant ac a lifant yn ddagrau o'r llygaid o ffydd; a hyn oll a fydd, pan na byddo tymmestl o ddechryn ar yr ysbryd, ond hyfryd lewyrchiad cariad a thangnefedd. Ac am hyny, Gristion, gwel fel y mae Satan am dy ddyllo, pan fynai dy berswadio nad wyt ti dan ddigon o ymddarostyngiad, am nad ydyw yr ofnau deddfol hyn yn canlyn dy dristwch.

PENNOD VI.

Cymmhwysiad byr o'r ail gangen yn y pwngc, sef am gyfrwydra Satan fel blinwr a chyhuddwr am bechod.

De'n. 1. A ydyw Satan mor gyfrwys i dori ar heddwch y saint? Y mae hyn yn profi mai plant Satan ydyw y rhai a ddangosant yr un gallu a dichell i flino ysbrydoedd y saint ag a arfer eu tad uffernol. Nid äf i son am erlidwyr gwaedlyd, y rhai ydynt ei gaeth-weision lladd at gigyddio y saint; ond am y rhai hyny sydd yn blino ac yn aflonyddu y cyfryw yn fwy dichellgar.

(1af.) Y rhai sydd yn crafu i fyny hen bechodau y saint, y rhai y mae Duw wedi eu maddeu a'u claddu, a hyn yn unig i ofidio eu hysbrydoedd, a diwyno eu henw da. Y mae y rhai hyn yn dangos eu malais ddieflig yn wir, pan allant deithio cynnifer o flynyddoedd yn ol er mwyn cael dyrnoid o dom i'w dasu i wyneb y Cristion. Fel hyn yr edliwiodd Simeï i Dafydd, "Tyred allan, tyred allan, ŵr gwaedlyd, a gŵr i'r fall;" 2

Sam. xvi. 7. Pan fyddo i chwi, sydd yn ofni Duw, gyfarfod ä'r cyfryw waradwyddiaid, atebwch hwynt, fel Beza y Pabyddion hyny; y rhai, o ddistyng mater arall, a edliwasant iddo ryw bennillion gwammal a ysgrifennodd efe yn ei ieuengetyd: "Y mae y dynion hyn (eb efe) yn danned i mi ras achubol Duw."

(2il.) Y cyfryw ag sydd yn gwylio am gloffni y saint, ac yn dal ar bob gwendid, i'w gwneyd hwynt yn adgas, a'u hunain yn ddistyng. Melldith ofnadwy y mae y cyfryw yn ei dwyn arnynt eu hunain, er lleied y meddyliant am dani—ddim llai na'r eiddo Amalec, cofiadwriaeth enw yr hwn y bygythiodd Duw ei ddileu "oddi tan y nefoedd." Pa ham? Beth a wnaethai Amalec i haeddu hyn? Hwy a laddasant y rhai olaf, y rhai oedd weiniaid (*Deut. xxv. 18, 19*); ac ni allent deithio gyda'r lleill. Ac a oedd hyn yn gymmiant creulondeb? Llawer gwaeth yw taraw ä min tafod gwatwarus y rhai gweiniaid mewn gras.

(3ydd.) Y cyfryw ag sydd yn tadogi eu pechodau ar y saint. Fel hyn y mae Ahab yn galw y prophwyd yn flinwr Israel, pan mai efe ei hun a thy ä dad oedd yn euog. Pa fath ofid, debygech chwi, oedd i ysbryd Moses, fod i'r Israellaïd osod gwaed y rhai a fu feirw yn yr anialwch wrth ei ddrws ef? Ond y gwir oedd, fel y gwyddai Duw, mai efe oedd eu meichiai o hyd, pa bryd bynag y codai Duw ei law i'w distyrgio. A dyma y cyhuddiad sydd yn cael ei fwrw ar y goreu o weision Duw yn ein cenhedlaeth wyrgam hon. Gallwn ddiolch iddynt hwy, medd y rhai halogedig, am y cwbl o'n gresyni diweddar yn y wlad; yr oedd ym yndda ddiagon hyd oni fynent hwy ein diwygio. O! rhag cywilydd: na feiwch y physygwriaeth da a weinyddwyd, ond corph afiach y genedl nas gallai mo'i ddioddef.

(4ydd.) Y cyfryw a bechant eu hunain ar y bwriad o flino ysbrydoedd y saint. Fel hyn y cablodd Rabsaceh; a phan ddymunwyd arno lesaru mewn iaith arall, aeth ym mlaen yn waeth i'w poeni hwynt. Weithiau, chwi a gewch adyn halogedig yn gwybod am un cydwydodol, na all oddef i enw Duw gael ei gymmeryd yn ofer, nac i'w ffyrdd gael eu gwawdio; ac o wir fwriad, efe a dery at yr iaith hono a ferwina ei glustiau tyner, ac a flina ei galon rasol ef. Y nae y cyfryw yn taraw y tad a'r plentyn ar un dyrnod; nid digon ganddo ddianrhydeddu Duw heb fod ei blentyn ger llaw i weled a chlywed y cam a wneir i'w Dad nefol.

Defn. 2. Gall hyn fod yn fater o syndod a diolchgarwch i bawb o honoch chwi, O saint! y rhai nid ydych y dydd heddyw dan gauad-ddorau Satan. A yw efor meg gyfrwys i derfysgu, ac a oes genyt ti beth heddwch yn dy gydwybod? I bwy yr ydwyt ti yn rhwymedig am y tawelwch sydd yn dy ysbryd? Nid i neb ond i dy Dduw, dan aden

yr hwn yr wyt yn eistedd mor glyd a diogel. Ai nid oes digon o ddefnydd hylosg yn dy gydwybod i'w wreichion ef ei danio! Fe allai na ddarfu i ti gyflawni y fath bechodau gwaedlyd ag ereill; nid dyna yr achos o dy heddych: o blegid y mae y lleiaf yn ddiagon mawr i'th ddamnio, yn llawer mwy i'th fino. Ysgatfydd dy fod heb gwmpo yn anferth ar ol dy drôedigaeth (rhagorol yw hyn, os wyt ti wedi hir sefyll); etto, gallai ysbrydion dy bechodau cyn dy ail-eni fod yn rhodio yn dy gydwybod. Yr wyt wedi cael aml dystiolaeth o ffafur dy Dduw, onid wyt? Pwy a gafodd fwy na Dafydd? Etto, ni a'i cawn weithiau yn methu darllen ei dystiolaeth, ac fel pe buasai efe heb erioed fedru y fath wers: *Salm lxxvii*. Mae y teimlad o gariad Duw yn dyfod ac yn myned gyda'r prawf presennol. Y neb sy mewn tywyllwch nid yw tra byddo yno yn gwelw mwy, o herwydd y goleu gynt. O! bendithia Dduw am y goleu hyny sydd yn pelydru i mewn trwy dy ffenestr di; y mae Satan yn cynllwyn i gloddio dan dy gysur bob dydd. Y mae y lleidr hwn yn canfod dy ffirwythau peraidd yn hongian; y mae ei ddannedd yn dyfru am danynt, ond y mae y mur yn rhy uchel iddo i'w ddringo; dy Dduw sydd yn cadw y sargh hon allan o'th baradwys di. Nid y gras Duw sydd ynot ti, ond ei ffafur ef, fel tarian o'th amgylch, sydd yn dy amddiffyn rhag yr un drwg.

Defn. 3. Yn drydydd, bydded i ystryw Satan am aflonyddu dy heddych dy wneyd di, O, Gristion! yn fwy doeth a gwagelog; nid un ffol sy genyt i ymdrin âg ef, ond un digon call i ddwyn dy gysur ac anafu dy lawenydd, oni wylier ef yn ofalus. Dyma y tamaid melus y mae yn ei lygadu; ac nid yw yn anhawddach i chwi gadw y gwybed yn yr haf allan o'ch bwydgellau rhag llygru eich ymborth, na chadw Satan o'ch cydwybodau. Llawer pryd melus a ddygodd efe oddi ar y saint, gan eu gyru i'w gwelyau heb eu swper. Gwylia, gan hyny, na ddygo efe yr eiddot tithau hefyd.

PENNOD VII.

Yn cynnwys rhai cyfarwyddiadau tuag at gastellu a diogelu y Cristion rhag rhuthriadau a chynllwynion y diafol, fel terfysgydd ar heddych yr enaid.

Cwest. PA fodd y bydd i mi sefyll mewn agwedd amddiffynol, gall y Cristion ofyn, yn erbyn cynllwynion Satan fel terfysgwyr?

DOSB. I.

At. 1. Os mynit dy amddiffyn rhagddo fel terfysgwr, gochel ef fel hudwr. Y mae troed bwyell Satan—â'r hon y mae efe yn hacio at wreiddyn cysur y Cristion—yn gyffredin wedi ei wneyd o goed y Cristion.

Yn gyntaf, y mae yn denu i bechod, yna yn blino am dano. Nid yw Satan ond creadur, ac nis gall weithio heb arfau; yn wir, fe all wneuthur llawer o ychydig, ond nid unpeth o ddim. Megys y gwelwn yn ei ymosodiad ar Grist, lle y blinodd ei hun yn ofer, am iddo ddyfod ac heb gael dim ymddo: *Ioan xiv. 30*. Er mai y diafol sydd yn tafu y gareg, etto y llaid ynom ni sydd yn diwyno ein cysuron. Ofer oedd i'r Philistiaid syrthio ar Samson hyd oni thorwyd ei gud-ynau. Gan hyny, gochel ymroddi gyda'i ddeniadau ef; y rhai hyn yw y meini tram-gwydd, wrth y rhai y mae yn gobeithio y tori di dy grimogau, ac y briwi dy gydwybod: hyn, os unwaith ei gwneir, gadewch rhyngddo ef a'r iachâd. Ochi ni iachâ cnawd y Cristion mor hawdd a chnawd ereill. Nac yf o wirod (diod felus) y diafol; y mae gwenwyn yn y gwpan: gwatwarus ydyw ei win ef; nac edrych arno pan ymddangoso ei liw yn y demtasiwn. Yr hyn a lyngai gyda melusder, ti a fyddi sicr o'i gyfogi yn ol fel bustl a wermod. Uwch law pob pechodau, gwylia rhag rhai rhyfygus: nid wyt ti allan o berygl y cyfryw: *Salm xix. 13*. Ystoriau alaethus a gawn ni am gwymptiadau saint: a pha beth a ganlyn? Yna cymmer ef, medd Duw wrth geidwad y carchar; "Traddoder y cyfryw un i Satan?" ac os sant fydd y carcharor, a Satan y geidwad, chwi ellwch ddyfalu pa fath fydd y driniaeth. O! fel y bydd iddo rwygo a dryllio dy gydwybod. Er nad yw yr ordin-hâd arswydlawn hõno yn cael ei harfer fel y dylai yn yr eglwys, etto y mae llŷs Duw yn eistedd; ac os efe a esgymuna enaid oddi ger ei fron, y mae yn syrthio yn ebrwydd dan gloiau Satan. Wele, os goddiweddyd di trwy ei ddiehell ef, gwylia nad arosech yn ei letty; ysgwyd y wiber oddi wrth dy law, a phrysura at dy feddyg. Briwiau newyddion a iacheir yn rhywyddaf; ond os byddi esgeulus, ac i'r gwynt ddyfud i'th friw, buan y madra dy gydwybod. Ahab, ni a ddarllenwn, a glwyfwyd mewn brwydr, ac anhawdd oedd ganddo roddi i fyny. Dywedir ddarfod ei gynnal yn ei gerbyd; ond bu farw o'r achos: *1 Bren. xxii. 35*. Pan fyddo enaid wedi cael archoll, wedi pechu, y mae Satan â'i gais ar ei gynnal i fyny â gobaith gwenieithus; ie, yn ei ddal i fyny megys yn y cerbyd yn erbyn Duw. Pa beth? rhoddi i fyny am hyn! Arswydo o achos crafiad bychan; a cholli ysbaill dy bleser rhag llaw am hyn! O! gwylia rhag gwrandaw ar y fath gynghor: po gyntaf y rhoddi di dy arfau i lawr, goreu fydd dy helynt. Y mae pob cam yn y ffordd hon yn dy osod yn mhellach oddi wrth heddych. Gwisg rwygedig, y mae pob hoel yn ei dal, a'r rhwyg yn myned yn waeth. Gan hyny, adnewyddu dy edifeirwch ar frys; felly y mae i'r rhwyg hwn gael ei wneyd i fyny, ac un

gwaeth ei ragflaenu; yr hyn, yn amgen, a ddigwydd i ti.

DOSB. II.

2. Myfyria ar brif bwngc yr efengyl—cyfiawnhâd dyn ger bron Duw. Cais gydnabyddiaeth â hwn yn yr holl achosion o hono; y cynhyrfiol achos—rhad drugaredd Duw: "A hwy wedi eu cyfiawnhau yn rhad trwy ei ras ef, trwy y prynedigaeth sydd yng Nghrist Iesu" (*Rhuf.* iii. 24); yr achos haeddiannol—gwaed Crist; a'r achos offernyol—ffydd; yng nghyd â'r holl ragorfreintiau hyfryd sydd yn tarddu oddi wrtho. Drws effeithiol, wedi ei agor unwaith i ollwng enaid i mewn i'r gwirionedd hwn, a andwyai, nid yn unig farchnad y pab (yn ol gair Gardiner), ond marchnad y diafol hefyd. Pan ddelo Satan i dori ar heddwch y Cristion, y mae efe, o ddiffyg iawn ddeall yma, yn cael ei guro yn fuan gan ei elyn. Fel yr ysgyfarnog wirion, yr hon a allai ddiane rhag y cŵn mewn rhyw lwyn neu dwll cyfagos; ond gan hyderu yn ei thraed, y mae hi yn cael ei dilyn wrth ol ei thraed, a'r sawyr a edy ar ei hol, hyd oni syrthio o'r diwedd yn flinedig a diffygiol i'w safnau hwynt. Yn y cwbl a wna y Cristion, y mae argraff gwaelledd pechadurus, a sawyr a alluoga Satan i'w olrhain a'i erlyn dros glawdd a ffos—y gras hwn a'r ddyledswydd acw—nes y byddo yr enaid heb allu sefyll o flaen cyhuddiadau Satan, yn barod i syrthio mewn anobaith wrth ei draed. Ond y mae yma ymguddfa, lle ni faidd y gelyn ddyfod iddi—"holltau'r graig," a "lloches y grisiau," i ba fan y mae y gwirionedd hwn yn arwain. Pan gyhuddo Satan di fel pechadur, yr wyt, ysgatfydd, yn gosod dy edifeirwch a'th ddiwygiad rhyngot a'r taraw; ond buan y curir di allan o'r muriau hyny, pan welych y cymmysgedd pechadurus sydd ynddynt. Ond y gwirionedd hwn a dagai ei belenau oll—dy fod yn credu yn yr hwn a ddywedodd, "Eithr i'r neb nid yw yn gweithio, ond yn credu yn yr hwn sydd yn cyfiawnhau yr annuwiol, ei ffydd ef a gyfrifer yn gyfiawnder;" *Rhuf.* iv. 5. Gan hyny, ffo i'r tŵr hwn o gyfammod yr efengyl; a theigla y gwirionedd hwn ar ben Satan, fel hôno a dreiglodd y maen ar ben Abimelech.

DOSB. III.

3. Bydd sicr, Gristion, o ymgadw ar ganol y gwastadedd. Gwylia rhag i Satan dy gau o fewn i ryw gyfngle, fel na elli yn iawn nac ymladd na ffoi. Y cyfryw ddalfa y meddylodd yr Aiphitiaid iddynt ddal yr Israeliad ynddi, pan lefasant, "Rhwystrwyd, rhwystrwyd hwynt." Y mae tri math o fylchau, ym mha rai y mae ei gais ef ar ddal Cristionogion—cwestiynau dyrys, ysgrythrau anhawdd, a rhagluniaethau tywyll.

(Iaf.) Efe a gais ei ddyrysu â chwestiynau manwl ac ammheugar, o wir friad i atal

y gwaith, a'i rwystro yn ei ysgogiad; felly, wrth iddo gyfarfod â'r fath ddyrysi yn ei yrfa Gristionogol, a methu yn hawdd ei ddad-ddyrysu, ei gais ef yw, am iddo naill ai rhoddi i fyny ai myned ym mlaen yn drymaidd. Am hyn, y mae genym orchymryn penodol i beidio blino penau gweiniaid dychwelwyr ieuainc âg "ymrafaelion rhesymau;" *Rhuf.* xiv. 1. Rai prydiau, bydd Satan yn gofyn i'r enaid, pa fodd y gwyr efe ei fod wedi ei ethol; a lle y caffo un heb ei sefydlu, fel ag i fedru dal y fath gyffes, efe a ffurfia ddadl yn erbyn hwnw y ymwastgu â Christ a'r addeuid; fel pe byddai yn rhyfyg i ni ymdrin â hyn, sydd yn gyfran i'r ethol-edigion yn unig, cyn i ni wybod ein bod o'r nifer. Yn awr, Gristion, cadw ar y gwastadedd, a diogel fyddi. Amlwg yw nad oes i ni osod etholedigaeth yn sylfaen i'n ffydd, ond ein ffydd a'n galwedigaeth yn gyfrwng neu ddadl i brofi ein hetholedigaeth. Etholedigaeth yn wir sy gyntaf yn nhrefn gweithrediad dwyfol. Y mae Duw yn ethol cyn i ni greu; etto, ffydd sy gyntaf yn ein gweithrediad ni: Rhaid yw i ni greu cyn gwybod ein hetholiad; ie, trwy greu yr ydym yn ei wybod. Fe wŷr y llafurwr mai gwanwyn yw hi wrth darddiad i glaswellt, er nad yw yn deall seryddiaeth y wybod am osodiad y nefoedd. Gelli dithau wybod am dy etholedigaeth mor sicr trwy waith gras ynot, a phe buasit yn ymyl Duw pan ysgrifennodd efe dy enw yn llyfr y bywyd. Rhyfyg a fuasai i Dafydd feddwl y byddai efe yn frenin, nes i Samuel ei eneinio; ond wedi hyn, nid rhyfyg oedd. Pan gyntaf y credi ac yr ymwesgi â Christ, dyna y pryd y mae Ysbryd Duw yn anfonedig i'th eneinio di i deyrnas nefoedd. Hwn yw yr olew sanctaidd, nad yw yn cael ei dywallt ar neb ond etifeddion gogoniant; ac nid yw yn rhyfyg i ti ddarllen yr hyn ydoedd bwriad grasol Duw tuag atat er cynt, pan y mae efe yn argraffu ei feddyliau hyny, ac yn eu rhoddi o'th flaen i'w darllen, yn dy alwedigaeth effeithiol. Yma, nid wyt ti yn dringo i'r nef i chwilio dirgelion Duw, ond y mae y nef yn dyfod i lawr atat ti, ac yn eu dadguddio. Drachefn, y gelyn a ofyn i'r Cristion am amser ei droedigaeth: A wyt ti yr Gristion, efe a ddywed, ac ai ni wyddost yr pa bryd y bu y dechreu? Yn awr, cadw d y gwastadedd, ac ymfoddlona ar hyn—dy fod yn gweled ffrydiau gras, er i amser d droedigaeth fod fel pen yr afon Nilus—heb e gael. Y mae Duw yn fynych yn dyfod y foreuol, cyn i bechodau anferth halogi y enaid, ac yn ymlithro i fynwes y creadur heb lawer o drwst. Yn y cyfryw achos, ni yw Satan yn gwneud ond cam â thi wrth d anfon ar y neges hon. Ti elli wybod fod y haul wedi codi, er na ddelaist ti sylw f bryd y cododd. Drachefn, pa beth a ddar o honot medd Satan, pe dygai Duw di i

fath hebul neu brawf fel y byddai raid i ti un ai llosgi, ai troi, neu gymmeryd dy ysbeilio o'th holl dda bydol—dim blawd yn y celwrn, nac arian yn y pwrs? A feiddi di ddal y fath dyb dda am danat dy hun, a meddwl y deil dy fydd yn y fath awr o brofedigaeth? Yma, Gristion, os oes genyt ond hanner llygad, ti elli weled cais Satan. Cwestiwn i faglu ydyw hwn; trwy ofn am flinderau i ddyfod, ei ymgais sydd am dy gael i esgeulusiad o'th ddyledusydd bresennol, a'th anaddasu hefyd i'r cyfryw amgylchiad, pa bryd bynag y digwyddo. Os bydd gan ŵr lawer o orchwyl erbyn tranoeth, doethineb fyddai iddo ddilwytho ei feddwl o hono, wrth orwedd i gysgu, rhag i'r meddyliau am dano ei rwystro i orphwys, a'i anaddasu yn fwy erbyn y boreu. Po leiaf yr ymorphwyso enaid yn Nuw a'i addeuid am bethau i ddyfod, lleiaf fydd y nerth a brofa efe i'w dwyn, pan ddel y wasgfa. Gan hyn, pan aflonydder di â'r cyfryw ofnau, llonydda dy galon â'r tri phenderfyniad eglur hyn:—

(1af.) Ffrwyth o ragluniâeth ydyw pob digwyddiad. Nid oes aderyn y to—a llawer llai sant—yn syrthio i'r llawr trwy dlodi, clefyd, erlid, &c., heb fod llaw Duw yn y peth.

(2il.) Y mae Duw wedi rhoddi hyn yn mlaen: "Ni'th roddaf di i fyny, ac ni'th lwy'r adawaf chwaith;" *Heb.* xiii. 5. Yr hwn sydd yn dy alluogi yn y naill gyflwr, a wna yn y llall. Duw sydd yn dysgu i'w weision eu celfyddyd yn gwbl. Egwyddor gyffredinol yw gras. Yn y mynyd cyntaf o'th fywyd ysbyrdol, tywalltwyd i mewn ras i ddiodeff, yn gystal a gras i weddio.

(3ydd.) Mae Duw yn ddoeth i gelu y cynnorthwyon y mae yn eu bwriadu i ti yn amryw gyfnewidiadau dy fywyd, fel y byddo iddo felly dynu dy galon i ymorphwysiad hollol ar ei addeuid ffyddlawn. I brofi, fel hyn, fettel ffydd Abraham, gadawodd iddo fyned yn mlaen, nes oedd ei law wedi ei hestyn allan (*Gen.* xxii. 10); ac ar hyn, y mae ymward yn dyfod. Y mae Crist yn anfon ei ddysgybllion i'r môr, ond yn aros ei hun ar ol, ar y bwriad o brofi eu ffydd hwynt, a dangos ei gariad ei hun. Cysura dy hun ynte â hyn—er na weli di Dduw ar y ffordd, ti a'i cei ef yn y pen draw.

2. Y mae Satan yn blino cydwybodau tyner Cristionogion sigledig âg ysgrythyrau tywyll, sydd â'u hystyr yn rhy ddwfn i'w deall gwan a llesg hwynt ei gael allan yn rhwydd; ac â'r rhai hyn, efe a fawr draloda eneidiau truaïn. Yn wir, fel y mae dynion pruddglwyfus yn dewis rhodfeydd trymllyd, felly y mae eneidiau dyrysedig yn fynyachaf yn myfyrio ar y cyfryw fanau o'r Ysgrythy'r ag a fyddo yn chwaneu eu hammheuo. Pa sawl un a adwaenwn i a edrychodd cyhyd ar y lleoedd anhawdd hyny, *Heb.* vi. 6; a x. 26,

sydd, o flaen deall heb sylwad craff-ddwys, yn debyg i lif chwyrn o flaen y llygad, nes y darfu i'w penau droi, a hwythau o'r diwedd, heb fedru dattod y dryswch, wedi syrthio i feddyliau a dywediadau anobeithiol am eu cyflwr? Hwy a lefant allan eu bod wedi pechu yn erbyn gwybodaeth y gwirionedd; ac am hyny, nad oes dim trugaredd iddynt hwy! Pe buasai i'r rhai hyn adfywio eu dealltwriaethau, trwy droi eu golwg oddi ar y lleoedd hyny sydd â'u cerfiad yn rhy fanwl i llygad gwan sylu arno yn hir, hwy a allasent gael, mewn ysgrythyrau ereill, ddywediadau amlaw a fuasai yn eu galluogi, megys trwy ddrych, i olygu y gwersi hyn yn fwy dienbyd. Gan hyn, Gristion, cadw ar y tir teg. Ti elli fod yn sier mai dy elyn sydd yn rhoddi i ti y fath geryg i dori dy ddannedd, pryd y mae dy gyflwr yn galw yn hytrach am fara a gwin: y cyfryw ysgrythyrau yr wyf yn feddwl ag sydd addasaf at faethu dy ffydd, a lloni dy ysbyrd llesg. Pan darawych wrth ysgrythyrau eglur a fyddo at dy gyflwr, dos di drosodd lle y mae rhyd i'w gael, ac na anturia dros ben dy ddyfndwr. A wyt ti yn ofni am i ti bechu ar ol cael gwybodaeth o'r gwirionedd, ac am hyny nad oes aberth wedi ei adael drosot ti? Gwel gyflwr Dafydd a Phedr, yr un fath a'r eiddo tithau, a chof wedi ei adael am danynt, fel y byddo i'w hadferiad fod yn agoriad yn dy law di i agor y cyfryw leoedd a'r rhai hyn. Oni elli di, oddi wrth y rhai hyn, benderfynu yn ddiogel mai nid hyn yw ystyr y gwers; sef, nad oes i neb fod yn gadwedig a becho ar ol cael gwybodaeth. Yn wir, yn y ddau le uchod (*Heb.* vi. 6, a x. 26), ni feddylir am godymau y rhai sydd wedi cael gwir ras, nac ychwaith am syrthiad ymaith mewn rhyw weithredoedd neillduol o bechod; ond am syrthiad ymaith llwyr a hollol oddi wrth y ffydd, ei hathrawiaeth, yn gystal a'r hyn sydd yn debyg i'r ymarferiad o honi. Yn awr, os bu erioed wreiddyn y mater ynot, y mae i ti gysur oddi wrth ysgrythyrau ereill, yng ngwyneb y gwrthgiliau penodol hyny, i ba rai y cwmpaist ti; a hyn, yn gyntaf, trwy addewidion melus yn gwahodd y cyfryw i ddychwelyd, ac esamplau am y saint y llefarwyd heddwch wrthynt ar ol y fath ynfydrwydd. A hefyd, hwy a'th sierhant yn erbyn y llall, a thrwy roddi diogelid llawn i'th ffydd, na chaiff dy ras gwan ddim marw, gan ei fod yn anfarwol, nid o'i hanfod ei hun, am mai creadur ydyw, etto trwy gyfammod, fel y mae yn blentyn yr addeuid.

3. Rhagluniaethau tywyll. Oddi wrth y rhai hyn, fe ddadleua Satan yn erbyn cariad Duw at yr enaid, a'i ras ynddo. Cafodd yn gyntaf genad i ysbeilio Iob o'i dda tymmorol, a'i amddifadu o'i blant; ac yna, ei gais yw peri iddo ammheu ei ystâd ys-

brydol a'i fabolaeth. Mynai ei wraig iddo gynwys meddyliau drwg am Dduw ("Mell-dithia Dduw, a bydd farw," meddai hi); a'i gyfeillion a'i cymhellent i feddlw yn ddrwg am dano ei hun, fel pe buasai efe ragrithiwr; a phawb o honynt ar yr un sail gau; fel pe buasai y fath gyflwr o drallocl ac ystâd o ras yn anghyweddol. Yn awr, Gristion, cadw di y tir teg, ac na chyhudda Dduw yn ynfyd fel gelyn i ti, na dy hun chwaith fel gelyn iddo yntau. Darlenna di y rhagluniaeth drymaſ gydag eglurhâd y gair, ac ni wnei felly y fâth ddeongliad gerwin. Megys y gall Duw dynu llinell union â phren cam—bod yn gyfiawn pan ddefnyddio offerynau anghyfiawn—felly, yn rasol hefyd, pan weinyddo ragluniaethau geirwon. Cadw-odd Ioseph ei gariad tra yr oedd yn llefaru yn arw wrth ei frodyr. Nid rhyfedd genyf fi fod yr annuwilion yn tybied fod ganddynt fendith Duw, am eu bod yng ngwres yr haul. Och! y maent hwy yn estroniaid i gynghor Duw, yn wâg o'i Ysbryd, ac yn anianol; yn barnu am Dduw a'i ragluniaeth wrth yr adroddiad a wna y teimlad presennol am danynt—yn debyg i fân blantos a dybiant fod pawb a roddo eirin iddynt yn eu caru. Ond y mae yn beth rhyfedd fod i sant ymddyrsu o achos ei ystâd helbulus, pan y mae ganddo foddion i ddeongli tywyll waith Duw. Gristion, ai ni ddarfu i Dduw dy ddirgel ddysgu, trwy ei Ysbryd, ac o'r Gair, pa fodd i ddarllen llaw fer ei ragluniaeth? Ai ni wyddost ti fod helbulon y saint yn sefyll am fendithion? Pob mab a garo efe, y mae yn ei geryddu; ac am lwyddiant mewn ystâd annuwol, onid yw raid ei ddarllen yn feiddith? Ai nid yw Duw yn rhoddi condemnaiad ar y cyfryw i fod yn gyfoethog, yn anrhydeddus, ac yn fuddugoliaethus yn y byd hwn, yn gystal ag i fod yn boenus mewn byd arall? Y mae Duw weithiau yn rhoddi iddynt fwy o'r rhai hyn nag a dybygid eu bod yn ei chwennyech; a'r cwbl yn eu rhwymo yn dynach mewn trym-gwsg o ddiolfalwch. Fel y gwnaeth Iael â Sisera—efe a gafodd laeth, er na ofynodd ond am ddwfr, fel y gallai hi ei hoelio yn sierach wrth y ddaear: *Barn*. v. 25. Mae priodoldeb mewn laeth, fel y dywed rhai, i beri cwsg.

DOSB. IV.

Yn bedwerydd, Bydd ofalus i gadw dy hen gofiant a gefaist gan Dduw am faddeuant o'th bechodau. Y mae rhyw ddyddiau clærdeg, a gwyliau fel jubili, pan y mae Duw yn ymddangos yn llaes wisgoedd ei drugaredd, ac yn estyn allan ei deyrnwialen o ras yn fwy cyfeillgar na chlyfredin i'w blant, gan ddwyn tystiolaeth i'w ffydd a'u buniondeb hwynt; yna, y mae y wybr yn oleu, ac heb gwmwl i dywyllu cysur y Cristion. Cariad a llawenydd yw maeth a difyrwaith yr enaid, tra parhau y wledd hon.

Yn awr, pan guddio Dûw ei wyneb, ac y dyger ymaith y fywoliaeth hon, y mae Satan a'i ymgais pa fodd i anffurfio a gwisgo ymaith y coffa am y dystiolaeth hon y mae yr enaid yn ymorfoleddu cymmaint ynnddi am ei safiad ysbrydol, fel na byddo hi ganddo yn dystiolaeth pan ddygo efe y cynghaws yn mlaen drachefn, ac y galwo ar yr enaid i ddangos ei ysgrifeniadau am ei ystâd ysbrydol, neu roddi ei hawl i fyny. Gan hyny, y mae yn gweddu i ti eu cadw yn ddiogel. Gall y cyfryw dystiolaeth fod o ddefnydd i ddihawlio dy gyhuddwr dros lawer blwyddyn i ddyfod. Y mae un gwiriad o enau Duw, am dy ystâd bardynol, yn fwy ei bwys, er ei hen ddyddiad, na mil o wadiadau o safn Satan. Y mae hen ganiadau Dafydd yn dychlamu gyda goleu i'w enaid yn ei ofidiau ganol nos: *Salm* lxxvii. 6.

Cwest. Ond pa gynghor, medd enaid helbulus, a roddwch chwi i mi, sydd yn methu dal gafael yn fy nghysuron gynt, ac heb feiddio gwirio y tystiolaethau hyny y tybiais unwaith eu bod yn wir? Yr wyf yn ddiaid yn cael fod rhyw gymdeithas gynt rhwng Duw â'm henaid; bu genyf ryw oibaith; ond y mae hyn yn awr wedi ei ddiwyno a'i hacru i'r fath raddau gan wrthgiliaidau, edifeirwch, a chwmpiaidau drachefn, nes yr wyf yn awr yn amnheuo pob tystiolaeth a gefais pa un ai gwir ai gau oeddylt. Pa beth a wna un yn fy nghyflwr i?

At. (laf.) Adnewydd dy edifeirwch, fel pe buasit heb edifarhau erioed. Cais brawf newydd o weithrediadau ffydd, fel pe buasit heb greu erioed. Hyn, wedi ei wneyd mewn dwysder, a gau safn y diafol âg ateb annisgwyliaidwy. Er iddo wrthddadlëu yn erbyn dy weithredoedd gynt fel rhagrith, pa beth a all efe ei ddywedyd yn erbyn dy edifarhau a'th greu presennol? Hwn, os cywir, a'th esyd tu hwnt i ergyd. Bydd yn anhaws i Satan wrthbrofi gweithrediadau presennol Ysbryd a gras Duw, tra y mae argraffiadau yn newydd, na phigo twll yn dy hen ysgrifeniadau a'th dystiolaethau. Mae gweithredoedd yn myned heibio; ac megys y mae annuwilion yn edrych ar bechodau a wnaed er's llawer blwyddyn fel bychain neu ddim, o achos y meithder amser sydd yn cyfryngu, felly y mae y Cristion, ar yr un cyfrif, yn sefyll mewn anfantis fawr at gymmeryd iawn olwg ar y gweithredoedd hyny o ras sydd wedi bod er's cyhyd o amser rhwng Duw ac yntau; er bod y rhai hyn weithiau o ddefnydd mawr. Fel y gall Duw beri i bechador feddiannu pechodau ei ieu-engetyd, er ei ddychryn, mewn henaint, fe pe byddent wedi eu newydd weithredu felly, fe ddichon Duw ad-ddangos y cysuroi a'r tystiolaethau hyny a dderbyniodd y Cristion gynt, yng nghyd â'r un meddyliau ag oedd ganddo y pryd hyny am danynt, fe pe byddent yn gwbl newydd.

(2il.) Os yw efe etto yn dy flino âg ofnau am dy gytiwr ysbrydol, brysia at orsedd gras, ac erfyn am gopi newydd o'th hen dystiolaeth, yr hon a gollaist. Y mae yr un wreiddiol yn swyddfa maddeuant y nef; a Christ yw meistr hono. Cs wyt yn sant, y mae dy enw yng nghoflyfr y llys hwnw: gwrandaw di pa newydd sydd o'r nef, yn lle clustfeinio i'r chwedlau a ddygir gan dy elyn o' uffern. Pe byddai i'r cyfrwy ymresymu llai â Satan, a gweddio niwyr ar Dduw yn achos eu hofnau, gallent gael eu boddloni yn gynt. A ellwch chwi ddysgwyl gwir gan gelwyddwr, a chysur gan elyn? A brophwyddodd efe ddaioni erioed am gredinwyr! Onid rhagrithiwr gan y diafol oedd Iob, er i Dduw wirio nad oedd ei gyffelyb mewn duwioldeb, a'i broi yn gyfrwy o'r diwedd? Pe gwyddai efe fod dy yn sant, a ddywedai efe hyny i ti? Os rhagrithiwr, byddai mor anhawdd ganddo roddi i ti wybod hyny. Tro ynte dy gefn arno, a dos at dy Dduw. Nac ofna na ddyry efe ei law drachefn wrth dy dystiolaeth, yn gynt neu yn hwyrach. Ond edrych na byddo i ti roddi barn yn fyrbwyll i'th erbyn dy hun, am na ddanfonir i ti ateb boddhaol yn ebrwydd ar dy ddymuniaid. Fe ddichon i'r genad aros yn hir, a dwyn newydd da o'r diwedd.

(3ydd.) Gochel frwydr â'th elyn nes y byddych mewn agwedd gymmhwsach, ac fel y gallech dynu i fewn dy amgawdd, a gwneyd enciliad di warth i'r tŵr a'r ddiogel-fa hono a ddarparodd Crist i'w filwyr claf ac archolledig. Yn awr, y mae dau le manteisiol i ba rai y gall eneidiau digysur gilio—enw Duw, ac addewidion diammodol yr efengyl. Gellir galw y rhai hyn, Y porth-laddoedd prydfferth; ac y maent yn enwedig yn ddefnyddiol pan fyddo yr ysturm mor gref fel na ddichon y llong aros ar y môr. O! medd Satan, a wyt ti yn gobeithio gwel-ed Duw? Nid oes i neb ond y pur o galon gael yr olygfa wynfydedig hono. A wyt ti yn meddwl cael cysur? Rhan y galarwr mewn ysbryd ydyw hono. Yn awr, enaid, er na eili ddyweddy yn ffrwst y brofedigaeth mai tydi ydyw y pur, a'r galarwr o ysbryd, etto, y pryd hyny dywed dy fod yn credu y gall Duw weithio y rhai hyn ynot; i.e., a'i fod wedi addaw y fath drugaredd i bechaduriaid trauin. Ei gyfammod ydyw—efe a rydd galon newydd, calon lân, calon dyner—ac yma y dysgwyliaf, gan wybod, fel nad oedd lim yn y creadur i annog y Duw mawr i roddi y fath addewidion; felly, na ddichon bod dim yn y creadur a rwystra i'r Hollalluog eu cyflawnu, y pryd a'r lle y myno. Y weithred hon o ffydd, yng nghyd â dymuniad hiraethus am y gras nad wyt ti etto yn gallu ei gael, er na lawn dawela dy ammheuon oll, ysgatfydd, etto, fe geidw dy ben uwch law y dwfr fel na anobeithiech; ac y

mae arnat eisiau y cyfrwy atteg yn yr achos hwn, rhag i'r tŷ syrthio.

(4ydd.) Os bydd i Satan dy gyfarth, galw am help, ac na chadw gyfrinach y diafol. Y mae gwir rym rhai temtasiynau yn y celiad o honynt; a dim ond eu dadguddio i ryw gyfaill ffyddlawn (fel pigo ac agor crawn-ddolur) yn rhoi esmwythad buan i'r enaid. Gŵyr Satan hyn yn eithaf da; am hyny, efe a wna yn debyg i rai lladron, y rhai wrth ysbeilio tŷ, a safn-gloant y teulu, neu a ddaliant ddryll bach wrth eu dwyfron, gan fygwth eu lladd, os gwaeddant, neu os siaradant. Felly y mae Satan, fel y gallo yn fwy hyf ysbeilio enaid o'i heddwch a'i gysur, yn ei frawychu yn y fath fodd fel na faidd efe ddadguddio ei brofedigaeth. O! medd efe, os daw dy frodyr a'th gyfeillion i wybod y fath beth am danat, hwy a'th fwriant ymaith, ereill a'th hwitant. Fel hyn y mae aml enaid truan wedi cael ei gadw yn hir mewn gofid, trwy ei wasgu i mewn. Gristion, yr wyt yn colli cymmorth dyblyg trwy gadw cyfrinach y diafol; sef cynghor a gweddiau dy gyd frodyr:—a pha golled uwch ei phrisio yw hono?

PENNOD VIII.

Am fuddugoliaeth y saint ar ex-gelyn cyfrwys; ac o ba le y mae, fod creaduriaid mor weiniaid yn gallu sefyll yn erbyn cynllwynion Satan.

Y MAE yr ail gainge o ddadl yr apostol yn canlyn, er eu hiannog yn fwy grymus at eu harfau; a hyn oddi wrth y posibilrwydd—i.e., y sicrwydd—o sefyll yn erbyn y gelyn cyfrwys hwn, os byddant yn arfog fel hyn: “fel y galloch sefyll yn erbyn cynllwynion diafol.” Felly, hyn sydd yn rhoddi i ddadl yr apostol ei miniad addas; o herwydd nid ei fwriad oedd eu tarfu i ffoad digalon, neu anobaith athrist am fuddugoliaeth, wrth fynegi iddynt fod eu gelyn mor gyfrwys; ond eu hannog i wrthwynebiad grymus trwy y gobaith sicr am nerth i sefyll yn y frwydr, a bod yn fuddugoliaethus yn ei diwedd. Y mae y ddau beth, dybygwn, yn gynnwysedig yn y geiriau—“sefyll yn erbyn cynllwynion diafol;” *adn.* 11. Weithiau, y mae “sefyll” yn arwyddo agwedd ymladd; *adn.* 14: bryd arall, agwedd fuddugoliaethus; *Job* xix. 25, “Canys myfi a wn fod fy Mhrynrwr yn fyw, ac a saif yn y diwedd ar y ddaear.” Y ddaear, yr hon oedd y maes ar ba un yr ymladdwyd yr holl frwydrau gwaedlyd rhyngddo ef a Satan; ar hon y saif efe, pan na bydd gelyn yn beiddio dangos ei ben. Felly, gan gymmeryd y ddau hyn i mewn, y sylw ydyw:—

Athr. Ni chaiff Satan, gyda ei holl ystryw a'i ddichellion, byth orchfygu enaid wedi ei arfogi â gwir ras; nag e, yr hwn sy ganddo

yr arfogaeth hon o eiddo Duw a'i gorchfyga ef. Edrychwch i'r gair, ac ni chewch chwi un sant heb fod yn y prawf gydag ef yn cael ei ogryn a'i nthio fwy neu lai gan y gelyn hwn; etto, yn y diwedd, ni a'u cawn hwynt oll yn dyfod ymaith gyda bri a chongwest; megys Dafydd, Iob, Pedr, Paul—y rhai y bu galetaf arnynt o neb o'r rhai y mae cofia am danynt. A rhag i rai gyfrif eu buddugoliaeth hwynt i rym eu gras tufewnol, uwch law eu brodyr gwanach, chwi a gewch ogoniant eu buddugoliaethau yn cael ei briodoli i Dduw, yn yr hwn y mae y gwan mor gryf a'r cryfaf: 2 Cor. xii. 9: Iago v. 21. Rhoddwn reswm dyblyg am y gwirionedd hwn; pa ham y mae y Cristion mor anorchfygol, er ei fod yn ymddangos mor hawdd ei drechu.

Rhes. 1. Y felldith sydd yn gorwedd ar Satan a'i achos. Y mae melldith Duw yn deifio pa le bynag y delo. Bara i Israel oedd y Canaaneid a'r. cenhedloedd cymmydog-aethol, er eu bod yn bobl nodedig am ryfel. A pha ham? Cenedloedd melldigedig oedd-ynt. Yr Aiphitiaid oedd-ynt yn bobl gall: "Gwnawn yn gall â hwynt," meddent; etto, gan eu bod yn felldigedig gan Dduw, yr oedd hyn fel draen wrth eu calon; a bu yn ddinystr iddynt o'r diwedd. Tē, os bydd i'r Israeliaid eu hunain, er fod ganddynt arwydd cyfammod Duw yn eu enawd, unwaith trwy eu pechodau fyned yn bobl melldith Duw, dyna hwy yn cael eu mathru fel tom dan draed yr Assyriaid. Hyn a wnaeth i Balac erfryn mor daer am felldith ar Israel. Yn awr, y mae melldith annidymadwy yng nglyn wrth Satan: "A'r Arglwydd a ddywedodd wrth y sarph, am wneuthur o honot hyn, melldigedicach wyt ti na'r holl anifeiliaid, ac na holl fwystfilod y maes; ar dy dor y cerddi, a phridd a fwyta'i holl ddyddiau dy einioes; gelyniaeth hefyd a osodaf rhyngot ti a'r wraig, a rhwng dy had di a'i hād hitau; efe a yssiga dy ben di, a thithau a yssigi ei sawdl ef;" Gen. iii. 14, 15. Y lle hwn, er ei fod mewn rhan yn cyfeirio at sarph naturiol, etto y mae yn cyfeirio yn benaf at y diafol a'r annuwil—ei hil sarph-aidd ysbrydol. Fe welir hyn trwy y dadganiaid o elyniaeth rhwng had y ddraig a had y wraig; yr hyn sydd yn eglur ddal allan yr anghydfod rhwng Crist a'i had ef, a'r diafol a'i had yntau. Yn awr, y mae dau beth yn y felldith hono a ddichon gysuro y saint. (1af.) Y mae y felldith yn iselu Satan dan eu traed hwynt: "Ar dy dor y cerddi;" yr hyn nid yw ond yr un peth ag a addewir mewn lle arall, "y darostyng Duw Satan dan eu traed." Yn awr, mae y darostyngiaid hwn ar Satan yn sicrhau i gredinwyr na chaiff diafol byth godi ei ben (sef ei ystryw cyfrwys) yn uwch na sawdl y Cristion. Efe a ddichon dy gloffi, ond nid dwyn dy fywyd; a chaiff yr yssigod hwn arnat ti ei dalu yn

ol â drylliad i'w ben ef ei hun; sef â llwyrr ddinystr iddo ef a'i achos. (2il.) Y mae yma ei fwyd wedi ei bennodi. Ni chaiff Satan ddfa y neb a fyno. Pridd ydyw ei fwyd ef; yr hyn, debygid, sydd yn cyfyngu ei allu i fod ar yr annuwil. "Y rhai hyn, o'r ddaear, ydynt ddaearol;" pridd yn gwbl. Ond am y rhai sydd o darddiad nefol, y mae eu grasau yng nghadw, fel ymborth i Grist (*Can. vii. 13*); ac yn sicr, nid ydyw eu heneidiau yn damaid i safn y diafol.

Rhes. 2. Deillia oddi wrth ddoethineb Duw, yr hwn, fel y mae yn ei law drefnu llwybr y Cristion i'r nef (*Salm xxxvii. 24*), felly, yn enwedigol, y mater hwn am demtasiynau Satan. Y mae i ni weled mai nid gan yr ysbryd drwg yr arweiniwyd Crist i'r anialwch i'w demtio, ond gan yr Ysbryd Sanctaidd: *Mat. iv. 1*. Nid ydyw Satan yn temtio pan y myno efe, ond pan welo Duw yn dda; a'r un Ysbryd Sanctaidd ag a arweiniodd Crist i'r maes, a'i dyg ymaith yn fuddugoliaethus. Ac am hyny, ni a'i cawn ef, ar ol euro Satan ymaith, yn "dychwelyd trwy nerth yr Ysbryd i Galilea;" *Luc iv. 14*. Pan fyddo Satan yn temtio sant, nid yw efe ond cenad Duw: "Rhoddwyd i mi swmbwl yn y cnawd, cenad Satan i'm cernodio, fel na'm tra dyrcheffid" (*2 Cor. xii. 7*): felly mae ein cyfieithiad ni; ond yn well, yn ol barn Beza, pe buasai yn ol gosodiad y geiriau "y cenadwr Satan;" yr hyn a arwyddda ddarfod ei anfon gan Dduw at Paul. Ac yn wir, yr oedd y neges y daeth arni yn rhy dda a grasol i fod yn eiddo iddo ei hun—"fel na'm tra dyrcheffid." Eriod ni feddyliodd y y diafol wneyd i Paul y fath gymmwynas; ond fe'i danfonodd Duw ef ato megys yr anfonodd Dafydd Urias â llythyrau at Iob: ni wyddai y naill na'r llall gynnwysiad y genadwriaeth. Mae y diafol a'i offerynau, bob un yn offerynau Duw; am hyny y gelwir yr annuwil "ei gleddyf a'i fwyell ef;" *Salm xvii. 13*: *Esa. x. 15*. Yn awr, gadewch lonydd i Dduw lywio y naill a thrin y llall. Nid yw hwnw ond bwngleryn a friwo ac a hacio ei goesau â'i fwyell ei hunan; yr hyn a wnai Duw, pe byddai ei blant yn waeth er temtasiynau Satan. Dewised ei ffordd, y mae Duw yn barod iddo wrth bob arf. Os gwna efe gais â grym arfau, a rhuthro yn erlidiwr ar y saint, fel Arglwydd y lloedd y gwrthwyneba yntau ef. Os trwy ystryw a dichell, y mae efe yn barod yno hefyd. Nid ydyw Satan a'i gynghor oll ond ffylliaid wrth Dduw! Nage e, nid yw eu doethineb ond ffolineb. Mae gallu a chelfyddyd yn ganmoladwy yn mhob peth ond pechod. Po mwyaf cywraim fyddo'r oriadu (*watch*), y darlun, &c., goreu oll; ond po mwyaf y synwyr a'r gallu mewn pechod gwaethaf oll; o blegid y mae ar waith yn erbyn Duw holl ddoeth, nad ellir bod yn rhy gall iddo; ac yn ganlynol, na wna ond

tal i'r gweithwyr â darnedigaeth drymach. Y mae ffolineb Duw yn ddoethach na dynion, i.e. na doethineb dynion a diafiaild; *h.y.*, y moddion a'r offerynau trwy ba rai y mae Duw yn gwrthwynebu Satan. Pa beth sydd wanach na phregeth? Pwy sy'n fwy anghall na'r saint yng nghyfrif y byd doeth? Etto, y mae Duw yn ddoethach mewn pregeth wan na Satan yn ei ddichellion dyfnion, er iddo grynhoi eisteddfod gyfan o gardinaliaid i osod eu penau ynghyd. Y mae yn ddoethach yn ei rai diddysg, na Satan yn ei Ahitopheliaid a'i Sanbalatiaid; ac yn ddiau, y mae Duw, o fwriad, yn dewis dymchwelyd ystrywiâu uffern a daear drwy y rhai hyn, fel y byddo iddo roddi y cyfryw dan warth mwy: *1 Cor. i. 21*. Pa fath gwilydd yw i'r ysgolhaig mawr gael ei drechu gan ddaid dyn syml-wladaidd! Fel hyn y galwodd Duw ar Iob i frwydro â Satan a'i gynnorthwywyr, o blegid yn gyfryw y dangosodd ei dri chyfaill eu bod wrth gymmeryd plaid Satan. Ac yn sicr, nid yw hwnw a gurwyd gan ddysgadur ieuanc yn abl i drin ei arf yn erbyn y prif gleddyfwr. Y mae Duw yn eistedd ac yn chwârddu (*Salm. ii. 4*), tra y mae uffern a daear yn eistedd i gydfwriadu: "Efe sydd yn diddymu amcanion y cyfrwys, fel na allo eu dwylaw ddwyn dim i ben;" *Job. v. 12*. Y mae yn dryllio eu bwriadau a'u hystrywiâu astud, fel y mae'r gair yn arwyddo. Efe, mewn munydyn, a dyn i lawr ymgais ac ystryw llawer blwyddyn. Yn wir, fel y mae gwyr mawr yn cadw bwystfilod gwylltion, er mwyn helwriaeth a difyrwech—megys y llwynog, yr arth, &c.—felly y mae Duw yn goddef Satan a'i offerynau, er mwyn amlygu ei ddoethineb wrth eu dal hwynt. Y mae yn ffaith fod hela rhai mild; nid yn unig yn rhoddi boddhâd i'r heliwr, ond archwaethiad gwell i'r bwytâwr. Yn ddiau, y mae Duw, trwy arddangos ei ddoethineb yn yr ymlidiad ar elynion ei saint, yn chwanegu blas melus i'w gwaredigaethau hwynt yn y diwedd: "Ti a ddrylliaist ben lesiathan; rhodaiaist ef yn fwyd i'r bobl yn yr anialwch;" *Salm lxxiv. 14*. Wedi iddo hela Pharaoh allan o'i holl lochesau a'i dyllau, y mae efe o'r diwedd yn dryllio ymenydd ei fwriadau oll, ac yn ei arlwyo yn fwyd i'w bobl, a'i ddoethineb a'i allu ei hun fel addurn o gylch y ddygl.

PENNOD IX.

Dangosiad o'r modd y mae y Duw holl ddoeth yn trechu y diafol yn ei demtiad ar y saint i bechod; lle y nodir amcanion Satan, a'r modd y mae yn cael ei attal ymdyngt oll; a'r diweddiad da a ddryr Duw ar ei demtasiynau hyn.

Hol. Ond pa fodd y mae Duw yn gorchfygu Satan, ac yn dymchwelyd ei ddichellion yn temtio ei saint?

At. Fe wna Duw hyn trwy ddwyn i ben ei fwriadau grasol ei hun er lles a chysur ei bobl, allan o'r temtasiynau hyny trwy ba rai y mae Satan yn bwriadu eu dinystrio. Hon ydyw y fath odidocaf o oruchafiaeth—curo arf y diafol yn ol i archolli ei ben ei hun; i.e. a'i dori ymaith â'i gleddyf ei hun. Gall Duw fel hyn osod y drwg i ddal y drwg; a gosod, fel pe byddai, gynghorion Satan dan ei edyn ef ei hun, a pheri iddo eu deor hwynt. Fel hyn y darfu i frodyr Ioseph roddi help at gyflawni ei freuddwyd, tra yr oeddylt hwy yn meddwl cael gwared glân o hono. I bennodi rhai pethau neillduol:—

DOSB. I.

1. Cais Satan, trwy ei demtasiynau, ydyw halogi cydwybod y Cristion, a hacru y wnebydd hardd hwnw o ddelw Duw sydd yn gerfedig mewn sancteiddrwydd ym mynws y Cristion. Ysbryd aflan ydyw efe ei hun; ac efe a fynai eu cael hwythau yn gyfryw, fel y cai orfoleddu yn eu cywilydd hwynt; ond y mae Duw yn rhoddi som iddo; o blegid y mae yn troi temtiadau Satan i bechod i fod er eu purad oddi wrth bechod. Y rhai hyn yw y sebon dâ â'r hwn y gylch Duw ei saint yn wñ.

(1af.) Y mae Duw yn defnyddio temtiadau Satan at un pechod, fel moddion i ragflaenu an arall; felly i Paul—yr oedd y swmbwl yn y cnawd i ragflaenu ei falchder. Y mae Duw yn gollwng Satan i ruthro ar Paul ar yr ochr yr oedd efe yn gryf, fel y gallai yn y cyfamser ei gadarnhau lle yr oedd yn wan. Fel hyn y somwyd Satan; fel y gwelwn weithiau fyddin yn gwersyllu o flaen tref, lle y mae yn difrodi ei nerth i ddim diben; ac yn y cyfamser, y mae y gelyn yn cael mantais i adgryfhau, a hyn i gyd trwy gynghor rhyw Husai, sydd yn gyfaill dirgel i'r blaidd wrthwynebol. Mae Duw—cyfaill cywir y saint—yn eistedd yn y cynghor sy gan ddiafiaid, ac yn goruwch reoli eu bwriadau i fod er budd i'r saint. Y mae yn goddef i'r diafol ffinio y Cristion â themtasiynau i gabledu a didduwiaeth; a thrwy y rhai hyn, ynghyd â'r blinder ysbryd a barant, gyrrir yr enaid i weddio; y mae yn ymddarostwng wrth ystyried y drychiol-aethau erchyll hyn yn ei ddychymmyg, ac yn cael ei gadw rhag llawer o ffurfioldeb a balchder, y rhai yr oedd Duw yn eu canfod, oni bai hyn, yn ymosod arno. Megys mewn teulu, y mae rhyw orchwyl yn digwydd sy'n cadw y meistr i fyny yn hwyrach na chyffredin; a thrwy hyn, fe somir y lleidr oedd yn meddwl ei ysbeilio y noswaith hono. Oni buasai i ysbryd gweddi a dyfalwch y cyfryw enaid gael eu cadw yn effro trwy y temtasiynau gofidus hyn, y mae yn deb-ygol y gallasai Satan ddyfod fel hudwr, a'i ddal ef yn hepian mewn difolwch.

(2il.) Y mae Duw yn gyru allan hyd yn

oed y pechod y temtia Satan iddo; fe, trwy ei demtiaid ef. Ni chafodd Pedr erioed y fath gongewest ar ei hunanhyder, na'r fath gadarnhâd i'w ffydd, ag ar ol ei gwmp hyd yn llys yr archoffeiriad. Efe, yr hwn o'r blaen a dybiai mor dda am dano ei hun, nes y dywedodd, "Pe rhwystrid pawb o'th blegid di, etto, ni'm rhwystrir i byth." Mor isel a gwyllaidd oedd efe yn mhen ychydig ddyddiau, pan na feiddiai ddyweddy ei fod yn caru Crist yn fwy na'i gydfrodyr, o flaen pa rai o'r blaen y gosodai ei hun! A'r fath gyfswr hyf i Grist a'i efengyl oedd efe o flaen cynghorau a llywodraethlwyr; yr hwn, ychydig o'r blaen, a yrwyd i gywilyddio o flaen llangesig ffol; a hyn oll yn ffrwyth o demtiaid Satan wedi ei fendithio iddo. Yn wir, y mae y Cristion trwy ei godwm yn cael dadguddiad o'r llygredd sydd yn fwyaf ei rym ynddo, ac nad yw y demtasiwn ond yn cynhyrfu y naws; ac wedi iddo gael hyn allan, y mae ganddo fantaisi fwy at ei arloesi, trwy addasu y moddion, ac arfer y cyffertau hyny sydd at weithio ymaith yr afiechyd mewn modd hyfryd. Ar hyn, yr enaid a eilw ar bob cymmhorth yn erbyn y dinystrydd hwn. Ni buasai i Paul gymmeryd y fath boen i gopsi ei gorph, oni buasai ei fod yn gwybod fod Satan yn curo with y drws hwnw.

(3ydd.) Y mae Duw yn defnyddio y temtasiynau hyn er cynnyddiad i holl waith gras yn y galon. Y mae ysmotyng budr yn achlysur i'r dilledyn oll gael ei olchi. Y mae Dafydd, ar ol ei faeddaiad gan un pechod, yn adnewyddu ei edifeirwch am y cwbl: *Salm li.* Gŵr gofalus, pan welo ddefni yn dyfod trwy un man, a enfyn am weithiwr i edrych y tŷ drosto. Mae hyn yn wir yn gwahanu rhwng calon cywir a rhagrithiwr, sydd â'i edifeirwch yn hannerog—yn feddal mewn un peth, ac yn galed mewn peth arall. Mae Iudas yn gwaeddi allan am ei fradwriaeth, ond heb un gair am ei ladrad a'i ragrith. Nid oedd y twll yn ei gydwibod yn fwy nag ar ol yr un belen a aethai i mewn; ond y mae gwir dristwch am un pechod yn chwilfriwio y galon am y lleill hefyd.

DOSB. II.

2. Mae gan Satan, wrth demtio un sant, fwrriad drwg yn erbyn ereill, naill ai trwy eu hannog hwythau i bechu, yn ol esampl y cyfryw un, neu en digalonni yn eu gyrfa sanctaidd trwy y tramgwydd a barodd efe. Ond y mae yn cael ei somi yn hyn.

(1af.) Trwy beri i gamymddygiad y cyfryw fod yn rhybudd mewn pryd i ereill i edrych ar eu rhodiad. A weli di Moses lariaidd wedi ei gyffroi i ddigder? Pa wyliaid a gwarchodiad ynte sydd yn angenrheidiol i ti gadw ar dy galon afreolus? Er fod gwyntoedd uchel yn peri peth niwed, trwy fwrw i lawr bridlech rydd yma, a nendwr draw (oedd o'r blaen ar syrthio), etto y mae

y lles cyffredin yn fwy na'r golled i ychydig bersonau, gan fod y rhai hyn fel ysgubell yn llaw Duw i ysgubo a phuro yr awyr. Felly, er fod rhai, sydd yn annuwiol, yn cael trwy gyfiawn farn Duw o'r achos eu caledu i adgasrwydd gwaeth trwy gwmpiaidau y saint, etto y mae y lles a dderbyn eneidiau syml, trwy gael eu puro yn fwy o'u ffurfioldeb a'u diofalwch, yn llawer mwy ei bwys na'r niwed a sugna y lleill, y rhai nid ydynt ond yn tynu yn gyflymach o beth i'r lle yr oeddynt yn myned iddo o'r blaen.

(2il.) Y mae Duw yn peri i gwmpiaidau ei saint fod yn ddadl er cysur i gydwibodau tralloedig. Bu hyn, ac y mae, fel pluen i ddyferu ychydig oibaith i'r enaid, a'i gadw yn fyw rhag syrthio i lwyr anobaith, pan dybygid fod y llwngc (*passage*) wedi ei gau, fel na byddai modd i gysur fyned i lawr ond trwy hyn. Cafodd rhai eu hadfywio trwy hyn, pan yn y drws nesaf i uffern, yn ol eu hofnau hwynt. Yr oedd pechod Dafydd yn fawr, etto fe gafodd drugaredd: cwmpodd Pedr yn erchyll, etto y mae yn awr yn y nef. Pa ham yr eisteddi di yma, O fy enaid, dan glawrdorau anobaith! Cyfod, a galw ar dy Dduw am drugaredd, gan iddo faddeu felly i ereill.

(3ydd.) Y mae gan Dduw, wrth oddef i Satan faeddu rhai o'i saint drwy demtasiwn, fwrriad i'w magu a'u haddasu hwynt i gynnorthwyo eu cydfrodyr mewn cyfiwr cyffelyb. Mae efe yn eu hanfon yma i'r ysgol, lle maent dan wialen a churfa Satan, fel y byddo i'w law galed ef arnynt beri iddynt chwilio y gair a'u calonau eu hunain; a thrwy hyn, y maent yn cael profiad o ddi-chellion Satan, nes cyrhaeddont, o'r diwedd, i radd athrawon yn y gelyddydd hon o gysuro eneidiau temtedig. Celyddydd ar ei phen ei hun ydyw hon, i lefaru gair mewn pryd wrth yr enaid diffygiol. Nid gwasanaethu prentisiaeth i gelyddyddau dynol a aaddas ddyn i hon. Y mae athrawon mawr wedi myned yn ynyfydion mawr yma, heb wybod mwy pa fodd i drin cydwibod archolledig, nag a wŷr lleban gwladiaid am drin offer y llawfeddyg at ddifyniad (*dissect*) corph, pan fyddo llith ddifyniad (*anatomy lecture*) i gael ei darllen. Ac nid gwbydd yr Ysgrhythr a fydd yn ddiagon, er i ddyng fod mwg gyfarwydd ynddo a meddyg uwch ben ei botiau a'i botelau yn ei siop—yn gallu myned yn union rhag blaen at unrhyw addewid. Nage; nid digon fydd gras ei hun, oddi eithr ei ymarfer â'r cernodau a'r brwydr- au ysbyrdol hyn. Ni a ddarllenwn ddarfod dŵyn Crist ei hun i fyny yn yr ysgol hon: "Yr Aeglwydd Dduw a roddes i mi dafod y dysgedig, i fedru mewn pryd lefaru gair wrth y diffygiol: defny fi bob bore, defny i mi glust i glywed fel y dysgedig;" *Esa. l. 4.* Yn union fel y gwna athraw alw ato ei ysgolhaig, a darllen iddo. A pha beth ydyw

y wers a ddarllenwyd i Grist, fel y byddai ganddo dafod y dysgedig i lefaru gair mewn pryd wrth yr enaid diffygiol? “Yr Argrwydd Dduw a agorodd fy nghlust, a minnau ni wrthwynebais, ac ni chiliais yn fy ol. Fy nghorph a roddais i'r curwyr, a'm cernau i'r rhai a dynai'r blew; ni chuddiais fy wyneb oddi wrth waradwydd a phoerdd;” *adn.* 5, 6. Ei ddiodefnadau—y rhai o hyd a gymmysgwyd â themtasiynau—ydoedd yr ysgol o ba un y daeth Crist allan mor ddysgedig, i ddiddyrysu a diddanau eneidiau helbulus. Felly, cystal i ddiabol fuasai gadael llongydd i Grist; i.e. ac i'w saint hefyd, y rhai ni wnant ond yr afes mwyaf iddo ef drwy gysuro ereill. Ni bydd i neb drin eneidiau truin mor dyner a'r rhai sydd yn cofio llymder gofid eu calonau eu hunain. Nid oes neb mor fedrus i gymhwyso cysuron y gair at gydwybodau clwyfus a'r rhai a fu yn gwaedu eu hunain. Y cyfryw a adwaeniant arwyddion blinder enaid; a hwy a deimlant boenau pobl ereill yn eu mynwesau eu hunain. Hyn y mae rhai, a wyddant yr Ysgrhythrau, yn fyr o hono, gan ddiffyg profiad; ac am hyny, y maent yn debyg i feddyg ieuanc, yr hwn, ysgatfydd, a all adrodd wrthyh am bob planigyn yn y llysieulyr; etto, pan ddel un claf ato, ni w'yr efe pa fodd i arfer ei gelfyddyd, am ei fod yn fyr yn y rhan ymarferol. Y mae profiadau y saint yn eu helpio at driagl arbenig, a wneir o gnawd yr ysgorpien i hun—yr hwn, trwy Grist, a laddasant—ac y mae yn hwnw rinwedd anghymmharol i yru gwenwyn tentasiynau Satan allan o'r galon.

DOSB. III.

3. Y mae cais Satan, wrth demtio y saint i bechod, yn peri rhwyg rhwng Duw a'r enaid. Mae yn casau y ddau, ac am hyny yn ymgeisio gwahanu y cyfeillion anwyl hyn. “Os gallaf (medd efe) gael y cyfryw un i bechu, bydd Duw yn ddi; a phan yn ddi, efe a chwipia ei blentyn yn drwm: bydd hyn yn beth digrifwch. A phan fyddo Duw yn ceryddu ei blentyn, bydd yntau yn ammheu cariad Duw ato, ac yn oeri yn ei gariad i Dduw. Felly, er na chadwyf mo hono allan o'r nef yn y diwedd, etto ni chaiff efe ond ychydig o lawenydd ar ei ffordd yno. Yn yr achos hwn, bydd Duw a'r enaid fel gŵr a gwraig wedi syrthio allan, heb un o honynt yn edrych yn dirion ar y llall.” Yn awr, gwelwch fel y soma Duw y gelyn yn y ddau gais.

(Iaf.) Y mae Duw yn defnyddio tentasiynau ei saint fel ei drefn trwy ba un y cynnydda efe gyfraniadau ei gariad iddynt. Tybiodd y diafol ei fod wedi cyrhaedd ei nod pan gafodd Adda i fwyta y frwyth gwaharddeddig; meddyliodd ei fod trwy hyn wedi cael dyn i'r un cyflwr ag ef ei hun—mor annhebygol byth i gael gweled wyneb Duw a'r ysbrydion gwrthgiledig hyny.

Ond, O! yr oedd Duw wedi bwriadu hyn i arwain i mewn ei ddyfais fawr yn ei efengyl, i achub dyn trwy Grist. Ac efe—yn ebrwydd ar ol y rhagymadrodd hwn ag gwmp dyn—sydd yn cael ei ddwyn i'r golwg yn yr addewid fawr efengylaidd hono a wnaed i Adda. Efe, wrth orchymyn Duw, sydd yn myned dan y gorchwyl o adferu dyn colledig allan o grafangau Satan, a'i adsefydlu yn ei fri cyntaf, gyda chwanegiad o fwy nag a fu erioed gan ddyn ar y cyntaf; hyd onid yw y lili waelaf yn maes Crist yn rhagori ar Adda yn ei ogoniant cyntaf. Ac yn ol fel y bu llwydd Satan yn ei demtiad cyntaf, felly y colledwr yw efe o hyd. Beth a gafodd efe am ei holl boen gyda Iob, ond fod i'r gŵr duwiol hwnw wybod o'r diwedd mor anwyl yr oedd Duw yn ei garu? Wedi iddo roddi codwm mor gywilyddus i Pedr, onid ydym yn cael Crist yn addef Pedr gyda chymmaint cariad ag erioed? Pedr oedd raid fod yr unig ddysgybl, i'r hwn, wrth ei enw, yr anfonir y newydd hyfryd am yr adgyfodiad: “Eithr ewch ymaith, dywedwch i'w ddysgyblion ef, ac i Pedr, ei fod ef yn myned o'ch blaen chwi i Galilea: yno y cewch ei weled ef.” Fel pe dywedasai Crist, Byddwch sier o beri i'w galon drist ef gael ei lloni â'r newydd hwn, fel y gwybyddo fy mod i yn ei garu er ei holl anwroldeb diweddar.

Hol. Ond ai nid yw hyn megys yn cefnogi pechod, ac yn gwneyd Cristionogion yn ddi- ofal, pa un a syrthiant i brofedigaeth neu peidio? Os yw Duw fel hyn yn amlygu ei gariad i'w saint, ar ol eu codymau a'u colliadau, pa ham y byddai raid i ni fod mor ochelgar o bechod sydd yn diweddu mor dda?

At. Dau beth a ragflaena enbydrwydd y fath gasgliad.

(Iaf.) Y mae yn rhaid i ni wahanu rhwyg enaid a fyddo yn cael ei faeddu trwy fod ei wendid ei hun a grym a ditchell ei elynion yn ei drechu, ac un arall a fyddo trwy ffalsedd calon o'i wirfodol yn ymroddi i drachwant y diafol. Er na ddengys cadflaenor fawr o dosturi at filwr a daflai yn fradwrus ei arfau i lawr, ac a redai at y gelyn; etto, os bydd i un arall, wrth ymladd, gael ei archolli a'i drechu, ni bydd yn ddianrhydedd iddo ddangos ei dosturi a'i gariad: na fydd, pe byddai iddo ei anfon o'r maes yn ei gerbyd ei hun, ei osod ar ei wely ei hun, a phenodi iddo ei lawfeddyg ei hun. Nid ydyw Duw yn cefnogi anwiredd mewn sant, ond yn tosturio wrth ei wendid. A phan fyddo y saint yn syrthio i bechod o natur ryfygus, nid ydynt hwy yn ei bechu mor rhyfygus ag ereill. Mae rhan yn eu mynwesau hwynt sydd yn gywir i Dduw, er fod plaid arall yn trechu. Fe lefarodd Moses yn fyrbwyll, ond yr oedd gan y diafol ei offerynuau i'w gyffroi yn hollol yn erbyn tymmer y gŵr da. Fe rifodd Dafydd y bobl, ond gwelwch fel

yr oedd y diafol wrth ei sodlau, ac yn ei hela, nes ei faeddu o'r diwedd. "A Satan a safodd i fyny yn erbyn Israel, ac a annogodd Dafydd i gyfrif Israel;" 1 Cron. xxi. 1. Mor wrol y gyrodd Iob bicellau Satan yn eu holau! Nid rhyfedd, yn y fath gawod, os aeth un i mewn rhwng cyssylltiadau ei arfogaeth. Ac am Pedr—wr da—ni â wyddom y fath galon gywir oedd ganddo; iê, mor wresog yr aeth i'r maes, er i'w galon lesghau pan ymdangosodd y gelyn.

(2il.) Ystyriwch ond y modd y cyfrana Duw ei gariad ar ol cwmpiadau y saint; nid wrth bechu, nac am bechu, ond wrth iddynt alaru a darostwng eu heneidiau am eu pechodau. Yn wir, pe byddai Duw yn gwenu arnynt, tra yn gweithredu yn bechadurus, gallai hyn eu cadarnhau mewn pechod, fel y gwnai gwin mewn poeth-gryd gryfhau y dolur. Ond ar ol i'r iâs fyned heibio, ac i ddrygnaws y dolur gael ei dreulio a'i anadlu allan drwy dyner ymstyngiad, yn awr y mae y creadur yn isel. Y mae gwin a chysur Duw at gryfhau ysbryd llesg, nid i borthi pechod. Pan ddenwyd Dafydd i brofedigaeth, rhaid oedd iddo yn gyntaf gael ei wisgo mewn sach-liain galar; yna y mae Duw yn ei ddiosg o hono, ac yn rhoddi am dano wisg llawenydd a moliant (1 Cron. xxi. 10, 15); Iob, yntau, er iddo ddangos cymaint o wroldeb ac amynedd, etto, gan iddo ddangos peth gwendid—wedi iddo gael ei faeddu gan gynnifer o gŵn ar ol eu gilydd, dynion a diaffiaid—rhaid oedd iddo sefain, "Pechais," a'i ffeiddio ei hun mewn llwch a lludw, cyn i Dduw ei gymmeryd yn ei freichiau: Iob xlii. 6. Yr un ffordd a gymmer Duw gyda ei holl blant. Yn awr, i'w saint, yn y cyfryw agwedd, gall Duw, heb beryglu ei anrhydedd ei hun na'u lles hwythau, roddi traflwngc helaethach na chyffredin o'i gariad. Bydd eu hofnau a'u tristwch, a barodd eu pechod iddynt, yn lle dwfr i'w gymmysgu â'r gwin cryf hwn o orfoledd, ac i ddwyn ymaith ei gryfder rhyfawr, fel na chodo i fyny yn fygnaws balchder, ac na pharo iddynt hwntian yn ol i syrthiad ymaith.

Gof. Ond pa ham y cyfrana Duw ei gariad yn awr?

At. (1af.) O herwydd ei natur dosturiol: "Chwi a glywsoch am amynedd Iob, ac a welsoch ddiwedd yr Arglwydd: o blegid tosturiol iawn yw yr Arglwydd, a thrugarog;" Iago v. 11. Nid hoff gan Dduw grafu archollion a fyddont yn gwaedu: efe a w'yr fod enaid galarus yn agored i ddigalondid. Gwg neu edrychiad dig gan Dduw sy mor anwyl gan y Cristion, mae yn rhaid ei fod yn myned at y galon: gwir hyn, y mae Duw yn dadgan ei fod ger llaw, i adfywio y cyfryw; Eisa. lvii. 15; ac yn adn. 16, y mae yn rhoddi y rheswm: "Canys nid byth yr ymrysonaf, ac nid yn dragywydd y digiaf: o herwydd

yr ysbryd a ballai o'm blaen i." Ysbryd pwy a olygir yma? Nid ysbryd y pechadur rhyfygus; y mae efe yn myned yn mlaen heb ddolur arno; ond ysbrydoedd isel a drylliog. Megys y gwna tad sylwi ar duedd ei blant; un yn euog o fai, ac yn myned yn mlaen yn wrthryfelgar; un arall, ar ol tros-eddu, yn ei osod at ei galon, yn gwrthod lluniaeth, ac yn tynnu i ryw gongl i akaru o achos soriant ei dad. Mae y tad yn gweld hyn, a'i ymysgareodd yn teimlo yn ddwys o'i achos. Yn ddiau, pe na roddai efe ei blentyn allan o ofn, drwy ddadguddio ei gariad, byddai i ysbryd y cyfryw un ballu. Nid yw yn bosibl i gwelyd maith fod rhwng y fath dad a'r fath fab; un yn galaru am ei bechod, a'r llall uwch ben ei fab galarus.

(2il.) Gwna Duw hyn er tywallt cywilydd mawr ar Satan—y mawr enynnwr cweyrl rhwng Duw a'r enaid. Pa fath gywilydd a fydd ar y dyn a gynhyrfodd ymrafael rhwng gŵr a gwraig, tad a mab, pan welo y rhwyg wedi ei wneyd i fyny, a phawb yn ymosod i'w erbyn ef? Hi a aeth yn ddiwg o ochr Crist, pan aeth Pilat a Herod yn gyfeillion; ac a all hi fod yn dda ar Satan, wrth weled pob peth yn dda rhwng Duw a'i blant? Os bydd Esther mewn ffiafr, caiff Haman orchuddio ei wyneb. Yn wir, bydd i hyn orchuddio wyneb Satan â chywilydd, gwelod Cristion gwael, ei garcharor ef gynau, ac efe yn cael cenad i'w dlodi a'i ysbeilio, i'w demtio a'i derfysgu, ond yn awr yn eistedd yn llewyrch cariad Duw; tra mae efe fel llew rheibus, yn dig-lidio o herwydd colli ei ysglyfaeth.

(3ydd.) Ymgais Satan yw gwanhau ffydd y saint ar Dduw, ac yn oeri eu cariad at Dduw; ond sem a gaiff yn y ddau. O herwydd, yn gyntaf, y mae Duw yn troi eu temtiadau, iê, a'u cwmpiadau hwynt, i fod er cadarnhâd mwy i'w ffydd; yr hon, fel y goeden, a saif yn gadarnach o herwydd ei hysgwyd; neu fel y cawr Antëus, yr hwn y dychymmygir ei fod yn ei ymdrech â Hercules, yn cael cryfhâd trwy bob codwm. Am ffydd gau, anfyfnych yn wir y mae hi yn rhoddi ail gais, ar ol eu maeddu unwaith; ond y mae gwir ffydd yn codi ac yn ymladd yn wrolach, fel y gwelwn yn Pedr, ac esamplau ereill yn y Beibl. Mae profedigaeth i ffydd fel tân i aur: 1 Pedr. i. 7. Mae y tân, nid yn unig yn dangos pa le y mae y gwir aur, ond y mae yn gwneyd y gwir aur yn burach; y mae yn dyfod allan, fe allai, yn llai mewn swm a phwys, o herwydd ei wahanu oddi wrth y pridd a'r sorod oedd yn ei waelu, ond yn fwy ei werth a'i bris. Pan fyddo Satan dan attalfa, a'r Cristion yn rhodio dan dywyniadau dwyfol wen, a chalonogiad dwyfol gymmorth, dicheon ei ffydd ymdangos yn fawr, o'i chymharu âg un arall, lle y mae Duw yn ymguddio, a Satan yn cernodio; ond nid barn deg ydyw hon. Fel pe byddai i ni, wrth wneyd prawf pa un yw y mwyaf

o ddau ddydd, fesur un yn noeth, a'r llall dros ei ddillad; neu fel pe byddai i ni, wrth gyd brisio dau ddarn o aur, bwyso un gyda y sorod a'r anmhuredd o'i amgylch, a'r llall ar ol ei buro oddi wrth y rhai hyn yn y tân. Mae gan ffydd, cyn ei phrofi, lawer o sothach deithr yng nglyn wrthi, ac yn myned am ffydd; ond pan ddelo profiad, fe ddaw y rhai hyn i'r amlwg. Yn awr, mae y Cristion yn teimlo llygredd yn ymgynhyrfu oedd fel yn farw o'r blaen. Yn awr, y mae cwnmwl yn codi rhwng yr enaid a siriol wyneb Duw: y teimlad o'r olaf, a'r ychydig deimlad o'r llall, oedd o'r blaen yn dal ei ffydd i fyny. Bellach, ar ol pigo y pledrenau hyn, y mae yn dyfod i ddysgu y dnyrdod cywir yn y gelyfddydd nefol hon o nofio ar yr addewid. Ni bydd ganddo ddim arall i'w ddal i fyny ond hono. Ac y mae ychydig o hyn yn dwyn ynddo fwy o natur "gwerthfawr ffydd" na'r lleill i gyd. Ie, y mae fel dymraid pobl Gideon, yn gryfach, pan fyddo yr holl gyfranogwyr hyn o ddeutu ffydd wedi eu hanfon ymaith, na phan oeddynt yn bresennol. A dyma'r cwbl o ennill y diafol. Yn lle dinystrio ffydd y Cristion, fel y mae ei gais, y mae efe yn achlysur o'i phuro; ac wrth hynny, o chwaneu at ei nerth.

(4ydd.) Y mae cariad saint temtiedig yn cael ei ennyn at Grist trwy eu temtiadau, a'u maeddiad gan demtasiynau. Yn y gyrch, fe allai yr ymddengys megys lleithiad ar eu cariad, fel pan gyntaf y taenellir dwfr ar y tân; ond pan fyddo yr ymgyrch ychydig drosodd, a'r Cristion wedi dyfod ato ei hun, tyn ei gariad at Grist allan fel fflam gref. Iaf. Y cywilydd a'r tristwch, y rhai y mae yn rhaid i ddyng rasol eu teimlo yn ei fynwes am ei gamymddygiad tra yn ei demtasiwn, a'u cynnyhyrfant ef i ddadgan ei gariad at Grist uwch law rhai ereill. Dangosir hyn mewn modd hyfryd yn y ddyweddi; yr hon, wedi i gyrch oerllyd ei hafiechyd, a grym y demtasiwn fyned ymaith, sydd yn ymgynhyrfu i'r byw: yr oedd ei chlwyf dioglyd wedi troi yn glefyd cariad, ac y mae hi yn ei gael yn beth mor anhawdd eistedd bellach, ag oedd o'r blaen iddi gyfodi. Nis gall orphwys mewn un man heb olwg ar ei Hanwilyd, ond rhedeg ac ymofyn â phawb a gyfarfyddai am dano ef. Ac o ba le y daeth yr angerdd hwn o sel? Yr hyn a fu yn achlysur o'r cwbl oedd ei hymddygiad anuffudd at ei Phriod. Gan mor angharuaid oedd ei hymadawiad âg ef, y mae wedi adgofio yr hyn a wnaethai, ac yn brysiu ymaith am gymmodiad. Y mae y pechodau a wnaed cyn tröedigaeth yn effeithio cymmaint ar enaid grasol, nes bydd y meddyliau am danynt, er eu maddeu, o hyd yn dryllio ac yn toddi y galon i dristwch, fel y gwelwn yn Mair Magdalen, ac yn symbylu yn mlaen i flaenu ar ereill mewn sel dros Dduw, fel y gwelwn yn Paul. A pha faint mwy y gwneir i galon

sant—yr hwn, ar ol cydnabyddiaeth felus â Christ, sydd yn codi sawdl yn erbyn y fynwes y bu yn gorwedd ynddi—alaru, ie, ym-doddi megys i gynnifer defnydd o ddwfr, ac y bydd i'r tristwch hwnw ei gynnhyrfu i wasanaethu Duw yn fwy nag ereill? Nid oes un plentyn, yn y teulu oll, mor uffudd a hwnw a ddychwelwyd oddi wrth ei wrthryfel. 2il. Megys y bydd i'w gywilydd ei hun, felly y bydd i'r profiad o gariad Crist, a fydd gan y cyfryw uwch law ereill, beri chwaneuad i'w gariad. Y mae cariad Crist yn danwydd i'n cariad ni. Yr hyn a roddodd fod, a rydd faeth; ac fel y mae yn rhoi bod, y mae yn peri tyfiant; y mae yn fam ac yn fammaeth i'n cariad ni. Po fwyaf y rhoddo Crist ei gariad allan, mwyaf o wres a gaiff ein cariad ni; ac yn nesaf at gariad Crist yn marw, nid oes un mwy na'i gariad cynnorthwyol mewn profedigaeth. Ni fedd y fam un amser y fath fantais i ddangos ei serch at ei phlentyn a phan y byddo mewn caledi—yn glaf, yn dlawd, neu yng ngharchar; felly, nid oes i Grist y fath gyfle a phan y byddo ei blant dan deimlad, ie, dan faeddiad, gan brofedigaeth—pan fyddo ei blant ef yn gorwedd yng ngharchar Satan, yn gwaedu gan archollion eu cydwybodau; dyma y cyfie a gymmer efe i roddi prawf o'i dnyrwech calon yn tostaro, o'i ffyddlondeb yn eiriol drostynt, o'i ofal yn anfon cymmhorth iddynt, ie, o'i anwyl serch yn ymwelw i hwynt trwy ei Ysbryd, i'w diddauu. Yn awr, wedi i'r enaid gael ymwared o ryw brofedigaeth fawr, a darllen yr holl ystori am dani ynghyd, y mae yn gweled pa fath oedd ei wendid ei hun i wrthsefyll Satan; ie, ei anffyddlondeb yn cydsynio â Satan; yr hyn a allasai annog Grist i'w adael i gynddaredd Satan. Ac ar hyn, wrth weled ei ffolineb yn cael ei faddeu, a'i ddinystyr yn cael ei ragflaenu yn rasol; a hynny trwy law neb ond Crist yn brysiu i'w achub, megys Abisai yn cynnorthwyo Dafydd, pan feddyliodd y cawr hwnw ei ladd ef (2 Sam. xxi. 11); y mae yn rhaid i hyn beri i Grist fod yn dra anwyl gan yr enaid. Wrth ddarllen y fath hanesion, ni all y Cristion lai nag ymofyn—fel Ahasferus am Mordecai, yr hwn, trwy ddadguddio brad, oedd wedi achub bywyd y brenin—pa anrhydedd a wnaed i'w achubydd anwyl am hyn i gyd. Ac fel hyn y mae Crist, yr hwn y meddyliodd Satan ei gael allan o ffafir a hoffder yr enaid, yn cael yn y diwedd eistedd yn uwch a diogelach nag erioed yn serchiadau y saint.

PENNOD X.

Cymhwysiad byr o'r prwng mewn daru ddefnyddiad.

Defn. 1. Y MAE hyn yn rhoddi rheswm pa ham y mae Duw yn goddef i'w blant anwyl

syρθio i brofedigaeth; am ei fod ef yn gallu saethu yn drech na Satan â'i fwa ei hun, ac yn gallu ei drechu yn yr hyn y mae efe yn meddwl cael mantais ar y Cristion. Bydd Duw i'w ryfeddu gan ei saint mewn gogoniant; nid yn unig am ei gariad yn eu hachub, ond am ei ddoethineb yn y llwybr i'w haehub. Bydd cariad Duw yn eu haehub megys y gwpanaid felus yn y wledd briodas; a rhagoroll ddoethineb Duw yn dwyn hyn i ben fel y cywreinwaith harddaf yn addurno y gwpan. Yn awr, y mae doethineb yn fwyaf amlwg yn nattodiad cylymar, a threiddiad drwy anhawsdau. Po amlaf y croesrwyllau mewn gorchwyl, mwyaf y doethineb i gymhwyso agoriad i'r clo, neu i wneyd dewisiad o'r cyfryw foddion ag a fyddo yn ateb yn gymhwys i amryw brodau y ny clo. O fwriad, gan hyn, y mae Duw yn goddef i'r cyfryw demtasiynau i fod yn y ffordd, fel y rhyfedder yn fwy ei ddoethineb ef yn eu hagoryd hwy all, ac yn arwain ei sant i ogoniant yn y ffordd hono, ar hyd yr hon y meddyliodd Satan eu dwyn i uffern. Gorchymynair i Israel, "A chofia yr holl ffordd yr arweiniodd yr Arglwydd dy Dduw di ynddi y deugain mlynedd hyn, trwy yr amalweh, er mwyn dy gystuddio di, gan dy brofi, i wybod yr hyn oedd yn dy galon, a gedwit ti ei orchymynion ef, ai nis cedwit;" *Deut. viii. 2*. Gristion, bydd hanes y rhyfeloedd hyn yn felus i'w darllen yn y nef, er mai gwaith gwaedlyd yw eu hymladd ar y ddaear. Bu Cristion a Elias yn ymddiddan â Christ ar fynydd Tabor—rhagarwydd o'r cymmundeb hyfryd a fydd rhwng Crist a'i saint mewn gogoniant—a pha beth oedd testyn eu hymddiddan ond ei ddiodeffaint a'i farwolaeth ef: *Luc ix. 30, 31*. Y mae yn debyg na fydd ymddiddan am ein diodeffadau a'n temtasiynau ninnau yn destyn rhy wael i'r ystad wynfydedig hono. Yn wir, pe gadewid hyn allan, byddai yn anaf ar wyneb hardd gogoniant y nef. Pe gallai y damnedigion anghofio y ffordd yr aethant ar hyd-ddi i uffern—mor fynych y bu Ysbryd Duw yn ymhwedd—mor bell y trechwyd hwy gan ei argyhoeddiadau; ac mewn gair, mor aml y troion a'r dattroion, y posibilwydd a'r tebygolrwydd a fu ganddynt am y nef pan ar y ddaear; i.e., pe gallai ryw law fod mor fwyn a dileu y pethau poenus hyn allan o'u cof, byddai yn esmwythâd rhyfeddol iddynt. Felly, pe byddai yn bosibl i'r saint mewn gogoniant anghofio y ffordd yr aethant i ogoniant, a'r amryw beryglon ar eu ffordd oddi wrth Satan a'u calonau gwrthgiledig eu hunain, byddent yn golledwyr trwy hyn, i.e., a'u Duw hefyd—meddwl yr wyf, mewn golygiad ar ei ogoniant mynegol ef. Pa ogoniant ydyw hwnw y gwelir Duw ynddo, pan fyddo adeilad Sion ar ben—y gwisgoedd breinrol hyny o iachawdwriaeth a barant ei rhyfeddu

gan ddyinion ac angelion? Pa beth, heb law y gogoneddiad o'i holl briodoliaethau ef, yn ol yr hyn a wnaeth pob un tuag at eu hiachawdwriaeth hwynt? Yn awr, doethineb yw yr hyn y mae y creadur yn ymgoneddu yn benaf ynddo: dyna yr abwyd cyntaf a ddewisodd Satan, pan y gwnaeth i Efa goelio y byddai hi fel Duw mewn gwybodaeth a doethineb; ac am hyn, y mae Duw, er rhodd codwm mwy gwarthus i Satan, yn cenadu iddo arfer ei ystyriau a'i ddichellion yn tentio ac yn blino ei blant; yn yr hyn y mae efe yn cael y fantais fwyaf arnynt. Fel hyn, os gallaf ddywedyd felly, y mae ei ffordd ef i'w orsedd ei hun—lle yr eistedd ei ddoethineb, gystal a'i drugaredd, yn ei holl freinrol urddas—yn cael ei phalmantu â phenglogau diafliaid.

Defn. 2. Y mae hyn yn rhoddi cysur cryf i'n ffydd lesmeiriol ni ar ran eglwys Crist. Os ni wna ystyriau a dichellion yr holi ddiafiaid y tro i orchfygu dim ond y milwr unigol yng ngwersyll Crist, llawer llai y bydd iddo byth drechu yr holl fyddin. Dyddiau ydyw y rhai hyn o derfysgoedd mawrion yn y byd Cristionogol; ac ofn mwyaf calon rasol sydd am yr arch, rhag iddi syrthio i law y gelyn; a rhag—gyda'r nawdd yma—i ddinas Duw, sef ei eglwys, gael ei sathru tan draed balchder. Yr wyf fi yn addef fod Satan fel un yn ennill tir beunydd: y mae wedi ymnyddu yn rhyfedd i fynywesu ac egwyddorion llaweroedd; y rhai, trwy yr enw am eu proffes a'u sel, oedd wedi cyrhaedd, yn nhyb ereill, fel i'r rhes flaenaf o gedym Crist yn eu cenedlaeth. Mae efe wedi llygru yn drwm wirioneddau Crist, a dwyn anfri ar ei ordinhadau; a thrwy hyn, ac fel barn am hyn, y mae croth yr efengyl, i radd fawr, yn ddiffirwyth; ei phlant sydd yn hongian wrth ei bronau: nid ydynt yn cynnyddu mewn cariad a sancteiddrwydd, megys cynt, pan nad oedd y llaeth mor helaeth, nac ychwaith mor faethlawn. Y mae wedi cael mantais, trwy ymranadau y rhai duwiol, i galedu y rhai annuwiol i fwy o ddirnyg ar grefydd; a thrwy ryfeloedd gwaedlyd yn ddiweddar, y mae wedi berwi i fyny lid y dorf Babaid a halogedig i radd uwch nag erioed o greu-londeb a chynddaredd yn erbyn y gweddill bychan sy gan Crist. Felly, os byth y goddef Duw i'r cleddyf syrthio i'w llaw, y maent wedi eu dysgu a'u haddysgu i gigyddiaeth waedlyd ar ddefaid Crist uwch law eu hen dadau. Nid yw eu erib chwaith wedi ei dori, fel na fedrent obeithio am y fath ddydd; i.e., a chodi peth ym mlaen llaw, ac ar goel, o'r llawenydd hwnw, i ymgysuro ynddo, i aros i'r rhan arall ddyfod. Ac yn awr, Gristion, fe allai fod eu hyder hwynt, ynghyd â helynt derfysglyd achos Crist yn y byd, yn peri terfysg i th ysbryd am ganlyniad y rhiagluniaethau hyn sydd yn treiglo

uwch ein penau ni. Ond ymlonydda enaid truan, a gwybydd mai nid rhwng yr eglwys a Satan y mae'r ymladdfa, ond rhwng Crist ac ef. Y rhai hyn ydyw y ddau ymladdwr. Sefwch yn awr yn llonydd trwy ffydd, O, chwi fyddin y saint! edrychwch ar y Duw holl-ddoeth yn ymladd â diafol cyfrwys! Os ni byddwch chwi byw i weled diweddnod y terfysgiadau mawrion hyn, etto caiff cenhedaethau ar eich ol weled yr Hollalluog yn tori ymaith ben y Goliath hwn â'i gledd-yf ei hun, ac yn dal yr heliwr cyfrwys hwn yn rhwyd ei ddichellion ei hun. Y ffydd hono, sydd yn rhoddi mawredd a doethineb i Dduw, hi a fychana gyfrwysder Satan i fwgan du a diddym. "Y rhai digred a ofn-ant y diafol, megys llew; ond y rhai ffyddiog a'i mathrant fel prffyn," medd Bernard. Gwel, gan hyn, dy Dduw ar waith; ac addaw wrthyt dy hun y bydd yr hyn y mae efe arno yn ddarn rhagorol. Nis gall neb ei yru ef oddi wrth ei orchwyl. Curir y llywydd oddi wrth y llyw, ac ychydig a all efe wneyd mewn ystorm ond gadael i'r llong fyned gyda'r llif. Y pen saer, ni all weithio pan ddisgyno lleni'r nos; i.e., curir ef oddi ar ei adeilglwyd gan gawod o wlaw. Y cyfryw weithwyr ydyw y cynghorwyr doethaf, a'r tywysogion cryfaf ar y ddaear. Gall gwasgfa ddyfod pan y byddo mor ofer dywedyd, Cynnorthwya, O! frenin, ag a fyddai dyweyd, Cynnorthwya, O! gardodyn! Gall doethineb dyn fyned yn gydwastad â fflineb; ond byth ni bydd attalfa ar Dduw. Ni ddarfu i holl gynllwynion uffern na therfysgoedd y ddaear erioed gymmait ag ysgwyd llaw Duw, i anharddau yn llythren na llinell o'i waith ef. Dichon aneglurdeb ei ragluniaeth hongian llen o flaen ei waith, fel na allom ni weled yr hyn y mae yn ei wneuthur; ond yna, pan fyddo "tywyllwch o'i amgylch" yna, "cyfiawnder a barn yw trigfa ei orseddfainge ef;" *Salm* xevii. 2. O, Syrs, pa le y mae ein ffydd? Bydded Duw yn ddoeth, a dynion a diaflaid oll yn ffyliaid. Beth, er i ti weled megys Babel yn fwy tebyg i fyned i fyny na Babilon i gael ei bwrw i lawr, etto cred ti fod Duw yn gwneyd ei nesâd dirgelaidd, ac y bydd iddo daraw ei ysgolion yn ddisymmwrth ar ei muriau hi. Gâd fod gwirionedd yn garcharor gyda Ioseph, a chyfeiliornad yn ôr llys, a'i ben ef yn cael ei ddyrchafu trwy wên yr amseroedd; etto, ai nid wyt ti yn cofio mai trwy y carchar y mae y ffordd i ddyrchafiad gwirionedd. I.e., beth pe byddai yr eglwys fel Ionah ym mol y morfil—wedi ei llyngau i fyny, i olwg rheswm, gan gynn-ddaredd dynion? Etto, ai nid ydwyt ti yn cofio nad oedd grym yng nghylfa y morfil i gadw a difa y prophwyd? O! na fyddwch rhy brysur i gladdu yr eglwys cyn ei marw! Aroswech i Grist roddi prawf o'i ddawn ef cyn i chwi ei rhoddi i fyny; dygwch ef,

trwy eich gweddïau, at ei bedd, i lefaru y gair, "Tyred allan." Rhyfedd a fu ffydd y saint yn y cyfryw gyfyngder; megys ffydd Ioseph, yr hwn a wystlodd ei esgyrn yr ymwelai Duw â'i frodyr, gan erchi iddynt eu gosod lle yr oedd yn credu y caent ei dwyn allan o hono. Ieremiah, yntau, y mae yn prynu maes gan ei ewythr, ac yn talu yr arian am dano; a hyn pan oedd llu y Caldeaid yn gwarchau ar Ierusalem, yn barod i gymmeryd y ddinas, a'i ddwyn ef, gyda'r lleill, i Babilon, a hyn i gyd yn ol gorchym-myn Duw, fel y dangosai i'r Iuddewon, trwy hyn, mor ddiammheul yr oedd efe—yn y bwch cyfyng hwnw—yn credu yr addewid am eu dychweliad o gaethiwed: *Ier.* xxii. 6, 7, 8. Yn wir, y mae Duw yn cyfrif ei fod ef yn cael amharch dirfawr yn meddyliau ei bobl—pe byddai yn drai isaf ar faterion ei eglwys—os ni chymmerir ei air a'i addewid noeth ef fel sicrhâd digonol i'w cred hwynt am ei gwaredigaeth hi.

EPHESIAID VI. 12.

O blegid nid yw ein hymdrech ni yn erbyn gwaed a chnawd, ond yn erbyn tywysogaethau, yn erbyn awdurododau, yn erbyn byd-ol-gyfaudwyr tywyllwch y byd hwn, yn erbyn drygau ysbrydol yn y nefolion leoedd.

Y MAE y geiriau yn gyssylltiedig â'r rhai o'u blaen trwy y gair hwn, "o blegid," yr hwn sydd naill ai yn cyfeirio at y ddwy wers flaenorol (ac os yw felly, mae'n rheswm chwanegol i wasgu yr angenrhaid am wroldeb Cristionogol, *adn.* 10; ac am arfogaeth, *adn.* 11), neu ynte at y geiriau olaf yn *adn.* 11. Yno y mae'r apostol wedi canfod Satan yn elyn mawr y saint, ac y mae yn ei ddarlunio yn ol un briodoledd, sef ei ystryw cynllwynol; ac y mae yma yn ei ddynodi ym mhellach yn ei liviau priodol—nid i wahanu dwylaw y saint, ond i gynnhyrfu eu gofal, fel y byddai iddynt—wrth weled eu gelyn yn dyfod ym mlaen yn gorph cyflawn—sefyll mewn gwell trefn i dderbyn ei ymgyrch. Yma, wrth fyned heibio, sylwn ar symledd ac ymddygiad teg yr apostol. Nid yw efe yn bychanu nerth y gelyn, ac yn ei osod allan fel un gwael, megys yr arfera cadbeniaid i gadw eu milwyr ynghyd, trwy ddirio grym eu gwrthwynebwyr. Na: efe a ddywed wrthynt y gwaethaf yn gyntaf. Pe buasai i Satan osod allan ei allu ei hun, ni allasai efe hōni dim yn fwy nag a roddir iddo yma. Gwelwch yma y gwahaniaeth rhwng ymdriniaeth Crist a Satan â'u dilyn-wyr. Ni faidd Satan adael i bechaduriaid wybod pwy yw y Duw y maent yn ymladd yn ei erbyn: byddai hyn yn ddigon i fagu terfysg yng ngwersyll y diafol Eneidiau ffol, y maent yn cael eu tyuu i'r maes trwy

hanes gau am Dduw a'i ffyrdd, a'u cadw yno trwy gelywyddau a chwedlau teg; ond nid yw Crist yn ofni dangos eu gelyn i'w saint yn ei holl allu a'i uchafiaeth, am fod gwendid Duw yn gryfach na holl alluoedd uffern.

PENNOD I.

Yn dangos fod bywyd y Cristion yma yn ymdrechfa barhaus â phechod a Satan, ac anamledd y rhai sydd yn wir ymdrechwyr; ac hefyd, y modd y mae i'r gwir ymdrechwyr drin eu hymladdfa.

MAE y geriau yn cynnwys darluniau bywyg o ryfel gwaedlyd a pharhaol rhwng y Cristion a'i elyn anghlymmodol. Ynddynt, gallwn sylwi—

1. Ar ystâd y Cristion yn y bywyd hwn, yn cael ei gosod allan yn y gair hwn—"ymdrech."

2. Yr ymosodwyr sydd yn ymddangos mewn arfau yn erbyn y Cristion. Darlunir hwynt, yng nghyntaf, yn nacaol, "Nid gwaed a chnawd;" neu, yn hytrach yn gymmhar-iaethol—nid gwaed a chnawd yn benaf. Yn ail, yn bennodol, "Ond yn erbyn tywysog-aeathau, awdurdodau," &c.

DOSB. I.

(1af.) Y mae y mater cyntaf, ymdrech, neu ystâd ymdrechadol y Cristion yn y bywyd hwn, yn beth i sylwi arno yma, mewn ystyr pedwarplyg.

Yng nghyntaf, Y rhyw o ymladdfa wrth ba un y gosodir allan yma ystâd y Cristion; a hwn, er ei arfer weithiau am ymdrech o ddiferywch ac ymloniad, etto, y mae yma i ddangos llymder ymladdfa y Cristion. Y mae dau beth mewn ymdrech a'i gwna yn ymladdfa lymach nag ereill. Yn gyntaf, "ymdrech;" nid yw yn air priodol am ymladd yn erbyn llw; ond pan fyddo un gelyn yn didol un arall, ac yn ymosod ei hun yn ei erbyn, a phob un yn egnïo â'i holl rym a'i nerth yn erbyn y llall, megys Dafydd a Goliath, tra yr oedd y lluoedd oll yn sefyll fel o'u hamgylch, i weled diwedd gwaedlyd yr ymladdfa. Yn awr, y mae hyn yn fwy gerwin nag ymladd mewn llw. Yno, er i'r frwydr fod yn llem a maith, nid yw y milwr o hyd yn ymladd, ond yn cilio yn ol wedi gollwng ei ergyd, ac yn cael ei anadl dros ychydig; i.e., fe allai y caiff ddiange heb areholl na dyrnod, am nad ydyw y gelynyon yno yn annelu at y dyn hwn neu arall, ond at y pentwr oll. Eithr mewn ymdrech, ni all dyn ddiange felly; ond, gan mai efe yw gwrthddrych pennodol lliid y gelyn, y mae yn rhaid iddo gael ei ysgytian a'i brofi i'r byw. Yn wir, y mae y gair Groeg (*pale*) yn arwyddo y fath ymryson ag a bair ysgydwad trwm. Y mae gan Satan, nid yn unig lid cyffredinol yn erbyn byddin y saint, ond dygasedd i'rh erbyn di, Ioan, a thithau, ond dygasedd i'rh erbyn di, Ioan, a thithau, Mair; efe a'rh ddiol di allan fel ei elyn.

Ni a gawn, pan oedd Iacob ei hunan, ymdrechodd gŵr âg ef. Megys y mae yn hoff gan Dduw ddal cymmundeib neillduol gyda phob un o'i saint; felly, gall y diafol gael ymbrawf law-law â'r Cristion, pan ei caffo ar ei ben ei hun. Fel yr ydyw ni yn colli llawer o gysur pan fyddom heb gymmlwyso addewid a rhagluniaeth Duw at ein personau a'u cyflyrau neillduol ni. Y mae Duw yn fy ngharu i, yn maddeu i mi, ac yn gofalu am danaf fi. Ni wna y dwfr yn nyfr-lestri y dref les i mi, os byddaf yn fyr o bibell i'w ddwyn i'm dyfr-gist i. Felly, y mae yn attal ein gofal a'n gwyliadwriaeth, pan fedd-lyliom am lid a chynddaredd Satan, fel yr annela yn erbyn y saint yn gyffredinol, ac nid yn fy erbyn i yn bennodol. O! mor ofalus fyddai enaid mewn dyledswydd, pe byddai ganddo, wrth fyned i'r eglwys neu i'w ystafell, y fath fyfyrdod difrifol a hyn. Y mae Satan yn awr wrth fy sodlau i, i'm rhwystro i yn fy ngwaith, oddi eithr i fy Nuw estyn cymmorth.

(2il.) Y mae yn ymladdfa agos. Y mae byddinoedd yn ymladd o beth pellder; ond ymdrechwyr yn ymafyd law-law. Gellir gweled saeth a ergydier o bell, a'i gochel; ond pan fyddo y gelyn â'i afael am un nid oes gocheliad, ond naill ai gwrthsefyll yn wrol, ai syrthio yn warthwus wrth droed y gelyn. Y mae Satan yn dyfod yn agos, i.e., y tu mewn i'r Cristion, yn ymafyd hyd yn oed yn ei gnawd a'i natur lygredig, ac fel hyn yn ei ysgytian.

(3ydd.) Cyffredinolrwydd yr ymladdfa—"ein hymdrech ni." Mae hyn yn cynnwys pob Cristion. O'fwiad, fel y gellwch weld, y mae yr apostol yn newid y rhagenw *chwri*, yn y wers o'r blaen, i *ni* yn hon, er cymmeryd ei hun i mewn gystal a lwythau. Fel pe dywedasai, y mae y cwerly â phob sant. Nid yw Satan yn ofni rhuthro ar y gweinidog, nac ychwaith yn ddiystyr ganddo ymladd â'r sant gwaelaf yn y gynnulleidfa. Y mae yn rhaid i bawb, mawr a bychain, gweinidog a phobl, ymdrechu: nid un rhan o fyddin Crist ar y maes, a'r llall yn eu gorphwysfaoedd, lle ni ddaw un gelyn. Y mae yma ddigon o elynion i ymladd â phawb ar unwaith.

(4ydd.) Parhâd yr ymladdfa hon; ac y mae hyn yn amseriad y gair. Nid, yr oedd ein hymdrech ar ein trôedigaeth gyntaf, ond wedi darfod yn awr, a ninnau allan o'r per- ygl; ac nid, fe fydd arnon ymdrech, pan ddel clefyd, a phan ddel angau; ond, y mae ein hymdrech—y mae y gelyn o hyd o fewn golwg, i.e., o fewn gafael â ni; y mae drwg o brofedigaeth beunydd; yr hyn—fel rhwymau Paul—sydd yn ein haros pa le bynag y delom. Felly, y pethau hyn ynghyd a gyrhaeddant i'r swm a'r pwng hwn.

DOSB. II.

Athr. Y mae bywyd y Cristion yn ym-

drech barhaus. Y mae efe, fel y dywed Ieremiah am dano ei hun, wedi ei ymddwyn yn ŵr ymryson; neu, y mae gair y prophwyd wrth Asa yn ddywediad perthynol i bob Cristion—"Rhyfeloedd fydd i'rh erbyn o hyn allan;" o dy enedigaeth ysbrydol hyd dy farwolaeth naturiol; y' awr gyntaf y gosodaist dy wyneb tua'r nef, hyd oni osodi dy droed yn y nef. Ymadawiad Israel o'r Aipht ydoedd, mewn ystyr efengylaidd, ein mynediad ni i'r maes yn erbyn pechod a Satan; a pha bryd y cawsant hwy heddwch? Nid hyd oni roddasant eu banerau i gadw yng Nghanaan. Nid oes un cyflwr llonydd i'r Cristion yma isod. A ydyw yn hawddfyd, neu adfyd? Y mae gwaith i'r ddwy law—cadw balchder a diofalwch i lawr yn y naill, a ffydd ac amynedd i fyny yn y llall. Nid oes un man y gall y Cristion ei alw yn dir rhyddfreinol. Yr oedd Lot yn Sodom mewn ymdrech â'i thraigolion drygionus hi; yr oedd yn poeni ei enaid cyfiawn trwy eu hanniwair ymarweddiad hwynt. A pha fodd yr ymdarawodd efe yn Soar? Onid yw ei ferched ei hun yn dwyn gwreicionen o dân Sodom i'w wely ef ei hun, nes peri iddo ennyn gan drachwant? Y mae rhai wedi meddwl, pe baent yn y cyfryw deulu, dan y gyfryw weinidogaeth, ac allan o'r cyfryw achlysuron, na chaent byth eu tentio fel y cânt yn bresennol. Yr ydwyf yn addef fod newid awyr yn help fawr i natur wan; a'r rhai hyn, a enwyd yn awr, fel tir manteisiol yn erbyn Satan; ond a ydwyf ti ym meddwl ffoi o olwg Satan fel hyn? Na, pe cymmerit ti adenydd y wawr, efe a hedai ar dy ol. Gall y rhai hyn beri iddo newid ei ddull yn tentio, ond nid rhoddi i fyny ei fwriad. Tra y byddo ei hen gyfaill yn fyw oddi-mewn, bydd yntau yn curo wrth y drws allan. Ni ellir cyflawni un ddyledswydd heb ymdrechu. Y mae ar y Cristion gymmaint o eisieu ei gleddyf a'i erfyn gweithio. Y mae iddo ymdrechu yn erbyn corph o gnawd. Y mae hwn i'r Cristion, mewn ddyledswydd, fel yr anifail i'r teithiwr: hebddo, nis gall ymdaith; a chyd âg ef, y mae ar ei lawn waith. Os caiff y cnawd ei gadw yn uchel a heinf, yna y mae yn dryhyll, ac nid ufuddhâ; os yn isel, yna y mae yn wan, ac yn blino yn fuan. Fel hyn, nid ydyw y Cristion yn ennill ond ychydig o dir, am fod yn rhaid iddo gadw camrau gyda'i gorph gwanlyd. Mae efe yn ymdrechu â chorph o bechod, yn gystal ag un o gnawd—mae hwn yn tuchan ac yn grwgnach pan fydd yr enaid yn myned at ryw ddyledswydd. Weithiau, y mae yn cadw y Cristion oddi wrth ddyledswydd, fel nas gall efe wneyd yr hyn a ewyllysiai. Fel y dywedodd Paul, "Mi a ewyllysiais ddyfod unwaith ac eilwaith; eithr Satan a'm lluddiodd." Gall y Cristion ddywedyd, mi a ewyllysiais weddio y pryd a'r pryd, a myfyrio bryd arall ar y gair a

glywais, a'r trugareddau a dderbyniais; ond y gelyn hwn a'm lluddiodd. Y mae yn wir mai gras sydd yn rheoli yn y cyfryw enaid; etto, fel y gwna plant ysgol ddwyn eu cyfle pan fyddo eu meist'r ym mhell i'w gau ef allan, a bod eu hunain yn feistriaid mewn afreolaeth, er iddynt gael eu chwipio o'r achos ar ol hyny; felly, y mae y rhan ddiadgenhedledig yn cymmeryd y fantais—pan na byddo gras ar ei wylhadwriaeth—i aflonyddu ei lywodraeth, a'i gau allan o ddyledswydd. Hyn, er iddo beri i'r enaid fod yn fwy llym mewn marw'hâd, etto y mae yn costio peth ymdynu cyn y gallo gras ail ennill ei orsedd; ac am hyn o bryd, y mae llygredd yn drwm wrth y Cristion ar ddyledswydd; a'r hyn a wna efe, ni fedr ei wneyd fel y dymunai. Y mae y gelyn hwn yn hacru am lythyren yn ei gopi wrth ei ysgwyd â meddyliau anaddas. Pan y mae y Cristion yn gweddio, yna y mae Satan a'r cnawd yn dwdro; y mae efe yn llefain, a hwythau yn uwch i roddi taw arno, neu i fodd'i ei gri ef. Fel hyn, ni a welwn, y mae ymosod ar y Cristion o bob tu gan ei elyn. A pha fodd y byddai yn amgen, pan y mae hadau rhyfel wedi dwin-wreiddio yn naturiaeth y ddau, y rhai ni ellir byth eu dadwreiddio hyd oni pheidia y diafol a bod yn ddiafol, pechod a bod yn bechod, a'r sant a bod yn sant? Er y gall bleiddiaid chwyrnu ar eu gilydd etto, hwy a ymlonyddant er hyn yn fuan, am nad ydyw y cweryl yn eu natur hwynt; ond nis gellir byth gwneyd y blaidd a'r oen yn gyfeillion. Pechod a drachwanta yn erbyn gras, ac fe ï gras yn groes i bechod, pa bryd bynag y cyfarfyddont.

DOSB. III.

Defn. 1. 1af. Gall hyn fod er cerydd i'r rhai sydd yn ymdrechu: ond yn erbyn pwy? Yn erbyn Duw: nid yn erbyn pechod a Satan. Gwyr hyfion yn ddiâu yw y rhai hyn a feiddiant wneyd prawf o'u nerth yn erbyn yr Hollalluog; etto, y mae y cyfryw rai â gwae wedi ei dadgan i'w herbyn: "Gwae a ymryson â'i luniwr;" *Esa.* xlv. 9. Hawdd yw dywedyd pwy o'r rhai hyn a gaiff y gwaethaf. Pa beth a wna hwn ond tori ei grimmogau a fyddo yn eu curo yn erbyn craig? Y fath frwydr olygus sydd yn debyg o fod, pan ymryson drain a thân, â sofr â fflam! Ond pa le y mae y cawri hyny yn byw a feiddiant roddi eu hunain yn y rheng yn erbyn y Duw mawr? Beth yw eu hennwau, fel yr adnabyddom ac y nodom hwynt fel creaduriaid sydd tu hwnt i bawb erill yn annheilwng o fyw? Gwylia, O! tydi, yr hwn wyt yn gofyn, rhag fod y dyn truenus yr wyt megys yn ei ffeiddio i'w gael yn dy ddillad di dy hun. Iudas oedd y bradwr, er na atebai efe i'w enw, ond ei wthio draw a hyn, "Ai myfi yw efe, Athraw?" Ac felly y gelli dithau fod yn ymladdwr yn erbyn

Duw. Y mae y galon yn dwylloddrus. Hyd yn oed Dafydd dduwiol, er fod ei ddiogder mor boeth yn erbyn y gŵr cyfoethog a ddyg-asai oenig y gŵr tlawd fel y selioedd y peth â llaw na chai y dyn fyw a wnaethai hyn; etto, yn y diwedd, gwelwyd mai efe ei hun oedd y gŵr, fel y dywedodd y prophwyd wrtho: 2 *Sam.* xii.

Yn awr, y mae dwy ffordd yn y rhai y mae dynion yn ymdrechu yn erbyn Duw: 1. Pan ymrysonant yn erbyn ei Ysbyrd ef. 2. Pan ymrysonant yn erbyn ei rag-luniaeth.

(1af.) Pan ymrysonant â'i Ysbyrd ef. Ni a ddarllenwn am yr Ysbyrd yn ymryson â'r creadur: "A dywedodd yr Arglwydd, Nid ymrysona fy Ysbyrd i â dyn yn dragwydd, o blegid mai cnawd yw efe, a'i ddyddiau fyddant ugain mlynedd a chant;" *Gen.* vi. 3. Yna, nid oedd yr ymrysonfa mewn digder a lliid i'w dyfetha hwynt; hyny a allasai Duw ei wneyd heb na chynnwrf nac ymdynu; ond ymdrech ac ymrysonfa dirion â dyn. Yr oedd yr hen fyd yn rhedeg ar ryw hynt orwyllt i uffern; y mae yntau yn anfon ei Ysbyrd i sefyll o'u blaen, a thrwy ei gynghorion a'i geryddon i roi cynnyg, megys ar eu hattal a'u galw yn ol. Fel pe byddai i un, wrth weled un arall yn barod i wneyd niwed iddo ei hun, ymdrechu i gael y gylllell o'i law â'r hon y mae efe yn ceisio gwneyd y drwg; neu fel pe byddai un a chanddo bwrs o aur yn ei law i'w roddi, yn canlyn un arall gyda phob math o erfyniadau, gan ymdrechu âg ef ar iddo ei dderbyn a'i gymmeryd. Ymrysonfa o'r fath yna yw hon o eiddo yr Ysbyrd gyda dynion. A chwanta-dynion—offer gwaedydd marwolaeth—â'r rhai y mae pechaduriaid yn lladd eu hunain, y mae ymdrechriad yr Ysbyrd Glân, trwy gynghorion ac erfyniadau tacrion am eu cael allan o'u dwylaw. Hefyd, Crist a'i ras, a bywyd tragwyddol, y mae ei ymrysoniad ef am beri i ni eu derbyn o law trugaredd Duw. Ac am wrthwynebu yr Ysbyrd yn ymryson fel hyn gyda hwynt y mae pechaduriaid yn cael eu cyfrif yn gyflawn yn ymladdwyr â Duw: "Chwi rai gwar-galed a dienwaededig o galon ac o glustiau, yr ydych chiwi yn wastad yn gwrthwynebu yr Ysbyrd Glân: megys eich tadau, felly chwithau;" *Act.* vii. 51. Yn awr, y mae ymrysonfa ddyblyg o eiddo yr Ysbyrd; ac felly o'r eiddom ninnau yn ymdrechu i'w erbyn. 1af. Y mae yr Ysbyrd yn ymryson â phechaduriaid trwy ei genadon. Gan mai ar eu neges ef y deuant, ac nid eu neges eu hunain, mae efe yn gwirio y cynghorion, y ceryddon, a'r annogaethau ffyddlawn a roddant hwy, fel ei weithred ei hun. Yr hyn a lefarodd Noah, pregethwr cyfiawnder, wrth yr hen fyd, y mae yn cael ei alw yn bregethiad yr Ysbyrd: 1 *Pedr.* iii. 19. Y boen a gymmerodd Moses, Aaron, ac ereill o weision Duw,

i addysgu Israel—fe'i cyfrifir yn addysg yr Ysbyrd: *Neh.* ix. 20. Ac felly, pan wrthodir y gair a gyhoeddir gan weinidogion Duw yn ei enw ef, ac y cyfodo pechaduriaid eu sodlau mewn diystyrwch yn erbyn y cynghorion ffyddlawn a roddant, yna y maent yn ymryson â'r Ysbyrd, ac yn ymdrechu yn erbyn Crist, mor wirioneddol a phê buasai efe yn bersonol ei hun yn y pulpud, ac yn pregeth y bregeth iddynt. Pan ddal Duw i gyfrif â phechaduriaid, fe welir hyn. Y pryd hyny, rhydd Duw adfywiad i'ch cofon, gan eich dwyn ar gof yng nghylch ei ymrysonfa â chwi, ac am eich gwrthwynebiad anhirion iddo. "A pha un bynag a wnelont ai gwrandaw ai peidio (canys tŷ gwrthryfelgar ydynt), etto, cânt wybod fod prophwyd yn eu mysg hwynt;" *Ezec.* ii. 5. Yn bresennol, y mae dynion yn anghofio yn fuan pwy a pha beth a glywant. Gofynwch iddynt pa beth a wasgwyd at eu cydwbyod yn y bregeth a'r bregeth—y maent wedi anghofio; neu pa wirioneddau gwerthfawr a osodwyd allan mewn un arall—y maent wedi eu colli. Da fyddai iddynt, pe na byddai eu cofon ddim gwell mewn byd arall: fe roddai hyny esmwythâd nid bychan ar eu pocnau hwynt. Ond yna hwy a gânt wybod fod ganddynt brophwyd wedi bod yn eu mysg, a pha fath werth oedd ganddynt yn eu dwylaw, er ei fod yn nwyllaw ffyliaid. Hwy a gânt wybod yr hyn a fu efe, a'r hyn a lefarodd (er i fil o ffyniddeodd fod wedi myned heibio), mor newydd a phe buasai wedi bod neithiwr. Po fwyaf gwresog a thosturiol a fu y gweinidog yn ei swydd, a pho fwyaf llafrus a grymus, mwyaf y ceir eu pechod hwynt yn mynu diange oddi ar y fath drais sanctaidd a gynnygiwyd i wneuthur lles iddynt. Yn sier, fe fyn Duw rywbeth am chwys, fe am fywydau, ei weision, a wisgwyd allan wrth ymryson â'r cyfryw wrthryfelwyr. Fe allai, hyd yn hyn bechaduriaid, fod eich ffurfafen yn oleu, heb gwmml i'w weled yn darogan ystorn; ond gwybyddwch, fel yr arferwch ddywedyd, nad yw y gauaf yn pydru yn y cymmlau: chwi a'i cewch o'r diwedd. Y mae Duw yn rhwym i wneyd yn dda bob bygythiad a gyhoeddodd eich gweinidogion ffyddlawn i'ch erbyn allan o'r gair: "Yr hwn a gyflawna air ei was, ac a gwblhâ gynghor ei genadon" (*Esa.* xliv. 26); a hyn mewn barn yn erbyn pechaduriaid, gan gyflawni y bygythion, yn gystal ag mewn trugaredd yn cwblhau yr addewidion, y rhai y maent hwy yn eu dadgan fel cyfran ei blant. Ond bydd yn ddigon buan gofyn i'r cyfryw ar eu claf-wely, neu yn awr angy, ai ni fu geiriau yr Arglwydd, a draddodwyd gan eu pregethwr ffyddlawn, yn dal gafael ynddynt. Y mae rhai gyda dychryn wedi addef eu bod: fel yr Iuddewon; "Megys y meddyliodd Arglwydd y lloedd wneuthur i ni, yn ol ein fyrd, ac yn ol ein gweithred-

oedd ein hun, felly y gwnaeth efe â ni;" *Zech.* i. 6.

(2il.) Y mae yr Ysbryd yn ymryson â dynion yn fwy digyfrwng, pan y gwnelo ei dumewnlol nesad at eu cydwybodau, gan ddadleu yr achos â hwynt yn eu mynwesau eu hunain. Y mae efe weithiau yn dangos i ddyinion eu pechodau yn eu lliwiau gwaedlyd, ac i ba le y maent yn sier o'u dwyn, os na edrychant ati mewn prydd: a hyn a wna efe mor eglur nes yw y creadur, weithiau, fel yn arogl y tân a'r brwmstan o'i amgylch, ac mewn rhyw radd o uffern eisoes. Bryd arall, efe a dery i ymddyddan ac ymhŵedd â hwynt, gan wneyd cynnygiadau grasslaw i'r pechadur, os efe a ddychwel wrth ei gerydd. Mae yn dangos gras yr efengyl, ac yn agor drws o obaith am adferiad, i.e. yn taraw i ddeisyf ac erfyn arno i dafu ei arfau gwrthryfel i lawr, a dyfod am fywyd at Grist, yr hwn y mae ei galon mewn agwedd barod i dderbyn a chofseidio y cais cyntaf a wna y pechadur dychweledig am drugaredd. Yn awr, pan y byddo Ysbryd Duw yn dilyn y pechadur o le i le, ac o bryd i bryd, gan gymmhell y cyfryw gymnygion, ac adnewyddu ei hen gais, a'r creadur yntau yn diange allan o law yr Ysbryd sy fel hyn yn ymryson âg ef, pan fyddo y mater heb ei ddwyn i ben, a'r dyn mor bell ag erioed oddi wrth ymwrthod â'i chwantau, a syrthio mewn cariad â Christ—dyma wrthsefyll yr Ysbryd yn ei wyneb; ac y mae hyn yn dwyn ynddo gymmaint o ddrwg, i.e. lle nad ydyw yn barhaol, nes y bu aml enaid truan iseledig dan y fath drallod gan yr arswyd o'i herwydd fel nas gellid am hir amser beri iddynt goelio mai nid hwn oedd y pechod anafdeudwy. Edrychwch, gan hyny, bechaduriaid, pa fodd yr ymddygwch at yr Ysbryd, pan ddelo ac y curo wrth ddrws eich calonau. Agorwch pan guro efe, ac efe a ddaw i mewn atoch; a chwi a gewch ei gymdeithas felus. Os ei wrthsefyll a wneuch, nid oes addewid y cura efe drachefn. Ac os unwaith y paid efe âg ymryson â thi, ddyd annedwydd, yr wyt yn golledig byth; yr wyt yn debyg i long wedi ei thafu gan y tonau i ryw greigle uchel, lle nad yw y llanw ddim yn ei chyrrhaedd un amser i'w dwyn ymaith. Ti a elli ddyfod dan y gair, ymarfer âg ordinhad- au ereill, etto yn ofer. Yr Ysbryd ynddynt hwy ydyw y llanw a'r gwynt hefyd, i roddi yr enaid i nofio, a'i ddwyn ym mlaen; ac hebddo ef, y mae yn gorwedd fel llong ar dir sych, yr hon ni syffl.

(3ydd.) Yr ydym yn ymryson â Duw pan yr ymrysonom â'i ragluniaeth ef; a hyny drwy ddrwy ffordd: 1af. Pan fyddom yn an- foddolawn i'w drefniad rhagluniaethol ef ar- nom; pan fyddo ei waith ef yn tori i ni ein rhan heb fod wrth ein bodd, ond rhyw wrth- ddadleu genym yn erbyn ei driniaethau ef arnom; neu o leiaf, rhyw fwngial gyda yr

ynfyd yn ein calonau; yr hyn y mae Duw yn ei glywed mor eglur ag yw dyn ein geiriau. Y mae Duw yn cyfrif ein bod yn dechreu ewerylu âg ef pan na byddom yn ymfodd- loni yn, ac yn dywedyd Amen gyda ei rag- luniaeth ef, pa beth bynag a fyddo. Y mae efe yn ei alw yn "ymryson â'r Hollalluog" (*Iob* xl. 2); i.e. yn argyhoeddi Duw. Ac yn sier, gŵr hyf yw efe a faidd feio ar Dduw, a chodi dadl yn erbyn y nef. Y mae Duw, yn yr adnod uchod, yn galw ar y neb a wna hyn i ateb dan ei berygl: "A argyhoeddo Dduw, atebed i hyny." Yr oedd yn llawn bryd i Iob dewi, wrth glywed pa ystyr y mae Duw yn ei roi ar y geiriau anwagelog oedd wedi dyferu oddi wrtho yng nghyngi ei ysbryd, a phoethder ei ddiodeffallau: "Ai dysgeidiaeth yw ymryson â'r Hollalluog? a argyhoeddo Dduw, atebed i hyny." Wr da, mor syn yw efe! Y mae efe yn llefain, "Wele, gwael ydyw; pa beth a atebaf i ti? mi a osodaf fy llaw ar fy ngenau;" *adm.* 4. Os gwna Duw ond maddeu yr hyn a aeth heibio, ni chaiff efe glywed y fath iaith mwyach. O, wŷr! gochelwch yr ymryson hwn, uwch law pob un arall. Anghysurus yw ymrafael â phwy bynag y syrthiom allan, cymmydogion neu gyfeillion, gŵr neu wraig, plant neu weision; ond gwaethaf o'r cwbl â Duw. Os na all Duw dy foddhau, ond bod dy galon yn codi yn ei erbyn ef, pa obaith sydd y bydd i ti ei foddio ef, yr hwn ni chymmer ddim yn garuaidd gan ddyd sy'n ddiog wrtho? A pha fodd y cedwir cariad at Dduw mewn calon anfoddog, sydd yn wastad yn mwngial i'w erbyn? Nis gall cariad feddl dim drwg am Dduw, na godd- ef clywed gair drwg am dano; ond y mae yn rhaid iddo gymmeryd plaid Duw, megys Ionathan o ochr Dafydd, pan oedd Saul yn dywedyd yn ddrwg am dano; a phan na chaiff ei wrandaw, fe gyfyd fel yntau, ac a ä ymaith. Pan yn gystuddiol, fe oddef cariad i ti ruddfan, ond nid grwgnach. Os dilwythi dy ysbryd gorthrwydd i fynwes Duw trwy weddi, gan ymdrechu âg ef yn ymostyngol ar dy liniau, y mae cariad o dy blaidd; ac fe a'th helpia at y dadieun goreu a elli eu harfer o flaen Duw; ond os rhoi di ollyng- iad i'th nwydau ariach, a dangos ysbryd ter- fysglyd yn erbyn Duw, mae hyn yn ei frathu at y galon.

(4ydd.) Yr ydym yn ymryson yn erbyn rhagluniaeth, pan yn amriwygiedig dan am- ryw drefniadau Duw tuag atom. Mae gan ragluniaeth lais, pe byddai genym ni glust— dylai trugareddau dynu, a chystuddiau yru. Yn awr, pan na byddo moddion teg na hagr yn gwneyd lles i ni, ond ein bod yn anedi- feiriol dan y nail a'r llall, y mae hyn yn ym- ryson â Duw a'r ddrwy law. Y mae gan bob un o'r rhai hyn fwyhad bai pennodol. Mae un yn erbyn cariad, ac felly yn angharuaidd; a'r llall yn erbyn llymder ei wialen, ac yn

hyn yr ydym yn diystyru ei ddiig ef, ac yn greulawn wrthym ein hunain, gan wingo yn erbyn y symblau. Dylai trugaredd beri cywilydd arnom, a dig roddi ofn arnom i bechu. Yr hwn ni chywilyddia, nid yw yn meddu ysbryd gŵr. A'r hwn nid ofna, pan ei tarewir, y mae yn waeth na'r anifail, sydd yn ofni y chwip a'r ysbardun. Y mae trugaredd weithiau—yn enwedig y trugareddau allanol hyn, sydd a'u blas yn foddhaol i'r rhan anianol mewn Cristion—wedi prifo yn fagl i'r goreu o ddyinion; eithr yna, bu cystudd yn arferol o'u hadferu. Ond pan fyddo cystudd yn gwaethu dynion, a hwy yn ymgaledu yn erbyn Duw i bechu fwy-fwy tra y mae y wialen arnynt, pa beth sydd yn debygol o wellhau y rhai hyn? Ychydig yw y rhai a wneir yn well, os bydd cystuddiau yn eu gwneyd yn waeth. Y dyn a fŷn bechu, er iddo fod mewn poen, a becha fwy o lawer ond cael unwaith wared o hwnw. Ond gwylia di rhag ymryson fel hyn â Duw. Nid oes i'w gael wrth ymdynu â Duw ond dynodiau, neu waeth. Os dywed na chystuddia efe mo honot yn rhagor, dyna y gwaethaf o'i ddyweddiadau; y mae yn gymmaint a phe dywedai y bydd efe yn dy ddyled hyd fyd arall, ac y tâl efe i ti yn gwbl yno. Eithr os yw yn bwriadu trugaredd i ti, ti a gei glywed oddi wrtho mewn rhyw gystudd llymach nag erioed. Y mae ganddo ef gynion a'th holltant, pe bait ti ddaru mwy ceingeiog nag wyt. "A oes etto drysorau anwiredd o fewn tŷ y gŵr anwir, a'r mesur prin, peth sydd ffaidd?" *Micah* vi. 10. Pa beth? Anniwygiadwy, er fod llef yr Arglwydd yn llefain ar y ddinas, yn eich galw i wrandaw y wialen, a phwy a'i horddeiniodd? Gwelwch y ffordd a gymmer Duw: "A minnau hefyd a'th glwyfaf wrth dy daraw, wrth dy anrheithio am dy bechodau;" *adn.* 13. Fel pe dywedasai, gwelaf fod fy physygyriaeth arall yn rhy wan; nid yw wedi gweithio i newid eich awydd. Ond mi a baratoaf draflwngc a'ch gwna chwi yn glaf hyd y galon.

(5ed.) Y mae yn argyhoeddi y rhai sydd yn dangos math o ymdrech yn erbyn pechod, ond nid yn ol y gair o orchymyn a ruddir gan Grist. Mae cyfraith berthynol i ymdrech, ac y mae'n rhaid ei chanlyn; "Ac od ymdrech neb hefyd, ni choronir ef onid ymdrech yn gyfreithlawn;" 1 *Tim.* ii. 9. Cyf-eirio y mae at y campau Rhufeinaidd, ar ba rai yr oedd barnwr gosodedig, i edrych rhag i gam chwareu gael lle, yn groes i gyfraith ymdrech. Ni roddid y gamp-dlws i'r cyfryw un, er iddo drechu ei wrthwynebydd. Defnyddir hyn gan yr apostol i gyffroi gofal y Cristion yn ei ryfel yntau, fel un sy dan gyfraith a dysgyblaeth fanylach, yn gofyn nid yn unig gwroldeb i ymladd, ond ufudd-dod i ymladd wrth drefn, ac yn ol gair o orchymyn. Yn awr, ychydig a

wnânt hyn, ie, o'r rhai a gyfrifir yn ymdrechwyr mawr.

(1.) Y mae rhai, tra yr ymdrechant yn erbyn un pechod, yn cofseidio un arall; ac yn yr achos hwn, nid y dyn sydd yn ymdrechu yn erbyn pechod, ond y naill bechod yn erbyn y llall; ac nid rhyfedd yw gwled lladron yn syrthio allan, pan ddelont i ranu yr ysbail. Mae chwantau yn amryw (*Tit.* iii. 3), ac anhawdd yw boddio amryw feistr-iaid, yn enwedig pan y mae eu gorchymynion mor groes. Pan archo balchder ymwisgo â gwychedr, a gwastraffu ar ddfyrywch, y mae cybydd-dod yn galw am gasglu; pan fyddo malais yn annog i ddial, dichell anianol a ddywed, Cela dy ddiogder, er i ti beidio maddeu. Pan gymhelo chwant y dyn at ei buteiniaid, rhagrith a'i tyn yn ol rhag cywilydd y byd. Yn awr, ai ymladdwr dros Dduw yw efe, sydd yn gwrthsefyll un pechod wrth orchymyn un arall, ac, fe allai, un gwaeth?

(2.) Y mae rhai yn ymdrechu, ond yn y maes o'u hanfodd—nid ewyllysgaryddion ydynt; ond eu hofn caethwasiaid sydd am y tro yn eu brawychu oddi wrth eu chwant. Felly, y mae y frwydr yn hytrach rhwng eu cydwybod a'u hewyllys hwynt, na rhyngddynt hwy a'u chwant. Dyro i mi y cyfryw bechod, medd yr ewyllys; na, medd y gydwybod, fe lysg; a hi a'i teifl ymaith. Gall dyn fod yn caru y gwin, er fod arno ofn llosgi ei wefusau. Y mae ar y rhagrithwyr eu hunain arswyd llosgi. Yn y cyfryw ymladdfeydd, yr ewyllys o'r diwedd a orchfyga, naill ai trwy wobru y deall i drwsio y chwant y mae yn ei fflysio mewn gwisgiad mwy boddhaol, fel na frawycher y gydwybod â'r fath ddrychiolaethau erchyll o ddiogfaint, neu trwy lonyddu y gydwybod â rhyw addewid o edifeirwch ar ol hyn, neu trwy ymattal, am y tro, oddi wrth ryw bechod a all efe hawddaf ei hebgor, a thrwy hyn enmill enw da am rywbeth tebyg i wellhâd buchedd. Neu, oni wna hyn oll y tro, yna yr ewyllys, trwy annogiad y chwant gorwyllt, a gyhoedda ryfel noeth yn erbyn y gydwybod, gan bechu yn ei gwyneb hi. Yn debyg i ryw farch gwyllt, yn anoddefus o'r yspardun sydd yn ei bigo, ac o'r enfa sydd yn ei attal, y mae yn cael hon rhwng ei ddannedd, ac yna fe red ar ei garlam frys. Hyd oni chaffo o'r diwedd ymwared o'i farchogwr; ac yna, lle y gwelo y borfa frasaf, nid oes na chlawdd na ffos a'i deil, nes y cewel ef o'r diwedd yn newynu mewn rhyw warchae am ei drosedd. Fel hyn y mae llawer yn pechu i'r fath radd, hyd onid ydyw cydwybod yn methu dal yr awen yn hwy, na cistedd ar y cyfryw, ond yn cael ei thafu lawr, a'i gosod fel un farw; yna, y trueiniaid a grwydrant lle y caffo eu chwantau; boliaid llawnaf, nes o'r diwedd y talont yn eithaf drud am eu mwyniant lladradiaidd, pa

ddelo cydwybod atti ei hun, i'w dilyn a'u dal gerfydd eu gyddfau yn fwy diogel nag erioed, ac heb byth eu gollwng, ond eu dwyn o flaen brawdle Duw.

(3.) Y mae ereill mewn rhyw ymdrech â phechod, ond heb ei gasau; ac am hyny, y maent yn arbedus o hono, ac heb geisio einioes pechod, fel eu gelyn marwol. Y mae y rhai hyn â'u hymdrech mewn cellwair, ac nid o ddirifwch: yr archollion a roddant i bechod heddyw a iacheir erbyn yfory. Pa mor gryf bynag y bwriada dynion yn erbyn pechod, etto fe ymlusga drachefu i'w serch hwynt, hyd oni ddiffodder y cariad at bechod yn y galon; a'r tân hwn nid yw byth yn marw o hono ei hun. Rhaid yw i gariad Crist ddiffodd y cariad at bechod: fel y dywed Jerome yn rhagorol, "Y mae un cariad yn diffodd y llall." Y tân nefol hwn yn wir a ddiffydd y fflam hono o uffern. Hyn y mae efe yn ei egluro trwy ymddygiad Ahasferus at Fasti ei frenines. Yn y benodol gyntaf, y mae yn rhoddi deddf allan, mewn brys mawr, na ddeuai hi mwyach o'i flaen; ond wedi i'w ddigori oeri ychydig (*Esth.* ii. 1), y mae yn dechreu tyneru ati; a gwŷr ei gynghor, wrth ddirnad hyn, a ymfynasant yn ddiwed am wryf brydferth, ar ba un y gallai y brenin osod ei serch, a'i chymmydd i'w wely breninol. Wedi i hyn gael ei wneyd, nid ydym yn clywed son am Fasti mwyach. Y pryd hyny, ac nid cyn hyny, y saif bwriad yr enaid yn erbyn pechod, pan gymmero efe Grist i'w fynwes.

DOSE. IV.

2il. I'r saint. Gan mai ymdrech parhaus ydyw eich bywyd chwi ar y ddaear, doethineb fydd i chwi ystyried am y modd goreu i chwi drin yr ymladdfa â'ch gelyn gwaethaf. P'ch helpio yn hyny, cymmerwch yr ychydig gyfarwyddiadau hyn.

(1af.) Gwel nad elych i'r maes heb dy ail: fy meddwl yw, galw ar Dduw trwy weddi i sefyll wrth dy gefn. Y mae Duw mewn cynghrair â thi, er niweidiad i'w elyn, ac amddiffyniad i tithau; ac y mae yn disgwyl cael ei alw genyt. A ddigiodd gwŷr Ephraim am na allodd Gideon hwynt i'r maes? ac oni all Duw yn llawer mwy? Fel pe byddit ar fedr lladrata buddugoliaeth cyn iddo ef wybod am y peth. Mae genyt feddwl cryfach na Moses, yr hwn ni syflai heb Dduw; na wnai, er iddo ef anfon angel yn rhaglawn iddo. Yr wyt ti yn ddoethach na Iacob; yr hwn, i drechu Esau (oedd ar ei daith i'w erbyn), sydd yn troi oddi wrtho ef, ac yn taraw at Dduw. Yr oedd efe yn gwybod, os gallai ymdrechu â Duw, y gallai adael rhwng Duw a'i frawd. Cais Dduw o'th blaidd, a dyna y drws cefn wedi ei gau; nis gall un gelyn ddyfod o'r tu ol i ti; ie, dy elyn a syrth o'th flaen: "O Arglwydd, tro, attolwg, gynghor Ahitophel yn ffolineb," medd Dafydd: 2 *Sam.* xv. 31. Rhoddodd

y nef amen gyda'i weddi; a dyna'r adyn truenus yn ymgrogi.

(2il.) Bydd ochelgar iawn rhag rhoddi i'th elyn afael llaw. Y mae ymdrechwr yn ymgais am afael mewn rhyw fan neu gilydd, yr hyn a rydd fantais fawr iddynt at daflu eu gwrthblaid. I ragflaenu hyn, hwy a arferent, yn gyntaf, ddiosg eu dillad; yn ail, eneinio eu cyrph. Am y cyntaf, Gristion, llafuria di i ddodi heibio yr hen ddyn, sydd yn fyfwr perthynol i ti—y llygrededd hwnw a eilw Dafydd, "fy anwiredd;" *Salm* xviii. 23. Hwn yw y godre yr ymeifl Satan yndo: craffa pa beth ydyw, a marw-hâ hwn beunydd; yna, Satan a gilia yn ol gyda gwarth, pan welo ben y gelyn hwnw ar y mur a fynasai dy fradychu di i'w law ef.

(3ydd.) Yr ymdrechwr Rhufeinaidd a arferent eneinio eu cyrph. Gwna dithau felly; mwyda dy enaid â myfyrdod manych am gariad Crist. Ni chaiff Satan ond croesaw bychan lle y mae cariad Crist yn preswyllo. Cariad a ennyn gariad; a bydd hwn fel mur o dân i gadw Satan draw; gwna hwn i ti ffeiddio cynnyg pechod; a bydd fel olew i ystwytho dy gymmalau, a'u cyflymu i niweidio dy elyn. Ystyria pa fodd yr ymdrechodd Crist yn dy gweryl di; buasai pechod, uffern, a digofaint yn dyfod oll yn safnwrth arnat ti, oni buasai iddo ef ymladd â hwynt ar y ffordd; ac a fedri di gael ar dy galon i dalu yn ol ei gariad ef trwy fradychu ei ogoniant i ddwyllaw pechod mewn anwroldeb neu anffyddlondeb? Na ddywed dy fod yn ei garu ef, tra y medri gadw yn dy fynwes y pechodau hyny a dynasant ei galon ef o'i fynwes. Peth rhyfedd fyddai i blentyn gadw'r gyllell, a bod heb hoffi arfer un arall; ond hono â pha un y gwanwyd ei dad.

(4ydd.) Defnyddia yn ddoeth y fantais a gaffech ar ryw dro. Mae y Cristion weithiau yn cael ei elyn ar ogwydd, ie, ar lawr; gall osod ei droed ar wir wddf ei falchder, a thafu ymaith ei anghrediniaeth, fel peth gwrthun ac afresymol. Yn awr—yn debyg i ymdrechwr doeth—syrthia ar dy elyn â'th holl bwys. Er y gall dyn faru mai cam chwerau ydyw taraw ei elyn ar lawr, etto, na fydd di mor hynaws wrth bechod a gadael iddo anadlu na chyfodi. Gwylia rhag i Dduw roddi yn dy erbyn, fel yn erbyn Ahab, am ollwng o'th law y gelyn hwn a nododd Duw i'w ddyfetha. Dysg ychydig ddoethineb gan hiliogaeth y sarph; y rhai, wedi iddynt gael Crist dan eu traed, ni thybient er hyny ei fod yn ddigon diogel ganddynt, hyd yn oed ar ol ei farw; ac am hyny, mynasant selio a gwylio ei fedd ef. Gwna dithau felly, i attal adgodiad dy bechod; selia ef i lawr âg ymroadau cryfach, ac addunedau difrifol; ie, gwylia ef trwy rod-iad effro a diesgeulus.

Defn. 3. Y mae hyn yn sail o gysur i'r

Cristion gwan sydd yn dadleu yn erbyn gwirionedd ei ras ef, oddi wrth y brwydrau a'r ymladdau tu fewnol sy rhyngddo ef a'r chwantau, ac yn barod i ddywedyd, fel Gideon, o achos gelynyon allanol, "Os yw Duw gyda mi, pa ham y digwyddodd hyn oll i mi? Pa ham yr wyf i'n cael y fath ymwithio ynof, yn fy aenog i bechu, ac yn fy attal rhag yr hyn sy dda?" Pa ham y gofyni? Y mae yr ateb yn hawdd i'w roddi, am mai ymdrechwr—nid congewerwr—wyt. Yr wyt ti yn eamddirnad am gyflwr y Cristion yn y bywyd hwn. Pan wneler un yn Cristion, nid ydyw efe yn cael ei alw yn ebrwydd i orfoleddu ar ei elynion lladdedig; ond ei ddwyn i'r maes, i gyfarfod ac ymladd â hwynt. Dechreu rhyfel yn erbyn pechod yw ystâd o ras—nid ei ddiweddian. Yn hytrach nag i ti fod heb elyn i ymdrechu âg ef, daw Duw ci hun mewn ymddieithriad i'r maes, ac a ymddengys megys dy elyn. Fel hyn: pan oedd Iacob yn unig yr ymdrechodd gŵr âg ef hyd doriad y dydd; ac am hyny, dystawer dy galon, os dyma dy achwyniad. Gall dy enaid yn hytrach ymgyuro yn hyn, dy fod yn ymdrechwr; mae yr ymdrechfa sydd ynot, os ar yr iawn sail ac i'r iawn ddyben, yn gwirio fod dwy genedl o'th fewn; dwy natur wrthwyneb—un o'r ddaear, yn ddaearol, a'r llall o'r nef, yn nefol. Iê, er dy gysur, gwybydd ym mhellach, er mai dy natur lygredig yw yr hynaf, etto hi a wasanaetha yr ieuengaf.

Dfn. 4. O! fel y dylai hyn beri i ti, Cristion, hiraethu am fyned adref, lle nad oes dim o'r cynhwrf a'r yngyrch hyn. Y mae yn rhyfedd na byddai pob awr yn ymddangos yn ddiwrnod, a phob diwrnod yn flwyddyn, hyd oni udgano angydd dy enciliad llawen, i'th alw oddi ar y maes—lle y mae y pelenau yn ehedeg mor aml, a thi yn ymladd am dy fywyd â'th elynion marwol—i ddyfod i'r llys, lle ni welir cleddyfau, ond palinwydd, yn nwyllaw y saint. Yno nid offer alarm, ond telynnau—nid griddfanau milwyr yn gwaedu, a chydwybodau archolledig, ond cynghanedd bêr, hyfrydlawn, a glywir gan orchfygwyr gorfoleddus, yn canu mawl i Dduw a'r Ōen, trwy yr hwn y gorchfygasant. Wel, Cristionogion, tra y byddoch yma isod, dyddanwech eich hunain â'r pethau hyn—"y mae gorphwysfa eto yn ol i bobl Dduw." Nid curo yr awyr yr ydych, ond ymdrechu am y nef, yr hon sy draw uwch law y cymnylau hyn. Y mae i chwi eich gwaethaf yn gyntaf; y goreu fydd yn olaf. Yr ydych mewn ymdrech, ond i ennill coron, a'i hennill i'w gwisgo; iê, ei gwisgo heb ei cholli byth; ar ol uwraith ei chael, ni chaiff neb ei dwyn oddi arnoch, na'ch rhoi i berygl brwydr mwy. Yma, yr ydym yn gorchfygu i ymladd drachefu: gall brwydr un dentasiwn fyned drosodd, ond parhau y mae y rhyfel. Pa heddwch a allwn ni gael,

tra y gallo diaffiaid ddyfod allan o'u tyllau, neu y byddo dim o'n natur bechadurus ein hunain yn aros heb ei farweiddio? Gwna hon ymladd, iê, ar ei gliniau; a hi a dery âg un fraich, ar ol tori y llall ymaith; ond pan ddel angydd, y mae y dyrnod olaf wedi ei daraw. Y meddyg da hwn a'th iachâ yn hollol o'th ddelhui a'th glofni ysbyrdol, megys y dywedodd y merthyr wrth ei gyfaill, ger llaw yr ystange, y gwnai Bonner waedlyd i'w cyrpli hwynt. Pa beth, Cristion, yw yr hyn sydd yn dwyn ymaith lawenydd dy fywyd, ond yr ymdrechladau a'r brwydrau y mae y gelyn mynwechol hwn yn eu peri? Ai nid dyma y Peninnah sydd wedi blino a chythruddo dy ysbyrd, a'th attal rhag llawer pryd melus a allest ei gael mewn cynamundeb â Duw a'i saint; neu—os deuaist yn mlaen—a barodd i ti orchuddio allor Duw â'th ddagrau a'th riddfanau? Ac onid llaw ddedwydd fydd hono a dŷr y cwllwm, ac a'th esyd yn rhydd oddi wrth farweidd-dra, rhagrith, balchder, a chwang a fu yn dy feichio yn drwm? Dy golled di yw byw; marw fydd dy elw. Bydd di ond yn foddllawn i ddioddef rhwygo llen dy gnawd, a dyna ti lle y dymunit fod, allan o gyrhaedd pechod, yn gorphwys yn mynwes dy Dduw. A pha ham y byddai i dirwrglyr o boen beri i ti farw, mwy yn rhyfawr londer a ddwg waredigaeth rhag y boen barhaus o ddrwg pechod? Y mae rhai, chwi wyddoch, wedi dewis toriad gan arfau llawfeddyg yn hytrach nag arteithiad beunyddiol y gareg; ac etto, fe allai fod eu poen hwy yn dychwelyd eilwaith; ac ai nis gelli di feddwl yn dawel am farw, i gael gwarediad rhag poen dy bechodau, a gwarediad sier am byth? Ac etto, nid yw hyn hanner yr hyn a wna angydd o les i ti. Mae heddwch yn felus ar ol y rhyfel—esmywlythra ar ol poen: ond pa dafod a all adrodd y gorfoledd a'r gogoniant sy raid iddynt lenwi y creadur wrth yr olwg gyntaf ar Dduw, a'r cyfeillion gwynfydedig hyuy? Nis gall neb fynegi ond un o'r preswylwyr. Pe gwyddem ni fwy am yr ystâd fendigedig hono, ni, y gweinidogion, a'u caem yn waith mor anhawdd perswadio Cristionogion i fod yn foddllawn i fyw yma cyhyd, ag ydyw yn awr i'w perswadio i fod yn foddllawn i farw mor fuan.

PENNOD II.

Lle y dangosir pa beth a feddytir wrth "waed chnawd," a'r modd nad yw, a'r modd y mae, Cristion yn ymdrechu yn erbyn y rhai hyn.

DOSB. I.

YN awr y canlyn ddarluniad o elynion y Cristion, â'r rhai y mae efe i ymdrechu.

1. Darlunir hwynt yn nacael, "nid gwaed a chnawd."

2. Yn bennodol, "ond yn erbyn tywysogaethau, yn erbyn awdurdodau," &c.

1af. Am y rhan nacael o'r darluniad. Nid oes i ni ei gymmeryd am nacád hollol, fel pe na byddai i ni ymladd â gwaed a chnawd, ond ymladd yn gwbl ac yn unig â Satan; eithr mewn ffordd o gymhariaeth, nid yn unig â gwaed a chnawd, ac mewn rhyw ystyr, nid yn benaf. Y mae y dull hwn o ymadroddi yn arferedig yn y Beibl—"Na alw dy gyfeillion," &c., "ond y tlodion," i giniaw: *Luc* xiv. 12. Hyny yw, nid y rhai hyn yn unig, fel ag i esgeuluso y tlodion. Yn awr, pa beth a feddyllir yma wrth "waed a chnawd?" Y mae deongliad dyblyg i'r geiriau.

(1af.) Wrth waed a chnawd, gellid meddwl am ein llygred mlynwesol ni; y pechod sydd yn ein natur lygredig, ac a elwir mor fynych yn gnawd yn yr Ysgrhythyr: "Canys y mae'r cnawd yn chwennychu yn erbyn yr Ysbryd, a'r Ysbryd yn erbyn y cnawd: a'r rhai hyn a wrthwynebant eu gilydd, fel na alloch wneuthur beth bynag a gylysieth" (*Gal.* v. 17); ac weithiau, yn gig a gwaed, (megys yn *Mat.* xvi. 17)—"Canys nid cig a gwaed a ddadguddiodd hyn i ti, ond fy Nhad yr hwn sydd yn y nofoedd:" hyny yw, oddi uchod y mae y gyffes hon a wnaethost ti; nis gallasai dy feddwl cnawdol a llygredig di byth gael allan y gwirionedd goruwchnaturiol hwn; ni buasai dy ewyllys bechadurus di byth yn ei gofseidio. Felly yn 1 *Cor.* xv. 20. "Ni ddichon cig a gwaed etifeddu eyrnas Dduw;" hyny yw, cnawd pechadurus, marwol, fel y mae yn cael ei agoryd yn y pethau canlynol. Felly yn *Gal.* i. 6: "yn y fan, nid ymgynghorais â chig a gwaed," neu â rheswm anianol. Yn awr, gellir galw y gelyn mlynwesol hwn yn gnawd; mewn chan o herwydd ei darddiad, ac mewn rhan o herwydd ei weithrediad; o herwydd ei larddiad, am ei fod yn dyfod i ni, ac yn laenedig ynom, trwy genedliad naturiol. Fel hyn y dywedir ddarfol i Adda genhedlu nab ar ei ddelw ei hun—yn bechadurus fel yntau, ystyal ag yn farwol a gresynol: fe, gan fod cnawd yn y sant duwiolaf ar y ddaear, y mae yn cyfranu y natur lygredig bechadurus hon i'w blentyn, fel yr oedd yr Iuddew enwaededig yn genhedlu plentyn dienwaeddig. Fel hyn, y gwenith, er ei lanhau â'i buro (pan ei hauer), a ddaw i fyny yn ei as a'i gibau: "Yr hyn a aned o'r cnawd sydd gnawd; a'r hyn a aned o'r Ysbryd sydd Ysbryd;" *Joan* iii. 6.

(2il.) Fe'i gelwir yn gnawd oddi wrth weithrediadau y natur lygredig hon, y rhai dynt gnawdol ac anianol. Y mae rhesymadau y meddwl lygredig yn gnawdol—a elwir am hyn yn syniad y cnawd, yn anaddur at bethau Duw—nid yw y syniad hwn yn eu dirnad, ac nis gall chwaith. Megys y mae yr haul yn cuddio oddi wrthym yn y nef

sydd uwch law iddo, tra y mae yn dadguddio pethau is-law iddo, felly y mae rheswm anianol yn gadael dyn yn y tywyllwch a'u wirioneddau ysbrydol, pan y mae yn fwyaf abl i ddirnad ac ymddyddan am ragoriaethau y creadur, ac am ryw fudd anianol yma isod. Y fath ofyniad plentynaidd—gan ŵr mor ddoeth—a roddodd Nicodemus i Grist; fe, er i Grist ei helpio i wisgo ei ymadrodd mewn geiriau dynol! Os na ddichon rheswm cnawdol ddeall gwirioneddau ysbrydol, er eu cyfaddasu fel hyn â golygiadau yr efengyl, er eu cyfieithu i'w iaith ei hun, pa allu sydd yn debygol o fod ganddo ynddynt, os ceisir ganddo eu darllen yn eu hiaith wreiddiol! Fy meddwl ydyw, pe cymmerid ymaith y wisg hon o ymadroddiad dynol, a phe rhoddid gwirioneddau ysbrydol o flaen y dyn yn eu lliw noeth. Y mae tueddiadau yr ewyllys naturiol yn gnawdol; ac am hyny, dywedir, fod y "rhai sydd yn ol y cnawd yn synio am bethau y cnawd;" *Rhaf.* viii. 5. Y mae y cwbl o'i ddymuniaidau, boddiaidau, gofalon, ofnau, yn, ac am bethau cnawdol. Nid oes ganddo flas ar ymborth ysbrydol, mwy nag sy gan angel ar fwyd y cnawd. Wrth yr archwaeth y cynnelir pob bwyd. Yr hyn nis gallwn gael blas arno, prin y gwnawn fyw arno bob dydd. Mae gan bob creadur ei ymborth priodol: nid yw llew yn bwyta glaswellt, na'r march gig—y peth sydd yn ymborth i galon anianol, y mae yn wenywn i'r un rasol; a'r hyn sy foddhaol i'r galon rasol, y mae yn ddiiflas gan yr anianol. Yn awr, yn ol y dehongliad hwn, nid meddwl yr apostol yw nad oes gan y Cristion ddim ymdrech yn erbyn ei natur lygredig; o herwydd, mewn lle arall, dywedir fod yr ysbryd yn chwennychu yn erbyn y cnawd, a'r cnawd yn erbyn yr ysbryd; a gelwir y gelyn hwn, y pechod sydd yn barod i amgylchu y Cristion; ond ei fwriad ydyw mwychau yr ymdrech â'r gelyn hwn trwy y chwanegiad o allu pellenig, sef Satan, yr hwn sydd yn taraw i mewn gyda'r gelyn cartrefol hwn. Fel, pan fyddai brenin yn ymladd â'i ddeiliaid wrthryfelgar ei hun, a dyfod o ryw fyddoeddol tramor i ymuno â hwynt, y gellid dywedyd ei fod ef yn ymladd, nid â'i ddeiliaid, ond a gallu estronol. Nid â'i lygredigaethau noeth y mae'r Cristion yn ymladd, ond a Satan ynddynt. Pe na byddai un diafol, caem ni er hyny ein llawn waith i wrthsefyll llygredigaethau ein calonau ein hunain; ond y mae dyfodfa y gelyn hwn yn gwneyd y frwydr yn fwy dychrynlyd, gan ei fod ef yn flaenor iddynt, ac yntau yn gadben mor fedrus a phrofedig. Ein pechod ni yw y peiriant, Satan yw y peiriannydd; ein chwant yw yr abwyd, a Satan y genweiriwr. Pan y denir enaid gan ei chwant ei hun, dywedir ei demtio ef (*Iago* i. 4); am fod Satan a'n chwant ni ein hunain yn cytuno at gyflawni y pechod.

Defn. 1. Pared hyn i ti, Gristion, fod yn ddyfal yng ngwaith marwâd. Nid callineb ydyw i ti adael i' th chwantau gael arfau, gan mai sicr yw y codant ac y rhyfelant i' th erbyn ar ddyfodiad dy elyn. Call y gwnaeth pendefigion Achis, pan na ymddiriedent i Dafydd fod yn eu byddin, pan oeddynt i ymladd âg Israel, rhag iddo yn y frwydr fod yn wrthwynebwyr iddynt. Ac a feiddi di fyned i ddyledsdydd, neu daraw at yr un gorchwyl y bydd Satan i' th erbyn ynddo, a bod heb ymgais am droi dy falchder yn ol, a' th anghrediniaeth, &c., fel na ymgysyllt-ont â dy elyn?

(2il.) A ydyw Satan a dy gnawd dy hun i' th erbyn, nid dy lygredd yn unigol, ond â'i ddichell ef yn ei awchu, a'i rym ef yn ei gefnoghi! Gwel ynta pa angen sydd arnat am gymmhorth mwy na dy ras dy hun; gwylia rhag ymaflyd âg ef yn nerth dy ras noeth: y mae genyt yma ddaui yn un dy erbyn. Bu Satan yn rhy galed i Adda, er iddo fyned mor dda ei osodiad i'r maes, gan ei fod wedi ei adael iddo ei hun:—yn llawer haws y trecha efe dydi. Glân, gan hyny, wrth dy Dduw am nerth; cais ef gyda thi, ac yna, er mai pryf wyt, ti a fyddi yn abl i ymdaraw â'r sarp h yma.

DOSE. II.

(2il.) Deonglir gwaed a chnawd fel cylchymadrodd am ddyd. Nid yw ein hymdrech ni â gwaed a chnawd, sef nid â dyn; yr hwn a ddarlunir yma wrth y rhan hono sydd yn benaf yn ei wahaniaethu oddi wrth ei natur anglyaidd. "Teimlwech fi (medd Crist), a gwelwech: canys nid oes gan ysbryd gnawd ac esgyrn, fel y gwelwech fod genyf fi;" *Luc* xxiv. 39. Yn awr, yn ol y deongliad hwn, daliwch sylw:—

1af. Mor wael y llefara Ysbryd Duw am ddyd.

2il. Y lle y mae efe yn gosod pwys brwydr y saint: nid yn y gwrthwynebiad i waed a chnawd, ond i dywysogaethau ac awdurdodau. Trwy hyn, nid yw efe yn cau allan ein hymladdfa â dyn, pan y mae y rhyfel yn erbyn y ddraig a'i had. Er mor llydan yw y byd, nis gall ddal y saint a'r annuwiol yn heddychlawn ynghyd. Ond ei fwrriad ef yw, dangos pa fath elynion cymmblethedig—digder dyn a Satan wedi eu cyd-wau—sy genym ni i ymladd â hwynt.

(1af.) Mor wael y llefara Ysbryd Duw am ddyd, gan ei alw yn waed a chnawd! Mae gan ddyd enaid nefanedig, sydd yn ei wneyd ef yn gâr i anglyon, i.e., i' w Duw hwynt, yr hwn sydd yn dad yr ysbrydoedd; ond dyma hyn heb son am dano, fel pe byddai Duw heb fod am addef y creadur sydd wedi ei lygru gan bechod, ac heb fod yr hyn y gwnaeth efe ef ar y cyntaf; neu, am nad yw yr enaid (er ei fonedd ardderchog etto), ar ol y fath suddiad i gnawdoldrwydd, yn haeddu un enw arall ond cnawd. Dyma y rhan o

ddynd sydd yn ei gyd-raddu âg anifail; ac fe'i bwriedir yma i ddangos gwaelledd ac eiddil- bwch natur dyn. Yr ymadrodd ydyw, y dengys yr Ysbryd Glân trwyddo waeledd ac anallu y creadur: *Esa.* xxxi. 3. Dynion ydynt, â'u meirch yn gnawd; hyny yw, yn weiniaid. Felly, i'r gwrthwyneb, pan y myn efe osod allan rym a nerth, y mae yn cyferbynu y peth i gnawd: "Canys arfau ein milwriaeth ni nid ydynt gnawdol, ond nerthol trwy Dduw i fwrw cestyll i'r llawr;" *2 Cor.* x. 3. Ac felly yn y testyn, "Nid gwaed a chnawd, ond awdurdodau." Fel pe dywedasai, Pe ni byddai i chwi neb i' w ofni ond dyn egwan a diryn, ni byddai yn wiw i chwi ddarpar arfau na defnyddiau rhyfel; ond y mae i chwi elynion nad ydynt yn gnawd, na chwaith i' w gwrthsefyll â chnawd. Felly, ni a welwau yma pa fath creadur gwan yw dyn; nid yn unig gwanach nag anglyon, fel y maent lwy yn ysbrydion, ac yntau yn gnawd, ond mewn rhyw ystyr islaw yr anifeiliaid, fel y mae cnawd dyn yn fwy breuol na ehnawd anifeiliaid. Am hyn, y mae Ysbryd Duw yn cyffelybu dyn i'r gwellt, sydd yn gwywo yn fuan, a'i "odid-ogrwydd fel blodeuyn y maes;" *Esa.* xl. 6. Ie; gelwir ef yn wagedd yn *Salm* lxii. 9; "Gwagedd yn ddiâu yw meibion dynion; geudab yw meibion gwyr;" y naill yn wagedd fel y llall; ond yn unig fod y meibion gwyr—neu wyr mawr—wedi eu gwisgo â pharch, golud, &c., ac am hyny, yn cael eu galw yn geudab¹ (sef celwydd); am nad ydynt yr hyn y tebygid eu bod, a'u bod felly yn waeth na gwagedd noeth, yr hwn a welli felly—nid yw yn eu somi.

Defn. 1. Yn gyntaf, ai nid dyn ond cnawd brau? Bydded i hyn dy ddarostwng di, C ddyd, yn dy holl ragoroldeb. Nid ydyw cnawd ond megys hyd cam oddi wrth budredd a llygredd. Dy enaid yw yr halen sy'r dy gadw di yn beraid, onid e ti a ddrewi ar wyneb y ddaear. Ai dy degwech yr wy yn balchio ynddo? Gwelltyn yw cnawd eithr tegwech nid yw ond gwagedd o'r gwagedd hwn. Y mae y prydfferthwech hwn y, ail i'r blodeuyn, yr hwn ni phery cylyd a' gwelltyn—fe ymddengys yn ei fis, ac a ddi fiana—i.e., ail yw i brydfferthwech y blodeuy a ddi fiana tra y mae y blodeuyn yn aro: Mor fuan y gwna aradr amser rychau yn d wyneb di—i.e., neu un cyrch o'r cryd newi dy wedd, nes peri i' th garwyr anwylyf ofi edrych arnat. Ai cryfder yw dy ymfrost Och! braich o gnawd ydyw, sydd yn fynyc yn gwywo wrth ei hestyn allan; cyn bo hi y gwaed, sydd yn awr yn gynhes, a rewa y dy wythienau; dy wanwyn coronog, a bla gur Mai, a sathra ar sawdl Rhagfyr; dy f a sych yn dy esgyrn; dy ewynau a gwtogan

¹ *Geudab* yw y gair hwn mewn llawer o'n Beibl Cymraeg; ond tawy gangymmeriad, mi feid: iwn.

dy goesau a grymant dan bwys dy gorph; llinynau dy lygaid a wanhânt, ac ni bydd gallu yn dy dawfod i alw am help; i e, dy gallu a'th gnawd a ballant; ac yn awr, tydi, yr hwn wyt y fath gawr, dyro dro, os gelli, o fewn dy ystafell; i e, gwna gymmaint a chodi dy ben oddi ar dy obenydd, os gelli; neu, galw yn ol dy anadl, sydd yn brysio i fyned allan o'th ffroenau, heb fodd i ddychwelyd mwy. Ac a feiddi dy ymogoneddu yn yr hyn a all fod mor fuan yn y llwch?

Ai doethineb yw dy fost? Yr un bedd ag a guddia dy gorph a gladd hwn hefyd (doethineb dy gnawd yr wyf yn ei feddwl); derfydd am dy holl amcanion, dy ddichellion cyfrwys a ânt i'r dim. Yn wir, os wyt Gristion, dy feddyliau fel y cyfryw a ddyrchafant gyda thi, ni chollir un o anadliadau sanctaidd dy enaid. Ai dy waedoliaeth a'th fonedd yw dy fost? Pwy bynag wyt, nid wyt ond basterddyn nes dy ail-eni; yr un gwaed sydd yn rhedeg yn dy wythienau di, a'r cardotyn yn yr heol: *Act. xvii. 26.* Yno, ni a gawn fod y cenhedloedd oll o'r un gwaed. Mewn dau beth yr ydym oll yn debyg; yr ydym yn dyfod i'r byd, ac yn myned allan o hono yn gyffelyb. Fel nad oes un wedi ei wneuthur o well pridd, felly ni ddychwel neb i burach llwch.

Defn. 2. Ai cnawd yw dyn? Na hydera mewn dyn: "Fel hyn y dywed yr Arglwydd, Melldigedig fyddo'r gŵr a hydero mewn dyn, ac a wnelo gnawd yn fraich iddo, a'r hwn y cilio ei galon oddi wrth yr Arglwydd;" *Ier. xvii. 5.* Na hydera yn y galluog. Gall laes-wisgoedd guddio a gwychu, ond nis gallant newid cnawd. "Na hyderwch ar dywysogion, nac ar fab dyn, yr hwn nid oes iachawdwriaeth ynddo;" *Salm cxlvi. 3.* Och! nis gallant gadw eu coronau ar eu penau eu hunain, na'u penau ar eu cyrph eu hunain; ac a ddisgwyli di am yr hyn nas gallant ei roddi iddynt eu hunain? Nac mewn gwŷr doethion; mae amcanion y rhai hyn yn fynych yn dyfod yn ol arnynt eu hunain, fel nas gallant gyflawnu eu hymgais. Y mae doethineb cnawdol dyn yn bwriadu un peth, ond Duw sydd yn troi yr olwyn, ac yn dwyn allan beth arall. Na hydera mewn dynion duwiol; y mae cnawd ganddynt, ac felly eu barn heb fod yn anffaeledig; i e, eu ffordd weithiau sydd ammheul. Dichon ei gangymmeriad ef dy dywys dithau o'r ffordd; ac er iddo ef ddychwelyd, gelli di fyned ym mlaen a chyfrgoll. Na hydera mewn un dyn, yn y dynion oll, nac ymot dy hun—cnawd wyt tithau. "Y neb a ymddiriedo yn ei galon ei hun sydd ffol: ond y neb a rodio yn bwyllog, a achubir;" *Diar. xxviii. 26.* Na hydera yn y goreu wyt, neu a wnelych; mae gwisg dy gyfiawnder di yn frycheulyd gan y cnawd. Ymddiried yn y cnawd yw y cwbl yng nghyfrif Paul, heb law ein gorfoledd yng Nghrist: *Phil. iii. 3.*

Defn. 3. Nac ofna ddyn: nid ydyw efe ond cnawd. Hyn oedd ymroddiad Dafydd: "Yn Nuw y clodforaf ei air, yn Nuw y gob-eithiaf; nid ofnaf beth a wnel cnawd i mi;" *Salm lvi. 4.* Nid oes rhaid i ti, ac ni ddylit ti ofni. Nid oes rhaid. Beth? Nid y fath ŵr mawr—nid y fath nifer o wŷr—sydd âg agoriadau yr holl garcharau wrth eu gwregys—sydd yn gallu lladd neu gadw yn fyw? Na, nid y rhai hyn: yn unig edrych ar eu bod yn elynion i ti o achos cyfiawnder. Gwylia rhag gwneyd y plentyn lleiaf yn elyn i ti, trwy gynnyg arno gam; fe ddial Duw gam yr annuwiol hyd yn oed ar y duwiol. Os troseddâ hwn, ni chaiff efe achles dan aden Duw am ei bechod. Hyn a barodd i Jerome achwyn mai pechodau Cristionogion oedd yn peri buddugoliaeth i arfau y lluoedd barbaraid hyn oedd yn ymosod ar wledydd cred. Ond os bydd i lid dyn dy gael di yn ffordd Duw, a'i gynddaredd danio yn erbyn dy sancteidrwydd, nid oes achos i ti ofni, er mai dy einioes fydd yr ysglyfaeth y bydd efe yn hela am dano. Ni ddichon cnawd archolli ond cnawd; efe a ddichon dy ladd, ond nid dy ddrygu. Pa ham y byddai arnat ofn dy ddioglyd o'r hyn a rodd-aist i fyny eisoes i Grist? Y wers gyntaf a ddisgwyd i ti, os wyt Gristion, yw ymwadu â thi dy hun, codi dy groes, a dilyn dy feistr: felly y mae y gelyn wedi dyfod yn rhy ddiweddar. Ni feddi di einioes i'w cholli, gan dy fod wedi ei rhoddi eisoes i Grist; ac nis gall dyn ddim dwyn hono heb genad Duw. Y mae y cwbl a feddi di wedi ei roddi dan ddiogollediad (*insurance*), ac er nad yw Duw wedi addaw i ti ryddfrait rhag diddef mewn modd o'r fath, etto, y mae efe wedi addaw dwyn y golled, i e, a thalu i ti y can cymmaint, ac nid oes i ti aros am hyn hyd fyd arall: *Marc x. 30.* Drachefn, ni ddylit ti ofni cnawd. Y mae ein Hiachawdwr yn gorchymmyn i ni dair gwaith o fewn cylch ch'ere gwers (yn *Mat. x. 30*), na byddo i ni ofni dyn. Os ydyw dy galon yn llesgau o flaen hwn, pa fodd yr ymddygi di yn y rhes yn erbyn Satan, yr hwn sydd â'i fys bach yn drymach na lwynau dyn? Yr oedd gan y Rhufeiniwyr eu harfau rhag-chwareuol, arfau pwl, neu bastynau, i'w profi wrthynt, cyn iddynt drin y rhai minniog. Os na elli di oddef clais yn dy gnawd gan bastwn neu arf pwl y dyn, pa beth a wnei pan y cei gledddyf Satan yn dy ystlys? Y mae Duw yn cyfrif ei hun yn cael ei waradwyddo pan fyddo ei blant yn ofni dyn gwael; am hyn y gorchymmynir i ni sancteiddio yr Arglwydd, ac na ofnom eu hofn hwynt: *Esa. viii. 12, 13.* Yn awr, os myni fod heb ofni dyn, yr hwn nid yw ond cnawd, llafuria:—(laf.) Am farwhau dy gnawd dy hun. Cnawd yn unig a ofna gnawd. Pan ddirywio yr enaid i ddymuniadau a hyfrydwech cnawdol, nid rhyfedd iddo syrthio i ofnau

cnawdol. Gwylia Gristion, rhag dwyn dy hun i gaethiwed. Ysgatfydd fod dy galon yn ymborthi ar ganmoliaeth dyn: gwna hyn i ti ofni cael gair drwg, yn debyg i'r esguswyr ofnog hyn (yn *Ioan* xii. 42, 43), a addefent Grist dan gel, ond ni chyffesant ef ar gyhoedd, am eu bod yn caru gogoniant dynion. Bedd agored, medd Dafydd, yw ceg yr annuwiol; ac yn y bedd hwn fe gladdwyd enw da llawer sant. Ond pe byddai y dymuniad cnawdol hwn wedi ei farwhau, bychan fyddai genyt ti gael dy farnu gan ddyd; ac felly am bob serchiant cnawdol. Chwi wyddoch fod rhyw ymborth o naws crynllud: ac os gosodi di dy galon ar ryw beth sydd yn gnawdol—gwraig, plentyn, cyfoeth—hwy a fagant ynot y crynodol salw o ofn dyn; yr hwn a all fod yn genad Duw i'th gystuddio yn y rhai hyn.

(2il.) Gosod ffydd yn erbyn cnawd. Mae ffydd yn sefydlu y galon, a chalons sefydledig, neu barod, nid hawdd ei hofni. Fe ddywed meddygon i ni, nad ydym un amser mor agored i dderbyn heint-naws a phan fyddo yr ysbrydoedd yn isel; ac am hyny, i'w wrthwynebu. At loniad y mae tuedd pob meddyginiaeth a arferant. Pan fyddo yr ysbryd yn isel trwy anghrediniaeth, y mae pob bygythiad gan ddyd yn peri argraff ddwy; ond os cymmer dy ffydd lymediau helaeth o'r addewidion, dy galonid a gynyddo.

4. Cysura dy hun â hyn, Gristion, megys mai cnawd wyt, felly fod dy Dad nefol yn gwybod hyny, ac yn dy ystyried o'r herwydd.

(1af.) O ran cystudd. "Canys efe a edwyn ein defnydd ni: cofia mai llwch ydym;" *Salm* ciii. 14. Nid yn debyg i ryw grach-feddyg difedr, nad oes ganddo ond yr un cynghor i bawb, cryf neu wan, ieuange neu hen; ond fel meddyg doeth, yn ystyried ei ddyd claf, ac yna yn ysgrifenu ei gynghor. Nid yw dynion a diaffiaid ond cyfferiwr y Dduw; nid ydynt hwy yn gwneyd ein physygyr-iaeth ni, ond yn rhoddi yr hyn a bennoda Duw. Yr oedd Balaam yn caru gwobr Balac yn dda ddiagon; ond nis gallai fyned led blewyn dros ganiatâd Duw. Yn wir, nid yw Duw yn dangos y fath ofal gyda'r annuwiol: "A darawodd efe ef (ei Israel) fel y tarawodd y rhai a'i tarawsai ef?" *Esa.* xxvii.

7. Yng nghwpan y duwiol y mae gwenwyn cystudd yn cael ei dynu ymaith; nid felly i'r annuwiol; ac am hyny, yr hyn sydd yn feddyginiaeth i'r naill, sydd yn ddistryw i'r llall.

(2il.) Mewn dyledswydd. Efe a wŷr nad wyt ond cnawd; ac felly efe a dosturia, ac a dderbyn dy wasanaeth gwan; fe, y mae yn gwneyd esgusodiad o'th du: "Yr ysbryd sydd barod," medd Crist, "ond y cnawd sydd wan."

(3ydd.) Mewn temtasiynau. Mae efe yn ystyried mai cnawd wyt, ac yn cyfaddasu y demtasiwn i natur mor wan—temtasiwn

(*1 Cor.* x. 13), wedi ei chymmedrolï a'i haddasu at natur mor wan, neu greadur mor freuol. Pa bryd bynag y byddo y Cristion yn dechreu diffygio dan ei bwys, y mae Duw yn brysiol i'w gymmhorth, fel mam dyner at ei phlentyn llesmeiriol. Am hyn y dywedir ei fod yn agos at y cyfryw i'w bywhau, rhag i'w hysbrydoedd ballu.

DOSE. III.

Y mae yr ail beth yn canlyn:—Cydgyssylltiad gelynyon y saint. Nid ydym ni i ymdrechu â dyn yn unig, ond yn erbyn dyn, a Satan yn dwysog arno: nid yn erbyn gwaed a chnawd, ond tywysogaethau ac awdurdodau yn gweithredu ynddynt. Y mae dau fath o ddyinion i'r Cristion fod mewn ymdrech â hwynt—dynion da a drwg. Tarawa Satan i mewn gyda y ddau fath.

(1af.) Y mae i'r Cristion ymdrechu â dynion da. Y mae aml frwydr lem wedi bod rhwng sant a sant, yn ymdynu yn y tywyllwch, trwy gamddirnad am y gwirionedd ac am eu gilydd. Bu cynhen rhwng Abraham a Lot. Bu Aaron a Miriam am drechu Moses, nes y darfu i Dduw gyfringu, a diweddu y eweryl trwy ei ddyfnod disymwth ar Miriam. Bu yr apostolion (ie, yn ngwydd a chlyw eu Meistr) â geiriau uchel rhyngddynt ar y ddadl pwy a fyddai fwyaf. Yn awr, yn y brwydrau cartref hyn yn mysg y saint, Satan yw prif enynwr y tân, er mai prin y gwelir ef, am ei fod, fel Ahab, yn ymladd mewn gwisg arall. Y mae yn taraw yn gyntaf gydag un blaid, yna gyda y llall, gan fwyhau pob camwedd bychan, a chyffroi o'r achos i ddioger a dial. Am hyn y mae yr apostol, wrth gyngori yn erbyn digofaint, yn arfer y ddadl hon—"Na roddwch le i ddiabol:" fel pe dywedasai, Na syrthiwch allan yn mysg eich gilydd, onid oes arnoch hiraeth am gymdeithas diafol. Hwn yw y milwr flyddlawm i ffortun (fel y mae y dywediad cyffredin), yn byw wrth ei gleddyf, ac felly yn brysiol i'r lle y byddo gobaith am ryfel. Y mae Gregory yn cyffelybu y saint yn eu cymhenau gofidus, i ddau geiliog; a'r rhai hyn y mae Satan, meistr y paille (*pit*), yn eu gosod i ymladd, gan obeithio cael, ar ol eu lladd, swpera arnynt yn yr hwyr. Solomon a ddywed am y gŵr cynhenus, fod "ei enau yn galw am ddyrnodiad;" *Diar.* xviii. 6. Yn wir, yr ydym ni trwy ymgynnhenu â'n gilydd, yn rhoddi ffon i'r diafol i'w dynodiad â hi. Nid gwych y gall ef weithio heb dân! ac am hyny y mae yn elwythu i fyny y marwor hyn o anghydfod, y rhai a ddefnyddia efe fel ffwrn ei weithdy, i boethi ein hysbrydoedd i ddi-gofaint; ac yna yr ydym yn hawdd ein morthwail, yn ol ei feddwl ef. Y mae anghydfod yn taflu enaid i annhrefn; ac fel y mae hen air, "Ym mysg yr arfau, tawed deddfau." Nid yw deddf gras yn cael rhyddweithrediad lle y byddo yr ysbryd

mewn cynhwrf. Mae Moses lariaidd, wedi ei gyffroi, yn camddywedyd. Mi debygwn y dylai hyn (os na wna dim arall) beri taw ac enciliad i'n hymrafaelion annedwydd, fod gan y Ioab hwn law ynddynt. Efe sydd yn anfon yr ysbryd drwg hwn i blith brodyr; a pha ynyfdrwydd yw i ni frathu a dyfetha ein gilydd, i roddi difyrwch i uffern? Yr ydym ni yn dueddol i gangymmyrd ein poethder am sel; ond, yn gyffredinol, mewn cynnhen rhwng saint, llong dan ydyw, addanfonir i'w mysg gan Satan, i dori ar eu hundeb a'u trefn; yn yr hyn, tra y cadwont yng nghyd, y maent yn llynges anorchfygol; ac fe wŷr Satan nad oes ganddo ffordd ond hon i beri drylliad arnynt. Pan fyddo iaith Cristionogion (a ddylai fod yn un) yn dechreu cael ei chymmysgu, y maent yn agos i wasgariad. Y mae yn bryd i Dduw wahanu ei blant, pan na fedront fyw yng nghyd mewn heddwch.

(2.) Y mae i'r Cristion ymdrechu â dynion drwg. "Am nad ydych o'r byd," medd Crist, "y mae y byd yn eich casau chi." Y mae natur a bywyd y saint yn wrthwyneb i'r byd. Gellir mor hawdd hedychu tân â dwfr, y nef âg uffern, a hwynt-hwy â'r byd. Mae yr *heretic* yn elyn i'r Cristion er mwyn y gwirionedd; yr halogedig er mwyn sanct-eiddrwydd: y mae efe yn ffeidd-dra gan y ddau, fel yr Israeliaid gan yr Aiphtiaid. Oddi yma y mae rhyfeloedd. Nid yw tân erledigaeth byth yn diffodd yng nghalonau yr annuwiol; yn eu calonau, hwy a ddywedant—fel y rhai hyny gynt â'u gwefusau—"Y Cristionogion i'r llewod." Yn awr, yn holl ryfeloedd y saint â'r rhai annuwiol, Satan yw llywydd y llu gelynol. Gweithredoedd eu tad y maent yn eu gwneuthur: ei chwantau ef a gyflawnant. Y Sabeaid a ysbeiliasant Iob, ond ar neges Satan yr oeddnt. Y mae'r *heretic* yn rhoi athrawiaeth lygredig ar led, ac yn gŵyrdroi ffydd llawer; ond gweinidog i Satan ydyw efe yn hyn: 2 *Cor.* xi. 15. Y maent yn cael eu galwad, eu dichellion, a'u cyflog ganddo ef. Er lidwyr, cyfrifir eu gwaith yn eiddo uffern. Ai erledigaeth y tafod ydyw? Uffern sy'n ennyn y filam. Ai gan y dwylaw y gwneir y gwaith? O hyd nid ydynt ond offerynau Satan: "Y cythraul a fwrw rai o honoch chi i garchar: *Dad.* ii. 10.

Defn. 1. A welwch chi rai yn gyru yn ynyd yn erbyn gwirioneddau neu weision Crist! O! tosturiwch wrthynt fel y trueiniaid mwyaf gresynus yn y byd. Nac ofnwch eu gallu; na ryfeddwch eu doniau: dynion ydynt, a feddiannwyd gan, ac sydd yn gweithredu trwy, y diafol; ei gaethweision a'i is-gigyddion ef ydynt, fel y galwodd un merthyr hwynt. Y mae Awstin yn ei lythyr at Lycinius—un o ddoniau rhagorol, ond yn annuwiol, ac wedi bod unwaith yn ysgolhaig iddo—yn llefaru wrtho yn y modd

cynnyrffiol hwn:—"O! fel y medrwn wylu a galaru drosot, wrth weled y fath synwyr disglair wedi ei logi i wasanaeth y diafol! Pe cawsit hyd i gwpan aur, ti a'i rhoddit i'r eglwys; ond y mae Duw wedi rhoddi i ti ben, doniau, a synwyr euraidd; ac yn y rhai hyn, yr wyt yn yfed dy hun i'r diafol." Pan weloch chi wŷr o awdurdod a doniau, yn eu harfer yn erbyn y Duw a'u rhoddodd, wylwch dros y cyfryw; gwel fuisai iddynt fyw a marw yn gaethweision neu ynyfion, na gwneyd y fath wasanaeth i Satan â hwynt.

Defn. 2. O! chi saint, pan waradwyddir neu yr erlidir chi, edrychwch ym mhellach na dyn; na thywelltwch eich dig arno ef. Och! nid yw dynion ond offerynau yn llaw y diafol. Cadw di dy wg iddo ef, yr hwn ydyw dy elyn penaf. Gall y rhai hyn gael eu hennill i ochr Crist, a dyfod felly yn gyfeillion i ti o'r diwedd. Yr ydym ambell waith yn gwled rhai yn diange o wersyll y diafol, ac yn golchi â'u dagrau y briw a wnaethant â'u creulonedd. Ymadrodd hynod yw hwn gan Anselm, lle y mae yn cyffelybu yr *heretic* a'r erlidwr i'r march, a'r diafol i'r marchog. "Yn awr," medd efe, "yn y frwydr, pan ddelo y gelyn i fyny ar ei farch, nid yw y milwr gwrol yn ddig wrth y march, ond wrth y marchog; ac hyd y gallo, y mae ei gais am ladd y marchog, er mwyn meddiannu y march. Fel hyn y mae i'ninnau wneyd â dynion drwg; nid bod â'n cais i'w herbyn hwy, ond yn erbyn yr hwn sydd yn marchog arnynt, ac yn eu hysbarduno ym mlaen." Ymdrechwn drostynt mewn gweddi, megys y gwnaeth Crist ar y groes, am i'r diafol gael ei dafu i lawr, ac felly i'r eneidiau truain hyn a farchogwyd ganddo gael eu hachub o'i feddiant. Mwy anrhydeddus yw achub un enaid yn fyw o grafangau Satan, na gadael lluaus yn laddedig ar y maes. Erasmus a ddywed am Awstin, ei fod wedi ymbil â swyddogion yr ymherawdwr am fywydau yr hereticiaid hyny oedd wedi bod yn erlidwyr gwaedlyd ar y rhai unionged. "Fel meddyg tyner," medd efe, "erfyniodd am eu bywyd, gan ddymuno gwneyd prawf a chais am eu meddygimiaethu."

PENNOD III.

Lle y dangosir pa fath dywysogaeth sy gan Satan; pa fodd y daeth i fod y fath dywysog; a'r modd y mae i ni wybod a ydym dano ef fel ein tywysog, ai nid ydym.

EPHESIAID vi. 12.

Ond yn erbyn tywysogaethau, yn erbyn awdurdodau, &c.

DOSB. 1.

WEDI i'r apostol ddangos beth nid ydyw gelynyon y saint, "nid gwaed a chnawd,"

dynion breuol, na allant ddyfod heb fodd i'w gweled; a'r rhai a ellir eu gwrthsefyll trwy allu dyn, neu eu gochel trwy ffoad; y mae yn awr yn eu darlunio yn gadarnhaol—"yn erbyn tywysogaethau, awdurdodau," &c. Y mae rhai yn meddwl fod yr apostol, wrth yr amryw enwau a'r teitlau hyn, yn bwriadu gosod allan raddau gwahanol, yn ol pa rai y mae y diaffiaid mewn israddiad i'w gilydd. Felly, hwy a wnaet y diafol (*adn.* 11) i fod y pen neu y brenin; a'r rhai hyn (*adn.* 12) yn gynifer o israddolion, megys y mae yn mysg dynion dywysogion, duciaid, ieirll, &c., dan ymherawdwr. Nis gellir gwadu nad oes graddau ym mysg y diaffiaid. Y mae yr Ysgrythyr yn son am "benaeth y cythreuliaid (*Mat.* ix), ac am y diafol a'i angylion, y rhai a syrthiasant gydag ef o'u sefyllfa gyntaf. Hwy a elwir ei angylion, fel y mae yn debygol i'w ddirnad, am fod un uwch law y lleill (fel pen yr ymbleidiad) yn tyngu torfeydd ereill i'w blaidd, y rhai a bechasant ac a syrthiasant i'w ganlyn. Ond er hyn, nid yw yn debygol fo'i cynifer o raddau gwahanredol yn eu plith ag sydd o amryw geingiau yn y darluniad hwn; ac y mae y fath dyb yn rhy wan i fod yn sail i bwng o athrawiaeth; am hyny, ni a'i cymmerwn fel yn golygu y diafol a'i rym yn gydgusgledig. Nid yw ein hymdrech ni yn erbyn gwaed a chnawd, ond yn erbyn diaffiaid, y rhai ydynt dywysogaethau, awdurdodau, &c.; ac nid yn rhanedigol—i wneyd tywysogaethau yn un radd, ac awdurdodau yn un arall—canys y mae rhai o'r enwau hyn na ellir meddwl am wahanol raddau ynddynt—ond yn blith draphlith am y cwbl, fel drygau ysbrydol. Nid peth priodol i rai yw eu bod yn ysbrydion, neu yn ddyrgionus, ond perthynol iddynt oll.

1. Darlunir y diafol yma, neu yr holl haid o honynt, wrth eu llywodraeth yn y byd hwn—"tywysogaethau."

2. Wrth eu gallu a'u cadernid—"awdurdodau."

3. Wrth eu natur, yn eu sylwedd a'u dirywiaeth—"drygau ysbrydol."

4. Yn eu teyrnas, neu diriogaeth briodol—"llywiawdwy'r tywyllwch y byd hwn."

5. Wrth sail y rhyfel—"yn y nefolion leoedd," neu yng nghylch pethau nefol.

1. Am y cyntaf, "tywysogaeth," y mae yn ddull o ymadroddi sydd yn rhoddi y peth yn lle y person; a'r meddwl yw, y cyfryw ag sy ganddynt dywysogaeth. Felly yn *Tit.* iii. 1. Dwg ar gog iddynt fod yn ddarostyngedig i'r tywysogaethau a'r awdurdodau, sef i dywysogion a rheolwyr. Fel hyn y mae yn y Testament Lladinaidd: "Y mae ein hymdrech ni yn erbyn tywysogion." Myn rhai fod hyn yn dadgan uchafiaeth eu natur hwynt uwch law natur dyn; a gwir yw, fod gan wŷr mawr ysbryd mawr; a bod gradd, ac felly ysbryd tywysogion, goruwch

yr eiddo ereill. Pan ofynnodd Gideon i Zebah a Salmunna, "Pa fath wŷr oedd y rhai a laddasoch chwi yn Tabor?" Eu hatteb oedd, "Tebyg i ti, bob un o ddull meibion brenin;" hyny yw, gwŷr o wedd ac agwedd fawrfrydig, a weddai i hil dywysogaidd. Felly, y maent hwy yn meddwl fod natur ardderchog angylion yn cael ei golygu yma, y rhai ydynt mor bell uwch law y tywysog uchaf ag ydyw efe uwch law y gwladwr isaf. Ond, gan fod y diaffiaid yn ddarluniedig yn eu natur dan y pedwerydd pen, myfi a gyd-syniaf â barn y rhai a gymmerant hyn am eu tywysogaeth llywodaethol, yr hon y mae y diafol yn ei harfer yn y byd hwn, a'r sylw fydd—

Athr. Fod Satan yn dywysog mawr. Y mae Crist ei hun yn ei enwi, "Tywysog y byd hwn;" *Ioan* xiv. 30. Y mae gan dywysogion eu gorseddfeingiau, lle yr eisteddant mewn rhwysg; ac felly y mae gan Satan: "Mi a adwaen dy weithredoedd di, a pha le yr wyt yn trigo; sef lle mae gorseddfainge Satan: ac yr wyt yn dal fy enw i, ac ni wedaist fy ffydd i, ie, yn y dyddiau y bu Antipas yn ferthyr ffyddlawn i mi, yr hwn a laddwyd yn eich plith chwi, lle y mae Satan yn trigo" (*Dad.* ii. 13): a hono yn gyfryw nad oes gan dywysog daearol ei chyffelyb. Ychydig o frenhinoedd sydd yn orseddedig yng nghalonau eu deiliaid: hwy a reolant eu cyrph, ac a alwant am eu pyrtau; eto, pa mor fynyeh yn y dydd y llusgir hwynt o'u gorseddau gan ddymuniadau eu deiliaid anfoddog! Ond y mae Satan yn cael calonau pawb oll o'i deiliaid ef. Y mae i dywysogion ymostyngiad ac anrhydedd neillduol yn cael ei roddi. Gwasan-aethir Satan, yntau, megys ar liniau, gan ei ddeiliaid. Dywedir fod yr annuwiol yn addoli y diafol: *Dad.* xiii. 4. Nid oes un tywysog yn dysgwyl y fath addoliad ag ef. Nid oes dim llai nag addoliad crefyddol a wna y tro ganddo: *2 Cron.* xi. 15. Dywedir yno (darfod i Ieroboam osod offeiriaid i'r cythreuliaid! Am hyny, gelwir ef, nid yn unig yn dywysog, ond yn dduw y byd hwn; o blegid fe roddir iddo addoliad fel duw. Y mae gan dywysogion, sydd yn anymddibynol, awdurdod i lunio cyfraith—nag e, eu hewyllysiau eu hunain ydyw eu cyfraith, megys y dydd heddyw yn Twrci, lle nad yw eu cyfreithiau yn argraphedig ar un lech arall heb law mynwes y llywydd balch. Fel hyn y mae Satan yn rhoddi deddf i'r pechadur truan, yr hwn sydd yn rhwym ac yn rhaid iddo ufuddhau, er i'r ddeddf gael ei hysgrifenu â'i waed ef ei hun, ac nad oes i'r creadur ddim ond damnedigaeth am gyflawni trachwant y diafol. Gelwir hon yn ddeddf pechod (*Rhuf.* viii. 2), am ei bod yn dyfod gydag awdurdod. Mae gan dywysogion eu gweinidogion llywodraeth, y rhai a roddant ar waith er diogelu a helaethu

eu terfynau; felly y mae gan Satan ei weinidogion (2 Cor. xi. 15), y rhai a daenant ei fwriadau melldigedig ef; am hyn y darllenwn am athrawiaethau cythreuliaid. Y mae gan dywysogion eu dirgelion cyfrinachol, am y rhai ni wŷr neb ond ychydig o rai dewisedig, yn y rhai y mae ganddynt hyder; felly y mae gan y diafol ei ddirgelwch yr anwired (2 The. ii. 24), a dyfnderau Satan; fel y darllenwn (*Dach.* ii. 24), y rhai nid yw pawb o'i ddeiliaid yn gwybod am danynt. Cyfrenir y rhai hyn i ryw ychydig o rai dewisedig o fath Elymas, yr hwn y mae Paul yn ei alw "cyflawn o bob twyll, mab diafol;" y cyfryw ag y mae eu cydwysodau mor llygredig fel na phetrusant rhag y pechod erchyllaf; y rhai hyn yw ei ben gweision ef. Mi a ddarllenais am bobl yn America sydd yn hoff ganddynt fwyd wedi llygru a drewi. Archwaeth debyg sydd gan y diafol; po mwyaf llygredig a phwdr y byddo y creadur mewn pechod, mwyaf blasus ydyw i'w ddânt ef; y mae rhai yn blant diafol mwy nag ereill. Yr oedd gan Grist ei ddisgybl anwyl; ac y mae gan Satan yntau rai sydd yn gorwedd, i.e. yn ei fynwes, ac yn cael gwybod yr hyn sydd yn ei galon ef. Mewn gar, y mae gan dywysogion eu teyrnged a'u treth; felly mae gan Satan ei rai yntau. Yn wir, nid yw efe gymmaint yn rhanog â'r pechadur, ond yn berchenog ar y cwbl a fedd efe. Felly, Satan yw y marsiandrwr; ac nid yw y pechadur ond marchnatâwr drosto ef; yr hwn yn y diwedd sydd yn rhoddi ei holl ennill ym mhwr y diafol:—amser, nerth, doniau, i.e. cydwysod a chyfan, a wastrefir i'w gadw ar ei orsedd.

DOSB. II.

Gof. Ond pa fodd y daeth Satan i'w dywysogaeth?

At. Nid yn gyfreithlawn, er y gall efe ddangos lliw teg o hawl; megys,

1. Ddarfod iddo ei chael trwy gonwest; ac fel y bu iddo ennill ei goron, felly y mae yn ei gwisgo, trwy rym a chyfrwysdra; etto, nid yw conwest ond hawl gandyll. Nid yw lleidr ddim gonestach am ei fod yn medru rhoddi gorfod ar y teithiwr i roddi ei bwrs i'w law; ac nid yw lleidr ar yr orsedd ddim gwell nag un isradd ar y ffordd, neu fôr-leidr mewn llong; fel y dywedodd un gŵr yn hŷf wrth Alesander. Ac ni wna treigliad amser chwaith mo'r peth yn dda, a oedd yn ddrwg ar y dechreu. Y mae Satan yn ddiau wedi cadw hir feddiant (ond bydd y lleidr yn gyffelyb cyhyd ag y cadwo ei eiddo lladradd). Lladrata calon Adda a wnaeth efe oddi ar Dduw ar y cyntaf, ac nid gwell ei waith hyd heddyw. Y mae conwest Crist yn dda, am fod saii y rhyfel yn gyfiawn, i ennill yn ol ei eiddo ei hun; ond nis gall Satan ddyweyd am y creadur gwaelfaf, fy eiddo i ydyw.

2. Dichon Satan hōni hawl i'w dywysogaeth trwy etholiad. Y mae yn wir mai trwy ddichell y daeth i mewn; ond yn awr, y mae efe yn dywysog etholedig, gan lais cydsynol natur llygredig: "O'ch tad diafol yr ydych chiwi," medd Crist, "a thrawantau eich tad a fynwch chiwi eu gwneuthur;" *Ioan* viii. 44. Etto, y mae *flaw* yma hedyd, canys deiliad Duw ydyw dyn wrth deddf creadigaeth, ac nis gall efe roddi hawl Duw o'i law. Y mae efe, trwy bechod, yn colli ei hawl yn Nuw fel noddwr; ond nid yw Duw yn colli ei hawl ef fel penllywydd. Darfu i bechod analluogi dyn i gadw cyfraith Duw; ond nid yw yn ei freinio a'i ryddhau, fel nad oes achos iddo ei chadw.

3. Gall Satan hōni hawl i weithred o rodd gan Dduw ei hun; fel y bu yn hŷf i wneuthur gyda Christ ei hun ar y sail hon, gan geisio ganddo ei addoli ef fel tywysog y byd. "Efe a ddangosodd iddo holl deyrnasoedd y ddaear, gan ddyweyd, i ti y rhoddaf yr awurdod hwn oll; canys i mi y rhoddwyd, ac i bwy bynag y mynwyf y rhoddaf finnau hi;" *Luc* iv. 5, 6. Lle yr oedd gwir, er iddo ef ddywedyd mwy na'r gwir (fel nas gall efe ddywedyd y gwir, ond i ennill cred i ryw gelwydd yn ei ddiwedd). Y mae Duw yn ddiau wedi traddodi y byd hwn iddo, mewn ystyr; etto, nid yn ol ei ystyr ef, i wneuthur a fynd âg ef; ac ni chafodd efe gan Dduw un *act* na llythyr cymmeradwyol, ond ei osod ef yn rhaglawn dano. Nid ydyw Satan trwy rodd Duw, ond trwy oddefiad Duw, yn dywysog y byd.

Gof. Ond pa ham y mae Duw yn goddef i'r creadur gwrthgiledig hwn arfer y fath dywysogaeth ar y byd?

At. 1. Fel gweithred gyfiawn o ddial ar ddyn am fod yn anffyddlawn yn erbyn llywodraeth dirion ei iawn Arglwydd a'i Wneuthurwr. Y mae yn ffordd sydd gan Dduw i gospi gwrthryfel: "O blegid ni wasanaethaist yr Arglwydd dy Dduw mewn llawenydd am amltra pob dim; am hyn, y gwasanaethi di dyelynion mewn newyn," &c.; *Deut.* xxviii. 47, 48. Brenin yw Satan a roddwyd yn nŷg Duw. Melldith Cam yw cospedigaeth dyn, *Gwas gweision*. Y mae y diafol yn gaethwas i Dduw, a dyn i'r diafol. Pechod a'i gosododd ef ar gefn y creadur; ac yn awr y mae yn ei yru yn chwyrn ddirugaredd (fel y gwnaeth â'r moch), nes y tegir ef â'r filamau, oni ragflaena trugaredd.

2. Y mae Duw yn goddef ei dywysogaeth hon, gyda golwg ar ogonneddiad ei enw ei hun, yn adferiad ei etholedigion oddi tan awurdod y penadur hwn. Pa fath enw gogoneddus a gaiff Duw pan orphena y rhyfel hwn, ar ol cael, yn ei ddechreu, bawb oll yn meddiant y gelyn hwn, ac heb un o holl feibion Adda yn ymgynnyg, fel milwr ewyllysgar yn y gwasanaeth hwn, nes y gwnaed ef felly yn nydd ei nerth ef? Hyn a ennilla

i Dduw enw uwch law pob enw, nid yn unig o enwau creaduriaid, ond hefyd o'r enwau yr adnabyddwyd ef ei hun without gan ei creaduriaid. Y mae gwneuthriad nef a daear yn rhoddi iddo enw Creawdwr, a rhagluniaeth enw Noddwr: ond yn hwn, o Achubwr, y mae sylwedd y ddau enw cyntaf; y mae yn rhoddi nawdd a chadwedigaeth i'w creadur (yr hwn, pe angen, a gollesid), ac yn creu creadur newydd (y baban o ras yr wyf yn ei feddwl), yr hwn, trwy Dduw, a fydd yn abl i guro y diafol allan o'r maes; a hwn yw y gelyn a fu yn abl i yru Adda (er ei greu yn ei lawn gorpholaeth) allan o baradwys. Ac oni all holl weithredoedd ereill Duw ymwagau fel afonydd i'r môr, gan gollu ei henwau, neu yn hytrach chwyddo i'r un enw o Brynwr? Y mae yn yr Ysgrythyr dri dywediad am lawenydd mawr—llawenydd gwraig ar ol esgor, llawenydd cynhauaf, a llawenydd rhai yn rhanu yr yspail. Crechwen y rhai hyn oll a weithir ar sail athrist: y mae yn costio aml wasgfa a deigrun i'r wraig wrth esgor, aml ofnau i'r llafurwr, aml berygl ac archoll i'r milwr, cyn iddynt gyrhaedd eu llawenydd; ond yn y diwedd, telir iddynt am y cwbl, a'r coffia am eu tristwch o'r blaen a bortha eu llawenydd presennol. Pe buasai i Grist ddyfod i gyfathrachu â'u natur ni, a dychwelyd mewn heddwch gyda'i briod i'r nef, heb gael dim gwrthwynebiad, er y buasai hyn yn gariad rhyfedd, a hwnw yn rhoddi llawenydd priodas, etto, y ffordd hon o ddwyn ei saint i'r nef a fwyhâ y llawenydd, fel y mae yn chwaneu at y gân briodas orfoledd buddugoliaethwr, a hwnw wedi achub ei ddywedd allan o law Satan, pan oedd yu ei harwain i ystafelloedd uffern.

DOSE. III.

Defn. 1. A ydyw Satan y fath dywysog? Prawf, deiliad i bwy wyt ti. Y mae ei ymherodraeth ef yn eang, ac nid oes ond ychydig o rai breiniol a symmudwyd i deyrnas anwyl Fab Duw. Ië, yn nhiriogaeth Crist ei hun (yr eglwys weledig yr wyf yn ei feddwl), lle y proffesir ei enw, ac yr estynir allan deyrnwialen ei efengyl—mae gan Satan ei ddeiliaid yno. Megys yr oedd gan Grist ei saint yn llyh Nero, felly y medd diafol ei weision yng nghyntedd allanol ei eglwys weledig ef. Gan hyn, rhaid bod genyt rywbeth mwy i'w ryddhau oddi wrth ei lywodraeth ef, na dy fod yn byw o fewn y palas, ac yn cydffurfio oddi allan âg ordinhadau Crist. Fe wna Satan oddef hyn, ac heb fod yn golledwr. Fel y goddefa brenin i'w farsiantwyr fasnachu â theyrnas bellenig, ie, byw ynddi, a dysgu iaith, a chadw defodau y wlad tra y byddont ynddi, nid yw hyn yn tori dim ar eu cywiredd hwynt; na'r llall i gyd ar dy gywiredd dithau i Satan. Pan wnaed deddf yn amser y frenhines Elisabeth, ar fod i bawb ddyfod i'r eglwys, y Pabyddion a anfonasant i Rufain

i wybod meddwl y pab; yntau a roddodd yr ateb hwn iddynt, fel y dywedir, "Perwch i'r Catholiciaid yn Lloegr roddi eu calon i mi, a chymmered y frenhines y gweddill." Ei ddeiliad ef wyt ti, yr hwn yr wyt yn ei goroni yn dy galon, ac nid yr hwn yr wyt yn gwneithio iddo â'w wefusau.

Ond i ddwyn y prawf i ben, gwybydd dy fod yn perthyn i un o'r rhai hyn, ac nid ond i un. Crist a Satan sydd yn rhanu y byd oll; ni oddef Crist neb yn gydradd, na Satan neb yn uwch nag ef: ac am hyny, cadw i mewn gyda'r ddau nis gelli. Yn awr, os wyt yn dyweyd mai Crist yw dy dywysog, ateb i'r gofynion hyn—

1. Pa fodd y daeth ef i'r orsedd? Gan Satan y bu unwaith feddiant heddychol o'th galon di. Yr oeddit, o naturiaeth, fel y rhai ereill o'th gymmydogion, yn ddeiliad caeth i Satan; ie, yng ngyrfa dy fywyd, ti â'i hadd-efaist ef yn fynych fel dy arglwydd-lywydd. Pa fodd y daeth y cyfnewidiad mawr hwn? Yn sicr, ni roddai Satan mo'i goron a'i deyrnwialen i fyny i Grist o houo ei hun: ac am danat tithau, nid oeddit yn foddolawn i wadu, nac yn abl i wrthwynebu ei awurdod ef. Rhaid ynte i hyn fod yn ffrwyth arfau buddugoliaethus Crist yn unig; "Yr hwn a ddyrchafodd Duw i fod yn Dywysog ac yn Iachawdwr;" *Act. v. 31.* Dywed, gan hyn, a ddaeth Crist atat ti, fel Abraham unwaith at Lot, pan oedd yn garcharor i Cedorlaomer, gan dy achub di o afael Satan, pan ydoedd yn dy arwain, mewn cadwynau o drachwant, i uffern? A glywaist ti erioed lais o'r nef, yng ngweinidogaeth y gair, yn galw arnat, megys unwaith ar Saul, fel ag i'th osod wrth draed Duw, a pheri i ti droi dy wyneb tua'r nef? A darawyd ti yn ddall yn dy ddeall dy hun, er dy fod o'r blaen yn tybio yn dda am dy gyflwr; ac a gefaist ti dy ddofi a'th wareiddio, hyd onid wyt yn awr yn foddolawn i gael dy dywys, fel plentyn gerfydd llaw, ar ol Crist? A ddaeth Crist erioed atat ti, fel yr angel at Pedr yn y carchar, gan dy ddeffro, gan beri, nid yn unig i gadwynau tywyllwch a syfrdandod syrthio oddi wrth dy feddwl a'th gydwybod, ond hefyd i ti fod yn uffudd, ac i borth haiarn dy ewyllys ymagoryd i Grist cyn iddo dy adael di? Os bu fel hyn, y mae genyt rywbeth i ddyweyd am dy ymward. Os wyf fi, yn hyn oll, fel barbariad i ti, a'r iaith sydd genyf yn ddeithr, ac na wyddost am ddim o'r fath waith wedi bod ar dy ysbyrd, yna yr wyt etto yn dy hen garchar. A ddichon fod newidiad llywodraeth mewn gwlad gan gongewerwr yn syrthio arni, a'r deiliaid heb glywed dim am hyn? A fu diorseddu en brenin, a choroni un arall, yn dy enaid di, a thithau heb glywed dim ymdynu yr holl amser hwn? Yr Ysbyrd sydd yn adgenhedlu a gyffelybir i'r gwynt (*Ioan iii. 8*); dichon ei gynnygiadau cyntaf ar yr enaid fod mor ddirgelaidd fel na wŷr

y creadur o ba le y maent yn dyfod, nac i ba le y maent yn tueddu; ond cyn y darfyddo, clywir y sŵn trwy yr holl enaid, fel nas gall efe lai na gweled cyfnewidiad mawr ynddo ei hun, a dywedyd—myfi, yr hwn oeddwn yn ddall, wyf yn awr yn gweled—myfi, a fum mor galed â'r iâ, wyf yn awr yn meddalu o herwydd pechod; y mae fy nghalon yn ymollwng nes ydwyf yn ymdoddi ac yn galaru o'i achos—myfi, yr hwn oeddwn yn iach ddigon, heb Grist, ie, yn rhyfeddu beth oedd ereill yn ei weled ynddo i wneuthur y fath gynnhwrf ynei gylech, wyf yn awr wedi newid fy llais, gyda merched Ierusalem—ac yn lle “Beth yw dy Anwyld?” (fel y bum yn gofyn mewn diystyrwch) myfi a ddysgais ofyn, “Pa le y mae efe, fel y ceisiwyf ef gyda chwi?” O enaid! a eelli di ddyweyd ei bod hi fel hyn gyda thi? Gelli wybod yn ganlyniol pwy a fu yma—neb llai na Christ; yr hwn, trwy ei Ysbryd buddugoliaethus, a'th symmudodd di o feddiant Satan i'w deyrnas ogoneddus ei hun.

2. Cyfraith pwy yr wyt ti yn ymostwng yn rhydd iddi? Y mae cyfreithiau y tywysogion mor wrthwyneb ag ydyw eu naturiaethau; un yn ddeddf pechod (*Rhuf.* viii. 2), a'r llall yn ddeddf sanctaidd (*Rhuf.* vii. 12). Ac am hyny, os wyt heb dy ddisynwro mor bell gan bechod, fel na wyddost y gwahaniaeth rhwng pechod a sancteiddrwydd, y mae modd i ti (oddi eithr dy fod am dwyllo dy enaid dy hun) gael penderfyniad buan. Cyffesa, gan hyny, a dyro ogoniant i Dduw. Wrth ba un o'r deddfau hyn y mae dy enaid yn gosod ei sel? Pan fyddo Satan yn aifon ei gyhoeddiad allan, ac yn erchi—Bechadur, dos, gosod dy droed ar y cyfryw orchymyn o eiddo Duw; craffa pa fath yw dy ymddygiad: a wyt ti (yn ol ymadrodd Paul yn *Rhuf.* vi. 16) yn rhoddi dy hunan? Cyffelybiaeth sydd yn y gair, oddi wrth weision tywysogion ac ereill, y rhai y dywedir eu bod yn ymddangos o flaen eu harglwyddi, fel yn barod wrth law i wneuthur ei hewyllys hwynt: a thrwy hyn y darlunia yr apostol, yn gynhwys, barodrwydd calon y pechadur i ddyfod at draed Satan wrth guriad neu alwad. Yn awr, a ydyw dy enaid fel hyn yn myned allan i gyfarfod dy chwant, megys Aaron yn cyfarfod ei frawd, yn llawen o weled ei wyneb wrth achlysur? Nid gydag anhawser yr wyt ti yn cael dy ddwyn drosodd i bechu, ond yr wyt ti yn hoffi y gorchymyn: “Troesddwch yn Gilgal,” medd Duw, “canys hyn a hoffwch;” *Amos* iv. 4, 5. Fel gŵr llys, yr hwn, nid yn unig a ufuddhâ, ond a rydd ddiolch i'w dywysog am ei osod ar waith. A raid i ti fod yn hir cyn penderfynu eiddo pwy wyt? A fui neb ammheu ai deiliaid Ieroboam oedd y rhai hyn a aethant yn ewyllsgar ar ol ei orchymyn ef? *Hos.* v. 11. Och! am danat ti, yr wyt yn meddiant Satan, wedi dy rwympo â chadwyn gryfach na phres ac na haiarn: yr

wyt yn caru dy chwant. Gall sant fod dros amser dan drais, wedi ei werthu dan bechod, fel y mae yr apostol yn cwyno, ac am hyny yn llawenhau pan ddel gwaredigaeth. Ond yr wyt ti yn ymwerthu i weithredu anwiredd. Pe deuai Christ i'th dynu di oddi wrth dy chwantau, ti o gŵynfenit ar eu hol, fel Micah ar ol ei dduwiau.

3. At bwy yr ydwyf yn myned am nodded? Fel y mae yn perthyn i dywysog noddi ei ddeiliaid, felly y mae tywysogion yn disgwyl i'w deiliaid roddi eu diogelwch mewn ymddiried iddynt. Y mae hyd yn oed y fieren yn erchi, “Os mewn gwirionedd yr eneiwiwch fi yn frenin arnoch, deuwech ac ymddiriedwch yn fy nghysgod i;” *Barn.* ix. 15. Yn awr, ar bwy y mae dy hyder di? A feiddi di ymddiried dy enaid i Dduw, ac achosion dy enaid, gan wneuthur yn dda? Y mae deiliaid da yn dilyn eu galwedigaeth, gan adael materiao y deyrnas i ddoethineb y tywysog a'i gynghor: pan gaffant gam, hwy a apelliant at eu tywysog yn ei gyfreithiau am iawnder; a phan droseddont yn erbyn eu tywysog, hwy a ymostyngant i gosp y gyfraith, ac a ddiodddefant ei ddig yn amyneddgar, nes y byddo iddynt, trwy ymostyngiad, ail gyrhaedd ei ffafref; ac nid ydynt mewn anfoddlonrwydd yn syrthio i wrthryfel cyhoedd. Fel hyn y gwna enaid grasol ddilyn ei alwad Cristionogaidd, gan roddi ei hun i Dduw, megis i Greawdwr ffyddlawn, i gael ei drefnu gan ei ragluniaeth ddoeth ef. Os cyferfydd efe â gormes gan neb, y mae yn ffiadd ganddo grefu am gymmhorth Satan i'w helpio, neu fod yn farnwr ei hun, i ddial ei gam: na, efe a ymlonydda yn y cynghor a'r cysur a rydd gair Duw iddo. Os efe ei hun a droseddâ, a'i fod am hyny dan ffreyll llaw geryddol Duw, ni wna efe er hyn godi arfau gwrthryfel yn erbyn Duw, a gwrthod derbyn cerydd: ond efe a ddywed, “Pa ham y grwgnach dyn byw, gŵr am gospedigaeth ei bechod?” Eithr y dyn drwg ni faidd anturio ei eiddo, ei fywyd, ei air da, na dim a feddo i law Duw, gan wneuthur yn dda: y mae yn meddwl yr andwyir ef yn ebrwydd os eistedda yn llonydd dan gysgod addewid Duw am noddfa; ac am hyny, y mae yn rhedeg oddi wrth Dduw, fel oddi dan hen dŷ ar syrthio am ei ben, ac yn gosod pwys ei hyder ar gallineb drygionus, ac yn gwneud celwydd yn noddfa iddo. Fel Israel, y mae ei ymddiried mewn twyll a cham: *Esa.* xxx. 12. Pan y mae Duw yn dyweyd wrtho, “Trwy ddychwelyd a gorphwys y byddwch gadwedig; mewn llonyddwch a gobaith y bydd eich cadernid;” *adn.* 15: ni fedd efe ffydd i gymmeryd gair Duw er ei sicrhad yn ffydd ufudd-dod. A phan ddelo Duw i'w guro am ryw ymddygiad anufudd, yn lle derbyn cosp ei bechod—ac felly ei addef ef yn Benllywydd, a all yn gyfiawn gospi beiau ei ddeiliaid

anufudd—y mae ei galon ef yn ymlidio yn erbyn Duw; ac yn lle disgwyl yn llonydd ac ymostyngol, fel deiliad da, nes y byddo i Dduw, ar ei edifeirwch, ei dderbyn ef i'w ffafr, ni oddef ei galon druenus ef—sydd yn dangos Duw fel ei elyn—i ddim o'r fath feddwl grasol a charuaidd am Dduw drigo yn ei fynwes; ond fe ddysg iddo beidio edrych am ddaioni ar law Duw: “Y drwg hwn sydd oddi wrth yr Arglwydd; pa ham y disgwyliaf wrth yr Arglwydd mwyaeh?” Eithr am y galon rasol, y mae ei chalondid mwyaef hi i ddisgwyl yn tarddu oddi ar yr un ystyriaeth hon, sydd yn gyru'r llall ymaith: sef, mai yr Arglwydd sydd yn cystuddio: *Micah* vii. 7.

4. A phwy yr wyt ti yn cydymdeimlo? Efe yw dy dywysog di, ennill a cholledion yr hwn sydd yn cael y lle mwyaef yn dy galon, pa un bynag ai o fewn dy fynwes dy hun, ai ar led yn y byd. Beth a ddywed dy enaid, pan fyddo Duw yn cau dy ffordd i fyny, ac yn dy attal rhag rhyw bechod y bu yn dadleu o'i du? Os wyt o oehr Crist, ti a lawenychi pan wareder di rhag profedigaeth, er i hyny fod trwy syrthio i ryw drallod. Fel y dywedodd Dafydd am Abigail, felly y dywedi dithau, Bendigedig fyddo yr ordinhâd, a bendigedig y rhagluniaeth a'm cadwodd i rhag pechu yn erbyn fy Nuw. Ond os yn erbyn Crist, ti a fynwesi duchan dirgei yn erbyn y gair a safodd ar dy ffordd, ac a fyddi yn anfoddlawn am i'r bwriad fetlu. Calon ddrygionus a guria, fel Amnon, gan rediad ei chwant. Drachefn, pa beroriaeth a wna buddugoliaethau Crist ar y ddaear yn dy glustiau di? Pan glywech fod yr efengyl yn llwyddo, y deillion yn gweled, y cloffion yn rhodio, y tlodion yn derbyn yr efengyl, a ydyw dy ysbryd yn llawenhau yn yr awr hono? Os wyt sant, ti a lawenychi, fel mai Duw yw dy Dad, am fod i ti chwaneig o frodyr wedi eu geni; fel mai efe yw dy dywysog, am fod nifer ei ddeiliaid ef yn cynyddu. Felly, pan welych fradwaith gelyniun Crist yn cael ei ddadguddio, eu galluoedd yn cael eu trechu, a elli di fyned allan gyda'r saint i gyfarfod y Brenin Iesu, a'i glychau ef o'r maes â chludforedd? Neu, a yw dy glychau di yn cau o chwithig, a'r fath newyddion yn peri i ti frysio, fel Haman, mewn galar i'th dŷ, i dywallt yno dy ysbryd chwyddedig gan lid yn erbyn ei saint a'i wirionedd ef? Neu, os gall dy ystryw feistroli dy ddigder mor bell ag i beri hindda yn dy wyneb, a gadael i ti uro â phobl Dduw yn eu bloddest o lawenydd; etto, yr wyt ti yn gudd-alarwr oddi mewn, ac yn hoffi y gwaith ddim gwelw na Haman ei swydd yntau o ddal gwrthaf Mordecai; pan y buasai yn well ganddo ddal yr ysgol i'w grogi. Y mae hyn yn dy ddadgan di yn wir elyn i Grist, pa mor fwyngwch bynag y gelli ymdangos o flaen dynion.

Defn. 2. Bendithiwech Dduw, O! chwi saint, y rhai, ar y prawf blaenorol, a ellwch ddywedyd ddarfod eich bymud i deyrnas Crist, ac felly eich gwaredu oddi dan ormes y trais reolwr hwn! Nid oes ond ychydig nad oes gunddynt ryw un dydd llon yn y fwyddyn, a gadwant fel gŵyl; rhai a gadwant ddydd eu genedigaeth; ereill ddydd eu priodas; rhaidddydd eurhyddhâd o gaethwasanaeth; ereill ddydd eu gwaredigaeth o ryw berygl hynod. Dyma drugaredd ym mha un y cyferfydd y rhai hyn oll. Chwi a ellwch ei galw, fel y galwodd Adda ei wraig, *Chafa*, mam pob dyn byw. Y mae pob trugaredd yn cyfodi, ac yn galw hon yn fendigedig. Dyma ddydd dy enedigaeith: yr oeddit o'r blaen, ond ti a ddechreuast fyw, pan ddechreuodd Crist fyw ynot. Yr oedd tad yr afradlawn yn dechreu cyfrif bywyd ei fab o amser ei ddychweliad: “Fy mab hwn oedd yn farw, ac a aeth yn fyw drachefn.” Dy ddydd priodas ydyw: “Mi a'ch dyweddiais chwi i un gŵr,” medd Paul wrth y Corinthiaid. Fe allai ddarfod i ti fwyngwch llawer dydd o gymdeithas felus dy Briod hwn, a chael hil liosog o gysuron a llawenydd, trwy dy gymdeithas âg ef; a'r meddyliau am hyn ni allant lai na pheri ei fod ef yn anwyl genyt, a bod dydd dy ddyweddiad yn hyfryd i'th gof. Dydd dy ryddhâd ydyw: dyna'r prydy diddymwyd y cyfammod wrth yr hwn yr oeddit yn rhwym i bechod a Satan. Pan wnaeth y Mab di yn rhydd, ti a ddaethost yn rhydd yn wir. Ni elli di ddyweyd ddarfod dy eni yn freiniol, o blegid caethwas oedd dy dad; na'th fod wedi prynu dy ryddfrait â rhyw swm; trwy ras yr ydych yn gadwedig. Y mae y nef wedi ei sierhau i ti yn yr addewid, a thi heb fod gymmiant ag yn y gost o dynu yr ysgrifeniadau. Ar gost Crist y gwnaed y cwbl, a'r hwn y cyfammododd Duw; ac i'r hwn y rhoddodd efe addewid o fywyd tragwyddol, er cyn dechreu y byd (*Ti.* i. 2), fel etifeddiaeth rydd, i'w sefydlu ar y credinwyr oll, yn y dydd y deuant at Grist, ac y derbyniant ef fel eu Tywysog a'u Hiachawdr. Felly, o'r awr y daethost dan gysgod Crist, eiddot ti yw yr holl ffirwyth peiraiddsydd yn tyfu arno—gwir bren y bywyd. Gyda Christ y mae pob peth a fedd y ddau fyd yn digwydd i ti; pob peth sydd eiddo i chwi, gan eich bod chwi yn eiddo Crist.

O Gristion! edrych arnat dy hun yn awr, a bendithia dy Dduw wrth weled y fath gyfnewidiad a wnaed yn dy gyflwr, er yr amser trwm a thywyll hwnw, pan oeddit yn gaethwas i dywysog y tywyllwch! Pa fodd y gellit ti hoffi dy lien gegin-waith drachefn; neu feddwl am droi yn ol i dŷ dy gaethiwded; a thi yn awr yn gwybod am ragorfreintiau teyrnas Crist? Y mae tywysogion mawrion, a godwyd o waeledd a thlodi i deyrnasoedd a mawredd, i chwaneu at lawenydd eu bri

presenuol, wedi hoffi son yn fynych am eu genedigiaeth isel, a myned i weled y bythod gwael y bu eu llettyad cyntaf ynddynt, lle y cawsent eu geni a'u magu, a'r cyffelyb. Ac nid anfuddiol yw i'r Cristion edrych rhwng y barau haiarn i weled y twll myglyd lle y bu yntau yn gorwedd gynt, a bwrw golwg ar y cadwynau â pha rai y llwythwyd ef; ac felly cymmharu palas Crist â charchar y diafol; dedwyddwch y naill, ac erchylldra y llall ynghyd. Ond pan wnelom ni ein goreu i gael ein calonau i dra serchu y drugaredd hon, trwy bob mwyhâd chwaneogol a allom gael allan, O! leied cyfran o honi a allwn ni ddirnad yma! Y mae hyn yn beth tra rhagorol, na ellir ei ganfod yn llawn ond gan lygad wedi ei ogoneddu. Pa fodd y llawn-wybyddir ef genym ni, lle nis gellir ei lawn fwynhau? Ti a drosglyddwyd i deyrnas Crist: etto, yr wyt ti bellder maith oddi wrth ei lys. Yn y nef y cedwir hwnw, ac y mae'r Cristion yn ei adwaen; etto, yn debyg fel yr adwaenom ni wledydd pell, heb eu gweled erioed; dim ond yn unig wrth ddarlun (*map*), neu wrth ryw ammeuthyn a anfoner i ni, fel prawf o'r hyn sydd yn tyfu yno mewn helaethrwydd.

Defn. 3. Y mae hyn, Gristion, yn galw am dy gywiredd a'th wasanaeth fydddlawn di i Grist, yr hwn a'th achubodd o gaethiwed Satan. Dywedwch, O, chwi saint, wrth Grist, fel y rhai hyny wrth Gideon, "Arglwyddiaetha di arnom ni, canys gwardaist ni," nid o law Midian, ond Satan. Pwy mor alluog i'th amddiffyn rhag digllonedd hwn ag efe, yr hwn a ddrylliodd ei rym? Pwy sydd debyg i'th reoli mor dyner ag efe, yr hwn nis gallai oddef gormes un arall arnat? Mewn gair, pwy sy ganddo hawl ynot heb law efe, yr hwn a anturioedd ei fywyd i'th brynu—fel, "gwedi dy ryddhau o law dy elynion, y gwasanaethech ef yn ddiiofn, mewn sancteiddrwydd, holl ddyddiau dy fywyd?" Ac onid tosturus fyddai, fod i Grist gymmeryd yr holl boen yma i ddyrchafu dy ben di o dŷ caethiwed Satan, a rhoddi i ti le yn ei deulu, ym mysg y rhai a dderbynir i weinyddu iddo—y bri uchaf a all natur dynion neu angylion ei gyrrhaedd—a'th gael dithau, ar ol hyn oll, â llaw genyt mewn rhyw waith bradwrus yn erbyn dy anwyl Iachawdwr? Yn sicr, gall Crist farnu ei fod wedi haeddu gwell ar eich dwylaw chwi, pe nid ar law neb arall. Pa le y caiff tywysog fyw yn ddiogel ynddo, os nid yng nghanol gwyr ei lys ei hun; a'r rhai hyny y'n wir a dynwyd oll o gadwynau a charcharau, i'w dyrchafu fel hyn, a'u rhwymu felly yn fwy yn ei wasanaeth ef? Gad i ddiafiaid a dynion dieflig wneud eu gwaith eu hunain; ond na fydded dy law di, O Gristion, ar dy anwyl Iachawdwr! Ond rhy fychan yw hyn, erchi i ti beidio a chwareu y bradwr! Os oes genyt waed deiliad cywir

yn rhedeg yn dy wythienau, bydd i'th galon dy hun dy daraw pan rwygech y cwr lleiaf o'i ddeddf sanctaidd ef: crystal y gelli ddwyn marwor tân yn dy fynwes, a chuddio yno unrhyw frad yn erbyn dy anwyl Lywydd. Na; rhyw orchwyl ardderchog y mynwn i ti feddwl am dano—pa fodd y gelli, trwy eithaf dy ymgais, ddyrchafu enw Crist yn uwch yn dy ga'lon a'r byd hefyd. O! mor garedig y cymmerodd Duw hyny, fod Dafydd, pan osodwyd ef yn heddychol ar ei orsedd, yn meddwl, nid pa fodd y gallai ymfoddio â'r plerau hyny sydd yn arferol o lygru a halogi llysoedd brenhinoedd mewn amser heddwch, ond pa fodd y gallai efe ddangos sel dros Dduw, trwy adeiladu tŷ i'w addoliad ef, a godasai orsedd i Dafydd: 2 *Sam.* vii. Ac ai nid oes dim, Gristion, y gelli di feddwl am dano, yn yr hyn y gellit fod yn offerynol nodedig dros Dduw yn dy genhedlaeth? Nid deiliad i'rhagorol yw hwnw, sydd yn gwbl am yr hyn a allo ei gael gan ei frenin, ond heb byth feddwl pa wasanaeth a all efe wneud iddo. Ac nid y Cristion cywir yw efe, sydd â'i feddyliau yn aros yn fwy ar ei ddedwyddfyd ei hun, nag ar anrhydedd ei Dduw. Pe gallai deiliaid ddewis y bywyd a fyddai yn wychaf er eu mwyniant eu hunain, dymunai pawb fyw yn y llys gyda'u brenin; ond gan fod anrhydedd y brenin i'w brisio yn fwy na hyn, am hyny y mae ysbrydoedd boneddigaidd, i'wneud gwasanaeth i'w brenin, yn gallu ymwadu â melysion y llys, i beryglu eu bywydau ar y maes, a diolch i'w brenin am anrhydedd eu gorchwyl. Yr oedd Paul fendigedig, ar y golygiadau hyn, yn fodd-lawn i fod dydd ei goroniad mewn gogoniant yn cael ei oedi, ac yntau i aros yma, fel cydymaith gyda ei frodyr mewn cystudd, er rhwyddhâd i'r efengyl. Hyn yn wir a'i gwna yn werth yr amser i fyw, fod genym trwy hyn gyfle teg—os meddwn galonau i'w ddefnyddio—i roddi prawf o'n diolchgarwch diffuant i'n Duw am ei gariad achubol yn ein gwaredu o feddiant tywysog y tywyllwch, ac yn einsymmud i deyrnas eianwyl Fab. Ac am hyny, Gristion, na choll ddim amser; ond yr hyu yr wyt yn bwriadu ei wneuthur dros Dduw, gwna ar frys.

A wyt ti yn swyddog? Gwelir yn awr, yn fuan, ar ba ochr yr wyt. Os darfu i ti mewn gwirionedd ymwrthod fel ūfudd-dod i Satan, a hymmeryd Crist dy dywysog, dangos dy hun yn elyn i bawb o filwyr Satan ag sydd yn teithio dan ei faner ef. Ystyria yn dda dy swyddogaeth; ac wedi i ti ddeall dyledswydd dy le, taraw at y gwaith yn wresog dros Dduw. Mae genyt gleddyf dy frenin wedi ei roddi yn dy law; edrych am ei ddefnyddio, ac edrych pa fodd i'w ddefnyddio; fel pan y'th elwir i'w roddi i fyny, a dy gyfrif hefyd, na chaffer ef wedi rhydu yn y wain trwy syrthni ac ofnusrwydd, wedi ei liwio â gwaed trawsedd, nac wedi

ei blygu a'i fylchu trwy bleidgarwch a cham farn.

A wyt ti yn weinidog yr efengyl? Yr wyt mewn swydd uchel, yn genadwr, a hyny nid oddi wrth rhyw dywysog bychan, ond oddi wrth y Duw mawr, at ei ddeiliaid gwrthryfelgar—galwad mor anrhydeddus na fu ddim yn ddiystyr gan Fab Duw ddyfod o'r nef yn genadwr arbenig i'w chyflawni; ac am hyn y gelwir ef Angel [Cenad] y Cyfammod. Iê, efe a fuasai yn aros yn ber-sonol hyd heddyw ar y ddaear i'w chyflawni, oni buasai ei fod wedi ei alw i breswyllo fel ein Cenadwr a'n Dadleuwr ni yn y nef gyda'r Tad. Ac am hyny, yn ei amhres-ennoldeb corphorol, y mae wedi ymddiried i ti, ac ychydig ereill, i ddwyn ym mlaen y cytundeb â phechaduriaid, yr hwn a ddechreuodd efe ei hun pan oedd ar y ddaear. A pha beth a elli di ei wneud, a fyddo yn fwy cymmeradwy ganddo ef, na bod yn ffyddlawn yn hyn, fel y gorchywyl y mae ei galon ef mor rhwym ynddo? Os byth y dymunwch meled ei wyneb hawddgar ef mewn gorfol-edd, chwychwi ei genadwyr, byddwch ddyfal wrth eich gwaith, ac ymdrechgar i ddwyn y cytundeb heddwch hwn i ben da, rhwng Duw a'r rhai y'ch anfonwyd atynt. Ac yna, os ni ddaw pechaduriaid gyda chwi, i roddi eu sel wrth air yr efengyl, cewch chwi fod, fel y dywedodd Abraham wrth ei was, yn lân oddi wrth eich llw. "Er nad ymgasgl-odd Israel, etto, gogoneddus fyddwch chwi yng ngolwg yr Arglwydd;" *Esa.* xlix. 5.

Ac na fydded i'r Cristion cyffredin ddy-wedyd mai pren crin ydyw, ac nas gall efe wneuthur ddim dros Grist, ei Dywysog, am na ddichon efe ddwyn ffirwyth fel swyddog na gweinidog. Er na feddi di awurdod i gopsi pechodau pobl ereill â chleddyf cyf-iawnder, etto, ti a elli ddangos dy sel yn marhau dy bechod dy hun â chleddyf yr Ysbryd, a galaru am bechodau ereill; er na elli di eu condemnio hwy ar y fainge, etto ti a ellit, ie, ti a ddylit, trwy awurdod bywyd sanctaidd, eu hargyhoeddi a'u barnu. Y cyfryw farnwr ydoedd Lot i'r Sodomiaid. Er na anfonwyd di i bregethu a bedyddio, etto, ti a elli fod yn gynnorthwy mawr i'r rhai a anfonwyd. Y mae gweddiau'r Crist-ion yn hagi cleddyf y swyddog a'r gweinidog hefyd. O! gweddia, Gristion, a gweddia drachefn, am i diriogaeth Crist gael ei hel-aethu. Na ddos byth i wrandaw y gair heb weddio "Deued dy deyrnas." Tywysog-ion tirion a ymfodhânt yn fawr yn mloddest a dymuniadau da eu deiliaid wrth fyned heibio. Y mae "Byw fyddo y brenin," a ddelo o anadl cywir-wresog, er ei fod yn dlawd, yn fwy ei werth na thaliad treth gan y rhai sydd â'u calonau dan attaliad, er eu bod yn talu eu harian. Yr wyt ti, Gristion, yn gwasanaethu brenin a wŷr pa beth yw meddyliu pawb o'i ddeiliaid am dano; ac y

mae yn cyfrif mai nid ei anrhydedd ef yw cael lliaws i rith-ymostwng iddo, ond cael pobl a'i carant ef, ac a gywir hoffant ei lyw-odraeth ei far; y rhai (pe byddent i ddewis eu brenin, a gwneuthur eu cyfraith eu hunau, y byddent i fyw danynt bob dydd) ni ddy-mument un brenin ond efe, na deddfau ond a gawsant eisoes o'i enau ef. Yr oedd yn ddiammheu yn foddlonrwydd mawr i Da-fydd fod calonau ei bobl o'i du, nes bod "Yr hyn oll a wnai y brenin yn dda yn eu golwg hwynt;" 2 *Sam.* iii. 36. Ac yn sicr, yr oedd mor foddolawn gan yr Arglwydd fod yr hyn a wnelai efe yn dda yng ngolwg Dafydd; o herwydd yn wir yr oedd Dafydd mor foddolawn dan reoliad a threfniad Duw, ag oedd y bobl dan yr eiddo yntau. Tyst yw tawelwch ei ysbryd yn y tralloed trymaf a ddygwydd-odd iddo yn ei oes: "Wele fi, gwnaed â mi fel y byddo da yn ei olwg;" 2 *Sam.* xv. 16. Enaid cywir! gwell oedd ganddo fyw mewn alltudiaeth gydag ewyllys da Duw, na chael ei orsedd, oni ddywedai Duw mai da fyddai hyny iddo.

PENNOD IV.

Am y gallu mawr sydd gan Satan, nid yn unig ar y rhan elfenol a theimladol o'r byd, ond ar y rhan ddeallawl hefyd, sef eiddiau dynion.

DOSE. I.

DYMA yr ail gangen o'r darluniad, ym mha un y gosodir Satan allan yn ei rym a'i allu. Y mae hyn yn rhoddi pwys i'r hyn a aeth o'r blaen. Pe byddai efe yn dywysog, ac heb allu codi llu a allai frawychu y saint, ni fyddai yr enw chwyddedig o dywysog ond i'w ddiystyru; eithr y mae ganddo ef allu cyfatebol i'w fri, yr hyn a welir mewn pump o bethau neillduol—

1. Yn ei enwau. 2. Yn ei natur. 3. Ei nifer. 4. Ei drefn a'i undeb. 5. Y gweith-redoedd nerthol a briodolrwydd iddo.

1. Am y cyntaf, y mae iddo enwau o allu mawr—gelwir ef y *cryf arfog* (*Luc.* xi. 21); mor gryf, hyd onid ydyw yn cadw ei dŷ mewn heddwch, er a allo holl feibion Adda. Nid oes un ar y ddaear yn alluog i ymladd â'r cawr hwn. Rhaid yw i Grist ddyfod o'r nef i'w ddiystrio ef a'i weithredoedd, neu fe gollir y maes. Gelwir ef y *Uew rhoadwy*; yr hwn fwystfil sydd yn meistrolï yr holl goedwig: os rhua efe, hwy oll a grynant, iê, yn y fath fodd, fel y dywed Plinï, hyd onid yw yn myned i'w mysg, a hwy a safant yn syn, tra y dewiso efe ei ysglyfaeth heb wrthi-wynebiad. Y cyfryw lew yw Satan, sydd yn dal pechaduriaid yn gaethion wrth ei ewyllys: 2 *Tim.* ii. 26. Y mae efe yn eu dal yn fyw, yn ol y gair Groeg, fel yr adarwr yn dal aderyn, yr hwn, âg ychydig friwsion, a ddenir i'r rhwyd; neu, fel y deil y concwerwr ei

elyn ofnus, nad oes ganddo galon i ymladd, ond ymroddi heb daraw. Y fath annwriion y mae diafol yn cael pechaduriaid; ar ei gais a'i gynnyg cyntaf ef, ymroddi a wnant hwy. Nid oes ond ychydigiawn o ysbryd ardderchog, a'r rhai hyn yn blant y Duw goruchaf, a feiddiant ei wrthsefyll yn wrol, ac a wrthwynebant hyd at waed yn eu hymdrech yn erbyn pechod. Gelwir ef y *ddraig goch fawr*, yr hon, â'i chynffon (dynion annuwiol, ei offerynau ef) a dynodd i lawr draian ser y nef: *Dad. xii. 3, 4.* Gelwir ef *tywysog llywodraeth yr awyr* (*Eph. ii. 2*); o herwydd fel y gall tywysog fyddino ei ddeiliaid, a'u dwyn i'r maes er ei wasanaeth; felly y medr y diafol godi gallu daear ac awyr. Mewn gair, gelwir ef *duw y byd hwn* (*2 Cor. iv. 4*), am fod pechaduriaid yn rhoddi iddo addoliad, fel i Dduw, ac yn ei ofni ef fel yr ofna saint Dduw ei hun.

2. Y mae natur y diafol yn dangos ei allu—y mae yn angylaidd. "Bendithiwch yr Arglwydd, ei angylion ef, cedyrn o nerth;" *Salm ciii. 20.* *Cadernid* a roddir am angylion yn *Salm lxxviii. 28.* "Dyn a fwytaodd fara angylion;" yn Hebraeg, "bara y cedyrn." Mewn dau beth yr ymddengys gallu y natur angylaidd—yn ei huchafiaeth, ac yn ei hysbrydolrwydd.

1af. Ei huchafiaeth. Angylion yw pen uchaf y greadigaeth: gwnaed dyn yn ychydig is na'r angylion. Yn awr, yng ngweithrededd creadigaeth, y mae i'r uchaf allu ar yr isaf; i'r anifeiliaid ar y gwelld a'r llyisiau; i ddyr ar yr anifeiliaid; ac i angylion ar ddyr.

2il. Ysbrydolrwydd eu natur hwynt. Gwendid dyn sydd oddi wrth ei gnawd. Y mae ei enaid wedi ei addasu i anturiaethau mawrion; ond trwy fod talp o gnawd yn ei bwyso i lawr, y mae dan orfod i rwyfo â nerth wedi ei gyfaddasu i'w gyfaill gwanach. Eithr yn awr, gan fod y diaffiaid yn angylion, nid oes ganddynt hwy y cyfryw faich i'w hattal; dim tarth oddi wrth ran gnawdol i gymmylu eu deall, yr hwn sydd yn oleu a threiddiol; nac un attalfa wrth eu sawdl i afrwyddo eu chwimiad, yr hwn, am gyflymdra, a osodir allan wrth y gwynt n'r fflam dân. Iê, gan eu bod yn ysbrydol, nis gellir eu gwrthsefyll â grym cnauld; ni niweidia tân a chleddyf mo honynt. Yr angel a ymddangosodd i Manoa; aeth i fyny yn y tân, a difaodd yr aberth. Er mai y cyfryw a fu, ac ydyw heddyw, gorphwylldra rhai coelgrefyddol, fel y meddyliant swyno y diafol ymaith â'u cyfareddion cnauld. Oddi yma y mae y creuriau Pabaidd, y groes, a'r dwfr bendigaidd. Iê, ac ym mhilith yr Iuddewon eu hunain, mewn amserau o ddirywiad, hwy feddyliant darfu y diafol ymaith drwy eu phylacterau a'r enwaediad. Hyn a barodd i rai o honynt ddeongli y lle hwnw am enwaediad, "Pob un â'i gleddyf ar ei glun,

rhag ofn lliw nos;" *Can. iii. 8.* Wrth gleddyf ar y glun y deallant enwaediad; yr hwn a fnyant hwy yn ffol ei arfer fel swyn yn erbyn ysbrydion diwg a'u brawychent liw nos. Ond och! ni phrydera Satan er yr un o'r rhai hyn; na wna, nac er ordinhad i Dduw, pan fyddom ni, trwy hyder cnauld, yn gwneuthur swyn o honi. Mynych y rhwymwyd ef â'r cadwynau a'r llyfetheiriau hyn, fel y dywedir am y dyn yn yr efengyl; ond hwy a ddrylliwyd ganddo, ac nis gallai neb fel hyn ei ddoei ef. Y mae efe fel y dywed Duw am y lefiathan, "Yn cyfrif haiarn fel gwelld, a phres fel pren pwdr;" *Iob xli. 27.* Rhaid i'r hwn a'i rhwymo fod yn gryfach na'r *cruff arfog*; ac nid oes neb cryfach ond Duw, Tad yr ysbrydoedd. Collodd y diafol yn wir, trwy ei gwmp, lawer o allu, mewn golygiad ar y cyflwr sanctiaid a dedwydd yn yr hwn y crewyd ef; ond nid ei alluoedd naturiol: y mae yn angel o hyd, a chando gadernid angel.

3. Y mae nifer y diaffiaid yn chwaneu at eu gallu. Pa beth ysgafnach na thywodyn? Etto, nifer y tywod a'i gwna yn drwm. Pa greaduriaid llai na'r llau? Etto, pa bla fu yn fwy ar yr Aiphtiaid? Mor ofnadwy ynte, y mae yn rhaid i ddiaffiaid fod, y rhai, o natur, ydynt mor gedyrn, ac mewn nifer mor liosog! Y mae y diaffiaid yn ddiog i gylchynu y ddaear oll: nid oes man dan y nefoedd lle nid oes gan Satan ei fyddinoedd, na dyn heb fod rhai o'r ysbrydion melli-digaidd hyn yn ei hela â'i wyllo pa le bynag yr elo. Iê, i ryw wasanaeth arbenig, gall anfon lleng i gadw y castell mewn un dyn, megys yn *Marc v. 9.* Ac os gellir hebgor y fath nifer i wyllo un, i ba nifer i cyrhaeddai rhestr holl luoedd Satan, pe gallew wybod? Ac yn awr, dywed i mi, onid ydym yn debygol o gael ein taith i'r nef yn beryglus, os ydym yn meddwl am fyfyr yno, gan ein bod i deithio trwy wersyllfa yr holl liaws hyn, sydd yn wasgaredig dros wyneb yr holl ddaear? Pan fo lluoedd yn cael eu difyddino, a'r fyfyrdd yn llawn o filwyr llygredig yn crwydro i fyny ac i lawr, y mae yn beryglus teithio: yna, ni a glywn am lofruddiadau ac ysbeiliadau o bob parth. Y galluoedd uffern hyn ydynt y blaidd hono o angylion, y rhai, am eu terfysg a'u gwrthryfel, a ddiswyddwyd o'r nef, ac a drowyd allan o'r lle gogoneddus hwnw; ac o hyn ydyw yn awr, y maent yn crwydro yma isod, a'u hymgais i ddrygu meibion dynion, yn enwedig y teithwyr ar ffordd y nef.

4. Eu hundeb a'u trefn a wna eu nifer yn arswydol. Nis gallwn ddywedyd fod cariad yn eu msg; ni ddichon y tân nefol hwnw fyw yn mynwes diafol; etto, y mae undeb a threfn yn hyn, eu bod oll yn unol eu bwriadau yn erbyn Duw a dyn. Felly, y mae eu huniad a'u cydsyniad wedi ei glymu ynghyd, nid â rhwymyn o gariad,

ond o gâs a dichell; casineb yn erbyn Duw a'i blant (o'r hwn y maent oll yn llawn), a dichell sydd yn dysgu hyn oll iddynt—na ddichon eu teyrnas sefyll, oddi eithr iddynt gyduno yn eu bwriad. Ac mor gywir ydynt i'r frawdoliaeth ddrygionus hon, ein Hiachawdwr a rydd dystiolaeth deg, pan y dywed nad yw Satan yn ymladd yn erbyn Satan. A glywsoch chwi erioed am derfysgwaith yn myddin y diafol; neu fod un o'r angylion gwrthgiledig hyny, o'i fodd, wedi rhoddi un enaid i fyny i Grist? Y maent yn llawer; ac etto, nid oes ond un ysbryd o ddrygioni ynddynt oll. Fy enw, meddai y diatiaid (nid ein henw), yw *lleng*. Gelwir y diafol *lefathan* yn *Esa. xxix. 1*. “Yr Arglwydd a'i gleddyf cadarn a ymwel â lefathan,” enw perthynol i'r morfil, fe allai (yn *Iob xli*), oddi wrth gydglymiad a chydgyssylltiad tŷn. Mae nerth y creadur hwn yn ei emau cênog, sydd mor gyd-blethedig, hyd onid ydyw efe megys wedi ei orchuddio âg arfog-aeth. Fel hyn y mae yr ysbrydion melleddigedig hyn yn cydgorodio yn eu dichellwaith, ac yu ymgais am gael eu hofferynau i'r un cynghrair a hwythau. Nid ymfoddlonant ar eu hufudd-dod noeth hwynt; ond, lle y gallant ei gael, hwy a ofynant am lŵ penodol gan eu gweision, i fod yn gywir iddynt, fel y dywedir am ddewiniaid.

5. Y mae y gweithredoedd nerthol a briodolir i'r ysbrydion hyn, yn yr Ysgrhythyr, yn brawf o'u gallu; ac y mae y rhai hyn yn perthyn i'r rhan elfenol, deimladol, neu ddeallawl o'r byd. Am y rhan elfenol, gwelwch yn y gair pa effeithiau y gall hwn—*tywysog Ulywodraeth yr awyr*—eu peri ynddi. Yn wir, nis gall efe wneuthur y chwâ leiaf o wynt, dyferyn o ddwfr, na gwreiclionen o dân: ond efe a all, os caiff ganiatâd (fel y dywed Caryl ar *Iob i*), fyned i ystordŷ Duw, a defnyddio y rhai hyn yn y fath fodd, fel na ddichon un dyn sefyll o'i flaen ef. Gall dafu y môr i'r fath gynhwrf, hyd oni ferwa y dyfnderau fel crochan, a chynhyrfu yr awyr i ystormydd a thymmestloedd, fel pe bai nef a daear yn ymgyarfod. Claddwyd plant Iob yn adfail eu tŷ gan chwâ o'i safn ef. Ië, gall fyned i ystordŷ Duw (fel y dywed yr un awdwr), a gollwng gynau mawrion yr awyr allan, gan beri y fath daranau a melt arswydus, a baraunt nid yn unig dychryn, ond dinystr hefyd; a hyny mewn modd mwy arswydus nag yn ol trefn gyffredinol natur. Os dichon celfyddyd dyn roddi uchel gynhyrfaid i natur, fel y gwelwn yn y dyfeisiad o bowdr gwn, sydd â'r fath rym aruthrol ynddo; llawer cryfach yw efe i dynu allan ei nerth hi.

Drachefn, ar y rhan deimladol o'r byd y mae ei allu ef yn fawr; nid yn unig ar anifeiliaid (megys y genfaint foch a hyrddiwyd ganddo i'r dwfn), ond ar gyrph dynion hefyd, megys yn achos Iob; yr hwn nid oedd ei

gornwydydd blinion yn darddiad allan o natur afiach, ond ol crafangau Satan ar ei gnawd, yn gwneuthur hyny yn ddisymwth, a fuasai, yn ol naturiaeth, yn gofyn amser mwy i gasgu ac addefu; ac felly am y rhai cythreulig yu yr efengyl, y rhai a drwm boenwyd ac a flinwyd ganddo ef.

Etto, nid yw hyn oll ond chwareu bach gan y diafol; ei lid mwyaf ef sydd at eneidiau dynion, y rhai a alwaf yn fyd deallawl. Ei greulondeb ef at y corph sydd er mwyn yr enaid. Felly, gwelwn am dosturi Crist at gyrph dynion, pan oedd yma ar y ddaear, yn iachau eu clefydau; yr ydoedd mewn gwasanaethgarwch i les eu heneidiau. Yr oedd efe yn eu gwobri â'r trugareddau oedd yn addas i'w dymuniadau naturiol, fel y derbynient yn fwy ewyllysgar ei drugaredd i'w heneidiau, gan y llaw oedd mor dynar at eu cyrph. Megys y rhoddwn ni i blant ryw beth a'u boddhâ, i'w perswadio i wneuthur rhywbeth na fyddo wrth eu bodd—myned i'r ysgol, dysgu eu llyfr, &c.; felly y diafol, yr hwn sydd yn greulawn (fel y mae Crist yn dirion), ac nid ydyw yn chwennych yn dda i gorph nac enaid, etto, dengys ei greulondeb at y corph ar ddim ond bwriad yn erbyn yr enaid, gan wybod yn dda yr an-nhrefnir ef yu fuan wrth ondiad y corph. Y mae yr enaid yn ynglywed yu fuan (ac felly yn cael tori ar ei heddwch a'i lonyddwch) oddi wrth riddfanau a chwyuion y corph, tan gronglwyd yr hwn y mae yn byw: ac yna, nid rhyfedd os bydd (gan balliant cwsig) i'r tafod draws-siarad, ac i'r enaid dori allan i ryw ymddygiad pechadurus. A hyn yw gwaclod amean y diafol ar y saint. Ac an eneidiau truaïn annoeth erill, nid ydyw efe yn ennill nemawr lai ganddynt hwy na'r ofn a'r arswyd sydd yn berthynol i Dduw. Trwy y gallu y mae yn ei arfer (yn ol goddefiad duwiol) i daraweu daoedd, eu hanifeiliaid a'u cyrph, fel yn mysg yr Indiaid y dyd hwn. Ië, y mae llawer yn ein mysg ni eir humain yn dangos yu anlwg pa fath orsedd sydd gan Satan yn eu calonau yn yr achos hwn; sef y trueiniaid sydd (fel pe ni byddai Duw yn Israel) yn myned am gymmhorthl ac iachâd at ei feddygon ef (swynwyr wy yn ei feddwl). Ac yn wir, pe ni fedda Satan un ffordd arall i weithio ei ewyllys a eneidiau dynion, ond trwy y fantais hon: gymmer efe oddi wrth y corph, ni byddai yu rhyfeddod ei fod yn gallu gwneuthur cym maint. I weled hyn, ystyriwn ddirywiaet cyflwr dyn, mor ddwfn y mae ei enaid wedd soddi is law ei fonedd dechreuol; a'r modd y mae y corph, a fu yn drifan oleu, wedd myned yn garehardy iddo; a'r un a fu y was, yn awr wedi myned yn feistr iddo. A yn chwawng, y mae gan Satan, fel ysbryd ddyfodfa haws at yr enaid; ac fel ysbryd uwch, y mae ganddo fantais fwy etto ar ddy sydd yn greadur is. Uwch law y cwbl, ga

iddo gael o'r tu fewn i'r enaid, trwy gwmp dyn, y mae ganddo yn awr allu mwy o lawer nag o'r blaen; hyd onid ydyw efe, lle ni chyfarfyddo â gwrthwynebiad gan Dduw, yn ennill y cwbl o'i flaen; megys yn yr annuwiol, y rhai y mae yn eu dal felly wrth ei ewylls, hyd oni ddywedir ei fod, mewn ystyr, yn gweithio ynddynt, fel y mae Duw yn gweithio yn y saint. Y mae Duw yn gweithio yn nerthol, neu effeithiol, yn y rhai hyn: *Gal.* ii. 8; *1 The.* ii. 13. Y mae Satan yn gweithio yn effeithiol ym mhiant yr anufudd-dod: *Eph.* ii. 2 (*energountos*, yr un gair Groeg ac yn y lleoedd blaenorol). Y mae mewn ystyr yn effeithiol gyda hwynt, fel y mae yr Ysbryd Glân gyda'r rhai ereill. Y mae ei amryfuseddau yn gedryn (*2 The.* ii. 11); nid yn dychwelyd yn ol heb wneuthur eu gwaith. Y mae yr Ysbryd yn goleuo; y mae ynte yn dallu meddyliau y rhai digred: *2 Cor.* iv. 4. Y mae yr Ysbryd yn llenwi y saint: *Eph.* v. 18. "Pa ham y llanwodd Satan dy galon?" medd Pedr, wrth Ananias: *Act.* v. 3. Y mae yr Ysbryd yn llenwi, neu yn cyflawni, â gwybodaeth ac â firwythau cyfiawnder (*Rhuf.* xv. 13; *Phil.* i. 11); a Satan yn llenwi â chenfigen a phob anghyfiawnder. Y mae yr Ysbryd Glân yn llenwi â dyddanwech; Satan yn llenwi yr annuwiol â dychrynfeydd; megys Saul, a finid gan ddrwg ysbryd; a Judas, i'r hwn y dywedir ei fyned: ac wedi iddo gyflawni ei chwant arno (fel Amnon ar Tamar), y mae yn cau drws trugaredd i'w erbyn, ac yn ei wneuthur ef, ydoedd newydd fod yn fradwr i'w feistr, yn grogrw iddo ei hun.

Ac er nad ydyw y saint yn ddeiliaid priodol dan ei allu; etto, hwynt hwy yw gwrthdychau penaf ei lid. Y mae ei droed yn sefyll ar wâr yr annuwiol; ond ymladd y mae â'r saint; a phan safo Duw o'r neilldu, y mae efe yn drech o lawer na hwynt. Y mae wedi gyru y rhai cryfaf o honynt adref gan grynu a gwaeddi ar eu Duw, a'r gwaed yn llifo ar led eu cydwybodau. Y mae efe yn gadarn, fel temtiwr i bechod, ac fel cyhuddwr: y mae yn gwybod ystâd materion y Cristion mor dda, ac yn gallu tafu ei dân belenau mor bell i'r synwrau tu mewnol (pelenau o chwant neu o ddychryn); ac i chwythu y rhai hyn i fyny â'r fath ddadleuon difin, fel, os na chyfarfyddant yn ebrwydd â rhyw dueddiadau cyfaddas yn y Cristion i gymmeryd tân oddi wrthynt (fel oddi wrth bowdr rhydd, ac fel y mae yn rhy gyffredin); etto, y byddo iddo yn raddol gael gan y dyn (trwy feithder y gwarchae, a chawodydd parhaus o'r fath ergydion) wrandaw ar gydymddiddan, os nid ymroddi iddynt. Fel hyn y mae efe, yn fynych, â thaerni, yn blino yr enaid allan.

DOSE. II.

Defn. 1. Yn laf. Bydded i hyn, O ddyn!

beri i blu dy falchder syrthio, pwy bynag wyt, sydd yn gorfoleddu yn dy allu. Pe bai genyt fwy nag a fu erioed gan un o feibion Adda, etto, pa beth yw hyn y gyd wrth allu yr angylion hyn? Ai nerth dy gorph yr wyt ti yn bostio ynddo? Och! pa beth yw nerth corph breuol wrth rym eu natur ysbrydol hwynt? Nid wyt ti wrth y rhai hyn ddim mwy na phlentyn wrth gawr—pryf wrth ŵr. Hwya allant rwygo y mnyddoedd, a chwyrndafu y byd i amhreffn, pe gwnei Duw ond goddef iddynt. A fosti di am rym dy ddoniau uwch law ereill? Ai nid wyt ti yn gweled y fath ffyliaid y gwna Satan y doethaf o ddynion? Y mae yn eu troi o amgylch, fel y gwnei twyllddadleuwr â hurtyn: gwna iddynt goelio fod, goleuni yn dywyllwch, chwerw yn felus, a melus yn chwerw. Oni bai fod grym ei ddoniau ef yn rhyfeddol, a allai efe wneuthur i greadur rhesymol o fath dyn dasu ymaith mor ffol ei wisg o ysgarlad, a choffeiddio y dom—fy meddwl ydyw ymadael â Duw, a'i ddedwyddfyd gogoneddus ynddo ef, mewn gobaith o wellhau ei fyd trwy goffeiddio pechod? Etto, hyn a wnaeth efe pan ydoedd dyn â'i synwyr goreu ganddo yn ei ddiniweidrwydd. Ai awdurdod a bri a gafwyd trwy wrolwaith milwraidd yw dy fost? Gadawu dy fod yn abl i ddarostwng pobloedd, a rheoli y byd oll; etto, er hyny, caethwas fyddit ti iddo ef, os heb ras oddi uchod. Ac y mae efe ei hun, er ei holl allu hwn, yn ysbryd melltigedig, y truenusaf o holl greaduriaid Duw, ac o hyny yn druenusach, am fod ganddo gymmaint o fodd i wneuthur drwg. Pe buasai i ddiabol gollu ei holl alluoedd angyliaid pan gwmpodd, buasai yn ennill trwy ei gollod. Am hyny, O ddyn! cryna wrth ba allu bynag a feddi, os nad wyt yn ei arfer dros Dduw! A wyt ti yn gryf o gorph? Pwy sydd yn cael dy nerth?—Duw ai ynte dy chwantau? Y mae y rhai hyn yn gryfion i yfed, yn gryfion i bechu: cadarnach felly fydd dy rwymau: *Esa.* xxviii. 22. A oes genyt ti allu, trwy dy sefyllfa, i wneuthur gwasanaeth i Dduw a'i eglwys, etto, heb galon i'w roddi allan o'u plaid, ond yn hytrach yn eu herbyn? Cei di a'r diafol eich barnu o flaen yr un frawdle. Yr wyt ti, dybygid, yn meddwl myned i uffern am ryw beth o bwys; a thi a ddygi yno dy lawn lwyth. Nid oes un pla trymach a all ddyfod ar ddyn na gallu heb ras. Y mae y cyfryw fawrion y byd, tra y byddont yma, yn ymddangos yn wych, fel llüyddwyr a phen swyddogion o flaen eu byddinoedd, a'r milwyr cyffredin ond yn drueiniaid wrthynt hwy: eithr pan ddolo curfa ar y llu, a phawb ar gael eu dal yn garcharorion; yna, hwy a dafiant ymaith eu plu a'u haddurniadau, a da fyddai ganddynt gael eu cyfrif y rhai gwaelaef o'r llu. Hap dda a fyddai i ddiafiaid, i dywysogion, ac i fawrion y byd, pe gallent, yn y dydd a ddaw,

ymddangos fel rhyw wehilion truanaf, a derbyn eu dedfryd fel y cyfryw: ond y pryd hyny, darllenir eu teitlau, eu hurddas, a'u mawredd, nid er anrhydedd iddynt, ond er eu gwartli a'u condemniad.

Defn 2. Yn ail, y mae hyn yn dangos ffolineb y rhai â'i tybiant yn beth mór hawdd cyrhaedd i'r nef. Os ydyw y diafol mor alluog, a ffordd y nef mor llawn o'i luoedd, yna, yn sicr, fe gyst i ni ymladdfa boeth cyn y lledom ein banerau ar furiau y Gaersalem newydd. Etto, eglur yw fod llawer yn tybied ffordd arall wrth y darpariaeth a wnant ar eu taith. Pe canfyddech chwi w'r yn cychwyn allan heb un gôb, neu âg un deneu iawn, chwi fuasech yn dywedyd, "Yn sicr, nid ydyw efe yn ofni tywydd garw;" neu un yn marchogaeth ar daith hir, ei hun, ac heb arfau, chwi a benderfynech nad ydyw efe yn ofni am ladrón ar y ffordd. Pawb, os gofynwch iddynt, a ddywedant eu bod hwy ar y ffordd i'r nef: ond, O! leied nifer sydd yn gofalu am gymdeithas y saint, fel pe ni byddai arnynt hwy eisieu eu cyfeillach hwynt ar eu taith. Y mae y rhan fwyaf yn rhodio yn noeth, heb ddim sydd yn debyg i arfogaeth: ni feddant ddigon i ennill yr enw llydan o broffeswyr. Ereill, ysgatfydd, a ddangosant i chwi ryw obaith gwael disylwedd am drugaredd Duw, heb un sail ysgrythyrol am dani; ac â hyn hwy a ymfodlonant, er y bydd iddo, fel gŵn rhydlyd a breuol, ymdafu yn eu hwyneb eu hunain, pan y deuant i'w ddefnyddio. Ac a ydyw yn gam dywedyd nad ydyw y rhai hyn yn gwneyd dim o fyned i'r nef? Yn ddiâu, ni chafodd y gwŷr hyn (llawer o ba rai sydd yn myned rhagddynt yn y byd), erioed o hyd i'w meddianau bydol â chyn lleied gofal ag y maent yn meddwl cael y nefoedd. Gofynwch iddynt pa ham y dilynant eu gorchywion mor ddyfal, a hwy a atebant na cheir hyd i feddianau dan gysgu; mai nid â'r dwylaw dan geseiliar y mae darparu i deulu; a'u bod hwy yn cyfarfod âg aml dwyllwr a hocedwr yn eu marchnadaeth; y rhai, pe nid edrychent yn dda atynt eu hunain, a'u handwyai hwy yn fuan. Ac ai nid oes neb y mae achos i ti eu hofni y twyllant di am dy enaid, ac yr ysbeilliant di o'th goron o goniant, os gallant? Yr wyt yn fwy dall na gwas y prophwyd, os nad wyt yn gweled mwy o ddiastiaid yn dy amgylchu uag a welodd efe o wŷr o amgylch Dothan: 2 *Bren.* vi. 15. Ni rwystrant hwy dy faspach fydol: nag e, fe allai y cynnorthwyant di i ryw ddechellion pechadurus yn hono, i'th rwystro yn hon; ond os unwaith yr ymroddi i ymgeisio am Grist, ac am ei ras, hwy a'th wrthsafant yn dy wyneb. Y maent dan lŵ, fel yr oedd gelynyon Paul, i ddwyn bywyd dy enaid, os gallant. Y maent eu hunain yn greaduriaid diobaith, yn gwybod fod eu barn yn ddiadfer; a hwy a werthant eu bywydau eu hunain mor ddud ag y gall-

ant. Yn awr, pa ffolineb ydyw i ti fradychu dy enaid i'w dwylaw hwynt, pan y mae Crist yn sefyll yn dy ymyl i'th noddi? Allan o hono ef, creadur colledig ydwy; nis gelli yn unig dy noddi dy hun yn erbyn Satau; na chyda Satau yn erbyn Duw. Ymwasga at Grist, ac yr wyt wedi dy wared oddi wrth un o dy elynion, a'r mwyaf ofnadwy, sef Duw: ie, efe a fydd bellach yn noddwr i ti, ac a lŷn wrthyt yn dy ryfel â'r llall.

Defn 3. Yn drydydd, i'r saint. Na frawycher chwi wrth y dadganiad hwn a wna yr Ysgrythyr am allu Satau. Gadewch chwi i'r rhai hyny ei ofni, nad ydynt yn ofni Duw. Beth yw y mynyddoedd hyn o rym a balchder o'th flaen di, O Gristion! sydd yn gwasanaethu Duw a ddichon beri i bryf ddyrna mynydd? Y niwed mwyaf a all efe wneuthur i ti yw, meithrin yr ofn geuol hwn yn dy fynwes. "Y mae yn hysbys," medd Bernard, "am rai o fywystfilod y goedwig, er eu bod yn drech na'r llew mewn ymladdfa, etto, eu bod yn crynu wrth ei ruad." Fel hyn y mae y Cristion; pan â i'r wasgfa ddwys, y mae yn gallu, trwy Grist, sathru Satau dan ei draed; etto, cyn y frwydr, y mae mewn cryndod wrth y meddwl am dano. Ymdrecha, gan hyny, i gael iawn ddeall am allu Satau; ac yna, nid ymddengys y llew hwn mor erchyll ag yr wyt ti yn ei ddarlunio yn dy ddychymmyg trymlyd. Y mae ystyriaeth driphlyg i'th gynnal, pa bryd bynag yr ymosoder arnat gan yr ofnau am ei allu ef.

Yn Iaf. Gallu tarddedig ydyw. Ni fedd mo hono ynddo ei hun, ond trwy oddefiad oddi wrth un arall; ac nid yw hwnw neb arall ond Duw. Oddi wrtho ef y mae pob awdurdod ar y ddaear, ac hefyd yn uffern. Rhoddi dylaw mewn ffydd wrth y gwronedd hwn a'th ddiogela di, Gristion, yn gyntaf peth, fel na chaiff gallu Satau byth dy ddrygu. A roddai dy Dad gleddyf yn ei law ef i'th niweidio di—ei blentyn? "Myfi a greais y gôf (medd Duw), yr hwn a chwyth y marwor yn tân, ac a ddefnyddia arf i'w waith; myfi hefyd a greais y dinystrydd i'w ddistrywio;" ac am hyny, y mae yn sicrhau iddynt na lwydda un offeryn a lunier i'w herbyn: *Esa.* liv. 16, 17. Os Duw sydd yn darparu arfau ei elynion, hwy a fyddant, mi a warantaf, yn gyfryw ag na wnant ond gwasanaeth bychan iddynt. Pan feddyliodd Pilat am frawychu Crist â'r hyn a allai efe ei wneuthur tuag at gadw neu ddwyn ymaith ei fywyd ef. Ei ateb yw, "Ni byddai i ti ddim awdurdod arnaf fi, oni bai ei fod wedi ei roddi i ti oddi uchod;" *Ioan* xix. 11. Fel pe dywedasaf Gwna dy waethaf; mi a wn pwy a seliodd dy awdurdodiad.

Yr ystyriaeth o hyn a lareiddiai ac a lonyddai yr enaid dan flinder gan Satau odd mewn, neu ei offerynau oddi allan. Satau sydd yn fy nghernodio, a dyn yn fy erlid

ond Duw yw yr hwn sydd yn rhoddi eu gallu i'r ddau. "Yr Arglwydd," medd Dafydd, "a archodd iddo fellldithio;" 2 Sam. xvi. 11. "Yr Arglwydd a roddodd, a'r Arglwydd a gummerodd ymaith," medd Iob. Hyn a gadwodd heddwch y brenin yn mynwesau y ddau. O Gristion! nac edrych ar y swyddog sydd yn dy chwipio (fe allai mai un creulawn yw); ond darllen y *warrant*—pwy a ysgrifenedd hono; ac yn y gwaelod ti a gei weled llaw dy Dad.

2il. Y mae gallu Satan yn derfynedig, a hynny ddyw ffordd: ni all efe wneud yr hyn a fyddo, ac ni chaiff efe wneud yr hyn a fallo.

(1af.) Ni all efe wneyd yr hyn a fyddo. Y mae ei ddymuniaidau ef yn ddiiderfyn; nid yn unig yn gwibio yma a thraw isod gyda ni, ond yn y nef ei hun, yn tynnu i lawr yr angylion a fu yn gyfeillion iddo—yn dryllio gwaith cerfiedig y deml ogoneddus hono, megys â bwyeill a morthwylion; i.e. yn di-orseddu Duw, ac yn gosod ei hun i fyny yn ei le. Yr ynydd hwn a ddywed yn ei galon nad oes un Duw: ond nis gall efe wneuthur hyn na llawer o bethau ereill, y rhai y mae ei hen lid yn ei gynnhyrfu i'w dymuno. Nid yw efe ond creadur; ac felly, hyd ei denyn, wrth yr hwn y mae yn rhwym, sydd iddo; ymhellach, nis gall efe fyned: ac os yw Duw yn ddiogel, yr wyt tithau hefyd; canys y mae dy fywyd wedi ei guddio gyda Christ yn Nuw: "Byw wyf fi," medd Crist, "a byw fyddwch chwithau hefyd." Yr wyt yn argraphedig ar lech ei galon: os tynir ymaith y naill, rhaid tynnu y llall hefyd.

Drachefn, megys na all efe niweidio hanfod Duw, felly nis gall efe dreiddio i fynwes Duw. Ni wŷr efe feddyliau dyn; llawer llai meddyliau Duw. Nis gallai yr astronomyddion na'u meist'r ddywn breuddwyd Nebuchodonosoryn ei ol. Fely mae gan ddywnion eu celloedd i'w cudd-bethau, i'r rhai nas gall neb fyned i mewn ond â'u hagoriad hwy eu hunain, felly y mae Duw yn cadw y galon megys ei ystafell neillduol, yn gauedig i bawb ond ef ei hun. Am hyn, pan gymmero y diafol arno ragfynegi digwyddiadau, oni ddyg Duw iddo ei wers, neu oni chaiff efe help gan ail achosion, y mae y peth allan o'i lyfr: felly, i gadw ei gymmeriad, efe a rydd ateb amheus, fel y byddo yn gyfryw ag a aller ei ddeongli yn lled gyfaddas i'r digwyddiad, beth bynag a fyddo; a phan ymhyfao efe i fynegi cyflwr dyn, nid oes dim pwys i'w roddi ar ei farn. Rhagrithiwr oedd Iob yn ei safn ef; ond fe'i profodd Duw ef yn gelwyddog.

Etto, nis gall efe luddias amcanion a chynghorion Duw, y rhai y gŵyr am danynt. Gwyddai fod Crist i ddyfod yn y cnaud, a gwnaeth ei waethaf; ond ni allai rwystro ei ddyfodiad. Er fod llawer o ddyfeisiau yn ei galon ef, etto, cynghor Duw mewn perthynas iddo a safodd: i.e. a gyflawnwyd trwy

gymhelliadau Satan, a gweithrediadau ei weision yn ddywn cynghor Duw i ben yn eu herbyn eu hunain, ac yn llwyr groes i'w chwant a'u bwriadau. Ac hefyd, nis gall efe dreisio dy ewyllys. Ni ddichon diafol roddi gorfodaeth arnat i bechu; gall roddi annogaeth, a pheri i'r enaid a fyddo ar y ffordd frysio yn gyflymach, fel y gwna gwynt yru llanw yn fwy cyflym; ond ni ddichon efe droi ffrwd y galon yn groes i'w thuedd a'i rhediad ei hun.

(2il.) Y mae gallu Satan mor derfynedig fel na chaiff efe wneud yr hyn a fallo. Y mae Duw yn gadael i gymmaint o'i lid ef lifo allan ag a ddywg fawl iddo ei hun, ac a fydd fel ffrwd i osod ei amcanion o gariad at ei saint ar waith; yna, efe a ollngw y dyfrddor i lawr, gan wahardd y gweddill o hono: *Salm* lxxvi. 10. Y mae Duw bob amser yn ei dynu ymaith cyn y gallo orphen ei waith ar un o'i blant. Efe a ddichon, os goddef Duw iddo, ysbeilio y Cristion o lawer o'i lawenydd, a thori ar ei heddwch trwy ei ddeniadau cyfrwys, ond y mae efe dan reolaeth. Y mae yn sefyll fel ci wrth y bwrdd, tra y mae y saint yn eistedd wrth y wledd hon o felus gysur, ond ni faidd syfdd i ddywn ymaith eu harlwy—y mae llygad ei Feistr arno. Y mae y diffyg o ystyried hyn yn colledu Duw o'i fawl a ninnau o'n cysur, gan fod Duw wedi cloi ar ein cysur ni yn y cyflawniad o'n dyledswydd. Pe ystyriai y Cristion pa beth yw gallu Satan, a phwysydd yn ei argau, byddai hyn yn gân wastadol yn ei enau. A oes gallu gan Satan i ysbeilio a llosgi, lladd a difetha, poeni y corph a thralodi y meddwl? I bwy y mae i mi ddiolch am fy mod allan o'i afael ef yn un o'r pethau hyn? A yw Satan yn fy ngharu i yn fwy na Iob? Neu a wyf fi allan o'i olwg, neu allan o'i rodfeydd ef? A yw ei ddeiwredd wedi pallu, neu ei lid wedi ei ddofi i roddi i mi fod mor ddiangol? Na, nid un o'r rhai hyn: y mae ei lid ef—nid yn erbyn un—ond yn erbyn pawb o'r saint. Y mae ei lygad arnat ti, a gall ei fraich dy gyrhaedd; nid yw ei ysbryd wedi ei ddarostwng na'i fol wedi ei lenwi gan y miliynau a ddifaodd, ond y mae mor rheibus ag erioed; i.e. yn fwy, am ei fod yn awr yn gweled Duw yn barod i gludo ymaith, a diwedd y byd yn neshau mor gyflym. I'th Dduw yn unig yr wyt yn rhwymedig am hyn oll—ei lygad ef sydd yn dy gadw: pan fo Satan yn cael y gŵr da yn cysgu, mae yn cael ein Duw da yn effro. Am nad yw efe yn newid, dyna yr achos dy fod di heb dy ddiffetha. Pe bai ei lygad ef yn hepiant neu yn gwibio am foment, ni byddai eisieu un ffrwd arall i'uth fodd di, i.e. y byd oll, heblaw a ddeuall allan o safn y ddraig hon.

(3ydd.) Y mae gallu Satan yn wasanaethol, wedi ei appwyntio gan Dduw i fod er gwasanaeth a budd i'r saint. Gwir yw, fel y dywedir am Assur falch, "nid felly yn

amcana efe, ac nid felly y meddwl ei galon;" *Esa. x. 7*: ond y mae yn ei galon ef ddfifetha y rhai y mae yn eu temtio; ond mater bychan yw ei feddwl ef. Megys y cysurodd Luther ei hun, pan fynegwyd iddo yr hyn a luniesid yng Nghymmanfa Noremburg yn erbyn y Protestaniaid—"ddafod arfaethu un ffordd yno, ond ffordd arall yn y nef;" felly, er cysur i'r saint, meddyliau Duw tuag atynt ydynt heddwch, pryd y mae bwriad Satan i ddiffa ei grasusau, a distrywio eu heneidiau; a'i gynghor ef a saif ergwaethaf y diafol. Y mae hyd yn oed y *warrant* a wna Duw, pan draddoedd efe un o'i saint i garchar Satan, yn rhiedeg fel hyn—"Traddodwch y cyfryw un i Satan, i ddiynstr y cnawd, fel y byddo'r ysbryd yn gadwedig yn nydd yr Arglywydd Iesu;" *1 Cor. v. 5*. Felly, dichon saint temtiedig ddywedyd, Darfuasai am danom, pe na ddarfuasai am danom yn ein barn ein hunain. Y lesiathan hwn, pryd y mae yn meddwl-eu llyngue yn llwyr, nid yw ond wedi ei anfon gan Dduw, fel y morfil at Ionah, i'w trosglwyddo yn ddiangol i dir. "Rhai o'r deallgar a syrthiant i'w puro, ac i'w glanhau, ac i'w cânu," *Dan. xi. 35*. Hyn yw bwriad Duw, pan y mae yn gadael i'w blant syrthio i brofedigaeth, fel y gwnawn ni â'n lliciniau—y brychau a gaffont yn ein gwleddoedd a dynir ymaith drwy olchi, a rhwbio, a'u rhoi allan i'w cânu. Mewn heddwch, llawnder, a llwyddiant, y mae y saint yn fynychaf yn cael eu brychau; ac nid ydynt byth yn ail gael eu gwynder i'r un gradd a phan y delont oddi dan rwbriad Satan. Rhy fychan ydyw i ni fod heb ofni Satan; dylem gysuro ein hunain â defnyddioldeb a gwasanaethgarwch ei demtasiynau er ein lleshâd. "Pob peth sydd eiddo chwi, y rhai ydech eiddo Crist." Efe, yr hwn a roddodd fywyd i fod yn eiddoch, a roddodd angu hefyd; efe, yr hwn a roddodd y nef yn etifeddiaeth i chwi, Paul a Cephas—ei weinidogion a'i ordinadâu—i'oh cynnorthwyo yno, a roddodd hefyd y byd a'i holl drallodion, ie, a'i dywysog, a'i holl lid a'i allu gyda hyny, i weini i'r un dyben. Cariad a "doethineb mewn dirgelwch" yn wir ydyw hyn; ond chwy-chwi, y rhai y mae Ysbryd Crist genych, a ellwch ei ddeongli.

PENNOD V.

Am yr amser, y lle, a'r deiliaid, yn y rhai y mae Satan yn rheoli.

"Yn erbyn bydol-lywiawdwr tywyllwch y byd hwn;" *Eph. vi. 12*.

Y MAE y geiriau hyn yn cynnwys y drydedd gangen yn y darluniad o'n gelyn mawr, y diafol: ac y maent yn dangos eisteddle priodol ei ymherodraeth, gyda therfyn triphlyg. Nid yw efe yn arglwydd pawb oll

(teitl anghyfranogol Duw yw hwnw), ond "llywiawdwr tywyllwch y byd hwn." Y mae yma amser, lle, a deiliaid ei ymherodraeth ef o fewn terfyniad.

1. Yr amser, pryd y mae gan y tywysog hwn ei lywiadaeth: "yn y byd hwn," sef yn awr; nid ar ol hyn.

2. Y lle y mae yn llywio ynddo, "yn y byd hwn," sef yma isod; nid yn y nefoedd.

3. Y deiliaid, neu y personau y mae yn llywiawdwr arnynt; nid pawb chwraith yn y byd yma isod, ac fe'u cynnwysir yn y geiriau hyn, "tywyllwch y byd hwn." Yn gyntaf, Am y terfyn.

DOSE. I.

1. Amser ei lywiadaeth. Felly, gellir cymeryd y gair hwn, *byd*, am y Gronyn bach o amser, sydd fel rhyw ymsang byr, wedi ei argau o bob tu â thragwyddoldeb hirfaith. Gelwir hyn weithiau, "y byd presennol;" *Tit. ii. 12*. Ar y chwareufwrdd hwn o amser y mae y ffug frenin hwn yn chwareu rhan tywysog; ond pan ddel Crist yn niwedd y byd i dynu i lawr y daflod hon, yna fe'i diraddir ef, dygir ymaith ei goron, torir ei gledddyf uwch ei ben, a hwir ef ymaith gyda dirmyg a gwarth: ie, o fod yn dywysog, caiff fod yn garcharor caeth yn uffern. Ar y saint, ynte, ni chaiff ormesu mwyach; na, ni chaiff efe reoli yr annuwiol chwraith; ond efe gyda hwy, a hwythau gydag yntau, a gânt orwedd dan y tywalltiaid digyfrwng o lid Duw. I'r dyben pennodol hwn, mae gan Grist ei freiniad a'i swyddogaeth; a hyny ni rydd efe i fynd, nes "iddo ddileu pob pen-defigaeth, a phob awdurdod a nerth. Canys rhaid iddo deyrnasu hyd oni osodo ei holl elynion dan ei draed;" *1 Cor. xv. 24, 25*. Yna, ac nid hyd hyn, y rhydd efe i fynd ei deyrnasu drinedyddol i'w Dad, wedi iddo ddileu pob pendefigaeth: "canys rhaid iddo deyrnasu hyd oni osodo ei holl elynion dan ei draed." Y mae Satan wedi ei fwrw eisoes i'w goll—ei farn wedi ei dadgan arno, megys ar Adda pan y pechodd gyntaf; ond y mae oediad ar y llawn ddiennyddiad hyd ddiwedd y byd. Fe w'yr y diafol hwn, ac y mae yn bwngne yn ei gredo; a hyn a barodd iddo, dan grynu, ofyn i Grist, "A ddaethost ti yma i'n poeni ni cyn yr amser?" *Mat. viii. 29*.

Defn. 1. Yn laf. Dyma newydd drwg i'r annuwiol. Nis gall eich tywysog eistedd yn hir ar ei orsedd. Y mae gan bechaduriaid yn awr eu hawr lawen, pe dalia; y maent hwy yn llawenyachu, tra y mae disgyblion Crist yn wylo ac yn galaru: y maent yn ymwychu yn eu sidanau, tra y mae y sant yn ei fratiar. Nid yw tywysogion ddim yn fwy eu gofal i foddio gwyr eu llysoedd â gwobrau ac uwch leoedd, nag yw y diafol i foddio ei ganlynwyr yntau. Y mae ganddo yntau ei wobrwyon: "Hyn oll a roddaf i ti: oni allwn i dy wneuthur di yn anrhyd-

eddus?" medd Balac wrth Balaam. O! mae yn rhyfedd, ac etto, nid rhyfedd, wrth ystyried dirywiad natur dyn, i weled fel y mae Satan yn dwyn pechaduriaid ar ei ol, gerfydd y bach aur hwn. Os caiff efe ond cynnyg y fath abwyd ag yw anrhydedd, elw, neu fwyniant, dyna eu calonau yn neidio ato, fel ei at grystyn: efe a wna iddynt bechu am damaid o fara. O! y mae calon ddrygionus dyn yn caru gwobr anghyfiawnder, sydd yn addawedig gan ddiabol, hyd onid yw yn colli yr ofn am y cyflog arswydus y mae y Duw mawr yn ei fygwth. Megys y gwelwch weithiau nawf-gi mor awchus am asgwrn, fel y neidia hyd yn oed i'r afon ar ei ol, os tefiwch ef yno; ac erbyn ei ddyfod ato, yn fawr ei ffwdan, y mae wedi suddo; ac nid yw yn cael dim ond cegaid o ddwfr am ei boen. Fel hyn yr ymgais pechaduriaid am eu hoff bleserau—anrhydedd ac elw—gan nofio atynt, ie, trwy fygythion gair Duw; ac yn fynych, hwy a gollant yma yr hyn y mae eu gwange am dano. Fel hyn yr attaliodd Duw Balaam (megys y dywed Balac wrtho), "oddi wrth anrhydedd;" *Num.* xxiv. 11. Ond pa fodd bynag y llwyddant yma, y maent yn sier o gollu eu hunain yn dragywydd heb edifeirwch. Y rhai sydd yn ymroddi i fynu cael y pethau hyn yw y dynion sydd yn syrthio i fagl diabol, ac yn cael eu harwain i chwantau ynfyd a niweidiol, y rhai a'u bawdd hwynt "i ddinystr a cholledigaeth;" 1 *Tim.* vi. 9. O, bechaduriaid trua! oni fyddai yn ddoethineb i chwi, cyn cytuno â'r diabol, ymofyn pa hawl a all efe roi i chwi o'r gwageddau gwyhion hyn? A sefydla efe hwynt arnoch yn dda meddiannol? A all efe sicrhau y cytundeb, a'ch diogelu rhag cwynion cyfraith—neu a all efe roi dwy oes yn y pryniad, fel pan fyddoch feirw, na adawer mo honoch yn dlodion mewn byd arall? Och! drueiniaid gresynus! chwi gewch weled cyn hir pa fath som a roddodd efe i chwi; gan yr hyn nid ydych yn debygol o gael dim ond *caveat emptor*—edryched y prynwr at hyny. Ie, y tywysog bostfawr hwn, er ei addaw gwyh, rhaid iddo ei hun ddyfod i lawr; a rhaid yw i dywysog anhylon beri llys anhylon. O! ynte, pa fath udo fydd gan Satan a'i gaethddeiliaid ynghyd! Ond, O! medd y pechadur, y pleserau a'r parch a gynygir gan bechod a Satan, y maent yn bresennol; a'r hyn y mae Crist yn ei addaw, rhaid i ni aros am hwnw. Yn wir, hyn yw y peth sydd yn dal y rhan fwyaf. "Demas a'm gadawodd (medd Paul), gan garu y byd presennol;" 2 *Tim.* iv. 10. Y mae yn bresennol, yn wir, bechaduriaid; o herwydd ni ellwch ddywedyd y bydd yn eiddo i chwi y moment nesaf; y mae eich gwynfyd presennol yn myned: a'r eiddo y saint i ddyfod, ac nid byth i fyned. A phwy, am draffwng o gawl a mwyniant anianol yn bresennol, a werthai ei hawl i'r fath

deyrnas—oddi eithr dy fod o'r un meddwl a'r hwn a dybiodd mai ei wynfyd oll oedd yr hyn a lyngasai i lawr ei wddf?

'Rwy'n mwynhau yr hyn a lyngais;
Chwantau fil yn llawn a borthais.

Am hyn, gallai Cicero ddywedyd ei fod yn argraff mwy cymmhwys i fedd eidion, nag i fedd dyn. Adyn truenus wyt: oni ferni mai gwell yw marchnata â Duw ar goel nag â'r diabol am arian parod? Y mae Tertulian yn rhyfeddu wrth ffoledd ymgais y Rhufeinwyr, y rhai a äent trwy bob math o galedi mewn maes a brwydr, am ddim ond i gael yn y diwedd y bri o fod yn uchel-faer (*Consul*); llawenydd, medd efe, sydd yn diflanu ym mhen blwyddyn. Ond, O! pa fath wallgofrwydd erchyll yw i bechaduriaid wrthod dioddef ychydig galedfyd yma, ond tynu arnynt eu hunain ddiagragwyddol Duw ar ol hyn, er mwyn y wledd fer a'r cyfeddach darfodedig a rydd eu chwantau i'w difyru yma; a hwn yn fynych heb fod yn llawenydd a bery un awr.

Defn. 2. Yn 2il. Calonoged hyn dydi, O Gristion! yn dy ymladdfa â Satan; gall yr ysgarmes fod yn llem, ond nis gall fod yn hir. Er iddo ef dy demtio, ac er i'w offerynau drygionus dy guro, nid yw ond am ennyd fechan; a thi a gei wared da o'u cymmydogaeth ddrwg yn gwbl. Y mae y cwmwl, wrth ddefnynu, yn treiglo dros dy ben; ac yna daw tywydd teg, a bythol dywyniad haul gogoniant. Ai ni ellu di wyllo gyda Christ awr neu ddwy—cadw y maes ychydig ddyddiau? Os rhoddi i fyny a wnei, yr wyt yn andwyol byth: parhâ ond hyd ddiwedd y frwydr, ac ni chaiff dy elyn ail fyddino mwy. Pâr i ffydd edrych drwy dawl agoriad yr addewid, a mynegu i ti pa beth y mae yn ei weled yno yn drysoredig i'r hwn sydd yn gorchfygu. Pâr iddi ym-wrandaw a dywedyd i ti ai nis gall hi glywed bloeddiadau y saint coronog hyny, fel bloedd rhai yn rhanu yr ysbail, ac yn derbyn gwobr eu holl wasanaeth a'u dioddefiadau yma ar y ddaear. A sefi di o'r tu arall, yn ofni gwlychu dy droed â'r cystuddiau a'r profedigaethau hyny sydd fel corlyn o ddwfr rhyngot a gogoniant?

DOB. II.

2. Y mae ymherodraeth y diabol o fewn terfyn o ran lle, yn gystal ag amser: y mae yn llywiawdwr y byd isod hwn—nid yr un nefol. Esgynfa uchaf Satan yw yr awyr; gelwir ef yn "dywysog llywodraeth yr awyr" yn *Eph.* ii. 2: dyna gyffiniau eithaf ei ymherodraeth; nid oes iddo a wnelo â'r byd uchod. Nid yw y nef yn ofni un diabol; ac am hyny, y mae ei fyrrth hi yn wastad yn agored. Erioed ni feiddiodd yr ellyll hwn edrych i'r lle sanctaidd hwnw ar ol unwaith ei fwrw allan; eithr y mae yn gwib-grwydro yma isod fel gwylliad esgym-

munedig o ŵydd Duw, gan wneud hyn y o niwed a allo i'r saint ar eu ffordd i'r nef. Ond ai nid yw hyn yn achos o lawenydd mawr, na fedd Satan ddim gallu yno, lle y mae dedwyddwch y saint yn gorwedd? Pa beth sydd genyt ti, Cristion, y byddai raid i ti roi bri arno, ond sydd yno? Y mae dy Grist yno: ac os wyt yn ei garu ef, y mae dy galon yno hefyd; yr hon sydd yn byw ym mynwes ei hanwylid. Y mae dy gyfeillion a'th geraint yng Nghrist yno, neu i'w disgwyl, â pha rai y mae i ti gael cyfarfod llawen yn nhŷ dy Dad, er y fagl ar Tabor, neu gynllwyio Satan ar y ffordd yno. O, gyfeillion! ceisiwch hawl i'r deyrnas hono; yna, chwi fyddwch uwch law chediad y bareuc hwn. Hyn a wnaeth Iob yn wr gwir ddedwydd: yr hwn, wedi i'r diafol ei ysbeilio hyd at ei groen, ac agos o hwnw hefyd, a allai, yng ngyneb anegu a diafliaid, wirio fod Crist yn brwnr iddo, ac y byddai iddo, â'r llygaid hyny oedd yn awr yn llawn o ddragrau heiltion, ei weled; a hyny iddo ei hun, ac fel ei ran ei hun. Y mae yn drwm yn wir ar y neb a ysbeilir ar unwaith o'r cwbl a fedd; ond byth ni ellir dywedyd hyn am y Cristion. Darfu i'r diafol ddwyn pwrw Iob—fel y gallaf ddywedyd—yr hyn a barodd iddo beth cyfyngder; ond yr oedd ganddo Dduw yn y nef a'i gosododd i'fnydrachefn. Petharian traul sy genyt yn bresennol yn dy bwrs, ym mywiogrwydd dy ffydd, y dystiolaeth am dy fabolaeth, a'r cysur sydd yn dylifo o hyn, ymhelaethiad mewn dyledswydd, a'r cyffelyb. Y rhai hyn, dichon Satan eu hanhrefnu dros amser, i'e, a'th amddifadu ohonynt, ond nis gall efe gyrrhaedd y rhol, i ddileu dy enw allan o lyfr y bywyd. Ni ddichon efe ddiddymu dy ffydd, dirymu dy berthynas, na sychu i'fyny dy gysur yn y ffynonell, er iddo fedru croni dy ffirwd. Ni ddichon efe luddias diweddiad dedwydd dy holl ryfel â phechod, er iddo dy guro mewn ysgarmes neillduol. Y mae y rhai hyn i gyd yng nghadw yn y nef, ym mysg coronlysau Duw ei hun; yr hwn y dywedir ei fod yn ein cadw trwy ei allu, trwy ffydd i iachawdwriaeth.

DOSE. III.

3. Y drydydd terfyn i dywysogaeth y diafol sydd yn golygu ei ddeiliaid; a hwy a ddarlunir yma fel yn dywyllwch y byd hwn, sef yn gyfryw ag sydd mewn tywyllwch. Arferir y gair hwn weithiau i ddadgan cyflwr adfydd creadur mewn rhyw gyfyngder mawr, megys yn *Esa.* 1. 10; "Yn rhodio mewn tywyllwch ac heb lewyrch;" weithiau, i ddadgan natur pob pechod, megys yn *Eph.* v. 11, lle y gelwir pechod yn waith y tywyllwch; ac weithiau, y pechod neillduol o anwybodaeth, yr hwn yn fynych a osodir allan trwy dywyllwch y nos a dellni y llygad. Yn ol fy marn i, gellir meddwl yma am y rhai hyn oll, ond yn benaf am yr olaf; canys er

fod Satan yn peri cynhwrf mawr yn yr enaid a fydd yn nhywyllwch tralod, pa un bynag ai trwy groesau allanol ai trwy ofidiau tu mewnol; etto, os na bydd y creadur ar yr un pryd yn nhywyllwch pechod, er y gall efe derfysgu fel gelyn, etto nis gellir dywedyd ei fod yn rheoli fel tywysog. Pechod yn unig sydd yn gosod Satan ar yr orsedd; felly, cymmeraf y geiriau yn ol y ddau ddeongliad olaf.

1af. Am dywyllwch pechod yn gyffredinol.

2il. Am dywyllwch anwybodaeth yn neillduol; a'r ystyr fydd, Bod y diafol yn rheoli ar y rhai oll ag sydd mewn cyflwr o bechod ac anwybodaeth; nid ar y rhai sydd yn bechadurus neu anwybodus—felly, cawsai efe afael ar y saint yn gystal ag ereill—ond ar y rhai sydd mewn ystâd o bechod. Gosodir hyn allan yn y gair cryno, llywiawdwr tywyllwch, i amlygu yn fwy y llawnder o bechod ac anwybodaeth sydd yn meddiannu caethweision Satan. Y sylwadau fyddant ddau.

(1af.) Y mae pob enaid sydd mewn ystâd o bechod dan lywodraeth Satan.

(2il.) Y mae anwybodaeth, uwch law drygan ereill, yn caethiwo enaid i Satan; a an hyny, gosodir allan y pechodau oll wrt yr un sydd yn benaf yn dadgan hwn, sef *tywyllwch*.

Athr. Y mae pob enaid yn ei bechod dan lywodraeth Satan. Dan y pwnc hwn y madau beth i'w chwilio.

1. Y rheswm pa ham y nodir pechod wrt yr enw *tywyllwch*.

2. Pa fodd yr ymddengys mai dan lywodraeth Satan y mae pob un yn y cyfryw ystâd. Am y cyntaf:—

1af. Gellir galw pechod yn dywyllwch, a mai tywyllwch yw y ffynonell a'r ach cyffredin o bechod mewn dyn. Yr ach oddi allan yw Satan, ei fawr gynnyrfyddysbryd melliedig yw efe, a ddelir mewn cadwynau tywyllwch. Yr achos tu mewn yw dallineb a thywyllwch yr enaid: gall ddywedyd, pan fo un yn pechu, ei fod y gwneuthur ni w'yr pa beth, megys y dywedodd Crist am ei leiddiaid. Pe gwyddai creadur wir werth yr enaid (a werthir awr ganddo er cerdd), natur ogoneddus gyuaidd Duw, a'i ffyrdd sanctaidd, cariad gymmhar Duw yng Nghrist, natur wenwyn pechod: a'r rhai hyn i gyd, nid trwy b ydryn disymmwrth a saethir i'r ffenestr mepregeth, ac a ä ymaith fel mellen, ond tr oleuni arosol; fe andwyai hyn farchnac diafol; ac ni byddai i drueiniaid gymmei y llyffant du hwn i'w mynwesau mor rwy Y mae pechod yn myned dan ymddieith: ac felly yn cael croesaw.

2il. Y mae yn dywyllwch, am ei fod ddwyn tywyllwch i mewn i'r enaid; a l yn naturiol, ac yn farnol.

(1af.) Yn naturiol. Y mae nawws afi

mewn pechod sydd yn niweidiol i'r deall, yr hwn sydd i'r enaid y peth yw y llygad a'r archwaeth i'r corph; y mae yn dirnad am bethau ac yn gwahaniaethu y gwir oddi wrth y gau, fel y llygad wyn oddi wrth ddu—y mae yn profi geiriau fel y prawf y genau fwydydd. Yn awr, megys y mae rhai pethau yn ddrwg i'r golwg ac ereill yn ddrwg i'r archwaeth—yn ei lygru—fel nas gall wybod gwahaniaeth rhwng melus a chwerw, felly yma, y mae pechod yn ymfydu dyn, ac yn dwyn ymaith ei iawn farn: ac y mae efe, yr hwn a allai o'r blaen weled rhyw arferiad yn anaddas a brwnt mewn ereill, ar ol unwaith yfed ei hun o'r gwpan hudolaidd hon, yn gwallgofi arni heb allu gweled drwg y peth, nac arfer ei reswm ei hun i'w erbyn. Y mae fel un wedi dinystrio ei ddeallt-wriaeth. Felly Saul, cyn iddo lygru ei gydwybod, fe gyfrifai ddewines yn deilwng o farwolaeth; ond ar ol iddo drwngaledu ei gydwybod â phechodau ereill, y mae yn myned i ymgynghori âg un ei hunan.

(2il.) Y mae pechod yn dwyn tywyllwch yn farnol. Y mae bygythiad ar y cyfryw ag y rhoddodd Duw gynnyg ar agoryd eu clustiau, a'u haddysgu, ac a redasant o ysgol Duw i ysgol Satan, trwy wrthryfela yn erbyn y goleuni, y cânt “drengh heb wybodaeth;” *Iob xxxvi. 10, 12.* Pa ham y llosga y ganwyll yn ofer, pryd y mae y creadur yn fwy awyddus i chwareu na gweithio?

3ydd. Y mae pechod yn rhedeg i dywyllwch. Yn ddirgel y mae y twyllwyr yn dwyn i mewn eu heresiau dinystriol; fel y rhai a werthant eiddo drwg, yn anhawdd ganddynt ddyfod i'r farchnad, lle y mae mesur a rheol ar bob peth, ond yn ei roddi ar led yn ddirgel. Felly mewn drygioni moesol: pechaduriaid, fel bwystfilod, a ânt allan y nos am ysglyfaeth, yn dewis peidio bod i'w gweled, ac yn ofni dyfod lle y ceid hwynt allan. Nid oes dim yn fwy arswydus i bechaduriaid na goleuni y gwirionedd; am fod “eu gweithredoedd yn ddrwg;” *Ioan iii. 19.* Yr oedd Felics wedi ei bigo gan eriau Paul, fel nas gallai efe aros hyd ddiwedd y bregeth; felly, aeth ymaith mewn brys, gan roddi heibio wrandaw Paul i'w amser cyfaddas, ond hwnw nis gallodd byth ei gael. Nid yw yr haul yn fwy blinderus mewn gwledydd gwresog, nag yw y gwirionedd i rai sydd yn eistedd dan y pregethiad nerthol o hono; ac am hyny, fel mai anfynych y daw y rhai hyny o'u tai yng ngwres y dydd, a phan y byddo raid iddynt, y mae ganddynt eu gorchudd uwch eu penau i'w cadw rhag yr haul; felly pechaduriaid a ochelant bregethiad y gair hyd y gallont; ond os byddo raid iddynt fyned, er boddio eu perthynasau, neu er mwyn ryw fanteision anianol, hwy a gadwant rym y gwirionedd draw, os gallant, naill ai trwy hepian ymaith y bregeth, neu ei lolio ymaith gyda rhyw ffol ddychymygiol a en-

fyn Satan yn gymdeithion iddynt ac i gadw dadwrdd ar y cyfryw amser. Neu ynte, hwy a ddewisant bregethwr oerlyd i'w wrandaw—un y bydd i'w bregeth fantach weniethio iddynt yn hytrach na'u terfysgu, a gogleisio eu serchiaidau yn lle pigo eu cydwybodau. Yna, gall eu llygiaid clwyfus edrych ar y goleu. Hwy a allant, gyda bodd, drin neu dremio ar y cleddyf mewn gwain wych, er mai dianc ymaith a wnaent wrth ei weled yn noeth.

4ydd. Y mae pechod yn dywyllwch, o herwydd ei anghysur, a hyny mewn golygiad triphlyg:—

(1af.) Y mae tywyllwch yn anghysurus, fel y mae yn cau allan o bob gorchwyl. Beth a allai yr Aiphtiaid wneud dan y pla o dywyllwch ond eistedd yn llonydd? Ac y mae hyn i ysbryd bywiog yn ddigon o ffinder. Fel hyn y mae dyn mewn ystâd o bechod yn greadur diddefnydd; nis gall efe wneuthur i Dduw un gwasanaeth cymmeradwy; y mae yn anafu pob peth a gymmero mewn llaw, fel un yn rhedeg i fyny ac i lawr mewn siop, a'i ffenestri yng nghauad—ni wna efe ddim yn ei le. Gellir ysgrifenu ar fedd pob pechadur a fyddo byw a marw yn y cyflwr hwnw:—“Yma y gorwedd y dyn na wnaeth erioed awr o waith i Dduw yn ei holl fywyd.”

(2il.) Y mae tywyllwch yn anghysurus o ran mwynhâd. Pa mor ragorol bynag fyddo rhyw luniau godidog yn yr ystafell, os yn dywyll, pwy sydd well erddynt? Gall enaid, mewn ystâd o bechod, fod yn meddu llawer, ond heb fwynhau dim. Dyma ddrwg blin, heb ond ychydig feddwl am dano. Un meddwl am ei gyflwr o elyniaeth at Dduw a ddefnynai chwerwder i bob cwpan—y mae sawyr tân uffern ar y cwbl a fedd efe. A dyn mewn gwledd wych, ni fwyhâai yn ddiau ond ychydig o honi, os aroglai efe dân yn barod i losgi ei dŷ ac yntau.

(3ydd.) Y mae tywyllwch yn llenwi â brawiau. Ofnau yn y nos ydynt fwyaf arswydus; ac y mae ystâd o bechod yn ystâd o ofn. Dynion dan lawer o ddyled, nid oes iddynt lonyddwch ond tra yn eu cwsag; ac nid y pryd hyny chwaith; y mae ofnau a gofalon y dydd yn soddi mor ddwfn nes yn peri i'w gorphwysiad y nos fod dan aflonyddwch a blinder. Nid oes heddwch i'r annuwiol ond pan fyddo ei gydwybod yn cysgu; ac nid yw hono yn cysgu ond yn doredig, gan ddefro yn fynych dan wasgeuon o ddychryn. Yn ei lwydd mwyaf efe a frawychir, yn debyg i haid o adar mewn cae fâd, ar bob ergyd. Y mae yn bwyta mewn ofn, yn yfed mewn ofn; pan gystuddier ef, y mae yn ofni gwaeth ar ol, ac ni wŷr efe i ba radd y lleda y cwmwl hwn; a pha le y gall ei ddodi, ai yn uffern neu beidio, ni wŷr efe; ac am hyn, y mae yn crynu, fel dyn yn y tywyllwch, heb wybod na bydd ei gam nesaf i'r pwll.

5ed. Y mae pechod yn arwain i'r tywyllwch eithaf, neu dywyllwch yn ei radd eithaf; pechod yn eithaf ei uchder, a digofaint yn eithaf ei boethder, gyda'u gilydd; y ddau yn hollol, y ddau yn dragwyddol. Yma y mae peth cymmysg—pechod a blinder, poen ac esmwythdra, pechod a meddyliau am edifarhau: yno, y tân o ddigofaint a lysg heb lacâu; a bydd pechod yn cyfattedd i'r boen. Nid oes dim newid ar adar uffern; eu poen a wna iddynt bechu, a'u pechodau a bortha eu poen; y ddau yn annifoddadwy, y naill yn danwydd i'r llall.

2. Edrychwn pa fodd yr yddengys fod y rhai sydd mewn ystâd o bechod dan reoliad Satan. Gelwir pechaduriaid yn *blant diafol* (1 *Ioan* iii. 10), a phwy a reola y plentyn ond y tad? Y maent yn gaethweision—pwy a reola y caethwas ond y meist'r? Y maent yn wir dŷ annedd y diafol—a pha le y rheola y gwr ond yn ei dŷ ei hun? “Mi a ddychwelaf i'm tŷ,” *Mat.* xii. 44. Fel pe dywedasai y diafol, Mi a rodiais yn mys saint Duw yn ol ac yn mlaen, ac nid oes neb yn fy nghroesawu; nis gallaf gael lle i orphwys: wel, mi a wn pa le y gallaf fod yn hŷf; mi a âf ynte i'm tŷ fy hun, ac yno, yr wyf yn sicr y caf reoli fel y mynwyf. “Ac wedi y delo, y mae yn ei gael yn wâg, wedi ei ysgubo a'i drwsio,” hyn yw, yn gwbl barod at ei groesawiad ef. Gweinyddion a wnânt y tŷ yn drefnus a thaelus erbyn y delo eu meist'r adref, yn enwedig pan y byddol yn dwyn gwstmyr gydag ef; megys y diafol yma, “yn cymmyrwr saith ereill gydag ef.”

Crawfch ar y pechadur—nid oes dim ynddo nac o'i eiddo heb fod gan y diafol reoliad arno: y mae yn rheoli yr holl ddyn, y meddyliau, gan eu dallu hwynt. Gan Satan y ffurfir holl amgyffrediaidau y pechadur; trwy sylwydru a diafol y mae efe yn edrych ar bechod: y mae yn darllen y gair gyda deongliad y diafol: nid ydyw efe yn gweled dim yn ei liw naturiol, eithr y mae dan hŷd gwastadol. Dywedir hyd yn oed am ddoethineb dyn drwg, ei fod yn gythreulig (*Iago* iii. 25), neu yn debyg i ddiabol, am mai gan y diafol ei dysgir, a'i bod o'r un fath a'r eiddo ef; y maent yn synwryol yn unig i wneuthur drwg. Efe sydd yn rheoli eu hewlyisiau hwynt, er nad i beri gorffod arnynt; etto, i'w tynu yn effeithiol. “Ei waith ef,” medd Crist, “a fynwch chwi ei wneuthur.” Yr ydych yn ymroddgar yn eich ffordd; y diafol sydd wedi cael eich calonau, ac iddo ef yr uffuddhewch. Am hyny, pan ddelo Crist i ail ennill ei orsedd, y mae yn cael yr enaid mewn terfysg, fel yr Ephesiaid wrth bregeth Paul, yn llefain—“I lawr âg ef, i fyny â Diana!” “Ni fynwn ni y dyn hwn i deyrnasu arnom. Pa beth yw yr Hollalluog fel y gwasanaethem ni ef?” Efe sydd yn rheoli eu holl aelodau hwynt. Gelwir y rhai hyn yn *arfau anghyfiawnder*—oll at wasanaeth y

diafol, fel holl arfau teyrnas i amddiffyn y llywydd yn erbyn pwy bynag a gais oresgyn. Y pen i ddyfeisio, y llaw i weithredu, y traed yn gyflym i ddwyn y corph i fyny ac i lawr ar ei wasanaeth ef. Efe sydd yn rheoli y cwbl a fedd y dyn. Os daw Duw, mewn rhyw aelod tlawd, i erfyn arno fenthycio ceiniog, neu gyfranu tamaid i adfywio ei goluddion newyng, y mae llaw elusenol yr adyn cybyddlyd wedi gwywo fel nas gall ei bestyn hi allan: ond pan alwo Satan—dyna ei bwrs yn agored yn ebrwydd, a'i galon hefyd. Nabal, yr hwn nis gallai hebgor ychydig friwsion i Dafydd a'i ddilynwyr, gallai y carl hwnw wneuthur gwledd, fel gwledd brenin, i foddio ei chwant ei hun o lythineb a meddwod. Efe sydd yn rheoli eu hamser—pan alwo Duw at ddyledswydd, i weddio, neu i wrandaw, nid oes amser i'w hebgor drwy yr wythnos oll i hyuny. Ond os clyw y pechadur am gyfarfod llawen—cwlwm o gymdeithion da yn y tafarndy—teflir y cwbl heibio i aros ei arglwydd a'i feistr. Gadewir yr alwedigaeth clwch neu saith o'r gloch; ie, gwraig a phlant yn llefain (yn newynn, ysgatfydd), tra y mae yr adyn yn tywallt allan hyd yn oed eu gwaed—trwy ddifa eu bywioliaeth—wrth draed ei chwant. Y mae y pechadur “mewn rhwymedigaeth anwiredd” (*Act.* viii. 23): a chan ei fod yn rhwym, y mae yn rhaid iddo uffuddhau. Dywedir ei fod yn myned ar ol ei chwant, “fel yr ynfyd i'r cyffion;” *Diar.* vii. 22. Cyn rhwydded y gall y troseddwr, sy'n rhwym ei benelinoedd, gael ei freichiau a'i goesau yn rhyddion, a diange oddi ar ei wylwr, ag y gall efe ddiange oddi wrth ei chwantau. Y maent yn weision, a'u haelodau yn offerynau, i bechod; ac megys y cyfyd gweithiwr ei fwyell, ac ni wrthwyneba hi—felly y mae Satan yn eu trin hwynt, oddi eithr i Dduw rwystro.

Defn. Gwelwch yma gyflwr alaethus pob un yn y cyflwr o bechod. Y maent dar reoliad Satan a llywodraeth uffern. P. Dafod all adrodd, a pha galon a all ddirnac trueni y cyflwr hwn? Diwrnod trwm oedd hwnw a ragfynegodd Crist—“Pan welid y fflaid-dra anghyfneddol yn sefyll yn y ll sanctaidd.” “Yna,” medd Crist, “y rhai fyddant yn Iudea, floant i'r mynyddoedd;” *Mat.* xxiv. 15, 16. Ond beth oedd hwnw wrth hyn? Nid oedd y rhai hyn ond dynion, er mor fflaid—diafliaid yw y rhai hyn. Ni safasant hwy ond yn y deml ddefnyddio gan halogi ac anurddo hono; ond y mae rhai hyn yn lledu eu banerau yn eneidiaid dynion, yn diwyno yr orsedd hono sydd y fwy gogoneddus na'r nef ddefnyddio ei hun a wnaed i Dduw ei hun eistedd ynddi. Ni oeddynt hwy, yn yr eithaf, yn arfer creulonderau ond ar gyrph dynion, gan lac ac arteithio y rhai hyn—yma, eneidiaid gwerthfawr dynion sydd yn cael eu dinystr.

Pan fellidigai Dafydd elynion Duw hyd adref, ei erfyniad ydyw, ar i Satan fod ar eu deheulaw. Y mae yn syndod na chrynai pechaduriaid fwy wrth hyn; y rhai, pe gwelent ond eu moch, neu anifail wedi ei lygad-dynu a'i feddiannu gan y diafol, yn rhedeg wysg y pen i'r môr, hwy a grochlefant fel rhai wedi eu hanner andwyo: ac onid yw un enaid yn fwy ei werth na'r rhai hyn oll? Pa fath helynt fiin ydyw fod Satan yn meddiannu dy galon a'th ysbryd di, gan dy hyrddio, yng nghyngddaredd dy chwantau, i golledigaeth? O, ddy'n truan! pa fath gyfnewidiad trwm a wnaethost? Tydi, yr hwn nid eisteddit dan lywodraeth dirion a heddychol Duw, dy iawn Arglwydd, wyt yn cael tâl am dy wrthryfel i'w erbyn yng nghreulonedd y gorthrymwr hwn, yr hwn sydd yn ysgrifenu ei ddeddfau oll yng ngwaed ei ddeiliaid. A pha ham yr eisteddych yn hwy, O bechaduriaid! dan gysgod y fieren hon, oddi wrth ba un nis gellwch ddisgwyl dim ond tân tragwyddol i ddyfod o'r diwedd a'ch ysu chwi! Wele, y mae Crist ar y maes, wedi ei anfon gan Dduw, i ennill ei hawl yn ol, a'ch rhyddhâd chwithau. Y mae ei faner frenhinol ef wedi ei gosod ifyny yn yr efengyl, a chyhoeddiad yn dadgan—Os daw unrhyw bechadur truan, wedi blino ar lywodraeth y diafol, ac yn drwmlwythog gan gadwynau gresynus ei gaethiwed ysbrydol, nes ydyw yr heyrn hyn—ei bechodau—yn myned i mew hyd at yr enaid, i'w gystuddio â'r teimlad o honynt: os daw y fath, meddaf, at Grist, fe gaiff nodded rhag cyfiawnder Duw, llid diafol, a llywodraeth pechod—mewn gair, efe a gaiff "orphwysfa," a hono yn "ogoneddus;" *Esa. xi. 10; Mat. xi. 28.*

Y mae yn arferol, pan y byddo pobl yn cael eu maglu gan orthrymder rhyw ormeswr gwaedlyd, iddynt fod yn hiraethus ddigon am gyfnewidiad, a gwrandaw ar ryw gynnyg a ddyry iddynt obaith am ryddid, er ei gael trwy law estron; a hwnw, efallai, droi allan cyn waethed a'r llall: etto, er mor fiin ydyw y caethiwed, y mae pobl yn chwennych newidiad, fel cleifion am newid gweylau, er na chânt ond ychydig esmwythâd drwy hyn. Pa ham, ynte, y byddai gwaredigaeth heb ei chroesau gnych chwi bechaduriaid? Dygir gwaredigaeth, nid gan estron, yr hwn y mae i chwi achos ofni ei fwriad atoch—ond gan eich câr agos o waed, yr hwn nis gail feddwl drwg i chwi, heb iddo yn gyntaf gasau ei gnawd ei hun?—a phwy erioed a wnaeth hyn? Yn sicr, nid Efe; yr hwn, er iddo gyfranogi o'n cnawd, fel y byddai ganddo hawl i fod yn Waredwr i ni (*Heb. ii. 14, 15*); etto, ni fyndai berthynas â ni "ym mhechadurusrwydd ein natur" (*Heb. iv. 15*): a pechod sydd yn ein gwneuthur ni yn greulawn; i'e, wrth ein cnawd ein hunain. Beth ellwch chwi ei ddisgwyl oddi wrtho ef, sydd ei hun yn bur, ond tregaredd bur? "Tos-

turi y drygionus sydd greulawn;" *Diar. xii. 10.* Coeliwch hyn, ha wŷr! bod Crist yn ei chyfrif yn anrhydedd i fod yn Frenin ar bobl ewyllysgar—nid ar gaethweision. Y mae efe yn dyfod i'ch gwneuthur yn rhyddion—nid i'ch caethiwo; i'ch gwneuthur yn frenhin-oedd—nid yn gaethddeiliaid. Ni rydd neb air drwg i Grist ond y rhai na ffont erioed yn ddeiliaid iddo. Ymfodynwch â'r rhai a brofasant wasanaeth Satan a'r eiddo Crist hefyd—ganddynt hwy y cewch yr hysbysiad cywiraf am danynt. Chwi welwch, pan ddel enaid drosodd o wersyll Satan at Grist, ac y caffo ond unwaith y prawf o'r melusder sydd yn ei wasanaeth ef, nad oes dim cael arno yn ol at ei hen galedwaith. Fel y dywedant am y rhai a ddeuant o'r gogledd, sydd yn oer a llwm, y maent mor hoff o'r deheu cynhes, fel mai anfynych yr ânt yn ol. Beth sydd yn fwy dychrynlyd i enaid gasol na chael ei draddodi i ddwyllaw Satan, neu syrthio dan reoliad ei chwantau? Efe a ddewisai yn hytrach neidid i ffwrn o dân na chael ei reoli ganddynt. Dyma yr erfyniad mawr a wna plentyn Duw—bod iddo yn hytrach ei flangellu yn ei dŷ, na'i droi allan o hono i fod yn ysglyfaeth i Satan. O, bechaduriaid! pe gwybyddech (yr hyn nis gallwch, nes i chwi ddyfod at Grist, a'i goffeidid fel eich Arglwydd a'ch Iachawdwr) pa beth ydyw rhagorfreintiau gweision Crist, a pha driniaeth dyner y mae y saint yn ei chael ar ei law ef—chwi a ddywedech mai y rhai hyn yw yr unig bobl ddedwydd yn y byd, sydd yn sefyll yn wastadol ger ei fron ef. Y mae ei ddeddfau ef yn ysgrifenedig, nid â gwaed ei ddeiliaid, fel yr eiddo Satan, ond â'i waed ei hun. Gweithredoedd o ras ywei orchymynion ef: y mae yn ffafur cael bod ar waith yn ei achos. *I chwi y rhoddweddyd* bod i chwi *gedu*, i'e, a *dioddef* hefyd: *Phil. i. 29.* Y mae y saint yn ei chyfrif yn fath o anrhydedd gwneuthur rhyw beth a orchymyno efe, nes y maent yn barnu fod Duw yn eu gwobrwyo am un darn o orchwyl, os bydd iddo eu nerthu at un arall. "Hyn oedd genyf," medd Dafydd, "am gadw o honof dy orchymynion di;" *Salm cxix. 56.* Beth ydoedd ei wobwr mawr?—Gwelwch *adn. 55.* "Cofiais dy enw, Arglwydd, y nos, a chedwais dy gyfraith." Efe a gafodd fwy o nerth a gallu i gadw y gyfraith thag llaw, trwy ei ufudd-dod o'r blaen; ac onid oedd yn cael ei dalu yn dda, dybygech chwi, am ei boen? Y mae ffrwyth, i'e, mew'n sancteiddrwydd, gan y Cristion mew'n llaw; a hwn y mae yn ei fwyta, tra y mae yma ar ei waith, i roddi atteg i'w gylla, hyd oni ddel y llawn wobwr; yr hwn ydyw "bywyd tragwyddol;" *Rhuf. vi. 22.*

Mae Iesu Grist yn Dywysog sydd yn caru gweled ei bobl yn ffynnu ac yn myned yn gyfoethog dan ei lywodraeth ef. Hwn ydyw efe y mae ar bechaduriaid gymmaint o'i ofn,

fel pan y mae yn agor eu carchar, ac yn erchi arnynt ddyfod allan, y dewisent yn hytrach hoelio eu clustiau wrth orsin y diafol, na mwynhau y rhyddid gwynfydedig hwn. Nid rhyfedd ydyw ddarfod i rai o'r saint, dan ddirdyniad, "beidio derbyn ymwared, fel y gallent hwy gael adgyfodiad gwell;" *Heb.* xi. 35. Ond pa fath ddychymmyg ydyw hwn, fod i eneidiau truaïn, rhwym yng nghadwynau eu chwantau, a chan fwiad anwrthwynebol Duw er eu dammedigaeth, oni chredant yn yr Arglwydd Iesu, fod yn gwrthod ymwared, tra y maent ar eu ffordd i'w dienydd? Dichon hyn beri i nef a daear synu. Yn ddiâu, o farw yn eu pechodau, nis gallant obeithio am well adgyfodiad nag a fydd eu marwolaeth. Yr wyf yn ofni yn hytrach nad ydynt hwy yn cadarn gredu y cânt hwy adgyfodiad; ac yna, nid rhyfedd fod eu bri mor fychan ar gynnig Crist, gan eu bod yn tybied eu hunain yn ddiogel ar ol unwaith eu daearu yn nhwll y bedd. Ond gwybydded pechaduriaid na ddichon y bedd eu cadw pan ddêl dydd eisteddfod barn, ac y galwo y Barnwr am y carcharorion o flaen y frawdle. Y bedd ni fwriadwyd mo hono erioed i fod yn noddfa i bechaduriaid rhag llaw cyfawnder, eithr yn garchar tŷn, i'w cadw erbyn dydd eu prawf, fel y galler eu cael i'r amlwg. Yna y cloddir hwy o'u daear dai, ac y llusgir hwy o'u tyllau, i ateb am eu dirmyg o Grist a'i ras. O! y braw fydd arnoch ei weled ef yn dyfod i'ch barnu, yr hwn yn awr a wrthodwch fel eich Brenin! ac wrth glywed yr efengyl hono yn cael ei thystio i'ch erbyn, er dammedigaeth, tra y bydd hi ar yr un pryd yn rhyddhau ereill er eu hiachawdwriaeth! Beth a feddyliwch ei wneuthur, bechaduriaid, yn y dydd hwnw? A lefi ac a ysgrechi di am drugredd ar law Crist? Och! wedi dadgan y ddedfryd, fe orchuddir dy wyneb yn ddiwed. Carcharorion wedi eu colffarnu, ni oddefir iddynt lefaru. Fuddiol fydd dagrau pan na bydd lle i edifeirwch yng nghalon Crist nac yn dy galon dithau. Neu, a wyt ti yn meddwl cwyno wrth dy hen arglwydd, yng ngwasan- aeth yr hwn yr andwyaist dy enaid; a lefain arno ef, fel hono ar Ahab—"Cynnorthwya, O frenin!" Och, dy lygaid a'i gwelant, dan yr un condemnai a thi dy hun! Onid gwell fyddai i ti yn awr ymwrthod â rheciad y diafol, tra y mae modd i ti gael dy dderbyn tan lywodraeth Crist—a dy fod yn awr yn cael tywallt dy ddagrau a th lefau am drugredd a gras, pan y maent i'w cael, nag yn eu cadw hyd fyd arall, i fod yn ofer?

Cwest. Ond fe allai y dywedi, Pa fodd y gallaf fi, a aned yn gaethwas i bechod, i'e, a fum byw gynnufer o flyneddoedd dan ei reoliad melldigedig, ddiange oddi dan ei reoliad melldigawl, ddyfod oddi dan ei awdurdod a'i rym, a chael fy nhrosglwyddo i deyrnas Crist?

At. Nid yw anhawsder y gwaith hwn ddim yn bod, o ran anhawsder gyda Christ, i'th dderbyn di fel ei ddeiliad; gan nad yw efe yn gwrthod neb a fydd mewn gwirionedd calon yn dynuno dyfod dan ei gysgod ef. Nid yw ddim yn cydsefyll â'i fwriad ef i wrthod neb o'r fath. A yw meddygon yn arfer dwrddio eu cleifion ymaith—cyfreithwyr, y rhai a fyddo yn gofyn eu cynghor—cad-flaenoriaid, y rhai a syrthiant atynt oddi wrth y gelyn? Pan oedd Dafydd ar y maes, dywedir, "Yngynnulodd ato ef bob gwr helbulus, a phob gwr mewn dyled, ac yn gystuddiedig o feddwl, ac efe a fu yn dywysog arnynt hwy;" *1 Sam.* xxii. 2. Ac felly y bydd Crist i bob un a fyddo wedi blino ar wasanaeth Satan, ac oddi ar anffodhâd tu mewnol ato, yn dyfod ato ef. Ond y prif orehwyf fydd dy dynu di ymaith oddi wrth dy ymrwymiaidau i bechod a Satan. Hyd oni wneler hyn, ni addef Crist mo honot fel deiliad; ond efe a edrych arnat fel ysbïwr. Y mae gyda phechaduriaid, fel gyda gweision—dichon fod ymrfaelion rhyngddynt hwy a'u meistriaid, a geiriau uchel o bob tu, fel y meddylicch y gwnaent eu beichiau i fynd, ac yr aent ymaith mewn brys; ond y mae yr ymrfael drosodd yn fuan; ac erbyn bore dranoeth, y mae y cwbl mewn anghof, a'r gweision mor ddyfal wrth eu gwaith ag erioed. O! mor fynych y mae pechaduriaid yn cymmeryd eu cenad gyda'u chwantau, ac yn rhoddi rhybudd i'w hen feistriaid; hwy a edifarhânt, a pha beth ni wnant? Etto, mewn ychydig ddyddiau, y maent wedi edifarhau o'u hedifeirwch, a haeru eu diwygiadau; yr hyn sydd yn dangos eu bod yn feddwyon ar ryw nwydau, pan feddyliasant neu y dywedasant hyn; ac nid rhyfedd eu bod yn dadwneud y cyfan pan y delont i'w gwir dymmer. Yn awr, am fod gan Satan lawer o ddichellion, trwy ba rai y mae yn dal ei afael ar bechaduriaid, ni a ddangosaf rai o honynt: ac os gelli di eu gwrthsefyll, nid gwaith caled fydd dy ddwyn di oddi dan ei lywiad a'i reolaeth ef.

1. Fe wna Satan ei eithaf na chaiff pechaduriaid ddim meddyliu difrifol am y cyflwr truenus y maent ynddo tra y maent dan ei reolaeth ef, na chlywed dim gan ereill a allai beri y siglad lleiaf ar eu meddyliu oddi wrth ei wasanaeth ef. Ystyriaeth, efe a wŷr, yw y cam cyntaf at edifeirwch: yr hwn nid yw ystyried ei ffyrdd, pa beth ydynt, ac i ba le y maent yn ei dywys, nid yw efe yn debygol i'w newid hwynt ar frys. Nid oedd Israel yn syflud nes i Moses ddyfod ac ymddiddan peth â hwynt am eu trwm gaethiwed, a meddyliu grasol Duw tuag atynt: yna, y maent yn dechreu chwennych myned ymaith. Pharaoh yn fuan a feddyliodd pa beth a allai ganlyn hyn; ac yn gyfrwys, y mae yn rhoddi cais ar eu rhwystro, trwy

ddyblu eu tasg: "Segur, segur ydych; am hyny yr ydych chwi yn dywedyd, Gad i ni fyned ac aberthu i'r Arglwydd. Am hyny, ewch yn awr, gweithiweh; ac ni roddir gwellt i chwi: etto, chwi a roddwch yr un cyfrif o'r priddfeini;" *Ecsod. v. 17, 18.* Fel pe dywedasai, A oes genych gymmaint o'anser i'w hebgor, i feddwl am grwydro i'r anialweh, cadw eich cyfarfodydd terfysgus, Moses a chwithau, a llunio eich cydfrad? Mi a doraf y cwlwm: rhowch arnynt fwy o waith; gwasgarwch hwynt ar led yr holl wlad i gasglu gwellt, fel na chydgyfarfyddont i ddenu calonau eu gilydd o'm gwasanaeth i. Fel hyn y mae Satan yn dra eiddigeddus o'r pechadur, yn ofni y bydd i bob Cristion a ymddiddano âg ef, a phob ordinhâd a wrandawo, ei ddenu ymaith. O'i fodd ef, ni chai efe ddyfod i un o honynt, na chynnwys un meddwl am y nef nac uffern o un pen wythnos i'r llall: ac i attal hyn hyd y byddo modd, y mae yn cadw ei ddwyllaw yn llawn o waith. Y mae'r pechadur yn malu, ac yntau yn llenwi yr hopran, fel na byddo i'r felin sefyll. Y mae efe gyda'r pechadur ar ei ddihuniad cyntaf, ac yn llenwi ei galon druenus â rhyw feddyliau drwg; a'r rhai hyn, fel traffwngc boreuol, at ei gadw rhag y llwgr o ryw sawr da, a allai gael ei anadlu arno gan ereill yn ystod y dydd. Ar hyd y dydd y mae yn ei wlyio ef, fel y gwyliai meistr ei was—y mae yn ofni iddo ddiange ymaith. A'r nos, y mae fel ceidwad carechar gofalus, yn ei gloi i fyny drachefn yn ei letty, a mwy o fyllt a hualau arno, heb adael iddo gysgu ar ei wely nes y "dychymmygo ryw anwiredd;" *Salm xxxvi. 4.* Oeh! adyn truan! a fu erioed y fath wlyio ar un caethwas? Cyhyd ag y gall Satan dy gadw di fel hyn, yr wyt yn ei afael yn sicr ddigon. Fe ddaeth yr afradlawn ato ei hun, cyn dyfod at ei dad: *Luc xv.* Fe ystyriodd ynddo ei hun pa fath gyflwr newynllyd yr oedd ynddo: bwyd gwael oedd ei gibau; ac etto, nid oedd ganddo ddigon o'r rhai hyny chwaith; ac mor hawdd y gallai gael gwell porthiant, pe byddai ganddo ond gras i fyned adref ac ymstwg i'w dad. Yn awr, ac nid hyd yn awr, y mae yn cychwyn. Ymrodda fel hyn, bechadur truan, i eistedd i lawr ac ystyried beth yw dy gyflwr, a pha beth y gallai fod, pe byddai i ti ond newid caethiwed Satan am lywodraeth dirion Iesu Grist. Gofyn yn gyntaf i'w enaid, a all y diafol, ar ol i ti dreulio dy fywyd truenus yma yn ei galedwaith ef, dy ddyrchafu i ystâd ddedwydd yn y byd arall, neu gymmaint a'th ddiogelu rhag cyflwr o boen a gwae? Os na all efe, ai nid oes un Iesu Grist sydd yn alluog ac ewyllysgar i wneud hyny? Ac os felly, ai nid yw yn greulondeb gwaedlyd i'w enaid gwerthfawr, fod i ti aros yn fwy dan gysgod y fath fieren, pan y mae lle i ti wneud cyfnewidiad mor ddedwydd?

Ychydig o'r meddyliau hyn, yn cartrefu yn dy enaid, a allant—trwy Dduw yn cynnorthwyo—ysgwyd sylfeini carehar y diafol, a pheri i ti frysio mor gyflym oddi wrtho, a dyn allan o dŷ ar dân o ddeutu ei glustiau.

2. Mae gan Satan ei offerynau i wrthsefyll y cenhadau a'r cynnygion y rhai y mae Duw yn anfon drwyddynt i ddwyn y pechadur oddi tan ei reolaeth ei hun. Ar ddyfodiad Moses i waredu Israel o gaethiwed yr Aipht, dyna Iannes a Iambres yn neidio i fyny i'w wrthsefyll. Pan bregethodd Paul i'r rhaglawn, yr oedd gan y diafol ei gapelwr llys i'w wrthwynebu ef; Elymas, un "cyflawn o bob twyll a phob ysgelderder;" *Act. xiii. 10.* Rhywun neu gilydd, y mae yn sicr, a gaiff efe, pan fyddo Duw yn ymddiddan â phechadur ac yn ei gymmhell i ddyfod at Grist, a fydd â'i gais ar attal y gwaith. Naill ai cyfeillion cnaudol (efe a enfynd y rhai hyn i ddadleu ei achos), neu hen gymdeithion mewn drygioni; y rhai hyn a ymgymhyrfant, weithiau trwy geisio ei wawdio allan o'i ffordd newydd, neu, oni lwydda hyny, trwy droi eu hen gariad i ddigder chwerv yn ei erbyn am syrthio oddi wrthynt, a'i adael ar hyny. Neu, os er hyn ni chymmer efe ei attal yn ei ffordd, yna y mae ganddo ei bregethwyr llyfnion, yn debyg i genhadau Iob—yr olaf y gwaethaf—y rhai, trwy eu hathrawiaeth wenieithol, neu yn hytrach lofruddiol, i enaid a ânt ynghyd âg iachau ei friw yn ysgafn. Yn awr, fel y dymynt i'w gael dianc allan o gaethiwed Satan, ymgaleda yn erbyn erfyniadau cyfeillion a cheraint anianol. Ymrodda, pe byddai dy blant yn hongian wrth dy liniau i'w gadw oddi wrth Grist, ar fod i ti eu hysgwyd hwynt ymaith. Pe byddai i dy dad a dy fam orwedd wrth dy draed, dos dros eu cefnau hwy at Grist, yn hytrach na bod heb fyned ato ef. Nis gallwn byth gollu eu cariad hwynt ar y fath ammodau manteisio a'r rhai hyn. Ac am dy frodyr mewn anwiredd, mi obeithiaf nad wyt ti ddim yn meddwl aros cael eu bodd hwynt; onid e, gofyn fodd y diafol hefyd. Nid yw y nef ond o werth bychan, onid oes genyt galon i ddiystyru ychydig warawdydd, a dioddef ambell wawdair gan Ismaeliad anrasol am dy obaith o honi. Gad di iddynt boeri yn dy wyneb; fe'i sych Crist ymaith: gad iddynt hwy chwerthin, ond i ti gael ennill. Oni ddilynant hwy dy esampl di cyn eu marw, yr eiddynt hwy fydd y cywilydd; Duw ei hun a'i poera yn eu hwyneb o flaen dynion ac angylion; ac yna efe a'u lluchia hwynt i uffern. Yn olaf, diange ond rhag magl y gweneithwyr hyny a ddefnyddiant eu tafodau yn unig i lyfu cydywbodau pechaduriaid yn iach a'u hathrawiaeth foddhaol a llonyddol, ar yr wyt ar y ffordd i gael o hyd i Grist. Na ofyn gyngor ganddynt; hwy a allant ymgais am roddi i ti esmwythâd; ond rhaid yw rhwygo yn agored yr holl

bwythau â'r rhai y gwniant hwy dy archollion; os amgen, yr wyt yn marw o'r achos.

3. Y mae yngais Satan i attal y pechadur âg oediadau. Nid oes arno ofn ryw feddyliau ar nawf a threigl am edifarhau; gall roddi cenad i bechaduriaid son am yr hyn a wnaïnt, os caiff efe ddeisv amser, a thrwy ei gelfyddyd gadw y fath feddyliau rhag cronï ac addfedu i ymroad presennol. Nid oes ond ychydig yn uffern na feddylasant am edifarhau; ond Satan a drinodd y mater felly, fel na fedrent un amser o ddirifir ddewis y pryd i wneud hyny. Os wyt yn meddwl dyfod byth o'i grafangau, ffo allan o'i ddrysau, a rhed am dy fywyd, pa le bynag y caffo y rhybudd hwn di: nac aros, er i ti fod yn nghanol y llawenydd y mae chwantau yn dy groesawu âg ef. Fel y darfu i'r papyryn a ddaeth at Brentius (oddi wrth seneddwr, ei gyfaill anwyl) ei gael ar swper gyda'i wraig a'i blant, a pheri iddo ffoi yn ebrwydd, yn ebrwyddach, yn ebrwyddaf, yr hyn a wnaeth efe, gan adael ei gyfeillion anwyl a'i arlwy-aeth felus; felly gwna dithau, onid e, ti eili edifarhau am dy oediad pan fyddo yn rhy ddiweddar. Gweledigaeth a rybuddiodd y doethion i fyned adref y ffordd arall, heb gymmaint a gweled Herod, er iddo ef orchymyn i'r gwrthwyneb. O! na ddos yn ol feddwyn, at dy gymdeithion gwych; odinebwr, at dy buteiaid; adyn cybyddlyd, at dy usuriaeth a'th elw anghyfreithlawn: tro ffordd arall, ac na foddia Satan am foment. Y gorchymyn a ddywed, edifarhâ yn awr; nid oes amser i ddyfod yn perthyn i air y gorchymyn. "Heddyw, tra y gelwir hi heddyw," medd Duw: yfory, medd diafol. I ba un y rhoddi di ufuddod—i Dduw, ai iddo ef? Ti a ddywedi dy fod yn ei fwriadu o'r diwedd: a pha lam uad yn awr, a sefi di â Duw am ddiwrnod neu ddau—tori âg ef am geiniog? Nid yw y nef yn geiniogwerth mor ddrud nas gelli di ddyfod i fywyd â'i ammodau ef. A pha yfory wytti yn ei feddwl; nid oes i ti ond un diwrnod yn dy fywyd, am ddim ar a wyddst ti: pa le ynte y medri gael yfory i edifarhau? Ond pe ceit ti gynnifer o ddyddiau i ddyfod ag oes Methuselah, etto, gwybydd fod pechod yn drestadol; ac y mae y cyfryw ddoluriau yn cynnyddu arnom gyda'n blyneddoedd. Y mae gyda hen bechaduriaid, fel gyda rhai sydd wedi aros yn hir dan ryw lywodraeth—gwell ganddynt yn hytrach fod fel y maent, er gwaeled yw arnynt, na meddwl am newidiad; neu fel rhai ar daith sydd wedi myned ar hyd y dydd allan o'r ffordd, hwy a gymmerant ryw ffordd—newydd, tros glawdd a ffos—yn hytrach na meddwl am fyned mor bell yn ol i'w chychwyn yn iawn.

4. Satan a yngais am ranu yr ymrafael, a gwneud y mater felly i fywyd rhyngddo ef â Christ. Pan na chymmer cydwybod ei distewi, yna Satan, er mwyn llonyddwch, a

rydd le i rywbeth, megys Pharaoh, gyda Moses: ar ol llawer o helynt, y mae yn foddllawn iddynt fyned: "A Pharaoh a ddywedodd, mi a'ch gollyngaf chwi, fel yr aberthoch i'r Arglwydd eich Duw yn yr aialwch;" *Ecsod. viii. 28.* Ond dyna ei ocheliad yn canlyn: "nac ewch ymhell." Fel hyn y gwna Satan oddef i'r pechadur weddio, gwrandaw y gair, a gwneud proffes gyhoeddus, ond iddo beidio myned ymhell iawn, eithr bod at ei alwad ef yr hwyr drachefn. Os caiff Duw wasanaeth y boreu, y mae yntau am wasanaeth yr hwyr: ac fel hyn, efe a oddef i'r dydd gael ei ranu. A yw cydwybod yn gwasgu am ddiwygiad a newidiad ar yrfa y pechadur? Yn hytrach na rhoddi pall, efe a ganiatâ hyny hefyd: etto, fel yr oedd Pharaoh, wrth roi goddefiad i Israel fyned, yn meddwl am i'w rhai bach aros yn ol fel gwystl dros y rhai oedd yn myned (*Ecsod. x. 10*); felly, myn Satan fod i ryw un pechod gael ei arbed; ac nid oes fater, er na byddo ond un bychan. Yn awr, os byth y mynit gael allan o gyffiniau y diafol, na wna gytundeb mewn un rhan âg ef. Myn Crist fod yn Frenin unig, nid yn gyfranogwr. Nid oes i ewin i ti aros yn ol, na dim a allo beri neges i ti droi yn ol. Ymrodda, gan hyny, i ymadawiad bythol â phob pechod, o ran bwriad diffuant a sefydlog dy galon; onid e, nid wyt yn gwneud dim. Y mae Paul yn cydgyssylltu ei arfaeth, neu fwriad, â'i ffydd yn *2 Tim. iii. 10*, ac nid y naill heb y llall. Ar gyhoeddiad y gyfraith yn Sinai, darfu i Dduw roddi Israel megys dan lw o ufuddod: yna, mynegodd iddynt wrth ba ddeddf y llywodraethai efe hwynt: hwythau a roddasant eu cydsyniad. Dyma y dyweddiad y mae Duw yn ei ddwyn ar gof iddynt (*Ier. ii. 2*), ynddo yr oeddynt wedi eu cydbriodi fel brenin a deiliaid. Yn awr, crafwech; cyn y gwna Duw hyn, efe a'u mynai hwynt allan o'r Aipht. Nis gallent ufuddhau i'w ddeddfau ef ac i ddefodau eilunaddolgar Pharaoh hefyd; ac am hyny, efe a'u mynai hwynt allan, cyn eu parchus ddyweddio i fod yn bobl briodol iddo ei hun. Rhaid i ti fod yn wedd cyn y prioda Crist di: ni orwedd efe wrth ochr priod un arall. O na byddai wedi dyfod i hyn! yna buan y gwneid y briodas i fywyd rhwng Crist a thithau. Gâd i mi ofyn i ti, enaid tlawd, a ddarfu i ti ystyried yn ddirifrol pwy ydyw Crist, a pha beth yw ei lywodraeth dirion ef? Ac a eili gael yn dy galon, allan o gasineb tu mewnl at bechod a Satan, a hoffder at Crist, ymwrthod â hwynt, a dewis Crist fel dy Arglwydd? A ddywed dy enaid fel Rebecca, "Mi a âf, pe gallwn, ond dywedyd pa fodd i gaelato: ond, Och! yr wyf fi yma yn garcharor trueenus: nis gallaf ysgwyd fy heiry ymaith, a rhoddi fy hun yn rhydd i ddyfod at Crist." Wel, enaid truan, a eili di riddfan o galon dan dy gaethiwed? Yna

er dy gysur, gwybydd fod dy ymwared wrth y drws. Yr un a wrandawodd gri Israel yn yr Aipht, a wrendy dy gri dithau hefyd: iē, efe a ddaw ac a'th achub di o ddwyllaw dy chwantau. Ni wna efe, fel rhai, ddyrysu dy serchiadau trwy ddechreu charwriaeth, ac yna rhoi y cais i fynd, a'th adael am byth. Os ennillodd Crist dy galon, efe a fydd yn gywir i ti, ac ar y draul oll i'th ddwyn di allan o dy garchardy hefyd; iē, efe a gywymer y boen o dy ddwyn ato ei hun, ac a ddwg gydag ef y gwisgoedd priodas hyny, yn y rhai y bydd iddo dy ddwyn o'th garchar i dŷ dy Dad mewn llawenydd. Yno y cei di fyw—nid fel deiliad dan ei gyfraith ef, ond fel priod yn mynwes ei gariad. A pha beth a ellir ei chwaneu mwy at dy ddedwyddwch? Erbyn hyn, dy dywysog fydd dy briod; a hwnw yn dywysog sydd â'r holl dywysogion ereill yn gaeth-ddeiliaid iddo—iē, tywysog y byd hwn ei hunan! Ac etto, y mae mor rasol, nad yw ei fawrhydi yn lluddias dim ar ei gyfeillach dirion â thi, greadur tlawd, ond yn chwaneu at yr ymostyngiad; ac am hyny, y mae Duw yn dewis cymmysgu enwau o fawredd a pherthynas ynghyd, y naill i felysu y llall: "Dy briod yw yr hwn a'th wnaeth: dy Waredydd, Sanct Israel: Duw yr holl ddaear y gelwir ef;" *Esa.* liv. 5. Ac y mae yn arwain i mewn yr addewidion hyny â theitlau arswydol i'r creadur, i ddangos ymostyngiad mwyaf ei gariad. Pa fodd y gall Duw ymostwng yn is na dyfod i breswyllo gyda'r enaid truan, gostyngedig? Y mae yn fwy na phe dywedasai y caiff y fath un breswyllo gydag ef: i gardotyn gael byw yn y llys, nid yw yn gymmaint ag i'r brenin fyw gydag ef yn ei gaban. Etto, y mae yr addewid hon yn cael ei harwain i mewn â'r teitlau mwyaf: "Fel hyn y dywed y Goruchel a'r dyrchafedig, yr hwn a breswyllo dragwyddoldeb, ac y mae ei enw yn sanctaidd, Y goruchelder a'r cysssegr a breswyllo, a chyda'r cystuddiedig a'r isel o ysbryd;" *Esa.* lvii. 15. A pha ham y fath deitlau, ond i ddwyn ymaith yr ofnau y mae ei saint yn dueddol i'w magu oddi wrthynt? A wna yr uchel a'r dyrchafedig, medd yr enaid isel, edrych arnaf fi, bryfyn gwael? A ddaw y Duw sanctaidd yn agos at y fath greadur aflan? medd y galon ddrillyedig. *Esaiah* ei hun a lefodd, "Darfu am danaf," wrth yr olwg ar Dduw â'r briodoedd hon yn gyhoeddiedig o'i flaen: *Esa.* vi. 5. Yn awr, y mae Duw yn gosod y rhai hyn o'r blaen, fel y gwybyddo y creadur nad yw ei fawredd a'i sancteiddrwydd, sydd yn ymddangos mor arswydus i ni, ddim yn rhwystr ar ffordd ei gariad ef. Iē, mor raslawn o dywysog ydyw dy briod, fel y mae yn dewis yn hytrach fod i'w saint ei alw ef wrth enwau o gariad nag o fawredd: "Ti a'm gelwi Issi, ac ni'm gelwi mwyach Baali" (*Hos.* ii. 16), sef fy Mhriod, nid fy Arglwydd.

DOSB. IV.

Athr. 2. Y mae yr ail bwngc yn canlyn. Y mae anwybodaeth, uwch law pechodau ereill, yn caethiowo enaid i Satan: gall dyn gwybodus fod yn gaethwas iddo; ond nis gall un anwybodus fod yn ddim arall. Ni wna gwybodaeth y galon yn dda; eithr amhosbil iddi fod yn dda heb wybodaeth. Y mae rhai pechodau nas gall dyn anwybodus eu gwneuthur: y mae mwy nas gall efe lai na'u gwneuthur. Gwybodaeth yw yr agoriad (*Luc* xi. 52), Crist yw y drws (*Ioan* xv), a Christ sydd yn agoryd y nef: gwybodaeth sydd yn agoryd Crist. Mewn tri o bethau yr ymddengys y pwngc yn fwy cyflawn.

1af. Y mae anwybodaeth yn agor drws i bechod ddyfod i mewn.

2il. Fel y mae anwybodaeth yn gollwng pechod i mewn, felly y mae yn ei gloi yn yr enaid, a'r enaid ynddo yntau.

3ydd. Gyda'i gloi i mewn, y mae yn cau allan bob moddion o ymwared.

1af. Y mae anwybodaeth yn agor y drws i Satan ddyfod i mewn gyda'i luoedd o chwantau. Lle y mae y gwlydydd yn ddall, buan y cymmerir y ddinas. Y mae dyn anwybodus yn pechu; ac fel Lot feddwd, ni wŷr efe pan ddal, na phan ä y temtiwr: y mae yn debyg i ddyd a fydai yn rhodio trwy ei gwsg, heb wybod i ba le yr ä, na pha beth a wna. "O Dad, maddeu iddynt," medd Crist, "nis gwyddant pa beth y maent yn ei wneuthur." Wedi i'r apostol geryddu ymroddiad anianol rhai dynion a wnaent yr ystyriaeth am farwolaeth, sydd yn brawychu ereill rhag pechu, i fod yn annogaeth i bechu, "Bwytawn ac yfwn, canys yfory marw yr ydym" (1 *Cor.* xv. 32), y mae yn dangos yr achos o'r ymresymiad chwithig hwn: "Nid oes gan rai wybodaeth am Dduw;" *adn.* 34. Y mae yr anwybodus yn ddyd o ran dull, ac yn anifail o ran calon. Nid oes gwybodaeth o Dduw yn y wlad, medd y prophwyd; a gwelwch y fath fyddin sydd yn canlyn y cadben dall hwn—tyngu, dywedyd celwydd, lladrata, a pha ddrwg nad yw? *Hos.* ii. 1, 2. Ni a ddarllenwn am rai "yn llwythog o bechodau;" 2 *Tim.* iii. 6. Dyma goed yn llawn o ffrwythau chwerwon; a pha wrtaith a gawn ni wrth y gwraidd yn eu gwneud mor ffrwythlawn ond anwybodaeth; gwrageddos, a'r rhai nad ydynt yn amser yn dyfod i wybodaeth o'r gwirionedd: *adn.* 7.

2il. Fel y mae anwybodaeth yn gollwng pechod i mewn, felly y mae yr enaid yn ei gloi i mewn, a'r enaid ynddo yntau. Y mae y cyfryw un yn gorwedd yn neardy tywyllaf Satan, lle nad oes dim goleuni argyhoeddiad yn ei gyrhaedd. Y mae tywyllni yn tueddu i gysgu: meddwl tywyll a chydwybod gysglyd a änt ynghyd. Pan gododd ystern, y morwyr oedd yn effro a syrthiasant i weddio bob un ar ei dduw: ond y cysgadur, nid oedd arno gyffro (*Jonah* i). Y mae an-

wybodaeth yn rhoddi enaid i gysgu dan glawrddorau annheimpladrwydd. Y mae Duw wedi planu ofn naturiol yn yr anifaill at yr hyn sydd yn ei fygwth â niwed. Ewch chwi i wthio anifaill i bwl, ac fe dŷn yn ol — fe ddengys natur ei hymwrthodiad. Gan fod dyn o natur ardderchocach, ac yn agored i beryglon mwy, gosododd Duw gadwraeth ddyblyg arno ef; sef arswyd naturiol o berygl, a chywilydd naturiol hefyd sy'n gorchuddio y wyneb, pan wneler unrhyw weithred anweddaiidd. Yn awr, y mae y dyn anwybodus wedi llithro o afael y ddau geidwad yma; y mae yn pechu, ac heb wrido, am na ŵyr efe ei gamwedd: nid oes ganddo y swyddog oddi mewn a'i gyrai ef i gywilydd; ac nid oes ofn arno am na ŵyr efe ei berygl; am hyny, efe a chwery â'i bechod, fel y plentyn â'r tonau a'i llyngant ef i fyny yn fuan iawn. Cydwybod yw alarwm Duw i alw y pechadur i godi: nid yw yn swnio bob amser yng nghlust yr hwn sy ganddo wybodaeth, gan ei fod yn gyffredin trwy osodiad Duw yn rhoddi dyrnod ar ryw awr benodol, pan fyddo Duw yn llefaru mewn ordinhad, neu yn taraw mewn rhagluniaeth. Ond mewn enaid anwybodus, dystaw ydyw hwn. Ni ddichon yr awrlais gerdded pan dyner ymaith y pwysau: nid yw cydwybod yn dyst ond i'r hyn a ŵyr.

3ydd. Y mae anwybodaeth yn cau allan foddion o adferiad. Y mae cyfeillion a gweinidogion, i.e. Crist ei hun, yn sefyll oddi allan; ac ni allant gynnorthwyo y creadur, gan nad yw y bygythion na'r addewidion o ddim defnydd. Nid yw y dyn yn ofni'r naill, nac yn chwennych y llall, gan nad edwyn efe un o honynt. Y ffordd i'r nef ni ellir ei chael yn y tywyllwch; ac am hyny, y peth cyntaf a wna Duw yw tasfu goleu i mewn, a rhoddi i'r creadur wybod pa le y mae, a pha ffordd y mae iddo ddyfod allan o'i garchardy; heb yr hyn, ofer yw pob cynnygiad am ddiange. Mae rhyw lewyrch gwan o oleu ym mhawb—yr wyf yn meddwl fod. Nid ydyw fod tywyllwch yn hollol gyflawn yn dduwinyddiaeth nag yn athronyddiaeth dda. Ac fe ddichon y goleu nos yma ddadguddio llawer o bechodau, a pheri pigiadau o fewn y gydwybod o'u herwydd; i.e. cyffroi y creadur i gamu o'r neilldu, yn hytrach na boddi yn y fath ddyfroedd llydain. Y mae rhai pechodau mor galed a chostus, fel y gall yr enaid mwyaf mathredig fod ar dro, ac o wael ddybenion, yn flin o'u gwasanaeth. Ond i ba beth y cyrhaedd hyn oll, oni bydd y creadur yn gydnabyddus â Christ, y wir ffordd at Dduw; a fifydd ac edifeirwch, yr unig ffordd at Grist! Y cyfryw un, wedi ei holl ffwdan, yn lle diange o afael Satan, a rêd i'w safn yn gyfan ffordd arall. Y mae rhai ffyrdd, a ymddangosant yn uniawn ar y cyntaf i'r ymdeithydd, etto, a ddirwynant ar ogyrch mor ddiarwybod, fei

wedi i ddyn fyned ym mhell, a thybio ei hun yn agos i'w gutref, y mae wedi ei ddwyn yn ol i'r man y cychwynodd o hono. Hyn a ddygwydd i bob un anwybodus o Grist, a'r ffordd o fywyd drwyddo ef. Ar ol llawer blwyddyn o deithio, fel y tybiant hwy, tua'r nef, trwy eu bwriadau da, eu gwelliant a'u defosiynau dall, pan fyddont yn dysgwyl eu bod o fewn golwg i'r nef, hwy a'u cânt eu hunain cael yr oeddnyt ar y cyntaf, yn gymmaint laethweision i Satan ag erioed.

Defn. 1. Y mae hyn yn llefaru wrthych chwi, rieni. Gwelwch pa angenrhaidd sydd arnoch am hyfforddi eich plant, a'u meithrin yn addysg ac athrawiaeth yr Arglwydd. Hyd oni churir ymaith y cadwyni hyn oddi ar eu meddyliau, nid oes modd i'w cael allan o garchar y diafol: ni fedd efe y fath gaethwas llonydd a'i enaid anwybodus. Y mae'r cyfryw yn myned o flaen Satan, fel y ddafad wirion o flaen cigydd, heb wybod pwy yw efe, na pha le y mae yn ei dwyn. Ac a ellwch chwi ddrych ar y diafol yn gyru eich plant i'r gigfa, heb ymdrechu i'w hachub hwynt o'i ddwyllaw ef? Rhieni gwaedlyd ydych chiwi, y rhai a ellwch galedu eich ym-ysgaroedd fel hyn yn erbyn eich enawd eich hunain. Yn awr, i'ch annog yn fwy at eich dyledswydd, cymmerwch yr ystyriaethau hyn:—

1af. Mae eich perthynas yn eich rhwymio i ofalu am eu heneidiau gwerthfawr. Yr enaid yw y plentyn, yn hytrach na'r corph: ac am hyny, yn yr Ysgrhythyrau, fe'i rhoddir am yr holl ddyn. Abrahaim a Lot a aethant allan, a'r holl "eneidiau a ennillasant yn Haran," *Gen. xii. 5.* Felly yn *Gen. xvi. 26,* "Yr holl eneidiau y rhai a ddaethant gyda Jacob i'r Aipt:" hyny yw, yr holl bersonau. Nid yw y corph ond y wain; a phe gadawai un ei gleddyf yn eich llaw, i'w gadw yn ddiogel iddo, a fyddai i chwi dafu ymaith y llaflu, a chladw dim ond y wain? Ac etto, y mae rhieni yn gyffredin yn barnu am eu gofal a'u cariad at eu plant trwy ddarpar i'r dyn oddi allan, trwy eu magu, a'u dysgu pa fodd i fyw fel pobl, megys y dywedant, ar ol eu marw a'u claddu hwynt, a pha fodd i gydymweddau â'u sefyllfa a'u gradd yn y byd. Y mae y pethau hyn yn wir yn gamolodwry: ond ai nid yw y gorchwyl mwyaf ei bwys yn cael ei anghofio, cyhyd ag na byddo ymgais yn cael ei arfer am iddynt fyw fel Crïstionogion, a gwybod pa fodd i ymddwyn tuag at Dduw a dyn fel y cyfryw? Ac a oes modd iddynt wneuthur hyn heb wybodaeth o'r rheol sanctaidd y mae iddynt rodio wrthi? Sicr wyf na wyddai Dafydd am ddim moddion effeithiol heb hyn; ac am hyny, y mae yn gosod y gofyniad, "Pa fodd y glanhâ lllange ei lwybr?" ac yn ei ateb yn y geiriau nesaf, "Wrth ymagdw yn ol dy air di;" *Salm cxix. 9.* A pha fodd y cymharant eu llwybr

r gair ynghyd, os ni addysgir hwynt? Ni aned mo'n plant â'r Beibl yn eu penau, na'u calonau. A phwy a ddylai fod yr hyffordd-wyr ond y rhieni? Iê, pwy a'i gwna gyda'r fath serch naturiol—fel y clywais i ambell waith fam yn dywedyd ar achosion ereill, Pwy a all gymmeryd y fath boen a'r fath ofal gyda fy mhlentyn i, a mi fy hun, sydd yn fam iddo? Rhieni gwaedlyd ynte ydynt hwy, na hysbysant i'w plant am Dduw na'i air. Beth yw yr hyn a wnânt ond eu gosod dan angenheidrwydd o fod yn golledig, oni chynhyrfa Duw ryw rai i ddangos tosturi mwy rhynt nag a ddangosant hwy. A ydyw yn rhyfedd clywed am long yn suddo, neu yn chwilfriwio ar graig, os gollyngwyd hi i'r môr heb *fap* na chwmpas? Nid mwy rhyfedd fod iddynt hwy ymsuddo mewn pechod a distryw, sydd yn cael eu gwthio allan i'r byd—y môr o demtasiynau—heb wybodaeth am Dduw, a'u dyledswydd ato. Yn ofn Duw, meddylwch am hyn, rieni—y mae gan eich plant eneidiau; a thros y rhai hyn fe'ch gosododd Duw chwi i wlyio. Bydd yn gyfrif gwael yn y dydd olaf, oni ellwch ddywedyd ond hyn, "Arglwydd, dyma fy mhlant i; mi a'u megais yn foneddigion cyflawn; mi a'u gadewais hwynt mewn cyfoeth a golud." Bydd rhwd yr arian a adawsoch iddynt yn dyst am eich ffolineb ar'ch pechod, fod i chwi wneud cymmaint er yr hyn a ryda, a dim er cyfoethogi eu meddyliau â'r wybodaeth o Dduw; yr hyn a fuasai yn parhau yn dragywydd. Da fuasai pe gadawsech iddynt lai o arian, a mwy o wybodaeth.

2il. Ystyriwch mai arfer y saint erioed oedd hyfforddio a dysgu eu plant yn ffordd Duw. Ni a gawn Dafydd yn defnyddu addysg i'w fab Solomon: "Adnebydd Dduw dy dad, a gwasanaetha ef â chalon berffaith, ac â meddwl ewyllysgar;" 1 *Cron.* xxviii. 9. Er ei fod yn frenin, ni roddodd efe hyn ar ei gapelwyr, ond fe'i gwasgodd yn ddwyslym arno â'i enaid ei hun. Nid oedd Bathseba, ei frenhines, chwaith yn anghofus o'i dyledswydd hithau; y mae ei chynghor caruaid mewn coffadwriaeth: *Diar.* xxxi. Ac fel y gallai hi wneud hyn gyda mwy o ddifrifwch a dwysder, ni a'i cawn yn cynnhyrfu ei hymysgaroedd mamol i roddi i'w mab weled ei bod yn cyrchu ei geiriau o ddyfnder, sef o'i chalon: "Pa beth, fy mab? pa beth, mab fy nghroth? iê, pa beth, mab fy addunedau?" *adm.* 2. Yn wir, y cynghor a ddel o'r galon sydd yn fwyaf tebyg i fyned i'r galon. Ni w'yr rhieni pa fath argraff a âd y cyfryw ymadroddion toddedig o'u cariad, yn gymmysg â'u haddysgiadau, ar eu plant. Y mae Duw yn erchi tynu allan ein heneidiau i'r newynog; y mae hyn yn fwy na thynu allan ein pwrs; yr hyn a ellir ei wneud, a'r galon yn galed a delffaidd. Fel hyn y dylem dynu allan ein heneidiau gyda'n

haddysgiadau. Pa raid i mi adrodd am fam a nain Timotheus, a fu yn ei ddyysgu yn yr Ysgrhythyr o'i febyd? Ac yn ddiam, yr wyf yn meddwl fod hwnw yn rhoi lle i ammw ei dduwioldeb ei hun, nad yw yn ofalus i addysgu ei blentyn am Dduw, a'r ffordd sydd yn arwain ato. Mi a adwaenwn rai, er eu bod yn halogedig eu hunain, a fu yn ofalus iawn am i'w plant gael addysg dda; ond erioed ni wybum i am un duwiol a fu yn anofalus pa un adwaenai ei blentyn Dduw ai peidio.

3ydd. Y mae yn weithred o anghyfiawnder mawr bod heb addysgu ein plant. Ni a ddarllenwn am rai "sydd yn attal y gwirionedd mewn anghyfiawnder;" *Rhuf.* i. 18. Ym mysg ereill, y rhieni hyny a wnânt hyn sydd yn cloi i'f fyny y wybodaeth am y gwirioneddau cadwedigol hyn oddi wrth eu plant, wedi i Dduw ei gyfranu iddynt eu hunain. Y mae anghyfiawnder dyblyg ynddo:—

(1af.) Y maent yn anghyfiawn at eu plant, y rhai a allant hōni crystal hawl i'w gofal er eu hyfforddio, ac i'w llafur a'u dyfalwch yn darpar eiddo tymmorol iddynt. Os yn anghyfiawn y gwnai hwnw â'i blentyn, a fyddai heb ymgais i ddarparu at ei gynnalïaeth allanol ef, neu ar ol casglu eiddo, a'i clōai i'f fyny, ac a nacāi angenheidiau i'w blentyn; yna, yn llawer mwy, y dyn sydd yn byw mewn anwybodaeth o Dduw, ac felly yn ei analluogi ei hun i ddarparu dros enaid ei blentyn; ond yn fwyaf oll, y dyn sydd wedi casglu ystor o wybodaeth, etto yn ei guddio rhag ei blentyn.

(2il.) Y maent yn anghyfiawn at Dduw:—

(1.) Am eu bod yn cadw'r dalent yn eu llaw eu hunain, a roddwyd iddynt i'w rhoi allan i'w plant. Pan ddadguddiodd Duw ei hun i Abraham, yr oedd ganddo olygiad ar blant Abraham: ac am hyn y cawn ef yn addaw hyn iddo ei hun ar law Abraham, ar yr hyn y mae yn mynegi iddo ei feddwl am ei fwriad o ddinystrio Sodom: "A gelaf fi, rhag Abraham (medd Duw), yr hyn a wnaif? Mi a'i hadwain ef, y gorchymyn efe i'w blant, ac i'w dylwyth ar ei ol, gadw o honynt ffordd yr Arglwydd;" *Gen.* xviii. 17, 19. Ar y cyntaf, dechreuad yr eglwys ydoedd mewn teulu; a hi a gadwyd trwy dduwiol ofal rhieni yn hyfforddio eu plant a'u tylwyth yng ngwirioneddau Duw; fel hyn y trosglwyddwyd gwybodaeth am Dduw o genhedlaeth i genhedlaeth. Ac er nad yw yr eglwys yn awr wedi ei chau o fewn y fath derfynau cyfyng, etto y mae pob teulu neillduol yn blangifa fechan i'r eglwys. Oni edrychir yn fanwl at y blangifa (*nursery*), buan yr adeilia'r berllan. O, Grïstionogion, a allech chwi ymfoddloni, fod i'ch plant—wedi i chwi orwedd yn y pridd—droi allan yn blanhigion dirywio! gwinwydden ddiethr, a phrifio yn genhedlaeth nad adwaenant

Dduw? Nid oes eisieu planu didduwiaeth: chwi a wnewch ddigon at i'ch plant redeg iddo, os byddwch heb yngais am blanu crefydd yn eu meddyliau. Y mae esgeulus-dra y garddwr i hau a thaelu ei ardd yn rhoddi digon o fantais i'r chwyn dyfu. Mae hyn yn wahaniaeth rhwng crefydd a didduwiaeth: ni thyf crefydd heb ei phlanu; eithr heb ei dyfrhau, hi a fydd farw ar ol ei phlanu. Ond didduwiaeth, anghrefydd, a halogrywydd, ydynt chwyn a dyfant heb blaniad; etto, ni fyddant feirw heb eu codi i fyny; a digon bychan yw pob gofal a moddion at eu diwreiddio. Ac am hyn y ydych chwi, rieni, sydd heb addysgu eich plant, yn ymddwyn o hyn yn anghyfiawrach tuag at Dduw, gan eich bod yn esgeuluso yr amser goreu yn eu holl fywyd hwynt at blanu ynddynt wybodaeth o Dduw, a diwreiddio y chwyn gwrthwyneb o didduwiaeth ac anghrefydd. Chwyn ieuainge a dyfant yn rhwyddaf: anwybodaeth lyblyg mewn bachgen a brifia yn anwybodaeth wrthlysig, i.e. haerllug, mewn oedran. Oni addysgwch chwi hwynt yn ieuainge, hwy a ddirnygant eu gweinidogion pan yn hen.

Yr ydych yn gwneuthur yn anghyfiawn â Duw, os heb faethlu eich plant yn y wybodaeth o hono, am fod eich plant chwi (rhieni Cristionogol) yn blant i Dduw. Y maent yn sefyll mewn perthynas gyfammodol âg ef, yr hon ni fedd plant ereill: ac a gaiff plant Duw eu magu â magwraeth y diafol? Anwybodaeth yw yr hyn y mae efe yn dallu meddyliau y rhai digred âg ef. A gaiff plant Duw ddim gwel meithriniaeth? Yr oedd Duw yn cyfrif fod plant Iuddew yn cael eu geni iddo ef: "Dy feibion a'th ferched, y rhai a blantesit i mi;" *Ezec.* xvi. 20. Yr oedd Duw, trwy ei gyfammod â'r bobl hyn, wedi eu dyweddio âg ef ei hun; ac am hyn, megys y mae gwraig yn dwyn plant i'w gwr, ei blant ef ydynt: felly y mae Duw yn galw plant yr Iuddewon yn eiddo iddo ef, ac yn achwyn am y peth fel drygioni erchyll ynddynt, am nad oeddynt yn eu meithrin fel ei eiddo ef, ond yn eu hoffrymu i Moloch: "Hwy a laddasant fy mhlant," medd Duw: *adn.* 21. Ac ai nid ydyw plant Cristion yn blant iddo ef yn gystal a phlant yr Iuddewon? A ddarfu i Dduw alw yn ol, neu newid ei gyfammod cyntaf, gan dori ymaith ei addewid oddi wrth y plant? [Gwel *Act.* ii. 39]. Ac a feiddi di ladd, nid dy blant di yn unig, ond yr eiddo Duw hefyd? Ac onid anwybodaeth ydyw y gyllell waedlyd a wna hyn? "Fy mhobl a ddifethir o eisieu gwybodaeth," *Ios.* iv. 6. Ai nid ydych yn crynu rhag ofn eu hoffrymu, nid i Moloch, ond i Satan, ar ol i chwi eu rhoddi i Dduw pan ddygasoch hwynt i'r ordinhâd sanctaidd o fedydd, ac a ddymunasoeh yno, ger bron Duw a dyn, ar iddynt fod yn weision cyfammodol i Dduw? Ac a ddarfu i ti eu

rhoddi dan rwyniad iddo ef, a bod heb fyth eu dysgu i wybod pwy ydyw eu llywydd a'u meistr, na phia beth yw eu dyledswydd fel gwseion iddo? O'th enau dy hun y barna Duw di.

4ydd. Ystyriwch chwi, sydd yn rhieni, eich bod, trwy beidio addysgu eich plant, yn dwyn anoch eich hunain yr holl bechodau a wnant hyd ddydd eu marwolaeth. Gallwn bechu trwy ddirprwy, a gwneuthur gweithred un arall yn eiddom ein hunain. "Ti a'i lleddiaist â chleddyf meibion Ammon," medd Duw, trwy Nathan, wrth Dafydd, yn achos Urias: *2 Sam.* xii. 9. Felly y gelli dithau wanu Crist, a'i ladd drosodd a throsodd, â chleddyf gwaedlyd dy blant drygonus, os na fyddi yn fwy dy ofal i'w dwyn i fyny yn ofn Duw. Gellid dywedyd rhyw beth dros y pagau hwnw, yr hwn, pan aminharchodd ysgol-fab ef, a drôdd at y meistr, ac a'i tarawodd ef. Yn wir, y mae yn bosibl ei fod ef yn fwyaf yn y bai. Pan doru plentyn y Sabbath, y mae yn bechod arno; ond ar y tad yn fwy, os efe ni ddysgodd iddo beth ydyw gorchymyn Duw. Ac os bydd y rhieni yn gyfranogion ym mhechod y plentyn, bydd yn anhawdd iddynt ochel cyfranogial, i.e. blaenoriaeth yn y gosp. O! y fath gyfarchiad alaethus a fydd i'r cyfryw gan eu plant yn y dydd mawr! Oni chyhuddant hwy chwi y pryd hwnw fel lleiddiaid eu heneidiau gwrthfawr, gan osod eu gwaed wrth eich drws, a'ch mældithio yn eich gwynebau am na ddysgasoch iddynt ddim gwell! Ond gadawn dy fod ti, trwy dy edifeiriwch, yn rhagflaenu mewn pryd, yn cael diogelwch i dy enaid rhag barn y dydd hwnw; etto, gall Duw dy fflangellu di yma, am esgeuluso dy dyledswydd atynt. Mor fynych y gwelwn blant yn tyfu yn groesau trymion i'r cyfryw rieni! Cyfiawn ydyw eu bod heb wybod eu dyledswydd tuag atat, gan na ddysgaist iddynt eu dyledswydd tuag at Dduw. Neu, pe na byddai i ti fyw cyhyd ag i weled hyn, etto, nis gelli ond disgyn mewn gofid i'th fedd wrth adael plant ar dy ol, y rhai sydd ar y ffordd i uffern. Rhai a faruant am ohiriad Lot yn Sodom, mai ei anfodd i adael ei feibion yng nghyfraith o'i ol, i gael eu difa yn y fflamau, a'i parodd. Diammheu fod hyn yn dra gofidus iddo, wr da, ac y gallai hyn beri iddo aros i ddadleu â hwynt, nes i'r angel ei dynu ymaith. Ac yn sicr, nid oes dim yn fwy na hyn at wneuthur rhieni duwiel, cyn eu hymadawiad, yn anhydryn i frysio oddi ar ffordd y tân hwnw a wlawia Duw ar benau pechaduriaid. Ni wyddoch pa mor fuan y gall y genad ddyfod i'ch tynu oddi yma—gwnewch eich goreu tra yr ydych yn eu mysg i'w henuill adref at Dduw.

Defn. 2. I weinidogion yr efengyl. Cyffrôdd hyn ymysgaroedd eich tosturi tuag at yr eneidiau anwybodus sydd yn aml yn eich amryw gynulleidfaoedd, y rhai ni wyddant

ragor rhwng y llaw ddeheu a'r aswy. Hwn, hwn ydyw dinystrydd ein gwlad, a'r hwn y dylai gweinidogion ddyfod allan i'w erbyn â'u holl ofal a'u grym. Ysgubir mwy i'w affern trwy y pla hwn o dywyllwch ysbyrdol na thrwy un arall. Lle y mae goleuni gwybodaeth ac argyhoeddiad, y mae yno, yn gyffredin, deimlad a phoen yn dilyn y pechadur pan y gwnelo ddrwg; yr hyn, ambell waith, a gymhell rai i ymofyn am feddyg, ac i ddyfod yn nhrallod eu hysbrydoedd at eu gweinidog, neu ereill, am gyngor. Ond yr enaid anwybodus, nid ydyw yn teimlo un pigiad. Os erys y gweinidog hyd oni enfyn efe am dano i'w addysgu, gall yn gynt glywed y gloch yn rhoddi ei glul allan na llais un cenad i'w gyrchu ato. Rhaid i chwi chwilio am danynt hwy, yn lle disgwyl y deuant hwy atoch chwi. Math o bobl ydyw y rhai hyn sydd yn ofni eu meddyginaeth yn fwy na'u dolur, ac yn fwy eu dyfaes am guddio eu hanwybodaeth nag am foddion iachâd o hono: ac fe ddylai hyn beri i ni dosturio yn fwy wrthynt, gan mor lleied y gallant hwy dosturio wrthynt eu hunain. Yr wyf yn addef mai nid anghysur bychan ydyw i rai o honom, sydd a wnelom â llwaws, nad oes genym amser na nerth i gyfarach pob aelod o'n cynnulleidfaoedd yn bersonol, a gweini fel y mae eu hangenion yn gofyn: etto, prin y gallwn foddioni ein cydwybodau heb hyn. Ond edrychwn at hyn, sef, er nas gallwn wneuthur yr eithaf o'r hyn a ddymunem, na byddom yn fyr o'r hyn a allwn. Na fydded i anhawsdra y gorchwyl ein gwneuthur yn glaf o hono (fel rhai, wrth weled mwy o waith ar eu dwylaw nag a allant yn iawn ei gyflawni), ac eistedd i lawr gan ddiogi anobeithiol, ac yn prin wneuthur dim. Y neb sydd ganddo dŷ mawr yn rhedeg i adfeiliad, a dim ond pwrs bychan, gwell ydyw iddo adgyweirio ychydig, yn awr ac yn y man, na gadael iddo oll syrthio am nas gall efe ei wneuthur i gyd ar unwaith. Gall llawer o weinidogion gwyno am y rhai a fu o'u blaen, eu bod wedi gadael eu pobl iddynt yn fwy allan o drefn na'u tai; a hyn sydd yn gwneuthur y gwaith yn fawr yn wir. Megys yr Iuddewon, y rhai oeddynt i ail godi y meini allan o'r tyrau llwch, cyn y gallent adeiladu y mur; etto, fe aeth i'fyny, "am fod gan y bobl galon i weithio;" *Nehem.* iv. 6. O! pe byddai ein calonau ond yn llawn o sel dros Dduw a thosturi at eneidiau ein pobl, nynt a godem, ac a weithiem, pe nas gallem ond gosod un briddfaen yn y dydd; a byddai Duw gyda ni. Fe allai na chewch chwi, y rhai yr ydych yn cael eich pobl yn ddifoes a anwybodus—fel meini yn y gloddfa, a choed heb eu tafu—ddim dwyn y gwaith yn eich dyddiau chwi i'w perffeithrwydd a ddy-munech: etto, megys y gwnaeth Dafydd i Solomon, ti a elli, trwy dy boen yn eu dysgu a'u hyfforddi, barotoi defnyddiau i un arall,

yr hwn a gaiff godi y deml. Y mae yn beth cyffredin i un gweinidog fyned i mewn i lafur un arall, i feddi, trwy waith troedigaeth, y rhai y bu gweinidog arall yn hau ynddynt yr had o wybodaeth ac argyhoeddiad. A phan ddelo Duw i gyfrif â'i weithwyr, caiff yr arddwr a'r hauwr eu ceinog, yn gystal a'r medelwr a'r cynauafwr. O! mawr fraint yw cael bod (fel y dywed Iob ei bod) yn llygaid i'r dall, ac yn llawer mwy i eneidiau deillion! Y cyfryw yw gweinidogion. Duw ei hun a eilw y cyfryw yn "fugeiliaid wrth ei galon, y rhai a borthant ei bobl â gwybodaeth ac â deall;" *Ier.* iii. 15. Eithr gwae y rhai hyn sydd yn cyfranogi o anwybodaeth eu pobl. Yn awr, dichon gweinidog fod yn gyfranog o anwybodaeth ei bobl:—

1. Trwy ei anwybodaeth ei hun. Y mae gwybodaeth mor sylfaenol i waith a galwad gweinidog, fel nas gall efe fod yn cyfryw hebddi. "Am i ti ddiystyru gwybodaeth, minnau a'th ddiystyraf dithau, felna byddech yn offeiriad i mi; ac am i ti anghofio cyfraith dy Dduw, minnau a anghofiaf dy blant dithau hefyd;" *Hos.* iv. 6. Y mae byrdra gwybodaeth mewn gweinidog yn cyfryw ddiffyg, fel nas gellir ei gyflenwi â dim arall. Boed mor llariaidd, amyneddgar, haelionus, difeisy, ag y byddo, os ni bydd efe yn gyfarwydd i iawn gyfranau y gair, nid ydyw efe wedi ei dori allan yn weinidog. Da ydyw pob peth, fel y byddo yn dda at y dyben appwyntiedig—cyllell, pe byddai iddi garn o adamant, etto, oni thŷ hi, nid cyllell ydyw: cloch, oni swnia hi, nid cloch ydyw. Gorchwyl mawr gweinidog ydyw dysgu ereill; y mae ei wesusau i gadw gwybodaeth; dylai fod mor gyfarwydd yn mhethau Duw ag ereill yn eu galwedigaethau neillduol. Gelwir gweinidogion yn oleuadau: os bydd y goleuni ynte yn dywyllwch, pa faint fydd tywyllwch y bobl hyn yn debyg o fod? Mi a wn na'r ydyw y ser hyn yn llaw Crist ddim oll o'r un maintioi; y mae gogoniant mwy o ddawn ac o rasau yn llewyrchu yn rhai nag ereill; etto, y mae cymmaint o oleuni yn rheidiol i bob gweinidog ag oedd yn y seren a welodd y doethion, ar enedigaeth Crist, i fod yn alluog, allan o'r gair, i gyfarwyddo pechaduriaid yn y ffordd ddiogel a chywir at Grist ac iachawdwriaeth. O, Syrs! y mae yn ffordd erchyll cael bywoliaeth wrth ladd dynion, fel y gwna rhai meddygon anfedrus; ond gwaeth o lawer yw ceisio cynnaliaeth dym-morol, wrth ddfifetha eneidiau trwy ein hanwybodaeth. Y mae hwnw yn greulawn wrth y môr-dramwywyr, a gymmer arno fod yn llong-lywydd, ac yntau heb gymmaint a dysgu ei gwmpawd erioed.

2. Trwy ei esgeulusdra. Yr un ydyw fod y fammaeth heb laeth yn ei bronau, a'i fod ganddi, oni thŷ hi ei bron allan i'r plentyn. Y mae "gwae i'r eilun bugail" (*Zech.* xi. 17), y cyfryw ag y mae geneuau iddynt, ond ni

lefarant; gwefusan, ond nid i borthi y bobl â gwybodaeth. Pechod y bobl a fydd, os ni fwynt pan fyddo bwyd o'u blaen: ond gwae ni oni roddwn iddynt gyfluniaeth mewn pryd. O, Syrs! pa beth a ddywedwn wrth ein Harglwydd, yr hwn sydd yn rhoddi hyn mewn ymddiried i ni, os ceir yr hyn a roddodd efe i ni fel arian marchnad i brynu bwyd i'n pobl, wedi ei blygu i fywy mewn nacyn segurid; os ceir yr amser hwnw, pryd y dylasem fod yn eu dysgu a'u hyfforddio, wedi ei wastraffu ar ein mwyniant, neu i dreulio ar ein helw anianol? Ni chaiff y gwas hwnw ond croesaw athrist gan ei feistr, pan ddol adref, a gaffer allan o'r ffordd gyda'r agoriad, a'r teulu ar yr un pryd yn newynu o eisieu lluniaeth.

3. Trwy ei bregethiad anadeiladol: pan y pregetho athrawiaeth afiach, nad ydyw yn perffeithio y deall, ond yn ei lygru. Gwell fyddai iddo eu gadael mewn anwybodaeth dywyll, na goleu-liwio eu meddyliau â lliwiad ffial—neu, pan fyddo yr hyn a bregetho efe yn wyntog a disylwedd, yn ddim mawr addas i borthi eu heneidiau na chibau i fol yr afradlawn—pethau, wedi iddynt eu gwybod, na wnânt mo honynt nemawr doethach at les eu heneidiau. Neu, pan fyddo ei ymddiddanion mor uchel hedegog, nes ydyw y trueniaid yn llygad-rythu, fel rhai wedi colli golwg ar eu pregethwr, ac yn niwedd y bregeth, heb allu dywedyd beth oedd ei gais. Neu, y rhai ni phregethant ond gwirioneddau perthynol i'r uchraddau o broffeswyr, sydd a'u synwra wedi ymarfar â hwynt; pethau rhagorol, ysgatfydd, at adeiladu tri neu bedwar o saint hynod yn y gynulleidfa; ond yn y cyfamser, anghofir y gweiniaid yn y teulu, y rhai y dylid yn benaf eu cofio, am eu bod yn lleiaf eu gallu i dywys eu hunain. Adeiladydd annoeth yn sicr ydyw hwnw a wna esgynlawr (*scaffold*) cyfuwch a chlochdy St. Paul, pan y mae ei waith yn y gwaelod, i osod y sylfaen; a'r esgynlawr i gael ei godi fel yr â yr adeilad i fyny. Felly y cawn ni Paul yn myned yn uwch yn ei athrawiaeth, yn ol cynnydd ei wrandawyr mewn gwymbodaeth. "Am hyny, gan roddi heibio yr ymadrodd sydd yn dechreu rhai yng Nghrist, awn rhagom at berffeithrwydd;" *Heb. vi. 1.* Awn: y mae yn dda yn wir pan all y bobl gydgerdded â'r pregethwr. Pregethu gwirioneddau a phyngeiau uwchlaw cyrhaeddiad y gwrandawyr sydd yn ail i waith mammaeth, a âi i borthi maban â llwy rhy fawr i'w enau. Ni allwn, trwy y fath bregethau, foddio ein hunain a rhai o gyrhaeddiadau uwch; ond ar yr un pryd, pa beth a wna trueniaid anwybodus? Efe ydyw y goruchwylwr ffyddlawn, yr hwn a ystyria'r naill a'r llall. Y mae y pregethwr, fel y dywed Paul am dano ei hun, "yn ddyledwr i'r Groegiaid ac i'r Barbariaid hefyd, i'r doethion ac i'r annoethion hefyd" (*Rhuf. i. 14*), i ddarpar

gwirioneddau cyfaddas i radd ei wrandawri. Caed y doethion eu cyfran; ond byddent amyneddgar i weled y gwanaf yn y teulu yn cael ei wasanaethu hefyd.

4. Gall y gweinidog fod yn gyfranogwr yn anwybodaeth ei bobl, pan niweidio efe ei athrawiaeth trwy dramgwydd ei fuchedd, fel trinwr bwyd a fyddo trwy ei fudredd yn peri i ereill ofni bwyta yr hyn a ddaw o'i fysedd budron ef; neu, pan na faidd ei bobl druan ddyfod ato, gan mor uchel-falch ei agwedd. Y neb a fynai wneyd lles yng ngalwad gweinidog, rhaid iddo fod mor ofalus a'r pysgodwr na wnelo efe ddim i darfu eneidiau oddi wrtho; ond pob peth i ddeno a gwahodd, fel y tyner hwynt o fewn amgylchedd ei rwyd ef.

Defn. 3. A ydyw yr enaid anwybodus y fath gaethwas i Satan? Cyfrifed hyn chwi, sydd yn anwybodus, oddi ar eich ystolion o syrthni yr eisteddwech arnynt mewn tywyllwch, fel tywyllwch yr Aipht. Prysurwch allan o'r tywyllwch hwn, os nad ydych am ymroddi i fyned i'r tywyllwch eithaf. Yr oedd y gorchudd ar wyneb Haman yn mynegi iddo, nad oedd iddo aros yng ngwydd y brenin. Os wyt tithau yn byw mewn anwybodaeth, y mae yn dangos dy fod yn llyfr du Duw. Y mae efe mewn digder yn gorchuddio llygaid y rhai y mae efe yn eu troi ymaith i uffern. "Os cuddiedig yw ein hefengyl ni, yn y rhai colledig y mae yn guddiedig;" *2 Cor. iv. 3.* Mewn un lle, bygythir pechaduriaid, "y trengant heb wybodaeth" (*Job xxxvi. 12*); mewn lle arall, "byddant feirw yn eu pechodau" (*Ioan viii. 24*). Yn wir, y neb a fyddo marw heb wybodaeth, y mae yn marw yn ei bechodau. A pha farw fwy ofnadwy na hon a all y Duw mawr ei rhoddi ar greudr? Gwell marw mewn carchar, neu farw mewn ffos, na marw yn ein pechodau. Os byddi farw yn dy bechodau: y modi yr huni yn y pridd, felly y diluni yn moreu yr adgyfodiad; os yn adyn anwybodus ac heb Grist, fel y cyfryw y cei dy gyhuddo a'th faru. Y Duw, yr hwn y mae pechaduriaid yn awr yn erchi iddo gilio oddi wrthynt, efe a fydd y pryd hwnw yn yn werth eu cydnabyddiaeth hwynt, a hwy eu hunain yn farnwyr: ond, Och! yna efe a dafu eu geiriau eu hunain yn eu dannedd, ac a ddywed wrthynt, "Ewch ymaith; nid adnabum chwi erioed." O, bechaduriaid! chwi a gewch weled o'r diwedd y gall Duw wneyd yn well heb eich cyndeithas chwi yn y nef nag y gallech chwi heb y wybodaeth o hono ef ar y ddaear. Etto, etto, y mae yn ddydd; tynwch eich lleni yn agored, a gwelwch Grist yn tywynu i'ch wynebau â llewyrch ei efengyl: gwrandewch ar ddoethineb yn llefain yn yr heolydd, ac ar Grist yn pibellu dan eich ffenestr yn llaisei Ysbryd a'i ghenhadau, "Pa hyd, chwi ynfydion,

y cerwech ynfyrwydd? a chwi watwarwyr, y bydd hoff genych watwar; ac y casâ ffyliaid wybodaeth? Dychwelwch wrth fy ngherydd: wele, myfi a dywalltaf fy Ysbryd i chwi, fy ngeiriaau a hysbysaf i chwi;” *Diar.* i. 21—23. Beth a ellwch chwi ddywedyd, bechaduriaid, dros eich hurt anwybodaeth? Pa hug a roddwch chwi i guddio y pechod hwn? Bu amser pan oedd gair yr Arglwydd yn werthfawr, ac nad oedd gweledigaeth amlwg, na Beibl i’w gael mewn tref na gwlad; pan oedd pren gwybodaeth yn ffwrth gwaharddedig, a neb i’w gael profi o hono heb genad y pab: dedwydd oedd efe a allai gael dalen neu ddwy o’r Testament i ryw gongl, gan ofni mynegi hyn i wraig ei fynwes. O! mor felus oedd y dyfroedd hyn, pan oedd raid iddynt eu lladrata. Ond y mae genych chwi—neu chwi ellwch gael—y gair yn eich tai; ac y mae genych chwi y rhai a’i hagarant bob Sabbath yn eu cynulleidfaoedd, a chan, o leiaf lawer o honoch, gynnigioneich gweinidogion i gymmeryd unrhyw boen gyda chwi o’r neilldu, gan erfyn yn wresog arnoch dosturio wrth eich eneidiau, a derbyn addysg. Ië, y gŵyn sy ganddynt yn gyffredinol ydyw, na ddeuwch atynt, fel y caffoch addysg. Pa hyd y gall gweinidog tlawd eistedd yn ei lyfrgell cyn y delo un o’r rhai anwybodus ato ar y fath neges? Y mae gan gyfreithwyr eu hawlwy, a chan physygwyr eu cleifion: ymfynir â’r rhai hyn, a gelwir hwynt i fyny ganol nos am gyngor: ond, Och! yr enaid sydd yn fwy ei werth na dillad a chorff hefyd, esgeulusir hwn; ac anfynech y meddylir am y gweinidog nes anfon y ddau hyn ymaith. Ysgatfydd, pan roddo y physygwr hwynt i fyny i farw, yna rhaid i ninnau ddyfod a chau y llygaid hyny i fyny â chysur, na agorwyd mo honynt erioed i ganfod Crist yn ei air; neu ynte cawn ein cyfrif yn greulawn am eu gadael heb eu taenellu â’r dwfr bendigaidd hwn, a’u heneinio i deyrnas nef, er na wyddent hwy un cam o’r ffordd sydd yn arwain iddi. Och, drueiniaid gresynus! pa gysur a fynech chwi i ni lefaru wrth y rhai y mae Duw ei hun yn lefaru dychryn? A yw y nef eiddom ni, i’w rhoddi i’r neb y mynom? Neu, a yw yn ein gallu ni i newid deddfau y Goruchaf, ac achub y rhai y mae efe yn eu condemnio? Ai nid ydych yn cofio y felddith sydd i syrthio ar ben “yr hwn a baro i’r dall gyfeiliorni allan o’r ffordd?” *Deut.* xxvii. 18. Pa felldith ynte a ddeuai i’r rhan ni, pe cadarnhâem y cyfryw eneidiau deillion sydd yn gwblallan o’r ffordd i’r nef, gan eich calonogi i fyned ym mlaen, a dysgwyl cyrhaedd y nef o’r diwedd, pan y gŵyr Duw fod eich traed ar y llwybrau sydd yn arwain i farwolaeth dragwyddol? Na: ysgrifenedig yw; fel nas gallwn ni, ac na fych Duw, ddim troi hyny yn ol. Chwi ellwch ddarllen, ië, eich enwau ym mysg yr eneid-

iau colledig hyny y daw Crist “mewn tân ffiamllyd” i ddial arnynt; y rhai, medd yr apostol, “nid adwaenant Dduw, ac nid ydynt yn ufuddhau i efengyl ein Harglwydd Iesu Grist;” *2 Thes.* i. 8. Ac am hyny, yn ofn Duw, cyffroed hyn chwi, o ba oed, rhyw, gradd, neu gyflwr bynag yn y byd, i ymgais am y wybodaeth gadwedigol o Dduw yng Nghrist, yr hwn y mae ei adnabod yn fywyd tragwyddol. Os ydych yn ieuainge, ymfynwch am Dduw mewn pryd, tra y mae eich galluoedd yn fywiog a’ch cof yn gryf, a chyn i dorf o ofalon bydol eich syfrdanu chwi, na chwantau ieuengetid eich llygru. Y mae troed y chwantau hyny a gladdasant filiynau o rai ereill mewn colledigaeth yn sefyll yn barod i’ch dwyn chwithau ar hyd yrun ffordd, oni ddaw gras rhagflaenol i’ch achub o’u dwy-law, trwy dymmeru eich meddyliau â’r wybodaeth o Dduw. Gall y trafngwae boreuol hwn ragflaenu dy heintiad gan y sawyr drwg a ellir gael oddi wrth esamplau llygr-edig rhai ereill. Hefyd, pa hyd y bydd dy arosiad yn y byd, nis gwyddost: edrych ai nid oes beddau o’th hyd di yn y fynwent; ac os byddi di farw yn anwybodus o Dduw a’i gyfraith, pa beth a ddaw o honot? Y prysgoed mân a’r hen fonceffion, pechaduriaid ieuainge, a’r rhai gwywedig gan oedran, a gyfarfyddant ac a gyd-logant. Neu, os cei di aros yma ychydig yn hwy, fe allai am na fyni di ddysgu yn awr, na wna Duw mo dy ddysgu y pryd hyny; neu, pe caiti ti gydnabyddiaeth â Duw yn dy henaint, etto, trwm fydd i ti fod yn hau dy had, pan ddylit fod yn medi dy ysgubau; yn dysgu adnabod Duw, pan ellit fod yn ymgysuro trwy yr hen gydnabyddiaeth a fwynheist gydag ef. A wyt ti yn hen ac anwybodus? Och, greadur tlawd! dy einioes ar ddiweddiad, a’r ganwyll hon o eiddo Duw heb ei gosod i oleuo yn dy ddeall—dy gorph yn crymu i’r llwch, natur fel pe byddai yn canu dy glul, a thithau fel un yn y tywyllwch, heb wybod i ba le y tywys, nac ym mha le y gâd angeu dydi! Y mae yn debygol fod gwendidau henaint yn peri i chwi ddymunio fod eich esgryn yn gorhwyso yn y bedd; ond pe byddai i chwi farw yn y cyflwr hwn, dymunai eich eneidiau truan fod yma drachefn, â’u hen feichiau ar eu cefnau. Trymion yw gwaen a doluriau henaint; ond eneidiau damnedig a ddiolchent i Dduw, pe bendithiai efe hwynt â nef o’r fath, ag i rowedd yn y gofidiau hyn, i ochel y poenau ereill. O! ad-ystyriwch cyn eich myned ymaith; po lleiaf eich amser, mwyaf diwyd y gweddaid eich bod i gaffael gwybodaeth. Ni byddai raid i ni fod yn daer, dybygid, i geisio gan y carcharor truan a diddysg ddysgu ei lyfr, pan y gŵyr y caiff ei grogi, onf ddarllen efe wers ei wddf. Yn wir, ni wna gwybodaeth noeth o wirioneddau yr efengyl ddim achub;

ond yn ddiau, fe fydd i anwybodaeth ddofn o honynt ddamnio eneidiau. A ydych chwi yn dlodion? Nid eich tlodi yw eich bai, neu eich trueni. Pe byddech dlodion Duw, yn gyfoethogion mewn gwybodaeth a ffydd, dedwydd fydddech: "Gwell yw bachgen tlawd a doeth, na brenin hen ac ynyf, yr hwn ni fedr gymmeryd rhybudd mwyach;" *Preg. iv. 13.* Ie, byddech mor ddedwydd, fel pe barnai tywysogion y byd eu hunain yn iawn, y dymunent fod yn eich dillad chwi, pa mor garpiog bynag, yn hytrach na bod yn eu gwisgoedd llaes eu hunain. Mae rhai gwell yn ddarparedig i chwi yn y nef; y rhai hyn, chwi a gewch eu gwiso gwiso pan y dynoether hwynt er eu gwarth. Ni chewch chwi mo'ch blino y pryd hyny am eich bod yn dlodion tra yn y byd; ond fe'u poenir hwynt am eu bod mor gyfoethog ac uchel, ac mor dlawd tuag at Dduw, a llymion eu heneidiau.

A ydych yn rhai cyfoethog? Llafuriwch am wybodaeth y Goruchaf. Yr oedd Solomon yn meddu mwy o drysor y byd na mil o honoch chwi; ac etto, ni a'i cawn ef yn daer mewn gweddi, yn ymgais â Duw am wybodaeth: 2 *Cron. i. 10.* Nid yw yr holl fwyntian allanol hyn ond plisgyn gwynfyd, megys nad yw cystuddiau ond plisgyn adfyd. Yr wyf yn ofni fod llawer yn eu cyfrif eu hunain yn rhydd-freiniol, trwy eu mawredd bydol, oddi wrth y ddyledswydd hon; fel pe byddai Duw yn rhwym i'w hachub hwynt, am eu bod yn gyfoethog. Och, Syrs! nid cymmaint nifer o honoch sydd yn debyg o ddyfod i'r nef. Y mae yn rhaid i mi addef, y parai i un grynu wrth feddwl pa fath nifer bychan ym mysy y mawrion a gânt eu hachub, yn ol y syniad, "Nid llawer o rai galluog, nid llawer o rai boneddigion, a alwyd;" 1 *Cor. i. 26.* Pa ham y mae cyn lleied yn gadwedig? Am fod cyn lleied a gwybodaeth gadwedigol ganddynt. O! yr annuwiaeth, yr anwybodaeth, a'r hurt farbariaeth sydd i'w cael, ie, yn yr hyn a folir, ac a addolir hefyd gan y byd, o herwydd eu tiroedd a'u meddiannau, er nas gallant etto roddi dim cyfrif o'u ffydd! Un Cristion tlawd yn ei garpiau a rydd wers a chywilydd i gant o honynt. Pe byddai y nef i'w phrynu â thair oedd, y rhai hyn a'i dygent hi oddi ar ddisgyblion tlodion Iesu Grist; y mae ganddynt eu cannoedd a'u miloedd yn gorwedd yn eu hymyl at brynu o hyd; ond nid yw yr arian yma yn cerdded ym marchnad y nef. "Hyn yw y bywyd tragwyddol, iddynt dy adnabod di, yr unig wrth Dduw, a'r hwn a anfonast ti, Iesu Grist."

Cwest. Ond pa fodd y dichon dyn anwybodus gyrhaedd gwybodaeth?

At. 1. Bydd ddwy-ystyriol o'th anwybodaeth. Y mae rhai fel Laodicea, yn ddall, ac heb ei wybod: *Dad. xvii.* Megys y mae

anwybodaeth yn dallu y meddwl, felly y mae balchder yn llen ar eu hanwybodaeth, fel nad ydynt yn ei wybod. Mae gan y rhai hyn y fath dyb mawr am danynt eu hunain, fel y chwervant os gwna neb eu drwg-dybio fel y cyfryw. Y rhai hyn o bawb oll yw y pellaf allan o ffordd gwybodaeth: y maent, yn ol eu tyb eu hunain, yn rhy dda i ddsygu gan ddyn, ac yn rhy ddrwg i gael eu dysgu gan Dduw. Y mae porth ysgoldy Crist yn isel; a'r rhai hyn ni allant blygu. Y mae y meist'r ei hun mor ostyngedig ac isel fel na ddsyg efe un ysgollaig balch. Am hyny, bydded i ti ddyfod yn gyntaf i fod yn ffîol yn dy olwg dy hun. Y mae gwr doethach na thi wedi addef cymmaint: "Yn wir yr ydwyf yn ffîolach na neb, ac nid oes deall dyn genyf. Ni ddsygais ddoethineb, ac nid oes genyf wybodaeth y sanctaidd;" *Diar. xxx. 2, 3.* Pan fydddech wedi dyfod atat dy hun, i addef a gwrido o herwydd dy anwybodaeth anifeilaidd, yr wyt yn addas i'th dderbyn i ysgol Crist. Os cywilyddiant, yna dangos iddynt bortreiaid y tŷ: *Ezec. xliii. 10.*

2. Bydd ffyddllan ar yr ychydig wybodaeth sy genyf. A argyhoeddwyd di fod hyn yn bechod, a'r llall yn ddyledswydd? Dilyn y goleu yn ddyfal: ni wyddost i ba faintioli y gall yr ychydig hyn gynyddu. Yr ydym ni yn arfer gosod ein plant i fyny âg ystor fechan ar y dechreu; ac fel y defnyddiont hwy hyny, y chwanegwn ninnau. Y mae teyrnas Dduw yn dyfod o ddechreuad bychan. Y mae Duw yn achwyn ar Israel, eu bod yn "ynfyd yn eu gwybodaeth;" *Ier. x. 14.* Nid yw efe yn dywedyd ynfyd yn eu hanwybodaeth: pe buasant yn pechu am na wyddent yn well, buasai hyn mewn gradd yn esgus drostynt; ond yr oeddynt hwy yn gweithredu yn ynyfod ac afresymol, megys wrth addoli delwau cerfiedig, er y gwyddent i'r gwrthwyneb. Ni ragora y dyn hwnw mewn gwybodaeth, sydd yn ei arfer i bechu: "Oni wrandawant, difethir hwy gan y cleddyf; a hwy a drengant heb wybodaeth;" *Iob xxxvi. 12.* Canwyll a gauer yn gaeth mewn llusern dywyll a ddiffydd yn fuan; ac felly y gwna goleuni a attelir yn y gydwylbod, ac na oddeir iddo dori allan yn yr ymarwedd-iaid. Y Cenedloedd sydd dan gyhuaddiant am "attal y gwirionedd mewn anghyfiawnder" (*Rhaf. i. 18*): y newydd nesaf a glywir am danynt ydyw, mai "ofer fuont yn eu rhesymau, a'u calon anneallus hwy a dywyllwyd;" *adn. 21.*

3. Bydd ddyfal wrth orsedd gras. *Bene orasse est bene studuisse.* Y dyfalaf mewn gweddi ydyw yr ysgollu, goreu mewn duw-nyddiaeth. Rhodd adwyfol ydyw gwybodaeth—o'r nef y mae pob goleuni. Duw yw Tad y goleuni; ac y mae gweddi yn gosod enaid tan addysgiad Duw: "Od oes ar neb eisieu doethineb, gofyned gan Dduw." Y

mae hyn yn fwy na gwybodaeth noeth, doethineb i'w defnyddio. Gall myfyriaeth wneuthur un yn ysgolhaig mawr yn yr Ysgrhythrau; eithr gweddi a wna Gristion doeth, fel y mae hi yn cael gwybodaeth sancteiddiol, heb yr hyn nid ydyw hon yn rhodd berffaith, ond megys rhodd heb fod yn rhodd. Gweddia ynte gyda hyder gostyngedig; y mae Duw yn rhoddi i bob un a ofyno, a hyny yn haelionus a rhywiogaidd—nid fel dyn balch, yr hwn a rydd y gwan i gywilydd am ei anwybodaeth, yn hytrach na chymmeryd y boen i'w ddsygu. Y mae dy erfyniad yn dra boddhaol gan Dduw. Cofia fel y llwyddodd Solomon ar y cyffelyb achos, ac addaw i ti dy hun yr un llwyddiant. Ysgol rad ydyw ysgol Crist: nid ydyw efe yn gwrthod y neb a ddel atto, ond iddynt ymostwng i drefniadau yr ysgol; ac er nas gall pawb ateb gyda'r un radd o wybodaeth (nid rheidiol i bawb fod yn Solomon mewn gwybodaeth, oni bai fod pawb yn sefyllfa Solomon): etto, caiff y disgybl gwaelaf a enfyn Crist allan ei addurno â gwybodaeth gadwedig digonol i'w addasu i'w gael derbyniad i brifysgol y nef. "A'th gynghor y'm harweini, ac wedi hyny y'm cymmeri i'w ogouiant."

4. Rhaid ywi ti dreulio peth amser yn dyfal chwilio am y gwir. Y mae hwn yn gorwedd yn ddfwfn; ac y mae yn rhaid cloddio ato. Er pan yrwyd dyn allan o baradwys, nis gall efe wneuthur dim heb lafur ond pechod; y mae hwn yn wir wrth ei law: eithr y mae y trysor yma o wybodaeth yn gofyn rhaw a chaib. Gorchymynir i ni "chwilio yr Ysgrhythrau;" *Ioan v. 39.* "A llawer a gynniweiriant, a gwybodaeth a amlheir" (*Dan. xii. 4*): cyffelybiaeth oddi wrth farchnatwyr sydd yn ymgynhyrfu am gyfoeth; hwy a redant yma a tffraw, yn awr mewn un wlad, yna mewn un arall: pa le bynag y clywant am ryw elw i'w gael, yno y cyrchant, pe hyd eithafoedd y ddaear. Fel hyn y mae yn rhaid i'r enaid frysio o un ddyledswydd i'r llall; darllen ar un pryd, ac yna myfyrio ar yr hyn a ddarllenodd; yna gweddio ei fyfyrodau drosodd, a gofyn cynghor ar ol y cwbl—Beth yw ystyr hyn? A pha fodd y deallwch chwi hyn acw? "Nid ysgol Epicurus a wna wŷr enwog, ond cyd-gymdeithas," meddai un gynt. Y mae mwy o oleu i'w gael weithiau trwy ymddyddan byr â phregethwr, na thrwy ei bregeth oll. Bydd sicr o amgylchu yr holl foddion o wybodaeth o fewn cyrhaeddiad dy ymgais. Ac wrth chwilio am wybodaeth, dal sylw ar dri pheth:—

1af. Am dy ddyben; ar iddo fod yn bur a sanctaidd; nid i wybod yn unig, fel rhai a lafuriant am wybodaeth, megys ereill am gyfoeth; ac wedi iddynt ei chael, a syllant ar eu tybiau, megys y lleill ar eu codau o arian: etto, ni feddant galon i ddefnyddio eu gwybodaeth er eu lles eu hunain nac ereill.

Dyma ddrwg blin. Y mae gwybodaeth olygianol, fel Rahel, yn deg, etto yn ddi-ffrwyth. Yn awr, i'th adnabod a chael dy ryfeddu gan ereill o herwydd dy uchder mewn gwybodaeth uwch law dy frodyr, yn ddiau y mae yn ddyben rhy wael i ti gyfeirio ato wrth geisio gwybodaeth, yn enwedig y fath ag ydyw y wybodaeth o Dduw a Christ. Gweled pagan yn llafurio am wybodaeth mewn athronyddiaeth, ac yn dwyn ei lafur oll i'r farchnad-hon, gan dybied ei hun yn cael tâl wrth gyrhaedd yr enw o wr doeth, y mae hyn, er yn isel-wael, etto yn fwy goddefadwy. Ond am un yn adnabod Duw, a pha beth ydyw ei fwynhau ef; i'r cyfryw ymfoddloni ar chwa neu ddwy o wag anall dyn gwael, y mae hyn yn ffoledd o'r hynotaf. Edrych ar i ti ehedeg yn uwch na hyn yn dy ddyben. Llafuria am wybodaeth, fel y gallech ofni y Duw a adwaenost. Felly Dafydd: "Dysg i mi, O Arglwydd, ffordd dy ddeddfau, a chadwaf hi hyd y diwedd;" *Salm cxix. 33.* Gelwir gair Duw yn llusern i'n traed; nid i'n tafodau yn unig i siarad am dano, ond i'n traed i rodio wrtho. Ymgais am dano, nid i daenu dy enw dy hun ar led, ond i fawrygu Duw. Hyn y mae Dafydd yn ei addaw pan ddeallodd orchymynion Duw; yna efe a chwedledd am ei ryfeddodau; efe a udgana eu clod, ac a ddeffry ereill felly i ymfyn am Dduw.

2il. Pan fyddo dy ddyben wedi ei iawn osod, yna rhaid i ti fod yn ddianwadal yn dy gais. Nid ydyw dirgelion Crist ddim i'w dysgu mewn diwrnod. Yna yr "adnabyddwn, os dilynwn adnabod yr Arglwydd;" *Hos. vi. 3.* Y mae rhai, ysgatfydd, mewn hwyll dda, a hwy a edrychant i'r Ysgrhythrau, ac a ddarllenant bennod neu ddwy: yna, ymaith yr ânt am wythnos, ac ni arferant âg ef mwy: yn debyg i rai bechgyn, os yn yr ysgol am ddiwrnod, hwy a lechant yn segur yr holl wythnos drachefn. A ydyw yn rhyfedd fod y cyfryw heb gynyddu mewn gwybodaeth? Y mae yn ddywedidda gan Bernard:—"Y mae myfyrdod yn y gair yn rhagori cymmaint ar ddarllen, ag ydyw cyfeillach ar gyfarfod mewn lle dieithr, neu gariad cyfeillgar ar gyfarchiad damweiniol." Os mynwech chwi wybodaeth yn wir, y mae yn rhaid i chwi nid yn unig gyfarch y gair yn awr ac yn y man, ond rhodio gydag ef, a bod yn ei gymdeithas beunydd. Y triwyr, y rhai yn wir oeddynt angylion, a fu yn sefyll ger bron Abraham, ac efe yn eistedd wrth ddrws ei babell—lled ddystaw ac estron-aidd oeddynt, hyd oni wahoddodd Abraham hwynt i'w babell, i'w croesawu yn garedigol: yna, y mae Crist, yr hwn oedd yn un o hon-ynt, yn dechreu amlygu ei hun i Abraham, a dangos iddo ei ddirgelion. Mai Crist ydoedd sydd yn amlwg wrth yr enw Iehofah a roddir iddo mewn amryw wersi, ac hefyd wrth yr addewid am yr hyn a wna i'w

Sara (*adn.* 10): nid y peth a wnai Duw, fel y llefarasai, pe buasai yn angel creedig. Dyna yr enaid a gaiff, uwch law ereill, gydnabyddiaeth â dirgelion Duw yn ei air, sef yr un nad ydyw yn esgeulus wrth ddarlenn y gair, neu fel un yn dangos ei foes ato wrth ddrws ei babell; ond un sydd yn dymuno mwy o'i gyfeillach, ac am hyny yn ei groesawu o fewn ei enaid trwy fyfyrdod mynych arno. Y mae Dafydd yn cyfelybu y gair am felusder, i'r mêl, a'r dil mêl. Yn wir, y mae mor llawn fel y difera rhyw felusder o hono yn fynych ar y darlenniad cyntaf; ond y mae yr hwn nad ydyw yn ei wasgu trwy fyfyrdod yn gadael y rhan fwyaf ar ol.

3ydd. Edrych am gymmeryd yr iawn reol a threfnu. Y mae i'r amryw gelfyddydau eu hegwyddorion, achefyd eu dirgelion mwyaf cudd a ddfn; ac yn sicr, yr iawn ben i ddechreu arno, yw dysgu yn gyntaf yr egwyddorion. Ni a ddywedwn nad ydyw hwnw yn debyg o wneud ysgolhaig da, yn y brifysgol, na bu erioed yn rannadegwr da. Ac nis gallant hwy fod yn Gristionigion digoll, sydd heb eu haddysgu yn egwyddorion Cristionogaeth. Y diflyg o hyn ydyw yr achos fod llawer mor ansafadwy—yn gyntaf o'r ffordd hon, yna o'r llall—yn cael eu chwytth fel gwydr i'r ystum a fynir, fel yr ewyllysio gau athrawon anadlu. Och! nid oes ganddynt un canolfan i dynu eu llinellau oddi wrtho. Na thybiwch yn warthrudd, chwi, y rhai a redasoch i gyfeiliornad, ac a gollasoch eich hunain yn nyrysa pyngciau dyfnion, sydd yn awr yn destyn siarad y profeswyr gwanaf, fod i chwi gael eich troi yn ol i ddysgu yn well yr egwyddorion cyntaf yn llyfr Duw. Y mae gormod, fel y dywed Tertulian ar achos arall, yn fwy tyner o'u gair da nag o'u heneidiau: y maent yn cywilyddio mwy rhag y cyfrifiad o anwybodaeth, nag y maent yn ei ofalu am ei feddyginiaeth.

4ydd. Os mynit gyrhaedd gwybodaeth dduwiol, disgwyl wrth weinidogaeth y gair. Am y rhai sydd yn esgeuloso hyn, ac heb gyrchu dan bregethiad y gair, y maent yn debyg i un a droai ei gefn ar yr haul, fel y gallo ei weled. Os mynit adnabod Duw, tyred i'r lle a bennododd efe i ti gael dy ddysgu. Yn wir, lle nad ydyw y moddion, y mae gan Dduw ffyrdd anghyffredinol: megys tad, os na bydd ysgol yn y dref, efe a ddysg ef blentyn gartref. Ond os bydd ysgol gyhoeddus, yno y mae yn ei anfon. Y mae Duw, medd Paul, "yn eglurhau arogledd ei wybodaeth trwom ni ym mhob lle;" 2 *Cor.* ii. 14. Siaradd dynion fel y mynont am yr Ysbryd, fe geir hwnw yn y diwedd yn ddi-ffoddwr yr Ysbryd a fyddo yn ddirmygwr prophwydoliaeth. Y mae y ddau yn uesaf at eu gilydd yn 1 *Thes.* v. 19, 20. "Na ddiffoddwch yr Ysbryd; na ddirmygwch brophwydoliaethau." Eithr nid digon ydyw

eistedd dan y moddion: y mae prawf athrist yn dysgu i ni hyn—fod rhai, nad oes un haul a'u melyna; y maent yn cael eu hen wedd dan y pregethiad mwyaf goleu, dysglaer, a thanllyd; mor dywyll a halogedig a'r rhai na welsant erioed ddydd yr efengyl. Gan hyny, os mynit dderbynu rhyw fudd ysbrydol trwy y gair, edrych pa fodd y gwrandawech.

(*laf.*) Edrych am fod yn wrandawr deffrous. A ydyw yn beth rhyfedd i hwnw fyned o'r bregeth mor annoeth ag y daeth iddi, a fyddo wedi cysgu y rhan fwyaf o honi heibio, neu wrandaw rhwng cysgu ac effro? Mewn breuddwyd yn sicr y mae yn rhaid ei fod, os dadguddia Duw rywbeth o'i feddwl i hwnw. Felly yn wir y gwnaeth Duw i'r tadau gynt; etto, nid tra yr oeddynt yn cysgu yn aghrefyddol dan ordinhâd. O, gwyliwch rhag y fath amhlareh! Yr hwn a ymroddo i gysgu ar y cyfryw amser, fel y gwna rhai, neu y dyn nad ydyw yn ymddarostwng o'r achos, a hyny yn ddfwn, y maent ill dau yn dangos y bri gwael ac isel sydd ganddynt i'r ordinhâd. Yn ddiau nid wyt yn tybied ond yn wael o'r hyn a draddodir, oni bydd iddo dy gadw yn effro; ie, ac am Dduw ei hun, cenadwri yr hwn ydyw. Gwel fel y'th ger-yddir gan ymddygiad tra pharchus pagan, a hwnw yn frenin. Ni ddywedodd Elwd wrth Eglon, ond "Gair oddi wrth Dduw sydd genyf ataf ti: ac efe a gyfododd oddi ar ei orseddfa;" *Barn.* iii. 20. Ac ymollwng yr wyt tithau ar dy fainge i gysgu. O! pa fodd y meiddi di roddi y fath ddirmyg ar y Duw mawr? Pa sawl gwaith y darfu i ti syrthio i gysgu ar giniauw, neu wrth gyfrif dy arian? A conid ydyw gair Duw o werth mwy na'r rhai hyn? Mi a ryfeddwn os bydd i'r fath gysgw dan bregethau freuddwydio am ddiun heb law tân uffern. Y mae yn beryglus, chwi wyddoch, i ni gysgu, a chan-wyll yn llosgi wrth ein hochr—cafodd rhai eu llosgi felly yn eu gwelyau; ond mwy per-yglus yw cysgu tra y mae canwyll y gair yn llosgi mor agos atom. Beth pe syrthit ti i lawr yn farw fel Eutyclus? Nid oes yma un Paul i'th gyfodi fel y cafodd efe; a pha le mae dy feichiau na fydd felly i ti?

(2il.) Rhaid i ti fod yn wrandawr astud. Yr hwn sydd yn effro, ond yn gwibio â'i lygaid neu â'i galon, beth y mae yn ei wneud ond cysgu â'i lygaid yn agored? Cystal fyddai i'r gwas fod yn cysgu yn ei wely a bod ar ei draed, oni edrych efe at orchwyl ei feistr. Pan fyddo Duw yn bwriadu lles enaid trwy y gair, y mae yn tynu hwnw wrandaw a dyfal wrandaw yr hyn a draddodir, megys y gwelwn yn Lydia, yr hon fel y dywedir, "a ddaliodd ar y pethau a lefarid gan Paul;" *Act.* xvi. 14; a'r rhai hyn (*Luc* xix. 48) oedd yn glynu wrth Grist wrandaw arno. Yr oeddynt yn ymhongiar wrtho, fel y gwelwch weynt wrth ryw flod eyn peraidd, neu adar bychain wrth bigau

mamau a fyddo yn eu porthi. Dyna yr enaid a gaiff oleuni a bywyd trwy y gair: "Gwrandewch blant, ac erglywch i ddyysgu deall;" *Diar.* iv. 1. Gan hyn, wrth wrandaw y gair, ymgais am sefydlu dy feddwl aflonydd; ac ymrodda i wrandaw fel yr ymroddodd Iehosaphat i weddio (2 *Cron.* xx. 3); ac am gael dy galon i ryw ddfwn deimlad o'th angenion ysbrydol, yn enwedig o'th anwybodaeth o bethau Duw, a'th gyflwr o'r achos. Ni sefydlir y meddwl nes y cyffyrdder â'r galon. Am hyn, chwi ellwch sylwi y dywedir, "Agorodd yr Arglwydd ei chalon i ddal â'r y pethau;" *Act.* xvi. 14. Y meddwl a â ar neges yr ewyllys: ni a dreulw'n ein myfyrdodau ar yr hyn a fwiada ein calonau. Os bydd y galon heb deimlad o'i hanwybodaeth, ac heb ddymuniaid ar ol Duw, nid rhyfedd fod y fath un heb ddal ar yr hyn a lefaru y pregethr: y mae ei galon yn anfon ei feddwl ffordd arall. "Eisteddant o'th flaen fel fy mhobl," medd Duw, "a'u calon sydd yn myned ar ol eu cybydd-dod;" *Ezec.* xxxiii. 31. Nid yw y rhai hyn yn dyfod yn y fath fwiad neu ddymuniaid ag i wrandaw er budd i'w heneidiau, onid e hwy a ymroddent yn gwbl i'r gwaith; na, eu cybydd-dod sydd yn dwyn eu calonau. Ac am hyn, fel rhyw was segur, wedi iddo *waitio* ar ei feistr, a'i ddwyn i'w eisteddle, a â allan i'r tafarndy at ei gymdeithion, ac ni ddychwel yn ol nes bod y bregeth ar ddarfod: felly y gwna meddyliau y rhan fwyaf pan elont i'r addoliad—hwy a ymlithrant i'r heol, i'r farchnad, neu y siop; chwi ellwch eu cael yn rhywle ond o ddeutu y ddyledswydd sydd o'u blaen; a hyn i gyd am fod y pethau hyn yn nes at eu calonau na Duw a'i air.

(3ydd.) Y mae yn rhaid i ti fod yn wrandawr cofus: heb hyn, bydd y gwaith o hyd i'w ail-ddechreu. Y mae gwirioneddau i wrandawr anghofus fel sel wedi ei gosod ar ddwfr—ni pharhâ yr argraff ddim yn hwy nag y byddo y sel arno; pan ddarfyddo y bregeth, dyna ddarfod ar y cwbl. Bydd, gan hyn, yn dra gofalus i wasgu yr hyn a glywch ar dy gof. Ac fel y gwnelych hyn:—

(1.) Derbyn y gwirionedd yn y cariad o hono. Gwrandawr serchus ni bydd yn wrandawr anghofus. Y mae cariad yn cynnorthwo y cof. A anghofia gwraig ei phlentyn, morwyn ei haddurnau, neu briod-asferch ei gwisgiad? Na, y maent yn eu caru yn rhy dda. Pe byddai gwirioneddau Duw fel hyn o werth genyt, ti a sefyllit am danynt gyda Dafydd ddydd a nos. Hyd yn oed pan fyddo y Cristion, trwy wendid cof, yn methu adgofio y geiriau pennodol a glywodd, fel ag i'w hailadrodd; i.e., y pryd hyn, y mae efe yn cadw eu grym a'u harogl hwynt yn ei ysbryd. Megys pan dodder sugr mewn gwin, nid ydyw i'w weled, ond chwi ellwch ei archwaethu: pan fwytaer ac

y treulier bwyd yn y cylla, nid ydyw i'w gael yn y modd ei derbyniwyd; etto, y mae y dyn wedi ei loni a'i gryfhau drwyddo, yn gryfach i rodio a gweithio nag o'r blaen; ac wrth hyn, chwi ellwch wybod nad aeth yn ofer. Felly y gellwch brofi y gwirioneddau a wrandawodd y Cristion yn ei ysbryd, a'u gweled yn ei fuchedd. Ysgatfydd, os gofynwch iddo pa bethau pennodol a driniodd y gweinidog am ffydd, marwâd, edifeirwch, a'r cyffelyb, nas gall efe eu hadrodd; etto, chwi ellwch gael hyn, fod ei galon yn fwy drylliog am bechod, yn fwy abl i orphwys ar yr addewidion, ac yn awr tan ddiidfyndiad oddi wrth y byd. Fel y wraig dda hono, wrth ddyfod o bregeth, a atebodd i ofyniad un oedd yn ei holi, Pa faint o'r bregeth oedd yn ei chof? Dywedodd, nas gallai hi adgofio llawer y pryd hyn; ond ei bod wedi clywed yr hyn a barai iddi ddiwygio rhyw bethau cyn gynted ag y cyrhaeddai adref.

(2.) Myfyria ar yr hyn a glywi. Trwy hyn yr aeth Dafydd yn ddoethach na'i athrawon. Dal sylw pa wirionedd, pa Ysgrythyr a amlygwyd yn y bregeth yn fwy nag o'r blaen; cymmer beth amsér yn y dirgel i fyfyrion arno, a'i gael felly yn fwy cydnabyddus i dy ddeall. Y mae myfyrdod i'r bregeth megys yr ôg i'r hady—y mae yn cuddio y gwirioneddau a allasant hebddo gael eu pigo neu eu golchi ymaith. Yr wyf yn ofni fod llawer o brofion yn cael eu troi i lawr dan bregeth na chânt ond prin eu troi i fyny nac edrych arnynt mwyach ar ol darfod y bregeth. Ac os felly, yr ydych yn peri i ereill feddwl eich bod yn fwy marchnadwyr dros eich eneidiau nag ydych yn wir; fel pe byddai i un ddyfod i siop, a gosod o'r neilldu lawer o eiddo rhagorol, ac ar ol darfod, myned ymaith, ac heb byth alw am dano. O! gochelwch y fath waith! Ei dwyllo ei hun yn waethaf a wna rhagrithiwr yn y diwedd.

(3.) Dilwytha dy gof o'r hyn sy bechadurus. Ni a sychwn ein llechlyfr, ac a ddilëwn yr hyn a frasnodwyd yno, cyn rhoddi dim newydd yn ei le. Y mae y fath anghydfod rhwng gwirioneddau Duw a'r cwbl a fyddo yn wag a chamweddus, fel y mae y naill yn dileu y llall. Os myni ddal y naill mewn cof, y mae yn rhaid gollwng y llall ymaith.

PENNOD VI.

Am ysbrydolrwydd natur y diafraid, a'u dirfawr ddrygioni hwynt.

"Yn erbyn drygau ysbrydol."

Y GEIRIAU hyn yw y bedwaredd gainge yn y darluniad, "drygau ysbrydol;" a'n hymdrech a'n brwydr â hwynt, fel y cyfryw, a nodir wrth y gorair gwrthwynebol, "yn erbyn;" ac yn ol y Groeg, yn fanylaidd, "yn

erbyn ysbrydion drygioni?" hyny yw, medd rhai, yn erbyn ysbrydion drwg: y mae hyn yn wir, ond nid y cyfan. Yr wyf fi yn barnu, gydag amryw ddeonglwyf, y golygir yma, nid yn unig natur ysbrydol y diafol a'i ddrygioni ef, ond hefyd—ie, yn benaf—natur a rhyw y pechodau hyny i ba rai y mae yr ysbrydion drwg hyn yn fwyaf mynych a grymus yn temtio y saint: a'r ysbrydion o ddrygioni yw y rhai hyn; sef, nid y pechodau enawdol anferth hyny y mae y dorf o bechaduriaid anifeilaidd, megys moch, yn ymdreiglo ynddynt, ond pechod wedi ei ysbrydoli: a hyn, am mai nid y gair *pneumata*, ysbrydion, ydyw, ond *pneumatica*, ysbrydion. Y mae y geiriau yn rhoddi o'n blaen y tri phen athrawiaethol hyn:—

1. Y mae y diafliaid yn ysbrydion.

2. Y maent yn ysbrydion tra drygionus.

3. Y mae yr ysbrydion drwg hyn, yn befnaf, yn bliuo y saint â drygau ysbrydol, ac yn eu temtio i'r cyfryw.

DOSE. I.

1. Ysbrydion ydynt. Y mae *ysbryd* yn air o amryw ystyr yn yr Ysgrythyf. Mewn un ystyr arferedig, y mae yn dynodi hanfod a natur angylion da a drwg: hwy a elwir yn ysbrydion. Yr angylion sanctaidd; "Onid ysbrydion gwasanaethgar ydynt hwy oll?" *Heb. i. 14.* Y rhai drwg; "Ysbryd a ddaeth allan ac a safodd ger bron yr Arglwydd, ac a ddywedodd, myfi a'i twyllaf ef;" *1 Bren. xxii. 21.* Cythraul oedd yr ysbryd hwnw. Mor fynych y gelwir y diafol yn ysbryd aflan, yn ysbryd drwg, yn ysbryd celwyddog, &c. Ni ddarfu i bechod newid eu sylwedd hwynt: pe felly, fel y dywed un yn gywir, ni buasai i'r natur a'r sylwedd a bechod gael y gosp.

1af. Y mae y diafol yn ysbryd; hyny yw, y mae ei hanfod yn anghorphorol a digymmysg—nid yn gymmysgedig, fel y mae bodau corphorol, o ddefnydd a dull. "Teimlwech a gwelwch fi," medd Crist wrth ei ddisgyblion, oedd yn tybiad eu bod yn gweled ysbryd, "nid oes gan ysbryd gnawd ac esgryn fel y gwelwch fod genyf fi;" *Luc xxiv. 39.* Pe na byddent fel hyn yn anghorphorol, pa fodd y gallent fynes i mewn i gyrph, a'u meddiannu, fel y mynega yr Ysgrythyf am danynt, ie, am leng mewn un dyn? *Luc viii. 30.* Ni ddichon un corph fyned i mewn i un arall.

2il. Y diafliaid ydynt sylweddau ysbrydol, nid nawsau neu gynhyrifiadau drwg yn codi o honom ni, fel y ffol dybiodd rhai. Felly y Saduceaidd, ac ereill ar eu holau hwynt, a haerent nad oes y fath fod ac angel da na drwg; ond y mae hon yn dyb mor ynyfod fel nas gallwn ei dal heb gollu ein rheswm a gwadu yr Ysgrythyrau. Yno ni a gawn dystiolaeth am eu cread (*Col. i. 16*); am gwmp rhai allan o'u cyflwr dechreuol (*Iudas 6*); ac am arosiad rhai ereill a elwir

etholedig angylion (*1 Tim. v. 21*); am ddedwyddwch y rhai hyn sydd yn gweled wyneb Duw, ac am eu gorchwyl a'u hanfoniaid i weinyddu i'r saint, megys gweision i etifeddiaethau eu meistr (*Heb. i*). Cawn fynegiad am drueni y lleill "a gedwir mewn cadwynau tywyllwch i farn y dydd mawr;" ac am eu gwaith presennol—gwneuthur niwed i eneidiau a chyrrh dynion, cyn belled ag y goddefir iddynt. Y pethau hyn oll a ddaugosant eu hanfod yn amlwg iawn. Ond gan mor soddedig mewn enawd yw dyn gwael, ni chred efe yn hawdd ond yr hyn a wel â llygaid ei gnawd. Ar yr un cyfrif, gallem wadu hanfod Duw ei hun, gan ei fod yn anweledig.

3ydd. Y maent yn fodau cyflawn ysbrydol, y rhai y mae i bob un ei hanfod priodol; ac fel hyn, hwy a wahaniaethir oddi wrth eneidiau dynion, y rhai a wnaed i fyw mewn corph dynol; ac ynghyd âg ef i wneud un dyn cyfan, fel y mae yr enaid, er ei fod yn hanfod pan ar wahân oddi wrth y corph, etto, â thueddiad ynddo i ymuno â'i gorph drachefn.

4ydd. Er eu bod hwy yn fodau cyflawn ysbrydol, etto, gan nad ydynt ond creaduriaid, y maent yn defrynlol. Duw yn unig yw yr Ysbryd digreuedig, annherfynol, a hollol ddigymmysg; ie, tad pob ysbrydoedd ereill.

Yn awr, oddi wrth y natur ysbrydol hon o eiddo y diafol, gallwn weled ym mhellach pa fath elyn arswydus sy genym i ymladd âg ef.

(1af.) Fel ysbrydion, y maent o alluoedd dirfawr mewn deall. Ni fedd dyn gwael, tra yug ngharchar tywyll y corph, ddim digon o oleu i wybod beth ydyw perffeithrwydd angylaidd. Eu bod hwy yn rhagori mewn gwybodaeth ar bob creaduriaid ereill, hyn a wyddom; o herwydd, fel ysbrydion, y maent yn agosaf trwy greadigaeth at natur y Duw a'u gwnaeth hwynt. Ni ddyrchafwyd y nef uwch law y ddaear yn fwy nag angylion trwy wybodaeth uwch law dyn tra y mae ar y ddaear. Y mae dyn, trwy gelfyddyd, wedi dysgu mesur uchder ser y nef; ond pa le y mae efe a all fynegi pa mor bell mewn gwybodaeth y rhagora angylion ar dlyn? Gwir yw, hwy a gollasant lawer o'r wybodaeth a fu ganddynt; ie, y cwbl o'u gwybodaeth fel angylion sanctaidd. Y mae yr hyn a wyddant hwy yn awr am Dduw wedi colli ei arog, ac ni feddant hwy allu i'w ddefnyddio er eu lles eu hunain. Yr hyn a ddywed Iudas am ddynion annuwiol, a ellir ei ddywedyd am danynt hwythau: "Pa bethau bynag y maent yn anianol yn eu gwybod, yn y rhai hyny ymlygru y maent;" *adn. 10.* Hwy a wyddant am sancteiddrwydd Duw; ond ni charant ef o'i herwydd, fel y gwna yr angylion etholedig, ac y gwnaethant hwythau trwy greadigaeth. Gwyddant am ddrwg pechod, ac nid llai eu

cariad ato. Ond er eu bod y fath ffyliaid iddynt eu hunain, etto hwy a feddant ormod o gyfrwysdra i'r holl saint ar y ddaear, pe na byddai genym Dduw i drin ein gorchwyl drosom.

(2il.) Fel ysbrydion, y maent yn anweledig, ac felly eu neshâd i'n herbyn. Hwy a nesânt: ac ni welwch mo'ch gelyn. Yn wir, hyn sydd yn peri i'r byd anwybodus ei ofni cyn lleied: etto, hyn yw ei fantais fwyaf ef, os caiff ei iawn bwysu. O! os gwel dynion ymrithiad diafol, neu os clywânt swm yn y nos, hwy a waeddant, "Y cythraul! y cythraul!" ac y maent ar gollu eu pwyll gan ofn. Etto, hwy a'u dygant yn eu calonau, ac a rodiant ar hyd y dydd yn ei gyfeillach heb ei ofni. Pan fyddo dy galon falch yn dringo i ben pinael anrhydedd yn dy feddyliau uchelfrydig, pwy sydd yn dy osod di yno ond y diafol? Pan fyddo dy galon odinebus yn feichiog ar bob math o aftenid a bryntni, pwy ond Satan a fu yno yn cenedlu y cywion hyn yn dy ysbryd puteinllyd? Pan ymwylltiech yn dy newydau, gan dasu marwor tanllyd o ddiag a llid o'th amgylch â'th dasod poethlyd, o ba le yr ennywyd y tân ond o uffern? Pan yr hyrddier di i lawr y dibyn, fel y moch gynt, ac y byddech ar fygu gan chwydiad dy feddwod dy hun, pwy ond Satan sydd yn dy farchogaeth?

(3ydd.) Fel ysbrydion, y maent yn anfarwol. Am eilydion ereill, gellwch o'r diwedd glywed y newydd—"bu farw y rhai oedd yn ceisio dy einioes;" megys y mynegodd yr angel i Ioseph am Herod. Dynion erlidgar, hwy roddant dro neu ddau ar y chwareufwrdd, a gelwir hwynt ymaith gan angu; a dyna ddiwedd ar eu holl ddyfeisiau: ond diaffiaid nid ydynt yn marw; eithr hwy â'th helant hyd dy fedd; a phan fyddech farw, hwy a'th gyfarfyddant mewn byd arall, i'th gyhuddo a'th boeni yno hefyd.

(4ydd.) Y maent yn ddiffin yn eu hysgogiadau. Pan fyddo yr ymladdfa drosodd ym mysg dynion, y mae yn rhaid i'r concowerwr eistedd i lawr i gael ei anadl; ac y mae felly yn colli ei gais, am nad yw yn gallu ei ddilyn mewn pryd. Iâ, rhoddodd rhai eu coronau i lawr megys wedi eu gorlenwi â gwaed dynion, a blin ar y gwaith, pan nas gallent gael eu hewyllys fel y dymument. Fel hyn y gwnaeth Dioclesian; o herwydd iddo weled na ddarfu iddo ond lladd gweirglawdd a dyfodd yn dewach ar ol ei lladd; megys y dywed Tertulian am y Cristionogion a ferthrywyd—efe a dasfodd ei deyrnwialen ymaith mewn digter. Gwnaeth Siarl v. yr un modd, medd rhai, am nas gallai efe ddiwreiddio y Lutheriaid. Eithr byth ni lyfrheir ysbryd y diafol, ac ni flina efe ar wneuthur drwg, er na fu efe erioed yn llonydd ar ol dechreu "tramwy ac ymrodio ar hyd y ddaear." O! pa beth a ddeuai o honom, pe ni byddai Duw wrth ein cefn, yn anfeidrol

fwy trech ar ddiabol nag ydyw efe arnom ni?

DOSE. II.

2. Y maent yn ysbrydion drygionus: drwg mewn crynhodeb, megys yn y testyn; ac o ran eu hynodrwydd mewn pechod, hwy a elwir y *drwg*; *Mat.* xiii. 19. Megys y gelwir Duw y *sanctiaidd*, am "nad sanctiaidd neb fel yr Arglwydd:" felly diafol, y *drwg*, am ei fod yn ddigyffelyb mewn pechod. Mewn rhai pethau pennodol, rhoddwn gais ar olygu uchder pechod y diafol; ac yn benaf, fel y gallom farnu am raddau pechodau, a phechaduriaid ym mysg plant dynion. Po agosaf i Dduw mewn sancteiddrwydd, mwyaf sanctiaidd; po tebycaf i'r diafol, mwyaf drygionus.

1af. Yr angylion gwrthgiledig hyn ydyw dyfeiswyr pechod; y rhai cyntaf a seinasant udgorn gwrthryfel yn erbyn eu Crëwr, ac a arweiniasant y ddawns i'r holl bechu a lanwodd y byd o hyn y hyd heddyw. Yn awr, pa dafod all adrodd y pechod hwn yn ei lawn faint? I'r fath greadur ardderchog, a osododd Duw, fel pe byddai ar nen y greadigaeth yn nesaf ato ei hun; oddi wrth yr hwn nid oedd efe yn cadw ond ei goron freninol ei hun; i'r pendefig hwn oedd mor barchus yn y llys, ac heb achos na chais oddi wrth neb arall, wneuthur y cynnyg hyf a chablu hwn, am gipio coron Duw ei hun: y mae hyn yn darlunio diafol yn dduach nac y dichon meddyliau dynion ac angylion ei ddirnad. Gelwir ef yn *dad y celwydd*, fel y gelwir y neb a ddyfeisiodd ryw gelfyddyd yn dad iddi: Iubal, "tad pob teimlydd telyn ac organ;" efe a ddyfeisiodd gerddoriaeth. Ac y mae hyn yn chwaneigiad arswydus, eu bod hwy wedi pechu heb demtiwr. Ac er nas gall y chwaneigiad hwn fod yn yr un radd yn perthyn i ddydd, etto, y mae rhai dynion yn pechu yn ol cyffelybrwydd camwedd diafol yn y golygiad hwn; sef y rhai sydd, fely geilw Paul hwynt, yn "ddyghymnygwyr drygioni;" *Rhuf.* i. 30. Yn wir, y mae pechod yn hen gelfyddyd, yn barod at ein llaw ni: ond, megys mewn celfyddydau ereill, y mae gwyr hynod yn cyfodi, y rhai a chwaneigant at ddyfeisiau gwyr ereill, ac a wnânt grefftau a chelfyddydau, fel pe byddai yn newydd. Felly y mae o hyd rai gwaradwyddus yn eu cenhedlaeth, a wnânt bechodau hen yn newydd, trwy chwaneigu at ddrygioni rhai ereill. Y mae aftenid yn hen bechod o'r dechreuad; ond fe fu y Sodomiaid yn aslan mewn ffordd newydd, sydd am hynyr ar eu henw hwynt hyd heddyw. Rhai a ddyfeisiant gyfeiliornadau newyddion, ereill lwon newyddion, megys o'u hargraffiad eu hunain, ac yn dwymyn o'r bathdy: diystyr gandynt dyngu yn ol yr hen ddull. Y mae gan ereill ddyfeisiau newyddion; erlid megys yr oedd gan Julian ffordd ar ei ben ei hun, yn wahanol oddi wrth bawb o'i flaen; ac hyd ddiwedd

y byd, bydd i'r naill oes ragori ar y llall yn y graddau o bechu. Nid oedd Ismael, a gwatwarwyr yr hen fydd, ond plantas anfedrus wrth wawdwyr a gwatwarwyr ffyrnig yr amser diweddfaf. Wel, gochel ddangos dy synwyr yn dyfeisio pechodau newyddion, rhag i ti annog Duw i ddyfeisio cospedig-aethau newyddion. "Onid oes dinystr i'r anwir, a dialedd dieithr i'r rhai sydd yn gwneuthur anwiredd!" *Iob xxxi. 8.* Fe bechodd y Sodomiadaid mewn dull newydd; a Duw a'u dyfethodd mewn ffordd newydd, gan anfon uffern arnynt oddi uchod. Y mae rhai wedi dyfeisio opiniynnau newyddion, cyfeiliornadau anghenflaidd; ac y mae Duw wedi cyfaddasu eu tybiau anghenflaidd â ffwrwyth mor anghenflaidd o'u corph eu hun.

2il. Nid yn unig hwy fuont yn ddyfeiswyr pechod, ond hwy ydynt etto y temtywyr a'r annogwyr penaf i bechod o fewn y byd. Am hyn y gelwir Satan y *temtywyr*, a phechod yn waith y diafol, pwy bynag a fyddo yn ei weithredu; megys yr *â tŷ* ar enw y pen gweithiwr, er iddo ef ddefnyddio dwylaw ei weision at ei adeiladu. O! gochelwch annog ereill i bechu: yr wyt felly yn dwyn swydd y diafol o'i law, fel y gallaf ddywedyd, Gad iddo ef ei gwneuthur ei hun, os myn: na wna di dy hun mor debyg iddo. Y mae temtio arall yn waeth nag i ti bechu dy hun. Y mae yn dangos fod pechod o fawr dwf yn y dyn hwnw a'i gwna trwy wybod a bodd. Nid ydyw llyisiau a blodau yn bwrw eu had nes yr addfedont, na chreaduriaid yn cenedlu nes eu bod mewn maint ac oed. Beth a wna y rhai sydd yn temtio ereill ond taenu eu tybiau a'u harferion drygionus, ac fel pe bai codi had i'r diafol, a dal i fyny felly enw ei tad uffernol yn y byd! Dyma ddangosiad fod pechod yn gryf yn wir ydynt. Y mae aml ddynt, er mor ddrwg wrth ei enaid ei hun ag i feddwi neu dyngu; etto, ni hoffia efe hyn mewn plentyn neu was. Pa beth ydynt hwy ond diafiadaid mewn enawd, y rhai a ddysgant gategism y diafol i'w plant, sef tyngu, dywedyd celwydd, meddwi, a phuteinio: os cyfarfyddwch â'r cyfryw, nac ofuwch eu galw, fel y darfu i Paul alw Elymus, pan fynai wrydroi y rhaglaw, "yn blant diafol, cyflawn o bob twyll ac ysgelder, a gelynyion pob cyfiawnder." O! ai ni wyddoch chiwi pa beth yr ydych chiwi arno pan fyddwch yn temtio? Mi a ddywedaf wrthyddych chiwi: yr ydych ar waith nas gallwch ei ddatwneud â'ch edifeirwch eich hunain. Yr wyt yn gwenwyno un â chyfeiliornad, yn egwyddori un arall yn ysgol Satan (tafarndu ydywaf yn ei feddwl); ond ar ol hyny, yr wyt ti, fe allai, yn gwled dy gamsyniad, yn galw dy gyfeiliornad a'th ynfydrwydd yn ol, ac yn rhoddi heibio dy grefft feddw. A wyt ti yn awr yn sicr o'u troi a'u dychwelyd hwynt gyda thi dy hun? Oeh, drueiniaid! y mae hyn tu hwnt i'th allu di: ysgatfydd y dywedant

fel efe, er ei fod ef ar well sail, a annogwyd i droi yn ol at Babyddiaeth, gan yr un a'i hannogasai o'r blaen i ymwrthod â hi: chwi a roddasochi arnaf un trwr, ond ni chwehch roddi un arall. A pha ofid a fydd i'th ysbryd o weled y rhai hyn yn myned i uffern ar dy neges di, a thithau heb allu i'w galw yn ol? Gelli waeddi fel Lamech:—"Mi a leddais wr i'm harcholl, a llange i'm clais." Nag e, pan fyddech di yn huno yn dy fedd, gall y dyn a ddeni di fod wedi tynu ereill i mewn, a'th enw di yn cael ei ddefnyddio i gymnhell y tyb a'r arferiad ar ereill; a thrwy hyn, megys y dywedir, er mai mewn ystyr arall, fod Abel, wedi marw, yn llefaru etto, ti elli fod, ar ol marw, yn pechu yn y rhai a fyddo yn fyw, genhedlaeth ar ol cenhedlaeth. Y mae gwreichionen fechan, a ennynwyd trwy gyfeiliornad un, wedi costio llafur aml oes i'w diffodd; a phan dybid ei diffodd, wedi tori allan drachefn.

3ydd. Nid ydynt hwy yn ddrwg yn unig, ond yn ddrwg faleisus. Y mae enw y diafol yn dynodi ei natur ddygasog, ei ddyrnwriad i flino a drygu ereill. Pan y mae yn tynu eneidiau i bechod, nid ydyw o herwydd ei fod yn profi dim mwyniant, nac yn cael dim elw o hono: y mae yn rhy oleu i gael dim llawenydd na heddwch mewn pechod; y mae yn gwybod ei ddedfryd, ac yn crynu wrth feddwl am dani: ac etto, y mae ei natur ddygasog yn peri iddo chwynnec yn dambaid ac ymgais yn ddiball am ddammedigaeth eneidiau. Megys y gwelwch gef cyddeiriog yn rhedeg ar ol diadell o ddefaid, yn lladd un, yna un arall, ac ar ol eu lladd, heb allu bwyta o'u cig hwynt, ond yn lladd er mwyn lladd. Felly y mae Satan yn myned ym mlaen, gan rym cyundaredd diderfyn yn erbyn dyn, yn enwedig y saint: pe gallai, ni adawai efe un o braidd Crist yn fyw. Y cyfryw ydyw uchder ei falais yn erbyn Duw, yr hwn y mae yn ei gasau â chasineb perffaith; a chan nas gall ei gyrhaedd ef â dyrnod unio gyrchol, y mae am hyny yn ceisio ato â dyrnod ail llaw, trwy ei saint. Y fraich ddyrgionus hono, nad yw yn gallu cyrhaedd at Dduw, y mae yn estynedig yn erbyn y rhai rhagorol hyn ar y ddaear, am y gŵyr efe yn dda fod bywyd Duw, mewn ystyr, yn yn rliwym yn eu bywyd hwynt. Niddichon Duw oesi yn hwy na'i anrhydedd; ac y mae llwydd ei anrhydedd yn ol fel y mae ei drugaredd yn cael ei dyrchafu, neu ei hiselhu. A chan mai hon ydyw y briodoledd y mae Duw yn bwriadu ei dyrchafu mor uchel yn eu hiachawdwriaeth hwynt, am hyny, y mae gan Satan lid ati uwch law y rhai ereill. Iê, a hyn ydyw y gwaethaf a ellir ei ddywedyd am yr ysbrydion drwg hyn, eu bod yn ddigllawn faleisus wrth Dduw, a gogoneddiad trugaredd yn Nuw.

Defn. 1. Dichon hyn ein cynnorthwyo i ddirnad yn well am ddyrgioni erchyll natur

dyn, yr hon sydd mor anhawdd ei hadnabod, am nas gellir ei gweled oll ar unwaith. Y mae hi yn ffynnon sydd â'i thramawrdra yn gymwysedig, nid yn y firwd o bechod gweithredol sydd yn weledig, ac a all ymdangos yn fechan, ond yn y ffynnonell sydd yn ddibaid yn porthi hon. Eithr yma y mae drych a ddengys i ni lun ein calonau yn gywir fel y maent. A weli di y gradd a'r uchder anferth o ddrygioni sydd yn y diafol? Y mae hyn oll yng nghalon pob dyn: nid oes dim llai drygioni, o ran yr hedyn¹ galluawl, yn y pechadur dofaf ar y ddaear, nag yn y diafliaid eu hunain; a hyn a ddangosi di yn amlwg, ryw ddydd, pwy bynag wyt, oddi eithr i Dduw dy ragflaenu di â'i ras adnewyddol. Yr wyt etto heb fagu plu; nid ydyw dy edyn wedi tyfu i'th wneuthur yn sarph hedegon—ond yr wyt o'r un hil: y mae had y ddraig hon ynot ti; ac y mae y diafol yn cenhedlu plentyn tebyg iddo ei hun. Yr wyt ti etto mewn tir nad ydyw mor addas i addfedu pechod, yr hwn ni ddaw i'w lawn faint nes ei adblanu yn uffern. Tydi, yr hwn wyt yma mor enethaidd a gwylaidd ag i wrido gan gywilydd wrth rai pechodau, ac ymatfal gan ofn rhag gweithredu rhai ereill, pan y gweli yno dy gyflwr mor ddiobaith ag y gwel y diafol ei gyflwr yntau, yna, ti a boeri allan ei gabledau, â pha rai y mae dy natur wedi ei gorlenwi, gyda'r un malais ag y gwna yntau. Y mae tyb gan rai Indiaid, y cânt, pan fyddont feirw, eu cyfnewid i lun gwrthun y diafol; am hyny, y mae ganddynt, yn eu hiaith hwynt, yr un gair am ddyr marw ac am ddiafol. Y mae pechod yn gwneuthur yr annuwiol yn debyg iddo cyn myned yno; ond yn wir, hwy a ddeuant i'w gwedd yn fwy cyflawn pan y bydd i filamau uffern ddifa y dwblw sydd yma yn cuddio eu hwynebpryd. Bydd y saint yn y nef yn debyg i'r angylion yn eu bywiogrwydd, eu cariad, a'u dyfalwch yn gwasanaethu Duw; a'r rhai darnedig fel y diafliaid yn eu pechod, yn gystal a'u cosp. Gallai yr un ystyriaeth yma fod o ddefnydd rhagorol i ddisylfaenu pechadur, a'i ddarostwng, fel na chynnwyso byth feddyliau uchel am dano ei hun. Y mae yn hawdd ceryddu dyn sydd a'i fuchedd yn ddrwg, a'i argyhoeddi am ddrygioni ei ymddygiad, a pheri iddo gyfaddef fod ei waith yn ddrwg: ond dyma'r tewlwyn yr ydym yn ei gollu ynddo—efe a ddywed, gwir yw, yr wyf fi yn camdroedio, yn gwneyd yr hyn ni ddylwn; Duw a faddeuo i mi: ond y mae fy nghalon yn dda. Dy galon yn dda, bechadur! a chystal yw yr eiddo Satan. Y mae ei natur ef yn ddrygionus, a'r eiddo ti mor ddrwg a'r eiddo yntau. Y mae'r pylorod hyn ar dy wyneb yn dangos gwres dy natur

lygredig oddi fewn; ac heb feddyginiaeth yr efengyl, gwaed Crist wedi ei gymmhwyso atat, ti a fyddi farw yn wahanglwyfus. Ni ddichon neb ond Crist roddi i ti galon newydd; ac hyd hyny, myned waethwaeth beunydd a wnei di. Y mae pechod yn afiechrad ytreftadol, sydd yn cynnyddu gydag oedran. Bydd pechadur ieuaenge yn hen gythraul.

Defn. 2. Drachefn, byddai o ddefnydd i'r saint, yn enwedig i'r cyfryw ym mha rai y mae Duw, trwy ei alwad boreuol, wedi rhagachub marchnad y diafol; megys y mae Ysbryd Duw, weithiau, yn cymmeryd pechod yn ei letty, cyn iddo ddyfod i'r maes, ym mhechodau ieuengetid. Yn awr, y cyfryw yn heb weled ei hun yn euog o'r pechodau hyfion y gollyngwyd ereill iddynt, a all fod, ysgatfydd, yn llai ymsyniol o'i bechodau ei hun, neu o drugaredd Duw. O! bydded i'r fath un edrych yma ar ddrygioni ei galon, yn y drych hwn o naturiaeth y diafol: ac efe a wel ei hun yn gymmaint dyledwr i drugaredd Duw a Manasseh, neu y gwaethaf o bechaduriaid, megys yn ei waith yn maddeu; felly hefyd yn rhagflaenu yr un natur felldigaid a'r eiddynt lwythau, cyn iddi dano ar Dduw yn y pechodau echrslawn a wnaethant hwy. Am dy fod di heb gyflawni y fath erchyllwaith, yr wyt yn rhwymedig i ymweliad grasol Duw, ac nid i ddaioni dy natur, sydd âg argraff Satan arni: ac am hyn, fe allasai Duw dy lethu, fel y gwawn ni âg eppil y seirph cyn iddynt frathu, am y gwyddom beth a wnânt mewn amser. Pwy a ddywed ddarfod i Faux¹ ddiodyd ef yn anghyflawn, am fod y senedd (*parliament*) heb ei chwythu i fyny? Yr oedd yn ddigon fod y defnyddiau i'r galanas hwnw wedi eu parotoi, ac yntau wedi ei ddal yno, a chanddo ganwyll frwmstan yn barod i roddi y cwbl ar dân. Ac a elli dithau ddywedyd, pan ymafodd Duw ar y cyntaf ynot, nad oedd genyt o'th amgylch yr arfae hyny o wrthryfel, natur hollol lwythog o elyniaeth yn erbyn Duw, yr hon, mewn amser, a barasai swm ei hergyd, o'r hyn oedd hyd hyny yn gorwedd yn ddydstaw, fel powdr heb ei danio yn dy fynwes. O Gristion! meddwl am hyn, ac ymostwng o herwydd dy natur ddrygionus: a dywed, Bendigedig fyddo Duw a ddanfonodd ei Ysbryd a'i ras mor brydlawn i attal fy llaw, megys Abigail at Dafydd, pan nad oedd fy natur i mi myfyrio dim ond rhyfel yn erbyn Duw a'i ddeddfau.

Defn. 3. A ydyw y diafliaid mor faleis-ddrwg yn erbyn Duw ei hun? O Syrs, ond i chwi farnu yn iawn am bechod, chwi a'i casewch. Y rhwswm pa ham y tynir ni mor hawdd i bechu yw, ein bod ni heb ddinrad gwraidd ei fwrriad ef yn denu cre-

¹Fel y mae maint y dderwen fawr yn alluawl (*potentially*) yn y fesen fechan; os caiff ei phlanu a'i maethu, y mae yn ei natur dyfiant i'r cyffilyb faint.

¹Yr adyn oedd yn barod i roddi y powdr, &c., ar dân, ar ddydd *Brad y Powdr Gwn*, Tachwedd 5ed, 1605.

adur i bechod. Y mae gyda dynion yn pechu, fel y mae ar luoedd yn ymladd. Blaenoriaid a gurant am wyr, ac a addawant gyflog ag ysbail i bawb a ymrestrant yn filwyr; a hyn a wna iddynt ddylifo i mewn: ond ychydig sydd yn ystyried sail y rhyfel, yn erbyn pwy, nac am ba beth. Mae Satan yntau yn denu i bechod, ac yn rhoddi addewidion euraidd am yr hyn a gânt yn ei wasanaeth ef; ac â hyn yr ennillir eneidiau annoeth. Ond, O! leied sydd yn gofyn i'w heneidiau, Yn erbyn pwy yr wyf fi yn pechu? Beth yw bwriad Satan wrth fy nenu i bechod? A gaf fi fynegi i ti? A wyt ti yn tybied mai dy fodd neu dy fudd di yw ei gais, wrth i ti bechu? Och! nid oes dim sy lai yn ei fwriad; y mae yn ei ben fwy dyfeisiau na hyn. Y mae efe trwy ei wrthgaliad wedi cyhoeddi rhyfel yn erbyn Duw; a thrwy i ti bechu, y mae yn dy ddwyn i bleidio yn ei gweryl ef, ac felly i beryglu bywyd dy enaid wrth amddiffyn ei falchder a'i drachwant ef: ac i ddwyn hyn ym mlaen, ni petrusa efe mwy am ddamnedigaeth dy enaid nag y gwna y pen Twrc o weled rhesau o'i gaethweision yn cael eu tori i lawr, wrth ddwyn ym mlaen ei fwriad ef mewn brwydr. Ac a feiddi di fyned i'r maes ar ei gweryl ef, yn erbyn Duw? O ddaear, cryna di o flaen yr Arglwydd. Y mae'r Ioab hwn yn dy osod mewn lle na ddaeth neb erioed o hono yn fyw. O! na saf lle y mae pelenau Duw yn ehedfan; tafl dy arfau i lawr, neu dyn marw wyt. Pa beth bynag a wna ereill, O, chwî saint, ffieiddiwch y meddyliau am bechu gyda bodd! yr hyn, pan wneloch, yr ydych yn cynnorthwyo y diafol yn erbyn Duw. A pha beth sydd yn fwy annaturiol nag i blentyn godi mewn arfau yn erbyn ei dad!

PENNOD VII.

Am gais Satan i halogi ysbryd y Cristion a phechodau calon.

YR AIL BWNGO A GANLYN.

Athr. 2. Bod yr ysbrydion drygionus hyn, yn benaf, yn blino'r saint â, ac yn eu hannog i, bechodau ysbrydol. Gellir galw pechodau yn ysbrydol ar gyfrif dyblyg, oddi wrth y deiliaid y gweithredir hwynt ynddo, neu y gwrthdrych yr ymarferant âg ef.

1. Mewn perthynas i'r deiliaid. Pan fyddo'r ysbryd, neu y galon, yn lle y gweithredir hwynt ynddo, dyma bechod ysbrydol. Y cyfryw yw pob meddyliau amhwr, serchiadau a chwantau drwg. Er i'r gwrthdych fod yn chwant enawdol, etto pechodau ysbrydol ydynt, am eu bod yn weithrediaidau yr enaid a'r ysbryd yn unig, ac heb dori allan yn y dyn oddi allan.

2. Mewn perthynas i'r gwrthdych. Pan

fyddo hwnw yn ysbrydol, ac nid yn gnawdol. Y cyfryw yw eilunaddoliaeth, balchder ysbrydol, anghrediniaeth, &c.; y rhai a eilw Paul yn "halogrydd ysbryd;" ac y mae yn eu gwahaniaethu oddi wrth "halogrydd cnawd;" 2 Cor. vii. 1.

DOSB. I.

1. Yn laf. Ymgais Satan hyd y gallo yw annog y Cristion i bechodau calon, cynhyrfu a maethu yr ysgogiadau tu fewnl hyn i bechod ym mynwes y Cristion. Oddi yma y mae, nas gall efe fyned at un ddyleds wydd heb i'r rhai hyn (ei impiau ef, gallaf eu galw) fod yn ei flino; rhyw gynhyrriad neu gilydd yn taraw i mewn i'w aflonyddu, fel y dywed Paul am dano ei hun, "Pan ewyllysiat wneuthur da, fod y drwg yn bresennol gydag ef." Pe trôai y Cristion yn ol ar waith y rhai hyn yn croesi ei ffordd, nid âi efe byth ym mlaen ar ei daith i'r nef. Yma y mae'r prif chwareu sy gan y diafol wedi ei adael iddo yn erbyn plant Duw. Y mae ei faesyddin wedi ei dryllio, a'i rym llywodraethol, oedd ganddo arnynt, wedi ei ddwyn ymaith, ac yn awr, dyfod y mae allan o'i guddlochesau hyn i syrthio ar eu rhai olaf trwy y cymhelliadau hyn. Efe a wŷr nad yw ei gymmeriad yn awr fel cynt, pan oedd yr enaid yn gaethwas iddo; yna, nid oedd dim caledwaith na wnaei efe wrth ei orchymyn: ond yn awr y mae'r enaid allan o'i gaethiwed ef; ac nid oes iddo feddwl rheoli gwas un arall fel yr eiddo ei hun. Na: y cwbl a all efe yw gwyllo am yr amsercymmhwsaf (pan fyddo y Cristion yn disgwyl leiaf), ac yna cymmhell rhyw ysgogiad pechadurus wedi ei wisgo yn drefnus, i lygaid yr enaid; fel y byddo i'r Cristion—cyn iddo ddirnad—gymmeryd y cyw hwn i fyny, a'i goledd yn ei feddyliau, nes ei wneud o'r diwedd yn eiddo ei hun trwy ei goffeidio: a hyn, efe a wŷr, a haloga yr enaid. Ac fe allai y bydd i'r gwesyn hwn, a anfoner i mewn trwy ffenestr, agor y drws i ollwng lleidr cryfach i mewn. Neu, oni lwydda efe felly, etto, bydd euogrywyd y pechodau calon hyn, i.e. eu cymmydogaeth hwynt, yn ofid trwm i galon rasol: o herwydd y mae natur hon mor bur, hyd onid yw yn ffieiddio pob halogrywyd, fel y mae ei aflonyddiad gan y cyfryw gynhyrfiadau yn debyg i gadwyniad dyn byw wrth gelain ddrewllyd, yr hon y mae yn rhaid iddo ei llusgo ar ei ol, pa le bynag yr elo: ac y mae ei gariad mor wresog at Grist, fel nas gall efe oddef agosrwydd y cyfryw feddyliau heb syndod a dychryn, am eu bod mor anfodddhaol ac anfriawl i'w Anwylyd. Hyn sydd yn perri i Satan fod mor awyddus yn ddiabid i gloddio yn y rhan ddiadgenedledig, fel y byddo i hon, megys tom-bwll a gynhyrfer, flino y ddau â'r ffrydiau drygsawrus a gyfodo o honi.

DOSB. II.

Defn. 2. Yn laf. Bydded hyn er prawf o'rh

gyflwr ysbrydol di. Pa groesaw y mae Satan yn ei gael, pan ddelo â'r ysbrydolion hyn o ddrygioni, gan geisio genyt aros gyda hwynt? A eelli di ymfoddloni i halogrwydd dy ysbryd, ond i'th ddwyllaw fod yn lân? Neu a wyt ti yn ymdrechu yn erbyn y pechodau calon hyn, yn gystal a rhai ereill? Nid wyf yn gofyn, A yw y fath westwyr yn dyfod tu fewn i'th ddrws? o herwydd y mae'r gwaethaf o bechodau i'w cael yn y cynnygiadau iddynt, nid yn unig yn myned heibio i ddrws y Cristion, ond yn edrych i mewn hefyd; megys y gellir cael ysgogiadau sanctaidd yn cynnyrfu ym mynnes dyn drwg. Ond yr wyf yn gofyn i ti, A eelli di gael yn dy galon lettya y gwestwyr hyn, a'u croesawu? Y mae yn debyg na fynyf dy weled yn rhodio yr heol gyda'r fath gymdeithion, nac yn arwain putain gerfydd ei llaw trwy'r dref, nac yn tori trwy drais i dŷ dy gymmydog, i'w ladd na'i ysbeilio. Ond ai nis gelli di, dan dy gronglwyd dy hun, yn ystafell encil dy enaid, adael i'th feddyliau ddal i fyny chwant aflan, tra y mae dy galon yn gweithredu ffolineb myfyriol gydag ef? Ai nis gelli di lusgo dy gymmydog i'th ffau, ac yno ei larpio, aelod oddi wrth aelod trwy dy falais, a'th galon heb gymmaint a gwaeddi, Och, y lleiddiad? Mewn gair, a eelli di guddio unrhyw bechod yn nen ddirgel dy galon, yno i gadw ei fywyd, pan fyddo ymofyn am dano trwy y gair a'r Ysbryd, megys y cuddiodd Rahab yr ysbwyr, gan anfon cenhadau brenin Iericho i erlid ar eu hol hwynt, fel pe buasant wedi myned ymaith? Fe allai y gelli dithau ddywedyd, Y godinebwr, y lleiddiad, nid yw yma: dy fod wedi anfon y rhai hyn ymaith er's talm; a thithau o hyd yn eu cuddio yn hoffder dy enaid. Gwybydd, neu ti a gei wybod ryw ddydd er dy wae, yr wyt yn wir ddrygionus. Pe byddai gwreichionen o fywyd Duw, neu gariad Crist yn dy fynwes, er na ellit attal y cyfryw gynnyrfiadau yn dy enaid, etto, ni byddai i ti eu celu, llawer llai eu maethu yn dy fynwes; a phan y'th drechid, ti a waeddit am gymmhorth o'r nef yn erbyn y rhai hyn, fel dinystrwyr dy enaid.

Defn. 2. Yn 2il. Dangoswch eich ffyddlondeb i Dduw, O, chwi saint, trwy wrthwynebiad gwrol, ac ymdrech yn erbyn yr ysbrydolion hyn o ddrygioni. Yn gyntaf, Ystyria, Gristion, fod pechodau calon yn bechodau, yn gystal a rhyw rhai ereill: "Bwriad y ffol sydd bechod;" *Diar.* xxiv. 9. Y mae arian byw yn wenwyn yn y ffrwd ddistylliedig, yn gystal ag yn y lwmp am-mhur. Y mae aflendid, cybydd-dod, llofruddiaeth, yn y galon gystal ag yn y weithred; uffern yw pob congl o uffern. Yn ail, Ystyria, dy ysbryd yw eisteddle yr Ysbryd Sanctaidd. Y mae efe yn cymmyrd y galon oll yn drigfa iddo; ac y mae yn bryd

iddo ymadael, pan welo ei dŷ wedi ei osod uwch ei ben. Na haloga dy ysbryd nes y byddi wedi blino ar ei gymdeithas ef. Yn drydydd, Ystyria y gall fod mwy o ddrwg mewn pechod o eiddo y galon, nag o eiddo y llaw a'r corph; o herwydd fe gymmerir mwyhâd y rhai hyny oddi wrth ymddygiad y galon yn y weithred. Po fwyaf o'r galon a'r ysbryd a olynger allan, mwyaf o ddrwg sydd yn caelei ollwng i mewn at ryw weithred bechadurus. Y mae gwrthgilio yn y galon yn fwy na gwrthgilio. Cysur i enaid tlawd yw, pan ei tentier ac y byddo mewn blinder am ei lithriadau, er i'w droed lithro yn ol, etto nad yw ei galon ddim yn tynu yn ol, ond yn wnebeu at y nef a Christ ar yr un pryd. Felly, cyfeiliorni yn y galon sydd waeth na bod â chyfeiliornad yn y pen; o'r achos hwn mae Duw yn mwyhau pechod Israel â hyn, "Y maent bob amser yn cyfeiliorni yn eu calonau;" *Heb.* iii. 10. Eu calonau a redodd a hwynt at y trosedd; yr oedd eilunaddoliaeth yn hoff ganddynt; ac felly, buan y gwneid iddynt goelio yr hyn a'u boddiai yn oreu. Megys, o'r ochr arall, po fwyaf o'r galon a'r ysbryd a fyddo mewn rhyw wasanaeth sanctaidd, mwyaf o wir ddaioni sydd ynddo, er iddo syrthio yn fyr i ereill yn y dangosiad allanol. Rhagorodd dwy hatling y weddw ar y lleill oll, a Christ ei hun yn Farnydd; felly mewn pechod, er y dichon gweithrediaidau tu fewnol pechod, mewn meddyliau a serchiadau, ymddangos yn ysgafn yng nghlorion dyn, o'i gymharu â gweithred oddi allan; etto, dichon fod amgylchiadau yn perthyn yr rhai hyn a'u gwna yn fwy na'r lleill yng nghyfrif Duw. Y mae Pedr yn gosod pwys pechod Simon Magus ar y meddylfryd drygionus a ddangosodd ei eiriau ei fod yn ei galon: "Gweddia Dduw, a faddeuir i ti feddylfryd dy galon;" *Act.* viii. 22. Yr oedd pechod Saul yn arbed Agag, a'r goreu o'r defaid a'r ychain, ar ol cael gorchymyn i'w difetha, yn llai o lawer mewn gweithred nag oedd godineb a llofruddiaeth Dafydd; etto, fe'i gwneir yn gydradd ag un mwy na'r ddau, sef dewiniaeth ei hun: 1 *Sam.* xv. 23. Ac o ba le y cafodd ei bechod ef y fath liw, ond oddi wrth ddrygioni ei galon, oedd yn waeth na chalon Dafydd, pan yn ddyfnaf yn y brofedigaeth? Yn bedwerydd, Os caiff Satan ddyfod i mewn, a halogi dy ysbryd, O! mor anhawdd a fydd i ti sefyll ar hyny! Yr wyt eisoes wedi llymeitain o'i gawl, ac ar hyn yn debycach o gael dy drechu o'r diwedd i eistedd i lawr, a chymmyrd dy lawn bryd o'r hyn sydd, trwy i ti ei brofi, wedi llygru dy archwaeth yn barod. A thi yn myfyrio, a'th galon yn ennyn gan feddwl trachwantus, peth rhyfedd fyddai oni thorai y tân allan trwy dy wefusau neu waeth.

Cwest. Ond pa gynnorthwy a gawn yn erbyn y fath yma o demtasiynau Satan?

At. Yr wyf yn dy gyfrif di yn Gristion, sydd yn gofyn fel hyn; ac os wyt ti yn gofyn mewn symledd calon, y mae yn dy brofi yn un. Pwy arall a ofnai, neu a ddymunai o ddifrif ymwared rhag y gwestyry hyn? Hyd yn oed pan weddio dyn anianol am ymwared oddi wrthynt, drwg fyddai ganddo i'w weddi gael ei gwrandaw. Nid etto, Arglwydd, yw llef calon y fath un, fel yr addef Awstin am dano ei hun. Y mae pechod mor wirioneddol yn eppil yr enaid, ag yw plant yn eppil ein cyrph; ac y mae yn cael cymmaint ffafir yn ein golwg, i.e. mwy: canys fe all y pechadur ladd plentyn i gadw pechod yn fyw: *Mica* vi. 7. Ac o bob pechodau, nid oes un yn fwy anwyl na phechodau ealon.

1. Am eu bod yn gyntafanedig y galon bechadurus, a nerth penaf yr enaid ar waith ynddynt.

2. Am fod gan y galon fwy o rwysg ynddynt nag mewn gweithredoedd oddi allan. Y mae y dyn balch yn fynych wedi ei raffu wrth wychder bychan; ac nis gall efe ymwychu ac ymddangos i ereill yn y byd gyda'r rhwysg a ddymunai efe: ond o fewn i'w fynwes ei hun, gall osod chwareufwrdd i fyny, a dyfod yn mlaen yn ei dyb ffol yn dywysog mor fawr ac y myno. Gall y dyn maleisus yntau, yn ei ddymuniadau, ladd cynuifer mewn yehydig fynydau, ag a laddodd yr angel mewn noswaith o lu Senacherib. Gallai Nero fel hyn ladd holl bobl Rhufain ar y bloeyu ar unwaith.

3. Y pechodau hyn a arosant gyda'r enaid, pan fyddo ereill yn ei adael. Wedi i'r pechadur anafu ei gorph trwy feddwod ac afendid, a phrifio yn filwr methodig, analluog i ganlyn gwersyll y diafol yn hwy yn y ffyrdd hyny; yna, bydd i'r chwantau mell-dithiol hyn borthi y pechadur âg ystoriau am ei hen gastiau a'i fwyniant. Mewn gair, nid oes i'r chwantau calon hyn ddim ond tystiolaeth y gydwbybod am Dduw i'w darostwng. Y mae pechodau ereill yn rhoddi dyn i gywilydd o flaen dynion; ac megys yr oedd rhai a gredasant yng Nghrist, heb feiddio ei gyffesu ar gyhoedd, am eu bod yn caru gogoniant dynion; felly y mae rhai pechaduriaid, a attelir rhag arddel ei chwant ar gyhoedd, o herwydd yr un tynerwch i'w gair da. Ond nid oes dim ofn am hyny, os gallant ond anghofio fod y nefoedd yn eu gweled, neu berswadio eu humain nad oes dim perygl oddi yno: yna, y mae y ffordd yn rhydd; gallant fod mor ddrwg ag y mynont. Y pethau hyn a wnânt i bechodau tu-fewnol gael eu gwasgu a'u cofseidid mor dŷn. Gan hyny, os gelli di gael dy galon yn ymroddi yn erbyn y rhai hyn, gallaf anturio dy alw yn wir Gristion; ac er dy gynnorthwyo i'w herbyn—

1af. Bydd daer ar Dduw mewn gweddi, am iddo ysgog a threfnu dy galon, yn ei

meddyliau a'i dymuniadau. Os yw y tafod yn ddrwg, mor anllwyodraethus fel nas gall ond ychydig ei dlofi, O! beth yw y galon yr ehed y fath llawo o feddyliau allan o honi, cyn amled a'r gwenyn o'r cwch, a gwreichion o'r ffwrn? Nid yw ar law dyn, i.e. y duwiolaf ar y ddaear, i wneyd hyn heb gymmhorth dwyfol. Am hyny y cawn Dafydd mor fynych yn llefain am hyn, cael trefnu ei lwybrau yn ol ei ajr ef, uno ei galon i'w ofni, a gogwyddo ei galon at ei dystiolaethau. Fel gwas, pan fyddo y plentyn y mae yn gweini iddo yn aflonydd, ac na chlymmer ei reoli ganddo ef, efe a eilw ar y tad i ddyfod ato; yr hwn, pan gyntaf y dywedo a'r, a wna y plentyn yn ddistaw. Yn ddiammheu, yr oedd Dafydd dduwiol yn cael ei galon yn drech na'i fedr a'i allu ef; a hyn a barodd iddo gyrchu mor fynych yn yr achos ar Dduw. Yn wir, y mae Duw wedi addaw cymmaint a hyn i'w blant, "fforddio eu cerddedid" iddynt (*Salm* xxxvii. 23), yn unig y mae yn edrych am iddynt ddwyn eu calonau ato ef i'r dyben hwnw. "Treigla dy weithredoedd ar yr Arglwydd, a'th feddyliau a safant" (*Diar*. xvi. 3), neu a drefnir. A wyt ti yn wynebu ar ordinhâd lle yr wyt yn sier o gyfarfod Satan, yr hwn a'th flina di â meddyliau byd-ol, a gwaeth fe allai? Gâd i Dduw glywed o'th enau i ba le yr wyt yn myned, a pha beth yw dy ofnau. Byth nid yw yr enaid yn teithio mewn cystal trefn a phan y rhoddo ei hun dan arweiniad Duw.

2il. Gosod wyliadwriaeth gref ar dy synwyrâu oddi allan; y rhai hyn yw porthladdoedd Satan; yn enwedig y llygad a'r glust. Cymmer ofal beth a ddygech i mewn trwy y rhai hyn. Anfynych yr â ymddyddan ofer heibio heb adael rhyw orlliw ar y galon. Fel y mae awyr afiach yn tueddu at lygriad pethau blasus ynddynt eu hunain; felly, ymddiddanion diflas i lygru meddwl puraid. Am hyny, edrych ar i ti anadlu mewn awyr bur. Ac am dy lygad, na âd iddo wibio: y mae gwrthddrychau nwyfus yn peri meddyliau nwyfus. Gwyddai Iob fod ei lygad a'i feddyliau yn debygol o gydfyned; ac am hyny, i ddiogelu y naill, y mae yn gwneud ammod a'r liall: *Iob* xxxi. 1.

3ydd. Bwrw olwg arnat dy hun yn fynych mewn diwrnod, a chraffa pa gymdeithion sy gyda'th galon. Bydd meistr gofalus yn mynych edrych i'w weithdy, i weled beth y mae ei weision arno: a Christion doeth a wna yr un modd. Gallwn wybod wrth y swm yn yr ysgol nad yw y meistr yno. Y mae llawer o'r camreolaeth yn ein mynwesau ninnau yn codi oddi wrth yr esgeulusdra c edrych i'n calonau. Yn awr, wrth ymddiddan a'th enaid, gwna yr ymholiad triphlyg hwn:—

(1af.) Ai da, ynte drwg, yw yr hyn y mae dy galon yn myfyrio arno! Os drwg, y fath

ag yw meddyliau balch, aflan, anymddiriedus, dangos dy ffeiddiad o honynt, a cherwyddda yu llym dy enaid am gymmaint ag ymddiddan â hwynt; o'r hyn ni all dim ddyfod ond anfri ar Dduw, a niwed i'th enaid dy hun: a chynhyrfa dy galon i alaru o achos eu cymmydogaeth ddrwg hwynt. Trwy hyn ti a roddi dystiolaeth o'th fyddlondeb i Dduw. Pan alarodd Dafydd am Abner, dywedir, "Holl Israel a wybuant y diwrnod hwnw, na ddarfuaasai o fodd y brenin ladd Abner;" 2 Sam. iii. 37. Bydd i'th alar dithau, am y meddyliau hyn, ddangos nad ydynt o honot ti yn gymmaint ag o Satan.

(2il.) Oni byddant yn amlwg ddrwg, ymfodyn ai nid ydynt yn ddechymmygion gwag, ofer, a disylwedd, heb fod yn wasanaethgar i ogoniant Duw, na'th les dy hun, nac ereill. Ac os felly, na fydd lonydd nes gwneyd dy hun yn ddealladwy o fwriad Satan ynddynt i'th erbyn. Er nad ydynt at dy fwriad di, y maent at ei fwriad ef—hwy a wna't ei dro ef i'th gadw di rhag rhai gwell. Colli y mae yr holl ddwfr a redo heibio i'r felin; ac yn ofer yr ä dy holl feddyliau dithau, a fyddo heb dy gynnorthwoy at gyflawni gwaith Duw yn dy alwedigaeth gyffredinol a neillduol. Nid erys y weynen ar flodeuyn nad ellir sugno mël o hono; ac ni ddylai y Cristion chwaith. Dylid ddywedyd wrth dy enaid, Pa ham yr eisteddi yma yn segur, pan y mae genyt gymmaint i'w wneuthur dros Dduw a'th enaid, a chyn lleied o amser i'w gyflawni ynddo?

(3ydd.) Os gweli eu bod yn dda o ran mater, y rhai y mae dy galon yn brysur o'u deutu, yna ymfodyn a ydynt yn dda o ran pryd a dull. Heb hyn, y maent yn dirywio.

(1.) Am y pryd. Ffrwyth da yw hwnw a ddygir yn ei bryd. Yr oedd Crist yn caru y gwaith y mynai ei fam ei osod arno, gystal a hithau (Joan ii. 4); ond ni ddaethai ei awr ef. Meddyliau a myfyrdodau da wedi eu camgyfleu ydynt debyg i rai deongliadau ar yr Ysgrhythyr, yn wirioneddau da, ond yn agoriadau drwg. Nid yw y rhai hyn yn addas i'r lleoedd y tynir hwynt o honynt, na'r lleill i'r amser. Gweddio pan y dylem wrandaw, neu fyfyrto ar y bregeth pan y dylem weddio—ysbeilio Duw un ffordd yw hyn, i dalu iddo yn i lall.

(2.) Craffa yn ddyfal ar y dull. Dichon dy galon fyfyrto ar fater da, a'i andwyo yn y gwneuthuriad. Yr wyt, fe allai, yn meddwl am dy bechodau, ac am weithio dy galon i deimlad o honynt; ond fel hyn, tra yr wyt yn cynhyrfa dy alar, yr wyt yn gwanhau dy fydd ar yr addewid: dyna dy bechod. Llawfeddyg drwg yw efe, a ä mor ddwfr wrth agor gwythien nes y toro redweli (artery) ac anaflu y fraich, os nad lladd y dyn. Neu, yr wyt yn meddwl am dy deulu, a darparu iddynt—hyn a ddylid ei

wneyd, a gwaeth na'r di-ffydd fyddi os esgeulusi—ond fe allai fod y meddyliau hyn mor defrsglyd a dihyder a phe na byddai addewid na rhagluniaeth i'th gymmhorth. Mae Duw yn cymmyrd hyn yn ddrwg, am ei fod yn gwarthruddo ei ofal ef am danat. O! mor agos yw ein dyledmyddol yma at ein pechod! Y mae gofal cymwedd yn angenrheidiol fel balsam (ballast) i'r enaid; ychydig chwaneg a'i sudda dan y tonau o anghrediniaeth. Yn debyg i rai pethau tra iachus; ond un radd fwy o boethder, neu oerder, a'u gwnai yn wewyn.

PENNOD VIII.

Y modd y mae Satan yn ymgais am lygru meddwl y Cristion â chyfeiliornad.

Yr ail fath o bechodau ysbrydol yw y cyfryw ag sydd nid yn unig yn cael eu gweithredu yn yr ysbryd, ond yn perthyn i wrth-ddrychau ysbrydol, addas i natur yr enaid, sydd yn ysbryd; a'r rhai hyn heb ymhela ä gwyniau a chwantau cnawdol, yn y rhai nid yw yr enaid yn gweithredu ond megys ymgeisydd dros y corph, ac yn gyfranog o'i fwyniant, yn unig mewn ffordd o gydymdeimlad; o herwydd fel nad yw yr enaid yn teimlo poenau y corph mewn un ffordd ond trwy gydymdeimlad, felly nid ydyw chwaith yn rhanog yn mhleserau y cnawd trwy ddim blas priodol y mae yn ei gael arnynt, ond yn unig fel y mae, trwy ei agosrwydd at y corph, yn cydymdeimlo ä'i londer. Eithr mewn drygau ysbrydol sydd yn llygru y meddwl, yma y mae yr enaid yn ysgog yn ei gylch ei hun, gyda hyfrydych priodol iddo ei hun; ac nid oes dim llai o'r rhai hyn nag o'r lleill. Prin y mae un chwant cnawdol heb fod rhyw bechod ysbrydol yn dwyn tebygoliaeth iddo—fel y dywedant nad oes un math o greudur ar y tir, heb fod rhyw gyffelyb iddo yn y môr. Felly, gall calon dyn fagu pechodau ysbrydol, yn ateb i chwantau cnawdol. Am buteindra ac afleiddid y cnawd, y mae eilunaddoliaeth a ddarlunir yn yr Ysgrhythyr yn odineb ysbrydol; ac oddi wrtho y gelwir eisteddle Anghrist yn Sodom ysbrydol. Am fedd-dod anianol, y mae meddwod y meddwl, sydd yn brwysgo y farn ä chyfeiliornad; a meddwod calon, mewn gofalon ac ofnau, am falchder cnawdol mewn tegwch, cyfoeth, ac anrhydedd, y mae balchder ysbrydol mewn doniau, grasusau, &c. Yn awr, ä'r fath yma y mae Satan, mewn modd enwedigol, yn rhuthro ar y Cristion. Angenrheidiol fyddai ymddiddan helaethach nag a allaf fi roddi i redeg tros amryw fath o honynt. O fysg llawer, mi a ddewisaf allan ddau neu dri. *Yn gyntaf*, Y mae ymgais Satan am lygru y meddwl äg egwyddorion cyfeiliornus. Yr

oedd efe ar waith ym mhlaniad cyntaf yr efengyl, yn hau ei efrau agos cyn gynted a Christ ei wenith; a'r rhai hyn a dyfasant mewn cyfeiliornadau dinystrïol, i'e, yn amser yr apostolion: yr hyn a barodd iddynt gymmeryd y cryman chwynu yn eu dwylaw, ac ymgais yn eu holl epistolau am ddadymchwel Satan yn ei fwrriad hwn. Yn awr, y mae gan Satan fwrriad triphlyg yn ei gais hwn i lygru meddyliau dynion, proffeswyr yn enwedig, â chyfeiliornad.

DOSB. I.

1af. Efe a wna hyn o'i genfigen at Dduw; yn erbyn yr hwn nis gall ollwng ei falais mewn uwch gradd, na thrwy lygru¹ ei wirionedd, yr hwn y mae Duw wedi gosod y fath fri arno. "Ti a fawrhaist dy air uwch law dy enw oll;" *Salm cxxxviii.* 2. Y mae pob creadur yn dwyn enw Duw: ond yn ei air, a'i wirionedd cynmwysedig ynddo, y mae yn ysgrifenedig mewn llawn llythyr; ac am hyny, niwy dewisol ganddo hwn na'i holl weithredoedd ereill. Nid cymmaint ydyw ei ofal beth a ddaw o'r byd a'r cwbl sydd ynddo, ond iddo ef gadw ei air ac achub ei wirionedd. Cawn weled y byd, cyn bo hir, yn filam oleu; y nef a'r ddaer a änt heibio: ond "gair yr Arglwydd a bery yn dragwydd." Pan fyno Duw, efe a all greu mwy o'r fath fydoedd a hwn; ond nis gall efe wneuthur gwirionedd arall: ac am hyny, ni chyll efe un *iod* o hono. Gan fod Satan yn gwybod hyn, y mae yn gosod ei holl synwrau ar waith i ddiwyno hwn, a'i hacru trwy athrawiaeth afiach. Y gair yw y drych yn yr hwn y gwelwn Dduw; ac wrth edrych arno, ni a newidir i'w ddelw trwy ei Ysbryd. Os gwneir holltau yn y drych hwn, yna y dychymygion a fydd genym am Dduw a'i canndarluniant i ni; eithr y mae y gair, yn ei glaerder naturiol, yn ei osod ger bron ein llygal yn ei holl ogoniant.

2il. Y mae ei ymgais am ddenu i'r pechod ysbrydol hwn o gyfeiliornad, fel y modd mwyaf cyfrwys ac effeithiol i wanhau, os nid i ddinystrïo, grym duwioldeb ynddynt. Y mae yr apostol yn cyssylltu "ysbryd nerth a plwyll;" 2 *Tim.* i. 7. Y wir, y mae grym duwioldeb mewn ymarferiad yn ymddibynu llawer ar bwyll, neu iachusrwydd barn. Plentyn gwirionedd ydyw duwioldeb; ac os mynwu iddo gynyddu, rhaid iddo gael ei faethu â gwir laeth ei fam ei hun. Am hyn ein hannogir i "chwennychu didwyll laeth y gair, fel y cynnyddom trwyddo ef;" 1 *Pedr* ii. 2. Os bydd gyda'r laeth hwn ond ychydig gyfeiliornad, nid ydyw mor faethlawn. Y mae pob cyfeiliornad, er mor ddiniwed yr

ymddangoso, yn tynu ymaith, fel yr eiddew, rym cariad yr enaid oddi wrth dduwioldeb. Hosea a ddywed i ni fod godineb a gwin yn dwyn y galon ymaith: yn awr, godineb ysbrydol ydyw cyfeiliornad. Y mae Paul yn son am ddyweddiad rhai i Grist. Pan dderbynio dyn gyfeiliornad, y mae yn derbyn estron i wely Crist; a natur cariad godinebus yw dwyn ymaith galon y wraig oddi wrth ei gwir briod, fel nad ymhyfydda hi yn ei gymdeithas ef, fel yng nghymdeithas ei charw godinebus. Ac oni welwn ni gyflawniad o hyn heddyw? Onid oes llawer yn dangos mwy o sel i ddadleu dros un cyfeiliornad, na thros lawer o wirioneddau? Mor rhyfedd y mae calonau llawer wedi eu dwyn ymaith o ffyrdd Duw, a'u cariad wedi oeri at ordinadau a chenhadau Crist! Ac y mae hyn i gyd yn deilliau oddi wrth ryw egwyddor lygredig, a gafodd le yn eu mynwasau; a hono yn gwrthio Crist a'i wirionedd draw, fel y gwnai Agar a'i mab i Sara a'i phlentyn. Yn wir, ni fwynha Crist byth wir gariad priodasol oddi wrth yr enaid, nes y byddo iddo, fel Abraham, droi y rhai hyn dros y drws. Nid ydyw cyfeiliornad yn beth mor ddiniwed ag y tybia llawer: y mae fel ym-borth afiach i'r corph, sydd yn gwanhau yr ysbrydoedd, ac yn gorlwytho yr holl gorph; anfynech yr ä ymaith heb dori yn ddoluriau. Megys y mae y wybodaeth o Grist yn codi enaid uwch law halogedigaeth y byd, felly y mae cyfeiliornad yn ei faglu a'i fradychu i'r chwantau hyny, y diangasai unwaith o'u dwylaw.

3ydd. Y mae gan Satan, wrth dynu enaid i'r pechod ysbrydol hwn, fwrriad i aflonyddu heddych yr eglwys, yr hon a rwygir ac a ddernir pan ddel y llong dân hon i mewn. "Yr ydwyf yn clywed fod ymrafaelion yn eich mysg chwi," medd Paul, "ac o ran yr wyf fi yn credu: canys rhaid yw bod heresiau;" 1 *Cor.* xi. 18, 19. Ymrafaelion ydyw eppil naturiel heresi. Nid da y cytuna cyfeiliornad â chyfeiliornad, oddi eithr yn erbyn y gwirionedd: yna, yn wir, fel Pilat a Herod hawdd ydyw eu cael yn gyfeillion. Ond par dybier fod gwirionedd wedi ei faeddu, a'i frwydr drosodd gydag ef; yna, hwy a syrthiant allan yn eu plith eu hunain: ac am hyny nid rhyfedd fod cyfeiliornad yn gymmydog mor flinderus i wirionedd. O, Syrs, y fati ddistawrwydd a heddych hyfryd oedd yn mysg Cristionogion ddeuddeug mlynedd yn ol. Yr wyf yn meddwl mai hyfryd ydyw edrych yn ol ar y dyddiau da hyny, yn y golygiad hwn; er fod ganddynt eu blinderai ffordd arall; etto, nid mor anghysurus, an fod yr ystern hono yn uno, a hon yn gwanu ysbrydoedd y saint. Y cyfryw oedd undeb a chariad Cristionogion, fel y gallasa erlidwyr yr amser hwnw ddyweddy, meg y hynafiaid am saint y prif oesoedd "Gwelwch fel y maent yn caru eu gilydd!

¹ Y mae y cyfieithydd yn gweled achos i ddymuno ac i erfyn am i'r hyn y cyfarwyddwyd yr awdur enwog i'w ysgrifenu yn y ddau ddoesbarth hyn, gael lle a derbynïad dyladwy, gydag ystyriaeth dwys neillduol. Y mae yn gofyn ac yn haeddu hyny, fel y rhanau ereill yn gyffredinol o'i waith rhagorol.

Ond, och! yn awr hwy allant wawdio a dywedyd, Gwelwch y rhai a fu yn caru mor anwyl, yn barod i dynu allan gyrn gyddfau eu gilydd!

DOS. I.

Defn. Caiff y cymmhwysiad o hyn fod yn unig mewn gair o annogaeth i bawb, yn enwedig i chwi sydd yn dwyn enw Crist trwy broffes fwy arbenig o hono. O, gwyliwch rhag yr haint enaid hwn—y pla hwn yn y pen! Yr wyf yn gobeithio na thwybiwch hyn yn afreidiol; o blegid afiechyd yr amseroedd ydyw. Y mae y pla hwn wedi dechreu, i.e., yn ymdaenu yn gyflym: prin y cawn ddiadell neu gynnulleidfafa heb y gramen hon yn eu mys. Yr oedd Paul yn bregethwr y gall y goreu o honom ymgais am ei ddilyn; ac y mae efe yn gwasgu hyn ar y saint, i.e., yn ystod parhaus ei bregethiad, yr oedd yn un rhan o'i bregeth ef; ac y mae yn ein gosod ninnau, bregethwyr, ar y gwaith hwn: "Edrychwch arnoch eich hunain, ac ar yr holl braidd; canys myfi a wn hyn, y daw, ar ol fy ymadawiad i, fleiddiaid blinlon i'ch plith; ac o honoch chwi eich hunain y cyfyd gwyr yn llefaru pethau gŵyrdraws; am hyny, gwyliwch;" *Act. xx. 28—31.* Ac yna y mae yn gosod o'u blaen ei esampl ei hun, na wnaeth efe ond prin un bregeth dros lawer o flyneddoedd, heb fod hyn yn rhan o honi, "rhybuddio pawbnos a dydd â dagrau." Nid oes achos i ni brophwydo pa dwyllwyr a all ddyfod ar y bwrdd pan elom ni ymaith; y mae gormod o'r haid hon ar y bwrdd eisoes yn tynu disgyblion ar eu hol. Ac os yw yn ddyledswydd arnom ni eich rhybuddio am danynt, yn ddiau dylech chwithau wyllo rhag eich arwain gan neb o honynt i brofedigaeth, yn yr awr hon, yn mha un y mae Satan wedi ei ollwng yn rhydd mewn mesur mor helaeth i dwyllo y genedl. Oni ellwch chwi gael eich suru â'r lefain hon mor hawdd a'r disgyblion, y rhai y mae Crist yn erchi iddynt ymogelyd! A freiniwyd chwi uwch law eglwysi Galatia a Corinth, llawer o ba rai a lygad-dynwyd gan athrawon gau ac a drowyd mewn ystyr at efengyl arall? A aeth Satan yn un unionged? Neu a gollodd ei offerynau ef eu cyfrwysdra, y rhai a helant am eneidiau? Mewn gair, ai nid oes tueddied yn dy galon lygredig di at gyfeiliornad? Ai nid oes ynot ogwyddiad, sydd fel mygdarth, yn ei wneuthur yn naturiol i'r chwyn yma dyfu yn dy dir? Oni weli di lawer wrth draed y gelyn hwn, ar ol bod yn eistedd ar fynydd eu ffydd, ac yn meddwl na syffid hwy yn dragywydd? Yn sicr, buasai yn chwith ganddynt glywed—Chwi yw y bobl a amherchwch Sabbathau, a gyfrifir genych yn awr yn sanctaidd; chwychi a drowch yn Forganiaid, y rhai ydych yn awr yn ffeiddio yr enw; chwi a ddirmygwch brophwydoliaeth, y rhai yn awr a ymddangoswch mor dra-pharchus o'r prophwydi; chwi

a destwch ddyledswyddau teuluaidd dros y drws, er na feiddiwch yn awr fyned o'ch taines i chwi fod wedi gweddio yno. Etto, y mae y pethau hyn, a mwy na'r rhai hyn, wedi dyfod i ben: ac onid ydyw yn gweddu i ti, Gristion, ymogelyd rhag dy gwmpo dithau hefyd? Er dy ragflaenid:—

1af. Bydded dy ymgais penaf am gyfnewidiad trwyadl yn dy galon. Os unwaith y bydd gwreiddyn y mater yno, a thithau wedi dy sylfaenu ar Grist, trwy ffydd fywiol, yr wyt yna yn ddiogel; nid wyf yn dywedyd yn hollol rydd o bob cyfeiliornad; ond yr wyf yn sicr o hyn, yn ddiogel rhag suddo dy enaid mewn cyfeiliornad damniol. "Oddi wrthym ni yr aethant hwy allan," medd Ioan; "ond nid oeddynt o honom ni: canys pe buasant hwy o honom ni, hwy a arosasent gyda ni;" *1 Ioan ii. 9.* Fel pe dywedasai, Yr oedd ganddynt ryw broffes oddi allan, a gwaith cyfiredin yr Ysbryd gyda ni; a hyn y maent naill ai wedi ei gollu, neu wedi ei ddwyn trosodd i wersyll y diafol; ond erioed ni bu ganddynt eneiad yr Ysbryd sancteiddiol. Wrth hyn y mae yn eu gwahaniaethu hwynt (*adm. 20*), ac yn cysuro y rhai diffuant, y rhai o bosibl a allent fod yn ofni eu cwmp eu hunain trwy eu gwrthgiliaid hwynt: "Eithr y mae gennych chwi eneiad oddi wrth y sanctaidd hwnw, a chwi a wyddoch bob peth." Un peth ydyw gwybod gwrionedd; peth arall ydyw ei wybod trwy eneiad. Gall rhagrithiwr gyrhaedd y cyntaf, y duwiol yn unig yr olaf. Yr eneiad hwn sydd yn rhoddi i'r enaid arogl y wybodaeth o Grist. Y rhai hyny sydd yn ysbaill addas i dwyllwyr, sef y rhai a oleuwyd, ond ni fywhawyd. O! da ydyw cael y galon wedi ei chryfhau â gras; dyna angor a'n ceidw rhag fyned gyda'r llif, a rhag ein "harwain oddi amgylch âg athrawiaethau amryw a dieithr," fel y mae yr apostol yn rhybuddio: *Heb. xiii. 9.*

2il. Bydd ddyfal wrth waith marwâd: croeshoelia'r cnawd beunydd. Y mae heresi, er mai pechod ysbrydol ydyw, yn cael ei gyfrif gan yr apostol ym mys gwethred-oedd y cnawd (*Gal. v. 20*), am mai ysgogiadau cnawdol sydd yn ei fagu, ac ymborth a thanwydd cnawdol sydd yn ei faethu. Ni throdd neb erioed yn heretic heb fod cnawd yn y gwaelod; un ai gwasanaethu eu boliau, neu drachwant o falchder. Yr oedd yn ffordd i'r llys, neu yn diogelu eu meddiannau, ac yn cadw eu bywyd; megys mai tân a flagodau ydyw gwobr gwrionedd weithiau. Y mae rhyw ddrwg neu gilydd yn y gwellt, pan fyddo leiaf yn y golwg: ac am hyny, nid rhyfedd fod i heresiau ddiweddu yn y cnawd, pan y mae eu tarddiad, mewn rhyw ddull, o hono. Y lliflyn yn y pen, mewn lleithder o'r cylla y mae yn codi; y mae yn dychwelyd yno, neu i'r ysgyfaint; yr hon, o'r diwedd, a lygrir, ac a dŷr yn friwiau. Serchiadau

cnawdol yn gyntaf a anfonant eu mygdarth i'r deall, gan gymmylu, i.e. ei wobrddeu, i dderbyn y cyfryw a'r cyfryw egwyddorion; a'r rhai hyn, wedi eu derbyn, a ddisgynant i'r fuchedd, gan lygru hono â'r gorfriw o halogrwydd. Felly, Gristion, os unwaith y gelli ryddhau dy hun o'th ymrwymadau i'r cnawd, a dyfod yn wr rhydd, fel ag i beidio rhoddi dy lais (*vote*) i foddio ofn, neu obaith cnawdol, ti a fyddi felly yn gyfaill cywir i wirionedd.

3ydd. Disgwyl yn gydwybodol wrth weindogaeth y gair. Y mae Satan, yn gyffredin, yn cau y glust rhag gwrandaw athrawiaeth iachus, cyn ei hagog i dderbyn un llygredig. Dyma drefneidiau yn gwrthgilio oddi wrth wirionedd: "Oddi wrth y gwirionedd y troant, ac at chwedlau y troant;" 2 *Tim.* iv. 3, 4. Y mae Satan, fel lleidr cyfrwys, yn tynnu enaid o'r brif-ffordd i ryw heol neu gilfach, ac yno yn ei ysbeilio o'r gwirionedd. Trwy wrthod un ordinhâd, yr ydym yn difuddio ein hunain o fendith y lleill oll. Na ddywed dy fod yn gweddio am gael dy dywys i wirionedd; ni wrendy efe dy weddi, os wyt yn troi ymaith dy glust rhag gwrandaw y gyfraith. Y neb sydd yn caru ei blentyn, pan ei gwelo yn chwareu llech, efe a'i chwipia i'r ysgol. Os yw Duw yn caru enaid, efe a'i dwg yn ol at y gair gyda chywilydd a gofid.

4ydd. Pan glywech un athrawiaeth anarferol, er mor foddhaol y byddo, na phrioda hi ar frys; myn ryw well tystiolaeth am dani cyn i ti agor dy galon iddi. Y mae yr apostol yn wir yn erchi i ni lettya dieithriaid, "canys felly y llettyodd rhai angyllion yn ddiafrybod" (*Heb.* xiii. 2); ond ni fyn efe i ni gael ein "harwain oddi amgylch âg athrawiaeth ddieithr" (*adn.* 9); wrth hyn, sier wyf fod rhai wedi lettya diafriaid. Yr wyf yn addef nad digon i beri gwrthod athrawiaeth yw ei bod yn ddieithr i ni; ond sail sy genym i ddisgwyl ac ymfodyn. Yr oedd yn rhyfedd gan Paul fod y Galatiaid wedi eu symmud mor fuan oddi wrtho ef, a'u galwasai i ras Crist, at efengyl arall: hwy a ddylasent aros nes hysbysu y mater i Paul, a gofyn ei farn yntau. Pa beth? Yn ebrwydd ar ddyfodiad hudwr i'r wlad, ac agor ei feichyn, prynu ei bethau oll ar y golwg cyntaf! O gyfeillion, oni fyddai yn fwy doeth gweddio drachefn a thrachefn uwch ben y fathdybiau newyddion, chwilio y gaira'n calonau wrtho; i.e. a pheidio ymddiried i'n calonau ein hunain, ond gofyn cynghor gan ereill hefyd; ac onid oes cynmairt cred genych i'ch gweinidog, etto, gan y Cristionogion mwyaf duwiol, gostyngedig, a diysgog a alloch eu cael? Mae cyfeiliornad fel pysgodyn, yr hwn y mae yn rhaid ei fwyta yn fuan, neu fe ddrewa. Pan dorodd y cyfeiliornadau enbydus hyny allan yn Lloegr Newydd, O, mor ansefydlog oedd llawer o'r eglwysi! y fath grochfloedd a wnaed, fel pe buasai mawnglawdd aur wedi

ei gael! Ond ar ol ennyd, pan ymddangosodd y cyfeiliornadau hyny yn eu lliw, ac y gwelwyd i ba le yr oedd eu tueddiad, sef i ddinystrio eglwysi, ordinhadau, a grym duwioldeb; yna, y rhai oedd yn ofni Duw, er eu bod wedi cilio o'r neilldu, a droisant yn ol gyda chywilydd a gofid.

PENNOD IX.

Am falchder doniau, a'r modd y tentia Satan y Cristion iddo.

Yr ail ddrwg yr annog Satan iddo—y sant yn enwedig—yw *balchder ysbrydol*. Dyma y pechod a'i gwnaeth ef o angel gwynfydedig yn gythraul melldigedig. Ac fel mai hwn oedd ei bechod personol ef, felly y mae ei ymgais penaf am ei fagu ym mysg meibion dynion: ac efe a lwyddodd mor bell gyda'n rhieni cyntaf, nes yw y pechod hwn, o hyny hyd heddyw, yn hōni rhyw hawl i oruchafiaeth yn y galon, ac yn defnyddio drwg a da i lusgo ei gerbyd. Yn gyntaf, y *drwg*. Y mae balchder yn myned i mewn i lawr pechodau ereill: llafurio y maent hwy i wneud hon yn wych; fel deiliaid i ddal i fyny wychder a rhwysg eu tywysog. Fel hyn y gellwch weled rhai yn gweithio ac yn ymboeni yn galed, yn hudo, yn twyllo, yn gorthrymu, a pha beth yw eu hamgais i O, cael etifeddiaeth i gynnal eu balchder. Ereill a druthiant, a wneithiant, a ddywedant gelwydd, ac a ffugiant; ac i ba beth i I gynnorthwyo balchder i fyny i ben rhyw fryn o anrhydedd. Drachefn, fe ddefnyddia balchder yr hyn sy dda: gall weithio âg arfau Duw ei hun, ei ordinhadau, trwy bera i dwg yr Ysbryd Glân ei deyrnas o ras yn mlaen yng nghalonau ei saint. Llogir y rhai hyn yn fyrych i falchder. Gall dyr fod yn dra gwresog mewn gweddi a phoenau yn pregethu, a balchder fod o hyd y meistr y mae yn ei wasanaethu, er mai yn lifra Duw. Gall lechu am noddfa yn y gweithredoedd sancteiddiolaf, ac ymguddio dau odreu rhinwedd ei hun. Fel hyn, tra y mae dyn yn rhoddi elusen, gall balchder fod y eilun dirgel i ba un y mae efe mor rhydd yn gwastraffu ei aur. Anhawdd yw newyn y pechod hwn: nid oes braidd ddim nas gall efe fyw arno; dim mor wael nas gall calof falch ymddyrfachaf arno; na dim mor gyssegredig na haloga hi ef; gwna, hi a faide yfed o gawgiau y cyssegr; i.e. yn hytrach na threngu, hi a ymbortha ar furguniad pechodau ereill. Tra anhawdd yw trechu y pechoda ymgyfyd o ddarostyngiad pechodau ereill. Yr anwesyn hwn, balchder, a gynnhyrfa y enaid i wrthsefyll; i.e. mewn ystyr, i lad rhai pechodau, megys i ddangos eu penaf mewn bost, a chwythu y creadur i fyny thyb am dano ei hun uwch law ereill. Megy

y Pharisead, yr hwn trwy falchder a ymfrostiodd nad oedd efe fel y publican. Felly, bydd gan falchder, oni edrychir ar ei ol, waith yn mhob lle, a chylch helaeth yr ym-symmuda ynddo. Yn wir, nid oes dim a fedd neu a wna y creadur na fydd, heb gyn-northwy dwyfol, yn ysglyfaeth yn fuan i'r difawr hwn: eithr nid wyf fi i'w drin yn ei lydander. Y mae balchder yn ymarfer naill ai â gwrthddrychau cnawdol, megys balchder tegwch, cryfder, cyfoeth, a'r cyffelyb, ai â rhai ysbrydol. Ar yr olaf y llefaraf ychydig. Yr wyf yn addef am y rhai cyntaf, fod yn bosibl i sant gael ei ddal ynddynt, nid oes un pechod i fod yn ddiystyr yn ei achos, etto nid mor fynych: canys balchder yn gyffredin a saif ar y rhagoriaethau hyny a fyddo yn addas, os nid yn briodol, i'r ystâd a'r galwad y byddom ynddo. Fel hyn y cerddor, y mae efe yn falch o'r gallu sy ganddo yn ei gelfyddyd; trwy yr hyn y mae yn rhagori ar ereill o'i radd ef. Yr ysgolhaig, er y gall ar gerdd, ysgatfydd, gystal ag yntau, etto, nid yw efe yn falch o hyny, ond edrycha arno fel peth islaw ei sylw: na, balch yw efe ar ei ddysg a'i olygiadau dewisol; ac felly am y lleill. Yn awr, y mae bywyd Cristion, fel Cristion, yn uwch na bywyd dyn, fel dyn; ac am hyny, nid ydyw efe yn prisio ei hun wrth y rhai hyn sydd islaw iddo, ond wrth ragoriaethau uwch a mwy dyrchafedig, sydd yn gyfaddas i alwad y Cristion. Fel y mae dyn anianol yn falch o ryw ragoriaethau perthynol i'w ystâd naturiol, megys anrhydedd a glendid, felly y mae y Cristion yn dueddol, yn benaf, i ymchwyddo arragoriaethau addas i'w gyflwr yntau. Mi a enwaf dri:— Balchder doniau, balchder gras, a balchder breintiau. Y rhai hyn ydyw y pethau yr ymgais Satan yn benaf am ei faglu ef ynddynt.

DOSE. I.

1. Balchder doniau. Wrth ddoniau yr wyf yn meddwl y rhoddion goruwchnaturiol hyny, â pha rai y mae Ysbryd Duw yn addurno ac yn cynnysgaedd meddyliau dynion, er adeiladaeth corph Crist. O'r doniau hyn, fe ddywed yr apostol i ni fod amrywiaeth mawr, ac oll o'r un Ysbryd: 1 *Cor.* xii. 4. Nid oes amrywiaeth mwy mewn llwliau a rhywiau o blangion a blodau, sydd fel llawlen (*carpet*) amryliw o waith edau a nodwydd yn britho y ddaear, er lloni a gwasanaeth dyn, nag sydd o ddoniau, naturiol ac ysbrydol, yn meddyliau dynion, i'w gwneuthur yn ddefnyddiol i'w gilydd mewn cymdeithasau gwladol a chyfeillach Grigionogaid. Y mae y Cristion gystal a'r dyn, wedi ei fwiadu i fod yn creadur cymdeithasgar; ac er mwyn gwell trefn ar y wladwriaeth ysbrydol hon ym mysg Cristionogion, y mae Duw, yn ddoeth a grasol, yn darpar ac yn cyfranu doniau addas i sefyllfa pob un yn y frawdoliaeth;

megys y mae llestri yn fwy neu yn llai yn y corph naturiol, yn ol y lle sydd iddynt yn hwnw. Yn awr, ymgais Satan, hyd y gallo, sydd am lygru, a chwythu gwynt drwg i'r doniau hyn, trwy falchio Cristion, fel ag yr anafo felly fasnach a marsiandiaeth Cristionogion; yr hon a gynnelfr rhyngddynt trwy ddoniau a grasau eu gilydd. Y mae balchder doniau yn rhwystro marchnadwaith Cristionogion, o leiaf eu cynnydd trwy eu masnach, mewn dwy ffordd:—

1af. Balchder doniau ydyw yr achos pa ham y gwawn cyn lleied o les â hwynt i ereill.

2il. Yr achos pa ham y derbyniwn cyn lleied o les oddi wrth ddoniau rhai ereill.

(1af.) Y mae balchder doniau yn rhwystro i wneyd lles â hwynt i ereill; a hyny ar gyfrif triphlyg:—

(1.) Y mae balchder yn gwyro dyn oddi wrth gyfeirio at y dyben hwnw. Cyn belled ag y tygia balchder, y mae y dyn yn gwddio, yn pregethu, &c., yn hytrach i'w dybied yn un da gan ereill, nag i wneuthur da i ereill; i'w orseddu ei hun, yn hytrach na Christ, yn nhybiau a chalonau ei wrandawyr. Y mae balchder yn codi dyn i'r nen, i gael ei ryfeddu am uchder ei alluoedd a'i dybiau; ac ni oddef iddo blygu mor isel ag i son am wirioneddau eglur: neu, os gwna, nid mewn eglurder syml; rhaid ydyw iddo ef gael ryw ysnoden fain, fe, ar ei wê gyffredin. Dichon y fath ogleisio y lesust; ond y mae yn dra annhebyg i wir lesau eneidiau. Och! nid hyny ydyw ei fwiad.

(2.) Os canfyddir y Iezebel hon o falchder yn edrych trwy y ffenestr, mewn rhyw ymarferiad, pregethu, gwddio, neu ymddiddan; y mae yn cenhedlu diystyrwch yn ysbrydoedd y rhai a fyddo yn clywed y cyfryw un, y rhai drwg a'r da hefyd. Y mae yn bechod tra atgas gan galon rasol, ac yn fynych yn peri i'r ei cylla wrthod y bywd, er iddo fod yn dda, gan rym eu casineb at y balchder a welant yn yr offeryn. Yn wir, eu gwendid hwy ydyw hyn; ond gwae i'r rhai sydd, trwy eu balchder, yn eu dwyn i brofedigaeth. Yn chwaneg, nid ydyw y rhai sydd yn ddrwg, ac fe allai yn yr un drwg, yn hoffi mewn un arall, yr hyn a faethant ynddynt eu hunain; ac felly, yn eu rhagfarn, yn dyfod yn ol mor ddrwg ag yr aethant.

(3.) Y mae balchder doniau yn ein hysbeilio o fendith Duw yn ein harferiad o honynt. Gall y dyn gostyngedig gael Satan ar ei ddeheulaw, yn ei wrthwynebu; ond sier ydyw, y caiff y dyn balch Dduw ei hun yno yn ei wrthwynebu, pa bryd bynag yr elo at ryw ddyledswydd. Y mae Duw yn cyhoeddi hyn; ac fe fynai i'r dyn balch wybod y gwna efe ei wrthsefyll pa bryd bynag y cyfarfyddo âg ef; y mae efe yn gwrthwynebu y beilchion. Y mae doniau mawrion yn

deg fel Rachel; ond balchder a'u gwna hwynt yn ddiffwrth fel hithau. Naill ai rhaid i ni osod hunan o'r neilldu, neu fe'n gesydd Duw ni o'r neilldu.

2il. Y mae balchder doniau yn attal derbynriad budd oddi wrth ereill. Balchder a leinw yr enaid; ac enaid llawn ni chymmer ddim gan Dduw—llawer llai gan ddyd—i wneuthur iddo les. Y mae y fath yn dra danteithiol: nid pob pregeth, er iddi fod yn fwyd iachus; nid pob gweddi, er iddi fod yn fflus, a ä i lawr. Rhaid yw i hwn gael dewis dysglaid; y mae yn meddwl fod ganddo un well o'i eiddo ei hun. Ac a yw y fath un yn debyg i gael lles? Ac yn wir y mae i'w weled, fel y mae dyn gwledig wrth yr aradr, a all fwyta rhyw fwyd gartref, os yn iachus, yn meddu mwy o iechyd, ac yn gallu gweithio mwy mewn diwrnod, nag a fwynhâ llawer, neu a wnânt, yn eu holl fywyd, a hwy yn foethus, yn ddicra, a rhy foneddigaidd eu byd. Felly, y Cristion isel a all ymborthi ar wirioneddau syml ac ordinhadau heb fod ynddynt gymaint o gelfyddyd ddynol i'w canmawl i'r archwaeth; efe a fwynhâ fwy o Dduw na'r profesywyr moethus, y rhai y mae yn rhaid gweini iddynt oll mewn dysgl orwyech o ddoniau anghyffredin. Yr oedd eglwys Corinth yn enwog am ddoniau, uwch law eglwysi ereill (1 Cor. i.), ond nid mewn gras: ni achwynir cymmaint ar un am wendid yn hwnw (1 Cor. iii. 2)—y mae yn eu galw yn "rhai cnawdol, rhai bach yng Nghrist," mor weiniaid fel na allent dderbyn bwyd dyn cryf: "Mi a roddais i chwi laeth i'w yfed (medd Paul), ac nid bwyd cryf: canys hyd yn hyn ni allech, ac nis gellwch etto yr awrhon ei dderbyn." Pa ham? Beth yw'r mater? Ni a gawn y rheswm yn *adn.* 3: "Cnawdol ydych;" "mae yn eich plith genfigen a chynnhen." Un a ddywed, "Myfi ydwyf eiddo Paul; arall, Myfi wyf eiddo Apolos;" *adn.* 4. Balchder a barodd iddynt ymbleidio ac ymwahanu, un o du y pregethwr hwn, arall dros y llall, fel yr oedd eu tybiau am eu rhagoriad ar eu gilydd. Ac nid hon yw y ffordd i gynyddu. Balchder a ddifetha gariad; ac o ddiffyg cariad, y mae adeiladaeth yn colli. Gwnaeth y diafol waith erehyll yn yr eglwys trwy y peiriant hwn. Y mae Zanchy yn ardrodd am un yn Geneva, yr hwn, pan ofynwyd iddo ddyfod i wrandaw Viret—oedd yn pregethu ar yr un amser a Calvin—a atebodd ei gyfaill, Pe byddai Paul i Bregeth, mi a adawn Paul ei hun i glywed Calvin. Ac a wna balchder yn noniau un arall dasfu mor bell, te, i gyffiniau cabledd? Pa waith ynte. A wna balchder pan fyddo'r doniau yn eiddo'r dyn ei hun?

DOSEB. II.

Defn. 1. A yw Satan fel hyn yn cynhyrfu'r saint i'r balchder ysbrydol hwn o ddoniau? Y mae yma, Yn gyntaf, air i

chwi, sydd o ddoniau gwael, etto yn meddu gwir ras: Byddwch foddolawn i'ch cyflwr. Fe allai, pan glywch ereill, mor ddoniol y gweddient, mor fedrus yr ymddiddanant am wirioneddau Duw a'r cyffelyb, dy fod yn barod i fyned i gongl, a galaru wrth feddwl mor wan yw dy gof di, mor dywyll dy ddirnadaeth, mor gul dy ysbryd; prin y gelli di, ie, yn y dirgel, draethu ac adrodd dy feddwl wrth Dduw mewn gweddi. O! yr wyt yn barod i dybied y rhai hyn yr unig wyr a gwragedd dedwydd, ac agos i rwgnach wrth dy gyflwr dy hun. Wel, ai nis gelli di ddywedyd, Er na feddaf eiriau, yr wyf yn go-beithio fod genyf ffydd? Nis gallaf ddadleu dros y gwirionedd, ond yr wyf yn foddolawn i ddiodef drosto! Nis gallaf gofio pregeth, etto nid wyf un amser yn gwrandaw'r gair heb fod yn casau pechod, ac yn caru Crist yn fwy nag o'r blaen! Arglwydd, ti a wyddost fy mod i yn dy garu di. Yn ddiau, Gristion, y mae genyt y rhan oreu; ac ychydig wyt yn feddwl pa drugaredd a all fod wedi ei phlygu, ie, yng ngwaelder dy ddoniau, na pha demtasiynau y mae eu doniau hwynt yn eu rhoddi yn agored iddynt; a Duw, am a wn i, mewn trugaredd, yn nacau eu rhoi i ti. Gwnaeth siaced Ioseph ef yn wychach na'i frodyr; eithr hyn a fu yr achos o'i holl flinder; hyn a barodd i'r saethyddion fod yn chwervw wrtho. Fel hyn y mae doniau mawr yn codi Cristion ychydig yn uwch yng ngolwg dynion: ond y mae hyn yn achlysur o demtasiynau lawer, y rhai nid wyt ti yn eu cyfarfod, sydd yn cael dy gadw yn isel. Rhwng cenfigen oddi wrth eu brodyr, malais oddi wrth Satan, a balchder eu calonau eu hunain, mi a feiddiaf ddywedyd, nid oes neb yn ei gael yn waith mor anhawdd a'r cyfryw i fyned i'r nef. Digon o orchwyl yw dal i fyny yn erbyn y tonau a'r gwyntoedd hyn; tra yr wyt ti yn tynu yn agos i'r lan, gyda'r awel i'r nef. Y mae gyda'r cyfryw, megys gyda rhyw arglwydd mawr, ág ystâd fechan: y mae gan wr gwaelach yn fynych arian yn ei bwrs, pryd na bydd ganddo ef; ac fe all fenthyca i'w arglwyddiaeth wrth angen. Y mae doniau megys teitlau anrhydeddus ym mysg dynion: ond fe all llawer o'r cyfryw ddyfod i geisio benthlyg gras a chysur gan frawd bach ei ddoniau; y pregethwr, fe allai, gan ei gymnydog tlawd. O, Gristion tlawd! na rwgnach, ac na chemfigena wrthynt; ond yn lytrach, gweddia drostynt; y mae arnynt angen hyny yn fwy nag ereill: y mae ei ddoniau ef yn eiddot ti, ond dy ras di yf eiddot dy hun. Yr wyt fel marsiandwr, sydd â'i farchnatawr yn myned i'r môr; ond dygir ei anturiaeth adref iddo ef heb eubdyrwydd. Yr wyt yn gyfranog ág ef mewn gweddi, ac yn cael help ei ddoniau; ond hel ei demtasiwn ef i falchder.

Defn. 2. Yn 2il. A yw Satan fel hyn yr

denu i fod yn falch o ddoniau? Mae hyn yn galw arnoch chwi, i'r rhai y rhoddodd Duw ddoniau mwy na chyffredin: Gochelwch falchder, sydd yn awr yn fagl o'ch blaen. Y mae Satan ar waith: os bydd modd, efe a dry dy offer rhyfel i'th erbyn dy hun. Mewn ymstyngiad y mae dy ddiogelwch: os torir y cudyn hwn, y mae llengau uffern arnat. Cofia â phwy y mae dy ymdrech, drygau ysbrydol; a'u chwerau yw dy godi di i fyny, i roddi i ti godwm trymach. Yn awr, i gymhyrfu dy galon yn fwy yn erbyn balchder, mi a chwanegaf rai ystyriaethau at iselu dy feddwl.

1af. Ystyria mai nid eiddot ti yw y doniau ysbrydol hyn: ac a falchdi di ar haelioni un arall? Onid Duw yw trefnw'r, ac onis gall efe fod yn fuan yn anhrefnw'r dy ddoniau? Tydi, yr hwn wyt yn falch o'th gicaion, beth a fyddi pan ddiflano? Yn sicr, ti a fyddi yn annynad ac anfoddog: ac yn ddiaw, yr wyt ar y ffordd i gael dy ddiidonio. Nid ar yr un anmodau y mae doniau yn dyfod a gras. Y mae Duw yn rhoddi gras megys rhydd-feddiad; y mae iddo addewid o'r byd hwn a'r un i ddyfod: ond doniau, ar foddhâd y maent yn sefyll. Er na fwrw tad mo'i blentyn ymaith, etto, efe a all ddwyn ymaith ei wisg a'i addurniadau gwychieon, os balchia efe arnynt.

2il. Nid i ti dy hun yn unig y mae doniau. Megys y mae goleu yr haul yn weinidogaethol; nid iddo ei hun y mae yn llewyrchu; felly, i ereill y mae dy holl ddoniau di: doniau i adeilad y corph. Bwr-iwch fod i ddyd adael eistiad o arian yn eich dwylaw chwi i'w cyfranu i ereill: pa fath ffolineb fyddai i chwi roddi hyn yn rhestr eich eiddo eich hun, ac ymfrostio fod genych gymmair o arian? Enaid truan, nid wyt ti ond cymmynweinydd (*executor*) i Dduw; ac erbyn y byddych wedi talu yr holl gymmynroddion, ti a gei weled na bydd ond ychydig wedi ei adael i ti ymfrostio o hono.

3ydd. Gwybydd, Gristion, y gelwir di i gyfrif am y talentau hyn. Yn awr, â pha wyneb y gall enaid balch edrych ar Dduw? Bwriwn fod un yn rhoddi ar gymmynweinydd dalu cymmynroddion, ac yntau yn eu talu, nid fel cymmynroddion gwr arall, ond fel ei roddion ei hun. Crist, ar ei esgyniad, a roddes roddion i'w blant gael eu derbyn: y mae genyt ti ran yn dy law. Y mae enaid balch yn rhoddi y cwbl allan, nid fel cymmynrodd Crist, ond fel ei eiddo ei hun; efe a hōna'r cwbl iddo ei hun. O! mor ffaidd ydyw hyn, i ni ein hunain hōni hawl ar anrhydedd Crist!

4ydd. Ni wna dy ddoniau dy ganmawl wrth Dduw. Gall dyn gael ei ddal â'th ymadrodd a'th ddechymyg mewn gweddi; ond y rhai hyn oll a bilir ymaith, pan ddel dy weddi ger bron Duw. "O wraig!" medd

Crist, "mawr yw dy ffydd;" nid moeswyh a pharablus dy iaith. Da fyddai i ni, ar ol ein dyledswyddau, wahanu y cyfferiau oedd yn eu gwneuthur i fyny, gan ystyried pa faint a gyfranodd gras, doniau, a balchder hefyd; ac ar ol gwahanu yr holl amryw ddefnyddiau, chwi a gewch weled ym mha gyloch bychan y saif gweithrediadau gras yn ein dyledswyddau.

5ed. Ystyried, tra yr wyt yn balchio yn dy ddoniau, yr wyt yn gwanhau ac yn gwywo dy ras. Y mae y cyfryw yn debyg i ffd sydd yn tyfu yn wellt uchel, tywysen yr hwn yn gyffredin nid ydyw ond ysgafn a theneu. Y mae gormod o fychaniad ar ras, lle y mae doniau o bris rhy uchel. Gorchymynir i ni fod wedi ymdrwisio â gostyng-eiddrwydd. Y mae ein gwisgoedd yn cuddio gwarth ein cyrph—gostyng-eiddrwydd ydyw harddwch yr enaid. Ac megys na all corph tyner fyw heb ddillad, felly nis gall gras chwaith heb y wisg hon o ostyng-eiddrwydd. Y mae balchder yn lladd ysbryd mawl; pan y dylit fendithio Duw, yr wyt yn molli dy hun. Y mae yn dyfetha cariad Cristionogol, ac yn gwanu cymdeithas gyda'r saint hyd y galon. Nid oes gan ddyd balch ddigon o le i rodio mewn cymdeithas, o herwydd ei dyb fod doniau rhai ereill yn sefyll ar ei ffordd. Y mae balchder yn anhwylio yr archwaeth fel nas gall archwaethu dim a dynir o lestr un arall.

6ed. Y mae balchder yn rhagredegrwr o flaen rhyw bechod mawr, neu drallod mawr. Ni oddef Duw i'r fath chwyn a balchder dyfu yn ei ardd, heb gymmeryd rhyw ffordd neu gilydd i'w ddiwreiddio. Fe allai y gad i ti syrthio i ryw bechod mawr, ac y caiff hynny dy ddwyn adref gyda chywilydd. Y mae Duw weithiau yn defnyddio swmbwl yn y cnawd i bigo chwysion balchder yn yr ysbryd, neu o leiaf rhyw drallod mawr; a'i wir ddyben i "guddio balchder oddi wrth ddyd;" *Iob xxxiii. 17.* Fel y gwnewch chwi â'ch meirch rhy boeth eu naws—eu gyru ar draws tir â'r i'w dofi, ac yna chwi ellwch eu marchogaeth yn ddiogel. Os bydd anrhydedd Duw mewn perygl trwy dy falchder di, yna disgwyl wialen: a thebyg yw y bydd y trallod yn y peth hwnw yr wyt ti yn falch o hono, yr hyn a fydd er dy fawr ofid. Gwnaeth Hezeciah fost o'i drysor, a daunfodd Duw y Caldeaid i'w ysbeilio o hono. Serchodd Ionah ar ei gicaion, a tharawyd hwnw. Os bydd dy ysbryd dithau wedi ei chwythu i fyny gan falchder doniau, yr wyt mewn perygl o gael deifiad arnynt, o leiaf yn nhyb ereill, y rhai, ysgatfydd, y bu awel eu clod yn foddion i ddadymchwel dy ysbryd ysgafn o lwyth.

DOSB III.

Cwest. Ond pa fodd y cyfarwyddwch chwi ni yn erbyn hyn?

At. Chwi gawsoch resymau o'r blaen. Ni

chaf gan hyny ond enwi dau ddrws neu dri, y daw eich gelyn arnoch drwyddynt. Ac yn sicr, os wyt yn ffyddlawn i Grist, bydd i'r olwg arno dy gynnhyrfu i'w wrthsefyll.

1. Dengys balchder ei hun wrtharos mewn myfyr ar ein doniau, gyda math o foddhâd dirgelaidd i weled ein gwyneb ein hun, nes y syrthiom o'r diwedd mewn cariad âg ef. Ni a ddarllenwn am rai sydd â'u llygaid yn lawn godineb, ac heb fedru peidio â phechod. Y mae calon falch yn llawn o hunan; ei allu a'i ddawn ei hun a fwriant eu cysgod o'i flaen; y maent yn ei olwg pa le bynag yr â. Gwers a thestyn mawr ei feddyliau yw, yr hyn yw efe, a'r hyn sydd ganddo uwch law ereill, gan ei ganmawl ei hun. Megys y mae Bernard yn addef y byddai, hyd yn oed wrth bregethu—pan y meddyliai un na byddai nemawr amser i'r fath fyfyr—byddai balchder yn sisial yn ei glust, "O! da iawn, Bernard." Yn awr, edrych, Gristion, rhag dadwrdd gyda'r fath gymdeithion. Diange rhag y fath feddyliau, megys rhag arth. Os gall y diafol gael genyt sefyll ar y pinael hwn, tra y byddo efe yn dangos i ti ogoniant dy gyrhaeddiadau a'th addurniadau ysbrydol i ti lygadrythu arnynt, dy ben gwan a dry yn fuan mewn balchder. Ac am hyny, ymgais am gadw teimlad o'th waeleddau dy hun yn fywiog yn dy enaid, i droi y brofedigaeth draw. Fel y mae y rhai sydd yn ddarostyngedig i ryw fath o lewygfeydd, yn dwyn o'u hamgylch bethau cyfaddas i'r dolur, fel pan ddelo y llewyg a berir yn fynych gan berarogl, y gallont eu harfer er eu cymhorth. Nid mwy peryglus yw peraroglau iddynt hwy, nag a fydd rhyw ganmoliaeth i'th enaid di. Gan hyny, gwylia, nid yn unig rhag gwisgo y fath feddyliau yn dy fynwes dy hun, ond hefyd rhag eistedd yn ymyl ereill a ddygant atar beraroglau dy ragoriaethau trwy eu gwenaith.

2. Mae y rhyw hwn o falchder i'w weled yn y ffrwst a wna i'w osod ei hun i'r golwg. Brodyr Dafydd yn wir a gamsyniasant am dano ef (1 Sam. xvii. 18): ond eto, mynych y tŷr balchder y galon allan trwy y drws hwn. Y mae ceraint cnawdol Crist yn erchi iddo ddangos ei hun. Gwych gan falchder ddringo i fyny, nid fel Zaccheus, i weled Crist, ond i ddyrchafu ei hun i'r golwg. "Y ffol," medd Solomon, "nid hoff ganddo ddeall, ond bod i'w galon ei dadguddio ei hun;" *Diar.* xviii. 2. Mynai balchder fod yn rhywun; ac am hyny, fe ddaw allan i ennill serch y lllaws, tra y mae gostyngeddwrwydd yn caru bod yn ddirgel. Megys y mae y dail yn cuddio ac yn cysgodi y ffrwythau, fel y mae yn rhaid i ryw law dyner eu cyfodi cyn y gwelir y ffrwyth; felly y gweddai i ostyngeddwrwydd a lledneisrwydd duwiel gelu rhagoriaethau yr enaid, nes y delo llaw rhagluniaeth trwy ryw alwad i'w gwahodd allan. Y mae balchder mewn doniau noeth-

ion, yn gystal ag mewn bronau noethion. Gorchudd angenrheidiol bob gras arall yw gostyngeddwrwydd. Ac am hyny, yng nghyntaf, Gristion, edrych, pa bryd bynag y delych allan i ddyledsyrwydd gyhoedd, ar fod i ti alwad. Ufudd-dod yw bod yn barod i ateb pan alwo Duw di allan, ond balchder yw rhedeg cyn i Dduw lefaru. Yn ail, wedi dy alw, deisyf am nerth gan Dduw yn erbyn y gelyn hwn. Na chilia rhag dyledsyrwydd gan ofn balchder; ti ellie i ddangos dan yr hith o ddiange rhagddo; ond dos yn ei erbyn yn nerth Duw. Y mae mwy o obaith ei orchfygu trwy ufudd-dod na thrwy anufudd-dod.

3. Wrth genfigenu doniau rhai ereill, pan fyddont megys yn tywyllu yr eiddom ni, na chaffont eu golygu mor hawdd ag y dymunem ni. Chwyn yw hwn a all dyfu yn rhy gryf mewn tir da. Nis gallai Aaron a Miriam oddef anrhydedd Moses: *Num.* xii. 1. Dyna y mater—er iddynt hwy bigo eweryl i'w erbyn yn achos ei wraig, am ei bod o Ethiopia, fel y gwelir yn amlwg: *adn.* 2. "Ai yn unig trwy Moses y llefarodd Duw? oni lefarodd efe trwom ninnu hefyd?" Hwy a dybiasant i Moses dŵyn gormod o anrhydedd; a thuchan yr oeddynt am i Dduw ei ddefnyddio ef yn fwy na hwy eu hunain. Ac y mae yn deilwng o sylw ddarford i'r blys am gig dori allan ym mhlith y gynulleidfa gymmysg, a'r fath waelaf o'r bobl (*Num.* xi. 4, 5); eithr hon, o falchder a chenfigen, a ennyodd yn mynwesau y rhai enwocaf am sefyllfa a chrefydd. O! pa fath angen sydd arnom ni, drueiniaid, am wyllo ein calonau, pan y gwelwn y fath weision gwerthfawr i Dduw yn cael eu harwain i brofedigaeth. "At genfigen y mae chwant yr ysbryd a gartrefa ynom ni;" *Iago* iv. 5. Y mae ein natur lygredig ni o hyd yn tynu at y pechod hwn. Y mae mor anhawdd cadw ein calonau a'r pechod hwn ar wahân, ag ydyw rhwystro dau a fyddont yn caru rhag cydgyfarfod. Nid parotach yw tŷ gwellt i danio ar dywyniad pob melltin, nag yw y galon i ennyu ar lewyrchiad rhyw ddawn neu ras rhagorol mewn un arall. Yr oedd yn un o'r ffenestri cyntaf yr edrychodd natur lygredig drwyddi, yn bechod a dywalltodd y gwaed cyntaf. Cenfigen Cain a fagodd lofruddiaeth Abel. Yn awr, os byth y meddyli gael goruchafiaeth ar y pechod hwn—

1af. Galw am gynnorthwy o'r nef. Yn ebrwydd wedi i'r apostol adrodd mor lawn feichiog ydyw calon dyn gan genfigen, y mae yn dangos pa le y mae ffynnon o ras sydd yn rhagori yn anfeidrol ar hon o genfigen: "At genfigen y mae chwant yr ysbryd a gartrefa ynom ni, eithr rhoddi gras mwy y mae;" *adn.* 9. Ac am hyny, na eistedd i lawr yn llonydd dan rym y pechod hwn; nid ydyw yn anorchfygol. Gall Duw roddi i ti fwy o ras nag sydd genyt o bechod, o ostyngeddwrwydd nag sydd genyt o falchder. Bydd

ond mor ostyngedig ag i ymbil o galon am ei ras ef, ac ni chei fod mor falch a chenfigenu yn ddrygionus wrth ei ddoniau ef, neu ei ras mewn ereill.

2il. Gwna y pechod hwn mor ddu ag wrthun ag y bydd modd i ti feddwl, fel pan ei cymmhellir arnat, y gallech ei ffeiddio yn fwy. Yn wir, nid oes eisieu dim ond ei wyneb ef ei hun i'rh roddi allan o hoffider ato. A eelli di edrych yn garuaidd arno wrth feddwl, yng nghyntaf, Fod y cenfigenu yma yn bwrru dirmyg mawr ar Dduw, a hyn mewn mwy nag un ffordd:—

(1af.) Pan genfigeni wrth ddoniau dy frodyr, yr wyt yn cymmeryd arnat ddysgu Duw—Pa beth a rydd efe, ac i bwy? fel pe dylasai y Duw mawr ofyn cyngor a chenad genyt ti cyn cyfranu ei ddoniau! Ac a feiddi di sefyll at dy feddyliau cenfigenus dy hun gyda'r deongliad hwn? “Y fath un ti a eelli ei gael gan Grist ei hun—“Ai nid cyfreithlawn i mi wneuthur a fynwyf â'r eiddo fy hun?” *Mat. xx. 15.* Fel pe dywedasai Crist, Beth sydd a wnele neb i drawsddadleu am y cyfraniad o'r hyn nid yw eiddynt hwy, ond eiddof fi i'w roddi?

(2il.) Yr wyt yn enllibio daioni Duw. Y mae yn dy fino di; tebygid fod gan Dduw galon i wneuthur daioni i neb, heblaw i ti. Y mae dy lygaid di yn ddrwg, am ei fod ef yn dda. Ai ni fynit ti i Dduw fod yn dda? Cystal a fyddai i ti dori allan, a dywedyd, Na fynit ti iddo fod yn Dduw. Y mae mor hawdd iddo beidio bod yn Dduw, a pheidio bod yn dda.

(3ydd.) Yr wyt yn elyn i ogoniant Duw, gan dy fod yn anffurfio yr hyn sydd i'w osod allan. Y mae pob dawn yn belydryn o rag-oroldeb dwyfol; ac fel y mae y pelydrau oll yn dadgan gogoniant yr haul, felly y mae yr holl ddoniau a gyfrana Duw yn dadgan gogoniant Duw. Yn awr, y mae cenfigen yn ymgais am anffurfio a diwyno yr arddangosiadau o Dduw; y mae ganddi bob amser ryw beth at fychanu rhagoroldeb un arall. Dangosodd Duw i Miriam ei phechod trwy ei chosp. Yr oedd hi am ddiwyno Moses oedd mor ddysglaer nodedig gan ddoniau a grasusau Duw; a phoerodd Duw i'w gwyneb hithau (*Num. xii.*): ie, llanwodd hi drosti â chrach niweidiol. A wyt ti o galon yn dymuno yn dda i anrhydedd Duw? Pa ham, ynte yllaesi di dy ben, ac nad wy tyn hytrach yn llawenhau wrth ei waled yn cael ei ogoneddu trwy ddoniau rhai ereill? A allai pagan ei gymmeryd mor dda pan aed heibio iddo ef, ac y dewiswyd ereill i leoedd o fri ac urddas, fel y dywedodd fod yn dda ganddo y gallesid cael yn ei ddinas gymnifer o rai mwy teilwng nag ef ei hun? Ac a fydd i Gristion anffoddloni fod neb i'w cael yn addas i anrhydeddu Duw heblaw ef ei hun?

(4ydd.) Yr wyt yn gwneuthur cam â'rh frawd, fel yr wyt yn pechu yn erbyn cyfraith

cariad, sydd yn dy rwymo i lawenhau yn ei lwydd ef fel yr eiddot dy hun; ie, i'w gyfrif yn well na thi dy hun. Nis gelli garu a chenfigenu yr un person. Y mae cenfigen mor wrthwyneb i gariad ag ydyw twymyn dibaid yn y corph i wres tyner natur. “Nid yw cariad yn cenfigenu;” 1 *Cor. xiii.* Pa fodd y gall, pan y mae yn byw lle y mae yn caru? A phan beidi a charu, yr wyt yn dechreu ei gasau a'i ladd ef: ac onid wyt yn crynu rhag ofn dy gael yn lleiddiad yn y diwedd?

(5ed.) Yr wyt yn eu llunio yn waethaf oll i ti dy hun. Y mae Duw allan o'rh gyrhaedd: yr hyn a boeri yn erbyn y nef, byddi yn sicr o'i gael yn disgyn ar dy wyneb dy hun o'r diwedd. Ac am dy frawd y cenfigeni wrtho, y mae Duw wedi ymrwmo i'w amddiffyn ef yn erbyn dy genfigen di, gan ei fod yn cael ei gasau am yr hyn sydd o Dduw ynddo. Fel hyn y dadleuodd Duw achos Ioseph yn erbyn ei frodyr cenfigenus, ac achos Dafydd yn erbyn Saul annuwiol. Ti dy hun yn unig a wir niweidir.

(1.) Yr wyt yn difuddio dy hun o'r hyn a eellit ei fedd o ddoniau rhai ereill. Gwir yw yr hen ddywediad, “Yr eiddof fi sydd eiddot ti, a'r eiddo ti yn eiddo finau, pan ddarfyddo cenfigen.” Ond yn awr, fel y gelen, yr hon, meddant, a sugna y gwaed gwaethaf, nid wyt ti yn sugno dim, ond yr hyn sydd yn chwyddo dy feddwl âg anffoddogrwydd, ac a chwydir allan wedi hyn mewn cynhen ac ymruson. O! pa fath beth trwm ydyw, fod i un fyned o bregeth werthfawr, neu weddi felus, heb ddwyn dim ymaith ond achwyn yn erbyn yr offeryn a ddefnyddiodd Duw? Gwelwn hyn yn y Phariseaid ac ereill, dan bregethau Crist.

(2.) Yr wyt yn ysbeilio dy hun o lawenydd dy fywyd. “Y creulawn a fina ei gnawd ei hun;” *Diar. xi. 17.* Y mae'r dyn cenfigenus yn cael hyn hyd adref: y mae yn gwthio parch a bri rhai ereill fel drain i'w galon ei hun; nis gall efe feddwl am danynt heb boen a dolur; a rhaid ydyw i hwnw ddihoeni, sydd yn wastad mewn poen.

(3.) Yr wyt yn tafu dy hun i safn profedigaeth: nid yw yn rhaid i ti roddi i ddiabol fantais fwy—y mae yn fonyn y tŷf agos bob pechod arno. Pa beth ni wnai brodyr Ioseph er cael gwared o'r hwn yr oeddynt wedi cenfigenu wrtho? Yr un balchder, yr hwn a barodd iddynt ffeiddio y meddwl am ymowntwng i'w ysgub ef, a wnaeth iddynt blygu yn is o lawer, ie, i ddarostwng eu hunain cyn ised ac uffern, a bod yn offerynau Satan i werthu eu brawd caruaidd i gaethiwed. Gallasai hyn fod yn waeth iddo, oni buasai i Dduw ddarpar yn angen, na phe lladdasent ef yn y fan. Y fath feddwl rhy wael a chreulawn a ddangosodd Saul yn erbyn Dafydd, ar ol i genfigen unwaith wenwyno ei galon! O'r diwrnod y clywodd efe Dafydd

yn cael ei ddyrchafu yng nghan y gwragedd yn fwy nag ef ei hun, ni allai efe byth gael y sŵn allan o'i ben, ond diofrydu o hyd y gwr diniwed hwn i ddistryw, yn ei feddyliau, er na wnaeth efe gam iddo, ond bod yn offeryn i gadw y goron ar ei ben, trwy beryglu ei fywyd ei hun gyda Goliath. O! y mae yn bechod gwaedlyd! Y groth ydyw, yn yr hon y ffurfi llorlwyth cyfan o bechodau ereill—"Yn llawn cefnig, llofruddiaeth, cynhen, twyll, drwg anwydau," &c.; *Rhuf. i. 29.* Ac am hyny, onid wyf ti wedi bwriadu croesawu Satan a'i reungt oll, gwrthwyneba ef yn hwn, sydd yn dyfod o'r blaen i gymmeryd lletty dros y rhai ereill.

PENNOD X.

Am falchïo o herwydd gras.

YN ail, Bod yn falch o ras. Dyma ffordd arall sy gau Satan i ymosod ar y Cristion. Y mae yn wir na ddichon gras fod yn falch; etto, y mae yn bosibl i Gristion fod yn falch o'i ras. Nid oes dim a fedd, neu a wna efe, nad all y pryf hwn o falchder fagu ynddo. Y mae'r byd yr ydym ynddo yn llygredig; ac y mae pob peth yna yn ddarostyngedig i bydrû, fel y mae pethau a gedwir mewn ystafell kaith yn tueddu i lwydo. Nid natur gras, ond halen * cyfammod, sydd yn cadw ac yn diogelu ei burdeb ef. Yn y nef yn wir ni a fyddwn ddiogel. Ond pa fodd y gellir dywedyd fod sant yn falch o'i ras? Yna y mae enaid yn falch o'i ras, pan y mae yn hyderu yn ei ras. Mae hyderac ymddiried yn flodeuyn anghlyfranadwy yng nghoron Duw, fel Llywydd Goruchaf: te, yn mÿsg dynion y mae yn cydfyned â brenin-fraint. Gesodwch frenin i fyny; ac fel y cyfryw, efe a ddisgwyl i chwi roddi iddo hyn, megys rhagorfrant ddiannheulol ei le: ac am hyny, nid yw ceisio nawdd gan un arall ond megys gosod i fyny frenin arall. "Os mewn gwirionedd yr eneiniech fi yn frenin arnoch, yna deuwch ac ymddiriedwch yn fy nghystad i;" *Barn. ix. 15.* Gan hyny, pan ymddiriedo enaid yn rhywbeth heb law Duw, y mae yn gosod i fyny dywysog, brenin, neu cilun, i roddi ymaith ogoniant Duw i hwnw. Yn awr, os gras cyfranedig Duw a goronwn, ni wna hyny mo'r pechod yn ddim llai na phe coronem ryw chwant. Eilunaddoliaeth yw addoli angel sanctaidd yn gystal a chythraul mellidgedig; gwneud ein gras yn dduw, cystal a gwneud ein bol yn dduw. Na: yn hytrach, y mae yn mwyhau y drwg; am y defnyddir hyny i'w ysbellio ef o'i ogoniant, a ddylasai ddwyn iddo y deyrnedd fwyaf o ogoniant. Yn sicr, po fwyaf y trysor a roddoch chwi yn llaw eich gwas, mwyaf y cam i chwi os rhed efe ymaith âg ef. Nid wyf yn amhieu na buasai yn haws

i Dafydd oddef gweled y Philistiaid yn ei ymlid oddi ar ei orsedd na'i fab, ei fab Absalom. Ond pa fodd y gellir dywedyd fod sant yn ymddiried yn ei ras?

1. Trwy hyderu ar nerth ei ras.

2. Trwy hyderu ar werth ei ras. Yn wir, yr wyf yn deall na ddichon hyder professedig mewn gras ddim cydfeyll â gras; eithr y mae math gŵyrdraws o ymddiried, neu yr hyn trwy ddeongliad a all arogl o hono. Y mae Satan yn gyfrwys yn ei ymosodiadau.

DOSE. I.

1. Am y laf. Hyderu yn nerth gras yw bod yn falch o ras. Y mae hyn yn groes i'r tloidi ysbryd hwnw a ganmolir gan ein Harglwydd (*Mat. v.*), trwy yr hwn y mae dyn yn byw mewn teimlad parhaus o'i angen a'i ddiddymdra ysbrydol, ac felly yn brysio at Grist, fel y dyn tlawd at ddrws y cyfoethog, gan wybod na fedd efe ddim gartref i'w gynnal. Y fath un oedd Paul, heb allu i wneud dim o hono ei hun; nid cywilydd ganddo adael i'r byd wybod mai Crist sydd yn cadw ei bwrs drosto ef. "Ein digonedd ni sydd o Dduw." Ie, ar ol masnach lawer blwyddyn, nid yw y gwr duwiol hwn yn gweled ei hun yn meddu dim. "Nid wyf fi yn bwrw ddarfed i miſgael gafael;" *Phil. iii. 13.* Y mae yn ymestyn yn mlaen o hyd. Gofynwch iddo pa fodd y mae yn byw; efe a ddywed pwy sydd yn cadw tŷ iddo ef: "Byw ydyf, etto, nid myfi, ond Crist sydd yn byw ynof fi;" *Gal. ii. 20.* Fel pe gofynech i gardotyn, pa le y mae yn cael ei fwyd, ei ddillad, &c., efe a ddywedai, Yr wyf yn diolch i fy meistur da. Yn awr, y mae yn brif yngais Satan i chwythu'r enaid i dyb rhy dda am ei allu ei hun, fel y ffordd rwyddaf i'w ddwyn ef i'w fagl. Efe a wŷr mai arfer Duw yw rhoddi ei blant yn ei law ef, pan gyntaf y prifant yn falch a human hyderus. Gadawyd Hezechia i brofedigaeth, "i'w brofi ef;" *2 Cron. xxxii. 31.* Pa ham? yr oedd Duw wedi ei brofi i'r byw ychydig o'r blaen trwy gystudd; pa raid au hyn? O! yr oedd calon Hezechia wedi ymddyrchafu ar ol ei gystudd. Yr oedd yn bryd i Dduw adael llonydd i'r tentiwr ei faeddu am dro. Y mae yn debyg yn awr fod gan Hezechia feddyliau mawr am ei ras. O! ni wna'i efe byth fel y gwnaethai; ac y mae Duw yn gadael iddo weled pa fath greadur gwan ydyw. Gwnaeth Pedr yntau fflangell i'w gefn ei hun yn y fost hono, "Pe rhwystrid pawb o'uth blegid di, etto ni'm rhwystrir i byth." Y mae yn rhaid i Grist bellach o wir drugaredd ollwng Satan arno i'w roddi ar wastad ei gefn; fel y gwelai wendid ei ffydd, ac y disgynid ef o uchder ei dyb falch. Y cwbl a ddywedaf fi oddi wrth hyn, fydd i erfyn arnat ti, Gristion, wylio rhag y rhyw hwn o falchder. Chwi wyddoch beth a ddywedodd Ioab wrth Dafydd, pan ganfu falchïad ei galon ef ar

rym ei deyrnas, ac y mynai am hyny gael rhifo'r bobl: "Yr Arglwydd dy Dduw a chwano'r bobl yn gan cymmaint...ond pa ham yr ewyllsya fy arglwydd frenin y peth hyn?" 2 Sam. xxiv. 3. Yr Arglwydd a chwano'go nerth dy ras dithau yn gan cymmaint: ond pa ham yr ymfoddhei di yn hyn? Pa ham yr ymddyrechi? Onid gras ydyw? A ä y gwas yn falch am ei fod yn cael march ei feistr dano, neu y wal bridd am fod yr haul yn tywynu arni? Oni eelli di ddywedyd am bob gradd o ras, fel y llang hwnw am y fwyell, "Och fi, fy meistr; canys benthg oedd." nag e, nid benthg yn unig, ond ni eelli di ei defnyddio heb gael gallu a nerth gan yr hwn sydd yn ei benthgycio i ti. O! gwylia yn hyn; na äd i'r fath feddyliau gwag lettya o'th fewn rhag dy fyned i brofedigaeth. Y mae yn adwy y gall torf gyfan o bechodau ddyfod drwyddi; a hwy a ddeuant oddi eithr eu llenwi i fyny yn ebrwydd.

Iaf. Fel'th wna di yn fuan yn benrhydd ac esgeulus yn dy ddyledswydd. Teimlad o annigonedd sydd yn cadw enaid ar waith i weddio a gwrandaw; fel y mae angen yn y tŷ a'r ydgust yn dal y farchnad i fyny. Nid oes neb yn dyfod yno i brynu yr hyn sydd ganddo gartref. "Codwch," medd Iacob, "ewch i wared i'r Aipt am fyd, fel y byddom byw, ac na byddom feirw." Fel hyn y dywed y Cristion angenus, Cyfod, enaid, at dy Dduw; y mae dy ffydd yn wan, dy amnydd ym mron darfod; bydd ddyfal wrth orsedd gras; dos ä'th omer genyt i'r ordinhadau, a chais ychydig luniaeth. Yn awr, y mae gan yr enaid hyderus ar ei ystôr gân arall:—Enaid, gorphwys; y mae genyt ddarpariaeth dros lawer o ddyddiau. Gad i'r enaid ammheus weddio; y mae dy ffydd di yn gref: gad i'r gwan orwedd wrth y fron; yr wyt ti wedi prifio yn dda. Nag e; da os nid ä efe yn mhellach i ddirmygu ordinhadau, oni bydd ynddant ryw fwyd amgenach na chyffredin. Dyma sut yr oedd ar y Corinthiaid: "Yr ydych chiwi yr awr hon wedi eich diwallu; yr ydych chiwi yr awr hon wedi eich cyfoethogi, chiwi a deyrnasasoch hebddom ni;" 1 Cor. iv. 8. Craffwch, attolwg, ar y gair *yr awr hon*: "yr awr hon wedi eich cyfoethogi." Fel pe dywedasai, Gwelais amser, pe buasai Paul wedi dyfod i'r dref, a'r newydd ar led fod Paul i bregethu, chiwi a fusech yn tyru i'w wrandaw, ac yn bendithio Duw am y pryd: ond y pryd hyny yr oeddych yn dlodion a newynllyd; yn awr chiwi a ddigonwyd; yr ydych wedi cyrhaedd yn uwch; nid yw Paul yn awr ond gwr gwael; gall ddwyn ei arlwy-aeth i bobl newynllyd, os myn; yr ydym ni ar ein digon. A phan unwaith y daw y galon i hyn, hawdd yw barnu pa beth a ganlyn.

2il. Yr hyder yma ar nerth gras a wna yr enaid yn hyf a rhy anturiol. Y Cristion

gostyngedig yw y Cristion gochelgar: efe a wŷr ei wendid; ac y mae hyn yn peri iddo ofni. Dyn o ben gwan wyf fi, medd efe; gellir yn fuan fy rhesymu i gyfeiliornad a heresi; ac am hyny, ni feiddiaf ddyfod lle y gollyngir y fath win amhur, rhag i'm pen gwan feddwi. Y dyn gwag hyderus, efe a fŷ o bob cwpan; nid yw yn ofni neb: na, y mae efe yn ddiysgog yn y gwir; ac ni ddichon rheng gyfan o hereticaid mo'i dynu ef ar wŷr: ond yr enaid isel a ddywed, Y mae genyf fi galon wag ac ysgafn; ni feiddiaf ddyfod i fysg cymdeithion drwg llygreddig, rhag i mi o'r diwedd ddwyn y gwr drwg gyda mi adref. Eithr un yn hyderu yn nerth ei ras a faidd anturio i wersyll y diafol. Fel hyn yr aeth Pedr i ganol y dorf o elynion Crist; a'r modd y bu arno, chwi a wyddoch. Yno y lladdesid ei ffydd yn y fan, oni buasai i Grist seinio enciliad, trwy ei edrychiad mewn pryd ac mewn cariad arno. Yn wir, mi ddarllenais am ryw philosophyddion ymfrostar, y rhai ni thybient yn ddigon iddynt hwy fod yn gymmedrol, oni chaent y gwrthddrych o anghymmedroldeb o'u blaen: ac am hyny, hwy a aent i dafarndai a phuteindai, fel pe buasant yn meddwl curo y diafol ar ei direi hun. Ond fe wŷr y Cristion am elyn nes na hyny, yr hwn ni wyddent hwy am dano; ac nad oes achos iddo ef fyned dros ei drothwy ei hun, i roddi hêr i'r diafol. Y mae ganddo ef chwant yn ei fynwes a fydd yn ddigon trwm wrtho dros ei ddyddiau, heb iddo roddi y tir uchaf iddo. Gristion, ni wn i am bechod nas gelli gael dy adael i'w wneuthur ond un. Gair hyf ydoedd; ac eto gan wr da, fel y clywais i, "Os bydd Clapham farw o'r pla, dywedwch nad oedd gan Clapham ddim ffydd;" a gwnaeth hyn iddo fyned yn hyf i blith y rhai clywys. Os Cristion wyt ti, ni chei di farw o bläau ysbrydol; etto, gall y cyfryw fod a'r plä-friwiau o bechodau trymion yn rhedeg arnynt dros amser. Ac onid yw hyn yn drwm ddigon? Am hyny, ymostwng i rodio gyda'th Dduw.

3ydd. Y tyb uchel hwn am nerth dy ras a'th wna di yn filain a thaiog wrth dy frodyr gweiniad yn eu gwendidau; a phechod yw hwn sydd yn dra anweddus i Gristion. "Os goddiweddri neb ar ryw fai, chwychwi y rhai ysbrydol, adgyweiriwch y cyfryw un mewn addfwynder." Ond pa fodd y caiff enaid o hyd i'r fath ysbryd addfwyn? Y mae yn canlyn:—"Gan dy ystyried dy hun rhag dy demtio dithau;" Gal. vi. 1. Pa beth sydd yn gwneuthur dynion yn galed wrth y tlodion? Meddwl y maent na byddant felly eu hunain. Pa ham y mae llawer mor llym yn eu ceryddon? Onid am eu bod yn hyderu gormod yn eu gras, fel pe nas gallent hwy byth syrthio? O! yr ydych chwithau yn y corph, a chorph pechod o'ch mewn: am hyny, ofnwch. Arferai Bernard ddywedyd,

pan glywai am ryw broffeswr yn pechu yn waradwyddus—"Efe a syrthiodd heddyw; gallaf finnau dripio yfory."

DOSB. II.

Yr ail ffordd y gall enaid fod yn falch o'i ras yw, trwy orphwys arno am ei dderbyniad gyda Duw. Y mae yr Ysgrythyr yn galw gras oddi mewn "yn gyfiawnder i ni ein hunain" (er yn wir mai Duw yw yr awdwr o hono); ac y mae yn ei gyferbynu i "gyfiawnder Crist," yr hwn yn unig a elwir yn "gyfiawnder Duw;" *Rhuf. x. 1.* Yn awr, gorphwys ar ryw ras tumewnol ydyw dyrchafu ein cyfiawnder ein hunain uwch law cyfiawnder Duw. Ac i ba falchder y cyrhaedd hyn? Pe byddai hyn felly, yna gallai sant ddywedyd ar ol cyrhaedd y nef, Hon yw y nef a adeileidais i, a bwrcasodd fy ngos i. Ac yn ol hyn, byddai i Dduw y nef ddyfod i fod yn ddeiliad i'w greadur yn y nef. Na: y mae Duw wedi bwrw trefn ein hiachawdwriaeth i wedd arall o ras; ac nid o ras ynom ni, ond o ras tuag atom ni. Y mae i ras tumewnol ei le a'i swydd i gydfyned âg iachawdwriaeth (*Heb. vi. 9*), ond nid i'w phwrcasu. Gwaith Crist yw hyn, nid gwaith ein gras ni. Pan oedd Israel yn disgwyl am yr Arglwydd wrth fynydd Sinai, yr oedd iddynt eu terfynau; nid oedd i un dyn ddyfod i fyny heb law Moses i ymddiddan â Duw, nac i gyffwrdd elwaith â'r mynydd, rhag iddynt feirw. Fel hyn y mae i holl rasusau yr ysbryd ddisgwyl wrth Dduw; ond nid oes un i ddyfod i fyny, gan hōni hawl i gymmeradwyaeth gyda Duw ond ffydd; a gras yw hwn a gyflwyna yr enaid heb fod yn ei wisgoedd ei hun. Ond chwi a ddywedwch, Pa raid wrth hyn i gyd? pa le mae y dyn sydd yn ymddiried yn ei ras? Och! pa le y mae y Cristion sydd yn cadw draw yn gwbl, ac yn dyfod yn gwbl rydd heibio ei gyfiawnder ei hun? Llong-lywydd rhagorol yn wir yw efe a all hwylio ei ffydd rhagorol yn wir uniawu ag i fod heb daraw weithiau wrth y ddyledswydd yma, a rhedeg i dir drachefn ar y gras arall. Aeth Abraham i mewn at Agar; ac nid yw plant ffydd Abraham ddim yn gwbl feirw i'r ddeddf; a gellir eu cael weithiau yn mreichiau Agar: tyst llifiad a gwrthlifiad ein ffydd ni, yn ol amryw drem ein hufudd-dod. Pan fyddo hwn yn llawn, yna y mae i ni lanw uchel, sydd yn cuddio holl fynyddoedd ein hofnau: ond pan fyddo megys ar gil mewn rhyw wasanaeth neu ddyledswydd, yna y mae Iordd-onen ein ffydd yn troi yn ol, ac yn gadael yr enaid yn noeth. Llud y diafol sydd at Grist: ac am hyny, gan nas gallai efe, er ei holl ymgais, rwystro ei ddyfodiad i'r byd, na chael ei ewyllys arno ar ol ei ddyfod, y mae yn awr ar waith mewn ffordd fanylach i dywyllu gogoniant ei ddioddefiadau â digonolrwydd ei gyfiawnder, trwy gymmysgu yr eiddom ni âg ef. Bu mwy o weithio ac o

guro yn erbyn yr athrawiaeth o gyfiawnhad trwy ffydd nag yn erbyn un arall o fewn y Beibl. Yn wir, nid oedd aml gyfeiliorniad arall ond ei ddynesiadau cyfrwys ef i ddyfod yn agos a chloddio dan hon. Ac yn olaf, pan nas gall efe gladdu y gwirionedd hwn, sydd yn awr yn llewyrchu yn yr eglwys fel yr haul yn ei rym, ei ymgais sydd am attal y defnyddiad ymarferol o hono; fel, os gall efe rwystro, na byddo i ni fyw yn ol ein hegwyddorion ein hunain. Y mae am beri i ni, tra yr ydym yn ein barn yn profesu derbyniad trwy Grist yn unig, i fod yn ein hymariafiad yn gwrthbrofi ein hunain. Yn awr, y mae balchder dyblyg yn yr enaid a ddefnyddia efe i'r dyben hwn. Gallaf alw y naill yn falchder moesawg, a'r llall yn falchder hunan-ganmoliaeth.

Iaf. Balchder moesawg, yr hwn sydd yn dyfod yng ngwisg agwedd gostynggeiddrwydd, ac sydd yn ei ddangos ei hun, naill ai ar ddyfodiad cyntaf yr enaid at Grist, ac yn ei gadw rhag ymwastgu â'r addewid, ai wedi hyny yn yr yrfa feunyddiol o rodio gyda Duw. Ac y mae hwn yn cadw y Cristion rhag byw yn gysurus ar Grist.

(Iaf.) Pan fyddo enaid truan wedi ei guro ymaith oddi wrth yr addewid gan y teimlad o'i amheilyngdod a'i anghyfiawnder mawr ei hun, dywedwch wrtho am faddeuant. Och! y mae efe wedi ymddoi â'r meddyliau am ei ddrwg ei hun, fel nas gellwch gael gan hyn lynu wrtho. Pa beth? A gymmer Duw byth y fath lyffiant du ag efe i'w fynwes? A ddilea efe ar unwaith gymmaint o ffaidd droion erchyll, gan ei dderbyn ef i'w ffaif, ar ol ei fod cyhyd mewn arfau gwrthryfel i'w erbyn? Nis gall efe goelio hyn; na all, y mae yn gwrthod ei gysuro, er iddo glywed yr hyn a wnaeth ac a ddiodeffodd Crist am bechod. Ychydig y mae yr enaid yn ei feddwl oddi ar ba wreiddyn chwervu y mae y fath feddyliau yn tyfu. Yr wyt ti yn meddwl mai da y gwnai redeg fel hyn arnat dy hun, a mwyhau dy bechodau? Yn wir, nis gelli eu lliwio yn ddigon du, na chynnwys meddyliau rhy isel a gwael am danat dy hun o'u herwydd. Ond pa gam a wnaeth Duw a Christ â thi, fel y byddai i ti farnu mor a'w i'm am drugaredd y naill a haeddiant y llall? Ai ni elli di wneyd hyn, a bod yn dyner o enw da Duw hefyd? Ai nid oes un ffordd i ti ddangos dy deimlad o'th bechod oddi eithr i ti roddi anair i'th Iachawdwr? Oni elli di achwyn arnat dy hun heb gamfarnu Duw, a rhoddi Crist a'i waed i waradwydd ger bron Satan, yr hwn sydd yn cael goruchafiaeth fwy yn hyn nag yn dy holl bechodau ereill? Mewn gair, er i ti, yn ddrygddyn, andwyo dy hun, a damnio dy enaid trwy dy bechodau, eto, nid wyt ti yn foddolawn i Dduw gael y gogoniant o'u maddeu, a Christ yr anrhydedd o ennill hyny? Neu, a wyt ti yn debyg i hwn yn

yr efengyl, "na allai gloddio, a chardota oedd gywilyddus ganddo;" *Luc* xvi. 3. Nis gelli ennill y nef trwy dy gyfiawnder dy hun; ac a yw dy ysbryd mor ddeur fel na ofyni am dani er mwyn Crist; i'e, fel na dderbyni hi oddi ar law Duw, yr hwn, yn yr efengyl, sydd yn dyfod dan ddeisyf ac erfyn arnat ymgymodi âg ef? Aha, enaid! pwy a fuasai byth yn meddwl y gallasai y fath falchder lechu dan orchudd mor lednais? Ac etto nid oes debyg iddo. Balchder erchyll yw i gardotyn newynu yn hytrach na derbyn elusen oddi ar law gwr cyfoethog; neu i ddrwgweithredwr ddewis ei denyn, yn hytrach na derbyn pardwn ar law ei dywysog rhadlawn. Ond dyma falchder sy'n dirfawr ragori ar y ddau—enaid yn nychu ac yn trengu mewn pechod, ac etto yn gwrthod trugaredd Duw a llaw gymmhorth-law'n Crist i'w achub! Er na thybiodd Abigail ei hun yn deilwng i fod yn wraig i Dafydd, etto hi a gyfrifodd Dafydd yn deilwng o honi hi; ac am hyny, hi a dderbyniodd ei gynnyg yn ostyngedig, ac a brysurodd i fyned gyda'r cenadau. Dyna'r tymmer calon sy'n hlyfrd yn wir—gorwedd yn isel yn y teimlad o'n gwaeledd ein hunain, ond credu er hyny; ymwrthod â phob tyb am deilyngdod ynom ein hunain, etto, bod heb ymwrthod o herwydd hyny â phob gobaith o drugaredd, ond yn ffoi o hyny yn brysurach at Grist, sydd yn gwahodd ato. Y mae'r balchder a'r holl anfoesgarwch yn gorwedd yn hyn—peri i Grist arw wrthym, tra y mae efe yn erchi i'w genhadau alw pechaduriaid trua'n i ddyfod, gan hysbysu iddynt "fod pob peth yn barod." Ond fe allai y dywedi di eto, mai nid balchder sy'n dy gadw di ymaith, ond nas gelli gredu y bydd i Dduw byth groesawu y fath un ag wyt ti. Yn ddiâu, nid wyt yn trwsio y mater ond yn wael â hyn: naill ai yr wyt yn cadw rhyw chwant yn dy galon, yr hwn ni fyndi ymadael âg ef, i gaffael budd yr addewid, ac yna yr wyt yn rhag-rithiwr hynod, yr hwn, gan y fath uchel gri am dy bechodau, a elli yru yn mlaen fasnach ddirgel yn uffern ar yr un pryd: neu, os nid felly, yr wyt yn dangos balchder mwy, gan dy fod yn beiddio sefyll allan, pan nad oes genyt ddim i'w osod yn erbyn llawws o addewidion goleu eglur yr efengyl ond dy anghrediniaeth pennodol. Ac y mae Duw yn galw yr annuwiol i adael ei ffyrdd, a throi ato ef, ac efe a'i harbed ef yn helaeth—eithr ti a ddywedi, nas gelli gredu hyn drosot dy hun. Yn awr, pwy sy'n dywedyd y gwir? Rhaid i un o honoch fod ar yr anwir: naill ai y mae yn rhaid i ti ei gymmeryd gyda chywilydd i ti dy hun, am yr hyn a ddywedaist yn erbyn Duw a'i addewidion—a dynaf fordd oreu—neu y mae yn rhaid i ti, yn falch, i'e, yn gableddus, ei fwrw ar Dduw, fel y gwna pob un digred: *1 Ioan* v. 10. Nag e, yr wyt yn ei wneud ef yn anudonwr;

canys Duw (i roddi i bechaduriaid sicrhâd mwy wrth ffoi am noddfa at Grist, yr hwn yw y "Gobaith a osodwyd o'u blaen hwynt;" *Heb.* vi. 17, 18), a dyngodd y caent *gydur cryf*. "O! ni rai dedwydd, er mwyn pa rai yr aeth Duw ar ei lw! O! ni rai truenus, na chredwn Dduw, na wnawn, ar ei lw!"—*Tertullian*.

(2il.) Arol i'r enaid fyned tros y morgainge mawr, a dyfod i ystâd o heddwech a bywyd, trwy ymwasgu â Christ, gwna Satan ddefnydd etto o'r balchder moesgar hwn yn gryfua feunyddiol y Cristion o ddyledswydd ac ufudd-dod, i'w aflonyddu, ac attal ei heddwech a'i gysur. O! mor ansiriol ac athrist y treulia llawer o eneidiau gwerthfawr eu dyddiau? Os ymfynwch beth yw yr achos, chwia a gewch fod eu llawenydd oll yn rhedeg allan trwy yr holltau yn eu dyledswyddau amherffaith, a'u grasau gweiniaid; nis gallent weddio fel y dymument, na rhodio chwaith yn wastad a pharhaol: y maent yn gweled mor fyr ydynt o ddilyn rheol sanctaidd y gair, a'r esampl a gânt gan ereill, sydd yn fwy hynod mewn gras. A hyn, er nad yw yn peri iddynt dasfu yr addewidion ymaith, a llwrymwrthod â phob gobaith yng Nghrist, eto y mae yn magu ynddynt ofnau ac amheueon athrist, i'e, yn peri iddynt eistedd wrth y wledd a ddarparodd Crist, heb wybod a oes iddynt hwy fwyta ai peidio. Mewn gair, megys y mae yn eu hyspeilio hwynt o'u llawenydd, felly Crist hefyd o'r gogoniant a ddylai efe gael oddi wrth eu llawenhad ynddo. Nid wyf yn dywedyd, Gristion, na ddylet ti alaru am y diffygion a gei yn dy rasau a'th ddyledswyddau; na, nis gellit brofi dy hun yn un diragrith heb hyn. Dyn grasol, wrth weled mor fyr y mae, hyd yn hyn, o gyrhaedd sancteidrwydd dechreuol dyn trwy greadigaeth, nis gall lai nag wlo a galaru, fel yr Iuddewon, wrth edrych ar yr ail deml (*Ezra* iii. 12). Eto, Gristion, hyd yn oed tra y mae y dagrau yn dy lygaid o achos dy rasau amherffaith, ti a ddylit lawenychu, i'e, a gorfoleddu, ar dy holl ddiffygion hyn, trwy ffydd ar Grist, yn yr hwn yr ydwyt wedi dy gyflawnu (*Col.* ii. 10), tra yr ydwyt yn amherffaith ynot dy hun; canys y mae enaid yn codi â'i ddillad bedd am dano. Presenoldeb Crist yn yr ail deml, yr hyn ni chafodd y gyntaf, a'i gwnaeth yn fwy gogoneddus na'r gyntaf, er ei bod yn wael mewn cymhariaeth: *Hag.* ii. 9. Pa faint mwy y bydd i'w bresenoldeb ef yn y deml ysbrydol hon o galon rasol, gan gyfrif ei gyfiawnder ei hun i guddio holl anharddwch yr enaid, ei wneyd yn ogoneddus uwch law dyn ar y cyntaf? Dyma wisg, am ba un, fel y dywed Crist am y lili, nid ydym yn llafurio nac yn nyddu; etto ni wisgwyd Adda yn holl urddas creadigol, fel y credadyn gwanaf, â hon am ei enaid. Yn awr, Gristion, ystyria yn dda beth yr wyt arno, tra yr

wyt yn eistedd mewn nychdod dan y teimlad o'th wendidau dy hun, ac yn gwrthod llawenhau yn Nghrist, a byw yn gysurus ar y breintiau hyfryd y mae i ti hawl ynddynt trwy dy briodas âg ef. Onid wyt yn dangos peth o'r balchder ysbrydol yna yn gweithio ynot? O! pe gellit ond gweddio heb wibio, rhodio heb gloffi, credu heb siglo, yna ti a fedrit lawenyelu a byw yn siriol. Tybygid, enaid, dy fod di yn aros i ddwyn sail dy gysur i'th ganlyn, ac nid i'w dderbyn gan Grist yn unig. O! gymmaint gwel fyddai, pe dywedit gyda Dafydd, "Er nad yw fy nhŷ i (fy nghalon i) felly gyda Duw; etto, cyfammod tragywyddol a wnaeth efe â mi, wedi eiluniaethu yn hollol ac yn sicr" (2 Sam. xxiii. 5), a hyn yw fy holl ddymuniad, fy holl hyder. Crist wyf yn ei osod yn erbyn fy holl bechodau a'm holl angenion; efe yw fy oll yn oll, a fy oll uwch law oll. Yn wir, y cwbl o'n cwynion am ein heisieu a'n gwaelddlau, cyn belled ag y maent yn tynu ein calonau oddi wrth ymorphwys yn llon ar Grist, nid ydynt ond iaith balchder yn tynu at y cyfammod o weithredoedd. O! y mae yn anhawdd anghofio iaith ein mam, sydd mor naturiol i ni: gan hyny, ymgais at fod yn deimladwy o hyn, mor wrthwynebus ydyw i ysbryd Crist. Beth a ddywedai gwr, pe byddai i'w wraig, yn lle dangos ei chariad ato ef a'i hyfrydwech ynddo, fod ar hyd y dydd a'r nos heb wneud dim ond wylw wrth feddwl am ei gwr cyntaf, sydd wedi marw? Y ddeddf, fel cyfammod, a Christ, a gyfelybir i ddau ŵr: "Yr ydych wedi meirw i'r ddeddf trwy gorff Crist, fel y byddech eiddo un arall, sef eiddo yr hwn a gyfodwyd o feirw;" *Rhuf.* vii. 4. Yn awr, dy alar di am y diffyg o'th gyfiawnder dy hun, pan fo yn rhwysr i'th lawenydd yn Nghrist, nid ydyw ond rhyw gwynfan ar ol dy wr arall: a hyn ni all Crist ond ei gymmeryd yn angharedig: dy fod di heb fod gystal wrth dy fodd yn gorwedd yn mynwes Crist, ac yn cael dy ddeddyddwch o hono ef, a chyda dy hen briod—y ddeddf.

2il. Balchder hunan-glodus; pan fyddo y galon yn ddirgel ymgodi, fel ag i addaw iddi ei hun dderbyniad oddi ar law Duw am ryw ddyledswydd neu waith a gyflawno y dyn; a phan na byddo, tan y cymmorth mwyaf, yn myned allan o'i weithred ei hun, i osod pwys ei ddisgwyliad yn gwbl ar Grist. Y mae pob cyfryw gip-drem, gan lygaid yr enaid, yn odinebus, i.e., yn eilunaddolgar. Os bydd i'th lygad, ar ryw dro, gael ei ddenu yn ddirgel, fel y dywed Iob, am fath arall o eilunaddoliaeth; neu, os dy enau a gusana dy law, hyny yw, ynfydu mor bell ar dy ddyledswyddau neu dy gyfiawnder dy hun ag i roddi yr addoliad meddwl yma o hyder ac ymddiried, anwiredd mawr yn wir yw hwn. O herwydd yr wyt yn hyn yn gwaflu y Duw uchod; yr hwn sydd wedi gosod i'th ffydd

wrthddyrech arall. Yr wyt yn dyfod i agor porth y nef a'r hen agoriad, wedi i Dduw osod arno glo newydd. Ai nid wyt ti yn addef mai o bur drugaredd y bu dy ddyfodiad cyntaf i'th ystad gyfiawnhaol? Ti a gyfiawnhawyd "yn rhad trwy ei ras ef, trwy yprunedigaethsydd yng Nghrist Iesu;" *Rhuf.* vii. 24. Ac i bwy yr wyt ti yn rhwymedig, yn awr wedi dy gymmodi, am dy dderbyniad etto yn mhob dyledswydd neu waith sanctaidd? Ai i'th ddyledswydd, dy ufuddod, dy hunan, ai yute i Grist? Yr un apostol a ddywed, "Trwy yr hwn y cawsom ddyfodfa arwy ffydd i'r gras hwn, yn yr hwn yr ydym yn sefyll;" *Rhuf.* v. 2. Oni arwain Crist di i mewn, a'r cwbl a wnelech, yr wyt yn sicr o gael y drws yn gauad i'th erbyn: nid oes dim mwygo le i haeddiant yn awr, pan wyt rasol, na phan oeddit yn ddiras. "Cyfiawnder Duw a ddadguddir o ffydd i ffydd: canys y cyfiawn a fydd byw trwy ffydd;" *Rhuf.* i. 17. Nid yn unig ni a fyw-hawyd gan Grist, ond yr ydym yn byw trwy Grist. Y mae ffydd yn sugno i mewn drugaredd faddeuol, gynnorthwyol, gysurol, oddi wrtho ef yn barhaus, fel yr ysgyfaint yn sugno yr awyr i mewn.

Defn. Cymmer dy annog, yn mlaen pob peth, i wlyio yn erbyn y ddichell hon o eiddo Satan. Gochel ymorphwys yn dy gyfiawnder dy hun. Yr wyt yn sefyll dan fagwyr ar ei gogwydd; y mae hyd yn oed yr agenau a weli yn dy rasau a'th ddyledswyddau, pan fyddont oreu, yn erchi i ti sefyll draw, os na fynit iddynt syrthio ar dy ben. Y can mwyaf tua'r nef yw allan o'n tai, dros ein rhiniogau ein hunain. Y mae aml un wedi colli ei fywyd, pan oedd ei dŷ ar dân, gan raib am achub peth o'i ddodrefn; wrth anturio i'r ffamau i'w hachub hwy a gollwyd eu hunain. Y mae mwy wedi colli eu heneidiau wrth feddwl dwyn peth o'u dodrefn eu hunain gyda hwynt i'r nef—rhyw waith da neu gilydd, yr hwn, tra y maent fel Lot hwyrfrydig, yn anhawdd ganddynt ei adael, o ran ymddiried, y maent eu hunain yn cyfrgollu. O! syrs, deuwch allan, deuwch allan; gadewch i dân yr hyn oll sy'n eiddo i chwi eich hunain; sfolech yn noeth at Grist; y mae ganddo ef wisgoedd gwel i chwi i'r eiddoch eich hunain. Yn dlawd, ffo at Grist, sydd yn meddu aur, nid fel yr eiddot ti, a ddfair, ac a dry yn sorod yn y tân; ond aur a gael yn bur ac yn llawn bwysau yn y profiad tanlyd gan farn gyfiawn Duw. Ni ellir eich cael mewn dau le ar unwaith; dewiswch pa un a fynwch, eich cael yn eich cyfiawnder eich hunain, ai yn nghyfiawnder Crist. Y mae rhai a feddent fwy na thi i'w ddangos wedi tafu ymaith y cyfan, a myned at Grist i gardota. Darllen di rés eiddo Paul, yn *Phil.* iii—beth oedd ganddo, a pheth a wnaeth; etto y cwbl oll yn sorod a cholled, ond iddo ef gael Crist; cymmured y neb a

fyno y lleill oll. Felly Iob, gwr mor sanctaidd ag oeddyn sangu daear—Duw ei hun yn dyst; etto efe a ddywed, “Pe byddwn berffaith, etto nid adwaenwn fy enaid; ffaidd fyddai genyf fy einioes;” *Iob* ix. 21. Yr oedd efe o'r blaen wedi addef ei ammuherffithrwydd; ac yn awr y mae yn gwneud ei debygoliaeth, o'r hyn nid oedd i'w dybied, “Pe byddwn berffaith, nid adwaenwn,” &c.; hyn yw, ni fynweswn y fath feddyliau ag a'm chwytthai i fyny i hyder yn fy sancteiddrwydd, fel ag i'w wneud yn ddadl gyda Duw. Gair tebyg yw hwn i'n dyweddiad cyffredin ni, “Mae gan hwn a hwn ddoniaid rhagorol, ac y mae yn gwybod hyny:” hyn yw, y mae yn falch o honynt. Gochel adwaen dy ras dy hun yn yr ystyr hwn. Ni elli roddi archoll mwy i'rh ras, a'rh gysur hefyd, na thrwy falchïo fel hyn ynddo.

DOSE. III.

1. Ni ddichon dy ras gynnyddu tra y pwyslech fel hyn arno. Nid ydyw ysbryd deddfol yn gyfaill i ras: na, gelyn chwerw ydyw iddo, fel y gwelwyd yn y Phariséaid yn amser Crist. Nid trwy y ddeddf y mae gras yn dyfod, ond trwy Grist. Gelli sefyll yn hir ddigon wrthi, cyn y cei ddim bywyd o ras i'rh enaid, nac ychwaneg o fywyd i'rh ras. Os mynit gael hyn, rhaid i ti roddi dy hun dan adenydd Crist, trwy ffydd; oddi wrth ei Ysbryd ef, yn yr efengyl yn unig, y daw y gwres tyner naturiol hwn i ddeor dy enaid ifywyd o sancteiddrwydd, a chynnyddu yr hyn sydd genyf; ac nis gelli ddyfod tan adenydd Crist, nes dy ddyfod oddi tan gysgod y lleill, trwy ymwrthod â phob disgwyliaid oddi wrth dy waith a'rh wasanaethi dy hun. Chwi a wyddoch fellidith Reuben, na ragorai efe am iddo ddringo gwely ei dad: pan amlhaodd llwythau ereill, efe a arosodd yn ychydig nifer. Yr wyt ti, trwy hyderu yn dy weithredoedd dy hun, yn gwneuthur yn waeth tuag at Grist; ac na ragori di mewn gras! Fe allai y bu rhai o honoch yn hir yn broffeswr, ac nad ydyw eich tyfiad ond bychan mewn cariad at Dduw, gostyngedd-rwydd, syniad nefolaidd, marwâd, &c. Ac y mae yn werth cloddio i weled pa beth sydd yn gorwedd wrth wraidd eich profes, ai nid oes yno egwyddor ddeddfol wedi gweithio gormod ynoch. Ai ni ddarfu i chwi feddwl ennill y dydd yn gwbl gyda Duw trwy eich gwaith a'ch gwasanaeth, a gosod gormod o'ch gobaith yn eich gweithredoedd eich hunain? Och! y mae hyn fel cymmaint o bridd marw, sydd raid ei dafu ymaith, a gosod egwyddorion yr efengyl yn ei le. Gwna braff o hyn, ac edrych ai ni ddaw blagur dy ras ym mlaen yn gyflym. Y mae Dafydd yn mynegi pa fodd y daeth efe i sefyll a blodeuo, pan yr oedd rhai, cryfion a chedryn, yn gwywo ac yn myned i'r dim yn ddisymrwth. “Wele,” medd efe, “y gwr ni osododd Duw yn gadernid iddo, eithr

ymddriedodd yn lliosogrwydd ei olud. Ond myfi sydd fel olewydden wrdd yn nhŷ Duw; ymddriedaf yn nhrugaredd Duw byth ac yn dragywydd;” *Salm* lii. 7. 8. Tra y mae ereill yn ymddiried yng nghyfoeth eu cyf-iawnder a'u gwaith eu hunain, ac heb osod Crist yn gadernid iddynt—ymwrthod di â'r cwbl, ac ymddiried yn nhrugaredd Duw yng Nghrist, a thi a fyddi fel olewydden wrdd, pan fyddont hwy yn gwywo ac yn diflanu.

2. Gristion! ni chynnyddi mewn cysur tra y gorphwysi ar unrhyw waith tumewnol o ras, ac na chedwi yn rhydd oddi wrth dy weithrediadau a'rh gyfiawnder dy hun. Mae cysur efengylaidd yn tarddu o wreiddyn efengylaidd, yr hwn yw Crist: “Yrenwaediad ydym ni, yrhai ydym yngwasanaethu Duw yn yr ysbryd, ac yn gorfoleddu yng Nghrist Iesu, ac nid yn ymddiried yn y cnawd;” *Phil.* iii.

3. Yn awr, enaid a fyddo yn gorphwys ar ryw sancteiddrwydd ynddo ei hun, y mae llinw yn impio ei gysur arno ei hun, nid ar Grist; y mae yn sugno ei fron ei hun, nid bron Crist; ac felly yn gwneuthur Crist yn fammaeth sych. A pha gysur a ddichon dyfu ar y fath bren sych? Yr Ysbryd yw ein Diddanydd, ynystal a'n dysgawdwr a'n cynghorydd. Yn awr, megys nad yw yr Ysbryd, pan fyddo yn dysgu, yn dyfod âg un gwr newydd neu ddieithr, ond yn cymmeryd o eiddo Crist, yr hyn y mae yn ei gael yn y gair; felly, lle y mae efe yn diddanu, o gyfiawnder Crist ei hun y cymmer ef, nid o'r eiddom ni. Crist ydyw sail a defnydd ei ddiddanwch ef. Y cwbl o'i lymeidiau cysurrol ef nid ydynt ond Crist wedi ei ddisidyllio, a'i wneuthur i fyny mewn rhyw addewidion; ei waith ef, nid yr eiddom ni. Nid ydyw efe yn dywedyd, Enaid, llawenhâ, yr wyt yn sanctaidd; ond, Enaid, gorfoledda, y mae Crist yn gyfiawn, ac efe yw yr Arglwydd, dy gyfiawnder. Nid, Enaid, yr wyt yn gweddio yn felus, nac ofna; ond “Y mae i ti Eiriolwr gyda'r Tad, Iesu Grist y Cyfiawn.” Felly, y cam cyntaf at dderbyn cysur gan yr Ysbryd ydyw anfon ymaith bob cysurwyr o'r eiddom ein hunain. Megys mewn dysgu gan yr Ysbryd, y neb a fŷn ei ddysgu ganddo ef, rhaid iddo yn gyntaf fŷned yn ffol; hyn yw, peidio â phwyso mewn un modd ar ei ddeall ei hun: felly, y neb a fŷn ei ddiddanu, rhaid iddo yn gyntaf gael ei waghau o bob hunan-gynnahaeth, a pheidio â phwyso ar ei gysuron ei hun. Fel y gwna physygwr beri i ddyn claf roddi heibio bawb ereill yr ymyrodd â hwynt; efe a hola pa physygwriaeth a gafodd ganddynt; a dŷn ymaith eu helion hwynt, a deiff ymaith eu potelau, ac a ä felly ynghyd â'r gwaith o'r newydd. Felly yr Ysbryd, pan ddel i gysuro enaid truan, y mae yn gyntaf yn perswadio yr enaid i anfon ymaith ei hen feddygon oll. O! medd yr enaid, mi a fum dan law y cyfryw ddyledsdydd, y

cyfryw redfa o ufudd-dod; ac a feddyliais yn sicr—byddaf iach bellach; a chaf gysur yn awr pan wyf yn gwneuthur fel hyn, ac yn ymroi i'r fath yrfa dduwiol. Wele, medd yr Ysbryd, os myni i mi wneuthur dim, rhaid ydyw troi y rhai hyn oll ymaith o ran hyder ynddynt. Yn awr, ac nid hyd yn awr, y mae'r enaid yn wrthddrych addas i dderbyn cysuron yr Ysbryd. Ac am hyny, gyfeillion, fel y rdydych yn caru eich heddwch tumewnol, edrychwch o ba lestr yr ydych yn tynu eich cysur. Y mae gras [ynot ti] yn derfynol; ac felly, nis gall roddi mo'r llawer—y mae yn gollwng, ac felly ni ddichon lladrad yn hir. Yfed o ddysgl holltog yr wyt ti sydd yn ymgysuro yn dy ras. Mae yn gymmysglyd, ac felly yn wan, ac ni ddichon gras gwan roddi cysur cryf; a'r cyfryw sydd arnat ti ei eisieu, yn enwedig mewn brwydrau trymion. Ië, yn olaf, lladrad yw dy gysur a dyni oddi wrth hwn; nid wyt yn ei gael mewn ffordd onest, ac ni lwydda cysuron lladrad yn dy law. O! mor fiol yw i blentyn chwareu y lleidr, am yr hyn a allai efe gael yn rhwydd ac yn helaethach gan ei Dad, "yr hwn sydd yn rhoddi, ac heb ddannod!" Y cysur a fynit ti ei chwiwddwyn allan o'th gyflawnder a'th ddyledswyddau dy hun, wele, y mae yng nghadw i ti yng Nghrist, o gyflawnder yr hwn y gelli gael cymmaint ag a ddichon dy ffydd ei ddal, ac heb neb i'th geryddu. Ië, po fwyaf y defnyddiech Crist er dy gysur, mwyaf yw dy groesaw. Erchir i ni "agor ein safn, ac Efe a'i lleinw."

PENNOD XI.

Y trydydd math o falchder ysbrydol, sef balchder breintiau.

Y TRYDYDD math o falchder (balchder ysbrydol wyf yn ei feddwl), yw balchder breintiau; a'r hwn y mae ymgais yr ysbrydion drygionus hyn i chwythu y Cristion i fyny. Enwaf dri:—

1. Pan alwo Duw ddyd i ryw le uchel, neu y defnyddio ef i ryw ddarn o wasanaeth arbenig.
2. Pan ddyrchafo Duw Gristion i ddiodeff er mwyn ei wirionedd, neu ei achos.
3. Pan ffyrdio Duw i mewn, gydag amlygiadau mwy na chyffredin o'i gariad, ac y llanwo yr enaid â chysur a llawenydd. Breintiau yw y rhai hyn na chyfrenir hwynt i bawb fel eu gilydd; ac am hyny, lle y byddont, fe gymmer Satan y fantais i ymosod ar y cyfryw â balchder.

DOSB. I.

1. Pan falwo Duw ddyd i ryw le uchel, neu y defnyddio ef i wneuthur rhyw ddarn arbenig o wasanaeth. Yn wir, y mae yn gofyn mesur mawr o ras i gadw'r galon yn isel, pan fyddo y dyn yn sefyll yn uchel.

Yr apostol, wrth son am gymmhwysiadau gweinidog yr efengyl (1 *Tim.* iii. 6.), a ddywed, "Nid yn newyddian," neu ddychwelwr ieuangc, "rhag iddo ymchwyydo a syrthio i ddamnedigaeth diafol." Fel pe dywedai, Y mae'r galwad hwn yn anrhydeddus; ac oni bydd llestr y gwr wedi ei falasarnu yn dda â gostyngeddrwydd, awel fechan a'i dymchwel ef i'r pechod hwn. Y deg a thrigain a ddanfonedd Crist gyntaf allan i bregethu'r efengyl, ac a ffynasant mor wyrthiol yn erbyn Satan: pan oedd y rhai hyn yn sathru hyd yn oed ar ben y sarph, efe a drodd drachefn, ac a fu debyg i'w brathu hwynt â balchder. Ein lachawdwr a welodd hyn; a phan ddychwelasant mewn gorfoledd, gan adrodd y gwyrthiau mawrion a wnaethant, y mae efe yn eu tynu oddi wrth yr ymogoneddiad hwnw, rhag iddo ddirywio i wag ogoniant; ac y mae yn eu galw i lawenhau, nid am fod y cythreuliaid yn ddarostyngedig iddynt, ond am fod eu henwau yn ysgrifenedig yn y nef. Fel pe dywedasai, Nid urddas eich galwedigaeth a llwyddiant eich gweinidogaeth a'ch achub chwi: caiff rhai eu bwrw at gythreuliaid, er eu dywediad fel hyn, "Arglwydd, Arglwydd, ni a fwriasant allan gythreuliaid yn dy enw di!" Ac am hyny, na phrisiwd eich hunain wrth hyn: ond yn hytrach profwch i'ch eneidiau eich bod o'm rhai etholedig i; yn hyn a etyb yn well i chwi yn y dydd mawr na hyn i gyd.

DOSB. II.

Ail ragorfraint yw, pan anrhydeddo Duw ddyd i ddiodeff dros ei wirionedd: brain fawr yw hon. "I chwi y rhoddyd, nid yn unig i gredu, ond hefyd i ddiodeff erdd ef;" *Phil.* i. 29. Nid arfer Duw yw rhodd rhoddion diwrth i'w saint; y mae rhyw werth yn y rhodd nas gall llygad cnwdd ei weled. Rhodd fawr, chwi a ddywedwch yw fydd; ond mwy yw parhâd; heb yr hyn ni byddai fydd ond o werth bychan; ac mae parhâd yn diodeff yn anrhydeddu uwch law y ddwy. Hyn a barodd i'n meistr John Careless (er na fu efe farw wrt yr ystange, ond mewn carchar, er mwy Crist) ddyweddyd, "Y fath anrhydedd yn na chaniateir i angylion ei chael: am hyn; Duw a faddeuo i mi fy anniolchgarwch. Yn awr, pan nas gallo Satan darfu dyn rha diodeff carchar, efe a gais, er hyn, ei roddi ymchwyydo mewn carchar; pan nas gal beri iddo drugarhau wrtho ei hun, yna efe weniethia iddo, nes y balchio yddo ei hu. Y mae cystudd oddi wrth Dduw yn e rhoddi mewn perygl o anoddefgarwch; cy tudd dros Dduw mewn perygl o falchder. Ac am hyny, Gristionogion, ymdrechwch am ddiogelu eich hunain rhag y demtasiv hon o eiddo Satan. Ni wyddoch pa m fuan y gellwch gael galwad i ddiodeff; n hir yn fynych y bydd y fath gymmylau.

codi. Yn awr, i gadw dy galon yn ostyngedig, pan y'th anrhydedder i ddiodeff dros y gwirionedd, ystyria—

laf. Er nad wyt yn haeddu y gofidiau hyn ar law dyn, ti a fedri, ac a elli yn y golygiad hwnw, orfoleddu yn dy ddiidweidrwydd; nid wyt yn diodeff fel drwg weithredwr; etto, nis gelli di lai nag addef ei fod yn gystudd cyfiawn oddi wrth Dduw, mewn golygiad ar bechod ynot; ac mi dybygw'n y dylai hyn dy gadw di yn isel. Fe all yr un diodeffaint fod yn ferthrydod mewn golygiad ar ddyn, ac etto yn gerydd tadol mewn golygiad ar Dduw. Ni bu ar neb ddiodeffiaidau heb bechod ond Crist; ac am hyny, nid oes i neb ymogoneddu ynddynt ond efe—Crist yn yr eiddo 'ei hun; nym'i yn yr eiddo ef. "Na ato Duw i mi ymfrostio ond yng nghroes Crist;" *Gal.* vi. 14. Hyn a gadwodd Mr. Bradford yn ostyngedig yn ei ddiodeffiaidau dros y gwirionedd: nid oedd neb yn llawenhau mwy ynddynt, ac yn bendithio Duw yn fwy am danynt; etto, nid oedd neb yn fwy isel danynt nag efe. "A pha beth a'i cadwodd yn yr agwedd isel hon? Darllenwch ei lythyrau duwiol, a chwi a gewch weled y modd y mae efe, agos yn y cwbl, yn cwyno o herwydd ei bechodau, a phechodau y Protestaniaid dan deyrnasiad y brenin Edward." "Yr oedd yn bryd," medd efe, "i Dduw roi ei wialen yn nwyllaw y Pabyddion; yr oeddym wedi myned mor falch, ffurfiol, a diffirwyth, ie, i ddibrisio a laru ar foddion gras, pan oeddym yn mwynhau eu rhyddid; ac am hyny, y mae Duw wedi troi arnom yr olwyn o erledigaeth." Fel yr oedd efe yn edrych ar yr anrhydedd i'w wneud yn ddiolchgar, felly ar bechod i'w gadw yn ymostyngar.

2il. Ystyria pwy sy'n dy ddal i fyny, ac yn dy ddwyn trwy dy ddiodeffiaidau dros Crist. Ai dy ras di, ynte yr eiddo ef, sydd yn ddigon i'r fath waith—dy ysbryd di, ai ysbryd Crist, i lefaru drwyddo, pan y'th alwer i fod yn dyst i'r gwirionedd? Pa fodd y mae yn bod, dy fod di yn ddiodeffwr, nid yn erlidiwr? yn gyffeswr, ac nid yn wadwr, ie, yn fradychwr Crist a'i efengyl? Yr wyt yn ddyledwr i Dduw am hyn. Nid yw efe yn ddyledwr i ti, os ymadewi â meddiannau, parch, neu fywyd ei hun, er ei fwyn ef. Pe meddit fil o fywydau, byddet yn ddyledwr o honynt oll iddo ef. Ond yr wyt ti yn dra rhwymedig i Dduw, am fod iddo alw am y pethau hyn, yn y ffordd hon, sydd â'r fath urddas a gwobr ynglŷn wrthi. Efe a allasai oddef i ti fyw yn dy chwantau, ac yn y diwedd, ddiodeff colli y rhai hyn i gyd o'u hachos hwynt. O! gynnifer sydd yn marw wrth y crogbren fel merthyron yn achos Satan, am ladrad, trais, a llofruddiaeth! Neu, efe a allai roddi attaliad ar ei ras, a'th adael di i'th lyfrder a'th anghred dy hun; ac yna, buan y dangosit dy hun yn dy wedd

dy hun. Y mae y rhai gwrolaf dros Crist wedi cael prawf mor weiniaid ydynt, os cilia Crist o'r neilldu. Ni a gawn rai, ar ol dwyn tystiolaeth gref am eu fydd a'u hymroddiad yn achos Crist, ie, a dyfod mor agos i farw er mwyn ei enw nes rhoddi eu hunain i gael eu rhwymo wrth yr ystange, ac i'r tân gael ei gynneu o'u deutu, etto, y pryd hyny, eu calonau yn pallu. Megys y gwr duwiol hwnw, Mr. Benbridge, yn ein Merthyr-draith Seisoneg; yr hwn a wthiodd y ffag-odau oddi wrtho, ac a lefodd, "Yr wyf yn galw yn ol, yr wyf yn galw yn ol!" Etto, y gwr hwn, wedi cael ad-gryfnad i'w fydd, a'i gynnysgaethu â nerth oddi uchod, a alluogwyd o fewn yr wythnos ar ol y ffôad athrist hwnw i farw yn siriol wrth yr ystange. Yr hwn unwaith a orchfygodd angeu drosom, sydd o hyd yn ei orchfygu ynom. A phwy ddylai fod yn destyn dy gân, ond yr hwn sydd i ti yn nerth? Na tola dy hun, ond bendithia ef. Un o enwau Duw ydyw "godidowgrwydd cadernid" ei bobl: *Salm* lxxxix. 17. Po mwyaf yr ymogoneddi yn Nuw, sydd yn rhoddi i ti nerth i ddiodeff drosto, lleiaf a fosti am danat dy hun. Ni ddichon calon ddiolchgar a balch gyd-drigo yn yr un fynwes.

3ydd. Ystyria pa fath anaf brwnt a rydd balchder ar dy ddiodeffiaidau oll: y mae yn newid yr achos, lle ni alerir o'i blegid, ac nis gwrthwynebir. Yr hen ddywediad yw, "Nid yw gosp, ond yr achos, a wna ferthyr." Gallwn yn ddiogel ddywedyd ym mhellach, Nid yr achos yn noeth yn unig, ond agwedd ddiffuant y galon, wrth ddiodeff mewn achos da—hyn a wna ddyn yn ferthyr yng ngolwg Duw. Pe rhoddit ti dy gorph i'w losgi, oni bydd genyt galon diodeffwr gostyngedig dros Crist, yr wyt yn troi yn farsiantwr i ti dy hun. Nid wyt yn gwadu ond un hunan, i osod i fyny yn arall; yn rhedeg y perygl am dy ddaoedd a'th fywyd i ennill rhyw glod, ysgatfydd, a chodi i fyny gof-arwydd i'th anrhydedd yn nhybiau dynion. Nid wyt yn gwneud dim yn yr achos hwn yn rhagor na milwr, yr hwn am yr enw o wroldeb, a anturia i safn angeu a pherygl. Yn unig yr wyt ti yn dangos dy falchder dan rith crefyddol; ond ni wna hyny wellhau, ond gwaethygu'r mater. Os myni yn dy ddiodeffiaidau fod yn aberth cymmeradwy gan Dduw, y mae yn rhaid i ti fod yn barod, nid yn unig i offrymu dy fywyd dros ei wirionedd ef, ond i offrymu dy falchder hefyd. Heb hyn, ti a elli syrthio o un tân i dân arall; diodeff yma gan ddyn, fel ymdrechwr ymddangosiadol dros yr efengyl, ac mewn byd arall oddi wrth Dduw, am ei ysbello ef o'i ogoniant yn dy ddiodeffiaidau.

DOSE. III.

Trydedd fraint yw, Pan ffrydio Duw i mewn gyda mwy o amlygiadau o'i gariad na

chyffredin : yna y mae'r Cristion mewn perygl rhag ymgodiad dirgel ei galon mewn balchder. Yn wir, yr effaith naturiol a phriodol sydd gan y cyfryw amlygiadau o gariad Duw ar enaid grasol yw ei ddarostwng. Y mae golwg ar drugaredd yn chwaneu y teimlad o bechod ; ac y mae'r teimlad yn toddi yr enaid i dristwch, fel y gwelwn yn Magdalen. Y galon, yr hon o bosibl oedd yn galed ac wedi rhewi yn y cysgod, a ymyrdd ac a dawdd yn nhywyuniad haul cariad : ac hyd yn hyn y mae pob balchder yn guddiedig o olwg y creadur. Yna, medd Duw, "Y cofiwch eich ffyrdd drygonus, a'ch gweithredoedd nid oeddynt dda, a byddwch yn ffiائد genych eich hunain, am eich anwireddau, ac am eich ffeidd-dra ;" *Ezec. xxxvi. 31.* A pha bryd y byddai hyn, ond pan waredai Duw hwynt oddi wrth ei holl frynti? Gwel *adm. 25.* Etto, er hyn oll, y mae'r fath waddod o lygred yn aros heb ei weithio allan o'r goreu, fel nad yw Satan ddim yn ei gael yn amhosibl peri i'r amlygiadau o gariad Duw fod yn achlysur o falchder i'r Cristion. Ac yn wir, y mae Duw yn rhoi lle i ni weled ein tueddrydd i'r pechod hwn, trwy ei arosiad byr, pan ddel â rhyw ddadguddiadau cryfach o'i gariad. Gwir yw, y Diddanydd a erys yn dragywydd yn mynwasu'r saint ; ond ei orfoledd—dyfod y mae, ac ebrwydd yr â ymaith. Y mae hwn fel danteithfwyd, i roddi gwledd i'r credadyn ; ond buan y tynir ymaith y lliau. A pha ham felly? ond am nad allwn ni eu dwyn hwynt fel ymborth beunyddiol. Y mae cyfeillach fer â'r nef, a golwg agos ar gariad Duw anbell waith, ar fynydd ordinhâd neu gystudd, yn siriol ysbrydoedd Cristionogion blinedig ; ond pe caent hwy genaid i wneud pebyll yno, ac aros dan dywyniad parhaus y cyfryw amlygiadau, byddent yn dueddol i anghofio eu hunain, a thybied eu bod yn arglwyddi ar eu cysuron eu hunain. Os oedd Paul dduwiol mewn perygl o syrthio i'r clefyd hwn o falchder, ar ol ei weledigaeth fer ; a Duw, i ragflaenu hyny, yn gweled achos gollwng gwaed arno, trwy swmbwl yn y cnawd, oni fyddai i'n gwaed ni, yn llawer mwy, fyned yn rhy fras, a ninbau yn rhy hoenus a nwyfus, pe caem ymborthi yn hir ar y fath fwyd moethus? Gan hyny, Gristion, os yw yn angenrheidiol i ti un amser wyllo, yna y mae pan fyddo cysuron yn helaeth, a Duw yn dy ddiiddanu yn fwyaf ar lin ei gariad (pan lewyreho ei wyneb gyda'r amlygiadau egluraf), rhag i'r pechod hwn o falchder, fel lleidr yn y gau-wyll, ddifa dy holl lawenydd. I ragflaenu hyn, da y gwneit, Yn gyntaf, Os edrychi rhag i ti fesur dy ras wrth dy gysur, a rhag cael felly dy arwain i gau dyb, fod dy ras yn gryf, am fod dy gysuron felly. Bydd Satan yn barod i feithrin y fath feddvliau fel cyfrwng cymmlhwys i'th godi di i'fyny, a

llacau dy ofal mewn dyledswydd o hyny allan. Y mae'r cyfryw amlygiadau yn wir yn dwyn tystiolaeth i wirionedd dy ras, ond nid i'r tradd a'r mesur o hono. Gall y plentyn gwanaf fod, i.e., y mae yn fynychach yn yr arffed, na'r cryf. Yn ail, yn lle dy gannawl dy hun yn dy gysur presenol, bydded dy gais yn hytrach am ei ddefnyddio i ogoniant Duw. "Cyfod a bwyta (ebe'r angel wrth Elias), canys y mae i ti lawer o ffordd." Yn amlygiadau o gariad Duw ydynt i'n haddasu ni at ein gwaith. Un peth yw llawenhuw yug ngoleuni ein cysur ; a pheth arall yw myned allan yn nerth yr Ysbryd sydd yn ein diddanu megys cewri, gan mor lon y gwin hwn, i redeg ein gyrfa o dyledswydd ac ufudd-dod yn fwy cryf a bywiog. Dangos ei falchder a wna y dyn a dreulia ei amser i gyfrif ei arian yn unig, i weled mawredd ei gyfoeth ; ond hwnw a roddo ei arian allan i farchnata â hwynt, ei gallineb. Y bostiwr, o'i gysuron a gyll yr hyn sy ganddo, pryd ; bydd i'r hwn a ddefnyddia ei gysuron mewn masnach helaethach o dyledswydd chwaneu at yr hyn sy ganddo. Yn drydydd Cofia dy fod yn ymddibynu ar Dduw ar barhâd dy gysuron. Nid y wên a gefais ddoe a all dy wneud yn orfoleddus heddyw ddim mwy nag y gall y bara a fwyteis ddoe dy wneud yn gryfach heb chwaneu. Y mae arnat eisieu amlygiadau newydd, i gau cysur o'r newydd. Os cuddia Duw ei wyneb buan y colli di y golwg, ac yr anghofi flas y hyn sydd yn awr genyt. Y mae tu hwn i'n gallu ni i gadw yr argraphiadau o lawer ydd, a'r amgyffrediaadau cysurolo o ffafur Duw a brofasom weithiau yn ein hysbryd. Meg mai presenoldeb Duw sydd yn dwyn y rh hyn, felly, pan gilio efe, y mae yn eu dwyn hwynt ymaith i'w ganlyn, fel y dwg yr ha y dydd ar ei fachludiad. Ni a chwardee yn groch ar y dyn a dybiai, pan dywynai haul yn ei ffenestr ef, y gallai efe garcha ei belydr o fewn ei ystafell trwy gau ffenestr. Ac onid wyt ti yn dangos cymmau ffolineb, yr hwn wyt yn thybied, am fod gen gysur yn awr, na fyddi di byth mwya mewn tywyllwch ysbryd? Y mae cysur credadyn yn debyg i fanna Israel : nid ydych fel ein bara a'n hynborth cyffredin ni. brynwn yn y farchnad, ac a glôwn yn celloedd, i fyned yno ato pan y mynom : ei wlawio y mae yn ei gael, megys hwnw nefoedd. Yn wir, fe ddarparodd Duw idynt yn y modd hwn er eu darostwng : "hwn a'th fwydodd yn yr anialwch â man yr hwn nid adwaenai dy dadau, er dy ddarostwng ;" *Deut. viii. 16.* Nid am ei fod ymborth gwael y dywedir fod Duw yn darostwng, o herwydd yr oedd yn fwyd i'w aid, a elwir gan hyny yn "fara anglyc" (*Salm lxxviii. 25.*) ; yn fwyd, pe bai anglyc yn bwyta, a wasanaethai iddynt. Ond o'i drefn o'i gyfranau, o'r llaw i'r genau, eu c

ran bob dydd, a dim chwaneg, fel mai Duw oedd yn cadw agoriad eu cell; yr oeddynt yn byw ar ei ddogrn beunyddiol ef. Ac fel hyn y mae Duw yn cyfranu ein cysuron ysbrydol ninnau i'r un dyben, sef "i'n darostwng." Cymmaint a hyn a nodaf mewn perthynas i'r ail fath o ddrygau ysbrydol.

Yr oeddwn wedi meddwl rhoddi esamplau mewn drygau ereill, megys rhagrith, anghrediniaeth, a deddfoldeb; ond ysgatfydd, gan fod y testyn yn gyffredinol, y gellir cyfrif yr hyn a ddywedais eisoes yn fater gwahanol, a hwnw yn rhy faith.

Gau hyny, mi a derfynaf y dosbarthiad iwn am *ddrygau ysbrydol*, mewn gair i'r rhai sydd etto yn eu hystâd anianol ac an-stantiaid; a hyny i'w cyffroi oddi wrth yr hyn a ddywedais am Satan yn rhuthro ar y credinwyr â chyfryw demtasiynau—i ystyr-ed yn ddwys y modd y mae prif fwriad Satan yn eu herbyn hwythau yn sefyll yn yr un pechodau. Y rhai hyn yw y drygau y nae ei ymgais ef am eich boddi ynddynt iwech law y lleill oll. Os derfydd byth am lanoch, trwy law y pechodau hyn y bydd i'w hyn. Cydwybod seriedig, meddwl tywyll, calon ddiddolur, anedifeiriol, fydd dy ddin-str, os yn ol y byddi yn y diwedd. Pechodau ereill, fel w'yr y diafol, ydynt barotoawl i'r rhai hyn. Y maent yn parotio ffordd i pechodau ysbrydol mewn dau fodd. Yn gyntaf, Fel y maent yn naturiol yn tueddu i'r pechadur iddynt. Natur pechod yw dallu i meddwl, syfrdanu y gydwybod, a chaledu y galon, fel y cynnwysir yn *Heb.* iii. 13: "Fel na chaleded eich calon trwy dwyll pechod." Megys y mae traed teithwyr yn caledu y ffordd fawr, felly y gwna rhodio mewn pechodau cnawdol gwrthun galedu y galon: hwy ldygant syrthni i'r gydwybod, nes y collo y'r pechadur ei deimlad mewn amser, ac y gallo ldywn ei chwantau yn ei galon, fel rhai gwallgofus eu pinau yn eu cnawd, heb boen na gofid. Yn ail, Fel y maent yn annog Duw trwy weithred farnol i'w rhoddi i fyny i'r pechodau hyn: "Dod iddynt gyndynwydd calon:"—felly y mae ar ymyl y ddalen—"dy felldith iddynt?" *Galar.* iii. 65. A chan gaffo y diafol bechaduriaid i'r afael on, yna y maent ganddo dan glo cadarn. Rhagflaenwyr damnedigaeth yw y rhai hyn. Os Duw a âd dy galon yn galed heb ei braen-ru, y mae yn arwydd trwm nad yw efe yn neddwl hau had gras ynddi. O, bechadur-aid! gweddiwech, yn ol cais hwnw am weddi i'r drosto, fel na ddel dim o'r pethau hyn ynnoch: *Act.* viii. 24. Ac fel na ddelont, gochel wrthod y cynnygion a wna efe at ly feddal. Y mae caledwech gan Dduw yn anlyn, ac yn goshp am ein gwaith ni yn aledu ein hunain. Gwir yn ddiâu yw yr hyn a ddywed Prosper, "Dichon dyn golli bethau tynnorol yn erbyn ei ewyllys, ond nid pethau ysbrydol oddi eithr yn ol ei

ewyllys." Ni chaleda Duw neb, ac nid â neb i uffern ond yn ol rhediad yr ewyllys.

PENNOD XII.

Yn dangos pa beth yw y campdlws, yr iwn y mae credinwyr yn ymdrechu am dano, yn erbyn y tywysogaethau, yr awdurdodau, a'r drygau ysbrydol hyn.

"Yn y nefolion leoedd."

DOSE. I.

Y MAE y geiriau hyn yn cynnwys y gaingeg olaf yn y darluniad o'n gelyn mawr. Mae ynddynt radd o anamlygrwydd, am nad oes yn yr iaith wreiddiol ond yr ansoddair (*adjective*) *en tois epouraniois*, hyny yw, "yn y nefolion." Gan fod yr ymadrodd yn ddi-ffygiol, y mae ein cyfieithwyr yn ei ddarllen "yn y nefolion leoedd;" fel pe buasai yr apostol yn bwriadu dangos y fantasia lle sy gan ein gelyn hwn arnom ni trwy ei fod yn uwch na ni. Yn wir, y ffordd hon y mae deonglwyr yn amlaf yn myned; etto, y mae rhai, hen a diweddar hefyd, yn darllen y geiriau, nid "yn y nefolion leoedd," ond mewn "nefolion bethau." Felly Cæcumenius, medd efe:—"Y mae hyn, fel pe dywedasai yr apostol, Nid yw ein hymdrech ni am bethau bychain a gwael, ond am bethau nefol; i.e., am y nef ei hun, a'n mabwysiad fel y mae yn myned ym mlaen." Yr un ffordd y mae Chrysostom yn myned; ac ar ei ol ef, Musculus, ac ysgrifenywyr diweddar ereill. Y rhesymau a roddir o blaid y deongliad hwn ydynt o bwys:—

1. Yr un gair, mewn manau ereill heb sylweddair terfynol a gymmerir am bethau, nid lleoedd: *Heb.* viii. 5. I.e., y mae un (Dr. Gouge) yn sylwi fod y gair i'w gael yn agos i ugain o weithiau yn y Testament Newydd; ac nid unwaith am unrhyw le awyrol, ond bob amser am bethau gwir nefol ac ysbrydol. Arwyddocâd priodol y gair yw *uchnefol*; ac os caiff ei gymmhwyso at leoedd, y mae yn arwyddo lle nad aeth y diafol byth iddo ar ol ei gwmp.

2. Nid oes un ddadl gref i'w gwled at ddangos Satan yn arswydus, trwy ei fod uwch law i ni o ran lle. Y mae yn beth mantais yn wir i ddynion gael y tir uchaf, neu fod uwch law eu gelynyon mewn rhyw le o gadernid; eithr nid yw hyn ddim i ysbrydion. Ond yn awr, cynmerer y gair am *bethau*, ac yna y mae yn chwanegu pwys at yr holl ranau ereill o'r darluniad. Y mae ein hymdrech ni yn erbyn tywysogaethau ac awdurdodau, a drygau ysbrydol; ac yn erbyn y rhai hyn oll, nid am y fath deganau a gwaelbethau ag a fedd y ddaear, nad ydynt ond bychain, i'w cadw neu i'w colli, ond am y fath bethau ag a rydd y nef o'n blaen. Y mae y fath elyn a'r fath gampdlws a hwn yn ei wneud yn fater ein gofal

mwyaf, pa fodd i drin yr ymladdfa. O agor y gair fel yma, y sylw fydd hyn:—
DOSB. II.

Athr. Y prif gamp-dlws, am ba un y mae ein hymdrech yn erbyn Satan—un nefol ydyw. Neu fel hyn, prif friad Satan yw anrheithio ac ysbeilio y Cristion o'r cwbl sydd yn nefol. Yn wir, y cwbl a fedd y Cristion, neu a ddymuna efe megys Cristion, sydd nefol. Y mae y byd o'r tu allan i'w hanfod ac i'w hapusrwydd ef hefyd: y mae yn ddeithr i'r Cristion, ac nid yw yn gyfranog o'i lawenydd nac o'i ofid ef. Pentyrwch holl gyfoeth ac anrhydedd y byd ar ddyn, ni wnânt mo hono yn Gristion: pentyrwch hwynt ar Gristion, ni wnânt mo hono yn well Cristion. Drachefn, dygwch hwynt oll ymaith, a chaued pob aderyn ei bluen: pan fyddo wedi ei ddiosg, ac yn noeth, Cristion fydd efe er hyn, ac fe allai, yn well Cristion. Yr oedd yn ymadrodd hynod o eiddo Erasmus, os llefarwyd ef mewn difrifwch, a'i gallineb heb fod yn rhy gyflym i'w gydwybod. Ei air oedd:—“Nid wyf fi yn chwennych cyfoeth ac anrhydedd, ddim mwy na cheffyl llesg y pwn trwm.” Ac yr wyf yn barnu y byddai pob Cristion yn ei iawn dymher o'r un meddwl. Ni wnai Satan ond ychydig niwed i sant, pe troai efe ei fyddinoedd yn unig, neu yn benaf, yn erbyn ei fwyniant allanol ef. O! nid yw y Cristion yn mawr-brisio hwn, nac yn priso ei hun wrtho. Byddai hyn fel pe meddyliai un niweidio dyn wrth guro ei ddillad wedi iddo eu diosg. Cyn belled ag y mae Ysbryd y gras yn gorchfygu yng nghalon sant, y mae wedi diosg y byd o ran ei chwant am dano a'i fwyniant yndo; ac felly, nid llawer a deimlir oddi wrth y dyrnodiau hyn. Gan hyny, ei drysorau nefol ef yw yr ysbail y mae Satan yn hiraethu am dano.

DOSB. III.

1. Y mae natur Cristion yn nefol, wedi ei ei eni oddi uchod. Megys mai yr Arglwydd o'r nef yw Crist, felly, ei holl blant ef ydynt nefol a sanctaidd. Yn awr, bwriad Satan yw halogi a darostwng hon; i.e. bywyd gwerthfawr y creadur y mae efe yn hela am dano. Y mae efe wedi colli y prydferthwch sancteiddrwydd hwnw a fu unwaith mor ogoneddus ei lewyrch ar ei natur angylaidd; ac yn awr, fel llwyr wrthgiliwr, y mae yn ymgais am ddifetha yn y Cristion yr hyn a gollodd efe ei hunan. Y mae hadau y rhyfel hon wedi eu hau yn natur [newydd] y Cristion; y mae efe yn sanctaidd, a hyny nis gall Satan ei oddef. “Filwr, taraw'r wyneb,” ydoedd araeth a gorchymyn Cesar i'w filwyr, pan ydoedd ar ymladd â dinaswyr Rhufain. “Y mae y dinaswyr hyn,” eb efe, “yn hoff o'u prydferthwch; anafwch hwnw, a chwi a anafwch y cwbl.” Yr enaid yw y wyneb yr argraffwyd delw Duw arno; sanct-

eiddrwydd yw prydferthwch y wyneb hwnw, yr hwn a'n gwna yn wir debyg i Dduw. Fe ŵyr Satan fod Duw yn caru hwn, a'r saint yn ofalus am dano; ac am hyny, y mae ei gais am anafu ac anffurio hwn, fel y caffo ar unwaith orfoleddu yng ngwaradwydd y Cristion, a thywallt ei ddirnyg ar Dduw yn nrylliad ei ddelw. Ac onid yw yn werth anturio aelod a bywyd mewn brwydr yn erbyn y gelyn hwn, a fynai ein hysbeilio o'r hyn sydd yn ein gwneuthur yn debyg i Dduw ei hun? A anghofiasoch chwi yr ammodau gwaedlyd o heddwch a gynnygiodd Nahas i wyr Iabes Gilead? Nid oedd heddwch i'w gael oni adawent iddo ef dynu eu llygaid deheu hwynt, a gosod hyn yn waradwydd ar holl Israel. Y modd y derbynwyd hyn, gwelwch yn 1 *Sam.* xi. 6. Nid yw'r wyneb a gollodd ei lygaid ddim wedi ei hagrau gymmaint a'r enaid a gyll ei sancteiddrwydd; ac nid oes dim heddwch i'w ddisgwyl ar law Satan, oddi eithr iddo allu ein difeddu o hwn. Tebygwn, wrth feddwl am hyn, y gweddaï fod Ysbryd yr Arglwydd ar y Cristion, a'i ddigofaint ef yn enny llawer mwy yn erbyn yr ysbryd melldigedig hwn, nag oedd dig Saul a gwyr Israel yn erbyn Nahas.

2. Y mae marchnadaeth y Cristion yn nefol; o dwf y wlad nefol y mae yr eiddo y mae efe yn marchnata yndo; “Ein hymarweddiad ni sydd yn y nefoedd;” *Phil.* iii. 20. Y mae ymarweddiad pob dyn yn gyfaddas i'w alwad; y neb sydd â'i alwad yn nefol, a ddilyu hyny yn ddyfal. Y mae i'w bawb fod â'u “bryd ar eu gorchwylion eu hunain,” medd yr Apostol: 1 *The.* iv. 11. Chwi ellwch, ysgatfydd, gael crefftwr allan o'i weithdy ambell waith; ond y mae efe fe pysgodyn allan o'r dwfr, heb fod yn ei elfei nes y byddo gyda'i alwad drachefn. Felly pan fyddo'r Cristion gyda'r byd, a'r bydol ddyn oddeutu pethau nefol, y mae y ddau yn wyr allan o'u ffordd, heb eu hiawn wregysu, nes y delont at eu gorchwyl drachefn. Yn awr, y masnach nefol hwn ydyw yr hyn y mae ymgais Satan, mewn modd enwedigol am ei attal. Pe gallai y Cristion gael ond masnach rydd â'r nef dros ychydig flynydd oedd, yn ddirwystr, buan y cynnyddai yn w cyfoethog, rhy gyfoethog yn wir i'r ddaear.

Onid gan faint y colledion y mae yn e cael ar law y lleidr hwn, Satan, ac hefyd cam y mae yn ei gael trwy fradwriaeth rhu yn ei fynwes ei hun (sydd fel gweision ang hywir yn cyfeillachu â'r ysbeiliwr hwn), mae yn cael ei gadw yn isel yn y bywyd hwn, a llawer o'i ennill yn colli. Yn awr, mae masnach nefol y Cristion yn gorwedd naill ai gartref neu oddi cartref. Ni chafefe lonydd yn y naill na'r llall: y mae Satawrth ei sodlau ym mhob un.

1af. Gartref. Hwn a allaf ei alw ei fa nach cartrefol, sydd yn cael ei ddwyn y

mlaen yn y dirgel rhwng Duw a'i enaid ef ei hun. Yma y mae y Cristion ar fasnach sydd yn adnabyddus; y mae efe yn y nef, a chartref drachefn, yn llwythog yn ei feddylau o fyfyrdodau nefol, cyn i'r byd wybod yn mha le y bu. Y mae pob creadur a wel efe yn destyn i'w galon i godi rhyw fater a sylwadau ysbrydol oddi wrtho. Y mae pob pregeth a glywo yn tori iddo waith i'w wreuthur i fynd, ac ymhelaethu arno, pan fyddo wrtho ei hun. Y mae pob rhaglun-aeth fel gwynt i'w hwyliau ef, ac yn gosod ei galon ar gychwyn mewn rhyw ysgogiad nefol neu gilydd, addas i'r achos. Ar yr un pryd, y mae wedi ei amwisgo â llawenydd gan yr ystyriaeth am drugaredd; bryd arall, yn lodeddig gan dristwch duwiol, trwy y teimlud o'i bechodau—weithiau, bydd yn dyrchafu Duw mewn mawl; drachefn, yn ymostwng ger bron Duw o herwydd ei lygredd ei hun. Ar yr un pryd, y mae efe wrth fron y cyfmod, yn sugno cysuron yr addewidion; bryd arall, yn gweithio eiganoni arswyd duwiol, ac ofn y bygythion. Fel hyn y mae y Cristion yn rhodio uchod, tra y mae y bydolldyn gwael yn llyfu y llwch isod. Y mae m o'r perlau nefol y mae y Cristion yn masnachu am danynt yn fwy o werth na'r hyn a gaiff y bydol-ddyn, gyda ei holl chwys a'i afur, yn ei holl fywyd. Y mae traed y Cristion yn sefyll lle y mae penau pobl ereill—y mae efe yn sathru ar y lleuad, ac wedi ei visolion â'r haul. Y mae yn edrych i lawr ar ydolon megys un oddi ar fryn uchel ar y hai sydd yn byw mewn rhywgors neu forfa, ac yn eu gweled yn gladdedig mewn niwl o wyniant ac elw anianol; tra y mae efe yn madlu mewn awyr bur, a nefolaidd; etto, nid nor uchel ag i fod uwch law pob ystormydd gwyntoedd. Y mae aml awel drom yn hwythu arno oddi wrth bechod a Satan. Beth arall yw meddwl y cwynion a'r griddanau athrist hyny sydd yn dyfod oddi wrth blant Duw, fod eu calonau mor farwaidd a hurt, a'u meddyliau mor wibieg a chrwydr-edig mewn dyledswydd—ie, lawer pryd, mor ldrwg a brwnt, fel mai prin y beiddiant eu hadrodd rhag ofn halogi eu gwefusau eu hunain; ac anfodhau clustiau ereill wrth eu henwi! Yn sicr, y mae y Cristion yn cael yn ei galon ewyllysio a dymuno am allu myrrio, gweddio, gwrandaw, mewn modd gwell na hyn, onid yw? Iê, mi a feiddiaf ateb drosto ei fod. Ond tra y byddo diafol i'w mentio, a ninnau yn aros o fewn ei rodfa, fel hyn y bydd, yn fwy neu lai; mor brysur ag y bydd ein hymgais i lanhau ffynnon ein calonau, bydd ei ymgais yntau am ei chymnysgu neu ei hattal drachefn. Felly y mae genym ddau orchwyl i'w gwneud ar unwaith, gyflawnu dyledswydd, a gwylio rhag ein gwrthwynebwr; a'r gweithio a chleddyf yn ein dwylaw. Y mae angen iddynt hwy weithio yn ddyfal yn wir, sydd âg ereill o

hyd am dynu i lawr, fel y maent hwy yn ymeginio am godi yr adeilad i fyny.

2il. Y mae y rhan hono o fasnach y Cristion sydd oddi cartref yn nefol hefyd. Golygwch Gristion yn ei berthynasau, ei alwad, ei gymnydogaeth—masnachwr nefol yw efe yn y cwbl: gorchwyl mawr ei fywyd ef yw gwneuthur neu dderbyn rhyw leshâd. Nid yw y gymdeithas hono ddim at ei fryd ef, na byddo yn rhoddi neu yn derbyn hyn. Pa beth a wnaï marsiandwr lle nad oes na phrynu na gwerthu? Y mae ymgais pob un (yn ol ei alwad) am ymsefydlu lle y byddo y masnach cyflymaf, ac yntau yn debycaf o elwa yn fwyaf arno. Y Cristion, yntau (lle y gallo ddewis), a gymmer i berthynas agos ato ei hun (gwr, gwraig, gweision) y cyfryw ag a fyddo yn cytuno â'i fasnach nefol ef, ac nid y fath ag a fyddo yn rhwystr iddo. Y mae am daraw at y bobl dduwiolaf, fel ei gyfeillion anwylaf. Os bydd sant yn y dref y mae yn byw ynddi, efe a'i cais allan; a hwn yw y dyn y cyfeillacha efe âg ef; ac yn ei gymdeithas â hwn, ac ereill, ei neges benaf ef yw am y nef—y mae ei egwyddor nefol sydd ynddo yn ei dueddu i hyny. Yn awr, y mae hyn yn alarm i uffern—Pa beth? bod yn anfoddlawn i fyned i'r nef ei hun, ond bod trwy esamplau duwiol, ymadroddion grasol, cynghorion buddiol, ceryddon prydlawn, yn masnachu âg ereill, ac yn ymgais am eu cael hwythau gydag ef hefyd? Y mae hyn yn tynu'r llew yn ffynig a gorwyllt allan o'i ffau. Bydd y cyfryw yn sicr o gael y diafol ar eu ffordd i'w gwrthsefyll. "Mi a ewyllysiais ddyfod," medd Paul, "eithr Satan a'm lluddiodd." Y neba addefo Dduw, ac a rydd le i weled, trwy ei ymarweddiad, ei fod yn masnachu drosto ef, a gaiff ddigon o elynion, os gall y diafol gael y cyfryw iddo.

3ydd. Y mae holl obaith y Cristion yn nefol: nid ei ran ef yw dim a fedd y byd i'w roddi iddo. Yn wir, efe a gyfrifa ei hun y truenusaf o bawb, pe yma y byddai y cwbl a allai efe wneud o'i grefydd. Na, y nef a bywyd tragwyddol y mae efe yn eu disgwyl; ac er iddo fod mor dlawd fel nas gall wneud ewyllys am werth pedair ceiniog, etto y mae yn cyfrif ei hun yn etifedd mwy na phe byddai yn fabi'r tywysog mwyaf ar y ddaear. Yr etifeddiaeth hon y mae yn ei chanfod trwy ffydd; ac fe all lawenhau yn y gobaith o'r gogoniant a ddwg hi iddo. Nid yw mwgwd-chwareu a rhith ogoniant mawrion y byd hwn ddim yn ei gynhyrfu i genfigenu eu rhwysg ffol-dybus: ond pan fyddo ei hun ar y domen, gall anghofio ei adfyd presennol ei hun i dosturio wrthynt hwy yn eu holl wychder, gan wybod y bydd y groes oddi ar ei gefn ef mewn byr amser, a'r coronau oddi ar eu penau hwythau; y bydd eu cyfran hwynt wedi ei dreulio, pan fyddo iddo ef dderbyn ei ran yn gyfan. Y mae y pethau hyn yn ei borthi â'r fath lawenydd, fel na

oddefant iddo ei gyfrif ei hun yn druenus, pan fyddo ereill yn ei dybiel, a'r diafol yn dywedyd wrtho ei fod yn gyfryw. Hyn, hyn sydd yn poeni calon Satan, gwelod, y Cristion dan hwy! am y nef, ac wedi ei lenwi â'r gobaith o'i groesawiad llawen, pan y del yno: ac am hyn, y mae yn codi yr ystormydd a'r tymmestloedd a allo, naill ai i'r wystro ei ddyfodiad i'r porthladd hwnw o wynfyd — yr hyn y mae yn benaf yn ei ddymuno, ac heb anobeithio yn gwbl am ei gyrhaedd—neu, o leiaf, i'w gwneud yn fordaith auafaid a helbulus, fel yr eiddo Paul, yn yr hon y cawsant gymmiant colled. A hyn yn wir y mae yn ei fynych gyrhaedd i'r fath radd, hyd onid yw, trwy ei demtasiynau cryf angerddol, yn hir guro ar y Cristion, yn peri iddo dalu dros y bwrdd lawer o'i lwyth gwerthfawr o lawenydd a chysuron. Iē, y mae weithiau yn dwyn yr enaid, trwy bwys profedigaeth, i feddwl gadael y llong, pan y mae am y tro bob gobaith o fod yn gadwedig megys wedi ei ddwyn ymaith. Fel hyn y gwelwch pa beth y mae ein hymdrech â diafliaid am dano. Yr ydym yn dyfod at y *cymmlwysiad*.

DOSB IV.

Defn. 1. Y mae yna air o gerydd i bedwar math o bobl. Yn gyntaf, i'r rhai sy mor bell oddi wrth ymdrechu yn erbyn Satan am y campdlws nefol hwn, hyd onid ydynt yn gwrthwynebu y cynnyg o hono. Yn lle cymmyrd y nef trwy drais, y maent yn ei chadw draw drwy drais. Pa hyd y mae yr Arglwydd wedi bod yn llefain yn ein heolydd? "Edifarhewch, carys nesaodd teyrnas nefoedd." Pa hyd y bu sain cynnyg yr efengyl yn ein clustiau? Ac etto, hyd heddyw, y mae lliaws o eneidiau twyll-edig gan ddiaraf yn gyru yn orwylt ym mlaen tuag uffern, ac ni chlymmerant eu perswadio i droi yn ol: y maent yn gwrthod eu galw yn blant i Dduw, ac yn dewis caethiwed Satan yn hytrach na'r rhyddid gogoneddus, â'r hwn y rhyddhäi Crist hwynt: y maent yn cyfrif mwyniant pechod dros amser yn drysor gwel na chyfoeth y nef. Mae hanes am Cato, oedd yn elyn chwerw i Cæsar, ddarod iddo, pan welodd Cæsar yn trechu, ei ladd ei hun yn hytrach na syrthio yn ei law ef, a disgwyl am ei drugaredd. A hyn, pan glywodd Cæsar, efe a dorodd allan yn dra chlynnhyrfiol, fel hyn: "O, Cato! pa ham y cenfigenaist i mi gael achub dy fywyd?" Ac onid oes llawer yn byw fel pe baent yn gwrnagach i Grist gael yr anrhydedd o achub eu heneidiau? Pa gyfrif arall a ellwch ei roddi, bechaduriaid, am wrthod ei ras ef? Ai nid yw y nef a'i dedwyddwch yn bethau dlymunol, ac i'w dewis o flaen pechod a drueni? Pa ham, ynte, na chofeidiwch hwynt? Neu, a ydynt hwy yn waeth am eu bod yn nofio atoch yng ngwaed Crist? O! mor ddrwg y bydd raid i Grist ei gymmyrd,

cael ei drin fel hyn, ac yntau yn dyfod ar y fath neges raslawn! Oni all efe ddywedyd wrthyt ti, megys unwaith wrthy y swyddogion hyn a anfonwyd i'w ddal ef? "Ai megys at leidr y daethoch chwi i'm herbyn â chleddyfau ac â ffyn?" Os yw efe yn lleidr, nid yw ond yn hyn, y mynai efe ddwyn dy bechodau oddi arnat, a gadael nef yn eu lle. O! er cariad Duw, ystyriwch pa beth yr ydych yn ei wneuthur—bywyd tragwyddol yr ydych yn ei fwrw oddi wrthych wrth wneuthur hyn, "yr ydych yn barnu eich hunain yn an-nheilwng o hono;" *Act. xiii. 40.*

2. Y mae yn ceryddu y rhai sydd yn offerynu Satan i ysbeilio eneidiau o'r hyn sydd yn nefol. Ym mys lladron y mae rhai a elwir ysbïwyr, y rhai a ymfyngant pa le y mae ysbaill i'w gael; ac wedi iddynt gael hyn, a gwybod am un yu teithio â thrysor ganddo, hwy a osodant rai ereill ar waith i'w ysbeilio ef, ac ni welir hwynt eu hunain yn y gorchwyl. Y diafol yw y pen ysbïwr: y mae efe yn sylwi pa fodd y mae y Cristion yn rhodio, i ba le a chymdeithas y mae yn cyrchu, pa ras neu drysor nefol sydd ganddo yn ei fynwes—ac wedi iddo wneuthur hyn, y mae ganddo ei offerynu at y gwaith o gyflawni ei fwiad. Fel hyn yr ystyriodd efe rasau rhyfedd Iob, gan ddyfeisio pa fodd y gallai efe ei ysbeilio o'r trysor nefol; a phwy ond ei wraig a'i gyfeillion oedd i wneuthur y gwaith drosto? Efe a yddai yn dda y byddai rhyw goel i'w chwedl ef o'u geneuau hwynt. O, gyfeillion! gofynwch i'ch cydwytbodau ai ni wnaethoch chwi ryw wasanaeth o fath hwn i Satan yn eich dyddiau. Fe allai fod genych blentyn neu was a fu unwaith yn gwynebu tua'r nef, ond fod eich gwg a'ch dwradiad chwi wedi eu tarfu yn ol; ac yn awr, y maent, ysgatfydd, mo anianol ag y mynech eu cael. Neu, o bosibl yr oedd dy wraig, cyn ei huniad â thi, yn fywiog iawn yn ffyrdd Duw; ond er pan y ail blawyd hi yn dy ddaear oer di, y mae hi gan effaith dy siarad gwag a'th ymddygia diflas di, neu, o leiaf, dy fyddolrwydd a't ffurfioldeb, wedi adfeilio yn ei grasau, a mewn colled am ei chysuron. O, ddynt! p fath gyhuddiad a ddygir i'th erbyn am hy wrth frawdle Duw? Ti a ymdarewit y well pe byddai am ysbeilio un o'i arian a dlysau, nag o'i rasau a'i gysuron.

3. Mae yn ceryddu y diofalwch alaethu a ddengys y rhan fwyaf mewn ymgais am campdlws nefol hwn. Nid oes neb na fydd: yn dda ganddynt fod eu heneidiau yn gadwedig yn y diwedd: ond pa le y mae y gw neu y wraig sydd yn rhoddi dangosiad trw ymdrech dwys eu bod o ddfrif? Pa bart toad milwraidd sy ganddynt yn erbyn Satan sydd yn sefyll rhyngddynt a chartref! I le mae eu harfau, eu gallu i'w defnyddio, e hymrodd i sefyll atynt, a'u gofal cydwytbod ymarfer beunydd yn eu trin hwynt? Oel

peth prin yw hyn yn wir; nid ydyw i'w gael yn mhob tŷ lle y mae proffes o grefydd yn crogi o flaen y drws. Pe gwnai chwennych a dymuno eu dwyn i'r nef, yna hwy a allent ddyfod yno; ond am yr ymdrech hwn ymladd yma, a gwneud crefydd yn orchwyl iddynt, y maent mor bell oddi wrth y rhai'n ag y maent yn debyg o fod yn y diwedd oddi wrth y nef. Y maent o feddwl hwnw yn Tully, yr hwn, dan orwedd yn ddioglyd ar y glaswellt, ar ddydd teg o haf, a ddywedai, "O na bai hyn yn weithio! na allwn orwedd yma, a gwneud fy niwrnod gwaith!" Fel hyn y mae llawer yn treulio ac yn difa eu bywydau mewn syrthni, ac yn eu calonau yn dywedyd, O na byddai hon yn ffordd i'r nef! eithr ni arferant foddion i addurno eu hunain â gras at y fath anturiaeth. Mi a ddarllenais am dywysog mawr yn yr Almaen, y rhuthrwyd arno gan elyn cryfach nag ef ei hun: etto efe a gafodd fyddin olygus yn fuan, gan rai mewn cyfeillach a chynghrair âg ef: eithr, fel y dywedai efe, nid oedd ganddo arian i dalu iddynt; ond y gwir yw, anhawdd oedd ganddo ymadael â hwynt. Am hyn, aeth rhai ymaith mewn digder; ni ddarfu i ereill ddilyn ei orchwyl yn rymus; ac felly, curwyd ef o'i dywysogaeth yn fuan; a'i goffrau, pan arheithiwyd ei balas, a gafwyd yn llawnion o drysor. Fel hyn yr andwywyd hwn, megys y mae rhai cleifion yn marw o herwydd anewyllysgarwch o fod yn y gost o dalu i'r meddyg. Fe chwanega at drueni eneidiau damnedig, pan gânt ddigon o hamdden i ystyried pabeth agollasant wrth golli Duw, ac i adgofio pa foddion, cynnygion, a thalentau, a fu unwaith ganddynt tuag at gael bywyd tragwyddol, ond heb feddu calon i'w defnyddio.

4. Y mae yn gerydd i'r rhai a wnant ddadwrdd a swm mawr am grefydd, sy'n hyf mewn proffes, ac yn brysur iawn i ymhel â'r dyledswyddau manylaf, fel pe byddai y nef wedi ennill eu calonau yn gyfangwbl; ond fel yr eryr, pan fyddo ei hediad yn uchel, ar lawr y mae ei ysglyfaeth, ac yno y mae ei lygad hefyd. Y mae y fath genedlaeth a hon wedi bod erioed; a hi a fydd etto; hwy a ymgymysgant â saint Duw, a ymhnant am y nef, ac a ânt mewn gwisg allanol wedi ei haddurno, megys â rhidens o ymddiddanion a dyledswyddau nefolaidd; tra y mae eu calonau wedi eu gwrthleinio â rhagrith, trwy yr hyn y maent yn twyllo ereill, ond eu hunain yn fwyaf oll. Gall y cyfryw fod yn saint gan y byd; ond diafiadid ydynt yn nghyfrif Crist. "Oni ddewisais i chwychwi y deuddeg, ac o honoch y mae un yn ddiafol?" *Ioan viii. 70.* Ac yn ddiaw, o'r diafiadid oll, nid oes un mor ddrwg a'r diafol sy'n proffesu, yn pregethu, yn gweddio, &c. O! syrs, byddwch syml o galon; y mae crefydd mor dyner a'ch llygad: ni fyn gellwair â hi. Cofiwch y dialedd a ddaeth ar Bel-

sassar, tra yr oedd yn gloddesta â llestri y cyssegr. Pethau cyssegredig yw crefydd a'i dyledswyddau; ni wnaed mo honynt i ti yfed dy chwantau o honynt. Y mae Duw wedi ei ddangos ei hun, mewn modd nodedig, yn dadguddio ac yn gwaradwyddo y rhai a halogasant bethau sanctaidd i ddybenion bydol. Iezebel, hi a ymrydiodd ac a weddiodd, i ddifa gwinnllan Naboth yn fwy rhwydd; eithr hi a ddfawyd trwy hynny. Yr oedd Absalom mor glaf, nes iddo dreisio coron ei dad, ag oedd ei frawd Amnon, nes iddo wneyd y cyffelyb â'i chwaer: ac, i guddio ei fradwaith, efe a wisgodd gochl grefyddol am dano; ac felly gofynnodd genad i fyned a thalu ei adduned yn Hebron, pan yr oedd ganddo helfa arall i'w dilyn: ac oni chwymppodd efe trwy law ei ragrith? O bawb oll, eu barn hwy a ysgrifener gyda'r brys mwyaf, y rhai a oreurant ymgeisadau bydol, neu ddyrgionus, a lliw neu rith nefolaidd. O'r haid hon yr oedd y rhai hynny, am ba rai y dywed yr apostol, "eu colledigaeth hwy nid yw yn hepian;" *2 Pedr ii. 3:* a'r rhei'n y, wrth ba rai y dywed Duw, "Myfi yr Arglwydd a atebaf iddo trwof fy hun; gosodaf hefyd fy wyneb yn erbyn y gwr hwnw, a gwnaf ef yn arwydd ac yn ddiareb, a thoraf ef ymaith o fysg fy mhobl, fel y gwypoch mai myfi yw yr Arglwydd;" *Ezec. xiv. 3, 8.*

Defn. 2. Yn 2il, Prawf pa un ai pethau nefol ai daiarol yr wyt ti yn benaf yn eu dilyn. Yn sicr, gyfeillion, ni byddai raid i ni fod mor ddiwybod am gyflwr a materion ein heneidiau, pe byddai i ni yn fynychach ymddiddan â'n meddyliau, a chraffu ar gynniweirfa ein calonau. Gallwn yn fuan ddywedyd pa ddysglaid a foddia ein blas yn oreu: ond ni fedrwech chwi ddywedyd pa un ai y nef ai y ddaiar a wna y bwyd mwyaf blasus i'ch eneidiau? A phe gofynech, pa fodd y gallech wybod ai y nef yw y campdlws yr ydych yn benaf yn ei dymuno, ni wnawn ni ond eich rhoddi ar y prawf ddyblyg hwn.

laf, A wyt ti yn gysson yn dy ddilyniad? A wyt ti yn ymgeisio am y nef, a'r hyn hefyd sydd yn arwain i'r nef? Pethau daiarol y mae Duw yn gweled yn dda eu mân ranu: y mae pawb yn cael peth, a neb yn cael y cwbl; ond am y trysor nefol, ni thŷr efe y dryll cyfan i'w fân ranu. Os myni di y nef, rhaid i ti gael Crist; os Crist, rhaid i ti garu ei wasanaeth gystal a'i aberth. Heb sancteiddrwydd, heb ddedwyddwch. Pe torai Duw allan gymmaint ag a wnai y tro gan ddynion, efe a gai ddigon o brynwyr. Yr oedd Balaam ei hun yn hoffi un pen i'r dryll; efe a chwennychai farw fel gwr cyfiawn, er byw yn ddewin fel yr oedd. Na, ni wna Duw fasnach â'r fath goegfarchnadwyr. Y dyn hwnw yn unig sydd am Dduw, a Duw am dano yntau, a ddel i fyny at gynnyg Duw, ac a gymmer y cyfan oddi ar ei law ef. Mae

un yn addas yn cyffelybu sancteiddrwydd a dedwyddwch i'r ddwy chwaer, Lea a Rachel. Hapusrwydd, fel Rachel, yw y decaf i'r olwg (dichon calon anianol syrthio mewn cariad â hon); ond sancteiddrwydd, fel Lea, yw yr hynaf, ac yn brydferth hefyd, er ei bod yn y bywyd hwn yn ymddangos dan beth anfantais, am fod ei llygaid yn llaihan gan ddagrau edifeirwch, a'i hwyneb dan grychni trwy waith marwâd. Ond dyma gyfraith y wlad nefol hono: Na rodder y chwaer ieuengaf o flaen yr hynaf. Nis gallwn fwynhau Rachel deg—y nef a hapusrwydd, oddi eithr i ni yn gyntaf goffeidio Lea lygaddaith—sancteiddrwydd, gyda'i holl ddyledsryddau llymion o edifeirwch a marwâd. Yn awr, syrs, pa fodd yr ydych yn caru y drefn hon? A wyt ti yn foddolawn i briodi Crist a'i ras? ac yna (dan wasanaethu prentisiaeth ddwys, mewn temtasiynau o hawddfyd ac adfyd, gan oddef gwres y naill ac oerni y llall) bod ar ddysgwyliad hyd oni rodder y llall o'r diwedd i'th fynwes?

2il. Os y nef a phethau nefol yw y campdlws yr wyt yn ddiau yn ymdrechu am dano, ti a ddangosi nefol agwedd calon, i.e. mewn achosion daiarol. Pa le bynag y cyfarfyddoch chiwi, Gristion, y mae yn myned i'r nef: y mae y nef yn ngwaelod ei weithredoedd isaf ef. Yn awr, craffa ar dy galon mewn tri pheth neillduol;—wrth geisio, wrth ddefnyddio, ac wrth gadw y pethau daearol, ai yn ol trefn nefol y mae hyn?

1af. Wrth geisio pethau daearol. Os y nef yw dy brif gampdlws, yna, ti a reolir gan gyfraith y nef wrth gasglu y rhai hyn. Golygwch adyn anianol; a pha beth bynag y gosoddi ei galon arno, efe a'i myn, bid cam, bid cynmhlwys. Y mae celwydd yn ddigon addas gan safn Gehazi, ond iddo gael llenwi ei gôd trwyddo. Y mae Iezebel yn beiddio gwatwar Duw, a lladd gwr diniwed, am erw neu ddwy o dir. Absalom, i gael teyrnas, pa beth na wna efe? Y mae clawdd Duw yn rhy isel i gadw calon anrasol o fewn terfynau pan fyddo yr helfa o'u blaen; eithr y dyn a fyddo â'r nef yn ei lygaid, efe a reolir gan ddeddf y nef; ni faidd efe gamu allan o ffordd y nef i godi coron i fyny, megys y gwelwn yn ymddygiad Dafydd tuag at Saul. Yn wir, pe gwnai felly, efe a groesai ei hun yn ei brif fwrriad ei hun, yr llyn ydyw gogoneddu Duw a'i fwynhau ef er hapusrwydd i'w enaid ei hun. Ar y golygiadau hyn, y mae gweision Duw wedi gwrthod cyfoeth a mawredd yn y byd pan fyddai un o'r rhai hyn mewn perygl. Tafodd Moses ei lys-ddyrchafiad o'i du ol, gan wrthod ei alw yn fab merch Pharaoh. Dibrisiodd Abraham gael ei gyfoethogi gan frenin Sodom (*Gen. xiv. 22*), rhag rhoddi lle i neb ei ammheu am gybydd-dod a hunan-gais, ac fel na ddwyedid ar ol hyny, iddo ddyfod i gyfoethogi ei hun er aunnhaith, yn fwy nag

i achub ei geraint. Nehemia, ni chymmerai y dreth a'r deyrnged at fyntumio ei rwysg (pan y gwyddai eu bod yn bobl druan ac ysbeiliedig), o herwydd ofn yr Arglwydd. A wyt ti yn rhodio yn ol y rheol hon? Ai ni fyuit ti gasglu mwy o gyfoeth neu anrhydedd nag a'elli gael gyda chenad Duw, ac a gyd-sais â'th obaith am y nef?

(2.) A wyt ti yn dangos ysbryd nefol wrth ddefnyddio y pethau hyn?

1. Y mae y sant yn defnyddio ei bethau daearol i ddyben nefol. Ym mha le yr wyt ti yn trysori dy drysor? A wyt ti yn ei dreulio ar dy fol chwantus, dy weilch a'th fytheiaid, neu ynte yn ei gloi i fyny ym myn-wesau aelodau tlodion Crist? Pa ddefnydd wyt ti yn wneuthur o'th anrhydedd a'th fawredd? Ai i gryfhau dwylaw y duwiol, ynte yr annuwiol? Ac felly am bob rhodd dymmorol arall sydd genyt. Y mae calon rasol yn eu defnyddio i Dduw. Pan ofyno y duwiol am y pethau hyn, y mae ganddo lygad ar ryw ddyben nefolaidd. Os gweddia Dafydd am einioes, nid er mwyn cael byw y gwna hyny, ond er "byw a moliannu Duw;" *Salm cxix. 175*. Pan yrwyd ef oddi ar ei orsedd freninol gan arfau gwrthryfel Absalom, gwelwch beth oedd ei ddymuniaid a'i obaith:—"Dyweddod y brenin wrth Sadoc, Dychwel âg arch Duw i'r ddinas: os caf fi ffair yng ngolwg yr Arglwydd, efe a'm dwg eilwaith, ac a bâr i mi ei gweld hi, a'i babell;" *2 Sam. xv. 25*. Craffwch, nid efe a bâr i mi weled fy nghoron, fy mhalas, ond yr arch, a thŷ Duw.

(2.) Y mae dyn grasol yn dilyn pethau daearol gyda difaterwch duwiol, gan gadw angerddoldeb a gwres ei ysbryd at bethau nefol. Y mae yn arfer y ddaear, megys heb ei harfer, gyda math o amnyfalwch; y mae pethau uwch yn meddiannu ei ben a'i galon; pa fodd y gall ryngu bodd Duw, cynnyddu yn ei ras, a mwynhau cymdeithas agosach â Christ yn ei ordinhadau. Yn y rhai hyn y mae yn lledu ei holl hwyliâu, yn gweithio â'i holl rwyfau, pob rhan a gallu ar ymgniad. Fel hyn y cawn Dafydd ar ei lawngais: "Fy enaid a lŷn wrthy;" *Salm lxxiii. 8*. Ac o flaen yr arch ni a'i cawu yn dawnsio â'i holl rym. Yn awr, y mae dyn anianol yn llwyr groes; am y byd y mae ei sel ef; a difol ydyw yn mhethau Duw. Efe a weddia megys heb weddio, &c., y mae yn chwysu yn ei weithdy, ond yn rhynu ac yn fferu yn ei ystafell weddio. O! mor anhawdd yw ei ddirwyn i fyny at ran o addoliad Duw, neu ei dynu o'i dŷ i ordinhâd! Nid oes un tywydd a'i ceidw o'r farnhad; efe a ä yno er gwynt, gwllaw, ac eira: ond os bydd y llwybr i'r eglwys yn llaihan, neu yr hin yn lled oer, dyna ddigon o esgus os bydd ei cisteddle ef yn wag. Pan fyddo ar ryw orchwyl bydol, y mae o ddirif yn ei gylch, fel y gôf eilun-addolgar yn morthwyllo ei ddelw. Hwnw

fel y dywed y prophwyd, “â nerth ei fraich y gweithia efe hi; niwynog yw hefyd, a'i nerth a balla; nid yf ddwfr, ac y mae yn diffygio;” *Esau*. xlv. 12. Y mae'r bawddyn bydol mor wresog yn ei orchwyllion daearol, fel y gwas ar ei goluddion, ac y naca iddo ei hun ei fwyd yn ei bryd, i ddilyn hwnw; caiff y gegin yno aros ar y gweithdy. Ond yn addoliad Duw, y mae yn ddiagon i'w wneud ef yn glaf o'r bregeth, ac yn ddiog wrth y pregethwr, os cedwir ef dros ei awr; yma y mae yn rhaid i'r bregeth roddi lle i'r gegin. Felly y mae y dyn a'm ei fwynianta'i ddiwyrch cwadol; nid yw efe yn cyfrif yr oriau wrth ei chwareuon, nac yn gwybod pa fodd y mae'r dydd yn myned heibio; pan ddol y nos, y mae yn ddiog am ei bod yn ei dynu ymaith. Ond ar ryw waith nefol, O! fel y mae'r dyn yn cael ei gospi! ei feddwl yw yn awr fod gan amser draed o blwm; ei holl waith ar y bregeth yw cyfrif yr amser, ac edrych pa fodd y mae yr awr yn rhedeg. Pe ni byddai dynion yn ewyllysgar i dwylo eu hunain, yn sicr hwy allent wybod pa ffordd yr â eu calonau, wrth eu hysgodiad cyflym, neu wrth y tynu caled, a'i symmudiad araf hithau, yn gystal ag y gwyddant mewn cwch, pa un ai gyda'r llanw, ai yn ei erbyn y maent yn rhwyfo.

(3.) Y mae'r Cristion yn arfer y pethau hyn gyda duwiol ofn, rhag i'r byd ysbeilio'r nef, ac i'w fwyniant allanol ei ddrygu yn ei fraind nefol. Y mae yn bwyta mewn ofn, yn gweithio mewn ofn, yn llawenhau yn ei lawnder mewn ofn. Megys y sancteiddiaid Iob ei blant trwy offrymu aberth, rhag ofn eu bod wedi pechu; felly y mae'r Cristion yn barhaus yn sancteiddio ei fwyniant daearol trwy weddi, fel y caffo felly ei waredu rhag y fagl sydd ynddynt.

(3ydd.) Am gadw pethau daearol; y mae'r Cristion yn nefol yn hyn. Y mae efe yn dilyn yr un rheol nefol yn eu cadw ag a ddilynodd wrth eu ceisio. Megys na faidd ddywedyd y myn efe fod yn gyfoethog a pharchus yn y byd, ond os myn Duw; felly ni faidd efe mwy gadw yr hyn sy ganddo: nid yw efe ond yn eu cadw nes y galwdo ei Dad nefol am danynt, yr hwn a'u rhoddodd iddo ar y cyntaf. Os Duw a'u gâd hwynt iddo, ac i'w hiliogaeth ar ei ol, efe a fendithia Dduw; ac felly y dymuna wneud hefyd os efe a'u dwg ymaith. Yn wir, bwriad Duw ym mhethau mawr y byd hwn, a deif efe ambell waith i'r saint yw, yn benaf, rhoddi iddynt gyfle mwy i ddangos eu cariad tuag ato ef, wrth ymwadu â hwynt er ei fwyn ef. Ni fwriadodd Duw erioed, wrth ei rag-luniaeth ryfedd hono, a ddygodd Moses i lys Pharaoh, ei sefydlu ef yno mewn rhwysg a gychder bydol. Yn wir, ni buasai calon anianol yn deall ac yn dehongli y tro, fel achlysur teg a roisid yn ei law gan Dduw, i'w godi ei hun i'r orsedd; yr hyn, medd

rhai, a allasai efe ei wneud mewn amser. Eithr bwriad Duw oedd ei roddi yn gyfle iddo, i beri i'w ffydd a'i hunan-ymwadiad fod yn fwy clauer-amlwg, wrth dafu y rhai hyn oll y tu ol i'w gefn. Ac am hyn y mae iddo y fath goffa anrhydeddus ym mysg rhai enwog yr Arglwydd:—“Trwy ffydd Moses wedi myned yn fawr, a wrthododd ei alw yn fab merch Pharaoh;” *Heb.* xi. 24, 25. Ac yn ddiau y mae enaid grasol yn cyfrif nas gall efe wneud cymmaint o'i dda daearol un ifordd arall a thrwy eu rhoddi yn offrmw er mwyn Crist. Er i'r bradwr hwnw dybied y galleid dwyn enmaid Mair i well marchnad, etto, yn ddiammheu, nid oedd dim yn blino y wraig dda ei hun, ond am nad oedd ganddi ei well i'w dywallt ar ben ei hanwyl Iachawdwr. Y mae hyn yn peri i'r Cristion o hyd ddal y gyllell aberth wrth wddf ei ddaoedd bydol, yn barod i'w hoffrymu pan alwo Duw: dros y bwrdd y cânt fyned, yn hytrach na rhoddi perygl llong-ddrylliad i ffydd, neu gydwybod dda. Yn olaf y ceisiodd efe hwynt; ac felly efe a ymâd â hwynt yn gyntaf. Naboth a anturiai dan wg y brenin—yr hyn o'r diwedd a gostiodd iddo ei fywyd yn hytrach na gwerthu erw neu ddwy o dir oedd ganddo fel genedigaeth fraind. Y Cristion yntau a berygla y cwbl a fedd efe yn y byd hwn, i gadw ei obaith am fyd arall. Iacob, yn ei daith i wynebu Esau, a anfonodd ei weision a'i ddeadellau o'r blaen, ac a ddaeth ei hun gyda'i wragedd ar ol: os gallai achub dim rhag digder ei frawd, bydded yr hyn a garai yn fwyaf. Os gall y Cristion achub dim, ei enaid fydd hwnw, ei hawl yng Nghrist a'r nef? ac yna nid oes fater os cyll y lleill; medr, ie, er hyny, ddywedyd—nid fel Esau wrth Iacob—“Y mae genyf fi ddigon;” ond fel Iacob wrtho ef: “Y mae genyf bob peth” (*Gen.* xxxiii. 9, 11): pob peth sydd yn eisieu arnaf, pob peth a ddymunwn. Felly y dywed Dafydd, “Fy holl iachawdwriaeth, a'm holl ddymuniaid yw;” 2 *Salm.* xxiii. 5. Yn awr, prawf a gyweiriwyd dy galon at y dôn hon. A yw y nef yn rhoddi deddf i'w fwyniant bydol? A fynit beidio a chadw dy anrhydedd, daoedd, ie, na'w ffydd dy hun, i niweidio dy natur a'w obaith nefol? Pa un a ddewisit, pe nas gellit gadw'r ddau, croen cyfan, ynte cydwybod iach? Atteb rhyfedd, os gwir, oedd hwnw a roddodd Harri y pummed i'w dad, oedd wedi trais-feddiannu'r goron, ac yn awr wrth farw wedi anfon am ei fab hwn, wrth yr hwn y dywedodd, “Fachgen anwyl, cymmer y goron,” yr hon oedd ar ei obenydd wrth ei ben, “ond Duw a wŷrpa fodd y cefais i hi.” ei atteb iddo oedd, “Nid wyf fi yn gofalu pa fodd y cawsoch chwi hi; wedi i mi ei chael, mi a'i cadwaf tra y gallo fy nghleddyf ei hamddiffyn.” Y neb a gadwo'r ddaear trwy gam, nis gall ddisgwyl am y nef trwy iawnder.

PENNOD XIII.

Annogaeth i daer geisio y nef a phethau nefol.

Defn. 3. Yn drydydd, ai y nef a phob peth nefol y mae cais Satan i'n rhwystro i'w cael? Bydded i hyn ein cynnyrfu i ymdrechu yn fwy difrifol am danynt. Pe byddai i ni a wnelom â gelyn a ddeuai yn unig i'n hysbeilio o wael bethau y ddaear; pe byddai amrhudded, meddiannau, a daoedd y byd hwn yn llenwi ei gylla, fe allai y peth oddef dadl, mewn enaid y mae ganddo obaith am y nef, a fyddai yn werth ymladd i gadw y celfi hyn. Ond Crist a'r nef, yn sicr y mae y rhai hyn yn rhy werthfawr i ymadael â hwynt ar unrhyw ammodau. "Gofyn y frenhiniaeth iddo efe hefyd," ebe Solomon wrth Bathseba, pan ddeisyfodd hi am Abisag yn Adonia. Os gall y diafol ddwyn y rhai hyn oddi arnat tithau, beth a fyddi di o werth? Ac etto yr wyf yn addef i mi glywed an un a ddymunodd ar i Dduw adael llonydd iddo, a pheidio ei gymmeryd ef oddi wrth yr hyn oedd ganddo yma. Adyn truenus—dewisiad mochyn acnid dyn, pan y dewisai ymdreiglo yn nhom a budredddi ei bleserau cnawdol, ac y chwennychai fod wedi ei amgau am byth gyda'i olchion yng nghlud moch y ddaear domennllyd hon, yn hytrach na gadael y rhai hyn i fyw yn mhalas y nef, a chael cyfranogi o'r un pleserau ag y mae Duw ei hun a'i saint yn eu mwynhau! Byddai yn gyfiawn pe rhoddai Duw i'r fath filod a'r rhai hyn wyneb mochyn, a'te eu calonau mochynaidd. Ond, och! pa mor anaml y byddai wynebpryd dyn gan y rhai a gyfarfyddem? Y mae y rhan fwyaf o'r byd, i'e, pawb o'r rhai anianol a bydol, o'r un meddwl, er nad mor ddigywilydd a'r adyn hwnw i adrodd eu meddyliau. Y mae bucheddau dynion yn dywedyd yn ddigon amlwg mai iaith eu calonau yw. Da yw bod yma; a'u bod yn dymuno, pe gallent, wneud pebyll ar y ddaear, er y cwbl o'r trigfanau sy wedi eu parotoi yn y nef. Yr oedd anwir-eid yr annuwiol yn dywedyd yng nghalon Dafydd, "nad oedd ofn Duw o flaen ei lygaid ef;" *Salm xxxvi. 1.* Ac oni all byd-olrwydd y cybydd ddywedyd yng nghalon pob dyn rhesymol uad yw y nef, a rha-goriaethau nefol, o flaen ei lygaid na'i feddyliau ef? O! y fath ddistawrwydd trwm sydd am y pethau hyn yn ymddiddanion dynion! Y mae y nef mor ddieithr i'r rhan fwyaf, fel na chlywir ond ychydig iawn yn ymofyn am y ffordd yno, na chlymmaint a gofyn o ddifrif, "Pa beth a wnant i fod yn gadwedig." Nid yw y rhan fwyaf yn dangos dim mwy o awydd i gyrhaedd y nef nag sydd yn yr eneidiau gwynfydedig yn awr o fewn y nef am ddyfod yn ol i drigo ar y ddaear. Oeh! y mae eu penau yn llawn o ddyfeisiau ereill; y maent, naill ai fel Israel ar wasgar dros wyneb y tir i gasglu gwellt, neu yn

prysur bigo y gwellt a gasglasant; yn ymboeni i geisio y byd, neu yn boddio eu hunain â'r hyn a gawsant. ¶ Felly, nid gwaith afreidiol yw arfer rhai rhesymau i alw dynion oddi wrth y byd, i ymgais am y nef a'r hyn sydd yn nefol.

1. Am bethau daearol, nid yw yn angenrheidiol i ti eu cael hwynt. Dyna y peth angenrheidiol, sef yr hyn nas gellir cyflawni y diffyg o hono â dim arall. Nid oes dim o'r fath fwyniant daearol nas gellir llenwi ei le, nes y bydd bod hebdo yn fwy dymunol na'i gael. Yn y nef, fe fydd goleuni heb haul; gwledd ddanteithiol heb ddim bwyd; gwisgoedd gogoneddus heb ddim dillad: ni bydd yno eisieu dim; ac etto, dim o ogoniant y byd hwn ni cheir yno. I'e, tra yr ydym yma, y mae modd cael yr hyn a leinw eu lle. Ti elli fod tan afiechyd corph, ac etto yn well na phe bai genyt iechyd: "Ni ddywed y preswlydd, Claf ydwyf; maddeuir anwiredd y bobl a drigant ynddi;" *Esa. xxxiii. 34.* Ti elli fod heb anrhydedd daearol, a chaffael gair da trwy ffydd gyda'r rhai enwog hyny yn *Heb. xi*; ac y mae hyn yn enw gwell nag sy gan fawron y ddaear. Ti elli fod yn dlawd yn y byd, ac etto yn gyfoethog mewn ffydd: "ac elw mawr yw duwioldeb, gyda boddlonrwydd." Mewn gair, os wyt yn ymadael â'th fywyd amserol, ac yn cael un tragwyddol, pa golled sydd i ti o'r cyfnewidiad? Ond y mae y nef a phethau nefol yn gyfryw nas gellir llenwi eu lle â dim arall. Y mae genyt enaid nefol yn dy fynwes: coll hwnw, a pha le y gelli di gael un arall? Nid oes ond un nef: coll hono, a pha le y bydd dy letty ond yn uffern? Un Crist a all dy arwain yno: os gwrthodi ef, "nid oes aberth mwyach wedi ei adael dros bechod." O, na feddyliai dynion am y pethau hyn! Dos, bechard, a'th y byd; ac edrych pa beth a all efe roddi i ti yn lle y rhai hyn. Fe allai y cynnyg efe dy groesawu â'i bleserau a'i fwyniant. O, wobrwael am golli Crist a'r nef! Ai hyn yw yr oll a elli ei gael? A yw Satan yn dy ysbeilio o'r nef a gwynfyd, ac yn rhoddi i ti ddim ond y blodau hyn i'w harogli ar dy ffordd i'th ddiennyddiad. A ddiffydd y rhai hyn dân uffern? neu a wnant hwy gymmaint ag oeri y fflamau yr wyt yn syrthio iddynt? Pwy ond rhai wedi colli eu synwyrâu a gymmerai y teganau a'r coegbethau hyn am Grist a'r nef! Tra y mae Satan yn boddio dy serchiadau â'r ffiril-deganau hyn, y mae ei law yn dy drysor, i'th ysbeilio di o'r unig beth angenrheidiol. Y mae yn fwy angenrheidiol bod yn gadwedig na bôd: gwell bod heb fodolaeth na chael bodolaeth yn uffern.

2. Y mae pethau daearol yn gyfryw, fel y mae yn ansicr iawn a allwn ni, wedi ein holl drafferth, eu cael hwynt, ai ni allwn. Ni ddysgodd y byd, er ei fod yn gynnifer mil o

oed, mo'r fath ffordd o fasnach i'r marsiandwyr, fel y gall efe benderfynu yn ddiffiael y caiff, yn y diwedd, diroedd a da werth ei ddilyn, nac i'r gwr llys y fath reolau o ymddwyn yn ol ffordd ei dywysog, fel ag i'w sicrhau y caiff ddyrchafiad. Nid ydynt ond ambell rai sydd yn ennill y campdlws yn chwareu damwain y byd; nid ydyw y nifer mwyaf yn cael ond eu llafur am eu poen, a choffa athrist wedi ei adael iddynt am eu floedd nodedig yn cymmyrd eu denu i'r fath helwriaeth oferwyllt a'u siomodd hwynt yn y diwedd. Ond yn awr, am y nef a phethau nefol: y mae y fath reol amlwg a sicr wedi ei gosod, fel, os gwnawn ond cymmyrd cynghor y gair, nas gallwn gangymmyrd y ffordd, na bod hebi iawn ddiweddu yn y ffordd hono: "Cynnifer ag a rodiant yn ol y rheol hon, tangnefedd arnynt ac ar Israel Duw." Y mae rhai yn wir yn rhedeg, ond heb ennill y tlws hwn—yn ceisio ac heb gael; yn curo, a'r drws yng nghauad i'w herbyn; eithr hyn sydd am eu bod yn ei wneuthur, nid mewn iawn fodd, neu ynte, nid mewn iawn bryd. Mynai rhai gael y nef; ond os achub Duw hwynt, rhaid iddo achub eu pechodau hefyd, o herwydd nid ydynt hwy yn meddwl eu gadael: a pha fodd y gall y nef gynnwys Duw a'r fath gymdeithion ynghyd, bernwch chwi. Ar eu dyfodiad hwy i mewn trwy un drws, byddai i Grist a'r holl ysbrydion sanctaidd hynny gydag ef frysio allan trwy y llall. Ys trueiniaid anniolchgar na ddeuant i'r wledd ogoneddus hon, oddi eithr iddynt gael dwyn i'w canlyn yr hyn a dorai ar lawenydd yr ystad wynfydedig hono a anfodddhâi y gwestwyr oll a fyddai wrth y bwrdd gyda hwynt; i.e., a yrai Dduw allan o'i dŷ trigiannol ei hun. Ail fath a fynent y nef; ond fel hwnw yn *Ruth* iv. 2, 3, 4, a chwenychai dir ei gyfathrachwr Elimelech, ac a fuasai yn talu y pris; ond nid oedd efe am ei gael trwy briodi Ruth; ac felly, efe a'i colodd. Y mae rhai yn ymddangos mor awyddus am y nef ac iachawdwriaeth, pe gallai eu cyflawnder eu hunain ei hennill; hwy a drysorant yr holl ddaioni a wna't, a'r dyledswyddau a gyflawnant, at y pwrceas hwn; ond fe'u collir yn y diwedd, am nad ydynt yn ymwasgu â Christ, ac yn cymmyrd y nef yn ei hawl ef. Y mae trydydd math yn foddllawn i'w chael hi trwy Grist; ond eu dymuniadau ydynt mor ddirym a diawch, fel nad ydynt yn eu rhoddi ar waith mewn arferiad egniol o foddion i'w cael hwynt; ac felly, yn debyg i'r diogyn, y maent yn newynu, am na fynant dynu eu llaw allan o'u mynwes, o ddiogi, i'gyrhaedd eu hymborth sydd o'u blaen. Y mae ganddynt ddigon, a gormod, o awch am y byd; hwy a redant ymhell ac yn agos am hwnw; ac wedi iddynt redeg eu hunain allan o wynt, hwy allant sefyll a "dyheu ar ol llwch y ddaear," yn ol dywediad y prophwyd: *Amos* ii. 7. Ond am

Grist, a chael hawl ynddo ef, O, mor oeraidd ydynt! Y mae rhyw gwlmw gwythi yn goresgyn holl alluoedd eu heneidiau, pan ddylent weddio, gwrandaw, holi eu hunain, tyuu allan eu serchiadau mewn newyn a syched am ei ras a'i Ysbyrd ef. Y mae yn rhyfedd gweled fel y nefiasant tan lawn hwynt at y byd; ond y maent yn ebrwydd yn colli yr awel, ac heb un chwa, i un perwyl da, yn cynhyrfu eu heneidiau ar ol y pethau hyn. Ac a ydyw yn rhyfedd fod Crist a'r nef yn cael eu nacau iddynt hwy, sydd mor ddifater am danynt. Yn ddiweddaf, y mae gan rai ddigon o awydd am Grist a'r nef; ond hyn wedi i wr y tŷ gyfodi a chau y drws; ac yn ddiaw, erbyn hyn, hwy allant sefyll yn hir ddigon yn curo, cyn y cânt neb i'w gollwng i mewn. Nid oes un efengyl yn cael ei phregethu mewn byd arall. Ond am danat ti, enaid tlawd, a berswadiwyd i ymwrthod â'th chwantau, a thaftu ymaith dy dyb am dy gyfiawnder dy hun, fel y gallech redeg yn gyflymach at Grist; yr wyt ti â'th feddwl mor llawn o ragoroldeb Crist, a'th angen dy hun am dano, nes yw dy hiraeth ar ei ol yn fwy nag am fywyd ei hun. Yn enw Duw dos di ym mlaen a llwydda; bydd gysurus, y mae yn dy alw di erbyn dy enw i ddyfod ato, fel y caffech orphwysfa i dy enaid. Y mae swydd-dy yn y gair lle y gelli gael sicrwydd am dy enaid a'i dragwyddol wynfyd. Y rhai a ddeuant at Grist, fel na wna efe ei hun mewn un modd eu bwrw ymaith; felly, ni adawa efe i neb arall eu tyuu hwynt ymaith. "Heddyw," medd Crist, wrth Zaccheus, "y daeth iachawdwriaeth i'th dŷ di;" *Luc* xix. 9. Y mae iachawdwriaeth yn dyfod atat ti, enaid tlawd, sydd yn agoryd dy galon i dderbyn Crist; y mae genyt fywyd tragwyddol eisoes, mor sicr a phe byddit yn sant wedi dy ogoneddus yn awr o fewn y ddinas nefol hono. O, syrs! pe byddai masnach rydd wedi ei chyhoeddi rhyngom a'r India—digion o aur i'r rhai a aent yno, a sicrwydd am fordaith ddiogel—pwy a arosai gartref? Ond, Och! hyn nis gellir byth ei gael. Etto, gellir dywedyd hyn oll, a mwy i anfeidroldeb, am y nef: ond er hynny, mor anaml ydyw y rhai a adawent eu gobaith ansicr am y byd i farchnata am dani! Pa gyfrif a ellir ei roddi am hyn, ond annuwiaeth erchyll calonau dynion? Nid ydynt etto wedi eu llawn berswadio pa un ai gwir ai celwydd ydyw lleferydd y Beibl; nac y gallant hwy roddi pwys ar y dadguddiad a wna Duw yn ei air am y tir newydd hwn, ac am y mwyngloddiau o drysorau ysbrydol sydd i'w cael yno, fel tystiolaeth sicr. Duw a agoro lygaid y byd digred, megys y gwnaeth i was y prophwyd, fel y gwelont y rhai hyn yn bethau gwirioneddol, ac nid ffugiol. Nid oes dim ond ffydd a ddyry i'r pethau hyn fod yn ein calonau ni. Trwy ffydd y gwelodd Moses yr alwedigaeth.

3. Pethau daearol, nid ydym sicr o honynt ar ol eu cael. Y maent fel adar, yn neidio i fyny ac i lawr, yn awr ar y berth hon, yn ebrwydd ar y llall—nis gall neb eu galw yn eiddo iddo. Yr ydym heddyw yn gyfoethog, yfory yn dlawd; mewn iechyd pan orwedd-om, ac wedi ein dal gan loes anegu cyn han-ner nos: yr rhieni llawen ar un tro, yn lloni ein hunain yn y gobaith am hiliogaeth flod-euog; ac fe allai y bydd un o genadau Iob yn curo wrth ein drws i fynegi eu bod oll yn feirw. Yn awr mewn parch; ond pwy a wŷr na chawn weled hwnw wedi ei gladdu mewn gwaradwydd a dirmyg? Mae yr Ysgrhythyr yn cyffelybu lliaws o bobloedd i ddyfroedd; y mae mawrion y byd yn eistedd ar y dyfr-oedd hyn: fel y nofia y llong ar y tonau, felly y gwna eu bri hwynt ar anadl a ffiafr y lliaws. A pha hyd y mae efe yn debyg o eistedd, a ddygir ar don? Ar yr un pryd mae yn esgyn i'r nef (fel y dywed Dafydd am y morwyr) ac yna yn ebrwydd yn disgyn i'r dyfnder. "Deg rhan sydd i ni yn y bren-in," medd gwyr Israel (2 Sam. xix. 43); ac yn y wers nesaf, ar ddim ond gwaith Seba yn canu udgorn terfysg, gan ddywedyd:—"Nid oes i ni ddim rhan yn Dafydd, nac etifeddiaeth yn mab Iesse"—dyna y gwynt wedi troi yn ebrwydd, canys dywedir, "Holl wyr Israel a aethant i fyny oddi ar ol Dafydd, ar ol Seba." Fel hyn y cafodd Dafydd ei grïo i fyny ac i lawr, a hyn agos â'r un anadl. Annedwydd ddynt ydyw efe nad oes ganddo sicrach rhan na'r hyn a gynnyg y byd anwadal hwn iddo! Y mae amser galaru am ymadawiad pob mwyniant bydol gerllaw: ni a gawn eu gweled fel y gwelodd gweision Eglon eu harglwydd wedi cwmpo i lawr yn farw o'u blaenau, ac wylu am nad ydynt. Pa ffolineb ynte yw i ni osod ein serch ar y byd ofer hwn! Y mae ei lawenydd, fel chwerrh-iniad plentyn ar lin ei fam, yn sicr o ddi-weddu mewn llefain. Ac a esgeuluswn ni, er mwyn hwn, y nef a phethau nefol sydd yn parhau byth? O! cofiwch am Deifas yn cyweirio ei obenydd, ac yn ymlonyddu i gysgu; a'r modd y galwyd ef gan y newydd am anegu, cyn iddo gyuhesu yn ei wely esmwyth, ac y rhoddod ef mewn gofid ar un arall a wnaethai Duw iddo mewn ffiamau, o ba le y clywn ef yn rhwygo gan ing ei gyd-wybod. O enaid! pe byddai i ti gael hawl yn y pethau nefol yr ydym yn son am dan-ynt, ni ymlithrai y rhai'n fel hyn oddi tanat. Teyrnas na ellir ei siglo ydyw y nef; rhan sydd yn parhau ydyw Crist; dyfroedd ni phallant yw ei rasusau a'i gysuron ef—ond hwy a darddant i fywyd tragwyddol. Y soffieir a fuanit i borthi blys yr Israeliaid, a ddarfuant yn fuan; eithr y graig oedd yn ddiod i'w ffydd hwynt a'u canlynodd. Y graig yw Crist: gwna yn sicr o hono ef, ac efe a wna yn sicr o honot tithau: efe a'th ganlyn i dy glaf wely, ac a orwedd yn dy

fynwes pan fyddo cysuron bydol yn oerllyd arnat (fel dillad Dafydd arno ef), ac na byddo dim cysur cynhesol i'w gael oddi wrthynt. Pan fyddo dy synwyrâu allanol wedi eu cloi i fyny fel nas gelli weled wynebaw dy anwyl gyfeillion, na chlywed y cyngor a'r cysur a roddant i ti; yna, efe a ddaw, er i'r drysau hyn fod yng nghauad, ac a ddywed, Tangnef-edd i ti, fy anwyl blentyn, nac ofna anegu na diafiadl yr wyf yn aros i dderbyn dy anadl olaf, ac y mae genyf fy angylion yn gweithio, fel, cyn gynted ag yr anadler dy enaid allan o'th gorff, y dygont hwy ef, ac y gosodent ef yn mynwes yf nghariad; yno y maethaf di â'r ddiddanwch tragwyddol hwnw a bwrcasodd fy ngwaed, ac a barotodd fy nghariad i ti.

4. Pethau daiarol ydynt wag ac annigonol. Gallwn gael gormod, ond nid byth ddigon o honynt; hwy a barant alariad yn fynych, ond nid byth ddigoniad. Ac yn wir, pa fodd y gallent, gan eu bod mor anghyfattebol i ddymuniadau dirfawr yr ysbrydoedd anfar-wel sydd o'n mewn ni? Nid oes gan ysbryd gnawd ac esgryn: nis gellir chwaith ei borthi â'r fath: a pha beth sy gan y byd ond ychydig esgryn wedi eu gorchuddio â rhyw hyfryd-wch enawdol, i'w rhoddi iddo? Y lleiaf a fendithir gan y mwyafr; uid y mwyafr gan y lleiaf. Am hyn, gan fod y pethau hyn gan belled is law natur dyn, y mae yn rhaid iddo edrych yn uwch os myn efe ei fendithio, i.e. at Dduw ei hun, yr hwn yw Tad yr ysbryd-oedd. Fe fwriadodd Duw y rhai hyn at ein gwasanaeth, nid llawn fwyniant; a pha ynfrydwydd yw meddwl y gallwn ni wasgu o honynt yr hyn ni roddodd Duw erioed ynddynt? Bronau ydynt; o'u sugno yn gym-medrol, hwy a roddant laeth da, er lloniad hyfryd; ond os gwasgwch hwynt yn rhy galed, ni sugnwech ddim o honynt ond gwynt neu waed. Yr ydym yn colli y peth sydd ynddynt wrth ddysgwyl cael yr hyn ni fedd-ant. Nid oes neb yn cael llai o foddhâd, a mwy o anfoddhâd yn y pethau hyn, na'r rhai a wnant yr ymgais mwyafr i foddio eu hun-ain â hwynt. Y mae hufen y creadur yn nofio ar y wyneb; a'r hwn nid yw foddlaw'n i'w gasglu, ond yn meddwl cael etto fwy wrth yfed trafllwch dyfnael, nid yw ond yn mayned ym mhellach i lwyddo yn waeth: trwy ysiom a gyferfydd, y mae yn sicr o wanu ei hun â llawer o ofidiau. Ond ti ellit yn ddedwydd ochel yr holl ofnau hyn, pe troit dy gefn ar y creadur, a'th wyneb tua'r nef. Ymdrecha am gael Crist, a thrwyddo ef obaith am y nef, ac yr wyt felly ar yr iawn ffordd i fodd-lourwydd: ti a gei ei weled o'th ffaen, a mwynhau yr olwg arno wrth fyned rhagot; i.e. ti a gei brawf fod pob cam yn dy dywys yn nes ato. O! y fath gyfnewidiad hyf-ryd a broi't; fel dyn afiach yn dyfod o fro afiach, lle ni bu efe erioed ond yn glaf, pan ddel i awyr dda, neu i'w fro enedigol; felly cei dithau sirioli dy ysbryd, ac adfywio dy enaid

gyda boddhâd a heddwch annhraethol. Wedi i ti unwaith ymwagau â Christ, y mae, yn gyntaf peth, euogrwydd dy holl bechodau wedi ei symmud; a hyn oedd yn anafu dy holl londer o'r blaen. Ni wna eich holl chwareu â phlentyn mo'i lonyddu na'i loni pan fo rhyw bin yn ei bigo. Wele, yn awr, tynwyd ymaith y pigyn oedd yn dy ysbeilio di o lawenydd dy fywyd. Yn ail, y mae adnewyddiad a sancteiddiad ar dy natur: a pha bryd y bydd dyn yn esmwyth oni bydd pan fyddo yn iach? A pha beth yw sancteiddrwydd, ond adferiad y creadur i'w iawn naws, yn yr hon y creodd Duw ef? Yn drydydd, Yr wyt yn dyfod i fod yn blentyn i Dduw; ac mi a obeithiaf y gwna hyn dy foddio yn dda—bod yn fab neu yn ferch i Frenin mor fawr. Yn bedwerydd, Y mae genyt hawl i ogoniant y nef; i ba le y cei cyn hir dy dywys, i gymmeryd a chadw meddiant o'th etifeddiaeth hono hyd byth. A phwy a all ddywedyd pa mor fawr yw hi? Y mae Nicephorus yn adrodd fod un Agbarus, gwr mawr, ar ol clywed cymmaint o glod i Grist o herwydd y gwyrthiau a wnaeth, wedi anfon paentiwr i gael tynu ei lun; ond nid oedd y paentiwr, ar ol dyfod, yn gallu gwneud hyn, o herwydd y dysglær lewyrch dwyfol oedd yn wynebpryd Crist. Ai gwir hyn neu beidio, yr wyf yn ei adael; ond yn sicr y mae y fath ddysgleirdeb yn wyneb Crist mewn gogoniant, ac yn y dedwyddfyd a gaiff y saint gydag ef yn y nef, fel nas gallwn ni, sydd mewn marwol gnawd, ei ddiriad yn addas, a llawer llai ei adrodd. Goreu yw myned yno i gael hysbysiad; ac yna, ni a gyfaddefwn na chlywsom ar y ddaiar mo hanner yr hyn a gawn yno ei weled; ie, ac nad yw ein hamgyffired presennol ni yn ddim tebyceach i'r weledigaeth ogoneddus a gawn yno nag yw yr haul ar fwrdd y paentiwr i'r haul ei hun yn y ffurfafen. Ac os yw hyn i gyd felly, "Pa ham y gweriwech arian am yr hyn nid yw fara, a'ch llafur am yr hyn nid yw yn digoni;" ie, am yr hyn sydd yn eich cadw oddi wrth yr hyn a all eich digoni? Y mae pethau daearol yn debyg i ryw wael-bethau, sy, nid yn unig heb roddi maeth, ond yn dwyn ymaith y chwant at yr hyn a wnae faethu. Nid oes blas ar y nef a phethau nefol, gan enaid wedi ymlygru gyda'r rhai hyn. Manna, er ei alwo achosei bereidd-dra, yn fara angylion, nid oedd ond bwyd gwael gan archwaeth Aiphtaid. Ond nid yw y pethau ysbrydol hyn yn ymddibynu ar dy farn di, O ddyd! pwy bynag wyt, fel y mae pethau daearol mewn mesur mawr: nid yw pris y rhai hyn yn codi neu yn gostwng, fel cyfnewidfa y byd, ac fel y gwel dyn gwag yn dda eu prisio. Os meddyli mai llwch yw aur, y mae felly er yr argraff frenhinol a fyddo arno. Cyfrif di deitlau chwyddedig yn wagedd: ac y maent felly, er i lwch balch ymfrostio yn eu hurddas: ond os cyn-

nyysi di feddyliau gwael am Grist, nid yw efe ddim gwaeth. Dirmyga di y nef fel y mynech, nef fydd hi o hyd. A phan dleui mor bell atat dy hun gyda'r afradllawn, ag i wybod pa un yw yr ymborth goreu, cibau ai bara; ym mha le y mae'r byd goreu, gyda'r moch ar y maes, ai yn nhŷ dy Dad; yna ti a wybyddi yn well pa fodd i farnu am y pethau nefol hyn. Hyd hyny, dos, a gwna y farchnad oreu a elli o'r byd; etto, na ddisgwyl cael y perl gwerthfawr hwn—gwir foddlonrwydd i'th enaid—yn un o siopau y creadur. Ac onid gwell fyddai i ti ei gymmeryd pan y gelli ei gael, na dyfod yn ol mewn cywilydd ar ol ymfino yn ofer wrth ddilyn y creadur, ac fe allai ei golli yma hefyd, am na fynit ei dderbyn pan oedd yn cael ei gynnwyl?

EPHESIAID VI. 13.

"Am hyny, cymmerwch atoch holl arfogaeth Duw, fel y galloch wrthsefyll yn y dydd drwg, ac wedi gorphen pob peth, sefyll."

Y MAE YR apostol yn y geiriau hyn yn ail-daraw at ei annogaeth o'r blaen, a gawn yn *adn.* 11, ac yn ei chymhell gyda grym newydd oddi wrth yr hysbysiad neillduol a rydd efe am y gelyn: *adn.* 12. Yno ni a'i cawn, fel ysbŵr ffyddlawn, yn rhoddi hysbysiad llawn o fawr allu a malais Satan, ac hefyd yn amlygu y bwriad enbyd sy ganddo yn erbyn y saint, dim llai na'u hysbeilio o'r cwbl sydd yn nefol. Ac oddi wrth hyn oll, y mae yn rhoddi iddynt ail alarm, gan erchi, *Arfogwch! Arfogwch!* "Am hyny, cymmerwch atoch holl arfogaeth Duw, fel y galloch wrthsefyll yn y dydd drwg, ac wedi gorphen pob peth, sefyll." Yn y geiriau, ystyriwech:—

1. Yr annogaeth, ynghyd â'r casgliad, "Am hyny, cymmerwch atoch holl arfogaeth Duw."

2. Y rheswm â'r hwn y mae yn cymhell yr annogaeth; ac y mae hwnw yn ddyblyg.

1af. "Fel y galloch wrthsefyll yn y dydd drwg."

2il. "Wedi gorphen pob peth, sefyll;" hyny yw, gallu ymladd a gallu gorchfygu. Am y peth cyntaf, yr annogaeth, ni a'i gadawn o ran ei sylwedd, gan ei bod yr un â'r hyn a driniwyd yn *adn.* 11. Ond y mae dau sylw y cyffyrddwn â hwynt yn fyr: un oddi wrth yr ailadroddiad o'r un annogaeth mor fuan—dim ond un wers yn cyfryngu: y llall oddi wrth y gair a ddefnyddia yr apostol yma, yr hwn nid yw yr un ag yn *adn.* 11, yr hyn a rydd sylw gwahanol. Yn y fan hono, *endusiasthe* ydyw; yn y fan hon, *anulcbanete*.

PENNOD I.

Yr achos pa ham y mae yr apostol yn adnewyddu yr un annogaeth; ac hefyd pa wirioneddau y mae i weinidogion eu pregethu yn fynych ŵw pobl.

1. Ailadroddiad o'r un annogaeth, a hynny mewn ysbaid mor fyr. Yn sicr, nid o ddiffyg mater, ond yn hytrach o helaethrwydd, y mae yn cyffwrdd eilwaith â'r un tant. Yn wir y mae hwnw yn well gweithiwr, a bywa un hoel adref âg amryw ddyrnodiau, na'r hwn sydd yn chwennych cychwyn llawer, ond heb sicrhau un. Nid yw y cyfryw bregethwyr yn debyg o gyraedd y gydwybod, sydd yn neidio o'r naill wir i'r llall, ac heb aros ar un. Nid ydyw pob gwrandawr mor gyflym a'r pregethwr i dderbyn mater ar ei ergydiad cyntaf: ac nid llawer sydd yn gallu dwyn adref lawer o'r bregeth hono, a wneir i fyny oll o amrywiaethau. Yno, fel yr enwir pwngc, y mae megys yn tynu ei law yn ei hol, ac un arall yn gwneutlur rhwyg, ac yn dyfod allan, cyn i'r cyntaf gael ei gor, a'i forthwyllo ar ei gydwybod, trwy gymmhysiadau nerthol. Gwell yw bod y bregeth yn gydrylyd, a rhyw un gwirionedd rheidiol yn cael ei egluro, ei ddilyn, a'i wasgu adref dyrnod at ddyrnod. Yma y mae yr ymddiddan oll o'r un rhyw; ac un rhan a gofir yn dwyn y cof i gydnabyddiaeth â'r llall: eithr yn y ffordd arall, y mae y naill beth yn gwrthio'r llall allan o gof gwan. Gall annaid byr ac ymaith foddio ysgolhaig, ond nid yw mor fuddiol i ereill—y mae y cyntaf yn fwy addas i'r ysgolion—ond y llall i'r pulpud. Pe bawn yn myned i brynu dilledyn mewn siop, dewiswn y gwr a osodai ddarn da neu ddau o'm blaen (a'r rhai hynny at fy nhro, a modd i mi graffu arnynt), yn hytrach nag un a dynai ei holl siop i lawr, ac a bentyrai ddarnau ar ddarnau, yn unig i ddangos ei stôr, hyd nes o'r diwedd nas gallwn edrych fel y chwennychwn ar un o honnynt, am eu bod yn y fath amrywiaeth yn gorwedd ar eu gilydd.

Drachefn, megys y mae yn fuddiol sefyll fel hyn ar wirioneddau, felly nid anweddus yw i weinidog bregethu yr un gwirioneddau drachefn a thrachefn. Y mae Paul yma yn ail adrodd yr un annogaeth: *abn.* 11, a 13. Ac mewn lle arall, efa a ddywed, "nad oedd hyn ddim yn flin ganddo ef, a'i fod yn ddiogel iddynt hwythau" gael clywed yr un peth drosodd a throsodd; *Phil.* iii. 1. Y mae tri math o wirioneddau a ddylai gael eu cyhoeddi yn fynych yn ein gwirionogaeth.

1af. Gwirioneddau sylfaenol; neu, fel y galwn ni hwynt, pyngciau egwyddorol, sydd yn cynnwys gwirioneddau angeurheidiol i'w gwybod a'u credu. Y mae pwys yr holl adeilad ar y sylfaeni hyn, yn fwy nag ar wirioneddau goruwchadeiladol. Mewn teyrnas, y mae rhyw ddaodedd marchnad a chelyfddyddau sefydlog, heb ba rai nis gall

y wladwriaeth ymgynnal; megys gwlan, ŷd, &c., yn ein gwlad ni; ac fe ddylid cynnal y rhai hyn uwchlaw pethau ereill; y rhai, er eu bod yn addurn i'r wlad, ie, yn chwawegu at ei chyfoeth; etto, nid ydynt mor rheidiol at ei chynnaliaeth. Felly yma; y mae i'n llafur arall yn y weinidogaeth ddefnydd rhagorol, fel y mae yn tueddu i harddu ac i addurno, ie, i gyfoethogi y Cristion â'r wybodaeth o ddirgelion ysbyrdol; etto, yr hyn a ddylid ei olygu yn benaf ydyw agor prif wirioneddau yr efengyl yn barhaus a ffyddlaw. Y mae y rhai hyn fel ceryg finiau, yn dangos i ni derfynau y wir athrawiaeth. Ac fel y mae mewn trefydd sydd yn pwys ar eu gilydd, oni wna y trigolion weithiau gerdded o amgylch y terfynau i ddangos i'r rhai ieuaine yn mha le y maent; fe all y genhedlaeth nesaf (ar ol marw yr hen bobl) gollu eu rhagorfreintiau oll trwy ormes eu cymmydogion, o herwydd nas gallant ddywedyd pa beth sydd yn eiddo iddynt hwy. Nid oes un gwirionedd sylfaenol heb fod iddo ryw gymnydog drwg (heresi yr wyf yn ei feddwl) yn pwysu arno; a'r gwir reswm pa ham y mae ysbyrd cyfeiliornad wedi gormesu cymmaint yn ddiweddar ar wirionedd yw hyn:—ni ddarfu i ni gerdded y terfynau gyda'n pobl, trwy hysbysu iddynt am, a sefydlu eu barnau yn y pyngciau sylfaenol hyn, mor fynych a gofalus ag y mae yn angenrheidiol. Ac y mae pobl dan fai mawr am gyfrif pregeth ar y fath byngciau yn nesaf peth i afraid, ac yn ddim ond bwyd baban.

2il. Y mae y gwirioneddau hynny i'w pregethu yn fynych, y rhai y gwel y gweinidogion eu bod â'r cloddio mwyaf danynt gan Satan, neu ei offerynnau, ym narnau neu fucheddau eu pobl. Y mae yn rhaid i'r pregethwr ddarllen a myfyrio ei bobl mor ddyfal ag un llyfr yn ei lyfrgell; ac yn ol y caffo efe hwynt, gweinyddu fel goruchwyliwr ffyddlaw iddynt. Fe welodd Paul y modd yr oedd y Galatiaid yn cael camdriniaeth gan apostolion gau, y rhai oedd wedi eu llygad-dynu yn ol at y ddeddf yn y pwngc mawr hwnw o gyfiawnhâd: a gwelwch y modd y mae yn euro ar y pwngc hwnw. Ein pobl a achwynant ein bod yn argyhoeddi mor ddwys a mynych o'r un cyfeiliornad neu bechod, ac arnynt eu hunain y mae y bai, am nas gadawant ef. Pwy a feia ar y ei am barhau i gyfarth, pan y mae y lleidr o hyd yn y buarth? Och! nid cynnyllyfr unwaith neu ddwy yn erbyn pechod a wna y tro. Pan fo dynion yn meddwl fod y gweinidog yn dangos ei ddiogi am ei fod yn pregethu yr un pethau, efa a all fod y pryd hynny yn arfer ei amynedd wrth barhau i gynghori a cheryddu y rhai gwrthwynebus, gan edrych a rydd Duw o'r diwedd iddynt edifeirwch i gydnabod y gwirionedd. Gorehymynir i ni ddyrchafu ein llais fel udgorn: ac a fynech chwi i ni

beidio tra y mae'r frwydr yn parhau, neu seinio encillid pan y dylai fod yn ymladd?

3ydd. Gwirioneddau o wasanaeth ac ymferferiad beunyddiol. Y mae y rhai hyn fel para a halen; beth bynag arall a fyddo ar y pwrdd, rhaid i'r rhai hyn fod ar bob pryd. Yr oedd Pedr o'r meddwl hwn:—"Nid ysggeulusaf eich cofiau bob amser yn y pethau hyn, er eich bod yn eu gwybod;" 2 *Pedr* i. 2. Yr oedd, fel y gellwch weled, wedi bod yn son am y cyfryw rasmusau a dyledswyddau, mas gallent hwy dreulio diwrnod heb fod yn eu harferyd; ac am hyny, y mae efe am fod o hyd yn eu rhybuddio, i gyffroi eu meddwl puraidd hwynt yn eu hachos. Nid yw pob peth yn dda pan fyddo dyn yn blino ar ei ymborth cyffredin, ac nad ä dim i lawr ond danteithion. Y mae'r cylla yn afiach pan fyddo dyn yn dewis pigo rhyw lysiau o laen bwyd cryf. A pha mor bell y mae yr es ddanteithiol hon wedi myned yn yr afiechyd ysbrydol hwn; yr wyf yn meddwl mai ychydig sydd wedi dyfod mor bell atynt o hunain ag i'w ystyried a galaru o'i herwydd. O, syrs! na flinwch ar wneuthur, na chwaith ar wrandaw pregethiad y gwirioneddau iachus hyny sydd o wasanaeth beunyddiol i chi, am eich bod yn eu gwybod, ac wedi eu clywed yn fynych. Fe fydd ffydd ac edifeirwch yn athrawiaeth dda i'w phregethu a'i gwrandaw hyd ddiwedd y byd. Ystyal fyddai i chi gweryla â Duw am na wnaeth efe ond un nef [o ogoniant], ac un forddiddi, a chwerylu a'r pregethwr am oregethu y rhai hyn drosodd a throsodd. Os bydd dy galon yn ostyngedig, a'th archwaeth yn ysbrydol, fe fydd hen wirioneddau yn newydd i ti bob tro y clywi hwynt. Yn y nef y mae y saint yn tynu holl win eu goroledd, fel y gallaf ddywedyd, trwy un dwsel (*tap*), ac felly y gwnânt hyd byth; etto byth nid ä yn ddifas. Duw yw yr gwrthddrych y llewir eu heneidiau o hono, ac na finant byth arno. Ac a all fod dim am Dduw a'i gariad yn flinderu i ti wrth ei wrandaw? Yn hyn oll nid ydwyf fi yn ddadllyswr dros un sefyllianwr yng ngwinllan Crist, na thros un gwas diog yng ngwaith yr efengyl, a fyddo yn amlygu ei dalent mewn seguryd, neu yn ei chladdu yn y ddaear; lle y mae efe, fe allai, yn cloddio ac yn chwareu bydolddyn ar hyd yr wythnos, ac na heb ganddo ddim i'w osod o flaen ei bobl ar ddydd yr Arglwydd ond un neu ddwy hen dorthau llwydion, a bobwyd er's llawer blwyddyn. Nid hwn yw y goruchwylwr da; dyma bethau hen, ond pa le y mae y pethau newydd a ddylai efe eu dwyn allan o'i drysor? Os ni lafuria y gweinidog i chwaneu ei ystor, efe yw y lleidr gwaethaf yn y plwyf. Y mae yn ddrwg mewn dyn, a fyddo äg eiddo plant amddifad dan ei law i wneuthur y goreu o hono, os efe a'i gad i'r wrdd yn farw yn ei ymyl: llawer gwaeth

yw i weinidog fod heb ddefnyddio ei doniau er y goreu, y rhai y gallaf eu galw yn gyfoeth tref, a roddwyd i fod er budd i eneidiau y cyfoethog a'r tlawd hefyd. Yr oedd y pregethwr doeth (gwelwn *Preg.* xii. 9) yn dysgu "etto wybodaeth i'r bobl," hyny yw, yn myned yn mlaen o holl mewn ymgais i'w hadeiladu yn uwch mewn gwybodaeth; ac, fel y gallai hyny, "efe a ystyriodd, ac a chwiliodd allan, ac a drefnodd ddiarebion lawer." Os felly, yn sicr pregethwr annoeth y profir hwnw yn y diwedd, sydd yn difrodi ei amser mewn seguryd, neu yn gwario mwy o hono mewn myfyrdod pa fold i chwaneu ei dda bydol allan o eiddo ei bobl, na pha fodd i chwaneu at eu doniau a'u grasusau hwynt, trwy ymgais cydwybodolam gynnydd iddo ei hun.

PENNOD II.

Y goreu o'r saint yn ddarostyngedig i adfeilio yn eu grasusau; a pha ham y mae i ni ymgais am adferiad allan o nychedd mewn gras.

Yr ail beth nodedig yn yr annogaeth a gymmerir oddi wrth y gair *analambanete*, yr hwn a ddefnyddir ymagan yr apostol: eystyr a gynnwys, nid yn unig *cymmerwch*, ond *cymmerwch drachefn*. Y mae yn galw arnom i ennill yn ol yr hyn a gollasom, neu adgymmeryd y peth a adawsom am dro. Ysgrifenu y mae'r apostol at y saint yn Ephesus; y rhai, o leiaf, ran fawr o honynt, nid oedd ynt i wisgo'r arfogaeth hon trwy dröedig-aeth, neu waith cyntaf ffydd (yr hyn yn ddiammheu oedd wedi ei brofi gan lawer o honynt): yn ganlynel, y mae ganddo feddwl pellach, mewn golygiad arnynt hwy, ac ar gredinwyr hyd ddiwedd y byd. A hyny yw, am iddynt wisgo yn dynach, lle y mae yr arfogaeth hon yn crogi yn rhydd, ac ymgais am adferiad, lle y maent wedi gadael rhyw ddyledswydd ar ol, neu ä rhyw ras tan adfeiliad. Felly, y sylwad yw,

Athr. Y dylai fod ar y Cristion ofal arbennig am adgyweiriad i'w arfogaeth ddrylliog, ac am iachâd i'w rasmusau nychedd. Gall yr arfogaeth hon gael drylliadau: gallwn ddangos profion gofidus yn yr amryw ranau o honi. Ai nid oedd gwregys Iacob, o wirionedd a symledd, wedi ei ddadfyclu pan ddefnyddiodd efe y ddichell bechadurus hono i gael y fendith? Nid y gwr syml oedd efe y pryd hyny, ond y disodlwr: ond cystal fuasai iddo aros amser Duw: cafodd ei dalu adref yn ei ryw ei hun: efe a roddodd somedigaeth i'w dad; ac oni roddodd Laban somedigaeth iddo yntau, gan roddi iddo Leah yn lle Rahel. Beth, meddweh, am ddwyfroneg cyfiawnder Dafydd yn achos Urias? Ai nid aeth pelen drwyddi? ac ai nid oedd y gwr hwnw dan archoll drom pan

fu yn gorwedd agos i flwyddyn, yn ol dim a ddarllenwn am dano, cyn dyfod mor bell ato ei hun ag i fod yn llwyr deimladwy o'i bechod, hyd oni anfonwyd Naithan, llawfeddyg ffyddlawn, i chwilio y briw a'i lanhau o'r eig marw a dyfasai drosto? Ionah yntau, prophwyd sanctaidd, mewn golygiad arall, yr oedd ei esgidaiau ar goll pan anfonodd Duw ef ar neges i Ninefe; fy meddwl yw, y parotoad a'r parodrwydd a ddylasai fod fel gwisg am ei draed, i fyned ar yr alwad gyntaf. Hezecia dduwiol, ni a welwn pa mor agos y bu ei helm o obaith i gael ei churo oddi ar ei ben, pan y dywed ef ei hun beth oedd ei feddyliau yn nydd ei drallod; sef, na chwasai weled daioni yr Arglwydd yn nhir y rhai byw; gan ddisgwyl na wnaid Duw ddim gollwng ei afael, nes iddo, "megys llew, ddryllio ei holl esgryn a gwneud diben arno." Hyd yn oed Abraham ei hun—hynod am ffydd, etto yr oedd ganddo ei lewygfeydd o anghrediniaeth ac anhlyder yn dyfod dros ei galon wrol. Yn awr, yn yr achos hwn, dylai gofal y Cristion fod am adgyweiriad prysur i'w arfogaeth. Helm ddrylliog, nid yw ond y nesaf peth i fod heb yr un yn y pwng o ddefnydd presennol: gras mewn nychdod, y mae yn debyg i ddydd â'i goesau heb fod dano gan afiechyd: oni arferir rhyw foddion er ei adferiad, ychydig a geir o wasanaeth ganddo nac o gysur oddi wrtho. Am hyny, i'r eglwys hon o Ephesus, at ba un yr ysgrifennodd Paul yr epistol hwn, y mae Crist yn rhoddi y cyngor hwn, i gofio o ba le y syrthiodd, i edifarhau, a gwneud ei gweithredoedd cyntaf. A pha sawl un y gwna y Cristion amharol gam ar unwaith?

1. Efe a wna gam â Duw, a hyny i radd uchel, am fod Duw yn gwneud cyfrif am fwy o anhlydedd yn dyfod iddo oddi wrth ras y saint nag oddi wrth yr holl dalentau ereill sy gan ei greaduriaid i farchnata â hwynt yn y byd. Gall oddef yn well, mewn rhyw ystyr, bechodau cyhoedd y byd nag adfeiliad grasusau ei saint. Y maent hwy trwy gamddefnyddio eu talentau yn ei ysbeilio ef o'i olew, ei llin, a'i wlan: ond y mae y Cristion trwy y llall yn ei ysbeilio o'r gogoniant a ddylai gael ei dalu iddo oddi wrth ei ffydd, zel, amynedd, hunanymwadiad, symrlwydd, a'r lleill o'i rasusau. Bwriwch fod i feistr ymddiried i un gwas am ei arian, ac i un arall edrych ar ol ei blentyn; oni anfodlheid ef yn fwy wrth weled ei anwyl blentyn yn anafus neu agos wedi ei ladd trwy ddiotalwch y naill, na phe lladratedd ei arian trwy ddiotalwch y llall? Y creadur newydd ydyw gras wedi ei eni o'r Ysbryd; pan gaffo hwn niwed trwy rodiad difol y Cristion, y mae yn rhaid i hwn fyned yn nes at galon Duw na'r camwri y mae yn ei gael oddi wrth y byd, i ba rai ni ymddiriedwyd dim sy gyffelyb i hwn.

2. Y mae yr hwn sydd yn adfeilio mewn

gras, ac heb ymgais am adferiad, yn gwneud cam â'i frodyr, y rhai sydd â chyfran gandynt yng ngras eu gilydd. Y mae yr hwn sy heb geisio iachâd i friw mewn un aelod, yn gwneud cam â'i holl gorph. Gorchymyuir i ni garu ein gilydd: 2 Ioan 5. Ond pa fodd y dangoswn ni ein cariad i'n gilydd. Y geiriau nesaf a'n cyfarwyddant: "A hyn yw y cariad, bod i ni rodio yn ol ei orchymynion ef." Yn wir, ychydig gariad a ddaugoswn at ein brodyr trwy bechu; cands felly yr ydym yn sicr o'u maglu neu eu poeni. A pha fodd i adael i ras fyned i lawr ac i bechod fod heb fyned i fyny, sy ddychymmyg i bawb a wŷr beth yw y ddau.

3. Y mae'r Cristion yn gwneud cam âg ef ei hun wrth fod heb ymgais am adgyweiriad i'w arfogaeth ddrylliog, ac adferiad i'w ras nychlyd. Wrth hyn y mae yn colli'r dystiolaeth am ei etifeddiaeth, neu o leiat yn ei diwyno, fel nas gall efe ei dirnad mor eglur. Y mae yn rhaid i Gristion dan amhariaeth fod yn Gristion dan amhheuaeth, canys yr arwydd cyffrediu o ragrithiwr yw gwisgo a threudio, fel pawl yn y ddaear, yn hwn a bydra; tra y mae gwir ras fel preri yn tyfu. Ac onid yw y cwlmw y mae Satai yn ddyrsu llawer o eneidiau truan âg ef, ac yn rhoddi gwaith am lawer blwyddyn iddyn i'w ddatod? Pe byddid Gristion, ti gynnnyddit; yr iawn saint a änt o nerth nerth; yr wyt tithau yn myned o nerth wendid; y maent hwy yn dringo'r bryn Sion; y mae pob ordinhâd a rhagluniaeth fel gris i'w dwyn hwy yn nes i'r nef: ond lawr y bryn yr wyt ti yn myned; a phellach wyt oddi wrth iachawdwriaeth na'r pry cyntaf; yn ol dy dyb y darfu i ti greu. A ai tro doeth yw i ti, Gristion, roddi sffon y llaw Satan, dadl yn ei safn i ddadleu â hi y erbyn dy iachawdwriaeth? Pe byddai yn d law etifeddiaeth am amser bywyd plentyn ac i fyned oddi wrthyt ar ei farwolaeth ef, cai y plentyn hwnw, ni warantaf, edrych yn dda ar ei ol; ni chai cur fod yn ei ber heb i ti frysio at y meddyg am gyngho Attolwg, pa beth yw eich tystiolaeth am y etifeddiaethogoneddus yr ydych yn gobeithi am dani? Ai nid Crist ynoch chi? Onid creadur newydd yma y gellir yn dda ei al ar enw Crist, o herwydd ei debygolrwydd iddo yw etifedd ieuange gogoniant y nef. A phan fyddo hwn yn glaf neu wan, oni yw yn bryd arfer pob moddion er iacha iddo? Tra byddech fel hyn, nis gelli fyw i marw yn gysurus. Nis gelli fyw: nid oes dlyn mewn darfodedigaeth ond cysur byche o'i fywyd; nid yw efe yn profi blas ar fywyd, na hyfyrdwch yn ei waith fel dyn iac O! mor felus yw yr addewid i ffydd, pan hi yn fywch a nerthol! Mor ysgafu y iau y gorychymyn i'r Cristion pan na bydd ei gydwybod yn ddolurus gan euogrwyd na i nerth wedi nychu gan demtasiwn! O!

Cristion dan adfeiliad, nid yw efe yn profi as yr addewid; y mae pob gorelymyn yn rwm, a phob dyledswydd yn faich iddo ef; mae yn cerdded mewn poeu, fel un â'i droed i le, er teced fyth y byddo'r ffordd. Ac y mae mor anaddas i farw ag ydyw i fyw. Is gall y fath un garu clywed y newydd na farw, ddim mwy na deiliad tir a fyddo yn r o'i ardreth garu clywed am y dydd tâl. Yn wnaeth i Dafydd erfyn amser gan duw: "Paid â mi, fel y cryfhawyf."

Wedi dangos i chwi pa ham y dylai'r Cristion ymgais am adferiad i'w rasusau uchlyd, bydd yn dra angenrheidiol rhoddi i'r o gynghor i'r Cristion.

1af. I'w gyfarwyddo pa fodd i farnu am raswdd nychlyd gras; fel na roddo efe gam no ei hun yn hyn.

2il. I'w gyfarwyddo pan y caiff ei ras dan adfeiliad, pa fodd y mae iddo gael adferiad.

PENNOD III.

Yfforddiad gochelus am yr hyn na allwn, ac hefyd am yr hyn y gallwn, farnu oddi wrtho, fod ein grasusau heb adfeiliad.

Cwest. 1af. Pa fodd y gall Cristion farnu yw ei ras dan adfeiliad ai nid yw?

At. Yn gyntaf, Mi a agoraf hyn yn nacul, ac a ddangosaf wrth ba bethau nid oes do farnu fod ei ras mewn adfeiliad.

2. Yn gadarnhaol, wrth ba bethau y mae do yn sicr benderfynu am adfeiliad ei ras.

1af. Yn nacael: a hyn mewn amryw bethau neillduol.

(1af.) Na farna, Cristion, fod gras wedi gwynd yn wanach, am fod dy deimlad o'th gredd wedi myned yn gryfach. Mae hyn na aml yng ngwaelod achwyniadau eneidiau cuain yn yr achos hwn. O! erioed ni neimlasant falchder, rhagrith, a llygredigaethau yn eu dilyn, fel y maent yn awr: nid es neb a wŷr y modd y maent yn cael eu lino gan y rhai hyn a'r cyffelyb, ond eu unain. Yn awr, gâd i mi ofyn i ti sydd yn wyyno yn athrist fel hyn, Ai nid wyt ti yn meddwl fod y llygredigaethau hyn ynot cyn ti eu teimlo fel hyn? Pa mor fynyeh y weddiaist yn ffurfiol, etto, heb gael dy lino? Pa mor fynyeh y deliaist glebar yda'r un chwantau, a'th enaid heb fyned i'r wech o flaen yr Arglwydd, gyda'r fath mostyngiad ar yr awr hon? Barna yn deg hwyng Duw a'th enaid; ac na ddywed gelwydd dros Dduw, trwy ddwyn cam-dystiol-eth i'th erbyn dy hun. Os ydyw fel yn, y mae ynnot arwydd cysurus o ras yn gynyddu, yn hytrach nag yn adfeilio. Nis all pechod fod ar ei ennill, os yw y teimlad bechod yn bywiocau. Canlynydd enaid r ei gynydd yw hyn; ni fedd neb gymaint o achwynion ar eu calonau a'r rhai yny; y mae'r pechod lleiaf yn awr yn eu

dolorio i'r byw; a hyn yn peri iddynt feddwl yn waelach am danynt eu hunain nag erioed; ond nid cynnydd pechod ynddynt, ond cynnydd eu cariad at Crist sydd yn peri iddynt farnu felly. Pan fyddo yr haul yn tywynu yn lled gryf, a'r flwyddyn yn dyfod ym mlaen, yr ydym yn sylwi, er y gallwn gael rhew ac eira, nad arosant yn hir, ond fod yr haul yn toddi yn fuan. O! y mae yn arwydd hyfryd fod cariad Crist yn tywynu gyda grym ar dy enaid dithau, pan na chaiff llygredigaethau orwedd yn hir yn dy fynwes, ond eu toddi mewn tristwch a chwerw achwynion. Dyna'r enaid dan adfeiliad, lle y mae pechod wedi ei gloi mewn rhew; prin deimlad o hono, nac o dristwch am dano yn ymddangos.

(2il.) Gochel feddwl fod gras yn adfeilio, am fod dy gysur yn cilio. Y mae effaith yr haul yn cyrhaedd, lle nad yw ei oleuni i'w gael, i'e, mewn nerth; fel yr ymddengys yn y mwngloddiau aur ac arian, y rhai a ferwir megys ganddo. Ac felly y gall gweithrediaid gras fod yn rymus ynot tithau, pan wyt leiaf dan lewyrchiad ei wynebryd. A fuddugoliaethod fydd erioed yn fwy nag yn ein Hiachawdwr yn llefain, "Fy Nuw, fy Nuw!" Yr oedd yn ganol dydd yma ar ffydd, pan ydoedd yn ganol nos o ran diddanwech. Yr wyt, ysgatfydd, yn dyfod o ordinhâd, ac heb ddwyn gyda thi adref yr ysgubau hyny y byddit arferol eu cael; ac am hyny dy benderfyniad yw, nad yw gras yn gweithredu ynot megys gynt. Yn ddiaw, heb ryw fesurydd arall, ti elli wneud cam dirfawr â gras Duw o'th fewn, am fod dy gysur yn beth gwahanol oddi wrth dy dyledswydd, yn rhodd y gall Duw ei roi, neu beidio; i'e, y mae yn ei roddi i'r gwan, ac heb ei roddi i'r cryf. Dichon y teithiwr fyned mor gyflym, a thros gymmaint o dir, pan fyddo'r haul heb dywynu, a phan y tywyno; er nad yw efe yn wir yn myned mor llon ar ei daith; i'e, y mae efe weithiau yn prysuro yn fwy: y mae haul cynnhes yn peri iddo weithiau orwedd i lawr a sefyllian; ond pan fyddo yn dywyl ac yn oer, efe a dŷn ym mlaen yn gyflymach. Y mae rhai grasusau ar eu cynnydd goreu, fel rhai blodau yn y cysgod; megys gostynggeiddrwydd, ymorphwysiad ar Dduw, &c.

(3ydd.) Gochel gamsynied, a meddwl fod dy ras yn adfeilio, pan y gall fod mai dy brofedigaethau sydd yn amlhau, ac nid dy ras yn gwanhau. Pe clywech ddyyn yn dywedyd, am nas gall efe heddyw redeg mor gyflym â chan pwys ar ei gefn ag y gallai ddoe, heb ddim o'r fath faich, ei fod am hyny wedi myned yn wanach, chwi a ddywedech iddo yn fuan pa le y mae sail ei gamsyniad. Nid yw profedigaeth yn pwyso bob amser yn yr un dwsydr ar ysgwydd y Cristion. Dal sylw, gan hyny, a yw Satan ddim wedi cael cenad i ruthro arnat, yn fwy

na chyffredin; ai nid yw dy demtasiynau yn dyfod gyda mwy o rym a gormes nag erioed. Y mae yn bosibl, er nad wyt yn trechu y rhai hyn mor rwydd ag y trechaist rai llai, etto fod gras yn gweithio yn gryfach wrth ymdrechu â'r rhai mwyaf, nag wrth orchfygu rhai llai. Y mae yr un llong, pan fyddo ei balasarn (*ballast*) yn ysgafu, a'r gwynt o'i thu, yn myned yn wisgi; ond dro arall, wedi ei thrwmlywio, a'r gwynt a'r llanw yn ei herbyn, yn ysgog yn araf; etto, y gwyr ynddi mewn ymdrech mwy i'w chael i hwylio fel hyn, nag oedd arnynt pan oedd hi yn myned yn gyflymach.

2. Yn gadarnhaol, pa fodd y gelli benderfynu fod gras dan adfeiliad, a hyn mewn golygiad tri-phlyg.

1af. Mewn golygiad ar demtasiynau i bechod.

2il. Mewn golygiad ar ddyledswyddau addoliad Duw.

3ydd. Ar agwedd dy galon mewn gorchwylion bydol.

1af. Mewn perthynas i bechod, a hyn yn driphlyg.

(1af.) Pan nad wyt mor effro a chynt i ganfod pechod yn gormes arnat. Ar un pryd, ni a gawn galon Dafydd yn ei daraw, pan na wnaeth ond rhwygo cwr mantell Saul: dro arall, pan dafodd ei lygad ar Bathseba, nid yw efe yn dal cymmaint sylw ar y fagl oedd ynddi; ac felly, fe'i tywyswyd gan Satan o'r naill bechod i'r llall. Y mae hyn yn dangos yn eglur fod gras yn llygat-trwm o'i fewn, ac nad oedd ei galon mewn agwedd mor sanctaidd ag y buasai. Os daw gelyn at y pyrth, a'r gwyliwr heb gymmair a rhoddi alarm i'r ddinas ar ei ddynesiad, y mae yn dangos nad oedd efe ar ei wyladwr-iaeth, ond naill ai yn cysgu neu waeth. Pe byddai gras yn effro, a'th gydwybod heb gasglurhyw galedwch, fegyflawnai ei swydd.

(2il.) Pan ganfyddir tentasiwn i bechod, a thithau yn cael dy galon yng nghauad, fel nad wyt yn gweddio yn ei erbyn, neu nid gyda'r fath sel a diglonedd duwiol a chynt, ar y fath achosion, y mae yn arwydd drwg fod chwant wedi cael y fantais ar dy ras, gan nad wyt yn gallu rhedeg at dy arfau. Y mae dy serchiadau wedi eu gwobru; a hyn sydd yn dy wneud yn erfyniwr mor oer wrth orsedd gras am gymmorth yn erbyn dy elyn.

(3ydd.) Pan fyddo y dadleuon mwyaf tyciannol gyda tli i wrthsefyll tentasiynau i bechod, neu i alarw am bechod, yn fwy enawdol, neu yn llai efengylaidd na chynt. Fe allai dy fod yn cofio amser y buasai dy gariad at Grist yn poeri tân i wyneb Satan, am dy demtio i'r cyfryw bechod; ond yn awr, fod y tân sanctaidd hwnw wedi myned mor wan, fel, pe ni byddai rhyw ysgogiadau enawdol ereill i wneud y llais (*voce*) i fyny, y byddai perygl iddo fod o'i ochr, yn hyt-

rach nag yn ei erbyn. Ac felly, wrth alarw am bechod, y mae, ysgatfydd, rhyw ddad-leuon caethwasaidd—felwynwyn yn y llygad yn peri i ti wylo—yn hytrach na gonestrwyd-pur, yn tarddu o gariad at Dduw, yr hwn anfoddonaist. Y mae hyn yn dangos adfeiliad trwm: a pho mwyaf fyddo y cymmysg o'r cyfryw ddadleuon enawdol, yn gwrthwynebiad i bechod, neu ynte yn galar am dano, mwyaf ydyw yr adfeilia mewn gras. Yr oedd gwres naturiol Dafydd wedi gwanhau yn drwm, pan oedd raid idd gael cymmair o ddillad arno; ac er hyny, ni chynhesai efe: bu amser y buasai yn chwys dan lai. Y mae arnaf ofn am lawer, y ceir eu cariad at Grist, yn y blyneddoedd hyn adfeiliad, wedi colli cymmair o'i rym boreuol, fel mai gwaith mawr ydyw cadw diu gwres ynddnt yn erbyn amryw bechoda a fuasai gynt yn eu cynnyrfu i ddigloned sanctaidd, ac i sel danlyd; megys tori Sabbath, balchder gwisgoedd, esgeulusiad ddyledswyddau teulnaidd, &c.

2il. Mewn golygiad ar ddyledswyddau addoliad.

(1af.) Os yw dy galon heb dy goffau gyda un tueddai a pharodrwydd a chynt i gad cymmundeib â Duw mewn unrhyw ddyledswydd. Y mae yn bosibl y gwyddost a amser pan fyddai dy galon yn ateb-leisio gymmelliadau Ysbryd Duw yn dy alw—“Ceisiwch fy wyneb; dy wyneb a geisïaf, Arglwydd.” Ië, bu arnat gymmair hiraet am ddydd Sabbath, neu amser pregeth, ag fydd ar adyn aniol nes eu darfod. Os yn awr, nid ydyw dy waed yn curo mi gyflym mewn ysgogiad at yr ordinhada cyhoedd neu ddirgel. Nis gall natur o'i gwanhau os collir chwant bywd. Ena erfyniol yw yr enaid cynnyddol; y fath blentyn ag na âd lonydd i'w fam, ond sy'n mynych lefain am y fron.

(2il.) Pan fydddech yn colli yn dy ofal a gyflawni dyledswyddau mewn modd y brydol, ac o ran cadw y teimlad o'r ffaeidd tunewnol hyny mewn dyledswydd, nas gneb ond ti dy hun dy geryddu am dany. Nid mynychder, ond ysbrydolrwydd dyle swydd a bair gynnydd; am hyny, mae esgeulusdra yn y pwng hwn yn dwyn gras i fuan i agwedd nychlyd. Dichon y bu amser pan nad oeddit foddlawn ar weddio, ond oeddit yn manwl wyllo dy galon; fel dyn edrych pob darn o arian a fyddo yn ei da rhag iddo wneuthur cam â'i gyfaill trwydd iddo arian drwg: ti a fynt i Dduw gael, nid dyledswydd yn unig, ond dyle swydd âg arni argraff y ffydd hono a'i gw yn gymmeradwy, i.e. y sel a'r symledd hy a'i gwna yn bwysau da yn ol yr efengyl, ond yn awr, yr wyt yn fwy diofal a ffurf O! edrych ati, enaid truan; os parhei hyn yn ddiotal, ti a redi yn ol yn fuan yn helynt ysbrydol. Y fath fasnach a hyt

nafa dy farchnadaeth â'r nef; ni chymmer
uw y dyledswyddau esgeulus hyn oddi ar
y law.

(3ydd.) Pan fyddo Cristion yn cael ond
ychydig faeth ysbrydol, trwy gymmundeŵ
â uw, wrth â fu efe yn ei gael. Bu amser,
allai, pan y gellit ddangos beth oedd yn
fod o'th weddio, gwrandaw, ac ymrydio:
nd yn awr y mae tro yn y mater. Mae nerth
y blyg' a ddwg cymmundeŵ â Duw i enaid
ewn tymmher iachus; nerth i ffydd a nerth
i hufudd rodiad. A wyt ti yn gweddio ac
gwrandaw, ac heb gael dim mwy o nerth
maflyd mewn addewid—dim mwy o rym
i erbyn dy lygredigaethau cynnefin, nac o
llyrlliad calon o'u herwydd? Pa beth!
fod i lawr o'r mynydd, a thori llechau
ddf Duw cyn gynted ag y delych o'r fan?
or ddwfn yn dy nwyd wyllt, ac anwadal
y hynt, ag o'r blaen? Yn sicr, y mae'meth
y gwres tumewnol, a ddylai, ac a wnai,
yn ei iawn dymmher, sugno rhyw faint o
eth oddi wrth y rhai hyn.

(3ydd.) Wrth dy ymddygiad yn dy or-
wylion bydol.

(1af.) Pan nad yw dy achosion bydol yn
adael mewn hwyl mor rhydd ac ysbrydol
ldychwelyd i wydd Duw â chynt. Fe allai
gallestit ti ddyfod o dy siop a'th orchwylion
luluaidd i'th ystafell, a chael yno eu bod
edi dy gadw mewn hwyl, i'e, fe allai, dy
ddi mewn gwell hwyl i'r dyledswyddau
ny. Ond yn awr, nid felly y mae; gormod
waith yw eu hysgwyd ymaith, ond y maent
y glynu wrth dy ysbryd, ac yn rhoddi sawyr
earol ar dy weddio a'th wrandaw. Y mae
i achos i alaru am hyn. Pan fyddo natur
i gwanhau, y mae y dyn yn gwargrymu;
y mae yr arwydd o ryw adfeiliad o'r fath
tot tithau, pan nas gelli, fel yr arferit,
lyrchafu dy galon oddi wrth orchwylion
earol at waith ysbrydol. Hwya fwrriadwyd
l cynnorthwy yn erbyn profedigaeth; ac
a hyny, pan fyddont yn faglau i ni, y mae
hwyl arnom. Os gwaethu wnawn ar ol
vsg, nid ydyw y corph yn iawn, am mai
tur cwsg yw dadebru. Os yw ymarfer yn
thwylto at waith, y mae yr achos yn ein
rph ni. Felly yn y mater hwn.

(2il.) Pan fyddo dy ddyfalwch yn dy alwad
illduol yn fwy hunanol. Ti a weithiaist o
sibill yn dy siop, neu a eisteddaist wrth dy
ghwyl mewn ufudd-dod i'r gorchymyn yn
enaf; nid oedd dy elw bydol yn cael ond
y bychan yn dy serch. Ond yn awr, y mae
y fasnach yn fwy i ti dy hun, ac yn llai i
duw. O! gochel hyn.

(3ydd.) Pan na elli oddef som i'th ddyben-
n anianol yn dy alwad neillduol, fel y
llit gynt. Yr wyt yn gweithio, ac yn cael
ad ychydig o'r byd: yr wyt yn pregethu,
heb gyfrif mawr o honot: ac nis gwydd-
st yn dda pa fodd i oddef y pethau hyn.
u amser pan y gellit ymlonyddu yn Nuw,

a chyflawni ynddo ef dy ddiffyg ym mhob
man arall; ond yn awr, nid wyt mor fodd-
lawn i'th ran neu i dy radd a'th gyflwr; y
mae dy galon yn ymwingo am fwy o'r rhai
hyn nag y mae Duw yn ei ganiatau i ti:
dyma brawf o adfeiliad. Y mae plant yn
anhaws i'w boddio nag ereill; ac felly hen
bobl, y rhai y mae adfeiliad eu natur yn eu
gwneud yn fwy anynad, ac mewn ystyr, yn
blant eilwaith. Can hyny, ymgais di am
adferiad i'th ras nychlyd: ac fel y tyfo y
cudyn hwn, felly y tyf dy nerth hefyd i ym-
foddloni i drefniad rhagluniaeth Duw.

PENNOD IV.

Gair o gynghor er adferiad gras o'i adfeiliad.

DEUW yn awr i roddi ychydig gyfarwydd-
iadau i'r Cristion pa fodd i adferu gras o'i
nychdod.

Ymfyn yn onest am yr achos o'th nych-
dod. Mae arfogaeth y Cristion yn gwaeth-
ygu ddwy ffordd: un yw, trwy guro trwm
arni, pan orchfyger y Cristion gan demtas-
iwn i bechod: a'r llall yw, trwy esgeuluso ei
glanhau a'i gloewi mewn arferiad o'r moddion
hyny sy fel olew i'w chadw yn lân a disglauer.
Yn awr, chwilia pa un o'r rhai hyn fu yn
achos o'th adfeiliad di. Tebygol yw fod y
ddau yn cydweithio.

1. Os gwanhawyd dy ras gan ryw ddyrn-
od a roed iddo trwy ryw bechod a wnaed
genyt, yna y mae dyledswydd deirplyg yn
aros arnat tuag at ei adferiad:—

1af. Adnewyddu dy edifeiriwch. Dyma
gynghor Crist i eglwys Ephesus: "Edifarha,
a gwna y gweithredoedd cyntaf;" *Dad.* ii.
5. Lle y mae nid yn unig yn cael ei or-
chymyn fel dyledswydd, ond ei benodi fel
moddion er ei hadferiad; fel pe byddasai,
Edifarha, fel y gallech wneud dy weithred-
oedd cyntaf. Felly, yn *Hos.* xiv. 2, y mae
yr Arglwydd yn gosod Israel wrthgiliedig
ar y gwaith hwn, gan beri iddi "gymmyrd
geiriau, a dychwelyd at yr Arglwydd;" ac
yn *adm.* 4, efe a ddywed y cymmer efe hi
mewn llaw i'w hadferu o'i phechodau;
"Meddyginiathaf eu hymchweliad hwynt."
Mae cariad edifeiriol dan addewid o iachâd.
Ac am hyny, dos Griston, a chwilia dy
galon fel y chwilit dy dŷ, pe byddai rhyw
leidr neu lofruddiwr yn llechu ynddo i dori
dy wythienau gwaed yn y nos. Ac wedi i
ti gael y pechod a wnaeth y niwed i ti, yna ym-
gais am galon lawn o gywilydd o'i herwydd,
ac o ddigter i'w erbyn; ac felly, â llonaid dy
galon o dristwch, ymdywallt ger bron yr
Arglwydd mewn cyffes calon ddrylliog. Gwell
i ti wneuthur hyn, nag i Satan wneud dy
neges at Dduw drosot.

2il. Wedi i ti adnewyddu dy edifeiriwch,
yna nac anghofia ac nac oeda adnewyddu dy

ffydd yn yr addewid am faddeuant. Edifeir-
wech, y mae hwn fel y belen lanhaol i weithio
ymaith y drygnaws; ond oni ddaw ffydd yn
fuan â'i diod adferol ganddi, ni ddaw y cre-
adur truan byth i galon ac adferiad nerth.
Gall dyn farw o orllif o dristwch yn gystal ag
o bechod. Y mae rhinwedd mewn ffydd i
fagu nerth fel y dywedant am ryw fwydydd
maethlawn; y mae hi yn ymborthi ar yr
addewid; ac y mae hono yn "berffaith, yn
troi (neu yn hytrach yn adferu) yr enaid;"
Salm xix. 7. Pe byddid dan guriad hyd at
y croen a'r asgwrn, dy nerth oll wedi ei
dreulio, etto, byddai i ffydd yn fuan dy ad-
gryfhau a galluogi pob gradd i gyflawni ei
swydd yn llon. Y mae ffydd yn sugno hedd
o'r addewid a elwir tangnefedd, gan greu:
o heddwch fe dardda llawenydd: "Wedi
ein cyfiawnhau trwy ffydd, y mae genym
heddwch tuag at Dduw;" *Rhuf.* v. 1—ac yn
adm. 2, "Yr ydym yn gorfoleddu dan obaith
gogoniant." Ac y mae eich llawenydd yn
peri nerth: "Llawenydd yr Arglwydd yw
eich nerth;" *Neh.* viii. 10.

3ydd. Attega y ddau hyn âg ymgais beu-
nyddiol am farwhau y chwantau hyny sydd
fwyaf yn maeddu dy ras. Nis gall chwyn
gynnyddu, a'r blodau hefyd. Pan na byddo
gras yn gweithredu yn rymus a rhydd, pen-
derfyna ei fod dan orthrech gan ryw chwant
gwrthwyneb sy'n llethu eu hysbrydoedd ac yn
eu gwneud yn drymaidd; yn debyg i'r modd
y mae gormod-naws yn llwytho yr ysbrydoedd
naturiol yn ein cyrph, fel na bydd i ni fawr
o gysur wrth ymsmud, a bod o ddeutu
ein gorchwylion nes ei arlloesi ymaith. Ac
am hyny, bydd ddyfal wrth y gwaith hwn.
Nid gwaith diwrnod neu ddau mewn
blwyddyn ydyw, fel *physic* yn y gwanwyn
ac ar gwmp y dail. Nid oes dim mwy ofer
na gwneud ymfirwst, fel y gwna y Pabydd-
ion ar y Grawys, neu rai proffeswyr disyl-
wedd yn ein mysg ein hunain, y rhai a ym-
gynhyrfant o flaen y dydd sacrament neu
ympryd gyda sel fawr ei thrwst, ac yna
gadael i'r chwantau hyny fyw mewn hedd-
wech o'u mewn yr holl flwyddyn ar ol hyn.
Na: chwareu plant yw hwn; gwneud a dad-
wneud: rhaid yw i ti farweiddio dy chwantau
beunydd trwy yr Ysbryd: *Rhuf.* viii. 13.
Dilyn ond y gwaith hwn yn gydwybyddol
yn dy yrfa Gristionogol, gan ei gymmeryd
yn llafur—mor gyfannedd ag yr â y llafurwr
bob dydd i weithio yn y maes lle y mae ei
orchwyl—i wyllo dy galon ac arfer pob
moddion i gael allan dy bechod. A phan
ganfyddech hwn, bydd ymostyngar o'i blegid,
ac yn dyfal-gymmynu ar ei wraidd a'r fwy-
ell o farwâd; yna, ti gei weled, trwy fen-
dith Duw, y fath gyfnewid er gwel a fydd
yn ansawdd dy ras. Tydi, yr hwn wyt yn
awr mor druan, mor welw-wan, nes bod ar-
nat ofn hir edrych ar dy wyneb dy hun yn
nrych dy gydwybod dy hun; tydi, meddaf,

a gei adfyfrio gyda llonder yn ac ar dy gyd
wybod dy hun, a beiddio ymddiddan â th
dy hun, heb y blin-ruthrau hyny o ddychryu
ac ofn a fyddai o'r blaen yn dy frawychu
Dy ras, er na chaff fod yn orfoledd i ti, etto
caiff fod i ti yn dystiolaeth dros Grist, yn
yr hwn y mae; ac efe a'th arwain gyda
hyder i hōni hawl ynddo; pryd y bydd y
Cristion esgeulus—y byddo ei ras wedi
orchuddio gan chwantau o ddiffyg y chwyn
ogel hon—yn sefyll mewn crynfa wrth y
drws, gan amheuu a yw ei ras yn gywir a
nid yw; ac felly mewn amheuaeth am e
groesaw.

2. Fe allai dy fod yn cael, wrth chwilio
fod dy arfogaeth yn gwaethgu gan eisieu
glanhâd, yn hytrach na thrwy yn dymod
gan bechod a wnaethost yn rhyfygus. Fe
hyn y mae yn fwyaf cyffredin: rhwd a anaf-
yn fuan yr arfogaeth oreu; ac y mae esgeul
usdra yn wenwyn iras gystal a phechodau an-
ferth. Yn yr achos hwn ymrodda i arfer y
moddion hyny a appwyntiodd Duw er cryf
hâd i'th ras. Os bydd y tân yn darfog trwy
dynu ymaith y coed, pa foddion sydd i'w
gadw ond eu gosod arno drachefn?

1af. Mi a'th anfonaf at air Duw: cyfeill
acha yn fwy mynych âg ef. Y mae Dafydd
yn mynegi i ni pa le y cafodd efe adnewydd-
iad bywyd ysbrydol, a'i enaid mor fynych-
wres nefolaidd, pan fyddai gras yn dechreu
oeri ynddo: "Y gair," medd efe, "a'i byw
haodd. Hwn oedd y bryn heulog yr eis
teddai dano. Y gair a dyn allan ras y Crist-
ion, trwy arhegu pob gras â gwrthdrysol
addas iddo weithredu arno. Y mae hyn
rym mawr at eu cynhyrfu; fel y pair dy
fodiad cyfaill i ni, er yn gysglyd o'r blaen
ymysgwyd o'n syrthni i fwynhau ei gym-
deithas ef. Serchiadau, hwy a ymgynhyrf-
ant pan fyddo eu gwrthdrysol o'u blaenau
Os hoff fydd genym ryw un, cynhyrfir hy-
trwy yr olwg arno; os cas, ein gwaed
gyfyd yn llawer mwy yn ei erbyn pan fydd
yn ein golwg. Yn awr, y gair a dddwg ras
usau y Cristion a'u gwrthdrysolau at e
gilydd. Yma y gall cariad ymddifyru y
edrych ar Grist, yr hwn yno a osodir allan
i'r byw yn y cwbl o'i gariad a'i hawddgar-
wech: yma y gall y Cristion weled ei bech-
odau mewn drych na weniethia iddo. A
a ddichon fod dim tristwch duwiel yn
galon, dim casineb at bechod, ac heb ddyfo
i'r golwg, tra y mae y dyn yn darllen yr hŷ
a gostiodd i Grist ei dalu drosto ef.

2il. Oddi wrth y gair, dos at fyfyrddo:
mae hwn fel megin i'r tân. Y gras sydd y
gorwedd dan fygiad a difaad gan ddiffy
ymarferiad a lauheir drwy hyn ac a dŷ
allan. Tra y byddych yn myfrio, fe enny
y tân hwn, a'th galon a wresoga o'th fewn
yn ol natur y testyn y byddo dy feddylia
arno. Ymrodda, gan hyny, Gristion, i ar
gau peth amser rhag pob ymgeisiwr bydo.

n yr hwn y gallech beunydd, os yw bosibl,
 leiaf droi golwg ar y dygwyddiadau hyn-
 af rhwng Duw a thithau. Yn gyntaf,
 gofyn i'rh enaid pa beth a dderbyniodd yn y
 wrnod, pa drugareddau a anfonodd y nef
 i'rh law: ac na fydded i ti ar ol gofyn y
 westiwn fyned allan fel Pilat, ond aros nes
 gwnelo dy enaid adroddiad o ymdriniad
 rasol Duw â thi. Ac os byddi ddoeth i
 l'wri, a ffyddlawn i adrodd hyn, y mae yn
 i'rh enaid i dy gydwybod wirio wrthyt na attal-
 wydd y ffrwd, ac na chauwyd bron
 drugaredd i fyny ar hyd y dydd. Iê, tra yr
 ystyt yn golygu y drugareddau newydd hyn,
 na cyfrif yr arian newydd yma yn gynnes
 llan o fathdy haelioni Duw, daw hen dru-
 areddau yn llu arnat, gan alw am le yn dy
 ddyliau; a hwy a fynegant beth a wnaeth
 Duw erot fisoedd a blyneddoedd o'r blaen.
 Ac yn wir, ni ddylai hen ddyledion gael eu
 i'rh enaid yn olaf. Dyro di, Gristion, wrandaw-
 r i'rh rhai hyn oll ar ryw dro neu gilydd;
 a thi a gei weled y modd y gweithiant ar dy
 sbryd gonest. Y mae ar y Cristion yn yr
 chos hyn megys ar was i ryw farsiaidwr
 fyddo yn cadw arian ei feistr: dywed hwn
 wrth ei feistr fod yn ei law swm mawr o
 arian, ac fe ddeisyf arno edrych dros ei gyf-
 fon a'i ryddhau o'i faich; ond y mae o hyd
 heb allu ei gael mewn seibiant i hyn. Mae
 ysor mawr o drugaredd bob amser yn nwy-
 law y Cristion; ac y mae cydwybod yn
 anfynd alw arno i edrych dros y cyfrif, ac
 i'rh enaid pa beth a wnaeth Duw iddo: ond an-
 fynd y gall efe gael amser i fyned dros y
 cyfrif o'i drugareddau. Ac a ydyw yn
 dyfedd fod y fath rai yn myned yn ol llaw
 na euhystâd ysbrydol, sy heb gymmeryd sylw
 ar ymdriniathau graslawn Duw â hwynt?
 Pa fodd y gall efe fod yn ddiolchgar nad yw
 ni meddwl ond yn anfynd am yr hyn y
 mae yn ei dderbyn? neu yn amyneddgar
 an gystuddio Duw ef, tra y mae yn fyr o
 na o'r dadleuon cryfaf at lonyddu ysbryd
 erfysgus mewn tralod, yr hwn a gymmerir
 ddi wrth y da helaethlawn a dderbyniwn
 ddi ar law yr Arglwydd, gystal ag ychydig
 drwg? Pa fodd yr ennyna cariad yr enaid
 yn aw at Dduw a gadwr yn y fath bellder
 ddi wrth drugareddau Duw sydd yn dan-
 wydd iddo? A'r un modd y gellir dywedyd
 ni yr holl rasusau ereill. Yn ail, Bwrw
 lwg arnat dy hun, a threulia rai meddyliau
 wys ar dy ymddygiad dy hun, pa fath a fu
 uag at Dduw a dyn ar hyd y dydd. Gofyn
 i'rh enaid, fel Eliseus i'w was, O ba le y
 aethost ti, O fy enaid? Pa le y buost?
 Pa beth a wnaethost ti dros Dduw heddyw,
 pha fodd? A phan elych o ddeutu hyn,
 wylia rhag cael dy dynu oddi wrth chwil-
 ad trwyadi, fel y tynwyd Laban trwy esgus
 eg-rithiol Rachel; a rhag dy gael yn llochi
 y hun, fel Eli ei blant, pan gaffech dy
 alon, wrth ei chwilio, yn anhydyn at un

ddyledswydd, Edrych pa beth a wnelych;
 o blegid dros Dduw yr wyt yn barnu, yr hwn
 sydd yn cael y cam trwy dy bechod di, ac
 yn ganlynol a wna iawnder iddo ei hun, os
 na wnei di.

3ydd. O fyfyrdod dos i weddi. Yn wir,
 y mae enaid mewn myfyrdod ar ei ffordd i
 weddi. Y ddyledswydd hono a dywys y
 Cristion i hon; ac fe rydd hon help i hono.
 Wedi i'r Cristion wneud ei oreu trwy fy-
 fyrdod at gynnhyrfu ei rasusau a rhwbio ei
 ysbryd i beth gwres duwiol, efe w'yr nad yw
 hyn oll wedi y cwbl ond yn gosod y
 coed mewn trefn. Rhaid i'r tân ddyfod
 oddi uchod i ennynu; ac y mae yn rhaid
 cyrchu hwn trwy weddi. Hwy a ddywed-
 ant fod gan ser eu heffeithiau cryfaf pan
 fyddont mewn cyssylltiad â'r haul; yna, yn
 sicr nid oes i rasusau y Cristion un amser
 weithio yn fwy grymus nag mewn gweddi;
 canys dyna y pryd y mae efe yn y cyssyllt-
 iad a'r cymmundeb agosaf â Duw. Rhaid
 yw i'r ordinhâd hono y mae ganddi y fath
 allu gyda Duw, fod âg effaith gref ganddi
 arnom ninnau. Niadaw hi lonydd i Dduw:
 ond hi a'i cyfyd er cymbborth i'w bobl: ac
 a ydyw yn rhyfedd os bydd hi yn foddion i
 gyffroi a chynnhyrfu gras y Cristion? Pa
 mor fynych y gwelwn ni gwmmwl tywyll ar
 ysbryd Dafydd yn nechreu ei weddi, yr hwn,
 pan gynhesai efe yn ei waith sydd yn de-
 chreu chwalu, ac yntau cyn y diwedd yn tori
 allan mewn cryf weithrediad fydd a dad-
 ganiad mawl? Eithr yma, Gristion, gwylia
 rhag gweddi yn ffurfiol: y mae hyn mor
 wenwynig i ras a bod heb weddi. Dichon
 plastr, er ei fod yn addas ac o fawr rinwedd,
 wneud mwy o ddrwg nag o les os gosodir ef
 yn oer ar y dolur.

4ydd. At hyn oll, ymgysyllta mewn cym-
 munde b'â'r saint yr wyt yn byw yn eu mysg.
 Nid rhyfedd yw clywed ddarfod ysbeilio tŷ
 sydd yn sefyll ymhell oddi wrth gymmydog-
 ion. Yr hwn sydd yn rhodio yng nghym-
 munde b'â'r saint, y mae yn ymdaith mewn
 cymdeithas; y mae yn byw mewn dinas lle
 y mae yn tŷ yn cadw y llall i fyny, i'r hyn
 y cyffelybir Ierusalem. Y mae yn deilwng
 o sylw am y tŷ, yn adfail yr hwn y cladd-
 wyd plant Iob, mai gwynt a ddaeth o'r an-
 ialwch ac a darawodd ei bedair cong!; y
 mae yn debyg ei fod ar ei ben ei hun. Fe
 w'yr Satan pa beth y mae yn ei wneud wrth
 rwystro yr ordinhâd fawr o gymmunde b'â'r
 saint: trwy hyn y mae yn attal cynnydd
 gras; i'e, yn dwyn yr hyn a fedd Cristion-
 ogion i ystâd o nychedd a methiant. Mae
 yr apostol yn cydglymuy ddwy ddyledswydd
 hyn, "dal cyffes ein gobaith, gan gydystyr-
 ied bawb ein gilydd, ac ymagnog i gariad a
 gweithredoedd da;" *Heb. x. 23, 24.* Yn wir,
 cam enbydus at lwyr wrthgiliad yw gadael
 cymmundeb y saint. Oddi yma y dywedir
 am Demas, "efe a'n gadawodd, gan garu y

byd drwg presennol." O! y fath niwed a wnaeth Satan i ni yn yr ychydig flyneddoedd diweddar yu y peth neillduol hwn! Pa beth a ddaeth o gymmundebyd y saint? Pa le y mae dau neu dri i'w cael a allant gytuno i rodio ynghyd? Rhai a allent gynt gyd-ddioddef, ni allant yn awr gydeistedd wrth fwrdd eu Tad; a phrin y gallant weddio gyda a thros eu gilydd: y mae anadl y naill Gristion yn ddiethr i'r llall, a fu unwaith yn ei fywres. Galarnad yw hyn, a galarnad a fydd.

PENNOD V.

"Fel y galloch wrthsefyll yn y dydd drwg; ac wedi gorphen pob peth, sefyll."

Agoryd y geiriau, a pha beth a feddylir wrth y dydd drwg.

Yr ydym yn dyfod at y rheswm sy gan yr apostol yn gefn i'r annogaeth; ac y mae hwn yn ddyblyg.

Y mae'r cyntaf yn golygu amser y frwydr, "Fel y galloch wrthsefyll yn y dydd drwg."

Yr ail yn golygu diwedd dedwydd y rhyfel, a goron a Cristion a arfogir fel hyn; a hyn yw buddugoliaeth sier: "Ac wedi gorphen pob peth, sefyll."

1. "Fel y galloch wrthsefyll yn y dydd drwg." Ond pa beth yw y dydd drwg hwn? Barna rhai fod y dydd drwg hwn yn cynnwys holl fywyd y Cristion yma isod, yng nglyn wylofaen; ac yna y rheswm a red fel hyn: cymmerwch atoch holl arfogiaeth Duw, fel y galloch barhau hyd ddiwedd eich bywyd; yr hyn a gewch (fel pe byddai) yn un dydd parhaus o flinder a phrawf. Fel hyn y tynodd Iacob linell ddu dros ei holl fywyd: "Ychydig a drwg a fu dyddiau fy einioes;" *Gen. xlvii. 9.* Pa ddiwrnod mor deg a disglair, nad yw yn cynylu cyn y nos? Ie, nad yw y Cristion yn cael ynddo ryw gawod neu gilydd ddigon i haeddu yr enw o ddydd drwg? Y mae i bob dydd ei ran, ie, ei gyfran bennodol: "digon i'r diwrnod ei ddrwg ei hun." Nid yw raid i ni fenthycu a chodi gofidiau ar gyfrif tranoeth, i orphen ein llwyth presennol. Megys y darllenwn am fara beunyddiol, felly am groes beunydd (*Luc ix. 23*), gyda gorchymyn i ni ei chodi, nid ei gwneud; nid oes achos i ni wneud croesau i ni ein hunain, fel y mae tuedd ynom; eithr Duw yn ei ragluniaeth a ddarpar un i ni; a gorchymynir i ni ei chodi; ond nid ydym yn clywed am ei dodi i lawr hyd oni orweddo ein croes a ninnau i lawr ynghyd. Y mae ein blinderau a'n bywydau i gydoesi, byw a marw gyda'n gilydd. Yma, pan ddell llawenydd, y mae tristwch wrth ei sawdl; cerydd a chynnal-iaeth yn cydfyned. Yr oedd Satan yn genfigenllyd wrth hawddfyd Iob, ac yn gosod

allan ei wychder a'i rwyg (*Iob. i. 10*), fel pe na buasai i'w haul un ymguddiad: ond gwrandewch chwiri pa beth a ddywed y gwr da hwn am ei amser mwyaf blodeuog: "Ni chefais na llongydd nac esmwythdra, ac ni orphwysais;" *Iob. iii. 26.* Yr oedd rhyw flinderau yn tori ar ei lonyddwch, pan oedd ei wely, dybygaid, mor esmwyth ag y gallai calon ddymunio. Hyd yn oed yn awr y mae y gwr hwn yn troi ac yn treiglo, o'r naill ochr i'r llall, ac nid yw yn llongydd. Pe daethai un at Iob, dan ganmawl ei gyflwr dedwydd, a dywedyd, "Yn sier Iob, ti ellist fod yn foddolawn ar y rhan sy genyt, pe gellist gael hyn oll wedi ei sefydlu i ti a'th etifeddi- on ar dy ol," efe a attebasai, fel Luther un tro, "Na throai Duw mo hono ymaith gyda y rhai hyn." Y cyfryw yw cyflwr y saint yn yr isel fyd hwn, fel y mae hyd yn oed eu bywyd yma, a holl fwyntiant gwyachaf eu hoes yn groes iddynt, am eu bod yn eu cadw hwynt oddi wrth eu coron. Nid rhaid i ni wrth ddim i wneud ein hoes yn ddydd drwg, yn fwy na'n habsennoldeb oddi wrth eindaioni penaf; yr hwn ni ddichon gael ei dalu yn ol gan y byd, na'i fwyuhau gydag ef. Yn unig, y mae hyn o dda yn y drwg hwn, ei fod yn fyr: nid yw ein hoes ond *dydd drwg*; ni phery yn hir. Ac yn ddiâu, trugaredd oedd ddarfod i Dduw gwtogi cymmaint ar ystod bywyd dyn, yn y dyddiau diweddar hyn, pryd y mae cymmaint o Grist, ac o'r nef, wedi eu dadguddio. Buasai yn tasgu ar amynedd y saint, ar ol clywed cymmaint o honogiant y byd uchod, gael eu cadw cyhyd o hono ag y cafodd y tadau yn y cynoesoedd. O, Gristionogion! diddenwch eich gilydd â hyn; er fod eich bywyd yn ddrwg gan drallodau, etto y mae yn fyr. Ychydig gam- rau, ac yr ydych allan o'r gwlaw. Y mae gwahaniaeth mawr rhwng y duwiol, o ran y drygau a'u cyfarfyddant, a'r annuwiol: fel dau ymdeithydd yn marchogaeth gwrth- wyneb ffordd, y ddau wedi eu dal gan wlaw a gwlych, ond un yn marchogaeth o'r gwlaw, ac yu fuan allan o'r gawod; tra y mae'r llall yn myned ym mlaen i'r gongl wlawog; pa bellaf yr elo, gwaethaf oll iddo. Y mae'r duwiol yn cyfarfod â blinderau gystal a'r annuwiol; ond y mae ef yn fuan allan o'r gawod: pan ddaw angeu, y mae iddo ef dywydd teg. Eithr yr annuwiol, pa bellaf yr elo, gwaethaf oll: nid yw yr hyn a'i cyferfydd yma ond ychydig ddefny- ynau; yn olaf y mae'r ystorn fawr. Yn uffern y bydd y tywalltiad o ddigofaint Duw, lle yr agorir holl ddyfnderau dychry- oddi uchod gan ddiglonedd cyfiann Duw. ac oddi isod hefyd gan eu cydwybodau cyhuddol a phoenyddiol eu hunain.

2. Ereill a gymmerant yr ymadrodd mewr ystyr gyfyngach, i nodi y prydiau neillduo hyny o'n bywyd, ym mha rai yn fwy enwedigol y cyfarfyddwn â chystuddiau:

blinderau. Y mae Beza yn ei ddarllen, " yn amser ein hadfyd." Er fod ein bywyd oll yn ddrwg, o'i gymharu âg ystâd wynfydedig y nef—ein dydd goleuaf yn nos wrth y boreu gogoneddus hwnw, etto, i ni gymharu un rhan o'n bywyd â'r llall, gellir galw y naill yn dda a'r llall yn ddrwg:—y mae i ni ein cyfnewidiadau yma. Rhagluniaethau Duw tuag at ei saint, tra yn isel fyd y ddaear hon, ydynt yn gymmysgedig a brithion, megys yr arwyddwyd wrth y meirch brithion yng ngweledigaethau Zechariah: *Zech. i. 8.*

Y mae coch a gwyn, heddwch a rhyfel, cysur a gofid, yn britho ein dyddiau. Canolfan yw y ddaear rhwng y nefoedd ac uffern; felly ein cyflwr yma; ac y mae yn cyfranogi o'r ddau: ni a gawn allt a goriwaered nes y delom i ben ein taith; ie, ni a gawn y nant dlynaf yn agosaf i dŷ ein Tad (angeu yr wyf yn ei feiddwl), i ba un y disgyn holl flinderau ereill ein bywyd, megys ffrydiau i ryw afon fawr; ac yn hon y diweddant, ac y llyngair hwy oll i fyny. Y drwg cynnwysfawr hwn, mi dybygwn, a olygir yma, wedi ei hynodi drwy fannod ddyblyg yn y Groeg yn y dydd hwnw, " y drwg hwnw;" nid i gau allan y dyddiau ereill o drallod a fyddo yn cyfryngu. Nid yw y rhai hyn ond cynnifer o farwolaethau bychain, pob un yn cipio ymaith ddarn o'n bywydau; neu megys cenhadau anfonedig o'r blaen, i arwain i mewn y brenin dychryniadau hwn sy'n dyfod ar ol.

Wedi agor yr ymadrodd, ystyriwn rym y rheswm cyntaf hwn, sydd yn gefn i annogaeth yr apostol am gymmeryd holl arfogaeth Duw: ac y mae hyny yn gynnwysedig mewn tri amgylechiad pwysig.

1af. Natur a naws y dydd hwn o drallod: Y mae'n dydd drwg.

2ail. Mor anocheladwy yw y dydd hwn o drallod; gwir a arwyddir yn yr ymadrodd, " Fel y galloch wrthsefyll yn y dydd drwg." Y mae yn cau allan bob gobaith am ddiange: fel pe dywedasai, Nid oes i chi un ffordd ond gwrthsefyll; na foddwch eich hunain â meddyliau am ochel brwydr; rhaid i'r dydd drwg ddyfod, byddwch chiw arfog neu anarfog.

3ydd. Yr angenheidrwydd o'r arfogaeth hon i wrthsefyll; fel nad oes fodd i ni ddiange rhag y dydd drwg, na chwaith sefyll o'i flaen a gwrthsefyll y grym fyddo ar waith i'n herbyn, oddi eithr ein gwiso âg arfogaeth. Y mae amryw byngciau a ddeilliant o hyn; ond i fod yn fyr, ni a'u gosodwn ynghyd mewn un casgliad.

PENNOD IV.

Yn dangos fod dydd trallod yn ddrwg, ac ym mha olygiadau; hefyd, ei fod yn anocheladwy, a pha ham y dylid paratoi i'w erbyn.

Athr. Y mae yn gweddu i bob un ymarf-

ogi ac ymbarotoi erbyn y dydd drwg o drallod a marwolaeth, yr hwn y mae iddo yn anocheladwy ymladd âg ef. Y mae i'r pwngc dair cainge:—

1. Y mae dydd trallod ac angeu yn ddydd drwg.

2. Y mae y dydd drwg hwn yn anocheladwy.

3. Y mae yn gweddu i bob un ddarparu erbyn y dydd drwg hwn.

1. Am y gainge gyntaf: y mae dydd trallod—angeu yn enwedig—yn ddydd drwg. Yma, y mae i ni ddangos pa fodd y mae trallod yn ddrwg, a pha fodd nad yw.

1af. Nid ydyw yn ddrwg moesol neu hanfodol. Pe byddai yn ddrwg yn yr ystyr hwn, Yn gyntaf, Nis gallai Duw fod yn awdwr o hono: y mae ei natur ef mor bur, fel nas dichon dim drwg o'r fath ddyfod oddi wrtho, ddim mwy nag y dichon goleuni yr haul wneuthur nos. Ond am y drwg hwn o drallod, y mae efe yn gwirio mai ei waith ei hun ydyw: " Yn erbyn y teulu hwn y dychymygais ddrwg;" *Micah iii. 2.* Ië, yn chwaneu, y mae yn ei briodoli felly iddo ei hun, fel na fyn efe i ni dybied y gall neb wneuthur i ni ddrwg heb law efe ei hun. Y rhagorfaint y mae yn ymogoneddu ynddi yw, nad oes drwg yn y ddiinas heb iddo ef ei wneuthur (*Amos iii. 6*). A da yw i'r saint fod eu croesau oll wedi eu gwneud yn y nef; pe amgen, ni byddent wedi eu gwneud mor gymmhws i'w cefnau ag y maent. Ond am y drwg o bechod, y mae efe yn ei wadu gyda gorchymyn llym, na osodom y cyw hwn—a fegir gan Satan yn ein calonau ammhur—wrth ei ddrws ef: " Na ddywedeb neb, pan dentier ef, gan Dduw y'm temtir; caus Duw nis gellir ei dentio â drygau, ac nid yw efe yn temtio neb;" *Iago i. 13.*

2il. Pe byddai trallod neu gystudd yn ddrwg ynddo ei hun, nis gallai mewn unrhyw olygiad fod yn wrthddrych ein dynuniadau, fel y mae ac y gall weithiau fod. Y mae i ni ddewis trallod o flaen pechod; ie, y trallod mwyaf o flaen y pechod lleiaf. Dewisodd Moses adfyd gyda phobl Dduw yn hytrach na mwyniant pechod dros amser.

Gorchymynir i ni lawenhau pan syrthiom i amryw brofedigaethau, hyny yw, trallodau.

Cwest. Ym mha olygiadau ynte y gellir galw dydd trallod yn ddrwg?

At. 1af. Fel y mae yn ofidus i'r teimlad. Y mae drwg yn fynych, yn yr Ysgrythyr, yn myned fel gwrthdndodiad i lawenydd a chysur: " Disgwyl yr oeddem am heddwch, etto, ni ddaeth daioni;" *Ier. viii. 15.* Gelwir calon lawen yn galon dda, ysbryd athrist yn ysbryd drwg, am fod gan natur wrthwynebiad i bob peth a wrthwyneba ei llonder hi; a hyn a wna pob trallod yn fwy neu yn llai. " Nid oes un cerydd dros yr amser presennol yn hyfryd, eithr yn anhyfryd;" *Heb. xii. 11.* Y mae ganddo, fel moddion meddyg, flas

anfodddhaol i'r archwaeth. Am hyn y mae Solomon, wrth son am ddyddiau drwg afiechyd, yn dadgan eu hanflas i natur, pan y dywed, "Nid oes i mi ddim diddanwch yuddynt." hwy a ddygant ymaith lawenydd ein bywyd. Y mae llawenydd naturiol yn wir flodeuyn yr haul o lwyddiant, yn agor ac yn cau i'w gamlyn. Gwir yw, yn ddiâu, nad yw y saint yn amser yn cael mwy o lawenydd nag yn eu cystudd: ond ar gyfiif arall y daw hwn i mewn. Y mae ganddynt Dduw da sydd yn ei ddanfon; pe amgen, byddai mor drwm arnynt hwy ag ereill. Nid yw yn fwy naturiol i gysur darddu o gystuddiau, nag i rawnwini dyfu ar ddrain, neu fauna yn yr anialwch. Gallasai Israel edrych yn ddigonhir am y fath fara, pe na busasai i'r nef ei wlawio yn wyrthiol. Dewisodd Duw y pryd hwn beri i hollalluogrwydd ei gariad fod yn fwy amlwg: megys y darfu i Elias (i chwaneu at y wyrth) beri yn gyn-taf i lawer o ddwfr gael ei dywallt ar y coed a'r aberth, gymmaint ag a lanwai y ffos, ac yna dwyn tân o'r nef, trwy ei weddi, i'w leibio i fyny. Fel hyn y mae Duw yn tywallt ffrwd o gystudd ar ei blant, ac yna yn enwyn y tân o orfoledd tumewnol yn eu mynweau, yr hwn a leibia eu holl dristwch hwynt: ie, y mae yn peri hyd yn oed i'r dyfroedd o gystudd y maent yn nosio arnynt chwaneu at beroriaeth hyfryd eu llawenydd ysbrydol. Ond er hyn oll, Duw yw yr hwn sydd dda, a thrallodau ydynt ddrwg.

21. Y mae dydd trallod yn ddydd drwg, fel y mae yn gofiadur digroesaw o'r drygau pechadurus a wnaed yn ein bywydau ni. Y mae yn adfywio y coffa am hen bechodau; y rhai, ysgatfydd, a gladdesid ym medd anghof er ys llawer blwyddyn. Nod trallod yw amser pan y mae'r cyfryw ysbrydion yn rhodio yng nghydwylwch dynion; ac fel y mae tywyllwch yn chwaneu at arswyd unrhyw wrthdrych a fyddo yn arswydus, felly y mae cyflwr trallodus (sydd ei hun yn anhyfryd) yn chwaneu at ddychryn ein pechodau a gofr y pryd hyn. Erioed ni edrychodd pechodau meibion Iacob arnynt mor gethin a phan y tarawodd i'w hwynebau yn eu cyfyngder: *Gen. xlii. 21.* Yna y mae gan y pechadur fwy o iawn amgyffred am ddigofaint na phryd arall. Y mae trallod yn dwyn barn yn agos; ie, fe'i deonglir gan y dyn, fel yn genad anfonedig, i'w alw ef yn ebrwydd ger bron Duw: ac am hyn, y mae yn rhaid iddo fagu terfysg a braw alaethus yn ei ysbryd. Ô! na feddyliai dynion am hyn, pa fodd y gallant oddef yr olwg ar eu pechodau, ac megys pregeth i gyhoeddi eu holl ffyrdd yn y dydd hwnw! Dyna y dyn gwynfydedig yn wir, a allo, gyda'r prophwyd, edrych a gorfoleddu arnynt y pryd hyn. Y mae hon yn ddammeg yn wir, fel y mae yn ei galw; ond ychydig sy'n gyfarwydd arni: "Fy nammeg a ddadguddiaf gyda'r

delyn. Pa ham yr ofnai yn amser adfyd, pan y'm haungylchyno anwiredd fy sodlau?" *Salm xlix. 5.*

3ydd. Y mae dydd trallod yn amlygu fod llawer o ddrwg yn y galon nad oedd i'w weled o'r blaen. Y mae cystudd yn ysgwyd ac yn treiglo y creadur: os bydd gwaddod yn y gwaelod, fe ymddengys y pryd hyn. Weithiau, fe ddengys fod y galon yn hollol ddrwg, pan y tybygid o'r blaen fod ynddi beth daioni: y mae y trochion hyn yn golchi ymaith ddwblwly rhagrithiwr. Pan wasger ar natur lygredig, hi a'i dengys ei hun: ac fe wna rhai trallodau hyn hyd adref. Ni a ddarllenwn am rai a rwystrir pan ddelf erlid-igaeth: y maent yn syrthio allan yn gwbl â'u profies, am ei bod yn eu rhoddi i gym-maint traul a blinder; ac y mae ereill, yn eu cyfyngder, a feildigant eu Duw: *Esau. viii. 21.* Y mae yn amhosibl i galon ddrygionus feddwl yn dda am Dduw yn cystuddio. Y gwas cyflog, os cymmer ei feistr afael mewn ffôn i'w guro, a deif ei waith o'i law, ac a red ymaith; ac felly y gwna y galon ffals â Duw. Iê, ac hyd yn oed lle y mae y dyn yn rasol, fe geir yn fynych fod llygredd yn gryfach a gras yn wanaeth nag y meddyl-iodd eu bod. Pedr, yr hwn ar y cyntaf a gychwynodd mor wrol i rodio ar y môr, y mae, ar godiad awel o wynt, yn dechreu suddo. Ar hyn, y mae yn gwled fod mwy o anghrediniaeth yn ei galon nag a dybiodd efe o'r blaen. Y mae cystuddiau llym i'r enaid, megys curwlaw i'r tŷ: nid ydym yn gwybod fod y fath agenau yn y tŷ hyd nes y gwelom y diferion yma a thraw. Felly, nid ydym yn dirnad mor gryf yw y llygredd hwn, nac mor wan yw y gras acw, nes ein chwilio yn y modd hwn, a'n gwneud yn fwy gwybyddus o'r hyn sydd yn ein calonau drwy y fath broffion. Dyna yr achos pa ham nad oes gan neb y fath feddyliau isel am danynt eu hunain, a'r fath feddyliau tosturiol a goddefgar tuag at ereill yn eu gwendidau, ag sy gan y rhai mwyaf cydnabyddus â chystuddiau: y maent hwy yn cyfarfod â'r fath wrthdroion aml yn eu hymdrechion ag sydd yn peri iddynt forio â hwy isel, mewn golygiad ar eu gras eu hunain, ac ystyriaeth dyner at eu brodyr, yn fwy parod i dosturio wrthynt nag i'w curo yn eu gwendidau.

4ydd. Dyna yr amser pryd y mae yr un drwg, Satan, yn dyfod i dentio. Yr hwn a gawn yn amser gorthrymder yn *Mat. xiii. 21*, ni a'i cawn yn yr un ddammeg (*Luc viii. 13*) yn "amser profedigaeth." Yn wir, y maent yn cydgyfarfod: anfynych y mae Duw yn ein cystuddio, heb i Satan chwaneu profedigaeth at ein dryswch arall. "Hon yw eich awr chwi," medd Crist, "a gallu y tywyllwch;" *Luc xxii. 53.* Yr oedd dioddefaint Crist gan ddynd, a'i dentiad gan ddiadol, yn dyfod ynghyd. Esau, wedi casau

ei frawd o herwydd y fendith, a ddywedodd yn ei galon, "Nesau y mae dyddiau galar fy nhad; yna lladdaf Iacob fy mrawd;" *Gen.* xxvii. 41. Amerau cystudd yw y dyddiau galar: y rhai hyn y mae Satan yn eu disgwyl, i wneud i ni niwed ynddynt.

5ed. Y mae i ddydd trallod, yn fynych, ddiweddiad a chanlyniad drwg; ac yn y golygiad hwn, y mae yn ddydd drwg yn wir. Mae pob peth yn dda, meddwn, a ddiweddo yn dda. Y mae effaith cystuddiau ar y Cristion yn dda. Y mae y wialen sydd yn ceryddu y rhai hyn yn dwyn heddychol ffrwyth cyfiawnder; ac am hyn, hwy a allant alw eu blinderau yn dda. Offeryn da yw hwnw sy'n gollwng y gwaed drwg yn unig. "Da yw i mi fy nghystuddio," medd Dafydd. Mi a ddarllenais am wraig dduwiol, a fyddai yn arfer cyffelybu ei chystuddiau i'w phlant: yr oedd y naill a'r llall yn peri iddi ofid trwm wrth eu dwyn. Etto, megys na wyddai hi pa un o'i phlant a allai hi fod hebdo, er yr holl ofid wrth esgor; felly, ni wyddai hi chwaith pa un o'i chystuddiau a allai ei hebegor, er y boen a barent iddi wrth eu didoddef. Ond i'r annuwiol y mae y canlyniad yn alaethus. Yn gyntaf, Mewn golygiad ar bechod. Y maent yn eu gadael yn waeth, yn fwy anedifeiriol a chaled mewn pechod; i'e, yn erchyllach yn eu harferion drygionus. Yr oedd pob pla ar yr Aipht yn chwanegu at y pla o galedwch ar galon Pharaoh. Y mae efe, a allai ar dro ddeisyf gweddiau Moses drosto ei hun, yn myned o'r diwedd mor galed nes y mae'n bygwth ei ladd ef, os deuai i'w wydd mwyach. O! y fath uchder aruthrol y gwelwn rai yn tyfu iddo mewn pechod, ar ol rhyw glefyd trwm, neu farn arall! Nid mwy yw tyfiad plant yn eu maintioli corphorol ar ol gwasgfa o'r cryd, na'u tyfiad hwy yn eu chwantau ar ol cystuddiau. O! mor wancus a rheibus ydynt i'w hysglyfaeth, pan unwaith y caffont ryddid o'u cloffrwym a'u cadwyn! Pan na byddo physigwriaeth yn gweithredu er lles, y mae nid yn unig yn gadael y clefyd heb iachad, ond ers y ddrwg effaith ei hun yn y corph hefyd. Y mae llawer i'w gweled, fel hyn, wedi eu gwenwyno gan eu cystuddiau, wrth doriad allan eu chwantau ar ol hyny. Yn ail, Mewn golygiad ar ofid. Y mae pob gofid ar ddyn drwg yn magu un arall, a gwaeth nag ef ei hun. Y cŷn mwyaf sy'n dyfod yn olaf, yr hwn a'i hollta ef yn gymhwys i'r tân. Fe chwipir y pechadur o drallod i drallod, fel y crwydryn o swyddog i swyddog, nes y delo o'r diwedd i uffern—ei drigfan priodol a chartrefol—lle y cyferfydd pob trallod yn un sydd yn annerfynol.

2. Y mae y dydd drwg hwn yn anocheladwy. Gystal ag y gallwn attal cerbyd yr haul pan y mae yn brycio at y nos, neu ymlid ymaith gysgodau yr hwyr, y medrwn ochel

yr awr hon o dywyllwch, sy'n brycio arnom oll. "Nid oes un dyn yn arglwyddiaethu ar yr ysbryd; ac nid oes ganddo allu yn nydd marwolaeth; ac nid oes bwrw arfau yn y rhyfel hwnw;" *Preg.* viii. 8. Ym mys g dynion, er dirgymhelliad i ryfel, y mae yn bosibl i ddyn gael rhyddhad, trwy ddadleu braint oedran, cyfoeth, gwendid corph, nawdd-fraint gan y brenin, a'r cyffelyb; neu, os metha y rhai hyn oll, fe allai y bydd anfon un arall yn ein lle, neu roddi gwobr mewnllaw, yn gwneud y tro. Ond yn yrhyfel hwn, mae y dirgymhelliad mor llym, nad oes un esgus. Mynasai Dafydd fyned yn lle ei fab:—nia'i clywn yn llefain, "O na buaswn farw drosot ti, Absalom, fy mab, fy mab!" Ond ni chymmerid mo hono; rhaid oedd i'r hoew-was hwnw fyned ei hun. Rhaid yr i ni, bawb yn ei berson ei hun, fyned i'r maes, ac edrych angyd yn ei wyneb. Yn wir, ni a gawn rai mor ffol ag addaw iddynt eu hunain ryddfrefreiniad rhag y dydd hwn; fel pe byddai ganddynt swydd-dŷ sicrhâd yn eu mynwes: dywedant eu bod mewn ammod âg angyd, a chynghrair âg uffern; a phan ddol y ffrewyll lifeiriol, na ddaw hi ddim atynt hwy. Ac yn awr, fel dyledwyr wedi iro llaw y ceisbwl, y maent yn rhodio yn hyf ar led, heb ofni eu dal. Eithr y mae Duw yn dywedyd wrth-ynt, y dettyd efe mor gyflym ag y rhwymant hwythau: "Diddymir eich ammod âg angyd, a'ch cynghrair âg uffern ni saif;" *Esa.* xxviii. 15, 18. A pha fodd y safai oni osodai Duw ei sel wrtho? Y mae cyfraith ddwyfol am y dydd drwg hwn a ddaeth mewn grym ar gwmp yr Adda cyntaf—hono a osododd y gyllell angyd ar wddf dynolryw, ac a agorodd y dyfr-ddôr er lliafid i waed calon dyn hyd heddyw. Y mae Duw, i gau allan bob diangfa, wedi hau hadau marwolaeth yn ansawdd ein naturiaeth ni; a chystal y gallwn ddiange rhagom ein hunain, a rhag marwolaeth. Nid yw yn rhaid i ni wrth un cymmynwyr i ddyfod â llaw o drais i'n tori i lawr. Y mae yn y pren bryfyn, yn magu o'i sylwedd ei hun, a'i difetha ef: felly ynom ninnau, y gwaeleddau naturiol hyny a'n dygant i lawr i'r llwch. Ein marwolaeth a fagwyd pan gyntaf yr ymddygywyd ein bywyd; ac fel na ddichon gwraig feichiog attal awr ei gwewyr, sydd yn dilyn y llall yn ol naturiaeth, felly ni ddichon dyn attal esgoriad angyd, ar ba un y mae ei fywyd yn feichiog. Nid yw yr holl boenau a'r gofidiau a deimla dyn yn ei oes ond cynnifer o riddfanau natur yn marw—y maent yn mynegi iddo fod ei ymddatodiad ger llaw. A wyt ti yn dywysog yn eistedd yn dy holl rwyg a'th wychder? Fe feiddia angyd ddyfod i'th balas, a thrwy dy holl warchodlu, i draddodi y genadwri farwol sydd ganddo oddi wrth Dduw atat ti; i'e, a rhedeg ei ddagr i'th galon. Pe byddit wedi dy amgylchynu gan gymdeithas o ddoctoriaid, yn ymgynghori am dy iechyd,

rhaidd yw i gelfyddyd a natur hefyd dy roddi i fynd, pan ddel hwnw. Ie, pan fyddo dy nerth yn gryfaf, a thithau yn bwyta dy fwyd a chalon lawen, y mae y bwyd hwnw sydd yn maethu dy fywyd yn rhoddi i ti hefyd ernes o'th farwolaeth, fel y mae yn gadael ynot y gwaddod a'i dwg i ben mewn amser. O! mor anocheladwy y mae yn rhaidd i'r dydd drwg hwn fod, pan yw y fflon y mae pwys ein bywyd arni, ac yn cael ei gynnal trwyddi, yn ein curo i lawr i'r bedd yn y diwedd! Y mae Duw yn nyled yr Adda cyntaf a'r Ail: ei ddyled i'r cyntaf yw cyflog ei bechod; i'r Ail, gwobr ei ddiodeffaint. Y lle am daliad iawn o'r ddwy ddyled ydyw y byd arall. Felly, oddi eithr i angu ddyfod i drosglwyddo dyn yno, ni dderbynai yr annuwiolion, y rhai ydynt hiliogaeth yr Adda cyntaf, eu tál cyflawn am eu pechodau, sydd, yn ol y bygythiad, yn ddyled gyflawn, a Duw yn rhwym i'w thalu. A'r rhai duwiol, hwythau, sydd yn hâd Crist (yr Ail Adda); ni byddai i'r rhai hyn dderbyn y cyfan o bwrcas ei waed ef, yr hwn ni buasai iddo erioed ei dywallt ond ar hyder yr addewid a roddodd Duw iddo yn eu hachos, cyn dechreu y byd. Hwn yw y rheswm pa ham y gwnaeth Duw y dydd hwn mor sier — ynddo y mae yn ymryddhau o'r ddau ymrwymiad.

3. Gweddai i bawb ymbarotoi a darparu yn effeithiol erbyn y dydd drwg, yr hwn sy mor anocheladwy yn ein bygwth; a hyn ar gyfrif dyblyg:—Yn gyntaf, O ran dyledswydd. Yn ail, O ran doethineb.

1af. O ran dyledswydd. (1af.) Y mae yn bwngce o'n hufudd-dod i'r Duw mawr, bod i ni ddarparu ac ymarfogi erbyn y dydd hwn. Bwriwch ddarfod ymddiried i ddeiliad am un o gestyll ei frenin, a'r gwr hwn wedi clywed am elyn galluog yn dyfod i warchae ar y castell hwn, etto, heb gymmeryd dim gofal i ddarparu arfau ac ymborth at ei amddiffyn, a'i gollu felly; pa fodd y gallai y cyfryw un fod yn ddieuog o frad? Onid yw efe yn gwrthun-fradychu y lle, a chydag ef, anrhydedd ei frenin, i law ei elyn ef? Ein heneidiau ni yw y castell hwn, sydd i ni ei gadw dros Dduw. Y mae genym wybyddiaeth sier fod gan Satan friad arnynt; ac mai yr amser y mae yn bwriadu dyfod gyda holl alluoedd y tywyllwch yw y dydd drwg hwnw. Yn awr, fel y dymunem ein cael yn gywir yn yr hyn a ymddiriedwyd i ni, yr ydym yn rhwym i sefyll er ein hamddiffyniad, ac i ymddarparu a'r ystor a'n galluoga i wrthsefyll yn gadarn.

(2il.) Yr ydym yn rhwym i ddarparu erbyn y dydd hwnw, fel cydnabyddiad addas, a defnyddiad o'r achlysuron a'r moddion y mae Duw yn eu rhoddi i ni, i'r gwir ddiben hwn. Nis gallwn, heb anniolchgarwch cywilyddus i Dduw, wneud difrod o'r cynnorthwyon a rydd Duw yn ein llaw tuag at

y gwaith mawr hwn. Gwaedda pawb yn erbyn y drygddyn a wastraffai yn y carchar yr arian hyny a anfonasid iddo at gael ei ryddhad o garchar. Ac ai ni wridwn ninnau am wario y talentau hyny gyda'n chwantau, a Satan, a gyfranodd Duw yn rhad arnom, at ein rhyddhau oddi wrthynt hwy, a'i gynddaredd yntau yn awr angu? I ba ddiben y mae genym Feibla, gweinidogion, a phregethau, os nad ydym yn meddwl addurno ein hunain drydydynt âg arfogaeth erbyn y dydd drwg? Mewn gair, pa beth yw amcan Duw yn estyniad ein dyddiau, a'n gadawiad am ryw hyd yma, yn nhir y rhai byw? Ai fel y gallem gael amser i'w dreulio, neu yn hytrach i'w loddesta ymaith, ar fwyntiant y byd ofer hwn? A ydyw efe yn rhoddi ein hamser gwerthfawr ini i'w dreulio yn dâl y fath wybed ag yw mawredd a chyfoeth y ddaear yma? Nis gall hyn fod. Nid yw meistriaid doeth yn arfer gosod eu gweision ar waith na thâl am y ganwyll a losgant wrth ei wneud. Ac yn ddiaw, nid oes dim sydd lai na gogoneddu Duw ac achub ein heneidiau ein hunain yn y diwedd a ddichon fod yn werth yr amser gwerthfawr a dreuliwn ni yma. Y mae gan y Duw mawr ddiben mwy nag y mae y rhan fwyaf yw ei feddwl yn ei drefniad hwn. Os mynem farnu yn iawn, ni a ddylem gymmydd ei ddeongliad ef ei hun ar ei weithredoedd; ac y mae yr apostol Pedr yn erchi i ni gyfrif "hir amynedd ein Harglwydd yn iachawdwr-iaeth;" 2 *Pedr* iii. 15. A hyn y mae yn ei wirio allan o eiriau Paul, o ran eu hystyr, er nad yn yr un ymadrodd. Geiriau Paul yw y rhai hyn:—"Neu a wyt ti yn diystyru golud ei ddaioni ef, a'i ddiodeffgarwch, a'i ymaros, heb wybod fod daioni Duw yn dy dywys di i edifeirwch?" *Rhuf.* ii. 4. Oddi wrth y ddaul le hyn, fe'n dysgir pa beth yw meddwl Duw, a'r iaith sydd ganddo wrthym, trwy bob moment o amynedd a modfedd o amser, a ganiateir i ni. Amser yw a roddir i edifarhau. Y mae Duw yn gweled, a nynt fel yr ydym, nas gallai angu a barn ddwyn i ni ddim newydd da; nad ydym ni mewn cyflwr i groesawu y dydd drwg; ac am hyny, y mae trugaredd yn sefyll i fynd yn mynues Duw, i ddadllo dros y creadur truan, ac yn gofyn am i beth amser yn chwaneg gael ei roddi at ei fywyd, fel, trwy yr ymoddefiad hwn, y cynhyrir ef i edifarhau cyn ei alw i'r frawdle. Fel hyn yr ydym yn cael pob diwrnod a chwanegir o hyd at ein hamser ar y ddaear. Ac onid yw hyn yn gosod rhwymau cryf arnom i roddi yr holl amser hwn i'r un ddiben ag y gofynir am dano?

2il. O ran doethineb. Y mae doethineb gwr yn ymddangos yn fwyaf nodedig mewn dau beth.

(1af.) Yn y mater o'i ddewisiad a'i ofal penaf.

(2il.) Yn yr iawn amseriad o'i ddewisiad a'i ofal hwn.

(1af.) Fe wna gwr doeth ddewisiad o hyn y fel gwrthddrych ei ofal a'i ymgais penaf, a fyddo o'r pwys a'r canlyniad mwyaf iddo. Ffyliadaid phlant yn unigsydd yn brysyr yng nghylch teganau a phethau gwael: y maent hwy mor brysyr a dyfal o ddeutu tŷ o dom, neu gardiau, ag oedd Solomon ar waith ei deml. Y mae pethau o'r fath mor gymmesur i'w hamgyffrediaidau gweiniaid hwynt, fab-anod truin, ag yw anturiaethau mawrion i wyr o synwyr. Yn awr, y cyfryw yw pwys y dydd drwg—dydd angeu yn enwedig—fel y profir y dyn yn ffol neu yn ddoeth yn ol ei ymweddiad tuag ato. Y diwedd a rydd angeu a amlyga bob gweithred—y mae i fod yn ddiwedd ein dyddiau, felly y mae yn ddiwedd hefyd i holl weithredoedd ein bywyd. Y cyfryw y ceir ein bywyd yn y diwedd ag a fu mewn golygiad ar yr un dydd hwn. Os bydd i amryw ranau ein bywyd—y bwriadau a'r amcanion a ddilyniasom—pan eu casglir yn un swm, gyrrhaedd i farwolaeth wynfydeddig, yna fe ymddengys ein bod yn rhai doeth yn wir. Ond os, ar ol ein holl ddyfeisiau a'n hymgeisiaidau golygus am bethau ereill, y byddwn heb ddarpar ar gyfer yr awr hono, rhaid i ni ymfoddloni i farw yn ffyliaid yn y diwedd, ac nid oes y fath ffol a' ffol yn marw. Y mae y Cristion yn myned am y ffol, yng nghyfrif y byd, tra y byddo byw; ond pan ddoleu angeu, yna y byd doeth a addefant eu bod wedi ei gamenwi ef, ac a gymmerant yr enw iddynt eu hunain:—“Nyni, ffyliaid, a feddylasom fod ei fuchedd ef yn ynfyrwydd, a'i ddiwedd yn ammharch-us. Eithr pa fodd y cyfrifwyd ef ym mhilith meibion Duw, ac y mae ei ran ef yn mysg y saint? Nyni, gan hyny, a gyfeiliornasom allan o ffordd y gwirionedd?” *Doethineb Sol.* v. 4, 5. Y mae y lle yn yr Apoerypha; ond caiff pechaduriaid weled fod ei ddefnydd yn ganonaidd. Gwir yw fod y byd yn rhy gall i'r saint ym mhethau y byd: ac nid rhyfedd; nid yw hyn chwaith yn anfri ar eu doethineb hwynt, ddim mwy nag ar wybodaeth yr ysgolhaig, fod trwsiw'r hen esgidiau yn rhagori arno yn ei gelfyddyd wael. Y mae naturiaeth, lle y bwriado ragoriaethau uwch, yn fwy diofal yn y pethau sydd yn is; fel y gwelwn mewn dyn, yr hwn, er ei wneud i ragori ar yr anifeiliaid mewn enaid rhesymol, sydd yn cael rhagori arno yntau gan ryw anifail neu gilydd ym mhob un o'i synwrau [y golwg, y clyw, yr arogliaid, &c.]. Fel hyn, y mae yn hawdd i'r Cristion gael ei drechu yn ei negeswaith bydol, am fod ganddo ef wrthddrych rhagorach yn ei olwg, sydd yn peri iddo drin pethau y byd, mewn ystyr, heb fod gyda hwynt. Nid yw yn gofalu fawr am y materion hyn; os gall ond marw yn dda yn y diwedd, a chael ei brofi yn ddyn doeth yn moreu yr adgyfodiad, y mae pob peth yn dda. Nid yw efe yn ei gyfrif yn foes dda iddo fod yn anfoddlawn i

aros cyhyd am amlygiad o'i ddoethineb ag y gall Duw aros am lawn ddangosiad o'i natur ogoneddus ei hun, yr hon ni ymddengys yn ei llawn ogoniant hyd y dydd hwnw, pan y llwyr argyhoedda efe yr annuwlion am eu meddyliau a'u geiriau caledion yn ei erbyn ef: *Iudas 15.* Yna y cânt—hyd hyny ni fynant—eu hargyhoeddi.

(2il.) Y mae gwr synwrol yn ymgais am iawn amseru ei ofal a'i lafur at gael yr hyn y mae ei fryd arno. Yr ynyfud sy'n dyfod wedi i'r farchuad ddarfod. Fel y mae'r dydd drwg o bwys mawr o ran ei ganlyniad, felly y mae iawn amseru ein gofal yn ei gylch yn beth o'r pwys mwyaf; ac yn sicr, y mae yn rhaid i hyny fod cyn i'r dydd ddyfod. Y mae mwy nag un drws y gall y genad ddyfod trwyddo, a fyddo yn dwyn newyddion drwg i ni; ac wrth ba un y cura efe, nis gwyddom ni. Nis gwyddom pa le y'n delir; ai yn y gwely, neu wrth y bwrdd; ai gartref, neu oddi cartref; ai ym mysg cyfeillion a'n cynghora ac a'n cysura, ai ym mysg gelynyon a drymhânt ein tralod trwy eu creulonedd. Nis gwyddom pa bryd, ai yn y dydd ai yn y nos; ac ni wŷr llawer o honon pa un ai ym moreu, canol dydd, ai yn hwyr ein hoës. Fel y mae efe yn galw at waith bob awr o'r dydd, felly y mae i'r gwely hefyd; fe allai tra y byddwch yn gweddio, neu yn pregethu; a thrwm fyddai myned ymaith dan eu halogi hwynt, ac enw Duw ynddynt. Neu, ysgatfydd, pan fyddech ar waith gwaeth, gall angeu dafu dy gwpan orlwnge o'th law, tra'r wyt yn eistedd yn y tafarndy, gyda'th gymdeithion llonwych, neu dy gyfarfod tra yn hongcian tuag adref, a gwneud rhyw ffos yn fedd i ti; fel megys yr wyt yn byw yn anifeilaidd, y byddo i ti farw fel anifail. Mewn gair, nis gwyddom pa fath o ddrwg a ddefnyddia Duw fel offeryn i'n gwano; pa un ai rhyw law o drais a wna hyn, ai dolur o'n cyrph a'n hymysgaroedd; pa un ai rhyw ddolur llym, ai rhyw glefyd nychlyd; pa un ai clefyd, a ladd ddyn tra y mae'r corph yn fyw, sef a ymeifl yn y pen, ac a ddwg ein synwyr, ai nad e; pa un ai y fath ofidiau adwythig ag a wna i'n cyfneseifiaid ofni edrych arnom, neu adael i ni anadlu arnynt; neu pa un ai cystuddiau a fyddant wedi eu mwyaheu gan demtasiynau Satan, ac ofnau ein cydwybodau brawychus ein hunain, ai nad e. Pwy a wŷr pa le, pa bryd, neu pa beth a fydd y dydd drwg? Am hyn, y mae Duw yn celu y rhai hyn, fel y darparom ni at y cwbl. Ni adawai Caïsar i'w filwyr wybod pa bryd, nac i ba le, yr oedd efe yn meddwl teithio. Gwybod y rhai hyn a'n poenydiai ni âg ofn terfysgld; bod heb eu gwybod a ddylai ein deffroi i ofal darparol. Amser drwg yw i ddiiddosi llong pa'i fyddo ar y môr, dan gurfa gan ystorm: dylid edrych at hyn pan fyddo yn gorwedd yn y porthladd. A chynddrwg

yw i ddechreu taclu enaid i fyned i'r nef, pan fyddo yn ymrwyfo ar glaf-wely. Pethau a wneir ar ffrwst, anfynych y gwneir hwynt yn dda. Dyn a goder o'i wely ganol nos, a thán arswydus yn nen ei dŷ, nis gall aros i ymwisgo mewn trefn, fel a'r dro arall, ond efe a red i lawr, ysgatfydd, ág un hosan wedi hauner ei gwisgo, ar llall ar ol. Y mae'r trueiniaid hyny, yr wyf yn ofni, yn myned mewn trwsiad cynddrwg i fyd arall, sydd yn dechreu eu darpariaeth ato pan fyddo cydwybod, ar wely angyu, yn galw arnynt á gwaedd o dân uffern yn eu myn-wesau. Ond, och! rhaid iddynt fyned, er eu bod heb amser i wisgo eu harfogaeth; ac felly, hwy a roddir i edifarhau yn araf yn uffern am eu gwaith yn rhith glytio edifeir-wch ar ffrwdan yma. Deuwn ar hyn at gymhwysiad y pwngc.

PENNOD VII.

CYMMHWYSIAD Y IWNGC.

Defn. 1. Yn gyntaf, Y mae yn argyhoeddi y rhai sy mor bell oddi wrth ddarparu at y dydd drwg, fel na oddefant i ddim meddyliau am y dydd hwnw aros gyda hwynt. Y maent mor anhyd yn i'w tywys i ymddiddan ar y testyn hwn, ag a fyddai plentyn i gael ei ddwyn i le tywyll, a'i adael yno. Marwolaeth yw iddynt hwy feddwl am farwol-aeth, neu am yr hyn sy'n arwain iddi. Fel y mae rhai a sfol dybiant y bydd raid iddynt farw yn fuan ar ol iddynt wneud eu llythyr cymun; felly y rhai hyn a dybient eu bod yn prysuro y dydd athrist hwnw wrth fyfyrío arno. Nid oes i'r myfyrdod am dano ddim mwy croesaw gyda hwynt, nag oedd i Moses gyda Pharaoh; am hyny, hwy a ddywedant wrtho, fel yntau wrth Moses, "Dos oddi wrthyf: gwylia arnat rhag gweled fy wyneb mwy," *Ecscod.* x. 28. Y mae ei arswyd yn peri iddynt ladd ac ymlid ymaith yr holl feddyliau hynya gyfyd cydwybod yn ei achos. Ac o'r diwedd, y maent yn cael y fath feistrolaeth ar eu cydwybodau, nes ydynt yn cyrhaedd i fath o ddiddu-wiaeth; fe'u ceir mor anfynych i feddwl neu son am y cyfryw bethau, ag y ceir gwybedyn yn eliedeg yn y gauaf. Nid oes croesaw bellach i ddim ond a fyddo yn llon a difyr. Os daw y fath feddyliau ag a brophwydant am ddigrifwch a bodd anianol, cymmerir y rhai hyny, fel hil unol á'u calonau, i fyny i'r cerbyd, i eistedd gyda hwynt: ond gorchymynir i'r rhai ereill oll fyned i'r tu ok. Och! y trueiniaid gwael! gellid dywedyd rhyw beth drosoch pe na byddai i'r dydd drwg hwn o angyu a barn ddim sail neu sylwedd ond yr hyn a ddyry ein dychymygiionni iddynt. Y mae y fath flinderau yn y byd, sydd á'u drwg oll yn deilliaw o'n

meddyliau ni. Pan aflonyddir ni gan ddiys-tyrwech a gwaradwydd dynion, pe byddai i ni fod heb feddwl am danynt, hwy fyddent yn ddim. Ond dy alltudiad o'r meddyliau am y dydd drwg hwn o'th feddwl, ni wna ond esmwythád gwael a byr. Nis gelli attal ei ddyfodiad, na dwyn ymaith ei golyd pan y del, trwy ei ddibrisio. Yr wyt fel ymdeithydd mewn llong—yng nghwsg neu yn effro, myned yn mlaen yr wyt ti. Nid wyt yn gwneud ond fel yr aderyn sfol hwnw, sydd yn doddi ei ben mewn cyrs, ac yna yn tybied ei fod yn ddiogel rhag yr adarwr, am nad yw efe yn ei ganfod. Yr wyt ti yn nód amlwg i ddialedd Duw; y mae efe yn dy weled, ac yn annelw atat, pan nad wyt ti yn ei weled: ie, yr wyt yn rhoddi dy hun dan angenrhaid anocheledwy o gyfrgollu byth, trwy fod heb feddwl am y dydd hwn. Y cam cyntaf at ein diogelwch yw jstyriaeth o'n perygl.

Defn. 2. Y mae'n argyhoeddi y cyfryw, pa rai, os meddyliant am y dydd drwg, eto y mae mor bell oddi wrthynt, fel nad yw ond i ddiben bychan. Hwy a fyddant sier o'i osod yn y fath bellder ag a dddwg ymaith rym y myfyrdod, fel na bydd iddo eu taraw i lawr yn y teimlad a'r arswyd dwys o hono. Y gw'n mawr, yr hwn, pe safasen wrth ei ffröen, a fusai yn dryllio aelod oddi wrth aelod, ni wna gymaint a brawychu y rhai a gaffo allan o'i gyrhaedd. Po bellaf y rhoddom ni y dydd drwg, gwanaf yr argraff a wna arnom. Gwir yw, medd pechadur-iaid, nis gallwn wrtho, y mae arnom ddyled i natur, y mae yn rhaid ei thalu: fe ddaw clefyd, ac angyu ar ei ol, a barn a ganlyn y ddau. Ond, och! nid ydynt etto yn disgwyl am yr ymwelwyr hyn: hwy a brophwydant am y pethau hyn i ddyfod wedi hir amser, ac a oebthiant y daw llawer diwrnod teg o flaen hyn. Y mae dynion, fel yma, yn fwyn wrthynt eu hunain. Yn gyntaf, hwy a ddy-mument feithder cyn y del hyn; ac yna, am y dymunent hwy felly, hwy a ymhyfánt i addaw iddynt eu hunain y bydd felly. Ac wedi iddynt unwaith wneud yr addewid hon, yna nid rhyfedd os byddant byw yn ol eu gwag obaith, gan oedi trefnu eu cyfrifon hyd brydnawn a gauaf heuaint, pan na bydd arnynt y fath ddeniadau i drawswibio gan bleserau y bywyd hwn. O! hwy a wna't y pryd hyny bethau mawr i'w haddasu at y dydd drwg. Ddyn hyf! pwy a roddodd i ti genad i dori y fath gareiau hirion o'r amser hwnw nad yw yn eiddod ti, ond yn eiddo Duw? Pwy sydd yn gwneud y lease—ai y deiliaid, yute y meistr tir? Neu a wyt ti yn anghofio mai ardrethu dy fywyd a wnaed, ac mai nid perchen ydwyf? Dyfais Satan yw hon i beri i chwi oedi; pryd na ad-awai y disgwyliad presennol am y dydd drwg i chwi eistedd yn amharod. O! pa ham y perwech i'ch eneidiau beidio á'ugwaith,

y gwnewch iddynt segura a gorphwys oddi wrth eu beichiau, trwy ddywedyd wrthyt am hir oes, tra y mae angyu yn rhuthro arnoch yn ddisymmwth ? O ! i ba fath gywil-ydd y rhoddir eich calonau puteinig—y rhai a ddywedwch yn awr fod eich gwr ym mhell oddi cartref, ac y gellwch ymlenwi o garu—os efe a ddaw cyn i chwi ei ddisgwyl, ac a ddaw o hyd i chwi yn y gwely gyda'ch chwantau ? Gadewch i mi ddywedyd wrthych, y bygythir dinystr buan, yn enwedigol ar y cyfryw rai diofal. Darllenwch *Mat.* xxiv. 48—51, lle y mae dadganiad yn erbyn y fath bechaduriaid ag a ymfoddlânt yn oediad eu Harglwydd am ei ddyfodiad : “Arglwydd y gwas hwnw a ddaw yn y dydd nid yw efe yn disgwyl, ac mewn awr nis gŵyr efe.” Yn wir, y mae'n rhaid i Dduw fyned allan o'i ffordd gyffredin o ym-drin â phechaduriaid, os diange y cyfryw rhag dinystr disymmwth. Y mae un yn hyf i ofyn, a all neb ddangos un esampl o fewn y Beibl am rywrai a hynodir am ddi-ofalwch, heb fod rhyw farn hynod, i e, ddisymmwth, yn eu dal. Sodom—mor fuan wedi boreu heulog y tywyllodd yr wybr, ac y claddwyd hwynt yn eu lludw eu hunain mewn ychydig oriau gan ystorm o dân ! Lâis ddiotal a dorwyd ymaith cyn iddynt ond prin feddwl am hyny. Agag, pan y gwelodd gymmlau ei ofnau yn chwalu, a thra yr oedd hin deg yn ei wynebpryd, y maent yn ebrwydd yn dychwelyd arno, ac yn ei orchuddio â marwolaeth ; efe a ddarn-iwyd yn ddiotal. Amalec—hwy a ddifethiad gan Dafydd cyn i orfoledd eu buddugoliaeth ddiweddar oeri. Nebuchodonosor, tra yn ymchwyddo yn ei balas, a'r ymfrost hwn yn ei enau, “Onid hon yw Babilon fawr, a adeileidais i ?” a chyn iddo allu cael y geiriau o'i safn, dyna lef arall, yn disgyn o'r nef, fel hyn, “Wrthyt ti, frenin, y dywedir, Aeth y frenhiniaeth oddi wrthyt : a'r awr hono y cyflawnwyd y gair ;” ac anfonwyd ef i bori gyda'r anifeiliaid (*Dan.* iv. 31, 38). Y goludog—y mae yn bendithio ei hun dros lawer blwyddyn ; ac o fewn ychydig oriau, dyna'r glustog oddi tan ei ben ; ac ni chlywch mwy am dano hyd onid yw yn ysgrechian o uffern (*Luc.* xvi. 19—31.). Ië, dacw fyd cyfan, hyd at ychydig bersonau, yn cael eu boddi ; ac ni wybythyd oni ddaeth y dylif, a'u hysgubo hwynt oll ymaith (*Mat.* xxiv. 39). A phwy wyt ti, O ddyn ! sydd yn addaw breiniad i ti dy hun, pan y mae brehinoedd, dinasoedd, a byd cyfan wedi cael eu difetha yn y modd hwn.

Defn. 3. Y mae hyn yn gerydd i'r rhai hyny sydd yn wir yn meddwl yn fynych am y dydd drwg hwn yn erbyn eu hewylls, gan rym cydwybod ddeffröedig, sydd o hyd yn eu gwasgu ac yn pregethu iddynt ar destyn Paul ger bron Ffelices, nes yw'n peri iddynt grynu, fel yntau : etto, y cyfryw yw

grym chwantau yn eu calonau, fel y mae yn peri iddynt ysbarduno ym mlaen, er yr holl geryddon a rydd eu cydwybod iddynt, a'r meddyliau arswydlawn sydd ganddynt am y dydd drwg. Er y cwbl, parhau y maent yn eu hen grefft o bechu yn ysgeler ; a'r trueiniaid hyn ydynt wrthdrysychau ein tosturi dwysaf. Y mae y pechadur difraw, a dorodd o garchar ei gydwybod, yn debyg i feddwyn pen-gryf ; efe a lwng e ei bechod, fel y llall ei ddiod, gyda bodd, ac heb ddim terfysg. Ond dyma ddyn a'i gylla yn afiach, fel y gallaf ddywedyd, ei gydwybod yn fynych yn chwydu ei lymeidiau melus, ac etto, efe a becha, er mai gyda phoen a gofid. O ! ystyr-iwch, y trueiniaid, pa beth yr ydych yn ei wneuthur : yn lle ymarfogi erbyn y dydd drwg, yr ydych chwi yn arfogi y dydd drwg i'ch erbyn eich hunain ; yr ydych yn planu pinau a nodwyddau yn y gwely, ar ba un y mae yn rhaid eich gosod cyn hir ; yr ydych yn bwrw ffagodau i'r fwrn danllyd hono y bwrir chwithau iddi o'r diwedd ; a hyn oll er gwaethaf eich cydwybodau, y rhai y mae Duw hyd yma yn eu gosod ar eich ffordd, fel y byddo eu pigiadau megys cae drain, i'ch cadw rhag dilyn eich chwantau ! Gwybydd, gan hyny, os ym mlaen yr ai, megys y mae dy gydwybod heddyw yn lleihau pluserau dy bechod, felly y chwanega hi at erchylldra dy boen ar ol hyn.

Defn. 4. Y mae yn gerydd i'r rhai hyny, er nad ydynt mor boeth ac erchyll mewn pechod ag i beri drygsawr ar wyneb y tir yn ffroenau ereill, etto, ydynt yn gorphwys mewn cyflwr anarfog—nid ydynt yn ffoi at Grist am gysgod a lloches erbyn y dydd hwnw o ystorn a thymmestl ; a'r achos yw, y mae ganddynt gelwydd yn eu deheulaw ; ynborthi ar ludw y maent ; a chalon siomedig a'u gŵyrdrodd hwynt rhag ymgais am Grist. Fe wna i un grynu wrth weled mor hyderus y mae llawer yn eu gobaiith gau a'u hunanhyder, gan feiddio nesau, megys Corah gyda ei thuser, mor hyf a Moses ei hun, i e, hyd at safn y bedd, hyd nes y caffont eu llyngau i fyny yn ddisymmwth gan ddistryw, a'u hanfon i gael eu didwyllo yn uffern, y rhai ni chymmerent eu curo yma allan o'u noddfa celwydd. Pwy bynag wyt, O ddyn ! a pha beth bynag sydd genyt i ymfrestio ynddo, pe byddai yn ymddygiad tebycaf i sant a fu ym mucedd neb erioed ar y ddaear, os hyn yw dy achles erbyn y dydd drwg, colledig a fyddi ! Ni bydd ymwared pan ddel y dylif hwnw ond Crist ; i e, bod yw Nghrist yn hongian o'r tu allan i'r arch trwy broffes olygus ni wna dy achub. Mi debygwn fy mod yn gwelod fel yr oedd pobl yr hen fyd yn rhedeg am eu bywyd, rhai i'r bryn hwn, ac ereill i'r pren uchel acw, a'r modd yr oedd y tönau yn eu dilyn, nes eu hysgubo o'r diwedd i'r llif difaol. Cyffelyb fydd eich diwedd chwi sydd yn troi i ryw ffordd arall

am ymward, heblaw at Grist. Hyd yma y mae yr arch yn eich aros, ie, yn dyfod at eich porth i'ch derbyn i mewn. Ni estynodd Noah ei law yn fwy ewyllysgar i dderbyn y golomen i mewn, nag y gwna Crist i dderbyn y rhai sydd yn ffoi ato am nodded. O! na wrthodwch eich trugaredd eich hun am oferedd celwyddog!

Defn. 5. Rhodded hyn di ar ymofyniad, pw y bynag wyt, a ydwyt ti mewn agwedd amddiffynol erbyn y dydd drwg hwn? Gofyn i'th enaid yn ddiriffriddwys, A oes genyt ddarpariaeth erbyn y dydd hwn—y dydd drwg hwn? Pa fodd y gellit ymadael â'r hyn a ddwg yn sicr i ti? Y mae angeu yn dyfod, â'i lestr ganddo, i gludo ymaith dy holl fwyniant anianol, ac i ddwyn i ti dy gyfrif am danynt. O! aelli di gymmeryd dy genad gyda'r naill, a darllen y llall, gyda heddwch a hyder? Ai ni fydd yn fraw i ti fod i'th iechyd a'th nerth gael eu troi yn wendid a nychdod—dy nosweithiau tawel o orphwysdra, i lygad effro, ac ymdroi heb orphwys na llonyddwch—dy lais, a fu mor fynych yn cydseinio â thannau, i fod yn awr yn anghydnabyddus â phob tant ond ocheneidiau a griddfanau? O! pa fodd y gelli edrych ar dy berthynasau anwyl a hoff gyda'r meddwl am eu gadael, ie, ac edrych ar yr offeryn, megys, yn cael ei hogi, a rydd y dyrnod marwol i wahanu enaid a choroph? Meddwl dy fod yn awr yn hanner marw yn dy aelodau, sydd yn bellaf oddi wrth ffynnon y bywyd, ac angeu heb ganddo ond taith ychydig o funudau cyn cyrhaedd dy galon, ac felly curo dy anadl olaf allan o'th gorph. Y mae yn bosibl fod yr anghenrhaidd anocheladwy am y rhai hyn yn peri i ti ymgaledu i'w herbyn: gallai hyn, yn ddiâu, mewn rhyw bagan sydd yn ansicr a oes byd arall, ai nid oes, gynnorthwyo ychydig at bylu awch y dychryn, yr hwn yn amgen adorai yn ddyfnach i'w galon syn ef. Ond os wyt yn credu fod byd arall, ac y bydd barn, sydd yn sefyll wrth gefn angeu, yn barod i bennodi i ti dy gyflwr digyfnawid, mewn gwynfyd neu drueni; yn sicr, nis gelli esmwythau dy gydwybod ddeffrôedig â'r fath ddiiddanwch tlawd. O! gan hyn, meddwl pa ateb sy'n dyfwriad ei roddi i'r Duw mawr, ar dy ymddangosiad o'i flaen, pan y gofyn efe i ti beth a eelli di ddyweddyd, pa ham na byddai i'r ddedfryd o gondemiad am byth gael yna ei dadgan i'th erbyn! Yn wir, yr ydym yn ymddwyn yn anffyddlaw'n i'n heneidiau ein hunain, onid ydym yn dwyn ein meddyliau i'r prawf hwn. Os gofynwch yn awr pa fodd y dylech ddarparu erbyn y dydd drwg, fel y galloch sefyll o flaen y frawdle arswydawl hono, a byw felly yn y cyfamsel fel na byddoch dan gaethiwed ac ofn gan ddisgwyliad brawychus am dano; cymmerwch hyn mewn ychydig gyfarwyddiadau.

1. Os mynit byth gael canlyniad dedwydd i'r dydd drwg hwn, fel ag i sefyll mewn barn o flaen y Duw mawr, na orphwys heb gael perthynas gyfammodol â Christ. Cysur byw Dafydd; wrth farw, a dynwyd oddi wrth y cyfammod a wnaethai Duw âg ef—hyn oedd ei holl ddymuniaid a'i iachawdwriaeth ef. Pa fodd y gelli di estyn dy ben i'r byd arall heb fraw, onid oes genyt sail gref yr addeffa Crist di yn eiddo iddo? Y mae gan y nef ei hetifeddion priodol, ac felly gan uffern. Etifeddion y nef yw y rhai sydd mewn cyfammod â Duw. Gosodwyd ei sail hi mewn cyfammod, ac y mae yr holl drigfanau yno wedi eu parotoi i bobl mewn cyfammod âg ef: "Cesglwch fy saint yng nghyd, y rhai a wnaethant gyfammod â mi." Ond pa fodd y mae i ti ddyfod i'r berthynas hon? Yn gyntaf, tór dy ammod â phechod. Yr wyt, wrth natur, yn gwneud cyfammod i bechod a Satan. Fe allai nad wyt wedi seio y cyfammod hwn mewn geiriau a fuff benodol, fel y dewiniaid; etto, mewn effaith, ti a roddaist dy law wrth wneuthur gwaith Satan, a bod wrth alwad dy chwantau, yn derbyn gwobr anghyfiawnder, sef y mwyniant a'r manteision anianol a dalasant i ti am dy waith—yr wyt yn hyn wedi dangos dy hun yn gyfryw. Yn awr, os myni byth gael dyfod i gyfammod â Duw, tór hwn. Ni ddichon cyfammod âg uffern a'r nef gydsefyll.

2. Dyweddier di i Grist. Y gynnysgaeth yw y cyfammod gras, a sefydlodd Duw ar ddyweddi Crist yn unig. Ni chafodd Rebecca y tlysau a'r gwisgoedd drudfawr nes yr oedd hi wedi ei haddaw i fod yn wraig i Isaac: *Gen. xxiv. 53.* Yng Nghrist y mae yr holl addewidion yn fe, ac yn amen. Os unwaith y derbyni Grist, yr wyt gydag ef yn eu derbyn hwynt. Perchenog y pren sydd ganddo hawl i'r holl firwyth sydd arno. Yn awr, fel na byddo i ti ffwdanu priodas rhwng Crist â thi dy hun, fel ag i gael dy wadu gan Grist, ac iddi fod yn ddim yn y diwedd, fe weddai i ti edrych at hyn, sef, am fod ynot yr hyn y mae Crist yn disgwyl ei gael yn mhob enaid a ddyweddia efe. Yn gyntaf, gan hyn, ystyria, a eelli di garu person Crist o'th galon? Edrych yn graff arno drachefn a thrachefn, fel y gosodir ef allan yn ei holl ragoriaethau ysbrydol—a ydynt yn gyfryw ag y dichon dy galon eu hosi? A yw ei natur lân, a'r holl rasmusau nefol y mae efe wedi ei brydfertu â hwynt, yn ei wneud ef yn ddymunol genyt ti? Neu, a foddiaid efe di yn well pe ni byddai efe mor fanwl a sanetaidd hollol? Ie, a yw dy galon yn ennynu felly o ddymuniaid atto, fel y gelli ei garu ef â chariad priodasol? Dichon merch garu un fel cyfaill, yr hwn nis gall ei garu fel ag i'w wneud yn wr iddi. Gall cariad cyfeillaidd gydsefyll â chariad cydradd, ie, cryfach, at un arall; eithr y mae cariad

priodasol yn gyfryw ag na oddefa un o'r rhai hyn. Aelli di gael yn dy galon ymadael â phawb arall, a glynu wrth Grist? A ydyw dy galon yn gwirio dy barodrwydd, ac yn dy gyflwyno yn ewyllysgar, i fyned gyda dy anwyl Iesu, er iddo dy ddwyn oddi wrth dad, a thŷ dy dad? A yw dy hyder yngyfrwy am ei allu i'th noddi rhag dy holl elynion, pechod, digofaint, ac uffern, fel y gelli yn ymroddgar osod bywyd dy enaid yn ei law ef, i'w achub trwy rinwedd ei waed ef, yn unig, â'i fraich hollalluog? ac am ei ofal i ddarparu i ti am y bywyd hwn, a'r byd a ddaw, fel y gelli ymlonyddu yn yr hyn y mae yn addaw ei wneyd drosot? Mewn gair, os cei di Grist, y mae i ti nid yn unig ei garu ef, ond er ei fwyn ef, bawb oll o'th garenydd newydd, y rhai, trwy dy briodas âg ef, y byddi yn perthyn iddynt. Pa fodd y gelli di gyttuno i alw y saint yn frodyr i ti? Aelli di eu caru hwynt o galon, ac anghofio yr holl hen gwerylon a fu genyt i'w herbyn? Ti a gei rai o honynt yn dlodion, a than erledigaeth; etto, nid yw yn gywilydd gan Grist eu galw yn frodyr—ac ni ddylai fod genyttithau. Os wyt yn awr yn cael dy galon yn y cyfryw duedd ag sydd yn addas i'r gofymadau hyn, ni feiddiaf nacau y gostegion, ie, nis gallaf lai na dadgan Crist a thithau yn wr a gwraig. Dos, enaid tlawd—os gallaf alw priodasferch mor ogonawl yn dlawd—dos ac ymgysura mewn disgwyliad am i'th briod ddyfod i'th gyrchu: a phan nesao y dydd drwg, ac y byddo angeu ei hun ger llaw, nac edrych arno gyda dychryn, ond yn hytrach bywioga, gyda'r hen Iacob, wrth weled y cerbyda'th drosglwyddda di i fynwesdy briod; yr hwn y clywi ei fod mewn cymaint bri a mawrhydi yn y nef, nes bod i ti sicrhâd y gall efe dy groesawu pan ddelych yno. Ym mysg y pob peth sydd yn eiddom ni, drwy fod yn eiddo Crist, nid ydyw yr apostol yn anghofio enwi hwn yn un—angeu yn eiddom ni: 1 Cor. iii. 21, 22. A da y gwnaeth; pe amgen, ni buasem byth yn edrych arno fel rhodd, ond yn hytrach fel barn. Yn awr, enaid, yr wyt allan o berygl am niwed a ddichon y dydd drwg wneud i ti. Etto, y mae rhywbeth yn ol i ti i'w wneuthur, fel y gallech rodio mewn disgwyliad cysurus am y dydd drwg. Yr ydym yn gweled y gall pobl rasol o ddiffyg gofal sanctaidd syrthio i'r fath afiechyd ag a fydd yn golyng i'w meddyliau am y dydd drwg. Dafydd, yr hwn, ar am pryd, nid ofnai rodio yng nglŷn cysgod angeu, y mae mor lawn o arswyd dro arall, wrth gael ei dywys tuag ato, nes yw yn llefain, "Paid â mi, fel y cryfhawyf cyn fy myned;" *Salm xxxix.* 13. Gall y plentyn, er ei fod yn caru ei dad, wneud yr hyn a bair iddo ofni myned adref. Yn awr, Gristion, os myni fyw mewn disgwyliad cysurus am y dydd drwg:—

1af. Ymgais am farw i'r bywyd hwn a'i

fwyniant fwyfwy o ddydd i ddydd. Nid yw angeu mor gryf i'r hwn y treul-iwyd ei rym naturiol gan hir glefyd nychlyd, ag ydyw i'r un nad ydyw wedi gorwedd ond am ychydig ddyddiau, ac yn meddu nerth natur i ddal yn gryf i'w erbyn. Yn ddiau, fel hyn y mae yma; y Cristion hwnw y mae ei gariad at y bywyd hwn a'i fwyniant wedi bod am lawer blwyddyn dan nychdod a marwâd, efe a ymedy â hwynt yn rhwydd-ach na'r dyn y mae ei gariad yn gryfach tuag atynt. Nid yw pawb oll o bobl Dduw wedi eu marwau i'r un radd i'r byd. Paul a ddywed i ni ei fod beunydd yn marw: yr oedd o hyd fwyfwy yn anfon ei galon allan o'r byd, nes oedd ei serchiadau oll, erbyn yr amser y daeth i farw, wedi eu rhwymo i fyny a chychwyn; yr hyn a'i gwnaeth yntau yn fwy parod i ganlyn: "Myfi yr awr hon a abertlir" (2 *Tim.* iv. 6); neu, yr wyf yn barod i'm hoffrymu. Pe byddai ond dant i'w dynu allan, po tynaf y byddo, mwyaf fydd y boeno'i'dynu. Orhwyddhaergwraidd dy serchiadau o'r byd, ac fe syrth y pren yn haws.

2il. Bydd ofalus i'th brofi dy hun mewn diwydrwydd a ffyddlondeb tuag at Dduw, yn dy le a'th alwad. Po rhyddaf y sefi yn dy feddyliau dy hun, o ran uniondeb dy galon ar hyd dy yrfa Gristionogol, mwyaf fydd dy dawelwch pan ydely dydd drwg. "Attolwg, Argllwyg," medd Hezechial dduwiol, pan ym min marw, yn ol ei feddwl, "Cofia yr awr hon i mi rodio ger dy fron di mewn gwirionedd, ac â chalon berffaith, a gwneuthur o honof yr hyn oedd dda yn dy olwg;" *Esa.* xxxviii. 3. Nid yw hyn i fod yn hyder genym: etto, bydd yn well cydymaith na chydwybod yn edliw. Os bydd y gwaed yn ddrwg, bydd llygriad ar yr ysbrydoedd hefyd. Po mwyaf fydd llygredd ein bywyd gan ragrith ac anffyddlondeb, gwanaf fydd ein ffydd erbyn awr angeu. Y mae gwahaniaeth mawr rhwng dau blentyn a ddaw adref yn yr hwyr; un o'r maes, lle y bu yn ddiwyd a ffyddlawn ar orchwyl ei dad; a'r llall, ar ol segur chwareu am ran fawr o'r diwrnod: daw y cyntaf yn hyderus i sefyll ger bron ei dad; a'r llall a ä dan lechian i'w wely, a than ofni i'w dad ei weled, neu ofyn iddo pa le y bu. O, syrs! edrychwech at eich rhodiad. Bu yr amserau hyn mor nodedig am brawf ag un amser fu ar Loegr: gofynid am fwy o ofal a gwroldeb i gadw ffyddlondeb na chynt. A hyn yw yr achos pa ham y mae mor anhawdd cael Cristionogion, yn enwedig y rhai y bu eu lle a'u galwad yng ngwynt profedigaeth, yn gadael y byd yn angeu â grym mawr o heddwch tumewnol yn eu mynwesau.

3ydd. Cynnefina dy enaid â'r meddyliau am y dydd drwg. Ymafael yn fynych yn y sarph hon; rhodia beunydd mewn myfyr-dodau difrifol am angeu: na red oddi wrthynt am eu bod yn anfodddhaol i gnawd:

dyna y fiordd i chwanegu y dychryn. Gwnewch â'ch eneidiau, pan fyddont yn cilio ac yn dychrynu rhag y meddyliau am gystudd neu angu, fel yr arferwech wneud â'ch anifail a fyddo yn rhutlro ac yn tasgu wrth i chwi ei farchogaeth. Pan fyddo yn tafu yn ol, neu yn osgoi wrth rywbeth, nid ydych yn rhoddi y goreu i'w dychryn, ac yn troi yn ol; gwna'i hyny ef yn waeth dro arall; ond chwi a'i gyrwech ef yn agos at y peth y mae yn ei ofni, ac a'i torwech mewn amser o'r ystrange hwnw. Nid yw y dydd drwg yn beth morarswydusi ti, sydd yn Gristion, ag y byddai raid i ti neidid rhagddo. Cymmhell dy galon i agorswydd ato; dangos i'th enaid yr hyn a wnaeth Crist i dynu ymaith ei golyng, a pha addewidion melus sy wedi ei rhoddi i'r gwir ddben o orchfygu ei arswyd; hefyd, pa obaith sydd genyt am elw oddi wrtho. Y pethau hyn a lonyddant ac a dawelant dy ysbyrd; tra na wna gochel y meddyliau am dano ond mwyhau dy ofn, a'th ddwyn yn fwy caeth iddo.

PENNOD VIII.

Yr ail ddaul at gymmhell yr annogaeth, yr hon a dynir oddi wrth y fuddugoliaeth sier a gorona ymdrech yr enaid, os bydd yn yr arfogaeth hon: lle y trinir yn fyr amryw byngciau cynwysedig yn y ddadl.

DEUWN bellach at yr ail ddadl a ddefnyddia yr apostol i wasgu yr annogaeth ymhellach: a hon a gymmerir oddi wrth y fuddugoliaeth ogoneddus sydd yn ehedfan uwch benau y credinwyr tra yn yr ymladdfa, ac a'u corona hwynt yn sier ynnydiwedd. Hyn a ddelir allan yn y geiriau, "Ac wedi gorphen pob peth, sefyll." Y mae yr ymadrodd yn fyr, etto yn llawn.

DOSE. I.

1. Ni ennillir y nef â geiriau da a phroffes deg: "Wedi gorphen pob peth." Y Cristion gweithgar yw y dyn a saif, pan y bydd i'r gwag fostiwr o'i ffydd syrthio. Siaradwyr mawram grefydd ydynt yn fynych yn gwneuthur leiaf. Oferyw crefydd hwnw, nad yw ei broffes yn dwyn llythyr tystiolaeth o fywyd sanctaidd. Aberth heb ufudd-dod sydd gyssegr ladrad. Y mae cyfryw yn ysbeilio Duw o'r hyn sy'n hoffiaf ganddo. Cadben mawr unwaith a darawodd un o'i filwyr am ddfrio ei elyn ef, gan ddywedyd, nad i'w ddfrio yr oedd efe wedi ei alw, ond i ymladd i'w erbyn a'i ladd. Nid llefain f'ei rhag y diafol, ac areithio yn erbyn pechod, mewn gweddi, neu ymddiddan, ond ymladd âg ef, a'i farwchau, yw yr hyn yr edrych Duw yn benaf arno. Heb hyn, nid yw y dyn ond megys yn curo yr awyr; nid oes mo'r arwyddion i'w gweled ar ei gnawd a'i chwantau anfarweiddiol ddarfod iddo ymladd. Yr oedd Paul o ddfrif; gadawodd arwydd

ar ei gorph a wnaed megys yn ddu a glas gan ddyrnodiau marwâd. Nid rhyw wag fostio yng ngolwg y Philistiaid a ennillodd ei wraig i Dafydd, ond tywallt ei waed. Ac a ydyw yn beth mor fach bod yn fab i Frenin y nef, fel y meddyli di ei gyrhaedd, heb roi prawf cywir o dy zel dros Dduw, a'th gasineb i bechod? "Nid gwrandawr anghofus, ond gwneuthurwr y weithred, a fydd dedwydd yn ei weithred;" *Iago* i. 25. Craffwch, nid trwy ei weithred, ond yn ei weithred: efe a gyferfydd â dedwyddwch yn y fiordd o ufudd-dod y mae yn rhodio ynddi. Y mae'r profeswr gwag yn somi ereill; y rhai, wrth weled ei ddaill, sydd yn disgwyl firwyth, ond heb gael dim; ond o'r diwedd, y mae'n somi ei hun; y mae yn meddwl cyrhaedd y nef, ond fe'i cyll li. Y mae Tertullian yn son am rai, a dybiant fod Duw yn cael digon, os golygir ef yn y meddwl, heb ddangos cymmaint yn y fuchedd. Ac am hyn, gallant bechu a chredu yn Nuw, heb ei ofni yn llai o'r achos. Dyma chwareu y butain, medd efo, a bod yn ddiwair er hyn; dyn yn paratoi gwenwyn i'w dad, ac er hyn yn fab ufudd! Ond, medd efe hefyd, gwybydded y cyfryw, os gallant lwy bechu, a chredu, y bydd gwrthddywedid hefyd yn y maddeuant a gânt. Gyda'r arbediad a rydd Duw, efe a'u try i uffern. Fel y dymunech sefyll yn y diwedd, edrychwch am eich cael yn gwneuthur y gwaith, a adawodd eich Arglwydd i chwi "i'w orphen;" ac "Nac ymddriedwch mewn geiriau celwyddog," fel y dywed y prophwyd: *Ier.* vii. 4.

DOSE. II.

Athr. 2. Yn ail, Sylwch, fod trugaredd Duw yng Nghrist yn gyfryw i'w blant, a'i fod ef yn derbyn eu hymgais gwan hwynt, ynghyd â ffyddlondeb a pharhâd yn ei wasanaeth ef, fel pe byddent yn ufudd-dod llawn; ac am hyny y dywedir yma am danynt, "wedi gorphen pob peth." O! pwy ni wasanaethai y fath Arglwydd? Yr ydych weithiau yn clywed gweision yn cwyno fod eu meistriaid mor fanylaidd a llym, fel nas gallant un amser eu boddio; ie, nas gallant, er gwneud eu goreu; eithr hyn nis gellir ei ddywedyd am Dduw. Bydd di ond mor ffyddlawn a gwneud dy oreu: ac y mae Duw mor raslawn ag i faddeu dy waethaf Gwyddai Dafydd am y cyd-ddygiad hwn, y'i ol yr efengyl, pan y dywedodd, "Yna ni'n gwaradwyddid pan edrychwn ar dy holl orchymynion;" *Salm* exix. 6: neu, pan fydd fy llygad ar dy holl orchymynion. Y mae teithiwr yn dal ei olwg ym mlaen tuag at y lle y mae yn myned iddo, er ei fod eto hel ei gyrhaedd: yno y dymunai efe fod; ac y mae ar ymeginiad am fod yno. Felly y mae agwedd calon y sant at holl orchymynion Duw: y mae yn gwasgu ym mlaen i ddyfod yn nes i lawn ufudd-dod; byth ni waradwyddir y cyfryw enaid. Ond gwae i'r rha

a orchuddiant eu difrawder â'r enw o wendid; i.e., a dreuliant eu gwres a'u grym yn dilyn y byd, neu eu chwantau, ac yna a feddylant wneud y cwbl i fyny pan gyhuddir hwynt, am mai eu gwendid yw, ac nas gallant hwy wasanaethu Duw yn well. Y rhai hyn a ymddygant tuag at Dduw, fel y rhai hyny tuag at eu tywysog (Francis i. o Ffrainc), y rhai a dorasant ymaith law ddeheu eu gilydd, ac yna a wnaethant esgus eu bod yn efryddion; ac felly, yn analluog i wasanaethu yn ei rwyflogau: am hyn hwy a anfonwyd i'r crogbren. Fel hyn y ceir llawer yn y diwedd wedi analluogi eu hunain drwy wrthod y cynnorthwy a gynnygiodd yr Ysbryd iddynt; i.e., difrodi yr hyn a roddwyd iddynt: ac felly, hwy a gânt wobwrhagrithryw, gan mai y cyfryw ydynt. Fe wŷr Duw pa fodd i wahaniaethu rhwng symledd Cristion, yng nghanol ei wendidau, ag esgusodion calon ffals. Ond ni a adawn y rhai hyn i draethu yn fyr ar bedwar pwnge sydd yn amlwg yn y geiriau.

1. Y mae yma yr angenrheidiolwedd o barhâd: "Wedi gorphen pob peth."

2. Yr eisieu o arfogaeth ddwyfod i barhau nes "gorphen pob peth." I ba beth arall y pair efe iddynt gymmeryd yr arfogaeth hon, i'r diben hwn, os gallent wneud hon hebddi?

3. Ni a gawn yma y sicrwydd o barhau a gorchfygu yn y diwedd, os wedi ein gwisgo â'r arfogaeth hon. Pe amgen, calonid gwael fyddai erchi iddynt gymmeryd arfogaeth na wnai mo'u hamddiffyn hwynt yn sicr.

4. Cawn yma y canlyniad dedwydd o barhâd y saint yn ddarluniedig, fel peth a wobrwya yn helaeth eu holl boen a'u hamynedd hwynt yn y rhyfel: "Wedi gorphen pob peth, sefyll." Oddi wrth y rhai hyn, y mae pedwar pwnge gwahanol yn canlyn:—

1af. Yr hwn a fydd fod yn filwr i Grist, chred iddo barhau.

2il. Ni ddichon fod parhâd heb wir ras yn y galon.

3ydd. Lle y mae gwir ras, yr enaid hwnw a barhâ.

4ydd. Sefyll, yn niwedd y rhyfel hwn, a wobrwya yn llawn yr holl beryglon a'r caledi a ddiodeffasom yn y rhyfel.

DOSE. III.

Athr. 1. Y neb a fydd fod yn filwr i Grist, y mae yn rhaid iddo barhau hyd ddiwedd ei fywyd yn y rhyfel hon yn erbyn Satan. Y mae hyn—"wedi gorphen pob peth," yn dyfod i ben ar ol ein hymdrech âg angeu. "Fel y galloch wrthsefyll yn y dydd drwg:" arol hyn y canlyn, "ac wedi gorphen pob peth." Nid ydym wedi gorphen "pob peth," nes darfod ymladd y frwydr osodedig hono: "Y gelyn diweddaf a ddinystir yw yr angeu." Mae y gair Groeg (*katergazetar*) yn arwyddo cymmaint

a diwedd gorchwyl, a dwyn mater i ddi-beniad. Felly, yn *Phil.* ii. 12, lle y mae ein cyfieithiad yn dda, "Gweithiwch allan eich iachawdwriaeth;" hyny yw, perffeithiwch hi: na fyddwch yn Gristionogion hannerog, ond ewch a hi drwodd. Y Cristion trwyadl yw y gwir Gristion. Nid yr hwn a el i'r maes, ond yr hwn a geidw y maes; nid yr hwn sydd yn cychwyn allan, ond yr hwn sydd yn dal allan yn y rhyfel sanctaidd hwn, sydd yn hæddu yr enw o sant. Nid oes y fath beth, yn yr ystyr yma, ag enciliad anrhydeddus yn perthyn i Gristionogaeth. Nid oes y fath air, yn y cyfan o ddisgybl-aeth filwraidd Crist, a "Ciliwch yn ol, a rhoddwch arfau i lawr:" na, dal ym mlaen sydd i chiwi, a sefyll at eich arfau, nes eich galw ymaith gan angeu.

1af. Yr ydym dan gyfammod a llw i wneud hyn. Yr oedd milwyr gynt yn arfer â chymmeryd llw na chilient oddi wrth eu banerau, ond y glynent yn ffyddllawn wrth eu blaenoriaid. Hyn a alwent "*sacramentum militare*"—llw milwraidd. Y mae pob Cristion megys dan y fath lw. Y mae hyn mor hanfodol i sant, fel y darlunir hwynt wrth hyn: "Cesglwch fy saint ynghyd, y rhai a wnaethant gyfammod â mi;" *Salm* l.

5. Nid ydym yn Gristionogion nes y rhoddom ein llaw wrth y cyfammod hwn, a hyny heb ddarngeliad. Pan gymmerom arnom broffesu enw Crist, yr ydym yn rhoddi ein henwau yn rhifus ei filwyr ef; ac felly, yn addaw y gwnawn fyw a marw gydag ef, dan wrthsefyll ei holl elynion ef: "Yr holl bobloedd a rodiant bob un yn enw ei Dduw ei hun; a ninnau a rodiwn yn enw yr Arglydd ein Duw." A pha beth yw rhodio yn enw ein Duw, ond ymladd dan faner yr efengyl, yn yr hon yr amlygir ei enw ef yn cyhoeddi rhyfel bythol yn erbyn pechod a Satan? Pe na byddai gan gadben y fath rwywiad ar ei filwyr, efe a allai fod hebddynt pan ddeuai dydd brwydr. Am hyny, fe ddywed Crist i ni ar ba ammodau y gwna efe restru ein henwau ym mysge ei ddisgyblion: "Os myn neb fod yn ddisgybl i mi, ymwaded âg ef ei hun, a chyfoded ei groes, a dilynd fi." Ni chrosawa efe ni hyd oni ymroddom y llwyr i'w drefniad ef; fel na byddo lle i ddadleu wedi hyny yn erbyn ei orchymynion, ond myned a dyfod wrth ei air, fel un dan ei awdurdod ef.

2il. Y mae parhâd yn angenrheidiol, am fod ein gelyn yn parhau i'n gwrthwynebu ni. Nid oes heddwch am fynyd yng nghanol y diafol, na rhoddi arfau o law yng ngwersyll ein gelyn. Os parha gelyn i ymosod ar ddinas, a'r rhai oddi mewn yn peidio gwrthsefyll, y mae yn hawdd dywedyd pa beth a ganlyn. Y prophwyd a anfonwyd i Bethel, fe wnaeth ei neges yn dda; gwrthasafodd demtasiwn Ieroboam: etto, ar ei ffordd adref, fe'i tynwyd ar wŷr gan yr hen brophwyd,

ac fe'i lladdwyd gan law. Fel hyn y mae llawer yn diange rhag un demtasiwn, ond o ddiffyg parhau, yn cael eu trechu gan un arall; y rhai a fu yn ddiangol rhag ei gleddyf ar un tro, yn cael eu lladd ganddo dro arall. Yr oedd Ioas yn obeithiol yr olwg arno pan yn ieuange; ond ni pharhaodd hyn yn hir. Iê, y mae aml was gwerthfawr i Dduw, trwy fod heb wrthsefyll y drwg mor rymus yn eu dyddiau olaf a'r rhai cyntaf, wedi syrthio yn dost; fel y gwelwn yn Soloinon, Asa, ac ereill. Yn wir, pan dynir llinyn i hyd mawr, y mae yn anhawdd ei gadw mor dyn fel na byddo yn llacau; a dal peth yn hir yn ein llaw, heb i'n bysedd farweiddio, fel ag i wanbau ein gafael. Am hyn y gelwir arnom mor fynych i ddal gafael tyn ym mhroffes ein ffydd. Ond pan welom elyn yn safurthu am danom, os syrthiwn, mi dybygwn y dylai hyn ein bywiogi yn fwy i ddal ein gafael.

3ydd. Am fod yr addewid o fywyd a gogoniant wedi ei sefydlu ar yr enaid a barhao. Y mae y goron wrth y cyrechnod; a'r hwn a gyrhaedd ben yr yrfa sydd yn ei chael hi. "Tr hwn sydd yn gorchfygu y rhoddaf;" ac nid mewn rhyw ysgarmes, ond yn yr holl ryfel. "Rhaid i chwi wrth amynedd, fel, wedi i chwi wneuthur ewylls Duw, y derbynioch yr addewid;" *Heb. x. 36.* Y mae pwys nodedig ar yr "o hyn allan" yng ngeiriau yr apostol (2 *Tim. iv. 7, 8*): "Mi a yndrechais yndrech deg; o hyn allan, rhoddwyd coron cyfiawnder i'w chadw i mi." Pa ham, ai nid oedd hi wedi ei rhoddi i'w chadw cyn hyn? Oedd; ond wedi iddo barhau a dyfod yn agos i'r nod, y mae yn awr, yng ngolwg ei gartref, yn barod i farw, ac yn cymmeryd gafael sierach yn yr addewid. Yn wir, yn yr ystyr hwn y mae, fod enaid grasol yn nes i'w iachawdwriaeth, ar ol pob buddugoliaeth nag yr oedd o'r blaen (*Rhuf. xiii. 11*), am ei fod yn dyfod yn nes i ben ei yrfa, y pryd addawedig i dderbyn yr iachawdwriaeth. Y pryd hyny, ac nid hyd y pryd hyny, y disgyn y goronbleth ar ei ben.

Defn. Gallwn yma gyfodi galarnad drom, wrth edrych ar y niferi o broffeswyr gwrthgiledig yn ein hoed. Ni bu yr haint ysbrydol hwn erioed yn fwy cyffredin. O, mor aml yw y rhai sydd yn y clefyd yn bresennol; ac nid ychydig sydd wedi huno ynddo! Ni wnaeth yr amserau hyn o ryfel a therfysg gymmaint o farsiantwyr candryll ag o broffeswyr candryll. Pa le y mae y gynulleidfa nas gall ddangos rhai wedi byw yn hwy na'u proffes. Nid yn annhebyg i bryf y sidan, yr hwn, meddant, ar ol ei holl nyddu, sydd yn gweithio ei hun allan o'i belen; ac o'r diwedd, yn myned yn chwilen gyffredin. Ai nid oes llawer, awyddfryd y rhai mewn crefydd y buom yn syllu arno gyda syndod, fel y disgyblion ar y deml, yn

barod i ddywedyd wrth ein gilydd, fel y rhai hyny wrth Grist, "Edrych pa ryw feini sydd yma!" Pa ddoniau llithrig, a grasusau disglair sydd yma; ac yn awr, heb gareg wedi ei gadael ar gareg! O, a feddyliasoch chwi erioed y byddai i'r rhai hyn (oedd yn gyd-deithwyr â chwi tua'r nef, mewn agwedd mor drwsiadus) droi yn ol wedi y cwbl—rhedeg i wersyll y diafol, a myned yn gablwyr, yn fyddolion, ac yn atheistaidd, fel y aeth rhai? O, y fath gyfnewidiad athrist sydd yma. "Gwell fuasai iddynt fod heb adnabod ffordd cyfiawnder, nag, wedi ei hadnabod, troi oddi wrth y gorchymyn sanctaidd a draddodwyd iddynt;" 2 *Pedr. ii. 21.* Gwell fuasai bod heb gerdded cam erioed tua'r nef, na dwyn y fath ddirmyg a gwaradwydd ar ffyrdd Duw. "Y mae y fath yn ymddangos fel un wedi gwybod am y ddau, ac yn dadgan ei farn mai hwnw yw y goreu, o'r hwn y mae efe drachefn yn gwneud dewisiad." [*Tertullian ar Edif.*] Wedi i'r cyfryw un, yn y fath fodd, ddadgan gwasanaeth y diafol yn well na'r eiddo Duw, pa fodd y mae yn bossibl i ddynd bechu gydag euog-rwydd trymach, a myned i uffern dan faich mwy o ddigofaint? Y rhai hyn yw y bobl y mae Duw yn eu ffieiddio. Y mae efe, sydd yn casau bwrw ymaith, yn llawer mwy atgas ganddo gael ei hun ei fwrw ymaith fel hyn. "Os tyn neb yn ol, nid yw fy enaid yn ymfoddloni ynddo;" *Heb. x. 31.* Dywedir fod y gwrthgiliwr yn "mathru Mab Duw" (*Heb. x. 29*), fel pe na byddai yn ddim gwell na'r dom dan ei draed. Wele, efe a gaiff fathru am fathru—Duw ei hun a esyd ei droed arno: "Sethraist y rhai oll a gyfeiliornant oddi wrth dy ddeddfau;" *Salm cxix. 118.* A phwy dybygech chwi a flina yn gyntaf? Y mae yr hwn sydd dan draed yn goddef pwy yr holl ddynd arno. Bod dan droed Duw yw bod dan holl bwys digder Duw. O, tostur iwech a gweddiwech dros y cyfryw eneidiau truan—y maent yn wrthdrysychau i dosturi ac yn destynau gweddi. Er eu bod wedi syrthio yn isel, nid dyndt yn uffern. Ni welwn ambell waith ryw Eutyclus yn cae ei gyfodi, ar ol syrthio o'r fath uchder. A chwithau sydd yn sefyll, edrychwch na syrthioch!

DOSE IV.

Athr. 2. Yn ail, Ni ddichon enaid hel arfogaeth ddywylf barhao. Mi a ddangosai beth yw yr arfogaeth hon; ac y mae y apostol yn ei darlunio yma yn ei hamryw ddarnau. Grususau sancteiddiol Ysbryd Duw yw yr arfogaeth hon. Un a fyddo hefyd y rhai hyn wedi eu gweithio ynddo, nis gall byth fyned trwy holl raddau yr yrfa Grist ionogol hon, i ymladd yr holl frwydrau sydd i'w hymladd cyn cael buddugoliaeth. Ar roddion cyffredin yr Ysbryd, megys goleuad argyhoeddiad, gloesion disymmwth, a gwre cryf yn y serch, hwy allant ddal y dyn yn

mlaen am dro mewn dullwedd olygus o sel bros Dduw, a chyflymdra mewn profres; ond y grym a ddyry y rhai hyn a dreulir yn fuan. Gwrandawyr Ioan (a grybwyllir yn *Ioan* v. 35), hwy a gawsant ryw oleuni a gwres trwy sistedd dan ei weinidogaeth danlyd ef: ond a hyd y parhaodd? "Chwithau oeddych wyllysgar i orfoleddu dros amser." Yr oedd lliviau prydfferth wedi eu tynu arnynt, ond heb eu gosod mewn olew; ac am hyn, iwy a olchwyd ymaith yn fuan. Gwnaeth y morwynion ffol cyn gryfed fflam yn eu ampau, a hwy a ddisgwyliasant cystal dydd yr ddyfodiad Crist a'r morwynion call. Ond, och! yr oedd eu lampau yn diffoddi yn iddo ef ymddangos; a chystal a fuasai bod heb rith, a bod heb y gwir. Yr oedd y tir creiglyd yn fwy blaenllaw na'r tir goreu: laeth yr had i fyny yn ebrwydd, fel pe buasai nwd i'w fedi yn fuan; ond daew ychydig o ew llym yn troi ei liw, a dydd y cynauaf yn troi yn ddydd o dristwech diobaith. Y mae yr esamplau hyn oll, a llawer chwaneg n y Beibl, yn dangos nad oes dim yn fyr o wir ras ac egwyddor o fywyd duwiol yn yr naid a barhá. Er mor hyfaddu y mae furfiolwyr a phroffeswyr ysgafn i ymfodloni'r obaith o gyrhaedd y nef, hwy a'i cánt yn am rhy faith i'w heneidiau byrion eu handl. Y rhesymau ydynt:—

1af. Y mae y cyfryw yn fyr o egwyddor yw a duwiol i dynu nerth oddi wrth Grist t eu dal yn mlaen yn eu gyrfa. Yr hyn ydd yn peri parhâd i'r enaid grasol ei hun w y cymhorth parhaol y mae yn ei gael oddi wrth Grist, fel y cedwir y fraich a'r troed n fyw yn y corph trwy yr ysbrydoedd ywydol a dderbyniant hwy o'r galon. Byw ydwyf (medd Paul), etto, nid myfi, ond Crist ynof fi;" *Gal.* ii. 20. Hyny yw, r wyf yn byw—ond ar draul Crist: efe sydd n dal fy enaid—ac felly fy ngras hefyd—mewn bywyd. Yn awr, y dyn anianol, sydd n fyr o'r undeb hwn, y mae yn rhwym i reulio a darfod mewn amser—ni fedd efe reiddyn i sefyll arno. Nid yw celain, ar lunwaith ddechreu pydru, byth yn gwellhau, ond yn gwaethygu beunydd, nes y braeno n gwbl: nid oes eli na plaster a wna les ldo. Ond lle y mae egwyddor o fywyd, no, pan archollir a'elod, y mae natur yn anfon ymhorth o ysbrydoedd, ac yn gweithio yda'r eli, at iachâd. Y mae yr un gwahan-aeth rhwng dyn grasol ac anrasol. Gwelch eu cyferbynu yn y golygiad hwn:—
Seithwaith y syrth y cyfiawn, ac efe a yfyd drachefn: ond yr annuwiolion a syrth-unt i ddrygioni." *Diar.* xxiv. 10: hyny yw, n eu cwmp y maent hwy yn cwmpo ym dshellach, ac ni feddant allu i'w hadferu eu unain. Pan bechodd Cain, chwi welwch modd y mae yn syrthio bellach, bellach, el careg ar oriwaered—nid yw efe yn sefyll es dyfod i waelod anobaith. O genfigenu

wrth ei frawd, aeth i falais; o falais, i lofruddiaeth; o lofruddiaeth, i gelwydd haerllug, a hyfdra caled o flaen Duw ei hun; ac o hyny i anobaith. Mor wir yw y gair, "Drwg-ddynion a ânt rhagddynt waethwaeth;" 2 *Tim.* ii. 13. Ond yn awr, pan syrthio sant, efe a gyfyd; am fod ganddo, pan y mae yn syrthio, egwyddor o fywyd i lefain ar Grist, a'r fath hawl yng Nghrist ag sydd yn ei gynhyrfu ef i roddi cymmhorth. "Arglwydd, cadw fi," ebe Pedr, pan ddechreuodd suddo; a dyna law Crist yn estynedig yn ebrwydd. Y mae yn ei geryddu am ei anghrediniaeth; ond y mae yn estyn cynnorthwy iddo.

2il. Ni fedd enaid diadgenedig sierwydd am barhâd y rhoddion cyffredinol (o eiddo yr Ysbyrd) sydd yn awr ganddo; y maent yn dyfod ar yr un ammodau a'i fwyniant tymmorol i'r cyfryw un. Nis gall dyn anianol, pan fyddo ei fwrdd wedi ei hulo yn fwyaf llawnwch, ddangos un gair o addewid dan law Duw y darperir iddo at y pryd nesaf. Y mae Duw yn rhoddi y pethau hyn i'r annuwiol, fel y rhoddwn ninnau grystyn, neu letty noswaith yn ein hysgubor, i gartdottyn:—ein haelioni ydyw; ac nis gall y cyfryw roddi hawlgwyn arnom am nacâd o hyny. Felly am roddion cyffredin yr Ysbyrd—nid oedd Duw yn rhwym i'w rhoddi; ac nid yw efe chwaith i'w parhau hwynt. Y mae genyt ryw wybodaeth am bethau Duw; er hyn, gelli farw yn y diwedd heb wybodaeth. Pechadur mewn cadwynau ydwynt: gras attaliol sydd yn dy gadw i mewn: gall hwn gael ei gymmeryd ymaith, a thithau gael dy ollwng mor rhydd i'th chwantau ag erioed. A pha fodd y gall efe barhau, yr hwn a all, mewn un dydd, syrthio o weddio i felldithio; ac o fod â chydwybod druanaid, achwyngar, i feddu cydwybod seriedig.

3ydd. Y mae gan bob dyn diadgenedig, pan fyddo yn fwyaf dyfal wrth broffes, yr ymrwymadau hyny arno, a fyddant yn sier o'i ddwyn ef ymaith, ar ryw dro neu gilydd, pan wasger arno. Y mae un yn rhwym i'r byd; a phan allo ddyfod i farchnad dda am hwnw, yna, ymaith yr â: nis gall efe gael y ddau; ac yn awr, fe wna yn amlwg pa un y mae yn ei garu yn fwyaf. "Demas a'm gadawodd, gan garu y byd presennol." Y mae arall yn gaeth i'w chwant; a phan alwa hwn, y mae yn rhwym i fyned, er gwaethaf profres, cydwybod, Duw, a'r cyfan. Herod a ofnai Ioan, ac a wnai lawer o bethau; ond y mae cariad yn drech nag ofn: ei gariad at Herodius a drechodd ofn Ioan, ac a barodd iddo ar unwaith dori pen Ioan, a'r blagur gobeithiol a ymddangosodd yn nhynnerwch ei gydyddod, ac mewn dechreu diwygiad. Rhyw wreiddyn chwerwedd neu gilydd a dyf i fyny yn y fath un. Os halogedig fydd gwedd yr enaid, i hyny y daw yn y diwedd, er y gall fod rhyw liw

crefyddol yn ymddangos yng ngwyneb y dyn dros dro, oddi wrth ryw achos allanol arall.

Defn. Y mae hyn yn dangos pa beth yw gwreiddyn pob llwyr wrthgiliad; a hyny yw diffyg o wir gyfnewidiad calon. Nid colli y gras a fu ganddo y mae y gwrthgiliwr, ond dangos na fu ganddo ddim erioed; ac nid rhyfedd yw clywed ei fod ef wedi tori ag oedd yn waeth nag heb ddim pan osododd i fyny gyntaf. Y mae llawer yn cymmyrd eu santolaeth i fyny ar goel, ac yn marchnata yn nyledswyddau crefydd â'r gair da a gawsant trwy dyb ereill am danynt. Hwy a goeliant eu bod yn Gristionogion, am fod ereill yn gobeithio eu bod yn gyfryw; ac felly, eu traferth fawr hwy, trwy eu sel yng nghyflawniadau allanol crefydd, yw cadw y cymmeriad sydd iddynt ar led; ond ni edrychant am ystôr o ras sylweddol oddi mewn, a ddylai fod i'w dal i fyny yn eu profes; a hyn sydd yn eu handwyo yn y diwedd. Gan hyny, pared hyn i ni, yn ofn Duw, ystyried ar ba sail y codwn ein profes. A oes genym ni hyny oddi mewn, a wna gyfatteb i'n sel oddi allan? A osodasom ni waelod da? Ai nid yw yr oruchadeilad yn bendrwm—yn tafu yn rhy bell dros y sylfaen gwan? Hwy a ddywedant fod coed yn tafu gwradd ar led dan y ddaear yn ol maint eu cangen uchod; ac felly y gwna gwir ras. O! cofiwch beth a fu dinystr yr had yn y tir creiglyd—nid oedd gwreiddyn iddo; a pha ham felly, ond a meifod yn greiglyd? Bydd fodd lawn i'r aradr fyned yn ddigon dwfn, i'th ddarostwng am bechod a rhywgo dy galon oddi wrth bechod. Yr enaid a ddygwyd yn effeithiol oddi wrth garu pechod, fel pechod, ni bydd byth yn gyfaill hollol iddo drachefn. Mewn gair, chwilia yn ddirifol am y prif gynnyrfydd sydd yn gosod dy holl olwynion ar ysgogiad yn dy grefydd. Gwna fel y gwyr a chwennyent wybod pa faint a dalant; y rhai a osodant eu dyledion oll ar un ochr, a'r ystôr a feddant ar yr ochr arall; ac wedi iddynt dynu allan bob dyled ac ymrwymiad, gallant alw yr hyn sydd yn ol yn eiddo iddynt eu hunain. Fel hyn, ystyria dithau pa ymrwymadau sydd arnat i'th gymmeriad bydol, i'th elw, i'th ofn caethwasaid tuag at Dduw, ac i'th chwant hunanol am ddedwyddwch; ac wedi i ti adael i bob un o'r rhai hyn ei gyfran, yna, edrych pa faint sydd yn ol o'th ofn tuag at Dduw, cariad ato, &c. Os ni bydd dim, nid wyt yn waeth dim; os bydd peth, po lleiaf fyddo, gwanaf o Gristion wyt ti; a phan y delych i'th brofi yn nhân Duw, ti gei golled am y lleill oll, y rhai, fel gwair a sofr, a gânt eu llosgi.

DOSP. V.

Athr. 8. Bydd i bob enaid a wisger â'r arfogaeth hon o eiddo Duw sefyll a pharhau. Neu fel hyn, nis gellir byth orchfygu gwir ras. Y mae'r Cristion wedi ei eni yn gongewerwr; "pyrth uffern ni's gorchfygant

ef." "Yr hyn a aned o Dduw, y mae yn gorchfygu y byd;" 1 *Ioan* v. 4. Nodwch o ba le yr ysgrifenydd y fuddugoliaeth, sef o'r enedigiaeth. Y mae buddugoliaeth wedi ei hau yn y natur newydd, sef yn had Duw, a geidw'r dyn rhag cael ei lyngu gan bechod, na Satan. Megys y cyfododd Crist, nid i farw byth mwyach; felly y mae efe yn cyfodi eneidiau o fedd pechod, i beidio dyfod byth mwyach dan allu marwolaeth ysbrydol. Y saint hyn i Dduw, ni welant lygredigaeth. Oddi yma y dywedir am yr hwn sy'n credu, fod ganddo, yn y pryd presennol, fywyd tragwyddol. Megys nas gallai y gyfraith, a ddaeth bedwar can mlynedd wedi hyny, ddiddymu'r addewid a wnaethpwyd i Abraham; felly, ni ddichon dim a gyfryngo attal cyflawniad yr addewid hono o fywyd tragwyddol a roddwyd i Crist yn achos ei eiddo, er cyn sylfaenu y byd. Pe byddai modd i sant fethu, a syrthio yn fyr o'r bywyd tragwyddol, byddai raid i hyn fod oddi wrth un o'r tri achos hyn:—1. Am y gall Duw adael y Cristion, a thynuei ras a'i gymmhorth oddi wrtho. Neu, 2. Am y dichon y credadyn adael Duw. Neu, 3. O herwydd y gall Satan ei ddwyn ef o law Duw. Nis gwn i am bedwerydd achos. Yn awr, ni ddichon un o'r rhai hyn fod.

1. Nis gall Duw byth adael y Cristion. Fe ddirfododd rhai geiriau byrbwyll oddi wrth eneidiau temtiedig, yn dangos rhyw ofnau y bwriai Duw hwynt ymaith: etto hwy a wrthbrofwyd, ac a alwasant eu geiriau yn ol gyda chywilydd, fel y gwelwn yn Iol a Dafydd. O, y fath sicrhâd rhyfedd a roddodd y Duw mawr i'w blant yn y peth hwn!

2. Iaf. Mewn addewidion. "Efe a ddywedodd, ni'th roddaf di i fyny, ac ni'th lwyr adawaf chwaith;" *Heb.* xiii. 5. Y mae yna yn ol y Groeg, dri nacâd, fel cynnifer o seliau, i gadarnhau yr addewid ni ffydd ni. Y mae yn sicrhau i ni na bu erioed, ac ni ddichon byth fod, un meddwl edifeiriol yn ei galon am fwriadau ei gariad a'i ras neill duol tuag at ei blant. "Diedifarus yw doniau a galwedigaeth Duw;" *Rhuf.* xi. 29. Nid yw hyd yn oed pechod y credinwyr i'w erbyn, eu hymddygiad gwrthnysig, yn cyffroi meddyliu am eu bwrw ymaith, ond am eu dychwelyd. "Am anwredd ei gybydd-dod ef y digiais, ac y twareais ef, ynguddiais a digiais; ac efe a aeth rhagddo yn gildynus ar hyd ffordd ei galon: ei ffyrdd a welais, a mi a'i iachaf ef;" *Esa.* lviii. 17. 18. Dwfr ffaeleddu'r saint, er ei fwrw a dân cariad Duw, nis gall mo'i ddiffodd. Y neb y mae efe yn ei garu, efe a'i câr hyd y diwedd.

2il. Y mae Duw, i beri pwys ac argraff mwy ar ein calonau anghrediniol a drwg dybus ni, wedi selio ei addewid â llw: "A thrugaredd dragwyddol y trugarhaf wrthyt

medd yr Arglwydd, dy waredydd: canys fel dyfroedd Noah y mae hyn i mi; canys megys y tyngais nad elai dyfroedd Noah mwy dros y ddaear; felly y tyngais na ddigwn wyrthyt;" *Esa*. liv. 9, 10. Ië, y mae yn myned ym mlaen yno fel hyn, "y mynyddoedd a giliant" (sef yn niwedd y byd, pan fydd i holl adail nef a daear ymddattod), "eithr fy nhrugaredd i ni chilia, a chymmmod fy hedd ni syfl." Yn awr, rhag i neb dybied mai rhyw freinlen oedd hon yn perthyn i'r Iuddewon yn unig, ni a'i cawn (yn *adn.* 17) wedi ei sefydlu ar bob gwas i Dduw fel ei ran: "Dyma etifeddiaeth gweision yr Arglwydd, a'u cyfiawnder hwysydd oddi wrthyf fi, medd yr Arglwydd." Ac yn sier, y Duw sy mor ofalus i sierhau etifeddiaeth ei blant iddynt, ni rydd ond diolch bychan i'r rhai sy'n rhoddi eu penau ar waith i wanhai a dirymu ei weithredoedd, te, a gwrthbrofi ei ewyllys. Pe buasant wedi derbyn gwobr, nis gallasant ddadleu achos Satan yn well.

3ydd. Yn y cyflawniad cywir o'r addewidion (a wnaeth efe i gredinwyr) i Grist, eu gwr dirprwy. Megys y rhoddodd Duw cyn lechreu y byd addewid o fywyd tragwyddol i Grist drostynt hwy, felly y mae efe yn awr wedi rhoddi llawn feddiad o'r drifan agoneddus hono i Grist, fel eu dadleuwr a'u dirprwywr, lle y cânt fwynhau y bywyd tragwyddol hwnw. O herwydd, megys y laeth efe ar ein neges ni o'r nef, felly efe a ldychwelodd yno, i gymmeryd a chadw neddiant o'r etifeddiaeth hono, a addawasai Duw er cynt, ac y talasai yntau mewn un wam am dani wrth farw. Ac yn awr, pa ail i ofn a ddichon fod yng nghalon y credwyr am sier barhâd cariad Duw tuag ato, pan welo yr holl gyfammod wedi ei gyflawni isoes i Grist drosto? Y mae Duw, nid yn unig wedi ei alw ef, ei sancteiddio at, i gynnal, yn y gwaith mawr yr oedd ddo ei orphen drosom ni, ond hefyd wedi ei gyfiawnhau, yn ei adgyfodiad a'i yddhad o garchar, a'i dderbyn i'r nef, yno eistedd yn oruchel ar ddeheulaw y Mawredd: a thrwy hyn, y mae ganddo nid yn unig feddiant drosom ni, ond hawl gyflawn hefyd yw roddi i bob credadyn.

Y mae ail achos o ofn i'r credadyn, na ydd iddo barhau, a all gyfodi oddi wrtho ef i hun. Y mae ganddo lawer o ofnau thrist ac o gryndod calon, y bydd iddo o'r iwedd adael Duw. Y mae y daith i'r nef n hir, a'i ras yntau yn wan. "O," medd fe, "onid yw yn bosibl i'r gras bychan yma ethu, ac i minnau syrthio o'r diwedd yn fyr o goniant?" Yn awr, y mae yma y fath rag-darbodaeth yn y cyfammod ag a wasgara y wmwyl hwn hefyd.

1af. Ysbryd Duw a roddir o wir fwriad i agflaenu hyn. Gadawodd Crist ei fam ydag Ioan, ond ei saint yn llaw ei Ysbryd,

i'w haddysgu a'u cadw, fel na chollont eu hunain yn eu taith i'r nef. O! mor felus yw y lle hwnw, "Rhoddaf fy Ysbryd o'ch mewn, a gwnaf i chwi rodio yn fy neddfau, a chadw fy marnedigaethau, a'u gwneuthur;" *Ezec.* xxxvi. 27. Nid yw efe yn dywedyd y cânt ei Ysbryd ef, os rhodiant yn ei ddeddfau. Na, ei Ysbryd ef a wna iddynt rodio yn iawn. Ond fe allai dy fod yn ofni y gelli di ei ofidio ef, ac felly yntau mewn dig dy adael dithau, ac y derfydd am danat o eisieu ei help a'i gynghor. *Atteb.* Y mae Ysbryd Duw yn wir yn ymsyniol o angharedigrwydd, ac o herwydd pechod sant, efe a all gilio o ran cyymmorth presennol, ond nid byth o ran ei ofal. Megys y gall mam adael i'w phlentyn anhydlyn fyned ei hun, nes y caffo ddyrnod a wna iddo lefain am gael ei godi drachefn i'w breichiau; ond y mae ei llygaid hi o hyd arno, fel na chaffo syrthio i niwed. Fe giliodd yr Ysbryd oddi wrth Samson, ac efe a syrthiodd i ddwylaw y Philistiaid: parodd hyn iddo lefain ar Dduw, ac y mae'r Ysbryd yn ei nerthu drachefn. Felly yma. Yn wir, swydd yr Ysbryd ydyw aros gyda'r saint hyd byth: "Efe a rydd i chwi Ddiddanydd arall, fel yr arosogyda chwi yn dragwyddol;" *Ioan* xiv. 16.

2il. Un prif orchwyl yn eiriolaeth Crist yw cael gan Dduw barhâd i'n grasusau gweiniaid. "Mi a weddiais," medd Crist wrth Pedr, "fel na ddifffygiai dy ffydd di." Ond ai nid rhagorfraint neillduol oedd hono, a ganiatawyd iddo ef, ac a ellir ei nacau i ereill? O syrs, a dybiwn ni fod cariad Crist yn edrych yn llygattraws? A yw efe yn gweddio mwy dros y naill blentyn na'r llall? Y mae plant ffyl yn dueddol i goffeidyo y fath ofn ac eiddigedd; ac am hyny, y mae Crist yn eu rhagilaenu trwy erchi i Pedr yn y geiriau nesaf, "Tithau, pan y'th droer, cadarnha dy frodyr?" *Luc* xxii. 32. Hyny yw, pan deimlech effaith a grym fy ngweddi dros dy ffydd, dwg dy newydd da hwn atynt, fel y cadarnhaer eu calonau hwythau hefyd. A pha gadarnhâd a fusasai iddynt, pe na buasai Crist yn gweddio drostynt hwy yn gystal a thros Pedr? A yw Crist yn gweddio drosom ni? Ië, onid yw efe yn byw bob amser i weddio drosom? O, pa fodd y gall cynnifer o weddiau, a'r cyfryw weddiau, gyfrgollu? Y mae grym mawr yng ngweddiau y saint. Ymdrechodd Iacob, a chafodd nerth gyda Duw: hyn oedd ei gleddyf a'i fwa (yn ol ei ddywediad am y rhan a ddygasai o law yr Amoriaid (*Gen.* xlvi. 22), trwy hyn y cafodd nerth a goruchafiaeth gyda Duw. Dyma yr allwedd a'r hwn yr agorodd ac y cauodd Elias y nef. Ac os oes i weddiau gweiniaid y saint (a ddel yn ei enw ef) y fath fri yn y nef, fel y gall ant trwyddynt fyned i drysor Duw, a dwyn ymaith gymmaint ag a ddeil braich eu ffydd: O, ynta, pa ffyniant sydd i eiriolaeth Crist,

sydd yn Fab, yn ufudd Fab, a ddaeth o orphen ei orchwyl mawr ar y ddaear, ac nid yw yn awr yn gofyn am ddim gan ei Dad ond yr hyn a archodd efe iddo ofyn, i.e. am ddim ond yr hyn y mae yn flaenllaw arno am dano, a hyn oll gyda Thad sydd yn caru y rhai y mae yn gweddio drostynt gystal ag efe ei hun? Arch i Satan fyned ymaith : na ddywed y bydd i'th ffydd wan drengu, nes y clywech ddarfod i Grist roddi heibio gweddio, neu gyfarfod a nacad.

3. Edrychwn a ddichon Satan dynu y Cristion ymaith, a myned rhyngddo ef a'i gartref. Yr wyf wedi cael achlysur i son am y mater hwn mewn lle arall ; caiff llai wasanaethu yma. Y mae darpariaeth hel-aeth yn erbyn ei ruthriadau. Y mae'r sant wedi ei olygu yn nhragwyddol freichiau nerth hollalluog : a pha beth a all cythraul melltigedig ei wneud yn erbyn Duw, sydd wedi rhoddi arno y cadwynau nas gall efe eu hysgwyd ymaith? Pan allo efe dynu allan o'i gydwybod ei hun y bicell o ddigder dwyfol a blannod Duw yno, yna bydded iddo feddwl am y fath anturiaeth a hon. Pa fodd y gall efe dy orchfygu, pan na all dy demtio ond yn amser appwyntiedig Duw? Ac os Duw sydd yn gosod ei amser i Satan ruthoro ar y Cristion, sydd mor anwyl ganddo, yn sicr efe a'i gesyd pan y caiff ei yru yn ol gyda'r cywilydd mwyaf.

Defn. 1. Ymaith ynte a'r athrawiaeth hono sydd yn dywydyd y gall dyn fod yn sant heddyw, ac yfory heb fod ; yn awr yn Bedr, yn y man yn Iudas. O, y fath sothach difas yw hyn! Egwyddor ydyw sydd ar unwaith yn croesi prif fwriad Duw yng nghyfammod yr efengyl, yn rhoddi gwarthrudd trwm ar anrhydedd Crist, ac yn archolli cysur y saint hyd y galon.

2. Iaf. Y mae yn rhoddi anghlod i fwriad yng nghyfammod yr efengyl (neu y cyfammod o ras), sydd yn amlwg fel hyn :--Fel y rhoddi ef i blant ef mewn cyflwr sicr a diogel rhag methu yn y diwedd ; yr hyn nid oedd yn eiddo dyn wrth y cyfammod cyntaf. "Am hyny, o ffydd y mae, fel y byddai yn oll gras ; fel y byddai yr addewid yn sicr i'r holl had." *Rhuf.* iv. 16. Gwnaeth Duw gyfammod newydd, yn fwriadol, o herwydd gwendid y cyfammod cyntaf, trwy natur gyfnewidiol dyn. Y mae'r newydd o ffurf a threfn tra gwahanol—nid o weithredoedd, fel yr oedd y llall, ond o ffydd, fel y byddai yn sicr i'r holl had ; fel na byddai i un enaid mabwysiedig i deulu Abraham, ac wedi ei wneud felly yn blentyn yr addewid, fod yn fyr o etifeddu bendith yr addewid, sef, bywyd tragwyddol fel ei gelwir yn *Tit.* i. 2. A hyn oll, am fod yr addewid wedi ei sylfaentu ar ras, sef ar ewyllys da anghynewidiol Duw yng Nghrist, ac nid ar ufudd-dod anwadal ac ansefydlog dyn, fel yr oedd y cyfammod cyntaf. Ond os dichon

sant syrthio yn llwyr-barhaol, yna nid yw yr addewid yn y cyfammod hwn ddim sicraach nag yn y llall ; ac felly, ni chai Duw mo'i fwriad i ben.

2il. Y mae yn warthrudd trwm ar anrhydedd Crist, fel y mae efe dan ymddiried am iachawdwriaeth y saint, ac fel y mae iddo ei ran yn y gwaith. Yn gyntaf, fel y mae dan ymddiried am iachawdwriaeth y saint. Efe a ddywed i ni eu bod wedi eu rhoddi iddo gan ei Dad, i'r gwir ddben hwn, fel y rhoddi efe iddynt fywyd tragwyddol : i.e. rhoddiwyd iddo yr awdurdod sydd ganddo ar bob cnawd, i'w wneud ef ym mhob modd yn alluog i ddwyn yr un gorchwyl hwn i ben : *Ioan* xvii. 2. Y mae efe yn derbyn y swydd, yn eu haddef hwynt fel ei ddefaid, yn eu hadnabod bob un, ac yn addaw "Y rhydd efe iddynt fywyd tragwyddol ; na chyfrngolant byth, ac na ddwg neb hwynt allan o'i law ef ;" *Ioan* x. 27, 28. Yn awr, pa mor dda y mae y rhai hyny yn ystyried anrhydedd Crist, a ddywedant y gall ei ddefaid ef farw mewn ffos o wrthgiliaid hollol er hyn i gyd? Yn ail, fel y mae iddo ran yn iachawdwriaeth pob saint. Y mae bywyd ei ogoniant ef ei hun wedi ei rwymo ym mwywyd tragwyddol ei saint. Y mae yn wir, pan gwmpodd Adda, fe achubodd Duw ei air da : ond pa fodd yr achub Crist ei air da, yr hwn a unwyd mor agos â phob enaid crediniol? Yr oedd cynghair cymdeithasol rhwng Duw ac Adda ; ond nid y fath undeb ac yma, lle nid yw Crist a'i saint yn gwneud ond un Crist ; ac am hyn, y mae yr eglwys dan enw Crist : "Fel y mae y corph yn un, ac iddo aelodau lawer, a holl aelodau yr un corph, cyd byddont lawer, ydynt un corph ; felly y mae Crist hefyd," 1 *Cor.* xii. 12. Nid yw Crist a'i aelodau yn gwneud ond un Crist. Yn awr, a yw yn bosibl y ceir darn o Grist yn llosgi yn uffern yn y diwedd! A all Crist fod yn Grist cloff? A ddichon yr aelod hwn a'r llall syrthio ymaith? Y mae mor bosibl i'r cwbl ag i un syrthio : a pha fodd y gall Crist golli ei aelodau dirgelaid a chadw ei ogoniant? Onid yw pob aelod yn chwaneu addurn, i.e. bri, i'r corph? Gelwir yr eglwys, "Ei gyflawnder ef ;" *Eph.* i. 23. O, mor ddianrhydeddus i Grist ydyw i feddwl y byddai ef yn fyr o ddim o'i gyflawnder! A pha fodd y gall y dyn fod yn gyfan a chyflawn sydd yn fyr o aelod?

3ydd. Y mae yn archolli cysur y saint hyd y galon, ac yn gollwg gwaed eu llawenydd. Paul a ddywed (2 *Cor.* ii. 17) nad oedd efe yn gwneud masnach, sef nad oedd yn cymmysgu gwin da gair Duw â dwfr dychymygiol dynion. Na, efe a roddodd iddynt efengyl bur. Yn ddiâu, y mae y dyt hon am y saint yn colli gras, yn rhoddi cymmysgiad trwm i win peraidd yr addewidion : y mae'r cysur adfywiol i enaid sydd yn

gwreichioni ynddynt, yn tarddu oddi wrth y trosiad sicr, â'r hwn y maent, yng Nghrist, wedi eu gwneud yn eiddo i'r credinwyr, i'w meddu a'u cadw hyd byth. Oddi yma y gelwir hwynt yn "siec drugareddau Dafydd" (*Act.* xiii. 24)—trugareddau na phallant byth. Hwn yn wir sydd win a lawenyca galon y Cristion; er y gall efe gael ei chwipio yn y tŷ, pan becho, etto ni chaiff ei droi dros y drws. Megys yr addawodd Duw yn y cysgod i had Dafydd: "Ond ni thoraf fy nhrugaredd oddi wrtho, ac ni phallaf o'm gwirionedd...bydd ei had ef yn dragywydd;" *Salm* lxxxix. 33, 36. Pe gallai dim wahanu y credadyn oddi wrth gariad Duw yng Nghrist, byddai hyn megys twll yng ngwaelod ei gwpan, yn gollwng ei lawenydd oil i gollu: yna, gallai ofni i bob profedigaeth neu gystudd a'i cyferfydd ei ladd; ac felly, byddai i fellidith Cain fod yn rhan y Cristion: byddai ei fywyd o hyd yn hongian o'i flaen mewn amheuaeth; a'r disgwyliad arswydus am fethu yn y diwedd, yr hyn a wel a all ddiogydd iddo, a ddfisai holl lawenydd ei obaith presennol. Yn awr, mor groes yw y fath dymmer calon i ysbryd mabwysiad, a llawn sicrwydd gobaith, a ddyry gras y cyfammod newydd, y dichon yr hwn a redo ei ddarllen.

Defn. 2. Y mae'r gwirionedd hwn yn darpar cysur cryf i adloni ysbrydoedd llesmeiriol credinwyr gweiniaid, y rhai a ddelir gan lawer o ofnau yn nghylch eu parhâd, at eu dal hyd ddiwedd eu milwriaeth. Bydd gy-surus, enaid tlawd, y mae Duw wedi rhoddi i Crist fywyd pob enaid o fewn i arch ei gyfammod. Y mae dy ddiogelwch tragwyddol wedi ei sicrhau: "Y neb y mae yn ei gâr, efe a'i câr hyd y diwedd;" *Ioan* xiii. 1. A wnaeth efe di yn ewyllysgar yn nydd ei nerth, i deithio dan ei faner ef ac arddel ei gweryl ef yn erbyn pechod ac uffern? Yr un gallu ag a ddarostyngodd dy galon wrth-ryfelgar di iddo ei hun, a ddarostwng drost dy holl elynion oddi mewn ac oddi allan. Na ddywed mai corsen ysig ydwyt: â hon y dryllia efe ben Satan; ac ni phaid nes y dygo allan farn, i lawn fuddugoliaeth yn dy enaid di. Efe, yr hwn a all beri i ychydig wyr arcolledig gyfodi a chymmeryd dinas gadarn, a all beri i ysbryd brimedig orchfygu pechod a diaffiaid: *Ier.* xxxvii. 13. Safodd yr arch yng nghanol yr Iorddonen, nes i holl wersyll Israel fyned trwodd yn ddiogel i Ganaan (*Ios.* iii. 17); ac felly y gwna y cyfammod, nad oedd yr arch ond yn ei gysgodi; fe, Crist, cyfammod, a chwbl, a safant i ddiogelu trosglwyddiad y saint i'r nef. Os bodda ond un credadyn, rhaid i'r cyfammod foddî gydag ef. Y mae Crist a'r saint wedi eu gosod ynghyd, fel cydetifeddion o'r un etifeddiaeth: "Os plant, etifeddion hefyd, sef etifeddion i Dduw a chydetifeddion â Christ;" *Rhuf.* viii. 17. Nis gallwn ddadleu

yn erbyn un, heb amheu cadernid hawl y llall. Pan glywoch fod Crist wedi ei droi allan o'r nef, neu ei fod ef yn tueddu i werthu ei etifeddiaeth yno; yna, Gristion tlawd, ofna am dy ddyfodiad yno, ac nid cyn hyn. Nis gall cydetifeddion werthu yr etifeddiaeth, oddi eithr i bob un roddi ei hawl i fynt: ni wna Crist hyn byth, ac ni oddef i tithau wneud chwaith.

Defn. 3. Y mae'r gwirionedd hwn yn galw am air neu ddau o ocheliad. Er nad oes lle i ofni cwymp y saint o gyflwr o ras, etto y mae perygl mawr o gwmpw ereill o ben yr athrawiaeth gysurus hon i ddfrawder esgeulus a hyfder rhyfygus. Ac am hyn, y mae canllaw yn dra angenrheidiol; fel y gallom sefyll wrthi, gyda diogelwch i'n heneidiau, a thremio ar y golwg hyfryd a rydd y gwirionedd hwn o'n blaen. O'r un blodeuyn y sugna'r wenynefen fêl, ac y tyn y pryf copyn wenwyn. Yr hyn sy'n adferol i ras y Cristion, fe'i gwneir yn gynhyrfiol i chwant y drygionus. Yr hyn a ddywed Paul am y ddeddf, a allwn ninnau ei wirio am yr efengyl. Y mae pechod yn cymmeryd achlysur oddi wrth ras yr efengyl, a'i haddewidion melus, yn twyllo y-galon anianol, ac yn gweithio yn y dyn bob math o anwiredd. Yn wir, anfynych y tyf pechod mor ddrygsawrus mewn un man ag yn y rhai a ddyfrhânt ei wraidd â gras yr efengyl. Y mae dwy ffordd i wydroi yr athrawiaeth hon:—

1af. I esgeulusiad dyledswydd.

2il. I ryddid i bechu. Gochel y ddwy.

1af. Gochel syrthio i esgeulusdra o ddyledswydd ar y cyfrif yma, Os wyf yn Gristion, nis gallaf syrthio ymaith oddi wrth ras. Yn feddyginiaeth yn yr achos, cymmer y tri pheth hyn:—

(1af.) Y mae rhesymau ereill i'th wahodd, fe, i'th gymhell, i gyflawniad parhaol ac egniol o ddyledswydd, er i ofn syrthio ymaith gael ei gau allan; onid e, nid wyt ti yn Gristion. Beth? dim i wneud y plentyn yn ddiwyd o ddeutu gorchwyl ei dad ond ofn cael ei ddietifeddu a'i droi dros y drws? Yn sicr, y mae rhyw ysgogydd gwell at ddyledswydd yng nghalon Cristion; onid e, y mae crefydd yn waith gwael iawn. Dywedwch drosoch eich hunain, O! chwi saint; ai eich cadwedigaeth eich hunain yw y cwbl yr ydych yn gweddio ac yn gwrandaw am dano? Pe deuai cenad o'r nef, a mynegi i chwi fod y nef yn eiddoch, a wnai hyn i chwi adael eich masnach ysbrydol, a myned yn ddiogel ynghylch mwy o gydna-byddiaeth â Duw nes eich dyfod yno? O! mor erwin y mae hyn yn swnio yn eich clustiau! Mae y fath egwyddorion yn argraffedig yn mynwes y Cristion ag na oddefant i hir ddiethrwech fagu rhyngddo â Duw. Y mae efe dan ddeddf bywyd newydd, sydd yn ei dueddu yn naturiol i chwennych

cymdeithas â Duw, fel y plentyn am weled wyneb ei anwyl dad. Ac y mae pob dyledswydd yn fryn ym mha un y mae Duw yn ymgynnyg i'w ganfod a'i fwynhau gan bob Cristion.

(2il.) Y mae esgeuluso dyledswydd oddi ar y cyfryw farn yn wrthwyneb i arfer a chyngor Crist. Yn gyntaf, Ei arfer. Er na ddarfu i Grist érioed ammheu cariad ei Dad, na phetruso am y dedwydd ganlyniad o'i demtasiynau, ei ing, a'i boenau oll, etto, y mae yn gweddio drachefn a thrachefn yn ddyfalach: *Luc* xxii. 44. Yn ail, Ei gyngor a'i orchymyn. Efe a ddywedodd wrth Pedr fod Satan wedi ceisio cenad i'w nthio: ond y mae hefyd yn ei gysuro ef, oedd i gael y prawf caletaf, â hyn: "Eithr mi a weddiais drosot, fel na ddiffygiai dy ffydd di. Wel, a yw ein Iachawdwr, trwy y ddarpariaeth hon drosto ef a'r lleill, yn meddwl iddynt hebgor y boen, fel nad oedd raid iddynt hwy na gwylio na gweddio? Dim o'r fath beth. Cyn hyn, fel y gwelwch yn *adn.* 40, y mae yn eu galw at ddyledswydd: "Gweddïwch nad eloch mewn profedigaeth." Yr oedd gweddi Crist drostynt i gryfhau eu ffydd hwynt, pan weddïnt hwy eu hunain am yr un drugaredd—nid i feithrin eu diogi, fel na byddai raid iddynt hwy weddio. Y mae gweddiau Crist yn y nef dros ei saint, wedi eu gwrandaw oll eisoes; ond y mae'r ffirwyth o honynt yng nghadw, i gael ei gynnwys yn yr ateb a enfyn Duw i'w gweddiau hwynt eu hunain. Nis gall y Cristion ddisgwyl mewn ffydd am dderbyn y trugareddau y gweddiau Crist am danynt yn y nef, tra y byddo efe yn byw mewn esgeulusdra o'i ddyledswydd ar y ddaear. Y maent yn barod, erbyn y galwo efe am danynt drwy weddi ffydd; ac onid ydynt yn werth anfon y genad hon i'r nef, yn ddiau ni thalant ond ychydig.

(3ydd.) Ystyria, er fod y Cristion wedi ei ddiogelu rhag gwrthgiliaid hollol a pharhaol; etto, efe a ddichon syrthio yn laethus, i friwo ei gydwybod, gwanhau ei ras, a gwardwyddo yr efengyl: ac yn sicr, y mae hyny yn ddigon i gadw y Cristion ar ei wylia-wriaeth; a hyny yn fwy, am fod gwrthgiliau y saint yn gyffredin yn dechreu yn eu dyledswyddau. Megys y mae gyda chrefftwyr yn y byd; yn gyntaf, hynych a iant yn ddiolff am eu gwaith, yn fyny allan o'u gweithdŷ; ac yna, iant yn ol llaw yn eu meddiannau: felly yma; yn gyntaf, esgeulusir dyledswydd; yna, syrthiant i amhariaeth yn eu grasusau a'u cysuron; i.e. weithiau, i ffyrdd igwaradwyddus. Y mae dilledyn yn colli ei ddisgeirder cyn y treulio; felly y Cristion loewder ei ras yn yr arferiad bywiol o ddyledswydd, ac yna ei rym.

2il. Gochel gamarfer yr athrawiaeth hon i ryddid i bechu. A bechwn ni am fod gras vn amlhau? A awn ni yn benrhydd am

fod Duw yn rhwym genym yn ei addewid? Na atto Duw: ni ddysgai neb i ni y ddadl-euyddiaeth hon ond y diafol. Yr oedd yr Iuddewon truenus hyny a allent dralyngu a chyfeddach, tra yr oedd anghu yn sylu arnynt yn y ffenestri, wedi cyrhaedd gradd uchel mewn pechod: "Bwytaŵn ac yfwn, canys yfory marw yr ydym." Hwya a amlygasant eu didduwiaeth yn hyny. Ond i ba faintioeli anferth mewn pechod y mae yn rhaid i'r dyn hwnw fod wedi tyfu, a all bechu dan noddod yr addewid, a thynu ei galondid i bechu oddi wrth gariad trugwyddol Duw? Bwytaŵn ac yfwn, canys yr ydym yn sicr o gael bywyd ac achubiaeth. Nis gall gras breswyllo yn y galon hono a dyn y fath benderfyniad melldigedig oddi wrth addewidion gras Duw. Nid felly y dysgodd y saint Grist. Y casgliad a wna yr apostol oddi wrth y rhagorffreintiau hyfryd a fwyhawn trwy y cyfammod gras yw, nid fod i ni ymdreiglo mewn pechod; ond "Gan fod genym yr addewidion hyn, ymlanhawn oddi wrth bob halogrydd cnaud ac ysbryd;" 2 *Cor.* vii. 1. Natur ffydd (y gras sydd yn marchnatta âg addewidion) yw puro y galon. Yn awr, po cryfaf y newydd a dwg ffydd oddi wrth yr addewid am gariad Duw i'r enaid, mwyaf y mae yn puro y galon; am fod cariad (trwy yr hwn y mae ffydd yn gweithio) yn ennyn yn fwy at Dduw trwy hyny. Ac os unwaith y cymmer y serch yma dân, bydd yr ystafell yn rhy boeth i bechod lettya yno.

DOSB VI.

Y pedwerydd, a'r sylw olaf yw, Y bydd yn wobryw helaeth, er yr holl galedi a'r blinfyd a ddiodeffa y Cristion yn y ryfel hon yn erbyn pechod a Satan, y bydd iddo allu sefyll ar orpheniad y rhyfel. Mewn rhyfel oedd dynol, nid yw pawb sydd yn rhyfela ynddynt yn ennill oddi wrthynt: ni roddir ennill y rhai hyn, yngyffredin, ond ym mhysau ychydig. Y milwyr cyffredin a ddiodeffant fwyaf o'r caledi; ond ychydig o'r elw sydd yn dyfod i'w rhan hwynt. Y maent hwy yn ymladd i wneud ychydig o rai mawr etto yn fwy; ac yn fynyh, hwy a droi ymaith eu hunain gyda'r hyn a dâl yn briu am iachau eu briwiau, neu a'u ceidw rha; newynu mewn ysbytty tlawd. Eithr yn y rhyfel hon, nid oes neb yn colli ond y newydd yn ffoi ymaith. Y mae gwobr ogon eddus i bob milwr ffyddlawn yng ngwersyl Crist; a hwnw wedi ei rwymo i fyny yn y ymadrodd hwn, "Wedi gorphen pob peth sefyll." Yn awr, y mae "sefyll" yn cyswys yma dri pheth; a gosod y rhai hyn ynghyd a eglura y pwngc.

1. Sefyll, yma, ydyw sefyll yn gongewerwr. Dywedir am lu a orchfygir, ei fod wedi syrthio o flaen y gelyn; ac am y congewerwr iddo sefyll: *Lef.* xxvi. 17; *Dan.* xi. 2. Caiff pob Cristion, yn niwedd y rhyfela

sefyll yn gongewerwr ar ei clynyon maedd-edig, ac ar Satan, eu blaenor. Y mae y sant yma yn cael aml fuddugoliaeth hyfryd ar Satan. Ond (och!) y mae gorfoledd y buddugoliaethau hyn yn cael eu hattal drachefn gan alarm newydd oddi wrth ei elyn yn ailymosod. Y mae yn trechu un diwrnod; ond dranoeth, ysgatfydd, y mae mewn perygl gan frwydr arall—llawn waith yw iddo allu cadw yr hyn a ennillodd. Iē, y mae ei fuddugoliaethau yn peri iddo fyned o'r maes dan waedu. Er iddo yn y diwedd drechu y brofedigaeth; etto, y mae yr archollion a gafodd ei gydwylbod yn y frwydr yn tywyllu gogoniant y fuddugoliaeth. Anfynych y daw efe ymaith heb ryw gwyn trwm am frâd ei galon ei hun, a fu yn debygol o beri iddo gollu y dydd, a'i draddodi i law ei elynion.

Ond, er dy dragwyddol gysur, gwybydd, Gristion tlawd, fod dydd gwynfydedig yn dyfod, a ddiwedda yr ymladdfa yn gwbl ac am byth, rhyngot ti a Satan: ti a gei weled gwersyll y gelyn hwn wedi ei ddryllio yn gwbl, heb arf wedi ei adael yn ei law i'w godi i'rh erbyn. Ti a gei sathru ar ei uchel loeodd, o ba rai y bu yn saethu llawer ergyd atat. Ti a gei eu gweled oll wedi eu difurio a'u difetha, hyd na adawer gymmaint ag un llygredd o fewn dy fynwes i gythraul ym-guddio ac ymlochesu ynddo. Caiff Satan, yr hwn y crynaist mor fynych ar ei ddynes-iaid, ei sathru y pryd hyn dan dy draed. Efe, yr hwn a barodd mor fynych i ti ostwng, fel yr elai dros dy enaid, ac y mathrai ar dy holl ogoniant, a gaiff yn awr osod ei wddf, i'w sathru genyt ti. Pe ni byddai dim arall ond hyn i'w ddisgwyl fel y ffrwyth o'n gwyllo a'n gweddio, wylo a galaru, dyleds-wyddau llymion o farwhâd a hunanymwadiad, a pha beth bynag arall a ddyry ein milwriaeth Gristionogol arnom, yn sicr ni byddai ein llafur yn ofer yn yr Arglwydd. Iē, dedwydd wylio a gweddio, hapus ddagrau a chlwyfau, a gyfarfyddwn yn y rhyfel hon, ond iddynt ddibenu yn y diwedd mewn buddugoliaeth lawn a bythol ar bechod a Satan! Y mae caethiwd yn un o'r drygau gwaethaf. Po gwaelaf fyddo'r gelyn, mwyaf atgas yw gan ysbrydoedd ardderchog. Ofnodd Saul syrthio i ddwyllaw y Philistiaid dienwaededig, a'i ammarchu trwy eu gwawd a'u dirmyg hwynt, yn fwy na marwolaeth waedlyd. Pwy sydd waelach na Satan? Pa ormeswr bryntach na phechod? Gogoneddus ynte fydd y dydd yn yr hwn y cawn foliannu Duw am ein gwaredu allan o ddwyllaw ein holl bechodau ac o law Satan.

Ond, dychrynnydd fydd y dydd i chwi, bechaduriaid, y rhai, tra y byddoch yn edrych ar y saint yn sefyll, â choronau buddugoliaeth ar eu penau, y bydd raid i chwi gael—fel caethion mewn cadwynau—eich llusgo i ddaeardy uffern, yno i gael tyllu eich clust i gaethiwd tragwyddol, gan

eich chwantau. A pha farn mwy gresynol a all Daw ei roddi arnoch? Yma, y mae pechod yn bleser:—yno, eich poen a fydd. Yma, yn damaid melus, yn myned i lawr yn lliithrig:—ond yno, efe a lŷn yn eich gyddfau. Yma, y mae genych borthiant cyfaddas at foddio eich chwantau; palasau i falehder anneddu ac ymwychu ynddynt; ym-borth danteithiol i'ch archwaeth blysig; tai a throedd, a choffrau o arian ac aur, i'ch calonau cybyddlyd, trwy eu meddyliau hunanfodddhaol, eistedd arnynt a deor. Ond ni chewch chwi un o'r rhai hyn yno. Gwlad lom yw uffern; ni thŷf dim yn y fro hono o dywyllweh i gysuro na lloni meddyliau y pechadur. Chwi a gewch eich chwantau; ond cechw fod heb yr ymborth yr hiraethweh am dano. O! y fath boenau sydd raid i hwnw fod—enaid yn llawn o chwant, iē, mewn rhyw raib gwangus am bechod—ond mewn cadwynau, lle nas gall efe gael dim at foddhau ei chwantau! Adyn balch, a allai ddymuno meistroli y byd oll, iē, Duw ei hun, pe gadawai efe iddo; i hwn gael ei gadwi lawr yng ngharchar tywyll uffern—O, fel yr archolla! Y pechadur maleisus, sydd â'i galon yn chwyddo o lid yn erbyn Duw a'i saint, fel y gallai efe eu llusgo allan o fynwes Duw, iē, a Duw ei hun oddi ar ei orsedd, pe byddai ganddo allu; i hwn fod â'i ddwyllaw yn rhwym, fel nas gall wneud dim yn erbyn y rhai sydd mor gas ganddo—O, fel y poena hyn! Dywedweh, O chwi saint, i'r rhai y mae gradd o oruchafiaeth ar bechod yn bresennol mor felus, nes y dewisech fil o farwolaethau yn hytrach na dychwelyd i'ch hen gaethiwd dan eich chwantau: mor ogoneddus, ynte, ydyw y dydd hwnw yn eich golwg, pan orphener hyn, mewn goruchafiaeth gyflawn a bythol, heb fod dim a wneloch chwi mwy â phechod na Satan!

2. Y "sefyll" yma ydyw sefyll wedi ein cyfiawnhau, a'n rhyddhau, yn nydd mawr y farn. Y mae yr ymadrodd aml waith yn y Beibl, a gosoda allan y rhyddhâd arbenig a fydd i'r saint, drwy sefyll mewn barn: "Yr annuwiolion ni safant yn y farn;" *Salm* i. 5: hynny yw, ni chyfiawnheir hwynt. "Os creffi ar anwiredd, Arglwydd, O Arglwydd, pwy a saif?" *Salm* cxxx. 3: hynny yw, pwy a ryddheir. Y mae y Duw mawr (cenadwyr yr hwn ydym ni yn y byd), wedi gosod diwrnod, yn yr hwn y barna efe y byd trwy Iesu Grist. Diwrnod difrif-ddwys a fydd, pan gygyferfydd pawb oll a fu byw yn y byd—uchel ac isel, da a drwg—yn un dyrfa, i ymddangos yn bersonol ger bron Crist, ac o'i enau ef i dderbyn y ddedfryd dragwyddol. Efe, yn ei wisg frenhinol o ogoniant, a esgyn i uchel orsedd barn, a'i luoedd gogoneddus o angelion o'i amgylch, fel cynnifer o swyddogion, yn barod i gyflawni ei ewyllys; ac yn ol y farn benderfynol a

ddadgan efe, yr arweinir y rhai gwynfydedig hyny, a gyfiawnheir ganddo, i'w deyrnas ogoneddus; neu y rhwymir, draed a dwylaw, y rhai a gondennia efe, i'w bwrw i dân anniffoddadwy uffern. Nid rhyfedd genyf fi ddarfod i bregeth Paul ar y testyn hwn beri cryndod yng nghydwbybod Ffelix; ond rhyfeddach fyth fod neb wedi myned mor bell mewn haint gysglyd, ac annheimladrwydd cydwbybod, fel nas gall y meddwl am y dydd hwn eu hadferu i'w synwyr a'u teimlad. O, Syrs! oni fernwech chwi y meibion a'r merched hyny yn ddedwydd a ffynant yn y dydd hwn? Onid yw eich meddyliau yn ymofyn pwy ydyw yr eneidiau dedwydd hyny a gânt eu rhyddhau gan lais bywiog Crist, y Barnydd? Afreidiol yw i chwi esgyn i chwilio cofrestrau etholedigaeth yn y nef. Gellwch wybod yma eu bod yn gyfryw ag sydd yn ymladd brwydrau Duw ar y ddaear, yn erbyn Satan, yn arfogaeth Duw; a hyn hyd ddiwedd eu bywyd. Y rhai hyn, wedi gorphen pob peth, a safant yn y farn. A phe ni byddai ond wrth frawdle dyn, rhyw lys milwraidd, lle y byddo y milwr ar brawf am ei fywyd, naill ai i'w gondemnio fel bradwr i'w frenin, neu i'w ryddhau fel gwr ffyddlawn yn ei swydd. O! fel y clustfeiniau y cyfryw un, i glywed pa fodd y byddai arno, ac y tra llonid ef pan gyhoeddai y barnwr ef yn ddiuog! Da yr erchid i'r cyfryw syrthio ar eu gliniau i ddiolch i Dduw ac i'r Barnwr am achub eu bywydau. Pa faint mwy hyfryd fydd llais Crist yng nghlustiau y saint, pan y gwna efe, o flaendynionac angelion, ddadganiad cyhoedd o'u cyfiawnder! O, fely gwaradwyddir Satan y pryd hyny—yr hwn a fu yn gyhuddwr arnynt wrth Dduw, a'u cydwbybodau hwythau hefyd o hyd yn eu bygwth â dychryn y dydd hwnw! Mor syn o fraw y bydd y byd annuwiol o weled y dom a dafasant trwy eu henllibau a'u swm celwyddog yng ngwyn-ebau y saint, yn cael ei sychu ymaith gan law Crist ei hun! Y rhai hyn yn cael, o enau Crist, eu cyfiawnhau, fel rhai diffuant, er eu galw ganddynt hwy yn rhagrithwyr! Ai ni fydd hyn, O, chwi saint, yn ddiog am yr holl ddirmyg eich llwythwyd âg ef gan y byd, a'r ymdrech a oddefasoch gyda Thywysog y byd? Ond nid hyn yw y cwbl. Gan hyny:—

3. Y mae "sefyll" yma yn arwyddo, safiad y saint (fel cwblhâd ef gwobr) yng ngogoniant y nef. Pan ewyllysio tywysogion wobrwyo rhai o'u deiliaid, a wnaethant yn y rhyfeloedd wasanaeth nodedig i'r goron, hwy a'u dyrchafant i'r llys, megys yr eithaf a allant ei wneud erddynt, i gael yno fwynhau eu gwên frenhinol, a sefyll mewn rhyw le o wasanaeth anrhydeddus ger eu bron yn wastadol. Y mae Solomon yn ei bennodi fel gwobr mwyaf deiliaid ffyddlawn a safant o flaen brenhinoedd. Y nef yw y ddinas frenhinol, lle y ceidw y Duw mawr ei lys.

Dedwyddwch angelion gogoneddus yw sefyll yno ger bron Duw: "Myfi yw Gabriel, yr hwn wyf yn sefyll ger bron Duw;" *Luc. i. 19*: hyny yw, yr wyf yn un o'r ysbrydion gwynfydedig hyny sydd yn gweini i'r Duw mawr, ac yn sefyll o flaen ei wyneb, fel y gwna gwyr llys o ddeutu eu brenin. Yn awr, y cyfryw anrhydedd a gaiff pob enaid ffyddlawn: "Fel hyn y dywed Arglwydd y lluoedd; Os rhodi di yn fy ffyrdd, ac os ceodd fy nghadwraeth...rhoddaf i ti hefyd leoedd i rodio ym mysg y rhai hyn sydd yn sefyll yma;" *Zech. iii. 7*. Y mae yn cyfeirio at y deml, oedd âg ystafelloedd yn gysylltiedig â hi, i'r offeiriad a weinyddent i'r Arglwydd yn ei wasanaeth sanctaidd yno; neu at wyr llysoedd, sydd ganddynt ystafelloedd a rhodfeydd addas i'w sefyllfaoedd, wedi eu pennodi iddynt, ym mhalas y brenin y maent yn gweini iddo. Fel hyn y bydd i'r holl saint, y rhai yr oedd Iosuah yn eu cynrhychioli—hwy a gânt, ar ol cadw gadwraeth yr Arglwydd mewn gwasanaeth bywyd byr ar y ddaear, eu galw i fyny, i sefyll ger bron Duw yn y nef. Yno, gydag angelion, hwythau a gânt eu cynteddu a'u trigfanau o ogoniant hefyd. O! mor ddedwydd ydynt—hwy a gânt sefyll o flaen yr Arglwydd mewn gogoniant! Y mae arglwyddi uchaf teyrnas—y cyfryw ag yw ieril, ardalwyr, a duciaid,—yn ei gyfrif yn anrhydedd mwy cael sefyll o flaen eu brenin, er yn bennoeth, ac yn fynych ar y glin, na byw yn y wlad, lle y mae pawb yu plygu, ac yn sefyll yn bennoeth o'u blaen hwynt. Ië, os y brenin a wahardd llydain na'r bri cartrefol sydd iddynt, eu boddioni. Gwell yn wir yw gweini yn y nef na theyrnasu ar y ddaear. Y mae'n hyfryd sefyll yma o flaen yr Arglwydd, mewn ordinhâd; y mae un diwrnod yn adoliad Duw yn well na llawer mewn lle arall. O! ynte, pa beth yw sefyll ger bron Duw mewn gogoniant! Os yw nardus y saint yn rhoddi arogl mor beraidd, tra y mae'r brenin wrth ei fwrdd yma, mewn pregeth neu sacrament (*Can. Sol. i. 12*): O! ynte, pa lawenydd sy raid ddyfילו oddi wrth eu gweinyddiad agos iddo, tra y mae yn eistedd wrth ei fwrdd yn y nef; yr hon, pan y creodd Duw hi gyntaf, a fwriadwyd ganddo i fod yn Ystafell Bresennoled, ym mha un y byddai iddo ddangos ei hun, a bod i'w weled a'i fwynhau gan ei saint yn ei fawr ogoniant.

Mi a wn nad oes dim a weithredai yn fwy nerthol, ië, hollol, ar ysbryd Cristion, na'r myfryddol mynych ac ysbrydol am y cyflwr gwynfydedig hwnw yn y nef, a gorona yn y diwedd ei holl ymdrech helbulus yma ar y ddaear. Nid oes o fath y cleddyf hwn i dori hyd yn oed gewynau temtasiwn, a thori penau y chwantau hyny sydd yn herio at ac yn gofyn gwaethaf lluoedd o resymau ereill. Y mae agos yn amhosibl pechu

gyda meddyliau bywiog a gobaith am y gogoniant hwnw. Pan fyddo y meddyliau am y nef yn hir o olwg y Cristion, ac yntau heb wybod pa beth a ddaeth o'i obaith am y lle gogoneddus hwnw, dyna'r pryd y mae efe yn dechreu gosod i fyny ryw eilun (megys Israel yn gosod y llo yn absenoldeb Moses i gael dawnsio o'i flaen). Ond os daw y nef i'r golwg, ac iddo gael ei dwymno yn dda gan y meddyliau am dani, chwi ellwch mor fuan berswadio brenin i dafu ei goronbleth i'r dom ac ymdreiglo gyda'i wisgoedd mewn budreddi, a sant i bechu gyda disgwyliad am ogoniant y nef. Gwaith diafol yw pechod, nid gwaith sant, yr hwn sydd yn bendefig y nef, ac yn disgwyl bob awr am yr ysgrifen a'i geilw ef i sefyll, gydag angelion a saint gogoneddus, ger bron gorsedd Duw. Gwnai hyn sirioli calon y Cristion, a'i gadarnhau pan fyddo yr ymladdfa yn boethaf a'r pelenau yn amlaf, gan ergydion diafliaid a dynion: dim ond meddwl, "Am y nef y mae hyn oll, lle y mae yn werth dyfod iddi, er i ni fyned iddi drwy dân a dwfr:" "Ger bron yr Arglywydd (medd Dafydd wrth Michal wawdus) yr hwn a'm dewisodd i o flaen dy dad di, ac o flaen ei holl dŷ ef... y chwareuais; a mi a chwareuaf ger bron yr Arglywydd. Byddaf etto yn waelach na hyn;" 2 Sam. vi. 21, 22. Fel hyn, Gristion, a fyny di ysgwyd ymaith y gwiberod o waradwyddiadau, sydd yn heidio arnat o dân malais yr annuwiol? Dros Dduw yr wyf fi yn gweddio, yn gwrandaw, yn marwhau fy chwant, yn ymwadu a'm digrifwch anianol, fy elw, a'm pleserau; y Duw hwnw a aeth heibio i frenhinoedd a thywysogion, i'm dewis i, adyn truenus, i sefyll o'i flaen mewn gogoniant: am hyny, byddaf etto yn waelach na hyn. O, Syrs! pe na byddai byd arall i fwynhau Duw ynddo, etto, oni ddylem ni, tra y byddo ein bodolaeth genym, wasanaethu ein Gwneuthurwr? Y mae y nefoedd a'r ddaear yn ufuddhau i'w ddeddfau ef, er nad oes ynddynt addasrwydd i dderbyn gwobr am wneuthur ei ewyllys. "Diffodded uffern, llosged y nef (ebe y gwr duwiol), etto, mi a garaf ac a ofnaf fy Nuw." Pa faint mwy, pan y mae y breichiau tragwyddol o drugaredd yn barod ac yn estynedig i'ch dwyn, ar ddiwedd yr ymladdfa, i wynfydedig bresenoldeb Duw! Y mae genych weision eich hunain mor onest a gofalus ag i allu dilyn eich gorchwyl yn ddyfal yn y maes ar bob tywydd; a phan ddelont adref y nos, yn flinedig a newynog, os gallant gael ond eich edrychiad yn dirion arnynt, a pheth gofal tyner am danynt, y maent yn dra diolchgar. Ië, medd un, i gywilyddio y Cristion dioglyd, "Pa sawl can milldir y rhed yr Ysbaen-gi druan ar ol ei feistr, ar daith, yr hwn nid yw yn cael ond ychydig grystiau, neu asgwrn, oddi ar ddysgl eifeistr?" Mewn gair, peth sydd fwy—caethweision y diafol—pa beth ni wnânt, ac ni

anturiant, wrth ei orchymyn ef, yr hwn ni fedd gymmaint i'w roddi iddynt a chwi i'ch ci, na chrystyn, na diferyn o ddwfr i oeri eu tafod! Ac oni wna llawenydd y nef, a osodwyd o flaen y Cristion (ac i'r hwn yn sicr y caiff fyned i mewn), iddo ef redeg ei yrfa, a dioddef ysgarmes fer o brofedjgaeth a chystudd. Gwna yn ddiâu, ac iddo gyfrif hefyd nad "yw y rhai hyn yn haeddu eu cyffelybui'r gogoniant a ddadguddir iddo ef."

EPHESIAID VI. 14.

"Sefwch gan hyny, wedi amgylch-wregysu eich lwynau â gwirionedd, a gwisgo dwyfroneg cyflawnder."

Yr oedd yr apostol wedi mynegi, yn gyffredinol (*adn.* 13), pa arfogaeth sy raid i'r milwr Cristionogol ei wisgo—"arfogaeth Duw." Yn awr, rhag i neb argraphu dwyfoldeb ar yr hyn sy ddynol, a bod yn hyf i osod enw Duw ar eu heiddo ffugiol, gan alw yn arfogaeth Duw yr hyn sy'n dyfod o'u gweithdy hwynt eu hunain, fel y gwna y Pabyddion a llawer o Brotestaniaid anianol, y rhai a ddyfeisiant arfau at ymladd a'r diafol, na ddaeth erioed i galon Duw eu happwyntio. Rhag hyn, meddaf, y mae yn dyfod i ddangos yn fanylach pa beth yw holl arfogaeth Duw, gan ei ddarlunio, ddarn ar ol darn; a'r rhai hyn ynghyd yn gwneud y wisg i fyny yn gyflawn, ac yn addurno y Cristion—heb ddim yn fyr—i gymmeryd y maes yn erbyn ei elyn hwn. Ni a'u trinwn yn y drefn y cawn hwynt wedi eu gosod yma gan yr apostol. Yn unig, y mae gair, yn fyr, i'w ddywedyd am yr agwedd a orchymynir, fel yr un y mae i ni ei gadw wrth ddefnyddio pob darn: ac am hyny, y mae hyn o flaen y cwbl, gan ei fod yn effeithio ar y cwbl oll. Y mae'r agwedd yn y geiriau hyn, "Sefwch gan hyny." Yr un gair (*state*) sydd yma ag yn y wers o'r blaen; ond nid yn yr un modd ac amseriad (*mood and tense*). Yno, y mae yn golygu y fuddugoliaeth a'r gorfoledd yn niwedd y rhyfel: ond yma, agwedd y Cristion yn y frwydr, ac mewn trefn tuag at hyny. Ymadrodd milwraidd ydyw—gair o orchymyn a arferir gan flaenoriad ar amryw achosion wrth eu milwyr, ac felly yn cynnwys amryw ddyledswyddau gofynedig gan y Cristion.

PENNOD I.

Lle y dangosir yn fyr yr angenrheidrwydd am wrthsefyll temtasiynau Satan, ynghyd a'r perygl o ymroddi iddynt.

1. Y MAE "sefyll" yn air cyferbyniol i ffoad gwarthus ac ymroddiad bradwrus i'r gelyn. Pan welo cadben ei wyr yn dechreu

cilio, ac y canfyddo ryw duedd ynddynt i ffoi, neu ymroddi, yna efe a lefa, Sefwch; hynŶ yw, sefwch ati yn wrol, a chedwch eich tir yn erbyn y gelyn, trwy dderbyn ei ymgyrch yn galonog, ac ymlid ei rym yn ol. Y mae'r gair, o'i gymmeryd fel hyn, yn nodi dyledswydd addas a pherthynol i'r Cristion. Cymmerwch hi yn hyn o sylwad.

Sylwad. Y mae Satan, yn ei demtasiynau, i'w wrthwynebu yn gadarn—nid i yuroddi iddo mewn un modd.

Rhes. 1. Y mae'r gorchymyn yn eglur am hyn:—"Yr hwn gwrthwyneb wch yn gadarn yn y ffydd;" 1 *Pedr* v. 9. Ymosodwch mewn brwydr i'w erbyn, fel y mae arwyddocâd y gair; ymladdwch âg ef pa bryd bynag y delo. Rhaid yw i filwyr gadw yn dyn wrth eu rheol, deued a ddelo. Pan anfonodd Iacob Urias i sefyll ym mlaenwyneb y frwydr, yng ngwyneb angeu ei hun, nis gallai lai na gwel ei berygl; etto, nid yw efe yn dadleu y mater â'i gadben: ufuddhau oedd raid iddo, er colli ei fywyd yn y fan. Ofnuswydd ac anuffudd-dod i orchymyn y blaenor, a gyfrifir ym mysg y Tyrciaid yn bechodau mwyaf damniol: ac a gyfrifir hwynt yn feiau bychain genym ni, sydd â Christ i'n blaenori, a phechod a Satan yn elynion i'w gwrthwynebu? Gall gwrthsefyll rhai temtasiynau gostio i ni yn ddud: "Ni wrthwynebasoch etto hyd at waed," medd yr apostol, "gan ymdrech yn erbyn pechod;" *Heb.* xii. 14; yr hyn sy'n arwyddo y gall ddyfod i hynŶ; ac os daw, nad yw hyn yn newid dim ar y mater nac yn rhoddi un caniatâd i ymdarw drosom ein hunain, trwy ddewis pechu yn hytrach na dioddef. Dywediad cadben Rhufeinaidd oedd:—"Y mae yn angenrheidiol i ni forio, nid i fyw." ac a gilia Cristion oddi wrth ei ddyledswydd pan fyddo enbydrwydd yng nglyn â hi? Y mae'r milwr yn dwn anrhydedd ei dywysog gydag ef i'r maes, ac felly y Cristion amrhydedd ei Dduw, pa bryd bynag ei gelwir i ymladd âg unrhyw brofedigaeth. Yn awrygwelir pa fri a rydd efe ar ei anrhydedd. Yr oedd deiliaid Dafydd yn ei gyfrif ef yn werth deng mil o'u bywydau hwynt; ac am hynŶ, hwy a ddewisent farw, bawb o honŶnt, yn hytrach na'i beryglu ef. O! mor anweddus yte ydyw rhoddi enw Duw i ddirmyg, yn hytrach na ni ein hunain i ychydig o ddiystyrwch, colled, neu flinder anserol! Ymfroft Pompey ydoedd, y gallai efe, â'i air neu â'i amnaid, beri i'w filwyr ymgyrbo i fyw i'r graig serthaf, ar eu dwylaw a'u gliniau, er iddynt gael eu curo i lawr mor fuan ag yr aent i fyw. Yn wir, nid yw Duw yn wastraffus o waed ei weision; etto, y mae weithiau yn profi eu cywiredd, trwy wasanacth caled a themtasiynau llynuion, fel y casto, trwy eu ffyddlondeb iddo, yn eu dioddefiadau drosto, orfoleddu ar Satan, yr hwn a fu mor ddigywilydd a dywedyd wrth Dduw,

nad oedd un o'i weision anwylaf ond yn gweini iddo ei hun wrth ei wasanaethu ef: "Ai yn ddiachos y mae Iob yn ofni Duw?" *Iob* i. 9. Fel pe buasai yn un a droisai ei wegil ar ryw ymosodiad llym, aca fuasai yn meiddithio Duw yn lle ymostwng iddo. Am hyn, ni a gawn yr Arglwydd yn gorfoleddu ar Satan: "Y mae efc yn parhau yn ei berfffeithrwydd, er i ti fy annog i yn ei erbyn;" *Iob* ii. 3. Fel pe dywedasai Duw, Beth wyt ti yn ei dybied yn awr, Satan? Oni phrofoedd Iob di yn gelwyddwr amlwg? Y mae genyf rai gweision, ti a weli, a m gwasanacthant i heb wobr, a ddaliant afael yn eu huniondeb pan nas gallant ddal gafael ar ddim arall. Ti a ddygaist ynaith ei ddaoedd, ei weision, a'i blant; ac etto, y mae yn sefyll ei dir—ni chefaist ti dy ewyllys arno, na'i uniondeb oddi arno.

2. Y mae Duw yn ein haddurno âg arfau i'r diben hwn, fel y safon allan yn wrol, ac na ymroddom i demtad Satan. Y mae traddodi i law gelyn gastell y byddo ynddo arfau a defnyddiau i'w gadw, yn beth gwarthod, ac anaddas i'r fath ymddiried. Y mae pechod y Cristion yn fwy cywilyddus na pechod neb arall, am fod ganddo ef ddarpariaeth gwell at wrthsefyll. Am enaid diras, bwriwn ei fod dan ddeniad i bechod a fyddo yn addaw pleser cnawdol, neu elw, nid rhyfeddod fawr ei bod yn ymollwng ar y wys gyntaf, ac yn rhoddi ei hun i fyny yn garcharor i Satan. Och! ni fedd yr adyn, druan, ddim arfogaeth am dano, i wrthsefyll y cynnyg. Nid yw efc yn profi dim melusder yng Nghrist; pa ryfeddod ynte, os syrth ei enaid newynllyd, o ddiffyg ymborth gwell at fwrdd ac arlwy Satan—neu, ei fod ef—na fedd obaith am fyd arall—yn cael ei ennill i hela a rheibio am beth o hwn? Rhaid i'r afr, meddwn, bori lle y rhwymer hi; ac i'r pechador ymborthi ar y ddaear â phethau daearol, wrth y rhai y tynraffwyd ef gan ei galon anianol. Ond y mae gan y Cristion obaith yn ei fynwes o feddiannu gogoniant mwy nag y gall y byd gwael hwn ymhoni o hono; ie, ffydd a all ei groesawu yn awr â pheth o lawenydd y nef; gan nai natur y gras hwn yw rhoddi bod i bethau da yr addewid. Yr hclm hon wedi ei gwisgo. a'r darian yn y llaw, a gadwai gawod gyfai rhag niweidio Cristion. Y mae gan Dduw achos i'w gymmeryd yn waeth ar ei law ef ei fod yn ymollwng, pan allasai sefyll, pe buasai efc ond yn defnyddio y grasau a roddasai Duw iddo er ei amddiffyn, neu y galw am help o'r nef er ei gymmorth. "Ai o'r pren y gorchymynaswn i ti ni fwytaist o hono y lwytaist?" medd Duw yn *Gen.* iii. 11. Y mae pwys i fod ar y gair â Nid o ran newyn y bu hyn; yr oedd geny ti baradwys gyfan o'th flaen: a fwytaist t oedd â darpariaeth mor dda geny at wrthsefyll? Gall Duw ddywedyd wrth

Cristion, "A fwytaist ti o ddanteithion Satan, pan y mae genyt agoriad i fyned i'm bwydgel i? A yw dy Dad nefol yn cadw tŷ mor dlawd, fel yr â cibau y diafol i lawr gyda th!?"

3. Y mae diogelwch y Cristion mewn gwrthasafad. Y mae'r holl arfogaeth sydd yma, wedi ei darpar i amddiffyn y Cristion yn ei frwydr; a dim i'w ddiogelu wrth ffoi: safwn, a nynt biau'r dydd; os ffown, neu os ymroddwn, dyna'r cwbl wedi ei gollu. Y mae cadbeniaid mawrion, i wneud eu milwyr yn fwy dewrwych, yn tori ymaith, weithiau, bob gobaith o enciliad diogel i'r rhai a redant ymaith. Fel hyn y gwnaeth William y Congewrwr; cyn gynted ag y gosodwyd ei wyr ar dir Lloegr, efe a anfonodd ymaith ei longau yn eu gwydd hwynt, fel y byddai iddynt fwrriadu ymladd neu farw. Y mae Duw yn symmud ymaith bob meddwl am ddiogelwch i'r llwfrgalon. Nid oes deryn at y cefn o fewn i holl arfdu Duw. Sefwch, ac y mae'r penelau oll yn disgyn ar eich arfogaeth: os ffowch, y maent yn treiddio i'ch calonau. Geiriau i'w harswydo sydd yn *Heb. x. 38*: "Y cyfiawn a fydd byw trwy fydd; eithr os tyn neb yn ol, nid yw fy enaid yn ymfoddloni ynddo." Yr hwn a ddeil ei ffordd yn grediniol, bydd ei fywyd yn ddiangol; ond y neb a gilio, ac a red oddi wrth ei faner (fel yr arwyddoca y gair *oposteiletai*) ni ymfoddlona Duw ynddo, oddi eithr yn nhywalltied cyfiawn ei ddigder arno. Ac onid cyfnewidiaid alaethus a wna efe, sy, yn lle ymladd â Satan, yn tynu Duw i fod yn ymladdwr i'w erbyn? Y mae cysur wrth ymdrech yn erbyna pechod a Satan, pe byddai lyd at waed; ond dim wrth orwedd a chwysu dan ddigofaint tanlyd Duw y dial. Pan lwytho Satan, gall Duw ddi-lytho: ond pwy a esmwytha pan wasgo Duw? Pa ddyn ni ddewisai farw ar y maes, wrth ymladd dros ei frenin, o flaen marw ar esgynlawr, dan y fwyall, am ofn-usrwydd neu fradwriaeth?

4. Y mae'r gelyn a wnelom ni âg ef yn un nad oes trin arno, ond trwy ei wrthwyn-ebu. Y mae Duw yn elyn a orchfygir trwy ymostwng iddo; ond diafol, trwy rym arfau yn unig.

laf. Gelyn llwfrgalon yw efe. Er iddo ddangos gwyneb wrth demtio, calon ofnau sy ganddo yn ei fynwes. Y mae'r gwaith y mae efe arno yn ddrwg: ac megys y mae ar leidr ofn pob goleu a welo, neu swn a glywo, yn y tŷ y mynai ei ysbeilio; felly y mae Satan yn digaloni lle y caffo yr enaid yn effro, ac mewn agwedd i'w wrthwynebu ef. Y mae yn dy ofni di, Gristion, yn fwy nag y byddai raid i ti ei ofni ef: "Yr Iesu a adwaen, a Phaul a adwaen" (ebe y diafol); *Act. xix. 15*. Hyn yw, mi a'u hadwaen hwynt er fy nghywilydd; hwy eill deuoedd a'm gyrasant i ffoi; a phe byddech chwi yn

gyfryw ag ydynt hwy, mi a'ch ofnwn chwithau hefyd. Coelia, enaid, y mae efe yn crynu wrth dy fydd: estyn hi allan mewn gweddi, i alw am help i'w erbyn ef o'r nef, ac arfer hi yn rymus, trwy wrthsefyll ei gyunygiadau ef; a thi gei ei weled ef yn diange. Pe gwyddai milwyr mewn castell fod eu gelynon sydd yn gwarchae arnynt mewn cyflwr terfysglyd, ac y codent ymaith yn sicr ar ffo, ond iddynt hwy ruthro allan, â pha ffordd a gwroldeb y llanwai hyn hwynt? Y mae Ysbryd Duw, sy'n gwybod yn dda iawn pa helynt sydd yn ngwersyll Satan, yn anfon hyn o hysbysrwydd i bob enaid a amgylchynir gan ei demtasiynau ef: "Gwrthwynebwch ddiabol, ac efe a fty oddi wrthych;" *Iago iv. 18*. Nis gall efe ein niw-eidio heb ein cenad. Nid yw efe ddim gystal tynwr, pan welo yr enaid heb ddyfod ac ymroddi, nad yw ei galon ar hyn yn pallu, o leiaf am y tro hwn, megys yn ei frwydr â Christ: dywedir, "Efe a ymadawodd âg ef dros amser;" *Luc iv. 13*. Pan fyddo Satan yn dal yn hir at yr un cais, y mae i'w ofni na roddodd y dyn hwn iddo un nacâd hollol, er na roddodd efe iddo un addewid gyflawn. Y mae efe yn erfyniwr sy'n ymwranda am i rywbeth ddiferu oddi wrth y creadur a all ei galonogi ef i ganlyn ar ei gais. Nid oes un ffordd i gael gwared o hono ond cau y drws i'w erbyn, a nacau pob ymddiddan âg ef.

2il. Y mae yn elyn gormesol, ac am hyn, i'w wrthwynebu: "Na fachluded yr haul ar eich digofaint," medd yr apostol, "ac na roddwch le i ddiabol;" *Eph. iv. 26*; fel y gwna milwyr, a fydd, gan ddigalonidd, yn cilio o ryw warchglawdd y gosodwyd hwynt i'w gadw, ac yn rhoddi lle i'w gelyn ddyfod iddo, ac ergydio yn erbyn y ddinas yn haws nag ygallasant o'r blaen. Fel hyn, wrth ymroddi mewn un demtasiwn, yr ydym yn gollwng Satan i'r tu mewn i'n mur, ac yn rhoddi iddo fantais deg i wneud i ni fwy o niwed. Y dyn diglawn, tra y mae yn creu-loni ac yn ymwylltio, nid yw, ysgatfydd, yn meddwl dim yn rhagor na rhoddi rhediad i'w nwydau, trwy eu gollwng allan mewn rhyw eiriau chwerw-lym: ond och! tra y mae ei ddigder ef a'i gynddaredd yn rhuthro allan drwy borth ei wefusau y mae'r diafol, wedi cael drws agored, yn myned i mewn, ac yn ei hyrddio ym mhellach nag y medd-ylidodd efe. Nid â rhyw Hannibal y mae i ni a wnelom; yr hwn, er ei fod yn ymladdwr mawr, nid oedd ganddo allu i ddilyn a defnyddio y manteision a roddodd ei fuddug-oliaethau iddo, ond â diafol cyfrwys, na chyll yn rhywydd ddim o'r tir a gaiff. Gan hyn, y ffordd oreu i ni yw peidio rhoddi iddo afael llaw, na chymmaint a dyfod i'r drws lle y mae pechod yn byw, rhag i ni gael ein bachu i mewn. Os ydym yn meddwl bod heb ein llosgi, peidiwn a rhodio

ar farwor tentasiwn. Os na fynwn ein melynu, na safwn ym moethder yr haul. Yn sier, y mae yn anghof gan y rhai hyn—am natur weniethiol, ddolenog, y sarph yma—a feiddiant ymroddi iddo mewn rhywbeth, a cheisio genym goelio na wnânt mewn peth arall. Pwy a eistedd yn mys g meddwn, gan gyrcu i eisteddleodd y pechod, ac etto, a ymhona nad yw efe yn meddwl bod yn gyfryw? Pwy a haloga ei lygaid â gwrth-ddrychau anniwair, ac a fydd, er hyn, yn ddiwair? Pwy a rydd fenthyg ei glustiau i un o athrawiaethau llygredig yr oes, ac etto, a geir yn iach yn y ffydd? Dyma amryfusedd cadarn y mae'r cyfryw dano. Oni bydd gan ddyng ddigon o rym i wrthsefyll Satan yn y peth lleiaf, pa reswm iddo feddwl y gwna efe yn y peth mwyaf? Yr wyt yn fyr o ras, dybygid, i'th gadw rhag ymdafu i lyn tro tentasiwn; ac a wyt ti yn meddwl, pan fyddi ynddo y deli di i fyny yn erbyn ei lwnge? Fe dybiai un fod yn haws ymgadw, pan yn y llong, rhag syrthio dros ei bwrdd, na dyfod yn ol i'r llong yn ddiogel pan yn y môr.

3ydd. Y mae yn elyn cyhuddgar: ac yn ddiaf, y mae ffolineb yn enw y dyn sy'n gwybod pa fath chwedleuwr yw y diafol; ac etto, trwy ymroddi gyda'i demtasiwn, a rydd chwedl yn ei safn, trwy ba un y geill ei gyhuddo ef wrth Dduw. Y mae rhai yn ffol-siarad nas gall dewiniaid wneud niwed nes y derbyniont rodd. Ond yr wyf yn sier, tra na ddangosech di ryw dnyrwech i'r diafol, na ddichon efe dy ddrygu, am nas gall efe dy gyhuddo. Gan hynny, dal di at fwriad Iob: "Fy nghyfiawnder nis gollyngaf; ni waradwydda fy nghalon fi tra y byddwyf byw," *Iob* xxvii. 6. Yn wir, nid yw yn fyd trwm gyda'r enaid, nes y byddo y cyfarthiad yn y tŷ. Cydwybod, nid y diafol, yw y gwaedgi sy'n tynu y creadur i lawr. O! na âd i hono dy waradwyddo; a da fydd i ti.

PENNOD II.

Lle y dangosir pa beth yw i Gristion sefyll mewn trefn, ynghyd â'i ddyledswydd yn y peth neillduol hwn, a pheryll y rhai a grwydrant o'u lle eu hunain.

2. Y MAE "sefyll" yn cyrhaedd i gymmaint a sefyll bob un yn ei reng a'i sefyllfa briodol; ac yma, yn gyferbyniol i bob anhrefn, neu grwydro allan o'n lle. Pan welo cadben ei filwyr yn teithio, neu yn ymladd, allan o'u rheng a'u trefn; yna, efe a lefa, "sefwch." Y mae disgyblaeth filwr-aidd mor fanwl yn yr achos hwn, fel nad yw yn caniatáu i un sfflyd o'i lle heb warant neillduol. Fe gostiodd i rai eu bywydau am ymladd allan o'u lle, er ymladd gyda mawr lwydd. Lladdodd Manlius ei fab ei

hun am y bai hwn yn unig. Oddi yma y sylwad yw hyn.

Sylw. Y dylai pob Cristion ofalu am sefyll mewn trefn, yn y lle neillduol y gosododd Duw ef ynddo. Ffordd Satan yw gwasgaru yn gyntaf, ac yna anafu. Y mae trefn yn arwyddo fod cymdeithion: un a fyddo yn rhodio wrtho ei hun nis gall fyned allan o'i reng. Gan hynny, y mae'r lle hwn, a'r rheng y mae'r Cristion i sefyll ynddo, yn perthyn i ryw gymdeithas neu gyfeillion y mae efe yn rhodio yn eu mys. Gellir ystyried y Cristion mewn perthynas i gymdeithas deirplyg: eglwys, gwladwriaeth, a theulu. Y mae ynddynt oll amryw raddau a lleoedd: yn yr eglwys, swyddogion ac aelodau cyffredin: yn y wladwriaeth, swyddogion a phobl: yn y teulu, meistrïad, a gweision, rhieni a phlant, gwr a gwraig. Y mae llwyddiant y cymdeithasau hyn yn sefyll yn y drefn a gedwir; pan fyddo pob olwyn yn troi yn ei le, heb wrthdarw; a phan fyddo pob un yn cydgyfranu wrth gyflawni dyledswydd ei le, at fudd y gymdeithas oll. Ond yn fynlach; y mae dyn yn sefyll yn drefnus yn ei le, pan fyddo yn gwneud y tri pheth hyn:—

1. Pan fyddo yn deall dyledswydd briodol ei le a'i sefyllfa: "Doethineb y call yw deall ei ffordd ei hun," *Diar*. xiv. 8; "ei ffordd," hynny yw, y ffordd y dylai efe yn neillduol ei rhodio. Ni lesâ i ddyng wybod y ffordd i Gaerefrog, os i Lundain y mae yn myned. Er hyn, mor dueddol ydym i fyfyrïo ar ffordd a gwaith un arall, yn lle yr eiddom ein hunain! Y gwas ar ddyledswydd ei feistr, nid ar ei ddyledswydd ei hun i'w feistr; y bobl ar ddyledswydd y gweinidog, yn lle ar eu dyledswyddau eu hunain i'r rhai sy drostynt yn yr Arglwydd. Nid gwybod dyledswydd un arall, nag, na beio ar esgeulusdra un arall, ond gwneuthur ein dyledswydd ein hunain, a'n dwg ni yn ddiogel a chysurus i ben ein taith. A pha fodd y gwnawn hi, oddi eithr i ni ei gwybod? Ni roddodd Solomon brawf mwy o'i ddoethineb mewn un peth, nag wrth ofyn doethineb gan Dduw, i'w addasu at ddyledswydd ei sefyllfa.

2il. Pan fyddom, ar ol gwybod dyledswydd ein sefyllfa, yn sefyll ati yn gydwybodol, ac yn ymdreulio dros Dduw ynddi. Yn hyn oedd archiad Paul i Timotheus yn ei le, hynny sy raid i bob Cristion fod yn ei le yntau: y mae arno fyfyrïo ar y pethau hyn, ac ymroddi yn gwbl i gyflawni o'i ddyledswydd, megys Cristion yn y cyfryw le a galwad: "Yn y pethau hyn aros;" *1 Tim*. iv. 15—bydded dy galon yn y gwaith, i thithau yn hollol o ddeutu. Y mae gwirym duwioledeb yn sefyll yn hyn. Y mae crefydd, oni chaiff hi fod yn arferedig yn ein hamryw sefyllfaoedd a'n lleoedd, yn myned yn wawd, ac yn diflanu i ryw dy

wag, y nesaf peth i ddim. Etto, y mae lawer na feddant ddim at brofi eu hunain yn Gristionogion ond profes noeth; am y rhai, gallwn ddywedyd, fel y dywedir am y oren sinamon, fod y rhiog o fwy gwerth na dim a feddant heb law hyny. Y cyfryw y dywed yr apostol am danant: "Y maent yn profesu yr adwaenant Dduw; eithr ar weithredoedd ei wadu y maent, gan fod yn ffiaidd, ac yn anuffudd, ac at bob gweithred lla yn anghymmeradwy;" *Ti. i. 16.* Pa weithredoedd da y mae'r apostol yn eu golygu, fe welir yn y geiriau nesaf (*pen. ii.*), lle y mae, mewn cyferbyniad i'r rhai drwg uchod, yn gwasgu y dyledswyddau hyny, a ddylai Cristionogion, yn eu lleoedd 'u perthynsâu neillduol, eu cyflawni, negys y gweddai i dduwioldeb. Cristion lla, a gwaigr ystyfnig; dyn duwiol, a gwas anffyddlawn, neu fab anuffudd, sy'n wrthddywediad na ellir ei gyssoni. Yr hwn ni rodia yn ei dŷ, nid yw ond rhagithiwr yn y eglwys. Yr hwn nid yw Gristion yn ei siop, nid yw Gristion yn ei ystafell, pe ar ei liniau mewn gweddai. Os archollir crefydd mewn un rhan, 'e'i teimlir ym mhob rhan. Os adfeilia hi un ffordd, nis gall gymyddu un ffordd arall. Nid yw pawb a fyddo yn methu mewn crefydd, yn methu yr un ffordd. Megys y mae o ran ein bywyd naturiol; gwelir fod rhai yn marw tuag i fyny, a rhai tuag i waered: yn y naill—y rhanau eithaf—y traed, sydd yn marw gyntaf; ac felly angeu a ymghiba i'r coesau, ac a ymeifl o'r diwedd yn y rhanau bywydol. Yn y llall, ei ranau penaf a ymaflir ynddynt yn gyntaf. Felly mewn profes, ymddengys adfeiliad rhai, yn gyntaf, trwy esgeuluso dyledswyddau perthynol i'w galwedigaethau neillduol, a'r hyn sy ddyledus arnynt yn ol eu lle a'u perthynas â dyn; tra y maent, hyd yn hyn, i'w gwled yn dra dyfal a gwresog yn nyledswyddau addoliad Duw, yn gwrandaw, yn gweddio yn fynych, a'r cyffelyb. Ereill a gloffant yn y rhai hyn yn gyntaf: ac, ar yr un pryd, a ymddangosant yn dra manwl yn y lleill. Mae y naill ffordd a'r llall yn gyffelyb andwyol i'r enaid—y ddwy yn cyfarfod yn ninystr grym duwioldeb. Hwnw sy'n sefyll mewn trefn, a fyddo yn gwneud cydwybod o'r holl ddyledswyddau sy'n perthyn iddo, yn ei le, tuag at Dduw neu ddy.

3. At sefyll mewn trefn, y mae yn angenrheidiol i ni gadw terfynau ein lle a'n galwad. Gorchymynwyd i'r Israeliaid "wersyllu bob un wrth ei lumman ei hun;" *Num. ii. 2*—yn ol trefn, medd y cyfieithiad Groeg. Ni chaniata Duw i neb fod yn grwydriaid o'u lle ym myddin ei saint: "Megys y darfu i'r Arglwydd alw pob un; felly rhodid;" *1 Cor. vii. 17.* Rhaid i'n rhodiad fod yn y llwybr hwnw y mae'n galwad yn ei bennodi. Am hyn y gorchymynir i ni bawb, "wneuthur ein gorchwyllion ein

hunain;" *1 Thes. iv. 11.* Nid gwaith y milwyr cyffredin yw yr hyn sydd yn perthyn i'r blaenor mewn llu; nid gwaith y deiliaid yw gwaith y llywydd; nid gwaith y gwneidog sydd yn eiddo'r bobl. Yr hyn sydd gyfiawnder yn y llywydd, sy lofruddiaeth mewn un arall. Ein pethau ein hunain yw y pethau sydd yn dyfod o fewn cylch ein galwad cyffredinol, neu neillduol: allan o'r rhai hyn, yr ydym allan o'n hesgobaeth. O, y fath fyd llonydd a gaem pe byddai pob peth, a phawb, yn adnabod ei le ei hun! Pe cadwai'r môr ei le ei hun, ni chaem weled ei ryferthwy: pe cadwasai dynion eu lleoedd, ni chawsem chwaith weled y fath lifeiriant o bechod, nac o drueni, ag y bu agos i'r oes annedwydd hon fodd ynddynt. Ond rhaid i hono fod yn geulan gref yn wir, a ddichon ddal ein hysbrydoedd ffrydiol ni o fewn eu terfynau eu hunain. Cafodd Pedr ei hun ei geryddu yn llym am chwilio, o fan-ylgais, i'r peth nad oedd yn perthyn iddo: "Beth yw hyny i ti?" *Ioan xxi. 22.* Fel pe dywedasai Crist: Pedr, edrych di at dy faterion dy hun; nid yw hyny yn perthyn i ti. Fe allai, medd un, mai y cerydd hwn a wnaeth i Pedr, ar ol hyn, roddi gorchymyn mor ddifrifol yn yr achos, a nôd mor ddu ar y pechod hwn, fel y gellwch gael yn *1 Pedr iv. 15.* Y mae efe ynno yn gosod yr ymyrwr ym mys g llofruddion a lladron.

Yn awr, at osod pob un yn ei le, ac annog pawb i sefyll yno mewn trefn, heb dori eu rheng, gall y pun ystyriaeth canlynol, mi dybygwn, fod o bwys, yn enwedig gyda'r rhai hyny ag y mae gair Duw yn yr Ysgrhythyr etto yn cadw ei awurdodn gyda hwynt, i sefydlu a therfynu eu meddyliau:—

1af. Ystyria nad ydyw yr hyn a wnelych allan o'th le yn gymmeradwy gan Dduw, am nas gelli ei wneud mewn ffydd, heb yr hon, y mae yn amhosibl rhyngu bodd Duw; ac nis dichon fod mewn ffydd, am nad oes genyt un galwad. Ni rydd Duw i ti ddiolch am wneud y peth na osododd efe di arno. Mae yn bosibl fod genyt fwriad da: felly yr oedd gan Uzzah, wrth ymaffyd yn yr arch: etto, y modd y barnodd Duw am ei zel, gwelwch yn *2 Sam. vi. 7.* Gallowd Saul ei hun wneud chwedl deg am ei waith yn aberthu; ond ni wnaeth hyny y tro iddo. Y mae yn gweddu i ni, nid yn unig ofyn i ni ein hunain, beth yw yr hyn a wnawn, ond hefyd pwy sydd yn gofyn hyn ar ein llaw? Yn ddiâu, fe fydd i Dduw, yn y diwedd, wasgu yr ymofyniad atom; a drwg fydd i ni os na allwn ddangos ein hawdurdodiad. Mae yn rhaid i ni esgeuluso ein gwaith ein hunain, cyhad ag y byddom yn brysor o ddeutu gwaith un arall. Y mae y ddywedd yn addef hyn: "Gosodasant fi i gadw gwinllanoedd ereill; fy ngwinllan fy hun nis cedwais;" *Can. i. 6.* Ni allai hi edrych at yr eiddo ereill, a'i gwinllan ei hun hefyd. Bydd i'n haiarn ein

hun oeri, tra y byddodd yn euro haiarn un arall. Ac y mae yn rhaid i hyn anfoddhau Duw—gadael y gwaith y gosododd Duw ni arno, i wneud yr hyn ni orchymynodd efe erioed. Pan alwo meist'r ei ysgolhaig ys-teleciog i gyfrif, wedi iddo fod ar goll o'r ysgol am rai dyddiau, A fydd yn esgus digonol iddo ddywedyd wrth ei feistr ei fod ef yr holl amser yng ngweithdy hwn a hwn, yn gwaethio â'i arfau ef? Na fydd yn sicr: yn yr ysgol yr oedd ei waith ef, nid yn y gweithdy hwnw.

2il. Trwy adael ein lle a'n galwad priodol, yr ydym yn amddifadu ein hunain o nawdd Duw. Yr addewid yw, y ceidw efe ni yn ein holl ffyrdd: *Salm* xci. 11. Pan elom ni allan o'n ffordd yr ydym yn myned tu allan i gysgod ei aden ef. Y mae genym le rhag-orol am hyn: "Yn yr hyn y galwyd pob un, yn hyny arosed gyda Duw;" *1 Cor.* vii. 24. Craffwch ar y geiriau—"arosed gyda Duw." Fel y carwn rodio yng nghymdeithas Duw, y mae yn rhaid i ni aros yn ein lle a'n galwad: y mae pob cam oddi wrth hyny yn ymadawiad oddi wrth Dduw. A gwell yw aros gartref mewn lle gwael a galwad isel, yn yr hwn y gallwn fwyhau cymdeithas felus â Duw, na myned i'r llys, a byw yno hebdo ef. Y mae yn debyg i chwi glywed am yr esgob duwiol hwnw, a ddisgynodd ar ei daith mewn tafarndy, ac wedi ymddiddan â gwr y tŷ, a'i gael ef yn wr tra Atheistaidd, neu annuw, a alwodd yn fuan ar ei was, i ddwyn ei geffyl iddo, gan ddywedyd, na lettyai efe yno, am nad oedd Duw yn y lle hwnw. Yn wir, pan fyddych mewn rhyw le, neu ar ryw waith, na alwyd mo honot iddo, gallwn yn ddiogel ddywedyd, "Nid yw Duw yn y lle na'r gwaith hwnw." A pha fath anturiaeth hyf yw i ti aros yno, lle lle nas gelli ddisgwyl ei bresenoldeb ef i gynnorthwyo, nac amddiffyn? "Gwr yn ymdaith o'i le ei hun sydd debyg i aderyn yn cilio o'i nyth;" *Diar.* xxvii. 8. Cymmerodd Duw ofal reildduol na chai yr aderyn a fyddai yn eistedd yn ei nyth, ac ar ei hwyau, ddim niwed: *Deut.* xxii. 6. Ond nid ydym yn cael dim i'w diogelu, os caid hi ar grwydr. Wrth ddilyn gwaith ein sefyllfa, y mae genym air y nef er ein diogelaid: ond byddwn dan ein perygl, os awn i grwydro. Yr ydym, yn hyn, yn debyg i Simeï allan o'i derfynau (*1 Bren.* ii. 40), ac yn rhoddi ein hunain yn agored i ryw faru neu gilydd. Cyffelyb beryglus ydym gwneuthur y peth na'n galwyd iddo, ac esgeuluso neu beidio gwneuthur dyledswydd ein lle. Megys na allai y ddaear oddef treiswraith Corah, ond eilyngeu ef a'i wyr, am geisio yr hyn ni pherthynai iddynt; felly, nis gallai y môr oddef, ond tystio yn erbyn Ionah, y prophwyd ffoadurus, gan nacau ei drosglwyddo ef, oedd yn diange o'r lle a'r gwaith y galwasai Duw ef atynt. Iê, ni chynnwysai y nef ei hun mo'r

angelion, ar ol iddynt unwaith adael eu lle eu hunain, a'r swydd y gosodasai eu Crewr hwynt ynddi. Felly yr wyf yn cael y deongliad mwyaf tebygol ar y geiriau yn *Iudas* 6. Y mae dinystr eneidiau lawer yn dyfod arnynt trwy y drws hwn. Yn gyntaf, hwy dorant y rheng; ac yna, a arweinir ym mhellach i brofedigaeth. Y mae Absalom, yn gyntaf, yn edrych dros y clawdd, yn ei feddylliau o uchelgais: yn frenin y mynai efe fod; ac y mae'r chwant gwibiog hwn, tu hwat i'w le, yn gollwng i mewn y pech-odau ysgeler hyny—gwrthryfel, llosgach, a llofruddiaeth; a'r rhai hyn yn ei addfedu, ac o'r diwedd yn ei draddodi i law dialedd dwyfol. Y mae'r apostol yn cydgyssylltu trefn a chadernid: "Yr ydwyf gyda chwi, yn yr ysbryd, yn llawenyachu, ac yn gweled eich trefn chwi, a chadernid eich ffydd:" *Col.* 2. 5. Y llua safo mewn trefn daclus, pob un yn ei le, ac ar ei ddyledswydd, yn foddolawn i'w waith, y mae mewn ystyr yn anorchfygol. Pa fodd y bu i anryw, yn ein dyddiau ni, syrthio oddi wrth eu cadernid, ond trwy dori eu trefn?

3ydd. Ni achwynir byth arnom am fod heb wneuthur gwaith un arall: "Dyro gyfrif o'th oruchwyliaeth;" *Luc* xvi. 2; hyny yw, o'r hyn oedd wedi ei ymddiried i ti yn ol dy swydd. Gallwn yn wir fod yn gyfranogion ym mhechod a throseed un arall yn ei le: "Na fyddwch gyfranogion â hwynt;" *Eph.* v. 7. Y mae modd i ni gyfranogi yn mhechodau ereill, oni byddwn yn dra gwyladurus: ac am hyny, gallwn roddi Amen wrth weddi y gwr duwiol hwnw, "Arglwydd, maddeu i mi fy mhechodau rhai ereill." Gall marsiaidwyr fasnachu â llongau nad yw yn eiddo iddynt hwy: gallwn minnau bechu â dwylaw rhai ereill: ac un ffordd enwedigol ydyw, pan na roddom i'n brawd y cymunhorth, yn ei le a'i orchwyl, y rhwymir ni i'w roddi trwy ein lle a'n perthynas. Ond nid ein pechod ni ydyw ein bod heb gyflenwi diffyg rhai ereill, trwy wneud yr hyn sydd yn annberthynol i'n lle ni. Yr ydym i weddio dros swyddogion, am iddynt reoli yn ofn Duw: eithr oni wna't, nid oes i ni ddringo ar y fainge, a gwneud eu gorchwyl yn eu lle. Nid yw Duw yn gofyn genym ond ffyddlondeb yn ein lle. Ni feiwn ar bren afalau, os bydd yn llwythog o afalau (ffrwyth ei ryw ei hun), er nas gallwn gael na figys na gwinwydd yn tyfu arno. Oddi wrth eu gwreiddyn a'u boneff priodol y disgwyliwn ni y rhai hyn. Y mae hwnw yn bren ffirwythlawn yng ngwinllan Duw, sydd yn dwyn ei ffirwyth yn ei bryd: *Salm* i. 3.

4ydd. Cysur tlawd sydd wrth ddioddef am wneud yr hyn nid ydoedd yn waith ein lle a'n galwad. Cyn i ni gychwyn at un rhyw orchwyl, y mae'n gweddu i ni ofyn ni ein hunain, a hyny yn ddirifol, Pa fat

yw ein taclau, os goddiweddir ni gan ystorn
 yn ein mordaith. Ffolineu yw cychwyn ar
 anturiaeth na wna ein dwyn trwodd a thalu
 ein costau, er pob colled a helbul y dichon
 ein dwyn ni iddynt. Yn awr, nid oes na
 chysur na chymmhorth i'w ddisgwyl oddi
 wrth Dduw mewn un math o ddiodefaint,
 oddi eithr i ni allu profi mai ei eiddo ef yw
 y gorchwyl y buom yn dioddef o'i beglid :
 "Er dy fwyn di yr ydys yn ein lladd ar hyd
 y dydd," medd yr eglwys : *Salm* xlv. 22.
 Ond os daw dioddef o hyd i ni allan o'n
 lle a'n galwad, nis gallwn ddywedyd, "Er dy
 fwyn di y cystuddir ni fel hyn ac fel hyn ;"
 ond er ein mwyn ein hunain : a chwi wydd-
 och y ddiareb, "Hunan-weithio, hunan-
 daid." Y mae'r apostol yn gwneud gwahan-
 iaeth tra mawr rhwng dioddef fel ymyrwr,
 a dioddef fel Cristion : 1 *Pedr* iv. 16. Am
 yr olaf y dywed efe, "Na fydded gywilydd
 ganddo ; ond gogonedded Dduw yn hyn o
 ran." Am yr ymyrwr, y mae yn ei gydieuo
 â lladron a lleiddiaid : ac y mae i'r rhai
 hyny, mi dybygwn, achos i gywilyddio ac
 ofni hefyd. Y saer a gaffo gorriad neu friw
 ar ei goes, gan ei fwyell, pan fyddo wrth
 waith ei alwad, gall ei oddef yn fwy amyn-
 eddgar a chysurus nag un a fo'n ymhel yn
 ysmala â'i arfau ef, ac heb fod iddo ddim
 a wnelai â'r cyfryw orchwyl. Pan oddi-
 weddocystudd neu erlid y Cristionarei daith,
 yn y ffordd y gosododd Duw ef arni, gall
 ddangos y Beibl, fel y gwnaeth y gwr duw-
 iol hwnw, wrth ddioddef dros Grist, a
 dywedyd, "Hwn a'm gwnaeth i yn dlawd ;
 hwn a'm dygodd i garchar:" hyny yw, ei
 gred i'r gwirioneddau, a'i ufudd-dod i'r
 gorchymnion sydd ynddo. Ac am hyny,
 gall efe ddisgwyl yn hyderus cael dioddef ar
 gost Duw, fel y milwr am gael ei gadw a'i
 gynnal gan ei frenin, yng ngwasanaeth yr
 hwn y collodd ei aelodau. Ond y llall, a
 redo allan o'i le, ac a gyfarfyddo felly â
 dioddefiadau, y mae ganddo hyn i'w chwer-
 wi, nad oes iddo edrych am ddim oddi wrth
 Dduw, ond cael ei ddwys guro am ei boen.
 Megs y gwneir â phlentyn, a gaffo ryw
 niwed tra y mae yn gwibio ar led, pan ddel
 adref yn yr hwyr, â'i wyneb wedi cleiso, efe
 a gaiff gurfia yn chwaneg gan ei dad am
 fod oddi cartref. Gwasgodd hyn yn drwm
 ar ysbryd y gwr dysgedig hwnw yn yr Al-
 maen, Ioan Ffuncius ; yr hwn, o fod yn
 weinidog yr efengyl yn llys ei dywysog, a
 drodd yn weinidog llywodraeth i'w dywys-
 og : a chafodd yn y diwedd, am ryw gynghor
 drwg, neu o leiaf, a farnwyd felly, ei gon-
 demnio i farw. Cyn dioddef, yr oedd ei
 alar yn fawr am iddo adael ei alwad ; ac i ry-
 buddio ereill, canodd bennill i'r ystyr hwn :—

"Dy le a'th alwad cadw ;
 Dysg hyn oddi wrthyf fi ;
 A ffo rhag swyddymyraeth ;
 Mae'n waeth na'r pla i ti."

5ed. Ysbryd crwydrwibiog sy'n gyffredin
 yn cymmyrd dynion allan o'u lle a'u galwad.
 Yr wyf yn addef fod cynnhyrfiad nerthol, a
 gafodd rhai o weision Duw o'r nef i
 wneuthur pethau anghyffredin ; megys y dar-
 llenwn yn y Beibl am Moses, Gideon,
 Phineas, ac ereill. Ond enbydus yw ym-
 honi i'r cyffelyb : ac anghyfreithlawn yw
 disgwyl yn awr am y fath awdurdodiad o'r
 nef, pan y mae Duw yn ei roddi allan mewn
 ffordd fwy cyffredin, ac wedi gosod rheolau
 am hyn yn ei air. Cystal fyddai i ni ddis-
 gwyl cael ein dysgu yn ddigyfrwng, heb
 arfer y moddion cyffredin, a chael ein galw
 felly. Pan welwyf rai wedi eu donio yn
 wyrthiol, fel y prophwydi a'r apostolion, yna
 mi feddyliaf fod y galwad digyfrwng yr ym-
 honant iddo yn awdurdodedig. Yn ddiâu,
 ni a gawn yn y gair fod galwad anghyffred-
 inol a dysgeidiaeth anghyffredinol yn cyd-
 fyned. Wel, edrychwn beth yw yr ysbryd
 gwibiog sydd yn dwyn llawer allan o'u lle a'u
 galwad. Nid yr un ydyw bob amser.
 Weithiau segurdd ydyw. Yn gyntaf, Y
 mae dynion yn esgeuluso yr hyn a ddylent
 ei wneud ; ac yna hawdd yw eu perswadio i
 ymyru â'r hyn nad yw yn perthyn iddynt.
 Y mae'r apostol yn bwrw yn amlwg at hyn :
 "Y maent yn dysgu bod yn segur, gan
 rodio o amgylch o dŷ i dŷ ; ac nid yn segur
 yn unig, ond yn wag-siaradus ;" 1 *Tim.* v.
 13. Y mae segurddyn yn rhodianwr ; y
 mae ei droed ar y trothwy, yn hawdd ei
 dynu o'i le ei hun, ac mor ebrwydd i esgob-
 aeth un arall. Y mae ganddo amser i wra-
 daw dadwrdd Satan. Y neb ni fyn wasan-
 aethu Duw yn ei le ei hun, bydd i'r diafol,
 yn hytrach na'i fod heb waith, ei anfon ar
 ei neges ef, a chael ganddo roddi ei gryman
 yn fyd gwr arall. Yn ail, Balchder ac an-
 foddlonrwydd sy'n peri i ddynion adael eu
 lle. Y mae rhai yn dra anhapus yn hyn,
 trwy fod â'u hysbrydoedd yn rhy fawr ac
 uchel i'r lle y gosododd Duw hwynt ynddo.
 Y mae eu galwad, fe allai, yn isel a gwael,
 ond eu hysbrydoedd yn uchel ac am ymgodi :
 a phryd y dylent ymgais am gael eu calonau
 at eu sefyllfa, eu dyfais hwy yw, pa fodd i
 gael eu sefyllfa at eu calonau beilchion. Y
 maent yn cyfrif eu hunain yn dra annedwydd
 tra y maent wedi eu cau o fewn y fath der-
 fynau cyfyng. Yn wir, y mae'r holl fyd yn
 rhodfa rhy gyfyng i galon falch ; nid oedd y
 byd yn rhoddi ond llonyddiad bach i
 Alecsander. A gymmerant hwy eu cuddio
 yn y dor, neu mewn congl dywyll, a marw
 cyn rhoddi i'r byd wybod eu gwerth ? Na,
 ni allant ei oddef ; ac am hyny, rhaid yw
 iddynt fyned ar y chwareufwrdd, a dangos
 eu hunain ryw ffordd neu gilydd. Nid
 gwaith yr offeiriad oedd mor hoff gan Corah
 a'i gyfeillion, ond y bri oedd yn canlyn eu
 gwaith : o hwn yr oeddynt yn chwenych
 cyfran, ac yn anfoddog wrth weled ereill yn

ei gael yn eu lle hwynt. Nid y zel oedd gan Absalom o blaid cyfiawnder a barodd i'w ddannedd ddyferu ar ol coron ei dad; er mai hyn oedd y lliw teg a roddodd efe ar ei uchelgais. Y mae'r cyfryw leodd, yn yr eglwys a'r wladwriaeth, yn flodau mor hardd nes yw ysbrydoedd uchel, ym mhob oes, wedi chwennych cael eu planu hwynt yn eu gardd, er nad ydynt hwy yn tyfu un amser g, s al ag yn eu daear eu hunain. Mewn un arall, anghrediniaeth ydyw. Hyn a wnaeth i Uzza estyn ei law yn fyrbwyll i ddal yr arch oedd yn ysgwyd: yr hon, am nad oedd efe yn Lefiad, nid oedd iddo gyfwrdd â hi. (Gwel *Num.* iv. 5—15). Och, wr da, yr oedd ei ffydd ef ynsiglo yn drymachna'r arch: trwy ofni codwm hon, efe a syrthiodd ei hun hyd y llawr. Nid oes ar Dduw eiseu ein camwedd ni i ddal i fynt ei ogoniant, ei wirionedd, na'i eglwys. Yn olaf, Mewn rhai, zel dangamhysbysrwydd ydyw. Maellawer yn tybio y gallant wneud rhyw waith am eu bod yn medru. Hwy a fedrant bregethu; ac am hyny, hwy a allant: pa ham ynte y mae doniau ganddynt? Yn sicr, nid yw yn rhaid i un o ddoniau y saint fyned yn ofer, er na byddont wedi eu rhoddi allan yng ngwaith y gweinidog. Y mae i'r Cristion cyffredin faes eang, y gallfod yn wasanaethgar ynddo i'w frodyr: nid yw yn angenrheidiol iddo dori y cae a osododd Duw, a pheri trwy hyny y fath annhrefn ag a welwn ni sydd yn bod yn ganlynol i hyn. Ni a ddarllenwn yn gyfraith Iuddewaidd (*Ecsod.* xxii. 6), os rhoddai un dân mewn (cae) drain, ac i'r tân hwnw losgi fyd mewn tas, neu faes, fod arno dalu iawn; er mai yn y drain yn unig y rhoddasai efe dân, ysgatfydd, heb fwrriadu niweidio yr fyd; a'r rheswm oedd, am fod ei waith ef yn tanio y drain yn achos o losgi yr fyd, er nad oedd efe yn bwriadu hyny. Nis beiddiaf fi ddywedyd fod pob Cristion neillduol, a ymasfodd yng ngwaith y gweinidog yn bwriadu gwneud y fath derfysg yn yr eglwys ag sydd wedi bod, ac yn bod etto, yn drwm yn ein mysg. Na ato Duw i mi feddwl hyny. Ond, O, na allwn eu glanhau rhag bod yn gyfranogion yn y peth, gan eu bod wedi rhoddi tân yn y cae a osododd Duw rhwng galwad y gweinidog a'r bobl. Os bydd y weinidogaeth yn swydd neillduol yn eglwys Crist (yr hyn, mi a feddwyliwn, y bydd i'r gair ei gymhell arnom), yna, y mae yn rhaid i ni addef hefyd nad ydyw yn waith i neb, er mor ddoniol fyddo, oddi eithr ei alw i'r swydd. Y mae llawer i'w cael mewn teyrnas a allent wneuthur negeswaith y brenin, y mae yn debygol, crystal a'i genadwr ef: etto, nid oes neb yn cymmeryd y swydd ond y neb a anfonir ac a all ddangos ei dystlythyrau. Y rhai ni anfonwyd, ac ni awdurdodwyd, trwy alwad Duw i waith y weinidogaeth, hwy a allant lefaru gwirioneddau gystal a'r rhai a anfon-

wyd: er hyn, gallwn ddywedyd am yr hwn sydd yn gweithio yn ol ei alwad ei fod yn pregethu trwy awdurdodiad, ac nid fel y rhai na allant ddangos dim awdurdod ond yr hyn a ddyry eu tyb eu hunain am eu doniau eu hunain iddynt. A wyt ti yn hoffi gwaith y gweinidog? Pa ham na chwennychit ti y swydd fel y gellit wneud y gwaith mewn modd derbyniol? Yr wyt yn cael dy hun wedi dy ddonio, dybygit ti, i'r gwaith: oni fyddai yr eglwys yn gymmlhwysach i farnu na thi dy hun? Ac os caid di felly ganddynt hwy, a appwyntiwyd i'th brofi, pwy ni roddai i ti ddeheulaw cyndeithas? Nid yw y llafurwr ym maes Crist mor lli-osog na byddai derbyniad i'th help dithau, os gelli ei roddi. Ond fel yr wyt ti yn ymddwyn, yr wyt yn dwyn dy hun dan amnheuaeth ym meddyliau Cristionogion pwylllog; fel y byddai achos i ammheu gwr, a ddeuai i'r maes, lle y mae byddin gan ei frenin, ac a honai ei fod yn dyfod i wneud gwasanaeth i'w lywydd, yn erbyn y gelyn cyffredin; er hyn, gan sefyll ar ei ben ei hun, uwch ben llw a gasglodd efe; ac yn gwrthod cymmeryd un awdurdodiad gair swyddogion ei frenin, ac yn nacau ymuno â hwynt. Pe byddai y fath un yn meddw fel y mae yn dywedyd (am yr hyn mae lle ofni), yr wyf fi yn ammheu a fyddai y gwas anaeth a allai efe ei wneud o gymmaint lle ag a fyddai yr annhrefn a allai ei ymddygiad hwn beri yn y fyddin o niwed.

PENNOD III.

Lle y cynnwysir y trydydd arwyddocodd, a'r olaf i'r gair "sefwch," a dyledswydd y Cristion i sefyll ar ei wyladwriaeth ym cael ei dangos a pha ham, a pha fodd, y dylai efe wlyto.

Y MAE "sefyll" yma yn gyferbyniol gwsg a diogi. Agwedd effro a gwyllyddo yw sefyll. Pan welo cadben ei filwr y gorwedd yn ddfraw ar y ddaear, ac y hepian, efe a lefa, "Sefwch at eich arfau; hyny yw, sefwch, a gwyllywch. Mewn rhai achosion, y mae yn farwolaeth os ce milwr yn cysgu; megys, pan y byddo wedi ei osod i fod yn wylwr, a'r cyffelyb. Iddo gysgu y pryd hyn sydd yn haeddiannol farwolaeth, am ei fod ef i wlylio fel y gallo fyddin oll gysgu, ac y dichon ei gwsg; gostio iddynt oil eu bywydau. Am hyn, i farnodd un cadben mawr ei fod wedi rhoddi dim ond iawnder i'w filwr, a drywanodd â'i gleddyf, am iddo ei gael yn cysgu, pan dylasai efe fod yn sefyll yn wylwr. esgus am ei lynder oedd hyn:—"Yn farw y cefais ef, yn farw y gadewais ef." Mew cwsg yr oedd wedi ei gael, ac yng nghwangu yr oedd wedi ei adael. Y mae gwyllydd iadwriaeth yn fwy angenrheidiol i'r milwr Cristionogol nag i un milwr; am fod milwr ereill yn ymladd â dynion sydd mor rheid

iddynt gysgu a hwythau : ond am Satan, gelym mawr y Cristion, y mae yn effro o hyd, yn rhodio o amgylch, gan geisio y neb a allo ei lyngu. Ac os yw Satan yn effro bob amser, peryglus yw i'r Cristion fod un amser mewn cwsg ysbrydol, sef yn ddifraw a diofal. Anfynych y trechir y Cristion gan ei elyn hwn, heb fod rhyw frâd neu esgeulusdra yn y gorchwyl; naill ai y mae y rhan ddiadgeneddig yn ei fradychu; nid yw ei ras mewn deffroad, i'w ganfod mewn pryd, a pheri iddo ymbarotoi i'r fywydr. Y mae y gelym arno cyn iddo fod yn gwbl effro i dynu ei gleddyf. Amser hepian y saint yw yr amser temtio gan Satan. Y mae prifyn yn beiddio ymlusgo ar lew pan y mae yn cysgu. Nid oes un demtasiwn mor wan nad yw yn ddiagon cref i faeddu Cristion a fyddo yn hepian mewn diofalwch. Pan yr oedd Samson yng nghwsg, dyna Dalilah yn tori ei gudynau; Saul yn cysgu, dyna y waewffon wedi ei ddwyn oddi wrth ei ochr, ac yntau heb wybod dim; Noah yn cysgu, a dyna ei fab di-ras yn cael cyffe i ddadguddio ei noethni; Eutyclus, wedi cysgu, y mae yn pendrymu, ac yn cwympo o'r drydedd lofft, i'w cael ei godi i fyny yn farw. Fel hyn, os y Cristion a hepiana mewn diofalwch, gall rhuthr ddyfod arno, nes peri iddo golli llawer o'i rym ysbrydol—llawenydd yr Arglwydd, yr hwn yw ei nerth. Dichon gael ei ysbeilio o'i waewffon, o'i arfogaeth (ei rasmus yr wyf yn ei feddwl, o leiaf yn y defnyddiad presennol o honynt), a chael dadguddio ei noethni gan ddynton di-ras, er gwaradwydd i'w broffes. Megys pan y gallai Ioab waedlyd sylwi ar wag ogonedd Dafydd yn rhifo y bobl, onid oedd gras Dafydd mewn cwsg? Ie, fe ddichon syrthio o lofft uchel o broffes mor ddwfn i'r fath arferiad gwaradwyddus, hyd oni bydd ereill yn amhneu a oes ynddo fywyd gwirioneddol o ras. Ac am hyn, y mae yn gweddu i'r Cristion sefyll yn effro: y mae cwsg yn dyfod mor araf-ladradaidd ar yr enaid ag ar y corph. Syrthiodd y morwynion call i gysgu, yn debyg i'r rhai ffïol, er nad cyn drymed. Gwylia rhag anwesu dy hun yn dy glwyf dioglyd; ond ymgynhyrfa i waith, fel y byddwn yn galw ar un a fyddo yn gysglyd i sefyll i fyny, neu rodio. Os ymroddi i'r dymmer, drwy segura a diogi, hi a gynyddda arnat: ymgynhyrfa yn y naill ddyledsdydd a'r llall, a hi a ä ymaith. Y mae Dafydd yn gyntaf yn deffro ei dafod i ganu, a'i law i daraw at ei delyn; yna, y mae ei galon yn deffro hefyd: *Salm. lvii. 8.* Dywedir fod y llew, ar ei ddeffroad cyntaf, yn ffrewyllu ei hun â'i gynnfon, i gynnhyrfu felly, ac annog ei lewder; ac yna, ymaith yr â ar ol ei ysglyfaeth. Y mae i ni ddigon i'n cynhyrfu ac i'n hannog i arfer pob gofal a diwydrwydd a fyddo yn bossibl.

1af. Y mae gwaith y Cristion yn rhy gywrain i'w wneud rhwng cysgu ac effro; ac

yn rhy bwysig i'w wneud yn ddrwg, neu yn fusingrell, nad oes fater pa fodd. Y mae yn angenrheidiol i hwnw fod yn effro, a fyddo yn rhodio ar fin afon ddfon, neu ar ael bryn serth. Y mae llwybr y Cristion mor gul, a'r perygl mor fawr, a bod eisieu llygad cyflym i ganfod, a llygad craff i gyfeirio; ond ni ddi-chon llygad cysglyd wneud y naill na'r llall. Edrychwch ar unrhyw ddyledsdydd neu ras, a chwi a'i cewch yn gorwydd rhwng dwy graff (fel Scylla a Charybdis), sydd yn gyffelyb beryglus. Y mae ffydd, gwaith mawr Duw, yn tori ei ffordd rhwng y mynydd o ryfyg, a'r llyngelyn o anobaith; ac amynedd yn ras mor angenrheidiol, fel nas gallwn fod hebdo am ddiwrnod, oni fynem fod am hyn y o amser allan o'n pwyll. Hwn a'n ceidw fel na syrthiwn o'r mudglwyf cysglyd o hurt ddideimladrwydd, sydd yn difuddio y creadur o'i deimladau; na chwaith i anhwyll gwyllt o anfoddogrwydd, sydd â digon, a gormod, o deimladau ynddo i deimlo llaw Duw; etto, yn difeddu y dyn o'i reswm, nes y mae efe yn troi yn ol ar Dduw, ac yn ergydio saethau yr Hollalluawg yn ol i'w wyneb tanlyd ef, yng nghyundared ei ysbryd gwrthnysig. Gallen ddywedyd yn debyg am y rhai ereill. Nid oes un gwirionedd heb fod rhyw gyfeiliornad yn y tŷ nesaf ato. Nis gellir cyflawni un ddyledsdydd heb ddyfod yn dra agos i wersyll y gelym; yr hwn a gynnhyrfir yn fuan, ac a ddaw allan i wrthwynebu y Cristion. Ac oni ddylai efe fod bob amser â'i galon ar wylidwriaeth?

2il. Nid yw y blinder o wyllo i'w gymharu â'r fantais a ddwg.

(1af.) Wrth hyn, ti a siomi y bwriadau sy gan Satan i'th erbyn. Y mae yn werth gwylid i gadw y tŷ rhag ysbeiliad; llawer mwy y galon, rhag ysbeiliad gan ddiabol. "Gwylwch, fel nad eloch i brofedigaeth." *Mat. xxix. 41.* Y mae efe yn prynu ei gwsg yn ddrud, sydd yn talu am dano â thoriad ei wythienau gwaed, i'e, pe na byddai archoll mor ddwfn nas gellid ei iachau o'r diwedd. Gall dy fod heb wyllo am un noswaith, dy gadw yn effro lawer noswaith, ar achos mwy gofidus. Ac onid gwell fyddai i ti wyllo mewn gofal i'th gadw dy hun rhag niwed, nag i'th lygaid gael, wedi hyn, eu dal yn agored, er dy fodd, neu dy anfodd, gan ofid a phoen y briw a gefaist yn dy gwsg? Chwi a wyddoch mor drwm y briwyd Dafydd gan godwm a gafodd yn ei hân ysbrydol. Beth ond hepian oedd ei waith, pan y cododd oddi ar ei wely, ar brydnawn, ac y rhodiodd ar nen ei dŷ, fel dyn yn rhodio trwy ei hân? *2 Sam. xi. 2.* A pha sawl noswaith aflonydd a ddygodd hyn ar ben y gwr da hwn chwi ellwch ddirnad trwy ei gwynion galarus ei hun, am y pechod hwn, yr hwn yw sail a thestyn athrist amryw Salmuau galarus.

(2il.) Trwy dy wylidwriaeth y dysgi yn oreu adnabod y drwg o gyflwr cysglyd. *Dya*

yn ei gwsg nid yw dirnad ei chwyrniad ei hun; mor anweddus a blinderus yw gan ereill: ond un a fyddo yn effro, y mae yn adnabyddus o'r ddau. Dyn yn ei gwsg nid ydyw yn ymdeimlo pe gosodid ef yn noethlymyn gan rai a fyntent dddwyn gwarth arno: ond y mae un effro yn sylwi, yn cywilyddio, ac yn ei orchuddio. Fel hyn, tra yr wyt tithau yn effro, mewn ystyr ysbrydol, nis gelli lai na sylwi ar lawer o droion anhardd ym mucheddau y profresswyr hyny sy heb wyllo ar eu calonau, yr hyn a leinw dy galon â thosturi atynt, wrth weled y modd y mae Satan, a'u nwydau eu hunain, yn eu gwarthruddo. Y mae y rhai hyn, fel gweision drygfoesog, yn cymmyrdd eu hamser eu hunain i chwareu eu castiau, ar ol gwneud yn sicr o'i meistres (gras wyf yn ei feddwl, wedi myned i hepiant), yr lion a fuasai yn eu cadw mewn gwcell trefn. Ie, fe wna i'r gwaed ddyfod i'w wyneb gan gwylydd o weled fel y mae profress ei hun, trwy eu noethder hwynt, yn cael ei difrio gan y rhai sydd yn myned heibio, ac yn gweled y modd y mae arnynt hwy. Wel, yr hyn yr wyt yn gwrido wrth ei ganfod, ac y mae yn resyn genyt ei gael mewn arall, gwylia rhag ei ddiogydd i ti dy hun. Os goddefi i gwsg ysbrydol ymflayd ynot, tydi fydd y dyn y gall hyn oll ddyfod arno; a pha beth ni ddaw yn chwanege? Cwsg a wna bawb yn gyd-wastad. Nid yw y gwr doeth, y pryd hyny, yn ddim doethach na'r ffol i ddyfeisio er ei ddiogelwch; na'r cryf yn amgenach na'r gwan i amddiffyn ei hun. Os unwaith y daw hûn ar dy lygaid, y mae yn nos gyda thi; a phe byddech y goreu o'r saint, nid wyt ond fel dyn arall, cyn belled ag y caffo y cwsg hwn oruchafiaeth arnat.

(3ydd.) Trwy dy wylidwriaeth, ti a wahoddi y fath gyfaill atat ag a wna yr amser yn fyr, ac yn hyfryd; a hwnw yw dy anwyl Iachawdwr. Ei gymdeithas, a'i ymddiddan melus ef am bethau teyrnas dy Dad, a bair i ti beidio grwgnach o herwydd yr esmwythdra a ga profresswyr cysglyd trwy golli y fath fywniant nefolaidd ag sydd yn gyfran i ti. Pwy, a fyddo yn caru ei enaid yn fwy na'i gorph, ni ddewisai ganiadau Dafydd, o flaen ei gwsg ef, yn y nos? A phwy ni ddewisai bresennoldeb cysurol Crist, gydag enaid effro, o flaen ei absennoldeb, gydag un diog a chysglyd? Yr enaid gwylidwrus y bydd hoff gan Grist fod gydag ef, ac agor ei galon iddo. Nid ydym ni yn dewis yr amser hwnw i ymweled â'n cyfeillion pan fyddont yn cysgu yn eu gwelyau: nag e, os byddwn gyda hwynt, ac yn eu gwled yn tueddu i gysgu, ni a farwn ei bod hi yn bryd i ni eu gadael i'w gobenydd. Ac yn ddiau, fe wna Crist felly hefyd. Y mae efe yn cilio oddi wrth y ddyweddi nes y byddai hi yn fwy effro, fel amser mwy addas iddi brofi ei gariad ef. Rhoddwch y gwin melusaf mewn llaw dyn cysglyd,

ac fe fydd yn debyg o golli y cwbl; fe, rhoddwch bwrs o aur yn ei law, a phrin y cofia efe yn y boreu am yr hyn a roddasoch iddo y noson o'r blaen. Felly, yng nghyflwr cysglyd yr enaid; y mae y Cristion yn colli budd, a Christ yn colli clod ei drugaredd; ac am hyn, efe a attal rhoddi allan ei bethau dewisol nes y byddo yr enaid yn fwy effro, fel y byddo iddo ef wneud lles i'r creadur, ac i'r creadur ei ganmawl yntau am ei waith.

Cwest. Ond pa fodd y dylai Cristion sefyll ar ei wylidwriaeth?

At. Yn gyntaf, Yn wastadol. Yr oedd lamp Duw yn y labell i fod yn llosgi yn wastadol: *Ecsod.* xxvii. 20; a xxx. 8; hyny yw, ar hyd y nos, i'r hyn y mae ystyr amryw loedd ereill yn tueddu. Ac, attolwg, beth yw ein hoese y byd hwn ond tywyll nos o brofedigaeth? Gwylia, Gristion, rhag i'w ganwyl ddiffodd ar un ran o'r amser tywyll hwn, ac i'r gelyn ddyfod arnat yn yr awr hono. Gall efe gael gafael arnat ti ond nis gelli di ei wrthsefyll yn y tywyllwch. Os unwaith y caur dy lygaid mewn hûn ysbrydol, yr wyt yn nod amlwg i'w lid ef; gwybydd na elli fod yn hir oddi ar dy wylidwriaeth na chlyw y diafol hyny. Efe wyddai a mawr gwsg yr apostolion; ac yn y ceisiodd efe genad i'w iuthio hwynt: *Luce* xxii. Gwelodd eu bod mewn peth anhreffu a llygaid eu henaid yn dechreu trymhu. Mae'r lleidr yn codi pan fyddo gwyr goneu yn myned i'w gwelyau. Yr wyf yn sicr fel Satan yn dechreu temtio, pan fyddo y sain yn peidio gwyllo. Pan dafser ymaith y pwtwn, daw y blaidd i'r golwg. Pan osod y enaid ei berygl yn bellaf draw, ac y go weddo yn fwyaf diofal, yno y mae yn agosa. Am hyny, ymgais am fod yn gysson yn ofal duwiol: diffyg o hyn a anaf a cwbl Chwi gewch rai, ar ol cwmp mawr bechod a'u briwodd yn dost, yn ymddang am dro yn fawr eu gofal pa le y sathrant, y fodd y rhodiant, ac â phwy y cymdeithiant; ond cyn gynted ag yr â dolur eu cywybodau yn iach, dyna eu gwyllo yn darfu ac y maent mor ddiotalag erioed. Yn debydd yn a faria ei siop yu gadarn, ac a eiste i'fyny, ysgatfydd, i'w gwyllo hi hefyd, a ddwy nos neu dair ar ol iddi gael ei thoro ond ni ofala am dani yn hwy. Ereill, mae cystudd, neu newydd ddyfod allan o'r ffwr. O, mor fanwl a gofalus ydynt, tra y n sawyr tân o'u deutu, a'r coffa am eu cyfynder yn fywiog! Y maent yn ofni pech fel yr ofna dyn yr awyr oer ar ol bod mae ystafell lled gynhes: hwy a gydymblgyr ar gynhyriad pob awel o demtasiwn. O, och! mor fuan y caledir hwynt i weithro yn ddiarswyd y pechodau, y rhai yr oedd dim ond ysgogiad tuag atynt, ychydig o blaen, yn eublinio a'u poeni mor drwm! A Josephus, yn ei lyfr, yn dyweddydd dar i feibion Noah, am rai blyneddoedd ar o

lylif, anneddu ar benau mynyddoedd uchel, heb feiddio trigiannu yn y tiroedd isel, rhag ofn cael eu boddi gan ail ddylif. Er hyn, wedi ysbaid o amser, a gweled nad oedd lylif yn dyfod, hwy a anturiasant i lawr i wastadedd Sinar, lle y gwelwn eu hofn gynt wedi dibennu yn un o'r anturiaethau hyfaf a balchaf yn erbyn Duw ag a fu erioed dan yr haul—adeiladu tŵr, wyf yn ei feddwl, oedd â'i nen i gyrhaedd hyd y nef: *Gen.* xi. 2, 3. Y bobl, oedd mor ferchedaidd ac ofnus ar y cyntaf, fel nad anturient i lawr o'r bryniau, rhag ofn boddi, sy'n awr â'u bwriad un ddiogelu eu hunain yn erbyn cais rhagllaw; i.e., gan Dduw y nefoedd ei hunan! Fel hyn, yn fynych, y gwelwn farnedigaethau Duw yn gadael y fath argraff ar ysbrydoedd dynion, nes y safant draw am ennydd oddi wrth eu pechodau, fel y rhai hynny ar eu bryniau, yn ofni dyfod i lawr atynt: ond pan welant hin deg yn parhau, a dim cymnylau yn ymgasglu at ystorn arall, yna, hwy a allant ddisgyn at eu hen arferion drwg, a bod yn fwy hyf a beiddgar yn erbyn y nef nag erioed. Ond os wyt ti am fod yn Gristion mewn gwirionedd, cadw o fewn dy wyladwriaeth; na laesa yn dy ofal: ti a redaist yn dda hyd yn hyn. O! na orwedd i lawr, fel rhyw ymdeithydd diog, yn hepian ar ochr y ffordd; ond cadw dy amser gorphwys, nes y cyrhaeddi adref, allan o bob perygl. Ni orphawysodd dy Dduw nes oedd gwaith creadigol y dydd olaf wedi ei orphen; na phaid dithau chwaith â bod yn effro a gweithgar hyd onis gelli ddywedyd fod dy iachawdwriaeth wedi ei gorphen.

2il. Gwylia yn ddigoll. Yn gyntaf, Gwylia dy holl ddyw. Y mae'r gwyliedydd gonest yn cerdded y cychoedd, ac yn cwmpasu y dref oll. Nid ydwy efe yn cyfyngu ei ofal i'r tŷ hwn neu i'r tŷ arall. Felly, gwylia dithau droës yr holl ddyw. Y mae chwys-dwll yn dy gorph yn ddrws digon llydan i ollwng clefyd i mewn, os Duw a orchymyn; ac felly rhyw un gynneddf o'th enaid, neu aelod o'th gorph, i ollwng gelyn i mewn, a ddechion beryglu dy iechyd ysbrydol. O! leied nifer sydd yn gosod y wyladwriaeth o amgylch! Y mae rhyw gynneddf heb ei gwyllo, neu aelod o'r corph heb edrych ato. Un sydd yn ofalus yn y naill, chwi a'i cewch yn ddiolaf yn y llall. Yr wyt, ysgatfydd, yn gwyllo ar ddrws dy wesusau, rhag i ymddiddanion llygredig friwo clustiau dynion; ond ym mha fodd yr wyt yn cadw gwyladwriaeth yr Arglwydd wrth ddrws teml dy galon? *2 Cron.* xxiii. 6. Ai nid ydwy hi dan halogiad gan chwant? Yr wyt, ysgatfydd, yn cadw dy law allan o bwrs dy gymydog, a'th droed rhag myned ar waith anonest i'w dŷ: ond, ai nid yw dy galon genigensu yn grwnnach am yr hyn a drefnodd Duw iddo? Wrth weddio, yr wyt yn dra gofalus am i'th agwedd oddi allan fod

yn weddaidd: ond pa olygiad sydd genyt ar dy enaid am iddo gyflawnu ei ran yn ei ddyledswydd? Yn ail, gwylia yn mhob peth. Os yw yr apostol yn erchi rhoddi diolch ym mhob dim; yna, y mae yn gweddu i ni wyllo ym mhob dim, fel na chyll Duw ei glod, fel y mae gan y rhan fwyaf, o ddiffyg gwyllo. Braidd y mae un weithred mor fechan nas gallwn wneud ynddi ryw wasanaeth i Dduw, neu i ddiolaf; ac am hynny, nid oes un yn rhy fechan i ni ofalu yn ei chylch. Gwr duwiol yn wir oedd hwnw y dywedwyd am dano ei fod "yn bwyta ac yn yfed bywyd tragwyddol." Yr ystyr yw, ei fod yn gwyllo mor dduwiol arno ei hun yn y pethau hyn, fel yr ydoedd, megys, yn y nef, wrth eu harfer. Nid oes un creadur cyn lleied yn holl waith Duw nad yw ei ragluniaeth ef yn gwyllo drosto, i.e., hyd at aderyn y tŷ, a blewyn pen. Na fydded un gair na gorchwyl o'r eiddot tithau heb i ti wyllo arno. Ti a fernir wrthynt, i.e., hyd at dy eiriau a'th feddyliau segur: ac ai ni wyllo di yn eu hachos?

3ydd. Gwylia yn ddoeth. A hyn a wnei, os gybyddi pa le y dylit gadw y wyladwriaeth fanylaf; a rhaid yw i hynny fod, yn benaf, lle y mae dyledswydd ddwysaf y gorchymyn. Nid yw degymu yr anis a'r cwmin i'w esgeuluso; ond gochel rhag i ti "adael heibio y pethau trymach o'r gyfraith, barn, trugaredd, a ffydd" (*Mat.* xxiii. 23); gan osod dy fanylwch yn y pethau lleiaf, yn orchudd dros dy ddrygioni erchyll yn y rhai mwyaf.

Dechreu dy waith ar yr iawn ben, Gristion, drwy osod dy ofal penaf ar y prif ddyledswyddau hynny, at Dduw a dyn, yn ei gyfraith a'i efengyl ef, yn ei addoliad, ac yn dy rodiad beunyddiol. Wedi i ti wneuthur hyn, na fydd esgeulus o'r pethau amgylchiadol. Pe rhoddai meist'r, cyn myned o'i dŷ, ar ei was i edrych ar ol ei blentyn, a glanhau ei dŷ erbyn ei ddyfod adref, a rydd efe ddiolch i'w was ar ei ddychweliad am ysgubo a thaclu ei dŷ, fel yr archodd iddo, os caiff efe ei blentyn, trwy ei ddiolafwch ef, wedi syrthio i'r tân, ac felly ei ladd neu ei anafu? Y mae yn sic'r nas gwna. Efe a adawodd ei blentyn gydag ef fel ei ofal penaf; i'r hwn yr oedd i'r llall roddi lle, onis gellid gwneud y ddau. Bu sel fawr yn ddiweddar yn ein mysg yng nghylch rhai amgylchiadau o addoliad: ond pwy sydd yn edrych at y plentyn bach (prif ddyledswyddau Cristionogaeth yr wyf yn ei feddwl)? A fu erioed lai o gariad, haelioni, hunanymwadiad, nefol-syniad, neu o rym duwioldeb, mewn un o'u hamryw lwybrau, nag yn ein hoës drymlyd hon? Oeh! y mae y rhai hyn fel y plentyn, mewn perygl mawr o golli eu bywydau yn nhân cynnhen ac ymraniad, a ennywyd gan sel wŷrdraws mewn pethau llai yn ein mysg. Yn ail, Bydd sic'r o wyllo mwy na chyffredin arnat dy hun yn y pethau

yr wyt yn cael dy hun yn wanaf; ac wedi cael yn fynychaf dy faeddu ynddynt. Y rhan wanaf o'r ddinas sydd yn gofyn y gadwraeth gryfaf: ac yn ein cyrph, y rhan dyneraf a gedwir yn fwyaf gofalus a chynhesol. Ac mi a'i cyfrifwn yn beth rhyfedd os yw dy adeilad o ras yn sefyll mor gref a gwastad fel nas gellid yn fuan ganfod pa ochr sydd yn yr iesieu mwyaf o atteg. wrth ryw ogwyddiad ynddi un ffordd yn fwy na'r llall. Nid yw dy gorph mor gadarn nad wyt yn cael ynddo ormod o ryw naws, a rhyw ran yn gwaethygu yn gynt na'r llall: felly y gelli gael yndy enaid. Wel, ystyria yrachos; a'r hyn yr wyt yn ei gael yn wanaf, edrych ato gyda'r gofal mwyaf. Ai dy ben sydd yn wan (dy farn yr wyf yn ei feddwl)? Gwylia arnat dy hun; ac na ddos i fysg y rhai na yfiant un gwin ond a fyddo yn rhy gryf i'th alluoedd gweiniaid di (rhyw byngciau a thybiau uchel-hedegog); ac na feddwl dy fod yn cael cam mawr o wahardd i ti eu cwpan hwynt. Y mae y fath win cryf yn fwy boddhaol i'r pen na buddiol i'r galon; ac am y rhai sydd yn ymarfer mwyaf âg ef, nid ydynt yn cael eu heneidiau yn yr hwyl iachaf, yn ddim mwy na chyrph y bobl sydd yn byw yn fwyaf ar ddyfroedd poethion. A yw dy wendid yn dy nwydau? Yn wir, yr ydym ni yn weiniaid yn ol gradd eu cryfder a'u poethder hwynt. Yn awr, gwylia arnynt; fel ygwaiu na fyddo yn byw dan dô gwellt ar bob gwreichionen a elo drwy ei simdde, rhag iddi ddisgyn arno, a rhoddi y cwbl ar dân. O! edrych pa ymadroddion sydd yn dyfod o'th enau, neu o epau y neb yr ymddiddanech âg ef. Dyma yr offeryn bychan sydd yn gosod holl "droell naturiaeth yn fflam." Pan fyddo tŷ ein cymmydgo ar dân, ni a dafwn ddwfr ar ein nen ein hunain, neu a'i gorchuddiwn â llen wlyb. Pan dorô fflam allan drwy enau un arall, edrych di yn awr am dasfu dwfr ar dy ysbryd poethlyd dy hun. Dwg gyda thi bob amser ryw wersi o'r Beibl—sydd at ddiffodd dig—ac i'r diben hwnw: felly hefyd ym mhob rhyw achos arall—fel yr wyt yn cael dy wendid.

PENNOD I.

"Wedi amgylch-wregysu eich lwynau & gwirionedd;" *Eph. vi. 14.*

Yn cynnwys eglurhad byr o'r geiriau.

WEDI i'r apostol addysgu yr Ephesiaid, ac felly bob Cristion, am y drefn a'r agwedd sydd i'w cadw wrth ymladd â'u gelyn, y mae yma yn dechreu pennodi yr amryw ddarnau o'r arfogaeth hono a orchymynasai efe o'r blaen iddynt, ond yn gyffredinol yn unig. Y darn cyntaf o'honynt yw "gwregys gwirionedd." Y mae holiad deublyg yn angenrheidiol yma. Yn gyntaf, pa beth y mae yn ei feddwl

wrth "wirionedd." Yn ail, Beth wrth y "lwynau," a'u "gwregysu & gwirionedd."

1. Beth yw "gwirionedd" yma? Y mae rhai, wrth wirionedd, yn meddwl Crist; yr hwn yn wir, mewn lle arall, a elwir "y Gwirionedd;" etto, yn y lle hwn, nid wyf fi yn ei weled mor briodol; am fod yr apostol yn pennodi yma amryw ddarnau a rhanau o arfogaeth, y naill yn wahanol oddi wrth y llall, ac nid mor gymmhws fyddai cyfrif Crist fe rhyw undernyn, i amddiffyn yr han hon neu rhan arall, ac fel y cyfan, yn yr hwn yr ydym ni wedi ein cyflawnu. Am hyn y cyfelybir e i'r arfogaeth gyflawn (*Rhuf. xiii. 14*): "Gwisgwch am danoch yr Arglwydd Iesu;" hyn yw gwiser a harneisier chwi â Christ, fel milw, â'i arfogaeth o'i ben i'w draed. Y mae rhai wrth wirionedd, yn meddwl, gwirionedd, athrawiaeth; ereill a'i mynant yn wirionedd calon, uniondeb. Y rhai a gynnwysan y ddau hyn sydd yn oreu i'm tyb i; ac fell y caf fi ei drin. Yn wir, y mae y ddau y ofynedig at wneud y gwregys yn gyflawn ni wna y naill heb y llall. Y mae yn bossil cael rhyw fwriadau da, a math o uniondeb allanol, i.e. yn erbyn y gwirionedd. Y mae llawer yn dilyn cyfeiliornad—fel y rhai hyn Absalom—yn eu gwiriondeb: *2 Sam. xv. 1*. Y cyfrywa wnant waith drwg tra yn bwriad yn dda. Ni wna bwriad da y weithred y dda, ddim mwy nag y gwna nod amlw yr ergyd yn gywir, gan saethwr anfedrus. Nid oedd Duw yn hoffi sel Saul, pan ydoe yn erlid eglwys Crist; er iddo ef dybied, y ddiarnmheu, ei fod drwy hyn yn gwneud iddo wasanaeth dda. Ac nid digon fydd fogenym wirionedd o'n hochr, oni fydd geny wirionedd yn ein calonau. Yr oedd Iesu y elyn mawr i eilunaddoliaeth; ond efe ddymchwelodd y cwbl trwy ei ragrith. G hyn, y mae y ddau yn llwyr angenrheidi uniondeb, i gyfeirio at ddiben da; a gwybodaeth o air y gwirionedd, i'n cyfarwyddo yr iawn ffordd at y diben hwnw.

2. Beth a feddylir yma wrth y "lwynau" sydd i'w gwregysu â'r gwregys hwn? Rhai yw i'r lwynau gyfateb i'r gwregys: ysbrydol yw hwn; yn ganlyniol, y mae lwynau i'w deall felly. Rhydd Pedr i gynnorthwy i ddeongli Paul; "Gwregys lwynau eich meddwl;" *1 Pedr i. 13*. meddyliau a'n hysbrydoedd sydd i wisgwregys hon; a thra addas y gellir cyfelybir ein hysbrydoedd a'n meddyliau i'r lwy. Y lwynau yw prif eisteddfa grym y corff. Dywedir am y behemoth, "Ei gryfder sy yn ei lwynau;" *Iob xl. 6*. Y mae y lwy i'r corph fel y cilbren (*keel*) i'r llong. Y llong y llong oll yn rhwym, ac yn cael ei dal ynghyd wrth hwnw: felly y corph wrth lwynau; os metha y rhai hyn, y mae yr gorph yn methu. Oddi yma y mae archlwynau yn ymadrodd i arwyddo dinyst difethiad: *Deut. xxxiii. 11*. Lwynau gw-

iaid a wnânt ddyngwan. Os byddwn wedi lled ffino, natur a'n dysg i osod ein dwylaw ar ein lwynau, i'w cynnal, fel ein grym penaf. Ac felly yn gyfatebol i weithrediad ein meddyliau a'n hysbrydoedd, yn eu cynneddfau a'u galluoedd, yr ydym ninnau yn Grïstionogion gweiniaid, neu gryfion. Os bydd y deall yn oleu yn ei ddirnadaeth am wirionedd, a'i ewyllys yn ddiffuant, yn rymus, a sefydlog ei fwrïadau at yr hyn sydd yn sanctaidd a da, yna y mae y dyn yn Grïstion cadarn. Ond os bydd y deall yn dywyll, neu ansicr yn ei dybiau, fel llygad clwyfus nas gall graffu ar ei nod, a'f ewyllys yn anwadal ac ansefydlog, fel nodwydd yn ei chrynfachwng dau faen tynu, a'r dyn heb allu dwyn ei feddyliau i benderfynu pa wrthddrych yr ymwasgo âg ef—yma y mae efe yn wan—ac felly y bydd yr hyn oll a wna efe. Y mae ysbrydoedd methodig yn peri curiad gwan ac anwastad hefyd yn y gwaed: felly y mae llyffrygrym yn y meddwl i adnabod y gwir, ac ymrodd yn yr ewyllys, i ddilyn yr hyn a wyl yr ei fod yn dduwiol a da, yn peri i ddyngwanwadal yn ei yrfa. Am hyn, gwasanaeth y ddau hyn—gwirionedd athrawiaeth i'r meddwl, a gwirionedd bryd i'r ewyllys—sydd yn gyfuno a sefydlu y ddwy gynneddf hon; yr awn a wnânt pan y tynheir ac y rhwymir hwynt am yr enaid, fel y gwregys am lwynau y corph. Er mai y lwynau yw grym y corph, etto y mae arnynt eisieu cymhorth a nerth trwy y wregys i gadw y rhanau hyn yn lân, ac i uno eu grym. Heb hyn, byddai i'r dyn, wrth geisio ymeginio a rhoddi ei nerth allan mewn rhyw orchwyl, brofi cryndod a llacâd yn ei lwynau. Oddi yma y mae "cryndod y lwynau" yn ymadrodd i ddatgan gwendid: *Salm* lxi. 23. Fel hyn, y mae ar ein meddyliau a'n hysbrydoedd eisieu y gwregys hwn i'w cryfhau ym mhob gorchwyl a wnelom; os amgen, nis gwawn yn gorchwyl gyda grymsder.

1af. Ni a ddechreuwn gyda gwirionedd athrawiaeth; neu wirionedd y gair, a elwir "gair y gwirionedd" (*Eph.* 1. 13), am ei fod yn air Duw, yr hwn yw Duw y gwirionedd. Y mae yn gweddu i bob Crïstion fod â'r gwirionedd hwn yn dŷn yn eigylich. Gwrthwynebwch ddiabol," medd Pedr, "yn gadarn yn y ffydd" (1 *Pedr* v. 9); hyn yw, yn y gwirionedd: rhoddi ffydd yno am wrthddrych ein ffydd, sef gwirionedd Duw a gyhoeddri yn athrawiaeth yr efengyl. Dyma "y ffydd a rodded unwaith i'r saint" (*Judas* 3), hyn yw, y gwirionedd a rodded iddynt i'w gredu a'i gadw. Ac am y mawr bwys o fod fel hyn yn gadarn yn y ffydd, y mae Pedr yn ei ddangos yn y wers ganlynol i'r un a bennodwyd, trwy ei daer weddi drosytant, ar i Dduw eu cadarnhau, eu cryfhau, a'u sefydlu. Y mae pentyriad geiriau i'r un perwyl yn arwyddo y perygl mawr yr oedd- ynt ynddo o gael eu hansefydlu gan Satan

a'i offerynau, a'r angen o'u bod yn sefyll yn gryfion a diysgog yn y ffydd. Nid oes dim yn cael ei wasgu yn fwy mynych na hyn yn yr epistolau; ac o hyn yn fwy, am ei fod yn yr amseroedd ystormus hyn yn rhy anhawdd gadw y ffydd rhag cael ei chwythu oddi wrthynt, heb y gwregys hwn i'w dal yn dŷn. Yn awr, fel y mae amcan dyblyg gan Satan, i ysbeilio Crïstionogion o'r gwirionedd; felly, y mae amgylch-wregysiad deublyg â'r gwirionedd hwn yn angenrheidiol:—

(1af.) Fe ddaw Satan felsarph, ym mhersonau gau athrawon; a thrwyddynt, efe a gais ein somi a'n twyllo â chyfeiliornad yn lle gwirionedd. I'n hamdiffyn yn erbyn y bwriad hwn, y mae yn angenrheidiol ein bod wedi ein gwregysu â gwirionedd yn ein dealltwriaeth—fod ein barn wedi ei sefydlu yng ngwirioneddau Crïst.

(2il.) Daw Satan weithiau fel llew ym mhersonau erlidwyr gwaedlyd; ac efe a gais frawychu Crïstionogion oddi wrth y gwirionedd â thân a ffagodau. Yn awr, i'n hamdiffyn yn erbyn hyn, y mae arnom eisieu ein hamwregysu â gwirionedd, fel y gallom, gydag ymroddiad sanctaidd, gadw ein prïoles yng ngwyneb anghau a pherygl.

PENNOD II.

Lle y dangosir mai dyledswydd y Crïstion yw ym-gais am farn sefydlog yn y gwirionedd, a'r rhesymau am hyn; ac hefyd beth cymmhwyssiad o'r pwng.

DYLAI pob Crïstion fod â'i ofal am gael barn wedi ei sefydlu yn y gwirionedd. Canmolir y Bereaid yn fawr am eu gwaith yn chwilio yr Ysgrythyrau, at gael boddlonrwydd i'w barnau am yr athrawiaeth a bregethodd Paul. Nid credu dan eu dwylaw a wnaethant hwy; ond yr oedd eu cred yn ddeilliad o'u barn, wedi eu dysgu, trwy ddyfal chwilio yn nhystiolaeth gair Duw. Dywedir eu bod yn "chwilio beunydd yr Ysgrythyrau, a oedd y pethau hyn felly;" *Act.* xvii. 11. Hwy a ddygasant athrawiaeth y pregethwr at y gair ysgrifenedig, i'w gymharu â hwnw: a chraffwch ar *adn.* 12: "Felly llawer o honynt a gredasant." Megys na chredasant o'r blaen, felly nis gallent lai na chredu erbyn hyn. Yr wyf yn cofio fod Tertullian, wrth son am ryw hereticiaid, a'u dull o bregethu, yn dywedyd, "Y maent yn dysgu trwy berswadio, nid yn perswadio trwy ddyg:" hyn yw, y maent yn lithio ac yn denu serchiadau eu gwrandawyr, heb addysgu eu barn a'u deall am yr hyn a bregethant. Byddai yn ddiâu yn waith caled i'r godinebwr ddwyn ar ddeall i'r wraig y mynai efe ei halogi, fod y weithred yn gyfreithlawn: Na: ffordd arall yr â efe at ei waith; yn gyntaf, trwy ryw amneidiadau

anllad, i ddenu ei serchiadau hi: ac wedi iddo unwaith reibio y rhai hyny, ni bydd newawr o betrusader am y llall, gan fod yn hawdd i'r serchiadau dynu'r farn o'u tu. Wel, er fod cyfeiliornad, megys lleidr, yn dyfod i mewn trwy y ffenestr, etto, y mae gwirionedd, megys perchen y tŷ, yn hoffi dyfod i mewn trwy yr iawn ddrws—y dealltwriaeth; oddi yno i'w gydwybod; ac felly fe ä ym mlaen i'r ewyllys a'r serchiadau. Yn wir, y dyn a fyddo yn taraw wrth y gwir, ac yn dechreu ar y broffes o hono, cyn ei ddwyn i gydabyddiaeth a'i ragoroldeb a'i degwech nefol, trwy ei ddealltwriaeth, ni ddichon ei groesawu yn y modd a weddai i'w fonedd a'i darddiad nefol. Y mae megys tywysog a fyddo yn teithio mewn ymddiethriad, heb fod yn adnabyddus, ac felly heb ei aurhydeddu. Ni cherir ac ni pherchir y gwir ond yn unig gan y rhai a'i adwaenant: ac y mae bod heb ddymunio ei adnabod yn ddi-brisiad arno, fel ei wrthod, ar ol ei adnabod. Yn sicr, nid anhawdd fyddai rhoddi siomedigaeth ar hwnw, am y gwir, yr hwn ni wŷr pa beth sy ganddo. Yr un fath yw y gwir a'r gau gan y dyn anwybodus, ond i'r gau gael yr enw o wir. Yr un fath oedd Leah a Rahel i Jacob yn y tywyllwch. Yn wir, dywedir, "A bu, y boreu, wele Leah oedd hi;" *Gen. xxix. 25.* Felly, yn y boreu, pan fyddo yn ddydd yn y deall, gwel y dyn siomedig fod ganddo gau briod yn ei fynwes; ac yna fe waedda allan, "Wele, cyfeiliornad a gymmerais yn lle y gwir." Chwi a glywsoch, ysgatfydd, am y cybydd, oedd yn ymfoddio mewn aml gôd o aur oedd ganddo, ond heb eu hagar un amser, na'u defnyddio: pan ddygodd y lleidr ei ddarnau aur, gan adael iddo ei godau llawnion o garegos yn eu lle, yr oedd efe mor gysurus a phan oedd ei aur ganddo, am nad oedd efe yn edrych i'r nail nac i'r llall. Ac yn ddiau nid yw dyn anwybodus, mewn ystyr, ddim yn well gyda'r gwir, na chyda'r gau. Cyffelyb yw y ddau iddo ef. Dydd a nos, yr un fath ydynt i ddyndall.

Ond i fyned ym mlaen, ac egluro yn fwy neillduol pa ham y dylai'r Cristion ymgais am farn sefydlog yn y gwir, mi a ymfoddlonaf ar dri o resymau. Y cyntaf a gymmerir oddi wrth natur ddamniol gau athrawiaeth. Yr ail, oddi wrth gyfrwysder twyllwyr i ddenu i gyfeiliornadau. A'r trydydd, oddi wrth yr effaith gyffredinol sydd gan farn sefydlog ar yr holl ddynd, a holl rodiaid Cristion.

1. Oddi wrth natur ddamniol gau athrawiaethau. Y maent, gystal ag unrhyw bechod arall, yn hela am fywyd gwerthfawr eneidiau. Y mae gor-gasgliad (*impostume*) yn y pen yn prifio yn fynych mor farwol ag un yn y cylla. Y mae barn afiach mewn gwirioneddau sylfaenol yn lladd mor sicr a chalon bwdr; yn wir ac o hyn y mae yn

deilliaw. Bygythir "lladd plant Iezabel a marwolaeth" (*Dad. ii. 23*); a phwy yw ei phlant, ond disgyblion sy'n yfed o gwpan ei godineb, ac yn hoffi ei hathrawiaethau llygredig? Ond yn sicr, ni chredir hyn gan rai, a geir yn dra manwl eu bucheddau, ac yn ymddangos mor dynner mewn pethau moesol ag oedd Lot am ei lettywyr, etto, yn dra phenrydd yn eu hegwyddorion a'u barnau, gan eu cynnyg, fel yntau ei ferched, i gael eu halogi gan ryw athrawiaeth lygredig a ddelo at eu drws. Hwyllynt i ni dyblid nad yw pobl yma yn chwareu ond rhyw chwaryddiaeth fechan, ac nad ydyw eu heneidiau mewn perygl, fel mewn pechodau ereill. Fel pe na byddai ddim o'r fath gwestion i'w ofyn yn y dydd mawr a pha opiniynau a ddaliamos; ac a fuom ni yn iach yn y ffydd. Mewn gair fel pe na byddai athrawiaethau gan o peth diwied; nid fel bresych gwylltion, a ddygasant anghyhoeddi i grochan y prophwyd (*Bren. iv. 40*), gan droi ymborth iachus, a'i hwn eu cymmysgwyd, yn wenwyr marwol. Yn lle hyn, hwyllynt cyfrifant fel rhyw lysiau diddwrwg didda yn eu crochanau. Ie, y mae rhai a ddywedant yn groew wrthyn, gall dyn gael ei achub yn mhob rhyw greffydd, ond iddo ddilyn ei oleuni! Ac onid yw y rhai hyn yn bobl gariadus? y rhai, ar y mynent i nifer bychan iawn gael eu damnio, a wnânt gynnifer o ffyrdd i'r nef ag a ddywed y Beibl fod o lwybrau i uffern. Yn groes i Grist, yr hwn ni ddywed wrthyn am un ffordd i fywyd ond trwyddo ef "Myfi yw y ffydd, y gwirionedd, a bywyd;" *Ioan xiv. 6.* Ac, yn hollol groes Ioan, yr hwn nid yw yn mynegu ond am u athrawiaeth, a hono yn athrawiaeth Cris a bod yr hwn nad yw yn dal hon i'w nod fel dyn colledig: "Pob un a'r sydd y trosedd, ac heb aros yn nysgeidiaeth Cris nid yw Duw ganddo ef;" *2 Ioan 9, 1.* A pha mor bell, attolwg, oddi wrth uffern yw y dyn nad yw Duw ganddo? Yr hwn na chaffo Dduw cyn ei farw, y diafol a caiff ef pan fyddo marw. Wele, syrs, mae'r amser yn dyfod; ie, yn brysiol (i hoffder a thirionwch bynag a gaffo athrawiaeth lygredig yma, ar law dyn), pan rheddi'r heretic cyndyn ond yr un gyfrif ar law Crist a'r meddwyn anedifeiric. Chwi ellwch eu gwelid ill dau dan yr ucondemniad, megys y maent yn sefyll dan yr un hualau, yn rhwym i uffern: fel dywed yr apostol, "Yr wyf fi yn rhag-ddwydd wrthyh, megys y rhag-ddwydded na chaiff y rhai sy'n gwneuthur y cyfrybethau etifeddu teyrnas Dduw;" *Gal. 21.* A gwelwch, attolwg, ai ni ellwch ge enw'r heretic yn eu mysg. Y mae anwyodaeth mewn pethau sylfaenol yn ddamniol yn llawer mwy ynt e cyfeiliornad yn y rhai hyn. Os try un pwys y clorian, yn ddiau

mheu ynte y gwna deg pwys. Os gwasg pechod lai hyd uffern, a yw'n rhesymol i ni dybiad y diange un mwy rhagddi? Y mae cyfeiliornad yn sefyll ym mhellach oddi wrth, i.e. mewn gwrthwynebiad llawnach i wirionedd nag anwybodaeth. Y mae cyfeiliornad yn anwybodaeth wedi ei liwio. Yr hwn ni fwyt ond ychydig, neu ddim, chaid iddo farw; llawer mwy y dyn a wytaw wenwyn cryf. Nid mynegi yn unig un athrawiaethau niweidiol a herseiau dinystriol a wna'r apostol, ond efa a ddywed wrthym eu bod yn dwyn dinystr buan ar y rhai a'u daliant: 2 *Pedr* ii. 1. Attolwg, raffweh ar y pwysair sy ganddo ar y dinystr a ddaw drwy yr athrawiaethau llygrdig hyn: y mae yn ei alw yn ddinystr buan. Y mae'r afonydd oll yn cael eu ffordd, ryw bryd, i'r môr y tarddasant o ton; eithr y mae rhai yn dychwel gyda hediad cyflymach, ac yn cyrhaedd yno yn ynt nag ereill. A fynai dyn wneud taith ynt na chyffredin i uffern? Tasted ei hun r ffrwd hon o athrawiaeth lygredig, ac y mae'n debygol na bydd yn hir cyn myned yno.

2. Am fod twyllwyr mor gyfrwys, gwedd-i i'r Cristion gael sefydlu a chadarnhau ei farn yng ngwirioneddau Crist. Y maent yn enhedlaeth o ddynion sydd yn fedrus at ddiffetha ffydd ereill. Y mae *erudita ne-naitia* yn y byd (fel y mae yn ei alw), a byw ddyrgioni dysgedig gan rai, i lygru ffyddyliau dynion. Y mae Ysbryd Duw yn eu darlunio i'r byw, gan eu cyffelybu, a gweithiau i farsiantdwy'r, a allant osod lliw gwych ar eu nwyfau gwael (2 *Pedr* ii. 3); y wedir eu bod "â chwedlau gwneuthur," a gwneud marsandiaeth o eneidiau. Sefyd, i adwerthwyr, a gymmysgant eu swin â dwfr (2 *Cor.* ii. 17); ac i hocedwyr, y ganddynt law ysgafn, i wneud chwareu fols: *Eph.* iv. 14. I.e. hyd yn oed i ddewin-sau: "Pwy a'ch llygad-dynodd chwi?" Sefydd yr apostol; *Gal.* iv. 1. Gwnaed pethau sydded yn ein dyddiau ni, ar y rhai y gwydded Duw i'r cyfryw arfer eu swyn-iaith arnynt: a pha wrth-swyn well na farn wedi ei sefydlu? (Gwelir hyn yn 2 *Tim.* iii. lle y mae'r apostol yn cyffelybu twyllwyr yr oes hono i'r dewiniaid lannes a thambres, a safasant yn erbyn Moses, ac yn dangos pa fath bobl oedd yn syrthio i'w magi hwynt; y rhai oedd "yn dysgu bob am-fer, ac heb allu dyfod un amser i wybodaeth gwirionedd;" *adn.* 7. Yna, y mae yn troi i'r Timotheus; "Eithr ti a lwyr adwaenost i'r nysgeidiaeth;" *adn.* 10. Fel pe dywedasai, "Yr wyf yn ddiogf am danat ti; yr wyt wedi dy seilio yn y wir athrawiaeth yn well nag i gael dy dwyllo fel hyn o honi. Yn y dydd, y rhai y mae twyllwyr yn cynllwyn i'w dal ydynt, yn benaf, y rhai gweiniaid ansefydlog. Canys fel y dywed Solomon, "Ofer yw taenu rhwyd yng ngolwg pob

perchen aden;" *Diar.* i. 17. Dewisodd y diafol ruthro ar Efa, yn hytrach nag ar Adda, fel y debycaf o'r ddau i gael ei dal. Ac o hyny allan, y mae yn dibyn yr un llywbr, gan roddi cais ar ymngribo droscoddlle y byddo y clawdd yn isaf, a'r gwrthwyn-ebiad yn debygi fod yn wanaf. Chwi ellwch sylwi ar dri nod sydd yn fwyaf cyffhellgar ar y rhai a hudir. Yn gyntaf, Hwy a elwir yn rhai diddrwg¹ yn *Rhuf.* xvi. 18. "Trwy ymadrodd teg a gwenaith, yn twyllo calonau y rhai diddrwg." Rhai o foddwl annichellgar, ond yn fyr o ddoethineb, i adnabod gwyr o fwrriad drwg: rhai anwagelog, a feiddiant yfed o gwpan pawb, heb ofn cael eu gwenwyno. Yn ail, Plantos: "Na byddom mwyach yn blantos, yn bwhwman, ac yn ein cych-arwain â phob awel dysgeidiaeth;" *Eph.* iv. 14. Yn âwr, y mae plantos yn dra hygoelus, yn dueddol i goelio pob un a roddo iddynt swp o eiriau teg; hwy a dybiant fod pob peth yn dda a fyddo yn felus: nid an-hawdd fyddai eu cael i fwyta gwenwyn yn lle siwgr: nid wrth eu barnau eu hunain y rheolir hwynt, ond wrth farn ereill. Y mae'r plentyn yn darllen, yn deongli, ac yn dysgu ei wers, fel y dywed ei feistr; ac yn tybied ei bod felly yn iawn. Fel hyn, y mae trueiniaid sy'n meddu ond gwybodaeth fechan o'r gair eu hunain, yn hawdd eu hennill y ffordd yma neu y ffordd acw, yn union fel y gwelo ereill y bydd ganddynt dyb dda am danynt, yn dda eu harwain. Ond i'r athrawiaeth fod yn felus, hi ä i lawr yn lithrig. Y maent fel Isaac, yn bendithio eu hopin-ynau wrth deimlad, nid wrth olwg. Oddi yma y mae fod llawer o drueiniaid yn ymfendithio mor gryf o herwydd y llawenydd a broffasant er pan y maent o'r farn hon, neu ffordd arall; heb allu profi gwiredd eu ffordd allan o'r gair, y maent yn chwannog i gredu ei gwiredd wrth eu teimlad; ac felly, druain, yn bendithio cyfeiliornad yn lle gwirionedd. Yn drydydd, Y maent yn rhai anwadal: "Yn lithio eneidiau anwadal" (2 *Pedr* ii. 14)—rhai heb eu seilio yn iawn a'u hegwyddori. Nid oes gan y gwir a broffasant afael angor yn eu deall; ac felly, y maent yn cael eu dwyn yn hawdd gan y gwynt, a'r llif, a chydâ ffrwd yr opinynau a fyddo yn fwyaf eu bri, ac yn fwyaf y cri o'u plaid, yn y dydd presennol, fel y pysgod meirw gyda rhediad y llanw.

3. Dylem ymgais am farn sefydledig yn y gwirionedd; o herwydd yr effaith gyffredinol sy gan hyn ar yr holl ddyn. 1af. Ar y cof, sydd yn cael llawer o help gan y deall. Po mwyaf y pwys a fyddo ar y sel, dyfnaf yr argraff a wneir ar y cŵyr. Y cof yw y gynneddf sydd yn dwyn ynddi ddelw pethau. Hon sydd i gadw yr hyn a dderbyniom; a

¹Yn y Saesneg, *simple ones*; ac y mae'r gair Groeg (*akakos*) wedi ei arfer yn fynydd megys am anghall, annoeth, &c.

hon yw y drysorfa y cadwn ynddi yr hyn a fynem ei ddefnyddio, ac ymarfer âg ef, ar ol hyn. Yn awr, po egluraf a sicraf fyddo ein gwybodaeth am rywbeth, dyfnaf y mae'n soddi, a sicraf y caiff ei ddal gan y cof. 2il. Ar y serchiadau. Mae'r gwir yn oleuni; po mwyaf safadwy a sefydlog fyddo dych y deall, trwy fa un y saethir ei belydr i'r serchiadau, cyntaf oll y cymmerant dân. "Onid oedd ein calon ni yn llosgi ynom," meddai'r disgyblion... "tra yr ydoedd efe yn agoryd i ni yr ysgrythyrau?" *Luc xxiv 32.* Yn ddiannibeu, hwy a glywsent Grist yn pregethu llawer o'r hyn a lefarodd yr awr hono, cyn dioddef o hono; ond erioed ni chwasant eu boddioni a'u cryfhau fel y pryd hwn, pan agorwyd yr ysgrythyrau a'u deall-triawethau hwythau ynghyd: a hyn a barodd i'w calon losgi. Y mae'r haul yn y ffurfafen yn anfon ei effaith lle nad yw ei belydr yn cyrhaedd, sef, i ymysgaroedd y ddaear: eithr am Haul Cyfiawnder, ni chyfrana efe ei ddylanwadau ond yn unig lle y mae ei oleu yn dyfod: y mae yn pelydru gwirionedd i'r deall i oleuo hwnw; a thra y mae'r creadur yn eistedd dan yr edyn hyn, fe genhedlir gwres tyner calon fwyhaol yn ei fynwes. Oddi yma y cawn, i'e, pan addewir yr Ysbryd fel Diddanydd, ei fod yn dyfod fel Argyhoeddwr (*Ioan xvi. 13*); y mae yn diddanu trwy ddysgu. Ac yn sicr, yr achos pa ham y mae cyn lleied o wres llawenydd nefol gan lawer o eneidiau crynedig, yw, am fod ganddynt cyn lleied o oleuni i ddeall natur a threfn cyfammod yr efengyl. Po pellaf y saif enaid oddi wrth oleuni y gwirionedd, pellaf y mae yn rhaid ei fod oddi wrth wres cysur. 3ydd. Mae gan farn sefydlog effaith gref ar y fuchedd a'r ymddygiad. Y llygad sydd yn cyfarwyddo'r troed. Rhodio mewn mawr berygl y mae'r neb nad yw yn gweled ei ffordd; ac mewn anghysur mawr y rhodia y dyn na wŷr pa un ai yn ai allan o'r ffordd y mae. Yr hyn a fyddo yn symmud, rhaid iddo orphwys ar rywbeth nad yw ynsymmud. Nis gallai dyn gerdded pe byddai y ddaear yn troi dan ei draed. Yn awr, yr egwyddorion a fyddo genym yn ein deall ydynt megys y tir y safwn arno yn ein holl waith. Os crynu a siglo y bydd y rhai hyn, yn llawer mwy y gwna ein buchedd a'n harferion. Y mae mor amhosibl i law grynedig ysgrifenu llinell union, ag yw i farn ansefydlog gadw ymddygiad gwastad. Y mae'r apostol yn cyssylltu bod yn sicr a dymmod gyda helaethiad yng ngwaith yr Arglwydd: *1 Cor. xv. 58.* Ac onid wyf yn camgymmeryd, y mae efe yno yn benaf yn golygu diysgogrwydd barn yn y gwir hwnw, yr adgyfydiad, y buasai rhai yn ceisio ei ysgwyd. Nid yr anl dybiau a fyddo genym, ond ein hymsefydliad yn y gwirionedd, a'n gwna ni yn Gristionogion cryfion; fel mai dyn cryf yw hwnw y byddo ei gymmalau

wedi eu cydosod a'u cydglymu yn dda; nid ydyn o hirdyfiad, ond heb braffder cyfattebol i'w uchder. Iawn y dywed un, "Cyfattebol i'w ddeall a'i farn ydyw dyn: er fod rhai heb gyfatteb i'r hyn a wyddant, eto nid oes neb yn myned tu hwnt i hyn." Y gwir a fyddo mewn dadl yn y deall, y mae, os gallaf lefaru felly, yn cael ei attal yn y pen: nis gall dreiddio i'r galon, na bod yn arferedig yn y fuchedd: ond pan gaffo ei gydnabod yno, a thwy ganmoliad y deall, ei gofleidio yn yr ewyllys a'r serchiadau, yna fe'i tyn-ddelir, ac a gaiff effaith gref ar yr ymarweddriad. Dywedir ddyfod o'r efengyl at y Thessalonaiad gynt mewn sicrwydd mawr (*1 Thes. i*); sef, sicrhâd am ei gwirionedd; a gwelwch mor effeithliol a nerthol fu hi (*adn. 6*): "Chwi a aethoch yn ddilynwyr i ni, ac i'r Arglwydd, wedi derbyn y gair mewn gorthrymder mawr, gyda llawenydd yr Ysbryd Glân. Sicrhawyd iddynt mai o Dduw yr oedd yr athrawiaeth; a hyn a'u dygodd yn llon trwy y cystuddiau blinaf oedd yn eu dilyn.

Defn. 1. I argyhoeddi y rhai sydd, yn lle ymgais am sefydlu eu barn yn y gwirionedd, yn ei wneud yn orchwyl penaf i ymgryfhau yn eu cyfeiliornadau. Yr wyf yn coelio fod rhai dynion yn ymdrechu mwy i ymarfogi â dadleuon, at amddiffyn rhyw gyfeiliornad a goffeidiasant, nag â wnant o blaid y gwirioneddau mwyaf eu pwys yn y Beibl: i'e, y byddai yn haws ganddynt farw wrth ystango yn mhlaid un cyfeiliornad sydd ganddynt na'r holl wirioneddau a broffesant. Awstin a ddywed am dano ei hun, pan oedd yn her etic Manicheaidd, "Nid tydi, O! Arglwydd ond fy nghyfeiliornad oedd fy Nuw." O anhawdd yw troi dyn a fyddo mewn dwf ymroddiad o blaid cyfeiliornad! Pa saw gwaith y cauwyd safnau y Phariseaidd gan ein Iachawdwr? ac etto, ni ddychwelwy nemawr, os un, o honynt. Yr oedd e lysbrydoedd yn rhy feilchion i alw yn o Beth, hwy rodai eu harfau i lawr, disgyn gadair Moses, a chyfaddef eu bod wedi dysgu cyfeiliornadau i'r bobl, yn lle gwir gyngor Duw! Yn hytrach, hwy a änt yn mlaen, gan ymbluo yn wychaf y gallau rhag troi yn ol mewn cywilydd; er mai ni cywilyddio am eu cyfeiliornad ydoedd y cywilydd, ond bod yn gywilydd ganddynt addef. Fel yr atebodd y llengeyn hwn gynt, i'r hwn y gofynwyd ar ei ddyfydiad buteindy, Ai nid oedd arno gywilydd o wedd yn dyfod o dŷ mor ddrwg? "Na oes," eb efe; "y cywilydd oedd myned mewn; ond iawnder yw dyfod allan." 4 srs, drwg ddigon yw myned i gyfeiliornad ond gwaeth yw aros ynddo. Y mae y cytaf yn dŷ brofi yn ddyngwan; eithr y llath wna yn rhy debyg i'r diafol, yr hwn hyd heddyw o'r un meddwl ag oedd ar gywmp cyntaf.

Defn. 2. Y mae yn brawf yn erbyn y rhai a ymagnïent i siglo barn rhai ereill, neu ddattod y gwregys hwn oddi am lwynau y Cristion. Hwya a ddeuant â gofyniad Satan yn eu safnau: "Ai diau ddywedyd o Dduw?" A ydych yn sier fod hyn yn wirionedd? Ai nid yw eich gweinidogion yn eich somi? Eu cais yn ddechellgar yw magu drwgdybiau ac ammheuon yng nghalonau Cristionogion am y gwirioneddau a dderbyniasant. Y cyfryw oedd y rhai a drallododd y Galatiaid, y rhai y mynasai Paul eu tori ymaith am eu poen: *Gal. v. 12.* Ceisio eu dyrysus yr oeddynt, lhwyr godi ammheuon yn eu meddyliau am athrawiaeth yr efengyl. Ffordd gyfrwys yw hon i'w tynu o'r diwedd oddi wrth y fydd; ac am hyn y cyfrifir hwynt yn ddadymchwelwyr ffydd ereill: 2 *Tim. ii. 14*; *Tit. i. 11.* Y mae yn rhaid i'r tŷ fod mewn perygl, pan ddattoder y seiliau. A ellwch chi dybied mai bwriad gonest sy gan y dyn a gloddia dan sail eich tŷ. Hyn a wnant lwy, a fynant alw i gwestiwn wirioneddau nawrion yr efengyl. Ond rhyw fai bychan yw hwn yn ein hoes benrydd ni; onid e, ni oddefid cynnifer o dwyllwyr (a allaf eu galw yn gynnifer o wibiaid a dyhirwyr ysbyrdol) i grwydro yn ol ac ym mlaen, i lygadlynu eneidiau ffal a thruain i golledigaeth. O! y mae yn drwm fod i un a ladratao werth lau swllt neu dri, orfod codi llaw o flaen y trawle am ei fywyd; i.e. weithiau, gael ei grogi o'r achos; a bod i'r rhai a ysbeiliant eneidiau, druaïn, o drysor gwirioneddau achubol, ac a ddadymchwelant gred teulu-oedd cyfain, gael eu gadael i godi pen yn ddi-gywilydd, gan ymfrostio yn eu rhyddid: fod cabled yn erbyn Duw yn diange heb gŵyn o'i achos, tra y mae cabled yn erbyn y orenin yn cael ei gyhuddo fel bradwriaeth. Y mae yn dda fod Duw yn hoffach o'i wirionedd nag ydyw dynion; pe angen, fe ddi-angai y rhai hyn yn y ddaud fyd; ond y mae Duw wedi dadgan ei fod ef i'w herbyn. Y mae diwrnod pan y caiff ysbeilwyr eneidiau o wirioneddau eu dal a'u condemnio, fel lladron gwaeth na'r rhai a ysbeiliant dai o aur ac arian. Gwelwch fel y tynodd Duw y cyhuddiad: "Wele fi yn erbyn y prophwydi, medd yr Arglwydd, y rhai sydd yn lladratau y ngeiriau, bob un oddi ar ei gymmydog;" *Jer. xxiii. 30.* Meddwl y mae am y gau prophwydi oedd yn denu y hobl oddi wrth y gwirioneddau a draddodasai gweision ffyddlawn Duw iddynt. Ni fydd neb yn y llys i ddadleu achos y cablwr a'r trawshudwr, pan eisteddo Duw i farnu.

Defn. 3. Da y gallai hyn geryddu yr anwadawlch rhyfedd, a'r anwastadrwydd barn y mae llawer yn ymddyrsu ynddynt, yn yr oes mammal hon. Nid fel ser sefydlog yn y nef y mae gwirioneddau yn meddyliau llawer o broffeswyr, ond fel goruchion a ddawnsiant yn yr awyr. Nid ydynt fel llythyrenau

argraffedig mewn marmor, ond yn ysgrifur-edig mewn llwch; y rhai a anffurfir gan bob chwa neu wag-anadliad gan drawsddenwyr. Y mae llawer a groesawant opiniynau fel rhai yn croesawu cariadau; nid am eu bod yn meddwl eu priodi, ond eu bwrw ymaith cyn gynted ag y delo rhai newyddion. Erioed ni bu oes mwy anwadl na hon. Yr hyn a ddywedir am ddilynwyr pob ystum (*fashion*) newydd: "Pe gwelai rhai eu lluniau yn y gwisgoedd oedd ganddynt ychydig flynyddoedd yn ol, prin yr adnabyddent eu hunain yn eu gwisgoedd presennol." Y mae yn eithaf gwir am eu hopiniynau. Pe byddai i lawer, a fuont yn broffeswyr mawrion, gymmeryd golwg ar eu hegwyddorion ychydig flynyddoedd yn ol, a'u cymmharu â'u rhai presennol, ni cheid mo honynt yr un bobl. Y maent wedi newid a chyfnewid, fel y gellid tybied eu bod wedi ymwrthod â'u hen ffydd: nid am fod yr hen a wrthodant yn un gau, na'r newydd a gofeidiant yn un gywir, ond am eu bod naill ai yn anwybodus o'r gwir a broffesasant ar y cyntaf, ai yn ffuantus yn y broffes hono. Ac nid rhyfedd fod i un ymadael yn rhwydd â'r hyn a ddaliodd efe ar sail mor wan a'r sail sy ganddo yn bresennol i'w adael; neu, fod i un arall oedd heb garu na defnyddio y gwir a broffesodd, gael ei roddi i fyny gan Dduw i'w newid am gyfeiliornad. Os bu i'r cenedloedd, y rhai ni ogoneddasant Dduw â'r goleu naturiol oedd ganddynt, gael eu rhoddi i fyny, yn gyfiawn (*Rhuf. i. 21, &c.*), "i feddwl anghymeradwy" ac annoeth, i wneuthur pethau anweddaidd a chroes i foesau da; yna, llawer mwy haeddiannol yw y rhai a ddianrhydeddant Dduw yng ngoleuni gwirionedd Ysgrhythol o gaeleu rhoddi i fyny i'r hyn sydd yn ysbyrdol ddrwg, sef i greu celwydd a chyfeiliornadau, yn lle gwirionedd. Melldith drom, pe y barnem yn iawn, yw crwydro ac ymdroi mewn dyrysni cyfeiliornus, a thybied er hyn ein bod yn rhodio yn ffordd gwirionedd.

Cwest. Ond gall rhai ddywedyd, Pa fodd y mae yn bossibl i broffeswyr cyffredin gyrhaedd y fath farn sefydlog yn y gwirionedd, pan yr ydym yn gweled llawer o rai doniol a rhagorol yn dra ansefydlog yn eu barnau?

At. Y mae yn rhaid i ni wahaniaethu:—
1. Am bersonau. 2. Am wirioneddau. Yn gyntaf, Am bersonau. Y mae llawer yn enwog am ddoniau, a'u doniau heb dduwioldeb i'w sefydlu: ac nid rhyfedd yw gweled penau gwyllt-wibiog yn ansefydlog yng ngwirioneddau Duw. Nid oes neb a ddymchwel yn gynt i gyfeiliornad, na'r dyn sy heb galon onest i ganlyn pen goleu. Y tir brasaf, heb iawn-driniaeth, fydd lawnaf o chwyn. Gwyr o ddoniau, heb eu sancteiddio, a fu yr arweinwyr yn ffordd cyfeiliornad; er mai y gwirionaf a'r gwanaf a arweinid ganddynt. Gwyr gwybodus sydd ar y cyn-

taf yn arllwys ac yn bwrw cyfeiliornad allan o'u calonau llygredig; a rhai anwybod- us sydd yn ei lyfu i fyny. Am hyny, na anobeithia am farn sefydlog, cyhyd ag y mae dy ddymuniad am galon syml, onest, ac y byddych yn arfer y moddion yn gydwyb- odol: y mae'r addewid o'th du: "Dechreu- ad doethineb yw ofn yr Arglwydd; deall da sy gan y rhai a wnaüt ei orchymynion ef;" *Salm cxi. 10.*

2il. Y mae yn rhaid gwahaniaethu am wirioneddau: y mae rhai yn sylfaenol, ereill yn oruwchadeiladol. Yn awr, er fod llawer sydd yn enwog am dduwioldeb yn gystal ag am ddoniau, yn y tywyllwch am rai pethau goruwchadeiladol ac amgylchiadol (o her- wydd eu dirgelrwydd mwy yn y gair), etto, y mae cyssondeb hyfryd ym mysg y rhai duwiol mewn pethau sylfaenol. Ac yn y rhai hyn, enaid druan, y mae modd i titchau gael dy sefydlu trwy arferiad ffyddlawn o foddion. Megys y mae Duw wedi darparu i'n cyrph, fel y mae pethau angenrheidiol at eu cynnal yn fwy cyffredin, ac i'w cael yn rhatach na phethau at ddanteithrwydd a gwycheder; felly, i'n heneidiau hefyd. Pe buasai bara mor anhawdd i'w gael a dan- teithion, neu ddwfr mor brin a'r gwin, buasai raid i'r rhan fwyaf o'r byd newynu. Felly, pe buasai gwirioneddau angenrheidiol i iach- awdwriaeth mor anhawdd i'w deall a'u profi o'r Ysgrythyrau ag yw rhai ereill, bu-asai aml Gristion tlawd a gwangalon yn trengu yn ddiâu, heb ryw wyrthiau i'w gyn- northwyo. Eithr y mae gwirioneddau ach- ubol yr efengyl yn oleu eglur, ac yn rhedeg yn loewoni bawb ond y rhai sydd yn diwyno y ffwrdd â'u meddyliau llygredig eu hunain.

PENNOD III.

Rhai cyfarwyddiadau at gadarnhau barn profes- wyr yn y gwirionedd.

OND pa gyngor a roddwch i mi tuag at sefydlu fy marn yng ngwirioneddau Crist?

At. 1. Bydded dy ymgais yn wirioneddol wrth goffeidio gwirioneddau. Y mae calon ffals, ddrygonus, a barn afiachus, yn debyg i'r iâ ar ddwfr; y naill yn tarddu o'r llall. Y mae'r achos o anwadlwyth barnau rhai yn tarddu o dwyll eu calonau. Meddwl safadwy, a chalon ddeublyg, anfynych y cyf- arfyddant. Llawn eglur ar hyn yw y lle hwnw; "Diwedd y gorchymyn yw cariad o galon bur, a chlydwybod dda, a ffydd ddirag- rith;" 1 *Tim. i. 5.* Yn awr, craffwch pa beth a ganlyn—*adn. 6:* "Oddi wrth yr hyn bethau y gwyrodd rhai, (neu, yn ol y Groeg, yn bod heb amcanu atynt), ac y troisant heibio at ofer siarad." Nid oeddynt erioed wedi cyfeirio at rym duwioldeb, wrth dder- byn gwirioneddau, gan ddymuno cynnyddu

trwyddynt mewn cariad, ffydd, a grasusau ereill. A chan iddynt gymmeryd canfwriad a diben, nid rhyfedd iddynt droi allan o'r iawn ffordd. Gall calon ffals yn hawdd wobrwyo y farn i roddi llais o'i hochr. Caiff hyn a'r llall fod yn wir heddyw, ac yn anwir y mis nesaf, os gwel hi yn dda. Y gwir, gyda llawer, yw yr hyn a fyddo er eu mantais hwynt: hwy a rwymant eu barnau wrth linyndu eu pyrsaus, eu luchel-swyddau &c. Y mae'r cyfryw yn barod (gyda'r ceil- iog gwynt hwnw, o ddynd, yn nyddiau Mari waedlyd) i ganu tön newydd yr hyn dro yn eu helyntion bydol. Pan dderbynio cariad ryw wirionedd, y mae yn ei ddal yn dÿn; ond os chwant am ryw fudd bydol fydd yr achos, yna wedi gwasanaethu'r tro, hawdd fydd ei yru ymaith. Buan yr aeth Amnon mor glaf o Tamar, ag oedd efe o'r blaen am dani: ac oni welson ni, yn ein dyddiau, rai gwirioneddau ac ordinhadau yn cael eu troedio ymaith gyda chymmaint o ddiystyr- wch a lithau gan hwnw? Ie, gan rai oedd â nawr serch arnynt, ychydig flynyddoedd yn ol, ond (y mae i'w ofni) heb eu gwir garu erioed?

2. Disgwyl wrth weinidogaeth y gair. Un diben mawr o'i gosodiad, yw ein cad- arnhau yn y gwirionedd: "Efe a roddes rai yn fugeiliaid ac yn athrawon, i berffeithio y saint; *Eph. iv. 11.* A chraffwch, "Fel na byddom mwyach yn blantus yn bwhwman," &c; *adn. 14.* Yr hwn a red oddi wrth ei arweinydd, buan y bydd o'i ffordd. Nid tystiolaeth fechan ydyw, a roddes Duw i'w weinidogaeth ffyddlawn, yn yr oes hon, mai ychydig sy'n eu gadael, heb fod y gwahan- glwyl o gyfeiliornad i'w weled yn fuan yn eu talcenau. Ac yn dy ddisgwyliad wrth weinidogaeth y gair, bydd yn ddyfal i ddal ar y rhan athrawiaethol o'r bregeth, gystal ag ar y rhan gymmhwysiadol. Y mae'r cyntaf mor angenrheidiol at dy wneud yn Gristion diysgog ag yw'r llall at dy wneud yn un gwresog. Yn wir, serchiadau tan- baid, heb wybodaeth sylweddol, nid ydynt ond megys tã yn y badell, a'r drull heb ei lwytho. Yr oedd y Lefiaid (gwelwn yn *Neh. viii. 7, 8*) yn gosod allan synwyr y gyfraith, fel y deallai y bobl. Y mae planu o flaen dyfrhau; ac felly y dylai athrawiaeth fnyd o flaen annogaeth. Ac yn ol yr un drefn y dylai y bobl ddygu a ninnau bregethu.

3. Na chaethiwa dy farn wrth un dÿn na phlaid. Y mae meclniath ysbrydol a andwyodd lawer yn eu barnau a'u hegwyddor- ion. Na fydd yn rhwym wrth, na throos farn neb. Ti elli bwysu gwir, a chyfrif aur ar ol dy dad. Trwy dy ffydd dy hun y mae i ti fyw, nid ffydd un arall. Ymgai: am ganfod y gwir â'th lygaid dy hun Gwna yw yr adeilad a ddelir i fyngau atgeigion, neu trwy fod ei phwys ar dÿ rhyw gymmydog, yn lle ar ei sylfaen ei hun: pa

syर्थio y rhai hyny, fe syर्थ hithau hefyd. Na fydded i awdurdod un dyn, ond tystiolaeth o'r gair, benderfynu dy farn: atteg wael ydyw y cyntaf; sylfaen ydyw y llall. Bydded genyt yr Ysgrhythyr o blaid dy farn, yn hytrach na dynion. Nid fel hyn y lywed y cyfryw wr dysgedig a da; ond fel hyn y dywed yr Ysgrhythyr Lân. Etto, gochel wyro y cyfarwyddyd hwn yn rhy bell i'r ochr arall: hyn a wneir pan y diystyrom farnau gwyr y mae eu duwioldeb a'u llysg yn galw am barch. Yn ddiau, y mae cyfwrng i'w gael rhwng difrio dynion a'u haddoli. Mawrygu wynebau dynion sydd yn frad i'rgwirionedd, ac yn peri i lawer lefain, 'Hosanna' i gyfeiliornad, a chroeshoelio i'r gwirionedd. Y mae Eusebius yn adrodd am Herod (yr Herod hwnw y darllenwn am dano yn Act. xii, iddo gael ei ysu gan bryfed), pan ddaeth i wydd y dyrfa, yn glaerwyn ei wisg, ac yr areithiodd yn fwynwch i'r bobl, fod y wisg arianaidd oedd am lano, trwy effaith pelydr yr haul arni, yn disgleirio yn y fath fodd nes dallu llygaid yr edrychwyr. A hyn, medd efe, a barodd i'w weniethwyr lefain, "Lleferydd Duw, ac nid dyn ydyw." Ac yn wir y mae'r lwblw disglair a esyd doniau ac areithyddiaeth rhai dynion ar eu hymadroddion yn fynyeh yn dallu barnau eu mawrygwyr, nes ydynt yn rhy dueddol i dybied eu holl leferydd megys dwyfol; ac yn enwedig, os bu i Dduw ddefnyddio y cyfryw, fel offerynau, er rhyw les i'w heneidiau gynt. "O fel y dywedodd un) anhawdd ar hyn yw caru dyn, megys dyn," parchu y cyfryw mewn modd na byddo yn peryglu i garu eu cyfeiliornadau hefyd. Bu Awstin yn offerynol i ddychwelyd Alypius o un llwybr gau: ac y mae yn addef fod hyn yn achlysur o fod cyn hawsedd iddo ei dynu i gyfeiliornad arall, dim llai na Manichæaeth.¹ Tybiodd Alypius na allai hwnw ei wydroi, oedd, mewn peth arall, wedi ei gywir droi ef. Gan hyny, na alw di neb yn dad ar y ddaear: na ddirmyga neb: na addola neb.

4. Gwylia rhag manylgais. Y mae hwnw wedi hanner myned i gyfeiliornad a fyddo yn gwaglypsio pethau rhyfeddol, ac yn clustfeinio am bob tybiau newyddion. Ni a ddarllenwn am "glustiau yn merwino:" 2 Tim. iv. 3. Y mae'r ysfa hon yn diwedd mewn crachen o gyfeiliornad. Collodd Dinah ei diweirdeb wrth rodiana. Diweirdeb y meddwl yw ei gywirdeb yn y fydd. A hwn y maent hwy mewn perygl o'i gollu, y rhai a änt i bob cymdeithas, ac a roddant fenthyg clust i bob athrawiaeth a bregethir: byddant, yn gyntaf, yn wrandawyr, yna yn ddisgyblion iddynt. Llauer a foddiant eu hunain mor bell yn y manylgais hwn, o

¹ Blaenor y sect hon oedd un, Manes, cyfeiliornwr hereticaidd a phenboeth, a fu yn arweinydd gau i lawer, yn yr ail a'r drydedd ganrif.

gyfeillachu â phob sect a thyb, nes troi o'r diwedd yn rhydd-dybwyrr, heb allu sefydlu ar ddim mewn gwirionedd. Y mae Awstin yn addef iddo fyned trwy gynnifer o gyfeiliornadau a hudoliaethau o eiddo y Manichæaid (y rhai a fawrygodd efe unwaith fel gwirioneddau, ond a welodd wedi hyny yn gyfeiliornadau adgas), nes oedd arno, o'r diwedd, ofn y gwirionedd pur a glywodd efe Ambrose yn ei bregeth. "Fel un," medd efe, "wedi taraw wrth feddyg drwg—y mae arno ofn myned dan law un da." O! gwylwch chiwydd yn awr am wrandaw pob peth, rhag eich myned o'r diwedd na wneuch greu unpeth.

5. Yn ostyngedig, cais farn sefydlog gan Dduw. Nid oes dim teithwyr yn colli eu ffordd yn gynt na'r rhai sydd yn tybied eu bod yn ei gwybod mor dda fel na raid iddynt ymfodyn. Ac nid oes dim proffeswyr yn y fath berygl o gael eu denu oddi wrth y gwir a'r rhai sydd yn pwysu ar eu deall eu hunain, ac heb gydnabod Duw yn eu ffyrdd, trwy ymgynghori âg ef beunydd. Daliwch sylw ar faldher (pa fodd bynag y gall ymddangos, yn bresennol, yn uchel ei hediad mewn profies), cewch ei weled wedi syर्थio i'r ffos o gyfeiliornad neu halogrydd. Dyna y gwely a wnaeth Duw iddo; a rhaid iddo orwedd lle y pennododd Duw ei letty. Y mae yn llwyr angenrheidiol i'r cyfryw ddynion gael eu gadael i ymddyrsu, a dyfod felly i warth; fel, pan ddychwelo eu gwybodaeth atynt (os oes gan Dduw y fath drugaredd yng nghadw iddynt), y gallont gyda Nebuchodonozor, fendithio y Goruchaf, a'i gydnabod ef ar y dychweliad, yr hwn a ddibrisiasant mor wrthun ar eu cychwyniad allan. O! gwylia gan hyny rhag balchder, yr hwn a'th wna yn fuan yn ddieithr i orsedd gras. Nid ydyw yn hyfyd gan faldher gardotta: y mae yn troi ymbiliad taer am wirionedd i ryw ddygn bleidiad a thrahaus ddadleuaeth ynghylch y gwirionedd. Yma y mae y bri mwyaf i'w gael: ac fel hyn y mae Hawer, i gael goruchafiaeth, wedi colli gwirionedd yn mhoethder y frwydr. Gosod hyn yn ddwys at dy galon, mai rhaid yw i'r Duw sydd yn rhoddi llygad i ganfod gwirionedd, roddi llaw hefyd i'w gadw ar ol i ni ei gael. "Yr hyn a gaffom gan Dduw, nis gallwn ei gadw hebddo ef," medd Bernard. Cadw, gan hyny, dy gydnabyddiaeth â Duw; os amgen, nid hir y ceidw gwirionedd ei gydnabyddiaeth â thi. Goleuni yw Duw; i dywyllwch yr wyt yn myned cyn gynted ag y tröech dy gefn arno ef. Yr ydym yn sefyll ar well tir i gael gwirionedd, a'i gadw hefyd, pan fyddom yn gweddio yn daer am dano, na phan yn taeru yn ffyrnig ac yn ymryson yn ei gylch. Mae ymddadleuon yn cythryblu yr enaid, ac yn codi llwch anwydau drwg. Mae gweddi yn llonyddu y meddwl, ac yn gostwng y llwch a

gododd dadleuon: ac yr wyf yn sicr y gwel dyn yn mhellach ar ddydd tawel, teg, nag ar ddydd gwyntog a chymnylog. Pan fyddo dyn yn siarad llawer, ac heb orphwys ond ychydig, y mae achos i ofni na ddeil ei synwyr yn hir: ac yn wir, pan fyddo dyn yn siarad ac yn dadleu llawer ynghylch y gwirionedd, heb ysbryd ymostyngar mewn gweddi am gael ei dywys iddo, gall Duw yn gyflawn gospi balchder hwnw â gwallgof ysbrydol yn ei feddwl, fel nas gallo wahan-iaethu rhwng y gau a'r gwir.

6. Gwylia rhag tramgyddo wrth y gwahaniaeth barnau a thybiau sydd i'w cael ym mysg profleswyr crefydd. Y mae hon yn gareg a deifl y Pabyddion (yn enwedig yn yr amserau ymranol hyn) o flaen ein traed. Pa fodd y gwyddoch chiwi, meddant, pa beth sydd wirionedd, pan y mae cynnifer o farnau ac o ffyrdd yn eich mysg! Y mae rhai wedi tramgyddo mor drwm wrth hyn, nes gadael y gwirionedd a broffesasant unwaith; a chan rym yr ystorm o anghydfod mewn materion crefydd, wedi cael, naill ai eu tafu ar graig annuwiath, ai eu gyru draw ac yma mewn anwadwlch meddwl, heb ymroddi i fwrw angor yn unman o ran eu barn, nes gweled y dymnestl hon drosodd, ac nes gweled y rhai sydd yn wahanedig o ran eu barnau yn cydgyfarfod mewn undeb a chred gydsyniol yn holl byngciau crefydd. Dyma fwriad (fel y dywedodd un yn gywir) sy'n nor annoeth a niweidiol i'r enaid, ag a fyddai i'r corph pe addunedai dyn na fwyt-âi efe ddim nes y byddai i holl awreisiau (*clocks*) y ddinas draw deuddeg oll ar unwaith. Gellid disgwyl y peth olaf hwn yn gynt na'r llall.

7. Na orphwys heb gael teimlo yn dy galon effaith pob gwirionedd a ddeli yn dy farn. Y mae'r naill gynmedd yn helpio'r llall. Po anlycaf y byddo gwirionedd i'r dealltwriaeth, mwyaf arosol fydd yn y cof; a pho mwyaf fyddo effaith y gwir ar yr ewyllys, mwyaf sefydlog fydd yn y farn. Pa ragoroldeb bynag fyddo mewn peth, etto, oni fedr dyn wneud ond ychydig neu ddim defnydd o hono, nid yw ond o werth bychan iddo ef; a hawdd fydd ei gael oddi arno. Fel hyn yr ymadawyd âg aml lyfrgell ragorol gan filwyr diddysg (i ddwyylaw pa rai y syrthiasant), am ychydig gyda gwerth caudau y llyfrau; a'r rhai hyn a gadwesid, fel y trysor gwerthfawrocaf, gan wyr a allent eu defnyddio. Ac yn wir, y mae ymdaraw-iaid gwirionedd yn ol fel y byddo'r bobl y syrth i'w dwylaw. Os daw i law dyn a dery i weithio âg ef, ac a dyn allan ei nerth a'i felusder, bydd i hwn ei ddal o hyn yn dyn-ach yn ei farn, o gymmaint ag y mae yn fwy ei effaith ar ei galon. Ond os cyferfydd âg un nad yw yn profi dim o'i rym a'i effaith dwyfol i'w ddarostwng, i'w dddianu, a'i sancteiddio, gall gael yn fuan eu droi dros y

drws, i ymotiun am letty newydd. Gall y fath bobl orfoleddu dros amser yn y goleuni hwnw a ddiffoddid ganddynt eu hunain ym mhen ychydig. Pan glywyf am ddyn a fu unwaith yn dal pechod gwreiddiol, a llwyr lygriad natur dyn, fel gwirionedd, ond yn awr yn ei wadu, nis gallaf ond ofni naill ai ei fod erioed heb ei osod at ei galon nes ym-iselu ac ymddarostwng yn rhywiog o'r achos; neu, ei fod wedi blino ar y gorchwyl, a thrwy ddiogi ac esgeulusdra, wedi colli effaith y gwirionedd ar ei galon, cyn iddo gollu y gwirionedd ei hun yn y farn. Mi a allwn bennodi llawer o bethau neillduol ereill, yn y rhai y gwelir profleswyr, yn yr amseroedd anwadl hyn wedi llithro oddi wrth eu hen egwyddorion. Y mae canu Salmau wedi bod yn ddyledswydd addefedig ac arferedig gan lawer sydd wedi ei throï heibio; ac fo fyddai yn gwestiwn gwerth ei ofyn am dan- ynt, A ddarfu iddynt erioed fwynhau cym- mundeib melus â Duw yn y ddyledswydd hon, ac felly mewn ereill? A fu eu calonau erioed yn dawnsio ac yn llamu mewn serch- iadau gwresog at Dduw, tra yr oeddynt yn canu â'u gwefusau? Ac yn ddiâu, mi a'i cyfrifwn yn beth rhyfedd clywed dyn du- iol yn gwadu hyn. Wele, Gristion, os bu i ti gyfarfod â Duw yn nrws y babell hon (canys nis gallaf fi etto eu barnu yn amgen), gâd i mi ofyn i ti etto, Ai nid aeth dy galon yn ddilafur, yn oer, ac yn ffurfiol yn y ddyl- edswydd, cyn i ti feiddio ei bwrw hi ymaith. Ac os felly (y peth yr wyf yn barod i'w goelio), mi a ddymunwn i'r cyfryw, yn ofn Duw, ystyried y pedwar gofyniad canlynol:—

1af. Ai nid oes iddynt le i ofni eu bod mewn cam farn, a bod y tywyllwch hwn wedi syrthio ar eu barnau fel cosp am ddi- ofalwch ac ysgafnder ysbryd yng nghyf- lawniad y ddyledswydd, pan nad oeddynt yr amheu ei chyfreithlondeb?

2il. Ai ni fyddai yn well iddynt ymgais am ail gaffael bywiogrwydd cyntaf eu serch- iadau yn y ddyledswydd (yr hyn yn fuan a'u dygent drachefn i gydnabyddiaeth â'r melus- der a'r llonder a gawsant ynddi gynt), na thafu ymaith ar dystiolaeth mor wan ag i fedd y dywedwyr cryfaf yn ei herbyn?

3ydd. A yw y rhai a esgeulusant un ddyledswydd yn debygol o gynyddu drw- un o'r lleill, ac o gadw eu blas hwynt yn newydd yn eu heneidiau?

4ydd. Pe goddefai Duw iddynt oeri yn ei serch at ryw ordinhâd arall (yr hyn rhag- flaened, os ei ewyllys ydyw), ai ni fydda mor hawdd i Satan gasglu ynghyd ddigon- ddadleuon i beri iddynt befruso, a chyn hi bwrw hono ymaith yn gystal a hon? A bo- achos am y fath ofyniad, yr amserau hyn fyngant; yn y rhai y mae pob ordinhâd wedi cael, yn ei thro, ei galw i gwestiwn fe, a'i diarddel, rhai gan un, a rhai gan arall. Ni wna un ganu; ni fyn arall i'w blenty

gael ei fedyddio; a thrydydd, ni fyn un nath o fedydd dwfr, na'r Swper chwaith; a phedwerydd, a gatau ei glust rhag gwrandawr gair un amser, ac a fynai ein cael i ddisgwyl am addysgiad digyfrwng. Fel hyn, unwaith yr elo ordinhadau a gwirioneddau yn feirw i ni, trwy ein camymddygiad danynt, gallwn ymfoddloni, i.e., a gwaeddi am eu laddu allan o'n golwg, pa mor hawddgar bynag y buont o'r blaen yn ein golwg. Y pethau hyn, o'u gosod yn ddwys at y galon, roddant i chwi achos i feddwl, er i mi cyfleu y cyfarwyddiad hwn yn olaf yn fy thraethiad yma; etto, mai nid y lle olaf na'r leiaf a weddai iddo gael (ym mysg y lleill ll a enwyd) yn eich gofal a'ch ymarferiad Gristionogol.

PENNOD IV.

Y cyfnewysir yr ail ffordd i ni gael ein lwynau wedi eu gwregysu a gwirionedd, sef fel ag i beri i ni ddal profres rydd a hyf o hono: hefyd, pa ham y mae hyn yn ddyledswydd arnom: ac annogaeth fer i hyny.

Yr ail ffordd y rhuthrir ar wirionedd yw, rwy rym a thrais. Y mae y diafol yn dlytio croen y llwynog i dwyllwyr, a chroen y llew i erlidwyr. Ar chwareufwrdd yr eglwys yr actiwyd y chwaryddiaethau nwyaf gwaedlyd o fewn y byd: ac ar ldefaid gwirion Crist y gwnaed y galanas i'r cigyddiaeth mwyaf creulawn. Sant oedd y dyn cyntaf a laddwyd yn y byd; a hwnw am grefydd. Ac, fel y dywedodd Luther, "Bydd i Cain ladd Abel hyd ddiwed y byd." Ni ddichon tân erledigaeth ddiiffodd yn llwyr cyhyd ag y parhao gweichionen o gas ym mynwes yr annuwiol ar y ddaear, neu ddiabol yn uffern i'w chwythu. Gan hyny, y mae ail ffordd o gael y lwynau wedi eu hamwregysu a gwirionedd mor angencheidiol a'r llall; a hyny yw, yn y broffes o hono. Y mae llawer nas gellid eu curo oddi wrth y gwir trwy rym dadl, wedi cael eu gyru oddi wrtho trwy dân erledigaeth. Nid digon fydd barn gywir i alluogi dyn i ddioddef wrth yr ystange dros y gwir. Onid e, ni buasai i'r gof druan hwnw, yn *Hanes y Merthyron*, anfon y fath ateb anwrol i'w gyfaill, oedd yn farod i ddioddef ym mhlaid y gwirionedd, yr hwn y buasai efe ei hun yn offeryn i'w addysgu yndo: "Mai y gwir yn ddiâu ydoedd; ond nas gallai efe oddef llosgi." Y mae'r gwir yn y pen heb wrdebe duwiol, yn gwneud dyn yn debyg i'r cleddyf-bysg; yr hwn, medd Plutarch, sydd â chleddyf yn ei ben heb galonddi i'w arfer. Dyna y pryd y mae dyn yn anorchfygol, pan gynnysgaeth eaf â hyfder duwiol o'r nef i dynu allan gleddyf yr Ysbryd, ac i addef y gwirionedd noeth, trwy broffes gyhoeddus o hono, yng ngwyneb

angeu a pherygl. Hyn, hyn yw bod â'n "lwynau wedi eu hamgylch-wregysu a gwirionedd." Ac felly, y sylwad oddi wrth yr ail fath yma o ymwregysu a gwirionedd ydyw—

Athr. Ei bod yn ddyledswydd ar y saint, ac y dylent ofalu, nid yn unig am gael barn sefydlog yn y gwirionedd, ond hefyd am ddal profres gysson o hono. Y mae'r apostol yn gwasgu hyn: "Daliwn gyffes ein goboth yn ddisigl;" *Heb. x. 23.* Y mae yn ei lefaru mewn gwrthwynebiad i'r rhai oedd, yn yr amseroedd enbydus hyny, yn gadael cydgygnnulliad y saint, gan ofn erledigaeth. Hyn a eilw efe yn sigl. Ac y mae yr hwn sydd yn siglo yn y drws nesaf i wrthgilio. Nid oes i ni ledu ein hwyliu o broffes ar awr dawel, a'u plygu ynghyd pan godo y gwynt. Canmolir Pergamum am ei phroffes hyf: "Mi a adwaen dy weithredoedd di, a pha le yr wyt yn trigo, sef, lle y mae gorseddfainge Satan; ac yr wyt yn dal fy enw i, ac ni wedaist fy ffydd i; i.e., yn y dydd y bu Antipas yn ferthyr ffyddlawn i mi, yr hwn a laddwyd yn eich plith chwi;" *Dad. ii. 13.* Man oedd Pergamum lle yr oedd Satan yn eistedd ar y fainge swyddogol, lle yr oedd bod yn Gristion yn ddigon o fater i haeddu marwolaeth; i.e., yr oedd yno beth gwaed eisoes wedi ei dywallt o flaen eu llygaid; ac hyd yn oed yn y dyddiau hyny ni wadasent y gwirionedd. Cymmerodd Duw hyn yn dirion. Gorchymyn dwys a roddodd Paul ar Timotheus: "Eithr tydi, gwr Duw, gochel y pethau hyn; a dilyn gyfiawnder, duwioldeb, ffydd, cariad, addfwyndra;" *1 Tim. vi. 11.* Tra y mae ereill yn gwibio ar ol y byd, ymrodda di am gyfoeth ysbrydol; canlyn di ar hyn, mor awyddus a hwythau eu helpen dymmorol. Ond beth os nad ellir gyru y fasnach hon ym mlaen yn heddychol? A raid i ni gau ffenestri y siop i fyny, rhoi heibio ein profres, a pheidio â bod yn grefyddol nes y caffom amseroedd llonyddach? Dim o hyn: y mae yn erchi iddo "ymdrechu hardd-deg ymdrech y ffydd;" *1 Tim. vi. 12.* Nac ymâd yn anwrol â'th broffes; eithr rho dy fywyd a'r cwbl i lawr i gadw hon. Ac, i'w rwymo rhag cilio yn ol, medd efe, "Yr ydwyf yn gorchymyn i ti, ger bron Duw, yr hwn sydd yn bywhau pob peth, a cher bron Iesu Grist, yr hwn dan Bontius Pilat a dystiodd broffes dda, gadw o honot y gorchymyn hwn;" *adn. 13.* Fel pe dywedasai, Os byth y dymuni weled wyneb Crist gyda chysur yn yr adgyfodiad, yr hwn a ddewisodd gollu ei fywyd yn hytrach na gwadu na chelu y gwirionedd, dal ati, ac na chilia oddi wrth dy faner. Y mae gan Awstina, yn ei gyffesiadau (lyfr viii., pen. 2), hanesyn hynod am un Victorinus (gwr clodfawr am areithyddiaeth yn Rhufain, a ddysgai efe i'r seneddwyr). Dychwelwyd hwn yn ei henaint at Gristionogaeth; ac fe ddaeth at Simpli-

cianus (un enwog y prydd hyn am dduwioldeb), gan sisial yn wanaidd yn ei glustiau, Yr wyf fi yn Gristion: ond y gwr duwiol hwn a attebodd, "Ni chredaf fi, ac ni chyfrifaf mo honot yn gyfyron, nes y gwelwyf di yn mysig Cristionogion, yn eglwys Crist." Wrth hyn, efe a wenodd, gan ddywedyd, "Os felly, ai y muriau a wna ddyrn yn Gristion? Oni allaf fi fod yn gyfyron heb broffesu hyn ar gyhoedd, a gadael i'r byd ei wybod?" Hyn a ddywedodd efe o ofn, gan nad oedd efe ond dychwelwr ieuange, er ei fod yn hen wr: eithr ym mhen ysbaid o amser, wedi ei gadarnhau yn fwy yn y ffydd (ac ystyried yn ddwys, os parhâi ef fel hyn yn gywilydd ganddo arddel Crist, y byddai cywilydd ganddo ef yntau, pan ddeuai yng ngogoniant ei Dad gyda'r angylion sahetaidd), efe a newidiodd ei lais: daeth at Simplicianus, gan ddywedyd, "Awn i'r eglwys! Yr wyf fi o ddirif am fod yn Gristion." Ac yno, er y gallasai profes o'i gred o'r neilldu fod yn dderbyniol, efe a ddewisodd ei gwneud ar gyhoedd, gan ddywedyd, "Mi a broffesais areithyddiaeth yn gyhoeddus, yr hyn nad oedd fater o iachawdwriaeth; ac a ofnaf fi addef gwirionedd Duw yng nghynulleidfya fyddloniaid?" Y mae Duw yn gofyn crefydd y galon a'r genau. "A'r galon y credir i gyflawnder; ac â'r genau y cyffesir i iachawdwriaeth;" *Rhuf. x. 10.* Rhagrith trwm yw addefnâd y genau, heb gred yn y galon: a rhagrith ac ofnuswydd ynghyd yw i ddyrn ymhoi o'i gred heb gyffesiad y genau.

Rhes. Ni roddaf ond un rhoswm am y pwng; a hwnw oddi wrth yr ymddiried mawr a ddyry Duw yn ei saint, mewn perthynas i'w wirionedd. Hwn yw y peth mawr y mae Duw yn ei roddi yng nghadw i'w saint, gyda gorchymyn o'r dwysaf am ei gadw, yn erbyn pawb a gloddio dano, neu a'i gwrthwynebo. Y mae rhai pethau a roddwn ni i gadw i Dduw, a rhai pethau a rydd Duw i gadw i ninnau. Y peth mawr a roddwn ni i gadw i Dduw yw ein henaid: "Y mae efe yn abl i gadw yr hyn a roddais ato erbyn y dydd hwnw;" *2 Tim. i. 12.* A'r hyn y mae Duw, yn benaf, yn ei roddi i gadw i ni yw ei wirionedd. Am hyny, dywedir ei roddi iddynt megys arian yn llaw cyfaill yr ymddiriedwn iddo: "Ymdrech-wch ym mhlaid y ffydd a roddwyd unwaith i'r saint;" *Iudas 3.* "Ymddiriedwyd iddynt hwy (yr Iuddeuon) am ymadroddion Duw;" *Rhuf. iii. 2.* Hwya gawsant y trysor nefol hwnw dan eu cadwraeth. Felly y mae Paul yn annog Timotheus i gadw "ffurf yr ymadroddion iachus" (*2 Tim. i. 13*), yr hyn a eilw efe yn *adn. 14*, "y peth da a rodded i'w gadw atat." Os dylai un yr ymddiriedwyd iddo gadw coron a thrysor brenin edrych yn ofalus at yr hyn sy dan ei gadwraeth, rhag ei golli, neu i leidr ei

ddwyn, llawer mwy y dylai y Cristion¹ sydd â choron a thrysor Duw dan ei ofal. Os ysbellir Duw o'i wirionedd, beth fydd ganddo wedi ei adael? Gair y gwirionedd yw y dystiolaeth a rydd y Duw mawr am dano ei hun i ddyrn. Y saint yw ei dystion ethol-edig, uwch law ereill, y rhai a eilw efe i wirio ei wirionedd, trwy broffes rydd a duwiol o hono ef ger bron dystion: am hyn y gelwir hwynt yn dystion iddo: *Esa. xliii. 10*; *xliv. 8*; *Heb. xii. 1*; *Dad. xi. 3*. *Salm xix. 7*; ac *Esa. viii. 20*. Y mae'r neb a fyntumio unrhyw wrydd oddi wrth y gair yn dwyn gair dystiolaeth yn erbyn Duw. A'r hwn a fyddo, gan ofn neu gywilydd, yn ymadaw â'r gwirionedd, neu yn dirgelu ei broffes, y mae yn nacau ei dystiolaeth i Dduw: a phwy a all adrodd erchylltra y pechod hwn, ac i ba radd o ddirmyg ar Dduw y mae yn cyrhaedd? Byddai yn gamwedd erchyll, pe ni byddai ond yn achos dyn: megys pan gyhuidd un ar gam, mewn llys, ac y gallai ychydig eiriau arddangos diniweidrwydd y dyn; ac yntau er hyn yn cael ei adael i'w gondemnio, rhag i dyst beryglu dim arno ei hun trwy dystio y gwir mewn llys cyhoedd. O! yute, pa faint yw ei gamwedd ef, yr hwn, pan fyddo Duw ei hun, yn ei wirionedd, yn sefyll wrth frawdledyn gwael, nid yw yn beiddio dywedyd gair dros Dduw, pan alwer arno i ddwyn ei dystiolaeth, ond sydd yn gadael i'r gwirionedd ddiodeff trwy farn anghyflawn, rhag iddo ef ddiodeff, ar law dyn, am fod yn dyst o'i blaid?

Gwrthdd. Ond gellir cyfrif hyn yn faich trwm i'w osod ar gefn y Cristion. A raid i ni beryglu y cyfan oll, ac anturio y cwbl sydd yn anwyl genym, yn hytrach na gwadu na chuddio ein profes o'r gwir? Yn sicr, ni bydd gan Grist ond ychydig o ddilynwyr, os yw yn dal ei weision at y fath ammod galed.

At. Yn wir y mae yn galed i gig a gwaed, yn un o'r camfeydd uchaf sydd i fyued drostynt yn ein ffordd i'r nef. Nis gall calon anianol wrandaw hyn, heb ymrwystro yn y fan: *Mat. xiii. 21*. Am hyny, y mae gwyr sydd yn anhawdd ganddynt golli'r nef, ac yn anfoddlawn i anturio cymmaint a hyn am dani, wedi rhoddi eu synwyrâu at waith at gael ffydd rwyddach i fyued yno. Am hyn ni wnai yr hereticiaid hyny, y Priscilianiaid, ac ereill (prif grefydd y rha oedd achub eu crwyn eu hunain), ond mater bach o broffes oddi allan. Hwya a feddyl

¹ Y mae'r awdwr doeth a duwiol yma, ac y amryw o'r pennodau hyn, [yn rhoddi ei dystiolaeth yn eglur a phwysig am yr angenrhaidd weddai i fod ar ysbryd pob gwir Gristion, ac y neillduol ar bobl gweinidog yr efengyl, i amddiffyn pob rhan o wirionedd Duw. Rhodded yr Arglwydd i'w bobl yng Nghymru fwy o ddeall da a o ffyddlondeb duwiol i gyflawni hyn.—Y *Cyfieithydd.*

ent y gallent ddywedyd a dad-ddywedyd yn ol eu hegwyddor resynus, "Mi a dyngaf, ni a groesdyngaf, ac a gadwaf fy meddwl heb dyngu!"), ond iddynt fod â'u calon yn glynu wrth y gwir! O! pa fath ffylliaid tuasai y prophwydi, yr apostolion, a merthyrion dauwl ereill, a fu yn seilio'r gwirionedd â'u gwaed, pe buasai y fath ffordd deg i'w shaeli ddiange rhag yr ystorm o erledigaeth! Ond, O! hyfder y gwyr a feiddiant (i ochel ychydig flinder oddi wrth ddyen er mwyn y gwirionedd) ddyfeisio y fath gabledau er-hyll yn erbyn y gwirionedd! Ie, anffurfiog y llythrenau hyny sydd o argraff naturiaeth ei hun ar y gydwybod. Yr un goleusy'n dangos ond Duwdod, a ddangosai hyn hefyd, Y llyem ni rodio yn enw y Duw hwn. Y mae ydym yn oed y paganiaid yn gwybod hyn: 'Yr holl bobloedd a rodiant bob un yn enw ni Dduw ei hun;' *Micah* iv. 5. Daliodd Socrates hyd at waed i ddywedyd, Nad oedd ond un Duw; ac, yn ei amddiffyniad am ei ywyd, fe ddywedodd, Pe rhoddent iddo ei ywyd ar yr ammod o gadw y gwir hwn iddo i hun, a bod heb ei ddyysgu i ereill, na lderbyniai efe y rhodd. Gwelwn yma berthol weithrediad cydwybod naturiol! Mor wych (neu anwych) ynte y defnyddodd y rhai hyny eu gwybodaeth o'r Ysgrhythyr, sydd â gwan fwa natur yn saethu nor bell tu hwnt iddynt! Buan y diflanai crefydd i wag-beth diddym, os yw raid i ni, rhag ofn pawb a gyfarfyddom, ymddiosg o'n iaddurniadau (fel millwyr ffoadwy), a rhoi ein profes dan gudd, rhag i neb wybod i bwy yr ydym yn perthyn. Pa beth a ofyn Duw trwy broffes hyf o'i wirionedd, yn fwy nag a ofyn y meistr gan ei was, pan fyddo yn erchi iddo wisgo ei ddillad lifrai ef, a'i ddilyn yn yr heolydd? Neu, pan fyddo lywydd yn galw ei ddeiliaid i'r maes, i ddangos eu ffyddlondeb, trwy addef ei gweryl ef yn erbyn gelyn a fyddo yn ymosod arno? Ac a yw cais dyn gan y rhai hyn yn rhesymol, a'r cyffelyb gais oddi ar law Duw yn galed? Na, nid yw yn beth mwy, nac yn beth cymmaint ag a ddymunwn ni gan Dduw i ni ein hunain. Pwy ni fynai gan Dduw arddangos ei gariad atom ni, a dwyn ystiolaeth drosom yn erbyn Satan a'n pechodau ein hunain, yn y dydd mawr hwnw pan y bydd dynion ac angylion yn edrych-wyr? Ac a ddisgwyliwn ni hyny gan Dduw nad yw yn ein dyled trwy un ddeddf, ond o'i addewid rad ei hun, a ni yn nacau iddo ef yr hyn yr ydym dan gynifer o rywau i'w dalu? Pe ni byddai ond mewn rhyw gystudd (tra yr ydym yma), mor anghysurus ydym ni os lled-guddia Duw ei wyneb, a bod heb ein haddef yn ein cyfyngder? Ac a oes dim caredigrwydd i'w ddangos i'r Duw hwnw a adnebydd dy enaid mewn cyfyngderau? Pan fyddo ei wirionedd ef mewn ingder, oni all Crist ddisgwyl fod i'w

gyfeillion oll eistedd i'w fyny, a gwylio gydag ef? O! byddai yn gwilydd amlwg fod dim o'r fath foethusder meddal i'w gael yn mysg gweision Crist, fel nas gallont gollu ychydig o'u hesmwythdra a'u mwyniant bydol i weini iddo ef a'i wirionedd.

Defn. Bydded i hyn gynnhyrfu ein hym-gais am gael gwregys gwirionedd yn dŷn am danom, fel y gallom ddal yn lew y broffes o hono, i'e, yng ngwyneb angyf a pherygl, a bod heb ein rhwystro pan gyfodo erledigaeth. Bendigedig fyddo Duw: nid yw wedi dyfod i hyny etto; yr ydym yn cael y gwir yn rhatach; ond pa mor fuan y gall y farchnad godi, nis gwyddom. Nid yw y gwir i'w gael bob amser am yr un pris. Ei brynu sy raid i ni yn y pris y byddo, a bod heb ei werthu am bris yn y byd. A gadewch i mi ddywedyd wrthyhych, fe fu, y mae, ac fe fydd ysbryd erledigaeth yng nghalonau yr annuw- iol hyd ddiwedd y byd. Ac, megys y bu Satan yn ystyried Iob, cyn rhoi ei ddwyllaw budron arno; felly y mae, yn awr erledigaeth, yn gweithio yn ysbrydoedd yr anwir- iaid: y mae offer dinystr bob amser dan bar- toad yn meddyliau a dymuniadau Satan a'i offerynau yn erbyn gwir broffeswyr y gwirionedd. Y mae'r hyn a wnaent wedi ei benderfynu eisoes, pe caid gallu a chyfle i gyflawni eu malais; i'e, yr ydym, hanner y ffordd yn barod tuag at erledigaeth. Mae Satan, yng nghyntaf, yn dyfod mewn ysbryd cyfeiliornad, yna mewn ysbryd erlidiaid; yn gyntaf, efe a lygra ddynion â chamdyb- iau; yna, efe a leinw eu calonau â llid yn erbyn profeswyr y gwirionedd. Peth am- mhosibl yw i gyfeiliornad, sydd yn gyw uffern, fod yn heddychlawn: ni byddai felly yn debyg i'w dad. Nis gall yr hyn sydd oddi isod fod yn bur nac yn heddychlawn chwaith. A pha mor bell y mae Duw wedi goddef i'r ysbryd brwmstanaidd hwn o gyfeiliornad ymledu, sydd yn beth mor amlwg nad oes un esguswaith yn ddiagon llydan i guddio noethni yr amseroedd anned- wydd hyn. Y mae, gan honyd, yn llawn bryd i ni fod â'n gwregys o wirionedd am danom; i'e, wedi ei dŷn-wregysu yn y broffes o hono. Nid pob un o'r rhai sydd yn awr yn canmawl y gwirionedd a wna ei ddilyn, pan unwaith yr arweinio tua'r carchar: nid pob un sydd yn pregethu neu yn dadleu o'i blaid, a wna ddiodesd o'i blaid. Pethau diniwed—arfau pwl yw dadleuon: nid ydynt yn tynu gwaed. Ond wrth ddiodesd, yr ydym yn cael ein galw i brawf gyda gely- nion y gwirionedd ag arfau awchlym. Mae

¹ Bu cyflawniad o'r hyn y mae Mr. Gurnal yma yn ei ddarogan. O'r flwyddyn 1662 hyd 1668, bu miloedd o ffyddloniaid ym Mhrydain (heb son am er- ledigaethau trymach yn Ffrainc a gwledydd ereill) yn diodesd amryw orthrymderau lled ddwys a mathi. Ond yn y flwyddyn olaf a benodwyd, daeth y breinin Protestanaidd a thyner, William o Orange, i'r orsedd, er ymwarded mawr i'n teyrnas.

hyn yn gofyn mwy na thafod llithrig, synwyr cyflym, a phen dadleuyddol. Pa le y pryd hyn y bydd y doeth, y bydol ymholydd, y gwyr doniol ac areithyddol? Oeh, hwy fyddant ar goll yn y frwydr, fel milwyr anwrol, er y gallant fod gyda'r blaenaf ar ddydd byddin rfiad, neu rith ymladdiad, pan nad oedd gelyn yn y maes; pryd yr oedd ymddangos o du y gwirionedd yn fater o elw neu o glod, yn hytrach nag o golled neu berygl. Na: y mae Duw wedi dewis y rhai ffol, i waradwyddo y doethion, yn y darn hwn o wasanaeth; y Cristion gostyngedig, trwy ei ffydd, ei amynedd, a'i gariad at y gwirionedd, i waradwyddo gwyr o ddonia mawrion, ond heb ras.

PENNOD V.

Cyfarwyddyd neu ddau at wregysu y gwirionedd yn dŷn am danom yn y broffes o hono.

Hol. OND ym mha fodd y mae i enaid gael y gwregys gwirionedd yma am dano yn y broffes o hono?

At. Yn gyntaf, ymgais am galon yn ennyu gan gariad diffuant i'r gwirionedd. Hyn yn unig a' thŷna di yn drech na gelynyon y gwirionedd. Eu gwaethaf hwy yw rhwymau neu farwolaeth; ac y mae cariad yn gryfach nag angu; y mae yn lladd hyd yn oed calon angu ei hun—yn gwneud pob peth yn hawdd. Nid yw y'tgorchymynion yn dŷnyon i gariad; ac nid achwyn efo o achos dioddefiadau. Mor ysgafn ei galon y bu Iacob yn dioddef gwres y dydd ac oerni y nos o gariad at Rahel! Y mae cariad yn anturiol: tafodd Ionathan deyrnas o'i ol, a gwynebodd ddig tad lliidiog o gariad at Dafydd. Nid yw cariad byth ynddo ei hun yn golledwr, tra y cadwo ei wrthddrych anwyl: i'e, y mae yn awyddus i unrhyw anturiaeth beryglus, y caffo ei offrymu ei hun ynddi, yng ngwasanaeth ei anwylyd. Gwelwn hyn yn Dafydd, yr hwn a osododd ei einioes yn ei law am Michal. A pha faint mwy pan fyddo ein cariad wedi ei osod ar wrthddrych mor ragorwyl ag yw Crist a'i wirionedd? O, nid oes ond rhyw hiraeth gwan yn anadliadau cryfaf y creadur; a rhyw belydr dirym yn cael ei saethu oddi wrth y fath lendid gorwael! Os yw y rhai hyn yn gosod eu caredigion dan y fath ddeddf, fel nas gallant lai nag ufuddhau, er mai gyda'r perygl a'r caledi mwyaf, pa gymhelliaid ynte sy raid i'r enaid hwnw fod dano, a gymhellir gan gariad Crist? Gwnaeth hwn i'r saint neidio oddi wrth eu meddiannau a'u perthynasau; i'e, allan o'u cyrph, yn llawen, gan gyfrif mai nid eu colled oedd ymadael â hwynt, ond eu cadw gyda'r anfrif lleiaf i'r gwirionedd. Dywedir yn *Dad.* xii. 11, "Ni charasant eu heinioes hyd angu." Craffiweh, nid hyd at golli rhai

o gysuron eu bywyd, ond hyd angu. Yr oeddynt yn cyfrif bywyd ei hun yn elyn, pan y gwahanai rhyngddynt a gwirionedd. Megys, pan na fyddo dyn yn caru ei fraich neu ei goes, os hi a berygla y rhan arall; ond yn erehi, Torwech hi ymaith. Ai ni allwn ni fyw, medd yr ysbirioedd ardderehog hyn, ond er cymmyliad ar y gwir, ac i beri ammheuaeth am ein cariad ato ac at Grist? Croesaw ynte y gwaethaf o farwolaethau Hyn a ddaliodd galondid Dafydd i fyny, tra yr oedd maglau am ei einioes: "Y rhai annuwiol a ddisgylasant am danaf i'm difetha; ond dy dystiolaethau di a ystyriaf i;" *Salm* cxix. 95. Buasai calon anianol yr ystyried meddiannau, gwraig a phlant, neu o leiaf yr einioes, yn awr mewn perygl ond yr oedd calon Dafydd ar fater gwell yr oedd efo yn ystyried tystiolaethau Duw ac mor gryf oedd y meluser, yn ymdeall i'w enaid, wrth fyfyrto ar y rhai hyn, ne yw yn methu dal: "O, mor gu genyf d gyfraith di!" *adn.* 97. Parodd hyn idd gyfrif yr holl flinderau oedd yn ei gyfarfoc o achos ei ymlnyniad wrth y gwir yn ysgeifr Y mae yn ddirgelwch mawr i'r byd, fodynion, er mwyn rhyw opiniwn, fel y dywedant hwy, yn gallu rhedeg i'r fath berygl anferth. Am hyn, cyfrifwyd Paul gan e fariydd yn un oedd yn ynydu. A llais y gafn, mi dybygwn, yn hytrach na difrid ddyws, oedd yn y gofyniad hwnw gan Pilat i Grist, yn *Ioan* xviii. 38. Yr oedd ein Harglywydd wedi dywedyd wrtho (*adn.* 37) mai hyn yr oedd efo wedi ei eni, a dyfod i byd, sef fel y tystiolaethai i'r gwirionedd. Yma, y mae Pilat yn gofyn iddo, Beth y gwirionedd? ac yn ebrwydd yn troi ymaith. Fel pe dywedasai, Ai amser yw hwn i feddwl am wirionedd, pan y mae dy fywy mewn perygl? Beth yw gwirionedd, fel anturit ti gymmaint o'i achos? Ond gall e aid grasol yn gymmhwsach ofyn, mewn dy tyrwech duwiol, Beth yw cyfoeth ac anrhyedd? Beth yw plaserau diflanedig y bysomedig hwn? I'e, beth yw bywyd ei hufod i un neu oll o'r rhai hyn gael ei rudd mewn gwrthibwysiad i wirionedd? O sydd edrychwch pa beth sydd yn cael eich serch hwn fydd y meist'r ar bwrs, gair da, bywy a chyfan. Y mae gogwyddiad pob dyn i y byddo ei serch yn tuedd. Os y byd sy yn cael eich serch, chwi a wariwch ei bywydau arno: os y gwirionedd sydd i cael eich calonau, chwi a ddeliwech y dyn a geisir ato ar eich bronau eich hunain, y hytrach na gadael iddo ddisgyn yno. G falwech yn unig am fod eich serch yn ddiant at wirionedd; os amgen, efo a'ch gwrth ddrws y carchar, ac a bair i chwi ymadael â gwirionedd yn y pryd rheitiaf i ch ymddangos o'i ochr. Y mae tri math o y honwyr am wirionedd, nad yw eu serch debygol i ddal y prawf tanllyd.

1af. Y rhai a gofleidiant wirionedd er awyn mantais anianol. Y mae gwirionedd veithliau yn talu yn dda am ei bwrdd, yn rian bathol y byd ei hun; a thra y byddo elly, gwahoddir hi gan bawb i'w tŷ. Nid aru y gwirionedd y mae y rhai hyn, ond y lws sydd wrth ei chlust. Gwelwyd llawer n nyddiau Harri VIII, yn dra mawr eu sel n erbyn mynachdai, o gariad at eu tiroedd, n fwy yn chasineb at eu heilunaddoliaeth. Nid yw gwirionedd yn cael ond ychydig i'w câr am ddim; a'r ychydig hyn a ddi-ddefant gyda hi a throsti. Am y lleill, pan yddo ei chynnysgaeth fydol hi unwaith wedi i wario, chwiri a'i cewch hwynt wedi bilno r eu cymmhares. Y tân egin hwn, ni lysg n hwy nag y byddo y cyfryw danwydd bras elw, gair da, a'r cyffelyb, yn ei borthi. Os na ellwch garu gwirionedd noeth, nis gellwch fyned yn noeth er mwyn y gwirionedd. Os na ellwch garu gwirionedd dirnygedig, nis gellwch oddef eich dirmygu r mwyn y gwirionedd; a'r driniaeth a gaiff gwirionedd, hyn sy'n aros ei ganlynwyr.

2il. Y fath a ganmolant wirionedd, gan ei thro i'w fyny yn uchel; ond, os craifwch trunyt, nid oes ganddynt ond moesgyfarchad iddi. Maent o hyd yn cadw draw; ac ni oddefant i wirionedd gael lle o'u mewn, fel ag i roddi cyfraith iddynt; fel un a gresawai garwr, a ddywed yn dda am dano, ac a ddeil ymddiddan âg ef, ond ni fyn glywed son am ei briodi. Un peth yw geiriau teg; peth arall yw priodas. Mynych y lywedai Bucholcerus:—"Llawer a roddant gusan i Grist; ychydig a'i gwir garant." Y mae gwir gariad at Grist yn briodasol. Pan fyddo enaid yn ei roddi ei hun, oddi ar hoffder calon at Grist, megys gwraig at ei phriod, i gael ei lywio a'i reoli gan ei Ysbryd, trwy air ei wirionedd, dyma un sydd yn caru Crist a'i wirionedd. Ond lle y mae gwirionedd heb gael yr uchafiaeth a'r rheolaeth, nid oes dim cariad at wirionedd yn aros yn y galon hono. Yr hon nid yw yn wraig ufudd, nis gall fod yn un garuaidd, am y gwnai cariad ei chymhell i fod yn gyfryw. Ac felly y gwna cariad yn yr enaid gymhell ufudd-dod i'r gwirionedd y mae yn ei garu. Ie, y mae y neb sydd heb ufuddhau i'r gwirionedd mor bell oddi wrth ei garu hyd onid yw yn byw mewn ofn o hono, a'r dyn sy mewn caeth ofn at y gwirionedd; cynt y try efe allan yn erlidiwr arno, nag yn ddiodefwr drosto. Mor wir yw gair Jerome: "Y neb a ofna ddyng, efe a'i casâ; a'r neb a gasâ, efe a ddymunna ei ddiwedd." Yr oedd Saul yn ofni Dafydd; a pharodd hynny iddo ddyfal geisio ei ddinysr. Yr oedd Herod yn ofni Ioan; a chostiodd hynny i Ioan ei fywyd. Y mae ofn caethwasiaid yn peri i galon ddyrygonus garcharu gwirionedd yn y gydwybod; canys pe cawsai hwnw ei ryddid a'i awdurdod yn yr enaid, efe a

gaethiwai, ie, a ddiennyddiai, bob chwant sydd yn awr yn rheoli y tŷ. A'r hwn sydd yn carcharu gwirionedd yn ei fynwes ei hun, prin y gorwedd efe yng ngharchar fel tyst dros y gwirionedd.

3ydd. Y rhai nid oes ganddynt sel yn erbyn gelynyon y gwirionedd. Y mae cariad bob amser wedi ei arfogi â sel: dyma y dagr a dynn efe yn erbyn holl wrthwynebwy'r y gwirionedd. Yr hwn nid oes ynddo sel, ni fedd gariad. Yn awr, y mae gwir sel yn gweithredu fel tân yn ol eithaf ei rym; etto, o fewn ei le a'i gylch priodol. Os cyfyngir sel i fynwes rhyw un Cristion, heb fodd iddi filamio allan yng nghosp gelynyon y gwirionedd: yna, hi a lysg yn fwy oddi mewn o herwydd ei chau i fyny; ac, megys tân yn yr esgryn, hi a ysa ysbryd y Cristion ei hun, gan ei ddifa, ie, ei fwyta trwy ofid, wrth weled gwirionedd dan draed cyfeiliornad neu halogrwydd, ac yntau heb allu i'w helpio i fyny. Nid hyfryd yw i garwr gwresog fyw yn hwy na'i anwylyd. Fe fu y fath rai ag a ddewisasant neidio i feddau eu cyfeillion, a gorwedd gyda hwynt yn y llwch, yn hytrach na threulio bywyd digysur yma hebddynt. "Awn ninnau, fel y byddom feirw gydag ef," meddai Thomas, pan ddywedodd Crist wrthynt, "Bu farw Lazarus;" ac yr wyf yn sier fod carwyr gwresog y gwirionedd yn ei gyfrif yn beth mor drwm i fyw mewn amseroedd drwg—pan fyddo y gwir wedi syrthio yn yr heolydd. Y newydd am ddaliad yr arch a frawychodd enaid Eli duwiol allan o'i gorph; ac yn ol barn cariad, gellir tybied mai hyn a gynnhyrfodd ddymuniaid, ie, dwys weddi Elias, am farwolaeth: "Digon yw yn awr, Arglywydd, cymmer fy einioes," &c.; 1 *Bren.* xix. 4. Yr oedd y' gwr sanctaidd yn gweled sut yr oedd pethau yn myned ym mlaen ym mysg y mawrion yr amser drwg hwnw; eilunaddolwyr mewn bri, a gweision ffyddlawn Duw mewn anfrî, ie, a marwolaethau. Ac yn awr, y mae y prophwyd gwresog hwn yn ei faru yn amser da iddo ef adael y byd, yn hytrach na byw yn hwy mewn poen, wrth weled enw gwirionedd a gweision Duw yn cael eu mathru gan y rhai a ddylasent ddangos y caredigrwydd mwyaf iddynt. Ond os bydd gan sel allu wedi ei roddi yn ei llaw at amuddiffyn achos y gwirionedd, fel y dyrchafer hi i eisteddle yr uwch swyddog; yna, caiff gelynyon y gwirionedd wybod nad yw hi yn dwyn cleddyf yn ofer. Bydd gan y swyddog gwresog fraich i nodd i ac amuddiffyn yr Israeliad (y gwirionedd), ac felly hefyd law i daraw yr Aiptwr (cabledd, halogrwydd, a chyfeiliornad), pan y rhuthro un o honnynt i'w erbyn. Moses, y gwr llariaidd hwnw, a fu mor ddistaw yn ei achos ei hun (*Num.* xii. 3, &c.) O, fel yr ymgynhyrfodd pan syrthiodd ei bobl i eilunaddoliaeth! Yr oedd ei galon yn y fath ennyniad, fel, er ei farw

gariad tuag atynt, nas gallai efe agor ei enau mewn gweddi drostynt, na'i glust i dderbyn un erfyniad oddi wrthynt, nes iddo roddi rhediad i'w sel mewn gweithred o iawnder ar y troseddwy. Yn awr, y cyfryw, a'r cyfryw yn unig, yw y bobl sydd yn debygol, pan eu gelwir, i ddioddef dros y gwirionedd, sef y rhai ni adawnt i'r gwir ddioddef, os gallant attal hyn. Ond am ysbryoeddi anianol o fath Galio, y rhai nis gallant edrych ar wirionedd a chyfeiliornad yn ymrafaelio, a bod heb wneud eu goreu i gynorthwyo y gwir trwy gyfryngiad eu gallu a'u hawdurdod, os swyddogion; neu, trwy bregethu y naill i fyny a'r llall i lawr, os gweinidogion fyddant; neu, trwy ardstiad rhwydd i'r gwirionedd, gweddi wresog o'i blaid, a chydymdeimlad calon ág ef, yn ol ei lwydd neu ei aflwydd, os Cristion cyffredin fydd y dyn. Am y cyfryw oll, meddaf, sydd yn sefyll yn yr achos hwn, fel rhai edrychwyr o ddeutu dau ymladdwr, heb ofalu nemawr pwy a ennil y codwn; nid y rhai hyn yw y gwyr y gellir disgwyl iddynt ymroddi i ddioddef llawer dros wirionedd. Y swyddog hwnw na fedd ddigon o sel i gau safnau gelnyon y gwirionedd pan allo hyn, a egr efe ei enau mewn profies hyf o'i blaid pan fyddo angu a pherygl yn ei wynebu? Y gweinidog hwnw na fedd ddigon o serch a chalondid i amddiffyn y gwirionedd yn y pulpud, a ellir disgwyl i hwn sefyll i'w amddiffyn wrth yr ystange? Mewn gair, y Cristion cyffredin hwnw nad yw yn teimlo archollion y gwirionedd, fel ag i gydymdeimlo â'r gwir, a esyd efe ei hun rhwng y gwir a'r dyrdod a geisir ato gan erlidwyr gwaedlyd? Ac a ddewis efe dderbyn y dyrdod yn ei gorff ei hun, pe byddai hyd angu, yn hytrach nag iddo ddisgyn ar wirionedd? Os bydd tân cariad oddi mewn wedi diffodd, neu mor wan fel na thawdd y dyn i dristwch o herwydd y cam a wneir i wirionedd gan rai o feddwl llygredig, pa le y ceir y fillam a'i galluogai ef i losgi yn ulw dan law dynion gwaedlyd. Ni ddioddef efe byth y tân yn ei gorff, sydd a'i ofal heb fod yn fwy i gadw y tân sanctaidd yn losgi yn ei enaid. Oni all efe dywallt dagrau dros wirionedd, llawer llai y tywallt efe ei waed.

Hol. Os gofyn neb ar hyn, Pa fodd y mae iddynt gael eu calonau i enyn gan y tân nefol hwn o gariad i'r gwirionedd—

At. (1af.) Ymgais am gydffurfiad o galon â'r gwirionedd. Tebygolrwydd yw sail cariad. Ni ddichon calon anianol hosi gwirionedd, gan nad yw yn tebygu i wirionedd. Gall y fath un garu gwirionedd fel y carodd hwnw Alecsander, sef y breuin, ac nid y person oedd yn frenin; y gwir yn ei barch a'i fri pan y gallo ei ddyrchafu—nid y gwir noeth ei hun. Pa fodd y mae yn bossibl i enaid sydd yn ddaearol garu gwirionedd sydd yn nefol—neu galon ansactaidd garu y gwir

sydd yn gwbl sanctaidd! O! y mae yn drwm yn wir, pan fyddo daliadau ac egwyddorion deall dynion yn anghyttuno ág egwyddorion eu serch a'u calon; pan fyddo gan ddynd farn uniongred, a chalonn gyda gau gred! Y mae yn rhaid nad oes yno ond cariad gwael i wirionedd, gan fod y farn a'r ewyllys wedi eu hieuo mor anghymmharus; y gwir yn y gydwybod yn bygwth ac yn curo chwant yn y galon; a hwn drachefn yn meistrol i'r gwir yn y gydwybod. Y modd hwn, fel gwr a gwraig ringelyd, hwy allant fod am dro gyda'u gilydd; ond gan nad yw y naill mewn bodd at y llall, hawdd fydd cael gan yr adyn roddi llythyr ysgar o'r diwedd i wirionedd, a'i droi ymaith, fel y gwnaeth Ahasferus â Fasti, fel y gallo briodi egwyddorion ereill fwy cyttunol â'i galon llygredig ef, ac heb ei groesi yn y sfordd y mae ynddi. Hyn, yr wyf yn coelio, a barodd ysgariaeth rhwng llawer â gwirionedd yn y dyddiau penrhydd hyn. Nis gallent bechu yn dawel tra y cadwasant farn iachus; byddai y gwir o bryd i bryd yn eu dwrdio: ac am hyn, i gael eu barnau a'u calonau yn gyfaddas i'w gilydd, hwy a dderbyniasant egwyddorion addas i'w chwantau. Ond, enaid, os cafodd y gwir y fath oruchafaeth ynot, a'th droi di, drwy adnewyddiad dy feddwl, i'w ddelw ei hun, nes yw wedi dy debygoli, yn ol effaith yr impyn ar y bonyn—i'w natur ei hun, a pheri i ti ddwyn ffrwyth cyffelyb iddo ei hun; tydi yw y dyn nad ymedy byth â'r gwir. Cyn y gelli di wneud hyn, y mae yn rhaid i ti ymado â'r natur newydd a genhedlodd y gwir ynot trwy Ysbryd Daw. Y mae yn awr y fath undeb agos rhyngot ti a'r gwirionedd, yn hytrach rhyngot a Christ, nas gellir byth ei dori. Gwelwn y fath rym nerthol sydd yn cydfyned ág ordinhâd Daw o briodas; fod i ddau berson na adwaenent, ysgatfydd, mo'u gilydd fis o'r blaen, wedi cael unwaith gyfrwymiad serch, trwy gariad a chyfrwymiad personau, trwy briodas, fedru bellach ymadael â chyfeillion a rhienu i fwynhau eu gilydd. Y mae y cyfryw rym nerthol a chryfach hefyd, yn cydfyned â'r briodas ddirgelaidd hon rhwng yr enaid a Christ—yr enaid a gwirionedd—nes bod yn un person, yr hwn, cyn ei droedigaeth, n roisai geiniog o'i afael er mwyn Crist na wirionedd; etto, yn awr, wedi ei uno ág e a'i wirionedd, trwy waith dirgelaidd yr Ys bryd, yn ei newydd ffurfio i'r ddelw hono gall ganu yn iach i'r byd, bywyd a chyfan er mwyn y rhai hyn. Megys yr atebodd merthyr i hwnw a ofynodd iddo, Ai ni oedd efe yn caru ei wraig a'i blant, ac yn anhawdd ganddo ymadael â hwynt? "Ydyw (eb efe), yr wyf yn eu caru mor anwyl, fe nadymadawn â hwynt er y cwbla fedd y Du Brunswic" (deiliad yr hwn oedd efe), "etto er mwyn Crist a'i wirionedd, Yn iach iddynt oll i gyd!"

(2il.) Ymgais am gael dy gal on yn ennyn wyfwy gan gariad Duw; ac fe weithia hwn not gariad gwresog at ei wirionedd ef.

Cariad a ystyria yn graff pa beth sydd yn werthfawr a hoff gan ei anwlyd; ac fe i'r er ei fwyn ef. Parodd cariad Dafydd at onathan iddo ymofyn am rywrai o'i hiliog-eth, fel y gwnelai drugaredd â hwynt er ei wryn ef. Cariad at Dduw a wna yr enaid yn ymofyngar am wybod pa beth sydd yn uwyl a hoff gan Dduw, fel y gallu trwy dangos gofal am hwnw roddi prawf o'i ariad ato ef. Yn awr, ar ychydig o chwilio, a gawn fod y Duw mawr yn gosod bri o'i ywaf ar ei wirionedd: "Mawrheist dy r uwch law dy enw oll;" *Salm cxxxviii.* Hynny yw, ei enw wrth ba un yr adnwyddir ef fel Duw. Y mae gan bob creadur enw Duw arno: adwaenir Duw trwyddo, drwy y blewyn lleiaf o'r glaswellt; eithr w air, a'i wirionedd argraffedig ynddo, y mae efe wedi rhoddi y flaenoriaeth uwch law bob peth arall sydd yn dwyn ei enw yaddo.

Cymmerwch ychydig ystyriaethau, drwy a rai y gallwn ddirnad ychydig am y bri awr a esyd Duw ar ei wirionedd.

1. Y mae Duw, pan welo yn dda roddi ei r a'i wirionedd i genedl, yn cyfrif ei fod a rhoddi iddynt un o'r trugareddau wyaf a allant hwy ei derbyn, neu yntau chyfranu. Ei ddywediad an hyn ydyw: Pethau mawrion fy nghyfraith;" *Hos. ii. 12.* Pobl a fyddo yn mwynhau ei wirionedd ef, y maent, yn ol barn Crist ei hun, eddyruchafu hyd y nef: pa beth bynag a offo dynion ar law Duw, heb hwn, nid yw, ewn cymmhariaethiddo, yn ddim mwy nag fusai torth a chostrel Agar, oedd yn gynysygaeth i Ismael wrth etifeddiaeth Isaac. Duw, yr hwn a wŷr pa fri a phris i'w roddi ei roddion ei hun, a ddywed, ad ei air y mae yn ei fynegi i Iacob, a'i ddeddfau a roddodd i Israel, "Ni wnaeth efe felly âg un genedl;" *Salm cxlvii. 20.* Hynny yw, ni bu roddion mor hael a graslawn i un genedl i'w holl.

2. Ystyriwn ofal neillduol Duw i gadw ei wirionedd. Fa beth bynag a goller, y mae fe yn edrych ar ol hwn. Mewn llong-drylliadau ar fôr, a thân arswydus ar dir, an na fedr dynion achub ond ychydig, eu arfer yw dewis, nid hen gelfi a phethau di-erth, ond y pethau a gyfrifant yn fwyaf werthfawr. Yn yr holl chwyldroadau, ewidiadau, a dymchweliadau a fu ar deyrn-socod, ac eglwysi hefyd, y mae Duw o'yd wedi cadw ei wirionedd. Y mae ywyddau miloedd o saint wedi cael eu dwyn i maith; ond yr hyn y mae dig Satan ato, yn fwy nag at yr holl saint; i.e., yr unig beth y mae yn llidus o'i herwydd atynt hwy, y mae y gwirionedd, y mae hwn yn byw, a yw a gaiff, i fuddugoliaethu ar ei falais ef. Ac yn sicr, pe ni byddai y gwir yn dra an-

wyl gan Dduw, nid âi efe i'r fath gost i'w gadw a gwaed ei saint; i.e., a pha beth sydd yn fwy, gwaed ei Fab; neges yr hwn i'r byd oedd, trwy fywyd a marwolaeth, "dwyn tystiolaeth i'r gwirionedd;" *Ioan xviii. 37.* Mewn gair, ar losgiad mawr ac arswydawn y nef ar ddaear, pan fyddo yr elfenau gan wir wres yn toddi, a'r byd wedi dyfod i'w derfyn auochel, yna ni chaiff gwirionedd mo'r golled leiaf: "Eithr gair yr Arglwydd sydd yn aros yn dragywydd;" *1 Pêdr i. 25.*

3. Ystyriwch lymdoster Duw at el-ynion y gwirionedd. Cyhoeddir gwae arswydus yn erbyn y neb a roddo ddim ato, neu a dŷn ddim oddi wrtho, y rhai a waethyngant, neu a ymyl dorant, yr arian nef-fathedig hwn: *Dad xxii. 18, 19.* Y mae'r naill yn tynu arno yr holl blâau sydd wedi eu hysgrifenu, a'r llall yn troi oddi wrtho yr holl addewidion sydd wedi eu hysgrifenu yn y llyfr hwn. Y mae hyn oll yn dadgan y bri mawr a rydd Duw ar wirionedd: ac nid rhyfedd, os ystyriwn pa beth yw gwirionedd—y gwirionedd hwnw sydd yn llewyrchu allan o'r gair ysgrifenedig. Dewis-ranau ydyw o'r hyn a goledodd Duw, yn ei feddyliau a'i gynghorion, er tragwyddoldeb, ac oedd yn ei galon i'w ddwyn i ben. Nid oes dim yn digwydd ond fel cyflawniad o hwn—ei air ef. Y darluniad llawnaf a pherffeithiaf ydyw a allai Duw ei hun ei roddi o'i fod a'i natur ei hun i blant dynion; fel y gallem drwyddo ei adnabod a'i garu ef. Y mae tywysogion mawrion yn arfer anfon eu llniau trwy eu cenhadau i'r rhai hynny a cynnygiant eu priodi. Mae Duw mor annherfynol berffaith, fel nas gall un llaw ei ddarlunio i'r byw ond ei law ei hun; a hyn a wnaeth efe yn gywreiniaf yn ei air; ac oddi wrtho, y mae'r saint oll yn syrthio mewn cariad âg ef. Yn ol fel y mae ein hymddygiad at wirionedd, felly y mae at Dduw ei hun: y neb sydd yn dibrisio hwn, y mae yn ei ddibrisio ef. Yr hwn a adawo wirionedd Duw, y mae yn gadael Duw y gwirionedd. Er nas gall dynion ddringo i dynu Duw o'i orsedd a'i ysbeilio o'i dduwdod, etto, hwy a ddeuant mor agos i hyn ag y gallant, pan ollyngant eu lliid allan yn erbyn y gwirionedd; maent yn hyn fel pe byddent yn dienyddu llun Duw. Gwelwn fod rheswm pa ham y byddai i Dduw roddi bri mor fawr ar ei wirionedd, ac y dylem ni sydd yn ei garu llyn wrtho.

4. Myfyria lawer ar ragorol odidogrwydd y gwirionedd. Fe effeithia y golwg ar y galon. Dyna y ffenestr y daw cariad i fewn trwyddi. Ni bu neb oedd yn perchen llygaid ysbrydol i ganfod gwirionedd yn ei thegwch genedigol heb galon i'w charu. Yn y modd hwn yr ennillwyd calon Dafydd gan gariad at ai y gwirionedd: "Mor gu genyf dy gyfraith di, hi yw fy myfyrdod beunydd;" *Salm cxix. 97.* Tra yr oedd ei feddyliau ar hon,

yr oedd ei gariad yn ennyn ati. Yr oedd Dafydd yn profi gwahaniaeth mawr rhwng myfyrio ar wirioneddau gair Duw, ac ar bob gwychder arall a godir mor uchel gan y byd. Pan elai efe i ymgysuro mewn rhyw berffeithrwydd yn y creadur, nid oedd yn ei gael ond yn destyn gwag a sychlyd, o'i gymmharu â hwn. Y mae yn fuan yn troi holl ddalenau llyfr rhagoriaethau'r byd, ac heb allu cael un golygiad yn haeddu hir arosiad arno: "Yr ydwyf yn gwelod diwedd ar bob perffeithrwydd," medd efe; y mae yn ebrwydd ym mhen draw y byd, ac mewn ychydig feddyliau yn gallu canfod i waelod holl ogoniant y byd. Ond wrth gymmeryd gwirioneddau Duw i'w feddyliau, y mae yn cyfarfod â digon o waith i'w syndod a'i fyfyrddod hyfryd; "Dy orchymyn di sydd yn dra eang;" *adn.* 96. Llongau mawrion nis gallant nofio mewn afonydd culion a dyfr-oedd beision: a mwy, nis gall meddyliau gwir fawrion, gan y wybodaeth am Dduw a'r nef, gael digon o le i ymdroi, ac ymhelaethu ynddo, yn y creadur. Y mae enaid grasol yn fuan ar dir sych, ac yn methu myned ym mlaen pan ar y lleoedd beision hyn: ond os caiff wrthio allan a'r myfyriad am Dduw, ei air, a dirgeledigaethau yr efengyl, dyna efe yn cael lle dyfroedd llydain—digon o fôr i golli golwg arno ei hun.

Gallwn yma ddangos i chwi ragoroldeb gwirioneddau dwyfol, dan lawer o benau; megys, y ffynnon neu y tarddle o ba un y llifant, sef Duw y gwirionedd; hefyd, eu gwrthwynebydd, yr anghenfil afuniaidd hwnw, cyfeiliornad, &c., &c. Eithr ni bydd i mi ond yn unig gyfarwyddo eich myfyrdod at ychydig o'r pethau tra serchiadol sydd i'w cael yn y gwirioneddau hyn. Chwi eilwch gael pentwr gyda'u gilydd o honynt, yn *Salm* cxix. 7, ac yn y blaen. Y mae gwirionedd yn bur: hyn a barodd i Dafydd ei garu: *adn.* 140. Y mae nid yn unig yn bur, ond yn puro ac yn sancteiddio yr enaid a'i cofeidia. "Sancteiddia hwynt yn dy wirionedd: dy air sydd wirionedd;" *Joan* xvii. 17. Y dwfr purian ydyw, a'r hwn y mae Duw yn golchi eneidiau afan yn lan: "Taenellaf arnoch ddwfr glân, fel y byddoch lân; oddi wrth eich holl frynti y glanhâf chwi;" *Ezec.* xxxvi. 25. Bydd i ddwfr pwll lleidiog wneud y gwyneb yn lân, cyn gynted ag y gwna cyfeiliornad yr enaid yn lân. Y mae gwirionedd yn sicr, a gwaelod disigl iddo: *Salm* xix. 7. Gallwn roddi holl bwys ein heneidiau arno, heb iddo dori tanom. Glân wrth y gwir, a'r gwir a lŷn wrthyf titiau: fe â gyda thi i garchar ac alltudiaeth, fe, at yr ystange hefyd; ac fe ddwg dy gost i ba le bynag yr elych ar ei neges ef. "Ni phallodd dim o'r holl bethau daionus a lefarodd yr Arglwydd eich Duw am danoch chwi," medd *Iosuah*; "hwy a ddaethant oll i

ben, ac ni phallodd dim;" *Ios.* xxiii. 14. Beth bynag a gaffoch yno yn addawedig, cyfrifwch hyny fel arian yn eich pwrs. "Pedwar ugain mlynedd," ebe Polycarp, "y gwasanaethais i Grist, ac yn Feistr da y cefais ef." Ond pan dybio dynionam ddarpar yn well iddynt eu hunain, trwy aadel y gwir, y maent yn sicr o gyfarfod â siomedigaethau. Cafodd llawer eu denu oddi wrth wirionedd âg addewidion mwynwch, ac yna eu trin fel Iudas gan yr Iuddewon, ar ol iddo fradychu ei Feistr i'w dwylaw gwaedlyd hwynt; edrych di at hyny. Er fod erlidwyr yn caru y bradwaith, etto hwy a gasant y bradwr: ie, aml waith (i ddangos eu malais dieflig), wedi iddynt gael gan rai roddi archoll i'w cydwybod trwy wadu y gwirionedd, hwy a'u cigyddient yn dra chreu lawn, ac a orfoleddent yn hyny, fel dial cyflawn—dinstrio enaid a chorh ar unwaith.

Drachefn, Mae y gwirionedd yn rhydd, ac yn rhyddhau yr enaid a lyno wrtho: "Y gwirionedd a'ch rhyddha chwi;" *Joan* viii. 32. Y mae Crist yn mynegi i'r Iuddewon am gaethiwer yr oeddynt ynddo na freuddwydiasai y bobl fostgar hyny erioed am dano: "O'ch tad diafol yr ydych chwi; a'i drachwantau ef a fynwch chwi eu gwneuthur;" *adn.* 44. Y cyfryw gaethweision ydyw pob pechaduriaid; y mae yn rhaid iddynt wneud yr hyn a fynd'r diafol; ac ni feiddiant ei anfoddio ef, mwy na phlentyn ei dad, â gwialen yn ei law. Cyfaddefodd rhai dewiniaid fod gorfod arnynt i anfon allan eu dieflyn, i niweidio ereill, fel y caent hwy eu hunain lonyddwch: o herwydd, hyd oni anfonent eu cywion dieflig ar led, ar y fath neges, hwy a boenid eu hunain ganddynt. Ac nid mwy o lonyddwch a gaiff y dyn sydd â'i chwant yn ei sugno, heb iddo fod yn barhaus yn ei wasanaethu, ac yn darpar iddo. A all y byd, dybygech chwi, ddangos y fath gaethwas arall ag yw yr adyn truenus hwn? Wel, er i'r holl folltau a fedd y diafol (chwantau wyf yn ei feddwl) fod wedi eu tynhau ar un pechadur ac yntau wedi ei gau yn y ddaeargell gaethu af o fewn ei garchar; etto, ond i'r caethwas truan hwn gael dechreu bod yn gydnabyddus â gwirionedd Crist, fel ag i agor ei galon iddo, ac ymwastgu âg ef, cewch glywed yn fuan fod seiliau'r carchar wedi siglo, ei ddrysau yn llydain agored, a'r cadwynau wedi syrthio oddi ar goesau y creadur truan. Y gwirionedd ei hun nis gellir ei rwyne. ac ni annedda mewn enaid sydd yn gorwedd yn rhwym yng ngharchar pechod. Ac ar hyny, pan unwaith y byddo gwirionedd a'r enaid yn gytunn, neu yn hytrach Crist a'r enaid, y rhai a ddygir yng nghyd gan wirionedd, yna fe all y creadur tlawd godi gyda llawenydd am fod ei ymward a'i ryddhad o garchar ei gaethiwerd ysbrydol yn neshau. Ie, y mae'r dydd wedi dyfod; y mae'r agor

ad eisoes yn y clo, i'w ollwng allan. Y mae yn amhossibl i ni fod yn gydnabyddus â gwirionedd, megys y mae yn yr Iesu, a bod yn wir ddiethr i'r rhyddhad hwn sydd yn ei ddilyn: *Eph. iv. 19—21.*

Mewn gair, y mae gwirionedd yn fuddugoliaethus, Y mae yn fawr, ac a orchfyga yn y diwedd. Cyngor mawr Duw ydyw; ac er fod llawer o fwradau a dyfeisiau yng nghalonau dynion, yn brawf o'r hyn a fyntent ei wneuthur; etto, cyngor yr Arglwydd a saif: wedi clongeio y ceir eu hwyau oll, er iddynt hir eistedd arnynt. Och! y maent yn fyr o allu i ddeor yr hyn y mae eu malais yn eistedd arno. Weithiau, yr wyf yn addef, y mae gelynyon gwirionedd yn cael milwyr y byd hwn yn eu llaw; ac yna y gwirionedd yn ymddangos fel yn syrthio hyd y llawr, a'r tystion o'i ochr yn cael hefyd eu lladd: etto, y pryd hyny, mwy nag a all eu herlidwyr ei wneud yw eu cael dan y ddaear, i fedd: *Dad. xi. 9.* Bydd i rywrai na feddylwyd am danynt, darawo ochr gwirionedd, a gwahardd y claddiad. Nid rhaid i erlidwyr fyned i gost am faen marmor i argraffu arno y coffa am eu buddugoliaethau; fe wna llwch y tro yn dda ddigon: o herwydd nid ydynt yn debyg i barhau yn hir. Tridiau a hanner y gall y tystion orwedd yn feirw yn yr heolydd, a gwirionedd eistedd yn alarus yn eu hymyl; ond ym mhen tro, hwy a rodiant, a gwirionedd a orchfyga drachefu. Pe gallai erlidwyr ladd y rhai a ddaw ar eu hol, yna gellid meddwl y safai eu gwaith yn gryf, heb achos i ofni y tyn arall i lawr yr hyn a godasant hwy: etto, pe felly, byddai eu gwaith yng nghyrhaedd braich y nef, ac mor hawdd ei rwystro a gwaith gwyr Babel. Pwy nad yw yn caru bod ar yr ochr a ennill? Dewis di ochr y gwir, a dyna ti wedi ei chael. Dichon newydd ddyfod fod gwirionedd yn glaf; ond nid byth ei bod wedi marw. Na: cyfeilliarnod sydd yn fyrhoedlog. "Nid yw tafod celwyddog ond tros funydy; eithr y mae oes gwirionedd i fod cyhyd a thragwyddolrwydd Duw. Hi a gaiff fyw i weled eu penau oll yn y llwch, ac i rodio ar eu beddau hwynt, a fu mor brysur yn cloddio bedd iddi hi. Byw, a ddywedais i? Ie, teyrnasu mewn hedd gyda'r rhai sydd yn awr yn foddolawn i ddiodeff gyda a throsti hi. Ac oni ddymunit ti, Gristion, fod yn un ym mysg y dyrfa hardd o fuddugoliaethwyr a fydd yn canlyn cerbyd gorfoleddus Crist i'r ddinas nefol—yno i dderbyn y goron, ac i eistedd ar dy orseddfainge gyda'r rhai a gadwasant y maes, pan oedd Crist a'i wirionedd yn milwrio yma ar y ddaear? Fel hyn, pe byddai i ti ond yn dy feddyliau sychu ymaith y dagrau a'r gwaed sydd yn gorchuddio gwyneb dioddefgar gwirionedd, a'i gosod o flaen dy lygiad, fel y bydd hi yn edrych mewn gogoniant, nis

gellit ti lai na glynu wrthi gyda chariad cryfach nag angeu.

2. Os oes etto ryw lesmair o ofn ar dy galon, rhag digder dynion gwaedlyd, yn dy fygwth am dy broffes o'r gwirionedd; yna, at galon yn ennyn gan gariad y gwirionedd, ymgais am chwaneu calon wedi ei llenwi âg ofn y digder hwnw, sy gan Dduw yng nghadw i'r holl rai a wrthgiliaent oddi wrth y gwirionedd. Pan ddigwyddo i chwi losgi eich bys, chwi a'i deliwch wrth y tân; yr hwn, gan ei fod yn dân cryfach, a dyn allan y llall. Felly, pan fyddo dy feddyliau dithau wedi eu golosgi, a'th galon mewn braw gan ofn digder dyn, dal hwynt am ennyd wrth dân uffern, sydd wedi ei barotoi gan Dduw i'r rhai ofnog (*Dad. xxi. 8*), ac i bawb o'r rhai a ddiangant oddi wrth faner y gwirionedd (*Heb. x. 39*); a thi a gollu y teimlad o'r naill gan ofn y llall. "Maddeu im", O, Ymherawdwr," ebe gwrdwio, "os na uffudhaf i ti: yr wyt ti yn bygwth carchar; y mae Duw yn bygwth uffern." Nodedig yw geiriau Dafydd, "Tywysogion a'm herlidiasent heb achos; er hyny, fy nghalon a grynai rhag dy air di;" *Salm cxix. 161.* Nid oedd iddo achos i'w hofni hwynt, oedd heb un achos yn ei erlid: y mae un bygythiad allan o'r gair, sydd yn gosod min digder Duw wrth ei galon, yn ei frawychu yn fwy na'r gwaethaf a all y gwr mwyaf ar y ddaear ei wneuthur iddo. Oh, nid yw llid dyn, pan yn boethaf, ond fel awyr dymmherus, wrth lid y Duw byw. Y maey rhai a gafodd brawf o'r ddau, wedi tystio cymmaint a hyny. Ni ddichon llid dyn attal llifid cariad Duw i'r fynwes; ac y mae hwn wedi peri i'r saint ganu yn y tân, er gwaethaf dannedd eu gelynyon. Ond y creadur sydd dan ddigofaint Duw, y mae yn debyg i un wedi ei osod mewn fwrn gauedig, heb un agen ynddi i ollwng dim o'r gwres allan, na dim dadebriad i mewn ato.

PENNOD VI.

Am yr ail fath o wirionedd, gwirionedd calon, neu gywirdeb, a'r rhywogaethau o hono; ac, yn neillduol, am uniondeb moesol, a'i fyrdra; a gocheliad dyblyg yng nghyglech hyn; y naill i'r saint, a'r llall i'r dyn moesol-gyfiawn.

Ni a ddeuwn bellach at yr ail fath o wirionedd a gymbhellir ar y Cristion, dan y gyffelybiaeth o wregys milwr; a hwnw yw, gwirionedd calon. Lle y ceisir deall—1. Yr hyn wyf yn ei feddwl wrth wirionedd calon. 2. Pa ham y cyffelybir ef i wregys?

1. Wrth wirionedd calon, yr wyf yn deall cywirdeb, fel ei cymmerir yn yr Ysgrythyr: "Nesawn â chalon gywir," hyny yw, â chalon ddiffuant. Ni a'u cawn yn fynych yng nghyd, y naill yn deongli y llall: "Ofnwch yr Arglwydd, a gwasanaeth-

wch ef mewn perffeithrwydd neu gywirdeb, a gwirionedd: *Ios. xxiv. 14.* Ac yn *1 Cor. v. 8*, ni a ddarllenwn am "fara croyw purdeb a gwirionedd." Twyll, a hug wych am dano, ydyw rhagrith: calon heb gywirdeb, y mae yn galon ffals: nid yw agwedd ac ysgogiad tumewnol y galon yn cydfyned â phroffes ac ymddygiad y dyn oddi allan. Yn debyg i awrlais (*clock*) sydd â'i olwynion oddi mewn heb fyned yn ol dangosiad y bys oddi allan.

2. Gellir yn addas gyffelybu cywirdeb, neu wirionedd calon, i wregys, o ran y defnydd a'r diben dyblyg yr ettyb y gwregys iddo, yn enwedig gwregys y milwr.

1af. Defnyddiwyd y gwregys, gynt, fel addurn i'w wisgo yn uchaf, i guddio cyssylltiadau yr arfogaeth; y rhai, pe yn y golwg, a barasant beth anharddwch. Yma, sef wrth y lwynau, y sicrhaid darnau yr arfogaeth, oedd i ddiogelu rhanau isaf y corph, wrth y darnau uchaf. Yn awr, gan na allent dynhau a chlynu fel na, byddai peth ageniad rhwng darn a darn, hwy a arferent osod dros y rhanau hyn wregys llydan, a guddiai'r holl anharddwch hwnw. Ac fe wna cywirdeb yr un peth i'r Cristion, ac a wna gwregys i'r milwr. Nid yw grasusau y sant yn dal cyssylltiad mwr agos a'u gilydd, na'i fuchedd mwr gwbl lân, fel nad oes gwendidau a cholliadau i'w cael yn y goreu; a'r rhai hyn fel cynnifer o agenau a holltau yn ei arfogaeth: ond y mae cywirdeb yn cuddio y cwbl, fel nacyhwilyddir mo hono o'u herwydd, ac napheryglir mo hono drwyddynt.

2il. Defnyddiwyd y gwregys er cryfder. Yr oedd hwn yn atteg a chyfrwym i'r lwynau, a'r milwr, yn cael cryfhâd trwyddo i ymladd neu deithio. Fel am ddilledyn, po cymmesuraf, cynhesaf fydd; felly y gwregys, po tynaf ei gwregyser, mwyaf y nerth a deimla'r lwynau. Oddi yma, pan y mae Duw, wrth fygwth llesgedd a gwanhâd ar wr neu bobl, yn dywedyd y dattodir eu lwynau hwynt: "Mi a ddattodaf lwynau brenhinoedd;" *Esa. xlv. 1.* Ac yn *Iob xii. 21*: Efe sydd yn "gwanhau nerth y rhai cryfion; neu yn dattod gwregys y cedyrn."

Yn awr, yn y golygiad hwn, gellir cyffelybu cywirdeb i wregys y milwr. Mae yn ras sy'n gwregysu'r enaid â nerth, ac yn ei wroli i weithio neu ddiodef. Yn ddiaw y mae hwn yn wir ym i bob gras. Cymmaint ag a geir o ragrith yng nglŷn wrth ein grasusau, cymmaint a hyn o wendid. Ffydd ddiffuant yw y ffydd gref; cariad diffuant sydd yn gariad cryf. Y mae rhagrith i ras, fel y pryfyn i'r dderwen, neu y rhwd i'r haiarn; y mae yn eu gwanhau, am eu bod yn eu llygru. Y gyffelybiaeth, o'i hagoryd fel hyn, a rydd i ni y ddaugasgliad athrawiaethol hyn. Ac wrth eu trin, ni a gynnwysaf yr hyn sydd genyf ym mhellach i'w ddywedyd am y darn hwn o arfogaeth.

Athr. 1. Bod cywirdeb, neu wirionedd calon yn ein ffyrdd, yn cuddio holl anharddwch y Cristion.

Athr. 2. Bod gwirionedd, neu gywirdeb calon, o ddefnydd rhagorol i gryfhau y Cristion yn ei holl yrfa.

Athr. 1. Mae cywirdeb yn cuddio ein holl anharddwch. Wrth drin y pwngc hwn, hon fydd ein trefn:—

1af. Ymofyn pa beth yw y gwirionedd, y cywirdeb, neu y purdeb, a wna hyn.

2il. Ni a ymofynwn pa amryw anharddwch a guddia cywirdeb.

3ydd. Pa fodd y gwna cywirdeb eu cuddio.

4ydd. Pa ham y gwna cywirdeb hyn, neu roddi peth eglurhad o'r cyfan.

1af. Ymofynwn pa wirionedd a chywirdeb sydd yn cuddio pob anharddwch a ddiffygion yn y Cristion. Rhaid i ni yma wahaniaethu rhwng dau fath o gywirdeb—un yn foesol, y llall yn efengylaidd.

(1.) Y mae gwirionedd neu uniondeb moesol, yr hwn a allwn ei alw yn faes-flodeuyn, o herwydd ei fod i'w gael yn tyfu yn anialwch a thir gwyllt natur. Nis gellir gwadu na ddichon dyn, heb un gronyn o ras sancteiddiol a chadwedigol, d dangos rhyw fath o uniondeb a gwirionedd yn ei ymddygiad. Y mae Duw ei hun yn dyfod fel tyst dros Abimelech, mai yn uniondeb ei galon y cymmerasai efe Sarah i'w dŷ: "Mi a wn, medd Duw, mai yn mherffeithrwydd dy galon y gwnaethost hyn;" *Gen. xx. 6.* Hyn yw, yr oedd dy fwriad yn onest yn y gorchwyl pennodol hwn; ac nid oedd dy fryd ar wneud cam âg Abraham, a'i pioedd hi yn wraig heb yn wybod i ti. Ioab, yntau, er ei fod yn wr gwaedlyd, etto a ymddygodd yn dra uniawn a chywir tuag at Dafydd, yn achos cymmeriad Rabbah, pan oedd mantais deg ganddo i ddwyn yr anrhydedd oddi ar ei frenin iddo ei hun. Gellid rhoddi llawer o'r fath esamplau am ddynion tra estronaidd i waith o ras yn eu calonau. Ond nid dyma yr uniondeb a olygwn ni yn y pwngc sydd mewn llaw. Yn wir, y mae ddynd fod fel hyn, yn gywir a gonest yn e ymrdinaethau, yn peri iddo fod yn drwyddgar a charuaid ger bron dynion. Ond mi dybygwn y clywaf yr Arglwydd yn dywedyd am y cyfryw, megys unwaith wrth Samuel, am Eliab: "Nac edrych ar ei gwynebpryd hwynt;" *1 Sam. xvi. 7*, fel a i feddwl mai y rhai hyn y mae efe yn e cymmeradwyo. Na: efe a'u gwrthododd hwynt; "o herwydd nid edrych Duw fe yr edrych dyn." Y mae llygad Duw y craffu yn ddyfnach na llygad dyn. Y mae dau ddiffyg mawr yn yr uniondeb hwn at y rhai y mae Duw yn eu gwrthod.

(1af.) Nid ydyw yn tyfu oddi ar wreiddi da. Y mae hyn yn flewyn ym mlin y gwmoesol, sydd yn anurddo ac yn diwyno lyfryn oll, pan fyddo ei ysgrifen lanaf.

mae yn debyg i wahanglwyf Naaman. Am hwnw, "Ond yr oedd yn wahanglwyfus," a ddygododd ymaith fri ei fawrhâd yn y llys, a'i galondid ar y maes. Felly yma, y mae yn ystaeu du ar weithredoedd gwychaf y dyn o foesau yn unig, ond y mae yn ddyng heb Grist, heb ras. Gwna uniondeb y fath rai fwy o les i ereill yn y byd hwn, nag iddynt eu hunain mewn byd arall. Y maent, trwy yr uniondeb moesol hwn, yn fuddiol i'r rhai sy mewn masnach ddaearol â hwynt; ond nis gwna mo honynt hwy eu hunain yn dderbyniol gan Dduw. Yn wir, pe ni adawsai Duw beth awdurdod cydwytbod i frawychu a chadw dynion sydd heb ras o fewn rhyw derfynau o onestrwydd, ni fuasai yn haws i'r saint fyw yn y byd hwn, nag yw yn awr i ddyng fyw yng nghoedwig bwystfilod gwylltion. A chyfryw yw yr uniondeb sy gan ddyngion, heb ras sancteiddiol, fel y maent yn hytrach yn cael eu trechu gan oleuni grymus sydd yn eu brawychu yn y gydwybod, na'u harwain yn dyner gan egwyddor dumewnol, yn eu tueddu i gmhyfydu yn yr hyn sy dda. Abimelech ei hun, o blaid yr hwn y gwnaeth Duw yr esgusodiad a glywsom, etto, rhoddir iddo wybod fod ei uniondeb yn y mater hwnw yn dyfod oddi wrthattaliad Duw arno, yn hytrach na dim da ynddo. "Mi hefyd a'th attelais rhag pechu i'm herbyn: am hyny, ni adewais i ti gyffwrdd â hi;" *Gen. xx. 6.*

(2il.) Y mae'r uniondeb moesol hwn yn syrthio yn fyr o'r prif ddiben sy'n anheborol angenrheidiol i wneuthur dyn yn un-iawn. Gogoniant Duw ydyw hwn: "Pa beth bynag a wneloch, gwnewch bob peth er gogoniant i Dduw;" *1 Cor. x. 31.* Dichon y saethydd gollu ei helwriaeth wrth saethu yn wyrog. Saethu ar ŵyr y mae y rhagrithiwr brais; a saethu yn fyr a wna y moesolwr un-iawn. Efe a ddichon, ac y mae yn fynych yn annelu yn gywir, o ran diben pennodol ac uniongyrchol ei weithred; ond y mae yn wastad yn methu o ran y diben eithaf. Fel hyn, gall gwas' fod yn ffyddlawn i'w feistr, yn ffiadd ganddo feddwl am ei dwyllo o ffyring, i.e. yn ymgais o'i galon am fudd ei feistr: ac etto, heb un golwg ar Dduw, na meddwl am dano yn hyn oll; ac felly y cwbl heb dalu dim, am fod Duw yn cael ei anghofio, yr hwn a ddylai gael ei olygu yn benaf. Gorchymynir i weision "wneuthur eu gwasanaeth megys i Dduw, ac nid i ddyng." (*Eph. vi. 7*); hyny yw, nid i ddyng yn unig nac yn benaf. Gwir yw, y dylai'r meist'r gael ei olygu yn nyledswydd y gwas, etto, yn unig yn ei ffordd, fel y mae yn arwain at ogoniant Duw. Nid oes iddo eistedd, fel ym mhen ei daith, ar ol ymgais am foddio ei feistr daearol, ond myned ym mlaen, fel y gwna'r llygad trwy'r awyr a'r cymmylau at yr haul, ei brif nod; felly yntau at Dduw, megys ei

ddiben penaf, sy'n peri iddo fod yn ufudd a ffyddlawn i ddyng. Yn awr, nid oes un egwyddor a all dywys yr enaid cyfuch ag i gyfeirio at Dduw, ond yr hon sy'n dyfod oddi wrth Dduw. Gwelwch y ddaug hyn wedi eu cydgynnwys yn rhagorol: "Fel y byddoch bur, wedi eich cyflawni â ffirwythau cyfiawnder, y rhai sydd trwy Iesu Grist, er gogoniant a moliant i Dduw;" *Phil. i. 10, 11.* Lle y gellwch sylwi, Yn gyntaf, Mai yr uniondeb o'r iawn ryw yw hwnw, sy'n dwyn ffirwythau cyfiawnder, "i ogoniant Duw;" a hyny sydd, lle y byddo gogoniant Duw yn ddiben ein holl weithredoedd. Yn ail, Nas gellir dwyn y cyfryw ffirwyth ond "trwy Grist." Rhaid yw i'r enaid gael ei blanu yn Nghrist, cyn y gall fod fel hyn yn bur, i ddwyn ffirwythau cyfiawnder i ogoniant Duw. Oddi yma y dywedir, mai trwy Iesu Grist y mae y ffirwythau hyn. Yr hyn a wna dynion o honant eu hunain, hwy a'i gwnant iddynt eu hunain: hwy a fwynt eu ffirwyth eu hunain, ac a lyngant y clof am yr hyn a wnaent. Y Cristion yn unig, a fyddo yn gwneud y cwbl drwy Grist, a wna'r cwbl i Grist. Y mae efe yn cael ei nodd oddi wrth Grist, yn yr hwn yr impiwyd ef i beri iddo ffirwyth; ac am hyny, y mae yn cadw y ffirwyth oll a dyf arno, iddo ef. Fel hyn y gwelwn y modd y mae'r uniondeb moesol hwn yn ddiffygiol yn ei sail; ac am hyny, ni ddichon hwn fod yn wreigs a doa ac a guddia ein diffygion ereill. Etto, cyn myned ym mlaen at y llall, mi a ddymunwn adael dau ocheliad, at ddefnyddio yr hyn a ddywedwyd am yr uniondeb hwn. Y mae un i'r Cristion diffuant; a'r llall i'r cyfryw na feddant ond uniondeb moesol yn unig.

Goch. 1. I'r Cristion diffuant. A ellir ynte cael math o uniondeb ym mysg dynion sydd yn anianol ac yn wag o ras sancteiddiol Duw? O, gan hyny, edrychwch ati, chwi sydd âg Ysbryd y Gras yn trigo yn eich calonau, rhag eich rhoddi i gywilydd gan rai sydd heb ras. Hyn sy raid ddigwydd pan y dalier chwi yn feis yn y pethau nas gellir eu cyhuddo hwy o honynt. Llauer yn eu mysg hwy a ffeiddiant gelwydd: ac a gaiff y sant ei ddal mewn an-wiredd? Y mae eu hegwyddoriau moesol hwynt yn eu rhwymo i gadw heddwch; ac heb oddef iddynt wneud cam â'u cymmydog: ac a all twyll agorthrech fod yn canlyn llaw sant? Oni bydd i'ch cyfiawnder ragori ar eu goreu hwynt, nid ydych yn Gristionogion: ac a ellwch chwi adael iddynt ragori arnoch yn y pethau hyny sydd, ar ol iddynt eu gwneud, yn eu gadael yn ol o Grist a'r nefoedd? Y mae yn bryd i'r ysgolhaig daflu ymaith ei hug ac ymwrthod â'r enw o ysgolor, pan fo pob bachgenyn mewnnydys yn gallu ei drechu a'i ddistewi. Ac y mae yn bryd iddo yntau—a fedro adael i'r dyn o foesau yn unig, â'i fwa egwan, heb

ddim ond egwyddorion moesol yn gefu iddo, saethu tu hwnt iddo ef sydd yn hōni hawl yng Nghrist a'i ras—roddi ei broffes heibio, a gadael i'r byd wybod beth ydyw; i'e, beth ni fu efe erioed. Yr wyf yn addef ei fod weithiau yn digwydd fod i sant dan brofedigaeth, gael ei drechu mewn rhyw achos neillduol gan ddyn anianol: fel y gallai rhedegwas rhagorol, o herwydd rhyw bigiad neu gloffiui presennol yn ei droed, gael ei adael ar ol gan un na allai, ar dro arall, ddyfod yn agos iddo. Y mae genym ormod o esamplau am ddynion moesol yn trechu, i'e, sant, ar ryw dro pan fyddai dan brofedigaeth. Ni a gawn eiriau hynod am ymdrodd Abimelech wrth Sarah, ar ol ei dywedriad ffuantus a lledrithiol hi, mai ei brawd oedd Abraham: "Ac wrth Sarah y dywedodd efe (Abimelech), Wele, rhoddais i'th frawd filo ddarnau o arian: wele, efe yn orchudd llygaid i ti, i'r rhai oll sydd gyda thi, a chyda phawb ereill;" *Gen. xx. 16.* Yn awr, gwelwch y geiriau sydd yn canlyn, "Fel hyn y ceryddwyd hi." Pa fodd? Pa le y cawn ni y cerydd? Nid oes yma ond geiriau teg, ac arian hefyd i'w canlyn. Y mae yn addaw nawdd iddi hi ac Abraham; na ch'ai neb wneud cam âg ef trwy wneud cam â hi; ac y mae yn hysbysu iddi ei rodd rad i Abraham. Wel, er hyn i gyd, ni a gawn gerydd llym, ond wedi ei blygu mewn geiriau teg, a'i fil o ddarnau arian hefyd.

laf. Hi a geryddwyd trwy uniondeb Abimelech yn y gorchwyl hwnw ym mha un y lledrithiasai hi yn bechadurus. Bod iddo ef oedd yn ddieithr i'r gwir Dduw a'i addoliad, ymddwyn mor ddichlyn a gonest a'i rhoddi i fyny heb gyffwrdd â hi, ar ol unwaith wybod mai gwraig gwr arall oedd—yr oedd hyn yn fawr. Yn chwanaeg, yn lle syrthio i ddiger gwyllt, a rhoddi lle i fwrriad o ddial i'w herbyn, am roddi y somedigaeth hon arno, yr hyn ni fuasai yn rhyfedd i lywydd ei wneud—gan ef bod dan ei awdurdod—fod iddo ef anghofio hyn oll; a dangos gyda hyn y fath diriondeb a haelioni mawr atynt: rhaid oedd i hyn saethu cerydd llym at galon Sarah, yn enwedig pan ystyriai hi ei fod ef oedd yn bagau yn gwneud hyn oll; a hithau, wedi ei galw i wybodaeth o Dduw, mewn cyfammod â Duw, ac yn wraig i brophwyd, er hyn mor ddiysbryd a gwneuthur dau bechod ar unwaith, sef rhagrithio a pheryglu ei diweirdeb hefyd; a hyn rhag ofn perygl nad oedd neb ond ei gwr, heb un sail, yn ei led-dybio! Ac yr oedd y lleiaf o'r pechodau hyn yn waeth na'r hyn yr oeddynt hwy yn ei ofni! Yr oedd y pethau hyn, meddaf, o'u rhoddi ynghyd, yn cyrhaedd i'r fath gerydd ag oedd yn peri iddi hi ac Abraham hefyd gwilyddio o galon o flaen Duw a dynion. Drachefn, yr oedd Abimelech, wrth alw Abraham yn frawd iddi—nid yn wr—yn rhoddi iddi gerydd llym,

gan ddwyn ar gof iddi y modd y siomwyd ef ganddynt trwy y gair hwnw. Fel hyn y cafodd Sarah dduwiol ei cheryddu gan lywydd annuwiol! O Grigionogion, gochelwch osod geiriau yn safnau dynion drwg, i'ch curo â hwynt; nis gallant eich ceryddu chwi heb daflu gwarthrudd ar Dduw. Mae Crist, yn cael ei roddi i waradwydd gyda chwi a thrwyddoch chwi. Er mwyn enw da Crist, sydd yn anwylach genych na'ch bywyd, os ydych yn saint, edrychwech at eich rhodiad, ac yn enwedig eich ymddygiad moesol tuag at ddynion y byd. Ni wyddant hwy pa fath ydych yn eich ystafelloedd; ni ofalant pa fath ydych yn y gynulleidfa; ond hwy a'ch barnant wrth yr hyn ydych yn eich ymdriniaethau â hwynt. Fel y cânt hwy chwi yn eich siop, marchnaduwaith, addewidion, a'r cyffelyb, felly y barnant am danoch chwi a'ch proffes. Ymdrechwech gan hyn am yr uniondeb hwn at ddyn; trwyddod, chwi ellwch ennill rhai, a barnu ereill. Gwell yw blino'r byd annuwiol â rhodiad manwl, fel y blinodd Lot wyr Sodom, na'u gosod ar waith i'th watwar a'th waradwyddo di a dy broffes, trwy ryw dramgywydd, fel y gwnaeth Dafydd trwy ei gwmp alaethus. Fe fydd i'r rhai na ddilynant lewyrch dy dduwioldeb, yn fuan ganfod y lleidr yn dy ganwyll, ac estyn bys ato.

Goch. 2. Bydd yr ail ocheliad i'r rhai hyn sydd yn meddu uniondeb moesol, a dim yn chwanaeg. Gochel rhag i'r uniondeb hwn fod yn fagl i ti, a'th gadw rhag ymgais am uniondeb efengylaidd. Yr wyf yn sier ei fod felly i'r gwr ieuog yn yr efengyl. Y mae yn debygol y gallasai hwnw fod yn well, pe na buasai efe mor dda. Ei onest-rwydd a'i uniondeb moesol a fu yn andwyol iddo; neu yn hytrach, ei fawr dyb am danynt i ymgastellu ynddynt. Gwell fuasai iddo fod yn bublican yn cael ei yru at Grist yn y teimlad o'i bechod, nag yn Pharisead, yn cael ei gadw oddi wrtho gan y dyb am ei uniondeb. Hyn, hyn yw yr hesglwyn, yn yr hwn y mae llawer, wrth feddwl ym achub trwyddo, yn cadw eu hunain dan ddwfr er eu dinystr: "Gwell yw y gobaith am y flol," medd Solomon, "nag am w doeth yn ei olwg ei hun;" ac felly am y pechadur mwyaf, nag am un a fyddo yn tybied yn dda o'i hunangyfiawnder. Os unwaith y cyrhaedd clefyd yr ymenydd, y mae yn rhaid i'r iachâd fod yn fwy anhawdd Nid gwiw cynnyg Crist i un yn y gwallgo hwn. A wyt ti yn un a gadwyd rhag y ffyrdd anghyfiawn y mae ereill yn rhodi ynddynt? Ysgatfydd dy fod yn onest a uniawn yn dy rodiad, ac yn ffeiddio dy gae yn dywyllodrus yn dy fasnach. Bendithi Dduw am hyn; ond gwylia rhag bendithi dy hun yn hyn; yno y mae y peryg Dyma un ffordd i fod yn rhy gyfiawn—pw enbydus, am ba un y mae Solomon yn rhy

buddio pawb o deithlwy'r ffordd y nef (*Preg.* vii. 16). Y mae difethiad yn ygermodwaith yma gystal ag mewn rhyw fyrwaith; o herwydd felly y mae yn canlyn yn yr un wers: "Pa ham y'th ddifethit dy hun?" Nid wyt ti, dlyn balch, mor debyg i fod yn y nef ag y gwneithi i ti dy hun. Gall dyn arben y naill fryn, ymddangos yn dra agos i ben y llall; ac etto, byth nis gall ddyfod yno, oddi eithr iddo ddisgyn o'r uchder y mae arno. Y mae mynydd dy gyfaewnder dynol, a'th uniondeb moesol di, ar yr hwn yr wyt yn sefyll mor hyderus, yn ymddangos, fe allai yn dy olwg balch di, yn gydwastad â mynydd sanctaidd Duw yn y nef; i.e., mor agos nes wyt yn meddwl camu drosodd yn hawdd o'r naill i'r llall. Ond caniata i mi ddywedyd wrthy, y mae'r llam yn ormod i ti ei gymmyrd. Y ffordd ddiogelaf fyddai, i ti ddyfod i lawr o fynydd dy hunan hyder, lle y mae Satan wedi dy osod ar fwriad tori dy wddf, a myned ar hyd y ffordd gyffredin, ar hyd pa un yr aeth pawb a gyrhaeddodd i'r nef; a hono yw, trwy ymgais am gael hawl yng Nghrist a'i gyfaewnder, yr hwn a ddarparwyd o fwriad, i enaid pechadur noeth gael ymdroi ynddo, ac iddo osod ei hyder arno. Fel hyn, y mae modd i'th uniondeb, nad ydoedd o'r blaen ond o'r un ffurf a gonestrwydd moesol y paganiaid, gael ei droi, neu megys ei fedyddio, yn Gristion, a dyfod yn ras efengylaidd. Ond goddef i mi ddywedyd hyn wrthy cyn dy adael, nas gelli ddal gafael yng nghyfaewnder Crist nes i ti ollwng y celwydd—dy gyfaewnder dy hun—y deliaist afael mor dŷn ynddo hyd yma yn dy ddeheulaw. Pan alwodd Crist y dyn dall at (*Marc* x. 53), dywedir ddarfod iddo, wedi taflu ei gochl ymaith, gyfodi a dyfod at yr Iesu. Gwna dithau felly; ac yna, tyred a chroesaw.

PENNOD VII.

Am uniondeb efengylaidd, neu dduwiol, Pa beth ydyw; a pha anharddwch a gwrthuni a wna y gwregys hwn eu cuddio; ac hefyd ym mha fodd y mae yn eu cuddio.

Ni a awn yn mlaen at yr ail fath o wirionedd neu uniondeb, yr hwn a elwais yn uniondeb efengylaidd. Planigyn yw hwn na cheir mo hono yn tyfu ond yng ngardd Crist, neu yn nhir caud enaid grasol. Mewn ffordd o wahaniaeth oddi wrth hwnw a enwais yn foesol, y mae yn adnabyddus wrth yr enw purdeb duwiol, neu gywirdeb Duw: 2 *Cor.* i. 12; "Ein gorfoledd ni yw hyn, sef tystiolaeth ein cydwybod, mai mewn symlrydd a phurdeb duwiol, nid mewn doethlineb cnawdol, ond trwy ras Duw yr ymddygasom yn y byd. Yn awr, gellir galw y purdeb efengylaidd hwn yn burdeb

duwiol mewn dau olygiad:—1. Am ei fod o Dduw. 2. Am ei fod yn cyfeirio at Dduw, ac yn diweddu yn Nuw.

DOSE. 1.

1. Y mae o Dduw. Ei greadur ef ydyw, a genhedlwyd gan ei Ysbryd ef yn unig. Y mae Paul, yn y lle a bennodwyd (2 *Cor.* i. 12), yn adrodd i ni ei achau yn rhagorol. Yr hyn a eilw efe yn rhodio mewn purdeb duwiol yn y rhan gyntaf o'r wers, y mae yn ei alw yn ymddwyn trwy ras Duw yn y rhan olaf; i.e., y mae yn ei gyferbynu i rodio mewn doethineb cnawdol: dyma yr olwyn fawr yn awrlais y dyn cnawdol! Ac i ba beth y cyrhaedd hyn oll, ond i ddangos fod y purdeb hwn yn faban gras, ac nad yw yn galw neb yn dad ar y ddaer. Eithr nid hyn yw y cwbl: y mae'r purdeb duwiol hwn, nid yn unig o darddiad dwyfol (canys felly y mae doniau cyffredin a fyddo yn oruwehnaturiol, sydd yn rhoddion i ragrithiwr gystal ag i sant), ond y mae yn rhan o'r creadur newydd, yr hwn y mae ei Ysbryd sancteiddiol ef yn ei ffurfio a'i weithio yn yr etholedigion, ac nid yn neb arall. Gras cyfammodol ydyw: "Rhoddaf ynddynt un galon, ac ysbryd newydd a roddaf yn-och;" *Ezec.* xi. 19. Yr un galon hono yw y purdeb duwiol (mewn calon) yma; ac fe'i cyferbynnir i galon ddeublyg, neu galon â chalon, wrth yr hyn y dynodir rhagrithiwr mor fynych yn y gair.

2. Y mae yn cyfeirio at Dduw, ac yn diweddu yn Nuw. Yr ymgais uchaf a'r diben eithaf, sy gan euaid o'r uniondeb hwn i'w fynwes yw, Pa fodd y gall efe ryngu bodd Duw, Nid yw y siomedigaeth a gyferfydd y cyfryw dŷn gwir dduwiol, oddi wrth rywun arall, yn ei ffinio ddim mwy nag y blinai farsiantwr sy'n llwyddo yn mhrif ddiben ei fordaith i'r India, ac yn dychwelyd yn llwythog â'r pethau gwerthfawr yr aeth i'w crychu, ond yn colli ei ardys, neu llyng ei esgid, yn y daith. Megys y mae llygad y meistr yn cyfarwyddo llaw y gwas; os gall efe wneud ei waith yn ol meddwl ei feistr, dyna ei gais ef, er i ddiethriaid a ddelo i'r gweithdy fod heb eu boddio: felly y gwna purdeb duwiol ymfoddloni ym marn yr Arglwydd am dano. Nid yw y cyfryw un yn annelu at fychan na mawr, yn ymgais am gydymffurfio â neb, am foddio mympwy cyfoethog na thlawd, ond yn golygu Duw—yn ei feddyliau, yn lle pawb arall—fel prif wrthddrych ei gariad, ei ofn, ei gred, ei lawenydd, &c. Y mae yn cyfeirio ei holl ymgeiadau, fel saethydd doeth, at y nod yma; a phan allo feddwl fod ei ymdrech yn fwyaf boddhaol gan Dduw, y mae yn fwyaf wrth ei fodd ei hun. Clyweh Paul sanctaidd yn adrodd, nid yn unig ei feddyliau neillduol ei hun, ond barn gyffredin yr holl gredinwyr: "Yr ydym yn ymorchestu, pa un bynag ai gartref y

byddom, ai oddi cartref, ein bod yn gymmeradwy ganddo ef;” 2 Cor. v. 9. Dyn cywir y byd yw efe, na wna gam â dyn: er fod llawer yn myned mor bell fel y gallent fod yn hyf ar Dduw, er eu holl ymddygiad llednais tuag at ddyn. Y mae rhai, na lad-rataent geiniogwerth oddi ar eu cymmydog, etto, a wnant waith lladron nodedig tuag at Dduw, mewn pethau mwy eu gwerth na'r holl arian a fedd eu cymmydog. Gallant ladratta oddi ar Dduw (i lenwi eu hachosion eu hunain) yr amser hwnw, a neillduodd efe iddo ef ei hun, ac y mae yn hōni ei hawl arbenig iddo, trwy deitl a geir, ar brawf, yn gryfach, mi a wn, nag a allwn ni ddangos, am y rhan arall o'r wythnos yn eiddom ni. Y dydd Sabbath wyf yn ei feddwl. Ereill, fe allai, na ddywedant gelywydd wrth ddyu yn eu masnach âg ef (a haws fyddai byw yn y byd pe bai fwy o'r gwiredd hwn yn ein mys); etto, llawer o'r gwyr hyn, i.e. pawb sydd heb chwaneg na gonestrwydd moesol, ni wnant gyfrif o ddywedyd celwydd wrth Dduw; yr hyn a wnant ym mhob gweddi a arferant, trwy addaw gwneuthur yr hyn ni feddyliant yn amser o ddirif am ei gyflawni. Hwya a adawant sancteiddio enw Duw; ac etto, a dafant fudreddi i wyneb pob priodoledd iddo. Hwya a weddiant am i ewyllys Duw gael ei wneuthur; ac etto, er gwybod mai ewyllys Duw yw ei sancteiddiad hwynt, hwya ymfoddlonant ar galon a natur ansanctaid; a thybiant yn ddigon iddynt harddu tu wyneb eu bucheddau, y rhan sydd i wynebu dyn, ac yn edrych i'r heol (fel y gallaf ddywedyd) âg ychydig flodeuwaith o weddeidd-dra ac uniondeb yn eu hymdriniaethau bydol; er fod eu dyn oll oddi mewn yn gorwedd o hyd mewn adeiliad gresynus. Eithr efe yw dyn cywir Duw, sy'n dymuno talu eiddo Duw i Dduw, gystal ag eiddo dyn i ddyu; i.e. sydd yn gyntaf yn gywir i Dduw, ac yna i ddyu er nawyn Duw. Ioseph duwiol, pan oedd ei frodyr yn ofni, yn eu hanadnabyddiaeth o hono, y caent ryw driniaeth galed ar ei law; craffwch, pa ffordd a gymmerodd efe at ryddhau eu meddyliau ofnus oddi wrth y dyb y gwnai efe gam a hwynt: “Gwnewch hyn, medd efe, fel y bydoch fyw; ofni Duw yr wyf fi;” Gen. xlii. 18. Fel pe dywedasai, Na ddisgwyliwch oddi ar fy llaw i ond yr hyn sy gyflawn ac uniawn; o herwydd yr wyf yn ofni Duw. Yr ydych chiwi, ysgatfydd, yn meddwl am fy mod i yn wr mawr, a chwithau yn ddieithriaid truaïn, heb gyfaill i eiriol drosoch, y bydd i'm gallu i ddymchwelyd eich iawnder chiwi. Ond chiwi ellwch arbed i chiwi eich hunain y boen o'r fath feddyliau eiddig am danaf; canys y mae fy ngolwg i ar un anfeidrol fwy uwch law i mi, nag yr wyf fi ya ymddangos yn uwch na chiwi: ac yr wyf fi yn ei ofni ef; a hyny ni allai fod, pe gwnawn i dwyll neu gam â chiwi. Yn 2 Cor. i. 12, y mae'r gair

am trawsfudol oddi wrth y prawf o betuah wrth oleu yr haul: megys pan fyddoch yn prynu brethyn, neu eiddo cyffelyb, chiwi a'i dygwch allan o'r lle tywyll, ac a'i deliwch yn y goleu; a thrwy hyn y canfyddir y twll lleiaf. Neu, fel y dywed rhai am yr eryr, ei bod yn dal ei chywion yng ngwyneb yr haul, ac yn ei barnu yn hil iddi, os gallant wynebu ei lewyrch, neu o gau ryw, o'i allant. Yn ddiau, dyna'r dyn o dduwiol burdeb, sydd yn edrych i fyny tua'r nef, ac yn dymuno cael ei brofi, yn ei eiriau, ei farn, ei serch, a'i arferion, yn ol y gallont sefyll o flaen y goleuni sy'n llewyrchu oddi yno trwy y gair, y goleuad mawr, i'r hwn y casglodd Duw yr holl oleuni, at arwain eneidiau; fel y mae'r haul yn y ffurfafent at gyfarwyddo ein cyrph yn eu rhodiad yma a thraw yn y byd. Os cyttuna y rhai hyn y gair; os gallant dremio arno, heb gael eu rhoddi i gywilydd ganddo, yna, ym mlaen yr â yr enaid diffuant yn wrol ar ei orchwyl; nid oes dim a'i hattalia. Eithr os ceir rhai o'r rhai hyn yn gochel goleuni y gair, fel y mynasai Adda, pe gallasai, ochel wynebu Duw ac heb allu sefyll i brawf; yna, y mae'r enaid ar ddiwedd ei daith: ac ni ddichon dim dad-leuon gan y cnawd roddi cychwyn ynddo; o herwydd nid ar neges y cnawd, ond ar neges Duw, y mae yn myned. Ac efe, yr hwn sy'n ei anfon, yn unig a'i hattalia. Y mae pethau yn iawn neu gywir, yn ol fel y cyttunant â'u hegwyddorion cyntaf. Pau fyddo y copi, a ad-ysgrifener, yn gyttunol â'r weithred ddechreuol, yna y mae yn gywir. Pan fyddo mesur yn cyttuno â'r prawf-fesur cyfreithlawn, neu â mesur y farchnad, yna y mae yn gywir. Yn awr, ewyllys Duw yw y prawf-fesur i'n hewyllysiau ni oll; ac efe yw y dyn cywir, sydd a'i yngais am gymmeryd mesur a rheol ei serchiadau a'i weithredoedd oll oddi wrth hwnw. Oddi yma y gelwir Dafydd yn wr yn ol calon Duw; yr hyn nid yw ond amgylchiaith am ei uniondeb; ac y mae yn gymmaint a phe dywedasai Ysbryd Duw ei fod yn wr diffuant, yn dwyn ar ei galon megys llun a cherfiad calon Duw, fel y mae yn argraphedig ar sel y gair. Ond digon y pryd hyn: gwasanaethed hyn i ddangos pa beth yw uniondeb efengylaidd. Tri pheth a ddymunid ym mhellach, cyn taro at y cymhwysiad:—

1. Dangos pa amryw anharddwch a guddia uniondeb.

2. Pa fodd y mae uniondeb yn cuddio y rhai hyn?

3. Pa ham y mae uniondeb efengylaidd yn cuddio y rhai hyn? Ni roddwn beth cyfrif am y cwbl.

DOSB II.

Cwest. 1 Am y cyntaf, Pa anharddwch a guddia uniondeb?

4t. Pob math: yn enwedig pob anharddwch pechadurus. Y mae amryw freintiau allanol ac amserol, yn y rhai, os bydd neb yn fyr, gan faint y bri a esyd y byd ffol hwn arnynt, tu hwnt i weddeidd-dra yn ol eu gwerth hanfodol hwynt, y mae'r cyfryw yn agored i beth anfri, os nad dirmyg, ym meddyliau rhai ereill. Yn awr, lle y mae gwir ras, y mae yn rhoddi gorchudd dros-tynt oll; ie, yn rhoddi ar y person anrhydedd helaethach yng ngolwg Duw, angylion, a dynion hefyd, os yn ddoeth, nag a all y llall beri o ddirmyg.

1af. Glendid: dyma'r eilun mawr y mae'r holl fyd yn rhyfeddu ar ei ol, fel y rhai hyn ar ol y bwystfil: *Dad.* xiii. 3. A hwn, os bydd i Dduw ei ommedd, a chau eneidiau rhai mewn tŷ, sef corph, anharddach nag ereill, y mae hyn, os gwael wedd gorphorol, yn eu gwaelu yng nghyfrif ereill. Yn awr, gras wedi ei brydferthu â phurdeb, a lewyrcha trwy y cwmmwl y mae natur wedi tywyllu yr wynebpryd âg ef: "Doethineb yw'r a lewyrcha ei wyneb;" *Preg.* viii. 1. Fwy yn meddu ei synwr, ni phrisiaid, ac ni ddewisai lestr yn y sefer a fyddai yn llawn o win da, o flaen barrel goreurog, a fyddai yn hongian yn wag, fel arwydd wrth y drws? Oni fydd gwir ras yn y galon oddi mewn, ni wna y glendid â'r hwn y goreurodd natur y wyneb oddi allan mo'r person ond o werth bychan. Person prydfert, heb wir ras, nid ydyw ond llysieuyn hardd dreflyd: chwi gewch y goreu sydd yn y cyfryw wrth edrych arno o hirbell. Ond calon ddi-fuant, heb y glendid allanol hwn i'w chanmawl, y mae yn debyg i ryw flodeuyn peraidd, heb ei liwio mor deg yn y dail, yn well yn y llaw nag i'r golwg—i'w arogl, nag i edrych arno. Po nesaf y deloch at enaid cywir, goreu y cewch ef. Nid yw anharddwch allanol, lle y byddo gwir ras, ond fel rhyw hen adeilad gwael, a welwch weithiau yn sefyll o flaen tŷ harddwych, sydd yn cuddio ei wychder yn unig o olwg y teithiwr sydd yn myned heibio o fewn rhyw bellter: ond y neb a aiff i mewn, a wel ei harddwch ac a yna wrtho.

2il. Y mae achau isel, a tharddod an-enwog, yn cael eu mawr ddirmygu: yn y byd. Etto, er mor wael ac anenwog y byddo y gwreiddyn a'r bonedd, pan ddolo gwir ras i mewn, y mae yn dwyn arwyddion uwchfonedd i'w ganlyn yn glanhau y gwaed, ac yn ardderchogi y teulu. "Er pan aethost yn werthfawr; yn fy ngolwg y'th ogoneddwyd;" *Esa.* xliii. 4. Y mae purdeb yn gosod nod o anrhydedd: os gwelwch y seren hon yn llewyrchu, er mai uwch ben bwth gwael, y mae yn mynegi i ti fod llywydd mawr yn anneddu yno—etifedd y nef. Y mae purdeb yn dwyn y creadur i berthynas â theulu goruchel—dim is na theulu y Duw goruchaf; thrwy y berthynas

newydd hon, ei enw iselwael ef ei hun a ddilëir, a rhoddir iddo enw newydd. Y mae yn dwyn arno enw Duw, â'r hwn y cyssylltir ef trwy ffydd ddiffuant. A phwy a faidd ddywedyd fod plentyn Duw y nefoedd, neu briodasferch Crist, o darddiad anenwog?

3ydd. Y mae pwrs, gystal ag achau isel, yn rhoddi dyn yn agored i ddirmyg, ie, a mwy. Y mae rhai wrth eu pwrs yn myrddhau mewn amser, fel y tybiant, oddi wrth y diystyrwch o achos eu gwreiddyn isel. Y ffynnon fechan y tarddodd y dwfr o honi, wedi iddo redeg rhai milldroedd, a chwydda yn afon gref; y mae hi o'r golwg, ac ni ymofynir llawer yn ei chylch. Eithr tlodi—y mae hwn ei hun yn seinio dirmyg yng nghlustiau y byd balch. Etto, pe byddai dyn yn dlawd, ie, hyd ddiareb, os ceir ond gwythien o wir dduwioldeb, gras diffuant, yn rhedeg yn ei galon, dyma fŵn gwerthfawr a'i cyfyd ef i fyny uwch law dirmyg y byd. Gall y cyfryw un, o bossibl, ddywedyd nad oes ganddo arian yn ei dŷ; ond nis gall ddywedyd na fedd efe drysor—nad yw efe yn gyfoethog—os dywed efe y gwir. Yn ddiau, y mae hwn yn gyfoethog, sy ganddo agoriad i drysor Duw. Y mae'r enaid cywir yn gyfoethog yn Nuw: y mae'r hyn a fedd Duw yn eiddo iddo: "Pob peth yn eiddo chwi; a chwithau yn eiddo Crist;" *1 Cor.* iii. 22, 23.

4ydd. Mewn gair, i enwi dim chwaneg—y mae doniau ac addurniadau'r meddwl yn cael eu canmawl gan rai uwch law y rhai uchod oll. Ac yn wir, y mae y rhai hyn yn dwyn ynddynt odidogrwydd, sydd yn sefyll yn fwy cydwastad â chynneddf ardderchocaf dyn (sef ei reswm), na'r lleill sydd mor bell islaw ei natur ysbrydol ef. Megys na allai rhai o filwyr Gideon yfed y dwfr nes iddynt ymostwng ar eu gliniau, felly nis gallai dyn gael blas da ar y pethau a enwyd yn gyntaf, oni ba'i ei fod ef yn gyntaf yn ymiselu mor bell islaw uchder rhagorol ei enaid rhesymol. Ond am wybodaeth, doniau, a galluoedd y meddwl—mae y rhai hyn megys yn codi pen y dyn, ac yn ei osod i ymddangos yn ei iawn uchder: am hyn, nid oes neb mor ddirmygus gan y byd doeth a'r rhai sydd o ddoniau bychain, a deall gwan a gwael. Er hyn, edrychwn yn awr pa orchudd a ddyry uniondeb dros y noethni hwn o eiddo'r meddwl, sydd yn ymddangos yn fwy gwarthus na'r lleill oll. Pa le yr wyt ti, Gristion, fel y mynegwyf i ti sydd yn galaru ac yn cwynfan o achos dy gynneddfau gweiniaid, a'th ddeall bas, pa fath ddyn dedwydd wyt, gyda dy galon gywir onest, tu hwnt i bob cymmharueth â'r rhai hyn, sydd â'u doniau disglair yn dallu dy olwg, fel nad wyt yn gallu canfod dy ragorfaertdy hun uwch law yr eiddynt hwy. Eu perl hwy, nid yw ond yn y pen; ac er

ei gael, hwy a allant fod yn llyffaint duon : ond y mae'r eiddot ti yn y galon, sef y perl o ras ; a hwn yw y perl mwyaf ei werth. Y mae dy galon gywir di yn dy godi yn uwch yng nghalon Duw, nag yr isela dy ddoniau bychain di yn eu barn dwylledig hwynt. A thydi, heb y galluoedd meddwl sydd ganddynt hwy, a gei o hyd i ffordd y nef ; ond hwy, er eu holl ddoniau mawrion, a ddymchwelir i uffern, am na feddant dy uniondeb di. Nid yw dy ddoniau gwael di ddim yn dy wneud yn anghymmhwys i ogoniant y nef ; ond y mae eu doniau a'u haddurniadau ansancteiddiedig hwy yn sicr o'u cymmhwysio yn fwy i warth a thrueni uffern. Mewn gair, er i'th ben fod yma yn wan, a'th ddoniau yn wael, etto, er dy gysur, gwybydd y chwanegir i ti y rhodd o ben gwell, at dy galon gwir, ar dy ddyfodiad i'r nef ; ond eu penau gwybodus hwynt ni chyfarfyddant â chalonau gwell yn uffern : eithr cydieuir hwynt a'u calonau drygionus mewn poenau. Ond digon am hyn ; yr wyf yn dyfod at yr ail fath o anharddwch a wna purdeb ei guddio ; ac y mae hwnw yn bechadurus.

2il. Y mae yn rhaid yn awr mai yr anharddwch bechadurus hwn yw y gwaethaf, am ei fod yn disgyn ar y rhan harddaf, sef yr enaid. Os yw budreddi a daffar ar y wyneb yn anharddach nag ar aelod arall, am ei fod yn rhan lanaf ; yna, nid oes un anharddwch tebyg i hwnw, sydd yn hacru ac yn pardduo yr enaid a'r ysbryd ; am fod y rhan hon wedi ei bwriadu gan Dduw i fod yn brif eisteddle harddwch dyn. Yn awr, yr hyn a fyddo yn fwyaf yn ystaeio ac yn hacru yr enaid, y mae yn rhaid iddo fod yn fwyaf gwrthwyneb i'w berffeithrwydd penaf ; yr hwn, ar ei gread cyntaf, ydoedd, ac felly rhaid ei fod heddyw, y prydfwrthwch sancteiddrwydd hwnw a dynwyd gan law gywrair Ysbryd Duw ei hun ; a phia beth a all hwn fod ond yr anghenfil gwrthun a elwir pechod ? Hwn sydd wedi hacru gwedd hawddgar dyn, fel nad yw efe ddim mwy tebyg i'r harddwch a greodd Duw, nag oedd wyneb Sarah farw i'r glendid hwnw a fuasai yn abwyd i'r tywysogion mwyaf, ac a barodd i'r gwr fod mewn ofn am ei fywyd, pa le bynag yr elai : i'e, nid yw yn fwy tebyg nag yw y fall arian, sydd yn gythraul melldigedig yn uffern, i'r hyn a fu efe, pan yn angel sanctaidd yn y nef. Yr archoll hwn a roddwyd trwy bechod i natur dyn, y mae Crist wedi cymmeryd ei iachâd arno ei hun, trwy ei ras, yn ei rai etholedig. Y mae'r iachâd wedi ei ddechreu yma ; ond heb ei orphen, fel nad oes nac annaf na chraith yn aros. A dyma'r anharddwch mawr y mae purdeb yn gosod ei fysarno, ac yn ei guddio.

DOSB. III.

Cwest. 2. Ond yma, gall y cwestiwn fod,

Pa fodd y mae purdeb yn cuddio anharddwch bechadurus y saint ?

At. Mi a gaf ateb hyn, iaf, Yn nacaol ; gan ddangos pa fodd nad yw : Yn 2il, Yn gadarnhaol—pa fodd y mae.

Iaf. Yn nacaol—pa fodd ni wna purdeb ei guddio ; a hyn mewn amryw bethau neillduol. Yn gyntaf, Ni wna purdeb guddio ffaeiddau neu feiaiu y saint, fel ag i ddwyn ymaith eu natur bechadurus hwynt. Y mae meddyliau gwibiog yn bechadurus mewn sant, gystal ag mewn dyn arall. Chwyn a fydd chwyn, pa le bynag y tyfant, pe byddai yn ardd i'r blodau gwyhaf. Camgymerwyd ynte y maent hwy, a wadant eu bod yn bechodau, am fod pechodau'r saint yn cael eu cuddio. Yn ail, Nid yw yn eu cuddio felly, fel ag i rod-di i ni y sail leiaf i dybied fod Duw yn caniatâu i'r Cristion wneuthur y pechod lleiaf, mwy nag ereill. Yn wir, y mae yn anghyttuol â sancteiddrwydd Duw i rod-di, ac â phurdeb y saint i hōni, ddarfod iddo rod-di y fath ganiatâd iddynt. Gall tad, o'i dynerwch a'i gariad at ei blantyn, fyned heibio i'w ffaeidd, wrth iddo weithio arno ; megys, pan y collo y gwin, neu y toro'r gwidyryn, y mae yn ei ddwyn iddo : ond yn sicr ni wna efe ganiatâu iddo ei dafu i lawr o ddiolalwch neu wirfodd. Er y gellir cael gan wr faddeu yn rhwydd i'w gyfaill, a'i briwiodd heb y fath fwrriad, ac heb feddwl ei niweiddio ; etto, ni rydd efe genad ym mlaen llaw iddo wneud hyny. Yn drydydd, Nid yw yn ei guddio felly, fel na wel Duw mo hono : byddai hyn nid yn unig er anfri ar ei hollwybodaeth, ond ar ei drugaredd hefyd. O herwydd nis gall efe faddeu yr hyn nid yw, yn gyntaf, yn ei weled yn bechod. Y mae Duw nid yn unig yn gweled pechodau ei blant, ond y mae eu beiaiu hwynt er anforddâd mwy iddo na'r eiddo ereill ; am fod y personau, ym mha rai y ceir hwynt, mor anwyf ganddo, ac mor agos ato. Byddai tomen yn ystafell tywysog yn ffeiddiach ganddo nag un ym mhell oddi wrth ei lys. Y mae mynwes y Cristion yn llys, yn orsedd, ac yn deml i Dduw ; y mae efe wedi cymmeryd ei drigran yno am byth ; a rhaid yw i bechod, yno, fod yn dra drygsawrus yn ei firoenau. Yn bedwerydd Nid yw yn cuddio beiaiu, neu anharddwch y saint fel nad yw yn rhaid iddynt eu cyffesu, ymostwng o'u herwydd, neu erfyn anfaddeuant o honynt. Y mae ceiniog yn ddyled mor gyfiawn a phunt ; ac am hyny i'w chydabod. Yn wir, y mae yr hyn : fyddo yn bechod o wendid, wrth ei wneuthur, yn myned yn bechod o ryfyg, wrth ei guddio, ac ymgaledu ynddo. Fe ddaliodd lob ei berffeithrwydd trwy ei ymladd drom ; etto, y beiaiu a ddiangodd gandd ym mhoethder ei gystuddiau a'u dygasar ef ar ei liniau : "Y mae yn ffaidd genyf fy hun ; ac yr ydwyf yn edifarhau mew

llwch a lludw," medd efe;" *Iob* xlii. 6. Yr pummed, ac yn olaf, Nid ydyw yn cuddio beiau, fel pe byddai ein purdeb ni yn y radd eiaf yn teilyngu neu yn haeddu i Dduw, r ei fwyn, guddio y pethau sydd etto yn eiaf a gwendidau ynom. Pe byddai y fath beth ag ufudd-dod llwyr gyflawn, nis gallai twn haeddu maddeuant am bechodau gynt: lawer llai y gall ufudd-dod amherffaith y fath ag yw cywirdeb mewn ystyr manwl naeddu hyny, am ffaeliad presennol. Nid yw ufudd-dod llawn, yn ol y gyfraith, yn ldim mwy nag yw ein dyled i gyfraith Duw, el yr ydym yn greaduriaid. A pha fodd y gallai hyny dalu ein dyled ni o bechod, gan i fod yn ddyled gyflawn cyn bod pechod? A llawer llai y gall ufudd-dod efengylaidd, r hwn yw purdeb, wneud y tro; gan ei fod n llawer rhy fyr o'r ufudd-dod sydd yn ddyled arnom. Os nad yw yr hwn sydd mewn lyled o ugain punt yn haeddu dim pan y alo'rswn i gyd; yn siernid yw yr hwn a dal o gain ceiniog, o'r ugain punt, yn haeddu dim. In wir, fe all gofynwyr gymmeryd yr hyn a velont yn dda; ac os dywedant fod yr hantwr yn eu boddloni, y mae yn ddiagon o yddhad i'r dyledwr. Ond pa le y dywedodd Duw erioed y cymmerai efe ran fel hyn an ei greadur? Y mae Duw yn sefyll mor llym at ei ofyn, yng nghyfammod yr efengyl, m dâl llawn o'r ddyled, ag yr oedd dan y yfammod cyntaf o weithred oedd. Yr oedd no yn ofynedig gyflawnder llawn trwy gadw gyfraith, neu oddef melli'dith llawn am ei hori. Y mae yn debyg yng nghyfammod r efengyl; ond yn unig fod rhwyllranau *wards*) y clo wedi eu newid. Yr oedd hyn n ofyniad Duw gan y creadur yn y cyfammod cyntaf, i gael ei gyflawni neu ei dioddef yn bersonol: eithr yng nghyfammod yr efengyl, y mae efe yn foddllawn i ymmeryd y ddau oddi ar law Crist, ein Meichnydd, a chyfrif y rhai hyn i'r enaid ywir, sydd yn ddiffuant yn credu ynddo, ac n rhoi ei hun iddo.

DOSB. IV.

2. I ddangos yn bennodol y modd y mae burdeb yn cuddio gwendidau y saint.

1af. Purdeb yw y nod priodol wrth ba n y mae trugaredd faddeuol yng nglŷn. Gwir n ddiau, mai Crist sydd yn cuddio ein holl bechodau a'n gwendidau: etto, yr enaid diffuant yn unig yw yr hwn y rhydd efe ei antell am dano. "Gwyn ei fyd yr hwn y ruddiwyd ei bechod; gwyn ei fyd y dyn ni chyfrif yr Arglwydd iddo anwiredd." *Salm* xxxii. 1, 2. Ni ammheua neb hyn: ond pwy yw y dyn? Y geiriau nesaf a fynegant ei enw; y dyn "ni byddo dichell yn ei ysbryd." Cyflawnder Crist yw y wisg sydd yn cuddio noethni a gwarth ein anghyflawnderau ni: fydd yw y gras sydd yn gosod y wisg hon am y dyn. Ond pa fydd, nid arall ond y fydd ddiffuant yn unig, fel y geilw

Paul hi: 2 *Tim.* i. 5. "Wele ddwfr," e e yr ennoch; "beth sydd yn lluddias fy meddyddio!" *Act.* viii. 36. Yn awr, craffwch ar ateb Phylip. "Os wyt ti yn credu a'th holl galon, fe a ellir;" *adn.* 37. Fel pe dywedasai, Nis gall dim ond calon ragrithiol dy luddias. Y galon ffals yn unig a gaiff ddrws trugaredd yn gauedig. Y mae yr un sydd yn addaw cuddio ffaelecteddau yr enaid diddichell yn bygwth dadguddio drygoni y rhagritiwr: "Y neb a gam-dry ei ffyrdd a fydd hynod," sef yn ei waradwydd; *Diar.* x. 9.

2il. Lle y mae uniondeb, y mae Duw yn cymmeradwyo y dyn hwn fel un cyflawn a sanctaidd, er y cymmysg o bechod a geir ynddo. Megys nad yw Duw yn hoffi pechod y sant, o herwydd ei burdeb: felly, nid yw efe o herwydd ei bechod, yn ei ddisieintio ef. Fe rydd Duw ei law wrth dystiolaeth dda am Lot—ei fod yn ŵr cyflawn, er y coffeir yn yr Ysgrythyr ei fod wedi syrthio i amryw bechodau, a rhai bryntion hefyd. Etto, Lot gyflawn oedd efe, am fod agwedd ei galon yn ddiffuant, ystod ei fywyd yn sanctaidd; a'i fod yn hytrach wedi cael ei ddal gan y pechodau hyny, trwy demtiad, nag yn eu croesawu trwy ddewisiaid. Er nad yw purdeb yn dallu llygad Duw, fel na wel efe bechod y saint, etto, y mae yn peri iddo edrych arno gyda llygad llawn tosturi, nid digllawn! Fel gŵr priod, yn gwybod fod ei wraig yn fyddllawn iddo yn y pethau penaf, y mae yn tosturio wrth ei gwendidau ereill, ac erdynt oll yn ei chyfrif yn wraig dda. "Yn hyn i gyd (medd Duw) ni phechodd Iob;" *Iob.* i. 22; ac ar ddiwedd ei frwydr, y mae Duw yn ei ddwyn o'r maes, gyda'r dystiolaeth anrhydeddus hon (wrth ei gyfeillion oedd wedi bod mewn cymmaint poen i ddwyn ei dduwioled dan amheuaeth), ddarod i'w was Iob ddywedyd yn uniawn am dano. Yn ddiau, fe ddywedodd Duw fwy dros Iob nag a feiddiai efe ddywedyd drosto ei hun. Mae efe yn addef yn rhydd ei ymadroddion byrbwyll afrywio, ac yn llefain, "Yr wyf yn fy ffeiddio fy hun, ac yn edifarhau mewn llwch a lludw." Fe welodd Duw burdeb yn Iob gyda'i bechodau; ac felly, efe a'i galwodd yn ŵr perffaith a chyflawn. Gwelodd Iob yntau ei burdeb wedi ei lychwino a llawer o ffaelecteddau; a pharodd hyn iddo gyffesu ei bechodau gyda chywilydd, yn hytrach nag ymogoneddu yn ei ras. Y mae trugaredd Duw yn helaethach i'w blant nag yw eu tynerwch hwynt yn fynych iddynt hwy eu hunain a'u brodyr. Yn gyntaf, atynt eu hunain: a dybiwch chwi y beiddiasai yr afradllawn (oedd yn arwydd o ddychwelwr) ofyn y wisg oreu, neu geisio gan ei dad fyned i'r fath gôst i'w groesawu, ag a roddodd ei dad yn rhydd yn ei achos? Na, yn sicr, ni a welwn fod lle yn y gegin i fod yn

mysg y gweision gwaelf yn y tŷ, yn gym-maint ag a feiddia efe ei ofyn. Enaid druan! nis gallasai ddirnad y cawsai y fath gyfarfod â'i dad ar yr olwg gyntaf. Gwisg! gallasai yn hytrach ddisgwyl rhaff, o leiaf gwialeu. Gwledd wrth fwrdd ei dad! O, groesaw heb ei ddisgwyl! Nid wyf yn ammheu na busasai, yn ei gyflwr newynllyd, yn newydd da ganddo, pe buasai i un ei gyfarfod ef ar y ffordd, a mynegi iddo fod ei dad yn bwriadu, cyn gynted ag y deuai efe adref, na chaffai weled mo'i wyneb, ond ei anfon yn ebrwydd i garchar, i gael yno ei chwipio, a'i borthi am fisoedd â bara a dwfr; ac yna, ysgafydd, y gwnai o'r diwedd edrych arno, a'i dderbyn ef i'w dŷ. Ond fel y mae gan Dduw gospedigaethau dieithr i'r annuwiol, felly y mae ganddo ddangosiadau dieithr o'i gariad a'i drugaredd i eneidiau diffuant. Y mae efe yn hoffi rliagori ar eu disgwiliadau goreu hwynt—cusan, gwisg, gwledd, ac oll yn yr un dydd, a hwnw yn ddydd cyntaf o'i ddy-chweliad, pan oedd y cof am ei ddrygioni erchyll, a sawyr ddrewllyd y golchion a'r moch—a adawsai efe mor ddiweddar—ond prin wedi ei adael! Y fath fri mawr sydd ar burdeb gan Dduw y nefoedd! Drachefu, y mae trugaredd Duw yn helaethach i'w blant na'u tynerwch hwynt tuag at eu galydd! Y mae rhai, ag yr ydym yn barod i'w disientio am y ffaeledau sydd i'w gwledd yneubwydau; a Duw yn eu haddef fel rhai perffaith o herwydd eu huniondeb. Ni a gawn feiau Asaph yn cael eu nodi, a'i berffeithrwydd yn cael ei wirio gan Dduw ynghyd, megys ar un anadliad: 2 Cor. xv. 17. Mae yn dda fod Duw wedi rhoddi ei farn ar y gwr da hwnw; o herwydd pe buasai ond hanes noeth ei fywyd, fel y mae ar gof yn y Beibl, yn sefyll heb y dystiolaeth bennodol am ei gymmeradwyaeth gan Dduw, buasai ei dduwioldeb yn debyg o fod dan ammheuaeth ym marn gwyr da. Ie, y mae llawer o rai ereill, am y rhai nid oes i ni bellach ammheu, gan ein bod yn cael Duw ei hun yn eu cyhoeddi, a gawsent eu bwrw i'w colli, pe buasai dynion, a'r rhai hyny yn ddynion da hefyd, yn rhoddi barn arnynt. Gwelwn Elias ei hun, pan nad ydoedd yn gwybod am neb yn dwyn y fath sel dros Dduw a'i addoliad ag i godi eu banerau ar gyhoedd mewn profies rydd, a dal rhyfel gyhoeddus yn erbyn eilunaddoliaeth yr oes, drwy ei wrthsefyll yn rymus fel y gwnaeth efe; a'u pechod hwynt oedd hyn, gallwn feddwl; ond gwelwn, meddaf, y modd y mae yn cwyno yn drwm wrth Dduw, fel pe buasai y gwrthgiliaid mor hollol nes bod heb un duwiol yn fyw ond efe ei hun. Etto, mae Duw yn dwyn i'r gwr da newydd gwell: "Mi adewais yn Israel saith o filoedd, y gliniau oll ni phlygasant i Baal, a phob genau a'r nis cusanodd ef;" 1 Bren. xix. 18. Fel pe dywedasai Duw, Ymgysura, Elias: er

nad yw fy nifer i yn fawr; etto, nid oes y fath brinder o saint ag yr wyt ti yn ei ofni yn yr oes lygredig hon. Gwir yw, y mae eu ffydd yn wan: ni feiddiant ymaffyd â phechodau yr oes fel y gwnei di, am yr hyn ni fyddi heb dy wobr: etto, y disgyblion nos hyn sydd, rhag ofn, yn dwyn eu goleu mewn llusern dywyll, nid rhaid iddynt gael, ac ni chânt, eu gwrthod genyf fi, gan fod ynddynt beth purdeb, sydd yn eu cadw rhag ymlygru â'r eilunaddoliaeth hwn. Y Duw hwnw sydd yn erchi i ni fod yn dra thuyer o'i wyn eif, y mae efe ei hun yn llawer mwy tyner o honynt. Hynod yw y lle hwnw: 1 Ioan ii. 12—14. Mae yno dri gradd o saint—tadau, gwyr ieuainge, a phlant bychain; ac am y rhai hyn y dengys Duw ei ofal yn fwyaf, megys trwy eu henwi yn gyntaf: *adn. 12*; felly, trwy adael ei addewid yn eu hardied a'u mynwes hwynt, yn hytrach nag un o'r lleill: "Ysgrifenu yr wyf atoch chwi, blant bychain, o blegid maddeu i chwi eich pechodau er mwyn ei enw ef." Ond ai ni faddeuwyd pechodau y tadau a'r gwyr ieuainge hefyd? Do: pwy sydd a'i ammheu? Etto, nid yw efe yn cymmhwysu hyn mor bennodol atynt hwy ag at y rhai hyn, am fod y rhai hyn, oddi wrth eu gwaelledau mewn teimlad (uwch law yr hyn yr oedd tyfiad y lleill yn fwy) yn fwy tueddol i ddadleu yn erbyn yr addewid hon, yn eu mynwesau eu hunain. Ie, y mae nid yn unig yn mynegi yn eglur iddynt fod eu pechodau wedi eu maddeu, ond taraw ar yr wrthdaddl ddirgel sydd yn dyfod oddi wrth eu calonau crynedig hwynt yn erbyn y newydd da hwn, o herwydd eu gwaelledd a'u hanheilyngdod eu hunain. Ac y mae yn cau e safn â hyn, "wedi eu maddeu er mwyn e enw ef"—enw mwy na'u pechod mwya hwynt, sydd yn eu digalonï rhag credu.

3ydd. Y mae purdeb yn cadw cymmeriad y dyn wrth orsedd gras, fel na ddichon un gwendid pechadurus rwystro ei groesaw gyda Duw. "Edrych ar wirionedd yn y galon," nid ei fod o fewn y dyn, sydd y cau clust Duw rhag gwrandaw ei weddi. mae yn brofedigaeth y bu yn anhawdd lawer fyned drosti—a all y fath rai a hwy sydd yn gwledd cynnifer o ffaeledau pechadurus ynddynt eu hunain, wneud mor hy a gweddio, neu ddisgwyl am wrandawia heb rhyfyg, ar ol gweddio. Ac weithiau, orchfyga hyn mor bell nes dydent (am na allant weddio fel y dymument) yn ynnat oddi wrth yr hyn a ddylent: yn debyg i'r pobl dlodion, a ymgadwant allan o'r gynnu eidfa am na feddant y fath ddillad ag ddymument i ddyfod iddi. I gyfarfod cyfryw ag sydd yn troi draw oddi wrth ddy edswydd, gan yr ofn o hyn, y cymmhwyswyd yr addewidion, y rhai ydynt wedi haddasu at y radd isaf o ras: fel meg y gwna darlun, wedi ei dynu yn d

ynbeu pawb fel eu gilydd a fyddo mewn stafell yn edrych arno; felly y mae addewion cyfammod yr efengyl yn gwenu ar awb a edrychant yn gywir at Dduw yng Grist. Ni ddywedir, Pe byddai genych ydd fel cedrwydden, ond "Pe byddai genych ffydd megys gronyn o had mwstard, awi a ddywedech wrth y mynydd hwn, Symmod oddi yma drwy, ac efe asymmudai;" *at. xvii. 20.* Ac nid yw ffydd gyfiawhaol i'w waith ddim is law ffydd wyrthiol yn ei sylch ei hun o fywiogrwydd. Mae y ffydd iaf ar Grist, os cywir fydd, yn symmod wr wirioneddol a'r gryfaf yr euogrydd ynyddaidd o bechod oddi ar yr enaid. Iddi yma y dywedir fod gan y saint oll "gylyb werthfawr ffydd;" *2 Pedr i. 1.* Y mae ffydd Sarah (nad allwn ond prin ddirid ym mha le i'w chael oddi wrth yr hanes (Genesis) yn cael mynegiad parchus am ni yn *Heb. xi, lle y mae Duw yn ei haddef a gredadyn, gystal ag Abraham, gyda'i dded gryfach. Pa gariad yw hwnw y mae addewid yn rhwymo ffafr Duw wrtho? Nid, Gras a fyddo gyda phawb sydd yn ru ein Harglwydd Iesu Grist â chariad gorph—nag e, "Ond mewn purdeb;" *Job. vi. 24.* Nid, Gwyn ei fyd ef sydd yn dactaidid hyd y cyfryw fesur—ni fuasai hyn perthyn ond i ryw saint; y rhan fwyaf a thant ymaith gan ddywedyd, Nid oes yma im i mi; nid wyf fi mor sanctaidd. Ond ag i'w un sant gollu ei ran, fel hyn y mae, "Gwyn fyd y rhai y mae arnynt newyn a ched am gyfiawnder." Ac y mae hyn yn nmyrd yr oll o blant Duw i mewn; i'w hyd yn oed y baban lleiaf sydd newydd eni heddyw i Grist. Y mae y dychwelwr i'w i'w newynu am sancteiddrwydd, a ny yn ddiffuant. A pha ham yr holl ofal ni i osod yr addewidion yn y fath efn? Onid i ddangos, pan ddefnyddiom rhyw addewid wrth orsedd gras, na ddylu ammheu ein croesaw o herwydd yr un gwendidau, ond i'r argraff hon o burdeb i'w ar ein calonau. Yn wir, pe nis gwnai rdeby gymmaint a hyn i'r saint, nis gallai l un weddi yn dderbyniol gan Dduw oddi law un sant a fu erioed, neu a fydd ar y aear hyd ddiweddi byd; o herwydd na erioed, ac na fydd byth y fath sant yn byw ewn enawd yma isod, heb fod ffaeiddau dedig i'w cael ynddo. Mynai yr apostol i'w wybod am Elias, a wnaeth gymmaint i'w yrthiau yn y nef a'r ddaear trwy weddi i'w pwy a wnaeth rai mwy?—etto, y gallasai uw yn fuan gael twll yn nilledyn y gwr vn. Yn wir, rhag i ni gyfrif ffiniant ei eddïau i'w urddas personol, ac i'w ragordeb o'i eiddo ei hun uwch law ereill mewn as, y mae Ysbryd Duw yn hysbysu i ni fod o'r un gwneuthuriad a'i frodyr gwael. Elias oedd ddyd, yn rhaid iddo dioddef fel unau; ac efe a weddiodd na byddai wlaw;"*

Iago v. 17. Y mae llaw wan gyda chalon bur yn gallu troi yr agoriad mewn gweddi.

PENNOD VIII.

Dangosiad pa ham y mae purdeb yn cuddie anharddw h y saint.

YN awr y canlyn y pedwerydd holiad. Pa fodd y mae purdeb yn cuddio ein ffaeiddau ni?

DOSB. I.

Rhes. 1. Y mae hyn yn tarddu oddi wrth ras cyfammod yr efengyl; yr hwn sy'n esmwythau poen lem y gyfraith. Ei' gofyniad hi oedd ufudd-dod cyflawn; ond gras yr efengyl a dawdd hyny i'r rhodd hon, o burdeb a gwirionedd calon. Fel hyn yr eglurodd Duw ei hun, wrth fyned i gyfammod âg Abraham; "Myfi yw Duw Hollalluog: rhodia ger fy mron i, a bydd berffaith" (neu ddiffuant); *Gen. xvii. 1.* Fel pe dywedasai Duw wrtho, Abraham, gwel yma yr hyn yr wyf yn ei ddisgwyl ar dy law, a'r hyn a elli dithau ddisgwyl ar fy llaw innau. Yr wyf fi yn edrych am i ti fy ngosod i ger dy fron, fel yr un y bydd i ti, yn dy yrfa a'th rodiad, ymgaisio yn ddiffuant am ei foddio a bod yn gymmeradwy gauddo. Ac, ar fy llaw i, gelli dithau addaw i ti dy hun yr hyn a all Duw Hollalluog ei wneuthur o ran dy nodd i di yn dy ufudd-dod, ac hefyd o ran maddeu i ti, lle yr wyt yn syrthio yn fyr o fufudd-dod perffaith. Rhodia di yn nghywirdeb dy galon ger fy mron i, a minnau a'th dderbyniad di, a dy ymgais diffuant, mor dirion ag y derbyniaswn Adda, pe buasai iddo gadw ei ddiniweidrwydd, a bod heb bechu erioed. Yn wir, fe allai enaid diffuant, trwy rinwedd y cyfammod hwn, gymdeithasu â Duw, a rhodio ger ei fron gyda chymmaint rhydd-deb, a mwy cyfeillgarwch, o herwydd ei agos berthynas, nag y darfu i Adda erioed, pan oedd Duw ac yntau yn gyfeillion anwylaf. Fy meddwl yw, y gwnai y cyfammod roddi y cyfryw nodedd ac amddiffyn iddo, a'i bwys ar Grist. "Os ein calon ni a'n condemnia, y mae genym hyder (neu hyfder wyneb) ar Dduw;" *1 Ioan iii. 21.* Ac fel y mae y cyfammod yn awr yn sefyll, ni ddichon cydwybod ein condemnio, o herwydd fod pechod yn bresennol ynom: ac os bydd hi yn adnabod ei drefn, ni wna hi chwaith. Yr oedd cydwybod Paul yn ei ryddhau, ie, yn rhoddi iddo achos gorfoledd a duwiol ymfrost, tra yr oedd efe yn cael fod pechod yn ymgynhyrfu o'i fewn. Nag e: y mae cydwybod wedi ei gosod gan Dduw i farnu drosto ef yn llys dirgel ein mynwesau ni; ac y mae wedi ei rhwymo drwy gyfraith am y farn a rydd hi, o blaid, neu yn erbyn dyn. Gweddai i hono fod yn unol â'r farn a rydd Crist ei hun, i ryddhau neu gondemnio.

y byd yn y dydd olaf. Yn awr, pan elom ar brawf am ein bywyd o flaen brawdle Crist, yr ymchwiliad mwyaf fydd, A fuom ni yn gywir diffuant, ai ni buom? Ac, megys na wna Crist y pryd hyn y gondeinio yr enaid cywir, er y gellid gosod mil o bechodau i'w erbyn, felly hefyd nis gall ein calonau chwath ein condemnio.

Qwest. Ond yma, gellir gofyn, Pa fodd y mae Duw mor dyner yng nghyfammod yr efengyl a derbyn ufudd-dod sydd mor amherffaith ar ddwyllaw ei saint, gan ei fod mor llym wrth Adda, yn y cyfammod cyntaf, nes ydoedd y pall lleiaf, er ei ddal ond unwaith ynddo, i'w gyfrif yn anfaddeuadwy?

At. Cymmerwch ddatodiad i'r cwestiwn hwn yn y ddau beth canlynol.

Iaf. Yn y cyfammod a wnaeth Duw â dynolryw yn Adda, nid oedd un Meichnydd i sefyll yn rhwym i Dduw am y cyflawniad o ran y dyn yn y cyfammod; a hynny oedd ufudd-dod perffaith: ac am hyn, nis gallai Duw lai na dal ato gyda manylrwydd, gan nad oedd ganddo neb arall y gallai efe gael ei ogoniant ar ei law, ac felly dâl iddo ei hun am y cam a allai camwedd dyn ei wneuthur iddo. Eithr yng nghyfammod yr efengyl, y mae Meichnydd, Crist y Cyflawn, sydd yn sefyll yn atebol i Dduw am yr holl feiau a'r ffaleddau sydd yn digwydd yng ngyrfa y Cristion. Y mae'r Arglwydd Iesu, nid yn unig yn cymmeryd arno ei hun daliad y ddyled anferth y mae yn ei chael ar ei bobl, cyn eu troedigaeth, ond hefyd y dyledion ereill y maent wedi hynny, trwy eu gwendid, yn myned iddynt. "Os pecha neb, y mae i ni Eiriolwr gyda'r Tad, Iesu Grist y Cyflawn; ac efe yw yr Iawn dros ein pechodau ni;" 1 *Ioan.* ii. 2. Gan hynny, fe all Duw, heb wneud cam â'i gyfiawnder, groesi dyledion ei saint, gan iddo gael tâl oddi ar law eu Meichiau. Trugaredd yn wir yw hyn i'r saint; ond cyfiawnder ydyw i Grist. O! gydgyfarfod dedwydd! lle y mae trugaredd a chyfiawnder o'r un fryd, ac yn ymgusanu fel hyn!

2il. Fe darfu i Dduw—a da y gallai—ofyn ufudd-dod llawn a pherffaith gan ddyn yn y cyfammod cyntaf, am ei fod mewn ystâd berffaith, mewn llawn allu a nerth i'w gyflawni; felly, nid oedd Duw yn edrych am gael medd dim ond a hauasai. Eithr yng nghyfammod yr efengyl, nid yw efe ar y cyntaf yn rhoddi yn y credadyn ras yn ei gyflawn faint, ond gras cywir, ac, yn ganlynol, nid yw efe yn disgwyl ufudd-dod cyflawn, ond cywir. Y mae yn ystyried ein hansawdd; ac yn llyfr Duw, y mae trethiad pob credadyn, os gallaf felly ddywedyd, yn ol yr ystor o ras a roddodd Duw i'w osod i fyny ar y cyntaf.

DOSE. II.

Rhes. 2. Gellir cymmeryd yr ail reswm oddi wrth ei gariad mawr at, a'r boddhâd a gymmer efe yn, y tuedd hwn o galon, nes

bod yr *act* hon o ras yn canlyn, i guddio beiau y bobl y mae yn ei ganfod yuddynt. Y mae yn natur cariad guddio, ie, luaws o wendidau. Torodd Esther y gyfraith wrth ddyfod i'w dydd Ahasferus cyn cael ei galw; ond buan y cododd cariad dŷ maddeuant ym mynwes y brenin i faddeu y bai hwnw. Ac yn ddiau, nid cymmaint oedd y ffafwr a gafodd hi yng ngolwg y penadur mawr hwnw, ag a gaiff yr enaid cywir yng ngolwg y Duw mawr. Nid mwy oedd ei hyfrydwch ef y nglendirid Esther, na'r eiddo Duw yn y gleudid hwn: "Hoff ganddo ef y rhai sy berffaith yn eu ffyrdd;" *Diar.* xi. 20. Y mae ei enaid ef yn ymwasgu a'r cyfryw ddynd fel un sydd o'r un duedd a'i natur sanctaidd ef ei hun, a'i galon yn uniawn gyda'i galon ef: ac felly, mewn bodd diderfyn, wrth weled pelydryn o'i ragoroldeb ei hun yn llewyrchu yn ei greadur, y mae yn ei hoffi ac yn ymfafydd yn ei law i'w godi i fynwe ei gariad; gwel cerbyd, mi wn, na'r un bu i Iehu godi Ionadab iddo, am ei ffydd londeb ato. Anfynech y gwelwch son ar wr uniawn yn y Beibl, a myned heibio idd heb ddim ond crybwylliad yn unig am uniondeb; ond chwi a gewch ryw amgylchiad, a fydd (fel y gwaith drudfawr a mynegi i'r ymdeithydd mai nid dynion cyt redin sy'n gorwedd yno. Y mae Duw, wrt son am uniondeb Iob, yn ei ddangos fel y digyffelyb yn ei oes: "heb gyffelyb iddo y ddaear, yn wr perffaith ac uniawn;" *I.* i. 8. Ni a gawn hanes o'r blaen am ei fawr gyfoeth; yn hyn hefyd yr oedd efe heb gyffelyb: ond pan y gorfoleddai Duw y Satan, trwy fynegi pa fath was oedd ganddo i weini iddo, nid yw efe yn cyfrif hyn y werth ei adrodd wrth y diafol. Nid, A ddaiaist ti ar fy ngwas Iob, nad oes neb m gyfoethog?—ond neb mor uniawn. Pan mae Duw yn son am uniondeb Caleb, gwelwch mor uchel y mae yn ei ddyrchafu: "O fy ngwas Caleb, am fod ysbryd arall gyd ef, ac iddo fy nghyflawn ddilyn, dygaf i'r tir y daeth iddo: a'i had a'i hetfed ef;" *Num.* xiv. 24. Fel pe dywedasai Du Dyma ddynd nad ydwyf yn ei gyfrif yn wa ei addef yn was i mi, ac yn hoff enwedi, genyf: y mae yn un sydd â mwy o we ynddo na'r dorf gyfan o'r Israeliaid gy nachlyd ereill. Yr oedd ganddo ysbryd all, sef un yn tra rhagori ar y lleill urddas amawrwychedd. Ac ym mha beth oedd hyn i'w weled? Y geriau nesa hysbysant: "Am iddo fy nghyflawn ddilyn. Yn awr, ni a gawn weled mai ei union oedd yr hyn a ennillodd iddo y bri mawr hwn o enau Duw ei hun; yn enwedig y gorchwyl hwnw pan anfonwyd ef i chw'tir Canaan. Yn *Ios.* xiv. 7, ac *adn.* gallwn weled fod ei demtiad yn gryf i ddywedyd chwedl arall. Yr oedd yr Israel

mor glaf o'u hanturiaeth, fel mai y genad a ddygai y newydd gwaethaf oedd i gael y derbyniad mwyaf; fel y gallent hwy gael rhyw esgus am eu tuchan yn erbyn Moses, oedd wedi eu dwyn i'r fath gyfyngder. Ac allan o ddeuddeg a anfonodd, yr oedd deg yn addasu eu hattebion i fympwy anffoddog y bobl. Felly, trwy roddi mynegiad croes i'r biddynt hwy, yr oedd efe, nid yn unig yn myned dan y drwgdyb o fod yn gelwyddwr, ond yn peryglu ei fywyd yn mysg pobl orwyllt. Etto, y cyfryw oedd gwroldeb y llyn duwio hwn, ei ffyddlondeb yn ei orshwyl, a'i hyder yn ei Dduw, fely bu iddo ymddwyn, yn ol eiddywediadei hun wrth Moses, a'i hanfonodd: "Mi a ddygais iddo air drahefn, fel yr oedd yn fy nghalon;" *adn.* 7. Hyn yw, ni ddarfu iddo ymlygu trwy ofn, nac er mwyn boddio dynion; eithr yr hyn a farnodd efe yn ei gydwylbod ei fod yn wir, a hynny a lefarodd. A hyn, am ei fod yn prawf mor nodedig o'i uniondeb ef, a elwir gan Moses (*adn.* 9), yn "gyflawni myned ar ol yr Arglwydd:" o herwydd yr hyn y mae efe yn cyfodi y fath golofn o goffiadwriaeth i'wch ei ben ag a saif cyhyd a'r ysgrythyr hono ei hunan. I roddi ond un esampl yn hwaneg, a hono am Nathanael. Ar yr llyg gyntaf arno, nis gallai Crist ymatal, ond gadael i bawb o'i amgylch wybod mor awr yr oedd yn ei hoffi. "Wele (medd efe m dan) Israeliad yn wir, yn yr hwn nid es dwyll;" *Ioan.* i. 47. Yr oedd calon Crist (fel y plentyn yng nghroth Elizabeth, yr gyfarchiad Mair) yn dychlamu megys ar dyfodiad Nathanael. Ie, torodd allan yr ymadrodd hwn, nid i'w weniethio i dyb hwy fawr am dano ei hun—gwyddai Crist wrth ba fath enaid isel yr oedd yn llefaru—nid i ddwyn tystiolaeth am ei ras ei hun mudo, yn enwedig am y gras o burdeb; fel y byddai iddynt hwythau, trwy wybod pa fath bris a bri uchel a esyd y nef ar ben gras hwn, geisio ystôr helaethach o hono, n debyg i farchnatwyr call. Symledd ei calon a'i gwnaeth ef yn Israeliad yn wir. Yr oedd aml ymddangosiad golygus a thu llan gwyh i'w gwelw yn mysg y Pharisaid; etto, nid oeddynt hwy ond cym-eithas o ddyfeiswyr a llunwyr gau. Hyd n oed pan y daeth rhai o honant at Grist, an ei fawrygu am ei wiredd—"Athraw, ni wyddom dy fod yn eirwir, ac yn dysgu fordd Duw mewn gwirionedd" (*Mat.* xxii. 6); y pryd hyny, chwaredu y rhagrithwyr r oeddynt, a'u dichell ganddynt i'w dynu berygl a'u geiriau llyfnion, fel y gellwch weled yn *adn.* 15: "Hwy a ddaethant fel y gallent ei rwydo ef yn ei ymadrodd." Ond am Nathanael syml, nid oedd un dichell yn ei ben ef, yn ei ddyfodiad, ond m gael y Messiah yr oedd yn ei ddisgwyl, a bywyd tragwyddol drwyddo; ac am hyny, r ei fod y pryd hyn dros ei ben yng nghyf-

eiliornad cyffredin yr amser, "na allai prophwyd ddyfod o Galilea" (*Ioan.* vii. 52), llawer llai un mor fawr a'r Messiah, o'r fath le gwael yn Galilea a Nazareth; etto, nid i'w Crist yn goddef i'w anwybodaeth a'i gam-syniadei ddrygu yn ei farn am dano, gan ei fod yn gwelw gonestrwydd ac uniondeb ei galon.

DOSB. III.

Bellach, i roddi peth cyfrif pa ham y mae'r gras hwn o burdeb mor dderbyniol a hoff gan Dduw, nes ydyw, ie, yn ei rwydo ef mewn cariad at yr enaid hwnw y mae yn ei gael ynddo. Y mae dau beth sy'n gyfeillion anwahanol gyda phurdeb, ie, yn effeithiau sy'n tarjdu o hono; ac y maent yn dra enillgar i dynu cariad, gyda Duw a dyn.

Iaf. Fe wna purdeb yr enaid yn ewyllysgar. Pan fyddo wedi ei lwytho â chynnifer o wendidau, nes yw yn analluog i lawn gyflawni ei ddyledswydd; hyd yn oed y pryd hwnw fe saif yr enaid a'r flaenau ei draed i fyned ar ei hol. Fely gwalach ar law gwr—cyn gynted ag y gwelo ei ysglyfaeth, y mae am ehedeg ymaith, a bod ar yr adain ar ei ol; er ei fod, ysgatfydd, yn rhwym wrth y dwrn. Fel hyn y mae'r enaid cywir yn cael ei bigo a'i gynhyrfu oddi mewn gan ddymuniad cryf ar ol ei ddyledswydd, er ei ddal yn ol gan wendidau. Y mae calon berffaith a meddwl ewyllysgar yn gysylltiedeg yn 1 *Cron.* xxviii. 9. Cynghor Dafydd i'w fab Solomon yw, "Gwasanaetha Dduw â chalon berffaith, ac â meddwl ewyllysgar."

Y mae calon ffals yn galon oedgar, yn rhoddi heibio ei gwaith hyd y beiddia hi: a diolch bychan fydd am ymosod arno pan dynyr y wialen i lawr. Etto, y mae rhagrithiwr yn debyg i dopyn tro—na thry hwy nag y byddo y chwip arno: ond yr enaid cywir, y mae yn barod ac yn awyddus; nid yw yn fyr o ewylls at ddyledswydd, pan y byddo yn fyr o allu a grym i'w cyflawni. Yn 2 *Cron.* xxix. 34, dywedir "fod y Lefiaid yn unionach o galon i ymgyssegru na'r offeiriad." Pa fodd y cafwyd hyny? Yn hyn, eu bod yn fwy awyddus ac ewyllysgar i'r gwaith. Cyn gynted ag y daeth y gair o enau y brenin am ddiwygiad, dyna'r Lefiaid yn cyfodi yn ebrwydd (*adn.* 10, 11, 12) i ymgyssegru: ond rhai o'r offeiriad ni feddynt y fath ewylls i'r gwaith; ac felly, nid ymbaroent mor gyflym (*adn.* 34), gan ddangos yn hyny fwy o gyfrwysdra nag o grefydd: fel pe buasant am aros yn gyntaf, i weled pa fodd y troai yr amser allan, cyn yr aent at y gwaith. Y mae gwaith diwygiad yn debyg i lwybr ar rew; y mae ysbrydoedd anwrol yn dewis iddo gael ei fathru yn dda gan ereill cyn yr anturiant hwy arno. Ond y mae purdeb o fetel gwell; yn debyg i'r teithiwr cywir, nad oes un math o dywydd a'i ceidwr rhag myned i'w daith ar ol ei phennodi. Y dyn uniawn, nid edrych ar y cymmylau;

ni saif i feddwl am y peth hwn neu'r llall, i'w ddiagonaloni; ond cymmeryd ei waranto air Duw a wna efe; ac wedi cael hono, nid oes a'i try efw yn ol, heb wrthorchymyn gan y Duw hwnw a'i gosododd ef ar waith. Y mae ei galon yn unfurf ág ewyllys Duw. Os dywed Duw, "Ceiswch fy wyneb;" y mae hi yn addeisio, gan ateb, "Dy wyneb a geisiaf." Iê, fel pe dywedasai Dafydd o wir ewyllys, Arglwydd, y mae dy air di yn ddigon o arian cymmhell, i'm tynu i o un ddyledswydd i'r llall, pa le bynag y gweli di yn dda. Fe allai, pan fyddo enaid gywir ar ryw ddyledswydd, mai yn wanaidd y mae yn'ei gwneud; etto, y mae'r ewyllysgarwch calon yma yn foddhaol ryfeddol gan Dduw. Mor dra boddhaol fydd gan dad, pan archu i'w blentyn fyned a chyrchu rhywbeth iddo, sydd, fe allai, yn gymmair nas gall efe yn hawdd ei godi; a'i weled ef, nid yn sefyll, gan rwgnach wrth y gair fel un caled, ond yn rhedeg ac yn rhoddi ei egni at y gwaith! Er iddo, ysgatfydd, yn y diwedd fethu ei wneud; etto, y mae ewyllysgarwch y plentyn yn ei foddio mor dda, nes ydyw ei wendid yn cyffroi y tad i dosturio a'i helpio, yn hytrach nag yn ei annog i'w ddwrddio. Y mae Crist yn taflu y gorchudd hwn dros wendid ei ddisgyblion: "Yr ysbryd sydd barod, eithr y cnawd sydd wan." O! y mae yr uffudd-dod hwn, sydd fel y mêl diferol, yn dyfod heb ei wasgu, er na byddo ond ychydig o hono, yn blasu yn felus i enau Duw: a'r cyfryw uffudd-dod diffuant.

2il. Fe wna purdeb yr enaid yn wyneb agored a hyf ger bron Duw. Er fod gan yr enaid cywir lawer o waeleddau; etto, nid yw efe am guddio na chelu dim o hyn oddi wrth Dduw: na, nis gwnai, pe gallai: ac y mae hyn yn beth tra boddhaol gan Dduw. Yn ddiaw, efe a guddia yr hyn a ddadguddia y cyfryw enaid: "Os cyfaddefwn ein pechodau, ffyddlawn yw efe, a chyfiawn, i faddeu;" 1 *Ioan* i. 12.

Cafwyd tro hynod glau a thirion yn Augustus. Wedi iddo addaw, trwy gyhoeddaiad, swm mawr o arian i bwy bynag a ddygai iddo ben rhyw fôr-leidr nodedig, y môr-leidr hwnw a'i dygodd ei hun ar ol clywed hyn, ac a'i gosododd wrth ei draed. Darfu iddo yntau, nid yn unig faddeu iddo ei droseddau gynt i'w erbyn, ond ei wobrwyo hefyd am ei fawr hyder yn ei dnyrwech ef. Yn ddiaw, fel hyn y gwna Duw; er fod ei ddigofaint wedi cael ei ddadguddio yn erbyn pob pechod a phob anghyfiawnder; etto, pan ddal yr enaid ei hun, gan ymroddi ac ymostwng o'i flaen, nis gall efe estyn ei fraich i daraw y dyn hwnw sydd yn rhoddi y fath ogoniant i'w drugaredd: a hyn a wna yr enaid diffuant. Yn wir, wedi i'r rhagrithiwr bechu, efe a'i cuddia, fel Achan ei lafn aur; efe a eistedd i guddio ei chwant, fel Rahel ddellwau ei thad. Y mae mor

anhawdd cael iâr oddi ar ei nyth, a chael y fath un i adael ei chwantau, a'u haddef yn rhwydd wrth Dduw. Oni chwilia Duw ef allan, ni chyhudda efe mo hono ei hun. Nis gallaf fi ddangos tuedd wahanol y galon gywir a'r ffals yn y mater hwn yn well na thrwy gyffelybiaeth am was cyflog a phlentyn. Pan ddigwydd i was (oddi eithr un o fil dori gwydryn neu ddfirodi rhywbeth o eiddo ei feistr, bydd ei holl ofal am ei guddio o wydd ei feistr; ac am hyn, teifl ymaith darnau i ryw gongl dywyll, lle y tybia'r ddeuant byth i'r golwg. Ac yn awr, nid yw efe yn ymfino am y cam a wnaeth a'i feistr ond yn llon am ei fod wedi trin y mater fe na ddaeth i'r amlwg. Fel hyn y cyfrifai: rhagrithiwr ei hun yn ddynd dedwydd, pe gallai efo ond gosod ei bechod allan o olw Duw: nid casau y brâd y mae efe, ond ofn y gwybyddiad mai bradwr yw efe. Ac ar hyn, er fod mor anhawdd dallu llygad y Hollalluog ag yw gorchuddio a'n llaw wyne yr haul, fel na lewyrcho; etto, y rhagrithiwr a rydd gais am hyn. Ni a gawn wae yn ebyn y cyfryw yn *Esa*. xxix. 15: "Gwae rhai a ddyfgeisiant i guddio eu cyngho oddi wrth yr Arglwydd." Dyna fath bechaduriaid sydd a'u gofal, nid am wneud heddwch wedi iddynt droseddu, ond am gad yn ddiastaw a sefyll yn rhith-wirion ger bron Duw, megys Gehazi ger bron Eliseu fel pe na buasant yn unle ond lle y dylent fod. Dyna y bobl y gwaradwydd Duw hwynt hyd adref. Yr oedd yr Iuddewon: ddwfn yn y rhagrith hwn, pan yr ymgyaiwnhasant fel pobl sanetaidd, ac yr ywriant mor galed ar Dduw ag i alw arno i braei gyhuddiad, yn hytrach na chyffesu y pe oedd yn rhy wir ac amlwg. Am hyn, y mae Duw yn edliw iddynt: "Pa fodd y dywedei Ni halogwyd fi, ac nid aethum ar ol Baali. Edrych dy ffordd yn y glân; gwybydd be a wnaethost;" *Ier*. ii. 23. A oes geny fath dalcen pteuillyd a chalon ragrithio daenu llw teg dros arferion mor hyl? fynech chwi etto eich cyfrif yn saint, a barnu yn ddihalog? Yn awr, craffwch, y hir y bu y rhagrithiwr hyn, oedd fel hyn y cuddio eu pechod, hyd oni chwarseddigon o warth: "Megys y cywilyd y lleidr pan ddalier ef," medd y prophwyd "felly y cywilyddia tŷ Israel;" *adn.*

Hyn yw, megys y lleidr, sydd ar y cynt mor dalgrif a gwadu pob peth a roddir erbyn; etto, ar ol ymchwiliad, pan fyddo eiddo lladrad wedi ei gael yn ei afael, ac tau o flaen brawdle am y peth, fe'i rhoddi warth dyblyg am ei ladrad, ac hefyd i gywilydd-dra yn cyfiawnhau ei hun. Felly y mae gyda'r bobl hyn, a'r rhagrithiwr Er eu bod tra mewn heddwch ac esmwr dra yn hyf ac ymfrostar; ie, fel yn ffirganddynt fod neb yn ofni bod yr hyn yd etto, y mae amser yn dyfod a elwir, yn

2, "eu mis," yn yr hwn "y ceir hwynt," an y bydd cri a bloedd Duw yn eu dal, ei dychrynyfeydd yn chwilio eu cydwybodau, ceir yn dwyn i'r amlwg yr hyn a wadasant nor ystyfnig, gan beri dangosiad iddynt wy eu hunain, ac ereill hefyd, pa fath hug i thwyl a arferasant i ymysgwyd o'u pechod. Gellir meddwl pa fath gywilydd a orhuddia eu gwynebau, ac a bwysa eu penau lawr, tra y dyger hyn yn mlaen. Y mae Duw yn hoffi rhoddi siomedigaeth i'r rhai a ybiant eu bod yn dilyn eu chwerau mor yfrwys, am eu bod, megys Ahab, yn ymladd Duw mewn gwsg arall, ac na fynant i neb yfod mai hwy yw y bobl. Ond yr enaid ywir a gymmer fiordd arall, ac a lwydda yn well: fel plentyn ar ol gwneud ar fai, nid efa efe nes yr ä ereill i fynegi y peth i'w ad, nac hyd oni amlgyo ei dad, drwy ei edrchiad sarug, ei fod wedi clywed y peth; i'w efa a frysia yn rhwydd, ac o hono ei un, at ei dad, ac a esmwytha ei galon ddolrus drwy addef ei fai yn rhwydd a llawn rth ei draed; a hyn heb ddim arall i'w ymmhell, heb law y cariad sy ganddo at ei dad anwyl, a'r gofid sydd, tra yr oedo, yn enwi ei galon fwyfwy o herwydd ei drosodd. Ac efa a wna hyn gyda symledd calon, an roddi pwys pob amgylchiad chwanebol t ei fai: fel, pe deuai Satan ei hun ar ei ol lloffa yr hyn a adawsai, mai prin y caffai fe fodd i wneud ei fai yn dduach ei liw. Yn y modd hwn y gwna yr enaid ywir i'w Dduw, gan chwanebu (at ei symledd yn yr ddefiad o'i bechod) y fath ffrwd o alar, fel as gall Duw ond llarieiddio ei lais i dôn ysurol iddo yn ei alar, yn hytrach na'i eryddu am ei bechod; gan ei fod yn gweled i blentyn anwyl yn y fath berygl o gael ei dwyn i waered i anobaith, oni ddaw newddion o'r nef yn fuan i'w attal.

PENNOD IX.

Am natur adgas rhagrith, a'i adgasrwydd gan Dduw.

Defn. 1. A yw purdeb yn cuddio pob faeleddau? Yna y mae rhagrith yn daduddio ac yn dynoethi yr enaid er ei warth er bron Duw, gan fyddo wedi ei wisgo â'r ddruniadau gwychaf o gymmhysderau reill. Y mae hon yn grachen o'r fath ag ydd yn ysu y prydfferthwch glanaf, ac yn ewid gwedd yr enaid yng ngolwg Duw yn wy nag y gwnai gwahanglwyf, neu frech, y wyneb glanaf yn ein golwg ni. Nodedig yw ddau ddarluniad a roddir o'r ddau hyn y rhinoced Judah, Asa ac Amasiah. Am yntaf, gwelwch l Bren. xv. 14. "Ni fwrwyd ymaith yr uchelfeydd; etto, calon Asa edd berffaith gyda'r Arglwydd ei holl dyddiau ef." Y mae efe yn myned am

ddyn grasol, a hyn y er ei wendidau: "Etto, calon Asa oedd berffaith." Y mae i burdeb, fel i aur da, oddefiad, er bod rhai gronynau dan y llawn bwysau. Nid yw ei wendidau yn cael eu nodi er difwyniad i'w fri, neu i'w ddrwyg ym marn neb; ond yn hytrach fel y ddafaden neu y man-geni; yr hwn y mae'r paentiwr yn ei nodi o fwriad, i osod allan yn fwy brydfferthwch y rhanau ereill. Felly y coffeir am ei ffaeiddau yntau, i dasu gloewder mwy ar ei burdeb, oedd, er y pechodau hyn, yn gallu ennill iddo y fath dystiolaeth o enau Duw ei hun. Eithr am Amasiah, gwelwch 2 Cron. xxv. 2: "Efe a wnaeth yr hyn oedd uniawn yng ngolwg yr Arglwydd, ond nid â chalon berffaith." Yr oedd defnydd ei weithredoedd yn dda, ond cyfeiriad a thuedd ei galon ynddynt yn ddrwyg: ac y mae'r "ond" hwn yn rhoddi nod du budr ar y cwbl, ie, yn troi ei unionwaith yn gamwedd. Pennodir yr hyn yr ymddangosodd ei ragrith ynddo: "Efe a wnaeth yr hyn oedd uniawn yng ngolwg yr Arglwydd," etto, nid fel Dafydd, ei dad; "ond efa a wnaeth yn ol yr hyn oll a wnaethai Ioas ei dad ef;" 2 Bren. xiv. 3. Am dro, efa a wnaeth fel Dafydd, o ran y defnydd; ond efa ddilynnodd Ioas o ran ei agwedd; a thuedd daioni hwn ydoedd i foddio dyn yn hytrach na Duw; fel y gwelwyd yn y rhan olaf o'i deyrnasiad, ar ol marw ei ewythr duwiol, Iehoiada. Dilyn dull Ioas a wnaeth Amasiah, ac nid dull Dafydd, yn ei uniondeb. Fel hyn y gwelwn uniondeb Asa yn glod iddo yng nghanol ei amryw wendidau; ond ei ragrith yn condemnio Amasiah, tra yn gweithredu yn uniawn. Purdeb—y mae yn fywyd i'n grasusau oll, ac yn rhoddi bywyd i'n holl ddyledsdyddau: ac megys y mae bywyd yn prydfferthu ac yn cadw y corph yn beraidd, felly y gwna purdeb i'r enaid, a'i waith oll. Gweddi a anadler o galon gywir, y mae yn hyfrydwch y nef. Dygwch gywirdeb ymaith, ac fe ddywed Duw am dani, fel Abraham am Sarah, yr hon a garai yn anwyl, ac a fynwesai, tra yn fyw, "Cleddwch y marw allan o'm golwg;" y mae yn cuddio ei lygad, yn cau ei ffroen, fel pan fyddo rhyw gelain ddrwyg sawrus o'n blaen ni. "Na chwanegwch ddwyn offrw m ofer; aroglarth sydd ffaidd genyf; cyhoeddi cymmanfa, anwiredd ydyw; eich gwyliau gosodedig a gasiodd fy enaid; y maent yn faich arnaf, blinais yn eu dwyn;" Esa. i. 13, 14. Pa beth yw y drewdod hwn, y mae Duw yn codi y fath gri yn ei erbyn? Dim ond rhagrith. Yn sicr, gyfeillion, y mae yn rhaid iddo fod yn beth tra ffaidd, sydd yn peri i Dduw ddywedyd mor arw am ei ordinhadau ei hun, ie, yn eu gwneud hwynt yn *nehustan*,¹ gweddi heb fod yn weddi, ond yn wir eifun i'w falu yn chwil-
¹Darn o bres, yn lle bod yn sarph bres. Gwel 2 Bren. xviii. 4.

frw; ffydd heb fod yn ffydd, ond yn ddychymyg a siomedigaeth; edifeirweh heb fod yn edifeirweh, ond yn gelwydd croch. "Hwy a dlychwelent, ac a geisient Dduw yn fore;" *Salm lxxviii.* 34. Gwelweh fel y mae Duw yn nodi hyn; "Er hyn, rhagrithio yr oeddynt iddo ef a'u genau, a dywedyd celwydd wrtho a'u tafod, a'u calon heb fod yn uniawn gydag ef;" *adn.* 36, 37. Yr oedd hyn yn mygu Duw allan o'i dŷ ei hun, ac yn dwyn ymaith ei gariad o'r lle y dywedasai am dano, "Dyma fy ngorphwysfa yn dragywydd."

Fe ddygodd ddiogfaint Duw ar y bobl anedwydd hyn i'r eithaf. Gwelweh ddull y gorchymyn a roddodd Duw i Assur, a fu trwy waed yn gyflawnwr digder a llid Duw arnynt: "Gwae Assur, gwialen fy llid, a'r ffon yn eu llaw hwynt yw fy nigofaint. At genedl ragrithiol yr anfonaf ef, ac yn erbyn pobl fy nigder y gorchymynaf iddo ysbeilio ysbail, ac ysglyfaethu ysglyfaeth, a'u gosod hwynt yn sathra megys tom yr heolydd;" *Esa.* x. 5 6 (a gwelweh *Ier.* vii. 10—14). Ni raid anfon am swyddog a rheithwyr i chwilio yn mha fodd y daeth y bobl druenus hyn i'w diwedd gresynol; cenedl ragrithiol oeddynt—dyna'r hyn y buant feirw o hono. Gwell oedd gan Dduw weled y ffeidd-dra anghyfanneddol yn sefyll yn ei deml, nes difrodi y cwbl, na'r ffeidd-dra o'ragrith yn ei watwar yn ei wyneb, tra yr oeddynt yn ei addoli ef a'u gwefusau, a'u chwantau yn eu calonau. O'r ddau, y mae yn fwy goddefol yng nghyfrif Duw weled Belsassar, yr hwn na chafodd erioed yr enw o fod yn was iddo—yn yfed o lestri y cyssagr, mewn cyfeddach halogedig i'w dduwiau, nag i bobl a fynent eu cyfrif yn weision iddo, fod yn eu halogi yn ei addoliad ef ei hun drwy eu rhagrith erechyll. Os caiff Duw ei ddiarhydeddu, gwae i'r dyn hwnw, yn anad neb, a wna hynny dan y rhith o'i anrhydeddu. Y mae Duw yn pennodi y rhagrithiwr fel y rhyw o bechadur y myn efe ei hun ei drin law-law, ac ymosod, fe, yn y bywyd hwn, i ddwyn tystiolaeth i'w erbyn, mewn modd mwy arbenig nag ereill. Am y leidr, y lleidiad, a'r cyffelyb bechaduriaid, fe wnaed darpariaeth gan Dduw i'r swyddog gyfarfod â hwynt; y maent yn dyfod dan ei wybyddiaeth ef: ond y rhagrithiwr, y mae efe yn a synydd yn pechu yn fwy dirgelaidd—Duw yn unig a ddichon ei chwilio ef allan; ac efe a gymmerodd y peth arno: "Pob un o dŷ Israel, a neillduo oddi ar fy ol i, ac a ddyrelafo ei eilunod yn ei galon, ac a ddel at brophwyd, i ymofyn â mi trwyddo ef;" *Ezec.* xiv. 7. Darluniad rhagorol o'ragrithiwr—y mae yn a synydd yn gwadu Duw yn ei galon, gan ei chadw i'w eilunod a'i chwaint, etto, mor flaenllaw a neb i ymofyn â Duw yn ei ordinadaw: "Myfi yr Arglwydd a atebaf iddo trwy fy hun." A pha fodd yr ettyb efe?

"Gosodaf fy wyneb yn erbyn y gwr hwnw, a gwnaf ef yn arwydd ac yn ddiareb, a thoraf ef ymaith o fysg fy mhobl, fel y gwypoch mai myfi yw yr Arglwydd;" *adn.* 8. Hyn yw, caiff fy marnau fod mor hynod arno, nes y bydd yn ddrych o'm digder, i ereill ei weled a son am dano. Y mae Duw yn talu fel hyn yn fynych i'r rhagrithiwr yn y bywyd hwn, megys Ananias a Sapphira: y rhai a fuant feirw, trwy law Duw, â cheiwydd yng nglŷn yn eu gyddfau. Felly Iuda yr hwn trwy ei gelfyddyd ragrithiol n ennillodd ond cebystr i ymrogi âg ef: diweddodd ei chwareu rhagrithiol â Chris yn chwareu dieffig âg-ef ei hun, pan aeth yn ddienyddwr iddo ei hun. Ond os diange y rhagrithiwr weithiau o'r byd hwn, cyn i'w orchudd syrthio ymaith, ac heb deimlo llied Duw, y mae yn sicr o'i gyfarfod yn uffern ac ni fydd iddo ond cysur gwael yn wrth feddwl am y modd y twylloedd ef ei gymmydogion, trwy forio i uffern, lhwythau yn meddwl yn hyderus ei fod y hwylio tua'r nef. Ni bydd i'r tyb da a adawodd efe am dano ei hun, yn y rhai syd ar y ddaear, oeri dim ar filamau uffern iddo lle y mae lletty wedi ei gymmyrd a'i ragbarotoi i'r rhagrithiwr, fel y llettywr pen: sydd i'w ddisgwyl yn yr uffernlys hwnw. Nid yw pob pechaduriaid ereill ond megys brodyr ieuengaf mewn damnedigaeth wrt y rhagrithiwr; dan yr hwn, fel y prif etifed y maent yn derbyn bob un ei ran o ddigofaint a bennodir iddynt gan gyfiawnd Duw. Yn *Mat.* xxiv. 51, y mae'r gwas drwy dan fgythiad ei feistr, y bydd iddo "ei w hanu ef, a gosod ei ran ef gyda'r rhagrithiwr."

Qwest. Ond pa ham y byddai Duw m ddioglawn wrth y rhagrithiwr? Y mae ymddangos yn greadur llonydd, wrth bechaduriaid ereill, sydd, fel bwystfilod gwyllti yn creuloni ac yn rhuo, heb ofni agor eu sa megys cynnifer o ffeidiad, yn erbyn y n fel pe byddent am hyrddio Duw o'i orsedrwy eu cabledau a'u hanwireddau ereill. Nid yw rhagrithiwr wedi ei nodi fel hyn digwylydd-dra, i bechu ar ganoldydd, thaenu ei babell, fel Absalom, ar nen y Os yw efe yn ddrwg, mewn congyl y mae ni âd ei wyleidd-dra cywyllyddgar iddgyhoeddi ei bechod, na bod i'w weled o cartref yn ei gymdeithas: nag e, efe ymwâd â llawer o bechodau a goled gan ereill; ac efe a rodia mewn ymarfer o amryw ddyledswyddau, y rhai y mae brydoedd annuw y byd yn eu gwawdio dirmygu. Pa ham ynte y byddai i'r rhagrithiwr, sy'n byw fel sant wrth ereill, mor adgas ganddo ef?

At. Yn wir, ar yr olwg gyntaf, gelcymmyrd y rhagrithiwr fel math o sagan y rhai na welant ond ei du allan, a thymae yn myned heibio yn ei wisg dydd gw

I hyn y mae efe dan rywmau, am y bri sydd iddo yn meddyliau rhai ereill; ac am hyn y mae un yn gymmhws yn ei alw yn sant i estroniaid, ond yn Satan gan y rhai a wŷr yn well am dano. Y mae yn debyg i ryw ddydd efrydd cyfrwys, sydd yn rhaid iddo fenthyca help celfyddwaith i guddio diffygion natur; megys gwallt ffals i guddio ei foelni; llygad o gelyddwaith i guddio ei ddellni allan o olwg ereill; ac yn debyg am ranau ereill. Y mae ar y fath un lawer o hellynt i osod ei hun allan fel un pryferth i ereill, ond mor anghenfilaid fyddai gwedd y dyn hwn, pe gwelid ef trwy dwll y clo, fel y mae yn ystafell ei wely, a'r rhai hyn oll o'r neilldu! Cyffelyb, yn ddiau, a hyllach o lawer, y gwelid y rhagrithiwr, pan fyddai heb ei wisgiad chwareu, a ddefnyddia efe yn unig pan ddell allan ar y chwareufwrdd, i chwareu rhan sant o flaen ereill. Byddai yn ddigon i'n brawychu ni, pe gwelom ond y rhagrithiwr wedi ei ddinoethi: pa beth ynte fydd iddo ef ei hun, pan yr amlygir ef o flaen dynion ac angylion? Y mae y genedlaeth hon mor adgas gan Dduw, fel nad yw yn ddiogel sefyll yn agos atynt. Y mae Moses, a adwaenai Cora, Dathan, ac Abiram yn well na'r bobl, y rhai, wedi wedi eu wyllo trwy eu sel ymddangosiadol, oedd yn yru yn dyrfaoedd ar eu holau, yn galw arnynt i gilio oddi wrth bebyll y dynion lrygionus hyny, os nad oeddynt am gael eu lifetha gyda hwynt. Yr oedd efe yn ddiswyl i ddialedd yn fuau oddiweddy y fath yrgrith arswydus. Ond, tuag at ei ddangos yn bechod sy'n dra phechadurus, ni a nodaf rhai chwaneigiadau ato; yn y rhai y goblygir ynnifer o resymau, pa ham y mae mor adgas gan Dduw.

1af. Y mae rhagrith yn bechod sy'n cynryg trais, i.e. ar oleuni natur. Y goleu awnw sydd yn ein hargyhoddi fod Duw, a ddywed i ni ei fod i'w wasanaethu, a hyny mewn gwirionedd; os amgen, ofer fydd y cwbl. Y mae celwydd yn bechod a ehedai i wyneb pagan; a rhagrith yn gelwydd mwyaf croch, am y rhoddir ef i Dduw ei hun. Felly y dywed Pedr wrth yr adyn ffuantus hwnw, Ananias: "Pa ham y llanwodd Satan dy galon di, i ddywedyd celwydd wrth yr Ysbryd Glân! Ni ddywedaist ti gelwydd wrth ddynion, ond wrth Dduw." *Act. v. 3, 4.*

2il. Nid mor briodol y gellir galw rhagrith yn bechod unigol, ag yn bechaduruswydd pechodau ereill. Y mae ym mysg pechodau fel cywirdeb ym mysg grasau. Yn awr, nid gras unigol yw hwn, ond addurn, sy'n harddu ac yn pryferthu pob grasau ereill. Ffydd—ei mawr werth yw ei bod yn ddiffuant; a chariad—ei fod yn ddiragrith. Felly, adgasrwydd yw mewn pechod pan ei gwneleu mewn rhagrith. Y mae Dafydd yn mwyhau pechod y cymdeithion gwawdus hyny,

yr oedd efe yn destyn ganddynt wrth eu byrddau (y rhai nis gallent brofi eu harlwy heb ei bereiddio â pheth halen gwawd i'w daflu ato ef); a'i chwaneig-ar yw hyn, eu bod yn "watwarwyr rhagrithiol;" *Salm xxxv. 16.* Hwy a'i gwnaent yn ystrywgar, gan oblygu eu gwawd, y mae yn debygol, mewn iaith a allai beri i rai, oedd heb graffu yn dda arnynt, feddwl ei bod yn ei ganmawl. Y mae ffordd o ganmawl, a ddysgodd rhai ei harfer, pan fyddont yn meddwl bwrw y dirmyg mwyaf ar y rhai a gasânt yn lliodig: ac y [mae'r gwatwarwyr rhagrithiol hyn yn haeddu eu gosod yn y gadair gan bob gwatwarwyr ereill. Yr ydys yn cyfrif twmyn, neu lucheden, yn adwythig, yn ol y radd o bydredd a fyddo ynddi. Gwir bydredd a braenedd y galon ydyw rhagrith: po mwyaf o'r ystwi ffwrdd hwn a fyddo mewn rhyw bechod, mwyaf adwythig ydyw. Y mae Dafydd yn son am anwiredd ei bechod: "Addefais fy mhechod wrthyf, a'm hanwiredd ni chuddiais; dywedais, Cyffesaf fy anwireddau i'r Arglwydd; a thi a a faddeuaist anwiredd fy mhechod;" *Salm xxxiii. 5.* Y pechod hwn oedd ei odineb gyda Bethseba, a'i laddiad o Urias, fel y mae yn debygol iawn, wrth ei hir dewi; *adn. 3;* ac wrth y maddeuant agafodd yn ebrwydd ar ei gyffesiad; *adn. 5.* Gwyddom ddarfod i Nathan ddadgan hyn iddo: ac y mae efe ym mhellach yn bwriadu parhau i gyffesu: gwelir hyn wrth ei alar yn *Salm li, a* ganlynodd ei ymddiddan â Nathan. Yn awr, fe ddywed Dafydd, i hynodi trugaredd faddeuol Duw yn fwy, ddarfod iddo, nid yn unig faddeu ei bechod, ond anwiredd ei bechod. A pha beth oedd hyny? Yn sicr, y gwaethaf a ellir ei ddywedyd am ei bechod cymmhlethighwnw, yw, fod cymmaint o ragrith ynddo. Efe a ledrithiodd yn echrhydus ynddo gyda Duw a dyn. Hyn, mi a ddywedaf, oedd anwiredd ei bechod, ac yn ei liwio yn ddyfnach na'r gwaed a dywalltodd. Ac yr wyf o hyn yn fwy am osod y pwys yno, o herwydd fod Duw ei hun, wrth osod allan adgasrwydd y pechod hwn, fel un yn gwneud hyny yn hytrach oddi wrth y rhagrith yn y weithred, nag oddi wrth y weithred ei hun, fel yr ymddengys oddi wrth ei dystiolaeth am y gwr duwiol hwn: "Dafydd a wnaeth yr hyn oedd uniawn yn ngolwg yr Arglwydd, ac ni chiliodd oddi wrth yr hyn oll a orchymynodd efe iddo, holl ddyddiau ei einioes, ond yn achos Urias yr Hethiad;" *1 Bren. xv. 5.* Ainiroddodd Dafydd un cam gŵyrog heblaw hwn? A yw yr Ysbryd Glân, wrth yr ond yma, yn dadgan ei gymmeradwyaeth o'r cwbl a wnaeth efe hyd at hyn? Nag ydyw, yn sicr; y mae Ysbryd Duw yn coffau am bechodau ereill, y bu y gwas enwog hwn i Dduw yn feius ynddynt; ond y mae y rhai hyny oll yn cael eu boddi yma, a hwn yn cael ei bennodi fel

unig warthnod ei fywyd. A pha ham? Yn sier am fod llai o burdeb yn ymddangos, i.e., mwy o ragrith yn yr un pechod hwn nag yn ei bechodau ereill oll ynghyd. Er fod Dafydd yn y rhai hyn yn wryrog o ran defnydd ei weithredoedd, etto, yr oedd ei galon yn llai ar wŷr o ran ei ddull yn eu gwneuthur. Eithr yma, rhoddwyd archoll alaethus i'w burdeb ef, er nad hyd lwyrr ddinystr y reddf; etto, fe'i rhoddwyd mewn hir lewyg, o ran dim o'i weithrediadau. Ac yn ddiau, fe aeth y briw yn dra dwfn, pan wanwyd y gras hwnw, ym mha un y rhedai gwaed bywyd y lleill oll. Yr oedd trugaredd Duw yn ei gymhell, a'i gyfammod yn ei rwyno, fel nad adawai efe ei blentyn i farw o'r archoll hwn, neu i fod yn ol dros byth am y pechod hwn, trwy ddiffyg edifeirwch ar un llaw, na diffyg trugaredd faddeuol ar y llall. Etto, gwelwn fod gan Dduw reswm am ei iachau mewn modd a adawai graith ar y fan, a nod ar y pechod, wrth y rhai y gallai ereill wybod mor atgas ganddo yw rhagrith.

3ydd. Am yr ystyriaethau a allant, ar y cyntaf, ymddangos fel yn lleihau ac yn pilio ymaith beth o erchylldra pechod y rhagrithiwr (sef, Ei fod yn rhodio mewn gwisg grefyddol, yn meddu ffurf duwioldeb nad oes gan ereill, ac yn arfer dyledswyddau a esgeulusir gan ereill; y mae y rhai hyn, a'r cyffelyb, mor bell oddi wrth leihau ei bechod, fel y maent yn chwaneodi mwy-at ei bwys. Ystyriwn y rhagrithiwr mewn golygiad deublyg: ac fe amlygir hyn, naill ai yn y pethau y mae efe yn masnachu ynddynt, ai yn y pethau y mae yn hōni hawl iddynt; y mae y rhai hyn yn oruchel a sanctaidd; ac nis gall pechod yn y rhai hyn fod yn bechod o fath gyffredin. Y pethau y mae yn masnachu ynddynt ydyw dyledswyddau addoliad Duw; y pethau y mae yn hōni hawl iddynt yw perthynas â Duw, rhan yng Nghrist, cysuron yr Ysbryd, a'r cyffelyb. Dyma bethau o uchel bris; a rhaid yw i feth yn y rhai hyn fod yn gyfatebol i'w naturiaeth uchel hwynt. (Fel y bo y gwlan, felly y bydd yr edeu a'r brethyn, yn fras neu fain.) Nid yw y dyn halogedig yn ymhoi am y rhai hyn; nis gall efe nyddu edeu mor fain, am fod y gwaith a drinir ganddo ef yn frasach: ni osodir y fath bris uchel o ddigofaint ar ei holl ddrygwaith ef ag ar eiddo y rhagrithiwr, gan ei fod ef yn anwybodus o Dduw, ac yn estron i ffydd Duw.

DOSB. I.

1. Y mae y rhagrithiwr yn masnachu yn nyledswyddau addoliad Duw. Y mae Iudas yn eistedd gyda'r apostolion ereill wrth y pasg, ac yn rhoddi croesaw iddo ei hun mor hyderus a phe buasai efe y gwestwr goreu, a'r glanaf o'r holl gymdeithas. Y mae'r Phariseid baleh yn brysio i'r deml, mor gyflym a'r publican calon ddrylliog.

Ond pa waith wna y rhagrithiwr gyda'r pethau hyn? Dylid gwybod y gwir am hyn. Gwaith alaethus, Duw a'i gwyr; onid e, ni byddai iddo ei fflieiddio mor drwm, nes yw ei lais i'w glust ef fel cyfarthiad ei, neu udiad blaidd, tra y mae yn gweddio. Ni a dybiwn fod gan Dafydd law gywrain wrth y delyn, a allai lonyddu ysbryd drwg a gwyllt Saul. Ond pa fath darawiad gerwin a chras sy gan y rhai hyn yn nyledswyddau crefydd, a fedrant ddiglloni ysbryd tirion-fwyn Duw, i.e., peri iddo dori allan mewn lliid i'w herbyn? Ac nid rhyfedd, os ystyriwn ond y ddau beth hyn.

1af. Nid yw y rhagrithiwr yn gwneud dim llai a gwatwar Duw yn ei ddyledswyddau oll; ac o bob peth, yn waethaf y cymmer Duw hyn: "Ni watwarir Duw." Yr oedd Crist yn pregethu hyn pan y mell-dithiodd y ffygysbren, yr hwn, a'i ddail gwyrddlas, oedd yn gwatwar yr ymdeithydd, gan beri iddo ddyfod ato am firwyth, a mayned heb ddim. Pe buasai heb ddail, fel yr oedd heb firwyth, ni chawsai mo'r felldith arno. Y mae pob celwydd yn watwar ar y neb ei dywedir wrtho; am fod y cyfryw un yn bwriadu twyll, ac felly yn rhoddi siom arno: "Ti a'm twyllaist ac a ddywedaist gelwydd wrthyf," ebe Dalilah wrth Samson; Barn. xvi. 10. Fel pe ddywedasai hi, yn ol ein dywediad ninnau, "A wyt ti yn gwneud ffwl o honof?" Yr wyf yn ei adael i'r rhagrithiwr, yn beth i'w ddwys ystyried, pa beth y mae efe am ei gwneud o Dduw, wrth osod i'fyny ei wasanaeth rhagrithiol. Gorchymyn Duw oedd, na byddai "i neb ymddangos ge ei fron yn waglaw;" hyn a wna y rhagrithiwr; ac felly y mae yn gwatwar Duw. Efe a ddaw yn wir â cheg lawn, ond â chalon wag. O ran trefnusrwydd dyledswydd, ef a ragora yn fynych ar Gristion cywir. Efe os neb, a ellir yn gywir ei alw yn feistr defodau, o herwydd fod y cwbl o'i groesaw i Dduw, mewn dyledswydd, yn gynnwys edig mewn llys-ddefodau glin a thafod. Mor ffaidd ydyw hyn gan Dduw, gell hyn hawdd barnu wrth y fflieiddiad ddangosaf, i.e., gwr doeth, o gael ei wasan aethu felly. Gwell bod heb ddangos rhyt o gariad, na'i broffesu heb ei fwriad. Ar y galon yr edrych Duw mewn dyledswydd: os bydd gwyn yn dda, efe a'i cynmer o gwpan bren; ond er mor wyc oreurog fyddo yr cwpan, heb win ynddi, mae efe yn cyfrif mai ei watwar y mae dyn a fynai ei chynnyg iddo. Achwynir Crist yn erbyn Sardis oedd, "Ni chefydy weithredoedd yn gyflawn ger bron Duw Dad. iii. 2. Cywirdeb a wna ein dyledswydd yn un gyflawn, ac felly ein gweithredoedd oll; a chraffwch ar y geiriau, "ger bron Duw;" y maent yn arwyddo fod yr eglw hon yn dal at y fath ffurf allanol o grefydd ag a gadwai ei gair da gyda dynion; yr oed

ganddi enw o fod yn fyw; ond nid oedd ei gweithredoedd yn gyflawn ger bron Duw. Yr oedd efe yn ei chwilio yn ddyfnach nag y gallai prawf dyn gyrrhaedd, ac yn ei barnu yn gywirach yn ol ei chyflwr oddi mewn.

2il. Y mae y rhagrithiwr yn cyflawni dyledswyddau addoliad Duw oddi ar ryw fwriad gau; ac y mae hyn yn ei wneud ef yn ffeiddiach etto ger bron Duw, yr hwn y mae yn ffeiddig ganddo fod i'w ordinhadaf eufael eu llogi, i weinyddu i chwant y rhagrithiwr, neu eu harfer yn unig fel ffrwd i droi ei felin ef, a dwyn ei fwriadu anianol ef yn plygus i ben. Wedi i Absalom lunio ei ddyfais yn ei fynwes anianol ei hun, a beichiogi ar ei frad fel gwiber ar ei hwyau gwenwynig, i Hebron y mae yn prysuro; a hyn (Och ni!) i dalu hen addunedd, a wnaethai efe i'r Arglwydd, yn amser ei helbul: 2 Sam. xv. 7, 8. Pwy ni thybiasai fod y dyn yn prifio yn onest, pan ddechreuodd feddwl un dalu ei hen ddyledion? Ond nid oedd lim yn llai ym mwriad yr adyn: ei megys yno oedd, i osod ei frad dan aden rynnhes crefydd, fel y byddai i'r parch a ennillai efe drwy hyny helpu i'w ddeor yng nghynt. Ac mi a ddymunwn, megys y bu i'w ffrad heb fab i gadw coffa am ei enw, felly, na buasai un wedi ei adael yn ol i etifeddu ei ragrith melldigol ef, fel y laethia y byd i anwybodaeth dedwydd am bechod mor anghenfilaid. Ond och! dymuniad ofer yw hwn; y mae y fath yma o ragrith etto yn fyw, ie, yn dyfod mor hyf ag erioed i wynebu Duw yn ei addoliad. Y mae llawer yn gwneud yr un fath ddefnydd o hono ag a wna rhai o'u cludgadeiriau, i'w cludo dan gél at fwynddau o'u chwantau. Ac a ydyw yn rhyfedd fod i'r Duw a osododd ei ordinhadaf i'r fath ddbienion uchel a sanctaidd, ffeiddio y rhagrithiwr sydd fel hyn yn eu halogi yng ngwasanaeth Satan? Pe gwahoddech chiw wyr i wledd gostus yn eich tŷ, y rhai, yn lle ymborthi ar y danteithion a barotoisech iddynt, a gymmerent ac a laflent y cwbl i'w cŵn dan y bwrdd—pa fodd y carech chiw eich gwestwyr? Y rhagrithiwr yw efe, sydd yn tafu pethau sanctaidd Duw i'w gŵn. Y mae Duw yn ein gwahodd i'w ordinhadaf, megys i wledd gostfawr, lle y mae yn barod i'n croesawu mewn cymundeb hyfryd âg ef ei hun. Pa ddyrgioni erchyll ynte y mae y rhagrithiwr yn euog o hono? Pan eisteddo efe wrth fwrdd Duw, nid yw efe yn bwyta y danteithion ei hun, ond yn tafu y cwbl i'w chwantau; peth i'w falchder, a pheth i'w gybydd-dod; heb osod iddo ei hun un diben arall wrth ddyfod iddynt heb law rhagddarbod i'r chwantau hyny. Megys Hemor a Sichem ei fab, y rhai, wrth annog pobl eu dinas i ymostwng i'r enwaedlad, a ddefnyddiasant hyn, fel eu dadl fawr, i'w hannog, y cyfoethogid hwynt trwy hyny.

“Osenwaedir pob gwryw i ni, fel y maent hwy yn enwaeddig. Eu hanifeiliaid hwynt, a'u cyfoeth hwynt, a'u holl ysgrubliad hwynt, onid eiddo ni fyddant?” *Gen. xxxiv. 22, 23.* Rheswm taclus, onid e, mewn gorchwyl o'r fath natur uchel a myned dan ordinhad i Dduw? Y maent yn siarad fel rhai yn myned i farchnad ceffylau neu wartheg, yn hytrach nag at ddyledswydd grefyddol. Yn ddia, er fod y rhan fwyaf o ragrithiwr yn gallach na chyhoeddi eu meddyliau fel hyn, a gadael i'r byd ddarllen yr hyn sydd yn ysgrifenedig yn eu calonau, etto, fel y dywedodd y frenhines Mari, am dref Calais, “Ped agorid hi, y ceid Calais yn ei chalon;” felly, fe geid rhyw wael bethau o'r fath, megys gwag ogoniant, elw bydol, &c., yn gerffedig ar fynwes pob rhagrithiwr, fel y peth y mae yn cyfeirio yn fwyaf ato yn uyledswyddau crefydd.

DOSB. II.

2il. Ystyriwch y rhagrithiwr yn y pethau y mae yn hōni hawl iddynt: ac nid rhagorfreintiau bychain ydynt; sef, perthynas â Duw, hawl yng Nghrist, &c. Pwy sydd yn fwy blaenllaw i'w seintio ei hun, a chymeryd arno feddu grasusau a chysuron yr Ysbryd, na'r rhagrithiwr? Megys y gwelwn yn y Phariseaid, mawr fwriad y rhai oedd cael enw, ac nid y fath enw ag sydd gan fawrion y ddaear, am wroldeb, mawredd bydol, a'r cyffelyb, ond am sancteiddrwydd a dwioldeb. Ac yr oeddynt yn ei gael, pe gwnaethai les iddynt: “Yn wir, medd Crist, y maent yn derbyn eu gwobr;” *Mat. vi. 2.* Mynent gael eu cyfrif yn saint nodedig; ac felly y cawsant gan y dorf, oedd yn eu moli felly am eu sancteiddrwydd, oedd i'w weled y tu allan, nes bod ganddynt ddiareb, “Pe na byddai ond dau i gael eu cadw, byddai i un o'r ddau fod yn Phariseaid.” Ni a ddarllenwn am rai “yn profesu yr adwaenant Dduw, eithr ar weithredoedd yn ei wadu;” *Tit. i. 16.* Hwy a hyf-ymffrostient am eu cydnabyddiaeth â Duw, ac a fynent eu tybied yn rhai anwyl ganddo ef, er eu bod mewn buchedd yn llwyr groes iddo. Felly yn *Dad. iii. 9*, ni a gawn rai “yn dywedyd eu bod yn Iuddewon, ac nid ydynt ond yn dywedyd celwydd.” Ai byw y maent yn mysg cymmydogion drwg, na ddywed neb mor dda am danynt ond eu hunain? Mae y rhagrithiwr mor awyddus am gael ei gyfrif yn sant, hyd onid yw, yn gyffredin, yn enllibydd ar rასusau rhai ereill, am eu bod yn cadw ei bethau ef ei hun yn ormod o'r golwg. Megys Herod, yr hwn, fel y dywed Eusebius, gan ymfino o herwydd gwaelder ei darddiad ei hun, a losgodd hen achau yr Iuddewon, fel y gallai yn well amddiffyn ei ach rith-enwog ei hun.

Pwy yn awr a all roddi pwyslais llawn addas ar y bechod uchel-ddringol hwn o ragrith? Y mae yn bechod sydd yn bwrw

dirmyg trwm ar Dduw, fod y fath adyn gorwael yn hōni perthynas âg ef. Yn wir, nid cywilydd gan Grist alw y saint tlotaŷ yn frodyr; ond y mae yn warth ganddo weled ei enw ar ragrithiwr pŵdr galon, fel y mae gan dywysogion weled eu llun yn argraphedig ar fetel gwael. Y fath ddirmyg a roddwyd ar y rhith-dywysog hwnw, Perkin Warbeck, yr hwn, wedi cael rhyw friwsion o foesau llys, a'i addysgu pa fodd i *actio* ei ran, a gynygiwyd i'r byd yn lle mab i Edward IV! Ond wedi iddo dros ennyd ddynwared agwedd tywysog, cafodd ei ddal a'i ddanfôn o amgylch, â'i achau gwael, anenwog, ynysgrifenedig mewn llythyrenau amlwg yng nglŷn wrth ei gefn; fel, pa le bynag yr elai, y byddai iddo ddwyn ei warth i'w ganlyn; ac o'r diwedd, fe'i danfonwyd i *actio* y rhan olaf o'i chwareu ar y crogbren. Ond pa beth yw hyn oll wrth ran y rhagrithiwr? Caiff hwn—am dwyllo ereill yma â rhith o sancteiddrwydd, fel pe byddai efe o darddiad nefol, yn blentyn Duw, ac yn etifedd gogoniant—ei ddwyn allan yn y dydd mawr i'w hwtio gan ddynion ac angylion; ac ar ol ei roddi dan y gwarth cyhoeddus hwn, ei fwrw yn ddyfnaf i uffern. O bob pechaduriaid, efe sydd yn gwneud y drwg mwyaf yn y byd hwn; ac am hyny, fe gairf y boen fwyaf yn y nesaf. Mae drwg dyblyg, nad oes gan neb y fath fantais i'w wneud a'r rhagrithiwr trwy ei rith-santoliaeth. Gwna y naill tra y mae ei air da yn dal, a thra y mae yn myned yn lle plentyn i Dduw yn nhyb ei gymydogion; a'r llall wedi yr hollt ar ei air da, ac iddo gael ei amlygu yn ei liw yn rhagrithiwr.

Y drwg a wna efe, tra yn gwisgo ei hug, sydd fel y mae yn dwyllwr. Gwyddai Machiavel pa beth oedd yn ei wneud wrth gymmhell ymddangosiad o grefydd, er ei fod yn gwarafun chwanaeg. Cafwyd hyn yn abwyd goreu at ddenu pobl i'w rhwyd; hwy a ddeuant yn gyflym i mewn pan fyddo crefydd wedi ei gosod i fyny fel baner. Ni allasai Ehwd feddwlam unagoriad gwelliagor pob drws, a chael iddo dderbyniad i wydd brenin Eglon, na hōni fod ganddo genadwri ato oddi wrth yr Arglwydd. Fe gododd hyn y fath ddisgwyliad, ac a fagodd y fath hyder, fel y gwnaed lle iddo: aeth pawb allan yn ebrwydd, a gadawyd ef yn unig gyda'r brenin. Ie, y mae'r brenin yn cyfodi i glywed y genadwri sydd oddi wrth yr Arglwydd; ac felly, i roddi iddo well mantais i'w frathu yn ei boten. Oni buasai i rai yn ein hoes nimau groch-hōni santoliaeth, yr wyf yn meddwl y cawsent y drws yn gauad, lle y mae iddynt yn awr ormod o groesaw, a lle y maent yn cael cred rwydd i'w cyfeiliornadau. Mae hyd yn oed yr etholedigion mewn peth perygl, pan fyddo un a folir fel sant yn genadwri i ddwyn cyfeiliornad i'r dref; a hyn dan y ffug o genadwri oddi

wrth Dduw. Yr wyf yn addef fod y rhagrithiwr yn *actio* ei ran mor drefnus, fel y gall ddiwydd gwneud peth lles; gall ei broffes loew-deg, ei eiriau nefolaidd, ei ddoniaiau gwych mewn gweddi neu bregeth, effeithio yn ddwys ar yr enaid cywir, a bod yn achos o wir lesâd i'w enaid. Megys chwarydd; er fod ei ddagrau yn ffuantus, etto efe a all gynnhyrfu gwir dristwch yn ei edrychwyr, trwy ei lais a'i agwedd, nes periddynt hwy wylo o ddifrif. Felly, y rhagrithiwr, wrth chwareu ei ran gyda ei serch ffals, gall fod yn foddion i dynu allan a chynnhyrfu grasusau cywir y Cristion: ond yna y mae'r cyfryw un yn llawer mwy ei berygl o gael ei faglu â'i gyfeiliornad ef: o herwydd nid yn hawdd y drwgdybia efe ddim gan hwnw, y profodd efe ei fod o ryw wir help i'w ras, neu ei gysur. Ac fel hyn, nid yw y lles a wna y rhagrithiwr ond yn ei alluogi i wneud niwed mwy yn y diwedd. Buasai yn well i Sisera fod wedi myned ymaith heb ymenyn a llaeth Iael, na chael ei osod i gysgu ganddynt, erbyn ei dyfod â' hoel ganddi. A gwel o lawer fuasai i lawr yn ein hoes ninnau fod heb brofi o ddoniaid a rhith rasusau rhai, na chael eu dal gan y gwin melus hwn, nes yfed ac ymfeddi, dra-mawrygu eu personau. Y mae hyn wedi ei roddi i gysgu; a thrwy hyny, y maent wedi rhoddi mantais fwy i'r rhai: godasant mor uchel, i yru eu hoel i'w penau—eu cyfeiliornadau wyf yn ei feddwl, i'r barnau.

Y drwg arall a wna y rhagrithiwr, sydd pan ddadguddier ef; a hyny fel y mae y waradwydd i ffyrdd a gweision Duw. Dywedir am Samson, "Y meirw a laddasai ef wrth farw, oedd fwy nag a laddasai efe (y ei fywyd)." *Barn*. xvi. 30. Yn wir, fe wna y rhagrithiwr fwy o niwed pan d'adguddier ef, yr hyn yw marwolaeth ei broffes, y phan y tybygid ei fod yn fyw. Y bydoliol diras, na fyddant yn hir yn chwilio am sic i guro y saint a hi, y mae ganddynt un y awr wedi ei rhoddi yn eu llaw gan y rhagrithiwr. O! fel y gallant chwareu ar tant gerwin hwn, a dwbio gwyneb y profiewyr i gyd â'r budreddi a welant a'r wisg i gau frawd! Fel pe gallent fesur hyd tra y cwbl, wrth fesur un rhagrithiwr. Od yma y daw y fath iaith wrthun a hon, "C un haid y maent oll; nid oes un gwel na llall." Yn wir, rhesymiad tra anhwyg y hwn: fel pe dywedai un nad oes dim ar derbyniol a da, am fod ambell aw drwg i'w gael yn mysg y lleill: ond i sa yr anwir fydd y mae'r iaith hon yn gwedd a gwae fydd i'r dyn a wna y fath saeth iddynt, trwy ei ragrith; y rhai a ergydid hwy yn erbyn y saint. Gwell fuasai i'r gael ei dasfu i'r môr, â maen melin o amgyl ei wddf, nag iddo fyw i roddi achysur gelyn gablu.

PENNOD X.

De yr annogir pawb i roddi eu hunain ar y prawf, ai cywir ai anghywir ydynt; tri o resymau at annog i'r gwaith; a phedwar o nodau gau, wrth ba rai y mae y rhagrithiwr yn ymwneithio i djb o'i fod yn wr uniawn.

Defn. 2. Yn ail, A yw purdeb yn cuddio roll wendidau y saint? Y mae hyn yn langos mor angenrheidiol ydyw i bob yn profi ei ffyrdd, a chwilio ei galon yn fanwl, a un ai cywir ai-rhagrithioliol ydyw.

DOSB. I.

1. Y mae'r cwbl yn ymddibynu ar hyn, e, y cwbl o dy werth mewn byd arall; i'th vneud i fyny neu dy audwyo, am byth. 'O Arglwydd, gwna ddaioni i'r rhai uniawn yn eu calonau: ond y rhai a ymdrodd i'w rofyddu, yr Arglwydd a'u gyr gyda gweithredwyr anwiredd;" *Salm cxxv. 4, 5.* Dyna'r liwedd y mae y rhagrithiwr yn sicr o ldyfod iddo. Byddai yn wych ganddo gael i gyfrif yn sant y pryd hwnw, ac ymwithio mewn ym mysy y rhai duwiol; ond Duw i' gyf ef gyda gweithredwyr anwiredd—ymdeithion sy'n fwy addas iddo. Purdeb fydd mewn bri yn y dydd hwnw. "Mi ddeuaf atoch ar fyrder," medd Paul, "ac a'ynaf wybod, nid ymadrodd y rhai sy wedi rhwyddo, ond eu gallu: canys nid mewn ymadrodd y mae teyrnas Dduw, eithr mewn gallu. Beth a fynwch chwi? Ai dyfod o honof fi atoch chwi â gwialen, ynte mewn mariad?" *1 Cor. iv. 19.* O gyfeillion, nid Paul, ond Crist a ddaw ar fyrder atom ni, ac a fyn wybod, nid ymadrodd ac iaith lefn y rhai sydd yn ymchwyydo ar wag enw o broffes, ond eu gallu; myn chwilio y galon, a gweled bethsydd ynddi. Yn awr, a fynwch chwi ddyfod o hono ef â gwialen, ynte mewn mariad; i'ch barnu fel rhagrithiwr, ynte i roddi i chwi wobrgwas da a ffyddlawn? Onid gwario ei amser yn ddrwg y mae efe, sydd yn ymboeni yn ei gelfyddyd, ac yn gosod allan ei holl ystôr ar ryw eiddo, ond pan agoro ei weithgell, ei eiddo oll yn cael ei ddwyn ymaith fel nwyfau [*ware*] ffals, ac yntau yn cael ei ddal am dwylo y wlad. Ceir gweled, yn nydd mawr Crist, fod y cwbl o waith y rhagrithiwr yn ffugiol; ac fe gaiff yn sicr ei ddimchwelyd i uffern am ei gais at dwylo Duw a dyn. Caiff gwaith pob dyn ei amlygu y pryd hyny—y dydd hwnw a'i dengys. Hyd yn oed y gwir Gristion, lle yr ymheliodd â rhagrith, a gyll ei waith hwlw; ond y rhagrithiwr gyda'i waith, a gylle ei enaid hefyd.

2. Ystyria fod rhagrith yn llechu o fewn y galon: os na fyddi yn dra gofalus, ti a elli yn hawdd roddi cam farn arnat dy hun. Y gwyr a anfonwyd i chwilio y seler dan y senedd-dy (yn amser y brâd mawr), ni welsant ar y cyntaf ond glo ac ystôr gauaf; ond erbyn ail edrych, pan aethant i fwrw ymaith yr ystwrff hwnw, nid oedd y cwbl a gawsant ond arlwy i gegin y diafol. Yna

y dinoethwyd dirgelwch yr anwiredd, ac y gwelwyd y barilau pylor. Pa niferi sydd, oddi wrth rai o ddyledswyddau crefydd a gyflawnant, a rhyw sel a ddangosant mewn crefydd, yn ebrwydd yn llefain, Pob peth yn dda, ac mor dyner wrthynt eu hunain, a'u dadgan eu hunain yn Gristionogion da, y rhai pe yr ymroddent i droi y rhai hyn o'r neilldu, a allent gael y rhagrithiwr brwnt danynt hwy oll? Y mae rhagrith yn fynych yn cymmeryd ei letty yn y tŷ nesaf i gywirdeb, ac felly heb ei gael allan, gan nad yw yr enaid yn tybied y gall uffern fod mor agos i'r nef. Ac megys am ragrith, felly y mae cywirdeb yn anhawdd ei gael i'r amlwg. Mae'r gras hwn yn fynych yn gorwedd yn isel yn y galon, fel blodeuyn per mewn rhyw nant, neu ger llaw rhyw aber, wedi ei guddio gan ddrain a danadl—gwendidau wyf yn ei feddwl. Felly y mae gofal a doethineb yn angenrheidiol, fel na adawom i chwyr rhagrith sefyll, ac na ddiwreiddiom lysesuyn gras yn ei le.

3. Y mae yn beth cyrhaeddadwy. Nid wyf yn eich gosod ar waith amnhossibl. Yr wyf yn addef fod calon dyn fel cenglyn o sidan wedi dyrsu; nid hawdd ei dad-ddyrsu: etto, trwy arfer moddion yn ddyfal, fe ellir ei dad-ddyrsu a'i dirwyn ar yr iawn waelod o burdeb, neu ynte ei ddeongli yn rhagrith. Gwelwn Iob, pan oedd Satan a'i gyfeillion caled, a'u hymgais mwyaf am derfysgu ei ysbryd, a thywyllu ffwrdd ei yrfa gynt, a'i gyflwr, trwy dafu eu gwrthdaddl-euon i mewn, fel cynnifer o geryg i'r ffwrdd; etto, gallai efe weled y perl gwerthfawr hwn yn y gwaclod yn ddisglair agloewiawn. Iö, y mae Hezechiah, ar fin ei fedd, yn lloni ei ysbryd â hyn. Yn wir, gyfeillion, y mae hyn yn galondid i enaid, na fydd efm yfyr o help Duw yn y chwiliad hwn, os ä efe yn ei gylch â dymuniad diffuant. Fe rydd ustus, nid yn unig warant i chwilio tŷ dan amhieuath, ond, os bydd achos, efe a orchymyn i ereill roddi help yn y gorchwyl hwn. Ti a gei y gair, y gweinidogion, a'r Ysbryd, er dy gymmhorth yn y gwaith. Yn unig, gwylia rhag dy fod am watwar Duw yn y peth. Y mae yr enaid hwnw yn haeddu ei roddi i fyny i'r pechod hwn, sydd, wrth chwilio am ragrith, yn chwareu y rhagrithiwr. Yn debyg i heddeidwad anonest, a wna, o'i fodd, edrych heibio i'r troseddwr, ac yna dywedyd nas gall efe gael gafael arno.

Yn awr, dymunwn roddi boddlonrwydd llawnach yn y pwngc hwn, a help yn y prawf, am ei fod yn beth y mae y drwg a'r da yn camgymmyrd ynddo. Y mae yr adyn arianol yn ymwneithio fod ei galon ef yn onest a da; y mae yr enaid cywir yn ofni ei fod yn rhagrithiwr; ac y mae Satan am dwylo y ddau. Gan hyny, ni a ddangosaf, yn gyntaf, seliau y rhagrithiwr, â pha rai y

mae efe yn ategu ei dŷ braenllyd, ac hefyd y twyll sydd ynddynt. Yn ail, y seiliau o ofn y Cristion gwan o'i fod yn rhagrithiwr; hefyd, gwendid y seiliau hyny. Yn drydydd, rhai profion pennodol o gywirdeb na chyrhaeddodd rhagrithiwr erioed, ac nas gall efe eu cyrhaedd.

DOSB. II.

1. Am y rhagrithiwr, efe a'i amddiffyn ei hun fod ei galon yn gywir. Wel, pa fodd y prawf efe hyny?

1af. Efe a ddywed, Yn sicr, nid wyf fi yn rhagrithiwr, gan nas gallaf oddef rhagrith mewn un arall.

At. Nid yw hyn yn ddigon i' th lanhau di o fod yn rhagrithiwr, oni elli brofi dy fod yn gwneud hyn oddi ar sail sanctaidd. Yr oedd Iehu, yr hwn a ofynnodd i Ionadab a oedd ei galon yn gywir, ar yr un pryd yn dwyn calon anghywir yn ei fynwes ei hun. Ymae yn beth tra chyffredin i ddyn grochfeic a llym areithio yn erbyn y pechod mewn arall a fyddo ar yr un pryd yn cael ei lochesu ganddo ef ei hun. Mor llym oedd Iudah yn erbyn Tamar! Y mae ar frys yn gorchymyn ei losgi hi: *Gen.* xxxviii. 24. Pwy ni ffasai yn meddwl fod y gwr hwn yn un tra diwair? Etto, efe oedd y dyn a'i halogasai hi. Fe ddichon fod twyll mawr yn y deryn hwn o sel. Weithiau, gall sefyllfa gwr ei ddwyn, fel y gwna y prif gynnyrhyfydd ddwyn y ser, mewn ysgogiad yn yr hwn nis gwnei ei anian a'i duedd ef ei hun byth ei dwys. Fel hyn y mae amryw swyddogion yn rhoddi y gyfraith ar feddwon, puteinwyr, a thyngwyr, yn unig i gadw harddwch eu lle, a gochel y cri a gyfodai o'u hesgeulusdra, er y gallant ddilyn y pechodau hyn, pan fyddo lle a chymdeithas ganddynt yn addas i'w bwriad. Y mae rhai sydd â'u sel yn ennyn yn erbyn canwedd un arall, trwy y gwaradwydd a gânt hwy o'i herwydd yng ngolwg y byd: ac y mae hyn yn digwydd pan fyddo y pechod yn gyhoeddus a'r troseddwr yn gyfathrachwr. Tybir mai hyn oedd cyflwr Iudah, pan oedd yn ewyllysio toriad ymaith ei ferch yng nghyfraith, fel y tynid ymaith i'w chanlyny y brycheuyn a ddygasai hi ar ei deulu. Drachefn, y mae rhai yn ei chael yn grefft ennillfawr; a hwy a wnânt y fantais hon o oganu beiau rhai ereill i guddio yn well eu beiau eu hunain, fel y gallont ddwyn eu hamcanion ym mlaen dan lai o ddrwgdybiaeth. Absalom—y mae yn enllibio llywodraeth ei dad, i gael hyn yn wrthafi, i'w godi ei hun ar y cyfrwy. Yr oedd Iehu yn caru y goron yn fwy nag yr oedd yn casau ffeidd-dra Iezabel, er ei holl gri i'w herbyn. Mewn gair—canys amhos-sibl taraw ar y cwbl—dichon fod llawer o ymddial yn hyn, a saethu at y person yn lle at y pechod. Gwelwyd hyn yn sel Anthony yn erbyn Augustus: yr oedd efe yn casau y treisiwr, ond yn caru y trais yn dda ddigon.

2il. Medd y rhagrithiwr, Yr wyf yn hyf ac yn ddiiofn mewn perygl; yn sicr nid wyf fi ragrithiwr: "Dychryn a ddeil y rhagrithiwr; ond y cyfiawn sydd hyf megys llew."

At. Gwell ffordd yn ddiau fyddai i ti brofi dy hyder wrth dy burdeb, na dy burdeb wrth dy hyder. Yn wir y mae hyder ac ysbryd diofn yng ngwyneb anghau a pherygl yn bethau rhagorol, pan fyddo Ysbryd y gair Crist yn sefyll ger llaw i'w gwirio; pan allo y creadur roddi peth tystiolaeth am y gobaith sydd ynddo, pa fodd ei cafodd; fel y dengys Paul, yn *Rhuf.* v. 1—4, am y calonidd Cristionogol (nid Rhufeinig) yma, y mae efe yn myned trwy aml ystafell cyn cyrhaedd i hon, sydd yn wir yn gyfagos i'r nef ei hun; a fydd yw yr agoriad sydd yn ei ollwng i mewn i bob un. Yn gyntaf, y mae yn agor drws cyfiawnhâd, ac yn ei ollwng i mewn i ystâd o heddwch a chymmod â Duw trwy Iesu Grist: "Wedi ein cyfiawnhau trwy ffydd, y mae genym heddwch tuag at Dduw trwy ein Harglwydd Iesu Grist;" *adn.* 1. Trwy yr ystafell hon y mae yn cyrchu i un arall—ystafell presenoldeb Duw, ac yn cael dyfodfa ato fel bradwr wedi cael pardwn: "Trwy yr hwn hefyd y cawsom ddyfodfa trwy ffydd i'r gras hwn, yn yr hwn yr ydym yn sefyll;" *adn.* 2; hyny yw, yr ydym, nid yn unig wedi cael maddeu ein pechodau, a chymmod i'n personau â Duw, trwy ffydd yng Nghrist, ond yn cael yn awr, dan aden Crist, ein dwyn megys i'r llys, a sefyll yn ei ffafr megys rhai dewisol ger bron eu brenin. Y mae hyn yn agor i'r drydedd ystafell—"ac yn gorfoleddu dan obaith gogoniant Duw;" yr ydym, nid yn unig yn mwynhau gras a ffafr Duw yn bresennol, a chymundeb âg ef yma, ond yn cael oddi wrth hyn obaith sicr-blanedig yn ein calonau am ogoniant nefol ar ol hyn. Yn awr, y mae wedi ei ddwyn i'r ystafell nesaf i mewn, i'r hon nis gall neb ddyfod ond a ddelo trwy y lleill oll: "Ac nid felly yn unig, eithr yr ydym yn gorfoleddu mewn gorthrymderau;" *adn.* 3. Oni ddaethost ti i mewn drwy y drysau hyn, lleidr ac ysbellwiwr wyt: yr wyt yn cael dy hyder yn rhy fuan iddo fod wedi ei roddi i' th law gan Dduw. Os yw Duw yn bwriadu i ti les tragwyddol, efe a wna i ti ddioddef am dy hyfâra hwn, fel y gwnaeth i Iacob am lad-rata bendith ei dad. Ac am hyny, na ymfoddlona ar ryw hyfâra a hyder mewn peryglon; eithr ymfyn a oes iddo sail ysgrythyrol i'w gynnal, neu ai nid anwybod-aeth dy feddwl a hurtrwydd yn dy gydwybod yw y colofnau sydd yn ei ddal i fyny. Os fel hyn, y mae dy gyflwr yn arswydus: ni phery dy hyder yn hwy nag y gweli ei fath mewn dyn meddw; yr hwn, wedi ei ennyn gan win, a dybia, fel y dywedant, y gall neidio dros y lleuad, ac a anturia fyneud yn ddiiofn dros glogwyni a thyllau; etto,

pan fyddo yn sobr, efe a gryna wrth weled yr hyn a wnaeth yn ei feddwod. Nabal, yr hwn ni ofnai ddim pan yn feddw, y mae ei galon yn marw ynddo, ac yn myned fel careg, wrth glywed yr hanes a adroddodd Abigail iddo yn y bore, pan aethai y gwin allan o hono: 1 Sam. xxv. 37. Am hyny, fel hwnw a golodd ei achos trwy gwsg yr ustus ar y fainge, ac a apeliodd oddi wrth yr ustus cysglyd at yr ustus effro; felly y gwnaf finnau â thydi, sydd, trwy gysgadrwydd presennol dy gydwybod, yn hyf a difofu marw, ac oddi wrth hyn yn dadleu dy uniondeb. Yr wyf yn apelio oddi wrth dy gydwybod yn ei chwsg at y farn a rydd hi pan y defdry. Hyn, mi a ddymunwn iddo fod yn y byd hwn, fel y gwelych dy gamsyniad, lle y mae modd i'w ddiwygio.

3ydd. Medd un arall, Yn ddiau nid rhagritiwr wyf fi; canys yr wyf yn cyflawni dyledswyddau dirgel yn fy ystafell: nid yw rhagritiwr yn ddim oddi eithr ar gyhoedd: nod du y cyfryw ydyw, y mae yn caru y byd am ei glod, ac am hyny yn gwneud y cwbl yn yr amlwg.

At. Er fod y llwyr esgeulusiad o ddyledswyddau dirgel mewn crefydd yn profi dyn yn rhagritiwr; etto, ni wna y cyflawniad o honynt dy brofi di yn un diragrith. Y mae rhagrith yn tebygu yn hyn i'r llyffaint a ddygwyd ar yr Aiph; nid oedd un lle yn rhydd oddi wrthynt, nagoedd, hyd yn oed ystafelloedd eu gwelyau. Yr oeddynt yn ymlusgo i'w celloedd dirgelaf hwynt; ac felly y gwna rhagrith i ddyledswyddau yr ystafell, gystal a'r rhai cyhoedd. Yn wir, er i'r man fod yn ddirgel, lle y cyflawnir y cyfryw ddyledswyddau, etto, gall y mater gael ei drin felly (ac y mae gan rai rhagrithwyr), fel nad ydynt dan gel yn eu hystafelloedd. Yn debyg i'r iâr a ä i le dirgel i ddodwy ei hwy, ond trwy ei chreic, a ddywed i bawb yn y tŷ pa le y mae, a pha beth y mae hi arno. Ond lle nad yw fel hyn, y mae yn fyrr o ddigon; canys nid oes i ni feddwl na ddiachon fod rhai rhagrithwyr, neu nad oes rhai yn nyddu meinach edafedd na'r lleill. Ym mhob celfyddyd, y mae rhai a ragorant ar ereill; ac felly yn y grefft hon o ragrith. Y rhagrithwr bras, sydd â'i fryd ar siomi ereill, y mae ei grefydd ef yn gyffredin oll oddi allan; ond y mae rhagrithwr sydd yn ymgais am gadw tŷ glân gartref, ac yn gryf ei ddymuniad am gael cydwybod o'i du: ac, i gaffael hyn, efe a ä i eithaf hyd ei gadwen, ac a wna unrhyw beth a fyddo heb wahanu rhyngddo a'i anwyl chwantau. Yn awr, gall gweddi ddirgel a dyledswyddau ereill gael eu cyflawni mewn modd na byddo er nyched i chwantau dyn, mwy na rhywbeth arall. Nid y cleddyf, er ei fod yn dra llym, sydd yn lladd, ond y nerth â pha un y gwthir ef. Yn wir, y mae rhai dyledswyddau dirgel, megys chwilio ein calonau, profi

ein ffyrdd, a myfyrio yn ddirifolar fygythion y gair yn erbyn y cyfryw bechodau ag a gawn yn ein mynwes ein hunain, ynghyd â'u cymmhwyso yn ddwys atom ein hunain, a wna'i wasgu yn drwm ar bechod. Ond gall y rhagrithwr osod y cleddyf hwn mor dyner ac ysgafn ar y man, fel na bydd i'w chwantau waeddi, "Och!" o'i herwydd. Am hyny, y mae eisieu ymfyn yn well (*melius inquirendum*) cyn dy ryddhau di.

4ydd. Yn sicr, nid rhagrithwr wyf fi; canys yr wyf, nid yn unig yn gweddi, ac yn y dirgel hefyd, yn erbyn fy mhechodau, ond yr wyf hefyd yn ymladd i'w herbyni; ie, ac nid yn ofer; canys gallaf ddangos i chwi ysbail y buddugoliaethau a gefais ar rai o honynt. Bu amser nas gallwn fyned heibio i dafarndy, na wna'i fy chwant i mi sefyll, ac y llusgai fi i mewn. Ond yn awr, diolech i Dduw, yr wyf wedi cael y fath oruchafiaeth ar fy chwant meddw, fel y gallaf fyned heibio heb edrych i mewn.

At. Da yw yr hyn a ddywedi; ac mi a ddymunwn fod dy gymmydogion meddwon oll yn gallu dywed ym peth; fel (pan y mae y swyddog heb fynu, neu heb allu, anafu y grefft feddw) y byddai yn gystal i'r siopwyr hyny dros Satan gau eu ffenestri gan eisieu cwsmeriaid. Ond ai nid ydyw yn resynus fod i beth da gael ei anafu wrth ei wneuthur? Etto, y mae hyn yn bod yn rhy gyffredin; ac fe all fod yn dy gyflwr di.

(Iaf.) Gâd i mi ofyn i ti, Pa faint sydd er pan y mae fel hyn gyda thi? Y mae chwantau—o ran eu gweithrediadau wyf yn ei feddwl—fel y cryd; nid yw ei gyrechias ar y dyn bob amser; ac etto y mae y dolur heb ei adael: hefyd, y mae chwant rhai dynion fel rhyw fath o gryd, â'i gyrech heb ddychwelyd mor gyflym a'r lleill. Nid yw y môr yn wastad yn tynu yr un ffordd: y mae yn awr yn llenwi; yn fuan yn treio; ac er nad yw yn llifo nac yn cilio ar unwaith, etto y mae pob ysgogiad ganddo heb ei golli. Felly, llanw y chwant, y mae yn awr yn uchel, ac yn y man yn cilio, a'r dyn yn cilio neu fel yn rhedeg rhagddo; ond y mae yn troi yn ol arno. Pwy fuasai yn disgwyl gweled Pharaoh yn syrthio drachefn i'w siâs orwyllt, ar ol bod gydag ef yn ei dymmher dda, pan y parodd i Moses a'r bobl fyned ymaith! Ond, och, nid oedd y dyn wedi ei gyfnewid! Ac fe allai, pan ddel achlysur cryf, y gwna hyn, fel gwynt cryf i rai o'n porthladdoedd, ddwyn llanw dy chwant i mewn mor gryf, fel y bydd dy enaid, y tybygasid ei fod mor lân oddi wrth chwant ag yw y traeth noeth o ddwfr, yn cael ei, orchuddio mewn ychydig funudau ac mor ddwfn dan y tönau ag erioed. Ond po hwyaf y daliodd y clawdd, goreu oll: etto, pe na byddai i ti feddwi byth mwy, o ran cyflawni y chwant yn allanol; er hyny,

ni byddai hyn yn ddigon i'th lanhau, oddi wrth fod yn rhagrithiwr.

(21.) Gan hynny, goddef i mi ofyn pa beth oedd y cynhyrfydd mawr i'th dynu ymaith? Fe all hwnw fod mor ddrwg, mewu rhyw ystyr, sydd yn dy gadw allan o'r tafarn dy yn awr, a'r hwn oedd o'r blaen yn dy dynu iddo. Mae yn beth cyffredin bod un chwant yn anafu marchnad un arall. Y dyn a geidw ei arian rhag eu trafylngau i'w geudod, i'w gwario am wychder mwy ar ei gefn, pa beth a wna hwn ond ysbeilio un chwant at offrymu i'r llall? Pa un ai Duw ai dyn—Duw ai dy bwrs—Duw ai dy falchder—Duw ai dy enw da—a'th gurodd di ymaith? Os bu i un peth heb law Duw dy ennill, y mae rhagrithiwr yn enw mwy addas i ti yn awr na phan oeddit yn y tafarn. Dra- chefn, os Duw, pa amgyffrediadu am Dduw a wnaeth y gwaith? Y mae rhai wedi cael ysgydwad o wg Duw am ryw bechod neill- duol, fel na feiddiant—o leiaf am hir amser—ymarfer a'r trosedd hwnw drachefn: yn debyg i un a frawychwyd gan ddrychiolaeth mewu rhyw ystafell—nid yn rhwydd, yr ä efe i orwedd ynddi mwyach. Ac megys mai nid yr ystafell ond y ddrychiolaeth y, mae y naill yn ei gasau: felly, nid y pechod, ond digder Duw sydd yn ei ddilyn, yw yr hyn y mae y llall yn ffoi rhagddo. Mewn gair, fe allai dy fod wedi gadael heibio ryw arfer bechadurus; ond a ddarfu i ti ei gasau, a charu Duw, ac felly adael pechod? Ti a ymddieithriaist oddi wrth un chwant? aini thynaist gydnabyddiaeth äg un arall yn ei le? Ti a roddaist heibio y gwaith drwg; ond a ymfais di yn dy ddyledsyydd adna- byddus? Hwsmon drwg yw hwnw a sycho ei dir, ac yna a'i gadawa heb ei hau na'i blanu. Yr un peth fuasai iddo fod dan ddwfr, ag wedi ei sychu ac heb ei hau. Beth os peidiaist a'r drwg, pe byddai hyn yn bossibl, ac heb ddysgu gwneuthur daioni? Nid bod dy dir yn lân oddi wrth chwyn, ond ei fod yn ffrwythlawn o'f d, a däl dy ar- dreth, ac a ddwg i ti elw. Nid dy fod heb ddilyn meddwod, aflendid, neu ryw bechod arall, ond dy fod yn sanctaidd, yn rasol, yn meddu ffydd ddiffuant, cariad pur, a'r gras- usau ereill, a'th brawf di yn un cywir, a dystia am dy hawl yng Nghrist, ac a' ddwg i ti elw nefol trwyddo ef.

PENNOD XI.

Y seiliau gwiniaid ar y rhai y mae encidiau tem- tiedig yn dadleu yn erbyn eu huniondeb eu hunain.

AWN bellach at y seiliau gau y mae encidiau diffuant yn fynych yn myned arnynt i brofi eu hunain yn rhagrithiwr, i.e. am dro, i ben- derfynu eu bod yn gyfryw.

1. Rhagrithiwr wyf yn sicr, medd yr enaid tlawd, onid'e, ni byddwn fel yr wyf. Ni ddilynai Duw fi fel hyn, ä dyrnod ar ol dyrnod, gan oddef hefyd i Satan fy nhrin fel y mae. Hyn oedd y gurfa benaf gan gyfeillion Iob yn erbyn ei burdeb ef; ac weithiau y mae Satan yn llwyddo mor bell, nes yw yn peri i'r enaid diffuant ei throï yn erbyn ei ddwyfron ei hun, gan ddywedyd yn lled debyg i hwnw, Os yw Duw gyda ni, pa ham y digwyddodd hyn oll i ni? Os yw Duw ynom trwy ei ras, pa ham yr ymddeng- ys efe yn ein herbyn?

At. Y mae y tân hwn y tafla Duw di iddo yn profi fod ynot sorod: a phe dwedit, o herwydd cael dy gadw yn hir yn y ffwrn, fod ynot lawer o sorod, ni wrthwynebnw i: ond y mae yn rhyfedd genyf i ti ddarllen rhagrithiwr allan o'th gystuddiau ä'th flin- derau. Yr annuwiol yn wir a ddefnyddiant y ddaid hon at roddi nod rhagrithiwr ar y Cristion: ond mi a feddyliwn nä ddylai efe ei defuyddio i'w erbyn ei hun. Er i'r Bar- bariaid yn ebrwydd roddi eu barn, pan wel- sant y wiber wrth law Paul, mai llofrudd oedd efe, etto, ni thybiodd Paul yn waeth am dano ei hun o'r achos. Gristion! dyro di yr un cyngor i ti dy hun mewu cystudd a phrofedigaeth, ag wyt yn arfer ei roddi i'th gydfroaeth, ag wyt yn cyflwr, a thi a ddeui allan o'r fag! A feiddi di dybied dy gyfaill yn rhagrithiwr yn unig o herwydd fod llaw Duw arno? Na: mi a'th warantaf, yr wyt yn hytrach yn tyneru wrtho, ac yn ei helpio i ateb yr ammheuon sydd yn codi yn ei ysbryd oddi wrth y ddaid bennodol hon. Gallai beri i un wenu wrth weled mor daclus a'rhwydd y gall Cristion ddatod cylymau ac ammheuon dyn arall; yr hwn, wedi hynny, pan ddyger ef i gyflwr o'r fath, a ddyrysir ei hun ganddynt. Y gwr a helpiodd ei gyfaill dros y gamfa, y mae efe ei hun yn awr yn methu camu drosti. Y mae Duw yn trefnu pethau, fel y mae yn rhaid i ni wrth help ein gilydd. Yr hon a fu yn fydwraig i'w- eill, nis gall yn iawn gyflawni y swydd idd ei hun: ac efe sydd yn genadwr i ddwyt heddwch i ysbryd un arall, nis gall ei lefaru wrtho ef ei hun. Y mae y mater yn eglur Gristion; ni ddichon cystudd dy brofi d yn rhagrithiwr; ond pe byddit yn gwbl hebddo, gellit yn sicrach feddwl dy fod d yn faserddyn. Y mae y mater, meddaf yn eglur; ond y mae attalfa ar dy lygaid d i ryw d'ben pellach sy gan Dduw i'w ddwyn i ben trwy dy gystudd. Ond fe alla y dywedi mai nid dy gystudd yn unig sydd yn peri i ti feddwl fel hyn am danat dy hun ond parhädd maith dy helbul, a'th fod mewu tywyllweh hefyd o ran dim teimlad o gariad Duw yn dy enaid. Nid wyt yn cael un wên wynebryd tirion Duw, i leihau dy drallod a phe byddai pob peth yn iawn, a thitha yn wir blentyn i Dduw, a wnai dy Da

nefol adael i ti orwedd yn griddfan, heb edrych un amser arnat, i ysgafnhau dy gystudd â'i bresennoldeb hyfryd? Am y cyntaf o'r rhai hyn—hyd dy drallod—ni wn i am un rheol-fesur a osododd Duw i fesur hyd croesau ei blant wrthi: ac nid yw yn gweddu i ni wneuthur un ein hunain. Ond hyn a wnawn, pan fyddom ni fel hyn yn gosod terfyn i amser ei geryddon ef, fel, os ânt yn hwy na'r dydd a osodasom ni i lawr yn ein meddyliau (sydd yn debyg i fod yn ddigon byr, os caiff ein calonau prysur ni bennodi), yna, rhagrithwyr ydym. Am y llall, gwybydd y gall Duw, heb roddi sail i achwyn ar ei gariad, ei guddio dros ennyd. Ac yn ddiau, y mae iddo le i'w gymmeryd yn ddrwg iawn, fod i'w blant, y rhoddwyd o'u blaen sicrhâd digonol am ei gariad atynt (heb law yr amlygiad teimladwy o hono i'w heneidiau), ei alw i gwestiwn; a hyn, am nad yw yn ymweled â hwynt, ac yn eu cymmeryd i'w freichiau pan y mynont hwy. Mewn gair, fe allai fod dy gystudd yn dyfod fel meddyginiaeth arllwys—Duw yn bwriadu drwyddo weithio allan ryw lygredd, sydd yn peryglu dy iechyd ysbrydol, ac yn attal dy gynnydd mewn duwioldeb. Yn awr, gall Duw fod yn cadw yr amlygiad o'i gariad (fel y meddygon eu diod loun) i'w roddi ar ol i'r llall weithio.

2. Yr wyf yn ofni mai rhagrithiwr wyf, medd yr enaid temtiedig; pa ham ynte y byddai y fath nychdod ac adfeiliad i'w gael ynof? Nod yr uniawn yw myned o nerth i nerth; ond myned yn ol yr wyf fi, o nerth i wenddi. Y mae rhai Cristionigion yn tebygu peth i'r rhai a alwn yn boblogos atynt eu hunain. Os bydd i'r rhai hyn golli dim yn eu masnach—a'r cwbl heb fod yn ol eu meddwl, cawn yn sicr glywed am hynny dros-odd a throssod; hwy a soniant am eu colledion yn mhob cymdeithas: ond pan gaffont farchnad-dda, ac elw yn llifo i mewn yn gyflym, hwy a gadwant hyn iddynt eu hunain—ni soniant am y peth. Pe byddai Cristionigion yn landeg, hwy a ddywedent am eu hennill yn gystal a'u colled. Ond i gymmeryd yn ganiataol dy fod yn teimlo adfeiliad, a chyfeirio ateb i hyn y:—

At. 1af. Yr wyf yn ei addef yn wir fod yr enaid cywir yn tyfu yn gryfach gryfach: ond pa fodd? Yn debyg i'r pren sydd yn tyfu yn uwch ac yn fwy. Y mae hwn, ni a wyddom, yn cyfarfod â chwym y dail ac â gauaf, sydd am dro yn attal ei dyfiad. Fel hyn y gall yr enaid cywir gael attaliad presennol trwy ryw brofedigaeth: megys Pedr, yr hwn oedd mor bell oddi wrth dyfu yn gryfach, pan syrthiodd efe o broffesu i wadu, ac o wadu Crist i regu ac i dyngu nad adwaenai efe. Etto, fel y mae pren, pan ddel y gwanwyn, yn adfywio, ac yn ennill mwy yn yr haf nag a gollodd yn y gauaf; felly y gwna yr enaid cywir. Gwelwn hyn

yn Pedr: ei ras, a fu o'r golwg dros dro, a ddæth i'r awlwg mor rymus, fel nas gallai dim creulondeb oddi wrth ddyneion ei yru yn ol byth wedi hyn. Y mae temtasiynau ysgytiol yn diweddu mewn sefydliad, yn ol gweddi yr apostol, "Duw pob gras, wedi i chwi ddioddef ychydig, a'ch perffeithio chwi, a'ch cadarnhao, a'ch cryfhao, a'ch sefydlo;" 1 *Pedr* v. 10.

2il. Y mae gwahaniaeth mawr rhwng adfeiliad enaid cywir ag un rhagrithiol. Mae rhagrithiwr yn gwaethygu oddi ar anhoffder greddfól at ffyrdd Duw. Oddi yma y gelwir y fath yn "wrthnysig (neu wrthgaliwr) o galon;" *Daed*. xiv. 14. Tra y bu crefydd er gwasanaeth i'w chwant ef, ac yn rhoddi rhyw help at ddwyn iddo elw bydol, yr oedd ganddo yntau rith o sel: ond ar ol i'r ddad hon gael ei dwyn ymaith, y mae yn dechreu ymollwng yn raddol, hyd onid â yn gwbl oer—ie, mor galon glaf o'i broffes ag oedd Amnon o Tamar. Pan ddechreu y rhagrithiwr syrthio, y mae yn brysio myned, fe careg i lawr y bryn: nid oes ganddo sefyli-fan ond y gwaelod. Yn awr, enaid tlawd, dywed yn rhwydd, A feiddi di ddywedyd fod ynot anhoffder greddfól at ffyrdd Duw? Ysgatfydd nad wyt yn gweddio gyda'r un gwres a thaerineb ag a fu genyt; ond ai am nad wyt yn hoffi y ddyledswydd, megys cynt, y mae hynny? Nid wyt yn gwrandaw y gair gyda'r un llawenydd; ond ai nid ydwyf am hyn yn ei wrandaw gyda mwy o alar? Mewn gair, oni elli di ddywedyd gyda'r ddyweddi, "Pan wyt yn cysgu, fod dy galon yn effro;" *Can.* v. 2. Hynny yw, nad ydwyf wrth dy fodd gyda'th gyflwr amharod, ond o galon yn dymuno dy fod allan o hono? Yr wyt fel dyn â chando ewyllys mawr i godi a bod wrth ei waith: y mae ei galon yn effro, ond nid yw yn bresennol yn gallu ymysgwyd o'r llwch sydd yn ei rwympo i lawr. Mae hyn yn brawf mai nid rhagrithiwr wyt.

3. Ond, medd yr enaid tlawd, yr wyf yn ofni mai rhagrithiwr wyf, am fod ynof y fath galon ranedig yn y dyledswyddau a gyflawnir genyf. Yn fy myw nis gallaf fwynhao cyfeillach â Duw mewn dyledswydd, heb i ryw chwant ffaidd fod yn ymwithio i fy meddyliau tra ar weddi, yn gwrandaw y gair, neu yn myfyrio: yn awr, yr wyf yn uchel i fyngan ryw feddwl hunan-glodus; yn fuan, wedi fy mwrw i'r ddaear gan feddwl bydol: a rhwng y naill a'r llall, ychydig seibiant sydd i mi oddi wrth y fath gymdeithion. Ond a oes y fath bryfed yn magu heb law yn nhomen calon ffals ragrithiol.

At. Gwae fyddai i'r goreu o'r saint pe gwnai cyfodiad a chynhyrifiad y fath feddyliau a'r rhai hyn—neu waeth na'r rhai hyn—brofi fod y galon yn rhagrithiol. Gwylia ynte, rhag penderfynu am dy gyflwr oddi wrth y rhai hyn ynot; ond ystyria agwed

ac ymddygiad dy galon tuag atynt. Atteb i'r ychydig holion hyn; ac fe allai y gelli weled y purdeb drwy y niwl a godasant hwy yn dy enaid.

1af. Pa groesaw cyfeillgar sydd i'r fath feddyliau gyda thi, pan ymgynnygiant arnat mewn dyledswydd? Ai y rhai hyn yw y gwestwyr a ddisgwyliast ac y trwsiaist dy ystafell iddynt? A aethost ti at ddyledswydd i gyfarfod â'r cymdeithion hyny? Ai ynte tori i mewn yn anfoesgar a wnânt arnat, a thrwy orthrech, dy ddwyn, fel y rhagddywedodd Crist wrth Pedr mewn achos arall, lle ni fynit? Os fel hyn, pa ham yr ammheuit ti dy burdeb? Ai ni wyddost ti fod y diafol yn ormeswr hyf, ac yn beiddio dyfod lle y gwyr nad oes neb a ofyn iddo eistedd, i lawr—ac mai yr enaid hwnw yn unig a all efe alw yn ddy iddo, lle y mae yn cael gorphwysdra: *Luc* xii. 24. Beth pe byddai i dorf o derfysgwyr, tra y byddoch ar liniau mewn gweddi, sefyll wrth eich ffenestr, a rhuo a bloeddio ar hyd yr amser y byddoch yn gweddio? Nis gallai hyn lai na'ch aflonyddu yn dost. Ond, a fyddai i chwi, oddi wrth yr aflonyddwch a wnânt hwy, syrthio i amnheu eich cywirdeb yn y dyledswydd? Yn ddiau, yr un peth yw bod yr aflonyddwch yn y fynwes ag yu yr ystafell, ond i'r enaid fod heb garu y naill mwy na'r llall.

2il. Ai eistedd yn foddllawn yr wyt gyda dy gymdeithion hyn, ai ynte arfer pob moddion a elli at gael gwared o honynt mor fuan ag y byddo modd? Nis gall purdeb eistedd yn llyondy i edrych ar y fath helynt yn yr enaid: ond, fel gwas ffyddllawn, pan doroladron i ddy ei feistr, er eu bod mewn grym a nifer yn drech nag ef, fel nas gall efe eu gwthio allan â'i ddwyllaw ei hun, efe a enfyu yn ddirgel am help, ac a gyfyd y dref arnynt. Gweddidi ydyw cenad yr enaid cywir: y mae yn ehedeg i'r nef mewn llawn brys ar yr achos hwn; a'r enaid yn cyfrif ei hun, gyda Ionah, megys ym mol uffern, tra y mae yn rhwym wrth y fath feddyliau; ac mor llawen, pan ddel cynnorthwy i'w achub o'u dwyllaw, ag oedd Lot pan waredodd Abraham ef o ddwyllaw y brenhinoedd a'i dygasant ymaith yn garcharor.

3ydd. Ond, ysgatfydd y dywedi, er na feiddi wadu anfoniad dy gri i'r nef yn eu herbyn, etto, nad wyt yn clywed newydd am dy weddi, ond dy fod o hyd dan eu gormes, yn ffin arnat fel o'r blaen; a hyn yn chwaneu dy ofn fod dy galon yn ddrygonus; pe amgen, y cawsai dy weddi ei hatteb, a thithau dy waredu oddi wrth y llettywyr hyn.

At. Gallasai Paul ddywedyd felly gystal a thithau, pan yr attolygodd efe ar yr Arglwydd deirgwaith; ond nis gallai gael y swmbwl o'i gnawd: *2 Cor.* xii. 8. Nid yw efe wrth hyn yn dangos mai rhagrithiwr wyt, ond yn

rhoddi i ti fantais deg at brofi dy gywirdeb. Nid yn annhebyg iawn i'w driniaeth â'r Israhaeliaid; o flaen y rhai ni roddid efe mo'r cenhedloedd allan ar frys, fel y disgwyliasant hwy, ond efe a'u gadawodd fel drain yn eu hystlysau. A pha ham? Clywch y rheswm o enau Duw ei hun: "I brofi Israel trwyddynt hwy, a gadwent hwy ffordd yr Arglwydd, gan rodio ynddi, fei y cadwodd eu tadau hwynt, neu beidio;" *Barn.* ii. 22. Felly y mae Duw yn gadael y llygredigaethau hyn ynot ti, er prawf ai ymroddi a wnei di o'r diwedd i fod yn heddychol â hwynt, ynte parhau i ymladd â hwynt, a gweddio yn eu herbyn: a thrwy y parhâd hwn y profi dy hun yn un cywir yn ddiau. Ni wna calon ffals byth mo hyn. Buan y cymmer efe ei atteb, sydd heb ddymuno o'i galon y peth y mae yn ei ofyn. Y rhagrithiwr, pan weddia efe yn erbyn ei lygredd, y mae yn myned ar neges ei gydwylbod, nid ei ewyllys: yn debyg i was sydd heb garu y genadwri y mae ei feistr yn ei anfon arni, ond heb feiddio ei anfodddhau ef; am hyny, y mae yn myned, ac yn curo, ysgatfydd, yn nrws y gwr yr anfour ef ato; etto yn wanaidd iawn, gan ofni i neb ei glywed: y cwbl a wna efe sydd yn unig i gael chwedl deg i'w feistr, i ddywedyd ei fod wedi bod yno. Felly yn uniawn y gweddidi y rhagrithiwr, yn unig i gau safn ei gydwylbod â'r ffug hwn, ei fod wedi gweddio yn erbyn ei chwant: y mae yn dda ganddo gael y weddi drosodd, ac y mae yn well ganddo ei fod yn dychwelyd heb ei neges. Gan hyny, craffa ar ymddygiad dy galon mewn gweddi; a barna dy hun yn un cywir neu anghywir wrth hyny—nid wrth lwyddiant presennol dy weddi. Gall Duw gymmeryd yn dirion dy fod yn gofyn yr hyn yn bresennol y mae efe yn gweled yn well ei nacau na'i roddi. Ti a fynit i'th lygredigaethau oll gael eu taraw i lawr ar un dymnod, ac i'th galon fod mewn agwedd i weithio gwaith dy Dduw heb attalfa na rhwystr gan chwant oddi mewn, na diafol oddi allan, oni fynit? Mae Duw yn cymmeradwyo dy sel yn fawr, fel sel Dafydd gynt, yr hwn oedd â'i fryd ar adeiladu teml iddo; ond fel na welodd efe yn addas i'r tŷ gael ei godi yn amser Dafydd, gan ei gadw hyd amser heddychllawn Solomon; felly, ni fyn efe chwaith roi dy lawn ddymuniad i tithau y 7 bywyd hwn, gan ei fod yn cadw y rydd-fraint hon fel rhan enwedigol o freinlen y ddinas uchod, nad oes neb yn ei mwynhau ond y saint a ogoneddwyd sydd yn anneddu yno. Y mae efe yn wir wedi dysgu i ni' weddio, "Gwneler dy ewyllys ar y ddaear, megys y mae yn y nef;" etto, rhaid yw i ni ddisgwyl y llawn atteb i hyn pan ddelom yno. Ond am hyny, enaid tlawd, dysg dy gymmeryd y nacâd hwn fel y cymmerodd Dafydd ei nacâd yntau. Ni ddarfu iddo ef

ammheu cariad a ffafur Duw, o herwydd na fynai Duw adael iddo adeiladu y tŷ; ac ni pheidiodd efe a pharotoi defnyddiau tuag ato; eithr efe a wnaeth yr hyn a allai, er na chaffai wneud yr hyn a fynai. Pell fyddo oddi wrthyf tithau, fod i ti, o herwydd hyn fwrw ymaith dy hyder yn Nuw, na rhoddi hebio dy ymdrech dros Dduw, yn marwchau dy lygredd, ac yn chwaneu at dy ystôr bresennol o'i rasusau ef: y rhai hyn, er eu bod yn awr yn amherffaith, heb eu gorphen, efe a'u defnyddia yn yr adeilad nefol y mae yn dy fwriadu iddi. Yno y bydd holl ddarnau toredig ein grasusau candryll, os gallaf felly ddywedyd, wedi eu cyfanu gan allu a doethineb Duw, fel y gwnânt i fyny un adeilad ogoneddus o sancteiddrwydd perffaith, a fydd yn fwy i'w ryfeddu gan angylion y nef am ei gwneuthriad rhagorwch nag oedd teml Solomon gan ddynion, pan ydoedd yn ei llawn ogoniant.

4ydd. O! medd yr enaid temtiedig, yr wyf fi, weithiau, yn cael ceryddon, gan fy nghydwbybod fy hun, fy mod yn rhagrithiol yn y ddyledswydd yma, a bod llawer o ffalsedd calon yn y gwaith aew yn dangos ei hun; ac os yw fy nghalon yn fy nghondemnio, pa fodd y gall fod yn amgen na'm bod yn rhagrithiwr?

4. Mi a geisiaf ddattod hyn drwy osod dau nodiad i lawr, a'u cymmhwysu at yr achos mewn llaw.

1af. Gwahaniaethwn rhwng cydwbybod a ä wrth iawn reol yn ei barn, a chydwybod a ä wrth reol gau.

2il. Rhwng cydwbybod a ä wrth iawn reol, ac a ddysgwyr yn iawn pa fodd i'w defnyddio, a chydwybod a fyddo yn barnu wrth iawn reol, ond heb ei dysgu yn iawn yn y defnyddiad.

1af. Dyna y pryd y mae cydwbybod yn myned wrth iawn reol, pan fyddo yn seilio ei chyhuddiad ar air Duw: o herwydd gan nad yw hi ond is swyddog, y mae yn rhwym wrth gyfraith sydd raid iddi ei dilyn; ac nis gall hono fod ond yr hyn a osododd Duw, yr hwn sydd yn rhoddi iddi hi ei hawdurdod a'i swydd. Y gyfraith hon yw gair Duw, a hwnw yn unig. Felly, yr ydym i gairi cred i'n cydwbybod, pan fo yn gorchymyn neu yn gwahardd, yn condemnio neu yn rhyddhau, pan allo hi ddangos ei gwarant allan o air Duw am y rhai hyn. Os amgen, fel y gall deiliad a fyddo yn cael cam mewn is lys, ac yn methu cael cyfiawnder yno, apelio at lys uwch; felly y gall ac y dylai cydwbybod apelio at air Duw; a chwi a ddylech wybod ei bod yn gynneddf mor lygredig wrth naturiaeth ag un arall; a'i bod yn fynych yn cael ei defnyddio gan Satan i dwyllo y da a'r drwg, y duwiol a'r annuwiol. Fe geir llawer sydd yn gwybod, meddant, fod eu cydwbybodau yn llefaru heddwch wrthynt, wedi eu siomi a'u twyllo pan agorir y llyfrau.

Ni bydd dim o'r fath ryddhâd i'w gael yn llyfr y gair ag a roddodd cydwbybod yn eu llaw hwynt. Ac fe fydd aml enaid grasol, a dreuliodd ei ddyddiau mewn ofni parhaus am ei gyflwr ysbrydol, ac a gadwynwyd mewn daeargell dywyll cydwbybod flinderog, yn cael ei ryddhau y pryd hyn, a gosod ei gŵyn yn erbyn Satan am gaugarchariad, ac am derfysgu ei gydwbybod er aflonyddiad i'w heddwch. Ac yn awr, caniatâ i mi ofyn i ti, enaid druan, sydd yn dywedyd fod dy gydwbybod yn dy guro fel rhagrithiwr, A wyt ti yn rhagrithiwr profedig wrth y gair? A yw dy gydwbybod yn dangos i ti air o gyfraith Crist sydd yn dy brofi felly? Neu, onid yw Satan yn hytrach yn gwneud cam â thi yn dy ofn, ac yn chwerau â thynnerwch dy ysbryd, sydd wedi ei lenwi â'r teimlad o'th bechodau, hyd onid wyt yn barod i goelio rhyw ysgogiad o'th fewn a fyddo yn dywedyd rhyw ddrwg am danat? Yr wyf yn sicr ei bod yn fynych felly. Ac am yr ofnau a'r curfeydd sydd yn mynwesau rhai trueiniaid, y maent yn debyg i'r swm a godir ambell waith am ryw newydd mawr iawn gan rai sydd â'u bwriad am siomi y wlad. Rhyw siarad a murmur mawr a gewch yn safn pawb am y peth: ond dilynwch ef i'w ffynnonell, ac nis gellwch gael sail iddo, nac un dyn credadwy i'w wirio. Fel hyn y mae yma—rhyw swm yn mynwes y Cristion temtiedig, a dadwrdd megys yn barhaus yn ei glustiau, Rhagrithiwr ydwyf fi; y mae fy nghalon yn ddrygonus—rhith yw fy ngwaith i gyd. Ond pan elo y truan i chwilio o ddirif am gael y peth i'r amlwg, gan alw ei enaid ym mlaen, a dechreu ei holi yn ol y gofynion a esyd y gair at brofi ein cywirdeb, nis gall efe wirio y cyhuddiad yn ol un o honynt i'w erbyn ei hun. Ac o'r diwedd, y mae yn cael nad yw ond alarwm twyllodrus o uffern, wedi ei roddi allan i beri iddo ryw flinder a dychryn am y tro, er na bydd er drwg iddo yn y diwedd. Fel celwydd rhai gwladwyr cyfrwys, yr hwn, er ei ffalsetd amlwg yn y diwedd, etto a wna iddynt hwy ryw wasanaeth tra y coelir ef yn lle gwir. Megys y mae un cwestiwn difrifol o fath hwn, o'i ddwys wasgu at ragrithiwr noeth, yn ddigon i'w daraw yn fud—Pa addewid sy genyto fewn yr holl Feibl o'th du am dy iachawdwriaeth? Felly y mae yn ddigon i ryddhau yr enaid terfysgldd oddi wrth ei ofnau o'i fod yn rhagrithiwr, os bydd iddo ond—fel Dafydd—ofyn i'w enaid am un ddadl wrth ysgrythryol am ei aflonyddwch: "Pa ham y'th ddarostyngir, fy enaid; a pha ham y terfysgi yno?" (*Salm* xlii. 11)? Mae gan yr enaid cywir sail gref i'w fydd yn y gwaelod, er i Satan allu bwrw peth llaid drosti, i beri iddo ofni anturio ei droed arni.

2il. Mae yn rhaid i ni wahaniaethu rhwng cydwbybod wedi ei dysgu yn iawn, a chydwybod a gamddysgwyr. Dichon fod yn

rheolaidd, o ran dewis yr iawn reol, ond heb ddysgu yn iawn pa fodd i ddefnyddio y rheol hon yn achos neillduol y dyn. Yn wir, yn nherfysg ysbryd y saint, y mae cydwybod weithiau yn llawn o Ysgrhythyr, ac yn seilio ei barn arni; ond gyda deongliad drwg iawn. O! medd yr enaid tlawd, y mae'r lle hwn yn fy erbyn i: "Gwyn ei fyd y dyn ni chyfrif yr Arglwydd iddo anwiredd, ac ni byddo dichell yn ei ysbryd;" *Salm* xxxii. 2. Dyma ddarluniad o enaid cywir, medd efe; y mae yn un heb ddichell (neu dwyll) yn ei ysbryd; ond yr wyf fi yn cael llawer o dwyll ynof fi; am hynny, nid un cywir ydwyf. Yn awr, dyma gasgliad gwan iawn; Ie, camgasgliad. Wrth ysbryd heb ddichell neu dwyll, ni feddylir un heb y radd leiaf o dwyll neu ragrith yn aros yn ei galon; dyma un na chafwyd ei fath er y cwmp, ond Crist ei hun mewn cnawd marwol. Bod heb ddichell yn yr ystyr llym hwn, a bod heb bechod, yr un peth ydynt; a rhagoriaeth perthynol i Grist yn unig, tra ar y ddaear, yw hwn: "Ni wnaeth bechod, ac ni chaed twyll yn ei enau;" 1 *Pedr* ii. 22. Ac am hynny, pan gaffom yr un fath ymadrodd wedi ei gymhwyso i'r saint (fel i Lefi, "Anwiredd ni chafwyd yn ei wefusau;" *Mal.* ii. 6: ac i Nathanael, "Wele Israeliad yn wir, yn yr hwn nid oes dwyll" (*Ioan* i. 47), y mae yn rhaid i ni ei ddeall mewn ystyr is: ac y mae hwnw yn ystyr a'i haddasa at gyflwr ammerhaith y saint yma isod. Felly, na roddwn yr hyn oedd yn goron Crist yn unig ar y ddaear, ac sydd yn wisg gan y saint a ogoneddwyd yn y nef, i'w wisgo gan y Cristion gwan tra yn milwrio ar y ddaear, nid yn unig yn erbyn diafol oddi allan, ond corph o bechod oddi mewn. Sych dy lygaid etto, enaid tlawd; ac yna, os darlenni fanau cyffelyb, ag Ysbryd Duw yn llefaru ynddynt mor uchel a dyrchafedig am ras ei saint, ti a gei weled nad yw efe yn gwirio perffeithrwydd eu gras, fel yn lân oddi wrth bob cymmysg o bechod, ond yn hytrach i gysuro trueiniaid methodig, ac i groesi eu tuedd wanffyddiog hwynt. Tra y maent hwy, wrth edrych ar eu hammhurdeb, yn barod i edrych ar eu purdeb fel pe ni byddai ddim, y mae efe yn dadgan ei gyfrif mawr o'u gras bychan hwynt, trwy son am dano fel pe byddai yn berffaith, a'u rhagrith yn ddim. O, Gristion! mynai dy Dduw i ti wybod nad wyt ti ddim parotach i edrych heibio i'th ras bychan, gan ofn y rhagrith a welir yn gymmysg âg ef, nag yw efe i edrych heibio i'th lygredigaethau mawrion di, gan wres ei gariad at y gras gwan, etto cwir, y mae yn ei weled ynot. Fe garodd Abraham, ac fe addefodd, ei gâr Lot, pan yn garcharor, wedi ei ddwyn ymaith gan y brenhinoedd cenhedlig hynny; felly y câr Duw dy ras dithau, sydd yn agos o waed ato, pan y bo dan iau drom gan y gelyn, yn dy fywces

dy hun. Ac er dy gysur, gwybydd, pan agorir llyfrau, a llyfr dy gydwybod hefyd, yn nydd mawr Crist, mai Crist ei hun fydd deonglwr y ddau. Nid yr ystyr a roddaist ti iddynt yn anhymmer dy enaid terfysgelyd, pan eu darlennaist âg esboniad Satan arnynt, a gaiff sefyll, ond barn Crist. Ac yn ddiau, y mae efe eisoes wedi dadgan ei farn o blaid gras gwan pan oedd ar y ddaear, fel nad oes i ti, enaid tlawd, achos i ofni y bydd iddo yno gondeimio yr hyn a ganmolodd ac a goffeidiodd efe mor anwyl yma. Ystyria ei gyfeillach caredig gyda'i ddisgyblion, a'i dystiolaeth o blaid ei ras ynddynt, pan nad oeddynt yn ddiau ond Cristionogion ieuainge a gweiniaid mewn gwybodaeth ac ymddygiad hefyd. A chofia am yr hwn yr oedd ei ofal mwyaf dros ei wŷn gweiniaid, ac am driniaeth dyner iddynt pan oedd i fyned oddi wrthynt i'r nef; ni fydd efe ei hun yn anhirion wrthynt ar ei ddychweliad, mi a warantaf.

PENNOD XII.

Pedwar nod neu arwydd o wirionedd calon neu burdeb.

WEDI dryllio y drychau gwneithus, yn y rhai y mae rhagrithwyr yn arfer edrych nes syrthio mewn cariad â'u hwynebau lliwiedig eu hunain, a thybied eu hunain yr wyr cywir; ac hefyd, y drychau sydd yr gwrthuno gwyneb hardd a glendid naturio yr enaid diffuant, nes peri iddo ammheu y gwir ras Duw sydd yn disgleirio arno, âf yr awr yn mlawn i dynu rhai darluniadau, ac osod i lawr rai nodau diammheuol o'r gwirionedd calon a'r purdeb duwiol hwn. Trwy hyn, gallwn gael gwell mantais at osod pob un yn ei gyflwr ei hun.

DOSE. I.

1. Y mae calon gywir yn galon newydd Gwelwr rhagrith yn hen lefain: "Certhwel allan yr hen lefain, fel y byddoch doe newydd;" 1 *Cor.* v. 7. Toes wedi ei suru unwaith â lefain, ni chyll mo'i flas: ac ni phaid natur lygredig a bod yn rhagrithiol, nes y peidia a bod yn natur lygredig. Nail ai rhaid i'r galon gael ei gwneud yn newydd neu fe geidw ei hen naw. Gellir arfer rhyw fedd at ei chelu, a throi draw ei hanflaw oddi wrth ereill am dro, fel y dichon blodau a pheraroglau ddwyn sawyr celain bwr: etto aros yr un a wna y gclain bydredig a'r galon lygredig hefyd. Hwy a ddywedant am y paun, er i chwi rostio a fynoeh arno etto pan oero, mai ammwrdd fydd ei gig drachefn. Yn ddiau, y mae felly yma; gwnaec calon anianol a fyno; er iddi gymhell arni ei hun y radd uchaf o ymddangosiad crefyddol, nes ei fod i'w weled yn boeth eirias o sel etto, ond aros ychydig, hi a ddaw i'w heu

wedd, ac a'i dengys ei hun nad yw hi ond y peth oedd hi—drwg a ffals. Un galon, a chalon newydd, trugareddau y cyfammod ydynt; ie, wedi eu haddaw felly, nes yw y newydd yn addawedig, i wneud y galon yn un: "Rhoddaf iddynt un galon, ac ysbryd newydd a roddaf ynnoch; tynaf hefyd y galon gareg," &c. *Ezec.* xi. 19. Y mae Duw yn addaw iddynt un galon, sef ysbryd diffuant at Dduw a dyn, yn wrthwyneb i galon ranedig, calon a chalon, nod rhagrith. Ond pa fodd y rhydd efe hon? Mae yn mynegi, "Rhoddaf i chwi ysbryd newydd." A pha fodd y gwna efe hyny? "Tynaf ymaith y galon gareg, a rhoddaf i chwi galon o gig." Ar y geiriau hyn, y mae yn yn eglurhau yn dda fel hyn, "Mi a roddaf i chwi un galon; ac at wneud hyny, mi a'i bwriaf hi o'r newydd; at wneuthur hyny hefyd, mi a'i toddaf ac a'i meddallhâf hi." Fel un â chanddo lawer darn o hen arian yn ei ymyl, ac yn bwriadu eu gwneuthur yn un llestr; y mae yn gyntaf yn ymroddi i'w bwrw o'r newydd, ac yna yn eu tafu i'r tân i'w toddi, ac felly o'r diwedd yn crynhoi y cwbl yn un darn.

Yn wir, y mae calon dyn wrth natur yn beth tra rhanedig—yn ddrylliau, darn i'r creadur hwn, a darn i'r chwant acw. Un pryd, y mae y gwagedd hwn yn ei gyflogi, fel Leah yn prynu Iacob gan Rahel; ac yn fuan wedi iddo fod ar ryw galedwaith am hwnw, y mae yn llogi ei hun i un arall. Wedi ymranu fel hyn y mae dyn a'i serchiauau. Yn awr, am y rhai etholedig (a arfaethodd Duw i fod yn llestri i barch, cysegredig i'w wasanaeth sanctaidd ef), y mae yn eu bwrw i dân ei air, fel y byddo iddo, wedi eu meddallhau a'u toddi yno, eu bwrw yn newydd, megys i un wedd sanctaidd, trwy furfnewidiad ei ysbryd. Trwy hyn y mae y dyn oedd o'r blaen wedi ymranu oddi wrth Dduw, a'i golli rhwng y creaduriaid a'i chwantau, yn cael ei galon bellach wedi ei chasglu i Dduw oddi wrthynt oll: y mae yn edrych â llygad syml ar Dduw, ac yn gweithio drosto yn yr hyn oll a wna. Gan hyny, os mynit wyboda yw dy galon yn gywir, ymfodyn a wnaed hi fel hyn yn newydd. A fwridd Duw di i'w ffwrn? A ddarfu i'w air erioed ymafyd fel tân ynot, nes meddalu dy galon galed, a thoddi dy ysbryd ammhur, hyd onid wyt yn awr yn gweled y rhagrith enbyd, y balehder, yr anghrediniaeth, a'r cyffelyb, oedd o'r blaen yng nghudd, fel sorod yn y mettel, cyn i'r tân ei gael allan? Ac a wyt ti, nid yn unig yn ei weled, ond yn ei weled mewn gwahaniad a neillduad oddi wrth dy enaid, nes wyt ti, a fendithiaist dy hun fel un mewn cyflwr da, yn awr yn galaru am dy ffolineb yn hyny, gan addef o'r galon y fath greadur difas i Dduw oedditi yn dy holl waith? Y pethau oedd mor odidog a gwyh yn dy olwg—dy gyfiawnder moesol, cadw dy eglwys, a rhedeg dros ryw ychydig

ddyledswyddau yn dy deulu, nes i ti dybied fod y nef dan arwystliad (*mortgage*) i ti am danynt; a yw yn alar genyt feddwl am y modd y gwatwaraist Dduw â'r coegloniau rhithiol hyn oddi allan, tra yr oedd dy chwant yn cael croesaw o fewn dy fynwes, ac yno yn sugno gwaed calon dy serchiauau gwresocaf? Mewn gair, a elli di ddywedyd dy fod, nid yn unig wedi toddi i dristwch am y rhai hyn, ond dy fod yn cael dy galon (a fu mor wyrog a rhanedig, rhwng creaduriaid a chwantau) yn awr wedi eu huno i ofni enw Duw? A wyt ti yn ddynd o un bwriad, gan ddilyn hwnw uwch law pob peth, a hyny i foddioni Duw, er i ti anfoddioni pawb arall? A yw dy gariad yn un am garu Crist, a bod yn garedig ganddo? Os yw ffyrdiau dy serch fel hyn, wedi eu casglu (trwy alluog nerth Duw yn eu hadnewyddu) i'r un rhedde hwn, ac yn rhedeg yn hyfryd gyflym yn y ffordd hon; yna, bendedig wyt ti gan yr Arglwydd: tydi yw yr enaid cywir yn ei gyfrif ef, er fod llawer o lygredd ynot, sy'n diwyno dy ffwrdd, ac yn ceisio rhwystro rhyddrediad dy enaid tuag at Dduw: gall hyn beri i ti beth rhwystr, fel y gwna mynyddoedd a chreigiau i afon ar ei rhediad i'r môr, gan beri aml droelliad a thro i'w dwfr; yr hwn, oni bai hyny, a âi y ffordd nesaf, ac ar ei uniawn iddo. Felly y gall dy lygredd dithau sydd etto o'th fewn dy roddi weithiau allan o'th ffordd o uffudd-dod: etto, cywirdeb a â yn mlaen, fel y dwfr ar ei hynt, er hyn i gyd; ac ni'â th nes dy ddynd, er mai trwy beth cwmplas, at dy Dduw, yr hwn sydd wedi cael y fath le yn dy galon, fel nas gelli byth mo'i anghofio.

Ond os ni amlygwyd rhagrith dy galon fel hyn erioed i ti, ac onid yw yn adgas genyt, ie, oni roddwyd egwyddor newydd yn dy fynwes i droi llanw dy enaid yn groes i rediad naturiol dy serchiauau (ond dy fod yn unig oddi ar dy dyb dda am danat dy hun, o herwydd rhyw wael addurniadau yn dy broffes, yn ei gymmeryd yn ganiataol dy fod yn gywir o galon), mi a feiddiaf dy ddadgan yn rhagrithiwr brwnt. Gall y byd, ysgatfydd, dy seintio; ond fel yr wyt, ni byddi yn sant byth yng nghyfrif Duw. Wedi i ti harddu a hoewi dy hun yn eithaf gwyh i ddull Cristion, ni fydd genyt er y cwbl ond gwyneb sant a chalon rhagrithiwr. Nid yw fater pa beth fyddo yr arwydd, pe byddai angel yn hongian oddi allan, os Satan a phechod sydd yn byw oddi fewn. Addurniadau newydd ar hen ddilledyn, ni wnânt mo hono yn newydd, ond yn unig rhoddi arno ddull newydd. Ac yn ddiâu, nid trefn dda yw myned i draul fawr i wychu hen wisg, a â yn fuan yn llarpiau ac yn fratiau, pan wnai ychydig chwaneb brynu un newydd a barhâai. Ac onid gwell fyddai ymgais am galon newydd, fel y byddo yr hyn

oll a wnei yn dderbiniol, a thithau yn gadwedig, nag i ti gollu yr holl boen a gymmeri mewn crefydd, a dy hunan hefyd, o ddiffyg ei chael.

DOSB. II.

2. Y mae calon syml, ddihoced, yn galon heb ddyblygion. Y mae y rhagrithiwr o eppil y sarph; gall, fel y sarph, ymgrebachu neu ymestyn er ei fantais, heb chwennych ei ddangos ei hun yn amlwg i wybyddiaeth ereil. Ac y mae iddo achos i fod felly; canys efe a wŷr fod iddo fwyaf o goel lle y mae yn lleiaf adnabyddus. Y mae y rhagrithiwr yn un sydd yn dwfn geisio i guddio ei gynglor (*Isa.* xxix. 15); "eu calon sy ddofn;" *Salm* lxiv. 6. Y mae eu meddwl a bryd eu calon yn gorwedd na wŷr neb pa mor bell oddi wrth eu geiriau. Y mae calon ddiffuant, fel dwfr gloew mewn ffrwd: gellwch weled i waelod ei fwrriadau wrth ei eiriau, a chymmeryd mesur ei galon wrth ei dafod. Mi a glywais ddywedyd fod clefydau y galon i'w gweld yn ysmotiau y tafod: ond gall y rhagrithiwr ddangos tafod glân, etto, a'i galon yn aflan. Y neb a wnaeth y ddiareb hono—"Llefara fel y'th welwyf," ni feddylodd am y rhagrithiwr, yr hwn a lefara fel na weloch ef. Y cymydlau tewaf a fedd efe yn amwsg i'w ddrygioni yw ei dafod crefyddol a'i broffes dywodlyd. A fyuit ti i'w bod a oes genyt galon gywir yn dy fynwes? Edrych a oes genyt galon syml. Gwel hwynt yn gyssylltiedig yn 2 *Cor.* i. 12. Yr oedd ymddygiad Paul a'r lleill o genhadau ffyddlawn Crist ym mysg y Corinthiaid mewn symlrwydd a phurdeb duwiol. Ni feddent hwy un blwch caud o fewn cell eu calonau, i gadw yn gyfrwys ynddo ddim o'u bwriadau rhagddynt, fel y gwnai yr apostolion gau. Yn awr, y symlrwydd hwn sydd yn y galon gywir a ymddengys yn y tri pheth neillduol hyn:—

1af. Y galon gywir a ymddug gyda syml-edd tuag ati ei hun; a hyn mewn dau beth yn benaf:—

(1af.) Mewn manwl ymchwiliad iddi ei hun: hyn a wna hi hyd eithaf ei gallu. Ni fyn hi ei throï draw â rhyw ffuant, neu â'r fath rith-escus moesgar ag a roddodd Rahel i Laban, tra yr oedd hi yn gyfrwys yn eistedd ar ei ddellwau ef. Na: hi a fyn gyfrif galon yr enaid, a hwnw yn fath un ag a'i galluoga ef i roddi cyfrif teg i Dduw, ar warant yr hwn y mae hi yn cyflawni ei swydd. O! yr ofn a ddengys y cyfrwngun, rhag i un chwant lechu o'i olwg, fel Sàul ym mysg y dodrefn, neu i un gras gael ei fathru o ddiofalwch, trwy ei guddio neu ei wadu! Gwelwn Dafydd, pan y cafodd ei feddyliau am Dduw (a fyddai yn arferol o'i loni, a bod iddo yn gyfeillion hyfrystaf), yn awr yn peri rhyw derfysg yn ei ysbyrd: "Cofiais Dduw, ac a'm cythryblwyd;" *Salm* lxxvii. 3. Y gwr duwiol hwn, dan synu

pa beth a allai y mater fod, gwnewch ond edrych fel y mae yn manwl chwilio—y mae yn chwilio yn ol ac yn mlaen beth a fuasai triniaethau Duw arno; y mae yn "ymddiddan â'i galon," ac yn "chwilio yn ddyfal" yno: *adn.* 6. Nid yw efe yn rhoddi i'fyny nes dwyn y gwaith i ben: ac ar o cael mai ynddo ei hun yr oedd aflonyddwr ei heddwch, nid yw efe mor dyner o'i ennda ei hun ag i feddwl mygu y mater na lyfnhau ar y wyneb; ond y mae yn dal y y lleidr, yn cyhuddo ac yn cyfaddef ei bechod. gan gyfiawnhau Duw, yr hwn yr oedd o'i blaen wedi meddwl yn galed am dano: "A dywedais, dyma fy ngwenedid;" *adn.* 20. Fel pe dywedasai, Yn awr, Arglwydd, y gwelaf y Ionah a barodd yr ystorm yn fy mynwez, ac a'm gwnaeth mor anghysurus yn holl amser fy nhrallod hwn: fy anghrediniaeth i, hwn a'm crymmod i lawr, i wrandaw felly ar y gofid a'r teimlad o'm cystudd presennol, fel na adawai i mi edrych i'fyny at brofiadau gynt; ac felly, tra yr anghofiais y rhai hyn, mi a feddyliais yn amheilwng am danat ti. Dyma enaid syml a gonest y wir! Pa berthynas wyt ti, O ddy, i Dafydd dduwiol? Ai dyma dy ffordd di a chwilio dy enaid? A wyt ti yn gwneud hyn o ddiffrif, fel pe byddit yn chwilio am lofrudd cudd yn dy dŷ! Mor awchus am gael hyn i'th bechod ag a bu un Pabydd, yn nyddiau Mari, i gael gafaal ar Brotestaniaid; wrt olrhain pa rai, hwy a frathent eu cleddyfau a'u ffyrch i welyau ac i wair rhag eu boe yno! Neu, tra yr wyt ar y gwaith hwn, a wyt ti yn ymgadw rhag myned yn rhy bell fel na chanfydddech y peth yr wyt am edrych drosto? neu yn ofni aros yn rhy hir, rhag gydwybod wneud i ti fynegiad annymuol. Dywedodd Tertullian am yr erlidwyr pagan aidd, "Na fynent wrandaw amddiffyn Crist ionogion, o herwydd na allent wedi hyni yr hawdd eu condemnio, gan mor dda y gweloch eu hachos." Y gwrthwyneb sydd yn wi yma: ni faidd y rhagrithiwr osod ei gyflwr ar brawf teg, o herwydd felly, nid hawdd fyddai iddo ochel condemnio ei hun. Eith y mae yr enaid cywir mor awyddus i wybodi wir gyflwr, fel, wedi iddo ymgais i' eithaf at ei gael i'r amlwg, a bod ei gydwybod yn ei ryddhau ar ei chwiliad hwn, na ymfoddona efe ar hyn; ond mewn eiddig edd rhag bod hunan-gariad wedi dallu e lygaid, a pheri mynegiad anghywir gan ei gydwybod, y mae yn galw am help o'r ne ac yn rhoddi ei hun dan olygiad Duw: "Oni cas genyf dy gaseion di? Onid ffaidd geny y rhai a gyfodant i'th erbyn?" *Salm* cxxxix. 21. I hyn y mae ei gydwybod ei hun y ateb: "A chas cyflawn y caseais i hwynt cyfrifais hwynt i mi yn elynion;" *adn.* 2. Etto, y mae Dafydd, heb fod yn gwbl foddlawn ar ei dystiolaeth ei hun, yn llefain a Dduw: "Chwilia fi, O Dduw, a gwybyddt

nghalon; a gwel a oes ffordd annuwiol genyf;" *Idn.* 23, 24. Ni wna physygyr doeth ymddiried i'w farn ei hun yn achos ei iechyd ei hun; ac felly y Cristion diffuant ynghylch iechyd i enaid ei hun. Ar Dduw y gwrendy efe; ei farn ef yn unig a'i boddlon a ac a'i sefydla ef. Wedi iddo weddio, ac agor ei achos o'i blaen gyda Dafydd, efe a wrendy pa beth a llydwed Duw. Am hyn, chwi gwelw y cyfryw yn rhoddi eu hunain dan y weinidogaeth a'u chwilia yn fanylaf; ac oddi tani, ni ddychwelant un anser wedi eu boddio yn well na phan y dinoether eu cydwybodau, ac y dangoser eu calonau o'u blaen. Felly y wraig o Samaria, yr hon a ganmolodd y pregeth, a Christ a'i pregethodd, am hyn wrth ei chymmydogion, "ei fod wedi dywedyd wrthi yr hyn oll a wnaethai hi;" *Ioan* iv. 21. Ond calon ffals, nid hoff gantdi glywed f'r glust hono. Efe a dybia fod y pregethwr yn troseddu, pan fyddo yn lydfod ar ei dir ef ac yn nesau at ei gydwybod; a phe gallai, efe a fynai osod ewyn yn ei erbyn am hyn. Hyn a lynnodd yng nghylla Herod, ddarfod i Ioan osod ei fys ar ei ddolur: er iddo ei ofni ef gan rym cydwybod, etto, erioed ni charodd mo hono; ac am hyny, hawdd oedd ei berswadio i dori ei ben, yr hwn yr oedd ynddo dafoed mor hylfoddiail argyhoeddi ei losgach ef.

(2il.) Y dyn syml onest, fe ddengys 'ei gywirdeb ato ei hun, megys trwy chwilio, felly trwy farnu ei hun, pan unwaith y delo tystiolaeth eglur yw erbyn, ac a dywed cydwybod, Enaid, yr wyt yn y ddyledswydd hon yn dangos balchder—yn y cystudd new, ddrygnaws ac annioddefgarwch; ac nid hir y bydd y fath un heb fyned ynghyd â barn. Hyn hefyd a wna efe gyda'r math angerdd a llymder, nes ei fod yn amlwg fod sel dros Dduw, a ddianrhydeddwyd ganddo, yn peri iddo anghofio pob hunanlosturi. Efe a dery yn ddwys, wrth ostwng ac iselu ei hun, fel meibion Lefi, wrth gyfawni barn ar eu brodyr; a hwy ni chydnabwyddent na brawd, na chwaer, yn y weithred hono. Yn ddiau, cyffelyb wrolwaith ydyw hon o eiddo yr enaid cywir yn ei farnu ei hun: y mae wedi ei lenwi a'i wisgo felly â digter duwiol yn erbyn ei bechod, nes yw yn fyddar i lais cig a gwaed, a fynai ei daddu i feddwl am farn fwytyner. "Pechais," medd Dafydd, "yn erbyn yr Arglywydd" (*2 Sam.* xii. 13); mewn lle arall, "Pechais yn ddirfawr, a gwneuthum yn ynyfyd iawn;" mewn man arall, y mae, fel un annheilwng i enw dyn, yn galw ei hun yn anifail; "Mor ynyfyd oeddwn, ac heb wybod! anifail oeddwn o'th flaen di;" *Salm* lxxiii. 22. Ond y ffals galon, os cerydda cydwybod ef am y peth hwn a'r llall, nes iddo ddirnad, wrth y murur yma o fewn ei fynwes, pa ffordd y cerdd y mater, os â efe ym mlaen hyd brawf teg, yna bydd codiad y llys yn sier o ganlyn, ac

oediad y prawf hyd bryd arall. Nid ar frys y daw hwnw: ac felly, y mae'r tystion o'r diwedd, gan lawer o oediadau a thafliadau draw, yn blino ar y gwaith, ac yn dewis aros gartref, yn hytrach nag ymddangos i ddim diben. Felly y paid cydwybod a rhoddi tystiolaeth, lle na chaiff ei gwranda; neu pan wrandaw hi, nas gall gael barn yn erbyn y troseddwr.

2il. Y mae calon gywir yn syml, megys ati ei hun, felly at Dduw hefyd. Gellid gwelid hyn mewn amryw ffyrdd. Cymmerwch un yn lle'r cwbl; a hono fydd yn ei ddeisyfiadau a'i ymbiliau wrth orsedd gras. Ledrithio mewn gweddi a wna y rhagrith-iwr: y mae yn gofyn yr hyn ni ddiolchaf iefe i Dduw am ei roddi iddo. Y mae rhyw ddirgelwch anwiredd yn ei weddiau yn erbyn anwiredd. Yn awr, fe amlygir yn y ddau beth neilliddu hyn, a yw ein calon yn syml yn ein herfyniadau, ai nid yw.

(Iaf.) Craffa, a wyt ti yn drallodus o ysbryd, pan fyddo dy erfyniad heb gael ei ateb, neu ai diofal wyt pa lwyddiant fydd iddo. Gadawn dy fod yn gweddio yn erbyn rhyw bechod, neu am ryw ras: beth yw dy dymmer tra y mae dy genad yn 'aros, yn enwedig os erys yn hir? Yr wyt yn gweddio, a'th lygredd heb fyned yn llai, gras heb gynyddu: yn awr, dy ragrith, neu dy burdeb a ymddengys; os cywir, bydd pob munydyn fel awr, fel diwrnod, neu flwyddyn, nes y clywech ryw newydd o'r nef. Gobaith a oeder a wanhâ'r galon. Onid yw y dyn claf a anfono am feddyg yn hiraethu am ei ddyfodiad? O! y mae yn ofni rhag i'w genad fethu ei gael, neu na ddaw efe ato, neu, y daw angeu arno cyn iddo ddwyn ei physgywriaeth: y mae mil o ofnau yn ei derfysgu, ac yn peri iddo fawr ddymuno ei fod yno. Fel hyn y mae'r enaid cywir yn treulio yr oriau â chalon drist, yn y rhai y mae efe heb ateb i'w erfyniad. "Gwraig galed arni ydwyf fi," meddai Hannah, wrth Eli: 1 *Sam.* i. 15. A pha ham felly? Och, yr oedd hi wedi gweddio ar Dduw o flwyddyn i flwyddyn, ac heb gael ateb eto. Fel hyn, medd yr enaid, un caled arno wyf fi; yr wyf wedi gweddio am galon dyner, am galon grediniol, lawer diwrnod a mis; ond heb ddyfod y mae; yr wyf yn ofni nad oeddwn yn ddiffuant yn y gwaith; pe amgen, a allasai fy ngweddi ymhongian cyhyd yn y cymmylau? Y mae'r cyfryw enaid yn llawn o ofnau a blinderau, fel marsiandwr a fyddo ganddo long gyfoethog ar y môr: nis gall hwn gysgu ar y tir nes y gwelo hi neu y clywo oddi wrthi. Ond os wyt, ar ol anfon dy weddi i fyny, yn gallu rhoddi heibio y gofal a'r meddwl yn ei chylech, fel pe na byddai gweddio ond tebyg i waith plant yn bras-resu darn o bapyr, yr hwn, ar ol eu gwaith, a daffant heibio, heb feddwl mwy am dano; os wyt yn gallu cymmyrd pall

gan Dduw mewn modd tebyg i hyn, ac heb ymlino dim mwy nag y gwna carwr oerlyd, pan fyddo heb glywed oddi wrth yn na charodd yn ddiau erioed—y peth heb dy flino na chwerwi dy lawenydd, yna calon ffals a'th osododd ar waith. A gochel, rhag i Dduw, yn lle ateb dy weddi, roddi tâl i ti yn ol dirgel ddymuniad dy galon; yr hyn, pe gwnai, ti a fyddit yn druenus byth.

(2il.) Edrych a wyt ti yn arfer y moddion at gael y peth yr wyt yn gweddio ar Dduw ei roddi. Y mae y ffals ei galon yn eistedd yn llonydd ei hun, tra y mae yn gosod Duw ar waith. Yn debyg i'r pagan a waeddodd, "Help, Jupiter," pan lynnodd ei gertwyn mewn llaid; ond ni roddai ei ysgwydd ei hun wrth yr olwyn. Os bydd i lygredd gael ei farwau a'i ladd iddo, fel y lladdwyd Goliah i wyr Israel, efe, fel hwythau, yn edrych, ond heb daraw un ergyd, felly fydd. Ond am ymladd â'i elyn, nen roddi ei hun i'r boen o arfer moddion at gael y fuddugoliaeth, y mae wedi ei ysu felly gan ddiogi a llwfrdra, nes yw hyn mor galed, debyg i ef, ag yw eistedd yn gaethwas llonydd iddo. Eithr y mae yr enaid cywir yn llafurus o gyawybod: "Dyrc hafwn ein calonau a'n dwylaw at yr Arglwydd;" *Galar*. iii. 14; hyn yw, medd Bernard, "Gweddion ac ymdrechwn." Y mae tafod y rhagrithiwr yn siglo; ond y mae traed y dyn cywir yn rhodio, a'i ddwyllaw yn gweithio.

(3ydd.) Y mae yr enaid cywir yn dangos ei burdeb a'isymrlwydd i ddynion. "Mewn symrlwydd a phurdeb dwiwl, nid mewn doethineb enawdol yr ymddygasom yn eich plith chwi," medd Paul wrth y Corinthiaid. Un yw y Cristion nas gall blygu ei galon i'w ben, na'i gydwybod i'w gyfrwysdra. Mae efe yn gorchymyn ei hun i Dduw, gan wneuthur yn dda ac heb ofni ereill, tra y bo ei gydwybod ei hun yn ei ryddhau; ac felly, ni faidd efe archolli ei gydwybod i gadw ei groen yn gyfan; ond efe a eilw Dduw i'w blaid, heb ledrithio yn ei broffes. Eithr y rhagrithiwr a newid ei hwyliau ac a rydd allan ei fanerau yn ol cynghor ei gyfrwysdra a'i elw bydol. Os bydd y goror yn rhydd, ac heb berygl ger llaw, efe a ymddengys mor grefyddol a neb; ond cyn gynted ag y canfyddo ryw berygl a all fod o hyn, y mae yn troi ei lestr, ac yn hwylio ffordd arall: ni wna efe bris o ledrithio gyda Duw a dyn. Y mae yn cyfrif hono yn iawn ffordd iddo ef, a fyddo yn tywys i'w ddiogelwch tymorol. Ond llwyr groes yw yr uniawn: "Sarn y cyfiawn yw dychwelyd oddi wrth ddrwg;" *Diar*. xvi. 17. Hon yw y ffordd y rhodia y teithiwr cywir hwn ynddi; ac os gwelir ef ar ryw dro allan o honi, nid o fwriad y ceir ef felly, ond yn debyg i ddyn a gollodd ei ffordd o'i anfodd—ni fydd yn llonydd hyd nes iddo gael hyd iddi drachefn.

3. Y mae'r Cristion cywir galon yn unfurff Megys y mae gwirionedd yn yr athrawiaet yn amrywio yn hyn oddi wrth y gau, ei fo yn un, a chyfeiliornad yn amryw, dim cys sondeb rhwng cyfeiliornadau fel rhwng gwirioneddau, felly, y mae gwirionedd calon neu burdeb, i'w adnabod oddi wrth râgrit trwy yr un nod. Yn ddiau, nid yw gwir y y galon ond megys adysgrifen o'r llall: maent yn cyttuno fel y gwyneb yn y dry, â gwyneb y dyn a fyddo yn edrych arn neu fel y ddelw yn y cŵyr â'r cerfiad yn sêl, o'r hon y deilliodd. Gan hyn, os y gwirionedd yn y gair yn unfurff a chydsebiol, yna y mae yn rhaid i'r gwir yn y galon nad yw ond o argraff hwnw ynddi, fod fel hefyd. Y mae'r Cristion cywir, yn mha hâd ei yrfa, fel ef ei hun, neu yn ŵr unlliv nid yn debyg i'ch defnyddiau symmudi wedi eu lliwio fel y gellwch wrth eu hysgw amryw ffyrdd, weled amryw liwiau.

Y mae unfurfiad mewn tri ystyr: ufudd-dod y Cristion cywir: un unfurff yw efe o ran gwrthdrys, cyfarwydd, ac a gylchiadau ei ufudd-dod.

1af. O ran y gwrthdrys. Y mae rhagrithiwr yn wir i mewn âg un ddyle swydd, allan â'r llall, yn debyg i gorph crwefe a gyffwrdd â chyfraith Duw mewn rhybwngce (mae yn ymddangos yn wresog blaid rhyw orchymyn neillduol) ond i ymgyferfydd yn y lleill. Eithr y gwir cywir a ymwag â holl ddeddf Duw, mwy ddymuniad ac ymgais. Dywedir fod troed dyn cywir "yn sefyll ar yr uniawn;" *Sa*. xxvi. 12. Nid yw efe yn cerdded yn gl ac anwastad; fel y rhai ar lwybrau cynyio yn cerdded yn gloff, i fyny ac i lawr; neu rhai y mae eu traed a'u coesau heb fod un hyd: fel y dywed Solomon, "Nid gog hyd esgeiriau'r cloff;" ac felly nis gall sefyll ar dir gwastad, am fod un goes yn a'r llall yn fer. Y mae traed y dyn uniawn wastad, a'i goesau o'r un hyd, fel y gall ddywedyd; ei ofal yn gyffelyb gydwybod at y cyfan o ewylls Duw. Y mae y rhagrithiwr, fel y prf llwyd, âg un troed fyrach na'r llall; neu fel march method na saif yn iawn ar 'ei bedwar troed, fel dywedwn: chwi ellwch ei weled yn arl un troed o leiaf, yn anhawdd ganddo roddi i lawr. Y Phariseaid a ymbonen ryw sel fawr at y llech gyntaf; hwy weddient ac a ymrydient mewn me anghyffredin. Ond am eu hysglyfaeth gweddient; ac, ar ol ymrydio ar hwydydd, hwy a swperent ar gost y wedd dlawd, gan fwriadu difiad ei thŷ. Ymptwm yw hwnw a ddiweddo mewn tr heb fagu dim ond eu rhaib gwangus llyngu daoedd ereill dan rith o grefydd. moesolwr, y mae yn dra manwl yn ei ymdiaeth â dynion, ond yn dra anonest ei :

ddygiad at Dduw: er na wna efe gam â'i gymmydog am ffyrlling, ni phetrusa ysbeilio Duw o bethau mwy. Y mae ei gariad, ei ofn, a'i gred, yn ddyled gyfiawn i Dduw: ond ni wna efe ddim cydwybod o'u talu. Peth cyfiredin yn y Beibl yw darlunio sant—dyn duwiol—wrth ryw un ddyledswydd, neu un gras; weithiau ei nod yw, un a ofna dyngu; *Preg.* ix. 2: weithiau, un sydd yn caru y brodyr; 1 *Ioan* iii. 14: ac felly am y lleill. A pha ham? onid am hyn, lle y cyflawnir un ddyledswydd yn gydwybodol, fod y galon yn barod at un arall? Y mae Duw wedi cyhoeddi ei orchymynion oll â'r un awdurdod: am hyn y dywedir, "Duw a lefarodd yr holl eiriau hyn" (*Exod.* xx. 1)—y naill fel y llall. Ac felly y mae efe yn rhoddi yn y galon bob gras ynghyd; nid yn ysgrifenu rhyw un neu ddaau orchymyn yng nghalon ei blant, ond yr holl gyfraith, sydd yn egwyddor gyfiredinol, yn tueddu yr enaid at bob un heb wahaniaeth. Felly, os nad wyt ti yn hoffi y cwbl, nid wyt gywir yn un.

2il. Y mae'r Cristion cywir yn unffurf mewn cyfanrwydd: y mae'r holl ddyw, mor bell ag yr adnewyddwyd ef, yn ysgogi yr un ffordd; holl alluoedd a chynneddfau yr enaid yn uno eu grym, ac yn cydsenio yn hyfryd â'u gilydd. Pan ganfyddo y deall ryw wirionedd, yna y gydwybod a ddefnyddia eithaf ei hawdurdod gyda'r ewyllys, gan orchymyn iddi, yn enw Duw (dros yr hwn y mae yn wyddog), ar ol iddi ei dderbyn; y mae yr ewyllys, pan gyntaf y cura'r gydwybod, yn ymagor, ac yn ei ollwng i mewn; y serchiadu hwythau, fel morwynion ufudd (wrth ei weled yn lletty wrderyniol gan eu meistres, yr ewyllys), a dangosent eu parodrwyddi weithio arno fel y gwedda'i iddyn, yn eu lleoedd. Ond yn y rhagrithiwr, nid felly y mae; yno y mae y naill gynneddf yn ymladd yn erbyn y llall; byth ni cheir mo honynt oll yn cyd-unio, nac yn uno mewn llais (*vote*) fel cyf-eillion. Pan fyddo goleu yn y deall, y mae'r llyn yn gwybod y gwirionedd hwn, a'r ddyledswydd acw; yna, yn fynyeh, caiff cydwybod ei gwyrbrwy rhag cyflawni ei swydd; ac nis gwna hi gymmaint a cheryddu y dyn un ei esgeulusdra. Y mae gwirionedd yn sefyll fel o flaen drws yr enaid; ac nis gwna y gydwybod gymmaint o gymmwynas ddo a churo i gynhyrfu yr enaid i'w ollwng i mewn. Os gorchfygir cydwybod ddadlêu ei hachos a dangos ychydig o gywiogrwydd wrth wasgu am dderbyniad, y mae yn sicr o gael nacad sarug a gwg am ei phoen yn ymyraeth i ddwyn y fath westwr unnerbyniol gyda hi (fel y gwna gwraig ufrywiog â'i gwr a ddygo un gydag ef adref, na byddo yn ei boddio hi): neu ynte, caiff ithgroesawiad, i gelu dirgel elyriaeth y galon i'w erbyn.

3ydd. Y mae'r enaid cywir yn unffurf o an amgylchiadau ei ufudd-dod a'i rodiad

duwiol: y fath ag yw amser, lle, cymdeithas, a dall. Y mae efe yn unffurf o ran amser; nid yw ei grefydd fel dillad dydd gwyl, i'w gwisgo yn unig ar ryw amserau: ond deuwch ato ef pan y mynoch, chwi a'i cewch yn yr un gwisgiad—yn sanctaidd ar ddydd yr Arglwydd, ac felly hefyd ar ddiwrnod arall: "Gwyn eu byd a gadwant farn, a'r hwn a wnel gyfiawnder bob amser;" *Salm* cvi. 3. Y mae yn arwydd mai nid dyna wedd y dyn, pan fyddo y lliw sydd arno wrth dân, yn diflanu yn fuan ar ol hyn. Y mae rhai, os mynwech weled eu daioni, a bod yn adnabyddus o'u crefydd, y mae yn rhaid i chwi daraw ar yr iawn amser, onid ê, ni chewch chwi ddim: yn debyg i rai blodau, na welir mo honynt ond rai misoedd o'r flwyddyn: neu fel rhai meddygon, a alwant yn wyr pen boreu: y mae yn rhaid i'r neb a fydo siarad â hwynt i ateb diben ddyfod yn y boreu, am eu bod yn gyffredin yn feddw y prydnawn. Yn gyffelyb, chwi ellwch gael y rhagrithiwr, ysgatfydd, ar ei liniau yn y boreu, a'i agwedd fel sant: ond pan el y siars hono drosodd, ychydig o Dduw a welwech chwi yn ei yrfa oll, nes i'r nos ei ddwyn ef i'r un fath agwedd drachefn. Drwg yw yr oriadur (*watch*) a ä yn unig pan ei dyrwyner gyntaf, ond a saif drwy y dydd wedi hyn: ac felly yn sicr y galon nad yw yn dyn un cadw o hyd mewn ysgogiad ysbrydol. Yr wyf yn addef y gall fod gwahaniaeth mawr rhwng un oriadur a'r llall, o ran sefyll; un yn sefyll am nad yw o iawn wneuthuriad; ac felly y gwna nes y castio ei hailwneud; y mae y llall, o bossibl, a gwaith da ynddi; yn unig, y mae peth llwch yn attal ei holwynion, neu godwm wedi ei drygu: a phan ddiwygier hyn, y mae yn myned yn dda drachefn. Ac y mae cymmaint o wahaniaeth rhwng yr enaid cywir a'r rhagrithiwr yn yr achos hwn: dichon yr enaid cywir gael ei rwystro yn ei ysgogiad ysbrydol a'i yrfa Gristionogol; ond y mae hyn oddi wrth ryw brofedigaeth sydd yn bresennol yn ei attal: er hyn y mae ganddo ef natur newydd, sydd yn tueddu at ysgogiad parhaol mewn duwioldeb, ac a wna, ar symmudiad y rhwystr presennol, ddychwel-yd at ei hymarfer naturiol o grefydd. Ond y mae meth yn y rhagrithiwr, o ran gosodiad ac agwedd ei ysbryd; yn fedd efe egwyddor o ras o'i fewn i'w gadw mewn ysgogiad.

Drachefn, y mae'r Cristion cywir yn unffurf o ran lle a chymdeithas. Pa le bynag yr ä, y mae yn dwyn ei reol gydag ef, i'w iawn-drefnu. Yn ei dÿ, gyda'i berthynasau nesaf, bwriad Dafyddid sydd ganddo ef; "Efe a rodia yn mherffithrwydd ei galon o fewn ei dÿ;" *Salm* ci. 2. Dilynwch ef ar led, y mae yn dwyn ei gydwybod gydag ef; ac nid yw yn peri iddi aros, fel y parodd Abraham i'w weision, pan aeth i'r mynydd, nes ei ddyfod yn ol. Yr oedd gan y Rhufeiniaid

gyfraith, am i bob un, pa le bynag yr elai, wisgo arwydd o'i gelfyddyd yn ei het, neu ei ddilledyn uchaf, fel yr adnabyddid ef. Nid yw y Cristion cywir byth o'i fodd yn rhoddi heibio yr arwydd o'i broffes sanctaidd. Ni thry na lle na chymdeithas mo hono ef o'r ffordd a elwir yn sanctaidd. Yn wir ni wna ei gydwybod iddo adael ei gallineb ar ol: y mae yn gwybod pa fodd i wahaniaethu rhwng lle a lle, cymdeithas a chymdeithas: ac am hyny, pan fwrier ef i fysg troseddwytr trystfawr, a gwatwarwytr, nid yw efe yn traddodi crefydd i warth, trwy dafu ei pherlau o flaen y rhai a'u mathrent, ac a'i rhwygent yntau; etto y mae yn fawr ei ofal, rhag i'w gallineb roddi ei burdeb mewn perygl. "Byddaf ddeallus mewn ffordd berffaith," medd Dafydd, yn y Salm a rag-bennodwyd; hyny yw, mi a ymddygyf mor gall ag y gallaf, gan fod yn gywir hefyd. Yn ddiâu y mae'r lle a'r gymdeithas hono, fel y cylch crasboeth, yn anghlyfanneddol i enaid grasol, lle y mae halogrydd mor boeth fel na ddichon purdeb edrych allan, a'i ddaugos ei hun, trwy gyngor a cherydd tymnoraid, heb berygl i'r Cristion. Ac am hyny, y rhai ni feddant y fath sel ag i dystio yn erbyn pechodau y cyfryw, na'r fath ofal am danynt eu hunain ag i gilio o'r lle nas gallont gael ond niwed, a bod heb wneud lles ynddo, y mae iddynt achos cyfiawn i alw eu purdeb i gwestiwn.

DOSB. IV.

4. Y mae'r Cristion cywir yn gynyddol: nid yw efe byth ar ben ei daith nes cyrhaedd i'r nef. Y mae hyn yn ei gadw o hyd ar symmudiad, yn myned ym mlaen yn ei ddymuniadau a'i ymgais: y mae yn ddiolchgar am ychydig ras, etto heb ymfodloni ar fesur mawr o ras: "Digonir fi pan ddibunwyf, a'th ddelw di," medd Dafydd; *Salm* xvii. 15. Yr oedd wedi cael am bryd melus yn nby ac ordinhadau Duw: Ysbryd Duw oedd y cenadwr a ddygasai iddo lawer dysglaid dan orchudd o fwrdd Duw; cysuron tufewnol, na byddai y byd am danynt; er hyn nid oedd Dafydd yn cael digon; y nef yn unig a all roddi iddo ei lawn ddigon-iad. Dywedir am y Gauliaid gynt, wedi iddynt brofi gwinoedd yr Eidal, nas gallent ymfodloni i fasnachu yno am danynt, gan mor dra melus a pheraidd eu blas, ond eu bod wedi bwriadu goresgyn y wlad lle yr oeddynt yn tyfu. Felly, yr enaid cywir, ni chyfrif yn ddigon iddo dderbyn ychydig yn awr ac yn y man o ras a chysur o'r nef, trwy ddal a chadw marchnadaeth o bell â Duw yn ei ordinhadau yma isod; ond y mae yn bwriadu ac yn myfrio goresgyniad y tir sanctaidd hwnw, a'r lle gwynfydedig, o'r hwn y mae y fath ddaoedd gwerthfawr yn dyfod; fel y caffo yfed o win y deyrnas yn y deyrnas. Y mae hyn yn codi i'r enaid anturiaethau uchel ac ardderchog, am gyr-

haedd i raddau mwy o ras, ddydd ar ol dydd, a dringo felly nes-nes i'r nef. Y mae yr hwn a annelo i'r awyr yn saethu yn uwch na'r hwn nad yw yn ceisio ond at bren. "Yr wyf yn cyrchu at y nod," medd Paul, "am gamp uchel alwedigaeth Duw yng Nglurist Iesu;" *Phil.* iii. 14. Ereill a syneut wrth gyrhaeddiadau Paul: O, na byddai ganddynt ras Paul! yna hapus fyddent! Ond efe a gyfrifai ei hun yn dra annedwydd, pe na buasai iddo chwanege i'w gael: y mae yn addef ei fod heb gyrhaedd y peth y mae efe yn rhedeg am dano. Nid yw y gampdlws ar hanner y ffordd, ond yn mhen draw yr yfa; ac am hyny, y mae yn tynu ym mlaen ym llwyr gyflym, ie, yn gwneud hyn yn brawf o burdeb ym mhawb. "Cymmifer gan hyny ag ydym berffaith," neu ddifffuant, "syniwn hyn;" *Phil.* iii. 15. Y rhagithiwr yw yr hwn sydd yn ymderfynu ym mhethau Duw. Efe a chwaneuchlai gael rhyw faint o wybodaeth ym mhethau Duw, i'w gymnorthwyo i ymddidd an am grefydd ym mysg crefyddwyr; ac an chwanege, y mae yn ei adael fel peth mwy addas i'r pregethiwr nag iddo ef. Y mae yn hoffi rhai trefniadau allanol, ac yn eu harfe yn ei broffes; megys dilyn ordinhadau cyhoeddus; ac y mae yn ymattal oddi wrth bechodau a barant iddo ddrewi ym mysg e gymnydogion. Ond am wasgu yn y blaen i'r cymmundege agosach â Duw mewn ordinhadau, ymgais am fwy o ysbrydolrwydd calon, ac am farwâd mwy fwy ar hol gorph pechod, ni fu hyn erioed yn ei fwriad. Yn debyg i ryw grefftwr ysgafn, na feidd iodd ar un tro edrych cyfuwch ag i feddw am fyned yn ŵr o gyfoeth: os gall efe ond eadw drws ei siop yn agored, ac ymgady rhag y carchar, er mai trwy fil o droion ystyrygar, y mae yn cyfrif hyny yn dda ddigon.

PENNOD XIII.

Gair o gyfarwyddyd i'r rhai a geir, ar brawf, y ffaith a ffals o galon.

WEDI gosod i lawr rai o nodau y galon gywir, bydd yn angenrheidiol gwneud rhyw ddefnydd o honynt, yn ol y farn a ddadgar cydwybod yn eich mynwesau, ar ol rhodd eich hunain ar brawf wrthynt, am eich cyfllyran ysbrydol. Yn awr, am y farn a rydd cydwybod, ar ol i chwi holi eich hunain wrth y nodau a osodwyd, hi a gyrhaedd i un o'r tri chasgliad hyn. Naill ai hi a'th gon demnia fel rhagithiwr; neu, hi a'th gyhoedda yn Grigion cywir; neu ynte, hi a rydd y farn (*ignoramus*) nis gwyddom ni gan dyadael mewn amhieuath, a wyt gywi ai nid wyt. Gan hyny, ddarllenwyd, tua; at dy ddal mewn ni drws, os colli di yn: lllall, mi a draethaf ar bob un yn wahanol.

1. Wrth y rhai a gafwyd ar y prawf yn euog: y mae tystiolaeth yn dyfod mor eglur a chref i'w herbyn, fel nas gall eu cydwybod ddal, ond dywed yn groyw wrthynt, "Os dyma nodau purdeb, yna rhagrithliwr dyfed chiwi." Y defnydd a ddymanwn ei vneud o'r prawf hwn, er eich mwynt chiwi, w, beth sydd i chiwi wneud yn yr achos iwn at fod yn bobl gywir.

1af. Ymgais am gael dy galon i ddwfn eimlad o'th alaethus gyflwr presennol. Nid oes obaith am iachad, nes dy rwbio i beth teimlad ac ystyriaeth o'th gyflwr gresnol. Nis gellir rhoddi physygwriaeth tra y mae y claf yn cysgu: ac y mae natur y clefyd wni i wneud yr enaid yn llygad-drwm, a'i ueddu i fath o hân cydwybod, gan rym y meddyliu gwenieithus sy gan y rhagrithliwr ldo ei hun. Y mae ganddo ryw gyflawnddau uwch law ereill mewn crefydd: y mae y rhai hyny yn mwgdarthu o'i galon omedig ef fel rhyw darth mwyn foddus, r cylla i'r pen, ac yn rhwymo ei synwrau sbyrdol i fath o syfyrdandod; ie, yn peri r dyn aml freuddwyd, i'w loni â gobaith wag a lawenydd gau, sy'n diflanu cyu ynted ag y defny, ac y daw ato ei hun. Y phariseaid—y rhagrithwyr hynotaf yn eu oes—mor drwm yr oeddynt yn cysgu mewn clechder a hyder cnawdol, gan ddiystyru y dyd oll mewn cymmharfaeth â hwynt eu anain! Nid oedd arnynt ofn moli eu anain wrth Dduw, ie, codi eu huanain yn uwch nag ereill: "O Dduw, yr wyf yn colch i ti, nad wyf fel y publican hwn." Fel pe buasant am ddywedyd wrth Dduw i bod yn disgwyl cael ganddo fwy o ddermyniad nag oedd i ereill ar ei law, a hwy or bell is eu llaw hwynt. Am hyn y mae rist, wrth ymdrin â gwyr o'r genhedlaeth lech hon, yn arfer dull anarferol o ymadod. Ni a glywa e seferydd, oedd mor rion a thyner wrth ereill, yn tori fel taran lan o'r cymylau, pan y mae yn llefaru rhynt hwy. Mor aml y taranau arswydus gawn ni, yn agos i'w gilydd, yn yr un ennod (*Mat.* xxiii), yn tori uwch eu pen! Nid llai nag wyth gwaith y cawn ni rist yn ergydio gwae arnynt, "Gwae chiwi grifenyddion a Phariseaid," megis cynffwr lwyth-belau; fel y gallai ddangos, trwy alhad y gwaeau, nid yn unig y sicrwydd o lamnedigaeth y rhagrithwyr, ond eu blaeniaeth hefyd. Ac etto, leied nifer o'r eng hono a gawn ni wedi eu deffro a'u chweyd trwy y pregethau hyn! Bu hyn wir i ryw ychydig, fel nad ymddangosai afiechyd yn anfeddyginiaethol; etto, i hydig iawn, fel y crynom yn fwy rhagrithio iddo, neu oddef iddo dyf arnom. Yr oedd Pedr wedi dysgu gan ei Feistr fodd i drin y rhagrithiwr; ac y mae yntau, pan oedd iddo a wnelai âg un, Simon agus, a aethai ym mhell yn y clefyd

hwn, yn mwydo ei eiriaid, megys mewn gwinegr a bustl: "Nid oes i ti na rhan, na chyfran, yn y gorchwyl hwn; canys nid yw dy galon yn uniawn ger bron Duw;" *Act.* viii. 21. Pwys cyhuddiad Simon yno yw, ei fod yn dwyn calon rhagrithiol yn ei fynwes (yr hon oedd fil gwaeth na'i Simoniaeth, er fod hwn yn fudr ddigon): nid ei weithred noeth unig, ond ei tharddiad o galon bwdr a ffals oddi mewn, oedd yn profi ei fod mewn bustl chwerwder a rhwymedigaeth anwired: ac i ddirnad hyn, rhoddodd Duw ysbryd anghyffredin i Pedr. Yn hyn yn unig yr oedd Simon yn well ei gyflwr na'r dammedigion yn uffern; yr oeddynt hwy yn y tân; yntau yn rhwymedigaeth anwiredd, yn gdylysen rwym, addas iddo, ond heb ei thafu i mewn: hwynt hwy tu hwnt i obaith; yntau âg iddo gymmaint wedi ei adael ag a gyrhaeddai i *ysgatfydd*, neu, "a faddeur i ti feddylfryd dy galon;" *adn.* 22. I nodi ond un esampyl yn chwagan, a hono am eglwys gyfan—Laodicea rhagrithriol: y mae Ysbryd Duw yn taro arni hi yn drymach nag ar un o'r lleill; yn y rhai, er eu cyhuddo o ryw feiau neillduol, y mae efe etto yn cael rhywbeth i'w arddel, a'i gamawl; ond am dani hi, gan ei bod mewn ymchwydd eisoes, fel y mae lefain rhagrith o natur yn chwyddo, nid yw efe yn crybwyll am ddim oedd yn dda ynddi, rhag porthi y naws oedd eisoes yn ormodol o'i mewn, a dwyn ymaith lymder y cerydd, oedd yr unig foddion tebygol a adawyd er eu hadferiad. Y mae pob peth a dueddo i beri cwsg yn farwol i'r hŷnglwyfus; a phob lochiad anwesol yn enbydus i bobl rhagrithiol. Rhai a ddywedant, mai y ffordd debycaf i iachau yr hŷnglwyf yw ei droi yn dwymyn (*fever*). Yn ddiâu, y ffordd gymmhwysaf i drin y rhagrithwyr yw eu cynhyrfu o'u gau heddwch, i ddwys deimlad o'u gwir drueni. Bydded i hyn yntau fod dy waith cyntaf, mwyha dy bechod, a gosod dy enaid mewn galar wisg o'i herwydd. Pan gyhoeddidd dyn yn aflan, gan yr offeiriad, oedd i farnu yn achos y gwahan-glywf, yr oedd i'r clwyfus, dan y farn hon, fod "â'i wisg wedi ei rhwygo, a'i ben yn noeth, a chaead ar ei wesus uchaf (y cwbl yn ddefodau a arferid gan alarwyr) a llefain, Aflan, aflan;" *Lef.* xiii. 45. Gwna dithau yn debyg, fel gwir alarwr; eistedd yn y llwch, a galara o achos y pla hwn yn dy galon; llefain yn chweww, aflan, aflan wyf; anaddas, o herwydd fy nghalon rhagrithiol, i ddyfod yn agos at Dduw na'i saint; ond yn gymmhwys, fel y gwahan-glywfus, i'm gwahanu oddi wrth y nail a'r llall. Pe byddai arnat, mewn grym mawr, y fath afiechyd ag a wnai dy eisteddle a'th wely yn ffaidd, ac a ddiferai y fath fudreddi ar bob peth y deuit yn agos ato, ie, i'r bwyd a fwytei, a'r gwpan yr yfi o hono, nes peri i bawb ymwrthod â dy gymdeithas ffaidd—

mor drwm fyddai dy ofid, tra yr eisteddit yn unig, gan feddwl wrthyf dy hun am dy gyflwr alaethus! I'r cyfryw gyflwr y mae dy rhagrith yn dy ddwyn; i e, y mae yn bla mwy adgas gan Dduw, nag y gallai y fath haint beri i ti fod gan ddynton. Y mae yn rhedeg fel gorlif brwnt gyda dy holl ddyledsyyddau; a thryw bob hug gwych a eili ei roddi drosto; ac y mae yn eu budreddi hwynt a thithau; fel mai cystal y gall Duw gymmeryd offrw m o law y diafol ag o dy law dithau, cyhad ag y parhei yn rhagrithiwr. A phe byddai plant Duw yn dy adnabod gyda y rhai y mae i ti, ysgatfydd, gymmairt cymmeriad yn bresennol, ag i gael dy dderbyn yn eu mys, hwy a bysurent i gilio rhagot, fel rhag un y gwelent nodau y pla arno. Ond pe na adnabyddid dy bla hyd ar ol dy farw, ac felly dy fod yn cadw dy gymmeriad gyda hwynt; i e, fe allai, yn cael dy gyfrif yn sant gandylnt ar ol dy farw; a bair hyn ryw foddhâd i ti yn uffern, eu bod yn dywedyd yn dda am danat ar y ddaear? "O! Aristotle druan, (ebe un) sy'n cael dy foli lle nid wyt, a dy losgi lle yr wyt!" Ei feddwl oedd, mai cysur tlawd oedd i'r philosophydd mawr paganaid hwnw gael ei ryfeddu gan wyr o ddysg, sydd wedi cadw ei enw i fyny o oes i oes, os yw efe ar hyd yr amser yn druenus yn y byd arall. Felly yma, O ragrithiwr truan! sy'n cael dy restru ymhlith saint ar y ddaear, a'th gospi gyda diafiad yn uffern!

2il. Wedi i'th galon gael ei dwyn i ddwfn deimlad o bechod a thrueni dy galon ragrithiol, y mae yn rhaid i ti gael dy argyhoeddi o'th anallu i'th iachau dy hun. Y mae rhagrith yn debyg i anafod y *fistula*: gall ymddangos yn beth bychan, wrth y twll bychan sydd iddo; ond y mae am hyny yn un o'r briwiau anhawsaf i'w iachau, gan ei fod yn un mor anhawdd cael o hyd i'w waelod. O, gwylia rhag i'th galon roddi som arnat dy hun. Hi a fydd yn ddigen rhwydd i addaw na ddywed hi gelwydd mwy, na fydd hi yn ffals a rhagrithiol mwy. Ond cymmer gynghor y gwr doeth, sy'n gwahardd i ti bwysu ar ei dywediad hi: "Y neb a ymddiriedo yn ei galon ei hun, sydd fol." *Diar.* xxviii. 26. O! pa sawl un sy'n marw, am na fyn fyned i'r boen a'r gost o geisio meddyg medrus ar y cyntaf! Gochel dithau rhag hunanymroadau a hunanddiwygiadau. Y mae pechod yn debyg i glwyf y brenin: Duw, nid ni ein hunain, a ddichon ei iachau. Y dyn a fyn fod yn clytio ei galon ei hun, ac heb ymofyn am help o'r nef, a gaiff yn y diwedd weled, lle y trwsia efe un twll, ei fod yn gwneud dau yn waeth; lle y diwygia efe o un pechod, y syrth i ddwyllaw llawer o rai mwy enbydus.

3ydd. Brysia at Grist, fel y meddyg y mae i ti bwysu yn hollol ar ei allu a'i ffyddlondeb i'th iachau. Os marw, ymrodda i

farw wrth ei ddwrws ef. Ond ei dy gysur, gwybydd na bu farw un o'r rhai y cymmerodd efe eu dolur mewn llaw; ac na nacodd efe erioed drin dolur y neb a ddaeth ato ar y fath neges. Efe a feiodd ar y rhai hyny fel rhagrithiwr (*Ioan* v. 40, 43), am eu bod yn barod i dafu ymaith eu bywydau, trwy hyderu mewn crachfeddyg a ddenai yn ei enw ei hun, heb awdurdodiad na chymmeradwyaeth gan Dduw i'r gwaith; ond ni ddeuant ato ef, fel y caent fywyd, er ei ddyfod ef yn enw ei Dad, a bod ganddo ei sel ei a'i awdurdod i arfer ei ddaun ar eneidiau truan, er eu liachâd. A'r hwn a feiodd y rhai hyny am beidio dyfod, ni bydd, ac nis gall efe fod, yn ddiw wrthyf ti sydd yn dyfod. Ei alwad ef ydyw: ac nid yw dynion yn arfer gwthio cwsmeriaid allan, ond eu gwahodd i mewn. Pan oedd Crist ar y ddaear, efe a roddodd y rheswm hwn am ei fod yn cyfeillachu mwy â phublicanod a phechaduriaid, a chyn lleied gyda'r Phariseaid—am ei fod yn cael yno fwy o waith (*Marc* ix. 11, 12). Y mae dynion yn gosod i fyny lle y tybiant y bydd masnach yn fywiocaf. Daeth Crist i fod yn feddyg i eneidiau cleifion: yr oedd y Phariseaid mor iach yn eu tyb eu hunain, fel y gwelodd Crist na chai efe ond ychydig waith yn eu mysg hwynt; ac felly, efe a ymgyfeiriodd at y rhai oedd yn fwy teimladwy o'u clefyd. Os wyt ti, enaid truan, ond wedi dyfod ataf dy hun mor bell ag i riddfan dan bwys dy ragrith mellidigaid, a chyfeirio dy riddfanau hyn mewn gweddi i'r nef am help Crist, nid rhaid i ti byth ofni na chei dy Feddyg gyda thi yn fuan. Nid yw efe, ar ol ei esgyniad, wedi rhoddi ei alwad heibio; ond y mae yn dilyn ei orchwyl mor ddyfal ag erioed. Ni a'i cawn ef yn anfon ei gynghor o'r nef i Laodicea, yn y cyfarwyddyd rhag orol hwnw (*Dad.* iii. 18); pa beth a wna hi er ei hadferiad o'r clefyd hwn yn ben nodol, rhagrith: "Yr wyf yn dy gynghor i brynu genyf fi aur wedi ei buru trwy dân fel y'th gyfoethog, a dillad gwynion fel y'th wisger," &c. Fel pe dywedasai, Laodicea, yr wyt ti yn marchuata mewn eidd ffals, gan dy dwyllo dy hunan ac ereid âg ymddangosiadau yn lle sylwedda—rhiith yn lle gwir rasau; sorod yw dy au cadachau pwr dy wisgoedd, y rhai i chuddiant, ond a ddauguddiant dy warth Tyred ataf fi, a thi a gei yr hyn a wna dro, ac yn eithaf rhad hefyd. O herwyd: er fod yma son am brynu, ni feddylir on hyn, dyfod gyda hyn o friwad prynedd, gan brisio Crist mor uchel, fel pe byddai i'r brynu, i e, a'r holl aur yn y pwr, a'r gwael yn y gwthienau hefyd, y mynit ei gael; a nad eilit adref, gan ddywedyd dy fod wedi cael triniaeth galed. Yr enaid sychedig yw yr un a ddigonir: yn unig edrych ar ffydd dy syched yn iawn, ac yn ddwfn.

(laf.) Yn iawn — yn syched calon, nid syched cydwybod yn unig. Gwres tra gwahanol sy'n peri y nail rhagor y llall. Gall tân uffern emyn y gydwybod, nes peri i'r pechadur euog sychedu am waed Crist, i ddiiffodd y boen a gynneuodd digder Duw yn ei fynwes ef. Ond tân o'r nef, a hwnw yn unig, a fâg wres tyner yn y galon, a dŷr allan mewn hiraeth enaid am Grist a'i Ysbryd, gyda gwlith per-oraidd o ras, i lacio a diffodd tân trachwant a phechod.

Drachefn, edrych am ei fod yn ddwfn. Y mae meddygon yn sôn am syched sy'n tarddu o syched y gwddf, ac nid oddi wrth ddim gwres mawr yn y cylla. Gellir tori y syched hwn â pheth addas i olchi'r genau, a boerir allan drachefn, heb ei fyned i'r bol. Ac yn ddiau y mae rhywbeth tebyg i hwn mewn llawer a eisteddant dan bregethiad yr efengyl. Gellir gweled fod rhyw gyffyrddiadau ysgeifn yn awr ac eilwaith ar ysbrydoedd meibion a merched, a berir gan ryw wreichionen sy'n syrthio ar eu serchiadau wrth wrandaw y gair; yr wyf yn hyn y dangosant yn ddisymwth ryw ddy-muniad ar ol Crist a'i ras, nes y tybiech y nawr brysurent tua'r nef. Ond gan nad oes vuddiyn ddim ond rhyw fflagiad disylwedd, a lled-flys dirym, yn hytrach nag ewyllysiad cryf a dymuniad dwfn, y mae eu gwres yn iuan drosodd, a'u syched wedi ei dori gan ychydig o fwyniant am y tro, a brofant wrth wrandaw pregeth am Grist; a hyn yn gystal ag a all fod, er eu bod byth heb fwynhau llm mwy o hono: a hwy a boerant y cwbl allan, agos cyn gynted ag yr ânt adref. Iân hyn, ymgais di am y fath deimlad lwfn o'th drueni dy hun o herwydd dy agrith, ac o ragoroldeb Crist o herwydd y cyflawnder o ras sydd ynddo; yr hwn a'i iaddasa i'th iachau di o'th afiechyd. Fel, negys na ddichon dyn tra sychedig ymfodd-om ar ddim ond diod, ac nid ar ryw ych- dig o hono, ond trafhwng llawn, beth ynag a gostio iddo; felly, na somer dithau dim yn fyr o Grist, a'i ras sancteiddiol ef. â, na somer di â doniau, a phroffes, nac lledwch chwaith, a ellid ei wahanu oddi wrth ras; na foddloner di chwaith â rhyw aenelliad bychan o ras; ond hiraetha am frydiau llawn, fel y llawn burer ac y rhydd- aeth di oddi wrth dy chwant melldigaid, ydd yn awr yn dy orthrymu mordost. Dyma gwedd ysbryd, a dy roddai di dan yr ddedwid (sichrâd y nef) na chei di gollu o'th hiraeth. Pe gofynit am arian ac aur, eu pe ceisit ti ryw fwyniant bydol yn ol dull hwn, ti a ellit dreulio dy anadl a'th oen yn ofer: gallai Duw adael i ti ruo, fel eifas yn uffern, yng nghanol y ffilmiau hyn enny-nodd dy chwant cybyddus, heb estyn ti ddiferyn o'r hyn y sychedi am dano or danbaid i oeri dy dafod. Ond os Crist i ras yw y rhoddion a ddy-munit, ie, sy

raid i ti eu cael, yn ddiau ti a'u cei hwynt: "Gwyn eu byd y rhai y mae arnynt newyn a syched am gyfiawnder; canys hwy a ddiw- ellir;" *Mat. v. 6.*

PENNOD XIV.

Cynghor i'r rhai a geir, ar brawf, yn uniawn neu gywir o galon, i wisgo y gwregys hwn yn dyn am danynt, yn yr ymarferiad beunyddiol o hono; a chyfarwyddiadau i'r diben hwnnw.

Yr wyf yn dyfod at yr ail fath, sef y rhai y mae eu cydwybodau, ar ymholiad dyfal, yn dwyn tystiolaeth deg am eu purdeb, fod eu calonau yn uniawn a chywir. Yr hyn sydd genyf fel cynghor i'w adael gyda'r rhai hyn yw, i wregysu y gwregys am danynt, mewn defnyddiad dyfal ac arferiad beunydd- iol o hono. Bydded y gwregys hwn, medd- af, yn dyn am danat: hyn yw, bydd yn dra gofalus i rodio beunydd yn yr ymarferiad o'th uniondeb. Meddwl bob bore dy fod heb ymwisgo, nes y byddo y gwregys hwn am danat. Mae'r ddiareb yn wir yma, heb y wregys, heb y fendith. Nid wyt yn gyfaill gan Dduw, yn y dydd y byddech heb burdeb. Os myn Abraham rodio gyda Duw, rhaid iddo fod yn berffaith: ac a elli di fyw ddi- wrnod heb ei gymdeithas ef? Talodd Rahel yn ddrud am ei mandragorau, wrth ymadael â'i gwr am danynt: a marchnad waeth a wna yr enaid hwnw sydd yn gwystlo ei bur- deb i bwreasu rhyw fantais ddaearol. Pan elo purdeb ar goll, y mae Duw wedi ei gollu hefyd. Ac fel nas gelli di rodio gyda Duw, felly nid oes i ti ddisgwyl bendith gan Dduw. Y mae'r addewidion yng nghadw, fel blwch o enaint gwerthfawr, i'w dori ar ben yr uniawn; "Oni wna fy ngeiriau les i'r neb a rodia yn uniawn?" *Micah ii. 7.* Ac yn ddiau, drwg yw rhodio yn y ffordd na cheir ynddi air oddi wrth Dduw yn erchi i ni rwydd-deb. Y mae rhai mor ofergoelus, fel, os croesa ysgyfarnog eu ffordd, y troant yn ol heb fyned gam ym mhellach y dydd hwnw. Ond gwr hŷf yw efe, a faidd fyned ym mlaen, pan fyddo gair Duw yn croesi ei ffordd. Lle nad yw y gair yn bendithio, y mae yn melldithio: lle nad yw yn addaw, y mae yn bygwth. Enaid yn ei uniondeb yn ymroddi i Dduw, y mae yn ddiogel, fel teithiwr ar ei orchwyl cyfreithlawn rhwng haul a haul: os daw niwed neu gollod i'r cyfryw enaid, fe'i gwna Duw yn dda; y mae yr addewid o'i du; a thrwy ei dadleu hi efe a all gael ei gollod yn ol ar law Duw, sydd wedi ymrwmo i'w gadw ef yn ddiogolled. Gwel i'r perwyl hwn, *Salm lxxxiv. 11.* Ond cyfarwyddiadau, nid annogaethau, sydd i mi eu rhoddi yma.

DOSE. I.

1. Os mynit rodio yn yr ymarferiad o'th

burdeb, rhodia mewn golygiad ar Dduw. Gwir iawn yw gair Luther; "Y mae'r deg gorchymyn wedi eu plygu i fyny yn y cyntaf:" o herwydd, medd efe, "y mae pob pechod yn ddirmyg ar Dduw." Ac felly nis gallwn ni dori un gorchymyn arall, heb dori y cyntaf. Yr ydym yn camfeddwl am Dduw, cyn y gwnawn ar gam yn erbyn Duw. Dyma yr hyn a gymhellodd Duw ar Abraham, fel plastr at bob dolur, ac i gadw ei burdeb yn iach; "Rhodia ger fy mron i, a bydd berffaith;" *Gen. xvii. 1*. Hyn a gadwodd wregys Moses yn dŷn wrth ei lwynau, fel na chymmerodd ei wobrwyo â thrysorau yr Aipht, ac na phwywyd ef allan o'i burdeb, gan ŵg breinin mor fawr: "Efe a ymwrolodd, fel un yn gweled yr anweledig;" *Heb. xi. 27*. Yr oedd ganddo un mwy na Pharaoh yn ei olwg; a hyn a'i cadwodd yn uniawn.

Iaf. Gristion, rhodia mewn golwg ar hoilwybodaeth Duw. Dyma ystyriaeth at wregysu dyn: dywed wrth dy enaid, gwylia, y mae Duw yn gweled. Yn ddirgel y siaredir bradwriaeth, pan feddylio deiliaid eu bod yn mhell ddigon o glyw y breinin: ond pe gwybyddai y cyfryw fod y tywysog dan y ffenestr, neu y tu ol i'w lleuni, byddai eu hymddiddau yn fwy difrad. Hyn a barodd i Dafydd fod mor uniawn ei rodiad; "Ced-wais dy orchymynion; canys y mae fy holl ffyrdd ger dy fron di;" *Salm cxix. 168*. Os oedd cadair wag Alecsander, yr hon a osodai ei gadbeniaid ef o'u blen pan gyfarfyddent mewn cnyghor, yn peri iddynt y fath arswyd ag a'u calwai hwy mewn trefn, beth a wna'i gosod Duw ger ein bron, a'i lygaid arnom? Yr Iuddewon a orchuddiasant wyneb Crist; ac yna rhoisant iddo gernodiau: *Marc xiv. 68*. Felly y gwna y rhagritiwr: efe a ddywed yn gyntaf yn ei galon, nid yw Duw yn gweled: neu o leiaf, y mae yn anghofio ei fod yn gweled; ac yna y mae yn ymhyfiau i bechu i'w erbyn. Yn debyg i'r aderyn ffol a wthia ei ben i'r cyrs, ac a dybia ei hun yn ddiogel rhag yr adarwr; fel pe nas gallai hwn ei ganfod, am nad yw efe yn ei ganfod ef. "Mi a allaf dy guddio di o'm golwg fy hun, ond nid fy hun o'th olwg di," medd Awstin. Ti eili, greadur truan, guddio Duw trwy dy anwybodaeth a'th annuwiaeth, fel na welych di ef; ond nis gelli fel na wel efe di: "Pob peth sydd yn noeth ac yn agored i'w lygaid ef, am yr hwn yr ydym yn son;" *Heb. iv. 13*. O, cofia fod i ti a wnych â Duw, yn yr hyn oll a wnei, pa un bynag ai yn dy siop, ai yn dy ystafell, yr eglwys, ai y farchnad: a bydd a wnelo yntau â thi; o herwydd y mae yn dy weled drwot; ac fe all fynegi o ba le yr wyt yn dyfod, pan y delych ger ei fron fel Gehazi o flaen ei feistr, a phan ysefi yn hunan-ddifrif yn ei addoliad, fel pe na buasit ti nac yma na thraw. Yna gall efe adrodd wrthyt

dy feddyliau, a'u gosod mewn trefn o'th flaen, heb y drafferth o'u sugno allan drwy dy gyffesiad di. Ië, dy feddyliau, sydd wedi myned oddi wrthyt, fel breuddwyd Nebuchodonosor, oddi wrtho yntau, a thi wedi anghofio yr hyn oeddynt y pryd a'r pryd, yn y lle a'r lle, er ys deugain, neu ddeg a deugain o flynyddoedd; y maent oll gan Dduw, yng ngoleu ei wynebpryd; fel y brychau ym mhelydr yr haul: ac efe a all ië, fe wna, roddi i ti olwg arnynt, fel y byddant yn rhodio yn dy gydwybod, er dychryn, fel ysbryd Ioan Fedyddiwr yng nghydwylbod Herod.

2il. Rhodia yn y golwg ar ei ragluniaeth ef, a'i ofal drosot. Pan barodd Duw i Abraham fod yn uniawn, y mae yn cadarnhau ei ffydd arno ei hun: "Myfi yw Duw Holl-alluog; rhodia ger fy mron i, a bydd berffaith." Fel pe dywedasai, gweithia drosot fi, a minnau a ofalaf drosot tithau. Pan nuwaith y dechreuom ammheu ei ofal ef am danom, yna y bydd pall ar ein purdel o ran rhodio ger ei fron ef. Y mae rhagritiwr yn llechu mewn anymddiried a drwg dyb fel yr achosion o hono. Oni faidd yr enaid hyderu ar Dduw, nis gall fod yn hir yr gywir i Dduw. Yr oedd Abraham yn ammheu Abimelech, am hynny efe a ledritiodd gydag ef. Yn debyg y gwnawn minnau i Duw: ni a ammheuw ofal Duw; ac yn byddwn fyw wrth ein callineb, ac a dorwatom ein hunain: "Cyfod, gwna i ni dduw iau," meddant hwy, "nis gwyddom ni beth a ddaeth o'r Moses hwn." Y mae'r Israeliaid anghrediniol yn gwbl groes i orchymyn Duw, yn cadw y manna hyd dranoeth *Ecsod. xvi. 20*. A pha ham, ond am ne feddant ffydd i ymddiried ynddo ef am: pryd nesaf? Dyma yr hen arf a ddefnyddiodd Satan o hyd, i guro y Cristion allan o uniondeb: "Melldithia Dduw, a bydd farw," eb efe wrth Iob, trwy ei wraig: *Job ii. 9*. Fel pe dywedasai hi, Pa beth? Iagedwi di gastell dy burdeb etto i Dduw. Y mae cadbeniaid yn barnu y gallant roddi i fyny, pan na ddelo cynorthwy iddynt; deiliaid a farnant, pan fyddo eu tywysog heb roddi nawdd iddynt, nad ydynt y rhwym i roddi iddo yntau wasanaeth. Y wyt ti wedi bod fel hyn yn hir mewn cyflw helbulus; gofidiau yn dy amgylchu ar bo llaw, ac heb ddim newydd hyd heddyw y dyfod o'r nef, am ddim gofal a gymme Duw am ddat: am hynny, "melldithia Dduw, a bydd farw." Ië, cafodd Crist o hun ef yn arfer yr un offer, at ei dynu oddi wrth ei gywirdeb i'w Dad; pan yr archodd iddo droi y cerby yn fura. Ni a welwynt ynto o'r fath bwys y mae fod i ni gadarnhau ein ffydd ar ofal a rhagluniaeth Duw am ei nawdd a'u cynnalnaeth. A hyn y'r achos, y mae Duw, o'i herwydd, wedi darpar mor dra helaeth, at gau allan bob an

mheuaeth ac ofn am hyn, o feddyliau ei bobl.

Y mae yr addewidion wedi eu cyfleu mor addas, fel yn mha oror bynag y byddom yn morio, neu pa gyflwr bynag y byddom ynddo, y byddont megys porthladdoedd diogel, i ni droi i'r naill neu i'r llall o honynt, a bod yn ddiogel pan gyfodo ystorn arnom, neu y'n hymldier gan elyn. Pe nis gallen gael un arall at ein tro, y mae yr un ganlynol yn ddigon: "Y mae llygaid yr Arglwydd yn edrych ar yr holl ddaear, i'w ddangos ei hun yn gryf gyda'r rhai sydd â'u calonau yn berffaith tuag ato ef;" 2 Cron. xvi. 9. Nid gosod ereill i wlyio a wna Duw, ond ei lygad ef ei hun sy'n wlyiedydd. Yn awr, i wlyio dros y plentyn, y mae, megys y fam ei hun, ei ragluniaeth ddigyfrwng ef. Gallwn ddywedyd am eneidiau diffuant, fel y dywedir am Canaan: "Tir yw yr hwn y mae yr Arglwydd yn ei yngleddu: llygaid dy Dduw sy bob amser arno;" Deut. xi. 12. A'r cyfryw bobl ydynt hwy. Drachefn, "y mae ei lygaid ef ar yr holl ddaear;" dyna ofal ei ragluniaeth; nid yw un perygl nae un lentasiwn yn ei gael ef yn hepiant; ond fel y mae gwyliwr fyddiawn yn rhodio i fyny ac i lawr, felly y mae llygaid yr Arglwydd yn edrych ar yr holl ddaear. "Ni hunia ac ni chwsg ceidwad Israel;" Salm cxxi. 4. Yr enaid cywir yw yr Israeliaid yn wir; ac ni hunia ei Geidwad ef nae ychydig na lawer: ni hunia yn y dydd; ni chwsg yn y nos. Y mae dau air yn cael eu harfer yno; yn un arwyddo yr hân fer yng uwgws y llydd, a'r llall y chwsg trymach yn y nos.

Drachefn, "Ar yr holl ddaear." Dyma gyffredinedd a helsether gofal Duw. Y mae ei ragluniaeth yn gylchynawl, yn rhodio'r cychledd; nid oes un enaid cywir y tu allan i linell ei ofal ef. Y mae eu nifer ganddo hyd at yr un; ac y mae yn gofalu am y naill fel am y llall. Yr ydym yn acau wyneb hardd rhagluniaeth Duw pan y tybiom fod ganddo lygad traws, i ofalu am un yn fwy na'r llall.

Yn olaf, "I'w ddangos ei hun yn gryf gyda hwynt." Dyma effeithiolrwydd ei ofal a'i ragluniaeth. Nid yw ei lygaid ef yn edrych ar yr holl ddaear i ysbio peryglon, a dim ond mynegi i ni beth ydynt; fel y gwna gwyliwr ddeffro'r ddinas, pan nesao hyw elyn; ond heb allu eu hachub rhag ei gynddaredd ef. Dichon plentyn gwneud hyn; i'e, gwnaeth y gwyddau hyn i ddinas Rhufain gynt. Ond y mae Duw yn gwylio, nid i hysbysu i ni ein peryglon, eithr i'n hachub rhagdynt. Y mae yn rhaid i'r saint fod yn bobl ddedwydd, am eu bod yn bobl "gadwedig gan yr Arglwydd;" Deut. cxxiii. 29. Nid gweled yn unig â'i lygaid y mae Duw, ond ymladd â'i lygaid hefyd rhoddodd ar yr Aiphiaid y fath edrychiad a drôdd y môr arnynt er eu dinystr.

DOSB. II.

2. Ymgais am weithradu oddi ar gariad, ac nid ofn. Ofn caethiwus, a phurdeb, nis gallant gyttuno: os bydd un ar gynnydd, y mae'r llall yn sicr ar gilio. Gwelwch eu cyferbynu; "Ni roddes Duw i ni ysbryd ofn, ond ysbryd nerth, a chariad, a phwyll;" sef meddwl puraidd: 2 Tim. i. 7, lle y mae yn arwyddo fod ofn yn wan a dirym, yn hawdd ei frawychu oddi wrth Dduw, ei wirionedd, a'i wasanaeth; ac nid felly yn unig, ond yn ddibwyll, ac heb fod yn un i ymddiried iddo am ddim o bwys. Y caethwas, er iddo weithio yn galed (am na feiddia efe lai) etto, hawdd yw ei dynu i gydfrad yn erbyn ei feistr, am ei fod yn ei gasau, tra y mae yn ei ofni. Ni a welwn hyn ym mysg y Tyrciaid; oddi ar y rhai y mae y Cristionogion, a drinid ganddynt fel y gweision caethaf, yn eu rhwyflogau yn fynych, ar ol cael mantais arnynt mewn brwydr, yn ennill eu rhyddid eu hunain, trwy dori gwythienau gwaed eu trais feistriaid. Ac yn debyg mewn teyrnasoedd lle y mae'r deiliaid yn ofni, yn fwy nag yn caru eu tywysogion; mor barod ydynt i wahodd un arall i'r orsedd, neu i groesawu pwy bynag a ymgynygio arnynt! Fel hyn, yn rhwym ac yn rhydd gyda Duw, y bydd efe, a symbylir ym mlaen â blaen cleddyf ei ddigder ef, ond a fyddo heb ei dynu â rhaffau ei gariad. Y mae Israel yn esampl ddigydradd am hyn: "Pan laddai Duw hwynt, hwy a'i ceisient ef; er hyny, rhagrithio yr oeddynt iddo â'u genau, a dyweddyd celwydd wrtho â'u tafod, â'u calon heb fod yn uniawn gydag ef;" Salm lxxviii. 34, &c. Yr oeddynt yn ofni Duw ac yn caru eu chwantau; ac am hyny y bradychasant ei ogoniant; ac ar bob tro, iddynt hwy; fel y traddododd Herod ben Ioan, yr hwn a ofnai, i ddwylaw yr hon a garai. Ac yn ddiaid y mae gormod o'r ofn caethwasaid hwn i'w gael ym mynwesau y saint; pe amgen, ni byddai y fflangell mor fynych yn llaw Duw. Ni a gawn Duw yn ceryddu ei bobl am hyn, ac yn gwneud eu hysbryd gwasaid hwynt yn rheswm am ei lynder tuag atynt: "Ai gwas ydyw Israel? ai gwas a auwyd yn y tŷ yw efe? pa ham yr ysbeiliwyd ef?" Jer. ii. 14. Fel pe dywedasai Duw, beth yw yr achos fod yn rhaid i mi dy drin di, sydd yn anwyl blyntyn i mi, mor arw a phe byddit yn was, i'e, yn gaethwas, gan roddi dymod ar ol dymod ar dy gefn, yn y fath farnau trymion? A fynit ti wybod? Darllen *adm.* 17:—"Onid tydi a beraist hyn i ti dy hun, am wrthod o honot yr Arglwydd dy Dduw, pan ydoedd efe yn dy arwain ar hyd y ffordd?" Gelli ddiolch i ti dy hun am hyn, fy nhriniaeth anarferol tuag atat. Os y plentyn a anghofia ei ryddfrait ei hun, ac na weithia dim ond dyrnod-iau gydag ef; yna bydd yn rhaid i'r tad ymdrin a'i blyntyn, yn ol ei ysbryd gwasaid

ef. Pan oedd Duw yn arwain Israel ar hyd y ffordd, fel tad ei blentyn, yn garuaidd, efe a ymdaiflodd oddi wrtho: ac oni chymmerent eu tywys gan gariad, nid rhyfedd iddynt gael eu gyru gan ofn.

Gristion, gweithreda di yn fwy trwy gariad, a thi a arbedi i Dduw dy roddi mewn ofn â'i fflangell. Cariad a'th geidw yn gywir ac yn agos ato ef. Gwir nŏd cariad yw; "Nid yw yn ceisio yr eiddo ei hun;" 1 Cor. xiii. 5. A pha beth ydyw bod yn gywir, ond fod y Cristion yn ymgais am ddyrchafiad Crist, ac nid ei eiddo ei hun? Yr oedd Dafydd yn gâ gan Ionathan: parodd hyn iddo wynebu dig ei dad, a sathru ar y gobaith am deyrnas oedd gan ei dad iddo ef a'i hll, yn hytrach na bod yn ffals i'w gyfaill. Y mae Lot am draddodi ei ferched i chwant y Sodomitaid, yn hytrach na'i llettŵyr. Nis gallai Samson gelu y gyfrinach mawr hwnw am y llê yr oedd ei nerth ynddo, oddi wrth Dalila, yr hon a garai; er fod ei adrodd wrthi hi yn gymmaint ag a dalai ei fywyd. Cariad yw conewerwr mawr y byd. Felly, dy enaid dithau wedi ei ennyn gan gariad at Grist, a ollwng ei afael o bob enmill bydol, yn hytrach na rhoddi ei aurhdedd ef i'r enbydrwydd lleiaf. Ni roddodd Abraham ei gyllell aberth wrth wddf yr hwrdd, i achub bywyd ei anwyl Isaac, yn fwy ewylls-gsar nag y byddi di i offrymu dy fywyd at gadw dy burdeb yn iach. Cyffelybir cariad i dân; a natur hwnw yw tebygu iddo ei hun y cwbl a ddaw yn agos ato, neu eu difa. Y mae yn troi pob peth yn dân, neu yn lludw: ni ddichon dim o ryw arall drigo yn hir etto, ei natur bur ddigymmysg ef. Felly, cariad at Grist ni wna oddef cytagosrwydd un dim yn y fynwes, a fyddo er anfrî i Grist: ond naill efe a'i trecha, neu fe'i gad, pa un ai difyrweh, elw, ai beth bynag arall a fyddo. Abraham, er ei fod yn caru Agar ac Ismael yn eu lle addas, etto, pan ddechreuodd un ynwthlio â'i meistres, a'r liall watwar Isaac, y mae yn eu troi ill dau dros y drws. Ni oddef cariad at Grist i ti ochri gyda dim yn erbyn Crist, ond bod o'i du ef, yn erbyn pwy bynag a'i gwrthwynebo: ac am hyny y bydd dy burdeb allan o berygl.

DOSB. III.

3. Myfyria yn fynych ar symledd a phurdeb calon Duw tuag at ei saint. Pa ystyriaeth gryfach a ellir meddwl am dano, i'n gwneud ni yn fyddlawn i Dduw na fyddlondeb a gwirionedd Duw tuag atom ni? Absalom, er ei fod y lleidrihiwr adgasaf yn fyw, etto, pan ddaeth Husai ato, yr oedd yn ei annuheu ef: "Ac Absalom a ddywedodd wrth Husai, Ai dyma dy garedigrwydd di i'th gyfaill? Pa ham nad aethost ti gyda'th gyfaill?" 2 Sam. xvi. 17. Yr oedd cydwybod Absalom yn tystio mai diffeithder erchyll oedd i'r gwr a gawsai Dafydd yn gyfaill mor gywir, droi i uno â

llu mewn gwrthryfel i'w erbyn. Ac er iddo ef ei hun a siaralodd fel hyn gyunyng trais niwy ar y gyfraith hon, sef cariad, etto, yr oedd yn annuheu, mae yn debyg, a feiddiai neb arall fod mor ddrvgionus, heb law efe ei hun. Gan hyny, Gristion, pan gaffech dy galon yn gwyro at ryw arferiad anfyddlawn, gosod hi dau yr ystyriaeth yma; ac os oes ynot ddim o ras Duw, fe'th ystwytha ac a'th uniona drachefn. Gofyn i'th enaid, Ai dyma dy garedigrwydd i'th gyfaill?— y fath gyfaill ag a fu Duw, a ydyw ac a fydd efe yn sicr i ti hyd byth? Mae Duw pan becho ei bobl, i'w cywilyddio, yn gofyn iddynt, A roddodd efe achos am eu hymddygiad annhriion ac anufudd? "Fel hyn y dywed yr Arglwydd, Pa anwiredd a gafodd eich tadau chwi ynof fi, gan iddynt ymbellhau oddi wrthyf?" Jer. ii. 5. Ac felly Moses (cyn myned i fyny a marw ar Nebo) yn bwriadu talu adref i Israel am eu holl ragrith, eu tuchan, a'u gwrthryfel erchyll yn erbyn Duw, o'u cychwyniad cyntaf o'r Aipht hyd y dydd hwnw, y mae yn dwyn eu cyhuddiad i mewn, ac yn dangos yr amryw gwynion oedd i'w herbyn. Yn awr, i chwanegu at bwys pob un, y mae efe yn mlaen ei ymadrodd oll yn dangos pa fath Dduw yw efe y gwnaethiant hyn oll i'w erbyn.

Y mae yn agor ffordd at ddwys-feio ar eu pechodau, trwy gyhoeddi gogoniant Duw, yn erbyn yr hwn y gwnaed hwynt: "Enw yr Arglwydd a gyhoeddaf fi: rhoddweh fawredd i'n Duw ni;" Deut. xxxii. 3. Ac y mae yn beth i'w nodi, fod yr hyn y mae efe yn ei gyhoeddi o enw Duw, er dangos eu pechodau yn fwy, a'u helpio i ddiruad am eu natur erchyll hwynt: "Efe yw y Graig; perffaith yw ei weithred; Duw gwirionedd, ac heb anwiredd, cyfiawn ac unionaw yw efe;" adn. 4. Y mae yn dewis, fel esampl, wiredd a chywirdeb calon Duw atynt hwy, yn ei oruchwyliaetnau oll, fel yr hyn a allai eu cywilyddio yn fwyaf am eu hymddygiad. Yn awr (gan fod yr ystyriaeth yma yn un a all fod mor ddefnyddiol, i argau y galon, a'i chadw yr ymlynol wrth Dduw mewn purdeb) ni d dangosaf ym mhia bethau yr ymddengys; gwiredd a chywirdeb cariad Duw at ei saint. Rhydd pob un o'r rhai hyny i n dadl gref i fod yn gywir a diffuant gyda Duw.

1af. Fe ymddengys purdeb calon Duw yn yr egwyddor y mae yn gweithredu odd wrthi, a'i ddiben hefyd yn ei holl oruchwyliaethau. Cariad yw yr egwyddor y mae yn gweithio oddi arni yn barhaus, a'u lleisia hwy yw y diben y mae yn cyfeirio ato: odd wrth y rhai hyny nid yw efe byth yn gwyro. Nid â tân cariad byth allan o'i galon, na'i lles hwy byth allan o'i olwg. Pan fyddo y gwgu â'i wedd, yn ceryddu â'i wesusau, a

taraw a'i law, y mae ei galon hyd yn oed
 yrd hyny yn llosgi o gariad, a'i feddyliau
 myfyrio heddwch iddynt. Lle nodedig
 hwnw i'r perwyl hwn: "Cydnabyddaf
 thglud Iuda, a anfonais o'r lle hwn, i
 ud y Caldeaid er daioni; gosodaf fy
 rlyg arnynt er daioni;" *Ier.* xxiv. 5. Yr
 d hon yn un o'r barnau trymaf a ddygodd
 y wriod ar ei bobl; ac etto, yn hon y
 e yn bwriadu trugaredd, ac yn llunio pa
 di wneud lles iddynt. Felly, yn yr an-
 wch, pan lefasant yn erbyn Moses am eu
 yn yno, i'w lladd, yr oedd eu braw yn fwy
 niwed: yr oedd Duw yn ewyllysio yn
 iddynt nag y tybiasant hwy. Ei amcan
 oedd eu darostwng, i wneuthur lles iddynt
 y diwedd. Y mae Duw mor bur i'w bobl,
 onid yw yn gwyntlo ei ogoniant ei hun
 eu diogelwch hwynt; y mae ei wisgoedd
 hun o ogoniant wedi eu cloi i fyny yn
 llwydd a'u hiachawdwriaeth hwynt. Ni
 efe, ac nis gall efe, ymddangos yn ei
 ogoniant a'i urddas breninol, nes iddo
 olhau ei fwriadau o drugaredd i'w bobl.
 ryngodd bodd iddo roddi oed ar amser
 ymddangosiad i'r byd, yn ei lawn ogon-
 iad, nes iddo fod wedi cwblhau eu hym-
 ed hwynt; fel y byddo iddo ef a
 thau ymddangos ynghyd yn ei ogoniant
 yr un dydd. "Pan adeilado yr Ar-
 ydd Seion, y gwelir ef yn ei ogoniant;"
Isa. cii. 16. Y mae yr haul o hyd yn ogon-
 iad, yn y dydd mwyaf cymylog; ond
 yw yn ymddangos felly, nes y chwalo y
 tylau sydd yn ei guddio o olwg y byd
 ll. Y mae Duw yn ogoneddus pan nad
 y byd yn ei ganfod: ond yna yr ym-
 ngys ei ogoniant mynegol ef, pan fyddo
 ogoniant ei drugaredd, ei wiredd, a'i ffydd-
 deb yn tori allan yn iachawdwriaeth ei
 bobl. Yn awr, â pha gwilydd y bydd
 i hyn orchuddio dy wynebi di, O Grist-
 iad, pe ni byddai i ti gyfeirio yn ddiffiant
 ogoniant dy Dduw, sy'n dy garu, ie, a'i
 at oll, mor anwyl ag i osod ei ogoniant
 iun a'ch gwynfyd chwithau ar yr un
 llyr, fel nas gall efe yn awr gollu un a chadw
 y all?
 ll. Y mae gwiredd a phurdeb Duw i'w
 bobl yn ymddangos yn yr amlygiad a'r eg-
 iad o'i galon iddynt. Y mae cyfaill a
 do yn attal ac yn cadw ei feddwl, yn
 addu bod dan gwnwl yn meddwl ei gyfaill.
 Cl un a fyddo, megys, â ffenestr o risial
 gw yn ei fynwes, fel y gallo ei gyfaill
 drellen y meddyliau sy'n argraffedig yn
 galon ef, dyna un sydd yn ymachub rhag
 yrwg dyb lleiaf am anfyddlondeb. Yn
 yn galon agored fel hyn y mae Duw i'w
 stat: "Dirgelwch yr Arglwydd sydd
 g'r rhai a'i hofnant ef;" *Salm* xxv. 14.
 mae yn rhoddi i ni ei agorial, a'n goll-
 ya i mewn, ie, i'w galon ef, ac a fynega i
 mthet vw ei feddyliau; a pheth oeddynt

tuag atom, cyn gosod careg yn sylfeini y
 byd: a'i Ysbryd ef ei hun (*1 Cor.* ii.) a w'yr
 am ddyfnid bethau Duw, canys yr oedd efe
 wrth fwrdd cynghor y nef lle y trinwyd y
 cwbl. A'i Ysbryd hwn a roddodd efe ar
 waith, i ddadgan a chyhoeddi yn yr Ys-
 grythyr a lefarwyd gaiddo, sylwedd y
 cynghorion hyny o gariad a fu rhwng Trin-
 dod o bersonau am ein iachawdwriaeth ni.
 Ac fel na byddai dim yn niffyg er ein bodd-
 loni, efe a appwyntiodd yr unrhyw Ysbryd
 sanctaidd i drigo yn ei saint—fel megys y
 mae Crist yn y nef yn cyflwyno ein herfyn-
 iadau iddo, felly y byddo iddo yntau yr
 Ysbryd, ddehongli ei feddwl allan o'i air i
 ni; ac y mae ei air hwn yn ateb i galon
 Duw, fel gwyneb yn ateb i wyneb yn y
 drych. Nid oes dim sy'n ddymunol mewn
 cyfaill cywir, o ran bod yn galon agored,
 heb fod Duw yn ei gyflawni yn y modd
 rhagoraf i'w bobl. Os bydd unrhyw berygl
 yn crogi uwch eu penau, nis gall efe ei gelu:
 Ynddynt hwy y rhybuddir dy was, medd
 Dafydd, wrth son am eiriau Duw. Fe
 enfynd Duw ryw genad neu gilydd i rybuddio
 ei saint, pa un bynag ai oddi wrth bechod
 oddi mewn y bydd eu perygl, ai oddi wrth
 elynion oddi allan.

Yr oedd Hezeaiah mewn perygl o achos
 balchder tu mewnol; ac y mae Duw yn
 anfon ato brawf, i beri iddo wybod yr hyn
 oedd yn ei galon: fel trwy syrthio unwaith,
 y cedwid ef rhag syrthio eilwaith. Yr
 oedd gan Satan ei ddyfaif yn erbyn Pedr;
 ac y mae Crist yn ei rybuddio am dani: *Luce*
 22. Os gwna un o'i blant ei anfoddio ef
 trwy bechod, ni wna efe, fel y gwna cyfeil-
 lion ffals, gelu ei anfodddhad, a dangos wyneb
 teg oddi allan atynt, tra y mae yn cadw cas
 dirgel atynt oddi mewn. Na, efe a ddywed
 yn grogwr wrthynt, ac a'u cerydda yn llym
 o'r achos; etto, heb gynnwys dim drwg
 ewyllys o'i fewn i'w herbyn. A phan fyddo
 efe yn arwain ei bobl i gyflwr trallodus, y
 mae yn eu caru, fel nas gall efe eu gadael
 yn gwbl yn y tywyllwch am y meddyliau o
 gariad sy ganddo-atynt er eu gwaredu.
 Ond at eu diddanu yn y carchar, y mae yn
 agor ei galon yn mlaen llaw iddynt, fel y
 gwelwn yn y gwasgfeuron trymaf a fu ar yr
 eglwys Iuddeuwig yn yr Aipht a Babilon, ac
 hefyd ar yr eglwys efengylaidd dan anghrist.
 Yr oedd yr addewidion am waredigaeth
 allan o'r rhai hyny oll wedi eu traethu cyn
 dyfod y dioddefnadau. Pan oedd Crist ar y
 ddaear, mor agored a rhydd yr oedd efe at ei
 ddisgyblion, yn mynegu iddynt y gofidian
 a'u cyfarfyddai, a'r canlyniad dedwydd o'r
 cwbl pan ymwelai efe â hwynt drachefn.
 A pha ham! Ond i'w cadarnhau yn eu
 cred o gywirdeb ei galon ef atynt yn ol ystyr
 y geiriau hyny: "Pe amgen, mi a ddywed-
 wn i chwi;" *Ioan* xiv. 2. Fel pe dywedasai,
 Ni chydsafai a'r cariad diffuant sy genyf

atoch, fod i mi guddio dim rhagoch o'r hyn sy'n addas i chwi ei wybod, na'i ddangos yn amgen uag y mae. A phan y mae efe yn celu rhyw wirioneddau oddi wrthynt am y tro, gwelwch ei diriondeb a'i gywirdeb yn agor yr achos o'i fod yn en cuddio: sef, nid ei fod ef yn grwgnach eglurhâd, ond eu bod hwy, yn bresennol, heb allu eu dwyn hwynt.

Yn awr, Gristion, defnyddia di hyn oll i'th wneud yn fwy calon-agored gyda Duw. A yw efe mor rhydd ac agored i ti—ac a fyddi di mor gauad iddo ef? A yw dy Dduw yn agor ei fynwes i ti, ac oni thy-welwiti dithau dy holl enaid iddo yntau? Ai ni feiddi di ymddiried dy gyfrinach iddo ef sydd yn hysbysu i ti ei gynghorion o gariad a thrugaredd? Mewn gair, a feiddi di gan gywylydd roddi cais am lochesu a chuddio ryw chwant bradwrus yn dy enaid rhagddo ef, yr hwn ni âd ei gariad iddo geln unrhyw berygl rhagot ti? Y mae Duw, sy mor fanwl a chywir i gyfraith cariad gyda'i bobl, yn disgwyl diffuantrwydd cyffelyb ganddynt hwythau.

3ydd. Y mae purdeb serch a chalon Duw at ei bobl yn ymddangos yn nianwadalwch ei-gariad. Megys nad oes cysgod trôedigaeth yn hanfod Duw, felly nid oes yn ei gariad at ei bobl. Nid oes yma un pwnge troad: y mae ei gariad yn sefyll heb ysgog; fel yr haul yn Gibeath, nid ydyw yn machludo na chwaith yn gogwydd at hyny, ond yn aros yn ei lawn nerth: "A thrugaredd dragwyddol y trugarhâf wrthynt, medd yr Arglwydd, dy Waredydd;" *Esa.* liv. 8. Y mae dyn gwael yn edifarhau am ei gariad; y serch gwrosocaf a oera yn ei fynwes ef. Y mae cariad yn y creadur fel tâu ar yr aelwyd, yn awr yn ffaglu, yn fuan yn gwauhau, ac ar ddi-foddi; ond yn Nuw, fel yr elfen dân, nad yw byth ar ball. Yn y creadur y mae fel dwfr mewn afon, sydd yn codi ac yn iselu; ond yn Nuw, fel dwfr yn y môr, sydd yn wastad yn llawn, heb na llanw na thrai yn ei wneud yn fwy na llai. Lle y gosododd efe ei gariad, nis gall dim ei ddwyn ymaith; nis gellir na'i lygru, na'i orchfygu. Gwneir cynnygion o'r ddwy ochr; etto yn ofer.

1af. Nis gellir llygru ei gariad ef. Fe fu y fath rai ag a feiddient demtio Duw, a demu, ie, gwobrwyo Sanct Israel, i adael a throï cefn ar ei bobl. Fel hyn y ceisiodd Baalam emill Duw i ochr Balac, yn erbyn Israel; ac at gael hyn, ni arbedodd efe ddim cost; ond aileiladodd allor ar ol allor, a phentyrodd aberth ar aberth. Iâ, pa beth ni wnaethant hwy, i gael ond gair neu ddau o enau Duw yn erbyn ei bobl? Ond eulw yn bur iddynt a wnaeth efe: ie, gadawodd nôd o'i ôg ar y genedi hono, am gyflodi Baalam a'i anfon ar y fath neges at Dduw: *Deut.* xxiii. 4, 5. Ni a gawn hyn ar gof

gan Dduw, at gynnal yn ei bobl gred ba haus am ei gariad pur a diysgog atyn "Fy mhobl, cofia, attolwg, beth a fwriadod Balac brenin Moab, a pha ateb a rodd Baalam mab Beor iddo, o Sittim hyd Ggal;" *Micah* vi. 5. A pha ham y cofie hwy hyn? "Fel y galloch wybod cyfiawnd yr Arglwydd;" hyny yw, fel y gwybyddo pa fath Dduw cywir a ffyddlawn a fân chwiri. Weithiau, y mae yn defnyddio hyn i'w hannog i fod yn gywir iddo yntau, fel dangosodd efe ei hun iddynt hwy yn y t hwnw. Yn *Ios.* xxiv. 9, y mae yn mynu iddynt y bu i Balac aifon Balaam i os Duw ar waith i'w melldigo: "Ond," medd Duw; "ni fynwn i wraiddaw arno" (*a.* 10); ond peri i'r hwn a ddasth i'ch melldio, i' ddadny bendith arnoch chwiri a'r eiddo a'i enau ei hun. A pha hwn yr adrodd hyn? Gwelwch: "Yn awr gan hyny o'r weh yr Arglwydd, a gwasanaethwch mewn perffeithrwydd a gwirionedd;" *a.* 14. Casgliad tra naturiol a rhesymol o wrth yr hyn a ddywedasad am wirionedd ffyddlon Duw. O! Gristion, a fynydd gael dy gariad at Dduw i fod yn ddilw; Perarogla ef yn fynych yn dy fedlyllia pherlysiâu pur cariad Duw atat ti: dy gariad nad yw yn marw, ac nas gall we llygredigaeth. Cred am wir gariad Dduw atat ti, a bydd yn ffals iddo, os beid Anglysoniaeth, a pheth dieithr mewn cariad, yw tala ffusedd am ffyddlondeb.

2d. Cariad Duw at ei saint, nis gellir orchfygu. Yr hyn sydd dostaf i'w erly ydyw, nid grym gelynyon ei bobl, pa byniag ai dynion ai diaffiaid, ond pechos ei bobl. Ni wna Duw gyfrif o holl rym llied eu gelynyon er eu cyssylltu ynghyd ond yn ddiau y mae pechodau ei bobl rhoddi hollalluogrwydd ei hun ar bra Eriod ni chlywsom am Dduw yn gridd dan, neu yn achwyn gan rym ei elynion eithr yn fynych a dwys am bechodau angharedigrwydd ei bobl. Mae y rhai llyon ei lethu; mae y rhai hyn yn tori galon, ac yn peri iddo sefain allau, fel buasai yn petruso yn ei feddwl, os dywe yn ol dull dynol, ac yn anhawdd iddo wy' pa beth i'w wneuthur, ai eu cart, ai eu gael—rhoddi llais am gaelw eu bywyd, ai marwolaethu. Wel, pa ciriau byniag a fera Duw at beri i'w bobl deimlo a chyn ddiwysach yr angharedigrwydd ddangoswyd ato ef, er hyn nid yw efe i'w wybod pa beth i'w wneud yn yr achos hyn y mae ei gariad yn penderfynu ei feddwl o blaid ei bobl gyfammodol, pan y mae hyn llygiad hwynt leiaf yn haelu hyn (*Ios.* xi. 9). Tybiodd y diafol iddo a digon yn erbyn Iosuah (*Zech.* iii.), pan allgael rhyw fu'raddi ar ei wisg, i ddwynllo o chwell, ac adrodd wrth Dduw y fath buidr oedd ar ei blentyn ef. Ei gyfrif gw

I ef oedd, cael gosod Duw yn ei erbyn; d efe a gangymmerodd: o herwydd yn ei gyffroi i ddi, ei annog i dosturi a naeth y tro; ac yn lle syrthio allan âg ef, mae yn cael Crist yn gweddio o'i du: *ch. iii. 2.* Yn awr, defnyddia hyn, Grist, mewn myfyrdod: a yw cariad Duw ar anorchfygol, fel nas gall hyd yn oed dy chodau na dryllio na thori cwlwm y cyfmod sydd yn dy rwydo di wrtho ef? Ai nid yw yn gywilydd i ti fod yn wareu rhwym a rhydd âg ef? Ti a ylit ymgais am gael gwir ddelw cariad dy d nefol yn fwy amlwg ei hargraff ar neb dy gariad ato ef. Megys na all dim hfygu ei gariad ef atat ti, felly na âd lau i ddim wanhau dy gariad ato yntau. Wed wrth dy enaid, ai ni lynaf fi yn agos Dduw, pan y cuddio ei wyneb rhagof, gan fwriddod fi ymaith, pan droais i fy ughfen bechadurus arno ef? Ai ni ddygaf fi tiolaeth i'w wirionedd ac i'w enw (er fod i'll yn gadael y naill, ac yn dirmygu'r ll), gan iddo ef gadw ei gariad yn llosgi yn galon ataf fi, tra yr oeddwn i yn ei ddi-hyddedu ef? Pa beth? Duw o'm tu i, yn rasol wrthef ar ol y fath wrthgiliadau rhai hyn! Ac a fydd i mi etto dristau Ysbryd, a gwarthruddo ei gariad â swaneg o anuffudd-dod? Na ato Duw: neud a allwn at roddi Duw yn gyfranog- yn fy mbechod fyddai hyn, trwy roddi gariad ef yn danwydd iddo?

DOSB. IV.

1. Gochel bechodau rhyfygus; mae y di hyny yn rhoddi yr archoll ddyfnaf i deby, ie, yn anghyttunol âg ef. "Attal fydd dy was oddi wrth bechodau rhyfygus; y arglwyddiaethont arnaf: yna y'm perthir, ac y'm glanheir oddi wrth anwir- edd lawer;" *Salm xix. 13.* Y mae dim o'i un weithred o ryfyg yn anghysson â'r y arferiad gweithredol o burdeb. Fel y galwn yn Dafydd: yr hwn, trwy yr un phod erchyll hwnw o lofruddiaeth, a glodd yr ymarferiad presennol o burdeb, a aeth yn y mater hwnw yn rhy debyg i'n o'r ynyfion yn Israel; ac am hyn y ne yn sefyll fel yr unig namyn i'r dystiol- uch gyffredinol a roddodd Duw i'w union- do ef: "Dafydd a wnaeth yr hyn oedd awn yng ngolwg yr Arglwydd, ac ni chiodd oddi wrth yr hyn oll a orchymyn- odd efe iddo, holl ddyddiau ei einices, ond y achos Uriah yr Hethiad;" *1 Bren. xv. 5.* Hyny yw, nid oedd y fath ryfyg mewn pechod arall a wnaed ganddo: ac felly gwir hwynt allan yma, o ran hyn, gan wnaethant y fath rwyg ar ei burdeb, ag a wnaeth yr un pechod hwn. Ac fel y ne un weithred o bechod mewn rhyfyg y anghyttunol âg uniondeb gweithredol: felly y mae yn rhy anhawdd i uniondeb gddolof gydsefyll gyda rhyfyg greddfol.

Oa ydyw un weithred o bechod rhyf- ygus, ac fel y gallaf ddywedyd, un llym- eidyn o'r gwpan wenwynig hon yn eff- eithio mor drwm ar ysbryd dyn grasol, ac yn newid ei wedd, fel nad yw yn debyg iddo ei hun, pa mor farwol yute i bob uniondeb a fydd yfed o honi o ddydd i ddydd? Ac am hyny, megys y "rhoddes Daniel ei fryd, nad ymhalogai efe trwy ran o fwyd y brenin;" *Dan. i. 8,* felly ymrodda dithau beunydd, tan ryw rwywiad duwiol o'r fath, nad ymhalogech âg unrhyw bechod rhyfygus: canys yn wir bydd y brenin yn briodol yw hwn; bwyd Satan, tywysog y tywyllwch yw fy meddwl; yr hwn nis gall ei hun bechu ond pechodau rhyfygus: a'i ymgais penaf sydd am halogi eneidiau trwy fwyta o'r ddysglaid hon. Dywed di fel Awstin ar achos arall, "Mi a allaf gyfeiliorni; ond fy mwriad yw na byddwyf yn heretic;" Dichon fod ynaf lawer o ffaeiddau; ond trwy ras Duw, mi a ymdrechaf beidio bod yn bechadur rhyf- ygus. Ac os na fynit fod mewn pechod rhyfygus, gochel wneud yn ysgafn o wen- didau llai. Pan darawodd calon Dafydd ef am dori cwr manteli Saul, efe a ymattal- iodd ac a wnaeth eneidiaid dedwydd: ei gydwybod dyner, gan ei daraw yn ddirgel- iodd am dori cwr ei wisg ef, ni oddefai iddo dori ei wddf, a dwyn ei fywyd, oedd yn well na ddilledyn. Ond dro arall, pan oedd ei gydwybod yn fwy llygad-drom, ac heb wneud y gorchwyl cyfeillgar hwn iddo, ond yn gadael iddo saethu ei clygon serchog ar ol Bathseba, heb roddi iddo un alwm am ei berygl; gwelwn y gwr da fel un wedi pensyfrdanu a cholli ei ddeall, ar ei dripiad cyntaf ar lethr serth, heb allu ymachub, ond yn treiglo o bechod i bechod, nes y syrth- iodd o'r diwedd i bydew lofruddiaeth. Pan fyddo yr afon wedi rhewi, fe anturia dyn rodia a rhedeg lle na feiddia osod ei droed pe byddai y rhew wedi tori neu dodd. O! pan fyddo calon y dyn duwiol ei hun wedi caledu, nes iddo allu sefyll ar ryw wen- did, er lleied fyddo, a'i gydwybod heb ym- hollti dano, pa mor bell bynag y gall efe fyned? Yr wyf yn crynu wrth feddwl pa bechod y gall efe syrthio iddo.

DOSB. V.

5. Cais gyrhaedd uwch law cariad ac ofn y byd. Ni bydd un diffyg ar haul cywirdeb y Cristion heb gyfyngiad y ddaear rhwng Duw â'i enaid.

1af. Cariad at y byd. Dyma wreiddyn addas i ragrith dyfu arno. Os bydd y galon wedi ymosod yn danbaid ar ryw beth a fedd y byd; ac os rhydd ei llais yn bennodol am ei gael—rhaid i mi fod yn werth hyn a hyn yn y flwyddyn; cael o hyd i'r cyfryw fri; ac i'r creadur gydag Ahab glafychu o hir- aeth am danyn; yna, bydd mewn perygl mawr o dderbyn y cyngor drwg cyntaf a

roddo Satan neu y enawd iddo, at gael ei amcanion i ben, er eu bod yn niweidiol i'w uniondeb. Nid yw helwyr yn gofalu pa ffordd yrânt; hwy a neidiant dros glawdd a flos, am y caffont yr ysgyfarnog.

Y mae yn beth rhyfedd, yr wyt yn addef, fod gan un sant wyntiaid mor gryf ar ol y creadur, gan fod ynddo ef arogiedd enaint Crist yn dywalltiedig yn ei fynwes. Gallai un feiddwl y gwnai y perarogl a dardd mor gynhesol o weiyau y perysiau hyny—yr addewidion—anafu helwriaeth y Cristion ar ol y creadur, ac y byddai i'r naill sawyr rwystro effaith y llall; y byddai i'r pereiddra purach sydd yn anadlu ynddynt hwy oddi wrth Crist a'r nef ienwi synwrau y Cristion, hyd nes y byddai pob mwyniant arall o sawyr mwy amhar a daearol heb gael derbynidd boddus yn ei firoeanau. Mae hyn yn sier yn bod tra y byddo synwrau ysbrydol y Cristion yn iach ac mewn ymarferiad. Ond och! megys y ceuir y pen ac yr attelir y synwrau rhag gwneud eu gwaith, pan fyddo anwyd yn y corph; felly, drwy esgeulusdra y Cristion, y mae yn hawdd cael afiechyd ysbrydol, nes bod attaliaid trwm ar y synwrau hyny—grasusau wyf yn ei feiddwl—a ddylai farnu am bethau. Ac yn awr, pan nad yw y Cristion mewn tymmer i fwynhau y nieluserau purach hyny, mae gan Satan fantais deg i godi rhyw fwyntiaid daearol oddi ar ei wâl, a'i arddangos o flaen y Cristion; a hwn y mae y enawd yn ei sawrio yn fuan ac yn cynu yr enaid, druan, ar ei ol, hyd oni ddelo gras drachefn i'w dymmer; yna efe a'âl yr helfa â chywilydd a gofid.

2il. Cais gyrrhaedd uwch law ofn y byd. Y mae ofn dyn yn dwyn nagl. Fe red dyn ofnus i ryw dwll, er mor warthus y byddo, tuag at ymachub rhag y peth y mae yn ei ofni; a phan fyddo y rhai duwiolaf dan rym y brofedigaeth hon, y maent yn rhy debyg i ddyinion ereill. Abraham, mewn gloes o ofn, y mae yn lleidrio wrth Abimelec: i.e., Pedr pan ydoedd—nid ei fywyd ond ei barch—yn ymddangos mewn peth perygl, ni iawndroediodd at wirionedd yr efengyl; nis rhodiodd yn uniawn, fel yr oedd yn gweddu i wr mor sanctaidd; eithr cymerodd un cam ym mlaen, a'r llall yn ol drachefn, fel pe buasai heb hoffi ei lwybr: yn awr efe a fwyty gyda'r ceu-hedloedd; yn y man y mae yn cilio. A pha beth a wnaeth iddo lleidrio, ac i'w draed gamu fel hyn wrth rodio? Dim ond llewyg o ofn a ddaeth dros ei galon ef, fel y gellwch weld yn *Gal.* ii. 12, 14. "Gan ofni y rhai oedd o'r enwaediad," efe a ragritiodd ac a dynodd ereill i'w ganlyn i ymbleidiaid.

DOSE. VI.

6. Cadw lygad manwl ar dy galon dy hun, yn dy rodiad beunyddiol. Y mae

rhagrith yn chwyn sydd yn llygru y t-goreu, hyd oni l yw yn gofyn gofal a thriiad beunydd i'w gadw dauodd. Y neb farchogio anifail tripiog, y mae yn ange rheidiol iddo fod â'i lygad ar ei ffordd, a law ar ei awen. Y cyfryw yw dy galon o Gristion; i.e., y mae yn tripiog yn fynych ar ffordd decaf, pan wyt leiaf yn ei hoffni. E rych ati gan hyny, a dal yr awen yn d'arni. "Cadw dy galon yn dra diesgeulus *Diar.* iv. 23. Y gwas, tra y teithia i ganly ei feistr, y mae yn cadw ei ffordd; ond p' anfoner ef ar neges wrtho ei hun, yna ym ar ei wib. Gellid rhagflaenu aml ge gwyrog a chwidr-waith yn dy rodiad beunyddiol, pe rhodiet ti yn gymdeithasol thi dy hun; fy meddwl yw, dan sylwi ar dy hun, a'th ffordd. Yn yr ystyr hwn, mae y rhan fwyaf o'r byd wedi colli arny eu hunain, yn estroniaid i'w rhodiad hunain gymmaint ag i'w hwynebau hunain. Y mae pawb a fyddo yn by gyda hwynt yn eu hadnabod yn well hwynt hwy eu hunain; yr hyn sydd gywilydd erchyll. Ac na fydded i dyb n ofer a hwn gael lle ynot, sef, am fod ger gywirdeb, nad yw yn rhaid i ti gadw gol-mor fanwl ar dy galon: fel pe nis g' ai dy galon di, sydd yn rasol, chwai geudeb â Duw, ac â thithau hefyd. O'r yw Solomon yn gosod nod dyn ffol ar dale y neb a ymddiriedo i'w galon ei hun? wyt ti, fel y dywedi, yn ddynd cywir, gallaf gredu fod hunangariad yn y fath r gyda'thi. Y rhai anwybodus a haloged sydd â'u calonau yn ddrwg i'r eithaf, yw bobl a'u moliant am rai da. Eithr un rh o ddaioni calon a wnaed yn wir dda tr ras, yw canfod mwy i'w drwg ei hun chwyno mwy o'i herwydd. Dwg dy galon hyn yn fynych i'w hadolygu; a m ei chyfrifon yn ddifrifol. Y mae hwnw y ffordd i wneud ei was yn lleidr, a fyc heb ofyn iddo yn awr ac yn y man pa ar sydd ganddo yn ei law. Yr wyf yn wir darllen am rai, yn nyddiau Iehoiadah de ionus, yn w'r mewn ymddiried am yr ar at adgyweiriad y deml, na wnaed gynima a chyfrif â hwynt am dreulid yr arid "Canys yr oeddynt hwy yn gwneuthur ffyddlaw;" 2 *Bren.* xii. 15. Ond nid d ti wneud felly â dy galon, rhag iddi roddi mewn mwy dyled i Dduw, ac i'th g wybod, nag a gei di ei rwbio allan ar ti. Y mae Duw yn rhoddi llawer o dalentau dy law, iechyd, rhyddid, Sabbathau, orod hadau, cymundeby y saint, a'r cyffelyb, adgyweirio dy deml ysbrydol, sef gwa gras o'th fewn. Gofyn yn awr i'th en pa fodd y mae y rhai hyn oll yn cael gwario. Fe allai y cei di fod peth o'r ar hwn wedi ei drenlio, a'r gwaith heb fod mymryn pellach ym mlaen. Y mae ofnyol i ti edrych ati: o herwydd fe

W gyfrif, er i ti, o bleidiad gyda dy galon
yllodrus, fod heb alw am dano.

PENNOD XV.

*Ghonor a chysur i'r rhai sydd ddiifnau, ond
n eneidiau ymollngar a phetrusgar; nad
dynt yn gwbl gondemnidig yn eu cydwybodau,
a rhagrithwyr, na than gyflawn ryddhâd
iddi wrth yr ammheuaeth o hynny yn eu medd-
liau eu hunain.*

a ddarfuom â'r ail fath o bobl; y rhai,
h chwilio, sydd yn cael eu cydwybodau
dwyn tystiolaeth am eu huniondeb.
U mae etto, yn drydydd, fath arall yn ol,
i rnt yn gair wrthynt: ac eneidiau ammheus
nt—sydd yn rhai cywir yn ddiau, ond
feiddio cymmeryd eu perswadio i feddwl
r dda am danynt eu hunain. Y maent
dyfod o'r prawf y dymunwyd arnynt
di eu hunain dano; a'u rheithfarn ydyw,
oramus, ni wyddom ni a ydym, ai nid
m, yn nobl gywir. Yn awr, i'r rhai hyn
a ddymunwn roddi gair o gynghor; a
dded yr Arglwydd ei fendith arno.

DOSB. I.

Gochelwch rhag i Satan eich tynu i
derfynu mai rhagrithwyr ydych, am eich
heb y dystiolaeth bresennol o'ch pur-
t. Gwneuthur cam â chenedlaethau
at Duw fyddai dywedyd felly: byddai
li lawer o'honynt roddi yr un gollfarn
ant eu hunain, pe byddai hyn yn gasgliad
wir oddi wrth y testyn: o herwydd y mae
yth eneidiau gwerthfawr sydd â gwirion-
el eu gras ac uniondeb eu calonau y dydd
n yn guddiedig o'u golwg: etto, nid
ynt heb y nail na'r llall. Yr oedd arian
mbion Iacob ganddynt yn rhwym yn eu
hau ar eu taith drwy y dydd, er nas
yddent hwy hynny nes eu dyfod i'w llety
hagoryd. Dyma fel y mae trysor o bur-
yng nghudd mewn llawer enaid; ond yr
aser i agor y sach a gadael i'r enaid wybod
eryfoeth, ni ddaeth etto. Y mae llawer
y awr yn y nef, wedi myned dros y mor-
ngc, a thirio yn ddiogel yno, er eu taflu
ya a thraw ar hyd eu mordaith, gan ofnau
y hylch gwirionedd gras yndynt. Y mae
ld ddiifnau yn rhoddi enaid yn yr arch
rist; ond nid yw yn rhoddi attalfa, fel
nyddo y cyfryw un yn glaf yn y llong.
Est ei hun, nid gras [a gyfranwyd] a all
alygu gras i'n llygad ni mor eglur ag i'n
guogi ni i'w addeff. Heb law cael llygad
li ei iawn addasu, y mae goleuni yn ofyn-
ot ei ddefnyddio yn oleu-gyfrwng. Felly,
b law gwirionedd gras, y mae yn angen-
ridiol cael yr Ysbryd sydd yn oleuni arall,
o diffy p a un y mae yn nos ar yr enaid yn
eddyliu; ac y mae yn rhaid iddo sefain
e un arall—yr Ysbryd Glân ei hun—i'w
drys i'r goleuni. Efe yw y cenadwr mawr

ag sydd yn unig yn meddu y gallu i ddangos
i ddyd ei gyflawnder. Ond fel y gall llygad
yn y tywyllwch fod yn llygad a wel, y pryd
nad yw yn gweled diin, felly fe all fod
gwirionedd gras lle nad oes yn bresennol
deimlad o'r gwirionedd hwnw. Ie, gall fod
y pechadur yn prysur chwilio o ordinhâd i
ordinhâd, am gael y purdeb hwnw sydd
eisoes o'i fewn: fel y gallech weled un
weithiau yn dra dyfal yn edrych o ddeutu y
tŷ am ei het, a hithau ganddo yr un amser
am ei ben. Felly, sefydla hyn fel gwir sier
yn dy enaid; Fe allai fy mod yn gywir, er
nad wyf yn bresennol yn gallu gweled hynny
yn eglur. Hyn, er na ddtwg i ti gysur llawn,
etto, gall fod yn beth cynnaluaeth nes y delo
hwnw: neu, fel ateg i'th dŷ gwan, er nad
yw yn ei drwsio, etto fe'i deil ac a'i ceidw
heb syrthio, nes y delo y pen gweithydd, yr
Ysbryd Glân, yr hwn trwy un gair tirion
wrth dy enaid, a all dy iawn osod yn dy
feddyliu, a pheri i ti sefyll yn gryf ar yr
addewid sydd yn unig sail a sylfaen gwir
gysur. O! Gristion, na fydd yn galetach
wrth dy enaid nag a fyddit wrth gorph dy
gyfaill (neu, a ddywedaf), dy elyn. Pe b'ai
un nad wyt yn ei fawr garu yn gorwedd yn
glaf yn dy dŷ; Ie, mor glaf, fel nas gallai
atted os gofynit iddo, A wyt yn fyw (am fod
ei synwyrâu a'i ymadrodd hefyd ar goll yn
bresennol)? a fyddai i ti yn ebrwydd ei ddy-
warthu, a'i roddi yn ei arch, ac yn ei fedd:—a
hyn am nas gelli gael o'i enau ef ei hun ei
fod yn fyw? Yn sier, ni wnait. O ynte,
mor afresymol a gwaeddyd yw Satan, a fynai
genyt ti ymdaflu yn ddiodeo i'r pydew o an-
obaith, am nad yw dŷ ras yn bresennol yn
ddigon cryf i siarad drosto ei hun!

DOSB. II.

2. Gad i mi dy anfon yn ol i ymofyn yn
well. Edrych unwaith etto, yn fanylach, ai
nid oes gan Satan, y Ioab hwnw, law fawr
yn y cwestiynau a'r ammheuon hyn a godwyd
yn dy fynwes am dy burdeb: a hyn fel ei
fwriad olaf arnat, fel y gallo dy ddallu a'th
derfysgu âg ofnau ffals, pan na fyni wen-
ieithio i ti â gobaith ffals. Bu amser pan
oeddit yn ddiau yn waeth; ac yna, trwy ei
waith ef, ti a dybiaist dy hun yn well nag
oeddit. Ac yn awr, er pan newidiasant dy
ffordd, wedi i ti wadu dy hen hyder, ceisio
adnabod Crist, a chael peth blas yn dy ys-
bryd ar ei ffydd sanctaidd ef, nes ydwynt
yn hiraethu yn gryf ar ei ol, yr ydwynt yn
cael dy frawychu gan aml ddrychiolaeth o
ofnau, yn dy feddyliu athrist, os nid yn dy
gyhuddo fel rhagrithiwr, etto, yn galw
gwirionedd dy galon i gwestiwn. Y mae
yn werth ymofyn, meddaf, ai nid yr un llaw
yw hon drachefn, sef Satan, er curo wrth
ddrws arall. Ni fedd un chwareuwr gym-
maint o newid-wisgoedd, i ddyfod ar y
chwareufwrdd ynddynt, ag a fedd Satan o
ddulliau mewn temtiad: ac y mae hon yn

wisg y gwyddys iddo ei gwisgo yn dra chyffredin. Pe byddai hyn dy gyflwr di yn unig, gellit fod yn fwy drwg-dybus, rhag i'r ofnau hyn fod yn geryddon cyfiawn dy galon dy hun. Ond pan welir fod llawer o'th gyd-frodr (sydd â'u cywirdeb yn ddiammheul genyt, er nad wyt ti mor garedigol atat dy hun) â'u cwynion mor debyg i'r eiddot tithau, fel nad oes un agoriad (er ei wneud mewn bwriad) a all ateb yn well i holl rwyll-ranau clo, nag y mae eu cyflwr hwynt i'th gyflwr di: Gall hyn, meddaf, fod yn achos da i ti chwilio etto, at wybod, ai ni ddaeth efe allan yn ysbryd celwyddog, i orthrymu dy ysbryd tyner di â newydd o'r fath, y gwyr efe na ddichon ei waeth ddyfod i'th glustiau; sef, nad ydwynt yn caru Iesu Grist, fel y profesi; ac mai hunan-dwyll yw i ti dybied yn amgen. Yn y modd hwn y gwna yr ysbryd aflan yma (fel putain ddigywilydd, a esyd ei phlentyn wrth ddrws gwr gonest) gyhuddo llawer yn haerllug â'r hyn y maent yn ddiueog o hono, gan ddisgwyl y glŷn cymmaint o'i gyhuddiad hyf wrth ysbryd y Cristion tlawd, ag a geidw y drws yn agored, i ollwng i mewn demtasiwn arall, y mae yn dymuno yn fawr ei thafu i'w fynwes trwy help hon, a than ei chysgod. Ac yn gyffredin, dyma hi; tarfu y Cristion oddi wrth ddyledsyydd, a thyuu ymaith olwynion ei gerbyd, a fyddai mor fynych yn arferol o'i ddwyn ef i bresenoldeb Duw yn ei ordinhadau; a hyn ar y drwg-dyb nad yw efe yn ddiffuant ynddynt, ac mai gwell iddo aros gartref heb wrandaw, nag uno â phobl Dduw mewn un ddyledsyydd arall, na myned i fyny i ddangos drygioni ei galon. Fel hyn y dywed Satan. Ac a oedd croen llyfnach a chwedl decach gan y sarph pan gafodd gan Efa estyn ei llaw at y ffrwyth gwaharddedig, nag a ddwg efe yn y demtasiwn hon—attal y Cristion druan rhag profi, na chyffwrdd â'r ffrwyth hwnw, a orchymynodd Duw ei fwyta? sef yr ordinhadau sydd i'w mwynhau genyt? Etto, Gristion, os nad wyf yn camsynied, y mae i ti achos i fendithio Duw os yw efe yn goddef i'th elyn agor ei feddlwr mor bell a hyn, fel y byddo i ti gael peth goleu, i ddiriad drygioni ei fwriad yn y demtasiwn arall, i ammheu dy gywirdeb.

Ai nid ydwyt ti bellach yn dirnad, enaid tlawd, pa beth a gododd y cri uchel am dy ragrith yn dy glustiau? Nid oedd Satan yn hoffi dy weled mor ddiwyd wrth ordinhadau, na'th gydnabyddiaeth â Duw yn cynnyddu mor gyflym ynddynt: ac ni wyddai efe am un ffordd ond hon i'th guro ymaith. Nis gwnei di gydio yn ei abwydau ereill: pechood, er ei drin a'i drwsio yn orwyh, nid yw yn ddysglaid at dy archwaeth fel y mae yn gwelid; ac am hynny y mae yn rhaid iddo dy frawychu oddi wrth y rhai hynny, trwy fflino dy ddychymyg âg ofnau am dy ragrith yn-

ddynt; neu ynte fe all dafu ei gap ar ol, a'th roddi i fyny, fel un allan o'i gyhaedd. A ydwyt ti yn tybied, enaid trua, pe byddai dy galon mor ffals a rhagrithi yn dy ddyledsyyddau, y gwnei efe yr holl wrst hwn yn eu cylch? Nid yw efe yr arfer camgyfleu ei beiriannau fel hyn, a gosod lle nid oes un gelyn i'w ddogio. I wnei dy weddio a'th wrandaw rhagrith mo'i niweidio ef, mwy na'th fod hebddy. Nid ei arfer ef elwaith yw bod mor dda a mynegi i ragrithwyr am ffalsedd calonau: dyma'r gadwyn sy gaiddo yn dal gerfydd yn traed; a'i ofal mawr yw chuddio o'u golwg, rhag i'w thyrystiad hi; eu cydwybodau eu deftroi hwynt i ryngais am ei churo ymaith, ac iddynt fel ddiange o'i garchar ef. Gan hynny, bygysurus, enaid tlawd; oni ddwg dy gywybod brawf ysgrhythrol i'th gondemi fel rhagrithiwr, nac ofna gyhuddiad Sata ni chaiff efe fod ar y faing pan ddely i'th brofi am dy fywyd; ac ni bydd ei dyiolaeth ef mewn bri yn y dydd hwnw. ham ynte y byddai ei dafod enllibus mecyfrif genyt yr awr hon?

DOSB. III.

3. Nac esgeulasa ddim moddion, at gamlgyad o'th wiredd, a phurdeb dy galon Ymae i'w gael. Dyma'r "gareg wen, a reu newydd wedi ei ysgrifenu arni, yr hwn edwyn neb ond yr hwn sydd yn ei dderbyna a addawyd yn Daed. ii. 17, ac yr wyf gobeithio nad ydwyt ti yn ei dybied rhywbeth dychymygod, fel maen y phosophydd, yr hwn nis gallodd neb lloheddyw ddywedyd ei fod ganddo yn ei l. Yr oedd y gareg wen yma gan Paul dduiol yn disgleirio yn ei gydwybod yn ogeddusach na'r holl feini gwerthfawr nwyfroneg Aaron: "Ein gorfoledd ni hyn, sef tystiolaeth ein cydwybod, mai me sylmrwydd a phurdeb duwiol yr ymddasom yn y byd;" 2 Cor. i. 12. Ac yn nid oedd Iob hebddi, pan feiddiodd appgyda'r fath hyder at y farn oedd gan Dduw am dano; fe, pan oedd Duw yn chwalu yn chwilio pob congl o'i galon, â'i drom: "Ti a wyddost nad ydwyf annuwiol Iob x. 7. Craffweh, nid yw efe yn gwneud oedd ynddo bechod; chiwi a gewch drachefn a thrachefn yn addefedig ganddo nad oedd yn annuwiol, neu yn rhagriwr calon-bwdr. Hyn, efe a saif ato, ddywed Duw ei hun ddim felly-am daer ei fod, i'w brofi, wedi cenadfu iddo ei chwilio, i gau safn y diafol, a'i wawyddo, ar ol iddo fod mor hyf a gosod ddybiad i'w erbyn am y drygioni ysbryd hwn.

Gwrthddadl. Ond fe allai y dywedi, Sair radd uchaf oedd y rhai hynny; ac er y gwent hwy ddyfod i weled eu purdeb, a me y gareg wen hon yn eu mynwasau, etto

ir disgwyl i Gristionogion cyffredin gael isgo y fath dlysau.

At. Yn ateb i hyn, ystyria fod gan y Cristion gwanaf yn nheulu Duw yr un dystiolaeth ag oedd gan y rhai hynny: "Yr un sydd yn credu ym Mab Duw, sydd i'w addo y dystiolaeth ynddo ei hun;" i *Ioan* 10. Nodwch: nid oes yma derfyn—pob un a gredu; nid y Cristion enwog hwn, i'r llall, ond pob un. Mae y dystiolaeth, yn Crist, yr un Ysbryd, yn aros yn dy ond di, âg sydd yn y sant uchaf ar y ceir. Y mae genyt yr un gwaed i'th nelly, a'r un dwfr i'th olchi: fe ddichon fe wna y rhai hynny, pan welo yr Argydd yn dda, dystio cymaint dros dy a'th burdeb di, a thros yr eiddynt hwyu. Ond fel y mae tystion a fyddo yn y dydd, yn aros hyd nes y galwo y barnwr am ynt, yna, ac nid cyn hynny, y rhoddant y eu tystiolaeth—felly y gwna y rhai hynny. Ac fe all Duw, i'e, y mae yn arfer i'w gyddid, pa bryd i wneuthur hyn. Felly ydych chi o'ch arall, y mae pob pechadur dyfeiriol yn dwyn tyst yn eifynwesi hun, i'w awn a'i condemnia ef; ond nid yw hwn i'w sefaru bob amser, gan fynegi yn ebrwydd holl newyddion trymion sy gando i'w rodd i'w pechadur; sef pan elô Duw i'w llys, a chadw eisteddfod barn neillduol i'w enaid pechadur: a phan welo ef yn dda y nodir y prydd. Yn unig niddylid esgeulusoeddion; o'r rhai, mi a benodaf ychydig. *af.* Ymestyn, Gristion, canys felly y mae i'w chaid i mi dy alw, pa un bynag a addefi i'w enw ai ni wnei, am raddau pellach o

Po mwyaf y tyfo y plentyn, mwyaf ydych chi i'w iawn wedd: ac felly gras. Y mae i'w maint o ofn caeth, a hunan, ynghyd i'w vaeleddau ereill yn bresennol, fel cymant o gèn ar wyneb y maban hwn o nes ydynt yn cuddio ei wir wynebpryd. Fe wisga y cèn hwn ymaith yn raddol, i'w tyfo i'w fyny. I'e, i'w rheswm ysbrydol y Cristion a addfeda, fel y cynnyddo hollgorphas; ac felly fe'i galluogir yn fwy, trwy i'w ar ei weithrediaidau ei hun, i'w farnu y gwrthddadleuon a wna Satan yn ei heb. Felly, os ni fynech gael eich tafu i'w d yn ol ac yn mlaen yn eich meddyliau i'w hunan, ai cywir ydych chi anghywir, i'w yddwch o hyd yn blant mewn gras. I'w ti gynnyddu mewn maint, ti a dyfi i'w law llawer o'th ofnau: o herwydd wrth i'w goleu ag y gweli dyfant dy ras, ti eelli i'w d ei wirionedd hefyd. Er mai anhawdd i'w gwybod, ar doriad cyntaf y wawr, pa i'w goleu y dydd ai goleu y nos sy'n llewlu, etto, pan weloch y goleu ar gynnydd i'w gwng, gan ymeangu, chwi a wyddoch i'w hynny ei bod yn ddydd. Nid yw paent i'w wyneb yn myned yn decach nag oedd, na i'w chiau plentyn mewn llun yn magu grym, i'w sefyll yno fisoedd a blynyddoedd. A

yw dy gariad, dy obaith, dy ostyngedd-rwydd, a'th dristwch duwiol yn cynnyddu fwy fwy, enaid tlawd, a thi etto yn amhieu pa beth ydyw? Pa un ai gwir ras neu nad e? Y mae hyn yn beth mor rhyfedd, na wyddost beth yw dy ras, ac o ba le y mae, ag ydoedd na wyddai yr Iuddewon pwy oedd Crist, wedi iddo beri i ddyd y anesid yn ddall weled mor eglur: *Ioan* ix.

21. Derbyn yn rhwydd unrhyw alwad a enfyd Duw i ti, trwy ei ragluniaeth, i roddi prawf o'th burdeb. Y mae rhyw ychydig fanteision a rydd Duw, y rhai, o'u cofieidio a'u defnyddio, a allant beri i ddyd wybod mwy am ei galon, ac am ras Duw ynddi, nag a gaiff yn ystod ei fywyd heb law hyn. Yn awr, y mae y manteision hyn wedi eu plygu i'w fyny yn yr amserau hynny pan alwo Duw arnom mewn modd mwy arbenig i ymwadu â ni ein hunain er ei fwyd ef. Bydd di yn barod i dderbyn, a ffyddlawn i ufuddhau i'r galwad nefol hwn, a thi a dnabyddi lawer o'th galon. Mewn rhan, am fod gras yn y fath weithredoedd, yn dyfod allan gyda'r fath ogoniant, nes yw fel yr haul, pan dywyno ar ddydd disglair, yn dangos ei hun yn amlycach i olwg y creadur; a hefyd am fod Duw yn dewis y cyfryw amserau a'r rhai hyn i roddi ei dystiolaeth am wirionedd gras ei blant, sef y prydiau y byddont yn ei ymarfer yn fwyaf rhagorol yn y ffordd hon. Pa bryd y gwna'r meistrefaru yn dirion wrth ei was, a'i ganmawl, ond pan y caffo ef yn ddyfalaf ar ei waith? Yna y dywed, "Da was da a ffyddlawn." Fe allai fod Duw yn dy alw di, ryw dro neu gilydd, i'r fath weithred o hunanmwadiad, ag y bydd raid i ti ynddi fathru ar ryw hoff fwyntiant neu gilydd; megys dy air da, dy gyfoeth, plentyn cu, ysgafydd, neu wraig anwyl; i'e, fe allai nas gelli wneud y gwaith y geilw Duw di iddo, ond trwy berygl colli'r cwbl; y rhai hyn, a chwagwng hefyd. Wel, fy nghyfaill, na fydd glaf wrth feddwl am dy fawr gyfyngder; ac na therfysga wrth yr olwg ar ei ragluniaeth ef, sydd yn awr yn sefyll wrth dy ddrws. Pe gwyddit ti y neges y daw hi arno, ti a'i gwahoddit i mewn, ac a'i croesawit, fel y croesawodd Abraham y tri angel, y rhai a wleddodd efe mor rwydd yn ei babell. Mi a ddywedaf i ti i'w ba beth y mae Duw yn ei hanfon: a hynny yw, i'th ddwyn di i olwg ar dy gywirdeb, ac i'th wneud yn gydnabyddus â gras Duw sydd ynot; wyneb yr hwn yr hiraethaist cyhyd am ei weled. Y mae y rhagluniaeth hon yn dwyn i ti gerbyd, i gyfeirio at gerbydau Ioseph, oedd i gyrchu yr hen Iacob, fel y dyger i'w ynddo i weled dy ras yn fyw, arwyl yr hwn a gedwaist cyhyd yn dy enaid galarus. Ac onid yw dy ysbryd yn bywiogi wrth y meddwl am ryw foddion trwy y rhai y gellit gyrrhaedd hyn? Abraham, cafodd ei alw i offrymu ei fab; ac fe

aeth o ddifrif at y gwaith: y cyfryw ddarn o hunanymwadiad nis gallai Duw ei adael heb roddi arno nod o fri: a pha beth y mae yn ei roddi iddo, ond ei dystiolaeth am ei gywirdeb? "Na ddod dy law ar y llange; o herwydd, gwn weithiani ti ofni Duw, gan nad attaliaist dy fab, dy unig fab, oddi wrthyf fi;" *Gen. xxii. 12.* Pa ham? gwyddai Duw hyn o'r blaen. Gwyddai; ond y mae yn ei ddywedyd fel y clywai Abraham, ac y derbyniai o enau Duw ei fod yn gywir.

Fe allai i tithau gael dy alw i ymwadu â'th feithriniad, â'th egwyddorion dy hun a sugnaist trwyddo, ac â'th gyfeillion, ac i groesi barn y rhai a berchaist yn fwyaf; i.e., â'th ddoethineb a'th reswm dy hun hefyd, i goffeidio rhyw wirionedd, neu ymaflyd mewn rhyw arferiad, yn unig ar gyfrif y gair. Hyn, os gelli ei wneuthur, a hyny heb hunangais am unigolrwydd, neu fymppwy balch yn dy chwythu y ffordd hono, y mae yn weithred ddwys o hunanymwadiad, ac o'r tueddiad mwyafr croes i natur y rhai gonestaf. Mae ar y rhai hyn ofni tynu llygaid ar eu hol, trwy adael eu cyfeillion i rodio mewn llwybr wrthynt eu hunain: maent yn dra anhyd yn i gyferbynu eu barn i farnau ereill, mwy llosgog a doniol na hwy eu hunain: mewn gair, y maent yn caru heddwech mor anwyl, fel y gallant ymfoddloni i'w brynu âg unrhyw beth ond pechod. Yn y rhai hyn y mae yn rhaid ei fod yn hunanymwadiad mawr; ac am hyny, y mae i'r cyfryw sail gryfach i'w ddisgwyl i Dduw amlygu iddynt eu cywirdeb. Efe a wnaeth hyn i Nathanael, yr hwn oedd â'r holl farrau hyn i'w gadw rhag dyfod at Grist, a chredu ynddo: etto, fe wnaeth y ddau; ac y mae Crist yn ei groesawu â thystiolaeth groyw uchel am ei gywirdeb: "Wele Israeliad yn wir, yn yr hwn nid oes dwyll;" *Ioan i. 47.* Ysgatfydd drachefn, mai y peth y mynai Duw i ti ymwadu â thi dy hun ynddo yw dy digder a'th ddial: ac, i roddi i ti le teg i ddial, ei fod ef yn dwyn dy elyn i'th afael, ac yn ei osod megis yn rhwym dan dy law; i.e., ac yn ei ragluniaeth yn trefnu y peth, fel y gelli gael dy ewyllys arno yn lled ddistaw; neu, os gwybyddir am y tro, etto, fod y camdroion hynod a wnaeth efe â thi, a rhai amgylchiadau yn y rhagluniaeth a'i dygodd i'th law, yn cyduno i roddi i ti fantasiaid liwio'r gor-chwyl mor olgus i'th esgusodi di yn meddyliau y rhai a glywant am dano: neu i beri i'r rhai hyny yn enwedigol sydd heb edrych yn fanwl i'r mater, sylwi yn hytrach ar gyfiawnder Duw, yn y farn a ddisgynodd ar dy elyn, nag ar dy anghyfiawnder a'th bechod di, a fu yn offeryn i'w chyflawni. Yma y mae dy ffordd yn llefn a theg o'th flaen, a'th lygredd dy hun yn dy alw yn mlaen, i.e., yn arfer enw Duw yn y mater, i'th wneud yn fwy hyderus, gan ddywedyd wrthynt, megys

y rhai hyny wrth Dafydd, "Wele y dydd ddaeth, yn yr hwn y rhoddodd Duw dy elyn yn dy law, fel y gwneych iddo megys byddo da yn dy olwg;" *1 Sam. xxiv.* Yn awr, os gelli wrthsefyll y brofedigaeth, ac yn lle ynddial ar y dyn—dy elyn—yn ddial ar dy ddial, dy elyn mwyafr o'r dda trwy dalu da i fynwes dy wrthwynebwyr, a y drwg a wnaeth efe i ti; ac ar ol gwne hyn, os gelli di ochel gelyu arall, wrth ddychwelyd—balchder wyf yn eifeddwl—ag i ddyfod o'r maes yn gongewerwr go tyngedig, a chyssegru'r coffa am y fudduglaeth i Dduw, fel cleddyf Goliath (*1 Sam. xxi. 9.*), y mae hyn yn dy ddadgan yn t cywir, i.e., yn raddwr uchel mewn gras; a yn gynt neu hwyrach, fe rydd Duw i wybod hyny. Y cleddyf hwnw, ni chadwydd Dafydd mo hono yn ei dŷ, er clod iddo ei hun, ond yn y babell, o'r tu ol i'r epho fel coffa am yr hyn a wnaethai Duw trwy law ef. Ac nid yw clod Dafydd yn swm yn uwch am ei fudduglaethau yn y magedd, ar ei clynton lladdedig, nag y mae am hono a gafodd yn yr ogof, y twll tywy hwnw, ar ei ynddial ei hun, wrth arbwydd Saul. Ac yn y tro hwnw chwigelech gyfattedbiad llawn i'r mater mewn llaw. Trwy enwogrwydd ei frwyrd gwaedlyd efe a gafodd enw mawr, "meg enw y rhai mwyafr ar y ddaear" (*2 Sam. v. 9.*), ond trwy ei weithred ardderchog hono hunanymwadiad, efe a gafodd enw mawr fel y rhai enwocaf yn yr Ysgrhythrau; eu duwioldeb: ac yn hytrach nag i Dafydd heb enwogrwydd am yr hunanymwadiad hwn, y mae Duw yn ei anfon iddo, i.e., trwy enau ei elyn: hwnw nis gall ymatal, iddo yn y tro gyhoeddi ei waradwydd ddrwg ei hun, ond y mae yn gorffod iddo gyfiawnhau, fel gŵr da a chyfiawn. "Efe" (sef Saul) "a ddywedodd wrth Dafydd cyfiawnach wyt ti na myfi, canys ti a delais i mi dda, a minnau a delais i ti ddrwg;" *Sam. xxiv. 17.*

3. Parhâ i ddisgwyl wrth Dduw yn llyffrydd ei ordinhadau, pob un yn eu pryd. Pa bryd bynag y bydd i ti gael golwg gysur ar dy gywirdeb, Ysbryd Duw sy raid gynnghorthu yn y tro; os angen, ti eelli, Agar, eistedd wrth y ffynnon ac heb ei chad i eelli amgylchu y maes drachefn a'th chefn, ond heb gael y trysor a guddiwyddo. Ysbryd Duw yw efe, drwy yr hyn y "gwypom y pethau a rad roddwyd i gan Dduw;" *1 Cor. ii. 12.* Yn awr, y mae yr Ysbryd yn eistedd yn yr ordinhadau, gwyddog uchel yn ei swydd-dŷ: yno y rhaid i ni gyrchau os mynwn gael gyfionedd ein grasusau, sydd yn dystiolaeth ni am y nef, wedi ei selio ar ein cydwybiau. Yno, gan hyny, dos; i.e., yno disgwyl canys fel y dywed y gŵr doeth am hau (*Preg. xi. 6.*), ni wyddost pa un ai yr ord

Ad hon, ai y llall, yn awr, neu bryd arall, ffyna ac a lwydda i'r diben hwn i ti. Y nae yn ddigon i'th gryfhau, ie, i'th dawelu i'th gysuro di yn dy ddisgwyliad, dy fod wrth yr iawn ddrws: ac er i ti guro yn hir, eb glywed un newydd am ei ddyfodiad, tto nis gelli ddisgwyl cyhyd, fel "gweision Iglon" (*Barn*. iii. 25.), nes bod achos i ti ywlyddio. Disgwyl wrth ddyng marw yn yr yr oeddynt hwy; a hwy allasant sefyll a ddigon hir cyn iddo eu clywed: ond yr yt ti yn disgwyl wrth Dduw byw, sydd yn ywed dy holl guro wrth borth y nef, a'th eiddiau a'th ddagrau wrth Dduw sydd yn uru; yr hwn o hyd, tra y mae yn ymddwyn egys estron, fel Ioseph at ei frodyr, sydd to mor llawn o drugaredd, fel y bydd iddo r diwedd syrthio ar dy wddf, a llonyddu galon trwy dy addef di, a'i ras ynot ti. Yfod dy ben ynte, enaid gwan a thruan, a os gan ddisgwyl am y rhodd; ond cofia iddio gosod yr amser i Dduw. Yn ei awr hun y cyfyd yr haul, pa amser bynag a odwn ni iddo. A phan gyfarfyddo Duw thi mewn ordinhâd, megys rai prydiau, yn liammheu, Gristion, yr wyt yn cael goleu efol yn llewyrchu, ac yn effeithio i fywiogi enaid, wrth wrandaw y gair, neu, fe allai ar dy liniau yn ymdrechu â Duw, dyma yd a mantais hyfryd a ddylit eu defnyddio boddloniad i'th enaid. Megys pan dy-no yr haul, yna y rhedwn at yr awrfynag (*Gal*) i wybod yr awr o'r dydd; neu, pan ddom yn eistedd mewn tywyllwch, ac un dwyn canwyll i'r ystafell, yna yr ymgyn-yrfw'n i edrych am yr hyn oedd ar goll, y cawn yn fuan afael ar y peth yr ym-lfasom yn ofer am dano yn y tywyllwch: ly y gelli dithau, enaid tlawd, fel y cafodd wer o'th frodyr a'th chwirydd o'th faen, y bod mwy am dy gyflwr ysbrydol, mewn hydig fyndau o'r fath amser, nag mewn wer diwrnod pan gilio Duw. Gan hyn y rylia yn ofalus am y cyfryw brydiau, a fnyddia hwynt. Eithr os cuddia Duw dy ysor o'th olwg, cysura dy hun â hyn, fod uw yn gwybod am dy gywirdeb, er ei lygu allan o'th olwg di. Dywed gyda dydd, "Pan ballodd fy ysbryd o'm mewn, hau a adwaenit fy llwybr;" *Salm* cxlii. 3. Fe wna Duw â thi, nid yn ol y cyhudd-lau gau a ddygi di i'th erbyn dy hun, fel nae i'w ofni y dioddefodd rhai ar ddyw-ly dynion, ond yn ol y dystiolaeth a all ei gad craff ef roddi o blaid dy ras.

PENNOD XVI.

Yr agorir ail reswm y gyffelybiaeth; pa ham y gosodir allan wirionedd, neu gywirdeb, trwy wregeys milwr; sef o herwydd natur gryfhaol y ras hwn, yn enwedigol ei rym cadwriaethol; ynghyd â rhai prydiau neillduol, ym mha rai y gyrrh y rhagrithiwr ymaith.

WEDI dibenu y rheswm cyntaf, pa ham y cyffelybir gwirionedd i wregeys y milwr, ac ystyried y gras hwn dan y golygiad hwnw, awn ym mlaen at yr ail sail neu reswm am y gyffelybiaeth: cymmerir hwn oddi wrth y defnyddiad arall o wregeys y milwr, sef, i gryfhaol ei lwyneau, a thynhau ei arfogaeth am dano: yn uchaf ar ba un ei rhoddir. Trwy hyn y mae efe yn gryfach i deithio ac i ymladd. Y mae gwregysu, yn ol iaith y Beibl, yn arwyddo nerth: "Gwregysaist fi â nerth i ryfel;" *Salm* xviii. 39. "Efe sydd yn gwanhau nerth;" yn ol yr Hebraeg, "yn ddtod gwregys y rhai cryfion;" *Iob* xii. 21. Tr defnyddiad hwn o'r gwregys y mae gwirionedd neu gywirdeb yn dwyn cyf-attediad cymhwys. Y mae yn ras sydd yn cadarnhau ac yn nerthu y Cristion yn ei holl yrfa, fel y mae rhagrith yn llwyr groes, yn gwanhau ac yn ansefydlu y galon: "Gŵr dauddyblyg ei feddlw sydd anwastad yn ei holl ffyrdd;" *Iago* i. 8. Megys y mae mewn cyrph, felly mewn eneidiau: y mae cyrph daearol, o herwydd eu cymmysg-odd, yn llygradwy: ond y cyrph nefol, gan eu bod yn bur, heb gymmysgedd, nid ydynt lygradwy. Yr un faint sydd gan enaid o burdeb ac anlygredigaeth y nef, ag sydd ganddo o wirionedd: "Gras fyddo gyda phawb sydd yn caru ein Harglwydd Iesu Crist mewn purdeb;" yn ol y Groeg, "an-lygredigaeth;" *Eph*. vi. 24. Y mae grym pob gras yn gorwedd yn ei burdeb. Felly, heb ymhelaethiad, y pwngce sydd yn ym-gynnyg i'n hystyriaeth, oddi wrth yr ail olygiad yma ar y gwregys, yw hwn.

Craffwch fod gywirdeb, nid yn unig yn cuddio ein holl wendidau, ond yn rhagorol, ie, yn angenrheidiol i sefydlu yr enaid yn, a'i nerthu at, ei holl filwriaeth Gristionogol. "Perffeithrowydd yr uniawn a'u tywys hwynt: ond trawsedd yr anffyddloniaid a'u difetha hwynt;" *Diar*. xi. 3. Y rhagrithiwr a syrth yn warthus, ac a ddaw i'r dim, gyda'i ddichellion a'i ystrywiau oll i'w achub ei hun: eithr cywirdeb a ddwg yr enaid a faidd ddilyn ei arweiniad yn ddiogel trwy bob peryglon, er iddo fod yn eu canol. Ond i agor y pwngce: y mae nerth triphlyg a ddwg cywirdeb i'w ganlyn, yr hyn y mae'r galon ffals ragrithiol yn fyr o hono:—1. Nerth cadwriaethol. 2. Nerth adferol. 3. Nerth cysurol.

1. Y mae gan gywirdeb (neu burdeb) nerth cadwriaethol, i gadw yr enaid rhag aflanhâd pechod. Pan ddolo profedigaeth ar ruther, ac ymosod hyd adref ar yr enaid, gyrrh y galon ffals i redeg: nis gall hi sefyll. Mynegir i ni am ragrith Israel, yn *Salm* lxxviii. 8: "Cenedlaeth ni osododd ei chalonn yn uniawn:" a pha beth sydd yn canlyn? "Nid yw eu hysbryd ffyddlawng gyda Duw." Meini a fyddo heb eu gosod yn gywir ar y sylfaen, nis gallant sefyll yn gadarn nac yn

hir. Chwi ellwch weled chwaneg o'r un fwythl ehwerw yn tyfu ar ganghenau y rhagrithiwr yn yr un Salm, *adn.* 50, 57. "Ciliasant, a buant anfyddiawn: troisant fel bwa twyllodrus." Pan fyddo'r bwa ar ei union, gall y filaw sydd ynddo fod yn anamlwg; ond ewch chwi i'w arferyd, trwy dynu'r saeth at ei phen, ac fe a naid yn ddarnau. Felly gwna calon ffals, pan ei profer. Fel yr epa yn y chwedl, a wisgwyd mewn dillad dyn; pan dafler enau o'i fflaen, nis gallai guddio ei natur yn hwy, ond dangos ei hun yn epa i'n wir. Mae calon ffals yn ymddynoethi heb wybod iddi ei hun, pan ymddangoso achlysur teg i'w chwant: ond cywirdeb a geidw'r enaid yn bur yn ngwyneb profedigaeth. "Y neb a rodia yn uniawn, a rodia yn ddiogel;" *Diar.* x. 9. Hyny yw, y mae yn sathru yn gadarn ar y llawr, fel un a'i draed yn iach: er fod ceryg ar ei ffordd, fe ï drostynt yn ddiogel: "Ond y neb a gamdry ei ffordd a fydd hynod;" yn debyg i un â chorn, neu ddolur arall, ar ei draed; er iddo, mewn rhyw lun, allu cerdded ar dir llyfn gwyrddlas; etto, pan gaffo ffordd arw a cherygog, y mae yn ebrwydd yn cwmpo ac yn methu. Yn awr, at amlygu yn well y nerth cadwriaethol hwn, y gwregysa purdeb yr enaid âg ef, bydd yn angenrheidiol pennodi rhai o'r amserau hyny, pan y mae purdeb yn cadw yr enaid rhag grym profedigaeth; ac o'r ochr arall, pan y gwna rhagrith, yn ofnog a llonydd, roddi yr enaid i fyny i'w dwylaw hi.

1af. Y mae calon ffals yn arfer ysgoi ac ymroddi i bechod pan y gallo ymguddio mewn torf, a chael lliaws o gymdeithion, i ymgysgodi ynddynt. Y rhagrithiwr a esyd ei oriadur (*watch*), nid wrth yr haul, sef y gair, ond wrth awrlais (*clock*) y dref: y mae yn hawdd ei berswadio i wneud fel y gwna y nifer mwyaf. Llais y bobl sydd yn lle llais Duw ganddo ef. Am hyny, amfynych y cewch ef yn nosio yn erbyn llanw amseroedd llygredig. Dygir pethau ysgafn gyda'r ffrwd, ac ysbrydoedd ysgafn gyda'r lliaws. Ond mae y Cristion cywir yn bwysig a dwys; cynt y sawdd efe i'r gwaelod, gan ymroddi i gynddaredd y lliaws, trwy ddiodef ganddynt, nag y nosia yn ol eu esamplau hwynt, trwy bechu i'w canlyn. Ni fedd y rhagrithiwr egwyddor dda o'i fewn; ac am hyny, fel pysgodyn marw, y mae yn rhaid iddo fyned gyda'r llif. Eithr cywirdeb, gan gan ei fod yn egwyddor o fywyd duwiol, y mae yn cyfeirio yr enaid i'w ffordd, ac yn ei addasn i rodio ynddi heb gymmhorth cymdeithion, i roddi pwys arnynt, ie, yn erbyn pob gwrthwynebiad a'i cyferfydd. Llefardodd Iosuaq yr hyn oedd yn ei galon, er i ddeg o'r deuddeg oedd yn gydgenadwyr gymmedroli eu hunain at fympwy y bobl, wrth weled pa ffordd yr oedd y gwynt yn chwythau: *Nam.* xiv. 7. Geiriau boddhaol

y gaubrophwydi oedd mor unol â mympw balch Ahab, nis gellid mewn un modd e haddasu at flas Micea dduwiol, er idd wneud ei hun yn dra diystyredig, trwy ddewis bod yn unigol yn hytrach nag yn uno â chymdeithas mor olygus, pedwar can o brophwydi; y rhai oeddynt oll yn gyttu yn yr un farn: 1 *Bra.* 22.

2il. Y mae calon ffals yn ymroddi, p ddelo pechod â gwobr yn ei law. Y ddiogion neb ond Crist, a'r rhai a adwaenau y gwirionedd megys y mae yn yr Iesu ddirmygu cynnyg y diafol, "Hyn oll roddaf i ti." Y rhagrithiwr, wedi ei goi i uchder pinael yn ei broffes, etto, fe bryura i lawr at ei ysglyfaeth os bydd yn sefy yn deg o'i fflaen. Un a fyddo heb ddwyn gwobr yn ei fynwes, ac heb ei gyfrif y ddiogion o gynnysgaeth cael Daw i'w fwy. Iau, gellir ei brynu a'i werthu gan ry faelerwr i fradychu ei enaid, Daw a chwi. Y rhagrithiwr, pan ymddangoso yn fwy crefyddol, nid yw ond yn disgwyl am w marchnad; ac yna efe a chwery y meelery a'i broffes. Nid oes dim gwahaniaeth m rhwng rhagrithiwr a gwrthgiliwr nag rhwng afal irias ac un addfed. Deuau ym mhen ychydig, a chewch ei weled ef syrthio yn bwrdd oddi wrth ei broffes. Indas, rhagrithiwr celgar, mor fuan yr aef yn fradwr anlwg! Ac megys y m ffrwythau yn addfedu, yn gyt neu hwyrach, fel y digwyddo gwres y flwyddy felly y gwna rhagrith, fel y byddo tenti iynau yn gryffion neu weiniaid. Y mae rhagrithiwr yn aros yn hwy na'r lleill e eu dalguddio, am nad ydynt yn cyfarfod fath demtasiynau cryffion i dynu eu llygreigaethau allan. Y mae yn sylweddig f frwythau y ddaear yn addfedu mwy mef wythnos, pan fyddo yr haul mewn cysylliad â seren y ci, nag mewn mis o'r bla. Pan gaffo y rhagrithiwr ddtws agored i ffrwyddo i'r meddiant o'r camp-dlws byc hwnw, y bu yn dyfeisio pa fodd i'w ghaedd, yn awr y mae ei chwant oddi mewn a'r achlysur oddi allan, mewn cydgyssylliad; ac y mae dydd ei gwmp yn prysu. Y mae yr abwyd ar y bach; ac nis gall lai na chydio ynddo. Yn awr, y mae cyr irdeb yn cadw yr enaid yn y fath awr profedigaeth. Y mae Dafydd yn gwed "na chasglai Daw ei enaid gyda phechadaid, y rhai y mae eu deheulaw yn llaw gwobrau" (*Salm* xxvi. 9), neu, y rhai, mwyn budd, a gymmerai wobr am bech. Y mae yn dadgan ei wrthwynebiad i'r rhe ddyrgionus hon; "Eithr mi a rodiaf yn mherffieithrwydd;" *adn.* 11. Lle y mae dangos pa beth a'i cadwodd rhag cael lygru a'i ddeni fel hwythau oddi w Dduw—ei berffieithrwydd ydoedd. En y rhodio yn ei berffieithrwydd, ni chynn ei wobrwyo gan ddyinion, na chan bechod

hun: ac am hyny, efe a ddywed (*adn.* 12.) "fod ei droed yn sefyll ar yr uniawn;" neu fel y mae rhai yn darllen, "fy nhraed sydd yn sefyll mewn cyfiawnder."

3. Y rhagrithiwr a ymrydd i'r brofedigaeth, pan allo bechu heb gael cerydd gan ddyu; yr hyn a ddigwydd mewn achos deublyg:—Yn gyntaf, pan allo goffeidio ei chwant mewn congl, lle na welo lygad dyn. Yn ail, pan fyddo mawredd ei le a'i allu yn ei godi uwch law dyrnod cyfiawnder gan lawlyn. Yn y ddau hyn efe a ddengys ei ldyrgion: ond cywirdeb a geidw yr enaid yn y ddau amgylchiad.

1af. Gwelwch fel yr ymddug y rhagrithiwr, pan dybio ei hun yn ddiogel o olwg dyn. "Jofal Ananias a Sapphira oedd am ddallu lygad dyn, trwy osod peth o'u meddiannau wrth draed yr apostolion;" ac ar ol sierhau i'n, fel y tybiasant, trwy dynu llen eu sel mddangosiadol rhwng twnw a hwynt, y maent yn cadw y rhan arall heb grynu wrth, a meddwl am, lygad dialeddol Duw, oedd hyd yn edrych arnynt: yna, ar ol gwneud yn, y maent yn sefyll o flaen Pedr, fel pe uasent yn gystal saint a neb oedd yn y ymdeithas. Y mae y rhagrithiwr yn fwy m gadw ei air da yn y byd hwn, nag am adw ei enaid yn y llall: ac am hyny, pan llo efe sierhau ei air da, ni phetrusa efe naturio ei enaid i berygl. Y mae hyn yn rawf o'i fod naill ai yn atheist llwyr, ac eb gredu fod byd arall i gadw neu goll i ei enaid ynddo; neu ei fod, o fwriad, yn cadw saw rhag meddwl am dano, gan wybod ei bod yn destyn mor drymlyd, ac anghyttunol r ffordd y mae efe ynddi, fel na faidd efe ldef i'w gydwybod ei hun fynegu iddo yr yn ydyw ei barn ar y mater: ac felly id oes ganddi hi allu i'w ofni a'i reoli; am na chaiff hi ei gwrandaw yn dywedl drosti ei hun. Yn awr, y mae cywirdeb i cadw yr enaid yn yr achos hwn. Ioseph, id digon oedd fod ei feistr oddi cartref, tra i oedd ei Dduw yn bresennol: "Pa fodd y llaf wneuthur y mawr ddrwg hwn, a rhechu yn erbyn Duw?" *Gen.* xxxix. 9. Raffweh, nid yn erbyn ei feistr, ond yn erbyn Duw. Gwna cywirdeb ddyu yn y ddawn i ddyu, ond i ddioben mwy nag erbyn dyn. Gwasanaethodd Ioseph ei feistr a math o lygadwasanaeth: yr oedd i ddo Dduw yn ei lygad, pryd nad oedd e yn llygad neu olwg Potiphar. Dedwydd w y meistriaid y mae ganddynt rai a'u wasanaethant a'r llygadwasanaeth hwn o wirdeb.

2il. Y rhagrithiwr, os na all gael allan o olwg dyn, etto, ond iddo allu sefyll o gyr-oedd ei fraich a'i awdurdod, y mae yn ystal at ei dro ef; ac y mae hyn yn fynych ei ddadguddio. Mor anweddaidd a ddaled y gwnaeth Laban â Iacob, gan ei wyllo yn ei wraig, a'i orthrymu yn ei gyflog

drwy ei newid ddengwaith! O! efe a wyddai mai creadur truan diymdaraw oedd Iacob, mewn gwlad ddieithr, ac yn ddiallu i ymryson âg ef oedd yn ŵr mawr yn ei wlad. Rhai tywysogion, cyn dyfod i'w gallu a'u mawredd, a ymddangosant yn isel a thirion, hynaws a thrugarog, uniawn a chyfiawn; ond yn fuanar ol neidio i'r cyfrwy, cael ffirwyn y llywodraeth i'w llaw, a dechreu gwybod beth oedd eu gallu, y maent wedi mathru eu deiliaid drwy drais a chreulondeb, yn ddirugaredd at eu meddiannau, eu rhydd freiniau, a'u bywydau. Y mae hanes y byd yn llawn o'r fath esamplau. Hyd yn oed Nero ei hun, yr hwn a ymddygodd yn ddi-afsaidd o'r diwedd, a ddechreuodd felly, fel y cofleidiwyd ef yn nhyb y Rhufeiniwr megys sant o reolwr. Os gosodwch ragrith ar chwaraufwrdd awdurdod a mawredd, nid hir y bydd cyn i'w llen-gudd syrthio ymaith. Yr oedd hyn yn meddwl y prhwyd pan na roddodd ond yr ateb hwn i rith-fieiddiad Hazael o'r hyn a ragddywedodd efe am dano: "Yr Arglwydd a ddangosodd i mi y byddi di yn frenin ar Syria;" 2 *Bren.* viii.

13. Fel pe dywedasai, Eriod etto nid eisteddaist ti, Hazael, yng nghadair brenin; ac ni wyddost pa ddadguddiad a wna hyny o dwyll dy galon. Nodwch y pryd o'r hwn y coffeir am Rehoboam yn gwrthod Duw: "Ac wedi i Rehoboam sierhau y freniniaeth a'i chadarnhau, efe a wrthododd gyfraith yr Arglwydd;" 2 *Cron.* xii. 1. Parodd cyfrwysdra iddo gelu ei fwriadau tra y bu yn ymsefydlu ar ei orsedd rhag iddo beryglu ei goron: ond ar ol ei sierhau hi ar ei ben, a chadarnhau ei blaidd, dyna y cwbl yn tori allan. Yn debyg i ryw gadben ffals a gasgl fwyd i'w gastell, ac a'i diwalla â phob ystôr; ac yna, nid cyn hyny, a'i dengys ei hun yn fradwr, pan dybio ei hun yn alluog i amddiffyn ei frad.

Ond yma hefyd y mae cywirdeb yn cadw yr enaid gasol. Cawn ddau yn dystion nodedig am hyn: Ioseph yw un. Am ei frodyr annaturiol, hwy a fynasant unwaith ddwyn ei fywyd ef: ie, gwnaethant yr hyn a allasai—am ddim a wyddent hwy—brofi yn waeth; y greulawn hwy a'i gwerthasant yn gaethwas i wlad ddieithr; ac yr oedd ganddo y rhai hyn wedi eu dwyn yn rhyfedd i'w afael, pan oedd efe yn uchel ei fri a'i allu yn yr Aipht. Ac yn awr, pryd y gallasai dalu iddynt yn ol eu gwaith, heb ofn nac attaliad oddi wrth ddyu, wele y gŵr duwiol hwn wedi ei godi uwch law pob meddwl am ddial! Y mae yn talu eu creulondeb yn ei ddagrau ei hun, nid yn eu gwaed hwynt: y mae yn wyllo uwch eu penau, o lawenydd eu gweled hwy, na allent gynt fod yn llawen nes cael gwared o hono ef. Iâ, pan oedd eu heuogwydd eu hunain yn peri iddynt ofni edrych yn ei wyneb, gan ei fesur ef wrth eu calonau dialgar eu hun-

ain, mor fuan y mae efe yn eu gwared oddi wrth bob ofn am ddim drwg yn cael ei fwr- iadu ganddo ef i'w herbyn! Hefyd, ni fyn efe adael iddynt gymmait a thywyllu llaw- enydd a ddygasai y dydd hwnw iddo gyda hwyt, trwy son o'i flaen am eu gofid eu hunain, o herwydd eu creulondeb tuag ato. Mor gyflawn oedd yr oruchafiaeth a gafodd ar bob dial (*Gen.* xlv. 5). A pha beth a'i cadwodd yn ei awr o brofedigaeth ddwys? Efe a ddywedodd wrthynt, "Gwnewch hyn fel y byddoch fyw; ofni Duw yr wyf fi;" (*Gen.* xlii. 18. Fel pe dywedasai, Er eich bod chiwi yn garchaforion i mi, wrth fy ewylls a'm barn, er dim a ellwch ei wneud at wrthsefyll, etto, y mae genyf fi rwymanau ar fy nwyllaw a'm calon hefyd rhag gwneuthur na bwriadu i chiwi ddrwg: ofni Duw yr wyf fi. Hyn a'i cadwodd—ei fod yn cywir ofni Duw.

Y tyst arall yw Nehemiah, llywydd y trefedigion Iuddewig, oedd dan nawdd brenhinoedd Persia, yn adfeddiannu gwlad eu tadau. Drwy ei sefyllfa, yr oedd ganddo fantais i orthrymu ei frodyr, pe beiddasai fod mor ddrwg: ac oddi wrth wyr a fuasai o'i flaen yn y swydd amrhydeddus, yr oedd ganddo esamplau o rai a allent nid yn unig lyngcu cyflog cyffredin y llywydd heb chwydd yn eu cydwybodau—arwydd o gylla digon cryf, os ystyrir cyflwr ysbeilliedig yr Iuddewon y pryd hyn—ond hwy allent ar ol sugno y llaeth eu hunain, adael i'w gwcis- ion creulawn sugno gwaed y trueiniaid hyn hefyd drwy ormes digyfraith. Felly Ne- hemiah, yn dyfod ar ol y fath orthrymwyr, pe cymmerasai ei gyflog, gan eu hesmwythau o ddim ond y beichiau ereill yr oeddynt yn griddfan danynt, a allasai gael ei gyfrif yn wr trugarog yn eu meddyliau hwy. Ond ni feiddiai efe fyned mor bell. Y mae modd i dlyn orthrymu drwy wasgu am yr eiddo ei hun. Gwyddai Nehemiah nad oeddynt mewn modd i dalu; ac am hyny ni feiddiai efe ei ofyn ganddynt. Ond fel un yn dyfod ar ol hwsmon drwg, a yrodd ei dir ac a sugnodd ei nerth, y mae yn ei droi yn fraenar dros amser, nes yr adgaffo ei nerth a gollodd; felly y darfu i Nehemiah arbed y bobl orthrymedig hyn. Ac attolwg, pa beth a'i cadwodd ef rhag gwneud fel y gwnelsai y lleill? Gwel *Neh.* v. 15: "Ond ni wnaethum i felly, rhag ofn Duw." Yr oedd y gwr yn onest, ac ofn cywir yn ei galon: hyn a'i cadwodd yn ei le.

PENNOD XVII.

Am y nerth adferol sy gan gywirdeb; ac o ba le y mae?

2. Y MAE nerth adferol yn canlyn cywir- deb. Pryd nad yw yn breinio dyn rhag

syर्थio, etto y mae yn ei helpio i fyny dra chefn: ond y rhagrithiwr, y mae yn gorwedd lle y syर्थio, ac yn trengu lle y gorwedd. Am hyn y dywedir "ei fod yn syर्थio mewn drygioni;" (*Diar.* xxiv. 10) Y mae yr enaid cywir yn syर्थio fel y galteithiwr syर्थio, drwy daraw ei droed wrth ryw gareg ar ei sffordd; ond y mae yn cyfod ac yn myued yn ei flaen gyda gofal a brymwy. Y llall a syर्थio fel dyn o ben hwybren, mewn llyngelyn tuhwnt i bob achul iaeth yn nhrasfwnge y môr. Y mae y syर्थio fel Haman o flaen Mordecai; ar cychwyn ni saif, ond fe syर्थio hyd nas gall syर्थio yn is. Hyn a welwn yn Saul, y hwn ni bu ei galon erioed yn uniawn: wedi'w galon ddrwg ddaedduddio ei hun, efe dreiglodd yn gyflym i lawr y bryn ac i safodd, ond a aeth o ddrwg i waeth; ac a ol ychydig flynyddoedd chiwi a welwch mor bell yr aethai o'i gychwynfa gyntaf, lle dechreuodd ymadael â Duw. Craffwn a Saul pan y dangosodd ei anymddiried a anghred, wrth beiddio aros y llawn amser Samuel ddyfod (*1 Sam.* xiii. 8, 9). Dyna cam gwyrog cyntaf a nodir yn ei wrthgiliaeth yr oedd mor boeth am addoli Duw, fel na gallai aros dyfodiad y prophwyd. Pe dywedasai un wrtho, y gwnai efe cyn hir rhw heibio addoli Duw, ie, a syर्थio o ymfyfig ef i ofyn cyngor gan Satan drwy ymfyfig â dewines; ac o ymfyn â diafol, y gorphen efe ei ddrygwaith gwaedlyd, gan ymadaflu y ddiobaith i safn y diafol drwy humanladdiaeth yn sicr, buasai yn rhyfeddach ganddo glywed hyn nag oedd gan Hazael weled tyr ei lun yn awlwg o'i flaen gan Elizeus: (*Bren.* viii. 13. Ac yn ddiaw, yr holl gyfi a allwn roddi am y tro yw, fod ei galon y ddrwg o'r dechreu; ac o hyn y rhoddod Samuel amnaid iddo, pan ddywedodd, "Y Arglywydd a geisiodd iddo wrth fodd galon ei hun;" *1 Sam.* xiii. 14. Dafydd oedd yn ei feddwl; yr hwn, ar ol hyny, syर्थiodd i bechod mwy, o ran y weithre na'r un y gwrthododd Duw Saul o'i herwydd ac etto, gan fod ganddo gywirdeb gredd fel gwreiddyn y mater, efe a adferwyd y ddedwyddol o hono. O ddiflyg hyn yr lwyddodd Saul ragrithiol yn y diwedd. Mor wir yw y ddiareb:—Fod i rew a thew; ddiweddiad budr! Yn awr, y mae rhwydeublyg am y nerth adferol hwn mewn cywirdeb. Cymmerir un oddi wrth nat cywirdeb, a'r llall oddi wrth yr addewid sefydlwyd gan Dduw ar yr enaid y ceir cywirdeb neu burdeb ynddo.

laf. Oddi wrth natur cywirdeb ei hyn Y mae cywirdeb i'r enaid fel y mae yr enaid i'r corph: y mae yn wreiclionen o fywduwiol a ennywyd ym mynwes y creadgan Ysbryd Duw. Had Duw ydyw sy yn aros yn y saint: *1 Ioan.* iii. 9. Yn awr fel y mae yr had a fwrir i groth y ddaear

fywheir yno drwy effeithiad y nef arno, yn estyn ei ben yn iraidd a gwyrdallas yn y wnanwyn, ar ol cael aml frath gan oerder y gauaf; felly y gwna gras cywir, ar ol tentasniau a chwympiadau, pan dywyno Duw rno â phelydr ei ras bywiocool. Ond y rhagrithiwr, heb feddu yr egwyddor du-nethol hon o fywyd, nis gwna felly. Rhyw fath o Gristion drwy gelyfddydd yw fe—nid drwy anian newydd—wedi ei wisgo el llamddelw, yn null allanol dyn, yn ymymud wrth y gwyfrau (*wires*) a esy dyrefftwr wrtho; ac heb ei ddysgu gan enaid i fewn. Ac am hyny, fel nas gall y fath delw ar ol ei wisgo gan amser, neu ei hori, wneuthur dim at adnewyddu ei un, ond malurio yn ddarnau, nes myned i dim yn y diwedd; felly y diflana y rhagrithiwr yn ei broffes, heb egwyddor fywiol i ttal y dinystr sydd yn dyfod arno. Y mae wahaniaeth mawr rhwng y gwlan ar gefn ddfadaf, yr hwn er ei gneifio a dyf eil-raith, a gwlan croen dafad am gefn blaidd. orwch hwn, ac ni welwch chwi ddim hwaneg yn tyfu yn eile. Y Cristion cywir w y ddfadaf; y rhagrithiwr yw y blaidd ng nghroen y ddfadaf. Y mae'r cymmhwys-ud yn hawdd ei ddeal.

2il. Y mae'r enaid cywir dan addewid: e y mae addewidion yn adferol: "Cyfraith yr Arglwydd sydd berfaith, yn troi" (yn ol r Hebraeg) yn adferi "yr enaid;" *Salm* ix. 7. Y mae yn cyrdu yr enaid yn ol i ywyd, fel y gwna neddyglyn (*cordial*) r yf i un mewn llewyg. Mae y rhinwedd wn yn briodol i addevidion y gair ac am yny, i'w cymmeryd felly yn y lle hwn. In awr, yr enaid cywir yn unig yw gwir sifedd yr addewidion. Trysorwyd aml ddewid felus at sierhat help a chynimhorth waredu y cyfryw yn a holl beryglon a'u rofedigaethau: "Y neb a rodia yn uniawn waredir;" *Diar*. xxviii. 18. Yn awr, "affwch ar y cyferbyniad; "ond y neb a yddo traws ei ffyrdd, a syrth ar unwaith," eu yn ddisymmwrth ac anfddyginiaethol. Ni wrthyd Duw y priffaith: ac nid ymeif fe yn llaw y drygionus" (*Job* viii. 20); sef, w cynorthwyo i fyny pan syrthiant. "Eg e, y mae y rhagrithiwr nid yn unig heb ddewid er ei gymhorth, ond hefyd yn orwedd dan feldid gan Dduw. Efe a ymmer fawr boen ni a welwn) at godi ei y; ac ar ol ei weithio, "Efe a bwysa arno, ud ni saif; efe a ymeif ynddo, ond ni hery;" *Job* viii. 1f: "Gwell yw yr ychydig dd gan y cyfiawr, na mawr olud annuwiol- n lawer;" *Salm*: xxxvii. 16. Ond pa ham? welyr achos, yn *cln*. 17, 18. "Canys breich- u yr annuwiolon a dorir; ond yr Ar- wydd a gynnal y rhai cyfiawn." Y dyn cyfiawn yn y Sam hono yw yr un cywir; rth yr annuwiol y meddylir y rhagrithiwr. mae ychydig ras yng nghymysg â

llawer o lygredd yn y Cristion cywir, yn well na golud y rhagrithiwr (y ffydd fawr, y sel, a'r crefyddolrwydd) sydd yn fost ganddo. Y mae gan y cyntaf fendith yr addewid i'w adferu pan fyddo yn amharu; gan y lleill nid oes ond melldith Duw yn bygwth eu difa, pan yn eu rhwysg a'u gwychder mwya. Deddfryd y rhagrithiwr yw myned "waeth-waeth;" 2 *Tim*. ii. 13. Hyd yn oed yr ordinhadau hyny sydd yn effeithiol drwy fendith yr addewid i adferu yr enaid cywir, gan eu bod dan feldidh i'r rhagrithiwr, a roddant iddo ei ddienn a'i ddinystr. Y gair sydd yn agor llygaid y naill, y mae yn dallu y lleill; fel y gwelwn yn yr Iuddewon rhagrithioli, at y rhai yr anfonwyd y gair "i gau eu llygaid;" *Esa*. vi. 10. Y mae yn dryllio ac yn toddi yr enaid cywir, megys yn Iosiah (2 *Bren*. xxii. 19); ond wrth gyfarfod â chalonn sials, y mae yn ei chaledu yn fawr. Gwelwyd hyn yn yr Iuddewon: *Ier*. xlii. 20. Cyn y bregeth, y maent yn siarad yn deg—"y gwnant fel y dywedai yr Arglwydd:" ond erbyn darfod y bregeth, y maent ym mhellach nag erioed oddi wrth ufuddhau i orchymyn Duw. Y rhagrithiwr, y mae yn gwrandaw er ei waeth, yn gweddio er ei waeth, yn ymrydio er ei waeth. Y mae pob ordinhad yn ddrws llydan i ollwng Satan i mewn, i'w feddiannu yn fwy cyflawn, fel y bu i Iudas ar ol y gwylch-damaid: *Ioan*. xiii. 26.

PENNOD XVIII.

Am briodoldeb gynnaliol a chysurot sydd gan gywirdeb: egluro hyn mewn amryw esamplau neillduol.

3. Y MAE rhinwedd gynnaliol a chysurot gan gywirdeb: fe gyfyd y pen uwch law y dwfr, ac a wna i'r Cristion nofio ar frig tonau ei flinderau oll, gyda gwedd sanctaidd a gwrolder ysbryd. "Cyfyd goleuni i'r rhai cyfiawn yn y tywyllwch;" *Salm* cxii. 4; nid yn unig ar ol tywyllwch, wedi i'r nos ddarfod, ond mewn tywyllwch hefyd: "Allan o'r bwynt y daeth bwyd; ac o'r cryf y daeth allan felusdra;" *Barn*. xiv. 14. Y blinderau hyny sydd yn enoi, ie, yn difa calon y rhagrithiwr, gall yr enaid cywir ymborthi arnynt, a sugno melusder o honynt: ie, y mae ganddo y fath dreuliad tufewnol, fel y dichon eu troi yn faeth rhagorol i'w ras, a'i gysur hefyd. Nid yw calon ddrygionus yn llawen, ond yn unig tra y byddo ei harlwyaeath: n anol o'i blaen. Dywed Duw wrth Israel, y gwna efe "i'w holl orfoledd hi, a'i gwyliau beidio;" *Hos*. ii. 11—symmudir ei llawenydd gyda llian ei bwrdd. Ond fe wna cywirdeb i'r Cristion ganu pan na fedd ddim i'w swper. Nid oedd Dafydd yn y cyflwr gwychaf, pan yn yr ogof; etto, ni a'i cawn ef mor llon ag erioed: y mae ei galon yn gwneud peior-

iaeth hyfrydach nag a wnaeth ei delyn erioed. "Parod yw fy nghalon, O Dduw, parod yw fy nghalon; canaf a chanmolaf;" *Salm* lvii.

7. Y mae llawenydd y rhagrithiwr fel tannau offer cerdd, yn ymdori ar dywydd llaith: ond cywirdeb a geidw yr enaid mewn cywair ar bob hin. Cyrph afiach yw y rhai sydd yn ymdeimlo a'r tymmor, yn llonach hin deg, ond yn glafaidd-lawn o ddohuriau ar hin arw. Felly y galon afiach; ychydig ragluniaethau a fyddo yn gwasgu, a i trechant ef, fel y trecha gauaf llym gyrph nychlyd. Ond yr enaid cywir, nid yw un amser yn gryfach, nac yn fwy cysurus. Ni wna cystuddiau iddo ef ond y gymmwynas hon; galw ei serchiadau i mewn, y rhai oeddynt, fe allai, yn rhy bell ar led ac ar wasgar, gan fwyntiant mewn creaduriaid, a u huno yn fwy agos a chyfan ar Grist; ac i'w fynwes ef yr â ar uniongyrch, pan ddaw tymmhestl, fel y wenyen i'w chwch. Ac y mae yn rhaid i hwnw fod yn gysurus, sydd â gobenydd mor esmwyth i osod ei ben arno ag yw mynwes Crist. Ceidw cywirdeb safn yr enaid yn agored, i dderbyn y cysuron melus a ddfera'r gair a'r Ysbryd. Yn wir y mae'r addewidion oll wedi en cyfeirio at y cyfryw.

Ond y mae rhagrith yn dedyg i'r fynyglog yng ngwddf dyn claf, y mae yn llosgi oddi fewn, ac nis gall efe gael dim i lawr i ddiffodd y tân a enynnodd ei bechodau yn ei enaid. Pan gynnigier yr addewidion melus, cydwybod a ddywed o'i fewn, "Nid i mi y mae y rhai hyn; mi a ymddygais yn ffals at Dduw a dyn; yr enaid cywir y mae Duw yn ei wahodd; ond rhagrithiwr pwr-galon wyf fi." A pha faint yn fyr, attolwg, yw y cyfryw ddyn o drueni Deifas yn uffern? Y mae Deifas yn llosgi, ac heb gael diferyn i oeri ei dafod: y mae y rhagrithiwr yntau yn llosgi mewn tralod, ac yn wir yn cael nid diferyn, ond afon—ffynnon lawn o ddwfr, i.e. o waed, yn gynnigiedig iddo; etto nis gall efe ei yfed, nis gall ei ddefnyddio er ei les: y mae ei ddannedd wedi cau mor dŷn, fel na ddichon un offeryn eu hagog. Y mae ei ragrith yn syllu yn ei wyneb, yn gorwedd fel gwaedgi wrth ei ddrws; ac ni oddefa i ddim cysur nesau ato: a pha un sydd waethaf ei helynt, yr un na fedd fara, ai yr un ai medd, ond nis gall ei fwyta? Nid oes neb mor firaeth a chyfrwys a'r rhagrithiwr, mewn hawddfyd, i gadw draw geryddon y gair, neu droi draw rhag ei gynghorion: ac mewn tralod, pan ddihuno cydwybod, nid oes neb mor fedrus i ddadleu yn erbyn cysuron y gair. Yn awr, y mae yn garcharor caeth gan Dduw, ni ddichon cysur nesau ato: os Duw a lefara ddychryn, pwy a all lefaru heddweh? "Dydo iddynt ofid calon; dy felldith iddynt." *Galar*. iii. 65. Y felldith gan Dduw yw gofid calon y rhagrithiwr mewn tralod; ac y mae'r hyn

a osodo Duw yn glynu yn dŷn. Y mae'r gair am ofid, yn yr Hebraeg, yn arwyddo tarian sydd yn cau am, neu yn gorchuddio ac medd un, ar y lle hwa, y mae yn golygu y clywf hwnw, a cilw y meddygon *cardiaco passio* yr hwn sydd yn gwasgu ar y galon hyd onid yw hi wedi ei gorchuddio megys: tharian, neu gauad drosti; ac felly yn cadw pob help oddi wrthi. Y fath yw gofid rhagrithiwr mewn cystudd; pan unwaith dihuna ei gydwybod, ac y llanwo Duw ef meddyliau brawychus am ei bechodau e hun, a digofaint Duw yn ei ddilyn o'u her wydd. Ond mi a ddeuf at bennodi rha rhywiau o gystudd, a dangos pa gysur sydd yn dilyn cywirdeb ynddynt oll.

DOSB. I.

Iaf. Y mae cywirdeb yn cynnal ac y cysuro yr enaid dan waradwyddiaethu gaddynion. Nid profion bychain yw y rhai hyn: hwy a gyfrifir ym mysg merthyrdodau y saint: *Heb.* xi. 36. Yr enw arny yno yw, profedigaeith drwy watwar: i.e. y deilwng, fe'u cofheir ym mysg dioddefada Crist, yr hwn a ddangosodd amynedd mawrfryd digyffelyb ei ysbryd, nid yn uni drwy ddioddef y groes, ond trwy ddiystyr y gwaradwydd y daru i dafodau budrone elyunion ffyrnig ei lwytho yn ddiarbed ag e. Tra anhawdd gan feddwl uchel dyn yw ddioddef gwaradwydd: parch a chlod yw eilu mawr y gwyr sydd yn sefyll wrth ben uchel y byd, o ran lle a daniaw: ond cael y rhai hyn, pa beth ni ddioldefa dynion? Gall un doethach na'r lleill weled y naww falch ho yn Diogenes, yr hwn a ddioddefodd sefyll y noethlymun gan gofidio pentwr o eira, trwy oedd ganddo edrychwyr o'i amgylch y rhyfeddu ei amynedd—yn ol eu tyb hwynt ac am hyny, gofynodl y gwr iddo a wnaie yr un modd heb nebyn ei weled? Y rhagrithiwr yw y parch fisnachwr mwyaf yn byd; yr hyn a ddwganadl dynion iddo y cwbl sy ganddo i fyw arno: pan bal hwnw, y mae ei galon yn diffygio: ond pwy try i ddirmyg a gwaradwyddiaethau, y mae yn marw; ac y mae yn rhaid iddo, gan sefled efe gymmeriad gda Duw tra y mae dan ddirmyg gyda dyn. Ond am gywirdeb fe ddeil yr enaid i fyny yn erbyn gwy anadl dyn gwael, am fol ganddo gydwyb a Duw ei hun i'w gyfiawnhan; ac ato ef mae yn beiddio appello oddi wrth frawe dyn. O! mor hyfryd y gwna cydwyb dda, ac Ysbryd Duw yn cyd-dystio â i wleda y Cristion ar y fath bryd! Ac i oes fater am y cenllusg o traddodiadau dy ion sydd yn trystio oddi llan tra y mae Cristion mor dda ei fyd oddi mewn.

Y mae Dafydd yn esanpl tra enwog hyn: "Wrth hyn y gwn hessi o honot fi, na chaiff fy ngelyn orfoledu i'm herbyr." *Salm* xli. 11. Pa fodd Dafydd? Onid dy elyn yn gorfoledu i'th erlyn? Gwelw

attolwg, y cyflwr y mae efe yn awr ynddo; yr oedd wedi syrthio i afiechyd nawr, ac yr oedd llaw Duw arno mewn afiechyd yn ei geryddu o'i herwydd, fel y lengys *adn.* 4. Yr oedd ei elynion yn cymmeryd mantais e hyn i'w ddirfrio i'r eithaf: "Fy ngelynyon a lefarant ddrwg am danaf;" *adn.* 5. Yr oeddnt yn ddiammheu yn ei gyhuddo fel rhagrithiwr. Pan ddeuent i ymwelod âg ef, nid oedd hyny ond i gasglu chywbeth at ei waradwyddo, a hyny a daenent ar led yn fuan *adn.* 6. Iê, nid cywilydd ganddynt ddywedod: *adn.* 8. Afiwydd, neu, yn ol yr Hebraeg, oeth i'r fall, sef, ei bechod a lŷn wrtho: yn awr, daeth Duw o hyd iddo; yn awr y mae yn gorwedd, ni chyfyd hwy. Iê, y mae d gyfaill anwyl, yn yr hwn yr ymddriedodd, yn ei drin cyn waethed a'r gwaethaf o'i elynion: *adn.* 9. A fu erioed ddynt truan yn is. Ac a all efe ddywedyd er hyn na chaiff si elyn orfoleddu arno? Rhaid i ni gan hwy gymmeryd ei feddwl fel hyn; sef, Er bwr yr holl waradwyddiau hyn arno, etto, iad oedd ei ysbryd yn gwanhau: yr oedd hwn uwch law y cwbl. Yr oedd Duw yn cadw ei ysbryd i fyny, ac yn rhoddi iddo yfath gysur oddi mewn ag oedd yn sychu ynaith eu dirmyg hwy cyn gynted ag y talet ef arno. Yr oedd eu henllibiau hwy, a l y gwelwn eira weithiau, yn toddi fel y llygient, heb aros ar ei ysbryd i'w lwyth a'i flino. A pha fodd y safodd Dafydd ysbryd mawrfrydig duwiol hwn? Efe a ddywed i ni (*adn.* 12): "Ond am danaf fi, yn fy mherffeithrwydd y'm cynnelli, ac y'm gsoedi ger dy fron yn draggywydd." Fel p dywedasai, Ni wnei di â mi, Arglwydd, ll y gwna fy ngelynyon: hwy a bigant alla fy ngwaethaf, ac a'm difenwant o'i herwjd; os bydd ond un man dolurus—un rhabechadurus o'm buchedd—yno y disgynar fel gwybed: ond yr wyt i'n edwch dro fy lliethriadau a'm fael-eddau pechadur; gan eu maddeu: ac yr wyt yn craffu ar y uniondeb, gan ei ategu yng nghanol fy ll wendidau; ac felly yn ry ngosod ger dyron, gan gyfranu i mi dy gariad a'th ffafur y pechodau a weii yn ymgymmysgu â gyryfa o ufudd-dod. Hyn a gadwodd i fyny ysbryd y gwr duwiol, ac sydd yn peri iddo ddiweddu y salm yn llawen: "Bendig dig fyddo Arglwydd Dduw Israel, o dragwidoleddeb a hyd dragwyddoldeb;" *adn.* 13.

Gristionogio yr ydym yn byw mewn dyddiau gwarawyddiadol. Yr hwnsy mor ry-serchus ar i enw, fel nas gall oddef gwelod peth btreddi, a chryn ystôr hefyd yn cael ei daffarno gan dafodau enllibus, y mae yn rhaid do chwilio am lwybr ar ei ben ei hun i fied i'r nef. Ond er cysur i ni, Gristion, eias gwna cywirdeb dy freinio rhag bywoliaeth ymdeithydd, a'th gadw rhag cael dduchio âg enllibiau, etto, fe

wna i ti y gwasanaeth da hwn, na chaiff y budreddi sydd yn disgyn ar dy wisg nawasio dy enaid, i leithio dy lawenydd a fferu dy gysur oddi mewn. Gwaradwyddiau oddi allan, gellir eu dioddef yn siriol, iê, eu gwisgo yn orfoleddus fel coron, os na chyfarfyddant â chydwybod gyhuddol oddi mewn. Iê, gwna cywirdeb chwaneg na hyn; fe ddwy i ti gysur, nid yn unig dan erledigaethau y tafod, ond y llaw hefyd. Nid yn unig fe ddiffydd y tân a dafer i'th wyneb gan dafodau wedi eu hennyn gan uffern, ond fe dy gysura hyd yn oed yn safu tân ei hun, os goddefa Duw i ti gael dy fwrw iddo gan erlidwyr. Yn wir, gwna cywirdeb i ti ofni pechu (O! ni feiddi gyffwrdd â'r marwor hyn); ond fe dy wna yn hyf i losgi, iê, i goffeidio filamau merthyrdod yn llawen, os gelwir di iddynt. Mor ddiolaidd oedd y gwas hwnw i Grist—merthyr Italaidd y coffa Mr. Fox am dano—yn mysg amryw ereill o rai dewrion dros y gwirionedd! Pan ydoedd dadl boeth rhwng swyddog y lle y llosgid ef ynddo a swyddogion yr esgobion a'i condemniasai, a'r ymdaeru ynghylch pwy oedd i dalu am y coed a wna i tân i'w losgi, efe a anfonodd yn ebrwydd i ddeisyf arnynt, Na syrthiant allan o achos hyny, gan y tynai efe y baich oddi arnynt ac yr elai i'r draul ei hun! Enaid dedwydd! nid mor anhawdd oedd ganddo ef roddi ei waed ac offrymu ei fywyd, a chanddynt hwy wario ychydig geiniogau i gael hyny i ben.

DOSEB. II.

2il. Y mae cywirdeb yn gwregysu yr enaid â nreth cysurol pan yn ymdrechu â chystudd o law Duw. Y mae llawer math o gystuddiau y prawf Duw ei weision cywir â hwynt. I enwi ychydig.

(1af.) Pan gyffyrddo â'r dyn oddi allan trwy glefyd; neu â'r dyn oddi mewn drwy frwydrau ysbrydol; y mae cywirdeb yn gyfaill cysurol yn mhob un. Y mae y rhagrithiwr yn ofni, yn anad dim, rhag syrthio i ddwyllaw Duw, fel y mae iddo achos; o blegid efe sydd o allu i wneud iddo y drwg mwyaf. Am hyny, cyn gynted ag yr ymaffa efe ynddo yn un o'r ffyrdd hyn, dyna ei lawenydd ef yn trengu: y mae efe, fel rhyw lofrudd sydd â'i farn yn amlwg yn y gyfraith, yn cyfrif ei hun yn ddynt marw pan unwaith y rhodder ef yng ngharchar. Hyn a wnaeth Iob yn gyfryw ryfeddod i'w wraig, am ei fod dan gurfa mor drom gan law gystuddiol Duw, â chystuddiau ar ol eu gilydd: "A wyt ti etto ef yn parhau yn dy berffeithrwydd?" Pa beth, cael dim ond dynodiau o law Duw, ac etto dal i'w fendithio! Yr oedd hyn yn rhyfedd ganddi hi, ond nid ganddo ef a allai ei galw yn wraig ynfyd am ei phoen, ond heb roddi dim yn erbyn Duw, er ei lym ddoluriad dan ei law ef. Cywirdeb a alluoga y Cristion i wneuthur dan beth na ddichon

y rhagrithiwr yn yr achos hwn, sef i ddyweyd yn dda am Dduw, a disgwyl daioni gan Dduw. Ac nis gall yr enaid hwnw fod yn anghysurus a fyddo yn gallu hyn, er i ben a chalon gyd-ddolurio.

(1.) Y mae cywirdeb yn galluogi y Cristion i feddwl a dyweyd yn dda am Dduw. Rhagrithiwr ffials galon, y mae ei wyneb-ryd ef yn syrthio, a'i galon yn cyfodi, ie, yn ymchwyllo o wenwyn yn erbyn Duw; er na faidd efe bob amser adael i hyny ferwi allan o'i safn, etto y mae ganddo feddyliau gwaedlyd i'w erbyn yn ei galon. "A gefaist ti fi, O fy ngelyn!" medd yr adyn. Nid yw efe yn caru Duw; ac am hyn ni ddechreu meddwl da am Dduw drigo yn ei galon: y cwbl a wnaeth Duw iddo, pa mor haelionus bynag, fe'i hanghofiwyd; ac y mae wedi chwewi gan orllif ei fustl wrth ymdriniaethau presennol Duw âg ef. Mae yn llidio ac yn ffromi: cynt y clywch ef yn melldithio Duw nag yn ei gyhuddo ei hun. Ond am yr enaid cywir, efe a faetha syniadau o'r tirionaf a charueiddiaf am Dduw; y rhai a'i rhwymant i gadw heddwch; ac ni faidd efe feddwl na llefaru yn anweddaidd i ogoniant Duw. Gwelwn hyn yn Dafydd: "Aethum yn fud, ac nid agorais fy ngenau; canys ti Arglwydd a wnaethost hyn;" *Salm xxxix.* 9. Yr oedd rhyw ddrylliad wedi ei wneud y pryd hyn ar Dafydd dduwiol yn ei gorph a'i ysbryd; yr oedd yn glaf a thralodus, etto y mae yn cofio o law pwyl daeth y ddyrnod: "Ti Arglwydd a'i gwnaethost." Ti, yr hwn yr wyf yn ei garu yn anwyl; felly gallaf ei gymmeryd yn dirion. Ti, yr hwn y troseddais i'w erbyn, ac felly mi a'i dygaf yn amyneddgar. Ie, tydi, yr hwn a allesit fy mwrw i wely o sillamau yn lle i wely o glefyd, ac am hyny yr wyf yn derbyn dy gerydd yn ddiolchgar. Fel hyn y mae efe yn dal y ddyrnod heb ei bwrw yn ol ar Dduw drwy iaith gwerylus anffodlongar.

(2.) Y mae cywirdeb yn galluogi yr enaid i disgwyl daioni oddi wrth Dduw, pan fo ei law yn gwasgu yn ddwysaf ar gorph neu enaid: *Salm xxxviii.* Ni bu Dafydd erioed mewn gwaeth helynt o ran corph ac enaid: torai calon o gallestr wrth ddarllen cwynion gofidus yr enaid blinderog hwn ym mhoen ei gnawd a chwewi ing ei ysbryd. Gallen feddwl eu bod yn ofidiau enaid ar fin anobaith: etto, yn yr ystorn fawr hon, ni a'i cawn ef yn taslu allan ei angor cryfaf o obaith, a hwnw yn cymmeryd gafael sier yn Nuw am drugaredd: "Gobeithiais ynot, Arglwydd; ti, Arglwydd fy Nuw, a wrandewi;" *adn.* 15. Y mae y disgwyliaid hwn am ddaioni oddi wrth Dduw yn cymmedroli ac yn diwygio y chwewder oedd ar ei archwaeth gan rym ei ofid presennol: felly yn *Salm ix.* 17: "Yr wyf fi yn dlawd ac yn anghenus; etto yr Arglwydd a feddwl

am danaf;" y mae fy nghyflwr presennol y drwm ddigon; ond fy nghysur yw, na fwi iwyd mo honof allan o'i ofal ef; mi a w fod ei feddyliau ar waith i wneuthur i nles. Y mae Iob dduwiol yntau yn profi na oedd efe ragrithiwr, fel yr oedd ei gyfeillio angharedig yn ei gyhuddo, trwy yr hyde hwn oedd ganddo ar Dduw, yn nyfnder y gystuddiau oll; "Pe lladdai efe fi, etto ni a obeithiaf ynddo ef; er kyny fy ffridd ddiffynaf ger ei fron ef. Hefyd efe fyf iachawrdwriaeth i mi; canys ni ddaw rhagrithiwr yn ei wlydd ef;" *Iob xiii.* 15, 16. Fel pe dywedasai, pe ni byddwn ddiffuan ni feiddiwn appello fel hyn at Dduw, chredu yn gysurus, tra ymae Duw fel hyn yn fy lladd, y gwna efe er hyn fy achul. "Canys ni ddaw rhagrithiwr yn ei wlydd ef;" hyny yw, ni faidd efe ymddiried ei hun yn llaw Duw, ac ymlonyddu yn ei addeu pan fyddo ei ben ar y cyff, a chylllell Duw wrth ei wddf. Na; pe allai, ni ddeuai ei byth i'w wlydd; ei gyfwybod a ddywe wrtho fod Duw yn ei adabod yn rhy ddi i fwriadu iddo ddim daioni. Ac am hyny pan ddechreu Duw osodei law arno (o'r bydd ei gydwybod yn ddeimlad a seriedig yn ol y fellidh ar hon y rae Duw weithia yn nodi y rhagrithiwr) y mae ganddo eisoes sawyr tân uffern yn ei enaid, mewn disgwyl iad arswydus am dano; ac y mae yn edryc ar ei gystuddiau presenl, er nad ydy; ond fel cwmml o led clâr llaw, fel rhai yndaenant fwyfwy, nes efoddiweddyd garysgodau yr hwyr bythol hwnw, a'i cylel ynant ef yn nhwyllwch dhafl uffern.

DOSB. III

3ydd. Cywirdeb a gysur y Cristion pan fyddo yn fyr o lwyddiant, weledig, i goron ei ymgais yn ei le a'i awad. Dyma ofi trwm, yn ddiammheu, i enaid grasol: mae pan fyddo gweinidog yr eangyl yn treul ei nerth a'i fywyd gyda phobl yn gwrth ddyweddyd, a cisteddant fel boncytton cheryg dan ei weinidogath, heb ymgyl nhyrfu mwy na'r meingau yr eisteddau arnynt, a'r colofnau y bysant arny. Yn anwybodus a halogeg y cafodd ei hwynt; ac yn gyfryw y mae yn gweled fod yn debyg o'u gadael, r'ol treulio, allai, ddeugain mlynedd i eu mysg. Mae yn rhaid i hyn fod yn awf a ddolur galon y neb y rhoddodd hwn iddo gald dosturiol at eneidiau. Nid oen bychan mae yn ei gostio i'r fam dwyn plenty byw i'r byd: ond pa fat yw doluria chwewron un sydd yn espr ar blenty marw? Y cyfryw yw gwelyr gweinidog truan gyda phobl calon-farw i'w peth ydy sydd yn rhan i rai, ac nid y saelaf o gei adau Duw. Yn wir y mae Duw yn gosod weision enwocaf ar y gwaith letaf.

Yn awr, y mae cywirdeb yysgafnhau gofid hwn, ac yn anfon i neu yr hyn

iola yr enaid dano. Gwelodd Paul na ai efe ddwyn gydag ef i'r nef bawb o'r ai y pregethodd efe iddynt: i lawer, yr id yr efengyl yn arogl marwolaeth i wolaeth. Yr oedd perarog yr efengyl myned yn arogl marwol, i brysuro a ymhau eu damnedigaeth hwynt. Nis lai hyn lai na bod yn drwm i feddyg mor ner; gweled ei gleision yn marw dan ei etto, y mae yn diolch i Dduw, "sydd yn i iddo oruchafiaeth yng Nghrist." 2 Cor. 14. Ond pa fodd y gallai efe hyn; eneid-truain yn disgyn i uffern, dan ei bulpud, th ei wrandaw, ac yntau yn gorfoleddu! mae hyn mor rhyfedd a gweled tad yn llyn elor ei blentyn i'w gladdu, nid dan lo, ond dan ganu a dawnsio. Wel, craffh, a derfydd eich syndod: nid yw efe yn wen am eu bod hwy yn cyfrgollu, ond am l yw efe yn euog o'u gwaed; nid am eu l hwy yn ddamnedig, ond am ei fod ef li ymgais yn ddiffuant am eu hachubh: "Canys nid ydym ni, megys llawer, gwneuthur masnach o air Duw, eithr gys o burdeb, eithr megys o Dduw, yng vydd Duw yr ydym yn llefaru yng hrist;" *adn.* 17. Pe buasai Paul yn wng rhyw fresych gwyllton o gyfeiliorn- i'w athrawiaeth, neu yn cymysgu rhai gyfferiau ei hun gyda'r hyn a orchymyn- Crist, y Meddyg mawr, ni buasai iddo r o le i orfoleddu: ond gan iddo bregethu agyl bur, a hyny mewn purdeb, a chalonn- ir, yr oedd iddo orfoledd yng Nghrist, gwnaeth yn ffyddlawn; ac efe a gaiff or- ddu ar yr anghredinwyr, pan y cyfer- l etto â hwynt, yn y dydd mawr, o ffaen- wde Crist: caiff yno, yn eu gwynebau, tio i'w herbyn; a rhoddi ei lais gyda Christ, au dinstyr tragwyddol. Tybygaf fy mod- dywed holl gywir weinidogion Crist yn ddi cyfrif iddo ef, ar negeswaith yr hwn hanfonwyd, yn iaith gweddi Ieremiah: "glwydd, ni ddymunaso y dydd blin, ti- gwyddost;" *Ier.* xvii. 16, y dydd yn awr l wedi dal yr eneidiau truenus hyn, a'r i y buom yn eu rhybuddio am dano: yr l yr hyn a ddaeth o'n geneauu, yn ein- gethiad iddynt, yn uniawn ger dy fron yr oedd bywyd eu heneidiau vn anwyl a rthfawr genym; gallasem offrymmu ein ydau amserol, i achub bywyd tragwyddol heneidiau hwynt: ond ni wnai dim a n ni ddywedyd na'i wneud eu hattal; i n y mynent fyned, dros yr holl weddiau, au, ac erfyniadau allan o'th air di, oedd- ebyll ar eu ffordd. Gwna hyn i weinid- n ffyddlawn Crist gyfodi eu penau gyda- enydd; ac i'r cyfryw drueiniaid diobaith- ng eu penau gan gywilydd edrych yng yneb Crist, na hwythau; er y gallant yn- ddangos wyneb caled a digywilydd yn erbyn.

elly, am rieni a meistriaid; cywirdeb at

eich perthynasau a'ch cysura, er i chwi fod heb weled yr had yn tyfu, a hauasoeh yn eu mysg yn eich esamplau duwiol, hyfforddiad- au da, a cheryddon prydlawn. Yr oedd Dafydd yn un a "rodiodd ym mherffei- rwydd ei galon, o fewn ei dŷ;" *Salm* ei. 2, yn ofalus ym meithriniad ei blant, fel y gwelir yn ei gynghor duwiol i Solomon: 2 *Cron.* xxviii. 9, er nad oedd heb ei ffaeidd- au. Ond amryw o'i blant nid oeddynt o'r fath oreu—un yn euog o losgach; un arall yn trochi ei ddwyrlaw yng ngwaed ei frawd; un arall yn ymgyrhaedd yn fradwrus at ei goron, tra yr oedd ei dad yn fyw! Gwnaeth y pethau hyn i'r gwr duwiol hwn ragweled gyda gofid pa fath helynt a fyddai ar ei farwolaeth ef. Etto, er yr holl anhrefn yma yn ei deulu, mor gysurus y cawn ni ef ar ei glaf wely! "Er nad yw fy nhŷ i felly gyda Duw, etto, cyfammod tragwyddol a wnaeth efe â mi, wedi ei luniaethu yn hollol ac yn sicr;" 2 *Sam.* xxiii. 5. Yn ddiau efe a wnaethai ei ddyledswydd yn ddiffuant: hyn oedd ei dystiolaeth am ei hawl yn y cyfammod; a'r cyfammod ydoedd ei holl ddymuniad a'i iachawdwriaeth.

Mewn gair, y mae amserau trallog cyff- redinol, pan ddole ffrwd o ddigder Duw yn llif chwyrn ar genedl, fel tonau yn anwrth- wynebol, trwy yr adwy lydan a wna pechod- au gwaeddfawr yr amseroedd: ac yn ganlyn- ol, tra y mae'r ychydig gyfiawnon a geir yn y lle yn ymgais am sefyll yn yr adwy, gan erfyn mewn gweddiau am fywyd y gen- edl, a Duw heb wrandaw—canys y mae yn digwydd weithiau na chymmer Duw feich- non dros genedl yng ngafael ei farnedig- aethau, pe byddent fel Noah, Iob, a Daniel, yn wŷr tra anwyl ganddo; etto, y pryd hyny, bydd cywirdeb yn gynafiaeth hyfyd, tra y byddom yn gydygyfrannogion âg ereill yn yr adfyd cyffredin. Ieremiah, efe a ym- gynnyrfodd mewn sel dros Dduw, i dystio yn erbyn pechodau yr amseroedd, a thros y bobl, yn ffyddlawn a thaer gyda Duw, mewn gweddi: ond nis gallai efe eu troi hwynt trwy ei bregethiad, na throï ymaith ddigder Duw trwy ei weddiau. Y mae'r Iuddewon yn gorchymyn iddo dewi, a pheidio a phro- phwydo mwyach yn eu herbyn; a Duw hefyd yn cau ei enau, gan erchi na weddiai mwy drostynt. Yn wir, yn yr helynt alaethus hon, pa beth sydd yn esmwythau ei galon ofidus, chwyddedig gan boen o her- wydd eu pechodau hwynt, a barnau Duw yn brysio arnynt, fel eryr at ei ysglyfaeth? Yn awr, nis gall dim ond y coffadwriaeth am ei gywirdeb at Dduw a dyn, yn yr am- seroedd llygredig hyny: "Cofia i mi sefyll ger dy fron di, i ddywedyd daioni drostynt, ac i droi dy ddiog oddi wrthynt;" *Ier.* xviii. 20. Fel pe dywedasai, O Arglwydd, er nas gallaf lwyddo, i gael y genhedlaeth drofaus hon i edifarhau am eu pechodau, na dy fawr-

hydi i edifarhau am dy ddigder a aeth allan i'w herbyn, yn ol arfaeth anniddymadwy; etto, cofia i mi fod y: fyddllawn yn fy lle, tuag atat ti a hwythau. Ond yn groes i hyn, dychryn a synlod ysbryd, yn y cyfryw amseroedd o adfyd cyffredin, yw cyfran rhagrithwyr. Gwelwn hyn yn Pasur (*Ier. xx*), yr hwn oedd yn ŵr o rwysg mawr yn y llys, yn amser Ieremiah, ac yn elyn chwercw iddo, a'r genadwri a ddygodd oddi wrth Dduw at yr Iuddewon. Ei gais ef oedd am foddhau y brenin a'r tywysogion â gwag obaith am ddyddiau gwych i ddyfod, yn llwyr groes i air Duw yng ngenau Ieremiah: "a pha beth a ddaeth o hono yn nydd y dymmestl ar y bobl annedwydd hyny? Y mae Ieremiah yn adrodd iddo ei farn (*adn. 4*), y gwnai Duw ef yn Magor-missabib, yn ddychryn iddo ei hun. Yr oedd iddo, nid yn unig gyfranogi o'r adfyd cyffredin, ond cael nod arno o ddigder neillduol Duw, uwch law ereill.

DOSE. IV.

4ydd. Y mae cywirdeb yn gwregysu yr enaid â grym cysurol, pan fyddo wedi ei amddifadu o'r cyfeusderau hyny a roddasai Duw gynt yn ei law, tuag at wneud gwasanaethi iddo ef. Y mae hyn (a'i ystyried ynddo ei hun) yn dralod mor drwm i enaid graso, fel nas gŵyr am un a ofna efe yn fwy: gallai ddewis pob un o'i flaen, pe gallai ond tori ato ei hun; bod yn dlawd, mewn ammharch, dan erlid, neu rywbeth, yn hytrach na'i droi o'r neilldu fel offeryn candryll, anwasanaethgar i'w Dduw. Yn wir y mae efe yn prisio ei fywyd a'i holl gysur-on wrth y cyfeusderau a roddant at ogoneddu Duw. Y mae Dafydd yn rhoddi taw ar ei enaid—oedd yn dechreu sisial rhyw iaith anfoddog—â hyn; y molianai efe Dduw etto: "Pa ham, fy enaid, y terfysgi ynof? o blegid molianaf ef etto;" *Salm xlii. 5*. Y mae pob peth yn dda gyda Dafydd, a dim yn peri aflonyddwch i'w enaid, pa beth bynad arall a clo yn groes iddo, os caiff efe ond molianu Duw, a chyfle i'w ogoneddu. Ioseph, wedi i Dduw ei ddyrchafu mor ryfedd i uchder mawr, ac anrhydedd, mewn gwlad estronol, nid yw efe yn ymfendithio ar ei ddyrchafad, i feddwl yn gnawdol pa fath ŵr mawr yw efe; ond y mae yn deongli holl drefn rhagluniaeth, yn ei ddwyn ef yn y diwedd i'r lle hwnw, yn yr hwn yr oedd yn agos i gydradd â brenin galluog, i fod yn unig i roddi iddo gyfle at wneud gwasanaeth nodedig i Dduw, yng nghadwraeth ei eglwys; yr hon oedd y pryd hyny yn gynnwysedig yn uheulu ei dad. "Duw a'm hebryngodd i o'ch blaen chwi," medd efe, "i gadw i chwi hiliogaeth y wlad, ac i beri bywyd i chwi trwy fawr ymwared;" *Gen. xlv. 7*. Gwnaeth y gŵr duwiol hwn i'w le roddi lle i'r gwaith, y galwyd ef i'w wneuthur ynddo, dros Dduw;

a barnodod fod amrhydedd ei aulhydedd yn sefyll yn y cyfle a gafodd trwyddo wasanaethu Duw a'i eglwys. Y mae rhaid gan hyny ei fod yn ofid trwm i sapau ddyger y cyfryw gyfeusderau o arno, ar ol iddo fod yn eu mawnhau. O fe wna cywirdeb ddefnydd da o hyn hefyd os felly y myn Duw i'r peth fod. Yn yn drwm yn wir i'r Cristion gael ei roddi neilldu; etto, y mae yn gysurus iddo gofan nad oedd, na thoddodd efe mo'i dale au ymaith mewn dioddi, ac na wariodd honynt mewn gloddest, ond ei fod yn defnyddio yn fyddllawn dros Dduw. Mae yn ei chyfrif yn groes, fod Duw heb roddi ar waith fel o'r blaen: ond nid yw yn ddrwg ganddo ef y gall Duw wneud yr ei waith hebdo ef: "Ie, y mae gysur iddo feddwl, tra y mae yn byw w safn y bedd, na bydd i ogoniau Duw ddygn i'r bedd gydag ef. Er iddo ef farw, y mae Duw yn fyw i ofalu am ei waith hun: ac nid toriad un tant, na'r ewild ddechion anafu cerddoriaeth ei ragluniaeth yr hwn sydd yn abl i gyflawni ei ewyl, heb ddefnyddio un creadur fel ei ofid. Mewn gair, trwm yw ganddo gael ei ddiroddi ar unrhyw waith, yn yr hwn y gae efe ddwyn gogoniau arbenig i Dduw; y mae hyn yn ei gysuro, fod Duw yn ddygn i'r peth wedi ei wneuthur, yr hwn y dymuniad cywir y Cristion am ei wneud."

Yr oedd ewyllys da Dafydd yn chwennu adeiladu y deml, yn gymmaint yng nghydwedd Duw a phe gwnaethai hyny. Caiff llaw eu gwobrwyo gan Crist yn y dydd am ddilladu a phorthi y tlodion, y rha feddent ar y ddaear, na bara na dillad rhoddi: etto, gan y meddent galon i roddi eu cyfrif yn nifer cymmwynas penaf y tlodion. Ymddengys hyn o wrth *Mat. xxv. 34*; lle y dangosir Crist llefaru, nid wrth ychydig saint, a fedd ddaoedd lawer i'w rhanu yn elusen, wrth ei saint oll, y tlodion fel y cyfoethog "Yna y dywed y brenin wrth y rhai a ddeheulau, Deuwch, chwi fendigedigio Nhad, etifeddwch y deyrnas a barotow; chwi, &c. Cans bum newynog, a chwi roddasoch i mi fwyd, &c." Craffwel, chwi y rhai cyfoethog, ond chwi, sef eiddo: chwi, y rhai a feddech fara nae a'i rha och; a chwi, y rhai ni feddech fara nae a'i rhoddi, a dynasoch eich eneidiau newynog, pan nas gallech dynu allan pyrsau. Clywch hyn, O clwi enei anwyl, a wnaeth Duw yn rhai cywir ymgysurwch. Fe allai eich bod yn isel y byd, eich galwad yn wael, a'ch cyfrif yn ail i ddim, a hyn yn eich rhoddi sylw bychan gan eich cymmydogion, y mae uwch na chwi. A elli di ddywedyo nad ydwynt ond gwas i gelfyddydwr tlawd fod yn dymuno rhodio mewn cywi

lon, gan ymroddi i Dduw yn dy holl yrfa? gan yr aderyn hwn ei bwngc mor beiraidd a dy fynwes, a phe byddit y penarddwyaf yn y byd. Yr hyn sy'n dwyn cysur sant mwyaf mewn amser cyfyngder, yr ydyw ag sy'n cysuro y gwaelaf yn y du; a hyny yw cariad a ffair Duw, hawlg Nghrist a'r addewidion gwerthfawr, y ai "ynddo ef ydynt Iê ac Amen." Yn yr, cywirdeb yw y dystiolaeth oreu am hawl yn y rhai hyny. Nid cymmaint llyd y chwiliad, ai llawer ai ychydig a maed genym, ag a wnaed y llawer neu yr hydig hyny, mewn purdeb. "Da was a fyddlawn;" nid da was, ti a wnaethost thau mawrion, a reolaist wledydd a yrnasoedd, a fuost yn bregethwr enwog dy ddydd, &c., ond "buost fyddlawn;" y mae modd i tithau fod felly, er i'th yllfa fod yng nghongl waelaf y byd. ni a wyddai Hezecia dduwiol; ac felly, ei glaf-wely; nid yw efe yn adrodd wrth uw am y gorchwylion mawrion a aethai efe, er na wnaethai neb fwy; y ond unig y mae yn erfyn ar i Dduw gofio irionedd a chywirdeb ei galon: "Cofia awr hon i mi rodio ger dy fron di mewn irionedd, ac â chalon berffaith, a neuthur o honof yr hyn oedd dda yn dy g;" *Esa. xxxviii. 3.*

PENNOD XIX.

nyddiad byr, cymmhwsyadol o'r pwngc, mewn canghenau cyfrindol a neddolau hefyd.

MAE yn ol, fod i'r pwngc gael ei gymwysu yn ei amryw ranau, y rhai ydynt r: Y mae mewn cywirdeb nerth cynnal-nerth adferol, a nerth cysurol. Ond, er yn prysuro, ni a'i crynhôwn dan ddau, gan wasgu y ddau gyntaf yn un.

Defn. 1. Yn gyntaf, A oes felly gan gydeb rinwedd cryfhaol, trwy ba un y ceidw enaid rhag syrthio i bechod, neu ynte fyf y Crigion, ar ol iddo syrthio?

Rhydd hyn i ti, Crigion, amlygiad y o'th galon, ai cywir ai anghywir. o hi yma ar brawf. A ydwyt ti yn cael m yn gyfranedig i ti, i'th alluogi i guro tasiwyn i bechod yn ol, pan na fo genyt arf i'th amddiffyn i'w erbyn, ond y gormyn sy'n ei wahardd, neu ryw saeth, n o gawell saethau yr efengyl, y fath ag cariad Crist atat, dy gariad dithau ato'r cyffelyb? Fe allai fod y demtasiwn ti ei gosod mor gyfrwys, fel y gelli bechu nadw dy air da hefyd, trwy gael drws yn agored, i'th ollwng i mewn iddi yn gel: nid oes dim perygl i'w weled, o dy helynt dymmorol; ond mantais r yn hytrach os gwrandewi ar y cynnyg; yn unig fod Duw yn sefyll i'w erbyn:

ei Ysbryd yn dywedyd, ei fod yn erbyn ei ogoniant ef, yn anghyttunol â'th ddyledswydd, ac â'r cariad a broffesi ato ef. Yn awr, dywed pa beth a feddyli di am bechu, a'r matter wedi ei osod fel hyn. A eelli di ddal allan yn wrol, a dywedyd wrth Satan na fydd pechod ddim yn gymmhar i ti, nes y caffech gydsyniad Duw â phechu i'w erbyn, a'i garu mewn cyd-gymmodd? Os felly, bendithia Duw sydd wedi rhoddi i ti galon gywir, ac hefyd am osod y ffath ffenestr a hon yn dy enaid, drwy yr hon y mae i ti weled y gras hwnw o'i fewn; yr hwn, pan ei gwelir, yw y dystiolaeth oreu a ddichon Duw ei rhoddi i ti am dy hawl ynddo ef, a bywyd tragwyddol gydag ef. Pe byddit ragrithiwr, ni ellit sefyll yn erbyn pechod, a gynygid felly, ddim mwy na phylor yn erbyn tân, neu fan-us yn erbyn y gwynt.

Drachefn. Pan y'th drecher gan rym profedigaeth, pa fath yw ymddygiad dy enaid yn yr achos hwn? A ydwyt ti yn ail drefnu dy fyddin wasgaredig, ac yn ymroddi drachefn am erbyn dy elynion, a hyny yn fwy awchus am i ti gael dy drechu mor gywilyddus? Ai ynte ymfoddloni yr wyt i eistedd yn llonydd gyda dy golled, gan ddeuwis bod yn gaethwas dōf i'th chwant, yn hytrach na bod mewn chwang o boen i ddal i rhyfel yn mlaen? Yn wir, buan y cystwyir y galon ffals: ac yn fuan yr ymrydd hi yn ddeiliad i'r concwewr: eithr ymgalozogi a wna y Crigion cywir, iê, ar ol iddo gollu tir. Gwna unionder i'r enaid ad-lammu yn uwch mewn-bwrïadau duwiol yn erbyn pechod, hyd yn oed trwy ei gwmpïadau i bechod: "Dywedais un waith," yn ffol a phechadurus y mae yn ei feddwl, "ond nid attebaf; iê, ddwy waith, ond ni chwangaf;" *Iob xiv. 5.* Hyn a barodd i Dafydd dduwiol erfyn ar Dduw: "Paid â mi, fel y cryfhawyf cyn fy myned;" *Salm xxxix. 13.* Anhawdd oedd ganddo fyned o'r maes tan feiddiad. Yr oedd am gael byw, i ail-ennill ei gollodion, trwy edifeirwch am, a gradd o fuddugoliaeth ar, y pechedau oedd wedi ei wanbau a'i faeddu: yna deued angen, a chroesaw iddo. Yn debyg i'r cadben gwrol, y' hwn, wedi ei archolli mewn brwydr, a ddymunodd gael ei ddal i fyny, fel y cai ond gweled y gelymion yn rhedeg cyn ei farw; yna, y causal efe ei lygaid mewn heddwch. Ymddyga gan hyny yn ddi-uedd at dy enaid dy hun. Pa sffordd y mae dy gwmpïadau a'th ffaleddau yn gweithio? Os ydynt yn di-awchu dy gydwybod, fel nad yw hi mor fynydd a llym yn ei cheryddon am bechod; os ydynt yn gwobrwyo dy serchiau, nes ydwynt yn dechreu cydsynio â'r pechodau y buost gynt mewn ymdrech i'w herbyn; ac os ydwynt yn dechreu hoffi eu cymdeithas, nid yw dy galon di yn uniawn. Ond os yw dy galon etto yn myfyrio dial ar dy bechod, sydd

wedi dy drechu; ac os yw yn llwyth ar dy ysbryd—fel bwyd heb ei dreulio ar gylla afiach—ac nas gelli gael esmwrwthad na boddloniad i'rh ysbryd blinderog, nes ymddadlwytho o hono o ran ei rym llywodraethol; yna yr ydwynt yn ddiaw yn rhoddi prawf o gywirdeb dy galon.

Defn. 2. Y mae hyn yn dangos o ba fath bwys y mae ymdrech am gywirdeb. Hebd-do, nis gallwn na sefyll yn erbyn profedig-aeth, na chyfodi ar ol syrthio iddi. Pa beth bynag a geisi di gan Dduw, nac anghofia galon gywir. Gwelodd Dafydd angen am fwy nag oedd ganddo o'r gras hwn, pan erfyniodd, "Crea galon lan ynof, O Dduw, ac adnewyddfa ysbryd uniawn o'm mewn;" *Salm* li. 10. A da oedd iddo fod ganddo gymmaint ag i beri iddo chwennych mwy o'r gras hwn. Pa fath ffoledd yw adeiladu tŷ â thrawstiau ar dân? Rhaid yr i adeilad y rhagrithiwr fynd i'r dim; y mae ynddi dân heb ei ddiffodd; grym rhagrith heb ei farweiddio: a hwn a ysa ei holl broffes olygus ef. Y mae yn dwyn calon i'r maes, a'i traddoda ef i ddwyllw ei elynion. A sier yw, y gorchfygir hwnw, nad yw ei ochr ei hun yn bur iddo.

Defn. 3. Bendithia Dduw, tydi Gristion cywir, am ei ras hwn: y mae yn fendith ammhriadiaw; nid yw coronau a'u haddurnau i'w cymmharu â hi. Yn y mae genyt galon yn ol calon Duw ei hun; calon wrth ei fodd ef; ie, calon debyg iddo. Nid oes dim a'rh wna yn fwy tebyg i Dduw, yn symledd a phurdeb ei natur, na chywirdeb. Gwirionedd yw yr hyn yr ymgoneddada Duw yndo: Duw y gwirionedd yw efe. Pan ofynwyd i Haman pa beth a wneid i'r gwr yr oedd y brenin yn chwennych ei anrhydeddu; efe, yn tybied nad oedd y brenin yn meddwl am neb ond efe ei hun, a fynai ehedeg i'r uchder mwyaf, yn cl ei chwant am fri: a pha beth y mae yn ei ddewis, ond cael ei wisgo â gwisg freninol y brenin ei hun? Pan y mae Duw yn rhoddi cywirdeb i ti, y mae yn gwisgo dy enaid a'i wisg ei hun, yr hwn sy'n ymwisgo â gwirionedd a chyfiawder, megys â dilledyn. Trwy hyn y gwneir di yn goncgerwr mwy nag a fu Alexander erioed. Efe a orchfygodd fyd o ddynt; ond ti a orchfygi fyd o chwantau ac o ddiadfaid. A fu i un fendithio Duw wrth edrych ar lyffiant du, am iddo ei wneuthur yn ddyd ac nid yn lyffiant? Pa faint mwy diolchgar a ddylit ti fod i Dduw, yr hwn a'rh wnaeth di, oedd yn wazeth o lawer—yn rhagrithiwr wrth natur—i fod yn Gristion cywir? Y mae yn ddywediad nodedig, o eiddo Lactantius, "Os dewisai gwr farw ydych chi na bod iddo wyneb a llun anifel, ar iddo gael bod yn berchen enaid dyn, pa faint mwy gresynol ydyw bod ar lun dyn, ac o feddwl anifeilaidd?" Etto, y fath yna yw y rhagrithiwr, ie, gwaeth: y mae efe,

nid yn unig ar lun dyn, ond ar agwedd sa yn dwyn calon anifeilaidd ac aflan, yn fyfunes.

Defn. 4. Calonoged hyn di, sydd yn gyw yn erbyn yr ofnau am wrthgiliad parhaol. Er nad yw cywirdeb yn dy freinio rh syrthio, etto, y mae yr ystâd gyfammodol ydwyg ynddi, os yn un cywir, yn dy ddiog rhag wrthgiliad parhaol [neu syrthio ymaith yn llwyr oddi wrth Dduw]. I fod dy ystêr o ras yn fechan, yr ydwynt yn amheu dy barhâd. A ddichon y croes hyn, meddi di, fy nwyn i ben fy nhaith, yr ychydig geiniogau yn fy mhws, y gwybichan yn fy nghalon, dddwyn fy nghost yr holl fiordd i'r nef, trwy gynnifer broffion a phrofedigaethau? Yn wir, i allent, pe na byddit i dderbyn chwara nag a feddi yn bresennol: ni wna y brenin sy genyt yn dy logell dy gynnal ar hyd y oes. Ond, enaid, y mae genyt gyfammod dddwg i ti chwaneb, pan el hwnw yn i. Oni ddygodd Duw i ti weddio am dy freunyddiol? Ac onid ydwynt yn cael y bendith Duw, ar ddilyniad dyfal dy alw igaeth, yn cyflawni dy ddiwyg o ddydd ddydd? Ac onid yw yr un addewid genyt am dy fara beunyddiol, yn ysbrydol? nid oes genyt Dad yn y nefodd, sy'n gwyl am eisieu dy enaid gystal a'rh gorff? nid oes i ti Frawd, ie, Briod anwyl, sy wedi myned i'r nef, lie y mae digon o'r gras i'w gael: a hyn yn bennodol ar ne ei blant, fel y gallai efe gadw grasau chysuron ei bobl yn fyw, yn y byd a henus hwn? Y mae pob awdurdod yn law; efe a all fynd at y pentwr, ac an yr hyna welo yn dda er dy gymmhorth: a oes modd i ti drengu, tra y mae cyflawn o ras ganddo ef, sydd wedi cynmeryd me llaw ddarparu drosot: *Luc* x. 35. I oedd y ddyw geiniog a adawodd y Samar ddim yn ddiagon i dalu am fwrdd ac iac y dyn archofedig; am hyny, efe a roddo ei air am yr hyn a dreuliai efe yn chwara. Y mae Crist nid yn unig yn rhoddi ychyras mewn llaw, ond ei addewid chwaneb i'r enaid cywir, ie, gymmaint a'i dwg i'r nefoedd: "Efe a rydd ras a gonian; ni attal efe ddim daioni oddi wrth rhai a rodiant yn berffaith;" *Salm* lxxxiv.

Defn. 5. Gwylia rhag pwyso ar, neu ymgoneddu yn dy gywirdeb. Gwir yw, byn nerth i ti wrthsefyll tentasiynau, ac codiad i ti ar ol myned i brofedigaeth: pwy a'i nertha yntau? Pa le y ty gwreiddyn sydd yn maethu dy ras? yn dy dir dy hun, ond yn y nef: Duw unig sydd yn dy ddal di ac yntau mwy bywyd. Yr un a'i rhoddodd sydd y draul o'i gadw: yr Arglwydd dy dy nef efe fydd dy gân. Beth a wna y fwyell ei bod yn finog, heb y gweithiwr? A dddwed y fwyell, Mi a dorais i lawr; neu y

Yfi a gerfais? Onid medr a chelfyddyd
weithiwr yn hytrach yw hyn? Pan allu-
r di i wrthsefyll tentasiwn, dywed, Yr
arglwydd oedd o'm tu; pe amgen, mi a
rthiaswn. Gosod i'fyny dy Ebenezer, a
erfia arno, "Hyd yma y cynnorthwyodd
Arglwydd fi."

Er fod Duw (yn y Salm' a nodwyd,
xxiv.) yn addaw rhoddi gras a gogoniant
rhai perffaith neu uniawn, etto, ni rydd
e mo ogoniant ei ras i uniondeb. Yn 2
m. xxii. 24, ni a gawn Dafydd yn gwirio
uniondeb, a'r modd y cadwyd ef drwyddo;
Bum berffaith ger ei fron ef; ac ymgedw-
r rhag fy anwreidd." Y mae hefyd yn
dgan ffrwyth ei berffeithrwydd, y modd y
g Duw dystiolaeth iddo, gan ei wobrwyo
wy ei amddiffyn ger bron, a rhoddi iddo
ldugoliaeth ar ei elynion: "A'r Arglwydd
n gwobrwydd innau yn ol fy nghyfiawnr-
e, yn ol fy nglendid o flaen ei lygaid;"
n. 25. Yn awr, rhag gosod ei hunan i
ny, neu foli ei uniondeb ei hun, er anfri i
y Duw, y mae efe yn cymmedroli ac yn
sod terfyn i'r ymadroddion hyn: "Duw
fy nghadernid a'm nerth, ac a rwydd-
odd fy ffordd i yn berffaith;" *adn.* 33.
l pe dywedasai y gwr duwiol, attolwg, na
amgymmerwch fi: nid wyf yn cyfrif yr
uchafiaeth ar fy ngelnyion oddi mewn, nac
di allan i mi fy hun a'm huniondeb. Na,
pw a wnaeth y cyfan; efe yw fy nerth a'm
ym; i'e, efe sydd yn gwneud fy ffordd yn
erffaith. Os wyf yn gywirach nag ereill yn
ffordd, iddo ef y mae i mi ddiolch am hyn;
berwyddd efe sy'n gwneud fy ffordd yn ber-
ith. Efe a'm cafodd ar y cyntaf yn
arn mor gam, ac yn rhodio ffyrdd mor
union a neb arall; ond fe'm gwnaeth i
y ffordd yn gywir ac uniawn. Pw gwel-
Duw yn dda, efe a allasai wneud Saul
r berffaith a Dafydd: pe buasai Duw yn
lael Dafydd, efe a fuasai mor gam a ffais
galon a Saul.

Y gangen olaf o'r pwngc oedd, fod gan
wirdeb nerth cysurol, yn mhob math o
studd. Y defnyddiad cymmhwysiadol o
ny fydd hyn yn unig:—

Defn. Bydded iddo ein dysgu nad ofnom
studd, ond rhagrith. Coeliwch hyn, gyf-
llion, peth diniwed yw cystudd i enaid
wir. Nis gall fod mor drwm ag i beri na
ydsafu â llawenydd a chysur y dyn. Gall
aid grasol, yn y cystudd llymaf, arbed ei
agrau a'i dosturi, i'w treulio ar y rhag-
hiwr, pah yn ei rwyng a'i ogoniant mwyaf.
mae yn meddu yn ei fynwes yr hyn a
ld iddo ddisgwyliadau mwy cysurol o'i
studdiau ei hun, nag sydd gan, neu a all
l gan y rhai a saif gerllaw o honynt.
rodd hyn i wr duwiol unwaith ofyn i'w
rwyng, oedd wrth erchwyn ei wely, yn
lo yn ei achos, dan loesion angeu, "Pa
th oedd hi yn ei feddwl wrth ei hofnau?"

gan chwanegu, "Paid ag ofni y bydd i'm
Tad nefol byth wneuthur i mi niwed." Yn
wir nid yw cystudd yn hyfryd i'r enawd,
yr hyn a barodd i rai o anwyl blant Duw
gilio yn ol am dro: ond ar ol iddynt gyn-
nefino â'r gwaith, ac â'r cysuron a ddyru
Duw i'w blant trauin, trwy haiarn rwyllau
eu carchar, hwy a ddysgasant dôn arall.
Yn debyg i'r aderyn sydd yn blin ymehedfan
ar ei ddodiad cyntaf yn y cawell, ac yn an-
foddog o'i ddalfa; ond wedi hyny, daw i
ganu yn bereiddiach na phan oedd yn
rhydd i ehedeg lle y mynai. Gan hyny,
na fydd mor drwm dy feddwl am gystudd;
ond cryna rhag ofn rhagrith. Os bydd
gwely cystudd yn galed ac anesmwyth i ti,
tydi di hun sydd yn dwyn i'th ganlyn yr
hyn a'i gwna felly. Dyro dy hunan i
Dduw, ac ymddried i'r hwn a addawodd
gyweirio gwelyau ei saint mewn cystudd,
am ei feddalu a'i esmwythau i tithau. O!
pa fath air arteithiol, yn awr angeu, pan
fyddych yn llefain, Arglwydd, Arglwydd,
trugarhâ wrth bechadur truan, fydd i ti
glywed Duw yn dywedyd, Nid adwaen i mo
honot, nid llais enaid cywir ydyw, ond rhag-
rithiwr sydd yn udo ar ei wely, o dralod?
Beth a wnei di y pryd hwnw, wedi i ti
syrthio i ddwylaw Duw, yr hwn ni cheraist
erioed yn ddiifant, ac â'r hwn ni wnaethost
ond lledrithio yn dy broffes? Os oedd y
geiriau hyny mor frawychus i feibion Iacob,
"Myfi yw Ioseph, yr hwn a werthasoch,"
fel nas gallent oddef edrych arno, gan y
teimlad o'u heugorwydd; pa mor anniodd-
efol fydd i ti glywed o enau Duw ei hun,
mewn amser tralod, Myfi yw Duw, yr hwn
a ddirmygasoch, ac a werthasoch ymaith, i
gael mwynhau eich chwantau—ac a ydych
chwi yn awr yn dyfod ataf fi? A oes genyf
fi ddim i chwi, heb law ufiern i'ch poeni i
dragwyddoldeb?

EPHESIAID VI. 16.

"A gwisgo dwyfroneg cyfiawnder."

Y MAE'R geiriau hyn yn rhoddi o'n blaen ail
ddarn o'r arfogaeth a gyflwynir i, ac a gym-
mhellir ar, bawb o filwyr Crist, "Dwyfron-
eg," a'r metel y gwneir hi o hono, "Cyf-
iawnder." Am hwn fe wneir holiad dyblyg:
Yn gyntaf, Pa gyfiawnder a feddylir yma?
Yn ail, Pa ham ei cyffelybir i'r darn hwn o
arfogaeth y milwr, sef dwyfroneg?

PENNOD I.

Yn cynnwys agoriad y geiriau.

1. PA beth yw y cyfiawnder a olygir
yma? Y mae yr Ysgrhythyr yn son am

gyfiawnder deublyg—un yn ddeddfol, y llall yn efengylaidd.

1af. Cyfiawnder deddfol; yr hwn yr oedd Daw yn ei ofyn gan ddyn yn y cyfammod o weithredoedd. “Y mae Moses yn ysgrifenu am y cyfiawnder sydd o'r ddeddf, mai y dyn a wnel y pethau hyny a fydd byw trwyddynt;” *Rhuf. x. 5.* Y mae tri phleth yn cydfyned i wneud i fyny y cyfiawnder deddfol hwn.

(1af.) Ufudd-dod cwbl berffaith i gyfraith Duw; sef cyflawn o ran y gwrthddrych, neu y gyfraith; a chyflawn o ran y deiliad neu y dyn. Rhaid yw cadw yr holl gyfraith, ac â'r holl galon. Y mae y diffyg lleiaf o ran neu o radd yn yr ufudd-dod yn anafu y cwbl.

(2il.) Y mae yn rhaid i'r ufudd-dod perffaith hwn i gyfraith Duw gael ei gyflawni yn bersonol, gan y neb sy'n gyfiawn fel hyn: Y dyn a wnel y pethau hyn a fydd byw trwyddynt. Yn y cyfammod hwnw, nid oedd gan Dduw ond ymrwymiad dyn yn unig am gyflawniad; nid oedd un meichi-ai yn rhwym gydag ef. Felly, gan na feddai Duw neb arall i syrthio arno am y pail, rheidiol oedd, oddi eithr i Dduw goll i ei ddyled, ei gofyn gan bob dyn yn bersonol.

(3ydd.) Rhaid i'r ufudd-dod personol a pherffaith hwn fod yn barhaol. Nid yw y gyfraith hon yn rhoddi dim lle i ail-chwareu. Os unwaith y torir hi, pe ni byddai ond mewn un meddwl gwyrlog, nid oes le i edifeirwch yn y cyfammod hwnw; nac oes, pe byddai buchedd gwbl-fanwl a difrychau yn ei ganlyn o hyny allan. Nis gall ufudd-dod rhag llaw, sy'n wir ddyled, wneud dim iawn am anufudd-dod gynt. Y neb a laddo ddyn unwaith, nid yw yn boddloni y gyfraith er ymgadw heb ladd rhag llaw. Mor ddi-obaith fyddai ein cyflrau, pe nis galleim fod yn rhestr milwyr Crist, nes enel o hyd i'r fath ddwyfroneg a hon! Cafodd Adda yn wir y fath gyfiawnder a hwn, yn barod at ei law: yr oedd ei galon ef â'r gyfraith yn un-sain; yn cyfateb, fel gwyneb i wyneb mewn drych. Yr oedd mor naturiol iddo ef fod yn gyfiawn, ag i'w liliogaeth yn awr fod yn anghyfiawn. Duw ydoedd cerfwr ei ddew ei hun ar ddyn: yr hon oedd yn gynnwysedig mewn cyfiawnder a sancteiddrwydd. Ac efe, yr hwn a wnaeth y cwbl mor berffaith, fel na darfu iddo, wedi adolygu y creadigaeth oll, na chwaneu, na newid dim, ond dadgan y cwbl yn dda iawn, ni fu ddim yn llai cywrair yn y deryn penaf o'i waith i gyd. Efe a wnaeth ddyn yn uniawn; ond pechu a wnaeth Adda, a halogi ein natur; ac yn awr y mae natur yn ein halogi ninnau, fel na ddichon dwyfroneg Adda (ei gyfiawnder wyf yn ei feddwl) byth weddu i un sy'n ddyn yn unig. Pe yr achubai Duw yr holl fyd er mwyn uu

dyn cyfiawn o'r fath—fel y cynnygio unwaith achub Sodom er mwyn deg—i gellid ei gael. Y mae yr apostol yn rha yr holl fyd yn “Iuddeu a Groegwr;” *Rh. iii. 9.* ac nid yw yn petruso eu gosod oll y dom; y maent oil dan bechod: “Nid o neb cyfiawn, nac oes un;” na'r philosophyr mwyaf ei ymfrost ymhlith y Groegwr, a Pharisead manylaf ym mysg yr Iuddeu. Galiwn fyned ym mhellach etto; ni ddicil y sant duwiolaf a fu byw erioed sefyll gyfiawn o flaen y frawdlo hono. “Na do i farn â'th was,” medd Dafydd, “o herwy ni chyfiawnheir neb byw yn dy olwg d *Salm* cxliii. 2. Fe hoeliodd Duw y d hwnw i fyny, fel na ddichon neb fy byth i mewn trwy gyfiawnder deddfol fywyd a gwynfyd. Y mae y ffordd hon nef yn debyg i'r for-daith ogleddol India: pwy bynag a roddo gais arni, fe fy yn sicr o lynn mewn rhew cyn cyrha hanner y ffordd yno.

2il. Cyfiawnder arall y sonia yr Ysgrifl am dano sydd efengylaidd. Y mae hi hefyd yn ddeublyg; yn gyfiawnder a gyfrifedig, ac yn gyfranedig. Y cyfiawn cyfrifedig yw hwnw a weithiwyd gan Gaddros y credadyn: y cyfranedig yw hwnw a weithir gan Grist yn y credadyn. cyntaf o'r rhai hyn, y cyfiawnder cyfrifedig yw cyfiawnder sydd i'n cyfiawnhau ni, un y mae y credadyn drwyddo yn se yn gyfiawn ger bron Duw: ac i'w wah iaethu oddi wrth yr olaf, fe'i gelwir “gyfiawnder duw;” *Rhuf. iii. 21.* a x. Nid fel pe na byddai y cyfiawnder a hefyd o Dduw: Ond,

(1af.) Am fod hwn nid yn unig yn weiedig gan Grist, ond hefyd yn gyflawn yng Nghrist, sydd yn Dduw; ac nid gyfranedig ynom ni, er ei fod drosom hyd onid yw y budd o hono yn dyliso i wrth hyn y gelwir Crist yn Arglwydd cyfiawnder.

(2il.) Am mai hwn yw y cyfiawnder, nid y llall, a ordeiniodd Duw i fod yn ac haeddiannol o gyfiawnhâd ein personau, hefyd o gynnumeradwyad ein cyfiawnder mewnol, sy'n gyfranedig ganddo i ni. awr, y mae y cyfiawnder hwn yn perthyn pedwerydd darn o arfogaeth, tarian y ffyn yn wir, gelwir ei enw oddi wrth y g hwnw, yn *Rhuf. iv. 11.* lle ei gelwir iawnder y ffydd: au mai ffydd sy'n ymalynddo, i'w gymhwyso at yr enaid.

Gau hyny, yr olaf o'r ddau yw y cyfiawnder a gyfelybir yma i'r ddwyfroneg hwnw yw cyfiawnder ein sancteiddhâd; hwn a elwais yn gyfiawnder cyfranedig, yn gyfiawnder a weithir gan Grist y credadyn. Yn awr, cymmerwch ei dduniad fel hyn:

Egwyddor oruwch-naturiol o fywyd n ydd ydyw, sy'n blaenedig yng nghalon

entyn i Dduw, trwy weithrediad nerthol Ysbryd Glân: a thrwy hyn y maent yn ymgydd am ymddwyn yn addas ger bron i'r Dduw a dynion, trwy gyflawni yr hyn y mae i'r Dduw yn gofyn ei gyflawni i bob un. Yn y cyfnewid, agorwn gynnwysiad hyn o ddarluniad. Iaf. Yma y mae yr effeithydd, neu weithydd, yr Ysbryd Glân. Oddi yma y mae, i amryw ranau sancteiddrwydd yn cael galw yn ffrwythau yr Ysbryd: *Gal. v.*

Os nad yw yr Ysbryd wrth y gwreiddnis gellir gweld y fath ffrwyth a sancteiddrwydd ar y cangenau. Mae rhai anianol, heb fod yr Ysbryd ganddynt, wedi eu syltu yn anwahanol: *Iudas 19*. Cafodd i golled ddyblyg drwy ei gwmp; sef iad Duw ato, a'i debygohrwydd i Dduw. Mae Crist yn adferu y ddwy i'w blant; yntaf, trwy ei gyfiawnder, yn gyfrifedig ynt; a'r ail, trwy fod ei Ysbryd yn ail-ranu iddynt ddolw Duw a gollasant; hon sydd yn gynnwysedig mewn cyfnder a gwir sancteiddrwydd. Pwy ond a ddichon gyfranu ei natur ei hun, a mediu plentyn tebyg iddo ei hun? A pwy ond Ysbryd Duw a ddichon ffurfio dur tebyg i Dduw, trwy ei wneud yn canog o'r dduwiol anian?

2il.) Yma y mae yr hyn a weithir, sef yddor oruwchnaturiol o fywyd newydd. 1.) Wrth egwyddor o fywyd, fy meddwl tuedd ac anian oddi mewn, yn gogwyddo hyfryd, nerthol, a pharhaol at yr hyn d yn sanctaidd, nes yw y Cristion, er dan weithrediad y mae yn y cychwyn, dyfod i weithredu yn y canlyniad, ac yn weithio â'r Ysbryd yn mhob gwaith etaid; a hyn, nid fel offeryn difywyd law y cerddor, ond fel plentyn byw yn y tad. Am hyn y gelwir hwynt y rhai weinir gan Ysbryd Duw: *Rhuf. viii. 14*.

2.) Y mae yn egwyddor o fywyd newydd. Ith yr Ysbryd ydoedd, nid adwresogi adferu yr hyn oedd yn llesmeirio, ond i'w bywyd o'r newydd, mewn enaid ol farw: "Chwithau a fywhaodd efe, oeddych feirw mewn canweddau a chodau." Y mae Satan yn dyfod fel i'w i'w, i berswadio trwy ddadl, pan y e yn temtio; ond yr Ysbryd fel Creawdpan yw yn troi yr enaid. Y mae diafol yn tyngu allan ac yn ennyn yr hyn y mae ei gael wedi ei bentru o'r blaen yn y galon: ond y mae'r Ysbryd Glân yn addi yn yr enaid yr hyn nid yw yn ei l'no; yr hyn a eilw yr Ysgrhythyr yn "ad Duw;" *1 Ioan iii. 9*. "Crist wedi ei f'io ynoch;" *Gal. iii. 19*. "Y creadur wydd;" *Gal. vi. 15*. "Y gyfraith wedi e'hoddi gan Dduw yn y galon;" *Ier. xxxi. 3*; a'r hyn a eilw Paul yn "ddeddf Ysbryd wywyd yng Nghrist Iesu;" *Rhuf. viii. 2*.

3.) Y mae yn egwyddor oruwchnaturiol. Wrth hyn yr ydym yn ei gwahaniaethu oddi

wrth gyfiawnder a phurdeb Adda, oedd yn gydnaturiol âg ef, fel y mae pechod yn awr â ni; a phe safasai, efe a gawsai ei drosglwyddo i ni mor naturiol a'i bechod yn bresennol. Yr oedd sancteiddrwydd mor naturiol i enaid Adda ag oedd iechyd i'w gorph; a phob un yn deilliaw o egwyddorion pur, mewn iawn osodiad.

(3ydd.) Dyma y tir, neu y deiliad, yn yr hwn y mae'r Ysbryd yn planu yr egwyddor hon o sancteiddrwydd, plentyn Duw: "O herwydd eich bod yn feibion, yr anfonodd Duw Ysbryd ei Ffab i'ch calonau chi;" *Gal. iv. 6*. Nid oes blentyn o fewn i'w deulu oll sydd yn amhebyg i'w Dad: "Fel y mae y nefol, felly y mae y rhai nefol hefyd;" ac ni fedd neb ond plant yr argraff hon o wir sancteiddrwydd arnynt. Fel y penderfyna yr apostol nad yw yr Ysbryd yn om, os ydym yn y cnawd (*Rhuf. viii. 9*), sef mewn cyflwr ansactaidd; felly y mae yn penderfynu nad ydym blant iddo ef onid yw ei Ysbryd ynom, yn ein newid fel hyn, ac yn ein sancteiddio. Yn wir y mae sancteiddrwydd a sancteiddiad, o'i gymmeryd mewn ystyr eang, a ellir ei gael mewn rhai heb fod yn blant; felly y mae heil blant credinwyr yn sanctaidd (*1 Cor. vii. 44*), er nad ydynt oll yn blant i Dduw. Iâ, gelwir profesywyr gau hefyd yn rhai wedi eu sancteiddio (*Heb. x. 29*), am eu bod yn profesu hyny. Ond y mae'r hyn a eilw yr Ysgrhythyr yn gyfiawnder a gwir sancteiddrwydd yn gerfiad nad yw yr Ysbryd yn ei argraffu yn neb ond plant Duw. Nid yw yr Ysbryd yn sancteiddio neb ond y rhai y mae Crist yn gweddio ar i'w Dad eu sancteiddio; a'i nifer briodol ef yw y rhai hyny a roddwyd iddo gan Dduw: *Ioan xvii*.

(4ydd.) Dyma effeithiolrwydd yr egwyddor hon, a blenir gan yr Ysbryd yng nghalon plentyn Duw: trwy hon y mae yn ymgais, &c., fel y crybwyllwyd. Megys y mae'r galon—sydd yn fynnon bywyd naturiol yn y corph—yn curo ac yn gweithio o hyd, gan rym t'walltiad bywyd natur iddi, felly y mae egwyddor bywyd newydd yn yr enaid yn ymgais yn barhaol. Nid erthyl yw y creadur newydd; nid greddf farwaidd yw sancteiddrwydd, yn cysgu ymaith yr amser heb wneud dim. Y wraig a iachawyd gan Grist, "a gyfododd yn ebrwydd, ac a wasanaethodd arnynt;" *Mat. viii. 15*. Cyn gynted ag y pleuir yr egwyddor yn yr enaid, y mae'r dyn yn cyfodi, i ddisgwyl wrth Dduw, a gweithio dros Dduw a'i holl rym a'i nerth. Yr had y mae'r Ysbryd sancteiddiol yn ei fwrw i'r enaid, nid yw yn colli yn y ddaear, ond yn fuan yn dangos ei fod yn fyw trwy y ffrwyth a ddwg.

(5ed.) Y mae yma natur amherffaiith yr egwyddor hon. Fel y mae yn dangos ei gwreidd wrth ymgais, felly ei hamherffaiithrwydd, gan nad yw hi yn galluogi ond i

ymgais, nid i lawn gyflawniad. Y mae sancteiddrwydd efre gylaidd yn gwneuthur y dyn yn ewyllysgar yn hytrach nag yn alluog i roddi ufudd-dod llawn. Y mae calon sant yn llamu pan nad yw ei goesaau ond yn ymlasgo yn ffordd gorchymynion Duw. Mair a ofynodd, pa le y dodasant Grist, gan feddwl, dybygid, ei ddwyn ef ymaith ar ei hysgwyddau; yr hyn nis gallasai hi. Yr oedd ei serch yn gryfach na'i chefn. Y mae'r egwyddor o sancteiddrwydd sydd yn y Cristion yn peri iddo ymegnio at godi y ddyledrwydd, nas gall efe ond prin ei hysgog. Y mae Paul, sant o'r radd uchaf, yn rhoddi i ni ei nod ei hun, ynghyd âg ereill o weision enwog Crist, yn hytrach oddi wrth gywirdeb eu hewyllys a'u hymgais, na pherffeithrwydd eu gwaith; "Gweddiwch drosom ni, canys yr ydym yn credu fod genym gydwybod dda, gan ewyllysisio byw yn onest yn mhob peth;" *Heb.* xiii. 18. Nid yw efe yn dywedyd, yr ydym yn gwbl berffaith ein buchedd, fel pe ni roisent un cam gwrog; na, ni feiddiai efe er y byd ddywedyd felly; ond cymmaint a hyn efe a allai ei wirio drosto ei hun a'i frodyr; eu bod ym mhob peth yn ewyllysisio gwneuthur yr hyn oedd sanctaidd a chyflawn. Ac yma nid yw ewyllysisio yn rhyw led-flys dirym, ond yn ewyllysis ar waith mewn ymgais grymus. Y mae o'r un bwys i glust ddiuedd, a geiriau Paul, yn *Act.* xxiv. 16. "Yn hyn yr ydwyf i fy hun yn ymarfer." Yr oedd efe mor ewyllysgar ag i arfer ei ofal a'i lafur penaf yn ffyrdd sancteiddrwydd: a chan ei fod yn meddu y dystiolaeth hon yn ei fynwes ei hun, nid oes arno ofn addef ei hawl i gydwybod dda, er ei fod heb lawn gyrhaedd yr hyn a ddymunai. "Yr ydym yn credu fod genym gydwybod dda, gan ewyllysisio," &c. Ei feddwl yw, yn ol deongliad tyner yr efengyl; canys nid yw y gyfraith yn addef y fath gydwybod dda.

(6ed.) Ni a gawn yma unfurfiad yr egwyddor hon yn ei gweithrediadau—at Dduw a dyn. Nid yw gwir sancteiddrwydd yn gwahanu y pethau a gydgyssylltodd Duw; yr hwn "a lefarodd yr holl eiriau hyn;" *Eesod.* xx, y llech gyntaf, a'r ail. Yn awr, ni faidd calon wir sancteiddiedig roddi naid na chroes ar draws un gair a ysgrifennodd Duw; ond y mae yn dymuno bod yn oruchwyliwr ffyddllawn, i gyflawnu y cwbl o ewyllys Duw.

(7fed.) Y mae yma drefn ei weithrediad: megystuag at Dduw a dyn; felly, at Dduw yn gyntaf, yna at ddyn; ie, at Dduw mewn uniondeb, ac at ddynion mewn cariad. "Rhoddasant eu hunain yn gyntaf i'r Arglwydd, ac i ninnau trwy ewyllys Duw;" 2 *Cor.* viii. 5. Gwasanaethir Duw yn gyntaf, a dyn mewn ufudd-dod i ewyllys Duw.

(8fed.) Cawn yma y rheol yr ä wrthi, yr hyn y mae gair Duw yn ei ofyn. Sancteiddrwydd annheus (dynol) nid yw wir sancteiddrwydd: nis gallwn ysgrifeu llinell uniawn mewn crefydd, heb reol, i wrth reol gau: a gau reolau yw cwbl o y gair. "At y gyfraith, ac at y dystiolaeth oni ddywedant yn ol y gair hwn, hyny sy am nad oes oleuni ynddynt;" *Esa.* viii. 2.

2. Pa ham y cyffelybir cyflawnder sancteiddrwydd i ddwyfroneg? Ac yn hyny o herwydd y defnydd dyblyg a wna milwr, a'r lles sydd iddo, o'r darn hwr arfogaeth.

1af. Y mae'r ddwyfroneg yn cadw p'ran y corph, sef y ddwyfron; lle y m' rhanau bywydol dyn yn gydgasgledig; a y mae ergyd a brath yn fwy marwol i mewn rhanau ereill, sydd yn bell oddi wrth ffynnon y bywyd. Gall dyn fyw, er c' amall archoll yn y breichiau, neu'r coes; ond y mae brath yn y galon, neu ran fywyd ol arall, yn genad sicr anegu sydd yn agau. Fel hyn y mae cyflawnder a sancteiddrwydd yn cadw rhan benaf y Cristion, enaid a'i gydwybod. Yr ydym yn byw i'n marw yn ysbrydol, ie, yn dragwydd fel y byddom yn edrych at ein henaidd cydwybod. Nid archoll mewn eiddo, g' da, neu ryw fwyntiaid bydol arall, a'u lles ni, yn yr ystyr hwn. Ni wna y rhai h' gyrhaedd na pheryglu bywyd y Cristiddim mwy nag eiliad y farf, neu doriad ewinedd, fywyd y dyn. Y mae eisteddly bywydolion ysbrydol yn yr enaid a'r gydwybod: rhaid ei fod yn ddagar ysbrydol frath y rhai hyn; a'r cyfryw yw pechod unig. Dywedir am hwn ei fod "yn hela enaid gwerthfawr;" *Diar.* vi. 26. Dyma saeth a dery y dyn ieuang trwy ei afu, y mae yn bryso at ei chwant," fel yr adeir'r fagl, heb wybod ei bod yn erbyn ei eioes;" *Diar.* vii. 23. Yn awr, y mae cyflawnder a sancteiddrwydd yn noddi y gydwybod rhag pob briwiau a niweidiau, o wrth bechod; yr hwn yw yr arf a ddefnyddia Satan at roddi i'r gydwybod ei briw marwol âg ef.

2il. Y mae'r ddwyfroneg, wrth amddiff y rhan benaf hon, yn gwneud y milwr hyf, ac yn ddiiofn perygl: ac y mae hyn i'w angenrheidiol yr llall mewn brwyd. Un peth, agos, a'i fyddin gnel ei difachu. Gwna milwr marw, wedi ei ladd y fan, gymmaint o les, mewn ystyr, a mil calon farw, a fyddo wedi ei frawychu; ofn: mae ei galon wedi ei lladd, tra y m'efe yn fyw: ac y mae dwyfron noeth, peri cryndod calon i'r milwr anarfog; tr' bydd un arall lied lwrf, a'i ddwyfron m'egwisg brofedig, yn hyfach i anturio i w'yn y gwaewffyn. Fel hyn y mae cyflawnder trwy amddiffyn y gydwybod, yn llenw' creadur â gwroldeb, yng ngwyneb angu

erygl; tra y mae euogrywydd—gwir noeth-
yr enaid—yn rhoddi y pechadur dewraf
ewn llewyg o ofn a chrynodod. “Yr an-
awiol a ffy heb neb yn ei erlid: ond y rhai
fiawn sydd hyf megys llw;” *Diar.* xxviii.

Hwy a ddywedant fod defaid mewn ofn
un drwst eu traed eu hunain wrth redeg:
lly y mae'r pechadur, gan swm ei euog-
vydd. Cyn gynted ag y gwelodd Adda ei
lwyfroneg wedi syrthio, a'i hunan yn noeth,
na fe yn ofni wrth lais Duw, fel pe ni
tasai erioed yn gydnabyddus âg ef. Nis
llwn byth ail gaffael ein gwroldeb yn
wn, nes yr ail gafodd ein sancteiddrwydd:
Os ein calon ni'n condemnia, y mae genym
der ar Dduw;” 1 *Ioan* iii. 21.

PENNOD II.

mgc byr oddi wrth gyfundeb y darn hwn o arfogaeth a'r cyntaf; cyfiawnder a gwirionedd.

EDI agoryd y geiriau fel hyn, y mae'r
twadaw bellach yn hawdd eu tynu oddi
thynt. Ond y mae'r cyssylltair *a*, â'r
yn y cylymair y darn hwn mor dŷn wrth
arnau blaenorol yr arfogaeth, yn peri i
sefyll ychydig, i ddal sylw mor garuaidd
mae gwirionedd a sancteiddrwydd yn
dgyssylltiedig yma, megys chwaer leni y
bell, fel eu gelwir yn Hebraeg: *Ecsod.*
vi. 3. A thrueni fod i neb eu dadfachu
ynt, wedi i Dduw eu cymmhwysio fel y
naeth, y naill wrth y llall. Hyn, ynte,
ld y sylwad oddi yma.

Fod yn rhaid i wirionedd a sancteidd-
ydd gydfyned.

1. Cymmerwch wirionedd am wir athraw-
th. Y mae barn uniawn, gyda chalon
sanctaidd a buchedd annuwiol, mor am-
rydferth ag a fyddai pen dyn ar ys-
yddau anifail. Ychydig achos sy gan y
n hwnw i ymfrostio ei fod yn dal yr hyn
ld wirionedd, os yw ei weithredoedd yn
rwg. Adyn truan! os wyt yn gaethwas i
iafol, nid yw ond mater bach wrth ba ran
onot y sicrhawyd y gadwen, ai y pen ai y
ned. Y mae yn dy ddal mor ddiogel wrth
droed, yn dy ymarferiad, ag y gwnai wrth
ben, os yn hereticaidd a chabledus: ie, yr
t yn waeth, mewn rhai golygiadau, na'r
si yn debyg iddynt eu hunain i gyd dros-
at. Y mae dy ddyrgioni yn fwy o her-
dd ei wneud yng ngwyneb gwirionedd.
mae llawer, sydd â chamsyniadau eu
mau gwyrog yn eu traddodi i halogrwydd
hymddygiad: y mae eu buchedd ddrwg
ganlyniad sydd yn deilliaw yn angen-
idiol o'u cyfeiliornadau. Ond y mae dy
n yn dy ddyngu ffordd arall, onid wyt am
tlyru chwaneg o bechod drwy dadu dy
ogrywydd ar wirionedd ei hun. Nid
nt hwy ond yn colli eu ffordd i'r nef yn

y tywyllwch, neu drwy gael eu camdywys
gan oleuni gau eu barn gamsyniol, yr hon, o
bossibl, ond ei huniawni, a'u dygant yw
ol i lwybr sancteiddrwydd. Ond yr wyt ti
yn pechu wrth oleu dydd gwirionedd, ac yn
myned ym mlaen yn hyf i uffern ar ganol
dydd; yn debyg i'r diafol ei hun, yr hwn a
wyr yn dda ddigon wahaniaeth rhwng y
gwir a'r gau; etto, cas ganddo ei reoli gan y
gwir. Pe canai cerddor dôn hyfryd â'i lais,
gan chwareu tŷn arall arw ac anhyfryd â'i
law, byddai y fath gerddoriaeth yn erwinach
gan glust ddeallus, na phe buasai y llais ar
llaw ar yr un dŷn. Ac felly, y mae canu i'r
gwirionedd â'n barn, a chwareu drygioni â
chalon a llaw yn ein buchedd, yn beth ffi-
eiddiach gan Dduw a phob dyn da, na bod
y farn yn gamsyniol a'r fuchedd yn annu-
wiol i'w chanlyn. Ni fuasai i Nahas gyffroi
cymmaint ar ddiger Dafydd, pe daethai â
byddin o ugain mil o wyr i'r maes yn ei
erbyn, ag y gwnaeth drwy amharchu ei
genadwyr mor ddirmygus. Nid yw y gel-
yniaeth cyhoeddus a ddengys llawer drwy
eu bucheddau annuwiol yn cynnhyrfu cym-
maint ar ddigofaint Duw a'r driniaeth ddir-
mygus a roddant i'w wirionedd, yr hwn y
mae yn ei anfon i gynnadlu â hwynt, ie,
ydddynt. Y mae hyn yn ennyn tŷn ei ddi-
gofaint yn ffiam danbaid, pan y gwelo ddy-
nion yn bwrw dirmyg ar ei wirionedd, drwy
rodio yn groes i'w oleuni, a'i garcharu rhag
iddo gael rheolaeth arnynt yn eu bucheddau;
ac er hyn yn addef ei fod yn wirionedd
Duw.

2. Cymmerwch ef am wirionedd calon.
Ac felly, rhaid i wirionedd a sancteiddrwydd
gydfyned. Yn ofer yr ymhona dynion am
gywirdeb tra y maent yn ansanctaidd eu
buceddau. Ni wna Duw addef un cywir-
deb ansanctaidd. Ni chytuna yr enwai â'u
gilydd. Y mae cywirdeb yn dysgu yr enaid
i gyfeirio at yr iawn ddiben i'w weithred-
oedd oll, seffgogoniant Duw. Yn awr, nid
digon ydyw gosod yr iawn ddiben o'n blaen,
ond rhodio yn yr iawn ffordd ato. Byth ni
chyrhaeddwn at ogoniant Duw ond yn ffordd
Duw. Sancteiddrwydd a chyfiawnder yw
llwybr y dyn cywir, wedi ei osod gan Dduw,
megys y sarn y mae iddo rodio arni, tuag at
ogoneddu Duw, a chael ei ogoneddu gan
Dduw. Ac am y neb a ddisgwylio gael
ffordd ferach neu agosach at gyrrhaedd y
diben hwn, nid yw efe ond yn ymboeni i'w
andwyo ei hun. Megys y mae'r cyfrwy yn
cael hyd i ffordd newydd o ogoneddu
Duw, felly, rhaid yw iddo gael hyd i nef
newydd, na ddarparodd Duw: neu ynte y
mae yn rhaid iddo fod heb nef i'w wobrwyo
am ei boen. O gyfeillion! ymfynwch am
gael yr argraff hon o gyfiawnder a sanct-
eiddrwydd ar eich cywirdeb. Y ddiareb a
ddywed, “Fod uffern yn llawn o ddymuniad-
au da;” sef, o bobl a ewyllysiant, yn awr,

wedi ei myned yn rhy hwyr, eu bod wedi ymddwyn yn amgen nag y gwnaethant tra ar y ddaear. Ac ai nid ydych chiwi yn barnu fod yuo ystŵr helaethlawn o fwr-iadau da hefyd; sef gan y rhai a gymmerent arnynt, pan ar y ddaear, eu bod yn meddwl yn dda, a bod eu calonau yn onest, er y dygwylid fod eu bucheddau yn ddrwg? Pa fath hudoiaeth rhyfedd yw hyn? Pe dywedai un, Er fod y dwfr a ddlwg y celwrn i fyny yn ddrwg a drewlyd oll, etto, fod y cwbl sydd yn y ffynnon yn dda iawn, pwy a'i coeliu ei? Dy galon dithau yn uniawn, a'th feddyliau yn dda, pan yw yr, hyn oll a dardd o'th galon, yn dy fuchedd, yn ddrwg? pwy a'th goelïu? Yn sicr nid wyt yn dy goelïo dy hun.

PENNOD III.

Lle y pennodir y prif bwngc oddi wrth y geiriau, y dylai fod yn ofal arbenig y Cristion i gadw ei ddwyfroneg am dano; sef i gynnal grym duwioldeb yn ei ymarweddïad; gŵd'r rhesem cyntaf am y pwngc, oddi wrth fwrïad Duw mewn perthynas i hyn.

WEDI mesur y tir, y mae bellach yn bryd gosod y gareg sylfaen ar ba un y mae adeilad, oddi wrth y geiriau, i'w chyfodi. Meddyliais am dynu amryw byngciau, fel seiliau gwahanol, i godi ein hymadrodd arnynt: ond yn awr, dewisaf yn hytrach uno'r cyfan mewn un pwngc megys un brif adail, er rhoddi yuddi rai ystafelloedd yn chwang, i gynwys y pethau a gawsent eu trin yn wahanol, oni buasai hyny. Y pwngc yw hwn.

Athr. Fod yn rhaid i'r hwn a feddylio fod yn Gristion yn wir, ymgais am gynnal grym duwioldeb a chyfiawnder yn ei fywyd a'i ymarweddïad. Hyn yw bod yn meddu dwyfroneg cyfiawnder, ac yn ei gwisgo hefyd. Dyn duwiol a chyfiawn yw efe, sydd â gwaith gras sancteiddiol yn ei galon, fel mai dyn byw yw efe, sydd âg egwyddor o fywyd ynddo: ond hwnw sy'n cynnal grym duwioldeb, sydd â'i ymgais cryf am hyn yn ei rodiad beunyddiol, fel mai hwnw sy'n dangos grym bywyd naturiol, sef y neb y mae ei alluoedd bywydol a osodwyd yn y galon yn galluogi ei a'i dau oll i gyflawni yn rymus eu gorchwyion priodol yn y corph. Fel hyn y rhodiodd y prif Cristionogion, "y rhai yr oedd gwaed Crist yn gymhes yn eu gwythienau," medd Jerome: eu gofal mawr oedd ari gadw y ddwyfroneg hon o gyfiawnder yn dŷn a chyfan am danynt; fel na laciai hi trwy ddiolalwch, ac na ddryllid hi trwy bechu yn rhyfygus. Y nod wrth ba un yr adwaenid y sain: y prif hyny, oedd ei rodiad sanctaidd. Dywedir am Zacharias ac Elizabeth: "Eu bod ill dau yn gyfiawn ger bion Duw, yn rhodio yn holl

orchymynion a deddfau yr Arglwydd y ddiargyhoedd;" *Luc* i. 6. Hyn hefyd oed beunyddiol ymarferiad Paul dduwiol "i gadw cydwylid ddirwystyr tuag at Dduw a dynio yn wastadol;" *Act.* xxiv. 16. Erioed i wylïodd neb yn fanylach am ieohyd e cyrph nag efe am ieohyd ei enaid; rhag ddim ansuncteiddrwydd neu anghyfiawnder-sy'n unig wenwyn yr enaid—ei anhwylio a halogi. Ac yn wir yr ydym niinnau, a ddaethom i'r un broffes, ar ol y fath r sanctaidd, dan ymrwymiad i'r un ymddy-iad da, y bydd i ni rodiol yn sanctaidd chyfiawn, fel y gwnaethant lwythau. Mae y pwngc yn dwyn ei dystiolaeth ar dalcen ac yn gofyn ei wasgu, yn hytrach un brofi: ac am hyny, fe ellir maddeu i mi, trïnr eglurhâd ar y pwngc, a'r annogaeth hefyd, fel rhesymau am y ddyleuswyd-gwna hyn arbed gwaith yn y cymmhwysia. Y rhesymau am y pwngc a gymmerir od wrth amryw benau.

1. Mewn golygiad ar Dduw, bwri mawr yr hwn yw cael ei bobl yn bobl sanctaidd. Y mae hyn yn ddigon i rwyuo, i gynhyrfu pob Cristion, i ddwyn yn mlaf yr hyn y mae calon Duw mor ymrodded arno i'w ddwyn i ben. Y mae yr hwn ymgafia i gyflawni bwriad dadganedlig gadben yn haeddu ei ddiswyddo; a hwn yn haeddu cael dileu ei enw allan o gofre byddin Crist, sydd â'i galon heb fod barod ac yn awyddus i deithio, ie, i redeg ei neges ef. Beddargraff amhydeddus hwnw, a osododd Paul yn golliadwriad am Dafydd, yn mbell ar ol ei farw, ddardiddo yn ei oes "wasanaethu ei genhedla ei hun trwy ewyllys Duw;" *Act.* xiii. Efe a'i gwnaeth yn orchwyl ei fywyd ddwyn ym mlaen fwriad Duw. Ac y n pob calon rasol, tan gyffyrddiad yr maen tynu, sef curiad Duw, yn cyfeirio yr un pwngc. Y mae holl amcanion dir yr enaid cywir yn cael eu llyngu yn h fod iddo wneuthur ewyllys Duw yn ei g hedlaeth. Am hyn, efe a weddia o'i gal Gwneler dy ewyllys: hyn yw ei ymfodyn sef, am wybod beth yw "daionis a chymeradwy ewyllys Duw;" a hyn yw yr ac ei fod yn caru y Beibl uwch law holl lyf ereill y byd; am nas gall efe gael mewn ond hwnw, pa beth yw meddwl ac ewy Duw tuag ato ef. Yn awr, mi gei ddangos mai hyn yw bwriad mawr D cael ei bobl yn sanctaidd. Y mae hyn rhedeg, fel edau arian, trwy holl fwriad ereill Duw tuag atynt.

DOSB. 1.

1af. Y mae yn ymddangos yn ei arfa yr hon (cyn belled ag y mae wedi ei graphu a'i gosod o'n blaen yn y Beibl) mae yn ddiogel i ni edrych iddi. At beth yr oedd Duw yn cyrchu yn ei w yn ethol rhai allan o'r cyfan o ddynolr

i eu rhyddhâd oddi wrth gosp oedd yn nig yn ei olwg, fel, tra y gadawyd ereill i ofio mewn poen a thrueni, na chaent hwy dim ond eu breinio rhag yr annedwyddwch ynw? Nag e, yn ddiâu: yr apostol a lywed i ni yn rhagor: "Efe a'n hetholodd ynddo ef, cyn seiliad y byd, fel y byddem sanctaidd;" *Eph. i. 4.* Craffwch, nid herwydd iddo ragweld y byddent sanctidd o honynt eu hunain, ond "fel y byddent yn sanctaidd." Hyn oedd yn mwriad uw, y gwai iddynt fod. Fel pe byddai i w weithiwr celfydd, wrth weled coedwig tyfu ar ei dir ei hun—y cwbl yn gyffelyb, b yn un well na'r llall—nodi rhai uwch y w lleill oll, a'u neillduo yn ei feddyliau, mewn bwriad o wneuthur rhyw ddarnau nod o waith o honynt. Fel hyny, dewisid Duw rai, allan o'r pentwr o ddynolryw; rhai a neillduodd efe i'r diben hwn; cerfio ddelfw ei hun arnynt, yr hon sy'n gynrysedig mewn cyfiawnder a sancteiddidd. Bydd hwn yn ddarn o waith mor iog, fel, pan y bydd i Dduw ei oiphen a'i angos i ddynion ac angylion, y ceir ei led yn rhagori ar holl adeilad nef a ear.

DOSB. II.

21. Hyn oedd ei fwriad wrth anfon ei bob i'r byd. Nid achos bychan a allai fod un a'i dygodd ef yma. Nid oes ar Dduw eu gweision i fyned ar ei negesau cyffin. Y mae yr angylion gogoneddus, sy'n eled ei wyneb yn barhaus, yn bardiddeg i ba le bynag yr anfono efe hwynt. I'r oedd gan Dduw waith o'r fath bwys wneuthur, fel nad ymddiriedai efe i'w sion, ond i'w Fab yn unig ei gyflawni. I'r awr, yr hyn oedd bwriad Duw yn waith mawr hwn a ymddengys, trwy bod beth oedd bwriad Crist: o herwydd peddynt ill dau, Tad a Mab, wedi cytuno yr hyn a wneid, cyn iddo ef ddyfod i'r byd gyflawni. Gwelwch ynte waelod calon st, yn ei orchwyl mawr hwn, yn cael ei angos: "Efe a'i rhoddes ei hun drosom, prynu ni oddi wrth bob anwired, ac i'n o ni iddo ei hun, yn bobl briodol, awrus i weithredoedd da;" *Tit. ii. 14.* Pe gwasai dyn ei gyfiawnder dechreuol, rhai poen a llafur Crist eu harbed. I ail cael y sancteiddrwydd a gollodd dyn y rh ef. Ni fuasai yn orchwyl a weddai gwredid a sancteiddrwydd y fath un a b Duw ymalfydd ynddo, pe yn llai na hyn. Y mae Duw a dyn hefyd, rhwng pa rai y rh Crist yn negeseuwr, yn galw am sancteiddrwydd: gogoniant Duw a dedwyddwch. Ni cheir un o'r rhai hyn heb yr adfero sancteiddrwydd i ddyn. Am ogoniant Duw, fel y mae yn ogoneddus yn sancteiddrwydd ei natur a'i weithredoedd ei hun, y mae yn cael ei ogoneddu trwy sancteiddiad calonau a bucheddau ei bobl. Pe

byddai yn bossibl gwahanu sancteiddrwydd oddi wrth un o briodoliaethau Duw (meddwl yr hyn a fyddai yn eithaf cabledus), byddai i Dduw ei hun beidio a bod yn ogoneddus: ei benarglwyddiaeth a ddirywiai i drais, ei ddoethineb i gyfrwysdra, a'i gyfiawnder i greulondeb, &c. Yn awr, gan fod gogoniant holl briodoliaetha a gwaith Duw yn tarddu o'i sancteiddrwydd ynddynt oll, y mae yn canlyn mai dyma'r pryd y gogoneddwn ni Dduw, pan roddom iddo ogoniant ei sancteiddrwydd. A phwy ond creadur sanctaidd a all, neu a wna hyny? Tra y mae dyn dan awdurdod pechod, pa fodd y gall efe roddi gogoniant i Dduw, a'n yr hyn y mae ei anian bechadurus ei hun yn peri iddo wrthsefyll a chasau Duw o'i herwydd?

Gan hyny, pe buasai bwriad Crist i gael i ddyn faddeuant, ac heb adferu iddo y sancteiddrwydd a gollodd, buasai yn weinidog pechod; ac yn lle dwyn gogoniant i Dduw, buasai yn gorseddu pechod, ac yn cael dim ond rhyddid i'r creadur ddianrhydeddu Duw yn ddigerydd. Drachefu, ni allesid cael dedwyddwch i ddyn heb arferiad o'i sancteiddrwydd a gollodd. Y mae dedwyddwch dyn yn sefyll yn ei debygolrwydd i Dduw, a'i fwynhâd o hono; a rhaid iddo gael y cyntaf cyn y gall fwynhau yr olaf. Y mae yn rhaid iddo fod yn debyg i Dduw, cyn y gall Duw gymmeryd dim hoffder ynddo: a rhaid yw i Dduw lawn hoffi dyn, cyn ei dderbyn i'r mwynhâd o hono ei hun: ac, iddo allu gwneud hyn, y mae Crist yn cymmeryd mewn llaw sancteiddio ei bobl, fel y mae Duw yn sanctaidd. Yn awr, chwi welwch beth oedd y bwriad mawr yr oedd calon Crist mor llawn o hono—ein gwneuthur yn bobl sanctaidd. Da ynte y gallai yr apostol osod y cyhuaddiad trwm hwnw yn erbyn pawb o'r profesywyr ansanct- aidd, yr hyn a wnaeth gyda dagrau: "Mai gelynyon croes Crist ydynt;" *Phil. iii. 18.* Daeth Crist i ddinystrio gweithredoedd y diafol: y mae y rhodiwr penrhydd, ansanct- aidd, yntau am ddinystrio gwaith Crist. Rhoddodd yr Arglwydd Iesu waed ei galon i brynu enaidiau o law pechod a Satan, fel y byddent ryddion i wasanaethu Duw yn ddiolfn mewn sancteiddrwydd: ac y mae y Cristion penrhydd, os gallaf ei alw felly, yn gwadu yr Arglwydd yr hwn a'i prynodd, ac yn ymroddi yn ddiffaith i'w hen gath- iwed, o'r hwn y prynasai Crist ef a swm mor fawr. Pa galon ni chryna wrth y fath anniolchgarwch erchyll?

DOSB. III.

3ydd. Bwriad mawr Duw, yng ngwaith adnewyddol yr Ysbryd ar galonau ei bobl, yw eu gwneuthur yn gyfiawnder, a'u haddasu i rodio yn sanctaidd ger ei fron. Yn *Ezec. xxxvi. 26, 27*, y mae Duw yn addaw "calon newydd, a rhoddi ei Ysbryd o'u mewn

hwynt." A pha ham y gwna efe hyn!
 "Fel y paro iddynt rodio yn ei ddeddfau,
 cadw ei farnedigaethau, a'u gwneuthur."
 Buasai hen galon yn dda ddigon i wneuthur
 caledwaith y diafol a hi: ond gan fod Duw
 yn eu bwriadu hwynt i waith uwch ac ar-
 dderchocach, codi eu penau o garchar
 pechod, a'u dyrchafu i'w wasanaeth ei hun,
 y mae am hyny yn tafu ymaith eu
 carchar wisg, ac yn eu harddu â grasusau
 ei Ysbryd, fel y byddai eu calonau yn
 gyfaddas i'w gwaith. Pan orchymynodd
 Duw adeiladu y deml f'ar fath ofal manwl
 a defnyddiau costus, efe a gyhoeddodd ei
 fod yn ei bwriadu i wasanaeth sanctaidd.
 Nid oedd hono mor ogoneddus ag yw
 teml ysbrydol calon adgenheddeg. Y mae
 hon yn waith Duw ei hun (*Eph. ii. 10*): ac
 i ba ddiben y cofodwyd hi ganddo, gallwn
 weled wrth ddarllen ym mlaen: "Wedi
 ein creu yng Nghrist Iesu i weithredoedd
 da, y rhai a rag-ddarparodd Duw, fel y
 rhodiem ni ynddynt." Y mae hyn yn gosod
 nod trymach a duach ar bob anwiredd a
 pechod o eiddo sant yn anad neb arall, am
 ei fod ef yn ei wneuthur yn erbyn y fath
 waith o eiddo yr Ysbryd, nad yw gan neb
 arall yn y byd ond gan y cyfryw. Yr oedd
 pechod a wneid yn y deml yn fwy na phe ei
 gwnesid gan Iuddew yn ei dŷ ei hun, am
 fod y deml yn lle cyssegredig. Dyn cyssegr-
 edig yw y sant; ac y mae efe trwy weith-
 redu yn anghyfiawn yn halogi teml Dduw.
 Y mae pechod yn arall yn lladrad am ei fod
 yn ysbeilio Duw o'i ogoniant dyledus;
 ond y mae pechod sant yn gyssegr-ladrad,
 am ei fod yn ysbeilio Duw o'r hyn
 sydd yn gyflwynedig iddo mewn modd
 arbenig. Gwell ydyw bod yn gwbl heb
 edifarhau nag edifarhau o'n hediferwech;
 gwell yw bod heb adduneddu ac ymglyfwno
 iddo ef, na bod ar ol hyny yn ymofyn pa
 fodd y mae i ni ochel a diddymu yr adduned
 hon. Y mae y fath un yn mynegi i'r byd
 ei fod yn cael rhyw anwiredd yn Naw sydd
 yn newid ei farn ef, a'r ymarferiad a ddilyn-
 odd efe gynt.

Mewn gair, y mae y sant nid yn unig trwy
 yr Ysbryd yn gyssegredig i Dduw, ond
 wedi ei gynnysgaethu trwy yr Ysbryd â
 bywyd newydd gan Dduw: "Chwithau a
 fywhaodd efe pan oeddych feirw mewn cam-
 weddau a pechodau;" *Eph. ii. 1*. Rhodd-
 wyd i chwi egwyddor o uchel-darddiad, ac
 o fwriad uchel, fel y byddo i chwi fyw yn
 ol yr egwyddor hono, mewn cyfiawnder a
 sancteiddrwydd. Pan anadlodd Duw enaid
 rhesymol yn y dyn, ni fwriadodd efe iddo
 fyw gyda'r anifeiliaid, nac fel yr anifeiliaid;
 nac i tithau chwaith fod â'ith ymarweddiad
 yn debyg i ddyn sy'n anianol; ond megys y
 derbyniaist Grist, felly, fod i ti rodio ynddo:
Col. ii. 6. Y mae yr apostol yn beic y Cor-
 inthiaid, am fyw islaw eu gradd, ac yn debyg

i ystrueiniaid y byd yn eu nwydau llygredig
 "Onid ydych yn gawdol ac yn rhodio y
 ddydol?" *1 Cor. iii. 3*. Pan wyt ti, Grist
 ion, yn rhodio yn ansanctaid, yr wyt y
 pechu i radd uchel yn wir. Y mae ereill y
 pechu yn erbyn goleuni Duw yn eu cydwyl
 odau; dyna y fan bellaf y gallant lw
 fyned, ond yr wyt ti yn pechu yn erby
 buchedd Duw, fe, yn dy galon. Po mwy
 annaturiol fyddo gweithred, erchyllaf ydy
 Y mae yn annaturiol i ddyn greuloni wr
 ei gnawd ei hun; i wrraig fyned ynghyd
 lladd y plentyn yn ei bru. O! fel y me
 wina eich clustiau wrth y fath weithred y
 geler! Pa beth ynte wyt am ei wneuthu
 pan wyt, trwy dy rodiad ansanctaid,
 ladd y maban o ras yn dy enaid? Oni no
 wyd Herod am ddyn gwaedlyd a fynas
 gigyddio Crist newydd ei eni i'r byd? A
 aelli di heb ddychryn roddi cais ar lofrudd
 Crist newydd ei ffurfio yn dy galon?

DOSB. IV.

4ydd. Y bwriad y cyfeiria Duw ato yn
 air a'i ordinhadau, yw gwneuthur ei bobl
 sanctaidd a chyfiawn. Y mae gair Duw
 had i genhedlu, ac yn fwyd i fagu, sanctei
 rwydd a genhedlwyd yn y galon: y mae p
 rhan o hono yn cyfranu yn helaeth i'r dib
 hwn. Rhydd y rhan orchymynol reol be
 ffaith o sancteiddrwydd i'r saint rodio wrth
 nid wedi ei haddasu at fympwy neb,
 cyfreithiau dynion. Hwy a wnânt
 deddfau, fel gwnïedyddion eu dillad, yn g
 addas i'r cyrph ceimion sydd i'w gwisg
 felly hwythau i feddyliau gwyrrog dyni.
 Ni wna gorchymynion Duw foddio chwa
 au neb: cyfaddas ydynt hwy i natur san
 aidd Duw, nid at galonau ansanctaid dy
 ion. Yr addewidion, hwy a'n calonogant
 rhyfedd i lafurio, ac a'n tynant ym mla
 yn ffordd sancteiddrwydd: y maent oll w
 eu gosod mor gymmlwys fel nas gall ca
 ansanctaid, heb drais ar y gydwybod, h
 hawl yn un o honynt. Y mae Duw w
 gosod y cleddyf tanllyd hwnw, cydwyb
 ym mynws y pechadur, i'w gadw di
 rhag cyffwrdd ná phrofi firwyth pren
 bywyd yma: ac os bydd rhyw galon hal
 edig mor hyf, tra y mae yn rhodio yn ffy
 anghyfiawnder, ac ymhel â dim o'r try
 sydd yn glöedig yn yr addewidion, nid
 yr ers yn ei law. Yn gynt neu yn hw
 ach, gwna Duw i'r cyfryw ei dasfu yma
 fel Iudas ei ddeg ar hugain arian: eu c
 wybodau a fynegant mai nid hwy yw
 iawn berchenogion. Y mae cysuron
 o'r addewidion yn debyg i'r golud y dy
 Solomon am dano sydd yn cymme
 adenydd ac yn ehedeg ymaith oddi wrth
 adyn ansanctaid, pan y tybio ei hun
 sicraf o hono.

Drachefn, y bygythion, y rhan fygyt
 o'r gair: y mae hon yn rhedeg, fel llyngs
 dinystriol, o bob tu i lwybr. cul sanctei

rywa a chyfiawnder, yn barod i lyngau pob enaid na fyddo yn rhodio ynddo: "Canys digofaint Duw a ddadguddiwyd o'r nef yn erbyn pob annuwldeb ac anghyfiawnder llynon?" *Rhuf.* i 18. At yr addewidion a'r bygythion y chwaneagir yr esamplau sydd yn y gair, fel caead am lyfr, i gadarnhau ein cred am wirionedd a sierwydd pob un. Wrth gefn yr addewidion y mae esamplau gwyr a gwragedd sanctaidd, wedi llyfnhau lwybr sancteiddrwydd i ni, a thrwy fydd ac amynedd yn eu gyrfa dduwiol, wedi cyrhaedd o'r diwedd at gysur yr addewidion newngwynfyd nefol, er calonidid annhraethol i'r rhai sydd yn dringo y bryn ar eu hol. Yn gyssylltiedig wrth y bygythion, y mae esamplau trymion o rai ansactaidd, a anlwyasant eu hunain, ac a ddamniasant eu beneidiau mewn ffyrdd ansactaidd. Y mae eu celanedd megys wedi eu taflu ar fin nôr y gair, ac i'w gwelod genym wrth ei ddarlennu a'i wrandaw, fel y cadwer ni rhag msuddo yn y pechodau hynny a fu yn ddistryw iddynt hwy: "Y pethau hyn a vnaed yn esamplau i ni, fel na chwennychem ddrygionni megys ag y chwennychasant iwy;" 1 *Cor.* x. 6. Fel hys y gwelwn y nodd y mae holl gyfansoddiad y Beibl ym nhlaid sancteiddrwydd, ac yn dadgan bwrdd Duw yn yr achos: ac i ddwyn hyn ym nlaen yn fwy grymus, y mae Duw wedi apwyntio amryw ordinhadau sanctaidd, at oddi i'r gair effeithio yn fwy ar ein calonau. Yn wir nid ydynt oll ond y gair, mewn mryw ffurf. Gwrandaw, gweddio, sacramentau, myfyrdod, ymddiddan duwiol; y gair i'w testyn y cwbl; ond yn unig fel y darpara physygwr doeth yr un cyferiau amryw fydd, weithiau i'w cymmeryd un ffordd, weithiau ffordd arall, i'w gwneud yn fwy ffieithiol, ac i loni ei ddyn claf âg amryw-aeth; felly y gwna yr Arglwydd i ni trwy i air, gan ystyried ein gwendid, a'i weinddu i ni yn awr yn yr ordinhâd hon, yna yn y llall, er ein lloniad a'n lles mwy. Yr un yw ei ddiben o hyd, yn y cwbl, sef lwyn sancteiddiad ym mlaen yng nghalonau a bucheddau ei bobl. Pa beth ydynt hwy oll ond megys gwythienau a rhedwelau, rwy ba rai y mae Crist yn peri i waed ydydd ac ysbrydoedd sancteiddrwydd treiddio i bob aelod o'i gorph dirgelaidd? Yr eglwys yw yr ardd; Crist yw y ffynnon; a bob ordinhâd megys pibell oddi wrtho, i llyfrhau y gwelyau oll yn yr ardd hon. A pha ham, ond i'w gwneud yn fwy helaethion yn ffirwythau cyfiawnder?

DOSEB. V.

5ed. Hyn yw ei ddiben yn ei holl raglun-aethau. Y mae "pob peth," sef, pob rhag-uniacth yn enwedig "yn cydweithio er laioni i'r rhai sydd yn caru Duw;" *Rhuf.* iii. 28. A pha fodd y gweithiant er daioni ddynt, ond trwy eu gwneud yn well a mwy

sanctaidd? Rhagluniaethau ydynt dda neu ddrwg i ni, fel y maent yn ein cael, neu yn ein gwneuthur, yn well neu yn waeth. Nid oes dim yn dda i'r dyn sydd yn ddrwg. Fel y gwna Duw ddefnydd o holl dymmorau y flwyddyn, at y cynhaaf, o'r rhew a'r gauaf oer, yn gystal ag o wres yr haf, felly y gwna efe o ragluniaethau tirion a garw, hyfryd ac anhfyrd, i ddwyn sancteiddrwydd ym mlaen. Y mae rhagluniaethau gauaf at ladd chwyn chwantau, a rhagluniaethau hafaidd at addfedu ffirwythau cyfiawnder. Pan gystuddio efe, er ein lles y mae, fel y byddom "gyfranogion o'i sancteiddrwydd ef;" *Heb.* xii. 10. Y mae Bernard yn cyffelybu cystuddiau i gribau y panwr; y rhai, er eu bod yn crafu yn ddwyslym, a wnant y brethyn yn feinach a harddach. Ni rwbai Duw mor galed, pe ni byddai raid, i ddwyn allan y brynti sydd wedi greddfu yn ein natur ni. Mae Duw yn caru purdeb, hyd onid yw yn well ganddo weled twll na brycheuyn yn nillad ei bientyn. A phan ymddygo yn dynwch yn ei ragluniaethau, gan adael i'w bobl sistedd is bron heulog o gysuron a mwynhâd, gan eu cysgodi rhag awelon oerion tralod, i dynu allan nodd gras y mae hyn, a phrysuro eu tyfiant mewn sancteiddrwydd. Yr oedd Paul yn deall hyn pan erfyniodd gan y saint, "Am hynny yr wyf yn atolwg i chwi, frodyr, er trugareddau Duw, roddi eu cyrph yn aberth byw, sanctaidd, a chymmeradwy gan Dduw, yr hyn yw eich rhesymol wasanaeth chwi;" *Rhuf.* xii. 1, gan arwyddo fod trugareddau Duw yn dyfod atom ar y neges hwn: a rhesymol yw i Dduw ddisgwy! y fath daliad yn ol. Pan fyddo y llafurwr yn gosod ei wrtaith ar ei dir, y mae yn disgwyl ei gael yn ol y cynauaf, mewn llawnach enw: ac felly Duw ei drugareddau. Am hynny, y mae yn achwyn mor drwm am anniolchgarwch Israel: "Ni wyddai hi mai myf i roddais iddi fâd, a gwin, ac olew, ac a-amlheais ei harian a'i haur, y rhai a ddarparasant hwy i Baal;" *Hos.* ii. 8. Cymmerodd Duw yn ddrwg, a da y gallai, eu bod hwy yn croesawu Baal ar ei draul ef. Os anafona Duw i ni arlwyaseth, efe a fynai i ni wybod mai i'w gresawu ef ei hun y mae: y mae yn bwriadu dyfod a swpera ar ei draul ei hun. A pha ddysglaid yw hono a foddhâ archwaeth Duw? Yn sicr, gan na fyn efe i'w bobl ymborthi ar ddim sydd yn aflan, nis gwna efe ei hun. Ffirwythau peraid sancteiddrwydd a chyfiawnder yw y rhai y daw Crist i'w ardd i ymborthi arnynt: "Daethum i'm gardd, fy chwaer a'm dywedd; cesglais fy myrr gyda'm perarogl; bwyteis fy nil gyda'm mêl, yfais fy ngwin gyda'm laeth: bwyteuach, gyfeillion, yfwech, ie, yfwech yn helaeth, fy rhai anwyl;" *Can.* v. 1.

PENNOD IV.

Yr ail reswm pa ham y dylai y Cristion wisgo y ddywyfroneg hon o gyfiawnder, a chynnal grym dwioldeb mor ofalus; fe'i cymmerir oddi wrth fwriad mawr Satan yn ei erbyn.

2. Mewn golygiad ar Satan, sydd o lawn fwriad yn erbyn sancteiddrwydd y saint, fel y mae Duw o'i blaidd. Y mae ganddo yn wastad ei nag e i fe Duw: os bydd Duw am sancteiddrwydd, rhaid yw iddo yntau fod yn ei erbyn. A pha beth a ddylai gael ein gofal penaf i'w gadw, ond yr hyn y mae bryd a dichellion Satan yn fwyaf am ruthro arno a'i gymmeryd? Nid oes greadur y chwennycha diafol gael llettya ac aros ynddo fel y dyn. Pan elo i greaduriaid ereill, nid yw ond o fwriad yn erbyn dyn: megys pan aeth i mewn i'r sarp, twyllk Efa oedd y bwriad: a phan aeth i'r moah (*Mat. viii. 32*), di-feddiannu y Gergesiaid o'r efengyl oedd ganddo mewn golwg. Ond pe gallai efe ddevis ei letty ei hun, nid oes un yn ei foddio ond dyn. A pha ham? Am mai dyn yn unig a ddichon, trwy ei enaid rhesymol, wneuthur pechod ac anghyfiawnder. Ac fel mae gwel ganddo lettya mewn dyn nag yn un o'r is-greaduriaid, felly gwel ganddo feddiannu eneidiau dynion na'u cyrph. Nid oes ond yr ystafell oreu yn y ty a foddhâ yr ysbryd aflan hwn, i chwydu ei gableddau a phoeri ei falais ynddi, yn erbyn Duw. A pha ham? ond am mai yr enaid yw eisteddie priodol sancteiddrwydd a phechod. Hyn a ddyry un gwr fel rheswm pa ham, ym mysg holl ffyrdd Satan i boeni Iob, na ddewisodd efe ymruthro i mewn i'w gorph ef, a'i feddiannu yn gorphorol: o herwydd yn sier fe allasai, gan fod hyny yn llai na dwyn ei fywyd, yr unig beth a waharddasai Duw iddo; a chan ei fod yn ei allu, yn sier nid i arbed y boen i Iob yr arbedodd efe hyny. Nid oes tosturi yng nghalon diafol; ond y rheswm, dybygid, yw yr hyn a bennododd un o'r hynafiaid: yr oedd Satan yn disgwyl am uwch dyrchafiad, yn gobeithio am gael meddiannu ei enaid ef, ac yn hiraethlu am hwn yn fwy fil o weithiau. Dewisach fuasai ganddo glywed Iob yn cablu Duw, tra yn ei lawn bwyll; cael Iob yn ddynd iddo, yn hytrach nag ef ei hun yn Iob, i fytheirio cableddau yn erbyn Duw. Pechod y diafol ei hun, yn hytrach na'r eiddo Iob, fuasai hyn. Wrth hyn, gwelwch mai at sancteiddrwydd a chyfiawnder y mae ei lid ef. Nid oes dim elw yn dyfod i bwrs y diafol, nac un fuddugoliaeth i'w chyfrif ganddo, oddi eithr iddo allu peri i'r Cristion goll ei sancteiddrwydd. Gall oddef i ddynd gael unrhyw beth, neu fod yn unrhyw beth, yn hytrach na bod yn wir sancteiddrwydd ymroddiad. Nid eich cyfoeth a'ch myniant bydol sydd yn ei ddiogel ef, yn gymmaint a'ch sancteiddrwydd.

Gallasai Iob, am a wyddom, fwyhau ei ddi adellau a'i yroedd, ei blant a'i weision, hel aflonyddiad gan uffern, pe ni welsai y diafol e fod yn ddynd dwiol, yn ofni Duw, ac yn cili oddi wrth ddygioni: hyn a ddigodd y ysbryd drwg. Yn awr y mae am ymgodym â Iob, fel y gallo, os yw bossibl, ei ddi-seintia ef a'i ysbeilio o ddywyfroneg cyfiawnder. Anrheithio ei feddiannau, cigyddio ei blant rhostio ei gorph, fel y gallaf ddywedyd, doluriau a chorhwydydd, a'r rhai hyny fe cymnifer o haciau dyfnion yn ei gnawd, nic oedd ynt ond fel triniaeth greulawn rha lladron ar bobl y mynent eu hysbeilio, i diben o beri iddynt gyfaddef a rhoddi i fyny eu trysor. Pe buasai Iob ond yn tafu e bwrs i'r diafol—ei uniondeb wyf yn e feddwl—a gadael iddo ddwyn ymaith ei gyd wybod da, buasai Satan yn fuan yn e ollwng, ac heb anfodlon iddo gael ei ddwydol a'i blant drachefn. Y blaidd a rwyg y cnu, i gael ysglyfio y cig a sugno gwaed y ddafad. Gwaed bywyd sancteiddrwydd yw yr hyn y mae ar y lleiddiad uffernol hwn, frys ei sugno allan o galon y Cristion. Ni at rith dwioldeb a gwedd hardd o gyfiawnder y mae lliid y diafol, ond at y grym nid yr enw, ond yr anian newydd ei hun sydd yn codi y llew hwn yn greulawn o' ffau. Gall Satan fyw yn dra heddychol, fe cymmydog llonydd, wrth ddrws y rhai a ym foddlonant ar wag enw o broffes; nid yw hyn yn tori ar ei feddiant ef, nac yn cyflwrdd â'i randir. Nid oedd proffes Iudas, fywyddai, yn ei roddi ef un cam allan o' ffordd i uffern. Gall Satan ddangos i ddyffordd i ddamnedigaeth, trwy dd led swyddau ac ordinhadau addoliad Duw. Y oedd y galon gybyddlyd a brauwrus ddygodd Iudas gydag ef i wrandaw pregeth Crist, a phregethu ei bregeth ei hun, yn eiddal yn ddigon tyn gan Satan; ac am hyn y mae yn rhoddi iddo ddigon o raff, neu ryddid i gadw ei air da am dro gyda'i gyd apostolion. Nid gwaeth ganddo ef, er i ereill ei dybied yn ddisgybl i Grist, ond iddo e wybod mai ei gathwas ei hun ydoedd.

Mewn gair, nid yw sancteiddrwydd coelgrefyddol yn ei ddigio ef. Pa fodd gallai? pan mai efe ei hun sydd yn ei osod i'ny, a hyny ar y bwriad cyfrwys o ddisceili sancteiddrwydd pur a chywir yng nghalon dynion. Ac erbyn hyn, y mae eglwys Crist wedi canfod pa fath ddyfais ddofn yw hon. Ym mhob oes hi a fu, i rym dwioldeb yn debyg i'r eiddew i'r dderwen; y mae ymwasgiad ffals y rhith sancteiddrwydd hwn o ddeutu crefydd, wedi lladd calon sancteiddrwydd ysgrythyrol, pa le bynag y tyfodd. Y mae i wir grefydd, fel yr ordderch i'r wir wraig; yr hon sydd yn sier o sugnerch ei gwr oddi wrthi. Rhoddodd diafol y basterddynd hwn, er ys amser i'w allan i'w fagu gan Eglwys Rhufain; yr hon

gan gymmerodd fawr boen i'w feithrin iddo: ac nid rhyfedd, gan ei bod yn cael ei thalu mor dda am ei fagwraeth, trwy ei fod yn lwyn iddi gymmaint o elw a thrysorau byddol. Na: sancteiddrwydd yn ei symledd hoeth, fel y mae yn seiliedig ar sylfaen ystrythrol, a'r un gair yn rheol iddo; i hwn y mae efe wedi ei dyngu yn elyn. Yn wir lyma'r faner y mae'r enaid cywir yn ei hodi, a thrwyddi yn peri cyffroad i Satan: ac nid rhyfedd ei fod ef am ei saethu hi i awr. Yn awr, ac nid hyd yn awr, y mae'r enaid cywir yn ei ddangos ei hun yn gyfaill i Dduw, ac yn elyn i deyrnas y tywyllwch: ac yma y mae sail y cweyrl, yr hwn ni derfydd tra y parhau efe i fod yn ysbryd ffan, a bwystiau i fod yn rhai sanctaidd i Dduw. "Pawb a'r sydd yn ewyllysio byw i dduwio: gwg Ngnrist Iesu a erlidir;" 2 Tim. 3. 17. Craffwch yn gyntaf, pa beth sydd yn peri i'r diafol a'i offerynu godi i'w i'w, a chywsto seianedd yn erbyn Cristnogion—eg dduwioledeb yw. Anl yw yr gusio: teg a wna erlidwyr, yn orchudd i'w alais: eidd y mae Ysbryd Duw, sydd yn lrych trwy eu cuddieni, yn gwybod am ll-gyfrinach eu calonau, a'r addysgiadau y aent yn ei gael gan ddiabol, sydd yn weithio mor nerthol ynddynt. Efe a lywed i ni y caiff yr hwn "a ewyllysio w yn aduwiol ei erlid." Gwir dduwioledeb yw y nod yr annelant eu saethu ato. rachefn, craffwch ar y rhyw o dduwioledeb ymgfyd eu gwaed o'i achos: "Pawb a'r dd yn ewyllysio byw yn dduwioledeb ym sancteiddrwydd a duwioledeb yn y byd; ond all y cwbl gael nawdd ar law Satan, oddi wrth y duwioledeb hwn yn Iesu Crist. Y mae gan y diafol lid anghymmodadwy ar Crist: y mae yn casau (fel y gallaf ddywed-) bob llythyren o'i enw; y duwioledeb a ysgir ganddo ef, ac sydd yn tarddu o hono, mae yn ei wrthsefyll hyd farw. Y mae waed Cristion yn felus i'w ddant; ond waed duwioledeb y Cristion yn llawer melach. Gwell ganddo, pe gallai, ladd yw, na hwyt; dewisai dynu y Cristion di wrth ei dduwioledeb yn fwy na'i ladd herwydd. Etto, rhag bod heb waith, efe lldilyn ei chwareu bach, ac a ddengys ei eulondeb ar eu cyrph; etto, pan nad yw gallu cyrhaedd eu heneidiau. "Hwy a rwyd â llif, a demtiwyd, a laddwyd;" Job. xi. 37. Prif gais y dynion gwaedlyd n oedd eu tynu hwyt i bechod, a'u cael od yn wrthgilwyr; ac am hyn hwy a'u antiasant cyn eu lladd. Dyma'r fuddugolth gyflawn yng nghyfrif y diafol, pan o'u eu hysbeilio hwyt o'u harfogweth, a'u thio oddi wrth eu diysgogrwydd yn eu offes sanctaidd: "Halogwr hi, a gweled a llygaid hyny ar Seion;" Micah iv. 11. Gwell ganddo weld y saint wedi ymhalogi

gan bechod ac anghyfiawnder, na gweled eu gwaed yn llifo. Efe a wŷr na wna erledigweth ond gwaith pladur ar yr eglwys, yr hon a dyf yn dewach wedi'r gwaith: ansancteiddrwydd sydd yn ei difa. Ni wna erlidwyr ond aredig maes Duw iddo, tra y mae efe yn ei hau â'r gwaed a ollyngant; ond halogedigweth, y mae hwn yn codi ei gwraidd, yn gwneud anhraith o'r cyfan, cydwybodau ac eglwysi hefyd.

PENNOD V.

Y trydydd rheswm, a gymmerir oddi wrth ragoroldeb cyfiawnder a sancteiddrwydd.

3. MEWN perthynas i sancteiddrwydd ei hun, yr hwn y mae ei odidogrwydd digyffelyb yn galw arnom i'w ddilyn, ac ymgais am dano, âg eithaf ein gofal a'n gryu.

1af. Y mae yn odidogrwydd priodol i'r creadur rhesymol. Y mae i sgreaduriaid ryw roddiad da sydd yn perthyn iddynt hwy; eithr bodau deallawl yn unig a allant gyfranogi o sancteiddrwydd tu mewnol. Gwelodd Duw mai da oedd pob creadur a wnaethai efe; ond anghlyon a dynion yn unig, yn sanctaidd. Ac os ymadawu ni â sancteiddrwydd—dyna ein coron, yr ydym yn waeth na'r anifeiliaid eu hunain. Ie, sancteiddrwydd yw yr hyn a wna i'r naill ddyd nagori ar y liall yng nghyfrif Duw. Ni a awn yn ol gau werth, os prisiwn ddynion wrth eu manteision allanol. Cydwestad yw pawb gyda Duw, hyd oni chwanager sancteiddrwydd. Y mae tywysogion sydd yn meddu y gallu teyrnasol, yn hōni hawl yn eu rhagofraint o osod yr iawn werth ar bob arian lathol, am ba faint yr â pob darn; hwn am geiniog, y liall am bunt: yn llawer mwy yn ddiar, y perthyn i Dduw brisio ei greaduriaid; ac efe a ddywed i ni: "Y cyfiawna ragora ar ei gymmydog;" *Diar*. xii. 26. "Tafod y cyfiawna sy fel arian detholddig: calon y drygionus ni thal ond ychydig;" *Diar*. x. 20. Ysbyd Duw a gyffelyr y cyfiawni arian ac aur, y meteloedd gwerthfawrocaf, sydd o'r fath gyfrifiad, uwchlaw pob mettel arall, fel mad oes ond darnau a wneir o un o honnynt yn cerdded yn mhob gwlad. Sancteiddrwydd, fe gerdda yn y ddau fyd; ond rhagoriaethau allanol, y fath ag yw cyfoeth a bri bydol &c. (yn debyg i arian, lledr, a phres), nid ydynt o werth ond yn y byd cardodlyd yma isod.

Sancteiddrwydd yw ein tystiolaeth er nad ein dadl am y nef: "Heb sancteiddrwydd ni chaff neb weled Duw." Dinas yw y nef lle y mae cyfiawnder yn cartrefu. Er ei fod yn dioddef am dro i'r ddaear ddwyn dynion ansanctaidd (yr hyn ni wna hi heb chwysu dan eu pwys, a griddfan am gael gwared o'r

fath faich); etto, yn sicr nis gadawa efe i'r nef gael ei blino gan y fath haid. Cyn i Enoch gael ei ddwyn i'r nef, efe a rodiodd yn sanctaidd gyda Duw ar y ddaear, yr hyn a wnaeth i Dduw chwynnch ei gyfeillach mor fuan. O gyfeillion! a hoffiwn ni broffes wag, y fath grefydd ag a'n gadawa yn fyr o'r nef? Neu, a allwn ni gyda rheswm ddisgwyl rhydd-fraint uwch law ereill, i ni gael codiad yn rhai gogoneddus yn y nef heb fynydd trwy y llafur a'r ymarferiadau o dduwioldeb, a osododd Duw ar y rhai a fyddant yn ymgeiswyr am y lle hwnw! Yn sicr, yr hyn a ysgrifennodd Duw yn ei air am hyn a saif. Ni rydd efe groes ar ei fwriadau ar neb: yr hyn a wnaifefe, pe newidiai drefn iachawdwriaeth yn y peth lleiaf. Gan hyn, rhaid yw i ni naill ai ymwadu a'n gobraith o ddyfod yno, neu rodio yn llwybr sancteiddrwydd a'n harwain ni yno. Awel ofer yw hono nad yw yn codi hwyliu ein serch, ac yn rhoddi ein traed i deithio yno lle y dymunem fod yn y diwedd.

3ydd. Sancteiddrwydd, yn cael ei ddal yn ei rym, yw yr hyn a'n haddasa ni at gymmundebed a Duw yn y bywyd hwn. Y mae cymmundebed a Duw yn beth mor ddymunol, nes yw llawer yn ymholi am dano heb wybod beth ydyw: yn debyg i rai a ymfrostant o'u cydnabyddiaeth a rhyw yr mawr, fe allai heb erioed weled ei wyneb na chael eu goddef yn ei gymdeithas. Y mae Ysbryd Duw yn rhoddi celwydd yn erbyn y dyn a ddywed fod ganddo gydnabyddiaeth a rhyw anghyfiawnder—"Os dywedwn fod i ni gymdeithas ag ef, a rhodic yn y tywyllwch, celwyddog ydym;" i *Ioan* i. 6. Y mae yr apostol yn ymfoddloni i gael ei gyfrif yn gelwyddwr amlwg ei hun, os yw yn rhodio yn y tywyllwch, ac yn ymholi am gymdeithas a Duw. Pa fodd y gallant hwy rodio ynghyd, sy heb fod yn gyttân? Y mae sail cymmundebed ar undeb, a sail undeb ar debygrwydd. A pha debygrwydd sy rhwng Duw a'r diafol, sancteiddrwydd ac anghyfiawnder? Y mae gwahaniaeth mawr rhwng ymarfer ag ordinhadau, a chael cymmundebed a Duw. Gall dyn fod yn dra chydabyddus ag ordinhadau, ac ar yr un pryd yn ddiethir iawn i Dduw. Nid yw pob un a a i'r llys, ac sydd yn ymdroi o ddeutu y palas, yn cael siarad a'r brenin. A pha bethau gwael yw ordinhadau, heb y cymmundebed hwn a Duw? Tebyg yw ordinhadau i'r cyfnewid-dy, lle y mae eneidiau duwiol yn masnachu a Duw trwy ei Ysbryd am ddyrorauf nefol; o'r hwn y deuant wedi eu llysu a'u cyfoethogi a gras a chysur. Ond pa beth a wna yr adyn ansanctaidd? Yn debyg yn wir i rai segurwyr, a ddeuant ac a rodiant ym mysg marsiandwyr, ond heb un neges yno na marchnadaeth i ddwyn iddynt elw. Nid oes gan galon ansanctaidd ddim a wnelo a Duw; a'r hwn nid yw yn gwneud sylw o Dduw, gall fod

yn sicr nad yw Duw yn sylwi arno yntaf fel ag i gymdeithasu yn rasol ag ef. Nag gadewch fod dyn yn sanctaidd ei egwydd ond yn bresennol dan rym rhyw demtasiw trwy hyn y mae yn ymhalogi; y mae efe o achos hwn yn anaddas i gael cymmundebed cyfeillgar a Duw: "Gwr cyfiawn we syrthio i lawr ger bron y drygionus, sy megys ffynnon wedi ei chymmysgu a go budr;" *Diar*. xxv. 26. Llauer gwaeth i efe pan y syrthio ger bron yr un drwg, yr ymrodda i'w demtasiwn ef: ar hyn, y mae ei ysbryd wedi ei ddiwyno a'i gynnmysgu. Ac oni ddefnyddiwn ni ddwfr ffynnon (er fod ynddo ei hun yn bur ac iachus) pwyddo wedi cymmysgu; hefyd, oni yfwn o lestr a fyddo yn rhedeg yn dewlyd, o aros iddo waelodi a gloewi; a allwn ryfeddu os gwrthyd Duw brofi o'r dyle swyddau a gyflawna dyn duwiol cyn i'r ffirf loewi, trwy adnewyddiad ei edifeirwch: ei bechod?

4ydd. Y mae sancteiddrwydd yn ei rym yn angenrheidiol i wir heddwch a llonydd yreiaid. Nid ydwyf yn dywedyd fod sail heddwch ar gyfiawnder ein hanian, i sancteiddrwydd ein bucheddau; etto, y mae y rhai hyn bob amser yn ei ganly: "Yn oes heddwch, medd fy Nuw, i'r annuwiol *Esa*. xlviii. 22. Y mae mor hawdd i'r rodidi llonyddwch gwastadol i'r mor, a galon ansanctaidd fod yn wir heddwch. O ba le y mae y rhyfeloedd tumewnol mynwesau dynion sy'n eu gosod me hunan-ymrafaeliad, ond oddi wrth chwantauf eu hunain? Y rhai sy'n tueddi heddwch, ac yn cadw y dyn mewn tymmebarhäol. Fel y delo Ysbryd sancteidd i'r galon, a theyrn-wialen Crist (sy'n deywialen cyfiawnder) i reoli yn y fuchefelly y tawelir yr ystorn fwyfwy, nes tawelwch fod yn gyflawn, yr hyn ni fyddtu yma i'r nef. Yno yn unig y mae llonyddwch perffaith, am mai yno y mae sail eiddrwydd perffaith. O ba le y mae yr ofn a'r dychrynfeydd, a'u gwnânt hwy yn Fag missabib, "Dychryn o amgylch," i ddefnydd huno, a sawr tân uffern o ddeutu yn wastol? O! eu gyrfa ansanctaidd, a'u ffyrdd a hyfiawn, sydd yn ymrodio yn eu meddyliafel ysbryd Ioan yn meddyliau Herod, yw achos. Hyn sy'n gwneud dynion yn anfoel ym mhob cyflwr; nis gallant archwaethu i'w usder eu mwyniant, na goddef blas chwedeu cystuddiau. Mi a wna fod ffyrdd ysfyrdanu y gydwybod, a rhywioff synwcalon anrasol dros amser fel na themlo i'w ei thrueni. Ond buan y treulir grym yscysgld hwn; ac yna, y mae yr adyn arteithiad drachefn, a'i dychryn yn chwellwch arno gyda chyreh poethiach. Clafais am esampl hyn:—Yr oedd meddyfnodedig, a arferai (pan ddywedid wrtho) ei fuchedd annuwiol) ysgwyd ymaith

gythion y gair a fynasai ei gyfeillion wasgu
t ei gydwybod, mor hawdd ag yr ysgyd-
rodd Paul y wiber oddi wrth ei law. gan
mgynnal mewn gobaith rhyfygus am dru-
aredd Duw yng Nghrist. Rywbryd ar ol
yny, gwelodd Duw yn dda ei roddi i or-
redd mewn clefyd; hyn am dro a frawych-
dd ei hen gyfeillion a'i frodyr mewn an-
iredd rhag ymweled âg ef. Ond wrth
lywed ei fod yn llon a difyr yn ei glefyd,
wy a anturiasant i'w olwg, a chawsant ef
dra hyderus am drugaredd Duw; ac felly
t dwylaw a fawr gadarnhawyd yn eu hen
yrdd. Etto, cyn ei farw, ei dôn hon a
vyr newidiwyd: ei wag obaith a ddiffan-
dd; a'i gydwybod euog a ddeffrôdd: a dyna
t adyn, druan, yn rhostio yn filaman tan-
edd ei arferion annuwiol gynt; ac ar drengu,
e a lefodd yn anobeithiol, "O, syrs, myfi
ddarperais blastr, ac a dybiais fod pob
th yn dda; ond yn awr, ni lôn yn hwy."
e oedd ei gydwybod euog yn ei rwbio ym-
h cyn gynted ag y gosodai efe ef yno.
e yn wir, chwi a gewch brofi nas 'gwna
raed Crist ei hun llynu wrth enaid sy
ewn cynghrair âg un ffordd o bechod ac
wiredd. Myn Duw y cyfryw oddi wrth
rn yr allor hon, y ffoisant ati (ond nid
di wrth eu hanwiredd), ac fe'u lladd hwy
e bron y babell hon y maent yn rhoddi eu
der arni. Chwi a wyddoch y genadwri a
fonodd Solomon at Adoniah: "Os byddi
n yn da, ni syrth un o'th wallt; ond os ceir
ygioni ynot, ti a fyddi marw." Yn ofer
ueddylia dynion am ymguddio dan aden
ist rhag cri a gwaedd eu cydwybodau cyd-
ddol, tra y mae anwiredd yn cael nawdd
mewn hwy. Ni fwriadwyd Crist erioed
n Dduw i ddiogelu dynion yn eu hanghyf-
wnder, ond i'w gwaredu oddi wrtho.

bed. Y mae gan sancteiddrwydd efaith
thol. Pan ymddangoso hwn yn rymus
nywyddau Cristionogion, y mae yn
eithio yn nerthol ar ysbrydoedd dynion:
na hyn gau safnau annuwiolion sydd yn
od i waradwyddo crefydd, a thaffu tom
hodau profesywyr i wyneb profes ei hun.
wy a ddywedant y taw llyfiant â'u cryg-
wydd pan ddygir goleu yn agos atynt. Y
e goleu ymarweddiad duwiol yn gosod
fel pe byddai, ar safnau rhai halogedig;
y mae yn rhoddi gorfodaeth arnynt i gyd-
bod Duw ynddynt: "Llewyrched felly
u goleuni ger bron dynion, fel y gwelont
a gweithredoedd da chwi ac y gogonedd-
eich Tad yr hwn sydd yn y nefoedd;"
v. 16. Iê, yn rhagor, nid cau eu
au yn unig a wnai hyn: ond byddai yn
dion i agor, iê, eu calonau i gofeidio
st a'i ras. Un achos pa ham y daeth
r lliosog o eneidiau i rwyd yr efengyl yn
rif oesoedd oedd, am fod dwyfolder ath-
iaeth yr efengyl yn ymddangos y pryd
y yn nuwioledeb a sancteiddrwydd buch-

eddau Cristionogion. Justin ferthyr a ad-
efodd ar ol ei ddychwelyd: "Fod y purdeb
a'r amynedd oedd yn disgleirio ym much-
eddau Cristionogion, ac yn trechu creulondeb
eu gelynyon yn eu marwolaethau, wedi peri
iddo benderfynu mai gwirionedd ydoedd
athrawineth yr efengyl. Iê, gallai Julian y
gwrthgiliwr ddywedyd, er gwaethed adyn
ydoedd, fod y grefydd Cristionogol mor
gyflym ei hymdaeniad, am fod y Cristionog-
ion yn bobl oedd yn gwneuthur da i bawb a
drwg i neb. Yr wyf yn sier ein bod yn
cael, trwy brawf athrist, yn yr amseroedd
halogedig hyn (pan y mae crefydd dan y
fath ddiwyniad gan gwympiadau mynych,
iê, a phenrhyddid cyffredin profesywyr), mai
anhawdd yw cael neb o'r rhai oddi allan i
ddyfod i rwyd yr efengyl. Y mae rhai an-
ifeiliaid, os unwaith y chwythant ar borfa,
prin y bwyty ereill o'r porfa hwnaw, am dro
ar ol hyny. Yn ddiaa, bu genyf ryw fath o
feddyliau trist fel hyn, am ein hamserau an-
nedwydd ni; nad oes ond gobaith gwan am
ryw nifer mawr o ddychwelwyr newydd i
ddyfod i mewn, nes y gwiso ymaith y saw-
yr drwg a adawodd balchder, ymrysnau,
cyfeiliornadau, a phenrhyddid profesywyr y
dyddiau hyn, ar wirioneddau ac ordinhadau
Crist. Nis gall y gweinidog fod yn pregethu
o hyd; dwy awr neu dair, ysgatfydd, yn yr
wythnos, a dreulia efe gyda'i bobl yn y
pulpud, yn dal drych yr efengyl o flaen eu
hwynebau: ond am fucheddau profesywyr,
y mae y rhai hyn yn pregethu ar hyd yr
wythnos. Pe byddent ond yn dda, a theil-
wng o'u dilyn, byddent megys yn ail adrodd-
iad o bregeth y gweinidog, i'w teuluoedd
a'u cymmydogion y maent yn ymarweddu
yn eu mysg; a hwy a gadwent swm yr ath-
rawiaeth yn barhaus yn eu clustiau. Rhodd-
ai hyn i Cristionogion fantais brydferth i
wneud lles i'w cymmydogion anianol, trwy
gyngor a cherydd. Anfynych yn awr yr
arferir y rhai hyn; a phan eu harferir, nid
yw ond i ychydig ddiben, am nad yw ymar-
weddiad addas yn gefn iddynt.

Dywed Tertulian, "Y mae yn gweddu i'r
neb a fynai gyngori neu geryddu arall, i
wylio ar ei eiriau, ynghyd âg awurdod ei
ymddygiad ei hun, rhag i'w eiriau (os bydd
hwn yn eisieu) beri gwarthrudd iddo ei
hun." Nid hoff genym fod i un âg auadl
ddrewllyd ddyfod yn rhy agos atom. Gan
hyny, angenrheidiol yw fod gan y cyfryw
fuchedd a arolo yn berائد. Y mae
ceryddon yn feddyginiaeth dda; etto, eu
chwaeth yn anfodddhaol: ac anhawdd yw i
ddynion fod heb eu bwrw i fyny ar wyneb y
neb a'u rhoddo. Yn awr, nid oes dim sydd
yn well i gadw cerydd rhag dyfod i fyny fel
hyn na sancteiddrwydd y dyn a fyddo yn
ceryddu. "Cured y cyfiawn fi yn garedig
(medd Dafydd) a cherydded fi: na thored eu
holew penaf lwynt fy mheu;" *Salm* cxli. 5.

Gwelwch mor dda ei cymmerir o'r fath law, a'r awdurdod a ddyry sancteiddrwydd i'w ganlyn. Nid oes ond adyn gorwael a dery wr cyfiawn â dirmyg, am ei daraw ef â cherydd, os gosodir ef arno yn dyner, fel olew cynnhes, ac os rhwber ef i mewn, fel y dylid, gyda thosturi a chariat ad yr enaid. Fel hyn y gwelwn mor gynhyrfiol fyddai grym sancteiddrwydd, fe, i'r annuwiol; ac nid i'w fyddai ar ein brodry a'u cydgristionogion. Pan welo un Cristion sancteiddrwydd yn gwreichiollu yn muchedd un arall y byddo yn cyfeillachu âg ef, caiff deimlo ei ras ei hun yn llemain o'i fewn, fel y baban yng nghroth Elizabeth wrth gyfarchiad Mair. Yn wir y mae un gwresog sanctaidd yn ddiog i roddi bywiogrwydd mewn cymdeithas gyfan. I'r gwrthwyneb, y mae cyfeillionad neu benrhyddid un profeswr yn peryglu y gymdeithas oll, a fyddo yn gydnabyddus âg ef. Am hyn y mae i ni orghymyn dwys, "Dilynwch heddwch â phawb, a sancteiddrwydd, heb yr hwn ni chaiff neb weled yr Arglwydd: gan edrych yn ddyfal na byddo neb yn pallu oddi wrth ras Duw; rhag bod un gwreiddyn chwerwedd yn tyfu i fyny, ac yn peri blinder, a thirwy hwnw llygru llawer;" *Ileb.* xii. 14, 15. Wrth profeswyr y dywedir hyn. Nid oedd meddwod, afenddi, a rhodiad anwir y paganiaid yn eu rhoddi hwynt mewn cymmaint o berygl: ond pan dyfo gwreiddyn chwerwedd ym mysg profeswyr eu hunain, y mae yn berygl iddo lygru llawer. Nid yw y claf ar gefn y blaidd mor beryglus i'r defaid, am na thynir mo honynt yn hawdd i'r fath gymdeithas; ond pan ddelo i fysg y praidd—profeswyr, sydd yn ymborthi, yn gweddio, yn gwrandaw, ac yn rhodio mewn cydgymdeithas—yn awr y mae lle i ofni yr ymdaena. Gwna un profeswr penrhydd, cyfeillionus, fwy o wasanaeth i'r diafol yn y flordd hon, na thorf gyfan o rai heb liw o grefydd. Nid yw Satan yn ennill cymmeriad drwy y rhai hyn. Y mae llawer o gyfeillionadaw ac arferion drwg wedi bod yn gorwedd yn hir ar ei law; ac nis gallai efe gael gwerth arnynt, nes iddo gael y flordd hon, i ddefnyddio rhyw brofeswyr fel ei farchnadwyr, i'w cymmhell ar ereill, a'u rhoddi ar led drosto. Ac os na fydd i'r cyfryw faglu a halogi ereill, trwy eu rhodiad ansanctaid, yn sicr hwy a boenant en calonau, ac a'u cywilyddiant o flaen y byd. O! fel y deil Cristionogion eu penau i lawr, o achos y gwaradwydd gan rai o'u cymdeithas—fel y tralodwyd y patrieirch oll, pan gafwyd y cwpan yn un o'u sachau! Ac nid peth bychan yw tristau calonau pobl Dduw. Mewn gair, y mae yr hwn nad yw, mewn rhyw fesur yn dal i fyny rym bywyd duwiol, yn ei wnenthur ei hun yn ddi-ddenydd ac anfuddiol. A ddymunet ti weddio dros ereill? Gallai pagan beri i ddynd drwg

dewi, a pheidio gadae i'r duwiau wybod fod yn y llong, pan ydoedd yn ystorn: nynt. A ddymunet ti lefaru gair o gyswrth ryw enaid galarus, neu o gyngor arall? O, mor ddiflas yw cysuron yn difo o'r fath enau! Ac ni feddwl dy gyfaill fod ond yn cellwair, pa beth bynag a ddyw at gannawl sancteiddrwydd: ni chred dy fod ti dy hun yn ei dybied yn dda herwydd yna ti a gymmerit dy hun yr llywyd yn ei gannawl i arall.

Ged. Cyfiawnder a sancteiddrwydd, y rhyn yw colofnau teyrnasoedd a gwladiaethau. Pwy yw y rhai sydd yn cadw'r rhag syrthio ar ben pobl, ond y cyfiawn mewn cenedl? Buasai deg o rai cyfiaw pe cawsid hwynt yn Sodom—yn cadw dy yr ystorn o dan a brwmstan a'u claddo hwynt mewn ychydig oriau, yn eu lludw hunain: te, yr oedd dwylaw yr angel dinyiol yn rhwym, fel pe buasai, tra bu Lot gyfiawn yn eu mysg; "Brysia, allaf wneuthur dim nes dy ddyfod yn *Gen.* xix. 22. Cadarnhawyd Rehoboam deyrnas am dair blynedd; gallant fod dair ar hugain, pe ni buasai iddo trwy anghyfiawnder ei thyru i lawr ar ei ben hun a'i bobl: canys dyddiwyd ei aflwyd amser pennodol ei ymadawiad â Duw *Cron.* xi. 17; a xii. 1. Iosiah, pan dd: i'r frenhiniaeth, a gafodd deyrnas Iudah treiglo yn gyflm iawn i ddiynstr; etto, fod ei galon ef gyda Duw, ac yn ymbar i rodio yn ei ofn ef, cymmerodd Duw feichniaeth ef (fel y gallaf ddywedyd) o bobl resynol, pan oedd ynt yn ei afael agos yn urws y carchar: ac felly yr oedd diogelwch hwynt, mewn ystyr, yn rhy yn ei fywyd ef. Yn fuan ar ol ei farwolaeth y cwbl i ddiynstr yn en plith. Yn rodd gwrol oedd hwnw o eiddo Luther, o yn rhagweled cwmwl du o farnau Duw dyfod ar dir yr Almaen. Dywedodd y rai o'i gyfeillion, "Y gwnai efe ei oreu gadw rhag disgyn yn ei ddyddiau ef; yr oedd yn hyderu na ddisgynai: ac, eb "Wedi fy myned, edryched y rhai a fydd fy ol ati." Cafodd y deyrnas wael Prydain, dros amryw genhedlaethau olynifer o gyfiawnton gwerthfawr; y rhai i ras Duw a rodiant gyda Duw, ac a sant eu endw yn ddirychau, mewn mawr, oddi wrth halogedigaeth yr amannuwiol y buont byw ynddynt. Y rhai hyn yn attegion en hamryw oeso cafodd y rhai hyn yn fynych ffarf, Duw i erfyn am fywyd y genedl hon, oedd ei gwddf megys ar y boncyff. O maent hwy wedi myned, nen yn dreulio ymaith, a chenedl newydd yn yn eu lle. Annedwydd y gelwid y y'ch ganwyd arno, os chwychi yw y a dorai y cloddiau (trwy ddiryw oddi rym duwioldeb), wedi iddynt hwy fod

ndrechgar i'w dal i fyfny, ac a ollyngai
 lly farn ddiystriol i lifo dros y wlad. Ni
 yfrifwn yr etifedd hwn yn annheilwng
 wreiddyn a'i dreftadaeth, yr hwn yn ei
 fa lygredig a afradlona yr etifeddiacth a
 osglywddwyddiddo, trwy ofala darpariaeth
 hynafiaid dros aml genhedlaeth; ond o'r
 vedd sydd yn cael gorpheniad annedwydd
 ddo ef, ac amrhydedd y teulu i'w chanlyf.
 bu un oes debyg i wneud fel hyn i'w
 lad enedigol, ein hoes ni, yn yr hon y
 riwyd ein coelbren trwm i fyw yw hono.
 yr isel y mae gryn duwioldeb wedi myned
 ein mysg, wrth yr hyn ydoedd, ie, yn yr
 ddiwedda! Och! y mae crefydd yn
 dded yn isel ac ar waddod ym mysg
 ffeswyr: hyn a wŷr y Duw na wna yn
 ei oddef. Os gŵyr yr Aiphth fod sychder
 agos wrth drai isel yr afon Nilus, yn
 gallwn ni weled fod barn yn dyfod,
 h yr iseliad o ran grym duwioldeb. - Y
 dwys gwynion am golliedion laver yn
 amseroedd chwyrndroawl hyn: rhai a
 ant am leoedd a meddiannau a gollwyd;
 ll am fywydau cyfeillion a gollwyd yn y
 fel. Ond y mae yn iawn i broffeswyr
 a y lle blaenaf ym mysg holl alarwyr yr
 i wylo am eu cariad at wirioneddau
 it, at addoliad Crist, ac at weision Crist,
 llwyd ganddynt; ie, ac am yr adfeiliad
 edin sydd yn ymddangos yn eu rhodiad
 iol ger bron Duw a dynion. Y mae
 yn drwm yn wir; ond chwangediad ar-
 dus at ein drwg ni yw hyn, ein bod yn
 wio, ac yn tyfu yn benrhydd yn y pryd
 iae arnom yr ymrwymiadau mywyf i
 teidrwydd, a fu erioed ar un bobl.
 ydym ni yn bobl a waredwyd o safn aml
 gl a marwolaeth: a pha bryd yn fwy
 llai Duw ddisgwyl ein cael yn genedl
 wn? Y mae yn amser drwg i ddyd
 w at chwiwiau a lladrata drachefn, cyn
 ed ag y byddo y rhaff oddi am ei wddf,
 antau wedi ei ollwng i lawr yr ysgol yn
 gel, oddi ar yr hon yr oedd ychydig o'r
 i yn debyg o gael ei droi i hongian.
 lldiau, yr oedd yn chwangediad at bechod
 i gyfiawn, iddo feddwi mor fuan ar ol
 wyn i dir, ar ol gweled ychydig cyn
 fydd cyfan yn soddi o flaen ei lygaid, ac
 u, y gwr breiniedig, wedi ei adael gan
 w i adblanu y byd â had duwiol. O.
 nid yw y ddaear etto ond prin wedi
 yr afonydd o waed a dywalltwyd yn
 tr. Nid yw y dinasoedd a'r trefydd
 prin allan o'u hadfeiliad, a ddygodd
 ni rhyfel arnynt. Cwynion yr amddi-
 ni gweddwon agollasant eu perthynasau
 f, ni ddistawyd etto trwy eu marwol-
 eu huain. Iê, ein brawiau a'n hofnau
 unain, y buom mewn syndod ynddynt,
 weled y genedl fel canwyll yn llosgi yn
 a-pen, yn fflam, a'r tân yn dyfod beu-
 yn nes nes atom ni ein huain, a ail y

rhai hyn gael eu hanghofio mor fuan? Fod
 i genedl yn awr yn y fath amser a hwn, ie,
 a'r rhan broffesedig o honi, fyned yn fyw
 penrhydd, balch, cybyddlyd, ymrysongar,
 anwadal yn eu hegwyddorion, a difol yn
 eu bucheddau, rhaid yw i hyn fod yn alar-
 nad. Ychydig achos sy geuym i ymfrostio
 o'n heddwch a'n llawnder, pan mai canlyn-
 iad ein hachubiaeth yw ein rhodiad i fyfny
 i wneuthur y fath ffeiddwaith. Tebyg yw
 hyn, fel pe byddai i un a ymadawodd â
 chryd tridiau—ond a syrthiodd i ddyfrglwyf
 trwm—ymfrostio am ymadael â'i gryd, heb
 feddwl, pan aeth hwn ymaith, ddarfod iddo
 gael gwaeth llettywr ar ei ol. Cyfnewid an-
 nedwydd—Duw a'i gŵyr—yw cael symmud
 rhyfel, pla, a newyn, a chael ein gadael yn
 chwyddo gan falelder, cam farn, a phen-
 rhyddid.

Drachefn, yr ydym ni yn bobl a ymho-
 odd yn fwy i gyfiawnder a saneteiddrwydd,
 nag a ddarfuo i'n hen dadau erioed. Pa beth
 arall oedd meddwl yr aml weddiau ar Dduw,
 a'r erfyniadau at ddyinion am ddiwygiad?
 Pa ddehongliad a allasai calon garedig ei
 wneud o'n hyniroddiad dan rwyngau cyfam-
 mod i ymgais am ddiwygiad personol, a
 gwladol hefyd, ond ein bod o ddirif yn
 meddwl bod yn genedl gyfiawnach nag
 erioed o'r blaen? Parodd hyn y fath ad-
 sain uchel mewn parthau pellenig, nes
 ydoedd eglwysydd lled agos atom mewn syn-
 dod wrth feddwl pa fath firwyth a ddeuai o'r
 cychwyniadau disglair hyn. Felly, yn awr
 wedi deilio fel hyn, a mynegi wrth Dduw a dyn
 pafath firwyth a ddisgwylid a'nom, y mae yn
 rhaid i'r cyflwr presennol fod yn agos i
 felldith, am roddi som i'w disgwyliaid
 cyfiawn. Nid oes dim a achub fywyd ein
 cenedl hon, nac a bair estyniad mewn tru-
 garedd ar ei heddwch, ond yr adfywiad o
 rym duwioldeb sy dan gymmaint adfeiliad.
 Hyn, megys fffynnonell o waed newydd i
 gorph gwan, a'i bywiocâi, er ei fod agos yn
 marw; ac a ddygai aml ddydd dedwydd, ie,
 fwy o ddyddiau dedwydd i ddyfod, nag a
 welodd hi o'r blaen. Ond och! fel yr ydym
 yn dirywio o ddrwg i waeth, nid ydym ond
 yn marw o nychedod araf, ein hanadl yn
 byrhau beunydd. Pe tynid y cleddyf ond
 unwaith etto yn ein mysg, ni feddwn ond
 prin nerth i ddal dan gyrch-ias arall.

PENNOD VI.

*Yn cynnwys yr esampl gyntaf, yn yr hon y mae i'r
 Cristion ddangos grym duwioldeb, sef yn ei ym-
 ddygiad tuag at bechod. Rhannu hyn i amryw
 ganghenau neillduol.*

Yr ydym bellach yn dyfod at yr ail beth
 neillduol yn rhaniad y pwngce, sef i bennodi
 rhai pethau, yn y rhai y mae i'r Cristion

ddangos grym buchedd sanctaidd a chyfiawn. Gwnaf hyn dan amryw benau.

1. Gristion, bydd sicr o'th fod yn cynnal grym duwioldeb yn dy ymladdfa â phechod, yr hyn a ddylit ei ddangos yn y pethau canlynol:—

1af. Yr wyt nid yn unig i ymwrthod â phechodau anferth hyll, ond i ochel hefyd bob rhith drygioni—hyn yw rhodio yn ol grym duwioldeb. Y golomen, nid yn unig hi a ddiane rhag y gwalch, ond nis gwna arogli gymmaint â phluen a syrth oddi wrtho. Dylai fod yn ddigon i darfu enaid duwiol oddi wrth ryw anturiaeth, os bydd ond lliw drwg arni. Gorchymyuir i ni gasau, “hyd yn oed y wisg a halogwyd gan y cnawd; *Iudas 23*. Fe nacâ dyn glauwaith, nid yn unig ymdreiglo yn y domen (creadur budr yn wir a wna hyn), ond y mae yn ofalus hefyd na lyno brycheuyn ar ei ddillad tra y mae yn bwyta ei fwyd. Dylai fod gofal y Cristion i gadw ei gydwylbod, ac felly hefyd ei enw yn bur, yr hyn a wneir drwy “ymgadw oddi wrth bob rhith drygioni.” Y mae trigofyniad Bernard yn werth eu gofyn i ni ein hunain ym mhob gorchwyl. A yw yn gyfreithlawn? A yw yn gweddu i mi, sydd yn Gristion? A allaf ei wneud heb wneud am â fy mhroffes? Gwaith a fo yn gweddu i wr o radd isel, a weddai hwnw i dywysog? “A ffy gwr o'm bath i?” meddai Nehemiah yn fawrwyh; *Neh. vi. 12*. Yn olaf, a ydyw yn fuddiol? A allaf ei wneud heb roddi trangwydd i fy mrawd gwan? Y mae rhai pethau y dylem ymwadu â ni ein hunain ynddynt er mwyn ereill. Er y gallai dyn eistedd ar ei farch a'i yru ar garlam heb beryglu ei hun, etto, drwg fyddai ei ddyfod ar wyllt yriad trwy dref lle y mae plant ar y ffordd, a allant gael, cyn iddo wybod, eu mathru a'u hanafu ganddo. Y mae fel hyn rai pethau a elli eu gwneud heb bechod arnat, pe na byddai Cristionogion gweiniaid ar dy ffordd, i yru drostynt, ac felly archolli eu cydwylbodau tyner, a gofidio eu hysbrydoedd. Ond och! y mae hwn yn llwybr rhygul i lawer o blisg broffeswyr y dyddiau hyn i rodio ynddo: rhaid iddynt hwy gael mwy o le a rhwysg i'w calonau rhyddion, neu ynte hwy a ymadawnt â'u profes. Rhyddid yw Diana ein hoed ni. O! y fath esgusodion a roddir dros ryw arferion amhleus—gwallt laes, gwisgoedd coegwch, wynebaw llwiedig, a dwyfronau noethion! Gynt, galwyd y rhai hyn i brawf; a barnwyd hwynt gan Gristionogion difrif ac iachus, fel pethau i'w hammheu o leiaf, ac heb fod iddynt air da. Ond yn awr, hwy a gawsant reithwyr tirionach, y rhai sy'n eu cael yn ddieuog. Iê, y mae llawer yn eu hoffi mor fawr nes ydynt yn meddwl fod rhyddid Cristionogol yn cael can pan y beir arnynt. Mor bell yw profleswyr oddi wrth eiddigedd duwiol (a

wnai iddynt wlyio eu calonau rhag myn yn rhy bell), nes ydynt yn tyn-estyn eu cydwylbodau hyd eithaf eu rhaff. Fel pe bydd hwnw y Cristion gywchaf a allai ddyfod agosaf i bwll pechod, ac heb syrthio iddo megys mai hwnw oedd i gael y goroubl yng nghampau Olympia a allai yru ei gyd byd agosaf i'r nod terfynol heb dan wrtho. Pe byddai hyn felly, camsynied oedd Paul, pan archodd i Gristionogion “ymgadw oddi wrth bob rhith drygion (*1 Thes. v. 22*): dylasai yn hytrach ddywyd, yn ol duwinyddiaeth y rhai hyn, y gedwch, nid rhag y rhith o ddrygioni, y yn unig rhag y peth sydd ynddo ei hun fawr ddrwg. Ond y neb a all anturiorith drygioni, dan rith o ryddid, gall hwnw am ddim a wn i, wneuthur drygioni ferthach, dan ryw rith o ddaioni. Os â i'r draul, nid anhawdd fydd rhoddi lliw ar ddefnyddiau pwdr, ac arferion hefyd.

2il. Rhaid yw i ti, nid yn unig ymdre yn erbyn pob pechod, ond hyn, oddi egwyddorion ardderchog. Yma y mae gduwioldeb. Y mae llawer yn ymattal i pechod ar y fath gyfrif annheilwng, na olcha Duw am eu gwaith, ddydd a de. Fel y mae yn ngweithredoedd crefyddol elusen, na wna Duw gyfrif o honynt, eithr i ni ei olygu ef ynddynt (pan yr prydiom, neu y gweddiom, y mae Duw gofyn: “Ai i mi yr ymprydiasoch, *Zech. vii. 5*), pan roddom elusen, y “cwpanaid o ddwfr oer,” er ei fwynt e “yn enw disgybl,” yn fwy gwerth ganddo ef na chwpanaid o aur, i ddiion gwael a dynol: *Mat. x. 42*. Felly'n pechod, y mae Duw yn edrych am i'w durdod ef gael penderfynu, ac i'w garu ein cymmhell i ymwrthod âg ef. O fla deg gorchymyn, fel y gesyd tywysogion flaen eu cyhoeddiadau eu pais arfau breninol enwau, y mae Duw yn goser enw gogoneddus: “Duw a lefarodd yr eiriau hyn, gan ddywedyd, &c.,” *Ecsai. 1*. A pha ham hyny? Ond fel y sanctiem ni ei enw yn ein holl waith. I gall meistyr dybied ei hun yn ddiysty gan y gwas hwnw a â ym mlaen, er id beri iddo roddi heibio ryw waith, o baid yn ebrwydd ar archiad un arall. y fath nifer sy'n myned ym mlaen i ber y cwbl a ddywed Duw yn erbyn l ond pan archo eu gair da, iddynt rha wylydd y byd roddi heibio ryw arf gallant beidio yn ddiwed: a phan lefa budd, caiff wrandawiaid ac ufudd-dod.

O syrs! gwyliwch rhag hyn: y mae yn disgwyl fod i'w weision ef nid yn wneud yr hyn a archo, ond wrth ei ar a'i archiad ef yn unig. Ac fel yn yr taliad rhag pechu, felly yn y galar am odau a wnaed genym. Os mynwn f Gristionogion yn wir, y mae yn rhai

oesawu, i.e. rhoddi lle i orchwylion Duw
 flaen yr eiddom ein hunain. Yn wir,
 munol fyddai pe byddai rhai mor dda
 th eu heneidiau a galara drostynt eu
 nain pan bechont; pellefent gyda Lamech,
 Mi a leddais wr i'm harcholl, a llinge i'm
 is;" *Gen.* iv. 23. Y mae gan lawer y
 h gydwybodau tew-gryffon, fel na chwyn-
 t' gwyddiant a'u bod wedi eu briwo eu
 nain trwy eu pechodau: etto, nid oes
 nawr o rym duwioledeb i'w weled yn hyn
 yd. Dichon fod gwaedd fawr yn y gyd-
 boeth, Mi a ddamniwyd, Mi a andwyais
 hun; a'r anfrïa a frwriwyd gan y dyn ar
 uw heb ei osod at ei galon. Chwi a
 i'wch ddywediad Ioab wrth Dafydd, oedd
 wn trymder am farwolaeth Absalom:
 li a wn," eb efe, "pe Absalom a fuasai
 w, a ninnau i gyd yn feirw heddyw,
 i da fuasai hyn yn dy olwg di;" 2
 n. xix. 6. Fel hyn y gallem ddywedyd
 th y fath alarwyr hunanol, Ni a wyddom
 gellit ti ond cadw bywyd dy enaid rhag
 eu a barn dragwyddol, er i ogoniant
 w gyfrgolli, y gellit ti fod wrth dy fodd.
 d gwybydd fod galara enaid grasol yn
 deg mewn ffryd-le arall; "Yn dy erbyn
 dydi dy hunan y pechais;" Dyma gŵyn
 fydd dduwiol: *Salm* li. 4. Y mae
 ahaniaeth mawr rhwng gwas sydd yn
 eithio i arall, âg un sydd yn wr iddo ei
 h, fel y dywedwn. Rhydd yr olaf ei
 gollodion arno ei hun. Hyn a hyn a
 lais, medd efe, drwy y gyfryw long; a hyn
 hyn trwy y cyfryw fasnach. Ond y
 as sy'n marchnata ag eiddo ei feistr, efe,
 ddelo rhyw golled, a'i rhydd i gyfrif ei
 str; hyn a hyn a gollais o eiddo fy
 str. O Gristion! meddwl am hyn: nid
 vynt ti ond gwas; yr holl ystôr sy tan dy
 , nid eiddot ti yw, ond dy Dduw. Ac
 hyn, pan syrthiech i ryw bechod, galara
 blegid fel cam âg ef: Och! mor bell a
 y diannrhydeddais fy Nuw, y gwastreff-
 ei dalent ef, yr anurddais ei enw, ac y
 diais ei Ysbryd!

4ydd. Rhaid yw iddo, nid yn unig ym-
 w rhag gweithredu pechod, ond ymgais
 yd am ei farwhau. Gellir cuddio briw,
 y byddo heb ei iachau; a'i anhuddo,
 ei feddyginiaethu. Y mae rhai, fel
 dygon anfedrus, a yrant yr afiechyd i
 wn, yn hytrach na gyru allan yr achos o
 o. Y mae llygredd, o'i adael fel hyn yn
 ynwes, yn debyg i galch poeth, neu
 ygnaws heb ei arllwys, ryw bryd yn sicr
 unyn a thori allan, 'er iddo fod yn awr
 ddistaw, fel pylor yn y baril, ac heb
 dim swm. Mi a ddarllenais, mai agor
 , yn yr hon yr oedd rhyw ddillad wedi
 cadw, heb eu gwyntio a'u glanhau yn
 as oddi wrth ryw haint a fuasai yn y tŷ,
 yn achos o bla mawr yn Venice, ar ol
 ynt fod yno lawer blwyddyn, heb wneud

dim niwed. Sicr wyf ein bod yn gweled
 llawer, trwy ddiffyg gwir farwâd, wedi
 iddynt rodio yn ddeifeus, nes ennill y cyfrif-
 iad o fod yn saint, ym marn ereill; etto, ar
 ryw achlysur (fel agoryd y gist) yn syrthio i
 arferion erchyll. Ac am hynny y mae yn
 gweddu i ni beidio ymfoddloni ar ddim llai
 na gwaith o wir farwâd, a hwnw yn cael
 ei ddilyn o ddydd i ddydd. "Yr ydwyf
 beunydd yn marw," medd Paul, "tyst fy
 ngorfoledd yr hon sydd genyf yng Nghrist."
 Dyma ddyw yn rhodio yn ol grym duwioledeb.
 Y mae pechod yn debyg i'r bwystfil (yn
Dad. xiii. 3.) yr hwn a ymddangosai un
 pryd fel pe buasai ar drange gau ei friw; ac
 yn fuan yr oedd wedi ei iachau yn rhyfedd
 o'i friw, nes ydoedd ar ei draed drachein.
 Y mae llawer o'r saint, o ddiffyg dâl yr
 awenau yn dŷn, i.e. o hyd, a rryw lygredd, yr
 hwn y tybiasant iddynt gael meistrolaeth
 arno, wedi cael eu taflu o'r cyfrwy, ac felly
 eu llusgo yn enbydus i brofedigaeth, ac heb
 allu gwrthsefyll gwylltineb chwant pengryf,
 nes cael tori eu hesgryn gan ryw godwm
 trwm i bechod. Gristion, os mynit ddangos
 grym duwioledeb, byth na ddyro heibio
 waith marwâd—na ddyro, pan fyddo dy
 lygreddigaethau yn chwareu leiaf yn dy olwg.
 Y neb sydd yn dueddol i ryw afiechyd, y
 droedwst, y gareg, neu gyfelyb, y mae yn
 angenrheidiol iddo, nid yn unig gymmeryd
 meddyginiaeth pan fyddo y wasgfa arno,
 ond bod o hyd, yn awr ac yn y man, yn
 cymmeryd rhywbeth da rhagddo. Felly y
 dylai y Cristion, nid yn unig pan y teimlo ei
 lygredd yn ymgynhyrfu, ond beunydd
 gadw ei enaid dan gwrs o physygyriaeth
 ysbrydol, rhag iddo gynyddu. Dyma
 dduwioledeb yn ei rym. Y mae llawer o
 broffeswyr yn trin eu heneidiau, yn yr
 achos hwn, fel y gwna llawfeddygon twyll-
 odrus â'u rhai briwiedig; gosod eli iachael
 un diwrnod, ac un gwrthwyneb dranoeth;
 yr hwn a waethyga'r briw, yn fwy na'r
 iachâd gan y llall. Gochel hyn, onid wyt
 yn bwriadu nid yn unig ddwyn grym duw-
 ioledeb i berygl, ond hefyd y bywyd a'r
 gwirionedd o hono i gwestiwn yn dy enaid.

4ydd. Rhaid yw iddo, nid yn unig ymgais
 am farweiddio pob llygredd, ond hefyd am
 ddyfod yn mlaen a chynnyddu yn y gras
 sydd yn wrthwyneb iddo. Ni a ddarllenwn
 am dŷ oedd yn wag, *Mat.* xii. 44—"Aeth
 yr ysbryd aflan ailan;" ond ni ddaeth yr
 Ysbryd Glân i mewn. Hynny yw, pan fyddo
 dyn yn ddim ond rhyw fath o Gristion
 nacaol, y mae yn peidio gwneud drwg
 mewn rhyw ffyrdd, y bu gynt yn eu rhodio;
 ond nid yw yn dysgu gwneuthur daioni.
 Dyma golli y nef wrth saethu yn rhy fyr.
 Ni ofyn Duw i ni beth na fuom, ond beth a
 fuom: bod heb dyngu a rhegu ni wna y
 tro: eithr gofynir i ti, a ddarfu i ti fendith-
 io a sancteiddio enw Duw! Nid digon fydd

i ti dy fod heb erlid Crist; ond a ddarfu i ti ei dlerbyn? Ni fuost yn elyn i'w saint; ond a oeddlt ti yn eu caru? Nid yfwr a thraffingawr oeddlt; ond a lanwyd ti â'r Ysbryd? Dyna'r meddyg medrus, sydd, wrth arllwys yr afiechyd, yn lloni ac yn cryfhau natur hefyd. A dyna'r gwir Gristion, sydd heb ymfoddloni ar yn unig roddi heibio arferion drwg, ond yn ymgais am rodio yn yr ymarferiad o'r grasusau gwrthwyneb. A yw anniodeffgarweh yn dy anhhrefnu, ac ysbryd anffoddog yn dy fino, dan ryw gystudd? Na chyfrif yn ddigon gael distewi dy galon rhag cweyrlu â Duw; ond na ddyro heibio nes i ti ei chael i ymorphwys yn hyfryd ar Dduw. Yr oedd Dafydd dduwiol yn myned mor bell a hyn: y mae, nid yn unig yn ceryddu ei enaid am ei aflonyddweh, ond yn ei alw i ymddiried yn Naw: *Salm* xlii. 5. A oes genyt ryw ddannodiadau yn erbyn dy frawd? Na thybia yn ddigon gael diffodd y gwreiehion hyn o dân uffern; ond ymgais am gael tân cariad nesol yn ennyn ato, i'rh osod i weddio drosto o'r galon. Mi a wn am un, yr hwn, wrth deimlo meddyliau cenfigenus, annhirion, yn ymgynhyrfu ynddo yn erbyn rhywun (a phwy mor sanctaidd nad all efe gael y fath bryfed weithiau yn ymgribo o'i ddeutu?) nid arosai yn hir oddi wrth orsedd gras: ac yno, fel y gallai dystio yn gryfach i'w herbyn, efe a daer weddi'au am gynydd y pethau da hyny ynddynt, y rhai yr oedd efe o'r blaen megys yn eu cenfigenu. Ac felly yr ymddialai efe ar y chwantau cenfigenlyd a fyddai rai prydiau yn ymgodi o'i fewn yn erbyn ereill.

5ed. Rhaid fod ganddo ysbryd cryfach yn erbyn pechodau rhai ereill. Y mae deiliad da, nid yn unig yn ymgais am fyw yn llonydd ei hun, dan lywodraeth ei dywysog, ond yn barod i wasanaethu ei dywysog yn erbyn y rhai ni waent hyn. Y mae gwir dduwioldeb, fel gwir gariad, yn dechreu gartref; ond nid yw yn ymgaeithiwo o fewn ei thê ei hun. Y mae ganddi sel yn erbyn pechod ar led y byd. Dyn o ysbryd amnhlaid (*neuter*), a thebyg i Galio, nad yw yn gofalu pa ddiamrhydedd a gaffo Duw gan ereill, y mae yn rhoddi lle i ammheu y sel a ddengys yn erbyn pechod yn ei fynwes ei hun. Pan fynai Dafydd wybod agwedd ei galon ei hun, yr amlygiad pellaf a alkai efe wneud o'i chywirdeb, yw ei sel yn erbyn pechodau rhai ereill: "Onid cas genyf, O Arglwydd, dy gaseion di? onid ffaidd genyf y rhai a gyfodant i'w erbyn? A chas cyllawn y caseais hwynt; cyfrifais hwynt i mi yn elynion;" *Salm* cxxxix. 21, 22. Ar ol dadgan hyn, y mae yn erbyn ar Dduw ei hun chwilio ei galon: "Chwilia fi, a pharwff fi, O Dduw, a oes ffordd annuwiol genyf;" &c.; *adn.* 22, 23. Fel pe dywedasai, O Arglwydd, ni chyrrhaedd fy llinyn i yn ddyfnach i'm calon;

ac am hyny, os oes modd i un ffordd ddyronus lechu yn is, dywed i mi, a thywys yn y ffordd dragwyddol.

6ed. Pan fyddo y Cristion yn dangos sel fwyaf yn erbyn pechod, ac wedi cael fuddugoliaeth fwyaf arno, rhaid yw iddo, y pryd hyny, ymwadu â phob bost yn hyde ar hyn. Y mae gwrth sancteiddrwy efengylaidd yn gynywysedig mewn hun ymwadiad. "Pe byddwn berffaith," m. Iob, "etto, nid adwaenwn fy enaid;" *ix.* 21. Hyny yw, ni fyddwn fostgar balch o'm diniweidrwydd. Pan fyddo d yn ymchwyllo gan ryw ddawn odidog fedd, ni a ddywedwn, Y mae yn ei wyb—Y mae ganddo ddoniaid rhagorol, ond ŵyr hyny: neu, Y mae yn syllu gorm arno ei hun, ac yn gweled ei wyneb ei hun yn rhy fynych yn nrych ei berffeithrwy ei hun. Y rhai a ddringant fynyddoc uchel, po uchaf yr ânt, y maent yn ei ch yn fywaf diogel wrth grymu ac ymbyly yn eu cyrph: ac felly y dysg Ysbryd Cr i'r saint, po uchaf yr elont yn eu buddugiaethau ar lygredd, i ymbylygu yn is me lunanymwadiad. Erchir i'r "saint y gadw yng nghariad Duw, gan ddisgy trugaredd ein Harglwydd Iesu Grist fywyd tragwyddol;" *Lucas* 21. "Hauy i chwi mewn cyfiawnder, medwch me trugaredd;" *Hos.* x. 12. Yn y byd hauwn, yn y nef y medwn. Yr hâd sy i ni hau yw cyfiawnder a sancteiddrwy; a hyn wedi i ni ei wneud gyda'r gofal gso fwyaf, nid oes ni ddisgwyl ein gw o law ein cyfiawnder ein hwnn, ond i drugaredd Duw.

PENNOD VII.

Ail esampyl, yn yr hon y mae i'w rym danioldeb ddangos yn muedd y Cristion, sef yn ny swyddau addoliad Duw.

2. RHAID yw i'r Cristion ymarfer gan danioldeb yn nyledswyddau addoliad Duw. Yr un goleu âg sy'n dangos i ni fod Duw a amlyga ei fod i'w addoli; ac nid hyn unig, ond hefyd ei fod i'w addoli me modd sanctaidd. Yr oedd Duw yn manwl yn y cwbl a berthynai i'w addoltau y gyfraith. Os byddganddo babe y lle addoliad—y mae yn rhaid iddi fod defnyddiau mwyaf dewisol; rhaid gweithwyr a'i gwnelai fod wedi eu de yn rhagorol i'r diben; rhaid i'r aberthau offrynid fod y goreu ym mhob rhyw, wrywaidd y praid, gorenion yr anidaid, a braser y tu mewn, nid y perfedd. Rhaid i'r gwyr sydd yn gwasanaethu gweinyddu i'r Arglwydd—fod yn rhai sanctaidd neillduol. Beth yw yr efengyl o'i ch, ond fod Duw yn dra manwl yn ei a

d? Os byddwn fwy sanctaidd nag ereill
wn un weithred o'n bywyd, yna yn sier
ded pan fyddo â wnelom â Duw yn ddi-
rwng. Yn awr, dylai y sancteiddrwydd
a yn nyledswyddau addoliad ymddangos
y pethau neilldoul hyn:—

af. Trwy wneud cydwybod o un ddyled-
dd gystal a'r llall. Rhaid yw i Grist-
gylchynu y cyfan o fewn ei rodiad cref-
ol. Peryglus yw cyflawni un ddyled-
dd, fel yr ymesgusodom yn esgeulusiad
uall. Peth cas gan Dduw yw pleidgar-
, yn enwedig yn nyledswyddau crefydd,
oll âg argraph ddwyfol arnynt. Nid
un ordinhad o appwyntiad Duw nad yw
yn ei bendithio i'w bobl: ac nis dylem
yr hyn y mae Duw yn ei addef. Iâ,
ae Duw yn ymgysylltu mewn amryw-
mawr i'w saint; yn awr yn hon, yn
yn y llall; a hyn i'r diben o gadw bri-
ob nn yn ein calonau ni. Y mae y ddy-
li yn ceisio ei hanwylyd mewn dyled-
ldau dirgel gartref, ac heb ei gael: yna,
ne yn myned i'r rhai cyhoedd, ac yn cyfl-
l â'r "Lwn oedd hoff gan ei henaidd;"

iii. 4. Yr oedd Daniel, yn ddiammheu,
mynych gyrchu at orsedd gras, ac wedi
ymarfer â'r ddyledswydd hono; eithr
yodd Daw yr anlygiad llawnach o'i
ad, a'r dadguddiad o ryw ddirgelion
hyd oni chwaneodd at weddi gyffredin
ryd a gweddi anghyffredinol. Yna, y
hymyn a aeth allan, ac anfonwyd cenad
nef i hysbysu iddo feldwl a chalon
y (ystyrier *Dan.* ix. 3, 23). Nid oes un
edswydd nad yw y saint yn cael, ar ryw
neu gilydd, fod Ysbyrd Duw yn anadlu
yfyrd ynddi, ac yn llenwi eu heneidiau
ddi âg adloniaid mwy na chyffredin. Y
y plentyn, weithiau, yn sugno ei laeth
a fron, ac weithiau o'r llall. Y mae
dd, with fyfyrion, yn teimlo gwres nefol
hyn yn ei fynwes: o'r diwedd, torodd
a allan: *Salm xxxix.* 3. At yr eunuch,
yn darllen y gair, anfonwyd Phylip i
wrth ei gerbyd: *Act.* viii. 28, 29.
ygodd Crist ei hun i'r ddau ddisgybl
doriad y bara;" *Luc xxiv.* 35. Ac,
deithio tuag Emmaus, dan gydym-
dan, dyna Grist yn taraw atynt ac yn
elpio hwy i ddattod y cylmau oedd
hy ddyrus iddynt hwy: *adn.* 15. Y
Cornelius, ar ddyledswydd yn ei deulu,
ael gwledigaeth o'r nef, i'w gyfar-
lo yn y ffordd yr oedd iddo ei rhodio:
x. 3.

yn hyny, Gristion, gwylia rhag esgeu-
un ddyledswydd. Pa fodd y gwyddost
hono yw y drws wrth ba un y saif
, yn disgwyl am gael dyfod i mewn
enaidd? Y mae yr Ysbyrd yn rhydd;
wyma ef wrth un ddyledswydd na'r
ond disgwyl wrtho ef yn y cwbl.
doethineb ydyw i ti adael i ddwfr

redeg heibio dy felin, yr hwn a all fod o
ddefydd at roddi dy enaid ar gerdded
tua'r nef. Fe allai, Gristion, mai ychydig
wyt yn ei gael yn y dyledswyddau a gyf-
lawuir genyt—eu bod yn fronau gweigion
i'th enaid. Y mae yn werth ymofyn, ai nid
wyt yn esgeuloso rhyw rai ereill. Ysgat-
fydd dy fod yn gwrandaw y gair i ychydig
fudd: attolwg, dywed i mi a wyt heb es-
geuloso sacramentau? Yr wyf yn sier fod
gormod yn gwneud hyn, ac ar seiliau gwein-
iaid, Duw a'i gŵyr. Ac a fyndi i Dduw dy
gyfarfod di mewn un ordinhad, a thri heb ei
gyfarfod ef yn y llall? Neu, os wyt yn
cyrchu i bob ordinhad gyhoedd, ai nid wyt yn
dra estronol at Dduw gartref—yn dy dŷ a'th
ystafell? Pa gymmudeb sy rhyngot âg ef
mewn dyledswyddau neilldoul? Y mae
yma dwli llydan, ddigon i ti gollu yr hyn a
gei yn y cyhoedd, oni thrwsir ef mewn pryd.
Nid eisteddai Samuol i lawr i wleda gyda
Iesse a'i feibion, nes cyrchu Dafydd yno, er
mai y mab ieuangaf a'r unig un ar ol oedd:
2 Sam. xvi. 11. Os wyt am gael cymdeithas
Duw mewn rhyw ordinhad, rhaid i ti ddis-
gwyl wrtho yn y cwbl: ni fyn efe i un gael
ei esgeuloso yn wirfoddol. O, cyrchu yn ol
y ddyledswydd a anfonaiyst ymaith, er iddi
fod y leiaf yn dy olwg. Fe allai mai hono
y mae Duw yn meddwl ei choroni â'i fen-
dith benaf yn dy enaid.

2il. Mewn dilyniad dyfal-rymus ar y di-
benion hyny, i ba rai yr ordeiniodd Duw
ddyledswyddau. Yn awr, y mae diben
dyblyg, y cyfeiria Duw yn benaf ato yn
nyledswyddau ei addoliad. Yn gyntaf,
Bwriad Duw ynddynt hwy vw i ni ddagan
ein hymostyngiad iddo ef, fel ein penllyw-
ydd. Yn ail, y mae yn eu bwriadu fel
moddion, trwy ba rai y bydd iddo ef ym-
dywallt i fynwesau ei blant, a chyfranu
iddynt y goreu o'i fendithion. Ac yma yrym-
ddengys grym duwioldeb, pan fyddo y Crist-
ion yn ymgais yr ddyfal i gyrhaedd y diben-
ion hyn ym mhob dyledswydd a gyflawnia.

(Iaf.) Fe'n happwyntiwyd gan Dduw i'r
diben hwn, fel y dangosem ein hymostyng-
iad iddo, fel ein penllywydd. Pe ni thelid
addoliad i Dduw, pa fodd y dadganem ac
yr amlygem ein bod yn cael ein bywyd a'n
bod oddi wrtho ef? Un o'r pebau cyntaf a
dysgodd Duw i Adda, ac Adda i'w blant,
ydoedd addoliad Duw. Yn awr, os gwnawn
hyn yn sanctaidd, rhaid yw ei fod genym yn
ofal penaf, i gyflawni pob dyledswydd fel y
sancteiddiom ei enw ef ynddi, ac y rhoddom
iddo ei ogoniant dyledus. Gall deiliad gyn-
nyg aarheg mewn dull mor warthus i'w
dywysog, nes ei fod yn cyfrif ei hun yn ddi-
ystyredig, yn hytrach nag yn barchedig
ganddo. Y milwyr a blygasant y glin i
Grist; ond ei watwar yr oeddynt: *Mat.*
xxvii. 29. Ac felly y mae Duw yn gwneud
cyfrifio waith llawer, ie, tra y maent yn ei

addoli ef. Wrth y modd yr ymddygom mewn dyledswyddau crefyddol yr ydym yn dadgan y meddyliau sydd genym am Dduw ei hun. Y neb a'u cyflawna gydag arswyd duwiol ar ei ysbryd, ac a gyrcha iddynt yn llawn ffydd ac ofn, a than lawenhau mewn dychryn, hwnw sydd yn dadgan yn groew ei fod yn credu bod Duw yn Dduw mawr, yn Dduw da, ac yn Fawrhydi gogoneddus a graslawn. Ond yr hwn a fyddo yn ysgafn a didrefn ynddynt, y mae yn dywedyd wrth Dduw yn ei wyneb, fod ganddo feddyliau gwael ac isel am dano. Y mae camymddygiad dyn mewn dyledswyddau crefyddol yn cyfodi oddi wrth ei gamdybiau am y Duw y mae yn ei addoli. Yr hyn sydd yn gerfiedig ar y sel, chwï a gewch yn sicr ei weled mewn argraph ar y cŵyr: a'r meddyliau a fyddo gan y galon am Dduw, bydd eu hargraph ar y dyledswyddau a gyflawna dyn. Profodd Abel ei hun yn ŵr duwiol, a gwelwyd Cain yn adyn anuwiol, yn eu haberth—a pha fodd hyn? Onid yn hyn, fod cyfeiriad Abel at y diben hwnw a olyga Duw yn ei addoliad, sef sancteiddiad ei enw; ac am hyn, nid oedd Cain yn gofalu dim. Gwelir hyn wrth gymharu aberth Abel â'r eiddo Cain mewn dau beth:—

(1.) Y mae Abel yn dra manwl yn nefnydd ei aberth. Nid yr hyn a ddeuai yn gyntaf i'w law, ond y blaenffwrth: ac nid offrymu culedd y rhai hyny a wnaeth efe i Dduw, a chadw'r braser iddo ei hun; eithr y mae yn rhoddi i Dduw y goreu o'r goreuon. Ond am offrw m Cain, ni sonir ei fod wedi cymmeryd y fath ofal: ni ddywedir ond hyn, iddo ddwyn "o ffrwyth y ddaear offrw i'r Arglwydd;" *Gen. iv. 3, 4.* Ond nid oes air o son ei fod yn flaenffwrth, nac yn ffrwyth goreu.

Drachefn, ni throdd Abel mo Dduw heibio âg anifail neu ddau yn aberth, ond rhoddodd ei galon iddo hefyd. "Trwy ffydd yr offrymodd Abel i Dduw aberth rhagorach na Chain;" *Heb. xi. 4.* Efe a roddodd i Dduw addoliad tumewnol ei enaid; a hyn oedd y peth a gymmerodd Duw mor dirion ar ei law: trwy hyn y cafodd efe dystiolaeth gan Dduw, ei fod yn gyfiawn. Eithr Cain a dybiodd yn ddigon, os nad gormod, roddi iddo ychydig o ffrwyth y ddaear. Pe buasai i'r adyn ond ystried pwy ydoedd Duw, a pha beth oedd ei ddiben yn gofyn offrw m ganddo, nis gallasai efe yn rhesymol feddwl mai dynnoid neu ddau o f'd oedd yr hyn a brisid ganddo, neu yr edrychai arno yn nihellach nag i fod yn arwydd o'r addoliad tumewnol ac ysbrydol, yr hwn yr oedd yn disgwyl ei gael ynghyd â'r ddefod allanol. Ond efe a amlygodd y fath feddyliau gwael ac anaddas oedd ganddo am Dduw; ac yn ol hyny yr ymddygydd ato. O Gristionogion, cofwch, pan yr ymroddoch at ryw ddyledswydd grefyddol,

eich bod yn myned i wneud eich ymostyniad i Dduw, yr hwn a fyn ei addoli fel gweddai iddo ei hun. "Melldigedig yw twyllodrus, yr hwn y mae yn ei ddiad wryw, ac a abertha un llygredig i'r A glwydd; canys Brenin mawr ydwyf fi, me Arglwydd y lluoedd; a'm henw sydd of adwy ym mysg y cenhedloedd;" *Mal. i. 1.* Hyn a barodd i Dafydd fod mor fan ynghylch y deml, yr hon yr oedd yn ei gal ei hadeiladu; o herwydd nid i ddyn yr oes y llys, ond i'r Arglwydd;" *1 Cron. xxix.* Am hyn, medd efe, "A'm holl gryfdes parotoais i dŷ fy Nuw;" *adn. 2.* Fel h y gweddai i'r enaid grasol ddywedyd, y mae yn myned at ryw ddyledswydd grefyddol. Nid i ddyn, ond i'r Arglwydd Dduw yr ydych chi yn myned i weini; ac am hyny, rhaid i mi fod yn ddifrifol a phwysig, yn san aidd, ac ymostyngol, &c.

(2il.) Y diben nesaf i'r hwn yr ordeiodd Duw ei ordinhadua a dyledswydd crefyddol yw, i fod yn foddion iddo ymgaru i'w bobl, a chyfranu y goreu o'i ffrithion i'w mynwesau hwynt. "Yn medd y Salmydd, wrth son am fynydd Seilelle yr oedd y deml—y lle o addoliad Duw "y gorchymynodd efe y fendith, sef byw yn dragywydd;" *Salm cxxxiii. 3.* H yw, yno y gosododd efe y fendith o fyw ysbrydol, gras a chysur, yr hon o'r diw a chwyddai i fywyd tragwyddol, i daidd ffrydio oddi yno. O'r ffynnonau hyn ydych chi y saint erioed wedi tynu eu dwfr: "Eneid y rhai a geisiant Dduw, a fydd byw;" *Salm lxxix. 32.* A rhaid yw i'r eneidiau na chiall Dduw yma feirw. Cystal y gall llafurwr ddisgwyl cawd lle ni arddodd ni hauodd efe erioed, a'r masnachwr gwyll ymgyfoethogi sy heb agor ei siop amser, i ollwng prynwr i mewn, a hwnw gynnyddu mewn gras a chysur sydd heb ymarfer â dyledswyddau crefyddol. Y pethau mawrion a wna Duw bobl, mewn cymmundeb âg ef y ceir hwynt. Yn awr, yma yr ymddengys grym duwdeb, pan wneid enaid hyn yn orchwyl i i'w ddyfal ddilyn a chadw ato, i gael r fudd ysbrydol oddi wrth Dduw ynddych chi megys ysgolhaig, yn gwybod mai i gael ydych chi anfonwyd ef i'r brifysgol, y mae yn ymroddi i ddilyn hyn, ac yn gadael pethau eill: nid cyfoeth na phleserau y mae yn ddilyn, ond dysgeidiaeth. Fel hyn yr ydych chi gynnhyrfa yr enaid grasol, gan frysio o ddyledswydd i'r llall, fel y wenyn o euyn i flodeuyn, i ystorio ei hun â mwy o ras. Nid am y gair a'r cyfrifiad o fasant mawr, ond am fod yn gyfryw yn yr ymboena efe fel hyn.

Cyffelybir y Cristion i farchnatâwr yn ioperlau teg: ymaeiddo ef gychu i ordinau, fel y marsiandwr a hwylio o borth i borthlladd, nid i weled lleoedd, ond i g

yth, peth yma a pheth acw. Dylai fod y Cristion gymmaint cywilydd i ddywelyd yn wag o'i farchnadaeth mewn orphadaw, ag ar y marsianadwr ddyfod adref b ei lwyth. Ond, och! leied yr edrychir hyn gan lawer, sy'n myned am broffeswyr awrion! y rhai sy'n debyg i segurwyr, a euant i'r farchnad, nid i brynu lluniaeth, dwyn adref yr hyn sy'n eisieu arnynt, d i dremio a llygadrythu ar y pethau a arthir yno i ddim diben. O! fy mrodyr, rylwch rhag hyn. Drwg yw segyrd yn ywle, ond gwaeth yn y farchnada, lle y e cynnifer ar waith o flaen dy lygaid; y ai y mae eu gofal am eu heneidiau yn wanegu at dy bechod di, fely gwna ddydd all at dy warth hefyd. Ai nid ydwyt ti gweled ereill yn cyfoethogi mewn gras bhsur yn eu marchnadaeth a'r ordinad-hyn, o ba rai yr wyt ti yn dyfod yn awd a chardotlyd? Ac a elli di weled heb wrido? Pe byddai genyt ond on i osod yr un diben o flaen dy enaid, th ddyfod, ti elli lwyddo gystal a hwy- u. Y mae Duw yn cenadu rhydd-fash i bawb a roddant fri ar Grist a'i ras, ol eu gwerthfawrogrwydd. "O, deuwch dyfroedd, bob yn y mae syched arno, i e, hwn nid oes arian ganddo; deuwch, nwech, a bwytech: i e, deuwch, pryn- i win a laeth, heb arian ac heb werth;" z. lv. 1. Yn ol barn rhai, y mae Ysbryd w yma yn golygu arfer mewn porthladd- d; pan ddel llong i mewn ag eiddo ar- th, hwy a arferent eu erio o ddeutu y f. O, deued pawb a fynent gael y cyf- ddaoedd, i lan y dwfr: y maent yno cael am y pris a'r pris. Fel hyn y w Crist bob yn sydd yn gweled ei eisieu rist, a'i rasusau, i'r ordinadau (lle y y rhai hyn i'w cael gan bawb a ddelo ynt), i'r unig ddiben hwn.

PENNOD VIII.

Ydydd esampl, yn yr hon y bydd raid i rym- eioldob ymddangos, sef yng ngorchwylion- dol y Cristion.

RHAID yw i'r Cristion ddadgan grym eioldob yn ei alwad neillduol, a'i orchon bydol, y rhai y mae iddo ymdrin a nnt. Rhaid i sancteiddrwydd fod yn aphedig ar y rhai hyny, gystal ag ar ei ledswyddau crefyddol. Y neb a ddalio leddf adeiladu, fe fydd mor fanwl wrth iud cegin ag wrth wneud parlawr: felly, a ddeddf Cristionogaeth, y mae yn i i ni fod mor fanwl yn ein gorchwyl- ol ag yn ein dyledswyddau o addoliad. dddwch sanctaidd ym mhob ymarwedd- i 1 *Pedr* i. 15. Nid oes i ni adael ein- dded fel y gadawu rhai eu Beiblau yn yr

eglwys. Fel y mae rheswm, y gynneddf benaf mewn dyn, i reoli gweithredoedd isaf dyn, i e, y rhai sydd yn gyffredin i anifeil- iaid, megys bwyta, yfed, cysgu (gwna dyn, neu fe ddylai, os haedda efe yr enw, arfer y gweithrediadau hyn yn ol cyfarwyddyd rheswm; dylai ddangos ei hun ynddynt yn greadur rhesymol): felly y mae gras, yr egwyddor uchaf mewn Cristion, i'w lywio a'i reoli ef yn y gweithredoedd hyny sydd yn gyffredin i ddyn fel dyn. Ni weddai i Cristion brynu a gwerthu fel dyn yn unig, ond fel dyn Cristionogol. Nid yw crefydd yn debyg i wisg laes y gwr llys hwnw, yr hon a dafai efe ymaith pan elai i ymddi- fyru, gan ddywedyd, "Arglwydd drysorwr, gorwedd yna am dro." Na: pa le bynag y byddo Cristion, a pha beth bynag a wnelo, rhaid iddo gadw ei grefydd am dano, sef ym- ddwyn yn dduwiol. Ni ddylai efe wneud dim yn yr hyn nas gall ddangos ei hun yn Grist- ion. Yn awr, rhydd grym duwioldeb ei hun allan yn ein galwedigaethau neillduol yn y ffyrdd hyn; ond cymmerwch hwyt ynghyd, bydd harddwch sancteiddrwydd i'w weled yng nghyfattebiad yr holl ranau i'w gilydd.

Iaf. Pan fyddo y Cristion yn ddiwyd yn ei alwad neillduol. Pan alwo Duw ni i fod yn Cristionogion, y mae efe yn wir yn ein galw allan o'r byd o ran ein serchiadau, ond nid allan o'r byd o ran ein gorchwyl. Gwir yw, pan alwyd Eliseus, efe a adawodd ei aradr; a'r apostolion eu rhwydau: etto, nid o herwydd eu galwad i fod yn saint, ond am eu bod wedi eu galw i swydd yn y eglwys; er y gallai rhai yn ein dyddiau ni gael ar eu calonau anfon swyddogion yr eglwys yn ol at yr aradr. Ond ar ba achos gwany barn- ent hwy eu hunain, sydd yn cael un gelf- yddyd, os dilynir hi yn dda (gan ei thrin a llawn ystôr), yn ddigon i roddi iddynt waith ar hyd yr wythnos. Ac yn sier, gall y gweinidog, sydd iddo wyllo dros, a darpar i, fwy o eneidiau nag sydd o gyrph dan eu gofal hwynt, deimlo ei galon a'i ben mor llawn o waith yn ei alwad, o un pen y fiwyddyn i'r llall, a neb o honynt oll. Ond wrth y Cristion cyffredin yr wyf fi yn llef- aru. Nis gelli fod yn sanctaidd os nad wyt yn ddiwyd mewn galwad gyffredin. Y mae cyfraith dyn yn cyfrif hwnw yn grwydrun, a fyddo heb drigle pennodol; a gair Duw a farna hwnw yn afreolus a fyddo heb alwad neillduol i weini a gweithredu ynddi, i ogon- iant Duw a lles ereill. "Yr ydym yn clywed fod rhai yn eich plith chwi yn rhodio yn afreolus, heb weithio dim;" 2 *The*s. iii. 11. Mynai Duw gael ei bobl yn fuddiol, fel y ddafad a wna les i'r tir y mae yn pori arno. Dylai pawb fod yn well er y Crist- ion. Pan ddychwelwyd Onesimus, daeth i fod yn fuddiol i Paul a Philemon hefyd (*Philem*. 11); i Paul megys Cristion, ac i Philemon megys gwas. Gwnaeth gras of

yn was dyfal yn lle bod yn ffoadur. Profeswr gwarthus yw y profeswr segurlyd. Ni wna dyn segur dda i neb, ond y niwed mwyaf iddo ei hun.

2il. Pan fyddo nid yn unig yn ddiwyd, ond felly o gydwylbod. Y mae llawer sydd yn ddigon hael o'u llafur mewn galwedigaeth fydd—nid oes eisieu yspardyn arnynt; ond pa beth sydd yn eu gosod ar waith? Ai cydwylbod, am fod Duw yn gorchymyn iddynt? O, nag e! yna hwy a fyddent ddiwyd yn eu galwad Cristionogol hefyd; hwy a weddient mor ddyfal ag y gweithiant; rhoddent waith heibio mor rhwydd ag y tarawant ato, wrth orchymyn Duw. Pe cydwylbod fyddai yn agor eu gweithdy ar ddyddiau yr wythnos, hi a'i cauai ar ddydd yr Arglwydd. Pan welom dilyn, fel y gwelch, yn ehedeg ar ol ysglyfaeth y byd ac heb ufuddhau i alwad Duw, er i gydwylbod, yn ei enw ef, ei alw yn ol ac erchi iddo ddisgwyl wrth Dduw yn y ddyledswydd hon yn y teulu, a'r llall yn yr ystafell, ond myned ym mlaen o hyd yn ei helfa fyddol, y mae hwn yn dangos yn ddigon eglur ar neges pwy y mae yn myned; nid neges cydwylbod, ond ei chwantau. Ond os wyt i am rodio yng ngrwm duwioldeb, y mae yn rhaid i ti fod yn ddyfal yn dy alwad ar gyfrif crefyddol. Yr hyn a'th wna yn daer mewn gweddi, rhaid iddo beri hefyd dy fod yn ddiwyd yn dy orchwyl. Mae yn rhaid i ti ddywedyd, "Dyma'r lle y gosododd Duw fi ynddo; nid wyf fi ond gwas iddo ef yn fy ngweithdy; ac yma, rhaid i mi ei wasanaethu ef, fel y mynwn i'm hegyddorwas neu blentyn fy ngwasanaethu imau, canys nid ydynt hwy yn eiddof fi, fel yr wyf fi yn eiddo ef."

3ydd. Pan y byddo yn disgwyl ffyniant ei lafur oddi wrth Dduw, ac yn ol hyny, os ffynna, yn talu ei ddiolch ymostyngol i Dduw. Yn wir, y maent yn cydfyned: y neb ni wnelo y naill, ni wna y llall. Y dyn bydol nad ä trwy ei ystafell mewn gweddi, i'w weithdy yn y boreu, wrth ddechreu ei orchwyl, nid rhyfedd ei fod heb ddychwelyd trwy ei ystafell yn yr hwyr mewn diolchgarwch i Dduw. Efe a ddechreuodd heb Dduw; peth rhyfedd fyddai iddo ddiweddu gydag ef. Y pryf copyn a nydda ei wê allan o'i ymysgaroedd ei hun, y mae yn byw ynddi ar ol ei nyddu: felly dynion sydd yr dwyn eu bwriadau ym mlaen trwy eu callineb a'u gofal eu hunain, hwy a hōnant hawl i'r hyn a dybiant yn waith o'u heiddo eu hunain. Cynt yr aberthant (fel y rhai hyny i'w rhywyd, a'u ballegrwyd: *Hab. i. 16*) i'w callineb a'u diwydrwydd eu hunain, nag i Dduw. Clywais yn ddiweddar am y fath ddynd yn ein dyddiau ni, yr hwn, wedi cael ei anog i ddiolch i Dduw am gnwd da o'f d oedd ar ei dir, a atebodd fel adyn ddduw, "Diolch i Dduw? Na; yn hytrach, diolch i'm certwyn deilo!" Ymadrodd o

ysbryd butrach na'r tail yn ei gerbyr. Ond os myni di fod yn Gristion, rhaid yw ti gydnabod Duw yn dy holl fyrd, he bwyso ar dy ddeall dy hun: a gwna hyn i gyfeirio ato ef pan gorono llwyddiant o lafur, i goroni Duw a'r elod. Iacob a lafu iodd mor ddiwyd, ac a ymboenodd gym maint am y golud oedd ganddo a neb arall etto, gan osod sail y cwbl mewn gweddi, disgwyl y fendith o'r nef (*Gen. xxviii. 2*) y mae yn cyfrif y daeodd liosog a feddia nodd yn y diwedd i drugaredd agwirioned y Duw, yr hwn mewn gweddi, a thrw adduned barchus, a gafodd yn ddarparv iddo, pan ar ei daith i Padan-aram, a'i ff bererin yn ei law: *Gen. xxxii. 10*.

4ydd. Pan fyddo'r Cristion yn foddllaw ar y gyfran fechan neu fawr a drefno Duw iddo ar ei ymgais, ac nid yn ymfoddloni a nad oes modd iddo gael dim sydd we Anghurhaid oedd yn lle athraw gan y paga iaidd i ddysgu boddllonwydd; ond fydd sydd i ddysgu y Cristion: a thrwy hon ymlonydda efe dan drefniadau rhagluniaie Duw gyda bodd hyfryd, megys yn ewyll Duw tuag ato ef. Yma y mae duwiold mewn goruchafiaeth; pan allor Cristion fwyhau boddllonwydd o ragluniaeth Duw beih bynag a fyddo y ddysglaidd o'i laf. Os ychydig a gasglodd, nid oes arno eisie y mae yn foddllaw ar ei bryd bychan: casgl efe lawer, nid oes ganddo ddim y ngweddill; fy meddwl yw, dim dros ben hyn a all ei ras ei iawn dreulio, a'i drofaeth da; dim gormodedd a fyddo yn tu yn naws drwg o falchder a nwyfiant. radd hon y cyrhaeddodd Paul: gallai f mewn helaethrwydd, ac mewn prinde *Phil. iv. 14*. Cymmerwch foddllonrwydd oddi wrth dduwioldeb, a chwi a ddygw ymaith un o'r tlysau goreu a fedd hi yn mynws. "Elw mawr yw duwioldeb gy boddllonrwydd;" *1 Tim. vi. 16*.

5ed. Pan na byddo galwad neillduol Cristion yn gormesu ar ei alwad gyffredin. Yn wir y mae hyn yn gofyn gwyladwria gref. Y mae'r byd o natur ormesol; a hawdd fydd ymarfer âg ef, a bod heb e caethiwo ganddo. Fel Agar, pan ddangodd Abraham iddi barch mwy na chyffred hi a ddechreuodd ymryston a'i meistres, ymgodi uwch ei llaw; felly y gwna gorchwylion bydol ymgodi uwch law gorchwyl nefol, oni chadwn law ddwys nunt. Yn awr, ymddengys grym duwiold yma mewn dau beth:—

(1af.) Pan na oddefo y Cristion i'w chwyld bydol ddiifa ei amser at gymmuno â Duw, ond y cadwo hwn yn ddigoll o l anrheithiol y byd. Gall y Cristion graff os ymwn y hwn na chaff ef b feddwl am un ddyledswydd grefyddol, i fod rhyw esgus neu gilydd i'w thro'i dr yn ymgynnyg i'w feddylliau: y mae'r p

na yn awr i'w wneuthur, a'r cyfaill arall i addiddan âg ef, neu gwsmer i weitio arno. "Felly, yn ol gair y gwr doeth, "Y neb a alio ar y gwynt, ni hania; a'r neb a edrho ar y cymuylau, ni feda;" *Preg.* xi. 4. "Felly, y neb a edrycho pa beth a ddywed ei jogi, ei elw bydol, a'i anian gnawdol ei n, ni weddia, ni fyfyrta, ac ni ddeil efe th gymmunde b â Duw mewn un ddyledydd grefyddol arall. O! y mae yn drwm, a fyddo raid i'r meist'r ofyn i'r gwas pa d i'w fwyta, a pha bryd i beidio; pan do'r Cristion yn gofyn i'r byd, pa bryd i'w sgwyl wrth Dduw, a pha bryd i beidio. "He hyn, dylai crefydd osod deddf i'r l. Yna, y mae crefydd yn ei grym, fel anson yn ei nerth, pan y gallu ddryllio yr usodion hyn y fynai ei gadw oddi wrth ei uw, cyn hawsed ag y torodd yntau ei synau llin; pan allo y Cristion weithio ei d d at Dduw trwy y dorff o rwystran loll. "Wele," medd Dafydd, "yn fy allod y parotoais i dŷ yr Arglwydd gan o dalentau aur, a mil o filoedd o dalentaurian;" &c., 1 *Cron.* xxii. 14. Yr oedd ddo ddigon o ffyrdd i wario ei drysorau, symmerasai ei attal oddi wrth y gwaith; asai gael esgus teg oddi wrth y rhyfeldd yr oedd yn helbulus ynddynt ar byd ei rnasiad, a'r rhai oedd yn dihybyddu ei sorfa, i arbed y draul hon. Ond megys angosodd Rhufain ei gallu wrth anfon o wyr i'r Yspañ, pan oedd Hannibal yn ei phyrth, felly y myn Dafydd ngos ei sel dros Dduw a'i dŷ, drwy droio y fath symiau mawrion, at adeiladu l, yng nghanol trallodau a chostau ei enas. Efe yw y Cristion yn wir, a neill-gryn gyfran o amser beunydd, yng anol ei achosion bydol, at gymmunde b â v. Pwy bynag y cyfran-dala, neu y tâl fyr iddo, ni fudd efe fod mor hyf ar w a rhoddi iddo ef hanner gwasanaeth. a gaff ei amser neillduedig iddo, er i l gael eu rhoddi heibio â llai. Yn debyg wr duwio hwnw, yr hwn, pan ddeuai mser gweddi, pa gyfeillion bynag fyddai ag ef, a gymmerai genad i'w gadael, a hyn o esgus hardd:—"Fod ganddo ill yn aros i ymddiddan âg ef." Ei w oedd yn ei feddl.

(ii.) Pan na byddo ei orchwylion bydol troi min ei serchiadau, ac yn gadael ai ar ei ysbryd at ddal cymmunde b â v. Yma y mae duwioledeb yn ei grym. y gwr priod wedi bod ar led ar hyd y l yn y naill gymdeithas a'r llall, etto, ni un o honyt iddo garu ei wraig a'i t yn llai: pan ddal adref yn yr hwyr, dwg ei serchiadau atynt mor gyflawn a h yr aeth allan; ie, y mae yn llawen am lyfod oddi wrth bawb ereill atynt hwy hefn. Dyma hwyly hyfryd o ysbryd yn Ond O! mor anhawdd yw ei chadw.

A eli di ddywedyd O Gristion, ar ol treulio diwrnod gyda dy elw bydol a chael dy groesawu â'r mwyniant a'r hyfrydwech a ddyry dy feddiannau i ti, dy fod yn dwyn dy holl galon gyda thi at dy Dduw, pan ddychweli yn yr hwyr i'w wŷydd i ddisgwyl wrtho? Ti eli ddywedyd mwy nag a all llawer sydd â pheth daioni ynddynt. O! peth anhawdd yw ymddiddan â'r byd ar hyd y dydd, a'i ysgwyd ymaith y nos, fel ag i fod yn rhydd i fwynhau cymmunde b â Duw. Y mae y byd yn gwneud â'r Cristion fel y gwna y plentyn â'r fam: oni all ei chadw rhag myned allan, yna efe a waedda ar ei hol am gael myned gyda hi. Oni all y byd ein cadw ninnau rhag myned i ddyledswyddau crefyddol, yna, gwaedda am gael dyfod i'n canlyn: a gwaith mawr fydd ei wahanu ef a'n serchiadau ni.

Ged Y mae i'r Cristion ddangos grym duwioledeb yn ei ymddygiad tuag at ereill; a'r rhai hyn, naill ai yn y tŷ ai allan.

PENNOD IX.

Am ddangos grym duwioledeb yn, ac i'n perthynasau teuluauidd.

1. I'n perthynasau teuluauidd. Y mae llawer, er nad y cwbl o rym duwioledeb, yn sefyll gartref tuag at y rhai y gosododd Duw ni yno yn berthynasau iddynt. Ofer yw siarad am dduwioledeb, oni allwn ddwyn tystiolaeth oddi wrth ein rhodiad duwioledeb yn mysg ein perthynasau. O! y mae yn drwm pan fyddo y rhai y mae achos iddynt ein hadnabod yn oreu, o herwydd eu hymarfer beunyddiol â ni, yn dywedyd leiaf am ein duwioledeb. Nid oes ond ychydig mor ddigywilydd a dyfod yn noethion i'r heol-ydd: os bydd gan ddynion ryw beth i guddio eu drygioni, hwy a'r gwisgant pan ddeuant ar led. Ond pa beth wyt ti gartref? Pa ofal a chydwylbod sy genyt i gyflawni dy ddyledswydd at dy berthynasau agos? Nid gwr da yw efe sy ganddo arian i'w gwario yn mysg cymdeithion ar led, ond heb ddim i'w roddi am ymborth i gadw ei deulu gartref. Ac a all efe fod yn Gristion da sydd yn gwario ei grefydd i gyd ar led, ac heb adael dim i'w berthynasau nesaf gartref—sy'n grefyddwr penboeth ym mysg dieithriaid, heb ond ychydig neu ddim o Dduw i'w gael o hono yn ei deulu? Ie, da fyddai pe ni byddai rhai, a gyfrifir yn broffeswyr ar led, yn fyr o gyrhaedd ereill, sydd heb gymmeryd arnynt broffesu yn y dyledswyddau moesol hyn y ddylent eu cyflawni tuag at eu perthynasau. Y mae rhai sydd yn ddigon estronol i broffesu, etto yn garuaid a thirion yn eu ffordd tuag at eu gwragedd. Pa fath broffeswyr ynte ydynt hwy sydd yn ddiog a sarug wrth wragedd eu

mynwes, y rhai, trwy eu trawsarglwyddiaeth arnynt a chwerwant eu hysbryd ac a wna't iddynt "orchuddio allor yr Arglwydd â dagrau trwy wylofain," &c.; *Mal.* ii. 13. Y mae gwagedd i'w cael sydd heb fod yn floeddgar, anynad, a chroes wrth eu gwyr, er eu bod yn ddiethr i waith gwir ras yn eu calonau. A ydynt hwy ynte yn rhodio fel y gweddi i sancteiddrwydd, sydd yn terfysgu yr holl dŷ â'u nwydau gwylltion? Y mae rhai gweision sydd, trwy reoliad cwybod naturiol, yn ymgadw rhag iaith ddi-friol a gwrthun, pan eu cerydder gan eu meistriaid : ac ai ni fydd i ras gerdded mor rhwydd a natur? Gwyddai Dafydd dduwiol mor agos yw y rhan hon o ddyledswydd y saint at wir galon duwioldeb : ac am hyny, wrth ddwys addunedu i rodio yn sanctaidd ger bron Duw, y mae yn pennodi hyn fel un sefyllfa amlwg yn yr hon yr oedd iddo arddangos graslonrwydd ei ysbryd : "Rhodiaf mewn perfeithrwydd fy nghalon o fewn fy nhŷ;" *Salm* ci. 2. Ond i bennodi ychydig o bethau yn y rhai y mae grym duwioldeb i'w weled mewn golygiad ar berthynas deulaidd:—

1af. Yn newisiad ein perthynasau: y cyfirow yf yn ei feddwl ag a allwn eu dewis. Y mae rhai nad ydynt wrth ein dewisiad ni. Nis gall y plentyn ddewis pa dad a fyn; na'r tad pa blentyn. Ond, lle y mae Duw yn rhoddi rhyddid, y mae yn disgwyl gofal.

(1af.) A wyt ti yn dduwiol, ac arnat eisieu gwasanaeth? O, edrych am ddangos dy dduwioldeb yn y teulu a ddewisoch, a'r llywyddion y rhoddech dy hun danynt. Chwilia fwy a fydd yr awyr yn iachus i'th enid yn y tŷ nag yn achos dy gorph allan o'r tŷ. Y mae hyd yn oed y creaduriad disynwyr yn griddfa'n tan eu caethwaith i fydd annuwiol; a phe gallent ddewis, hwy a'i cyfrifent yn rhyddid, roddi gwasanaeth i feibion Duw: *Rhuf.* viii. 21. Ac a fydd i ti o'th fodd na eili attal hyny, ymroddi tan lywiad y rhai sydd yn annuwiol, a tithau dy hun yn blentyn i Dduw? Anhawdd yw gwasanaethu dau feistr, er iddynt dra-thebygu mewn tuedd: ond amhosibl yw gwasanaethu y ddau hyny, Duw sanctaidd, a gwr neu wraig annuwiol fel ag i foddio y ddau. Ond os wyt ti dan gronglwyd y fath rai, nac anghofia dy ddyledswydd atynt, er iddynt hwy anghofio eu dyledswydd at Dduw. Y mae yn bosibl i'th fyddlondeb di atynt hwy eu dwyn i ymofyn am dy Dduw di er dy fwyn, fel Nebuchodonosor am Dduw Daniel. Yn ddiarnheue, cymmerai annuwiolion grefydd yn fwy difrifol at eu hystyriaeth, pe byddai mwy o harddwch a disgleirdeb nefol ar fucheddau Cristionogion yn eu hamryw berthynasau, i'w cymmhell i hyny. Caiff llyfr weithiau ei ddarlenn yn gynt o herwydd harddwch y

llythrenau; yr hwn ni chawsai ond pr edrych iddo, pe buasai yr argraphwaith y ddrwg. O! mor fynech y clywn, f meistriaid annuwiol yn taflu ymaith fedd- iau am grefydd gyda dirmyg, pan ddali eu gweision profsedig mewn ffalsedd, n y ceir hwynt yn faleh ac anufudd, yn ddi- neu ddiolof! Pa beth a ganlyn ar hyn, o "Ai dyma eich crefydd? Cadwed Duw rhag y fath grefydd a hon!" O! canmaw- ffyrdd Duw wrth dy feistr, neu dy feistr- anianol ac anuwiol, trwy dy ymddygi- difeius amlwg yn dy le. Ond gyda hyn, g i mi ddywedyd wrthyt, os wyt, er gwne- dy oreu at ddwyn crefydd yn mlaen yn- deulu, yn gweled fod y tir mor oer, fel nad- obaith gweledig o blanu ynddo i Dduw; mae yn bryd i ti feddwl am dy ad-blanu- hun: o herwydd y mae i'w ofni, nas gal- le sy mor ddrwg i ti blanu ynddo, fod- dda iawn i ti dyfu a chymnyddu yddo.

(2il.) A wyt ti yn feistr duwiol? P- gymmerek was i'th dŷ dewis i Dduw gys- ag i ti dy hun. Cofia fod gwaith i Dduw i'w wneuthur gan dy was gystal ag- thithau: ac a wna efe dy dro di, na w- waith iddo efe? Yr wyt yn chwennych- gwaith lwyddo a gymmer dy was me- llaw onid wyt? A pha sail sydd i ti- addewid, i obeithio y llwydda y gwaith- llaw y dyn, sy'n pechu o hyd wrth- wneuthur? "Ar yr anruwiol sydd bechoe- *Diar.* xxi. 4. Y mae gwas duwiol yn f- dith fwy nag a feddyliwn ni. Gall h- weithio, a gosod Duw ar waith hefyd, daioni i'w feistr: "O Arglwydd Dduw- meist'r Abraham, attolwg pâr i mi lwyddi- heddy, a gwna drugaredd â'm meist'r- *Gen.* xxiv. 12. Ac yn sared, efe a wna- gymmaint gwasanaeth i'w feistr trwy- weddi a thrwy ei gallineb yn y daith ho- Pe byddech ond am blanu perllan, chw- geisioch y frwyth-goed goreu, ac ni lwy- ech eich tir â choed afalau surion. By- colled fwy trwy was anrasol yn y tŷ, phren diles yn y berllan. Craffodd Dafy- dduwiol, tra y bu yn llys Saul, ar y dr- feddu gweision drygionus ac anwir, ca- â'r cyfirow y cylehnyd y brenin annedwy- hwnw; ac y mae Dafydd yn cyffell- ei llys i drigleoedd pagauiaid anfoesol- chrenlawn, ym mysg y rhai nid oedd- hawdd cael mwy o ddrygioni: "Gwa- fy mod yn preswlyo yn Mesech, yn cyf- neddu ym mhwyll Cedar;" *Salm* cxx- sef ym mhllith rhai mor anferth-ddrygio- a neb yno. A diarnheue y parodd hyn- gwr grasol hwn yn ei alltudiaeth cyn dy- i'r goron, wrth weled y drwg o dŷ didre- fwriadu yr hyn a wna'i efe, pan wnelai D- ef yn ben ar y fath deulu breninol. "Thrig o fewn fy nhŷ yr un a wnelo dwy- ni thrig yn fy ngolwg yr un a ddyw- gelwydd;" *Salm* ci. 7. Y mae yn penn-

lyrgau hyn, nid am y gwnai efe dreulio ei i gyd i'w herbyn, ond am ei fod wedi affu arnynt yn benaf, yn llenwi tŷ Saul, wedi peri iddo ei hun ddioddef cyni-ant, fel y gellwch weled yn *Salm* cxx. 2, 4.

(3ydd.) A wyt ti yn dduwiol? Gweier yn yn ddeisiad o wr neu wraig. Yr f yn sicr am rai, a rhai duwiol hefyd, pe gallent ddangos un dystiolaeth arall am dduwioldeb heb law eu gofal yn yr achos unodol hwn, y gallai gael yn gyfiawn ei amheu ganddynt hwy eu hunain, ac ereill fydd. Nid oes un peth y dangosodd pobl ol, ie, y rhai a gofeir yn yr Ysgrhythrau, stal ag ereill, eu gwendid ynddo, neu yasant fwy c dramgwydd a rhwystroddo nag yn y peth hwn: "Gwelodd Ibibion Duw ferched dynion mai teg oedd hwy;" *Gen.* vi. 2. Buasai un yn medd-yn edrychasai meibion Duw am ras yn y on yn hytrach na thegwch yn y wyneb; I gweilw. fod hyd yn oed y rhai hyn, ithiau, yn troi i mewn lle y cânt yr ydd gwyachaf, heb ymfodyn llawer pa ras d'i'w gael yn preswyllo oddi mewn. Ond istaon, na fydded i ffaeidd neb yn y peth a, ei mer dduwiol oeddynt ffordd arall, wneud di yn llai dy ofal yn dy ddeisiad. chcfiaodd Duw am eu harferiad hwynt i ddilyn, ond ei ochel. Cristion musgrell hwnw a lwnge y cwbl a wna y saint ei bilio. Ai nid yw yn ddigon fod uwelion yn tori eu gyddfau dros bechu y saint? Ond a redi dithau ar eu wa i dori dy grimogau? Na, edrych di rgrw hwn a'r wraig dduwiol acw, gan wedyd, Hwya allant briodi i'r cyfryw lu halogedig, a gorwedd yn ochr medd-ly, tyngwr, &c. Edrych at y rheol, O etion! os myni gadw grym duwioldeb. nae hon yn eglur, fel pelydr yr haul, yn ifenedig yn y Beibl: "Na ieuer chwi yn hymnharus gyda'r rhai digred; canys gyfeillach sydd rhwng cyfiawnder ac nyfiawnder?" 2 *Cor.* vi. 14. A lle y mae rhoddi i'r weddw genad i briodi dr- n, y mae efe etto yn cofio gosod terfyn yhyddid hwn; "Y neb a fyno; yn unig yr Arglwydd;" 1 *Cor.* vii. 39. Craff- ar hyny—"Yn yr Arglwydd," sef yn glwys. Y mae pawb sy heb fydd, heb w yn y byd. Yn yr eglwys y mae int a theulu yr Arglwydd. Yr ydych priodi allan o'r Arglwydd, pan briod- o deulu yr Arglwydd. Neu, yn Arglwydd, sef, yn ofn yr Arglwydd— ti genad a'i fodd ef. Addefwn oll fod addas cael cydsyniad y rhieni; ac onid as cael cydsyniad dy dad nefol? Ac a ynia efe i ti roddi dy hun i anifall, lwyn, neu bryfyn daear? Talodd gwyr iol yn ddrud am y fath briodasau. Pa bla alaethus a fu Dalilah i Samson?

Ac nid un o'r cysuron mwyaf fu Mical i Dafydd? Oni fuasai yn well iddo briodi y llangees dlotaf yn Israel, a hi yn dduwiol—er meddu dim ond y dillad am ei chefn—na'r fath gyfeilles wawdgar a'i gwatwar-odd ef am ei zel dros ei Dduw?

2il. Trwy ymgais am i'n perthynasau gael hawl yn Nuw. Yn wir nis gall y Cristion gyfranu gras i'w blentyn, na pheri i'w wraig etifeddu ei dduwioldeb, fel y gall yn achos ei diroedd; etto, rhaid yw iddo wneud ei oreu at eu cael i hawl yn Nuw. Pa ham y gorchymynodd Duw i Abraham enwaedu ar holl ddynion ei dŷ? Yn sicr yr oedd am beri iddo fyned mor bell ag y gallai, i'w tynu i gyfathrach a pherthynas â Duw. Y mae perthynasau agos yn galw am serch cariadus. Ni wna gras ein dysgu i'w caru yn llai nag o'r blaen, ond i'w caru yn well. Y mae yn troi ein cariad i lwybr ysbrydol, ac yn peri i ni ddymuno yn benaf eu lles bythol hwynt. Pa beth arall sydd yn nodedig yng nghariad y Cristion uwch law ereill? Onid yw y paganiaid yn ystorio daeodd i'w plant yma? Quid ydynt yn gofalu am gefnau a boliau eu gwseion yn gystal ag ereill? Ydynt yn sicr; eithr y mae yn rhaid i'ch gofal chwi ragori ar hyn. Yr wyf yn cofio fod Awstin, wrth son mor fawr y canmolai rhai ei dad, am ei gost a'i ofal i'w ddwyn ef i fyny—ie, dros ben ei allu—yn gwneud yr achwyniad athrist hwn; "Pryd nad oedd gofal fy nhad, yn y cwbl, am fy nwyn i fyny i ti: yr oedd am i mi fod yn areithiwr, neu yn hytrach yn ddiffeithiwr, o ran ymostwng i ti, fel Cristion." O fy mrodyr! os yw Duw yn werth eich cydnab- yddiaeth chwi, onid yw efe felly iddynt hwythau hefyd, sydd mor agos ac anwyl genych? Y mae un tŷ yn awr yn eich cyn- nws; ai ni ddymuneh i'r un nef eich derbyn? A ellwch chwi feddwl heb grynu am i'r rhai sydd yn cyd-fyw yn yr un teulu, fyned, pan chwalo angeu y tŷ, y naill i uffern, a'r llall i'r nef? Yn sicr, nid ydych yn debygol o gael nemawr o lawenydd ar y ddaear oddi wrth y rhai y mae arnoch ofn na chewch eu cyfarfod yn y nef. Wrth ddeddf Lycergus, yr oedd i'r tad na roddai addysg i'w blentyn yn ei febyd, gollu y cym- mhorth oedd ddyledus iddo oddi wrth ei blentyn yn ei henaint. Er nas gallaf fi wirio am iawnder y ddeddf hono, etto, gallaf ddywedyd hyn, yr hda a orchymynodd efe yn anghyfiawn, y mae Duw yn dra chyfiawn yn ei oddef; bod i'r rhai na ddysgant i'w plant eu dyledsydd i Dduw, gollu y parch a'r anrhydedd a ddyld eu talu iddynt gan eu plant: ac felly am berthynasau ereill hefyd.

3ydd. Gwylia rhag i'th berthynasau fod yn fagl i ti, neu ti iddynt hwy. Y mae y fath deuluoedd gerwin i'w cael, na wnânt ond arwain eu gilydd i brofedigaeth, drwy dynu allan lygredd eu gilydd, o'r naill

ben i'r flwyddyn i'r holl. A pha enw a roddwn ar y fath dai, ond rhyw uffern ar y ddaear? Gall dyn fyw mor ddiogel o ran ei gorph mewn tŷ a'r pla ynddo, ag y gall yno o ran ei enaid. Ac yn ddiâu nid yw y rhai duwiol mor bell allan o berygl, fel nas gall y diafol ddefnyddio eu nwydau, i boeni a halogi eu gilydd. Sier wyf ei fod ef yn dra awchus i'w drygu yn y ffordd hon, ac yn llwyddo yn rhy fynych. Ofn Abraham a osododd y fagl i Sarah ei wraig; yr hon a dynwyd yn hawdd i ledrithio, er mwyn un a garai hi mor awyrl: *Gen. xii. 23.* A serch gwresog Rebecca at Iacob, gyda'r parch oedd ei lle a'i chariad hi yn ei fynu yng nghalon Iacob, a'i gwnaeth ef, o fod yn ŵr syml, yn ŵr o ddichell, i dwyllo ei dad a'i frawd. A hyn, er ei fod yn bechod rhy fawr iddo ei lyngau ar y cais cyntaf, fel y gwelir yn *Gen. xxvii. 12*—"Byddaf yn ei olwg ef fel twyllwr; ac a ddygaf arnaf fellldith, ac nid bendith;" etto, trwy ychydig ddyfais gan ei fam, y mae ei wddf megys yn eangu; a'i lyngau a wnaeth ar ol cychwyn ei wrthod. A rhai duwiol oedd y ddau.

Edrych gan hyny atat dy hun, rhag i ti ddwyn pechod ar dy berthynasau. Byddai yn ofid trwm arnat, weled dy wraig, plentyn, neu was, yn glaf o'r pla a ddygosit ti adref iddynt, neu yn gwaedu gan archoll a rodd-aist iddynt yn ddisymmwrth. Och! gwell fyddai hyn na'u llygru â phechod, a'u harcholli âg euogrydd trwy dy waith di. A bydd mor ofalus i gadw dy enaid rhag cael haint oddi wrthynt, a rhag ei anadlu arnynt. Mae dy gariad yn fawr at dy wraig: O! na âd iddo wneud afal temtasiwn yn fwy teg a dymunol pan ei cynnygier i ti o'i llaw hi. Yr wyt yn caru dy hun, i.e., dy Dduw, yn rhy brin, os ceri hi mor bell ag i bechu er ei mwyn. Yr wyt yn wraig ufudd; ond ufuddhâ yn yr Arglwydd. Gwylia rhag troi llechau y gorchymynion, wrth osod y seithfed o flaen y cyntaf. Edrych am ei ran yn deg i Dduw, cyn i ti dalu dy ufudd-dod i'th wr. Gofyn i dy enaid, A allaf fi gadw gorchymyn Duw wrth ufuddhau i orchymyn fy ngwr. Wrth dalu dyledion, taler yn gyntaf y rhai sydd yn ddyledus yn ol y rhwymedigaethau amlaf a chryfaf. Ac i bwy yr wyt ti yn fwyaf rhwymedig, i Dduw ai dy ŵr, sydd yn beth hawdd ei ateb: a hyn am bob perthynas arall. Dos mor bell gyda dy berthynasau ag y gelli deithio yng nghymdeithas Duw, a dim pellach; os na fynit adael dy sancteiddrwydd a'th gyfiawnder o'th ol; ac y mae y gollod o'r rhai hyn yn ormod i ti ddisgwyl y gallant hwy ei thalu yn ol i ti.

4ydd. Yna y mae duwioldeb yn ei grym, tuag at ein perthynasau, pan fyddo y Cristion yn ofalus i ddefnyddio grasau ei berthynasau, a thynu y lles a allo ei gael o honynt tra y maent gydag ef. Fe allai fod

genyt dad duwiol, gwr neu wraig rasol: n pe byddai ond gwas yn y teulu yn dduwiol mae budd i'w gael o'i ymarweddiad a'i y adroddion grasol. Duwioldeb, fel yr enaid fe'i dengys ei hun cyn hir lle y byddo aros. O Gristion! os oes y fath ddyn duwiol gyda thi yn y teulu, dal sylw pa beth dy addysg a elli gael gan y fath un yn eiriau, dyledswyddau addoliad, ymddygi dan gystudd, derbyniad o drugaredd mwynhâd o sabbathau ac ordinadau, cyffelyb; hefyd, er dy adfywiad a'th gybydd yn llwybr sancteiddrwydd. Paro y prophwyd i'r weddw ddwyn yr holl les oedd ganddi, neu a allai hi fenthyccio, i ddyn hyn a redai o'r ysteniad olew oedd ganddi yn ei thŷ, a thalu ei dyled gydag *2 Bren. iv. 3.* Yn sicr, yr wyt yn meddw byddai yn gynghor da i rai sy'n cwyno (n a allent yn wir gwyno) mor isel a thlwydynt o ras, ar iddynt ddefnyddio yr ol sanctaidd hwnw o ras sy'n defnyddio wefusau a bucheddau eu perthynasau duwiol. Trefnwch eich côf, cydwybod, calonau, a serchiadau, fel llestri i dderbydd pob tywalltiau o dduwioldeb a ddaw o wrthynt. Dy gôf, dalied a chadwed hwy yr addysgiadau, ceryddon, a chysuron dynant hwy allan o'r gair. Dy gydwybod cymmhwysed hi y rhai hyn at dy enaid, hyn, nes y dyferont oddi yno i'th serchiadau ac y syrthiech dithau mewn cariad fwy fâ sancteiddrwydd, drwy eu canmoll hwynt o honi i ti. Peth trwm yw ystyr pa gam-ddefnydd a wna calon ddrygion o ddoniau a grasau y duwiolion y mae cyfryw yn byw gyda hwynt, yn groes hyn a wna enaid syml, isel, wrth eu gwelyu llewyrchu. Ni wna calon anfad o cefnigenu ac ymddygio yn fwy wrth y fath un; ac yn lle bod yn well, hi a wneir waeth. Ond yr enaid diffuant a ymgais: drysori y cwbi er ei fudd. Pan fynego Ioseph ei freuddwyd prophwydol i'w frod eu cefnigen, oedd o'r blaen yn mygu yn mynvesau, a daniodd yn ebrwydd; ac mhen tro, hi a dorodd allan yn filam, yn creulon waith annaturiol a gyflawnas arno. Dyna yr holl ddefnydd a wnaeth hwy o'r peth. Ond am Iacob dduw dywedir, mewn cyferbyniad iddynt hwy "Ei frodyr a genfigenasant wrtho ef; o ei dad a ddaliodd ar y peth;" *Gen. xxx. 11.* Efe a'i trysorodd at ddefnydd rhyllaw, fel yr hyn oedd â rhywbeth o Dduw ynddo. Gwna dithau felly, Gristion, anadliadau sanctaidd yr Ysbryd a anad o fewn dy gylch.

Dal sylw ar eiriau nodedig yn ymddygiad anion y rhai grasol, fel y gwnet a'ch nwywiad rhyw lyfr rhagorol a fenthyccio i ti i'w ddarllen am dro. Yn wir, ar y modau o'r fath, a dim sicrach, yr ydych chi'n mwynhau ein cyfeillion a'n perthynasau.

asol. Nid ydynt ond benthg i ni am
o; ac (defnyddiwn ni hwynt, neu beidiwn)
elwir am danynt cyn hir. Ac a fydd er
y gysur di ymadael â hwynt, cyn i ti gael
lon i' geisio les drwyddynt? Yr oedd yn
nadrodd dwys o eiddo y gwas parchedig
yn y Dduw, Mr. Bolton, wrth ei blant,
ei glaf wely, "Yr wyf yn gorhymyn
chwi, O fy mhlant, na chyfarfyddoch
mi yn y dydd mawr ger bron brawdle
ist, mewn cyflwr di-Grist a di-ras." Y
e Duw yn cadw cyfrif manwl o'r medd-
a ddyry efe er ein iachawdwriaeth: ac
l o'r radd isaf y mae bucheddau ei weis-
a duwiol. Chwi ellwch graffu fod Duw
dra manwl yn yr Ysgrhythyr i goffau am
paid yr amser y bu ei weision ffyddlawn
w ar y ddaear: ac yn sicr ym mysq rhes-
au ereill, efe a fynai i ni wybod ei fod yn
ddwl cyfrif â'r rhai a gyd-ocsodd â
ynt, am bob bliwyddyn, ie, dydd, ac awr,
awsant yn eu plith. Hwy a gânt wybod
ganddynt brophwyd, tad neu briod,
idd yn dduwiol; a'u bod wedi eu cael am
ny o amser; ac y myn Duw ofyn iddynt
ddefnydd a wnaethant o honnynt.

PENNOD X.

*ymarfer grym dduwioldeb yn ein hymddygiad
at ein cynmyddogion oddi allan.*

NID oes i' th gyfiawnder tuag at ereill
s gartref, ond rhodio allan i'r heolydd ac
weled â' th gymmyddogion o amgylch. Y
e yn rhaid i' th ymddygiad atynt, a' th
arweddiad yn eu mysq, fod yn sanctaidd
hyfiawn. Yn yr ysgrhythyr, y mae cyf-
nder; a byw yn gyfiawn, yn fynych yn
nwys holl ddyledsdydd y Cristion at ei
myddogion; ac felly i' w wahaniaethu oddi
h dduwioldeb, sydd â Duw yn wrth-
lyth agosaf ganddi; a sokrwydd neu gym-
roldeb, sy'n gyntaf yn ein golygu ni ein
ain. Gwelwch hwynt oll ynghyd:
ii. 12: lle y dywedir fod "gras Duw,
hwn sy'n dwyn iachawdwriaeth, yn ein
gu ni i fyw yn sobr ac yn gyfiawn, ac
dduwiol, yn y byd sydd yr awr hon."
heb a fynai fod yn angu i'r tri hyn, nid
idd iddo ond gwano un o honnynt—nid
beth pa un—fe red bywyd sancteiddrwydd
n trwy un drws, y naill neu y llall, pa
ynag y rhoddir yr archoll. Y mae yn
fod math o gyfiawnder moesol, a'n gâd
n fyr o wir dduwioldeb; ond nid oes
r gwir dduwioldeb, a'n gâd ni yn fyr o
awnder moesol. Er fod yr enaid teiml-
l i' w gael mewn anifail, heb yr unrhes-
ol, etto, nid yw yr enaid rhesymol i' w
mewn dyn, heb yr un teimladol. Gan
gras a sancteiddrwydd yw yr egwyddor
af, y mae hi yn cynnwys y llall ynddi
un. Dyma yr urddas a'r bri sy'n ddyl-

edus i Gristionogaeth, a'r egwyddor ddad-
ganedig ganddi yn yr efengyl, a bydded en
gelynyon yn farwyr; sef, er fod rhai a'i
profesant hi heb fod o'r bobl oren, etto, na
ddysgasant eu hanghyfiawnder ganddi hi.
Tra chywir y dywedodd un, "Ni ddichon
un Cristion fod yn ddrwg, oddi eithr iddo
fod yn rhagrithiwr." Gan hyny, naill ai
gwad dy fedydd, ai ffeiddia y meddwl am
bob anghyfiawnder. Yn sicr, ti ellit ddiange
yn well, pe gadewt i'r byd wybod nad wyt
yn honi perthynas â Christ, cyn i ti arfer y
fath ddyrgioni. Y mae rhai yn wan yn eu
barn: pa le y ceir Aristotle, Socrates, a
Cato, a rhai Ethniciad yn chwanaq, a fu
yn enwog am eu cyfiawnder moesol; pa un
ai yn y nef ai yn uffern. Ond a fu erioed
un a amhieuodd pa beth a ddaw o'r Cristion
anghyfiawn mewn byd arall? Y mae
uffern yn safnrythu am y rhai hyn
uwch law pawb ereill. "Oni wyddoch
chwi," medd yr Apostol, "na chaiff y
rhai anghyfiawn etifeddu teyrnas Dduw?"
I Cor. vi. 9. Fel pe dywedasai, Yn sicr,
ni chollasoch wasanaeth eich rheswm, fel ag
i dybied fod lle i'r fath anfeiliaid a'r rhai
hyn yn y nefoedd. Ac onid oes i'r anghy-
fiawn, pa agen o obaith sydd am iachawdwr-
iaeth y rhai y mae yn eu hanghyfiawnder
filwaith mwy o erchylldra nag a all yr
eiddo neb arall yn y byd ei gynnwys?
Caiff y paganiaid, am eu hanghyfiawnder
hwy, eu cyhuddo a'u condemnio fel gwrth-
ryfelwyr yn erbyn y ddeddf: felly y caiff
y Cristion anghyfiawn, a hyny yn ddyfnach.
Ond y cyhuddiad trymaf tu hwnt i gym-
mhariaeth, ac a esyd y pwys trymaf o lawer
ar hwn nag ar y llall, yw hwnw a ddwg yr
efengyl i mewn, ei fod trwy ei anghyfiaw-
nder, wedi bod yn elyn croes Crist: *Phil.* iii.
18. Yn wir, pe byddai ar ddyw chwant
dangos ei falais i'r eithaf yn erbyn Crist a'i
groes, ni allai Satan mo'i helpio i' w ddangos
yn fwy cyflawn, na thrwy ymwisgo â phro-
ffes wych o'r efengyl, ac â hon am dano,
ymdrybaeddu yn yn y ffos fudr a ffeiaidd o
arferiadau anghyfiawnder. O! fel y gwna
hyn i'r byd halogedig gablu enw Crist, a
ffeiddio hyd yn oed y broffes o hono, pan
welant ddim o'r budreddi hwn ar wyneb
ymddygiad y rhai a ymhonant i'r enw o
saint, yn fwy nag y gwna ereill! Pa beth?
A gelwydda y tafod hwnw wrth ddyw, a fu
gynneu yn gweddio mor daer ar Dduw. A
gaiff y llygaid hyny eu hanfon ar neges
chwant neu genfigen, a dynaist ti ychydig
funydau yn ol oddi ar y Beibl, oddi wrth
ddarllen yr oraclau sanctaidd hyny? A
roddir y dwylaw hyny a estynwyd ychydig
yn ol yn ddefosiynol tua'r nef, yn llogell dy
gymmydog i' w ysbeilio ef o'i eiddo? Y
coesau ar y rhai y cerddaist ddoe i addoliad
cyhoeddus Duw, a gânt hwy dy ddwyn hed-
yw i' th siop, neu y farchnad, i hudoathwyllo.

Mewn gair, a wyt ti yn meddwl cyfnewid â Duw, fel ag i gael, trwy rith mwy o sel drosto yn y llech gyntaf, ryddhâd o ran y pwngw o gyfiawnder yn yr ail lech? A fydd i'th gariad rhagrithiol at Dduw esgusodi dy falais a'th genfigen, gan ba rai y mae dy galon yn chwyddo yn erbyn dy gymmydog? A wna dy ddefosiwn at Dduw dy ryddhau oddi wrth dalu dy ddyledion i ddy'n? Na ato Duw i ti dybied felly. Ond os wyt, cynghor Pedr i Simon y swynwr yw fy nghynghor innau i tithau: "Édifarhá am dy ddrwgioni hwn, a gweddia Dduw a faddeur i ti feddylfryd dy galon;" *Act. viii. 22.* Yr wyf yn enw Duw yn galw ar bob un sydd yn gwisgo lifrai Crist i wneuthur cydwybod o'r rhan hon o gyfiawnder, megys na fynech ddwyn ar eich penau ddial Duw am yr holl gableddau hyn, y darfu i noethni rhai profeswyr yn y peth hwn, ie, ac arferion bryntion rhai rhagrithwyr, roddi achlysur i fydd annuwiol eu bytheirió allan yn erbyn Crist a daionus ffyrdd duwioldeb. Yn awr, fe gedwir grym duwioldeb yn y mater hwn, pan yr edrycher at y ddau beth hyn:—

1af. Pan fyddo ein gofal yn unfurf, ac mewn arferiad cyfartal; sef i ym-gais am gyflawni y naill ddyledswydd at ein cymmydog gystal a'r llall. Canys ni a ddylem wybod fod cyfiawnder, sydd, fel y dywed un, yn rhedeg drwy bob gorchymyn, fel pe byddai yn wythien i bob gair o'r ail lech. Y mae hwn yn galw am ufudd-dod dyledus i rieni naturiol, gwladol, ac eglwysig, yn y pummed gorchymyn; am ein gofal i gadw bywyd ein cymmydog, yn y chweched; ei ddiweirdeb yn y seithfed; ei ddaoedd yn yr wythfed; ei enw da yn y nawfed; a'n dymuniadau o fewn eu terfynau addas, rhag chwennych eiddo ein cymmydog yn y ddeged. Yn awr, megys y cynnelir iechyd yn y corph, trwy gadw yn agored dramwyfeydd y bywyd, i'r ysbrydoedd rydd symmud o'r naill ran i'r llall; y rhai hyn, os unwaith eu hattellir rhag cyflawni eu swydd yn unrhyw ran, bydd iechyd y corph yn ebrwydd mewn perygl. Felly yma, cedwir ysbryd a bywyd duwioldeb yn y Cristion, trwy ofal ac ym-gais duwiol am gadw'r galon yn rhydd a pharod, i fyned o'r naill ddyledswydd i'r llall, sydd ar ddy'n i'w gymmydog, yn ol yr awryw rodfeydd, sydd yn mhob gorchymyn iddo ymsymmud ydynt.

2il. Fel y mae yn rhaid i'n gofal fod yn unfurf, felly rhaid i'r ysgogydd a'r egwyddor dumewnol, sydd yn ein rhoddi ar waith, ac yn peri i'r holl olwynion hyn droi, fod yn efengylaidd. Y mae'r gorchymyn yn ffordd yn mha un y gellir cael Iudew, a Christion, a phagan hefyd yn teithio. Pa fodd yn awr y gwahaniaethwn ni Gristion oddi wrth y lleill, pan fyddo pagan ac Iudew hefyd yn rhodio gydag ef yn yr un ddyledswydd,

ac yn ymddangos yn blant mor ufudd, y wragedd mor ymostyngol, yn ddeiliaid maffyddlawn, yn gymmydogion mor gareidi a'r Cristion ei hunan? Yn wir, nid o modd i wahaniaethu, oddi eithr yn y egwyddor o ba un, a'r diben i ba un y gweithreda efe. Gan hyn, edrych yn dda at hyn os amgen, yr wyt allan o'r ffordd, tra y t bygid dy fod ynddi. Peth tra chyfyred yw, fod dynion yn gwneud cam â Christion pan wna't yn uniawn â'u cymmydogion; hyn a wneir, pan na byddo Crist yn cael olygu yn y weithred, ac na byddo cariad ato ef yn ein cymmhell iddi. Heb hyn gelli fyned am bagen gonest; ond nis ge fod yn Gristion cywir. Bwrw fod gw'tan ymddired gan ei feistr, i fyned a thair yw'r swm o arian; yntau yn gwneud hyn, etto, nid o barch dyledus i'r gorchymyn, nac o gariad at ei feistr, ond hyn y cywilydd o gael ei ddal fel lleidr. Yn achos hwn cai y gwr ei ofyniad: ond fe gelli feistr gam mawr. Y cyfryw gam a wna pawb sy'n unig yn foesolwyr, a'r Arglywydd Iesu: y maent yn dra manwl a chyfiaw yn eu marchnadaeth â'u cymmydogion; ond ar yr un pryd yn dra chamweddus at Gristion am na wna't y pethau ar ei gyfrif ef. Hyn a wna ein cariad at ein cymmydog yn gariad efengylaidd: ac y mae yn ol enwad Cristion yn "orchymyn newydd;" *Ioan xiii. 34,* span fyddo ein cariad at ein brawd yn cymmydog meryd tân oddi wrth ei gariad ef atom. Nis gellir dywedyd ein bod, mewn ystod efengylaidd, yn cyflawni un gorchymyn oddi eithr i ni yn gyntaf garu Crist, ac y ei wneud er ei fwyn ef. "O chierwch cedwch fy nghorchymynion;" *Ioan x. 15.* Yna sylwch, megys y gosododd Duw ei enw o flaen y deg gorchymyn: felly mae Crist am yr un achos, yn gosod ei enw yntau o flaen ufudd-dod y Cristion i bob un o honynt; fel y byddo i'w bobl eu cadw megys ei orchymynion ef, ac hefyd o gariad ato ef, yr hwn a'i dygodd o dŷ caethiw gwaeth nag odd yr Aipht i Israel.

PENNOD XI.

Yn cynnwys naw neu ddeg o gyfarwyddiadau, cynnorthwyr i'r rhai sy'n chwennych cynnal yr ymarweddiad sanctaidd a chyfiawn.

Y MAE y trydydd peth a bennodwyd yn drin y pwngw yn dyfod yn awr i'w ystyried ac y mae hyn trwy osod cyfarwydd; mewn ffordd o gynghor, ac er cynnorthwyr i bawb a fyddo am gynnal grym duwiol a sancteiddrwydd yn eu rhodiad beunyddi.

DOSE. I.

1af. Bydd i'w sic o gael sail dda wedi gosod, ar ba un y gellir codi yr adeil hardd o ymarweddiad sanctaidd a chyfiawn.

ni thâl i'r sail fod yn llai na chyfrwydiad trwyadl yn y galon, trwy nerthol eithrediad Ysbryd sancteiddiol Duw iot. Y mae yn rhaid i ti fod yn gyfwn a sanctaidd, cyn y gelli fyw yn gyfiawn sanctaidd. Oni fydd y llong o iawn neuthuriad ar y cyntaf, wedi ei chyfrwymo a gyd-bwys yn ol deddf y gelfyddyd hono, yth ni nofia hi yn daclus: ac oni fydd y llong wedi ei newydd-furfio trwy waith yr sbryd, a'i llunio yn ol deddf y creadur wydd, yn yr hon y mae yr "hen bethau eiddi myned heibio, a phob peth yn cael ei neuthur o newydd;" (2 Cor. v. 17), byth ni dia y dyn yn sanctaidd. Gras pur yn ystr y galon yw yr hyn a bortha broffes yn lamp a sancteiddrwydd yn y fuchedd;" *at.* xxv. 4. Yn awr, y mae y newidiad wyadl hwn yn dy galon i edrych iddo, yn wedig yn y ddau beth hyn:—

(1af.) Am iddo fod yn newidiad wedi ei newd yn dy farn am bechod a thueddiad y galon tuag ato. Bu genyt gynt y fath ydych chi am bechod ag oedd yn ei wneud yn ddyunol: buost yn edrych arno fel Efa ar y "wyth gwaharddedig; cyfrifaist ef yn deg ewn golwg, yn dda am fwyd, ac yn wertu ddewis a'i ddymunio genyt. Os wyt yn rhau o'r un meddwl, bydd dy ddannedd a dyfru a'th galon o hyd yn hiraethu am no. Gellir, fe allai, dy gadw rhag dadn a dangos meddwl dy galon am dro: ond dau a fyddo yn caru, er eu cadw ar wana gan eu perthynasau, hwy a ddiangant ryw dro at eu gilydd tra y byddo eu serch un ag oedd; felly y gwnei dithau at dy want. Ac am hyny, na orphwys hyd oni i chydwydd dy fod yn ffeiddio ac yn casau chod mor llwyr ag y buost erioed yn ei ru.

(2il.) Edrych am fod y fath newidiad yn y farn a'th galon ag a baro i ti yn dy galon i foddhau ac ymhyfrydu yng Nghrist a'i chymynion sanctaidd. Yna, ni bydd mawr o achos ofni i ti ddirywio pan rwyndi wrtho ef a'i wasanaethu gerfydd y llinyn calon o gariad ac ymfodhdhâd. Nid ydyw diafol yn ei gael yn waith caled i wahanu'n oddi wrth ei ddyledswydd, pan na bu nnddo erioed hyfrydweh na gwir fodhdhâd rth ei gwneuthur. Y dyn nad yw ei alwigaeth yn ei foddio nac yn cyttuno â'i ian, fel y dywedwn, ni ragora efe byth oddi. Fe ddysg ysgolhaig fwy mewn ythnos, pan ddelo i fiasu ddysg ac i'w phrofi felus, nag a ddysgai mewn mis pan elai ysgol dan ofn ei feistr ac i'w foddio ef, i ei hun. Craffwch ar unrhyw ddyd, y mae yn fwy ei ofal yn y peth y cymmer efe llyfrweh ynddo, ac yn fanylach yn ei gylch i dim arall. Os bydd ei galon ar ei ardd, mor drefnus y cedwir hi! Caiff ei llyfn arddu; ac fe chwilir am yr holl lysiau a'r anigion rhagorol a ellir eu cael o gariad

neu am arian. Ai glendid yw y peth yr ymhyfryda un ynddo? Mor gywrain a dichlynaidd fydd y fath un wrth ymwisgo. Prin y gŵyr pa bryd y bydd yn ddigon gwych. Yn ddiau, fel hyn y mae yma: enaid a fyddo yn gwir garu Crist, ac yn ymhyfrydu mewn sancteiddrwydd, gosodir allan ei holl rym arnynt. Os gall efe ond rhagori yn yr un peth hwn, bod yn fwysanct- aidd, yn fwy nefol, efe a rydd genad i ereill redeg o'i flaen mewn unrhyw beth arall.

DOSE. II.

2il. Bydd sier o gadw dy olwg ar y rheol y mae i ti rodio wrthi. Y mae i bob galwedigaeth real i'w dilyn, perthynol iddi ei hun; a hon yn gofyn pob myfyriaeth i gael edrych iddi: ac heb hyn ni wna dyn ond gwaith bongleriaidd. Ni fedd un galwad y fath real sier a deddf berffaith i fyned ym mlaen wrthi ag a fedd y Cristion. Am hyny, mewn celfyddydau daearol a galwedigaethau bydol, y mae dynion yn amrywio yn eu ffordd a'u dull, er bod o'r un gelfyddyd, am na feddant un real berffaith, nas gall un roddi chwalegiad ati. Ond y mae gan y Cristion un rheol sefydlog; gair Duw a ddichon wneuthur dyn Duw yn berffaith. Yn awr, y neb a fynai ragori yng ngrwm duwioldeb, rhaid iddo ddyfal chwilio hwn. Y meddyg, efe a chwilia ei *Galen*; y cyfreithiwr, ei *Littleton*; a'r philosophydd, ei *Aristotle*—meistriaid yn y celfyddydau hyn. Pa faint mwy y dylai y Cristion ymgynghori â'r gair, fel ag i benderfynu wrth hwnw, a chael ei dynu ganddo, yn fwy na thrwy res gyfan o ddadleuon gan ddyinion? "Ni allwn ni ddim yn erbyn y gwirionedd, ond dros y gwirionedd," medd Paul; 2 Cor. xiii. 8. O Gristion, pan fyddo gair da yn rhoddi ei lais y ffordd hon, cyfeillion a pherthyn- asau y ffordd arall; pan archo elw i ti wneud fel hyn, a phleser fel arall, dywed di fel Iehosaphat yn achos Micea: "Onid oes yma un prophwyd i'r Arglwydd mwyach, fel yr ymgynghorem âg ef;" 1 *Bren.* xxii. 7. Onid oes yma air Duw i mi benderfynu wrtho, yn hytrach nag wrth un o'r prophwydi celwyddog hyn? Yn awr, y mae tair ffordd yr â ddyinion yn groes i'r cyfarwyddyd hwn; a'r cwbl o honynt yn ddinstriol i rym duwioldeb. Rhai a rodd- iant heb un real; rhai wrth gau real; a rhai y wir real ond yn rhanol. Y cyntaf yw y dyn diddeddf a'r penrhydd: yr ail yw y poethyn ofergoelus: a'r trydydd yw y rhag- rithiwr. Gochel y rhai hyn oll, oddi eithr dy fod yn meddwl llandagu duwioldeb.

(1af.) Gwylia rhag dwyn ymaith y rheol a esyd Duw o'th flaen, fel y gwna yr Antinomiaid a'r gwr penhrydd, a ddywedant nad yw y ddeddf yn rheol i'r Cristion. Y mae yn rhaid i'r rhai hyn rodio yn wrygam yn eu bucheddau, gan eu bod yn byw wrth rwyg, ac nid wrth real. Buaswn i yn

meldwl ddarfod i Crist fedyddio y ddeddf, a'i hefengyleiddio, trwy ei phregethu fel rheol sancteiddrwydd yn ei athrawiaeth; *Mat. v. 27*; ac hefyd trwy rodio yn ei fywyd yn ol ei rheol hi; *1 Pedr ii. 21, 22*. Am hyn, gellir cyhuddo yr egwyddor hono, fel lleiddiad bywyd cyflawn a sanctaidd, am ei bod yn dwyn ymaith y rheol wrth yr hon y dylid ei arwain. Effordd gyfrwys yw hon gan Satan i ddal y creadur truan. Os unwaith y gall efe beri i'r Cristion flino ar ei arweinydd a'i anfon ymaith, yna nid hir y bydd efe heb grwydro o lwybr y nef, a syrthio i ffyrdd uffern. Yr apostol a ddywed i ni am genhedlaeth o bobl, sydd "tan addaw rhyddid iddynt eu hunain, yn wasanaethwyr llygredigaeth;" *2 Pedr ii. 19*. Yn ddiau, mi feddyliwn fod y rhai hyn yn tebygu i'r bobl a ymlithrant oddi tan iau y gorchymyn dan rith o ryddid, ac ydynt yn fuan dan iau waeth yn ei lle, sef iau pechod.

(21.) Gwylia rhag rhodio wrth reol gau. Nid oes ond un rheol gywir—gair Duw: ac am hynny hawdd i ni wybod pa un sy'n ffals: "At y gyfraith, ac at y dystiolaeth; oni ddwywedant yn ol y gair Lwn, hynny sydd na'n nad oes olenni ynddynt;" *Esa. viii. 20*. Nac ymhona i fanylwech mwy nag a wiria y gair: bod yn rhy gyfiawn yw hyn yn ddiau: *Preg. vii. 16*. Y mae gormodedd gystal a diffyg yn gwneud anghenfil; felly, y mae nid yn unig yr hwn ni fedd ond un llaw, ond yr hwn y mae iddo dair. Y mae melldith yn ddarpariedig i'r neb a roddo at, gystal ag i'r neb a "dyno oddi wrth eirian y llyfr hwn;" *Dad. xxii. 18*. Y mae gan Satan hen fwriad i ddiseilio duwioldeb Ysgrhythrol, trwy grio i fynu dduwioldeb dynol. Efe a wŷr yn rhy dda megys y diffodda y tân, trwy fod y crochan yn berwi drosodd, ac yn mhen ychydig na ferwa efe ddim; felly trwy beri i sel dynion ferwi drosodd i sancteiddrwydd gau a rhagrithiol, y mae efe yn sier o ddiffodd pob gwir sancteiddrwydd, ac o'u dwyn o'r diwedd i feddu dim sel, ond troi allan yn Atheistiaid o'r oeraf. Y Pharisea yntau, efe a fyn chwanegeu traddodiadau dynion at orchymyn Duw: a'r Pabydd, ei wir fab a'i etifedd, y mae ganddo ei wireddau anysgrifenedig, ei urddau sanctaidd, a'i reolau buchedd lem, fwy nag a ddaeth erioed i galon Duw eu gofyn. Ac yn ddiweddar y Crynwyr a feuthyciasant aml ddernyn gau y cyfryw; a'r rhai y maent yn dra phlysur yn elytio rhyw fath ddigrif o grefydd nad yw yn bossibl i ddyen ei chynneryd, nes iddo yn gyntaf yniwrthod a'i ddealltwriaeth ei hun a phob ymostyngiad i air Duw hefyd. O gwylwch rhag ewylllys grefydd ac ewylllys addoliad. Y mae yn gyluddiad trwm yn erbyn Israel, yn *Hos. viii. 14*: "Anghosiodd Israel ei wneuthurwr, ac a adeiladodd demlau. Gall hyn ymdeiaageu yn rhyfedd, anghosio Duw,

a bod er hyn mor grefyddol ag adeilad demlau! Ie, eu hadeiladu heb un warant gan Dduw. Y mae Duw yn cyfrif ei fod yn cael ei anghosio pan yr anghosiom eirair, ac na chadwom yn dyn at hwn. Y mae wedi ei osod fel pechod mawr wrt ddrws Ieroboam, ddarfod iddo "offrymu: yr allor a wnaethai efe yn Bethel, yn y mae a ddychymygasai efe yn ei galon ei hun *1 Bren. xii. 33*. Efe a ymgynghorodd galon ei hun, nid â Duw, pa bryd a pha i offrymu. Y duwioldeb a fyddo yn ddyfais ein calon ni, mid yw yn dduwioldeb y ol calon Duw. Y felddith sy'n syrthio a y cyfryw wyr hyfion yw, tra y maent y ceisio gosod i fyny eu sancteiddrwydd eu hunain, nad ydynt yn ymostwng i'r gw sancteiddrwydd a ofyn Duw yn ei air." mae Duw yn gyfiawn yn eu rhoddi i fyny i ansancteiddrwydd dileidrith, am iddy ymhoni i sancteiddiad pellach nag y dylant. Tyst y ffiosydd budron a'r cydfirfydd hyny o bob ffieidd-dra, y crefydd-dai [no fynachdai] fel eu gelwir gan y Pabyddion y rhai gan eu bod o sefydliad dynol, ac he yr halen o warant ddwyfol i'w cadw y beraidd, a redasant i fudreddi a llygred. Ni wna Duw oddef i'w creadur fod y hunan-gynnyrfwr. Y mae yn bechod mwy gwneuthur yr hyn ni orchymynwyd, na be heb wneuthur yr hyn a orchymynwyd i'r gan Dduw: fel y mae i ddeiliad ryfry gwneud deddfau o'i ben ei hun, na bod hi ufuddhau i'r ddeddf a ordeinia ei dywys. Wrth osod i fyny sancteiddrwydd o'r eiddo ein hunain, yr ydym, fel pe byddai yn dw bathdy Duw o'i law: i'r hwn yn unig perthyn argraphu pa beth sy'n sanctaidd pha beth nid yw.

(3ydd.) Na ddefnyddia y wir reol: bleidgar, neu ranol. Y mae bod yn duedgar fel hyn mewn ymarferiad, mor ddrwg derbyn wynebau yn y gyfraith. I hyn wnaeth yr offeiriad yn ddirmygus, (*Mal. 9*); ac felly y gwna y llall y profeswr, gbron Duw a dyn. Trefner y cwbl o agwedy fuchedd wrth reol; os angen ni thâl cwbl ddim: "Ffiaidd gan yr Arglwy amryw fesurau;" *Diar. xx. 10*. D'nar'd, gonest yn ei farchnadaeth â dynion, un fedd ond yr un mesur, a hwn yn ol y gyfraith, i'w ddefnyddio wrth brym a gwertl. Ac efe yw y gwr duwoli, na ddefnyddio un rheol i'w holl ymddygiadau, a hono ddim arall ond gair Duw. O! mor ffiaid gan Dduw oedl rhagrith yr Iuddewon, feiddid fynyed i'r dadleudy, rhag ymhalo; (*Ioan xvii. 28*), ond ni phretusent drochi dwylaw yng ngwaed Crist? A'r Pharisea y rhai a ddaliant yn fanwl at reol y gyfraith, wrth ddegymu yr anis a'r cwmin, o a ymesgusodent yn mhethiau trymaf y gyfraith! O, gochel hyn, os wyt yn ca bywyd dy enaid. Ni ddiolchech chw

wsmer a ddeuai i'ch siop, ac a brynai werth einiog, ond a ladrattiai werth punt: nac i dyn a fyddai yn dra manwl i dalu dyled pehan sydd arno; ond i'r diben o fyned yn dyfnaeth i'ch llyfr, a'ch twyllo yn y diwedd ni swm mwy. Drygioni erchyll yw hyn, ydyfyned â'r gair mewn pethau bychain, o vriad dirgelaidd i wneud cam â Duw mewn pethau mwy.

DOSB. III.

3ydd. Gosod i ti dy hun iawn ddbiben yn y rodiad cyfiawn a sanctaidd. Ac yma ydd sier o'th fod ym mhell oddi wrth ddienneddol. Na feddlwl bwrcasu dim ar y Duw trwy dy gyfiawnder. Nid yw y ffaith ar werth i neb: "Cyflog pechod yw arwolaeith; eithr dawn [rhodod] Duw y bywyd tragwyddol, trwy Iesu Grist;" *Rhuf.* vi. 23. Yr hyn a werthodd Duw i Crist, y mae yn ei roddi i ni. Crist oedd y bwrcaswr; nid yw credinwyr ond etifeddion o hyn a brynodd efe; ac nid oes iddynt ni hawl mewn dim, ond trwy ei hawl ef. Wrth ddadleu am ddim gan Dduw, trwy a hunan gyfiawnder ni, yr ydym yn cau ni hunain allan o fudd trwy ei gyfiawnder ef. Nis gallwn fod mewn dau le ar unith: os ceir ni yn pwysu ar ein tŷ ein hunain, nis gellir ein cael yng Nghrist. Wyddai Paul hyn; ac am hyn y mae yn awadu â'r naill, fel y caffai hawl yn y ll: *Phil.* iii. 8, 9. Dichell Satan yw yllio dy ddwyfronog cyfiawnder, trwy ei uro allan ym mhellach nag y gwna y metel oddef. Yn wir, yr wyt wrth ymddried dy gyfiawnder yn distrywio hyd yn oed natur: y mae dy gyfiawnder yn troi yn ghyfiawnder, a'th sancteiddrwydd yn diwio i ddrygioni. Pa ddrygioni mwy na balchder—a'r fath falchder ag sydd yn diwisio Crist, ac yn newid y drefn a osododd iw ei hun i achub eneidiau? O enaid, os ynit fod yn sanctaidd, dysg fod yn osongedig. Y maent wedi eu cydgylymu: Pa beth a gais yr Arglwydd genyt, ond ynwethur barn, a hoffi trugardd, ac ymwtwg i rodio gyda'th Dduw?" *Micah.* vi.

A pha fodd y gellir dywedyd, fod y neb ymddrieddrio yn ei sancteiddrwydd ei hun, rhodio yn ymostyngol, nis gall fy nghalon llychymygu. Nid yw Duw yn dy osod i nill y nef trwy dy sancteiddrwydd, ond i angos trwyddo dy gariad a'th ddiolchgarth i Grist a'i hennillodd drosot.

Oddi yma, y ddadl fawr a ddefnyddia Crist i annog ei ddisgyblion i sancteiddrwydd, yw cariad: "O cherwech fi, cedwch y ngorchymynion;" *Ioan.* xiv. Fel pe wedasai, chwi wyddoch i ba beth y ethum i'r byd, ac yr wyf yn awr yn ei ael; y naill a'r llall er eich gwasanaethu—dros y rhai yr wyf yn doddi fy einioes awr, ac yn ei chymeryd i fyny drachefn—y gallwyf fyw yn y nef i eiriol drosoch.

Os ydych yn prisio y pethau hyn, a'r ffrwythau bendigedig a fedwch oddi wrth-ynt, cerwech fi: ac os cerwech fi, tystiwech hynny trwy gadw fy ngorchymynion. Hwnw yw sancteiddrwydd efengylaidd sydd yn cael ei fagu a'i borthi gan y cariad hwn; pan fyddo yr oll a wna y Cristion yn offrymedig ganddo, fel aberth diolch i Grist yr hwn a'i carodd hyd anghau. Fel hyn y mae'r ddyweddi at Grist: "Rhoddaf fy nghariad i ti;" *Can.* vii. 12. Yn *adn.* 13, hi a ddegys beth yw ei meddwl wrth ei chariad—"pob rhyw odidog ffrwythau, newydd a hen, y rhai a roddais i gadw i ti, fy Anwylyd." Yr oedd hi (*yn adn.* 9) wedi profesu ei chred yng Nghrist, ac yfed yn ddwfn o'i gariad: ac yn awr, at dalu yn ol mewn diolchgarwech, y mae yn ymgynhyrfu i'w goesawu â godidog ffrwythau ei rasusau ei hun, wedi eu casglu oddi ar ymarweddiad sanctaidd. Hyn y mae yn ei wneud, nid i borthi ei balchder a'i hunanlyder â hwynt; ond y mae yn eu cadw i'w Hanwylyd, fel y caffai efe yr holl glod o hon-ynt.

DOSB. IV.

4ydd. Edrych yn fynech ar y cynllun perffaith a roddodd Crist i ti o rodiad sanctaidd yn ei fywyd ei hun. Bydd ein llaw ni yn tebygu i'r copi yr ysgrifonom wrtho: os gosodwn o'n blaen esamplau isel, nis gellir disgwyl i ni ein hunain godi yn uchel. Ac yn wir y mae'r sant uchaf ar y ddaear yn rhy isel i fod yn gynllun i ni, am mai perffaith sancteiddrwydd yw y nod i'r Cristion gwanaf gyfeirio ato: 2 *Cor.* vii. 1. Ac nid yw hwn i'w gael yn y goreu o'r saint yn y byd hwn. Moses y gwr llarieiddiaf ar y ddaear, ni a gawn ei ysbryd ar dro yn cyffiroi: a Phedr, y blaenaf o'r apostolion, nid yw bob amser yn iawn droedio, yn ol yr efengyl: *Gal.* ii. 14. A'r neb a fynai ei ganlyn y pryd hynny, y mae yn sier o fyned allan o'i ffordd. Y milwr da a ddilyn flaenor y rhes, nid pan fyddo yn ffoi, ond pan fyddo yn myned ym mlaen yn rheolaidd ar ol ei gadben: "Byddwch ddilynwyr i mi, megys yr wyf ffinau i Grist;" 1 *Cor.* xi. 1. Ni ddylid dilyn y sylwad ym mhellach nag y byddo yn unol â'r testyn. Y mae'r meistr nid yn unig yn llinellu llyfr yr ysgolhaig, ond yn ysgrifenu iddo gopi â'i law ei hun. Gorchymyn Crist yw ein rheol ni, a'i fywyd ef yw ein copi: os myni rodio yn sanctaidd y mae yn rhaid i ti ymgais, nid yn unig am wneud yr hyn a orchymynia Crist, ond hefyd fel y bu i Grist ei hun wneuthur: y mae i ti ymdrechu am lunio pob llythyren yn dy gopi, gweithredu yn dy fywyd mewn dilynriad sanctaidd i Grist. Trwy sancteiddia yr ydym ni "yn unffurf â delw Crist;" *Rhuf.* viii. 29. Yr ydym yn arddangos Crist, ac yn ei ddal allan i bawb a'n gwelant.

Yn awr, y mae dau beth yn cydfyned i wneud y peth yn ddellw un arall. Yn gyntaf, Tebygoliaeth. Yn ail, Deiliad. Rhaid yw iddo nid yn unig fod yn debyg, ond i'r tebygoliaeth hwn fod yn tarddu ac yn deilliaw o hono. Y mae eira a llaeth yn wnyion fel eu gilydd; etto, nis gallwn ddywedyd fod un o honynt yn ddellw y llall, am nad yw eu tebygoliaeth yn deilliaw y naill o'r llall. Ond y llun a dynir bob llinell wrth wyneb dyn, gellir yn briodol ei alw yn ddellw y dyn, yn ol cyffelybrwydd yr hwn ei gwnaed. Fel hyn, gwir sancteiddrwydd yw hwnw sy'n tarddu o Grist, pan osodo yr enaid Grist yn ei air a'i esampl o'i flaen, fel y gosodai yn y person y bwriada dynu ei lun, gan ymeginio i dynu bob llinell yn ei fuchedd wrth y rhai hyn. O! dyma ffordd hyfryd yn wir i fyntumio grym duwioldeb, pan yth dentier i ryw wagedd, bod â Christ o flaen dy lygad yn ei rodiad sanctaidd! Gofyn i'th enaid, A wyf fi, yn yr ymadrodd hwn, y weithred hon, y cyfeillion yr wyf yn cyfeillachu â hwynt, yn tebygu i Grist? A wnaeth efe, neu a wnaif efe, pe etto i fyw ar y ddaear, fel yr wyf fi yn gwneud? Oni fyddai efe yn fanylach yn ei eiriaw nag wyf fi? A ddiferoddo erioed y fath ymadrodd ofer o'i enau ef? A ymhyrdaif efe yn y fath gyfeillion ag sy genyf fi? A dreuliaif efe ei amser ar deganau a gwael goegeddau fel yr wyf fi? A ai efe i'r fath draul i besgi ei gorph, gan lyngau yr un pryd yr hyn a allai borthi llawer o dlodion sydd ar drengu gan eisieu? A ymwisgai efe yn ol pob dull sydd yn dyfod i arferiad, er mor ffol a thrangwyddus fyddo? A geid cardiaid a disiaid un amser yn ei ddwyllaw ef i yru amser heibio? Ac a fydd i mi ymfoddio mewn dim a'm gwnaif yn anhebyg i Grist? Na ato Duw. Nyni a'i cyfrifwn yn ddigon os gallwn enwi y cyfrifwr da, neu broffeswr mawr, o blaid ein harferiad; ac felly arweinir ni i brofedigaeth. Ond Gristion, os dywed dy gydwybod wrthyf nad yw Crist yn hoffi y fath weithredoedd, ymaith â hwynt, er i ti allu dwyn esampl y sant enwocaf yn y wlad i fod o'u tu. Ysgatfydd yr adwaenost rai o enw mawr mewn profes, a fwriant ymaith ddyledswyddau teuluaid: ond ai nid oedd Crist yn dangos gofal neillduol am yr apostolion oedd yn byw dano ac o'nifer ei deulu? Gan weddio yn fynych gyda hwynt, ailadrodd, ac agoryd ym mhellach iddynt yr hyn a bregethai efe yn gyhoeddus; a chadw y Pasg gyda hwynt fel ei deulu, yn ol cyfraith yr ordinhad hono? *Ecsod. xvi.* 'Ti a weli rai yn troi cefn ar gynnulliadau cyhoedd, dan yr esgus fod yno gymmysgedd pechadurus a'i halogant hwynt. 'A wnaeth ein Harglwydd Iesu fel hyn? Ai nid oedd efe yn y deml a'r synagogau yn dal cymundeb â hwynt yng ngwasanaeth Duw, yr

hwn oedd o ran sylwedd yn cael ei gadw yno, er nad heb ryw lygriadau wedi ym-lusgo i'w plith? O Gristion, ystyria fywy. Crist yn fwy, a thi a ddygsi yn fuan well hau dy fywyd dy hun. Gwir swm a phe'nchaf crefydd yw tebygu i'r Duw a addolwn.

DOSB. V.

5ed. Rhodia yn ymorphwysol ar Dduw Tra y byddo gan y winwydden bawl ne fur i redeg arno, hi a ffirwytha; ond heb cyfryw help, buan y sethrid hi tan draed ac y denai i'r dim. Nid ar law gwr y mae cyfarwyddo ei gerddediad. 'Y mae llawer o bethau da a wna Duw mewn dyn, he fod gan ddyw law ynddynt; ond nid oes tu gwaith da a sanctaidd a wna dyn, heb fo Duw yn gweithio hyn ynddo,' medd Awstin. Megys y dywedwyd am y cadlywyr Groegaid, Parmenio, "Efe a wnaeth at weithred orchestol heb Alecsander; ond a wnaeth Alecsander un heb Parmenio. Gan hyn, os myni gynnal duwioldeb yn rym, "Cydnebydd Dduw yn dy hof fydd; ac nac ymddiried i'th ddeall o hun;" *Diar. iii. 5, 6.* Y mae efe yn barid i gynorthwyo y rhai a alwant arno; ond nid yw yn cyfrif ei hun dan ymrwymiad a neb ond y sawl sydd yn pwyso arno. M ffordd y Cristion i'r nef yn lled debyg i ho yn ein gwlad, sy dan yr enw Washes traeth maith sydd a'i lwybrau mor gyfnidol drwy lifad beunyddiol y llawr, fel ddichon y teithiwr a aeth drosto yn ddiog o fewn mis yn ol, anturio drachefn iddo ond trwy berygl mawr, oni bydd ganddo arweinydd gydag ef. Lle y cafodd efe o ddysgog, fe allai, pan ddelo yno ym mhychydig amser, y cyferfydd â sugndrae llyngclyd. Yn wir, fel hyn y gall y Cristion fyned trwy ddyledswydd; un tro, gypheth rhwyddineb, ei ffordd yn deg o flaen; ac ar dro arall, cael digon o brofedigaeth i'w ddimchwelyd, pe ni chawsai help o'r nef i'w ddwyn yn ddiogel a'i o'r perygl. O Gristion, nid diogel i ti a turio un cam heb dy atteg, dy law o ffyr yn pwyso ar fraich dy Anwylyd. Os y ddiried i'th goesau dy hun, ti a syrti defnyddia dy goesau, gan bwyo ar ei fraef, ac yr wyt yn ddiogel.

DOSB. VI.

6ed. Edrych at dy gymdeithion, pwy y rhai yr wyt yn cymdeithasu â hwy Ffo rhag cymdeithion annuwiol, fel pwy sydd yn wenwyn i rym duwioldeb. By ond mor ofalus am dy enaid, ac a fyddid dy gorph. A feiddit ti yfed o'r un gwp neu eistedd yn yr un gadair ag un a chleitheintus arno? Ac onid yw pechod yn glymor heintus a'r pla ei hun? A feiddid ddyfod lle y mae'r fath ddrwg i'w gael, a ddichon yn fuan lygru dy enaid? O'r h grefstwy'r, nid da fyddai bod y glöwr

anwr yn cydfyw: yr hyn a lanháai un, y
all a'i pardduai ac a'i diwynai. Nid hir y
elli fod yn mysg rhai halogedig, heb y
erygl o halogi dy enaid, yr hwn a burodd
Ysbryd Gláu: ac ni olehodd efe mo
mot, fel y rhedit i fudreddi drachefn. Y
ae yn sicr na chei di ddim help ganddynt
wy i gynnyddu dy sancteiddrwydd: ac yn
ir, nis dylem ddewis y gymdeithas hono,
e nas gallwn obeithio eu gwneud hwy yn
ell, na ni ein hunain yn well drwyddynt.
Hynod yw yr hyn a'noda Ysbryd Duw
n Abraham: "Efe a ymdeithiodd yn nhir
addewid, megys mewn tir dieithr, gan
igo mewn llustai gydag Isaac a Jacob,
ddefoddion o'r un addewid;" *Heb. xi. 9.*
i ddywedir iddo drigo gyda phobl y tir
vnuw, ond gydag Isaac a Jacob, oedd yn
feddion yr un addewid ag yntau. Ni
eisiodd Abraham gydnabyddiaeth á'r
hnciaid: na, yr oedd yn foddllawn i fod
estron iddynt hwy; ond efe a fu byw
da'r rhai oedd o'i dylwyth ei hun; ac yn
ulu Duw hefyd. Cymdeithas ar ei phen
hun yw Cristionogion: "Hwythau wedi
gollwng ymaith, a ddaethant at yr eidd-
t;" *Act. iv. 23.* Gyda phwy y dylai cred-
wyr ymuno, ond credinwyr? Megys y
wedodd Paul, "Onid oes yn eich plith
ymaint ag un doeth, ond bod i chwi ym-
freithio ger bron y rhai digred?" Felly
gallaf finnau ddywedyd wrthynt ti, Grist-
t, onid oes cymmaint ag un sant yn yr
i fro, y gelli gael cybnabyddiaeth ág ef,
eistedd i gydymddiddan, ond bod yn
aid i ti ymuno á'r halogedig a'r annuwiol,
wyt yn byw yn eu mysg? Nid rhyfedd
dy dduwioldeb cyn lleied ei gynnydd,
i wyt yn anadlu mewn cymdeithas ddrwg,
ld fel gwynt y dwyrain, dan yr hwn ni
fa ac ni lwydda dim.

DOSB. VII.

fed. Cais ryw gyfaill Cristionogol, i'r
n y gelli ymddiried yn fwy nag i ereill, i
n y gyngorwr i ti. O! y mae gan hwnw
p mawr at gynnal grym duwioldeb, sydd
ddo gyfaill calon agored, a faidd anlygu
galon iddo. Y mae un cyfagos yn gweled
wy weithiau ar ddy, nag a wel y dyn
to ei hun; ac y mae yn gymhwysach i
nu am ei weithredoedd nag efe am yr
do ei hun. Mae hunangariad, weithiau,
ein dallu yn ein hachos ein hunain, fel
welwn ein hunain cyn waethed ag ydym:
weithiau, byddwn yn rhy ddrwgdybus am
nom ein hunain, nes ein bod yn ymddang-
i ni ein hunain yn waeth nag ydym. Yn
r, fel na byddo i ti ddfuddio dy hun o
p mor fawr oddi wrth dy gyfaill, bydd
o gadw dy galon yn barod i dderbyn, i e,
hoseidid yn ddiolchgar gerydd o'i enau.
rhai ni allant ddiodef triniaeth syml, a
yngant eu hunain yn fwyaf; am eu bod
wy hyn yn cael clywed y gwir ond yn au-

fynych. Y dyn na fedd ddigon o gariad i
roddi cerydd yn ei bryd i'w frawd, na digon
o ymostyngiad i oddef cerydd ganddo, nid
yw yn deilwng o'i alw yn Gristion. Trwy
y cyntaf, y mae yn dangos ei hun yn gasawr
ei frawd (*Lef. xix. 17*); a thrwy y llall y
mae yn profi ei hun yn watwarwr (*Diar.*
ix. 8).

Profesodd Dafydd dduwiol, y cymmerai
efe yn garedig fod i'r cyflawn ei guro, i e,
mor garedig i a phe torai flwch o olew ar ei
ben; yr hyn oedd, ym mysg yr Iuddewon,
yn arwydd arbenig o gariad: *Salm cxli. 5.*
Ac fe wnaeth ei air yn dda, nid yn debyg
i'r Pabyddion gyda eu dwfr bendigaid—ei
ganmawl yn fawr, ond troi ei wyneb draw,
pan ei dygir i'w daenellu arno. Na: Ab-
igail a Nathan a'i ceryddasut ef—y naill am
ei fwriad gwaedlyd yn erbyn Nabal a'i
deulu; y llall am ei weithred waedlyd ar
Urias; a'r dda a lwyddodd yn dda yn eu
reges. Y gyntaf a ragfasanodd y weithred a
fwradwrd, trwy ei cherydd tymmoraidd;
a'r llall a'i hadfrod ef o'r pechod alaethus
o lefruddiaeth, yn yr hwn y gorweddasai am
rai misoedd, heb ddyfod ato ei hun mor
bell ag i edifarbau am dano, o ran dim
ddarlennu ni. A'r hyn sydd i sylwi arno,
nid yn unig hwy a ffynasant yn y gorchwyl,
ond gwnaethant eu hunain mor anwyl gan-
ddo, trwy eu ffyddlondeb hwn i'w enaid, fel
y cymmerodd efe hi i fod yn wraig iddo, ac
yntau i fod yn ŵr o'i gyfringyngor hyd
ddydd ei farwolaeth: *1 Bren. i. 27—32.* Yn
wir, y mae yn un achos mawr pa ham y mae
cwympiadau profeswyr mor aml yn ein
dyddiau, a'u hadferiad mor anaml neu hwy-
raidd; sef, mai ychydig yn yr amserau oer-
llyd hyn, a geir mor ffyddllawn a chyflawn
y swydd Cristionogol o geryddu eu brodyr.
Cynt yr änt i faldordd am y bai wrth ereill,
er eu gwaradwyddiad, nag y dywedant am
dano wrthynt eu hunain, er eu hadferiad.
Yn wir, wrth fynegi i ereill, ni a gauwn ein
ffordd rhag mynegi i'r person ei hun gyda
dim gobaith o wneud lles iddo. Anhawdd
fydd pari iddo goelio dy fod di yn dyfod i
iachau ei enaid, gan i ti eisoes archolli ei enw.

DOSB. VIII.

fed. Bydd yn fynych yn meddwl yn
ddwys pa mor sanctaidd a chyfiawn y dy-
munit fod wedi byw, pan ddelo awr angeu.
Y rhai yn awr a dybiant nad yw ond o
bwys bychan pa iaith a ddefera oddi
wrthynt, pa gymdeithas a gadwant, ar ba
beth y gwariant eu hamser, pa fodd yr ym-
ddygant at Dduw yn ei addoliad ac at ddyw
yn eu marchnadaeth, ond sy'n byw yn ben-
rhydd, ac heb ofalu llawer pa ben a ä ym
milen, i e, yn synu wrth fanylwch a sel
ereill (fel pe na byddai i un pás eu dwyn i'r
nef ond y carlam), dygir hwythau i ddalfa.
Pan unwaith y daw angeu yn ddigon agos
i'w adnabod wrth ei wedd erwin ei hun, ac

nid wrth son gan ereill; pan ddel y trueiniaid hyn i weled y bydd rhaid iddynt o ddirif fyned i fyd arall yn ddioid, a bod yn rhaid i'w heneidiau noethion "ddy-chwelyd at Dduw, yr hwn a'i rhoes," i glywed pa ddeugliad a rydd efe ar eu rhodïau a'u hagwedd, a pha farn amiddymadwy o fywyd neu farwolaeth a rydd efe arnynt; O! hwy a newidiant eu meddyliau ar hyn, ac a farnant am fuchedd gyfiawn a duwiol mewn modd amgen nag erioed o'r blaen. Y mae yn sylwedig yn mysg y Pabyddion, am lawer o'r Cardinaliaid a'u mawrion ereill, y rhai a dybient eu cwcyllau a'u gwisgoedd crefyddol yn anweddu iddynt yn eu hiechyd; etto, eu bod yn dra awyddus i farw a chael eu claddu ynddynt fel y maent yn gyffredin. Er mai ffledd yw hyn, etto, y mae yn help i ni at olygiad o bwys: y mae rhai sy'n byw yn ddrwg a phenrhydd, er hyny yn chwemych gwisg grefyddol, i fyned ynddi i fyd arall. Fel y dywedodd y llangeyn hoew-ych hwn wrth ei gyfaill coegfaleh, ar ol bod yng ngolwg Ambrose ar ei glaf wely, a gweled mor gysurus yr oedd yn gorfoleddu ar angeu yn ei agoslad ato: "O na allwn fyw gyda thi, a marw gydag Ambrose!" Dymuniad ofer! O ddyu, oni ddisgwyli di fedi yr hyn a havi, a chael yr hyn a roddi i gadw â'th ddwyliaw dy hun? A wyt ti yn hau efrau, gan feddwl medi gwenith—a fydd i ti lenwi dy gist â thom, a disgwyl ei gael yn aur pan agori hi? Somi a thwylo dy hun a elli di; ond gwatwar Duw nis gelli, yr hwn a dâl i ti ar dy farwolaeth, yn yr un arian ag wyt yn drysori yn dy fywyd. Nid oes ond ychydig mor erechyll ddrygionus, nad yw meddyliau am angeu yn eu brawychu: ni feiddiant daraw at eu drwg arferion, hyd onid elout i ryw bellder oddi wrth y meddyliau am hwn. Gristion, rhodia di yn ei gyndeithas beunydd, trwy fyfyrdod dirif; a dywed i mi yn niwedd yr wythnos, ai nid yw yn caidw gwaeth cymdeithion oddi wrthyt.

DOSE. IX.

9fed. Defnyddia y cyfammod gras er dy gynnorthwyl yn dy yrfa sanctaidd. Cafodd Moses ei hun ei sancteiddiad, nid oddi wrth y ddeddf, ond yr efengyl. Y gweithred-oedd ardderchog, am ba rai y mae cofia am dano, fel un mor hynod sanctaidd, hwy oll a briodolir i'w fydd: "Trwy fydd Moses" a wnaeth hyn a "thrywy fydd" y lall (*Heb. xi. 24, 25, &c.*); i ddangos o ba le yr oedd yn cael ei rym. Yn awr, at ddefnyddio y cyfammod gras yn well i'r diben hwn, ystiria y tri pheth a ganlyn:—

(1af.) Fod Duw, yn y cyfammod o ras, wedi addaw rhoddi modd a nerth i'w bobl i fyw yn dduwiol: "Rhoddaf fy Ysbyrd o'ch mewn, a gwnaf i chwi rodio yn fy nedd-fau;" *Ezec. xxxvi. 27.* Ffordd yw hon sy gan Dduw ar ei ben ei hun. Gall y fam

gymmeryd ei phlentyn gerfydd ei law i'w arwain, ond nid rhoddi grym yn ei gym malau gweiniaid i beri iddo gerdded. Ga y brenin roddi awdurdod i'w gadben ymladd; ond nid gwroldeb i ymladd. Y mae grym yn myned gyda'r addewid: odo yma y mae yr enwad, "addewidion mawriawn a gwerthfawr;" o herwydd eu rhoddi i'r diben pennodol, fel y byddem gyfrarogion o'r duwiol anian;" 2 *Pedr. i. 4.* A hyn y cymmhellir ni i sancteiddrwydd, ni oddi wrth y gorchymyn yn unig, ond oddi wrth yr addewid yn enwedigol: "Gan fogenym yr addewidion hyn (ei feddwl yw i'n calonogi a'n helpio), ymlanhawn oddi wrth bob halogrwydd enawd ac ysbyrd, ga berffeithio sancteiddrwydd yn ofn Duw;" 2 *Cor. vii. 1.* O! y mae yn dda teithio yn nghyndeithas un sydd yn addaw talu ei costau oll ar hyd y ffordd! A da y gweithio iddo ef, sydd yn addaw "gweithio ein holl waith ynom;" *Phil. ii. 12, 13.*

(2il.) Y mae Duw wedi rhoddi i gad ym Nghrist drysor llawn a helaeth o ras i gyflawni dy eisieu yn barhaus: "Rhyngodd bodd i'r Tad drigo o bob cyflawnder ynddo ef;" *Col. i. 19.* Cyflawnder—pob cyflawnder—pob cyflawnder yn trigo. Ni llawnder llif a llawr i fyw ac i lawr; ni llawnder llestr, i wneud y tro iddi ei hun yn unig—ond cyflawnder ffynnon yn rhoddi ei ffrydiau i ereill, heb brinhau na lleih ei ystôr ei hun. Yn wir, y mae y cyflawnder i ddiben gweinyddol, megys i fedd yr haul ei oleuni iddo ei hun ond i byd isod, am ei fod yn brif weinydd a gw i ddal allan oleuni i'r byd: fel hyn y mae Crist yn Haul Cyflawnder, yn tywallt ei ras i fynwesau ei bobl. Dywedir fod gras wedi dywallt ar ei wesusau, i roddi i ni wybodi fod ganddo, nid i'w gadw iddo ei hun ond i'w gyfrannu; fel, "o'i gyflawnder ef derbyniom ras am ras."

(3ydd.) Y mae gan bob plentyn i Dduw nid yn unig hawl i'r cyflawnder hwn sydd ym Nghrist, ond egwyddor tumewnol, sydd, drwy yr hon yr addysgir ef, yn anian y creadur newydd, i sugno maeth oddi wrth Grist, megys y sugna y plentyn fael yn mry ei fam trwy linyu y bogail. A am hyny, enaid tlawd, os mynit fod un ffruct sanctaidd, cred fwy, sugna fwy oddi wrth Grist. Ni a gawn Dafydd dduwiol (*Salm cxvi*), wedi ei gynnhyrfu gan y meddyliau am ragluniaeth rasol Duw, yn warddu o'i ddwfn drallod, yn gymmeryd (fel y cenadwr goren, at ddwyn ei ddiolc garwch i'r nef) y bwriad cryf am fyw y dduwiol: "Rhodiaf o flaen yr Arglwyf yn nhir y rhai byw;" *adn. 9.* Yr oedd e bellach am dreulio ei oes yng ngwasanaeth Duw: ond rhag i ni feddwl ei fod yn fyw byll a hunan hyderus, y mae yn chwaneig "Credais, am hyny y llefarais;" *adn. 1*

gyntaf, y mae pwys ei ffydd ar Dduw nerth: yna, y mae yn addaw yr hyn a na. Yn wir, creadur tlodaidd iawn yw y Cristion, o'i ystyried ynddo ei hun: nid oes i'w gywilydd o addef hyn. Yr hyn a lawa efe ei dreulio mewn unrhyw ddylwydd, yn yr hyder ar drysor ei Iachawdwydd y bydd hyn; yr hwn, y mae yn credu ostyngedig a wna ddwyn ei draul â'i ras northwyol.

DOSE. X.

Ofed. Amddiffyn dy hun yn erbyn y vystrau hyny, â'r rhai y gwna Satan, os llid bossibl, dy wyro oddi wrth dy fwrriad, heri i ti droi heibio y ddwyfroneg hon o flawnder a sancteiddrwydd, fel un rhy m, i.e., a niweidiol i'th fudd anianol. Yn y, i'th arfogi yn well yn erbyn ei ruthrau fath yma, mi a bennodaf ddwy neu dair brif wrthddadleuon, â'r rhai y mae yn u llawer oddi wrth y rhodiad sanctaidd p: a chynnygiaf ychydig help at ddwyn urfau hyn o law dy elyn, trwy ddarpar eb iddynt erbyn y

PENNOD XII.

y dymchwelir ystyr yna a dichell gyntaf Satan, a pleser efe i beri â'r Cristion fwrw ymaitli ei ddwyfroneg cyflawnder, fel peth sydd yn anafu pleser ffydd.

1. Y MAE Satan yn ymgais am rluio buchedd sanctaidd a chyfiawn, ag edrychiad mor llym a sarug, ag a baro dyn ei chasau. O, medd efe, os wyt meddwl bod fel hyn yn fanylaidd sanctel, yna cân yn iach i bob llawenydd: yr yn difuddio dy hun o'r holl bleserau y llia ereill eu dyddiau mor ddifyr yn y ynhâd o honynt, trwy fod heb eu tynmo fel hyn yn eu cydwybodau. A fath achwyniad, a wna Satan ar ffyrdd rioddeb, ni a gawn weled ar fyr: ac yn y, y neb a ddymunai weled gwir wedd eteiddrwydd yn ei lliw naturiol ei hun, byddai iddo beidio ag ymddried i Satan, i'w galon anianol ei hun, ei darlunio.

Li a gaf drin yr wrthddadl hon—Yn gymmewn ffordd o ganiatâd. Y mae rhai erau, os gellir eu galw felly, sydd yn hyson â grym duwioldeb: pwy bynaga lo yn bwriadu byw yn dduwiol, y mae haid iddo eu gadael a'u gwrthod: ac y nt o ddau fath:—

DOSE. I.

1. Yn gyntaf, Yr holl bleserau ag llynddynt eu hunain yn bechadurus. Wna duwioldeb oddef un o'r rhai hyn yn nerch. Ac onid wyt yn cael dy friwo yn y, dybygit ti, wrth gael nacâd o'r hyn a lai yn wenwyn i ti ei yfed? A dybiai y tad yn greulawn, a orchymynai i'w tyn na feiddiai gymmaint a phrofi gwen-

wyn llygod? Yn wir, yr wyf yn gobeithio y gellwch chwi, sydd wedi profi gwaith adnewyddol yr Ysbryd, alw pechod ar enw amgen na phleser. Sier wyf, am saint yr hen oesoedd, na chyfrifent hwy eu hunain yn rhwym wrth, ond wedi eu rhyddhau oddi wrth y fath bleserau. Yn y rhwymiad wrthynt y mae'r caethiwed; ac yn y gwarediad rhagdynt y mae'r rhyddid. Yn *Titus* iii. 2, y mae'r apostol yn cwyno am yr amser, pan oedd efe ei hun a saint ereill, yn annoethion, yn cyfeiliorni, yn gwasanaethu chwantau ac amryw feluswedd; ac y mae yn cyfrif y waredigaeth o'r caethiwed hwnw ym mys y bendithion penaf a gawsent trwy ras yr efengyl: "Eithr yn ol ei drugaredd yr achubodd efe nynt." Pa fodd? Nid trwy faddeu yn unig iddynt, ond "trwy olchiad yr adenedigaeth, ac adnewyddiad yr Ysbryd Glân," *adn.* 5. Pa fodd bynag, y mae'r diafol yn peri i drueiniaid ddisgwyl pleser mewn pechod, ac yn addaw iddynt bethau gwych o'r fath yma; etto, croesi ei gydwybod y mae a'i deimlad ei hun hefyd. Nid yw efe yn profi pechod yn damaid mor felus i'w archwaeth ei hun, fel y byddai raid iddo, ar y cyfrif hwn, ei gannawl i ereill. Y mae pleser pechod yn debyg i'r pleser a ddyry man yn yr India orllewinol i'r rhai sydd yn byw ynddo: y mae yn tyfu yno ryw ffirwyth tra danteithiol; ond gyda'r danteithfwyd hwn y maent yn cael gwres poeth anniodefol yr haul y dydd, a lliaws o ryw greaduriaid i'w brathu yn y nos nes yw yn anhawdd iddynt fwyta liw dydd, na chysgu liw nos, i dreulio'r danteithion yn y cylla. Parodd hyn i'r Ysphaenwyr alw y lle, neu ei ffirwyth, "Danteithfwyd yn uffern." Ac yn wir, pa beth yw pleserau pechod, ond y fath ddanteithion yn uffern? Y mae ynddynt ryw fwyniant cnawdol, sydd yn boddio archwaeth ddrygsawrus anianol: ond y mae digder tanllyd Duw yn gymmysg â hwynt, a brathiad cydwybod euog boenus hefyd. Ac yn sicr, y mae ofnau y naill, a phoen y llall, yn ddigon i doddi a difa yr ychydig londer a'r boddhâd a ddygant i'r teimlad.

2il. Y mae pleserau nad ydynt o'u natur eu hunain yn bechadurus. Y cyfryw yw cysuron a mwyniant y greadigaeth hon. Yn achos y rhai hyn, y mae'r pechod yn bod, nid yn yr arferiad, ond yn y camarferiad o honynt. Hyn a wneir ddwy ffordd:—

1af. Pan na chedwir mesur addas wrth eu harfer. Nis gall efe fyw yn sanctaidd a chyfiawn yn y byd sydd yr awr hon, sydd heb fyw yn sobr hefyd. Feganiata duwioldeb i ti brofi o'r pleserau hyn, megys *sauce*, ond nid ymborthi arnynt fel bwyd. Y mae cyhuddiad y cyfoethogion yn *Iago* v. 5, yn rhedeg fel hyn: "Moethus fuch ar y ddaear." Yr oeddynt yn byw mewn pleserau fel rhai yn byw i'w mwynhau; ac nis

gallent fyw hebddynt. Pan unwaith y cyfyd effaith y gwini hwn o fwyniant daearol i fywy i'r ymenydd, i syfrdanu barn dyn, nes y dechreuo ei orhoffi, ac nas gallo ei adael i fwynhau ei well, ond y llefo Och! rhag ymadael; yna, yn ddiau, y mae yn niweidiol i rym duwioldeb. Tebyg i hyn oedd yr Iuddewon hyny yn Babilon; y rhai, wedi dechreu ffynu yn y wlad, oedd-ynt yn dra boddllawn i aros yno, a chael eu claddu yn Babilon, er a feddai Ierusalem, i'r hon yr oedd gwahoddiad arnynt i ddychwelyd. Er na warafun meistr fwyd a diod i'w was, etto nid boddllawn fydd ar ol bod oddi cartref, os ceir ei was yn feddw, ac wedi anaddasu ei hun i weini iddo trwy ei anghymmedrolder. Ac y mae dyn meddw mor addas i weini i'w feistr, a gwneud ei orchwyl drosto, ag ydyw Cristion wedi ei orlenwi â phleserau y creadur, i weinyddu i Dduw mewn un ddyledswydd o dduwioldeb

2il. Y maent yn bechadurus pan allan o amser. Ffrwyth a fwyteir, heb fod yn ei bryd, y mae yn ddrwg. Yr ydym yn darllen am "amser i ymgofleiddio, ac amser i oehel ymgofleiddio;" *Preg.* iii. 7. Y mae rhyw brydiau pan y bydd grym duwioldeb yn galw ymaith, ac heb ganiatao yr hyn sydd gyfreithlawn ar amser arall, megys:—

(Iaf.) Ar ddydd yr Arglwydd. Yn awr, y mae pob pleser anianol yn y creadur allan o dymmor. Y mae Daw yn ein galw at fwyniant uwch; y mae yn disgwyl i ni droi y llall o'r neilldu, ac nid rhoddi ein geneuau allan o flas, gyda'r is-bleserau hyny, fel y caffom flas gwel ar ei ddanteithion nefol ef: "O throi dy droed oddi wrth y Sabbath, heb wneuthur dy ewylls ar fy nydd sanctaidd; a galw y Sabbath yn hyfrydwch, Sanct yr Arglwydd yn ogoneddus; a'i anrhydeddu ef, heb wneuthur dy ffordd dy hun, heb geisio dy ewylls dy hun; yn yr ymhyfrydi yn yr Arglwydd;" *Esa.* lviii. 13. Craffwech, nis gallwn na phrofi meluder cymmunde â Duw, na thalu anrhydedd addas i Dduw yn sancteiddiad ei ddydd, oddi eithr i ni ymwadu â ni ein hunain yn ein hyfrydwch anianol. Pe byddai i frenin ar ryw ddyddiau o'r flwyddyn wahodd rhai o'i ddeiliaid tlodion i eistedd a gwledda gydag ef wrth ei fwrdd brenhinol ei hun, hwy a ddianrhydeddent eu llywydd yn drwm ac a'u drygent eu hunain, os dygent eu hym-borth gwael cyffredin gyda hwynt i'r llys. A yw y saint gogoneddus yn y nef yn galw am ddim o'u mwyniant anianol, neu yn gwelod ei eisieu traw y maent yno yn ymlenwi â moliant Duw ac yn ymborthi ar yr hyfrydwch sydd yn llifo oddi ar y llawn olwg ar Dduw? Ac onid yw Duw yn cyfrif ei fod yn rhoddi i chwi gael mwynhau nef, mewn cyffelybiaeth, wrth agor i chwi ddwrws i wasanaeth ei ddydd sanctaidd?

(2il.) Ar wyl-ddyddiau ympryd a gweddi.

Yr ydym y pryd hyn i gystuddio e heneidiau; ac ni bydd mwyniant y creadur yn fwy cyfaddas i'r gwaith hwnw na ysnoden i alarwisg.

(3ydd.) Ar amserau o drallod cyhoeddus ar yr eglwys ar led y byd, yn enwedig ga tref. Nis gall dyn grasol lai na chyfrif hyn yn rhesymol, bod iddo nacau ei hun, he o leiaf, brinhau arno ei hun o ran mwyniant yn y creadur, pan y byddo Cristion ei eglwys megys yn gwaedu. Y mae cyymdeinlad yn ddyled arnom i'r saint, e cyfeillion—Crist mewn dirgelwch. Ac y wir, ar ein gwelyau maubluf esmwythiwr prin iawn y cywymdeimlwn âg ereill yn e cystuddiau;" os ymfoddo a wnawn (meddwl yw) hyd lawn fwynhâd o'n he mwythdra a'n difyrwch naturiol. I blentyn a fyddo yn llon a difyr yn ei dŷ hun a chanddo dad neu fam ar yr un pryd yn gorwedd mewn gofid, ardrangedigaeth ond heb yn wybod iddo ef—ni newidiau, lais pan ddleo y newydd trwm ato, i.e., alara na wybuasai efe yn gynt, ac ni fuasai yn well ganddo ei fod yn wylo dros a chydberthynas yn nhŷ galar na bod yn treul ei amser yn ddiffyr gartref? Hyd yma y l ateb yn ganiataol, gan addef pa bleserau mae grym duwioldeb yn eu gwadu a'u gwahardd! ac yr wyf yn gofebithio y gwelir madynt ond y cyfryw ag a ellir eu gollwri ymaith yn deg heb goll ar lawenydd y creadur.

DOSB. II.

Az. 2. Yn awr, yn yr ail le, yr wyf i ateb yn nacael. Er fod bywyd sanctaidd chyflawn yn nacau i'r Cristion y pleserau euwyd uchod, etto, nid yw yn ei ddiffuddo o un gwir bleser a all y creadur ei rodd i, e, y mae mor bell oddi wrth hyn fel i dichon neb fwynhau meluder y creadur y debyg i'r enaid grasol sydd yn rhodio yn nrym duwioldeb. Ymddengys hyn yn ddau beth neillduol hyn:—

Iaf. Y mae gan y dyn grasol archwae cywreiniach, sydd yn ei addasu i brofi mwyder mwy yn, ac felly i dynu pleser mwy oddi wrth ryw fwyniant creedig nag a dyn annuwiol. Nid ydyw y gwybedyn y cael mē yn y blodeuyn hwnw yr ŷ y ymen ymaith yn llwythog oddi wrtho. Nis gall dyn anrasol chwaith brofi yr un mwyder a'r duwiol mewn creadur. Mae ganddo mae yn wir, archwaeth naturiol a chnawd trwy ba un y mae yn blasu y pleser anmhur, anianol a ddyry y creadur; ac ar hys y gwna efe ei lawn bryd: ond y mae cal rasol yn profi rhywbeth chwaneg. Feyfot holl Israel o'r graig: "A'r Graig oedd Crist;" *1 Cor.* x. 4. Ond a ddaru i bav a brofasant feluder naturiol y dwfr bro Crist ynddo? Och! na ddo; nid oedd o ychydig o eneidiau ffyddiog a feddent a chwaeth ysbrydol i wneud hyn. Bwytao

a mam Samson o'r mêl a gaed o ysgerbwld iew, gystal a Samson; etto, efe a gafodd y o fudd hyfrydol ynddo na hwy, er eu l hwy, ysgatfydd, yn hofsi ei flas fel mêl stal ag yntau. Yr oedd efe yn profi yn o felusder rhagluniaeth Duw a'i hachub i rhag y llew oedd yn awr yn rhoddi iddo nêl hwn: *Barn. xiv.*

2il. Y mae y Cristion yn cael mwy o wirser o'r creadur na'r annwïol, am ei fod dyfod yn fwy puredig iddo ef nag i'r l. Y mae yr adyn ansantaidd yn sugno gwaddod a chwbl—gwaddod pechod a addod digofaint, tra y mae cwpan y stion heb y cymmysgedd hwn. Yn taf, gwaddod pechod. Po fwyaf a gaiff annwïol yn rhodd o hyfrydwch y greadeth, mwyaf a becha efe trwy hyn. O! mae yn drwm meddwl yr effaith o hyn ei galon ddrygionus ef; nid yw y cwbl l tanwydd i'w chwantau ennyn drwyddo. maith y rhedant gyda'u mwyniant, megys afradlawn gyda'i godau, neu fel y moch amser mes; nid oes golwg i'w gael arnt na meddwl am eu dychweliad, tra y tant gael dim ar led yn mysg difyrwch y l. Nid oes neb mor anferth ddrygionus rhai a borthir yn uchel â mwyniant anl. Y mae hyn i'r annwïol fel y tail a'r nen i'r moch a ymfrasant wrth orwedd ldynt. Felly y mae eu calonau hwynt frashau a thewychu, ac yr â eu cydwytau yn fwy marwaidd a ddeimlad drwynt. Eithr yr hyfrydwch a'r cysuron a d Duw i ddyd duwïol trwy y creadur, a tant er maeth ysbrydol i'w rasantau ef, ac ynant y rhai hyn allan i ymarferiad, fel naent yn tynu chwant y llall. Yn ail, addod digofaint. Pleser bychan a gafyr Israeliaid yn eu danteithwydd, pan rhiodd digofaint Duw arnynt cyn iddynt ael i lawr eu gyddfau: *Salm lxxviii. 30.* yn y delo gwledd y pechadur o'i flaen, y cyfiawnder dwyfol yn parotoi i anfon y if ar ei hol; ac y mae yn rhaid i'r diswliad brawychus am hyn anafu blas y dd. Eithr y mae croesawiad yr enaid sol yn ddiogot: nid oes achos i feddyliau wychus afonyddu ei ysbryd ef, fel ag i iddo droi ei lymaid draw, neu dywallt iuth ddim o gysur ei fwyniant presennol, ofn perygl i ddyfod. Y mae pob peth ddaf a'r goror yn rhydd: gall ddywedyd a Dafydd, "Mewn heddwach y gorwedd- ac yr hunaf; canys ti, Arglwydd, a ei i mi drigo mewn diogelwch;" *Salm iv.* Nis gwna Duw, a phawb ereill nis gall- dori ar ei heddwach. Megys yr iachal y dyfroedd wrth fwrw halen ynddynt *Bren. ii. 21*), felly y mae Crist wedi au mwyniant y creadur, fel nad oes yn niwed ynddo yng nghwpan y saint.

DOSB. III.

t. 3. Yr wyf yn ateb yn gadarnhaol,

Y mae grym duwïoldeb mor bell o ddifuddio dyn o lawenydd a phleser ei fywyd, nes bod hyfrydwch a phleserau digymhar ynglŷn wrth fywyd sanctaidd: y rhai hyn y mae y dyn grasol yn eu cael yn ffyrdd cyfiawnder, i'w mwylhau wrtho ei hun, ac nid yw y di-eithr yn gyfranog o honiut. Oddi mewn y naent yn wir; ac am hyn y mae'r byd yn siarad mor fïol a diwybod am danynt. Ni chredant hwy fod y fath bleserau, nes y gwelont hwynt: ac ni chânt byth eu gwelod nes y credont hwynt. Pan aeth y milwyr Rhufeinig i'r deul, ac i'r cyssegr sancteiddiolaf, ac heb weled yno yn ddelw, fel y gwelent yn eu teulau eilun- addolgar eu hunain, hwy a gyhoeddasant mewn gwawd fod yr Iuddeuon yn addoli y cymnylau. Felly yn ddiaw, am nad yw pleserau cyfiawndera sancteiddrwydd mor frais ag i ddyfod dan ymwybyddiad teimladau an- ianol, fel eu pleserau anifeilaidd hwynt; am hyn, hwy a chwarddant ar y saint, fel pe na byddai eu llawenydd hwynt yn ddim ond ffirwyth dychymyg, ac fel pe na byddent ond yn cofeidio cwmwl yn lle duwies, a phleser dychymygod yn lle gwirioneddol. Ond gwybydded y cyfryw eu bod hwy yn dwyn yn eu mynwes eu hunain yr hyn a allai eu helpio i farnu am bleserau bywyd sanctaidd—eu bod yn fwy gwirioneddol na hyn. Meddwl yr wyf am y dychryn a leinw eu cydwybodau brawychus, weithiau trwy eu- ogrwydd o'u bucheddau ansantaidd ac anghyfiawn. Hwn, heb fod am chwip ar eu cefn, na phoen yn eu cawd, a fynega iddynt y dichon yr heddwach a ddeillia o gydwylod dda fod mor effeithiol i lenwi yr enaid â llawenydd hyfryd, pan na byddo yn hyfrydwch cawdol yn rhoddi cyfran tuag ato. Y mae tri pheth i'w ystyried yn natur bywyd sanctaidd a chyfiawn, sydd yn ddirgion i ddangos mai dyma yr unig fywyd hyfryd. Y mae yn fywyd oddi wrth Dduw; yn fywyd gyda Duw; ac yn wir fywyd Duw:—

1af. Y mae yn fywyd oddi wrth Dduw: ac am hyn, y mae yn rhaid ei fod yn fywyd llawen a hyfryd. Yr hyn oll a wna Duw, y mae yn dda a hyfryd yn ei ryw. Yn awr, un o brif weithrediadau Duw yw bywyd; hyd onid yw y cylionyn, neu y gwybedyn lleiaf a gwaelaf, yn rhagori yn y golygiad hwn ar yr haul yn ei ogoniant disgleiriaf. I bob bywyd y mae Duw wedi trefnu mwyn- iant addas i'w ryw. Y mae i'r anifeiliaid fwyniant addas i fywyd anifeilaidd: ac yn llawer mwy i ddyd yr hyn sydd yn addas i'w fywyd yntau. Yn awr, ni a wyddom fod pob creadur yn cael mwyniant ei fywyd yn oreu, pan fyddo yn ei iawn dymher. Os bydd anifail yn afiach, y mae yn dihoeni ac yn griddfan; ac felly dyn hefyd. Ni wna danteithion, chwareuon, na pheroriaeth foddio dyn afiach. Yn awr, sancteiddrwydd yw iawn dymher yr enaid, megys iechyd

i'r corph; ac am hyn rhaid yw i fywyd sanctaidd fod yn fywyd hyfryd. Yr oedd Adda yn sicr yn byw bywyd hyfryd ym Mharadwys, cyn i bechod anafu ei dymher. Pan wneler y creadur yn sanctaidd, yna y mae yn dechreu dychwelyd i'w dymher dechreuol, a chyda hyn i'w lawenydd a'i bleser dechreuol. O syrs, y mae dynion yn achwyn ar eu helyntoedd allanol, ac yn anfoddloni wrth eu gradd a'u lle yn y byd: ond yn y tu mewn y mae'r bai yn bod. Y mae'r esgid yn gywir a da ddigon; ond cam yw y troed sydd yn ei gwisgo. Byddai y cwbl yn dda, pe byddit ti yn iach; ac ni fyddi di byth yn iach, nes y byddech yn gyfiawn a sanctaidd.

2il. Y mae yn fywyd gyda Duw. Y mae enaid grasol yn rhodio ger bron Duw, ac yn cadw cymmun-leb âg ef. Pan gyfarfyddoch â sant, chwi a chwi a wyddoch ei gynniweirfa, pa gyfeillion sydd ganddo: "Fel y caffoch clwithau gymdeithas gyda ni; a'n cymdeithas ni yn wir sydd gyda'r Tad, a chyda'i Fab ef, Iesu Grist;" 1 *Joan* i. 3. Gwelwch ddiffuantrwydd dyn duwiol: "Ein cymdeithas ni yn wir sydd gyda Duw;" nid ydym yn dywedyd i chwi gelwydd. Ni faidd dyn ansanetaidd fod yn rhydd fel hyn, mi a'i gwarantaf, a mynegi pa gymdeithion y mae ei enaid yn eu dilyn o ddydd i ddydd. Gwelwn nad oes un perygl myned i fysg pobl dduwiol; ni ddygant hwy mo honoch i gydnabyddiaeth â chymdeithion drwg: hwy a'ch dygant at Dduw; ac yno y mae eu cynniweiriad mawr hwynt. A dywedwch i mi yn awr, onid yw yn rhaid i'r dyn fod yn byw bywyd hyfryd, sydd yn rhodio gyda Duw? Bydded ond dyn y byddo chwi yn marchogaeth gydag ef ar daith, a hwn yn eich caru yn fawr, ac yn gallu eich difyru âg ymddiddan llon a da; oni wnai yr hyfrydwch a gewch yn ei gymdeithas beri i chwi somedigaeth ryfedd, etto hyfryd o ran meithder y daith? O ynte, pa lawenydd sydd raid i Dduw ei ddwyn gydag ef i'r enaid a rodia yn ei gymdeithas? "Gwyn fyd y bobl a adwaenat yr hyfryd lais; yn llewyrch dy wyneb, O Arglwydd, y rhodiant hwy;" *Salm* lxxxix. 15. Sain yr udgorn oedd yn eu galw i'w cynnulliadau crefyddol a elwir yno, yn hyfrydlais; am fod Duw, yn ei addoliad neillduol, yn amlygu ei hun i'w bobl. Y mae nef y nefoedd i fod lle y mae'r Arglwydd: yn sicr ynte, y mae yr hyn a gaiff y saint yma o bresenoldeb Duw yn ddigon i wneuthur bywyd y Cristion yn hyfyddol.

O Grisionogion, ai nid hyfryd yw rhodio gyda Duw, ac i Dduw? rhodio gyda Duw yma isod, trwy ei bresenoldeb cymmorthawl a diddanol—ac i Dduw sydd yn ei amlygu ei hun yn ei lawn ogoniant yn y nef uchod? O, chwi oll sydd am olygiadau hyfryd yn eich rhodfeydd a thrwy eich flen-

estri, gwelwch yma un nas gall y byd (mo'i gystadlu—y golygiad sy gan ena grasol wrth rodio yn fyfyrdd cyfiawnder gall weled Duw yn rhodio gydag ef, f gyfaill gyda'i gyfaill, ac yn ei egluro ei hiddo: *Salm* l. 23. Ie, y mae ganddo, nid unig y mwyniant o gymdeithas bresenn Duw gydag ef, ond hefyd y golygiad hyrydlawn ar y nef o'i flaen, i'r hon y mae Duw yn ei arwain; ac, yn ffordd sancteiddrwydd, yn sicr o'i ddwyn iddi yn y diwedd. Ond am yr adyn ansanetaidd, sydd yn rhod yng nghymdeithas ei chwantau, er iddy felysu ei safn âg ychydig bleser disylwedd am dro, yr hwn a dawdd oddi ar ei dafn ac yr anghofia ei flas yn fuan; etto, dangant iddo wlad y tywyllwch o'i flaen, y lle dygant ef iddo, ac a'i gadawant ef ynddo edifarhau am ei bleserau drudion meyn poenau, heb esmwythad na diweddiad.

3ydd. Bywyd Duw ei hun ydyw. Ddylwch lenwch yr ymadrodd: "wedi ymddieithu oddi wrth fuchedd Dduw;" *Eph.* iv. 1. hyny yw, buchedd duwioldeb. Yn buchedd sanctaidd yn fuchedd Dduw. Ond pa fodd? Nid yn unig fel y mae Duw yn awdwr o honi; y mae efe felly fywyd yr anifail: ac yn hyn, nid yw annuwilion yn ddiethriad oddi wrth fuchedd Dduw: canys y mae ganddy fywyd naturiol a roddodd Duw iddy. Ond y mae yr ymadrodd yn cynnwys chwaneg; a hyny yw hyn:—Mae buchedd Dduw yr un peth a bywyd tebyg i'r byw y mae Duw ei hun yn ei fyw. Duw byw efe; a bywyd sanctaidd yw ei fywyd sancteiddrwydd yw bywyd ei fywyd. Yn awr, atollwg gyfeillion, ai nid ydy yn meddwl fod Duw ei hun yn byw bywyd o hyfrydwch? A pha beth yw hyfrydwch ei fywyd ef, ond sancteiddrwydd? Y mae efe yn hoffi grasusau ei saint; *Salm* cxlix. Pa faint mwy ei sancteiddrwydd hanfod ei hun, o'r hwn y saethwyd allan ar y ctaf y pelydr hyny, sy'n llewyrchu mor br ferth yn ei olwg yn ei blant? Y mae gogti, pwy bynag wyt, allu uwch law Duw hun, os gelli dynu gwir bleser allan o sancteiddrwydd ac anghyfiawnder. A i mi ddywedyd wrthynt, nid y cabledl llwyd i ti gyhuddo ffordd cyfiawnder a sancteiddrwydd fel gelyn i wir bleser. O'r wydd yr wyt ti felly yn rhoddi yn ei Duw ei hun, ei fod yn fyr o wir bleser llawenydd, yr hwn nid oes ganddo bl (neu hyfrydwch) nad yw sancteiddrwydd yn ei roddi. Ond ynaith a'r fath yst pwrdr a hwn. Y dialliaid a'r damnedig eu hunain sydd yn casau Duw a'r ineb llwyraf o bawb; etto, ni feiddi ac nis gallant ddywedyd felly. Hwyrwyddant fod Duw yn ogoneddus a harte, "yn ogoneddus mewn sancteiddrwydd a bod gwynfyd a gogoniant y creadur

ynnwysedig mewn cyfranogiad o'r sanct-iddrwydd hwnw, a wna Dduw ei hun mor ynyfyddig a gogoneddus. Hyn, Gristion, w yr eithaf a ellir ei ddywedyd am dy ynyfyd di, yma neu yn y nef ar ol hyn. Yr un peth a'th wna di yn ogoneddus ag ydd yn gwneud Duw yn ogoneddus; y mae dy lawenydd a'th bleser o'r un rhyw r hyfrydwech yr ymhyfryda Duw ynddo: Ag afon dy hyfrydwech y diodi hwynt;" *alm xxxvi. 8.* Craffwch ar yr ymadrodd, afon dy hyfrydwech." Y mae gan Dduw hyfrydwech; ac y mae yn diodi y saint i hyfrydwech. Yma y mae hyfryd bwys yfrydwech y saint. Pan archo y breinin w weision ddwyn rhyw ddyd i lawr i'r dler, a gadael iddo yfed o'i win neu ei ddioid, mae hyn yn diriondeb i'w fawr brisio gan r mor fawr. Ond i'r breinin ei osod wrth fwrdd ei hun, a rhoddi iddo i yfed o'i in ei hun, y mae hyn, mi obeithiaf, yn awer mwy. Pan roddo Duw i ddyd dir y fyd, a gwin ac olew—cysuron y creadur—id yw efe yn croesawu hwn ond yn y seler yffredin. Y rhai nid oes ganddynt ond wyniant anianol, nid yw y cyfryw ond yn stedd gyda'r gweision; ac mewn amryw bleserau teimlad, nid ydynt ond yn gydfyfraniog â'r anifeiliaid. Ond pan gyfno Duw ei ras, gan brydferthu enaid â neteiddrwydd, y mae efe yn awr yn rhoddi dyrchafiad uchaf a all y creadur ei gael: d yw efe byth yn anfon y gwisgoedd ych hyn i neb, heb fwriadu gosod y cyfryw yn ei ymyl wrth ei fwrdd ei hun, mewn goniant nefol.

PENNOD XIII.

Y dymchwelir ail ddechell Satan, drwy yr hon y cais efe dwyllo y Cristion o'i ddwyfronneg, gan ei dangos fel peth niweidiol i'w fudd bydol ef.

Rhuthr. 2. Os ni thramgwyddi wrth y aen cyntaf, y mae gan ddiadol un arall wrth ei law i'w daslu i'th ffordd. Nid yw e yn adarwr mor ddifedr ag i fyned allan o b ddim ond un ergyd ganddo: ac am hyn, wedi iddofethu yneirgydgyntaf ataf, sgwyl iddo yn fuan danio eilwaith, trwy lywedyd wrthyt—"Gwell i ti beidio ym-âl â'r byw yn sanctaidd a chyfiawn yma nid wyt yn bwriadu andwyo dy hun, a'r rhai l y'n pwyso arnat. Edrych ar y cyfoethion a mawrion y byd," efe a ddywed, "pa dd yr wyt yn meddwl y bu i'r rhai hyn yru ynghyd y fath etifeddiaethau llydain, chodi eu teuluoedd i'r fath fri a rhwysg i eu sefyllfaoedd? Ai trwy eu cyfiawnder u sancteiddrwydd? Och! pe buasant wy dan fath dyrwymiad yn eu cydwybodaau ag y bydd raid i ti fod, os ymrwymo wnei wrth reola buchedd sanctaidd, ni

ddaethent hwy byth i farchnad mor dda am y byd hwn a'r hon a gawsant. Ac os myni lwyddo fel hwythau, y mae yn rhaid i ti wneuthur fel hwythau; tasfu ymaith yn llwyr ddwyfroneg cyfiawnder, neu ynte ei dadfycelu, fel y crogo hi yn ddigon llac, i'w thro'i i'r naill du pan ymgynnygio mantais. Os angen, ti a elli gau ffenestri dy siop a rhoddi dy grefft i fyng, o ran dim a enilli erbyn pen y flwyddyn."

At. I'th amddiffyn, Gristion, yn erbyn y rhuthr hwn, cymmer yr ystyriaethau hyn: o'r rhai ni fydd yn anhawdd i ti dynu ateb a wna gau safn yr wrthddadl hon.

1af. Ystyriaad ydyw yn angenrheidiol i ti fod yn gyfoethog: ond y mae yn angenrheidiol i ti fod yn dduwiol, os wyt am fod yn ddedwydd. Ti elli ymdaith i'r nef heb geiniog yn dy bwrs, ond nid heb sancteiddrwydd yn dy galon a'th fuchedd hefyd. Ac y mae doethineb yn dy alw i edrych yn gyntaf at y peth mwyaf angenrheidiol.

2il. Y mae y nef yn werth ei chael, er i ti fyned yn dlawd, yn garpiog, ie, yn noethlwm. Y mae rhai yn y byd sydd am dderbyn cynnyg Duw yn ddiolchgar, os cânt ond eu derbyn i'r ddinas ogoneddus hono, er i Dduw fod heb eu gwobrwyo a thalu iddynt, a chyfoeth mawr ar hyd eu ffordd yno. Gan hyn, rhag cywilydd, ymrodda i fod yn sanctaidd, er gwell ac er gwaeth. Na saf i dyndadlau â Duw am bethau, y rhai, pe byddent yn dy feddiant, a thi yn ei garu ef, a adewit, ac a deffit y tu ol i'th gefn gyda dirmyg, yn hytrach nag ymadael âg ef.

3ydd. Gwna ychydig o'r byd dy foddioni, os cedwi dduwioldeb yn ei grym, fel y gwna ychydig o ddillad y tro i ddyd cryf iachus. A gwell yw y gwres a ddaw o'r gwaed a'r ysbrydoedd tumewnol, nag a ddaw o lwytho ddillad ar y cefn. Gwell, mi a wn, yw y boddlonrwydd a rydd duwioldeb i'r Cristion yn ei dlodi, na'r boddhâd, os oes y fath beth yn y byd, a gaiff y gŵr goludog o'i gyfoeth. "Elw mawr yw duwioldeb gyda boddlonrwydd." Y dyn duwiol yw yr unig ddyd boddlawd yn y byd. "Mi a ddysgais, ym mha gyflwr bynag y byddwyf, fod yn foddlawd iddo;" medd Paul, yn *Phil. iv. 11.* Ond os gofynwch iddo pwy oedd ei athraw addysgodd i ddo y wers anhawdd hon, efe a ddywed i chwi na chafodd efe mo honi tra yn eistedd wrth draed Gamaliel, ond gan Grist. "Yr wyf yn gallu pob peth trwy Grist, yr hwn sydd yn fy nerthu;" *adn. 13.* Yr hyn a ddywedodd un philosophydd mewn ymfrost, hyn a all yr enaid duwiol ei ddywedyd, trwy Grist, mewn gwirionedd a sobrwydd:—Pan y bo isaf a thlotaf, fod ei galon a'i gyflwr yn cydgyfattedb. Nyni a gyfrifwn hwnw yn ŵr dedwydd yn iaith y byd a fedr fyw arno ei hun, heb fasnach na cheisio benthgy; neu, pan y chweunychai

brynnu, sydd âg arian parod ganddo at hyny yn ei goffrau; a phan fynai foddio ei flys â'r amrywiaeth, sydd ya meddu y cwbl o fewn i'w balas ei hun: ac heb achos iddo anfon ar led i'r naill farchnad na'r llall am ymborth, nac am ddim amneuthyn a geir o'r amryw elfenau. Y mae dduwioledeb yn gyfryw wlad gyflawn, fel y mae yn ddiagonol i ddiwallu y Cristion o'i ffrwythau ac o'i ystôr ei hun, fel y gallaf ddywelyd: a hyn, a phobpeth a dlicion ei galon rasol ei ddy-muno, heb gardotta wrth ddrws y creadur, na pheryglu yn ddiachos ei dduwioledeb i'w gyrhaeddyd.

4ydd. Ystyria pa fath farchnad d'lrud a wnânt hwy sydd yn ymadael â'u dwyfroneg cyfiawnder, neu yn ei gwyستo am gyfoeth y byd. Ymddengys hyn, yn gyntaf, yn y pechod: yn ail, yn y fellidith drom sydd yn dilyn sodlau y pechod hwnw:—

(1af.) Y mae yn bechod mawr. Ni themtiai y diafol mo Grist i ryw bechod bychan. Nyni a'i cawn ef (*Luc iv.*) yn gosod yr abwyrd euraidd hwn o'i flaen, pan ddangosodd efe iddo holl deyrnasoedd y byd, gan eu haddaw oll iddo, os sythiai i lawr a'i addoli ef. Pa beth oedd bwriad yr ysbryd aflan yn y cais hwn, ond tynu Crist i'w addol yn arglwydd y byd, a thrwy ei addoli, i ddadgan ei fod yn disgwyl pethau da y byd, nid gan Dduw, ond ganddo ef? Yn awr, y mae yn wir yn ddiaw, am bob un a gais elw y byd trwy anghyfiawnder, ei fod yn myned at y diafol i'w geisio, ac mewn effaith yn ei addoli ef. Cystal fyddai iddo siarad allan, a dywedyd nad yw efe yn cydnabod Duw, ond y diafol, fel Arglwydd y byd, ac yn meddu y cyfraniad o hono; o herwydd y mae yn gwneud yr hyn a ddeongla Daw felly. Yn awr, pa faint gwell yw cael tlodi gan Dduw, na chyfoeth gan y diafol? Dyma bechod beiddgar yn wir—ar un ergyd, dwyn ymaith benarglwyddiaeth Duw a'i roi i Satan i wneud a fyno efe â'r byd.

(2il.) Y mae yn bechod ynfyd. Y rhai sydd yn ewyllysio ymgyfoethog, sef bid cam, bid cymmhlwys, sydd yn syrthio i brofedigaeth a magl, a llawer o chwantau ynfyd: 1 *Tim. vi. 9.* Pa ynfydrwydd mwy na chwaren y lleidr i gael yr hyn sydd feisois yn eiddo dyn ei hun! Os wyt yn sant, y mae y cwbl a fedd y byd yn eiddo i ti: "Mae i dduwioledeb addewid o'r bywyd sydd yr awr hon ac o'r hwn a fydd," 1 *Tim. iv. 8.* Os bydd cyfoeth yn dda er dy les, ti a'i cei; o herwydd dyna ammod yr addewidion tymmorol: ac oni farna Duw (yr hwn sydd yn gymmhwysaf i farnu) mai da fydd i ti gael dy dâl o'r addewid, megys mewn arian bathol, yna y mae addewid arall yn dyfod i'th gymmhorth, yr hon a sierha i ti y cei werth arian: "Bydded eich ymarweddiad yn ddiariangar, gan fod yn foddlaun i'r hyn sydd genych; canys efe a ddywedodd, Ni'th

roddaf i fyny ac ni'th lwyr adawa chwaith;" *Heb. xiii. 5.* Os yw Daw wedd rhoddi i ti gyfoeth, ond etto yn dy alw ymadael âg ef er mwyn ei enw ei hun, yn y mae yn rhoddi i ti ei ysgrif-ryw (*bond trwy yr hon y gelli gael dy golled yn o gyda'r cau cymmaint yn ennill yn y by-lawn, heb law bywyd tragwyddol yn y by-a ddaw: "A phob un ar a adawodd da-neu frodyr, neu chworiorydd, neu dad, ne-fam, neu wraig, neu blant, neu dirosodd, e-mwyn fy enw i, a dderbyn y can cymmaint a bywyd tragwyddol a etifedda efe:"* *Ma xix. 29.* Ac ynfyd amlwg yw y dyn ymedy âg addewidion Duw am unrhyf siechâd a all Satan ei roddi iddo.

(3ydd.) Gwelir elw anghyfiawn yn bryn iad drud, o achos y fellidith drom syd ynglŷn wrtho: "Melldith yr Arglwyd sydd yn nhŷ yr annuwiol;" *Diar. iii. 3:* "Ond yn nhŷ y cyfiawn y bydd mawr gyfoeth;" *Diar. xv. 6.* Chwi ellwch ddyfo-at y cyfiawn, heb gael, ysgatfydd, ddim a-ian yn ei dŷ; ond byddwch yn sier o ga-yno drysor: eithr trysor nid oes yn nhŷ y annuwiol, pan fyddo yno lawer o aur a arian i'w cael, am fod melldith Duw yn ys-ei elw i gyd. Y mae pigfforch Duw yn cau llyn cribin yr annuwiol. Llwyd gyfiawn y iddo ef wasgaru yr hyn a gasgl y cyfry-drwy anghyfiawnder. Am hyny, dywed eu bod yn cymmeryd cyngor gwarthus i tŷ; o herwydd y "gareg a lefa o'r mur, a trawst a'i hettyb o'r gwaith coed;" *Heb. i. 10.* O! pwy ag sydd yn priso cysur-fywyd a fyddai byw, er tynellau o au-mewn tŷ â'r elyll hwn yn ymrodio yndd-Yuddo y mae cri am ei anghyfiawnder y-ei ddilyn i bob cell yr â iddi; ac y ma-fel pe byddai yn clywed ceryg a thraws-iau ei dŷ yn griddfan dan bwys ei beche-ef a'u gosododd hwynt yno. Iê, mor a-gas yw y pechod hwn gan yr Arglwyd cyfiawn, fel mai nid y rhai hyny yn unig drysorant yr elw a geir fel hyn sydd y fellidgedig ganddo, ond hefyd yr offeryn-oll a ddefnyddia y cyfry i ddwyn ym mla-eu dyfeisiau anghyfiawn. Y gwas trus sydd i ennill bodd ei feistr, yn chwane-gu ei gyfoeth trwy dwyll ac anghyfiawnder, mae Duw yn bygwth talu iddo ei gyf-fow "Ymwelaf hefyd â phawb a neidiant ar-rhiniog, y sawl a lanwant dai en meistr-thrais ac â thwyll;" *Sept. i. 9.* Dywed hyn, naill ai am weision a safent wrth-drws, i fachu cwsmeriaid i mewn, i twyllo; neu ynte am swyddogion gw-mawr, a ddeuent âg awdurdodiad llawn dai pobl i gymmeryd oddi arnynt trwy dra-yr hyn a welent yn dda. Caiff y rhai h- eu cospi, er mai eu meistriaid oedd yn cad-yr ennill: en meistriaid fel y prif ddi-fawy a hwythau fel eu trawsgipwyr, i hela a da-par ysglyfaeth iddynt.

PENNOD XIV.

le y diddymir y drydedd ddichell a ddefnyddia Satan i ddiarfogi y Cristion o'i ddyffroneg; a hynny trwy ei frwychu a'r wrthiaith, y gwrthwynebiad, a'r dygas:dd gan y byd, a faga hi.

Rhuthr. 3. Y MAE etto faen tramgywydd, a syd Satan yn fflodd yr enaid a fyddo yn ychwyn ar y llwybr hwn o gyfiawnder: ef y gwrthwynebiad a fydd y cyfryw yn cer o'i gael oddi wrth y byd. O! medd atan, dyma'r fflodd uniawn i'th ddwyn dan langell pob tafod, i golli cariad dy gymydogion, a chael dirnyg, i.e., cas pawb yr yt yn byw yn eu mysg. Ac ai nid wyt yn ymuno byw yn gyfeillgar a heddychol da dy gymydogion? A elli di oddef dy wtiot, fel Lot ym mysg y Sodomaidd, a oah yng nghanol yr hen fyd, y rhai oedd-itt oll o fflodd arall? y mae'r sancteiddwydd yma yn magu gwaed drwg, pa le nag y del: addef hwn, a thi a dyni ddyrn-ly y byd yn fuan o ddeutu dy glustiau.

At. Gwir yw nad yw hon ond gwrthdadaid ael a gwan ynddi ei hun; etto, lle y cyferdd â thymmer feddal, a thuedd rhwyddner o natur, mewn un y mae gogwyddiadau ruaid a heddychol yn rheoli yn gryf ddo, y mae yn ddigon ei phwys i fod yn intasiwn beryglus. Diammheu ddarfod i ron dramgywyddo wrth y gareg hon yn hos y llo aur. Nid boddio ei hun yn sier oedd efe yn y peth; ond gweithred ydd-ell yn unig i foddio y bobl, fel y gwelir- ei ymesgusiad wrth Moses: "Nac ennyn- digofaint fy Arglwydd: ti a adwaenost bobl, mai ar ddrwg y maent;" *Ecsod. xii. 22.* Fel pe dywedasai, ni wyddwn i beth a wnaent â mi, pe nacaswn hwynt: llonyddu yr oedd yr hyn a wnaethum i, i ragflaenu blinder mwy oddi wrthynt. a welwn fod angher am ein cael yn arfog erbyn y demtasiwn hon: ac i'th gael-ly, pwysa yn ddirifol y ddau beth a gan-

1af. Y mae dy Dduw, a wasanaethi di, istion, yn rheoli tafodau, dwylaw, i.e., onau pawb oll. Efe a all, pan welo yn a'i beri i ti gael ffarf yng ngolwg y rhai a ti fwyaf; a hyn heb i ti golli dim yn yrfa sanctaidd: "Pan fyddo ffyrdd gŵr rhyngu bodd i'r Arglwydd, efe a bair i'w union fod yn heddychol âg ef;" *Diar. i. 7.* Laban mewn diglonedd a ymlidiai ol Iacob; ond y mae Duw yn ei gyfarfod y fflodd, ac yn rhoddi iddo ei wers, pa dd yr ymddygai at y gŵr da (*Gen. xxxi. a 29*); y mae yntau yn addef yn onest th Iacob pa beth a drôdd y gwyt i gongl mhesach, ac a'i gwnaeth ef mor daweitho, ar ol cychwyn mor fiawn o lid: "Y e ar fy llaw i wneuthur i chwi ddrwg; i Duw eich Tad a lefarodd wrthyf neith-;" &c., *adn. 29.* Diolch am ddim i'r r! Yr oedd ganddo allu i ddrwyg Iacob;

ond ni adawai Duw iddo. Cymmerodd Mor-decai yntau, dybygasid, y ffordd unionaf i dynu arno ddigder y brenin, trwy nacau rhoddi i Haman y parch oedd ar bawb, trwy orchymyn y brenin, ei dalu iddo. Ond ni oddefai cydwybod y gwr duwiol i'w lin blygu. Ac etto, gwelwn, wedi i'r adyn balch llunw wneud ei waethaf at gael dial arno, y bu raid iddo etifeddu y crogbren a fwr-iadasai efe i Mordecai, a gadael i Mordecai gael ei le ef yn ffarf y brenin. Fel hyn y darfu i Dduw, sydd yn meddu agoriad i fyn-wesau llywiawdwyr, yn ebrwydd gloi calon Ahasferus yn erbyn yr Amaleciad melldig-edig hwnw, a'i hagog i ollwng y gwr duwiol hwn i mewn i'w le. O! pwy a ofnai fod yn gydwybodol, pan y gall Duw, ac y gwna hefyd, ddarpar mor rhyfedd er diogelwch i'w bobl, tra yr ymgadawnt yn agos ato?

2il. Bwrw fod dy rodiad sanctaidd yn cyffroi digder annuwolion i'th erbyn: gwybydd y gall fod trugaredd fwy yn eu câs hwynt nag yn eu cariad. Yn gyffredin, y mae y saint yn cael lles trwy ddigder yr annuwol yn eu herbyn; nid mor fynych trwy eu gwen a'u cymdeithas. Y mae eu gŵg yn defiro eu gofal, ac yn eu gwneud yn fwy dichlyn. Fel hyn y mae Dafydd yn gweddio ar i Dduw ddysgu iddo ei fflodd, &c., "o herwydd fy ngelyniun"—neu ei wyl-wyr, yn ol yr Hebraeg: *Salm xxvii. 11.* Ond y mae eu cyfeillgarwch yn peri i'w gofal hepian, ac yn troi yn fagl i'w dal mewn rhyw gydrodiad pechadurus â hwynt. Cafodd Iehosophaet ei dynu yn rhy bell trwy ei gydnabyddiaeth âg Ahab. Mor anhawdd yw cadw i mewn gyda Duw ac annuwolion hefyd! Cyffesodd Luther "Na fynai efe anrhydedd Erasmus er y byd i gyd." Yn wir, yr oedd ei gyfeillach ef gyda mawrion y byd, a'r parch oedd iddo ganddynt, yn ei wneuthur yn rhy anhyf, neu lyfn ei dafod yn achos Duw. Nid allai y Moabiad roddi codwm o hyd breichiau i Israel; ond trwy ymwastgu i gyfeillach â hwynt, buont yn rhy galed iddynt. Nid eu melldithion, ond eu haggweddau mwynion a'u drygodd. Drachefn, nis gallwn byth golli cariad, a chael gwg dynion mewn achos gwell, nac er mwy o ennill, nag am gadw ein dwyfroneg cyfiawnder yn dŷn am danom.

(*1af.*) Pan am hyn y collom ryw gariad gan ddynion, yr ydym yn cael bendith Duw yn ei le. "Gwyn eich byd pan y dywedant bob drygair yn eich erbyn, er fy mwyn i, a hwy yn gelwyddog;" *Mat. v. 11.* Y mae bendith Duw yn gronglwyd dda uwch ein pen, i'n cadw rhag y dym-mhestl o ddigder dyn. O! y mae yn drwm pan agoro Cristion safnau yr annuwol, trwy ryw weithred ddrwg, i ddywydd yn ddrwg am dano? Ar hyn ni bydd un addewid yn agor ei drws, i'th noddi rhag

ystorm eu tafodau goganus: dyn yn difenwi, a Duw yn gwgu! A chroesaw gwael a gaiff y fath un pan drŷ adref i edrych i'w gydwybod ei hun, neu i ymddiddan â'i Dduw. Ond pan y casant di am dy sancteiddrwydd, y mae Duw yn rhwym drwy addewid i dalu i ti gariad am eu cās hwynt, a bendith am eu mellidith. Ac yn wir ychydig achos sy gan ŵr llys i achwyn, yr hwn am ychydig ammharch gan ereill—na allant ei niweidio—sy'n cael ei godi yn uwch yn flafwr ei frenin.

(2il.) Tra y mae dy rodiad sanctaidd yn peri i ti golli peth cariad oddi wrth y byd, y mae yn ennill i ti fwy o fri ac anrhydedd. Y rhai ni charant di am dy fod yn sanctaidd, nid allant lai na'th barchu ar yr un pryd am yr hyn sy'n dy wneud yn gās ganddynt. Os sant a gydsynia â'r annuw- iol, gan lacio ychydig yn ei sancteiddrwydd, at gyfateb â hwynt, yn ei golled y bydd— meddwl yr wyf, mewn golygiad arnynt hwy; o herwydd wrth ennill yr ychydig gariad ffais, y mae yn colli y gwir barch oedd eu cydwybodau oddi mewn yn ei dalu i'w dduw- ioldeb ef. Cristion, yn rhodio yng ngrwm duwioledeb, y mae yn debyg i Samson yn ei nerth; y mae yr anwiriad yn ei ofni: ond pan ddangoso ysbryd dŷrym, trwy ryw anweddeidd-dra yn ei yrfa, tuag at ei broffes sanctaidd, yna y mae yn ebrwydd yn gareharor ganddynt, ac yn syrthio dan fflangell eu tafod a dirmyg eu calonau. Gallaf bellach ddawnsio o amgylch y fath un, a'i wneud yn destyn eu gwawd, er i'w sancteiddrwydd ychydig o'r blaen eu cadw dan arswyd. Ni wna dy dlodi na gwaelder dy sefyllfa yn y byd mo honot yn ddirmygus, tra y cedwi dy ddwyfroneg cyf- iawnder am danat. Y mae mawrhydi ar wedd sancteiddrwydd, er ei wisgo mewn bratiau. Y mae Dafydd gyfiawn yn dir- ofyn parch gan Saul annuwio. Dacw y brenin ei huu yn talu y deyrnged hon i'w ddeiliad druan dan alltudiaeth: "Efe a wylodd, ac a ddywedodd wrth Dafydd, Cyfiawnach wyt ti na myfi;" 1 Sam. xxiv. 17. Ië, dyma y peth fel y dylai fod, pan fo gorfod ar ddyunion anianol addef eu bod yn cael eu trechu gan fucheddau duwio Crist- ionogion. O Gristionogion! gwnewch ryw- beth nodedig, uas gall y goreu o'ch cym- mydogion, o foesau yn unig, mo'i wneuthur; felly yr eisteddych yn sicr yng ngorsedd eu cydwybodau; ië, pan y tafont chwi allan o'u calonau a'u serchiadau. Tra y gallodd y swynwyr wneud rhywbeth yn debyg i'r gwrthiau a wnaeth Moses, hwy a dybias- ant eu hunain gystal gwyr ac yntau: ond pan eu trechwyd yn mhla y llau, ac nas gallent gyda'u holl gelfyddyd ddangos y cy- ffelyb, hwy a addefasant: "Bys Duw yw hyn;" Ecsod. viii. 19. Oni wnewch chwi chwaneg nag a wna dynion anianol, nid

ydych ond cydwastad â hwynt yn eu tybia am danoch: ië, hwy a dybiant eu hunain yn well na chwi, am eu bod gystal chwithau, sydd yn cymmyrd arnoch fod y sancteiddiaeth na hwy. Disgwylir fod i bo- un yn y gelfyddyd a broffeso, ragori mw- nag ychydig ar un arall sydd heb fod o gelfyddyd hono: ac oni wna efe hyn, y mae yn agored i ddirmyg.

PENNOD XV.

Yn cynnwys dau ddefnydd o'r pwnge.

Yr ydym yn dyfod at y cymmhwysia Byddaf yn fyrach ynddo, gan i mi ddi- ffer rhywbeth o'r natur o hyd wrth drin y rha- athrawiaethol.

DOSB. II.

Defn. 1. Er hysbysiad mewn dau be- neillduol.

laf. A ydym ni fel hyn i ymgais am gy- nal grym duwioledeb? Yna, sicr yw fod fath beth a chyfiawnder ac anghyfiawnder sancteiddrwydd, a phechod sydd yn gro- iddo. Etto, y mae cenhedlaeth o bobl fynant nad yw y pethau hyn ond dychyn- mygion; fel pe na byddai bod iddynt, ond, nhybiau pendrist rhyw ddyunion ofnus, o ysbryd, a freuddwydiant yn y fath betha ac yna a frawychir gan y bwbachod ddengys eu tybiau ynfyd eu hunain iddy- Oddi wrth hyn y mae rhai yn ein mysg we- beiddio gwneud eu hymffrost, eu bod hwy o'r diwedd wedi diange oddi tan gaethiw- y gorthrymddy hyn, cydwybod: hwy allant yn awr dyngu, celwyddu, ië—a p- beth a alwn ni yn ddrwg, nas gallant wneuthur—a hyn heb gyhuddiad nac- taliad gan cydwybod feistrolgar? Ië, o- wedant uad oes dim yn bechod, ond i'r sa- a dybio felly. Y mae y rhai hyn yn ff- iaidd gwaeth na hwnw y sonia y Salmydd- dano (*Salm xiv. 1*), "a ddywedodd yn- galon, Nid oes un Duw?" y rhai hyn a- hoeddant i'r byd y fath ynfydion ydy- ac nis gallant guddio eu cywilydd. N- wyf yn crybwyll am y rhai hyn yn gy- maint i'w gwrthbrofi; byddai hyn yn- afreidiol a myned i brofi fod yr haul- llewyrchu ar ddydd goleu teg, am fod rhy- ddyng gwyllt ynfyd yn ei wadu: ond yr- yn hytrach am gyffroi eich calonau ch- saint Duw, â'r ystyriaeth am ffieidd-dra- amseroedd. O! mor drwm eu cwsg o- ddyunion, pan y gallai y gelyn ddyfod a h- y fath efrau a'r rhai hyn yn ein mysg! allai iddynt dybied na thyfai y fath h- gwenwynig yn ein tir ni, y rhoddesid y ff- gost a thriuaeth arno gan lafurwyr Cri- ac na lyngcid y fath amryfuseddau cad- gan neb o'r rhai oedd wedi ymarfer âg y- borth efengylaidd mor bur. Ond och! n-

elwn trwy brawf alaethus, megys pan enyno pla mewn dinas a fyddo yn sefyll yn yr awyr iachaf, ei fod yn fynych yn fwy industrial nag mewn lle arall; felly, pan syrthio ysbryd amryfusedd ar bobl a fwynasant fwyf o'r efengyl, ei fod yn tyfu yn wyaf anferth. Y mae yn peri i mi grynu yn i'r wrth feddwl pa fath le i ddanadi y gall loegr fod, ar ol parhan cyhyd yn un o'r ddi tefaf a ffrwythlonaf Crist (heb wneud un âg un eglwys arall o fewn y byd) a hyn wrth weled y chwyn a dyfasant yn ein dyddu ni. Mi a glywais fod y parchedig a'r uwol Mr. Greenham wedi dywedyd "ei fod yn ofni mai didduwiaeth, yn hytrach na Phabyddiaeth, fyddai yn ddistryw i Loegr."¹ E buasai efe yn byw yn ein dyddiau laethus ni, cawsai ei ofn lawer o gryfhâd. A fu erioed fwy o wŷr annuw, wedi eu wneud, neu yn cael eu gwneud, yn Lloegr, r pan wybu hi am yr efengyl, nag o fewn y lloch deuddeng mlynedd yn ol? Y mae enyf achos i feddwl na bu. Pan syrthio ynion mor bell oddi wrth broffes o'r efengyl, ac i'r fath ddellni, fel nas gallant wahanu hwnwg goleuni a thywyllwch, cyfiawnder ac nghyfiawnder, ai nid ydynt wedi myned ym hbell mewn annuwiaeth? Nid dallineb naturiol yw hyn; canys gallai y paganiaid ddwydedd pa bryd y gwnaent dda neu drwg, a gwahanu rhwng sancteiddrwydd a bechod, heb oleu yr Ysgrhythyr i'w dangos dydynt: *Rhuf.* ii. 14, 15. Nag ê; pla oddi wrth Dduw yw y dallineb hwn a syrthiodd rnynt, am wrthryfela yn erbyn y goleuni, pan y gallasant ei ganfod. Ac os cynnydda y pla hwn yn fwy cyffredin (yr hyn na ato Duw), yna gwae i Loegr.

2il. Os ydym i gynnal grym duwioldeb, yn yn sicr nid peth amhossibl ydyw; ni rchymynai Duw yr hyn nad yw ef yn galluogi ei bobl briodol i'w wneuthur. Ond yma rhaid i chwi gofio yn ofalus y gwahan-aeath (a bennodwyd o'r blaen wrth agor y llystyn) rhwng cyfiawnder deddfol a chyfiawnder efengylaidd. Y mae yr olaf o'r rhai hyn mor bell o'r ffordd yn anghyrhaeddadwy, fel nad oes un Cristion cywir yn y byd, heb fod yn wir sanctaidd yn yr ystyr hwn; hyny yw, y mae yn gwir ddymuno, yn ymgais yn gydwybodol (gyda pheth llwydd ar ei ymgais, trwy ddwyfod ras yn cynnorth-wo) i rodio yn ol rheol gair Duw. Yr wyf yn addef nad yw holl ysgolheigion Crist o'r un radd; nid yw pawb o'i blant o'r un tyfiant a nerth. Y mae rhai yn cerdded yn gyflymach nag ereill yn ffyrdd duwioldeb. Etto, nid oes un sant heb ei gynnysgaethu âg egwyddor fywiol, sydd yn ei osod ar

¹ Onid ellir meddwl hefyd, wrth edrych ar rym cynnyddol annuwiaeth, neu o leiaf anghred cyffsedig i Grist, a Christionogaeth, fod perygl ein gwlad wedi ei chwaneu yn ddirfawr—o'r ochr hon yn enwedig—yn y blynyddoedd diweddaf.

waith dros Dduw, ac i ddymuno gwneud mwy nag a all efe. Fel y mae yn yr hedyn (er ei fod yn fychan ynddo ei hun) y rhinwedd a'i gwnai yn bren o lawn dyfiant a maint, ac fel y mae wrth dyfu yn rhoddi allan nerth ei natur fwyfwy tuag at hyn, felly y mae yn yr hedyn cyntaf o ras (a blenir â'r dröedigaeth) berffeithrwydd gras yn grynwysedig mewn ystyr; hyny yw, tueddiad sydd yn peri i'r creadur ymestyn mewn dymuniad ac ymgais am y perffeithrwydd hwnw, i'r hwn yr appwyntiodd Duw ef yag Nghrist Iesu. Ac am hynny, Gristion, pa bryd bynag y cymmhellir y fath feddyliau arnat, am yr amhossiblwydd o gyrhaedd y sancteiddrwydd hwn yma ar y ddaear, gwrthod hwynt fel rhai anfonedig gan Satan, a hyny ar y bwriad o borthi dy naws amheugar dy hun; â'r hon y gwyr efe y cytunant yn rhy dda. Felly y newyddion am y cawri a'r muriau uchel, a ddygodd yr ysbïwyr i'r Israeliaid anghrediniol. Ac y mae'r cwbl at wanhau dy ymgais di ar ol sancteiddrwydd. Hyn, efe a wŷr, a fyddai yn sicr o'i brofi ef yn gelwyddwr. Gwna di ond ymroddi yn gadarn i fod yn gydwybodol yn dy ymgais, gyda golwg ar yr addewid am gymmhorth; ac ni raid i ti ofni nad ä y gwaith ym mlaen: "Canys haul a tharian yw yr Arglwydd Dduw; efe a rydd ras a gogoniant: ni atfal efe ddim daioni oddi wrth y rhai a rodiant yn berffaith;" *Salm* lxxxiv. 11. Craffweh ar hyn, "gras a gogoniant," sef gras i ogoniant: efe a fydd o hyd yn chwaneu mwy o ras at yr hyn sydd genyt, nes y byddo dy ras ar y ddaear yn prifio i ogoniant nefol.

DOSB. III.

Defn. 2. Er argyhoeddiad i amryw fath o bobl.

1af. Y rhai hyny oll sydd yn ymfoddloni yn y cyflwr ansanetaidd y maent ynddo. Y cyfryw yw ystâd pob un wrth natur. Och! mor bell yw y rhai hyn oddi wrth gynnal grym duwioldeb, hyd onid ydynt dan rym eu chwantau: Y rhai hynsy'n rhoddi cyfraith iddynt, ac yn tori allan eu gwaith oll; ar yr hwn y treuliant eu holl amser, i'w weithio. Ac onid bywyd erchyll, Syrs, yw hwnw, a dreulir ar y fath orchwyl ffaidd a brwnt ag yw pechod ac anghyfiawnder? Da y gellir cyssylltu rhwymedigaeth anwiredd a bustl chwerwder ynghyd: *Act.* viii. 23. Tybir fod cyfeiriad yr apostol at *Deut.* xxix. 18, lle y gelwir pob pechod ac anghyfiawnder "yn wreiddyn yn dwyn gwenwyn a wermod." Y neb a blana bechod a drygioni, ac yna a feddwl gasglu rhywbeth heb law ffrwyth chwerw o'i platur oll, y mae yn ymhoi i wybodaeth tu hwnt i Dduw ei hun; yr hwn a wiria mai y ffrwyth naturiol a dŵf o'r gwreiddyn hwn yw bustl a wermod. Pwy a chwilia am fwsig mewn cut ei? Cynt y gelli gael hwnw

yno, na dim gwir bereidd-dra a chysur mewn ansancteiddrwydd. Fe ddichon y diafol, fe allai, am dro, drin y tamaid chwerw hwn a'i goginiaeth fedrus, fel na phrofi di ei flas naturiol ar dafod dy enau; ond fel y dywed Abner wrth loab: "Oni wyddost ti y bydd chwerwder yn y diwedd?" 2 Sam. ii. 26. Yn uffern, fe fydd y siwgr oll wedi toddi, yn yr hwn y trowyd y belen chwerw hon: yna, os nid yn gynt, ti a gei wir flas y peth sydd yn awr yn myned i waered mor felus. O! pa sawl un sydd yn awr yn uffern mewn melldithio eu gwledd a'u gwleddwr befyd! A dybiwch chw'i ei fod yn rhyw esmwythâd i'r damnedigion feddwl pa beth a gawsant am eu harian? Fy meddwl yw, pa bleser, elw, a mwyniant cnawdol, a fu ganddynt unwaith ar y ddaer, am y rhai y maent yn awr yn talu y poenau anhraethol sydd arnynt, ac a barhânt hyd byth, heb oibaith na chymnhorth? Na, y mae yn chwaneu at eu poen tu hwnt i'n dirnadaeth ni, ddarfod iddynt werthu eu heneidiau megys am chwiban, a cholli y nef a'i gwynfyd, am na fynent fod yn sanctaidd. Hyn, fel y gwyddant yn awr yn rhy ddiweddar, ydyw rhan fawr o'r dedwyddwch hwnw, er iddynt gynt dybied yn groes; ac arteithiad yw iddynt yn awr ystyried eu bod wedi ei fwrw oddi wrthynt dan y dyb o'i fod yn faich a chaethiwed. Ond och! och! leied o feddyliau a dreulir gan drueiniaid ansanctaidd mewn myfyrdod ac ystyriaeth pa beth sy'n myned yn mlaen mewn byd arall! Y maent yn gweled pechaduriaid beunydd yn marw dan ddilyn eu chwantau: ond ni feddyliant pa beth sy'n dyfod o'honynt, eu bod yn uffern yn llosgi ac yn rhuo o herwydd eu pechod, mwy nag y gwna y pŷg yn yr afon feddwl beth a ddaeth o'u cymmharïad a gipiwyd i fyny gerfydd eu tegyll o'u mysg o fewn mnyd yn ol, â bach yr enweiriwr, ac a fwrwyd yn fyw i'r badell ffirio, neu i'r crochan berw. Na; fel y mae y creaduriaid gwirion hyny yn barod o hyd i gydio yn yr un bach ag a ddaliodd eu cymmharïad, felly y mae meibion a merched yn barod o hyd i ddal gafael yn yr abwydan hyny o bleserau pechod a gwobrau anghyfiawnder, wrth y rhai y bachwyd cynnifer o filiynau o'u blaen, i uffern a damnedigaeth.

2il. Y rhai sy mor ansanctaidd ag ereill, yn noeth i lygad Duw, a malais Satan; ond i achub eu gair da yn y byd, a wisgant ryw beth tebyg i ddwyfroneg—rhiith o sancteiddrwydd; a hwn a wna iddynt hyn o wasanaeth am y tro; tybir eu bod y peth nid ydynt: "Yn wir y maent yn derbyn eu gwobr;" ac un wael ydyw. Er mwyn yr Arglwydd, ystyriwch eich gwaith, a chrynwch wrtho: yr ydych yn hyn yn gwneud gwasanaeth dyblyg i ddiabol, gelyn mawr Duw, ac anghlymuwynas ddyblyg i Dduw.

Fel un a ddeuai i'r maes, dan ddwyn arfau mewn ffalsedd; y mae yn tynu disgwyliad ei frenin arno, fel un am wneuthur rhyw wrolwaith drosto, ond heb feddwl dim o'r fath beth. Ie, y mae yn rhwystro ereill, a fyddent yn flyddlawn i'r brenin yn y lle y mae efe, fradwr, yn sefyll ynddo. Gall y fath un wneuthur mwy o ddrwg i'w frenin na llawer, sy trwy ofn yn aros gartref neu yn wrthryfelus yn rhedeg drosodd i ochr y gelyn, ac yn dangos eu bwriad iddo yn amlygw. O gyfeillion! byddwch o ddirif: os ydych am sancteiddrwydd, bydded yn wir sancteiddrwydd, fel y pennodir yn *Eph.* iv. 34: "Gwisgwch y dyn newydd, yr hwn yn ol Duw a grewyd mewn cyfiawnder a gwir sancteiddrwydd." Lle y mae dau ymadradd i'w nodi; fe'i gelwir y "dyn newydd—yn ol Duw;" sef, yn ol tebygrwydd Duw. Y mae y cyfryw gerfiad, neu ddelw ar yr enaid wedi ei dynu yn ol Duw, fel llun yn ol wyneb y dyn. Drachefn, y mae gwir sancteiddrwydd neu sancteiddrwydd y gwirionedd, naill ai yn golygu y gair sy'n rheo sancteiddrwydd—yna y mae yn meddw sancteiddrwydd ysgrhythol, nid Phariseaidd a thraddodiadaid—neu ynte y mae yr golygu y galon sydd yn eisteddle y gwirionedd neu ffalsedd. Gwir sancteiddrwydd yn yr ystyr hwn, yw sancteiddrwydd ac uniondeb y galon: y mae yn rhaid cael gwir sancteiddrwydd oddi mewn. Nid yw prydferthwch crefydd llawer un ond tebyg brydferthwch ei gorph, mor ddwfn a' croen, y cwbl o'r tu allan. Agorwch y corpl prydferthaf, ac ni cheir o'i fewn, er ei lendid oddi allan, ond ychydig heb law gwaed budreddi, a drewdol. Felly, rhiith sancteiddrwydd, ar ol ei ddiberfeddu, a dwyn e du mewn i'r amlwg, gweir nad oes yn e guddfeydd ond helaethrwydd o amhuredd a ffaidd-dra ysbrydol. "Duw," ebe Pau wrth yr archoffeiriad, "a'th dery di, bared wedi ei wyngalchu;" *Act.* xxiii. 3. Felly meddaf finau wrthyt ti, ragrithiwr, "Daw a'th dery di, bared wedi ei wyngalchu," neu yn hytrach fedd paentiedig, nes y bydded dy bydredd oddi mewn, a ddaw i'r amlwg y pryd hyny, yn dy wneuthur yn llawn mo adgas a ffaidd, gan y rhai oll a'th welant ag y mae dy ddwblw yn dy broffes allanol yn awr yn serenu llygaid llawer i ryfeddu wrth dy sancteiddwedd.

3ydd. Y rhai sy mor bell o fod eu hunain yn sanctaidd, nes y gwawdiant ac y gwatwarant ereill am fod felly. Y mae y ddwyfroneg hon o gyfiawnder mor wael e bri ganddynt hwy, hyd onid yw y rhai a' gwisgant hi yn eu hymddygiad beunyddio yn eu gwneuthur eu hunain mor ddirmygus yn eu golwg, a phe deuent allan yn ngwisg ynyf-d dyn, mewn siaced a luniwyd i beri chwerthin. Pan fyddo ambell ady am roddi dyn duwiol i'r dibrisiad isaf, a'

langos yn wrthdrysych o ddirmyg mawr, a fath yw yr iaith y gwna efe ei ddangos addi, ond dacw frawd sanctaidd un o'r o'rl burlan? Ei sancteiddrwydd, yn benodol, yw yr hyn y mae yn meddwl ei warwyddo o'i achos. Y mae yn brawf o lon dra drygionus. Y mae gradd fwy o drygioni yn ymddangos wrth i un wawdio uwoldeb mewn arall, nag wrth iddo gynwys annuwoldeb yn ei fyuwtes ei hun. Y mae gan hwnw yn wir wrthwynebiad yf i ddysglaid o fwyd, sydd nid yn unig i gwrthod ei phrofi ei hun, ond yn methu ddef edrych ar ddim o honi ar ddysglau arall heb chwylu. O! mor erchyll rwyg yw y dyn hwnw, ag y mae dim ond mae a sawr duwioldeb, o'r fath beidder, effeithio mor dost ryfedd arno, ag i beri do daslu i fyny ystaf a chwercwder ei ysyd yn ei erbyn! Y mae Ysbryd Duw yn rhoddi y gadair i'r fath yma o bechadurdd, ac yn eu gosod yn uwch na'u holl o'dyr mewn anwiredd, fel y rhai teilyngaf lle: "Gwyn ei fyd y gwr ni rodia yng hynghor yr annuwolion, ac ni saif yn ridd pechaduriaid, ac nid eistedd yn eisldfa gwatwarwyr;" *Salm* i. 1. Gosodir gwatwarwr yma fel cadeirydd wrth fwrdd nghor pechaduriaid. Rhai a ddarllenant gair am watwarwyr, yn watwarwyr arbiol. Y mae yn wir fath o synwyr digig a ddengys rhai yn eu dirmyg ar eteiddrwydd; hwy a gymmerant ryw malfachiad yn addurnwaith y saethau hyny laflant yn erbyn y saint. Y mae rhai yn llen y geiriau, cadair gwyr y pla. Yn r, fel y mae y pla yn fwyaf marwol yn rsg clefyddau, felly y mae y gwatwarwr a mysg pechaduriaid. Y mae adferiad pechod yn beth sy mor anfynych ag o rhyw bechod arall. Yr Ysgrhythr a nia am y fath yma o bechaduriaid, fel ni agos yn rhyddion ym mysg y meirw; n lleid gobaith am fod o les i'w heneidn, ag am y rhai hyny o ran eu cyrph, nas llant ddal y physygwriaeth a weinyddir lynt, ond ei fwrw i fyny yn ebrwydd, n iddo weithio dim arnynt. Ac am hyn erchir i ni gadw ein physygwriaeth, a eidio treulio cynmaint a cherydd arnt, rhag i ni ei gael yn ol i'n hwyneb: "Na cherydda watwarwr, rhag iddo gasau;" *Diar*. ix. 7, 8. Y cwbl a allwn wneud yw ysgrifenu ar ei ddrws:—"Arvydd, trugarhâ wrtho;" fy meddwl yw, eddio dros y fath, yn hytrach na siarad ef. Er cynt, y mae y fath yma o bechuriaid wedi bod yng nghymmysg â'r wiolion: Ismael watwarus yn nheulu abraham: *Gen*. xxi. 9. Ac y mae yn beth y nodi pa ddeongliad a rydd Ysbryd Duw ei ymddygiad gwatwarus tuag at ei frawd: *Mat*. iv. 29: "Megys y prydd hyny, yr hwn a wydd yn ol y cnawd a erlidia i yr hwn a

anwyd yn ol yr Ysbryd; felly yr awr hon hefyd." Craffwch attolwg, yn gyntaf, pa beth oedd sail y cweyl, sef hyn:—yr oedd ei frawd wedi ei eni yn ol yr Ysbryd; a hyn, gan ei eni ef yn ol y cnawd, yr oedd efe yn ei gasau. Yn ail, craffwch y modd y mae Ysbryd Duw yn dadgan ei ymddygiad gwatwarus at ei frawd: gelwir hyn yn erlid.

I fwyhau drygioni ysbryd a thafod gwatwarus, sydd yn sefyll am bechod mor fychan yng nghyfrif y byd (y rhai ni chyfrifant neb yn erlidwyr, ond y rhai a dynant waed o herwydd crefydd), mynai Duw i'r gwawdiwr a'r gwatwarwr wybod ym mysg pa fath bobl y caiff yntau ei osod a'i brofi o flaen brawdle Crist—dim llai pechaduriaid nag erlidwyr. Ond nid hyn, mi dybygwn, yw y cwbl: gelwir y gwawd hwn ar sancteiddrwydd yn erlid, am fod yntau heb erlidwaith gwaedlyd. Y rhai sy mor barod â'u tafodau i wawdio, ac a ddangosant eu dannedd wrth watwar duwioldeb, hwy a ymffient yntau â'u dannedd, pe meddent y gallu i ddefnyddio asgwrn eu gen.

Yn olaf, daliwch sylw, mai nid tuedd groes Ismael yn unig a olygir, a'i dymmer sarug anhynaws ef yn bersonol, a ddfriodd ei frawd felly; ond y mae yn cael ei roddi yn erbyn yr annuwolion oll: megys yr erlidiodd efe ei frawd, am ei fod "yn ol yr Ysbryd, felly yr awrhon hefyd." Y mae yr ysbryd gwatwarus hwn fel yn rhedeg mewn gwaed; yr holl dorllwyth yn gyffelyb; ac os ymddengys neb o honynt yn fwy rhydd a thirion at saint Daw, rhaid i ni gyrchu y rheswm o ffynon arall heb law eu natur bechadurus hwynt. Y mae Duw yn marchogaeth rhai o honynt â genfa dyn; a'r rhai hyn, er nad agorant eu calonau i Grist eu cadw, etto y mae y gwir wedi gweithio mor bell arnynt trwy argyhoeddiad cryf, nes yw yn peri i gydwybod ddywedyd wrthynt am eu cynmyddogion duwiol, fel fy dywedodd gwraig Pilat am Grist, trwy genadwr at ei gwr: "Na fydded i ti a wnelych â'r cyfiawnon hyn; canys goddefais lawer o'u hachos." Ond er fod bob amser watwarwyr duwioldeb yn agos at y saint, am fod rhai annuwol bob amser yn gymmyddogion iddynt, etto, y mae Ysbryd Duw yn rhagddangos math o watwarwyr i ddyfod ar y bwrdd yn y dyddiau diweddaf a amrywient oddi wrth y gwatwarwyr cyffredin a fu yn arfer blino pobl Dduw. Ac yma, syr olaf yw y gwaethaf. Chwi a wyddoch mai rhai heb broffesu crefydd eu hunain a fyddai yn arferol o wawdio a gwatwar duwioldeb; rhai yn rhodio yn groes gyhoedd i Dduw, ac yn ymdreigo ym mhob math o ddrwg. Eithr y mae Ysbryd Duw yn mynegi i ni am haid newydd a watwarant dduwioldeb dan y lliw o dduwioldeb. Hwy a fyddant, rai o honynt, mor erchyll ddrygionus a'r gwaethaf o'r fath faenaf, ond

drygionus mewn dirlgelwch. "Eithr chwi, O rai anwyl, cofiwch y geiriau a ragddywedyd gan apostolion ein Harglwydd Iesu Grist; ddywedyd o honynt i chwi, y bydd yn yr amserdiweddfaf watwarwyr yn cerdded yn ol eu chwantau annuwiol eu hunain;" *Iudas* 17, 18. Ond crafwch, rhag i ni eu disgwyl drwy gam ddrws, gan dybied y codant fel cynt o fysg y tyngwyr cyffredin, y meddwon, a throseddwy'r nodedig yn ein plith: y mae efe yn y geiriau nesaf yn rhoi i ni nôd sydd mor amlwg ariant, a phe bai ganddynt yr enw ar eu talcen. "Y rhai hyn yw y rhai sy yn eu didoli eu hunain, yn anianol, heb fod yr Ysbryd ganddynt;" *adn.* 19. Y mae y dysgedig Perkins yn darllen y geiriau fel hyn:—"Mae y rhai hyn yn blaid lunwyr, yn gnawdol, ac heb fod yr Ysbryd ganddynt." Plaid lunwyr—rhai yn eu didoli eu hunain! Ai nid yw eich calonau yn crynu wrth weled saethau y gwatwarwyr yn dyfod o'r ffenestr hon? Rhai yn ymhoi am burach addoliad nag ereill yw y gwyr, ac yn profesus ymwahan- iad ar gyfrif cydwybod, am nas gallant oddef iddynt eu hunain gymmaint a chyffwrdd â'r rhai sydd yn arian, trwy ymuno â hwynt mewn ordinhadau sanctaidd, a'r rhai hyn yn watwarwyr, yn anianol! Yn ddiaw, oni buasai i Ysbryd Duw fynegi i ni hyn, i'w pabell hwynt yn olaf un yr aethem ni (fel Laban i babell Rahel yn olaf) gan y drwg- dybiad lleiaf am watwarwr duwioldeb yn gallu byw yno. Ië, na ato Duw i ni ei osod yn gyhuaddiad cyffredin yn erbyn pawb a ymadawsant o gymmundeib cyhoedd: y mae fy nghydwybod i yn dywedyd fod llawer o honynt yn garwyr sancteiddrwydd, ac yn cael eu harwain (er mai allan o ffordd) gan dynerwch eu cydwybodau. Y rhai hyn, pan oleuo Duw hwynt yn fwy, a'u dygant mor gyflym yn ol at eu brodyr, ag y maent yn awr yn eu dwyn oddi wrhynt.

Ac yn wir, yr wyf yn meddwl y gallai fod yn help mawr iddynt feddwl am droi yn ol, pe gwnaent ond ystyried yn eu myfyrdod dwys a difrif pa mor bell yr aeth llawer o'r rhai a'u gadawsant; sef mor bell ag i wawdio ar sancteiddrwydd y rhai a adaw- sant unwaith, am nad oeddynt yn ddigon sanctaidd i'w cymdeithas hwynt. Duw, chwiliwr y calonau, a ŵyr mai â chalon drom yr wyf yn dywedyd hyn. A phe byddai i'r cyfryw ddyfod i ymuno â ni drachefn mewn rhai ordinhadau (y cyfryw yw y tramgwydd a barasant), ni ddylai y rhai a'u gwrthodasant o'r blaen, gael yn awr eu der- byn genym, fel y maent. Pa nifer a glyw- soch am danynt, yn dechreu trwy ymwahanu o'n cynulleidfaoedd, sydd yn awr yn gwawdio Sabbathau, yn bwrw ymaith ddy- ledswyddau teuluaid, &c, a phob gweddi ddirgel, ac hefyd wedi llyngau y tybiau melldigedig hyny sydd yn peri iddynt

siarad yn ddirmygus am Grist ei hun, Ma Duw, ac am wirioneddau mawrion yr e- engyl, sydd yn unig sail i wir dduwioldeb Felly, yn awr, nid oes neb yn gymmain gwrthdrysych i'w dirmyg, a'r rhai a roddian yn agosaf at reol sanctaidd yr efengyl. We syrs, o ba fath bynag yr ydych, pa un a gwatwarwyr didduw ar dduwioldeb, ai rhai sydd yn gwatwar gwir dduwioldeb dan chyfrif yn un ffals, edrychwch beth yw ei gwaith; y mae yn gymmaint ag a dâl eic bywyd: "Na thwyller chwi, ni watwari Duw;" ac nis goddef efe i'w ras gael o watwar yn ei saint. Chwi a wyddoch pa mor ddrud y costiodd y gwawd hwnw iddynt hwy (er mai plant oeddynt) a'i llefarod wrth y prophwyd: "Dos i fyny, moelyn; 2 *Bren.* ii. 23: lle yr oeddynt nid yn unig y ei ddirfrio ef â'r llysenw *moelyn*, ond y gwneud gwawd o ddyrchafiad Elias i'r nef fel pe dywedasant, ti a fynit i ni goell fyned o'th feistr i fyny i'r nef; pa ham na ai dithau ar ei ol, fel y caffom wared o hor oeh eich dau ar unwaith? Ac nid rhaid ni ryfeddu ddarfod i'r plant hyn dyfu i fath ddyrgioni mor fuan, os crafwn ar y l yr oeddynt yn byw yndo, sef Bethel; l tra gwarthus am eilunaddoliaeth, ac un o ddwy ddinas y gosodasai Ieroboam ei l ynddynt: 1 *Bren.* xii. 28. Felly nid y hon, dybygid, ond yr iuth a ddysgasant y groew gan eu rhieni eilunaddolgar.

Cyfarfu Duw â Mical hefyd am ei dirmyg i'w gŵr, yn unig ar gyfrif crefyddol; am fod ef wedi dangos sel dduwiol dros Dduw a'i hysbryd bach hitbau (fel llawer ar hol) yn cyfrif hyny yn beth rhy isel a gwa i frenin ei wneuthur. Wele, beth yw chop hi? "Am hyny, i Mical, merch Sa- ni bu etifedd hyd ddydd ei marwolaeth. Yr oedd gwasaneth Duw yn beth rhy i frenin y ei meddwl hi: am hyny, ni eh un ddyfod o'i brw i eistedd ar yr orsedd, i gwisgo coron. Drygioni mawr yw gwawd wrth adfyd dyn arall. "Y neb a watwa y tlawd, sydd yn gwarawdyddo ei Wneut urwr ef;" *Diar.* xvii. 5. Ië, y mae gwaw- io a llawenhan am bechod sant, yn bech- trwm. Felly y gwnaeth rhai o blant Beli- pan gwymppodd Dafydd i'r pechod trw- hwnw o odineb a llofruddiaeth: ac y m- ewyn yn erbyn y cyfryw, eu bod yn cal Duw yn yr achos. Pa beth ynte yw gwa- war un am ei sancteiddrwydd? Y m- pechod ag achos o gywilydd yndo, ac rhoddi achlysur i galonau drwg warawdyd y neb a welont wedi ei ddiwyno ag ef, sy- yn beth mor wrthun ac anweddus, yn c- wedig i sant. Ond sancteiddrwydd, y n- hwn yn anrhydeddus, ac yn angraffu bri- y sawl a'i medd. Hwn, y mae nid yn un- yn urddas i'r creadur, ond hefyd yn anrh- edd y Goruchaf ei hun. Fel hyn y mae- deitl urddasol ef; "Pwy fel tydi, yn og-

ldus mewn sancteiddrwydd;" *Ecsod. xv.*
 1. Felly, ni ddichon neb watwar hwn heb
 od hefyd yn gwatwar Duw, yn anfeidrol
 wy, ar yr un cyfrif; am fod mwy i anfeid-
 oldeb o'r sancteiddrwydd a ddirmyga efe
 n y creadur, i'w gael yn Nuw; a mwy nag
 fedd y creaduriaid oll rhyngddynt, dynion
 e angylion, yn y ddau fyd. Pe mynech
 dyfeisio ffordd i fwrw y dirmyg mwya-
 f ydd yn bossibl ar Dduw, nis gallech daraw
 rth un sydd yn debyg i hon. Y Rhufeini-
 id, pan fyneot roddi dirmyg ar ryw rai,
 u diraddu o'u hurddas, hwy a orclymyn-
 t i ddelw a llun y cyfryw (ar ol eu gosod
 n y ddinas neu y temlau, er coffa am dan-
 t) gael eu tori oll i lawr. Y mae pob sant
 n ddelw fywiol o Dduw; a pho mwya-
 f sanctaidd, tebycaf i Dduw: gan hyny, pan
 dirmygech hwynt, a hyn am eu sancteidd-
 rwydd, yr wyt yn wir yn cyffwrdd yn agos
 g anrhydedd Duw ei hun. A wna dim
 ai dy foddioni, ond bod yn rhaid i ti haeru
 ddelw hon, a gododd efie drwy gymmaint
 raul yn ei saint, ac o fwriad iddynt fod
 n foliant iddo ar y ddaear? A ydoedd
 n ddrygioni mor erchyll yn y cenhedloedd
 rny, "fwrw tân i'r cysssegr, a dryllio ei
 rfiadau â bwyell ac â morthwylion" (*Salm*
xiv. 6, 7?) am yr hyn y mae yr eglwys
 n cwynfan, "Pa hyd, Dduw, y gwarth-
 adda y gwrthwynebwr? a gably y gelyn
 y enw yn dragywydd?" *adm. 10.* Pa beth
 nte sydd yn dy falais ddieffig di, sydd yn
 eulio dy gynddaredd, nid ar goed a cheryg,
 nd ar waith cerffedig ei Ysbryd ef, gras a
 ncteiddrwydd ei demlau bywiol?

PENNOD XVI.

Annogaeth i'r saint mewn tair cangen.

Defn. 3. DICNON fod er annogaeth i'r
 unt, tan amryw benau neillduol. Ni
 bwaf ond tri, gan i mi gyfeirio atynt yn
 enaf yn yr holl draethawd.

1af. Bendithia Dduw, a'ith addurnodd di
 r ddwyfroneg hon. A elli di lai, wrth
 eled y fath luocedd ar bob llaw wedi eu
 add o flaen dy wyneb, gan ddistrywiwr
 neidiau, o eisieu y darn hwn o arfogaeth
 amdiffyn eu dwyfronau noethion yn erbyn
 i ergydion dinystriol ef? Pe buasai i
 duw dy wneud yn fawr a chyfoethog yn
 byd, ond nid yn sanctaidd, ni buasai iddo
 elly roddi i ti ond ystôr i farchnata am
 fiern. Buasai y rhai hyn yn dy wneud yn
 nrrhaith fwy i Satan, ac heb gaffael i ti yn
 diwedd ond condemnad dyfnach. Pan
 delo gelyn o flaen dinas, heb na muriau
 ac arfau i'w hamdiffyn, yn ddiâu po cyf-
 ethocaf fyddo, gwaeth yr ymderu hi. Pan
 del Satan at ddyn â chanddo lawer o'r
 yd o'i ddeutu, ond heb Dduw yn ei enaid,

i'w amdiffyn, O! pa fath waith gresynus
 a wna efe â'r cyfryw? Y mae yn cymmeryd
 yr hyn a wel yn dda, ac yn gwneud yr hyn
 a fyno: y mae y pwrs, a chwbl a fedd yr
 adyn truan, at ei alwad. Os daw chwant
 i ofyn, er mor afresymol, ni fedd efe galon
 i'w nacau: er ei fod yn gwybod beth a gyst
 ei foddhâd iddo mewn byd arall, etto, efe a
 ddannia ei enaid yn hytrach nag anfoddio
 ei chwant. Y mae Herod yn taflu hanner
 ei deyrnas wrth droed anlladferch, os hi a'i
 gofyn: ac os cyfrif hi hyny yn rhy fychan,
 efe a offryma ei deyrnas oll i'w chwant,
 am y gellir barnu fod gwaed Ioan Fedydd-
 iwr wedi costio iddo gymmaint a hyny yn y
 byd hwn (canys gan mor effro oedd rhag-
 luniaeth Duw, fe'i trowyd yn fuan wedi
 hyny oddi ar ei orsedd), heb law yr hyn y
 mae yn ei dalu mewn byd arall. Ond pan
 wnaeth Duw di yn ŵr neu wraig dduwiol,
 yna rhoddodd i'th ddinas byrth a barau, fel
 y gelli yn awr, trwy ei ras ef, sefyll ar dy
 amdiffyniad, a thrwy y cymmhorth par-
 haus a enfyn y nef i ti, wrthsefyll ei holl
 rym ef. Buost unwaith yn wir yn gaeth-
 was llonydd iddo; ond yn awr y mae efe yn
 was i ti: -yn y dydd y daethost i fod yn
 dduwiol, gosododd Duw dy droed ar ben y
 sarph. Yr oedd dy chwantau gynt yn ges-
 tyll cryfion iddo, â'r rhai yr oedd yn dy
 gadw tanodd, ac o'r rhai y rhuthrai i wneud
 i ti gymmaint o niwed; ond yn awr cafwyd
 y rhai hyn o'i law ef. O! y fath lawenydd
 sy mewn tref pan gymmerir oddi ar y
 gelyn y castell oedd yn meistrol arni! Yn
 awr, enaid tlawd, y mae Satan wedi colli ei
 wâl a'i letty: byth mwy ni chaiff efe
 chwareu rhan brenin yn dy enaid, fel y
 gwnaeth. Mewn gair, pan y gwnaed di
 yn un sanctaidd a chyfiawn, yna dechreu-
 odd Duw nefeodd yn dy enaid: yn y dydd
 hwnw fe'th ail-anwyd di, a ganwyd etifedd
 y nef! Ac os gwneir y fath foeddiadau ar
 enedigaeth tywysog ieuange, etifedd rhyw
 ardal fechan, ai nid oes i ti achos mwy, yr
 hwn y sefydlwyd arnat ogoniant y nef,
 mewn pryd i ddyfod—yn enwedig os yst-
 yri pa le yr oedd yr holl etifeddiaeth a
 ellit o'r blaen honi hawl iddi? Y mae
 Paul yn cyssylltu y ddau, at wneud ei
 ddiolch-gân yn llawn: "Gan ddiolch i'r Tad,
 yr hwn a'n gwnaeth ni yn gymmhws i
 gael rhan o etifeddiaeth y saint yn y gol-
 euni; yr hwn a'n gwaredodd ni allan o
 feddiaut y tywyllwch, ac a'n symmudodd i
 deyrnas ei anwyl fab;" *Col. i. 12, 13.* O
 gyfnewid dedwydd! camu allan o ddaeardy
 tywyll Satan (lle y'th gedwid yng nghad-
 wynau pechod ac anwiredd, yn garcharor
 gan uffern) i deyrnas gras Crist; lle yr wyt
 yn cael y gadwyn euraidd o gyfiawnder a
 sancteiddrwydd am dy wddf, fel etifedd
 addefedig y nef! "Yr ardderchawgrwydd
 hwn sydd i'w holl saint ef;" *Salm cxlix. 9.*

2il. Edrych, Gristion, am gadw dy ddwyfroneg am danat. A raid i ni beri i'r milwr ofalu am ei arfogaeith, pan fyddo yn myned i'r maes? A all efe yn hawdd anghosio dwyn hwnw gydag ef, neu gymeryd ei gynghori i'w adael ar ei ol? Etto, fe wnaeth rhai felly, ac a dalasant yn ddrud am eu hyfder. Gwell fyddai i ti oddef pwys dy ddwyfroneg, er iddi fod yn beth blinder i'r enawd, na chael archoll yn dy ddwyfron, o'i heisien hi. Ac os syrth y darn hwn ymaith, ni elli di gadw un o'r lleill am danat. Os goddefi dy hun mewn rhyw halogrwydd, bydd dy uniondeb yn ebrwydd dan ammheud yn dy gydwybod. Yr wyf yn addef y cawn fod gan Pedr, yn fuan ar ol ei gwmp trwm wrth wadu ei Feistr, y dystiolaeth am ei uniondeb: "Arglwydd, ti a wyddost bob peth; i ti a wyddost fyf mod i yn dy garu di;" *Ioan xx. 17.* Wedi i Grist roddi y gofyniad dair gwaith, efe a allai yn hyderus wirio ei uniondeb. Ond rhaid i ni wybod, Yn gyntaf, nad oedd ei bechod hwnw yn un o lwyfwrriad: ei drechu yn ddisymmwth a gafodd y dyn truan: ac Yn ail, yr oedd ei wlo chwerv wedi myned rhwng ei bechod a'i broffes hon; ac felly, yr oedd adnewyddiad lluan ei edfeirwch yn tueddu yn fawr at amlygu ei burdeb i'w gydwybod. Ond fe'i cafodd Dafydd yn waith caletach; yr hwn a bechodd gyda mwy o fwriad, ac a orweddodd yn hwy yn mwydo yn ei euogrwydd, fel y gellwch weled yn *Salm* li. 10, lle y mae yn erfyn mor ddwys am i Dduw adnewyddu ysbryd uniawn o'i fewn.

Drachefn, Nid ä esgid yr efengyl am dy droed, tra y byddo wedi chwyddo gan ryw naw pechadurus — unrhyw arferiad ansanctaidd neu anghyfiawn wyf yn ei feddwl — nes ei liniaru a'i weithio allan trwy edifeirwch. Ystyria yr efengyl yn ei pharotoad. A wyt ti mewn agwedd gymmhws i ddi-oddef yn siriol dros Dduw, neu yn amyneddgar dan law Duw, fel yr wyt yr awrhon? Nid gymhwysach nag yw milwr claf yn ei wely i gychwyn ar daith galed. Y mae ansancteiddrwydd yn peri anhwyf i'r enaid, gymmaint a chlefyd i'r corph, ac yn ei anaddasu i oddef caledfyd. "Paid ä mi, fel y cryfhawyf, cyn fy myned ac na byddwyf mwy;" *Salm xxxix. 13.* Nid oedd Dafydd etto wedi ei lwyf iachau o'r pechod hwnw a'i dysgasai i iselder mawr, fel y gellwch weled yn *adn.* 10, 11. Ac nis gall y gwr da feddwl am farw gyda dim boddlonrwydd, nes cael ei galon i agwedd fwy duwiol. Ac am heddwch yr efengyl, sirioldeb cydwybod, a llawenydd tumewnol, oeh! y mae pob halogrwydd i'r rhai hyn fel gwenwyn i'r ysbrydoedd, yr hwn a'u hyf i fywy. Tefwch gareg i ffrwd, ac er ei bod yn loew o'r blaen, hi a gymmysga ac a lwyda yn fuan. "Efe a draetha heddwch i'w bobl, ... ond na throant

at ynfydrwydd;" *Salm lxxxv. 8.* Craffwch yma ar yr amnau a gawn, "Ond na throant;" fel pe dywedasai, i'w perygl y bydd; os troant lwy oddi wrth rodio yn sanctaidd, at ynfydrwydd, minnau a droaf oddi wrth lefaru heddwch i lefaru dychryn.

Drachefn, trwy ddiolfalwch o ran rhodiad sanctaidd, yr wyt yn peryglu dy ffydd, yr hon a gedwir mewn cydwybod dda, fel y tlws mewn tlysgell. Llygad yw ffydd: y mae pob pechod a halogrwydd yn peri niwl o flaen y llygad hwn. Y mae bywyd sanctaidd i ffydd, fel awyr goleu rydd i'r llygad: ar diwrnod tegy gwelwn bellaf. Fel hyn y gwel ffydd yn bellaf i'r addewid, pan fyddo yn edrych trwy ymarweddiad sanctaidd ac iawndrefnedig. Tarian yw ffydd; a pha bryd y cyll y milwr hono o'i law, ond pan fyddo wedi ei archolli yn enbyd? Ac os metha ffydd, beth a ddaw o obaith sydd yn ymhongian wrth ffydd, ac yn sugno ei faeth oll oddi wrthi, fel y pleutyn oddi wrth y fammaeth? Onis gall ffydd ganfod madd-euant yn yr addewid, nis gall gobraith edrych am iachawdwriaeth. Onis gall ffydd ddadleu lawl i fabolaeth, yna ni wna gobraith ddisgwyl am yr etifeddiaeth. Ffydd a ddywed i'r enaid, fod iddo heddwch ä Duw; yna yr enaid a lawenyela "mewn gobraith o ogoniant;" *Rhuf. v. 1, 2.* Ac yn awr, Gristion, beth sy genyt ti etto yn ol er dy gymmhorth? A ynesti di yng nghleddyf y Ysbryd? Oeh! pa fodd y gelli ei drin, pan fyddych, trwy dy rodiad ansanctaidd wedi archolli dy law o ffydd, a dylai fod i'w ddal ef? Y mae i'r cleddyf hwn ddau fin; y mae yn iachau ä'r nail, yn elwyfo ä'r llall; yn achub äg nn, ac yn damnio ä'r llall. O! arf arswydus dy'w, pan y tarawo ä'i ochr sydd yn archolli, yn damnio: ac am yr ochr arall, nid oes i ti a wnelych äg ef, tra mewn un llwybr o ansancteiddrwydd. Nid oes air tirion o fewn y Beibl wedi ei lefaru wrth un yn pechu. Yn awr, greadur truan meddwl, a meddwl drachefn, a oes un pechod yn wrth antari o'r holl ddrwg a'r anhreft yma, a ddigwydd i'th enaid yn anocheladwy, os wyt yn bwriadu ei gael.

3ydd. Bydd ymostyngol, pan fyddi yr fwyaf sanctaidd. Pa ffordd bynag y gweithia balchder (fel y cei di ei fod yr debyg i'r gwynt, weithiau yn y nail ddrws weithiau yn y llall), gwrthwyneba ef. Nid oes dim yn fwy drygus i'th sancteiddrwydd. Y mae yn troi cyfiawnder yn wermod a sancteiddrwydd yn bechod. Nid wyt ti un amser yn llai sanctaidd na phan yn yn chwyddo gan y tyb o hono. Pan welom ddyw wedi chwyddo yn fawr gan y dyfrglwyf, nis gallwn ddywedyd fod ei waed yn ddrwg a dyfrillyd, heb agor un wythier er prawf. Po mwyaf o falchder sydd yn dy chwyddo, lleiaf o waed pur sancteidd rwydd sy genyt yn rhedeg yng ngwythienau

enaid. "Wele, yr hwn a ymchwydda, l y wauwn ei enaid ynddo;" *Hab. ii.* Gwelwch y "Wele," fel arwydd, wedi osod i fyny wrth ddrws y dyn balch; fel gwypo pob ymdeithydd mai dyn o galon ach sy'n byw yno. Gan hyny, fel na nit nid yn unig wanhau grym duwioldeb, d hefyd ddwyn y gwirionedd o hono dan imhieuath yn dy enaid, gochel falcder. Yddi weithiau, fe allai, yn barod i ddiys-ru ereill, a pheir iddynt yn dy feddwl yll draw, fel rhai heb fod mor sanctaidd thydi: y mae hyn o arogl Phariseaidd; chel rhagddo. Natur sancteiddiad yw i iselu ein hunain, a rhoddi y rhagoriaeth brodyr, wrth gydfesur eu doniau a'u asau hwynt â'r eiddom ni: "Mewn gos-geiddrwydd, gan dybied eich gilydd yn ll na chwi eich hunain;" *Phil. ii. 3.* o arall, ysgatfydd; ti gei ryw hedyn o wyf y rhai rhy gyfiawn yn glynu wrthyt, galon yn pwysu ar dy gyfiawnder dy hun yn ymgodi mewn hyder arno, fel ag i isgwyl dy gymmeradwyaeth a'th ward-eth gan Dduw o'i herwydd. O! gwylia ag hyn, fel yr wyt yn caru dy fywyd. Ullaf ddywedyd wrthyt ti, fel Cystenyn th Acetius y Nofatiad: "Gosod ynte dy gol i fyny, a dring i'r nef ar dy ben dy n;" canys nid aeth yno neb erioed y rdd hon. Ac a feddyli di am fod yr unig un y nef a welir yn bwreaswr ei ddedwydd-eh ei hun? Dos yn gyntaf, greadur truan, mesur hyd dy ysgol wrth hyd y gyfraith cetaidd; ac os cei di hi ond yn fflon yn rch na hon, gelli farnu yn sicr y gâd di yr o'r nef. Gan hyny, os edrychaist (yn yr hyn a gawn yn *Iob xxxi. 26, 27*) ar dy fawnder "pan dywynai," a'th sancteidd-ydd "yn cerdded yn ddisglær," ac os bu i galon felly "dy hudo," aci'th enaid "gu-ny dy law," gwybydd fod hyn yn anwir- l mawr, a'th fod yn hyn "wedi gwadu aw uchod." Yr wyt wedi rhoddi y rhan haf o addoliad dwyfol i greadur, plentyn ledig dy sancteiddrwydd cyfranedig di, i Dduw ordeinio iddo gael ei roddi yn ig i Haul Cyfiawnder digrëedig, yr Ar- wydd Iesu: "Yr Arglwydd ein Cyfiaw- r." Ymwâd â'th ddadl, fel y mae genyt awr, am fywyd ac iachawdwriaeth; neu te dyro dy hawl i fyny yn un goll. Yn r, i gadw i lawr yn fwy effeithiol bob godiad balchder, gan y dyb am dy sanct- drwydd, cymmer yn fynych yr ystyr- thau hyn at ddarostwng dy enaid. (laf.) Meddwl yn fynych am anfeidrol ceteiddrwydd Duw. Pan fyddo dynion sefyll yn uchel, ni wna eu penau droi nes edrychont i lawr. Pan edrycho dynion i r ar rai sydd yn waeth na hwy eu hun- , neu yn llai sanctaidd na hwynt, dyna penau yn troi: edrych i fyny a iachâi y yf hwn. Y gwyr sancteiddiaf, wedi

idylnt unwaith ddal eu golwg am dro ar sancteiddrwydd Duw, ac yna edrych ar- nnynt eu hunain, hwy a'u llwyr angharasant eu hunain, ac nis gallent weled dim ond halogrwydd ynddynt eu hunain. Ar ol y weledigaeth a gafodd y prophwyd, ar Dduw yn eistedd ar ei orsedd, a'i swyddogion nefol o'i amgylch, y seraphiaid yn cuddio eu hwynebaw, ac yn llefain, "Sanct, Sanct, Sanct, yw Arglwydd y lluoedd;" mor eb- rwydd y tarawd y gŵr grasol hwn â theim- lad o'i waeledd ei hun! Yr oedd eu cri hwy yn uchel iawn am Dduw, yn sanctaidd; ac felly ei gri yntau yn ei erbyn ei hun, fel "un halogedig;" *Esa. vi. 4, 5.* Felly *Iob*; "Yn awr fy llygad a'th welodd; am hyny y mae yn ffaidd genyf fi fy hun;" *Iob xlii. 5, 6.* Erioedd ni ffeiddiodd y gŵr da ei hun o achos doluriau crawnllud ei gorph corn- wydlyd, pan oedd yn ymgrafu ar y domen, yn fwy nag y mae efe yn awr o herwydd ammhuredd ei enaid. Yr ydym ni yn ein hedrych ein hunain mewn ystafell dywyll, ac yn tybied ein bod yn lân a hardd: ond pe amgylchymem â'r pelydr o fawredd a sancteiddrwydd gogoneddus Duw, yna ni wnai pelydr yr haul ddangos dim mwy o frychau yn yr awyr, nag a barai sancteidd- rwydd Duw i ni weled o bechodau ynom ni. Ond cast balchder yw peidio dyfod lle trechir ei ddisgleirdeb: gwel ganddo fyned lle y caiff ei fawrygu, nag i'r mau lle y mae yn sicr o gael ei iselu.

(2il.) Myfyria yn fynych ar sancteidd- rwydd dyn yn ei ddiniweidrwydd. Y mae yn wir, os wyt ti yn awr yn gredadyn, fod genyt egwyddor sanctaidd yn blanedig o'th fewn: ond och! beth yw hono etto wrth a fu gan dy natur unwaith? Y rhai oedd yn gweled yr ail deml, ac heb gosio y gyntaf a adeiladodd Solomon, diammheu iddynt ei chyfrif yn adeilad rhagorwyeh. Ond ereill, y rhai a welsent waith ardderch- og, ac adeiladau gwych y llall, nis gallen hwy ond llawenbau â'r dagrau yn eu llygaid. "Llawer o'r offeiriaid a'r Lefiaid, a'r penau cenedl, y rhai oedd hen, ac a welsent y tŷ cyntaf, wrth sylfaenu y tŷ hwn yn eu golwg, a wylasant â llef uchel;" *Ezra iii. 12.* O! yr oedd hyn yn adfywio meddylliau athrist am ddirod yr adeilad wych hono: ac felly y gall y dechreuad bychan hwn, ar sail ne- wydd yr ail gyfammod, beri i tithau, gyda gofid, alw i gof yr adfail y syrthiodd dyn iddo, o'i ogoniant oll, trwy ddichell Satan. Y mae yn wir, ti a gei yn y nef ragori ar ogoniant paradwys: ond ti a gei anl gam blin cyn dringo i ben y bryn hwnw. Gŵr y bu ganddo rai miloedd yn y flwyddyn, ac na fedd yn awr ond ychydig bunnoedd yn ddogon blynyddol, a'r rhan arall i gyd yn cael ei dal oddi wrtho am ddeg ar bugain neu ddeugain mlynedd; y mae yn drwm, etto yn llon hefyd, iddo feddwl y daw y cwbl yn

ol o'r diwedd, ac fe allai gyda chwaneigiad mawr hefyd: ond yn bresennol y mae mewn aml galedi, ac yn rhaid iddo fyned yn mlaen trwy ymdrech glew, at fyw ryw beth yn debyg i'w âch a'i deulu ardderchog. Fel hyn y mae yn llonder i'r sant feddwl am y nef, pan y daw ei gyfoeth i gyd i'w law: ond yn wir y mae ei ras ammherffaith, a'r aml gostau y mae ynddynt, trwy gystuddiau oddi wrth Dduw, tentasiynau gan Satan, terfysgoedd a brwydrau gan chwantau sydd etto o'i fewn, yn ei roddi mewn llawer gwasgfa drom; nes yw yn rhaid i'r enaid dori yn fyr yn ei gysur; i.e., a gwaith mawr yw iddo gadw ei siop heb ei chau, gyda'r ystôr fechan sydd ganddo. Oddi wrth hyn y mae fod cyrhaeddiad y Cristion i'r nef yn cael ei ddangos fel gwaith mor anhawdd. "Os braidd y mae'r cyfiawn yn gadwedig, pa le yr ymddengys yr annuwiol a'r pechadur?" 1 *Pedr* iv. 18. Ni feddai y morwynion call ddim olew yng ngweddill: dal allan a wna y Cristion; a dyna'r cwbl. Meddwl am hyn; a syrthied dy bluf-gobyn.

(3ydd.) Myfyria lawer ar dy gamymddygiadau personol dy hun, yn unedig yn dy gyflwr diadgenfledig. Hyn a gadwodd Paul mor isel. Mor fynych y mae ei ddrwg ymddygiad cyn ei aileni yn cyfodi, nid yn ei gydwylbod i dywyllu ei gysur, etto, yn ei feddwl i gymmedroli y meddyliau am ei ddoniau a'i ras! Yn 1 *Cor.* xv. 9, 10, efe a ddywed, "Mi a lafuriais yn helaethach na hwynt oll." ond O! fel y mae yn attal ei falchder, oedd, o bossibl, am ganlyn yn rhy agos i sodlau yr ymfrost hwn; ac am hyny, cyn iddo ddywedyd gair am ei sancteiddrwydd presennol, y mae yn bolltio y drws ar falchder, ac yn taraw yn gyntaf at yr hanes am y rhan ddu hono o'i fywyd. O! fel y mae yn pwyo ei falchder ac yn difrio ei hun i'r dim. Nis gallasai un gelyn dynu ei lun â lliw duach: y mae yn galw ei hun "yn un anhymmig;" *adn.* 8. "Myfi yw y lleiaf o'r holl apostolion, yr hwn nid wyf addas i'm galw yn apostol, am i mi erlid eglwys Dduw;" *adn.* 9. Ac yn awr, wedi iddo ymsudo ac ymddiwyno digon ym mhwill ei bechodau gynt, mor ostyngedig y llefara y gwr duwiol am ei rasmus rhagorol: "Trwy ras Duw yr ydwyf yr hyn ydwyf: ac mi a lafuriais yn helaethach na hwynt oll; ac nid nyfi chwaith, ond gras Duw;" *adn.* 10. O! dyma y ffordd i ladd y chwyn yma o falchder, i ddryllio ein calonau a throi ein tu gwrthwyneb allan—ymiselu ac ymostwng am ein haniwreiddau gynt yw fy meddwl. Nid hawdd y tyfa balchder mewn tir yr ä yr aradr yn fynych trwyddo. Y mae balchder yn bryfyn sydd yn cuoi ac yn ysu calon gras. Yn awr, chwi a wyddoch fod llysiâu chwerwon sydd at dori y god o bryfed sydd yn gasgledig yn y cylla. Mae pob peth melus yn eu maethu;

pethau chwerw yn unig a'u gwasgar ac a'u lladd hwynt. O! Gristion, cymmer di yn fynych beth o'r chwerwlys hwn; a thrwy fendith Duw, ti a gei esmwythâd o'r hyn sydd yn dy flino, fel yr wyt yn Gristion. Ac na feddwl mai mewn plant—Cristionogion gweiniaid ac ieuainge—yn unig y mae; pryf hwn yn magu. Yr wyf yn addef e fod yn glwyf mwyaf cyffredin yr oedra hwnw: ond nid yw Cristionogion oedran a chryfach allan o berygl. Yr oedd g Dafydd, yn hen wr, y pryf i hwn o falchder yn ymghribo o'i safn, pan barodd i Ioab rif y bobl: ac onid wyt tithau yn dal dy hu yn rhy fynych yn rhifo y dyledsdyddau a gweithredoedd da a wnaethost, a'r pethau ddiodefaiست dros dy Dduw, gyda rhy ddirgel ymfoli yn dy feddyliau sydd yn dogleisio ym yr achos?

EPHESIAID VI. 15.

"A gwisgo am eich traed esgidiau parotoad efengyl y tangnefedd."

Y MAE y wers hon yn cymmhell arnom trydydd darn o lawn arfoaeth y Cristio sef esgid ysbrydol wedi ei haddasu i droed, ac i'w gwisgo ganddo tra y byddo y maes yn erbyn pechod a Satan: "A gwisgo am eich traed," &c. Ni a fwirow geiriau i amryw gwestiynau neu ymfynio ac oddi wrth yr atebion iddynt y tardd amryw byngciau sydd i sefyll arnynt:—

1. Beth a feddylir wrth yr "efengyl?"

2. Beth a feddylir wrth "dangnefedd," pha ham ei priodolir i'r efengyl?

3. Beth a arwyddoca y traed a benno yma, a pha ras a olygir wrth "barotoad efengyl y tangnefedd," a gyffelybir yma "esgid" sydd yn gymmhwyys i'r "traed hyn?"

Gof. 1. Pa beth a feddylir wrth efengyl?

At. Y mae efengyl, yn ol ystyr y gwreiddiol, yn arwyddo newydd da n genadwri hyfrydlawn. Felly yn *Ier.* 15: "Melldigedig fyddo y gwr a fynego i'w dad, gan ddywedyd, Ganwyd i ti blei gwryw; gan ei lawenyachu yn fawr." Ond gyffredin yn y Beibl, gair neillduedig i: wyddo athrawiaeth Crist ac i'chawdwriaet pechaduriaid trwyddo yw: "Yr wyf fi mynegi i chwi newyddion da o laweny mawr, yr hwn a fydd i'r holl bob medd yr angel wrth y bugeiliaid: *Luc.* 10; ac yn *adn.* 11, y mae yn chwaneig "Cans ganwyd i chwi heddyw Ge wad yn ninas Dafydd, yr hwn i Crist yr Arglywydd." Fel hyn ei cymmer yn y lle hwn, ac yn gyffredin yn y Testame Newydd; ac y mae yn rhoddi y sylw hwn

PENNOD I.

e y dadgenir y newydd hyfrydlaen a ddiog yr efengyl mewn pum peth neillduol, sydd yn ofynol at gyswmi yr hyfrydwech o ryw genadwri; gyda gair i gyffroi ein hymysgaroedd i dosturio wrth y rhai na chlywsant y newydd hwn erioed.

MAE y dadguddiad hwn o Grist, ac o ras aw trwyddo ef, yn newydd goreu tu hwnt i mhmhariaeth a ddichon pechaduriaid trua ei glywed. Y mae yn fath genadwri, fel nas dichon un newydd da ddyfod o'i en, nac un newydd drwg ar ei hol. Nis all un newydd da ddyfod o'i blaen; na all, di wrth Dduw ei hun i'r creadur. Ni dichon efe roddi allan un drugaredd i chaduriaid truaidd hyd oni byddo wedi ngos trugaredd i'w heneidiau yng Nghrist. Duw a drugarhao wrthym ac a'n benhio, a thywyned ei wynebarnom;" *Salm vii. 1.*

I. Y mae Duw yn maddeu: yna y mae rhoddi. Hyd oni thrugarhao efe, i ldeu ein pechodau trwy Grist, nis gall efe ddithio nac edrych yn dirion arnom ni, chaduriaid. Nid yw yr holl bethau da a yn hawn, ond bendithion tebyg i fŵn heb fathu, nes y byddo i ras yr efengyl, trugaredd faddeuol, roddi argraph arno a'i mend yn arian i gerdded. Ni ddichon trwy gymmaint a dwyn ewyllys da atom, sy gwnelo Crist heddweh drosom: "Ar lldaear tangnefedd, i ddynion ewyllys da;" *2 Cor. ii. 14.* A pha lawenydd a all pechadur gymmydd, i.e., pe clywai am deyrnas wedi gywydd iddo, oni all efe ei chael gydag ewyllys da Duw?

Drachefn, nis gall un newydd drwg dyfod ar ol newydd hyfryd yr efengyl, lle coffeidiar yn grediniol. Y mae trugarhao Duw yng Nghrist, yn newid, i.e., anianedd pob drygau i'r credadyn. Y mae yr holl blaenau a'r barnau a allant ddigwydd i'r credadyn yn y byd, pan eu bedyddier yn ddyfod efengyl gras, yn derbyn enw newydd, ddyfod ar neges newydd, ac yn dwyn blas newydd i archwaeth y credadyn; megys y mae yr un dwfr, wrth redeg trwy ryw fŵn, cael adfas a rhinwedd feddyginiaethol i oedd ganddo o'r blaen: "Ni ddywed y newydd, Claf ydwyf; maddeuir anwirlyd y bobl a drigant ynddi;" *Esai. xxxii.*

Crawfch, nid yw yn dywedyd, Ni dd yw glaf; nid yw gras yr efengyl yn einio rhag-cystuddiau; ond ni ddywed y, Claf ydwyf. Bydd y cyfryw wedi eu hlloni felly â lloniad trugaredd faddeuol aw, fel nad achwynant eu bod yn glaf. Y mae hyn, neu ryw groes arall, yn llen rhy neu i dywyllwedd lawenydd y newydd da all. Mor hyfryd o genadwri yw hyn a drwg yr efengyl, fel nas mynai Duw i Adda i yn hir hebddi; ond agorodd agen i drwg peth o belydr y goleu hwn (sydd yn trwyd i'w ganfod) i mewn i'w enaid braw-

ychedig gan yr arswyd o bresennoldeb Duw. Heb hyn, megys y cafodd ei droi o Baradwys, felly efe a guasai ei droi i uffern yn ebrwydd: canys y cyfryw a fuasai y byd i'w gydwybod euog. Dyma y newydd a arferai Duw ei fynegi i'w bobl, ar y bwriad o'u cysuro a'u lloni pan fyddai pethau ar y gwaethaf gyda hwynt, a'u materion yn y trai isaf: *Esai. vii. 14; Micah v. 5.* Dyma y gyfrinach fawr y mae Duw yn ei sisial yng nghlust y rhai hyn yn unig a goffedia efe yn ei gariad enwedigol a neillduol: *Luc xx. 1; 1 Cor. ii. 12.* Ac felly, fe'i gwnaed yn arwydd alaethus o enaid wedi ei nodi i uffern, fod "yr efengyl yn guddiedig oddi wrtho;" *2 Cor. iv. 3.* I grynhoi hyn mewn yehydig eiriau, y mae yr holl bethau perthynol i genadwri yn cyfarfod yn newydd da yr efengyl. Y mae pump o ddefnyddiau sy'n ddymunol mewn cenadwri, i.e., y mae yn rhaid iddynt oll gydfyned i wneud y lawenydd o honi yn dra chyflawn.

Iaf. Rhaid iddi fod yn dda. Ni lawenhâ neb o glywed newydd drwg. Ymestyniad y galon yw llawenydd, yn yr hwn y mae hi yn ymestyn i groesawu yr hyn y mae yn ei ddymuno: a rhaid yw i hwn fod yn rhyw ddaioni. Y mae newydd drwg yn sicr o gael y galon yn gauad i'w erbyn, ac o ddyfod cyn bod iddo groesaw.

2il. Rhaid iddo fod yn rhyw ddaioni mawr; os amgen, bychan fydd ei effaith. Y serchiadau a ymgynhyrfant yn ol y graddau o dda neu ddrwg a fyddo yn y gwrth-ddrych o'u blaen. Gallwn glywed peth mor fychan nad yw ond mater bychan pa fodd yr â. Ond os bydd yn dda ac yn ddaioni mawr hefyd, o ganlyniad pwysig, pair hyn lawenydd cyfatebol. Po mwyaf y gloch, mwyaf o nerth sydd yn ofynol i'w chodi. Rhaid ei fod yn ddaioni mawr a gyfyd lawenydd mawr.

3ydd. Rhaid i'r daioni mawr hwn fod yn perthyn yn bennodol i'r rhai a'i clywant—fy meddwl yw, bod ganddynt berchenogaeth ynddo. O herwydd, er y gallwn lawenhau wrth glywed am ddaioni mawr wedi digwydd i arall; etto, y mae'r effaith yn fywaf pan fydd yn ymrywllt i'n mynwe ein hunain. Nid yw y claf yn teimlo y llawenydd am iachâd un arall gyda'r un fantais ag y teimlai ei iachâd ei hun.

4ydd. Fe chwanebai lawer at orfoledd y newydd, os deuai heb ei ddisgwyl, na chlywed am dano o'r blaen. Pan fo y newydd yn dyfod atom yn ddisymmwth; po bellaf y bo ein hanwybodaeth, neu ein hanobaith wedi ein pellhau o feddwl am y fathfwyniant mawr, mwyaf fydd y llawenydd a ddwg pan glywom y newydd am dano. Byddai llawenydd mab tlawd i geidwad moch, na freuddwydiodd erioed am goron, yn fwy wrth y newydd am goron wedi dyfod i'w ran, na llawenydd un oedd â'i enedigaeth

yn ei alw i ddisgwyl am dani, ie, ac addewid iddo o honi, fel ei etifeddiaeth. Byddai calon y cyfryw megys yn gydwastad â'r lle; ac am hyny ni allai efe brofi y fath draserch o'i blegid, ag yn arall oedd â'i sefyllfa mor bell i slaw y fath ddyrchafiad.

Yn olaf, i wneud i fyny lawenydd y rhai hyn oll. Y mae yn llwyr angenrheidiol i'r newydd fod yn wir a sicr; os angen, y llawenydd a gollir yn fuan. Pa lawenydd fyddai i'w glywed am deyrnas wedi digwydd iddo, a chlywed dranoeth, neu y mis nesaf, fod y cwbl yn cael ei groesi, a'i brofi yn ffals? Yn awr, yn newyddion da yr efengyl, y mae y rhai hyn oll yn cydgyfarfod yn dra dedwydd, i godi llawenydd yr enaid crediniol i'r pwynt uchaf y bo yn bossibl i dannau ei serchiadau ddioddef.

(1af.) Y newydd a ddwg yr efengyl atom ni, bechaduriaid truaïn, y mae 'n dda. Y mae hi yn llefaru addewidion; ac y mae y rhai'n yn arwyddion o ryw ddaïoni a fwr-iadwyd gan Dduw i bechaduriaid truaïn. Y ddeddf sydd yn dwyn newydd drwg i'n mysg, bygythion yw ei maniaith hi; ac nis gall hi lefaru yn iaith arall wrth bechaduriaid, ond dadganiadau o ddrwg i ddyfod arnynt. Ond yr efengyl, y mae hi yn gwenu ar bechaduriaid tloïon, ac yn llyfnhau y crychni sydd ar aelïau y ddeddf, trwy gyhoeddi addewidion.

(2il.) Y mae y newydd a ddwg yr efengyl mor fawr ag ydyw yn dda. Flyn a gyhoeddodd yr angel: "Yr wyf fi yn mynegi i chwi newyddion da o lawenydd mawr;" *Luc. ii. 10.* Llawenydd mawr sy'n rhaid ei fod, am ei fod yn llawenydd oll i gyd. Y mae yr Arglwydd Iesu Grist yn dadgwyn y fath newydd yn ei efengyl, fel na adawodd efe le i neb chwaneu dim ato. Os oes rhyw ddaïoni yn ddiwyg yn newyddion yr efengyl, y mae i ni ei geisio yn rhyw le heb law yn Nuw: canys y mae efe yng nghyfammod yr efengyl, yn ei roddi ei hun trwy Grist, i'r enaid crediniol. Sier yw, y deil dadl yr apostol: "Y mae pob peth yn eiddoch chwi; a chwithau yn eiddo Crist, a Christ yn eiddo Duw;" *1 Cor. iii. 22, 23.* Y mae yr efengyl yn gosod ein pibellau wrth ffynnon daïoni ei hun; ac yn sicr y mae yn rhaid i hwnw gael y cwbl, sy mewn undeb â'r hwn a fedd y cwbl, ac ydyw y cwbl. A ddichon un newydd da ddyfod at y saint a ogoneddwyd, heb law a weinydda y nef iddynt? Y mae genym ni yn yr efengyl y newydd am y gogoniant hwnw. Y mae Iesu Grist "wedi dwyn bywyd ac anllygredigaeth i oleuni trwy yr efengyl;" *2 Tim. i. 10.* Yr haul yn y ffurfafen ni ddadguddia ond y byd isod yn unig: Y mae yn cuddio y nef, tra yn dadguddio daear. Ond yr efengyl, hi a ddadguddia y ddau fyd ar unwaith. "Y mae i dduwioldeb addewid o'r bywyd sydd yr

awr hon, ac o'r hwn a fydd;" *1 Tim. iv. 8.*

(3ydd.) Nid newydd nad yw yn perthyn ond ychydig i ni, a fynega yr efengyl: nid yr hyn a wnaeth Duw i angylion ond i ni. "Ganwyd i chwi heddyw Geidwad, yr hwn yw Crist yr Arglwydd?" medd yr angel, *Luc. ii. 11.* Os parodd cariad i angylion lawenhau am ein braint ni yn sier ynte, y mae yr ennill a fed ein naturiaeth ni o hon yn rhoddi codiad uwch i'n llawenydd ni, wrth glywed y newydd. Byddai yn rhyfedd i'r genad ganu, wrth ddwyn ond y newydd am ryw deyrnas fawr wedi ei gadael i ryw ŵr, a'i tywysog i'r hwn y mae yn dygwyl, heb felly yn llawen. Ac fel y mae newydd da yr efengyl yn perthyn i'r natur ddynol—nid i angylion—felly, yn neillduol i ti, enaid tlawd, pwy bynag wyt, sy'n cofseidïo Crist ym mrechiau dy fydd. Y mae tywysog yn fudd cyffredin i'w deyrnas oll; y mae i bob deiliad, er gwaled fyddo, ran ynddo; ac felly y mae Crist i'r crediniwyr oll. Y mae yn addewidion wedi eu gosod felly, fel llun wedi ei dynu yn gywain yn edrych a bawb, a fyddo yn edrych arnynt hwy llygad fydd. Y mae llawenydd yr efengyl yn llawenydd i ti, os oes genyt ond calon i'w derbyn.

(4ydd.) Yr oedd newydd da yr efengyl yn un na chlybuwyd, ac nad edrychwyd ar dano gan feibion dynion. Y mae hi y dwyn y fath newydd, na allasai calon dy byth ei ddychymygu, nes i Dduw ddadguddio trysorfa ei ewyllys da ei hun, a dadguddio cyngor ei ewyllys, yn yr hwn yr oedd tlaw dirgelaidd hwn o gariad at ddy'n syrthiedig, wedi ei guddio ym mhell ddigon odd wrth olwg yr angel eraillaf yn y nef, ac y llawer mwy o olwg dyn ei hunan; yr hwn nis gallai ddarllen dim yn ei gydwylbod eu oddi mewn, na chael gair o'r eysfammo oddi allan (a dorasid ganddo) heb law ddeddfryd sier a'i gondemniad ei hun. Felly yr oedd y dadganiad cyntaf o'r efengyl gan Dduw ei hun i Adda, yn blaenu ar bob meddwl am y fath beth mewn bwriad iddo. O! pwy all ddirnad (ond un a wir deim odd doychr ynfeydd uffern yn nesau at enaid gwan obeithiol) pa mor dra hyfryd lawn yw y newydd am drugaredd trwy yr efengyl i enaid truan, yn preswyllo y'n nghanol meddyliau duon anobaith, ac i gyffiniau y wlad o dywyllwch eithaf? Y mae hanes yn mynegi i ni am bendeig o cenedl, yn nyddiau Harri yr wythfed, i hwn yr anfonwyd pardwn ychydig orïa cyn y pryd yr oedd iddo gollï ei ben; y fod llyn—oedd yn llwyr annysgwylïed ganddo—wedi ei dragynllyfrw felly, nes bu farw o lawenydd. Ac os yw llestr e natur ni wedi ei gylchu mor wan nes bu gwin y fath i slawenydd yn ei ddrylïo, y fodd ynte y byddai yn bossibl iddo gynnw

awenydd cyflawn yr efengyl, sy'n rhagori ymmaind ar hwn, ag yw trugaredd Duw r drugaredd dyn marwol, ac ymwared o urwolaeth dragwyddol yn uffern, ar ymared o angeu amserol, sydd yn myned eibio cyn y gellir ond prin deimlo ei oen?

(5ed.) Y mae newydd da yr efengyl yn er o fod yn wir. Nid swm gwag ydyw, a fôr i fyny heddyw, ac a groesir, fe allai, ac ac nid newydd yn safn pawb, ond eb neb yn gallu dywedyd o ba le y daeth, a wyl yw ei awdwr. Ni a'i cawsom o law la: y mae Duw ei hun yn ei wirio o'r nef; Hwn yw fy anwyl Fab; gwrandewch ef;" *Luc* ix. 35; ac amhossibl yw iddo fod yn elwyddog. Pa beth oedd yr holl wyrthiau ywnaeth Crist, ond cadarnhâd o wirionedd yr efengyl? Bu raid i'r trueiniaid a wadant wirionedd ei athrawiaeth yn fynych i'w ddef dwyfoldeb ei wyrthiau. Yr oedd yn yn ddarn teg o ynfyrwydd, ac yn angos afresymoldeb eu hanghrediniaeth i'r yd oll. Yr oedd gwyrthiau i'r efengyl, egsy seliau i'r ysgrifen. Nis gallent wadu oedd Duw yn y gwyrthiau; ac etto nis allent ei ganfod yn yr athrawiaeth: fel y gallasai Duw roddi ei sel wrth gelwydd. Ma, Gristionogion, y mae yr hyn sydd yn wneud i fyny lawenydd y newydd da yn a ddwg yr efengyl, fel y gallom roddi wyls ein bywyd ar y gwirionedd o honi: wrth ni soma hi neb a esyd bwys ei hyder i: "Gwir yw y gair ac yn haeddu pob rbyniad, ddyfod Crist Iesu i'r byd i gadw chaduriaid;" 1 *Tim.* i. 15. Y bont hon osododd yr efengyl dros y llynglyn o ligofaint Duw (i bechaduriaid trauin ddi-ge o afael eu pechodau i ffafr Duw yma, i'w deyrnas ar ol hyn); ni chynnelir mo ni â dim bwâu ereill, ond doethineb, llw, trugaredd, a ffyddlondeb Duw. Felly d rhaid i'r enaid crediniol ofni, nes y welo y rhai hyn yn ymollwng neu yn tori. i a elwir "yr efengyl dragwyddol;" *Dad.* v. 16. Pan elo y nef a'r ddaer yn gan-ryll, ni chleddir yr iod na'r llythyren leiaf yn addewid o'r efengyl yn eu hadfai llynynt: "Gair yr Arglwydd sydd yn aros a dragwydd; a hwn yw y gair a breg- lwydd (trwy yr efengyl) i chwi;" 1 *Pedr* 25.

Defn. 1. Tosturiwch wrth y rhai na lywsant air erioed am y newydd da hwn. Mae y fath rai yn y byd—cenhedloedd osog—ar y rhai ni lewyrchodd y dydd tod, ond nos ddu o anwybodaeth a barbar- eth yn parhau i ymledu drostynt, nes yw heneidiau truenus dan alanastra parhaol n y dinystrydd gwaedlyd uffernol. A oncwest hawdd a wna yr ysbryd aflan vnw arnynt, Duw a wŷr. Mae yn gosod gyllell waedlyd wrth eu gyddfau, heb gael m gwrthwynebiad, am ei fod yn eu cael

x

hwynt oll yn nhrymgwsg anwybodaeth, ac yn llwyr amddifad o'r unig oleuni a ddichon ddaugos y ffordd i ddiange o law y dinystrydd hwn. Pa galon a broffodd erioed felus- der gras yr efengyl, nad yw yn crynu wrth eu cyflwr alaethus; i.e. nad yw mewn syndod dwys wrth oruchwyliaethau gwahanol Duw atynt hwy a ninnau? "Arglwydd, pa beth yw yr achos dy fod am eglurliau dy hun i ni ac nid i'r byd?" Duw a faddeuo i ni annhrugarogrwydd ein calonau, nas gallwn wylw mwy drostynt. Yn ddiau, nid ydym yn byw mor bell oddi wrth y bobl dduon a'r Indiaid fel nas gallwn ymddiwyn gan euogrywydd gwaed eu heneidiau, sydd yn cael ei dywallt yn barhaus gan ddinystrydd dynolryw; a hyn, drwy ein bod heb dostu- urio wrthynt, gweddio drostynt, a thaer ddymuno eu trôedigaeth. O! mor anfy- nych y mae eu cyflwr gresynus yn destyn ein myfyrdd galarus, a'u trôedigaeth yn fater i'n gweddïau a'n dymuniadau! Och! fe fu yn y byd fwy o ymgynghori pa fodd i'w digyfoethogi o'u haur, nag i'w cyfoeth- ogi â thrysor yr efengyl; pa fodd i ennill eu tir, na pha fodd i achub eu heneidiau. Ond y mae yr amser¹ yn dyfod pan y gwelir fod ennill eneidiau yn anrhydedd mwy na gorchfygu gwledydd. Wel, Grist- ion, er nad elli gyfranu iddynt hwy yr hyn a osododd Duw ar dy ddysgl di, etto, tra yr wyt yn eistedd wrth wledd yr efengyl, meddwl am y trueiniaid hyny, yn dostur- iol hefyd, y rhai sydd yn newynu i farw- olaeth o eisieu y bara hwnw sydd yn dy borthi di i fywyd tragwyddol. Mae tyb, yr hon a lyncodd rhai yn ddiweddar, y dichon y paganiaid ddarllen Crist allan o'r haul, y lloer, a'r ser: gall y rhai hyn ymddangos yn dynerach atynt nag y bu ereill; ond y nymuniad yw, na wnelo hyn mo honynt yn greulonaach wrthynt yn y canlyniad; fy meddwl yw, drwy beidio gweddio drostynt mor daer am i oleuni yr efengyl gyfodi yn eu mysg, fel y mae yn rhaid i'r rhai hyny wneud sydd yn credu eu bod dan angen- rheidrwydd alaethus o gyfrgollu hebdo. Pan fernir fod gan filwyr a fyddo yn cadw castell ystêr dda o angenrheidiau at ei am- ddiffyn, y mae hyn yn achlysur i borthiant ac ymwared fod yn hwyrach yn dyfod iddo. Ac mi ddymunwn na b'ai gan Satan fwriad o'r fath yn erbyn yr eneidiau trauin hyny yn yr egwyddor hon. Pe buasai y fath wers i'w chael oddi wrth y ser, cawsom glywed cyn hyn am rywrai a'i dysgasai. Yn wir, yr wyf yn cael mai y seren a ar- weiniodd y doethion at Grist; ond yr oedd

¹Bendigedig fyddo Daw am fod y dydd wedi gwawrio yn ein hamser ni, o leiaf, sydd yn dangos i liaos o Gristionogion eu dyledsydd a'u brant o fod yn ymdrechgar i daenu efengyl Crist ar led. Ni welodd Mr. Gurnal nemawr o hyn yn ei ddydd- iau ef.

ganddynt hwy bregethwr nefol i agor y testyn iddynt; pe amgen, ni buasent byth yn ei ddeall.

PENNOD II.

Galarnad am y derbynriad annhirion sydd i newydd yr efengyl yn y byd, gyda dau neu dri o seiliau ahrhyst i ofn am danom ni yn y deyrnas hon, a gymmerir o'r derbynriad presennol sydd i'r efengyl yn ein mys; gydag annogaeth ddyblyg i'r saint i lawenhau yn y genadwri hyfryd hon, ac ynddi hi yn benaf.

DOSB I.

Defn. 2. Gellir codi yma alarnad drom: fod i newydd mor dda gael croesaw mor ddrwg ag sydd i'r efengyl yn gyffredinol yn y byd. Pan fynegwyd y newydd gyn-taf yn Ierusalem fod iachawdwr wedi ei eni, fe dybiasai un, yn enwedig os ystyriwn fod y cyfrif Ysgrythyrol yn awr ar ben, am enedigaeth y Messiah, a hwythau mewn llawn ddisgwyliad am ei ddyfodiad, y buasai i'w calonau oll lamu o lawenydd wrth y newydd, ac wrth weled eu gobaieth ar esgoriad a chyflawniad mor ddedwydd. Ond wele y llwyr wrthwyneb! Y mae dyfodiad Crist yn dyfod yn fater o ofid ac anflus ganddynt; y maent yn cymmyrd alarm ar ei enedigaeth, fel pe buasai yn elyn neu ddi-fethwr, ac nid iachawdwr wedi tirio yn eu goror: ac fel y cyfryw yr aeth Herod allan i'w erbyn, ac y parodd iddo ffoi o'r wlad. Ond o bossibl, er iddynt y pryd hyn dram-gwyddo wrth waelder ei enedigaeth a'i ach, etto, pan lewyreho pelydr ei ddwyfoldeb trwy ei wyrthiau, yna yr addolant yn grefyddol yr hwn y maent yn ei ddiystyru: pan ddel efe allan i'w weinidogaeth gyhoeddus, gan agoryd ei neges, a dangos ei awdurdodiad; i.e., pan fynego efe â'i enau bendigedig ei hun y genadwri hyfryd sy ganddo oddi wrth ei Dad at blant dynion; yna yn sicr hwy a fawr garant ei berson, ac a dderbyniant yn ddiolchgar, i.e., a yfant yn awyddus y newydd hyfrydlawn am iachawdriaeth a bregetha efe iddynt. Na wnânt; y maent yn parhau yn eu hanghrediaeth erchyll, a'u cyndyn wrthodiad o'hono; er fod yr Ysgrythyr (a fawr barchent, dybygid) yn tystiolaethu mor gyflawn dros Grist, nes eu cyhuddo yn eu cydwybodau eu hunain, etto, ni fynent hwy ddim o hono! Y mae Crist yn dywedyd cymmaint a hyn wrthynt: "Chwiliwch yr Ysgrythryrau, canys ynddynt hwy yr ydych chiwi yn meddwl cael bywyd tragwyddol; a hwynt hwy yw y rhai sydd yn tystiolaethu am danaf fi. Ond ni fynwch ddyfod ataf fi, fel y caffoch fywyd;" *Ioan* v. 39, 40. Bywyd a chwennyhent; etto, hwy a'i col-ent yn hytrach na dyfod ato ef i'w gael.

Ac a yw y byd yn awr wedi gwellaau?

A yw Crist yn ei efengyl yn cael triniaeth dirionach ar law y rhan fwyaf? Yr un bereidd-dôn sy gan Grist o hyd: "Deu-wch ataf fi, fel y caffoch fywyd." Y niwed mwyaf a wna Crist i'r eneidiau truaïn sy'n dyfod ato, yw eu dod mewn cyflwr o fywyd ac iachawdriaeth: ac etto, pa le mae y dyn sy'n foddolawn i'r cynnygiad! O! newyddion ereilly mae dynion yn gyffredin yn clustfeinic ar eu hol. Hyn sydd yn gwneud y cyfnewid-dy a'r farchnadfa mor llawn, a'r tŷ addol-iad mor deneu a gwag. Y mae y rhar fwyaf yn disgwyl clywed eu newyddion goreu o'r byd: hwy a edrychant ar newydd yr efengyl fel un pellenig, sydd heb fod yn perthyn iddynt hwy, yn bresennol o leiaf bydd yn ddigon buan iddynt edrych at hyn pan fyddont yn myned i fyd arall. Och nid yw yr efengyl wedi ei chyfaddasu a eu blys anianol hwynt! Nid yw yn myneg iddynt am na meusydd na gwinnlanoedd sy ganddi i'w rhoddi; nid yw yn eu gwa hodd at wychder anrhydedd, na phles erau bydol. Pe buasai Crist yn ei efengyl ond yn boddio cais chwantaud dynion a ychydig o addeiwion am y pethau hyn, e iddo addaw llai at fyd arall, buasai i'w newydd fyned i lawr yn well gyda'r bolerwy hyn, a ddewisent glywed un yn prophwyd am win a diod gadarn, o flaen pregethu ar y nef ei hun. Yn ddiau, nid oes ond ychydig iawn (a'r rhai hynny dan ddigon wawd am eu poen) a garant genadwri y efengyl mor fawr, ag i'w derbyn hi y llawen i'w calonau. Os bydd ond i un o'r derbynriad i Grist, a hynny yw wybyddus, p fath alarm a rydd hyn i'w holl gymmyd ogion anianol? Ac os ni amgylchynant e dŷ (fel y Sodomiaid dŷ Lot), etto hwy roddant ryw nod o ddirmyg arno; i.e., gyfrifant fod ganddynt yn awr ddigon achos i'w ddiystyru a'i gasau ef, pa mor fawr bynag y carasant ef o'r blaen.

O! beth a wna Duw â'r oes ddirywiedi hon yr ydym yn byw ynddi? O Brydain Brydain! yr wyf yn ofni fod rhyw far-drom neu gilydd uwch dy ben. Os gwrthodi y fath newydd da ag a ddwg yr efengyl nis gall newyddion drwg fod ymbell. Ni gallaf feddwl am lai nag efengyl yn ymad ael. Ni wnaeth Duw erioed y fath sefydliad o'i efengyl ym mys unrhyw bobl, na gallai efe ei symmud oddi wrthynt. Ni yw efe yn dyfod ond ar fodd; ac a erys ei lle nad oes iddo groesaw? Pwy a wna a f gando le arall i fyned? Y mae yn llaw bryd i'r marsiantwr rwymo ei eiddo i fyny a bod ar gerdded, pan na bo nemawr ne yn prynu; nag e, pan, yn lle prynu, na ac awant iddo lonydd yn ei siop, ond taflar geryg ato, a thom ar ei ddaoedd mwyr gwerthfawr. Ai ni welwn enwau cenhadau ffyddlawn Crist yn gwaedu heddyw dan gwaradwyddiadau sydd yn ehedeg mor an

o ddeutu eu clustiau? Ai nid yw gwirion-
eddau gwerthfawrocaf yr efengyl agos wedi
eu gorchuddio â thom a llaid cyfeiliornadau
a chabledau, a grafodd dynion o feddwl
lygredig, wedi ei gosod ar waith gan Satan
i hun, allan o holl geuffosydd yr hen her-
eticiaid, i'w tafu ar wyneb Crist a'i efengyl.
A pha le y mae llaw mor dyner a sycha ym-
with yr hyn a dafasant—y galon mor wrol
tros y gwir a wna gau y safnau aflan hyn,
hag pŵeri eu gwenwyn yn erbyn Crist
a'i efengyl? Os gwneir dim o'r fath
yma, Och! y mae mor wanaidd nes
dynt yn ymgalonogi drwyddo. Cyfiawnt-
er, fe'i taenellir mor gynnil, fel ychydig
ldefnyddau ar dân, hyd onid yw yn cryfhau
fflam eu cynddaredd yn erbyn y gwir yn
ystrach nag yn ei diffodd. Nis gwna
porenin alw adref ei genhadwr o achos pob
umharch a gaffo yn yr heolydd; ond
pan y byddo yn cael dirmyg, ac heb allu
cael uniondeb am y cam.

DOSE. II.

Gwrth. Ond gall rhyw rai ddywedyd, Er
nad eilir gwadu nad croesaw tra annhirion
y gafodd yr efengyl gan lawer yn ein
mysg, yn enwedig y blynyddoedd diweddaf,
er pan y mae ysbyrd cyfeiliorni wedi cyn-
yddu mor alaethus yn y wlad; etto, na
ynwch mo honom yn waeth nag yr ydym.
Diolch i Dduw, y mae etto weddill o eneid-
au grasol i'w cael, a Christ yn werthfawr
canddynt, y rhai a lon goffeidiant genhadwri
r efengyl, ac a wylant yn y dirgel am y
dirmyg a fwrir arni gan ddynion o feddwl
lygredig a chalon halogedig. Ac felly, go-
bceithiwn nad ydym yn y fath berygl o
gollir yr efengyl ag a ddarogana eich ofnau.

At. Pe ni byddai ambell rai yn wir saint
yn ein mysg, byddai ein cyflwr yn wir yn
diobaith, a'n dedfryd wedi ei dadgan i'n
erbyn: byddai cysgodau yr hwyr tywyll
cwnw yn ebrwydd arnom. Y cyfryw rai
ydd wedi dal yr efengyl hyd yma yn ein
mysg. Buasai Crist, o ran ei brennoldeb
fengylaidd, wedi ein gadael er ystalm, oni
bai bod y cyfryw yn ymglymwr wrth ei
braed, ac â'u taer lefau a'u herfyniau yn
ymbil am ei arosiad. Eithr y mae rhai ys-
yriaethau mewn golygiad ar y rhai hyn,
ond eu pwyso yn ddirifol, na adawant mo
honom heb beth cryndd calon.

Iaf. Ystyriwch i ba ran fechan, o ran
nifer yw fy meddwl, y cyrhaedd y rhai a
goffeidiant yr efengyl wrth y rhai sydd yn
parhau i'w gwrthod—y rhai sy'n dymuno
caedw Crist yn eu plith, a'r rhai a ewyllys-
ant ei ymadawiad, ac a fyddai lawen gan-
ldynt gan lael gward o hono. Pe rhoddid
hyn ar gais (*vote*) y wlad, oni ennillir hwy,
erwy fod o filiynau yn amlach, sy heb ofalu
pa un ai bod yr efengyl genym ai peidio?
Ac ai nid yw yn darogan yn drwm, gan fod
yynnifer yn erbyn cyn lleied? Ar bob tro

yr ymadawodd Duw â phobl, yr oedd yn
wastadol rai duwiolion yn gymmysg â'r
dorf o bechaduriaid. Yr oedd yn "Sardis
ychydig enwau, y rhai ni halogasant eu
dillad;" etto, "ei chanwyllbren a symmud-
wyd." Y cwbl a allent hwy gael oedd add-
ewid iddynt eu hunain yn bennodol (*Dad.*
iii. 4): "Hwy a rodiant gyda mi mewn
dillad gwynion:" ond dim nawdd i eglwys
Sardis. Gall Duw dynu y tŷ i lawr, a dar-
par yn dda hefyd i'w saint oll a gaffo ynddo.
Y mae ychydig leisiau yn hawdd eu bodd-
i yng nghrochffoedd lliaws: prin yr ar-
chwaethir ambell wydraid o win mewn
tynell o ddwfr. Ac nis gall nifer bychan o
saint wneud, weithiau, ond ychydig at
achub y bobl resynol y maent yn byw yn
eu mysg. Yn debyg, ysgatfydd, i'r modd
y mae ar gorph egwan, lle y mae afiechyd
wedi meistrolï: gall natur, drwy roddi ei
hymegniad eithaf ar waith, gadw bywyd
yn y corph am dro—am rai dyddiau neu
wythnosau; ond nid yn hir heb ryw help
i weithio yr afiechyd allan. Felly, ychydig
saint, a gauwyd i fyny mewn oes ddirywiol,
ac ym mysg pobl annuwiol a diystyr o
Grist, hwy allant attal y farn dros amser, a
chael dien-oed am dro i fywyd y fath bobl.
Ond oni wneir cyfnewidiad ar bobl ergwell,
y mae yn rhaid i ddinystro ruthro arnynt.

2il. Ystyriwch, o'r ychydig o rai grasol
a geir yn ein mysg, yn cofleidio yr efengyl,
pa nifer sydd yn ddychwelwyr ieuainge;
sef yn gyfryw ag y mae yr efengyl yn ddi-
weddar wedi eu hennill at Grist. Yr
ydwyf yn ofni y ceir fod y nifer bychan sy
genym o saint yn gynnwysedig, yn benaf,
o hen ddisgyblion, y cyfryw ag y gweith-
redwyd arnynt er's llawer blwyddyn. Och!
y mae croth yr efengyl i radd fawr wedi ei
chau, yn ddiweddar, o ran esgor ar eneidiau,
trwy waith o ddychweliad sylweddol. Yn
wir, os gellir cyfrif yn ddychwelwyr y rhai
sydd yn eu bedyddio eu hunain i ryw
ffordd â ffurf newydd o addoliad, neu sy'n
dechreu eu crefydd gyda rhyw hoff bwngc
a thyb, y mae genym nifer nid bychan i'w
ddangos o'r rhai hyn. Ond yn yr hen
ddyddiau hyn o broffes nychlyd Lloegr,
mor dra ammeuthyn yw dychwelwr cywir!
Nis gallwn wadu nad ydyw yn rhyngu bodd
i Dduw, o'i ras, ddwyn gwewyr yr adened-
igaeth ar rai eneidiau truan yn ein cyn-
nulleidfaoedd; fel y byddo i'w weision
dirmygedig gael ei sel ef i gadarnhau eu
gweinidogaeth, a chau y safnau a agorir yn
y fath ddirmyg i'w herbyn. Etto, Och!
nid ydyw hyn ond un yma, ac un draw: ac
onid ydyw hyn yn darogan yn drwm i'r
genedl hon? Sicr wyf, pan welom bren a
fyddai arferol o fod yn dew o ffwrwyth, yn
awr yn dwyn ond ychydig, afal, fe allai, ar y
gainge hon, ac un arall ar y llall, ein bod
yn edrych arno fel un yn marw. Yr oedd

Lea yn ymgysuro oddi wrth ei ffrwythlondeb; "Weithian," meddai hi, "fy ngwr a'm car, ac a lŷn wrthyf;" *Gen. xxix. 34.* Oni allwn ni, i'r gwrthwyneb, ofni na char Duw ni o honom, ond y gad efe bobl pan elont yn ddiŵrwyth dan foddion gras? Y mae Duw yn bygwth cymaint, yn *Ier. vi. 8,* "Cymmer addysg, O Ierusalem, rhag i'm henaidd i ymadaw oddi wrthyt:" ac os Duw a ymâd, y mae ar fyned, o ran ei bresenoldeb gweledig hefyd. Felly yn wir y mae yn canlyn, "Rhag i mi dy osod yn anrhaith, yn dir anghyfanneddol." O fy mrodyr! aeth y dyddiau euraidd hyny o'r efengyl heibio, pan fyddai dychwelwyr yn dyfod fel cwmwl, ac megys colomenod, yn lluoedd i'w ffenestri. Y mae newyddion yr efengyl yn awr yn heneiddio; ychydig sydd yn eu blasu. Er bod gan deyrnas drysor a chyfoeth mawr o'i mewn, etto, os palla ei masnach, heb arian ac eiddo newydd yn cael eu dwyn i mewn, y mae hi yn treulio ei hen ystôr, ac y mae yn rhaid iddi wanhau mewn amser. Y mae ein hen ystôr ni o saint, trysor eu hamserau, yn gwisgo ymaith yn gyflym: pa beth a ddaw o honom, oni ddaw rhai newydd yn eu lle? Och! pan fyddo ein claddedigaethau yn amlach na'n genedigaethau, y mae yn rhaid ein bod ar y llaw golli. Y mae rhes drom o enwau duwiol a gymmerwyd oddi wrthym, ond pa le mae y fath res o rai wedi eu geni i Dduw? Os yw y rhai da yn myned, a'r rhai a adawyd yn parhau yn ddrwg, i'e, yn myned waethwaeth, y mae i ni achos i ofni fod Duw yn glanhau y tir, ac yn agor ffordd i farn.

3ydd. Ystyriwch yr ymrysonau a'r ymramiadau annedwydd a geir yn mysg pobl Dduw a adawyd etto yn y wlad. Darogan yn drwm y mae y rhai hyn, Duw a wŷr: a darogan yn ddrwg yr oedd ymrafaelion erioed. Ar bob ymadawiad hynod a wnaeth Duw oddi wrth eglwys yr Iuddewon, yr oeddynt yn rhanedig alaethus, ac yn ymddyrlilio yn bleidiau. A'r un modd eglwysai Asia. Y mae Crist yn gosod i fyny oleu ei efengyl i rodio a gweithio wrtho, nid i ymladd ac ymgeeru: ac am hyny, nid rhyfedd fyddai iddo ei ddiŵffod, ac felly derfynu y ddadl. Pe buasai i'r ystoriwydd hyn—a chwythasant arnom er ys rhai blynyddoedd, ac na thawelwyd etto—ond peri i Gristionogion, fel hono i'r disgyblion (*Marc vi. 48*), ddal at y rhwyfau, a rhwyfo oll yr un ffordd, buasai yn dro dedwydd: gallasem yna ddisgwyl i Grist ddyfod dan rodio tuag atom mewn trugaredd, a'n helpio yn ddiogel i dir. Ond pan dafom ni y rhwyf ymaith, ac y syrthiom i ymrafaelion yn y llong, tra y mae y gwynt yn parhau yn uchel o'n deutu, yn ddiu yn ydym yn fwy tebyg i yru Crist oddi wrthym nag i'w wahodd atom; yr ydym mewn ffordd debyeach i suddo nag i achub y llong, a ni ein hunain ynddi.

DOSE. III.

Defn. Gair o gynghor:—Yn gyntaf, i chwi nad ymwasgasoch etto âg ammodau yr efengyl: perswadier chwi i dderbyn ei chenadwri yn garedig, yn grediniol i'ch calonau. Dyma'r newydd goreu a ellwch chwi ei anfon yn ol i'r nef, fel taliad diolch, am y newydd hyfrydlawn a ddwg yr efengyl oddi yno. Os ti a gofeidi Grist, a bregethir i ti yn yr efengyl, bydd hyny, ni a'i dywedaf i ti, yn newydd mor groesawus gan y nef, ag a all y newydd am Grist, ac iachawdwriaeth trwyddo, fod i ti. Y mae llawenydd yn y nef am ddychweliad un pechadur. A'r angylion, a ganasant am Grist ar ei ddyfodiad i'r byd, ni byddant yn fyr o gân pan y derbynir ef i'th galon di; o herwydd dyna ddiben ei ddyfodiad ef i'r byd. Disgyn yr oedd Crist yn ei ddyfodiad i'r byd; ond yn y tro hwn, y mae yn esgyn: gweithred o'i ymstyngiad ef oedd hono; yn hon, y mae iddo ddyrchafiad: i'e, yr orsedd grëedig uchaf y gall Duw eistedd arni, ydyw enaid credadyn. Nid rhyfedd ynte, i Grist alw ei gyfeillion oll i lawenhau gydag ef ar ddychweliad enaid ato, a'i dderbyniad o hono: *Luc xv. 9.* Pa fath lawenydd sydd yn awr yn y nef ar yr achos hwn, ni a allwn gasglu oddi wrth y llawenydd a barodd hyn i Grist, pan ar y ddaear. Rhaid ei fod yn rhyw newydd tra mawr, a allai dynu gwen y pryd hyny oddi wrth Grist, neu gyweirio ei ysbyrd ef i dôn orfoleddus, yntau yn wŷr gofidus; i'e yn wir wedi dyfod i'r byd i fod felly. Er hyn, pan dychwelodd ei ddisgyblion, a anfonasai efe i bregethu yr efengyl, a'r newydd am beth llwydd buddugoliaethus o'u llafur, "Yr awr hono yr Iesu a lawenychodd yn yr Ysbyrd ac a ddwyedodd, Yr ydwyf yn diolch i ti, O Dad;" *Luc x. 21.* O holl oriau ei fywyd, dyna yr awr ym mha un y gwnai Crist ddadgan ei lawenydd: yr hyn ynghyd â gofal yr Ysbyrd i gadw coffa am y tro hwn yn hanes bywyd Crist, a ddengys fod ganddo fwriad neillduol yn y dadganiad hyn o'i lawenydd y pryd hwnw. A pha beth a allai hyn fod, ond i beri i ni wybod mor ddwys oedd ei galon ar y gwaith o achub eneidiau? A phan fyddai wedd esgyn i'r nef, os meddyliem ni anfon ato ryw newydd hyfrydlawn yno, y byddai hyn am y llwydd buddugoliaethus a gaffo yr efengyl yn ein calonau. Hyn, i'e hyn, a allai beri iddo lawenychu ei otidiau yma a y ddaear, y mae yn rhaid ei fod yn fwy hyfrydlawn ganddo yn awr yn y nef, lle ni oes iddo ddim chwervder, o'i ddioddefiadau ei hun y rhai sydd oll wedi eu hiachau, a myned heibio, i'w gymmysgu â llawenydd y newydd hwn. Ac os yw derbyniad tiriog yr efengyl yn newydd mor hyfryd ganddo y mae yn hawdd i chwi ddirnad mor ar foddus ganddo yw ei gwrthodiad. Megy

llawenyhodd yn yr Ysbryd, wrth glywed m lwydd yr efengyl; felly, ni all efe ond od yn ddig, pan gyfarfyddo hi â gwrthodad gan fyd anghrediniol.

Yn *Luc* xiv. 21, ni a gawn wr y tŷ, sef hrist, wedi digio, ar ddychweliad ei weision anfonoesid i alw y gwahoddedigion (sef bregethu yr efengyl), gyda nag oddi wrth rhai a wahoddesid; canys felly y deonglyd eu hesgusodion moesgar gan Grist. E, yr oedd mor ddig, fel y rhoddodd hwynt am farn alaethus; "Ni chaiff yr un o'r wyr hyny a wahoddyd brofi o'm swper." Y peth anhawsaf gan Dduw ei oddef w bwrw dirmyg ar ei ras. Er fod llawer ofidiau blinon wedi digwydd i'r Iuddewon m eu heilnaddoliaeth a'u pechodau ereill, tto, ni bu arnynt farn fel hono a ddygodd u gwrthodiad o Grist arnynt. Tan y leill, hwy a feddalasant; ond dan hon, wy a galedwyd. Ni ddeuent pan oedd y wper ar y bwrdd; ac am hyny fe dynwyd llian ymaith, ac i'w gwely heb swper yr ethant, y maent yn meirw yn eu pechdau. Tra y maent yn cau drws eu calonau n erbyn Crist, fe sicrhawyd y clo hwn, fel gallaf ei alw, sef anedifeirwch barnol rno. Nid yw raid i Grist roddi un dial rall ar enaid, am ei wrthod ac i'w wneud n eithaf truenus, ond barnu y cyfryw un gael ei ddmuniad ei hun: Crist ni fynd; e am hyny Crist ni chei. O, enaid aneddydd wyt ti, sy'n cael cynnygion o Grist, nd yn marw heb Grist! Yr wyt yn myned th lawn lwyth i ddamnedigaeth: nid oes eb yn soddri mor ddwfn yn uffern a'r rhai syrthiant iddi, gan dramgwyddo wrth hrist. Bydd i'r efengyl hono sydd yn awr n dwyn newydd da, ddwyn i ti (pan y lywi ailadroddiad o honi, yn y dydd mawr laf) y newydd trymaf a ddaeth i'th glustau erioed.

DOSB. IV.

2il. I chwi sydd wedi derbyn cenhadwri r efengyl.

(1af.) Llawenhewch wrth y newydd. Newydd hyfryd, a chalonaau athrist, nid da cyd-weddant. Pan welom un yn drwm a hrist, ni a ofynwn iddo pa newydd drwg a lywodd. Gristion, pa newydd drwg a dygodd Crist gydag ef o'r nef, i beri i ti rodio th ddwylyw ym mhleth, ac yn wyneb-drist? *Salm* cxxxii. 16. Gweled drygddyn yn lon a difyr, neu Gristion yn drist a thrymlyd, cyffelyb anaddas ydyw: "Arlwyant wledd i chwerrhin," medd Solomon: *Preg* . 19. Sier wyf fod Duw wedi bwriadu wledd yr efengyl er llawenhâd i'w bobl. Nid oedd i rai mewn galar fwyta o bethau yssgreddig Duw: *Deut.* xxvi. 14. Yn ddiâu mae trymder y saint yn bwrw yn anghardig ar Dduw ei hun; nid ydym yn rhoddi air da i'w arlwyaeath ef, onid yw yn ein loni. Beth a ddywed y byd? Nid yw

bywyd y crefyddwr ond gyrfa ben-brudd. Yn sier, tybia'r adyn anianol mai rhyw wledd sychlyd sydd o'u blaen, lle y mae gwin llawenydd mor brin i'w yfed. Ac a gadarnhei di hwynt yn y dyb hon, Gristion? A gânt hwy dydi yn esampl, i'w dangos yn erbyn Crist a'i air, sy yn addaw hedd a llawenydd i'r rhai oll a ddeuant i'r wledd hon? O, na atto Duw fod i'th ymarweddiad di, yn yr hwn yr wyt i "gynnal gair y bywyd" (i'w gadw yn fyw ger bron y byd) a'r hwn a ddylai fod fel eglurhâd ac agoriad ar y gair, i ddangos ei wiredd a'i sicrwydd i ereill; na fydded, meddaf, i hwn anghyttuno â'r testyn, fel ag i beri i'r newyddion hyfryd y mae yn eu dadgan gael hamhheu a'u gwrthddadleu yn fwy nag o'r blaen yn meddyliau y byd anghrediniol. Cyfeiliornad, yr wy'n addef, ac un mawr hefyd, yw hwnw a ddysg y Pabyddion—"Ni allwn ni wybod fod yr Ysgrhythyr yn air Duw, ond trwy dystiolaeth yr eglwys." Etto, gwir yw hyn, fod gan y dystiolaeth ymarferol o fucheddau y saint awrdurdod mawr ar gydwybodau dynion, i'w hargyhoeddi o wirionedd yr efengyl. Yn awr, hwy a goeliant mai newydd da yn wir a ddwg yr efengyl, pan allent ddarllen hyn yn eich bywydau siriol chwi. Ond pan welont Gristionogion yn drymdrist, a'r gwpan hon o iachwdwriaeth yn eu dwylaw, yn ddiâu hwy a ddrwgdybiant am y gwin sydd ynddi, nad ydyw mor dda ag y dywed y pregethwyr wrthynt hwy am dano. Pe gwelid y rhai oll a fasnachant i'r India yn dyfod adref yn dlotach nag yr aethant, byddai yn anhawdd perswadio ereill i anturio yno, er y mynyddoedd euraidd a ddywedir eu bod yno. O Gristionogion! gadewch i'r byd weled nad ydych gollledwyr yn eich llawenydd, er pan gawsoch gydnabyddiaeth â'r efengyl: na roddwch iddynt le i dybied trwy eich rhodiad annidanus, y bydd raid iddynt, pan droant yn Gristionogion, ganu yn iach i bob llawenydd, ac ymroddi i dreulio eu dyddiau mewn tŷ galar.

(2il) A ydyw yr efengyl yn genadwri o newydd da? Paid ynte, rhag cywilydd, Gristion, a rhedeg yn nyled y byd, trwy godi dim o'i lawenydd anianol ef. Nid yw raid i ti fynd allan o dŷ Dduw i fod yn llon; y mae yma lawenydd ddiagon yn newydd da yr efengyl, i'w nag a elli di ei dreulio, er i ti fyw yn uwch dy radd nag yr wyt, neu a elli yma ar y ddaear. Ni chymmerai Abraham gymmaint ag edau, neu garai esgid, gan frenin Sodom, "rhag iddo ddywedyd mai efe a gyfoethogodd Abraham;" *Gen.* xiv. 23. Dylai Cristion ymwadu â llawenydd a difyrwch y byd rhag iddynt ddywedyd, Y mae y Cristionogion yn tyru eu llawenydd o'n llestri ni. Y mae y firydle wedi ei dori gan Ysbryd Duw, yn yr hwn y mynai efe i lawenydd ei

saint redeg ; " Os yw neb yn esmwyth arno, caned Salmau ;" *Iago* v. 13. Bydded testyn ei lawenydd yn un ysbrydol ; felly ar y llaw arall, " Od oes neb yn glaf, gweddied," &c. Dyma yr agorfa ysbrydol, i'r serchiadau o dristyd a llonder hefyd. Ni ddylai difyrwch tywysog debygu i ddifyrwch dyhiryn, na llawenydd y Cristion debygu i lawenydd dyn aniol. Os bu erioed alwad ar Gristionogion i borthi lamp eu llawenydd â defnydd ysbrydol, olew sanctaidd sydd yn dyferu o bibell yr efengyl, yn awr yw yr amser. Yn awr y mae profleswyr yn cydfurfio â'r byd yn eu gwycheder allanol, daut-foddhâd, newydd-ddulliau, difyrwch, a thirionwch mawr at y euawd, trwy ganiatau, i.e. dadleu mor bell o ochr rhyddid cnawdol yn y pethau hyn, nes yw yn rhy amlwg nad yw y llawenydd ysbrydol a dynir o'r ffynnonau hyn o iachawdwrïaeth yn eu boddloni hwynt : pe amgen, nid aent i orphen eu trafhwng o'r dwfr budr hwn, na byddai neb yn arfer sychedu am dano, ond yn unig y rhai nad yfasant erioed o gwpan Crist. O ! beth yw yr achos fod i'r rhai a fynent eu cyfrif yn Gristionogion adael y gwin pur hwn o lawenydd efengylaidd, a dewis y cymmysgedd brwnt a gynnyg y butain hon, y byd, yn ei chwpan euraidd iddynt ! Ai am fod cenadwri hyfryd yr efengyl wedi heneiddio, ac felly ei llawenydd hi (a wreichionai gynt yn y pregethiad o honi, fel gwin da yn y cwpan, ac a lonai galonau credinwyr a chysuron cryffon) yn awr, wedi colli ei nerth ! Neu a ddichon y ffrwd bur hono, o lawenydd ysbrydol (ar ol rhedeg cyhyd trwy galonau a bywydau y saint dros gynnifer o genhedlaethau, heb ymgymysgu â dwfr hallt mwyniant anianol y byd) fyned o'r diwedd yn un ffrwd a hon, ac ymfoddloni i gollu ei natur a'i phereidd-dra nefol ei hun yn y fath ysgarth-ffos ? O ! na ddichon ; yr un yw yr efengyl ag oedd hi : y mae ei llawenydd hi mor felus a bywiog, mor ysbrydol a phur, ag y bu erioed ; ac felly y bydd tra y parhau Duw a Christ i fod yr un, o fynwes cariad yr hwn y tarddodd hi gyntaf, ac y mae yn cael ei maeth o hyd. Ond profleswyr yr efengyl hon nid ydynt o'r un fath a'r bobl dduwiol hyn yn y prif amseroedd. Y mae y byd yn heneiddio, a serchiadau dynion yn oeri ac yn sferu i'w ganlyn ; nid yw ein harchwaeth ni mor fywiog, na'n hysbrydoedd mor ddiwair a phur i flasu yr ymborth nefol sydd o'n blaen yn nysglau yr efengyl. Y mae yr arlwy-aeth gystal ag erioed, ond y gwestwyr yn waeth ; yr ydym ni wedi ymlygru yn ein barnau a'n hegwyddorion ; nid rhyfedd felly ein bod yn gnawdol yn ein llawenydd. Putain yw cyfeiliornad ; y mae yn dwyn y galon ymaith oddi wrth Grist a'i lawenydd ysbrydol ef. Y pen, pan elo yn afiach, a

effeithia yn fuan ar y galon, a thrwy ddi-feru drygnaws ei egwyddorion arni, y mae yn ei gwenwyno a serchiadau cnawdol ; ac ni ddichon serchiadau cnawdol ddygymmod â dim heb law llawenydd amhur a chnawdol.

Yma mae gwreiddyn trueni ein hamseroedd ni. Oni thrinodd diafol ei chwareu yn gyfrwys yn ein mysg, dybygech chwi ? Trwy ei offerynau, yn ymnewid i rith angylion y goleuni, efe a fedrodd, yn gyntaf, godi cynnifer o eneidiau hygoelus i ddisgwyliad ffol am gyrrhaeddiadau uwch mewn gras a chysur (trwy eu goleuni newydd yr ymhoent am dano) nag adnabu y saint erioed etto ; ac o'r diwedd, gallodd beri iddynt ddisgyn mor isel, bod mor resymol (neu afresymol yn hytrach) a derbyn y fath fwyntiant a llawenydd anianol ag a all y byd hwn eu rhoddi, fel llawn dal am yr holl bethau gwych a addawsai efe iddynt ! Wele, syrs, gwna hyn, yr wyf yn gobeithio i rai garu yr efengyl yn fwy, a glynu yn dynach wrthi tra y byddont byw. O Gristionogion, bendithiwrch Dduw am newydd da yr efengyl ; a byth na roddwch glust i hwnw a fynai fynegi i chwi newydd arall, onid ydych yn meddwl ymadael â gwir i brynu celwydd. I.e. gwnaed hyn chwi yn ofalus i dynu eich holl gysur a'ch llawenydd o fron yr efengyl. Pan fynai dyn anianol fod yn llawen, nid estyn efe y Beibl i ddarllen yn hwnw ; nid â efe i gymdeithas yr addewidion, gan rodio yn fyfyrïol arnynt hwy ; nid yw yn llawenydd iddo ef feddwl am Grist, neu y nef ; na, efe a dyn i lawr chwareu-lyfr, neu a ymgais am ryw gymdeithion digrif, a â i'r tŷ cyfnawid, neu farchnad, i ymwrandaw pa newydd a gaiff. Pob un yn ol ei gynniweirfa : ond o hyd o'r ddaear y mae y cyfrwys yn disgwyl eu llawenydd. Ac yn awr, pa le y mae dy rodfa di, Gristion ? I ba le y mae cyrchfa dy enaid am lawenydd ? Onid at y gair yr wyt ti yn myned, i ddarllen yno yr hyn a wnaeth Crist drosot ti ar y ddaear, a'r hyn yw ei waith drosot yn y nef ! Onid gorsedd gras yw y tŷ cyfnawid y cyrchi di iddo am newyddion da o'r wlad bell hono, y nef lle y mae dy etifeddiath oll yn gorwedd, a'th gyfeillion goreu yn byw ? Onid ymwrandaw yr wyt ti, o ba addewid y llefar Duw heddwch wrth dy enaid ? Os felly, nid am ddim y ceafist dy enw : Yr wyt yn Gristion yn wir. " Nyni, y rhai sy yn tueddau ddilyn dysg (medd Erasmus) ar ol i'n hysbrydoedd fflino mewn myfyrïaeth, a fedrwn eu hadloni, trwy droi oddi wrth yr hyn sy yn ddylus a chlymog, at destyn a fo yn fwy rhwydd a difyr." Felly y gwir Gristion, pan fyddo ei ysbrydoedd wedi ymdreulio yn yr ymarferion llymaf o Gristionogaeth, y cyfrwys ag yw ympryd a gweddi, yn y rhai y mae'n cytuddio ei gorph a'i enaid am ei bechodau ;

na gall gael adfywiad iddynt yng gwledd cariad Duw yng Nghrist; yno efe wel ei ddwfr wedi ei droi yn win, ac a gaiff chi ymaith yng ngwaed Crist y dagrau add gynnau yn gorchuddio ei wyneb. Pan rddo ei enaid tan of na a chryndod gan yr styriaeth am gyfiawnder Duw, a'r arswyd i fygythion a'i farnau am bechod, yna bydd myfyrdod am addewidion melus yr efengyl yn ei loni a'i adfywio: ac felly, yn yr un ar ag y mae yn cael ei archoll o hono, y mae yn cyfarfod â'i iachad: lle y mae yn cael ei dristwch, yno y mae yn derbyn ei onder hefyd.

PENNOD III.

Tangnefedd pedwar plyg yn briodol i'r efengyl; ac yn neillduol, tangnefedd y cymmod; lle y profir fod ymrafael rhwng Duw a dyn; hefyd, mai yr efengyl yn unig a ddichon ei ddibenu: a pha ham y gosododd Duw y drefn o adferiad dyn felly.

Y MAE ail ymfyniad yn canlyn: Pa dangnefedd a feddylir yma, ac sydd yn briodol i'r efengyl? Y mae tangnefedd, neu hedd-wch, yn air cynnwysfawr. "Disgwyl yr eddym am hedd-wch, medd y prophwyd, tto ni ddaeth daioni;" *Ier. viii. 15.* Y mae hedd-wch yn dwyn atom, ac yn dwyn maith, bob daioni i'w ganlyn, fel y mae'r haul yn dwyn goleuni i'r byd, ac oddi arno efyd. Pan fynai Crist ddadgan i'r eithaf aor dda yr oedd ei ewyllys i'w ddisgyblion, "mae yn crynhoi yr holl wynfyd a fedrai i galon eang ddymino iddynt yn y fenith hon o dangnefedd; "Yr wyf yn gadael chi dangnefedd; fy nhangnefedd yr wyf n ei roddi i chi;" *Ioan xiv. 27.* Yn awr, ymmerwch dangnefedd, neu hedd-wch yn i eangder mwyaf, ac os o'r iawn ryw, ac e'i ceir yn tyfu ar wreiddyn yr efengyl. Felly, ni a roddwn y casgliad mewn ymad-oddion cyffredinol.

Athr. Bendith o'r efengyl, æ o'r efengyl yn unig, yw gwir dangnefedd. Ymddengys hyn yn yr amryw fath o hedd-wch; y rhai a ellir yn dosbarthu i'r pedwar hyn:—

1. Hedd-wch â Duw, a allwn ei alw, Hedd-wch y cymmod.
 2. Hedd-wch â ni ein hunain, neu hedd-wch cydwybod.
 3. Hedd-wch â'n gilydd, neu hedd-wch ariad ac undeb.
 4. Hedd-wch â'r creaduriaid ereill, i e y hai mwyaf niweidiol. Gellir galw hwn yn hedd-wch er digollediad a gwasanaeth.
- I ddechreu, lle mae y lleill oll yn dechreu, gyda hedd-wch y cymmod â Duw. Cansp gan syrthiodd dyn allan â Duw, efe a syrthiodd allan âg ef ei hun, ac â'r holl fyd hefyd; ac ni all efe byth fod mewn hedd-

wch â'r rhai hyn nes y gwneir ei hedd-wch â Duw. Hedd-wch â Duw, hedd-wch â'r cwbl. Y pwngce ynte yw—

Athr. 1. Mai bendith yr efengyl yw yr hedd-wch o gymmod â Duw. Y maetri pheth yn rheidiol yma, wrth ddilyn y pwngce. Yn laf. Caf ddangos i chi fod ymrafael rhwng Duw a dyn. Yn 2il. Mai yr efengyl, a hi yn unig, a wna hwn i fyny, ac a wna hedd-wch rhwng Duw a dyn. Yn 3ydd. Pa ham y trosglwydda Duw yr hedd-wch hwn o gymmod i'r byd, yn y ffordd ac yn ol y drefn hon.

1af. Y mae ymrafael yn bod rhwng Duw a meibion dynion. Y mae gweithredoedd cyhoedd o elyniaeth gan un genedl yn erbyn y llall yn dadgan fod rhyfel wedi ei ddechreu. Yn awr, y mae y cyfryw weithredoedd gelynl yn pasio rhwng Duw a dyn. Y mae y pelenau yn hedfan yn aml, yn mlaen ac yn ol o bob ochr. Y mae y dyn yn ergydio yn erbyn Duw gawodydd trymion o bechodau ac anwiredd, er ei fod, yn groes i'w chwant, yn saethu yn fyr o'r nod. Y mae'r goreu o'r saint yn addef cym-maint a hyn am danynt eu hunain, cyn i ras yr efengyl eu troi—"Yr oeddym niinnau hefyd yn annoethion, yn anufudd, yn cyf-eiliorni, yn gwasanaethu chwantau ac amryw feluswedd;" *Ti. iii. 3.* Nodwch y geiriau olaf, "yn gwasanaethu chwantau a meluswedd." Yr oeddynt yng nghyflog gan bechod, yn foddllawn i ymladd yn erbyn Duw, ac o blaid hwn, ei unig elyn. Nid oes gynneddff o enaid y dyn, nac aelod o'i gorph, heb fod mewn arfau yn ei erbyn. "Syniad y cnawd (medd Paul) sydd elyniaeth yn erbyn Duw;" *Rhuf. viii. 7.* Ac os bydd rhyfel yn y meddwl, yn ddiâu nis gall fod hedd-wch yn yr aelodau—is-gyn-neddffau yr enaid ydwyf yn ei feddwl, y rhai oll a reolir ganddo. Yn wir, yr ydym-wrth natur yn waethaf yn ein rhan oreu; y mae y gelyniaeth yn erbyn Duw a'i eis-tedde penaf yn uch-gynneddffau yr enaid. Megs mewn byddinoedd, y mae y milwyr cyffredin â'u bryd yn gwbl ar yr anrhaith a'r ysbail a gaffont oddi wrth y rhyfel, heb ystyried y nail ochr mwy nâ'r llall; eithr yr uch-swyddwyr, yn enwedig y tywysog neu flaenor y llu, y rhai hyn a ânt i'r maes yn llawn o ddigder at y rhai sydd yn eu herbyn. Felly yr is-gynneddffau, nid yw eu hymgais ond am foddhâd i'r chwant anianol yn yr ysbail a rydd pechod; eithr uch-gynneddffau y meddwl a ddeuant allan yn fwy uniongyrch yn erbyn Duw, ac a wrthsafant ei benarglwyddiaeth ef. Ie, syniad y cnawd, pe gallai lunio brâd effeithiol i ddwyn bywyd Duw ei hun, y mae ynddo elyniaeth ddigon i'w weithredu. Ac fel y mae dyn mewn arfau yn erbyn Duw, felly y mae Duw yn erbyn dyn. "Y mae yn ddigllawn beunydd wrth yr annuwiol; efe a

annelodd ei fwa, ac a'i parotodd; parotodd hefyd iddo arfau angeuol;" *Salm* vii. 11, &c. Y mae Duw wedi codi ei faner frenhinol, gan ofyn gwaethaf holl feibion a merched Adda wrthgiledig; y rhai, o'i enau ef ei hun, a gyhoeddwyd yn wrthryfelwyr a bradwyr yn erbyn ei goron a'i urddas ef: ac i'w herbyn, fel y cyfryw, y mae efe ar y maes i ymddial arnynt, megys â thân a chleddyf. Ië, y mae yn rhoddi i'r byd dystiolaeth ddigonol o'i ddig angerddol trwy hyn a ddadguddir o hono bennydd o'r nef, yn y barnau a gyflawnir ar bechaduriaid; a llawer o'r rhai hyn ond o rychwant o hyd, cyn medru dangos, trwy bechod gweithredol, pa natur sydd ynddynt, etto, yn cael eu llethu i angeu gan droed cyfiawn Duw, yn unig o herwydd y rhywogaeth wiberog y tarddant o honi. Yn mhob drws lle y troedia pechod, y mae dig Duw yno yn ein cyfarfod. Arferir pob cyuneddf o'r enaid, ac aelod o'r corph, fel arf anghyfiawnder yn erbyn Duw; felly y mae i bob un ei gyfran o ddigder, i.e. hyd flaen y tafod. Fel y mae dyn yn bechadurus drosto oll, felly y mae yn felddigidig drosto oll. Y mae ei du mewn ac allan ei enaid a'i gorph, yn argraphedig oll â gwaeau a mell-dithion mor agos a llawn, fel nad oes le i arall rwng-linellu dini, na chwaneu at yr hyn a argraphodd Duw.

Mewn gair, mor danlyd yw dig Duw yn erbyn dyn bechadurus, hyd onid yw y creaduriaid oll yn cael eu cyfran o hono. Er fod Duw yn annelu at ddyn, ac yn ergydio ei saethau yn benaf at ei galon ef; etto, ar eu hediad, hwy a gyffyrddant â'r creaduriaid. Y mae mellidith Duw yn deifio yr holl greadigaeth er mwyn dyn: ac felly y mae yn talu iddo beth o'i resyni trwy law y creaduriaid hyn, a ordeinwyd ar y cyntaf i weini iddo yn ei gyflwr ðedwydd, i.e. i gyfranau rhai defnyddau at lenwi ei gwpan. Fel y gwna byddin lidiog ysball a difrod o'r cwbl yn nhir eu gelyniog, dinystrio eu hymborth, attal neu wenwyno eu dyfroedd, llosgi eu tai, a dangos eu llid ar yr hyn oll a gyrhaeddo eu dwylaw. Yn ddiaw, fel hyn y mae Duw yn poeni dyn ym mhob creadur; nid oes un heb ei law yn ei gyrhaedd. Hyd yn oed y bara a fwytafw, y ddiod a yfwn, a'r awyr yr anadlwn ynddi, y maent wedi eu gwenwyno â barn Duw; dan yr hon y mae yr hwyaf ei oes yn marw o'r diwedd. Ac nid yw y rhai hyn oll ddim mwy wrth uffern nag yw ychydig resau o wŷr ym mlaen llu wrth gyfan-gorph byddin. Nid ydyw Duw ond yn ysgarmeisio yma â phechaduriaid, trwy anfon allan ryw ychydig o'i farnau, i roddi iddynt wybod fod ganddynt elyn yn fyw, sy'n sylwi ar eu symmudiadau, yn clywed y larwm a ddyry eu pechodau iddo, ac a all fod yn rhy galed iddynt pan y gwelo yn

dda: ond yn uffern y syrth efe arnynt a'i holl rym. Yno caiff pechaduriaid "ddi-oddef yn gospedigaeth, ddinystyr tragwyddol oddi ger bron yr Arglwydd, ac oddi wrth ogoniant ei gadernid ef;" 2 *The*s. i. 9. Hyn am y pwngce cyntaf, fod ymrafael rhwng Duw a dyn. Y mae yr ail yn canlyn—

2il. Yr efengyl a ddibena yr ymrafael hwn, a'r efengyl yn unig; ac am hwn, gelwir hi yn "efengyl tangnefedd." Ymddengys hyn mewn dau beth neillduol. Yn gyntaf, Yr efengyl a ddengys i ni erthyglau ein heddwch, ar y rhai y mae Duw yn graslawn gynnyg cyttundeb â meibion dynion: a hyn ni wna dim ond yr efengyl. Yn ail, Yr efengyl, yn y pregethiad a'r cyhoeddiad o honi, yw offeryn mawr Duw i wneuthur yr heddwch a gynnigir fel hyn.

1af. Yr efengyl a esyd o'n blaen yr erthyglau heddwch, ar ba rai y mae y Duw grasol yn cynnyg llunio a threfnu heddwch am byth â dyn gwrthryfelgar. Yn hon y cawn yr holl drefn a ffurfiodd Duw yn ei feddyliau ei hun, er tragwyddoldeb, am gymmodi troseddwy'r âg ef ei hun. Yr efengyl—beth yw hi ond calon Duw mewn argraph? Ei haddewidion gwerthfawr—pa beth ydynt ond rheolau llys y nef wedi eu cyfieithu i iaith y creadur? Ynddi yr amlygir, i olwg ein fydd, holl gyghorion a bwriadau cariad a thrugaredd y cyttunwyd arnynt gan y Tad, y Mab, a'r Ysbryd Glân, er adferiad dyn colledig trwy Iesu Grist; yr hwn a anfonwyd fel cenad awdurdodedig y nef i'r ddaear, gydag awdurdodiad a galluogiad llawn, nid yn unig trwy bregethu, i ymddrin am heddwch fel y mae Duw yn ei gynnyg, i'w benderfynu rhwng Duw a dyn, ond trwy bwrcas ei angeu, i gaffael heddwch, a thrwy ei Ysbryd i gadarnhau a selio yr heddwch hwn: a hyn i'r rhai hyni oll a gredant y dystiolaeth a roddodd Duw i'w f'ab yn y gwyrthiau a wnaed ganddo, ac yn enwedig yn yr Ysgrhythyrau; ac a'i derbyniant ef i'w calonau trwy fydd ddfifiant, fel eu hunig Arglwydd a'u Hiachawdr. Dyma fater nas gellir ei ddyysgu mewn un lle arall. Difstrawrwyd mawr a gawn am hyn yn llyfrau Aristotle a Tiully. Nis gallant hwy fynegi i ni pa fodd y gall pechadur truan gael heddwch â Duw; nid oes dim o hwn i'w gasglu o'r cyfammod a wnaeth Duw âg Adda. Y mae hwn yn cau ar y pechadur mewn daeardd tywyll o anobaith, gan beri iddo ddisgwyl am ddim ond a all digder Duw cyfiawn ei fesur allan iddo. Fel hyn y mae y creadur euog wedi ei amgylchu megys â dylif o ddigofaint, heb obaith na help i'w glywed am dano, nes y dygo yr efengyl ei deilen olewydden o heddwch, fel y golomen gynt, gan fynegi iddo fod y llaw wedi troi, a'r llif o ddigofaint a dywalltwyd ar ddyn am bechod wedi cael disgyntfa arall, sef ar Grist, yr hwn a wnaed yn felddith

rosom, ac sydd nid yn unig wedi yfed o'r fon oedd ar y ffordd, ac yn rhwystro ein synediad at Dduw, ond wedi ei hyfed yn wbl. Ac felly, lle yr oedd môr, y mae tir uch i'w weled—sarn ddiogel a theg a elwir ffordd fywiol;" *Heb. x. 20.* Gall pob echnadur gwir edifeiriol a chrediniol fyned i hyd y ffordd hon, heb berygl gan gyfiawner Duw, a lonyddwyd yn awi, i gariad a saf Duw: "Wedi ein cyfiawnhau trwy ydd, y mae genym heddych tuag at Dduw wy ein Harglwydd Iesu Grist;" *Rhuf. v.*

Yr ydym yn hollol rwyddedig i'r engyl am y dadguddiad o'r dirgelwch hwn. yn y mae yr apostol yn ei addef yn ddi-fisol (2 *Tim. i. 10.*), lle y dywedir fod Crist wedi dwyn bywyd ac anlygredigaeth i euni trwy yr efengyl." Yr oedd hyn yng rhudd yng nghroth arfaeth Duw hyd gyddiad yr efengyl, ac nes iddi hi ein harwain i wybodaeth o hono, fel y gwna goleu yr haul ddaugos i'r llygad yr hyn oedd yn bod i'r blaen, ond nas gellid ei welêd heb y lleu hwn. Am hyn y gelwir hi, nid yn unig yn ffordd newydd, ond yn "ffordd newydd a bywiol, yr hon a gyssegrodd efe i" (*Heb. x.*)—mor newydd fel na bu calon yn erioed yn gydnabyddus âg un meddwl na dani nes i'r efengyl ei garyd: yn ol yr arriaiah (*pen. xlii. 16.*), "Arweiniaf y million ar hyd ffordd nid adnabuant; a rhaif iddynt gerdded ar hyd llwybrau nid nabuant."

2il. Cyhoeddiad a phregethiad yr efengyl y mae y moddion arbenig sy gan Dduw i'w newd yr heddych hwn. Cyn penderfynu heddych rhwng Duw a'r creadur, rhaid i'r wyblaid gyttuno—Duw i'w faddeu, ac felly pechadur i dderbyn a chofseidiol yr heddych ar ammodau Duw ei huu. Ond pa fodd gwneir hyn? Y mae calon dyn wedi ei wreiddio mor ddwfn yn ei gelyniaeth yn olyn Duw, nes yw yn angenrheidiol diwreiddio hwn, a chael grym cyfatebol i'w rwyga fynyddoedd ac a symmud seigiau o'r naill fan i'r llall. Pregethiad yr efengyl yw y moddion a ddefnyddia Duw i'w dwyn hyn i ben: "Nid oes arnaf gywildd o efengyl Crist," medd Paul, "o blegid i'w llw Duw yw hi er iachawdwriaeth;" *Rhuf. i. 16.* Y cerbyd ydym, yn yr hwn y gwna Ysbryd farchog yn fuddugoliaethus, ar ddyfodiad i mewn i galon dyn. Am hyn y gelwir yn "weinidogaeth yr Ysbryd;" *1 Cor. iii. 8.* Efe sydd yn ffurfio y galon o'w ydd, megys mai efe a luniodd y byd ar y cyntaf trwy lefaru gair. Dyma ddydd i'r Duw, yn yr hwn y gwna efe ei bobl i'w ewyllysgar; nerth yn wir, i beri i'r rhai oedd gwir hadau rhyfel yn erbyn Duw, i'w eu naturiaethau, fod yn ewyllysgar i ymddychlu âg ef; nerth na chlybuwyd am ei fath, fel pe byddai i swm tabwrdd (*drum*) i'w cwyn y fath swyn ynddo ag i beri i'r rhai

oedd o ochr y gelyn dafu eu harfau i lawr wrth ei glywed, a cheisio heddych ar law un yr aethant gynnu i'w maes i'w erbyn mewn lliad a chreulonedd mawr. Y cyfryw nerth dirgelaidd sy'n canlyn yr efengyl. Mae yn fynych yn taraw nid yn unig gledddyf y pechadur o'i law, tra y mae yn estynedig yn erbyn Duw, ond y gelyniaeth hefyd o'i galon, ac yn dwyn y gwrthryfelwr dewraf ar ei liniau i erfyn yn ymestynol am fudd yr ammodau heddych a gyhoeddir yn yr efengyl. Y mae yn gwneud pechaduriaid mor ystywyth a phlygedig i'w alwad Duw yn yr efengyl, nes ydynt yn ddisymmwth, wrth glywed pregeth efengylaidd, yn anghofio eu serch anianol eu hunain, a fu ganddynt at eu hanwyl chwantau, ac yn neidio o'u breichiau hwynt gyda soriant, rhag iddynt gadw Duw a hwythau mewn anghydfod am un munyd yn hwy.

Cwest. 3. Pa ham y mae Duw yn trosglwyddo ei heddych o gymmod yn y ffyrdd hwn i blant dynion? Neu yn eglurach, Pa ham y mae Duw yn dewis cymmodi pechaduriaid truaidd âg ef ei hun trwy Grist? Canys dyma yr heddych a gyhoedda yr efengyl. "Ac wedi iddo wneuthur heddych trwy waed ei groes ef, trwyddo efe gymmodi pob peth âg ef ei hun;...a chwithau, y rhai oeddych ddeithriaid, a gelynyon mewn meddwl trwy weithredoedd drwg, yr awr hon hwyf a gymmododd efe, yng nghorff ei gnawd ef trwy farwolaeth, i'ch cyflwyno chi i'r sanctaidd ac yn ddifeius, ac yn ddiargyhoedd ger ei fron ef;" *Col. i. 20--22.*

At. Y mae y rhai hyn yn rhy hyfion ar Dduw a ddywedant, Nas gallasai efe gael un ffordd arall. Pwy a all ddywydd hyn heb i Dduw ei hun fynegi hyn iddo? Oeh, mor anaddas yw llinyn byr ein deall crëedig i'r fath gais hyf a phlymio anchwiliadwy olud y Goruchaf; a phenderfynu pa beth a all, a pha beth nas gall Duw ei wneuthur! Ond gallwn ddywedyd, heb anghofio parch y Mawrhydi dwyfol, nas gallasai doethineb Duw osod trefn iachawdwriaeth mewn modd mwy manteisiol at ddyrchafu ei enw gogoneddus ei hun, a dedwyddwch ei creaduriaid truaidd, nag yn ol y ddyfais hon o'u cymmodi âg ef ei hun trwy Grist, ein Tangnefeddwr mawr. Y mae yn y gorchwyl hwn dymheriad dedwyddol i gau i'w fyny yr anhawsderau ar bob llaw: ac am ddirgelwch y ddyfais, y mae yn rhagori ar y gwaith a wnaeth Duw wrth lunio y byd allanol hwn. A hyn, er fod hwn yn ei ryw yn berffaith, ac mor ogoneddus hyd onid yw y creadur lleiaf yn dadgan fod ei wneuthurwr yn Dduw, ac yn rhoddi yr annuw i gywilydd yn ei gydwybod ei hun am na chred felly. Etto, meddaf, y mae y ddyfais hon yn rhagori ar waith hardd y nef a'r ddaear, mor bell a'r oriadur ar y caead sydd am dani.

Yn wir, yr oedd Duw yn bwriadu, trwy y ffordd hon o gymmodi pechaduriaid âg ef ei hun, wneuthur gwaith i angylion a saint ryfeddu ei ddoethineb, ei allu, a'i gariad hyd byth. O! pan gyfarfyddant yn y nef, ac y cânt yno holl gynghor Duw wedi ei agoryd iddynt; pan y gwelant pa foroedd a rhygwyd i fynd, a pha greigiau o rwystrau, rhy galed i'r creadur, y cloddwyd drwyddynt gan ddoethineb a chariad hollalluog Duw, cyn y gellid cael heddwch i bechadur; a phan welant fod y gwaith, er hyn i gyd, wedi ei orphen a'i ddwyn i berffeithiad dedwydd, O! fel y byddant wedi eu gorloni wrth ryfeddu dyfnder ei ddoethineb ef a osododd y darluniau o hyn i gyd yn ol cynghor ei ewyllys ei hun! Yn sicr, nid yw yr haul yn trechu cymmaint ar rym ein llygaid marwol ni, ag y bydd y gogoniant o hyn tu hwnt i'w dealltwriaethau hwynt o ran ei amgyffred llawn hyd byth. Hwn, hwn yw y darn y bwriadodd Duw iddo fod, o herwydd y gwaith rhagorwyd, yn brydferthwch y nef ei hun. Pan esgynodd Crist i'r nef, ni ddygodd efe ddim o bethau dymunol y byd hwn gydag ef; dim o'i aur, na'i arian, ei goronau, na'i addurniadau brenhinol, y rhai y mae dynion yma yn anturio ei bywydau, ie, yn colli eu beneidiau mor afradus, er eu mwyn. Och, pa beth ydyw y rhai hyn, a holl rodes a gorwychedd y byd hwn, wrth y nef? Yr hyn yr ymgonedda y byd yn fwyaf ynddo, nid yw yn fwy addas i'r nef na dysglaid a briwion y cardotyn i fwrdd brenin, neu wisg glytiog garpiog y fath i ddilladfa frenhinol. Na! fe ddaeth yr Arglwydd, Crist, ar fwriad uwch na hyn i'r ddaear. Y gorchwyl a gymmerodd efe arno i'w gyflawni oedd trin gwaith heddychiad, ie, a'i ddwyn i ben rhwng Duw a'i creadur gwrthryfelgar, dyn, yr hwn, trwy ei wrthryfel, oedd wedi tyngu arno ei hun ei ddigder a'i ddial cyfiawn ef. Dyma orchwyl oedd yn gweddu mor dda i Dduw ei hun ymaflyd ynddo, fel na farnodd efe fod neb islaw ei unig Fab ynddigonteilwng o'i osod dan ymddiried i'w gwblhau. Ni arosodd efe yma ond tra y bu yn dwyn ei negeswaith i ddiweddiad dedwydd; ac yna, dygodd yn ol gydag ef i'r nef y newydd hyfryd o'i fod wedi ei orphen, yr hyn a wnaeth ei ddychweliad yn anfeidrol groesawus gan ei Dad, a holl lu gogoneddus y nef—ei weinyddion.

PENNOD IV.

Cyfrif mwy neillduol paham y mynai Duw gymmodi pechaduriaid âg ef ei hun trwy Grist.

OND mi a äf ym mlaen i roddi ateb mwy pennodol, o beth, i'r cwestiwn a ofynwyd.

DOSB. I.

1. Y mae Duw yn gosod y drefn hon o gymmodi pechaduriaid âg ef ei hun drwy

Grist, fel y gallai roddi y dystiolaeth ddwysaf o'i lwyrgasineb i bechod, ie, yn y weithred hono ym mha un y mae yn dangos yr uchaf o'i gariad a'i drugaredd i bechaduriaid. Nid oes weithred o drugaredd a chariad tebyg i hono o faddeu pechodau. Derbyn pechadur a gymmodwyd i'r nef, nid yw yn gymmaint codiad a chymmeryd gwrthryfelwr i ystad o ffiafr a chymmmod. Y mae yr ymrwymadau yma ymhell oddi wrth y lleill, ie, i annherfynolrwydd: y mae rheswm i ddisgwyl am y naill, ond nid am y llall. Trugaredd yn unig yw maddeu, ond gwired yw achub, ar ol maddeu. Wel, pan wnelo Duw y weithred o faddeu, efe a fyn i'r creadur weled ei gasineb at bechod yn ddadganedig ar wyneb y cariad a ddengys efe i'r pechadur. Ac yn wir, yr oedd hyn yn rheidiol, os ystyriwn mor anhawdd ydyw i'n calonau llygredig ni ddirnad am drugaredd Duw heb ryw oganiad amharchus ar ei sancteiddrwydd. "Mi a dewais" (medd Duw *Salm* l. 21), a pha beth a wna yr annuwiol o hyny? "Tybiaist dithau fy mod yn gwbl fel ti dy hun;" hyny yw, tybiaist fy mod i'n hoffi pechod fel tithau. Yn awr, os gelli wyrdroi y fath destyn mor eglur a hawdd ag yw trugaredd raslawn Duw, a hyn âg agoriad gau, mor wrthwyneb nid yn unig i ddiiben Duw ynddi, ond i wir natur Duw hefyd; pa faint mwy agored yw trugaredd faddeuol Duw (sydd mor bell uwch law hono, ac yn anfeidrol felusach i archwaeth y pechadur) i gael e charafer? Y mae rhai, a syllant cyhyr ar y gwrthdrys boddhaol yma, nes ydyn yn anfoddlawn i edrych ar ddim arall, neu ystyried yn briodeledd arall, o eiddo Duw. Yn awr, yn y ffordd hon o ymgymmodi i pechaduriaid trwy Grist, y mae efe wedi rhoddi dadl sydd yn ddigyffelyb at ddango i bechaduriaid ei fod yn gasawr digymmod ar bechod. Y mae yn wir fod pob bygythiad o fewn y Beibl yn mynegi i ni nad o ffiafr i bechod yn nghalor. Duw—hefyd cydwybodau euog dynion sy yn eu hela hysadref, ac yn eu dilyn i'w mynwasau eu hunain, dan waeddi damnedigaeth o hyd yn e clustiau; a'r barnau hynod sydd weithiau yn ymaflyd mewn troseddwyd yn y byd hwn; ac yn llawer mwy, y ffwrn sy y poethi iddynt mewn byd arall, a ddangosant yn eglur mor boeth a llogadwy y calon Duw mewn digllonedd at bechod.

Ond, pan edrychom arno yn rhedeg ar Fab, ac yn gosod y gyllell, tan wenyndia ei ddir, ar ei wddf ef, ie, yn ei gwrthio hy ei galon, ac yn ei gadael yno yng nglyd yr holl erfyniau a'r gweddiau a ofirmodd efe i'w Dad yn ei ing chwerv, a thrw lefain cryf a dagrau; ac heb roi iddo yr a bediad lleiaf nes gwasgu ei fywyd o'i gorp mewn torf o riddfanau ac ocheneidia

ymion, a thalu felly i gyfiawnder y ddyled
 yn yr aethai dani fel Mechniyyd dyn.
 I yn, hyn meddaf, a rydd i ni fantais fwy i
 dirnad am gasineb Duw at bechod, na phe
 nem sefyllfan i weled y driniaeth sydd i'r
 amnedigion yn uffern, a chanfod ar un-
 aith yr holl boenau a ddiodeffant. Och!
 id yw eu cefnau hwynt yn ddiagon llydain
 oddef yr holl bwys o ddigder Duw ar un-
 aith; y mae hwn yn annherfynol, a
 wythau yn derfynol; a phe gallent hwy
 lioeddef hyd ddiagon, ni chaem mo honynt
 a y carchar hwnw am ddyled heb ei thalu.
 Ond, wele un yma, y bu y felldith gyfan
 yn bechod ar ei gefn ar unwaith. Yn wir,
 mae eu diodeffadau hwynt yn ddiiderfyn
 ran estyniad, am eu bod yn fythol; ond
 oedd yr eiddo; ef yn annherfynol, o ran
 i gwerth hanfodol. Efe a dalodd yn un
 ym yr hyn y byddant hwy byth yn ei
 ltu, ac heb dalu byth y ffyriling eithaf.
 Cospedigaeth ein heddwch ni oedd arno
 ;” *Esa.* liii. 5: “A'r Arglwydd a roddes
 no ef ein hanwiredd ni i gyd” (*adn.* 6);
 yu efe a barodd i'n hanwiredau ni oll
 farfod ynddo ef, fel y cyferfydd y ffrydiau
 l yn y môr. Yr oedd yma, mewn efaith,
 asgliad o'r holl fygythion yn erbyn pechod;
 r cwbl wedi eu gosod arno ef. Ac yn awr,
 mmerwch ond un cam chwanaeg, ac ys-
 rirwch ond y berthynas agos rhwng Crist
 i Dad, ac hefyd y cariad diderfyn ac an-
 hraethol oedd yn llenwi y berthynas, a'r
 rwylder ar bob llaw—a hyn oll yn y pryd
 bu iddo ef ymroddi ar gyhoedd i'r drin-
 eth waedlyd a fu arno! Erbyn hyn, mi
 ch cyfrifaf ar y gris uchaf y gall gair
 uw eich arwain iddi, at esgyn i'r myfyrded
 y testyn hwn. Pe gwleech dad, na fedd
 id un mab, ac na all gael un arall, yn ei
 uson ef trwy warant i garchlar, yn dyfod ei
 un i'r llys, ac yn eistedd yn farnwr ar ei
 rwyd, ac â'i enau ei hun yn dadgan barn
 ugeu i'w erbyn, gan orchymyn ei chyflawni
 r poenau llymaf a ddichon fod; i'e, yn
 yned ei hun i'r lle, ac â'i lygaid ei hun, a'r
 ai hyny, nid yn llawn o ddwfr, fel mewn
 alar am ei farwolaeth, ond yn llawn o dân
 digder; i'e, âg wynebpryd y byddai ei ym-
 sodiad ym mhob modd yn mynegi i baw
 i gwelont fod y gŵr yn ymfodhdau yn
 arwolaeth ei fab; yn sicr, chwi a ddy-
 edech ar hyn, y mae efe yn casau ei fab
 n chwerve, neu ynte y camwedd a wnaeth
 fab. Gwelwch hyn yn Nuw Dad tuag at
 Fab ef. Efe, yn hytrach na dynion na
 iafliaid, a barodd ei farwolaeth ef. Dal-
 dd Crist sylw ar hyn, fod llaw a sel ei
 ad wrth warant ei farwolaeth; “Y cwpan
 roddodd y Tad i mi, onid yfaff ef!” I'e, y
 aie yn sefyll ger llaw, ac yn llawenyachu yn
 peth—ei waed ef oedd y gwin sydd yn
 awenyachu calon Duw: “Yr Arglwydd a
 rmai ei ddryllo ef;” *Esa.* liiii. 10.

Pan fyddo Duw yn ceryddu sant, efe a
 wna hyny, mewn ystyr, o'i anffodd; ond pan
 y mae Crist yn diodeff, y mae hyn yn ei
 foddio: a hyny, nid o ddiffyg cariad yn ei
 galon at Grist, nac o herwydd fod Crist
 wedi caledu calon ei Dad i'w erbyn; canys
 nid anffodhaodd ef erioed; ond oddi wrth
 y casineb oedd ganddo at bechod, a'i sel am
 ddyrchafu ei drugaredd at bechaduriaid,
 trwy foddioni ei gyfiawnder ar ei Fab.

DOSB. II.

2il. Efe a wnaeth ein heddwch trwy Grist,
 fel y gallai guddio balchder am byth o
 olwg ei saint. Balchder oedd y maen y
 tramgyddodd ac y syrthiodd angylion a
 dyn wrtho. Gan hyny, yn adferiad dyn,
 efe a dreigla y maen hwnw cyn belled ag y
 byddo modd o'r ffordd; efe a esyd o'r naill
 du y gyllell â'r hon i'w niweidiodd dyn ef
 ei hun. Ac i'wneud hyn, y mae yn trin y
 gorchwyl oll trwy Grist drostynt hwy.
 Ymgais dyn oedd am dori ymaith ei ryw-
 mau o ufudd-dod i Dduw, a gosod i fyny iddo
 ei hun, fel tywysog rhydd ac anymddibynol,
 heb fod yn ddeiliad i'w Grawdwr. Brad-
 waith rhyfedd! I ddwyn hyn i ben, buasai
 raid iddo yn gyntaf fwrw ymaith ei fod, a
 roisai Duw iddo, a thrwy hunan-gread, pe
 buasai hyny yn bossibl, roddi bod newydd
 iddo ei hun. Yna yn wir, ac nid cyn hyny,
 efe a allasai gael ei ewyllys. Ond, och! ei
 awydd balch am fod yr hyn ni allasai fod, a
 barodd ei golled o'r hyn oedd ganddo, ac a
 allasai ei fwynhau o hyd. Etto, er mor ffol
 ac amhossibl yr ymddengys y peth yn awr,
 dyna'r ddiehell a fagodd balchder yng
 nghalon dyn. Felly Duw, i gadw ei blant
 rhag pob rhuthrau a hyrddiadau o uffern
 drachefn trwy y drws hwn, a ddewisodd y
 fath ffordd i'w cymmodi a'u hachub; fel,
 pan ddelo tywysog y byd i'w temtio i
 falchder, na chaffo efe ddim ynddynt i roi
 pleidiau na lliw o ochr y fath gynnyg. Ac
 felly, o'r holl bechodau, y mae balchder yn
 un, a gallem ryfeddu pa fodd y mae yn tyfu;
 o herwydd nid oes iddo wreiddyn arall i'w
 gynnal heb law a geir yn nychemmyg a
 thyb breuddwydiol y dyn. Y mae yn tyfu
 megys y gwelwn fwyd y llyffaint neu fws-
 ogl weithiau ym mysg ceryg, lle nid oes ond
 ychydig neu ddim daear i'w wraidd gael
 gafael ynddi. Y mae Duw, yn ffordd ei
 efengyl, o gymmodi pechadur trwy Grist,
 yn peri iddo gyrchu y cwbl oddi allan.
 Enaid tlawd, a wyt ti am heddwch a Duw?
 Nid oes modd i ti ei gael trwy dy benyd dy
 hun am dy bechodau: “Cospedigaeth ein
 heddwch ni a roddwyd arno ef;” *Esa.* liiii. 5.
 O! gwybydd mai nid tydi yw awdwr dy
 heddwch. Dyna enw Crist, yr hwn a
 wnaeth y gwaith hwnw: “Efe yw ein
 tangnefedd ni, yr hwn a wnaeth y ddau yn
 un;” *Eph.* ii. 14. Iuddeu a Chenedlddlyn
 yn un â Duw, ac â'u gilydd. A fynet ti

fod yn gyfiawn? Yna, nid oes i ti ymddangos o flaen Duw yn dy wisg dy hun; cyfiawnder un arall, nid yr eiddod dy hun sydd wedi ei ddarpar i ti. "Yn ddiau, yn yr Arglwydd (medd un) y mae i mi gyfiawnder;" *Esa. xlv. 24.* Mewn gair, a fynet ti gael hawl byth i ogoniant y nef? Nid yw dy geniog di yn arian da i brynu hyn. Rhaid yw i'r pris ddyfod, nid allan o'th bwrs di, ond o galon Crist. Ac am hyn, megys y gelwir hi yn feddiant¹ a bwrcas-wydd mewn golygiad ar Grist; am mai efe a'i cafodd i ni â swm mawr, nid arian ac aur, ond ei werthfawr waed; felly yn etifeddiaeth mewn golygiad arnom ni, am ei bod yn dyfod i ni mor rhad ag etifeddiaeth oddi wrth dad i'w blentyn: *Eph. i. 14.* A pha ham hyn oll? ond fel y bo i ucheldrem dyn gael ei ddarostwng, ac i'w falchder gael ei iselu, a'r Arglwydd yn unig gael ei ddyrchafu. Y mae Crist ei hun yn gwirio, fod y mauna yn gysgod o hono ef. Bara Duw ydyw yr hwn sy'n dyfod i waered o'r nef, ac yn rhoddi bywyd i'r byd *Ioan: vi. 32.*

Yn awr, deliwech sylw, pa ham y dewisodd Duw y ffordd hono i'w porthi hwynt yn yr anialwch. "Yr hwn a'th fwydodd di yn yr anialwch â manna, yr hwn nid adwaenai dy dadau, er dy ddarostwng;" *Deut. viii. 16.* Ond ym mha beth y cynnwyswyd eu darostyngiad hwn? Onid oedd yn ddarostyngiad go ryfedd, dybygech chwi, iddynt gael eu porthi â dysglaid ddanteithiol, o ddarpariaeth Duw ei hun, ac a elwir o herwydd feithrwydd y bwyd, yn "fara angylion?" (*Salm lxxviii. 25*)—y fath ag a weddasai yn dda i'w bwrdd, pe buasai arnynt eisieu gwledd? Attebaf, nid gwaelder y bwyd, ond y drefn o'i gael, oedd, yn ol bwriad Duw, at eu darostwng. Y mae dyn yn falch ac yn caru bod yn hunanddarparwr, a bod heb sefyll ar ddogniad un arall. Yr un wledd, os anfonir hi trwy dosturi a haelioni un arall, ni chwydd mor dda â'i gyllau ymchwyddol ef a phan ei darparer ar ei gost a'i draul ef ei hun. Efe a ddewisai gael yr enw o gadw ei dŷ ei hun, ergwaeled, o flaen byw yn well ar eiusen a dogniad ewyllys da un arall. Hyn oedd yn peri iddynt chwennych bod gyda eu wynwyn yn eu gerddi eu hunain, a'u crochanau cig, yn yr Aipht. Y rhai hyn, er eu bod yn arwach bwyd, a'u boddient hwy yn well, o herwydd eu prynu â'u ceiniog eu hunain.

DOSB. III.

3. Fel y byddai yn heddwch mwyaf manteisiol ag sydd yn bossibl; fel y gallai

¹ Y mae ereill, ar sail well, mi debygwn, yn cyfieithu y ddau air Groeg, *apolutrōsis peripoiōōs* (*Eph. i. 14*), yn ol yr ystyr neu y perwyl hwn, *ymwared y bobl briadol*; gan olygu ymwared cyflawn pobl Dduw yn yr adgyfodiad.

Duw a dyn adgyfarfod ar ammodau gwel trwy yr heddychiad hwn, na phan oedd Adda yn sefyll yn ei holl ogoniant cyntaf. Yn ddiambheu, ni buasai i Dduw adael i harddwch ei waith dechrenol gael ei haeru, fel y cafodd gan bechod, pe ni buasai yn bwriadu codi adeilad odidocach o' adfael hnw. Yn awr, gan i Dduw fwriadu argraffu dedwyddwch dyn ar lythyren well a llawnach na'r tro cyntaf, y mae efe yn dewis Grist i'r gorchwyl, fel yr unig offeryn addas i gyflawni bwriad mor fawr. Ni a gawn Grist ei hun yn dadgan hyn; "Myni a ddaethuon fel y caent fywyd, ac y caent ef yn helaethiach;" *Ioan x. 10.* Yr oedd ei ddyfodiad ef, nid i roddi heddwch yn unig, a dim ond bywyd, i'r rhai oedd yn feirw ac yn ddamniol, ond i'w rhoddi yn helaethiach nag y buant erioed gan ddyn cyn y cwymp. Crist, yn yr ail deml, oedd yn ei llenwi i'w gogoniant uwch law y gyntaf. Crist, yn yr ail greadigaeth dyn, sydd yn codi ei ben uwch law ei gyflwr cyntaf mewn dedwyddwch. Megys yr oedd yn gynllun i'w holl had; yr hyn oedd efe, yn ei ystad o ddiuniw eidrwydd, a fuasent hwy oll oni buasai bechod ddyrchwelyd y golygiad a'r drefn felly y mae Crist yn gynllun i'w holl had ef, o'r gogoniant y cant hwy eu gwisgo ef. "Yr awr hon meibion i Dduw ydym ac nid amlygwyd etto beth a fyddwn; eithnia wyddom, pan ymddangoso efe, y byddw gyffelyb iddo;" *1 Ioan iii. 2.* Hyny ydyw "gwneir ein cyrph gwael ni yr un ffurf a gorph gogoneddus ef," yn ol dywediad y apostol (*Phil. iii. 21*); a'n heneidiau hefyd yn debyg i'w eneid gogoneddus ef. Yn awr, o gymmiant ag y mae ein natur ni yn Nghrist yn ogoneddusach nag yr oedd y Adda, mor fawr a hyny y mae cyflwr pechadur a gymmodwyd yn rhagori ar gyflwr cyntaf Adda. Cymmerwch ychydig eglurhad ar hyn mewn dau beth yn neillduo. Yn gyntaf, y mae gan y pechadur cymmodedig y fantasia ar Adda yn ei undeb â Duw. Yn ail, yn ei gymmundeib â Duw.

Iaf. Yn ei undeb â Duw; a hyny, Y gyntaf, Fel y mae yn agosach; Yn ail, Fel y mae yn gadarnach.

(Iaf.) Y mae yn agosach, am fod Duw dyn yn gwneud un person yng Nghrist. Mae hyn yn ddirgelwch na chlywodd Adda am ei fath yn ei holl ogoniant. Yr oedd efe yn wir mewn cynghrair o gariad chyfeillach â Duw, yr hyn oedd blodeu penaf ei goron; etto, ni allasai efe hōni hwy i'r fath berthynas a charenydd â Duw, gyfpharch y dywedwyf, ag a fedd yr enaid gymmodwyd. Y mae hyn yn dyfod trwy briodas y natur ddwyfol a'r ddynol; mheron Crist: ac y mae yr undeb personol hwn yn sail i un arall—undeb dirgrydd aidd rhwng Crist a pherson pob credady. Y mae yr undeb hwn hefyd yn un m

gos, fel megys nad oes ond un person trwy niad y natur ddwyfol a'r ddynol; felly efyd trwy yr undeb dirgeledig hwn, nid w y saint, a'u Pen yn gwneud ond un rist; "Canys fel y mae y corph yn un, ac do aelodau lawer, a holl aelodau yr un corph, cyd byddont lawer, ydynt un corph; lly y mae Crist hefyd;" 1 Cor. xii. 12. Crist mewn arddangosiad yw yr eglwys." wy a all drodd y dyrchafiad sydd yn hyn: natur ddynol yn gyffredinol, ac i bernau credinwyr yn neillduol? Y mae yn th godiad ag sy'n gadael, nid Adda yn nig, ond angylion, islaw pechadur a gymodwyd, yn y golygiad hwn. Adda, ar y ntaf, a wnaed ychydig is na'r angylion: id y mae Duw, trwy y ddau undeb hyn, edi gosod yr enaid a gymmodwyd o fwy g ychydig yn uwch na phob un o honynt: herwydd y mae Crist, trwy gymmeryd, nid tur angylion, er eu bod yn deulu mwy n ac ardderchog, ond had Abraham, wedi sod yr hynaf i wasanaethu yr ieuangaf: yr angylion eu hunain i weini i'r sant aelaf, megys i etifedd eu Meistr: *Heb.*

14. (2il.) Fel y mae yr undeb yn agosach, lly y mae yn gadarnach. Po agosaf fyddo eini at eu gilydd, cryfaf yr adeilad. Yr deb rhwng Duw ac Adda yn y cyfammod ntaf, nid ydoedd mor agos fel nas gallai lda gwmpo, a gogoniant Duw er hyn yn fyll yn gyfan a disigl: ond y mae yr deb yn awr mor agos a chadarn rhwng ist a'i saint, fel na ddichon Crist fod yn ist heb ei aelodau. "Byw wyf fi," medd e, "a byw fyddwch chwithau hefyd;" *Ioan* v. 19. Y mae hyn yn arwyddo fod eu wyd hwynt yn rhwym yn ei fywyd ef, fod mor hawdd iddo ef gael ei droi allan r nef, ag iddynt hwy gael eu cadw allan. *1 Eph.* i. 23, gelwir yr eglwys yn gorph ist, ei gyflawnder ef, yr hwn sydd yn flawni oll yn oll. Nid yw corph yn gyfwn heb fod ganddo bob aelod a chymmal, lleied y byddont, a'r rhai hyny yn gyfwn hefyd. Gras y saint yw gogoniant ist (*2 Cor.* viii. 23); ac er nad yw ei oniant hanfodol fel Duw yn derbyn dim flenwad oddi wrth y saint, na'u grasau; o, o'i ystyried ef yn ei gyfryngwriaeth, fel n ei eglwys, y mae gogoniant Crist felly ymlenwi o hyd, fel y mae rhai etholedig cael eu galw o ddydd i ddydd, a'r rhai wedig yn cynnyddu i'w maintioli apyntiedig. Ni bydd gan Grist ei gyflawner nes y caffo y saint eu perffeithrwydd, mesur cyflawn o ras mewn gogoniant ol.

2il. Mewn cymmundeb â Duw. Po osaf, fel y dywedwn, anwyfaf. O undeb deillia cymmundeb. Os yw yr undeb agosach a chryfach rhwng enaid a gymodwyd â Duw nag oedd yr eiddo Adda,

y mae yn rhaid i'w gymmundebed fod yn felusach a llawnach. Pa ham y mae cymmundebed gŵr a gwraig yn llawnach na'r eiddo cyfaill a'i gyfaill, ond am fod yr undeb yn agosach? Cyfeillachodd Duw âg Adda fel cyfaill gyda'i gyfaill a'i garenydd; ond gyda'r enaid a gymmodwyd, fel priod gyda'i wraig. "Dy briod yw yr hwn a'th wnaeth;" *Esa.* liv. 5. Y mae melusder dyblyg yn briodol i gymmundebed enaid cymmunedig gyda Duw.

Y mae yng Nghrist sail wedi ei gosod ifwy gyfeillgarwch â Duw nag a allai Adda ar y cyntaf ei gyrrhaedd. Yr oedd yntau yn wir yn fab i Dduw; etto yn cael ei gadw ymhellach, a'i drin gan Dduw fel un dan fwy o ofn mawredd, na'r enaid sydd yn awr yn ei heddwch. O herwydd, er ei fod ef yn fab i Dduw trwy greadigaeth, etto nid oedd Mab Duw yr pryd hyny yn Fab y dyn trwy ymgauwdoliaid: a thrwy y drws hwn y daw cyfeillgarwch melusaf y credadyn â Duw. Nis gall y Cristion yn awr godi ei olwg o ffydd at Dduw na wel efe ei natur ei hun ar yr orsedd, yn ei ymyl ef, ym Mherston Crist. Ac os bu i olwg ar Ioseph ar ddeheulaw Pharaoh, mewn bri a mawrlad yn ei lys, beri i'r patriarchiaid fyned adref â'r fath newydd hyfryd ganddynt i'w hen dad: ya fath genadwri orfoleddus ynte sy raid i ffydd ei dwyn i enaid pechadur a heddychwyd; a hyn, pan ddel, ar ol golwg ar ei gariad mewn ordinliad, gan ddywedyd, Ymgysura, O fy enaid, mi a welaf Iesu Grist, dy gâr agos, ar ddeheulaw Duw mewn gogoniant, a phob gallu wedi ei roddi iddo yn y nef a'r ddaear? Ie, nac ofna, y mae efe mor agos o waed i ti, fel nas gall dy aughofio, oddi eithr iddo wneud peth sydd yn annaturiol, sef ymguddio oddi wrth ei gnawd ei hun!

Po isaf yr ymostyngo tywysog i'r gwaelaf o'i ddeiliaid, mwyaf cyfeillgar y mae yn gwneud ei hun i'w ddeiliaid. Yr oedd yn ymostyngiad rhyfedd yn y Duw mawr, nad oes iddo gydradd, yn gyntaf i greu dyn, ac yna myned mewn cynghrair a chyfammod âg ef. Hyn a wna Duw yn awr â phob enaid a gymmodwyd: a hyn, gyda chwanegiad o gynmifer o amgylchiadau rhyfeddol o ymostyngol ras ag sy raid eu bod yn gwirio am y ffordd o nesâd credadyn at Dduw, fod ynddi gyfeillgarwch mwy. Y mae Duw, yn yr ail gyfathrach newydd hon â'i greadur truan, yn disgyn o'i orsedd, yn newid ei wisgoedd brenhinol o goniant am y bratiaid o gnawd breuol dyn; y mae yn gadael ei balas i fyw dros amser ym mwithyn tlawd ei greadur; ac yno, nid yn unig yn ymgyfeillachu âg ef, ond peth mwy rhyfedd, yn gweini iddo; ie, peth mwy na hyn oll, y mae yn rhoddi ei hun i fyny i ddiodeff pob math o ddirmyg ar law ei greadur gwael. Ac wedi hyn, ei groesawiad garw, y mae yn

prysuro yn ol i'r nef, nid i achwyn wrth ei Dad am ei ammharch yma isod, a chodi gallu y nef yn erbyn y rhai a'i trinasent ef mor ddrwg; ond i barotoi palas y nef at dderbyn y rhai a fu fel hyn yn ei gam-drin ef, ond iddynt wneud derbyniad o'i ras! A rhag i'r rhai hyn sydd yn ol ar y ddaear ofni y gwnai adfeddianniad ei frenhiniaeth a'i fawrhydi yng ngogoniant y nef beri newidrad ar eu materion hwynt yn ei galon ef, y mae efe i roddi iddynt ddangosiad parhaol mai yr un a fyddai efe yn uchder ei fri ag ydoedd yn nyfnder ei anfri, yn myned yn ol yn yr un gwisgiad a fenthyciasai o'u natur hwynt i'w gwisgo ar ei orsedd yn ei fawr ogoniant. Yn unig, y mae arnynt ryw draul frenhinol, i'w gosod ar ddull y deyrnas nefol hono, a'u haddasu i'w ogoniant nefol ef. Ac y maent felly yn gynllun o'r hyn a fydd eu cyrph gwael hwythau ar ddydd sydd yn dyfod, er eu bod yn awr dan gymmairt gwarth. Yn awr, ni chafwyd un o'r holl amgylchiadau hyn yn nhrefniad cyntaf Duw i Adda; ac felly, y mae yma gyfeillgarwch mwy.

Hefyd, y mae yma y melusder o drugaredd faddeuol, ac o gariad Crist yn rhoddi ei waed i gaffael hon trwy ei angu i'r dyn: a hyn i'w brofi yng nghymmundebyr yr enaid a gymmodwyd â Duw. Ni feddai Adda y clamp melus hwn yn ei gwpan. Efe a wyddai am gariad Duw yn rhoddi; ond yr oedd yn ddiethr i drugaredd Duw yn maddeu. Y mae yr enaid a heddychwyd yn cael prawf o'r naill ac o'r llall. Y mae cariad tad, mwy na'r fath gyffredin, yn gysur mawr i fab uffrad, na anfoddiodd mo'i dad erioed. Ond nid yn dwyn y fath syndod i'n meddyliau a thosturi ac ymysgaroedd toddedig tad tuag at fab gwrthryfelgar. Ac yn sier, y mae gan fab afradlawn a ad-dderbyni i fynwes ei dad, fantais fwy at garu ei dad, nag sydd gan ei frwad, na fu erioed dan wg ei dad. O! y drugaredd faddeuol hon! a chariad y Crist a'i cafodd hi!—y maent yn byngeiau helaethaf a firwythlonaf i enaid grasol estyn ei fyfyrodau byfrytaf arnynt yma ar y ddaear! Ond pwy a fedr ddinrad pa fath gerddoriaeth ber-wresog a wna y saint mewn gogoniant yn nosbarthiadau y dôn bereiddiaf hon? Sier wyf mai cân yr Oen yw y gân y mae eu telynau mewn cywair iddi: *Dad*. xv. 2, 3. Y mae gwynfyd perffaith y saint mewn gogoniant, yn gymmysg o'r holl gyfferiau rhagorol a ellid eu cael wedi eu tymheru felly gan law ddoeth Duw; fel, megys nas gellid yn iawn hebgor un, felly, na eholliad blas un mewn un arall. Etto, bydd hon, trugaredd yn maddeu, a rhyfedd-ol gariad a doethineb Duw yng Nghrist ynddi hi, yn rhoddi blas peraidd ar y cwbl, fel y gallaf ddywedyd, ac i'w phrofi yn fwy na'r ileill oll.

PENNOD V.

Cynghor i gosteidio yr heddwch hwn o gymmod, gynnwyr yn yr efengyl.

Defn. 1. Cynnhyrffed hyn bawb i ymgai am hawl yn yr heddwch o gymmod â Duw a ddwg yr efengyl. Heddwch â Duw!—y wir, y mae yn werth i'r pechadur ei gael pe amgen, gwael oedd gwaith yr anglyio yn croesawu y newydd am dano i'r byd enedigaeith ein Iachawdwr, trwy y fath ffordd est orfoleddus; "Gogoniant i Dduw... ar ddaear tangnefedd;" *Luc* ii. 14. Ie, son wyd Crist ei hun yn ei bwrcas; yr hwn onid yw heddwch pechadur â Duw yn bet o bris a gwerth uchel, ni fedd ond ychyd i'w ddangos am dywalltied gwaed ei galon yr hwn y barnodd efe ddarod ei wario y dda i ennill hwn. Ond nis gallwn goel hyn. Ac etto, wrth weled mor rhad y mae Duw yn cynnyg maddeuant a heddi feibic dnyion trwy Grist, ac mor osgoilid, ie, a hydyn a chroes ydynt hwy i'r cynnyg; gall un na w'yr am y ddwyblaid, neu am ddaio diderfyn Duw a drwg erchyll y dyn trueni fod yn barod i feddwl mai rhyw salw-be owerth bychan ydoedd ynsefyll ar law Duw ac mai hyn yw yr achos fod Duw mor daer a ei roddi i gerdded, a dyn mor anhlyd i'r gymmeryd oddi ar ei law ef. Aha, druei iaid gresyus! Pwy yw y drwg gynghe wr sydd yn caledu eich calonau rhag eileidio eich trugaredd eich hun? Nid oes na yn sier ond diafol a all gasau Duw a chwit au mor drwm. Ac a fu iddo ffynu mor do yn ei gweryl ei hun yn erbyn Duw fel gwrandewid ef genyt ti, bechadur truan! A all efe roddi i ti arfoegaeth a geidw dra belenau Duw? Pa fodd ynte y mae m ddrwg wrtho ei hun a gadael iddynt enny yn ei fynwes ei hun er ei boen anhuraetho Neu, a ddengys efe ryw dosturi atat wedi ti andwyo dy hun drwy ei gynghor e Och! dim mwy nag a ddengys y blaid creulawn i'r ddafad wirion, pan fyddo we sugno ei gwaed a'i rhwygo yn ddarn Meddwl, a meddwl drachefn, bechadur truan, pa ateb a anfoni di i'r nef cyn i Dduw alw adref ei genhadwyr, a chyn i'r gy nadledd (*treaty*) ddarfod, a hyny am by? Ac fel y byddo arnat eisieu peth defny addas i'th fyfyrodau ymhelaethu arno yn achos hwn, caniata i mi erfyn arnat y ddiddan a'th galon dy hun ar y pedwar plyn:—

1. Ystyria pa beth sydd o'th flaen me cynnyg?

2. Pwy sydd yn gwneud y cynnyg.

3. Y modd y mae yn ei gynnyg.

4. Pa beth wyt ti yn ei wneud wrth wrthod.

DOSB. I.

1. Ystyria pa beth yw yr hyn a gynny i ti: heddwch â Duw. Peth mor anh

rol fel na thâl i ti gael dim llai; ac mor
 nnwysfawr, na fydd raid i ti wrth ddim
 wy na hyn, a'r hyn a'i canlyn, i'th wneud
 i wir a chyflawn ddedwydd. O'r holl am-
 wfwyniant a ddichon fod ar dy fwrdd,
 n yw y ddysglaid y mae yn anhawddaf i ti
 hebgor. Os dygir heddwch ymaith, er
 byddo ond o'r fath isaf, heddwch allanol,
 na'r wledd wedi ei handwyo, er iddi fod
 fwrdd tywysog. Nid oedd gan blant
 fydd ond blas gwan ar eu ciniaw breu-
 nol, ar ol lladd un o honynt, tra yn eis-
 lid gyda hwynt wrth y bwrdd. A pha flas
 llwch chwi gael ar eich danteithion oll, tra
 nae Duw yn arfog i'ch erbyn, pechaduriaid
 ddeddig o flaen eich llygad gan farnau
 tw, a'r un cleddy ag a ollyngodd eu
 aed hwynt wrth eich gyddfau chwithau,
 y mae y bwyd yn eich safn. Mi a fedd-
 wn y glynai y tameidiau melus yn y
 ddf, ac nad äent i lawr yn rhwydd wrth
 hwi fyfyrto ar y pethau hyn. Ô bechad-
 ! ai nid yw hyn yn debyg i lyffant du, yn
 vyddo yng ngwaelod dy gwpan-felusaf,
 i yr ymrafael etto yn parhau rhwng Duw
 thithau, dy bechodau heb eu maddeu, a
 thau yn greadur marw-ddamniol, er i ti
 i difyr chwaraeu am dro yn dy garchar?
 i ryfeddech chwi weled dyn wrth ei
 fyfwrch, yn hela neu yn hebocca, ac i un
 yweddy wrthyh, Y mae y dyn hwn i
 i ei grogi yfory? Yn wir, y mae Duw
 drugarocach wrthyt nag y gelii addaw i
 dy hun, os oeda efe dy ddienydd hyd
 ry. Yr wyf yn addef, pan gyfarfyddwyf
 yn sydd a'i fuchedd yn ei ddaogan yn
 hadur heb gymmod â Duw, a'i weled yn
 hoewi yn ei ddillad gwychion, yn ym-
 enhau yn ei blant, ei dir, ei fri, neu y
 felyb, yn y bywyd hwn; y mae yn peri-
 aith syndod i mi, pa beth y mae y fath
 yn ei feddwl am Dduw neu ef ei hunan.
 elli di dybied y cei di eistedd yn hir wrth
 dân o ddrain a gynneuaist ti, ac nid Duw.
 raid ei fod yn cyffroi gofynwr weled ei
 yledwr yn byw yn uchel, yn gwisgo yn
 ch, a'r cwbl ar ei draul ef, ac ar hyd yr
 ser heb feddwl am gael allan o'i ddyled,
 y ymheddychu âg ef! Yn llawer mwy y
 froir Duw wrth weled pechaduriaid yn
 astraffu ar ei haelioni ef, yn byw yn
 wen ddifyr ar yr helaethrwydd o fwyn-
 t allanol y mae efe yn ei fenthyca iddynt,
 heb feddwl am ymheddychu âg ef, yn
 tr dyledion yr hwn y maent mor bell yn

Pa ffolineb a fuasai i'r Iuddewon, wedi
 Ahasurus selio y warant i'w difetha,
 sed a phaentio eu tai, planu eu meusydd,
 ollwng eu calonau ar ol y mwyniant o'u
 oedd, heb ofalu yn y lle cyntaf am ddi-
 ymiad ar y gyfraith waedlyd hono?
 waeth ynfyttyn wyt ti a wnei hyn oll,
 yr ydwyf yn dwyn barn marwolaeth o

enau Duw, i'th ganlyn yn dy gydwybod dy
 hun. Syr Thomas More, pan yn y tŵr, ni
 wnai gymmauit ac ymdacluso; ond dywedai
 "Fod ymrysonfa rhwng y brenin ac yntau
 am ei ben; ac hyd oni ddygid hyny i ddiw-
 edd da, nad a'i efe i gost yn ei gylch."
 Heliwch ymaith ond yr enwyn o'i firaeth-
 der cymmhen ef, a chwi ellwch wneud
 defnydd difrif o'i eiriau. Yn ddiâu, ffolineb
 llwyr yw yr holl gost a roddwch chwi
 arnoch eich hunain at fyw yn llawen a
 difyr, nes y penderfynwr pa beth a ddaw
 o'r gŵyn sy rhwng Duw a chwi, nid am
 eich pennau ond eich eneidiau; i.e., yr enaid
 a'r corph, pa un ai i'r nef ai i uffern yr änt.
 O! ai nid doethaf fyddai gwneud heddwch
 yn gyntaf? Yna gellit yn fuan fyw yn dded-
 wydd. Ni a ddywedwn, fod y neb a ddel
 o'i ddyled yn ymgyfoethogi. Sicr wyf, na
 all yr enaid a gymmodwyd fod yn dlawd.
 Cyn gynted ag y gwneir yr heddwch, y mae
 masnach rydd yn cael ei hagog rhwng Duw
 a'r enaid. Wedi i ti unwaith gael cymmod,
 ti elli forio i unrhyw borthladd o fewn
 llywodraeth Duw a chroesaw. Y mae yr
 addewidion oll yn agored gyda'u trysorau
 gwerthfawr: cymmer, enaid tlawd, dy lawn
 lwyth o'r holl bethau da sydd ynddynt, i.e.,
 gymmaint ag a all dy ffydd ei gynnwys: nid
 oes i neb dy luddias. Fel y gall dyn dynu
 llestr gwin llawn trwy un agorfa; felly y
 dichon ffydd dynu cysur yr holl gyfammod,
 allan o'r un addewid hon o gymmod. Os
 cymmedwyd di, y mae y drws yn agored
 i'th ollwng i gymmunde b â Duw yn ei holl
 ordinhadau. Gan fod Duw a thithau
 yn gyttân, chwi ellwch yn awr rodio
 ynghyd: ond o'r blaen, ni ellit ti edrych
 yng ngwyneb Duw heb fod ei galon ef yn
 codi i'th erbyn (fel un wrth weled ei elyn)
 yn barod i ergydio arnynt â'i farnau. Y
 mae y gof, meddwn, a'i geiniog hefyd yn
 ddu: felly yr oedditi thithau, a'th ddyled-
 swyddau a'th gyflawniadau oll, yn ei olwgef,
 tra heb dy gymmodi; ond yn awr, y mae dylais
 yn beraidd, a'r olwgar nat yn hardd. Y mae
 holl briodoliaethau Duw, dy gyfaill, yn eiddo
 i ti—"ei feirch a'i gerbydau yn eiddot ti,"
 fel y dywedodd Iehosopha wrth Ahab.
 Pa bryd bynag y brawycho un gelyn dydi,
 ti wyddost pa le i gael cyfaill a gymmer dy
 blaidd. Ei ragluniaethau oll, er eu bod fel
 gwenyn, yn ehedeg yma thraw; i.e., megys
 yn groes i'w gilydd, yn amhossibl eu
 holrhain dybygiti; etto, y maent oll ar
 waith o'th du; a'th enaid di yw y cwch,
 lle yr ymddadlwythant o holl ffrwyth melus
 eu llafur; er, ysgatfydd, y gall fod yn nos,
 neu brydnawn dy ddyddiau cyn i ti weled
 hyn. Mewn gair, os cymmodwyd ti, yr
 wyt yn sefyll yn dra agos i'r nef; "Y rhai
 a gyfiawnhaodd efe, y rhai hyny hefyd a
 ogoneddodd efe;" *Rhuf.* viii. 30. Yr wyt
 yn sicr o fod yno cyn gynted ag y rhwygo

anguen len dy gnawd; yr hyn yw y cwbl sy'n cyfyngu rhyngot a hi.

DOSEB II.

2. Ystyria pwy yw yr hwn sydd yn cynnyg i ti heddwch; y Duw mawr. Ac anhawdd yw ddwyded pa un sydd yn dalon y rhyfeddod fwyaf, fod Duw yn cynnyg, ai dy fod di yn gwrthod ei gynnyg. Nid ydym yn rhyfeddu gweled y plentyn anafudd ar ei liniau, yn ceisio meddalu calon ei dad â'i ddagrau, ar ol iddo ei galedu i'w erbyn â'i wrthryfel; na gweled bradwr condemniedig yn isel wrth draed ei frenin yn ymbil am ei fywyd, a aeth yn fforffed o flaen iawnder y gyfraith. Ond y mae yn beth go ryfedd, gweled tad yn ymbil ar ei blentyn; a rhyfeddach fod i fradwr agor drws ei ddaear-dy, a chael ei frenin yn sefyll yno, ac nid ar un neges arall ond i ddeisyf arno dderbyn pardwn. Ac etto, fe allai hunau gwariad fod yn brif gynnyfydd i'r hunan-ymwadiad ymddangosiadol hwn. Nid yw y tad ond yn ei garu ei hun, pan elo yn is na'i le at ennill ei blentyn, sydd yn dwyn cymmaint o fywyd ei dad i'w ganlyn. Ac y mae weithiau y fath angenrhaidd gwladol, ag a barodd ofrod ar freuhin-oedd mawr i ymostwng i'r gwaelaf, i'e, y gwaethaf o'u deiliaid. Gall diogelwch llywydd fod mor agos yng nglyn â bywyd bradwr, fel nas gall efe dori mo ben hwn heb fawr beryglu ei goron sydd yn sefyll ar ei ben ei hun. Ond nid oedd un o'r cyfryngau hyn yn cymmhell Duw i gynnyws meddyliau o heddwch tuag at ei creadur tlawd: Na; ffrwyth ei rad gwariad ymostyngol ef ydynt. Ac yn awr, meddwl etto bechadur, cyn i'r Duw mawr gael nacad genyt, pe byddai i gymmodog, y tlotaf yn y dref, ac efe yn un a wnaeth gam â thi, ac na chafodd gam genyt, yn dyfod attat, ac yn deisyf heddwch—a wrthodit ti y cynnyg? Os gwnait, oni fyddai i'th gydwybod dy gyluddo hyd dy ddydd olaf? Pa fodd ynte y gelli di wynebu Duw, neu gydwybod, os gwrthodi di heddwch ar law Duw? Nid yw efe, fel dynion, yn cynnyg heddwch pan y torer eu cleddyf, ac y methant ymladd; ond pan y mae ganddo allu cyflawn ar dy fywyd, sydd yn ei law ef bob amser; a phan mai efe a gafodd y cam genyt ti, ac na wnaeth efe gam erioed â thi; i'e, ni wnaethai efe gam â thi, pe buasai iddo er ystalm dy hongian mewn cadwynau o dywyllwch ym mysg y damnedigion.

DOSEB III.

3. Ystyria y modd y mae Duw yn cynnyg i ti heddwch.

1af. Efe a'i gwna yn ddiffuant. Nid yw efe yn cuddio twyll dan ammodau heddwch. Ym mysg dynion, bu llethrith erchyll yn yr achos hwn. Mynych y crogir arwydd heddwch ar y wesus, yn unig i ddenu ereill o fewn cyrhaedd dagra, sydd yn barod i'w

taraw (fel y gwnaeth Ioab ag Abner) dan y bummed ais. Yn holl ryfeloedd gwladol Ffrainc, cafodd y Protestaniaid heddwch yn fwy drud iddynt na rhyfel: yr oeddynt yn trechu y Pabyddion yn y maes, pan yn elynion cyhoedd; ond yn cael eu bradychu ganddynt yn yr ystafell pan yn gyfeillion ffals. Ond er dy gysur, gwybydd mai â Duw y gwirionedd y mae i ti ymheddychu. Erioed ni thywalltodd efe waed rhyfel mewn heddwch; ac ni thynodd gleddyf ei lid ar enaid, ar ol caniatáu arbediad a heddwch. "Os cyfaddefwn, fyddllawn yw efe a chyflawn, i faddeu;" nid i'e a nage yw ei adewidion ef, fel yr eiddo Satan, yr hwn a'u gesyd felly, i gael cred yn y ddwy ffordd. Na; y mae gwir Duw i'w gweled yn yr addeiwid, megys trwy ffenestr loyw. Y maent "oll yn i'e, ac amen, yng Nghrist;" 2 Cor. i. 20.

2il. Y mae yn cynnyg heddwch yn serchiadol. Y mae ei galon wedi dwfn-yrrwymo yn y cynnygion o drugaredd i bechaduriaid truan. Hyn a ymddengys—

(1af.) Yn ei ddyfeisiad o ffordd i gymmodi pechaduriaid âg ef ei hun. Yr hyn a fawr ddymunia dynion, hwy a estynant eu synwyrâu i'r eithaf i'w ddwyn i ben. "Yn hael a ddychymmyg haelioni;" *Esa.* xxxii. 8. Y mae yn arwydd fod y galon yn dra eang mewn haelioni, pan fyddo dyn yn eistedd i lawr, i fyfyrto pa fodd y gall efe gael ffyrdd i arfer ei haelioni: tra y mae och! y nifer mwyaf yn pwyo eu hymenydd o ddeutu y modd i gadw eu pyrseau, a diange heb roddi ond y lleiaf y bo modd i' tloclion. O! pa fath ddyfais arbenig a gafodd Duw i ddangos trugaredd! Y mae ynddi y fath liaws o ddirgelion hyd onid yw yr angylion eu hunain yn cael eu rhoi yma yn yr ysgol, fel, trwy chwilio y dirgelwch hwn—Duw yn cymmudi pechaduriaid âg ef ei hun, trwy Grist—y gallont wybod "mawr amryw ddoethineb Duw;" *Eph.* iii. 10.

(2il.) Wrth y dadguddiad boreuol wnaeth efe o hyn i feibion dynion. Da gellid synu wrth drugarogrywyd y llywyd hwnw (pe dangosai hanes fod y fath u wedi llywodraethu erioed yn y byd; yr hyn dybygwn, sydd yn rhy anhawdd), yr hwn ar ol lluniad rhyw frad erchyll yn erbyn y goron a'i berson breuhinol, a hyn gan u rhwymedig iddo am anl ffafr o'r fat uchaf, a fedrai gael ar ei galon nid yn uni faddeu i'r gwrthryfelwr, ond hefyd ymoswng mor bell, a bod ei hun yn genad ddwyn y newydd hwn am ei fwrriad gwladu i'r bradwr yng ngharchar, cyn iddo ystwytho erioed, na meddwl ymbil am drugaredd; a hyn oll ar yr un dydd ag gwnaed ynddo y cais ysgeler: rhag i'r ady truan ddihoeni cymmaint ag un noswail tan drallod ei feddyliau anobeithiol. Y ddiau, cyfrifid y fath lywydd yn un heb

gydradd mewn tosturi ym mysg meibion dynion. O! pa fodd ynte y gweddai i'n meddyliau ni soddi mewn syndod wrth y weithred dra ryfedd hon o drugaredd, ym mha un y gwnaeth efe hyn oll i'w creadur gwrthryfelgar? O herwydd cyn gynted ag y torodd dyn yr heddwch, ac y cododd arfau gwrthryfel yn erbyn ei Grawdwr, dyna galon Duw yn ymdoddi tuag ato; ac nis gallai adael i'r haul fachludo ar ei ddi-gofaint i'w erbyn heb roddi iddo gllwed am Iachawdwr, trwy bregethu heddwch iddo yn "had y wraig;" *Gen. ii. 15.* Ni feddylodd Adda fod gan Dduw y fath genadwri ato yn ei enau, pan gyntaf y clybu ei nesad ato, ac yr ymguddiodd ym mysg y coed gan ofn, tan geisio ffoi rhagddo, pe gwybuasai pa lei i'w fyned. Bu sain y geiriau, "Adda, pa le yr wyt ti?" yn ddi-amhew, yn ei glustiau euog fel llais Duw yn dial, yn ei alw ef i'w ddiennyddiad, megys drwg-weithredwr; etto fe drodd allan yn llais Duw graslawn yn dyfod, nid i'w gyfarfod ar ei ddychweliad ato, ond i chwilio am dano ef oedd wedi llwyr adael Duw yn ei galon; fel y gallai roddi rhyw esmwythâd i'w galon rasol ei hun oedd yn ymlenwi o dosturi at ei creadur tlawd; a hyn trwy ddadguddio ei fwriadau o'ras, a fagasai efe yno tuag ato. Yn sier, yr oedd ei galon yn dra llawn; pe angen, ni thorasai hyn mor fuan allan o honi.

(3ydd.) Y mae yr ordinhad fawr o weinidogwaeth yr efengyl a osododd Duw yn ei eglwys, i ymddiddan â phechaduriaid ar ammodau heddwch, yn datgan ei serch cryf ar y gorchwyl. Buasai un yn meddwl y buasai yn ddigon oddi argraffu ei feddwl a'i fwriad yn yr Ysgrifthyrr, pe nas gwnaethai ddim chwanaeg. Tywysogion, pan gyhoeddant ordinhad neu ddeddf, a ddisgwyliaint i'w deiliaid oll ymofyn yn ei chylech; ac nid anfonant un i bob tref, wrth ei swydd i rybuddio am dani, ac anog y bobl i ymostwng iddi. Etto hyn a wna y Duw mawr. Beth yw gwaith y gweinidog, o un pen blyddyddyn i'r llall, ond erfyn ar bechaduriaid, "Cymmoder chwi â Duw?" Ac yn hyn craffwch,

(1.) Ar y personau y mae yn eu danfon i bregethu. Nid angylion, estroniaid i'n natur ni; y rhai, er eu hewyllys da atom, nid yw ewmp dyn yn fater mor berthynol iddynt ag i roddi iddynt y fantais o bregethu gylar ymysgaroedd o dosturi a fynai Duw eu bod yn llenwi y rhai aânt ar y neges hon. Na, y mae yn anfon dynion, â'r rhai y gallwn ymddiddan yn gyfeillgar; creaduriaid o'r un fath deimladau; y rhai y mae eu natur yn eu rhoddi tan yr un llygriad, temtiad a chondemniad, a ni ein hunain; rhai a allant, trwy eu cydnabyddiaeth â'u calonau eu hunain, adrodd wrthym am ddrwg yr eiddom ninnau. Gan

effaith y tân o'w Duw a ymafodd ynddynt am eu pechodau, medrant fynegi i ni âm haeddiant yr eiddom ninnau, ac am y perygl yr ydym ynddo o'u herwydd. Hefyd trwy y prawf melus a gawsant yn eu heneidiau, o gariad Duw yng Nghrist, hwy a fedrant ganmawl y wledd a'r arlwyathaeth y gwahoddant ni atynt oddi ar eu gwybyddiad eu hunain. Onid oedd Duw, dybygech chwi, yn dymuno rhwydd hynt i'w genadwri, pan y dewisai y fath rai i'w dwyn?

(2.) Craffwch ar y cymmhwysderau a ofynir yn y rhai a ddefnyddia efe fel cenhadwri i gynnw heddwch i bechaduriaid. "Ni ddylai gwas yr Arglwydd ymyrson; ond bod yn dirion wrth bawb, yn athrawus, yn ddiodeffgar, mewn addfwynder yn dysgu y rhai gwrthwynebus;" *2 Tim. ii. 24.* O! mor ofalus yw Duw na wneler dim gan y pregethwr at wyro barn y pechadur, na chaledu ei galon, yn erbyn y cynnyg o'i ras! Os bydd y gwas yn falch a gwyllt, pa fodd y gwybyddant fod y meistr yn addfwyn ac amyneddus? Ni fynai Duw i'w weision wuenthur dim i'w rhywy, neu attal ymuniad deddydd rhyngddo ef a dynion. Yn wir, y neb a fynai ddal yr aderyn, ni ddylai ei frawychu. Nid yw cenad anhynaws, anfwyn, yn gymmwynaswr i'r neb a'i hanfono. Nid yw pechaduriaid i gael eu pwyo at Grist â cherig o iaith galed, ddi-friawl; ond i gael eu gwahodd ato trwy annogaethau o galon dodeddig.

(3.) Edrychwch i'r awdurdodiad a ddyr Duw i'w genhadau; ac o hyd y mae ei galon ef i'w gweled yn y gwaith; os ystyriwch ei helaethder ar un llaw, neu ynte ei fanylder ar y llaw arall. Yn gyntaf, ei helaethder; "Ewch a phregethwch yr efengyl i bob creadur," medd Crist: na wnewch wahaniaeth rhwng cyfoethog a thlawd, rhwng pechaduriaid nawrion a bychain, hen nae ieuainge: cynnygiwch heddwch i bob un a wna ond edifarhau a chredu; perwch i bawb oll a ewyllysio ddyfod; y mae yma le i'r rhai oll a ddeuant. Drachefn, ei fanylder ar y llaw arall. O! pa fath orchymyn dwys sydd arnynt am draddodi eu cenadwri yn ffyddlawn? Y mae Paul yn crynu wrth y meddwl am sefyllian: "Gwae fydd i mi oni phregethaf." Pa fath ddadl a arferodd Crist o eigion ei galon, at annog Pedr i ddyfalwch! "Os wyt yn fy ngharu i, portha fy nefaid." Fel pe dywedasai Pedr, yr wyt ti yn awr mewn dagrau o herwydd dy ofnogrwydd yn fy ngwadu i. Y mae i ti etto un ffydd, er yr holl anhirionwch hyn, i ddangos dy gariad ataf fi; a hono trwy borthi fy nefaid. Gwna hyn; ac na ymfina am y llall. Y mae Crist yn dangos gofal mwy am ei ddefaid nag am dano ei hun.

(4.) Y llawenydd dadganedig gan Dduw pau fo pechaduriaid trauin yn derbyn y

cynnwg o heddwch. Y mae llawenydd yn dystiolaeth benaf a ellir ei rhoddi am eich boddhad mewn rhyw berson neu beth; y mae cariad neu lawenydd megys tanwydd i'r tân hwn. Os ychydig dân o ddymuniadau a esyd cariad ar y galon, yna y filam o lawenydd oddi wrtho, nid mawr a fydd. Yn awr, mawr yw llawenydd Duw, wrth faddeu i'r pechaduriaid trauin a ddeuant ato; gan hyny, y mae ei serch yn gryf yn y cynnygiad o hono. Cyfrifir hyn fel yr annogaeth dyciannol gyda Duw i faddeu i bechaduriaid; "Am fod yn hoff ganddo drugaredd." "Pa Dduw fel tydi, yn maddeu anwiredd, ac yn myned heibio i anwiredd gweddill ei etifeddiaeth? ni ddeil eife ei ddig byth, am fod yn hoff ganddo drugaredd;" *Mica. vii. 18.* Y mae Duw yn gwneud hyn i gyd, am ei fod yn hoffi trugarhau. Os gofynwch pa ham y mae y *ps*godwr yn sefyll cyhyd i enweirio yn yr aion, efe a ddywed i chi mai am ei fod yn hoffi y difyrwch. Wele, chiwi a wyddoch bellach yr achos pa ham y mae Duw yn sefyll cyhyd yn disgwyl ar bechaduriaid fasoedd a llynyddoedd, gan bregethu iddynt; fel y gallio fod yn rasol yn maddeu iddynt y mae hyn, ac ymhyfryda yn y gwaith hwnw. Y mae tywysogion yn fynych iawn yn maddeu i fradwyr, i foddio ereill yn hytrach na hwy eu hunain; pe amgen ni wneid y peth byth. Ond y mae Duw yn ei wneud, yn benaf, i loni a boddhau ei galon dosturiol ei hun. Oddi yma y mae y gorchwyl y daeth Crist arno, yr hyn nid oedd ond i gymmodi pechaduriaid â Duw, yn cael ei alw yn "ewyllys yr Arglwydd;" *Esa. liii. 10.* Y mae yr Arglwydd yn cymmeryd y fath fodd a hyfyrdwch yn hyn, a welir yn amlwg yn y matera ganlya. Y mae tadau ereill nad yw eu cariad at eu plant ond anfeidrol islaw cymhariaeth â chariad Duw at Crist, yn galaru am farwolaeth eu plant, ac yn fwyaf cil pan y bo yn greulawn a gwaedlyd; ond y mae Duw yn cymmeryd hyfyrdwch yn marwolaeth ei Fab ef! Ie, yr oedd ganddo y llaw benaf yn ei dwyn i ben! Bu hyn hefyd gyda bodd anfeidrol. "Yr Arglwydd a fynai ei ddrillio ef." A pha hyfyrdwch a allai Duw ei gymmeryd yn marwolaeth ei Fab, ond fel y mae yn agoryd ffordd iddo ef a'i greaduriaid trauin, oedd wedi syrthio allan, ac mewn rhyfel cyhoedd â'u gilydd, ddyfod at eu gilydd drachefn, trwy gyduniad dedwydd? Ac yn awr, O bechadur, dywed ti, Os yw ymgais Duw mor daer am ymgymmodi â thi, onid yw yn llawer mwy rheiddid i ti gofleidio heddwch, nag iddo ef ei gynnwg?

DOSB. IV.

4. Nid oes ond un peth etto y dymunaf i ti bechadur ei ystyried; yna yr wyf yn dy adael i'th ddewisiad dy hun. Ystyria beth

wyt yn ei wneud tra yn gwrthod heddwch â Duw. Y mae penderfyniadau am ryfel neu heddwch yn arferol a bod yn darddiad o'r ymgynghoriad dwysaf a'r ystyriaeth ddirifrolaf a ail fod. Meddwl, a meddwl drachefn, pa beth wyt yn ei wneud, cyn i ti dori ymaith yr ymddiddan am heddwch, rhag i ti wneuthur gwaith i edifeirwch pan y byddo yn aslesol.

Ond rhag na byddit mor fyddlawn i Dduw a'th enaid dy hun, a rhoddi rhyddid llawn i'th gydwybod lefaru yn y mater hwn, mi a wnaaf hyny drosot, ac a fynegaf i ti pa beth wyt yn ei wneuthur tra yn gwrthod heddwch. Yr wyt yn cyfiawrhau dy hen elyniaeth yn erbyn Duw, ac yn dadgan y bydd i ti fod o blaid yr hyn a wnaethost, unioned Duw y peth fel y gallu. Y neb a fyddo yn gwrthod maddeuant, y mae naill ai yn gwadu ddarfod iddo droseddu, neu, y peth sydd yn waeth, yn sefyll i amddiffyn hyny. Crystal fyddai i ti ddywedyd, nad wyt yn chweunyech cymmmodi â Duw, ond yn bwriadu i'r ymrafael fod yn barhaol rhwng Duw a thithau. Yn ail i Hamilear, yr hwn oedd mor elynol i Rufain, fel y bu iddo, cyn ei farw, wneuthur ei fab Hannibal yn etifeid ei ddygasedd i'w herbyn. Nid digon yw genyt dy fod wedi ymladd cymmer o frwydrau ar y ddaear yn erbyn dy Wneuthurwr; ond a fynit tiddal yr ymrafael mewn byd arall hefyd, lle nid oes dim modd rhoi diwedd arno mwy nag ar dragwyddoldeb ei hun? Yr wyt yn bwrw y dimwg mwyaf ag sydd yn bosibil i greadur ei osod ar Dduw, fel pe na byddai gwên a gwg Duw ond pethau mor fychlain eu pwys, fel na byddai raid iddynt, yng nghlorianau dy ystyriaeth di, dy ogwyddo i'r naill ochr na'r llall, na chynhyrfu dy ofn na'th ddymuniad chwaith. Mewn gair, yr wyt yn cydsynio â'th ddamnedigaeth dy hun, ac yn ymdafu yn ddiobaith i safn digder tanlyd Duw, sydd yn rhwth yn y bygythiad arnat. Y mae Duw dan lw i'th ddinstyrio os byddi farw yn y meddwl hwn: yr hyn na ato Duw. Angeu yw y drws codi a'th olyngada i i lawr i ddaeardy uffern; a phan fyddych yno, yr wyt yn y lle y cei anser ddiagon i wlo am dy ffof neb gynt, er nad oes genyt yma feddwl na hamdden i geisio cymmmod â Duw. Ie, bydd y meddyliau am y cynnygiad hyny o heddwch a gefaist unwaith (ond heb galon i'w cofleidio) yn debyg i winegr a halen ar gnawd, i'th boeni yn barhaus ynghyd â'th gydwybod euog, i wneud dy arteithiad yn fwy anniodddefol, tra y byddych yn rhoi yn nllan uffern. Mi a wn fod yr iaith hon yn anfoddlus i glustiau y pechadur, ond nid fel yr anfoddlâ ei rincian dannedd ef ei hun yn uffern. Mi a ddarllenais am ddeddf ynyf —gallaf ei galw yn un greulawn—yn niysg y i acedemoniaid, Na fynegai neb i'w gymmydog un newydd drwg a ddigwyddai

iddo, ond gadael i bob un, mewn ystod o amser, ei gael allan ei hunan. Yr wyf yn meddwl y byddai llawer gyda ninnau yn foddllawn pe gwelid deddf i gau safnau gweinidogion rhag peri braw iddynt hwy am eu pechodau, a'r trueni perthynol i'w cyflwr anghymmodol. Y mae y rhan fwyaf yn fwy gofalus i ddiange rhag ymddiddan am eu trueni, nag i ddiange o'r perygl sydd ynddo; yn fwy dig wrth y son am uffern nag ydynt yn flinedig am yr ystâd bechadurus a'u dwg hwynt yno. O ynte! pa bryd y dangoswn ni ein cariad tuag at eneidiau pechaduriaid os nad yn awr, gan nad oes yn uffern ddim gwasanaeth o gariad i'w wneuthur iddynt. Tŷ haint yw uffern, nas gallwn gymmaint ag ysgrifenu ar ei ddrws, "Arglwydd, trugarha wrth y rhai sydd ynddo." Na, y rhai sy'n awr yn gweddio am eu hachubiaeth, ac yn galaru am eu cyflwr, a elwir y pryd hyny i roddi llais gyda Christ am eu damnedigaeth hwynt; a hwy a lawenychant yn hyny, er i'r rhai a welant yno fod yn dadau, yn wŷr, neu wragedd iddynt. O, ystyriwch heddyw, cyn i galon Duw a dyn fod wedi caledu i'ch erbyn.

PENNOD VI.

Pedwar o gyfarwyddiad. u mewn ffordd o gynghor i bechaduriaid sydd etto mewn cyflwr anghymmodol, am y modd y mae iddynt gael heddwch â Duw.

Gof. Ond pa fodd y mae i bechadur truan gael heddwch â Duw?

DOSE. I.

At. Yn gyntaf, Gwel, a bydd deimladwy o'r anghydfod a'r gelyniaeth sydd yn bod yn bresennol rhwng Duw a thi.

1. O ran gwired y peth, Fod yn ddiau gweryl sy gan Dduw i'ch erbyn. Y mae Duw digllawn ar dy ol, pa le bynag yr elych; a'i ddig fel cwmwl dudew yn llawn melleidithion yn hongian uwch dy ben, ac yn barod bob munyd yn ymydwallt arnat. Y mae eisieu gwasgu hyn; o herwydd er mai peth cyffredin yw i ddynion addef eu hunain yn bechaduriaid, etto, anhawdd yw gan y rhan fwyaf iselu eu cyflwr mor bell ag i ymrestru ymlith gelynyddion Duw: na, hwy a obeithiant fod Duw a hwythau yn gyfeillion o'r goreu er hyn i gyd. Yn debyg i rai lladron a addefant ryw ddrwg bychan, ond a ofalant rhag gollwng gair o'u genau a allo beryglu eu gyddfau. Y mae *pechadur* yn air tyner ganddynt: pwy sydd yn byw, ac heb bechu? Hwyt a addefant hyn. Ond bod mewn cyflwr o elyniaeth a than ddigofaint Duw—y mae hyn yn eu dychrynu yn ormodol, ac yn eu dwyn yn rhy agos i olwg y crogbren a lletty uffern, sydd yn ddyledus i'r fath gyflwr; ac am hyny,

pan wesgir arnynt mor bell a hyn, hwy a ddymunant, yn ol gofyniad yr Iuddewon gan Rabasace. Pan oedd hwnw yn eu brawychu â'r pethau arswydus a ddigwyddai iddynt, os safent yn erbyn y brenin, ei feistr ef, dymunasant arno na lefarai efe yn iaith yr Iuddewon, lle y clywai y bobl (*Isa. xxxvi. 11*), ond mewn iaith estronol rhag eu dychrynu hwynt. Felly y dymuna pechaduriaid ar y rhai sydd am fod yn onest atynt, na lefaront mor llym noeth yng nghlyw eu cydwybod hwynt, yr hon y mae arnynt ofn iddi wybod y gwaethaf. Ond os wyt ti yn caru dy enaid dy hun, gwna ddangosiad cywir o'th gyflwr i ti dy hun. O, pa fflineb yw i ddyn gollu ei achos trwy gelu y drwg sydd ynddo!

2. Ymgais am gael dy ddwyn dan deimlad o'th gyflwr truenus fel yr wyt. Pe byddai ymherodraeth y byd genyt, a'r cenhedloedd oll yn ymlusgo at dy draed, fel y daeth y bwystfilod unwaith at Adda, ac ammodrwm (*leaze*) cyhyd ddwywaith ag oes Methusalem i fwynhau hyn ynddi, heb un cwmwl yn cyfryngu ar hyd yr amser i dywyllu gogoniant dy fawredd hwn; etto, os wyt yn un y mae Duw yn wrthwynebydd i ti, mi a ddewiswn fod yn bryd dan dy droed, neu yn llyffant du yn y ffos, o flaen bod yn dy gyflwr di yn dy balas. Un meddwl am dy farwolaeth yn nesau, a'r gwae tragwyddol sydd yn dy aros, a ollwng holl lawenydd dy wynfyd presennol i redeg allan. Hyn, hyn sydd yn peri i fawrion y byd, i'e, i'r pechaduriaid oll sydd heb gymmod, y rhai uchel ac isel, fyned i'w beddau, fel eirth, ar oriwaered, yn wysg eu pen ol. Och! pe gwnaent ond edrych ym mlaen i'r lle y maent yn myned iddo, buan y byddai eu calonau yn eu gyddfau gan eisieu y ddwyfroneg hon, sef hyder cysurol am eu cymmodiad â Duw. Dos, gan hyny, fel y gwnai troseddwr truan condemeddig i farw, a chau arnat dy hunrhag dy holl hen gymdeithion gwenieithus, a fynent etto suo dy enaid gresynus i ddiolfalwch dideimlad (dyna y cryd y sigla Satan eneidiau ynddo i'w llwyr ddiuystyr): na âd i un o honynt ddyfod atat; eithr anfon am y rhai a feiddiant fod yn ffyddlawn i ti; ac fel Samuel, a fyngant i ti bob gair a ddywed Duw i'ch erbyn, heb gelu dim. I'e, darllen â'th lygad dy hun dy farn yn y gair, a chynmer dy gondemniad o enau Duw ei hun, ac nid dyn: "Nid oes heddwch, medd fy Nuw, i'r rhai annuwiol." Myfyria ar hyn nes y glyno wrth dy enaid, fel plastr sugno wrth friw, nes y tyno allan holl grawn dy falchder a'th hyder cnawdol, a galedodd dy galon rhag pob teimlad o'th gyflwr. Erbyn hyn, bydd i ing dy ysbyrd dy hun, wrth weled i ba le y syrthiaist, dy annog i ddymuno heddwch â Duw; a dyna yr hyn y mae Duw yn disgwyl ei glywed yn defnyddu oddi wrthy,

gymmaint ag a ddisgwyliodd gweision Benhadad am air o enau Ahab.

DOSB. II.

2. Edrych am olygu iawn ddibenion yn dy ddymuniad am gymmod â Duw. Nid oes dim sydd yn fwy adgas gan Dduw a dyn na ffasedd a brad mewn cyttundeb am heddwch. Ac etto, gall rhai fod â'u geiriau mor llyfn ag ymenyn yn eu geneuau, a rhyfel ar yr un pryd yn eu calonau: *Salm* lv. 21. O, gwylia rhag bod dim twyll calon yn dy ofyniad am heddwch. Pan geir o hyd i hwn—a rhaid yw i hyn fod, oddi eithr i olwg Duw ballu, yr hyn sy'n aumhos-sibl—fe galeda galon Duw yn fawr i' th erbyn. Erioed nid edifarhaodd Duw o achos un y maddeuodd efe iddo, ac a gymmerodd i fyny ato i'w gerbyd heddwch, am na chafodd efe erioed ei somi mewn un, fel y somir dynion, y rhai yn fynych a wnânt heddwch â rhai a geir yn y diwedd yn frodry gau, ac a roddant iddynt achos i ddymuno nad adnabuasant hwythau hwynt erioed. Rhoddodd Ioab gusan i Amasa; ond ni ddaliodd efe ar y cleddyf oedd yn llaw Ioab. Y mae Duw yn dal ar y galon ac yn gweled pa beth sydd yn ei llaw hi: edrych di, gan hyny, am fod yn loew yn dy feddyliau mewn perthynas i'r dibenion yr amceni atynt. Y mae yn gyfreithlawn i ti edrych at dy ddiogelwch dy hun: rhydd Duw i ti genad i edrych atat dy hun; hyn a elli, etto heb ei esgeuloso ef. Ond erioed ni bu heddwch yn gywir a diogel, lle yr oedd hunan-gariad yn ei wneud, pa un bynao ai â Duw, ai rhwng dyn a dyn. Yr wyt yn gweled dy hun yn andwyol, os glyni wrth dy hen blaidd; ac am hyny, yr wyt am gael heddwch â Duw, fel y brenhinoedd a wasanaethasant Hadarezer; pan welsant “eu lladd hwynt o flaen Israel,” hwy a ymheddychasant âg Israel; 2 *Sam.* x. 19. Wele, gellir cenhadu i ti hyn, dyfod trosodd at Dduw, am mai ei ochr ef yw y ddiogelaf. Erioed ni wnaeth neb heddwch â Duw heb fod y ddadl hon yn pwyso yn ddwys gyda hwynt. Pe gallasai Iacob fod yn ddiogel gartref, byth ni ffoesai efe at Laban: eu llosgi allan o'u llochesau y mae pawb yn gael cyn yr ymroddant i Dduw. Ond gwylia rhag i hyn fod yn gwbl o' th ymgais nac yn ymgais penaf genyt: ti elli wneud hyn, a chasau Duw gymmaint ag erioed; fel y rhai y dywedir iddynt gummeryd arnynt ymostwng i arfau buddugoliaethus Dafydd, am nad oedd modd i beidio. Dyn wedi ei ddal gan ystorm, gall gael ei yru dan benty o eiddo ei elyn mwyaf am gysgod heb ddim newidiad yn ei galon, na meddyliau gwell am dano nag oedd ganddo o'r blaen. Y mae yn rhaid i ti, gan hyny, edrych am fod dau beth yn dy olwg, uwch law dy ddiogelwch dy hun—

Iaf. Anrhydedd Duw. Oddi wrth hyn

y mae, fod gweddïau y saint wedi eu cryfhau â dadl sy'n golygu Duw, gystal a hwy eu hunain a'u gresyni eu hunain. “Cynnorthwya ni, O Dduw ein hiachawdwriaeth, er mwyn gogoniant dy enw; gwared ni hefyd a thrugarha wrth ein pechodau, er mwyn dy enw.” *Salm* lxxix. 9. Yn ddiâu, pe nid allai Duw gael gogoniant mwy yn ein heddwchiad a'n cymmodiad, nag yn ein dilynstr a'n damnedigaeth, peth drygionus fyddai i ni ei ddymuno. Ond y mae Duw wedi eglurlhau i ni hyn, nad yw efe yn golledwr trwy weithredoedd o drugaredd. Yn hyn y cynnwysir ardreth fwyaf ei goron ef; pe amgen, ni hoffai efe drugaredd yn fwy nag aberth. Y mae Duw yn rhydd i ddewis yr hyn sydd yn fwyaf cyttunol â'i galon ei hun, ac yn tueddu yn fwyaf at ddyrechafiad ei enw mawr: ac y mae ei ymlyfrydiad yn fwy yn y drugaredd a ddangosir i un, nag yng ngwaed yr holl rai damnedig a wneir yn aberth i'w gyfiawnder. Ac yn wir, yr oedd uwch diben yn eu damnedigaeth hwynt na'u bod yn ddiodesf; a hwnw oedd chwanegu gogoniant ei drugaredd yn ei rai cadwedig. Hwn yw y darn prydferth, yr ymlyfryda Duw ynddo; ac nid yw y llall ond eysgod o hono. Dyma y pryd y byddi mewn hwyl addas i weddio am heddwch, ac y gelli fyned gyda chalondid; pan fyddo dy galon dan effeithiad dwys gan yr anrhydedd a gaiff Duw trwy hyny. Y mae yma ddadl na wyrthyd Duw mo honi. “Ni bydd hyn yn ochenaid i ti, nac yn dramgwylth calon i'm Harglwyd,” meddai Abigail, wrth Dafydd: 1 *Sam.* xxv. 31. Ei meddwl oedd, na chaf efê byth achos i edifarhau am gael ei attal rhag tywallt gwaed. Fel hyn y gelli dithau ddadlue â Duw, a dywedyd, “O Arglwydd, pan fyddaf fi, gyda saint ac angylion, yn canmawl dy faddeuol ras yn y nef, ni bydd yn ochenaid i ti ddarfod i' th drugaredd dy gadwr rhag tywallt fy ngwaed, a damnio i'y enaid yn usfern.” Eithr amlwg yw yn awr, fod llawer a feddylid eu bod yn ymgais am heddwch, ac yn ei ddilyn hefyd yn dra dyfal, etto â'u gofal yn fychau iawn am anrhydedd Duw yn y peth; am eu bod yn daer am i Dduw faddeu iddynt mewn ffordd a fyddai er dianrhydedd iddo ef. Hwyl a fynent gael maddeuant, er eu bod yn llwyr anwybodus o Dduw a Christ: mynent gael Duw i fod mewn heddwch â hwynt, tra y maent hwy yn elynion iddo ef. Yn debyg i leidr wrth y frawle, a fynai gael gan y barnwr arbed ei fywyd ef, bid cam, bid cynmhwy, cyfreithlawn neu anghyfreithlawn; nid gwaeth ganddo ef. A yw yr adyn hwn yn ystyried anrhydedd y barnwr—neu y pechadur hwnw, yr hwn, ond iddo ef gael ei achub, nid edrych pa mor anghyfiawn fyddai Duw yn y weithred o drugaredd? O! na thwyllwch eich

hunain, eneidiau trauin : nid â Duw i beri rhyfel rhwng ei briodoliaethau ei hun, er mwyn heddwch â chwi.

2il. Y mae yn rhaid i chwi ddymuno cael cymmud â Duw, fel y galloch gael cymdeithas â Duw. Yn sier nid yw y dyn sydd yn teimlo pa beth ydyw y golled o gymmundeib â Duw, yn cyfrif fod ei neges oll ar ben pan y rhodder iddo heddwch noeth yn unig. Pe dywedai Duw, "Enaid, yr wyf fi mewn heddwch â thi ; ni a roddais orchymyn na chei di byth fyned i uffern ; dyma i ti ryddhâd oddi tan fy llaw, fel na chei di byth mwy dy ddal am ddyled i mi ; ond am gymmundeib â mi, neu fwynhâd o honof, nid oes i ti ddisgwyl dim ; yr wyf yn darfod â thi, o ran i ti gael byth fwy o gydnabyddiaeth â mi."

Yn sier ychydig lawenydd a gymmerai yr enaid o'i heddwch. Pe byddai y tân wedi ei ddiffodd o ran poenau gosodedigol, etto, byddai uffern yn aros yn y tywyllwch cethin yr eisteddai yr enaid ynddo, gan y diffyg o wedd gwyneb Dŵ. Ni wyddai Absalom am un cyflwr canol a allai ei foddio ef, rhwng gweled wyneb y brenin ei dad, a chael ei ladd ; "Gadawer i mi weled wyneb y brenin ; ac od oes gamwedd ynof, lladded fi." 2 Sam. xiv. 32. Onid wyf deilwng o fwynhau cariad a phresenoldeb fy nhad, nid wyf chwaith yn dymuno byw. Ond y mae calon ddrygionus am gael cymmud, heb ddim hiraeth ar ol cymdeithas â Duw. Yn debyg i'r bradwr ; os gwna y brenin ond maddeu iddo, a'i gadw rhag y crogbren, y mae yn hawdd ganddo addaw iddo na fiina efe mo hono byth yn yllys. Ei fywyd ei hun, nid gwyneb y brenin, y mae efe yn ei garu.

DOSE. III.

3. Taff i lawr dy arfau gwrthryfel, ac ymostwng yn isel i'w drugaredd ef. Ni wna Duw gymmaint ag ymddiddan â thi tra byddo dy gleddyf yn dy law ; "Deuwch yr awr hon, ac ymresymwn, medd yr Arglwydd." Esa. i. 18. Crafwch pa bryd y mae yr ymddiddan yn dechreu ; "Bwriwch ymaith ddrygioni eich gweithredoedd," *adn.* 16. Yn awr, deuwch ac ymddiddanwch â Duw ynghylch heddwch.

1af. Duw mawr yw Duw ; ac nid ydyw yn gweddu i'w fawrhydi fod iddo ymddiddan â'i greadur gwael yn ol trefn cydraddoldeb, fel y gwna brenin â brenin arall ; yr hwn, oni chaiff heddwch ar ei ammodau ei hun, sy'n alluog, ysgatfydd, i ymddial trwy rym arfau : ond fel brenin galluog â'i ddeiliad gwrthryfelgar sy ganddo mewn cadwynau yng ngharchar, ac a all ei ddiennyddio pan y myno am ei frad. Myn y Duw mawr i ti wybod hyny. Sonied y rhai hyny am ammodau a allant gilio i'w castell, a byw heb heddwch : ond am danat ti, bechadur truan, yr wyf yn gobethio nad ydwyf yn

meddwl y gelli wynebu Duw yn y maes, na llwyddo yn y gwaith hwn o ryfel yn erbyn y nef. Na, yr unig ffordd i ti orchfygu gyda Duw yw ar dy liniau, gan osod dy wddf tan ei draed, a dywedyd, "Arglwydd, yr wyf yn rhoddi fy mywyd yn dy law ; dy wir garcharor fyddaf, gan ddewis marw tan ddwrn dy gyfiawnder yn hytrach na pharhau i ymlladd yn erbyn dy drugaredd." Yn awr, enaid tlawd, ti a gefaist ben yr iawn lwybr sydd yn arwain i dangnefedd : "Ymddarostyngwch ger bron yr Arglwydd, ac efe a'ch dyrchafa chwi ;" *Iago* iv. 10. Nid hir y bydd yr enaid a ymiselo wrth ei draed heb fod yn ei freichiau. Ond er y gall yr Uchel a'r Dyrchafied ymostwng i gymmeryd pechadur edifeiriol i fyny i freichiau ei drugaredd faddeuol, etto ni ddwg efe yr anfri ar ei benarglwyddiaeth o ddal ymddiddan â'r adyn a fyddo yn sefyll at ei arfau, ac ymddewrio o'i flaen. Y mae un llythyren goch yn enw Duw : "Ni chyfrif efe yr anwir yn gyfiawn ;" *Ecsod.* xxxiv. 7.

2il. Y mae natur sanctaidd Duw yn gofyn hyn. Pechod yw yr hyn a wnaeth y rhwyg, ac a barodd i Dduw godi arfau yn erbyn ei greadur. Pa fodd y gelli di yn rhesymol feddwl gwneud dy heddwch âg ef, a chadw hwn, achos y drwg, yn dy fynwes ? Y mae Duw yn foddolawn i ymheddychu â thi ; ond a fynit ti iddo fod mewn heddwch â thi bechod ? Ai nid digon yw i ti gael dy gyfiawnhau oddi wrth dy bechod—ond a fynit ti i Dduw fradychu ei anrhydedd ei hun trwy dy gyfiawnhau yn dy bechod ? A glywaist ti erioed am dywysog yn rhoddi llythyr caniatâd i neb i dori ei wddf ef ei hun ? Pa sierwydd a eelli di ei roddi i Dduw am dy gariad ato, oni ymwrthodi â'r unig beth sy'n ceisio am ei fywyd ef ? Y mae pechod am ladd Duw. Tra byddo y bradwr hwn yn cael maeth oddi mewn, ni chyfyd Duw y gwarchae, ac ni wrendy ar son am heddwch oddi allan. Nis gallant gyd-deyrnasu. Dewis pa un a fynd o honynt ; ac na thwyller di mor bell ag i feddwl mai digon yw i ti ei anfon o'r ffordd am y tro, fel yr arferai tywysogion wneud â'u hoff-ddynion yn amser terfysg, i foddio y bobl ; ac yna eu galw adref, ar ol i'r cyffro lonyddu. Na, ni somir ac ni watwarir Duw fel hyn. Edrych y modd y rhed yr addewid ; efe a saif at hyn : "Gadawed y drygionus ei ffordd, a'r gwr anwir ei feddyliau, a dychweled at yr Arglwydd ; ac efe a arbed yn helaeth." *Esa.* lv. 7. Gwelwch mor ochelgar y mae Duw yn ammodi. Nid oes gongl wedi ei gadael i'r pechod lleiaf lechu a chadw ei fywyd ynddi. Rhaid yw ei adael. Y mae hyn yn cynnwys,

(1af.) Dewisiad dwysfwriadol yn yr enaid : y mae yn ei wneud gyda rhydd-deb. Pechodau rhai dynion sy yn eu gadael hwy ; yr

ysbryd aflan sydd yn myned allan, ac heb gael ei ymlid allan. Y mae achlysuron i bechod yn darfod, neu rym corphorol yn pallu, i gyflawni ei chwantau. Nid oes yn hyn oll ddim ymadawiad â phechod; eithr tori o'i aflaf, gyda bwriad a rhyod duwiol yr awr hof, pan fyddo ei ddeniad brysuraf, a'i rym yn gryfaf, megys y dywedodd Dafydd, pan oedd ei elynion o'i amgylch fel gwenyn; ei yru yn ol a'i wrthsefyll yn enw yr Arglwydd; hyn yw ei adael. Dyna glod Moses; efe a adawodd y llys pan oedd mewn oed; nid gan henaint, megys Barzilai, ond tra yr oedd ei waed yn gynhes yn ei wythienau. Nid yw dyn yn gadael ei wraig pan ei cedwir oddi wrthi mewn carchar, ond pan fyddo yn ei gollwng ymaith, ac yn rhoddi iddi llythyr ysgar.

(2il.) Gadael pechod yw ei adael heb un meddwl cudd am droi ato drachefn. Nid ydym yn dywedyd, bob tro yr â gwr oddi cartref yn nghylch negesuon, ei fod wedi ymadael â'i dŷ, am fod ei fwriad wrth fyned allan ar ddyfod yn ol drachefn. Na, ond pan welom ddyd yn gadael ei dŷ, gan ddwyn ei holl ddodrefn gydag ef, a chloi ei ddrysau, a thrigfanu mewn lle arall, heb fwriadu anneddu yno mwy, dyna ddyd a adawodd ei dŷ yn ddiâu. Peth rhyfedd fyddai cael meddwyn mor wastadol yn yr ymarferiad o'r pechod hwnw, nad allech ei weled weithiau yn sobr; ac etto, meddwyn yw efe, mor ddiâu a phe byddai yn feddw y pryd hyny. Nid yw pawb a welwn ambell dro yn eu trwsiad ddydd gwyl, ddim wedi gadael eu celfyddyd. Dyna'r pryd y mae dyn yn gadael ei bechod, pan ei taflo oddi wrtho, ac y bolltio ei ddrws i'w erbyn, gan fwriadu peidio agor iddo mwyach. "Ephraim a ddywed, beth sydd i mi mwyach a wnelwyf âg eilunod?" *Hos. xiv. 8.*

Drachefn, deliwech sylw, cyn y gellir selio pardwn, rhaid iddo adael, nid y pechod hwn neu'r llall, ond holl ddeddf pechod; "Gadawed y drygionus ei ffordd." Dichon teithiwr gamu o un llybr i un arall, a myned er hyn ym mlaen yn yr un ffordd; gadael llybr budr, dwfn, a garw, am un llyfnach a gwastatach. Felly y mae llawer wrth gael rhai pechodau anferth yn anesmwyth, a rhy sŷn i'w cydwybodau deffrôed-ig, yn camu i llybr glanach o foesoldeb. Ond och, drueiniaid! y cwbl y maent yn ei gael yw myned i uffern yn fwy esmwyth a glân, o ychydig, na'u cynmyddogion anifeil-aidd. Eithr hwnw sydd yn gadael ffordd pechod, a fyddo yn troi allan o bob llybr ynddi. Mewn gair, rhaid yw i ti adael y llybr mwyaf cudd o'r cwbl yn ffordd pechod; hwnw sydd y tu ol i'r cae, fel y gallaf ddywedyd, ym meddyliau y galon; "a'r gŵr anwir ei feddyliau." Heb hyn, yr wyt yn curo yn ofer wrth ddrws Duw am drugaredd faddeuol. Am hyny, enaid truan,

gâd y cwbl neu ddim. Os ti a gedwi un chwant, ti a gollu un enaid. Os yw dynion â'u bwriad ar fyned i uffern, pa ham y maent mor fogaer? Gwaith gorwael yw rhanu yma â phechod. A oes arnat ofn un pechod, heb ofn un llai, sydd yn attal dy heddwech, ac yn tynu damnedigath arnat, mor sier, er mai gyda llai o aflonddwech i'rh gydwybod gysgldd yn bresennol? Y mae mor wael a ffial a chais y dyn oedd i gael ei grogi, ac a ddeisyfodd na chai efe er dim ei ddwyn trwy ryw leol at y crogbren, gan ofn y pla oedd ynddi! Beth fydd dy ennil, bechadur truan, os i uffern yr âi, er i ti fyned yno trwy dy anwybodaeth, anghrediniaeth, balchder ysbrydol, &c., etto, trwy gael dy gyfcharwain fel ag i ochel y pla o halogrwedd cyhoedd? O Syrs, vstyriwch ond iawnder ac anrhydeddusrwydd yr ammodau y cynnygia Duw heddwech arnynt. Pa chwant sy mor foddhaol a buddiol ag y tâl llosgi yn uffern am dano? Pan oedd Darius yn ffio o faen Alecsander, efe—at ddiange yn gynt o'r perygl—a dafodd ymaith ei goron bwysig, oedd ar ei ben yn ei attal. Ac a oes unrhyw chwant mor ddymunol yn dy olwg di, fel na eili ei adael o'th ol, yn hytrach na syrthio i ddwyllaw cyfiawnder Duw? Ond mor syfrdan yw dyn ffial, fel y medrai Pagan doeth ddal sylw ar hyny. "Nyni a dybiwn mai y pethau hyny yn unig y talom arian am danynt sydd yn cael eu prynu genym; ac am y pethau y talom ein hunain [ein heneidiau] er mwyn eu cael, ein bod yn eu cael yn rhad." *Seneca.*

DOSE. IV.

4. Wedi i ti fod yn ffyddlawn i ganlyn y cyfarwyddiadau blaenorol, yr wyt yn awr ar ffordd deg i gael dy anturiaeth dra dymunol i ben. Prysura, gan hyny, mor fuan ag y mae modd, at orsedd gras, a chyflwyna dy erfyniad yn ymstingol i Dduw, ar iddo ymheddychu â thi. Iê, dwg gyda thi grediniaeth y cei di ef yn barotach i dderbyn y cais nag yr wyt ti i'w gynyng. Yn unig edrych pa beth a wnei di yn ddadl i gymmhell Duw, a pha le yr wyt yn gosod dy hyder; na byddo yn dy edifeirwech neu dy ddiwygiad di. Chwareu y marsiandwr â Duw fyddai hyn. Gwybydd nad yw efe yn ymofyn am fasnachwr i gyfnewid âg ef, ond am erfyniwr truan i ymbil arno. Na ruthra at ei drugaredd ychwaith, heb Grist, fel y gwna eneidiau anwybodus; ymafydd yn y cleddyf gerfydd y llafn fyddai hyn, yn lle gerfydd y dwrn. Caiff y cyfryw eu colllarn a'u marwolaeth oddi wrth y drugaredd hono y gallasant gael eu ffrachub drwyddi, pe yr ymaffasant ynddi fel y mae Duw yn ei chynnyg iddynt, sef trwy Grist. "Ymafydd yn fy nerth i, fel y gwnele heddwech â mi; ac efe a wna heddwech â mi;" *Esa. xxxvii. 5.* A pha le y mae nerth achubol Duw yn sefyll ond yng Nghrist? Y

mae wedi gosod cymmorth ar yr un cadarn hwn; un a ddichon achub hyd yr eithaf y rhai oll sydd yn dyfod trwyddo at Dduw. Nid gallu na thrugaredd Duw (ynddi ei hun) a'th geidw di, ond ei gyfammud, ei nerth, a'i drugaredd, fel y mae hi yng Nghrist. Ymafael yng Nghrist, a dyna fraich Duw yn dy afael; nis gall efe daro yr enaid sydd â'i afael yn hon. Yn wir, y mae daioni hanfodol Duw yn ddadl gref at annog yr enaid tlawd i bwysio ar yr addeuwr yng Nghrist am faddeuant, pan ystyrio fod y Duw sydd yn addaw heddwch i'r credadyn yn Dduw y mae ei natur yn faddeugar, ac yn drugaredd ei hun; ond pe ni buasai addeuid yn rhwymyo y drugaredd hon i bechaduriaid truan trwy Grist, ni fuasai ond cysur gwan o gredu fod Duw yn dda. Efe a allasai ddamnuo holl hil Adda, a'i ddaioni hanfodol heb fod dan yr ammheuaeth leiaf. Nid yw yn un brycheuyn ar hollalluogrwydd ei nerth ef, ei fod heb wneuthur y cwbl sydd yn ei allu. Efe a allasai, pe gwelsai yn dda, greu mwy o fydoedd nag a greodd; ond nid oes i ni sail i greu y gwna efe, ac nid yw yn llai hollalluog am beidio; felly, efe a allasai achub yr angylion syrthiedig ynghyd â phlant Adda syrthiedig. Nid yw ei drugaredd yn rhy brin i'r fath fwriad, pe gwelsai efe hyn yn addas; ond gan na roddodd efe un addeuid am y fath beth, nid ydyw daioni hanfodol Duw yn peri i'r diaffiaid un gwir gysur na gobaith am ymwared. Etto, parhau yn dda y mae Duw. Ac yn ol a allaf gael allan o'r gair am y rhai hyn o blant dynion sy'n esgeuluso Crist, neu yn ddirmygus yn gwrthod ei iawn ef, ac yn rhedeg at ddai- oni neu drugaredd anaddawedig Duw, fel y ddad a wnant o ffaen brawdle Crist am faddeuant ac achubiaeth, y cânt cyn lleied budd oddi wrthi a'r diaffiaid eu humain: a hyn, pa un bynag ai trwy anwybodaeth unig o'r efengyl, ai trwy y rhagfarn a fagodd eu rheswm balch yn erbyn y ffordd a ddengys hi, i wneuthur ein heddwch â Duw trwy iawn Crist drosom. Bwriwch, gyfeillion, fod i lywydd yn rhydd osod cyfraith, wrth yr hon y llywia efe ei bobl, a chymmeryd llw difrifol ar gadw yn dŷn ati; a allai drwgweithredwr, collfarnedig wrth y ddeddf hon i farw, ddisgwyl ymwared trwy appello oddi wrth y gyfraith at dosturi a natur radlawn y llywydd? Yr wyf yn addef fod rhai wedi llwyddo ac achub eu bywydau trwy gymmeryd y ffordd hon: eithr hyn a fu, naill am fod y llywydd yn annoeth yn gwneud y gyfraith, neu yn anffyddlawn o ran cadw ei lw. Y naill na'r llai nis gellir ei gyfrif i Dduw anfeidrol ddoeth a sanctaidd, heb gabledd. Y mae efe wedi gosod deddf, a elwir deddf ffydd, am achub pechaduriaid truan trwy Grist; ac y mae dan lw i'w chyflawni yn iachawd-

wriaeth pob un a gredu yng Nghrist, ac hefyd yn namnedigaeth pob un na chredo: ac i sierbau y cwbl, rhoddodd Grist ar ei lw i fod yn ffyddlawn yn ei swydd, i'r hwn, fel offeriad, yr ymddiriedwyd am gaffael prunedigaeth; a'r hwn a eistedd yn Farnwr yn y dydd mawr i ddadgan y ddeddfryd o ollngodod neu gondemiad. Gwylia, gan hyn, bechadur truan, rhag cael dy dynu oddi wrth hyderu yn gwbl ar Grist, Mab Duw, a Duw a dyn yn un person, yr hwn a roddodd ei einioes i lawr yn ol cyttundeb â'i Dad, i wneuthur cymmod dros bechod y byd, ac sydd yn awr yn cynnyg i ti y gwaed hwnw a dywalltodd y pryd hyn, fel gwerth yn nwyllaw dy ffydd at y Tad, am faddeuant a heddwch. Ie, na thyner di, pe deuent i'th alw oddi wrth Grist at Grist — oddi wrth Grist oddi allan i ti at Grist oddi fewn i ti, fel y gwna y Jesuit, yn y Crynwyr, i fewn pa un yr aeth efe yn awr; fel yr arferai y mynachod gynt fyned i mewn i'w delwau ceul, fel y gallent oddi yno draddodi eu celwyddau trwy safnau eu saint tybiedig, ac felly hudo y lliaws heb ddim drwg dybiaeth am eu dyhirwch. Felly yn union y mae y Jesuitiaid yn y dyddiau hyn yn traddodi eu sothach Pabaidd allan o eneuau y Crynwyr. Bwriad sydd yn fwy peryglus, fel y mae yn fwy ddichellgar, na'r llall. Mae gormod o oleuni wedi tori allan i'r hen ddelw-chwareuwaith hwnw gael achles: ond er fod dynion yn rhy galli roddi clust i foncyff neu faen; etto y mae gwedd sanctaidd mewn sant byw yn galw am y fath barch, nes yw Satan wedi cael allan yn foreu, ac felly y caiff hyd ddiwedd y byd, mai dan y fantell hon y mae iddo y drwgdybiaeth leiaf. Wel, pan ddelo efe i'th alw oddi wrth Grist oddi allan i ti, at Grist o'th fewn, dinoetha di yr athrawiaeth o'i haraeth foddhaol; ac mewn iaith eglur, dy alw y mae oddi wrth ymddiried yn nghyfiawnder Crist a weithiwyd ganddo ef drosot (ac sydd, trwy ffydd, i'w wneud yn eiddo ti, er dy gyfiawnhâd ger bron Duw), at waith tufewnol o ras a wnaed ynot gan Ysbryd Duw, er dy adnewyddiad a'th sancteiddiad, yr hyn a elwir weithiau yn "greadur newydd," a "Christ ynom." Yn awr, oni wnaethost ti gyfnewidiad gw; ch, os gollyngast dy afael o Grist, yr hwn yw dy gyfiawnder, i bwysio ar greadur, ac un egwan hefyd, Duw a'i gwyr; ie, gall dy gydwybod ddywedyd (oddi eithr ei bod heb ddeall, ac wedi ei rhoddi i fyny i greu celwydd) fod hwn mor llawn o amryw wallau, fel nad yw ond megys gwythien o aur, yn gymmysg â llawer mwy o bridd a sorod, o'r hwn ni fyddi di byth yn lân nes dy roddi yng nghrochan puredigaeth y bedd. Edrych atat dy hun, Gristion; y mae yma fater bywyd a marwolaeth: rhaid yw i ti fawr brisio gras Crist ynot; ie, nid oes dim o hono o'th fewn onid wyt yn ei brisio yn fwy

na'r holl fynyddoedd o aur a fedd y byd; etto, na lydera ar y Crist hwn, neu ras Crist ynot am fywyd ac iachawdwriaeth; o herwydd felly ti a roddi fri ar y creadur uwch law Duw, ac a osodi Grist ynot i wrthsefyll Crist oddi alian i ti. Da yw i briodferch wneud cyfrif mawr o lun ei gwr a roddes efe iddi, yn enwedig os yn debyg iawn iddo, ac yn fwyaf oll os wedi ei dynu a'i law ef ei hun: ond t. a chywilyddus fyddai iddi ffol-serchu ar hwnw, mor bell ag i ddiystyru ei gwr; a phan fyddo arni eisieu arian dillad, neu y cyffelyb, myned, nid at ei gwr am y cwbl, ond at y llun a roddodd efe iddi. Y mae gras y Cristion yn cael ei alw yn Grist ynddo, am mai ei lun a'i ddelw ef ydyw; a'i fod yn gwneud y Cristion mor debyg i Grist. Y llun hwn, o herwydd ei debygrwydd i sancteiddrwydd Crist, dy briod, yr hwn a'i tynodd â bys ei Ysbryd ei hun yn dy enaid, y mae yn haeddu ei fawr brisio. Ond pa fath wambwyll a fyddai i ti droi dy gefn ar yr Arglywydd Iesu Grist ei hun, a'r hwn y'th briodwyd trwy fydd, a phan fyddo arnat eisieu maddeuau a chysur, ac y mynit gael y nef a dedwyddwch, disgwyl am y rhai hyn, nid oddi wrth Grist, ond gan dy ras? O! a ddiolcha Crist i ti am roddi bri ar ei creadur, er anfri i'w berson ei hun?

PENNOD VII.

Annogaeth, mewn chwech o beithau neillduol, i'r rhai sydd mewn heddwch â Duw.

Defn. 2. Ychydig eiriau yn chwanebol i chwi, y rhai y gwnaed eich heddwch â Christ.

1. A ydwyf ti wedi cael heddwch â Duw? Edrych am beidio gwneud heddwch â phechod. Hwn a dorodd ar dy heddwch â Duw. Yn awr, bydded i'th heddwch â Duw ddechreu rhyfel ag yntau, a rhyfel i barhau. Yn sicr, nis gelli anghosio y cam a'r golled annhraethol a ddaeth i ti trwyddo: bydd i bob munydyd o fwynhâd melus o Dduw, cariad mynwesol yr hwn a gefaist etto yn ol yn ddedwyddus, dy helpio i gadw tân digder a dial yn llosgi yn dy galon, yn e. byn y gelyn melldigedig hwnw a'th dasfodd ac a'th gadwodd cyhyd oddi yno. Y mae Duw yn awr, mi obeithiaf, wedi ennill dy galon trwy ei drugaredd faddeuol, i'w garu ef yn anwyl am ei gariad attat ti. Pa fodd bellach y gelli di edrych yn llonydd ar unrhyw chwant yn dyfod dan ymherio allan o'i lechfan (dy galon wyf yn feddwl), am waradwyddo dy Dduw a'i ras ynot? Yn Athen, fe gynhyrfwyd ysbryd Paul ynddo, wrth weled dianrhydeddiad ar Dduw trwy goel-grefydd ereill; ac oni chynhyrfa dy ysbryd dithau, wrth ei

weled yn cael ei waradwyddo gan y balchder, anghrediniaeth a phechodau ereill, a wnânt hyn o'u hymguddfa yn dy enaid dy hun? O Gristion, myfyria ryw wrolwaith ardderchog yn eu herbyn: a thluag at dduerio dy galon yn well, a'i chryfhau yn erbyn pob meddallhâd at bechod, dwg waed a chlwyfau dy Iachawdwr gyda thi i'r maes yn llaw dy fydd. Bydd i olwg ar y rhai hyn, yn sicr ennyd dig dy galon yn erbyn y chwantau a fu yn ei wânau a'i ladd ef, yn fwy nag y darfu i ddiillad gwaedlyd Caisar—a ddelid i fyny gan Antony—gynhyrfu dinaswyr Rhufain yn erbyn ei leiddiaid ef. O, gwel mor greulawn y trinasant hwy Arglywydd y gogoniant, a'r lle y dodasant ef mewn bedd yn waradwyddus, a than sel gryfach nag a feddai dyn i'w gosod arno—y felldith ddyledus i ni, bechaduriaid, na allasid byth ei thori yn agored ond gan ei fraich hollalluog ei hun. Ac yn awr, Gristion, a gaiff y rhai hyn a fu yn lleiddiaid, nid i ddyn ond Duw, (canys gwaed Duw oedd hwnw a dywalltwyd: *Act. xx. 28.*) ddiange rhag y dial a fynai Duw ei gael arnynt trwy dy law di? I ba ddiben arall y mae yn eu gadael yn fyw yn dy enaid, ond i ti gael y cyfle i ddangos dy gariad at Grist, trwy redeg dy ddrag o farwhad i'w calon? Ni chafodd Alecsander fwy o anrhydedd trwy ei fuddugoliaethau mawrion yn y maes, na thrwy ei ymddygiad addas yn achos ei dad mawr, Phylip, pan y dialodd ei farwolaeth waedlyd ef, cyn gynted ag y daeth i'r orsedd, trwy ladd y lleiddiaid ar fedd ei dad. O, dangos dithau, Gristion, dy gariad at dy Iachawdwr anwyl, trwy syrthio ar dy chwantau melldigedig, a hyny ar frys: byth na âd lonyddwch iddynt, nes cael eu gwaed, am iddynt dywallt ei waed ef. Llyd oni wnelêch hyn, yr wyt yn cydsynio a'r creulondeb oll a wnaed arno ef. Hyn, hyn yw yr anrhydedd a gaiff yr holl saint; ac i hyn y rhoddwyd cledddy dau-finiog yr Ysbryd yn eu dwylaw, sef "i wneuthur arnynt y farn ysgrifenedig;" *Salm cxlix. 6, 9.*

2. A gymmododd Duw â thi? Bydd dithau barod i ymgymmodi â phob un a wnaeth gam â thi. Y mae Duw yn disgwyl hyn ar dy law. Y mae i ti achos i faddeuol i'th frawd er mwyn Duw, a faddeuoddi i ti er mwyn ei bur drugaredd. Nid wyt ti, wrth faddeuol, yn gwneud ond yr hyn sydd yn ddyled arnat i'th frawd; eithr Duw a faddeuoddi i ti pan nad oedd yn dy ddyled o ddim ond digofaint. Nid rhaid i ti feddwl, mi obeithiaf, dy fod yn dy iselu dy hun yn y weithred, er i ti faddeuol i'r adyn truanaf yn yfro: gwybydddy fod yn gwneud hyn ar ol dy well. Y mae dy Dduw wedi ymostwng yn is, pan ymgymmododd â thydi, i.e, y ceisiodd hyn ar dy law di; ac

heb anfri arno ei hun, yr Uchel a'r Dyrchafedig. Nag e, trwy anghymmodlonedd ac ymddial, ti a iseli dy hun, y mae yn debygol, i'r radd isaf y gelli: o herwydd trwy y rhai hyn yr wyt yn crymu, nid yn unig islaw dy natur nefolaidd, ond dy natur ddynol. Nid oes neb ond y diafol, a'r rhai sydd ar ei ddelw, yn elynion anghymmodadwy. Tân uffern yw y tân sydd yn an-niffoddadwy. "Y ddoethineb sydd oddi uchod," y mae yn hawdd ei thrin. Tydi yn Gristion, ac yn dwyn tân uffern o'th amgylch? Pa fodd y gall hyn fod? Pan welom blentyn yn or-wyllt a dialgar, er ei ddyfod o rieni tyner, ni a arferwn ddywedyd, Y mae yn rhyfedd genym o ba le y cafodd efe ei duedd ffyrnig a thaeog; nid fel hyn yr oedd ei dad a'i fam. Pwy a ddysgodd i ti, O Gristion, fod mor ddialgar ac anhrgarog? Ni chefaist ti hyn oddi wrth dy Dad nefol: yr wyf yn sier o hyn.

3. A yw Duw mewn heddwch â thi? A faddeuodd efe dy bechodau? Beth ynte, na anhydera ar ei ragluniaeth am unpeth sydd yn eisieu arnat yn y bywyd hwn. Dau beth, o'u hystyried yn dda, a helpiant dy fydd yn yr achos hwn. Yn gyntaf, pan faddeuodd efe dy bechodau, fe wnaeth fwy erot nag yw hyn i gyd: ac wedi iddo roddi y mwyaf, a warafun efe i ti y lleiaf? Mae genyt Grist yn dy gymmodiad yn rhodd i ti. "Pa fodd gydag ef hefyd na ddyry efe i ti bob peth?" *Rhuf.* viii. 32. Pan roddo tad y berllan yn gyfan i'w blentyn, ffol fyddai amnheu a yw efe yn rhoddi iddo yr afal hwn neu arall sydd ynddi: "Y mae pob peth yn eiddoch chwi, a chwithau yn eiddo Crist;" *1 Cor.* iii. 22, 23. Y mae gan yr enaid a gymmodwyd hawl i'r cwbl. Y mae yr holl fyd yn eiddo ef. Ond, fel na wna tad, er sefydlu etifeddiaeth deg ar ei blentyn, adael iddo ddal dim mwy yn ei law ei hun nag a all efe ei iawn-drin: felly y mae Duw yn rhoddi i gredinwyr hawl i holl gysuron y bywyd hwn; etto, yn mesur allan iddynt, at eu gwir angenion, gymmaint ag a wel ei anfeidrol ddoethineb ef yn addas. Felly, ni ddylai yr hwn sy ganddo lai nag arall yn ei feddiant presennol, ei gyfrif i ddim diffyg cariad neu ofal yn Nuw, ond i'r doethineb sydd yn ei gariad a'i ofal, yn rhoddi ystôr yn ol y gras a fyddo ynom i weithio âg ef. Yr hyn nid yw ond lloaid un llestr, pe ei tywelltid i un llai, fe gollid ei hanner. Yn ail, ystyria fel y mae Duw yn rhoddi y pethau tymmorol hyn i'r rhai y mae yn eu gadael heb faddeuant a heddwch. Er eu bod yn fuan i gael eu taslu i uffern, etto, tra yma ar y ddaear, y mae ei ragluniaeth yn cyrhaedd atynt. Ac a yw Duw yn porthi y cigfrain hyn—adar aflan? Ac a yw efe yn peri i'w wlaw ddiferu brasder ar eu meusydd hwynt, ac yn dy esgeuluso di, dybygit,

sydd yn gredadyn? Os gwna brenin borthi Bradur yn ei garchar, yn sier ni chaiff y plentyn yn ei dŷ mo'i newynu. Mewn gair, i fwrw at gymmhwyriad (*Luc* xii. 28), os yw Duw yn ei ragluniaeth yn rhanu n or hel-aethi ag y gwelwn ei fod i'r annuwiol; os dillada efe felly y fath lysieuyn—cyffelybiaeth digon addas am yr annuwiol—yr hwn sydd heddyw yn y maes, ac yfory a fwrir i lsgffwrn—uffern, pa faint mwy y dillada efe chwi, O rai o ychydig fydd?

4. A wyt ti mewn heddwch â Duw? O, ynte, na ddangos ddim anfodlonrwydd wrth un groes neu gystudd a drefno ymweliad Duw i ti. Os ymwelodd efe yn gyntaf â thi â'i drugaredd, y mae i ti achos i'w groesawu pan ddelo i ymweled â thi â'i wialen. Y mae genyt fêl yn dy ymyl bellach i felusu dy gwpanaid chwerw. Pan ddaeth y prophwyd Samuel i Bethlehem, dywedir, "Henuriaid y ddnas a ddychrynasant wrth gyfarfod âg ef; a dywedasant, Ai heddychlawn dy ddyfodiad?" *1 Sam.* xvi. 4. Felly, pan ddelo Duw atom mewn rhyw gystudd dwys, gall hyn beri i ninnau frawychu, nes y gwypom ei neges, ai heddychlawn ai nad ê. Yn awr, os wyt ti mewn heddwch â Duw, y mae yr ofn drosodd; nis gall efe ddyfod ond yn heddychlawn. Gelli benderfynu fod y cystudd yn dyfod ar neges trugaredd. Pa gyflwr y gelli di, enaid a gymmodwyd, fod ynddo, a ddylai wahanu rhyngot a lawenydd dy heddychiaid â Duw? Ai digder dyn yr wyt yn ei ofni? Ysgatfydd fod i ti elynion lawer, a'r rhai hyn yn fawrion, a'u digder mor fawr ag y gall y cyfryw ei fynegi. Boed felly! A yw Duw yn eu mysg, ai nad yw? A yw Duw, yn ei ddigder, yn gollwng allan eu digder hwynt yn dy erbyn? Os nad yw, yr wyt yn gwneud cam â Duw trwy fod heb sancteiddio ei enw ef yn dy galon, yr hwn y mae ei drugaredd, mi obeithiaf, yn ddigon i'w ddiogelu rhag eu digder hwynt: "Os yw Duw trosom, pwy a all fod i'n herbyn?" *Rhuf.* viii. 31. Nid rhaid i ti eu hofni hwynt, er i lu o honynt fod o'th amgylch, mwy na phe baent gymfod o duswau o wellt. Ac yr wyt yn gwneud cam â thi dy hun hefyd. Pa fodd yn wir y gallwn wneud cam â Duw heb wneud cam hefyd â ni ein hunain? Cyhyd ag y byddi dan rym y fath ofn gan ddigder dyn, nid oes modd i ti gael y prawf o gariad Duw yn ei wir fel-uder.

Drachefn, A wyt ti yn glaf, yn dlawd, a pha beth heb law hyny? Onis gall Duw yn rhesymol ddisgwyl i drugaredd faddeuol gau dy enau rhag sisial un gair anfoddog yn ei erbyn ef, ac attal pob edrychiad â llygad cenfigenus ar lwyddiant yr annuwiol? Cofia, ddyd, y gelli ddywedyd un gair mawr nas gallant hwy yng nghanol eu holl rwysg a'u gwycheder bydol: "Er bod yma yn dlawd a

chlas, etto yr wyf, trwy drugaredd, mewn heddwrch â Duw. Hyn, o'i bwyso, a newidiai yn fuan dôn pob un o honoch; llawenydd y pechadur esmwyth arno i alar chwercw; a'th dristwrch dithau, Gristion, i lawenydd. Y dywysoges Elizabeth, brenhines radlawn Lloegr ar ol hyny, wrth gylwed llangces wladaid yn canu yn llon yn y maes, pan oedd hi, dywysoges druan, yn garcharores ofidus, yn fwy parod ei hochenaid na'i chaniad, er cael gweini iddi fel tywysoges, dywedodd, "Y mae'r llangesig dlawd yn hapusach na mi." Ac felly y pechadur, pa mor fawr ac uchel bynag yn y byd, yntau a gyfrifai y Cristion tlotaif, yn ei fratiaw a'i waeledd, yn well a dedwyddach dyn, yn ei ryddid a'i heddwrch â Duw, nag ef ei hun yn ei holl wychder a'i lonfyd daearol, pe byddai iddo ond ystyried, yng nghanol y rhai hyn oll, mai carcharor ydyw, nid i ddyn, ond i Dduw, o law yr hwn nid oes diangfa.

5. Ymgysura â hyn, y cei di sy mewn heddwrch â Duw yn awr ar y ddaear, wledda gyda Duw cyn bo hir yn y nefoedd: "A'r rhai a gyfiawnhaodd efe, y rhai hyny hefyd a ogoneddodd efe;" *Rhuf.* viii. 30. Ac na feddwl y newydd da hwn yn rhy dda neu fawr i fod yn wir. Dyna air am y peth; ti a weli fod nifer saint gogoneddus y nef yn cael ei wneud i fyny o bechaduriaid a gyfiawnhawyd. Ni fydd na mwy na llai o'r naill nag o'r lleill. A wyt ti wedi dy gyfiawnhau trwy ffydd, trwy yr hon y mae genyt heddwrch â Duw? Yna, na choll dy ragorfraint; eithr llawenycha gyda'th gyd-saint yn y gobaieth am ogoniant Duw. Y mae hwn o'th flaen; pob dydd yn dy ddwyn yn nes ato; ac heb ddim a all dy attal i'w gael o'r diwedd; na all, hyd yn oed dy bechodau; ac ni a wn mai y rhai hyny yr wyt yn eu hoffi fwyaf. Yr hwn a'th ryddhaodd o dy fawr ddyled ar dy droedigaeth, yn sier efe a fedd drugaredd ddigon i faddeu dy fân dyledion, y darfu i ti redeg iddynt trwy dy wendid dy hun a dichellion Satan. Gelyn oedditi, pan aeth Duw at y gwaith cyntaf; ond yn awr, cyfaill ydwyf; ac fe fydd i hyn ei rwyne ef i wneud y llall, fel na chollo yr hyn a dreuliodd ar y gwaith cyntaf. Iê, gwnaed darpariaeth gan Dduw yn ei drefniad o'n hiachawdwriaeth am y naill mor gadarn ag am y llall. Eu Crist farw i'n gwneud ni, elynion Duw, yn gyfeillion iddo: ac y mae efe yn awr yn byw i ddwyn Duw a ninnau, ar ol ein heddychu fel hyn, i gydgyfarfod yn yr un nef. Iê, o'r ddaud, y mae yr apostol yn rhoddi y rhagoriaeth i hwn i'n ffydd orfoleddu yndo: "Canys os pan oeddyn yn elynion y'n heddychwyd â Duw trwy farwolaeth ei Fab ef; mwy o lawer, wedi ein heddychu, y'n hachubir trwy ei fywyd ef;" *Rhuf.* v. 10. Fel pe dywedasai efe, A ellwch chiwredu

ddarfod i Dduw eich cymmeryd chiwredu oedd yn elynion gwaedlyd i ystâd o heddwrch a chymdeithas ag ef ei hun? Yn sier, ynte, y mae yn rhaid i chiwredu ei gael yn beth haws i'ch ffydd ddadlau oddi wrth gymmod i gadwedigaeth, nag oddi wrth ddiog a gelyniaeth i gymmod a heddwrch. A allai Crist gael y naill trwy farwolaeth pan oedd wanaf, fel y gallaf ddywedyd, ac yn y radd isaf o'i ym-ostyngiad? pa faint mwy y bydd yn alluog i achub y rhai a heddychwyd, pan y mae yn uchder ei fri yn llys y nef, a phob gallu wedi ei roddi iddo; ac yn neillduol, agoriadau uffern a marwolaeth, i'w hagar a'u cau fel y gwelo yn dda?

6. A wyt ti yn heddwrch Duw? A thi yn gwybod daioni Duw i ti dy hun, cais emill erwyd i goffeidio yr un drugaredd. Nid yw y tŷ ddim mor llawn nad oes etto le: *Luc.* xiv. 22. A oes genyt neb yr wyt yn eu caru mor fawr ag i'w dymuno yn hapus fel ti dy hun? Fe allai fod genyt briod anianol yn gorwedd wrth dy ochr, plant dy frw neu dy lwynau, cymmydogion, y rhai yr wyt yn eu cymdeithas beunydd, neu yn agos; a'r rhai hyn oll mewn cyflwr anghymmogol: y rhai, os byddant feir fel y maent yn awr yn byw, y bydd eu heneidiau gwerthfawr yn golledig byth, ac etto heb feddwl mwy eu hunain am y trueni sy yn dyfod arnynt, nag y gwna'r ddaedf wrion am waith y cigydd, pan fyddo yn hogi ei gyllell i ollwng ei gwaed. Wele po leiaf eu trugaredd hwynt at eu heneidiau eu hunain, mwyaf yw yr angen am i ti ddangos dy dosturi atynt. Ni a gymmerwn ofal mwy am y rhai sydd leiaf eu gallu i gymmeryd gofal am danynt eu hunain. Fe byddai genyt gyfaill yn glaf yn dy dŷ, ac o'r fath glefyd na fedrai efe mo 'i helpio ei hun, a gai efe farw yn hytrach nag yr edrychit ti ar ei ol? Pe byddai bachgen yn gonddemmedig i farw, er na ofalai efe ei hun i ymgais am bardwn, etto yn sier ti a redit ac a dramwyit i'w gael iddo, yn hytrach na'i weled yn diweddau ei ddyddiau mor waradwyddus. Mewn gair, pe gwybyddit ond fod dy gymmydog nesaf ar fwriad i'w ladd ei hun, ac i'r diben hwn, wedi cau ei hun i fyny mewn ystafell, oni ymgynhyrfit ti i dori y drws, yn hytrach na'i adael i'r aflwydd hwn? Ond, och! pa le y mae y trais duwiol a ddefnyddir at achub eneidiau truan? Rieni, gŵyr, cymmydogion; medrant edrych ar eu perthynasau yn myned i uffern o flaen eu llygaid, a phwy a ddywaid wrthynt, pa ham y gwnewch felly? O! er mwyn yr Arglwydd, byddwch yn fwy tosturiol wrth eneidiau ereill. Yr wyt ti wedi cael gwledd; na â di neb sydd yn agos at newynu o eisieu gwybod pa le y mae hi i'w chael. Dos, a gwahodd bawb a weli i dŷ Dduw; felly y gwnaeth Dafydd; "Profwch a gwelwch mor dda yw yr

rglwydd;" *Salm. xxxiv. 8.* Nid rhaid i ti fni sen gan Dduw am anfon iddo chwanege westwyr. Y mae efe yn achwyn o eisieu hwaneg: "Ni fynwch chwi ddyfod ataf fi, el y caeloch fywyd;" *Ioan v. 40.* Mae yn ygwth y rhai sy yn cadw pechaduriaid raw rhag gwneud eu heddwch ág ef trwy reiseithio iddynt am heddwch gau: Gelwir yn yn "gadarnbau dwylaw yr annuwiol, el na ddychwelai o'i ffordd ddrygonus, rwy addaw iddo einioes:" *Ezec. xiii. 22.* O! nor gymmeradwy nte sydd raid i'r gwaith od o emill eneidiau at Grist! Nid yw y narsiantwr yn ddig am anfon prynwyr i'w ystordy, i brynu yr hyn y bu efe aewn cymmaint cost a llafur i'w gael at ei werthu. Ac ni feia y meddyg ar neb am ldwyn dyn claf atto, trwy iachau yr hwn gall efe beri i'r byd wybod ei fedr a'i gyfrwyddyd. A hyn ydyw y bwriad mawr gan Grist er ys talm, ie, a matter pennodol yn ei weddi: "Fel y credo y byd mai tydi ym hanfonaist i;" *Ioan xvii. 21.* Beth yw ei fwriad wrth gasglu eneidiau i mewn trwy as yr efengyl ond cymmeryd iddo ei hun, llan o'r dorf o bechaduriaid, bobl i'w enw *Act. xv. 14?* hyny yw, dethol nifer allan, gan ddangos trugaredd i'r rhai y byddai ddo fawr ddyrchafu ei enw ei hun ynddynt.

PENNOD VIII.

Fod heddwch cydwybod yn fendith sydd i'w chael o'r efengyl, a'r efengyl yn unig, gydag amlygiad dyblg o hyny.

DEUNW yn awr at yr ail fath o heddwch; a hwnw yn heddwch o gysuriad, neu heddwch cydwybod. Trwy yr un cyntaf yr heddychir pechadur â Duw; trwy hwn yr heddychir yr enaid ág ef ei hun. Er pan syrthiodd dyn allan â Duw, nis gallai efe byth gaffael gwir heddwch â'i gydwybod ei hun. Felly y mae yr ail heddwch hwn mor rheidiol, fel na ddichon efe brofi melusder y cyntaf, na melusder un drugaredd arall hebdo. Y mae hwn i'r enaid megys iechyd i'r corph; y mae yn melusu pob mwyniant. Dillad, pe byddent o frethyn euraidd, ni orweddant yn esmwyth ar gefn dyn claf. Nid oes dim a lona gydwybod dralodous. Dygodd Moses newydd da i'r Israeliaid gofidus yn yr Aipht; etto, dywedir, "Ni wrandawsant arno gan gyfyngdra ysbryd;" *Ecsod. vi. 9.* Hannah, hithau, a aeth i fyny i'r wledd yn Ierusalem gyda'i gŵr; ond dywedir, "Hi a wylai, ac ni fwytâai;" *1 Sam. i. 7.* Yn ddiau, fel hyn yr â enaid dolurus i'r bregeth, eithr heb fwyta o'r wledd o'i flaen; y mae yn clywed addewidion gwerthfawr, etto heb dderbyn y newyddion da sydd ynddynt. Dywedwch wrth un mewn blinder cydwybod, Dyma eich

priod anwyl, a'ch planthawddgar, ai ni fyddwch chwi lawen gyda hwynt? Och! y mae doluriau y cyfryw un mor drymon, fel na wna efe gyfrif o'r pethau hyn mwy na gwraig Phineas o newydd y gwagedd, pan ddywedasant wrthi, yn ei gwewyr tost, "Ti a esgoraist ar fab." Pe gosodid y wledd fwyaf brenhinol a fu erioed ar fwrdd tywysog o flaen y cyfryw un, byddai well ganddo, enaid truan, fyned i gongl ac wylo, nag eistedd a bwytia o'r danteithion hyny. Ysbryd cystuddiedig, pwy a'i dwg? ie, pwy a'i hiachâ? Gelwir ambell afiechyd, gan mor anfeddyginiaethol yw, *ludibrium medicorum*, gwaradwydd y meddygon. Yn wir, y mae y blinder ysbrydol hwn, o gydwybod gyhuddol, yn rhoddi yr holl fyd i gywilydd am ei gynnorthwy ofer. Y mae llawer wedi ceisio tinghedu y drwg ysbryd hwn allan o'u mynwesau eu hunain, ac ereill; ond cawsant ef yn y diwedd yn rhuthro arnynt, ac yn eu gorchfygu, megys y gwnaeth y drwg ysbryd â meibion Seefa: *Act. xix. 16.*

Yn awr, yr wyf i ddangos mai bendith yr efengyl, a'r efengyl yn unig, yw heddwch cydwybod. Hi a ddywed, "Yr Iesu a adwaen, a'i efengyl a adwaen;" ac i'r rhai'n yn unig yr ufuddhai hi. Dau beth, o'u hystyried, a amlygant wirionedd y pwngce. Yn gyntaf, os ystyriwn pá beth yw y ddadl a heddycha ac a foddlonag gydwybod. Yn ail, pa fath yw y grym a'r gallu sy yn ofynedig i gymmhyso a gwasgu adref y ddadl hon at y gydwybod, fel ag i'w thawelu a'i llawn heddychu. Ceir y rhai hyn yn yr efengyl, ac yn yr efengyl yn unig.

DOSE. I.

1. Ymfodynwn beth yw y ddadl sydd yn ddigon i heddychu cydwybod, fyddo wedi ei llawn ddihuno. Yn awr, i wybod hyn, rhaid i ni chwilio pa beth yw yr achos o'r holl loesion hyny o fraw a dychryn, gan bari y mae cydwybodau dynion ar amserau, yn cael eu rhywgo a'u hystumio mor erchyll. Yn awr, pechod yw y drwg. Pe gellid llwyr ddileu y gair bach hwn (eithr pla mawr) allan o feddyliau a chalonau dynion, buan y tawelid yr ystorn, ac y byddai yr enaid fel môr tawel, llonydd, a llyfn, heb y don leiaf o ofn i hacru ei wyneb. Hwn yw y Ionah, sy'n codi y dymmhestl; yr Acan sy'n blino yr enaid. Pa le bynag y delo hwn, fel y sylwyd am yr frenhines fawr yn Ffraince, y mae rhyfe yn sicr o ganlyn. Pan bechodd Adda, efe a doddodd dlws rhagorach na'r un a doddodd Cleopatra i'w yfed: efe a yfodd, ar un trafhwngc annedwydd, y cwbl o'r heddwch melus hwn yn y gydwybod; a hwn yn fwy ei werth na'r byd yr oedd ynddo. Nid rhyfedd iddo ymgodi yn ei gydwybod, cyn gynted ag yr aeth i lawr ei wddf. "Hwy a wybuant eu bod yn noethion;"

Gen. iii. 7. Eu cydwybodau a'u cyhuddasant fel gwrthgilwyr mælddigidig. Gan hyny, yr hyn a ddwg heddwch i gydwybod, y mae yn rhaid iddo gwympo y Goliath hwn, bwrw y Ionah hwn dros y bwrdd, a thynu y saeth hon allan o'r enaid; os amgen, ni dderfydd y rhyfel; ni lonydda yr ystorm; a'r archoll dwfn yn y gydwybod ni cheuir, ac ni iacheir. Yn awr, blaen gwenwynlyd saeth pechod ydw euogrydd: hwn, trwy ei bigiadau a'i boeniad parhaus, sy'n cadw y pechadur truan yn afonydd; i.e. weithiau mewn dirboen a dychryn anoddefadwy; a thrwy hyn y mae y creadur dan wys i farn, ac yn rhwym i'r gosp ddyledus am ei bechod. A chan nad yw hon yn ddim llai na digder diderfyn y Duw byw am byth, y mae yn rhaid i hyn osod y creadur truan mewn ing arswydus, gan y disgwyl ofnadwy am dani yn ei gydwybod gyhuddol. Gan hyny, y neb a fynai gael dadl a heddycha ac a gysura gydwybod drallodus sy yn gorwedd ac yn rhositio ar y marwor hyn o w'g Duw, a enynwyd gan euogrydd, y mae yn rhaid iddo, at ddi-fodd y tân hwn, ddwyn i'r dyn y newydd sicr o'r genadwri orfoleddus hon, fod ei bechodau oll wedi eu maddeu, a bod Duw dig, yr hwn sy yn ei frawychu mor fawr, wedi ei gymmodi âg ef yn ddiammheul, i.e. yn dragwyddol. Hyn, ac nid un ddadl arall, a wna gau safn cydwybod, a dwyn i'r creadur wir heddwch â'i feddyliau ei hun. "Ha fab, cymmergysur," medd Crist wrth y claf o'r parlys, "maddeuwyd i ti dy bechodau;" *Mat.* ix. 2. Nid, Cymmergysur, rhoddyd i ti iechyd, er iddo gael hyny hefyd, ond maddeuwyd i ti dy bechodau. Pe deuai cyfaill at ddrwgweithredwr ar ei ffordd at y crogbren, gan roddi clwm o flodeu peraid yn ei law, a pheri iddo ymgysuro, ac arogli hwnw; oeh, ni ddygai hyn ond llonder gwan i'w ganlyn i galon y truan sy yn gweled y dienyddle o'i flaen. Ond, pe deuai un oddi wrth y brenin â phardwn ganddo, gan ei roddi yn ei law, ac erchi iddo ymgysuro; hyn, a hyn yn unig, a gyrhaedd galon y dyn truan, ac a'i lleinw yn ebrwydd â llawenydd dirfawr. Yn ddiaw, y mae rhywbeth llai na thrugaredd faddeuol yn beth mor aneffeithiol i gydwybod drallodus tuag at ei rhyddhau a'i heddychu, ag a fyddai y fath flodeuglwm yn llaw carcharor ar fin marw. Y mae cydwybod yn gofyn cymmaint i'w boddloni a Duw ei hun i'w foddloni yntau, am y cam a wnaeth y creadur âg ef. Ni ddichon dim dynu cydwybod oddi wrth gyhuddo, ond yr hyn sy yn tynu Duw oddi wrth fygwth. Swyddog Duw yw cydwybod, yr un a rydd efe ar waith i ddal y pechadur. Yn awr, ni fedd y swyddog awdurdod i ryddhau ei garcharor, ar ryw ammodiad dirgel rhyngddo ef a'r carcharor; ond ymwrandaw a wna

efe a lawn dalwyd y ddyled, neu a foddlonwyd y gofynwr: yna, ac nid cyn hyny, y mae efe yn rhydd oddi wrth ei garcharor. Wele, nid oes i ni bellach ond un cam chwanaeg i'w roddi at ddwyn yr eglurhad o hyn i ben.

O ba barth y daw y newydd da hwn, fod Duw newn cymmmod âg enaid tlawd, a bod ei bechodau wedi eu maddeu? Yn sicr, efengyl Crist, ac nid o un lle arall. Ym hyn unig y mae y cyfammod heddwch rhwng Duw a phechaduriaid i'w ddarllen: yma y dangosir yr aberth a bwrcasodd y maddeuad hwn; yma y dadguddir y moddion i bechaduriaid truan gael budd y pwrcas hwn; ac felly, yma yn unig y dichon y gydwybod gyhuddol gael heddwch. Pe buasai i'r Israeiiaid brathedig edrych ar ryw wrthddrwyg arall, heb law y sarph bres, byth ni iachesid hwynt: felly, ni iacheir y gydwybod a frathwyd trwy edrych ar ddim heb law Crist yn addeuwr yr efengyl. Y Lefiaid a'r offeiriad a edrychasant ar y dymarcholledig, ond ni fyent ddyfod yn agos ato; yno y gallasai orwedd a threngi yn ei waed, o'u rhan hwynt. Y Samariad daionus a dywalltodd olew i'w archollion ef. Nid y ddeddf, ond Crist trwy ei waed, sy'n golchi, yn ystwytho, yn cau i fyny ac yn iachau y gydwybod archolledig. Nid oes yn yr holl fyd ddiferyn o olew i'w gael, sydd o ddim gwerth i'r diben hwn, heb law yr hyn sy'n ddarparredig ac yng nghadw yn phiol yr efengyl. Fe offrymwyd helaethrwydd o aberthau yn yr eglwys Iuddewig; etto, pe rhoddid holl waed yr anifeiliaid hyny ynghyd, a dywalltwyd o ddechreu i ddiwedd yr oruchwyliaeth hono, ni allasai y cwbl lonyddu un gydwybod, na golchi ymaith un pechod. Buasai cydwybod pechod, yn ol ymadrodd yr apostol (*Heb.* x. 2), sef euogrydd yn eu cydwybodau, yn aros o hyd heb ei ddileu er y rhai hyny i gyd, os gwahenid hwynt oddi wrth yr hyn oedd yn eu harwyddocad ysbrydol. A'r rheswm a roddir yn *adn.* 4, "Canys amhossibl yw i waed teirw a geifr dynu ymaith bechodau." Nid oes dim cyfattediad rhwng gwaed anifeiliaid, pe chwyddai yn afon, i.e. yn fôr, a drwg haeddiant y pechod lleiaf. Y mae pechod dyn yn haeddu morwolaeth dyn, a hono yn dragwyddol i enaid a chorff yn uffern. Dyma y pris a osododd Duw ar ben pob pechod. Yn awr, gan fod marwolaeth anifeiliaid mor bell islaw y tâl a ofyn cyfiawnder dwyfol, fel iawn am y cam a wna pechod âg ef; y mae yn rhaid fod hyny yn fyr yr un modd at heddychu cydwybod y pechadur: canys y mae hi yn gofyn cymmaint i'w boddloni, i.e. yr un peth yn gwbl, ag sydd yn ofynol i foddloni cyfiawnder Duw ei hun.

Eithr yn yr efengyl, wele newydd gor-

folleddus a ddygir i glustiau y pechadur, am "ffynnon wedi ei hagog yno, yr hon o rar ei gwerthfawrogrwydd sy gymmaint uwch law y pris y mae cyfiawnder dwyfol yn ei ofyn am bechod hyn, ag ydoedd gwaed teirw a geifr islaw iddo : a hwnw yw gwaed Iesu Grist;" yr hwn a'i hael-dywalltodd ar y groes, gan gael trwyddo "i ni dragwyddoldeb rhyddhâd;" *Heb. ix. 12.* Dyma y drws y daw pob gwir heddwch a llawenydd trwyddo i'r gydwybod: o herwydd hyn y'n cyfarwyddir i seilio ein hyder a sugno ein cysur yma, ac nid yn un lle arall. "Nesawn â chalou gywir, mewn llawn hyder ffydd, wedi glanhau ein calonau oddi wrth gydwybod ddrwg;" *Heb. x. 22.* C'raffwch ar hyn: glanhau oddi wrth gydwybod ddrwg. Y mae cydwybod wedi ei gosod mewn swydd, i farnu am waith a chyflwr dyn, ai drwg ai da, ai heb heddwch, ai wedi ei gael. Os bydd y cyfiwr yn dda, yna y mae hi i ryddhau a chysuro; os drwg, yna i'w gyhuddo a'i gondemnio. Gan hyn, y gydwybod ddrwg yma yw cydwybod yn cyhuddo. Oddi wrth y gydwybod ddrwg hon y dywedir ddarfod ein glanhau neu ein taenellu, sef ein rhyddhau trwy waed Crist yn daenelledig arnom. Am bechod y mae y gydwybod ddrwg yn cyhuddo; ac i ddigofaint, neu y gosp ddyledus am dano, y mae hi yn condemnio y creadur truenus: a chael taenellid â gwaed Crist ydŵw cael cymmhwysiad o waed Crist at y galon, trwy yr Ysbryd, er maddeuant a chymmod â Duw. Yr oedd taenellu dan y gyfraith yn arwyddo glanhâd yr un a daenellid felly oddi wrth bob afendid deddfol: *Lev. xiv. 6*; i.e. a glanhâd y credadyn oddi wrth bob afendid pechadurus, trwy waed Crist, a arwyddoedd trwy waed yr aberthau hyn. Am hyn y gweddiad Dafydd, "Glanhâ fi âg isop, a mi lanheir;" *Salm. li. 7*, hyn yw, cymmhwysa waed Crist at fy nghydwobod derfysglyd, fel y gwnaent hwy, gyda thusw o isop, â gwaed yr anifail y trochid ef ynddo, ar y gwahan-glywffus i'w lanhau. "Yna," medd efe, "mi a lanheir; golchir ymaith y pechod hwn, sydd yn awr yn brawychu fy nghydwobod; a byddaf mewn heddwch, fel pe ni phechaswn." At y taenellid gwaed yma y mae yr Ysbryd Glân yn cyfeirio, *Heb. xii. 24*, lle y dywedir i ni ddyfod, tan oruchwyliaeth yr efengyl, "at Iesu, cyfryngwr cyfammod gwell, ac at waed y taenellid, yr hwn sydd yn dywedyd pethau gwell na'r eiddo Abel;" hyn ydŵw, pethau gwell yn y gydwybod. Yr oedd gwaed Abel yn daenelledig trwy yr euogrydd o hono ar gydwybod Cain, yn llefaru cleddyfau a saethau, uffern a damnedigaeth. Eithr y mae gwaed Crist, o'i daenellu ar gydwybod pechadur truan crynedig, yn llefaru cymmod a heddwch. Hyn a elwir yn "ymatteb

cydwybod dda tuag at Dduw trwy adgyfodiad Iesu Grist;" *1 Pedr. iii. 21.* Y mae ymatteb yn arwyddo fod holiad; ymatteb tuag at Dduw yn arwyddo fod holiad gan Dduw ar y creadur. Yn awr, yr holiad a feddylir sy gan Dduw ar y creadur truan, gellir dirnau hyn fel ei gynnwysiad: pa beth sy genyt ti i'w ddywedyd (sydd yn bechadur, a thrwy felldith fy nghyfraith gyfiawn i wedi dy farnu i farwolaeth a damnedigaeth) pa ham na byddai i ti farw y farwolaeth a ddadganwyd yn erbyn pob pechadur?

Yn awr, yr enaid a glywodd am Grist; a chan glywed a'i derbyniodd trwy ffydd i'w galon, yw yr un, a'r unig un, a all ateb yr holiad hwn, fel ag i foddioni Duw neu ef ei hun yn ddiau. Cymmerwch yr ateb fel y mae wedi ei ffurfio, ei addasu, i.e. a'i osod fel yn y genau i bob credadyn gan yr apostol Paul: "Pwy yw yr hwn sydd yn damnio? Crist yw yr hwn a fu farw, i.e. yn hytrach, yr hwn a gyfodwyd hefyd, yr hwn hefyd sydd ar ddeheu law Duw, yr hwn hefyd sy'u erfyn drosom ni;" *Rhuf. viii. 34.* Y cyfryw ateb yw hwn fel na ddichon Duw ddadleu i'w erbyn. Ac am hyn y mae Paul, gan arddangos y rhai crediniol oll, yn gorfoleddu yn y grym anorchfygol sydd ynddo yn erbyn holl elynion ein iachawdwriaeth: "Pwy a'n gwahana ni oddi wrth gariad Crist?" *adn. 35*, ac yn myned rhagddo i ofyn gwaethaf anegu a diaffiaid gyda'u cymdeithion oll, i ddilyn eu cais yn erbyn y credinwyr, sydd â'r gwarehglawdd hwn o'u hamgylch. Ac o'r diwedd, y mae yn lledu ei faner fuddugoliaethus, ac yn myned o'r maes yn yr hyder sanctaidd hwn, na chaiff dim byth, bydded y peth a fyddo, eu drygu hwynt: "Y mae yn ddiogel genyf na all nac anegu nac einioes, nac angylion na thywysogaethau...ein gwahanu ni oddi wrth gariad Duw, yr hwn sydd yng Nghrist Iesu ein Harglwydd;" *adn. 38, 39.* Ynddo ef y mae yn gosod ei faner i'w chadw, ac yn trysori ei holl hyder. Ond yr wyf yn ofni fy mod yn rhy faith, os oes modd bod yn rhy faith ar y testyn hwn, y wythien gyfoethocaf yn holl fwnglawdd trysor yr efengyl.

DOSE. II.

2. Amlygiad a gymmerir oddi wrth y grym a'r gallu sy'n ofynedig i wasgu y ddad hon adre at y gydwybod, fel ag i'w boddioni hi, a pheri iddi ymlonyddu yn hyn. Clo anhawdd i'w drin yw cydwybod. Er i'r agoriad fod yn ateb iddo, sef i'r ddadl a ddefnyddier i'w chysuro, fod yn addas a chref, etto, os bydd i'r agoriad hwn fod mewn llaw wan nas gall ei droi yn y clo hwn, a hyn a fydd bob amser pan na byddo ond llaw creadur yn unig i'w ddal, ni ymgyr cydwybod; hyn yw, ni ddattodir ei hammheuron a'i hofnau. Na; rhaid yw i hyn fod yn waith yr Ysbryd,

onid e, ni wneir mo hono byth. Swyddog Duw yw cydwybod; felly, er i'r ddyled fod wedi ei thalu yn y nef, etto, ni ollwng hi yr enaid yn rhydd nes y delo gwarant oddi yno i awdurdodi hyn. A phwy a all ddwyn hon ond Ysbryd Duw? Ac felly, megys nad yw yng ngallu y rhai a fyddo o ddeutu y carcharor truan i roddi iddo gysur nes y delo newydd o'r llys am fwriad y brenin yn ei achos, felly yma, yn yr achos hwn, "Pan esmwythao efe, pwy a auesinwytha? a phan guddio efe ei wyneb, pwy a edrych arno?" *Iob xxxiv. 29.* Yn awr, dau beth a wnaif at ddwyn yr amlygiad hwn i ben. Yn gyntaf, dangos mai yr efengyl yn unig sydd yn egluro Ysbryd Duw i ni, dan y golygiad o Ddiddanydd. Yn ail, yr addasrwydd a'r digonedd rhyfeddol a fedd yr Ysbryd Glân i lonyddu a diddanu cydwybod euog drallodus. Y cyntaf a ddengys nad yw heddwch cydwybod i'w gael o un lle ond o'r efengyl. Yr ail a brawf ei fod i'w gael yno yn llawn a helaeth.

Iaf. Yr efengyl yn unig a fynega am Ysbryd Duw fel Diddanydd i bechaduriaid truan. Yn wir, y mae swydd ddiddanol yr Ysbryd Glân yn seiliedig ar iawn Iesu Grist. Wedi i Grist dywallt ei waed, a thalu i lawr gyflawn bris heddwch pechadur a Duw, y mae efe ar ei ddychweliad i'r nef yn gweddto ar ei Dad am iddo anfon y Diddanydd. Ni allasai Crist ddeisyf hyn gan ei Dad, na'i Dad ganiatau hyn iddo, ond ar gyfrif ei farwolaeth, yr hon sydd yn diogelu cyflawnder Duw rhag cael cam na cholled trwy y diddanwch a ddwg yr Ysbryd Glân i fynwes y pechadur crediniol. Mae Crist yn mynegi cymmaint a hyn i'w ddisgyblion: "Onid âf fi, ni ddaw y Diddanydd atoch; eithr os mi a âf, mi a'i hanfonaf ef atoch;" *Ioan xvi. 7.* Attolwg, craffwch, y mae yr Ysbryd, fel Diddanydd, yn aros nes i Grist fyned i'r nef i'w ddanfôn i lawr; a dim lle i Grist yno nes gorphen y gwaith y daeth efe arno. A pha beth oedd hwnw ond pwr-casu heddwch a Duw i bechaduriaid tlodion crediniol trwy ei farwolaeth waedlyd? Ar hyn, deud pan fyddo, y mae yr Ysbryd yn barod i gael ei anfon fel Diddanydd, cyn gynted ag yr ymddangoso efe yn y nef gyda'i waed fel Eiriolwr. Ond o bale, felly, y cafodd saint yr Hen Destament eu heddwch a'u cysur, y rhai oedd yn oesi cyn i Grist ddychwelyd i'r nef, te, cyn iddo ddisgyn o'r nef i'r ddaear? Yr wyf yn ateb, ar yr un cyfrif y cawsant eu cysur ag y cawsant eu cymmiod. Hwy a gymmodwyd trwy waed Crist, yr hwn mewn effaith ydoedd "Oen wedi ei ladd er dechreuad y byd;" a hwy a ddiddanwyd gan Ysbryd Crist, yr hwn y mae ei swydd ddiddanol o'r un dyddiad a swydd gyfryngol Crist. Megys yr oedd yr holl faddeudau (*pardons*) a gawsant yn deilliaw o'r gred neu yr ym-

ddiried oedd i Grist, yr hwn oedd yn rhwyr i ddodi ei einioes i lawr yng nghyflawnder yr amser; felly, y cwbl o'r diddanwch dywalltodd yr Ysbryd i'w cydwyboda ydoedd ar gyfrif yr un ymddiried oed i Grist; yr hwn, megys yr oedd arn farw ar y ddaear, dros bechaduriaid, yn nghyflawnder yr amser, felly hefyd yn ddangos yn y nefoedd trwy rinwedd yr iaw a wnai ei farwolaeth, ac yno eiriol gyda Tad am Ddiddanydd.

Y mae gan yr Ysbryd ei swydd fel Diddanydd oddi wrth gyfammod yr efengyl ac ni allasai efe byth lefaru gair o gysur on ar y cyfrif efengylaidd hwn. Yn ganlyno pan y mae y Tad yn ei anfon ef fel Diddanydd, y mae yn ei anfon yn enw Crist yr hwn a wnaeth y rhwyg i fyny rhyngdd ef a phechaduriaid (*Ioan xiv. 26*); hyny yw er ei fwyn ac ar ei erfyniad ef. Ie, pa yw yr ysbryd yn diddanu, pa beth y mae yn ei fynegi? Y newydd da a ddwg ef yw newydd yr efengyl: "Ni lefaru o hon ei hun, ond pa bethau bynag a glywo a lefaru efe;" *Ioan xvi. 13.* Yr ystyr yw, pa ddel efe i ddyysgu, nid dwyn rhyw oleu newydd a wna efe, croes i hwnw sydd yn lle wrychu yn yr efengyl; ond yr un gwirionedd a bregethodd Crist ynddi, hwnw. ddysg efe pan fyddo yn diddanu; y cyffeiriau a wna't i fyny ei gysuron adfywiol e ydynt y rhai sydd yn tyfu yng ngardd yr efengyl: fel yn *adn. 14*: "Efe a'm gogor edda i; canys efe a gymmer o'r eiddof, a a'i mynega i chwi;" sef fy marwolaeth, f haeddiant, fy adgyfodiad, fy esgyniad, fy eiriolaeth, a fy addewidion a bwrcaswyd a a seliwyd a'm gwaged: y rhai hyn a gymmer efe, ac a fynega am danynt i chwi e eich cysura'ch llawenydd bythol. Ac felly, p heb y rhai'n, buasai yr Ysbryd, sy'n Genhauwr Crist, yn fyr o genadwri o'r natur gysur hon i'w dwyn i bechaduriaid truan. Ie yn lle bod yn Ddiddanydd, efe a fuasai y gyhnddwr ac yn boenwr. Yr hwn sydd y awr yn cyd-dystiolaethu a'n hysbrydoedd, er ein cymmudiad, ein mabwysiad, a'n iachawdwr iach, buasai yn uno a'n cydwyboda euog yn ein herbyn, ac er ein condemnio a'n dinystr.

2il. Yr ydwyf i ddangos addasrwyd rhyfedd yr Ysbryd i'r swydd ddiddanaw hon, a ddengys yr efengyl ei bod ganddo er lonyddu a boddioni cydwybodaau pechaduriaid truan a digysur. Yr ydych wedd clywed fod yr efengyl yn rhoddi dadl ddigonol i dawelu y gydwybod fywyf terfysg lyd yn y byd, sef yr iawn cyflawnder a wnaeth Crist i Dduw trwy ei werthfawr waed dros bechaduriaid. Ond pe gadewsid dyn truan i ddefnyddio hyn, yn ol y gore o'i allu, er ei gysur, efe a allasai orwedd y hir ddigon, yn rhoi gar ddychryn ei gydwybod boenedig, heb esmwythad, o ddiwy-

diferyn o'r balm meddyginiaethol hwn iddi. Ond, fel y bu i ddoethineb a chariad Duw ymddangos yn y darpariad o Iachawdwr galluog, i gaffael i ni dragwyddol bryniad, felly hefyd o Ddiddanydd addas, sy mor alluog i gymmhwyso atom y pryniad hwn. Gelwir ei ddiddanwch ef yn gysur cryf. Dangosodd Crist ei nerth pan yr agorodd byrth y bedd, ac y gwnaeth ei ffordd allan o'r carchar tywyll hwnw trwy ei adgyfodiad gogoneddus: trwy hyn "efe a eglurwyd yn Fab Duw mewn gallu," fel y dywed yr apostol: *Rhuf. i. 4.* Ac yn wir, ni wna gallu llai mo'r tro i agor y daearf y mae cydwybod euog yn gauedig ynddo, a'r dyn fel yn rhydd ym mysg y meirw, yn ei feddyliau anobeithiol ei hun; canys os creffwch yn dda, y mae yr un maen a sel ar gydwybod y pechadur, i'w gadw i lawr rhag adgyfodi i gysur, ag oedd ar fedd Crist, i'w gadw i lawr rhag adgyfodi i fywyd. Beth oedd y maen trymaf, y sel gryfaf ar Iesu yn marw, i'w gadw rhag cyfodi? Nid y maen a dreiglodd dyn arno; nid y sel y meddyliodd yr Iuddewon sierhau y bedd â hi; ond mellith y gyfraith am bechod, a dreiglodd cyfiawnder dwyfol arno: hon a bwysodd yn drymaf ar Grist, yn ddigymmhariaeth. Ni allasai yr angel ei hun a dreiglodd ymaith y maen, ddim symmud y felldith. Yn awr, edrychweh ar fedd y gydwybod drallodus, lle y mae ei heuogrwydd ei hun wedi ei gosod—Pa fath yw hwnw? Dim llai na dyfnder uffern, yn ol ei hofnau a'i disgwyliadau alaethus presennol. Yr wyf yn ddamnedig, yr wyf yn greadur colledig byth, yw yr iaith a seiuia y fath un o hyd yn ei glustiau ei hun. Ond ymofynwch pa beth sydd yn ei gadw i lawr yn y bedd hwn; beth sy'n atal, nad ellid helpio yr adyn truan allan o'r pydew erchyll hwn, ac i dderbyn rhyw gysur! Och! efe a ddywed i chwi, nad yw ond ofer ei gysuro ef; fod yr holl oled hwn, a dywelltwch ar ei ben ef, yn myned i gyd yn ofer. Nag ê, pechadur colledig yw efe; y mae mellith Duw yn glynu fel dagra yn ei galon ef; gwg Duw yn gorwedd fel mynydd o blwm ar ei gydwybod ef; oddi eithr i chwi allu rhoddi eich llaw yn ei fywres, a thynu allan y naill, neu trwy fawr nerth dreiglo ymaith y llall, amhossibl yw i chwi ei gyfodi ef i heddwch na chysur yn ei gydwybod druenus. Chwi a welwch mai yr un bedd-faen sydd ar y ddau.

Ond er dy dragwyddol gysur, gwybydd enaid truan, a sierhawyd fel hyn, dan y teinlad o'r felldith ddyledus i'th bechodau; megys mai yr un yw y pwys sydd yn dy gadw di rhag cysur ag a fu yn gorwedd ar Grist i'w gadw ef rhag bywyd felly; fod yr un grym a gallu yn anfonedig i'th gyfodi di i gysur, ag a alluogodd Grist i gyfodi i

fywyd. Yr un Ysbryd, yr hwn a gadwodd yr Arglwydd Iesu rhag gweled llygredigaeth yn y bedd, ac a attaliodd angen, pan oedd Crist megys yn ei safn, fel nad allai ymborthi arno, ddim mwy nag y gallai y morfil dreulio Ionah yn ei gylla; ie, ac a fywhaodd gorph marw Crist, gan ei gyfodi mewn anrhydedd, nid yn uig i fywyd, ond i anfarwoldeb hefyd: efe yw yr un a enfyfyn Crist fel ei genhadwr, i ddyfod a boddloni ei blant truan ar y ddaear, am ei gariad ef, ie, a chariad ei Dad atynt er ei fwyn ef. Y mae gan yr Ysbryd beudigedig hwn bob priodoldeb Diddanydd: y mae efe mor bur a sanctaidd fel na ddichon dwyllo: am hyn y gelwir ef, "Ysbryd y Gwirionedd;" *Ioan xiv. 17.* Os dywed efe fod dy bechodau wedi eu maddeu, ti eelli ei gredu—ni weniethia efe; pe ni byddai felly, efe a ddygasai i ti genadwri arall; canys efe a all roddi sen a cherydd yn gystal a diddanwch, argyhoeddi o bechod yn gystal ag o gyfiawnder. Y mae efe mor ddoeth a hollwybodol, fel nas gellir ei dwyllo. Ni churodd Ysbryd Duw erioed yn y cam ddrws, ac ni roddodd ei lythrau mewn cam law, fel y gall dyn wneud, yn enwedig lle y byddo personau yn dra thebyg. Y mae yr Ysbryd yn llwyr hysbys o galon Duw at y creadur, ynghyd â'i gynghorion a'i fwriadau oll yn ei actos: "Yr Ysbryd sydd yn chwilio pob peth, ie, dyfnion bethau Duw hefyd" (*1 Cor. ii. 11*); a pha rai yw y dyfnion bethau Duw a olyga yr apostol, ond y cynghorion o gariad sy yn gorwedd yn ddwfn yn ei galon, hyd oni byddo i'r Ysbryd eu tynu allan a'u mynegi i'r creadur? Gwelir hyn wrth *adn. 9.* Efe hefyd a wŷr holl ansawdd calon dyn. Peth rhyfedd fyddai, pe ni wyddai y neb a wnaeth y gell-gist am bob llogell sydd ynddi. Y maerhywchydig wŷr wedi angylehu y byd mawr, fel y dywedwn; ond am fyd bach y dyn, fel ei galwn, erioed ni chylchynodd yr un creadur mo hono â'i wybodaeth: naddo, ni wnaeth Satan hyn, er ei fod yn orchwylganddo dros gyunnifer mil o fynyddoedd, i'w gael allan yn gwbl. Eithr Ysbryd Duw, y mae efe yn ei adnabod drwyddo oll, fel y dywedwn; a chan ei fod yn gydwybod cynglor Duw a chalon dyn, nis gellir ei dwyllo.

Mewn gair, y mae efe mor anorchfygol, fel nad all neb luddias effeithiolrwydd ei gysuron. Y maddeuant a gyhoeddodd Nathan i Dafydd, nid oedd yn glynu mor dyn ag y dymunasai y gŵr duwiol; ac am hyn, yn *Salm li.* y mae yn taer erfyn am ddiddanwch y Diddanydd. Yno chwi a'i cewch ef ar ei liniau yn llefain am gael drachefn y llawenydd a gollasai, ac am gadarnhâd i'w galon lesg gan hael Ysbryd Duw. Er y medri dithau drechu dyn, a thrwy dy ddychymmyg athrist dy hun, a dichellion Satan, sy'n llunio gwahan-nodua

at dy law, osgoi rhag y dadleuon a ddwg Cristionigion a gweinidogion at dy gysuro; etto, pan ddel yr Ysbryd ei hun, dyna ddiweddd ar bob dadleuon. Nis gall Satan dda'i i ddadleu âg ef; na, yna diflanu a wna yr ysbryd celwyddog, a'n hofnau ein hunain hefyd, fel y ffy tywyllwch o flaet yr haul. Mor hyfryd a nerthol y gwna yr Ysbryd ddiddanawl i ffrwd o lawenydd lifo dros y galon, fel na ddichon yr enaid ganfod ei bechodau yn yr euogrydd o honynt, mwy nag y canfyddai Noah y pentyrau pridd pan oedd y ddaear oll dan ddwfr.

PENNOD IX.

Cerydd i dri math o ddynion sydd yn troseddu yn erbyn yr heddwch a ddwg yr efengyl.

Defn. 1. Yn gyntaf, Ai bendith yr efengyl ydyw heddwch cydwybod? Y mae hyn yn ceryddu tri math o bobl.

DOSB. I.

1. Y Pabyddion, y rhai mewn effaith a wadant hyn, trwy wadu y dichen neb wybod yn y bywyd hwn, oddi eithr trwy ddadguddiad anghyffredinol, ei fod yn blentyn i Dduw, ac yn un a achubir. Hyn, pe byddai wir, a ddrylliai yn estyll mân y llestri ym mha un y cedwir llawenydd a heddwch tu mewnol y Cristion. O ba le y deillia yr heddwch sydd genym gyda'n cydwybodau ein hunain, ond oddi wrth y wybyddiaeth fod genym heddwch â Duw? "Wedi ein cyflawnhau trwy ffydd, y mae genym heddwch tuag at Dduw;...trwy yr hwn hefyd y cawsoni ddyfodfa trwy ffydd i'r gras hwn, yn yr hwn yrydym yn sefyll, ac yn gorfoleddu dan obaith gogoniant Duw;" *Rhuf. v. 1, 2.* Os gadewir yr enaid truan mewn ansicrwydd yma—ac oni ddichon yr efengyl amlygu i ba le y mae ei dyniad; i'r nef, ai i uffern—yn iach i bob heddwch tu mewnol; yna gall y Cristion tlawd ddywedyd am dano ei hun â chalon grynedig, fel y dywed Ioan mewn achos arall, am yr hwn sydd yn casau ei frawd; "Y mae yn rhodio mewn tywyllwch, ac ni wŷr i ba le y mae yn myned;" *1 Ioan ii. 11.* Yn ddiau gellid ei galw hi yn efengyl ofnau ac ammheuon, yn hytrach nag yn efengyl heddwch. Ond ai dyna ben uchaf y fendith a ddwg yr efengyl i'r saint, yr hon oedd yn agos i waelod y felldith a gyhoeddodd y ddeddf yn erbyn pechaduriaid—y byddai "eu heinioes yng nghrog gyferbyn a hwynt, ac yr ofnent nos a dydd, ac na fyddent sier o'u heinioes?" *Deut. xxviii. 66.* Dynion hyfion sy'n beiddo rhoddi anffurfiad mor hyll ar wyneb glân yr efengyl—gan ddangos Crist yn ei addewidion gwerthfawr yn llefaru mor ammheus wrth ei saint ag y gwnai Satan yn ei oraclau

wrth ei goel-grefyddwyr! Am fod eu rhagrith hwynt yn peri achos iddynt ammlieu am eu hiachawdwriaeth eu hunain, ac heb oddef iddynt gymmhwysu cysur yr addewidion atynt eu hunain; a raid iddynt am hyn gau i fyny y ffynnonau hyn o iachawdwriaeth oddi wrth y rhai sydd yn ddiffuant, a gosod y bai ar yr efengyl, er mai eu rhygioni yw yr unig achos? Eithr y mae rhyw ddirgelwch anwiredd a gafwyd o'r diwedd wrth wraidd yr athrawiaeth ddi-gysur hon o'r eiddynt. Y maent yn geraint lled agos i Iudas, yr hwn oedd leidr, ac yn dwyn y gôd. Y mae ganddynt hwythau gôd hefyd, yn yr hon y dodant fwy o aur ac arian a ddwg yr athrawiaeth hon iddynt, nag a fu gan Iudas erioed yn ei gôd ef. Er y gwnai athrawiaeth gras yr efengyl i bechaduriaid trauin ddwyn mwy o heddwch i gydwybodau ereill, pe gwelid hi yn ei gogoniant noeth yn eu mysg; etto, y mae yr ofn coelgrefyddol y cadwant eneidiau anwybodus ynddo yn dwyn mwy o arian i'w pyrsau hwynt. Ac y mae hyn yn gorwedd mor agos at galon eu crefydd hwynt, nes yw yn rhaid i'r efengyl, Crist, nef, a chwbl, blygu iddo.

DOSB. II.

2. Y mae y rhai hyny i'w ceryddu a ffurfiant luniau tra angharuaidd yn eu tybiau ffol eu hunain am yr efengyl, fel pe na byddai dim heddwch cydwybod a chysur tu mewnol i'w cael ynddi; a hyn i gyd am eu bod yn gweled y rhai a'i professant hi, nas gallant ddangos fod ganddynt ddim mwy o heddwch a chysur er pan ydynt gydnabyddus â'r efengyl nag oedd ganddynt o'r blaen, neu a feddant hwy eu hunain sydd etto yn ddi-eithriaid iddi: ie, fe allai eu bod yn dangos mwy o drallod ysbryd. Dymunwn i'r cyfryw gymmeryd y pethau hyn, mewn ffordd o attebiad, i'w hystyriaeth ddirifolaf.

1af. Ystyriwch mai nid gwir Gristionigion yw pawb sydd yn ymhongion wrth yr efengyl trwy broffes; ac nad oes bai ar yr efengyl, er nad ydyw hi yn rhoddi allan y trysor hwn ar bawb a honant gydnabyddiaeth â hi. Y mae Ysbryd Duw yn rhy ddoeth a chywir i osod ei sel wrth bapwgwg. Y mae y gweinidog yn wir yn cynnyg heddwch i bawb a'i derbynio; ond lle y mae yr efengyl yn taraw wrth galon ffals, nid ers yno: "Oni bydd y tŷ yn deilwng, dycheveled eich tangnefedd atoch;" *Mat. x. 13.* Megys y dychwelodd y golomen yn ol i'r arch pan welodd fod y ddaear dan ddwfr, felly y gwna Ysbryd Duw ddwyn ei gysur gydag ef yn ol i'r nef oddi wrth enaid sydd yn aros hyd yr awr hon yn nhrwyth pechod yn mwydo yn ei ffield-dra. Pa le y gall y golomen nefol hon gael gorphwysd i wadu ei throed yn y fath enaid? Ac a lefara efe heddwch i'r enaid hwnw nas gal efe ei hun gael gorphwysfa ynddo?

2. Mewn golygiad ar y rai sydd yn Gristionogion diffuant, cywir o galon, y mae amryw ystyriaethau a eglurant yr efengyl, fel newydd da, ac fel efengyl heddwch a chysur.

(1af.) Y mae rhai, sydd yn Gristionogion diffuant, ac etto heb ddeall athrawiaeth yr efengyl mor oleu ag ereill; ac y mae eu diffyg o oleuni llawenydd a chysur yn eu cydwybodau yn deillio o'r diffyg goleu yn eu dealltwriaethau. Nid yw anwybodaeth y gweithiwr yn un anfri i'r gelfyddyd; y mae mwy yn y gelfyddyd nag yn y celfyddydwr. Y mae cyflawnder o gysur yn egwyddorion yr efengyl, ond nid yw pob Cristion wedi cyrhaedd y "golud sicrwydd deall i gydnabyddiaeth dirgelwch Duw, a'r Tad, a Christ;" yr hyn y cyfarwydd a'r apostol y Colossiaid ato, megys modd arbenig at hyn, "fel y cysurid eu calonau hwynt;" *Col. ii. 2.*

(2il.) Am rai sydd yn deall yr athrawiaeth o iachawdwriaeth trwy ffydd yng Nghrist, yr unig sylfaen i gyfodi a chynnyddu gwir gysur a heddwch cydwybod arno; etto, hwy a allant, trwy eu diofalwch yn eu gyrfa Gristionogol, neu fod heb rodio yn ofalus wrth reol yr efengyl, eu difuddio eu hunain y pryd hwn o'r heddwch melus a allasai yn amgen lifo i'w mynuesau oddi wrth addewidion yr efengyl. "Cynnifer ag a rodiant yn ol y rheol hon, tangnefedd arnynt;" *Gal. vi. 16.* Ac os felly, pa fai a ellir ei osod ar yr efengyl? Er i'r pin fod o'r fath oreu, a'r llaw yn fwyaf medrus, nid ysgrifena hi ar bapwr gwly: er hyn, ni feiwn ar y llaw na'r pin, ond ar y papyr. Os bydd calon y dyn, pe byddai efe y sant enwocaf, dan halogiad chwant presennol, heb edifarhau am dano, ni lesara un addewid heddwch wrtho. Rhodiwr afreolus yw efe; ac y mae gan yr Ysbryd ei wialen i chwipio y cyfryw; dim bwydydd melus o lawenydd a heddwch i'w croesawu â hwynt yn yr agwedd hono.

(3ydd.) Am y rhai a rodiant yn ddyfal wrth reol yr efengyl—trwy yngais diffuant wyf yn feddwl—a thi heb weled eu bod yn meddu y fath heddwch a chysur ag y soniwn am dano, yr wyf yn ateb,

(1.) Gallant fod yn ei feddu, a thi heb wybod hyn. Nid y fath lawenydd ysgafn chwethrhllyd ag sy gan y byd yw llawenydd a heddwch y saint. Peth dwys yw gwir lawenydd. Y parlawr y croesawa Ysbryd Crist y Cristion ynddo, ystafell dumewnol ydyw; nid y nesaf i'r heol, i bawb a elo heibio gael arogl y wledd. "Y dieithr nid yw gyfranog o'i lawenydd ef;" *Diar. xiv. 10.* Gall Crist a'r enaid fod ar swper oddi mewn, a thi heb gymmaint a gwelud un ddysglaidd yn myned i mewn, na chlywed y gerddoriaeth sydd yn seinio mor beraidd yng nghlustiau

y Cristion. Fe allai dy fod yn tybied ei fod yn fyr o heddwch, am nad yw yn ei wynebpryd yn crogi arwydd allanol o'r llawenydd a'r heddwch sydd o'i fewn. Oeh ddy'n truan! oni all fod gan y sant gydwybod heddwch, gyda gwedd ddirifol, ie, athrist, gystal ag y meddi di a'th gyfeillion galon ffin, pan nad oes dim ond hindda yn eich gwynebau? "Wrth chwethrin y bydd blin ar y galon;" *Diar. xiv. 13.* Yn sicr, meddwl y mae am chwethriniad yr annuwiol. Nid yw y tebygrwydd i wlaw un amser yn fwy gyda hwynt na phan y byddo yn heulo: y mae eu cydwybod yn trymhau pan fyddo y wyneb yn chwethrin. Felly, i'r gwrthwyneb, nid oes un amser fwy o heddwch a chysur i'w cael yn mynwes dyn duwiol, nag ambell waith pan fyddo ei wyneb yn wlyb gan ddaurau. Pe deuit i mewn, a chlywed y Cristion yn cwyntan ac yn galaru, gydag ocheneidiau a daurau am ei bechodau yn erbyn Duw, ti a elit adref gan achwyn ar y grefydd drymllyd hon, a'r cyflwr trwm y mae y dyn ynddo. Ac etto, gall y dyn y tosturit ti felly wrtho, ddeisyf anaf gadw hyn i ti dy hun, a bod heb ei dreulio yn ofer yn ei achos ef. Ni fynai efe fod heb y tristwch hwn sydd yn dy darfu ai mor bell, er yr holl lawenydd a ddichon y byd ei roddi, yn ei hoewder mwyaf a'i ymddangosiad gwychaf. Y mae dirgelwch yn y tristwch hwn nas gelli di ei ddyfalu. Gwybydd, gan hynny, fod y fath tristwch ac ingder calon ag sydd yn codi oddi wrth euogrydd pechod, a'r disgwyliad brawyechus am ddiffygaint Duw yn dâl am bechod; a thristwch arall sydd yn deilliaw, nid oddi wrth ofn digofaint yn tarddu o euogrydd, ond oddi wrth y teimlad o bechod yn bod etto yn yr enaid, ac yn cymmhell y Cristion i wneuthur y peth sydd yn dianrhwydeddu y Duw hwnw a faddeuodd iddo ei bechodau. A hwn yw y tristwchsydd weithiau yn peri i'r saint gael eu cyfrif yn bobl athrist a digysur, ie, pan y mae eu calonau mor llawn o gysur ag y daliant, gan yr ystyriaeth am drugaredd faddeuol Duw. Y tristwch hwn nid yw ond fel cawod haf, yn toddi gan y prawf o gariad Duw, fel hono gan yr haul cynhes, ac yn gadael yr enaid, megys yr ardd o berlysiaid y mae yn disgyn arni, yn fwy iraidd a pheraroglaidd.

(2.) Er fod rhai eneidiau gwerthfawr a ymwasgasant â Christ, gan gofleidio yr efengyl, heb gael etto eu dwyn i orphwysdra yn eu cydwybodau eu hunain, ond yn parhau am dro dan ryw flinderau o ddiffyg boddlondeb yn eu hysbrydoedd eu hunain; etto, ie, y pryd hynny, y mae ganddynt heddwch cydwybod mewn golygiad triphlyg: yn y gwerth, yn yr addewid, ac yn yr had.

(a) Y mae gan bob gwir gredadyn

heddwch cydwybod (*in precio*) yn y gwerth. Y mae yr efengyl yn rhoddi y gwerth hwn yn ei law ag a'i pwrcau yn sier; a hwnw yw gwaed Crist. Dywedwn mai aur yw yr hyn sydd yn werth aur; yr hyn y gallwn gael ei newid yn rhwydd am aur. Y cyfryw yw gwaed Crist: y mae yn heddwch cydwybod, am fod i'r enaid y mae ganddo gael ei newid am hyn. Nis gall Duw ei hun roddi nacâd i'r creadur truan sydd yn gweddio ar yr ammodau hyn: "Arglwydd, dyro i mi heddwch cydwybod, dyma waed Crist yn werth am dano." Yn ddiâu, gall yr hyn a dalai y ddyled gaffael ysgrifen rhyddhâd. Heddwch cydwybod, rhyddhâd ydyw dan law Duw; ystiolaeth fod y ddyled oedd ar y dyn i gyfiawnder Duw wedi ei thâl. Y mae gwaed Crist wedi gwneud hyn, y peth mwyaf i'r eredadyn; gan hyny, gwna y llall sydd yn beth llai. Pe byddai y fath ddiod fel dygol ragorol, a ddygai iechyd yn lldifeth i bob un a'i cymmero, galleu yn ddiogel ddywedyd, cyn gynted ag y llyngai y clafydd yn hi, ei fod wedi yfed ei iechyd: y mae o'i fewn ef, er nad yw efe yn bresennol yn teimlo ei iachâd. Ymddengys hyny mewn amser.

(b.) Mewn addewid. Y mae gan bob gwir gredadyn heddwch cydwybod yn yr addewid: ac ni a gyfrifwn yr hyn y byddo genym rwymiad sier am dano, gystal ag arian parod yn y pwrs. "Yr Arglwydd a fendithia ei bobl â thangefedd;" *Salm* xxix. 11. Y mae wedi llawnwriadu hyn; ac yna pwy a'i luiddia? Y mae yn werth i chwi ddarllen y *Salm* i gyd, i weled y pwys a rydd Duw i'r addewid felus hon, at galonogi ein fydd wrth ddisgwyl y cyflawniad o honi. Pan fyddo terfysg wedi llenwi mynwes y creadur truan, a'i gydwybod yn croch-fygwth a chleddyf, llid a dial gan Dduw am ei bechodau, nid oes dim sydd yn fwy anhawdd iddo gael lle yn ei galon ef na meddyliau neu obaith am heddwch a chysur. Yn awr, y mae y *Salm* drwyddi oll yn dangos pa bethau mawrion sydd yng ngallu Duw, a hyny heb ymdrafferthu mwy na dywedyd gair. "Llef yr Arglwydd sydd mewn grym; llef yr Arglwydd sydd mewn prydfferthwch;" *adn.* 4—"y mae yn dryllio y cedrwydd, yn gwasgaru y filantau, yn peri i'r anialwch grynu, ac i'r ewigod lydnu." Y Duw hwn, yr un a wna hyn oll, sydd yn addaw bendithio ei bobl â thangnefedd, allanol a thumewnol: o herwydd, heb yr heddwch tumewnol hwn, er y gallai efe roddi iddynt heddwch [oddi allan], etto, ni allai efe byth eu bendithio â thangnefedd, fel y mae yno yn addaw. Heddwch trwm, onid e, fyddai cael heolydd llonydd, ond tori gwythienau gwaed yn ein tai? Etto, anfeidrol drymach yw cael heddwch yn ein heolydd a'n tai, ond rhyfel a gwaed yn ein cydwybodau euog.

Pa heddwch a ddichon creadur truan ei flasau na'i archwaethu, tra y mae cleddyf digder Duw wrth wddf y gydwybod, dim heddwch â Duw ei hunan? Gan hyny, y mae Crist wedi pwrcau yr heddwch o faddeuant, i gaffael heddwch cydwybod i'w bobl a gafodd faddeuant; ac yn ganlynol, y mae wedi ei adael iddynt yn yr addewid: "Yr wyf yn gadael i chwi dangnefedd; fy nhangnefedd yr ydwyf yn ei roddi i chwi;" *Ioan* xiv. 27. Lle y gwelwch ei fod ef yn Destamentwr i adael, ac hefyd yn Gymmynweinydd i gyflawni ei ewyllys ei hun; i roddi allan a'i ddwyllaw ei hun yr hwn a adawodd ei gariad i gredinwyr. Felly, nid oes le i ofni na chyflawnir ei ewyllys ef yn gwbl, gan ei fod ef ei hun yn fyw i edrych at hyny.

(c.) Yn yr had. Y mae gan bob credadyn yr heddwch tumewnol hwn yn yr had. "Hauwyd goleuni i'r cyfiawn, a llawenydd i'r rhai uniawn o galon;" *Salm* xcvi. 11. Pa le yr hauwyd hyn ond yng nghwysau mynwes y credadyn ei hun, pan fwriwyd i mewn yno egwyddorion gras a sancteiddrwydd gan Ysbryd Duw? Oddi wrth hyn ei gelwir yn "heddychol ffrwyth cyfiawnder;" *Heb.* xii. 11. Y mae yn tarddu mor naturiol oddi wrth sancteiddrwydd ag y gwna unrhyw ffrwyth yn ei ryw oddi wrth ei hâd priodol. Y mae yn ddiâu yn wir iawn fod yr hâd hwn yn tarddu ac yn addfedu i'r ffrwyth hwn yn gynt mewn rhai nag y gwna mewn oreill. Nid yw y cynauaf ysbrydol hwn yn dyfod mor gynnar i bawb a'u gilydd, mwy nag y mae y llall sydd yn allanol. Ond dyma y cysur, pwy bynaag y mae pryd hau o ras wedi bod ar ei enaid, efe a gaiff ei bryd cynauaf hefyd o lonyddwch: y mae Duw wedi ymrwymo at y ddeddf hon mor gadarn ag am y lleill; y rhai "ni pheidiant mwy holl ddyddiau y ddaear;" *Gen.* viii. 22, i.e. yn gadarnach: canys ymrwymiad i'r byd yn gyffredin oedd hwnw, nid i bob gwlad yn bennodol, a thref neu faes ym mhob gwlad; y rhai a allant fod heb gynauaf, a Duw er hyny yn cadw ei air. Ond ni allai Duw gadw ei addewid, pe byddai ond i un sant fod byth heb ei bryd medi: "Yr hwn sydd yn myned rhagdo, gan ddwyn hâd gwerthfawr, gan ddyfod a ddaw mewn gorfoledd, dan gludo ei ysgubau;" *Salm* cxxvi. 6. Ac am hyny, chwychwi, y rhai a dybiwch mor wael am yr efengyl, a'i proffeswyr hi, am nad yw eu heddwch a'u cysur ddim wedi dyfod etto, gwybyddwch ei fod ar y ffordd atynt, ac yn dyfod i aros gyda hwynt hyd byth; tra y mae eich heddwch chwi yn myned oddi wrthych bob munyd yn, ac yn sier o'ch gadael heb obaith am ei ddychweliad atoch mwy. Nac edrych pa fodd y mae y Cristion yn dechreu, ond yn diweddu. Y mae Ysbryd Duw yn ei argyhoeddiadau, yn

dyfod i'r enaid gyda pheth dychryn ac ofn, yn terfynu gyda hedd a llawenydd; fel y dywedwn am y mis Mawrth, y mae yn dyfod i mewn fel llew, ac yn myned allan fel oen. "Ystyr y perffaiath, ac edrych ar yr uniawn; canys diwedd y gwr hwnw fydd tangnefedd;" *Salm xxxvii. 37.*

DOSE. III.

3. Mae hyn yn ceryddu y rhai a feddylant iachau eu cydwybodau â rhywbeth heb law balm yr efengyl; y rhai a adawant y dyfroedd byw o gysur sydd yn llofu o'r ffynnon hon, a agorwyd gan Crist yn yr efengyl, i dynu eu heddwch a'u cysur allan o bydewau o'u cloddiad eu hunain. Y mae dau o'r rhai hyn—pydew anianol a phydew deddfol.

Iaf. Y mae rhai yn meddwl tynu eu heddwch allan o bydew anianol. Nid oes mwy o arnywiaeth o foddion a chyfferiaid gorwael yn cael eu harfer at iachau cryd neu grynfya y corph, nag a geir o gynghorion anianol, arferedig gan bechaduriaid mewn hunandwyll, i ymiachau o'r grynfya a ddygir gan ofn digloneidd Duw ar eu cydwybodau euog. Y mae rhai, os byddant dan radd o ddeffroad gan y gair, ac yn teimlo eu calonau yn sferu o'u mewn, gan ryw ychydig o feddyliaid difrif am eu cyflwr gresynau andwyol, hwy a darawant at physygwriaeth Ffelfis; yr hwn, cyngynted ag y dechreuodd ei gydwybod glafychu dan bregeth Paul, a gafodd ddigon ar y pregethwr, ac a wnaeth y brys mwyaf i gael y sŵn anofidhaol hwnw o'i ben. "Ffelfis a ddychrynodd, ac a attebodd, Dos ymaith;" *Act xxiv. 25.* Fel hyn y try llawer eu cefn ar Dduw; hwy a ddiangant mor bell ag y gallant oddi wrth yr ordubadau hyny, y gymdeithas, neu ba beth bynag arall a fyddo yn debygolo grafu eu cydwybodau, ac adfywio y meddyliau am eu cyflwr alaethus; yr hwn y mae eu holl ofal am ei anghosio. Mi a glywais am un o'r fath, na ddeuai un amser i gladdedigaeth, nas gallai oddef golwg ar ei wallt llwydlyn ei huu, ac am hyny a arferai grib o blwm i'w lliwio yn ddu, rhag, trwy wallt ei ben, i'r meddyliau am angu, oedd mor gas ganddo, bentyrn arno. Dyfais wael a diles, Duw a wŷr; etto, yr oreu a feddai yr adyn hwn, a llawer ereill, rhyngddynt ag uffern ar y ddaear, yn eu cydwybodau. Ereill, y mae eu goleu mor gryf, ac yn serenau mor barhaus ariyut, fel na wna hyn y tro; ond i ba le bynag yr ânt, er na wrandawant bregeth mewn mis, na edrychiant i'r Beibl unwaith mewn blwyddyn, ac er ymgadw ymhell ddigon oddi wrth y fath gymdeithas ag a ddiunai eu cydwybodau, etto, y mae eu heuogrydd eu hunain yn aflonyddu arnynt: ac am hyn, y maent, nid yn unig am fyued "o wŷydd yr Arglywydd," fel Cain (*Gen. iv. 16*), ond hefyd megys y trodd efe draw y meddyliau trymion hyn

oedd yn ymgasglu yn ei gydwybod euog, trwy roddi iddynt waith arall, "adeiladu dinas;" *Gen. xvii*; felly y gwna y rhai hyn gais at ymlithro rhag eu cydwybodau mewn torf o orchwyllion bydol. Dyma y lesiathan mawr sydd yn llyngau i fyny bob meddyliau am y nefoedd ac uffern yng nghalonau llaweroedd. Y maent mor brysus gyda'r peth hwn a'r llall, fel nas gall cydwybod mo'u cael mewn hamdden, droshir amser, i gael newid ychydig eiriau â hwynt. Y mae cydwybod yn cael ei hwtio a'i difrio yn mysg pechaduriaid, gymmaint a Ioseph yn mysg y patriariaid. Nid yw dywediadau eu cydwybod yn eu boddio yn well nag y darfu i freuddwyd Ioseph foddio ei frodyr. Ac y mae hyn yn peri i lawer droi yn farchnadwyr ar eu cydwybodau, fel y gwnaeth ei frodyr âg yntau; a hyn a wna y gwyr hyn trwy eu gwobrwyo âg elw bydol.

Eithr y mae y physygwriaeth hwn hefyd yn myned yn rhy wan; ac am hyny y try ereill at delyn Saul a gwledd Nabal; gyda'r rhai'n y maent yn gobeithio boddi eu gofalon, a gosod eu cydwybodau anniddig i gysgu. Yn debyg i ryw ddyhiryn sy mewn dalfsa am ddyled, ac heb fodd i ochel myned yn ebrwydd i garchar, oddi eithr iddo allu meddwi y swyddog y mae yn ei law; yr hyn a wna efe, ac felly y mae yn diange. Fel hyn y mae llawer yn meddwi eu cydwybodau â mwyniant anifeilaidd pechod; a phan fo'nt wedi ei gosod i gysgu mor drwm mewn syfrdandod dideimlad ag y gwna dyn eithaf meddw, yna hwy allant bechu'n ddigerydd, nes y dihuo hi drachefn. Hyn yw eithaf yr heddwch a all unrhyw gynghor anianol weinyddu i bechadur; rhoddi iddo ddiod gwsg a rywma synwyrâu y gydwybod am dro, fel y byddo i'r adyn, yn yr ysbaid, anghosio ei drueni, fel y gwna dyn collfarnedig yn ei gwsg; ond cyn gynted ag y dihuo hi, y mae erchylldra ei gyflwr yn bier o'i flino drachefn yn waeth uag o'r laes. Cadwed Duw chwï oll rhag iachâd o'r fath flinderau cydwybod; y mae hwn fil o weithiau yn waeth na'r dolur ei hun. Gwell yw meddu ei a ddywed i ni trwy ei gyfarthiad fod lleidr yn y buarth, nag un a eistedd yn llonydd, ac a âd i ni gael ein hysbeilio cyn i ni wybod ein perygl.

21. Y mae rhai a dynant eu heddwch cydwybod o bydew deddfol; oddi wrth eu cyfiawnder eu hunain y mae yr holl gysur sy ganddynt. Y gwaith da yma, a'r ddyledswydd dda acw, yr ymfendithiant yddynt pan ddelo unrhyw loes ar eu calonau. Y ddiod feddygol a ddefnyddiant i adfywio a lloni eu hunain â hi, nid ydyw wedi ei thynn o'r iawn a roddodd Crist i Dduw, trwy ei angu, drostynt hwy bechaduriaid truan, ond oddi wrth gyfiawnder eu bucheddau eu hunain; nid oddi wrth eiriolaeth Crist drostynt yn y nef, ond eu gweddïau eu

hunain drostynt eu hunain ar y ddaear. Mewn gair, fel mai rhyfedd fyddai, lle y mae cymmaint o ddefnyddiau hylosg, pe ni byddai, ambell dro, beth tân myglyd yn dechreu yn mynwsau y fath rai; felly, pan ennyno gwreichionen o derfysg yn eu cydwybodau, yna nid gwaed Crist, ond en dagrau en hunain, a ddefnyddir at ei ddi-flood. Wel, pwy bynag wyt, sydd yn myned i weithio yn y ffordd hon i gael heddwch cydwybod, yr wyf yn dy gyhuddo fel gelyn i Grist a'i efengyl. Pe buasai llysieun i'w gael yn dy ardd di i iachau archollion dy gydwybod, pa ham y bu i Grist ganmawl fel peth mor ragorol y balm y daeth efe o'r nefoedd ar y bwriad o'i ddarpar a'i waed ei hun? Pa ham y geiwl pechaduriaid oddi wrth y cwbl oll, heb law ef ei hun, fel cysurwyr diles, ac yn erchi i ni ddyfod ato ef os byth y mynem gael gorphwysdra i'n heneidiau: *Mat. xi. 28.* Na, gwybydd, greadur truan, a chred hyn, tra y gall ei wybod wneud i ti les, naill ai yr oedd Crist yn dwyllwr, a'r efengyl yn wag chwedi (yr hyn mi obeitthiaf nad wyt y fath anffyddiwr, gwaeth na Satan, ag i allu ei goelio), neu ynte nid wyt yn yr iawn ffordd i wellau dy gydwybod oddi wrth archollion pechod, a gosod sail dda i heddwch sylweddol yn dy fynwes. Gweddïau, dagrau (edifeirwch wyf yn ei feddwl), gweithredoedd da, a dyledswyddau, nid yw y rhai hyn i'w hesgeuluso; nag e, nis gelli byth fod â heddwch yn dy gydwybod hebddynt: etto, nis gwna y rhai hyn—nis gallant gaffael i ti yr heddwch hwn, am nas gallant gael dy heddwch â Duw: ac nid yw heddwch cydwybod ond megys atteleblais (*echo*) i drugaredd faddeuol, a'i adsain yn y gydwybod a ddwg yr enaid i crphwysdra hyfryd, gan mor hyfryd y beroriaeth a wna. A'r atteleblais nid yw ond adsain y un llais. Felly, oni ddichon gweddïau a dagrau, dyledswyddau a gweithredoedd da, ennill i ni yr heddwch o gymmod, yna nis gallant gael ein heddwch o gysur. Attolwg, cofiwch ddarfod i mi ddywedyd nas gallwch feddu heddwch heb y rhai hyn; etto, nad oes i chwi ei gael trwy y rhai hyn. Prin yr iacheid archoll byth, heb ei rwymo i fywyd rhag y gwynt, a'i gadw hefyd yn lân; etto, nid y rhai hyn, ond y balm sydd yn ei iachau.

Gan hyny, na phaid gweddïo, nac a'r arferied o unrhyw foddion da ereill o ras neu dyledswydd; ond paid a disgwyl i'th heddwch a'th gysur dyfu oddi ar eu gwreiddyn hwynt; os amgen, yr wyt yn dy gau dy hun allan rhag cael budd y gwir heddwch hwnw a gynnygwr yr efengyl. Y mae y naill yn wrthwyneb i'r llall, fel y ddwy afon hono yn Germany, y rhai pan gyfarfyddo eu ffrydiau, ni chydymgymysgaut. Heddwch yr efengyl, nid ymgymysga, ac nid ymgorphora, os gallaf felly

ddywedyd, gyda dim arall: rhaid i ti ei yfed yn bur a digymysg, neu fod hebddo. "Yr enwaediad ydym ni," medd Paul am dano ei hun, a phob gwir greadur arall, "y rhai ydym yn gwasanaethu Duw yn yr ysbryd, ac yn gorfoleddu yng Nghrist Iesu, ac nid yn ymddiried yn y cnawd;" *Phil. iii. 3.* Fel pe dywedasai, nid ydym ni yn fryach nag ereill mewn dyledswyddau a gorchwylion sanctaidd; na, yr ydym o'u blaen, o herwydd yr "ydym yn gwasanaethu Duw yn yr ysbryd;" onid hwn yw y llestr y ty'nwn ein gorfoledd a'n cysur o hono; "gorfoleddu yr ydym yng Nghrist Iesu (o ran ein hyder) ac nid yn y cnawd. Yma, efe a eilw yn gnawd yr hyn oll sydd yn wrthwyneb i wasanaethu Duw yn yr Ysbryd, pwyso ar Grist, a gorfoleddu ynddo.

DOSEB. IV.

4. Y mae oddi yma gerydd i'r rhai hyny a wna't yn wir ryw ddefnydd o falm yr efengyl at iachau archollion cydwybod: ond hwy a'i defnyddiant yn dra anefengylaidd. Y mae y mater y sylfaenau eu heddwch a'u cysur arno yn gywir a da. sef Crist, a thrugaredd Duw drwyddo, yn yr addewid i bechaduriaid truan: beth a ellir ei ddywedyd yn well? Eithr nid ydynt yr dal at reol a threfn yr efengyl yn y cymmhwyysid o hono. Hwy a gipiant yr addewid yn rhyfygus; a'i dygant ac a'i treisiant yn hytrach nag ymfyn am gydsyniad Crist. Yn debyg i Saul, yr hwn oedd yn y fath frys, fel nas gallai aros hyd oni ddeua Samuel i aberthu drosto, ond a darawodd yn hyf at y gwaith cyn ei ddyfod ef, yn llwyr groes i'r gorchymyn a roddwyd arno. Fel hyn y mae llawer mor boeth am gysur fel nad arosant i Ysbryd Duw ddyfod thaeuella eu cydwybodau â gwaed Crist mewn trefn efengylaidd; eithr hwy a wna't eu hunain yn ammharchus, trwy gymmhwyso cysur yr addewidion hyn yn ydynt yn bresennol yn gwir berthyn iddyn. O syrs! a lwydda hyn y diwedd? A wn y gwr yn dda at les ei iechyd nad erys a gyfarwyddyd y meddyg, ond a red i siop cyfferiwr, ac o'i ben ei hun a gymmer ryfeddyglyn, heb gynghor y meddyg am modd i'w barotoi, ac ymbarotoi i'w gynmeryd? Hyn a wna pob adyn haloged sydd yn byw mewn pechod, ac etto yn taelu ei hun â gwaed Crist, ac yn ymfendith yn nhrugaredd faddeuol Duw. Ond gwyr bydded y cyfryw, megys na thaeuella gwaed Oen y Pasc ar ddrwsau yr Aiphtiaid ond ar ddrwsau yr Israeliaid, felly nad y gwaed Crist chwaith i'w daeuella ar bechadur anedifeiriol, ond y gwir edifeiriol. I megys nad oedd i'r gwaed hwnw gael dywallt ar riniog tŷ Israeliaid (lle y gellid fathru) ond ar yr ystlysbyst; felly, nad y gwaed Crist i'w gymmhwyso at y credady ei hun, er ei' gysur presennol, tra y bydd

gorwedd mewn unrhyw bechod heb lifarhau am dano. Yn wir, ei fwrw dan raei i gael ei fathru fyddai hyn. Mae safydd yn addef ei bechod gyda chywildd, cyn i Nathan ei gysuro â'r newydd m faddeuant.

PENNOD X.

le y cawn brawf am ein heddwch oddi wrth bedwar nod ar heddwch neu gysur yr efengyl.

Defn. 2. Bydded i'r athrawiaeth hon fod i maen prawf i brofi eich heddwch a'ch cysur, a oes arno argraph yr efengyl. Y mae gan ddiabol ei fathdy o gau gysur yn gystal a rhith o ras. Gan hyny, dyro dy un ar brawf, tra y gosodwyf o'th flaen i â nodau yr heddwch a lefara Crist i'w holl yn yr efengyl.

1af. Gellir adnabod cysur yr efengyl i'rith y llestr y tywelltir ef iddo, sef calon drylliog. Y mae yr adewid yn anfonedig at y cyfryw, fel wrth eu heuwau, a'r cyfryw yn unig: "Y goruchelder a'r cyswegr a bresywliaf; a chyda'r cystuddiedig i'r isel o Ysbryd, i fywchau calon y rhai cystuddiedig;" *Esa. lvii. 15.* Mae awdur-llodiad Crist gan ei Dad yn ei rwymo, fel nas gall efe gysuro neb arall: "Ysbryd yr Arglwydd sydd arnaf; o herwydd yr Arglwydd a'm heneiniodd i efengylu i'r rhai llariaidd; efe a'm hanfonodd i rwymo y rhai ysig eu calon;" *Esa. lxi. 1.* A'r hyn a dderbyniodd efe gan ei Dad, hyny y mae yn ei roddi i'r rhai anfonedig ganddo ar yr un neges:—Yn gyntaf, Ei Ysbryd, am yr hwn y mae yn mynegi i'w ddisgyblion y byddai i'r Diddanydd, pan ddeuai, "argyhoeddi y byd o bechod, o gyfiawnder, ac o farn;" *Ioan xvi. 8.* Nodwch yn gyntaf, o bechod; ac am ei is-genhadau, y maent dan gyfarwyddyd at bwy y cymmlhwysant gysuron yr efengyl; "Cadarnhewch y dwylaw llesg, a chryfhewch y gliniau gwneiniaid: dywedwch wrth y rhai ofnus o galon, Ymgyrhwch, nac ofnwch;" *Esa. xxxv. 3, 4.* Ac ar eu perygl y byddant, os tywalltant yr enaint ar ben pechadur heb ei ddarostwng, i weini cysur i'r fath trwy addaw iddo fywyd fel y mae. Mae Duw yn tystio yn erbyn hyn, gan ei alw yn gelwydd yn cryfhau dwylaw y drygionus; ac hyd y gallant hwy, y maent yn ei sierhau rhag profi y gwir heddwch. Fel hyn, chwi a welwch drefn yr efengyl yn cysuro eneidiau. Megys y gosodir y sail arwaidd o flaen y lliwiau prydfferth mewn gwaith edau a nodwydd; megys y llunia ac y nadda y cerfiwr ei ddelw cyn ei goreuro, felly y gwna Ysbryd Crist ddechreu gyda thristad a diweddu mewn lloniad. Y mae yn gyntaf yn briwo ac yn clwyfo; yna, yn

iachau ac yn llenwi yr enaid â chysur a heddwch. Gobeithiaf na feddyliwch fy mod yn gosod terfyn i'r Sanctaidd yn ei weithrediadau, fel pe na byddai iddynt ond un radd a mesur.

Mi a eglurais fy meddyliau mewn lle arall am hyn. Eithr y mae gwaith argyhoeddiadol a darostyngol yr Ysbryd yn myned mor bell a hyn ym mhob enaid, cyn y del heddwch a chysur: y mae yn gwaghaus yr enaid o'i holl gysuron a'i hyder gau a drys-orasai; nes yw y galon yn debyg i lestr y curwyd ei waelod allan, ac felly yr holl ddwfr oedd ynddo yn rhedeg ac yn colli. Y pechodau a garodd, y mae yn awr yn eu casau; y gobaith a'r cysur yr ymfodddhaodd ynddynt, hwy a ffoisant gan adael y creadur mewn cyflwr unig ac amddifad. Ni wel yr enaid bellach ddim ond colledigaeth o'i flaen, oddi eithr i Grist fod idd oyn gyfaill, a sefyll rhyngddo ag uffern. Wrtho ef, gan hyny, y gwna efe ei gwyn, mor fodd-lawn i ddilyn ei gynghor, a bed tan reoi-aeth ei gyfarwyddyd ef, ag a fu clafdyn erioed i ddilyn rheol ei feddyg, am allu a gofal yr hwn y mae yn llawn hyderus. Dyma y gallo, a alwas fi yn un ddrylliog; i'r hon, os ydych yn gwbl ddiethr, y mae eich cydnabyddiaeth â heddwch yr efengyl heb ei ddechreu. Yr wyf yn attolwg, nac yn-orphwyswch nes cael ateb eich cydwybodau. Pa beth a ddywedant? A fu eich gwin unwaith yn ddwfr—a yw eich goleuni yn cyfodi o dywllwch—ai deilliad o ymdrech a thrallod enaid yw eich heddwch—a fuoch chwi yn gwaedu cyn cael iachâd? Yna chwi ellwch obeithio mai gwaith rhywiog Ysbryd Duw ydyw: gwna yn fawr o hono, a bendithia dy Dduw, am roddi i ti y gwin hwn, i loni dy galon drom. Ond os cychwynaist ar naid; os cefaist dy win cyn llenwi dy lestri â dwfr; os daeth dy fore cyn i ti gael dy hwyr: os cefaist dy heddwch cyn dryllio dy heddwch gau; os iachawyd dy gydwybod cyn agor ei dolur, a chyn gollwng allan gwechodau pwrdr dy falchder cnawdol hyder, a phechodau ereill y buost yn byw ynddynt, ti a elli fod yn meddu rhyw esmwythdra dros amser: ond gwybydd hyn, y mae yr Arglwydd Iesu yn gwadu dy iachâd; nid ei waith ef ydyw. Y mae tŷ y cryf-arfog yn cael ei gadw mewn heddwch (*Luc xi. 21*), yn gystal a thŷ y dyn daionus. Y mae gallu mwy yn ofnydedig i weithio gwir dristwch, na llawenydd a heddwch gau. Byddit yn ddyn dedwyddach, pe yn galaru yng nghyfyngder cydwybod drallodus, nag yn dawnsio o ddeutu yr eilun hwn, heddwch wedi ei fagu gan ddiabol, dy elyn tyngedig, er mwyn dy ddyllo.

2il. Yn ffordd yr efengyl y mae heddwch yr efengyl i'w gyrrhaeddyd; a hyn mewn golygiad deublyg.

(1af.) Yn y ffordd o ufudd-dod a rhodiad sanctaidd: "Cynnifer ag a rodiant yn ol y rheol hon, tangnefedd arnynt;" *Gal.* vi. 16. A'r "rheol hon," gellwch weled mai rheol "y creadur newydd" ydyw: *2 Cor.* 15. A pha beth yw hono ond rheol sanctaidd y gair? I hon y mae egwyddorion gras, planedig yn enaid credadyn, wedi eu cyfaddasu mor hollol, fel nad oes dim cyfundeb mwy naturiol rhwng y llygad a'r goleu, nag sydd rhwng tuedd y natur newydd hon yn y Cristion a rheol sancteiddrwydd yn y gair. Yn awr, nid digon yw i un fod yn creadur newydd, ac yn meddu egwyddor o ras yn ei fynwes, ond rhaid iddo yn ddiau "rodio yn ol y rheol hon;" os amgen, bydd gwir heddwch ei gydwybod ar goll. Nid oes dim gwir gysur i'w gael yn y saint, ond a ddwg y Diddanydd. Ac Efe, yr hwn sydd yn gorchymyn i ni dynu oddi wrth "y rhai hyn sydd yn rhodio yn afreolus" (*2 The.* iii. 11), pe byddent ein brodyr, yn sicr a gilia ei hunan, ac a etyl ei gysuron oddi wrth y cyfiyw, cylyd ag y byddent yn rhodio yn afreolus: a hyn a wnaânt tra y rhodiant yn groes i'r rheol hon. Am hyn, os wyt yn gyfiyw, na ddywed mai gan yr Ysbryd yr wyt yn cael dy gysur; o herwydd ni ddywedai efe "Duw yn rhwydd" wrthyt mewn ffordd ddrwg: na, y mae efe fel Diddanydd, wedi tynu oddi wrthyt, er pan y tynaisst ti dy droed oddi wrth rodio yn ol y rheol sanctaidd. Y cwbl o'r heddwch yr ymhoi ei fod genyt yn yr ysbaid hwn, nid yw ond bastarddaidd; ac y mae i ti fwy o achos cywilydd o hono nag o ogonedd ynddo. Clod bychan yw i'r wraig, fod iddi blentyn, pan fyddo ei gwr ar led er ystalm, ac heb fodd i'w dadu: a chyn lleied yw i tithau ymhoi i gysur pan na wna Ysbryd Crist ei addef.

(2il.) Yn y ffordd o ddyledswydd, a dyfal ddisgwyl wrth Dduw yn ei ordinhadau, y rhoddir heddwch yr efengyl i'r enaid. "Arglwydd y tangnefedd a roddo i chi dangnefedd yn wastadol ym mhob modd" (*2 The.* iii. 16); hyn yw, a fendithio bob moddion at gysuro a digoni eich eneidiau â thangnefedd tumewnol. Felly, y neb a ymfrostia o'i heddwch a'i gysur, heb ymarfer âg ordinhadau, y mae yn siarad digon i ddwyn gwirionedd ei gysur dan amheuaeth yn meddyliau Cristionogion syml. Mi a wn y gall Duw gysuro y Cristion trwy dywalltiadau digyfrwng o'i Ysbryd, ac arbed iddo y llafur o weddio, gwrandaw, a myfyrio; ond pa le y mae efe wedi addaw hyn? Pa ham nad allem ddisgwyl am gynauaf heb hau nac aredig, yn gystal ag am dangnefedd heb arfer moddion? Pe byddem, fel Israel yn yr anialwch, mewn sefyllfa fel y byddai moddion wedi eu tori oddi wrthym, nid nywi wedi ein bwrw oddi wrthyt trwy falchder neu ddiogi [fe

wnai Duw hyny.] Y mae helynt y Cristion yn gyfiyw weithiau; y mae yn glaf, ac yn cael ei guro felly oddi wrth ordinhadau; neu, trwy wasgfa gan yr yw ragluniaeth arall, wedi ei gau oddi wrth y moddion hyn neu ereill. Yn awr, nid rhyfedd fyddai genyf fi weled cysur yn y fath helaethrwydd yn ei enaid ef, ag oedd y manna o amgylch pebyll yr Israeliaid. Ond negys na wla wia Duw fara mwyach, wedi iddynt hwy unwaith gael f'd, o'r hwn y gallent hwy eu hunain wneud bara (*Ios.* v. 11, 12), felly, ni wna efe weini cysur yn wrthiol, pan y mae lle i'r enaid ei gael mewn ordinhad. Gallasai Duw ddygu yr eunuch, a'i foddioni â goleu o'r nef, heb byth anfon Phylip i bregethu iddo. Eithr y mae yn dewis ei addysgu trwy enau Phylip, yn hytrach nag yn ddiagyfrwng o'i enau ei hun; a hyn, yn ddiannheue, i roddi anrhydedd ar ei ordinhad.

3ydd. Am heddwch yr efengyl yn y gydwybod, y mae er cryfhad ac adferiad; y mae yn gwneud y Cristion yn gryf i ymladd yn erbyn pechod a Satan. Y mae y Cristion yn adfywio, ac yn profi ei nerth yn dyfod wrth archwaethu ychydig o'r mē hwn. Ond O! y fath laddfa a wna efe a'i elynion ysbrydol, pan gaffo bryd llawn o hono, neu drafwngce dwfn o'r gwin! Ar hyn, efe a ä i'r maes i'w herbyn, fel caw wedi ei loni â gwin; nis gall un chwant sefyll o'i flaen. Y mae y'n ei gryfhau i weithio. O! fel y llafuriodd Paul dros Grist! "Mi lafuriais yn helaethach na hwynt oll." Yr oedd y gŵr da yn cofio pa fath adyn a fuasai efe, a pha drugaredd a gawsai; yr oedd y prawf o gariad Duw mor effeithiol yn ei galon, nes ei lenwi â sel dros Dduw yn fwy na'i gyd-apostolion. Hyn a wnaeth i Dafydd dduwiol weddio mor daer am gael yfed drachefn o'r gwir hwn, a fuasai cyhyd yn glöedig rhagddo. "Dyro i mi drachefn o orfoledd dy iachawdwriaeth; ac â'th hael Ysbryd cynnal fi. Yn y dysgaf dy fyfyrdd i rai anwir; a phechaduriaid a dröir atat;" *Salm* li. 12, 13. Attolwg, craffwch; nid ei chwant blysig am flas melus y gwin hwn o gysur, oedd y rheswn unig, na phenaf, am ei fod mor hiraethus am dano: ond y rhinwedd rhyfedd a wydda ei bod ynddo, i'w adfywio a'i gryfhau yn e sel dros Dduw. Eithr y mae heddwch y chysur gan y rhagritheyr yn troi yn y per yn lle troi yn y galon; y mae yn eu gadae mor wan ag oeddynt o'r blaen; i.e., y mae fel ymborth afiach, yn pydru yn y cylla, y gadael gorlwyth yn eu heneidiau, fel melusffrwyth haf yng nghyrrh dynion, yr hwn a dyr allan yn fuan mewn arferion penrydd. Y mae lladron yn gyffredin yn gwario eu harian mor ddrwg ag y bu iddynt eu cael felly y gwna rhagritheyr â'u cysuron lladrad—ond aros ychydig, chwi a'u cewch y

gwledda rhyw chwant neu gilydd arnynt. "Yr oedd arnaf fi aberthau hedd," medd y butain grefyddol, yr odineb wraig ragrithiol; "heddyw y cywirais fy adduned; ac amhynny y daethym allan i gyfarfod â thi;" *Diar*. vii. 14, 15. Y mae hi yn tawelu ei chydwybod ac ymgysuro trwy y gwaith crefyddola gyflawnasai; ac felly, wedi iddi, yn ol ei thyb, lanhau ei chyfrifon gyda Duw, y mae hi yn dychwelyd at ei masnach chwantus ei hun: ie, yn ymhyfau oddi wrth hyn yn ei drygwaith. "Am hynny y daethum allan i gyfarfod â thi;" fel pe na feiddiasai hi chwareu y butain efo dyn, nes darfod ei chwareu rhagrithiol â Duw, ac iddi gau safn ei chydwybod â'i haberth hedd. Gan hynny, edrychwch, attolwg, yn dra gofalus, beth yw yr efaith y mae eich heddwch a'ch cysur yn ei gael ar eich calonau a'ch bucheddau. Ai gostyngeddiddach, ynte balchach, ydych chiwi oddi wrth eich cysur? Ai mwy gwagelog, ynte penrydd, ydych ar ol eich heddwch? Pa fodd yr ydych' tuag at ddyledswyddau addoliad? A ydych yn fwy parod at gymmundeib â Duw ynddynt, ynte yn fwy ffurfiol a marwaidd danynt? Mewn gair, a fedri di ddangos fod gras a heddwch yn cyd-dyfu ynot? Neu a yw gras yn llai amlwg er pan gryfhaodd dy broffes aml heddwch? Wrth hyn y mae i ti wybod pa un ai oddi wrth awdwr heddwch ai andwywr heddwch, aio Dduw y gwirionedd ynte o dad y celwydd, y deillia dy heddwch.

4ydd. Y mae heddwch yr efengyl yn diddanu yr enaid, a hynny yn nerthol, pan na byddo ganddo un diddanwch arall i'w gymysgu âg ef. Y mae hon ei hun yn ddiiod ddigon cref er lloniad; ac nid oes arni eisieu dim cyfferiau ereill i'w chryfhau. Y mae Dafydd yn dewis Duw ar ei ben ei hun: "Pwy sy genyf fi yn y nefoedd ond tydi? Ac ni ewyllysiais ar y ddaear neb gyda thydi;" *Salm* lxiii. 25. Gadewch i Dafydd ond cael ei Dduw, a chymmered y neb a fyno y cwbl heb law hynny; os gall efe ond cael ei gariad a'i ffafr ef, gadewch rhyngddo â byw yn gysurus. Oddi yma y mae fod heddwch y Cristion yn dwyn i mewn iddo y deyrnged wyfaw o lawenydd a chysur, pan fyddo mwyniant allanol yn cyfranu leiaf, ie ddim ond yn magu defnydd blinder. "Ond Dafydd a ymgysurodd yn yr Arglwydd ei Dduw;" 1 *Sam*. xxx. 6. Chwi a wyddoch pa bryd y bu hyn. Pe ni buasai heddwch Dafydd yn gywir ac iachus, buasai yn flinder mwy iddo feddwl am Dduw ar y fath amser nag am bob trychineb arall. "Heddwch mawr sydd i'r rhai a garant dy gyfraith, ac nid oes dramgwydd iddynt;" *Salm* cxix. 165. Hyn a wahaniaetha heddwch y Cristion oddi wrth heddwch y bydol-ddyn a'r rhagrithiwr hefyd.

laf, Oddi wrth eiddo y bydol-ddyn. Mae

ei hedd a'i gysur ef, adyn truan, yn myned yn waddod, pan ddechreuo mwyniant y creadur redeg yn isel; pan fyddo tlodi, ammharch, clefyd, neu rywbeth arall yn ei groesi, yn yr hyn oedd yn dra hoff ganddo. Yna y mae ei nos wedi dyfod, a'i ddydd wedi ei droi yn dywyllwch erchyll. Yn y golygiad hwn, y mae, dybygaf, fod Crist yn cyferbynu ei heddwch ef i heddwch y byd: "Fy nhangnefedd yr ydwyf yn ei roddi i chwi; nid fel y mae y byd yn rhoddi, yr wyf fi yn rhoddi i chwi; na thraloder eich calon ac nac ofned;" *Ioan* xiv. 27. Attolwg, craffwch, trysori dadleuon diddanus, er cysur i'w ddisgyblion erbyn ei ymadawiad ef, y mae Crist; yr hyn y gwyddai yr âi mor agos at eu calonau. Un ddadl, ym mysg y lleill, a gymmerir o'r gwahaniaeth sydd rhwng yr heddwch a'r cysur a âd efe iddynt, a'r hwn y mae y byd yn ei roddi. Fel pe dywedasai, pe byddai yr heddwch a'r diddanwch a gewch chiwi genyf fi yr un fath bethau ag y gwneir diddanwch y byd i fyny o honynt, sef digonedd, esmwythdra, llwydd allanol, a llonder cnawdol, byddai felly yn ddiâu achos i chwi fod yn alarwyr trymaf yn fy angladd i a fu erioed yn anfon cyfaill i'r bedd; o herwydd, ar ol fy ymadawiad i, nid ydych yn debyg i gael un o'r rhai'n; nage, yn hytrach disgwylwch flinder ac erlid. Eithr gwybyddwch nad yw y tangnefedd a adawaf fi gyda chwi ddim yn eich tiroedd, ond yn eich calonau; y cysur yr wyf fi yn ei roddi i chwi, nid mewn aur ac arian y mae, ond mewn maddeuant pechod, gobaith gogoniant, a'r diddanwch tumenol a ddyry y Diddanydd sydd yn dyfod oddi wrthyf fi, i aros gyda chwi; hwn, yn ol fy nhrefniad i, a dâl efe i'ch mynwesau chwi; a hwn a bery yn hwy na holl lawenydd y byd. Dyma gymmunrodd na adawodd tad erioed ei chyffelyb i'w blant. Y mae aml dad yn ei eiriau olaf wrth farw wedi dymuno i'w blant bob heddwch a chysur ar ol ei farw ef a'i fyned ymaith; ond pwy heb law Iesu Grist a allai anfon diddanydd i'w calonau, a rhoddi tangnefedd a diddanwch o fewn i'w mynwesau?

Drachefn, y mae yn gwahaniaethu heddwch y gwir Gristion oddi wrth heddwch y rhagrithiwr. Hwn, er iddo broffesu ymgysuro, nid yn y creaduriaid, ond yn Nuw, ac ymdangos fel yn llawenlau yn yr hawl yr ymhona ei bod ganddo yng Nghrist ac addewidion gwerthfawr yr efengyl, etto, pan ddel y peth i wir brawf, ac yntau i weled ei holl gysuron daearol wedi diange, heb fod yn debyg i dychwelyd yn ol, y mae y rhod yn troi. Gan y rhai'n yr oedd ei galon ef, er na fynai efe i neb feddwl hynny. Ac yn awr, wrth weled fod yn rhaid iddo o ddifrif fyned i fyd arall, i sefyll neu syrthio byth, yn ol fel y ceir ef,

trwy chwiliad Duw ei hun, wedi bod yn gywir neu yn anghywir yn ei broffes am Grist a'i ras; y pryd hyn yn ddiau ei feddyliau a giliaut yn ol, ei gydwybod a naid i'w wyneb, ac a edliwia iddo ei ffug a'i dwyll ysbyrdol. Yn awr llefara, enaid, ai fel hyn y mae gyda thi? A ydyw dy heddwch yn myned gyda thi yn agos at ddrws y carehar, ac yno yn dy adael? A wyt ti yn hyderus am faddeuant o'th bechodau ar hyd yr amser yr wyt ti yn iach a chryf, ond cyn gynted ag y curo, y swyddog wrth dy ddrws, am gael siarad â thi, neu cyn gynted ag y daw angu i roi i ti alwad, dyna dy feddwl wedi ei newid, a'th gydwybod yn dywedyd ei fod yn dyfod i'th brofi yn gelwyddog o ran yr heddwch a'r llawenydd a broffesaist? Arwydd trwm ydyw hyn. Mi a wn yn wir fod amser cystudd yn amser o brawf i ras sy'n gywir. Gall y gwir Cristion gael ei guro am dro, fel y milwr dewr, oddi wrth ei beiriannau rhyfel; ac fe all y gelyn, Satan, ymddangos fel wedi cymeryd ei heddwch a'i hyder; i.e. dygwyd rhai saint gwerthfawr i waered gan y llif o demtasiynau cryfion, nes ammheu am eu cysuron gynt, ai oddi wrth yr Ysbryd Glân, y Diddanydd, ai oddi wrth yr ysbryd drwg, y hudolydd, yr oedd eu cysuron. Er hyn, y mae gwahaniaeth mawr rhwng y naill a'r llall.

(1af.) Y mae gwahaniaeth yn eu hachosion: y tywyllwch hwn sydd weithiau ar y Cristion mewn tralod dwfn, y mae yn dyfod oddi wrth guddiad gwynne llewyrchus Duw: eithr y mae dychryn y llall oddi wrth ei gydwybod euog ef ei hun, oedd o'r blaen wedi ei suo i gysgu gan lwyddiant, ond yn awr ar ddihun gan law Duw arno. Y mae hon yn ei gyhuddo o fod yn ffals gyda Duw yn holl ystod ei broffes. Y mae yn wir y "all rhyw euogrwydd neillduol fod yn agslegedig gan y Cristion, trwy esgeulusdra neu demtasiwn gref yn ei yrfa Cristionogol, am yr hyn y gall ei gydwybod ei gyhuddo a chwerwi hefyd yn chwaneg yr ymadawiad presennol y mae efe dano, mor bell ag i beri ofn oddi wrth y colliadau neillduol hyny am ei gywiredd yn y lleill, er nad oes iddo wir achos am hyn. Ond nis gall ei gydwybod ei gyhuddo o un bwriad rhagrithiol fel y cynhyrfydd a'i gosododd ar waith yn holl ystod ei broffes.

(2il.) Mae rhywbeth yn cydfyned â thywyllni ysbyrd presennol y Cristion a'i gwahaniaetha oddi wrth dychryn y rhagrithiwr; a hwnw yw y gweithrediad bywiol o ras, sydd ar y fath amser yn gyffredin yn lled amlwg, er i'w harddwch a'i gysur gynt fod dan ammheuaeth ganddo. Po leiaf y llawenydd sy ganddo o unrhyw deimlad presennol o gariad Duw, mwyaf helaeth y ceuch ef mewn tristwch am ei bechod a dywyllodd ei

lawenydd. Po pellaf yr aeth Crist o'i olwg, tynaf yw ei ymlyniad o gariad wrtho, a'i daer lefau ar ei ol mewn gweddi. Gwelwn hyn yn Heman: "Myfi a lefiast a-nat, Arglwydd; yn foreu yr achub fy ngweddi dy fiaen;" *Salm lxxxviii.* 13. O! y gweddiâu gwresog a saethir y pryd hyn o'i ysbyrd tralodus ef i'r nef, gloesion y serch sydd yn dychlamu ar ol Duw, ei wynebpryd, a'i rad lonedd? Eriod ni bu plentyn ar alltud iaeth yn fwy chwennychgar am dderbyniad i wydd ei dad a ddigiwyd, nag efe am gael goleuni gwynebpryd Duw i lewyrchu arno, sydd yn awr wedi ei guddio oddi wrtho. O, fel y chwilia efe ei galon, a'r Ysgrhythrau, ac yr ymdrechia gyda Duw am y gras hwnw, diffyg tystiolaeth am yr hwn sydd yn peri iddo ammheu y cysuron a gawsai gynt! Ond iddo fod yn meddu gwir ras, nid ymrafaelia efe â Duw, o ran diffyg cysur, er iddo aros am dano hyd fyd arall. Eriod ni hiraethodd un wraig feichiog yn fwy am i'r plentyn sydd yn awr yn ei bru fod yn ei breichiau, nag yr hiraetha y fath enaid am dystiolaeth o wiredd y gras hwnw sy'n wir o'i fewn, ond dan ammheuaeth ganddo yn bresennol trwy rym profedigaeth. Eithr y rhagrithiwr, yng nghanol ei holl ddechryn, nid yw yn caru, ac ni ddichon, nes y rhodder gwell calon o'i fewn, chwennych gras neu sancteiddrwydd o ferwydd dim rhagoroldeb ynddo ei hun a wel efe ynddo, ond yn unig fel peth da at ddiange o law y poenwr, i'r hon y mae yn gweled ei hun ar syrthio.

(3ydd.) Y maent yn wahanol eu canlyniadau. Y mae y Cristion, fel seren yn y ffurfafen, yn treiddio drwy y cwmwl sydd yn cuddio ei gysur am dro; ond y llall, fel goruchionen yn yr awyr, a wna ryw faint o fflag, ac yna a syrth i ryw ffos neu gilydd lle y diffodla. Neu, fel y mae Ysbryd Duw yn eu gwahaniaethu: "Goleuni y cyfiawn a lawenhâ; ond canwyll y drygionus a ddiffoddir;" *Diar.* xiii. 9. Yma, cyffelybir llawenydd a chysur y Cristion i lewyrch yr haul, yr hwn addringo yn uwch, tra y mae yn orchuddiedig gan gymylau oddi wrth ein llygaid ni, ac yn fuan wedi yn tori allan yn fwy disglair, y mae fel yn llawenhau uwch y cymylau a'r niwl oedd fel yn ei dywyllu. Eithr y mae llawenydd y drygionus fel canwyll yn toddi ac yn treulio, gan nad oes ond cynnud ammhur o lwyddiant bydol yn ei borthi; yr hwn a balla yn fuan, ac a âd i gysur yr adyn ddiffodd o'r diwedd gyda drygsawr, heb obaith am ei ail oleuo. Drachefni, cyffelybir blinder ysbyrd y Cristion i lesmair neu lewyg, o'r hon y mae yn gwellau yn fuan: *Salm* xl. Y mae y Salm-ydd duwiol no mewn llewyg, gan y meddwl am ei bechodau yn nydd ei fawr drallod; "Drygau annifeiriol a'm cylchynasant o amgylch; fy mhrechodau a'm daliasant, fel na allwn edrych i fy ny; anlach ydynt na

gwallt fy mhen; am hyny y pallodd fy nghalon genyf;" *adn.* 12. Ond cyn diw-eddu y Salm, ar ol rhai griddfanau dyfnion mewn gweddi (*adn.* 13, 14), y mae yn dyfod drachefn ato ei hun, a'i fydd ar Dduw yn gweithredu yn rymus: "Etto, yr Arglwydd a feddwl am danaf: fy nghymmhorth a'm gwaredydd ydwyt ti;" *adn.* 17. Eithr hyder neu obaith y rhagrithiwr, pan unwaith y dechreuo laesu a methu, y mae yn marw ac yn darfod: "Llygaid yr annuwiolion a ddiffygiant; metha ganddynt ffoi; a'u go-baith fydd fel ymadawiad yr enaid;" *Iob xi.* 20.

PENNOD XI.

Mai yr efengyl yn unig a ddichon uno calonau dynion ynghyd mewn gwir heddwch; a'r modd y gwna yr efengyl hyny.

3. Deuwn yn awr at yr heddwch hwnw a elwais yn heddwch cariad ac undeb. Gras nefol yw hwn; a thrwyddo y mae meddyliau a chalonau dynion yn cael eu dwyn i gydseiniaid â'u gilydd, fel ag i gydgyngahan-eddu mewn cydsain hyfryd â chyfundeb yn eu mysg eu hunain; er eu bod o'r blaen yn anghyttân ac heb gyd-daraw. Y mae heddwch i'w ddeall fel hyn yn fynych yn y Beibl, fel y gellwch weled: *Marc ix.* 50; *Heb.* xiii. 14; *1 The.* v. 13. Yn awr, y mae yr efengyl yn efengyl heddwch yn y golygiad hwn hefyd. Ar hyn, ni a lefarwn ychydig oddi wrth y sylwad yma.

Sylw. Mai yr efengyl, a'r efengyl yn unig, a ddichon gylymu meddyliau dynion ynghyd mewn hedd a chariad sylweddol. Y mae hyn, yn nesaf at ein heddychu â Duw a ni ein hunain, yn fwriad euwedigol gan Grist yn ei efengyl: ac yn ddiau y rhai hyny, heb hyn, ni wnaent ddedwyddwch y saint i fyny, oddi eithr i Dduw ffurfio nef i bob Cristion fyw ynddi ar ei ben ei hun. Gweinidogaeth Ioan Fedyddiwr (a fu megys rhagymadrodd i'r efengyl, ac yn gynnwysiad byr o honi), yr oedd wedi ei rhanu i'r ddau ben hyn: "I droi llawer o blant Israel at yr Arglwydd eu Duw (*Luc i.* 16), ac i droi calonau y tadau at y plant," &c.; *adn.* 17; hyny yw, i'w gwneud yn gyfeillion â Duw ac â'u gilydd. Dyma effaith naturiol yr efengyl, lle y cofeidir hi yn rymus! a diffuant—uno ac anwylo calonau meibion a merched mewn cariad a heddwch, pa mor groes bynag i hyn oeddynt o'r blaen. Dyma y dull-newidiad rhyfedd y dywed y prophwyd fydd dan yr efengyl: "Y blaidd a drig gyda'r oen, a'r llewpart a orwedd gyda'r myn;" *Esa.* xi. 6. Hyny yw, bydd i wyr a gwagedd, oedd o'r blaen mewn anghydfod a gelyniaeth mor gryf ag sydd rhwng y creaduriaid hyny, etto gyttuno yn

hyfryd a gorphwys yn mynwesau eu gilydd yn heddychlawn. A pha fodd y bydd hyn i gyd ond trwy effaith yr efengyl ar eu calonau? Felly *adn.* 9; "Canys y ddaear a fydd llawn o wybodaeth yr Arglwydd." Yn wir, yn y tywyllwch y bydd dynion yn ymladd ac yn pwyo eu gilydd mewn lliad a chlynddaredd. Os unwaith y daw goleu yr efengyl yn gadwedigol i mewn, rhoddir y cleddyf heibio yn fuan. Ni oddef Ysbryd pur cariad y gweithredoedd hyn lle yr erys efe. Ac mor briodol yw y fendith hon i'r efengyl, hyd onid yw Crist yn gosod hyn fel arwydd neu nôd adnabyddus, wrth yr hwn y byddent nid yn unig yn adnabod eu gilydd, ond yn adnabyddus, ie, gan ddieithriaid, oddi wrth unrhyw sect neu fath arall o bobl yn y byd: "Wrth hyn y gwybydd pawb mai disgyblion i mi ydych, os bydd genych gariad i'ch gilydd;" *Ioan xiii.* 35. Adwaenir gwas i bendefig cyn belled ag y byddo i'w weled yn iawn, wrth y wisg ar ei gefn, dyn i bwy ydyw. Felly, medd Crist, y gwybydd pawb pwy ydych, wrth eich cariad i'ch gilydd: gwelant eich bod yn perthyn i mi a'm hefengyl. Os mynem farnu yn gywrain am win, beth yw ei flas naturiol, y mae yn rhaid i ni ei brofi cyn ei ddyfod i ddwyllaw yr ail werthwyr, neu ynte ar ol ei buro o'i waddod. Felly, y ffordd oreu i farnu am yr efengyl a'i ffrwyth yw ei phrofi, naill ai pan oedd yn cael ei phroffesu a'i chofeidio gyda'r symledd mwyaf (yr hyn yn ddiagramheu oedd ar ei chyhoeddiad cyntaf), neu, yn ail, pan gaffo hi ei llawn effaith ar galonau dynion; a hyny fydd yn y nef. Yn y ddau hyn, er mai yr olaf yn benaf, y gwelir mai ffrwyth naturiol o'r efengyl yw heddwch.

Jaf. Pan y pregethwyd ac y cofeidwyd yr efengyl ar y cyntaf, y fath gydsain melus o heddwch, a'r fath undeb rhyfedd o galon oedd y pryd hyny yn mysg ei profeswyr sanctaidd hi! a hwy yn bobl, oedd ychydig o'r blaen naill ai yn estroniaid llwyr, neu yn elydnion cās yn erbyn eu gilydd! Yr oeddynt yn byw, ac yn caru, fel pe buasai calon pob Cristion wedi gadael ei fynwes ei hun i ymlithro i fynwes ei frawd. Ymadawsant â'u tiroedd i gadw eu cariad yn gyfan: gallant roddi eu bara o'u safnau eu hunain yn safnau eu brodyr newynog. Ie, pan fyddai eu cariad at eu cyd-Gristionogion yn fwyaf costus a drud iddynt, lleiaf ei gwarafunid ac ei teimlid ganddynt. Gwelwch yr eneidiau gwynfydedig hyny: "A hwy a werthasant eu meddiannau a'u da, ac a'u rhanasant i bawb, fel yr oedd yr eisieu ar neb. A hwy beunydd yn parhau yn gyttân yn y deml, ac yn tori bara o dŷ i dŷ, a gymmerasant eu lluniaeth mewn llawenydd a symledd calon;" *Act.* ii. 45. Chwaneg, y maent yn llonach yn awr, wedi bod yn gwaghaus eu pyrsaus trwy

elusen-waith, na phe daethent o'u llenwi trwy fasnach bydol. Mor nodedig ydoedd cariad Cristionogion yn y prif amseroedd, nes y sylwai hyd yn oed y paganiaid, fel y dywed Tertulian, ac y dywedent, "Gwelwch fel y maent yn caru eu gilydd!" Ac am hyn, os oes yn awr lai o gariad a a heddwch i'w cael yn mysg Cristionogion, nid ar yr efengyl y mae y bai, ond arnynt hwy. Y mae yr efengyl mor heddychlaw, ond y maent hwy yn llai efengylaidd. Hyn a ddangoswn ym mhellach.

2il. Edrychweh ar yr efengyl megys yn y diwedd, ar gwblhâd pob peth yn y nefoedd. Pan wneler calonau y saint yn llawn efengylaidd, ac y llawn gyflawner yr addewidion am ystâd heddychlaw y saint, dyna y pryd, yn ynad un, yr ymddengys yr heddwch hwn sydd yn yr efengyl. Yna y mae allan ac i mewn, fel blodeuyn yn blaendarddu yn y gwanwyn, sydd yn ymagor ychydig ar ddiwrnod gwresog, ac ar un oer a llym yn cau. Y gosteg yn yr is nef hon, yr eglwys ar y ddaear, nid yw ond "megys dros hanner awr;" *Dad.* viii. 1. Yn awr y mae cariad a heddwch ym mysg Cristionogion; yn y man, ni a gawn dramgyddiadau ac ymrafaelion yn cyfodi, y rhai a ymlidiant draw y gwanwyn hyfryd hwn: ond yn y nef y mae y blodau yn llawn, ac yn parhau i dragwyddoldeb. Yno y gwneir brodyr ymwahanol yn gyfeillion hollol; yno, y mae yr archoll o anghydfod, nid yn unig wedi ei iachau, ond y graith hefyd, yr hon yn fynych yma a adewir yn y fan: ni fydd hon i'w gweled ar wyneb heddwch y nef i haeru ei brydferthwch. Gwnaeth hyn i un duwinydd o Germany hiraethu am fod y nef; "Lle," ebe fe, "y mae Luther a Zuinglius yn gwbl gyttûn, er nas gallent fod felly tra ar y ddaear."

Ond yr wyf yn dyfod i ddangos yn neillduol pa fodd y mae yr efengyl yn cydglymu calonau a meddyliau dynion mewn heddwch, a pha ham nad oes ond yr efengyl yn unig a wna hyn. Wrth egluro y naill, caf egluro y llall hefyd.

(1af.) Y mae yr efengyl hon yn clymu calonau dynion yng nghyd, fel y mae yn cynnyg y rhesymau cryfaf am heddwch ac undeb: ac yn wir, y cyfryw nad ellir eu cael yn un lle arall. Y mae ganddi reffynau cariad, i dynu a rhwymo eneidiau ynghyd, na weuwyd mo honynt erioed yng ngwýdd natur: y fath ag y gallwn redeg drwy holl destynau moesoldeb, heb gyfarfod ág un o honynt, gan eu bod oll yn oruwchnaturiol, ac o dddadguddiad dwyfol. Yn *Eph.* iv. 3, y mae yr apostol yn annog i "gadw undeb yr Ysbryd yng nghwlwm taugnefedd." A pha fodd y mae yn eu hannog: *adn.* 4, 5, 6, 7. Yn gyntaf, Un corph sydd; ond y fath nad yw philosophyddiaeth naturiol yn son dim am dano: un

dirgelaidd ydyw, sef yr eglwys sydd yn gynnwysedig o lawer o saint, fel y corph naturiol o amryw aeolodau. Ac megys y byddai yn rhyfedd gweled un aeolod yn syrthio allan â'r llall, a hwy oll yn cael eu dal mewn bywyd trwy eu huniad ynghyd, felly yn llawer mwy yn y corph dirgelaidd. Drachefu, "un Ysbryd," sef yr un Ysbryd Glân; yr hwn sydd yn bywhau y rhai oll sydd yn wir saint, ac sydd i holl nifer y saint, fel yr enaid i'r holl ddyd, yn addysgwyr i bob rhan. Yn awr, megys y byddai yn drais aruthrol ar ddeddf natur pe byddai i'r aeolodau, trwy ryfel gartrefol yn eu mysg eu hunain, ymlid yr enaid allan o'r corph sydd yn rhoddi bywyd iddynt mewn undeb ynghyd; felly, trais mwy o lawer fyddai i Cristionogion wthio yr Ysbryd Glân oddi wrthynt, trwy eu cynnhenau a'u hymrysonau. Yn wir, nid hawdd y gellir agor drws mwy llydan iddo fynyed allan.

Drachefu, Y mae yn gwasgu undeb oddi wrth "un gobaith ein galwedigaeth." Yma y mae gobaith am y peth a obeithir; y gwynfyd y gobeithiwn oll am dano yn y nef. Y mae dydd yn dyfod, ac nis gall fod ym mhell oddi wyrthym, pan y cawn oll gyfarfod yn garuaidd yn y nef, i eistedd wrth yr un wledd, heb un yn grwngach wrth weled y bwyd fydd ar ddysgl y llall. Llawn fwyhâd o Ddau fydd y wledd; hedd a chariad fydd y beroriaeth hyfryd a seimia iddi. A pha ffolineb yw i ni ymladd yma, y rhai a gawn wledda yno—tynu gwaed oddi ar ein gilydd yma, y rhai a gawn mor fuan orwedd yn mynwasau ein gilydd? Yn awr y mae yr efengyl yn galw i'r wledd hon. Gallwn redeg trwy y pethau ereill a benmodir, megys "un Arglwydd, un ffydd, un bedydd:" ond dyma ddigon i roddi i chi braxwf.

2il. Y mae yr efengyl yn gwneud, fel y mae yndwyr ymaith yrachosion o'r gynnhen a'r gelyniaeth, sydd ym mysg meibion a merched dynion. Y rhai hyn ydynt ddau yn benaf: melldith Daw arnynt, a'u chwantau eu hunain dynt.

(1af.) Y mae y gynnhen a'r eâs sydd ym mysg plant Adda yn rhan o'r felldith hono a ddaeth ar Adda a'i hil, am ei ymadawiad â Daw. Yn *Gen.* iii. 18, ni a ddarllenwyd y modd y melldigwyd y ddaear o achos dyn. "Drain a mieri a dddwg hi ti," medd Daw. Ond melldith fwy o lawer ydoedd fod i'r naill ddyd fod fel draenen a mieren i dynu gwaed y llall. Y mae gan rai dyb fod y rhosyn yn tyfu ym mharadwys heb bigau. Yn sicr oni buasai i ddyd bechu, ni fuasai efe ei hun y fath fieren bigog ag yw y goren o ddydion yr awr hon. Y drain hyn, sydd yn tyfu mor fraisg yn natur sarug gynnhenus dyn, pa beth a amlygant, ond grym a melldith Daw? Y dyn cyntaf a aned i'r byd, yn lleiddiad y trodd allan;

a'r cyntaf a fu farw, trwy law y lleiddiad hwnw yr aeth i'w fedd. Ai nid oes i ni le i synu cymmaint wrth rym mellidith Duw ar natur dyn, a ymddangosodd mor fuan yng nghalon faleisus Cain, ag y synodd y rhai hynny ar griniad disymmawth y ffygys-bren a ddeifiwyd gau felldith Crist? Ac yn ddiâu nid oedd ond cyfiawn i gymmysgu ysbyrd gwrthnysig yn mysg y rhai a ddangosent y fath ysbyrd ffals ato ef. Yr oeddynt yn haeddu cymmysgiad yn eu hiaith, a'u goddef i gnoi a difa eu gilydd, gan eu bod yn beiddio rhoddi cais ar Dduw ei hun drwy eu hanufudd-dod. Tra nodedig yw hynny, yn *Zech.* xi. 10, o'i gymmharu âg *adn.* 14. Pan unwaith y torwyd "ffon hyfrydwch," oedd yn arwyddo "cyfammod Duw â'r Iuddewon," yna yn fuan torwyd "ffon rhwymau" hefyd: yr hon oedd yn arwyddo y "frawdoliaeth rhwng Iudah a Ierusalem." Pan doru pobl gyfammod â Duw, nid oes iddynt ddisgwyl heddwch yn eu plith eu hunain. Y mae yn ddoethineb i lywydd, os gall, drefnu i'w elyn waith gartref. Cyn gynted ag y syrthiodd dyn allan â Duw, wele dân rhyfel wedi ei ennyn wrth ei ddrws ei hun yn ei natur ei hun! Nid oes elyn chwerwach yn awr i ddyinion na hwy eu hunain. Y mae y naill dlyn yn flaidd, ie, yn gythraul i'r llall. Yn awr, cyn y gall fod dim gobaith o wir heddwch sylweddol yn mysg dynion, rhaid yw bod diddymiad ar y felldith hon; a'r efengyl, a hi yn unig, a ddichon wneud hynny. Ynddi y cafwyd y modd i'r ymarafael rhwng Duw a dyn gael ei derfynu. Pan wneler hyn, dyma y felldith yn darfod. Dedfryd farnol yw mellidith, drwy yr hon y mae Duw mewn ligger yn barnu ei creadur gwrthryfelgar i rywbeth sydd yn ddrwg. Eithr "nid oes dim damnedigaeth i'r rhai sydd yng Nghrist." Y mae y felldith wedi cilio; nid oes saeth bellach ar fwa y bygythiad; saethwyd hono i galon Crist, ac nis dichon byth gyrhaedd y credadyn. Gall Duw chwipio ei bobl trwy ryw annhiriondeb anfrawdol a dderbyniant o ddwylaw eu gilydd, mewn ffordd o gerydd tadol, i'w gwneud yn fwy teimladwy o'u syrthiad allan âg ef; yn wir, y mae hon yn wialen mor lem ag a fedd efe i'w thrin yn ei ddisgyblaeth. Etto, y mae y felldith wedi ei symnud; a hwythau dan addewid o fwynhau hedd ac undeb; a chyflawnir hyn iddynt pan fyddo yn oreu er eu lles.

(2il.) Yr achos tumewnol o bob casineb ac ymarafael a geir ym mysg dynion yw y chwant sydd yn aros yn eu mynwesau eu hunain. Dyma y tuedd a'r gwreiddyn sy'n dwyn yr holl ffrwyth chwerw o gynnhen ac ymyrson yn y byd. "O ba le y mae rhyfeloedd ac ymladdau yn eich plith chiwi, ond oddi wrth hyn, sef eich melus-chwantau, y rhai sydd yn rhyfela yn eich aeolodau?" *Iago* iv. 1. Hyn sydd yn tori yr heddwch â Duw,

â ni ein hunain, ac âg ereill. Os bydd defnydd tanlyd wedi ymgasglu yn y cwm-mwl, y mae yn rhaid i ni ddisgwyl taranau a melt i ganlyn; felly chwant yn y galon, fe dyr allan er iddo anafu heddwch teulu, eglwys, a gwlad. Yn awr, cyn y gall fod sail i heddwch diysgog a sylweddol, y mae yn rhaid i'r chwantau afreolus hyn mewn dynion gael eu tori i lawr. Pa heddwch a llonyddwch a all fod tra y byddo balchder, cenfigen, uchelgais, casineb, a'r cyffelyb chwantau, yn parhau i eistedd ar yr orsedd, ac yn hyrddio dynion fel y mynont? Ac nid digon ag gaffael heddwch fydd attal y gadwen sydd yn rhwymo ei drwg i fyny, hi a wisga mewn amser; ac felly y tyr yr holl raffau â'r rhai y tybygid fod dynion yn bresennol wedi eu cydrwymo, oddi eithr eu cylymu â llinynau calon, ac i sail y cweryl fod wedi ei dynu ymaith oddi yno.

Yn awr, yr efengyl, a'r efengyl yn unig, a all drefnu i ni blastr a sugna wir grawn ymyrson a chynnhen allan o'r galon. Gwrandewch yr apostol yn mynegi i ni y modd y cafodd efe ei hun, ac ereill o'i gyd-saint, eu hiachau o'r galon faleisus hono y buont unwaith yn gaethion iddi; "Yr oeddem ninnau gynt yn annoethion, yn anufudd, yn gwasanaethu chwantau ac amryw feluswedd; gan fyw mewn drygion, a chenfigen, yn ddisgog, ac yn casau ein gilydd;" *Tit.* iii. 3. Wel, pa physigwriaeth a'u hiachaodd hwynt? Gwelwch *adn.* 4; "Eithr pan ymddangosodd daioni a chariad Duw ein Iachawdwr tuag at ddynt, nid o weithredoedd cyfiawnder y rhai a wnaethom ni, eithr yn ol ei drugaredd yr achubodd efe nynt, trwy olchriad yr adenedigaeth ac adnewyddiad yr Ysbyrd Glân." Fel pe dywedasai, Oui busasai i'r cariad hwn o eiddo Duw yng Nghrist ymddangos, ac i ni fel hyn gael ein golechi gan ei Ysbyrd adgenhedlog ef, buasem yn gorwedd hyd heddyw dan rym y chwantau hynny, er y cymmhorth goreu a allasai neb arall ei estyn i ni. Gwaith yr Ysbyrd yw marwâd: "Os ydych yn marweiddio gweithredoedd y corph trwy yr Ysbyrd, byw fyddwch;" *Rhuf.* viii. 13. A'r efengyl yw y gyllell aberthu yn llaw yr Ysbyrd. Gelwir y gair yn "gleddyf yr Ysbyrd," fel yr un a ddefnyddia efe i ladd pechod yng nghalonau ei bobl.

3ydd. Megys y mae yr efengyl yn gosod y fwyell ar y gwreiddyn o chwervedd a chynnhen, i godi hwnw, felly y mae yn llanw calonau y rhai a'i cofseidiant â'r fathegydd-orion grasol ag sydd yn tueddu at heddwch ac undeb; y cyfryw yw hunanymwadiad sy'n gwneud cyfrif o arall yn fwy nag o hono ei hun; ac ni wna ymwithiad am y mur.

Hirymaros, gras nad ydyw yn hawdd ei gynhyrfu na'i gyffroi; addfwynder, yr hwn, os bydd bai yn ei gynhyrfu, a geidw y drws yn agored i heddwch ddyfod i mewn drachefn. Gwelwch swp cyfan o'r perlysiau hyn yn tyfu mewn un gwely: "Ffrwyth yr Ysbryd yw cariad, llawenydd, tangnefedd, hirymaros, cymmwynasgarwch, daioni, ffydd, addfwynder;" *Gal. v. 22.* Craffwch, actolwg, nid ffrwyth yw hwn sy'n tyfu ym mhob gwrych, ond ffrwyth yr Ysbryd; ffrwyth a dardd o hâd yr efengyl. Megys na buasai y meini yn y gloddfa, a'r cedrwydd fel y tyfent yn y coed byth yn gorwedd ynghyd yn daclus a hardd yn y deml, felly ni allasant chwaith naddua llyfnhau, na llifio a cherfio eu hunain, i'r cymmhwysder a'r harddwch oedd arnynt oll yn yr adeilad odidog hono: na, gwaith dynion a ddoniwyd gan Dd-w i'r diben hwnw oedd hynny. Felly, ni ddichon plant dynion chwaith, gyda'u holl fedr a'u harfau moesol, drefnu a llunio eu calonau fel ag i gydgympo i mewn yn garuaidd yn un deml sanctaidd. Gwaith yr Ysbryd yw hyn, a hynny â'r offeryn hwn, sef cyn yr efengyl; mewn rhan, gan dori ymaith gnyciau ein natur daeog, trwy ei ras marweiddiol; a'n cerfio hefyd, ein caboli, a'n llyfnhau â'r grasusau hynny sydd yn tarddu oddi wrth ei Ysbryd pur, llariaidd, a sanctaidd ei hun.

PENNOD XII.

Lle y dangosir y gwahaniaeth sydd rhwng yr heddwch a geir ymhlith y saint, a hwnw sydd ym mysg yr annwriolion. Mawredd pechod y rhai sydd yn weinidogion heddwch, ac etto yn cynnywyr cynhen; a'r rheswm pa ham na byddai mwy o heddwch ac undeb ym mysg y saint yn y bywyd hwn.

D. efn. 1. 1af. Mae hyn yn dysgu i ni pa beth i feddwl am yr heddwch a'r cariad hwnw, sydd weithiau i'w gael ym mysg rhai drygionus y byd. Nid gwir heddwch a chariad pur ydyw; o herwydd y maent yn ddiethriaid i'r efengyl, yr hon yn unig a ddichon uno calonau ynghyd. Pa fodd ynte y galwn ni eu heddwch hwn? Mewn rhai, y mae yn fath o gyd frad; "Na ddywedwch, Cydfwriad, wrth y rhai oll y dywedo y bobl hyn, Cydfwriad;" *Esa. viii. 12.* Y mae heddwch rhai wedi ei seilio ar eu lliid i'r saint, yn hytrach nag ar gariad yn eu plith eu hunain. Y maent yn unedig, ond pa fodd? Nid mewn ffordd well na llwynogod Samson, i wneud niwed i ereill yn hytrach na lles iddynt eu hunain. Gall dau gi a fyddo yn baeddu eu gilydd, adael hynny heibio i gydreddeg ar ol ysgyfarnog a ddelo heibio iddynt; agallant, ar oldarfod yr helfa, daraw i ymladd mor ffyrnig ag o'r blaen. "Y dwthwn hwnw yr aeth Pilat a Herod yn

gyfeillion; canys yr oeddynt o'r blaen mewn gelyniaeth â'u gilydd;" *Luc xxxiii. 12.*

2il. Y mae heddwch ac undeb ereill yn seiliedig ar ryw chwant gwael sydd yn eu cylymu ynghyd. Fel hyn, chwî a gewch weled cwlwm o gymdeithion da, fel y camewant eu hunain, yn eistedd uwch ben eu diod, gyda llawer o ymfodhâd ymddangosiadol yn eu gilydd: ac y mae haid o ladron, pan ar fwiad drwg, yn galw eu gilydd ynghyd, fel y petris eu cymmhariad, gan ddyweyd, "Tyred gyda ni, bwrw dy goelbren yn ein mysg; bydded un pws i ni i gyd;" *Diar. i. 14.* Y mae yma heddwch ac undeb; ond och! nid ydynt ond brodyr mewn anwirredd.

3ydd. Lle nad yw fel hyn yn hyll amlwg, megys yn wir nas gellir gwadu nad oes rhai sydd heb erioed brofi rhinwedd yr efengyl yn eu gwneud yn greaduriaid newydd, etto a ymddygant yn deg iawn tuag at eu gilydd, ac a gydgyndeithasant; a hyn nid ar gyfrit mor hyl a gwael: ac y mae yn eu mysg y fath orchwylion o gariad gan y naill i'r llall ag sydd yn mawr felusu eu bywydau, ac yn eu gwneud yn anwyl gan eu gilydd. Ac am hyn, y maent yn dra rhwymedig i'r efengyl, sydd yn fynych yn moesoli lle nad ydyw yn sancteiddio.

Etto, heddwch yw hwn sydd mor ddiffygol yn ei sail, fel nad ydyw yn haeddu yr enw o wir heddwch.

(1af.) Y mae yn heddwch arwynebol, megys yn y wyneb, nid yn y galon—allanol, nid tumewnol. Gallwn ddywedyd fod chwantau y fath dan gadwyniad rhag rhyfel cyhoeddus, yn hytrach na'u calonau dan newidiad i gariad oddi mewn. Megys y cytunnod y gwylltfol yn lled dda yn yr arch heb newidiad ar eu natur elynol, felly y gwna dynion diadgenhedleg.

(2il.) Y mae yn heddwch ansancteiddiedig. Yn gyntaf, am nad oes ganddynt heddwch â Duw, tra y tybygid eu bod yn heddychol â'u gilydd. A heddwch â Duw sydd yn symmud y feldith. Yn ail, am ei fod yn deilliaw o galonau ansancteiddiedig. Yr allor sydd yn sancteiddio y rhodd; felly y galon yr undeb. Gallai pagan ddywedyd, Nid oes modd i gariad a chyfeillach dda fod ond rhwng pobl dda. Ond och! ni wyddai efe pa beth a wna ddynt yn un da. Pau y mae Duw, mewn trugaredd, yn bwriadu gwneud calonau dynion yn un, y mae yn gyntaf yn eu gwneuthur yn newydd; "Rhoddaf iddynt un galon; ac ysbryd newydd a roddaf ynoch;" *Ezec. xi. 19.* Yr heddwch o iawn ryw, ffrwyth yr ysbryd yw; ac y mae hwnw yn sancteiddio cyn y gwna uno. Yn drydydd, am fod y diben sy gan y cyfryw i ymgrychu ato yn eu cariad yn gnawdol, ac nid yn ysbrydol. Megys nad oedd Awstin yn rhyfeddu cymmaint wrth Cicero, o herwydd ei hyawdledd a'i areith-

yddiaeth, ag yr oedd yn ddrwg ganddo drosto am nad oedd enw Iesu Grist i'w gael yn ei waith; felly y mae hyn yn tynu llinell ddu ar heddwech ac undeb dynion anianol. Nid oes ynddo ddim o Dduw a Christ. Ai ei ogoniant ef y cyfeiriant lwy ato? Ai gorchymyn Crist sydd yn eu rhwymo i heddwech? Och! nage: llef ddis-taw yw hon, ond heb Dduw ynddi. Eu llonyddwech a'u mantais anianol eu hunain yw y prif gynhyrfydd. Y mae heddwech ac undeb y fath westwyr da, ac yn talu mor dda am eu croesaw, fel y gwna hyn i ddynion heb ras, os bydd ganddynt ond eu cof, chwynychu cynnal heddwech allanol yn eu mysg eu hunain.

Mewn gair, heddwech yw hwn na pheryn yn hir, am ei fod yn ddiffygiol o gymmrwd (*mortar*) cryf. Gall cerig orwedd ynghyd am dro heb gymmrwd; ond nid yn hir. Yr unig gymmrwd parhaol am gariad yw gwaed Crist; fel y dywed Awstin am Al-ypius, ei gyfaill, ac ef ei hun, mai gwaed Crist a'u cydgyssylltodd.

Defn. 2. A ydyw yr efengyl yn efengyl heddwech yn yr ystyr hwn, sef fel ei cymmerir am undeb a chariad? Y mae hyn yn rhoddi lliw du a dwfn ar y rhai a'i cam-ddefnyddiant hii ddiben croes, ac a'i gwnânt yn offeryn iddynt i ddwyn yn mlaen gynhen ac ymryson. Am y cyfryw y souia yr apostol yn *Phil. i. 15*; "Y mae rhai yn wir yn pregethu Crist trwy genfigen ac ymryson." Gallai un feddwl fod efengyl tangnefedd yn destyn rhyfedd i fagu ymryson ac ymranid oddi wrtho; a'r pwlpudd yn fryn mor rhyfedd i osod arno y drylliau rhyfel o ymryson. O! mor rhyfedd y mae y gwyr hyn yn anghosio eu Harglwydd a'u hanfonydd (yr hwn sy Dywysog tangnefedd), a'u gwaith hefyd, sef nid chwythu udgorn terfysg ac ymbleidiad, na seinio larwm i frwydr, ond yn hytrach enciliad llon o'r ymladdfa waedlyd i'r hon y tynodd eu chwantau hwynt, yn erbyn Duw ac yn erbyn eu gilydd. Y mae yn ddiau ryfel y dylent ei chyhoeddi; ond rhyfel yn erbyn Satan a phechod yw hon: ac yr wyf yn sicr nad ydym yn addas i gychwyn allan i'w herbyn hwynt, nes y gallom fod yn gyttûu yn ein mysg ein hunain. Beth a feddyliai y brenin am y cadben-hwnw, yr hwn, yn lle calonogi ei filwyr i daraw âg unol rym—megs un gŵr—yn erbyn y gelyn cyffredin, a wnai araeth i osod ei filwyr yn ben-ben yn eu mysg eu hunain. Yn sicr, efe a'i dienyddiai fel bradwr. Da oedd gweddi Luther: "Gwareded Duw ei eglwys rhag dysgawdwyr gwag-ogoneddgar, bugeiliaid ymrysongar, a chwestionau diddefnydd." Ac y mae i ni yn yr eys alæthus hon gym-maint achos i roddi amen o galon wrthi ag a fu i neb ar ol ei oes ef. Onid ydym yn byw mewn amser, pan y mae yr eglwys

wedi ei throi yn ysgol cyfrwys-ddadleuath—lle y mae y fath ddadleu wedi bod, nes yw gwirioneddau gwerthfawrocaf yr efengyl wedi eu colli eisoes gan lawer, am fod eu llygaid wedi eu rhoddi allan gan y llwch a gododd yr ymrysonau hyn? Y maent o'r diwedd wedi dadleu eu hunain allan o'u holl egwyddorion sobr; yn debyg i rai drwg-ymdrinwyr a syrthiant i fysg chwareuwyr cyfrwys, ac a chwareuant y cwbl o'u harian allan o'u pyrsau. O, gwae i'r cyfryw ddrwg-ddynion sydd wedi camarfer yr efengyl i'r fath ddibenion diefig. Gall Duw gymmeryd trugaredd ar yr eneidiau twyllfedig, i'w hadfer i gariad y gwirionedd. "Ond am y twyllwyr, y maent wedi myned yn rhy bell tuag uffern i ni allu disgwyl am eu dy-chweliad.

Defn. 3. Y mae hyn yn dangos yr achos pa ham nad oes mwy o heddwech ac undeb ym mysg y saint eu hunain: nis gellir beio yr efengyl; anadlu heddwech y mae hi. Na ellir! Nid am eu bod yn efengylwyr, ond am nad ydynt ond efengylwyr amberffaieth, y maent heb fod yn fwy heddych-lawn. Po mwyaf y cyfranogont o ysbryd yr efengyl, lleiaf yr aflonyddir arnynt gan y drwg ysbryd o gynhen ac ymryson. Y mae y goreu o saint yn anefengylaid mewn rhan, mewn dau olygiad: ac o hyn y tardd yr ymladdau annhirion a'r ymrysonau an-frawdol yn eu mysg.

1af. Yn eu barnau; "Ni wyddant ond o ran; ac o ran y maent yn prophwydo;" 1 *Cor. xiii. 9*. Y neb a hōna ymhellaeth, y mae yn bostio tu hwynt i'w fesur, ac felly yn dadguddio yr hyn y mae yn ei wadu, sef ei anwybodaeth yn yr efengyl. Ac y mae hyn o goll ac angen, sydd yn marnau y saint, yn eu gwneud yn agored weithiau i yfed egwyddorion sydd heb fod yn efengyl-iaidd. Yn awr, y rhai hyn a wnant y cynnhwrf, ac aflonyddant ar eu heddwech a'u hundeb. Gellir dwyn pob gwirionedd i gyfundeb, fel llinellau a gydyfaryddant yn garuaidd mewn un canolfan, sef, "yn Nuw y gwirionedd; ac mor bell oddi wrth ymwthiad ac anghyttuniad, nes ydynt, fel cerig bwa maen, yn cynnal eu gilydd. A'r gwirioneddau sy mor gyttunol, ni allant ddysgu i ni anghyttuno. Na; yr estron hwn, cyfeliornad sy yn ymlusgo i blith y saint, ac a fyn fod yn farnydd: hwn sydd yn tori yr heddwech, ac yn ennyn tân yn y ty, yr hwn, os caiff lonydd, a welir yn fuan ym mhen y tŷ. Ni wna bwyd iachus ddim aflonyddiad i gorph iachus; ond bwyd afiach, buan y gwna y corph yn glafaid ac anhwylys: ac yna, pan fyddo y dyn afiach, nid rhyfedd os dechreu efe fod yn geurus ac anynad. Gwelsom hyn trwy brawf athrist. Y mae rhai, na chawsom gynt ganddynt ond mwynder a chariad, tra y cyd-ymborthent â ni ar yr un dysglaid o wirionedd efengyliaidd;

ond mor afrywiog y prifasant er pan lyngcasant ryw egwyddorion anefengylaidd â chyfeiliornus! Prin y gwyddom pa fodd i ymddwyn tuag atynt, gan mor ymrafaelus a chwerylus ydynt. Iê, hyd yn oed wrth wrandaw y gair, os ydynt etto heb anghofio y sfordd i'r ordinhâd, pa fath ymddygiad diffas a ddengys llawer o honynt? Fel pe byddai pob gair yn drwm ar eu cylla! O Syrs, na feiwn ar yr efengyl: glân yw hi oddi wrth yr ymryson blinïon hyn, sydd yn ein mysg. Paul a ddywed i ni pa le i gael o hyd i dad y cyw hwn o anghydfod: Gwelwch wrth ddrws pwy y mae yn dysgu i'w osod; "Yr wyf yn attolwg i chwi, frodyr, graffu ar y rhai sydd yn peri anghydfod a rhwystrau yn erbyn yr atharwiaeth a ddysgasoch chwi;" *Rhuf. xvi 17*. Daliwch sylw, attolwg, fel y mae efe yn glanhau yr efengyl; nid yn ysgol Crist y dysgasant hwy hyn; ac yna y mae yn rhoddi amnâd ddistaw, eu bod yn ei gael o ryw le arall, gan rywau gau ddysgawdwr, ac o ryw gau athrawiaeth neu gilydd. Craffwch arnynt, medd efe, fel pe dywedasai, daliwch sylw yn dda, a chwi a'u cewch hwynt wedi ymlygru ryw sfordd neu gilydd: hwy fiant yn ymdwymno wrth dân Satan; ac oddi yno y dygasant y pentewyn sydd yn gwneud y drwg.

2il. Y mae Cristionogion yn anefengylaidd mewn rhan yn eu calonau a'u bucheddau. Nid yw y cwbl o wraidd pechod wedi eu codi i fyny ar unwaith; ac nid rhyfedd fod peth chwerw flas yn aros yn y ffrwyth a ddygant. Bydd y saint yn y nef yn ras i gyd, ac heb bechod ynddynt; ac yna byddant oll yn gariad hefyd: ond yma y maent o ran yn rasol, o ran yn llygredig; ac feily eu cariad yn amherffaith. Pa fodd y gallant fod wedi eu llawn-asio ynghyd, mewn undeb na thorir mo hono byth, tra y mae eu cymmodiad â Duw, yn y pwngc o sancteiddiad, heb fod mor gyflawn nad oes yn awr ac yn y man rai ymrafaelion rhygddyrt âg ef ei hun? A pho leiaf y llwydd a gafodd yr efengyl yn eu calonau i farweiddio chwant a chryflau gras, leiaf o heddwch a chariad sydd i'w disgwyl yn eu plith. Y mae yr apostol yn penderfynu, oddi wrth yr ymrysonfa ym mysg y Cristionogion yn: Corinth, mai bychan oedd eu tyfiant mewn gras; ac mai llwy a-bwyd plentyn oedd yn addas iddynt. "Mi a roddais i chwi laeth i'w yfed, ac nid bwyd cryf: canys hyd yn hyn nis gallech, ac nis gellwch etto yr awr hon ei derbyn; ac nis cnawodl ydych chiwi etto;" *1 Cor. iii. 2*. Nag e: y mae yn gweled hyn yn dystiolaeth mor eglur, nes yw yn apelio at eu cydwobodau hwynt ar y matter: "Canys tra fyddo yn eich plith chwi genfigen, a chynhen, ac ymbleidio, onid ydych yn gwawdol, ac yn rhodio yn ddydol?" *adn. 3*.

Ond fel y cryfhao gras, ac y gorchfygo yr efengyl yng nghalonau Cristionogion, felly y cyunydda cariad ac ysbryd undeb gyda hyn. Ni a ddywedwn, "Po hynaf, doethaf." Er fod plant tra yn ieuainge yn cripio ac yn ymladd, etto pan ddelont i oed, y maent yn dechreu cyttuno yn well. "Y mae pob gwan yn anynad o natur: y gwein-iaid ieuainge yn geurus a chwerylus." Y mae oed a nerth yn dwyn doethineb i orchfygo yr ymrafaelion gwael, y rhai yn awr nis gellir eu dioddef. Yn yr ymrafael rhwng gweision Abraham a Lot, gwelwn Abraham, y credadyn hynaf a chryfaf, yn fwyaf parod am heddwch, fel ag i ddeisyf ei gael ar law ei nai oedd islaw iddo ar bob cyrif. Paul, oedd yn Gristion llawer uwch nag ereill, O! fel y rhagorai mewn cariad! Efe a ddywed am dano ei hun, "Gras ein Harglwydd ni a dra amhaodd gyda ffydd a chariad, yr hwn sydd yng Nghrist Iesu;" *1 Tim. i. 14*. "Yma," medd Calfin, "y mae ffydd wedi ei chyferbynu i'w anghrediniaeth cyndyn ef gynt, pan yn Pharisead; "cariad yng Nghrist Iesu" yn gyferbyniol i'r creulondeb a ddangosodd at Gristionogion, pan aeth, dan chwythu celanedd, ar ei neges o erlid i Damascus. Yr oedd yn awr mor lawn o ffydd, a'r pryd hyny o anghrediaeth; yn awr mor boeth eirias o gariad at y saint, a'r pryd hyny o greulondeb i'w herbyn." Ond i hyn yn beauf yr wyf yn nodi y lle, sef i ddangos fel y mae y grasusau hyn yn cyd-dyfu ac yn cydgyunyddu. Os yn helaethion mewn ffydd, yna yn helaethion mewn cariad.

PENNOD XIII.

Annogaeth i'r saint i gynnal heddwch yn eu plith eu hunain, a'i ddwyn yn mlaen hyd y gallant: oddi wrth dri o resymau.

Defn. 3. Y MAE hyn yn dwyn annogaeth brydlawn i lawb o'r saint, ar iddynt feithrin heddwch hyd y gallont yn eu mysg eu hunain. Yr ydych oll yn profesu ddarfod eich bedyddio i ysbryd yr efengyl; ond nid ydych yn ei ddangos pan fyddoch yn dau-neddu ac yn chwyrnu ar eich gilydd. Yr efengyl sydd yn gwneud bleiddiaid ac fryn yn gytffân; ac nid yw yn dysgu yr wyn i droi yn fleiddiaid a difetha eu gilydd. Dywedodd ein Iachawdwr wrth y ddau ddisgybl oedd a'u digder wedi ffaglu, nes y mynent gyrehu tân o'r nef i fyned ar eu neges ddiagar hwynt, nad oeddnt yn dirnad o ba aelwyd y daeth tân gwyllt eu poethwyt; "Ni wyddoch o ba Ysbryd yr ydych;" *Luc ix. 55*. Fel pe dywedasai, Nid yw y fath eiriau dig-danlyd yn gyfaddas i'r Meistr llariaidd yr ydych yn ei wasanaeth, na'i'r efengyl y mae yn ei

phregethu i chwi. Ac oni oddefa yr efenngyl i ni dalu i'n gelynon yn eu bath eu hunain, a rhoddi iddynt lid am lid; yna, llawer llai y goddefa i frodyr boeri tân i wynebau eu gilydd. Na, pan ddechreu y fath farwor fygu ym mysg Cristionogion, gallwn wybod pwy a daflodd y wreichionen; neb ond Satan: efe yw y cryf ennywyr yn eu holl ymrysonau hwynt. Os bydd tymmestl, nid yn yr awyr, ond yn ysbrydoedd Cristionogion, a gwynt eu nwydau hwynt yn uchel a chroch, y mae yn hawdd dirnad pwy yw y dewin. O! y di-afol ydwy; efe sydd yn trin ei gelfyddyd ddu ar eu chwantau hwynt, sydd etto mor anfarweiddiedig, nes rhoddi iddo fantais rhy fawr at godi yn fynych ystormydd o gyn- nhen ac ymranid yn eu mysg. Cychwyn- odd Paul a Barnabas ynghyd mewn tawel- wech; ond dyna Satan yn anfon ystorm ar eu holau, a'r fath ystorm ag a'u gwahanodd hwy ar ganol eu taith; "A bu cymmaint cynnhwrf rhyngddynt, fel yr ymadawsant oddi wrth eu gilydd." *Act. xv. 39.* Nid oes dim, yn fyr o Grist a'r nef, a warafun- odd Satan i gredinwyr, yn fwy na'u hedd- wech a'u cariad tuag at eu gilydd. Onis gall eu rhwygo oddi wrth Grist, a'u hattal rhag cyrhaedd y nef, etto, y mae yn lle boddhâd ganddo eu gweled yn myned yno mewn tymmestl, fel llongau bregus, yn wa- hanedig oddi wrth eu gilydd, fel na chaffont gymborth trwy, na chysur o, gymdeithas eu gilydd ar hyd y ffordd. Gyda hyn, lle y gallo wahanu, y mae yn gobeithio dis- trywio hefyd, gan wybod yn sicr mai hon yw y ffordd debycaf i ddwyn hyny i ben. Haws yw cynmeryd yn llong na llynges. Os gellir rhoddi tref ar dân, bydd i'r gelyn well gobaith o'i chymmyrd. Gan hyn, byddwch yn dra gofalus am gadw gwreich- ion y diafol allan o'ch ffiamlwech. Yn sicr, nid trugaredd fechan yw heddwech ym mysg Cristionogion, gan fod saethau y diafol yn ehedeg mor aml at eu dwyfronau.

Mi a ddymunwn ddyweyd rhywfaint i ennill pobl Dduw hoffi y drugaredd hon. Yr wyf yn addef fy mod yn caru awyr glaerdeg a thawel, ond yn enwedig yn yr eglwys ym mysg credinwyr: ac fe'm gwneir yn fwy ystyriol pa fath drugaredd a fyddai hon, drwy y canlyniad alaethus o'r ym- raniadau a'r ymrafiaelion sydd er ys rhai blynyddoedd wedi terfysgu ein hawyr a'n llenwi â'r fath ddychryn ac anhrefn, hyd onid ydym yn lled debyg i'r wlad a elwir Tierra-del-Fuego, tir y mwg a'r tân, o achos y mwg lawer a'r aml fellteniadau sydd yn- ddo. Ac i ba beth y gallaf gyffelybu cyf- eiliornad yn well nag i'w fwg, na chynhen nag i dân? Rhyw arwyddlun o uffern yw, lle y mae y ffiamau a'r tywyllwech yn cyd- gyfarfod i chwangu erchylldra y fan. Ond i wasgu yr annogaeth yn dynach o beth,

rhoddwch ganiatâd i mi eich annog i undeb a heddwech, drwy dri o resymau.

DOSE. I.

Iaf. Er mwyn Crist. Ac mi a feddylw'n na ddylw'n gael nacâd, pan yn erfyn er ei fwyn ef. Pan weddioch chwi ar Dduw, ac y gwnelech ond defnyddio ei enw ef yn y gor- chwyl, yr ydych yn sicr o lwyddo. A pha ham na byddai i gynghor, sydd yn attolygu arnoch er mwyn Crist, gynnhyrfu eich calon- au chwi i ddyledswydd, fel y gwna gweddi a weddi'er genych chwi yn enw Crist gyn- nhyrfu calon Duw i drugaredd? Iê, pa fodd y gelli di, mewn ffydd, arfer enw Crist fel dadl at agor calon Duw i ti, pan nad yw o'r fath gyfrif gyda thi dy hun ag i agor dy galon i gydsynio â dyledswydd sy mor bwysig ar ei galon ef, i'w dwyn ym mlaen ym mysg ei bobl? Fel yr ym- ddengys—

(Iaf.) Wrth y gorchymyn difrifol a roddodd ar ei ddisgyblion yn yr achos hwn: "Gorchymyn newydd yr wyf yn ei roddi i chwi, ar garu o honoch eich gilydd; fel y cerais i chwi, ar garu o honoch chw- ithau bawb eich gilydd;" *Ioan xiii. 34.* Craffwch, attolwg, fel y mae yn parotoi eu calonau i agor yn rhwydd, a chroesawu yn llawen y gorchymyn hwn: y mae yn gosod ei enw ei hun arno. "Gorchymyn newydd yr wyf fi yn ei roddi i chwi." Fel pe dy- wedasai, Bydded i'r gorchymyn hwn, er ei fod mor hen ag y gorchymyn arall (*Lef. xix. 18*), etto fyned ar fy enw i mewn modd arbenigol. Pan fyddwyf fi wedi myned, a'r tân o ymryson, ar ryw dro, yn dechreu ennyn yn eich mysg, cofiwch pa orchymyn neillduol yr wyf yn awr ei roddi arnoch, a gadewch iddo ddiffodd yn ebrwydd. Drachefn, deliwch sylw ar y modd y mae yn traddodi y gorchymyn hwn, sef megys rhodd a rhagorfraint; "Gorchymyn newydd yr wyf yn ei roddi i chwi." Yn wir, pregeth ymadawol Crist ydoedd hon, a gwir dription y llaeth hwnw y buasai yn eu porthi hwynt âg ef. Erioed ni ddifer- odd ymddiddan melusach o'i enau bendig- edig: fe gadwodd ei win goreu hyd yn ddiweddaf. Yr oedd efe yr awr hon yn gwneud ei ewyllys; ac ym mysg ei gymmyn- roddion ereill i'w ddisgyblion, y mae yn cymmeryd y gorchymyn hwn, fel y cym- merai tad ei sel fodrwy oddi ar ei fys, ac yn ei roddi iddynt. Drachefn, y mae efe nid yn unig yn gosod y gorchymyn o'u blaen; ond i'w wneud yn fwy effeithiol, y mae yn cyssylltu mewn byr eiriau y ddadl gryfaf a ellir ei rhoddi o blaid y peth, ac hefyd y cyfarwyddyd egluraf a llawnaf at ei wneuthur; "fel y cerais i chwi, ar garu o honoch chwithau bawb eich gilydd." O Gristionogion! pa rwymau nas gall cariad Crist eu gosod arnoch? Pe byddent ar i chwi roddi eich bywydau i lawr drosto ef,

a'ch carodd chwi hyd anghau, a wrthoddech chwi hwynt? Ac ai ni bydd i'w gariad hwn eich cymmhell chwi i ddarfod a'ch ymraniadau a'ch cynnhenau?

Y mae hyn yn ddiogon o ddangosiad am fawredd y pwys a osodai ar y gorchymyn hwn; ond craffwech drachefn ar y modd y mae Crist, yn yr un bregeth, yn eu coffau unwaith ac eilwaith am hyn. Ac oni buasai ei fod yn dra mawr ei ofal yn ei gylech, ni chwaisai y peth le mor helaeth yn ei feddwl y pryd hyn, pan oedd ei amser mor fyr, ac yntau i grynhoi a chydgasglu ynddo y cwbl o'r cyngor a'r cysur nefolaidd oedd ei ddymuniaid i'w adael gyda hwynt cyn yn ei ymadwriad. Nage, y mae yn gosod y fath bwys ar hyn, hyd onid yw efe megys yn cydglori i fyny ei lawenydd ei hun, a'r eiddynt hwythau, yn y gofal a gymmerent hwy ynghylch yr un gorchymyn hwn o garu eu gilydd: "Hyn a ddywedais wrthy, fel yr arosai fy llawenydd ynoch, ac y byddai eich llawenydd yn gyflawn;" *Ioan xv. 11.* Pa beth ydoedd hyn a welir yn y wers o'r blaen: "os cedwch fy ngorchymynion, chwi a aroswech yn fy nghariad." Hyn oedd y peth a lefarodd efe wrthynt, fel y byddai ei lawenydd ef ynddynt hwy, a'r eiddynt hwythau ynddo ef; sef, ar iddynt gadw ei orchymynion. Yn awr, i roddi iddynt wybod pa mor fawr y lle a gawsai eu hufudd-dod i'r gorchymyn neillduol hwn am gariad ac undeb yn ei galon ef, a pha mor dra llesol ydoedd at barhâd ei lawenydd ynddynt, a chyflenwi eu llawenydd hwythau, y mae yn dewis hyn, uwch law pob peth, i fod yn gymmhellydd arnynt i'r hyn a ddywedasai. Gwelwch *adn. 12*: "Dyma fy ngorchymyn i ar i chwi garu eich gilydd." Craffwech etto y modd y mae Crist yn priodoli y gorchymyn iddo ei hun; "dyma fy ngorchymyn i." Fel pe buasai yn rhoddi annaid iddynt, megys yr oedd ganddo un disgybl oedd yn myned wrth yr enw, "yr hwn yr oedd yr Iesu yn ei garu;" felly y myn efe feddu gorchymyn hoff, yn yr hwn y cymmer efe ryw hyfrydwech arbenig, ac mai hwn ydyw, "ar iddynt garu eu gilydd."

Ond ni ddaethom etto at y ddolen olaf o'r gadwyn euraidd hon, sef ymddiddan Crist. Wedi iddo roddi peth gwres yn rhagor yn eu serchiadau at y ddyledswydd hon, trwy ddadgan ei gariad ei hun atynt, yn yr amlygiad mwyaf o hono, sef "rhoddi ei einioes" drostynt (*adn. 13*), y mae yna yn dyfod ym mlaen yn hyfach, ac yn mynegi iddynt y gwna efe eu haddef yn gyfeillion iddo, fel y byddent hwy yn ofalus i gadw yr archiad a roddasai efe iddynt: "Chwydychwi yw fy nghyfeillion, os gwnewch pa bethau bynag a orchymynais i chwi;" *adn. 14.* Bellach, gan fwrw ei fod wedi gorchyfygu gyda hwynt, ac y byddai iddynt roddio

mewn undeb a chariad, yn ol ei orchymyn, nis gall efe gelu yr hyfydwch a gymmer efe yn hyny, ie, ac ynddynt hwythau am hyny. Yn *adn. 15*, y mae yn agor ei galon iddynt, heb gloi dim dan gél rhaiddynt; ie, y mae yn erchi iddynt fyned ac agor eu calonau i Dduw, a bod yn hyf wrtho, fel y mae yntau wrthynt hwythau: *adn. 16.* A nodwch o ba awr ddedwydd y mae y gyfeillach yma, y derbynir hwynt iddo, yn cael dyddiad—"O hyn allan nid ydwyf yn eich galw yn weision; o blegid y gwas ni w'yr beth y mae ei Arglwydd yn ei wneuthur;" sef o'r pryd y byddo eich rhodiad yn ufudd tuag ataf fi, ac yn garuaidd at eich gilydd. Gallai un feddwl ar hyn, iddo ddywedyd digon; ond nid yw efe yn meddwl felly. Yn y geiriau nesaf y mae efe drachefn ar yr un mater: "hyn yr wyf yn ei orchymyn i chwi, garu o honoch eich gilydd;" *adn. 17*, fel pe buasai y cwbl a ddywedasai wrthynt heb law hyn, yn wasanaethgar i hyn.

2il. Peth arall, yn profi fod calon Crist dan rwywiad dwys i ddwyn cariad ac undeb ym mlaen ym mysg Cristionogion, yw ei weddi daer am hyn. Pe clywech bregethwr gyda llawer o daerineb yn gwasgu rhyw ras neu ddyledswydd ar y bobl yn ei bulpud, a phe byddai i chwi, yn ebrwydd ar ol diwedd ei bregeth, fyned tan ffenestr ei ystafell, a'i glywed ef cyn daered yn ei ymdrech â Duw am iddo ef roddi i'w bobl y peth y bu efe mor wresog yn ei wasgu arnynt, chwi a goeliech yn hawdd fod y gwr o ddifrif. Y mae ein Iachawdwr bendigedig wedi dysgu i ni, weinidogion, pa le, pan ddelom o'r pulpud, o'r phla beth i'w wneuthur. Yn ebrwydd ar ol gorphen ei bregeth i'r bobl, y mae efe ar weddi drostynt gyda Duw: a'r hyn oedd yn briif fater ganddo yn ei bregeth, y mae yn helaethu yn fwyaf arno yn ei weddi. Undeb a heddwech oedd y cymmynrodd y dymunodd gymmaint am ei gadael gyda hwynt a'r un yw'r rhodd y mae ei erfyniad yn daer ar Dduw am ei chyfranu iddynt "Y Tad sancteiddiol, cadw hwynt trwy dy enw, y rhai a roddaist i mi;" a pha han yr holl olaf hwn? "fel y byddont yn un megys minnau;" *Ioan xvii. 11.* Fel y dywedasai, O Dad, a syrthiasom ni allan erioed? A fu erioed ymrfael rhyngom? Pa ham ynte yr anghyttunai y rhai sydd yn eiddo i ti a minnau? Felly (*yn adn. 2 a 24*) hefyd y mae yn dadleu yn daer am y un drugaredd. A pha ham mor fynych A ydyw mor anlhwdd ei gwasgu o law Duw, nes bod rhaid i Grist ei hun ymdyn mor fynych am dani? Nag ydyw yn sicr ond fel y dywedodd Crist am y llef a ddaet o'r nef: "Nid o'm hachos i y bu y llef hon ond o'ch achos chwi;" *Ioan xii. 30.* Felly y gallaf finnau ddywedyd yma, Y se

ddeublyg hon o eiddo Crist am undeb a heddwech ei bobl, yn eu hachos hwynt yr oedd.

(1af.) Efe a fynai trwy hyn godi bri y drugaredd yn uwch yn eu meddyliau. Y mae hyn yn sicr yn werth eu gofal hwynt, a gyfrifodd efe yn werth ei weddi ddeublyg, pan nad oedd gair o son ganddo am ei einioes ei hun, neu ynte efe a gam-gyfleodd ei sel, ac ni ddefnyddiodd ei amser gyda Duw, er budd goreu i'w bobl.

(2il.) Efe a fynai i ymraniadau ymddangos yn bethau mwy ofnadwy arswydus, trwy roddi deisyfiadau mor aml at Dduw, am eu rhagflaenu. Yn sicr, pe gwybuasai Crist am un drwg gwaeth, yn debygol i ddyfod ar ei bobl, ar ol ei ymadawiad, efe a fuasai mor bur a thirion i'w blant ag i erfyn rhag hwnw yn anad un, a'u cadw draw. Efe a fynegodd i'w blant pa beth oedd iddynt ei ddisgwyl gan y byd, pob math o boenau a dioddefiadau a allai eu synwyr helpio eu malais i'w dyfeisio : etto, nid yw Crist yn erfyn cymmaint am rydd fraint rhag y rhai hyn, ag y mae rhag ymrysonau anfrawdol yn eu mysg eu hunain. Y mae efe yn cyfrif, os gallant hwy gydymuno, a bod mewn cariad, sant gyda sant, eglwys gydag eglwys, fod ganddynt drugaredd a ysgafnâh y baich arall, ac a'i gnwa yn oddsfadwy, i'w hyfryd. Y tân nefol hwn o gariad, yn eu plith eu hunain, a diffydd ffلامau eu herlidwyr, o leiaf eu harswyd yn y galon.

Mewn gair, mynai Crist gryfhau ein ffydd efofyn yn hyf am yr hyn a rag-ofyn-odd efe drosom, ac hefyd i fwyhau y pechod o gynnen i'r fath uchder, fel y byddo i bawb a fyddo yn meddu cariad at Grist weled nas gallant fyw mewn anghydfod, heb fod yn pechu yn erbyn y gweddiâu hyny a fonodd efe i fyny, gyda llefau cryfion, am heddwech ac undeb ; a hyn nes y crynont wrth feddwl am y peth.

(3ydd.) Y gwerth a roddodd Crist, i gael yr heddwech a'r undeb hwn. Megys yr aeth Crist o bregethu i fyny heddwech, at dynu heddwech o'r nef i'r llawr trwy weddi, felly efe a aeth o weddio at dalu am dano. Yn wir, nid erfynion cardotyn yw gweddiâu Crist, fel y mae ein gweddiâu ni ; y mae efe yn gweddio ar ei Dad, yn unig am gael yr hyn y mae yn talu am dano. Yr oedd efe yn awr ar y ffordd i le y taliad, sef Calfaria ; ac yna ei waed oedd y gwerth a roddes efe am yr heddwech hwn. Yr wyf yn addef mai heddwech â Duw oedd y prif¹ berl a bwrcasodd Crist, y marchnatawr doeth hwn, i'w bobl. Ond yr oedd hyn ganddo yn ei

olwg hefyd : yn ganlynol, megys y mae Sacrament Swper yr Arglwydd (yr hon yw y wledd-goffa am farwolaeth Crist) yn seilio ein heddychiad â Duw, felly y mae hefyd yn arwyddo ein cariad at ein gilydd : 1 *Cor.* x. Ac a fydd raid i ni yn awr roddi i chwi gyfrif pa ham y dilynodd ein hanwyl Arglwydd ei orchwyl hwn mor dŷn, sef cyd-glymiad ei bobl mewn heddwech ac undeb ? Yn wir, fe fwriedir yr eglwys gan Grist i fod yn dŷ iddo, i gymmeryd ei orphwysfa ynddo ; a pha orphwysfa a allai efe ei gael mewn tŷ a fyddai oll ar dân o'i ddeutu ? Ei deyrnas ef ydwy : a pha fodd y gall ei ddeddfau ef gael uffuddhâd, os bydd ei ddeiliaid oll mewn terfysg yn erbyn eu gilydd ? *Inter arma silent leges* : " Ym mysg arfau, taw sydd ar ddeddfau." Mewn gair, pobl yw ei eglwys ef, a alwyd allan o'r byd, i fod yn foliant iddo ger bron y bobloedd-fel y dywed Pedr ; " Ymwelodd Duw a'r cenhedloedd, i gymmeryd o honyt bobl i'w enw ;" *Act.* xv. 14, sef pobl i'w anrhydedd : ond anrhydedd bychan i enw Crist a ddygai pobl gwerylus, ymranedig. Iē, pa le bynag y ceir y cyfryw (ac Och ! pa le nad ydynt i'w cael ?), y maent i enw Crist fel mwg a budreddi i wyneb glân ; y maent yn pardduo ac yn anffurfio Crist ; fel na chydnebydd y byd ei fod ef yr un y dywed efe ei fod : Maent yn eu harwain, i'w brofedigaeth, i dybied yn wael am Grist a'i efengyl. Yn *Ioan* xvii. 23, y mae Crist yn gweddio am i'w bobl gael " eu perffeithio yn un ;" a chrafftwch ar ei ddad ; " fel y gwypo y byd mai tydi a'm hanfonaist i." Calon pwy nid yw yn gwaedu, wrth glywed y cabledd sydd ar Grist y dydd hwn gan gynnifer o safnau duon ? A pha beth sydd wedi eu hagog yn fwy nag ymraniadau y saint ?

DOSE. II.

2. Cymmerir yr ail ddadl oddi wrthyech eich hunain. Er eich mwyn eich hunain byddwch byw mewn heddwech ac undeb. Ystyriwch eich rhwymadau i gariad ac undeb : y mae eich perthynasau yn galw am hyn. Os credinwyr, y mae Paul yn dadgan eich carennydd ; " Chwi oll ydych blant i Dduw, trwy ffydd yng Nghrist Iesu ;" *Gal.* iii. 27. Nid yn unig plant i Dduw (yr ydym oll felly trwy greadigaeth), ond trwy ffydd yn Iesu Grist hefyd. Y mae Crist yn sylfaen brawdoliaeth newydd i gredinwyr. O Gristionogion ! ystyriwch pa mor agos y'ch gosodwyd at eich gilydd : ymddygydd arnoch yn yr un bru, yr eglwys ; cenhedigaeth chwi trwy yr un hâd, y gair, i'r greadigaeth newydd hon ; a thrwy hyn, fel y dywed un, daethoch i fod yn frodyr o waed cyfan ; ac am hyny dylai fod undeb a serch anwylach yn eich plith chwi na dim rhai ereill. Gwresogodd calon Ioseph yn fwy at Benjamin nag at un o'i frodyr ereill, am ei fod ef yn frawd iddo,

¹ Mewn ystyr fanylach, ei eglwys yn unig a brynodd Crist (*Eph.* v. 25 ; *Act.* x. 28), ond yr oedd pob grasau a moddion rheidiol at gael ei eglwys adref i ogoniant yn ddeiliaid anwahanadwy oddi wrth y pryniad a fu arni.

o dad ac o fam hefyd. Os chwi a syrthiwech allan, pwy a gyttuna? Yn ol rheswm, pa beth a all dori ar eich heddwch chwi? Y pethau sydd yn arferol o fod ynesgyrn ymyrson ac yn achlysuron ymgeeru ym mysg brodyr ereill, y mae Crist wedi gofalu am symmud y rhai hyn oll ymaith: ac felly y mae eich ymrafaelion chwi, tu hwnt i ereill, yn dra phlentynaidd, i.e. a phechadurus. Weithiau, y mae y naill blentyn yn cael ei ofidio trwy ymserchiad pleidiol ei dad neu ei fam, yn fwy ar ereill nag arno ef ei hun; a gwna hyn iddo ef genfigenu wrthynt, ac iddynt hwythau ei ddirmygu yntan. Ond nid oes plentyn arwes o'r fath yn nheulu Duw; y maent oll yn gyffelyb hōff gan Crist. "Rhodiwech mewn cariad megys y carodd Crist ninnau, ac a'i rhoddodd ei hun drosom ni;" *Eph. v. 2*: hyny yw, dros y naill yn gystal a'r llall. Y mae Crist yn yr eglwys yn gyffelyb i'r enaid yn y corph. Y mae yn gyfan yn y cyfan, ac yn gyfan ym mhob rhan; *totus in toto, et totus in qualibet parte*. Pob aelod yng Nghrist, y mae ganddo Crist cyfan, ei holl galon a'i gariad ef, fel pe na byddai un i'w fwynhau heb law ef ei hun.

Drachefn, ym mysg dynion, er na ddangosodd tad gymmairt pleidgarwech yn ei serch, etto, y mae yn fynych anwastadrwydd mawr yn y cyfraniad o'i feddiannau. Er fod y cwbl yn blant, nid yw y cwbl yn etifeddion, ac y mae hyn yn hau had cynnhen yn eu mysg; fel y gwelodd Jacob trwy brawf gofidus. Ond y mae Crist wedi gwneud ei ewyllys felly, hyd onid yw y ddarpariaeth yn gyffelyb i bob un, ac yn cael ei alw yr "iachawdriaeth gyffredinol;" *Iudas iii*: "ac etifeddiath y saint yn y goleuni;" *Col. i. 12*: i bawb o'r gymdeithas. Gall pawb fwynhau eu dedwyddwch heb ymwithio na drygu y naill y llall; fel y miliynau o bobl sydd yn edrych ar yr un hau, ac ar yr un pryd, heb un yn sefyll yng ngoleu y llall. Tybygwn fod geiriau Crist, yn *Ioan xvii. 22*, yn tueddu peth y ffordd yma; "A'r gogoniant a roddais i mi, a roddais iddynt hwy; fel y byddont un." Wrth ogoniant yno, gogoniant yn y nef yn benaf a ddeallwn ni: ac medd Crist, "mi a'i rhoddais," sef mewn hawl; mi a'i rhoddais "iddynt hwy," nid i'r hoff-ddyn hwn neu y llall, ond iddynt oll; mi a'i trefnais fel cyfran i bawb o'r gwir gredinwyr—a phaham? "Fel y byddont oll yn un;" fel y distawer pob ymdaeriad, ac na chenfigeno un wrth arall o achos cael rhan fwy nag ef, pan welo fod gogoniant yn rhan iddo yntan. Gwir yw yn ddiâu fod peth gwahaniaeth yng nwisgoedd allanol y plant; rhai yn dlawd, rhai yn gyfoethog: ac mewn doniau cyffredin hefyd, y mae gan rai iwy, a rhai lai. Ond a yw y rhai hyn o gymmairt gwerth, o'r fath bwys ag i fod rhyfel o'u

plegid, ym mysg y rhai sydd yn disgwyl am yr un nef? Os gwna tad ddilladu ei blant oll a'r un brethyn, bydd yn drwm eu gweled yw gwau eu gilydd, am fod gan un addurn-we nad yw gan y llall; nag e, am fod addurn un yn goch, ac addurn y llall yn wyrdd. O blegid yn wir y mae y cweryll weithiau ym mysg y saint, nid am feddu doniau llai nag arall, ond am nad ydynt yr un mewn rhyw, er eu bod mor dda a defnyddiol; a'r hwn y ceufigenwn ni wrtho fe allai, heb ei meddu.

2il. Ystyriwch pa le yr ydych, ac ym mysg pwy. Onid ydych yng nghyffiniau eich gelyniog? Os ymyrsonwch chwi, beth yw eich gwaith ond enny'n tân iddynt hwy ymdwymuo wrtho? Aha! meddant, felly y dymunem ei chael. Bydd i fôr eu cynddaredd hwy wanhau y geulan hon yn ddigon cyflym; ni fydd raid i chwi ei thori iddynt. Y mae afresymoldeb y gynnen rhwng bugeiliaid Abraham a Lot yn cael mwynhâd, trwy agosrwydd y cenhedloedd atynt. "Cynnhen hefyd oedd rhwng bugeilydd anifeiliaid Abraham, a bugeilydd anifeiliaid Lot. Y Canaanaid hefyd, a'r Phereziaid oedd yno yn trigo yn y wlad;" *Gen. xiii. 7*. Syrthio allan, a'r eilun-addolwyr hyn yn gweled! gwnai hyn waith siarad ar led y fro yn fuan, gan eu rhoddi hwynt, a'u crefydd hefyd, i waradwydd. Ac attolwg, pwy sydd wedi bod yn ein tir ni yr holl amser y bu pobl Dduw yn ymdynu? Rhai a fanwl-graffodd ar bob ymddygiad anhardd yn ein plith, ac a'u mynegasant i'r holl fyd: y cyfryw ag sydd yn meddu digon o gallineb a malais i'w ddefnyddio at eu bwriadau drygonus. Y maent yn sefyll ar flaenau eu traed i fyned at waith: yn unig yr ydym ni heb fod yn ddiffygiol a dirym, trwy doster y briwiau hyn a roisom i ni ein hunain, o ran gwrthsefyll eu cynddaredd. Y maent yn go-beithio y daw pethau i hyny; ac yna hwy a'u iachânt ni o'n briwiau ein hunain, trwy roddi i ni un, os gallant, a ä yn ddigon dwfn at galon ein bywyd, efengyl a chwbl. O Gristionogion! a gaiff Herod a Philat eich cywilyddio! Aethant hwy yn gyfeillion at gryfiau eu dwylaw yn erbyn Crist: ac oni ymunwch chwithau yn erbyn eich geiyn cyffredin? Amser drwg yw i forwyr fod yn ymladd, pan y mae gelyn yn agor twll yng ngwaelod eu llong.

3ydd. Ystyriwch ganlyniadau trymion eich cynnhenau.

(1af.) Yr ydych yn attal tyfiant eich gras. Cystal y gall y corph gyunyddu mewn twymyn boeth, a'r enaid lwyddo pan fyddo mewn tân o gynnen ac ymyrson. Na; rhaid yw i'r tân hwn yn yr esgryn gael ei ddiffodd, ac i'r corph gael ei ddwyn i'w dynmer naturiol: ac felly y mae yn rhaid bod oeriad ar y gwres afrywiog hwn yn

mysg Cristionogion cyn y cynnyddant hwythau. Attolwg, deliwech sylw ar y lle hwnw: *Eph.* iv. 15. "Eithr gan fod yn gywir mewn cariad, cynnyddu o honom iddo ef ym mhob peth." Ar feddygwaith y mae yr apostol; yn dangos pa fodd y gall cneidiau, sydd yn bresennol yn weiniaid, a'u gras yn wan a gwywedig, yn hytrach nag yn cynnyddu, ddyfod er hyn i dyfu a blodeuo: a'r cyngor y mae yn ei roddi, cyd-gasgliad ydyw o'r cyfferiau rhagorol hyn, cywirdeb a chariad. Cedwch y rhai hyn, a bydd pob peth yn dda, fel yn *adn.* 16: lle y dywedir fod yr holl gorph yn "ei adeiladu ei hun mewn cariad." Gall pregethu fod, ond dim adeiladu, heb gariad. Y mae ein hamseroedd ni yn agoriad alaethus ar y testyn hwn.

(2il.) Yr ydych yn tori ymaith eich masnach a'r nef o flaen gorsedd gras. Mi a warantaf i chwi, mai ychydig a weddiwch ar Dduw, os ymarferwch ymgecu a'ch brodry. Y mae yn amhossibl myned âg ysbryd rhydd, o ymrafaelio at weddio. Ac os byddi di mor hyf a cluro wrth ddrws Duw, ti a fyddi yn sicr o gael croesaw oeraidd: "Gâd yno dy rodd ger bron yr allor, a dos ymaith; yn gyntaf cymmoder di a'th frawd, ac yna tyred ac offrw m dy rodd;" *Mat.* v. 24. Ni fyn Duw i ni roddi arogllysiau gweddi ar y fath dân dieithr: ni wna efe fwyta chwaith o'n bara leseinllyd, na phrofi o un ddyledswydd wedi ei suro â malais a chwerwder ysbryd. Adnewyddwyd yn gyntaf yr heddwch rhwng Laban a Jacob: *Gen.* xxxi. 44: ac yn *adn.* 54: "Jacob a aberthodd aberth yn y mynydd, ac a alwodd ar ei frodry i fwyta bara." Byddai hyd yn oed y paganiaid yn meddwl nad ellid gwneud un gorchwyl pwysig yn iawn gan ysbrydoedd cwerylus. Am hyny yr arferai seneddwyr Rhufain fyned i'r deml, gyssegregedig i Iupiter lonyddwr, am eu bod yno yn llonyddu, yn rhoddi i lawr eu hymrysonau a'u hymrafaelion, cyn eu myned i'r senedd-dŷ i ymgynghori am faterion y llywodraeth. Ai ni feiddient hwy fyned i'r senedd-dŷ nes ymheddychu? Ac a feiddiwn ni fyned at allor Duw, a phlygu ein gliniau o'i flaen ef mewn gweddi, tra y byddo ein calonau yn chwyddedig gan ddig, ceufigen, a malais? O Dduw, darostwng di ni.

3ydd. Fel yr ydym yn anafu ein masnach a'r nef, felly a'u gilydd hefyd. Pan ymrafaelio dwy wlad sydd â budd mawr yn eu masnach a'u gilydd, y mae yn rhaid i bob un o'r ddwy gael eu gwasgu gan y rhyfel. Yn ddiaw, y mae mawr elw Cristionogion yn dyfod i mewn trwy eu cyd-gyndeithas: a hwy ydynt y Cristionogion cyfoethocaf yn gyffredin, sydd a'u sefyllfa yn fwyaf manteisiol at y masnach hwn. Megs na fedd un genedl eu holl augenrheidiau yn eu

gwlad eu hunain, heb fod eisieu marchnatta âg ereill hefyd, felly nid oes un Cristion a all fyw yn iawn heb fenthycu gan ei frodry. Y mae cydymgyssylltiad yn bod "trwy bob cymmal cynnaliaeth, yn ol nerthol weithrediad ym mesur pob rhan;" *Eph.* iv. 16. Nid oedd gan Paul ei hun y fath ystyr nad oedd yn gobeithio cael rhywbeth chwaneag nag oedd ganddo, ie, oddi wrth y gwaelaf o'r rhai yr oedd yn pregethu iddynt. Y mae yn dywedyd wrth Gristionogion Rhufain (*Rhuf.* i. 11), "Yr wyf yn hiraethu am eich gweled, fel y gallwyf gyfranu i chwi ryw ddawn ysbrydol;" ac, medd efe hefyd, "i'm cydymgyssuro ynoch chwi trwy fydd ein gilydd, yr eiddoch chwi a'r eiddo finau;" *adn.* 12. Ie, y mae yn gobeithio cael "ei lenwi o honnynt" (*pen.* xv. 24), neu wleda ar eu cymdeithas, fel y llenwir dyn â danteithfwydd. Yn awr, y mae ymrysonau ac ymraniadau yn anafu pob cymdeithas yn mysgeu crediawyr. Y maent mor adwythig i gymmundeib Cristionogol ag yw haint neu bla mawr i fasnach tref farchnad. Y mae cyfranogiad yn tarddu o gymmundeib, a chymmundeib wedi ei seilio ar undeb. Y mae yr eglwys yn cynnyddu dan erledigaeth: y mae hwn yn taenu yr had ar hyd y maes oll, ac yn dwyn yr efengyl i leoedd na chlywsid am dani yn angen. Ond ymraniadau ac ymrysonau, fel ystorn greulawn, hwy a olchant yr had allan o'r tir, ynghyd a'i galon, ei fraser, a'r cwbl.

4ydd. Chwi ewch, nid yn unig i'r perygl o amharu gras, ond o gynnyddu pechod. Yn wir, y mae yn dangos fod llygriad nid bychan wedi dyfod i mewn eisoes; ond y mae yn agor y drws i lawer mwy: "Od oes genfigen chwerw ac ymryson yn eich calonau, na fyddwch frostwyr;" hyny yw, na thwybiwch eich hunain yn Gristionogion gwych (*Iago* iii. 14). Y mae hyn yn ystaeio eich holl ragoriaethau ereill: pe ba'i genych wybodaeth a doniau angylion sanctaidd, etto, parai hyn i chwi edrych yn debycach i ddiafiaid nag iddynt hwy. Cawn y rheswm yn *adn.* 16: "Canys lle mae cenfigen ac ymryson, yno y mae terfysg a phob gweithred ddrwg." Terfysg—gefail Satan ydyw; ac os gall efe roddi twymniad neu ddau i Gristion ynddi, nid amheua efe am ei feddalu at forthwyl ei demtasiwn. Moses ei hun, wedi i'w ysbryd boethi ychydig, a gamddywedodd a'i wefusau. Mae yn rhaid i hyny fod yn achlysur o bechu mawr, a fyddo yn ei wneud yn amhossibl i ddynt weithredu un weithred gyfiawn tra yn yr anhwyll hwnw: "Digofaint gwr, nid yw yn cyflawni cyfiawnder Duw." Yn awr, pa fath beth alaethus ydyw i Gristionogion aros yn hir yn y dymmer hono nas gallant ynddi wneuthur les i'w gilydd, ond cynnyrfu nwydau drwg?

5ed. Y maent yn rhagarwyddion o farn i ddyfod. Y mae gwyrb gymmylog yn arwyddo fod tywydd gwlyb gerllaw: a'r llongwyr a ddisgwyliant ystorm ar y môr pan ddechreuo y tonau chwyddo a rhuo. A fu dim tebyg i'r pethau hyn yn ein plith ni? Pa beth a feddyliwn ond fod barn yn magu, wrth wynebau cymylog Cristionogion, eu chwyddiadau calon, a'u nwydau anfoddog, sydd yn gweithio allan o'u hysbrydoedd chwyddedig fel trwst dyfroedd, neu ruad taranau yn yr awyr o flaen tymestl? Pan fyddo plant yn ymladd ac yn ymgeeru, dyna'r pryd y gallant ddisgwyli'w tad ddyfod i'w gwahau a'i wialen: "Efe a dry galon y tadau at y plant, a chalon y y plant at eu tadau, rhag i mi ddyfod a tharaw y ddaear â melldith;" *Mal.* iv. 6. Y mae cynnhen ac ymryson yn gosod pobl yn y drws nesaf i fellldith. Y mae Duw yn cyfrif ei fod yn dwyn barn drom ar bobl pan fyddo efe ei hun yn eu gadael. Os y llywydd a edy y llong, y mae hi yn agos i soddh. Ac yn ddiâu nid oes ffordd rwydd-ach i'w yru ef ymaith na thrwy ymrysonau — y rhai a'i mygant ef allan o'i dŷ ei hun.

"Sniwch yr un peth," medd yr apostol, "byddwch heddychol; a Duw yr heddwch a fyddo gyda chwi" (2 *Cor.* xiii. 11): gan arwyddo onid oeddynt yn byw mewn heddwch, nad oedd iddynt ddisgwyli'w cael ei bresennoldeb ef yn hir gyda hwynt. Yr oedd Duw ar ddyfod âg iachawdwriaeth fawr trwy Moses i blant Israel; ac fel ernes o'r gwasaenaeth da yr oedd efe i'w wneuthur iddynt, y mae yn dechreu gwneud heddwch rhwng dau frawd ymrafaelgar oedd mewn ymryson; ond ni dderbyniwyd ei garedigrwydd: a hyn fu yr achlysur o adfyd llawer blwyddyn yn chwaneb a oddefasant yn yr Aiphit: "Moses a ffordd ar y gair hwn, ac a fu ddeithr yn nhir Midian;" *Act.* vii. 29: ac ni chlywn am ymwared dros ysbaid deugain mlynedd ar ol hyn: *adn.* 30. Ac onid ein hymrafaelion ninnau, neu yn hytrach ein gwrthodiad o'r cynnygion hyn a wnaeth Duw am heddwch trwy wyr o ysbryd heddychol, a fu yr achos o ffoad y drugaredd mor gyflym o'n gwlad, ac o'n gadawiad i riddan dan y gofidiau trist sydd arnom y dydd hwn—a phwy ôr pa hyd? O! pwy a all feddlw am y boreu clærdeg a lewyrchodd ar Loegr gyda'r senedd a eisteddodd yn 1640, heb wlo, ac wlo drachefn, wrth weled ein gobaiith am ddiwygiad gogoneddus, a agorodd y pryd hyny, yn awr wedi ymgau mewn gwaed¹ a rhyfel, ymryson a therfysg? Gresyni rhy debyg i'r tân a'r brwmstan a ddisgynodd o'r nef ar ddinas-oedd annedwydd y gwastadedd: *Gen.* xix.

DOSB. III.

3ydd. O! ymgeisiwch am heddwch ac undeb er mwyn ereill. Meddwl yr wyf am y rhai sydd etto yn annuwl a drwg. "Ni ddylem anobeithio o'r rhai drygonus (medd Awstin), ond gwneud a allom tuag at iddynt fod yn rhai da a duwiol, am fod nifer y saint yn cael o hyd ei chwaneu allan o nifer y rhai ansactaidd." Yn awr, nid oes foddion mwy einllgar i weithio arnynt a phalwantu ffordd i'w dychweliad, na rhoddi gair da i wirioneddau a fyredd Duw iddynt, trwy diriondeb eich cariad a'ch undeb chwi sydd yn eu profesu. Dyma'r had cwmin a ddenai enidiau megys colomenod i'r ffenestri. Dyma yr aur i orchuddio teml Dduw (yr eglwys) âg ef, fel ag i beri i-bawb a edrychiant i mewn syrthio mewn cariad â'i phrydferthwch. Y mae ar bawb ofn anneddu mewn tŷ y byddo ysbryd drwg yn ei aflonyddu? Ac a fedd uffern ysbryd gwaeth nag ymranid? O Gristionogion, byddwch gyttân, a'ch nifer a gynnydda. Dywedir yn *Act.* ii. 46: "A hwy beunydd yn parhau yn gyttân yn y deml, ac yn tori bara o dŷ i dŷ, a gymmerasant eu lluniaeth mewn llawenydd a sylmedd calon." A gwelwch yr hyn a ganlyn yn *adn.* 47; "Yn cael ffafr gan yr holl bobl: a'r Arglwydd a chwaneogodd beunydd at ei eglwys y rhai a fyddant gadwedig."

Yr oedd y byd mor ddeithr i gariad a heddwch, nes ydoedd mewn myfyr, ac yn dwys ystyried pa athrawiaeth nefolaidd oedd hono a allai feddalu calonau dynion, llyfnhau eu natur erwin, a'u huno mor dŷn ynghyd mewn cariad; ac yn cymmyrd yn rhwyddach eu hannog i ymuno â'r teulu cywir hwnw o gariad. Ond och! pan dywylodd yr aur hwn (sef pan wywodd heddwch yn mysg Cristionogion), yna y colodd yr efengyl ei gair da yn y byd, ac yr aeth ei hathrawiaeth dan amhenaeth mwy yn eu meddyliau: wrth weled y fath holltau ym muriau yr eglwys, yr oeddynt yn fwy ofnus i roddi eu penau dan ei chronglwyd hi: "Merched Ierusalem, tyngedaf chwi trwy iyrchod ac ewigod y maes, na chyffrôch ac na ddeffrôch fy nghariad hyd oni fyno ei hun;" *Can.* ii. 7. Y mae Mr. Cotton, ar y lle, yn barnu mai y cenhedloedd a feddylir wrth "iyrchod ac ewigod y maes," y rhai ydynt greaduriaid ofnus, hawdd eu tarfu ymaith, er iddynt fod yn amgen yn tueddu i bori gyda'r defaid. Felly y cenhedloedd, er bod dan ogwyddiad i goffeiddio crefydd yr Iuddewon, etto hawdd iawn oedd eu tarfu ymaith gan helynt flinderus yr Iuddewon, neu ryw ymddygiad tramgwyddus o'r eiddynt. A pha ymddygiad mwy tramgwyddus nag anghydfod ac ymrysonau? Gwelwch hwynt yn gydgyssylltiedig: "Craffwch ar y rhai sydd yn peri anghydfod a rhywstrau;" *Rhuf.* xvi. 17.

¹ Golygu y mae yr awdwr y terfysg a'r rhyfel a fu ar led ein hynys yn anser y brenin Charles I; dienyddiad y brenin hwnw a'i amryw ganlyniadau anghysurus.

Os bydd anghydfod, yna buan y cymmerir tramgwydd; ac fe allai y caledir llawer yn eu pechodau trwy hyny. Ai nid yw eich calonau yn crynu rhag gosod maen tramgwydd i neb dori ei wddf wrtho, neu dreiglo maen ar fedd un pechadur truan, a'i selio i lawr ynddo fel na chaffo byth adgyfodiad i ras yna nac i ogoniant ar ol hyn? Megys y dymunech gadw eich hunain oddi with waed y rhai sydd yn marw yn eu pechodau, O! gwyliwch rhag rhoddi dim help, trwy eich ymranidau, ac galedu eu heneidiau yn eu hanedifeirwch.

DOSB. IV.

4ydd. Y fath olaf o heddwch y bwriedais lefaru am dano, yw heddwch â'r holl greaduriaid, i.e., y rhai ffyrnicaf a chreulonaf. Mi a'i gelwais yn heddwch er digollediad a gweinyddol. Yr oedd Adda yn ei ystad ddechreuol yn mwynhau hwn. Tra y bu ef yn ddiuog, yr oedd y creaduriaid oll yn ddi-niwed a di-ddrwg tuag ato yntau; yr oedd y greadigaeth oll at ei wasanaeth; nid oedd un duedd derfysgus i'w gael mewn un creadur, i'w wryro yn y radd leiaf i wrthryfel yn ei erbyn. Pan anfonodd Duw anifeiliaid y maes ac ehediaid yr awyr i dderbyn eu henwau ganddo, bu hyny fel y gwnaent eu hymostyngiad iddo, ac y cydnabyddent ef fel eu harglwydd; ac fel y byddai iddo yntau (trwy y weithred hono o awurdod arnynt, sef rhoddi arnynt enwau) gael prawf o'i lywodraeth gyflawn arnynt, er nad oedd yn llywydd annibynol. Ond cyn gynted ag y ciliodd dyn oddi wrth ufuddhau i Dduw, dyna'r holl greaduriaid yn ebrwydd yn anghosio eu darostyngiad iddo yntau, i.e., yn codi arfau yng nghweryleu Pen arglwydd yn erbyn dyn gwrthgiledig; fel pe buasant yn deimladwy o'r cam a wnaethai dyn, drwy ei wrthgiliad, â'i Wneuthurwr ef a hwythau; i.e., â'r Duw da, trwy freiniad yr hwn yr oedd y dyn yn dal ei arglwyddiaeth arnynt hwy. Ac fel hyn y maent yn parhau mewn rhyfel i'w erbyn, hyd oni chydgyfarfyddo Duw a dyn etto mewn cyfammod dedwydd o hedd. Dyna'r pryd y gelwir yn ol y gorchymyn a roddodd Duw iddynt, o'i ddi-g yn erbyn y gwrthryfelwr, dyn. Ac yn yr un dydd ag y gwneir Duw a'r enaid crediniol yn gyfeillion, y diwedda y rhyfel rhyngddo ef a'r creaduriaid: "Y dydd hwnw y gwnâf ammod drostynt âg anifeiliaid y maes, ac âg ehediaid y nefoedd;" *Hos.* ii. 18. Craffwch ar y dydd y mae i'r ammod hon ddechreuad o hono: "Y dydd hwnw," sef y dydd y "dyweddiwyf di ynddo â mi fy hun." Felly, y mae ein heddwch â'r creaduriaid yn dyfod i ni trwy ein heddychiad â Duw. A chan mai bendith yr efengyl yw hwn, felly y llall hefyd. Ond fel nad yw ein heddwch â Duw yn cael ei fwynhau mor berffeithlawn yn y byd hwn, nad ydyw Duw wedi gadael iddo ei hun ryddid i ger-

yddu ei rai cymmodedig, i.e., yn llym hefyd; felly nid yw ein heddwch â'r creaduriaid yn rhwystr, fel nas gallant fod (i.e., yn fynych y maent yn wialen a ddefnyddia Duw i'n cer-yddu â hi. Gall y dwfr foddi un sant, a'r tân losgi un arall yn lludw; ac etto, y creaduriaid hyn mewn heddwch â'r saint hyn, am nad yw Duw yn eu hanfon mewn lliid yn eu herbyn hwynt, neu o ran dim gwir niwed yn ei fwriad atynt trwy hyny. Hyn yn wir oedd y gorchymyn a roddodd efe i'r holl greaduriaid yn erbyn dyn gwrthgiledig, fel rhan o'i felldith am ei bechodau. Y mae wedi anfon y creaduriaid yn ei erbyn, fel yr enfyn brenin ei luoedd yn erbyn llu o fradwyr a fyddo dan arfau yn ei erbyn, gydag awurdoddiad i gymmeryd dial arnynt am eu gwrthryfel erchyll yn erbyn eu Gwneuthurwr. Ond ar heddychiad y dyn, y mae newidiad i'r gorchymyn; ac y mae yn rhedeg yn y dull cysurus hwn:—Dos dâ, a bydd yn gerbyd i ddwyn y cyfryw sant adref o'r byd ataf i i ogoniant y nef: dos ddwfr, trosglwydda dithau un arall; ac felly am y lleill oll. Nid oes greadur yn dyfod ar genadwri waeth na hyn at ddon duwiol. Y mae yn wir eu bod yn geryddon llymion, o ran y gofid presennol a ddygant; etto, trugareddau bob amser ydynt â'u gwasanaeth yn garedigol yn ol bwriad Duw, ac o ganlyniad dedwydd i'r creadain: "Y mae pob peth yn cydweithio er daioni i'r rhai sydd yn caru Duw;" *Rhuf.* viii. 28. Y mae yr apostol yn ei lefaru fel pwngc cyffredin adnabyddus ymlith y saint: "Ni a wyddom fod pob peth yn cydweithio," &c. Fel pe dywedasai, pa le y mae y sant nad yw yn gwybod hyn? Ac etto, da fyddai i ni fod yn ei wybod yn well; byddai i rai o honom felly dreulio ein dyddiau yn fwy cysurus nag yr ydym yn awr. Ond nid ydwyf yn bwriadu ymddiddan ar hyn: bydded byrdra yma yn iawn am feithder o'r blaen

PENNOD XIV.

Dyledsnydd Cristion i sefyll â chalon barod i bob dioddefiadau, gydag un rheswm am y pwngc.
Yr ydym yn dyfod at y trydydd ymfyniad neu holiad a osodwyd ger bron oddi wrth y geiriau hyn.

DOSB. I.

Gof. Beth a feddybir wrth hyn, "parotoad efengyl tangnefedd?" sy'n esginiâu i draed y Cristion? Neu fel hyn, pa ras y mae y parotoad hwn, sydd i fod yn wisg am y traed, yn ei arwyddocau? A pha ham ei gelwir yn barotoad efengyl tangnefedd?
At. Am y gras a hynodir yma, fel parotoad efengyl tangnefedd, &c. Yr wyf yn cael amrywiaeth yn nirnadaeth y dysgedigion, ac amrywiaeth yn wir yn hytrach na

chroes-wahaniaeth. Chwi ellwch gael llawer o honynt yn swp casgledig gan Dr. Gouge ar y lle, ynghyd â'i feddylliau yntau arnynt. Gan hyny, ni a gaf arbed eu crybwyll, a deisyf genad i osod i lawr (gyda dyledus barch i ereill) y ddirnadaeth a gefais i ar y geiriau; a hyn, dybygwn, fel helaethiad, yn hytrach na chroesiad, ar eu golygiadau hwynt.

Yn awr, beth yw y parotod hwn, a welir yn oreu wrth ystyried yr aelod ei bwriadwyd iddo, sef y troed, yr unig aelod yn y corph i'w wisgo âg esgid; a'r darn o arfog-aeth ei cyffelybir iddo, sef esgid y milwr. Y mae hon, os yn un iawn, i fod o'r gwneuthuriad cryfaf, gan na fwriedir hi yn gymmaint er hoyw-drwsiad ag er amddiffyniad; ac y mae hi mor rheidiol, nes bod y milwr, trwy ddiffyg hon yn unig, yn analluog, weithiau, at wasanaeth: megys pan ei gelwir i deithio ym mhell ar ffyrdd caledion; a'r rhai'n, fe allai, yn llawn o geryg pigog. Pa hyd y cerdd efe, oni fedd esgidiau, heb friw neu gloffi? Neu, os bydd y ffordd yn dda, eithr yr hin yn ddrwg, a'i draed yntau heb amddiffyn rhag y gwlybaniaeth a'r oerfel, nid ydynt mor bell oddi wrth y pen, fel na ddichon anwyd a gaffer iddynt daraw i fyny i hwn; i.e. a dwyn afiechyd ar y corph oll, yr hwn a'i ceidw yn ei wely pan y dylai fod ar y maes. Y mae ym mron gynnyfer yn marw trwy anhymmer ag a leddir mewn brwydrau.

Yn awr, yr hyn yw y troed i'r corph, hyny yw yr ewyllys i'r enaid. Y mae y troed yn dwyn yr holl gorph; a'r ewyllys yr holl enaid, i.e. yr holl ddyn, gorph ac enaid hefyd. Y mae yr ewyllys yn gynneddf sy'n rhoddi cychwyniad; ni a awn lle y byddo ein hewyllys yn ei ddafon. A'r hyn ydyw yr esgid i'r troed, hyny ydyw parotod, neu, os mynwech chwi, paroddrwydd a bywiogrwydd, i'r ewyllys. Y dyn a fyddo â'i draed mewn esgidiau da, nid yw yn ofni un ffordd, ond yn myned trwy y tew a'r teneu, budr a glân, ceryg a mwsogi, cyffelyb yw y cwbl i'r dyn a fedd esgidiau da; tra y mae y dyn troed-noeth, neu un gwael ei esgid, yn crynu wrth deimlo y gwlybaniaeth, ac yn gwaeddi pan sathro ar gareg lem. Felly, pan fyddo ewyllys a chalon dyn yn ystywyth a pharod at ryw orchwyl, y mae efe megys mewn esgidiau, ac yn arfog yn erbyn pob blinder ac anhawsdra a fyddo ar ei ffordd wrth ei wneuthur. Hwy a ddywedant fod y Gwyddelod yn sathru mor ysgafn ar y ddaear, fel y rhedant dros ryw gorsydd, yn y rhai y byddai agos i bawb ereill lynu a soddi. Sier wyf y gwna calon ystywyth a pharod hyn, mewn ystyr ysbrydol: ni fedr neb rodio lle y medr hwn redeg, ni wna efe gyfrif o gystuddiau, i.e. erlidiau; ond fe â drostynt dan ganu. Erioed ni bu Dafydd

lawenaoh nag yn yr ogof; a pha fodd felly! "Parod yw fy nghalon, parod yw fy nghalon," medd efe, "canaf a chanmolaf;" *Salm* lvii. 7. Pe ni buasai calon Dafydd wedi ei gwisgo a'r parotod hwn, ni fuyasai efe ddim mor foddllawn i'r ffordd yr oedd arni; chwi a'i cawsech ef yn cauu tŷu arall a'i glywed yn cwerylu â'i dynged, neu yn syrthio allan â'i broffes, oedd wedi ei ddwy i'r fath flinder, a'i ymlid oddi wrth fwyniant llys y brenin i ymguddio mewn ogotau y ddaear, rhag y rhai oedd yn hela efwyd gwerthfawr. Efe a fuasai yn treulio ei anadl mewn tostur gwynfan iddo ei hun yn hytrach nag yn molianu Duw. Y mae calon ammharod, sydd heb fod yn foddllawn i'w gwaith, neu gyflwr, yn ymbougian yn ol ac er iddi gael ei dwyn i blygu trwy fawanhawsdra, etto, nid yw hi ond fel marec cloff ar ffordd garegog; yr hwn a gerdd mewn poen bob caur, ac a fynai yn fynych gael troi o'r ffordd, pe ni byddai genfa chwip i'w gadw ynddi.

Gof. Ond pa ham y gelwir ef yn "barotod efengyl tangnefedd?"

At. O herwydd mai efengyl tangnefedd yw yr offeryn mawr trwy ba un y mae Duw yn gweithio ewyllys a chalon dyn i'r parotod a'r paroddrwydd hwn, at wneud, ne ddiodeff, yr hyn y galwo efe ef iddo. gorchwyl y'n gosodwyd arno, pan bregetl om yr efengyl, yw gwneuthur "pobl y ewyllysgar," *Salm*. cx. 3. "A darparu i Arglywydd bobl barod;" *Luc*. i. 17. Meg yr anfonir cadben i guro i fyny mewn dinas, i alw yrfa i mewn, a ymroddant y ewyllysgar i ddilyn rhyfeloedd y llywydd, bod mewn paroddrwydd i gymmeryd y mae a theithio ar awr o rybudd. Fel hyn y mae yr efengyl yn dyfod i alw calon: dynion drosodd at droed Crist, ac i sefy yn barod i'w wasanaeth ef, pa beth byn: a gostio iddynt. Yn awr, hyn a wna i fel y mae yn efengyl tangnefedd. Y m hi yn dwyn y newydd hyfryd am heddwedi ei wneuthur rhwng Duw a dyn, trwy wael Iesu: ac y mae hyn yn dra chroesafus gan gydwybod grynedig pechaduria truan, oedd o'r blaen yn treulio eu dyddi gofidus mewn rhyw ddisgwyl ofnadwy: farnedigaeth ac angerdd tân oddi wr Dduw, i'w difa fel ei wrthwynebwyr. Cgrynted ag y seinio'r newydd am heddwependerfynedig rhwng Duw a dyn, yn clustiau, trwy bregethiad yr efengyl, ac cadarnhâer hyn, fel gwir sier, yn eu cywybodau hwynt eu hunain, gan yr Ysbr: yr hwn a anfonwyd o'r nef i'w sefio iddy: a rhoddi iddynt beth o'i flas melus trdywallt ar led y prawf o hono yn eu heidiau, y mae yn ddiodeff ar hyn fyw newydd yn ymddangos ynddynt. Ac fe y rhai oedd o'r blaen mor ofnus a gocheli: o bob blinder bychan, nes y cilient draw

y rhydent wrth y meddwl am dano, gan wybod nad allai ddwyn dim newydd da iddynt hwy, y maent bellach, ar ol eu gwisgo a "pharotod efengyl tangnefedd," yn gallu myned allan dan wenu i wyneb y dioddefiadau mwyaf ar eu ffordd, neu a ddichon fod ar y ffordd atynt. A hwy a ddywedant yn hyf wrthynt, megys Crist unwaith wrth y rhai a ddaethant â chledydiau a ffyn i'w ddal: "Pwy yr ydych chi yn ei geisio?" "Wedi ein cyfiawrhau trwy ffydd, y mae genym heddwch tuag at Dduw," medd yr apostol: *Rhuf. v. 1.* Ac mor nerthol y mae hyn yn gweithio! Y mae yn peri iddynt, i.e., "orfoleddu mewn gorthrymderau!" Y mae y geiriau, wedi eu hagar, yn rhoddi y ddau bwnge hyn.

Ath. 1. Ein dyledswydd yw bod bob amser yn barod at gyfarfod âg unrhyw brawf, a dioddef unrhyw galedi, a drefno Duw i ni yn ein milwriaeth Gristionogol.

Ath. 2. Yr heddwch a ddwg yr efengyl, ac a lefara hi wrth y galon, gnwa hwn y creadur yn barod i dreiddio trwy unrhyw brawf neu flinder a'i cyfarfyddo yn ei yrfa Gristionogol.

DOSE. II.

Athr. 1. Ni a ddylem gynnal duwio barodrydd ysbryd i ddiodeff unrhyw galedi a drefna Duw i ni yn ein gyrfa Gristionogol. Y saint yn sier ni byddant yn fyr o brofion a dioddefiadau. Y rhai hyn, fel y dywed Crist am y tlodion, ni a'u cawn "bob amser gyda ni." "Yr oedd y chwyss gwaedlyd a deimlodd Crist yn arwyddo," medd Awstin, "y dioddefiadau yr a'i efe danynt, yn ei holl gorph dirgeledig." Dyrchafwyd holl gorph Crist ar y groes: ac nid oes i un aelod yn awr ddisgwyl ddiange rhag y groes. Aphan ddelo y groes, pa fodd y mae i ni ymddwyn dani! Ni phrofir ein bod yn Gristionogion cywir trwy ein bod yn unig yn diodeff, ac heb wneud gwrthwynebiad amlwg i ewylllys Duw, ond y mae yn rhaid i ni fod â'n hamynedd mewn gweithrediad, os gallaf felly ddywedyd, trwy d dangos parodrydd a bywiogrwydd sanctaidd o ysbryd, i fod wrth drefniad Duw, i.e., pe byddai iddo'n tywys i ystafellodd angeu ei hun. Ni weddai y bedd-argraff ar gareg bedd Cristion, a glywais ei fod yn argraffedig ar fedd un, ac a allai fod yn rhy berthynol i'r rhan fwyaf: "Yma y gorwedd yn yr erbyn ei ewylllys." Yr oedd Paul dduwiol o feddwl gwell. "Parod wyf fi, nid i'm rhwymo yn unig, ond i farw hefyd yn Ierusalem, er mwyn enw yr Arglwydd Iesu y" *Act. xxi. 13.* Ond fe allai y tybia rhai nad oedd hyn ond rhyw ddangosiad o'i fanerau, pan y gwyddai fod y gelyn yn ddigon pell draw; ac y gall etto fyw i newid ei feddwl, pan y delo i edrych yng ngwynebau. Na; yr hyn a ddywedodd,

y mae yn sefyll ato. "Myfi yr awr hon a aberthir, ac amser fy ymddattodiad i a nesaodd;" 2 *Tim. iv. 6.* Y mae yn adrodd hyn fel pe buasai eisoes ar ben: yn wir yr oedd efe megys wedi gosod ei ben ar y bonec ff, ac yn marw cyn derbyn y ddyrnod, nid gan ofn, fel y bu rhai, ond trwy rydd-ymroddiad i hyny. Ac os yw drwgweithredwr yn un marw, yn ol ystyr gyfreithiol, cyn gynted ag y byddo y ddeddfryd allan o enau y barnwr, er iddo fyw rai wythnosau wedi hyny; yna, yr wyf yn sicry gallwn ddywedyd, yn ol ystyr efengylaidd, fod y rhai hyny yn feirw eisoes, sydd yn barod i farw, ac wedi rhydd-ymroddi dan y ddeddfryd hono yn eu gwirfodd eu hunain. A'r llonder a'r sirioldeb hwn, oedd ar ysbryd Paul, ni a'i gwelwn yn hynotach, os ystyriwn mor agos yr oedd efe i'w ddiwedd. Yn wir, y mae rhai, a farnant oddi wrth y gair Groeg sydd yn arwyddo diod-offrymu, y gwyddai Paul pa fath farwolaeth oedd iddo ddiodeff, sef tori ei ben; a'i fod yn cyfeirio at dywalltiad gwaed, neu win, a arferid wrth aberthu, fel y fath aberthiad, oedd yn eglurhâd goreu o natur ei farwolaeth, sef trwy dywallt ei waed. Hyn a gyflawnodd efe, gan ei offrymu mor ewyllysgar yng ngwasanaeth Crist a'i eglwys, ag y tywalltent hwy eu gwin yn ddiodeff offrw m i'r Arglwydd. Yn awr, ni a roddwn beth cyfrif rhesymol am y pwngc, pa ham y dylem fod yn barod at waith diodeff. Bydd y rhesymau am dano dan ddau ben. Y cyntaf a gymmerir oddi wrth Grist, dros, neu tan law yr hwn y diodeffwn. Yr ail, oddi wrth ragoroldeb y fath dymmer ag a ddengys y parodrydd hwn i oddef unrhyw galedi.

1. Mewn golygiad ar Grist. 1. Y mae yn ei orchymyn. 2. Y mae yn ei haeddu.

DOSE. III.

Iaf. Y mae yn ei orchymyn. Yn wir y mae yr agwedd hon o ysbryd i'w golygu ym mhob dyledswydd fel y cymmhwysder sydd, megys argraff ar arian, yn ei wneud yn gymmeradwy yng nghyfrif Duw. "Dwg ar gof iddynt, fod yn barod i beb gweithred dda," medd Paul yn *Tit. iii. 1.* Bydded hi yn weithredol, yn ddiodeffol, rhaid iddynt fod yn barod iddi; os angen, ni fydd eu holl waith i ddim diben. Y gair yno am barod, yr un ydyw a hwn yn y testyn; ac fe'i gymmerir oddi wrth lestr a fyddo wedi ei ffurfio a'i addasu at y gwasanaeth y rhoddo y meistr ef iddo. Nid da genym ni, pan fyddom i ddefnyddio llestr, crochan, neu gwpan, eu bod o'r golwg i'w trwsio, neu eu glanhau a'u rhwbio, yn y pryd y byddom yn galw am danynt. Na; ni a ddisgwylwn eu cael at law, ar yr astell (*shelf*) yn lân, ac addas at wasanaeth presennol; os angen, caiff ein gweinyddion glywed am hyn. Y mae Duw yntau yn

disgwyl am i ni gadw ein calonau yn lân oddi wrth halogrwydd pechod, a'n serchiadau yn hollol a chyfan iddo ei hun, heb eu benthycio i'r creadur, na'u tori a'u bylchu trwy unrhyw ymhyfrydiad afreolus ynddynt; rhag eu bod ar goll y prydd y galwo efe ni i wneuthur neu ddioddef; neu rhag ein cael ni yn dra amharod, heb waith mawr i'n gosod mewn trefn, a'n hwylio yn barod i'r gwaith. Yr un apostol addywed, "Pwy bynag gan hyny a'i glanhao ei hun oddi wrth y pethau hyn, efe a fydd yn llestr i barch, wedi ei sancteiddio, yn gymmlwys i'r Arglwydd, ac yn barod i bob gweithred dda;" 2 *Tim.* ii. 21. Yn awr, fel y mae Duw yn gorchymyn y parodrwydd hwn ym mhob gwaith, felly yn enwedigol yn y gwaith i ddioddef—"Os myn neb ddyfod ar fy ol i, ymwaded âg ef ei hun, a chyfodod ei groes beunydd, a ddilynodd fi;" *Luc* ix. 23. Gellir galw y geiriau hyn yn ysgrifennrwym (*indenture*) y Cristion. Rhaid yw i bob un a fydd fod yn was i Grist, selio hyn, cyn y caffo genad ganddo ef i'w alw yn Feistr. A gwelwch yma mai ar waith dioddef y mae darpariaeth penaf Crist, fel y peth a brawf y dyn yn was. Os gall gwes ond dygymmod â hwnw, nid oes le i ofni na châr efe y rhan arall o'i waith yn dda ddigon. Yn awr, craffwch, attolwg, mor ofalus yw Crist am rywmo y galon yn y gwaith hwn. Efe a rwn gael ei weision, nid yn unig i ddioddef caledi ei wasanaeth ef, ond i ddangos hefyd eu parodrwydd i hyn. Mae pedwar ymadrodd nodedig wedi eu rhoi i mewnarybwriad hwn.

(1af.) Rhai iddo ymwadu âg ef ei hun: hyny yw, traddodi ei ewyllys ei hun o'i law ei hun; ac o'r dydd y delo i wasanaeth Crist, cydnabod na fedd efe hawl i fod wrth ei drefniad ei hun. Beth bynag a oddef Crist, ni all efe oddef clywed ei weision, pan anfon hwynt ar ryw neges, yn dywed-yd, Nid âf.

(2il.) Y mae yn mynegi iddynt y gwaethaf yn gyntaf, ac yn dewis son am y groes sy raid iddynt ei dwyn, yn hytrach na'r goron y cânt yn y diwedd ei gwisgo. Gyda hyn, y mae yn disgwyl nid yn unig iddynt ei dioddef (gwna yr annuwolion hyn yn llwyr groes i'w hewyllys), ond hefyd ei chyfodi. Yn wir, nid yw efe yn erchi iddynt wneuthur y groes, rhedeg eu hunain i flinder, o'u penau eu hunain, ond efe a fyn iddynt gymmeryd hono i fyny, a wna efe iddynt; sef peidio cilio o'r ffordd trwy un ddyfais bechadurus, i ochel unrhyw flinder; ond cymmeryd y baich a esyd Duw iddynt, a myned ym mlaen yn siriol dano, i.e. yn ddiolchgar, fel rhai yn cael ffafir, gan fod Duw yn rhoddi i ni waith dioddef drosto ef. Nid ydym yn cymmeryd cymaint poen a phlygu i godi yr hyn nad yw yn werth rhyw beth. Y mae Crist am gael ei bobl

i gyfodi y groes, fel y cyfodai un berl a fyddai yn gorwedd o'i flaen ar y ddaear.

(3ydd.) Gwaith iddynt bob dydd yw hwn; "cyfodod ei groes beunydd." Pan na byddo un ar y cefn, rhaid i was Crist ei dwyn yn ei galon, sef bod o hyd yn ymbarotoi i fod yn barod wrth yr alwad gyntaf; fel y saif y cludwyr (*porters*) wrth ddrysau y marsiandwyr yn Llundain, yn disgwyl pa bryd y bydd gan eu meistriaid ryw faich iddynt ei ddwyn. Fel hyn y profesai Paul ei fod "beunydd yn marw;" pa fodd, ond trwy barodrwydd meddwl i farw? Efe a osodai ei hun mewn agwedd i groesawu cenad Duw pa bryd bynag y deuai. Hyn yn wir yw cyfodi y groes beunydd; pan na byddo ein mwyniant presennol yn ein gwneud yn estronaidd i'r meddyliuau a'i ofidiau i ddyfod nac yn gwerylus i'w herbyn. Yr oedd yr Iuddeuon i fwyta y pasg â'u lwynau wedi eu gwregysu, eu hesgidiau am eu traed, a'u ffyn yn eu dwylaw, a'r cwbl ar ffwrst: *Ecsod.* xii. 11. Pan fyddo Duw yn gwledda y Cristion â chysuron presennol, rheidiol yw bod esgid yr efengyl am ein troed; nid oes iddo ef ymosod ati fel un yn gwledda gartref, ond fel un yn cymmeryd tamaid ar frys mewn lletty ar ei ffordd, gan chwennych cychwyn, cyn gynted ag y caffo ychydig loniad, i'w daith.

(4ydd.) Ar ol cyfodi y groes, pa beth dra- chefn? Dilyn Crist? Nid oes le iddo sefyll a ffroemi, ond dilyn—nid cael ei wthio na'i lusgo ar ol Crist, ond dilyn, fel milwr, ei gadben yn ewyllysgar. Ni wna Crist, fel rhai llueddwyr, gyru y wlad o'i flaen, a pheri i'w weision ymladd, dewisant neu beidio; ond eu gwahodd i mewn a wna efe: "Mi a'i denaf hi i'r anialwch;" *Hos.* ii. 14. Yn wir, fe wna calon rasol ddilyn Crist i anialwch cystudd, mor ewyllysgar ag i ddilyn dyweddi ei hanwydd i ryw gysgodlawn neillduol, yno i eistedd a mwynhau ei bresennoldeb ef. Y mae Crist yn ei air, a thrwy ei Ysbryd, yn arfer dadleuaeth sydd mor foddhaol i'r Cristion, nes yw yn dra ewyllysgar i'w ddilyn ef; fel y dyn claf, yr hwn ar y cyntaf, ysgatfydd, sydd yn tynu ac yn cilio yn ol, pan sonio y meddyg am dori neu waedu; ond wedi iddo glywed y rhesymau a roddir ganddo pa ham y bydd rhaid cymmeryd y ffordd hono, a chael ei argyhoeddi mai y ffordd oreu ydyw er ei iachâd, yna yn dra rhwydd efe a estyn ei fraich at y gyllell, ac a ddiolcha i'r meddyg am ei boen.

DOB. IV.

2il. Y mae Crist yn haeddu y cyfryw agwedd ysbryd ar ein llaw. Cymmerwch, allan o lawer, ddau beth neillduol, yn y rhai yr ymddengys hyn. Yn gyntaf, os ystyr-iwn ei barodrwydd ef i oddef blinfyd drosom ni. Yn ail, ei dyner ofal drosom, tra y

byddom ni yn' dioddef, naill ai drosto ai oddi wrtho ef.

(1af.) Ei barodrwydd ef i ddioddef blinfyd a gofid drosom ni. Pan alwodd Duw ef i waith cyfryngdod, efe a gafodd y ffordd yn llawn o geryg mwy llym-bigog, mi obeitiaf, nag y cawn ni y ffordd a drefnuwyd i ni rodio ynddi. Yr oedd efe i sathru ar gleddyfau a gwaewffyn, a phob math o ofidiau, a'r rhai hyn wedi eu minio â dig-ofaint Duw: dyma y gareg leinaf o'r cwbl, yr hon a gymmerodd efe allan o'n ffordd ni, ac etto mor ysgafn y cerddodd ef dros y tir hwn. O! pe na buasai ei draed wedi eu gwigo yn dda â chariad at ein heneidiau ni, huan y troisai yn ol, ac y dywedasai fod y ffordd yn amhossibl ei thramwy. Ond ym mlaen yr aeth efe heb bylu; erioed ni phechasom yn fwy rhwydd nag yr aeth efe i ddioddef dros ein pechod. "Wele yr ydwyf yn dyfod," medd efe wrth ei Dad, "da genyf wneuthur dy ewyllys, O fy Nuw, a'th gyfraith sydd o fewn fy nghalon;" *Salm* xl. 7, 8. O! y fath lawn gydsyniad a roddodd calon Crist â galwad ei Dad! Fel rhyw faen adsain a ettyb yr hyn a ddywedir ddwywaith neu dair drosodd. Felly, pan alwodd ei Dad arno i fyned i'r gwaith o achub y truan ddyrn colledig, nid cydsyniad noeth unig y mae efe yn ei roddi, ond gan ei drianu neu ei dieblu: "Yr wyf yn dyfod; da genyf wneuthur dy ewyllys; i.e., dy gyfraith sydd o fewn fy nghalon." Yr oedd efe mor bardd, fel y bu iddo, cyn i'w elynion osod dwylaw arno, fel pe buasai, osod dwylaw arno ei hun yn y gosodiad o Swper yr Arglwydd. Yno, efe a ddrylliodd gnawd ei gorph ei hun yn sacramentaidd, ac a ollyngodd ei galon ei hun i lenwi y cwpan hwnw â'i werthfawr waed, yr hwn a roddodd efe iddynt â'i law ei hun; fel na byddai iddynt edrych ar ei farwolaeth fel cigyddwaith trwy orthrech llaw dyn, ond yn hytrach fel aberth, yn yr hwn yr oedd efe yn ei rwydd-offrymu ei hun i Dduw drostynt hwy a phawb o'r credinwyr. Ac wedi i'r amser ddyfod i orphen y trymwaith hwnw, efe yn gwybod am y fan lle y deuai y bradwr gyda'i dyrfa ddu, a aeth allan i fyned i'w crafangau hwynt. O! pa gywilydd fyddai i ni fod yn anewillysgar i gerdded milldir neu ddwy o ffordd arw at gymdeithasu â'r fath Iachawdwr yn ei ddiodeffadau! "Oni ellwch chwi wylid i'w awr gyda mi?" ebe Crist wrth Pedr: *Mat.* xxvi. 40. "Gyda mi," sydd yn awr yn myned i wynebu angeu ei hun, ac yn barod i groesawu ei loesau chwerwaf er eich mwyn chwi? "Oni ellwch wylid i'w awr gyda mi?"

(2il.) Y mae Crist yn haeddu y parodrwydd hwn i ddioddef pa beth bynag a drefno efe i ni yn ei ragluniaeth, os ystyr-iwn ei ofal tyner ef am ei saint, pan y galwo efe hwynt i gyflwr dioddefol. Meistriaid

tirion, hwy a allant yn dda ddisgwyl cael gweision siriol. Po tirionaf y byddo cadben wrth ei filwyr, haelaf fyddant hwythau o'u gwaed wrth ei orchymyn. A rhyfedd fyddai fod i ofal Crist, sydd yn haeddu fwyaf, gyfarfod â llai o ddiolchgarwch mewn sant. Yn awr, gofal Crist a ymddengys —

(1.) Wrth gymmesuro y baich i'r cefn y mae i'w osod arno. Yr hyn a wnai lwyth rhy drwm i'r naill long, ac a'i rhoddai mewn perygl o suddo, ni byddai ond balasarn (*ballast*) addas i lestr arall o faintioli mwy. Y mae y naill Gristion yn morio yn daclus a gwastad dan y dioddefiadau hyny nas gallai y llall eu dwyn. Y mae'r ysgwydd wanaf yn sicr o gael y baich ysgafnaf. Megys y bu i Paul feichio rhai eglwysi y gwyddai eu bod yn gryfach, i arbed rhai ereill, felly y gwna Crist, i esmwythau ar y Cristion gwanaf, osod pwys mwy ar y cryfaf. Llafuriodd "Paul yn helaethach na hwynt oll," medd efe yn *1 Cor.* xv. 10. Ond pa ham y bu i Grist ranu y gwaith mor anwastad? Craffwch ar y lle, a chewch weled nad oedd ond peth angenrheidiol i dori gwaith at y gras helaeth a roddasai efe iddo. "Ei ras ef," medd efe, "yr hwn a roddwyd i mi, ni bu yn ofer; ond rai a lafuriais yn helaethach," &c. Yr oedd cymmaint o ras wedi ei dywallt i'w enaid ef, fel yr aethai peth o hono yn ofer, oni buasai i Dduw edrych am fwy o waith llafurio a dioddef iddo ef nag i'r lleill. Y mae gan Crist drethysgrifen berffaith yn ei ymwl am gyfoeth ysbrydol pob sant; ac yn ol hon y mae i bawb gael eu trethu, ac felly ni orthrymir neb. Gall y cyfoethog mewn gras dalu ei bunt, gystal a'r tlawd ei geiniog. Gosododd Paul ei ben ar y boccyff dros achos Crist mor rhwydd ag y rhoddasai rhai (i.e., Cristionogion cywir, ond gweiniaid) vchydig bunnoedd allan o'u pwrs. Efe a ddiodeffodd angeu gyda llai o ofid nag y gallasai rhai ddiodeff dirmyg er mwyn Crist. Ni fedd pawb mo fydd merthyr; ac nid oes i bawb oddef tân merthyr. Nid yw y rhai tra gwrol hyn ond ychydig resau a bigwyd allan o holl fyddin y saint.

(2.) Y cysuron a rydd efe iddynt y pryd hyny, mewn mesur mwy nag i ereill o'u brodyr nad ydynt yn cael eu galw i'r fath waith caled. Y rhan hono o fyddin a fyddo ar y maes yn ymladd, y maent yn sicr o gael eu tâl, os bydd arian yn y pwrs, neu ofal am danynt gan eu meistriaid; i.e., weithiau, pan wneir i'w cyfeillion, a fyddo mewn lletyau, aros. Yr wyf yn sicr fod mwy o aur ac arian (cysur a llawenydd ysbrydol wyf yn feddwl) i'w cael yng ngwersyll Crist ym mysg ei blant sydd yn dioddef, nag a all eu brodyr sy mewn llonyddwch a llwyddiant yn gyffredin ddangos. Pa beth yw yr addewidion ond llestri o win cysuro, wedi eu llenwi o fwiad erbyn

awr o riddfan, pan y mae Duw yn arfer eu gollwng! "Galw arnaf fi yn nydd trallod," medd Duw; *Salm* l. 15. Ac onis gallwn alw arno yn nydd heddwch? Gallwn; ond mynai i ni fod yn fwy hyf arno yn nydd trallod. Nid oes neb yn cael atebion mor fuan ganddo wrth orsedd gras a saint sydd yn dioddef. "Y dydd y llefaeis," medd Dafydd, "y'm gwrandawwaist ac a'm cadarnheiaist â nerth yn fy enaid;" *Salm* cxxxviii. 3. Yr oedd yn awr mewn cyfyngder, a Duw yn dyfod mewn brys ato. Er i ni adael i gyfaill iach a anfono am danom aros dros dro; etto, ni a roddwn ganiatâd i gyfaill claf ein galw ni i fyny ganol nos. Yn y cyfryw gyfyngderau, ni a arferwn fyned gyda'r genad a ddelo i'n galw; ac felly yr â Duw gyda'r weddi daer. Curodd Pedr wrth borth y tŷ lle yr oedd cynnulliad i alw ar Dduw drosto agos cyn gynted ag y curodd eu gweddi hwynt wrth borth y nef yn ei achos. Ac yn wir, nid yw hyn ond peth sydd yn angenrheidiol, os ystyriwn dentasiynau cyflwr o drallod: yr ydym y pryd hyn yn dueddol i dybied fod ein cyfeillion goreu yn ein anghofio, ac i feddwl fod pob aros yn oediad ac yn esgeulusiad o honom. Am hyn y mae Duw yn dewis dangos ei dynerwch yn fwyaf ar y fath amser. "O blegid fel y mae dioddefiadau Crist yn amlhau ynom ni; felly trwy Grist y mae ein diddanwch ni hefyd yn amlhau;" 2 *Cor.* i. 5. Fel yr oedd dyn yn rhoddi blinder arno, felly rhoddi Crist ddiddanwch ynddo. Yr oedd y ddau lanw yn codi ac yn treio ynghyd: pan ydoedd yn ben llanw gydag ef mewn cystudd, yr oedd felly mewn llawenydd hefyd. Nyni a roddwn gynorthwy i'r tloedion fel y byddo eu trau yn chwanegeu; felly y diddana Crist ei bobl, fel y bo eu blinderau yn amlhau. Ac yn awr, Gristion, dywed i mi, onid yw dy anwyl Arglwydd yn haeddu ysbryd parod ynot i wynebu unrhyw ddiodefiadau gydag ef, drosto ef, neu oddi wrtho ef, sy'n rhoddi ei gysuron melusaf, lle yr arfero ei bobl ddisgwyl eu gofidiau chweraf? Da y gall y gwas wneud ei waith yn siriol, lle y mae y meistr mor ofalus am dano a dwyn iddo ei foreubryd i'r maes â'i ddwyllaw ei hun. Nid oes i'r Cristion arno nes myned i'r nef am y cwbl o'i gysur. Yno yn wir y bydd y swper llawn: ond, Gristion, y mae boreubryd o lawenydd blaenorol (mwy neu lai) a ddwg Crist atat i'r maes, ac a gei di ei fwyta ar y man lle yr wyt yn dioddef dy galedi.

(3.) Yn y cynnorthwyon prydlawn a enfyf Crist i'w dwyn ymaith yn ddiogel. Y mae efe, nid yn unig yn eu cysuro yn eu blinderau, ond yn eu helpio allan o honynt oll. Y mae drws chwanege bob amser nag a wel y Cristion yn ei garchar; a thrwy yr hwn

y gall Crist, a throed ei law, agor ffordd ddiangfa i'w saint. A pha beth chwanege a all Cristion ddydduno? Y mae pob petl yn dda, a ddiweddo yn dda. A pha sicr wydd gwell a allwn ni ddydduno am hyn nag addewid y Duw mawr, yr hwn y mae yn amhosibl iddo fod yn gelwyddo? A yr wyf yn gobethio nad yw y gred sydd. Dduw yng nghalonau ei bobl ddim mo isel na dderbynir ysgrifen-rwym (*bill*) odtan ei law ef ganddynt, ar yr olwg gynta yn gyfnewid am y peth anwylaf gauddyn, ie, yr einioes hefyd. Edrych atat dy hun pan fyddo i ti a wnelych âg ereill. Nid oes neb mor gadarn nas gall ynhollti danat, o rhoddi ormod o bwys arno. Buasai un y meddwl y gallasai milwr mor deilwng a oedd Urias hyderu yn ei gad-faenor, ie, y frenin, a hwnn yn un duwiol, fel yr oedd Dafydd; ond ei fradychu yn anhaeddiannu, a gafodd efe ganddo i ddwyllaw ange. Fe all dyn, ac yn sicr fe wna diafol, adan y ddalfa bob un a wnelo ei waith e. Ond os Duw a'th esyd ar waith, efe a fydd o'th du i'th gymmhorth. Paid ag ofni cael "Edrych di at hyn" o'i enau ef, pan fydd dy ffyddlondeb ato wedi dy ddwyn i ddiogelwch. Yr hwn a wnai wrth, yn hytrach na gadael i brophwyd ffoadurold dardfod a dano, yn ei fordaith bechadurus, gan ei fod yn ŵr da yn y gwaelod, efe a bentyra wrth ar wrth yn hytrach nag y ceidi di afwydd a suddo tra ar dy ddyledswydd. Yn un paid ag ymfino, os tefir di dros y bwrdd fel Ionah, cyn i ti weled y ddarpariaeth wnaeth Duw er dy ddiogelwch. Y mae hyn bob amser yn agos, etto weithiau y gwbl allan o olwg y creadur, fel y morfil anfonodd Duw i drosglwyddo Ionah yn ddiogel i dir. Yr oedd y prophwyd yn ei gwyn gwybod pa le yr oedd. Fe allai mai peth a ofni dithau, fel yr hyn sy'n dyf i'th lyngau, fydd y genad a enfyf Duw i ddwyn yn ddiogel i dir. Ai nid yw esgid di etto, Cristion, am dy droed? nid wyt ti yn barod i deithio? A eili yn awr ofni i un gareg niweidio dy droed trwy wadu mor gryf?

PENNOD XV.

Yr ail reswm am y pwng, yr hwn a gymmerir o wrth ragoroldeb yr agwedd hon o ysbryd.

Rhes. 2. Yr ail reswm am y pwng a gymmerir oddi wrth yr agwedd hon o ysbryd; hyn a ymddengys mewn amryw bethau.

DOSE. I.

Iaf. Y mae y parodrydd hwn o galon blygu i'r groes yn brawf o galon rasol. Sicr wyf fod ysbryd grasol yn ysbryd rasol. Ni wnaeth cig a gwaed erioed i hyn ewyllysgar i ddiodef, pa un bynag

tros Dduw, ai tan law Duw. Y neb a allo wneud hyn, y mae yn meddu yr ysbryd arall, oedd yn Caleb (*Num.* xiv. 24), a hwn yn ei brofi o achau uwch na'r byd hwn. Calon anianol ni ddichon weithio (i Dduw) na dioddef yn ewyllysgar. "Y mae yr ewyllys yn rhydd, yn ol y radd y byddo wedi cael rhyddhad," medd Luther. Nid yw ddim yn rhyddach nag yn ol y rhyddhad a fu arno trwy ras. Cymmaint o gnawd ag sydd wedi ei adael mewn sant, yn ol hyny y mae ei anheuruwydd a'i annewyllysgarwch i ddyfod at droed Duw; ac felly, lle nad oes dim ond cnawd, ni all fod yno ddim ond anewyllysgarwch. Yr hwn a fedr gael ei galon yn plygu yn siriol i Dduw, yn ei orchymyn a'i ragluniaeth, gall wybod llaw pwy a fu yno, fel y dywedodd yn am waith y paentiwr Apelles: llinellau yw y rhai hyn nad allai neb ond Duw eu tynu ar dy enaid di. Dywedodd y bydrwagedd am yr Israelesau, nad oeddynt fel yr Aiphitesau wrth esgor ar ei plant, am eu bod "hwy yn fywiog, ac yn esgor cyn dyfod bydwraig atynt;" *Ecsod.* i. 19. Yn ddiau, y mae y galon rasol yn debyg i hyn, yn fywiog a pharod at unrhyw waith, pan ei galwer i weithredu, neu ddioddef. Nid yw mor-anhawdd iddi hi esgor ar ddyledswydd ag i galon anianol, yr hon sy raid iddi gael help a bydwreigiaeth rhyw resymau anianol; os amgen, y mae yn glynu yn yr esgoreddfa. Ond y mae yr enaid grasol wedi dyfod trwy hyn cyn dyfod y rhai hyn i gynyng eu llaw gynnorthwyol. Gwna caniad pur i Dduw, ufudd-dod i alwad ei orchymyn ef, a chred i sicrwydd ei addewid, rwyddhau y gwaith: pa mor finderus bynag a fyddo i'r cnawd, etto nid ydyw yn drwm i'r ysbryd. Y mae hwn o hyd yn barod i ddywedyd, "Gwneler dy ewyllys di, ac nid yr eiddo fi." Y mae yr apostol yn gwneud yr ymstyngiad rhydd hwn i drefniad llaw gystuddiol Duw yn brawf o ysbryd mabaidd. "Os goddefwch gerydd, y mae Duw yn ymddwyn atoch megys tuag at feibion;" *Heb.* xii. 7. Crafwch, nid yw yn dywedyd, Os ceryddir chiwi, ond "os goddefwch gerydd." Nid ydyw cael curfa yn brawf o faboliaeth, ond ei dioddef, heb soddi o ran ein calondid, na chilio oddi tan y baich a osododd Duw arnom; ond cynnyg ein hysgwydd iddo yn rhwydd, a'i ddwyn yn amyneddus; a hyn gan edrych â llygaid siriol ar y wobr, pan y delom, nid i'w daslu i lawr ond i gael ei dynu i lawr gan y llaw hono a fu yn ei osod arnom. Hyn (yn ol llawn-gymwysiad y gair) a ddengys ysbryd plentynaidd: ac y mae yn rhaid i'r dystiolaeth am hyn fod yn gydymaith cysurlo i'r enaid, yn enwedig y pryd hyny, pan fyddo y gau-resymwyr hwnw o ufern yn defnyddio y cystuddiau sydd arno fel dadl i wrthbrofi ei berthynas blentynawl â Duw.

Yn awr, bod yn meddu yr ateb hwn yn barod at gau safn y celwyddwr, Satan, Pe na byddwn yn blentyn, pa fodd y gallwn i mor rhwydd ymostwng i ddisgyblaeth deuluaid yr Arglwydd?—nid trugaredd fechan yw hon.

DOSE. II.

2il. Gwna yr agwedd hon o ysbryd y neb a fyddo yn ei meddu yn ŵr rhydd; ac nid gwerth gwael a arferir ei roddi ar ben rhyddid. Hyd yn oed yr adar a ddewisant fod ar led yn y coedydd, gyda rhydd-deb, er bod yn deneu gan annwyd a gofal, ac i bigo yma a thraw eu bywoliaeth fechan, yn hytrach nâ chaelcawell euraidd, a'r holl weinyddu fydd iddynt. Yn awr, yn ddiau y mae caethiwed nad oes ond ychydig yn ei deimlo, a hwnw yn gaethiwed i'r creadur; pan fyddo dyn yn fath gaethwas i'w fwyniant a'i fodd gwael yma ar y ddaear, nes yw y rhai hyn yn rhoddi deddf iddo ef, a ddylai roddi deddf iddynt hwy. Y maent yn mesur allan ei lawenydd iddo, ei ddogen bychan neu fawr, yn ol fel y mae y rhai hyn, yn helaeth, neu yn brin ganddo. Fel hyn mae rhai yn gaethion i'w meddiannau: dywedir fod "eu calonau yn myned ar ol eu cybydd-dod;" sef, yn debyg i'r gwas ar ol y meistr, yr hwn ni faidd efe fod ond o'i du ol. Eu cyfoeth yw y meistr, ag sydd yn cael y gadweidiaeth oreu; y mae eu calon yn gweithio ar hwn, a ddywedaf, fel gwas ar ei feistr! i.e, fel ei wrth droed ei feistr. Y mae ereill yn gymmaint caethion i'w hanrhydedd; mor druanidd o ysbryd, fel nad allant fod mewn bodd, oni chant y cap ar glin gan bawb a'u cyfarfyddo. Y cyfryw gaethwas ydoedd Haman, hoff-ddyn mawr gan ei frenin. Pwy ond efe yn y llys? Efe a allai, trwy gost ychydig eiriau, gael modrwy y brenin i selio cyfraith waedlyd, at ddifetha llawer iawn o filoedd o bobl ddiuidwed, yn groes i bob synwyr a rheswm gwladol, ac yn unig i gyflawni ei chwant ei hun. Ai nid oedd gan y dyn hwn ddigon o anrhydedd yn bentwr arno, i foddloni ei ysbryd uchelfrydig? Nag oedd: y mae rhyw Iuddew gwael wrth borth y brenin, yn pallu ymostwng iddo, pan yw yn myned heibio; ac y mae hyn yn troi ar ei gylla balch, fel nad oes lawenydd iddo o'i holl fawredd arall. Medd yr adyn truan o ysbryd: "Nid yw hyn oll yn llesau dim i mi, tra fyddwyf fi yn gweld Mordecai yr Iuddew yn eistedd yn mhorth y brenin;" *Esth.* v. 13. Y mae rhyw fath arall mewn cymmaint caethiwed i'w plëserau: dywedir wrthynt; "Moethus fuoch ar y ddaear;" *Iago* v. 5. Y mae eu bywyd yn rhwyng yn eu plëserau, fel y frwynen yn tyfu yn y llaid, a'r pysg yn byw yn y dwfr; nis gallant hwy fyw heb eu plëserau; tynwch hwynt oddi wrth eu gwleddoedd a'u difyrwch, dyna eu calonau, gyda chalon

Nabal, yn marw, ac fel careg yn eu myn-wesau. Yn awr, yr agwedd ysbryd y soniwn ni am dani, a dŷr yr holl gadwynau hyn, ac a ddwg y Cristion allan o bob tŷ caethiwd. Y mae yn ei ddysgu i garu yr hyn a anfon Duw. Os daw helaethrwydd, y mae yn gwybod pa fodd i ymhelaethu, fel os tefir ef o'r cyfryw, o'i fwynt presennol, trwy dro mewn rhagluniaeth, na lyno ei droed yn yr wrthaf, ac na lusger ei enaid yn gaeth ar ol hwn gan flys cwyntanus. Na, trwy ras y mae efe yn ŵr rhydd; ac fe all hebgor cymdeithas unrhyw greadur, tra y gall ond cael Crist gydag ef. Y mae Paul wnyfydedig yn sefyll ar ei ryddid: "Pob peth sydd gyfreithlawn i mi; eithr ni'm dygir i dan awdurdod gan ddim;" 1 Cor. vi. 12. Mi wn fod y lle yn golygu pethau bychain eu pwys, ynghylch y rhai yr oedd dal y prydhyn: ond y mae ystyr arall yn ol yr hwn yr oedd pob peth yma isod yn bethau bychain eu pwys i'r gwr sanctaidd hwn; parch neu ammharch, helaethrwydd neu brinder, bywyd neu farwolaeth. Pethau bychain oedd y rhai hyn gan Paul; nid oedd efe am fod dan awdurdod un o honynt oll. Nid oedd yn gweddu i was Crist, yn ol ei farn ef, fod mor dynner o'i air da ag i'w gyfrif ei hun yn andwyol, pan na chai efe hyn, neu y cyffelyb; nac i ymserchu ar helaethrwydd, fel ag i beidio a chroesawu prinder; nac i fod mor hoff ganddo einioes, ag i redeg rhag y meddyliau am angyd; nac i fod mor ffin o fywyd o ddioddef, ag i brysuro dyfodiad angyd er ei esmwythâd. "Y mae meddwl mwy mawrfrydig," medd Awstin, "gan yr hwn a ddewisio ddioddef bywyd adfydig, yn hytrach na ffoi o hono."

DOSE. III.

3ydd. Fel y mae y parodrwydd hwn i ddioddef yn enwogi â rhyddid, felly y mae hefyd yn galluogi y Cristion at wasanaeth. Gwir sier yw hyn, mai yn yr un radd y mae y Cristion yn addas i fyw yn wasanaethgar, ag y byddo wedi ei barotoi i ddioddef yn ewyllysgar. O herwydd nid oes un ddyledswydd heb fod â'r groes yn ei chanlynn; a'r hwn sydd yn tramgwyddo wrth y groes, nid hir y bydd wrth ei fodd yn y gwasanaeth a ddwg hi. Gwedd, y mae yn ymarferiad beunyddiol i'r Cristion; a hon nid all efe ei chyflawni yn ddyladwy, oddi eithr iddo allu dywedyd o'r galon, "dy ewyllys a wneler;" a phwy a all ddywedyd hyn mewn gwirionedd, heb iddo fod yn barod i ddioddef? Mae moli Duw yn ddyledswydd wastadol; i.e., y mae i ni dalu diolch "ym mhob dim;" 1 *The.* v. 18. Ond beth os digwydd i ni gystudd—pa fodd y cyweiriwn ein calonau at y don hono, os na byddwn yn barod i ddioddef? A allwn ni fendithio Duw, a grwnach—ei foli, ac ymddigio? Gwaith y gweinidog yw pregethu; gwae fydd iddo onis gwna: ac

os gwna, y mae yn sier o ddioddef. Cafod Paul ei orchymyn i bregethu a'i alwad ddioddef gyda'u gilydd: yr un pryd yr anfonwyd ef i bregethu gras Duw i'r byd ag oddef lliid y byd dros Dduw. Felly y dywedodd Duw wrth Ananias, y byddai idd ddiwyd ei enw ef ger bron y cenhedloedd, ddwydd pethau mawrion er mwyn ei enw. *Act.* ix. 15, 16. Ac oni foddhwyd y byddianniolchgar â'r efengyl o enau Paul, oedd â fath fedr ganddo i'w phereiddio, pet chwihig fyddai i nebsy mor fyr o'i ddonia ef yn y pulpud, ac o'i ras at ennill ar galon au allan o hono, ddisgwyl, os yw eu bwriad am fod yn ffyddlawn, y cânt fod heb y cyflog a dalodd y byd iddo am ei boen; hyn yw, gwaradwydd a dirmyg, os nid curfeyd erledigaeth waedlyd, fel y cafodd efe. A onid yw yr esgid hon yn angenrheidiol droed y pregethwr sydd i deithio yn mys cynnifer o seirff chwyth-leisiol? Pwy on Paul, oedd wedi cael y llaw uchaf ar serc at einioes, ynghyd âg ofn marwolaeth waedlyd, a fuasai mor foddlawn i fyned, i.e., ffian y llew, a phregethu yr efengyl yno, i yr oedd megys yn gwahodd angyd i ddyfocato? Meddwl yr wyf, i Rufain ei hun, i yr oedd gorseddfa Nero greulawn: "Hy y mae ynof fi, parod wyf i bregethu; efengyl i chwithau hefyd y rhai ydych y Rufain; canys nid oes arnaf gwylydd efengyl Crist;" *Rhuf.* i. 15, 16.

Mewn gair, y mae yn ddyledswydd bob Cristion wneuthur proffes rydd o Grist. Yn awr, nis gellir gwneud hyn heb beryaml waith. Ac oni bydd y galon wedi ymroddi ar yr hyn a wna yn y pwngc hwn bydd i'r ystorm gyntaf a gyfodd beri truan gilio i ryw gongl neu gilfach, yn hytrach nag anturio allan ar hin arw: "Llaw o'r penaethiaid hefyd a gredasant yndd ond o blegid y Phariseaid, ni chyffesasant rhag eu bwrw allan o'r synagog;" *Ioan.* 42. Ystrueiniaid! hwy a allasant fod foddlawn i droi allan pe buasai y tywydd deg; ond ni feddant ddiagon o wroldeb i d oddef frychydiddirmyg oedd yn eu bygw. O! pa fath ffleidd ydyw ymrwymo d Dduw, heb ein bod yn ewyllysgar i antu y cyfan er ei fwynt ef? Nid ydyw yn wna i ni gychwyn fel cyfeillion i Grist trwy bffes, oddi eithr ein bod yn bwriadu ei ddil o hyd, a pheidio ei âdael yn angharedig hanner y ffordd o herwydd cors neu ddw.

DOSE. IV.

Y parodrwydd ysbryd hwn i ddioddef s rhai i'r Cristion y gwir fwyntâd o'i fyw. Nid oes un dyn a ddaw byth i wir fwynt ei hun mewn un o gysuron ei fywyd, ne byddo yn barod i rwydd-ymwadu âg ef hun ynddo. Dychlymyg yw hwn; ond mae ystoriaeth a'i deongla. Yn gyntaf yna, ac nid yn gynt, y tynir ymaith yr hwn sydd yn rhwystr i'n mwynhâd, o'n bywyd

hwnw ydyw ofn—lle y byddo hwn, y mae no boenedigaeth. Yr hydd a helir, fe'i ir yn un cul, er bod mewn porfa dda, am fod yn wastad mewn ofn. Ac felly y mae yn rhaid i'r rhai hynny fod yng nghanol holl fwyniant a fyddo â'r fwltwr yma o'rd yn bwyta eu calon. Nid oes eisieu dim chwaneg i ddwyn nychdod ar lawenydd yn, nag ofn afreolus o golli yr hyn yn esennol sydd ganddo. Ond i hwn gael fael yn ysbryd dyn, a dyfod arno yn gryd baid, dyna gysur ei fywyd wedi myned hwnt i adferiad. Pa niferi sydd trwy n yn greulonach wrthynt eu hunain nag gallai eu gelynyon gwaethaf yn y byd fod thynt? Och! y rhai hynny, er gwneud eu ithaf, nis gallant eu lladd ond unwaith: thr trwy ragamserau eu gofidiau, hwy a lldant eu hunain filwraith drosodd, i'e, mor nych ag y delo ofn marw ar draws eu donau truenus. Ond pan unwaith y caffo Cristion ei arfogaeth yn gyfan am dano, mae ei enaid yn barod at angeu a pherygl: mae yn eistedd wrth y wledd a fyddo i'w yn ei ragluniaeth bresennol yn ei refnu iddo, ac heb ofni i un cenhadwr â wydd drwg ganddo guro wrth y drws. Gall son am awr ei farwolaeth heb anafu wenydd ei gyflwr presennol, fel y tybiai nion anianol y gwnai y fath siarad. Dynt hwy y mae son am farw, uwch ben melusion, yn aili ddyfodiad swyddwyr dal mintai o ladron a fyddo yn cydymni, a'u daoedd lladrad o'u deutu; neu yn byg i Hazeal, a wasgodd wrthban gwlyb wyneb y brenin ei feistr. Gwna hyn i'r ll lawenydd oedd o'r blaen yn fflamio allan io i mewn yn ddisymrwth, nes bod y meiniad yn ddiysbryd ac ar farw, fel y wedwn, oddi eithr cael ymadael â'r mater chrynllyd hwn trwy ryw ddiffyrwch neu ydd. Ac ni wna hyn ond eu hesmwythar y pryd, a'u dwyn allan o'r llewyg a aeth arnynt y tro hwn; y mae yn eu dael yn ddyfnach mewn caethiwed i'r h syndod calon, pa bryd bynag yr ymhio yr un ysbryd o hyny allan. Ond y Cristion sydd yn meddu y parotoad calon yn, nid yw efe un amser yn profi melusr mwy yn mwyniant y bywyd hwn, na pan y byddo yn gwlychu y tameidiau hyn a y myfyrdod am angeu a thragwyddolb. Nid yw yn fwy gofid i'w galon ef i ddwl am symudiad y rhai hyn, yr hyn a na le i fwyniant sydd yn llawer mwy fryd nag a fyddai i un mewn gwledd, n gymmerid ymaith yr huliad cyntaf, eddi iddo ymborthi yn dda arno, fel y vneler lle i'r ail huliad o bob danteithion ammeuthynion ddyfod ar y bwrdd, yr n nis gellir ei wneud mewn trefn nes un y llall ymaith. Y mae Dafydd dduw-ol, yn *Salm* xxiii, fel un yn dwyn pen angeu mewn gyda'i wledd. Y mae efe agos â'r

un anadl yn son am ei farwolaeth (*adn.* 4) ac am y wledd fras oedd ar y pryd o'i flaeu trwy haelioni Duw (*adn.* 5); ac nid oedd efe mor rhwym wrth hon gerfydd y dannedd, fel pe buasai i'r Duw a'i harlwyodd iddo ei alw oddi wrthi i edrych angeu yn ei wyneb, nad ydoedd yn amharod i hyny, nac yn ofni niwed pan y byddai o fewn glŷn ei gysgod du. A pha beth a feddyliwch am yr Apostol Pedr? Onid oedd ganddo ef, dybygech chwi, y gwir fwyndad o'i fywyd, pan allai gysgu mor dawel mewn carchar (nid lle dymunol) rhwng dau filwr (nid agwedd gysurus), a hyn y nos cyn bod i Herod, yn ol pob tebygoliaeth, ei ddwyn allan i'w ddiennyddio? Nid amser tebygol, gallem feddwi, ydoedd hwn i gael gorphwys: etto, ni a'i cawn ef, yn y lle, yr amgylchiad, a'r pryd hyny, yn cysgu mor drwm, nes y bu i'r angel a anfonwyd i'w rwyddhau o'i garchar ei daraw ar ei ystlys i'w ddiuno: *Act.* xii. 6, 7. Yr wyf yn ammheu a oedd Herod ei hun yn cysgu mor dda ag yr oedd ei garcharor hwn. A pha ddiodeid oedd yn peri i'r gwr sanctaidd hwn gael gorphwys mor dawel? Hon, yn ddiammheu, "parotoad efengyl tangnefedd:" yr oedd yn barod i farw, a hyny a'i gwnaeth yn alluog i gysgu. Pa ham y byddai raid i hyny dori ar ei orphwys yn y byd hwn, yr hyn, pe ei dygesid i ben, a fuasai yn ei ddwyn i'w fythol orphwysfa yn y byd arall.

2il. Po mwyaf parod fyddo y Cristion i ddiodeid dan law Duw, neu dros Dduw, mwyaf rhwym yw Duw i ofalu drosto ac am dano yntau. Y mae cadflaenor da yn fwyaf tyner o fywyd y milwr hwnw a fyddo lleiaf tyner o hono ei hun. Po lleiaf y bri a roddo y Cristion arno ei hun, ac ar ei fudd ei hun, er mwyn Duw, mwyaf y gofala Duw am dano, naill ai i'w gadw rhag dioddef neu wrth ddiodeid. Golygir y ddau hyn yn *Mat.* xvi. 25: "Pwy bynag a gollo ei fywyd o'n plegid i a'i caiff." Yr oedd Abraham yn barod i offrymu ei fab; ac yna ni adawodd Duw iddo wneud hyny. Ond os bydd i Dduw ar ryw dro gymmeryd cyunyng y Cristion, a goddef i'r dyrnod gael ei roddi, i'e, hyd wahaniad yr enaid a'r corph, er hyn efe a ddengys ei ofal tyner am dano, trwy y bri mawr a esyd efe ar waed y cyfryw. Nid yw hwn yn cael ei dywallt yn fwy afradus gan greulondeb dyn, nag y mae yn cael ei gasgu yn fwy gofalus gan Dduw: "Gwerthfawr yng ngolwg yr Arglwydd yw marwolaeth ei saint ef."

Fel hyn, gwelwn mai trwy ymroddi yn rhwydd i drefniad Duw y bydd i ni rywmo Duw i ofalu am danom, a'r hyn oll a ddigwyddo i ni. Ac yn sicr dyna'r un, os cawn un y byd sy raid ei fod yn byw yn gysurus, a fyddo â'i ofal am dano ei hun wedi ei dynu yn llwyr oddi ar ei ysgwydd ei hun, a'i dreiglo ar Dduw, ar ddarpar-

iaeth yr hwn y mae efe bellach yn byw. Erioed ni bu well byd ar y weddw dlawd na phan oedd y prophwyd yn cadw tŷ iddi. Hi a ymadawodd yn rhwydd â'i hychydig flawd at wasanaeth y prophwyd: ac yn wobwr i'w ffydd, a roddodd gred i'r genadwri a ddygodd efe oddi wrth Dduw, mor bell ag i roddi y bara o'i genau ei hun, a'i phlentyn i'r prophwyd—fe ddarparwyd iddi yn wyrthiol: 1 *Bren.* xvii. 12, 13. O! pan unwaith y dyger enaid at droed Duw i ddyweddyd yn ddiffuant, Arglwydd, dyma fi yn foddllawn i roddi i fywyd y cwbl a feddaf, ac ydywyf, i fod wrth dy drefniad di; cwblheir fy ewyllys i pan wneler dy ewyllys di ynof—y mae Duw yn cyfrif ei hun yn dra rhwymedig i edrych ar ol-yr enaid hwnw.

PENNOD XVI.

Rhifedi y gwir Cristionogion ond bychan; prawf o hyn oddi wrth y parodwydd i ddioddef sydd yn ofynedig ym mhob Cristion—mwy neu lai; ac annogaeth i'r ddygledwydd oddi wrth ddau rheswm.

Defn. 1. A yw yn rhaid i'r Cristion sefyll fel hyn mewn esgidiau parotod i deithio ar alwad Duw, ym mha ffordd neu hin bynag? Gwna hyn deneuo a lleihau yn ddirfawr nifer y gwir Cristionogion wrth yr hyn yr ymddangosant i fod ar yr olwg gyntaf, yn ol y cyfrif wrth broffes esmwyth a rhad. Gallai un a ddeuai i'n cynnuilleidfaoedd, ac a'u gwelai wedi eu gwasgu a'u cynio mor dŷn gan dorffeydd yn ymdyru ar ol y gair, synu ar y cyntaf wrth glywed gweinidogion yn soddii nifer Cristionogion mor isel, ac yn son am danynt fel cyndeithas mor fechan. Gallai un dybied fod pall ar eu golygon, nas gallant weled coed, gan brenau; y Cristionogion sydd yn sefyll o'u blaen. Parodd y peth hwn i un o'r disgyblion ofyn i Grist, mewn syndod nid bychan, "Arglwydd, ai ychydig yw y rhai cadwedig?" *Luc* xiii. 23. Craffweh ar yr achlysur o'r gofyniad hwn: "Crist a dramwyodd trwy y dinasoedd a'r trefi, gan athrawiaethu ac ymdeithio tua Ierusalem;" *adn.* 22. Yr oedd yn gweled Crist mor barod o'i lufur i bregethu ym mhob tref y deuai iddi, a'r bobl yn tyru ar ei ol, a chymmaint o lawenythu gan lawer o'i herwydd: *adn.* 17. "Yna," eb efe, "ai ychydig yw y rhai cadwedig?" Fel pe dywedasai, Y mae hyn yn dra rhyfedd, ac agos yn anghredadwy: gweled ffordd y nef â phobl mor dew ar hyd-ddi, moddion iachawdwriaeth â'r fath fri arnynt, ac etto ond ychydig yn gadwedig yn y diwedd! Pa fodd y gall hyn fod? Yn awr, gwelwch ddeongliad y dirgelwch gan Grist: "Ac efe a ddywedodd wrthynt (tybygid fod y dyn wedi adrodd petrusder chwaneg nag ef ei hun), ymdrechweh am fyued i mewn trwy y

porth cyfyng; canys llawer meddaf i chwi a geisiant fyned i mewn, ac nis gallant;" *adn.* 24. Fel pe dywedasai Crist, Yr ydych yn barnu wrth gam-reol. Pe gwnai broffes y tro, a bod tyru ar ol pregethau, ynghyd â g ymddangosiad o lawenydd dan y gair, yr ddigon i achub, fe lenwid y nef yn fuan. Ond os ydych yn caru eich eneidiau, no ogrynwch—na phrofwch eich hunain wrth y gogr bras hwn; ond "ymdrechweh fyued i mewn;" ymledwch ac ymaffwch antariwch eich aelodau a'ch bywyd yn hyt rach na syrthio yn fyr o'r nef: "Canys llawer a geisiant, ac nis gallant." Hyn yw, hwy a geisiant trwy broffes esmwyth crefydd ddiraual—y fath ag yw gwrandaw y gair, cyflawni rhai dyledswyddau, a'r cyfflyb. O'r fath yma y mae llawer a ddeuant ac a rodiant o ddeutu drws y nef, yn foddllawn i ddyfod i mewn os gallant wneud hyn heb anfoddio eu balchder mewn torf neu beryglu eu budd anianol presennol, trwy unrhyw ymryson ac ymdynu. "Ond ni gallent (hyn yw) fyned i mewn;" am na gall eu calonau ofnog anianol hwynt ymdrechlu. Felly, cymmwrch Cristionogion dan y dybiaeth o geiswyr, ac yn ol geiriau Crist ei hun, y maent yn llawer. Ond o ystyriwch hwynt dan y dybiaeth o ymdrechwyr—rhaf a'u traed wedi eu gwisgo â ymroddiad sanctaidd i ymdrechlu, ie, hyd a waed, os bydd i'r cyfryw brofion eu cyfarfod ar eu ffordd i'r nef, yn hytrach na beheb fyned i mewn; yna, lleihau a wn nifer byddin Crist, fel llu golygus Gideon, ryw flutai fechan. O! mor hawdd fydd rhoddi esamplau mewn llawer math o Cristionogion, a elwir felly mewn golygiad i lydai heb yr esgidiau hyn, yr efengyl, am eu traed ac sydd felly yn sicr o gloffi a methu, pa gyntaf eu dygir i gerdded ar geryg i'lymion.

DOSEB I.

Iaf. Y Cristion anwybodus. Pa waith mae hwn yn debyg o'i wneud, o ran dioddef dros Grist a'i efengyl? Ac nid y nifer leiaf yw y rhaf'n mewn llawer cynnuilleid. Y cyfryw ag sydd heb gymmairt o oleu gwybodaeth yn eu deall ag i wybod pw ydyw Crist, a pheth a wnaeth efe erddynt a fydd gan y rhaf'n gymmairt o wres caria ag i deithio yn siriol ar ei ol, pan fydd raid i bob cam a gymmerant dym gwaed honynt? Tybiodd Nabal iddo roddi atre rhesymol i weision Dafydd, oedd yn gofy ychydig help ganddo yn eu cyfwng presennu pan y dywedodd; "A gymmeraf fy mar a'm dwfr, a'm cig a leddais i'm cneifw a'u rhoddi i wŷr nis gwn o ba le y maent?" 1 *Sam.* xxv. 11. Yr oedd efe yn meddwl rhodd yn ormod a'r gvdnabyddiaeth mor fechan. Ac a fydd i'r dyn anwybod dybygech chwi, fod yn barod i ymadael, ni yn unig â'i fara a'i gig o'r crochan—ychydig o'i gyfoeth wy'n feddwl—ond â chig ei gorp

hun, os gelwir ef i ddiodeff, a hyn oll wrth orchymyn Crist, sydd yn un na wŷr e o ba le y mae? Y mae Paul yn rhoddi yn fel y rheswm palam y dioddefodd efe, ac eb gywilydd arno: "Canys mi a wn i bwy credais;" 2 *Tim.* i. 12. Y mae hanesion a mynegi i ni am y Samariaid—cymmysgw- o bobl yn eu tarddiad a'u crefydd— sydd pan fyddai llwydd ar yr Israeliaid, a'bl Dduw, yr honent hwythau garennwydd â wynt, ac y byddent yn Iuddewon; ond yn fyddai yr eglwys hono mewn rhyw ffydd oddi allan, yna y diarddelent hi dra- efn. Ac ni a ryfeddwn lai wrth yr ys- ydd gorwael hwn ynddynt, os ystyriwn y tir a ddywel Crist am danunt, eu bod yn e'bl oedd "yn addoli y peth ni wyddent;" *an* iv. 22. Nid oes gan grefydd ond ffael gwan ar y rhai na feddant afael we'bl arni hi nag sy gan law dyn dall.

2il. Proffeswyr cnawdol, y rhai a gad- ant afael yn eu chwantau tra y gwnânt offes o Grist. Cenhedlaeth yw y rhai'n na ddant ddim i'w profi eu hunain yn Grist- ogion wrtho ond eu bedydd, ac enw fel istion a gawsant y pryd hyny. Y cyfryw, byddent yn mysg Tyraciaid ac Ethniciaid, a wnai eu geiriau a'u hymddygiadau ond dynt gelu o ba le y daethant, byth ddad- oddio eu bod yn Gristionogion. Yn awr, ydyw yn rhesymol tybied mai y rhai'n y bobl sydd yn sefyll yn barod i ddi- def dros Grist a'i efengyl? Na yn sicr; y rhai ni wnant wisgo iau Crist, llawer llai lygant ei faich ef. Y rhai a dybiant iau gorchymyn yn drom, am ei bod yn eu wymo at ddyledswydd, yn llawer mwy y biant faich y groes yn annoddefadwy. Yr ni ni weithia dros Grist, ni wna farw- osto. Anrhebyg iawn yw y gwas hwnw ymladd hyd at waed yng nghweryl ei str, na wna weithio drosto hyd at chwys ei wasanaeth.

Bydd. Y proffeswr cyfrwys-gall. Erthygl faenol yn ei gred ef yw ei gadw ei hun, i oddi wrth bechod, ond allan o berygl- dol. Ac am hyn, efe a ystyria yr amserau fwy na'r Ysgrhythyrau; y mae yn edrych fyfych ym mha gongl y mae y gwynt, y gallo hwylio ei hynt, a threfnu ei offes yn ol hyny: a hon, fel tŷ y draenog, ymagor bob amser tua'r ochr gynnhes.

Bydd. Y proffeswr cybyddlyd; yr hwn y- e ei ben a'i galon mor llawn o ddyfeisiau- eparol, hyd onid yw yn rhaid i ddiodeff- os Grist fod yn dra annerbyniol gairddo, gael yn dra phell oddi wrth y fath dul- l. Chwi a wyddoch beth a ddywedodd Aiphwyr am yr Israeliaid, "Rhwystr- d hwynt yn y tir; ceuodd yr anialwch- ynt;" *Ecsod.* xiv. 3. Gwirach yw hyn am cyfryw broffeswyr; rhwystrwyd hwynt y byd; cauodd yr anialwch hwn arnynt. Mae dyn a fyddo â'i draed mewn magl,

mor gymmhws y gerdded a rhedeg, a hwy- thau i ddilyn Crist, pan fyddo hyny erniwed i'w budd daearol hwynt. Medd ein Iach- awdwr, wrth son am y gresyni oedd i ddy- fod ar Ierusalem, "Gwae y rhai beichiogion a'r rhai yn rhoddi bronau yn y dyddiau hyny;" *Mat.* xxiv. 19. A hyn o herwydd y byddai yn anhaws i'r cyfryw ochel y perygl trwy ffoi; y wraig feichiog yn analluog i ddiange yn ddigon cyflym, â'i phleutyn yn ei bru; a'r fammaeth yn anewyllysgar i adael ei hanwyl faban ar ei hol. Ond gwae llaw- er trymach i'r rhai hyny a geir, mewn amser o brawf ac erlidiau o achos yr efengyl, yn feichiog gan y byd, neu yn rhoddi sugn i unrhyw serch cybyddlyd ac afreolus at y creaduriaid; y cyfryw a'i cânt yn anhawdd iddynt ddiange rhag y brofedigaeth yr am- glycha y rhai'n hwynt â hi. Y mae yn am- mhossibl, ar y fath amser, cadw y byd a Christ hefyd; ac mor ammhossibl i galon sy'n ymserchu ar y byd fod yn foddllawn i'w adael er mwyn cymdeithas Crist.

5ed. Y proffeswr balch, sy'n ucheldybus am dano ei hun, ac mor bell oddi wrth eiddigedd gostyngedig a duwiol, ac ofn am dano ei hun, nes ydyw yn hunan-hyderus. Dyma ddyn mewn esgidiau, ac yn barod, ond nid trwy gael iawn esgidiau yr efengyl. Nid trwy nerth y "gorchfyga gŵr;" 1 *Sam.* ii. 9. Y gŵr oedd mor hael o'i gnawd dros Grist, yn nyddiau y frenines Mari, nes y dywedodd y mynai efe weled ei fraser, o'r hwn yr oedd ganddo ystôr dda, yn toddi yn y tân yn hytrach nag y syrthiai efe yn ol at Babyddiaeth; efe a fu byw, ddy'n truan, i weled ei ddewrder yn toddi, ac efe ei hun yn annewr, yn gwadu ei ffydd i gadw ei fraser. Y rhai a ymfrostant am eu gwolder, wrth wisgo eu *harness*, a'u diosgant gyda gwarth bob amser. Y mae calon dyn yn fwy ei thwyll na dim, yn rhyw Iacob a'i disodla ei hun. Yr hwn ni fedr fesur hyd ei droed ei hun, pa fodd y gall efe gymmhwyso esgid iddo?

DOSE. II.

Cymmerwch eich annog, chwi oll sydd âg enw Crist arnoch, i geisio yr esgid hon o barotoad am danoch, a'i chadw am danoch, fel y byddoch bob amser yn barod i ddilyn galwad rhagluniaeth Duw, er iddo eich arwain i gyflwr diodeffus. Dyma i chwi ddaugymhelliad.

1af. Ystyria Gristion, y gall gwaith di- oddef dy orddiws yn ddisymmwrth cyn i ti ei ddisgwyl; am hyny, bydd â'th esgidiau am danat. Weithiau, daw gorchymyn i filwyr am daith yn ddioed; ni chânt gym- maint ag awr o rybudd; ond rhaid yw cychwyn ar alwad y tabwrdd (*drum*). Felly y gelli dithau, Gristion, gael dy alw allan, cyn i ti ddisgwyl, i'r maes, naill ai i ddiodeff dros Dduw, ai tan ei law. Ni chafodd Abra- ham ond amser byr i ymddiddan â'i galon

a'i hannog i gydsyniad â Duw am offrymu ei fab Isaac. Prawf dwys, y rhybudd byr! "Cymmer yr awr hon dy fab, dy unig fab Isaac;" *Gen. xxii. 2*, nid ym mhen blwyddyn, mis, neu wythnos, ond yr awr hon. Yr oedd hyn yn y nos: "Ac Abraham a foregododd;" *adn. 3*. Pa fodd y gallasai efe groesawu y fath newydd syn pe buasai cydsyniad ei galon hyd hyn heb ei ennill? Ond nid oedd hyn yn awr i'w wneuthur; yr oedd calon Abraham eisoes gan Dduw; ac am hynny, nid dadleu yn erbyn y gorchymyn a wna efe yn awr, ond ufuddhau. Gall Duw wneud cyfnewid buan yn dy helnynt neillduol dithau, Gristion. Pa fodd y gelli di, yn dy lawn north a'th iechyd, oddef clywed enadwri angeu, pe byddai i Dduw, cyn i un nych-glefyd dy ddwyni gydnabyddiaeth âg angeu, ddywedyd ond hyn, "Cyfod, a bydd farw!" fel y dywedodd efe unwaith wrth Moses? A oes gwisg am dy draed i'r fath daith? A elli di ddywedyd, Da yw gair yr Arglwydd? Beth pe byddit ti mewn un dydd i gamu o anrhydedd i ddirmyg, i gael dy ddiog o'th sidanau a'th felfed, a'th droi mewn gwisg wael i *actio* rhan cardodyn? A elli di lawenhau am dy iselu, a chael dy galon yn barod i fendithio y Goruchaf? Profai hyn di yn enaid mewn parotoad efengylaidd yn wir.

Drachefn, gall Duw mor ebrwydd a hynny newid y golygiant yn helyntoedd cyhoedd yr amserau yr wynt yn byw yndynt, o ran yr efengyl a'r broffes o honi. Fe allai fod yr awdurdodau y pryd hyn yn gwenu ar eglwys Dduw: etto, yn fuan gallant wgu, ac ystorn o erlid gyfodi. "Yna yr eglwys trwy holl Iudea, &c., a gawsant heddwch;" *Act. ix. 31*. Dyma amser dedwydd; ond pa hyd y parhaodd? Och! nid yn hir: yn *pen. xii*, ni a gawn y newydd trwm am erledigaeth waedlyd—"Ynghylch y pryd hynny yr estynodd Herod ei law i ddrygu rhai o'r eglwys;" *adn. 1*: ac y mae Iago brawd Ioan yn colli ei fywyd trwy ei gleddyf creulawn: a chawn Pedr hefyd yng ngharchar, yn debygol o fyned i'r un gigyddfa: a'r eglwys wedi ei gyru i gongl, i gyd-weddio yn y nos: *adn. 12*. O! y fath gyfnewidiad trwm sydd yma! Y rhai oedd o fewn ychydig yn cael llonyddwch o bob parth, yn awr yn gwaedu! Y mae yn sylwedid fod yr hin mewn ynsoedd yn llawer mwy anwadal a chyfnewidiol nag ar y tir cydiol. Gellwch yno yn gyffredin wybod pa dywydd a geir am amser lled faith: ond mewn ynsoedd, nis gwyddom y bore pa hin a fydd cyn y nos; y mae genym yn fyfnych háf a gauaf yn yr un dydd; a chyfrifir hyn oll i agosrwydd y mor sydd o'n hamgylch. Y saint yn y nef, y maent lwy yn byw, fel y gallaf ddywedyd, ar y cyfandir: a pharhâd ddedwyddol o hedd a thawelwch sydd yno i'w mwynhau. Gallant

wybod, wrth yr heddwch a'r gwynfyd a ganddynt yn awr, beth fydd eu byd hysbyth. Eithr yma isod, megys ynys ar nofae yw eglwys Crist; a'r byd—dynion y byd wyf yn feddwl—yn eu hamgylchynu megys môr; a'r rhai hyn yn chwythu weithiau y boeth, ac weithiau yn oer; y maent weithiau yn llonydd a heddychol, ac weithiau yn llied iog a chreulawn: sef, fel y byddo Duw yn rhwymo, neu yn gollwng yn rhydd eu cyddaredd. Yn awr, Gristion, onid yw y gweddu i ti fod bob amser mewn parot rwydd; gan na wyddost nad all y gwyr droi y munudyn nesaf i'r gongl oer; a amserau, sydd yn awr o ochr yr efengyl, neu llenwi hwyliâu dy broffes â phob calondid droi i chwythu i'th wyneb a gwrthwynebu dy broffes mor gryf ag yr oedd o'r blaen yn ephleiddio?

2il. Ystyria, os na fydd dy draed wedi eglwysgo â pharotoad i ddiodeff dros Grist yma ar y ddaear, ni chaiff dy ben wisg coron yn y nef. "Os plant, etifeddion hefyd, sef etifeddion i Dduw, a chyd-etifeddion â Christ;" *Rhuf. viii. 17*. Yn awr ystyriwch y geiriau nesaf: "Os ydym y cyddioeddef gydag ef, fel y'n cyd-gogor edder hefyd." Gwir yw, nad oes i'r sail oll farw yn ferthyron wrth yr ystang etto, rhaid yw i bob sant feddysbryd merthyrod, fel y gallaf ei alne galon wedi ei pharotoi i ddiodeff. I fwriadodd Duw erioed i Isaac gael aberthu; er hynny, efe a fynai i Abraham osod y gyllell wrth ei wddf. "Felly, mwy Duw i minnau osod ein gyddfau ar boncyff, a bod yn rhwym yn yr ysbyrd, i ol dywediad Paul am dano ei hun, t'fwriad diffuant o galon i ymroddi i ewylllys a'i fodd ef. Hyn a elwir "rhoddi ein cyrph yn aberth byw, sanaid, a chymmeradwy gan Dduw;" *Rh. xii. 1*. Megys y dygai luddewyr anifail fyw, gan ei gyflwyno yn foddlawng ger by Duw, i gael ei drin yn ol ei orchymyn felly y mae i minnau gyflwyno ein cyrph bron Duw, i gael eu trefnu wrth ei chymyn, mewn ufudd-dod gweithredol diodeffol hefyd. Yr hwn a wrthod ddiodeff dros Grist, y mae hefyd yn gwrthod tey-asu gyda Christ.

Yr oedd diosg yr esgid yn arwydd, mysg pobl Israel, o fod dyn â'i law etifeddiaeth: *Deut. xxv. 9, 10*. Felly gwnaeth câr Elimelec; pan ymwrthod â'r hawl a allasai ei chael i'w etifeddiaeth ef, efe a ddiogodd ei esgid: *Ruth iv. 8*. O Gristion! gwylia di rhag diosg es yr efengyl: wrth hyn ti a wrthodit dy hysbyth i etifeddiaeth y nef; nid oes yno un gyfnyng nghadw i neb o'r rhai na fyant o oddef dros Grist. Y mae Paul yn pennu yr erlidiau y mae y saint yn eu diodeffu mewn yr efengyl: "yn arwydd sic"

iachawdwriaeth, a hyn gan Dduw ;" *Phil.* i. 28 Yn sicr yute y mae gwadu Crist i oehl dioddef, yn arwydd trwm o gollodig-aeth. O Syrs, onid yw etifeddiaeth nefol yn werth dioddef ychydig flinder am dani? Nid oedd gwinllan Naboth o werth mawr iawn; etto, yn hytrach na'i gwerthu am lawr bris, na'i newid am un well mewn lle arall—nid ei cholli—efe a ddewisodd beryglu ei fywyd trwy gyffroi brenin galluog. Nid oes modd i ti Gristion, anturio yn rhagor am dy etifeddiaeth nefol, nag a dalodd efe am nacau ymadael â'i treftadaeth fechan o erw neu ddwy o dir; meddwl yr wyf dy fywyd tymmorol. Ac heb law y rhagoriaeth rhwng ei winllan ef ar yr ddaear a'th baradwys di yn y nef, yr hwn sydd yn aufeïdrol, ac heb oddef dim cymmhariaeth, y mae i ti y fantais hon hefyd yn dy ddiodeffiaidau dros Grist: pan gollodd Naboth ei fywyd, fe gollodd ei etifeddiaeth i'w ganlyn; a hono yr oedd ei ymgais mor fawr am ei chadw. Ond dy elynion erlidgar di a gânt wneuthur i ti y gynnwynas hon, yn groes i'w hewyllys; pan y difeddianant di o'th fywyd, hwy a'th helpiant i'r meddiant o'th etifeddiaeth.

PENNOD XVII.

Chwech o gyfarwyddiaidau er cynnorthwy i wisgo yr esgid ysbrydol hon.

Gofyn. Y GOFYNIAD mawr a ddisgwyliaf bellach o'th enau di, Gristion, ydyw, nid pa fodd y mae i ti ddiange rhag y profion a'r blinderau hyn, sydd megys anffawd yr efengyl yn ei dilyn hi yn barhaus, ond yn hytrach pa fodd y mae i ti gael yr esgidiau hyn am dy draed, dy galon yn yn barod i daith, i fyned a'u cyfarfod pan y delont, a threiddio drwyddynt yn llon, pa beth bynag fyddont, neu pa hyd bynag yr arosant gyda thi?

At. Gofyniad yw hwn sy'n gweddu i filwr Cristionogol; sef gofyn am arfogaeth y gall ymladd ynddi, y pryd y mae yr ofnog yn tasfu ymaith ei arfogaeth, ac yn gofyn i ba le y gall efe ffoi. Mi a roddaf gan hyny y cyngor goreu a allaf yn yr ychydig bethau a ganlyn:—

DOSE. I.

1. Edrych yn ofalus at sail dy ufudd-dod gweithredol, ar iddo fod yn gadarn a diffuant. Gwna yr un egwyddorion cywir, trwy ba rai y mae yr enaid diffuant yn gweithredu dros Grist ei ddwyn ef hefyd i ddiodeff dros Grist pan ddwelo galwad gan Dduw i'r fath waith. "Meibion Ephraim, yn arfog, ac yn saethu â bwa, a droisant eu befnau yn nydd y frwydr;" *Salm lxxviii. 9.* Pa ham? beth yw y matter? Mor arfog,

ac etto mor ofnog! Y mae hyn yn rhyfedd! Darllenwch y wers o'r blaen, a chwi beidiwch rhyfeddu. Gelwir hwynt yno "yn genhedlaeth ni osododd ei chalon yn uniawn, ac nid yw ei hysbryd ffyddlawn gyda Duw." Bydded yr arfogaeth fel y byddo, ie, pe byddai filwyr mewn castell â'i sylfaen yn graig, a'i furiau yn bres, etto, eu calonau hwynt heb fod yn uniawn tuag at eu llywydd, rhuthr bychan a'u hymllidiai oddi ar y muriau, braw bychan a agorai eu porth; am ei fod heb y bollt o burdeb i'w gadw yn gauad. Yn ein rhyfeloedd diweddar, gwelsom fod calonau gonest o fewn muriau teneu a gwanaidd wedi cadw y dref, pan na allai unrhyw furiau gadw brad rhag bradychu ymddiried. O ymgais am burdeb! wrth ymrwmo ar y cyntaf dros Dduw a'i efengyl. Gofyn i'th enaid dy hun yn fynych dros bwy yr wyt yn gweddio, yn gwrandaw, yn diwygio yr arfer hon neu arall. Os gelli gael ateb boddhaol gan dy enaid yn hyn, ti elli obeithio yn dda; os bydd llaw weithio ffydd yn ddiffuant, bydd ei llaw ymladd hefyd yn wrol. Noddedig yw y lle hwnw: "Y rhai trwy ffydd a oresgynasant deyrnasoedd, a wnaethant gyfiawnder, a gawsant addewidion, a gawsant safnau llewod, a ddiffoddasant angerdd y tân;" *Heb. xi. 33;* a hyn, ynghyd â phethau mawrion ereill y bu ffydd yn eu galluogi i'w dioddef, fel y gellwch ddarllen yn *adn. 34, 35, 36.* Craffwch yma, attolwg, fel y mae grym ffydd yn galluogi y Cristion i weithredu cyfiawnder, sef i fyw yn sanctaidd a chyfiawn; a hyn yn cael ei gyfrif yn mysg y diodeffiaidau rhyfedd y bu hi yn eu nerthu i'w goddef. Yn wir, heb iddi wneuthur hyn, ni buasai hi byth yn dioddef y rhai hyn.

DOSE. II.

2. Gweddïa am ysbryd dioddef. Nid rhodd gyffredin yw hon, a phob creffyddwr anianol a phroffeswr ysgafn yn ei meddu. Na, rhodd neillduol ydyw, na chyfrenir mo honi ond i ychydig o eneidiau diffuant: "I chwi y rhoddyd, bod i chwi, er Crist, nid yn unig gredu yndo ef, ond hefyd dioddef erddo ef;" *Phil. i. 29.* Ni bydd i'r holl ddoniau a'r rhoddion cyffredin a fedd dyn byth ei alluogi i yfed yn ddwfn o'r gwpan hon dros Grist. Y cyfryw ydyw balchder calon dyn, gwell ganddo ddiodeff rhyw ffordd na hon: yn hytrach ganddo ei hun, a throsto ei hun, na chan Grist neu dros Grist. Chwi a synech weithiau wrth weled pa gymmaint a wna plentyn ddiodeff wrth chwareu âg ef, ac heb waeddi o'i herwydd; codwm yma, a chnoc acw; ac nis gwna efe fater mawr o hyny, am ei fod yn ei gael mewn ffordd sydd yn ei foddhau. Ond os ei dad a'i chwipia, er na roddo mo hono yn hanner y boen, etto, efe a waedda ac a anfoddoganes y byddo yn rhy anhawdd ei lonyddu,

Fel hyn, gall dynion dynu blinder arnynt eu hunain, a chadw eu cwynion dan eu dan-nedd. Gall un chwareu ei eiddo ymaith ar gardiau a disiau, un arall berteinio ymaith ei iechyd, neu dori ymaith aml flwyddyn o'i oes trwy feddwod anifeilaidd, a dioddefir y cwbl yn dawel. Ië, pe caent eu harian a'u nerth drachefn, hwy a gaent fyned yr un ffordd; nid ydynt yn edifarhau, er y cwbl a gostiodd eu chwantau iddynt, ond yn galaru am na feddant chwaneig i'w gyfranu arnynt. Eu chwantau a gânt y cwbl a feddant hyd y tamaid olaf a feddant yn eu llogell, a'r diferyn olaf o'n gwaed; ië, nid ydynt yn ofni llosgi yn uffern fel merthyrion i'w pechodau. Ond deuwch a gorfynwch i'r rhai hyn (sy mor hael o'u pwrs, cnawd, enaid, a chwbl, yng ngwasanaeth chwant), am roddi eu tiroedd neu eu heinioes dros ychydig mewn perygl yn achos Crist a'i wirioneddau, a chwi a gewch weled na chaiff Duw ddim bod mor rwymedig iddynt. Am hyny, gweddïa, a gweddïa yn daer, am ysbryd dioddefgar yn achos Crist: ië, y mae angen ar y saint eu hunain i ymbil yn daer â Duw am hwn. Och! nid ydynt yn cael eu llaw mor barod at waith dioddef. Y mae y cnawd yn carn ei anwesu, nid ei groeshoelio; y mae yn costio i'r Cristion aml ochenaid cyn y gallo ddysgu hofi y gwaith hwn. Yn awr, gweddï, os un moddion, a fydd yn gyn-northwy i ti yn y mater hwn. Y neb a allo ymdrechu â Duw, nid rhaid iddo ofni gwyneb anghau a pherygl. Y mae gweddï yn gosod nerth a doethineb Duw ar waith er ein cymmorth: a pha beth a fydd yn rhy galed i'r creadur y mae Duw yn gefn ganddo, er help i wneuthur neu ddioddef! Erchir i ni ei gyfrif yn "bob llawenydd, pan syrthiom mewn amryw brofedigaethau;" *Iago* i. 2. Nid deniadau i bechod, ond dioddefiadau o herwydd cyfiawnder, sef blinderau er mwyn Crist a'i efengyl. O! ond gallai y Cristion ddywedyd, Byddai yn achos o lawenydd mwy allu sefyll dan y profedigaethau hyn na syrthio iddynt; llawenydd bychan fyddai cael y brofedigaeth, heb y gras i oddef profedigaeth. Gwir yn ddiâu; ond er dy gysur, Cristion, y mae yr hwn sydd yn dy arwain i'r brofedigaeth hon yn sefyll yn barod i'th helpio drwyddi; am hyny, y mae os, tebygiad grasol, wedi ei osod i fyny: *adn.* 5. "Os bydd ar neb o honoch eisieu doethineb, gofyned gan Dduw, yr hwn sydd yn rhoddi yn haelionus i bawb ac heb dannod; a hi a roddir iddo ef." At ddioddefwyr yn beuaif y cyfeirir hyn; ac nid rhy fawr yw hyn (dy-bygwn) i'n ffydd ei gredu. Nid yn aml y ceir meistrïad mor anfoneiddigaidd ag i edliw a dannod i'w gweision am ofyn eu cynghor yn ostyngedig mewn gwaith o ber-rygl ac anhawsdra, a gymmerant yn llon mewn llaw o gariad at eu personau hwynt

ac ufudd-dod i'w gorchymyn. Pa faint llai sydd i ti o achos ofni y cyfryw driniaeth gan dy Dduw? Os oes genyt gymmaint o ffydd a chariad ag i anturio ar fôr o ddi-oddef wrth ei orchymyn ef, diammeu y dengys efe gymmaint o drugaredd ag i'th gadw rhag boddi: os wyt yn teimlo fy hun yn dechreu suddo, ond i ti, fel Pedr, lesfain yn daer arno, "Arglwydd, cadw fi;" ië, pe byddai dy ben dan ddwfr, gwnai gweddï dy godi i fyny drachefn. Ond os nad wyt yn weddiwr cyn i ti fod yn ddioddefwr, ni byddi ond trinwr gwan ar yr arf hwnw y pryd hyny. Y ddiareb yn wir ydyw:—"Y neb a fynddysgu gweddïo, äed ar y môr:" ond meddlwr yr ydywyf y byddai yn well fel hyn, Y neb a fynddysgu ar y môr (hwn o ddioddef sydd yn fy meddlwr), dysged weddiö cyn myned yno.

DOSB. III.

3. Myfyria lawer ar gyflwr o ddioddef. Hwnw a ddywed ei wers oreu (pan eilw ei feistr ef i hyny) a fyddo yn myned drosti yn fynyachaf ym mlaen llaw wrtho ei hwn. Gwna â'r blinderau a allant dy gyf-arfod, fel y gwna cludwyr (*porters*) â'u beichiau: hwy a'u codant drachefn a thrachefn cyn eu cymmeryd ar yr ysgwydd. Gwna dithau fel hyn, bydd yn mynych godi yn dy fyfyrdod y drygau hyny a allant ddiogydd i ti er mwyn Crist a'i wirionedd; a phrawf y gellit ymdaraw â hwynt, pe gelwid ti i'w dioddef. Gosod dlodi, carchar, alltudiaeth, tân, a sfagodau, o'th flaen ar un llaw, a gwirioneddau gwerthfawr Crist ar y llall, ynghyd â'r add-ewidion hyfryd a wnaed i'r rhai a gadwant air ei amynedd ef yn y fath awr o brofed-igaeth.

Gâd mai hyn yw dy wir gyflwr yn awr, a'th fod at dy ddewisïad pa law a gymmerit; dwys ystyria y gofyniad, nes i ti ei benderfynu yn eglur i'th gydwybod; a gwna hyn yn fynych, fel am y rhesymau a ddefnyddia cig a gwaed, at beri i ti dosturio wrthlyd dy hun, na byddont yn rhai newydd, ac heb eu hateb; ac na byddo y calondid a'r cys-uron cryfion sydd yn y gair, yn bethau dieithr i ti a than ammeuad yn dy feddyliau pan y byddych i anturio dy gyfryd ar eu gwired a'u sierwydd. Ni a gawn ymadr-odd Awstin yn un tra chywir. "Nic hawdd cael hyd i'r cymmorth hwnw mewn adfyd, na buwyd yn ei geisio mewn tawel-fyd." Yr addewidion yw ein hamddiffynf a'u diogelfa yn y fath amser; ac nid hawdd fydd i ni redeg atynt mewn cyfyngder, hel i ni gael cydnabyddiaeth â hwynt mewn tteach amser. Dyn dieitwr a fyddo yn ffo i dŷ am nodded yn y nos dywyll, y mae yr ymddyrysu o ddeutu y drws, ac heb wybo pa fodd i gael y glieciad; gall ei elyn, os y agos, ei ladd, cyn y medr efe agor y drws. Eithr un a fyddo yn byw yn y tŷ, neu y

gydnabyddus â'r lle, nid hir y bydd hwn yn myned i mewn. "Tyred fy mhobl, dos i'th ystafelloedd," medd Duw : *Esa.* xxvi. 20. Y mae efe yn dangos eu lletty iddynt, yn ei briodoliaethau a'i addewidion, cyn y nos, cyn i'w gofidiau ddyfod, fel y caffont eu fiordd iddynt yn rhwydd yn y tywyll-nos.

DOSB. IV.

4. Gwna ymroddiad o honot dy hun beunydd i ewyllys Duw. Yn wir, dylai hyn fod, megys clo y nos, ac agoriad y boreu; dylem gau ac agor ein llygaid gyda'r ymgyflwyniad hwn i law Duw. Hyn, o'i gyflawni beunydd, nid yn ffurfiol yn ol ein tuedd ni, heb ofal arbenig, ym mhô dyledswydd a wneir yn fynych, ond yn ddirifol, a wnai hyfyrd dueddur yr enaid i groesawu unrhyw brawf a allo ddigwydd iddo. Oddi wrth anymddiried yn fyfayr y daw anheurwydd ein calonau ni at ddiodef. Y mae enaid mewn anymddiried yn sangu ar yr addewid, fel dyn ar iâ; pan elo gyntaf arno, y mae yn llawn ofn a therfysg rhag iddo dori. Yn awr, yr ymroddiad beunyddiol hwn o'th galon, megys y cwyri i ti achlysur i gyfeillachu mwy â'r meddyliau am allu Duw, ei fyddlondeb, a'r lleill o'i briodoliaethau; ac o ddiffyg cyfeillach â'r rhai'n y mae drwgdybiau yn cyfodi ynion ni, pan fwrrier ni i ryw soddiad mawr; fel y gwna dy addurno hefyd âg aml brofiad o wiredd ei briodoliaethau a'i addewidion ef hefyd. Y rhai'n, er na raid iddynt wrth ddim tystiolaeth gan deimlad i eni' iddynt gred gyda ni, etto, gan gymmaint o deimlad sydd yn ein hansawdd, a chan mor beintyn-aidd a gwan yw ein ffydd, yr ydym yn cael cynuorthwyl mawr i'n heneidiau, trwy y profiadau a gwisom at bwysio arno ef rhag llaw.

Edrych gan hyny yn ofalus at hyn; bob boreu, gâd dy hun a'th ffydd yn llaw Duw, yn ol yr ymadrodd yn *Salm* x. 14., a'r nos edrych drachefn mor dda yr edrychodd Duw at yr hyn a adawyd dan ei ofal; ac na chwsg nes i dy galo draserchu ar ei ffyddlondeb ef, a chael ei gosod dan archiad cryfach, i ymddiried etto i gadwraeth Duw yn y nos. A phan wneler rhyw rwyg, ac y digwyddo, dybygit, ryw golled i ti, mewn rhyw fwyniant y mae dy Dduw i'th ddi-golledu ynddo, dal sylw ar y modd y llehw efe y bwlech hwnw, ac y gwna efe i' fyny y golled hono. Ac na orphwys nes i ti yn gwbl amddiffyn enw da Duw wrth dy galon dy hun. Bydd sicr na adawech i ddim anfoddogrwydd neu anfoddlondeb orwedd ar dy ysbryd, at driniaethau Duw; ond cerdyda dy galon am hyn, fel Dafydd y. eiddo yntau : *Salm* xlii. A chan ymarfer fel hyn, ti a gedwi gyda bendith Duw dy ffydd mewn anadl at yrfa hwy pan y'th alwer i'w rhedeg.

DOSB. V.

5. Gwna i hunanymwadiad ymddangos mor rhesymol ag y gallech i dy enaid. Po cryfaf y gallo y deall resymu dros iawnder a rhesymoldeb unrhyw waith neu ddyledswydd, mwyaf parod a sirioi y gwneir y peth, os bydd y galon yn onest a chywir. Bwrw Gristion, fod i Dduw alw am dy feddiannau, rhyddid, ie, bywyd a'r cwbl; a all hyn ymddangos i ti yn afresymol? yn enwedig yn

1af. Os ystyri mai ercl i ti roddi ei eiddo ei hun i fyny y mae efe, ac nid yr eiddot ti. Efe a fenthyciodd i ti y rhai hyn, ond ni roddodd efe erioed mo'i hawl y addynt o'i law ei hun. A wyt ti yn gwneud cam a'th gymmydog wrth alw am yr arian a fenthyciaist iddo flwyddyn neu ddwy y . . . ? Nag wyt yn sicr; yr wyt yn meddwl fod iddo ef achos i ddiolch i ti am fenthycia y swm iddo, ond dim achos i achwyn am i ti alw am y swm yn ol.

2il. Ystyria nad yw efe, ie, nas gall efe beri i ti ymwadu â chymmaint drosto ef ag a wnaeth efe drosot ti? A yw dirmyg dros Grist mor annioddefol nas gall dy ysbryd balch mo'i ddwyn? Pa ham? Pwy wyt ti? O ba deulu mawr y deilliaist? Gwel un, a chanddo fwy o anrhydedd i'w osod i lawr nag a elli di, mi obeithiaf, hōni hawl iddo, Iesu Grist, "yr hwn ni thybiodd yn drais fod yn ogyfuwch â Duw; eithr efe a'i dibrisiodd ei hun;" *i hii.* ii. 6, 7. Ai poen ac artaith yr wyt yn eu hofni? O! edrych i fyny ar y groes, lle y bu Tywysog y Bywyd yng nghrog am dy bechodau! Ar hyn, ti a godi dy groes dithau yn fwy boddlawn, ac a ddiolchi i Dduw hefyd am iddo ei gwneud i ti mor esmwyth ac ysgafn, pan y darparodd un mor drom a phoenus i'w anwyl Fab!

3ydd. Ystyria, pa beth bynag y geilw Duw di i ymwadu âg ef er mwyn ei wirionedd, nad ydym yn fwy nas gall efe ei dalu yn ol. Gwelodd Moses hyn; a pharodd hyn iddo neidio allan o'i f i a'i gyfoeth i ddirmyg Crist: "canys edrych yr oedd ar dal-edigaeth y gwobrwy;" *Heb.* xi. 26. Fe ymwâd dyn â llawer er rhywbeth y byddo ei galon yn chwennyachu yn gryf yn y byd hwn. Os bydd dyn yn awyddus am elw, efe a'i nacâ ei hun o hanner cwsg y nos i fyfyrto yn ei wely neu godi yn foreu i fod gyda'i waith; efe a fwyty ymborth gwlad-aidd, a wisg ddillad gwael, ac a . . . dd byw mewn tŷ myglud. Ni a welwn fel yr ymdyra gwyr boneddigaidd yn Llundain, er mwyn cyfleusdra siop, i gongl fechan, er i hyn fod yu niweidiol i'w hiechyd, ac weithiau yn peryglu eu bywyd. Etto, go-baith am elw a wna iawn am y cwbl. Ac yn awr, dod eu helw hwynt yn y glorian gyda'r eiddo ti, Gristion, sef yr ennill sicr a gei wrth ymwadu â thi dy hun dros Grist: a sicr nid yw yr eiddo ynthwy. Yna, gofyn i'th

enaïd, ai nid yw yn gwrido wrth eu gweled hwynt mor rhywydd yn ymwadu â chysur eu bywyd, am fantais ddychlymmygol, ansicr, ac ar y goreu yn fer, tra yr wyf tithau yn dal y fath ddadl â Christ am ychydig o fwyniant allanol; a hwn i gael ei dalu i ti yn ddaud ddyblyg yma, a thu hwnt i ddim a elli di ei ddirnad pan ddeui i ogoniant y nef.

DOSE. VI.

6. Ymgais am ddwyn ym mlaen y gwaith o farwedd beunydd i raddau pellach o hyd. Y sudd yn y pren sydd yn ei wneud yn anhawdd i'w losgi; a llygredd heb ei farweiddio sydd yn gwneud y Cristion yn anhwydyn i ddiodeff. Nid rhywyddach yr ennyia coed sychion nag y gwna calon farweiddedig i chwantau y byd hwn ddiodeff wrth yw galedi dros Grist. Mae'r apostol yn son am rai a "ddirdynwyd, heb dderbyn ymwared; fel y gallent hwy gael adgyfodiad gwell;" *Heb. xi. 35.* Nid oeddynt yn hoffi y byd mor dda, fel y dymunasent droi yn ol i fyw yn hwy ynddo, ar ol teithio mor bell tua'r nef, er fod eu llwybr etto yn galed. Gochel, Gristion, rhag dy fod yn gadael un chwant ddaearol heb ei marweiddio yn dy enaid. Ni wna hwn byth gydsynio âg i ti ddiodeff llawer dros Grist. Ychydig o longau sydd yn suddo ar y cefnfor; y creigiau a'r bas-diroedd sydd yn eu hollti hwynt. Pe gellit tithau ond dyfod oddi ar greigiau balchder ac anghrediniaeth, a gochel curo ar y traethau o ofn dyn, cariad at y byd, a chwantau cyffelyb, ti a vandarewit yn dda ddigon yn yr ysturm fywaf a all dy oddiweddyd ym môr y byd hwn. "Pwy bynag a'i glanhao ei hun oddi wrth y pethau hyn, efe a fydd yn llestr i barch, wedi ei sancteiddio, ac yn gymmhwys i'r Arglwydd, wedi ei ddarparu i bob gweithred dda;" *2 Tim. ii. 21.* O! pe gwyddem y fath nef sydd oddi mewn i enaid a farweiddiwyd! un wedi ei groeshoelio i'r byd a'i chwantau! Y mae gan hwn fantais ar bawb ereill at weithio a diodeff dros Grist, a mwynhau Crist ym mhob gorchwyl.

Y mae enaid a farweiddiwyd yn byw allan o'r holl swm a'r cynnhwrf gan y nwydau anianol hyny a dafiant y cwbl i anrhrefn lle y delont. Pan elo enaid a farweiddiwyd at ryw ddyledswydd, ni chaiff ormesiadau gan feddyliau anweddaidd, amherthynasol, a phechadurus, mo'u cynnwys, i dori rhyngddo a'i Dduw. A yw efe i fyned i garchar? Ni bydd yma chwaith y fath ochain ac achwyn, gan nad oes un chwant i ymhongian wrth ei goesau, a thori ei galon â'i ymresymiaidau ffals, na hunan gariad i gael deisyf arno drugarhau wrtho ei hun. Y mae ei galon ef yn rhydd, wedi cael allan o gydnabyddiaeth y blynwyr hyn ar ei heddwch; ac am garchar iddo ef, ond iddo gael myned yno ar neges mor anrhydeddus ag yw dwyn tystiolaeth i'r gwirionedd, O! mor

groesawedig ydyw ganddo! Eithr calon heb ei marweiddio, y mae hi wedi ei chynio i mewn â chymmaint o gydnabyddiaeth â pherthynasau, fel y gallaf ddywedyd, sy gan y dyn yn y byd, nes yw yn amhossibl di-ange o'u breichiau hwynt i ymfoddloni i ddiodeff. Dyn a ddelo i lettya mewn lle dieithr, gall hwn godi pan y myno, a myned ymaith mor foreu ag y gwelo yn dda; nid oes neb yn crefu arno aros, ond anhawdd yw myned o dŷ cyfyll. Bydd yno rai fel chwegrwn y Lefiaid (*Barn. xix. 4—9*) yn deisyf arno aros am ddiwrnod, hyn am ddiwrnod drachefn, ac un arall ar ol hyn. Yr enaid marweiddiedig yw y dieithr; nid yw efe yn cyfarfod â'r fath aflonyddwch, mewn cymmharfaeth wyf yn ei feddwl, ar ei daith i'r nef; tra y mae yr un sy heb ei farweiddio, â chadwen am dano yn ei gadw rhag myned ar frys i'w daith, yn enwedig tra y byddo gan y cnawd esgus mor lawr a garwed y ffordd neu yr hin, rhyw galedi yn debygol o fod i'w oddef o achos ei broffes.

Mi a ddarllenais am un [o'r gwyr fu ar enw] Cato, ei fod yn ei henaint wedi symmud o Rufain i'w dŷ yn y wlad, fel y gallai dreulio ei hen ddyddiau yn rhydd oddi wrth ofal a blinder. A gwyr Rhufain, wrth farchogaeth heibio i'w dŷ, a arferent ddywedyd, "Dyma yr unig ddyn a wŷr pa fodd i fyw." Nis gwn paddyfais oedd gan Cato i'w ddilwytho ei hun, trwy gilio felly oddi wrth ofalon y byd. Yr wyf yn sicr y gall dyn fyned i'r wlad a bod heb adael y dref o'i ol: gall ei feddwl fod mewn torf tra y mae ei gorph yn unigolrwydd yr anialdir. Och! ddyn truan, yr oedd yn estron i'r efengyl. Pe buasai ond yn gydnabyddus â hon, gallasai ddangos iddo ffordd allan o dorf y byd, yng nghanol Rhufain ei hun; a hono trwy farweiddiad ei galon i'r byd, o ran ei bleserau a'i flinderau hefyd; ac yna gallasai y clod-air hwnw gael ei roi iddo heb ormodiaith. Canys i ddywedyd y gwir, hwnw yn unig a wŷr yn iawn pa fodd i fyw yn y byd, sydd wedi dysgu marw i'r byd. Cymmaint a hyn am y pwng cyntaf, yr hwn oedd, Bod i'r Cristion sefyll yn barod at bob profion a blinderau a allant ddigwydd iddo. Y mae yr ail yn canlyn.

PENNOD XVIII.

Yn dangos prwy yw y dyn y gwisgwyd am ei draed, ac a barolowyd at ddiodeffiaid, sef y nef sydd â heddwch yr efengyl yn ei fynwes; a'r modd y mae yr heddwch hwn yn paratoi at ddiodeff; ynghyd â chymmhwyssiad byr o'r cwbl.

Ath. 2. MAI y sawl sydd yn mwynhau tangnefedd yr efengyl yn ei fynwes yw y dyn, a'r unig ddyn, sydd yn sefyll mewn esgidiau

at bob math o ffyrdd, sef yn barod at bob blinderau a phroffion.

DOSE. I.

1. Nis gall neb wneuthur esgid i droed y creadur fel y byddo iddo gerdded yn esmwyth ar ffordd galed ond Crist. Gall efe ei gwneud er llawn foddlonrwydd i'r creadur. A pha fodd y gwna efe hi? Yn ddiâu, nid mewn modd arall, heb law ei gwadnu yn dda ddigon, neu os mynwech chwi, ei gwrthleinio â thangnefedd yr efengyl. A plieith, er i'r ffordd fod yn llawn o geryg llymion? Os ä yr esgid hon rhwng troed y Cristion a hwynt, nis gallant friwo yn drwm. Solomon a ddywed i ni, Ffyrdd doethineb (sef Crist) sydd ffyrdd hyfrydwech. Ond pa fodd felly, pan y mae rhai o honynt yn ffyrdd dioddef! Y geiriau nesaf a eglurant y peth: "A'i holl lwybrau hi ydynt heddwch;" *Diar. iii. 17.* Lle y mae heddwch, y fath heddwch ag yw heddwch â Duw a chydwybod, nis gall hyfrydwech fod yn eisieu yno. Y mae Dafydd yn myned yn llawen i'w wely pan nad oedd ganddo ddim i'w swper heb law y llonder a roddasai Duw trwy hyn yn ei galon; ac y mae yn addaw iddo ei hun well noswaith o orphwys nag a gaffai neb o'r rhai oll a wledent ar gysuron y byd: "Rhoddaist lawenydd yn fy nghalon, niwy na'r amser yr amlhaodd eu hyd a'u gwin hwynt. Mewn heddwch hefyd y gorweddaf, ac yr hunaf;" *Salm iv. 7, 8.* Y mae yr un heddwch hwn â Duw, o'i fwynhau yn y gydwybod, yn tueddu er lloniad i'r corph. Yn awr, gall Dafydd gysgu yn felus ar wely caled: a'r hyn a ddywed efe yma y gwna, ni a gawn ganddo ei fod wedi gwneud hyn: "Mi a orwedda, ac a gysgais; ac a ddeffroais: canys yr Arglwydd a'm cynnaliodd;" *Salm iii. 5.* Y mae teitl y Salm yn dangos y pryd y cafodd Dafydd y noswaith hon o orphwys—nid pan ar ei wely o fanblu yn ei balas gwyech yn Ierusalem—ond pan ar ffo rhag ei fab annaturiol, Absalom, ac yn gorfod gorwedd, ysgatfydd, ar y maes agored dan gylched-len yr wybr. Yn ddiâu, rhaid oedd bod ganddo obenydd esmwyth, a allai beri iddo anghofio ei berygl, pan oedd ganddo y fath fyddin fradus o'i ol yn hela am dano! Iê, mor dra nerthol ydyw effaith yr heddwch hwn, fel y dichon beri i'r creadur orwedd mor dawel i huno yn y bedd, ag ar y gwely esmwythaf! Chwi a ddywedwch mai plentyn boddllawn yw hwnw sydd yn galw am gael myned i'w wely: y mae rhai o'r saint wedi deisyf ar Dduw eu rhoddi i orphwys yn eu gwelyau llwch; a hynny, nid mewn tymmer ddiig, anfoddog, gan eu blinder presennol, fel y bu ar Iob, ond trwy y prawf melus o'r heddwch hwn yn eu mynwesau: "Yr awr hon y gollyngi ly was mewn tangnefedd, canys fy llygaid a welsant dy iachawdwriaeth," ydoedd cân larchaidd yr hen Simeon: *Luc ii.* Y mae

yn llefaru fel marsiandwr a gawsai ei dda-oedd oll ar fwrdd y llong, ac yn awr yn deisyf ar y meistr am godi yr hwyliau a myned tuag adref. I ba beth yn wir y byddai i Gristion nad yw ond alltud yma, ddymuno aros yn hwy yn y byd, ond i gael i mewn y llawn lwyth hwn, am y nef? A pha bryd y mae yn cael hyn, os nad pan y sicrhäer ef am ei heddwch â Duw? Y mae yr heddwch efengylaidd hwn, a phrawf o gariad Duw yn yr enaid, yn effeithio mor nerthol at gryfhau dyn ym mhob anhawsder, a phrofedigaeth, a blinder, fel mai ei arfer ef, cyn galw ei saint i ryw wasanaeth caled, ydyw rhoddi iddynt lymaid o'r gwin cryfhaol hwn yn nesaf at eu calon i'w lloni a'u cefnogi yn yr ymdrech. Y mae Duw yn galw Abraham allan o'i wlad enedigol: *Gen. xii. 1.* A pha beth mor addas ag addewid o Grist i ddwyn ei galon at droed Duw? *adn. 2, 3.*

Neges athrist a yrodd Iacob i Haran (*Gen. xxvii. 43*): ffoi yr oedd rhag brawd tra digllawn, a'i llddasai ef eisoes yn ei fwriad, at ewythr annhirion, twyllodrus, yr oedd iddo oddef llawer o galedi. Dyna y pryd y daeth Duw mewn gwledigaeth hyfryd efengylaidd i gysuro y pererin truan hwn: Canys wrth "yr ysgol hono, oedd â'i throed ar y ddaear, ac yn cyrhaedd i'r nef;" y dangoswyd Crist i'w ffydd, yn yr hwn y mae nef a daear yn ymgyfarfod, Duw a dyn yn ymheddychu. Ac wrth esgyniad a disgyniad yr angylion ar hyd yr ysgol," y dangoswyd gweinyddiad yr angylion; yr hyn y mae Crist, trwy ei angeu a'i eiriolaeth, yn ei gaffael i'w saint, sef, eu bod yn gweini iddynt, fel gweision i blant eu meistr. Felly y mae swm y cwbl yn gymmaint a phe dywedasai Duw, Iacob, y mae dy frawd Esau yn dy gasau; ond yng Nghrist yr wyf mewn cymmod â thi; dy ewythr Laban yntau a wna gam â thi, ac a'th drin yn galed: ond nac ofna; megys yr wyf fi, trwy Grist, mewn heddwch â thi, felly ti a gei trwyddo ef fy ngofal neillduol i drosot, a gwarchodaeth yr angylion sanctaidd o'th amgylch, i'th amddiffyn pa le bynag yr elych.

Yr Israeliaid hefyd, pan ar gychwyn i'w taith o'r Aipt, i ddiiffaithwech anial, lle y caent am drochiad gan helbul, a phrofi eu ffydd yn ddwys; y mae Duw, i'w parotoi yn fwy at y rhai hyn, yn eu croesawu â swper efengylaidd, cyn eu cychwyn. Y Pasg wyf yn ei feddwl, yr hwn oedd yn cyfeirio at Grist; ac yn ddiammheu, bu i felusder y wledd (a hon beri i rai eneidiau grasol yn eu mysg (a brofodd Grist ynddi) oddef caledfyd a newyn yr anialwech yn fwy siriol. A'r un gofal a chariad a ddangosodd yr Arglwydd Iesu, yn ordeiniad ei swper, gan ddewis y pryd hwnw i osod i fyny yr ordinhâd hyfryd hon, pan oedd

traed ei ddisgyblion yn sefyll ar fin môr o flinderau a gofidiau, a ddygai ei farwolaeth ef, a'i chanlyniadau, yn anocheladwy arnynt. Yn awr, yr oedd yn rhaid i faddeuant o'u pechodau, yn seiliedig i'w heneidiau yn yr ordinhâd hono, fod yn groesawedig ganddynt, ac er nerthiant iddynt, i dreiddio yn fwy cysurus trwy eu helbulon. Yn wir, y gofal mawr a gymmerodd Crist am ei ddisgyblion, wrth adael y byd, nid ydoedd i adael iddynt fyd lloyydd i fyw ynddo, ond i'w harfogi yn erbyn byd blinderus: ac i wneuthur hyn, ni a'i cawn yn ymgais am foddioni eu calonau truaïn, am ei gariad ef atynt, a chariad ei Dad atynt er ei fwynt ef. Y mae yn gadael iddynt dangnefedd, ac yn ei dywallt, yn ei gysuron melus, i'w myn-wesau. Ac i'r diben hwn, y mae yn mynegu iddynt y gwnai efe ar ei fynediad cyntaf i'r nef "weddio ar ei Dad am anfon y Diddanydd atynt," gyda phob brys. Mae yn eu hanfon hwynt i Ierusalem, yno i aros o'r neilldu, ac heb fyned i'r maes, neu ymdrechu ar gyhoedd yn erbyn byd digllawn, hyd oni dderbynient y nerth a'r cynorthwy a ddygai yr ysbryd gydag ef yn ei gysuron. Trwy hyn oll, y mae yn dra amlwg mor rymus ydyw yr heddwch hwn i alluogi enaid at ddiodeff. Yn awr, âf ym mlaen i ddangos y modd y mae yr heddwch hwn yn parotol y galon at bob diodeffiadau. Hyn y mae yn ei wneud y ddwy ffordd yma.

1af. Fel y mae yn dwyn gydag ef, ac yn rhoddi i'r enaid (lle y delo) y fath ragorfreintiau gogoneddus ag sydd yn ei godi uwch law pob perygl a niwed trwy un math o ddiodeffiadau, oddi wrth Dduw, neu ddyn, neu ddiadfiad.

2il. Fel y mae yn effeithio ar rasau a serchiadau y saint, gan eu cyunhyrfu, a pheri iddynt weithredu i radd mor uchel ag a gyfyd y Cristion uwch law ofn tralloed a diodeffaint.

DOSEB. II.

1af. Trwy wneud yr enaid crediniol yn feddiannolo'r fath ragorfreintiau gogoneddus ag sydd yn diogelu rhag unrhyw wir niwed a all y diodeffiadau wneud iddo. Pe gwneid i ddyn fod yn sicr y gallai efe rodio mor ddiogel ar donau y mor, neu yn y fflamau tân, ag y rhodia yn ei ardd, ni byddai arno fwy o ofn y naill nag sydd arno wrth wneud y llall. Neu, pe meddai dyn rhyw luryg tan gudd am dano, a wnai yn dra sicr wrthsefyll pob dymodïau, a lladd grym yr holl ergydion a annelid i'w erbyn, nid peth mor arswydolawn fyddai i hwn sefyll yng nghanol cleddyfau a gynau. Yn awr, yr enaid sydd yn wir mewn heddwch â Duw, y mae hwnw mor freiniedig, a'i fod wedi ei osod uwch law pob niwed a cholled oddi wrth ddiodeffiadau. Dywedir fod "tangnefedd Duw" yn cadw calon a meddwl y credadyn: *Phil.* iv. 7.

Y mae y fath ragorfreintiau dedwyddus yn ei gylchynu, hyd onid yw efe mor ddiogel ag un mewn castell anorchfygol. Y dyn a gaffo heddwch â Duw, y mae ar hyn yn blentyn i Dduw. A phan ddwl y Cristion unwaith i adnabod ei berthynas, ac anwyl serch ei Dad nefol tuag ato, ni wna cystuddiau oddi wrtho ef, neu ddiodeffiadau, mo'i frawychu; am ei fod yn grybod ei fod yn beth anghyttunol â chariad tad niweidio ei blentyn ei hun, na goddef ei niweidio gan neb arall, os gall ei attal.

Mi a synais yn fynych wrth amynedd Isaac, pan gymmerodd ei rwywo i fod yn aberth, ac y gwelodd y gyllell mor agos i'w wddf; a hyn heb lefau dychrynlyd, nac ymryson, a ddarllenwn ni am danynt. Yr oedd yn ddiogen hen i allu dirnad am angu, a'iddychryfeydd, gan ei fod, yn ol barn rhai, uwch law ugain oed: a'i fod o dyfiant da sydd amlwg wrth y coed a barodd Abraham iddo eu dwyn, at yr aberth. Ond y cyfryw oedd yr awdurdod oedd gan Abraham ar ei fab, a'r hyder oedd gan Isaac yn ei dad, fel y beiddiodd roddi ei fywyd yn ei ddwyllaw. Hyn, pe buasai y gyllell mewn rhyw law arall, ni buasai ond prin yn ei wneud. Pwy bynag a fyddo yr offeryn, i beri unrhyw flinder i gredadyn, y mae y wialen neu y cleddyf wrth drefniad Duw. Gwelodd Crist y gwpan yn llaw ei Dad, a gwnaeth hyny iddo ei chymmerd yn ewyllysgar.

Etto, Y mae pob un a fyddo mewn heddwch â Duw yn etifedd i Dduw. Mae hyn yn canlyn y berthynas: "Os plant, etifeddion hefyd, sef etifeddion i Dduw, a chydetifeddion â Christ;" *Rhuf.* viii. 17. Y fath ragorfaint dra rhagorol ydyw hon, nes yw yr enaid, at yr hwn y delo y newydd hyfryd, yn cael ei godi uwch law yr ofnau syn a brawychus rhag unrhyw ddiodeffaint. Wedi i'r apostol, yn y lle a grybwyllwyd, gael melusu ychydig ar ei feddyliau, trwy rai myfyrododau ar y mater tra hyfryd hwn, gwelwyd y modd y codir ei enaid dedwydd i ddiys tyrwch sanctaidd o holl flinderau y bywyd hwn: "Yr ydwyf yn cyfrif, nad yw diodeffiadau yr amser presennol hwn yn haeddu eu cyffelybu i'r gogoniant a ddadguddir ni;" *adn.* 18. Ni oddef efe i'w enaid ei hun, nac i neb sydd yn meddu gobaith o'i etifeddieth hon, isel-brisio ei gogoniant hi neu gariad Duw a'i sefydlodd hi arnynt mor bell ag i son am fawredd eu diodeffiadau, mewn un ffordd o dosturio wrthlyu eu hunain o'u plegid. Fel pe dywedasai A wnaeth Duw ni yn etifeddion, gan roddi i ni hawl i'r nefoedd? Ac a fydd, i ni fod o ysbryd mor wael ag i eistedd i lawr: chwyno i ni ein hunain o achos ein gofidiau presennol, nad ydynt fwy i'w cymharu â'r gogoniant yr ydym yn myned iddo, na y mae y bychanigyn o amser (y cyfyngi ein hoes fer, a'n diodeffiadau oll, o'i fewn

i'w gyffelybu i gyleh diddiwedd y tra-gwyddoldeb hwnw, a gawn ei fwynhau mewn gwynfyd a dedwyddwch annherfynol? Dyn gwan, meddwn, yw hwnw y gwna un neu ddwy golled fechan ei lwy'r andwyo. A Christion gwan yw efe a lefa allan ei fod wedi ei andwyo gan unrhyw groes yn y bywyd hwn. Gallwn benderfynu am y fath un, naill ai nad yw efe yn etifedd i ddim yn y byd arall, neu ei fod heb nemawr neu ddim tystiolaeth am yr hyn a fe'i yno.

Y mae y tangnefedd hwn yn gwisgo ac yn parotol y Cristion at ddiodef, fel y mae yn effeithio ar ei rasau a'i serchiau; yn peri iddynt weithredu i'r fath radd ag sydd yn ei godi uwch law yr ofn o unrhyw ddiodefaint.

(1af.) Y tangnefedd lle ei profer a wna y Cristion yn anorchfygol yn ei ffydd. Nid oes dim yn rhy anhawdd i'r cyfryw un ei gredu [ar sail addewid Duw] gan ei fod yn dwyn maddeuant yn ei gydwybod, a chanddo ei heddwch â Duw yn seiliedig iddo. Yr oedd Moses i gyfarfod â gani anhawsder yn y gwaith mawr hwnw; o arwain Israel o'r Aipht tua Chanaan am hynny, i'w gwneud hwynt oll yn haws i'w ffydd eu gorchfygu, pan ymosodent arno, y mae Duw yn rhoddi iddo ar ei gychwyniad cyntaf at ei orchwyl, brawf o'i gadarn allu mewn rhai gwyrthiau; megys "troi ei wialen yn sarph, a hono drachefn yn wialen; gwneuthur ei law yn wahanglwyfus, ac yna ei hadferyd drachefn, i fod mor iach ag o'r blaen;" fel na feddyliai efe byth fod dim yn rhy anhawdd i Dduw ei wneuthur er iachawdwriaeth ac ymwared iddynt, pan y tybygid fod pethau yn fwyaf anobeithiol. Ac ni a welwn mor anorchfygol ydoedd Moses yn ei ffydd, ar ol y pethau hyn.

Yn wir, pan lefarodd Duw heddwch wrth enaid truan, y mae yn rhoddi y fath dystiolaeth o'i allu a'i gariad hollalluog, fel nad all ffydd y creadur gael ei siglo, cyhyd ag y byddo y teimlad hyfryd o hyn yn parhau yn yr enaid. Pa beth yw gwaith Duw yn ei drugaredd faddenol ond troi sarph y gyfraith, ynghyd â'i bygythion oll, rhag yr hon y ciliodd y pechadur, fel un a'i brathai hyd farwolaeth, i wialen flodeulawn yr efengyl, sy'n dwyn y firwyth peraidd o heddwch a bywyd? A pha un yw y wyrth fwyaf o'r ddau, dybygech chiwi, gwneud llaw wahanglwyfus Moses yn iach a glân, ynte gwneuthur calon wahanglwyfus pechadur truan yn lân a phur, trwy olchiad yng ngwaed Crist? Yn sicr, y wyrth hon o drugaredd, lle y cadarn gredir ddarfod ei gwneuthur, a'i gwna yn hawdd i'r enaid hwnw ymddiried yn Nuw mewn môr o flinderau tymmorol, a'i ddilyu yn llon trwy yr holl anialwch o ofidiau y bywyd hwn. Y pryd y mae gan Dafydd ddirnadaeth gysurol am drugaredd faddenol Duw, yna y mae ei ffydd ar eithraed,

ac yn gallu pwyso yn gadarn arno am ymwared tymmorol. Yn *Salm xxxii*, ni a'i cawn ef dan y teimlad hyfryd o'i heddwch â Duw yn gallu gwrio am gymmodiad Duw âg ef: "Dywedais, Cyffesaf...fy anwireddau i'r Arglwydd; a thi a faddeuaist anwiredd fy mhechod;" *adn.* 5. Yn awr, gwelwch i ba radd uchel y mae ei ffydd yn gweithreduar Dduw o ran blinderau allanol: "Ti ydwy'r loches i mi: cedwi fi rhag ing; amgylchyni fi â chaniadau ymwared;" *adn.* 7. Y mae yn darllen hyn, y peth lleiaf, oddi wrth y llall, sydd yn drugaredd fwyaf tu hwnt i gymmhariaeth.

(2il) Yr heddwch hwn â Duw, lle ei profer, y mae yn llenwi y galon â chariad at Grist. Cariad y Cristion at Grist a gymmer dân oddi wrth gariad Crist ato ef; a pho gwr-socaf y bo cariad Crist yn yr enaid, cryfaf yw y cariad a deif y creadur yn ol drachefn ato ef. "Maddeuwyd ei haml bechodau, o blegdi hi a garodd yn fawr;" *Luc vii.* 47. A pho mwyaf o gariad, lleiaf fydd o ofn ddiodef. Ni a anturiwn ym mhell, er mwyn cyfaiil anwyl. Pan fuzgodd Crist i'w ddisgyblion, "Bu farw Lazarus," mynai Thomas fyned a marw gydag ef o ran cymdeithas: *Ioan xi.* 16. Mor nerthol yw cariad! i, mor gryf ag aneu! "Dros y da," medd yr apostol, "fe feiddia un farw;" sef dros ddyn trugarog, tirion, cariad yr hwn a'i gwnaethai yn un anwyl ganddo. Oni faidd enaid grasol ynte aberthu ei fywyd "dros Dduw da?" "Enaint tywalltedig yw dy enw," medd dyweddi Crist, "am hynny y llangesau a'th garant;" *Can.* i. 3. Dyna y pryd y mae enw Crist yn dywalltedig, pan fyddo cariad Duw drwyddo yn yn dywalltedig ar led yn yr enaid. Ond i'r blwch gwerthfawr hwn gael ei dori, a'i berarogl gael ei daenu yn y galon, y mae yn tynu ymaith sawr anymunol y carchar mwyaf drewllyd yn y byd. Y tân nefol hwn o gariad Crist, yn pelydru yn rymus ar yr enaid, a wna nid yn unig ddiffodd y tân cegin o gariad i'r creadur, ond hefyd y tân uffern, fel y gallaf ei alw, o ofn caeth-wasaidd. Pa beth sydd yn ein gwneud ni mor frawychus wrth feddlw am aneu, yn enwedig os bydd yn dyfod atom mewn gwisg waedlyd, a chanddo rai amgylchiadau o greulondeb erlidgar i roddi gwng mwy yn ei wedd anfoddu? Yn sicr y mae hyn yn dyfod oddi wrth euogrydd a dieithrwrch i Grist, a'r hyn a wnaeth efe drosom; er iddo ddyfod, mewn rhan, ar y neges hon i'r byd, "I waredu y rhai trwy ofn marwolaeth oeddynt dros eu hollfywyd dan gaethiwed;" *Heb. ii.* 15. A pha fodd y gwnaeth efe hyn? ond trwy ein cymmodi ni â Duw, ac felly ein cymmodi â'r meddyliau am aneu ei hun, fel yr unig un a ddichon wneud i ni y gwasanaeth tirion hwn, sef ein dwyn at Grist, yr hwn a wnaeth hyn i gyd drosom.

(3ydd) Y mae gan yr heddwch hwn, a fwynheir ym mynwes y Cristion, effeithiad hyfryd ar ei hunanymwadiad. Y mae hwn yn ras mor rheidiol at ddioddef, nes yw Crist yn gosod y groes, fel y gallaf ddywed- yd, ar ei gefn yn beunodol. "Y neb a fyno ddyfod ar fy ol i, ymwaded âg ef ei hun, a chyfoddef ei groes, a dilynied fi;" *Marc viii. 34.* Gellir cymmhell un arall, fel Simon o Cyrene, i ddwyn croes Crist ar ei ol ychyd- ig ffordd; ond yr enaid hunanymwadol yw yr un a blyg o'i fodd, ac ar ei liniau hefyd, i gael ei faich ar ei ysgwydd o law Crist. Yn awr, y profiad o heddwch enaid â Duw a alluoga y creadur i hunanymwadiad deu- blyg, ac a'i hyfryd duedda ef trwy y ddau, i ddioddef unrhyw beth gan neu dros Grist.

(1) Fe'i galluoga i ymwadu âg ef ei hun yn ei hunan pechadurus. Da y gellir galw pechod—ein hunan—gan mor dŷn y mae yn glynu wrthym, i.e., fel ein haelodau wrth ein cyrph. Y mae mor anhawdd marw- eiddio chwant ag yw tori aelod ymaith. Ac y mae rhai pechodau yn fwy *ein hunan* nag ereill, megys y mae ein bywyd yn fwy rhwym mewn rhai aelodau nag ereill. Wel, byddont yr hyn a fyddant, y mae diwrnod da, yn yr hwn, os gofyn Crist am ben y chwant balchaf o honynt oll, efe a'i caiff gyda llai o ofid feddyl nag y cafodd Herodias ben Ioan Fedyddiwr ar law Herod. A pha ddiwrnod llonych ydyw hwnw yn mha un y gall y Cristion ymwadu mor rwydd â'i bechod, a'i draddodi i law cyfiawnder, ond pan fyddo Crist yn ei wledda â'r manna cuddiedig hwn o faddeuant a heddwch? Cyfaill cywir a'i nacâ ei hun, yn hytrach nag un a gâr yn anwyl, os bydd yn ei allu ganiatau ei ofyniad; ond yn enwedig ni nacâ mo hono, pan fyddo ei gyfaill yn gwneud iddo ef gymmwynas fwy, yn y pryd y mae yn gofyn am un lai. Nid oes y fath offeryn i agor cloiau ag yw cariad. Pan ddol i gardota, a hyn ar y pryd y mae yn ei ddangos ei hun, mewn rhyw amlygiad arbenig o diriondeb at y dyn y mae yn curo wrth ei ddrws, nid oes achos ofni na lwydda efe. Esther a 'ddewisodd y pryd hwnw, i rwymo calon Ahasferus yn erbyn Haman ei gelyn, pan ddangosodd hi ei chariad yn fwyaf at Ahasferus, sef mewn gwledd: A pha bryd y rhydd Duw, neu yn wir y gall efe roddi y fath ddangosiad o'i gariad at enaid tlawd, a phan y byddo yn ei groes- awu yng ngwledd yr efengyl? Yn awr, yn ddiaw, os byth, y gall Duw lwyddo gyda'i bletnyd i anfon yr Amaleciad hwn i'r crogbren, i'ei chwant i'w ddiennyddiad. A dybiwch chwi am Mair Magdalen, pan ddiferodd y newydd dedwydd o enau Crist i'w chalou alarus, fod ei haml bechodau hi wedi eu maddu oll, y gallesid ei pherswad- io i agoryd y ddrws i un o'i hen gariadau, a

myned allan o freichiau cariad Crist i chwareu y butain drachefn? Na, nid ydwyf fi yn ammheu na buasai hi yn dewis fflam merthyrddod o flaen fflam chwant. Yn wir, yr hyn a wna i'r creadur ymwadu â chwant y mae yn ddigon i beri hefyd nad ymwado â chroes.

(2) Bydd i brawf o'r heddwch hwn allu- ogi y Cristion i ymwadu â'i fwyniant anian- ol; a hwn y mae efe yn ei gael yn attalydd mwyaf rhag dioddef. Yn ol poethiad y galon at fwyniant ac elw y byd hwn, yn y cych-ias o gariad, pan fyddant yn helaeth gan y dyn; i.e., yn ol y radd hono y bydd ei iasgryfa o ofn a gofid, pan alwo Crist ef i ymadael â hwynt. Yr hyn a fu gwin mel- us a danteithfwyd Capua i filwyr Hannibal, hyny, ni a gawn weled, a fydd rhyw ang- hymmedroldeb calon at y creadur, i ninnau: fe wanhâ ein hysbrydoedd, ac a'n gwna mor anwraidd, fel na bydd genym ond ych- ydig ewyllys i ddioddef caledi, pan dynir ni i'r maes i wynebu gelyn. Ond y prawf o heddwch hwn yr efengyl a farwâ y gal- on i'r creadur, ac a rwyddhâ y gwaith o hunanymwadiad, mewn golygiad ar y mwyniant gwyfach a fedd y byd. "Na ato Duw (medd Paul), i mi ymfrostio, ond yng nghroes ein Harglwydd Iesu Grist, trwy yr hwn y croeshoeliwyd y byd i mi, a minnau i'r byd;" *Gal. vi. 14.* Y mae calon Paul yn farw i'r byd; a chrawffwch beth a roddodd y clwyf marwol i'w serchiadau anianol ef. "Trwy yr hwn (medd efe) y croeshoeliwyd y byd i mi, a minnau i'r byd," sef trwy Grist a'i groes. Bu amser, yn wir, pan oedd Paul yn caru y byd, gystal a'r rhan fwyaf: ond er pan adnabu efe Grist, a thrugaredd Duw ynddo i'w enaid, yn madd- eu ei bechodau, ac yn ei dderbyn i heddwch a chymdeithas âg ef ei hun, y mae yn hollol o feddwl arall; y mae yn cefnu ar y byd, fel Saul ar ei gais am yr asynod, wrth y newydd am deyrnas; fordd arall y mae ei gynniweirfa bellach. Cymmered y cyb- yddion y ddaear, a'r cwbl a allant wneud o honi gyda'u hwsmonaeth oreu: ni warafuna efe eu gwyunfyd iddynt, gan fod ei Ar- glwydd a'i frenin nefol wedi dyfod mewn heddwch at ei enaid. Nis gall neb ymadael â chysur y creadur mor llon a'r hwn y mae ei enau wrth y ffynnon, sef cariad Duw ei hunan. Rhieni ydynt agos, a chyfeillion yn anwyl; etto, medr gwraig gareid ang- hofio tŷ ei thad, a gadael cymdeithas ei hen gyfeillion, i fyned gyda'i gŵr, i.e., pe byddai i garchar. Pa faint mwy y gwua enaid grasol ganu yn iach i'r rhai'n, i.e., a bywyd hefyd, i fyned at Grist, yn enwedig wedi iddo anfon y Diddanydd i'w fynwes, i'w loni ef yn unigder y ffordd â'i gymdeithas felus.

Y pedwerydd gras dioddefol a ddygir ym mlaen trwy y prawf hyfryd o'r tangucedd

hwn yw amynedd. Nid ydyw cystudd a dioddefaint yn drymion i enaid amyneddgar. Amynedd, fel y dywed un, yw cynneddf dreulgar yr enaid; y gras sydd yn treulio y cwbl, gan eu troi i faeth da oddi mewn. Bwydydd anhawdd eu treulio, nid da y cyttunant â chylla gwan a moethus; ac am hyn y mae y cyfryw rai yn ddiara a danteithiol yn eu hymborth. Eithr y dyn o gylla cryf, ni wrthlyd efe un bywd a osoder o'i flaen; y mae pob ymborth yn gyffelyb iddo ef. Ac fel hyn yn ddiar y mae rhai o dreuliad tra anhawdd i ysbrydoedd dynion. Byth ni wna y profeswr anhynaws, poethlyd, byr ei anadl, iawn dreulio gwaradwyddiadau carchar ac angen ei hun, os bydd i'r fath helynt ddilyn yr efengyl.

"Pan ddelo gorthrymder neu erlid o blegid y gair, yn y fan efe a rwystir;" *Mat. xiii.*
 21. Nid erys hyn yn ei gylla ef; ond y mae yn peri iddo dafu i fyny, i.e. yr hyn yn ungen a allasai efe ei gadw, sef profes o Grist, ond iddo ei chael gyda bywyd llonydd a chroen cyfan. Ond yn awr, yr enaid amyneddgar, efe a wna ei bryd o'r hyn a sydd Duw yn ei ragluniaeth o'i flaen. Os gweinyddir hedd a llwyddiant gyda'r efengyl, y mae yn ddiolchgar, ac yn mwynhau melusder y drugaredd hono tra y parhau. Os Duw a gymmer y rhai'n ymaith, ac yn eu lle, a fyn iddo fwyta gwledd yr efengyl gyda dail surion cystuddiau ac erlidiau, ni wna hyn mo hono yn glaf o'i arlwy. Nid oes iddo ond bwyta yn helaethach o gysuron yr efengyl gyda hwynt; a hwynt i'w llawr yn da iawn wedi eu hamlygu ynddynt.

Yn wir, y mae y Cristion yn rhwymedig i'w cysuron hyny a darddant o heddwech yr efengyl am ei amynedd. Byddai yn amhosibl i bobl Dduw ddioddef yr hyn sydd weithiau yn eu cyfarfod, oddi wrth ddyinion diaffiaid hefyd, fel y maent, pe ni chaent ynnorthwy melus, drwy y prawf o gariad Duw yng Nghrist, sy'n cynhesu eu calonau wynt mewn tangnefedd a llawenydd tu newnol. Y mae yr apostol yn dangos yr chos o holl amynedd, profiad, a gobaiith ynt oll, i.e. a'u gorfoledd yn eu gorthrymerau, yn *Rhuf. v. 5.* "Am fod cariad Duw wedi ei dywallt yn ein calonau ni trwy'r Ysbryd Glân, yr hwn a roddwyd i ni." "Techod sy yn gwneud dioddef yn anoddef-dwy; pan dyner hwn ymaith, dyna y rhan aethaf o'r blinder wedi ei symmud. Fe ä rthwyt heb lwyth yn hawdd trwy y llaid, e y glân certwyn orlwythog. Euogrywydd w llwyth yr enaid, sy'n ei wasgu i'r llaid rth ddioddef. Ond pan dyner hwnw naith, pan lefaro Duw heddwech wrth yr enaid, dyna y dyn oedd o'r blaen yn ymlylltio fel un gwallgofus dan y groes, yn ei wyn heb wingo nag ymgwyno. "Tangnefedd Duw a geidw eich calonau a'ch eddyliu;" *Phil. iv. 7.* Yn awr, pa beth

yw amynedd, ond ceidwadaeth y galon a'r meddwl mewn llonyddwech a thawelwech yn y blinderau oll a ddirgwydd i ni? Ond gair neu ddau er cymmhwysiad.

DOSE. III.

Defn. 1. Yn gyntaf. Y mae hyn er addysg i'n barnau mewn dau fater. Yn gyntaf, beth sydd i ni farnu am eu hamynedd hwynt mewn cystuddiau, y rhai ni feddant hawl yn heddwech yr efengyl. Yn ail, pa beth a feddyliwn am eu heddwech hwynt, sydd heb ddim amynedd oll mewn cystudd.

Iaf. Gellwch gael rhai yn dra distaw a thawel mewn cystudd, etto, yn wir ddieithr i'r heddwech hwn, in anwybodus o Grist, yr Heddychwr, yn byw yn groes i'r ammodau ar ba rai y mae Duw yn cynnyg heddwech yn yr efengyl; etto, yn dra thawel mewn cystudd. Yn sicr, nid ydyw pob peth yn ei le gan y creadur truan hwn; pe byddai ganddo deimlad o'r modd y mae arno, ychydig fyddai ei amynedd wrth weled ei hun tan law Duw, ac heb wybod nad all hon ei adael yn uffern, cyn darfod äg ef. Pan welwyf un yn rhedeg yn droednoeth dros geryg a ffyrdd pigog, ac heb gwyno, nid wyf yn rhyfeddu wrth ei amynedd, ond yn tosturio wrth y creadur truan sydd wedi dideimladu ei draed, a'u gwadnu megys ä rhyw gig gewynog marw, nes colli ei deimlad. Ond cedwch eich tosturi yn llawer mwy i'r bobl sydd ä'u cydwybodau wedi merwino, a'u calonau wedi caledu i farweidd-dra dideimlad, nes ydynt heb deimlo eu trueni, ddim mwy na'r gareg sy'n cael ei llofio gan y maenwr. O'r holl rai sydd allan o uffern, nid oes neb yn fwy i resynu wrtho na'r dyn sy'n hongian uwch ei safn hi, ac etto yn ddiarswyd o'i berygl; tra y mae yr adyn truan fel hyn allan o gyrhaedd pob moddion er ei les. Pa les a wna meddyginiaeth a rodder yn safn dyn marw? Oni ellir ei rwbio i ryw deimlad o'i gyflwr, ofer yw pob meddyg waith. Ac os yw cystuddiau sydd yn physygwriaeth o'r cryfaf, yn gadael y dyn yn ddiideimlad, ychydig sydd o obaith y gweithia dim arall arno.

2il. Pa beth a feddyliwn ni am y rhai a honant hawl yn gryf i'r heddwech hwn etto, nas gallant feddwl, gyda dim amynedd, am ddioddef dan law Duw na thros Dduw? Yn ddiar, cyn belled äg y byddo dyn yn gydnabyddus ä'r heddwech hwn, ac yn meddu y gwir brawf o gariad Duw yng Nghrist yn cynhesu ei galon, nis gall efe ond cael, mewn gradd gyfatebol, ei galon yn barod i ymostwng i unrhyw ddiodeffaint a drefno Duw iddo. Ac am hyny y mae yn gweddu i ni brofi ein heddwech a'n cysur. Onid oes genyt galon i ddiodeff dros Dduw, onda ddewisi bechod, i ochel croes, heddwech gau sy genyt. Os gwan yw dy amynedd dan gystuddiau cyffredin, i lonyddu ä'y ysbryd rhag tuchan, a chynnal dy galon

rhag suddo, gwan yw dy fydd ar yr addewid. "Os llwfrhei mewn cyfyngder, bychan yw dy nerth;" *Diar.* xxiv. 10.

Defn. 2. Yn ail, cynnyrferd hyn di, Gristion, i fod yn dra thynr a gofalus o dy heddwch â Duw, ac â'th gydwytbod dy hun. Cadw yr heddwch hwn yn loyw a chyfan, ac yntau a geidw dy galon heb ymdori pan fyddo yr holl fyd yn ymdori o'th amgylch. Cyhyd ag y byddo yr heddwch hwn tuag at Dduw yn rheoli yn eich calonau, yr ydych yn ddiogel rhag perygl ac ofn, i.e. pe byddech mewn carchar, neu wrth ystange. Ond os goddefi di i hwn gael ei archeoli, yna y daw dy elynion arnat, fel Simeon a Lefi ar wyr Sicheu, pan yw glwyfus; a byddant yn rhy galed i ti. O! gyfeillion, y mae yn beth trwm, chwi a'i ceuwch felly, myned â chydwybod ddolurus i gyflwr dioddefus. Draen yn y troed a wna unrhyw ffordd yn anesmyth i'r teithiwr; ac euogrydd yn y gydwytbod a wna unrhyw gyflwr yn anghysurus i'r Cristion; ond yn fwyaf oll, cyflwr o ddi-oddef. Yn awr, os mynwyd gadw eich heddwch yn gyfan, y mae yn rhaid i chwi edrych yn fwyaf ar ei ol, a gosod megys gosogodd o'i amgylch. Y blodau mwyaf dewisol, rhaid yw edrych yn fwyaf ar eu hol. Po mwyaf gwerth y trysor, diogelaf y cadwn ef. Yr heddwch hwn yw dy drysor di; edrych yn dda pa le y dodech ef. Dwy ffordd, medd ein Hiachawdwr, y gellir colli trysor bydol, y fath ag yw arian ac aur: trwy ladron yn cloddio trwodd, ac yn lladrata, a thwy rŵd yn llygru ac yn difa: *Mat.* vi. 19. Y mae dwy ffordd led gyffelyb yn y rhai y gall Cristion fod yn golledwr yn hwn, ei drysor nesol o heddwch a chysur tumewnol; pechodau ryfygus, dyma y lladron sydd yn cloddio trwodd, ac yn dwyn ymaith gysur y saint. Pan ddolo Cristion i edrych i'w enaid, ar ol y fath weithred hyf, a meddwl ei groesawu ei hun, fel cynt, a chysuron ei gyflwr trwy faddeuant, ei hawl yng Nghrist, a'i obaith trwyddo am y nef; och! y mae yn cael newidiad athrist; nid oes un addewid a ddyry allan ei chysuron iddo. Y mae drws y win-gell wedi ei gloi, a Christ wedi cymmeryd yr agoriad gydag ef. I.e. efe a all sefain gyda chŵyn athrist, fel Mair, pan na chafodd hi gorph Crist yn y bedd: "Hwy a ddygasant fy Arglwydd ymaith; ac nis gwn pa le y dodasant ef." Fel hyn y gall y Cristion, â chalon ofidus alaru am ei fflineb; fy malchder, fy aflendid, fy naearoldeb, hwy a ddygasant ymaith fy nhyrsor, a'm hysbeiliasant o'm cysur: nid ellais byth gael golwg cysuroi ar wynebpryd Daw, er pan y syrthiais i'r pechod brwnt hwnw. Gan hyn, Gristion, gochel y fath ysbeilwyr heddwch a'r rhai hyn.

Gelwir "ysbryd dyn yn ganwyll yr Ar-

glwydd;" *Diar.* xx. 27. A oleuodd Duw dy ganwyll di, Gristion—a lonodd efe dy ysbryd, wyf yn ei feddwl, â phrawf o'i gariad? Gochel bechodau rhyfygus, os caiff y cyfryw leidr ei oddef yn dy ganwyll hon, buan y tawdd dy gysur ymaith. A syrthiaist ti i ddwyllaw y cyfryw bechodau rhyfygus a ddygasant dy heddwch oddi arnat? Anfon ar frys dy waedd a'th gri ar eu holau; yw meddwl yw, gwna dy gŵy galarus wrth Dduw; adnewyddo dy edifeirwch heb oed: a chyfod y nef yn eu herbyn trwy ysbryd gweddi. Nid amser i oedi yw hwn: po bellaf y gadewi i'r pechodau hyn fyned, heb edifeirwch, an hawsaf, ti a brofi, fydd i ti gael yn ol y heddwch a'r llawenydd a golliaist, allan o'r dwyllaw hwynt. Ac er dy galondid, gwybydd fod Duw yn barod, ar dy ddychweliad difrif a dwys, i adferu i ti orfoledd ei iachawdriaeth, ac i wneuthur barn drosot a y rhai hyn, gelynydd dy enaid, a hyn trwy ei farweiddiol ras: ond edrych di am galon yn arnynt â chyfraith, yn ddyfal a grymu heb dyneru atynt, na chymmeryd d wobrwyo â'r mwyniant na'r elw bydol, gynnigiant yn helaeth i ti, am gael arbeu eu bywyd.

Drachefn, megys mai pechodau rhyfryd yw y lladron, sydd â llaw uchel yn ysbeill y Cristion o'i gysur felly y mae diogi esgeulusdra megys y rhŵd a fwyty mewn amser i'w gysur, ac a ddifa ei galon i nerth. Y mae yn amhossibl i'r Cristion a fyddo yn ddiogel a difraw yn ei roddio yn afnynech neu esgeulus yn ei gymund â Duw, fod yn hir-feddu ar lawer o heddwch neu gysur, a fyddo yn wirioneddol. beth i er nad wyt yn tywallt dwfr pechodau rhyfygus i lamp dy orfoledd, i diffodd, y mae yn ddigon, os wyt heb i yn tywallt olew dyledswyddau duwiol borthi a'i gynnal. Yr wyt yn lleiddiad i gysur trwy ei newynu, yn gystal a thau ei drywanu.

EPHESIAID VI. 16.

"Uwch law pob dim, wedi cymmeryd tariaid fydd, a'r hon y gellwch ddiifoddi holl bictanllyd y fall."

Y MAE y pedwerydd darn yn arfogael Cristion yn yr adnod yma yn ymgynnyg hystyriaeth, a hwnw yw, "Tarian y fflyc Gras y grasuanu yw; ac yma yn gymmlu fe'i gosodir yng nghanol y lleilb o'i gyfion. Y mae yn sefyll, dybygwn, yn mysg, fel y galon yng nghanol y corneu, os mynwyd chwi, fel Dafydd pan eniodd Samuel ef yng nghanol ei frodyd

am. xvi. 13. Y mae yr apostol wrth ddydd i lefaru am y gras yma, fel pe byddai ynodi ei ben i fyny, ac yn ei eneinio uwch law ei holl gyfeillion. "Uwch law pob dim, ymmerwch darian y ffydd;" ac y mae y geiriau yn ymrannu yn hawdd i'r ddwy ran yma.

1. Annogaeth: "Uwch law pob dim, ymmerwch darian y ffydd."

2. Rhoswm nerthol i gymmhell yr annogaeth: "A'r hwn y gellwch ddifoddi holl bicellau tanllyd y fall."

PENNOD I.

goriad y geiriau mewn ymfyniad pedwar-ptyg. Yn yr annogaeth, y mae y pedwar peth eidduol hyn yn galw am ein hymofyniad iag at agoriad y geiriau.

1. Pa ryw o ffydd sydd yn cael ei chymhell yma ar y milwr Cristionogol. Yn 2. Wedi cael allan y ffydd, yr ydym i ymfyn pa beth ydyw y ffydd hono o ran ei natur. Yn 3. Pa ham ei cyffelybir i darian, a hytrach na darnau ereill. Yn 4. Beth yn cynnwysiad y geiriau (yn Groeg, *epi asin*) "uwch law pob dim."

DOSB. I.

Cwest. 1. Yn gyntaf, pa ryw o ffydd sydd yma yn cael ei gymmhell; hyn a wybyddir yn fuan os ystyriwn yr achos a'r diben o'i hymhelliad ar y Cristion, sef i'w alluogi "ddifoddi holl bicellau tanllyd y fall," yr wn yw y diafol. Yn awr, edrychweh ar yr mrywiol rywogaethau o ffydd; a hono yn a mysq hwynt raid fod y ffydd yma, yr on a alluogi y creadur i ddiffoddi picellau tanllyd Satan; i.e. ei holl bicellau tanllyd. Ni ddichon ffydd hanesiol wneud hyn; am yny, nid hon yw hi; y mae hon mor bell ddi wrth ddiffoddi picellau Satan, fel y mae y diafol ei hunan, sydd yn eu saethu hwynt, n berchen ar y ffydd yma: "Mae y cythreuliaid yn credu;" *Jago* ii. 19. Ffydd mserol ni ddichon wneud hyn: y mae hon mor bell oddi wrth ddiffoddi picellau tanllyd Satan, fel y mae ei hunan yn cael ei diffoddi anddynt. Y mae yn gwneud ffagl olygus broffes, ac yn parhau dros amser (*Mat.* iii. 21), ond yn fuan yn diflanu. Y mae ffydd wyrthiol yn syrthio mor fyr a'r lleill. Ffydd wyrthiol Iudas, yr hon oedd ganddo el yr apostolion ereill (am ddim ag ydym ni e ddiarllen) yn ei alluogi i fwrw cythreuliaid allan o ereill, a'i gadawodd ef ei hun yn peddiant y cythraul o gybydd-dod, rhagith, a bradwriaeth; i.e. lleng gyfan o chwantu a'i hyrdiodd ef dros y dibyn o anobaith waelodion colledigaeth. Nid oes ond un hyw o ffydd yn ol, yr hon y mae yr apostol ni e golygu yma, a hono yw ffydd gyfiawnhaol. Yn wir, dyma ras a wna y neb a'i affo yn drech na'r diafol. Nid oes gan

Satan gymmaint mantais ar y Cristion, trwy ragoriaeth ei alluoedd naturiol, ag sy ganddo ef ar Satan yn uniondeb ei achos; a'r arf yma y mae yn ei wisgo. Y mae yr apostol yn eofn a hyf yn rhoddi y dydd i'r Cristion cyn darfof yr ymladdfa: "Am orchfygu o honoch yr un drwg" (*1 Ioan* ii. 13); hyny yw, yr ydych mor sier o wneuthur hyn a phe basch yr awr hon wedi esgyn i'ch cerbyd gorfoleddus yn y nefoedd. Ac y mae yr un apostol yn mynegi i ni pa beth sydd yn peri iddo ennill y dydd: *1 Ioan* v. 4; "A hon yw yr oruchafiaeth sydd yn gorchfygu y byd, sef ein ffydd ni."

DOSB. II.

Cwest. Yr ail ymfyniad fydd, Pa beth yw y ffydd gyfiawnhaol yma?

At. I hyn yr atebaf, Yn gyntaf, yn nac-aol; yn ail, yn gadarnhaol.

1. Yn nac-aol, mewn dau beth yn neillduol.

1af. Nid cydsyniad noeth â gwirioneddau yr efengyl yw ffydd gyfiawnhaol. Y mae ffydd gyfiawnhaol yn peri hyn, ond nid hyn sydd yn ei gwneuthur yn ffydd gyfiawnhaol. Y mae ffydd hanesiol, neu mewn pwngce, yn cael ei chynnwys mewn ffydd gyfiawnhaol; ond nid yw ffydd o ran pwngce yn ddigon o dystiolaeth am ffydd gyfiawnhaol. Nis dichon ffydd gyfiawnhaol fod heb yr un mewn pwngce: y mae yn ei chynnwys ynddi fel yr enaid rhesymol mewn dyn, yn cynnwys yr un teimlad. Ond fe ddichon yr un mewn pwngce fod heb yr un gyfiawnhaol, fel y mae yr enaid teimladol mewn anifail heb yr un rhesymol. Fe wyddai Iudas yr Ysgrhythrau; ac yn ddiarnheue cydsyniodd â'u gwirioneddau hwynt pan oedd yn fath bregethwr gwresog o'r efengyl; ond ni fu ganddo erioed y radd leiaf o ffydd gyfiawnhaol yn ei enaid (*Ioan* vi. 64): "Ond y mae o honoch chwi rai nid ydynt yn credu. Canys yr Iesu y wyddai o'r dechreuad pwy oedd y rhai nid oedd yn credu, a phwy oedd yr hwn a'i bradychai ef." i.e. meistr Iudas, y cythraul ei hun, un gwag ddigon o ffydd gyfiawnhaol, y mae yntau yn cydsynio â gwirionedd y gair. Fe ä yn erbyn ei gydwybod os gwada ef. Pan y tementiod Grist, ni ddadleuodd yn erbyn yr Ysgrhythr, ond allan o'r Ysgrhythr, gan ei wneud yn gawell i dynu ei saethau o hono: *Mat.* iv. 6. A thro arall, y mae yn gwneud cyn llawned profes am Grist (o ran ystyr) ag a wnaeth Pedr ei hun; cymharwch *Mat.* viii. 29, â *Mat.* xvi. 17. Nid yw cydsyniad â gwirionedd y gair ond gweithred o eiddo y deall, yr hon a all gwrthodedigion a chythreuliaid ei gweithredu. Ond y mae ffydd gyfiawnhaol yn reddf gymmysgedig, â'i heisteddle yn yr ewyllys a'r deall yughyd; ac am hyny a elwir yn "gredu â'r galon" (*Rhuf.* x. 10); i.e. yn gredu â'r holl galon (*Act.* viii. 37): "Phylip a ddywedodd wrtho, Os wyt ti yn

cymmyrd i mewn y cwbl o alluoedd yr enaid. Mae addasrwydd deublyg yn yr addewid; un yn perthyn i'r deall, i gyunhyrfu hwnw; a'r llall yn perthyn i'r ewyllys, i gyffroi a gweithredu ar hono. Fel y mae yr addewid yn wir, y mae yn galw am gyd-syniad y deall; ac fel y mae yn dda, yn gystal ag yn wir, y mae yn galw am waith yr ewyllys i'w chofeidio a'i derbyn: gan hyny, yr hwn nid oes ganddo ond gwybodaeth ddychymmygol o'r addewid, a chyd-syniad a'r gwirionedd yn ei farn, heb ymwasgu â hi a'i chofeidio, nid yw yn credu yn gadwedigol ac nis gall gael mwy o les oddi wrth yr addewid, nag a gaiff o faeth oddi wrth fydd, yr hwn y mae yn ei weled, ac yn cydnabod ei fod yn iachus, ond heb fwyta dim o hono.

(2il.) Nid sierwydd yw ffydd. Pe baent yr un peth, gallasai yr apostol arbed ei boen, pan ysgrifennodd at y "rhai oedd yn credu yn enw Mab Duw, fel y gwypernt fod iddynt fywyd tragwyddol;" *Ioan* v. 13. Gallasent ddywedyd, Ni a wyddom hyny eisoes: pa beth arall yw ein ffydd, ond crediniaeth fod ein pechod wedi ei faddeu trwy Grist, ac y cawn ein cadw drwyddo? Ond nid felly y mae. Pe sierwydd fyddai ffydd, fe allai dyn gael maddeuant pechod cyn credu: o herwydd y mae yn rhaid i ddynd fod wedi cael maddeuant cyn y gallo wybod ddarfod maddeu iddo. Rhaid goleuo y ganwyll cyn y gallwyf ei gweled yn oleu. Rhaid geni y plentyn cyn y gallwyf fod yn sier ddarfod ei eni. Rhaid i bob peth gael bod cyn gweithredu. Y mae sierwydd yn frwyth ffydd, yn hytrach na ffydd ei hunan. Mae mewn ffydd, fel y mae y blodeuyn yn y gwreiddyn: ffydd mewn amser (ar olllawer o gymmundeib â Duw, cydnabyddiaeth a'r gair, a phrofiad o'i ymdriniaethau a'r enaid) a ddichon flodeuo i sierwydd; ond fel y mae y gwreiddyn â gwir fywyd ynddo cyn i'r blodeuyn ymddangos, ac yn parhau wedi iddo gollu ei ddail prydferth, a llwyr ddiiflanu, felly y mae gwir ffydd gyfiawnhaol â bywyd ynddi, cyn i sierwydd ddyfod, ac ar ol iddo ddiiflanu. Y mae sierwydd fel pe byddai yn hufen ffydd; yn awr, chwi wyddoch bod laeth cyn bod hufen (nid yw hwn yn codi nes ar ol iddo sefyll ennyd), ac y mae laeth yn aros wedi iddo gael ei ddiuhfenu. Och! pa nifer o werthfawr saint Duw fyddai raid eu tori o fod yn gredinwyr, pe na byddai ffydd ond sydd yn cyrhaedd i sierwydd? Nyni a wnaem felly gam â chenhedlaeth plant Duw; o herwydd y mae yn eu plith rai babanod, heb allu arfer y weithred adlewyrchiol o ffydd, fel ag i addef gras Duw ynddynt i fod yn wirionedd, ar y golygiad a gymmerant o'u cyflwr tu mewnol; ac a fydd i ni wadu fod y plentyn yn blentyn hyd oni allo siarad ei hun, a dywedyd ei fod? Mae ereill yn

nheulu Crist, o faintoli uwch a phrofiad mwy yn ffyrdd Duw, etto, wedi colli gafaelion hyny mewn trugaredd faddeuol, rhai (trwy ddaioni Duw) a allasant unwait eu dangos: a ddywedwn ni fod eu ffydd wedi myned ymaith yn ymadawiad eu sierwydd? Pa mor aml fel hyn mewn blwyddyn y dichon credadyn fyned yn anghredadyn? yn ddiâu, cyn fynyched ag y cudd Duw ei wyneb, a gadael y creadur mewn tywyllwch. Y mae sierwydd yn debyg i haul-flodeuyn (*sun-flower*), yr hwn sydd yn agor gyda'r dydd ac yn cau gyda'r nos. Y mae yn canlyn symmudiad gwynebpry Duw: os gwena ef ar yr enaid, y mae y byw; os gwga, neu os ymguddia, y mae y marw. Ond y mae ffydd yn blanhigyn dyf yn y cysgod; yn ras a fedr y ffordd, nefoedd ar noswaith dywyll. Fe all "rod mewn tywyllwch, ac etto ymddirid yn er yr Arglwydd;" *Esa*. l. 10. Mewn gair, rhoddem sierwydd i fod yn hanfod ffydd, a wnaem gam nid yn unig â chenhedlaeth plant Duw, ond â Duw a Thad y plant yn hefyd; o herwydd ar yr un ergyd ni droem dros y drws y rhau fywyf o'r plant sy ganddo ar y ddaear: ie, byddem gwelawn wrth y rhai y mae ef yn fwyaf tyned honynt, ac a dristâem galonau y rhai a fyn ef yn benaf eu diddanu. Yn ddiâu, byddai hyn wir, nid yw rhan fawr o'r arllwefnglyaid a barotowyd yn yr addewid ond o ychydig ddefnydd: ni a ddarllen am addewidion i'r rhai sydd yn galaru, "h a ddiddenir;" i'r briwedig, "hwy a iaeir;" i'r hwn sydd yn rhodio mewn tywyllwch (*Esa*. l), a'r cyffelyb: y mae y rhyun yn perthyn i gredinwyr, nid i'r arall. Yn sier ynte, y mae rhyw gredwyr sydd mewn tywyllwch wedi eu gannofid, eu clwyfo a'u dryllio gan pechodau a'u profedigaethau: ond nid ydynt rhai a feddiannant sierwydd o gar Duw, onid e, eu dwfr fyddai wedi ei cyrru yn win; eu nos yn oleu, eu hocheneidiau griddfanau yn orfoedd a diolch.

2il. Mi gaf ateb yn gadarnhaol, bwy ffydd gyfiawnhaol; ac yn y darlun o honi, mi a'u hystyriaf yn unig fel y rhyun cyfiawnhau. Ac felly cymmerwch yn yr ychydig eiriau hyn: Y mae yn wered o eiddo yr enaid, trwy ba un y mae gorphwysar Grist croeshoeliedig, am faddeuant a bywyd; a hyny ar sail yr addeuant y darluniad sylwch,

(1af.) Ar eisteddle ffydd; nid unrhyw gynneddf unig, ond yr enaid. Mi driu beth ar hyn eisoes.

(2il.) Mae yma wrthddrych ffydd; felly mae yn cyfiawnhau; a hwnw yw C Croeshoeliedig. Y mae holl wirionedd i'n wrthddrych i ffydd gyfiawnhaol; mewn wnelohi a'r holl air i gyd, ac y mae yn cydio yn gadarn âg ef; ond yn ei gweithred

awnhaol, Crist wedi ei groeshoelio yw ei unig wrthddrych. Yn gyntaf, Person Crist yw gwrthddrych ffydd, fel y mae yn yfiawnhau. Yn ail, Crist, fel y mae wedi groeshoelio.

(1.) Person Crist; nid unrhyw ymadrodd eu osodiad pennodol yn y gair: dyma wrthddrych sicrwydd, nid ffydd. Sicrwydd a ddywed, Yr wyf yn credu fod y mechodau wedi eu maddeu trwy Grist: iith ffydd yw, Yr wyf yn credu yng ghrist am faddeuant o honynt. Mae gair uw yn cyfarwyddo ein ffydd at Grist, ac a ei therfynu arno ef; yr hor am hyny a wir yn ddyfodiad at Grist (*Mat. xi. 28*), a dderbyniad o hono (*Ioan i. 12*), ac yn ediniaeth ynddo (*Ioan xvii. 20*). Nid yw addewid ond megys y ddysgl, yn yr hon y mae Crist, gwir ymborth yr enaid, yn cael ei nod ger bron; ac os llaw ffydd fydd ar yr addewid, nid yw hono ond megys un yn unu y ddysgl ato, fel y caffo afael yn ynteithion a fyddo ynddi. Yr addewid yw y fodrwy briodas ar y llaw o ffydd: yn yr, nid ydym yn priodi y fodrwy, ond Crist trwyddi. "Holl addewidion Duw," ydd yr apostol, "ynddo ef ydynt i e, ac ddo ef amen;" 2 *Cor. i. 20*: y mae eu wrthfawgorydd hwynt o hono ef, a'u ffeithioldeb ynddo ef; fy meddwl yw, yn deb yr enaid âg ef. Rhedeg ymaith âg lewid, heb ymwasgu â Christ, ac ymuno ef trwy ffydd, sy fel pe torai un gainge li wrth y pren, a chau arni yn ei gist, a ddisgwyl iddi ffrwytho yno. Cangian meirwon yw addewidion, os gwahenir ynt oddi wrth Grist: ond pan gaffo id, trwy ffydd, ei uno â Christ, y mae yn ranog o'i holl fraser ef; nid oes un lewid nad yw yn dwyn meluser iddo.

(2.) Yn ail, megys mai Crist yw prif ddrych ffydd; felly befyd, Crist wedi groeshoelio. Nid Crist yn ei ragorhau personol; y mae felly yn wrthych i'n cariad yn hytrach na'n ffydd; fel y gwaedodd, a hyny i farwolaeth, a law cyfiawnder dwyfol i wneud cymbl, trwy ordeiniad Duw ei hun, am bechu y byd. Megys y mae llygad llawryn ar law ei meistres am gyfarwyddyd, y mae llygad ffydd ar y dadguddiad at Duw o hono ei hun yn ei air: y ffordd dengys Duw, trwy hwn, i'r enaid, yn o y rhodia hi. Yn awr, y mae ffydd yn yn y gair fod Duw wrth fwriadu achub naduriad truan, wedi sefydlu ar Grist, Crist yn unig, i drin a chwblhau y goryl: a'r hwn y mae Duw yn dewis ymied iddo am y gwaith; a hwnw yn, a ddewis ffydd i osod pwys ei hyder

achefn, y mae ffydd yn craffu ar y d y cyfiawredd Crist y gorchwyl mawr; ac yn ganlynol, ar y modd y mae yr

addewid yn ei ddal ef allan, i gael ei gymmhwyso, er maddeuant ac iachawdwriaeth: Yn awr, y mae ffydd yn cael mai dyna y pryd y gwnaeth Crist y llawn daliad i gyfiawnder Duw am bechod, pan dywalltodd ei waed i farwolaeth ar y groes: yr oedd yr holl gamrau blaenorol o'i ddarostyngiad megys parotau i hyn: Fe'i ganwyd ef i farw; Fe'i danfonwyd i'r byd fel oen wedi ei rwymo i'w aberthu gan arfaeth anghynewidiol. Fe wyddai Crist ei hunan, pan y daeth i'r byd, mai dyma y neges y danfonwyd ef arno (*Heb. x. 5*): "Y mae efe wrth ddyfod i'r byd yn dywedyd, Aberth ac offrwm nis mynaist, eithr corph a gymmhwsaist i mi;" hyny yw, i fod yn aberth er iawn: heb hyn, fe fuasai y cwbl oedd wedi ei wneud yn llafur heb ei orphen. Dim prynedigaeith, ond trwy ei waed ef (*Eph. i. 7*): "Yn yr hwn y mae i ni brynedigaeith trwy ei waed ef, sef maddeuant pechodau." Eglwys chwaith nid oes heb ei waed (*Act. x. 20*): "Eglwys Dduw, yr hon a bwrcasodd efe â'i briod waed." *E latera Christi morientis extitit Ecclesia*. O ystlys Iesu yn marw y cymmerwyd yr Eglwys, fel Efa o ystlys Adda, tra yr oedd yn cysgu. Ni ddarfu i Grist brynu ac achub eneidiau truan, trwy eistedd mewn mawrhydi ar ei orsedd nefol, ond trwy grogi ar y groes waradwyddus, dan law boenydiol cynddaredd dyn, a chyfiawn lid Duw. Ac am hyny, cyfarwyddir yr enaid truan, a fynai faddeuant o'i bechod, i osod ei ffydd, nid yn unig ar Grist, ond ar Grist yn gwaedu (*Rhuf. iii. 25*): "Yr hwn a osododd Duw yn iawn, trwy ffydd yn ei waed ef."

(3.) Gweithrediad ffydd ar y gwrthddrych yma, a hyny yn gorphwys ar Grist croeshoeliedig, am faddeuant a bywyd. Mi a wn fod amryw weithredoedd o eiddo yr enaid o flaen hon, heb y rhai nis gallai y creadur byth iawn-gyflawni hon. Megys gwybodaeth, yn enwedig o Dduw a Christ, ar awdurdod a thystiolaeth yr hwn y mae yn pwysu: "Mi a wn i bwy y credais;" 2 *Tim. i. 12*. Nid oes neb yn ymddiried yn hawdd i ddyd deithr, yr hwn y mae yn gwbl anadnabyddus o hono. Fe aeth Abraham yn wir ni wyddai i ba le; ond nid aeth gyda ni wyddai pwy. Y peth mawr a ymroddodd Duw i'w ddygu i Abraham, a'i foddioni ynddo, oedd y wybodaeth o'i fawredd gogoneddus ei hun, pwy ydoedd; fel y gallai gymmeryd ei air, a phwyso arno, er mor chwth ac annhebygol, i e amhossibl, y gallai seinio yng nghlust teimlad, neu reswm: "Myf yw Duw Hollalluog; rhodia ger fy mron i, a bydd berffaith;" *Gen. xvii.*

1. Yn ail, cydsyniad â gwirionedd gair Duw: Os na osodir y sylfaen yma, ni ddichon yr adeilad o ffydd fyned yn mlaen. Pwy a ymddiried i un nas gall feddwl

ei fod yn dywedyd y gwir? Yn drydydd, Teimlad o'n drwg a'n gwagder ein hunain. Drwy y naill i weled ein haeddiant; ein bod yn haeddu uffern a damnedigaeth: drwy y llall ein hanalluoogydd, pa cyn lleied a allwn roddi (a hyny yw dim yn y byd) tuag at ein cymmоди ein hunain. Yr wyf yn eu cyssvlltu ynghyd, o herwydd fod y naill yn tarddu oddi wrth y llall; y mae y teimlad o'r gwagder yma yn dyfod oddi wrth yr olwg ddwfn sydd gan yr enaid ar y llawnder o ddrwg o'i fewn ef. Eriod ni welsoch ddyn yn llawn o hunan-hyder a hunan-fieiddiad ynghyd. Ni ddichon y gydwylbod fod yn llawn o deimlad o bechod, a'r galon o hunan-dyb, ar yr un anser. "Pan ddaeth y gorchymyn, yr adfywiodd pechod, a minnau a fum farw?" *Rhuf.* vii. 9. Hyny yw, pan ddaeth y gorchymyn yn ei gylhuddiadau at y gydwylbod, pechod (oedd wedi bod fel llew yn cysgu, ac yntau yn hyderus ddiotal wrth ei ochr) a ddechreuodd riu o'i fewn ef; yna fe fu farw: hyny yw, ei wag hyder ynddo ei hun a drengodd. Y mae y ddau beth yma yn augenrheidiol tuag at greu; teimlad o bechod, fel poen rhyw archoll, i beri i'r creadur feddwl am eli i'w iachau; a theimlad o'r gwagder a'r amigonolrwydd sydd ynddo ei hunan, a phob creadur, i'w drin ef yn iawn, i beri iddo fyned allan at Grist i gael iachad. Nid ydym yn myned ar led i grefu am y peth a fyddo genym ni ein hunain gartref. Y mae y rhai hyn (gyda rhai ereill) yn angenrheidiol tuag at greu: ond derbyn Crist a gorphwys ar Grist, yw y weithred hono o ffydd, wrth ba un y mae cyfiawnhad yn rhwym: *Ioan* iii. 18. "Yr hwn sydd yn rhwng ynddo ef ni ddemmir: eithr yr hwn nid yw yn credu a ddamniwyd eisoes, o herwydd na chredodd yn enw unig-anedig Fab Duw." Yn awr, y rhai a gydsyniant â thystiolaeth yr Ysgrythyr am Grist, nid ydynt i gyd yn credu yng Nghrist: nac ydynt; y mae y gredniuaeth yma yng Nghrist yn cynnwys ynddi undeb enaid â Christ, ynghyd âg ymorphwysiad mewn hyder ar Grist. O herwydd hyn ein gorchymyn i ymafilyd yng Nghrist: *Esa.* xxvii. 5 (yr hwn a elwir yno yn nerth Duw, fel mewn lle arall, ei fraich), "fel y gwnelom heddwch â Duw; ac ni a wnawn heddwch âg ef." Nid gweled braich gwr, wedi ei hestyn allan at un mewn dwfr, a'i ceidw ef rhag boddi, ond ymafilyd ynddi hi. Y mae Crist yn graig, a fydd sydd yn adeiladu ar Grist am iachawdriaeth; a pha fodd ond trwy osod ei holl bwys a'i ddisgwyliad am drugaredd arno ef? Yr hyn y mae Paul (2 *Tim.* i. 12), yn ei alw yn "rhoddi ato i gadw erbyn y dydd hwn," yn y rhan olaf o honi.

(4ydd.) Y sail neu y sierwydd, y saif ffydd arno yw weithred yma. A hwn y mae hi

yn gymmeryd o'r addewid: yn wir nid o un ffordd a ellir ei dychymmygu i Ddu fynd mewn dyled i'w creadur ond trw addewid. Y mae ffydd i ddynton fod y ddyledwyr y naill i'r llall, er na byddo y addewid rhyngddynt. Mae y tad yn ddyledwr i'w blentyn, o gariad, darpariaeth, dygiad i fyuu. Y mae y plentyn yn ddyledwr i'w rieni, o anrhydedd ac uffuddod er na byddo yr un o honynt wedi addhyn i'w gilydd. Yn llawer mwy y mae creadur yn ddwfn yn llyfr dyled Duw, yn ddyledwr o'i hunan, a'r cwbl a fedd Dduw ei wneuthurwr; er nad oes ganddo gras i roddi cymmaint a hyn yn ewyllysgeiddo, trwy addewid a chyfammod. Ond mae y Duw mawr y fath Benllywy hollol, fel na ddichon neb wneud cyfra i'w rwymp ef ond ei hunan; nid oes hawl i'r drugaredd leiaf oddi ar ei law, h on i welo yn dda wneud act o ras o'i ewyl dda ei hun, i roddi, neu wneuthur y dai hyn neu arall i'w greaduriaid tlodion. Mae dau beth, gan hyny, i gymmeryd ma ofal yn eu cylch gan yr enaid a fy iawn greu.

(1) Rhaid iddo ymofyn am addewid roddi pwys ei ffydd arni, ac i fod yn iddo ddisgwyl y cyfryw drugaredd oddi law Duw. Ac yna, yn ail, wedi cael addewid a sylwi yn fanwl ar yr ammodau y mae rhedeg arnynt, nac arosed am ddim pell annogaeth; ond rhodod ei ffydd ar waith wirionedd yr addewid noeth.

(2) Rhaid ymofyn am addewid, a sylwi yn fanwl ar yr ammodau y mae yn rhe arnynt. Yn wir nid yw ond megys yr peth i ddyngredu heb addewid, a chru mewn addewid, heb sylwi ar yr aumod ynddi. Mae'r ddau yn rhyfygus, ac llywyddo yn gyffelyb. Y mae gan dywy gymmaint achos i fod yn ddiog wrth swywr na wna yn ol ei awdurdod, ag wrth arall a gymmero swydd heb un awdur. O! leied y mae hyn yn cael ei ystyried lawer; y rhai a wnânt yn hyf â braich Dduw bwyso arniam faddeuant ac iachawdria heb byth ystyried fod yr addewid sydd gosod Crist o'u blaen i bwyso arno iachawdwr, yn ei osod ef hefyd o'u llyfel Arglwydd a Thywysog. Y fath yr Israeliaid gwrthnysig, a feiddiant w Duw a'i addewid yn gyff i'w penelin budron orphwys arno; "Hwy a'u gal eu hunain o'r ddinas sanctaidd, ac a lant ar Dduw Israel;" *Esa.* xlviii. 2. Yr oedd eu hyfder yn fwy na'u croff Fe wrthododd Duw eu hyder, ac a filliodd eu trawsedd. Er na nacâi tywyddyn tlawd a chlwyfedig (wedi gwa gan rediad ei waed, ac yn analluog i iei hunan) gael cynmhorth ei fraich, ostyngedig ddeisyfiad, yn hytrach nag drengu yn yr heol; etto, byddai i

ando wrandaw ar y fath gais gan feddwyn
rwnt wedi ymdroi yn ei chwdfa; pe deis-
fai genad i bwysio arno, o herwydd nas gall
erdded ei hun. Sier wyf, er cymmaint
oesaw at Dduw, sydd i'r enaid drylliedig
awd (sy'n gorwedd yn gwaedu o herwydd
bechod, wrth safn uffern yn ei feddyliau
hun) pan y delo ar annogaeth yr addewid
uwyo ar Grist: etto, y caiff yr adyn halog-
ig, sydd yn ymhyflau i ddyfod at Grist,
hyrddio ymaith gyda dirfawr ddiystyr-
ch a ffeiddiad gan Dduw sanctaidd, am
marfer ei addewid.

(3.) Pan fyddo pechadur tlawd wedi cael
dewid, ac yn craffu ar yr ammodau, gyda
alon ewyllysgar i'w cofleidio; yn awr y
ne iddo ddodi allan weithred o ffydd ar
rionedd yr addewid noeth, heb aros am
im rhagor o annogaeth o un lle arall.
wir bererin yw y gras o ffydd; y mae yn
thio gyda ni hyd y nofoedd; a phan y
velo ni yn ddiogel tu mewn i byrth Tŷ ein
d (y nef wyf yn ei feddwl), y mae yn
rfod ei gwaith â ni. Yn awr, yr addewid
y ffon y pererin, â pha un y mae yn troi
an, er ei fod heb ddim ond hi; fel
Job ar ei daith i Padan-Aram. "Cofia y
i'r wrth dy was (medd Dafydd), yn yr hwn
beraist i mi obeithio;" *Salm* cxix. 49.
i'r yr addewid oedd y cwbl a feddai i
angos; ac y mae yn cyfrif hyny yn
digon i osod ei ffydd ar waith. Ond Och! y
le rhai yn gwneud cysur yn sylfaen ffydd,
ohrofiad yn sail i'w crediniaeth. Hwy a
dant, pan egluro Duw ei hunan iddynt,
y danfono i mewn ryw arwyddion teiml-
adol o'i gariad i'w heneidiau: ond hyd oni
eler hyny, nid ydyw awdurdod yr addew-
nemawr ganddynt i ddistewi eu gwrth-
adleuon anghrediniol, a llonyddu eu cal-
lau drwgdybus i ddisgwyliad wrth Dduw
gyflawniad o'r hyn a ddywedir yno o
Duw ei hunan. Fel yr hen Iacob, yr
un ni chredai ei feibion pan ddywedasant
i'w fod Ioseph etto yn fyw, ac yn llyw-
aethu ar holl wlad yr Aipht. Yr oedd
dewydd yma yn rhy dda a rhyfedd i gael
dimaeth ganddo, yr hwn a'i cyfrifasai yn
y cyhyd; dywedir, "Yna y llesgodd ei
on yntau, o blegid nid oedd yn credu;"
z. xlv. 26. Ond pan welodd y cerbyd-
a ddanfonasai Ioseph i'w ddwyn ef,
dywedir, "Bywiogodd ysbryd Iacob;"
z. 27. Felly yn debyg i hyn, er i'r
dewid ddywedyd wrth y pechadur truan
lodedig, "Mae Crist yn fyw, ac yn
vodraethu ar y nef ei hun, a chanddo
awdurdod yn ei law, yno ac ar y dda-
fel y gallo roddi bywyd tragwyddol i
b a gredant ynddo;" ac er iddo gael ei
og, o herwydd hyny, i orphwys ar Grist
yr addewid; etto, llesgau y mae ei galon
te nid credu; y cerbydau a fynai efe eu
led; rhyw arwyddion teimladol o gariad

Duw y mae yn ymrandaw am danynt; pe
cai ond gwybod ei fod yn ddyn etholedig,
neu yn un o'r rhai y darfu i Dduw eu caru,
yna fe gredai. Ond ychydig achos sydd gan
Dduw i ddiolch iddo yn y cyfamser, am
attal ei ffydd hyd oni ddel y rhai hyn. Y
mae hyn, fel y gallai ei alw, yn greu oddi ar
gysur; a theimlad yw yn hytrach na ffydd.

DOSB. III.

Cwest. 3. Pa ham y cyffelybir ffydd i
darian?

At. O herwydd y tebygoliaeth deublyg sy
rhwng y gras yma, a'r darn hwnw o arfog-
aeth.

(Iaf.) Nid yw y darian er amddiffyniad i
un rhan bennodol o'r corph, fel y mae agos
i bob un o'r darnau ereill. Y mae yr helm
wedi ei haddasu i'r pen, y ddwyfrong i'r
ddwyfron; ac felly ereill, y mae ganddynt
eu hamryw ranau i ba rai y perthynant.
Ond y mae y darian wedi ei bwriadu er
amddiffyniad i'r holl gorph. Hwy arfer-
ent am hyny ei wneuthur yn helaeth iawn;
ac o herwydd ei led, fe'i gelwir yn borth
neu ddôr, am ei fod cyhyd, ac mor helaeth,
fel y gwai y tro i guddio yr holl gorph i
gyd. At hyn y mae y lle hwnw yn cyfeirio
(*Salm* v. 12): "Ti Arglwydd a fendithi y
cyfiawn, â charedigrydd megys â tharian y
coroni (yn ol y Saesneg, cwmpasi) di ef."
Ac os na fydda: y darian yn ddiagon helaeth
i guddio pob rhan ar unwaith; etto, gan ei
fod yn ddarn a ellid ei symmud, fe allai y
mŵlwr medrus ei droi y ffordd hyn neu arall,
i ddal y dyrnod neu y saeth rhag disgyn ar
un rhan lle yr annelid hwynt. Ac y mae
hyn yn gosod allan, yn rhagorol dda, ddefn-
ydd cyffredinol y gras o ffydd i'r Cristion.
Y mae yn amddiffyn yr holl ddynt; pob
rhan i'r Cristion a ddiogelir drwyddi
hi. Weithiau, fe annelir y brofedigaeth at
ei ben ef: myn Satan godi dadleuon yn er-
byn y naill wirionedd a'r llall, i beri i'r
Cristion, os gall, amheu yn eu cylch, yn
unig am na ddichon ei reswm a'i ddeall eu
hamgyffred: ac y mae yn cael gan rai (a
dybiant eu hunain yn ddoethion hefyd) o'r
achos hwn yn unig, ddileu Duwdod Crist,
ynghyd â dirgelion ereill yr efengyl, yn llwyr
allan o'u credo. Yn awr, fydd a gyfynga
rhwng y Cristion a'r saeth yma. Y mae
yn dyfod yn gynorthwy i ddeall gwan y
Cristion mewn iawn bryd; fel Abisai i
helpio Dafydd, pan feddylodd y cawr Isbi-
benob ei ladd ef: *2 Sam. xxi. 17.* Mi a
ymddiriedaf i air Duw, medd y credadyn,
yn hytrach nag i'm rheswm cibddall fy hun.
Abraham, yn ddflegwan o ffydd, nid ystyr-
iodd ei gorph ei hun, yr hwn oedd yr awr
hon wedi marweiddio; *Rhuf. iv. 19.* Pe
cawsai teimlad farnu; neu, pe buasai y gwr
sanctaidd hwnw yn appelo a'r mater o
flaen teimlad a rheswm ynghyd, er pen-
derfynu ei feddyliau ynghylch y genadwri

ryfedd a ddygwyd ato (*Gen. xv. 5*), buasai yn debyg o amhheu ei gwirionedd, er mai Duw ei hun oedd y genad a'i dygodd: ond fydd a wnaeth iddo ymddwyn yn glodfawr yn yr achos.

Drachefn, Ai ar y gydwybod y mae y tentiwr yn ymosod? (ac nid anfynech y mae yn saethu ei bicellau tanllyd o fraw a dychryn at y nod yma) fydd a dderbyn yr ergyd, ac a geidw y creadur rhag cael niwed. "Diffygiaswn (medd Dafydd) pe na chred-aswn;" *Salm xxvii. 13*. Y mae yn meddwl am y gau dystion a gyfodasai i'w erbyn, y rhai a adroddent drawsder; fel yr ymddengys yn *adn. 12*, fydd oedd ei warchglawdd goren yn erbyn cyhuddiad dyn; ac felly y mae yn erbyn yr eiddo Satan a chydwybod. Erioed ni bu dyn mewn cyflwr mwy tosturns nag oedd ceidwad y carchar (*Act. xvi*): braidd yr attaliwyd ef rhag gwneud niwed iddo ei hunan: a phan syrthiodd yn ddychrynedig ger bron Paul a Silas, a'r gofyniad prudd hwnw ganddo, "O feistriaid, beth sydd raid i mi ei wneuthur fel y byddwyf gadwedig?" pwy allasai feddwl y cawsai y clwyf dwfn oedd yn awr yn ei gydwybod ef ei gau i fyny a'i iachau mor fuan, fel y cawn ef yn *adn. 34*. Daew y ddaear-gryn o ddychryn a ysgydwodd ei gydwybod mor ofnadwy wedi myned heibio, a'i grynfa wedi troi yn llawenydd: yn awr, craffwch pa beth a wnaeth y tawelwch dedwydd yma: "Cred yn yr Arglwydd Iesu Grist (medd Paul), a chadwedig fyddi;" *adn. 31*. Ac yn *adn. 34*, dywedir, "Fe fu lawen, gan gredu i Dduw, efe a'i holl deulu. Ffydd sydd yn tawelu yr ystorm a godasai pechod: fydd a drôdd ei gwyn athrist yn orfoledd a diddanwch. Dedwydd ddyn oedd ef, fod ganddo feddygon mor gyfarwydd ger llaw, a allent ddangos iddo y ffordd unionaf i gael iachâd.

Drachefn, a ydyw y brofedigaeth yn cael ei gosod i ddal yr ewyllys? Y mae Duw yn rhoddi rhai gorchymynion nas gellir ufuddhau iddynt, heb lawer o hunanymwadiad, o herwydd eu bod yn ein croesi yn y peth a fo ein hewyllysiau ein hunain yn ei fawr ddymuno; fel ag y byddo raid i ni wadu ein hewyllys ein hunain, cyn y gallom wneuthur ewyllys Duw. Yn awr, y mae profedigaeth yn dyfod mewn nerth mawr, pan fyddo yn rhedeg gyda llaw ein hewyllys. Beth, medd Satan, a wasanaethi di Dduw, sydd fel yma yn dy goesi di ym mhob peth? Os bydd genyt un peth a fydddech yn garu yn fwy na'i gilydd, ebrwydd y myn ef gael hwnw oddi arnat. Nid oes un oen yn yr holl braidd a wna y tro yn aberth, ond Isaac, unig blentyn Abraham; rhaid offrymu hwnw. Nid oes un man a foddlon a Dduw i Abraham ei wasanaethu ynddo, ond lle byddai yn alltud oddi wrth ei geraint a'i gydnabod. A blygi di, medd

Satan, i'r fath ammodau celyd a'r rhai hyn? Yn awr, fydd yw y gras a wna wasanaeth rhyfeddol i'r enaid yn y fath fwlech a hwn. Hi fedr lonyddu y cythrwf a fyddo y fath brofedigaeth wedi godi yn yr enaid, a gollwng ymaith yr holl dorf o feddyliau terfysgld; ie, hi a all gadw heddwch Brenir y nef mor dawel ym mynws y Cristion, fe na chaiff y fath brofedigaeth, os daw, ond ychydig neu ddim dadleuaeth o'i hoch. "Trwy fydd," dywedir ddarfod i Abraham ufuddhau; "ac fe aeth allan heb wybod ba le yr oedd yn myned;" *Heb. xi. 8*. A mor foddlawr yr oedd fydd wedi ei wneud ef i'r siwrnai, fel nad ydym yn darllen ar un edrychiad hiraethlawn a roddodd ei galon ef drach ei chefn ar anwyl wlad ei enedigwch aeth wrth ymadael â hi. Gwaith anhawdd oedd i Moses ymddiosg o'i swydd, a rhodd ei ddwyllaw ar ben ei weinidog fel y cymmerai ei le ef: anhawdd oedd gadael i un arafyned i mewn i'w lafur, a medi yr anrhydedd o sefydlu banerau yr Israeliaid yn Nghanaan, ar ol iddo ef roddi cynnifer cael blinedig i'w dwyn o fewn golwg iddi: etto gwnaeth fydd ef yn ewyllysgar. Fe wneud y caffai am dano, yn y nef, angenaeu gwisgoedd na'r rhai y galwyd ef i'w dios ar y ddaear. Y mae y lle isaf mewn gogoniant yn anfeidrol uwch dyrchafiad na'r uchaf ei anrhydedd yma isod. Anfeidrol well cael sefyll o flaen yr orsedd yno, gweini i Dduw mewn gwasanaeth digyfrwng, nag eistedd ar orsedd ddaearol, chael yr holl fyd i blygu wrth ei draed.

2il. Y mae y darlawn, nid yn unig yn arddiffyn yr holl gorph, ond yn ddiffyniad arfogwch y milwr hefyd. Y mae yn cadw y saeth oddi wrth yr helm yn gystal i pen; oddi wrth y ddwyfron a'r ddwyfron hefyd. Fel hyn y mae fydd, yn arfogwch ar arfogwch; yn ras sydd yn gadwraeth holl rasusau ereill. Ond chwanega am hyn rhag llaw.

DOSB. IV.

Qwest. 4. Beth yw arwyddocâd y geiri *epi pasin* (uwch law pob dim)?

Atteb. Y mae amrywiaeth ymhlith ym onglwyr yn ei gylech. Y mae Jerome ei ddarllen yn mhob peth wedi cymmer tarian y fydd; a hyny yw, ym mhoylledswydd, anturiaeth, profedigaeth, i'w gystudd; pa beth bynag y gelwir chi wneuthur, neu ddiioddef, cymmerwch fydd. Yn wir, y mae fydd i'r Cristion, fel tan toddydd; nis gall wneud dim hebddi fe gweddai i Gristion. "Heb fydd amhosu yw hyngn bodd Duw;" *Heb. xi. 6*. A fodd y gall y Cristion ei foddio ei hun yr hyn nad yw yn boddio ei Dduw? mae ereill yn ei ddarllen, "ar bob peth cymmerwch darian y fydd;" hyny: cymmerwch hi ar eich holl rasusau fel p'au cuddia ac a'u cysgoda hwynt. Y

yr holl rasmusau ereill yn cael eu diogelwch oddi wrth ffydd: y maent yn gorwedd yn ddiogel dan ei chysgod hi, fel byddin dan gysgod a nodded rhyw gastell cadarn, â gynau inawrion ar ei furiau o gwmpas. Ond ni a ganlynwn y cyfieithiad sydd genym, fel y mwyaf cynnwysfawr, a'r un a gymmer y rhai hyn o fewn ei ystyr: "Uwch law pob dim, cymmerwch," &c., hyny yw, ymhlith yr holl ddarnau o arfogaeth ag ydych i'w ceisio a'u gwsgo er eich amddiffyniad, cuffed hwn ragoriaeth eich gofal i'w geisio; ac ar ol ei gael, i'w gadw. Yn awr, bod yr apostol yn meddwl rhoi rhagoriaeth i ffydd uwch law grasusau ereill, a ymddengys yn gyntaf, wrth y darn o arfogaeth y mae yn ei chyffelybu iddo, y darian, yr hwn a brisiwyd gan filwyr bob amser uwch law yr holl ddarnau ereill. Hwy a'i cyfrifent yn wardwydd mwy gollu y darian na cholli y maes; ac am hyny, pan fyddent hyd yn oed dan droed eu gelyn, ni ollyngent hwn; ond edrychent arno yn anrhydedd i farw a'u tarian yn eu llaw. Y siars a roddodd gwraig i'w mab (pan estynodd darian iddo, ar ei gychwyniad i ryfel) ydoedd, "Iddo naill ai dŵyn ei darian adref gydag ef, neu gael ei ddwyn adref ar ei darian." Gwell oedd ganddi ei weled yn farw gyda'r darian, nag yn dyfod adref hebdo. Yn ail, wrth yr effaith ardderchog a gyfrifir yma i ffydd. Y mae y darnau ereill yn unig yn cael eu gorchymyn. Cymmerwch wregys gwirionedd, dwyfroneg cyf-wnder, ac felly y lleill; ond diin, a allant wneuthur yn segl, yn cael ei gyfrif i un o honynt: ond wrth son am ffydd, y mae yn cyfrif iddi hi yr holl fuddugoliaeth. Mae hi yn diffoddi holl biccellau tanlyd y fall. A pha ham fel hyn? A ydyw y grasusau ereill yn ddisdefnydd, a ffydd yn gwneud y cwbl? Pa achos ynte i'r Cristion lwytho ei hun â'nwy na'r darn yma? Yr wyf yn ateb, y mae i bob darn ei wasanaeth angenrheidiol m niwlwriaeth y Cristion: nis gellir hebgor m rhan o'r arfogaeth yn nydd y frwydr; ond gan nad oes un effaith bennodol yn cael i gysylltu â'r rhai hyn, bob un ar ei ben, ond y cwbl yn cael ei gyfrif i ffydd, yr wyf n gostyngedig farnu mai y rheswm am hyny yw, i roddi i ni wybod fod effeithiol-eb yr holl rasmusau yma, a'r lles a gawn oddi wrthynt, yn gorwedd yn eu cysylltiad â ffydd, ac effaith ffyddarnynt. Felly y mae n eglur mai bwriad Ysbryd Duw yw rhoi ffydd y blaenoriaeth yn ein gofal: yn unig wyliwch rhag dychymmygu bod unrhyw diofalwch neu esgeulusdra yn cael ei gan-
tau i chwi yn eich ymgais am y grasusau
reill, o herwydd eich cyffroi a'ch annog yn
ryfach i geisio a chadw hwn. Y mae yr
postol yn amcanu cael eich gofal yma, ond
ei laesu draw. Oni allwn beri i filwr,
wch law pob rhan o'i gorph, ymogelyd
nag elwyf yn y galon, heb iddo yn ebrwydd

dybied nad oes ddim achos iddo edrych at ei ben? Yn sicr fe haeddai hwnw gael coryn ysig i'w ddysgu yn well. Wedi agor y geiriau fel hyn, ni a ymfoddlonwn ar un sylw cyffredinol oddi wrthynt fel y caulyn.

PENNOD II.

Yn dangos rhagoriaeth ffydd uwch law y grasusau ereill mewn pedwar peth neillduol.

Athr. 1. Fod ffydd yn benaf o'r grasau, ac yn benaf i lafurio am dani. Mae blaenoriaeth neu uchafiaeth yn perthyn i hon uwch law y lleill oll. Y mae ymhlith grasau, fel yr haul ymhlith y planedau; neu fel gwraig rinweddol Solomon ymhlith y merched: *Diar.* xxxi. 29. Er i bob gras weithio yn rhinweddol; etto, ti, O ffydd, a ragoraist arnynt oll. Y mae yr apostol yn wir yn rhoddi y blaenoriaeth i gariad, ac yn gosod ffydd ar yr ochr isaf (1 *Cor.* xiii. 13); "Yr awr hon y mae yn aros ffydd, gobaith, cariad, y tri hyn; a'r mwyaf o'r rhai hyn yw cariad:" etto, gellwch ddal sylw fod y gosodiad yma o hono o flaen ffydd, a chanddo olygiad neillduol ar gyflwr gwynfydedig y saint yn y nef, lle y mae cariad yn aros a ffydd yn darfod â'i gwaith. Yn yr ystyriaeth yma, yn wir, cariad ydyw y mwyaf, o herwydd ei fod yn ddiwedd ein ffydd. Yr ydym yn gafael drwy ffydd i gael mwynhau drwy gariad. Ond os ystyriwn gyflwr presennol y Cristion tra yn milwrio ar y ddaear—yn y golygiad yma rhaid i gariad roddi lle i ffydd. Y mae yn wir mai cariad yw y gras a gaiff orfoleddu yn y nefoedd; ond ffydd, nid cariad, yw y gras buddugol yma ar y ddaear; "Hon yw yr oruchafiaeth sydd yn gorchfygu y byd, sef ein ffydd ni;" 1 *Ioan* v. 4. Y mae gan gariad yn wir ei lle yn y frwydr, ac fe wna wasanaeth rhagorol, etto, dan ffydd ei arweinydd; o blegid y mae "ffydd yn gweithio trwy gariad;" *Gal* v. 6. Megys y mae y cadben yn ymladd trwy ei filwyr, y rhai y mae ef yn arwain ym blaen, felly y mae ffydd yn gweithio trwy gariad, yr hwn y mae hi yn gyffroi. Cariad, y mae yn wir, yw y gras a gaiff o'r diwedd feddiannu yr etifeddiaeth; ond ffydd yw yr un sydd yn rhoddi i'r Cristion hawl iddi, heb yr hyn ni chwamser byth ei mwynhau (*Ioan* i. 12): "Cynnifer ag a'i derbyniasant ef, efe a roddes iddynt allu i fod yn feibion i Dduw; sef i'r sawl a gredant yn ei enw ef." Mewn gair, cariad sydd yn uno Duw â'r saint a ogoneddwyd ynghyd yn y nef; ond ffydd a'u hunodd hwy gyntaf â Christ pan oeddynt ar y ddaear: *Eph.* iii. 17; "Ar fod Crist yn trigo trwy ffydd yn eich calonau chwi." A phe na buasai i Grist drigo ynddynt hwy drwy ffydd ar y ddaear, byth ni chwamser hwythau drigo gyda Duw yn y nef.

Ond âf rhagof i egluro y modd yr ymdengys fod i ffydd y fath ragoriaeth ar ras-usau ereill. Cymmerwech hyny fel y canlyn:—

DOSB. I.

1. Wrth yr ymfyniad mawr sy gan Dduw ar ol ffydd uwch law pob gras arall. Nid oes dim yn egluro y bri a fyddom yn roddi ar ryw bersonau neu bethau, yn fwy na'n hymofyniad ar eu holau hwynt. Ni a ofynwn yn gyntaf ac yn fwyaf am yr hyn a fydd yn sefyll uchaf yn ein meddwl. "Ai iach yr hen yr eich tad chwi (meddai Ioseph)? ai byw yw efe etto?" *Gen.* xliii. 27. Mae yn debygol fod ereill y buasai yn dda gan Ioseph glywed am eu llwyddiant hefyd, ond fel yr oedd wedi ymlenwi ac yn ymboeni yn fwyaf o'i serch naturiol at ei dad, y mae yn dilwytho ei hun o hyn yn gyntaf. A phan ofynnodd Dafydd am Absalom yn fwy nag ereill—"Ai diangol y lllange Absalom?" a thrachefn wrth Cusi: 2 *Sam.* xviii: hawdd oedd gweled mor werthfawr oedd ei fywyd ef yn ei olwg. Yn awr, chwi gewch weled mai am ffydd y mae yr ymfyniad mawr sy gan Dduw: "Mab y dyn, pan ddel, a gaiff efe ffydd ar y ddaear?" *Luc* xviii. 8. Mae hyn yn arwyddo mai dyma y gras yn benaf a gais ef, ac a ddymunia ei gael. Ni a ddarllenwn (*Ioan* ix) am wyrthiau mawr a wnaeth Crist—rhoddi ei olwg i ddyn a anesid yn ddall. Darfu i hyn gyffroi y Phariseaid maleisus, fel yr esgymunasant y dyn druan, am ddim bai arall ond rhoddi gair da i'w feddyg tosturiol. Daeth Crist ato yn gynt o'r achos: mor dyner yw ef o'r rhai sydd yn dioddef drosto, fel na chânt fod yn hir heb ei gyfeillach felus; ac nid oes i hwnw ddim achos ewyno am golli cyndeithas dynion ag sydd yn cael presenoldeb Crist wrth hyny. Yn awr, craffwech beth a ddywed Crist wrtho ar ei gyfarfod cyntaf: *adn.* 35; "Clybu yr Iesu ddarfod iddynt ei frwr ef allan: a phan ei cafodd, efe a ddywedodd wrtho, A wyt ti yn credu ym Mab Duw? Yr oedd y dyn eisoes wedi dangos rhywfaint o sel dros Grist, trwy ei amddiffyn, a dyweyd yn dda am dano yng ngwyneb y gelymion chwerwaf a feddai ar y ddaear, am yr hyn yr oedd yn awr yn ddiodyddefw ar eu dwylaw. Yr oedd hyn yn ganmoladwy iawn: ond y mae un peth ag sy'n fwy gwerthfawr gan Grist na hyn i gyd, a hwnw yw ffydd. Ar ol hon y mae yn ymfyn, "A wyt ti yn credu ym Mab Duw?" Fel pe dywedasai, nid yw dy holl sel yn dadleu drosof, a'th amynedd yn dioddef o ddim gwerth yn fy nghyfrif, oddi eithr bod genyt ffydd hefyd. Yn wir, am y rhan fwyaf o ymdriniaethau Duw â'i bobl, beth ydynt ond ymfynion ar ol ffydd, naill ai y gwirionedd o honi, neu ynte ei nerth? Pan gystuddio hwynt, y mae yn ei wneud er profi eu ffydd: 1 *Pedri* i, 7. Cystuddiau

ydynt raw a chab Duw, â pha rai y mae efe yn cloddio i galonau ei bobl i gael gafael yn yr aur yma o ffydd: nid nad yw yn ymfyn am rasusau ereill hefyd, ond hwn sy'n cael ei enwi yn lle y cwbl; yr hwn, pan y ceir ef, daw y lleill hefyd yn fuan i'r golwg. Pan fyddo Duw megys yn oedi, ac fel pe byddai yn cloffi yn ei ragluniaeth wrth ddyfod â'r drugaredd y mae yn ei haddaw, a'ninnau yn gweddio am dani, i'r diben o chwilio am ffydd y mae hyn. "Ha wraig, mawr yw dy ffydd: bydded i ti fel yr wyt yn ewyllsio;" *Mat.* xv. 28. Hi a gawsai ei hatteb â llai o drafferth, ond fod gan Grist drugaredd yng ngladw iddi, heb law oedd hi yn ei ddisgwyl. Gyda chaniatau ei herfyniad am iachâd i'w merch, yr oedd ganddo ef fwriad i roddi iddi eglurdeb o'i ffydd hefyd, ynghyd â'r bri mawr a ddyry Duw ar y gras yma, fel yr un a gaiff ganddo y peth a fyno.

DOSB. II.

2. Wrth y mynych ganmoliaeth a roddir i ffydd uwch law grasusau ereill. Chwi ellwch weled mai o ffydd y cymmerir sylw, ac mai ar ei phen hi y rhoddir y goron, yn hytrach nag un arall, hyd yn oed yn yr un weithred ag yr oedd grasusau ereill yn cael eu harfer yn hynod yn gystal a ffydd. Nid ydym yn darllen ond ychydig iawn am un gras heb law ffydd trwy yr holl unfed ar ddeg o'r Hebraid: trwy ffydd Abraham, trwy ffydd Iacob, a'r lleill o'r gwyr enwog a wnaethant yr holl weithredoedd clodfawr hyny. Yr oedd y grasusau ereill yn cydfyned â ffydd yn y cwbl. Etto, y mae y cwbl yn myned dan yr enw ffydd. Y mae y ffyddin i gyd yn ymladd; etto, i'r cadben y cyfrifir amhydedd y fuddugoliaeth. Enwat Alecsander a Caisar sydd yn cael eu tros-glywyddo i'r cenhedlaethau ar ol, fel y concwerwyr mawr a ennillasant gymnifebrwydr—nid y milwyr cyffredin oedd yn ymladd danynt. Ffydd yw blaenor y grasusau; felly y mae gweithredoedd clodfawr y seintiau hyny yn cael eu cofiau fel gwro orchwyllion ffydd. Dyma fel y mae yn achos y canwriad (*Mat.* viii. 10): "Yn wir (medd Crist), ni chefais gymmaint ffydd, nadd yn yr Israel." Yr oedd grasusau ereill yn hynod yn y canwriad heb law ei ffydd: e ofal cydwbybodol am ei was tlawd, dros y hwn nis gallasai wneud rhagor pe buasai y blentyn iddo. Mae rhai a alwant eu hunai yn Gristionogion na chymmerasant y fat drafferth arnynt er mwyn gwas claf: oeh, mae y cyfryw yn fynych â llai o edrych a eu holau nag anifail eu meist. Ond yn er wedig ei ostyngeddwrwydd; yr oedd hyn yn llewyrchu yn ddisglaer iawn yn yr un adrodd hunanymwadol hwnw, "Arglwyddo nid ydwyf fi deilwng i ddyfod o honot da fy nghronglwyd;" *adn.* 8. Ystyriwch on ei alwad a'i radd ynddi, ac fe fydd ei ostyngeddwrwydd yn amlycach. Cleddyfwr, i

penaeth mewn llu; arfer y fath yma ydyw llesaru yn uchel a chwyddedig. Anfynych y mae gallu yn gyfaill i ostyngeddwrwydd; yn sicr, yr oedd yn ddyngostyngedig hynod, pan allai efe, genau yr hwn ydoedd gennefin â geiriau o awdurdod uwch ben ei filwyr, fychanu ac iselu ei hun felly yn ei gyfarchiad i Grist; etto, y mae ei ffydd yn ddisgleiriach na'i ostyngeddwrwydd yn ei nerth mwyaf. Nid, ni chefais gymmairt gostyngeddwrwydd, ond cymmairt ffydd, yn yr Israel. Fel pe dywedasai Crist, nid oes un credadyn o holl Israel nad adwaen i ef a maintioli ei ffydd hefyd; ond ni chefais gymmairt o'r trysor nefol yma gydag un dyn a chyda'r canwriad hwn. Yn wir, y mae cyfoeth penaf y Cristion yn llaw ffydd: "Oni ddewisodd Duw ddiolion y byd hwn yn gyfoethogion mewn ffydd?" *Iago* ii. 5. Pa ham yn gyfoethog mewn ffydd, yn hytrach nag yn gyfoethog mewn amynedd, yn gyfoethog mewn cariad, neu ryw ras arall? O! y mae rheswm mawr am hyn: pan fo y creadur yn chwennych cael hawl i faddeuant pechod, ffafur Duw, a'r nef ei hun, nid cariad, amynedd, &c., ond ffydd yn unig a all roddi i lawr wrth werthy rhai hyn i gyd. Nid Arglwydd maddeu, achub fi, dyma fy nghariad a'm hamynedd am hyn: ond dyma Grist a gwerth ei waed, yr hyn y mae ffydd yn gyflwyno i ti fel llawn daliad am y cwbl. Ac y mae hyn yn arwain at y tryd- ydd, ac yn wir y penaf o'r cwbl.

DOSB. III.

3. Y swydd uchel y gosodir ffydd ynddi uwch law grasusau ereill yng ngorchwyl ein cyfiawnhâd ger bron Duw. "Wedi ein cyfiawnhau trwy ffydd, y mae genym heddwch tuag at Dduw;" *Rhuf.* v. 1. Nid wedi ein cyfiawnhau trwy gariad, edifeirwch, amynedd, neu un gras heb law ffydd. O mor chwith y swnia yng nghlust y Cristion, amynedd cyfiawnhaol, edifeirwch cyfiawnhaol! a phe bai iddynt ran yn y weithred o gyfiawnhâd, fel y mae i ffydd, fe weddai yr enw iddynt hwy yn gystal ag i ffydd ei hunan. Ond yr ydym yn cael hyn wedi ei briodoli i ffydd; a'r lleill wedi eu cau allan o fod iddynt ddim a wnelont yn y weithred o gyfiawnhâd, er eu bod yn bresennol yn y person a gyfawnheir. Ffydd sydd yn cyfiawnhau heb weithredoedd; ac amcan Paul, yn *Rhuf.* iii, yw profi hyn. Etto, y ffydd yma sydd yn cyfiawnhau, nid yw yn un farw neu segur, ond yn ffydd fywiol weithgar, yr hyn, dybygid, yw amcan Iago yn yr ail bennod o'i epistol. Megys y darfu i Dduw ddidoli Crist oddi wrth bawb ereill i fod yn unig Gyfryngwr rhyngddo a dyn, a'i gyfiawnder ef i fod yn achos haeddiannol o'n cyfiawnhâd, felly, fe ddidolodd ffydd oddi wrth bob gras arall i fod yn offeryn neu yn foddion i ddwyn y cyfiawnder yma i'n meddiant. Duw sydd yn gweithio hwnw ynom; gelwir

y cyfiawnder yma yn "gyfiawnder Duw" (*Rhuf.* x. 3), o herwydd ei weithio gan Grist drosom, ac nad yw yn hanffodol ynom fel y mae y llall. Felly hefyd fe'i gelwir yn gyfiawnder ffydd (*Rhuf.* iv. 11, 13), nid cyfiawnder edifeirwch, cariad, neu un gras arall. Yn awr, pa ham y gelwir ef yn gyfiawnder ffydd, ac nid yn gyfiawnder cariad, edifeirwch, &c. Yn sicr, nid am fod ffydd ei hun yn gyfiawnder i ni: pe felly, fe'n cyfiawnheid trwy weithredoedd, with gael ein cyfiawnhau trwy ffydd. Mae hyn yn groes i'r apostol yn *Rhuf.* iv, lle y dangosir yn eglur na ddichon ffydd a gweithredoedd gydsefyll mewn cyfiawnhâd.

Mewn gair, pe ffydd fyddai ein cyfiawnder, yna fe'n cyfiawnheid trwy gyfiawnder o'n heiddo ein hunain, am fod ffydd yn ras sydd â'i hanfod ynom, ac yn waith o'n heiddo ni yn gymmairt ag un gras arall. Ond nis dichon hyn fod; o blegid y mae yr un apostol yn tystio (*Phil.* iii. 9) fod ein cyfiawnder ein hunain a'r cyfiawnder sydd trwy ffydd yn wrthwyneb i'w gilydd. Gan hyn, rhaid ei fod yn cael ei alw yn gyfiawnder ffydd o'r achos yma yn unig, am mai ffydd yw yr unig ras i ba un y perthyn y swydd o gymmeryd gafael yng Nghrist, ac felly cymmlhwyso ei gyfiawnder at ein heneidiau er cyfiawnhâd. Mae Crist a ffydd yn berthynasau, y rhai ni ddylid eu gwahanu. Crist, efe yw y trysor a ffydd y llaw sydd yn ei dderbyn. Cyfiawnder Crist yw y wisg; ffydd, y llaw sydd yn ei gwisgo. Felly Crist, yr hwn yw y trysor, efe sydd yn talu ein dyled trwy ei waed, ac nid ffydd; swydd yr hon yw yn unig derbyn Crist, trwy yr hyn y mae efe yn dyfod yn eiddom ni. Cyfiawnder Crist, hwn yw y wisg a guddia ein noethni, ac a'n gwna yn hardd yng ngolwg Duw; yn unig y mae ffydd yn cael yr anrhydedd o roddi y wisg yma am yr enaid; ac nid anrhydedd bychan sydd yn cael ei roddi i ffydd uwch law grasusau ereill. Megys y dyrchafodd Duw Moses ymhell goruwch y lleill o'i frodyr (yr Israeliaid), pan y galwyd ef i'r mynydd i dderbyn y gyfraith o enau Duw, tra yr oedd- ynt hwy i sefyll o fewn eu terfynau, a disgwyl wrth droed y bryn hyd nes y dygodd hi i waered atynt, felly y mae Duw yn mawr anrhydeddu ffydd, gan ei galw i fyny, fel y gras trwy law pa un y trosglwydda efe i ni y rhagorfraint ogoneddus yma o gyfiawnhâd.

Cwest. Ond pa ham y mae ffydd yn cael ei rhoddi ar waith mewn cyfiawnhâd, yn hytrach nag un gras arall?

At. Iaf. Am nad oes gan un gras y fath gymmhwysser addas i'r swydd yma a ffydd. Pa ham y pennododd Duw y llygad i weled, ac nid y glust? pa ham y llaw i gymmeryd ein hymborth, ac nid y troed? Y mae yr ateb yn hawdd, o herwydd fod gan y rhai hyn gymmhwysser neillduol i'r swyddau

hyn, ac nid y lleill. Felly y mae gan ffydd gymmhwsyder sydd yn briodol iddi ei hun at y gorchwyl yma. Fe'n cyfiawneir, nid trwy roi dim a'r a wnelom i Dduw, ond trwy dderbyn gan Dduw yr hyn a wnaeth Crist drosom. Yn awr, ffydd yw yr unig ras sydd ynderbyn, ac felly yr unig un addas i'r swydd yma.

2il. Nid oes un gras y gallai Duw ymddiried ei arhwydded iddo yn y gorchwyl yma o gyfiawnhâd, mor ddiberygl ag i ffydd. Y diben mawr sydd gan Dduw wrth gyfiawnhau pechadur tlawd yw mawrhau ei rad drugaredd yng ngolwg ei greadur; y mae hyn wedi ei ysgrifenu mewn llythyrenau mor eglur yn y gair fel y gellir ei ddarllen dan redeg. Yr oedd Duw yn llwyr fwrriadu bod i'w rydd drugaredd gael yr holl ogoniant, ac i'r creadur gael ei dori yn hollol o feddu dim hawl i fod yn gyfranog o hono gydag ef ei hun. Yn awr, nid oes un ffordd yn debyg i hon, sef ein cyfiawnhau trwy ffydd, er sicrhau a diogelu gogoniant rhydd ras Duw. Yn *Rhuf.* iii, wedi i'r apostol, mewn amryw adnodau ynghyd, draethu am rydd gyfiawnhâd pechadur ger bron Duw, y mae hyn yn myned yn mlaen i ddangos fel y mae hyn yn tori crib, fe, gwddf pob meddwl hunan-ddyrchafol: *adn.* 27. "Pa le gan hyn y mae y gorfoledd? Efe a gauwyd allan. Trwy ba ddeddf, ai deddf gweithredoedd? Nag e, eithr trwy ddeddf ffydd." Y mae tywysogion, yn anad un camwedd, yn cyfrif yn fwyaf adgas a ffaidd fod i'w gwely brenhinol gael ei halogi. Hwyl fuont mor eiddigus rhag hyn, fel y bu yn arfer gan y brenhinoedd mwyaf gynt, na fynent ond eunuchiaid i fod yn garedigion penaf iddynt, ac i weini yn agosaf at eu personau eu hunain, a'u brenhinesau: a hyny, fel y byddai i analluogrwydd naturiol y rhai hyny symmud pob drwgdybiaeth am y fath weithred front, neu gynygiad am dani. Yn ddiâu, y mae Duw yn fwy eiddigus rhag i ogoniant ei ras gael ei dreisio gan falchder a hunanymffrost y creadur, nag a fu tywysog erioedd rhag amnharch i'w frenhines. Ac am hyny, i'w ddiogelu rhag y fath gam erchyll, fe ddewisodd ffydd—y gras eunuchaidd yma, fel y gallaf ei alw—i sefyll mor agos ato, ac i'w roddi ar waith ganddo yn y gorchwyl arbenig hwn o gariad; a hyny am fod gwir natur ffydd (yr hwn sydd yn ras hunanwaghaol) yn ei wneuthur yn analluog i fwrriadu dim o'r fath beth yn erbyn gogoniant gras Duw. Y mae gan ffydd ddwy law; âg un y mae yn ymddiosg o hunan-gyfiawnder, ac yn ei daslu ymaith (fel Dafydd arfau Saul); ac â'r llall y mae yn gwisgo cyfiawnder Crist, fel yr unig wisg ymha un y gall auturio i edrych ar Dduw, neu sefyll yn ei wydd. "Y mae hyn yn ei wneuthur yn amhossibl dychymygu (medd y duwiol a'r dysgedig Mr. Ball), pa fodd y dichon ffydd a gweithredoedd gael eu cydgyssylltu, fel cyd-achos-

ion mewn cyfiawnhâd; gan fod un, sef ffydd, yn cyfrif y cwbl i rad ras Duw, a'r llall, sef gweithredoedd, yn hōni rhywbeth iddynt eu hunain. Y nail, sef ffydd, ni fyn ddringo yn uwch nag i fod yn offerynol achos o faddeuant rhad; y llall ni fedr eistedd yn is nag i fod yn ddefnydd o gyfiawnhâd, os yn un achos oll; o herwydd os yw ein gweithredoedd i gael eu cyfrif i ni, yn lle ufuddod perffaith mewn cyfiawnhâd, onid ydynt felly yn llenwi y lle? ac onid ydynt yn cael eu dyrchafu a'r un arhwydded a phe baent weithredoedd cyflawn a pherffaith, er cyfiawnhâd yn ol cyfiawnder?" *Traethawd ar y Cyfammod Gras*, td. 70.

DOSB. IV.

4. Y mae yr effaith gref, fe, gyffredinol sydd gan ffydd ar ei chydrasau yn dangos mai hi ydyw y benaf o honnynt oll. Yn ham y mae yr haul yn greadur mor ogoneddus, ond am ei fod yn ddaioni cyffredinol, ac yn cyfrannu ei oleu a'i effeithiau i'r holl fyd isod? Gras ydyw ffydd, gwasanaeth yr hwn a ddefnyddir gan Dduw er lles i'r byd ysbrydol yn y saint (a elwir yn yr Ysgrhythyr y creadur newydd, *Gal.* vi. 15), gymaint ag y defnyddir yr haul er lles i'r byd allanol. Nid ymgudd dim oddi wrth wres yr haul: *Salm* xix. 6. Ac nid oes un gras nad yw ffydd yn effeithio arno.

1af. Y mae ffydd yn trefnu gwaith i'r holl rasau ereill. Megys y mae y masnachwr cyfoethog yn rhoddi allan ei wlan, peth i hwn, a pheth i'r llall, y rhai sydd i gyd yn nyddu ac yn gweithio ar y moddion a rydd ef allan iddynt; fei pan beidio ef â'i fasnach, y mae yn rhaid iddynt hwythau roddi i fyny hefyd, am na feddant ddim ystyr ond a gânt ganddo ef. Felly y mae ffydd yn rhoddi gwaith allan i bob gras. Os na fasnacha ffydd, ni allant hwythau chwaith. I roddi esampl mewn un gras neu ddau, yn lle y cwbl. Edifeirwch, dyma ras peraid; ond ffydd sydd yn ei osod ar waith. Y mae edifeirwch y Ninifeaid yn cael ei gyfrif i'w ffydd: *Ionah* iii. 5. "A gwyr Ninifeh a gredasant i Dduw, ac a gyhoeddasant ympryd, ac a wisgasant sachliau." Y mae yn ddiogon tebyg, yn wir, nad oedd eu hedifeirwch ond deddfol; etto, yr oedd gystal ag oedd eu ffydd; pe buasai eu ffydd yn well, fe fuasai eu hedifeirwch felly hefyd. Y mae y cwbl yn ddistaw lonydd mewn calon anghrediniol; dim newydd am edifeirwch, na sŵn un gwynfan yn erbyn pechod, hyd oni ddechreu ffydd gynhyrfu. Pan osodo ffydd y bygythiad ger bron, a rhwymo y gwirionedd, a'r dychryn o hono ar y gydwybod, yn y mae gan y creadur rywbeth i weithio arno. Megys y mae goleu yn egluro lliwiau yn gwneud y llygad yn gydnabyddus â'i peth a fyddo o'i flaen; felly y mae ffydd yn egluro, ac fel pe byddai yn cyffroi pechod yn y gydwybod; ac ar hyn y mae yn de

chreu gweithio. Yn awr, dwys feddyliau a godant yn brysur, ac fel cymnylau duon, tewychant fwy-fwy at dymnestl, hyd oni orchuddiant yr enaid âg anferth dywyllech o fraw a dychryn am bechod. Ond yna drachefn y mae y creadur ar sefyll, ac nid all fyned ym mlaen yn y gorchwyl o edifeirwch, hyd oni ddanfono ffydd ragor o foddion o'r addewid, trwy osod o'i flaen y maddeuant sydd ynddi i'r enaid dychwel-edig; a chyn gynted ag y delo hyn i gael ei glywed a'i greu gan yr enaid, dyna y gwaith o edifeirwch yn myned rhagddo yn lhwylus. Yn awr, y mae y cwmwl o fraw a dychryn (a gaslasai ofn digofaint yn y gydwybod, trwy ystyriaeth o'r bygythiad) yn ymollng yn llaw tyner o edifeirwch efengylaidd, wrth y newydd a ddwg ffydd o'r addewid.

Y mae cariad yn ras nefol arall; ond ffydd sydd yn casglu y cynmud at wneud y tân yma. Atteb di Gristion, sydd â'i enaid yn awr yn llosgi gan gariad at Dduw, ai fel hyn yr oedd bob amser? nag e yn sicr, mi feiddiaf ddywedyd drosot, fe fu amser nad oedd un wreichionen o'r tân yma i'w gael ar allor dy galon. Pa fodd ynte y mae fod dy enaid yn caru Duw, yr hwn a fuost yn ei ddirmygu a'i gasau? Yn sicr, ti gefaist glywed rhyw newydd da o'r nefoedd, i newid dy feddyliau am Dduw, a throi ffrwd dy gariad i redeg yn wrthwyneb i'r ffordd y bu. A phwy, heb law ffydd, a ddichon fod y cenhadwr a ddwg ddim newyddion da o'r nefoedd at yr enaid? Ffydd yw yr un sydd yn cyhoeddi yr addewid, yn agor godidog drysorau Crist, yn tywallt allan "enaint ei enw; am hyn, y llangesau a'i carant;" *Caniad. i. 3.* Pan dyno ffydd ddarluniai o Grist allan o'r gair, a'i osod yn ei gariad a'i hawddgarwch o flaen yr enaid, yn awr y mae y creadur yn cael ei hyfyrd ddeno ato yn ei serchiau; yn awr y mae ganddo destyn cyfoethog i ymhelaethu arno yn ei feddyliau; yr hyn a wna Crist yn fwy-fwy anwyl ganddo. "I chwi, y rhai ydych yn credu, y mae yn urddas" (neu yn werthfawr); *1 Pedr ii. 7,* a pho fwyaf o ffydd, mwyaf gwerthfawr. Pe yr eisteddem yn yr un ystafell a'r cyfaill anwylaf a feddem yn yr holl fyd, &n llygaid wedi eu hattal rhag ei weled ef, ni chymmerem ddim mwy o sylw o hono, ac ni roddem ddim mwy o barch iddo na phe byddai yn gwbl estron. Ond pe deuai un atom, a sisial yn ein clust, a dywedyd wrthym, dyma eich câr anwyl hwnw a fu unwaith yn rhoddi ei fywyd i lawr i gadw eich bywyd chwi, ac a'ch gwnaeth yn etifeddion o'r holl etifeddiath deg sydd ganddo; ai ni ddangoswch eich parch iddo? O! fel yr ymgynhyrfai ein calon ynom, ac y torai allan ar frys mewn rhyw ymadrodd gwresog a ddangosai anwyldeb ein serch ato! Iê, fel y cywilyddiem o'n calon am ein hymddygiad anfoesol ac anweddus tuag

ato, er mai ein hanadnabyddiaeth o hono oedd yr achos! Yn wir, felly y mae yma; cyhyd ag y byddo llygad ffydd â niwlen o'i flaen, neu yn swrth, ac megys yn hepiant yn y dymmer bendrwm, feally Cristion eistedd yn agos iawn at Grist mewn ordinhâd, neu ragluniaeth, heb nemawr o gyffroad mewn serch na chariat ato. Ond pan fyddo ffydd yn effro i'w ganfod ef wrth fyned heibio yn ei gariad a'i hawddgarwch, ac yn fywiog i fynegi i'r enaid am y rhinweddau hyfyrd sydd yng Nghrist, ac hefyd am y cariad hyd at waed a ddangosodd ato, nis gall cariad y Cristion, erbyn hyn, lai na neidio a llamu yn ei fynwes, wrth lais ffydd, fel y pleutyn yng nghroth Elizabeth ar gyfarchiad Mair.

2il. Megys y mae ffydd yn gosod y grasau ereill ar waith, trwy ddadguddio y gwrth-ddrychau hyny ag sydd gymmhws i'w cynhyrfu, felly y mae hi yn eu cynnorthwyo oll i weithio, trwy gyrchu nerth oddi wrth Grist i'w hymarfer a'u hail gryflau hwynt. Y mae ffydd nid yn unig yn offeryn i dderbyn cyflawnder Crist er ein cyfiawnhâd, ond hefyd yn offeryn mawr i dderbyn gras oddi wrth Grist er ein sancteiddhâd: "O'i gyflawnder ef y derbyniasom ni oll, a gras am ras;" *Ioan i. 16.* Ond pa fodd yr ydym yn ei dderbyn? Yn ddiau, trwy ffydd. Ffydd sydd yn uno yr enaid â Christ; ac megys mai trwy bibell a osodir wrth enau ffynnon y dygir dwfr i'n tai, i dori angen yr holl deulu, felly trwy ffydd y dygir cynnorthwy helaeth i mewn i'r enaid at wasanaeth neillduol pob un o'r grasau: "Yr hwn sydd yn credu, afonydd o ddwfr bywiol a ddylifant o'i groth ef;" *Ioan vii. 38.* Hyny yw, yr hwn sydd ganddo ffydd, ac yn ofalus i fyw mewn arferiad o honi, a gaiff darddiad a chynnydd o bob grasau ereill, a elwir yma yn "ddwfr bywiol." Oddi yma y mae fod y saint yn gweddio am gynnydd i'w ffydd, pan ddymunent gyrhaedd gradd uchel mewn grasau ereill. Y mae ein Hiachawdwr yn *Luc xvii. 3, 4,* yn rhoddi gwers hawdd iawn i'w apostolion, pan fynai i'w cariad ddyrchafu mor uchel ag i faddeu i frawd a becho seithwaith yn y dydd. Yn awr, craffwch, *adn. 5:* "Yr apostolion (yn canfod anhawsder y ddyledswydd), "a ddywedasant wrth yr Arglwydd, anghwanega ein ffydd ni." Ond pa ham na ddywedasant yn hytrach, anghwanega ein cariad, gan mai hwn oedd y gras yr oeddynt i'w arfer, wrth faddeu i frawd? Yn sicr yr achos oedd, am fod cariad yn cael ei gynnydd oddi wrth ffydd. Os gallent gyrhaedd mwy o ffydd yng Nghrist, hwy a allent fod yn hyderus y caent fwy o gariad at eu brawd hefyd. Po cadarnaf y gallent greu yng Nghrist am faddeuant o'u pechodau eu hunain, a wnaent yn erbyn Duw, nid seithwaith, ond deg seithwaith yn y dydd, hawsaf a fyddai iddynt faddeu i frawd a bechai yn eu herbyn

hwythau seithwaith yn y dydd. Y mae at-
teb ein Harglwydd i'w gweddi yn cadarn-
hau y deongliad yma: "A'r Arglydd a
ddywedodd, pe byddai genych fydd gymaint
a gronyn o had mwstard, chwi a ellych
ddywedyd wrth y sycamorwydden hon, ynd-
dadwreiddia; a hi a uffuddhai i chwi;" *adn.*
6. Lle y mae Crist yn dangos effeithioldeb
fydd gyfiawnhaol, wrth allu fydd wyrthiol.
Fel pe dywedasai, chwi a darawsoch ar yr
iawn ffordd i gael ysbryd maddauger. Ffydd,
yn wir, a'ch galluoga chwi i orchfygu an-
nhrugarogrydd eich calonau. Er iddo fod
wedi gwreiddio cyn ddyfyn ynoch ag yw y
sycamorwydden yma yn y ddaear; etto,
trwy fydd chwi a allech ei dynu i fyny. Pan
chwennychem gael y pren oll yn firwythlawn,
mi feddyliwn fod yn ddigon i ni ddyfrhau
y gwreiddyn; gan wybod fod yr hyn a sugno
y gwreiddyn o'r ddaear yn cael yn fuan ei
yru i fyny i'r canghenau. Yn yr un modd,
y nodd a'r braser y mae fydd, y gras
gwreiddiol, yn ei dynu oddi wrth Grist, a
renir yn fuan rhwng canghenau y grasau
ereill, ac a brofir ym meluser eu firwyth.

3ydd. Y mae fydd yn amddiffyn y Cristion
yn yr ymarferiad o'i holl rasau. "Trwy
fydd yr ydym yn sefyll;" *Rhuf.* xi. 20. Yn
debyg i filwr dan achles ei darian; y mae
yn sefyll ei dir, ac yn gwneuthur ei ddyled-
swydd, er yr holl ergydion yn ei erbyn i'w
ymild ymaith. Pan ballo fydd, yna y mae
pob gras yn cael ei faeddu a'i yru ar ffo.
Symlrydd a diragrithrwydd Abraham, mor
bell yr aeth allan o drefn, pan ledreithodd
wrth Abimelech yn achos ei wraig. A pha
ham, ond o herwydd i'w fydd wanbau?
Amynedd Iob yntau a gafodd glwyf pan
aeth ei law yn ddiffygiol, a'i darian o fydd
i grogi i lawr, yr hwn a ddylasai ei gysgodi
ef. Yn wir, nid oes un gras yn ddiogel, os
na bydd oddi tan aden fydd. Acam hyny,
i sicrhau Pedr rhag i'w ras gwbl ballu, y
mae Crist yn dywedyd wrtho; "Mi a
weddiais drosot, na ddiffygiol dy fydd di;"
Luc xxii. 32. Dyma y fyddin tu cefn a gym-
merodd Crist ofal i'w chadw, i ail drefnu ei
rasau ereill, wedi eu gyru ar ffo gan y gelyn;
ac i'w ddwyn yntau yn fyw o'i ymladdfa,
lle cafodd ei glwyfo a'i archeolli mor dost.
Fe ddywedir "nas gallai Crist wneuthur
nemawr o wyrthiau yn ei wlad ei hun, o
herwydd eu hanghrediniaeth hwyt;" *Marc*
vi. 5, 6. Nis gall Satan chwaith wneud
llawer o niwed i'r Cristion, cyhyd ag y byddo
fydd ar y fan. Y mae yn wir, efe a gais
ymladd â fydd uwch law y cwbl, fel yr un
sydd yn ei gadw rhag dyfod at y lleill; ond
nid yw yn abl i sefyll yn hir o'i blaen hi.
Bydded dyn byth mor ostyngedig, amyn-
eddgar, a defosiynol; och! buan y piga Satan
ryd dwll neu gilydd yn y grasau hyn, ac y
tŷr i mewn arno, pan fyddo yn sefyll yn y
drefn oreu; oddi eithr bod fydd ar y maes

i gysgodi y rhai hyn. Dyma y gras sydd yn
peri iddo droi yn ol, a ffoi ar frys: 1 *Pedr* v. 9.
4ydd. Ffydd yn unig a all gael derbyn-
iad gyda Duw i'r holl rasau ereill a'u gweith-
redoedd. "Trwy fydd yr offrymodd A bel,"
yr aberth rliagorol hwnw, i'r hwn y dyg-
odd Duw y fath dystiolaeth rasol: *Heb.* xi.
4. Y diwrnod y byddo y Cristion wedi bod
yn fwyaf gweithgar, ac wedi nyddu yr edeu
feinaf, wastattaf, o uffudd-dod wrth droell
dyledswydd, y mae arno ofn myned â'i waith
adref yn yr hwyr, gyda disgwyliad am ddim
derbyniad ar ddwyllaw Duw er mwyn ei
waith. Nag e, ond fydd a ddefnyddia efe,
i'w gyflwyno i Dduw trwy Grist am dder-
byniad. Dywedir ein bod "i offrymu aberth-
au ysbrydol, cymeradwy gan Dduw trwy
Iesu Grist;" 1 *Pedr* ii. 5; hyny yw, trwy
fydd yng Nghrist; o herwydd heb fydd
nid yw Crist yn gwneuthur un o'n haberth-
au yn gymmeradwy. Ni chymmer Duw
ddim yn gareidig, ond yr hyn a gyflwyno
llaw fydd; ac mor dyciannus yw fydd gyda
Duw, fel y cymmer ef aur ysgafn, gwasanaeth
drylliog, ar ei llaw hi; yr hwn, oni byddai
hi, a wrthodid gyda ffeiddiad. Yn debyg i
wr llys mewn ffafr gyda'i dywysog, a fedr
yn hawdd gael croesaw yn y llys i'w garen-
ydd tlawd hefyd. Fel hyn y dygodd Ioseph
ei frodyr i wydd Pharaoh; ac arwyddion
mawr o ffafr a ddangoswyd iddynt er ei
fwyn ef. Felly, medrai Esther, ar ei deisyf-
iad, gael dyrchafiad mawr i Mordecai yn
llys Ahasferus; yr hwn, o ran ei gymmeriad
ei hun, nis gallai gael ond eistedd yn y porth.
Fel hyn y mae fydd yn dwyn y gweithred-
oedd a'r dyledswyddau hyny i wydd Duw, y
rhai yn amgen a fyddent yn sicr o gael eu
can allan; a thrwy ddadleu cyfiawnder Crist
y mae yn cael y fath dderbyniad a bri uchel
iddent gyda Duw, fel y cyfrifir hwyt yn
hoyf ganddo (*Diar.* xv. 8), ac megys arogl
peraidd yn ei ffroenan: *Mal.* iii. 4.

5ed. Y mae fydd yn dwyn cynuorthwyon
i mewn, pan fyddo grasau ereill yn diffygio.
Dichon grasau y Cristion ddiffygio, neu
wanbau, ddwy ffordd; sef yn eu bywiog-
rwydd, ac yn eu tystiolaeth, neu yr eglurdeb
o honnynt.

(1af.) Yn eu bywiogrwydd. Mae yn drai
weithiau gyda'r Cristion; ni fedr, y pryd
hyny, weithredu mor rhydd a grymus a
phryd arall, pan fyddo y llaw yn rhedeg yn
uchel, trwy fod dwyfol gymmhorth yn lifo
yn rymus iddo. Y temtasiynau hyny a
fedrai ef, ar un tro, ymysgwyd oddi wrthynt
mor hawdd ag y torodd Samson y rhaffau
newyddion; ar dro arall, hwy a'i dyrysant
ef, fel na fedr eu hysgwyd ymaith. Y dy-
ledswyddau y mae yn gyflawni gyda hyfryd-
wch a llawenydd, pan fyddo ei ras mewn
hwyl iachus; dro arall, y mae yn dyheu ac
yn chwythu danynt, fel gwr claf wrth fyned
i fyny bryn, gan mor drymaidd y mae yn

ymglywed ynddynt. Oni fyddai y Cristion, dybygech chi, mewn cyflwr salw yr awr hon, pe na byddai dim yn dyfod i mewn ond oddi wrth ei ddyledswyddau? Ond yma yn awr y mae rhagoriaeth ffydd; hi gynnorthwya y Cristion yn y cyflwr isel hon. Megys y dygodd Ioseph ei frodryr ato, ac a'u cynnaliodd o'i ystordai holl amser y newyn, felly y mae ffydd yn cynnal y Cristion yn y prinder yma, o ran gras a dyledswydd. Gwna hyn ddwy ffordd.

(1). Trwy ddal gafael yn y cyflawnder hwnw o ras sydd yng Nghrist, fel ei heiddo ei hun. Pa ham y'th ddarostyngir, fy enaid, medd ffydd y Cristion? Y mae digon yng Nghrist; pob cyflawnder yn trigo ynddo; rhyngodd bodd i'r Tad iddo fod felly; a hyny i'th foddhau di yn dy anghenion a'th wendidau. Y mae yn gyflawnder gweinidogaethol; megys y mae y cymnylau yn dwyn gwlaw, nid iddynt eu hunain, ond i'r ddaear, felly y mae Crist yn ei gyflawnder o ras i tithau. "Efe a wnaethpwyd i ni gan Dduw yn ddoethineb, yn gyflawnder, yn sancteiddrwydd, ac yn brynedigaeth;" 1 Cor. i. 30. Pan fyddo bratiaid ei gyflawnder ei hun yn digaloni ac yn cywilyddio y Cristion, y mae gan ffydd fantell i'w gwisgo a guddia yr holl anharddwch yma. Crist yw fy nghyflawnder, medd ffydd; "ac ynddo ef ni a gyflawnwyd;" Col. ii. 10. Y mae gan ffydd ddwy law; un i dderbyn, a'r llall i weithio; ac y mae y llaw dderbyn yn cynnorthwyo y llaw weithio; y pangen, fe gedwid tŷ tlawd yn mynws y Cristion. Ni buasai Paul ei hun ond mewn cyflwr newynllyd, er yr holl gysur a fedrasai ei rasau ei hun ennill iddo: "Ys truan o ddynt" yw yn ei gyfrif ei hun, os dyma y cwbl a fedd i fyw arno: *Rhuf.* vii. 24. Etto, hyd yn oed y pryd hwnw, pan nad yw yn gweled dim yn ei dŷ ei hun, y mae ei ffydd yn estyn allan ei llaw dderbyn at Grist, ac yn y fan y mae yn eistedd wrth wledd fras, am yr hon y ceewch ef yn rhoddi diolch, *adn.* 25: "Yr wyf fi yn diolch i Dduw trwy Iesu Grist ein Harglwydd."

(2). Y mae ffydd yn cynnorthwyo y Cristion yng ngwendid ac anhwyli ei rasau, trwy ddefnyddio yr addewidion am barhâd y saint mewn gras. Er i ddynt claf fod yn bresennol yn wan iawn, y mae yn llawer o gysur iddo glywed ei physygywr yn dywedyd nad oes perygl iddo farw, er mor isel a gwanaidd yw. Y mae gwendid y presennol gras yn ofidus; ond y mae yr ofn o hollol syrthio ymaith yn llawer mwy gofidus. Yn awr, ffydd, a ffydd yn unig, a fedr fod yn genad i ddwyn y newydd da yma at yr enaid; sef y bydd iddo barhau. Y mae teimlad a rheswm yn cael eu dyrysu a'u hurtio yma yn llwyr. Y mae yn ymddangos yn anhossibl iddynt hwy fod i'r fath gorsen ysig ddal i fywyd yn erbyn holl groes-

wyntoedd uffern; o herwydd eu bod yn ys-tyried dim ond nerth gras ei hunan; ac wrth weled gallu a dichell Satan gymmaint yn drech nag ef, cyfrifent yn beth rhesymol roddi y fuddugoliaeth i'r ochr gryfaf. Ond ffydd, er iddi weled arwyddion angyng ngras y saint, etto y mae yn cael bywyd yn yr addewid, ac yn cysuro yr enaid â hyn, na fydd i'r Duw ffyddlawn oddeffw i'w ras weled llygredigaeth. Y mae wedi cymmeryd arno ei hunan fod yn physygywr i'w saint (*Ioan* xv. 2): "Pob cangen ynof fi a ddygo ffrwyth, y mae efe yn ei glanhau fel y dygo fwy o ffrwyth." Pan ddaeth Hazael i ymfyn âg Eliseus ynghylch ei feistr claf, pa un ai byw ai marw a wna, y prophwyd a'i danfonodd â'r ateb yma yn ol at y brenin ei feistr: "Diau y gelli fyw; etto, yr Arglwydd a ddangosodd i mi y bydd efe marw yn ddiau;" 2 *Bren.* viii. 10. Hyny yw, y gallai ef yn ddiau wellhau, er ei afiechyd; etto, y byddai iddo yn ddiau farw trwy law waedlyd fradychus Hazael ei was. Rhowch genad i mi gymmeryd hyn yn gyffelybiaeth; pan fyddo y Cristion yn ymgynghori â'i ffydd, ac yn gofyn, pa un a wna ei ras gwan ai darfod ai dal allan, marw ai byw, ateb ffydd yw, "Diau y gallai dy ras gwan farw a syrthio ymaith, etto yr Arglwydd, a ddangosodd i mi y bydd iddo fyw a pharlau." Hyny yw, o ran ei wendid ei hun, ac anwadalwch natur dyn, fe allai gras y Cristion yn sicr farw, a dyfod i ddim; ond yn yr addewid y mae Duw wedi dangos i ffydd y bydd iddo yn sicr fyw, ac ail gryfhau o'i eiddilwch mwyaf. Yr hyn a ddywedodd Dafydd mewn perthynas i'w dŷ, a all pob Cristion ddywedyd mewn perthynas i'w ras. Er nad yw fy ngras i felly gyda Duw, mor gryf a digyfnwyd ynddo ei hun, "etto cyfammod tragwyddol a wnaeth efe â mi, wedi ei luniaethu yn hollol ac yn sicr; canys fy holl iachawdwriaeth a'm holl ddymuniad yw;" 2 *Sam.* xxiii. 5. Halen y cyfammod yma (medd ffydd) yw yr hyn a geidw dy ras gwan rhag llygredigaeth. "Pa ham y'th ddarostyngir, fy enaid? (meddai y Salmydd) ymddiried yn Nuw; canys etto molianaf ef, sef iachawdwriaeth (neu iechyd) fy wyneb a'm Duw;" *Salms* xlii. 11. Yr oedd iechyd wyneb Dafydd, nid yn ei wyneb, ond yn ei Dduw; yr hyn sydd yn peri i'w ffydd ddistewi ei ofnau, a phenderfynu mor ddiysgog fod amser yn dyfod y caiff etto ei folianau, er mor agos y mae yn gorwedd yn awr i safn y bedd. Y mae iechyd a bywyd dy ras yn gorwedd, nid yn dy ras, medd ffydd, ond yn Nuw, yr hwn sydd yn Dduw i ti; am hyny caf etto fyw, a'i folianau ef. Nid wyf yn rhyfeddu fod y Cristion gwan yn drwm ac yn athrist pan welo ei wyneb clafaidd mewn un drych arall heb law hwn.

(2il.) Fe ddichon gras y Cristion wanhau

yn ei dystiolaeth, neu yr eglurdeb o hono. Geill fyned o'r golwg, fel y ser ar nos gymmylog. Pa mor aml y clywn y Cristion mewn awr o brŷfedigaeth a thywyllwch yn dywedyd, nis gwn i a wyf yn caru Duw mewn gwirionedd, ai nid wyf? Ac ni feiddiaf ddywedyd fod ynof ddim gwir dduwiol ddistwch am bechod. Yn wir, mi feddyliais gynt fod y grasau hyn o'm mewn, ond yn awr nis gwn beth i feddwl; ie, yr wyf yn fynych yn barod i ofni y gwaethaf. Yn awr, yn y cyflwr tywyll a thrallodus hwn, y mae ffydd yn gwregysu llong yr enaid oddi tani; a chanddi ddau angor i'w tafu allan, trwy yr hyn y cedwir yr enaid rhag cael ei yru ar sugndraeth o ddychryn ac anobaith.

(1.) Y mae ffydd, fel o bell, yn canfod y drugaredd helaeth sydd yng Nghrist i bechaduriaid truaidd, ac yn galw yr enaid i edrych yno, wedi colli yr olwg ar ei ras ei hun. Pan fyddo un wedi colli ysgrifen rhyddhâd (*receipt*) am ddyled a dalwyd, nid oesur bychan yw iddo, pan gosio fod y gwr y mae yn masnachu âg ef yn un trugarog a thirion, er nad yw ei ryddhâd ef yn bresennol ar gael. Y Duw hwnw y mae i ti a wnelot âg ef, sydd yn rasol iawn; a'r hyn a gollaist ti, y mae efe yn barod i'w roddi drachêfn; y dystiolaeth o'th ras wyf yn feddwl. Fe geisiodd Dafydd hyn, ac fe'i cafodd: *Salm* li. Iê, medd ffydd, pe byddai yn bod fel yr wvt yn ofni, na fu dy ras erioed yn wirioneddol; y mae, er hyny, ddigon o drugaredd yng nghalon Duw i faddeu dy holl ragrith gynt, os deui ato yn symlwrwydd dy galon; ac felly y mae ffydd yn perswadio yr enaid i anturio ei hun ar Dduw yng Nghrist. Ai ni ddisgwylti di, medd ffydd, gael cymmaint o drugaredd ar ddwyllaw Duw ag a obeithit gael gan ddynd? nid yw dros ben mesur trugaredd greadigol, i faddeu llawer o angharedigrwydd, llawer o dwyll ac anffyddlondeb, pan wneir gostyngedig a diffuant addefiad o honynt. Nid yw y byd mor galed nad oes ynddo lawer o rieni a wnânt gymmaint a hyn i'w plant; a meistrïad i'w gweision; ac a yw yn ormod i Dduw wneuthur y peth a wna ei creadur mor hawdd? Fel hyn yr amddiffyn ffydd enw Duw. A chyhyd ag y byddom heb golli golwg ar galon dosturiol Duw, fe gedwir ein pen uwch law y dwfr, er na byddo genym y dystiolaeth am ein gras ein hunain.

(2.) Fe ä ffydd ynhellach; pan na fedr y Cristion weled y gras hwn, neu arall, yn ei fywies ei hun, yna y mae ffydd yn eu canfod yn yr addewid, lle y gellir eu cael. Ac y mae yn beth cysur clywed fod bara yn y farchnad, er na byddo dim gan ddynd yn ei dŷ. O! medd y Cristion cwynfanus, fe fyddai rhyw oibaith, pe medrwn ond cael y fath dynerwch a thoddiad calon ag sydd gan ereill yn eu mynwesau, o herwydd pechod; yna mi allwn redeg a chael cysur,

dan gysgod yr addewid acw: "Gwyn eu byd y rhai sydd yn galaru, canys hwy a ddiddenir;" *Mat.* v. 4; ond Och, y mae fy nghalon i mor galed a'r gallestr. Wele, medd ffydd, y mae nid yn unig addewidion i'r enaid galaru a'r galon ddryllion, ond addewidion hefyd y bydd i Dduw ddryllio y galon, a rhoddi ysbyrd i alaru; felly am rasau ereill, nid yn unig addewidion i'r rhai a rodiant yn ei ddeddfau, ac a gadwant ei farnedigaethau, ond hefyd i roddi ei Ysbyrd o'n mewn, a gwneud i ni rodio yn ei ddeddfau: *Ezec.* xxxvi. 27. Pa ham ynte, O! fy enaid, yr eisteddi yma i ymgwyo yn ddfudd am y peth y dywedi nad yw genyt, pan y gwyddost pa le i'w gael, ond myned yno? Fel y dywedodd Iacob wrth ei feibion, "Pa ham yr edrychwch ar eich gilydd? Wele, clywais fod yd yn yr Aipt; ewchi waered yno, a phrynwch i ni oddi yno; fel y byddom fyw, ac na byddom feirw;" *Gen.* xlii. 1, 2. Felly y mae ffydd yn cyffroi y Cristion o'i syn-feddyliau; lle y mae ei ysbyrd trallodus yn aros, fel un digynghor, heb wybod beth i wneuthur; ac yn troi yr adhwynion diles, y gallasai ymboeni a threngu ynddynt, i weddïau gwresog am y gras y mae yn ddiffygiol o hono. Y mae bara yn yr addewid, medd ffydd; nac eistedd yma i nychu mewn digalondid diwaith, ond cwmpa ar dy liniau, ac yn ostyngedig, etto yn wrol, amgylchyna orsedd y gras, am ras yr awr i'th gymmhorth mewn pryd. Ac yn sic, fe all y Cristion gael tystiolaeth newydd o'i ras yn gynt, wrth ddadleu yr addewid, a bod yn ddiwyd wrth orsedd gras, nag wrth ymroddi i'w feddyliau anghrediniol fel ag i eistedd i lawr, a thoddi ymaith e nerth a'i amser, yn chwervder ei ysbyrd heb arfer y moddion. Dyma y peth a gais Satan; ac y mae yn llwyddo yn ormod yn ei fwriad, hyd nes y dygo ffydd gymmaint i hyn o galondid o'r addewid; fod yr hyn sydd yn eisieu ar yr enaid i'w gael yno yn rhad ac yn gyflawn.

DOSB. v.

5. Megs y mae ffydd yn cynnorthwyo y Cristion pan fyddo ei rasau ereill wanaf felly hi sydd yn dwyn ei gysur i mewn pan fyddont gryfaf. Y mae ffydd yn gweini i'r Cristion, fel Nehemiah i Artaxerxes (*Neh.* ii. 1), o'r holl rasau, dyma ei drullid ef. Y mae y Cristion yn derbyn gwini ei lawenydd o law ffydd, yn hytrach nag un gras arall (*Rhuf.* xv. 13): "Duw yr heddwch a'el cyflawno o bob llawenydd, gan greu." Y mae yn beth i sylwi arno, fel y mae yr apos tol (i *Pedr* i), megys yn croesi ei ddwyllaw (fel y gwnaeth Iacob, wrth fendithio plan ei fab Ioseph) ac yn cyfrif llawenydd y Cristion i'w ffydd, yn hytrach nag i'w gariad (*udn.* 8): "Yr hwn, er nas gwelsoch, y dydych yn ei garu; yn yr hwn, heb fod yd awr hon yn ei weled ond yn credu, yr yd

ych yn mawr lawenhau â llawenydd an-
hraethadwy a gogoneddus." Craffwch, "yn
redu, yr ydych yn llawenhau;" dyma y
lws y mae llawenydd penaf y Cristion, i.e.,
i holl lawenydd o ymddiried yn dyfod i
aewn trwyddo. Yng Nghrist yn unig y
aniateir i ni lawenhau yn yr ystyriaeth
ma (*Phil.* iii. 3): "Canys yr enwaediad
dym ni, y rhai ydym yn gwasanaethu Duw
n yr Ysbryd, ac yn gorfoleddu yng Nghrist
esu; ac nid yn ymddiried yn y enawd." Lle
gwneir Crist yn unig destyn ein gorfoledd,
aewn pwynt o ymddiried; a hynny mewn
ferbyniad i bob peth arall; i.e., hyd yn oed
n grasau, y rhai fyddant gnawd, os gorfol-
ldir fel hyn ynddynt. Gwaed Crist yw yr
nig win a lawenhâ galon Duw, mewn ffordd
foddlonrwydd i'w gyfiawnder; ac am hynny,
wnw yn unig a all ddwyn gwir lawenydd
galon dyn. Pan y mae Crist yn addaw y
iddanydd, efe a ddywed i'w ddisgyblion o
lestr y tynai ef y gwin o lawenydd y
dd i'w roddi iddynt (*Ioan* xvi. 15): "O'r
ldo fi y cymmer, ac y mynega i chwi."
id oes dim o rawn ein gwinwyddus ein
main i gael ei wasgu i'r gwpan felus yma.
ell pe dywedasai Crist, pan y delo ef i'ch
ddanu chwi â maddeuant o'ch pechodau,
eiddo fi y cymmer, nid dim o'ch eiddo
wi; fy ngwaed i, â'r hwn y prynais eich
ddwch â Duw, nid eich dagrau chwi o
ifeirwch, a'r rhai y galarasoch am eich
pechodau. Yr holl ragorfrentiau gwerth-
r y mae credinwyr yn cael eu mwynhau,
wythau pwrcais Crist ydynt, nid ein llafur
Yn awr, gan fod llawenydd y Cristion
tarddu allan o Grist, ac nid o ddim a
na, neu a fellan y creadur truan, y mae yn
clyn mai ffydd, uwch law yr holl rasau,
ld yn dwyn i mewn lawenydd a chysur
Cristion; o herwydd mai dyma y gras
ld yn defnyddio Crist a'i drysorau er en-
l i'r enaid, yn ei ras a'i gysur hefyd.
ydd yw yr yspïenwr medrus sydd yn
c ffu ar ragoriaethau Crist, ac yna yn
negu i'r enaid y cwbl y mae yn weled
ldo, ac yn ei wybod am dano. Ffydd
ld yn agor llestri gwin yr addewidion,
yn eu gosod i redeg i mewn i'r enaid. Y
e nid yn unig yn dangos i'r enaid mor
neddus yw Crist, ond hefyd yn ei
gmhwyso at yr enaid, ac yn tori ato
seigiau yr addewidion; i.e., y mae yn
rhoddi hyd yn oed yn safn yr enaid, y
e yn enoi ac yn malu yr addewid, nes yw
ristion yn cael ei ddiwallu â'r maeth a'r
usder a fyddo ynddi. Hyd oni ddygo
ld y newydd am y croesaw sydd, O! mor
us ac anghysurus y mae y creaduriaid
ain yn eistedd wrth fwrdd yr addewid!
Hannah, "wylant, ac ni fwyânt;"
Sam. i. 7), Och! ni feiddiant fod mor
; ond pan ddelo ffydd, yna y mae yr
aid yn syrthio ati, ac yn gwneuthur pryd

i foddlonrwydd. Nid oes un ddysgl ar y
bwrdd na fyn ffydd ei phrofi; am y gwyr hi
na pharotôdd Duw mo honynt i'w gadael
yno. Y mae yn ras gostyngedig, etto, hyf-
aidd; am ei bod yn gywbod na fedr fod
mor hyf ag y mae iddi groesaw, gyda Duw,
yn ei ffordd ei hun.

PENNOD III.

*Yn dangos fod anghrediniaeth yn flaenor ym mysg
pechodau, fel ffydd ym mysg grasau.*

Defn. 1. A yw ffydd yn benaf o'r gras-
au? Gall hyn roddi help i ni ddirnad am
erchyll natur anghrediniaeth. Mae hwn yn
sier yn haeddu lle mor uchel ym mysg pech-
odau a ffydd ym mysg grasau. Anghred-
iniaeth, y Beelzebub yw, penaeth y pechod-
au. Megys mai ffydd yw y gras gwreiddiol,
felly mae anghrediniaeth yn wreiddyn
pechod—yn bechod y pechodau. Megys
mai y rhai hynny o bob pechaduriaid ydynt
y mwyaf gwaradwyddus, y rhai a fyddo yn
flaenoriaid ac yn gwneud i ereill bechu, yr
hyn yw y nôd du a osododd Duw ar Ierobo-
am mab Nebat, "Yr hwn a bechodd, ac a
wnaeth i Israel bechu;" 1 *Bren.* xiv. 16.
Felly, ym mysg pechodau, y rhai hynny yw
rhai mwyaf erchyll, sydd yn magu mwyaf o
bechodau ereill; y fath yw anghrediniaeth
uwch law pob un arall, o blegid y mae yn
flaenor iddynt ac yn achos o honynt. Yr
awel wenwynllyd gyntaf a sugnodd Efa
oddi wrth y temtiwr oedd yn y geiriau
hynny, "Ai diau ddywedyd o Dduw, ni
chewch chwi fwyta o bob pren o'r ardd?"
Gen. iii. 1. Fel pe dywedasai, ystyriwch y
peth yn dda; a gredwch chwi fod Duw yn
meddwl hynny? a ellwch chwi feddwl mor
ddrwg am Dduw, a choelio ei fod am gadw
y frwyth goreu yn yr holl ardd rhagoch?
Hwn oedd porth y bradwyr, trwy yr hwn y
cafodd yr holl bechodau ereill fynedfa i'w
chalon; ac y mae yn parhau hyd heddyw
o'r un defnydd i Satan, er hyrddio eneidiau
i bechodau ereill; am hynny, fe'i gelwir yn
"galon ddrwg anghrediniaeth, yn ymadaw
oddi wrth Dduw byw;" *Heb.* iii. 12. Y
mae y diafol yn gosod y pechod yma o
anghrediniaeth fel lleng rhwng y pechadur
a Duw, fel na bo ofn nac arswyd arno rhag
yr ergydion a ddel oddi wrth y bygythiad,
ac a annelir at galon y pechadur; ac yna
gall yr adyn fod mor hyf wrth ei chwant ag
yw y milwr wrth ei orchwyl wedi cael
cawell o bridd rhyngddo a phelenau y gelyn-
ion. Nage, y mae yr anghrediniaeth yma, nid
yn unig yn tagu y pelenau yma o ddychryn
a desfir o safn danllyd y gyfraith, ond hefyd
yn gostegu y cynhyrfaidau trion a ddel
oddi wrth yr efengyl. Mae yr holl gyn-
nygion o gariad ag y mae Duw yn eu gwneud

i galon anghrediniol, yn syrthio fel had i dir mawr, neu fel gwreichionen i'r afon; y mae yn diffodd cyn gynted ag y byddo ynddi.

Fe ddywedir yn *Heb. iv. 2*, "Na fu y gair a glybuwyd yn fuddiol iddynt hwy, am nad ydoedd wedi ei gyd-dymmheru â ffydd yn y rhai a'i clywsant." Y mae grym holl gorff pechod yn gorwedd yn y clo yma o anghrediniaeth. Nid oes dim rheoli ar y pechadur tra y bo anghrediniaeth mewn gallu. Fe ddwg hwn ymaith y rhesymau a wesgir arno (pa un bynag ai o'r gyfraith ai o'r efengyl), cyn hawsed ag y dug Samson y drysau, pyst, barau, a'r cwbl o ddinas Gaza: *Barn. xvi. 3*. Pechod ydyw sydd yn cadw y maes ar ol y lleill; y mae yn olaf un i'r pechadur gael ei argyhoeddi o hono, ac yn gyffredin, yn olaf un i'r saint ei orchfygu. Y mae megys yn ddiogelfa benaf gan ddiabol i gilio iddi, wedi i bechodau ereill gael eu gyru ar ffio. O! fynyched y clywn bechadur druan yn addef pechodau ereill (y bu byw gynt ynddynt), ac yn galaru o'u herwydd â dagrau heilltion; ond ni fyn roddi clust i'r cynnyg o drugaredd trwy Grist. Annogwch ef i greu yng Nghrist, ac mai felly y bydd cadwedig (yr llyn oedd yr athrawiaeth a bregethodd Paul a Silas y geidwad y carchar yn ei ddychryn: *Act. xvi. 31*); och! ni feiddia, ac nis gwna efe: prin y gellwch ei berswadio fod hyn yn ddyledswydd arno. Mae y diafol yn awr wedi cilio i'r ddinas yma â phyrth a barau iddi, lle y mae yn sefyll ar ei wyliaidwriaeth; ac i'w amddiffyn ei hun hyn sicrach, y mae ganddo yr esgusodion mwyaf golygus dros hwn o un pechod yn y byd. Y mae yn peri i enaid wedi ei ddarostwng wneuthur y pechod yma rhag ofn pechu; ac felly gwanu enw da Duw rhag ofn ei ammharchu â ffydd draws ryfygus. Yn wir, y mae yn bechod trwy yr hwn y bwriada Satan fwrw y diimyg mwyaf ar Dduw, a dangos ei holl lid adgas i'w erbyn ar unwaith. Trwy ffydd y cafodd yr holl saint air da; i.e., trwy ffydd y saint y mae Duw yn cael gair da yn y byd; a thrwy anghrediniaeth y mae y diafol yn gwneud ei waethaf i godi gair drwg i Dduw, fel pe na byddai yn gyfryw ag y mae ei addewid ei hun a ffydd y saint yn tystio ei fod ef. Mewn gair, pechod ydyw ag y mae uffern yn agor ei safn am dano tu hwnt i'r lleill. Mae dau bechod yn haeddu y flaenoriaeth yn uffern—rhagrith ac anghrediniaeth; ac am hyny, bygythir pechaduriaid ereill y y cânt "en rhan gyda'r rhagrithwyr" (*Mat. xxiv. 51*), a "chydau'r anffyddloniaid;" *Luc. xii. 46*. Fel pe byddai y trigfanau uffernol hyn wedi eu paratoi yn benaf i'r rhai hyn, a phob rhai ereill yn garcharorion o lai gradd. Ond o'r ddau, anghrediniaeth yw y mwyaf; a'r hwn a ellir ei alw yn bennodol goruwch y cwbl, "y pechod damniol:" "Yr hwn nid yw yn credu a ddamniwyd eisoes"

(*Ioan. iii. 18*), y mae y warrant eisoes wedi e rhoddi i'w ddanfôn ef i garchar: i.e., y mae efe yndo eisoes mewn ystyriaeth—y mae nod dyn damnedig arno. Dywedir am y Iuddewon (*Rhuf. xi. 32*), eu bod wedi e "cau mewn anghrediniaeth." Carcharoriaid ach nid oes i'r diafol gadw pechadur yndo Mae ffydd yn cau yr enaid yn yr addewid fywyd a dedwyddwch, megys y caudd Duw ar Noah yn yr arch. Dywedir yn *Gen. v. 16*, "Yr Arglwydd a gauodd arno ef felly y mae ffydd yn cau ar yr enaid yn Nghrist, ac arch ei gyfammod, rhag ofn perygl o'r nef ac uffern. I'r gwrthwyl y mae anghrediniaeth yn cau yr enaid i'fyn dan euogrwydd a digofaint, fel nad oes dim mwy possibilrwydd i anghredadyn ochely damnedigaeth, nag i hwnw ochely llosgi gauwyd i fyny mewn ffwrn danllyd. Nid oes ymward i'r pechadur gael tra y bydd y bollt yma ar ddrws ei galon. Fel y cyrifir ein iachawdwriaeth i ffydd yn hytrach na grasusau ereill, er nad oes un yng ngho yn y dyn a gedwir; felly y mae damnedigaeth a distryw pechaduriaid yn cael eu cyrif i'w hanghrediniaeth, er fod pechodau e eill i'w cael ynddynt gyda hwn. Y mae Ysbryd Glân yn myned heibio i ragrit grwgnachrwydd, a gwrthryfel yr Israeliaid ac yn gosod eu haflywydd wrth ddrws yr y pechod yma o anghrediniaeth (*Heb. iii. 16*). "Ni allent hwy fyned i mewn o herwy anghrediniaeth." O bechaduriaid (chydau'r byw dan yr efengyl wyf yn feddw os derfydd am danoch, gwybyddwch y mlaen llaw beth yw yr achos—eich anghrediniaeth sydd yn ei achosi. Pe byddai drw weithredwr a farnwyd i farw yn cael eynyg o'i fywrd gan ei farnwr ar ei wyl yn darllen Salm edifeiriol, ac yntau heb darllen, gallwn ddywedych mai hyn sydd ei grogi. Cymmerwch yn lle y Salm yn addewid yr efengyl, yr hon a gynnyg Duw yn ei Fab i bechaduriaid a gondemniwgan y gyfraith; a chredu yn lle darllen Salm; felly, os ni chredi, yr wyt yn myn i uffern am dy barhaus anghrediniaeth hytrach nag un o'th bechodau ereill, am rhyddhâd oddi wrthyt yn cael ei gynnwrti ar dy dderbyniad o Grist, a'th grediniaeth ynddo. Pared hyn i bawb godi yn erbyn pechod yma fel y Philistiaid yn erbyn Samson, yr hwn a alwent yn "anrheithiwr gwlad;" *Barn. xvi. 24*. Dyma anrheithieich eneidiau; y mae hyn yn waeth; i.e. mae yn eu hanrheithio yn dostach na phechodau ereill a fo heb eu mwynhau trwy hyn Ni a gawn ddau gwyn cyffredinol withrai y condemniwr y byd annuwiol yn y dy mawr, yn 2 *The. i. 8*, lle y mae dyfod Crist i farn yn cael ei ddadgan. Yn y mae y creaduriaid truenus hyny a syrthiodan ei ddedfryd gondemniol yn cael eu cwnwys yn y ddau fath yma; y rhai "nid"

nant Dduw," a'r sawl "nid ufuddhânt
 engyl Crist." Ni chaiff anghrediniaeth
 dant i'r efengyl ei roddi yn erbyn y pa-
 iaid, o herwydd na chwasant erioed y
 gethiad o honi; eithr hwy a fwir i
 rn am eu hanadnabyddiaeth o Dduw;
 felly diaugant âg ysgafnach dial o
 er na'r Iuddewon, neu genhedloedd Crist-
 ogol a gawsant bregethiad yr efengyl (er
 i o'r rhai hyn ei gael gyda goleu disgleir-
 a mwy parhaus nag ereill). Y cyludd-
 ofnadwy yn erbyn y rhai hyn fydd,
 ad ufuddhasant i efengyl ein Harglwydd
 i; hynny yw, na chredasant yug Nghrist,
 hyn a elwir yn "ufudd-dod ffydd;"
 f. xvi. 26. Ac yn sicr y mae yn iawn i
 eddwl y bydd poenau perthynol i wrth-
 yr yr efengyl, nas caiff y rhai oedd heb
 mnyg o ras eu teimlo yn uffern. Ac ym
 g y rhai nid ufuddhânt i'r efengyl, y
 y dialedd trymaf yn aros y rhai hyn
 niatawyd iddynt y gwahoddiad mwyaf
 a pharhaus i gymmod. Dyma y rhai
 yn rhoddi Duw i'r draul fwyaf o dru-
 dd, ac am hyny, rhaid iddynt ddisgwyl
 yfran fwyaf o lid a dialedd gael ei fesur
 nt. Ië, y mae eu hanghrediniaeth yn
 Crist, a gras Duw trwyddo, i'r gwarad-
 d a'r dirmyg mwyaf a ddichon creadur-
 ei beri; ac am hyny, nid yw ond cyf-
 rhoddi eu hanghrediniaeth a hwythau
 d i'r gwaradwydd mwyaf o bob rhyw
 aduriaid, o flaen dynion ac anglyion.

PENNOD IV

*rhesyau er ein gwneuthur yn ddirifol i
 ein ffydd, gydag un cyfarwyddyd a gym-
 ir oddi wrth ffordd yr Ysbryd yn gweithredu
 id.*

fn. 2. A yw ffydd yn benaf o'r gras-
 ? Bydded i hyn ein gwneuthur yn fwy
 w a gofalus rhag ein twyllo yn ein
 i. Y mae pethau mor wael eu gwerth na
 nt i ni y poen a'r gofal a gymmerwn yn
 yloch: ynydrwydd yw bod yn ofalus
 i; a doethlineb yw bod yn esgeulus a di-
 t. Ond y mae pethau ereill o'r fath
 e h a chanlyniad mor bwysig, nad oes neb
 a oddlawn i gamgymeryd neu gael ei
 wo ynddynt, oddi eithr dyn sy'n ymroi
 l ei gyfrif yn anghall. Pa ddyn call a
 i, fel am rhyw faen gwerthfawr, ac a
 merai gareg gyffredin, neu ar y goreu,
 ond un o geryg Bristo, yn lle ei ar-
 Pe byddai eich bywyd mewn perygl,
 withau heb wybod am un ffordd i'w
 ond trwy gael rhyw un llysieuyn rhin-
 ol (hwnw yn brin iawn, ac etto i'w
 e, oni fydddech yn dra gofalus am gael yr
 ryw? O fy anwyl gyfeillion, onid yw
 erthyn i chwi yn anfeidrol fwy fod yn

ofalus yn eich marchnadaeth am y perl hwn
 o werthfawr ffydd? A ellwch chwi fod yn
 foddllawn i gymmeryd gwag deganau ffugiol
 y diafol oddi ar ei law—rhiith o ffydd y
 mynai eich twyllo â hi, yn lle y ffydd ddi-
 ffinant sydd gan Dduw i'w rhoddi i'w blant,
 yr hon am hyny a elwir yn ffydd etholedig-
 ion Duw? A gymmeri di waddod y diafol,
 sydd yn sicr o'th ladd, a hyny tra y mae
 Duw ei hun yn cynnyg i ti llysieuyn rhin-
 weddol a'th wna yn iach? Pan elych i
 brynu dilledyn, ti a'ofyni am y defnydd
 goreu fyddo i'w gael. Yn y farchnad, ti
 chwennychi a bywd goreu er mwyn dy fol:
 gyda'r cyfreithiwr, ti ddymuni y cynghor
 goreu er lles dy feddiannau: a chyda'r phys-
 ygwr, y cyfarwyddyd goreu er lles dy iech-
 ya. A ydwyt ti am y goreu ymhob peth
 ond i'th enaid? Ai ni ddymunit gael ffydd
 o'r fath oreu hefyd? Os derbyn gwr arian
 drwg, pwy gaiff y cam ond efe ei hunan?
 Os twyllir di yn dy ffydd, tydi biau'r gollod,
 ac nid un fechan yw; ti a feddyli hyny dy
 luu, pan fydddech o flaen y frawdle, a Duw
 yn peri i ti naill ai talu dy ddyled iddo, ai
 myned i ringean ac wylofaen yng ngharchar
 uffern. O, fel y'th drallodir y pryd hyny,
 pan ddangosech dy ffydd, dan obeithio cadw
 dy hun â hyn, dy fod yn credu yn yr Ar-
 glwydd Iesu; ond dy hyder yn cael ei
 wrthod, a Duw yn dywedyd wrthyt yn dy
 wyneb mai nid ffydd ond celwydd sy genyt
 yn dy ddeheulaw; ac am hyny na dderbyn
 ef y taledigaeth, er mai Crist ei hun fydd-
 ech yn gynnug; nag e, y dry efe di hefyd
 yn llaw y poenwr, a hyny nid yn unig am
 fod heb greu, ond am wneud rhith o arian
 Brenin y nef, a gosod ei enw ef ar dy soth-
 ach ammhur. Hyn wyt ti yn ei wneuthur
 wrth ymhoni fod genyt ffydd, a dim ond
 rhith o honi yn dy fynwes. Hyn a allai fod
 yn ddigon i ddefro'i eich gofal yn y prawf
 o'ch ffydd; ond i roddi peth pwys chwaneg
 i'r annogaeth, ni a fwriwn i mewn y tri
 pheth yma i'w hystyried.

DOSB. I.

1af. Fel y mae dy ffydd, felly y mae dy holl
 rasmusau ereill hefyd. Fel y bo priodas gwr,
 felly y bydd ei holl blant, yn gyfreithlawn
 neu anghyfreithlawn. Yn yr un modd, fel
 y mae ein priodas ni â Christ, felly y mae
 ein holl rasmusau. Yn awr, trwy ffydd yr
 ydym i briodi Crist: "Mi a'ch dyweddiai
 chwi i un gwr," medd Paul wrth y Corinth-
 iaid: 2 Cor. xi. 2. Pa fodd, ond trwy eu
 ffydd? Yn awr, os yw ein ffydd yn gau,
 yna y mae ein priodas â Christ yn ffuantus;
 ac os ffuantus yw y briodas, yna y mae ein holl
 rith-rasmusau yn fastardaidd: pa mor hardd
 bynag fyddont oddi allan, maent yn anghy-
 reithlawn; ein gostyngeddrwydd, amynedd,
 cymmedroldeb, y cwbl yn fastardiaid: chwi
 wyddoch nad oedd i "fasterdyn ddyfod i
 gynnulleidfa yr Arglwydd;" Deut. xxiii. 2.

Ni chaiff un gras bastardaidd chwaith ddyfod i gynnulleidfa y rhai cyfiawn yn y nef. Yr hwn sy ganddo blant o'i eiddo ei hun, ni wna fastard un arall yn etifedd iddo. Mae gan Dduw blant o'i eiddo ei hun i etifeddu gogoniant y nef; ac yn eu calonau y mae ef wedi cenhedlu, trwy ei Ysbryd ei hun, y grasau hyny sydd yn gwir debygu i'w natur sanctaidd ei hun. Yn sicr ynte, ni sefydla efe hi ar ddiethriaid, rhith gredinwyr, y rhai ydynt wael hiliogaeth a phlant diafol.

2il. Ystyria werthfawrogrwydd gwirffydd, yr hyn sydd yn gwneud gan ffydd yn hyn uchgasach. Am fod mab i frenin yn yr mor uchel, am hyny y mae yn gymmaint trosedd i ddyn o enedigaeth isel gymmeryd arno fod yn gyfryw un. Trwy ffydd y gwneir ni yn feibion i Dduw: 1 *Ioan* iii. 2. Pa fath ryfyg mawr ynte yr wyt ti yn euog o hono, os gau ffydd sydd genyt? Yr wyt yn ym-honi dy fod yn blentyn i Dduw, pan nad oes dim o waed y nef yn rhedeg yn dy wythienau, ac y mae i ti fwy o achos i edrych am dy garenydd yn uffern, a thynu dy achau oddi wrth Satan. Mae hyn yn cael ei roddi am gabledd yng nghyfrif yr Ysgriflyr (*Da.* ii. 9): "Mi a adwaen gabledd y rhai sydd yn dywedyd eu bod yn Iuddewon, ac nid ydynt ond synagog Satan." Mae Duw yn ffeiddio y cyfryw o'i galon. Y mae cyfaill twyllodrus yn waeth na gelyn amlwg ym marn dyn: a rhyw Iudas ragrithiol yn fwy adgas gan Dduw na Philat waedlyd: gan hyny, naill ai cais wir ffydd, ai addef dy fod heb yr un. Yr epa, o'r holl greaduriaid, yw y mwyaf anhardd, am fod ganddo wyneb dyn, ond heb galon dyn. Ac o bob pechaduriaid, y rhai hyny a roddir i'r cywilydd mwyaf yn y dydd olaf, sef y rhai fu yn dynwared y credadyn mewn rhyw ystumiau o broffes; ond heb erioed feddu ysbryd credadyn, fel ag i gyflawni un weithred fywiol o ffydd. Fe ddywed y Salmlyd am rai y "dirmyga Duw eu gwedd" (neu eu delw); *Salm* lxxiii. 20. Mae cyfeiriad y geiriau yn benaf at lwyddiant amserol yr annuwiol, yr hwn am ei fyr barhâd a gyffelybir i ddelw, neu ymddangosiad peth yn nychymyng dyn trwy ei gwsg, yr hwn a fydd y pryd hyny yn brysar, ac yn cael ei foddio â llawer o wrthddrychau boddhaol, ond y cwbl yn colli pan ddihuno. Y ddelw yma a ddirmyga Duw yn y dydd mawr, pan na rydd efe y nef a gogoniant yn ol yr etifediaethau a'r anrhydedd a fu gan ddyinion yn y byd, ond a'u hymlid hwynt i waered i uffern, os byddant ddiras, yr un modd a'r cardodyn yn y byd. Ond y mae math arall o bobl y dirmyga Duw eu delw yn y dydd hwnw tu hwnt i'r rhai hyn, a'r rhai hyny yw y credinwyr dros amser, a'r profesywyr gwag sy ganddynt ffydd ddychymmygol a osodant i ffyn fel delw yn eu tybiau, ac a ddawnsiant

o'i hamgylch gyda meddyliau mor hun foddhaol, a dyn a freuddwydiai ei fod rhyw dywysog mawr. Ond caiff y dd fawr yma ei dryllio y pryd hyny, a'i haolwyr eu troi i uffern gyda'r dirmyg mawr o bawb.

3ydd. Nid oes neb mewn anfantais tuag at gael gwir ffydd na'r hwn sydd gwenieithio iddo ei hunan âg un ffals: weli di wr doeth yn ei olwg ei hun? gyw y gobaith am y ffol nag am hwi (*Diar.* xxvi. 12); hyny yw, y mae gwell baith o'i berswadio: o'r holl ffyliaid, yr doeth yn ei olwg ei hun yw y gwaethaf. mae balchder yn anaddasu dyn i dder cynghor. Dywedir fod ysbryd Nebuchonosor wedi caledu mewn balchder: *Da.* 20. Nid oes dim ymresymu â dyn balfe ymgastella yn ei dyb ei hun am danhuan, ac a saif ar ei amddiffyniad yn ddiost erbyn pob rhesymau a gynnygir. Per i broffeswr balch lafurio am ffydd ne derfydd am dano; a'r dyn a ettyb eich yn camsynied ac yn colli y ffordd. At y anwybodus a'r halogedig y dylech fynech y neges hono: y mae yn diolch i Dduw yw efe wedi byw cyhyd heb ffydd fel hyn y mae yn ymfendithio yn ei gygwych, pan y gwyr Duw mai "ymborth ludw y mae: calon somedig a'i gwyrch ef, fel na waredo ei enaid, ac na ddyw Onid oes celwydd yn fy neheulaw?" *Salm* xliv. 20. Mae y dyn anwybodus, halog fel y "meibion dynion" y sonia y Salm am danynt (*Salm* lxii. 9), yn wagedd am Nid anhawdd yw cael ganddynt gydas cymmaint a hyny; na feddant ddim, haeddant ddim, ac nas gallant edrych ddim, fel y maent, ond uffern a dameaeth. Ond y rhai a gymmerant ar feddu ffydd, ac a ymfoddlonant ar un t y maent fel y meibion gwyr yno (neu dion o radd uchel) yn geudeb (neu gelwy hyny yw, y maent yn wagedd, fel rh radd is, ond yn wagedd â gorchudd drosto i beri iddo ymddangos yn well. hyny y mae y diafol yn ddigon parod i r trueiniaid ynyd ar waith i greu, fel yw, y blaen, os gall, ar Ysbryd Duw yn ei chwyl, ac y rhwystro y creadur i gael ffydd, wrth ei dwyllo â rhiith o hono. debyg i ddichell ddrygonus Ieroboam hwn (i gadw yr Israeliaid rhag myned i usalem, a hiraethu ar ol gwir addoliad i yno) a osododd y lloi aur i ffyn, fel y crywbeth tebyg i addoliad crefyddol yn i gartref. Gwnaeth hyn y tro gyda lla fel na welsant achos am y daith i Ierusa O gyfeillion! gochelwch gan hyny gael twyllo â rhiith o ffydd. Fe chwenny pob un, mi wn, gael y plentyn byw yn r nid yr un marw. Fe ddymunai pawb eu cyfrif yn feddiannol o'r wir ffydd, o'r ffals: ond na fyddwch farnwyr i

hunain; appeliwch at Ysbryd Duw, a wech iddo ef â chleddyf ei air ddyfod a rhyfynu y ddadl, pa un fydd sydd yn eiddo y fyw ai y farw.

DOSB. II.

Y mae yn bossibl y gellwch fod erbyn â'ch bryd am wybod pa fath yw eich d, a pha fodd y gellwch farnu am y rionedd o honi. Yn awr, i'ch cymorth yn hyny, cymmerwch y ddau gyfyddydd yma. Un a gymmerir oddi wrth ll yr Ysbryd yn gweithredu fydd, a'r oddi wrth effeithiau fydd wedi ei weithredu.

af. Oddi wrth ddull yr Ysbryd yn weithredu fydd. Y mae hwn y gwaith yaf (tu hwnt i gymmhariaeth) a weithredu ar yr enaid gan Ysbryd Crist. Fe'i wir yn "rhagorol fawredd ei nerth ef; atom ni, y rhai y'm yn credu;" *Eph.*

O! craffwch â'r fath bentwr o eiriau mae Ysbryd Duw yn llwytho ein deall- gwaithau gweiniad, fel (trwy ymdeimlo pwys, a phrofi yr anhawsder o gyrhaedd arwyddocâd) yr eanger ni yn fwy tuag i'r ddirnad am y nerth hwnw, nas gallwn ni ei gyflawn ddeall, am ei fod yn an- arhol, ac felly yn ormod i'w gynnwys o ni i furiau cyfyng ein dealltwriaeth ni: heb, mawredd nerth, rhagorol fawredd; yn ddiweddar, rhagorol fawredd ei nerth ef Duw. Pa angel yn y nef a all ddy- ydd i ba faint y cyrhaedd hyn i gyd?

Duw (gyda pharech y dywedaf) yn ddi ei holl rym ar y gwaith yma. Mae hwnw ei debygu nid i ddim llai na "gweith- redd nerth ei gadernid ef; yr hon a weith- reddd efe yng Nghrist, pan y cyfododd ef i'w ac a'i gosododd i eistedd ar ei dde- aw ei hun yn y nefolion leoedd, gor- pob tywysogaeth ac awdurdod," &c.;

19—21. Mae codi rhywun o feirw yn holl galluo, ie, hollalluo. Ond y mae Crist o feirw yn dwyn ynddo fwy o ry- dd na chodi rhywun arall. Yr oedd ddo ef gareg fedd drymach nag a fu gan eiriodau i'w gadw i lawr; yr oedd pwys odau y byd yn gorwedd arno; etto, er fe'i cyfodwyd mewn gallu gan yr Ys- bryd, nid yn unig allan o'r bedd, ond i ogon- i'w.

Yn awr, y mae y gallu a rydd Duw i'w nerth yn weithredu fydd yn yr enaid, yn ddebetol i hwn o gyfodi Crist: o herwydd hyn y mae enaid pechadur mor wirion- edd yn farw mewn pechod ag oedd corph yn y bedd am bechod. Bellach dy- greadur truan, a wyt ti mewn un modd ydnabyddus â'r fath nerth o eiddo Duw ael ei roddi ar waith ynot ti? Ai yn- reddwl yn ysgafn yr wyt ti am gredau, ac yn dangos dy fod yn ddiieithr i'r dir- ch hwn? Yn ddiâu, fe allai yr un yma amlygu i lawer (pe dymunent wy- ceu cyflwr) aad oes ganddynt fydd, am

eu bod yn cyfrif fydd yn beth mor wael ac ysgafn, fel pe byddai mor hawdd credu a dywedyd eu bod yn credu; ac na byddai dim mwy anhawsder i dderbyn Crist i'w calonau trwy fydd, nag i roddi tamaid o fara â'u llaw yn eu safnau. Gofynwch i rai a ddaeth y fath ddydd neu amser o nerth Duw dros eu penau, i'w darostwng am bechod, eu gyru o honynt eu hunain, a'u tyni yn effeithiol at Crist; a hwy a allant roddi atef fel y rhai hyny i Paul, pan ofyn- odd a dderbyniant yr Ysbryd Glân er pan gredasent: "Hwy a ddywedasant wrtho, ni chawsom ni gymmait a chlywed a oes Ys- bryd Glân;" *Act. xix. 2.* Felly, gallai y rhai hyn ddywedyd, Ni wyddom ni pa un a yw y fath nerth yn angenrheidiol i weithredu fydd, ai nid yw.

Ond yr wyf yn dyfod at ystyriaeth fwy neillduol o'r gwaith nerthol yma o eiddo yr Ysbryd ar yr enaid, er cenhedlu fydd. I hyn y mae yn angenrheidiol cymmeryd gol- wng ar yr agwedd y mae Ysbryd Crist yn cael enaid ynddo, cyn iddo ddechreu ar y gwaith mawr hwn; ac yna y modd y mae yn gwneud ei ddynesad at yr enaid, a pha weithrediadau sydd ganddo ar yr enaid tuag at weithio fydd.

(1af.) Am agwedd yr enaid. Y mae yr Ysbryd yn cael y creadur yn y fath gyflwr, fel na fedr, ac na fyn gyfranu yr help lleiaf at y gorchwyl. Megys, pan ddaeth tywys- og y byd i demtio Crist, na chafodd efe ddim ynddo o ochr ei fwriad; felly pan ddelo Ysbryd Crist, nid yw yn cael dim mwy o annogaeth gan y pechadur, nac un blaid o fewn castell yr enaid yn ei ffafrio, pan y mae megys yn dechreu ei amgylchu ac ymosod arno, ond y cwbl o alluoedd yr holl ddyn mewn arfau i'w erbyn. Oddi yma y mae, fod y fath atebion dirmygus yn cael eu rhoddi i'r aml wfs y mae pechaduriaid yn gael i fwrw arfau i lawr: "At yr eiddo ei hun y daeth, a'r eiddo ei hun nis derbyni- ant ef;" *Ioan i. 11.* Erudd ni bu milwyr mewn castell yn fwy diysgog o fwriad i ddal allan yn erbyn ymddiddanion teg, ac offer rhyfel eu gelynyon, nag yw y galon anianol i wrthsefyll yr holl foddion a arferu Duw i'w darostwng i ufudd-dod. Gweithredia- dau goreu yr enaid, "daearol, anianol, cy- threulig" ydynt: *Iago iii. 15.* Felly, oddi eithr i'r nef a'r ddaear ymgyfarfod, anianol ac ysbrydol foddio yr un archwaeth, Duw a'r cythraul gyttuno, nid oes dim gobaith y derbyn y pechadur, o hono ei hun, y cynnyg a wna Crist; nac yr ennillir ef trwy un ddadl i fod yn foddllawn iddo, cyhyd ag y byddo sail yr anfoddlonrwydd yn aros yn ei natur ddaearol, anianol, a chythreulig.

(2il.) Awn rhagom i ddangos y modd y mae yr Ysbryd yn gwneud ei ddynesiad at yr enaid, a'i weithrediadau arno tuag at weithio fydd. Yn awr, y mae dynesiad yr

Ysbryd yn cael ei addasu at amryw gyn-
neddfau yr enaid ; y penaf o'r rhai yw y
tair yma, y deall, y gydwybod, a'r ewyllys.
Y mae y rhai hyn fel tair aunddiffynfa, y
naill o fewn y llall, y rhai sydd raid eu gor-
esgyn oll cyu y cymmerir y dref ; fy meddwl
yw, cyn y darostyngir y pechadur i ufudd-
dod ffydd. At y rhai hyn yn enwedigol y
gwna yr Ysbryd ei ddynesiad, gan weithre-
du â nerth hollalluog ar bob un o honynt,
a hyny yn y drefn yma. Iaf. Y mae yn
gwneud ei ddynesiad at y deall, ac yn hwnw
y mae yn gweithredu goleuni. Ni weithia
efe mewn lle tywyll ; y peth cyntaf a wna
tuag at ffydd yw taraw ffenestr yn yr enaid,
a gollwng rhywfaint o oleu y nef i mewn
iddo. Oddi wrth hyn y dywedir fod cred-
inwyr yn "ymadnewyddu yn ysbryd eu
meddwl" (*Eph. iv. 23*), yr hyn a eilw yr un
apostol mewn lle arall yn adnewyddiad
mewn gwybodaeth (*Col. iii. 10*) ; wrth natur-
iaeth, ychydig a wyddom am Dduw, a dim
am Grist, neu ffordd iachawdwriaeth trwy-
ddo. Rhaid i lygaid y creadur ynt e gael eu
hagor i ganfod ffordd y bywyd cyu y gall
trwy ffydd ddyfod i mewn iddi. Nid yw
Duw yn arfer trosglwyddo eneidiau i'r nef,
fel teithwyr mewn llong, y rhai y cauir ar-
nynt dan fwrdd y llestr, ac ni chânt weled
dim ar hyd eu holl ffordd i'r porthladd y
maent yn hwylio iddo. Pe felly, fe allesid
hebgor y weddi a roddodd y Salmydd, trwy
ysbrydoliaeth Duw, o blaid y Cenhedloedd
deillion : *Salm lxvii. 2* ; "Fel yr adwaener
dy ffordd ar y ddaear, a' th iachawdwriaeth
ymhlith yr holl genhedloedd." Megys mai
nid cydsyniad noeth yw ffydd, heb ymddir-
ied neu oglud ar Grist, felly nid cydsyniad
dall yw chwaith heb beth gwybodaeth. Os
wyt ti, gan hyny, yn parhau yn dy anwybod-
aeth dywyll, ac ni wyddost gymmaint a
phwy yw Crist, a pheth a wnaeth er iach-
awdwriaeth pechaduriaid truaïn, a pheth
sydd raid i tithau wneud er cael hawl yn-
ddo, yr wyt yn ddigon pell oddi wrth greu.
Os nad yw y wawr wedi tori yn dy enaid,
yn llawer llai y mae Haul y Cyfiawnder
wedi cyfodi trwy ffydd o' th fewn.

(2.) Wedi i Ysbryd Duw beri i oleu dwy-
fol dori i mewn i'r dealltwriaeth, yna y mae
yn gwneud ei ddynesiad at y gydwybod ; ac
ar hono y mae yn gweithredu argyhoeddi-
ad : *Ioan xvi. 18* ; "Efe a argyhoedda y
byd," &c. Yn awr, am yr argyhoeddiad
yma, adlewyrchiad ydyw o oleuni y deall ar
y gydwybod, trwy yr hyn y mae y creadur
yn teimlo pwys a grym y gwirioneddau y
mae yn eu gwybod, fel ag i gael ei ddwyn
dan ddwfn ystyriaeth o honynt. Goleu,
mewn pelydr uniawngyreh, nid yw yn cyn-
nhesu ; a gwybodaeth yn nosio yn yr ym-
enydd, nid yw yn cyffroi. Y mae y rhan
fwyaf dan yr efengyl yn gwybod fod anghred-
iniaeth yn bechod damniol ; ac nad oes un

enw i gael bywyd trwyddo ond enw Cris-
etto, leied sydd yn gwybod hyn yn effeithi
fel ag i gymmhwyso hyn at eu cydwybod
eu hunain, a chael eu cyffroi o herwydd
cyflwr wylofus eu hunain, y rhai ydynt
anghredinwyr, a'r bobl ddi-Grist ! Meg
y mae hwnw yn feddwyn euog yn ol y g-
raith, yr hwn a geir, ac a fernir ei fod
gyfryw mewn llys cyhoeddus, neu o ff-
awdurdod gyfreithlawn, wrth eglur dysti-
aeth tystion ; felly y mae hwnw yn bechod
argyhoeddedig yn ol yr Ysgrythyr, yr h-
a geir yn gyfryw ger bron ei gydwyll
ei hun (swyddwr Duw yn ei fynw
a hyny ar dystiolaeth eglur y gair,
ddygir i'w erbyn gan yr Ysbryd. Yn a-
dywed, greadur truan, a wnaethpwyd y
waith a hyn erioed gan Ysbryd Duw ?
fel y gallech ddirnad yn well am y ma-
profa dy hun wrth yr ychydig nodau o
ynol o ddyn argyhoeddedig.

(Iaf.) Y mae pechadur gwir argyhoed-
edig, nid yn unig wedi ei argyhoeddi
pechod hwn neu arall, ond o ddrwg
rhyw bechod. Arwydd ddrwg yw, pan fy-
dyn, fel mewn nwyd boethlyd, yn gwae-
rhag un pechod, ac yn ddeideimlad o bec-
arall. Cydwybod anghlyssion nid yw yn ia-
yn dyner mewn un peth, ac yn galed m
peth arall ; y mae Ysbryd Duw yn gy-
yn ei orchwyl.

(2il.) Y mae y pechadur argyhoedde-
nid yn unig wedi ei argyhoeddi o bec-
yn y weithred, ond o'r ystâd o bechod hel-
y mae ef nid yn unig dan ôfid o bleg-
gorchymyn hwn a dorodd, a'r drugyn
arall a gamddefnyddiodd, ond o bleg-
cyflwr y mae ynddo yn bresennol hefyd
mae Pedr yn arwain Simon y swynwr
wrth un pechod erchyll a wnaeth, at yr
tyriaeth o'r peth oedd waeth, y cyflwr g-
ynol y canfu ef ynddo : "Mi a' th w
mewn bustl chwerverder, a rhwmedig
anwiredd ;" *Act. viii. 23*. Fe addefa ll-
nad ydynt yn gwneuthur fel y dylent, y
ni feddyliant er dim mor wael am da-
eu hunain, a bod eu cyflwr yn ddrwg
gyflwr o bechod a marwolaeth ; pryd y
yr enaid argyhoeddedig yn ymddarost-
dan y farn yma o farwolaeth, yn add-
gyflwr, ac heb gelu ei achau. Rhyw :
afanaf ydwyf, medd efe, aelod i ddi-
mor llawn o bechod ag yw y llyffant
wenwyn ; y mae fy holl natur yn gor-
mewn drygioni ; fel burgyn marw pwr-
ei fudreddi a'i bydriad. Yr wyf yn ble-
digofaint ; yn etifedd cymmhwys i fili-
uffern ; a phe sathrai Duw fi i lawr yn
awr hon, nis gallwn yn gyfiawr ddadlau
yn erbyn ei waith ; ond y mae yn fy ng-
wybod yr hyn a'i glandhá ef oddi wrth
wedi gwneud â mi ddim cam yn y dde-
(3ydd.) Y mae y pechadur argyhoedde-
nid yn unig yn condemuio ei hun a

yn a wnaeth, a'r hyn ydyw, ond y mae yn anobeithio o hono ei hun, o ran dim a all to wneud i'w achub ei hun. Y mae llawer, myned mor bell ag i addef eu bod y mion aflanaf, wedi byw yn ddyrgionus, am hyny; yn haeddu marw; etto, wedi llynt roddi y rhaff am eu gyddfau trwy nan-gondemniad, y maent mor bell o fod wedi eu hargyhoeddi o'u hanallu eu hunain, y maent yn gobeithio diange trwy eu difeirwch, diwygiad, a swp o ryw weithloedd da neu gilydd; â'r rhai y meddylt ennill yn ol eu cymmeriad gyda Duw, ail gael ei ffafwr, y rhai a gollasant mor hapus trwy eu pechodau gynt. A'r achos yn yw, bod aradr argyhoeddi heb fyn-yw ddigon dwfn i rwygo i fyny y gwreidd-dirgelaidd hyny o hunan hyder, â pha y mae calon pob pechadur wedi ei llygru alaethus; pryd y mae pob enaid a argyhoeddwyd yn drwyadl gan yr Ysbryd yn ei ddwyn i anobeithio ynddo ei hunan; y mae yn gweled ei fod tu hwnt i'w help ei hun; fel carcharor truan a gondemniwyd, li ei lwytho â'r fath heigrn trymion, fel y mae yn gweled yn amhossibl iddo (â'i llym â'i ddyfais) ddiange o ddwyllaw awnder. O gyfeillion! chwiliwch a aeth orchwyl unwaith mor bell a hyn yn eich idiau, ai nad do. Y rhan fwyaf o'r rhai d yn darfod am danynt, nid eu clefyd d yn eu lladd, ond eu physygrw. Y mae yn meddwl meddyginiaethu eu hunan; a hyn sydd yn eu gadael yn anfeddyg-ethol. Dywed, enaid, a ddarfu i Dduw ed dy hela di allan o'r llochesau yma, y mae cynnifer yn ymguddio? A oes ddwl cwbl wan ynot am y peth a elli ud rhag llaw, yn gystal a theimlad o'r a wnaethost? A wyt ti yn gweled yn yn dy bechod, ac yn darfod â'th obaith t dy hunan? A yrodd Duw di allan o'r eu yma, gan beri i ti greu, pe yr arhosit yr hyder hunanol ar dy edifeirwch, di-giad, a dyledswyddau, y traddodent hwy li i ddwyllaw cyfiawnder a lliid Duw, pan lont i'w erbyn? Os do, yna yn wir ti engaist rhag un o'r rhwydau manylaf a dyfais uffern wau.

(fydd.) Y mae y pechadur argyhoeddedig yn unig wedi ei argyhoeddi o bechod, ag i'w gondemnio ei hun, a darfod â'i llyth ynddo ei hun, ond yn cael ei argyhoeddi o'r ddarpariaeth lawn sydd yngrist i bechaduriaid euog ac ar ddarfedd danynt (*Ioan. xvi.*); "Efe a argyhoedda d o bechod i;" (*adn. 9.*); "ac o gyfiawnder" (*adn. 10.*). Ac y mae hyn mor angen-diol a'r lleill, i ragflaenori ffydd. Heb y mae dyn wedi ei argyhoeddi o bechod a bycach i fynyd i'r crogbren gyda Iudas, a syrthio ar gleddyf y gyfraith (fel y cyn-godd ceidwad y carchar ar ei un ef, pan godd ei gyflwr yn anobeithiol) nag i

feddwl dyfod at Grist. Pwy a ä at ddrws un nad yw yn disgwyl fod ganddo ddim i'w roddi.

Y drydedd gynneddf, a'r olaf, i ymdrin â hi yw yr ewylllys; ac ar hon (tuag at genhedlu ffydd) y mae yr Ysbryd yn gweithredu adnewyddiad; trwy yr hyn y mae yn hyfryd, etto yn nerthol, ogwyddo yr ewylllys (oedd o'r blaen yn gyndyn a gwrthnysig) i wneuthur derbyniad o Grist, a dewisiad rhydd a difrifol o hono, fel ei Arglwydd a'i Iachawdwr. Dewisiad rhydd, meddaf; nid wedi ei bwyo yn unig trwy ofn digofaint; fel y dichon un redeg dan benty ei elyn mewn ystorm, er na buasai gymmaint ag yn edrych tua'r drws ar dywydd teg. Dywed, enaid, a wyt ti wrth dy fodd yn dewis Crist? felly yr oedd y ddyweddi; "Bu dda genyf eistedd dan ei gysgod ef;" *Can. ii. 3.* A dewisiad difrifol meddaf hefyd, yma un y mae yr enaid yn pwyso yn fanwl yr anmodau ar ba rai y cynnygir Crist, ac ar ol dwys ystyried y cwbl, yn dra boddlawn iddynt, ac yn ymwasgu âg ef. Fel Ruth, yr hon (er i Naomi ddywededyd y gwaethaf er ei digaloni) yr oedd cyfeillach ei mam er hyny yn rhy dda ganddi i'w golli o herwydd y blinderau oedd i'w dilyn. Dywed, enaid, a ddarfu i Ysbryd Duw fel yma roddi ei allwedd euraid yng nghlo dy ewylllys, i agor drws tra-gwyddol dy galon, a gollwng Crist, Brenin y gogoniant, i mewn? A ddarfu iddo, nid yn unig agor llygad dy ddeall (megys y defrôdd Pedr o'i gwsag yng ngharchar) a pheri i gadwynau hurtrwydd ac anheimladrwydd syrthio oddi ar dy gydwybod, ond hefyd agor porth haiarn dy ewylllys i'w ollwng o garchar anedifeirwch, lle yr oeddit yn ddiweddar wedi dy foltio i mewn? Ie, a ddygodd efe di i guro wrth ddrws y nef am dderbyniad, fel Pedr wrth dŷ Mair, lle yr oedd yr eglwys wedi ymgynnull? Bydd gysurus; ti elli wybod yn sicr fod Duw wedi anfon, nid ei angel, ond ei Ysbryd ei hun, ac wedi dy waredu o law pechod, Satan, a chyfiawnder.

Ni a awn rhagom i brofi ein ffydd wrth yr arwyddion priodol i wir ffydd; ac a ymfoddlonwn ar dri o honynt.

PENNOD V.

Lle y profir ein ffydd wrth ei hufudd-dod; gyda rhai nodau neillduol sydd yn argraphedig ar ufudd-dod ffydd.

1. MAE y ffydd ragorol werthfawr yma yn yr addewid, yn gweithio ufudd-dod i'r gorchymyn. Mae Abraham yn hynod am ei ufudd-dod: nid oedd gorchymyn yn annerbyniol ganddo un amser, pa mor anhawdd bynag fyddai. Gwas ufudd yw hwnw yn wir, yr hwn, wrth ddim ond clywed taraw-

iad troed ei feistr, a adawa bob peth, ac a red yn ebrwydd i wybod meddwl ac ewyllys ei feistr. Y fath was oedd gan Dduw yn Abraham: "Pwy a gyfododd y cyfiawn o'r dwyrain, a'i galwodd at ei droed?" *Esa. xli. 2.* Ond pa beth a roddodd gychwyniad yn ufudd-dod Abraham? Gwelwch am hyn yn *Heb. xi. 3.*: "Trwy ffydd, Abraham, pan ei galwyd, a ufuddhaodd, gan fyned i'r man yr oedd efe i'w dderbyn yn etifeddiaeth; ac a aeth allan," &c. Megys mai amhossibl yw rhyngu bodd Duw heb ffydd, felly amhossibl yw peidio dymuno rhyngu ei fodd ef gyda ffydd. Iawn y gellir cyfrif hwnw yn eilun, sy ganddo ddwyllaw, ond ni weithia; traed, ond ni rodia yn neddfau Duw. Ond cyn gynted ag yr iachaodd Crist fam gwraig Pedr, fe ddywedir, "Hi a gododd ac a wasanaethodd arnynt;" *Mat. viii. 15.* Felly y mae yr enaid crediniol yn sefyll i fyny ac yn gweini i Grist mewn diolchgarwch ac ufudd-dod. Nid un ddiog yw ffydd: y mae yn tueddu yr enaid, nid i gysgu, ond i weithio; ac yn danfon y creadur, nid i'w wely, i chwynu ei amser heibio mewn syrtini ac esmwythder, ond i'r maes. Nos anwybodaeth ac anghrediniaeth oedd yr amser cysgu; ond wedi i Haul Cyfiawnder godi, a'i bod yn ddydd yn yr enaid, yna y mae y creadur yn codi ac yn myned allan i'w waith. Y geiriau cyntaf sydd yn dyfod o enau ffydd yw y rhai hyny o eiddo Saul ar awr ei ddychweliad, "Arglwydd, beth a fyni di i mi ei wneuthur?" *Act. ix. 6.* Y mae ffydd megys yn troi yr Iorrdonen yn ei hol, ac yn newid holl rediad y dyn: "Yr oeddym ninnau gynt (medd yr apostol) yn annoethion, yn anufudd," &c.; *Tit. iii. 3.* "Eithr pan ymddangosodd daioni a chariad Duw ein iachawdwr tuag at ddyd" (*adn. 4.*); yna fe drôd y rhod, fel y mae yn canlyn yno. Ac am hyny tynwch eich bysedd budron oddi ar yr addewid, a pheidiwch ym-honi fod genych ffydd, os ydych blant Belial, a'ch gyddfau heb rydd ymostwng dan iau ufudd-dod. Gall y cythraul ei hun fyned yn lle credadyn mor hawdd ag enaid anufudd. Gall ddangos pethau ereill gymmaint a thithau. A wyt ti yn ym-honi o'th wybodaeth? Mi dybygwn y gellit addef fod y cythraul yn amgenach ysgolhaig na thi, a hyny mewn gwybodaeth Ysgrhythrol. A wyt ti yn credu fod y Beibl yn wir? Ac onid yw yntau yn credu yn gadarnach? A wyt ti yn crynu? Mae efe yn crynu mwy. Ufudd-dod yw yr hyn y mae yn ddiffygiol o hono; a hyn sydd yn ei wneud yn gythraul, ac a'th wna dithau yn debyg iddo hefyd.

Cwest. Ond chwi ellwch ofyn pa argraph sydd i'w gael ar ufudd-dod ffydd ag a'i gwahana oddi wrth bob rhith o hono? o blegid y mae llawer o bethau golygus yn debyg i ufudd-dod nas grwgnach cythraul i ni eu cael.

At. Cymmerwch y ddau arwydd yma ufudd-dod ffydd.

Iaf. Mae ufudd-dod ffydd yn dechreu y galon, ac oddi yno y mae yn ymledu i dyn oddi allan, hyd oni feddianno yr hoddyn â rhyw ymdrech ddirifol. Megs mewn bywyd naturiol, y rhan gyntaf sydd yn byw yw y galon; felly y galon y mae ffydd yn ddarostwng gyntaf i ufudd-dod.

Fe'i gelwir yn "ffydd sy'n puro y galon" *Act. xv. 9.* A'r Rhufeiniaid crediniol ufuddhasant o'r galon i'r ffurf o athrawiaeth a draddodwyd iddynt: *Rhuf. vi. 17.* O y mae gau ffydd (sy'n dynwared y wir ffydd fel y mae celfyddyd yn dynwared natur); dechreu oddi allan ac yn diweddu yno. Hweithredoedd hardd y rhith-grediniwr, maent yn debyg i'r lliw pyrdferth ar wyn delw, yr hwn sydd yn dyfod, nid oddi wr egwyddor o fywyd ag sydd oddi few ond oddi wrth waith y paentiwr oddi allan. Y fath oedd y rhai hyny, yn *Ioan ii. 23.* rhai y dywedir eu bod yn credu: "Ond i ymddiriedodd yr Iesu iddynt am dano hun" (*adn. 24.*); a pha ham? gwelwch *adn. 25.*: "o herwydd yr oedd efe yn gwybod beth oedd mewn dyn." Nid oedd y paentiedig a'r gwyneb hardd oddi allan ei ddallu ef: fe wyddai beth oedd mewn dyn; a thrwy y wybodaeth hono fe wydd eu bod yn bwrdd oddi mewn, yn ddrygionus galon, cyn i'r llinorod dori allan ar eu cro o ymarwediad allanol.

Cwest. Ond pa fodd y gallaf wybod i fy ufudd-dod yn ufudd-dod y galon?

At. Os o gariad y mae yn tarddu, ufudd-dod y galon ydyw. Hwnw sydd llywodraethu y galon, sydd wedi cael chariad hi. Mae yn rhaid i'r castell gael roddi i fyny pan fyddo yr hwn sydd yn gadw ac yn dwyn yr agoriadau yn ymddostwng. Cariad yw y ddihefyd sydd cadw y castell brenhinol yma—calon d y neb sy'n cael ein cariad sy'n cael ein cael. Ac yn wir, trwy hyn y mae ffydd yn dyfod y galon i ymddarostyngiad ac ufudd-dod Dduw; sef trwy ei roddi dan gyfraithiad. Mae "ffydd yn gweithio trwy gariad" *Gal. v. 6.* Hi weithia gariad yn gyn yna y mae yn gweithio trwyddo. Fcrefftwr; yn gyntaf, fe ffinia ei arfau; y mae yn tori ac yn cerfio â hwynt. Felly y mae ffydd yn hagi cariad yr enaid Dduw, ac yna yn gweithio trwyddo. Felly y cerfiwr delwau, wrth ddechreu y ddarn o waith manwl (yn teimlo ei ddwy yn farwaidd gan anwyd, fel na fedr drio arfau mor hwylus ag y dylai) fe a' yn gyntaf y tan, ac a ymrwbia yn ei wres, hyd i delo ei fysedd, oedd yn sythion a marw i fod yn ystwyth; yna y mae yn tarawu waith. Felly y mae ffydd yn dwyn yr enaid (oedd yn farwaidd ac amfharod ddiog bob dyledswydd) i'r myfyrdod am ang

mbarol gariad Duw yng Nghrist tuag ato ; ac wrth y tân yma y mae yn ei gadw, hyd oni ddechreu ei serchiadau ennyn, a dyfod i deimlo peth cariad at Dduw ; ac yna y mae y Cristion yn ymgynhyrfu dros Dduw â'i rym a'i egui.

Cwest. 2il. Ond pa fodd y gallaf wybod fod fy ufudd-dod yn tarddu o gariad ?

At. Mi a'ch anfonaf at Ioan i gael eglurhad o hyn (1 *Ioan* v. 3) : "Hyn yw cariad Duw ; bod i ni gadw ei orchymynion ; a'i orchymynion ef nid ydynt drymion." Dywed, enaid, pa gyfrif sydd genyt o'r gorchymynion ? A wyt ti yn eu edrych arnynt fel cadwynn haiarn am dy goesau, ac arnat dy hun fel carcharor o achos eu rhwymiad hwynt ? Neu a wyt ti yn eu priso fel cadwynnau am dy wddf, ac yn cyfrif dy fod mewn safon enwedigol gyda Brenin y nef, am ei fod yn rhoddi i ti yr anrhydedd o'i anrhydeddu ef, trwy ei wasanaethu ? Dyma fel yr oedd cyn enwocod brenin ag a fu yn y byd erioed : "Pwy ydwyf fi, a phwy yw fy mhobl i, fel y caeni rym i offrymu yn ewyllysgar fel hyn ?" 1 *Cron.* xxix. 14. Nid, pwy ydwyf fi, fel y cawn fod yn frenin ar fy mhobl ? Nid, pwy ydwyf fi, fel y gwasanaethent hwy fi ? ond fel yr anrhydeddit ti fi â chalon i'th wasanaethu di gyda hwynt ? Y mae yr un gwr sanctaidd, mewn lle arall, yn son am bechod, fel ei garchar, ac am ufudd-dod fel ei ryddid ; "Rhodiaf hefyd mewn eangder ; herwydd dy orchymynion di a geisaf ;" *Salm* cxix. 45. Pan rydd Duw iddo galon eang mewn dyledswydd, y mae mor ddiolchgar ag yw dyn, oedd yn rhwym mewn carchar, pan gaffo ei ollwng yn rhydd, fel y gallu mwled â'i gyfeillion, a dilyn ei alwedigaeth. Yr unig beth trallodus i enaid sydd yn caru yw cael ei luddias yn ei ufuddlod. Hyn sydd yn peri i'r cyfryw un fod mor ddfater am y byd, ac am fyw ynddo ; herwydd fod y fath bwn arno yn ei orchwyl, a llawer gwaith yn ei gadw oddi wrtho. Yn debyg i was ffyddlawn cydwybodol, sydd yn gloff neu glafaid, ac ni fedr wneuthur nemawr o wasanaeth i'w feistr ; O ! mor boenus yw o'r achos ! Fel hyn y mae yr enaid sydd yn caru yn ymfodid fod iddo roddi Duw i'r fath draul arno, a bod mor anffuddiol er hyny ! Dywed, enaid, ai dyma dy egwyddor ? os felly, bendedigdig wyt ti gau yr Arglwydd. Fe prawf hyn dy fod yn meddiannu gem o ddau iaen gwerthfawr, nad yw meini coronau oll frenhinoedd y byd mor deilwng i'w cymharu iddo ag yw pentwr o lwch neu lom iddynt hwy. Y gem wyf yn feddwl, a wneir i fy ny o'r pâr yma o rasau, ffydd a chariad ; y rhai hyn ydynt eiddot ti ; a hyda hwynt, Duw, a'r cwbl a fedd, ac ydyw. Ond os yw gorchymynion Duw yn drymion genyt (fel y maent gan bob calon anianol), ac os wyt yn cyfrif dy hun yn rhydd, pan

fedri ddiangc oddi wrth dyledswydd at ryw bechod (fel y gwna yr anifail, pan dyner ei goler a'i ollwng i'w borfa fras yn ol) ; yn awr yr wyt lle y dymunit fod, ac a fedri ddangos dy fywiogrwydd yn wych ; ond pan gaffo cydwybod di i'r ddalfa, yna yr wyt yn syn a pheudrwem drachefu. O ! y mae hyn yn profi nad oes ynot ddim cariad at Dduw, nac yn ganlynlod ddim ffydd wirioneddol ar Dduw. Anifail diles yw hwnw nad oes dim byw ynddo ond yn y borfa.

2. Y mae ufudd-dod ffydd yn llawn o hunanymwadiad. Y mae ffydd yn cadw y creadur yn isel, megys o ran yr hyn y mae yn ei feddu, felly hefyd o ran yr hyn y mae yn ei wneuthur ; "Byw ydwyf ; etto nid myfi, ond Crist sydd yn byw yno f fi ;" *Gal.* ii. 20. Fel pe dywedasai, attolwg, na chamgymmerwech fi ; pan wyf yn dywedyd, byw ydwyf, nid fy meddwl yw mod yn byw trwof fy hun, neu o honof fy hun, ond Crist sydd yn byw yno f fi. Yr wyf yn marw-hau fy llygredigaethau, ac yn gorchfygu temtasiynau ; ond dyledwr ydwyf i Grist am nerth. Nis gall neb ysgrifenu yma, fel wrth ddelw cofiadwriaeth y Pab Adrian (lle yr oedd y man y ganwyd ef yn cael ei enwi, a'r brenhinoedd a'u codasent o radd i radd, hyd nes y dringodd i gadair y pab, ond Duw yn cael ei adael allan o'r ystori), rhyw un a chwaneogodd oddi dano, *Nihil hic Deus fecit* :—ni wnaeth Duw ddim er y dyn yma. Nag e, y mae Paul sanctaidd, a phob credadyn gydag ef, yn roddnabod Duw fel yr unig achos, a'r rhad-roddwr o bob daioni y mae yn ei feddiannu, ac yn ei wneuthur. Nid oes cywilydd arnynt gyfaddef i bwy y maent yn rhwymedig am y cwbl. Dyma y "plant a roddes Duw i'th was," ebe Iacob : *Gen.* xxxiii. 5. A dyma y gwasanaeth y cyn-northwydd Duw o'i ras fi ynddo, medd Paul ; 1 *Cor.* xv. 10 ; "Mi a lafuriais yn hel-aethach na hwynt oll ; ac nid myfi, ond gras Duw yr hwn oedd gyda mi ;" o rad rodd Duw y mae y cwbl. O ! mor ochelgar yw y saint rhag ysgrifenu eu heuwau eu hunain wrth eu gweithredoedd da, eu doniau, a'u defnyddioldeb ! "A eli di (meddai y brenin wrth Daniel) fynegi i mi y brauddwyd a welais ?" *Dan.* ii. 26. Yn awr, craffwech, nid yw efe yn ateb, fel yr astronomyddion beilchion, *adn.* 4, "ni a fynegwn y deongliad." iaith addas oedd hon ganddynt hwy, y rhai nid adwaenent Dduw ; ond nid gan Daniel, gwas y Duw byw ; er fod y dirgelwech wedi ei ddauguddio iddo, ac y medrai y pryd hwnw fynegi i'r brenin ei freuddwyd ; etto gofalus oedd i beidio lladrata dim o ogoniant Duw ; ac am hyny y mae yn ateb y brenin trwy ddangos beth a allai ei Dduw wneuthur, yn hytrach nag efe ei hun ; "Y mae Duw yn ynefoedd yn dadguddio dirgeledigaethau," &c. A pha beth sydd yn gwneud Daniel mor hunanymwadol ? Yn

ddiau yr achos oedd, am ei fod wedi cael y dirgelwch gan Dduw trwy ei ffydd wrth orsedd gras, fel y cewch yn *adn.* 17, 18, 19. Y ffydd hono a'i dysgodd i geisio y drugaredd gan Dduw, a'i galluogodd hefyd i'w wadu ei hun, a rhoddi yr holl ogoniant o honi oddi wrtho ei hun i Dduw. Fel y mae afonydd yn tywallt eu ffrydiau eilchwyl i fynwes y môr, o'r lle y cawsant hwynt yn y dechreu, felly y mae dynion yn rhoddi gogoniant y peth a wnelont, i'r hyn y gwnânt ef trwyddo. Os ânt ynghylch un anturiaeth yng ngrym eu synwyr, neu eu medruswydd eu hunain, chwi a'u cewch hwynt yn dwyn eu haberth i'w rhwyd a'u ballegrwyd, fel y rhai hyny yn *Hab.* i. 16. Nid rhyfedd clywed Nebuchodonosor (yr hwn nid edrychodd yn uwch nag ef ei hun wrth adeiladu) yn rhoddi gogoniant ei Fabilon fawr iddo ei hun: *Dan.* iv. 30; "Onid hon yw Babilon fawr, yr hon a adeileidais i yn frenhindy yng nghryfder fy nerth, ac er gogoniant fy mawrhydi?" Ond y mae ffydd yn dysgu y creadur i ddileu ei enw ei hun, ac ysgrifenu enw Duw yn ei le, ar y cwbl a fedd ac a wna. Pan y mae y gweision (yn *Luc* xix) yn dyfod i roddi eu cyfrifon i ffyni i'w Harglwydd, bob un am ei bunt, mor ostyngedig a hunanymwadol y mae y rhai a fuasai ffyddlawn i'w chwaneu yn siarad! "Arglwydd, dy bunt a ennillodd ddeg punt," medd y cyntaf: *adn.* 16. "Dy bunt di a wnaeth bum punt," medd un arall: *adn.* 18. Craffwch, nid myfi a ennillais; ond, dy bunt di a ennillodd ddeg, a phump. Nid camawl eu hunain y maent, ond cydnabod eu Harglwydd yn rhoddrw o'r swm dechreuol, a'r cynnydd hefyd—dy bunt a ennillodd; hyny yw, dy roddion a'th ras, trwy dy gynorthwy di a'th fendith, a ennillasant hyn yn chwaneu. Yn unig yr hwn a wnaethai leiaf, sydd a'i ymfrost ganddo, ac a ddywed i'w Arglwydd gymmaint a wnaethai efe; "Wele dy bunt, yr hon sydd genyf, wedi ei doddi mewn napcyn." Ymfrostwyr mawrion yw y gwneuthurwyr lleiaf.

PENNOD VI.

Dau o briodol nodau ffydd; y mae yn ffynnonell gweddi, ac yn unffurf yn ei gweithrediau.

2. Mae gwir ffydd yn ffynnonell gweddi. Gweddi, plentyn ffydd ydyw: ac megys y mae plentyn yn dwyn enw ei dad, felly y mae gweddi—enw ffydd: ei theitl yw gweddi y ffydd: *Iago* v. 15. Gweddi, gwir a naturiol anadl ffydd ydyw: trwy ei dwy ran hi, sef erfyniad a diolch (fel y corph drwy ysgogiad dwbl yr ysgyfaint), y mae y Cristion yn sugno i mewn drugaredd oddi wrth Dduw, ac yn anadlu yn ol y drugaredd hono mewn diolchgarwch i Dduw. Ond heb ffydd nis gallai wneuthur un o'r rhai hyn. Nis

gallai trwy erfyniad sugno i mewn drugaredd Duw: "O blegid rhaid yw i'r neb sy'n dyfod at Dduw, gredu ei fod ef, a'i fod yn obrwywr i'r rhai sy'n ei geisio ef;" *Heb.* xi. 6. Nis gallai chwaith ddychwelyd diolch i Dduw heb ffydd. Rhaid oedd i Dafydd gael ei galon yn barod cyn y gallai ganu a chanmawl: *Salm* cviii. Mae rhoi diolch yn weithred o hunanymwadiad: a ffydd yn unig a ddengys i ni y ffirdd allan o'n drysau ein hunain. Ac megys nas gall y creadur weddio (fy meddwl yw, mewn modd cymmeradwy) heb ffydd, felly gyda ffydd nis gall lai na gweddio. Mae y creadur newydd (fel ein babanod yn eu genediggaeth naturiol) yn dyfod i'r byd dan waeddi. Ac am hyny y mae Crist yn ei ddwyn fel newydd mawr i Ananias am Saul (credadyn newydd eni), "Wele y mae yn gweddio;" *Act.* ix. 11. Ond ai peth rhyfedd iawn oedd gwled ar ei liniau mewn gweddi yn a ddygasid i ffyni wrth draed Gamaliel, ac oedd yn Pharisead mor fawr! Nag e yn ddiau, yr oedd y sect yma yn ymgoneddu yn eu hymprydau a'u gweddiau; ac am hyny, gan ei fod yntau yn ofalus yn ei ffirdd, diamheu ei fod yn ymarfer a'r rhan allanol o'r gwaith; ond erioed ni bu ganddo ysbryd gweddi, hyd yn awr, pan y caffodd ysbryd gras i gredu yng Nghrist Iesu. Ac am hyny, os mynwch brofi eich ffydd, rhaid ei phrofi, nid wrth eich bod yn gweddio yn unig, ond wrth ryw nodau neillduol y mae ffydd yn eu hargraphu ar weddi. Yn awr, y mae tri o weithrediau drwy barai y mae ffydd yn dadguddio ei hun mewn perthynas i'r ddyledswydd hon o weddi.

1af. Y mae ffydd yn gweithredu cyffroad, drwy yr hyn y mae yn cynnhyrfu y Cristion i weddio. 2il. Cynnorthwy mewn gweddi. 3ydd. Cynnaliaeth ar ol gweddi.

DOSE. I.

1af. Y mae ffydd yn gweithredu cyffroad, drwy yr hyn y mae yn gwasgu y Cristion ac yn ei gymmhell yn effeithiol i weddio. A hyn y mae yn ei wneuthur, yn gyntaf, drwy egluro i'r creadur ei dlodi a'i angen: ac hefyd y cyflawnder sydd i'w gael oddi wrth Dduw yng Nghrist er tori ei angen: dyma ddau beth a ddefnyddia ffydd fel rhesymau cryfion i annog yr enaid at y gorchwyl. Fel y dywedodd y gwahangleifion wrth eu gil-ydd, "Pa ham yr ydyn ni yn aros yma nes ein meirw? Os dywedwn ni, Awn i'r ddinas, newyn sydd yno, a ni a fyddwn feirw: ac os trigwn yma, ni a fyddwn feirw hefyd. Am hyny deuwech yn awr, ac awn i wersyll y Syriaid: o chadwant ni yn fyw, byw fyddwn; ac os lllandant ni, byddwn feirw;" *2 Bren.* vii. 3, 4. Yr un modd y mae ffydd yn cyffroi yr enaid i weddio: os aresi wrth dy ddrws dy hun, O fy enaid, yr wyt yn sicr o newynu a threngu. Beth a weli di ynot dy hun, ond prinder a newyn?

Bara nid oes, nac arian i'w brynu yn dy dŷ di: cyfod gan hyny, a phrwsura at dy Dduw, fel y cadwer dy fywyd. O syrs, a ydyw y teimlad tufewnol yma o'ch angenion yn gwasgu arnoch? ymwasgwch at orsedd gras fel yr unig ffordd i gael cynnorthwy: chwielwch obeithio mai ffydd sydd yn eich danfon. Ffydd yw egwyddor ein bywyd newydd; "Byw yr ydwyf (medd Paul) trwy ffydd mab Duw;" *Gal. ii. 20.* Y bywyd yma, gan ei fod yn wan, y mae yn ymgais ac yn gwaeddi am faeth, a hyny mor naturiol a'r baban newydd eni am laeth y fron. Gan hyny, os wyt yn cael fod y teimlad tufewnol yma yn dy annog a'th gymmbell i waeddi ar Dduw, y mae yn arwydd fod egwyddor o fywyd—ffydd wyf yn feddwl—o'th fewn.

Gwrth. Ond ai ni ddichon anghredadyn weddio mewn teimlad o'i angenion, a bod dan wasgfa dufewnol o'r herwydd, a bâr iddo weddio yn dra theimladol?

At. Y mae gwahaniaeth rhwng angenion. Y maent naill ai yn ysbrydol ai yn gnawdol. Nis gellir gwadu na ddichon anghredadyn fod yn ddigon teimladwy o angenion enawdol allanol, a churo yn uchel wrth borth y nef am gymmhorth. Ni a'u cawn yn "udo ar eu gwelyau: yn yngasglu am ŷd a meluswin;" *Hos. vii. 14.* Y mae cri gan y creadur, a chri gan y creadur newydd. Y mae gan bob creadur gri naturiol am y peth a fyddo gyfaddas i'w naturiaeth. "Y cenawon llewod a ruant am ysglyfaeth, ac a geisiant eu bwyd gan Dduw;" *Salm civ. 21.* Ond rhoddwch gig i'r llew, ac ni rua efe o eisieu porfa; rhoddwch borfa i'r ych, ac ni frefa am gig. Felly, os caiff dyn di-ffydd, di-ras, ei lonaid o'i ymborth enawdol, a'i fwyniant anianol, prin y cewch ei glywed yn cwyno gan angenion ysbrydol. Gan hyny, wrth gri am bethau ysbrydol y dylech brofi eich ffydd. Os gelli weddio o'r galon am gariad at Grist, ffydd yddo, neu ryw ras arall, gan deimlo dy eisieu o honynt, fel dyn newynlyd o'i fwyd, gelli benderfynu yn sicr fod ynot yr egwyddor yma o fywyd newydd, yr hon, trwy ei sugn (fel y gwythienau yng ngwaelod y cylla) sydd yn dy roddi mewn poen hyd nes caffo ei gwrandaw a'i digoni. O herwydd gan fod y grasusall yma yn briodol i'r creadur newydd, nis gall neb eu gwir ddymuno ond a fyddo yn greadur newydd.

Drachefn, Y mae ffydd yn annog i weddio oddi wrth yr hyfrydwch tufewnol sy ganddi mewn cymmundeŷ â Duw; "Minnau (medd y Salmydd) nesau at Dduw sy dda i mi." yn awr, craffwch ar y geiriau nesaf, "yn yr Arglwydd y gosodais fy ngobaith;" *Salm lxxiii. 28.* Y mae yn bleser genym edrych yn fynych i'r fan lle y rhoisom ein trysor i gadw. Yr oedd y gwr sanctaidd yma wedi rhoddi ei enaid a'r ewbl a feddai i Dduw

trwy ffydd, i'w cadw yn ddiogel iddo; ac yn awr, ei hyfrydwch yw bod yn fynych gyda Duw, am mai ganddo ef y mae yr hyn a'i gwna yn dra boddlawn wrth edrych arno. Trwy ffydd y mae yr enaid yn cyfammodi â Christ: yn awr, wedi ei dyweddio âg ef, nid rhyfedd ei bod yn dymuno cymmundeŷ âg ef. A chan mai gweddi yw y man cyfarfod lle y mae Crist a'r enaid yn dyfod agosaf at eu gilydd tu yma i'r nefoedd, am hyny, gwelir y credadyn yn mynych rodio y ffordd hono. A eili di ddywedyd, enaid tlawd, mai dy neges wrth weddio yw cael gweled wyneb Duw? Ai cymmundeŷ â Duw, a dim llai na hyny, sydd yn boddloni ac yn dadebru dy enaid mewn gweddi? Yn sicr, fe gafodd Duw dy gred; y pe angen, nis gellit mor rwydd roddi dy gariad iddo, a chymmeryd hyfrydwch yddo.

DOSE. II.

2il. Y mae ffydd yn dwyn cynnorthwy mewn gweddi. I roddi esampl ond mewn dau beth neillduol:—

(1af.) Y mae ffydd yn cynnorthwyo yr enaid â thaerineb. Ffydd yw y gras gafaelgar: y mae yn dyfod i'w fyny yn agos at Dduw, yn cymmeryd gafael ar Dduw, ac nid hawdd y cymmer ball. Y mae yn ennyn yr holl serchiadau ac yn eu gosod ar waith. Dyma lygad yr enaid, a'r hwn y mae yn canfod y budreddi, yr uffern sydd ymhob pechod; a thrwy ganfod, yn cyffroi y galon, ac yn ei thoddi i dristwch wrth daenu ei ffeidd-dra o flaen yr Arglwydd. Ni raid i'r creadur yn awr wrth wynwyn i beri iddo wylo: y mae y dagrau yn rihedeg yn naturiol fel dwfr o'r ffynnon. Y mae ffydd hefyd trwy ddrych yr addewid yn gwneud amlygiad o Grist i'r enaid yn rhagoriaethau ei berson, ei gariad, a'i radau, nes y byddo hi wrth yr olwg yn clafychu o hiraeth ar eu hol, ac yn cael y fath wasgfeuron o gariad, fel y mae yn rhaid anfon eirchion a lfeain cryf am yr hyn y mae yn ei ddymuno mor daer. Iē, ym mhellach, y mae ffydd nid yn unig yn codi blys ar y creadur trwy osod godidogrwydd Crist a'i ras o'i flaen, ond hefyd yn ei gynnorthwyo â dadleuon ac yn ei helpio i'w trin a'u defnyddio yn wrol a buddugoliaethus gyda'r Hollalluog. Erioed ni wyddai pa beth i wneuthur âg addewid mewn gweddi, hyd yr awr y dysgodd ffydd iddo ei gwasgu ar Dduw gyda gostyngedig hyfder: "Pa beth a wnai i'th enw mawr?" medd Iosuah grediniol (*Ios. vii. 9*); fel pe dywedasai, Yr wyt mor rhwym wrth dy bobl trwy addewid a llw, fel nas gelli eu gadael i ddarfod am danynt, heb i'th enw gael gwaradwydd o'u herwydd. Y mae ffydd yn toddi yr addewidion i ddadleuon (fel y gwna y milwr y plwm yn fwledi), ac yna yn cynnorthwyo y Cristion i'w danfon gyda grym i'r nef mewn gweddi wresog, tra y mae addewid

ynghenau anghredadyn yn debyg i ergyd yn firoen gwn heb dân i'w ollwng allan. O! mor oerlyd a marwaidd y syrthi addewid oddi wrtho mewn gweddi! y mae yn dywedyd addewidion; ond nis gall eu gweddio na'u gwasgu. Ac am hyny, profa dy hun, nid wrth dy weddio noeth, ond wrth dy daerineb mewn gweddi; a hyny, nid wrth gynnyrfiad dy ysbrydoedd corphorol, ond wrth ysgogiad tufbryniol dy enaid a'th ysbryd; pa un a wyt ti yn cael dy weithio i ddadleu yr addewid, a'i gwasgu ar Dduw gyda gostyngedig hyfder, ai nid wyt.

(2il.) Y mae ffydd yn galluogi yr enaid i barhau yn y gorchwyl.

Fe ddichon gau ffydd ddangos peth bywiogrwydd wrth gychwyn, ond hi fiina mewn amser. "A eilw rhagrithiwr ar Dduw bob amser?" *Iob* xxvii. 10. Na wna; fel y mae yr olwyn yn gwisgo wrth droi nes y toro o'r diwedd, felly y mae y rhagrithiwr—y mae yn gweddio nes bliuo ar weddio. Rhywbeth neu gilydd a bâr iddo mewn amser syrthio allan â'r ddyledswydd, yr hon ni bu ei galon erioed yn ei charu; ond y mae gan y gwir gredadyn hyny o'i fewn a'i gwna yn amhosibl iddo yn gwbl roddi heibio gweddio, oddi eithr iddo hefyd ddarfod â chredu. Gwir anadl ffydd yw gweddi; ataliwech anadl dyn, a pha le y mae? Y mae yn wir y gall y credadyn trwy ei ddiolfalwech ei hun deimlo mwy o anhawsder i gyrchu ei anadl erfyniol y naill amser na'r llall (fel y mae gyda'r anadl naturiol pangaffom anwyd), Och! pwy sy mor ofalus am iechyd ei enaid nad oes ganddo achos i gwyno am hyn? ond i ffydd fyw, ac anadl gweddi fod wedi cwbl ddarfod, sydd amhosibl. Ni a gawn, pan oedd Dafydd ond wedi attal ei anadl ychydig yn hwy nag arferol, y fath anhwylyd y taflodd hyn ef iddo, hyd oni esmwythawyd arno trwy dywallt ei enaid mewn gweddi: "Tewais, a'm dolur a gyfrôdd: gwresogodd fy nghalon o'm mewn: tra yr oeddwn yn myfyrio, ennynodd tân, ac mi a lefarais a'm tafod. Arglwydd, par i mi wybod fy niwedd;" *Salm* xxxix. Wyt ti, O ddyn! yn cael dy hun dan angenrheidrwydd i weddio, fel baban bach, yr hwn nas gall lai na gwaeddi pan fyddo dolur arno, neu rywbeth yn eisieu, am nad oes ganddo un sfordd i'w helpio ei hun ond gwaeddi i brysuor help oddi wrth ei fam neu ei fammaeth? Gan fod angenion, pechodau, a phrofedigaethau y Cristion yn parhau i ddychwelyd arno, nis gall yntau lai na pharhau i weddio i'w herbyn; "O eithaf y ddaear y llefais atat," medd Dafydd: *Salm* lxi. 2. Fel pe dywedasai, Pa le bynag y byddwyf, mi a'th chwiliaf di allan: carchara fi, gyr fi o'm gwlad, neu gwna y peth a fynost â fi, ni chei lonydd genyf: "Preswyliaf yn dy babell byth;" *adn.* 5. Ond pa fodd y gallai Dafydd wneuthur hyny, wedi ei yru ymbell oddi

wrthi? Yn sicr, trwy weddi yr oedd ei feddwl: y mae y Cristion llefgar yn dwyn pabell i'w ganlyn. Tra y gall Dafydd ddyfod i'r babell, nid yw yn esgeuluso hyny; a phan nas gall, gan glefyd, alltudiaeth, &c., yna efe a edrych tuag ati, ac a addola Dduw yn y maes agored, mor wresog a phe byddai ynddi. "Cyfeirier fy ngweddi ger dy fron fel arogl dardh; a dyrchafiad fy uwylaw fel yr offwrn prydawnol;" *Salm* cxli. 2—meddwl y mae am amser pryd nas gallai ddyfod i offrymu aberth yn y babell.

DOSE. III.

3ydd. Y mae ffydd yn dwyn cynnaliaeth ar ol gweddi.

(1.) Y mae yn cynnal yr enaid i ddisgwyl ateb grasol: "Cyfeiriaf fy ngweddi atat, ac edrychaf i fyny" (*Salm* v. 3), neu edrychaf; am ba beth, ond am atebiad? Y mae calon anghredinol yn saethu ar antur, a byth heb edrych pa le y disgyn y saeth, neu pa beth sydd yn dyfod o'i weddio; ond ffydd a leinw yr enaid â disgwyliaid. Fel marsiandwr wrth rifo ei foddion, y mae yn cyfrif yr hyn a ddanfonodd dros fôr yn gystal a'r hyn sydd ganddo mewn llaw; felly y mae ffydd yn, cyfrif yr hyn a ddanfonodd yr enaid mewn gweddi i'r nefoedd, ac na dderbyniodd yn ol, yn gystal a'r trugareddau a dderbyniodd eisoes, ac sy mewn llaw ganddo. Yn awr, y mae y disgwyliaid yna a gyfyd ffydd yn yr enaid ar ol gweddi, yn ymddangos yn y nerth sydd ynddi i lonyddu a distewi yr enaid, rhwng daufoniaid allan (fel y gallaf ddywedyd) y llong o weddi, a'i dychweliad adref gyda'i llwythi cyfoethog; ac y mae yn fwy neu yn llai, yn gyfatebol i nerth ffydd. Weithian, fe ddychwel ffydd o weddi mewn gorfoledd dan waeddi buddugoliaeth: y mae yn rhoddi y fath fod a. hanod i'r drugaredd y gweddiwyd am dani yn enaid y Cristion (cyn i debygoliaeth o honi ymddangos i deimlad a rheswm) fel y gall ddistewi ei feddyliau terfysgtyd â'r disgwyliaid am dani. Felly y gweddiodd Hannah, ac ni bu athrist mwy: *1 Sam.* i. 18. Ie, gwna i'r Cristion dalu ei fawl a'i ddiolch am y drugaredd yn hir cyn ei dderbyn. Mor uchel y gweithiodd ffydd yn Dafydd (*Salm* lxiv. 3, 4); "Y dydd yr ofnwyf, mi a ymddiriedaf ynot ti;" ac yn y geiriau nesaf (*adn.* 4), "Yn Nuw y clodforaf ei air;" hyny yw, fe glodforai Dduw am ei addewid, cyn bod cyflawniad o honi iddo ef: a chyn i'r cyflawniad gael un bod, oddi eithr yn ffyddlondeb Duw a ffydd Dafydd. Yr oedd gan y gwr sanctaidd yma y fath lygad treiddiol o ffydd, fel y gallai ganfod yr addewid pan oedd yn y gradd dyfnaf o flinfyd, a'r fath hyder ddiysgog yng ngallu a gwirionedd Duw, fel y gallai y pryd hyny folianu Duw, fel pe buasai y drugaredd a addawyd wedi ei chyflawni idde, ond ni fynwn i ti, Gristion, brofi gwirionedd

dy ffydd wrth y gradd uchel ardderchog y mae yn cyrhaedd iddo mewn rhai credinwyr enwog. Ti eelli fod yn filwr ffyddlawn i Grist; er na chyrhaeddaist i'r un rhenge a rhai o gedyrn ei ffyddin, sydd yn fwy anrhydeddus yn yr ystyr yma na'u brodyr ereill. Y mae gradd is o ffydd, yr hwn (os gelli ei gael) a all dy sicrhau am ei gwirionedd: hwnw wyf yn ei feddwl, yr hwn, er nad yw yn ebrwydd yn esmwythau yr enaid o'i holl feddyliau terfysglyd ar ei waith yn gweddio, etto, y mae yn cadw ei ben ef uwch law y tonau, ac o fesur i'ychydig yn peri iddynt leihau fel y ffrwd mewn aber ar gil-iad y llanw. Pau gymmerodd Duw y dylif oddi ar y ddaear, ni wnaeth y gwaith mewn minyd. Dywedir, "Y dyfroedd a ddychwelasant oddi ar y ddaear, gan fyned a dychwelyd;" *Gen. viii. 3.* Hyn yw, yr oedd y dyfroedd yn cilio o ddydd i ddydd, nes sychodd y ddaear. A eelli di gael, Gristion, fod rhai o'th feddyliau terfysglyd ac aflonydd yn cael eu gollwng allan trwy ddyfr-ddor gweddi? a'i fod yn beth esmwythra i'th ysbryd llwythog fod genyt fynwes Duw grasol i dywallt dy galon athrist iddi? Ac er nad yw gweddio yn dyhysbyddu dy ofnau yn llwyr, etto, y mae yn dy gadw, onid ydyw, rhag dy gwbl faeddu ganddynt, yr hyn nis gellit ei ochel heb ffydd? Y mae enaid hollol wag o ffydd yn gweddio, ac heb dael dim o'i faich gyda Duw, ond yn dwyn y cwbl a ddygodd yno yn ol, a chwang hefyd. Nid yw gweddio iddo ef ond megys tafu angor o long sydd yn soddi, heb fachau wrtho i gymmeryd gafael yn y gwaelod. Gan hyn, os wyt yn cael, enaid tlawd, ar dy waith yn tafu dy angor o ffydd allan mewn gweddi, ei fod yn cael cymmaint o afael ar Grist yn yr addewid ag i'th gadw rhag dy yru o flaen temtasiynau dychrynlyd Satan, a'th feddyliau anobeithiol dy hun, bendithia Dduw am hyn. Y mae y llong sydd wrth ei hangor yn ddiogel cyhyd ag y dalio yr angor ei afael, er ei bod yn cael tafu rhywfaint arni draw ac yma: ac felly yr wyt tithau, enaid tlawd. Y mae ffydd ag sydd yn cadw rhag uffern, er nad yw yn cwbl rhyddhau enaid yma oddi wrth ofnau.

DOSE. IV.

4ydd. Y mae gwir ffydd yn unfurf neu yn gysson yn ei gweithrediad. Megys nad yw gwir uffudd-dod yn pigo ac yn dewis, yn cymmeryd yn gorchlymyn ac yn gadael y llall, ond yn golygu holl orchymynion Duw, felly y mae ffydd ddiiffuant yn golygu holl wirioneddau Duw: y mae yn credu un addewid fel y llall. Megys na ddylai gwir Gristion ddal "ffydd ein Harglwydd Iesu gyda derbyn wyneb" (*Iago ii. 1*), felly ni ddylai dderbyn wyneb gwirioneddau. Cymmeryd arnom gredu un addewid, a pheidio rhoddi cred i'r llall, dyna dderbyn wynebau

wrth drin yr addewidion, fel yr achwynir fod yr offeiriad wrth drin y gyfraith: *Mal. ii. 9.* Y mae anrhydedd Duw mor rhwym i gyflawni y naill addewid a'r llall. Yn wir, megys y mae toriad o un gorchymyn yn gwneuthur dyn yn euog o'r cwbl, felly, pe pallai Duw mewn un addewid (yr hyn sydd gabledd i'w feddwl), torai hyn ei holl gyfammod. Y mae addewidion yn gyssylltiedig yn gystal a gorchymynion; ac am hyn, nis gall Duw gadw un oddi eithr iddo gyflawni y cwbl; na minnau gredu un oddi eithr i ni gredu y cwbl. Duw a lefarodd yr holl e'riau hyn o addewidion, fel geiriau y gorchymynion: y mae ei sel wrthynt, a disgwylia i ni eu cofseidio ym mreichiâu ein ffydd. Y mae Dafydd yn dwyn tystiolaeth i holl wirionedd Duw: *Salm exix. 160.* "Gwirionedd o'r dechreuad yw dy air; a phob un o'th gyflawn farnedigaethau a bery yn dragwydd." Yn awr, profa dy ffydd yma: y mae yn bossibl dy fod yn profesu credu yr addewid am faddeuant, ac yn mynych foddio dy hun a'r meddyliâu am dani; ond pa ffydd sydd genyt yr yr addewid am sancteiddio dy natur a darostwng dy lygredigaethau? Fe allai nad wyt yn gofalu am y rhai hyn nac yn eu defnyddio; gall y frwyth yma hongian digon o hyd ar gangenau yr addewidion cyn i ti ei dynu: y llall sydd at dy ddant di, nid y rhai hyn; ond gwir ffydd a chwennychai y naill yn gystal a'r llall. Gwel mor ddirifol y mae Dafydd yn erfyn am gyflawniad o'r addewid yma (*Salm exix. 132*); "Edrych arnaf, a thru-garhâ wrthyf yn ol dy arfer i'r rhai a garrant dy enw. Cyfarwydda fy nghamrau yn dy air; ac na lywodraethed dim anwiredd arnaf." Nid oedd Dafydd yn foddllawn i goli un rhagorfraint ag oedd Duw wedi ei sefydlu ar ei blant: gwna â mi, medd efe, yn ol dy arfer. Dyma fywoliaeth y teulu, yr hyn wyt yn ei addaw i'r rhai oll a'th garrant; ac na âd i minnau fyned yn salach fy ngwedd na'm brodyr ereill. Fe allai i ti dybio fod genyt ffydd am dragwyddol iachawdwriaeth dy enaid; ond a oes genyt ti ffydd i bwysu ar Dduw am bethau y bywyd hwn? Credadyn rhyfedd, onid e, sydd yn byw trwy ffydd am y nef; ac wrth ei synwyr a'i ddichell bechadurus am y byd? Y mae Crist yn profi nad oedd y rhai hyn yn credu ynddo, yn *Ioan v. 44*, am nas meiddient ymddiried iddo am eu henw a'u parch. Os na allwn ymddiried iddo am y lleiaf, pa fodd y gallwn am y mwyaif?

Nid wyf yn gwadu nas gall un sydd yn meddu gwir ffydd, ie, ffydd gadarn am y nef, gael bwrw arno yn galed, a'i ffydd ei maeddu ar dro yn achos addewid anserol. Etto, ni ddylem farnu am agwedd barhaus gyffredinol calon y credadyn oddi wrth ryw awr o brofedigaeth, pryd y mae Duw yn gadael ei saint enwocaf, er eu darostwng.

Er i Abraham ar dro ledrithio i gadw ei fywyd, yr hwn a ddybiodd ei fod mewn per- ygl o achos tegwch ei wraig, etto, ar am- serau ereill, fe roddodd dystiolaeth ardderch- og o'i ymddiried yn Nuw am ei fywyd am- serol yn gystal a'i iachawdwriaeth dra- gwyddol. Nid wyf, gan hyny, yn erchi i ti ammheu gwirionedd dy fydd, am bob lle- wygfa a ddel arni, ynghylch pethau da yr addewid, o ran y bywyd hwn. Dichon gwr mewn amser rhyfel fod â rhan o'i dir yn meddiant y gelynyon; ac yntau, tra y byddo felly, heb gael dim elw oddi wrtho; er hyny, y mae yn ei gyfrif fel ei dir ei hun, yn ym- flino o herwydd ei golled drom bresennol, ac yn ymeginio, cyn gynted ag y gallo, i'w ennill yn ol o law y gelyn. Felly, yn ffrwst profedigaeth, pan fyddo Satan, gelyn mawr yr enaid, ar led, a Duw yn attal ei gyn- northwy, dichon credadyn fod heb fawr o gynnaluaeth oddi wrth ryw addewid ben- nodol; etto y mae ef yn ei chyfrif o hyd fel ei gyfran, yn gystal ag yr un o'r lleill; y mae yn galaru am na fedr ei fydd wneud yn well o honi, ac yn llafurio am gael ail gryfhau ei fydd â nerth newydd o'r nef, fel y gallo fyw arni, a'i defnyddio yn fwy er ei gysur. Felly, y mae yn dal yn wir byth, os nad ydym yn credu i Dduw am y bywyd hwn, nid ydym chwaith am yr hwn a ddaw.

Mewn gair, fe allai dy fod yn profesu fydd ynghylch dy achosion tymmorol, a'th fod yn ymddiried i Dduw am bethau y bywyd yma; ac etto, dy fod yn ddeitlir hollol i'r gweithrediadau penaf hyny o fydd, trwy ba rai y mae yr enaid credinol yn ym- wasgu â Christ, ac yn ei dderbyn fel ei Ar- glwydd a'i iachawdwr, ac felly yn gosod ei sel wrth y cyfammod a gynnygir trwy yr efengyl i bechaduriaid truan. A fedri di ymladd yn erbyn dy reswm dy hun, mor bell ag i feddwl fod un addewid dymmorol yn perthyn i ti heb y rhai hyn? Beth sydd yn rhoddi i'r wraig hawl i'r etifeddiaeth a sefydlir arni ond ei chyfammod priodas? A pha beth sy'n rhoddi i'r creadur wrth hawl yn yr addewidion hyn, neu ryw rai ereill o'r cyfammod gras, ond ei undeb â Christ, a'r derbyniad o hono fel y mae yn cael ei gynnw? Y gweithrediaid cyntaf o gariad Duw at y creadur yw hwnw trwy yr hwn y mae yn dewis y cyfryw un i fod yn eiddo iddo, ac yn ei neillduo mewn anghyfnwid- iol gynghor i fod yn wrthddrych o'i hoffder yng Nghrist; ac am hyny fe'i gelwir yn sail, ar ba un y mae Duw yn gosod yr oruwch- adeilad o'i holl drugareddau ereill: "Y mae cadarn sail Duw yn sefyll, a chanddo y sel hon; yr Arglwydd a edwyn y rhai sydd eiddo ef;" 2 *Tim.* ii. 19. Yn gyntaf, y mae Duw yn dewis un i fod yn eiddo iddo; ac ar y sail yma y mae efe yn adeiladu ac yn rhoddi allan yr holl draul gan- llynol, fel ar greadur sydd yn eiddo iddo.

Ac felly ar ran y creadur; yn gyntaf, y mae ffydd yn ymwasgu â Christ, gan ei neillduo yn ei feddyliau oddi wrth bawb ereill, a'i ddewis fel ei Iachawdwr, yn yr hwn y fhydd ei ymddiried, a'r hwn yn unig a gaiff ei wasanaeth. Yn ol hyn, y mae yn masnachu â'r naill addewid a'r llall, fel y gynnysgaeth sydd yn disgyn i'w ran trwy briodas â Christ. Ac am hyny, gwel mor hyf a chwithlyg yw dy waith yn cipio yr addewid- ion yma i ti dy hun, cyn bod dim ewylls da rhyngot a Christ.

PENNOD VII.

Amgogaeth i bawb mewn cyflwr o anghrediniaeth i ymgeisio am ffydd, gydag un cyfarwyddyd tuag at ei chael.

Defn. 3. A yw ffydd yn ras mor werth- fawr? Bydded i hyn eich cyffroi chwi, sy hebddi, i ymgeisio am dani. A fedrwech chwi glywed am y perl yma, ac heb ddy- muno ei fod yn eiddo, chwi? I ba ddiiben y mae yr Ysbryd Glân wedi llefaru y fath bebau mawrion a gogoneddus am ffydd yn y gair, ond i'w gwneuthur yn fwy dymunol yn eich golwg? A oes rhyw ffordd i gael Crist yn rhan ond trwy gael ffydd? Neu ai nid wyt ti yn meddwl fod arnat angen am Grist gymmaint a neb arall? Y mae cenedlaeth o ddyinion yn y byd, a wnânt i un achos feddwl mai hyn yw eu barn. Y rhai hyn sydd â'u llygredigaethau heb dori allan (yn ol y dull y maent ar rai) yn gor- nwydydd o halogrwydd cyhoeddus, fel ag i ddwyn gwarth ar eu henw; y mae rhyw ffoed o foeloldeb wedi eu taenu ar hyd eu hymarweddiad, a'u henwau heb ddrewi ym mysg eu cymmydogion; am hyny, ni roddant glust i'r cynnygion o Grist, ac nid yw eu cydwybodau yn ceryddu nemawr arnynt am y diofalwch yma. A pha ham hyny? yn sicr, nid am eu bod yn foddlon- ach nag ereill i fyned i uffern (hwy a wnânt fwy i'w gochel na llawer ereill); ond am eu bod yn meddwl y bydd i'r ffordd y maent arni eu dwyn yn rhywydd ddigon i'r nef, heb drafferthu chwaneg. Oeh! greaduriaid tru- ain trwylledig! A yw Crist ynte ddim ond wedi ei ddanfoni i helpio rhyw bechaduriaid gwaeth nag ereill i'r nef, megys meddwn, tyngwyr, a'r cyffelyb? Ac a yw dnyion moesol, hynaws, i gerdded yno ar eu pwys eu hunain Sicr wyf, os ydym i gredu y gair, fod y mater wedi ei wneuthur yn ddi- gon amlwg. Ni ddywed hwnw ond am un ffordd i'r nef i bawb sydd yn bwriadu dy- fod yno. Megys mai "un Duw sydd," felly hefyd, "un cyfryngwr rhwng Duw a dyn- ion, y dyn Crist Iesu;" 1 *Tim.* ii. 5. Ac os nad oes ond un bont dros yr afon, bern- wech chwi pa beth sy'n debyg o ddyfod o'r dyn moesol gyfiawn, os â ef heibio i'r un

bont yma, gan fyned rhagddo yn y ffordd y cychwvnuodd am y nef; onid ei cholli svdd raid iddo, er ei holl rodiad hardd? O cofia, dlyn balch, pwy ydwyt; a phaid a'th gynnyng ofer. Ai nid un o hiliogaeth Adla wyt? Onid oes gwaed bradwr yn dy wvthienau? Os rhaid "cau pob genau" (*Rhuf.* iii. 19, 20), pa foad y beiddi di agor dy enau? Os yw yr "holl fyd yn euog ger bron Duw, fel na chyfiawnheir un enawd yn ei olwg ef, trwy weithredoedd y ddeddf," pa le y sefi di i ddadleu dy ddiinweidrwydd, ger bron yr hwn sydd yn canfod dy groen du dan blu gwynion? dy galon aflan, trwy dy ymddygiad glân? Ffydd yng Nghrist yn unig a ddichon buro dy galon; heb hyny, ni ennill dy wyneb a'th ddwyllaw glân (dy gyfiawnder oddi allan wyf yn feddwl) byth gymmeradwyaeth i ti gyda Duw. Ac am hyny yr wyt ti dan hudoliaeth erchyll, os nad wyt yn meddwl fod arnat eisieu Crist, a ffydd i roddi i ti hawl ynddo, yn gymmaint a'r llofrudd mwyaf gwaedlyd, neu y Sodomiad ffieiddiaf o fewn y byd. Pe byddai lliaws o wyr a phlant ar daith, yn rhodio trwy afon lled fâs, fe gaffai y gwyr fantais ar y plant; ond wrth groesi môr, rhaid fyddai i'r gwyr yn gystal a'r plant gael llong i'w trosglwyddo; a da y gellid eu cyfrif yn wallgofus, os meddylient rodio trwodd (heb y llong a gynnygier iddynt, fel ereill), o herwydd eu bod ychydig yn dalach na'r lleill. Y fath anturiaeth ynyf a diobaith a roddi di am dy enaid, os meddyli wneud dy ffordd trwy gyfiawnder Duw i'r nef, heb gael dy drosglwyddo trwy ffydd yng Nghrist, o herwydd nad wyt cyn ddyhired ag ereill yn dy ymarweddiad allanol. Gadewch i mi, gan hyny, drachefn a thrachefn erfyn ar bawb sydd yn amddifad o ffydd i ymgeisio am dani, a hyny ar frys. Nid oes dim a haeddaï gael y blaen ar hyn yn dy feddyliau. Bwriad Dafydd oedd, "Ni roddaf gwsg i'm llygaid, na hûn i'm hamrantau, hyd oni chaffwyf le i'r Arglwydd, preswylfod i rymus Dduw Iacob;" *Salm* cxxxii. 4, 5. Y breswylfa oreu gan Dduw yw dy galon; ond rhaid oddi fod yn galon grediniol; *Eph.* iii. 17; "Ar fod Crist yn trigo trwy ffydd yn eich galonau chwi." O! pa fodd y beiddi di gysgu noswaith mewn tŷ nad yw Duw yn trigo ynddo? ac nid yw yn trigo ynot ti, os yw anghrediniaeth yn ben yn dy fynwes. Nid oes un bregeth efengylaidd a glywi, nad yw Duw yno yn sefyll wrth dy ddrws, ac yn curo; gochel bentyrn angharedigrwydd, arwy ei nacau o dderbyniad. Beth a wyddost, am i Dduw gael dy galon mor fynych yn gauedig i'w erbyn trwy anghrediniaeth, na fydd iddo o'r diwedd yn ddisymmwrthly selio i fyny dan anghrediniaeth barnaus?

Qwest. Yn awr y mae yn bossibl y gofyni, pa fodd i gael y ffydd werthfawr yma?

At. Yn ateb i'r gofyniad yma, cymmer y cyfarwyddiadau canlynol.

DOSP. I.

(Iaf.) Llafuria am galon deimladwy o anghrediniaeth, a thralodus o'i herwydd. Hyd oni wneuler hyn, ni fyddi ond cysglyd ac ysgafn yn dy ymgeis am ffydd. Fe all dyn gael ei argyhoeddi o bechodau ereill, a bod heb un meddwl am ddyfod at Grist. Argyhoeddwech feddwyn o'i feddwod, a phan adawo ei grefft feddw, y mae ei feddwl yn heddychol; i'e, y mae yn bendithio ei enaid yn ei ddiwygiad; am mai o herwydd y pechod pennodol hwnw yr oedd cweryl gan ei gydwylbod i'w erbyn. Ond pan fyddo Ysbryd Duw yn argyhoeddi creadur o'i anghrediniaeth, y mae yn myned rhyngddo a'i lochesau, lle byddai yn arfer ymguddio. Nid yw yn cael esmwythâd yn awr oddi wrth yr elion a fu gynt yn ei iachau, ac felly yn ei gadw rhag ffoi at Grist. O'r blaen, pan gyhuddai ei gydwylbod ef o ryw bechod, fe fedrai ei llonyddu, ond gadael y pechod hwnw; a phan gyhuddai ef am ei esgeulusdra o ryw ddyledswydd, digon fyddai cymmeryd y ddyledswydd hono i fyny, heb ddim ymofyniad ynghylch ei gyflwr, pa un ai drwg ai da ydyw; a gafodd ef faddeuant, ai ni chafodd. Dyma y modd y mae llawer yn gwneud eu dyfais i drwsio a chlytio heddwch eu cydwylbodau; yn debyg fel y gwna rhai, i gadw i fyny hen dŷ braenllyd, trwy wthio peithynen yma, a chareg acw, nes delo gwynt uchel a thafu y cwbl i lawr. Ond pan fyddo y creadur unwaith â llwyth ei anghrediniaeth wedi ei osod ar ei ysbryd, yna ychydig esmwythdra yw iddo feddwl nad yw yn feddwyn, fel y bu, neu atheistidduw yn ei deulu, heb addoliad yno fel y bu. Y mae dy gyflwr presennol, medd Ysbryd Duw, mor ddamniol a phe byddit yr fath un etto; am dy fod yn anghredadyn. Ië, yr hyn a fuost, ydwy; ac fe'th geir yn y dydd mawr i fod y meddwyn a'r atheist, er dy rith ddiwygiad, oddi eithr i ti, trwy feddiannu ffydd, gael enw newydd. Beth, er nad wyt yn meddwi mwyach, y mae yr euogrwydd yn aros arnat, hyd oni symmudo ffydd ef ymaith trwy waed Crist. Fe fyn Duw dâl o'i ddyled genyt ti, neu gan Grist drosot ti; ac nid yw Crist yn talu cyfrifon dros y rhai sydd yn parhau mewn anghrediniaeth.

Drachefn, megys y mae yr euogrwydd yn aros, felly y mae yr un chwantau yn aros yn eu grym (cyhyd ag y byddi yn anghredadyn) er iddynt beidio ymddangos yn y weithred oddi allan. Nid yw dy galon wedi ei dihybyddu o un pechod; ond y ffrwd sydd yn cael ei rhwystro gan ras attaliol. Nid yw costrel lawn o win, os bydd wedi ei chau yn dyn, ddim yn dangos y peth a fyddo yuddi, mwy nag un wag. Ac os hyny yw

1 Un yn gwaflu y bod o Dduw.

dy gyflwr, pa fodd y mae yn bossibl i ti wir farwhau un chwant, tra byddech heb ffydd, yr hon yw yr unig oruchafiaeth ar y byd? Mewn gair, os argyhoeddir di o' th anghrediniaeth, er lleied yw yn dy feddwl yr awrhon, ti ddeni i wled fod ynddo fwy o erchyll-dra na'th holl bechodau ereill. A fuost ti yn gelwyddwr? Dyna bechod trwm yn wir; y mae uffern yn agor ei safn am bob un sydd yn caru, ac yn gwneuthur celwydd: *Dad.* xxii. 15. Ond gwybydd, bechadur truan, mai y celwydd uchaf a ddywedaist erioed yw hwnw yr wyt yn ei ddywedyd trwy dy anghrediniaeth. Yr wyt yma yn dwyn gan dystiolaeth yn erbyn Duw ei hun; ac yn dywedyd celwydd, nid wrth yr Ysbryd Glân, fel y gwnaeth Ananias, ond celwydd am yr Ysbryd Glân; fel pe na byddai gair yn wir o'r hyn a lefarodd adlewidion yr efengyl. Os yw yr hwn a gredodd "yn selio mai geirwir yw Duw (*Ioan* iii. 33), bernwch chwi, onid yw yr anghredadyn yu ei wneuthur ef yn gelwyddog? A fuost ti yn llofrudd? i.e., wedi trochi dy law yng ngwaed y saint, y goreu o ddyinion? Dyna bechod erchyll, yr wyf yn cyfaddef; etto, trwy dy anghrediniaeth, yr wyt yn llofrudd mwy gwaedlyd, o gymnaent ag y mae gwaed dwyfol yn fwy gwerthfawr na gwaed dynol unig. Yr wyt yn ladd Crist drosodd dra-chefn trwy dy anghrediniaeth, ac yn mathru ei waed dan dy draed; i.e., yn ei daslu dan draed Satan, i'w fathru ganddo ef hefyd.

DOSEB. II.

Cwest. Ond pa fodd y gall anghrediniaeth fod yn bechod mor fawr, pan nad yw yng ngallu y pechadur i greu?

At. With y fath reswm a hwn, fe allai dyn diadgenhedledig ymlanhau oddi wrth unrhyw bechod arall, ac ysgwyd ymaith yr euogrydd o hono â dim ond dywedyd, nid fy mai i yw nad wyf yn cadw y gorchymyn hwn neu arall, o blegid m feddaf allu i'w gwneuthur hwynt o honof fy hunan. Y mae hyn yn wir; ni fedr efe gyflawni un weithred sanctaidd, mewn modd sanctaidd a derbynol: "Y rhai sydd yn y cawd, ni allant ryngu bodd Duw;" *Rhuf.* viii. Er hyn, casgliad anwireddus yw, nad yw efe yn pechu, o herwydd nas gall wneuthur yn amgen.

(*Iaf.*) O herwydd nad yw yr analluogrydd yma wedi ei greu gan Dduw, ond wedi ei fagu gan y creadur ei hunan. "Fe wnaeth Duw ddyw yn uniawn, ond hwy a chwiliasant allan lawer o ddychymygion;" *Preg.* vii. 29. Nid gan Dduw y cafodd dyn ei law ddn; nag e, fe'i gwnaethpwyd ef yn creadur abl a chymmlhwys i unrhyw wasan-aeth y rhyngai bodd i'w wneuthurwr ei osod ef arno, ond dyn a gloffodd ei hunan; ac ni ddichon bai dyn ddiddymu hawl Duw. Er iddo ef gollu ei allu i ufuddhau, ni cholodd Duw mo'i awdurdod i orchymyn. Pwy o

honom ni a gyfrif ei ddyledwr yn rhydd trwy ei waith yn difa y meddiannau a'r rhai y gallasai dalu i ni? Fe addefir pe buasai dyn yn sefyll, na buasai ganddo y peth a elwir yn ffydd efengylaidd; ac yn wir, na allasai greu yng Nghrist am iachawdwr-iaeth, fel y mae ef yn awr yn cael ei ddal allan yn yr efengyl; ond nid oedd hyn yn bod oddi wrth ddim analluogrydd yn y dyn, ond oddi wrth anaddasrwydd y fath wrthddrych i gyflwr Adda mewn diuweidrydd. Pe buasai yn ddyledsrydd addas i Dduw ei orchymyn, fe allasai dyn roddi ufudd-dod.

(2il.) Nid yw dyn yn esgusodol o herwydd ei bresennol anallu i ufuddhau i orchymynion Duw, ac yn neilldno i'r gorchymyn o greu (lle casto ei gyhoeddi) am mai nid gwendid yn unig yw, ond wedi ei gydbblethu â thlu mewnol elyniaeth yn erbyn y gorchymyn. Y mae yn wir na ddichon dyn greu; ond y mae yn wir hefyd, na fyn efe greu: "Ni fywch chwi ddyfod attaf fi, fel y castoch fywyd;" *Ioan* v. 40. Y mae yn bossibl, i.e., yn mynych ddigwydd, fod dyn (trwy ryw eiddilwch a llesgedd) yn cael ei analluogi i wneuthur yr hyn a ddy-munai wneuthur; ac y mae hyn yn cyffioi ein tosturi. Y fath un oedd y dyn claf, a orweddodd cyhyd wrth lan y llyn (*Ioan* v. 4), yr oedd yn ewyllysgar ddiagon i fyned i mewn, pe medrasai ymlusgo yno; neu i ryw rai eiteil ei fwrw i mewn, pe buasent mor dirion. Ond beth a feddylicch chwi am y fath ddyw claf, ac na fedr fyned ei hunan i'r llyn am iachâd, ac na fyn chwaith i neb ei helpio i mewn, ond a neidia yng ngwyneb y neb a gynnygia wneuthur y gorchwyl caredigol hwn iddo? Dyna ddull pob anghredadyn; y mae efe nid yn unig yn analluog o hono ei hun, ond yn wrthwyneb i'r Ysbryd Glân, sydd yn dyfod i'w ddena a'i dynu at Grist. Yn wir, y mae pob un sydd yn credu yn credu yn ewyllysgar; ond y mae yn ddyledwr, nid i natur, ond i ras, am yr ewyllysgarwch yma. Nid oes neb yn ewyllysgar hyd nes delo y dydd hwnw o nerth, (*Salm* ex. 3), ymha un y mae Ysbryd Duw yn cysgodi yr enaid, a thwy ei ymsymmudiad (fel ar y dyfroedd gynt, *Gen.* i. 2), yn adnewyddu ac yn ifaruio yr ewyllys i felu gydsyniad â galwad Duw yn yr efengyl.

PENNOD VIII.

Yn cynnwys hyfforddiad drachefn tuag at gal ffydd.

2il. Gochel dristan, neu wrthwynebu Ysbryd Duw, pan fyddo yn cynnyg ei help i'w gwaith. Os byth y credi, efe sydd rai dy alluogi; gochel ei wrthwynebu. Y gyntaf, pan fyddo y creadur heb ddisgwy wrtho, lle y mae yn gyffredinol yn gweith

du ffydd. Yn ail, pan fyddo y creadur, iddo ymarfer â'r moddion, etto yn ceisio eoli Ysbryd Duw yn ei orchwyl.

(1af.) Cymmer ofal rhag gwrthwynebu yr sbryd, trwy beidio disgwyl wrtho yn y brdd a'r moddion yma rai y mae yn arrol o weithredu ffydd. Ti wyddost pa le mae yr Iesu yn arfer tramwy heibio, a'i sbryd yn anadlu; sef yn ordinhâd fawr efengyl, gweinidogaeth y gair. Y mae aidd Crist yn arterol o ymddwyn, tra ddont yma yn yfed dwfr y bywyd. Gwrandawriad yr efengyl, fe'i gelwir yn wrandawriad ffydd, *Gal. iii. 2*, am mai trwy wrandaw hrawiaeth ffydd y mae yr Ysbryd yn weithio y gras o ffydd. Y mae ganddo yma lef ddistaw fain i lefaru trwyddi wrth eidiau pechaduriaid; "Dy lygaid fyddant gwelwed dy athrawon, a'th glustiau a swant air o'th ol yn dywedyd, dyma y rdd, rhodiwch ynddi;" *Esa. xxx. 20, 21*. mae Duw a dyn yma yn cyd-ddysgu. Ni droi dy gefn ar ddyseidiaeth dyn, heb i fod yn gwrthwynebu ddyseidiaeth yr sbryd hefyd. Yr oedd rhywbeth yn peri apostol osod y ddau moragos. *Yu 2 1hes. 19*, y mae yn gorchymyn na ddi-foddom Ysbryd; ac yn y geiriau nesaf, na ddir-gom brophwydoliaethau. Yn sicr, fe rai i ni wybod fod yr Ysbryd yn cael ei fiddod yn enbydus, pan ddirmygom bro-wydoliaeth, neu pan fyddom yn troi cefn yr ordinhâd o bregethu. Pan sefydlo wr weinidogaeth y gair yn rhywle, yna y e yr Ysbryd yn agor ei ysgol, gan ddis-lyl i bawb ddyfod iddi a fynent eu dwyn hyny a'u cymhwyso i'r nefoedd. O! chel fod fel bachgen chwareus, ac esgeu- o yr ordinhâd ar un achos diangenrhaid; enwedig gwylia rhag troi dy gefn arni. Yw hwnw yn tentio Duw, sydd yn ceisio ei gadw oddi wrth bechod, ac etto ni ceis ymgadw oddi wrth yr achlysuron sydd yn arwan i bechod, yna y mae hwnw yn atio Duw hefyd, a fynai gael ffydd, ac a ffesa mai ei ddymuniaid yw i'r Ysbryd ei eithio ynddo, ond ni ddaw o fewn rhod- dyffredinol yr Ysbryd, lle y mae yn arfer neuthur y gwaith. Pa un sydd gym- wysaf, i'r ysgolhaig ddisgwyl wrth ei str yn yr ysgol i gael ei ddsygu, ai i'r istr redeg ar ei ol, pan y mae yn dilyn hwarëydiaeth ar hyd y caeau, i'w ddsygu y? bernwch chiwi.

(2il.) Gochel rhag i ti, yn dy wrandawriad gair, geisio rheoli yr Ysbryd yn ei amryw thediadau o fewn dy enaid, mewn trefn euhedlu ffydd. Er nad oes gweithred- d o'r eiddom ni a ellir eu galw yn rhai otoawl i ras; etto, y mae gan yr Ysbryd n ei weithredoedd parotawwl, trwy y rhai mae yn tymneru yr enaid i dderbyn gras. sylw, gan hyny, yn ofalus ar ei ddynes- graddol trwy y gair at dy enaid; o her-

wydd fe all anghydsyniad â'i gynnyg beri iddo ymadael mewn anfoddlonrwydd, dros amser, a gadael y gwaith i sefyll mewn modd athrist; os nid ei roddi i fyny yn gwbl a pleidid dychwelyd ato byth mwy. Yrydym yn darllen (*Act. vii. 23*), fel y "daeth i galon Moses ymweled â'i frodyr yn yr Aipht" (wedi ei gymhell i'r daith, y mae yn ddi- ammueh, gan Dduw ei hun); yno y mae yn dechreu dangos ei ewylls da iddynt a'i sel drostynt, trwy ladd Aiphtwr a wnaethai gam âg un o blant Israel. Er nad oedd hyn yn beth mawr tuag at eu llawn ryddhâd o'r Aipht; etto, "efe a dybiodd (fel y dywedir, *adn. 25*) fod ei frodyr yn deall (trwy yr ar- wydd hwnw) fod Duw yn rhoddi iachawdwr- iaeth iddynt trwy ei law ef." Ond hwy ni chydsyniasant; i.e., yn hytrach gwrthwyneb- asant ef; ac am hyny fe ymadawodd, ac ni chlywsant mwy am Moses na'u rhyddhâd, nes "cyflawni deugain nylunedd;" *adn. 30*. Fel hyn, fe allai fod Ysbryd Duw yn ym- weled â thi mewn ordinhâd, ac yn cyfar- wyddo gair at dy gyflwr di yn neillduol. Fe fynai i ti ddeall, trwy hyn, bechadur, mor barod yw efe i'th waredu o dŷ dy gaethiwed, dy gyflwr o bechod a digofaint, os yn awr y gwrandewi ar ei gyngor, gan dderbyn ei gynnygion yn garedig. Ond os ymddygi yn wrthryfelgar yn awr i'w erbyn, nid oes ond Duw a wŷr pa bryd y clywi ef etto yn curo wrth dy ddrws ar y fath neges. Y mae Duw yn gwneud byr waith gyda rhai, yn ei ymdriniaeth farnol; os caiff wrthodiaid un- waith, y mae weithiau yn troi ei gefn, gan adael melldith ddychrynlyd o'i ol fel cosp am hyny: "Yr wyf yn dywedyd i chiwi na chaiff yr un o'r gwyr hyny a wahoddwyd brofi o'm swper i;" *Luc. xiv. 24*. Ni chawsent eu gwahodd ond unwaith; ac am y nacâd cyntaf fe'u clowyd dan y felldith yma. Ni ddywedir, na chânt ddyfod i'r lle y mae y swper wedi ei osod ar y bwrdd, ond na chânt brofi o hono. Y mae llawer yn eis- tedd dan ordinhadau, lle y mae Crist yn cael ei osod allan yn ogoneddus yn nysglau yr efengyl; ond trwy efaith y felldith yma arnynt, nid ydynt yn profi o'r danteithion hyn, yn eu holl fywyd. Y maent yn clywed gwirioneddau gwerthfawr; ond eu calonau wedi eu selio i fyny mewn anghrediniaeth, a'u meddyliau yn ddi-deall ac ymroddgar i ddyrgioni, fel nad yw yr hyn a glywant yn cyffroi dim arnynt. Mi glywais am fath o wallgofrwydd a gorphwylldra, yn yr hwn y mae dyn yn medru ymddiddan yn bwylllog ac yn rhesymol, nes y deloch i son am ryw un peth neillduol a fu yn achos o'i anhwyd, ac a ysigodd ei ymeuydd gyntaf; yma y mae yn colli arno ei hun, yn hurtio yn ebrwydd, ac ni fedr siarad gyda dim trefn yn ei gylch. O! gynnifer o feibion a merch- ed sydd yn ein plith (rhai yn gwrandaw y gair yn fynych) a fedrant ymddiddan am

unrhyw fater o'r byd yn dra deallus a rhesymol; ond pan ddoloch i son am bethau Duw, Crist, a'r nefoedd, rhyfedd mor fuan y collant eu rheswm, ac y dyrysa eu deall! Ni fedrant siarad am y materion yma gyda dim cyssondeb! Yn wir (wrth edrych ar lawer a fu yn hir dan foddion, ac y bu Ysbryd Duw yn ymryson peth â hwynt), y mae arnaf ofn nad yw yr anneallgarwch ysbrydol yma ddim ond efaith y felldith hono a roddodd Duw arnynt, am wrthsefyll cynnygiadau ei Ysbryd. Yr wyf yn erfyn arnoch, gan hyny, ochelyd gwrthwynebu yr Ysbryd. A yw ef yn anfon rhyw belydr o oleuni oddi wrth ei air i'th ddeall, trwy yr hyn yr wyt ti (oedd yn hurtyr anwybodus) yn awr yn dyfod i wybod rhywbeth am ddrwg pechod, a gwerthfawrogwydd Crist, ac yn medru ymddiddan yn rhesymol am wirioneddau y Beibl? Edrych yn awr ati, beth a wnelych â'r ganwyll yma o eiddo yr Arglwydd, a oleuwyd yn dy feddwl. Gochel rhag dy gael yn pechu yn ei goleu, neu yn ymfalchio ynddi; rhag iddi ddiffodd gyda drowdod, ac i tithau am wrthryfela yn erbyn y goleuni, ddyfod yn y diwedd i "drengu heb wybodaeth," fel y bygythir yn *Iob xxxvi. 12*. Os yw Ysbryd Duw yn myned etto ymhellach, ac yn cryfhau y goleuni yn dy ddeall, nes yw yn gosod dy gydwybod ar dân, a'r teimlad o'th bechodau, ac arswyd y digofaint sydd ddyledus am danynt; yn awr, gochel wrthwynebu yr Ysbryd Glân, sydd mewn trugaredd i'th enaid, yn ennyn y tân hwn yn dy fynwes, er mwyn dy gadw rhag un gwaeth yn uffern, os cymmeri dy ddysgu ganddo. Y mae yn rhaid i ti ddisgwyl y bydd i Satan (yn awr y mae ei dŷ ar dân uwch ei ben) ymgynhyrfu cymmaint ag y gallo i'w ddiffodd; y perygl yw, rhag i ti wrandaw arno er mwyn dy esmwythdra presennol. Cymmer ofal, gan hyny, o ba le y tynech dy ddwfr i ddiffodd y tân yma; na byddo allan o un ffynnon heb law gair Duw. Wrth geisio llonyddu dy gydwybod, ti elli lonyddu Ysbryd Duw yn dy gydwybod; yr hyn yw y drwg a chwennycheai y diafol i ti dynu ar dy ben. Y mae gwell gobaith o ddyr claf, pan fyddo ei afiechyd yn gweithio allan, na phan fyddo yn troi at y galon, ac heb ddim i'w weled ar y croen. Chwi a wyddoch y modd y prysurodd Hazael ddiwedd athrist ei feistr, yr hwn a allasai fyw er ei glefyd (*2 Bren. viii. 15*); "Efe a gymmerth wrthban, ac a'i gwlychodd mewn dwfr, ac a'i lledodd ar ei wyneb ef, fel y bu efe farw;" ac y mae yn canlyn, "a Hazael a deyrnasodd yn ei le ef." Fel hyn y daeth yr adyn i'r goron. Fe welodd y brenin yn debygol i wellau; ac â'r gwrthban gwlyb efe a drodd y clefyd (yn ol pob tebygohaeth) at ei galon ef; ac felly, trwy ei angu, gwnaeth ffordd iddo ei hun i'r orsedd. Ac yn wir, er i'r llosgfa bresennol yn dy gyd-

wybod dithau beri i Satan lawer o ofn colgorsedd dy galon; ni anobeithia gael ei a osod arni, os gall ond dy berswaio i arf rhyw ddyfais gnawdol i chwala y tân, diffodd yr Ysbryd yn ei waith argyhoeddiadol. Y mae yr argyhoeddiadau yma we eu danfon o drugaredd atat, mewn trefn i' ysbrydol waredigaeth: a hwy a ddylent f mor dderbyniol genyt ag yw tyner ddoluri gwewyr gan wraig wrth esgor. Heb y rh hyn ni allai hi gael rhyddhad o'i phlenty, ac heb argyhoeddiadau, mewn gradd m neu lai, ni all y creadur newydd gael ei e yn dy enaid dithau.

Drachefn, Gallai fod Ysbryd Duw y myned etto ym mhellach; a'i fod nid y unig yn taflu goleu i'th feddwl, tân uff i'th gydwybod, ond tân y nef hefyd i' serchiadau. Fy meddwl yw, y mae trwy gair yn egluro cymmaint am Grist yn ei bodol ragoriaefhau a'i gymhwysder i' angenion yn ei holl swyddau, nes ydyw serchiadau yn dechreu ymgynhyrfu ar ol. Y mae y mynych adroddiad am danc thrugaredd Duw trwyddo i bechaduria truan mor ddanteithiol, fel yr wyt yn d chreu profi peth melusder wrth glywed a danynt, a hyny yn codi ynot ryw d duniadau gwresog, nes wyt wrth wranda y gair yn mynych dori allan mewn ana iadau o fath y rhai hyn, O na byddai Cr yn eiddo fi!—A gaf fi byth fod mor hapus chael maddeu fy mhechod, a'm hachub g Dduw? Ie, y mae yn bossibl dy fod y mhoethder dy serchiadau yn melldithio chwantau, a Satan, a'th gadwodd cyh oddant wrth Grist, a bod bwriadau disymm yn cael lle ynot y bydd i ti adael dy h ffyrdd, a thori trwy holl erfyniadau chwantau anwyfaf i ddyfod at Grist. O enaid, yn awr y mae teyrnas Dduw yn v ger llaw i ti. Yr wyt, fel y gallaf ddyw yd, yn debyg i wraig yn amser bywhad plentyn yn ei chroth; ac am hyny, dyma pryd y mae angen am dy ofal mwyaf rha ti afwyddo. Pe byddai y dymuniadau y symmwrth yma ond yn addfedu i ddewisi difrifol o Grist; a'r bwriadau yma yn er hau hyd barhaus ymroad i ymwrthod phechod a hunan, a thithau yn bwrr hun yn y modd hyny ar Grist, mi a fei iwn ddwyn efarychiad llawen atat am en igaeth y baban hwn o ras (ffydd wyf feddwl) yn dy enaid. Yr wyf yn addef i serchiadau i fyny ac i lawr; ie, fely gwya pa mor gryf bynag y tybygid eu bod chwythu yr enaid yn bresennol un ffior fe'u ceir yn fynych mewn pwynt cwbl gr yn fuan wedi hyny. Fe all dyn fod feddw trwy boethder serchiadau, yn gyst thrwy win neu ddiodyd gref; ac fel y mae beth mor gyffredin i ddyr mewn gwin i ddiodyd daraw bargin y bydd eifarf ganddo pilegid, pan adawo ei feddwdd et; fel

yn beth cyffredin i greaduriaid truan
 rhau am eu bwriadau crefyddol. Hwy
 ant ryw fath o ddewisiad o Grist a'i
 id dan bregeth, tra y byddo eu serch-
 wedi eu mawr enny'n trwy yw ym-
 lan cynhyrftiol; ond ym mhên ychydig,
 i argraph y gair (a wresogodd eu serch-
) gael ei wisgo ymaith, y maent yn dy-
 tytut eu hunain, ac yna yr un fath bobl
 —mor bell oddi wrth hiraeth am Grist
 oed. Nac ymfoddlona, gan hyny, ar
 oesion disymmwrth o serchiadau, mewn
 hâd, ond llafuria i gadw yr argraphiad-
 wna yr Ysbryd y pryd hyny ar dy en-
 el na chaffont eu hanffurfio a'u rhwbio
 h (fel lliwiau newydd osod, cyn iddynt
) gan y brofedigaeth gyntaf a ddolo.
 ocheliad yr apostol (*Heb.* ii. 1); "Am
 y mae yn rhaid i ni ddal yn well ar y
 u a glywsom, rhag un amser i ni eu
 ng hwy i gollu;" neu i redeg allan fel y
 llestri candryll. Fe allai yn bresen-
 did dy galon yn toddi gan dristwch am
 chodau, a'th fod yn meddwl fel yma—
 er, nid edrychaf yn dirion ar fy chwant
 uwych. Yn wir, wrth weled y gwy-
 difrifol athrist dan bregeth, fe allai
 ewn syndod ofyn, Pa un o'r rhai hyn
 dyn neu y ddynes a geid wedi hyny yn
 o law yn llaw â'r pechodau y maent yn
 n galaru wrth glywed eu heuwi. Ond
 wyt yn caru dy fywyd, gwylia ar dy
 rhag i hyn ddarfod fel gwlith boreuol,
 n ni welir erbyn canol dydd. Gwna
 hyny fel y rhai hyny sydd wedi sefyll
 mewn ymdrochle brwd; y rhai, wedi
 allan, nid ânt yn ddioed i'r awyr agor-
 yddai hyny yn ddigon i'w lladd), ond
 rant yn ebrwydd i wely cynnhes, fel y
 ont y gwres tyner yma; ac yn awr,
 mae y tyllau chwys yn agored, hwy
 unt allan, trwy chwysu yn arafaidd,
 ll eu hafiechyd yn llwyrach. Fel hyn,
 era dithau i'th ystafell; ac yno llafuria
 meryd y fantais o'th dymmer dodded-
 sennol, er mwyn tywallt dy enaid yn
 ach ger bron Duw; ac a'th holl enaid
 yr arno na adawa mo honot yn fyr o
 ac na oddefa i ti afwyddo, yn awr yr
 anddo ar y droell, ond iddo dy wneud
 istr i anrhydedd. A hyn sydd yn can-
 l y trydydd hyfforddiad.

PENNOD IX.

*mwy tri hyfforddiad ym mhellach tuag at
 gael ffydd.*

1. Dyrcha dy gri mewn gweddi at
 am ffydd.

DOSB. I.

2. Ond a all anghredadyn weddio?
 e rhai yn meddwl na ddylai.

1. Dyma newydd drwg, pe byddai yn

wir, fe, i rai sydd yn credu, ond na fciiddiant
 ddywedyd mai credinwyr ydynt.

Fe fyddai yn ddigon i ddychwrnu y rhai
 hyn oddi wrth weddi hefyd; ac felly byddai
 fel y chwennyehai Satan iddi fod, na chai
 Duw ond ychydig neu neb i ymostwng iddo
 yn y rhan barchus yma o'i addoliad; o her-
 wydd nid ydynt ond y rhan leiaf o gredin-
 wyr a allant rodiat ar orsedd gras mewn
 golwg ar eu gras eu hunain. Y mae gweddi
 yn gyfrwng o addoliad ac hefyd yn gyfrwng
 o ras. Y mae yn foddion i ni roddi addol-
 iad i Dduw, ac hefyd i ddisgwyl am ras gan
 Dduw. Felly, y mae dywedyd na ddylai
 dyn annuwiol weddio, yn gystal a dywedyd
 na ddylai addoli Duw, a'i gydnabod ef yn
 wneuthurwr iddo; ac hefyd, na ddylai ym-
 arfer â'r moddion yn y rhai y dichon gael ei
 wneuthur yn gyfranog o ras a ffydd.
 "Gweddi (medd y Parchedig Mr. Baxter)
 yw ysgogiad yr enaid tuag at Dduw; ac nid
 yw dywedyd na ddylai anghredadyn weddio,
 yn ddim llai na dywedyd na ddylai droi at
 Dduw; pryd y mae efe yn dywedyd wrth yr
 annuwiol, 'Ceiswch yr Arglwydd tra y
 gellir ei gael ef; gelwch arno tra fyddo yn
 agos.' Dymuniad yw enaid gweddi (medd
 yr un awdur dysgedig); a phwy feiddia
 ddywedyd wrth yr annuwiol, Na ddymun-
 wech ffydd, na ddymunwech Grist yn rhan?
 Yn wir, nis gellir gwadu nad yw yr anghred-
 adyn yn pechu pan fyddo yn gweddio, ond
 nid gweddio yw ei bechod, ond ei waith yn
 gweddio mewn anghrediniaeth. Ac am
 hyny, y mae yn pechu llai wrth weddio nag
 wrth beidio; o herwydd pan fyddo yn
 gweddio, nid yw ei bechod yn gorwedd ond
 yn amgylchiad a dull ei waith; ond pan nad
 yw yn gweddio, yna y mae yn sefyll allan
 yn hollol yn erbyn y ddyledswydd a orchy-
 mynodd Duw iddo gyflawni, a'r moddion a
 appwyntiodd Duw i'w harfer tuag at dder-
 byn gras. Rhaid i mi gan hyny, enaid tru-
 an, beri i ti fyned ym mlaen er yr holl fw-
 bachod yma; ac nac esgeulusa y ddyled-
 swydd fawr hon a osodwyd ar holl feibion
 a merched dynion. Yn unig dos yn yr ysty-
 iaeth o'th ffeidd-dra dy hun; a gochel ddwyn
 y bwriadau o fyned ym mlaen mewn pechod
 gyda thi at orsedd gras: byddai hyn yn ddryg-
 ion i erchyll yn wir. Fel pe byddai i fradwr
 wisgo dillad gweision y brenin er mwyn cael
 dyfodiad haws at ei berson ef, fel y gallo ei
 wanu â'r ddaigr sy ganddo dan y wisg hono.
 Ai nid digon i ti bechu? ond a fynit ti fod
 Duw â llaw yn ei ddianrhydedd ei hun
 hefyd? Pe byddit o'r egwyddor yma (yr
 hyn ni ddymunwn), os danfonaf di i weddio,
 mi a'i gwnaf gyda chynghor Pedr i Simon
 y swynwr (*Act.* viii. 22); "Edifarhâ am dy
 ddrygioni hwn, a gweddia Dduw a faddeuir
 i ti feddylfryd dy galon." Ond yr wyf yn
 dy gymmeryd ti, i'r hwn yr wyf yn awr yn
 rhoddi cyngor, i fod o duedd arall; yr un

a ddygwyd i beth teimlad o'i gyflwr galarus, ac a feddalhawyd felly gan y gair, fel y byddit foddllawn i gael Crist ar ryw ammodau; yn unig, y mae yn ddyrswch yn dy feddyliau pa fodd y gall y fath creadur diallu, i.e., y fath bechadur digywilydd ag a fuost ti, byth ddyfod i greu ynddo. Fel mai nid y cariad presennol at un pechod yn dy galon, ond yr ofn yn dy gydwybod am bechodau a aethant heibio, sydd yn dy gadwr rhag credu. Yn awr, er dy fwyndi, mi ddymunwn gasglu yr annogaethau mwyaf cysurus allan o'r gair, a'u taenu ar hyd dy lwybr at orsedd gras. Dos, enaid tlawd, i weddi am ffydd. Nid oes arnaf ofn cael cerydd am ddaifon y fath gwsmeriaid at ddrws Duw. Yr hwn sydd yn ein daifon i alw pechaduriaid adref ato, nis gall fod yn ddiog o'th glywed di yn galw arno. Nid yw yn cael ei wasgu gymmaint gan y fath erfynwyr, fel y gall gael yn ei galon roddi nacâd i neb a ddelo ar y neges yma. Y mae Crist yn ewyno am bechaduriaid, "na fynant ddyfod ato, fel y caffont fywyd;" *Ioan* v. 40: ac a wyt ti yn meddwl y gâd efe i neb gwyno eu bod yn dymuno dyfod ac yntau yn anfoddlawn iddynt? Ymgysura, creadur truan, a chlura yn galonog: y mae i ti ewyllsiwr da ym mynwes Duw ei hun a all gael i ti groesaw. Yr hwn a allai roddi Crist drosot heb i neb weddio arno, ni rydd nacâd i'th ofyniad dithau am ffydd. Yr hyn yr wyt ti yn gweddio ar i Dduw ei gyfrannu, y mae yn rhoddi hyn yn orchymyn arnat; "Hwn yw ei orchymyn ef, Gredw o honom yn enw ei Fab ef Iesu Grist;" *1 Ioan* iii. 23. Felly, wrth weddio am ffydd, yr wyt yn gweddio am i'w ewylls ef gael ei gwneuthur genyt; i.e., y rhan hono o'i ewylls a ddymunna efe—y benaf—iddi gael ei gwneuthur, a elwir am hyn yn bennodol, gwaith Duw (*Ioan* vi. 29); "Hyn yw gwaith Duw; credu o honoch yn yr hwn a anfonodd efe." Fel pe dywedasai Crist, Os na wnewch hyn, nid ydych yn gwneud dim dros Dduw: ac yn sier Crist a wyddai feddwl ei dad oren. O mor dderbyniol, y mae yn rhaid i'r weddi hono fod gan Dduw, yr hon sydd yn cyd-darw â'i fwriad penaf ef! Fe gafodd Ioab fod ei erfyniad ef yng ngenau y wraig o Tecoa, yn llwyddo fel y dymunodd: pa fodd na wna'i, gau nas gofynodd ond y peth yr oedd y brenin yn ei chwennych yn fwy nag efe; i.e., yn fwy nag oedd yn bosibl iddo ef ei chwennych? A pha mor gryf bynag yw dy ddymuniad dithau am ffydd; onid yw, dybygit ti, yn rhoddi boddhad mwy i Dduw fod i bechadur argyhoeddedig gael ei ddwyn i greu, nag y dichon roddi i'r creadur ei hunan? Mi dybygw'n erbyn hyn y gellit, enaid tlawd, addaw i ti dy hun ddych-weliad llwyddianus o'r anturiaeth yma a wneist i'r nefoedd. Ond er dy galondid ym mhellach, gwybydd

am y gras hwn y mae dy angen a'th gymmaint am dano, ei fod yn brif rai bwrcas Crist. Y gwaed hwnw a bryd faddeuant, a bryndod ffydd hefyd, trw hon y gall pechaduriaid truan fwyndi maddeuant hwnw. Megys y diffoddod y digofaint oedd pechod dyn yn gyfi wedi ennyn i'w erbyn yng nghalon i felly hefyd fe bryndod ymaith yr elyn yn erbyn Duw, o'r hyn y mae calon y adur yn llawn, ac a dalodd am ystôr new o ras i osod i fyny eilwaith y creadur a heb ddim. Felly enaid, pan elych i we am ffydd, edrych ar Grist fel un sy gae drysor mawr o ras yn gorwedd yn ei y i'w roddi allan i bechaduriaid thlonion; yn gweled na feddant ddim i ddechreu arno; ac sydd, yn y teimlad o'r thodi yn syrthio ger ei fron ef. "Dyrchefaist uchelder, caethiwaist gaethiwed: deriaist roddion i ddynion; i.e., i'r rhai cyf hefyd, fel y preswylia yr Arglwydd Duw yn eu plith;" *Salm* lxxviii. 18. Y mae ddiammheu mai am Grist y meddylir y ac fe'i cymmhwsir iddo: *Eph.* iv. 8. awr, dal sylw, y mae yma yn gyntaf di ddaun law Crist, "rhoddion;" yn ail, yr sydd yn ei ymddiried iddo, sef y "derbyniaist roddion;" hyn yw, Crist ei Dad: yn drydydd, pa bryd neu ar bar rif y mae y Tad yn rhoddi y trysor y llaw Crist? "Dyrchefaist i'r uche caethgludaist gaethiwed: derbyniaist, Hyn yw, wedi i Grist orchfygu pech Satan trwy ei augen, a marchogaeth ngorfoleddus gerbyd ei esgyniad i freni ddinas y nef, yna y derbyniodd Crist rhoddion hyn fel bwrcas ei waed a iad o'r hen ddyled a addawsai Duw i'w (cyn seiliad y byd, pan gwtunwyd ar y ammod), ar yr ammod o fod iddo dalu i bechadur, a thyalwtiad ei werthfawr i ei hun hyd farwolath. Yn bedwared personau i wasanaeth pa rai y derbyn Crist y rhoddion hyn; "i ddynion," angylion; "i'r rhai cyndyn," nid dynion bechod; fel nad yw dy natur a'th fy pechadurus yn dy gau di allan, enaid thoddi wrth dderbyn rhan o'r anrheg ymaddiweddaf, Dal sylw ar natur y rhoddi a'r diben i ba un y mae Crist yn eu derbyn "Fel y preswylia yr Arglwydd Dduw eu plith," neu yuddynt. Yn awr, nid ond ffydd a wia enaid a fu yn dilyn ei dynurwyd yn breswylfa gymmhws i'r sanctaidd. Yn wir, hon yw y rhoddi mwy'n pa un y derbyniodd yr holl roddion ereill, mewn ystyriaeth. I ba ddiben y doniau a rhoddion yr Ysbryd a'r weinid aeth, apostolion, athrawon, bugeiliaid, Onid fel y byddai iddo drwyddynt we ffydd yng nghalonau pechaduriaid thlonion? Bydded i hyn roddi hyfder ynot i dderbyn ostyngedig â Duw, am yr hyn y te

am dano. Dywed, Arglwydd, yr wyf i bod yn adyn cyndyn yn wir: ond a byniodd Crist ddim i'r fath rai? Y genyf galon anghrediniol; ond mi af fod fydd wedi talu am dani yn dy amod; fod Crist wedi tywallt ei waed, byddai i ti dywallt dy Ysbryd ar led nghalonau pechaduriaid. A wyt ti yn lwl, tra y byddech fel hyn yn dadlau â mi, ac yn defnyddio enw Crist mewn fidi i'w gynhyrfu, y gall Crist ei hun dd yn y clyw, a pheidio taraw o blaid dy siad at ei Dad? Yn sicr, y mae efe ddilawn i'r hyn sy ddyledus iddo gan w gael ei dalu: ac am hyny, pan geisid i fydd, ar gyfrif ei augen ef, ti a'i yn barod i gyttuno â thi yn yr un i at ei Dad. Yn wir, fe aeth i'r nef ar rhan, fel na byddai i eneidiau truan awelyd o ddifffyg ewyllysiwr da yn y rhan ddelont â'u herfyniadau gostyng-uno.

DOSE. III.

Id. Cyfeillacha lawer â'r addewidion, iu hystyried yn fynych yn dy feddyliau riol. Gwaith yr Ysbryd, a'i waith ef i'w gylig, yw sylfaenu dy enaidar yr addewid; ddi bod i'w air trwy fydd yn dy e: hyn nis gelli di ei wneuthur. Etto, y daeth tân i lawr o'r nef ar aberth wedi iddo ef osod y coed mewn trefn ed mor bell ag y gallai, felly y gelli i'w obeithio yn gysurus y bydd i Ysbryd ddyfod gyda goleu a bywyd ysbrydol i yr addewid yn dy galon, pan fyddech ddywobodol ddiwyd yn myfyrio ar yr id; os wyt hefyd yn addef Duw yn y fely gwnaeth efe; yrhwn, ar ol gosod y mewn trefn, sydd yn dyrchafu ei galon i'w mewn gweddi, gan ddisgwyl y ddi wrtho ef: 1 *Bren. xviii. 37.* Ni ei ffordd well i wahodd Ysbryd Duw mnhorth na hou. Megys y mae yn y tentio y diafol i'w demtio, sydd i'w gael i'w lygaid sylu, neu ei feddyliau ar wrthliddrych nwyfus; felly y mae yn gwahodd yr Ysbryd sanctaidd ato n gosod ei feddwl ar wrthliddrychau ddi a nefol. Ni raid i ui ammheu w Ysbryd Duw mor barod i feithrin w gynhyrffad da, ag yw yr ysbryd i'w ol i feithrin yr hyn sy ddrwg. Yr yn cael y ddyweddi yn eistedd dan gl ei hanwlyd, megys dan bren afalau i. 3); ac yn y man hi a ddywed fod ywryth yn felus i'w genau." Beth y heisteddiad dan ei gysgod yn arwydd- an well nag enaid yn eistedd dan y i'w oliau am Crist a'r addewidion gwerth- rwydd yn tyfu o hono, fel cangenau o u. O Gristion, gosod dy hun yma dros y; a pheth rhyfedd fydd oni ysgwyd rwyd beth firwyth oddi ar ryw gangen sydd i'w fynwes. Megys y cyfarfu

Isaac a'i briodferch, pan oedd yn myned i'r maes i fyfyrto, felly ni wyddost nas gelli gyfarfod â'th anwlyd tra fyddech yn rhodio trwy fyfyrdod yng ngardd yr addewidion.

DOSE. III.

Yn olaf. Cymmhell a gwasga ar dy enaid y rhwymau o augurheidrwydd sydd arnat, fel pechadur truan, i greu. Y mae yn bossibl fod Duw wedi dy yru i gywilydd ger bron dy gydwybod dy hun, am bechod- au ereill; nes wyt yn ffeiddio hyd yn oed y meadwl am danynt? ac y byddai mor hawdd i ti ddiodeff rhoddi dy ben yn y tân a byw ynddynt. Pe gwneit gam â'th gym- mydog yn ei berson, eienw, neu ei feddiannau, fe ennynai dân yn dy gydwybod, a barai i ti ofni edrych tua chartref (ymddiddan â'th feddyliau dy hun wyf yn feddwl) nes yr edifarheit am dano. Ac ai fydd yn unig sydd yn fater bach, yn orchwyl wedi ei adael i'th ddewisiad dy hun, pa un a fyddi mor dda wrthyt dy hun, a chredu, ai peidio? Yn ddiu, wrth edrych ar dynerwch cydwybod llawer dan ddarostyngiad, a grynant rhag, ac o herwydd pechodau, ereill a'i gymmharu â'r ychydig deimlad a ddangosant o'u han- nghrediniaeth, gellid barnu ei bod yn meddwl y rhai hyny yn achos i Dduw ddigio; ac mai â hwynt eu hunain yn unig y gwnânt gam trwy hwn. O! fel y'th ddywyllyd yn ddirfawr gan dy feddyliau dy hun, os dyma dy ddychymmygion! Ie, os nad wyt yn meddwl dy fod mewn modd uwch yn dian- rhydeddu ac yn anfoddhau Duw trwy dy anghrediniaeth, na thrwy dy holl bechodau ereill. Yr hyn a ddywed Bernard am galon galed, a allaf finnau ddywedyd am galon anghrediniol. "Calon galed yn wir yw hono (medd efe) nad yw yn crynu wrth glyw- ed am galon galed." A chalon anghrediniol yn wir yw hono, nad yw yn crynu wrth glywed am galon anghrediniol. Galw dy hun i gyfrif, O! ddyd, a mÿn glywed beth sydd gan dy enaid i'w ddywedyd dros ei waith yn peidio ynwastgu â Christ; ac yna ti gei glywed y fath reswm afresymol a rydd. Rhaid iddo fod naill ai am dy fod yn anfoddlawn i'r ammodau, neu ynte am dy fod yn ofni eu bod yn rhy dda byth i gael eu cyflawni. Ai y cyntaf o'r rhai hyn yw dy reswm; sef am nad wyt yn foddllawn i'r ammodau, ar ba rai y mae Crist yn cael ei gynnyg? Y mae yn bossibl, pe gallest ond cael Crist, a'th chwantau gydag ef, y buasai yn fwy derbynol genyt; ond i ym- adael â'th chwantau er mwyn ennill Crist y mae hyn, yn ol dy feddwl, yn ymadrodd caled. Onid rhyfedd fod hyny yn dy an- foddhau di, yr hyn, pe gadawsai Duw ef allan, ni allasai fod wedi ein caru mewn gwirionedd? Yr wyt ti yn adyn ffol, ie, yn gythraul, os nad wyt yn cyfrif dy bechodau yn ddarn gwaethaf o'th drueni. O! beth yw Crist o werth yn dy feddyliau, os na

feiddi ymddiried iddo am wneuthur i fyny dy golled o ryw chwant gwael? Ychydig bris ar aur sydd gan y dyn hwnw a feddwl ei fod yn talu yn rhy ddrud am dano, wrth dafu ymaith lonaid ei ddwyllaw o dom, fel y gallo ei dderbyn. Wele bechadur, os felly y mae, nad yw yr ammodau, ar ba rai y mae Crist i'w gael, ddim wrth dy fodd; gofyn i'th enaid pa fodd yr ymdarewi a'r ammodau ar ba rai yr wyt ti yn dal dy chwantau. A elli di ymdaraw yn well (dybygit ti) yn uffern, heb wynfydedig bresenoldeb Duw (lle y mae dy chwantau yn sicr o dy ddwyn o'r diwedd, oni newidir dy feddwl), nag y y gwnaethit yn y nef, heb gyfeillach dy chwantau, lle y byddai ffydd yng Nghrist mor sicr o dy arwain, pe byddit yn berchen arni? Yn awr, ynte, y mae i ti ddeuwis; ac a wyt ti yn bwriadu gadael i ti dy hun waith edifarbau am dy ffolineb yn uffern? Ond mi feddylw'n, pe byddit mor ffyddlaw'n i ti dy hun ag i iawn ystryed y mater, a'i hysbysu i'th enaid yn ddirifol, gan roddi iddo amser i fyfyrto yn feunyddiol arno, na byddit yn hir cyn cael gwell meddyliau am Grist, a gwaeth am dy bechodau. Ond fe allai mai nid hyn yw y rheswm sydd yn dy gadw rhag credu; y mae yr ammodau yn gwbl wrth dy fodd; ond ni fedri feddwl y bydd i'r fath bethau mawrion ag a addewir byth gael eu cyflawni i'r fath un a thi. Wele, o'r ddau, gwell yw fod y rhwystr yn dy ffordd at Grist yn gorwedd yn anfedrus-rydd dy ddeall i amgyfred, nag yng nghyndynrydd dy ewyllys i dderbyn, yr hyn y mae Duw yng Nghrist yn ei gynnwng. Ond rhaid i hwn gael ei symmud hefyd. Ac am hynny, taraw at y gwaith gyda'th enaid, a llafuria i'w gael i reswm yn y peth yma; o herwydd yn wir nis gall dim fod yn fwy afresymol na gwrthddadieu yn erbyn gwirionedd a sierwydd addewidion Duw. Dau beth, wedi eu dwfn argraffu ar dy enaid, a dawelai dy ammheuan, ac a chwalai dy ofnau yn yr achos.

(1af.) Llafuria i gael iawn farn am Dduw yn dy ddealltwriaeth; ac nid ymddengys yn beth dieithr fod y Duw mawr yn gwneuthur y fath bethau mawrion i bechaduriaid truan. Pe yr addawai cardotyn i chwi fil o bunnau yn y flwyddyn, chwi allech yn wir ei ddibrisio, a gofyn pa le y caffai efe gymmaint? ond pe yr addawai tywysog fwy, chwi wraudaewch, am fod ganddo foddion yn gyfattedbol i'w addewid. Nid yw Duw wedi ymrwymo am fwy trwy addewid nag a fedr trugaredd, gallu, a ffyddlondeb anfeidrol ei dalu: "Peidiwch, a gwybyddwch mai myfi sydd Dduw;" *Salm* xlv. 10. Am y *Salm* yma y dywedai Luther, mewn amseroedd o derfysg mawr yn yr eglwys, "Deuwch, canwn y chweched *Salm* a deugain, er gwaethaf y diafol a'i holl offerynau." A'r rhan yma o houi a elli dithau, enaid drylliedig, ganu

gyda chysur, er gwaethaf Satan a phlec hefyd. Paid, O! fy enaid, a gwybydd yr hwn sydd yn cynwng i ti drugaredd, sydd Dduw; a'r rhai a adwaenaut ei a ymddiriedant ynddo."

(2il.) Ystyria yn fanwl y sicrwydd a y Duw mawr yma am gyflawniad o'i adeid i'r credady'n; a thi a gei weled fod hyn yn gymmaint (wedi ei roddi gan un a hae ei greu ar ei air, am fwy na gwerth heneidiau), fel pe byddai genym y dyn mwy twyllodrus yn y byd dan y fath rwyi, am daliad swm o arian, ni a feddyliaf fod yn ddiagon sicr. Ac oni foddlonni pan y mae y Duw geirwir a ffyddlaw'n rhoddi ei hun dan y rhwymau hyn er hâd i ti? Cofia fod ei wirionedd mor angnewidiol, fel y mae yn haws i oleuni ddallan o dywyllwch, nag i gelwydd ddallan o'i wesusau bendigedig ef.

PENNOD X.

Annogaeth i gredinwyr, uwch law pob dim, i e ar eu ffydd, gyda rhai hyfforddiadau er ei wracth.

Yr wyf yma yn troi atoch chwi, gredinwyr, mewn annogaeth ddyblyg.

1. Gan fod ffydd yn fath ras devcyffroer chwi i ofal mwy na chyffredin chadwraeth. Cadw hon, a hi a'th g dithau, a'th holl rasau hefyd. Trwy yr wyt ti yn sefyll; os diffygia hono, t a syrthi, a pha le y ceir di erbyn hyn dan draed dy elyn? Bydd ystyriol o un berygl a ddigwyddo i dy ffydd; fel y ben Groegaid hwnw, yr hwn, wedi daraw i lawr mewn ymladdfa, a ofy cyn gynted ag y daeth ato ei hun, pa oedd ei darian. Am hwn yr oedd e uwch law pob peth arall. O! ymofyn brofedigaeth yma, a'r ddyledswydd ac le y mae dy ffydd, a pha fodd y mae y daraw? Hwn yw y gras y mynai Duw yn benaf farnu a phwysu ein hunainw o herwydd bod llai o berygl magu bal yn y gras hunanwaghaol yma nag un. "Yr wyf yn dywedyd, trwy y g roddwyd i mi, wrth bob un a'r sydd y plith, na byddo i neb uchel synied yn a nag y dyld synied; eithr synied i sobr fel y rhanodd Duw i bob un fesur ff *Rhuf.* xii. 3. Yr oedd amryw rodd dderbyniasai y Rhufeiniaid gan Dduw efe a fynai iddynt synied am danynt ei ain yn hytrach wrth eu ffydd; a'r rhyw, fel y byddai iddynt synied i sobr Yn wir y mae pob gras arall i'w brofi ein ffydd; os nad ydynt yn ffwrwythau nid ydynt o ddim gwir wrth. Dy gwahaniaeth sydd rhwng Cristion a P gonest. Y mae hwn yn prisio ei hun

amvnedd, cymmedroldeb, haelioni, a rhin-
ldau moesol o'r fath, sydd ganddo i'w
agos uwch law ereill. Y rhai hyn, y mae
y disgwyl, a'i cyflwynant ef i Dduw, ac a
illiant iddo ddedwyddwch ar ol marw ;
yn y rhai hyn y mae yn ymgoneddus, ac
gwneud ei ymfrost tra y byddo byw. Ond
fod y rhai hyn yn rasau yn y Cristion
heb fod ond yn rhinweddau yn y llall) y
efe yn cael ei gadw yn sobr yn yr olwg
ynt ; o herwydd bod ganddo adnabydd-
h o Grist, cyfiawnder a sancteiddrwydd
awn sydd trwy ffydd yn eiddo iddo : ac
ae yn prisio ei hun wrth y rhai hyn yn
na dim sydd ganddo ei hun. Nis
af amlygu hyn yn well, na thrwy ddau
y naill yn wr llys, a'r llall yn wladwr,
yn ddieithr i'r llys ; y ddau yn meddiannu
ddiaethau hardd ; ond gwr y llys yn
af o lawer. Gofynwch i'r gwr boneddig
wlad (nad yw yn perthyn i'r llys, nac
yn ffafir gyda'r brenin) pa faint a dâl efe ;
y ddywed i chwi gymmaint ag a gyrhaedd
roedd a'i arian ; y rhai hyn sydd gan-
ef i brisio ei hunan wrthynt. Ond
wch i'r gwr llys pa faint a dâl yntau ;
r fod ganddo lawer mwy o dir ac arian
llall) efe a ddywed i chwi ei fod yn prisio
un wrth ffafir ei frenin, yn fwy nag wrth
oll feddiannau ereill. Mi allaf, medd
ddywedyd gair mawr, y mae yr hyn a
fy mrenin yn eiddof fi (oddi eithr ei
a'i frenhinol urddas) ei bwrs yn eiddo
a cynnal, ei gariad i'm croesawu, a'i
m hamddiffyn. Y paganiaid truaïn,
u bod yn ddieithriaid i Dduw, ac i'w
yng Nghrist, ymfendithiant yn eu
ddiad o'u hystôr naturiol ; a'r trysor
o rinweddau moesol a gasglant ynghyd
eu diwydrwydd, a'r attaliad a roed ar
y gredigaethau gan law ddirgel nad
nt hwy yn ei chanfod. Ond y cred-
gan fod iddo " ddyfodfa trwy ffydd
as hwn, yn yr hwn y mae yn sefyll"
uchel mewn ffafir gyda Duw trwy
; y mae efe (megys y dylai) yn prisio
un wrth ei ffydd, yn hytrach nag wrth
dd neu ras arall. Er nas gall neb, heb
r hwn sydd yn credu, ddangos grasau
gwir nefol harddwch, etto nid yn y
ayn y mae efe yn ymfendithio, ond yng
rist, yr hwn sydd yn eiddo iddo trwy
Efe a all ddywedyd, trwy drugar-
fod ganddo galon wedi ei harddu â'r
nefol hyny ; â pha rai nid yw rhith
ddau y pagan, na rhith rasau y dyn
na gyfiawn chwraith, ddim mwy i'w cys-
ll nag yw y llun yn y drych i'w gys-
ll â'r gwyneb, neu y cysgod â'r dyn ei
na. Fe all ddywedyd hefyd fod ganddo
sancteiddrwydd hwnw mewn gwirionedd,
es ganddynt hwy ond ei rith a'i ym-
osiad. A'r gras Duw yma o'i fewn, y
en ei brisio ym mhell uwch law holl

drysorau a phleserau y byd ; byddai yn well
ganddo fod yn sant mewn bratiau nag yn
bechadur mewn porphor ; ie, uwch law ei
fywyd naturiol, yr hwn a fyddai yn fodd-
lawn i'w gollu, ac ni chyfrifai ei hun mewn
colled, os gallai trwy hyn ond cadw ei
fywyd ysbrydol. Etto, nid hyn yw y gair
mwyaf a ddichon credadyn ei ddywedyd ;
y mae efe nid yn unig yn gyfranog o'r dduw-
iol anian, trwy egwyddor o sancteiddrwydd
a blanydd yndo, ond hefyd yn etifedd i'r
sancteiddrwydd, ie, i'r holl berffeithrwydd
gogoneddus, sydd yn Nuw ei hunan. Y
cwbl ag ydyw Duw, a fedd, neu a wna, y
mae iddo ef genad i'w galw yn eiddo iddo
ei hun. Y mae Duw yn dra boddlaw'n i'w
alw yn Dduw i'w bobl. " Duw Israel" yw
efe wrth ei enw : 2 *Sam.* xxiii. 3. Megys y
mae tŷ a thir gwr yn dwyn enw eu perchen,
felly y mae yn rhyngu bodd i Dduw ddwyn
enw ei bobl arno, fel y gallo yr holl fyd
wybod i bwy y mae yn perthyn. Y mae
gwinllan Naboth yn cael ei galw yn rhan-
dir, neu yn rhan Naboth (2 *Bren.* ix. 21),
felly y mae Duw yn cael ei alw yn " rhan
Jacob ;" *Ier.* x. 16. Ni chadwodd Duw
ddim oddi wrth ei bobl, ond ei goron a'i
ogoniant ; hwnw, yn wir, " ni rydd i arall ;"
Esa. xlii. 8. Os oes ar y Cristion eisieu
nerth, mynai Duw iddo " ymafyd yn ei
nerth ef" (*Esa.* xxxvii. 5) ; ac fel y gallo
wneud hyny yn eofn a hyderus, y mae efe
yn ei alw ei hun yn gadernid ei bobl :
" Cadernid Israel ni ddywed gelwydd ;"
1 *Sam.* xv. 29. Ai cyfiawnder a sancteidd-
rwydd y mae efe yn dlawd o honynt ? Wele
fel y maent yn cael eu dwyn at ei law :
" Crist a wnaethpwyd i ni gan Dduw yn
gyfiawnder," &c. ; 1 *Cor.* i. 30 ; am hyny
fe'i gelwir " Yr Arglwydd ein cyfiawnder ;"
Ier. xxiii. 6. Ai cariad a thrugaredd a ddy-
mument gael ? Y mae yr holl drugaredd
sydd yn Nuw at eu gwasanaeth : " Mor
fawr yw dy ddaioni a roddest i gadw i'r
sawl a'th ofnant ;" *Salm* xxxi. 19. Craff-
wch ar yr ymadrodd, " a roddest i gadw i'r
sawl a'th ofnant ;" y mae efe wedi bwriadu
ei ddaioni a'i drugaredd iddynt hwy ; yn
debyg i dad a roddest ryw swm o arian i
gadw, ac a ysgrifennai ar y gôd, dyma ran y
plentyn a'r plentyn. Ond pa fodd y mae y
Cristion yn dyfod i gael yr hawl yma yn
Nuw, a'r holl drysor mawr a dirif o dded-
wyddwch sydd yndo ? Y mae hyn yn
wir i'w ystyried yn fawr ; a fydd yw yr hyn
sydd yn rhoddi iddo hawl dda i'r cwbl. Yr
hyn sydd yn ei wneuthur ef yn blentyn,
sydd hefyd yn ei wneuthur yn etifedd. Yn
awr ffydd sydd yn ei wneuthur yn blentyn ;
Ioan i. 12 ; " Cynnifer ag a'i derbyniasant
ef, efe a roddest iddynt alu i fod yn feibion
i Dduw, sef i'r sawl a gredant yn ei enw
ef." Gan hyny, os na fynech gael galw eich
genedigacath fraint i gwestiwn, a dwyn eich

rhan yng Nghrist, a'r rhagorfreintiau gogoneddus sydd yn tarddu o hono, dan amheuaneth athrist yn eich eneidiau, edrychwch at eich ffydd.

Cwest. Ond pa gynghor (gall y Cristion ddywedyd) a roddwch chwi er cadw fy ffydd?

At. I hyn mi a roddaf ateb yn yr hyn a ganlyn:—

(1af.) Yr hyn a fu yn offerynol i genhedlu dy ffydd, a fydd hefyd yn gynnorthwyol i'w chadw. Gair Duw wyf yn feddwl. Megys y bu yn had i'r diben cyntaf yn dy ddychweiliaeth, felly y mae yn awr yn laeth er cynnaluaeth bresennol i'th ffydd. Gorwedd i sugno wrth y fron yma, a hyn yn fynych. Nis gall plant sugno yn hir, na tireulio llawer yn y cylla ar unwaith; ac am hyn rhaid iddynt gael eu prydiau yn fynychach. Y fath blant yw pob credinwyr yn y byd hwn. Y mae yn rhaid "gorchymyn ar orchymyn, llin ar lin, ychydig yma, ac ychydig acw;" *Ésa.* xxviii. 10. Rhaid i'r fron gael eu thynu allan yn fynych er maethu eu bywyd ysbrydol; onid e ni allant ymgynnal. Nid peth cyffredin oedd fod Moses yn edrych crystal ag yr oedd ar ol ymprydio cyhyd: *Exod.* xxxiv. Ac yn ddiau rhyw ffydd ryfeddol sydd raid fod gan y rhai hyn a gymmerant arnynt gadw eu ffydd yn fyw heb gael dim ymborth ysbrydol oddi wrth y gair. Mi glywais am rai plant a gymmerwyd yn fuan ar ol eu geni oddi wrth iron eu mam, ac a fagwyd â llaw; y rhai, er hyn, a gynnyddasant yn gymmedrol o ran eu bywyd naturiol; ond ni fedraf gredu fod creadur a daslo ymaith ordinhadau, ac a ddiwyfno ei hun oddi wrth y gair, yn cynnyddu yn ei fywyd ysbrydol, nes y clywaf am ryw ffordd arall o drefniad Duw er ei gynnaluaeth gyffredinol, ac yr wyf yn anobeithio byw i weled hyn yn cael ei brofi. Mi a wn fod rhai y mae gobaiith da am danunt wedi cael eu perswadio dros amser i droi eu cefnau ar y gair a'r ordinhadau; ond hwy a ddychwelasant yn ddigon newnlyd at eu hen fywoliaeth drachefn; i'e, â chwerw gwynfan Naomi yn eu geneuau: "Myf i aethum allan yn gyflawn, a'r Arglywydd a'm dug i eilwaith yn wag;" *Ruth* i. 21. A da yw iddynt eu bod wedi cael blas ar eu bwyd yn y byd hwn, cyn ei gymmeryd oddi ar y bwrdd am byth. Yr oedd yr hwn a ddysgodd i Gristionogion weddio am eu "bara beunyddiol," yn barnu fod arnynt ei eisieu; ac yn sicr nid oedd yn meddwl yn unig, neu yn benaf, am fara i'r corph; o herwydd y mae yn yr un bennod yn gorchymyn ceisio "yn gyntaf deyrnas Dduw;" *Mat.* vi. 33. Gan hyn, Gristion, gwna yn fawr o'r gair; ymbortha yn awchus ar y gair; pa un bynag a fyddo ai wedi ei osod allan mewn pregeth yn gyhoeddus, ai mewn ymddiddan o'r neilldu â rhyw

gyfaill, neu gyfeillion Cristionogol, ai yn ddyweddydd fwy dirgel o ddarlleniaid, myfyrdod ar dy ben dy hun. Na chaffi un o'r rhai hyn fod heb ei harfer, na'i harfer yn gnawdol genyt; a thrwy fendith Du ti a gei fedi y lles o hyn yn dy ffydd. Os gwauhâ dy awydd i'r gair, y mae y rhaid i'th ffydd ar y gair ddechreu gwauhâ hefyd. O! na byddai i Gristionogion sy yn cwyno cymmaut o achos eu ffydd wna droi eu cwyfuan yn ymfyniad pa ham mae eu ffydd mor wan ac anniharol! Nid am fod ffydd wedi colli ei phrydiau a ferol o'r gair? Fe allai dy fod gynt we tori trwy lawer o anhawsder i gadw i fy dy gydnabyddiaeth â Duw yn ei air; ac a yr anser a fenthyciaist gan dy achosi ereill i'r diben yma, ti gefaist dâl da a dano yn yr hwy felus y byddai dy gal yuddi i ymddiried yn Nuw, a phwyso ar ymhob cyflwr. Ond yn awr, er pan rodda heibio dy fynych gyfeillach â Duw yn ordinhadau, fe ddaeth arnat gyfnewidiathrist. Lle buost yn gallu ymddiried Nuw, yr wyt yn awr yn amheus o hon Yr addeuidion hyn a fyddai mewn am o derfysg gan dy nwydau afreolus, yn gwgwneud dystawrwydd a lonyddwch na yn dy enaid, ar eu hymddangosiad cynt i'th feddyliau; Oeh! yn awr nid oes gy ddynt nemawr o awdurdod ar dy galon ry nachlyd angbrediniol, i'w chadw mewn o trefn weddus. Os fel hyn y mae gyda t enaid tuan, y mae dy gyflwr yn salw, ac feddaf well cyngor i'w roddi i ti yn ac dy enaid, na hwnw a rydd physgywyr achos y corph i ddynion mewn darfedoeth. Hwy a ofynant iddynt pa le y ganw ac y magwyd hwynt, ac a'u danfant i awyr eu gwlad enedigol, fel y lle teby iddynt gael iechedy drachefn. Felly, gyf minnau ofyn i tithau, os bu genyt fferioed, pa le y ganwyd ac y magwyd hi? nid yn awyr iach yr ordinhadau, gwrand myfyrio, ymddiddan am y gair, a gwel uwch ben y gair? Dos, creadur truan dychwel ar frys i'th awyr enedigol, ll tynaist dy anadl gyntaf fel Cristion; a l cynnyddodd dy ffydd gystal dros amser. oes dim moddion tebycach na hyn i osod ffydd egwan ar ei thiaed eilwaith.

2. A ddymunit ti gadw dy ffydd? edd at dy gydwobod. Cydwobod dda ydy llestr y mae ffydd yn morio arni; os i llongddrylliad ar y gydwobod, pa fodd y gwyir i ffydd fod yn ddiogel? Os ffydd y perl, cydwobod dda yw y coffr ym un ei cedwir. Ac os torir y coffr, rhaid perl fod mewn perygl o'i gollu. Yn achwi wyddoch pa bechodau sydd yn rheithio y gydwobod; pechodau a wr yn ddiffyrbwyll a bwriadol, neu y par ynddynt heb edifeirwch. O! gochei bechodau bwriadol: fel cared a daler i

oew, hwy a gymmysgant ac a ddiwynant
ly enaid, fel y byddi di (a fedrit o'r blaen
weled dy hawl yn yr addewid) yn awr yn
aethu gwybod beth i feddwl am danat dy
un. Maent fel tân ymhen y tŷ; nid
awdd ei ddiffodd. Ond os buost mor an-
apus a sythio i'r ffos, gochel orwedd ynddi
rwy anedifeirwch. Fe all y ddafad syrthio
r dom, ond y mochyn sy'n ymdreiglo yno :
e am hyny, pa mor anhawdd, dybygiti ti,
ydd i ti actio dy ffydd ar yr addewid, pan
dddech trwy dy ddillad tomlyd a'th wyneb
udr mor annhebyg i un o saint Duw ?
eth peryglus yw yfed gwenwyn; ond llawer
rwy yw y perygl os caiff aros yn hir yn y
orph. Er i ti fod yn gredadyn, nis gelli
eithredu dy ffydd ar yr addewid (fel ag i
ymhwyso at dy enaid y maddeuant a
ymygir ynddi) hyd nes adnewyddech dy
liferwch.

3. Ymarfer dy ffydd, os wyt yn meddwl
chadw. Yr ydym ni yn byw trwy ffydd;
y mae ffydd yn byw trwy ei hymarfer.
ei y dywedwn am ryw ddyinion gweithgar,
d ydynt byth yn iach ond wrth eu gwaith;
dych hwynt yn y gwely neu y-gadair, a
na chwi yn eu lladd. Felly yma; rhwystr-
ch ffydd i weithio, a chwi fyddwch elyn-
n hyd yn oed i'w bywyd a'r bod o honi.
a beth sydd yn peri i ni allu gweithredu
n lleied o ffydd mewn gweddi, ond ein
d mor anfynych yn ei harfer? Cedwch y
ynton heb weled ei dad neu ei fam ond
a anfynych; a phan ddelo i'w golwg nid
er fydd ei gais am fyned atynt. Pa ham
d allem ni fyw yn haws ar yr addewid
ewn rhyw fwlch cyfyng? yn sicr, am ein
d yn byw cyn lleied gyda'r addewid. Po
yaf y cyfeillachom gyda'r addewid, mwy-
fydd ein hyder arni. Ni ymddriedwn i
troniaid fel i'n cymmydogion y byddom
o'n cymdeithas bob dydd. Byddai yn
rdd wych i ddiogelu ein ffydd, ie, i'w
ynnyddu hi a'n holl rasusau ereill, pe llafur-
n yn ein gyrfa feunyddiol i wneuthur ein
ll weithredoedd megis mewn ufudd-dod
gorchymyn, felly hefyd mewn ffydd ar yr
addewid. Ond och! pa gynifer o antur-
thau a gymmerir mewn llaw heb alw ffydd
mewn, nac ymgynghori a'r addewid o dde-
reu y gorchwyl i'w ddiwedd! Ac am
ny, pan dymunem arfer ffydd mewn rhyw
lech neillduol, yn yr hwn yr ydym yn fwy
off na chyffredin; yna y mae ein ffydd yn
goff ac ar goll. Yn debyg i was, yr hwn
a fod ei feistr yn rhoddi gwaith iddo yn
anfynych iawn, sydd yn ymfhau i ro-
na; ac felly pan alwo ei feistr arno ar ryw
chos anghyffredin, y mae efe ar led, ac ni
ceir gafael arno. O Gristion, gochel
eael i'th ffydd fod yn hir allan o waith:
ona arferi di hi pan ddylech, hi all fod ar
gl genyt pan fyddo'th ddymuniaid fwyaf
a ei gwasanaeth.

4. Cymmer sylw neillduol o'r anghredin-
iaeth sydd etto yn aros o'th fewn: ac fel y
mae yn gwthio ei ben allan yn feunyddiol
yn dy yrfa Gristionogol, bydd sicr o lwytho
dy enaid a'r teimlad o hono, ac o ddwfn
ymddarostwng ger bron Duw o'i blegid.
Yr hyn y mae dy ffydd yn ei gollu trwy bob
cynhyrriad o'th anghrediniaeth, y mae yn
ei ennill yn ol trwy adnewyddu edifeirwch.
Yr oedd ffydd y Salmydd ar wellhâd pan
allai fwrw cywilydd arno ei hun am ei
anghrediniaeth: *Salm lxxiii. 22.* Y mae yn
cyfaddef mor ynyfyd ac anwybodus oedd; "Iâ
(medd efe), anffail oeddwn o'th flaen di;"
mor afresymol ac anifeiliaidd oedd ei feddyl-
iau anghrediniol yn awr yn ei olwg. A
thrwy y cyfaddefiad rhydd a gostyngedig
hwn, y mae gwenwyn ei afiechyd yn gweithio
allan, fel y mae yn ebrwydd yn ei hen dym-
mer drachefn, a'i ffydd mor rymus ag er-
ioed; "Ymafaist yn fy llaw ddehau. A'th
gynghor y'm harweini; ac wedi hyny, y'm
cymmeri i ogoniant;" *adn. 23, 24.* Ond
cyhyd ag y byddech heb dy ddarostwng o
blegid dy anghrediniaeth, y mae yn sicr o
gynnyddu arnat. Yr ydym yn cael yn
Barn. xviii. 7, y rheswm pa ham yr
ydoedd trigolion Lais mor ddrygonus:
"Nid oedd swyddwr yn y wlad, yr hwn a
allai eu gyru hwynt i gywilydd mewn dim."
Gristion, y mae genyt ti swyddwr yn dy
fynwes wedi ei awdurdodi gan Dduw ei hun,
i'th attal, i'th geryddu, a'th yru i gywilydd
pan fyddech yn pechu. Yn wir, y mae pob
peth mewn annhrefn yn yr enaid hwnw lle
na byddo hwn yn cyflawni ei swydd; gwan-
daw gan hyny beth sydd ganddo i'w roddi
i'th erbyn, fel y'th yrer i gywilydd. Nid
oes un pechod a ddianrhydedda Dduw yn
fwy nag anghrediniaeth: ac yn llaw sant y
mae y cleddyf yma yn tori ddyfnaf i'w enw.
O! cael ei glwyfo yn nhŷ ei garedigion! y
mae hyn yn myned yn agos at ei galon dy-
ner ef. Ac y mae rheswm ddigon pa ham
y mae Duw yn cymmyrd y pechod yma
mor angharedig ar ddwyllawsant, os ystyriwn
y berthynas agos y mae y cyfryw un yn
sefyll ynddi i Dduw. Fe offidiai tad trion
weled ei blentyn yn dyfod i'r llys ac yno yn
dwyn tystiolaeth i'w erbyn, gan ei gyhuddo
o ryw anwiredd yn ei einiau, yn fwy na phe
byddai estron yn ei wneuthur. O blegid er
fod tystiolaeth plentyn yn cael llai o goel
pan fyddo ar ochr ei rieni, trwy yr amheua-
eth fydd o'i duedd yn eu plaid; etto, pan
fyddo yn erbyn ei rieni, y mae yn ym-
ddangos yn debyeach i fod yn wir, na'r hyn
a ddywedai estron, am fod rhwymyn y serch
naturiol (a ddylai fod ganddo atynt) mor
gryf, fel na feddylir y gallai gynnwng tori
drwyddo, ond oddi ar angenrheidiwydd
hollol i ddwyn tystiolaeth i'r gwir. O!
meddwl am hyn, Gristion, drachefn a thra-
chefn: yr wyt ti trwy dy anghrediniaeth yn

dwyn gau dystiolaeth yn erbyn Daw. Ac os wyt ti, ei blentyn, heb ddywedyd dim sy well am dy Dad nefol, ac yn rhoddi allan air mor wael am dano i'r byd, nid rhyfedd os cryfheir hwy yn eu meddyliau caledion am dano (ie, hyd barhaus ddiëdfeirwch) wrth weled leid o gred y mae yn gael genyt ti er dy holl broffes am dano, a'th berthynas agos iddo. Pebaem am ddifrio dyn i raddaumawr, nis gallef feddwl am ymadrodd a fyddai yn fwy i'r pwmpas na dywedyd am dano, Y mae y fath un nas gall y rhai agosaf ato, na'i blant ei hun chwaiith, ymddiried iddo na rhoddi iddo air da. O Gristion! gofyn i ti dy hun, a ddymunit ti fod yr offeryn annedwydd i oganu Daw a dwyn ei air da yn y byd? Yn sier, y mae dy galon yn crynu wrth y meddwl, os wyt sant: ac os felly, yn ddiâu fe fydd i'th anghrediniaeth dy glwyfo at dy galon. A thra fyddech yn gwaedu am yr hyn a wnaethost, ti a ymogeli rhag cymmerid y cleddyf hwnw yn dy law drachefn, a'r hwn y rhoddaist gynnifer o archollion i enw Daw a'th heddwech dy hun.

5ed. Os myni gadw dy ffydd, lafuria i'w chwaneu. Nid oes neb mewn perygl nwy o gollu yr hyn sy ganddynt na'r bobl lwfr a digalon na cheisiant ei chwaneu. Y mae gwreigionen yn haws ei diffodd na ffiam; a diferyn yn haws ei yfed neu ei sychu i fwy nag afon. Po cryfaf fyddo dy ffydd, diogelaf fydd rhag ymgyrch gelynyon. Pan gaffo gelyn ryw hysbyswydd am ryw gastell, mai darpariaeth wan sydd ynddo er ei amddiffyniad, y mae hyn yn ddigon i beri iddo ddyfod i'w erbyn, pryd y cawsai lonydd ganddo oni buasai hyn. Un gwan ei galon yw y diafol, ac y mae yn dewis ymladd ar y fantais fwyaf; ac nis gall gael un fwy nag yw gwendid ffydd y Cristion. Pe gwybyddit ti, Gristion, ragoriaeth ffydd gref mewn llawer modd uwch law un wan, ni orphwysit nes ei chael hi. Y mae ffydd gref yn dyfod yn fuddugoliaethus allan o'r temasiynau hyny lle y mae ffydd wan yn cael ei gyru ar ffo a'i dal yn garcharor. Pan oedd Samson yn ei rym, nis gallai y Philistiaid sefyll o'i flaen, ond yn ei wendid, gallent ddawnsio o'i amgylch dan chwerthin. Pan oedd ffydd Dafydd ar ei thraed, pa mor ddigrynn yr edrychodd yn wyneb angen (1 Sam. xxx. 6)? ond pan oedd hi allan o galon, O! y fath ddigalondid oedd arno! parod i redeg ei ben i ryw dwll, pa mor ddianrhydeddus bynag, i'w achub ei hun: 1 Sam. xxi. 13. Ffydd gref, y mae yn cadw yr enaid rhag y meddyliau annuddaus hyny ag y mae ffydd wan yn gorfod crynu danut; "Ti a gedwi mewn tangnefedd heddychol yr hwn sydd a'i feddylfryd arnat;" Esa. xxvi. 3. Y mae y tangnefedd a'r heddwech yn gyfattedbol i faintioli y ffydd. Os ychydig ffydd, yna ychydig heddwech a thawelwch gan ystormydd a gesglir yn anochehadwy

trwy ein hofnau anghrediniol. Os ffydd gref, yna heddwech cryf; felly y mae dybiau y gair (heddwch, heddwech, yn yr Hebraeg yn arwyddocau. Fe addeir fod i ffydd wan yr un heddwech a Daw trwy Grist ag sydd gan y llall trwy ei ffydd gref, ond nid cymaint o heddwech mynwesol. Fe fydd ffydd wan ddwyn y Cristion i'r nef mor sic ag un gref; o herwydd y mae yn annhosibl i'r gradd lleiaf o wir ras ddarfod ar dano gan ei fod oll yn hâd anlygredig; ond nid yw y Cristion gwan amheus yn deby i gael taith mor hyfryd yno, ag un arall sydd â ffydd gref ganddo. Er i bawb yn y llon ddyfod yn ddiogel i dir, etto y mae yr hwsydd yn glaf ar hyd y ffordd yn cael mor daith mwy anghysurus na'r hwn sy'n iach heinyf. Y mae llawer o olygiadau hyfryd i'w cael ar daith, y rhai yw y claf a gwan yn colli y plaser o honynt: ond y mae y dyn iachus yn cael gwled y cwbl gyda mawr hyfrydwch; ac er ei fod o'i galon y ddyuno ei fod gartref, etto y mae ddyfryd y mae yn ei gael oddi wrth y rhai hyn yn byrhau ac yn melysu llawer ar ymdeith. Felly, Gristion, y mae llawer hyfrydwch blaenllaw, yr hwn y mae y sain yn ei gyfarfod wrth ymdeithio tua'r nef heb law yr hyn sy gan Ddau iddynt ymho y daith. Ond i ran y Cristion sydd â ffydd ar yr addewid yn gref a bywiog maent yn dyfod. Hwn yw efe syld yn cael fod y fath ryfeddodau gogonedus yn y addewid, nes yw ei enaid yn cael ei lenwi llawenydd amhraethadwy, tra y mae Cristion amheus a'i lygaid o ffydd wedi attal gymmaint gan ofnau anghrediniol, fad ydyw yn dal sylw ar ddim gyda nemaw o hyfrydwch. Hwn yw efe sydd yn mynd dan ganu ar hyd y ffordd, a'r addewid yn olwg, tra y mae y Cristion gwan a gedw mewn poenau parhaus gan ei amlheion a ddrwgdybiau yn myned dan ocheneidio, a galon yn alarus, am fod ei hawl yn yr addewid fyth mewn cwestiwn yn ei feddylia. Gan hyny, fel na ddymunit fyw yn anghysurus, a chael taith athrist i'r nefoedd, llawria am gryfhâd i'th ffydd.

Qwest. Ond fe allai y gofynwch, Pa fod y gallaf wybod pa un ai cref ai gwan y fy ffydd?

At. Yr wyf yn ateb trwy yr arwyddic canlynol:—

1af. Po mwyaf diysgog y gallo Cristion gredu Daw ar ei air noeth yn yr addewid cryfaf yw ei ffydd. Yn sier, y mae yr hwn a gymmero wr ar ei air, nes ysgrifen sen, am swm o arian, yn rhoddi mwy o gred iddo na'r hwn ni feiddia hyny oddi eithr i ryrai ereill ymrwymo drosto. Pan fyddom ymddiried i Ddau o herwydd ei addewid noeth, yr ydyn yn ymddiried iddo ar sail ffyddlondeb ei hun; a dyma ffydd yn wi Y mae yr hwn a gerddo heb ffon na bagly

gryfach na'r hwn sy raid iddo gael y rhai hyn i'w gynnal. Yr addewid yw y sail sy gan ffydd i sefyll arno: teimlad a rheswm yw y baglau y mae ffydd wan yn pwysu gormod arnynt yn ei gweithrediad. Yn unr enaid, ymofyn yn gyntaf, A eelli di mgynnal ar yr addewid, er na byddo y ffon agl o deimlad yn bresennol ar gael? Fe llai i ti gael gynt ryw amlygiadau o gariad Duw, a llewyrchiadau arwyddol o'i fafar; a byhyd ag y bu yr haul yn tywynu fel hyn trwy dy ffenestr, yr oedd dy galon yn sir-ol; a thi feddyliaist nad anghredit i Dduw yth mwyach, ac na wrandewit ar dy fedd- liau amheus. Ond pa fodd yr wyt ti yn ael dy galon yn awr, wedi i'r arwyddion simladol hyny gael eu hattal, ac i ryw rag- miaeth wgsu (fel y gall ddigwydd) gael ei anfon yn eu lle? A wyt ti yn y fan yn alw yr addewid i gwestiwn yn dy feddyl- un, fel un heb wybod pa un oreu ai tafu ngor arni ai peidio? A ydyw dy lygaid o ydd yn palla fel y collaist dy olwg ar dru- aredd a gwirionedd Duw yn yr addewid, o erwydd i ti gollu y teimlad o'i gariad. Yn er, y mae dy lygad o ffydd yn wan; onid e, ddarllenai yr addewid heb y gwyrâu yma. Mae y plentyn bach yn wir yn meddwl d y fam wedi ei cholli yn lân, os â hi allan r fan lle byddo; ond fel yr heneiddio, ydd yn gallach; ac felly bydd y credadyn yfyd. Gristion, bendithia Dduw am y ofiadau cysurus a'r teimladau a gefaist ar urhyw amser o'i gariad; ond gwybydd, s gellir barnu am ein ffydd pa un ai gwan cref ydyw wrth y rhai hyny. Y mae imladau cysurus, medd Parisiensis, yn byg i ffyn baglau, y rhai sydd yn wir yn lpio y cloff i gerdded; ond nis gwnânt y off yn iach ac yn gryf: ymborth a physg- iaeth sy raid eu harfer at hyny. Gan ny, Gristion, llafuria i bwysu mwy ar yr dewid, a llai ar yr arwyddion teimladol o rian Duw, pa un bynag ai yn dy brofiad esennol ai mewn amser a aeth heibio. Ni awn i ti beidio defnyddio y rhai hyn, ond idio pwysu arnynt, a therfynu gweithred- l dy ffydd wrthynt. Y mae dyn cryf (er d yw yn pwysu ar hyd y ffordd ar ei ffon, y gwna y cloff ar ei faglen), etto yn cael i wneud defnydd da o honi yn awr a ryd arall i'w amdiffyn ei hun pan ym- odo ei neu leidr'arno. Fel hyn y dichon y stion cryf wneud defnydd da o'i brofiad- mewn rhai profedigaethau, er nad yw yn esod pwys ei ffydd arnynt, ond ar yr add- eidd. Yn ail, A wyt ti yn gallu ymgynnal yr addewid, pan doru y faglen arall o wnm danat? neu a yw dy ffydd yn syrthio llawr gyda hi? Ffydd gref yw hono yn r sydd yn rhoddi cred i wirionedd yr dewid heb wrthddadleu, ac yn sathru ar amhebygohaeth a'r amhossibilrwydd a rffisai rheswm yn rhwystrau i gyfiawniad

yr addewid. Fel hyn yr aeth Noah o ddif- rir at waith yr arch, oddi ar y grediniaeth a roddodd i fygythiad ac addewid Duw; ac erioed ni finodd ei ben i geisio cael y mater yn amlwg i'w reswm, pa fodd y dygid y pethau rhyfedd hyny o amgylch. Ac fe'i cyfrifir i gryfder ffydd Abraham, na ddiodd- efai efe i'w reswm cul roddi barn ar y mater pan addawodd Duw iddo wanwyn gwyl Mihangel (fel y gallaf ddyweyd) mab yn ei henaint; "Ac efe yn ddiogwan o ffydd, nid ystyriodd ei gorph ei hun, yr hwn oedd yr awr hon wedi marweiddio;" *Rhuf. iv. 19.* Nid yw nofwyr medrus yn ofni myned i ddwfr dwfa, pryd y mae rhai anhyddydd yn y gwaith yn teimlo am y gwaelod, ac yn anhawdd ganddynt fyned ymhell oddi wrth y lan. Nid yw ffydd gref yn ofni pan fyddo Duw yn dwyn y creadur dros ddyfnder ei reswm. "Ni wyddom ni beth a wnawn (medd Iehosaphat dduwiol), ond arnat ti y mae ein llygaid;" *2 Cron. xx. 12.* Fel pe dywedasai, Yr ydym mewn môr o flinderau tu hwnt i'n help ein hun- ain, neu un meddwl pa fodd y deawn trwy y fath fwlech cyfyng; ond y mae ein llygaid arnat ti, ac nis beiddiwn gyfrif ein cyflwr yn anobeithiol tra y byddo nerth yn dy fraich, tynerwech yn dy ymysgaroedd, a gwirionedd yn dy addewid. Ond ffydd wan, gan balfalu am ryw sail i reswm sefyll arno, y mae hi yn y drafferth pa fodd i gael cyd- sain rhwng yr addewid a deall y creadur; ac oddi yma y mae yr amryw gwestiynau sydd yn dyfod o'i genau. Pan ddywedodd Crist, "Rhoddwch chwiri iddynt beth i'w fwya" (*Marc vi. 37*), y mae y disgyblion yn gofyn, "A awn ni a phrynu gwerth dau can ceiniog o fara?" fel pe buasai gair Crist yn rhy wan i hebgor y drafferth a'r draul hono. "Pa fodd y gwybyddaf fi hyn? canys bynafwyr wyf i fi," medd Zacharias wrth yr angel: *Luc i. 18.* Oeh! nid oedd ei ffydd etto yn ddigon cref i gofeidio y fath newydd rhyfedd.

21. Po mwyaf llonydd a boddlawm yw y galon dan y cyfnewidiadau a dddwg rhaglun- iaeth ar gyflwr y Cristion yn y byd, cryfaf yw ei ffydd. Nis gall cyrph gwneiaid ddi- oddef newidiad yr hin fel y gwna rhai cryf- ion ac iachus. Nid yw gwres nac oerni, hin deg na hin wlyb, yn peri nemawr o gyfnewidiad yn rhymer ambell un cryf; tra y mae y llall yn cael ei roddi i lawr gan- ddynt? neu ar y goreu yn myned dan gwyno o'u plegid. Felly ffydd gref, gall fyw ym mha wlad bynag y byddo achos iddi; hi deithia bob tywydd, ac a gyd-ddwg â phob cyflwr: "Myfi a ddysgais ym mha gyflwr bynag y byddwyf, fod yn foddlawm," medd Paul: *Phil iv. 11.* Oeh! nid yw ysgolheig- ion Crist i gyd o'r un radd a Phaul: y mae ffydd wan etto heb fod yn hyddydd yn y wers anhawdd yma. Pan fyddo Duw yn

troi dy iechyd yn glefyd, dy helaethrwydd yn briuder, dy anrlydedd yn ddirmyg a di-ystyrwch, ym mha fath iaith yr wyt yn awr yn taenu dy gyflwr o flaen Duw? Ai chwerwi y mae dy ysbryd i anfoddlonrwydd, a thori allan mewn achwyniadau grwgnachlyd? ynte a wyt ti yn cael dy wneuthur yn llonydd dan ymdriniaeth Duw, ac yn ymfoddloni yn siriol i' th gyflwr presennol, nid trwy annheimpladrwydd o' th gystudd, ond ecdysniad calon a'r dwyfol drefniad? Os yw fel yma, y mae dy ffydd yn gref: yn gyntaf, Y mae yn dangos fod gan Dduw orsedd yn dy galon: yr wyt yn parchu ei awdurdod ac yn addef ei benarglwyddiaeth, onid e nid ymfoddlonit i'w drefniadau; "Aethm yn fud, ac nid agorais fy ngenau; canys ti a wnaethost hyn;" *Salm xxxix. 9.* Pe daethai y dyrnod oddi wrth ryw law arall, nis gallasai ei gymmeryd mor ddistaw. Pan darawo y gwas y plentyn, fe reda at ei dad ac a achwynia; ond er i'w dad ei daraw yn drymach, nid yw yn achwyn arno ef, nac yn ceisio nawdd gan neb arall, o herwydd mai e dad ydyw, awdurdod yr hwn y mae yn plygu iddo. Os wyt tithau yn ymddwyn fel hyn tuag at Dduw, beth ond ffydd gref sy'n dy ddsygu? "Peidiwch, a gwybyddwch mai myfi si Dduw;" *Salm xlvii. 11.* Y mae yn rhaid i ni wybod yn grediniol fod Duw yr hyn ydyw, cyn y paid ein calonau â'u gwrthwynebiad. Yn ail, Y mae y llonyddwch ysbryd yma, dan drefniad rhagluniaeth, yn dangos dy fod nid yn unig yn arswydo ei benarglwyddiaeth, ond yn meddu meddyliu tirion a chysurus am ei ddaioni a'i drugaredd yng Nghrist. Yr wyt ti yn credu y gall efe yn fuan, ac y bydd iddo yn sicr wneud dy golled i fyny; onid e, ni byddai i ti fod mor ewyllysgar i ymadael â' th fwyniant presennol. Y mae y plentyn yn myned yn ddistaw i'r gwely, pan fyddo ereill, fe allai, yn myned i swpera ar wledd fawr yn y teulu; ond y mae y fam yn addaw y cedwir rhywbeth erbyn trannoeth iddo yntau; ac o goelio hyn fe fydd ddigon bodd-lawn. Yn sicr, y mae genyt tithau ryw beth yn llygad dy ffydd a wna iawn am dy holl golled bresennol; a hyn sydd yn dy wneud mor foddllawn i ymprydio tra y mae ereill yn gwledda, i fod yn glaf tra y mae ereill yn iach. Fe ddywed Paul i ni pa fodd yr oedd efe a'i frodyr mewn cystudd heb ballu neu ddifffygio: *2 Cor. iv. 16.* Gweled yr oeddynt y nef yn nesau tra yr oedd y ddaer ar yn troi ei chefn; "O herwydd pa ham nid ydym yn palla; canys ein byr ysgafu gystudd ni sydd odidog ragorol, yn gweithredu tragwyddol bwys gougouiant i ni."

3ydd. Po mwyaf galluog i ddisgwyl yn hir am atebion i'n dymuniadau a'n gweddi-
au, cryfaf yw ein ffydd. Arwydd ydyw fod gwr yn anghenus a thlawd pan fyddo raid iddo gael arian parod am yr hyn a wertho.

Y rhai a feddant ystôr led helaeth, y mae yn foddllawn i roddi amser, ac yn alluog aros yn hir. Y mae ffydd wan yn brin a hymaros: os na chaiff hi atebion i'w dymuniadau yn ebrwydd, y mae yn myned ambeus ac yn tynu casgliadau athrist: ei herbyn ei hun; megys, Ni wrandawyd ngweddi; Nid wyf yn un y mae Duw yn garu, a'r cyffelyb. Gwaith mawr fydd i chadwr rhag syrthio mewn llewyg; "Mi ddywedais yn fy frwrst, Fe'm bwriw allan o' th olwg;" *Salm xxxi. 22.* O ffydd gref, gall hi adael amser i Dduw i'w aros ei amser ef ei hun: "Ni frysia hwn a gredo;" *Esa. xxviii. 16.* Y mae yn gwybod fod ei arian mewn llaw dda: ni wna ormod brys i alw am danynt: yn yn ystried mae y siwrneuan pellaf sydd dwyn yr elw mwyaf. Fel y mae tir bras chryf yn dioddef sychder yn well na lle neu dywodlyd, yr hwn y mae yn rhaid iddo gael caewd yn fyny, onid e, fe ddiffia yr ôd; neu fel y gall dyn cryf ac iachus i'w hwy ar ei gythlwg heb lesmeirio dyn gwan a chlafaidd, felly y mae y Cristion o ffydd gref yn gallu disgwyl yn hynag un o ffydd wan, am ddadebriad ysbrydol oddi wrth wynebryd yr Arglwydd, ym atebion grasol a thywyniadau cysurus gariad.

4ydd. Po mwyaf a all y Cristion gog neu ddiodeff, er mwyn yr addewid, cryw yw ei ffydd. Pe gwelech wr yn ymadael etifeddiaeth hardd, ac yn gadael ei berth asau a'i wlad (lle y gallai fyw yn llaw gyda'i gyfeillion, ac yn foethus bob dydd ei feddiannau helaeth) i ganlyn rhyw gyf i gwr pellaf y byd, trwy newyn a chale trwy fôr a thir, a miloedd o beryglon cyfarfyddant ar bob llaw, oni ddywed chiwi fod gan y gwr yma hyder cryf ar gyfaill, a chariad mawr ato? Ac os gwefe hyn i gyd er mwyn cyfaill nas gweleroed—dim ond oddi ar y gred a roddo i'w llythyr a ddaenfonodd ato, i'w wahardrosodd, gan addaw gwneuthur petl mawr erddo; bod iddo yn awr dafu ei l feddiannau a'i fwyniant presennol o'i o rhoddi ei hun o'i fodd yng nghyflwr y deithydd a phererin tlawd a llwn, fel y gddlyfod at ei anwyf gyfaill—y mae hyn gwneuthur ei hyder yn rhyfeddach fy Ni a ddarllenwn am y fath euidiau gwych yn *1 Pedr i. 6—8*: "Yr hwn, er gwelsoch, yr ydych yn ei garu; yn yr h heb fod yr awr hon yn ei weled, ond credu, yr ydych yn mawr lawenhau," Craffwch ar y fan, a chwi a'u cewch me cyflwr gofidus; "mewn tristwch trwy a ryw brofedigaethau;" etto, am fod eu ffyn yn gorwedd trwy y ffiosydd i fwynhâd hanwyl Waredwr (yr hwn nis gwelasant nis adnabuant ond trwy dystiolaeth y g hwy a fedrant droi cefn ar gyfeillaeth

awmiant y byd, a gynnygir iddynt hwy yn ystal ag ereill, a gwneud eu taith trwy y aid dyfnaf sydd i'w gael. Dyma ffydd dysglaer yn wir. Nid canmawl y nef, a ymno ein bod yno, ond ymwrthod yn riol â'r pleserau anwylaf, a chofleidio y ledfyd trymaf (pan elwir ni i hyny) a wstiolaetha am ein ffydd, fod ynddi wirionld a chryfder.

5ed. Po goreu y gall y Cristion yru yn ol y nnhyrfaian, a gwrthsefyll y tentasiynau bechod, cryfaf yw ei ffydd. Y fagl neu y wyd sydd yn dal y pysgodyn bach, fe fedr i mwy a chryfach ei thori yn hawdd. Y mae ffydd y Cristion yn gref neu yn wan, i ol fel y byddo yn gallu tori yn rhydd i ddi wrth demtasiynau i bechod. Pan fyddo yw demtasiwn gyffredin yn dy faeddu, a i thau yn cael dy ddyrystu ynddi—vn debyg wybedyn yng ngwe y prif copyn (trafferth yr iawn i gael bod yn rhydd, a pherswadio galon rhag ymroddi) yn ddiaw y mae hyn i profi fod ffydd yn egwan. Y mae bod b nerth i wrthsefyll rhuthriadau bechod chwant yn profi bod y galon heb ffydd. e nad oes gan ffydd law i daraw gelyn i yr, y mae ganddi er hyny law i'w chodi ei erbyn, a llef i'w chodi i'r nef am gymnorth. Rhyw ffordd neu gilydd fe ddegyys dd ei ffeiddiad, ac a rydd ei thystiolaeth iawn yn erbyn bechod; ac y mae bod heb d rhyddid nerth i wrthsefyll yn amlygu dd wan. Yr oedd ffydd Pedr yn wan u oedd lleferydd llangeisig yn ei faeddu; d wedi cryfhau yn dda iawn pan allai thsefyll, a chyda dianwadawlch ardderch ddibrisio bygythion yr holl gynghor: z. iv. 17. Gristion, pwysa dy hun wrthynt hun, a dyro farn gyfiawn arnat dy hun. yw dy chwantau yn denu dy galon, ac yn dwyn ymaith oddi wrth Dduw gyda'r un ym yr awrlon a rhai misoedd neu flynddoedd a aethant heibio? Neu a elli di awn gwirionedd ddywedyd fod dy enaid di cael goruchafiaeth arnynt, er pan gefaist bod mwy am Grist, a golwg well ar ei oniant ysbrydol? y medri di yn awr fyned heibio i'w ddrws heb edrych i mewn? ie, a guront wrth dy ddrws di trwy demtasiwn, y medri gau y drws i'w herbyn a disio y cynnyg? Os felly, ti elli wybod di dy ffydd yn gryfach. Pan welom di dad ag oedd o fewn biwyddyn neu ddwy meth heibio yn gymmhwys o faint i ddy, y awr yn rhy fychain i fyned am dano, y e yn hawdd genym goelio fod y dyn wedi u llawer yn hyny o amser. Pe na byddai ffydd dithau yn cynnyddu, fe fyddai i'r atasiynau oedd o'r blaen yn dy faeddu eud yr un peth â thi yn awr. Os yw m bechod yn cael ei farwahu, ti elli y bod fod ffydd yn fwy bywiog a grymus. I trymaf yw y dyrnod, cryfaf yw y fraich d yn ei roddi. Ni fedr plentyn daraw y

fath ddyrnod a dyn; ac ni fedr ffydd wan roddi y fath ddyrnod hyd adref i bechod ag a fedr ffydd gref.

6ed. Po mwyaf o ryddid a chariad sydd yn dy ufudd-dod, cryfaf yw dy ffydd. Y mae ffydd yn gweithio trwy gariad; ac am hyu y fe ellir dirnad am ei nerth neu ei gwendid, wrth nerth neu wendid y cariad y mae yn ei roddi allan yn rhodiad y Cristion. Y mae nerth braich gwr a dyno mewn bwa i'w weled yn y cyflymdra â'r hwn yr eheda y saeth; ac yn sicr fe ellir gwybod am gryfder ein ffydd iunau, wrth y grym â'r hwn yr esgyn ein cariad at Dduw. Y mae yn amhossibl i ffydd wan (na fedr dynu yn yr addewid fel y medr ffydd gref), dael y fath argraff ddfwn ar y galon i garu Duw ag a wna ffydd gref. Os yw dy galon yn cael ei gogwyddo gan rym mawr o gariad at Dduw i ymwrthod â phechod, cyfiawni dyledsydd, ac ymgnio mewn ufudd-dod i'w orchymyn, adnebydd dy le, a chymmer ef gyda gostyngedig ddiolchgarwch; yr wyt ti o radd uchel yn ysgol ffydd. Y mae ufudd-dod y Cristion yn cyd-gerdded â'i ffydd, fel y mae gwres y dydd yn chwaneu gydag esgyniad yr haul. Po uchaf y dyrchafo hwn tua chanol dydd, gwresocaf yr â y diwrnod; felly po uchaf y byddo ffydd yn dyrchafu Crist yng ngolwg y Cristion, gwresocaf fydd ei gariad at Grist; ac fe esyd hwn ef ar waith mewn ffordd amgenach nag o'r blaen. Gynt, pan ofidiai am ei bechod, ofn caeth oedd yn ei gymhyrfu, a gwyneb led hyl a wnai efe uwch ben y gwaith, fel un wrth gymmeryd physygwriaeth drwg ei flas. Ond yn awr, nid yw galar am bechod yn ddfilas, ac ar wrthod, er pan ganfu ffydd drugaredd yn cydeistedd â chyfiawnder ar orsedd y nef; ac fel y rhyddhaodd hi y creadur oddi wrth y meddyliau anaddas a chaled am Dduw, y rhai a fynwesodd efe trwy anwybodaeth o hono. Nid yw yn awr yn casau y gair edifeirwch (fel y dywed Luther ei fod ef cyn iddo ddeall y lle hwnw *Rhuf.* i. 17), ond y mae yn myned ynghylech y gwaith gyda barn dirion a charuaidd am y Duw da, yr hwn sydd yn sefyll yn barod âg ysbwng ei drugaredd wedi ei drochi yng ngwaed Crist, i ddileu ei bechodau cyn gynted ag y gosodo hwynt o'i flaen trwy gyffes ostyngedig ac edifeiriol o honynt. A'r un peth a ellid ei ddywedyd am bob cangen o grefydd; y mae ffydd gref yn gwneuthur yr enaid yn rhydd ac ewylls-gar. Nid yw yn cyfiawni dyledsydd, fel deiliaid dan orthymnder yn talu treth drom, gydag ochenaidd ddofn, o feddwl gymmaint sydd yn myned oddi wrtho; ond mor rhydd ag y cynnygiai plentyn afal i'w dad o'r berllan y mae yn gael yn rhodd ganddo. Yn wir y mae y plentyn, tra y byddo yn ieuog, â llawer o gaethlder a serch hunanol ynddo; y mae yn ymattal rhag y peth a waharddo

ei dad o ofn y wialen; ac yn gwneud yr hyn a orchymyna er mwyn rhyw degan neu gilydd, yn fwy nag o bur gariad at berson ei dad neu ufudd-dod i'w ewyllys. Ond fel y tyf i fyny, ac yr adnebydd ei le yn well, a'r berthynas y mae yn sefyll ynddi (ynghyd a'i hamryw rwyman i ufudd-dod mabaidd) yna y mae ei ofn caeth a'i serch hunanol yn gwisgo ymaith; ac fe fydd i'w serch naturiol at ei dad ei gymhell i'w foddio yn fwy effeithiol nag un ddad arall. Ac felly y bydd gyda'r Cristion pan dyf ei fydd i beth maint ac addfedrwydd.

7fed. I beidio enwi rhagor, po mwyaf galluog yw fydd y Cristion i felusu y meddyliau am angu, a'i wneuthur yn ddymunol iddo, cryfaf yw ei fydd. Y mae pethau a fyddo yn egr, neu sur iawn, yn gofyn llawer o sugr i'w melus. Y mae angu yn un o'r pethau sydd a'r blas mwyaf anfodddhaol a all fod i archwaeth y creadur. O! y mae yn gofyn fydd gref i wneud y meddyliau am dano yn felus a dymunol. Mi wn fod rhai, mewu tymmer anynad, wedi profesu dymuniad cryf am farw; ond yr oedd hyn yn debyg i ddymuniad dyn claf am newid ei wely (yn unig am ei fod yn blino ar, ac yn anfoddlawn yn ei gyflwr presennol), nid oddi ar iawn ystyriaeth am yr hyn a ddymunent. Ond yr enaid a iawn bwysio ganlyniad angu, ac anghyfnawidoldeb y cyflwr (pa un bynag ai o wynfyd ai o wae) sydd yn sicr i'w ganlyn; ni bydd i hwn byth alw gyda sirioldeb a dymuniad calon am angu, nes y byddo mewu rhyw fesur wedi gallu penderfynu oddi wrth yr addewid, pa fath groesaw a all efe ddisgwyl gan Dduw pau ddleo i'r byd arall; a hyn nis gall fydd wan ei wneuthur heb lawer o amheuoan ac ofnau. Yr wyf yn addef y gall Cristion o ffydd wan iawn, weithiau, gyfarfod â'ng angu gyda chyn lleied o ofn, i.e. gyda mwy o lawenydd, nag un o ffydd lawer cryfach. Ond y mae hyn yn bod, pan ddalier ef i fyny fel wrth ei ên, trwy gysur anghyffredinol a dywallter yn ddigyfrwng gan Dduw i'w enaid; a phe attaliai Duw hyn, fe ddychwelai ei ofnau arno, a'i lewygfydd fel o'r blaen. Yn debyg i ddyng claf a gafodd ei loni yn rhyfedd a llymaid o win; y mae ei lesgedd yn dychwelyd arno pan dderfydd effaith hwnw. Ond siarad yr ydym am y ffordd gyffredin y gall Cristionogion ddyfod i gael eu calonau uwch law ofn, i.e. i ddymuniad cryf am angu; a hyny yw trwy gyrbaeddyd i ffydd gref. Fe fedr Duw, yn wir, arlwyo gwledd âg ychydig dorthau, a mwyhau ychydig fydd y Cristion gwan, tra fyddo yn gorwedd ar ei glaf wely, nes bod ganddo fwrdd yn llawn o amryw ddanteithion. Ond yr wyf yn ofni na wna Duw y fath wrthiau dros y dyn hwnw, sydd ar y disgwiliad am hyn, yn boddloni ei hun a'r ychydig ddarpariaeth a fyddo ganddo; ac heb lafurio i

chwanegu ei ystôr o ffydd erbyn yr amser hwnw o angen.

PENNOD XI.

Yn dangos mai dyledswydd y Cristion yw addef gras sydd ynddo, ac nid ei wadu: gyda dattoriad o rai amheuoan, a'r rhai y mae safon gweiniad yn dadleu yn erbyn gwirionedd a ffydd eu hunain.

2. Yr ydym yn dyfod at y rhan arall o annogaeth sydd genym i rodri i'r saint. Cyw fydd yn fath ras arbenig, a thithau y berchen arno, paid a gwadu yr hyn a wnaet Duw erot. Pa un waethaf, dybygiti, i pechadur guddio ei bechod a'i wadu, ai i Cristion guddio a gwadu ei ffydd? Yr wyf yn addef mai y cyntaf sydd yn gwneud waethaf, os edrychwn ar ddiben y ddau; herwydd y mae y pechadur yn cuddio ei bechod ar amcan drwg; ac y mae yr enaid amheus yn meddu amcan da. Y mae arno ofn chwareu y rhagrithiwr a'i gael yn gelyddwr, wrth ddywedyd fod ganddo yr hyn y mae yn ofni nas cafordd. Ond os ystyriw y canlyniad o fod y Cristion yn gwadu gras sydd ynddo, a'r defnydd a wna y diafol o hyny tuag at ei arwain i lawer o bechoda ereill, nid mor hawdd fydd penderfynu pa un sydd yn pechu drynaf. Yr oedd Iosep dduwiol yn meddwl yn onest, pan ewyllysiodd rodri ei ddywedd i Mair ymaith y ddirgel (heb dybio llai na'i bod wedi chwariu y butain), ac etto athrist fusai, pe pau hasai yn ei fwriad, yn enwedig wedi i angel lysbysu iddo fod yr hyn a genhedwyd ynddi o'r Ysbryd Glân. Fe allai fod dithau, enaid hebulous, yn meddwl y fynych rhoddi dy ffydd ymaith, gan ei chyrrif yn rhyw ras ffugiol a bastardaidd a genhedlwyd yn dy galon ragrithiol gan dad celwydd. Ond edrych beth a wnelych, eina chefaist weled gaeth anarferol o ynddangosiad angel, neu ddadguddiad digyfrwng am y peth; etto, ai ni ddarfu i Ysbryd Duw yn ei ffordd gyffredinol (sef ei arddarfu i'r ordinadau) ddangos i ti yr arwyddio ysgrhythrol o ffydd, a chydfurfiad dy ffydd a'r rhai hyny, gan dy annog i gymmeryd addef dy ffydd, fel un wedi ei cheuhedl ynot gan yr Ysbryd Glân, ac nid wedi cyffurfio trwy dwyll Satan ym mru dy ddychymmyg ynyf? Os felly, arswyda ddwy gau dystiolaeth yn erbyn gras Duw o'r fewn. Megys y gellir cael "un a ymfrostioddi ei fod yn gyfoethog, ac heb ddim (o'r gradd yma) ganddo." *Diar. 13. 7*; felly y mae arall a'i gwna ei hun "yn dlawd, a chyfoetlawer iddo." Gan hyny, gâd i ni glywne sail dy ddrwgdybiau, fel y gallom weled pa un ai dy ofnau ai dy ffydd sydd ddychymmygol a disail.

Gwrth. Yn gyntaf, medd yr enaid tlawd

r wyf yn ofni nad oes genyf wir ffydd, am ad wyf yn profi y llawenydd a'r cysuron sydd yn deilliaw oddi wrth eu ffydd i rai reill.

21. Iaf. Ti elli feddiannu heddwch tu mewol heb gyrhaedd i llawenydd mawr. Michoury dydd fod yn dawel a distaw, heb ad yn ddisglaer olen gan dywniad haul. r na byddo y Dyddanydd wedi dyfod a'i cysuron cryfion, etto efe â all fod wedi welu ystwm dy ysbryd helbulus; ac y ae gwir heddwch, yn gystal a gorfoledd, i effaith ffydd ddiffuant.

21l. Pe rhoddem dy fod heb gyrrhaedd ymmain't o'r heddwch tu mewol yma, etto ybydd nad yw y diffyg o hwn yn ddiagon reswm i ti wadu gwirionedd dy ffydd. Yr ym, ar ein crediniaeth gyntaf, mewn ddwch â Duw; ond nid bob amser â ni a hunain. Fe all pardwn fod wedi cael y brenin wrtho, ac etto heb ei roddi yn w y carcharor. Yr wyt yn cyfrif y rhai ny yn rhy fyrbwyll, onid wyt ti, a farnant Paul yn llawrddiogg, wrth y wiber a rodd yn ei law? Ac onid wyt tithau yn us, yr hwn wyt yn barnu dŷ hun yn anghredadyn o herwydd y blinderau a'r luriau tu mewol hyny, a allant lyuu dros ser wrth ysbryd y pleutyn mwyaf grasol oedd Duw ar y ddaear?

Gwrth. Yn ail. Ond O! a ddichon fod yr ffydd, lle y bydd cymmaint o ammheu- h ag wyf fi yn ei gael o'm mewn?

21. Y mae ammheuaeth yn bod, a osodir yr Ysgrhythyr mewn cyferbyniad i'r oedd lleiaf o ffydd. Y mae ein Hiachawd- bendigedig yn dywedyd wrth ei ddisol- lion y fath wyrthiau a wnant, os bydd ddyddyt "ffydd ac heb ammheu;" *Mat.*

21. Ac yn *Luc* xvii. 16, fe ddywed- thyt, y gwnant yr un fath bethau, "os lld ganddynt ffydd gymmaint a gronyn o l mwardd." Yr hyn a elwir yn ffydd o ammheu yn Matthew, sydd yn ffydd ymmain't a gronyn o had mwardd yn *Luc*. O d drachefn, y mae ammheuaeth a esyd yr Ysgrhythyr, nid mewn cyferbyniad i wir- oedd ffydd, ond i gryfder ffydd: *Mat.* xiv.

21. "Tydi o ychydig ffydd, pa ham y pet- aist?" Geiriau Crist ydynt wrth Pedr, oedd ar suddo, yn y rhai y mae efe yn syddu ei ammheuaeth, ac etto yn cydna- gwirionedd ei ffydd, er ei bod yn wan. Y mae pob ammheuaeth yn ddrwg yn ei ar, etto y mae math o ammheuaeth yn sydd o beth gras da yn yr un a fyddo yn amheu felly, er ei fod ynddo ei hunan yn wgw. Fel y mae mwg yn profi fod peth oedd, ac annuadrwydd mewn dyn claf, oedd blaen heb wybod oddi wrtho ei hun, yn sydd o ryw faint o wellhâd, er ei fod yn- ei hun yn beth digon annymunol. Ond eth sydd yma yn eisieu, mi debygwn, rhoddi cyfarwyddyd i'r enaid ammheus,

fel y gall weled beth y mae ei ammheuaeth yn arwyddol o hono; pa un ai o wir ffydd, er ei bod yn wan, ai o ddim ffydd. Yn awr, i'r diben yma, mi a osodaf i lawr bedwar nod yn perthyn i'r ammheuon hyny sydd yn dilyn gwir ffydd.

(1af.) Mae ammheuon credadyn â llawer o gywilydd a gofid ysbryd yn eu caulyn, hyd yn oed o achos yr ammheuon hyny. Mi ap- peliaf at dy gydwybod di, enaid tlawd am- mheus, onid yw yr ystyriaeth o'r un pechod yma yn costio i ti lawer deigrn hallt, ac ochenaid dros nam gŵyr ereill am danynt? Yn awr, attolwg, o ba le y mae y rhai hyn yn dyfod? A ofidia anghrediniaeth am anghrediniaeth? neu a rydd pechod ei hun i gywilydd? Na wna yn sicr: y mae hyn yn arwydd fod egwyddor o ffydd yn yr en- aid yn cymmyrdd plaid Duw; ac nas gall edrych ar ei addewidion a'i enw yn cael cam gan anghrediniaeth, heb ddwyn tyst- iolaeth i'w erbyn a galaru o'i herwydd, er fod y gras yma yn bresennol yn rhy wan i ymlid y gelyn yma allan o'r enaid. Yr oedd y gyfraith yn rhyddhau y llanges a waedd- odd allan rhag ei threisiwr yn ymaes (*Deut.* xxii. 27); ac fe fydd i'r efengyl dy ryddhau dithau sydd yn ddiragrith yn galaru am dy anghrediniaeth. Yr oedd awdwr *Salm* lxxvii. (pwy bynag oedd) wedi cael yr afiechyd ammheus yma yn drwm iawn. Mor fyfych y cawn ni y gwr duwiol hwnw wedi bod yn ammheu trugaredd a ffyddlondeb Duw (a ddylent fod tu hwnt i ddadl yn ein calonau) ac yn eu gosod mewn cwestiwn yn ei feddwl llawn o anhwyf? Yr un fath reswm fuasai iddo ofyn i'w enaid, A oedd Duw mewn bod? a gofyn, A ddarfu ei drugaredd ef, ac a balla ei addewid ef? Etto, mor bell a hyny yr oedd ei ofnau yn y frwst yma wedi ei yru ar ŵyr; ond o'r diwedd, chwi a'i cewch ef yn addef ei ynfydrwydd (*adm.* 10); "A dywedais, Dyma fy ngwendid." I ti, O fy anghrediniaeth, y mae i mi ddiolch am hyn, tydi elyn Duw a'm henaidd: tydi sydd wedi fy nherfysgu ag ofnau disail, a pheri i mi feddwl a llefaru mor anwedus am fy Nuw. Yr oedd hyn yn profi fod yno ffydd dan ei anghrediniaeth.

(2il.) Y mae ammheuon gwir gredadyn a llawer o ddymuniau gwresog yn eu can- lyn, am y pethau hyny y mae yn ammheu fwyaf yn eu cylch. Y mae y credadyn gwan yn ammheu a yw Duw yn ei garu ai nid yw; ond y mae ffafur Duw yn fwy gwerthfawr yn ei olwg na'i fywyd: a dyma iaith enaid grasol (*Salm* lxiii. 3); "Gwell yw dy drugaredd di na'r bywyd." Y mae yn ammheu a oes ganddo hawl yng Nghrist; etto, pe gofynech pa beth yw ei farn am Grist, gallai ateb a dywedyd y gwir, na fyddai un pris yn ormod, pe byddai i'w brynu, ac nad oes un ammod y cynnygier Crist arni yn ymddangos yn galed yn ei

olwg, ond y cwbl yn esmwyth a rhad. Ac nid yw y farn yma am Grist gan neb ond enaid crediniol; "I chwi, y rhai ydych yn credu, y mae yn urddas," neu yn werthfawr: 1 *Pedr* ii. 7. Mewn gair, y mae yn amhheu pa un ai gwir ai rhith sancteiddrwydd sy ganddo; ond y mae ei enaid yn hiraethu ac yn sychedu am y grasnan hyny fwyaf, y rhai y mae yn ganfod leiaf o'i fewn. Byddai yr hwn a ddywedai iddo pa fodd i gael calon ddrylliog yn genad mwy derbyniol na'r hwn a ddygai y newydd am goron a theyrnas wedi digwydd iddo. Y mae yn amhheu pob dyledswydd a gwaith a gyflawna, pa un a yw yn ol rheol y gair ai nid yw; ac etto, y mae yn dymuno yn ddirifol, pe gallai rodio heb roddi un cam ar wŷr oddi wrtho: ac nid yw yn syrthio allan â'r gair am ei fod mor fanwl, ond â'i galon am ei bod mor benrhydd. A'r fath dystiolaeth a rydd hyn o rasol ogwyddiad y galon, gwelwch yn *Salm* cxix. 20—140, lle y mae Dafydd yn dwyn y rhai hyn i mewn fel prawf o'i ras. A wyt ti, gan hyny, enaid tlawd, yn hiraethu yn fawr am Grist a'i rasmusau, er nad ydwynt yn canfod dy hawl yn yr un o honynt? Bydd gysurus ynte, nid wyt gymmaint estron iddynt ag yr wyt yn ofni dy fod. Y mae y dymuniadan cryfion yma yn ganlyniad o beth prawf wyt wedi gael o honynt eisoes; ac fe all yr amhheuon hyn fod yn tarddu nid oddi wrth ddiffyg hollol, fel pe byddit yn gwbl wag o honynt, ond oddi wrth gryfder dy dymuniadau, y rhai nis boddlonwyd â'r hyn sydd genyt. Y mae yn beth cyffredin iawn yn y byd fod dirfawr gariad yn peri ofn dirfawr, a hwnw yn ddisail. Y mae y wraig, am ei bod yn caru ei gwr yn anwyl, yn ofni pan fyddo oddi cartref na chaiff ei weled ef mwy: weithian, y mae yn meddwl ei fod yn glaf; bryd arall, ei fod wedi ei ladd: fel hyn y bydd ei chariad yn ei phoeni heb achos, pryd y mae ei gwr yn iach yr holl amser ac ar ei ffordd adref. Perl o werth mawr neu fodrwy y byddo genym ofal anghyffredin am dani, os gosodir hiwnt o'r golwg, y mae ein cyfrifiad prifawr o honynt yn peri i ni yn ebrwydd feddwl ddarfod eu colli. Yn y cyflwr amherffaith yr ydym ynddo, natur serchiadau, pan fyddont yn gryfion ac angerddol, yw cythryblu ein rheswm, a chuddio o'n golwg bethau a ellid eu gweld oni bai hyny. Fel hyn y mae llawer o eneidiau truan, amhheus, yn edrych ac yn chwilio am y ffydd, yr hon sy ganddynt yn barod yn eu myn-wesau ac yn guddiedig o'u golwg gan angerdd o en dymuniad am dani, a'r ofn o gael eu twyllo âg un ffals yn lle yr iawn ryw. Yn debyg i'r forwyn, yn *Act.* xii. 14, "nid agorodd hi y porth i Pedr gan lawenydd:" yr oedd ei llawenydd yn bresennol yn dwyn ei chof. Felly y mae y bri uchel a ddyry y Cristion tlawd amhheus ar ffydd, ynghyd

â grym ei hiraeth am dani, yn peri iddo feth tybio mor dda am dano ei hun a meddwl fod ganddo yn bresennol y perl anfeidrol werthfawr hwnw yn ei fynwes.

(3ydd.) Y mae amhheuon enaid gwir grediniol yn ei wnenthur yn fwy ymofyngus pa fodd i gael y peth y mae yn mynych ofn nad yw yn ei feddu. Y mae llawer meddwl athrist yn ymgyrhn trwy ei enaid, pa un yw yn eiddo iddo ai ni l yw; a oes gandd hawl i'r adlewid ai nid oes; ac y mae y rhai hyn yn peri y fath gynnhwrf yn ei ysbry fel nas gall orphwys nes cael rhyw bened; fyniad allan o'r gair yn ei feddyliau mew perthynas i'r mater mawr yma. Ac ai hyny, megys y galwodd Ahasferus am ly; coffadwriaethau hanesion ei deyrnas, pan gi iodd ei gwsg oddi wrtho (*Esth.* vi. 1), fel y mae y Cristion amhheus yn prysuro at a Dduw, llyfr coffadwriaeth y nef; ac ar yr un pryd y mae yn darllen ynddo; bryd arall, mae yn edrych i'w galon ei hun a all e ganfod yno ddim a atteba i nodau ffydd y grythyrol, fel y mae wyneb yn y drych y atteb i wyneb gwr. Pan oedd y Salmcy (*Salm* lxxvii.) yn methu gwybod pa beth feddwl am dano ei hun, a llawer o amhheuon yn attal ei ffydd hyd nes oedd yn guthryblus wrth feddwl am Dduw: nid ei tedd i lawr a wnaeth, a gadael i bethau fynd fel ag yr elent, heb ofalu pa un a oedd Duw yn ei garu ai nid oedd; ond y mae yn yr diddan â'i galon, a'i ysbryd yn chwilio y ddyfal: *adn.* 6. Fel hyn y mae gyda pho enaid gonest dan amhheuon; ni feiddia ei tedd i lawr yn foddolw'n yn y cyflwr auni hwnw, mwy nag y beiddia un sy'n arog tân yn ei dŷ roddi ei hun i orphwys nes idd chwilio pob cong i chael boddlonrwyd fod pob man yn ddiogel, rhag cael ei dd ffroi a'r tân o'i amgylch yn y nos. Yn dduw, y mae ar yr enaid amhheus fwy o o rhag y deffroir ef a thian uffern o'i amgylch. Ond y mae enaid mewn cyflwr o anghreiniaeth a than ei rym yn ddiotal a difra. Ni chredodd yr hen fyd y bygythiad am dylif; ac am hyny, ni chafodd y peth le i eu meddyliau: y mae y farn yn eu drys a'n ffenestri cyn iddynt arfer dim moddi i ddiange rhagddi.

(4ydd.) Yn nghanol amhheuon gwir gred adyn, y mae gogwyddiad yn ei galon Grist, a dirgel fwrriad i lynn yn barha wrtho. Ar yr un pryd ag yr oedd tra Pedr yn suddo yn y dyfroedd, yr oedd hi dyrchafu gweddi at Grist; ac yr oedd hi yn profi gwirionedd ei ffydd, fel y llall gwendid. Felly Ionah, yr oedd yndd lawer o ofnau, a'r rhai hyny weithian y cael y llaw uchaf, hyd nes oeddnt (fel na' afiach yn casglu i friw mewn corph) yn peri iddo dynu casgliad byrbwyll ac anghrediniol iawn: etto y pryd hyny yr oedd gandd ffydd ryw afael ddirgel ar Dduw; "

minnau a ddywedais, Bwriwyd fi o wýdd dy
ygaidd; er hyny, mi a edrychaf etto tua'th
leml sanctaidd;" *Ionah* ii. 4. Ac yn *adn.*
; "Pan lewygodd fy enaid ynof, cofiais yr
Arglwydd." Dafydd dduwiol hefyd, er nas
allai gael gwared o'r holl ofnau oedd trwy
rendid ei ffydd yn tori i mewn i'w enaid, fel
wfr trwy agenau llong; etto, ni a'i cawn
t am eu dihysbyddu, ac yn bwriadu yn
diysgog i'w herbyn (*Salm* lvi. 3); "Y dydd
o ofniwyf, mi a ymddiriedaf ynot ti." Y
mae y Cristion amheus yn suddo, ond yn
debyg i deithiwr mewn ffos lle y mae y
waelod yn galed; ac felly y mae yn codi
lwaith; ond am yr anghredadyn, y mae
ei yn suddo yn ei ofnau fel dyn mewn
aeth byw, ddyfnach, ddyfnach, nes y
ungeer ef i ffyn mewn anobaith. Am-
heuaeth y Cristion gwan sydd debyg i ys-
dwad llong wrth angor: y mae yn cael
ysgwyd, ond nid ei ysgwyd ymaith oddi
t h ei afael ar Grist: ond y mae ammheu-
th yr anghredadyn yn debyg i ymlidiad y
n, yr hon a defir lle y gyro y gwynt hi,
a nad oes dim i'w hattal (*Jago* i. 6); "Go-
ned mewn ffydd, heb ammheu dîm; cany's
hwn sydd yn ammheu sy gyffelyb i dôn
môr, a chwelir ac a defir gan y gwynt."
Gwrth. Ond, O! medd un arall, yr wyf
ofni mai ffydd ryfygus yw fy ffydd i;
os felly, diau fod fy enbydrwydd yn fawr.
At. Er llawnach dattodiad o'r wrthddadl
na, mi a roddaf i lawr dri o nodau ffydd
rygus:—

1.) Y mae ffydd ryfygus yn ffydd hawdd
chael. Nid yw na Satan, na'n calonau
gredig, yn elyunion i'w gwrthsefyll; ac
felly, fel chwyn dredwedig, y mae yn tyfu i
ntioli mawr mewn ychydig amser. Nid
y diafol yn cael pechadur yn sierach i'w
el un amser na phan y byddo yn breudd-
dio yn y fath baradwys ffyliaid a hon, ac
rhodio trwy ei gwsg yng nghanol ei wag
chymmygol obaith am Grist ac iach-
dwriaeth. Ac am hyny, y mae mor bell
oli wrth ei ddeffroi, fel y tyna y lleni mor
medig ac a allo o'i gwmpas, fel na byddo
eu na swm yn ei gydwybod dori ar ei lon-
lwlch. A glywsoch chwi erioed am leidr
galw i ffyn yn y nos y dyn yr oedd yn
iddwl ei ysbeilio a'i ladd? Na: cwsg yw
antais ef. Ond am wir ffydd, y mae wedi
elyngu yn elyn iddi; fe'i herlid hi hyd yn
o yn ei chryd, fel y gwnaeth Herod i
Grist yn y preseb. Y mae yn tywallt
n o lid ar ei hol cyn gynted ag y dang-
oi ei bod wedi ei geni, trwy ei gwaith yn
ain ac yn galaru ar ol yr Arglwydd. Os
dy ffydd wedi ei geni yn gyfreithlawn,
ir ei galw yn Naphtali; a thielli ddywed-
y Ymdrechais ymdrechion gorchestol â
s a'n calon ddrwg fy hun, a gorchfyg-
o'r diwedd. Chwi a wyddoch yr ateb a
godd Rebecca pan ymofynnodd â Duw yn

achos y plant yn ymwthio â'u gilydd yn
ei chroth: dwy genedl (ebe Duw) sydd yn
dy groth di: *Gen.* xxv. 22, 23. Os gelli
dithau gael fod y cyffelyb ymwthiad yng
nghroth dy enaid, ti eelli gysuro dy hun am
mai oddi wrth ddwy egwyddor wrthwyneb
y mae ffydd ac anghrediniaeth—y ddwy yn
chwennychu yn erbyn eu gilydd; a th
anghrediniaeth, yr hon yw yr hynaf (er ei
gwaith yn ceisio meistrolaeth), a wasanaetha
ffydd—yr ieuangaf.

(2.) Y mae ffydd ryfygus yn gloff o un
llaw: y mae ganddi law barod i dderbyn
rhoddion Duw, ei ffafir a'i nefoedd, heb yr
un i roddi ei hunan i ffyn i Dduw. Ond y
mae gwir ffydd yn gallu arfer ei dwy law;
"Fy anwylyd sydd eiddo fi;" dyna yr en-
aid yn cymmeryd Crist: "a minnau yn
eiddo yntau;" *Can.* ii. 16: dyna hi yn
rhoddi ei hunan i ffyn at achos a gwasan-
aeth Crist. Yn awr, a roddaist ti erioed dy
hun yn ewyllysgar i Grist? Mi wn fod pawb
yn professu hyn. Ond y mae y dyn rhyfygus
fel Ananias yn dywedyd celwydd wrth yr
Ysbryd Glân, trwy ddarnguddio peth, i.e., y
rhan benaf, o'r hyn a addawodd ei osod wrth
draed Crist. Y chwant yma, y mae yn ei
guddio, pan y dylai ei draddodi i law cyf-
iawnder; a'r mwyniant daearol a'w y mae
yn ei goffeidio, ac ni faidd ymddiried i Dduw
am y trefnau o hono; ond fe a waedda, pan
alwa yr Arglwydd am dano, "Nid â Ben-
iamin ymaith." Y mae ei fywyd yn rhwym
yndo; ac os myn Duw ei gael oddi arno,
rhaid iddo ei ddwyn o'i lwy'r anfordd ef; o
blegid nid oes dim gobaidh o gael ei gyd-
syniad. Os dyma wir lun dy ffydd ac
egwyddor dy enaid, yna yn wir yr wyt yn
ymfendithio mewn eilun, ac yn camgym-
meryd gwyneb hyf am galon grediniol. Ond
os wyt mor foddolawn i fod yn ffyddlawn i
Grist ag wyt i gael budd oddi wrtho; os
wyt yn ei chyfrif yn rhagorffaint mor fawr
fod i Grist gael gorsedd yn dy serch a'th
galon ag i ti gael lle yn ei drugaredd ef;
mewn gair, os wyt yn syml dy galon, ac na
ddymunit guddio un pechod, na chloï un
mwyniant daearol rhagddo, ond rhoddi i
ffyn yn ewyllysgar dy chwant anwylyf i'w
ddienyddio, a'th fwyniant melusaf i aros
gyda thi neu ffyn ymaith, fel y gwelo dy
Dduw yn dda drefnu, er i hyn fod gyda
llawer o flinder ac anfoddlonrwydd oddi
wrth blaid wrthwynebus yn dy natur, yr
wyt yn profi dy fod yn wir gredadyn. A
chystal fyddai i'r diafol ddywedyd ei fod ef
ei hun yn credu yn iawn, a dy fod ti yn
rhyfygu: os rhyfygu yw hyn, bydd di etto
yn fwy rhyfygus; a gâd i'r diafol dy lys-
enwi di a'th ffydd fel y myno. Nid ydyw
dwfr rhosynau yn llai peraid am fod rhyw
un wedi ysgrifenu dwfr vermod ar y gwydr-
lestr a fyddo yn ei ddal. Fe edwyn yr Ar-
glwydd ei eiddo, ac a'u harddel fel ei wir

blant, a'u grasusau fel peraidd ffwrwythau ei Ysbryd, er i lysenw gael ei roddi arnynt gan Satan a'r byd, ie, weithiau gan gredinwyr arnynt eu hunain. Nid yw y tad yn gwadu mo'i blentyn am ei fod mewn clefyd trwm yn siarad nis gŵyr pa beth, ac yn taeru nad ei dad ydyw.

(3.) Y mae fydd rfygyus yn un sych a diflas. Pan fydd dyn auonest yn gwneuthur y broffes fwyaf o ffydd yng Nghrist, hyd yn oed y pryd hyny nid yw yn cael nemawr o flas nac yn profi nemawr o felusder yng Nghrist. Na, y mae ganddo ei hen ddant yn ei ben, fel y mae etto yn blasu ymborth aflan ei fwyniant anianol yn fwy na Christ a'i ddanteithion ysbrydol. Pe dywedai ei feddwl yn rhydd, byddai yn rhaid iddo addef y dewisai gael y creifion a deifl Duw i'r gweision, plant y byd (sef codau llawnion a digonedd o hyfrydwech cnawdol), yn hytrach na chael eistedd gyda phlant Duw i ymborthi ar eu gwleddoedd hwynt mewn cymmundeib ysbrydol â Christ, yn ei addewidion, ei ordinhadau, a'i ffyrdd sanctaidd. Efe a ymfrostita o'i hawl yn Nuw, ond nid gwaeth ganddo er lleied a gaffo o bresennoldeb Duw mewn unrhyw ddyledswydd neu ordinhad. Yn ddiau pe byddai efe mewn cymaint ffafir yn y llys ag y dywed ei fod, fe fyddai yn fnychach yno nag y mae. Y mae yn gobeithio cael ei achub, medd efe; ond nid o'r llestr yma y mae yn tynu gwin ei lawenydd—nid y meddyliau am y nefoedd sydd yn ei ddiddanu, ond yr hyn sydd ganddo yn y byd ac o bethau y byd—y rhai hyn sydd yn porthi ei lawenydd. Pan fyddo cysuron y byd a'r creaduriaid yn darfod, och! ychydig ddiddanwech a blas all y truan gael yn ei obaith ffuantus am y nef, a'i rith o hawl yng Nghrist, ond cwynfan y bydd efe o hyd am y lleill. Ond y mae gwir fydd yn newid archwaeth y creadur: nid oes un wledd mor felus i'r creadyn ag yw Crist: cymmered Duw yr holl ddysglau ereill oddi ar y bwrdd, a gadael ond Crist: y mae ei wledd ef fyth o'i flaen—y mae ganddo yr hyn y mae yn ei ddewis. Ond pe yr arosai y rhai hyn oll gydag ef, iechyd, meddianau, cyfeillion, a pha beth bynag y mae y byd yn ei fawbriso: os bydd Crist o'r golwg, y mae efe yn fuan yn gweled eisieu ei ddysgl; a'i gwynfan fydd, Och! pwy a ddygodd fy Arglwydd i ynaith? Crist sy'n pereiiddo y rhai hyn â phob mwyniant arall iddo ef, ac yn eu gwneud yn fwyd blasus i'w archwaeth; ond hebdo ef hwy fyddant mor ddiflas a gwyn ŵy heb halen.

PENNOD XII.

Darluniad o elyn y saint, a'i ddarpariaeth o'w herbryn, sef picellau tanlyd, a pha beth ydynt.

YR ydym wedi darfod â'r annogaeth. Deu-

wn yn awr at yr ail ran gyffredinol o'r adnodd, hyny yw, Rheswm neu ddadl nerthol gymnhell yr annogaeth, yr hyn a gawn y y geiriau yma: "A'r hwn y gellwch ddi-foddi holl bicellau tanlyd y fall," neu yn e y Groeg, "yr un drwg." "A'r hwn y gellwch" nid ymadrodd ansicr yw, fe allai: gellwch, ond gair cadarn a phendant, "A'r hwn y gellwch:" ond pa beth a allan "ddiffoddi?" nid gwrthwynebu ac ymlid y ol yn unig; ond pa beth a ddiffoddant. Nid temtasiynau cyffredin yn unig, ond saethau gwaethaf a fedd y diafol yn gawell; "picellau tanlyd," ac nid ychydig o honyt, ond "holl bicellau yr un drwg." Cymmerweh yr un drwg am enw Satan, y lle y fall, er bod yr ystyr yn eglurach.

Yn yr ail ran yma y mae dau beth neill duol i'w hystyried:—

1. Darluniad o elyn y saint.
2. Gallu a goruchafiaeth ffydd ar y gely yma. Ni a ddechreuwn gyda'r cyntaf; ynddo ni a gawn y tri pheth neillduo hyn.

1af. Y mae yn cael ei ddarlunio yn ei natur; drwg yw.

2il. Yn ei drefn unol; yr un drwg, yn rhif unigol.

3ydd. Eglurir darpariaeth a moddion rhif felgar y diaffiad â'r hyn y deuant i'r mae yn erbyn y saint: "picellau," a'r rhai hyn yn "danlyd."

1af. Y mae gelyn y saint yn cael ei osod allan yma yn ei natur, "y drwg." Mi ddywedais ryw beth am hyn ar *adn.* 12, lle mae Satan yn cael ei alw yn "ddrygau y brydol:" gan hyny, âf heibio iddo yn y gafnach yr awr hon. Yn sicr, y mae rhyw wers bennodol y mynai Duw i ni ei dysg hyd yn oed oddi wrth yr enw a briodolir i diafol a'i aelodau, a'u bod mor fynych y cael eu gosod o flaen ystyriaethau y saint i "drwg;" o herwydd y mae y gair mor heaeth ei ystyr a bod y diaffiad oll a dynia dieffig yn cael eu cynnwys ynddo. Nid hwyllaf ond am ddau ddiben sy gan Dduw (fel yr wyf yn meddwl) yn ei olwg, wrth henwi fel yma.

(1af.) Fe'u gelwir yn ddrwg megys wr enw atgas, fel y byddo i feddyliau pla Duw gael eu gweithio trwy hyny i ffeidiad o bechod sydd yn eu gwneuthur hwy mor atgas; ac hefyd i wrthwynebu yn rhyw y diafol a'i offerynau. Fe fynai Duw ni wybod, pan fyddo efe ei hunan yn ddedd y gwaethaf am y diafol, mai yr enw cymmhwysaf sydd ganddo iddo yw, "yr drwg." Yr enw sydd yn dyrchafu Duw uchaf, a'r hyn sydd megys rhagoriaeth holl ragoriaethau ereill yw, mai efe ydychaf "y sanctaidd," ac "nad sanctaidd neb fel Arglwydd." Gan hyny, y mae yn noddu o atgasrwydd ar y diafol mai efe yw yr "drwg;" ac nad oes neb yn ddrwg i'r

raddau ag efe ei hunan. Pe byddai yn ossibl gwahanu sancteiddrwydd oddi wrth eill o briodoliaethau Duw (yr hyn sydd eiddwrth cabledi i'w feddwl), fe fyddai eu goniand wedi ymadaw. A phe gellid dadymu drygioni y diafol oddi wrth ei boenau i drueni, fe fyddai y mater wedi newid i'w hwn y mae yn rhaid i ni yn awr ei gasau chasineb perffaith.

Defn. 1. Ystyriwch hyn, chwi oll a'r sydd byw mewn pechod, ac nad oes gywilydd noch eich gwelid yn yr arferiad o hono. Na welech chwi eich gwynebau yn ych yma! yna chwi a gaech wybod i bwy ydych yn debyg; yn ddiâu, nid i neb well na'r diafol, ac yn y peth hefyd sydd ei wneuthur ef yn fwyaf atgas, sef ei drygioni. Nid gwaeth i ti beidio poeri th enw y diafol, ac ymddangos yn ddyrynedig wrth ryw lun hyll o hono; o herdd yr wyt ti yn dwyn ei lur yn hyllach awer (a'r cywiraf hefyd a all fod) yn dy awes ddrygionus dy hun. Po mwyaf drygionus, tebycaf i'r diafol. Pwy a all un llun y diafol yn debyg iddo ei hunan? Adyn drygionus wyt ti, yr wyt o'r diafol hunan; fel y dywedir am Cain ei fod ef drwg: *1 Ioan iii. 21.* Y mae pob pechod welech yn llinell newydd y mae y diafol ei thynu ar dy enaid. Ac os bydd delw (yr hon y mae Ysbryd Duw mewn wer blwyddyn yn ei thynu yng nghalon ti) yn ddarn mor odidog erbyn ei orphen y nef, O! meddwl ynte, y fath greadur hyll a dychrynlyd yr ymddangosi di, pan ol poen Satan yma yn y byd i argraphu ddelw arnat) y gweli dy hun yn uffern, gwbl mor ddrygionus ag y medr ei ddyrgi ef dy wneuthur.

Defn. 2. Ystyriwch hyn, O! chwi saint, sefnyddiwech eich tosturi yn benaf yn os yr eneidiau truaïn gresynol hyny sydd awdurdod cythraul drygionus. Barn eithus yw byw dan lywodraeth ddrygioner na byddo ond llywodraeth ddynol. Ynt dost yw i was fwy mewn teulu, a n feistr annuwiol. Y mae Dafydd yn ei rif ym mhlith plâau trymion ereill: *Salm x. 6;* "Gosod dithau un annuwiol arno

O! ynte, beth yw bod ysbryd annuwar un? Nid angharedigrwydd fyddai i ddymunio i'w gyfaill fod yn gaethwas af dan y Tyrciaid, yn hytrach nag yn y penaf i bechod a Satan. Ac etto, gwelw ynyfdrwydd dynion! Fe ddywed Sonon i ni, "Pan fyddo yr annuwiol yn lywodraethu, y pobl a ocheneidiant;" *Diar. c. 2.* Ond pan y mae diafol annuwiol lywodraethu, y mae pechaduriaid truaïn lledig yn ddiffy ac yn llawen. Wele, i y rhai ydych heb eich ynyfdu mor bell, na wyddoch mai gwasanaeth pechod yw ni blinaf y creadur, galerwech dros y rhai

sydd yn myned dan chwerthin ar ol eu pechod, a thrwy eu pechod, tuag uffern. Ac yn ail, llanwed hyn dy galon di, Gristion, a sel a digofaint yn erbyn Satan yn ei holl demtasiynau; cofia ei fod yn ddrygionus, ac na fedr ddyfod ar ddiben da. Ti a wyddost am y dedwyddwch o wasanaethu Duw sanctaidd; yn sicr ynte y mae genyt ateb yn barod wrth dy law, erbyn y delo yr un drwg yma i'w dynu i bechod. A eili di feddwl am ddiwyno dy ddwyllaw â'i galedwaith brwnt a ffaithid ef, ar ol iddynt gael eu harfer i wraith mor lân a hardd ag yw gwasanaeth dy Dduw! Paid â gwrandaw ar gynnygiadau Satan, os nad wyt yn bwriadu bod yn ddrygionus fel yntau.

(2il.) Y mae yr enw, "un drwg," yn enw o ddiystyrwch ar y diaffiaid, er calondid i'r holl gredinwyr yn eu hymdrech i'w herbyn. Fel pe dywedasai Duw, nac ofnwech hwynt, haid ddrygionus yw y rhai yr ydych i'w gwrthsefyll; y mae yr achos a'r rhai a'i hamddiffynant yn ddrygionus oll. Ac yn ddiâu, os rhaid i'r saint gael gelynyon, po gwaethaf fyddont, goreu hyn. Y mae yn ddigon i roddi calondid yn y digalon cael ymladd â'r fath dorf â'r rhai hyn. Y mae yn rhaid i ddrygioni fod yn wan: fe ddywed enogrwydd y diaffiaid iddynt fod eu hachos wedi ei gollu cyn i'r frwydr gael ei hylmadd. Y mae arnynt dy arswyd di, Gristion, am dy fod yn sanctaidd; ac am hyny, nid rhaid i ti frawychu rhagddynt hwy sydd ddrygionus. Yr wyt ti yn edrych arnynt fel rhai cyfrwys, cedyrn, a lliosog; ac yna y mae dy galon yn palu: ond edrych di ar yr holl ysbrydion cyfrwys a chedyrn yma fel rhai drygionus ac annuwiol sydd yn casau Duw yn fwy na thi, a thithau o herwydd dy berthynas âg ef; yna, nis gelli lai na chymmeryd calon. O ba ochr y mae Duw pan wyt ti mor ofnus? A fydd i'r hwn a geryddodd frenhinoedd am gyffwrdd â'i rai eneiog, a'u drygu yn eu cyrph neu eu meddiannau, sefyll yn llynydd, dybygit ti, a gadael i'r ysbrydion drygionus yma roi casis am fywyd Duw ei hun o'th fewn, sef dy ras a'th sancteiddrwydd, heb brysuro i'w gymmhorth? Na: y mae yn amhossibl.

2il. Fod gelynyon y saint yn cael eu hamlygu yma yn eu hundeb; picellau tanlyd y fall, neu "yr un drwg." Fel pe byddai y cwbl yn cael eu saethu o'r un bwa, a chan yr un llaw. Ac fel pe byddai rhyfel y Cristion yn ymladd rhwng dau. Nid yw yr holl lengau o ddiapiaid, a'r lluoedd o ddynion drygionus, yn gwneuthur ond un corph dirgelaidd o ddrygioni, fel y mae Crist a'i saint yn un corph dirgeiddig sanctaidd. Un Ysbryd sydd yn gweithredu yng Nghrist a'i saint; felly un ysbryd sydd yn gweithredu yn y diaffiaid a dynion annuwiol, aelodau y diafol. Y mae yr enaid trwy bob rhan o'r corph, hyd yn oed y bys bach, felly ysbryd

y diafol yn y pechadur lleiaf. Ond yr wyf wedi ymhelaethu ar hyn mewn lle arall.

3ydd. Mae gelyn y saint yn cael ei osod allan yma yn ei ddarpariaeth ryfelgar, a'r arfau y mae yn eu defnyddio i'w herbyn; sef picellau, a'r rhai hyn y o'r fath waethaf — "picellau taullud."

(Iaf.) Picellau. Temtasiynau yw picellau y diafol, y rhai y mae yn eu defnyddio yn erbyn eneidiau dynolryw: a chymmhwys eu galw felly mewn ystyriaeth driphlyg.

(1.) Y mae picellau neu saethau yn myned yn gyflym. Oddi yma y mae yn ymadrodd arferol gan rai, Cyn gynted a'r saeth. Y mae mellt yn cael eu galw yn saethau Duw o herwydd eu cyflyndra; "Efe a aufonodde ei saethau ac a'u gwasgarodd hwynt; ac a saethodd ei fellt, ac a'u gorchfygodd hwynt;" *Salm* xviii. 14; hyn yw, mellt yn debyg i saethau. Y mae temtasiynau Satan yn ehedeg fel y fellten—yn dyfod yn ddisymmwth. Gall aufon profedigaeth mewn tarawiad llygad. Cyn gynted ag y trôdd llygad Dafydd at Bathsebah, dyna saeth y diafol yn ei galon ef cyn iddo allu cau y drws yma i'w herbyn. Neu, gwrandawiad gair neu ddau sydd ddigon. Fel yma, cyn gynted ag y mynegodd gweision Dafydd iddo eiriau y carl Nabal, dyna ei ddigder wedi ei ennyn: saeth o ddial a'i clwyfodd hyd ei galon. Pa beth sy gyflymach na meddwl? etto, mor fynych y mae hwnw yn dentasiwn i ni! Y mae un meddwl ynfyd yn codi mewn dyledswydd, a dyna ein calonau (oedd o'r blaen yn ddyfal ar eu gorchwyl) yn cael eu tynnu ymaith yn ebrwydd, fel y ci ar ol aderyn sydd yn codi o'i flaen, tra y mae yn dilyn ei feistr. Iê, os na thycia un dentasiwn, mor fuan y gall efe ddanfon y llall ar ei hol hi! Cyn gynted a'r saethydd mwyaf cyflym. Fel yr ergydio un saeth, y mae ganddo y llall yn barod ar ei linyu.

(2.) Y mae picellau neu saethau yn ehedeg yn ddirgel, ac felly y mae temtasiynau. Yn gyntaf, y mae y saeth yn fynych yn dyfod o bell: gall dyn gael ei glwyfo gan bicell ac heb weled pwy a'i hergydiodd. Dywedir fod y drygionus yn ergydio eu saethau yn ddirgel at y perffaith (*Salm* lxiv. 3, 4); ac yna dywedant, "Pwy a'u gwel hwynt?" *adn.* 5. Dyma fel y mae Satan yn anfon ei demtasiynau mor ddirgelaid, fel mai prin y drwgdybir ef yn y mater. Weithiau, fe ddefnyddia dafod y wraig i wneuthur ei neges; byrd arall, fe ä o'r tu ol i'r gwr, neu gyfaill, neu was, &c., ac nis gwelir ef tra y mae wrth ei orchwyl. Pwy fuasai yn meddwl y cawsid Satan yn Pedr yn tentio ei Feistr? neu y buasai Abraham yn offeryn ganddo i ddraddodi ei anwyl wraig i law pechod? etto, felly bu. Iê, y mae weithiau mor anamlwg, fel y mae yn benthycia bwa Duw i ergydio ei saethau o hono; ac felly y mae y Cristion truan yn cael ei dwyllo gan feddwl

mai Duw sydd yn ceryddu a'i fod yn ddig pryd mai y diafol yn unig, trwy ei ffug o lais Duw, sydd yn peri iddo feddwl hnyu. Y mae Iob yn cwyno fod "saethau yr Hollalluog ynddo, a'u gwenwyn yn yfed ei ys byrd; a bod dychrynfâu Duw yn ymfyddino i'w erbyn" (*Iob*. vi. 4); pryd mae Satan oedd trwy yr holl amser yn arferyd e falais a'i ddichellion arno. Yr oedd Duw mewn heddwch â'r gwr da yma; ond cawsa Satan ei genad ef i'w boeni a'i ddechrynu fel hyn dros amser; ac y mae yntau yn gwaeddi allan fel pe buasai Duw wedi efwirw ymaith a thro'i yn elyn iddo. Yn ail y mae picellau neu saethau yn ehedeg yn ddistaw, yn tori eu ffordd trwy yr awyr hel na sw'n na thrwst, fel y gwna ergydion gynau, i fynegi i ni eu bod yn dyfod. Yn ddiarwybod fel yma y mae profedigaeth yn rhuthro arnom: y mae y lleidr yn y tŷ cyu y meddylion fod achos i gau y drws. Y mae y gwynt yn greadur sydd a'i gynnhwyr yn ddirgelaid, am yr hwn y dywed ein Iachawdwr, "Na wyddom o ba le y mae yn dyfod, nac i ba le y mae yn myned" (*Ioa.* iii. 8); er hyny, "ni a glywn ei sw'n ef," fe y dywedir yn yr un lle. Ond y mae temtasiynau yn fynych yn dyfod heb roddi i ni rybudd trwy un math o sw'n a wnant. Y mae y diafol yn cynllwyn mor gyfrwys, fe nad yw yr enaid yn gweled ei amean, nac yn canfod y bach nes y byddo wedi ei lynged. Yn debyg i'r wraig o Teecoah, a ddywedodd ei chweddi mor daclus, fel y rhoes y brein farn yn ei erbyn ei hun ym mherson un arall cyu dirnad y mater.

(3.) Y mae yn natur picellau glwyfo lladd, yn enwedig pan fyddont wedi eu llym huan yn dda, ac yn cael eu hergydio o fw cryf gan un a fyddo yn abl i dynu ynddo. Y fath yma yw temtasiynau Satan; y maen wedi eu blaenllymu â'r malais creulonaf, a yn cael eu hergydio gan ddim llai na nerth angylaid, a hyn yn erbyn y fath greadur gwan a dyn. Amhosibl ynte fuasai i'w henaid wrthsefyll gallu Satan, a chyrrhaedd yn ddiagon i'r nef, oni buasai i Dduw barotoi i ni arfogaeth o'r fath oreu. Fe fyn Crist i ni fod yn ystyriol o'u grym a'u hen bydrwydd; am hyny y rhoddodd yn ei weddi yr erfyniad hwnw sydd ag achos i'w goreu o'r saint tu yma i'r nef ei arferyd "Nac arwain ni i brofedigaeth." Yr oedd Crist ei hun y pryd hyny newydd ddyfod i'w frydr, lle y profasai rym a medr Satan o demtio; ac er fod ei gyfrwysdra a'i allu y rhy wan i'w orchfygu ef, etto, gwyddai y dda en bod yn ddigon i faeddu y cryfaf o'r saint. Ni bu neb erioed heb law Crist i ddarfu i Satan ei guro, fwy neu lai: rhag orfraint Crist oedd cael ei demtio ac heb orwain i brofedigaeth. Iob, un o'r cedyr penaf yn myddin y saint—un heb gyffelydd iddo, fel y dywedodd Duw am dano; e

hyny fe gafodd ei archolli a'i roddi mewn cryn anhrefn gan y saethau a ergydiwyd o fwa Satan. Bu raid i Dduw ei gipio ef o grafangau y diafol, onid e fe gawsai ei lwyrfnafu gan y llew hwnw.

(2il.) Y mae darpariaeth Satan, nid yn unig yn bicellau, ond yn "bicellau tanllyd." Fe feddwl rhai mai rhyw fath neillduol o brofedigaeth sydd i'w ddeall wrth yr ymadog; megys anobaith, cabledd, a'r cyfrywog sydd yn llenwi y galon â dychryn ac laeth. Ond mi feddyliwn fod hyn yn rhy yfng fel esboniad; o blegid y mae ffydd yn darian at bob math o demtasiynau; ac n wir nid oes un nas gall droi yn brofedigaeth danllyd. Gan hyny, yr wyf fi yn gogwyddo i feddwl fod pob math o demtasiynau yn cael eu cynnwys yma; etto, fel y i olygu rhai yn fwy enwedigol nag ereill; o honynt mi rof rai esamplau yn y blaen.

Cwest. Pa ham y gelwir picellau Satan yn rhai tanllyd?

At. 1. Fe ellir eu galw yn danllyd, o herwydd y llid tanllyd a'r hwn y mae Satan yn hergydio. Y rhai hyn yw y tân a boerir gan y ddraig yma, sydd yn llawn o gynlaredd yn erbyn Duw a'i saint. Dywedir d Saul "yn chwythu bygythion a chelanedd yn erbyn yr eglwys;" *Act. ix. 1.* Fel â llosgfa o'i fewn, y mae ei anadl yn laeth; yr oedd fflam danllyd o lid erlidgar, megys o ffwrn losgadwy, yn dyfod oddi wrtho. Danliadau llid y diafol yw temtasiynau.

(2.) Y maent yn danllyd o ran eu canlyniad; os na chânt eu diffodd, hwy a gynnwnt hyd dân uffern. Y mae gwreichionen uffern ymhob temtasiwn; ac megys y mae b gwreichion yn ehedeg i'w helpen, felly mae pob temtasiwn yn tueddi i uffern damnedigaeth, yn ol bwriad ac amcan tan.

(3.) Y maent yn danllyd o ran eu heffaith weidiol ar ysbrydoedd dynion; a hyny, ennyn tân yng nghalonau a chydwybod-creaduriaid truaen. Yr oedd yr apostol yn ymadrodd yn golygu dyfais gelynyddulawn, a arferent drochi blaenau eu saethmewn rhyw wenwyn; yr hwn a'u gwnai i fwy marwol; fel, nid yn unig y clwyfent gan lle y disgynent, ond y parent losgfa i'w yr holl gorph, ac y byddai yn llawer iaws ei iachau. Fe ddywed Iob am saethau, oedd â'u "gwenwyn yn yfed ei cryd;" *Iob vi. 4.* Y mae gan bicellau tan effaith wenwynllyd a llosgedig.

PENNOD XIII.

Yr danllyd temtasiynau dengar Satan, ynghyd a gallu ffydd i'w diffoddi.

Y mae temtasiynau o ddau fath; naill ai rhai sydd yn denu mewn ffordd foddhaol, yn llygad-dynu âg addewidion celwyddog

o foddlonrwydd i'r creadur, ai yn rhai sydd yn brawychu, ac yn dwyn alaeth gyda hwynt. Y mae y ddau rywogaeth yn danllyd, ac yn cael eu diffodd trwy ffydd, a ffydd yn unig. Ni a ddechreuwn gyda'r cyntaf, sef y rhai sydd yn denu mewn ffordd foddhaol. A'r sylw ffydd hyn.

Athr. Fod ffydd yn galluogi yr enaid i ddiffodd y temtasiynau mwyaf boddgar a fedd Satan.

1. Dangoswn fod yn y temtasiynau yma natur danllyd.

2. Fod ffydd yn eu diffoddi.

1af. Y mae ganddynt natur ac effaith danllyd. Y mae gogwyddiad dirgel yng nghalon pob un, i bob math o bechod; nid yw temtasiynau yn disgyn arnom ni fel pelen o dân ar iâ neu eira, ond fel gwreichionen ar garth sych, neu fellten ar do gwellt, yr hwn sydd ar dân yn ebrwydd. Oddi yma y mae yr Ysgrythyr yn bwrw y pechod arnom ni, er ein temtio gan Satan: *Iago i. 14*; "Yna y temtir pob un, pan y tyner ef, ac y llithier, gan ei chwant ei hun." Craffwch! Satan sydd yn temtio ond ein chwant ein hunain sydd yn ein tynu. Y mae yr adarwr yn gosod y fagl; ond blys yr aderyn ei hun sydd yn ei dynu iddi. Tueddrrwydd rhyfedd sydd yng nghalon dyn i gymmeryd tân oddi wrth y picellau hyn: "Pan ddarfyddo y coed, y mae y tân yn diffodd" (*Diar. xxvi. 20*), ac ni wna niwed; dyma fel yr oeddynt ar Grist; ond nid oedd ynddo ef ddim defnydd llosgadwy o lygredd; Satan weithio arno. Ond ein calonau ni, wedi unwaith eu poethi yn Adda, y maent heb oeri o hyny hyd heddyw. Y mae calon pechadur yn cael ei chyffelybu i ffwrn: *Hos. vii. 4*; "Pawb o honynt sydd yn tori priodas, fel ffwrn wedi ei thwymno gan y pobydd." Calon dyn yw y ffwrn, y diafol yw y pobydd, a themtasiwn yw y tân sydd ganddo; ac yna y mae parodrrwydd i bob pechod. "Gorwedd yr wyf," medd Dafydd, "ym mysg dynion poetlioni" (*Salm lvi. 4*), ym mysg y rhai sydd ar dân; a phwy atolwg sydd yn eu rhoddi ar dân? Fe ddywed yr apostol i ni—*Iago iii. 6*—"Wedi ei wneuthur yn fflam gan uffern." O! gyfeillion, pan fyddo y galon unwaith wedi ei hennu gan demtasiwn, pa ganlyniadau chwithig y mae yn beri! Mor anhawdd fydd diffodd y tân, hyd yn oed mewn dyn grasol! Dafydd ei hun, pan oedd dan rym temtasiwn, mor amlwg fel y medrai llygad cnawdol ei chanfod, Ioab wyf yn feddwl, yr hwn a'i ceryddodd ef (*2 Sam. xxiv. 3*); er hyny cafodd ei lithio i'r pechod hwnw a barodd golli bywydau deng mil a thragain o wyr. Ac os bu y tân mor ddifeistrolaeth yn y fath un a Dafydd, pa helynt a wna, lle nad oes dwfr yn agos, dim gras yn y galon, i'w ddiffoddi? Oddi yma y dywedir fod y drygionus "yn ynydu yn eu pechod-

au (*Ier.* 1. 38) ; yn ysbarduno ym mlaen heb ofn na synwyr ; yn debyg i ddyn â chlefyd trwm wedi codi i'w ben ; nid oes dim dal arno yn ei wely. Dyma fel y mae dyn a ddaliwyd gan demtasiwn wallgof ; efe a red i safn anghau ac uffern, ac ni fyn ei attal.

Defn. 1. O! fel y dylai hyn beri i ni ofni rhedeg i afael temtasiwn, pan y mae y fath hudoliaeth ynddo! Y mae rhai dynion yn rhy hyderus ; y mae ganddynt dyb rhy dda am danynt eu hunam, fel pe na byddai bossibl i'r fath afiechyd eu dal hwynt ; ac am hyny anturiant anadlu ym mhob math o awyr. Cyfiawn yw gyda Duw adael i'r fath gael eu cyrhaedd gan un o bicellau Satan, fel y dysgont adnabod eu hunain yn well. Pwy a gwyna i'r dyn y chwythwyd ei dŷ i fyny, pan mai ynghornel ei simnai yr oedd yn cadw ei bylor? "Pa beth, ai ei yw dy was?" meddai Hazaël : 2 *Bren.* viii. 13. Ai yn fywstfil yr wyt ti yn fy nghyfrif, wedi colli dynoliaeth mor bell, fel y trochwn fy nwyllaw mor erchyll mewn gwaed? Etto, mor fuan y syrthiodd yr adyn yma i'r demtasiwn! Bu yn euog o'r weithred waedllyd o ladd ei feistr, agos cyn gynted ag yr aeth adref ; ac felly dangosodd nad oedd y drygau ereill a ragfynegodd y prophwyd, mor annhebyg o ddyfod i ben, ag y meddylodd efe ar y cyntaf. O! sefwich allan o ergyd y diafol, oddi eithr eich bod am gael un o'i saethau yn eich oehr ; ymgedwch mor bell ag yw bossibl oddi wrth y pwll tro o demtasiwn. O blegid os unwaith y caiff di o fewn ei gylch, byddi yn debyg o gael dy syfrdanu yn fuan. Y mae un pechod yn helpu i ennyn un arall ; y lleiaf un a fyddo mwy ; fel yr eithin yn rhoddi tân yn y boneffion. Pan gafodd gwyr y llys eu brenin i yfed, a chwareu y meddwyn, buan y dysgodd chwareu y gwatwarwr : *Hos.* vii. 5 ; "Y tywysogion a'i gwnaethant yn glaf â chostrelan gwin ; estynodd ei law gyda gwatwarwr."

2il. A yw picellau Satan o'r fath natur ennynol? Gwylia rhag bod yn offeryn Satan i roddi tân yn llygredd un arall. Y mae rhai a'u hancan ar hyn ; dyma fel y mae y butain yn perarogei ei gwely, ac yn paentio ei gwyneb ; ac eilunaddolwyr mor buteinllyd a lithau, yn addurno eu temlau a'u halloran â lluniau gwag-grefyddol, wedi eu cymmhenu i'r eithaf i lygad-dynu yr edrychlwyr. Oddi yma y dywedir eu bod yn "ywresogi âg eilunod" (*Esa.* lvii. 5), fel carwr wrth lygadu ar ei anwylyd yn ei gwisg buteinllyd. Dyma fel y mae y meddwyn hefyd yn ennyn chwant ei gymmydog "trwy roddi ei gostrel iddo;" *Hab.* ii. 15. O! y fath orchwyl fïaidd y mae y bobl hyn arno! Yn ol y gyfraith y mae yn farwol-aeth i ddyn roddi tân yn nhŷ ei gymmydog ; pa beth ynte a haeddant hwy sydd yn rhoddi tân yn eneidiau dynion, a hwnw yn dân

uffernol? Ond y mae yn bossibl dy fod yn ei wneuthur mewn anwybodaeth, a thrwy fater llai nag y meddylit ti. Fe all plentyri disynwyr, wrth chwareu â gwellt roddi tân mewn tŷ, nes bod yn rhy anhawdd i ddyn ion call ei ddiffodd. Ac yn wir, fe all Satan wneud defnydd o'th ynfydrwydd a'th ddi ofalwch dithau i ennyn chwant yng nghalon un arall. Ysgatfydd fod ymadrodd segy ysgafn yn syrthio o'th enau, a thi yn meddwl dim llawer o niwed ; ond fe all awel demtasiwn ddwyn y wreichionen yma fynwes dy gyfaill, ac ennyn tân ofnadw yno. Trwsiad anllad, a dwyfron ac ysgwyddau noethion—gâd i ni roddi dy fod yn ymwisgo fel hyn, a chalon ddiwair, a yn unig am ei fod yn beth arferol—etto f' all fagu llygad un arall. Ac os oedd hwnw yn pechu, a gadwai bydew yn agored, di ond er niwed i anifail (*Exod.* xxi. 33), p' faint mwy tydi, yr hwn wyt yn rhodd achlysur i enaid bechu, yr hyn sydd y waeth niwed? Ni fwytaï Paul gig byth os byddai hyny yn rhwystr i'w frawd 1 *Cor.* viii. 13. Ac a fedri di hoffi ac yn lynu mewn gwisgiad ynfyd, a dull anniwaf y wlad, er i lawer gael rhwystr o'r achos "Y mae y corph," medd Crist, "yn fwna'r dillad." Yn sicr ynte, y mae enaid d'frawd yn haeddu cael gwneuthur mwy gyfrif o hono na rhyw ddull diles o wisgiad.

Deuwn yn awr at yr ail gangen o'r pwynt sef y bydd i ffydd alluogi yr enaid i ddiffodd y tentasiynau yma. "Hou yw yr oruchaiaeth sydd yn gorchfygu y byd, sef ein ffydd ni;" 1 *Ioan.* v. 4. Y mae hi yn gosod baner orfoleddus ar benglog y byd. Yr apostol a ddwyed i chi beth a feddyl wrth y byd : 1 *Ioan.* ii. 15, 16 ; "Na chwareu y byd ; canys pob peth a'r sydd yn byd, megys chwant y cnawd, chwant llygad, a balchder y bywyd, nid yw o'r Tair eithr o'r byd y mae." Y mae y cwbl sydd yn y byd yn cael ei alw yn chwant, am fod yn ymborth ac yn danwydd i chwant. Yn awr y mae ffydd yn galluogi yr enaid ddiffodd y picellau a drochir gan Satan yn ngwenwyn y chwantau bydol yma, a elw gan rai yn drindod y bydolddyn.

1af. Am chwant y cnawd ; dan yr hyn cynnwysir y tentasiynau hyny, sydd y addaw pleser a hyfrydwch i'r cnawd. Y mae y rhai hyn yn wir yn dwyn tân yn safnau ; a phan ddisgynont ar galon anifail, buan y gwnânt hi yn flam gan nwydd afreolus, a serchiadau anifeilaidd. Dywed fod y godinebwr yn ymlongi yn ei cnawd (*Rhuf.* i. 27), a'r meddwyn yn cael ei "ennynu gan win;" *Esa.* v. 11. Nid oes dim math o demtasiwn yn gweithio yn gryfach na'r rhai sydd yn cynnyg mwyniant anifail ac yn addaw hyfrydwch i'r cnawd. Dywedir am bechaduriaid eu bod yn "gwneuthur pob afendid yn un chwant" (*Eph.* i.

9), gyda'r fath awydd (fel y mae y gair yn rwyddocau) ag sydd byth heb ei ddigoni. Pa fyddo y dyn trythyll wedi difa ei fedd-annau, a nychu ei gorph mewn gloddest, y mae y tân yn llosgi fyth yn ei galon druenus f. Megs nad oes ddiad a dyr syched dyn wedi ei wenwyno; felly nid oes dim ond fydd a rydd help i enaid yn y fflamau yma. r ydym yn cael fod y goludog yn uffern, e nad oes yno un diferyn o ddwfr i oeri ei ufod. Y mae yr anghredadyn mewn math uffern ar y ddaear; y mae yn llosgi yn ei swant, ac heb ddiferyn o ddwfr (o herwydd ffyg ffydd) i ddiffodd y tân. Dywedir am merthyron enwog hyny yn *Heb. xi*, mai trwy ffydd y diffoddasant angerdd y tân; ym ddia y mae tân chwant mor boeth a an merthyrdod; a thrwy ffydd yn unig y foddid hwnw hefyd: *Tit. iii. 3, 4*; "Yr ddym ninnau hefyd gynt yn annoeth- i, &c. Eithr pan ymddangosodd daioni a Ariad Duw ein Hachubwr tuag at ddyn— ol ei drugaredd yr achubodd efe nynt." dim, ni allent ysgrwyd ymaith y chwanta- au, eu hen gyfeillion, hyd oni chwasant, y ffydd, gydnabyddiaeth newydd â gras w, a ddadguddir yn yr efengyl.

PENNOD XIV.

Odd y mae ffydd yn diffodd chwanta y cnawd, chwanta y llygaid, a balchder y bywyd.

DOSE. I.

West. Pa fodd y mae ffydd yn diffodd y ll daulld yma o bleserau anianol. t. Trwy ddiwyll y Cristion a thynu iith niwl oddi ar ei lygaid, fel y gallo ed pechod yn ei liw noeth a'i egwyddor- moel, cyn i Satan ei wisgo â phlu. Y yn rhoddi iddo wybod pa beth yw bas riol pechod, cyn i'r diafol ei gymmysgu aw melus. Ac yn wir, y mae pechod yn yn ymddangos yn ddarn anhawdd- ac yn damaid chwerv iawn. Y mae gan llygad treiddiol; "sicrwydd y pethau ydys yn eu gweled" yw hi: y mae yn ch tu draw i'r llen o deimlad, ac yn od pechod cyn cael ei drwsiad gwyth am i ymddangos ar chwareufwrdd y byd; y gwyr hi mai mab uffern yw, a'i fod yn a uffern i'w ganlyn. Yn awr, deued n, os myn ef, a dangosed ryw chwant modd mwyaf dengar, y mae ateb y rion yn barod. O fy enaid, medd ffydd, wyller di âg ysbryd celwyddog. Y mae angos i ti Rahel deg: ond yn bwriadu ael Leah lygad-wlyb; y mae yn addaw enydd, ond fe dâl i ti dristwch. Y ll sydd yn gwneud y chwant yma mor ul, nid ei eiddo ei hun ydynt. Y melus- ryzt ti yn ei brofi, nid ydyw yn wirion- gan ac yn y pechod, ond wedi ei fen-

thya y mae er mwyn dy dwyllo di. "Tydi yw Saul," ebe y ddewines o Endor, "pa ham y twyllaist fi?" Felly gall ffydd alw pechod a Satan wrth eu henwau eu hunain, pan ddelont dan ymddieithro, Tydi ydyw Satan, medd ffydd, pa ham y ceisi fy nhwylo i? Y mae Duw wedi dywedyd fod pechod yn chwerv fel y bustl a'r vermod; ac a fynit ti beri i mi goelio y gallaf gasglu ffriwythau peraidd gwir hyfrydwch oddi ar y fath wreiddyn chwervedd? grawnwin oddi ar y fath ddrain?

2il. Y mae ffydd nid yn unig yn rhoddi i'r enaid weled fod pob pechod yn ei natur ei hun yn wag o wir ddaioni, ond hefyd mor ddarfodedig yw ei bleserau celwyddog. Ni chollaf, medd yr enaid, drugareddau sicr am bleserau darfodedig ac ansicr. Hyn a barodd i Moses roddi naid allan o bleserau llys yr Aipt i dân adfyd (*Heb. xi. 25*), o herwydd iddo eu gweled yn "fwyniant dros amser." Pe gwelech ddyn yn taflu ei hunan oddi ar fwrdd llong i'r môr; chwi allech ar y cyn- taf feddwl ei fod allan o'i bwyll; ond os gwelech ef ymben ychydig yn sefyll yn ddi- ogel ar y lan, a'r llong wedi ei llyngu gan y tonau, chwi feddylicch erbyn hyny iddo gymmeryd y ffordd oreu. Mae ffydd yn gweled y byda holl bleserau pechod ar soddi: y mae agen ynddynt nas gall synwyr dyn ei chau i'fyny. Yn awr, onid gwel yw nofio mewn ffydd trwy fôr o flinder, a chyrrhaedd yn ddiogel i'r nef o'r diwedd, na gorwedd yn mynwes pleserau pechod nes ein boddi yn llyngelyn uffern. Y mae yn amhossibl i fwyniant pechod barhau yn hir.

(1af.) Am nad oes ynddo ddim daioni o naturiaeth. Pa beth bynag nad ydyw o naturiaeth mewn peth, ni a'i cawn yn gwaethygu yn fuan. Y mae sugr o natur melus, ac am hyny fegeidw ei felusder; ond meluswch ddiad neu win fel y mynoch â sugr, ymben ychydig hwy a gollant eu mel- usrwydd. Y mae mwyniant pechod yn beth oddi allan i'w natur ef; ac am hyny, ni phery yn hir. Nid archwaethir yn uffern ddim o'r melusder hwnw sydd yn awr yn ynfydu pechaduriaid. Bydd cwpan y pech- adur wedi ei chymmysgu yno gan law a'i gwna yn draflwng chwerw ddigon.

(2il.) Mae yn rhaid i fwyniant pechod ddarfod yn fuan, am na phery yr einioes yn hir; ac y maent i ddiweddu ynghyd. Yn wir, y mae mwyniant pechod yn fynych yn marw cyn i'r dyn farw: y mae pechadur- iaid yn byw i gladdu eu llawenydd yn y byd yma. Y mae y pryf yn magu yn eu cyd- wybod cyn magu yn eu cnawd trwy farwol- aeth. Ond gwybyddwch nad yw pleser pechod un amser yn byw yn hwy na'r bywyd yma. Y mae y gair wedi myned allan o enau Duw y caiff pob pechadur orwedd mewn gofid, a dihuo mewn gofid. Y mae uffern yn wlad rhy boeth i hyfrydwch an-

llad fyw ynddi. Yn awr, y mae ffydd yn ras doeth, darbodus, ac yn peri i'r enaid ystyried am fodd i fyw mewn byd arall, tra y mae yr adyn anianol yn unig am y pryd presennol: y mae ef a'i drwyn yn y cafn, a thra y byddo ganddo draffwng o'i flaen, y mae yn meddwl na dderfydd byth. Ond gall ffydd, ar un cam hir, gyrhaedd dros holl flynnyddoedd bywyd, a'u gweled wedi darfod tra y maent yn eu dechreuad, "Yr ydwyf yn gweled diwedd ar bob perffethrwydd," meddai Dafydd: *Salm* cxix. 96. Yr oedd ef yn gweled y drygionus, tra yr oeddynt yn tyfu yn yr ardd o bleser, fel pe buasent wedi eu tori i lawr, ac yn llosgi yn ffwrn Duw eisoes (*Salm* xxxvii. 2); ac fe wna ffydd yn ol ei graddau o nerth a bywiogrwydd yr un peth i bob Cristion. A phwy a genfigenai wrth ddyu wedi ei gondemnio o herwydd y wledd y mae yn ei gael ar y ffordd i'r crogbren?

3ydd. Y mae ffydd yn euro Satan yn ei gymnygion trwy ddangos i'r enaid y lle y mae mwyniant amgenach i'w gael, a hyny yn fwy rhad. Pwy nad ŷi i'r siop hono lle y mae yn cael oreu! Y mae y gyfraith yma yn dal ei grym yn mysg pechaduriaid eu hunain; y mae y meddwyn yn myned lle y caiff y diodydd goreu, a'r glwth drachefu lle y caiff yr arlyw oreu. Yn awr, y mae ffydd yn gosod o flaen yr enaid y fath fwyniant ag sydd yn oreu tuhwnt i bob cymhariaeth: y mae yn ei arwain at yr addewid, ac yn ei groesawa yno ar draul Crist â holl ddauteithion gwych yr efengyl. Nid oes un ddysgl gan y saint i ymborthi arni yn y nef nas gall ffydd ei gosod o flaen yr enaid, a rhoddi iddo (er mai nid pryd llawn, etto) y fath brawf ag a'i tawdd i lawenydd anhraethadwy a gogoneddus. Yn sicr, bydd hyn yn ddiog i ddiiffodd y demtasiwn. Pan ddaifono Satan i wahodd y Cristion at ei fwrdd aflan, oni ettyb yr enaid, A adawaf fi y mwyniant lhwng a lonodd, fe, a ddirfawr lawenydhodd fy nghalon, i'm darostwng fy hunan â bara balogedig pechod, lle ni chaf ond cydymborthi â'r anifail, yr hwn sydd yn gyfranog o bleserau teimlad yn gystal a dyn? Ie, a wnaif fi fy hun yn waeth na'r anifail? yn gythraul fel Iudas, yr hwn a gododd oddi wrth fwrdd ei feistr i eistedd wrth fwrdd y diafol.

DOSEB. II.

2. Chwantau y llygad; y mae ffydd yn diffodd y rhai hyn. Wrth chwant y llygad y mae yr apostol yn meddwl y tentasiynau hyny a dynir oddi wrth elw a thrysorau y byd; a elwir felly, yn gyntaf, Am fod y llygad yn godinebu gyda'r pethau hyn. Fel y mae y llygad aflan yn edrych ar wraig un arall, felly y mae y llygad cybyddlyd yn edrych ar gyfoeth arall i chwantu ar ei ol. Yn ail, o herwydd nad yw yr holl fudd a geir oddi wrthynt, mewn ystyriaeth, ddim

ond i foddio y llygad (*Prog.* v. 11); "P fudd gan hyny sydd i'w perchenogion, ond eu gweled â'u llygaid." Hyny yw, os bydd gan ddyu ond modd i brynu rhyw ymbort a dillad, digon i dalu am ei draul feunydiol o angenrheidiau, nid yw yr hyn a fydd dros ben ond i'r llygad buteinio ar ei eidd. Er hyny, gallwn weled ei fod yn damni melus iawn gan galon anianol. Anaml ceir dyn ar nas plyg trwy arferion chwant a budr i godi yr afal eraidd yma. Pan y tyriwyf yr effaith arswydus a gafodd y demtasiwn yma ar Ahab, yr hwn, i emu ychydig gyfeiriau o dir (na chwaneig lawer at ardrethion brenin), a feiddiodd nod ato yng ngwaed ei berchenog; nid ydwyf rhyfeddu gweled dynion sydd a'u cyflwr angenus yn cydio ym mach profedigael lle y mae yr abwyd yn llawer chwaneig elw bydol. Dyma y drws yr aeth y diafol trwyddo i mewn i Iudas. Dyma y graig darfu am ffydd Denas; "fe garodd y byd presennol;" 2 *Tim.* iv. 10. Yn awr, fe ddiffodda gwir ffydd y demtasiwn a finiwyd rhai hyn.

1af. Y mae ffydd yn mynegi i'r enaid i daddoi ofal Duw a'i ragluniaeth drosto. lle y codir y mur yma, y mae yr enaid ddiogel tra y cadwo o fewn ei gwmpas. medd Satan, pe gwnait ti ond anturio o wedyd celwydd, a gwneud ychydig yn llafar Dduw yn y cyfryw orchymyn, ti geir llafn aur yma a'r fantais acw i gynyddu feddiannau. Yn awr, fe ddysg ffydd i'r enaid ateb, Y mae genyf un yn darparu dda drosywf; nid oes arnaf eisieu dy wo am di, Satan; pa ham y chwareuwn y lle au yr hyn y mae Duw wedi addaw ei rhoi os bydd yn dda er fy lles; *Heb.* xiii. "Bydded eich ymarweddiad yn ddiarian; gan fod yn foddllawn i'r hyn sy geirf Caenus efe a ddywedodd, Ni'th roddaf o fyfny, ac ni'th lwyr adawaf chwaith." fodd y gall fod arnaf eisieu, O! fy enid gan fod cyfoeth Duw, trwy yr addewid dy wasanaeth? Gâd i'r dyn sy heb Duw yn y byd fyw wrth ei gyfrwysdra a'i chellion; bydd di fyw trwy ffydd.

2il. Y mae ffydd yn dysgu i'r enaid nid oddi wrth amledd y daw cysur a beilonrwydd, ond oddi wrth fendith Duw nad yw elwa trwy bechod yn ffordd i gafendith ef (*Diar.* xxviii. 20); "Gwr ffydd llawn a fydd aml ei fenlithion; ond y m brysuro i fod yn gyfoethog, ni bydd di ydd." Pe medrit ti, medd ffydd, beud da y byd mewn ffordd ddrwg, nid wyt nes i'r boddlonrwydd wyt yn ddisgwy mae yn anhawdd i un ladrate ei fyw yna gofyn gan Dduw roddi ei fendith a Y peth a emilli trwy bechod nis gall S roddi i ti feddiant heddychol o hono, ryddhau oddi wrth y cwynion hyny a i Duw yn sicr i'th erbyn.

3ydd. Y mae ffydd yn codi yr enaid i am-
 union uwch na chrafu ynghyd bethau y byd
 wn. Y mae hi yn caufod byd tu draw i'r
 euad; a dyna lle y mae ei marsiandiaeth hi
 i gorwedd: y mae yn marchnatta am ras
 gogoniant, tra y mae plant y byd hwn yn
 ulwytho â'r glo a'r clai. Y mae ffydd yn
 rchu ei chyfoeth o bell. Nid oedd Saul
 i fwy ewyllysgar i roddi heibio chwilio am
 ynod ei dad pan y clywodd am deyrnas
 ydyw yr enaid crediniol i roddi heibio
 la am y byd wrth glywed am Grist a'r
 foedd. Yr ydym yn cael Dafydd dduwiol
 cyhoeddi ynfydrwydd plant y byd, am
 bod yn ymflino cymmaint yn ddiachos
alm xxxix. 6; "Dyn yn ddiaw sydd yn
 odio mewn cysgod, ac yn ymdrafferthu yn
 erio; efe a dyra olud, ac nis gŵyr pwy a'i
 sgl." Ac yn yr adnod nesaf, ni a'i cawn
 yn troi cefn ar y byd fel peth rhy wael i
 y geisio am dano; "Ac yn awr, beth a
 nisgwyliaf, O Arglwydd?" Fel pe dy-
 dasai, ai dyma y rhan y byddwn fodd-
 yn arni? cael eistedd ar bentwr mwy o
 foeth nag a fedd fy nghymmydog? "Fy
 oboath sydd ynot ti. Gwarded fi o'm holl
 mweddau;" *adn. 8*. Pawb at y peth y bo.
 rhai sydd yn caru y byd, cymmerrant yn
 id; ond Arglwydd, na ddyro i mi fy nghyf-
 ni mewn aur nac arian, ond mewn maddeu-
 t pechod: dyma fy nisgwyliaf i. Abra-
 m yntau, yr oedd ganddo, trwy ei ffydd,
 ath feddwl gwael am drysorau y byd hwn,
 y gadawodd ei wlad ei hun, i fyw yn all-
 t yma mewn gobaith o wlad well: *Heb.*

DOSE. III.

3. Chwant y byd, balchder y bywyd. Y
 re ysfa o falchder yng nhalon dyn ar ol
 rhydedd goreuog y byd: â'r ysfa yma yn
 eigi balch y mae y diafol yn llafurio i'w
 pi a'i chwaneu trwy gynygion addas
 i'w prwas. A phan fyddo y demtasiwn
 oli allan a'r chwant oddi fewn yn ymgyf-
 nod, yna y mae yn gweithio yn rymus.
 Y oedd Balaam yn caru y ffordd oedd yn
 wain i'r llys; ac am hyny, yn mlaen y
 ne yn ysparduno ei gydwybod, er ei bod
 y gwaedu ac yn rhuso mwy na'r asen yr
 od yn marchogaeth arni. Yr Iuddewon,
 wli eu hargyhoeddi ynghylch person Crist
 a athrawiaeth, oeddynt er hyny mor dryn
 o hanrhydedd a'u gair da, fel yr ymadaw-
 t â Christ yn hytrach na pheryglu hwnw
(an xii. 43); "Canys yr oeddynt yn caru
 goniannt dynion yn fwy na gogoniant
 w." Yn awr, y mae ffydd yn diffodd y
 demtasiwn yma; a'i pherchen, mewn diys-
 tawch duwiol, yn ffaidd ganddo gymmeryd
 d ddyrchafiad y byd yn wobr am y pech-
 oleiaf (*Heb. xi. 24*); "Trwy ffydd, Moses
 wli myned yn fawr, a wrthododd ei alw
 y fab merch Pharaoh." Er y gallasa i am
 m ar a wyddom fod, trwy ei fabwysiad,

yn etifedd i'r goron, etto fe dafodd hyn o'i
 ol. Ni ddywedir ei fod ef heb geisio bod yn
 fab merch Pharaoh, er y buasai hyny yn
 ymddangos yn gannoliaeth fawr (pe cawsai
 rhai y fath gyfle a'r fath ran yn ffafry bren-
 in, ni buasent yn petruso arfer gweniath a
 thwyll i ddringo yn uwch yn y llys), ond efe
 a wrthododd ei alw. Yr oedd anrhydedd
 yn llifo ar ei draws fel llanw y môr; safodd
 yntau yn erbyn yr holl firwd yma o ddyr-
 chafiad heb i gymmait a bwlech gael ei dori
 yn ei galon i'w groesawu; yr oedd hyn yn
 rhyfeddol yn wir. Ac ni ddarfu iddo wrthod
 y dyrchafiad yma er mwyn rhyw dywysog-
 aeth yr oedd yn gobeithio ei chael mewn man
 arall. Nid gadael un llys i fyned i un arall
 a wnaeth, ond i ymuno â phobl dlodion a
 a dirmygedig; i.e. trwy wrthod ei ffafry, fe
 dynodd ddigofaint y brenin arno ei hun,
 etto fe'i dygodd ffydd ef trwy yr holl uch-
 der a'r dyfnder yma o barch ac ammharch,
 anrhydedd a darostyngiad. Ac yn wir, pa
 le bynag y byddo y gras yma (ond fod iddo
 amrywiol raddau o nerth neu wendid), fe
 wna y cyffelyb. Yr ydym yn darllen yn
adn. 33, o'r un bennod, fel y darfu i Samuel
 a'r prophwydi ddarostwng teyrnasoedd trwy
 ffydd, lle yn sicr nid ydys yn meddwl am or-
 uchafiaeth y cleddyf yn unig (er fod rhai o
 honynt wedi gwneuthur gwrolwaith y ffordd
 hono), ond hefyd am eu gwaith yn gwrthod
 anrhydedd a dyrchafiad teyrnasoedd. Am
 hyn y mae amryw o'r prophwydi yn dra
 enwog; a Samuel yn neillduol, yr hwn, wrth
 orchymyn Duw, a roddodd deyrnas ymaith
 oddi wrth ei dŷ a'i deulu ei hun trwy en-
 neinio Saul, er mai efe ei hun oedd y pryd
 hyny y pen swyddwr yn y wlad. Ac ereill,
 ni a ddarllenwn (*adn. 37*), "a demtiwyd;"
 hyny yw, pan oeddynt ar ddiodef, cynnyg-
 iwyd iddynt ddyrchafiadau mawrion os
 plygent i'r amserau, trwy gilio ychydig oddi
 wrth y broffes gyhoeddus o'u ffydd. Ond
 hwy a ddewisasant ffilmiau merthyrdod yn
 hytrach na ffafry brekhinoedd ar y fath am-
 modau.

Ond i ddangos yn fwy neillduol pa fodd
 y mae ffydd yn diffodd y demtasiwn yma.
 Yn 1af. Y mae ffydd yn dwyn ymaith y
 tanwydd sydd yn ei phorthi. Tyner ymaith
 yr olew, a'r lamp a ddiffydd. Yn awr, tan-
 wydd y demtasiwn yma yw balchder; a lle
 byddo y chwant yma mewn dim grym, nid
 rhyfedd fod llygaid y creadur yn cael eu
 dallu wrth edrych ar beth sydd mor wych
 at foddî dymuniadau y galon. Nid yw y
 diafol trwy demtasiwn yn gwneud dim ond
 tyllu y llestr, a rhoddi rhediad i'r peth y
 mae y galon yn llawn o hono. Yr oedd
 ysbyrd balch gan Simon y swynwr; fe fynai
 fod yn rhyw un mawr; ac am hyny, pan fedd-
 yliodd iddo gael cyfle i ddringo y chwareufa,
 y mae yn ebrwydd ar dân gan awydd am
 ddawn wyrthiol, fel y beiddiodd gynyg ei

phrynu gan yr apostol. Ond y mae ysbryd gostyngedig yn caru lle isel, ac heb fod yn awyddus i sefyll yn uchel yn meddyliau ereill; felly, tra y mae yn ymestwng yn ei dyb am dano ei hun, y mae y fwled yn ehedeg uwch ei ben ef, i daraw y dyn balch yn ei ddwyfron. Yn awr, ffydd sydd yn iselu y galon. Y mae balchder a ffydd yn wrthwyneb i'w gilydd; fel dau fwead, os bydd un yn myned i fyny, y mae y llall yn myned i lawr yn yr enaid: *Iaab. ii. 4*; "Wele, yr hwn a ymchwyrdd, nid yw un-iawn ei enaid ynddo; ond y cyfiawn a fydd byw trwy ei ffydd."

2il. Y mae ffydd mewn ffafr gyda Christ; ac felly yn peri i'r Cristion ddisgwyl ei holl anrhydedd ganddo ef. Yn wir, un o brif weithrediadau ffydd yw bwrw yr enaid ar Dduw yng Nghrist, fel un holl ddigonol i'w wneuthur yn gyflawn hapus. Ac am hyny, pan ddywedo tentasiwn, enaid, tielli godi dy hun yn y byd i'r lle yma a'r bri acw, os gwnei ond celu dy broffes, a goddef dy hun yn y pechod a'r pechod; yn awr, ffydd i dagn y fwled, a ettyb, O! fy enaid, cofia eiddo pwy ydwyf; oni ddarfu i ti gymmeryd Duw yn Benarglwydd? ac a dderbyni di ddyrchafiad o law un arall? Ni oddef brenhinoedd i'w caredigion dderbyn gwobrau gan frenin estronol, yn enwedig gan un gelynl iddynt; ac, medd ffydd, y mae yr anrhydedd a'r clod wyt ti yn ei ennill trwy bechod yn dy wneuthur yn dderbyniwr gwobrau gan Satan ei hun, yr hwn yw gelyn penaf yr Arglwydd.

3ydd. Y mae ffydd yn egluro perygl y fath bryniad, pe medrai Cristion gael anrhydedd y byd am wneuthur gymmaint ag un pechod.

(1af.) Hi ddywed, pe ceit ymherodraeth yr holl fyd, a phawb i blygu o'th flaen, ni chwaneagai hyn un cufydd at dy faintioli yng ngolwg Duw. Ond y mae dy bechod, a'r hwn yr wyt i'w brynu, yn anurddo dy enw yn ei feddyliau ef, i'e, yn dy wneuthur yn ffaidd yn ei olwg; y mae yn rhaid i Dduw ei angharu ei hun cyn y gall garu pechadur fel y cyfryw. Ac a ddygi di y penyd yma er mwyn y fath bluen? "Ai doethineb yw colli perl i ennill careg?"

(2il.) Medd ffydd, ni ddichon rhwysg a gogoniant y byd dy ddigoni di; fe all godi syched yn dy enaid, ond nid ei dori; fe genedla fil o ofalon ac ofnau, eithr nis llonydda un. Ond dy bechod sydd yn pwrcasu y rhwysg yma, a dichon hwnnw ddwyn poen ac artaith i'th enaid.

(3ydd.) Pan gaffech goron y byd ar dy ben, pa faint o amser a fydd i ti i'w gwisgo hi? Y mae clefyd ar wyr Rhufain; ac y mae angeu yn myned i lysoedd brenhinoedd, yn gystal ag i'r bythod gwaelaf; i'e, y mae brenhinoedd eu hunain yn cael eu rhoddi yn eu gwelyau o bridd mor noeth ag ereill.

Yn y dydd hwnw y derfydd am dy ho amcanion gyda thi; ond fe fydd i euog rwydd am y pechod a fu yn ysgol i ddringo bryn anrhydedd dy faeddu o mewn byd arall. A'r ystyriaethau hyn, a cyffelyb, y tyr ffydd y fargen ymaith y enaid y Cristion.

(4ydd.) Y mae ffydd yn gosod o flaen Cristion wrolwaith y seintiau gynt, a wrth odasant anrhydedd a chlod y byd yn hytrach na halogi eu cydwybodau, a darostwng y heneidiau dan drais y pechod lleiaf. Yn oedd Tamerlane enwog yn dwyn hanes hynafiaid i'r maes gydag ef, yn yr hwn byddai arferol o ddarllen cyn ymladd, felly y cyffroid ef i beidio dwyn gwarth ar wa ei deulu trwy wangelondid, neu ryw yr ddygiad anweddus yn y frwydr. Felly mae ffydd yn ystyried cofrestr y saint yn Beibl, a goruchafiaeth eu ffydd ar y byd, y diben o gyffroi y Cristion i'r un fath wrth deb ysbryd. Hyn, y mae yn eglur, oed amcan yr apostol, wrth goffau y gwyr enw hyny, ac arwyddion buddugoliaethus o ffydd, yn *Heb. xi*, fel y byddai i rywfaid o'u mawrfrydigrwydd gael lle yn ein calonau ninnau wrth eu darllen, fel yr ymddeng yn yr adnod gyntaf o'r bennod nesaf: "blegid hyny, ninnau hefyd, gan fod cyn maint cwmwml o dystion wedi ei osod o hanglych, gan roddi heibio bob pwys, y pechod sydd barod i'n hamgylchu, trwy amynedd rhedwn yr yrfa a osodwyd o blaen ni." O! y fath galondid yw i'r milwyl weled rhai o'i flaen yn rhedeg i wneud perygl! Eliseus, wedi gweled y gwrthi a wnaeth Duw trwy Elias, y mae yn tair dyfroedd yr Iorddonen a'i fantell, gan ddwedyd, "Pa le y mae Arglwydd Dduw Elias? a hwy a wahanwyd yma ac acw 2 *Bren. ii. 14*. Fel hyn y mae ffydd i'w gwneud defnydd o weithredoedd ardderch yr hen seintiau, ac yn eu troi yn weddi. Pa le y mae Arglwydd Dduw Abrahama, Moses, Samuel, a gwyr enwog ereill, y mae trwy eu ffydd a sathrasant ar rodres a gogoniant y byd, a oresgynasant demtasiynau a gauasant safnau chwantau llewaidd? Oni wyt ti, O Dduw, yn Dduw y dyffrynnoedd yn gystal a'r mynyddoedd; sef i'r saff gwaelaf, fel i rai mwy enwog? Onid yw un gwaed yn rhedeg yng ngwythienau holl gredinwyr? A fuont hwy yn goncwyr? Ac ai myfi yn unig fydd gathw ac o'r fath ysbryd diymadferth, fel Isach yn gorwedd dan bwn fy llygredd, heb ysgwyd ymaith? Nertha fi, O! fy Nu fel y dialwyf ar fy ngelynyon hyn! Ac ol iddi fod gyda Duw, hi a ddadlen hef a'r Cristion ei hunan. Deffro, O! fy enaid medd ffydd, a dangos, trwy dy oruchafiaeth ar y byd, dy fod yn perthyn i'r gwyr saff aidd hyn, ac wedi dy eni o Dduw hwythau.

PENNOD XV.

n dangos y gwahaniaeth rhwng goruchafiaeth ffydd ar y byd, trwy ddiffodd ei bicellau tanlyd, a'r fuddugoliaeth hono a gafodd rhai o'r Ethniciad goreu. Hefyd, prawf y'n ffydd yn cael ei gynnwys, wrth y gallu yma i ddiffodd temlasignau dengar Satan, yn fwy neu lai.

Gwrth. Ond fe all rhai ddywedyd, os yma y cwbl a wna ffydd, nid yw hyn ddim wy nag a wnaeth rhai o'r Ethniciad di-ed. Darfu iddynt sathru ar elw a phlesau y byd, er na wyddent beth yw ystyr ydd.

At. Yn wir, y mae llawer o honynt trwy hegwyddorion moesol, wedi gwneuthur mmainnt ag a allai beri cywilydd i rai sydd chwennyech cael eu cyfrif yn gredinwyr, mor bell yn fyr o ergyd rhai oedd yn ethu â'r fath fwa egwan. Er hynny, fe addengys fod goruchafiaeth ffydd yn y rir gredadyn yn myned ym mhellach tu o'r wynt iddynt, nag yn eu moesoldeb hwy tu o'r wynt i ymarweddiad llygredig Cristionogion yr hyd.

1. Y mae ffydd yn diffoddi chwant y hon; hynny yw, y mae ei grym a'i gallu hi i gyrrhaeddyd hyd yn oed y marwor hynny ygredd, sydd wedi eu crynhoi mor ddiraddiedd yn nhuedd yr enaid. "Y mae ffydd i'w puru y galon;" *Act. xv. 9*; ac nid oedd o'u buddugoliaethau hwynt yn cryddiedd yno. Yr oedd eu hysgolion hwyaf rhy fyr i gyrrhaedduriau y castell yma; yna yna ysgabent o flaen y drws, ac a daclent o'r ystafelloedd nesaf allan; ond ni chafai geudy a ffos yr holl fudreddi (sef llygrgaeth natur dyn) erioed eu glanhau gant; felly yr oedd tân chwant yn cael ei tynnu i mewn yn hytrach na'i ddiffodd. Pa d y disgwyliid i'r buddreidi hwnw gael ei glanhau, yr hwn oedd allan o'u sylw? Oeh! ym edrychasant erioed am y gelyn hwnw mewn, gan eu bod yn barnu mai oddi allan yr oedd; felly, tra yr oeddynt yn boeni i gadw y lleidr allan, i mewn yr oedd, a hwythau heb wybod. O herwydd, allai ai tybiasant yn falchaidd fod yn yr id wrth naturiaeth egwyddorion o rinid; neu ynte hwy a ddychymmygent yn ydyd nad oedd ond rhyw *abrasa tabula* (pur gwyn), ar yr hwn y gallent ysgrifenu i'w gwneud neu dda fel y mynent. Felly, chwifach fod eisteddle eu rhyfel yn y byd oddi allan iddynt; a hwnw a orchfygasant yn rhyw ddull. Ond yr oedd y chwant mewn yn aros heb daraw arno, am ei bod yn dir anadnabyddus iddynt; ffydd yn gwrth, trwy y gair, sydd yn dyfod o lyd i

2. Y mae goruchafiaeth ffydd yn gysson. Yn wir pechod "yn gorph" (*Rhuf. vi. 6*) am iddo lawer o aelodau; neu fel corph llu, y mae yn cynnwys ynddo lawer o resau a

byddinoedd. Un peth yw euro ychydig resau, neu yru aden o lu ar ffio, peth arall yw gorchfygu y llu i gyd. Y mae rhywbeth tebyg i'r cyntaf wedi cael ei wneuthur trwy egwyddorion moesol; hwy a gawsant ryw fuddugoliaeth fechan, ac a erlidiasant rai o'r pechodau mwyaf amlwg a chywylyddus; ond er hynny, fe'u baeddwyd yn arswydus gan ryw rai ereill o fyddinoedd pechod. Pan dybygid eu bod yn sathru ar chwant y cnawd, a chwant y llygad, elw a phleserau y byd, yr oeddynt yr un pryd yn gaethion i falchder y bywyd, yn rheibus am glod, ac mewn cadwynau gan air da a chanmoliaeth y byd. Yn debyg i'r môr, am yr hwn y dywedir ei fod yn colli cymmaint o dir mewn un lle ag y mae yn ennill mewn lle arall; felly, yr hyn a gawsant hwythau trwy rith fuddugoliaeth ar un pechod, hwy a'i collasant drachefn wrth fod dan gaethiwed i'r llall; a hwnw yn un gwaeth, am ei fod yn fwy ysbrydol. Ond y mae ffydd yn gysson, ac yn gyru holl gorph pechod ar ffio, fel nad oes un chwant yn aros yn ei rym dechreuol. "Nid arglwyddiaetha pechod arnoch chiwi; o blegid nid ydych chiwi dan y ddeddf, eithr dan ras;" *Rhuf. vi. 14*. Cystal a dywedyd, nid arglwyddiaetha un pechod; fe all wingo a syfyd, fel milwr clwyfedig ar ei liniau; fe all y byddinoedd gwasgaredig gael eu hail drefnu; ond byth ni chadwant y maes yn hir lle y byddo gwir ffydd i'w gweled.

3. Y mae ffydd, nid yn unig yn nerthu yr enaid i ddiffodd y chwantau yma, ond hefyd ar ol diffodd y demtasiwn, y mae yn ei alluogi i ddefnyddio y byd ei hun yn erbyn Satan, ac felly yn ei guro â'i arf ei hun. Y mae ffydd yn diffodd tân picellau Satan, ac yna yn eu saethu yn ol ar ei ben; a hynny trwy droi yr holl fwyniant daearol sydd dan law y Cristion, i gael ei ddefnyddio a'i iawn drefnu i ogoniant Duw. Rhai o ymladdwyr mwyaf clodfawr y paganiaid, i feddyginiaethu chwant y llygaid (oddi arsel ddall), a dynasant eu llygaid allan; i ddangos eu diystyrwch o gyfoeth, a daslasant eu harian i'r môr; i orchfygu anrhydedd a chlod y byd, a ymneillduasant oddi wrth gyfeillach pawb o'r byd. Ffordd nyfyd, na thorodd Duw mo honi allan erioed. Ai buddugoliaeth y galwn ni hyn, ynte yn hytrach gorphwylltra? y mae y byd erbyn hyn yn gweled eu ffolineb. Ond y mae ffydd yn ennill buddugoliaeth amgenach. Yn wir, pan alwo Duw am ddim o'r pethau sydd yma i'w mwynhau, fe fedr ffydd osod y cwbl wrth ei draed ef; ond tra byddo Duw yn eu caniatáu, y mae gallu a medrusrwydd ffydd yn ymddangos yn y defnyddiad grasol o honynt. Y mae hi fel meddyginiaeth, yn attal effaith wyntog rhyw ymborth yn y cylla, fel y mae yr hyn sydd yn troi yn afiechyd ar galon ddrygonus, yn cael ei

wneud yn fwyd maethlawn mewn enaid ffyddiog. Pe byddai tŷ ar dân, pwy a gyfrifech chiwi yn wr callaf, yr hwn a'äi i ddi-ffodd y tân trwy dwnu y tŷ i lawr, ai yr hwn a wnai hyn mor llwyr trwy dasfu digon o ddwfr arno, ac a adawai y tŷ hefyd i sefyll at eich gwasanaeth? Y mae y paganiaid, a rhai Crigionogion coelgrefyddol, yn meddwl marwahu trwy gymmeryd ymaith y pethau y mae Duw yn rhoddi cenad i ni i'w harfer; ond y mae ffydd yn diffodd tân chwant yn y galon, ac yn gadael y creadur i'w ddefnyddio i ogoniant Duw, a'i fwynhau yn gysurus gan y Crigion.

Defn. 1. Gall hyn fod yn faen prawf i'n ffydd; a yw hi o'r iawn wneuthuriad ai nid yw? A oes genyt ffydd sydd yn diffodd temtasiynau? Fe ddywed llawer eu bod yn credu; os ydynt, hwy ddiolchiant i Dduw nad anghredinwyr ydynt. Wele, pa wrol-waith a elli di wneud a'th ffydd. A yw hi yn ddiagon cref i dy amddiffyn di ar ddydd brwydr, a diogelw dy enaid pan fyddo picellau Satan yn ehedeg o'th gwmpas? Ai ynt-e y fath darian salw yw hi ag sy'n gadael i bob saeth o demtasiwn drywanu dy galon trwyddi? Yr wyt ti yn credu; ond etto yn gaethwas mor sier i'th chwant ag erioed. Pan alwo cyfaill gwyech arnat i ymgrelifa feddw, nis gall dy ffydd dy gadw allan o'r fagl, ond ymaith yr äi fel ynfyd i'r cyffion. Os dywed Satan y gelli chwaneu dy feddiannau drwy gelwydd, neu dwyll yn dy farh'nadaeth, y mae dy ffydd yn sefyll yn llonydd ac heb ddangos dim gwrthwynebiad. Mewn gair, y mae genyt ffydd, ac etto ti a gofleidi dy bechod yn ei gwyneb hi. O! na ato Duw i neb fod dan y fath rym o ysbryd hudoliaeth, a dwyn y fath gelwydd yn ei llaw, a thybio ei bod yn gadwedigol ffydd. A fydd i'r ffydd yma dy ddwyn i'r nef, a lithau heb allu i'th godi o uffern? o herwydd yno yr wyt yn byw tra y byddech dan awurdod dy chwant; "Ai yn lladrata, yn ladd, ac yn godinebu, a thynu anudon y deuwech ac y sefwch ger fy mroni?" *Ier. vii.*

9. Os ffydd yw hyn, henffych y paganiaid gonest a ddiangasant rhag yr halogedigaeth ffaidd yma, yr ydych chiwi, fel anifeiliaid, gyda'ch ffydd yn ymdreiglo ynddo. Byddai yn well genyf fod yn bagan sobr, nag yn Gristion meddw; yn bagan diwar, nag yn gredadyn arian. O! nac auturiwch fywyd eich eneidiau gyda'r fath darian ddiles: deuwech i geisio ffydd at yr hwn sydd wneuthurwr ffydd, Duw wyf yn feddw; efe a rydd i ti un a ddiffydd hyd yn oed dân uffern, er ei ennyn yn dy fynwes; ac a wahana hefyd donau dy chwant yn y rhai yr wyt ti yn awr yn boddi, fel y cei gerdded (megys Israel gynt) ar hyd tir sych i'r nefoedd; a'th chwantau heb fod yn alluog i dynu ymaith olwynion dy gerbyd. Ond os cynnygi hyn gyda dy ffydd gau, ti a ddoi i'r un diw-

edd a'r Aiphtiaid; "Trwy ffydd yr aethan trwy y Môr Coch, megys ar hyd tir sych yr hyn pan brofodd yr Aiphtiaid, boddi wnaethant;" *Heb. xi. 29.* Er fod gwi ffydd yn treiddio yn ddiangol trwy ddyfu derau profedigaeth; etto boddi ar y ffordd wna y llall. Ond fe allai y medri di ddwy i ni newyddion gwell, a rhoddi amgenae tystiolaeth am wirionedd dy ffydd na hyn Gäd glywed, ynte, pa orchwyl hynod wnaethpwyd genyt er pan y credaist. Fe fu amser pan oedditi cyn waned a'r dwfr: y oedd pob awel o demtasiwn yn dy chwythi i lawr: yr oedditi fel pysgodyn marw yn cael dy ddwyn gyda'r ffrwd; ond a elli di ddy wedyd, er pan ddaethost yn gydiabyddus Christ, dy fod wedi derbyn gallu i wthio y ol y temtasiynau hyn oedd o'r blaen yn dy dy galon yn gwbl dan eu hawdurdod? wyt ti yn awr yn foddllawn i ddwyn dy chwantau, a fu unwaith yn anwyl iawn genyt (fel y credinwyr hyn eu llyfrau consuliaeth: *Act. xix. 19.*) a'u tafu i'r tân o galon iad Duw at dy enaid, yno i gael eu llwyddifa? Mae yn bossibl nad ydynt yn brënnol dan dy droed mewn cyflawn oruchaiaeth; ond a ydynt wedi dechreu syrthio y dy feddyliau am danant? ac a yw dy wynepryd yn wrthwyneb i'r modd y bu gynt tu atynt? Bydd gysurus ynte; y mae hyn y arwydd fod dy ffydd o'r gwaed brenhinig "Pan ddelo Crist, a wna efe fwy o arwydion na'r rhai a wnaeth hwn?" ebe yr Iudewon oedd wedi eu hargyhoeddi: *Ioan v. 31.* A phan ddelo Crist trwy ffydd y galon, a wna efe wyrthiau mwy na'r rhai hyn a wnaeth dy ffydd dithau?

PENNOD XVI.

Attebiad i wrthddadl yn erbyn credu; a rhai fforddiadau pa fodd i drin y darian yma at ddi-ffodd temtasiynau dengar.

Defn. 2. Y mae hyn yn rhoddi help i attebiad wrthddadl hono sydd yn digalonu llaw enaid truan rhag credu ac ymwastgu addewid. O! medd yr enaid temtedig, ydych yn fy ngalw i gredu; och, pa fodd beiddiaf, pan nas gallaf gael yr oruchafiau ar y chwant yma, ac yr wyf yn cael fy madd gan y demtasiwn acw? Pa beth sydd fath un a mi wneuthur äg addewid? Gwyt yma, enaid truan, y Goliath hwn yn cael gwmpo i lawr: nid wyt i gredu am dy ffydd yn fuddugoliaethus, ond fel y byddech fuddugoliaethus. Yr achos pa ham yr wyt i'w cael dy faeddu gan y gelyn yw diffyg ffydd. "Oni chredwch, diau ni sicrfeir chiwi." *Esu. vii. 9.* A fyniti di dy iachau cyn myn at y meddyg? Y mae hyn yn swyddu hyn chwithig i'th reswm; a byddai yr awer peth a phe dywediti, nad äi di at y meddyg.

nes y byddo heb ei eisieu arnat. Nag e, los a chyffwrdd â Christ trwy ffydd, fel y llo rhinwedd oddi wrtho i dy enaid. Paid disgwyl bwyta y ffrwyth cyn planu y pren. Ffrwyth melus yw goruchafiaeth ar lygredd, ond ei gael yn unig ar ganghenau ffydd. Ynae Satan yn gwneuthur â thi fel y gwnaeth Saul â'r Israelaidd, yr hwn a wahaodd eu wylaw yn y ffrwydr wrth eu cadw heb wyd. Cyfod a bwyta, Gristion, bryd llawn yr yr addewid, os mynit gael dy lygaid wedi u goleuo a'th ddwyllaw wedi eu cryfhau i mladd â'th chwantau. Un rhan o'r athawiaethau cythraul y darllenwn am dant yw, "erchi ymattal oddi wrth fwydydd, rhai a greodd Duw i'w derbyn trwy roddi diolch;" 1 *Tim.* iv. 3 Ond prif athraweth y cythraul, yr hon a fynai efe yn benaf lleadaenu, yw cadw eneidiau truin, crynlig, rhag ymborthli trwy ffydd ar yr Arwydd Iesu, fel pe byddai Crist yn ffrwyth waharddedig; pryd y mae Duw wedi ei apwyntio ef uwch law pob peth arall, fel ei derbynid, trwy roddi diolch, gan bob pechadur ynghenus. Ac am hyn, yn enw Duw, yr yf yn eich gwahodd i'r wledd-yma. O rwi, sydd yn gweled eich eisieu o Grist, a an ddolur calon o'r achos, na fydded i'ch eneidiau fod yn gulion ynoch o ddydd i'lydd, trwy eich anghrediniaeth; ond deulch, bwytwch, a byddwch byw. Erioed ni ti blentyn groesaw mw at fwrdd ei dad, sydd i'chwi at fwrdd Crist, a'r wledd no sydd wedi ei gosod o'ch blaen yn yr enghyl.

Defn. 3. Gwnewch ddefnydd o ffydd, O rwi saint! megys ar achosion ereill, felly enwedig ar yr achos hwn, i'r diben o ddi-ddi y fath yma o bicellau tanlyd. Nid d yn meddu tarian, ond ei dal a'i thrin iawn, sydd yn diogelu y Cristion. Na ffafed Satan di â'th ffydd ar goll, fel y cafodd Dafydd Saul yn y wersylfa, "â'i waewen wedi ei gwthio i'r ddaear," yr hon a gylasai fod yn ei law ef.

Cwest. Ond pa fodd y mynech i mi drin tarian o ffydd, er fy amddiffyniad yn eiddoyn y picellau tanlyd yma o dentasiynau ynghar Satan?

At. Trwy ffydd, galw ar Dduw i'th gynorthwyo yn eu herbyn. Yn awr, y mae tr gweithred afaelgar o eiddo ffydd, y rhai a wyant Dduw i'th helpio (fel y gallwn gywedyd gyda pharch), am ei fod ef yn ei rymo ei hun i helpio y cyfryw rai.

Y gyntaf yw gwaith ffydd yn erfyn. Er dy gyflwr o flaen Duw, a galw am help o nefoedd; megys y danfonai llywodraethwr rhyw gastell a fyddai wedi ei gylchu gan elynion, genad yn ddirgel at eiben cadben neu dywysog, i roddi iddo y bod ei gyflwr a'i galedi. "Ymladd a rffela yr ydych," medd yr apostol (*Iago* i. 2); "ond nid ydych yn cael, am nad yd-

ych yn gofyn." Os buddugoliaeth a gawn, rhaid iddi ddisgyn o'r nef; ond y mae yn aros nes delo gweddi am dani. Er fod gan Dduw fwriad o waredu Israel o'r Aipht, etto nid oedd dim newydd am ei ddyfodiad, nes swniodd griddfanau ei bobl yn ei glustiau. Hyn a gyflrôdd y nefoedd (*Exod.* ii. 24), "Eu gwaedd a ddyrchafodd at Dduw; ac efe a glybu eu hocheuaid hwynt, ac a gofodd ei gyfammod. Yn awr, fel y llwydddech yn well gyda Duw yn y gorchwyl yma, cadarnha dy weddi â'r rhesymau cryfion hyn a ddefnyddiodd y saint yn y fath achosion. Megys, Iaf. Dadleu yr addewid pan fydddech yn gweddio yn erbyn unrhyw bechod. Dangos i Dduw ei law ei hun yn y fath addewidion â'r rhai hyn; "Nid arglwyddiaetha pechod arnoch chwi" (*Rhuf.* v. 14); "Efe a ddarostwng ein hanwireddau;" *Micah* vii. 19. Nid yw gweddio ond llunio yr addewid o enau Duw yn y ddadl, a'i danfon mewn ffydd at Dduw yn ol. Gwybydd, Gristion, fod genyt gyfraith o'th ochr: gofynion seliedig—y mae yn rhaid eu talu. Y mae Dafydd, yn *Salm* cxix. 37, yn gweddio yn erbyn pechodau llygad gwibiog a chalon farwaidd: "Tro heibio fy llygaid rhag edrych ar wagedd; a bywha fi yn dy ffyrdd;" a gwelwch y modd y mae yn cynmhell y ddadl yma yn y geiriau nesaf: "Sierha dy air i'th was." Y mae dyn da eystal a'i air; ac oni fydd y Duw da felly? Ond pa le y cafodd Dafydd y fath air am gynnorthwyo yn erbyn y pechodau yma? diau mai yn y cyfammod, *Magna Charta*. Y llen fawr o freintiau y crediniol. Mae yr addewid gyntaf yn cynnwys cymmaint a hyn, "Had y wraig a ysiga ben y sarph." Yn ail, dadleu â Duw oddi wrth berthynas. A wyt ti yn un a gymmerodd Duw i'w deulu? A dde-wisaist ti Dduw i fod yn Dduw i ti? O! y fath ddadl sy genyt yma: "Achub fab dy wasanaethferch," medd Dafydd. Pwy a edrych ar ol y plentyn oni wna y tad? A fydd yn anrhydedd i ti, O Dduw, fod un o'th blant yn gaethwas i bechod? "Trugarha wrthyf yn ol dy arfer i'r rhai a garant dy enw. Cyfarwydda fy nghamrau yn dy air; ac na lywodraethed dim anwiredd arnaf;" *Salm* cxix. 132. Yn drydydd, Ymliw â Duw oddi wrth farwolaeth waedlyd ei Fab i'th gynnorthwyo yn erbyn dy chwantau, y rhai a'i lladdasant ef. I ba beth y bu Crist farw, ond "i'n prynu ni oddi bob anwiredd, ac i'n puro ni iddo ei hun yn bobl briodol?" *Tit.* ii. 14. Ac oni chaiff Crist yn ol werth yr hyn a roddwyd allan? Onid oes tâl iddo am ei waed a phwrcas ei angeu? Mewn gair, am ba beth y mae Crist yn gweddio yn y nef, ond yr un peth ag oedd yn ei enau pan yn gweddio ar y ddaear? Ar i'w "Dad eu sancteiddio hwynt, a'u cadw hwynt rhag y drwg sydd yn y byd;" *Ioan* xvii. Yr wyt ti yn dyfod mewn

amser da, i erfyn gan Dduw y peth a weli fod Crist wedi ei ofyn eisoes drosot.

Yr ail beth at lwyddo gyda Duw ydyw gwaith fydd yn disgwyl wrtho. Wedi i ti fod o flaen Duw, disgwyl am ddaioni ar ei law: "Cyfeiriaf fy ngweddi atat, ac edrychaf i fyny;" *Salm* v. 3. O ddiffyg hyn, y mae llawer gweddi yn colli. Os nad wyt ti yn credu ynddo, pa sut sydd ar dy weddi? ac os wyt ti yn credu, pa ham na ddisgwylti? Trwy weddi yr wyt yn ymddangos fel un yn pwysu ar Dduw: trwy beidio disgwyl, yr wyt yn gwadu dy hyder ac yn dadwneud dy weddi. Pa beth yw hyn ond cellwair â Duw, a chymmyrd ei enw yn ofer? Fel pe byddai i un guro wrth dy ddrws, a myned ymaith cyn y gallech agor iddo, a gofyn ei neges. O, Gristion, saf at dy weddi trwy ddisgwiliad parchus am yr hyn a geisiaist ar sail yr addewid; ac yna ni'th somir am ddinystyr dy chwantau.

Cwest. Ond O! medd yr enaid ofnus, wedi i mi weddio yn erbyn fy llygredd, onid rhyfyg fydd i mi ddisgwyl y rhydd Duw i mi y fath drugaredd fawr ag yw hon?

Iaf. A ywddost ti beth ydyw rhyfygu? Rhyfygu yw cymmyrd peth heb gael cenad. Dyn rhyfygus fyddai hwnw yn wir a ghammerai dy fwyd oddi ar dy fwrdd, er na chafodd wahoddiad erioed. Ond yr wyf yn gobethio nad yw dy gyfaill a wahoddiad yn rhy hysf, pan yw yn anturio bwyta yr hyn a roddaist o'i flaen. Tro rhyfygus fyddai i un dori i'th dŷ pan wyt yn cau dy ddrws i'w erbyn; etto, nid rhyfyg, ond moesau da, fyddai i un ddyfod allan o'r gawod i'th dŷ, pan wyt mor dirion a'i alw i mewn. Ac os nad yw Duw yn agor drws ei addewid i fod yn noddfa i bechaduriaid truaidd tralodus, sydd yn ffoi rhag cynddaredd eu chwantau; yn wir, fel hynny, nis gwn am un y tu yma i'r nef a all ddisgwyl croesaw. Yn *Esa.* xxxiii. 21, 22, y mae Duw yn addaw y bydd yn "fangre afonydd a ffrydiau llydain: y rhwyflog nid â trwyddo, a llong odidawg nid â drosto. Canys yr Arglwydd yw ein barnwr, yr Arglwydd yw ein deddfwr, yr Arglwydd yw ein brenin: efe a'n ceidw." Y mae Duw yn llefaru yma wrth ei bobl, fel y gwnai brenin wrth ei ddeiliaid: efe a'u diogela yn eu masnach a'u marsian-diaeth rhag pob gwyliad a môr-ladron—hwy a gânt fasnach rydd. Yn awr, enaid, yr wyt tithau yn cael dy afonyddu gan lawer o ladron, sef dy chwantau, sydd yn gormesu arnat ac yn attal dy farchuadaeth a'r nef; i'e, yr wyt wedi achwyn wrth dy Dduw y gollod a gefaist o'u herwydd; ac ai rhyfyg yw i ti yn awr ddisgwyl cynnorthwy ganddo a gwaredigaeth rhagddynt, fel y gelych ei wasanaethu ef, dy Frenin a'th Arglwydd, yn ddiiofn?

2il. Y mae genyt y saint yn esamplau i ti, y rhai, wedi bod yn ymladd â'u llygreddig-

aethau, i'e, wedi cael eu baeddu ganddynt hyd yn oed y pryd hyny a edrychasant mewn ffydd ar Dduw, ac a ddisgwylasant am ddistryw y gelynion hyny ag oedd yr awr â'u traed ar eu gwarau. "Pethau am wir a'm gorchfygasant" (*Salm* lxxv. 3); y mae yn meddwl am ei bechodau ei hun, yn gys-tal a lliw ereill; ond gwelwch ei ffydd; a'r y un pryd ag yr oeddynt yn ei orchfygu, y mae yn canfod Duw yn eu difetha, fel y ymddengys yn y gair nesaf, "ein camweddau ni, ti a'u glanhei." Edrych yma, Gristion tlawd, sydd yn meddwl na ddeui byth i'rlan. Y mae gan Dafydd dduwiol ffydd, ni yn unig am dano ei hun, ond hefyd yn achos yr holl gredinwyr; "Ein camweddau ni, ti a'u glanhei. A chraffa ar sail ei hyder (*adn.* 4), yr hwn a gymmerir oddi wrth waith Duw yn dewis; "Gwyn ei fyd yr hwn a ddewis-ech, ac a nesaech atat, fel y trigo yn dy gyn-teddau." Fel pe dywedasai, yn sicr ni a'y rhai y mae efe yn eu gosod mor agos at ei hun i fod dan arglwyddiaeth pechod na ddiffyg o'i gymmhorth grasol. Dyma ddad Crist ei hun yn erbyn Satan, ac o blaid ei bobl; "Cerydded yr Arglwydd dydi, Satan sef yr Arglwydd, yr hwn a ddewisodd Ierusalem, a'th geryddo;" *Zech.* iii. 2.

3ydd. Y mae i ti galonddid i'r gwaith ffyddiog yma o ddisgwyl oddi wrth yr hy a wnaeth Duw eisoes erot. Os gwir gredadyn wyt, ti elli, trwy drugaredd, ddywedyd nad yw pechod yn yr un grym yn dy enaid ag yr oedd cyn dy gydnabyddiaeth â Christ ei air, a'i ffydd. Er nad wyt yr hyn a ddy-munit fod; etto hefyd, nid wyt yr hyn a fuost. Fe fu amser pan oedd pechod y chwareu y brenin yn dy galon yn ddiwrthwynebiad. Ti fuost yn dilyn dy bechod, fllong yn myned i'r môr o flaen gwynt llanw. Ti fuost yn helaethu ac yn lleed allan dy serchiadau i dderbyn yr awel demtasiwn. Ond yn awr, y mae y llan wedi troi ac yn rhedeg yn erbyn y cynny-iad hyny, er mai yn wan, am nad ydyw o'n dechreu llenwi; etto yr wyt yn profi di-gel ymdrech, a Duw yn rhoddi cymmhor cyfamserol i'w herbyn, fel nad yw Satan y cael ei ewylls arnat. Dyma ddechreuad d'ac mi ddywedaf wrthyf fod hyn yn dadg-y parodwrydd sydd yn Nuw i berffeithio fuddugoliaeth; i'e, fe fynai Duw trwy hyn dy ffydd gynnnyddu yn yr hyder am ware-igaeth gyflawn. Moses, pan y tarawodd Aiphtwr, "efe a dybiodd fod ei frodyr deall (trwy y prawf a'r amnaid bach hwn fod Duw yn rhoddi iachawdwriaeth idynt);" *Act.* vii. 25. O! y mae yn ddef-yddiad drwg o'r cynnorthwyon a rydd Duw i ni pan fyddom yn dadleu yn anghredin oddi wrthynt; "Wele, efe a darawodd graig, fel y pistylodd dwfr ac y liffo afonydd; ond a ddichon efe roddi be-hefyd?" *Salm* lxxviii. 20. Fe ddrylliodd

halon (medd y creadur truan) pan oedd graig, yn graig gallestr; ac a'm dygodd y nef hefyd pan oeddwn yn rhodio yn uchder fy nghalon i'w erbyn, ond a'ichion efe roddi bara i faethu fy ngras i'w an? Yr wyf allan o'r Aiphth; ond a'ichion efe orchfygu y cawri mewn cerddau haiarn sydd yn sefyll ar fy ffordd i'w anan? Fe'm cynnorthwyodd yn y demwion a aeth heibio; ond pa beth a wnaff y nesaf? O! na thristewch Dduw da â'r h gwestiynau poenus i'w gwrandaw. Awi gawsoch y gwlaw cynnar, pa ham yr anheuwch am y diweddar-wlaw? Yr Idd Beniamin yn wystl dda i wneud yr hen pob yn ewyllysgar i fyned ei hunan i'r Aiphth. Y mae y gras a gyfranodd Duw i'w oes i tithau yn wystl sicr fod chwanege dyfod ar ei ol.

4ydd. Y mae yn rhaid i ddisgwyliad ffydd i'w peth arall, sef ymegniad a osodo yr Idd ar waith, yn yr hyder am y cynorthwy y mae yn ei ddisgwyl gan Dduw. Ei ol i Iehosaphat weddio, a chael sefydlu ffydd ar ddaionus air yr addewid, yna y mae yn taraw allan i'r maes, ac yn anturio i'w an y faner fuddugoliaethus yma yn erbyn y elynion: 2 Cron. xx. Dos, Gristion, yn ei ol, a llwydda fel y llwyddodd yn yst. Y cynghor a roddodd Dafydd i'w fab Solomon, hwnw wyf finnau am ei roddi i'w an: 1 Cron. xxii. 16; "Cyfod, a gweithwch a'r Arglwydd a fydd gyda thi." Y ffydd hon sydd yn dy roddi di ar waith dros law yn erbyn dy bechodau, fel gelynyddio ef; yn ddiammheu hi a rydd Duw dyfod ar waith drosot tithau yn eu herbyn, a y maent yn elynion i ti. Y gwahanfifion yn yr efengyl a gawsant iachad, nid hith eistedd yn llonydd, ond wrth gerdded: 1 Cor. xviii. 14; "A bu fel yr oeddynt yn ystred, fe a'u glanhawyd hwynt." Hwyl a farfyddasat i'w Iechyd yn ffordd uffudd-dod i'r gorchymyn Crist. Yr addewid a ddywed, "nid arglwyddiaetha pechod arnoch i'w an;" a'r gorchymyn a ddywed, "marw-wch eich aelodau sydd ar y ddaear;" dos i'w an, a gwna ymgais gwrol yn erbyn dy wantau yn ol y gorchymyn; ac yn ffordd ddyledswydd, ti gei brofi cyflawniad yr addewid. Y mae y rheswm am fod cymaint o gwynfan difudd ym mhlith Cristionogion yn achos grym eu llygredigaethau, a gorwedd yn un o'r ddau gamarferiad hona. Naill ai y maent yn ymgeisio, heb i'w an yso ar yr addewid; ac y mae y cyfryw a wir dan eu perygl, fel y gwyr hyfion i'w an (Num. xiv. 40), "a ryfygasant fyned i'w an ben y mynydd," i ymladd â'r Canaanaeid, a Moses ddywedyd wrthynt, "nad oedd i'w an Arglwydd yn eu plith;" felly, trwy ddi-tyru hyfforddiad Moses, eu harweinydd, i'w an pe medrasent gael buddugoliaeth hebddo, i'w an oeddynt yn dwyn tebygoliaeth anlwg i'r

rhai sydd yn myned i wrthsefyll eu llygredd yn eu nerth eu hunain, ac felly yn syrthio o'i flaen. Neu ynte, y maent yn cymmeryd arnynt gredau; ond â rhyw ffydd segurilyd, nad yw yn eu gosod ar waith mewn difrifol ymdrech. Hwyl fynant arfer ffydd fel llygaid ond nid fel llaw; disgwyliant i fuddugoliaeth ddisgyn o'r nef ar eu penau; ond nid ymladdant i'w chael hi. Nid yw hyn amgen na ffug a dychymmyg o ffydd. Y mae yr hwn sydd yn credu Duw am y canlyniad, yn ei gredau am y moddion hefyd. Os beiddia dyn claf ymddiried i'r physygwr am ei iachad, fe feiddia hefyd ganlyn ei gyfarwyddyd mewn trefn i hyn. Gan hyn, Gristion, paid ag eistedd yn llonydd, a dywedyd na syrth dy bechodau; ond ymosod i'w an herbyn; y mae y Duw a addawodd i ti fuddugoliaeth yn dy alw at dy arfau, ac yn meddwl gwneud defnydd o'th ddwyliaw di dy hun yn y frwydr, os ennill y dydd a wna'i. "Cyfod," ebe Duw wrth Ioshua, "pa ham yr ydwynt yn gorwedd fel hyn ar dy wyneb?" Jos. vii. 10. Yr oedd Duw yn ddigon boddolawn i'w weddi a'i gwynfan; ond yr oedd rhywbeth arall iddo i'w wneuthur, heb law gweddio a galaru, cyn y gorchfygid yr Amoriaid. Ac felly y mae i tithau, Gristion, waith i'w an wneud â'th ffydd gyda gweddio, a disgwyl cael dy chwantau i lawr; a hyn yw, chwilio dy galon yn fanwl rhag bod rhyw esgeulusdra ar dy ran di yn debyg i Acan, yn peri i ti gael dy faeddu gan bechod, a ffoi fel yna o flaen wyneb pob profedigaeth.

PENNOD XVII.

Am yr ail math o demtasiynau sydd yn fwy am berri ofn; a pha fodd y mae ffydd yn diffodd y picellau yma mewn temtasiynau neillduol i ddi-dduwiath, sef (ammheu y bod o Dduw) yr hwn a orchfygir nid trwy reswm ond trwy ffydd.

Wedi myned trwy y math cyntaf o bicellau tanllyd, temtasiynau sydd yn ddengar a hudolaidd, deun yn awr at yr ail math, sef y rhai sydd yn peri ofn; â'r rhai y mynai Satan frawychu a digalon i'r Cristion; a'm gorchwyl sydd fyth yr un, sef dangos gallu ffydd at ddi-fodd y picellau yma. Y pwynt gan hyn, fydd hyn.

DOB. I.

Athr. Mai ffydd, a ffydd yn unig, a ddichon ddi-fodd y picellau tanllyd o eiddo y fall, sydd yn peri braw ac ofn yn yr enaid. Y mae y fath yma fel ystôr tu cefn gan ein gelyn; pan fyddo y lleill heb dycio, yna efe a egyr y cawell yma, ac a deifl gawod o'r picellau hyn i ennyn fflam yn yr enaid—o bechod os gall—neu ynte o fraw a dychryn. Pan nas gall ddwyn enaid dan chwerthin i uffern, trwy hudoliaeth temtasiynau bodd-

haol, efe a gais beri iddo fyned dan alaru i'r nefoedd, trwy ei frawychu a'r lleill. Ac yn wir nid y cysur lleif yw i enaid, dan y temtasiynau yma, ystyried eu bod yn arwydd da fod Satan ar golli y dydd pan fyddo y saethau yma ar ei llyn. Chwi a wyddoch am elyn a fyddo yn cadw castell, na ddi-fetha efe mo hono hyd y gallo ei amddiffyn; ond pan wel fod yn rhaid iddo ei golli, yna efe a'i geyd ar dân, i'w wneuthur, os bydd bossibl, yn ddiddefnydd i'r neb a ddaw ar ei ol. Tra y gall y cryfarfog gadw ei neuadd iddo ei hun, y mae yn llafurio i'w chadw mewn heddwch; y mae yn diffodd y pelenau tân o argyhoeddiad, y rhai y mae yr Ysbryd yn eu mynych dafu i'r gydwybod; ond pan wel nas gall eu dal yn hwy, am fod y terfysg oddi mewn yn chwanelu, a sisial dirgelaidd yn yr enaid am ymroddi i Grist; yn awr efe a gais osod yr enaid ar dân drwy eu temtasiynau brawychlyd; ac yn llawer mwy y llafuria efe am hyny, pan fyddo Crist wedi cael y castell o'i law, ac yn ei gadw i'w erbyn trwy allu ei ras. Y mae yn beth i sylwi arno, mai o'r fath yma yr oedd yr holl bicellau a saethwyd yn erbyn Iob; prin yr anelodd ato un o'r lleill pan roddodd Duw iddo genad i arfer ei ddyfais. Pa ham na themtiasai efe ef â rhyw afal euraidd fo elw, neu bleser, neu y cyffelyb fwyniant dengar? Yn sicr, yr oedd y dystiolaeth ardderchog a ddygodd Duw i hwn, ei enwog was, yn llwfrhau Satan rhag cynnyg ar y drefn yma; i'w, yn ddiannhieu, yr oedd wedi profi gwroldeb Iob eisoes a'r rhai hyn, ac wedi ei gael ef yn rhy galed iddo, fel nad oedd ganddo yn awr un ffordd heb law hon yn debygol i ddwyn ei amcanion i ben.

Mi a ymfoddlonaf ar roddi tair o esamplau am y fath yma o bicellau tanlyd, gan ddangos y modd y mae ffydd yn diffoddi y cwbl. Temtasiynau i ddiddnwiaeth, cabledd, ac anobaith.

DOSE. II.

Y gyntaf yw ei demtasiwn i ddidduwiaeth, neu Atheistiaeth, yr hon, o ran ei herchyll natur, a haedda'i yr enw o bicell danlyd; mewn rhan am ei fod ef trwyddi yn gwneuthur y fath gynnyg hyf, gan daraw ar y bod o Dduw; ac hefyd o herwydd y dychrynu y mae yn beri mewn enaid grasol a glwyfir â hi. Y mae yn wir fod y diafol, yr hwn ni fedr droi yn Atheist ei hun, yn llawer mwy anabl i wneuthur plentyn i Dduw yn Atheist; yr hwn sydd ganddo nid yn unig, fel dynion ereill, y fath argraph am y bod o Dduw ar ei gydwybod, fel nas gellir ei ddileu oddi yno, ond hefyd y fath gerfiad o'r dduwiol anian yn ei galon ag sydd yn profi yn anwrthwynebol y bod o Dduw. Ie, y mae yn ddangosiad hardd o'r Duw sanctaidd, delw yr hwn ydyw, nes yw yn amhossibl i ddyn duwiol gael ei lwyrr

orchfygu gan y demtasiwn yma, am fe ganddo ddadl amgenach nag a fedd yr hwn sydd annuwiol, a'r diaffiaid eu hunain, i brod Duw. Y mae ganddo natur newyo o'i fewn, "wedi ei chreu yn ol Duw mewn cyflawnder a gwir sancteiddrwydd;" trwy'r hyn, ie, pan fyddo tafiadau o ddidduwiaeth yn curo ar ei feddwl, fe ddywed yn galon, y mae Duw mewn bod. Yr hyn mae Satan yn ei gyrhaedd yng ngrym brofedigaeth yw cymmylu ei reswm drwy'r amser presenol a'r mwg yma o offer yr hwn sydd yn blino ac yn dychrynu y hytrach nag yn perswadio ei galon rasol i goffeidio y fath egwyddor. Yn y gwrthwyneb i hyn y mae gyda dyn annuwiol, hwn pan gymhellir ef gan ei gydwybod, gredy yn Nuw, iaith ei galon ef ydyw, "n oes un Duw;" hyny yw, fe ddymunai i byddai un. Ac fe ddichon hyn fod yn gys o'r mwyaf i ddyn duwiol; y mae efe, er tafiadau Atheistaidd hyn, yn ymwastgu Duw yn ei serchiadau; ac ni feiddia odd ei hun mewn pechod i'w erbyn, pe cai y bod am hyny; na faddid hyd yn oed pan fydd y demtasiwn yma yn gwasgu drymaff arno ac am hyny, ni chaiff ei fwrw yn Atheist yng nghyfrif Duw, pa beth bynag a dae Satan i'w erbyn. Megys na rhyddheir annuwiolion oddi wrth Atheistiaeth trwy'r profes noeth o Dduw, cylyd ag y bydd y meddyliau yma mor ysgafn a dieffraith nad ydynt yn eu darostwng i ddim ufuddod i'w orchymynion: *Salm xxxvi* "Y mae anwired yr annuwiol yn dywedd o fewn fy nghalon, nad oes ofn Duw o flaen ei lygaid ef" (y mae y Salmydd duwiol ymresymu oddi wrth ddiwng fuchedd y peccadur at ddidduwiaeth ei galon), felly, gwrthwyneb, y mae buchedd sanctaidd dduwiol grasol yn dywedyd yn fy nghalon innau i ofn Duw o flaen ei lygaid ef; y mae ymddangos yn eglur ei fod yn credu b Duw, ac yn parchu y Duw hwnw y mae yn credu ei fod. Dyn grasol, gan hyny, y gellir ei orchfygu; eto fe ddichon gael boeni a'i aflonyddu yn alaethus yn yr ach. Yn awr, yn y lle nesaf, yr wyf i ddangos chwi y modd y dichon y Cristion ddiffodd y bicell danlyd yma; a hyny yw, trwy ffydd yn unig.

Qwest. Ond pa raid wrth ffydd? oni wrth rheswm y troi i gau safn y diafol yn y pwy yma? Ai ni fedr llygaid rheswm gan dduwdod, oddi eithr iddo edrych trwy'r pectol ffydd?

At. Yr wyf yn addef fod hyn yn ddarn dduwinaeth naturiol, ac y medr rheswm brofi y bod o Dduw. Y mae dduwdod cael ei gydnabod lle ni ddaeth yr Ysgrif yrua erioed: *Mica iv. 5*; "Yr holl bob oedd a rodiant, bob un yn enw ei dduw ei hun." Fe fernir yma fod pob cenedl addef rhyw dduwdod, ac yn rhoddi addoli

duw a addefant. Er hyny, mewn ym-
rech gorwyllt o brofedigaeth, ffydd yn
nig a ddichon gadw y maes, a diffodd tân
bicell yma.

laf. Y mae y goleu hwnw a rydd rheswm
lled dywyll a chymmysglyd, heb ateb i
mawr chwaneog o ddben nag yn gyffred-
ol i ddangos bod Duw. Byth ni ddywed-
wy, neu pa fath yw y Duw hwnw. Hyd
s y bu Paul yn offeryn i ddwyn yr Athen-
id yn gydnabyddus â'r gwir Dduw, pa
n lleied a yddent am yr egwyddor gyntaf
on mewn crefydd? Er fod y ddben hono
pryd hwnw megis llygad y byd am ddysg-
liaeth. Ac os oedd llygad y byd mor dy-
ll fel nad adwaent y duw a adolent,
beth ynte oedd tywyllwch y byd; y
vledydd gwylltion hyny, wyf yn feddwl,
dd heb driniaid a gwrteithiad dynol ddysg-
liaeth, i helaethu ac eangu eu dealltwr-
ethau. Y mae hwn yn wirionedd Ys-
thyrol, ac am hyny yn wrthddrych i'n
ydd, yn hytrach na'n rheswm. "Rhaid
v i'r neb sydd yn dyfod at Dduw, gredu
fod ef;" *Heb. xi. 6.* Craffwch ar hyny,
rhaid credu;" yn awr, y mae ffydd yn
yned ar dystiolaeth y gair, ac yn derbyn
ewbl mewn hyder ar awdurdod hwnw:
Rhaid iddo gredu ei fod ef;" yr hyn ni
neir (medd Mr. Perkins ar y lle) trwy
yodaeth noeth fod Duw yn bod, ond
wy wybod ei fod y fath Dduw ag ydyw,
hyn ni chyrlaedd rheswm byth o hono
hun. Y mae dallineb a llygriad ein natur
or fawr, fel y mae geym ddychymyng-
tra anffurfiol a gwrthun am dano, hyd
s y gwelom â llygad ffydd ei wynebryd
nrych y gair. Ac am hyny, nid yw yr
gwr dysgedig yn petruso dywedid fod
wb a ddaeth o Adda (ond Crist yn unig)
Atheistiaid wrth naturiaeth; o herwydd,
yr yn pryd ag y maent yn cydnabod bod
yw, y maent yn chwennych nacau iddo ei
u, ei hollbresennoldeb, a'i gyfiawnder; ac
u caniatáu iddo fod yn unig yr hyn a'u
ddia hwynt eu hunain.

Yn wir, y mae yn naturiol i bob dyn
ymuno porthi ei chwantau â'r fath ddy-
mmyngion am Dduw ag a fyddo mwyaf
friel iddynt, a mwyaf cydunol â'u har-
waeth. Y mae Duw yn cyhuddo rhai o
n yn *Salm l. 21*; "Tybiaist tithau fy
od yn gwbl fel ti dy hun." Pechaduriaid
wnant â Duw fel y gwna yr Ethiopiaid
angylion, y rhai y tynant eu lluniau â
wynebau duon, fel y byddont yn debyg
dynt eu hunain.

2il. Pe rhoddem dy fod yn abl trwy res-
m, i egluro pa fath un yw Duw, etto byddai
i beryglus i ti fyned i'r maes i ymladd
th reswm noeth yn erbyn Satan; yr hwn
fedd y pen cyfrwysaf, er fod ganddo yr
hos gwaethaf. Pe byddai rheswm a deall-
riaeth llawer o'r gwyr callaf wedi cyd-

gyfarfod ynot ti; er hyny, byddai gwaban-
iaeth mwy rhyngot ti a Satan, nag sydd
rhwyng yr hertyn ynfytaf a'r ysgolhaig
mwyaf o fewn y byd. Yn awr, pwy a roddai
achos mor bwysfawr i'r fath enbydrwydd,
ag y bydd raid i ti ei roddi trwy reswm y
pwynt âg ef, sydd gymmiant o raddau yn
drech na thi? Eithr y mae awdurdod
dwyfol yn y gair, ar yr hwn y mae ffydd yn
adeiladu; ac y mae gan hwn orsedd yng
nghydwbyd y diafol ei hunan; y mae yn
gorfod ffoi rhagddo. Ac o'r achos yma, er
y gallasai ein Harglwydd drechu y diafol
trwy reswm, er hyny, i roddi i ni esampl
pa arfau i ddefnyddio er ein hamddiffyniad
rhag Satan, y mae yn ei guro yn ol yn unig
trwy godi i fyny darian y gair. "Ysgrif-
enedig yw," medd Crist (*Luc iv. 4*); a thra-
chefn (*adn. 9*), "ysgrifenedig yw;" y mae yn
beth hynod iawn, mor nerthol oedd y gair a
ddefnyddiodd efe i ddistewi y diafol, fel nad
oedd ganddo air i ateb i ein Ysgrhythr a
goffawyd; ond fel yr adroddid y gair, fe
droai ymaith, ac a ddiangai at ddad arall.
Pe safasai Efa, ein mam, at ei hatteb cyntaf,
"Duw a ddywedodd, na fwyteuoch o hono"
(*Gen. iii. 3*), hi fuasai yn rhy galed i'r sarph;
ond trwy ollwng gafael ei llaw, oedd ganddi
trwy ffydd yn y gair, ebrwydd y sythiodd
i ddwyllaw ei gelyn. Felly yn yr achos yma,
pan fyddo y Cristion yn mhoetlader y brof-
edigaeth, yn sefyll trwy ffydd ar ei am-
ddiffyniad, gan ddal y gair rhyngddo a dyrn-
odiau Satan. Yr wyf yn credu fod Duw,
ar dystiolaeth y gair am dano, er na fedraf
amgyffred ei hanfod, nac ateb dy ddadl-
yddiaeth ddichellgar di; fe all Satan ffino y
cyfryw un, ond ni ddichon ei niweidio.
Nag e, y mae yn debygol mai nid hir y blina
efe ef; y mae ei natur mor wrthwyneb i'r
gair, nes yw ei swm yn atgas yn ei glustiau.
Ond os tefsi di ymaith darian y gair, gan
feddwl tori dy ffordd trwy y brofedigaeth â
min neu â grym dy reswm; ti elli gael dy
hun yn ddisymmwrth wedi dy amgylchu
gan dy elyn cyfrwys, nes bod yn rhy an-
hawdd i ti wneud enciliad anrhydeddus.
Dyma yr achos, yr wyf yn meddwl, fod rhai
wedi myned yn Atheistiaid professedig.
Ymhonwyr mawr am reswm oedd y rhan
fwyaf o honynt; rhai wedi dibrisio y gair,
a myned allan dan falchïo yn eu deall; trwy
hyn (wrth gyfiawrn farn Duw) yr ymbyng-
iasant eu hunain i ddi-dduwaeth pendant.
Tra y troisant eu cefnau ar Dduw, gan
feddwl, wrth gloddio i ddirgelion natur,
gael eu rhyfeddu am eu gwybodaeth uwch
law ereill; fe ddigwyddodd iddynt, fel y
mae yn digwydd weithiau i rai sydd yn
cloddio yn rhy ddwfn i ymysgaroedd y
ddaear; y mae tarth (*damp*), trwy ddirgel
farn Duw, wedi eu taraw yn ddall; collas-
ant y goleu oedd ganddynt o'r blaen; ac
felly y mae ymadrodd yr apostol wedi

wirio ynddynt: "Pa le y mae ymholydd y byd hwn? oni wnaeth Duw ddoethineb y byd hwn yn ynfyrwydd?" 1 Cor. i. 21. Yn wir, o ddoethineb Duw y mae, nad adnabu y byd trwy (ei) ddoethineb mo Dduw.

3ydd. Yr hwn sydd yn cydsynio â'r gwirionedd yma, fod Duw mewn bod, ar sail ei reswm yn unig, yn lle ar sail ffydd, ac yn gorphwys felly, nid yw yn iawn ddiffodd y demtasiwn; o herwydd y mae yn anghredadyn fyth, ac yn Atheist yn ol yr Ysgrthy. Nid yw yn credu fod Duw, ar dystiolaeth gair Duw, ond ar dystiolaeth ei reswm; ac felly, yn y gwraidd, credu ei hun y mae, ac nid Duw; ac yn ganlynol, y mae yn gwneuthur ei hun yn Dduw, gan fawrhau awdurdod ei reswm o flaen awdurdod y gair, yr hyn sydd yn dra pheryglus.

Cwest. Ond fe all rhyw un ddywedyd, a oes dim budd o reswm mewn egwyddorion o'r fath yma sydd o fewn ei gyrhaeddiad? Oni allaf wneuthur defnydd o'm rheswm, i'm cadarnhau yn y gwirionedd yma, fod Duw mewn bod?

At. Y mae yn ddiammheuol fod. I ba ddiben y cododd Duw y fath oleu os nid i'n cyfarwyddo? Ond y mae yn rhaid iddo gadw ei le; a hyn yw, i ddiylun ffydd, nid i fod yn sail iddi, nac i osod rheol a therfyn iddi. Nid yw ein ffydd i ymddibynu ar ein rheswm, ond ein rheswm ar ein ffydd. Nid wyf i gredu yr hyn a ddywed y gair yn unig am ei fod yn cydfyned â'm rheswm; ond i goelio fy rheswm am ei fod yn cyttuno â'r gair. Addas yw i'r goleud mwyaf reoli y lleiaf. Yn awr, y mae goleu y gair a ddi-lyniir gan ffydd yn llawer mwy eglur a sicr nag yw rheswm, nen y dichon fod; o herwydd dyna yr achos yr ysgrifenywyd y gair, am fod goleuni naturiol dyn mor fethedig. Ti a ddarllenai yn y gair fod Duw, ac mai efe a wnaeth y byd; fe genfydd llygad rheswm hyny hefyd; ond yr wyt ti i osod pwys dy ffydd ar y gair, nid ar dy reswm; a'r un modd am wirioneddau ereill. Y mae y saer yn gosod ei ffon wastad ar y pren; ac wrth ei lygad y mae yn ei weled yn uniaiw neu yn gam; etto nid ei lygad, ond y ffon yw ei reol, heb yr hon fe allai ei lygad ei somi. Y cwbl a ddywedaf yn chwanege, wrth y rhai a ffinir gan dafiadau atheistaidd i'w meddyliau, yw hyn; sefydler dy ffydd yn gadarn ar y gair; trwy hyn fe'th alluogir i orchfygu y Goliath hwn. A phan fyddech yn fwy rhydd a thawel, a'r ystern drosodd, ti a wnei yn dda ategu dy ffydd oreu y gallech â dy reswm. Bydded i'r gair (fel careg Dafydd), yn ffon dafi dy ffydd, yn gyntaf gwmpo y demtasiwn i lawr; ac yna fel y gwnaeth efe ddefnydd o gleddyf Goliath i dori ei ben, felly gelli dithau yn haws ac yn fwy diberygl ddefnyddio dy reswm tuag at gael buddugoliaeth gyflawn

ar y sibrwd atheistaidd yma yn dy feddyliau.

PENNOD XVIII.

Am demtasiynau i gabedd: a'r modd y mae ffydd yn eu diffodd, ac yn maeddu Satan yn ei amcanion dybllyg.

PICELL danllyd arall sydd ganddo i ddychrynu y Cristion yw ei demtasiwn i gabedd. Y mae pob pechod mewn ystyr hel-aeth yn gabedd; ond yma ni a'i cymmerwn mewn ystyr gyfyngach. Pan wnelo dyn, y llefaro, neu y meddylio ddim er anghlod i natur sanctaidd, neu weithredoedd Duw, mewn bwriad i'w waradwyddo ef neu ei fyrrdd—lyn yn briodol yw cabedd. Erfynwraig dros y cythraul oedd gwraig Iob i'w annog ef i'r pechod yma: "Melldithia Dduw (ebe hi), a bydd farw." Yr oedd y diafol mor ddigywilydd ag ymosod ar Grist ei hun â'r pechod yma, pan geisiodd ganddo syrthio i lawr a'i addoli ef; ond y mae ganddo y fantais o allu dyfod yn nes at Gristion nag at Grist. Y cwbl a allai wneuthur iddo ef oedd anfoddhau ei glustiau sanctaidd â'r cynnygiad oddi allan iddo. Ni chydysafai ag urddas neu sancteiddrwydd person Crist i adael iddo ddim ym mhellach. Ond gall saethu ei bicell danllyd i ddychymnyg y Cristion, er aflonyddwch i'w enaid ef; gan geisio, trwy hyny, ennyn meddyliau amharchus o'i fewn am Dduw, er nad oes i'r rhai hyn yn gyffredin ddim mwy croesawiad gydag enaid grasol nag oedd i'r llyffaint gyda Pharaoh yn ystafell ei wely. Y mae Satan yn amcanu at ddau beth trwy y tafl iadau yma:—Yn gyntaf, Gosod y Cristion o ganu Duw, yr hyn y mae arno fawr chwana ei glywed; ond os metha yn hyn; yna yr ail, y mae yn ymostwng i chwareu is, ac yr bwriadu poeni y Cristion trwy gymmel arno y llettfwyr anghysurus yma. Yn awr ffydd, a dim ond ffydd, a all ddiffodd y pel-enau tân yma yn y ddwy ystyriaeth.

1. Y mae ffydd yn dymchwelyd ystryw gyntaf y diafol, trwy gadw yr enaid rhwng croesawu meddyliau amharchus neu gabeddus am Dduw; a ffydd yn unig a wna hyn. Y mae tuedd naturiol ymhob dyn an-nuwiol i gablu Duw. Os gwna Duw ond croesi adyn anianol yn ei lwybr, a goddef Satan finio ei lygredd ef, buan yr eheda yn ngwynebu Duw. Pe buasai Iob yn rhagrith iwr, fel yr achwynodd diafol yn gelwyddo arno, yna buasai y chwedl hono yn wir an-dano hefyd: "Estyn yn awr dy law, a chyffwrdd â'r hyn oll sydd ganddo, ac efe a'll feiddithia o flaen dy wyneb;" Iob i. 11. Yr oedd Satan wedi camgymmeryd ei ddyn onid e, fe ddaethai hyny i ben: o herwydd, y mae yn naturiol i bob dyn annuwiol feddw

wael am Dduw; a phan gyffroer ef, daw ei galon i'r anlwg yn ei iaith wrthun; drwg hwn sydd oddi wrth yr Arglwydd; ham y disgwyliaf wrth yr Arglwydd y?" 2 *Bren.* vi. 33. Dyma gabledd th Iehoram; ac y mae ei hadau i'w cael hob anghredady. Nid oes ond un ysd o ddrygioni mewn pechaduriaid, fel un ysbryd gras sydd yn y saint. Fe wled wrth Simon y swynwr, ei fod "mewn tl chwerwder" (*Act.* viii. 23); hyny yw, vn cyflwr o bechod. Mae pob anghredn o ysbryd chwerw yn erbyn Duw, a'r ol sydd yn dwyn ei enw: nid oes dim ymried i'r dofaf un o honynt, er ei gau i wn trwy ras attaliol. Gollyngwch y llew rhydd o'i garchar; ac nid hir y bydd yn gos ei natur waedlyd. Nid oes gan hredadyn ddim mwyr o'i fewn at ddiffodd th demtasiwn, nag sy mewn coed sychat ddiffodd tân a fyddo wedi ennyn ynt. Ond yn awr, gadewch i ni edrych wrolwaith a wnaeth ffydd at ddiffodd y ll danllyd yma, ac yn mha fodd:—
af. Y mae ffydd yn gosod Duw ger bron enaid, o fewn golwg a chlyw i'w holl llyllau a'i ffyrdd; ac y mae hyn yn cadw enaid mewn ofn parchus, fel na feiddia mwys dim er anfri iddo yn ei ddirgelaf llyllau. Y mae Dafydd yn rhoddi rhes- pa ham y mae yr annuwiol cyn hyfed (*lm* lxxxvi. 14): "Ni'th osodasant di ger bron." Y rhai sydd yn enllibio ac yn enwau ereill, yn gyffredin y tu ol i'w nau y gwnânt hyny. Anfynych, yn y dyd yma, y ceir pechod yn tyfu i'r fath fedrwydd ag i gablu Duw yn ei wyneb yma iaith sy'n briodol i uffern. Y mae mmysgedd o ddidduwiaeth gyda chabledd haduriaid tra y byddont yma. Hwyt ant gyda Duw yn gyffelyb i'r modd y naeth yr Iuddewon gresynol â pherson col Crist; cuddio ei wyneb, ac yna ei nodio. Tynant len, trwy ryw egwyddon atheistaidd, rhwng Duw a hwythau; yna bytheiriant eu cableddau yn erbyn y w hwnw, hollwybodaeth yr hwn nid yd yn ei ganfod. Yn awr, y mae ffydd yn ygu Duw â'i olwg ar ei enaid; ac felly ei wir. "Na felldithia y brenin yn dy lwl (medd Solomon), ac yn ystafell dy y na felldithia y cyfoethog; canys eheda yr awyr a gyhoedda y llais, a pherchen na a fynega y peth;" *Preg.* x. 20. Iaith y y hyn sy gan ffydd. O! fy enaid, d hi, na chabla Dduw y nefoedd; nid bossibl i ti ei sisial morddistaw na chrydd y llais i'w glustiau ef, yr hwn sydd nes atat nag wyll ti atat dy hun; a'r d yma, hi a ddryllia rwyd y diafol. Yr droddion anweddaidd hyny a ddifferoedd nau Iob, trwy rym a pharhâd ei flinder- er nad oeddynt yn cyrhaedd i gabledd, pan osododd Duw ei fawrhydi ger ei

fron, hwy ddislanasant yn ebrwydd, ac yn- tau a gymmerodd gywilydd iddo ei hun o'u herwydd: "Yn awr, fy llygad a'th welodd di. Am hyny, y mae yn ffiiaidd genyf fi fy hun; ac yr ydwyf yn edifarhau mewn llwch a lludw;" *Iob* xliii. 5, 6.

2il. Ni dderbyn ffydd un dystiolaeth am Dduw ond o enau Duw ei hun: a'r modd yma y diffydd demtasiynau i gabledd. Y mae yn amhossibl i'r enaid hwnw fod heb feddiannu meddyliau da a pharchus am Dduw, yr hwn sydd yn llunio ei farn am dano wrth y gair, yr hwn yw yr unig ddrych cywir i ganfod Duw ynddo. Y gair yn un- ig sydd yn ei ddangos ef yn debyg iddo ei hun yn ei holl briodoliaethau, y rhai y mae Satan yn eu difrio ryw ffordd neu gilydd trwy y pechod hwn o gabledd. Felly y mae ffydd yn llunio ei barn am Dduw, yn ter- fynu pob achosion cydwybod, ac yn deongli pob ragluniaeth ddyrys a thywyll wrth y gair. Trwy ddiffyg o'r medrusrwydd yma, y mae y diafol yn ymlid y creadur i feddyl- iau caledion am Dduw, o herwydd nas gall yn y fan wneud ystyr da o'i drefniadau yn y byd. Dyma fel y mae rhai yn ynydd, wedi cyhuddo cyfiawnder Duw, o herwydd fod rhyw bechaduriaid erchyll wedi eu go- ddiwes â'r fath farn ddisymmwrth ag a haeddant. Y mae ereill wedi taraw cyn drymed ar ei ofal a'i ffyddlondeb, am nad yw yn darparu yn amgenach i'w weision, y rhai a welsant yn cael eu cadw yn hir dan fawr bwys cystudd. Fel hwnw, wrth weled nifer o Gristionogion mewn dillad sal a charpiog, a ddywedodd na wasanaethai efe y Duw hwnw oedd yn rhoddi y fath gad- wedigaeth wael i'w weision. Y rhai hyn a'r cyffelyb yw y drychau drylliog y mae Satan yn dangos Duw iddynt, fel y gallo ei wneuthur yn wrthun i lygad y creadur. Ac yn wir, onid edrychwch ym mhellach, ond barnu am Dduw wrth y fath ddrychau a'r rhai hyn, buan y condemnawn y cyfiawn ac ein llyngear gan bwl tro y demtasiwn en- bydus yma.

3ydd. Y mae ffydd yn diffodd temtasiyn- au i gabledd trwy ei gwaith yn ennyn di- olchgarwch. Y mae hi yn tueddu y Crist- ion i fendithio Duw yn y cyflwr mwyaaf athrist a ddichon ei gyfarfod. Yn awr, y ddau hyn, bendithio a chablu, ydynt gwbl groes i'w gilydd. Trwy y naill y dywedwn ac y meddylwn yn ddrwg, a thrwy y llall yn dda am Dduw; ac am hyny, nid hawdd y cyd-drigant dan yr un gronglwyd. Y maent fel tōnau gwrthwyneb; nis gellir eu canu ar yr un offeryn heb newid y tannau i gyd. Gwaith tu hwnt i allu Satan ydyw tingeian y fath swm gerwin gan yw cabledd ar enaid wedi ei roddi mewn hwyl a chy- wair i foliannu Duw. Yn awr, y mae ffydd yn gwneuthur hyn: "Parod yw fy nghalon," medd Dafydd—dyna ei ffydd ef;

yna y canlyn, "Canaf a chanmolaf;" *Salm* lvii. 7. Ffydd oedd wedi cyweirio ei ysbryd, a rhoddi ei serchiauad mewn hwyl moli. Ac oni chwasai Satan, dybygech chwi, waith caled i beri i Dafydd gablu Duw tra yr ydoedd ei galon yn yr agwedd yma? Dwy ffordd y mae ffydd yn gwneud hyn:—Yn gyntaf, Fel y mae yn canfod trugaredd yu y trallod mwyaf—rhyw lygeidyn gwyn yn y cynmysgedd duaf o ragluniaeth—fel, pan annogo Satan y creadur i gablu o herwydd y drwg y mae yn ei dderbyn gan Dduw, y mae ffydd yn dangos ei fod yn derbyn mwy o dda nag o ddrwg. Dyma y modd y diffoddodd Iob y bicell yma, a saethodd Satan ato oddi ar dafod ei wraig: "A dderbyniwn ni gan Dduw yr hyn sy dda, ac oni dderbyniwn yr hyn sy ddrwg?" *Iob* ii. 10. A gaiff yr ychydig flinderau presennol fod yn fedd i gladdu y coffa am fy holl drugareddau gynt a phresennol hefyd! "Llefaraist fel un o'r ynfydion;" y mae yr hyn a gymmer Duw oddi arnaf yn llai nag yw fy nyled iddo; a'r hyn y mae yn ei adael dan fy llaw yn fwy nag yw ei dyled ef i mi. Cynghor Solomon, yw, "Yn amser adfy ystyria;" *Preg.* vii. 14. Ffrwyth ysbryd byrbwyll a diystyriaeth yw ein meddyliau a'n geiriau anweddaiid am Dduw. Yn awr, y mae ffydd yn ras ystyriol: "Ni frysia yr hwn a gredo" (*Esa.* xxviii. 16): na wna, i lefaru, nac i feddwl am Dduw. Un o'gof da yw ffydd; a hi all adrodd i'r Cristion lawer hanes am hen drugareddau; a phan fyddo y prydd bydd o'i flaen yn lled brin, hi all loni yr enaid â dysglaid oer, a pheidio ewyno fod Duw yn cadw tŷ sail chwaith. Dyma y modd y cafodd y Salmydd ar ei draed eilwaith, pan oedd hyd yn oed yn treiglo i lawr y bryn o brofedigaeth. "Dyma fy ngwendid; etto, cofiaf flynyddoedd deheulaw y Goruchaf. Cofiaf weithredoedd yr Arglwydd; i'e, cofiaf dy wyrthiau gynt;" *Salm* lxxvii. 10, 11. Am hyny, Gristion, pan fydddech yn nyfnderoedd trallod, a Satan yn dy demtio i oganu Duw fel un wedi dy anghofio, cau ei safn ef â hyn, "Na ddo, Satan, ni anghofiodd Duw wneuthur erof; ond myfi a anghofiais yr hyn a wnaeth ef erof;" onid e, nis gallwn ammheu ei ofal tadol am danaf yn bresennol. Dos, Gristion, edrych dros dy hen wersi; molianna Dduw am ei drugareddau gynt, ac ni fyddi yn hir heb gael cân newydd yn dy enau am drugareddau newyddion. Yn ail, Megys y mae ffydd yn canfod trugaredd ymhob trallod, felly y mae hi yn cadw disgwyliad yn yr enaid am chwaneg o drugaredd, ac yn tueddu yr enaid i fendithio Duw am dano, fel pe byddai eisoes wedi ei dderbyn. Daniel, pan oedd yn rhodio glyn cysgod angeu, y rhwyd wedi ei gosod am ei fywyd, etto, "Tair gwaith yn y dydd y gweddiat ac y cyffesai (neu y rhoddai ddiolch) o flaen ei Dduw;" *Dan.* vi. 10.

Ei glywed ef yn gweddio yn ei gyfyngde mawr, ni fuasai yn achos o gymmaint o syn dod; ond bod ei galon mewn hwyl i rodd diolch yn y fath awr galed, yr oedd hyn yn rhyfeddol; a'i ffydd oedd yn ei alluogi. Y mae trugaredd yn yr addewid fel y ffrwyth yn yr had; ac y mae ffydd yn ei ganfod yr tyfu, a'r drugaredd ar ei ffordd yn dyfod. Yn awr, enaid mewn disgwyliad am wared igaeth, O! fel y teiff ymaith unrhyw gyngiad cableddus! Pan ddeallo milwy mewn castell fod cynnorthwy yn dyfod idd ynt rhag gelynyon a fyddo wedi eu hamgylchu, y maent yn ymwroli, ac ni roddan glust i gynnygiad bradwraidd y gelyn. Pa fyddo anghrediniaeth yn gynghorwr, a'r enaid dan amhenon a drwgdybiau am Dduw o ran ei gariad ato, dyna y pryd y mae Satan yn cael croesawiad ar y fath neges. Ni a gawn esampl hynod o'r rhai hyn yn y un bennod: *Esa.* viii. Yn *adn.* 17, gallw weled effaith ffydd, a hyny yw, disgwyliad siriol wrth Dduw mewn caledi: "Disgwyliad am yr Arglwydd sy'n cuddio ei wyne oddi wrth dŷ Iacob, ac a wyliaf am dano. Ac yn *adn.* 21, ni a gawn ffrwyth anghrediniaeth, a hyny yn ddim llai na chabledd "A bydd pan newynont, yr ymddigiant a y melldithiant eu brenin a'u Duw, ac a ecyrechant i fyny." Y mae ffydd yn cadw credadyn yn yr agwedd o ddisgwyl; a anghrediniaeth yn gosod y pechadur i fendithio Duw a dyn. Ni chaiff neb ddiang heb ei ddyrnod, os croesir ef yn ei lwybr na chaiff Duw ei hunan.

4ydd. Y mae ffydd yn diffodd y bice danllyd yma, trwy buro y galon oddi wrt y gelyniaeth hwn yn erbyn Duw, yr hwn yn natur lygredig dyn sydd danwydd i fath dentasiwn. Athrodwyr, rhai yn goganddynt Dduw, a rhai trahaus, dynt we eu cydgyplysu yn *Rhuf.* i. 30. Nid rhyfed fod dyn sydd a'i ysbryd yn llawn lliid y erbyn arall, yn dra pharod i waradwyddo hwn sy mor gas ganddo. Y mae po anghredadyn yn gas ganddo Dduw; ac felly â pharodrwydd ynddo i gablu Duw, pa groeso Duw ei ewyllys neu ei chwant. On y mae ffydd yn lladd y gelyniaeth calo yma, i'e, yn gweithio cariad yn yr enaid o Dduw, ac yna yn gweithio trwy y caria yma. Yn awr, un peth priodol i gariad y "ni feddwl ddrwg;" *1 Cor.* xiii. 5. Hyn yw, ni fydd i ddyd na bwriadu drwg yn ebyrn yr hwn y mae yn ei garu, na chwait feddwl fod drwg yn cael ei fwriadu gandd yn ei erbyn yntau. Y mae cariad yn darlle gweithredoedd cyfall trwy y fath wyddrychau gloew o diriondeb a hynawsedd a a wna argraphiad tywyll i ymddangos y llythyrenau hardd. Hi a ddeongla y cwbl wna ef gyda'r fath symlwydd a diniweidrwydd, nes yw y rhanau hyny o'i ymddygiad tuag ati, y rhai a gyfrifai ereill yn d

yll, yn ddyrus, ac yn amheus yn ei gol-
g hi yn foddhaol ddigon, am ei bod hi bob
mser yn rhoddi yr ystyr mwyaf caruaid
y sy bossibl ar y cwbl a ddaw oddi wrtho.
Felly ni feiddia y credadyn ei hunan fwr-
du dim drwg o bechod yn erbyn Duw, yr
wn y mae yn ei garu mor anwyl, oddi wrth
dystiolaeth a ddygo ffydd am dano i'w
naid; ac megys na oddef cariad iddo droi
n fradwr yn erbyn Duw da, felly ni oddef
ldo chwaith fynwesu dim meddyliau am-
heus am galon Duw tuag ato yntau; fel,
e gallai efe (a garodd yntau, ac a ddysgodd
e enaid i'w garu ef), ar ol y cwbl, lunio
wriad o wir angharedigrwydd i'w erbyn.
a, er y gall Satan wrthio y meddwl yma ar
Cristion, a bod yn daer am dderbyniad
ldo dan y fantais o ryw ragluniaeth wgu-
s, dd yn ymddangos fel o blaid y fath am-
heuaeth; etto, byth ni chaiff y fath fedd-
l ei lawn groesawu a'i gredu gan yr enaid
wnw y cafodd cariad le o'i fewn. Ac yn
er, nid oes lle i ofni y perswadir yr enaid
wnw i fytheirio cableddau yn erbyn Duw,
e hwn sy mor ffaidd ganddo lettya y drwg-
yb lleiaf am Dduw yn ei feddyliau dirgelaf.
2. Bwriad arall sydd gan Satan yn y tem-
siynau cableddus yma yw blino a phoeni y
ristion. Er nad yw yn cael y Cristion mor
vyn a derbyn y rhai hyn, ei ghenadau, i
ewn, arhoddi iddynt letty ereifwynef; etto,
wyr y bydd yn aflonyddwch nid bychan
do, eu bod yn parhau drystio ac yn curo
i ei ddrws; i.e., er nas gall halogi y Crist-
n trwy gael ganddo gydsynio â hwynt,
yd yn oed y pryd hyn y mae yn gobeithio
er iddo lawer o flinder a therfysg, trwy ei
huddo o'r peth y mae yn nacau ei wneud.
e felly, yn lle bod yn halogwr (yr hyn yw
ddymuniad), y mae yn gorfod troi yn gy-
ddwr celwyddog ac yn enllibiwr. Dyma
l y mae y butain weithiau yn cyhuddo dyn
onest, yn unig i ddial arno am nacau ym-
ddi i foddloni ei chwant hi. Ioseph, ni
nai orwedd gyda'i feistres; y mae hithau
a codi celwydd erchyll i'w erbyn. Satan
w y cablwr, ond y Cristion truan a gaiff yr
w a'r bai arno, am nas myn gydsynio âg
yn y weithred. Megys y cymmhelodd
e Iuddewon Simon o Cyrene i ddwyn croes
rist, felly y mynai Satan gymhell y Crist-
n temtiedig i ddwyn euogrydd ei bechod
costo yntau. Ac yn fynych, y mae gyda'r
th ddeheuder ac â llaw mor ysgafn yn ei
mmud oddi wrtho ei hun ar gefn y Crist-
n fel y mae efe, druan ddyd, heb ganfod
ai dyfais y twyllwr sydd yn y gwaith, ond
a rhodio dan achwyn yn unig ar ddyrgioni
galon ei hun. Ac fel y mae weithiau yn
gyddod fod gwr gonest, pan geir lladrad
a ei dyf ef, yn dioddef am nas gall gael allan
lleidr a'i gadawodd yno; felly y mae y
ristion yn dioddef llawer o ddychryn-
ydd athrist, yn unig o herwydd presennol-

deb y meddyliau erchyll yma yn ei fynwes,
am nas gall gael allan eiddo pwy ydynt; pa
un ai picellau Satan ai chwydiad ei galon
ddrygionus ei hun. Tueddol ydyw y Crist-
ion gostyngedig i ofni y gwaethaf am dano
ei hun, hyd yn oed lle na byddo ei gydwy-
bod yn ei gyhuddo. Fel y patrieirch, y rhai
pan gafwyd y gwpan yn sach Benjamin, a
gymmerasant y bai arnynt eu hunain, er eu
bod yn ddiueg o ran y weithred. Felly, y
mae y fath derfysg weithiau yn meddyliau y
Cristion, fel y mae yn barod i dadu y bast-
tardiaid hyny arno ei hunan, y rhai a ddyl-
ent gael eu gosod wrth ddrws an arall, sef
Satan. Yn awr, yr wyf i ddangos i chwi y
modd y mae ffydd yn dymchwelyd yr ail fwr-
iad yma o eiddo y diafol yn y meddyliau cabl-
eddus hyn. A hyn a wna hi ddwy ffordd. Yn
gyntaf, Trwy ddyngu y Cristion i wahanu
rhwng rhuthriadau Satan a chynnygiadau
ei galon ei hun. Yn ail, Trwy ei gynnorth-
wyo, er iddynt fod yn codi allan o'i galon
ei hun.

1af. Y mae ffydd yn dysgu i'r Cristion
ganfod gwahaniaeth rhwng y pelenu tan o
demtasiynau, a deflir trwy ei ffenestr gan
Satan, a'r gwreichion hyny o lygredd sydd
yn codi o'i aelwyd ei hun, ac yn cymmyrd
tân oddi wrth ei galon druenus ei hun. Ac
yn sicr y meddyliau cableddus hyny, o her-
wydd pa rai y mae llawer enaid grasol yn
cwyno mor athrist, ydynt yn fynych o'r
fath; a hyn a ymddengys yn fwy tebygol,
os ystyriwn yr amser y maent yn cynhyrfu
gyntaf, ac yn fwyaf prysur; hefyd dull eu
dyfodiad; ac yn olaf, eu heffaith ar galon y
Cristion.

(1af.) Yr amser y maent yn dechreu cyn-
hyrfu ac ymrodio yn yr enaid; a hyny yn
gyffredin yw, pan fyddo cyfnewidiad new-
ydd ei weithio, neu yn cael ei weithio o'i
fewn ef; pan fyddo y creadur yn gadael ei
hen arferion pechadurus, i gofleidio Crist, a
sefyll drosto yn erbyn pechod a Satan.
Dyma yr amser y bydd yr ysbrydion yma o
gabledau yn dechreu ymrithio, ac y gwelir
y pryfed yma yn ymlusgo yn mynwes y
Cristion. Tebygolrwydd mawr yute na
chawsant eu magu yno, ond eu danfon gan
Satan mewn ffordd o ddial ar yr enaid am
droi oddi wrtho. Y mae y diafol yn gwneud
â'r Cristion yn hyn, nid yn annhebyg iawn
i'r modd y gwna ei wir weision ef, sef y de-
winiaid; y rhai, i ddangos eu lliid yn erbyn
y rhai a'u croesant, a barant weithiau iddynt
heidio o lau, neu bryfaid o'r fath, i'w
gwneuthur yn ffaidd iddynt eu hunain. Ac
megys y gallai un na welodd y fath bryfaid
yn ymlusgo o'i gwmpas o'r blaen, ryfeddu
fod ganddo lwyth o honynt mor ddisym-
mwrth; i.e., gallai gyfrif y peth i lid y dewin,
yn hytrach nag i lygriad ei gorph ei hun;
felly y mae yn yr achos yma. Yn wir, y
mae yn ymddangos yn annhebygol iawn,

fod i'r creadur, yn y cysswllt hwn o amser, yn anad un gwmpo mor erchyll ar Dduw, trwy bechu i'w erbyn mewn gradd mor uchel a hyn. A ellir meddwl, tra y mae mewn dagrau o herwydd pechodau ei fywyd a aeth lleibio, y medr ef wneuthur un gwaeth na'r holl rai y mae yn galaru o'u hachos? Neu y beiddia ef, tra y mae yn gwaeddi am faddeuant â chalon grynedig, osod rhwystr ar ffordd ei weddiâu ei hun, a chaledu calon Duw i'w herbyn, drwy y fath bechodau onadwy ag yw y rhai hyn? Mewn gair, onid yw yn ymddangos yn anhygoel, tra yr oedd yn estron, i.e. yn elyn i Dduw, na feiddiai ymarfer â'r pechod yma, o herwydd y natur aruthro o hono; ac, yn awr y mae yn dechreu caru Duw, fod y cableddau yma yn gymmhwyys i'w safn, y rhai oeddynt o'r blaen yn i'w rhy fawr ac erchyll iddo gyffwrdd â hwynt?

(2il.) Y mae dull cyfodiad y cableddau hyn yn meddyliau y Cristion yn chwaneu y tebygolrwydd mai tafiadau oddi wrth Satan ydynt, yn hytrach na chynhyrfaidau sydd yn cael eu dechreuad oddi wrth galon y Cristion ei hun. Yn gyffredin, rhuthro yn ddisymwth y maent; a fflagu fel y fellten yn meddyliau y Cristion, cyn iddo gael amser i ystyried ynddo ei hun ar ba berth y mae. Ond y chwant hwnw, sydd â'i darddiad allan o'n calouau ein hunain, yn gyffredin y mae yn raddol yn ei gynhyrfaid; y mae yn gweithio mewn ffordd mwy arafaid a chydunol â natur dyn; y mae yn denu yr enaid, ac o fesur ychydig, yn ei dwyllo i gydsyniad. Y mae yn enmill, yn gyntaf, y serchiadau o'i ochr; yna y mae yn gosod y rhai hyn ar waith i lygru y deall, a'i attal rhag bod yn dyst i'w erbyn, trwy ei ddallu â rhyw fwyniant anianol neu elw; ac felly trwy y fath gamrau a'r rhai hyn, y mae o'r diwedd yn cael dyfodiad haws at yr ewyllys a'r fath fantais arno, nes yw (wedi colli amddiffyniad y deall) yn ymroddi wrth alwad y chwant. Ond y tafiadau disymwth yma o feddyliau cableddus ydynt yn rhuthro trwy drais ar yr enaid, heb ofyn ei genad i ddyfod i mewn; y mae eu gyriad fel gyriad y Iebu uffernol. Y diafol sydd wedi dringo ar y cerbyd; pwy arall a fedrai yru mor ynfyd? I.e. y mae nid yn unig eu rhuthriad disymwth, ond eu hanghyttundeb â meddyliau ac agwedd arferol y Cristion, yn chwaneu etto y tebygolrwydd mai picellau ydynt a saethwyd o fwa y diafol. Fe adnabuwyd Pedr unwaith, ei fod yn un o ganlynwyr Crist wrth ei lais; "Y mae dy leferydd," meddynt, "yn dy gyhuddo." Yr oedd ef yn siarad yn debyg iddynt; ac am hyny fe'i barnwyd yn un o honynt. I'r gwrthwyneb, mi a allwn ddyweddy am y cynnygiadau cableddus yma, nid eiddo y Cristion ydynt; y mae eu hiaith yn eu cyhuddo; nid llais sant, ond bytheiriad Satan,

sydd yn eu lleferydd. Pe baent o wëad y enaid, hwy a fyddent rywbeth yn debyg i darn i gyd y torwyd hwynt oddi wrtho. Y mae ein meddyliau yn gyffredin yn ymdd bynu ar eu gilydd; un meddwl yn rhoddu amnaid am y llall. Fel y cyfyd cylch gyloch mewn dwfr pan ei cynhyrfer; fell y daw y nail feddwl o'r llall hyd nes y ymledont i ymddiddaniad. Yn awr, on oes lle i'r Cristion ryfeddu gweled (fe all pan fyddo ar addoliad Duw, a myfyrdods sanctaidd a nefol yn ei feddiannu) meddy cableddus yn ddisymwth yn ymddangynganhol y fath gymdeithas mor estron iddo! A pha fodd yr ymwthiodd i'w mysg hwynt? Os bydd i feddwl sanctaidd daraynom yn ddisymwth, pan fyddom yn sefy megys â'n cefn ar y nef, ac na byddo di yn ymddiddaniad presennol ein calonau i'r arwain i mewn; gallwn feddwl mai cynnyiad pur ydyw oddi wrth Ysbryd Crist. A yn wir, pwy ond efe a allai fod mor fuan yng nghanol yr enaid, pan yw y drws y gauad; a chyn y medr y creadur droi i feddyliau i'w agoryd iddo? Felly y mae y debygol mai cyrchiadau Satan yw y meddyliau cableddus hyn sydd yn rhuthro arnithau, Gristion, mewn amser ag y bydd y enaid yn fwyaf pell oddi wrth y fath feddyliau; i.e. yn hwylio yn gwbl groes; dy waith o weddio a molianu Duw. I tebygol hefyd mai ei amcan ynddynt yw cerwystro di ar y gorchwyl hwnw y mae ei yn ei gasau a'i ofni fwyaf.

(3ydd.) Gall yr effiaith y mae y meddyliau cableddus hyn yn gael ar galon y Cristion, beri i ni feddwl mai hilogaeth Satan ydynt, yn hytrach na firwyth ei galon ei hun; a hyny yw dychryn a syndod alaeth trwy ysbryd y Cristion, yn cyrhaedd fynych i anhrefniad ei gorph ef. Fel na allai ymrithiad y diafol o flaen ei lyg corphorol ei ddychrynu yn fwy nag y mae y cableddau yma sydd yn rhodio yn ei ddechymmyg. I.e. y maent nid yn unig yn p dychryn, ond yn cyffroi casineb cryf a feiddiad yn yr enaid ar eu hymddangosiad. Yn awr, os hilogaeth calon y Cristion hun ydynt, pa ham y mae y dychryn hwn ac o ba le y mae y fath gasineb atynt bod? Y mae y cynnygiadau hyny, sy a'u tarddiad o honom ein hunain, yn arfer o'n boddio yn well. Y mae yn naturic ddynion garu plant eu lwynau, er iddynt yn dduon ac anhardd; ac felly y mae iddygaru yr hyn a gafodd ei ymddwyn yn meddyliau eu hunain. Fe adnabu Solon y wir fam trwy ei thyrerwech at y plant. Pe byddai y cableddau hyn yn wir ffwr y galon, fe ellid disgwyl cyfeillgarwch, hytrach na dychryn, wrth yr olwg arny ac ewyllys da, yn hytrach na chasineb aty. Oni fyddai yn fwy tebygol (enaid tlawd) eu cusanu, pe baent yn eiddo i ti, na che

eu lladd? tynu allan y fron i'w magu a'u naethu, yn hytrach na chleddyf yr Ysbryd i'w difetha? Ac os gwir, medd ffydd, mai milogaeth Satan yw y rhai hyn, pa ham y perfyngi gymmaint am ei fod yn eu gosod wrth dy ddrws di? A yw y wraig ddiwair yn fwy o butain am fod rhyw dafod enllibus yn ei galw felly? Bydd ymarhous, enaid, y mae y barnwr wrth y drws; a phan ddol, i'gei dy alw wrth dy iawn enw. Paid bistedd yn hwy, dan archolli dy feddwl â'i bicell ef, ac ymfino o herwydd pechod y diafol; ond dos, ac achwyn arno wrth dy Oduw. Ac wedi i ti ledi ei gableddau o laen yr Arglwydd, fel y gwnaeth Hezechiah llythyr Senacherib, ymgysura yn hyn, y bydd i Dduw ddadleu dy achos yn erbyn y gyda gyhuddwr hwn, a'i ddanfon ymaith gyda chymmaint cywilydd, a chyn lleied o wyddiant, ag y danfonodd y cyfarthwr hwnw oedd mor erehyll yn difrio Duw, ac yn gwaradwyddo ei bobl.

2il. Gadewch fod y cabledau hyn yn pechodau o eiddo y Cristion ei hun, wedi i'u magu yn ei galon ef, ac nid yn hiliog-eth y diafol, wedi eu tadu yn gelwyddog rno; etto, yma y mae ffydd yn cynnorthwyo Cristion pan fydd yr euogrwydd o honynt yn ei drallodi, a Satau yn fwyaf prysur i'w rymhau hwynt. Yn awr y mae y cynnorthwy a ddwg ffydd i'r enaid yn yr achos hwn yn amrywiol.

(1af.) Fe all sicrhau i'r enaid, ar sail adarn, ysgrythyrol, fod y meddyliau cabledus hyn yn faddeuol: *Mat. xii. 31*; "Pob pechod a chabledd a faddeuir i ddyinion; ond cabledd yn erbyn yr Ysbryd Glân, ni addeuir i ddyinion." Ac y mae yn beth hyffedd, os oes cymmaint o brudd-der a gwylltineb yn dy ddychymmyg, nes wyt yn ybied dy fod yn canfod yr unig gabledd hwn, sydd yn anfaddeuol, yn y meddyliau twibiog a byrbwyll hyny sydd heb erioed gael cydsyniad dy galon, ond parhaus wrth-diad ac ymdrech i'w herbyn; pryd y mae parhaus ddiedefeirwch a chasineb diobaith yn erbyn Duw wedi eu gosod fel nodau ar lalen y pechod hwnw. Y mae yn beth hyffedd iawn, meddaf, os darfu i ti yn hir cymmeryd yr ymwelwyr anghroesawus yn am y pechod tra ysgeler hwnw. Yn awr, er dy gysur, ti a glywi fod pob cabledd, ond yr un hwnw, yn faddeuol. Fe llir danfon erfyniad tyciannol am faddeuant o honynt, o lys trugaredd, er y dychryn a'r yndod a ddichon eu hamgylchiadau beri yn dy enaid crynedig di. Ac os cred y creadur hyn, dyna bicell Satan wedi ei diffodd; o herwydd ei fwriad ef yn y tentasiynau yma gyd ydyw eu gwneud yn ddrws cuddiedig ollwng yr enaid i lawr trwyddo i anobaith.

(2il.) Y mae ffydd yn amlygu i'r enaid nad yw cynnhyrifiad y fath feddyliau yn anghyttunol â chyfiwr o ras. Ac os bydd

yr enaid wedi gwneuthur penderfyniad yn y pwynt yma, dyna bicell danllyd y diafol wedi colli ei phen gwenwynllyd, yr hwn sydd mor dost am yfed i fywy ysbrydoedd y Cristion. Y casgliad cyffredin y mae efe yn beri i eneidiau tentiedig ei dynu oddi wrth fod y meddyliau hyn o'u mewn, yw, yn sicr nid dyn grasol ydwyf; nid man budr plentyn Duw ydyw hwn. Ond y mae ffydd yn medru gwrthbrofi hyn, ac yn rhoddi cenad i Satan, os gall (er cyfarwydded yw yn yr Ysgrythyrau), ddangos un lle yn yr holl Feibl o blaid y fath benderfyniad. Yn wir, nid oes un. Yr wyf yn addef fod cabledd y cabledau (y pechod yn erbyn yr Ysbryd Glân wyf yn ei feddwl) yn ddrwg na chaiff gyffwrdd â gwir gredadyn; ond nis gwn am un math o bechod, heb law hwnw, ag y mae ganddo y fath fraint o nodded a rhyddhâd, fel nad yw yn bosibl iddo, dros amser, gael ei faeddu ganddo. Gwir yw, fod holl gorph pechod wedi ei wanhu ymhob credadyn, a gras Duw wedi rhoddi i'w natur lygredig glwyf marwol, yr hwn, er ei chais i'w gael yn iach, y mae yn rhaid iddi farw o hono yn y diwedd. Er hyny, megys y dichon pren a fyddo yn marw ddwyn peth firwyth, er nad cymmaint, na hwnw chwaith cyn llawned na chyn addfeted ag o'r blaen; ac megys y dichon dyn a fydd yn marw symmud ei aelodau, er nad mor gryf a phan oedd mewn iechyd, felly y bydd llygredd gwreiddiol yn ymgynhyrfu mewn sant, er mai yn wanaid, ac yn dangos ei firwyth er nad yw ond crychlyd ac anaddef. Gan hyny, nid oes achos i ti ddigaloni am ei fod yn cynnhyrfu, ond i fod yn gysurus, am nad yw yn gallu ond cynnhyrfu. O! bydd ddiolchgar am fod y gelyn, oedd yn ddiweddar yn dy feistrol, ac megys yn dy ddwyn gyda bost yn rhwym wrth ei berbyd, yn awr ar ei liniau ei hunan, dan rymus gleddyf Crist a'i ras, ac yn barod i syrthio i'w fedd, er ei fod yn codi llaw i'w erbyn, i ddangos fod ei clyniaeth yn parhau pryd nas gall wneuthur y niwed a ddymunai.

(3ydd.) Fe all ffydd roddi i'r enaid foddlonrwydd nad yw y meddyliau cabledus hyn, o ran y derbynriad a gânt yn gyffredin gyda Christion, ddim cymmaint pechodau yng nghyfrif Duw ag yw rhai ereill sydd yn llai yn ein golwg ni. Y mae y Cristion yn gyffredin yn tynu arno ei hun fwy o euogrwydd trwy ychydig o feddyliau beilchion, aflan, cybyddlyd, na thrwy lawer o rai cabledus; o herwydd mai anfynych y mae yn cael y fath oruchafiaeth amlwg ar y rhai hyny ag y mae yn gael ar ei gableddau sydd yn ei ddilyn. Dichon y picellau tanllyd o gabledd ei frawychu yn fwyaf; ond y mae chwantau tanllyd yn clwyfo yn gynt ac yn ddyfnach. Y mae tentasiynau o bleser yn deni y galon atynt; tra y mae natur erehyll

y lleill yn cyffroi gwrolach ymdrech i'w erbyn. Y mae plëserau yn debyg i wenwyn mewn gwin melus; fe'u llyngwir cyn i'r Cristion eu hystyried, ac y maent yn ymledu yn fuan i'w serchiadau dan wenwyno ei ysbryd. Ond cabledau ydynt debyg i wenwyn mewn rhyw ddioidd chwerw; naill ai fe'i poerir cyn ei fyned i lawr, neu fe'i cyfogir cyn iddo ymledu ymhell i'r serchiadau. Y mae pechodau yn fwy neu yn llai yn ol y gradd y bydd yr ewyllys ar waith ydynt; a chan fod yn gyffredin lai o ewyllys a serchiadau y Cristion yn y cabledau yma nag yn y lleill, nis gallant fod yn bechodau mwyaf.

(4ydd.) Y mae ffydd yn mynegi i'r enaid y dichon fod gan Dduw, i.e. yn ddiammheu fod ganddo, ddbienion grasol wrth ddiodeff iddo gael ei flino gan y fath aflonyddwyr; neu ynte na chaent eu gollwng ar ei draws. Fe allai i Dduw weled dy fod mewn mawr berygl o herwydd rhyw bechod arall, ac iddo ddanfôn Satan i'rh flino di â'r tentasiynau hyn, rhag iddo dy orchfygu â'r lleill. Ac er fod plastr sugno yn boenus ac anfodhaol iawn, etto, gwelld dioddef hwnw dros dro, na chlwyf a berygla dy fywyd. Y mae yn well dy fod yn crynu wrth yr olwg ar feddyliau cabledus, nag yn ymchwyllo trwy falchder dy galon, wrth yr olwg ar dy ddoniau a'th ragofreintiau. Fe dy wneir gan y cyntaf mor frwnt a'r diafol yn dy olwg dy hun; ond y llall a'th wna yn anferth ddyrgionus, ac felly yn wir, yn debyg i'r diafol yng ngolwg Duw.

Yn olaf. Fe fydd i ffydd roddi y Cristion ar ryw wrolwaith arderchog dros Dduw; a thrwy hyny amddiffyn ei hun, a phrofi cyhuddiad Satan yn gelwydd. Fel un sydd yn cael ei gyhuddo o ryw fwriad bradwrws yn erbyn ei frenin; i lanhau ei hun oddi wrth yr enllib hwnw, y mae yn cymmyrd rhyw anturiaeth arbenig a nodedig mewn llaw er anrhydedd a pharch i'w frenin. Yn wir, dyma y llwybr goreu i'r Cristion ymddial, pa un bynag ai ar Satan am ei flino â'r fath ruthriadau, ai ar ei galon ei hun am fwrw allan y fath ffrydiau bryntion. Pan ddarfu i Dafydd yn yr ogof brisio einioes Saul yn fwy na theyrnas, yr hon a allasai un dyrnod hyd adref ei hennill iddo, fe brofodd trwy hyny ei elynion i gyd yn gelwyddwyr, y rhai a'i dygasant ef dan amhleuaeth yn y llys. Gwna dithau, Gristion, yr un modd âg anrhydedd Duw, pa un y daw mewn cyferbyniad i bechod a hunan; ac felly ti gaui safn y diafol, yr hwn sydd weithiau yn dy wneuthur yn ammheus o honot dy hun, fel pe byddit gablwr. Fe fyddai i'r fath weithredoedd arderchog o sel a hunanymwadiad, lesaru yn uwch, er dy lanhâd o flaen Duw a'th gydwybod, nag y gall y meddyliau disymmwrth hyny lesaru i'rh erbyn.

PENNOD XIX.

Y drydedd bicell danllyd o anobaith; a dymchweliad y ddaul benaf sy gan Satan i'w chymhell ar eneidiau, i'r diben o'i gothio iddo, yr hon ddada a gummerir oddi wrth faint pechod; hefyd, yr ateb cyntaf a ddarpar ffydd i'r enaid ar yr achos yma.

3. Y DRYDEDD bicell danllyd sy gan Satan i'w thafu at y Cristion yw ei demtasiwn i anobaith. Y mae yr ysbryd melliogedig yma yn barnu nad oes le iddo ymddial ymhellach ar Dduw, na chwaiht argraphu ei ddelw ei hun yn ddyfnach ar y creadur na thrwy y pechod yma, yr hwn sydd ar unwaith yn tafu y dirmyg mwyaf ar Dduw, ac yn dwyn y creadur yn nesaf i wedd y cythreuliaid ac eneidiau danmedig, y rhai, trwy orwedd yn barhaus dan artheithiol lid Duw yn mhoeithdir uffern, ydynt wedi eu cwbl dduo gan anobaith. Dyma y pechod y mae Satan yn benaf yn amcau ato. Nid ydyw pechodau ereill ond rhyw ddarpariaeth flaenorol tuag at arwain hwn i mewn, a gwneud y creadur yn barotach i dderbyn y fath demtasiwn. Megys y mae y gwlan yn cael ei drochi mewn rhyw liwiau ysgeifn cyn y gellir yn iawn roddi lliw dwys arno, felly mae gan Satan ei bechodau mwy difyr a hyfryd, i ddenu iddynt ar y cyntaf, fel y gallo gymhwyso y creadur i hwn. Ond y mae yn cadw hwn fel cyfrinach mawr oddi wrth wybyddiaeth yr enaid. Y mae y diafol yn adarwr rhy gyfrwys i osod ei rwyd yng ngolwg yr aderyn y mae yn meddwl ei ddal. Anobaith yw y rhwyd; nid ydyw y pechodau ereill ond yr abwyd â'r hwn y cuddia efe hi—ac felly y deuir hwynt mewn iddi; a phan gaffo hyny, y maent yn ei afael i dragwyddoldeb. Y mae hwn uwch law pob pechod yn rhoddi yr enaid mewn math o feddiant presennol o uffern. Y mae pechodau ereill yn rhwymo trosedd ddiogofaint; ond y mae hwn yn rhoddi tât yn y bygythiad, ac yn gosod yr enaid yn ffilan boeth o ddychryn. Megys mai rhagorol waith ffydd yw rhoddi math o fod i'r addewid, felly creulondeb anobaith yw rhoddi i boenau uffern yn y gydwybod. Dyma y saeth sydd yn yfed i fyryn yr ysbryd ac y troi y creadur yn ddiennyddwr iddo ei hur Mae anobaith yn rhoddi yr enaid tu hwnt ymwared; y mae cynnygiad o bardwn y dyfod yn rhy ddiweddar i hwnw sydd wedi troi ei hun oddi ar yr ysgol. Y mae i demtasiynau ereill ffordd o ddiangfa: gall ffydd a gobaith ollwng allan y mwg sydd yn blin y Cristion, pa mor athrist bynag y byddo e gyflwr dros yr amser presennol. Ond yna mae yr enaid yn rhwmi i gael ei fgyu, pa fyddo wedi ymgau mewn meddyliau aubethiol am ei bechodau, heb gymmaint a agen o obaith wedi ei gadael i ollwng allan ddim o'r dychryn sydd wedi ei leuwi o' plegid.

DOSB. I.

Fe allwn yma roddi esamplau o'r amryw syrnau a'r dadleuon a ddefnyddia Satau er eiry eneidiau i anobaith; a pha mor allu; yw ffydd, a ffydd yn unig, i'w hatteb a'u uchwelyd. Ond mi gaf ymfoddloni ar i helaethu arno, yr hwn yw y penaf o ll rym Satau, ac a gymmerir oddi wrth intoli a lliosogrwydd pechodau y creadur. un oleuir ef i weled y rhai hyn, ac y symdar yr annheinladrwydd o'i gydwybod, i ddi iddo eu teimlo gyda gofid, ac y difedo Duw i Satan yn mbhellach arfer ei adleuaeth i waeddi yn erbyn eu herchyll- a hwynt, y mae yn rhaid i'r enaid fod awn cyflwr alaethus ac yn rhwym i soddi waelodion anobaith er dim cymmorth idd iddo i'w gael oddi fewn, yndo ei hun, e oddi allan mewn un creadur arall. Fe ai fod rhai o honoch sydd â meddyliau ys- ffn am eich pechodau eich hunain, yn ei frif yn fabandod a gwendid ysbryd mewn pill, eu bod yn ymfino cymmaint o achos eiddynt hwythau; ac yn hyn, chwi a angoswech na buoch erioed yng nghyffion tan yn cael eich gwasgu gan ei demtas- nau. Y rhai a fu yno, iaith arall a siar- ant; a hwy ddywedant i chwi fod y pech- au yr ydych chi heb eu teimlo wedi gor- ddd fel mynyddoedd o blwm ar eu hys- ydoedd. O! pan unwaith y gwneir wygiad yn y gydwybod, ac y llofio tōnau o'grwydd yn eu grym ar yr enaid, buan y chuddir holl ddiangfāau ac esgnsodion y dadur fel yr hen fyd gan y dylif, yr hwn ruddiodd y coedydd a'r mynyddoedd uch-

Megys nad ydoedd y pryd hyn ym i'w weled ond môr a'r ffurfafen, y yn y cyfryw enaid ddim ond pechod uffern. Y mae ei bechodau yn syllu yn wyneb, ac megys â llygaid cynnifer o threuliaid yn barod i'w lusgo i'r ydew waelod. Fe faidd pob pryd yn salw ym- go ar hyd y llew yn ei gwsg, llais yr hwn effro a bair gryndod yn holl fwystfild y ddwig. Gall nyfydion ymddifyru â pechod pan fyddo llygad y gydwybod allan yng nghanad; gallant ddawnsio o'i am- ch, fel y Philistiaid o ddeutu Samson wryll; ond pan fyddo Duw yn arfogi pechod âg euogrwydd, ac yn peri i'r sarph a roddi ei cholyn yn y gydwybod, yna y e y pechadur balchaf o honynt yn ffioi o'i en. Yn awr, ffydd yn aall ddal ym- dfa yn erbyn pechod yn ei rym, yr hyn a a hi amryw ffydd.

DOSB. II.

af. Y mae ffydd y rhoddi i'r enaid olwg y Duw mawr. Hi a ddysg i'r enaid osod hollalluogrwydd ef yn erbyn mawredd bod, a'i anfeidroldeb ef yn erbyn lliosog- rwydd pechod; ac felly y diffydd y demtas- au. Yr achos pa ham y mae y pechadur ffygus yn ofni cyn lleied, a'r enaid ano-

beithiol yn ofni cymmaint, yw diffyg gwy- bodaeth o Dduw yn ei fawredd. Ac am hyn, i feddyginiaethu y ddau, y mae efe, yn y golygiad yma, yn cael ei gymng i'w hystyriaethau difrifol hwynt: *Salm* xlv. 10. "Peidiwch, a gwybyddwch mai myfi sy Dduw." Fel pe dywedasai, Gwybydd- wch, chwi rai drygionus, "mai myfi sydd Dduw," a all ddial arnoch pan welwyf yn dda; a darfyddwch â'm cyffroi â'ch pechod- au, er eich dinystr eich hunain. Drachefn, gwybyddwch, chwi eneidiau crynedig, "mai myfi sydd Dduw;" ac am hyn yn alluog i faddeu y pechodau mwyaf; a darfyddwch â'm dianrhydeddu trwy eich meddyliau cul- ion am danaf. Yn awr, ffydd yn unig a ddengys Dduw fel hyn yn Dduw. Y mae dau beth yn angenrheidiol tuag at iawn feddwl am Dduw.

(1af.) Rhaid i ni addef anfeidroldeb ei holl briodoliaethau; hyn yw, meddwl am dano, nid yn unig fel un doeth (dichon hyn fod yn enw dyn), ond anfeidrol ddoeth—nid un gallnog, ond hollalluog, &c.

(2il.) Yr anfeidroldeb yma, yr hwn yrydym yn ei gyfrif i Dduw, y mae yn rhaid i ni ei nacau i bawb ond efe, pwy neu pa beth byn- ag fyddont. Yn awr, ffydd yn unig a all sylweddu a sefydlu yr egwyddor yma yn y galon, fel y byddo i'r creadur ymddwyn yn addas iddi. Yn wir, prin y mae neb mor ddrygionus na ddywedant (os coeliwch hwynt) eu bod yn credu bod Duw yn an- feidrol yn ei wybodaeth, ac yn bresennol bob amser ger llaw iddynt, pa le bynag yr änt: yn anfeidrol mewn gallu, fel na raid iddo oud dywedyd y gair, a dyna eu distryw ar ben. Ond a fyddai iddynt yn yr olwg ar y rhai hyn fyned yn mlaen dan bechu mor hyf? Cystal y beiddient wthio eu penau i ffwrn o dân, a gwneuthur hyn yng ngwyneb y fath egwyddor. Felly ereill, y maent yn credu, meddant hwy, fod Duw yn anfeidrol mewn trugaredd. O! na fyddai iddynt ddwyn uffern o anobaith yn eu mynwesau, ac anfeidrol drugaredd yn eu llygaid? Na, y mae yn amlwg nad yw Duw yn ymddangos yn ei wir fawredd i'r cyfryw rai. Y mae anobaith yn ysbeilio Duw o'i anfeidroldeb, ac yn ei gyfrif i bechod. Trwy hwn y mae y creadur yn dywedyd fod ei bechod yn an- feidrol, ac nad yw Duw felly. Yn rhy debyg i'r Israeliaid anghrediniol hyn (*Salm* cvl. 7), "Ni chofiasant lliosogrwydd dy drugareddau; eithr gwrthryfelgar fuont wrth y môr, sef y Môr Coch." Ni allent ganfod digon yn Nuw i dori eu hangen yn y fath gyfyngder. Hwy welent liaws o Aipt- iaidd i'w lladd, a liaws o ddyfroedd i'w boddi; ond nis gallent weled liaws digonol o dru- gareddau i'w hachub. Dyma fel y mae yr enaid anobeithiol yn gweled liaws o bech- odau mawrion i'w ddamnio, ond nid an- feidroldeb o drugaredd yn y Duw mawr i'w

achub. Och! y mae rheswm yn isel o gorpholaeth, fel Zaccheus, ac nis gall ganfod trugaredd mewn tyrfa fawr o bechodau. Ffydd yn unig sydd yn gallu dringo yr addewid; a dyna y pryd y daw yr enaid i gael yr olwg gyntaf ar Iesu. Y mae ffydd yn cyfrif fod yn Nuw drugaredd megys hyd weddill (*Esa.* lv. 7); “Efe a arbed yn helaeth;” efe a amlhâ arbed, yn ol yr Hebraeg. Fe rydd fadd-euant i ateb i’n pechodau mwyaf anl. “Efe a ddarostwng ein hanwireddau; a thi a deffi eu holl bechodau i ddyfnderoedd y môr;” *Micah* vii. 19. Dyma iaith ffydd. Efe a arbed gyda thrugaredd a fyddo yn llifo drosodd. Bwriwch gareg i’r môr, a hi gaiff nid yn unig ei chuddio, ond ei chladdu lawer gwryhd o ddyfnder. Fe faddeu Duw dy bechodau mwyaf dithau, medd ffydd, fel y cuddia y môr gareg fechan a dafser iddo. Y mae ychydig o bechodau wedi eu tywallt ar led y gydwybod (fel ystenaïd o ddwfr wedi ei dywallt ar y ddaear) yn ymddangos yn llif mawr; ond y rhai mwyaf, wedi eu tywallt i fôr trugaredd Duw, a lyngeir yn llwyr o’r golwg. Dyma fel y dywed yr Ysgrythyr; “Yn yr amser hwnw y ceisir anwiredd Israel, ac ni bydd; a phechodau Iudah, ond nis ceir hwynt. A pha ham hyny? Canys myfi a faddeuaf:” dyna y rheswm: *Ier.* liii. 20.

DOSB. III.

Gwrth. Ond O! medd yr enaid crynedig, yr ystyriaeth o anfeidroldeb Duw, yn enwedig mewn dwy o’i briodoliaethau, sydd, o’r holl feddyliau terfysglyd, yn fy ngyru yn fwyaf cyflym i anobaith. Pan feddylwyf mor anfeidrol sanctaidd yw Duw, onid oes achos i mi, adyn ansantaidd, ofni am danaf fy hun? Pan edrychwyr drachefn arno, fel un cyfiawn, i.e., anfeidrol gyfiawn, pa fodd y gallaf feddwl y maddeu efe gamweddu o’r fath a wnaethum i yn erbyn ei ogoniant mawr?

At. Gan ffydd, a chanddi hi yn unig, y mae bysedd a allant ddattod y cwlwm hwn, a rhoddi i’r enaid ateb i foddlonrwydd yn yr achos. Ac yn gyntaf, Am y briodoledd hono, sancteiddrwydd Duw.

1af. Y mae gau ffydd ddaud beth i ateb. Un yw, Er fod anfeidrol sancteiddrwydd Duw yn peri iddo gasau pechod yn angerddol, etto y mae yr un briodoledd yn mawr ogwyddo ei galon i ddangos trugaredd i bechaduriaid. Pa beth yn y creadur sydd yn ei wneuthur yn galon galed ond pechod? “Tosturi y drygionus sy greulawn;” *Diar.* xii. 10. Os drygionus, yna creulawn: a pho mwyaf sanctaidd, mwyaf trugarog. Oddi yma y mae fod gweithredoedd o drugaredd a maddeuant yn cael eu tynu gyda’r fath anhawsder yn fynych oddi wrth dduwion, fel llaeth o fron ddolurus, am fod ynddynt weddillion o lygredd, yr hwn sydd yn peri gradd o galedwch calon ac anewyll-

ysgarwch i’r gwaith hwnw. “Na orchfygdi gan ddrygioni, eithr gorchfyga di ddrygioni trwy ddaioni,” medd yr apostol: *Rh.* xii. 21. Lle y mae yn rhoddi ar ddeall i mai gwaith anhawdd yw, yr hwn nis gel ei wneuthur nes y caiff y Cristion fuddoliaeth ar ei galon ei hun, lle y mae anwyau gwrthwynebol a roddant eu grym yn byn y fath weithred. Och! fynyched clywn y fath iaith a hon gan ddygnion gwol? Y mae fy amynedd wedi darfod; gallaf ddiodeff yn hwy na maddeu rhagor. Ond Duw, yr hwn sy burdeb i ddim sorod, yn sancteiddrwydd heb y crymysgiad lleiaf o bechod—nid oes ynddo ddim i chwervi ei galon i anhrgurar rwydd: “Os chwyehwi gan hyny, a di yn ddrwg, a fedrweh roddi rhoddion da plant; pa faint mwy y rhydd eich Tad hwn sydd yn y nefoedd bethau da i’r saw ofynant iddo?” *Mat.* vii. 11. Amcan C yw eu cynnorthwyo at amgyffredion helaeth ach am drugarogrwydd calon Duw; i’r ben hyny y mae yn eu cyfeirio at ei sancteiddrwydd, fel yr hyn a amlyga y mater hwnt i ddadl. Fel pe dywedasai, A ell chi berswadio eich calonau (sy mewn hwyl gan anwydau pechadurus) i fod dynwr wrth eich plant? ac onid ydyw llawer haws meddwl y bydd y Duw sydd sancteiddrwydd pur yn dynwr wrth ei aduriaid truaïn, a fyddo wrth ei draed ymbil am drugaredd?

2il. Gall ffydd fynegi i’r enaid nad yn sancteiddrwydd Duw yn attalfa i’w drugaredd faddeuol ef, gan fod y briodoledd hono ei rwymo i fod yn ffyddlawn yn ei addewidion; ac ni wn am un fron lawr o gysur i enaid truan crynedig na hon. fyddo enaid amnibeus yn darllen yr amlygion o addewidion gwerthfawr sy wedi eu rhed bechaduriaid dychweledig, beth yw yr awgrym chymmerai gysur ynddynt? Yn ddadl am fod gwirionedd a ffyddlondeb Duw cyflawni hwynt etto mewn peth dadl yw ffynwys. Yn awr, at benderfyn y cwestiyn, a pheri i’r pechadur dderbyn yr addewid fel gair gwir a sier, y ddadl gryfaf a ffydd yw hono a gymmerir oddi wrth sancteiddrwydd Duw yr hwn a roddodd yr addewid. Y mae yn rhaid, medd ffydd, yr addewid yn wirionedd, o herwydd mae Duw sanctaidd sy’n ei gwneuthur hi. Am hyny y mae Duw, i gael mwy o gwirionedd ei addewid yn meddyliau ei bechodwyr yn fynych yn gosod y briodoledd yma blaen: “Myfi a’th gynnorthwyaf, medd Arglwydd, a’th waredydd Sanct Israel.” *Esa.* xli. 14. Y mae y gair sy’n yr Hebraeg yn drugareddau, yn y *Septuagint* (cyfiad y Deg a Thraigain), yn fynych yn “benedigedig;” gwel *Esa.* lv. 3. Yn y mae trugareddau Duw wedi eu sylfaenu mewn sancteiddrwydd, ac am hyny yn

reddau sicr. Y mae yr achos o anffydd-
nedeb dyn yn ei addewidion yn tarddu oddi
rth ryw ansancteiddrwydd yn' ei galon.
o mwyaf sanctaidd a fydd dyn, mwyaf
i'rwir y disgwylwn ei gael. Dyn da
(hedwn) fe fydd gystal a'i air; yn sicr fe
dd Duw da felly. Pa mor fynych y new-
iodd Laban gyflog Jacob ar ol gwneuthur
dewid? ond cyfammod Duw âg ef a gad-
yd yn ddidor, er na bu Jacob mor fydd-
wn yn ei ran ef ag y dylasai. A pha ham?
id am fod iddo a wnelai â Duw sanctaidd
y nail, ond â dyn pechadurus yn y llall,
wydau yr hwn oedd yn peri iddo newid ei
ldwl, a'i wynebpryd hefyd tuag ato, megys
gwelwn y cymmylan a'r gwynt yn newid
ffurafan ac ansawdd y tymmorau.

Deuwn yn awr at yr ail briodoledd sydd
brawychu yr enaid temtiedig, ac yn ym-
langos mor anghyttunol â maddeuol waith
ugaredd Duw, a hono yw ei gyfiawnder;
y mae hon yn fynych yn achlysur o syn-
d, yn hytrach nag o galondid i'r pechadur
ffrôedig, yn enwedig pan fyddo meddyliau
frifol am dani yn meddiannu y galon.
a wir, y mae yr ystyriaeth noeth o'r bri-
oledd yma yn wahanol oddi wrth y lleill,
lwys fyfyrdod am dani, heb esboniad yr
engyl, yn sicr o frawychu a digaloni un-
yw ddy, i.e., o enny'n tân yn ei fynwes.
herwydd y creadur, heb ddirnad fod un
rdd gan Dduw i ddial llid ei gyfiawnder
d trwy dragwyddol ddamnedigaeth y
chadur, nis gall, heb eithaf dychryn,
ldwl am y briodoledd hono sydd yn dwyn
y feddyliau y fath ddisgwyriad ofnadwy
a farnedigaeth. Heman, er ei fod yn ddy
wio, etto synodd arno wrth fyfyrion ar y
styn prudd hwn (*Salm* lxxxviii. 15):
Dygais dy ofn, ac yr ydwyf yn petruso."
id gall ffydd elwa yma hefyd; a galluogi
enaid i rodio yn y briodoledd danlyd
a a'i gysuron heb eu deifio, fel y tri llange
y ffwrn danlyd (*Dan.* iii), tra y mae
ghredinwyr yn cael eu hysu, i.e., a'u llyngeu
yny i anobaith, pan ddelont ond yn agos
y genau. Y mae ystyriaeth driphlyg gan-
dd at gynnorthwyo yr enaid pan fyddo
sydd y briodoledd yma yn dal gafael yn-
o.

(1af.) Fe ddengys ffydd (a hyny ar y
stiolaeth gadarnaf) y gall Duw faddeu i'r
chadur mwyaf, os yw yn edifeiriol a
rediniol, heb wneuthur y cam lleiaf â'i
fiawnder.

(2il.) Fe ä ffydd ym mhellach, ac a
engys fod Duw wrth faddeu i bechadur
rediniol, nid yn unig yn amddiffyn ei gyf-
wnder, ond yn dyrchafu ei anrhydedd.

(3ydd.) Fod Duw nid yn unig yn am-
diffyn ac yn dyrchafu ei gyfiawnder, wrth
ldau i enaid crediniol; ond (fel y mae
thau yn awr yn sefyll) nad oes ganddo
ffordd arall i anrhydeddu ei gyfiawnder

der ond trwy faddeu i'r cyfryw un ei bech-
odau, er cymmaint fyddont. Y tri pheth
hyn, wedi eu hiawn gymmhwyso, a wna't
y briodoledd yma mor garuaidd, hawddgar,
a chysurus i feddyliau credadyn ag yw tru-
garedd ei hunan.

(1.) Am y cyntaf, fe ddengys ffydd ar y
dystiolaeth gadarnaf, y dichon Duw faddeu ei
bechodau, er anferthed fyddont, heb wneud
cam â'i gyfiawnder. Nid hwn yw yr amser i
ymddaddeu ar y gofyniad hwnw, a ddichon
Duw fod yn uniawn a chyfiawn wrth faddeu
i bechaduriaid? Y mae hyn, medd ffydd,
wedi cael ei drin a'i benderfynu er's talm
gan Dduw ei hun, yng nghyngor y nef,
cyn y gallai llais na meddwl darddu o'i
galon ef er daioni i bechaduriaid. Y mae
Duw yn mynegi cymmaint a hyn yn yr
addewid: *Hos.* ii. 19; "Mi a'th ddyweddiad
â mi fy hun yn dragwydd; i.e., dyweddiad
di â mi fy hun mewn cyfiawnder ac mewn
barn." Pwy yw hon y mae Duw yn meddwl
ei phriodi? Un ag oedd wedi chwareu y
butain, fel yr ymddengys yn y rhan flaen-
orol o'r bennod. Pa beth y mae yn feddwl
wrth ei dyweddiad hi? Dim llai na maddeu
ei phechod, a'i derbyn i freichiau ei gariad
a'i neillduol hoffder. Ond pa fodd y dichon
Duw cyfiawn gymmeryd i'w fynwes un sydd
wedi bod yn butain mor ffaidd? dyweddiad
pobl mor anffyddlaw? maddeu y fath bech-
odau gwaeddfawr? Pa fodd? craffwech, fe'i
gwna "mewn cyfiawnder ac mewn barn."
Fel pe dywedasai Duw, "na flinwech eich
meddyliau er rhyddhau fy nghyfiawnder
i yn y gorchwyl; mi a wn beth wyf yn
ei wneuthur; mi a'i pwysais yn dda. Nid
yw yn debyg i'r priodasau byrbwyll a
ffwdanir i fyny mewn diwrnod, i edifarhau
am danynt dranoeth; ond tarddiad o gyngor
fy ewyllys sanctaidd ydyw gwneuthur
felly. Yn awr, pan ddelo Satan â'r wrth-
ddadl yma yn ei safn yn erbyn y credadyn—
Pa beth, y fath adyn a thi' gael ffarf gyda
Duw? Gall ffydd ateb yn dra hwylus, i.e.,
Satan, fe ddichon Duw fod mor gyfiawn
wrth faddeu i mi, ag wrth dy ddamnio
dithau. Y mae efe yn dywedyd wrthyf
mai mewn barn a chyfiawnder y mae y
peth; gan hyny, gadawaf i ti ddaddeu y
mater yma â Duw, yr hwn sydd abl i gyfi-
awnhau ei weithred ei hun. Yn awr, er y
gallai hyn, yn dalp fel yma, yru Satan yn
ol, etto y mae gan ffydd dystiolaeth fwy
enwedigol i'w dwyn, er amddiffyn uniondeb
a chyfiawnder Duw yn y weithred hon o
faddeu. Ac y mae hono wedi ei sylfaenu
ar y boddlonrwydd llawn a roddodd Crist i
Dduw, am holl gamweddu y credadyn i'w
erbyn. Yn wir, gorchwyl penaf Crist oedd
dwyn cyfiawnder a thrugaredd i ymgusanu;
fel na byddai un briodoledd anghyttun yn
Nuw wrth i'r bwriad hwn fyned yn mlaen;
ond y byddai i drugaredd faddeuol gael ei

rhoddi mewn grym heb un llais gwrthwynebus. Ac i'r diben hwnw y mae Crist wedi rhoddi iawn trwy aberth, fel y caffai sail i ddadleu achos y pechadur trwy erfyniad. Y mae yn talu, ac yna yn gweddio am yr hyn y talodd am dano, gan roddi ei erfyniad ym mhlaid pechaduriaid wedi ei ysgrifenu â'i waed ei hun, fel na wrthod cyfiawnder ei ddarllen neu ei ganiatan. Nid ynddaileuaf fi pa un a allasai Duw, trwy awdardodol drugaredd (heb un iawn) beri i faddnant ffyddio allan, ond trwy y ffordd hon o iawn, sier wyf y gall cyfiawnder Duw gael ei amddiffyn yng nghydwyllybod y pechadur mwyaf ar y ddaear. Ie, nid yw Satan ei hun ond dadleuwr llwfr pan gyfodo ffydd y ddadl yma i'w erbyn; clawdd ydyw na fedr ddringo drosto. Yn wir fe ddarparodd Duw iachawdwriaeth yn y drefn yma, fel y gallen ni weiniaid fod yn abl i'w gyfiawnhau ef, yn ei waith ef yn ein cyfiawnhau ni; a hyny yng ngwyneb y cythraul mwyaf maleisus yn uffern. Darllenwch y lle anghymharol hwnw, sydd â digon o driagl ynddo i iachau holl gydwyllybodau areholledig y byd, os bydd ond ffydd i'w ddiffyn i mewn; ac i ddiffodd am byth dan y bicell, sydd â chyfiawnder Duw yn flaen iddi: *Rhuf.* iii. 24, 25, 26; "Wedi eu cyfiawnhau yn rhad trwy ei ras ef, trwy y pryedigaeth sydd yng Nghrist Iesu; yr hwn a osododd Duw yn iawn, trwy ffydd yn ei waed ef, i ddangos ei gyfiawnder ef, trwy faddenant y pechodau a wnaethid o'r blaen, trwy ddiodeffgarwch Duw; i ddangos ei gyfiawnder ef y pryd hwn; fel y byddai efe yn gyfiawn, ac yn cyfiawnhau y neb sydd o ffydd Iesu." O! y fath waith a wna ffydd o'r Ysgrifthyry yma! Y mae yr enaid a gastellir yn y mariau hyn yn anorchfygol. Yn gyntaf, craffwech, y mae Crist yn cael ei alw yn "iawn"; neu os mynwech, yn "lle yr heddychiad"—gair sy'n cyfeirio at y drugareddfa, lle yr oedd Duw yn addaw cyfarfod ei bobl, fel y gallai lesaru wrthynt, heb i arswyd o'i fawrhydi syrthio arnynt; *Exod.* xxv. Yn awr chwi a wyddoch fod y drugareddfa wedi ei gosod ar yr arch, i fod yn orchudd iddi, am mai ynddi hi yr oedd cyfraith sanctaidd Duw yn cael ei chadw, oddi wrth soniad yr hon y mae holl ofnau enaid enog yn codi. Am hyny, y mae yn beth i sylwi arno, fod eu mesurau yn ateb i'w gilydd; yr oedd y drugareddfa i fod yn llawn cymmaint o hyd a lled ag oedd yr arch, fel na byddai dim o'r arch heb ei chysgodi ganddi; cymmharwch *adn.* 10 ag *adn.* 17. Dyma fel y mae Crist, y gwir le o heddychiad, yn cuddio yr holl gyfraith, yr hon oni buasai hyny, a ddygai ei chyhuddiad yn erbyn y credadyn; ond yn awr, nid oes un bygythiad a ddichon ei ddal tra bydd y gysgodfa yma gan ffydd, i'w gosod rhwng yr enaid a digofaint Duw. Nid oes gan

gyfiawnder yn awr un nôd i annelu ato; y yw yn gweled y pechadur am fod Crist ei guddio. Nid dyma y dyn (medd digofaint sydd i mi ei daraw; y gwelwch fel y mae ffôl at Crist, ac yn ymgyddio yn ei lae; iant; ac felly, wedi cael allan o'm terfyn i, am fod yno le breiniol na feiddiaf ddal dyn a fyddo ynddo. Y mae yn arferol mebrwydr, chwi wyddoch, i wisgo ysnod neu ryw beth o'r fath, i wybod gwahaniaid rhwng cyfeillion a gelysion. Y taliad wnaeth Crist, wedi ei wisgo trwy ffydd, yr arwydd sydd yn gwahanu cyfeillion Ddoldi wrth ei elwynion. Darfu i'r edeu go yn ffenestr Rahab gadw y cleddyf diuysiol allan o'i thŷ; a gwaed Crist, yn cael ddallen mewn ffydd, a geidw yr enaid rhwng cael niwed oddi ar law cyfiawnder dwyfo

(2.) Craffwech, o ba law y cafodd Crist ordeiniad; "yr hwn a osododd Duw iawn, trwy ffydd yn ei waed ef." Crist, a welwn, yw ordiuhad fawr y nef; lhwrseliodd y Tad; a hwn a neillidwyd o wrth bawb ereill, angyion a dynion, ac gyhoeddwyd yn nu dewisedig gan Dduw wneuthur cyumod dros bechaduriaid (fel yr oedd oeu yn cael ei gymmeryd yn y praf a'i ddidoli at y Pasa). Gan hyny, pan fydd Satan yn byddino pechodau y credadyn i'w erbyn, ac yn gosod eu maintoli o flaen wyneb; yna y mae ffydd yn diange dnodded y castell, ac i holltu y graig yn Yn sier, medd ffydd, y mae fy iachawd yn anfeidrol fwy na'm pechodau mwy Mi a gyhuddwn ddoethineb dewisiad Dupe meddylwri yn angen. Yr oedd Duw yr hwn a wyddai am y baich trwm oeganddo i'w osod ar ei ysgwyddau, yn gyllysbys o'i rym i'w ddwyn. Yr hwn fynai aberth a phloeth-offrw, o herwy eu hannigonolrwydd, ni buasai yn galw yn yma, oni buasai ei fod yn holl ddigon i'r gwaith. Yn wir, yma y mae pwys holl adeilad yn gorwedd. Fe ddichon ffywan achub, ond nid iachawdwr gwan. mae gan ffydd Crist i ddadlen drosti; o ni fedd Crist neb i ddadleu drosto ef. mae ffydd yn gosod ei phwys ar fraich Crist ond fe safodd Crist ar ei rym ei hun; a p soddasai dan faich ein pechodau, buasai hwn i gyrrhaedd un creadur yn y nef n ddaear i'w godi i fyny.

(3.) Craffwech ar y rheswm pa ham y wissodd Duw y ffordd hon i'w faddenuol ffyddio allan; a hyny yw, "i ddangos gyfiawnder ef, trwy faddenant y pechodau Sylwch, nid i ddangos ei drugaredd ef mae hono yn amlwg i bob llygad. Fe goepawb fod un maddeugar yn drugarog; o pa fodd y byddai Duw yn gyfiawn w fadden i bechaduriaid, sydd yn gorwedd ddyfnach o amgyffrediaidau y creadur; am hyny, y mae yn cael ei ail adrodd, *adn.* 26. "I ddangos ei gyfiawnder ef y p

wn; fel y byddai efe yn gyfiawn, ac yn
fiawnhau y neb sydd o ffydd Iesu." Fel
dywedasai Duw, mi a wn yr achos o'i
d yn ymddangos mor anghredadwy i'ch
eddylliau chwi, bechaduriaid tlodion, y
dd i mi faddeu eich holl anwiredau, sydd
i fawrion ac aml: meddwl yr ydych, am
mod i yn Dduw cyfiawn, y damniwn i fil
fydoedd o bechaduriaid yn hytrach na di-
o fy nghyfiawnder, a dwyn fy enw dan yr
mheuaeth lleiaf o anghyfiawnder; a gwir
wn yw y meddwl hwnw. Yn wir, mi a'u
nniwn drosodd a throsodd drachefn yn
trach nag y dianrhydeddwn fy nghyfiaw-
nr, yr hwn yw fy hunan. Ond yr wyf yn
ngos, ie, drachefn yr wyf yn ei ddangos,
yn gorchyniyn i chwi, a'r pechaduriaid
wyaf ar y ddaear, dan boen damnedigaeth,
gredu, y gallaf fi fod yn gyfiawn, ac etto
Gyfiawnhawr y pechaduriaid a gredant
yr Iesu. O! pa fath hyder a ddichon y
cedadyn gymmydd wrth y newydd yma!
bygnw fy mod yn gwled yr enaid, ag
ld megys y muniyd arall yn nychu gan
obaith, ac yn cyfrif ei goebren yn uffern,
yn rhydd eisoes yn mysg y meirw, yn
r yn bywiogi wrth y newyddion hyn; fel
cob pan glywodd fod Ioseph yn fyw. Pa
th? a yw cyfiawnder wedi dyfod o'm
chr? vr unig elyn oedd arnaf ei ofn, a'r
fodoledd yng nghalon Duw yr oedd fy
ddylliau yn ffoi rhagddi? Yna bydd
surus fy enaid; pwy a ddamnia, os yw
wn yn cyfiawnhau? A pha fodd y gall
iw ei hun fod i'th erbyn, pan y mae hyd
oed ei gyfiawnder yn dy ryddhau.

DOSE. v.

Gurth. Ond ni rydd Satan yr enaid i
ny ar hyn. A wyt ti, creadur truan,
dd efe, yn credu y fath dduwinyddiaeth
ion? Ai cyfiawn yw i Dduw faddeu i ti,
herwydd yr iawn a wnaeth un arall? Un
n yn gwneuthur y llofruddiaeth; ac un
ll, sydd yn ddieuog, yn cael ei grogi o'i
wydd! a elwi di hyn yn gyfiawn? Y
e y gyfraith yn gofyn i'r person a becho
el ei draddodi i farn. Nid oes dim son
ganiatau meichiau yn y cyfammod; ond
n y dydd y bwyta i di, gan farw y byddi
w;" *Gen. ii. 17.*

It. Y mae ffydd yn dysgu i'r enaid ym-
dloni wrth yr hysbysiad a rydd Duw
feddwl ei hun. Yn awr, er nad yw y
gythiad ar y cyntaf yn mynegu i ni ond
enw y pechadur yn unig, etto y mae
ld yn cael allan ymwared grasol yng
wyneb y bygythiad yma yng nghyfam-
d yr efengyl. Yno, er tragwyddol gvsnr
redadyn, y mae Duw yn addaw derbyn
ed. y pechadur oddi ar law Crist; ac am
ny yr ydym yn cael ddarfod ei ddal ef o'n
hos ni: *Esa. liii. 5*; "Efe a archollwyd
ein canweddau ni, efe a ddrylliwyd am
hanwiredau ni; cosbedigaeth ein hedd-

wch ni oedd arno ef; a thrwy ei gleisiau ef
yr iachawyd ni." Dyma waelod digon caled
i ffydd sefyll arno. A pha ham yr awn ni,
greaduriaid gwan ein deall, i annibrefnu
gwirioneddau yr efengyl, a dyrysus ein medd-
ylliau ein hunain, wrth geisio cyrhaedd
dyfnderoedd diwaelod cyfiawnder Duw â
llinyr byr ein rheswm? ac yntau yn methu
mesur y darn gwaelaf o waith Duw yn y
greadigaeth. Y mae ffydd yn canfod diafol
yn y sarph ddisglaer yma, rheswm; yr hwn,
o herwydd llyfnder ei dafod, y mae Satan
yn ei ddefnyddio ar fwriad drygionus, sef
i geisio dymchwelyd gwirioneddau, ac yn
enwedig y gwirionedd sylfaenol a melusaf
yma o'r efengyl; Iawn a thaliad Crist wyf
yn ei feddwl; ac am hyn, y mae ffydd yn
rhoddi ei thystiolaeth yn erbyn llys rheswm.
A pha awdurdod sydd ganddo i alw o flaen
ei fainge wael ddirgelion ein ffydd, y rhai
dynt oruwch naturiol, ac yn ganlynl o'i
wybyddiaeth ef? Ac O! nad ystyried hyn
yn yr oes falch bresennol gan y rhai sydd
yn myned i gyfraith, fel y gallaf ddywedyd,
â gwirioneddau penaf yr efengyl, o flaen y
barwnr paganaiad hwn, rheswm. Y maent
trwy hyn yn gwrthsefyll un diben mawr
o'r efengyl, sef aberthu ein rheswm trwyll
ar allor ffydd, fel y rhoddom anrhydedd
mwy arbenig i wirionedd Duw, trwy greu
dirgelion mawrion yr efengyl ar ei dystiol-
aeth noeth ef am danynt yu y gair. Y mae
rheswm, â'i rychwant bach, yn analluog i'w
hangyfrifed.

1. Dichon y credadyn gyfiawnhau Duw
yn ei waith yn derbyn y ddyled oddi ar law
Crist, o herwydd yr undeb agos sydd rhwng
Crist a'i bobl. Y mae yn gyfreithlawn dal
y gwr am ddyled ei wraig, am fod yr undeb
yma wedi ei wneuthur trwy fodd; ac fe ellir
barnu ddarfod iddo, neu y dylasai, ystyried
ei chlyfwr cyn ymrwymo â hi mewn perth-
ynas mor agos. Y mae yn gyfiawn hefyd
rhoddi cyfraith ar feichuwydd, am mai ei
weithred ei hun oedd myned dan y ddyled.
Yn sicr, yr oedd Crist o'i lawm fodd yn ym-
rwymo yn achos pechadur. Fe wyddai y
cylfwr alaethus yr oedd natur dyn ynddo;
ac yr oedd ganddo ryddid hollol i wneuthur
fel y mynai yn ei ddewisid; i adael dyn i
ddarfod am dano, neu roddi llaw gymnorth-
wyol i'w godi i fyny. Yr oedd ganddo
hefyd gyfiawn awdurdod, o'r fath na fedd
un creadur unig, ar ei fywyd ei hun. Felly,
gan mai ei gynygiad ei hun ydoedd (ar
alwad ei Dad) i brodi ein natur ni, er mwyn
myned dan ein dyled; a thywallt allan ei
werthfawr waed ei hun i farwolaeth, i'r di-
ben o'i thalu; pa fodd y beiddia dyn balch
gyluddo uniondeb Duw, a galw i gwestiwn
ei gyfiawnder yn y gorchwyl yma, am yr
hwn yr addawodd Duw iddo ei hun y dang-
osiad puraf o gariad a diolchgarwch ar ddwy-
law ei greaduriaid?

2. Y mae fydd, nid yn unig yn dwyn tystiolaeth i gyfiawnder Duw, y gall efe faddeu i'r pechadur tlawd crediniol, ac etto fod yn gyfiawn; ond y mae yn dangos y gall efe ddyrchafu ei gyfiawnder yn fwy trwy faddeu i'r cyfryw un na thrwy ddamnio y pechadur anedifeiriol. Ac yn sicr, nid oedd gan Dduw lai bwriad na hyn yn y cyfammod gras. Yr hwn nid ewyllysai farwolaeth pechadur, ond er mwyn amddiffyn ei gyfiawnder, diammheu na roddasai gydsyniad i farwolaeth ei unig Fab, ond er mwyn uwch dyrchafiad a phellach aurhydedd i'w gyfiawnder yng ngolwg ei creadur. Fe ddywed Crist ei ddyfod ef, nid yn unig fel y caem ni bechaduriaid fywyd, ond "fel y caem ef yn helaethach" (*Ioan x*); hyn yw, yn helaethach nag y buasem yn ei etifeddu oddi wrth ddiwiweidrydd Adda. Oni allwn ni am hyny ddywedyd fod Crist wedi marw, nid yn unig fel y caffai Duw ei ddyled, ond y caffai daliad helaethach gan Grist nag a allasai gael ar ddwylaw y creaduriaid? Ond yn fwy neillduol, y mae pedwar amgylchiad gogoneddus ar gyfiawnder Duw yn ymddangos yma, y rhai nid ydynt i'w cael yn y taliad a rydd y pechadur iddo trwy ei ddiodeffiadau personol ei hun.

1af. Os ystyriwn y person ar law yr hwn y mae dwyfol gyfiawnder yn derbyn boddlonrwydd. Pan y mae y pechadur yn cael ei ddamnio am ei bechod ei hun, nid yw efe ond creadur gwael sy'n cael ei gosi; ond pan y mae Crist yn dioddef, y mae y ddyled yn cael ei thalu gan law anrhydeddusach, a Duw yn ei derbyn gan un sy'n agos ato ei hun, fe, yn ogyfuch âg ef ei hun: "Deffro, gleddyf, yn erbyn fy Mugail, ac yn erbyn y gwr sydd gyfaill i mi, medd Arglwydd y lloedd;" *Zech. xiii. 7*. Pwy ni ddywed fod barnwr yn rhoddi tystiolaeth fwy hynod o'i gyfiawnder pan y mae yn condemnio ei Fab ei hun, na phan fyddo yn galw estron i gyfrif? Yma yn wir fe ddangosodd Duw ei gasineb eithaf i bechod a'i gariad puraf i gyfiawnder, gan nad "arbedodd ei briod Fab, ond a'i traddododd ef drosom ni oll."

2il. Os ystyriwn y modd y mae y ddyled yn cael ei thalu. Yn namedigaeth y pechadur, nid oes ond taliad gwael iawn i'w gael, ac o fesur ychydig, fel pe byddai rhywfaint o geiniogau yn awr ac yn y man; y mae yn talu o hyd, ond heb byth ddyfod i'r ffyrlling olaf; ac am hyny, rhaid iddo orwedd byth yn y carchar o eisieu talu. Ond ar ddwy-law Crist y mae Duw yn derbyn y ddyled oll mewn un swm, fel y gallodd efe yn dda ddywedyd, "Gorphenwyd;" *Ioan xix. 30*. Cymmaint a phe dywedasai, Ychydig fomentau etto, a bydd gwaith y prunedigaeth ar ben. Mae y swm yn awr yn fy llaw i dalu i Dduw ei holl ofyniad; a chyn gynted ag y byddwyf wedi gogwyddo fy

mhen, ac y byddo yr anadl allan o'm corff fe fydd y cwbl wedi ei orphen. Iê, y mae ganddo ei dystiolaeth o daliad yr holl sw oedd ddyledus i gyfiawnder Duw, am yr hyn y mae yn gorfoleddu (*Esa. l. 8*): "Ag yw yr hwn a'm cyfiawnhâ: pwy a ymrys â mi?" Iê, ym mhellach etto, y mae Crist nid yn unig wedi croesi yr hen ddyled, o trwy yr un gwaed wedi gwneuthur pweraid newydd i'w saint; fel y mae Duw, hwn oedd yn ofynwr, wedi dyfod yn awr ddyledwr i'w creadur, a hyny am ddim l na bywyd tragwyddol, yr hwn y talu Crist am dano ac y rhoddodd i bob credur yn hawl yn ostyngedig i'w ofyn gan Dduw yn ei enw ef: gwelwch y ddau ynghyd (*Luca x. 12-14*): "Eithr hwn, wedi offrymu aberth dros bechodau, yn dragwyddo a eibeddodd ar ddeuhawlaw Duw; o hyn allan disgwyl hyd oni osoder ei elynion yn drofaing i'w draed ef. Canys âg un offrymu perffeithiodd efe yn dragwyddol y rhai wedi eu sancteiddio." Y mae efe nid yn unig wedi talu dyled y crediniol, ond wedi perffeithio am byth; hyn yw, wedi gwneud parpariaeth mor sicr er eu perffeithiad megogoniant, ac er eu cadwraeth rhag eu uffern. Oddi wrth hyn y mae yn eu hynog (*adn. 22*) "i nesau mewn llawn hyspwydd." Peidiwn ag ofni na dderbyniwyd Dduw yr hyn y talodd Crist am dano.

3ydd. Pan ddamnio Duw bechadur, mae ei gyfiawnder yn wir yn ymddangos (nid oes gan yr adyn a gondemnrir gair cyfiawn i'w roddi yn erbyn ei Farnw ond nid yw trugaredd i'w gweled yn eist mor ogoneddus ar yr orsedd, pan ghyhoedd y ddeddf hon ar y pechadur. Ond y ddiodeffodd Crist, trugaredd a chyfiawnder ymgyfarfuant. Yn wir, nid yw cyfiawnder byth yn ddisgleiriach yn Nuw i'w ddyd, na'r pryd y mae mewn eysylltiad thrugaredd. Yn awr, yn marwolaeth Crist yr oeddnt yn cyd-ddisgleirio yn eu hagoniant, ac yn harddu y naill y llall. Yr oedd y gwyn a'r coch, y rhosyn a'r llawer wedi eu cydblethu mor rhyfeddol, fel y mae yn anhawdd dywedyd pa un sy'n dan gwyneb cyfiawnder yn fwyaf prydferth llygaid—llid Duw ar Grist yn ein lle ni ei drugaredd i ni er ei fwyn ef.

4ydd. Pan y mae Duw yn damnio pechadur y mae ei gyfiawnder yn cael ei ogoneddu ddiodeffol yn unig. Mae Duw yn mynlogoniant gan ddiastliaid ac eneidiau dannedig, ond nid ydynt o'u bodd yn talu ddyled. Y maent yn addef Duw yn gadau iawn am nas gallant lai, ac yn ei gasau yr un pryd ag y maent mewn rhyw ddull ei gyfiawnhau. Ond yn y boddlonrwyddoroddod Crist, y mae cyfiawnder yn cael ogoneddu yn weithredol, a hyny yn gynghan Grist, yr hwn ni lusgwyd i'w groes ddiodeffaint, fel y damnedigion i'w carol

u poenau; ond "a'i rhoddodd ei hun dros-
n ni, yn offwrn ac yn aberth i Dduw o
"ogol peraid" (*Eph.* v. 2), gan ddiodes-
nosom mor ewyllysgar ag erioed y pechas-
n ni i'w erbyn ef: hefyd, gan eneidiau
ediniol, y rhai yn awr a ganant fawl i gyf-
wnder a thrugaredd y Duw a'u prynodd,
a wnant beraidd sain dros byth yn y nef
yr un testyn. Yn awr, fel y mae diodd-
ladau gwirfoddol Crist yn rhagori ar boen-
a anewyllysgar y damuedigion, a llawen-
wl y saint yn y nef yn bereiddiach yng
ghlustiau Duw na chlyfaddefiadau anfoddog
rhai sydd yn uffern; o gymmaint a hyn y
ae cyfiawnder Duw yn cael ei ogoneddu yn
vy yn niodeffiadau Crist na'r eiddynt hwy.
I y fath hyder digyfelyb a all hyn roddi
ewn enaid o flaen gorsedd gras! Fe all y
fryw, wrth efsyn maddeuant er mwyn
rist (heb beryglu ei iachawdwriaeth) ddy-
edyd, Arglwydd, bydded i mi gael dy wg
lle dy wên, os bydd i'm damnedigaeth
goneddu dy gyfiawnder yn fwy, neu gym-
aint ag y gwnaeth marwolaeth Crist yn fy
e, ac y gwna y tragwyddol fawl a ddad-
inia fy nghalon ddiolchgar yn y nef
ogoniant dy holl briodoliaethau am fy
hub.

5ed. Y mae ffydd nid yn unig yn gweled
fiawnder yn cael ei le, a'i ddyrchafu yng
gwaith trugaredd faddeuol; ond hi a
lywed i'r enaid hefyd ag a'i gwna yn
la, na ddichon Duw fod yn gyfiawn, fel y
le pethau yn awr yn sefyll, oddi eithr iddo
ddeu pechodau yr enaid edifeiriol credin-
ler cymmaint fyddont. Y mae un rhan
wr o gyfiawnder yn sefyll mewn cyfiawn-
d ffyddlawn a chywir o addewidion. Dyn
fiawn (meddwn) yw hwnw a geidw ei air.
c a ddichon Duw fod yn Dduw cyfiawn
eb wneuthur hyn? Y mae y gair wedi
yned allan o'i enau y maddeu efe i'r cyf-
w. Ië, y mae yn foddllawn i gael ei gyf-
f yn gyfiawn neu anghyfiawn, genym ni,
n ol fel y gwna gyflwyniad o hono. Gwel-
ch fel y mae yn gwyستlo ei briodoledd hon
n bennodol ar yr achos (*Ioan* i. 9): "Os
faddefwn ein pechodau, ffyddlawn yw efe
chyfiawn, fel y maddeu i ni ein pechodau
e yn glanhao oddi wrth bob anghyfiawn-
er." Nid yw yn dywedyd trugarog, ond
fiawn yw: y briodoledd a ofnwn ni fwyaf
bydd ei llais i'n herbyn, y mae hono (fe
mai i ni wybod) yn rhwym am gyflwyniad
r addewid. Trugaredd yn Nuw oedd yn
eri rhoddi yr addewid: ond cyfiawnder
w cyflwyni yr hyn a addawodd trugaredd
Micah vii. 20): "Ti a gyflawni y gwirion-
ld i Iacob, y drugaredd hefyd i Abraham."
id oedd Duw yn rhwym i roddi addewid
Abraham a'i had: ond ar ol llefaru y gair
rtho ef, gwirionedd ydoedd i Iacob, yr
wn oedd etifedd y weithred a addawodd
w yn llaw ei dad.

PENNOD XX.

*Ail ateb ffydd i ddad! Satan a gymmer efe oddi
wrth saintioli pechod, er mwyn ymlid yr enaid i
anobaith, lle y mae ffydd yn gosod maintioli yr
addewidion gyferbyn a maintioli pechod.*

2. Y mae ffydd yn diffodd y demtasiwn
yma o anobaith o herwydd maint pechod,
trwy osod nawredd yr addewidion gyferbyn
a'i fawredd yntau. Ffydd yn unig a all gan-
fod Duw yn ei fawredd; ac am hyn, hi yn
unig a all ganfod yr addewidion yn eu mawr-
edd; o blegid fod gwerth addewidion yn
gyfatebol i werth yr hwn sy'n eu gwneuth-
ur. Dyma yr achos fod addewidion Duw yn
cael cyn lleied o effaith ar y galon anghred-
iniol i attal rhag pechod ac hefyd i gy-
suro dan ddychryn am bechod. Y mae yr
addewidion yn debyg i'r dillad a wisgwn, y
rhai, os bydd gwres yn y corph i'w cyn-
hesu, a roddant gynnhesurwydd i ninnau yn
ol; ond os na dderbyniant wres o'r corph,
ni roddant chwaith ddim iddo. Lle byddo
ffydd i roddi tywyniad i'r addewid, y mae
hithau yn gweini helaethrwydd o gysur a
heddwch; hi fydd fel diod gref yn cyn-
hesu mynwes y creadur â thufewnol lawen-
ydd; ond ar galon anghrediniol y mae yn
gorwedd yn oer ac mor ddieffaith ag ydyw
diod feddyginiaeth a dywallter i lawr
gwddf dyn marw. Nid yw yr addewidion
yn dwyn cysur ynddynt mewn sicr weith-
rediad, fel y tân yn dwyn gwres, ond mewn
effaith, fel y mae y tân yn y gareg dân, yr
hwn sydd yn gofyn peth traferth a medr
i'w daraw allan; pe amgen, ni byddai raid
ond myned atynt a chael eu gwres; meddwl
am danynt, a derbyn cysur yn ebrwydd.
Yn awr, nid oes dim ond ffydd a ddysg i ni
y ffordd i dynu allan felusder a rhinwedd
yr addewid, yr hyn a wna hi y tair ffordd
yma ym mysg llawer ereill.

DOSB. I.

1af. Y mae ffydd yn arwain yr enaid at
ffynnon yr addewidion, lle y gall sefyll
gyda'r fantais fwyaf i gymmeryd golwg ar
eu mawredd a'u gwerthfawrogrwydd. Yn
wir, ychydig a ddeallwn am bethau, nes ol-
rheiniom hwynt i'w cychwyniad, ac y gwel-
om yr achosion o honynt. Dyna y pryd y
gwybydd enaid fod ei bechodau yn fawr
pan y gwelo hwynt yn eu ffynnonell yn
tarddu oddi wrth natur wedi ei gwenwyno,
ac yn bwrw allan elyniaeth yn erbyn Duw.
Dyna y pryd y cryna y pechadur wrth y
bygythion sy'n rhuo fel taranau uwch ei
ben, ac yn barod i syrthio arno bob moment
mewn rhyw farn neu gilydd, sef pan y
gwelo o ba le y maent wedi eu danfon, pan
ddeallo eu bod yn tarddu oddi wrth ber-
ffaith gasineb Duw at bechod, a'r anfeidrol
wg sydd yn ennyn ynddo at y pechadur o'i
herwydd. Mewn gair, dyna y pryd y bydd
i'r enaid ofnus gyfrif cysur yr addewidion
yn werthfawr, sef pan y gwelo y ffynnon o

honynt, yr hon yw mynawes rhad drugaredd Daw. Yn wir, dyma wreiddiol achos yr holl addewidion. Y mae y cyfanmod ei hun, sy'n eu cynnwys i gyd, yn cael ei alw yn drugaredd, am mai firwyth trugaredd yw (*Luc* i. 27): "I gwblhau y drugaredd a'n taldau, ac i gofio ei sanctaidd gyfammod."

Yn awr, medd ffydd, os yw yr addewidion yn tarddu o'r môr yma o rad drugaredd Daw, yna y mae yn rhaid eu bod yn ddi-fesur, yn ddirifyn, ac yn ddiwasol fel hwnw; felly, fe fydd gwrthod yr addewid neu amnheu digonolrwydd y ddarpariaeth sydd ynddi, am fod dy bechodau yn fawr neu yn aml, yn tafu anfri ar y drugaredd hono yn mru yr hon y cafodd yr addewid ei hymddwyn; ac fe fydd i Dduw yn sicr roddi cwyn enllib i'rh erbyn am waradwyddo hon, ei hoff briodoldeb ef, yr hon y mae yn anhawsaf ganddo ef oddef absen ac anair iddi. Y mae Daw yn sicr bob amser yn cyfrif eich bod yn gwneud eich gwaethaf i'w erbyn, pan unwaith y barnoch ef yn anhrgarog neu yn brin o'i drugaredd. Pa fath bechod mawr yw hwn, fe ellir dirnad peth, wrth y meddyliau sy gan Dduw am y duedd a'r dymmer yma o ysbryd yn ei greadur. Y mae calon anhrgarog yn fath ffieidd-dra gan yr Arglwydd, nad oes nemawr beth cyffelyb iddi. Fe geir hyn yn gorwedd yng ngwaelod y cyhuaddi yn erbyn y cenhedloedd, fel y gwaddod a'r ammhuredig gwaethaf o'u holl bechodau. Yr oeddynt "yn anghynmodlawn, yn anhrgarogion;" *Rhuf.* i. 31. Yn awr, y mae yn rhaid bod y galon sy'n dyner o euw da Duw yn crynu ac yn ofni yn ddifawr rhag cyfrif i Dduw y peth sy mor fflaidd ganddo yn ei greadur. Cosp ofnadwy oedd hono a ddygodd Daw ar Iehorau, breinin Iudah, yr hwn a "darawodd efe yn ei ymysgaroedd â chlefyd anaefe. Ac ar ol dwy flynedd (o boenau) ei ymysgaroedd a aeth allan;" 2 *Cron.* xxi. 18, 19. A pha ham y daeth y gofid tost a blin hwn arno? yn ddiau, i beri iddo wybod am ei ddiffyg o ymysgaroedd tosturi at ei frodyr a'r tywysogion, y rhai a laddasid ganddo mewn creulondeb dirfawr. Ni feddai ymysgaroedd yn ei galon; ac am hyny ni chai ddim yn ei gorph chwraith. Yn awr, a feiddi di, medd ffydd, fannu fod diffyg ymysgaroedd ar Dduw, fel na ddengys efe drugaredd i ti, sy'n edifeiriol yn ei gofyn yn enw Crist, a thithau yn gweled y dystiolaeth y mae efe yn roddi o'i ddigder mawr at y rhai hyny a galedasant^u eu hymysgaroedd yn erbyn eu brodyr! Ie, neu eu gelynyon? O gochel hyn! Y mae cau dy ymysgaroedd dy hun rhag dy frawd mewn eisieu yn bechod mawr, ac yn rhoddi lle i amnheu a yw cariad Duw ynot: 1 *Ioan* iii. 17. Ond absenu calon dyner Duw (fel pe byddai ei dosturi ef yng nghauad yn erbyn enaid tlawd sy'n dymuno edifarhau

a dychwelyd), y mae hyn yn ffieidd-dra llawer mwy, ac yn ei roddi allan o ddadlle parheir ynddo, nad yw cariad Duw yn aroyno. Y mae yn amhossibl bod i gariad at Dduw dyuu y fath gamddarluniad Dduw ag yw hyn.

DOSB. II.

2il. Y mae ffydd yn craffu ar ddiben y addewidion, yr hyn sy'n rhoddi golwg bellach ar eu mawredd. Yn awr, y mae y gair yr hwn yw lluserm ffydd, yn egluro dibedeblyg o'r addewidion, yn enwedig o'r addewid o drugaredd faddeuol.

(Iaf.) Dyrchafiad a mawrhâd ar gyfoeth rhad ras, yr hwn a fynai Duw ei egluro y ei holl ogoniant (sef mor bell ag y mae y bossibl i lygad y creadur dreiddio iddo; herwydd y mae gogoniant Duw yn ei law ddisgleirdeb yn wrthddrych addas i'w lygaid ei hun, ac nid i neb arall). Gwelwch y diwgelwch yma o gyughor a bwriad yn cael agor yn dra metus, yn *Eph.* i. 6, 9, 11, 12 Swm yr adnodau a gyrhuedd i hyn:—Fon Duw wedi bwriadu ynddo ei hun roddi maddeuant ac achubiaeth er mwyn Crist i liaws o bechaduriaid colledig, yr hyn hefyd a wnaeth efe yn gyhoeddus yn addewidion yr efengyl. A diben y cwbl yw, fel y casg ai efe y rhai hyn ynghyd o'r diwedd yn nef. Y mae rhai o'r uifer eisoes yno, rhai ar y ddaear, a rhai etto heb eu geni; ond ffyn gael y cwbl yno ynghyd yn un côr gogoneddus, fel y llanwout y nefoedd â pheiaid sain eu caniadau gorfoleddus, maw mawl a diolchgarwch am ogoniant y drugaredd hono a faddeuodd iddynt ac a'u hachubodd. Yn awr, y mae ffydd (trwy graffu mae gogoniant ei drugaredd yw diben Duw y ei addewid) yn dwyn newyddion da i'r enaid crynedig; ac yn dangos iddo mai amhosibl yw i bechadur tawd edifeiriol gael ei wrthod, o herwydd mawredd ei bechodau tra y parhau Duw yn gywir i'w feddyliau ei hun, a'r bwriad oedd ganddo o'r dechreuad Dyrchafiad ei drugaredd, medd ffydd, sy gan Dduw yn ei olwg, pan y mae yn addaw maddeuol i bechaduriaid trauin. A pha un a i dyn chafa hi fwyaf, madden i bechaduriaid bychain, ai i rai mawrion? Llais pwy fydd yr uchaf yn y gân waredigol, dyoygiti ti? Yn sicr, llais yr hwn y maddeuwyd idd fwyaf; ac am hyny nis gall fod, nad ydy Duw yn dra pharod i faddeu i'r bechaduriaid mwyaf a fyddo yn wir edifeiriol. Physygyr, sy'n meddwl bod yn enwog, i ddentyn ymaith y rhai sydd arnynt fwyaf angen ei gyfarwyddyd a'i fedr; gan drin y unig ddoluriau ysgeifn a chyffredin. Iachaduriau mawrion yw yr hyn a swnia ymhell ac yn agos. Pan fo un a fyddo wedi ei roddi i fyny ganddo ei hun ac ereill fel un marw, yn cael ei dynu trwy fedr a gof y physygyr megys o safn angu, a'i adfer i'w iecnyd; y mae hyn yn ei gammawi wrth

rhai a glywant am dano, ac yn ennill iddo
 vy o air da nag a gaffai wrth drin â dolur-
 u cyffredin ysbaid blwyddyn. Dyma fel
 mae teyrnged fawr o glod yn cael ei thalu
 drysor Duw, gan y rhai y maddeuwyd idd-
 ant bechodau mawrion. Yr hwn y madd-
 eirwyd iddo bum can ceiniog, a gâr fwy
 a'r hwn y maddeuwyd iddo ddeg a deu-
 ain, yn ol barn Crist ei hun: *Luc vii. 43.*
 lle y bo fwyaf o gariad, y mae yn debyg,
 bydd mwyaf o fawl, gan eu bod yn tebygu
 w gilydd a'r naill yn toddi i'r llall. Bydd
 eisiau y fath rai a Manasseh, Magdalen, a
 aul i'w clywed, fel y gallwn dybied, yn
 wch nag ereill yn nghynghanedd y nef. Y
 w'rionedd yw, y mae mawredd pechod cyn-
 elled oddi wrth fod yn rhwystr ym medd-
 iau Duw i bechadur tlawd gael maddeu-
 iad, fel nad yw efe yn maddeu i neb (pa radd
 nag o bechaduriaid fyddont), oddi eithr
 i bod yn gweled ac yn addef fod eu pechod
 i fawr pan ddelont ger ei fron ar y gyf-
 w'n neges. Ac am hyny y mae yn defn-
 lldio y gyfraith i wneud fiordd trwy eu
 argyhoeddiadau a'i dychrynfeydd hi ar y
 'dwybod, i'w faddeuol drugaredd esgyn i
 sedd y galon gyda mwy o urddas ac an-
 ydedd. "Y ddeddf a ddaeth i mewn
 yny yw, fe'i cyhoeddwyd ar y cyntaf trwy
 Moses, ac ei pregethir etto) fel yr amlhaai y
 mawredd" (*Rhuf. v. 10*), sef yn y gydwyb-
 i, gan ddyfnach teimlad a gofid o'i her-
 ydd. A pha ham hyny? ond, "fel y
 'ddai i ras ragor amlhau, lle yr amlhaodd
 pechod." Yr ydym yn rhwym i luio ein
 eddyliau am y drugaredd sy'n maddeu ein
 chodau yn gyfatebol i'r meddyliau a
 ldo genym am y pechodau a wnaethom.
 es cyfrifwn y rhai hyn yn fychain, pa fodd
 gwelwn y llall yn fawr? Ac os byddwn
 a crynu wrth fawredd ein pechodau, yn
 er ni a orfoleddwn ac a fawr lawenychnw
 i rgoriaeth y drugaredd sy mor bell
 uch law eu maint a'u mawredd. Y dyn a
 feddai wrth uchder rhyw fynydd mawr, a
 feddai lawer mwy am ddyfuder y dyfrdd
 a lyngcent hwnw i fyuy ac a'i cuddient
 gwbl o'r golwg.

Ail ddiben yr addewid yw cysur y cred-
 yn. Fe ysgrifenyd y gair, yn enwedig
 rhan yma o hono, "fel trwy amynedd a
 ldanwch yr Ysgrhythrau y gallem gael
 baith;" *Rhuf. xv. 4*. Yr oedd Duw yn
 yllysgar i roddi i bechaduriaid tldion
 b sicrwydd a boddlonrwydd a allai fod
 i w'rionedd ei fwriad ac anghyfuwidiol-
 b ei gynghor, yr hwn a luniasai o'i dru-
 edd ei tragwyddoldeb, i'r diben o' achub
 holl rai a dderbynient Grist, a chynnyg-
 i ei efengyl. Ac am hyny y mae yn
 neud ei amcan yn gyhoeddus yn y gair,
 y mae yn agor ei galon ac yn dangos
 an fwriadau ei gariad tragwyddol ger
 on wyneb pechaduriaid, mewn nifer fawr

o addewidion gwerthfawr, sy'n rhedeg fel
 gwythienau trwy holl gorph y Beibl; a'r
 rhai hyny gyda chymmaint o seliau ac o
 gadarnhâd, fel y maent yn dra digonol i
 ddangos ei fawr ddoethineb ef, ac i ateb
 ammheuon dyfuaf y galon anghrediniol; a
 hyn i gyd i'r diben o ddistewi ysbryd ach-
 wyngar trueiniaid temtiedig, a gwneuthur
 eu bywyd yn fwy cysurus; y rhai, wrth gael
 eu herlid gan euogrywydd eu pechodau uchel
 o gri, a ffoant am eu bywyd at Grist Iesu.
 Ni a gawn hyn mewn geiriau amlwg yn
Heb. vi. 18; "Fel trwy ddau beth dianwad-
 al, yn y rhai yr oedd yn ammhosibl i Dduw
 fod yn gelwyddog, y gallem ni gael cysur
 cryf, y rhai a ffoisom i gymmeryd gafael yn
 y gobaith a osodwyd o'n blaen ni." Ac am
 mai mawredd a lliosogrwydd pechodau y
 creadur yw y maen melin trymaf a all Satan
 gael i'w rwymo am wddf y pechadur tuag
 at ei fodd i mewn anobaith, ac hefyd y
 gyllell a gymmer yr enaid temtiedig fyn-
 ychaf i fyuy i ladd ei fydd, am hyny y
 mae darbodaeth amlach a helaethach wedi
 ei wneuthur gan Dduw gyferbyn y peth.
 Gwelwch, ar yr achos yma, y manau hyn
 o'r gair (*Exod. xxxiv. 5*; *Ier. iii*; *Esa. i.*
18; *Esa. lv. 7, 8, 9, 21*; *Heb. vii. 25*; *1*
Ioan i. 9). Y rhai hyn, a'r cyffelyb fanau,
 yw yr amddiffynfeydd y cilia fydd iddynt
 pan fyddo yn curo yma ar yr enaid. O fy
 enaid, medd fydd, a gymmeri di gan gywil-
 ydd dy ddrysu trwy ddadl a dyuir yn unig
 oddi wrth fawredd dy bechodau, yr hon sy'n
 cael ei hatteb agos ymhob tudalen o'r Beibl?
 ac i wrthbrofi pa un y mae cymmaint rhan
 o hono wedi ei ysgrifenu? Y mae fydd, fel
 hyn, yn hwtio Satan ymaith gyda'r ddadl-
 yddiaeth y mae mor gadarn ynddi, fel y
 gyrent ryw resymwr cyfrwys a checrus allan
 o'r ysgolion, pan fyddai yn ceisio gwadu yn
 hyf a gwatwarus ryw egwyddor hysbys a
 addefir gan bawb a fyddo heb gollu ei syn-
 wryau. Ond na chamgymmeter fi yma: na
 ato Duw i mi fagu rhyfyg yn neb wrth
 feddyginiaethu anobaith. Y mae y ddau
 glefyd yma yn yr enaid yn beryglus a marw-
 ol; ac mor wrthwynebol, fel y maent yn de-
 byg i gylla oer ac iau boeth yn yr un dyn.
 Lle y byddo y rhai hyny, tra y mae y phys-
 ygwr yn meddwl cryflau natur yn y naill
 i beri gwres at dreuliad yr ymborth, y mae
 weithiau yn anhappus yn ennyn tân yn y
 llall a ddwg y bywyd ymaith. Fel hyny,
 tra yr ydym ninnau yn ceisio lloni ysbryd-
 oedd yr enaid methodig, a'i gryflau i dreulio
 ymborth yr addewid er ei gysur, yr ydym
 mewn perygl o faethu y gwres afiachus
 hwnw, hyder rhyfygus, yr hwn sydd dân a
 ddifa yn fuan yr holl ofal am foddio, a'r ofn
 rhag anfoddio Duw; ac yn ganlynol, holl
 dyfiad gwir fydd yn yr enaid. Y mae fydd
 a duwiol ofn yn debyg i'r gwres naturiol a'r
 lleithder gwreiddiol yn y corph, yr hwn nid

yw byth yn iach ond pan fyddo y ddau yn cael eu cadw: "Yr Arglwydd sy hoff ganddo y rhai a'i hofnant ef, sef y rhai a ddisgwyliant wrth ei drugaredd ef;" *Salm* cxlvii. 11. Gâd i mi, gan hyny, dy rybuddio di, Gristion, fel yr wyt yn disgwyl cael cymmhorth oddi wrth drugaredd Duw yn nydd cyfyngder, gochel addaw i ti dy hunan ei hachles hi, dan barhau mewn cyfeillgarwch â th chwantau. Mae mor anhawdd dwyn hyn i ben ag ydyw cymmudi goleuni â thywyllwch, a pheri i'r dydd gyd-drigo â'r nos. Yn wir, nid oes achos i'r enaid edifeiriol anghredu maddeuant o'i bechodau, yn unig am eu bod yn fawr, ond y mae achos crynu rhag ymhyfhau i bechu, am fod trugaredd Duw yn fawr. Er fod trugaredd yn fodd-lawn i fod yn noddfa i'r pechadur crynedig, i'w achlesu ef rhag y feldith am ei bechod, etto y mae yn ffaidd ganddi ledu ei hadenydd dros bechadur hyf, i'w guddio tra y mae yn dilyn ei chwant. Pa beth? pechu am fod addewidion o faddeuant, a'r addewidion yma wedi eu rhoddi gan drugaredd, sy gymmaint uwch law ein pechodau ag ydyw Duw uwch law y creadur? Yn ddiau, y mae hyn yn gwbl groes i'r amcan oedd gan drugaredd wrth eu gwneuthur hwynt, ac yn troi yr efengyl â'i hwyneb i waered. Fel pe byddai i'ch gwas dori i mewn i'ch seler win a meddwi arno, a chwithau yn meddwl ei gadw i'r rhai claf a'r methedig, a'i arfer ar achosion o'r fath hyn yn unig. O! gochelwch draflyngu fel hyn yn llestri y cysegr. I'r enaid athrist, nid i'r un sy'n chwarae â phechod, y mae y gwin hwn o gysur yn perthyn.

DOSB. III.

3ydd. Y mae ffydd yn gosod o flaen y Cristion gwmmwl o dystion, i ba rai y cyf-lawnwyd yr addewid, a'r rhai hyn yn gymmaint pechaduriaid ag yw efe ei hunan. Esamplau Ysgrhythol ydynt addewidion wedi eu gwirio. Y maent yn ysgrifenedig, fel y byddai i ffydd yn defnyddio mewn ffordd o galonddig, yn gystal a'r addewidion. Ni fuasai Duw byth yn gadael i feiau mawrion y saint sefyll yn Æibil i olwg y byd trwy yr holl oesoedd canlynol, oni buasai fod hyn o'r fath les a chymmhorth i eneidiau temtiedig, at faeddu y demtasiwn yma, yr hon sy'n gwneud y rhwyg mwyaf perlyglus yn eu heneidiau mor llydan weithiau, nes yw anobaith ei hun yn barod i ddyfod i mewn trwyddo. Y mae yr apostol Paul yn rhoddi y rheswm hwn yn bennodol pa ham y mae y fath esamplau o drugaredd faddeuol i bechaduriaid mawrion wedi eu coffau. Yn *Eph.* iii, y mae yn dangos yn gyntaf, Y fath greaduriaid bryntion ac afan oedd ef ei hun, a chredinwyr Ephesus, cyn eu bod yn gyfranogion o ras yr efengyl (*adn.* 3): "Ym mysg y rhai hefyd y bu ein hymarweddiad ni oll gynt, yn chwantau ein cuawd;" ac

yna y mae yn mawrhau cyfoeth trugaredd y Duw a'u hachubodd, ac a'u tynodd allan o'r cyflwr damuol truenus hwnw (*adn.* 4): "Eithr Duw, yr hwn sydd gyfoethog o drugaredd, o herwydd ei fawr gariad trwy yr hwn y carodd efe ni, a'm cydfywhaodd ni gyda Christ." A pha ham y mae yn rhaid i'r byd wybod i gyd? O! yr oedd gan Dduw, drwyddynt hwy, fwrriad o drugaredd i ereill hefyd (*adn.* 7): "Fel y gallai ddangos yn yr oesoedd a ddeuai, ragorol olud ei ras ef, trwy ei gymmwynasgarwch i ni yng Nghrist Iesu. Pa le bynag y delo yr efengyl, fe adroddir pa fath bechodau mawrion a faddeuwyd iddynt, fel y cauer safn anghrediniaeth hyd ddiwedd y byd; ac y byddai i'r saeth yma sy gan Satan mor fynych ar eiliny, fod yn ddiilaen ac yn ôdiniwedd. Ff orchymynodd Duw i Iosuah gymmeryd deuddeg o geryg o ganol yr Iorddonen, a'u gosod i fyny; a chraffwch ar y rheswn (*Ios.* iv. 6, 7): "Fel y byddo hyn yn arwyddion eich mysg chwi, pan ofyno eich meibion chwi yn ol hyn, gan ddywedyd, Beth y mae y ceryg hyn yn ei arwyddocau i chwi? Yn dydwedwch wrthynt, Dori ymaith ddyfroed yr Iorddonen o flaen arch cyfammod yr Arglwydd, pan oedd hi yn myned trwy y Iorddonen, dyfroedd yr Iorddonen a dorwy ymaith. Y mae y ceryg hyn yn goffadwriaeth i feibion Israel byth." Fel hyn trwy ei drugaredd faddeuol y cymmerodd Duw rai pechaduriaid mawr hynod allan ddyfnderoedd pechod, ie, megys o foluffer—rhai wedi eu llyngu i fyny gan bob math o fieidd-dra: a'r rhai hyn a osododd efe fyny yn ei air; fel pan fyddo rhyw eneidia temtiedig (wedi eu gorchuddio gan ofnau, blegid mawredd eu pechodau) yn gweled y hyn a wnaeth Duw i'r rhai hyn, y calonogi hwythau â'r fath esamplau. Y mae Duw wedi eu bwriadu yn goffadwriaeth am y hyn a wnaeth i ereill mewn amser gynt felly hefyd, yn arwydd o'r hyn a all ef wneuthur, ie, a wna efe etto hyd ddiwedd y byd, i'r pechaduriaid mwyaf a edifarhant a a gredant. Ni chaiff un math o bechoda sefyll o flaen trugaredd ei rasol gyfammod ef; ond pe byddent o faint a grym fel dyfiroedd yr Iorddonen ei hunan, fe'u torir ymaith oll ac fe'u maddeuir yn dragywydd iddynt. O! pwy all ddarllen am Manasse Magdal, a Saul, ie, ac am Adda (yr hwn a ddinystriodd ei hun a byd cyfau i'w garlyn), yn y cofrestr o bechaduriaid cadwedig, ac etto troi ei gefn ar yr addewid, gan ofnad oes ynddi ddigon o drugaredd i'w achuef? Y mae y rhai hyn fel ceryg ffin, ddangos y terfynau helaeth a osododd trugaredd iddi ei hun; ac mor bell yr â hi, i'r gymmeryd yn ei breichiau achubol y pechaduriaid mwyaf a fyddo heb ddfieintio ei hunain trwy barhaus anedifeirwch. Rhoddi iachus fyddai i ti, Gristion ammheus, fyne

amgylch y tir yma, a mynych edrych pa le mae y gareg bellaf wedi ei gosod yn dderm gan drugaredd faddeuol, dros yr hon id yw hi yn myned: edrych hefyd rhag i droi y tu mewn i'r gareg, i wneud cam â drugaredd Duw trwy dy anghrediniaeth, rhag i Satan beri blinder i tithau â'i gelyddau, yr hwn ni wna ddim pris o symud terfyn Duw (os gall ond chwanegu dy allod), er iddo gael melldith ei hunan am boen. Ond os, er hyn i gyd, meddwl yr yt etto ddarfod i ti bechu mewn gradd wy na neb o'r rhai y darlleni yn y Beibl dynt gael maddeuant (yr hyn a fyddai yn eith rhyfedd), etto y mae gan ffydd yn y gwelch yma un ffordd i gynnorthwyo dy end, sef trwy sefydlu dy olwg ar Grist. Efe, yr hwn oedd ddiabedod, a roddodd ei einioes hunan i lawr, i ennill a phwrcasu parhau i'r holl etholedigion, ac fe'i cafodd efyd: ni chaiff un o honynt, fel y delo eu o yn y byd i ben, fod heb y rhodd. Yn awr, oedd ffydd, gâd fod dy bechodau di yn fwy na rhai neb o'r saint, etto, a ydynt hwy gymaint a phechodau yr holl etholedigion yn nghyd? Yn sier, ni feiddi ddywedyd na meddwl hyny. Ac oni ddichon Crist gael addeuant i ti, yr hwn nid wyt ond un, ac yntau wedi ei gael i gynnifer o filiynau o'i hloedigion? Ie, pe byddai dy bechodau ymmain ag eiddo y rhai hyn i gyd, fe allai iuw eu maddeu mewn un pentwr yn gystal y mae mewn llawer o bentyrau. Crist yw yr Oen sy'n "tynu ymaith bechodau y byd;" *Ioan* i. 29. Gwelwch yma holl bechodau yr etholedig fydd wedi eu rhwymo i hyn yn un pwn, ac yntau yn eu dwyn ymaith yn hwylus i dir anghof. Yn awr, ddywed ffydd i ti, enaid tlawd, fod holl nwydd a haeddiant gwaed Crist, â'r hwn prynwyd y byd, yn cael ei gynnfyd i ti; ac caiff dy enaid di yn neillduol fyny yn gyfnog o hono. Nid yw Crist yn rhanu ei aed a'i bwrcas yn fân ranau, peth i hwn pheth i'r llall (yna ti ellit ddywedyd rhyweth) ond y mae yn rhoddi ei hunan oll i ffydd pob credadyn. "Y mae pob peth yn ddoch chi; a chwithau yn eiddo Crist." "Pa beth ni elli, enaid tlawd, ei gymmerd i fyny o'r addewid, yn enw ac ar draul fath Brynwr mawr?"

PENNOD XXI.

nyddid ateb ffydd i ddadl Satan, yn tueddu yr enaid i anobaith. Lle y mae ffydd yn gosod mawredd y pechod hwn o anobaith gyferbyn a mawredd y lleill oll.

3. I ddiffodd y bicell danllyd hon, wedi blaenlymu â mawredd pechod, a'i saethu an Satan, i yru yr enaid tlawd cystuddiol

i anobaith, y mae ffydd yn dysgu iddo osod mawredd yr un pechod hwn o anobaith, gyferbyn a mawredd ei holl bechodau ereill. Pa beth! medd ffydd, a fynai Satau dy berswadio, am i ti fod yn bechadur mor fawr ac aruthrol, na ddylit gredu na beiddio meddwl fod yn yr addewid newydd da i ti? O! fy enaid, dychwel dithau ei ddad yn ol arno ei hun; a dywed wrtho, fod y peth hwnw yn bennodol, trwy yr hwn y mynai efe dy luddias i gredu, yn llawer cryfach i'th attal rhag anobeithio; a hyny yw mawredd y pechod hwn uwch law dy rai ereill i gyd. Gâd fod ei gyhuaddid ef yn wirionedd, a'th fod y fath anghenfil mewn pechod ag y dywed efe dy fod (er nad oes i ti achos i gymmeryd ei air noeth ef ar y mater; ond os yw yn wir) a wyt ti yn meddwl gwellhau yr hyn a wnaethost, neu dy gyflwr, drwy anobeithio? Ai dyma ei garedigrwydd ef i ti? dy wneuthur, o fod yn bechadur, yn bechadur anobeithiol, fel efe ei hunan? Yn wir, dyma yr unig ffordd a all efe feddwl am dani, i'th wneuthur yn waeth nag wyt. A bod hyn yn wirionedd, fe all ffydd ei brofi drwy y pedair ystyriaeth yma, am y pechod gwaedlyd erchyll hwn; y rhai a ddangosant fod mwy o ddrygioni yn yr un pechod yma o anobaith nag mewn un arall; i'e, nag yn y cwbl ereill ynghyd.

DOSE. I.

Iaf. Y mae anobaith yn gwrthwynebu Duw yn y mwyaf o'i holl orchymynion. Y gorchymyn mwyaf yn yr holl Feibl, y mae yn ddiddad yw y gorchymyn i gredu. Pan ofynodd yr Iuddewon hyny i'n Harglwydd; "Pa beth a wnawn ni, fel y gweithredom weithredoedd Duw;" *Ioan* vi. 28; crafchw ar ei ateb, *adn.* 29; "Hyn yw gwaith Duw, credu o honoch yn yr hwn a anfonodd efe." Fel pe dywedasai, y ffordd fwyaf cryno a fedraf ddaugos i chi, yw fy nerbyn i i'ch calonau trwy ffydd; gwnewch hyn, a chiwi a wnewch y cwbl. Dyma y gwaith sydd yn cyfateb i'r cwbl; y mae eich holl weithredoedd, a chwithau hefyd, yn annerbiniol, nes y gwneir y gwaith yma, am yr hwn y cewch yr un diolch gan Dduw a phe medrech gadw yr holl gyfraith. Yn wir, y mae yn cael ei dderbyn yn lle hyny: "Eithr i'r neb nid yw yn gweithio, ond yn credu yn yr hwn sydd yn cyfiawnhau yr annuw- iol, ei ffydd ef a gyfrifir yn gyfiawnder;" *Rhuf.* iv. 5. Wrth y "neb nid yw yn gweithio," nid ydys yma yn meddwl y pechadur swrth a diog, na fyn weithio; na'r pechadur gwrthnysig sydd yn casau y gwaith y gosodai cyfraith Duw ef arno; ond y pechadur argyhoeddedig, sydd yn ceisio gweithio, ond nid yw mewn un modd yn abl i gyfiawni y gwaith a rydd y gyfraith fel cyfammod iddo. Am hyny y dywedir am dano mewn ystyr ddeddfol nad yw efe yn gweithio; o herwydd bod ei waith (fel y

gŵyr efe) heb ateb i ofynion y gyfraith, yr hon ni dderbyn ddim yn fyr o berflaith ufudd-dod; ffydd y dyn yma yng Nghrist a gyfrifir yn gyfiawnder; hyny yw, y mae Duw yn edrych arno felly, ac fe gaiff ei dderbyn gan y Barnwr, yn y dydd mawr, fel pe buasai heb roddi cam erioed allan o lwybr y gyfraith. Yn awr, os yw credu yn waith Duw uwch law pethau ereill, yna y mae anghredu yn waith diafol, ac yn waith y mae yn fwy awyddus i'w gael genyt na meddwi a phuteinio; ac anghrediniaeth yn ei radd waethaf yw anobaith. Y mae anghrediniaeth ymmysg pechodau fel y cornwyd ymmysg clefydau, yn fwyaf per-yglus; oud pan y mae yn codi i anobaith, y mae fel y cornwyd a'r nodau yn ymddangos, y rhai ydynt sier genhadon angeu. Anghrediniaeth, anobaith yn yr egiayn ydyw; ac anobaith, anghrediniaeth yw yn ei lawn dyfiad.

2il. Y mae gan anobaith ffordd ar ei ben ei hun i ddianrhydeddu Duw, uwch law pechodau ereill. Y mae pob pechod yn archolli y gyfraith, ac enw Duw megys trwy ystlys y gyfraith. Ond y mae yr archoll yna yn cael ei rwymo pan ddelo y pechadur eideiriol at Grist, ac i ymwasgu âg ef trwy ffydd. Y mae Duw yn cyfrif ei fod yn cael iawn hollol gan Grist, yr hwn y mae y pechadur yn ei dderbyn, fel nad yw ei gyfraith yn achwyn dim cam; a bod ei enw hefyd yn cael ei ryddhau oddi wrth yr anfi a fwriwyd arno drwy yr anwireddau gynt. Iê, y mae yn cyfrif bod ei enw yn ymddangos yn fwy gogoneddus o herwydd llewyrchiad un pelvd yr chwanege o'i ogoniant (ac nid y lleiaf) sef ei fadduol drugaredd; yr hwn ni buasai mor lysbys i'r creadur, oni b'iai ei fod yn cael ei anlygu ar yr achos hwn. Ond pa beth a ddywedech am y fath bechadur anferth, yr hwn, ar ol iddo archolli y gyfraith, nid yw foddllawn i'r archoll gael ei rwymo? Ar ol iddo fwrw anfi ar Dduw mewn modd adgas iawn, nid yw foddllawn i'r budreddi a dafloodd ar wyneb Duw gael ei sychu ymaith? Mi dybygwn fy mod yn gweled diglioneidd pawb o honoch, wrth ddarllen hyn, yn codi yn erbyn y fath adyn; a'ch bod yn gofyn fel Abasferus gynt i Esther: "Pwy yw hwnw? a pha le y mae efe, yr hwn a glywai ar ei galon wneuthur felly?" *Esth.* vii. 5. A fynech chiwy wybod? Yn ddiau y gwrthwynebw'r a'r gelyn yw yr anobaith drygionushwn. Yr enaid anobeithiol yw yr un na fyn i Grist roddi boddllonrwyd am y cam a wnaeth â Duw trwy ei bechodau. Beth pe byddai dyn yn archolli un arall yn eubdy, yn ei uwyd wyllt, ac wedi hyny yn nacau gadael i un meddyg ddyfod yn agos i iachau yr archoll a roddodd? Oni ddywedai pawb fod ei greulondeb diweddaff yn waeth na'r cyntaf? O! fy enaid, medd ffydd, ti wnaethost yn ddrwg,

do, yn ddrwg iawn, dori sanctaidd gyfreithiau Duw, a dianrhydeddu enw Arglwydd y nef a'r ddacar trwy hyny; gofidied dy galon am hyn. Ond ti a wnei yn llawer gwaeth wrth anobeithio am drugaredd. Trwy hyn yr wyt yn gwrthoddi Crist, ac yn ei gadw draw, rhag boddloni cyfiawnder y gyfraith a gafodd gam genyt, a symud y dianrhydedd a dafloodd dy bechodau ar ei enw mawr. Pa iaith ond hon sydd gan dy anobaith? Caed Duw ei uniondeb, a'i anrhydedd, fel y gallo, nid wyt ti am fod yn offeryn cynorthwyol yn y gwaith, trwy greda yng Nghrist, yn yr hwn y gall eu cael yn helaeth gyda chwanegeiad. O! pa waradwydd a fynai anobaith ddwyn er drugaredd Duw, ger bron Satan, ei elyn gwaethaf? Y mae megys yn curo ei ddwyllaw wrth hyn; gwel-ed holl ogoneddus briodoliaethau Duw yn cael yr un driniaeth, a'u diosg o'u hamrhydedd. Y mae hyn yn fwyd a diod ganddo. Nid oes dim peroriaeth well gan yr ysbryd mellidgedig hwnw, na chlywed yr enaid yn canu yr addewidion, fel clychau, yn y gwrthwyneb; heb wneud dim defnydd arall o lionynt, ond i'w gadarnhau yn ei boenydiol ddisgwyliad am ei ddannedigaeth ei hun; ac i ddywedyd wrtho, fod tân uffern wedi ei ennyn yn ei gdwrybod, yr hwn nid oes dim trugaredd yn Nuw, a wna, nac a ddichon ei ddiffodd i dragwyddoldeb. Megys y darfu i'r Iuddewon gwaedlyd a'r milwyr Rhufeinaidd arfer eu creulondeb ar agos i bob rhan o gorph Crist; gau goroni ei ben â drain, gwannu ei ystlys â gwaywffon, a gyru hoelion i'w draed a'i ddwyllaw; felly y mae y pechadur anobeithiol yn ymddwyn at holl enw Duw. Y mae efe, fel pe byddai, yn rhoddi coron o wawd ar ben ei ddoethineb ef, gan ei ddiystvri, a'i gyhuddo yn ynyf, fel pe na luniasid trefn iachawdwriaeth yn gymmlhws gan y Duw holl ddoeth. Y mae yn hoeliô dwyllaw ei hollalluog nerth ef, trwy feddwl fod ei bechodau o'r fath natur ag sydd yn ei roddi ef allau o gyrlaedd, a thu hwnt i allu Duw i'w achub. Y mae yn trywanu tyner ymysgaroedd ei drugaredd ef, tra y mae yn meddwl fod rhy fychau o honi iddo ef gael dim safar na maddenant yn y Duw sydd yn gyflawn o drugaredd, ie, yn drugaredd a chariad ei human. Mewn gair, y mae y dyn anobeithiol yn gwannu hyd yn oed ei galon a'i ewyllys ef, tra y mae yn ffurfio tybiau anwiw am dano, fel pe byddai yn anewyllysgar i drugariau, ac heb fod mor barod ag y dywed y gair ei fod i gyfrannu rhoddlion ei iachawdwriaeth i bechaduriaid truan. Nag e, y mae anobaith yn waradwydedd yn cam adrodd am dano wrth yr enaid, fel pe byddai yn Dduw cloff, ac heb draed (cariad wyf yn feddwl) i'w ddwyn i'r fath orclawyl ag yw maddeu pechod. Yn awr, pa beth yw swm hyn i gyd? (os geliwch, gau alaeth a syndod, sef,)

gyfrif, ac ystyried pwys yr amgylchiadau dd yn chwaneu at ysgelerder y drwg diffllyb hwn) yn sier nid yw ddim llai na'r nnyg duaf a ddichon y creadur wneud i lwyn bywyd Duw ei hun. O herwydd y ae anfeidroldeb doethineb Duw, ei allu, drugaredd, a'i holl briodoliaethau, yn fwy rthynol i'w natur a'i hanfod ef, nag yw vaeo y galon i fywyd dŷni marwol. A diff yr hwn a ollyngo waed calon dyn ei rnu, a'i roddi yn gyfiawn i ddioddef fel frudd, i.e, os gwna ond cynnyg y peth, yn wedig ar fremin neu dywysog? Ac oni aiff hwn yn llawer mwy ei farnu a'i spi, fel y gwaethaf o lofruddion, yr hwn ddd yn gwneuthur cynnyg (er fod ei fraich i ddragr yn rhy fyr) i ddwyn bywyd Duw, wy ddwyn oddi arno, yn ei feddyliau, anfidroldeb y priodoliaethau hyn, y rhai, fel gallaf ddywedyd, ydynt ei wr fywyd ef? n sier, ni wna Duw nac ymadael â goniant ei ew, na dioddef ei ddiannrhyddiad, ar law ei wael creadur; ond fe amryma ei holl briodoliaethau i ymddial ar adyn a wna y fath gynnyg. O! cryna n hyny rhag anobaith. Nid oes dim a na i'th wyneb gasglu parddu, ae a dry dy aid i wedd y damnedigion yn gynt na vn. Dan rym hwn, ti a bechi yn ol cyfflerwydd y rhai sydd yn uffern.

DOSB. III.

3ydd. Y mae anobaith yn cryfhau ac yn ffroi pob pechod arall yn yr enaid. Nid s neb yn ymladd mor ffyrnig a'r rhai nny sydd heb ddisgwyl cael eu harbed. wy a gyfrifant eu hunain yn ddyinion eirw; ac am hyny, a werthant eu bywyd mor ddrud ag y gallant. Samson wedi beothio diange o ddwyllaw y Philistiaid an fod ei lygaid wedi eu colli, ac yntau yn addas i ffoi)—pa beth y mae yn awr yn ei fyrio ond dinystr ei elynion, er trengu ei un yn y gorchwyl? Nid yw yn gofalu ag tynu y tŷ ar ei ben ei hun, ond iddo rthio ar y Philistiaid hefyd. Absalom, edi iddo trwy gynghor melldigedig Ahitobel, wneud ei hun fel y meddyliond mor gas i Dafydd nad oedd dim gobaith am ymmod, y mae yn tori allan mewn cynlaredd lliديو, ac yn ymgeisio am ddinystr frenhiuol dad â thân ac â chleddyf. Mor eulawn yw anobaith! y mae yn dysgu idio dangos dim parch lle nad yw yn sgwyl cael dim. Ond yn fwyaf amlwg y ae i'w weled yn y diafol ei hun; yr hwn ŵyr nad oes iddo ef ddim trugaredd; ac y ae yn pechu gyda chynddaredd cyfuwech r nef. A'r un yw efaith y pechod hwn ddyinion ag ar y diafol, yn ol y graddau i rym ynddynt: *Ier. xviii. 12*; "Hwy a lywedasant, nid oes obaith; ond ar ol ein chymmygion ein hunain yr awn." Ai ni alsoch chwi gardotyn ystyfnig erioed (ar curo ennyd wrth ddrws, a phenderfyau o

herwydd distawrwydd neu nacâd, nad oes dim iddo i'w gael) yn taraw i regi a difeuwi y rhai a fyddo yn byw yno! Y fath iaith front a hon y mae anobaith yn ei dysgu i'r pechadur i fytheirio yn erbyn Duw y nef-oedd. Os anobaith a ddaw i mewn, y mae yn amhossibl cadw cabledd allan. Gwedd-ia gan hyny, ac ymdrecha hefyd i gadw draw y bicell hon, rhag iddi yn fuan ennyd y tân uffernol yma o gabledd yn dy enaid. Gwrandewch, O! chwi eneidiau archolledig am bechod, sy'n treulio eich bywydau mewn ocheneidiau a dagrau am eich camweddau erchyll gynt! A fynech chwi eich gwelod etto yn ymladd mor ffyrnig ag erioed yn erbyn Duw? Os na fynech, gwyltwch rhag anobaith. Os unwaith y meddylti fod calon Duw wedi ei chaledu i'th erbyn, nid hir y bydd dy galon di yn caledu i'w erbyn yntau. Ac fe all hyn, wrth fyned heibio, weini cysur i rai eneidiau grasol yn eu terfysg; y rhai ni fedrant gael eu bod yn meddu ffydd; i.e, ydynt yn mynych gyfrif eu hunain o rifedi anobeithwyr. Gad i mi ofyn i ti sydd yn y cyflwr athrist hwn yr un peth yma; a fedri di gael fod dim cariad yn andiu yn dy enaid at Dduw, er dy fod heb wybod yn bresennol am ddim anadl cariad yn dyfod oddi wrtho ef attat ti; ac a wyt ti yn wagelog ac ofnus rhag pechu i'w erbyn, hyd yn oed ar yr un pryd ag yr wyt yn ymddangos i'th feddwl dy hun fel un diobaith am ei drugaredd ef? Os felly, bydd gysurus; fe all dy ffydd fod yn wan; ond yr wyt ti yn mhell o fod dan anobaith. Nid yw y rhai anobeithiol yn arfer cadw dim cariad i Dduw, na gofal am ei foddio. Diau fod rhyw radd o ffydd yn dy enaid i beri y cynnhyrfaadau hyn, er ei bod (fel y prif ddernyn mewn awrlais) allau o'r golwg ei hunan, tra y mae y grasau ereill a gynnhyrfa gaudi i'w gwelod.

DOSB. IV.

4ydd. Y mae mawredd y pechod hwn o anobaith yn ymddangos yn hyn; fod y pechod lleiaf, wedi ei drwytho yn y gwenwyn yma, yn anfaddeuol; ac heb hwn, y mae y mwyaf yn faddeuol. Y mae yn rhaid mai hwn yw y pechod atgasaf o'r cwbl, sef yr hwn sydd yn llwyr anaddasu y creadur i drugaredd. Ni chafodd Iudas ei ddamnio yn unig am ei fradwriaeth a'i lofruddiaeth; o herwydd fe gafodd ereill faddeuant oedd â'u dwyllaw yn ddwfn yn yr un weithred erchyll, a'u haclub trwy ffydd yn y gwaed a dywalltodd eu creulondeb. Ond chwyddo wnaeth y pechodau yma, i'r gradd mwyaf o ddrygioni ag sydd yn bossibl, o herwydd y pydredd o anobaith, a pharhaus ddiedifeir- wech, oedd yn llenwi ei galon resynol ef; a dyna oedd yr achos pa ham y bu efe farw mor druenus a diobaith; ac y mae yn awr yn anfeidrol fwy truenus wedi ei ddamnio o'i blegid.

EPHESIAID vi. 17.

“Cymmerwch hefyd helm yr iachawdwriaeth.”

Y MAE y geiriau hyn yn gosod o'n blaen ddarn arall o arfogaeth y Cristion; helm i guddio ei ben yn nydd y frwydr. Dyma y pummed darn yn ol trefn yr apostol. Ac y mae yn beth i sylwi arno, fod hwn, a'r rhan fwyaf o'r darnau yn yr arfdu yma, yn arfau amddiffynol, a'r cwbl i amddiffyn y Cristion rhag pechod, heb un i'w ddiogelu rhag dioddef.

Iaf. Arfau amddiffynol dynt, yn fwyaf. Yn wir nid oes ond un darn yn yr holl arfogaeth er niweidiad; sef, cleddyf. Fe allai roddi i ni hyn o amnaid, fod rhyfel ysbrydol y Cristion yn sefyll yn benaf mewn amddiffyniad; ac am hynny, yn gofyn arfau o'r fath yma yn fwyaf i'w ddwyn ym mlaen. Y mae Duw wedi gosod trysor gwerthfawr o ras i gadw yng nghalon pob sant; at hwn y mae llied mawr y diafol; ac i'w ysbeilio o hwn a'i ddedwyddwch i'w ganlyn, y mae yn codi rhyfel gwaedlyd i'w erbyn. Gan hynny, y mae y Cristion yn gorchfygu ei elyn, os bydd heb gael ei orchfygu ganddo. Y mae yn ennill y dydd pan yw heb gollu ei ras; am mai ei waith ef ydyw cadw ei eiddo ei hun, yn hytrach na chael eiddo ei elynion. Ac yn ddiaw, o ystyried hyn yn dda, mai ar yr amddiffyniad, yn benaf, y mae rhyfel y saint, fe fyddai o ddefnydd neillduol at gyfarwyddo y Cristion pa fodd i drin ei ymladdfeydd â Satan, ac â'i offerynau hefyd. Yn gyntaf, â Satan. Edrych, Gristion, ar i ti sefyll yn wastad mewn agwedd amddiffynol, a'th arfogaeth am danat, fel milwr ar y muriau, yn barod i amddiffyn castell dy enaid, y gosodwyd di gan Dduw i'w gadw; a saf yn wrol yn erbyn ymgyrchiadau Satan, pa bryd bynag y rhuthro arnat. Ond na chymmer dy ddenu allan o gylch dy le, a'th alwad, a gododd Duw o'th gwmpas. Paid â hyn, hyd yn oed dan yr esgus teg o sel, a gobaith am fuddugoliaeth fwy, wrth anturio i wersyll y gelynyon. Gad i Satan ddechreu yr ymladd, a dyfod, os myn, i dy dentio di: ond na ddos di, mewn gwag hyder, i'w dentio ef i'th dentio. Cyfiawn i hwnw gael ei faeddu sydd yn chwilio am berygl i redeg iddo. Hyn a ddygodd ei gwmp i Pedr yn llys yr archoffeiriad; fe'i gadawyd ef yn wan-galon i wadu ei feistr, fel y dysgai feddwl yn wael am dano ei hun byth wedi hynny. Yn ail, âg offerynau Satan. Fe allai eu bod yn dyddirmygu a'th waradwyddo. Cofia mai ar yr amddiffyniad yr wyt ti i sefyll. Na ddyro sen am sen, dirmyg am ddirmyg. Nid yw yr efengyl yn rhoddi dim cenad i ti ddefnyddio eu harfau hwy, a gwneuthur fel y gwnant hwythau: 1 *Pedr* iii. 8, 9; Byddwch yn “drugarogion, yn fwynaid; nid yn talu drwg am

ddrwg, neu sen am sen; eithr, yng ngwrth wyneb, yn bendithio.” Dyma i ti frwyn y dwyfroneg i'th amddiffyn rhag eu bwled hwy; y cysur o'th uniondeb a'th rodia duwiol, a'r hwn y gelli sychu ymaith y budr eddi a daflant hwy ar dy wyneb di; ond nid oes yma un arf i ymddial. Dyma daria at dy law, i ti ei chodi i fyny at ddiuffod e picellau tanllyd hwy; ond dim picellau eiriau chwerwon, i'w taflu yn ol arnynt. Y mae i ti esgid o dangnefedd, fel y gallec rodio yn ddiogel ar y camau a waunt hwy thi; ond nid esgid o falchder i sathru ar personau a fyddo am dy ddyrgu.

2il. Megys y mae y rhan fwyaf o'r darnau yn amddiffynol, felly y maent i gyd i am ddiffyn rhag pechod, heb un i ddiogelu Cristion rhag dioddef. Y maent i'w am ddiffyn ef wrth ddioddef: nid i'w freini rhag hynny. Rhaid iddo ymbarotoi yn fw i ddioddef, o herwydd ei wisgo mor dda i'w diben. Ni roddir arfogaeth i ddyinion i'w gwisgo yn ochr y tân gartref, ond yn y mae. Pa fodd y caiff y gwneuthurwr ei glod, o na wybyddir metel ei arfau? a pha le y mae ei brofi ond ym mysg cleddyfau a bwledi Nid Cristion da fydd y dyn sydd am dreull ei fywyd mewn gwlad lle y mae yn haf trwy fywyddyn. Ymrodda at galedi, neu dydy arfau i lawr. Hyn yw y gwir reswm am fod cyn lleied nifer yn dyfod dan faw Crist wrth ei alwad; a chynnifer o'r ychydig sydd wedi rhoddi eu heuwau yn ei fyddi trwy broffes allanol, ymhen tro yn diang ymaith, ac yn gadael ei wersyll: gwait dioddef yw yr hyn y maent yn glaf o hon. Y mae y rhan fwyaf yn fwy tyner o'u croe na'u cydwbybod; a gwell fusai ganddyr fod yr efengyl wedi darparu arfogaeth gadw eu cyrph rhag anghu a pherygl, na' heneidiau rhag pechod a diafol.

Ond yr wyf yn dyfod at y geiriau, “Cyn merwch hefyd helm yr iachawdwriaeth. Yn y rhai ni a allwn sylwi,

1. Ar y gair cyssylltiol, sydd yn cyd hwn wrth y darn o'i flaen, “hefyd.”
2. Ar y darn ei hunan o'r arfogaeth “helm yr iachawdwriaeth.”

PENNOD I.

Lle y dangosir cyssylltiad neu gydglymiad y greu, yn eu dechreuad, eu cynnyddiad, a'u hafeiliad.

1. Am y gair cyssylltiol (hefyd), “Cyn merwch hefyd.” Hynny yw, gyda tharian ffydd, a'r holl ddarnau ereill a soniwyd a danynt, cymmerwch hwn hefyd am danol i'r maes. Gwelwch yma fel y mae pob gr yn cael ei uno yn garedigol â'i gyfaill; a cwbl, er yn amryw ddarnau, yn gwneud un arfogaeth; amryw fodrwyau, et

n gadwyn. Oddi wrth hyn, y peth i sylwi
rno yw cydgyssylltiad y grasau.

Y mae gwir sancteiddiol rasau Ysbryd
uw wedi eu cydio yn anwahanol ynghyd ;
mae clymiad ar y naill o honynt wrth y
all ; a hyny yn eu dechreuad, eu cynnydd-
d, a'u hadfeiliad.

DOSEB. I.

1af. Yn eu dechreuad. Lle byddo un
ras sancteiddiol, y mae y lleill i'w cael yno
fyd. Nid yw doniau a grasau cyffredin
lly ; y mae y rhai hyn yn cael eu dos-
urthu yn debyg i'r rhoddion a gyfranodd
brahamar blant ei orderchwagedd : *Gen.*
v. 6 ; yn un cael y rhodd yma, y llall un
cawl, neb yn cael y cwbl. Yr hwn sydd
unddo ddawn gwybodaeth, fe all fod yn
r o ddawn ymadrodd, ac felly y lleill.
nd y mae grasau sancteiddiol yn debyg i'r
iffediaeth a roddodd i Isaac ; y mae pob
wir gredadyn yn eu cael i gyd. "Od oes
eb yng Nghrist, y mae efe yn creadur
newydd ; ...wele, gwnaethpwyd pob peth yn
newydd ;" *2 Cor. v. 17*. Yn awr, y mae y
creador newydd yn cynnwys y cwbl ; megys
mae llygredd naturiol yn egwyddor gy-
redinol o bob pechod sydd yn suro holl
atur dyn, felly y mae sancteiddiol ras yn
egwyddor gyffredinol sydd yn peraidd
ymheru, ac yn adnewyddu yr holl ddyn
unwaith, er mai nid yn hollol. Y mae
ras, medd un, yn dyfod i'r enaid, fel yr
aid i'r corph ar unwaith. Yn wir y mae
a tyfu yn raddol, ond yn cael ei eni ar un-
waith. Y mae holl ranau y creadur new-
ydd yn cael eu ffurfio ar yr un pryd, er nad
raddau. Rhaid addef y gellir gweled
y mae un gras yn cynnyrfu, ac felly yn
yfod dan sylw y Cristion o flaen y llall.
e all deimlo ei ofn i Dduw yn gweithredu
ewn dychryn duwiol, a pharch ar ei ys-
ryd wrth feddwl am Dduw, cyn y gwel ei
ydd yn hyderus orphwysiad ei ysbryd ar
duw ; etto, nid yw y naill ras, o ran ei
neuthuriad, o flaen y llall. Y mae un rhan
r byd yn adnabyddus i ni yn hir o flaen y
all ; etto, ar unwaith y crewyd pob rhan o
ono. Yn awr y mae y cyssylltiad yma o
rasau yn eu dechreuad o ddefnydd dyblyg.

Defn. 1. (1af). I gynnorthwyo y Cristion
ffuant pan yn ammheu ei gyflwr, am na
l yn bresennol ganfod yn ei enaid rhyw
as y mae yn ymofyn yn bennodol am dano.
y mae yn bossibl mai am fydd y buost yn
awilio ; ac na fedri gael ei hanes o gwr yn
byd. Wele, Gristion, paid a discentio dy
an, nes cael prawf pellach o honot dy
an. Anfon dy ysbwyr etto allan i chwilio
n ryw ras arall, megys dy gariad at Grist ;
allai y cei ryw gopinod am y gras yma,
nad yw y llall mewn golwg. Oni welwyd
y gariad at Dduw a Christ, yn y demtas-
wn a'r demtasiwn, yn ei hymild ymaith
y dag ateb Ioseph i'w feistres drythyll ;

"Pa fodd y gwnaf y mawr ddrwg hwn, a
phechu yn erbyn Duw ?" Ië, oni ellit ei
weled trwy y dydd, naill ai yn dy ofal am
ryngu bodd iddo, ai yn dy ofid diragrith am
dy waith yn ei dristau ? a dyna y ddwy
wythlen yn mha rai y mae gwaed bywyd
cariad yn rhedeg. Yn awr, gwybydd, er dy
gydur, y gall dy gariad ddwyn i ti newydd-
ion am dy ffydd. Megys y dywedodd Crist
ar achos arall, "Y neb a'm gwelodd i, a
welodd y Tad" (*Ioan xiv. 9*) ; felly y dywedaf
finau wrthy tithau, ti, yr hwn a welaist
dy gariad at Grist a welaist dy ffydd hefyd
yng ngwyneb dy gariad.

Onid fe allai fod dy gariad at Grist dan
gwmmwl hefyd. Edrych ynte a elli di gan-
fod edifeirwch efengylaidd yn ennyn casineb
ynot, wrth yr olwg ar dy bechodau ; ac
hefyd ddial i'w herbyn, megys y gelynyon
a' th dynodd i wrthryfel yn erbyn Duw ; ië,
megys yr arfau gwaedlyd â pha rai yr ar-
chollaist enw Duw, ac y lleddaist Fab Duw
cyn fynched. Wele, y mae y gras yr wyt
ti yn ei geisio yn sefyll o' th faen. Pa beth
sydd yn gariad at Dduw, os nad ydyw sel
yn erbyn pechod, am ei fod yn elyn Duw ?
Onid oedd Abisai yn caru Dafydd, pan oedd
ei galon yn berwi drosodd gan ddiagonedd
yn erbyn Simeï reglyd, fel na fedrai ym-
attal, ond tori allan i wylltineb, a dyweddy,
"Pa ham y melldithia y ci marw hwn fy
arglwydd frenin ? gad i mi fyned drosodd,
attolwg, a thori ei ben ef ;" *2 Sam. xvi.*
Ac wrth dy gyfaddefiad dy hun, y mae
yn gymmaint blinder i tithau glywed dy
chwantau yn cyfarth yn erbyn Duw ; ac
nid wyt lai dy ewyllys i fod yn angyddynt
nag oedd Abisai i daraw pen y Bradwr
hwnw oddi ar ei gorph. Ac a wyt ti etto
yn amhieu, pa un a wyt yn caru Duw, ai
nid wyt ? Yn ddiau, yr wyt yn methu
gweled tân gan ffiam, cariad gan sel. Megys
trwy ymaffyd mewn un fodrwy, y gelli dynu
i fyny y gadwyn i gyd oddi tan y dwfr ;
felly, wrth ddyfod o hyd i un gras, ti a elli
gael y cwbl i'r golwg. Yn wir fe gafodd
Ioseph a Mair eu siomi, pan dybiasant gael
eu mab ymhlith eu cenedl (*Luc ii. 44*) : ond
nid felly y cei di yma ; o herwydd y mae y
genedl sanctaidd hon o rasau yn wastad yn
myned ynghyd. Y maent fel aelodau y
corph, yn un â'u gilydd. Er na weloch ond
gwyneb dyn, etto fe fydd yn sicr genych
fod yr holl ddyn yno.

(2il.) Fel y dichon hyn gynnorthwyo y
Cristion diffuant, felly fe rydd help hefyd i
ddinoethi a chywilyddio y rhagrithiwr ; yr
hwn a wna ymfrost ffuant o ryw un gras,
dan gasau un arall ar yr un pryd. Arwydd
sicr o galon ffals ! Yr hwn nid yw yn caru
yr holl rasau, ni bu erioed yn feddiannol o
un. Nid ai Moses allan o'r Aiph gyda rhan
o Israel : *Exod. x*. Naill ai rhaid i'r cwbl
fyned, neu ni chaffai neb gychwyn. Ni ddaw

Ysbryd Duw chwaith i mewn i enaid gyda hamer ei sancteiddiol rasau, ond gyda'i holl ganlyniwyr. Gan hyn, os ydyw dy galon yn erbyn rhyw un gras, y mae yn profi dy fod yn estron i'r lleill; ac er y gelli wneud ymddangosiad o serch a hofider mawr at rai, etto y mae dy wrthwynebiad i rasusau ereill yn golchi ymaith y lliw teg oddi ar y gorehudd yma. Y mae cariad a chas yn gysson yn eu rhywiâu: y mae yr hwn sy'n caru neu yn casau un sant, fel y cyfryw, yn gwneud yr un peth â'r saint i gyd. Felly, yr hwn sydd o'i galon yn ynwastgu âg un gras, fe gaiff brofi fod pob gras yn anwyl ganddo ar yr un cyfriif; o herwydd y maent cyn debyced i'w gilydd ag yw un o bob drau yr haul i'r llall.

DOSEB. II.

2il. Y mae grasusau sancteiddiol yn gysylltiedig yn eu cynnydd a'u hadfeiliad. Angiwaneger un gras, ac fe gryfheir y cwbl: gwaethyga un, a thi gei golled yn y cwbl. A'r rheswm ydyw, am eu bod yn eu cylchoedd yn gynnorthwylol y naill i'r llall; fel, pan glwyir un gras, y mae y cynnorthwy a ddyllasai hwn gyfrau (fel y gwnaethai hefyd yn ei iawn dymmer) at ei ystôr gyffredin ef, naill ai yn cael ei attal yn hollol, neu ynte yn myned lawer llai. Pan oera cariad, y mae ufudd-dod yn llacau ac yn dyfod yn mlaen yn drwm, o eistieu yr olew a fyddai cariad yn arferol o ddiferu ar ei olwynion. Pan gloffio ufudd-dod, y mae ffydd yn gwanhau: pa fodd y gall fod llawer o ffydd lle y byddo ychydig o ffyddlondeb? Pan wanhao ffydd, gobaith a betrusa yn ebrwydd; o herwydd ar dystiolaeth ffydd y mae gobaith yn myned yn mlaen i ddisgwyl daioni gan Dduw; a phan betruso gobaith, y mae amynedd yn tori, ac nis gall gynnal marchnadaeth yn hwy, am mai ar yr ystôr a fenthycio gobaith iddi y mae ei masnach hi. Yn y corph, chwi wyddoch, y mae llawer o aelodau; etto, y cwbl yn gwneud ond un corph, a phob aelod mor ddefnyddiol fel y mae y llall yn rhwymedig iddo. Felly yn y Cristion y mae llawer o rasusau, ond un creadur newydd; ac ni ddichon y llygad o wybodaeth ddywedyd wrth y llaw o ffydd, Ni raid i mi withyt; na'r llaw o ffydd wrth y troed o ufudd-dod; ond y mae y cwbl yn cael eu cadw, trwy ofalu yn eu cylchoedd y naill am y llall. O herwydd, megys y gall dinystr ddyfod ar yr holl ddinas trwy rwygiad mewn un rhan o'r mur, a'r enaid fyned o'r corph trwy archoll mewn rhyw un aelod, felly gall dinystr pob gras ganlyn; ie, y mae yn rhaid iddo ganlyn dinystr dim ond rhyw un. Yn wir, y mae anrwymiad cryfach (o angen eu gilydd) rhwng grasusau ein heneidiau, nag sy rhwng aelodau ein cyrph. Y mae yn bosibl ac yn arferol tori ymaith ryw aelod o'r corph heb i'r cwbl farw, am nad yw holl aelodau y

corph yn rhanau bywiol o hono. Ond mae pob gras yn rhan fywiol o'r creadur newydd; ac mor anhobgorol i'w wir fod, fua ddichon dim arall lenwi ei le. Yn corph, fe ddichon un llygad yn rhywfon wneuthur gwaith y llall a fyddo wedi col ac un llaw wneuthur gwaith y llall a fyddo wedi ei thori, er nad mor hwylus: ond ddichon ffydd wneuthur swydd cariad, a chariad waith ufudd-dod. Y mae y diffio o un olwyn yn aafu symmudiad yr awl drwyddi; a phe byddai un gras yn eistieu ni chyrhaelddid mo'r diben o osodiad i fy y gwaith rhagorol yma yn yr enaid.

Cusgliad. Iaf. Dysged hyn i ti, Cristion y doethineb hwn: pa bryd bynag y caffer un gras wedi gwanhau, trwy dy ddiolffwedi am weini iddo, neu dentasiynau Satan y ei archolli, prysur ymgenia am ei adferiad o herwydd dy fod nid yn unig yn colli cysur a allai ymarferiad yr un gras yma ddywyn, ond dy fod hefyd yn gwanhau y llei.

A yw hwnw yn ŵr anhrefnus sy'n gadael ei dŷ i fyned mewn perygl o syrthi wrth ddiodeff twll neu ddau yn y Gronlwyd heb eu trwsio? Beth ynte wyt ti, syrthoddi dy holl gyflwr o ras mewn perygl trwy esgenluso adgyweirio mewn pryd rhwyg a wnaed yn un o'e'r rasusau?

Ac felly, pan y'th dentur i ryw becho nac edrych arno fel pechod unigol, o megys yn dwyn pob pechodau ereill yn fol. Ystyria pa beth wyt yn ei wneuthur cyn i ti foddio Satan mewn unrhyw gais; herwydd trwy un pechod ti a gryfheir holl gorph pechod. Os rhoddi di i un chwant, ddenfyn hwnw chwaneb at dy ddrws, ac fydd gan y rhai hyny gryfach dadl na'r cryfaf; a pha ham nas gelli wneuthur eu cadw hwy yn gystal a'r llall? Y ffordd oreu y cadw y drws yn gauad ar y cwbl, rhag, trwy wyt ti yn meddwl croesawu ond un, i cwbl wasgu i mewn i'w ganlyn. Ond y byddai i ti dori y cyssylltiad yma mewn pechod, fel y gellit gymyrru un darn sydd at dy feddwl, a pheidio llusgo y gadwen i dy ol wrth wneuthur hwn; etto gwybydd fod cyssylltiad yn perthyn i euogryw hefyd (*Iago* ii. 10): "Pwy bynag a gadw y gyfraith i gyd oll, ac a ballo mewn y pwnge, y mae efe yn euog o'r cwbl." Meg y mae yr hwn a drino feddiannau yn fyddo wedi marw, er lleid a gomystro i'w ddrws, yn dyfod yn ddarostyngedig i dalu holl ddyledion ef, ac yn tynu ei holl ofn i'w yr yn ci ben, felly, wrth ymyraeth o'r âg un pechod, a hwnw yn yn bychan, ti dyni yr holl gyfraith ar dy gefn, yr hon rydd gwyn dros Dduw i'w erbyn fel troeddwr o'i holl orchymynion hi. Ni ddichon neb archolli un rhan o'r wyneb heb ei at harddu i gyd, a gwneud cam â'r holl ddy. Y mae y gorchymynion fel yma yn gysylltiedig; sarnâd a wneler i un a ddrwg ad

nrhydedd i'r cwbl, ac a ddielir am dano elly gan roddwr y gyfraith, awdurdod yr wn sydd ogyfuwech yn y cwbl.

21. Dichon hyn fod yn gysur i'r rhai sy'n gallino â'r meddyliau am gyfnewidiadau all ddwydd iddynt mewn amser i ddyfod, ac hwynt i wyneb tywyddi nas dyddant etto nemawr am dano. A pha ach, meddant, a wnawn y pryd hyny? Y ryd presennol, hwy ddiolchiant i Dduw eu oed yn cael mesur o nerth i'w wasanaethu a eu sefyllfaoedd: ond beth os daw caledi, ffyd, tlodi, neu groesau ereill idori i mewn nrynt? Pa fodd y safant y pryd hyny? A le mae eu ffydd, amynedd, boddlonrwydd grasusau dioddefol ereill a'u galluogai wynt i rodio ar y tonau hyn heb soddi? Ach, ofni y maent mai ychydig a feddant o'r ath rasusau erbyn y cyfryw amser. Wele, Cristion, gwybydd, er dy galonddid, os ydyw rasusau dy gyflwr presennol, sef y rhai gy y mae Duw yn dy alw i'w harfer yn yr mewn llwyddiant, yn fywiog, ac yn fyll eu tir, ti elli yn gysurus obeithio y dydd i'r grasusau dioddefol ereill sydd yn wrallan o'r golwg wneuthur yr un peth pan owidio Duw ddull dy helynt, gan eu galw lan i wneud eu rhan. Po mwyaf gostynglig wyt yn awr mewn helaethrwydd, mwy amyneddgar y byddi yn sier o fod mewn inder. Cymmaint ag yw dy galon yn awr weh law mwyniant y byd, cymmaint a ny fyddi uwch law ei ofidiau a'i drallodau. Wry ddywedant fod coed yn lledu eu vraid i waered, yn gyfattedbol i'w tyfiad i ny; ac fe gaiff y Cristion weled rhywbeth yn debyg i hyn yn ei rasusau.

PENNOD II.

Yn natur gobaith: pa ham y gelwir ef yn obaith iachawdwriaeth; a pha ham y cyffelybir ef i helm?

Yn ddarfuom â'r gorair cyssylltiol sydd yn dio y darn yma wrth y rhai o'r blaen: ac awr, ni a ddeuwn i draethu am y darn fogaeth ei hunan; "Cymmerwch helm yr iachawdwriaeth." Er nad yw y gras yn cael enwi yn bennodol yma, fel yn y lleill i d, etto, nid oes achos i ni fod yn hir heb gael, os edrychwn i fan arall, lle y mae yr apostol yn rhoddi benthgy agoriad i agor ei ddwl yn hwn. Ac yn wir nid oes neb o'r gymmhwys i ddeongli geiriau yr apostol ag ef ei hun; y lle yw 1 *The*s. v. 8; "Ac â gobaith iachawdwriaeth yn lle helm." Yn hyny, heb ddim petrusder yn chwaneg, a benderfynwn mai y gras o obaith a feddant gan yr apostol yn y lle yma. Yn awr, yn trefn i draethu am y gras hwn, y mae yn angenrheidiol dywedyd rhywbeth yn ffordd o eglurhâd, yr hyn a fydd

megys llusern yn y porth i'n harwain yn fwy hwylus i amrywiol ystafelloedd yr athrawiaeth; a hyn a wnâf trwy ddangos

1. Pa beth yw gobaith?
2. Pa ham y gelwir ef yn obaith iachawdwriaeth?
3. Pa ham y cyffelybir y gobaith hwn i helm?

DOSB. I.

1. Ychydig i egluro natur y gras hwn, yr hyn a wneir yn oreu, trwy osod i lawr ddarluniad o hono, ac amlygu ei ranau yn fyr.

Y mae gobaith yn ras goruwchnaturiol o weithrediad Duw, yn peri i'r credadyn trwy Grist ddisgwyl ac ymaros am yr holl bethau daionus sydd yn yr addewid, y rhai yn bresennol y mae efe yn eu derbyn, neu heb eu cyflawn dderbyn.

1af. Y mae yma yr awdwr o hono—Duw, yr hwn a elwir yn "Dduw pob gras" (1 *Pedr* v. 10); hyny yw, yn rhoddwr ac yn weithredydd o bob gras, o ran yr hedyn yn y dechreuad a'i dyfiant yn ol llaw. Y mae yn amhossibl i'r creadur wneuthur y glaswelltyn lleiaf, na pheri iddo dyfu ar ol ei wneuthur. Ac felly hefyd y mae creu yr hedyn lleiaf o ras, neu chwanegu un cufydd at ei faintioli. Na: megys mai Duw ydyw "Tad y gwlaw," trwy yr hwn y mae llyisiau y maes yn tarddu ac yn tyfu; felly y mae yn Dad hefyd i'r gwlith a'r dylanwadau ysbrydol sydd yn peri i bob gras gynnyddu a llywddo. Y mae yr apostol, yn y lle a enwyd uchod, yn dysgu i ni hyn: pan y mae yn gweddio ar Dduw "eu perffeithio, eu cadarnhau, eu cryfhau, a'u sefydlu." Ac megys y mae Duw fel hyn â'i law ym mhob gras yn gyffredinol, felly yn hwn yn neillduol: yn *Khuf*. xv. 13, gelwir ef yn "Dduw y gobaith;" a thrwyddo yr ydym yn cynnyddu mewn gobaith hefyd.

2il. Y mae yn oruwchnaturiol. Wrth hyn yr ydym yn ei wahanu oddi wrth obaith y cenhedloedd; yr hwn, ynghyd â'u rhinweddau moesol ereill, mor bell ag y ceid ynddynt ddim daioni, oedd yn dyfod oddi wrth Dduw (i'r hwn y mae pob dyn sydd yn dyfod i'r byd yn ddyledwr am hyny o oleuni sy ganddo: *Ioan* i. 9), er nad ydynt weddillion o'r egwyddorion ardderchog a fu gan ddyn ar y cyntaf. Megys y gwelwn, weithiau, dŵr candryll neu ddau yn sefyll yng nghanol adfail rhyw balas brenhinol gynt, heb ateb i fawr ddiben, oddi eithr i gynnorthwyo yr edrychwr i fwrw amcan pa fath adeiladau teg a fu yn sefyll yno ryw-bryd.

3ydd. Eisteddle gobaith, sef y credadyn. Y mae gwir obaith yn dlws nad oes neb yn ei wisgo ond priodasferch Crist; yn ras nad oes neb wedi ei harddu âg ef ond enaid y credadyn. Y mae "heb Grist" ac "heb obaith," wedi eu cyssylltu ynghyd yn *Eph*. ii. 12. Ac yma, ni byddai allan o le i ni sylwi ar

y drefn y mae gobaith a ffydd yn sefyll ynddo tuag at eu gilydd. O ran amser, nid oes un o flaen y llall; ond o ran trefn eu naturiaeth a'u gweithrediad, y mae gan ffydd y flaenoriaeth ar obaith. Yn gyntaf, y mae yn ymwasgu â'r addewid fel gair gwir a sicr; yna, y mae gobaith yn codi yr enaid i ddisgwyl ei chyflawniad. Pwy a ü allan i gyfarfod un y mae yn coelio nad yw yn dyfod? Y mae yr addewid megys llythyr cariad Duw at yr eglwys, ei ddyweddi; ym mha un y mae yn agor ei galon, ac yn mynegi yr hyn oll y mae yn meddwl ei wneuthur erddi. Y mae ffydd yn ei darllen ac yn ei dderbyn gyda llawenydd: ac ar hyn y mae gobaith yn gosod yr enaid crediniol megys i edrych trwy y ffenestr mewn disgwylid hirathlawn am weled cerbyd ei phriod yn dyfod i gyflawni ei addewid. Dyma fel y mae Paul yn rhoddi rheswm am ei obaith ei hun, oddi wrth ei ffydd (*Act. xxiv. 14, 15*), ac yn gweddio o blaid ffydd y Rhufeiniaid, er mwyn cynnydd eu gobaith: *Rhuf. xv. 13*.

4ydd. Gwrthddrych gobaith. Yn gyntaf, yn gyffredinol, rhywbeth sydd dda. Os bydd peth yn ddrwg, ofni yr ydym a ffoi rhagddo: os yn dda, ni a obeithiwn ac a ddisgwylw'n am dano. Ac yma y mae un nôd o wahaniaeth rhyngddo a ffydd. Mae ffydd yn credu drwg yn gystal a da; ond gobaith yn ymarfer â'r hyn sydd dda yn unig. Yn ail, daioni yr addewid. Ac yn hyn y mae ffydd a gobaith yn cyttuno: y mae llinellau y ddau yn cael eu tynu oddi wrth yr un canolbwynt yma. Gobaith heb addewid, nid yw ond megys angor heb waelod i ymaflyd yddo. Y mae y gras o obaith yn dwyn yr addewid yn ei enw (*Act. xxvi. 6*): "Am obaith yr addewid (medd Paul) yr wyf yn sefyll i'm barnu." Felly y mae Dafydd yn dangos y lle yr angorai ei lestr; "Wrth dy air yr ydwyf yn disgwyl;" *Salm cxix. 81*. Nid yw gwir obaith yn masnachu ond am wir ddaioni. Ac nis gallwn alw dim felly ond a ddarfu i'r Duw da ei addaw: o herwydd y mae yr addewid yn rhedeg fel hyn: "Ni attal efe ddim daioni oddi wrth y rhai a rodiant yn berffaith;" *Salm lxxxiv. 11*. Yn 3ydd, Holl bethau da yr addewid. Megys y mae Duw wedi cynnwys pob daioni yn ei addewid, felly nid yw wedi addaw ond daioni; ac am hyny, gwrthddrych gobaith yw y cwbl sydd yn yr addewid. Ond hyn, megys y mae amryw raddau o ddaioni yn y pethau a addewir; yn ol hyny, y mae gobaith yn cyfeirio ei weithrediad ac yn hiraethu am dano. Duw yw y daioni penaf; a'r mwynhâd o hono sydd yn cael ei addaw fel dedwyddwech cyflawnaf y creadur: am hyny, at Dduw yn benaf y mae gobaith yn cyfeirio; ac at yr holl bethau a addewir o ran gwasanaethgarwch at ddyrchafu yr enaid yn nes ato. Fe'i gelwir ef,

"Gobaith Israel;" *Ier. xvii. 13*. Nid o dim tu hwnt i Dduw gan y creadadyn i ancau ei fwynhau; na dim yn fyr o Dduw gall efe fod mor foddolawn arno ag y bydd i'r mwynhâd o hono wasanaethu gaiddo y lle yr hyn oll sydd yn addawid Duw. Y awr, am fod Duw i'w fwynhau yn gyflawn, ac yn ddirwystr yn unig yng ngwynfydedd rhydd y nef, am hyny fe'i gelwir yn "obaith iachawdwriaeth;" 1 *The. v. 8*. Yn ddiweddar, Gwrthddrych gobaith yw daioni addewid sydd heb fod mewn llaw, ond i gobaith. "Y gobaith a welir nid yw obaith: o blegid y peth y mae yn ei wleidi ba beth y mae efe etto yn gobeithio" *Rhuf. viii. 24*. Ar amser i ddyfod y mae edrychiad gobaith: ac y mae hyn yn gwahanu peth rhyngddo a ffydd, yr hon sydd yn rhoddi bod presennol i'r addewid, ac sydd yn "sail (neu hanfod) y pethau yr ydys yn gobeithio;" *Heb. xi. 1*. Y mae daioni addewid yn cael math o fodolaeth trwy ffydd yn yr enaid: y mae yn rhoddi golwch ar y nef, ac yn dwyn y Cristion a'r ynghyd, fel pe byddai efe yno eisoes. Ond yma y dywedir fod y rhai hyny yn cyfarfod yr addewid (*Heb. xi. 13*) fel dau gyfaill yn gyfarfod. Y mae ffydd yn siarad yn ymarser presennol, Yr ydym yn gongewerwyr, "yn fwy na chongewerwyr:" gobaith yn amser i ddyfod, ni gaf. Mi a chwanogeth yn y darluniad, Neu heb eu cyflawn ddaioni. Y mae cyflawniad mewn rhan o'r addewid yn rhoddi gwaith i obaith, o'r llwyr gyflawniad yn diweddu gobaith, gobaith ei lynged i fyny mewn cariad a gorfoledd. Yn wir, y mae llwyr gyflawniad o'r addewid yn cau gobaith allan. Yn y nef mae yr addewid wedi ei thalu, a gobaith wedi darfod ei wasanaeth, am fod yr hyn ddisgwylwyd wedi ei gael: ac yn uffern mae y bygythiad wedi ei lwyr gyflawni; am hyny nid oes dim gobaith yno, o herwydd nad oes possibilrwydd o ymwared.

5ed. Soniais am gymmhorth gobaith, trwy ac er mwyn yr hwn y disgwylw'n feddian yr addewid, a hwnw yw Iesu Grist. Mae gobaith yn edrych am y cwbl yn a thrwy ef. Gelwir ef, "ein gobaith" (1 *Tim. i. 12*). am mai efe yw y Pryniawdwr, trwy angor yr hwn y mae i ni genad a rhyddid i ddisgwyl daioni gan Dduw; ac mai trwy ef y bryd ef y'n galluogir i obeithio. Felly mae yr hawl a'r nerth hefyd i obeithio dyfod oddi wrth Grist; y cyntaf trwy y walltiad ei waed drosom, a'r llall trwy y walltiad o'i Ysbryd arnom.

DOSB. II.

2. Pa ham y gelwir gobaith y Cristion obaith iachawdwriaeth?

Y mae rheswm deublyg yn eglur. Gyntaf, am fod iachawdwriaeth yn cynnwys o fewn ei chylch holl wrthddrych obaith ef. Y mae iachawdwriaeth yn

yyddo y fath ystâd o ddedwyddwch ag y
 nae y trugareddau a'r cysuron sydd yn was-
 aredig—peth mewn un addewid a pheth
 n y llall—yn cydgyfarfod mewn grym yn-
 di, fel y casglwyd ynghyd i'r haul y goleu-
 i oedd yn wasgaredig drwy y ffurfafen yn
 eohreud y greadigaeth. Cwsglwyd ynghyd
 i holl bethau daionus a addewir yn y cyf-
 unmod, a swm y cwbl yw iachawdwriaeth.
 nifer eithaf sydd yn rhoddi enw i'r rhif-
 s, am ei fod yn ei chynnwys i gyd ynddo :
 lly iachawdwriaeth, pen eithaf disgwyliad
 Cristion, a'r hyn sydd yn cynnwys pob
 uoni a rydd enw i'w obaith ef. Yn ail,
 i gelwir yn obaith iachawdwriaeth, i'w
 ahanu oddi wrth obaith y bydolddyn, yr
 wn sydd â'i ran yn y bywyd yma (*Salm*
vii. 17), ac felly ei obaith hefyd. Mi wn
 d llawer o'r rhai hyn yn ymhoni am obaith
 chawdwriaeth; ond y gwirionedd ydyw,
 d oes ganddynt na hawl iddi nac awydd
 awr am dani. Hwy dybiant eu hunain
 o'r dda eu lle yma, fel y dymunent i Dduw
 idio eu symmud oddi yma. Hyd yn oed
 n ddywedant eu bod yn gobeithio cael eu
 chub, fe ddywed eu cydwybodau wrthynt
 byddai yn well ganddynt aros yma nag
 nadael mewn gobaith o'fyd gwell. Maent
 i magu ynddynt eu hunain eu gobaith a'u
 ymuniad am iachawdwriaeth yn fwy o her-
 ydd arswyd uffern na chwenychiad am y
 r. Nid oes neb o'honynt, dybygaf, mor
 llgofus na byddai yn well ganddo gael ei
 hub na'i ddannio—byw yn y nef na
 oeni yn uffern; etto, y mae y goreu o'r
 id yn caru y byd yma o flaen y ddau.

DOSB. III.

3. Yr ymofyniad nesaf yw, Pa ham y
 felybir gobaith i helm? Cymmerwch
 au reswm am hyn.

laf. Y mae yr helm i amddiffyn y pen,
 prif ran o'r corph, rhag dyrnod bwled
 hledddy. Felly y mae y gobaith yma yn
 ddiffyn prif gynneddfau yr enaid, yr hwn
 ld brif ran o'r dyn, fel na byddo i ddim
 graph beryglus (yn sicr yr un argraph
 wol) gael ei wneuthur arno gan Satan na
 eod. Gall temtasiynau ffino, ond nis
 lant niweidio, oddi eithr i'w picellau fyned
 newn i'r ewyllys, a chlwylw hwnw trwy
 dynu i ryw gydsyniad â hwynt. A rhag
 n y mae yr helm yma o obaith yn am-
 ffyn y Cristion, os bydd o'r iawn wneuth-
 ad, ac yn cael ei gadw yn ei le ar ei ben.

Y mae yn anhawdd tynu hwnw i gyn-
 yn bradwriaeth i'w dywysog, yr hwn sy'n
 ybod ei fod yn bresennol yn ei ffafr ef, ac
 disgwyl yn ddiamaheu y gelwir ef yn
 en ychydig i'r sefyllfa uchaf yng ngallu
 feistr. Na, yng ngweithdy anfoddlon-
 ydd y mae arfau bradwriaeth a gwrthry-
 yn cael eu llunio. Pan fyddo deiliaid
 meddwl eu bod yn cael eu hesgeuluso
 a eu tywysog, ac nad oes dyrchafadau na

gwobrau mawrion yn rhagor i'w cael gan-
 ddo; y mae hyn yn eu meddalhau i dderbyn
 pob argraphiad o anuffudd-dod a gais neb
 rhyw elyn i'r brenin ei roddi arnynt. Fel y
 gwelwn yn yr Israeliaid, y rhai, pan fedd-
 yliasant fod gwyr Iudah (y llwyth yr oedd
 y brenin o hono) wedi cael ei holl ffafr ef,
 neu o leiaf, fwy nag oedd yn ei dddangos idd-
 ynt hwy; mor fuan y darfu i chwaa neu ddau
 o udgorn terfysgus Seba eu tynu i wrthry-
 fel yn erbyn eu harglwydd! "Nid oes i
 ni (ebe Seba) ddim rhan yn Dafydd, nac
 etifeddiaeth i ni ym mab Iesse—pawb i'w
 babell, O Israel;" *2 Sam. xx. 1.* A gwel-
 wch mor gyflwm y mae y tân gwyllt yma yn
 ymledu (*adn. 2*); "Felly holl wyr Israel a
 aethant i fyny oddi ar ol Dafydd, ar ol Seba."
 Fel hyn, os unwaith y meddylia yr enaid
 nad oes iddo ran yn Nuw, nac etifeddiaeth
 oddi wrtho, nis gwn am un pechod mor fawr
 na ddichon udgorn y temtiwr ei dynu iddo.

2il. Megys y mae yr helm yn cadw pen y
 milwr rhag cael ei glwyfo, felly hefyd ei
 galon rhag llesmeirio. Mae yn ei wneuthur
 yn hyf a diofn yng nghanol cleddyfau a
 bwledi. Goliath, gyda'i helm o bres a'i
 addurniadau ereill, mor eofn â hyderus y
 daeth ym mlaen! fel pe buasai wedi ei gau
 i mewn â'i arfogaeth nes bod yn ammhos-
 sibil i un arf ddwyn iddo y genadwri o
 farwolaeth. Hyn a'i rhoes ef i rodio mor
 grib uchel, ac i waradwyddo byddin gyfan,
 nes aeth ei fywyd o'r diwedd yn dâl am ei
 falchder a'i ynyfdrwydd. Ond dyma helm!
 pwy bynag a'i gwisgo, ni ddaw i gywilydd
 byth o herwydd ei dduwiol ymfrost. Mae
 Duw ei hun yn rhoddi cenad iddo ym-
 ffrostio; ac efe a'i gwna yn dda iddo (*Esa.*
lix. 23); "Ni chywilyddir y rhai a ddis-
 gwyliant wrthef fi." Hyn a wnaeth
 Dafydd dduwiol mor galonog yn nghanol ei
 elynion; "Pe gwesyllai llu i'm herbyn, nid
 ofna fy nghanol;" *Salm xxvii. 3.* Ni
 awai ei obaith i'w galon gymmaint a churo
 o'i fewn, gan ofn dim a allent wneuthur iddo:
 yr oedd ganddo ei helm o iachawdwriaeth am
 dano: ac am hyny fe ddywed, "Ac yn awr
 y dyrcha efe fy mhen goruwch fy ngelynyon
 o'm hamgyleh;" *adn. 6.* Nis gall dyn foddi
 cyhyd ag y byddo ei ben uwch law y dwf.
 Yn awr, swydd briodol gobaith yw gwneud
 hyn i'r Cristion mewn amseroedd o berygl
 (*Luc xxi. 23*); "A phan ddechreu y pethau
 hyn ddyfod, edrychwch i fyny, a chodwch
 eich penau; canys y mae eich ymwared yn
 nesau." Amser rhyfedd! fe allai un feddwl
 i Grist beri i'w ddisgyblion godi eu penau
 ynddo! Pan y cânt weled dynion ereill yn
 "llewygu gan ofn, a disgwyl am y pethau
 sydd yn dyfod ar y ddaear;" *adn. 26.* Etto,
 dyma amser codiad eu haul hwynt, pan y
 mae haul ereill yn machludo, a thew dy-
 willwch yn eu gorddiwes; o herwydd yn
 awr y mae gwledd y Cristion yn dyfod, am

yr hon y disgwylodd ei obaith cyhyd; "Y mae eich ymwardd yn nesau."

Dau beth a barant i'r pen fod yn isel—ofn a chywilydd: y mae gobaith yn dadlwytho y Cristion o'r rhai hyn; ac felly yn gwahardd iddo ostwng ei ben fel dyn diobaith. Cymmerwch hyn yn eglurhâd ar y geiriau.

Yr wyf yn dyfod bellach at yr un pwynt cyffredinol o athrawiaeth sydd i fod yn destyn ein holl ymddiddan ar y darn hwn o arfogaeth.

PENNOD III.

Am ddefnyddioldeb gobaith yn milwriaeth y Cristion, a'r gweithredoedd ardderchog y pâr iddo anturio arnynt.

Athr. Y mae gobaith yn ras o ddefnydd a gwasaeth neillduol i ni, tra y parhao ein milwriaeth ysbrydol a'n gyrfa Gristionogol. Fe'n cyfarwyddir i "gymmeryd helm yr iachawdwriaeth," ac nid ar achos anghyffredin, ac yna ei grogi i fyny nes delo caledi o'r fath drachefn i beri i ni ei dynu i lawr a'i ddefnyddio. Ond y mae yn rhaid i ni ei gymmeryd a'i wisgo yn barhaus, hyd nes y cymmero Duw yr helm yma oddi ar ein pen i roddi coron o ogoniant yn ei le. Y mae yr apostol yn ein cynghori i fod yn sobr, a go-beithio yn berffaith, neu hyd y diwedd: 1 *Pedr* i. 13. Y mae rhai o'r pethau sydd yn offer rhyfel o ddefnydd, dim ond yn awr a phryd arall, megys ysgolion i ddringo mur tref neu gastell; ac ar ol y tro fe'u gosodir o'r neilldu, ac ni welir eu heisieu dalm o amser. Ond y mae yr helm o ddefnydd gwastadol: bydd arnom ei heisieu tra y parhao ein rhyfel â phechod a Satan. Nid yw y Cristion islaw gobaith tra y byddo ei fywyd ar gael; nac uwch law gobaith tra y byddo heb gyrhaedd y nef. Yn wir, pan unwaith y castio fyned tu mewn i byrth y ddinas ogoneddus hono, yna, yn iach obaith, a chroesaw gariad am byth. Gall ddywedyd gyda'r merthyr duwiol, Y mae arfogaeth yn weddus ar y ddaear, ond gynau gwynion yn y nef. Y mae gobaith yn myned i'r maes ac yn gweini i'r Cristion nes byddo y frwydr ddiweddfaf wedi ei hymladd a'r dydd wedi ei ennill; ac yna flydd a gobaith ynghyd â'i dygant yng ngerbydd yr addewid i borth y nef, lle y rhoddant ei enaid i fyny i ddwy-law cariad a gorfoledd, y rhai a safant yn barod i'w ddwyn i wynfydedig bresennoldeb Duw.

Ond fel y llefarwyf yn fwy neillduol am wasanaethgarwch gobaith i'r Cristion, a'r amryw swyddau y mae yn gyflawni iddo; ni drefnaf y cwbl dan y pedwar pen canlynol:—

1. Y mae gobaith yn gosod y Cristion ar weithredoedd rhagorol ac ardderchog.

2. Fe'i gwna yn ddiwyd a flyddlawn y y gwasaeth gwaelfaf.

3. Y mae yn ei gadw yn y dioddefiadau mwyaf.

4. Mae yn tawelu ei ysbryd pan fydd Duw yn oedi hwyaf cyn cyflawni ei addewid.

1. Y mae gobaith iachawdwriaeth y gosod y Cristion ar weithredoedd rhagorol ac ardderchog. Gras ydyw wedi ei enill bethau mawrion. Ffydd a gobaith ydyw ddau begwn ar y rhai y mae holl anturiaethau ardderchog y Cristion yn tro Megys y mae gobaith anianol yn annog dyfion anianol i'r anturiaethau sydd yn ennidynt enw y byd, felly y mae y gobaith nefol yma yn effeithio ar y saint yn eu marion hwythau. Beth sydd yn peri i'r masiandwr werthu tai a throedd, a morio holl feiddiannau agos i ben draw y byd, trwfiloedd o beryglon oddi wrth wynt a thona a môr-ladron hefyd, ond gobaith o ennichwaneg trwy yr anturiaeth galonog yma. Pa beth sydd yn peri i'r milwr dewr ruth i'r frwydr boeth, ie, i safn angy ei hun, o gobaith o gipio clod ac ysbail allan o'i ddanedd ef? Gobaith yw ei helm, ei darian, y gwbl, yr hwn a bâr iddo chwerrhin yn ngwyneb pob perygl. Mewn gair, pa beth sydd yn peri i'r ysgolhaig guro ei ymennydd mor drwm, nes y byddo weithiau yn debydd o'i wanhau wrth fod mewn gormod awydyrhaedd dysg, ond gobaith o ddringo ryddadun yn uwch mewn adnabyddiaeth o ddogelion natur sy allan o olwg y cyffredin bob Er, ar ol ei holl lafur a'i astudiaeth, nes byddo ei gorph wedi ei nychu, nid llaw mwy yw ei ennill na'r dyn arwygo ei ddwyll a'i liniau wrth ddringo rhyw fynydd cryb yr hwn a fydd ond lle llwm ac oerlyd, a cymmylau o'i ddeutu, a'i fwyniant arno bydd nemawr ond hyn, y gall efe edryddros benau rhai ereill, a chanfod rhywfai ym mhellach. Yn awr, os yw y fath obaith gwaelfaf a fedd y rhai hyn yn peri ymgeadau cyn gryfed i gyrhaedd y pethau sy yma sydd â rhan o'u gwerth yn tarddu oddi wrth ddychymmygion dynion am danyr oni raid fod gobaith y Cristion yn fwy effaith i'w gyffroi ef i ymgyrhaedd bethau ardderchocach? Cymmerwch y dyddig esamplau.

DOSB. I.

1af. Y mae y gobaith yma yn ennyn y Cristion ymroad gwrol yn erbyn y chwant hyn y rhai oedd o'r blaen yn ei ddal gaeith. Yr Israeliaid oedd yn gorwedd yn llonydd dan galedwaith yr Aipht, hwnwneuthur un cynnyg am ysgwyd yma yr iau drom, pan ddafonwyd Moses i iddynt obaith o ymwardd yn agosau, ac cafodd ei air beth crediniaeth ganddyrhyfedd y fath gyfnewidiad mawr a wna argraphiad y gobaith newydd hwn arnyr Y rhai ni feiddient o'r blaen ond prin ad

lywed eu griddfanau (gan mor ddigalon eddynt dan gaethiwed), yn awr, wedi eu ryfhau gan obaith, hwy feiddiant dori o'u arehar a theithio tua gwlad yr addewid er waethaf holl rym a llið Pharaoh greulawn odd yn eu herlid. Yn ddiau, fel hyn y mae gydag enaid mewn perthynas i gaethiwed pechod. O mor wanaidd a llwfrw dyn gwag o'r nefol obaith yma! Y fath pethwas llynydd yn llaw Satan! Y mae'n droedfainge i bob ffaidd chwant sathru'nô. Y mae yn cymmeryd gan ddiabol ei chogaeth lle y myn heb betruso: nid oes un will mor fudr nas gall ei dynu drwyddo fel rth edefyn. Y mae yr adyn, druan, yn yddlaw'n i'w galedwaith salw, am nas gŵyr e am un gwell meistr na'r hwn sy ganddo, ac am well cyflog na'r ymdreiglfa yn ei leserau anianol, a rydd ei chwantau iddo. Nid pan ddolo y newydd am iachawdwrth e i glust yr enaid hwn sydd yn dwylded gan bechod, ac y rhodder iddo lygaid ysyddol i weled ei mawr ogoniant hi; ac megys agen o obaith mai efe yw yr hwn a'i eddianna hi, os caiff ond calon i newid ei istr a'i wasanaeth. O y fath ddifrod a na yr enaid bellach ar ei chwantau! Fe ddunedu eu lladd heb arbed, ac a dery i fyrio pan fodd y caiff yr ymadawiad cyntaf a wyraf â hwynt: "Y mae pob un sy ganddo y gobait hwn ynddo ef yn ei buro ei un, megys y mae yntau yn bur;" I *Ioan*.

3. Y mae yn awr yn edrych ar ei chwantau, yn debyg fel y gwnai tywysog ar ei ylwyr cas, allan o ddwyllaw pa rai pe gall-ddiange, efe a gawsai yn ebrwydd fedd-nnu ei goron a'i deyrnas: ac am hyny y mae yn myfyrio eithaf dial arnynt. Fe all d rhyw fwriadau byrbwyll mewn dynion aniol yn erbyn eu chwantau, ar ryw anddlonrwydd damweiniol a gânt yn awr a hwyd arall wrth eu dilyn: ond Och! buan bydd y cleddyf a dynant i'w herbyn yn y sain drachefn, ac y mae yr holl amrafael a dyfod i ddim yn y diwedd. Y maent, I Esau, yn cychwyn allan mewn tymmer oethlyd a chwyn; ond dyma anrheg yn yfod oddi wrth eu chwantau, yr hyn sydd n eu gwobrwyo rhag gwneud dim i'w her-yn; i e, yn eu cymmodi â hwynt, fel megys gwnaeth yntau â'i frawd, y gallant syrthio r yddafu a chusanu y chwantau hyny, y nai, ychydig o'r blaen, yr oeddynt yn by-wth eu lladd; a hyn i gyd o ddiffyg go-ait h am y nef, yr hwn a allai gynnyg yn wch na'i chwantau gwenieithgar; ac ni oddlonai i heddwch gael ei glytio i fyny ar gyfryw ammod galed a cholli bywyd agwyddol. Yr hwn a fynai gael rhesymau w arfogi yn erbyn cynnygiadau pechod, ni uid iddo fyned ym mhell i'w ceisio; ond y eb a drinia hwn yn iawn, gan ei yru fel hoel yd y pen, ni bydd arno eisieu llawer yn nagor. Pa bechod sy na there hwn i lawr?

A wyt ti yn cael dy dentio i ryw chwant anianol? Gofyn i'th obaith pa beth wyt yn ddisgwyl fod yn y nef. Ac a elli diym-rodidi i chwareu yr anifail ar y ddaear, yr hwn wyt yn gobeithio bod fel yr angylion pur a sanctaidd yn y nef? Ai pechod o elw sydd am dy lygattynu? Ai nid yw gobait h am y nef yn gyfaredd digon cryf i swyno y cythraul hwn? A all aur gael lle mawr gyda thi, yr hwn wyt yn gobeithio bod yn etifedd o'r ddinas hono nad oes ynddi bris yn y byd ar aur? Pa ham y dywedir am y lle gwynfydedig hwnw ei fod wedi ei bal-mantu âg aur, ond i rodidi i ni wybod y caiff ei sathru yno fel peth diwerth? Ac a rodidi di yn awr yn dy galon y peth a fydd cyn byddo hir dan dy draed? Ai y pechod o ymddial sydd wrthyt? Onid wyt yn go-beithio am ddiwrnod pan y dadleu dy anwyl Waredwr dy achos? A pha raid i ti ddwyn ei waith o'i law? Bydded hwnw yn farnwr iddo ei hun sydd heb obaith: y mae barnwr yn dyfod a gymmer dy blaid di.

DOSB. II.

2il. Y mae gobait yn urddasu ac yn gallu-ogi y Cristion i ddiystro y byd presennol, ei rwyg, ei drysor, a'i bleser, gan yr hwn y mae y lleill o ddynolrwy bob un yn cael eu dal yn gaeth, fel carcharor â'i gadwyn am ei goes. Pan unwaith y canfyddo ffydd y wlad dda sydd gan y Cristion yn y nef, ac y dechreu ei obaith syllu arni fel y lle a gaiff efe feddiannu ar ei symmudiad o'r byd, y mae dedwyddfyd y ddaear ar hyn yn myned yn wael ei fri ganddo, a'i obaith oddi wrthi yn hawdd iddo ei ollwng o'i law. I e, gall ymadael â'r hyn sydd ganddo o dyfiad y byd hwn (pan alwo Duw ef i hyny) mor rydd ag y rhanodd Alecsander y dinasoedd a gymmerodd; o herwydd ar ol i hyn fyned ymaith, bydd ganddo amgenach gobait nag oedd gan y penadur hwnw i fyw arno. Y mae gobait h am y nef yn bychannu y byd ym meddyliau y Cristion. Nid yw yn awr ddim mwy ganddo na'r asynod gan Saul ar ol ei eneinio. Fe ddywed hanes i ni am rai o'r Tyrciaid, eu bod ar ol gwelod bedd Mahomet, wedi tynu eu llygaid allan rhag eu halogi âg unrhyw wrthddrych cyffredin, ar ol cael y fraint o edrych ar le mor gyssegr-edig. Yr wyf yn sier fod golwg ffydd ar ogoniant y nef, palas y Duw mawr, wedi gorchfygu llawer enaid grasol, fel y dymun-asant i Dduw gau eu llygaid â marwolath. Fel yr hen Simeon, yr hwn ni fynasai ffw ddiwrnod yn hwy ar ol yr awr wnyfydedig hono, ym mha un y gwelodd ei lygaid iach-awdwriaeth Duw. Yr oedd Abraham, yntau, yn meddu gobait yr iachawdwriaeth yma; ac am hyny, "efe a ymdeithiodd yn nhir yr addewid megys mewn tir dieithr; canys disgwyl yr ydoedd am ddinas ag iddi sylfeini, saer ac adeiladydd yr hon yw Duw;" *Heb. xi. 9, 10.* Buasai Canaan yn ddigon da

ganddo, pe na roddasai Duw iddo wybodaeth ac addewid am y nef, mewn cymmhar-iaeth â'r hon nid ydyw Canaan bellach ond Cabul, tir bawlyd, yn ei olwg ef. Felly y dengys Paul i ni, nid yn unig y meddyliau gwael oedd ganddo ei hun am y byd, ond hefyd farn yr holl gredinwyr y tyfodd eu gobaith i radd osefydliad cysson; "Canys ein hymarweddiad ni sydd yn y nefoedd, o'r lle hefyd yr ydym yn disgwylein iachawdwr;" *Phil.* iii. 20. Y mae yn gosod y sant â'i gefn ar y ddaear; ac yn tyuu ei reswm oddi wrth eu gobaith, "o'r lle yr ydym yn disgwyl," &c. Yn wir, y mae yn rhaid i'r neb a edrycho ar y nef edrych oddi ar y ddaear. Nis gall llygad yr enaid mwy na llygad y corph fod i fyny ac i waered ar unwaith. Y mae arweddiad pob dyn lle y byddo ei obaith yn disgwyl yr elw a'r ennill mwyaf. Ceir y publican yn eistedd wrth y dollfa; dyna y lle y mae efe yn elwa. Ceir gwr y llys yn sefyll wrth benelin ei dywysog. Y marsiantdwr, os mynwch ei gael yntau, edrychwch am dano yn ei ystordy neu y gyfnewidfa. Ond y mae gobaith y Cristion yn ei ddwyn ef heibio i'r holl ddrysau hyn: nid yma y mae fy ngobaith i, medd yr enaid; ac am hyny, nid yma y bydd fy nghynniweirfa: y mae fy ngobaith yn y nef, o'r lle yr ydwyf yn disgwyl fy Iachawdwr, â'm hiachawdwr-iaeth gydag ef; yno yr wyf yn byw, yn rhodio, ac yn aros. Nid oes ond gobaith safadwy ac ar iawn sail am iachawdwriaeth a wna i obaith bydol y creadur wydo. Ni ddichon calon dyn yn y byd yma ddiodeff bod heb obaith: ac os na bydd ganddi obaith nefol, y mae yn rhaid iddi droi i mewn i'r ddaear i fenthyca un yno o'r fath a allo gael. Yn wir, pa beth a gyttuna yn well â chalon ddaearol na gobaith ddaearol? A'r hyn a fyddo yn obaith gan ddyn, er gwaeled a salded fyddo, y mae yn cael ei brisio yn fawr ac yn anhawdd ei ollwng o law. Megys y gwelwn mewn dyn ar fodd, a chanddo ond chwynoglyn neu frigen yn ochr y geulan i gymmeryd gafael ynddo, efe a gymmer ddyrnodiau a chlwyfau, i.e. bydd farw â hwn yn ei law yn hytrach na'i ollwng. Nid oes dim a wna iddo ymadael âg ef, ond yr hyn y mae yn gobeithio a etyb yn well i'w gadw rhag boddi.

Dyna fel y mae gyda'r dyn sydd â'i obaith yn y ddaear, ac yn disgwyl ei holl hapusrwydd oddi wrthi. O! fel y mae y fath un yn gwasgu ac yn glynu wrth y byd! y mae mor hawdd i chwi berswadio llwynog i ddyfod allan o'i dwell, lle y diangodd rhag y cŵn, a chael ganddo yntau fwrw ymaith ei obaith! Na: y mae yn andwyol heb yr elw hwn a'r arnydded acw: dyna y peth y mae wedi gosod ei obaith ynddo; ac y mae gobaith a bywyd yn wastad yn un afael. Dy-chrynwch a bygythiwch ef â'r peth a fynoch, y mae calon y dyn fyth yn cydio yn ei thrysor.

Iê, tefwch dân uffern i'w fynwes, a dywech wrtho y bydd i'r cariad yma at y by a gwneuthur aur yn obaith iddo, ei ddarn mewn dydd a ddaw; er hyny, dal ei fford a wna efe. Y mae Ffelics yn esampl gyf mhws o hyn: *Act.* xxiv. 26. Fe bregeth odd Paul yn daranllyd iddo; ac er fod pregethwr o flaen y fainge, a Ffelics arni i etto fe arfogodd Duw y gair, nes crynodd gwr wrth glywed y carcharor yn ymresym am gyfiawnder, a dirwest, a'r farn a fydd Etto y dyn hwn, er fod ei gydwybod mewn poen dirfawr gan arswyd y farn, â rhy wreichion o lid dwyfol wedi ennyn o'i few gallai ar yr un pryd fod yn danfon ei gal ar neges gybyddlyd, i edrych am wobr: am iddo fethu cael hyny, fe adawodd ffyddlawn was hwn i Dduw yn nwyllaw elyunion gwaedlyd. Yn *adn.* 26, dywedir fod yn gobeithio y rhoddid arian iddo am ollwng ef yn rhydd. Ond fe'i siomwyd am ei farchnad; o herwydd megys y dar i'w obaith ffiaidd ef am rywfaint o arian beidio gollwng Paul yn rhydd, felly y dar i obaith nefol beri iddo ffieiddio prynu ryddhâd â gwobr.

DOSE. III.

3ydd. Y mae y gobaith yma o iachawdwriaeth lle y byddo yn gadarn yn gwneud Cristion yn fywiog ac yn wresog dros Dduw. Fe'i gwelir yn obaith bywiol: 1 *Pedr.* i. Y rhai sydd yn ei feddu ydynt ddeurion chwi ellwch ddisgwyl am fwy o waith ganddynt, ac heb gael eich somi. Pa ham mae dynion yn bwl ac yn drymlyd yn ngwasanaeth Duw? Yn ddiu am fod e gobaith felly. Y mae diobaith a difwyd y cydfyued. Nid rhyfedd fod y gwaith hefyd rhagddo yn hwylyd, pan fyddo dynion yn ddiobaith neu yn wan eu gobaith a gael eu cyflog. Yr hwn sydd yn meddwl fod yn gweithio am chwibaniad, fel y ddedwn, ni chwibiana wrth weithio: i meddwl yw, ni bydd yn awchus a siri uwch ei ben. Mae y cwsmer goreu yn siogael ei wasanaethu yn oreu ac yn gyntal a hwnw a gyfrifwn yn gwsmer goreu, y hwn yr ydym yn gobeithio a fydd yn dalw goreu. Os meddyliwn y bydd Duw felly, a adawn bob peth i wneuthur ei waith. Hyn a wnaeth i Paul ymrwymo mor befydd ngwasanaethu yr efengyl, hyd yn oed: golli ei holl gyfeillion daearol a gosod ei chioes mewn enbydrwydd; gobaith yr addewid oedd yn ei olwg: *Act.* xxvi. 6. Hyn a barodd i'r Israeliaid ereill oedd yn ofni Du ganlyn y gorchwyl o dduwioldeb mor ddy (*adn.* 7): "I'r hwn addewid y mae ein deuddeg llwyth ni heb dor yn gwasanaeth Duw nos a dydd, yn gobeithio dyfod. Crafwch, y maent yn ddyfal ac yn ddiarwadad; yn rhedeg mewn llawn brys; y ymgnio megys mewn gyrfâ, a hyn nos dydd, heb sefyll na gorphwys ar y ffordd."

d yn cyrchu ym mlaen o hyd. A pha th sydd yn eu cadw mewn anadl? Yn r, y gobaith o feddiannu o'r diwedd yr hawdwriaeth a addawyd. Nid oes dim well na gobaith wedi ei gryfhau a'i iawn dnyddio, er rhyddhau yr enaid oddi wrth fflem afiach o syrthni a difaterwch yng wasanaeth Duw. Y physygyriaeth pendol y mae yr apostol yn ei fawr ganwl at yr afiechyd hwn (*Heb. iv. 11, 12*): Yr ydym yn chwennych fod i bob un o noch ddangos yr un diwydrwydd, er vyn llawn sierwydd gobaith hyd y diw-d: fel na byddoch fusgrell."

DOSB. IV.

4ydd. Y mae gobaith yn codi yn y Crist-awydd duwiol am bellach cyrhaeddiad-, yn enwedig pan y tyfo i beth nerth. Po haf y cyfyd ein gobaith am iachawdwrt-h, mwyaf yr ymeanga ein calonau mewn maniadau sanctaidd (*Rhuf. viii. 23*): "Ac l yn unig y creadur, ond ninnau hefyd, y ai sy genym flaenffrwyth yr Ysbryd, yr ym ninnau ein hunain hefyd yn ocheni-lyf, sef prynedigaeth ein corph." Gall- i feddwl y byddai llawenhau am yr hyn sy nddynt eisoes yn fwy gweddus i'r rhai n nag ochain am yr hyn nid oes ganddynt. wy sy haws iddynt aros yn hir heb eu cin- w na'r rhai a gawsant bryd da yn y boreu? yma y modd y mae yn naturiol, ond nid ysbrydol. Diammheu bod meluser y aenffrwyth a brofasant wedi lloni eu hys- ydoedd, ond y meddyliam am yr hyn oedd ol a barodd iddynt ocheneidio. Y mae baith yn disgwyl am y cwbl; ac nis gâd enaid eistedd i lawr yn foddllawn nes y ddo y dysglau ar y bwrdd—holl frwyth aes yr addewid wedi ei fedi a'i gasglu i ewn. Iê, po mwyaf fyddo y Cristion wedi dderbyn mewn ffordd o ernes, dyfnaf dd yr ocheneidiau a bâr gobaith i'r enaid rchu am yr hyn sydd yn ol. A hyny (Iaf.) Am fod y blaenbrawf yma yn vneud y Cristion yn fwy cydnabyddus â wenydd y nef; ac felly yn helaethu ei leall, i ddirnad yn well am y dedwyddfyd fwyneir gan y rhai sydd wedi cyrhaedd o. Ac y mae yn rhaid i chwaneigiad ei ybodaeth helaethu ei ddyuniadau, ac i'w lymuniadau dori allan yn ocheneidiau wrth ddwl am y gwin melus, yn phiolau llawn, ff y saint mewn gogoniant, tra y mae efe a byw lle nid oes ond diferyn i'w gael, yr yn nid ydyw yn ei ddigoni, ond yn eunyn syched. Mae yn haws, bellach, i hwn w y tu yma i'r nef na chyn iddo wybod mmaint. Tebyg ydyw i un yn sefyll wrth lws, a thu mewn iddo liaws yn eistedd rth wledd fras : y mae yn eu clywed, mor awen ydynt; trwy dwll y clo y mae yn weled yr amrywiaeth sydd o'u blaenau; ac rth yr ychydig y mae yn ei lyfu ar y

dysglau a ddygir allan, y mae yn deall y fath ddanteithion sy ganddynt. O! fely chwen-nych hwn am ran o'u harlwy, tra y mae un arall yn ddfater am dano, sydd heb glywed neu wedi clywed yn unig ac heb brofi o'u gwledd. Po nesaf fyddo enaid i'r nef, a pho mwyaf a wypo am ei dedwyddwch, mwyaf fydd ei hiraeth am newid ei fyd. Nid oes neb yn gwaeddi mwy am y nef na'r rhai sydd yn mwynhau mwyaf o honi : mae pob oed yn faith yng ngolwg y rhai hyn. Eu cwyn barhaus yw, "Pa ham yr oeda ei gerbyd ddyfod? pa ham yr arafodd olwyn- ion ei gerbyd?" Y mae y flwyddyn olaf yn ymddangos yn hwy i'r prentis na'r holl am- ser o'r blaen, am ei fod ef yn awr yn nes i ddyfod yn rhydd. Ac os ydyw oed mor flin i'r enaid yma, pa beth ynte yw colli llewyrch gwynebryd Duw, pryd y mae ei obaith am iachawdwriaeth wedi cynnyddu trwy gyf- raniad melus yr Ysbryd ac aml faenbrawf o ogoniant? Diammheu fod marwolaeth i Moses, mor agos i Ganaan, ar ol profi o frwythau y wlad gan yr ysbïwyr, mewn ys- tyriaeth, yn dra anhawdd i'w chroesawu. Y mae colli plentyn wedi tyfu i fyny, pau fyddom megys ar fedi ein disgwyliad oddi wrtho, yn fwy na cholli dau yn y cryd, pan fyddo ein gobaith yn eu cych heb eu hir feithrin. Ni ddichon y Cristion, y mae yn wir, golli ei obaith yn llwyr; etto, gall ei obaith gael ei wanhau a'i ddal yn ol, fel gwanwyn cynnar gau weddillion o hin oer, yr hon sy'n gwasgu yn fwy am fod gwres yr haul o'r blaen wedi peri i'r llysiâu dori allan. Ac felly y mae colli gwynebryd Duw yn gwneuthur yr argraph fwyaf athrist ar y rhai hyny, yn anad neb, sydd â'u disgwyliad wedi myned ym mhell, a'u prawf o ddaioni Duw wedi eu dysgu i law- enhau dan obaith gogoniant. Bod i'r enaid, yn awr, gyfarfod â darostyngiad dan w'g yr Hollalluog, a'i roddi i rodio mewn ty- wyllwch trwy attaliad o'r llewyrchiadau nerthol a fu arno : O mor ddychrynlyd y rhaid i'r cyfnewidiad disymmwth hwn fod iddo!

(2il.) Mae y cyrhaeddiadau yma o ras neu gysur yn calonogi yr enaid i ddisgwyl ehwaneg etto; ac felly yn cyffro y Cristion i ymwastgu ym mlaen am gyflawn wobr. Gwelwch yn Dafydd, *Salm lxxiii. 7*; "Canys buost gynnorthwy i mi; am hyny yng nghysgod dy adenydd y gorfoleddaf." Mae y rhodd bresennol yn ei osod i lawenhau mewn gobaith o'r hyn sydd etto i ddyfod; a thrwy effaith hyn y mae yn llawn awydd am chwaneig, fel yr ymddengys wrth ei eiriâu nesaf (*adu. 8*), "Efy enaid a lŷn wrthyt." Ac nid rhyfedd, os ystyriwn fod y profiadau a rydd Duw i'w bobl, â'r amcan yma yn ar- graphedig arnynt, sef i godi disgwyliadau ynddynt am drugareddau yn chwaneig oddi ar ei law; "Ac mi a roddaf iddo ei gwin-

llanoedd o'r fan hono, a dyffryn Achor yn ddrws gobaith;" *Hos. ii. 15.* Adrodd y mae Duw yno wrth enaid dychweledig newydd ei ddwyn i mewn i'r cyfammod, y fath fendithion a gyfrana efe arno fel yr hapus ganlyniad o'i gymmod â'r nef, a'i briodas â Christ; ac y mae yn bwrw at ei ymdriniaeth âg Israel, y rhai a ddaethant allan o'r anialwch diffaeth (lle y crwydrasant ddeugain mlynedd mewn cyni mawr) i wlad hfyryd a ffrwythlawn; a'r ddyfodfa gyntaf iddi oedd yr Achor yma, yr hwn, pan roddodd Duw ef iddynt, ni fynai iddynt edrych arno fel yr oedd ynddo ei hun yn ddernyn bach o dir, ac heb fod yn werth llawer, ond fel drws yn cael ei agor, trwy yr hwn yr oedd efe yn cymmeryd mewn llaw eu harwain i feddiannu yr holl dir. Ac wrth gredu hyn y darfu i Iosuah, ac Israel ddwyn eu banerau ym mlaen gyda'r fath galondid yn erbyn y balchaf o'u gelynion, gan wybod yn dda nas gallai dyn gau y drws i'w herbyn gan fod Duw wedi ei agor o'u blaen. Fel hyn, y mae pob cyn-northwy beillduol a roddo Duw i'r Cristion yn erbyn unrhyw lygredd, yn cael ei fwr-iadu ganddo fel drws gobaith, oddi wrth yr hyn y gall yr enaid ddisgwyl am lwy'r ddi-nystr yr hil felldigedig o'i fewn. Pan fyddo Duw yn chwaneu y gradd lleiaf at ein gras neu ein cysur, y mae yn rhoddi i ni Achor, neu ddrws gobaith, y bydd iddo ber-ffeithio y dda mewn gogoniant. O! y fath galondid sydd yma i ti, enaid tlawd, yn dy ofnan a'th lewygyfeydd! Yr oedd gan Paul lawer o elynion i'w wrthwynebu yn Ephesus; ond wedi "wedi agoryd iddo ddrws mawr a grymus," er ei annogaeth, fe aeth ym mlaen yn hyf: *1 Cor. xvi. 9.* Fel byddin, pan (ar ol gwrthwynebiad caled gan eu gelynion, sydd yn ymdrechu eu cadw allan) y mae drws neu borth y ddinas yn cael eu tafu yn agored, y milwyr ar hyn a wasgant i mewn gyda brys, gan floeddio, Nyni biau y deyrnas. Felly, ar ol hir la-furio a mawr ymdrechu â Duw am faddeu-ant pechod, neu nerth yn erbyn pechod, pan daslo drws yr addewid yn agored, ac y daw Duw i mewn â gradd o'i bresennoldeb cyn-northwyol a chysurol; yn awr, y mae go-baith yn bywiocau ac yn peri i'r enaid ddi-lyn ei orchwyl gyda sel a gwroldeb dau ddyblyg.

PENNOD IV.

Yn dangos y modd y mae gobaith yn gwneuthur y Cristion yn hollol foddlaun ar ac yn y lle gwaelaf a'r gwasanaeth iselaf a appwyntia Duw iddo.

2. MEGYS y mae gobaith yn codi ysbryd y Cristion i ymgais am wneuthur pethau ar-

dderchog, felly y mae hefyd yn ei wneud y ffyddlawn yn y gwasanaeth gwaelaf ac iselaf galwo rhagluniaeth Duw ef iddo. O herwyd yr un Duw sy'n trefnu i bob dyn ei wait a'i alwad ag sydd yn trefnu eu preswylfo ar y ddaear. Mae yn gosod rhai ar uchaf fanau y ddaear, ac yn appwyntio iddynt o chwyllion anrhydeddus addas i'w lle. Ereil a esyd efe ar dir is, gan eu gorchwynu mewn rhyw gongl dywell i ymarfer â gwaith sydd waelach dros eu holl fywyd; ac nid o achos i neb o honom gywilyddio gwneuthur y gorchwyl y mae y Duw mawr yn ei osc arnom. Gair gwir sy gan yr Italiad:—"Ni oes neb yn diwyno ei ddwyllaw wrth wneud ei wait ei hun." Yn awr, i galonogi pob Cristion i fod yn ffyddlawn yn ei le ei hun fe roddodd addewidion sy berthynol i baw o'ly'r cyfryw. Mae yr addewidion yn debyg belydr yr haul, yn tywynu mor nerthol ffenestr bwthyn y tlawd a phalas y brein. Ac â'r rhai hyn y mae gobaith yn masnachu gan eu defnyddio er calondid i'r Cristion y ei orchwyl. Yn wir, y mae ein ffyddlonde yn ein galwedigaethau yn ateb i raddau ei ffydd a'n gobaith. Yn awr, gellwch sylw fod Duw yn llunio ei addewid, fel y gall gryfhau ein dwylaw a'n calonau yn erbyn digalondid sydd yn fwyaf tebygol i'w gwarhau yn eu galwedigaethau. Y digalondid perthynol i alwad uchel a chyhoeddu swyddogion a gweiniidogion yw anhawsde y gorchwyl, a'r gwrthwynebiad a gânt odo wrth fyd digllawn. Gan hyn, y mae rhai hyn yn cael eu hamgylchynu â'r fat addewidion ag sy gymmhwys i gadarnha eu calonau yn erbyn grym a chynddared byd gwrthwynebus:—"Ni'th adawaf ac ni'th wrthodaf; ymgryfhâ ac ymwrola," med Duw wrth ben-swyddwr Israel: *Ios. i. 5.* (Ac nid annhebyg yw addewid y gweiniidog gan ei fod yn y cyffredin yn cael y cyffely elynion, anhawsderau, a digalondid; "Ewe a dysgwch yr holl genhodloedd... Ac wel yr ydwyf fi gyda chwî bob amser hyd ddiweddyd y byd;" *Mat. xxviii. 19, 20.* Drachef y demtasiwn sydd yn arferol o ddilyn dynion mewn galwedigaethau is, yw eu gwagder hwynt, yr hyn sydd yn peri anfoddlonrwyd a chenfigen mewn rhai, wrth edryc arnynt eu hunain ar y llawr, a'u brawd wedi ei ddyrchafu i wasanaeth aurhydeddusach a thrymder ysbryd mewn ereill, fel pe baer hwy, megys yr eunuch, yn brenau crinio (*Esa. lvi. 3.*), yn anfuddiol, ac heb ddwyn ar rhydedd i Dduw, tra y mae ereill mewn lle oedd mwy uchel yn gogoneddu llawer a Dduw yn eu cenhedlaethau. Yn awr, i arddogi y Cristion yn y brofedigaeth yma, ac ymmudd ei ddigalondid, y mae Duw yn y addewid wedi rhwymo cymmaint gwob wrth ffyddlondeb yr alwedigaeth waelaf, a wrth y fwyaf aurhydeddus. Pa orchwyl mwy gwael nag sydd gan weision? Ette

id oes dim llai na'r nef ei hua yn cael ei addaw iddynt, os yn ffyddlawn. Yn *Col.* i. 23, 24, dywedir wrth y cyfryw, "A ha beth bynag a wneloch, gwnewch o'r don, megys i'r Arglwydd, ac nid i ddyn, gan wybod mai gan yr Arglwydd y dermwych daledigaeth yr etifeddiaeth; canys yr Arglwydd Crist yr ydych yn ei wasanathu." Sylwch yma yn gyntaf, Pa anydedd y mae yn ei roddi ar swydd y gwasawd; "Yr Arglwydd Crist y mae yn ei wasanathu." Iē, yn y gorchwyl iselaf sydd na perthyn i'w swydd; y mae ei drafferth penus yn wasanaeth i Dduw, yn gystal a'i eddio a'i wrandaw; o herwydd fe ddywed, pa beth bynag a wneloch." Sylwch drahefn ar y wobr a gedwir i'r cyfryw: y mae hono gymmaint ag a dderbyn y neb a fu yddlawn wrth reoli teyrnasocedd; "taledigaeth yr etifeddiaeth." Fel pe dywedasai tuw, O fy mhlentyn! paid a syrthio allan th orchwyl gwladaidd a gwael; cyn byddo i'r, ti gei eistedd mor uchel a'r brenin; er nad oes genyt un swydd ag ef, to y mae dy dderbynnyd yr un, a bydd dy wobr felly hefyd. Fel hyn gwelwn, megys y dydym ni yn gosod chwaneg o barch yng ghylech yr aelodau o'n corph a dybiwn ni na ammharchediacaf; felly y mae Crist yn addewid yn gosod chwaneg o barch yng ghylech yr aelodau hyny o'i gorph yntau, y nai o herwydd iselder eu lle yn y byd a allant gael eu cyfrif yn fwyaf diystyredig. Pa bynag y byddo gobaith yn fywiog, y mae yn ammhossibl i'r Cristion lai na bod yn hyfryd iawn arno gan y fath ddiawlyliad. Iē, gwna hyn i'r gwr tlawd wrth aradr (os bydd yn wir rasol, ac yn aredig ewn gobaith o fedi iachawdwriaeth) fod o'r foddllawn i'w le a'i alwad ag ydyw gwr llysgwyfach. Meddylwch am hyn, pan ddo neb o honoch am ddewis gwasanaeth; os ydych am i'ch gorchwyl gael ei neud yn ffyddlawn ac o'r galon, rhoddwch yn nwyllaw y rhai a feddant obaith iachawdwriaeth, os gellir cael y cyfryw. Bydd y helm yma eu cadw hwy rhag gwneuthur am a' chwi er cael cyfle. Yr oedd Iacob na ymboenwr ffyddlawn dros ei feistr, aban, ddydd a nos, er nad oedd efe yn noddi y driniaeth oreu wrth newid ei gyfngmor fynych; ond gwasanaethu mewn obaith yr oedd Iacob, a disgwyl ei wobr an well meistr na Laban: a hyn a'i gwnaeth yn ffyddlawn i ddyn anffyddlawn. Ioseph yntau, ni fynai nweud cam a'i feistr, er ei emtio gan ei feistres: fe ddewisodd ddi-dddef ei wng anghyfiawn ef, yn hytrach na throesawu ei chariad anniwair hi. Y mae rwydd eglur o'r gras yma mewn gwasanaethwr yn well sicrwydd am ei ffyddlondeb na rhwymedigaeth (*bond*) o fil o unnau.

PENNOD V.

Yn dangos yr effaith gref sydd gan obaith ar y Cristion, i'w gynnal mewn cystuddiau, yn enwedig pa help a rydd, a pha fodd.

3. MAE y gobaith yma o iachawdwriaeth yn cynnal yr enaid yn y cystuddiau mwyaf. Amynedd y Cristion yw ei gefn ef, fel pe byddai ar yr hwn y mae yn dwyn ei feichiau; ac y mae rhai cystuddiau mor drymion, fel y mae yn rhaid iddo wrth un lled lydan i'w ddwyn yn hwylus. Ond oni esyd gobaith glustog yr addewid rhwng ei gefn a'i faich, fe fydd y groes leiaf yn anhawdd i'w dioddef; am hyny, y mae yn cael ei alw yn "ymaros ein gobaith;" i *The.* i. 3. Mae math o amynedd, yr wyf yn addef (ac nis gwyr llawer am un gwell), pan y mae dynion yn gweithio eu hunain i ryw fath o lonyddwch yn eu blinderau, o herwydd nas gallant wrthynt ac nad oes gwell i'w gael. Dyma amynedd anobeithiol, fel y gallaf ei alw, ac fe ddichon fod o ryw ddefnydd iddynt dros ychydig, a dim ond dros ychydig. Pe bai anobaith yn feddyginiaeth dda mewn blinderau, fe gaffai y damnedigion fwy o esmwythdra, o herwydd y mae ganddynt ddigon o hwn pe gwai les iddynt. Y mae amynedd arall yn gyffredin iawn yn y byd, a hwnw yn amynedd hurt a dideimlad; yr hwn, fel llawenydd Nabal, ni phery ond tra y byddont yn feddwon gan anwybodaeth ac ynfydrwydd. O blegid cyn gynted ag y delont atynt eu hunain, i ddeall y cyflwr y maent ynddo, dyna eu calonau yn meirw o'u mewn. Ond y gwir amynedd yr ydydym ni son am dano sy ras dirif, ac yn cydbarhau â gobaith. Pan fyddo gobaith yn fywiog a gweithgar, y mae yntau yn nofio, iē, y dawnsio mewn tralod, fel llong ddi-agen ar fôr tymmestlog; ond pan wanhao y gobaith, dyna y tonau yn tori i mewn i fynwes y Cristion, ac y mae yn dechreu suddo, hyd nes y caffo gobaith eilwaith, trwy lawer o lafur, afael yn yr addewid, i'w godi uwch law y dwfr. Hyn ydoedd cyflwr Dafydd (*Salm* lxix. 1); "Achub fi (medd efe), canys y dyfroedd a ddaethant i mewn hyd at fy enaid." Pa beth yw ei feddwl wrth ddyfod i mewn hyd at ei enaid? Yn sier hyn, bod blinderau yn gwasguar ei ysbryd; ac megys yn mynu eu ffordd hyd yn oed i'w gydwybod, gan godi ofnau a phetruser yno o herwydd ei bechodau, nes rhoddi ei ffydd a'i obaith mewn peth anhrefn, fel nas gallai dros dro ganfod diwedd cyrusur i'w gystudd, ond soddi megys dan ddwfr, yn orchuddiedig gan ofnau, fel yr ymddengys oddi wrth yr hyn a ganlyn (*adn.* 2); "Soddais mewn tom dwfn, lle nid oes sefyllfa." Y mae yn cyffelybu ei hun i un mewn siglen, yn methu cael gwaelod. A chraffwch o ba le y daeth ei flinder, a pha fodd y daeth y dyfroedd i mewn (*adn.* 5); "O Dduw, ti a adwaenost fy ynfydrwydd; ac nid yw fy

nghanweddau guddiedig rhagot." Yr oedd y gwr duwiol yma dan ryw euogrywydd newydd; a hyn a'i gwnaeth mor anghysurus yn ei gystudd. Yr oedd yn gweled ei bechod yn ngwyneb ei drallod, ac yn profi maeu o'w gw Duw o'i herwydd; a hyny a wnaeth y belen mor chwerw. Ac am hyny, pau unwaith yr ymostyngodd mewn cyffes alarus o'i bechod, ac y cafodd awyr ryddrhyngddo a'r nefoedd, fel ag i allu credu maddeuant o'i bechod, a gobeithio am newyddion da drachefn oddi wrth Dduw; yna, y mae yn ail gaffael ei dymmer felus, ac yn gallu cauu yn yr un cystudd lle yr oedd o'r blaen yn soddi.

DOSB. I.

Ond yn fwy neillduol, yr wyf i ddangos pa effaith nerthol sy gan obaith y Cristion mewn cystudd; a pha fodd? Yn gyntaf, Pa effaith sy ganddo?

Iaf. Y mae yn ei lonyddu dan gystudd. Fe geidw heddwch yn y galon; yr hon, yn amgen, a fyddai yn fuan mewn terfysg. Anhynaws iawn fydd enaid heb obaith: un pryd, fe gyhudda Dduw; bryd arall, fe ymsena âg offerynau. Nis gall orphwys yn hir; ac nid rhyfedd, tra y byddo gobaith heb fod yno i'w siglo i gysgu. Y mae gan obaith allu hynod i lonyddu ysbryd anynad, pryd nad oes dim arall a'i gwna; fel y gall y fam ddistewi cri y plentyn wrth roddi ei bron iddo, pryd y mae y wialen yn peri iddo waeddi mwy. Dyma y ffordd a gynmerodd Dafydd, ac fe'i cafodd yn dycianniol. Pan y mae ei enaid yn aflonydd o herwydd ei gystudd presennol, y mae yn ei osod wrth fron yr addewid; "Pa ham, fy enaid, y terfysgi ynof; gobeithia yn Nuw;" *Salm* xliii. 5. Ac yma y mae ei enaid yn cael hŷn melus, fel y plentyn â'r fron yn ei safn. Ac mai hon oedd ei ffordd arferol ef, ni a allwn feddwl wrth yr aml esauplau a gawn i'r perwyl yma. Yr ydym yn ei gael yn cyumeryd y ffordd hon dair gwaith mewn dwy *Salm*, y xlii a'r xliii. Pan fu Aaron a Miriam mor anfoesol wrth Moses, ac yn arfer iaith mor anweddaidd am dano (*Num.* xii), diammheu ei fod yn ofid bliu i ysbryd y gwr sanctaidd hwnw, ac yn chwaneigad i'w dristwch, i ystyried o fwa pwy y daeth y saethau llymion; etto, tewi wnaeth Moses, gan ddisgwyl wrth Dduw am ddwyn ei ddiuniweidrwydd i'r goleu. A diammheu fod ei amynedd wedi ennyn sel Duw yn fwy o'i blaid, wrth weled y gwr llariaidd hwn yn cael cam, yr hwn a feiddiai ymddiried iddo am ei enw da; a buan y schodd efe ymaith y budreddi a dafasant hwy arno, cyn y gallai beri rhagfarn ato ym meddyliau ereill. Yn wir, y mae gradd fawr o'r disgwiliad yma wrth Dduw am ymwared o drallod, yn sefyll mewn duwiol ddistawrwydd (*Salm* lxii. 1): "Wrth Dduw yn unig y disgwyl fy enaid; o hono ef y daw fy iachawdriaeth;" neu,

fel y mae yr Hebraeg, Y distawa fy enaid Trugaredd fawr, mewn cystudd llym, ydyw cael ein synwyrâu corphorol, i'n cadw yn llonydd heb wylltio a gorphwyllo, ond trugaredd fwy yw cael y galon yn ddistaw a amyneddgar. Y mae yn amlwg fod mawr hawdd gan y galon fyned i anhymmer a pen. Yn awr, yr hyn ydyw yr ysbwng i'w gwn mawr, pan fyddo yn boeth wrth fyne, saethu o hono, hyny ydyw gobaith yr enaid mewn anlder o gystuddiau; y mae yn tynnu meru ac yn llarieiddio yr ysbryd rhag ofyned yn ddrylliau, a thori allan i feddyliau neu eiriau caledion yn erbyn Duw.

2il. Y mae y gobaith yma yn llenwi y enaid helbulus â'r fath dumewnol lawenydd a chlysur, fel y gall chwerthin tra y mae dagrau yn ei lygaid; ocheneidio a chauu â'n anadl: fe'i gelwir yn gorfoledd gobaith *Heb.* iii. 6. Ac nid yw gobaith un anser y dwyn mwy o orfoledd i mewn nag mewn cystudd. Ar gwmwl dyfrllyd y mae y haul yn tywynu i beri y lliwiau hawddga sy'n yr enfys (*Rhuy.* v. 2, 3): "Yn gorfoledd dan obaith gogoniant Duw: ac nid hyny y unig, eithr yr ydym yn gorfoleddu mewn gorthymderau." Gorfoledd ydyw y grad uchaf o lawenydd, pan y mae mor fawr fe nad oes modd i'w gadw o fewn mynwes. Cristion, ondly myn dori allan mewn rhyf ddangosiad o'i rym, a gadael i creill wybly y fath wledd sydd oddi mewn. Mae hŷn non y cysur yn llawn iawn pan y mae llawenydd yn ymdywallt trwy y genau. A y mae yr holl lawenydd hwn sy'n gwledda Cristion adfydus yn cael ei ddanfoni i mewn gan obaith ar draul Crist, yr hwn a ddarparodd i'w bobl y fath anhraethol ogoniant y y nef ag a'u ceidwr rhag ymollwng dan y gorthymderau sy'n eu cyfarfod ar y ffordd ato. Mae gobaith yn tori bliwch enaid y addewid uwch ben y Cristion, ac felly y taenu ei gysuron ar led yr enaid i'w loni a fywiocau yn ei lewygfeydd; ac hefyd i iachau yr archollion, a symmud y poen y mae o galon ef yn gael oddi wrth ei gystudd. Hyn a ddywed yr apostol yn y lle a enwy eisoes (*adn.* 5); "A gobaith ni chywilyddir am fod cariad Duw wedi ei dywallt yn ei calonau ni." Y mae dau ras uwch law lleill yn cael eu defnyddio gan Grist i lenwi yr enaid â llawenydd, y rhai hyn yw ffydd a gobaith, o herwydd eu bod yn cyrchu e holl win oddi allan. Gwaith ffydd ydyw mynegi i'r enaid yr hyn a wnaeth Crist drosto, a'i ddiddanu â hyny. Y mae gobaith yntau yn bywiocau yr enaid â newyddion am yr hyn a wna efo etto; felly y ddau y tynu o'r un llestr—Crist a'i addewid. Ond y mae y grasusau ereill yn cyflwyno i'r enaid ei addurniadau tu mewol ei hun, yr hyn y mae efe yn ei wnenthur a'i ddiodeff drosto. Grist, yn hytrach na gwaith Crist drosto e, felly ni fyddai yn anrhydeddus i Grist na

ddiogel i'r Cristion ei fod yn tynu ei wenydd o'r llestr yma. Yn lle anrhyddar Crist, byddai yn ffordd i osod ei goron ar ben ei ddeiliaid, a llefain Hosanna i s Crist ymdd, yr hyn sydd yn perthyn yn sig i drugaredd Duw atom; o herwydd y te ein mawl yn sicr o redeg i'r man y mae llawenydd yn tarddu o hono. Ac am hyn, gosodir rhwymau arnom i orfoleddu g Nghrist Iesu, a pheidio ymddiried yn enawd (*Phil.* iii. 3). Ac ni byddai yn fogel chwaith i ninnau, o herwydd anwas- trwydd ein calonau, ac anwadal weithred- ein grasusau, yn treio mor fynych, ac yn nwi, fel nas gallai ein Hawenydd fod yn sson (am nad yw ein grasusau felly), ond i yn rhaid iddo godi a gostwng i ganlyn y ai hyn. Ie, byddem sicr o yfed mwy o wfr nag o win; o fod heb gysur yn fyn- hach nag yn ei feddu. Ond fel y mae awr, ni raid i phiol y Cristion fod th yn wag, am ei fod i dynu ei win o nnon ddihsbydd, nad yw un amser yn fon enaid tlawd ymaith yn ei gwilydd, y gwnai firwd ein tu mewiol ras yn ddi- mheu ryw bryd neu gilydd.

DOSB. II.

Cwest. Ond o ba le y mae gan obaith y inwedd yma? neu pa fodd y mae efe fel n yn lloni ysbryd y Cristion yn ei gys- dd?

At. Iaf. Y mae gobaith yn dwyn new- dion sicr am ganlyniad dedwydd a iachâ fyr yr holl archollion a achosir gan ei ddi- deifiadu presennol. Pan ddelo Duw i hub ei weision cystuddiol, er y gall efe yfod cyn yr amser yr oeddynt yn go- ithio, eto nid yw yn dyfod heb fod dys- rlyliad am dano; iachawdwriaeth yw yr n y mae eu llygaid arno (*Ier.* xxix. 11); Myfi a wn y meddyliau yr wyf fi yn eu eddwl am danoch chwi, meddyr Arglywydd, meddyliau heddwch ac nid niwed, i roddi i wi y diwedd yr ydych yn ei ddisgwyl." Yny yw, diwedd cyfatebol i'ch gobaith h disgwyliaidau. Y mae gobaith yn ras aff ei lygad; gall ganfod tu hwnt i allanol efniadau rhagluniaeth: ie, trwy help yr dewid, gall ysbio i fynwes Duw, a darllen meddyliau a'r bwriadau sydd ganddo yng hylch cyflwr neillduol y Cristion, a hys- su hyn iddo, gan beri iddo beidio ym- ho am fod Duw yn lefaru mor arw wrtho iaith ei ragluniaeth; o herwydd, medd gobaith, yr wyf yn sicr ei fod yn bwriadu dda i ti, pa fath bynag yw sain ei ddi- hr weithred. Fel nas gallai y ddeddf (a aeth gannoedd o flynyddoedd ar ol yr dewid i Abraham) ddiryu yr addewid, ly nis gall cystuddiau sydd yn cyfryngu neuthur bwriadau ei gariad yn ofer, y rhai gymmerodd le mor fore er ymwared ac iachawdwriaeth i ti. Yn awr, y mae yn aid i'r fath un feddu mantais fawr, uwch

law ereill, at dawelu a boddloni ei ysbryd yn achos ymdriniaeth bresennol Duw tuag ato. O blegid er i ragluniaethau allanol Duw fod yn chwerver iddo, y mae efe yn gydnabyddus âg amcan y nef yn hyn; y mae yn cael ei arwain i'r ystafell wisgo—ei ddir- gel gynghor—lle y mae yn gweled gwisg- oedd yr iachawdwriaeth yn cael eu paratoi, yn y rhai y caiff efe o'r diwedd ymddangos mewn gorfoledd. Pan ddelir ymdeithydd gan wlaw, gall sefyll yn amyneddgar dan gysgod pren, am ei fod yn gobethio nad yw ond cawod, ac yn ei gweled yn oleu yn un rhan arall o'r fûrfafen, tra y mae yn dywyll yn y llall. Yr wyf yn sicr nad yw rhag- luniaeth un amser mor dywyll a chymmylog fel nas gall gobaith ganfod hin deg yn dyfod o'r addewid: "Pan ddechreuo y pethau hyn ddyfod, edrychwch i fyfny, a chodwch eich penau; canys y mae eich ymwared yn nes- au;" *Luc* xxi. 28. A diwrnod mor ddu yw hwnw ag a all ddyfod. Pan fyddo materion y Cristion yn fwyaf digysur, buan y gall gyfarfod â chyfnewidiad hapus. Yn ddi- symmwrth y daw gorfoledd y dydd gwyn- fydedig hwnw (*1 Cor.* xv. 51); "Ni a new- idir oll mewn moment, ar darawiad llygad."

Y moment yma yn glaf ac yn athrist, yn y nesaf yn iach a llawen, byth i wybod mwy am riddfanau na dagrau. Yn awr mewn bratiau o gnawd marwol, yng nghanol mil o ofidiau sydd yn ei ddilyn, ac mewn tarawiad llygad wedi gwisgo anfarwoldeb, yn fil gogoneddusach m'a'r haul ei hun, sydd yn awr yn rhy ddisglær i'n llygaid edrych arno. "Nid ydyw ond tarawiad amrant," ebe merthyr duwiol yn y tân wrth ei gyd-ddi- oddefydd "ac fe fydd ein poen a'n gofid i gyd drosodd." Pwy all ryfeddu wrth sir- ioldeb Cristion yn ei gystuddiau, os edrychir pa newyddion da y mae yn disgwyl eu clywed o'r nef, a pha mor fuan nis gŵyr? Fe allai i chwi glywed am yr ar-eli, ei fod yn gwellau archollion o bell; ond dyma y fath eli yw gobaith. Mae gobaith y saint yng nghadw yn y nef, ac etto y mae yn iachau eu holl archollion ar y dddear. Ond nid hyn yw y cwbl; o herwydd megys y mae gobaith yn prophwydo yn dda am ddiw- edd hapus i holl ofidiau y Cristion, felly y mae hefyd yn ei sicrhau ef y caiff edrych yn dda ar ei ol tra y mae yn gorwedd danynt. Os denfyn Crist ei ddisgyblion i'r môr, y mae yn meddwl bod gyda hwynt pan fydd- out fwyaf mewn diffyg o'i bresennoldeb. Gall y plentyn iach gael ei adael am dro gan ei fam; ond yr un claf ni edy hi ar un cyf- rif: "Pan elych trwy y dyfroedd, myfi a fyddaf gyda thi;" *Esa.* xliiii. 2. Chwi a wyddoch pa beth a ddywedodd Duw wrth Moses pan oedd glaf o'i wasanaeth, ac yn gwneuthur cynnifer o esgusodion moesgar (neu anfoesgar yn hytrach) oddi wrth ei anghymhwysder; a'r cwbl i edrych a gaw-

sa'i genad i roddi y gorchwyl o'i law. Dos, medd Duw (*Ecsod.* iv. 12), "a myn a fyddaf gyda'th onau, ac a ddysgaf i ti yr hyn a ddywedych." A thrachefn (*adn.* 14), "Onid dy frawd yw Aaron y Lefiad? Mi a wn y medr cfe lefaru yn groew; ac wele efe yn dyfod allan i'th gyfarfod." Dyma fel y calonogodd Duw ef, gan ei ddenu ym mlaen i goffeidio y swydd anhawdd y galwyd ef iddi. Mi dybygwn fy mod yn clywed gobaith, fel cenad Duw, yn llefaru yn debyg i hyn wrth yr enaid llesg, sydd yn cael ei wasgu i lawr gan feddyliau am ryw drallod blin, ac yn barod i benderfynu nas gall efe byth wynebu y ffaith ffrwd arw, a chodi ei ben yn gysurus uwch law y fath llesiant tonog. Dos, O fy enaid, medd gobaith, o herwydd fe fydd Duw gyda thi, a chei fil-wrio ar ei draul ef. Onid dy frawd ydyw Iesu Grist? Iē. Onid dy briod yw? Gall efe, ti a wyddost, dy ddysgu i ddiodeff, o herwydd fe fu yn ymarfer â'r gwaith o'i gryd i'w groes; ac wele ef yn dyfod allan i'th gyfarfod dan lawenychu wrth weled dy wyneb, ac yn barod i'th ddysgu yn y gorchwyl o ddiodeff. Rhaid i'r dyn hwnw, yn wir, fod yn brudd ei galon wrth fyned i gar-char, yr hwn ni w'yr pa fodd y caiff ei gynnal yno, na'i wared chwaith oddi yno. Ond fe esmwythâ gobaith y ddau ddolur yma; ac wedi hyny bydd diodeff yn beth diniwed ac yn ddiachos ei arswydo.

(2il.) Fe wna gobaith nid yn unig sicrhau i'r Cristion fod iachawdwriaeth yn dyfod, ond hefyd fod gogoniant yr iachawdwriaeth hon mor fawr, fel nad yw alaeth ei ddiodeffadau presennol i'w gyffelybu i'w llawenydd hi. Hyn a gadwodd y prif Gristionogion rhag llesmeirio, tra yr oedd eu gelynyon yn gollwg eu gwaed. Arogl y gobaith yma oedd ganddynt i loni eu hysbrydoedd (2 *Cor.* iv. 16); "O herwydd pahan nid ydym yn palls; eithr er llygru ein dyn oddi allan, er hyny ein dyn oddi mewn a adnewyddir o ddydd i ddydd." Onid yw hyn yn rhyfedd, bod eu bywiogrwydd a'u calonid yn cynnyddu wrth gollu eu gwaed! Gwelwch y ddiod adfywiol ryfedd oedd ganddynt (*adn.* 17): "Canys ein byr ysgafn gystudd ni sydd odidog ragorol, yn gweithredu tragwyddol bwys gogoniant i ni." Y mae yma wahaniaeth i'w weled rhwng gobaith y nef a gobaith daearol. Yr olaf sy ddychymmygol a disylwedd; yn ymddangos yn bwysig o bell, ond yn ddim mewn llaw; fel afal Efa, yn deg mewn golwg wrth grogi ar y pren, ond yn sur ei nodd, ac yn ddrwg am faethu. Nid yw, fel y dywedodd un yn gymhwys am dano, ond dim rhwng dyn yw ddysgl. Da fyddai pe gallai dynion, yn eu gobaith daearol, gyrhaedd at gyfrif y goruchwylwr anghyfiawn, ac yn lle caent o bleser u a addawant iddynt eu huanain i'w mwynhau, pe caent yn y diwedd

dddeg a deugain. Och! nid oes le iddy ddisgwyl marchnad mor dda, na chael tri iaeth mor deg a hyny, gan fod iddynt wnelont â'r creadur; yr hwn a fydd yn si o'u somi yn llawer tostach. Hwy allant, mynant, ymfendithio dros ennyd yn eu gobaith, fel y gwna y llafurwr, weithiau, yn olwg hardd o fy sy ganddo ar ei dir; o'erbyn y medont y cniwd ac y dyrnont eu gobaith allan, ni bydd' ganddynt nemawr o gwellt ac ūs, gwagder a gwagedd wedi ei aael iddynt; tâl gwael iawn yn wir am war eu hamser arno; a thra anaddas i wnelont i fyny y golled a gafodd eu cydwybodau. herwydd prin y mae un heliwr gwangous ol mwyniant y byd, a'r sydd yn trin y gelyddyd fydol yma heb redeg mewn dyled i gydwybod. Ac yr wyf yn sicr fod hwn yn prynu aur yn rhy ddrud sydd yn ta heddwch ei gydwybod am dano. Ond mae y nef yn ddiagon isel ei phris, oer pob budd anianol, iē, a bywyd hefyd wr ei chael. Pwy a rwgnachai ymadael thyddyn bach tlawd, y fath ag yw ein byw; amserol ni (ac ar yr hwn y mae yr amser bennodwyd yn sicr o ddyfod i ben yn fuan a chael yn ei le y fath etifeddiaeth am by ag sy gan y saint yng ngwlad y goleu. Hyn a barodd i weision ffyddlawn Duw b amser ddwyn eu bywydau yn eu dwylaw; barod i'w rhoddi i lawr. Edrych yr oedd yn "nid ar y pethau a welir, ond ar pethau ni welir; canys y pethau a welir dros amser, ond y pethau ni welir sy di gydyddol;" 2 *Cor.* iv. 18.

(3ydd.) Megys y mae gobaith yn myne i'r enaid am sicrwydd a gogoniant iachawwriaeth y nef, felly y mae hefyd am y gwanaethgarwch anheborol sydd yn ei gy tuddiau i'w ddwyn i feddiannu yr iachawwriaeth hon (*Luc* xxiv. 26); "Onid oes raid i Grist ddiodeff y pethau hyn, a myn i mewn i'w ogoniant?" Fel pe dywedas Crist, pa achos sydd i chwi dristau o herwydd marwolaeth eich meist'r, fel pe bydd eich gobaith wedi ei lwy'r ddiodyddu? On oedd raid iddo ddiodeff? A oedd rhy ffordd arall iddo gyrhaedd adref, a chameddiant o'i ogoniant yn y nef? Ac os na ydych yn rwgnach o herwydd ei ddyrchaiad, peidiwch ymfino mor afresymol ei f ar ben ei daith, er iddo fyned ar hyd llwybr dwfn a lleidiog o ddiodeffaint. A yn ddia y mae y saint i fyned i'r nef i hyd yr un ffordd ag y rhodiodd Crist ynd (*Rhuf.* viii. 17); "Os ydym yn cyd-ddioidd gydag ef, fel y'n cyd-ogonedder hefyd;" o fod iddynt y fantasia yma, bod ei waith yn myned o'u blaen wedi ei gwastatau fel y gellir ei theithio, yr hyn hebdo ef f asai yn amhossibl i ni. Y mae arno eisieu y farn yma am gystuddiau, eu b mor angenrheidiol er ein trosglwyddo ogoniant, ag yw dwfr i ddwyu y llong

orthladd (a chystal y gallai hi'nofio heb dwfr a sant gyrrhaedd y nef heb help cystuddiau, fel moddion yn eu lle). Y farn ma wedi ei hiawn argraffu ynoma a wna'i meddyliau yn heddychol a'r cystuddiau swyaf, ac a wna'i i ni rodio yn hyfryd i eu cyfeillach. Y mae Parisiensis yn llw y wybodaeth yma yn un o'r saith pellir o wybodaeth ddwyfol: ac o ddiffyg hon llwn y da yn ddrwg, a'r drwg, yn dda; a meddylwn fod Duw yn ein benthithio pan yddo haul llwyddiant yn tywynu arnom, ac i ein melldithio pan y byddo ychydig o ymmlau adfyd yn ein gorchuddio. Ond y mae gan obaith lygad a all edrych i'r nef ar liwrnod cymylog, ac angor a all gael tir led i ymaflyd ynddo dan bwys o ddyfroedd gall ddisgwyl am dda allan o ddrwg. Y gwedir fod yr Iuddewon yn agor eu ffenestri pan fyddo taranau a meltt, gan ddisgwyl, meddant, i'w Messiah ddyfod ar y fath amser atynt. Ac yr wyf yn sier fod obaith yn agor ei ffenestr yn fwyaf llydan o ddydd o ystorm a thymmestl (*Seph.* iii. 2): "Gadawaf ynot hefyd bobl druain lodion, ac yn enw yr Arglwydd y gobeithiant hwy;" a *Micah* vii. 7: "Am hyny, mi edrychaf ar yr Arglwydd; disgwyliaf wrth Dduw fy iachawdwriaeth: fy Nuw m gwrendy." Gwelwch y fath afael gref mae angor gobaith yn ei gymmeryd; ac y mae yn "Am hyny" hynod iawn, os craffich ar y lle. Am fod holl faterion yr glwys yn y fath wedd enbyd ag y cewch wynt yno (yn marn dyn) "am hyny," medd y prophwyd, "mi a edrychaf; disgwyliaf." Yn wir, nid yw Duw yn cymymered y fwyall i'w law i naddu ysglodion. "E all ei bobl ddisgwyl pan fyddo efe yn eu addu, a'i fwyall yn myned ddyfnaf, y daw i'w ddarn hardd o waith o'i law. Myfyrod melus sy gan Parisiensis ar *Rhuf.* viii. 8: "Ni a wyddom fod pob peth yn cydweithio er daioni i'r rhai sy'n caru Duw." Pa le, O! fy enaid, y dylt fod yn fwy oddlawn a diofn, nag ym mysf dy gydweithwyr a'r rhai sydd yn dyfod i'th gynorthwyo i gyrrhaedd yr iachawdwriaeth a'r dymunitt? Y fath yw dy gystuddiau, a'r y maent yn cydweithio â holl ordinadau a holl ragluniaethau Duw, er daioni, a'r dy ddaioni penaf; ac mor anhawdd yddai i ti fod heb eu cynnorthy ag unhyw foddion ereill a appwyntiodd Duw i ti." Pe caffai un, wrth godi y bore, wyr ar en ei dŷ yn lluchio ymaith geryg y to, ac â wyal a morthwylion yn tynu i lawr y ronrglwyd, fe allai fod ar y cyntaf yn syn therfysglyd wrth yr olwg, i.e. yn meddwl mai haid o ladron a gelynion ydynt sydd am ni niweidio; ond pan ddeallio mai gweithwyr ydynt a ddanfonwyd gan ei dad i drwsio i dŷ, a bod yn rhaid tynu peth o hono i lawr i'r diben hwnw, fe fydd boddlawn ar

hyn i gyd-ddwyn a'r swm a'r blinder presennol; i.e. bydd ddiolchgar i'w dad am ei ofal a'i draul yn ei achos: ac y mae y gobaith am y lles a ddaw o'u gwaith yn ei wneuthur yn ewyllysgar iawn i fyw dros dro yng nghanol anhrefn ac adfail ei hen dŷ. Nid wyf yn rhyfeddu gweled eneidiau diobaith mor aflonydd yn eu blinderau, i.e. weithiau hyd orphwyllder. Och! y maent yn ofni yn y fan, ac nid heb achos, eu bod yn dyfod i dynu i lawr eu holl fwyniant a'u cysuron bydol o amgylch eu clustiau. A phan ddarfyddo y rhai hyn, pa gysur sy ganddynt, heb ddim i'w ddisgwyl ond uffern mewn byd arall? Ond y mae y baich yma oddi ar gefn y credadyn: o herwydd eu sierchau o'r addeuid, eu bod yn cael eu danfon ar well neges gan ei dad nefol, yr hwn nid yw yn briardu iddo niwed, ond yn hytrach ddaioni (i.e. addeiladu ei enaid adfeiliedig yn deml ogoneddus); a bod y cystuddiau hyn yn dyfod, ym mysg moddion ereill, i fod â llaw yn y gwaith. Fe'i boddlonir ef â hyn, fel y gall ddywedyd, Arglwydd, trin a nadd fi fel y mynych, ond i ti ffurfio ac addurno fy enaid yn ol y portread a dynodd cariad yn dy galon am danaf. Er y gallai un anwybodus dybio ei ddillad wedi eu hanurddo yn dost o herwydd eu cluro â phridd y panwr, neu â sebon, etto, un a wyr am i'w ianur lanhaol y pethau hyn, ni bydd arno ofn gweled eu trin felly

PENNOD VI.

Lle y dangosir fod Duw yn aros yn hir cyn cyflawni rhai addeuidion; ac mai swydd gobaith yw cadw yr enaid mewn agwedd ddisgwylgar y pryd hyny.

Y BEDWAREDD swydd, a'r olaf a enwyd i obaith, yw llonyddu a thawelu y galon pan fyddo pethau daionus yr addeuid (a fawr hiraethir am danynt gan y Cristion) yn aros yn hir cyn cael eu cyflawni. Amynedd, mi ddywedais, yw y cefn ar yr hwn y dygir beichiau Cristion; a gobaith yw y glustog rhwng y cefn a'r baich i beri iddo orwedd yn esmwyth. Y mae gan amynedd ddwy ysgwydd, un i ddiodef y drwg presennol, a'r llall i ymaros am y daioni i ddyfod sy wedi ei addaw ond heb ei dderbyn. Ac megys y mae gobaith yn gwneuthur y groes neu y drwg presennol yn ysgafn; felly y mae yn gwneuthur arosiad hwyaf y daioni a addawyd yn fyr. Ond hebddo ef, byddai y credadur yn rhy wan i aros am y nail nag i ddiodef y llall (*Galar.* iii. 18): "Ac mi a ddywedais, Darfu am fy nerth a'm gobaith oddi wrth yr Arglwydd;" ymadrodd yn arwyddo hyn, Nad oes nerth lle na byddo gobaith. Y mae cysur yr enaid yn clafychu ac yn trengu yn fuan, lle y daifyddo pob gobaith. Yr oedd Duw wedi cymmeryd mewn llaw

amddiffyn a darparu i Israel yn yr anialwch; ond pan ddarfu y toes a'r ystôr a ddygasant o'r Aipht, dyna hwy yn syrthio allan â Duw ac â Moses: a pha hiam, ond am fod eu gobaith wedi darfod gyda'u toes? Pan esgynodd Moses i'r mynydd ac y bu ychydig ddyddiau o'u golwg, aethant yn fawr eu brys i wneuthur llo aur: a pha ham? ond am eu bod wedi ei roddi i fyny ac heb obeithio ei weled mwy. Dyma y rheswm pa ham y mae gan Dduw cyn lleied o weision a ymlyna wrtho; am ei fod yn eu gosod i ddisgwyl am yr hyn y mae yn meddwl ei roddi; ac y mae y rhan fwyaf yn fyr eu hauadl, ac ni allant aros. Chwi a wyddoch yr hyn a ddywedodd Naomi wrth ei merch-ed (*Ruth* i. 12, 13): "Pe dywedwn, Y mae genyf obaith, a bod heno gyda gwr, ac ymddywn meibion hefyd; a arosech chwi am danynt hwy, hyd oni chynnyddent hwy? a ymarosech am danynt hwy heb wra?" Y mae iachawdwriaeth gan yr addewid yn ei bru: ond a erys yr aughredadyn—enaid heb obaith nefol—hyd nes yr addfedo yr addewid ac y byddo y dedwyddwch yma, fel y gallaf ddywedyd, wedi tyfu i fyny? Na, yn sicr y mae yn well ganddo ef ffwdanu priodas â'r creadur tlodaidd, neu ryw fflaidd chwant a dâl iddo mewn pleser presennol, nag aros cyhyd, pe byddai am y nefoedd ei hunan. Fel hyn, megys yr aeth Tamar i chwarae y butain, am fod y gwr a addawsid iddi heb gael ei roddi mor fuan ag y chwennychodd hi (*Gen.* xxxviii), felly am fod cysur a dedwyddwch yr addewid yn cael eu cadw yn ol dros amser, a phobl Dduw yn gorfod aros am eu gwobr, a llawer o eneidiau yn eu dinystrio eu hunain, trwy syrthio i ymgoffeidio â'r byd hwn: "Demas a'm gadawodd, gan garu y byd presennol;" 2 *Tim.* iv. 10. Yr enaid hwnw yn unig ag sydd yn meddu y gobaith nefol yma, a geir yn ymaros am ddaioni yr addewid.

Yn awr, wrth drin y swydd yma o eiddo gobaith, ni a ddangosaf i chwi,

1af. Fod Duw yn fynych yn aros yn hir cyn rhoddi y pethau da a addawodd.

2il. Mai ein dyledswydd yw disgwyl pan fyddo Duw yn aros hwyaf heb gyflawni ei addewid.

3ydd. Fod gobaith yn galluogi yr enaid i ddisgwyl felly.

DOSB. I.

1af. Fod Duw yn aros yn hir cyn cyflawni ei addewid i'w bobl. Mae yr addewid yn cynnwys ynddi swm ein holl obaith, a elwir am hyn yn obaith yr addewid. Gofyn dyled na fu erioed yn ddyledus fyddai gobeithio heb addewid. Yn awr, nid yw pethau da yr addewid yn cael eu talu yn ddiaros; pe felly, yn wir ni byddai achos gwneuthur addewidion. Pa raid wrth rwymedigaeth (*bond*) lle y byddo yr arian yn cael eu talu yn ddiaros! Fe addawodd Duw

fab i Abraham; ond fe arosodd law blwyddyn am dau ar ol derbyn *bond* addewid. Fe addawodd Ganaan iddo ef i had; etto, fe aeth cannoedd o flynyddoedd rhwng yr addewid a'r cyflawniad. Yr oed Esau wedi ynledu yn deyrnas cyn i etifedion yr addewid gael eu hetifeddiaeth, a lled troed o honi. Iâ, fe fu y patriarchiaid oll feirw hyd y drydedd genhedlaeth ar Abraham, "heb dderbyn yr addewid;" *Heb.* xi. 13. Fe gafodd Simeon addewid, "a welai efe angu, cyn iddo weled Crist yr A. glwydd" (*Luc* ii. 26); ond ni chyflawnwy hon nes oedd efe ar fin y bedd ac yn cyn meryd ei genad gyda'r byd. Mewn gair yr addewidion hyny sydd yn rhan i'r holl saint ag a ellir eu dadleu y naill fel y llall y mae amser eu cyflawniad hyd at y diw. nod yn llyfr arfaeth Duw—rhai yn gynt rhai yn ddiweddarach: ond nid yw wedi o enwi yn bendant yn yr addewid. Y mae efe wedi ymrwymro i ateb gweddïau a bobl a chyflawni dymuniad y rhai a'i hofiant (*Salm* cxlv. 19); ond hi a dry allan y daith hir, weithiau, cyn y delo gweddi a llwyth yn ol. Y mae gauaf hir a llym y myned rhwng amser hau mewn gweddi medi y ffrwyth. Y mae efe yn ein clywe yn wir cyn gynted ag y gweddiom; ond ni mynych yr ydym ni yn clywed cyn gynted oddi wrtho ef. Nid hir y bydd gweddi y cyrhaedd y nef; ond hi fydd yn hir yn dyfod yn ol mewn attebiad llawn. Mae Crist heddyw yn y nef, heb gael ateb llaw i rai gweddïau a weddiodd efe yma y y byd: am hyny y dywedir, "ei fod y disgwyl hyd oni osoder ei elynion ef y droedfainge i'w draed ef;" *Heb.* x. 1. Y mae genym addewidion am ddarostyngad pechod a Satan dan ein traed: etto, o hyn, cawn y gelyniau yma yn cynllwyn o mewn; a llawer brwy'r galed fydd rhyngom â hwynt cyn eu maeddu a'u troi allan o' calonau. Ac felly am addewidion ereill gallwn rai gwethiau gael y Cristion, o cymaint etifedd yw i lawenydd a chysur heb fod prin yn alluog i ddangos un geinio o'r trysor nefol yma yn ei feddiant. Ac esieiu iawn ystyriaeth, y mae eneidiau truaidd yn fynych yn cael eu harwain i brofedigaeth; i.e. nes y byddont mewn ammbeth aeth o'u cyflwr grasol. Mae y fath addewidion, medd un, yn rhan i'r saint; ond ni gallaf gael ddarfod eu cyflawni i mi; ar hyny nid wyf un o honynt: llawer gwedd a ddanfonais i'r nef, ond nid wyf yn cael un attebiad. Y mae y saint yn gongewerwy ar eu chwantau; ond yr wyf fi yn fynych yn methu sefyll fy nhir yn eu gwyneb. Mae rhyw nefoedd o gysur yn yr addewid, ond yr wyf fi megys yn mol uffern, wedi fy llynged gan ofnau a dychrynfeydd. Mae fath yma yw rhesymidau eneidiau truaidd yn nhrallod eu hysbrydoedd; yr hyn a ellir

ragflaenu, pe byddai ganddynt fydd i eddu yn gadarn yr un egwyddor yma o wirnodd dilys, sef nad ydyw Duw yn cyfnewi ei addewidion i gyd ar unwaith, ond bod yr hyn sy ddiffygiolar y ffordd yn dyfod.

DOSB. II.

2il. Pan y mae Duw yn aros yn hir cyn llabhar yr addewid, yna dyledswydd y creatur yw disgwyl am dani: "Os crys, disgwyl am dani," *Hab. ii. 3.* Llefaru y mae yno am laioni yr addewid, yr hon oedd Duw yn wriadu ei chyflawni yn yr amser gosodedd.

Ac am y gallai aros yn hwy nag a fynai calonau prysur hwynt, y mae yn gormymyn iddynt ddisgwyl am dani. Fel un a ddaw dyfod i dŷ ei gyfaill, ac yn anfon i'r iddo aros i fynd am dano, er iddo aros i hwy na chyffredin, o herwydd y daw'r diwedd heb som. Gwaith caled yn wir, edd un! Pa beth? disgwyl? Ar ol aros cyhyd, a dim arwydd fod Duw yn dyfod! weddio yn awr, a gwrandaw pregeth draefn! Edrych mor fynych drwy ffenestr ei ddinhadau a'i ragluniaethau, a dim i'w gweld am ddyfodiad at fy enaid mewn truedd a chysur! Ac ar ol hyn i gyd, a disgwyl sy raid i mi? Gwaith blinderus y hwn. Gwir, i gig a gwaed y mae felly. Y mae fydd wan yn fynych allan o anall ac yn barod i eistedd i lawr, neu droi yn pan fyddo wedi myned yn mhell i gyfarfod Duw yn y dychweliad o'i drugaredd a' b ei ganfod. Ac am hyny y mae yr apostol yn arwain y dyledswydd hon i mewn â weddi serchiadol (1 *The. iii. 5*): "Yr Arwydd a gyfarwyddo eich calonau chwi at ymardd Duw, ac i ymaros am Grist." Yr edd wedi gosod i lawr sail gref o gysur dynt yn y bennod o'r blaen, am eu bod eidd eu hethol i iachawdwriaeth, a'u galw yw yr efengyl i feddianna gogoniant ein Arglwydd Iesu Grist (*actn. 13, 14*), ac wedi i'w darnhau iddynt yn y drydedd adnod o'r bennod yma, fod Duw yn ffyddlawn, i'w heriau a'u cadw rhag drwg: hyny yw, fel a chaelant a'fwyddo a syrthio yn y diwedd a'fyr o'r gogoniant a addawyd. Ond gan y'bydd mor anhawdd oedd iddynt yng ghanol eu gwendidau—ymgyrchiadau Saron, a gwrthgiliau rhai ereill—ddal sicrydd eu gobaith hyd y diwedd, y mae efen troi oddi wrthynt i'w lefaru wrth Dduw costynt: "Yr Arglwydd a gyfarwyddo eich calonau chwi," &c. Fel pe dywedasai, "lwybr na rodiwech mo hono, a gwaith na byflawnwch chwi mo hono eich hunain, yw maros nes delo Crist â llawn wobry addewid gydag ef: am hyny yr Arglwydd a gyfarwyddo eich calonau tuag ato. Yr edd Moses, dybygid, cyn esgyn i'r mynydd, yn ofni ac yn amheuo y peth a' ddaeth wedi hyn yn rhy amlwg i ben; sef, a adawai anghrediniaeth yr Israeliaid iddynt ddisgwyl am ei ddychweliad, pan fyddai

yn aros gyda Duw ennyd o amser allan o'u golwg. I geisio rhagflaenu hyn, rhoddodd orchymyn pennodol cyn ei fyned am iddynt aros yno am dano: *Ecsod. xxi. 14.* Yn wir, nis gwn am un dyledswydd mor wrthwynebol i'n calonau beilehion ag ydyw hon o ddisgwyl yn llonydd ac yn dawel wrth Dduw. Gallwn roddi i'r Duw mawr waith goddef ein moesau, a hir ddilyn ar ein holau cyn y gwnelom ni ei orchymyn ef; ond oni ddaw yr addewid mewn eithaf brys atom, ni a feddyliwn na ddaw hi byth.

Cwest. Pa ham y mae Duw ar ol rhoddi addewid yn peri i'w bobl aros cyhyd?

At. Mi atebaf y cwestiwn yma trwy ofyn un arall. Pa ham y rhydd Duw addewid o gwbl i'w greadur? Y mae lle i ofyn hyn, wrth ystyried mor bell oedd Duw o fod mewn dyled o'r fath garedigrwydd i'w greadur, hyd nes yr ymrwymodd o'i ewylllys da yn unig, ac y rhoddodd ei hun trwy addewid yn dyledwr i'w holl etholedigion. Ac y mae hyn yn profi i'r cwestiwn cyntaf fod yn rhy eofn a hyf. Fel pe byddai i'w mawr cyfoethog wneuthur cardotyn tlawd estronol yn etifedd iddo; ac ar ol mynegi hyny i'r dyn, ei fod yntau yn gofyn, Pa ham y rhaid i mi aros cyhyd am dani? Yn ddiâu, y mae rhyw amser pa bynag yn rhy gynnar i'r dyn hwn dderbyn trugaredd gan Dduw, sydd yn meddwl fod amser Duw i'w danfon yn rhy hwyr. Y mae yr ysbryd diaros yma mor wrthwynebus gan Dduw ag y dichon ei arosiad ef fod genym ninnau. Ac nid rhyfedd fod Duw yn edrych arno mor adgas, os ystyriwn y gwreiddyn chwerw sydd yn ei ddwyn.

1af. Ei darddiad sydd oddi wrth hunan-gariad, trwy yr hyn yr ydym yn serchu ein boddhad ni ein hunain o flaen gogoniant Duw: ac nid gweddus yw hyn i enaid grasol. Y mae ein cysur ni, yn wir, yn dyfod i mewn trwy gyflawniad yr addewid; ond teyrnged Duw o anrhydedd yn cael ei thalu iddo, trwy ein gostyngedig ddisgwyliad wrtho, yn y cyfrwng, rhwng yr addewid a'r cyflawniad: a hyn yw y diben penaf ganddo yn oedi ei chyflawni. Fe wasan-aethodd Iacob saith mlynedd am Rahel; ac yn sicr y mae gan Dduw well hawl i beri i ni ddisgwyl cyn cael priodi yr addewid yn ei llwyr gyflawniad: "Rhaid i chwi wrth amynedd, fel, wedi i chwi wneuthur ewylllys Duw, y derbynioch yr addewid," *Heb. x. 36.* Y mae yn addas iawn i'r meist'r giniawa o flaen y gwas; ac ni charew was a wela yn ormod aros am ei fydd cyhyd ag a fyddai yn ofynol at weithi wrth fwrdd ei feistr; pa faint mwy anfoddihaol a raid i'n taioigrwydd a'n hannioddefgarwch ni fod gan Dduw, os mynem eistedd wrth ein pryd a chael gweini i ni o gysur yr addewid, cyn iddo gael yr anrhydedd o'n bod yn disgwyl wrtho.

2il. Y mae yn tarddu oddi wrth anni-

olchgarwch dwfn ; ac y mae hwn yn bechod cas gan Dduw a dyn (*Salm* cvi. 13): "Yn y fan yr anghofiasant ei weithredoedd ef ; ac ni ddisgwylasant am ei gynghor ef." Nid oedd Duw yn ol llaw gyda'r bobl hyn. Nid oedd nemawr o amser er pan roddasai iddynt brawf o'i allu a'i ffyddlondeb, trwy roddi benthyg llaw iddynt, a'u harwain yn droedsych drwy y môr ; a phan ddaethant yn iach i'r lan, yr oeddynt yn ymddangos fel rhai cryfion mewn ffydd a helaethion mewn diolchgarwch (*adn.* 12): "Yna y credasant ei eiriau ef ; canasant ei fawl ef." Gallasai un feddwl y cawsai Duw ei gredu yn helaeth ganddynt byth o hyn allan ; ond nid felly y bu. Nis beiddient gymmaint a gadael eu bywoliaeth ar law Duw, pa beth a fwyäent ac a yfent ; ac am hyny, dywedir, "Ni ddisgwylasant am ei gynghor ef ; eithr blysiasant yn ddifawr yn yr anialwch." Hyny yw, gwrthodasant aros wrth ddoethineb a rhagluniaeth Duw, yr hwn a fuasai yn darparu yn dda iddynt, pe disgwylasant yn llonydd am eu cynnaluaeth o'i law. A pha ham yr holl frys yma? "Hwy a anghofiasant ei weithredoedd ef." Yr oeddynt wedi colli yr ystyriaeth ddiolchgar am yr hyn a aethai heibio ; ac am hyny gormod ganddynt aros am yr hyn oedd iddyfod.

DOSB. III.

3ydd. Y mae gobaith yn galluogi yr enaid i ddisgwyl, pan fyddo yr addewid yn aros hwyaf. Gwir natur gobaith ydyw gwneuthur felly (*Galar.* iii. 26): "Da yw gobeithio a disgwyl yn ddistaw am iachawdwriaeth yr Arglwydd." Gall gobaith ocheneidio pan fyddo yr addewid heb ddyfod ; ond nid ydyw yn grwynach. Y mae yr ysbryd yn gweithio allan ocheneidiau gobaith o flaen Duw mewn gweddi (*Rhuf.* viii. 26), ac fe esmwythâ hyn yr enaid o'i faich o ofn a gofal pryderus. Ond y mae ocheneidiau enaid diobaith yn cael eu gollwng allan mewn nwydau anfoddlongar yn erbyn Duw ; a'r rhai hyn fel gwynt uchel i dân, yn peri iddo ennyn yn fwy (*Ier.* xxv. 16): "Hwy a yfant ac a frawychant, ac a wallgofant, o herwydd y cleddyf yr hwn a anfonaf yn eu plith." Am eilynion Duw a'i bobl y dywedir hyn. Yr oedd Duw wedi paratoi iddynt draflwng a effeithiai yn rhyfedd arnynt : hwy a frawychant, neu byddant yn synedig : fel dyn wedi penwanu gan ddiod gref, yn methu sefyll na bod yn llonydd. Iê, "gwallgofant," fel rhai dynion yn eu meddwod a ymgynghanant â phawb a ddaw i'w cyfarfod : byddai eu calonau hefyd wedi eu llenwi felly â chyn-ddaredd yn erbyn Duw ei hun, sydd â'i gleddyf yn eu hystlysau, am eu bod yn ddiobaith am iachâd i'w clwyfau oddi ar ei law. Eithr lle byddo gobaith ar waith, y mae y galon yn cael ei thawelu a'i heddychu yn fuan. Gobaith yw y lian a rydd Duw

yn nwyllaw ei bobl i sychu ymaith y dagra a redant o'u llygaid o herwydd eu blindera neu hir arosiad y trugareddau a ddisgwylant : "Attal dy lef rhag wylo, a'th lygai rhag dagrau ; canys y mae tâl i'th lasu medd yr Arglwydd ; a hwy a ddychwelw o dir y gelyn : ac y mae gobaith yn ddiwedd ;" *Ier.* xxxi. 16, 17. Yr addewgysurus hon, gydag ereill o'r fath, y rhai roddodd Duw mewn gweledigaeth i Ieremah, a lanwasant ei galon â'r fath lawenyddnes oedd wedi ei loni a'i sirioli, gymmaint dyn claf neu flinedig ar ol noswaith o gwel melus (*adn.* 26): "Ar hyn y deffroais ac y edrychais, a melus oedd fy hân genyl."

PENNOD VII.

Yn dangos y sicrwydd triphlyg a rydd gobaith i Cristion, gan ei lonyddu felly i ddisgwyl am gyflawniad yr addewidion, pan fyddo Duw yn aros yn hir.

Y MAE gobaith yn tawelu y Cristion â sicrwydd neu hyder triphlyg, pan fyddo y addewid megys yn hir aros.

1. Gobaith a sicrhâ yr enaid, er fod Duw yn aros ennyn cyn cyflawni yr addewid etto, nad yw efe yn oedi.

2. Pan y delo, y gwna efe ad-daliad helaeth am ei arosiad maith.

3. Tra y byddo yn aros ei amser i gyflawni un addewid, y gâd efe gysur addewid ara i ddiddanu y Cristion yn absenoldeb hono.

DOSB. I.

1. Gobaith a sicrhâ yr enaid na fydd Dduw oedi, er y gall aros (*Hab.* ii. 3) : "weledigaeth sydd etto dros amser gosodedig ond hi a ddywed o'r diwedd ac ni thwyllas oes erys, disgwyl am dani ; canys gan ddyfo y daw, ac nid oeda." Pafodd y mae hyn i Cerys, nid oeda ! Pa fodd y gellir heddych y rhai hyn â'u gilydd ? O'r goreu. Er i addewid aros hyd yr amser gosodedig, etto nid oeda dros ben hyny. Dywedir, "Panesaodd amser yr addewid, yr hwn a dyngasai Duw i Abraham, y bobl a gynnyddodd, a amlhaodd yn yr Aipt ;" *Act.* vii. 17. E y llybiau a'r blodeu sydd yn cysgu trwy gauaf yn eu gwraidd allan o'r golwg, pa nesao amser y gwanwyn, gwthiant eu pena yn ebrwydd y ddaear, lle yr ymguddiaser cyhyd. Felly y gwna yr addewid yn e hamser hithau. Oedi y mae hwnw sydd y myned dros yr amser gosodedig ; ond ar y mae y neb sydd yn dyfod pan ddel hw i ben. Y mae amser pennodol i bob addewid ; etto, wedi ei ysgrifenu yn anamlwg i ni ac o ddiffyg medr yn rhyfyddiaeth Duw, y ydym yn dueddol i feddwl fod Duw yn ei hanghoso, pan mai ni sydd yn ein hanghosi ein hunain, wrth fod mor hyf a gosod amser i Dduw yn ol ein dychymmyg, ac ym

ligo am nad yw yn dyfod y pryd hwnw
 tom. Fel pe gosodai dyn ei awrlais (*watch*)
 rth ei gylla newynllyd ei hun yn lle wrth
 r haul ; ac yna taerai ei bod yn brydnawn,
 e y dwrddai am fod ei giuiaw yn amubar-
 1. Yr ydym yn rhy awyddus am gysur,
 e yn disgwyl i'r addewid gadw amser gyda
 n dymuniadau cyflwm ; ac am nad yw fel
 yn y dangoswn anffoddlonrwydd. Ynfyd-
 wydd hynod ! Ni red yr haul yn gyflym-
 ch er i ni osod ein hawrlais yn mlaen ; ac
 i ddaw yr addewid funyd cynt am i ni
 erfynu ein hamser yn rhy fuan. Y mae
 u wir iawn, fel y dywed un, er nad yw
 Duw ond anfynych yn dyfod yn ein diwrnod
 i, o herwydd ein bod mor fynych yn cam-
 yfrif ; etto y mae yn sicr o ddyfod yn ei
 diwrnod ei huu. Dylem sylwi ar eiriau yr
 postol : 2 *The*. ii. 3. Mae efe yno yn annog
 Thessaloniaid i beidio cymmyrd eu siglo
 n eu meddwl, na'u cynnhyrfu, fel pe byddai
 ydd Crist yn gyfagos. Ond pa raid wrth
 yr annogaeth yma i saint sydd yn disgwyl
 u cyflawn orfoledd gyda'r dydd hwnw ? A
 w yn flinder i galonau y rhai hyn glywed
 od eu hymwared yn nesau, a dydd eu gor-
 hwysiad ger llaw ? Yr wyf yn meddwl
 ai nid dyfodiad y dydd hwnw oedd mor
 ffoddhaol a dychrynlyd ; ond yr amser
 n yr hwn yr oedd rhai twyllwyr yn chwen-
 ychu dysgu iddynt ei ddisgwyl, fel pe buasai
 rth y drws, ac i ddyfod arnynt yn ddisym-
 wth yn y genhedlaeth hono ; yr hyn a
 asai yn beth athrist yn wir. O herwydd
 elly, fe fuasai yn dyfod cyn i lawer o bro-
 hwydoliaethau ac addewidion gael eu cyf-
 awni ; a thrwy hyny, cawsai gwirionedd
 Duw anghlod, yr hyn ni chaiff fod. Am
 yny fe ddywed wrthynt (*adn.* 3), "Ni
 daw y dydd hwnw hyd oni ddel ymadaw-
 ad yn gyntaf, a daguddio y dyu pechod,
 ab y gollidogaeth." Ac megys nad yw'r add-
 wid hono yn aros ond hyd nes y cyflawnir
 y pethau sydd i gael y blaen arni ; ac yna
 law i ben heb bossiblwrwydd o arosiad nac
 ttaliad ; felly y mae y lleill i gyd ; pan
 ddel eu hamserau appwyntiedig gan Dduw
 ffyny, fe'u cyflawnir yn fanwl a hollol.
 Fe allai dy fod yn gwaedu gan archollion
 ly ysbryd, yn greadur tlawd calon ddryll-
 og, yn mwydo mewn dagrau am dy bech-
 od. Fe ddywed yr addewid fod Duw yn
 gos i'w fywhau ; tydi, meddaf, wrth dy
 w (*Esa.* lvii. 15), etto yr wyt yn dyfod
 i'r weddi yma a'r bregeth acw heb olwg
 ano ; ac nis gelli glywed dim am dano ond
 y ddywed yr addewid wrthynt. Edrych yn
 awr rhag gwneuthur cam â Duw yn dy
 feddyliau ; penderfyna fod ei amser heb
 llyfod, neu ynte y buasai gyda thi cyn
 hyn, a phaid a mesur milldroedd Duw â th
 llyn dy hun ; o herwydd fe all yr hyn a
 eilw efe yn agos, fod ym mhell wrth dy
 tesur di. Fe allasai Duw fynegi i'w bobl y

pryd yr oedd yn meddwl dyfod i gyflawni
 pob addewid, yn gystal ag yr arfaethodd y
 peth ynddo ei hun ; etto ei gelu a wnaeth
 yn y rhan fwyaf, a hyny er mantais i'n
 ffydd, fel y gallom ddaugos ein hyder yn
 fwy cyflawn wrth ddisgwyl am yr hyn nas
 gwyddom pa bryd y cawn ei dderbyn. Yr
 oedd ffydd Abraham yn fawr a chref i gan-
 lyn Daw, pan oedd yn celu y lle yr oedd yn
 meddwl ei arwain iddo ; o herwydd fe aeth
 allan heb wybod i ba le yr oedd yn myned :
Heb. xi. 8. Felly y mae yn gofyn ffydd
 fawr i orphwys yn foddolwr ar yr addewid
 pan y mae amser ei chyflawniad o'r golwg.
 Ond os ystyriwn â phwy yr ydym yn mas-
 nachu, ni bydd genym (hyd yn oed pan ar-
 oso hwyaf) achos i amhheu ei fod yn ein
 somi, neu yn oedi un moment dros amser
 appwyntiedig yr addewid. Y mae tri pheth
 a barant i ddyinion dori eu hymrwymia-
 dau, neu fyned dros y dydd pennodol.

1af. Anghof. Y mae llawer heb gofio yr
 hyn a addawsant ; y dydd yn dyfod i ben,
 a hwythau yn ddfeddwl am y peth. An-
 fynych y mae dynion yn anghofio pan fydd-
 ant i dderbyn, ond yn rhy fynych pan fydd-
 ant i dalu. Yr oedd yn rhaid i achlysur
 anarferol ddigwydd i beri i'r trulliad gynt
 adgofio ei addewid yn y carchar ; oiid e, ni
 buasai byth yn meddwl am dani. Ond nid
 yw addewid Duw byth allan o'i feddyliau :
 "Cofiodd ei gyfammod byth ;" *Salm* cv. 8.
 Y mae ei bobl â'u materion yn argraph-
 edig ar gleidr ei ddwyllaw, a'u muriau ger
 ei fron bob amser : *Esa.* xlix. 86. Er i
 ddyrchafiad llys Pharaoh beri i'r trulliad
 anghofio ei addewid i Ioseph ; etto nid yw
 holl ogoniant y nef wedi dileu o gof Crist ei
 addewid ef i'w bobl sydd yn rhwym yng
 nghadwynau cystudd yma yn y byd. Ac fe
 fynai Duw i'w saint ddal ar hyn i ymgysuro
 ynddo tra y mae yn dyfod : "Myfi a wn y
 meddyliau yr ydwyf fi yn eu meddwl am
 danoch chwi, medd yr Arglwydd, meddyl-
 iau heddwch, ac nid niwed, i roddi i chwi
 y diwedd yr ydych yn ei ddisgwyl ;" *Ier.*
 xxix. 11.

2il. Anffyddlondeb. Nid yw addewid
 gyda rhai ond fel torch am wddf eppa ; nid
 yw eich gafael ynddynt ddim gwell o'i her-
 wydd ; o blegid hwy a änt yn rhydd pan y
 mynont. Fe allai nad oeddynt yn bwriadu
 cyflawni yn y dechreu ; ond yn gwneud
 defnydd o addewid yn unig fel agoriad i gloi
 eu twyll dros amser o'ch golwg. Y mae
 ereill, ysgatfydd, wrth addaw yn meddwl
 fel y dywedant ; ond pan welant wedi hyny
 ryw anfantais yn debyg i ddigwydd iddynt
 wrth sefyll at eu gair, gosodant eu penau ar
 waith i lunio rhyw esgus golygus, er mwyn
 gochel yr ymrwymiad, neu o leiaf oedi y
 taliad. Yr hyn a barodd i Lysander ddy-
 wedyd am rai dynion eu bod yn chwerau â
 llwon ac addewidion, fel plant â cheulys,

Hwy a'u cadwant os bydd hyny er eu hennill; ond os byddant yn debyg o golli, gwell ganddynt wasgu ar eu cydwybodau wrth eu tori, nag ar eu pyrsau a'u budd daeroll wrth eu cyflawni. Ond nid oes lle i ammheu Duw yn hyn; gwirionedd a ffyddlondeb yw ei enw. Ac a ddichon gwirionedd ei hun somi, neu ffyddlondeb dwyllo? "Yn nhŷ fy Nhad (medd Crist) y mae llawer o drigfanau; a phe amgen mi a ddywedaswn i chi. Yr wyf fi yn myned i barotoi lle i chi. Ac os myfi a'f, myfi a ddeuaf drachefn, ac a'ch cymmeraf chiw ataf fy hun;" *Ioan* xiv. 2, 3. Gwelwch yma hynawsedd a diddichellrwydd ei galon. Fel pe dywedasai, Nid dywedyd rhyw chwedl deg yr wyf er mwyn diange ymaith, a'ch gadael mewn gobaith o'r hyn ni ddaw i ben; nag e, oni buasai yr hyn yr wyf yn ddywedyd yn wirionedd, y mae fy nghalon mor llawn o gariad atoch, fel na buaswn er mil o fydoedd yn eich gadael yn y fath somedigaeth; chiw ellwch ymddiried i mi fyned; o herwydd mor sicr ag y gwelwch fi yn myned, fe gaiff eich llygaid fy ngeued drachefn er eich tragwyddol orfoledd. Yr addewidion nid ydynt te a nag e, ond ynddo ef te ac amen ydynt oll.

Drachefn, megys y mae yn wirionedd, felly y mae yn ddoethineb hefyd. Fel y mae yn wirionedd, nis' gall wneuthur cam â ni, neu ein twyllo trwy dori ei air; a chan ei fod yn ddoethineb, y mae yn amhossibl iddo addaw dim er niwed iddo ei hun; ac am hyny y mae yn anghyfnwedidol yn ei arfaeth a'i addewidion. Y mae edifeirwch yn wir yn weithred o ddoethineb yn y creadur; ond yn arwyddo ynyfdrwydd o'r blaen, yr hyn nis gall fod yn perthyn i Dduw. Mewn gair, y mae dynion yn fynych yn fyrbwyll wrth addaw; ac am hyny yr hyn a addawant mewn brys, hwy a gymmerant amser i'w gyflawni. Nid ystyriant eon addunedu; ac am hyny ymofynant ar ol darfod pa un oreu ai talu ai peidio. Ond ni raid i'r Duw holldoeth wrth ddim o'r ail helynt yma. Megys yn y greadigaeth, yr edrychodd yn ol ar amryw ranau yr adeilad deg hono, ac a'u gwelodd mor gymmhws fel na newidiodd ddim o'i waith; felly yn ei addewidion, efe a'u gwnaeth mewn barn a doethineb mor anfeidrol fel y saif am byth at yr hyn a ysgrifennodd: *Ios*. ii. 19; "Mi a'th ddyweddiad di â mi fy hun yn dragwydd; ie, dyweddiad di â mi fy hun mewn cyflawnder ac mewn barn." Ac am hyny y mae yn ddyweddiad tragwyddol, am ei fod mewn barn a chyflawnder.

3ydd. Analluogrwydd. Y mae addewidion dynion yn ymddibynu ar lawer o ddi-gwyddiadau. Y gŵr, ysgatfydd, oedd yn gyfoethog wrth selio yr ysgrifen, ond a aeth yn dlawd erbyn dyfod y dydd tál. Llong-ddrylliad ar fôr, neu dân ar y tir, neu ryw

ddanwain athrist arall a gyfrynga; nes bydd y gŵr naill ai heb ddim, neu mor is arno fel y mae yn rhaid iddo erfyn am ams ym mhellach, gyda hwnw yn yr efeng (*Mat*. xviii. 26); "Bydd ymarhous wrthy a mi a dalaf i ti y cwbl oll." Ond y Du mawr nis gellir ei ddwyn i'r fath fwl. "Cadernid Israel ni ddywed gelwydd *1 Sam*. xv. 29. Megys y mae celwydd ddrigioni pan fyddo un yn addaw h feddwl cyflawni; felly y mae celwydd hefyd yn tarddu o wendid pan fyddo un heb al cyflawni y peth a addawodd. Yn yr yst yma yn wirfe geir pob dyn, ie, pob creadur yn gelwyddwyr i'r neb a bwysio arnynt; a hyny y gelwir hwynt yn oferedd celwyddog: *Ionah* ii. 8. Ofereidd fel y maent yn wa ac annigonol; oferedd celwyddog, am bod yn addaw yr hyn ni feddant i'w rodd. Ond y mae Duw yn cael ei osod o'n blaefel sail sicr i'n ffydd bwysio arno: "Yn ddiriedwch yn yr Arglwydd byth; o herwydd yn yr Arglwydd Dduw y mae cadernid tragwyddol;" *Esa*. xxvi. 4. Y fawr gadernid sydd ynddo, ac nad yw raid wrth gadernid neb arall i'w ategu. Gyda dynion y mae gallu un i gyflawni ei addewidion sefyll ar allu ereill i dalu iddo yntau; o somant hwy, y mae yn rhaid iddo ynta somi. Fel hyn ni a welwn fod toriad y marsiandwr yn myned yn doriad i law ereill oedd a'u meddiannau yn ei ddwyllaw. Ond y mae gallu Duw yn anymddibyn. Pe torai yr holl greadigaeth i fyny, etto y un yw Duw ag o'r blaen, mor alluog i gyrru northwo ag erioed: "Er i'r ffugysbren i ffloedeu, ac na byddo frwyth ar y gwelwydd. &c. Eto mi a lawenychaf yn yr Arglwydd; byddaf hyfydd yn Nuw fy iachawdwriaeth. Yr Arglwydd Dduw yw i'w nerth;" *Iiab*. iii. 17, 18. O! wynfydedd rwydd y saint! pobl na ellir byth eu tlochyd yn oed pan fyddo yr holl fydd yn tori fyny; o herwydd y mae ganddynt addewun na fetha ei allu y pryd hyny. Nis gall Cristion ddyfod at Dduw mewn amser i bydd dim yn ei ymyl i dori ei ddiffyg: "Mor fawr yw dy ddaioni a roddest i gad i'r sawl a'th ofnant!" *Salm* xxxi. 19.

mae wedi ei roddi i gadw, fel y ceidw ta gynnysgaeth ei blentyn, yn barod i'w dal iddo pan ddelo yr amser. Ni chaiff y Cristion aros moment dros amser yr addewid. "mae gyda thi faddeuant," medd y *Salm* (cxxx. 4). Y mae yn aros am danat i'erbyn y delech i ddadleu yr addewid.

DOSB. II.

2. Y mae gobaith yn sierhau i'r Cristion i'r Dduw aros yn hir, y bydd iddo o'r diwed wneuthur taledigaeth helaeth am hyny pddel ei awr i ben. Megys nad yw yr a'nuwiol yn ennill dim wrth fod Duw y oedi cyflawni y bygythiad, ond yn tryso mwy o ddigofaint erbyn dydd digofaint.

ly nid yw y saint yn colli dim wrth fod heb dderbyn yr addewid yn ddiaros; ond a hytrach wrth roddi cred i Dduw dros nser y maent yn trysori mwy o orfoledd byn y dydd gorfoleddus, pan gaiff yr ldewid ei chyflawni (*Rhuf.* ii. 7); "I'r rhai wy barhau yn gwneuthur da, a geisiant goniaent ac anrhydedd; bywyd tragwydd." Craffwch, nid digon yw gwneuthur da, nid yw parhau yn gwneuthur da; a hyny dyfod yn amyneddgar (fel y mae ystyr y di) yng ngwyneb ymddangosiad Duw o'r ar; a phwy bynag a wnelo hyn efe a gaiff wobrwyo o'r diwedd am ei holl amynedd. waith newynllyd yw aredig; ond am fod gobaith medi cynnyrch mor helaeth, nid yw llafurwr yn llesgau yuddo. O! fy enaid, edd gobaith, er fod arnat eisieu dy giniaw, all allan etto ychydig, a thi a gei dy giniaw, th swper ynghyd pan ddwl yr hwyr. Y mae y doluriau a'r llewygfeydd a änt dros Cristion i gyd yn cael eu hanghofio, a'i linder yn darfod pan unwaith y daw yr ldewid i ben, ac y caiff wleda ar ei llawenydd hi (*Diar.* xiii. 12); "Gobaith a eder a' wanhâ y galon; ond pren y bywyd w deisyfiad pan ddwl i ben." Hyny yw, an ddwl yn amser Duw ar ol hir ddisgwyl, mae yn peri chwaneigiad o lawenydd. Tegys y mae amser a osododd Duw i rhythau y ddaear addfued, ac oni arosir rwnw, byddwn ar ein colled; felly y mae amser hefyd i bethau da yr addewid addfued; a'n dyledswydd yw eu disgwyl, a heidid eu tynu yn rhy fuan, fel afalau leision oddi ar y pren. Y mae gormod yn gwneuthur hyn. Am eu bod yn wag o dydd a gobaith i lonyddu eu hysbrydoedd es y delo amser Duw, hwy a gipiant mewn ffordd anghyfreithlawn yr hyn a fuasai yn isgyn mewn amser yn addfed i'w mynwsu. A pha beth y mae y gwŷr diaros hyn ni ei ennill wrth eu brys? Oeh! cânt brofi u mwyniant yn gul ac ysgafn, fel yd wedi i fedi yn rhy gynnar, a'r hwn ni leinw yr hwn fydd yn rhwymo yr ysgubau ei fynwes. Am hyny yr ydym yn cael y ddyledswydd hon o ddisgwyl yn cael ei chymmhell dan gyffelybiaeth y llafurwr (*Tago* v. 7); "Byddwch ymarhous, frodyr, hyd ddyfodiad yr Arglwydd." Aroschw amser Duw, nes y llo yn olei addewid i'ch cymmeryd oddi wrth eich gwaith dioddef, ac na fyddwch yn rhy prysur i ddiange o'ch blinder. A pha ham felly? "Wele, y mae y llafurwr yn disgwyl am werthfawr ffrwyth y ddaear, yn llo ei amynedd am dano, nes iddo dderbyn y gwlaw cynnar a'r diweddar. Byddwch chwithau yn dda eich amynedd; cadarnwch eich calonau; o blegid dyfodiad yr Arglwydd a nesaodd." Y mae y llafurwr yr hwn medd y ddiareb sydd yn gyfoethog o gwnd y flwyddyn nesaf) er y byddai yn llo ganddo fod ei yd yn yr ysgubor, etto

yn disgwyl am ei addfediad yn ol trefn gyffredin rhagluniaeth. Da iawn ganddo weled y gwlaw cynnar; etto, efe a' erys y diweddar hefyd, er ei fod yn hir yn dyfod. Ac oni welwn weithiau gawod yn disgyn yn min y cynauaf sydd yn llenwi y tywysenau ac yn chwaneagu y cnwd; yr hon a gyll rhai trwy anymddiried i ragluniaeth, a rhoi y cryman i mewn yn rhy fuan? Sicr wyf fod frugareddau yn dyfod lawnaflle yr ar-osir hwyaf am danynt. Y mae llawnder dyblyg y gall y Cristion obeithio ei gael yn y mwyniant hwnw y darfu iddo mewn hir amynedd ddisgwyl am dano, uwch law yr hyn a gaiff arall yr hwn ni fedr aros amser Duw.

Iaf. Llawnder o ran parhâd. Y mwyniant a gipir o law Duw, heb ei roddi ganddi, ni pheryn yn hir. Yn gyffredin iawn, fel plentyn Dafydd a anwyd trwy odineb, y mae yn marw yn y cryd. Fel rhyw ffrwythau a gasglwyd yn leision, hwy a bydrant yn fuan. Ai cyfoeth sydd wedi ei gasglu fel hyn; dywedir fod rhai yn prysuro i fod yn gyfoethog; *Diar.* xxviii. 20. Ni fedrant ddisgwyl wrth Dduw, gan ymarfer a duw-ioldeb a diwydrwydd cydwybodol yn eu galwedigaeth; na, nid yw yr addewid yn gyru yn ddigon cyflwm ganddynt; am hyny y maent yn ysbarduno ym mlaen, a thrwy arferion bryntion yn prysuro i fod yn gyfoethog. Ond y mae Duw yn prysuro cymmaint i doddi eu meddiannau ag ydynt hwy i gasglu. Nid oes dim halen a geidw y bywyd yn hir heb droi ei flas os bydd wedi ei dwymo yn rhy drwm wrth ei yru; na dim gofal neu ddarpariaeth o eiddo dyn a geidw rhag melldith Duw, yr etifeddiaeth hono a gasglwyd trwy y fath ymliadid poethlyd a phechadurus (*Diar.* xiii. 11); "Golud a gasgler trwy oferedd (sef mewn ffordd ofer anghyfiawn) a leiheir." Fel y brasder afiach a gesglir gan yfyr mawr a bwytawyr gwangus; y mae ynddo yr hyn a brysura ei adfeiliad (*Diar.* xxi. 6); "Trysorau a gasgler â thafod celwyddog, a chwelir megys gwagedd gan y neb sydd yn ceisio angu." Yr ystyr yw, y mae y fath etifeddiaethau yn cael eu taslu fel pêl o'r naill i'r llall; ac nid ydynt yn debyg o aros yn hir mewn un llaw nes y delont i feddiannau o'r duwiol, yr hwn a wna Duw yn fynych trwy ei ragluniaeth yn etifedd i feddiannau o'r fath; fel y gellwch weled yn *Iob* xxvii. 17; *Preg.* ii. 26. Drachefn, ai cysur a llawenydd tumewnol a gesglir fel hyn? Y mae rhai yn prysuro gormod yma hefyd. Nid ydynt fel Cristionogion ereill yn hau mewn dagrau, ac yn boddloni aros am lawenydd hyd y cynauaf, neu o leiaf hyd nes y byddo peth tyfiad; a'r hâd o ras a hauwyd mewn cawodydd o ofid yn tori allan mewn tystiolaethau mor sylweddol ag a rydd iddynt ryw fesur o sicrhâd am y gwirionedd o hono. Yna yn wir y mae ysbryd y Cristion dirag-

rith yn ymloni, a'i gysur yn dal, i.e., yn chwaneu fwy fwy; fel yr haul ar ol ymdrech â niwl tew, y mae yn tori allan ac yn maeddu yn llwyr yr hyn a fu yn ei dywyllu dros amser (*Diar.* xiii. 9); "Goleuni y cyf-iawn a lawenhâ;" sef ar ei holl ofnau a'i ammheun. Ond y mae ereill mor fawr eu brys fel y neidiant at gysur cyn bod erioed yn gydnabyddus â thristwch duwiol. Hwyl a esgriant heb boen; ac y mae eu fydd yn enynn i sierwydd cyn y gwelir y mwg o ammheun ac ofnau yn codi yn eu beneidiau. Ond Och! y mae y llawenydd yma mor hawdd ei golli a'i gael; fel gwanwyn rhy flaenllaw yn peri i'r llafurwr wylo y cynauaf; neu fel diwrnod cynnhes heulog yn y gauaf yn dwyn llawer o rai garw ar ei ol. Y tir ereiglyd sydd yn esampl eglur o hyn, (*Marc* iv. 5), llawenydd yr hwn a ddiffianodd mor ebrwydd ag y cododd. Y mae amser erlid neu brofedigaeth yn dyfod, ac yn y fan rhwystrir ef. Mewn gair, cymmerwch un esampl yn chwaneu, sef mewn pwynt o ymwared. Yr ysbrydoedd prysur hyny na fedrant aros i'r addewid agor drws eu carchar, ac i Dduw eu gwaredu yn ei amser ef, ond a dorant y carchar ac a ddiangant allan o flinder trwy ryw foddion anghyfreithlawn, onid ydym yn gweled mor resynol y twyllant eu hunain? O herwydd y meddyliant trwy rym eu cyfrwysdra pechadurus, brysuero eu hymwared, hwy a'i lladdant yn yr enedigaeth; yr hyn, pe daethai yn amser Duw, a allasai aros gyda hwynt dros lawer diwrnod teg. Yr Iuddewon ydynt esampl athrist o hyn; i'r rhai y rhoddodd Duw lawu sierwydd o'u hymwared o ddwyllaw y Babiloniaid: ond er hyny mynent hwy eu ffordd eu hunain, gan obeithio, y mae yn debyg, ei ddwyn i ben yn gynt trwy gyfrwysdra nag y gallent ei ddisgwyl trwy ragluniaeth; ac am hyny i'r Aiphth y dangasant gyda phob brys, heb ammheun na chaent eu gwaredigaeth oddi yno. Ond Och! yn llwyr wrthwyneb y digwyddodd; o herwydd y cwbl a gawsant oedd trynhau cadwyn eu caethiwed, a pheri i'w meistriaid beilechion arfer mwy o greulondeb tuag atynt; yr hyn y mae Duw yn erchi iddynt ei gyfrif i'w hysbrydoedd anghrediniol eu hunain (*Esa.* xxx. 15); "Fel hyn y dywed yr Arglwydd Dduw, Sanct Israel, trwy ddychhwyl y gorphlws y byddwch gadwedig; mewn llonyddwch a gobaith y bydd eich cadernid; ond ni fynech." Yn wir os edrychwn ar y rhai a ddisgwyliasant mewn gobaith am ddyfodiad Duw i'w cynnorthwyo, ni a gawn eu bod bob amser wedi llwyddo. Iosuah, yr hwn a safodd i fyny yn erbyn pob rhyw ddigalondid, gan gredu yn gadarn a disgwyl yn anyneddgar am y tir a addawsai Duw, oni bu efe byw i rodio dros feddau y rhai oedd am droi yn ol i'r Aiphth? Ac oni fu yn dyst hefyd o ddiynstr

y rhai hyny a aethant yn rhyfygus i ben bryn i ymladd a'r gelynyon, a chymmeryd tir (fel y gwag dybiasant) cyn i amser Du ddyfod i ben? *Deut.* i. 41. I.e., oni chafod efe ranu y tir yn y diwedd, a rhoddi esgyrn i orwedd mewn gwely o anrhyded ar ol byw i weled addewid Duw wedi lapus gyflawni i'w bobl? Felly Dafydd gobaith ac anynedd yr hwn oedd ryfed yn aros am y deyrnas ar ol cael addewid honi; yn enwedig os ystyriwn pa sawl cyf a gafodd i ddwyn ymaith fywyd Saul greulawn, yr hwn oedd yn sefyll rhyngddo a orsedd. Ni buasai raid iddo chwaith fo yn fyr o faterion i'w gosod mewn cyhoeddiad o flaen y bobl, tuag at lonyddu a bodloni eu meddyliau ar y fath achos pe buas yn meddwl myned y ffordd hon i'r goron. Ond fe wyddai nad oedd rhesymau golygu a fuasai yn boddloni lliaws am y weithres yn ddigon i dawelu ei gydwybod ei hun. Ac felly attaliwyd ei law rhag rhwygo br yr addewid i gael gafael yn y goron, ar y hon yr oedd yn feichiog; gadawodd iddyfyned i'w llawn amser; ac ni bu yn ei golle o'r achos.

2il. Y mae llawnder o fendith yn lifo mewn gyda mwyniant a fedwyd yn amser Duw; yr hyn a gollir lle na byddo amrydd i ddisgwyl hyd hyny. Yn awr, y mae y fendith yma yn cael ei thalu i fynwes y enaid disgwylgar y ddwy ffordd hon. Y gyntaf. Fe gaiff y mwyniant hwnw wedi ei felysu iddo â chariad a ffafr Duw er gysur. Yn ail. Y mae yn sancteiddiedd iddo yn ei hapus ganlyniad er ei les.

(1af). Fe gaiff ei felysu iddo â chariad ffafr Duw er ei gysur. A hyn nid oes cyst sail i'w ddisgwyl gan y neb sydd yn ato ei hun, ac heb fedru aros i Dduw yn amser ef ei osod o'i flaen. Y mae euogrwyl bob amser yn cydfyned â gannoddefgarw ac anymddiried; a lle byddo euogrwyl wedi ei gasglu wrth gyrhaedd rhyw fwynt, nid llawer o feluser a brofir wrth ddefnyddio. O! y mae euogrwyl y chwerwi pethau yn dost; y mae yn cad yr enaid mewn ofnparhaus o glywed newyddion drwg o'r nef; ac nid yw enaid mewn ofn yn gallu archwaethu nemawr o feluser i drugaredd. Fe all y fath un, ysgatfyd feddu ychydig lawenydd trefysgylid, ac yndwymo dros dro wrth y tân gwyllt yma o gynnuead ei hun; hyd nes delo i gael rhy faint o ymddiddan difrifol â'i galon, yn nghyleh y ffordd a'r modd y cafodd ei fwynt; ac fe fydd hyn yn sier o daslu y ffaithlithder i feddwl y creadur truan, fel m'nid hir y llysg y tân yn ddisglaer. O! fath frathied i galon y gorthrymwr yw fod dywedyd am ei gyfoeth mawr, fel brenin hwnw am ei goron, dyma etifedieth wych; ond Duw a wŷr pa fodd y cefallhi! Ond y Cristion a fyddo yn derbyn u

gw gysur tumewnol neu allanol o law
 aw, ar ol disgwyliad amyneddgar am dano,
 bydd y dychrynyfeidd hyn i'w boeni a
 ori ei draffwngc pan fydd ei gwpan wrth
 enau. Fe ŵyr pa le y cafodd ei feddian-
 u allanol a'i gysur tumewnol; gall gael
 Dduw wirio y ddao, eu bod gyda'i fodd
 genad ef. Y mae rhagoniaeth mawr
 wng llawenydd y llafurwr wrth gael ei ŷd
 aewn y cynauaf, a llawenydd lleidr a fyddo
 di lladrata ysgubau o faes un arall, ac yn
 w yn wych ar ei ysglyfaeth wedi myned
 ref. Fe allai y gellid clywed mwy o sŵn
 hrechwen yn nhŷ y lleidr nag yn nhŷ y
 furwr gonest; etto, nid oes un gymmhar-
 th rhyngddynt. Un ergyd ar ddrws y
 idr gan swyddog sydd yn dyfod i chwilio
 dŷ am ladrad, a anafa lawenydd yr holl
 ulu, fel y rhedant i ymguddio yma a
 aw. O! yntau, pa fath ofn a chywilydd
 ymeifi yn y galon euog pan ddel Duw i
 wlio am ei drugareddau a'i gysuron a
 tratawyd?

(21). Y mae yr enaid disgwylgar yn cael
 fwyntiant yn sancteiddiedig er ei les; ac
 nae ereill yn fyr o hyn er y cwbl a fedd-
 t. A pha fendith sydd yn perthyn i rodd
 d ei chael i wneuthur lles i ni? Y mae
 drydoedd rhy awyddus yn gwaethygu
 th i mwyniant a gasglant cyn ei amser.
 yma ddrwg bliu yn wir; cael cyfoeth neu
 sur er ein niwed. Pechod Israel oedd,
 a ddisgwylasant am ei gynghor ef;"
Am. cvi. 16. Yr oedd Duw wedi cymmyrd
 gofal arno, ac wedi ymrwmo i'w cynnal pe
 foddlonasent i'w ddarpariaeth ef. Ond
 fedrent hwy aros ei amser ef: "Eithr
 ysiasant yn ddirfawr yn yr analwch;"
Am. 14. Rhaid oedd iddynt hwy gael bydd
 eu blas, ac wrth alwad eu calonau diym-
 ps; onid e, ni thalai ddim. Hwy a gawsant
 ny: "Efe a roddes eu dymuniad iddynt"
Am. 15; ond gwell fuasai iddynt fod heb
 gwledd, o herwydd ni lesaodd iddynt
Am. 15), "eithr efe a anfonodd gulni i'w
 naid." Daeth barn ddirgelaidd gyda'u
 wyniant, yr hyn a ymdangosodd yn fuan
 y pechodau mawrion y goddefwyd eu dal
 addynt (*Am. 16*): "Cenfigenasant hefyd
 th Moses yn y gweryll, ac wrth Aaron,
 act yr Arglwydd;" ac hefyd yn y dialeddau
 dywalltodd Duw arnynt o'u herwydd:
Am. xi. 33. Ond y trugareddau a dder-
 nir yn ffordd ac amser Duw, a fyddant yn
 l'orth mwy iachus a maethlawn i'r enaid
 gwylgar. Ni thorant allan yn grach a
 ornwydd o fath y rhai hyn. Megys y
 e y naill yn danwydd i chwant, felly y mae
 lleill yn faeth i rasau y saint, ac yn eu
 neuthur yn fwy gostyngedig a sanctaidd.
 welwch hyn yn *Esa. xxx. 18, 19, 22, 24,*
 ffirwyth eu disgwyliad amyneddgar wrth
 uw am waredigaeth allanol, y maent yn
 l peth mwy gwerthfawr i'w chanlyn, sef

gras i'w defnyddio yn dduwiol. Trugaredd
 fawr ar ol aml weddiau, a hir ddisgwyliaid,
 oedd i Hannah gael mab; ond trugaredd
 fwy oedd iddi gael calon i'w roddi yn ol i'r
 Duw a'i rhoddodd ef iddi hi. Cael etifedd-
 iaeth, iechyd, neu ryw fwyntiant arall, wrth
 ddisgwyl am dano gan Dduw, sydd drugar-
 edd; ond nid i'w chymmharu â'r fendith
 hono sydd yn tymmeru ac yn sancteiddio
 y galon i ddefnyddio y rhai hyn i ogoniant
 Duw. A hyn yw cyfran gyffredin yr enaid
 disgwylgar; a hyn nid yn unig mewn
 cysuron allanol, ond rhai tumewnol hefyd. Y
 mae y llawenydd â'r heddwch a gaiff yr enaid
 diragrith yn y ffordd hon, yn ei wneuthur
 yn fwy gostyngedig, sanctaidd, a nefol; tra
 y mae y cysur a gyrhaedd rhagrithiwr mor
 hawdd, naill ai yn dirywio i falchder a hun-
 andyb, neu yn ymdrywallt i ryw ffos fudr
 arall; fe allai i halogrydd cyhoeddus cyn
 rhedeg ym mhell.

DOSE. III.

3. Y mae gobaith yn sicrhau yr enaid
 tra byddo Duw yn aros heb gyflawni un
 addewid, y caiff dori ei ddiffyg mewn un
 arall yn absennoldeb hono. Ac y mae hyn
 yn ddigon i lonyddu calon pwy bynag sydd
 yn ei adnabod ei hun. Fe osododd Duw
 bethau yn y fath drefn hyfryd, fel nad oes
 un cysswllt o amser yn mha un y mae enaid
 credadyn yn cael ei adael yn gwbl ddigysur;
 ond fe fydd rhyw addewid neu gilydd yn
 sefyll yn barod i weini i'w angenion pres-
 ennol. Ysgatfydd y bydd efe weithiau yn
 fyr o'r hyn y mae yn ei fawr ddymuno; etto
 cymmerir gofal hyd yn oed y pryd hyny
 am ei gynnaliaeth; y mae un addewid yn
 ei ddiddanu i aros y llall. A pha achos sydd
 gan ddyn claf i gwyno, er nad yw ei gyfeill-
 ion yn eistedd ynghyd gydag ef, os gwnânt
 hyny bawb yn ei dro, a pheidio ei adael heb
 nifer digonol i edrych ar ei ol? Yr ydym
 yn darllen am bren y bywyd (*Dad. xxii. 2*),
 "yn dwyn deuddeg rhyw ffirwyth, bob mis
 yn rhoddi ei ffirwyth." Felly y mae ffirwyth
 a ellir ei fwyta i'w gael arno bob amser.
 Wrth y pren yma, pa beth sydd yn fwy
 addas i ni feddwl na Christ, yr hwn sydd
 yn dwyn pob rhyw ffirwyth yn ei addewid-
 ion, a chysur at bob amserau, a phob rhyw
 gyflwr? Ni all credadyn un amser ddyfod
 ato heb gael rhyw addewid yn addedd i'w
 fwyta; ac felly fe gaiff gynnaliaeth tra
 byddo y lleill yn aros i fyned yn addfetach.
 Gwelwch yma fod darpariaeth i'r Cristion
 ym mhob tymmor. Pan ddychwelodd Crist
 i'r nef, fe adawodd hyn yn gysur i'w ddis-
 gyblion: "Mi a ddeuaf drachefn, ac a'ch
 cymmeraf chwi ataf fy hun" (*Ioan. xiv. 2*),
 sef i dŷ ei Dad, lle y mae yn byw mewn go-
 goniant. Wele newydd hyfryd yn wir; ond
 Och! pa fodd y safant yng ngwyneb yr am-
 ryw ystormydd oedd i gyfryngu rhwng am-
 ser yr addewid yma a'i chyflawniad? Fe

ystyriodd ein Hiachawdwr hyn hefyd; ac fe ddywed wrthynt na chaent eu gadael yn amddifad; ond byddai ei Ysbryd gyda hwynt ar y ddaear, i aros yr amser y caent eu dwyn ato i'r nef: *Ioan* xiv. 16, 17. Nid oes ar y Cristion un amser y fath ddiffyg nad all gobaith ei gynnorthwyo (*Ier.* xvii. 7), "Bendigedig yw y gŵr a ymddiriedo yn yr Arglwydd, ac y byddo yr Arglwydd yn hyder iddo. Canys efe a fydd megys pren wedi ei blanu wrth y dyfroedd, ac a estyn ei wraidd wrth yr afon, ac ni ŵyr oddi wrth ddyfod gwres; ei ddeilen fydd fr, ac ar flwyddyn sychder ni ofala, ac ni phaid a ffrwytho." Y dyfroedd yma yr addewidion, oddi wrth y rhai y mae y credadyn yn tynu maeth parhaol; fel megys pren ar lan afon sydd yn iraidd trwy bob hin, y mae yntau felly hefyd, pa wedd bynag y gweithio rhagluniaeth Duw oddi allan. Fe allai bod y Cristion mewn cyflwr cystuddiol a'r addewid o ymwarded heb ddyfod; er hyny medr gobaith ei gynnal yn absenoldeb hono, ar bwys addewid arall; sef y bydd i Dduw ei nerthu dan ei gystudd, er nad yw yn bresennol yn ei waredu o hono: *1 Cor.* x. 13. Os na bydd y Cristion eto yn profi fod yr addewid yma yn tywallt ei rhinwedd i'w fynwes i'r fath radd a'i iachau yn gwbl o'i annoddefgarwch a'i anymddiried, a drwg dymmerau ereill (y rhai, er ei ofid, a genfydd yn rhy brysur o'i fewn) yna y mae gan obaith ffenestretto i ollwng allan y mwg; efe a egyr o flaen yr enaid yr addewidion hyny sydd yn sicrhau i'r Cristion gwan y caiff trugaredd faddeuol guddio y gwendidau na ddarfu i ras cynorthwyol eu llwyr orchfygu (*Mal.* iii. 17); "Arbedaf hwynt hefyd fel yr arbed gŵr ei fab sydd yn ei wasanaethu." Felly *Micah* vii. 18: "Pa Dduw sydd fel tydi, yn maddeu anwiredd, ac yn myned heibio i anwiredd gweddill ei etifeddiaeth?" Ac yn sicr ni oddefasai Duw i gymmaint o wendid *Iob* dori allan, ond fel y byddai yn niwedd y cwbl rywbeth i drugaredd faddeuol ei wneuthur; ac y gwelai y gŵr duwiol yma ei hun yn dyledwr iddi am ei waredigaeth, ac hefyd am y dystiolaeth amrhydeddus a ddygodd Duw iddo o flaen ei gyfeillion angharedigol; y rhai, o herwydd ei gystuddiau trymion, a pheth cynihrwf yn ei ysbryd, a'i llwythasant ef mor annhrugarog a'r cyhuddiad o fod yn rhagrithiwr.

PENNOD VIII.

Yn cynnwys prawf o ba fettel y' mae yr helm o obaith wedi ei gwneuthur.

Defn. 1. Er prawf pa un a yw yr helm yma o obaith genym ar ein penau, ai nad

yw; yr helm yma, meddaf, a gymhell arnom yn y testyn. Am y fath addugwael ag y mae y rhan fwyaf yn foddlaarano, gan mor isel ei bris, Och! nid yw y haeddu yr enw o wir obaith, mwy na chwpa o bapur yr enw o helm. O! edrych at fetel a gwneuthuriaid dy helm mewn modd e wedigol; o herwydd at hwn y bydd yr obaith neliad blaenaf. Yr hwn sydd a'i ymglyb yn benaf am gadw ei ben ei hun (y sarwyf yn feddwl) fe gais yn benaf hefyd glwyfo dy ben. Nid oes neb ond ynfydi neu blantos, mor hygoel ag yr ymlenwant gobaith mawr ar achos bach neu egwan. Neb sydd ddoeth, a'i synwyrâu ganddo, fydd mor ofalus ynghylch gosodiad ei obaith yn enwedig am iachawdwr iaeth, ag yw lly ydd synwrol ar long yn dwyn llwy gwerthfawr am le i angori ei lestr. Y m achos wrth ein gofal mwyaf yn hyn; o herwydd nid oes dim yn rhoddi dynion i gwilydd mwy na chyfarfod â somedigaeyn eu gobaith (*Iob* vi. 20); "Hwy a gywilyd iwyd am iddynt obeithio; hwy a ddaeth hyd yno ac a wlaediddiasant;" hyny yw herwydd methu cael dwf fel yr oeddnt disgwyl yn yr aberoedd hyny. Ond nid o un cywilydd yn debyg i hwnw, a dddwg gobaith am iachawdwr iaeth ar yr annuinion yn y diwedd: "Rhai a ddeffroant i was a dirmyg tragwyddol;" *Dan.* xii. 2. He a godant allan o'u beddau ac allan o'u p adwys ffyliaid hefyd, lle y buasai eu gobaith yn eu difyru dros eu holl fywyd chânt weled yn lle y nefoedd a ddisgwyliant, uffern yn eu disgwyl hwy, gan agor safn yn anferth am danynt. Os oedd y ffylwilydd ar weision Eglon ar ol hir de gwyl wrth ddrws eu harglwydd (lle yr oedd ynt yn edrych am eu holl ddyrchafiad), gael ef, a'u gobaith gydag ef yn farw ar llawr: *Barn.* iii. 25. O! ynte, pa galon feddwl y fath gymmysgedd o gywilydd dychryn a gyferfydd yng ngwyneban chalonau llawer yn y dydd mawr, wrth w ed eu holl obaith am y nef wedi trengu, gadael yn nwyllaw diafiad i'w poeni i d gwyddoldeb; nid oedd milwyr Hanni mwy hyderus yn rhanu ysbail Rhufain mysy eu gilydd (yr hon er hyny ni chymerasant) ag yw llawer o bechaduriaid r ffygus, a addawant iddynt eu hunain ddwyddfyd y nef; ond yn lle hyny, a g orwedd mewn gwarth yn uffern, oddi ei iddynt cyn marw allu dangos gwel sail gobaith nag a fedrant hyd yma. O! pa b a wna y breuddwydwy hyn yn nydd d ofaint yr Arglwydd; pan welant yr holl yn fflam oleu o'u cwmpas, ac y clyw Dduw (llygaid yr hwn a drywana dr ddynt) yn eu galw yng ngwydd dynion angylion i'r farn! A safant hwy at eu baith y pryd hwnw, a'i wirio yng ngwy Crist fel y maent yn awr yn ymfendit

uddo? Na, diau y llwfrhâ eu calonau hyf-
 on. Ni ddywed neb mor ddrwg am danynt
 u cydwybodau eu hunain; ac fe ddefn-
 iddia Duw eu tafodau eu hunain i'w cy-
 uddo, a dangos ffolineb eu gobaith, er cy-
 llydd i'w hwynebau o flaen yr holl fy-
 mae y prophwyd yn rhagddywedyd am
 amser pan "y bydd i'r prophwydi (gau)
 wilyddio bob un am ei weledigaeth; ac
 wisgant grysoedd o rawn i dwyllo. Ond efe
 ddywed, nid prophwyd ydwyf fi; llafurwr
 ddaear ydwyf fi," &c: *Zech.* xiii. 4, 5. Yn
 i'w gau brophwyd mwyaf a fedd y byd,
 sydd yn twyllo y nifer mwyaf, yw y
 wraig o baith yma a gymmer dynion i fyny
 n iachawdwriaeth. Y mae hwn yn pr-
 wydo am heddwch, maddeuant, a nefoedd,
 ran y rhai hyn na feddyliodd Duw erioed
 a gwneuthur yn etifeddion o honynt. Ond
 mae y dydd yn dyfod, ar frys hefyd, pan
 caiff y gau brophwyd hwn ei waradwyddo,
 os y bydd y rhagrithiwr yn addef na bu
 ganddo erioed o baith am iachawdwriaeth,
 ond a luniwyd gan ei ddychymmyg ei hun.
 Furfliolwr hefyd a deifl ymaithe ei wisg o
 roffes, â'r hon y twyllodd ei hun ac ereill;
 a ymddengys iddo ei hunan a'r holl fydd
 ei liw noeth. Fe weddai, gan hyny, i
 bob un fod yn llym a manwl yn y gwaith o
 wilio ei galon i edrych ar ba beth y syl-
 lenwyd ei o baith.

Yn awr, v mae gobaith o'r iawn wneuth-
 uriad yn o baith rhesymol, ac ar sail dda:
 Byddwch barod bob amser i ateb i bob
 a o fyfno i chwiri reswm am y gobaith sydd
 noeth;" 1 *Pedr* iii. 15. Och! pa fodd y
 dydd y rhai hyn ateb i ereill na feddant
 i'w cydwybodau eu hunain ar y cwestiwn
 na, pa ham, O! fy enaid, yr wyt yn go-
 beithio bod yn gadwedig? Nid oes un
 ristian, er gwaned fydd mewn gras, nad
 os ganddo reswm wedi ei sylfaenu ar Air
 uw (a dyma yr unig wir reswm) am
 gobaith a broffesir ganddo. A ydych
 awi mor ynfyd a meddwl fod eich hyfder
 i'w fyfysgus, heb un gair o addewid i adeiladu
 eno, yn ddigon i roddi i'ch eneidiau hawl
 etifeddu teyrnas Dduw? Pe deuai un
 och, a dywedyd mai efe bia eich tŷ a'ch
 r, ac heb ddangos un ysgrifen dan eich
 aw, drwy yr hon y darfu i chiw ei tros-
 wyddo iddo; y cwbl a all ddywedyd
 w, ei fod wedi breuddwydio y nos o'r blaen
 ai felly yr oedd, a'i fod am hyny yn dyfod
 w meddiannu; oni thybiech chiw i dyn
 a wallgofus, a bod ganddo well hawl i letty
 ai gorphwyllog nag i'ch tŷ a'ch tir chiw?
 e etto y mae llawer yn gobeithio bod yn
 adwedig heb fedru rhoddi gwell rheswm
 a hyn am eu gobaith; a'r cyfryw yw yr
 oll bechaduriaid dygn anwybodus a halog-
 dig. Megys y byddai yn ddigon i dawelu
 nau y Cristion, pe b'ai ond yn gofyn i'w
 aid, pa ham y terfysgi ynof? ac yn craffu

leied rheswm sydd gan ei galon i'w roddi am
 ei therfysg; felly disgynid y pechadur rhy-
 fyfus oddi ar ei hoyw o baith, pe ceid gan-
 ddo ond ei alw ei hun i gyfrif, gan gyfarch
 ei enaid weithiau, ac edrych am ateb i fodd-
 lourwydd y fath gwestiwn a hwn, dywed i
 mi, O! fy enaid, mewn gwir ddifrifwch, pa
 reswm a fedri gael yn yr holl Feibl i ti
 obeithio am iachawdwriaeth, yr hwn wyt
 yn byw mewn auwybodaeth o Dduw, neu
 arferiad o bechod yn erbyn Duw? Yn sicr
 fe gai ei enaid mor fud ag oedd y dyn heb
 y wisg briodas yn y ddamneg. Dyma y
 rheswm pa ham y mae dynion yn fath es-
 troniaid iddynt eu hunain, ac heb feiddio
 tynu ymddiddan â'u calonau ar y fath des-
 tytyn; gwybod y mäent y codid terfysg yn
 ebrwydd yn eu cydwybodau, yr hwn ni
 lonyddid ar frys; ac am hyny hwy a loch-
 ant eu calonau twyllodrus, fel Dafydd ei fab
 Adoniah; yr hwn "nid anfodlonodd ef yn
 ei ddyddiau, gan ddywedyd, Pa ham y
 gwnaethost fel hyn?" 1 *Bren.* i. 6. Na
 hwythau eu heneidiau yn eu bywyd, gan
 ofyn, enaid, pa ham y gobeithi fel hyn?
 Neu os gofynasant, nid oedd ond tebyg i
 Pilat yn gofyn i Grist, "Pa beth yw gwir-
 ionedd?" (*Ioan* xviii. 38), heb ewyllys i aros
 am ateb. Fe allai mai creadur anwybodus
 wyt, yr hwn ni wyddost pwy yw Crist, na
 pha beth ynddo y mae gobaith i ddal gafael
 arno; ond yn unig yr wyt ti yn gobeithio
 mewn rhyw dyb ddall, y bydd Duw yn well
 wrthyt na dy ddamnio yn y diwedd; ond
 pa ham y gobeithi fel hyn, ni fedri roddi un
 rheswm; na minnau chwaith. Os achub
 efe dydi fel yr wyt yn awr, y mae yn rhaid
 iddo wneuthur efengyl newydd er dyfwyn;
 o herwydd yn y Beibl yma dy ddamnio y
 mae, heb o baith nac ymwared: "Yn y rhai
 colledig y mae yr efengyl yn guddiedig;"
 2 *Cor.* iv. 3. Ond os gwna gwybodaeth y
 tro, ysgatfydd y medri ddangos cryn lawer o
 hwnw. Dyma y gwrthglawdd sydd genyt
 i lechu dano, ac i gadw draw y bwledi a
 defir atat o'r Gair, o herwydd y chwantau
 hyny yr wyt ti yn byw ac yn ymdroi yn-
 ddynt fel anifail yn ei dom, gan ymhalogi
 gyda hwynt yn feunyddiol. Ac ai hyn yw
 y cwbl a feddi i brofi gwirionedd dy o baith?
 Yn wir y mae llawer na wnant well defnydd
 o'u gobaith ysgrythyrol, nag a wna lladron
 o'r deall sydd ganddynt yng nghyfraith y
 tir; y rhai a'i hastudiant hi, nid o feddwl
 ei chadw, ond i fod yn gyfrwysach i ohel
 ei chyhuddiad pan ymafio ynddynt. Felly
 y mae llawer yn chwilio y gair, yn enwedig
 y rhanau sydd yn gosod allan drugaredd
 Duw i bechaduriaid yn yr helaethrwydd
 mwyaf; fel y gallont â'r rhai hyn wneuthur
 gobenydd esmwyth i bwysu eu penau tru-
 enus arno, pan fyddo gwaedd eu ffeidd-dra
 yn dechreu eu blino. Duw a'ch gwaredo,
 fy anwyl gyfeillion, rhag y fath o baith a

hwn. Yn sicr yr ydych yn meddwl darparu gwell rheswm na hyn cyn myned i'r farn am eich gobaith o fod yn gadwedig, onid ydych? A feddyli di y bydd i'th wybodaeth fod yn ddadl cyn gryfed am iachawdwriaeth, ag a fydd y pechodau yr ymdreigli ynddynt yn erbyn y wybodaeth hono am ddamnedigaeth? Os oes gobaith i'r fath rai a thi, yna deued Indas a Iezebel, Ie, y diafliaid a'r holl ysbrydion uffernol i daraw i mewn am ran gyda'r fath gymdeithion; o herwydd fe all rhai o'r rhai hyny ddadleu mwy o hyn na neb o honoch chiwi.

Onid fe allai fod genyt fwy na hyn i'w ddywedwyd drosot dy hun. Yr wyt ti, nid yn unig yn ddyng gwybodus, ond yn un wedi diwygio hefyd. Ti a ddiengaist rhag yr halogedigaeth y buost unwaith yn gorwedd ynddo; Ie, y mae dy ddiwygiad wedi ei addurno â phroffes deg o grefydd, a'r rhai hyn ynghyd wedi ennill i ti farn dda dy holl gymmydogion, fel y mae yn bossibl y gelli gael tystiolaeth dan eu dwylaw am dy ymddygiad hardd a thebyg i Gristion yn eu plith. Etto, gâd i mi ddywedwyd wrthyf, os wyt yn meddwl bod yn fyddlaw'n i'th enaid dy hun, rhaid i ti beidio gorphwys ar eu barn dda hwy am danat, na barnu dy obaith o'r nef wrth yr hyn sydd yn dyfod dan eu gwybyddiaeth hwy, sef dy ymddygiad oddi allan; o herwydd ym mhellach nid yw eu llygad a'u sylw hwy yn cyrhaedd. Ond edrych sydd raid i ti i mewn i'th fynwes dy hun ac ymofyn pa ysgogiad a fedri gael yno, yn achos o'r cyfnewidiad yma, a'r dull newydd sydd i'w weled ar dy ymarweddian allanol. Hyn, a hyn yn unig, sydd i ddis-tewi y ddadl a dwyn dy feddyliau i benderiad am dy obaith, pa un ai ffugiol ai gwirioneddol ydyw. Nid agwedd newydd yn harddau ein hymddygiad oddi allan, ond egwyddor newydd yn newid trefn y galon oddi mewn, a brawf fod dy obaith yn dda a chywir (1 *Pedr* i. 3); "Bendigedig fyddo Duw a Thad ein Harglwydd Iesu Grist, yr hwn yn ol ei fawr drugaredd â'n hadgenhedlodd ni i obaith bywiol." Yr enedig-aeth newydd sydd yn rhoddi hawl i'r gobaith newydd; os yw yr enaid yn farw, ni all gobaith fod yn fyw; etto gall yr enaid fod yn farw er ei wisgo mewn gwisg daclus o ddiwygiad a phroffes allanol, yn gystal ag y gall corph marw gael ei wisgo â dillad gwychion. Pe cai mab cardotyn ddillad plentyn gŵr cyfoethog am dano, cystal y gallai hwn heb un achos arall, ddisgwyl bod yn etifedd i'r gŵr cyfoethog, ag y gelli dithau trwy dy ddiwygiad oddi allan, a' th broffes, obeithio bod yn etifedd i Dduw mewn gogoniant. Y mae gobaith y plentyn oddi wrth ei dad ei hun, nid oddi wrth estron. Yn awr, tra yr ydwyf mewn cyflwr anianol, er harddedd fydddech, yr hen Adda yw dy dad; a pha obaith sydd i ti oddi

wrtho, yr hwn a aeth yn waeth â bod heb ddim; ac ni adawodd ddim i'w eppil dlawd oddi eithr i ni roddi yn yr rhestr gorff egwar a marwol, natur bechadurus, a disgwylia ofnadwy am angeu amserol a thragwyddo oddi wrth law ddialeddol y Duw sanctaidd. Y rhai hyn yr wir a adawodd ef i'w hol blant. O! pa fodd y gellwch oddef i gws, fyned dros eich llygaid hyd nes y deloch berthynas â Duw? Yr oedd Hannah yn wraig, chwerv ei henaid, hyd nes y cafodd blentyn gan Dduw; ac onid oes mwy o achos i ti fod felly, nes y cafech y fraint o fod yn blentyn i Dduw? Gwell fil o weithiau drosodd i ti farw heb blant, nac heb dad fy meddwl yw, gwell i ti fod heb adae plentyn i etifeddu dy dir yma, na dy fod heb dad i roddi i ti etifeddiaeth yn y na pan elych oddi yma.

PENNOD IX.

Dwy ddyledswydd yn cael eu gwasgu at y rha sydd, ar ol brawf, yn cael fod y gras yma obaith ynddynt.

Defn. 2. Er annogaeth; ac y mae hyn naill ai yn perthynu i gredinwyr sydd yn meddu yr helm yma; neu i anghredinwyr sydd etto heb obaith.

1af. I chiwi, gredinwyr, a geir ar brawf yn feddiannol o'r helm yma o obaith. Y mae amryw ddyledswyddau i'w gwasgu arnoel fel y cyfyr.

DOSB. I.

1af. Bydd ddiolchgar am y rhodd anrhaethol yma. Ni chredaf ei bod genyt os nad yw diolchgarwch am dani yn cael ll mawr yn dy galon. Nis gall *Pedr* son am dani ond dan fendithio (1 *Pedr* i. 3, 4) "Bendigedig fyddo Duw, yr hwn a'n had genhedlodd ni i obaith bywiol—i etifeddiaeth anlygredig, a dihalogedig, a diddifiannedig." Y mae y rbagymadrodd i epistolau Paul yn gyffredin yn yr un dull: *Col.* i. 5 *Eph.* i. 3. A oes genyt obaith o'r nef Dyna fwy na phe byddai genyt feddiant o'r holl fydd. Fe fydd yn dda gan y penadu mwyaf yn y byd, ar awr angeu, gael newid ei goron am dy helm di. Ni phryn ei goron ef mo'r helm yma; ond fe ddwg dy helm i ti y goron, pan y bydd efe heb un i'w gwisgo; a choron, nid o aur, ond o ogoniant ac nid i'w thynu ymaith fel ei goron ef, ond i'w gwisgo dros byth. O! cofia, Gristion pa beth oeddit ychydig cyn hyn; mo bell o feddu gobaith o'r nef fel yr oeddit dan ddisgwyliaid ofnadwy am uffern a damnedigaeth. Ac a gafodd y cadwynau o euogrydd, oedd yn gwasgu mor drwm ar dy gydwybod ofnus eu tynu ymaith, a'th ben ei godi i ddisgwyl am y fath uche ddyrchafiad yn llys nefol y Duw hwnw y

ynaist ei ddigder yn dra chyfiawn i'th yn, trwy dy fradwriaeth erchyll? Yn o holl ddyonion y byd, ti ydyw y naf mewn dyled i drugaredd Duw. Os yn disgwyl diolch am grawen, yna yn ver mwy am goron. Os gweddus yw ei annu am ymorth a dillad, pe baent ond iau y maes a bratiau, O! gyda pha wreswydd o gariad a diolchgarwch y dylech i feddwl a siarad am y danteithion a'r ddwisgoedd sydd yn eich aros yn ei nefol rnas! Yn enwedig os trowch eich golwg eich cydgarcharorion gynt, a gweled y wr atrhrist ac alaethus y maent hwy etto (do, tra y mae yr holl ddedwyddfyd yma li dyfod i'ch rhan chwi! Pe byddai un cael ei achub rhag y crogbren yn unig y rasionrwydd ei frenin, ac (wrth farchweth yn ei gerbyd tua'r llys, yno i fyw yn cyfoeth ac anrhydedd) yn cyfarfod â i o'i gyfradwyr yn cael eu llusgo ar er, mewn mawr gywilydd a dychryn tua eu dienyddiad—am yr un bradwriaeth ag yu ganddo ef gymmaint llaw ynddo a neb onynt—oni effeithiai hyn ar ei galon i iddo ryfeddu trugaredd ei frenin? Ac o weli di, Gristion, lawer o'th gymmydogdruain, y buost yn cydbecku â hwynt, o yn rhwym mewn anedifeirwch ac ahrediniaeth, yn gyru yn chwyn tuag i'n a distryw, tra yr wyt ti, o herwydd ddrugaredd Duw, ar dy ffordd i lys y oedd? O! ynte, cwmp ar dy ddeulin, a efa, Arglwydd, pa beth yw yr achos yr wyt yn dy eglurhau dy hun i mi ac nid rhai hyn? Mor hawdd a chyfiawn fuasai i ddau anfon y pardwn iddynt hwy, a'r yant o ddamnedigeth atat tithau! Wedi i dreulio dy anadl a'th ysbrydoedd dy hun y moliannu Duw, digon rheidiol i ti erfyn gliad o fawl gan dy holl gyfeillion sydd y meddu calon i gyfranu at y fath waith sengar fel y cynnorthwyent di i dalu y dled hon. Etto hyn i gyd, a'r cwbl o'th i i dragwyddoldeb yn y nef (lle y bydd y burach nag yma, o herwydd y cynmysg-el pechadurus sydd yn awr yn dy enaid), i iddi ei gyfrif yn hytrach yn gydnabydd- i'ch o'r hyn yw dy dyled i Dduw, nag yn iad o'r rhan leiaf o honi.

DOSB. II.

Phil. Bydd fyw, Gristion, yn gyftatebol i o'baith. Bydded cydymffurfiad rhwng dy cyvyddorion a'th arferion; rhwng dy o'baith a y nef a'th rodiad yn y byd. Fe ddylai i lygaid gyfarwyddo y troed. Yr wyt ti yn eich am iachawdwriaeth; rhodia y ffordd y drych dy lygaid. Y mae hyn yn cael i wasgu atom yn fynych yn y gair, fel y gelom yr angen, a'r anhawsder o hono. Weithiau, fe'n cymmhellir i ymddwyn i megys y gweddai i saint;" *Eph. v. 3*; *1 Cor. xvi. 2*. Weithiau, fel y mae "yn ias i efengyl Crist;" *Phil. i. 27*. Weith-

iau, "fel y gweddai i rai yn profressu duw- ioldeb;" *1 Tim. ii. 10*. Y mae gweddeidd- dra ac ymddygiad hardd yn bod, y rhai oni cheidw y Cristion hwynt yn ei rodiad, y mae efe yn traddodi ei uchel alwad a'i o'baith i ddirmyg a diystyrwch. Edrych yn uchel a byw yn isel, O! mor ddirmygus yw hyn ag ngolwg pawb! Pan fyddo dyn yn cael ei wisgo i'r diben o beri gwawd a chwerthin, hwy a roddant am dano rywbeth o'r brenin a rhywbeth o'r cardotyn; fel, trwy y cym- mysgeidd yma o rith fawredd a gwaelder salw ynghyd, y paro iwy o ddirmyg i'r lliaws. Ac yn sier, pe cai y diafol wisgo dyn fel ag i fwrw y gwarth a'r dirmyg mwyaf arno, ie, ar Grist a phroffes o'i efengyl, nis gallai feddwl am ffordd hwy- usach na pherswadio adyn i hōni gobaith uchel am y nef, a bod heb ddim yn addas i hyn yn ei ymarweddiad, ond y cwbl yn waelder llwyr anghytnuol a'r fath broffes arderchog. Pe gwelech wr yn myned i'r maes â helm o bres am ei ben, ond â chleddyf pren yn un llaw, a tharian papur yn y llall, a'r rhan arall o'i arfogaeth yn gyffelyb i'r rhai hyn, chwi feddylicheb na byddai hwn yn debyg o wneuthur niwed i'w elynion, oddi eithr iddynt ymdori wrth chwerthin am ei ben. Y fath olwg a hyn sydd ar y profressw ymfrostar sydd yn codi ei ben yn uchel, gyda disgwiliad hyf am iachawd- wriaeth; ond ni all ddangos un gras yn chwaneig i'w gyfaddasu a'r gobaith mawr a gymmerodd i'fyny. Y mae yn gymhwys- ach i beri difyrwch i Satan nag i wneuthur nemawr o niwed iddo, na lles chwaith iddo ei hun.

Cwest. Ond fe allai y gofynwch, Pa fodd y mae i'r Cristion fyw yn gyfatebol i'w o'baith?

At. Yr wyt yn ateb, yn gyntaf yn gy- ffredinol; ei le yw bod yn ofalus ym mhob peth a wnel, ar iddo allu yn rhydd arfer ei o'baith ynddo, a disgwyl o'r addewid y bydd i Dduw er mwyn Crist dderbyn y weithred yn gymmeradwy, a'i wobrwyo yntau. Gofyn y cwestiwn yma yn ddirifol i'th enaid cyn i ti ymaflyd mewn un gwaith. A allaf fi obeithio y bydd i Dduw beri rhywydd- deb i mi ynddo? A fedraf fi ddisgwyl gwedd ei wyneb ynddo, a'i fendith arno? anwedus iawn i Gristion wneuthur un peth megys dan gudd, fel pe byddai arno ofn i Dduw na'i gydwybod fod yn gweled. Beth bynag nid yw o o'baith, pechod yw; am nas dicheon fod o ffydd. O! fel y dylai hyn gau calon y Cristion allan o bob traws lwybr! Y mae yn bossibl fod genyt w'g yn erbyn dy gym- mydog, a'r tân wedi ennyn o'th fewn, er nad yw etto wedi tori allan i eiriau chwerv- on, ac ymddygiad digllawn; ac yr wyt yn myned i weddio; gofyn yn awr i'th enaid a dderbyn Duw yr offrwm sydd yn cael ei gynneu a'r fath dan dieithr? Iē, pâr i'th

enaid ystyried pa fodd y dichon dy obaith am drugaredd faddeuol ac achubol gan Dduw gyttuno â'th ysbryd digofus ac anfaddeugar tuag at dy gymmydog. Yn sicr, megys nad yw yr haul i'w weled yn dda drwy awyr dymnestlog, felly nid da y gall llygad gobaith ganfod ei wrthddrych, iachawdwriaeth y nef, pan fydd yr enaid yn llawn terfysg gan ddigder a drwg nwydau.

Ond yn ail, i roddi esampl mewn rhai pethau neillduol, yn y rhai yr ydych i gydymagwedu â'ch gobaith am iachawdwriaeth.

PENNOD X.

Amryw esamplau yn y rhai y dylai y Cristion gydymwedu â'i obaith, a byw yn addas iddo.

DOSB. I.

1. YN dy gyfeillion. Y mae dyn yn greadur cyfeillgar, wedi ei addasu at gymdeithas. A pha gyfeillion sydd yn gymmhws i ti ymgysylltu â hwy, ond rhai o'r un dygiad i fynd, a'r un gobaith, a thi dy hun. Y mae y saint yn bobl wahanol oddi wrth y byd: "Dysged yr eiddom ninnau flaenori mewn gweithredoedd da;" *Tit.* iii.

14. Yr eiddom ni; hyny yw, y rhai o'n cymdeithas ni. Ac y mae yn gweddu iddynt ymofyn am eu cyfeillion yn eu plith eu hunain. Fe dâl i ni sylwi ar hyny am Pedr a Ioan: "A hwythau wedi eu gollwng ymaith, a ddaethant at yr eiddynt;" *Act.* iv. 24. Pan ym mysg yr annuwiolion, hwy a gyfrifent eu bod allan o'u cymdeithas eu hunain; ac am hyny nid arosent yno yn hwy nag ydoedd raid. Y mae yn ddiarnheu fod yng ngwlad Canaan ddigon o bobl y gallasai Abraham gael eu cyfeillach; ond fe wyddai mai pobl anaddas oeddynt iddo ymglwm mewn cyfeillgarwch â hwynt; ac am hyny, dywedir iddo "ymdeithio yn nhir yr addewid, megys mewn tir dieithr, gan drigo mewn lleusttai gydag Isaac a Jacob, cyd-etifeddiion o'r un addewid;" *Iheb.* xi. 9. Yr ydym yn cael yn wir ei fod ef mewn cynghrair â Mamre yr Amoriad, a'i frodyr Escol ac Aner (*Gen.* xiv. 13), yr hyn sydd yn arwyddo cydnabyddiaeth mwy na chyffredin. Ond yr oedd y rhai hyn, yn ol pob tebygolrwydd yn broseltytiaid, wedi ymwrthod â'u heilunaddoliaeth, trwy gynghorion duwiol Abraham, i addoli y gwir Dduw gydag ef. Ac y mae mwy o le i feddwl hyn, wrth eu cael yn ymgysylltu âg Abraham mor bell ag i ryfela yn erbyn y tywysogion eilunaddolgar eu cymmydogion; yr hyn y mae yn debygol nis gwnaethent er mwyn estron, ac o grefydd estronol hefyd, pe busent hwy yn eilunaddolwyr. Yr ydym yn darllen pa mor ddrud y talodd rhai o'r saint

am eu cydnabyddiaeth â'r annuwiol; me Iehosaphat am ei gyfeillach âg Ahab llawer ereill. Ac os bydd i ni ymgysy â'r cyfryw ar ol gwybod hyn, nid oes res i ni ddisgwyl cael talu llai na hwy; fe, os diangwn cystal, o herwydd fod genyn ffolineb hwynt wedi ei goffau i'n gwneut yn ddoethach. O! ystyria, Gristion, i le yr wyt yn myned yn dy obaith; onid nefoedd? Ac onid yw dynion yn ce cyfeillion a fyddont yn myned yr un ffordd hwy eu hunain. Ac a yw y drygionus o'r ffordd a thi? Nis gall hyny fod, mwy na gall ffordd nef ac uffern gyfarfod yn un. Oni rodia dy gyfaill yn ffordd y nef, pa l a wnei yn rhodio gydag ef? Y mae i'w d y bydd raid i ti gydsynio gormod âg ef ei ffordd. Mewn gair, Gristion, y mae obaith di yn cyfeirio i'r nef; ac onid peth yr wyt yn gobeithio am dano ddelech yno, yw cael ymadawid llwyr rhai drygionus? A'r hyn wyt yn gobeithio ei gael y pryd hwnw, onid wyt yn awr gweddio am dano? Diammheu dy fod gwir Gristion ydwyt. Pa beth bynag sy yn wrthddrych i obaith y cyfryw, y mae destyn i'w weddi hefyd. Cyn fynyched y dywdech, Deled dy deyrnas, yr wyt gweddio am gymmait a hyn. Ac a fyc obaith, a gweddio am dy waredu oddi wnt, gydsefyll â thafu dy hun i'w mysg i gyfeillgarwch agos â hwynt?

DOSB. II.

2. Yna yr wyt yn cydweddu â'th obaith o iachawdwriaeth, pan fydderch yn llafn am i sancteiddrwydd dy ymarweddiad yn atebol i uchder dy ddisgwyliad. I y mae yr apostol yn ei wasgu oddi w resymoldeb y peth: "Pa ryw fath ddyw a ddylech chiwi fod mewn sanctaidd yn weddiad a duwioldeb, yn disgwyl ac brysiat at ddyfodiad dydd Duw?" *2 Pedr.* 11, 12. Yn ddiaw y mae yn gweddu i'r r yw fod yn sanctaidd hynod, y rhai sy yn disgwyl am y fath ddiwrnod gwynt edig! Yr ydym yn gobeithio bod y p hwnw yn debyg i'r angylion mewn gogiant; ac am hyny, ni a dylem, hyd y yn bossibl, fyw yr awr hon yn debyg angylion mewn sancteiddrwydd. Y pob enaid crediniol yn ddyweddi i G. Dydd trôedigaeth yw dydd y dywedd ym mha un y mae yn ymgredu trwy ff i Grist; ac yn ganlynol y mae yn byw m gobaith am ddydd y briodas, pan y daw dwyn adref i dŷ ei Dad (megys y dug Is Rebeecah i babell ei fam), yno i gyd-gydag ef, a mwynhau ei gariad melus o byth. Yn awr, a fynai y briodferch priodfab (pan ddelo) ei chael hi yn ei budddi a'i gwisg salw? Na fynai yn sicr: anghofia y briodasferch ei thlysau?" *Ier.* 32. A wybwyd erioed fod priodasferch anghofio cael ei gwisgiad yn barod er

d y bridodas, neu fod wedi ymwisgo pan do yn disgwyl am ddyfodiad ei phriod? cteiddrwydd yw y gwaith edeu nod-ld, ym mha un yr wyt ti, Gristion, i l dy ddwyn at dy Frenin a'th Briod : m xlv. 14. Pa ham y mae dydd y bridodas cael ei oedi cyhyd, ond am fod y wisg a cyhyd yn cael ei gwneuthur? Pan do hon ar ben, a thithau wedi ymwisgo, a yr hyfryd ddydd yn dyfod : "Daeth odas yr Oen, a'i wraig ef a'i parotôdd ei i;" Dad. xix. 7. Ni feddi di, Gristion, ddadl sydd ddwysach i guro i lawr bob itasiynau i bechod, nac un ffordd auddedusach i gael buddugoliaeth arnynt, thrwy osod dy obaith ar waith yn eu byn. Yr wyf yn addef mai da yw bod elyn yma yn cael ei faeddu, pa law bynag cwmpo; er mai ofn uffern fydd yn ei o i lawr ym mucheddau dynion, gwell hyny na dim. Etto, rhaid i mi ddyddyd wrthyh, megys yr oedd cyflwr yr aeliad yn isel a chaeth, pan oedd yn id iddynt fyned i waered at y "Philist- i i flaenlymu pob un ei fwyell a'i gaib;" Jam. xiii. 20. Felly y mae yn arwyddo l gwych iawn yw cyflwr y Cristion, o ran faterion ysbrydol, pan fydd raid iddo ar- dadl yr annuwiol i'w gadw rhag pechu; nad oes dim a rydd fin ar ei ysbryd i dori wy demtasiwn ond yr hyn a ddefnyddia i dienwaededig eu hunain. Yr wyf yn oied dy fod di, Gristion, o ysbryd ar- erchocach, ac o dymmer fwy cyweithas r rhai hyn. Ac megys y mae genym reg llynach i ffinio ellyn â hi nag a arfer- a at gyllell cigydd, felly yn wir fe weddai dl fwy ysbrydol a digaeth i'th wneuthur di llym a miniog yn erbyn pechod, nag sydd tycio weithiau gyda'r gwaethaf o ddyn- i, i beri iddynt o leiaf ymatal rhag weithredu eu drygioni. Dos di, Gristion, dy obaith; a thra y mae y pechadur ddfol yn brawychu ei hun oddi wrth ei want â thân a brwmstau, cywilyddia dy an allan o bob cydnabyddiaeth âg ef drwy pethau mawrin a gogoneddus yr wyt yn disgwyl yn y nef? Ai y pechod o fwyn- at anianol sydd yn ymgynnyg arnat? Dy- ed ynte wrth dy enaid, A chwareuaf fi yr ifail ar y ddaear, a minnau yn gobeithio dd yn fath greadur gogoneddus yn y nef? gaiff y pen hwnw orwedd yn awr ar lin- u Dalilah, yr hwn yr wyf yn gobeithio caiff orphwys cyn hir ym mynwes braham? A ymroddaf fi i halogi y corph wnw â chwant a chwydfa, yr hwn yw y isg y mae fy enaid yn gobeithio ei chael a y nef? O! na wna! Ymaith Satan; bydd a wnelwyf â thi, nac â dim a'm wna yn anghymmhwys i'r lle gwynfydedig r cyflwr sanctaidd yr wyf yn disgwyl am no, y caf ei fwynhau i oesoedd diderfyn agwyddoldeb.

DOSB. III.

3. Bydded i'th obaith am y nef gymmes- uro dy ymgais am y ddaear : "Gan fod yn sobr, gobeithiwch," medd yr apostol : 1 *Pedr* i. 13. Chwychi, sydd yn disgwyl am gymmaint mew'n byd arall, a ellwch fod yn foddolawn ar ychydig yn hwn. Nid oes dim yn fwy anweddaidd i obaith nefol na chalon fydol. Chwi a'i tybiech yn beth anhardd fod boneddwr o feddiannau mawrion iawn ym mysg y llofwyr tldion ar amser cynau- af, mor brysyr yn pigo i fyny y tywysenau yd a'r cardotyn gwaelaf yn y gymdeithas. O! fel y gwaeddi pawb gywilydd ar y fath ddyn budr chwantus! Wele, Gristion, paid a bod yn ddog, os dywedaf wrthyt dy fod yn gwneuthur peth llawer mwy cywil- yddus; os wyt, dan hōni gobaith am y nef, yn gymmaint dy awydd i gydio yn sothach y ddaear ag yw yr adyn anianol nad yw yn disgwyl am un rhan, ond yr hyn a adawodd Duw iddo i'w bigo i fyny yn maes y byd hwn. Po uchaf yr esgyno yr haul, mwyaf fydd grym ei belydr i wresogi yr awyr, a'i wneuthur yn ddisglaer. A phe byddai dy obaith dithau am iachawdwriaeth wedi myned rhagddo i ryw radd ac uchder canol- ig yn dy enaid; fe wasgarai y dymuniadau afreolaidd hyn am y byd, y rhai sydd yn awr yn dy ddallu, ac fe fagai fwy o wres serchiadol ynot am y nef nag wyt yn awr yn deimlo at y pethau sydd isod. Yr wyf yn cofio fod Awstin, wrth adrodd pa ymddi- ddan melus fu unwaith rhwng ei fam ac yntau am lawenydd y nef, yn tori allan fel hyn :—"Arglwydd, ti a wyddost mor wael yn ein golwg oedd y ddaear yn y dydd hwnw, pan oedd ein calonau wedi eu twymno âg ymddiddan hyfryd am y lle gwynfyded- ig uchod." Ac nid wyf yn amhheu nad yw pob un grasol yn profi yr un peth, po agosaf y delo i'r nef yn ei obaith, pellaf y mae yn gadael y ddaear yn ei ddymuniaid. Pan osodo gobaith ef megys ar ganllawiau y nefoedd, medr edrych i waered ar y byd tomenllyd yma fel ar sydyn o lwch—y nesaf peth i ddim. Y mae Scultetas wedi sylwi, er fod amryw feiau, o herwydd pa rai y mae y saint enwocaf sydd â'u hanes yn y Beibl, yn cael eu dangos fel esamplau o wendid dynol, etto nad oes un dyn duwiol i'w gael trwy yr holl Feibl â'i hanes wedi ei ddiwyno â'r cyhuddiad o gybydd-dod. Os deil hyn yn wir (ac nid wyf etto yn abl i'w wrthbrofi), ni a allwn ryfeddu pa fodd y mae yn digwydd fod hwn yn ein dyddiau ni yn cael ei gyfrif fel pechod y professwyr, ac yn cael ei osod gan rai halogedig, yn gy- huddiad cyffredin yn erbyn y rhai sydd yn hōni hawl i'r nef yn fwy na hwy eu hunain. O! gwae i'r dynion truenus hyny, y rhai trwy eu harferion gwaradwyddus yn y ffordd yma, a roddasant y glōyn yn nwyllaw yr an- nuwion, â'r hwn y maent yn awr yn duo

enwau holl bobl Dduw, fel pe byddai cybydd-dod yn ganlyniad sicr o broffes.

DOSB. IV.

4. Bydded i'th obaith o'r nef feistroli dy ofn o farw. Pa ham y byddai arnat ti ofn marw, yr hwn wyt yn gobeithio byw wrth farw? A oes ar egwyddorwas ofn y dydd y daw ei amser i fyny? Neu ar yr hwn sydd yn rhedeg gyrfa ofn cyrhaedd y nôd yn rhy fuan? A yw llywydd llong yn terfysgu wrth weled y porthladd? Neu y wryf ddyweddiol yn gofidio pan fyddo dydd y briodas yn nesau? Hyn oll yw angu i ti. Pan ddol hwnw, dyna amser dy rwywiad yn darfod, a'th Iubili yn dechreu—dy yrfa wedi ei rhedeg, y goron wedi ei hennill, ac yn sicr o ddisgyn ar dy ben pan elo dy enaid allan o'th gorph. Y mae dy hynt o forio, pa mor dralodus bynag a fu, yn awr wedi ei dedwydd orphen; ac nid yw angu yn gwneuthur ond y swydd garedigol o symmud caudad arch dy gorph (*Gen. viii. 13*), fel y gall dy enaid dirio yn ddiogel ar lân tragwyddoldeb wrth ddrws tŷ dy Dad nefol; ie, ym mrechiau ei gariad, allan o'r tonau am byth. Mewn gair, dyna dy briod wedi dyfod am danat, ac yn curo â llaw yr angu wrth dy ddrws i'th alw allan ato, fel y gallo gyflawni yr addewid a wnaeth i ti yn nydd dy ddyweddiad; a bychan yw dy gariad ato os na foddloni i'r blinder o gael dy symmud oddi yma er mwynhau ei hyfryd bresenoldeb yn y nef—palas brenhinol ei Dad—lle y mae y fath ddarpariaeth i'th groesawu nas gelli ei dirnad yma, pe cai angel ei anfon i'w hyshysu i ti. O! pa dafod all osod allan y dedwyddwch hwnw y mae anfeidrol drugaredd wedi siarad am dano, anfeidrol ddoethineb wedi ei luniaethu, anfeidrol haeddiant wedi ei bwrcasu, ac anfeidrol allu yn ei wneuthur yn barod! Mi a ddarllenais fod y Tyrciaid yn dywedyd, "Nad ydynt hwy yn meddwl ein bod ni, Gristionogion, yn credu fod y nef y fath le gogoneddus ag yr ydym yn profesu ar air am dani; o herwydd pe baem yn credu felly, ni byddem mor ofnus o fyned yno ag y gwelant fod rhan fawr o honom." Nis gellir gwadu nad yw ofn anghymmedrol o farw yn brawf o anghrediniaeth mawr a gobraith bychan. Nid ydym yn edrych ar angu mewn iawn dyb am dano; a dyna'r achos ein bod yn brawychu rhagddo. Pe baem ni trwy ffydd yn medru ond edrych trwodd, a sierhau ein hunain ei fod yn dyfod atom ar achos da, fe fyddai ein eysur gymmiant wrth feddwl am dano, ag yw y dychryn yn awr ar ei ymddangosiad. Fe fwyty y march y gwair hwnw yn y preseb, ag y mae yn arswydo rhagddo pan fydd ychydig yn gorwedd encydydd oddi wrtho ar y ffordd; o herwydd y mae yn ei adnabod yno; ond ar y ffordd, nid yw. Gristion! cais ddeall yn iawn pa geuadwri a ddwg angu i ti; ac fe fydd yr

ofn drosodd. Y mae yn dy gipio yn w oddi wrth fwyntiant y byd hwn, ond y mae yn dy arwain i ddedwyddwch byd arsydd yn rhagori tu hwnt i gymmhariaeth. A phwy mewn gwledd a fydd yn ddiw yrfa y gwas sydd yn cymmeryd ymaith y dysg, au cyntaf, o ba rai y bwytawyd digon, i'w lle i seigiau ereill, a'r rhai hyny yn llawmwy danteithiol?

DOSB. V.

5. Yna yr wyt yn cydymweddu â obaith, pan fyddech yn byw yn llawenydy obaith. Nid yw calon brudd anghysur yn gweddu i obaith bywiol. Canlyn hwnw ei feistr â gwynebpryd trist sydd h ddisgwyl dim am ei wasanaeth. Yr w ti allan o'r ofn yma; ac am hyny, fe wna ysbyrd digysur gam â thi dy hun, ac â Dd hefyd: "Tŷ yr hwn ydym ni, os nyny geidw ein hyder a gorfoledd ein gobraith; sicr hyd y diwedd;" *Heb. iii. 6*. Nid ydym yn fwy hyfryd gan Grist drigo mewn calon brudd anghysurus, na chenym ninnau ar mewn tŷ tywyll anhyfryd. Agor gan hysgauadau dy ffenestri, a gollwng i mewn goleu sydd yn pelydru arnat o'r addewid neu fe â dy anwyl iachawdwr ymaith. Nid ydym yn arfer croesawu ein caredig mewn ystafell dywyll, nac eistedd yn bebrudd a difywyd wrth y neb a fyddo: ymweled â ni, rhag iddynt feddwl ein bod yn fflin o'u cyfeillach. Y mae Crist yn dwygydag ef y fath newyddion da ag a haedd well croesaw genyt na gwynebpryd athrac ac ysbyrd digysur. Yr wyf yn dywed wrthyt, Gristion, pe gellid dwyn y fath genadwri at y dammedigion ag a rodd iddynt ond y gobraith lleiaf o iachawdiaeth, fe wnaiff uffern ei hunan yn lle goleu ac a osodai yr eueidiau truenus hyny mewn hwlw lawen yng nghanol eu poenau presennol. Gwridwch ynto, a chywilyddiwch O! chwi saint ymollyngar, fod ychydig gymmylan teneuon o gystudd byr sydd ymyned dros eich penau yn peri y fath difwyllwch yn eich ysbyrdoedd, nad yw eich gobraith am y nef yn ddigon i'w chwalu, mewn moment, a throei eich tristwch y ddirfawr gysur a gorfoledd!

DOSB. VI.

6. Pan fyddech gyda gorfoledd dy obaith yn cadw ofn parchus tuag at Dduw: "Arglwydd sydd hoff ganddo y rhai a'i hoffant ef; sef y rhai a ddisgwyliant wrth drugaredd ef;" *Salm cxlvii. 11*. Ni a wna yn rhy fyfych fod plant yn anghorhodd y parch a'r anrhydedd sydd yn ddyledus i'w rhieni pan unwaith y sierhaer etifeddiaeth iddynt. Ac yn wir, er na ell rhoddni yn erbyn yr athrawiaeth o sicrwydd fod dim o'r fath ffrwyth chwerw yn ty yn naturiol arni, fel y mynai yr Arminiaid a'r Pabyddion i ni gredu; etto yr ydym yn rhy dueddol i'w chamarfer; ie, fe all y gor

ant, ar ol i gariad Duw a bywyd traddodol ddyfod yn eiddo iddo dan y selin o sierwydd gobaith, gael ei arwain bell i brofedigaeth ag i syrthio yn warwyddus ac ymddwyn yn anufudd iawn. Dafydd a Solomon, cwmpiadau tostaf rai a ddigwyddasant ar ol i Dduw eu rhydeddu â'r fath amlygiadau o'i wir ad atynt, fel na cheir ond yckydig a odd y cyffelyb. Fe gafodd y ddau gergan Dduw am hyn; ac y mae yn frych- a eto ar eu hanes, i'r diben o ddangos y chwaneigiad trwm oedd hyn at eu pech- eu bod wedi cwmpo ar ol y dadguddu- a gawsant o gariad Duw atynt; ac d i adael i ni esamplau, nid yn unig o did dynol, ond o wendid gras hefyd yn wyd yma; a hyny yn y saint enwocaf, nai oedd ysgrifenywyr o ran o'r Beibl taidd. Fel pan dyf ein gobaith i'r sier- d mwyaf, ac yr ymledo ein sierwydd i'r oledd mwyaf nefolaidd, y bydd i ni rin duwiol ofn yn ein calonau; rhag i yfu yn ysgafn ac anghofio Duw yn hel- rwydd ein llwyddiant. Fe wna yr ofn iol hwn wasanaeth i'n llawenydd, fel y r sydd yn diferu yn barhaus ar y gwaith rwn yn olwyn y panwr, ac yn ei chadw r myned yn boeth; neu fel pilen y galon (cardium) â pha un y darfu i Dduw r lnyio o amgylch y galon yn ein cyrph; gan y dŵfr sydd ynddi, y cedwid y galon i'n barhaus mewn ysgogiad rhag cael boethi i wres anghymmedrol. Gwych Satan bob amser gael gan y sant bechu; y mae yn fwyaf ei ymfrost pan y gall ael i'r dom yn ei ddillad dydd gŵyl, fel llaf ddyweddyd; a pheri iddo ymhalogi y bydd ei wisgoedd iachawdwriaeth am o; fy meddwl yw, pan y bydd Duw i ei anrhydeddu â dadguddiad mwy na frediton o hono ei hun. Os gall ar y fath er fod yn rhy galed iddo, fe fydd wedi i, yn ol ei feddwl, achlysur teg i ddangos duw y drefn fudr sydd ar ei blentyn. yr aeth brodyr Ioseph â'i siaced waed- at eu tad; gall yntau yn watwarus ddal ai sierwydd a chysur y Cristion, wedi cybaeddu yng ngwaed a budreddi rhyw nod anifeilaidd, a gofyn i Dduw, Ai na y sierwydd am y nef a roddest iddo; yma y wisg iachawdwriaeth a roddest dano? Gwel pa le yr aeth a hi, a'r n a wnaeth arni. O! pa enaid grasol ai na chrynu rhag rhoddi y fath gabledd afn y diafol, i waradwyddo y Duw byw f! Dyna y plentyn a hoffir, ac y gwneir iwyaf am dano gan ei dad nefol, sef yr eid nid yw yn sefyllian yn llewyrchiad eiddwyl gariad, ond yn prysuro yn gyf- ach yn ffordd ei ddyledswydd, am fod y mor dda wrtho a gwneuthur ei rodiad rwy hyfyd a chysurus nag y mae ereill i profi; a'r hwn nid yw yn colli ei ofn

parchus i Dduw yng nghyfeillgarwch Duw tuag ato. Moses sydd yn esampl hynod o hyn. A ddarfu i'r Duw mawr erioed ym- dduw yn gyda'r fath gyfeillgarwch ac ym- ddarostyngiad at ddyr marwol—sant mewn cnawd—ag y gwnaeth at y gŵr sanctaidd hwnw, wrth yr hwn “y lefarodd wyneb yn wyneb, ac y gwnaeth i'w holl ddaioni fyned heibio o flaen ei wyneb;” *Exod.* xxxiv. 6. A pha effaith y mae y fath weith- red ragorol o ras yn gael arno? A yw yn anghofio y pellder sydd rhyngddo a Duw, ac yn tyfu yn hyf wrth yr ymostyngiad isel yma yn y Dwyfol Fawrhydi? Na, ni bu ei galon erioed yn ei holl fywyd yn llawnach o barch i Dduw nag yr awr hon. Y mae yn debygol yn wir iddo grynu mwy ar Fyn- ydd Sinai; ond yr oedd ei ofn mabaid ef mor eglur yn awr a'r pryd hwnw. Y mae yn wir fod yr amlygiad anarferol hwn o gariad a daioni Duw yn dirfawr ennyn ei lawenydd, ac yn llenwi ei enaid o gariad melus at y fath Dduw graslawn; ac yn en- wedig ei faddeuol drugaredd iddo ef, a ad- waenai ei hun yn bechadur, ac oedd y pryd hwnw yn llawer mwy teimladwy o hyny, drwy y cryndod a adawsai cyhoeddiad y gyfraith ar ei ysbryd. Etto, ni cholodd Moses mo'i ofn parchus at Dduw yng nghanol y llif yma o deimladau mwy melus; o herwydd y mae yn canlyn (*adn.* 8), “A Moses a frysiodd, ac a ymgyrmodd tua'r llawr, ac a addolodd.” Gwelwch fel y mae y saint enwocaf hwn yn dangos ei ofn at Dduw yn fwyaf, pan yw Duw yn amlygu yn fwyaf ei gariad ato ef.

PENNOD XI.

Annogaeth i gryfhau gobaith, oddi wrth dri o resymau.

Defn. 3. Llafuriwch, O! chwi saint, i gryfhau eich gobaith. Megys y mae ffydd wan; felly hefyd y mae gobaith sigledig ac ansefydlog. Hwn sydd ag eisieu ei sefydlu a'i gadarnhau trwy ddyfal arferiad o bob moddion. Yn awr, dyna y pryd y mae gobaith yn rymus a chyfan, pan fydd y Cristion heb betruso o blegid grym gwrth- wynebiad; ond trwy afael angor ei obaith yn yr addewid, yn cael ei gadw rhag y trymder a'r ofnau terfysgyld sydd yn llyngau i fyny rai diobaith, ac yn ysgwyd ac yn aflonyddu yn ddifawr y rhai nid yw eu gobaith ond gwan. Corph cyfan yw hwnw sydd yn ddigeuedd, ac heb gymmysgedd o ryw arall. Po mwyaf pur a fydd aur oddi wrth sorod, a phob peth o natur wahanol iddo ei hun, mwyaf cyfan yw. Felly gobaith, po mwyaf puredig a fydd oddi wrth ryfyg disail ar un llaw, neu ofn caethivus ac an- ymddiried ar y llaw arall, mwyaf cyfan a

chadarn yw. Y mae yr Ysgrhythyr yn galw hyn yn sicrwydd gobaith. Yn awr, i'ch cyffroi chwi i sel dduwiol yn eich ymgais am dano.

DOSB. I.

1af. Ystyriwch, mai eich dyledswydd yw hyny. Yn wir, wrth athrawiaeth y Pab-yddion, nid oes neb yn rhwym i lafurio am y fath sicrwydd. Ond pa un a ddylem gredu Duw ai hwyntwy, bernwch chwi. Pa beth a ddywed Ysbryd Duw? "Yr ydym yn chwennych fod i bob un o honoch ddangos yr un diwydrwydd, er mwyn llawn sicrwydd gobaith hyd y diwedd; fel na byddoch fusrrell, eithr yn ddilynwyr i'r rhai trwy fydd ac amynedd sydd yn etifeddu yr addewidion;" *Heb. vi. 11, 12.* Sylwch,

(1af.) Ar y peth y mae yn eu hannog i ymgais am dano—llawn sicrwydd gobaith. Y mae y rhai sydd a'u gobaith yn wan, yn hwylio â dim ond ystlys-wynt prin; fe fynai yr apostol iddynt fod yn myned o flaen y gwynt, a chael eu dwyn gydag awel lawn i'r nef. Y mae hyn yn bod, pan fydd enaid (fel llong wedi lledu ei hwyliau i'r gwynt) yn cael ei lenwi felly â gwirionedd a daioni yr addewid, fel y mae yn chwyddo i obaith sicr am yr hyn a addewir; ac yn llawenhau mewn disgwyliad diogel am yr hyn a fwyha pan y del i lan tragwyddoldeb, er ei fod yn awr yn cael mil o demtasiynau i chwythu arno a'i guro, wrth forio ym mlaen tuag yno.

(2il.) Sylwch ar bwy y mae yn cymmhell y ddyledswydd hon; nid ar ryw ychydig o Gristionogion dewisol, megys anturiaeth wedi ei gosod arnynt hwy uwch law ereill o'u cydhlwyr; ond ar bob un sydd am brofi ei hun yn Gristion: "Yr ydym yn chwennych fod i bob un o honoch ddangos yr un diwydrwydd," &c. Yn ein masnach a'n neillduol alwad fyddol, fe fyddai yn bechadurus i bob dyn tlawd fod yn amcanu yn ei ddymuniadau am y fath gyfoeth anferth iddo ei hun ag y mae yn gweled rhyw ychydig—y marsiandrwr cyfoethocaf mewn dinas—wedi ennill wrth eu masnach, fel na chaiff dim llai na hynol ei foddioni ef. Ond yn y fasnach ysbrydol, y mae yn dra chyfreithlawn i bob Cristion chwennych bod mor gyfoethog mewn gras a'r goreu. Ni thybiai Paul ei hun ei fod yn cael cam—os wyt yn dymuno bod yn ddyr mor sanctaidd ag oedd yntau, ac yn llafurio am ffydd mor gref, a gobaith mor ddiysgog, ag yr oedd efe yn berchen arnynt. Ie, ni ddylit ymfoddloni ar yr hyn sydd genyt, pe byddai ond un gradd mwy o ras i'w gael na'r hyn a gyrhaeddaist eisoes.

(3ydd.) Craffwch i ba beth y mae yn cyfrif gwendid gras y saint; nid i'r amhos-siblwrwydd o gyrhaedd chwaneg, ond i'w musgrellni a'u diogi. Ac am hyny, y mae yn gosod hyn mewn cyferbyniad i'r hwl

fendigedig a fawr ddymunai iddynt (a. 12); "Fel na byddoch fusrrell." Yn wllaw y diwyd a gyfoethoga; megys yn me-iannau y byd hwn, felly yn y trysor ne yma hefyd.

DOSB. II.

2il. Llafuria am gryfhau dy obaith o ia awdwriaeth; neu ynte ti a ddangosi nad y yn rhoddi ond bri bychan ar Grist a'i ia awdwriaeth ef. Yn ol fel y byddom yn pr-rhyw ddaioni, y llafuriwn fwy neu lai i si-hau ein hunain o hono. Pe collai tywy nodwydd o'i lawes, neu geiniog o'i bwrs, i un ddwyn y newydd iddo eu bod wedi cael; y mae y pethau mor ddiystyr fel byddai fater ganddo pa un a fyddai yn a'i peidio. Ond pe byddai ei deyrnas me-enbydrwydd ar y maes, a gair yn dyfod ei fyddin wedi ennill y dydd a churo y g-ynion, O! fel yr hiraethai am i'w oba-sydd yn awr wedi ei godi ychydig, gael gryfhau etto yn fwy drwy genad arall! yw y nef cyn lleied ei gwerth fel y medrw ymfoddloni ar ychydig debygoliaeth, a rh-obaith ansicr y cewch ei meddiannu? wyt yn bwrw diystyrwch mawr ar y gwynfydedig hwnw, os nad wyt yn i-awyddus na hyn am wybod gwirionedd-hawl iddo. Pan oedd Ahab am arwain fyddin yn erbyn Ramoth-Gilead; a Mich-wedi ymddangos fel un yn rhoddi i obaith am fuddugoliaeth, trwy beri i o-fyned i fyny a llwyddo; gan fod y bre-yn mawr ddymuno y peth, efe a ofnod gwaethaf (fel yr oedd iddo achos, o herw-yr prophwyd lefaru mewn gwawdiaith); am hyny, nis gallai orphwys nes gwy-mwy am y mater: "A'r brenin a ddyw-odd wrtho, Pa sawl gwaith y'th dynghe-na ddywedech wrthyf ond gwirionedd enw yr Arglwydd?" 1 *Bren. xxii. 16.* allai fod genyt ryw obaith sigledig anw-tad am y nef, yn nofio yn dy enaid; meddylit yn awr fod dy dragwyddol wyn-neu wae yn gorwedd yng ngwirionedd-ffalsder y gobaith hwnw, yn sicr ti chw-dy galon wrth y gair, ac a dynghedit-gydwbybod, ar ol holiad diduedd, i fynegi y gwirionedd noeth pa fath yw dy gyff-a pha un a elli yn enw Duw, a thrwy ge-ei air, obeithio am y fath gyfran ai pei-A hyn a wnait, nid yn rhagrithiol, fe-brenin truenus hwnw a dynghedodd M-eah i ddywedyd wrtho y gwirionedd, ac-ni fynai ei gredu er iddo wneuthur h-yn ffyddlawn: ond ti a'i gwnait gyda m-symledig calon am ei fod yn fater o g-gwyddol bwys i ti. Pan gafodd Peo-newydd rhyfedd am adgyfodiad Crist, e-rododd y fath gred iddo ag a allasai ro-etto drwy ei waith yn rhedeg a'r frya, a-edrych i mewn i'r bedd, fe ddangosai: anwyl oedd ei Arglwydd ganddo, ac he-mor llawen fyddai os dalai y newydd

ei fod yn fyw. Fel hyn, Gristion, er yw yr addewid o fywyd tragwyddol, ma wedi cenhedlu ynot y fath sicrl gobaith nes wyt yn ddiammheuaeth ydi a gaiff ei fwynhau, etto, dangos y feddyliau mawrhaol sydd genyt am y fydedigrwydd hwnw, trwy ymgais am iau dy obaith a chael allan o ammheu- yn ei gylch.

DOSB. III.

dd. Ystiria hyn hefyd yn y lle olaf, yddost i ba brawf y rhoddir dy obaith ty farw. Y mae y morwr call yn dwyn orth i'w long erbyn y dydd hwyaf; fe ia y gall hin arw a gwyntoedd croes ei yn ol, a gwneuthur ei fordaith yn fwy lus (er bod rhai yn ei chael yn fyrach ylusach), ac am hyny mÿn ystoriu yn tebol, gan wybod yn dda mai haws yw ymborth i'r môr na'i gael yno. Iawn wed Awstin, "Nid hawdd y ceir y cyn- wyon hyny mewn adfyd, y rhai ni ynwyd am danynt mewn hawddfyd." dywed Duw ei hun wrthym, fod yn id i ni wrth amynedd (y mae yn medd- stôr fawr o amynedd), fel, wedi i ni thur ewylls Duw, y derbyniom yr wid;" *Heb. x. 36.* Ac os rhaid wrth iedd, yna rhaid wrth obaith; o her- l bod amynedd yn dwyn y cwbl ar ys- lldau gobaith. Yn awr, gan na wydd- gradd penodol o obaith a wna ein tro fod Duw yn fwriadol wedi celu pwys y ladd a'r profiad y mae yn meddwl ei osod m), o blegid hyny dylem bob amser ym- o am ei gryfhau. Y mae dyledswydd- ahawdd i'w cyflawni, a phrofedigaeth- thymion i'w dioddef; ac y mae y rhai yn gofyn gobaith cyfattebol. Yr ydym adw gorfoledd ein gobaith yn sicr hyd wedd;" *Heb. iii. 6.* Yn awr, a all y tion gwan ei obaith wneuthur hyn? ! y mae yn debyg i long agenog fregus, wyth gwerthfawr; y mae yr ofn iddi o cyn cyrhaedd y porthladd yn dwyn i'w lawenydd y perchen o'r trysor y yn ei ddwyn. Ferwch i'r cyfryw un yn nhau am yr etifeddiaeth sydd yng gwdd iddo yn y nef, ac efe a ddywed i ei fod yn ammheu a ddaw byth yno. Yros am drugaredd a fydd yn cael ei iedi, neu yn hir yn dyfod, sydd ddyled- wid anhawdd drachefn: "Da yw gobethio agwyl yn ddistaw am iachawdwriaeth arglwydd;" *Gal. iii. 26.* Yn awr, y mae oith gwan yn fyr ei anadl; ac nis gall ar yn hir gyda dim llonyddwch. Y mae gwendid yn gwynfanus; anhawdd yn redin yw boddio pobl afiach; buan yr yn ynynd a chroes os na chânt yr hyn want, a phan y gofynant hefyd. Pan del fydd a gobaith Dafydd mewn an- mmer, y mae yn syrthio allan â phawb; yn oed y prophwyd a ddygodd iddo y

newydd am deyrnas, ni chaiff fod heb ei gerydd; a hyn i gyd am fod yr addewid yn hwy cyn esgor nag yr oedd yn disgwyl: "Mi a ddywedais yn fy ffrwst, pob dyn sydd gelwyddog;" *Salm cxvi. 11.* Er nad oedd yr addewid yn myned ddiwrnod dros ei iawn amser; ond camgyfrif yr oedd efe trwy rym ei flys afreolaidd. Ond cymmer- wch ef yn ei dymmer iachus, pan yw ei fydd a'i obaith yn gryfion; ac nid yw y pryd hwnw mor fawr ei frys am y drugaredd allan o ddwyllaw Duw; ond y mae yn cyfrif fod ei drysor yn llaw Duw mor ddiogel a phe bu-asai yn ei feddiant ei hun: "Mawl a'th erys di, O Dduw;" *Salm lxxv. 1.* Fel pe dywed-asai, Arglwydd, yr wyf yn tawel ddisgwyl am amser i'th foliannu; nid yw fy enaid yn terfysgu am dy fod di yn aros; nid wyf yn murmur, ond yn hytrach yn cyweirio tannau fy nhelyn mewn amynedd a hyder, fel y byddwyf yn barod i daraw ar y gân pan gyntaf y delo y newydd hyfryd am fy ngwaredigaeth. Chwi a gewch lawer o draff-erth i gadw y plentyn yn llonydd hyd gin- iaw, er iddo weled arlwyto at wledd fawr; ond un wedi tyfu i fyny, fe fydd yn hawdd ei ddihuddo, pan gedwir ef ychydig yn hwy nag arferol oddi wrth ei bryd bywd ar y fath achos. O Gristion! ein mabandod, a gwendid ein gras (yn enwedig ein gobaith) sydd yn peri i ni fod mor fuan allan o am- ynnedd i aros amser Duw: cryfhäer gobaith, ac fe dÿf amynedd i'w ganlyn. Mewn gair, Gristion, y mae profedigaethau mawrion, a themtasiynau cryfion i'w gorchfygu, cyn i ti gael y tu mewn i byrth y nef, a chael dy wisgo yno â'th wisgoedd o iachawdwriaeth. Amddiffyn dy obaith, ac yntau a'th am- ddiffyn dithau yn y rhai hyn; cadarnhä ef, ac efe a'th ddwg drwyddynt. Y pen, y mae pob aelod yn dra pharod i'w ddiogelu; fe godir y dwylaw i fyny at gadw ymaith y dyrnod: y traed a redant i ddwyn y pen allan o berygl: y genau hefyd a dderbyn unrhyw physygwriaeth chwerw i dynu af- ieichyd a dolur allan o'r pen. Y mae iach- awdwriaeth i'r enaid yr un ag yw y pen i'r corph, sef y peth penaf y dylai lasuriu i'w ddiogelu: ac y mae gobaith i'n hiachawd- wriaeth yr un peth ag yw yr helm i'r pen. Yn awr, os yw hwnw yn anghall sydd yn anturio ei ben dan helm wan yng nghanol bwledi ar ddydd brwydr, yna llawer mwy anghall yw y neb sydd yn peryglu ei iach- awdwriaeth â gobaith gwan. Gwybydd, O Gristion! fod canlyniad yr ymladdfa â'th elyn yn ymddibynu ar dy obaith; os palla hwnw, dyna y cwbl wedi ei gollu. Y mae dy obaith mewn ymladdfeydd, a themtasiynau, a dioddefiadau, yn debyg i dywysog yng nghanol ei fyddin, yr hwn sydd yn rhoddi bywyd yn y cwbl tra y bydd yn edrych atynt ac yn eu calonogi i'r frwydr; ond os daw sŵn i'w clustiau fod y brenin wedi ei ladd,

dyna eu gwroldeb yn pallu a'u calonau yn llwfrhau ; am hyny, fe fynai Ahab ei ddal i fyny yn ei gerbyd i gelu ei berygl rhag ei bobl, gwybyddiaeth o'r hyn a fuasai yn eu digalonni. Dy obaith yw y nod yr annelir saethau y diafol ato : os yw yn bossibl cadw hwnw rhag cael clwyf : neu os yw ei bicell ar un amser yn ei gyrhaedd, a'th ysbryd yn dechreu gwaedu o'r clwyf a roddodd ynot, trwy ammheu a ellir maddeu y fath bechodau ag a wnaethost ti ; a ellir byth iachau y fath hen ddoluriau crawillyd ag a barodd dy chwantau arnat ; neu a yw yn bossibl dioddef neu gael synmud ymaith gystuddiaid sydd mor drymion, ac wedi parhau cyhyd. Ymdrecha yn awr, megys am dy fywyd i ddal i fyny dy obaith yng ngerbyd yr addewid, er ei glwyfo ; ac na chryma trwy anobaith i adael i'r diafol sathru ar dy enaid. Cyn gynted ag y trenga dy obaith, fe fathra y gelyn melledigedig yma di dan ei draed afian, ac fe gymmer ei lawn ddial arnat ; a hyny heb fod gallu yn dy enaid i daraw dynod er dy amddiffyniad. Fe'th ddigalona hyn di nes y byddi yn barod i roddi i fyny bob ymgais ac arferiad o foddion gras ; ie, i waeddi yn anobeithiol, I ba ddiben y meddyliaf am weddio, gwrandaw, na myfyrion, pan nad oes gobaith ? I ba beth yr anfonwn am physygwr pan fydd cyfaill wedi marw ? Pa les rhwbio a thwymo y corph wedi gwahanu y pen oddi wrtho ? Fe ymwasgarodd y fyddin, bawb i'w ddinas, pan wybuwyd farw Ahab. Ac felly y bwri dithau ymaith bob meddwl o wneuthur pen yn erbyn pechod a Satan, pan ddarfyddo am dy obaith : ti a syrthi naill ai i ddechryn cydwybod fel Iudas, neu ynte gyda Chain i ddidduwiaeth, gan gladdu y meddyliau am dy gyflwr gresynol mewn pentwr o amcanion bydol.

PENNOD XII.

Yn cynnwys chwech o gyfarwyddiadau pa fodd y mae i'r Cristion gael cryshau ei obaith.

Yr wyf yn dyfod bellach i roddi ychydig eiriau o gynghor, pa fodd y gall y Cristion yn oreu gryfhau ei obaith. Cymmerwch hyny yn y chwe peth neillduol a ganlyn.

DOSE. I.

1af. Os wyt yn meddwl i'th obaith o iachawdriaeth dyfu i rym a chyfander, astudja air Duw yn ddyfal. Y gair yw y llaeth i fagu y Cristion : rhaid iddo fod yn ymborth iddo hefyd, neu ynte fe nycha ei ras. Dyna y plentyn cynnyddgar sydd yn tynu fynychaf wrth y fron. Yn awr, megys y darparodd Duw ymborth yn y gair i bob gras ; felly yr oedd ganddo yng nghyfansoddiad yr Ysgrhythrau olygiad neillduol at lwydd-

iant a chynnydd gobaith y saint fel un y ddiben o'u hysgrifenu : " Fel trwy amyn a diddanwch yr Ysgrhythrau, y gallem gobaith ; " Rhuf. xv. 4. Fe w'yr y di hyn mor dda, fel mai ei fawr ymgais yw fuddio y Cristion o'r cymmhorth a ystoriu yn y gair. Ac yn wir nid yw yn camgymeryd yn hyny : o herwydd, cyhyd ag y afon yma heb ei gwarchau, yr hon a law hâ ddinas Duw, a chynnorthwyon a ddi i mewn ar hyd ffrwd ei gwerthfawr addidion, ni fedr efe byth ei hamgylchu gwbl, na'i rhoddi mewn cyfyngder ma Rhai gan hyny ag y mae efe yn eu difudd gynnorthwy y gair trwy ddim ond syrt a diogi : hwy w'ant ychydig o achwyniaidiles am eu hammheuan a'u hofnau (fe diogyn yn cwyno ei eisieu a'i dlodi, dan wedd yn ei wely) ond y mae yn ormod gddynt godi, a chymmeryd dim poen, i gpenderyniad a hysbysrwydd yn eu cystrwy chwilio i'r gair. Ac o bawb er dyma y rhai sy'n gwerthu eu cysur ar pris isaf. Pwy a dosturia wrth hwnw iddo newynu, sydd ganddo fara o'i ffôn ond ni fyn dynu ei law o'i fynwes i'w gair at ei enau ? Ereill y mae Satan yn eu hinharchu â chamgymhwysiad o'r gair a heneidiau ; trwy wendid eu dealltwriaet mewn rhan, a therfysg eu hysbrydo hefyd. Y mae yn drwgliwio gwirionedd y gair o'u blaen, nes ydylt yn camfaru eu cychel ; ac felly fe'u curir â'u ffon eu hain, ie, â'r addewidion hyny a ddefnydd llaw fedrns i daraw i lawr ei dentasiynau. Astudiwr mawr ar dduwinyddiaeth y diafol ; a'r holl ddefnydd a wna efe o'i wodaeth Ysgrhythrol yw casglu dadlyddia ddechellgar i niweidio y Cristion, naill trwy ei dynu i bechod, neu i anobaith bechod. Fel rhyw ymrysonwr ceerus s yn ceisio cymmaint a fedro gael o gywyddyd yn y gyfraith ; yn unig fel y by yn fwy abl i roddi pobl onest mewn blin trwy gwynion cynnhenus. Wele, os yw Satan gyfarwydd yn y gair, at wanbau obaith, a'th ysbeilio o'th etifeddiaeth, o oes achos mawr i tithau ymgeisio am fedrwydd dauwl i ddal i fyny dy hawl, ac ddiffyn dy obaith ?

Yn awr, wrth astudio y gair, gosod o flaen y ddau ddiben hyn, a dilyn hwy dŷn, nes eu cyrhaedd.

1af. Llafuria am gael goleuo dy ddeall gair, am yr ammodau a ofyn Duw yn m enaid sydd yn cael ei genad a'i warant i obeithio yn ddiogel am fywyd tragwyd mewn byd arall. Mae rhyw ammodau ofynol i'w cael yn y cyfryw ; onid e, y yn rhydd i bawb, pa ddull bynag fyddo eu cyflwr a'u buchedd, roddi i mewn hawl i'r nef ac iachawdriaeth. Pe bu Duw heb osod terfyn ar Sinai, na phennu pwy oedd i ddyfod i'r mynydd, a phwy

ld, ni buasai yn ddim mwy rhyfyg yn
 ywun arall o'r bobl fyned i fyny nag
 ld yn Moses. Ac os nad yw Duw yn
 fyn dim ammodau yn y personau sydd i
 eithio, yna y mae y nef yn gyttir i'r naill
 y llall dyru iddo; yna fe all y pechadur
 feilaidd gyffwrdd â mynydd sanctaidd
 law, yn gystal a'r sant, a bod yn ddirofn ei
 dyddio am yr anturiaeth hyf. Ond y mae
 na, mi debygwn, yn athrawiaeth rhy
 crygsawrus i un enaid synwryol ymborthi
 ai. Gan hynny, wedi i ti foddloni dy
 nan, os byth y bydd genyt wr obaith,
 ld yn rhaid i'r ammodau fod genyt; ym-
 yn yn nesaf pa beth ydynt. Yn awr, y
 ae y gair yn dal allan ddau fath o ammod-
 yn ol y ddau wahanol gyfammod. Yn
 antaf, y mae cyfammod natur, neu gyf-
 ammod y ddeddf, yr hwn a wnaeth Duw
 Adda yn ei ddiniweidrwydd; a'r ammod
 yn oedd perffaiht ufudd-dod y person oedd
 disgwyl bywyd trwyddo. Nid dyma yr
 ammod a ofynir yn bresennol; a'r hwn sydd
 ymbalfau wrth y drws yma dan obeith-
 myned trwyddo i fywyd, nid yn unig fe'i
 iff wedi ei hoelio i fyny, a'i fynediad i
 ewn y ffordd hono yn cael ei attal, ond y
 ae hefyd yn ei ddifuddio ei hun o'r gwir
 drws sydd yn llydan agored, a thrwy yr
 yn y mae pawb a gedwir yn myned i
 ewn: "Y rhai ydych yn ymgylfaunhau
 y ddeddf; chwi a syrthiasoch ymaith
 di wrth ras;" *Gal. v. 4.* Gan hynny, rhaid
 i ymofyn pa beth yw y cyfammod arall;
 y mae hwnw yn gyfammod o ras fel y
 dd y cyntaf o weithredoedd: yn gyfam-
 od i wneuthur Duw a dyn yn gyfeillion,
 l yr oedd y cyntaf i gadw yn gyfeillion y
 ai oedd heb erioed syrthio allan.

Yn awr, ammod y cyfammod yma yw
 ifeirwch a ffydd. Gwelwch am hyn, *Luc*
iv. 47; *Ioan iii. 36*; *Act. ii. 38*; a *v. 31*;
xx. 21; *Gal. v. 5.* Llafuria, gan hynny,
 a roddi cydsyniad cadarn i wirionedd yr
 ldewidion yma, ac am ddal hyn fel egwydd-
 ddiddadl ac annhoradwy:—Mai pwy
 ynag sydd yn gwir edifarhau am ei bech-
 lau, ac â ffydd ddiffuant yn derbyn Crist
 l ei Arglwydd a'i Iachawdwr, dyna yr
 a sydd ganddo air a llŵ y digelwyddog
 duw am faddeuant o'i bechodau a iach-
 awdwriaeth ei enaid. Pa wasanaeth a wna
 ydsyniad cadarn â hyn i ti, er arferiad
 gnïol o'th obaith, ti gei weled ar fyr. Ei
 ir sail ydyw: y mae pwys holl adeilad y
 riston yn gorwedd cymmaint ar hyn, fel
 an yw yr Ysbryd Glân yn llefaru yn y
 eibl am wirioneddau ac addewidion efeng-
 laidd, ar ba rai y mae i bechaduriaid ad-
 ladu eu gobaith am fywyd, y mae yn ei
 neuthur gyda'r sicrhâd mwyaf; ac yn
 yffredin yn chwanoeg rhyw ymadrodd neu
 llydd, i'n rhoddi allan o bob ammheuaeth
 m eu sicrwydd a'u dianwadalwch hwynt:

"Diau efe a gymmerth ein gwendid ni;"
Esa. liii. 4. Nid oes dim cwestiwn am y
 peth; ein cwpanaid ni a yfodd efe; ein
 dyled ni a dalodd. Pa ddyben arall a allai
 fod ganddo mewn dioddefiad mor fawr?
 Ai rhoddi i ni esampl o ddiodeffgarwch?
 Y mae hyn yn wir; ond nid y gwir i gyd;
 o blegid fe fu rhai o'r saint yn esamplau
 rhyfeddol o hyn. Diau yr oedd mwy na
 hyn: "Efe a ddug ein doluriau, ac efe a
 archollwyd am ein camweddau ni." Hyn
 oedd y gorchwyl mawr, teilwng i Fab Duw
 ei gymmydd mewn llaw; a'r hyn nis gall-
 asai neb o'r saint ei wneuthur erom. Felly
 yn *1 Tim. i. 15*: "Gwir yw y gair, ac yn
 haeddu pob derbyniad, ddyfod Crist Iesu
 i'r byd i achub pechaduriaid." Fel pe dy-
 wedasai, Nac ofnwch na thwyll na somed-
 igaeth yma; y mae mior wired a'r gwir ei
 hun; o blegid y fath yw y neb a'i llefarodd;
 a'r hwn ni chred hyn y mae yn waeth na'r
 diafol. Nis gall Satan gau y gwirionedd yma
 allan o'i gydwybod, er ei fod y mwyaf dig-
 groesawiad a ddaeth erioed i'w wybyddiaeth
 ef. Drachefn: "Os cyfaddefwn ein pech-
 odau, fyddllawn yw efe a chyflawn, fel y
 maddeuo i ni ein pechodau;" *1 Ioan i. 9.*
 Pa beth sydd i'r pechadur edifeiriol i'w ofni,
 pan y mae y briodoledd hono o'i ochr, yr hon
 ar y cyntaf a barodd i Dduw wgu arno?
 Iê, mor bell o'i ochr ag i sefyll yn rhwym
 am gyflawniad yr adewid; pryd yr oedd
 hi yn ddiweddar dan y fath ymrwymiad
 dwfn i gyflawni y bygythiad arno? Drachefn:
 "Yn yr hyn, Duw yn ewyllysio yn
 helaethach ddangos i etifeddiion yr adewid
 ddianwadalwch ei gynghor ef, a gyfryngodd
 trwy lŵ;" *Heb. vi. 17.* Pa sicrwydd mwy
 a allasem ofyn gan ddyd twyllodrus, nag y
 mae y Duw ffyddllawn o'i fodd yn ei roddi?
 Nid oedd y Rhufeiniaid yn rhoddi llŵ i'w
 swyddwyr, am eu bod yn cyfrif urddas ac
 anrhydedd eu personau a'u lle, yn rhwym-
 iad digon cryf i'w gwneuthur yn ffyddllawn
 a chyflawn. Yn sicr ynte, fe haeddasai gair
 Duw gred genym pe buasai heb lŵ i'w sicr-
 hau; etto y mae Duw yn ymostwng i hyn,
 fel y byddai i wirionedd yr hyn a ddywed
 suddo yn ddyfnach i'n meddyliau, a gadael
 argraff fwy eglur yn ein cydsyniad âg ef,
 wrth ei fod yn cael ei wasgu arnom a phwys
 ei sanctaidd lŵ.

2il. Wedi cael allan pa beth yw ammod
 y cyfammod, paid ag ymfoddloni nes
 cael allan fod yr ammod yma wedi ei
 weithredu yn dy enaid dy hun, a'th fod yn
 gallu dyweddyd mai tydi yw y pechadur
 edifeiriol a chrediniol hwn. Y mae gobaith
 cryf yn deilliaw oddi wrth dystiolaeth a
 fyddo yn eglur am y ddau yma. Yr ydym
 yn darllen yn y Beibl am sicrwydd trim-
 phlyg. 1af. Sicrwydd deall: *Col. ii. 2.* 2il.
 Sicrwydd neu lawn hyder ffydd: *Heb. x. 22.*
 3ydd, Sicrwydd gobaith: *Heb. vi. 11.* Ac

y mae sylw cymmhwys yn cael ei wneuthur arnynt gan dduwinydd craff o'n cenedl:— Y mae y tri hyn yn gwneuthur i fyny un cynnull ddadl (*sylllogism*) ymarferol, ym mha un y mae gwybodaeth yn llunio y gosodiad, ffydd yn gwneuthur y derbyniad, a gobaith yn tyau y penderfyniad.—D. A. *Tac. Sa.* tu dal. 126. Yr wyf (medd y Cristion) yn sicr yn gwybod o'r gair y cedwir y pechadur edifeiriol a chrediniol; fe ddywed fy nghydwybod hefyd wrthyf fy mod i yn edifarhau ac yn credu yn ddfuuant; am hyny yr wyf yn cadarn obeithio y caf fy nghadw er annheilynged ydwyf. Ni a wyddom nad all fod mwy yn y penderfyniad nag sydd yn y gosodiad o'r blaen. Felly, yn ol fel y bydd grym cydsyniad y Cristion â gwirionedd yr addewid, a'i dystiolaeth fod ammodau yr addewid, sef ffydd ac edifeirwch, wedi eu ffurfio yn yr enaid; yn ol hyny, meddaf, y bydd ei obaith yn wan neu gryf. Yn wir, nis gall fod yn amgen; os bydd ei gydsyniad â gwirionedd yr addewid yn wan, neu ei dystiolaeth am wirionedd ei ffydd a'i edifeirwch yn dywyll ac ansicr, y mae yn rhaid i'w obaith, a enir (fel y gallaf ddywedyd) o'r rhai hyn, fod yn gyfranog o wendid ei rieni, a bod yn llesg a sigledig fel hwythau.

DOSB. II.

2. A fynit ti i'th obaith fod yn gryf? Yna cadw dy gydwybod yn bur. Nielli halogi hon heb wanbau y llall. Y mae byw yn dduwiol yn y byd sydd yr awr hon, a disgwyl am y gobaith gwynfydedig sydd yn nghadw i ni yn y byd a ddaw, yn gysylltiedig â'urgilydd: *Tit.* ii. 13. Y mae yn rhaid i enaid cwbl wag o dduwioldeb fod yn wag hefyd o bob gwir obaith; a'r dyn duwiol a fydd yn beurhydd ac esgeulus am rodiad sanctaidd, buan y caiff brofi fod ei obaith yn nychlyd. Y mae pob pechod yn fwyd a'fach; efe a faga y cryd o gryndod ofnus yn yr enaid a ymyro âg ef. Ond pechodau a wneler gyda bwriad difyrbywyll, y maent i obaith y Cristion fel gwenwyn i ysbrydoedd y corph sydd yn eu hyfed i fyny yn ebrwydd. Y maent megys yn dieneidio y Cristion: hwy a wnânt y meddyliau am Dduw yn ddechrynllyd i'r enaid; y rhai, pan fydd mewn hwyll sanctaidd, ydynt ei lawenydd a'i ddiandanwch penaf: "Cofiais Dduw, ac a'm cythryblwyd;" *Salm* lxxvii. 3. Gwnânt iddo ofni edrych yng ngwynieb Duw mewn dyledswydd, ac ofni yn llawer mwy edrych am ei ddyfodiad mewn dydd barn. A all gwas fod yn foddolawn i'w feistr ddyfod adref pan y bydd mewn gloddest a rhyseidd? Pan oedd cyfeillion Mr. Calvin yn dymuno iddo adael heibio beth o'i lafur, yn enwedig ei astudiaeth y nos, efe a ofynodd iddynt, "A fyuent i'w Arglwydd ei gael yn segur pan y deuai?" O! na ato Duw, Gristion, i angeu dy gael yn ysgafn a

diostal yn dy rodiad, fel ag i'th ddal yn go wedd yn y dom o ryw bechod heb edifarhau am dano! Cyfarfod athrist fyddai hwi, O! mor anfoddolawn fyddit i farw y pryn hwnw, a myned i'r byd ysbrydol, yno i dy gyfrif i fyny am dragwyddoldeb! fydd dy obaith felly mewn iawn agwedd i'th ddwyn gyda llawenydd i'r gwaith dif hwnw? A ddichon aderyn ehedeg pan fy un o'i edyn wedi tori? Ffydd a chydwyboda dda yw dwy aden gobaith: gan hyny, archollaist dy gydwybod trwy bechod, a newyddda dy edifeirwch, fel y gallech fel *actio* ffydd am faddeuant o hono, a chael y gobaith a wystlaist yn ol. Os byddai i Iuddu, roddi dilledyn gwely ar wystl, yr oedd Duw yn drugarog wedi trefnu iddo ei gael adre cynt y nos; "O herwydd (medd efe) hwi yw ei ddilledyn ef mewn pa beth y go wedd?" Yn wir gobaith yw dilledyn Cristion, sydd ganddo i'w roddi am dduw pan orweddodd ei gorph i gysgu yn y bedd. "Fy nghawd (medd Dafydd) a orphw mewn gobaith;" *Salm* xvi. 9. O! Gristion ymgynhyrfa i gael dy obaith yn rhydcyn i haul dy fywyd amserol fachludo; n ynte a wyt yn sicr o fyned i orwedd meistrwch! Athrist fydd i hwnw fyned orwedd i wely y bedd sydd heb obaid adgyfodiad i fywyd.

DOSB. III.

3ydd. Cyrcha at Dduw yn feunyddiol, deisyf ganddo gryfach gobaith. Dyna ffordd a gymmerodd yr apostol at gael mwy o'r gras gwerthfawr hwn i'r saint yn Rhufein: "A Duw y gobaith a'ch cyflawno bob llawenydd a thangnefedd gan greu fel y cynnyddoch mewn gobaith trwy new yr Ysbryd Glân;" *Rhuf.* xv. 13. Yn Dduw, chwi welwch, yn Dduw y gobaith; mae yn peri nid yn unig yr hedyn a'r reol yn y dechreu, ond ei holl dyfiad a'i gynydd ynom hefyd. Nid rhoddi y mae i'r Cristion y gras cyntaf o dröedigaeth, ac yna yn gael ei gynyddiad yn hollol i'w fedr a'i o'ef; fel y mae y plentyn weithiau yn cyntaf i'w osod i fyny ar y cyntaf, a dim llwm ymhellach gan ei dad, ond trwy ei ddwydrwydd call yn myned rhagddo o dechreuad bychan i gyfoeth mawr o'r diwedd. Eithr yn hytrach fel yr yd yn y maes sy yn rhaid iddo wrth ddyllanwadau y nef, y flodeuo a'i addfedu i'r cynauaf, crystal ag yfwhau rhwng y cwysau pan yr hawnt gyntaf. Ac am hyny bydd sicr o gyntaf Duw gyda gostyngeddwrwydd trwy ddwygwyl yn ddyfal wrtho am gynydd. I wedir "fod y cenawon llewod yn ceisio bwyd gan Dduw;" *Salm* civ. 21. Hwi yw, fe ddysgodd Duw iddynt dddadgan hangenion, pan fydd newyn arnynt truo a dyrchafu eu llais, yr hyn a gyfarwyddent at Dduw am gynnalgaeth, pe baent o'n gwybod mai efe yw eu gwneuthurwr.

gys ag y gwelwn y baban bach, sydd ar yntaf yn dangos ei eisieu drwy ddim ond llain: pan ddell i adnabod ei fam, fe gyfeiria gwynfan ati hi. Yr wyt yn gwybod, Cristion, mai ar ddarpariaeth dy Dad nefol ydych chi dy fywyd yn sefyll. Fe wŷr am dy eu yn wir; ond y mae yn cadw ei roddnes y gwaeddech; ac fe bair hyn iddo i'w fron allan yn ebrwydd. A oes gofal i Dduw am anifeiliaid y maes? Yn sicr y mae ei ofal yn llawer mwy am danat ei blentyn o fewn ei dŷ; ac am dy enaid ch law y cwbl. Y mae yn bossibly gelli iddo am fwy o gyfoeth a chael nacâd; ond y mae gweddi am fwy o ras yn sicr o'r ddo.

DOSB. IV.

Os mynit gryfhau dy obaith, llafuria am wanegu dy gariad. Mae gan gariad effaith argelaidd, etto nerthol, ar obaith. Fe gwaeth Moses, ni a addefwn, gareidgrwydd wr â'r Hebrëwr, pan y lladdodd yr ohtwr oedd yn ei daraw ef. Mae cariad lladd ofn slafaid—un o'r gelynyon aethaf a fedd gobaith yng nghalon y Cristion; ac felly yn cryfhau dwylaw goth. Mae yr hwn sydd yn dadwreiddio y myn yn helpu yrŷd i dyfu, a'r hwn a' thuo allan yr afiechyd yn gwneud ffordd i'w fhad natur. Ofn gwasaidd sydd yn gorffymu ysbryd y Cristion, fel nas gall ei lith weithio yn rymus. Yn awr, "Yr e cariad yn bwrw allan ofn;" 1 *Ioan* iv. A'r wraig rydd yn bwrw allan y wasanherch. Un o hil Agar ydyw ofn gwasaid—egwyddor sydd yn wastad yn cadw ei perchen mewn caethliwed; a hyn ni ddi-on cariad ei oddef. A fydd i mi, medd yr eidd lle byddo, ofni cael niwed a thriniaeth led ar law yr hwn sydd yn fy ngharu, a'n nau yntau, mor anwyl? Ymaith, feddau annheilwng; nid oes yma le i'r fath meddeithion a chwi yn fy mynues: "Carid ni feddwl ddrwg" (1 *Cor.* xiii. 5); hyn y, nid yw yn dymuno drwg i, nac yn amneu drwg am, un arall. Pomwyaf y carech Crist, lleiaf fydd dy ammheuaeth am dano; oho lleiaf fyddo dy ammheuaeth am dano, yfaf fydd dy obaith ynddo, a'th gysur yn egwyl wrtho. Oddi yma y mae y ddau hyn yn cael eu cydieuo yn y Beibl (2 *Cor.* iii. 5): "Yr Arglwydd a gyfarwyddo ch calonau chwi at gariad Duw ac i ymos am Grist." Câr ef, a thi a ymarosi am no. Felly yn *Iudas* 21. "Ymgedwch g nghariad Duw, gan ddisgwyl trugaredd a Harglwydd Iesu Grist i fywyd tra-yyddol."

DOSB. V.

5ed. Bydd yn mynych arfer dy obaith. Mae pob greddf yn cryfhau wrth gael ei lodd yn fynych ar waith. Fe ddaw y tentyn gwan sigledig i gerdded yn gryf a'th gerdded yn fynych. Ni bydd genych

fwy o arian yn eich cist yn niwedd y flwyddyn nag wrth eu rhoddi yno: a da os bydd rhwd neu ladron heb eu gwneuthur yn llai. Ond wrth eu rhoddi allan mewn masnach, bydd genych fwy nag oedd eich ystôr yn y dechreu: "Ti a ddylesit roddi fy arian at y cyfnawidwyr; a mi pan ddaethwn a gawswn dderbyn yr eiddo fy hun gyda llôg;" *Mat.* xxv. 27. Yn awr, yr addewidion yw y defnydd sy gan obaith i weithio arno. Cystal y gall dyn fyw heb awyr ag y gall fydd a gobaith heb addewid; ie, heb fynych sugno maeth o'r addewidion; ac am hyn, myfyria yn ddyfal arnynt, gan neillduo peth amser i'r diben. Chwydychi sydd yn caru eich iechyd, nid ymfoddlonwch ar yr awyr a ddaw i mewn atoch wrth eistedd yn eich tŷ neu eich gweithdy; ond chwi a rodiwch allan weithiau i gael awyr mwy agored a phurach. Ac os wyt tithau yn Gristion call, nid ymfoddloni ar y gyfeillach fer a geir â'r addewidion, fel y delont yn awr a phryd arall i'th feddwl wrth dy alwedigaeth, a phan fyddech ynghylch gorchwylion ereill, ond ti a äi o'r neilldu i'r diben o fwynhau myfyrdod mwy ddygog rhyngot ti a hwythau. Fe fyddai hyn yn fuddiol, yn enwedig os bydd gan y Cristion allu i'w dosbarthu a thrysori i'w fyny y ddarpariaeth sydd ynddynt wedi ei haddasu at ei gyflwr ef yn neillduol. Weithiau, y mae y Cristion yn petruso wrth gofio ei bechodau gynt, a'i obaith megys yn trwm-wrido, tra byddont fel pe byddai yn tremio â'u hedrychiad cuchog ar ei gydwybod. Yn awr, rhagorol fyddai i'r Cristion fod â'i lygad ar yr addewid, lle y gall weled yr wrthddadl yma yn cael ei hatteb, a gobaith yn gorfoleddu arni. Hyn oedd gwir gyflwr Dafydd yn *Salm* cxxx. Y mae yn addef ei fod mewn cyflwr tra alaethus pe byddai i Dduw ei alw i gyfrif manwl, a thalu iddo yn ol ei haeddiant: "Os creffi ar awiredd, Arglwydd, O Arglwydd, pwy a saif?" *adn.* 3.

Ond yma (*adn.* 4) y mae yn rhoddi ei enaid allan o bob ofn i Dduw gymmeryd y ffordd hon gydag eneidiau truan edifeiriol, trwy osod i lawr y penderfyniad cysurus hwn fel gwirionedd diammheuol: "Ond y mae gyda thi faddeuant fel y'th ofner." Hyn yw, y mae maddeuant yn dy natur—calon faddeugar sydd yn dy fyfnwes; ie, y mae maddeuant yn dy addewid; nid yn unig y mae dy galon dyner yn dy ogwyddo i faddeu; ond y mae dy addewid fyddlawn yn dy rwymo i wneuthur hyn i bawb a'i herfynio yn ostyngedig yn nydd gras. Yn awr, wedi gosod y sylfaen yma, gwelwch yr oruwch-adeilad a gyfyd y gwr duwiol hwn (*adn.* 5): "Disgwyliaf am yr Arglwydd, disgwyl fy enaid, ac yn ei air ef y gobeithiaf." Fel pe dywedasai, Arglwydd, yr wyf yn dy gymmeryd ar dy air; a thrwy dy ras,

yn bwriadu disgwyl yma wrth ddrws dy addewid, a pheidio symmuod nes cafwyf y rhodd addawedig, sef maddeuant o'm pechodau. Ac y mae hwn yn damaid mor felus fel uas gall ei fwyta ar ei ben ei hun; ac am hwy, ni a'i cawn yn danfon y ddsygli wared, i.e. hyd ben isaf y bwrdd, fel y byddo i bob dyn dauwl brofi o honi gydag ef (*adn.* 7, 8): "Disgwylid Israel am yr Arglwydd: o herwydd y mae trugaredd gyda'r Arglwydd, ac aml ymwared gydag ef. Ac efe a wared Israel oddi wrth ei holl anwireddau." Fel pe dywedasai, y mae yr hyn sydd yn sylfaen gobaith i mi, yn wyneb gwaedd fy mhochodau, yn rhoddi sail mor gadarn i unrhyw Israeliad yn wir, neu enaid diragrith o fewn y byd, pe byddai efe ond yn ei iawn ddeall ei hun a meddwl Duw yn ei addewid. Ie, y mae fy nghred mor gadarn am y cyfryw ac am fy enaid fy hun; ac mi feiddiwn wystlo fy hapusrwydd tragwyddol ar yr egwyddor yma, Y bydd i Dduw waredu pob gwir Israeliad oddi wrth ei holl anwireddau. Hon yw y ffordd, yn wir, i guro i lawr ein pechodau, a Satan hefyd, pan ddelo i'w dannod i ni er gwanhau ein gobaith. Weithiau drachefn, y mae llewyg yn dyfod dros galon y Cristion, yn unig oddi wrth fawredd y pethau a obeithir am danynt. Pa beth? medd yr enaid truan, ai ysgafn yw yn fy ngolwg i obeithio y caf o fod yn elyn, fy ngwneuthur yn fab ac yn etifedd i'r Duw mawr? Pa beth? gwrthryfelwr! ac nid yn unig gobeithio am feddeuant, ond cael bod mewn cymmaint ffafr a bod gwisgoedd o ogoniant yn cael eu parotoi i mi yn y nef, i sefyll ym mys y rhai sydd yn gweini wrth orsedd Duw yn ei lys nefol! a hyny heb i mi wneuthur dim mwy o wasanaethl iddo ar y ddaear! O! y mae yn newydd rhy dda i fod yn wir. Y modd hyn y mae yr enaid truan yn sefyll yn synedig, fel y disgyblion pan gawsant y newydd gyntaf am adgyfodiad Crist, ac yn barod i feddwl nad yw ei obaith ond chwedl gelwyddog a wnaeth Satan i'w dwyllo, fel y byddai iddo ryfygu gobeithio a darfod am dano gyda'i obaith.

Yn awr, Gristion, fel y gallech gamu dros y maen trangwydd hwn, dal ar yr argraphiadau o fawredd ac anfeidroldeb Duw sydd ar yr addewid: y maent weithiau yn cael eu dadgan i'r diben pennodol o ryddhau ein meddyliau ac esmwythau ein calonau o'r petrusder yma. Pan addawodd Duw y pethau mawr a wnai efe i Abraham, i'w gwneuthur yn fwy credadwy, chwanegodd, "Myfi yw Duw Hollalluog" (*Gen.* xvii. 1); ac felly yn *Esau.* lv. 7: "Gadawed y drygionus ei ffordd, a'r gwr anwir ei feddyliau; a dychweled at yr Arglwydd, ac efe a gymmer drugaredd arno, ac at ein Duw ni, o herwydd efe a arbed yn helaeth." Ond pa fodd y mae yn bossibl i hyn ddyfod i ben? bod,

megys mewn troad llaw, y fath ffafr fawr i' chael, na cheid ond prin y fath beth y mysy dynion er ymbil am dano am o gyfan? O! hawdd ydyw ateb hyny. I ddywed i ni mai nid dyn gwael ydyw, o Duw; a bod ganddo ffordd ar ei ben ei hun i faddeu camweddau—ffordd nas gall neb ddilyu ynddi, o herwydd ei bod mor bu uwch law ein ffyrdd ni "ag y mae y ne oedd yn uwch na'r ddaear;" *adn.* 9. Crad ar hyn, Gristion, ac fe fydd yn agoriad i ddaedgloi pob addewidion, a'th ollwng mewn i'r trysorau aunnhraethol sydd ynddynt; i.e. i wneuthur yr addewid fwyaf y y Beibl yn hawdd ei chredu. Wrth dda llen unrhyw addewid, cofia ymrwymiad pw ydyw; neb llai na Duw. A phan feddyiech am Dduw, bydd ochelgar rhag ei gyfyngu o fewn cych bach dy amgyffredio terfynol di; ond meddwl am dano bob aser fel bod annherfynol, canolbwynt yr hwsydd ym mhob man, a'i gylchoedd heb fod mewn un man. Wedi i dy feddyliau ddy chafu i'th uchder mwyaf, yna, gwybydd d fod mor bell, i.e. yn anfeidrol bellach oddi wrth gyrhaedd ei ogoniant a'i annherfynoldeb ef nag yw dyn o fedru cyrhaedd corph yr haul a'i law, pan fyddo ar ben ryfryn neu fyuydd. Dyma roddi mawredd Dduw, fel y gorchymynir yn *Deut.* xxxii. 4: ac fe rwyddha yn rhyfedd y gwaith o gredu. Pe rhoddem fod brenin yn danfon am ryddyn tlawd a chloff i'w lys, gydag addewi o'i fabwysiadu a'i wneud yn etifedd i'w goron hawdd y gallai hyn ymddangos yn anghredadwy gan y dyn truan, wrth feddwl pa fat naid yw hi o'i fwthyn gwael ef i gyflwr ty wysog: dianmheu pe buasai yr addewid i ddyrchafu i le mewn ysbytty, neu roddi idd swm cymmedrol at ei gynaliaeth, y buasai yn haws iddo i'w chredu, fel peth mwy cyf addas i'w sefyllfa isel ef. Etto, pan ystyri fawredd y brenin a'r hyfrydwch a gymmer cyfryw i fod yn debyg i Dduw ei hun, trwy d dangos math o allu creadigol i godi rha fel pe byddai, o ddim, i'r aurhydedd uchaf y dichon deiliad ei gael, er mwyn e gwneuthur byth yn rhwymedig iddo pan ystyrio hyn, meddaf, fe all fod yn hel iddo feddwl nad yw y digwyddiad rhy feddol hwn yn gwbl amhossibl. Felly yma pe byddai i enaid truan dreulio ei holl feddyliau ar ei anghymhwysder a'i annheilygded ei hun i gael y fath rodd a bywyd tragwyddol, amhossibl fyddai iddo byt dybio mor dda am dano ei hun ag y caiff efe fod yn un o'r creaduriaid gogoneddus a mwynhâ. Ond pan greder mawredd Duw a'r mawr hyfrydwch a gymmer efe i eglur y mawredd hwn yn y ffordd hon, trwy rdedwyddwch i greaduriaid truenus, yn hytrach na pharhâd o'u trueni mewn bytho ddamnedigaeth, a'r draul a gymmerth e agor ffordd i'w drugaredd rydd weithredu

hefyd yr enw gogoneddus a ddwg hyn yn meddyliau y rhai a ddyrchaf efe ayn—y mae y pethau hyn (sydd oll i'w yng ngair yr addewid) yn ddigon i gu y meddwl. Iê, o'u hiawn bwysu a'u def, pe byddai mil o folltau ar y galon, aent yn ddigon i'w hagar i groesawu yr ewid, a chredu heb ammheu ym mhell-mai gwirionedd ydwy y cwbl a ddywed v ynddi. Prawf mewn un peth neu u, chwi welwch, a roddais pa fodd y'r addasu yr addewidion[†] ateb y gwrthilleuon a godir yn erbyn ein gobaith. I dai yn hawdd rhoddi yma chwaneu o esblau, a dwyn addewidion fyddo yn cyflwr i unrhyw gyflwr arall; ond goreu y teir hyn genych chwi sydd yn gwybod ammheuon eich hunain yn well na neb l. A byddwch mor onest i'ch eneidiau ymmeryd peth poen yn hyny. Y mae y fferth o gasglu ychydig ddail a'u gwneud feddyginaeth wrth gyfarwyddyd y sygwr yn cael ei dalu yn dda, os bydd y truan yn cael ei fod yn llesol iddo, ac ei adferu i iechyd.

DOSE. VI.

ed. Trysora i fyny dy brofiadau o druddau a aethant heibio; ac fe fydd dy iath yn gryfach am rai i ddyfod: "Y mae iad yn peri gobaith;" *Rhuf.* v. 4. Y stion callaf yw yr hwn sy'n cadw cyfrif wyaf gofalus o ymdriniaeth rasol Duw ef, fel y gallo ei ddarllen yn ei brofiadau t, pan fyddo ei feddyliau yn ei flino, orphwysdra ysbyrdol yn cael ei dori gan un terfysgldd am yr hyn a ddaw. Dyma un a dreulia nos cystudd yn gysurus a eithiol, tra y bydd ereill a fydd heb ysenu, yn ein cof o leiaf, yr arwyddion od o ddaioni Duw a'u cyfarfu yn ystod wywyd, yn gweled eisieu y fath gydymhyfryd yn eu horiau athrist, ac yn cael blin drallodi; iê, da os na yrir hwynt i rifeu cyflwr yn anobeithiol. Yr ydys yn weithiau hen ysgrifeniadau yn llyfrgeill a fyddant yn foddion i achub ei dir ef; a e buasai hebddynt, fe allasid ei roddiyn archar, yno i ddiweddu ei ddyddiau. Y mae rhyw un profiad mewn cof yn w yr enaid rhag anobaith—carchar yr aetha Satan am gael y Cristion iddo: "Yn yr wyf yn ei adgofio, am hyny y gohiat;" *Galar.* iii. 21. Yr oedd Dafydd enwog am ei obaith; ac nid yn llai hynum ei ofal i graffu ar a chadw y profiadau a fodd o ddaioni Duw. Gallai adrodd bob un ymdriniaethau Duw âg ef; yr oeddynt yn fynych yn destyn ei fyfyrddod a'i ymddandan nes oedd yn gydnabyddus iawn â hyny. Pan y mae ei obaith ar sefyll, nid yw yn chwalo ychydig ar ei gof, a dyna efe dyfod ato ei hun yn ebrwydd, ac yn ceru ei hun am ei wendid: "A dyvedais, a ma fy ngwendid; etto cofiaf flynydd-

oedd deheulaw y Goruchaf;" *Salm* lxxvii. 10. Y mae y bytheiad wedi colli y sawyr, yn hela yn ol, ac yn ei ail gaffael y modd hwnw; yna fe a ddilyn ei ymlidiad gyda swm uwch nag erioed. Tithau, Gristion, pan fyddo dy obaith am y bywyd i ddyfod ar sefyll, ac ammheuaeth o'th gyflwr yn dy ddal; yna edrych yn ol, a gwel yr hyn a wnaeth Duw eisoes erot yn y byd hwn. Y mae rhai addewidion a dydd eu taliad yma; ac ereill y bydd rhaid aros eu derbyn yn y nef. Yn awr, y mae Duw wrth dalu rhai o'i addewidion yma, yn rhoddi ernes i'n ffydd y caiff y lleill hefyd eu cywiro yn ffyddlawn pan ddelo eu hamser i ben: fel y mae pob barn a roddir ar yr annuwiol, megys yn goniog mewn llaw o'r lliid hwnw a dal Duw iddynt mewn llawn swm yn uffern. Dos, gan hyny, Gristion, ac edrych dros yr hyn a dderbyniaist. Fe addawodd Duw, "Nid arglwyddiaetha pechod arnoch chwi;" *Rhuf.* vi. 14. Cyflwr sant yn y byd yma a feddylir yno. A elli di gael fod yr addewid wedi ei gwneuthur yn dda iti? A yw grym pechod wedi ei dori, a'r deyrnwialen wedi ei thynu o law y brenin yma, y buost yn ufuddhau iddo mor barod ag un deiliad i'w dywysog? Iê, a elli di gael ei fod ef ond wedi dechreu syrthio, trwy gael ei ddiorseddu yn dy galon a'th serch? A wyt ti yn edrych ar bechod, nid megys gynt fel dy frenin, ond fel treisiwr, gormes pa un yr wyt yn ymroddi trwy ras Duw i'w ysgwyd ef ymaith am ei fod yn annioddefol i ti, ac hefyd yn dianrhydeddu Duw, yr hwn a thiaefi yn uniawn Arglwydd i ti, aci gyfreithiau pa un y mae dy galon yn rhydd addaw ufudd-dod. Gall hyn, enaid tlawd, dy sicrhau y cei cyn byddo hir lawn oruchaiaeth ar bechod yn y nef, gan ei fod wedi dechreu colli ei allu arnat yn y byd. Gallwn graffu y modd y mae Dafydd yn codi i fyny ei obaith i ddisgwyl am berffeithrwydd y nef, oddi wrth ei sancteiddiad dechreuedig yn y byd. Yn gyntaf, y mae yn cyhoeddi ei fwiad sanctaidd dros Dduw; ac yna ei ddisgwyl- iad mawr oddi wrth Dduw (*Salm* xvii. 15): "Mi a edrychaf ar dy wyneb mewn cyfiawnder; digonir fi pan ddihunwyf, a'th ddeldw di." A brofaist ti law gynaliol Duw yn dy brofiedigaethau a'th flinderau, fel y cadwyd di heb soddi danynt? Gallai Dafydd borthi ei obaith am fywyd tra-gwyddol â hyn (*Salm* lxxiii. 23): "Ymafi- aist yn fy llaw ddeheu. Yn awr, craffwch ar gasgliad gobaith (*adn.* 24): "A'th gynghor y'm harweini; ac wedi hyny y'm cymmeri i ogoniant."

Ac megys y byddai profiadau a gedwid yn ofalus ac a ddefnyddid yn ddoeth o fawr les er cryfhau gobaith y Cristion mewn perthynas i'w brif wrthddrych, iachawdwriaeth; felly hefyd, hwy godent ei ben uwch law yr ofnau terfysgldd sydd yn codi yng nghalon

y Cristion, ac yn ei fawr fino, oddi wrth y rhagluniaethau croes a chystuddiol a ddi-gwyddant iddo yn y bywyd yma. Yn sicr, buasai golwg mawr ac ymddygiad ymfrost-gar y Goliath falch hwnw wedi peri ofn mwy yn Dafydd, oni buasai i'r cof am y llew a'r arth a laddasai ei ddal ef i fyny a'i ofnau i lawr. Yr oedd efe wedi lladd y Philistiad dienwaeddig hwn mewn cysgod, pan ddyrlliasai y bwystfilod afan hyny; ac am hyny, wrth ei wynebu ef, dyma y darian oedd ganddo i'w dal o'i flaen (1 Sam. xvii. 37): "Yr Arglwydd, yr hwn a'm hachubodd i o grafanc y llew ac o balf yr arth, efe a'm hachub i o law y Philistiad hwn." Pe na byddai profiadau yn sail o obaith mewn cyfyngderau canlynol (rhai tymmorol wyf yn awr yn feddwl), ni byddent o rym i'w dadleu mewn gweddi. Ond y mae y saint yn gwneuthur defnydd o'u profiadau yn yr achos yma; ac yn cyfrif fod ganddynt ddadl nerthol ger bron Duw, wrth adrodd yn ostyngedig yr hyn a wnaeth efe eisoes erddynt, a disgwyl iddo am hyny barhau yn ei ofal tadol am dan-ynt (*Salm* xxii. 21): "Achub fi rhag safu y llew; canys o blith cyrn unicorniaid y'm gwrandewaist." A diammheu y gall enaid grasol weddio mewn ffydd oddi wrth yr hyn a brofodd efe o'r blaen; a disgwyl ateb llawn i'r weddi hono yn yr hon y mae trugareddau gynt yn ddadl ganddo am yr hyn sydd arno ei eisieu yn bresennol. Mae Duw ei hun yn bwriadu mwy o gysur i'w bobl oddi wrth bob trugaredd a rydd efe iddynt nag a gyrhaedd y drugaredd ei hun iddo, a'i hystyried ar ei phen ei hunan. Os buost ti, Gristion, yn glaf, a Duw ar dy ostyngedig ddeisyfiad yn dy gipio hyd yn oed o safn angen, pan oeddit agos myned i lawr ei wddf; cysur y drugaredd bennodol hono yw y peth lleiaf y mae Duw yn fwriadu i ti trwy hyny; o herwydd mynai i ti ei wneuthur yn help i'th ffydd ac yn atteg i'th obaith pan y'th ysgydwir gan unrhyw derfysg rhag llaw (*Salm* lxxiv. 14): "Ti a ddyrlliaist ben lesiathan; rhoddaist ef yn fwyd i'r bobl yn yr anialwech." Yr oedd Duw, ni a welwn, yn y drugaredd hono wrth y Môr Coch, yn darparu cynnaliaeth i Israel dros ddeugain mlynedd ynghyd; ac yn gofalu am iddynt, nid yn unig wledda yn bresennol ar lawenydd yr ymwared rhyf-edd, ond ei falu megys yn eu cof, fel na byddai eisieu ar eu ffydd yn yr anialwech newynllyd yr holl amser y byddent ynddo. Y mae profiadau yn debyg i ddysglaid oer wedi ei chadw amser gwledd; ac ambell waith y mae y Cristion yn eistedd i lawr ac heb ddim ar y bwrdd ond yr addewid a'i brofiad. A'r neb nas gall wneuthur pryd a lona enaid â'r ddwy ddysglaid yma, y mae yn haeddu cael ymprydio. Bydd sicr, Gristion, o graffu ar hyn ym mhob trugaredd; pa beth sy'n ddefnydd diolchgarwch presennol;

a pha beth sydd yn sail gobaith rhag llaw Gelwir Achor yn "ddrws gobaith" yn *Ho* ii. 15. Y mae Duw, wrth roddi un drugaredd, yn agor y drws iddo ei hun i roddi, ac ninnau ddisgwyl, chwangon o drugaredda trwyddo. Fe gyffelybir yr addewid i gwlaw sydd yn peri i'r ddaear darddu thwyfu, fel y rhoddo had i'r hauwr a bara bwytaur: *Esa.* lv. 10. Pa ham, Gristion, y byddit boddlawn ar hanner budd rhy drugaredd? Pan fyddo Duw yn cyflawni addewid, ac yn ty waredu o'r blinder hwn a'r caledi arall, yr wyt yn dra chysurus, mae yn bossibl, ar y drugaredd, a'th galu yn helaethu i ddiolchgarwch presennol a dani. O'r goreu; dyma fara i'r bwytaur gwledd i ti heddyw. Ond pa le y mae had i'r hauwr? Nid ydyw y llafurwr treulio y cwbl o'r ffd a fedodd; ond fe geid beth yn had i ddwyn cnwd drachefn; fell Gristion, y dylesit tithau, nid yn unig wleddy hun ar lawenydd y drugaredd a gefais ond cadw coffa am dani fel had gobaith i'r gryfhau di i ddisgwyl wrth Dduw am drugaredd arall, a chymmorth cyfamserol mewn amser i ddyfod.

PENNOD XIII.

Atteg i wrthddadl; gyda dwy neu dair o ystyriadau buddiol at iawn ddefnyddio ein profiadau.

Gwrth. Ond fe allai y dywedwch, pa for y gall profiad a gafwyd gynt fod mor gy northwyol i obaith am yr amser i ddyfod pan y mae Duw (fel y gwelwn) yn myny groesi profiadau y saint. Y mae yn gwared o un cledyd ac yn eu cymmyrd yr aith, o bossibl, â'r nesaf: fe'u ceidw mewn trfwydr heb ysgryffiniad na niwed; ac mewn un arall, ennyd wedi hyny, hwy gânt o lladd neu eu clwyfo. Pa fodd ynte y gae Cristion, oddi wrth waredigaeth gynt, gan sail i'w obaith y ddisgwyl ymwared yn y cyffelyb gyfyngder etto?

At. 1. Y mae yr un gallu fyth yn Nuw: oedd y pryd hyny. Yr hyn a wnaeth ei unwaith erot, gall gyda'r un hawsdra wneuthur etto. A dyma un ffordd y gae profiadau fod yn gynnorthwy i ti. Ti welaist Dduw yn dynoethi ei fraich; fell oddi eithr i ti feddwl ddarfod iddi, gwe hyny, gollu ei grym neu ei gwasanaeth, a fod yn Dduw cloff, dyna gan obaith nodd ymaflyd ynddo, a'r fath un ag a gyfyd o ben uwch law y dwfr. Yn wir, nid ydy yr enaid yn boddi mewn anobaith hyd nes byddo wedi colli ei afael ar allu Duw. Pan fyddo yn ammheu a fydd i Dduw achub, mae hon yn agen lydan, yr wyf yn addef, hi a ollwng fil o ofnau i mewn i'r enaid etto cyhyd ag y gall y Cristion weithredu

ar allu Duw, a chredu y dichon wared welo yn dda; er na fydd i hyn ryddhau y ei enaid o'i holl ofnau, etto fe'i ceidw cwbl soddi, o herwydd y gwna hyn iddo mewn agwedd o ymofyniad, "Os myni, elli fy nghlanhau;" *Marc* i. 40. A phe wdit na ddichon Duw achub, a thithau i gweled yr hyn a wnaeth o'th blaid, nid mig ti a ddaguddit dy fawr anghredin- iau, ond a groesit dy ddynol reswm hefyd. ond yn ail, i roddi ateb yn fwy adref i'r daddadl. Fe all y Cristion gredu oddi a ei brofiadau gynt (hyd yn oed o wared- thau tymmorol); ac fe ddylai gredu d nid yn unig y dichon Duw, ond y a efe ei achub ym mhob cyfyngder a sygl o'r fath rhag llaw. Yn unig, nis benderfynu y gwna efe hyny yn yr un d ag mewn gwaredigaethau gynt. Ac ryf yn gobeithio na ddywed neb, os caiff edigaeth, fod Duw yn croesi ei brofiadau, ei fod yn cymmeryd trefn arall i'w thro- yddo iddo. Gall dyled gael ei llwyr dalu yn a fyddo yn werth arian, yn gystal mewn arian, os na bydd cyttundeb yn en. Yn awr, yn yr addewidion am dru- reddau tymmorol, nid oes un ymadrodd gael sydd yn rhwymo Duw i'w talu yn hwy eu hunain yn unig. Trugareddau rydol (y cyfryw wyf yn feddwl ag sydd gadwedigol, ac yn hanfodol i ddedwydd- y Cristion), fe addewir y rhai hyn yn yn eu rhyw eu hunain, am nad oes dim gydwert hwy a elli ei roddi yn eu

Ond y mae trugareddau tymmorol o'r natur waelach, fel y mae yn hawdd rhoi n am danynt o beth arall. Ié, nid yw Duw h yn nacau y Cristion o'r rhai hyn ond er ennill. Pwy a ddywed fod y Cristion

dyd yn gollodwr, pwrs yr hwn y mae w yn ei adael yn wag o aur ac arian, ond llenwi ei galon o foddolurwydd? Neu y, pan fyddo Duw yn ei waredu ef, nid y ei adferyd i iechyd, ond trwy ei sym- d i'r nef. Ac fe all hyn wasanaethu am

b i'r wrthddadl a grybwyllwyd. Mi gaf gau i fyny y pen hwn â dwy neu tr o ystyriaethau addas i'r Cristion, er nyddio yn well ei brofiadau gynt, pan y galed arno.

af. Edrych yn ol, Cristion, ar dy brofiad- a gynt, ac ymofyn ai ni elli gael ddarfod i Dduw yneuthur pethau mwy erot na h a y mae nyot yn awr y fath ofnau ter- f glyd a meddyliau ddiobaith am dano. Mi adawaf fod dy gyfyngder presennol yn yr; ond ai ni fuost erioed mewn un mwy, etto Duw o'r diwedd yn gosod dy draed rwn eangder. Yr wyt yn awr mewn wedd drist alarus; ond ai ni ddarfu iddo sgaru cwmwl duach na hwn sydd yn ar uwch dy ben, a pheri i haul gorfoledd cwynu arnat? Mi dybygw'n ynte y gall oobaith sigledig gael ei ddal rhag syrthio,

trwy ymaflyd yn hyn o brofiad. Ai nid oes arnat gywilydd rhoddi dy hunan i fyny, a meddwl am ddim ond boddi mewn llai ys- torm nag y dygodd Duw di yn ddiangol i'r lan o honi eisoes? Gwel Dafydd yn cryf- hau ei oobaith trwy ail olygu y fath brofiad a hwn: "Gwaredaist fy enaid rhag angeu; oni waredi fy nhraed rhag syrthio?" *Salm* lvi. 13. A roddaist ti i mi y peth mwyaf, ac a nacei di fi o'r lleiaf? Mae yn bossibl, Gristion, mai gwrthgiliaid wyt yn bresennol mewn ofn rhagddo, a syrthio ryw ddydd yn llaw dy bechodau: hyn sydd yn rhedeg yn dy feddyliau, ac nis gellir dy berswadio nad hyn a fydd. Amser cymmhwys yw yn awr i ti alw i'th gof y dydd y dychwelodd Duw di â'i ras. A feiddi di wadu bod y fath dro wedi cael ei ddwyn i ben? Os na feiddi, pa ham yr anobeithi di am barhâd? Dyna y dydd y gwaredodd Duw dy enaid: "Heddyw (medd Crist wrth Zaccheus) y daeth iachawdwriaeth i'r tŷ hwn;" *Luc* xix. 9. Ac a waredodd Duw dy enaid trwy ad- newyddol ras? Ac oni fydd iddo gadw dy draed rhag syrthio trwy ei gynnalol ras? Onid oedd raid wrth fwy o drugaredd a gallu i'th dynu di o afael pechod a Satan, nag a fydd i'th amddiffyn rhag syrthio i'w dwylaw drachefn? Mi dybygw'n na buasai yr Israeliaid yn petruso mor fynych am eu cynnaluaeth yn yr anialwch, pe buasant yn cadw mewn cof â pha fath law uchel y gwaredodd Duw hwynt o'r Aipt. Ond fe allai mai rhyw dralod allanol sydd yn gwasgu arnat. A ydyw yn drymach na'r caethiwed caled y bu yr eglwys gynt ynddo? Etto, yr oedd ganddi hi ryw beth i'w adgoffio at roddi bywyd newydd yn ei gobaiith (*Galar.* iii. 24): "Yr Arglwydd yw fy rhan i, medd fy enaid; am hyny y gobeithiaf ynddo." Gwel, y mae hi yn gwneuthur tru- garedd ysbrydol (am ei bod yn ddiddadl y fwyaf) yn sail gobaiith am ymwared tym- morol, yr hyn sydd yn beth llai. Ac oni ddarfu i tithau, Gristion, ei ddewis ei rhan? Onid wyt ti yn disgwyl am nefoedd i'w fwynhau ef ynddi dros byth? Ac a ddichon un carchar o dralod allanol fod mor dywyll fel na fydd i'r gobaiith hwn ei oleuo? Adgoffia dy brofiadau o'i gariad at dy enaid, yna nis gelli fod yn ddiobaith yn achos dy gorph a'th gyflwr allanol. Yr hwn a roddodd ran i gadw i ti yn y nef, yn sicr bydd yn y cwbl o'r draul i'th ddwyn yno.

2il. Cofia mor fynych y gwrthbrofodd Duw dy ofnau, ac y gwnaeth dy anghredin- iaeth yn brophwyd gau. Oni ddarfu iddo guro wrth dy ddrws â chysur tu mewnol ac ymwared allanol, pan oeddit wedi rhoddi allan dy ganwyl o oobaith; wedi rhoddi i fyny ei ddisgwyl, ac yn barod i orwedd yn y gwely o anobaith? Dyma fel y daeth at Hezeciah, ar ol iddo benderfynu yn ddilai ei fod wedi darfod am dano (*Isa.* xxxviii.

10, 11. Felly hefyd at y disgyblion yn eu syfrdandod anghrediniol: "Yr oeddym ni yn gobeithio mai efe oedd yr hwn a waredai yr Israel;" *Luc* xxiv. 21. Y maent yn siarad fel mewn petruser pa un a feddent eu fydd gynt ai peidio. Ai ni fu dy helynt dithau rywbyrd yn debyg i hyn? dy helbul mor flin ac ysturm dy ofnau gymmaint, nes oedd angor dy obaith yn methu ymasfyd, ac yn dy adael i ymlenwi o feddyliau drwgdybus a digalon, fel pe buasai dy nos dragwyddol wedi dyfod, ac heb un llewyrch boreu i'w ddisgwyl mwy. Etto, hyd yn oed y pryd hyny, dy Dduw yn eu profi hwy oll yn gelwyddwyr, trwy ymweliad hyfryd ac annysgwyladwy o'i drugaredd. Os felly, gwasga y profiad yma adref arnat dy hun, i galonogi dy obaith ym mhob profedigaethau i ddyfod. Pa beth, O, fy enaid (dywed)! a gymmeri di dy frawychu etto â'r fath ffals alarwm? A roddi di etto glust i'th feddyliau anhyderus a digalon, y rhai a gefaist mor fynych yn gelwyddwyr, yn lle credu tystiolaeth yr addewid, yr hon ni pharodd i ti gywilydd erioed, fel y gwnaeth y rhai hyn? Arfer y saint ya fynych yw porthi eu gobraith âg ysgerbwd eu hofnau lladdedig. Yr oedd yr amser a ddewisodd Duw, a'r offeryn a ddefnyddiodd, i roddi agoriad carchar i'r Iuddewon, yn dra anhygoel yn eu golwg: edrych yr oeddynt yn hytrach am gael eu dryllio yn chwilfrw gan y ddau faen melin hyny, y Babiloniaid oddi fewn a'r Persiaid oddi allan i'r ddinas, fel pan ddaeth eu gwardigaeth i ben, yr oeddynt (megys Pedr pan ddygodd yr angel ef o garchar: *Act.* xii) am beth amser heb allu dyfod atynt eu hunain, a phenderfynu pa un ai gwirionedd sier oedd, ynte breuddwyd melus: *Salm* cxxvi.

1. Yn awr, gwelwch pa effaith y mae y somedigaeth dra hyfryd hon yn gael ar eu gobraith am yr amser i ddyfod. Yn gyntaf, y mae yn eu danfon at orsedd gras am berffeithiad o'r hyn oedd mor rhyfeddol wedi ei ddechreu (*adn.* 3, 4): "Yr Arglwydd a wnaeth i ni bethau mawrion, am hyny yr ydym yn llawen. Dychwel, Arglwydd, ein caethiwed ni." Hwy a gawsant afael llaw drwy y prawf yma o'i allu a'i drugaredd; ac nis gollyngent ef nes cael chwaneu. Ië, y mae gobraith wedi eu godi i'r fath radd o hyder, fel y maent yn tynu penderfyniad cyffredinol oddi wrth y profiad neillduol hwn, er cysur iddynt eu hunain neu ereill mewn unrhyw gyfyngder rhag llaw: "Y rhai sydd yn hau mewn dagrau a fedant mewn gorfolodd. Yr hwn sydd yn myned rhagddo ac yn wylo, gan ddwyn had gwerthfawr, gan ddyfod a ddaw mewn gorfolodd, gan gludo ei ysgubau;" *adn.* 5, 6.

3ydd. Cofia pa annhymmerau drwg a dorodd allan yn dy gystuddiau a'th brofedigaethau; a'r modd y bu i Dduw, er y rhai hyn, ddwyn ym mlaen dy waredigaeth,

fel y gelli ddywedyd mewn perthynas i'r gyntion yma o fewn dy fynwes, yr hyn a le arodd Dafydd gyda gorfolodd mewn perthynas i'w elynion oddi allan; bod Duw wedi arlyw bord ger dy fron yng ngŵydd d wrthwynebwr; ië, a'i wrthwynebwr yr tau. Tra bu dy lygredd di yn cynhyrri ac yn gweithio i'w erbyn ef, dyna ei drugaredd ef wedi bod yn weithgar er ymwaredd ti. O, y fath draflwnged adfywiol fyddai hi i'th obaith llesmeiriol! Teimlad o'r gwel didau pechadurus hyny sydd ar y fath amser yn dangos eu hunain o fewn i'r Cristion yw y peth sydd yn mynych suddo ei galon ef mewn cyfyngder, tu mewnol neu allanol ië, yn gwasgu pen ei obaith i lawr, fel na gall edrych i fyny at Dduw am help chymmhorth yn y fath amser. Pa fod medd yr enaid tlawd, y gallaf fi ddisgwyl Dduw fy nghodi o'r clefyd yma, yn yr hwy y dangosais gymmaint o annioddefgarwch gwrthnysigrwydd? Neu, o'r brofedigaeth yn yr hon y darfu i mi ymarfer cyu lleid o fydd a chymmaint o anghrediniaeth? Y sier, rhaid i mi ymddwyn yn well cyn y cnewyddion da o'r nef. Y mae yn ddristion tlawd, dy fod mor deimladwy o'r bechodau ag i fod yn gybuddwr arnat e hun, a rhwystro i Satan gael y swydd etto na ddigaloner di o'i herwydd. Cofia pa fod yr atebodd y fath wrthddadlleuon gynt ac achubodd Duw di yn eu hwyneb. Pe buasai y rhai hyn yn gallu caledu ei ymysg oedd ef i'th erbyn, a fuasit ti yn fyw, ne allan o uffern, heddyw? A dderbyniaist drugaredd erioed, yr hon ni allasai ei chad rhagot o'r achos hwn sydd yn peri i ti y awr ofni na chynnorthwya efe mo hono! Neu, os nad oes genyt brofiad o'th eiddo e hun wrth law (yr hyn a fyddai yn berhyfedd), yna benthycu un gan saint ereill Y mae Dafydd yn esiampl ddilysiant o hyn Yr oedd yr amgylchiad yma yn bennod â'r hon yr oedd ei waredigaeth ef, megys wedi ei barneisio, yn effeithio yn fwy na di ar ei galon ef: "Mi a ddywedais yn ffrwst, Pob dyn sy gelwyddog. Beth a ddaaf i'r Arglwydd am ei holl ddoniau i mi" *Salm* cxvi. 11, 12. Yr oedd yn cofio am ymddygiad beius a byrbwyll: a hyn y m yn ei adrodd i gymmyred cywilydd o'i hwydd, ac hefyd i ddirwyn ei galon i'r grauchaf o ddiolchgarwch. Nis gwyr efe sut i ganmawl digon ar Dduw am y drugaredd hono a'i cafordd yn rhoddi y celwydd genad Duw—am Samuel y mae yn meddwl yr hwn a ddanfonwyd i fynegi iddo ei blynt yn dyfod. Ac y mae efe nid yn unig y gwneuthur yr amgylchiad yma yn annogaeth i foliannu am yr hyn a aeth heib ond yn ei osod i lawr fel sail gobraith am arser i ddyfod (*Salm* xxxi. 22): "Mi a ddwedais yn fy ffrwst, F'e'm bwriwyd all o'th olwg: er hyny, ti a wrandewaist lais

weddiâu pan leifais arnat. Fel pe dywed-
 ai, Pan oeddwn yn gweddio gyda chyn llei-
 e o ffydd, nes oeddwn megys yn dadweddio
 ngweddio fy hun, trwy benderfynu bod fy
 hyflwr mewn ystyr yn ddiobaith; yng
 wyneb hyny, fe faddeuodd Duw firwst fy
 halon, ac fe roddodd i mi y drugaredd
 no nad oedd genyf ond prin ffydd i'w
 gwyl. A pha ddefnydd a wna efe o'r
 ofiad hwn, ond i godi i fyny obaith y dyn
 wiol mewn dydd o galedi: "Ymwrolwch,
 efe a gryfhâ eich calon, chwydychwi oll y
 ai ydych yn gobeithio yn yr Arglwydd;"
 n. 24.

PENNOD XIV.

*Cynghor i'r rhai sydd yn fyr o'r helm yma o
 obaith.*

Defn. CYMMERWRCH eich cynghori, chwi
 ed etto heb yr helm yma, i ymofyn am
 io. Mi dybygwn, os ydych ond yn eich
 yn bywll, mai y peth cyntaf yr ewch yn
 gylych yw, yn enwedig os caiff ond tri
 eth le yn eich ystyriaeth.

DOSB. I.

1. Y fath beth echrydus yw bod mewn
 lwr diobaith. Fe ddywed yr apostol
 ph. ii. 12), fod yr hwn sydd heb obaith
 byw hefyd heb Dduw—"heb obaith gen-
 a, ac heb Dduw yn y byd." Y mae Duw
 enaid yr hyn yw yr enaid i'r corph. Os
 hwn yn beth mor wael a brwnt wedi
 di yr enaid sydd yn ei gadw yn beraidd,
 beth yw dy enaid di pan nad oes dim o
 Duw ynddo? "Calon y drygionus (medd
 Solomon) ni thâl ond ychydig;" *Diar.* x.

A pha ham? ond am nad yw Duw yn-
 ei i'w gwneuthur hi yn brisafwr. Os nad
 Duw, sydd yn oleuni, yn y deall, yr wyt
 yn ddall; a pha beth a dâl llygad heb le-
 rch ond i'rh helpio i dori dy wddf? Os
 i'w Duw yn dy gydwybod, i'w chysuro,
 ne yn rhaid dy fod yn llawn o ddychryn neu
 wag o deimlad—yn gythraul gwallgofus,
 yn atheist pengaled. Os nad yw Duw
 dy galon a'rh serchiadau i'w puro, nid
 ond crug o fudreddi, a ffos o lygredd.
 nad yw Duw ynot, y mae y cythraul yn-
 g o herwydd bod calon dyn yn dŷ nas gall
 os yn wag. Mewn gair, nis gelli ymdar-
 yn dda heb y gobaith yma mewn bywyd
 e angeu. Nis gelli mewn bywyd: pa gysur
 gelli gymmeryd yn yr holl fwyniant sy gen-
 yn y bywyd hwn, pan nas meddi obaith
 a ungwel? Rhodd anghrosawus mewn
 lthry cymyn yw hono sydd yn tori mab
 rthryfelgar o bob hawl i'r etifeddiath.
 mae genyt feddiannau yn y byd, mae yn
 ssibl! ond dyna y cwbl sydd i ti edrych
 a dano. Ac onid ydyw yn ddaagr yng
 thalon dy lawenydd i feddwl fod dy ran

yn cael ei thalu i ti yma, yr hon fydd wedi
 ei gwario erbyn y pryd y mae y saint i dder-
 byn ei ran. Drachefn, llawer llai goddef-
 adwy fydd i ti fod heb y gobaith hwn yn
 awr angeu. Pwy all feddwl yn ddiddychryn
 am adael y byd yma, er amled ei ofidiâu,
 heb obaith am esmwythdra yn y llall? Y
 drwgweithredwr wedi ei gollfarnu, er mor
 anhoff ganddo ei dwll myglid yn y carchar,
 gwel fyddai ganddo fod yno na derbyn ei
 ryddhâd ar law y dienyddwr; fe ddewisai
 fyw o hyd yn ei letty drewllyd, yn hytrach
 na'i newid am y crogbren. A mwy rhesym-
 ol yw i'r enaid diobaith (os yw yn dirnad ei
 gyflwr) ddimuno treulio ei dragwyddoldeb
 ar y ddaear, pe byddai mewn ogof, neu y
 twll tlotaf ynddi, a than boenau llymaf y
 gareg neu y gymmalwst, na chael ei dynu o'i
 ddolur gan boenau uffern. Oddi yma y mae
 y terfysg echrhydus ym meddyliâu y treuein-
 iaid euog, pan ddelo gwys am eu heneidiau
 allan o'u cyrph. Hyn sydd yn peri i loesau
 angeu fod yn drymach nag y byddent, pe
 byddai ond ymadawiad gobeithiol rhwng y
 ddau gyfaill anwyl yma. Os dichon gwaedd
 a llefaus caredigion uwch ben un fyddo yn
 marw gythryblu a gwneuthur ei ymadaw-
 iad yn fwy poenus, pa faint mwy ynte sydd
 raid i ddychryn cydwybod y pechadur ei
 hun ei synu a'i frawychu yn y disgwyliad
 aethus am yr uffern hono sydd yn ei aros.
 Y mae gwahaniaeth mawr rhwng gwraig yn
 ymadael a'i phriod, pan fyddo yn cael ei alw
 i'r llys i fyw yn llewyrch ffafwr ei frenin, a'i
 ddychweliad i'w ddisgwyl ganddi ym mben
 ennyd gydag anghwanegiad o gyfoeth ac an-
 rhydedd, ag un arall, priod yr hon a dynir
 o'i breichiau i'w lusgo i garchar a phoenau.
 Ai dyma dy gyflwr, ddyrn truenus, ac a wyt
 ti yn naddu dy fywyd byr yn ysglodion, ac
 yn treulio dy ychydig amser ac oferedd pan
 y mae iachawdwriaeth dy enaid etto ar ol?
 A wyt ti yn taclu ac yn harddu dy ysgerbwd
 priddlyd tra y mae dy enaid yn disgyn i
 uffern? Beth yw hyn-ond bod yn paentio
 y drws tra y mae y tŷ ar dân; neu i ddyrn
 fyddo yn fanwl i addurno ei wyneb, pan
 nad yw yn sicr y caiff ei ben aros diwrnod
 ar ei ysgwyddau? Amser anaddas ydoedd
 i Belsasar wledda a thraflyngeu pan oedd ei
 deyrnas mewn perygl, a gelyn wrth y pyrth.
 Buasai yn gweddio i frenin doeth yn hyt-
 rach fod yn ymladd ar y mur nag yn gwledda
 yn ei balas, ac yn ymbesgi i'w laddedigath
 ei hun, yr hyn a ddigwyddodd iddo yn fuan:
Dan. v. 30. Ac fe weddai yn well i tithau,
 bechadur truan, fod yn galw ar Dduw ac yn
 gorwedd wrth ei draed mewn dagrau am dy
 bechod, i edrych a elli gael maddeuant, na
 bod yn ymdreiglo mewn mwyniant anianol, i
 syfrdanu dy gydwybod a'i suo i gysgu, trwy
 yr hyn nid wyt yn ennill ond ychydig es-
 mwythdra oddi wrth y meddyliâu blinderus
 am y trueni sydd yn dyfod arnat.

DOSE. II.

2. Ystyria: y mae yn bossibl (nid wyf yn meddwl yn y ffordd yr wyt arni; felly y mae mor amhossibl i ti ddyfod i'r nef ag yw i Dduw fod yn gelwyddog), ond y mae yn bossibl i ti sydd yn awr heb obaith, ddyfod, trwy ddeffros arfer y moddion mewn pryd i feddu gobaith iachawdwriaeth. Ac yn sicr, y mae possiblirwydd o obaith yn dwyn ynddo ddadl gref i beri ymgais an obaith mewn meddiant. Nid oes un cythraul yn uffern na ymadawai â mil o fydoedd pe byddai yn berchen arnynt (a phob un yn well na hwn yr ydym ni yn yfydu cymaint arno), am y fath, fe allai; i'e, fe'i cyfrifai yn isel o bris hefyd. Nid oedd ond "Pwy a wŷr," gan frenin paganaudd Ninfeh, i'w dynu o'i orsedd i'orwedd wrth draed Duw mewn sachlian a lludw: *Jonah* iii. 9. Ac fe gyfyd y brenin hwnw yn y farn i'th erbyn, os na wnei di yn rhagor; o herwydd nid oedd yno ond possiblirwydd mwy anamlwg nag sydd o'th flaen di. Fe'i darllenwyd, nid trwy help un addewid benodol a ddeferodd o enau y pregethwr i'w calonogi i ymddarostwng a throai at yr Arglwydd (o blegid nid ydym yn darllen am ddimond distryw yn cael eifygwthl), ond trwy help y dduwinyddiaeth naturiol hono oedd yn argraphedig ar eu meddyliau. Fe'u dysgwyd hwynt trwy hon i obeithio na byddai yr hwn yw y daioni penaf yn galon galed. Ond y mae genych chiw addewidion o enau Duw ffyddlawn yn dadgan i chiw, os ceisiwch ef yn ei ffordd a'i amser, y cewch, cyn sicred a bod Duw yn y nef, fyw gydag ef mewn gogoniant. "Eich calon chwithau, y rhai a geisiwch Dduw, a fydd byw;" *Salm* lxxix. 32. Ie, y mae miliynau o rai dedwydd yn awr yn y nef yn profi gwirionedd y gair hwn, y rhai fu gynt heb fwy o hawl i'r lle nag a feddwch chwithau yr awr hon; ac nid yw y drigfan wynfydedig hono wedi ei llenwi mor dyn, fel nas gwna efe le i chwithau, os oes genych mewn gwirionedd feddwl am fyned yno. Y mae un weddi a weddiodd Crist ar y ddaer yn cadw porth y nef yn agored i baw a gredant ynddo hyd ddiwedd y byd (*Ioan* xvii. 20): "Ac nid wyf yn gweddio dros y rhai hyn yn unig, eithr dros y rhai hefyd a gredant ynof fi trwy eu hymadrodd hwynt." Dyma newydd da yn wir: mi dybygwn y gallai beri i'ch eneidiau lamu o'ch mewn, fel y gwnaeth y plentyn yng nghroth Elizabeth wrth gyfarchiad y Forwyn Fair. Na ddywedwch ynte, bechaduriaid, fod gweinidogion yn eich rhoddi ar waith amhossibl, ac yn peri i chiw ddringo bryn anhygyrch neu ymosod ar ddinas sydd yn anorchfygol. Na: y diafol a'th galon anghrediniol dy hun, wrth gydfwriadu dy ddinystyr sydd yn dywedyd felly wrthyt. A thra y rhoddech glust i'r cynghorwyr hyn, pa fyd gwych elli di gael?

Ond, dywedant hwy a fynont, gwybydd bechadur, os yn ol o'r nef y byddi yn y diedd (yr hyn, rhagflaened Duw), gall yr Arglwydd olchi ei ddwyllaw uwch dy ben, glanhau ei hun oddi wrth dy waed. Bydd y ddamnedigaeth wrth dy ddrws dy hun. Fe ymddengys y pryd hyny nad oedd d'twyll yn yr addewid, na dadlyddiaeth d'chellgar yng nghynnygiad yr efengyl. hyn oedd Duw yn ei gynnyg, yr oedd efe foddolawn i'w roddi; ond tydi fydd o'th fedi wedi gwrthod bywyd tragwyddol, am fod galon yn anoddllawn i'r ammodau er teoedd dy siarad anweddu: "Ni wrandaw fy mhobl ar fy llef, ac Israel ni'm mynai *Salm* lxxxii. 11. Felly pan ymofyno rheithwyr ynghylch dy enaid lladeddig, fodd y daethost i'th ddiwedd gresynol, fe geir yn euog o'th ddamnedigaeth dy hun. Nid oes neb yn colli Duw ond yr hwn sy yn ei wrthod.

3. Yn awr, ystyria greulondeb y weithu yma i ti, trwy gyndynrwydd a chaledw dy galon, dynu i lawr dragwyddol ddistrar dy ben dy hun. O! y fath ysgrifen-fa a fyddai hon uwch ben rhyw gorph:—Y y gorwedd un a dorodd wythien ei waed wnaeth yn annaturiol am dano ei hun! pha faint llai aethus na hyn yw bod achoddyweddy, Dyma y dyn, daew y wraig fynent eu diwygio! Hwya a welsant uff o'u blaen, ac etto mynent neidio iddi er y biliau Crist oedd trwy ei Ysbryd a'i genh on yn sefyll ar eu ffordd! A pho mynyd y cynnygiech di hyn, a Duw yn attal dy drwy ei rasol erfyniadau, mwyaf a fydd warth o flaen Duw, dynion, ac angylion y dydd olaf. Y mae Duw wedi gosod i o ddyrgair ar y creulonderau a wna dyn no ei hun, uwch law pob rhai ereill. fyddai yn arwydd fod dyn o natur erwin aidd a allai edrych ar ei geffyl yn ei yst neu fochyn yn ei gut yn newynu, pan y gando fwyd i'w osod o'i flaen: mwy ca lawd fyddai clywed llafurwr yn llefain fara, a'i nacau; erchyllach etto fyddai i wneuthur hyn i wraig neu blentyn; ontrais mwyaf ag sydd yn bossibl ei gynar gyfraith natur, ydwy i dlyn anghof d'yledswydd i'w fywyd ei hun, am gwaedd uchaf natur am hunan-gadwria O! ynte, pa beth yw i bechadur newynu enaid trwy wrthod Crist, bara y bywyd gollwng gwaed ei enaid trwy yr arel mawr hwn? Dyma greulondeb mawr gymmarh! Yn wir, y peth sydd yn gwn hunanladdiad y corph yn ddrygioni i fawr yw, ei fod mor hynod (ni ddywem mor anocheladwy) yn peryglu bywyd yr aid. O! ynte, mor annheilwng wyt ti i'w fath lettywr arderchog ag yw dy enaid drigo yn dy fynwes, yr hwn nid wyt yn paru iddo mewn byd arall ddim gwell lle nag uffern! Yr enaid hwnw sydd o rar

turiaeth, yn gymmhws i'w ddyrchafu i esenoldeb Duw yng ngogoniant y nef, i byddai dy fod yn bolltio y drws i'rh erid dy hun trwy dy anedifeirwch! Ond ch! hwn, y llofruddiaeth gwaethaf ydyw y wyaf cyffredin. Nid ydynt ond ychydig ghenfilod y clywn ambell waith am danynt dd yn lladd eu cyrph eu hunain, ac y mae hanes yn peri i'r holl ardal gryuu. Ond in y gellwch fyned i unrhyw dŷ, un dydd wythnos, na chewch rai yn ceisio am wyd eu heneidiau; fe, yn dwyn y gyll- ar cebystrau yn eu mynwesau (eu hoff chodau wyf yn feddwl), â'r rhai y maent eu gwauu a'u tagu. Hyd yn oed rhai ld yn llawn o serch naturiol at eu cyrph, y byddant yn foddolawn, gyda'r wraig yn efengyl, i dreulio cymmaint a feddant ar ldygon, pan fyddo eu bywydau mewn rygl; etto, y rhai hyn, mor greulawn th eu heneidiau sydd ar drengu a chael eu unio, fel y troant Crist, eu Phsygwyr, os y drws, er ei fod yn dyfod i'w hiachau rhad. Mewn gair, rhai a ddangosant ver o gallineb a synwyr wrth drin eu terion bydol (chwi ryfeddech y fath res- na da a roddant, pa ham y gwnânt hyn a'r ll), pan droir at achosion nefol ac iach- dwriaeth eu heneidiau, nid ydynt debyg un bobl; fel pe baech i farnu am dant wrth eu hymddygiad yn yr achos yma, d allech ond prin gredu mai dynion ydynt. e onid ydyw yn beth athrist bod yr enaid w swydd yn dy addurno â rheswm at drin orchwylion bydol, ei hunan heb gael lles di wrth y rheswm hwnw y mae yn ei fen- yca i ti, i'w arfer uwch ben dy holl fater- t ereill? Y mae hyn, fel y dywedodd un, gymmhws fel pe byddai gwr y tŷ sydd darparu lluniaeth i'w holl weision, ei nan yn cael ei gadw ganddynt rhag bwyta? felly yn bod yr unig creadur newynllyd o vn y tŷ. Ac onid hyn yw y pla a'r farn di wrth Dduw sydd yn amlwg ar lawer, rhai hyny yn wyr doethion hefyd, yn ol th y byd? Onid yw eu heneidiau sydd rhoddi deall iddynt i ddarbod dros fol a efn, tŷ a theulu, eu hunain yn newynu ar un pryd? Y mae grym eu chwantau yn cadw rhag arfer eu deall a'u rheswm wn dim yngais difrifol a phrysur am iachawdwriaeth.

EPHESIAID VI. 17.

A chleddyf yr Ysbryd, yr hwn yw gair Duw." A ni a gawn y chweched darn a'r olaf o logaeth y Cristion at ein llaw. Cleddyf, hwnw o'r iawn wneuthuriad—"cleddyf Ysbryd." Y mae y cleddyf erioed wedi

cael ei gyfrif yn ddarn tra angenrheid- iol o addurniadau y milwr; ac am hyny, yn cael ei arfer yn fwy cyffredin ym mhob oes ac ym mysg pob cenedl, nag un arf ar- all. Y mae gan y rhan fwyaf o genhedl- oedd rai arfau gwahanol oddi wrth ereill; ond nid oes nemawr yn dyfod i'r maes heb gleddyf. Llywydd llong heb ei chart,¹ ys- golhaig heb ei lyfr, a milwr heb ei gleddyf, ydynt fel eu gilydd yn anhardd. Ond uwch law y rhai hyn i gyd, mor anaddas yw i neb feddwl bod Cristion heb wybodaeth o air Duw, a pheth gallu i drin yr arf yma! Enw arferol yn y Beibl am ryfel yw y cleddyf: (Ier. xxv. 29): "Yr ydwyf fi yn galw am gleddyf ar holl drigolion y ddaear;" hyny yw, yr wyf yn anfon rhyfel. A hyn, am mai y cleddyf yw yr arf o ddefnydd mwyaf cyffredinol mewn rhyfel, â'r un y gwneir y difrod mwyaf âg ef mewn brwydr. Y fath arf a hyn yw gair Duw yn llaw y Cristion. Wrth fin lwn y mae ei elynion yn cwympo ac yntau yn cael goruchafiaethau (Dad. xiii. 11): "Hwy a'i gorchfygasant ef trwy waed yr Oen, a thrwy air eu tystiolaeth hwynt."

PENNOD I.

Dau sylw cyffredinol oddi wrth y geiriau, mewn byr gyffyrddiad.

MAE dau beth a allwn ddal sylw arnynt cyn dyfod at eglurhad manylach o'r geiriau. Y cyntaf, oddi wrth natur neu fath yr arf a gyflwynir yma at wasanaeth y Cristion. Y llall oddi wrth y lle a'r drefn y mae yn sef- yll ynddo.

1. Am natur neu fath yr arf. Un ydyw sydd er amddiffyniad a niweidiad hefyd: y mae y cleddyf yn ateb i'r ddau ddiben hyn. Y mae yr holl ddarnau ereill yn arf- dy yr apostol, dan gyffelybrwydd arfau am- ddiffynol, gwregys, dwyfroneg, tarian, a helm, y fath sydd o ddefnydd i amddiffyn a chadw y milwr rhag dyrnod ei elynion. Ond y mae y cleddyf o wasanaeth i'w am- ddiffyn ef ac i archolli ei elyn hefyd. O gyf- felyb ddefnydd ag y mae gair Duw i'r Crist- ion. Yn gyntaf, y mae er amddiffyniad. Hawdd fyddai diarfogi y milwr o bob add- urn arall, pa mor hardd a disglair bynag, pe na byddai ganddo gleddyf yn ei law, i'w godi yn erbyn rhuthriadau ei elynion. Ac mor hawdd a hyny fyddai i'r Cristion gael ei ysbeilio o'i holl rasmusau, pe na byddai gan- ddo y cleddyf hwn i'w hamddiffyn hwynt, ac ef ei hunan hefyd rhag cynddaredd Sat- tan: "Oni bai fod dy ddeddf yn hyfrydwch i mi, darfuasai yna am danaf yn fy nghys- tudd." *Salm* cxix. 92. Y mae hwn yn de- byg i'r cleddyf tanllyd, â pha un y cadwodd

¹ Llen yn dangos gosodiad gwledydd.

Duw Adda allan o baradwys. Fe gyffelybir y Cristion yn fynych i ardd a pherllan Crist, â chleddyf ei air y mae efe yn cadw y berllan hon rhag cael ei thori. Nid hir y cawsai dim ffyrwth melus (grasusau na chysuron) aros ar eneidiau y saint, oni bai fod y lleidr mawr yma, Satan, yn cael ei gadw draw â blaen y cleddyf hwn. O! y mae y gair yma o'eiddo Duw yn ddychryn iddo: nis gall, er ei fywyd, drechu yr awswyd o hono. Ond i Grist ddywedyd, "Ysgrifenedig yw," dyna yr ysbryd aflan yn rhedeg ymaith gyda mwy o fraw a therfysg nag y gwnai Caligula¹ wrth swm taran. A'r hyn oedd o'r fath rym, o enau Crist, i'w ymlid ef ymaith, y mae y saint wedi ei gael bob amser yn offeryn mwyaf tyciannol, i'w hamddiffyn hwythau yn erbyn ei dentasiynau mwyaf ffyrnig ac angerddol. Gofynwch i Dafydd pa arf oedd ganddo i gadw ymaith ddyrnodiau ei elyn, ac fe ddywed i chwi mai gair Duw (*Salm* xvii. 4): "Tuag at am weithredoedd dynion, wrth eiriau dy wesusau yr ymgedwais rhag llwybrau yr ysbeillydd." Hyn yw, trwy help dy air y galluogwyd fi i ymgadw rhag y ffyrdd drygionus, a'r arferion erchyll i ba rai yllusgwyd ereill o ddiffyg yr arf yma i'w hamddiffyn. Drachefn, y cleddyf, megys y mae yn amddiffyn y milwr, felly y mae yn niweidio ei elyn. Fel hyn y mae gair Duw yn gleddyf i gadw ac i ladd hefyd. Y mae nid yn unig yn ei gadw a'i attal ef rhag ymroddi i dentasiynau oddi allan, ond hefyd yn ffinio i ladd a marwhau ei chwantau oddi mewn; a hyn sy'n gwneud y fuddugoliaeth yn gyflawn. Gall dyn ddiange o afael ei elyn un diwrnod, a chael ei ladd ganddo bryd arall. Darllenwn am rai a ddiangasant dros amser rhag halogedigaeth y byd, ond am na chafodd eu chwantau erioed eu rhoddi i'r cleddyf, a'u marwhau ynddynt trwy gymmhwysiad o rym y gair at eu calonau, hwy a orchfygwyd ac a laddwyd eu hunain o'r diwedd gan y gelyn cuddiedig yma oedd yn llechu yn eu mynwesau: cymharwch 2 *Pedr* xx. âg *adm.* 22. Absalom, er ei fod yng nghrog wrth wallt ei ben, fe allasai fyw i ymddial dro arall ar y rhai y curwyd ef ganddynt y pryd hyn, oni buasai i Ioab wneuthur ei waith mewn amser drwy ddafon ei bicellau â chenadwri angyd at ei galon ef. Y mae genym yn feunyddio esamplau athrist o rai yn ymysgwyd allan o'u blinderau cydwybod (lle y delir hwy dros amser â'u pechodau, fel pe baent yng nghrog wrth y gwallt), ac y maent yn rhuthro wedi hyn i lwybrau bryntach nag o'r blaen; a hyn i gyd o ddiffyg gallu i drin, neu wroldeb a ffyddlondeb i frathu y cleddyf hwn trwy ffydd i galon eu chwantau.

2. Craffwch ar y drefn neu y lle yn yr hwn y mae y darn yma o arfogaeth yn

¹ Un o ymherawdwr Rhufain; ymfrostiwr creulawn a thia digalon.

sefyll. Y mae yr apostol yn gyntaf yn rai i'r Cristion yr holl ddarnau ereill; ac ar iddo wisgo y rhai hyn, y mae yn gwregys y cleddyf hwn yn ei gylch. Nid yw Ysbr Duw yn yr Ysgrhythrau sanctaidd, yr w yn addef, bob amser yn fanwl am y dref etto, mi dybygwn na byddai yn anesgusod os anturiaf roddi cyffyrddiad ar arwyddo dwbl hyd yn oed i'r lle a'r drefn y mae sefyll ynddo.

1af. Fe all fod yn cael ei ddwyn i mear ol y lleill oll, i roddi gwybod mor anghreiddiol yw grasau Ysbr Duw tuag iawn ddefnyddio y gair. Nid oes dim cael ei gamddefnyddio yn fwy na'r gair pha ham, ond am fod dynion yn dyfod â chalonau afiach, ansanctaidd? Yn hereticaidd yn ei ddyfyn i brofi eu hathra iaeth gelwyddog hwynt; ac yn beiddio b mor ddigywilydd a'i alw i ymddangos o plaid. Ond pa fodd y mae yn bossibl iddy gynnwys tadogi eu dychymmygion anghent aidd ar bur a dibalog air Duw? Yn ddi am eu bod yn dyfod at y gair, ac yn ei ddllen heb fod â gwregys gwirionedd am ddynt, a chan eu bod heb y gwregys y mae heb y fendith. Y mae Duw yn gyfiawn gadael iddynt fyned heibio i'r gwirionedd am nad ydynt wirioneddol yn eu hwmofy iad am dano. Y mae y bastardd wedi ei ei genedlu ar eu calonau eu hunain gan d y celwydd; a dyfod y maent at y gair unig i geisio ganddo sefyll yn lle tad iddy. Y mae un arail yn darllen y gair ac waeth ar ol hyny; yn fwy caled yn chwantau nag o'r blaen. Fe gafodd amry yno yn cael eu cyfrif yn saint gan Ysbr Duw; a hanes eu bywydau er hyny wedi ysbyrchu â rhyw gwympiadau bryntion; allai i'r un pechodau ag y mae efe yn y dreiglo ynddynt; ac am hyny y mae ymhyfiau i roddi ei hun yn y rhestr sanctaidd. A pha ham y digywilydd-dra hy Yn sier, am ei fod yn dyfod at y gair ansanctaidd ei galon, ac mewn diffyg o ddwfroneg cyfiawnder i'w ddiogelu rhag tariaid y fath dentasiwn enbydus. Un ar o ddiffyg ffydd i roddi bod i wirionedd bygythiad, a red yn hyf ar flaen y cleddyf yma, gan annog Duw y nefoedd i'w dar âg ef. Dyma fel y cawn y trueiniaid hy y sonir am danynt gan y prophwyd, chwareu â'r arf miniog hwn: "Pa le y m gair yr Arglwydd? deued bellach;" *1 xvii.* 15. Fel pe dywedasant yn wawd Yr wyt yn ein bygwth â rhyw fwbach rhyfedd; barnedigaethau, meddi, sydd dyfod arnom oddi wrth Dduw; pa bryd deuant? ni a chwennychem eu gweled. Yw cleddyf Duw wedi rhydu, pan y mae c hyd yn ei gael allan o'r wain? Nid yw enaid anobeithiol yntau, o ddiffyg he gobaith, yn ymddwyn nemawr gwell at addewid y mae y pechadur rhyfygus

gythiad. Yn lle codi y codi y cleddyf a i'w amddiffyn ei hun yn erbyn ofnau ydwybod euog, y mae yn syrthio ar ei n, ac yn gwanu ei enaid ei hun a'r arf a dir iddo i ladd ei elyn âg ef. Achos da e sydd i'r apostol gyflwyno y darnau ereill gyntaf; ac yna rhoddir y cleddyf yma yn llaw, i'w ddefnyddio er ein lles. Cleddyf llaw dyn gwallgofus, a Gair Duw yn nau dyn drygonus, ydynt led gyffelyb defnydd, sef yn unig i niweidio eu hun-a'u cyfeillion goreu. 2il. Fe all fod yn ei ganmawl ar ol y lleill i gyd, i adael wybod pan fyddo y Cristion wedi dyfod cyrhaeddiadau uchaf ag sydd yn bossibl wrn gras yn y bywyd hwn, nad yw efeb h law arfer y gair: nag e, nad all fod yn ddiogel hebdo. Wedi cael regys gwirionedd a dwyfroneg cyflawn-am dano, tarian y ffydd yn ei law, a m o obaith yn cuddio ei ben, nes yw ei nawdwriaeth allan o ammheuaeth ganddo; y, y pryd hyny, rhaid iddo gymmeryd llyfyr yr Ysbryd, yr hwn yw Gair Duw. llyfyr yw hwn i'w ddarllen yn unig gan o'r radd isaf yn ysgol Crist, ond y mae gweddu i'r ysgolheigion uchaf sydd yn ddangos yn fywaf addas i'w synmud i f ysgol y nef. Y mae nid yn unig o ffydd i wneuthur Cristion trwy droedig-h, ond i'w wneuthur yn berffaith hefyd: 4m. iii. 15. Y mae yn debyg i llynyn a sffon y saer celyydd, mor angenrheidiol i d maen uchaf yr adeilad, yn niwedd byw-ag i osod sylfaen trwy dröedigaeth. eilad yw ffol ynte, y mae yn debygol, d y rhai a daflant eu llynyn ymaith, cyn phen yr adeilad.

Yr wyf yn dyfod yn awr i gymmeryd i y yr arf sydd o'n blaen yn y testyn; c hleddyf yr Ysbryd, yr hwn yw Gair w." Ym mha eiriau gallwn sylwi ar y hau canlynol yn dair rhan, y rhai a gan-dir yn amlwg ynddynt.

af. Yr arf ei hunan, sef gair Duw.

2il. Y traws-ymsymmudiad (*metaphor*) ld fel gwain iddo, sef y cleddyf: ynghyd person y mae yn eiddo iddo, "Cleddyf Ysbryd."

Bydd. Annogaeth i ddefnyddio yr arf a; "A chleddyf," &c. Hyny yw, cym-rwch hwn gyda'r holl ddarnau a enwyd blaen. Fel mai i bwy bynag y mae yn llywyo y lleill, i'r rhai hyny y mae yn oddi y cleddyf hwn—y gair—i'w arferu. i awr, y rhai hyn chwi gewch ydynt ber-au o bob gradd a pherthynas, gwyr a ragedd, rhieni a phlant, meistrïaid a eision; ni ffin i neb fod heb y cleddyf a ddim mwy nag heb y gwregys, yr helm, lleill. Er na fydd hyn, yr wyf yn dir-d, wrth fodd y Pabyddion, y rhai a fynd-t i'r cleddyf yma y Gair, fel un Goliath ut, gael ei osod allan o gyrhaedd y

werin, ac yng nghadwraeth yr offeiriad hefyd.

PENNOD II.

Pa beth a feddylir yma wrth air Duw.

Yr wyf yn dechreu gyda'r arf ei hunan, "Cleddyf yr Ysbryd, yr hwn yw Gair Duw." Mi gaf yn gyntaf ddal y cleddyf allan yn noeth; ac yna ei roddi yn ei wain drachefn i'w drin dan y gyffelybiaeth o gleddyf. Y mae Gair deublyg o eiddo Duw. Yn gyntaf, gair sylweddol, neu hanfodol, a hwnw yw tragwyddol Fab Duw (*Ioan i. 1*); "Y gair oedd gyda Duw, a Duw oedd y Gair." *Dad.* xix. 13; "Ac yr oedd wedi ei wisgo â gwisg wedi ei throchi mewn gwaed; a gelwir ei enw ef Gair Duw." Am berson y dywedir hyn; ac nid neb arall ond Crist Mab Duw. Ond nid efe yw Gair Duw yn y testyn. Y mae yr Ysbryd yn hytrach yn gleddyf Crist na Christ yn gleddyf yr Ysbryd. Yn *adn.* 15 o'r bennod a enwyd uchod, dywedir, "Allan o'i enau ef yr oedd yn dyfod gleddyf llym i daraw y Cenhedloedd âg ef." Yn ail. Y mae gan Dduw Air hysbysol; ac y mae hwn yn wahanredol, yn ol yr amrywiol ffyrdd a'r moddion a welodd Duw yn dda gymmeryd i hysbysu ei feddwl i feibion dynion. Ar y cyntaf, tra yr oedd y ddaear yn deneu o bobl, ac oes dyn mor faith a'i bod yn cynnwys amryw gannoedd o flynyddoedd, yr oedd Duw yn traddodi ei feddwl trwy freuddwydion a gweledigaethau, a chyffelyb ddadguddiadau digyfrwng i dystion ffyddlawn; y rhai a allent eu hysbysu i ereill o'u cydgenhedlaeth, a throsglwyddo y wybodaeth o honynt i oesoedd canlynol. Hw y fuont byw cyhyd fel y gallai tri dyn duwiol gadw i fyny burde crefydd, trwy draddodiadau sicr, o farwolaeth Adda hyd o fewn ychydig o flynyddoedd i fynediad yr Israeliaid i'r Aipht. O herwydd, fel y mae ysgrifenydd parchedig a dysgedig yn bwrw cyfrif o'r amser, fe fu Methuselah byw dros ddau gant o flynyddoedd gydag Adda; ac, fe allai, dderbyn ganddo ef ewyllys dadguddiedig Duw iddo. Bu Sem fyw yn agos i gan mlynedd gyda Methuselah; ac fe estynwyd oes Sem hyd y ddegfed ffwyddyn a deugain o oed Isaac, yr hwn ni bu farw ond ychydig o flynyddoedd o flaen mynediad Israel i'r Aipht. Cyhyd a hyn yr ymattaliodd Duw heb roddi ei ewyllys mewn ysgrifen; o blegid, gan ei fod yn myned trwy gan lleid o ddwyllaw, a'r rhai hyny yn ffyddlawn, fe ellir ei gadw yn ddiogel. Ond pan fyrhawyd cymmaint ar oes dyn, fel, yn lle wyth a naw can mlynedd—ei pharhâd cyffredin y pryd hyny—y cwtogodd i ddim ond cynnifer o ddegau, megys y cawn hi yn

nyddiau Moses. A phan gynnyddodd pobl Dduw o ychydig bersonau i liaws, ym mysg yr Aiphthiaid, a'r rhai hyny wedi eu llygru gan eilunaddoliaeth—gan fod Duw y pryd hyn yn bwriadu eu gwared oddi yno, a'u trefnu yn llywodraeth, neu wladwriaeth—fe welodd yn dda, er rhagflaenu llygriad yn ei addoliad, a dirywiad yn eu bucheddau, iddynt gael cyfraith ysgrifenedig, fel rheol gyhoedd i'w hyfforddi yn y cwbl. Ac yn ganlynol, fe ysgrifennodd Duw y deg gorchymyn a'i fys ei hun ar lechau ceryg. Gorchymynodd hefyd i Moses ysgrifenu geiriau ereill a glywodd ganddo yn y mynydd: *Ecsod. xxxvii. 27.* Etto, er hyn, parhau yr oedd i egluro ei ewylls trwy ddadguddiadau digyfrwng i'w eglwys; ac hefyd i helaethu yr argraffiad cyntaf o'i air ysgrifenedig, yn ol angen yr amserau. Ac fe gadwodd orpheniad yr ysgrhythyr sanctaidd i Crist, athraw mawr yr eglwys, yr hwn a'i cwblhaodd; a thrwy yr apostolion, a'i ysgrifennwyd yr cyhoeddus, a'i rhoddodd at wasanaeth ei eglwys hyd ddiwedd y byd. Ie, y mae melliith o enau Crist ei hun yn glynu wrth pwy bynag "a roddo ato, neu a dyno oddi wrtho." *Dad. xxii. 18, 19.* Fel ag y mae yn awr, yr holl fyrd d arferodd Duw i amlygu ei feddwl yn ddigyfrwng i'w bobl, wedi eu penderfynu yn yr un ffordd yma, y Beibl—yr hwn yr ydym i'w dderbyn fel di-amheulol air Duw, yn cynnwys ynddo real berffaith o ffydd a buchedd; ac nid oes i ni ddisgwyl am un dadguddiad arall o'i feddwl tuag atom. Hyny yw ystyr *Heb. i. 1:* "Duw, wedi iddo lefaru lawer gwaith a llawer modd, gynt wrth y tadau trwy y prophwydi, yn y dyddiau diweddfaf hyn a lefarodd wrthym ni yn ei Fab." Fe elwir dyddiau yr efengyl yn rhai diweddfaf am nad ydym yn edrych am un dadguddiad arall o ewylls Duw. Ac am hyny bydded i ni byth ffieiddio cabledd Joachim, Abbas, y Wigeliaid, ac ereill a syrthiasant i'r amhwyll a hwythau; y rhai a freuddwydiant am athrawiaeth deirplyg, yn tarddu oddi wrth y tri Pherson yn y Drindod Sanctaidd:—Y gyfraith oddi wrth y Tad, yr efengyl oddi wrth y Mab, yr hon sydd genym yn y Testament Newydd; a thrydydd oddi wrth yr Ysbryd, yr hon a lawnt yn efengyl dragwyddol. Pryd y mae Ysbryd Duw, yr hwn a draethodd yr Ysgrhythyrau, yn galw yr athrawiaeth sydd ynddynt hwy yn efengyl dragwyddol: *Dad. xiv. 6.* Cymmaint a hyn i d dangos beth a feddylir yma wrth Air Duw. A'r athrawiaeth a ganlyn.

PENNOD III.

Dangosiad o ddwyfol darddiad yr Ysgrhythyr, ynghyd â digonolrwydd ei thystiolaeth ei hun i brofi hyny.

Athr. MAI diammheulol air Duw yw'r

Ysgrhythyrau sanctaidd. Wrth yr ysgrhythyrau yr wyf yn meddwl yr Hen Destame a'r Newydd, a gynnwysir yn y Beibl; pa ynghyd sy'n gwneud yr un sail hono, ar un yr adeiladwyd ein ffydd (*Eph. ii. 20*) "Wedi eich goruwch-adeiladu ar sail apostolion a'r prophwydi." Hyny yw, athrawiaeth a draddodd Duw drwyddy hwy i'r eglwys: canys yr oedd Ysbryd Duw yn eu sicr-dywys (*2. Tim. iii. 16*): "Yr ysgrhythyr sydd wedi ei rhoddi gan ysbryoliaeth Duw;" wedi ei haadlu gan Ddu Hi a ddaeth mor wirioneddol a digyfrwng o wir feddwl a chalon Duw, ag y mae ehanadl ni yn dyfod o'r tu mewn i'n cyrr Iê, fe roddwyd y materion a'r geiriau hefyd gan Dduw: o herwydd fe'u llefarwyd "i'r a'r geiriau a ddysgir gan ddoethineb ddyn ond a dlysgir gan yr Ysbryd Glan;" *1 Cor. ii. 13.* Nid rhoddi testyn a wnaeth Duw iddynt hwy ei drin a helaethu arno a'u ddaia a'u medrusrwydd eu hunain, ond fe rhwymodd wrth ei ymadroddion ei hysgrhythyr wrth ei hysfforddiad diball. Yr oeddynt wrth ei hysfforddiad diball megys cynnifer o gopiwyr, i ysgrifenu i lawr hyn a roddodd ysbryd Duw o'u blaen: Y mae hyn yn cael ei roddi fel rheswm, ham na ddylem ddeongliu yn ysgrhythyr wrth ein tybiau a'n dychymmygion ein hunain ond cymmeryd eu hystyr oddi wrthi ei hysgrhythyr fel y byddom yn cael un lle yn agor y llaw am mai nid trwy ewylls un dyn y daer ar y cyntaf, "eithr, dynion sanctaidd Duw a lefarasant megys y cynhyrfwyd (neu dysgwyl) hwy gan yr Ysbryd Glan:" *2 Pet. i. 20, 21.* Yn awr, y gallu sydd yn gwneudur y gyfraith, hwnw biau ei hesbonio.

Cwest. Ond fe allai y dywed rhyw un Ai dwyn yr ysgrhythyr a wneuch i dystiolaethu am dani ei hunan? Y cwestiwn y A ydyw yr ysgrhythyr yn air Duw? ac mae hwy'n dweud chwithau, fe ddywed yr Ysgrhythyr felly? Ac a yw hyny yn ddiogel.

At. Fe fyddai hyn o bwys, pe gair rhwydd greadur gwael fuasai yn sefyll ei holiad ond y mae mwyd i dyn yma. Medd Sall Y mae yn rhaid i ddynion wrth resymathystion i brofi gwirionedd eu dywediadau ond y mae Gair Duw yn dyst digonol iddi ei hun; o herwydd bod yn rhaid i'r hysgrhythyr ddywedo gwirionedd pur fod yn dystiolaeth pur a sicr o'i wirionedd. Crist, yr hwn a cyfrifodd yn anfri i urddas ei berson, i ffrithyoc cymmeriad oddi wrth dystiolaeth ddeir hyny appeliodd at dystiolaeth yr ysgrhythyrau am dano ei hun; a boddolawn oedd sefyll neu syrthio, hyd yn oed ym marnelynyon, yn ol fel y ceid llais y rhai hyn ei gylch: *Ioan v. 34, a 39.* Ac am hyn da y gall eu tystiolaeth fod yn dderbyn am danynt eu hunain. Yr hwn ni fedr gwybod yr haul yma wrth ei oleu ei hun, nid ynddo ofer iddo feddwl cael hyd iddo wrth ganwyll a llusern tystiolaeth a rhesym

ol: nid fod y rhai hyn yn eisieu, neu yn defnydd. Y mae tystiolaeth yr eglwys pharchu yn fawr; o herwydd darfod diried iddi am yr ymadroddion yma o o Duw, i fod megys dan ei gofal a'i chadw: "ie, y mae hi yn cael ei galw yn ofn a sylfaen y gwirionedd" (1 *Tim.* iii. ac yn ganwyllbren (*Dad.* 1. 12), o ba un o'r goleuni yr Ysgrhythrau yn llewyrchu i'r byd. Ond pwy a ddywed fod cydiad brenin yn derbyn ei awdurdod wrth y golofn y mae yn crogi arni yn oes farchnad? Neu fod y ganwyll yn ei goleo oddi wrth y canwyllbren y mae ebyll arno? Y mae swydd yr eglwys yn idogaethol, i gyhoeddi gair Duw, a'i athur yn hysbys; ond nid yn arglywyddol, i'w wneuthur yn Ysgrhythr, neu ei wneud, fel y gwelo hi yn dda ganiatau nacau, ei hargraph. Danfon Duw at am ei law a'i selfyddai hyn; a gwneud Ysgrhythrau, fel y dywed Tertulian i amdiffyniad fod y paganiaid yn trin uwiau; y rhai oeddynt i fyned trwy y lld, a chael eu cenad a'u bodd hwy, cyn lld eu cyfrif yn dduwiau gan y bobl. Nid dyma y modd y gwna Eglwys Rhufain i'r Beibl, wrth ein danfon at y pab am di gredud bod yr Ysgrhythr yn Ysgrhyth- Mae ymadrodd cableddus Hermanus yn hysbys; yr hwn a ddywedodd, "Bod yr ysthyrau o'r un grym a chwedlau Eesop, eithr i'r eglwys eu cadarnhau a'i thyst- th." O! mor debyg yw Rhufain i Ruf- Rhufain goelgryddol i Rufain bag- id! Nid oes achos i ymndaith mor bell i penderfyniad ar y mater yma: gallwn arbed y boen o'r fath daith flinderus es: o blegid y mae yr Ysgrhythrau eu tin yn fwy abl i'n boddloni am eu dwyfol diad, na'r pab yn ei ardderchog gadair, oll gardinaliaid o'i ddeutu. Nid oes s i ni chwaith ymfodyn am genhadwr i n i'r nef, i ddwyn i ni eu llythrau olaeth oddi yno; gan eu bod yn dwyn aph y nef mor eglur, megys ar eu talcen unain, yn ddangosiad sicr mai oddi wrth w ei hun y tarddasant. A ellir adnabod gŵr, ym mhlith mil ereill—ei wyneb, ei lais, neu ei ysgrifen? Yn sicr ynte, yw ddim yn rhyfedd bod Duw y nef- i'w wahaniaethu oddi wrth ei wael dur wrth ei lais a'i ysgrifen yn y Beibl taidd. Onid ydym yn gweled ddarfod y gyd-wau ei ogoeddus enw yn y fath a gweithredoedd y greadigaeth, fel y nt yn dadgan ei allu a'i Dduwdod, ac ni bregethu yn Greawdwr hyn oed i ystliau pobl na chwasant ddarllen y Beibl ed, na chlywed am y fath lyfr? Heb dim addysg oddi yno, y mae hyffordd- eu cydwybodau yn eu cymmhell i gyd- bod Duwdod. Ac yn llawer mwy y bydd cydwybod a oleuwyd, a'r galon a sanct-

eiddiwyd, dan rwymau gan y dystiolaeth dra grymus sydd yn llewyrchu yn yr Ys- grythrau, i syrthio i lawr a gwaeddi llefer- ydd Duw ydyw; ac nid neb rhyw greadur sydd yn lefaru ynddynt. Yn wir, y mae y gwirioneddau arbenig a'r prif byngciau a geir yn y Beibl mor gydnaturiol a'r egwydd- orion grasol a blannod ei sanctiaid Awdwr yng nghalonau yr holl saint, fel y mae eu heneidiau yn adlamu ac yn neidio wrth ei ddarllen a'i wrandaw, fel y gwnaeth y plentyn yng nghroth Elisabeth ar gyfarch- iad Mair. Y mae yr oen bach yn adnabod ei fam yng nghanol diadell gyfan, ac wrth ei brefiad hi efe a red heibio i'r cwbl i gael sugn ganddi. Mor sicr a hyny y mae defaid Crist yn adnabod ei lais yntau yng ngwir- ioneddau cadwedigol y Beibl; a dyma y llaeth didwyll a chwynychant, ac y dysgir hwy gan Dduw i'w archwaethu a'i wahaniaethu oddi wrth bob un arall. Yn wir, pan fydd enaid heb ei oleuo a gweithredu arno fel hyn gan Ysbryd Duw, fe all gael cau ei safn a'r fath resymau am ddywyfol darddiad y Beibl ag na all mo'u hatteb: ond ni enmillir mo hono er hyn i orphawys arno a'i gofleidio o'r galon fel gair Duw. Megys y gwelwn yn yr ysgrifenyddion a'r Phariseaid, y rhai a ddyryswyd ac a ddis- tawyd yn fynych gan rym geiriau Crist: etto fel y darfu i'r trueiniaid a anfonwyd i ddal ei berson ef godi i fyny i osod dwylaw arno, ar ol i fawrhydi Crist megys âg edrych- iad eu tafu i'r ddaear; felly y darfu i'r ys- grifenyddion a'r Phariseaid ystyfnig hyny, ar ol eu holl argyhoeddiadau, ddychwelyd i wrthwynebu yr athrawiaeth a bregethodd; a hyny y rhan fwyaf o honynt hyd farwol- aeth. Ie, y rhan hono o'r Ysgrhythr y gwnaent gymmaint ymfrost am dani, sef cyfraith Moses, ac a wnaent yn sail eu cweryl yn erbyn Crist, fe ddywed ein Hiach- awdwr yn hyf wrthynt nad oeddynt yn ei chredu fel gair Duw, er mor barchus y siar- adent am dani. Ac yn wir, pa fodd yr iawn gredent hi gan eu bod yn amddifad o Ys- bryd Duw, yr hwn yn unig sydd yn gweith- redu ffydd fywiol? *Ioan* v. 46: "Pe cred- asech chwi i Moses, chwi a gredasech i min- nau; o blegid am danaf fi yr ysgrifenodd efe." Fe ddywed Erasmus wrth ei gyfaill, mewn llythyr, fod mynachod yn gosod llawer o bethau yn erbyn Luther fel heresiau, y rhai yng ngwaith Awstin a gyfrifent yn wirioneddau iachus. Ond yn sicr, gan eu bod yn eu condemnio yn Luther, nid oedd- ynt yn credu yn ddiffuant eu bod yn wir- ioneddau yn Awstin. Nid oedd y Pharise- aid chwaith yn credu mewn gwirionedd yr hyn a ysgrifennodd Moses, gan eu bod yn gwrthwynebu Crist, yr hwn ni wnaeth ond sicrhau yr hyn a lefarodd Moses o enau Duw. Ond gan fod Ysbryd Duw, pan fydd yn gweithio crediniaeth o air Duw yn y

galon, yn gwneuthur hyny trwy osod ei bwys a'i rym ei hun gyda'r gwirioneddau a gynnwysir yn y gair; ac felly, yn peri iddynt adael eu bargraff ar yr enaid: am hyny, mi gaf dynu dadl neu ddwy allan o'r Ysgrhythyr ei hunan i brofi ei dwyfol darddiad. Mi a wn mai llwybr sathredig wyf yn awr arno; a gwell genyf ddywedyd yr un pethau o ran sylwedd ag a gewch gan lawer ereill; ond yn unig wedi eu ffurfio ychydig yn wahanol ar fy einion fy hun. O'm rhan i, yr wyf yn ei gyfrif yn ddoethach benthyca cleddyf o fettel profedig gan un arall, na myned âg un egwan, difin, o'm heiddo fy hun i'r maes, a dyfod yn ol dan gurfa drom am fy ynfydrwydd a'm balchder.

Y ddau ben cyffredinol y tynaf fy mhrofiadau oddi wrthynt yw y rhai hyn. 1af. Defnydd neu faterion yr Ysgrhythyrau. 2il. Yr effeithiau goruwchnaturiol sydd yn eu canlyn.

PENNOD IV.

Dadl tros darddiad dwyfol yr Ysgrhythyrau Sanctaidd yn cael ei thynnu oddi wrth eu hynafiaeth; ac hefyd ddiragrithrwydd eu hysgrifenywyr.

1 Y MAE y defnydd a'r materion a gynnwysir yn yr Ysgrhythyrau yn profi eu cyfansoddiad nefol hwynt, gan nad oedd modd i'r rhai hyny ddeilliaw oddi wrth eu creadur. Gadewch i ni chwilio ychydig i'r Beibl, gan ystyried ei amrywiol ranau, ac edrych ai nid ydynt oll yn dwyn delw Duw arnynt. Ystyriwch y rhanau hanesiol, prophwydoliaethol, athrawiaethol, a gorchymynol, ynghyd â'i anghwanegiadau o addewidion a bygythion, i gymhell yr unrhyw; ac edrychwch onid oes argraff Durwod ar y cwbl.

1af. Y rhan hanesiol: yn yr hon ystyriwn, (1af.) Hynafiaeth y pethau a adroddir. Y mae yma ddarnau nad oedd bossibl i greadur fod yn awdwr o honynt. Pa le y caffai creadur, neu y gallai gael ei ddarllenid a'i ddysg, i'w alluogi i ysgrifenu hanes y greadigaeth? Fe addefir fod y cenedloedd, trwy ymgais rheswm; naturiol, wedi cael allan gymmat a hyn—bod dechreuad i'r byd; ac nad allai fod o dragwyddoldeb; hefyd nad allai fod o wneuthuriad neb ond Duw. Ond beth yw hyn at gyfansoddi hanes eglur pa fodd yr aeth Duw ynghyd â'i greu, pa drefn y gwnaethpwyd pob creadur ynddo, a pha hyd y bu Duw yn gorphen y gwaith? Yr hwn sydd ganddo ddarpariaeth i'r fath orchwyl, rhaid ei fod yn un mewn bod o flaen yr holl fyd, ac yn gweled gwaith pob dydd; yr hyn nis gall dyn a grewyd y dydd olaf mo'i hōni. Ac etto y mae hanes am bethau o flaen hyn yn y Beibl; lle y mynegir pa beth a wnaed wrth fwrdd cyngor

y nef cyn dechreu y byd, a pha beth a lu iwyd yno o ochrddyn, oedd i gael ei greu we hyny. Rhyfedd genyf pwy a allai chwi coflyfrau y llys, a dwyn copinod i ni am dragwyddol arfaeth y cytunwyd arni yr a'r addewidion a wnaethpwyd gan y Tad Mab am dragwyddol fywyd i'w roddi mewn amser i'w etholedigion: *Tit. i. 2.*

(2il.) Sylledd a diragrithrwydd yr ysgrienywyr sanctaidd wrth adrodd yr hyn oed yn perthynu fwyaf iddynt eu hunain, rhai oedd yn agos ac yn aiwyl ganddy Y mae yn bossibl y cawn ym mysg awdw dynol rai yn dwyn eu pin â llaw wast wrth ysgrifenu hanes ereill; dadguddiad feiau pa rai nid yw yn bwrw sarhad ar ei y neb a fydd yn eu coffau. Yn y modd hynid arbedodd Suetonius fynegi i'r byd yn ddrygionus oedd ymherawdwr goruch am yr hwn o'r achos hyny y dywedir ddod iddo gymmeryd yr un rhyddid wrth ysgrifenu eu bywydau hwynt, a hwythau w eu treulio. Ond pa le y mae y gŵr nad blewyn ar ei bin pan ddel i ysgrifenu be ei deulu, neu ei berson ei hun? Och! y y gwelwn na ollwng eu pin mo'r i'w gwell ganddynt wneuthur anaf ar eu hatori na gadael anaf ar eu henwau eu huno Y mae ganddynt, fel paentiwr Alecansafys i'w osod ar y creithiau hyn. Neu soniant am danynt, chwi ellwch graffu bod yn ddisymmwrth yn peri i'w pin ysgrienu yn fanach nag arferol. Ond yn hanes y Beibl, nid oes dim o'r hunan-gariad y i'w gael. Yr oedd ei ysgrifenywyr mor rhy i addef o flaen y byd eu cywilydd a'u nodder eu hunain, a'r eiddo rhai ereill. Dy fel y mae Moses yn rhoddi drygair lwyth ei hun am ei lofruddiaeth gwaedlyd Sichem: *Gen. xxxiv.* Ni allai gelyn o yr edliwiad ddim trymach ar eu henw na gwnaeth ef ei hunan. Nid yw yn arbed i'w iaith yntau ar y rhes: *Ecsod. xxxii.* chaiff ymddygiad balch ei chwaer an chwaith ei adael yng nghudd ganddo; i gwahanglwyf a roddodd Duw arni: *N. xii.* Nac lwyd yn oed agosrwydd cyfael ei dad a'i fam, yr hyn oedd yn gwneud yn priodas mor anweddus: *Ecsod. vi.* Y mae yn rhaid dywedyd am dano yn ac didueddgarwch ei ysgrifeniad, yr hyn ddywed yntau am Lefi yng nghyflawrbarn: "Dyweddod am ei dad ac am ei ffr Ni welais ef, a'i frodyr nis adnabu;" *D. xxxiii. 9.* Mewn gair, i ddibenu hyn, yw efe un gronyn tynerach o'i fri persae ei hun na'r eiddo ei dŷ a'i deulu; ond y yn coffau gwendidau a beiau ei fywyd hunan; megys ei hwyl anhyd yn y mae yn y gorchwyl anhawdd hwnw (*Ecsod. i. iv*), lle y dangosodd gymmaint o anghiniaeth a llyfrdra ysbryd, er yr alwad ei a digyfrwng a gafodd gan Dduw ei hun

enludra o ordinhâd ddwyfol wrth fod
 o enwaedu ei blentyn; a'r farn a fu yn
 bygol o ganlyn y pechod hwnw: *adn.* 24.
 annioddefgarwch a'i barodrwydd i rwg-
 ch, o herwydd y blinderau oedd yn cyd-
 edd â'r swydd y gosododd Duw ef ynddi
Num. xi. 11, 12, 13; a'i anghrediniaeth
 o'i gynnifer o seliau gwyrthiol o'r nef
 i eu gosod wrth addeidd Duw, am yr
 a y cymmerwyd ei swydd oddi arno, ac y
 hwyd ef o'r anrhydedd o arwain Israel i
 wni i Ganaan: arwydd tost a thrwm o
 oddlonrwydd Daw tuag ato: *Num.* xx.

Yn ddiau rhaid addef, oni buasai fod
 byrd goruwchddynol yn arwain ei law,
 allasai byth sathru fel y gwnaeth ar bob
 serch anianol, i beidio dangos y ffafir
 iddo ei hun, wrth adrodd pethau oedd
 hyn yn darostwng ei fri yn y byd. Ac fe
 r yr un ysbryd yn anadlu yn yr efengyl-
 r, y rhai oeddynt mor ddiadarbod am eu
 wau eu hunain ag oedd Moses; fel yr
 ddengys yn eu parodrwydd i gyhoeddi
 beiau eu hunain, a'r eiddo eu cyd-apos-
 on. Mor bell yr oeddynt oddi wrth
 hio yn anonest ar yr eglwys ryw haues
 ff, hannerog, o fywyd a marwolaeth Crist,
 adw eu gair da eu hunain, fel y maent
 i'i cydwau gwendidau a pechodau y
 ll y llall ar hyd eu hadroddiadau. Oddi
 a darllenwn am y dynmer nwydwyllt
 dial a ymgynhyrfodd yn meibion Zebe-
 us. Pedr byrd arall yn chwaraeu rhan
 an i demtio ei feistr; anwybodaeth y
 addeg, dros amser, am rai o brif egwydd-
 on Cristionogaeth; eu hawydd a'u hym-
 on am fod yn benaf; eu hanghredin-
 th a'u llyfrdra; un yn gwadu ei Ar-
 wydd, a'r lleill yn ffoi ymaith, pan ddylas-
 osod eu cyrff eu hunain rhwng eu meistr
 perygl, a llwyr fwriadu naill ai marw-
 sto, neu o leiaf gydag ef; ac nid achub
 bywydau trwy y fath ffoad gwaradwydd.

Y mae yr hanesion hyn, ynghyd âg
 ill cyffelyb, yn dangos iddynt gael eu
 nhyrfu gan ysbryd amgenach na'u hys-
 rd eu hunain yn eu Hysgrifeniadau, a
 nw yn neb llai nag Ysbryd Duw; er
 yn yr hyn y maent mor foddolawn i'w
 elu eu hunain yng ngolwg y byd, a gosod
 henwau yn y llwch, fel y dyrchefid go-
 niant ei enw ef drwy eu cyfaddefiadau
 ul.

PENNOD V.

Yfod darodiad yr Ysgrifthyrau yn cael ei brofi
 ddi wrth y rhanau prophwydoliaethol o honnynt.
 2il. Deuwn at y rhan brophwydoliaethol
 Beibl, yr hon sydd yn cynnwys rhag-
 wyddiadau rhyfeddol am y fath bethau i

ddyfod nas gallent ddiferu oddi wrth un
 pin, ond a arweinid gan ddwyfol law; a'r
 rhai hyn i gyd wedi cael eu cyflawni yn
 fanwl, ac yn fgymlhwys yn yr amserau a
 ragbennodwyd. Oddi wrth bwy ond Duw
 y gallai y rhai hyn ddyfod? "Y dirgedd-
 igaethau sydd eiddo yr Arglwydd;" *Deut.*
 xxix. 29. Ac yn sicr fe ellir cyfrif proph-
 wydoliaethau yn ddirgelion. Y fath ddir-
 gelion dydent, fel y mae Duw yn cynnyg
 rhoddi rhan o'i orsedd ei hun i hwnw (pwy
 bynag fyddo) a all ragfynegi pethau i
 ddyfod: "Mynegwch y pethau a ddaw ar
 ol hyn, fel y gwypom mai duwiau ydych
 chwi;" *Esa.* xli. 23. Rhaid addef fod hyn
 yn flodeuyn corou, yn briodoldeb anghyf-
 ranogol, ac yn rhagorfrant yr unig wi
 Dduw; yr hwn sydd yn sefyll ar fryn tra-
 gwyddoldeb, a chanddo oddi yno lawn olwg
 ar bob peth; ac i wybyddiaeth ddiderfyn pa
 un y mae y cwbl yn bresennol. O herwydd
 gan mai ei ewyllys yw yr achos o bob dam-
 wain, ac yntau yn gwybod hwnw, y mae
 yn rhaid ei fod yn gwybod y rhai hyn. Y
 mae y diafol yn wir yn fawr ei awydd am
 gael ei gyfrif yn fedrus yn hyn; ac i ennill
 yr anrhydedd o hyn, fe fu ganddo y rhith
 brophwydi a'i brophwydoliaethau ym mhob
 oes; a'r rhai y mae wedi twyllo y byd an-
 wybodus hygoel. Ond och! nid yw ei rag-
 ddywediadau yn ddim mwy o wir brophwyd-
 oiaethau, nag yw ei wyrthiau yn wir wyrth-
 iau: y mae yn somi dealltwriaeth eneidiau
 ffolion yn y naill, megys y gwna â'u syn-
 wraur yn yr achos arall; o blegid naill ai
 y mae ei ragddywediadau yn dywyll ac am-
 mheus, wedi eu llunio mor gyfrwys nes eu
 bod fel pictiwr yn ddyblygion, a dau wyneb
 dan yr un hug (ac yn y plygion hyn yr
 oedd y sarph ddichellgar yn ymdroi i'r di-
 ben o gadw ei bri, pa ffordd bynag y di-
 gwyddai pethau. A hyn a ddygodd i'r eilun-
 dduw Apollo yr enw o Locsius—gŵyrog;
 am ei fod yn twyllo y rhai a ymfonent â'i
 orael trwy atebion amnheus, a fyddai yn
 eu gadael mewn dyrswch fel o'r blaen. Yn
 wir, yr oedd Satan yn gweled y ffordd hon
 yn angenrheidiol i'w achos; oni buasai iddo
 â'r ystryw yma glytio ei dealltwriaeth
 dyllog, fe fuasai ei noethder yn amlwg i bob
 llygad cyffredin er ei waradwydd, ac er di-
 ystyrwch o'i oraclau). Neu os byddai ei
 ragddywediadau yn fwy eglur, yr oeddynt
 yn gyntaf, am bethau yr oedd yn eu sillafu
 allan drwy gynnorthwy llythyrenau natur,
 ac yn cael gwybodaeth o honnynt drwy
 dreiddio yn ddwfn i achosion naturiol, cyn
 i ddyn o ddeall gwanach allu craffu arnynt.
 A hyn a barodd iddynt gael eu moli fel
 rhagddywediadau rhyfeddol a goruwch-
 naturiol, gan y rhai oedd heb ganfod yr
 edefyn yma yn llaw Satan i'w arwain. Pe
 byddai un yn eich cyfarfod yn yr heol, ac
 yn dywedyd wrthy ch am ryw gyfaill a ad-

awsoch yn iach, yn ol eich meddwl, ychydig funydau o'r blaen, y byddai efe farw yn mhen ychydig fisoedd, a'r canlyniad yn gwirio ei eiriau, y mae yn bossibl y dechreu-euch feddwl hyn yn brophwydoliaeth ryfeddol: ond pan ddech i wybod fod yr hwn a ddywedodd y peth wrthyh, wedi craffu yn dra medrus a manwl ar ystâd gorphorol eich cyfaill, ac wedi dirnad bo' anhwyly enbydus yn cynnyddu yn ddirgelaid arno, chwi a newiddech eich barn, ac yn lle ei gyfrif yn brophwyd chwi a'i rhyfeddech fel physygywr cyfarwydd iawn.

Fel hyn, pe byddai i ni ond ystyried hel-aethrwydd doniau naturiol Satan (er eu bod yn derfynol, am mai creadur ydyw), a'r chwangediad a wnaeth atynt, trwy astudrwydd ac ymarferiad dros gynnifer mil o flynyddoedd, nid edrychem ar ei ragddywediadau fel prophwydoliaethau, ond yn hytrach fel sylwadau ac esboniadau ar y testyn byr a thwyll o achosion naturiol; ac ni a'i cyfrifem ef yn naturiaethwr dysgedig ond nid yn haeddu yr enw o wir brophwyd. Yn ail, os na chaiff ei fynag oddi wrth achosion naturiol, yna efe a dÿn ei gasgliad oddi wrth achosion moesol a gwladol; y rhai o'u cymmharu â'u gilydd gan ben mor gyfrwys a'i un ef, a roddant iddo yn fynych gynnorthwy a mantais fawr i ddyfalu y peth a fydd yn dra thebygol o ddyfod i ben. Fel hyn, nid oedd y peth a fynegodd y diafol i Saul, a ddigwyddai iddo ef, ei fyddin, a'i deyrnas, oud yr hyn a allai gasglu yn rhesymol oddi wrth y pethiau oedd yn hysbys ganddo; sef ei wrthodiad gan Dduw, ac eneniad yn arall trwy orchynyn Duw i fod yn frenin yn ei le; ynghyd â'r uchder a'r llawn fesur y gellid meddwl fod pechodau Saul y pryd hwn wedi cyrrhaed, gan ei fod yn ymgynghori â dewines; hefyd llu mawr o'r Philistiaid yn ymfyddino i'w erbyn; a'i wroldeb arferol yntau yn pallu, nes oedd yn debycach i ddrwgweithredwr yn rhwym â llyfetheiriau cydywobd euog, yn myned i gyfarfod dienyddwr a'i ddyrnod marwol, nag i gadben dewr a fyddai yn disgwyl rhannu ysbaill ei elynion. Y mae yr holl bethau hyn, o'u gosod ynghyd, yn gwneuthur yn eglur y gallai y diafol fynegi iddo ei ddedfryd, heb ddawn prophwydoliaeth. Yn drydydd, ac yn olaf, fe all Duw ddatguddio pethau i ddyfod i Satan; ac y mae yn gwneuthur hyn y weithiau; megys pan fydd am ei gymmeryd yn offeryn i gyflawni rhai o'i fwriadau: ac ni chyfrifech chwi y dienyddwr yn brophwyd, pe dywedai wrth ryw ddyw y caiff diri ei ben neu ei grogi ar y diwrnod a'r diwrnod, pan y mae ganddo warant o dan law y brenin yn ei appwyntio ef i wneuthur y gwaith. Fel hyn y gallasai Satan fynegi i Iob ym blaen llaw pa gystuddiau trymion a ddigwyddent iddo yn sicr yn ei feddiannau, ei weision, ei

blant, a'i gorph ei hun; o herwydd fod D wedi caniatáu iddo fod yn offeryn i dduw y cwbl arno ef. Ond ni allai Satan, nac creadur arall o hono ei hun, ragddywedyd y cyfryw ddamweiniau a'r na fyddo tarddu oddi wrth achosion naturiol; nac ol rheswm i'w disgwyl oddi wrth ryw bygoliaethau moesol a gwladol; ond s wedi eu cloi i fyny ym mysg trysora dwyfol ewyllys o ran y modd y digwydd: A chyfryw ydyw y prophwydoliaethau gawn yn yr Ysgrhythrau sanctaidd; yr sydd brawf eglur o'u dwyfol darddiad. mae yn rhaid eu bod yn dyfod oddi w Dduw, gan eu bod yn mynegi i ni bethau gwyddai neb ond Duw, ac oedd yn ym bynu ar ei ewyllys ef i gael eu trefnu. I ond Duw a allasai ddywedyd i Abraham le y byddai ei hiliogaeth, a pha betl bennodol a ddigwyddai iddynt bedwar mlynedd ar ol ei farwolaeth ef? O bl cymaint a hyny o amser o'r blaen y odd hysbysrwydd am eu gwaredigaeth Aipht: *Gen. xv. 13*; yr hyn yn ol byr gyflawnwyd yn fanwl ar y dydd a rag nodwyd: *Ecsod. xii. 41*. Mor ryfeddol y prophwydoliaethau am Grist y Messia yn y rhai y mae ei berson, ei enedigaeth fywyd, a'i farwolaeth, hyd at y munyd amgylchiadau o honant wedi eu gosod i lawer o oesoedd cyn ei ddyfod i'r byd, fanwl a phennodol a chan yr efengylwy hunain, oedd yn cydymdaith âg ef, a gweled â'u llygaid yr holl bethau a wna pwyd. Ac er y gellir meddwl am rai pethau a ragddywedwyd am dano, gan fychain a diystyr ydynt ydynt eu hun na haeddent mo'u crybwyll mewn prophwydoliaeth mor oruchol; megys ei w yn marchogaeth ar asyn: *Zech. ix. 9* wertlu am ddeg ar hugain o arian; a ph "maes y crochenydd" â'r rhai hyn hyny: *Zech. xi. 12, 13*; a chadw ei es yn gyfan, er tori esgyrn y rhai a ddioidd odd gydag ef; y rhai hyn, meddaf cyffelyb, er y gallent ymddangos ynd eu hunain yn bethau diystyr, etto os bwysir diben eu crybwylliad, ni a gweled fod ar ein ffydd wan eisieu eu mhorth i'w chryfhau mewn cred o'r prophwydoliaeth. Yn wir, y mae rhan fe bwys y ddadl o blaid gwirionedd a dw deb y prophwydoliaeth, yn troi ar y cyfau bychain hyn: o herwydd po lleiaf y pethau ynddynt eu hunain, mwyaf trisol a chraff sydd raid i'r llygad hwnw fedrai en gweled o'r fath bellder mawr allai ond dealltwriaeth annherfynol wna ur hyn! Ac yn awr, yr wyf yn gobe na feiddia neb ofyn, Pa fodd y gallwn w a oedd y fath prophwydoliaethau yn cyhad o flaen amser eu cyflawniad, chwawsant eu rhoddi yn ffugiol i mewn i'r pethau hyn gael eu gwneuthur

lynt ar golyfrau cyhoedd gan eglwys yr
 lewon; ac nis gwadwyd mo honynt gan
 ai oedd mor galed a gwadu Crist yn eu
 neb. Ac yn ddiâu y mae yr un ystyr-
 h yma yn y clorian gyda'r lleill, yn
 eud y ddadl sydd genym yn fwy na
 ysau; sef fod y prophwydoliaethau
 dros gymmairt o amser, yn cael eu
 len ar gyhoedd, ac mor hysbys; yn gan-
 l, nad oedd bossibl i Satan fod heb wyb-
 m danant, nac heb gyffroad o'u hachos,
 neuthur ei egni at rywstro eu cyflawn-
 gan fod ei holl deyrnas mewn eubydd-
 dd, nes bod yn rhaid iddi gael ei difetha,
 i eithr iddo allu attal y rhai hyn. Ac
 yn i gyd a'i ymgais dibaid i'w herbyn,
 fod iddynt oll esgor mor ddiangol yn
 lawn amser; ie, amryw o honynt trwy
 gwir elynion yn offerynau i ddwyn hyn
 u; fel y gwelwn yn *Act. iv. 27, 28*. Yma
 ae doethineb a gallu y Duwod yn tori
 i mewn pelydrau mor gryfion o oleuni a
 waf, fel nad oes neb o elynion yr Ys-
 hyrau yn dymuno tremio arno.

PENNOD VI.

*fod darddiad yr Ysgrhythrau yn amlwg yn eu
 hathrawiaethau.*

ydd. Y rhan athrawiaethol o'r Beibl:
 h yr hyn nid wyf yma yn meddwl ond
 lfaeni a'r egwyddorion hyny o ffydd a
 lir ger ein bronau yn y Beibl, i'w credu
 cofseidio gan bawb a ddyment fywyd
 wyddol. Y mae gogoniant dwyfol i'w
 ed ar wyneb y rhai hyn: mor oruchel
 nt na ddichon un creadur fod yn awdwr
 nynt. I roddi esamplau mewn ychydig,
 lle y cwbl. Yn gyntaf, am Dduw ei
 , yr hwn yw prif wrthddrych ein ffydd.
 ond Duw all fynegi i ni pwy ydyw a
 beth yw ei natur ef? Fod Duw yn bod,
 addefaf, sydd wirionedd a all rheswm
 riol ei chwilio allan; ie, y mae ei allu
 Dduwdod yn wers a ddysgir yn ysgol
 ur, ac i'w darllen yn llyfr y greadigaeth.
 mor hir y bydd dynion sydd heb addysg
 enach, yn cyrhaedd gwir wybodaeth o
 w, er lleied yw eu cynnydd, ni a allwn
 ed yn y canhedloedd truaian; ym mysg y
 y mae y philosophyddion doethaf wedi
 gos y fath hurtrwydd wrth ymbalfalu o
 gylch yr un egwyddor o oes i oes; ac etto
 allu cael y drwg; fel y crybwylla yr
 stol pan y dywed, "Nad adnabu y byd
 y ddoethineb mo Dduw;" 1 *Cor. i. 21*.
 am y Drindod o bersonau yn y Duw-
 , dyma uchder na allodd calon dyn
 ed gyfeirio ato, na chynmairt a breu-
 ydio, nac unwaith feddwl am dano; fel
 parhau am byth yn anwybodus o hono

a fuasai raid i'r byd, oni buasai i Dduw ei
 ddadguddio. A'r un peth sydd i'w ddy-
 wedyd am bob gwirionedd efengylaidd:
 Iesu Grist yn Dduw-ddyn, cyfiawnhâd trwy
 ffydd yn ei waed, a'r holl drefn o ras ac
 iachawdwriaeth drwyddo: y maent oll yn
 wirioneddau na ddaeth i galon rhesymwyr
 doeth y byd erioed i feddwl am danant. Ac
 am hyni nid yw ryfedd fod pleuntyn bach
 dan bregethiad yr efengyl, yn gwybod dir-
 gelion nas gwyddai Plato ac Aristotle; o
 herwydd na chyrhaeddir mo honynt trwy
 ein gallu a'n diwydrwydd, ond mai rhodd
 ddwyfol a goruwchnaturiol yw y dadgudd-
 iad o honynt. Iê, yn awr wedi iddynt gael
 eu dadguddio, O! fel y mae ein rheswm yn
 llygadrythu arnynt, fel opiniynau sydd yn
 bellenig, a dieithriaid hollol i'w ddechym-
 mygion naturiol ef! ie, fel pethau rhy fawr-
 ion iddo ddal gafael arnynt, a'u hamgyffred
 â'i rychwant byr! A lle na byddo gras yn
 feistr i'w gadw danodd, fe fydd oddi ar hyn
 mor sarug a hyf, a gwrthddadleu yn erbyn
 y possiblwydd o'u bod yn wir, am ei fod
 ef ei hun yn anabl i'w mesur. Fel pe dy-
 wedai y ddyllyn nad oes dim goleu yn yr
 haul, am fod ei llygaid gwineaidd hi yn
 methu edrych arno. Gwirioneddau yw y
 rhai hyn i'w credu ar dystiolaeth yr hwn
 sydd yn ei dadgan, ac nid i'w croesawu
 neu eu gwrthod fel y byddant yn cyttuno,
 neu yn anghyttuno, â phortread ein rheswm
 ni. Y mae yr hwn a drinio y rhai hyn â'i
 reswm, ac nid â ffydd, yn debyg (cyffelyb-
 iaeth Chrysostom ydyw) i'r gôf a gymmerai
 ei haiarn poeth i fyny â'i law yn lle â'i efail.
 Pa beth a all hwn ddisgwyl gael ond llosgi
 ei fwsedd?

PENNOD VII.

*Dwyfol darddiad yr Ysgrhythrau yn cael ei brofi
 oddi wrth y rhan orchymynol o honynt.*

Y BEDWAREDD ran a'r olaf, yn ein dosbarth-
 iad o'r Ysgrhythyr yw y rhan orchymynol,
 neu hono sydd yn cynnwys gorchymynion a
 rheolau. Ac fe geir fod hon yn dwyn ar-
 graff dwyfolder ar ei thalcen, a hyny mewn
 llythyrenau mor eglur ag un o'r lleill, os
 gwnawn ond ystyried y ddau beth hyn:
 sef dirfawr eangder gorchymynion y Beibl;
 ac hefyd eu purdeb difrycheulyd.

DOB. I.

1af. Eu dirfawr eangder; yr hwn sydd
 yn gyfryw, na allodd dim cyfreithiau dynol
 erioed ymhoni ei gyrhaedd, hyd yn oed y
 rhai a gyhoeddwyd gan benaduriaid mwyaf
 y byd. Pa le y mae y brenin a aeth erioed
 ynghyd â'r gwaith o osod cyfreithiau i holl
 ddynolryw? Oni ddarfu iddynt yn hytr-
 ach, yn eu brenhinol ordinhadau a'u cyfreith-
 iau, olygu y gwledydd enwedigol hyny, a'r

bobloedd, coelbren pa rai oedd wedi syrthio o fewn cylch eu llywodraeth? O'r holl ymherodaacthau a fu erioed yn y byd, yr un Rufeinig oedd yn ddigymmhariaeth y fwyaf; ac etto pan oedd adenydd yr eryr Rhufeinig yn eu lawn dwf, ni allent ymlledu dros fwy na'r drydedd ran o'r byd yma. A pha mor ofer ac ynfyd a fuasai i'r ymherawdwr gynnyg gwneud cyfreithiau i genhedloedd nad oeddlynt yn eu adnabod ef, nac yntau hwythau? Ond yn yr Ysgrhythr cawn y fath gyfreithiau ag sydd yn perthyn i holl ddynolryw, pa le bynag y maent yn byw, ac sydd hefyd wedi eu o'yoeddi lle na welwyd y Beibl erioed. Eu sain a aeth trwy yr holl ddaear, a'u geiriau hyd eithaf-oedd y byd. Nid yw llawer o'r cyfreithiau a geir yn yr Ysgrhythrau sanctaidd, ond ail a thecach argraphiad o'r hyn a gafwyd yn ysgrifenedig yng nghydwbybodau meibion a merched cyn i'r Beibl ddyfod allan. Felly, os o Dduw y mae y cyfreithiau hyn y graffwyd mor ddwfn yng nghydwbybodau holl blant Adda; yna rhaid addef i'r Ysgrhythr ddeilliaw oddi wrth Dduw hefyd. Ym mhellach etto, megys y mae y Beibl yn cymmyrd holl ddynolryw mewn llaw, ac yn gosod ei rymau ar bawb, uchel ac isel radd, cyfoethog a thlawd, felly y mae ei gyfreithiau yn rhwymo yr holl ddyn; y galon a'i thu mewnol feddyliau, yn gystal â'r dyn oddi allan. Yn wir, y galon yw y deiliad penaf, flyddlondeb pa un sydd yn cael edrych fwyaf am dano yn rheolau y Beibl. Y mae y gorchymynion sydd yn cynnwys ein dyledswydd at Dduw, yn gofyn i'r cwbl gael ei wneuthur â'r galon a'r enaid. Os gweddiwn, rhaid i hynny fod yn yr ysbryd (*Ioan* iv. 23), onid e, ni thâl ein gwaith ddim; o blegid yr ydym yn troseddau cyfrith weddi. Os cyfraith fydd yn perthyn i'n hynddygiad at ddyn, y galon fyth a olygwr yn benaf: "Na chasâ dy frawd yn dy galon;" *Lef.* xix. 17. "Na felldithia y brenin yn dy feddwl;" *Preg.* x. 20.

A chyttunol â hyn yw yr addewidion a'r bygythion sydd yn canlyn gorchymynion y Beibl (fel y rhedweliau yn canlyn gwythienau y corphi) i'w cadarnhau a'u cymmhell; y mae addaswydd ynddynt i'r gorchymynion hyn: gan fod eu gwobrau a'u cospedigaethau yn gyfryw ag sydd yn golygu yr ysbrydol gyflawniad neu esgeulusdra o honnynt: "Gwyn eu byd y rhai pur o galon; canys hwy a welant Dduw;" *Mat.* v. 8. Nid gwyn eu byd y rhai glân o ddwyllaw, er i'w calonau fod yn aflan a ffaidd. Felly *Mal.* i. 14; "Mellidgedig yw y twyllodrus, yr hwn y mae yn ei ddiadell wryw, ac a adduna ac a abantha un llygredig i'r Arglwydd." Y twyllodrus yma yw y rhagrithiwr, sydd yn rhoddi i Dduw y croen yn lle yr aberth; llun dyledswydd yn lle y sylwedd; culder ei ufudd-dod allanol, yn lle brasder y tu

mewnol ddyn, sef ufudd-dod y galon. megys mai y nôd penaf y cyfeirir y rhai ato, neu i'w erbyn, yw ufudd-dod neu ufudd-dod y galon, felly ystordy neu y ll i ba un y tywallt y naill ei bendithion, llall ei mellidithion, yw yn benaf yr en a'r ysbryd: "Y rhai a geisiant yr Arglwr a'i molianant ef; eich calon fydd byw dragywydd;" *Salm* xxii. 26. "A phan y och hyn, y llawenycha eich calon;" *1* lxxvi. 14. "Dod iddynt ofid calon; dy dith iddynt;" *Galar.* iii. 65. Yn awr, ew ysiwn wybod, pa ddyn a aeth erioed yngl â llunio y fath gyfreithiau, yn gyste darparu y fath wobryon ag a gyrhaedd eneidiau a chydwybodau dynion. Yn dd pe byddai i ddyn marwol (bydded ei mwyaf o benaduriaid y byd) wneud deddf yn gorchymyn i'w ddeiliaid ei g â'u holl galonau a'u heneidiau, ac na feient dan boen ei ddiglonedd trymaf grawu meddwl bradwyr yn erbyn ei frenhiberson yn eu heneidiau, ond yn ddiode gyfaddef o'i flaen, onid e y dialai efe achos: fe haedda hwnw gael mwy chwethrin am ben ei falchder a'i ynfydrw na Xerxes a fwriodd ei lyfsetheiriaid i yr Hellespont, i gadwyno y tonau anhyn; dan ei awdurdod: neu Caligula, a fgyiiodd yr awyr os beiddiai wlawio pan fydd efe ar ei ddifyrwech; yr hwn, er hyny dr ofnog, ni feiddiai gymmait ag edrych awyr ei hunan pan fyddai yn taranu. sicr, fe fyddai letty y gorphwyllog yn f addas na gorsedd a phalas brenin i'r ynfydyn, a gressai ei reswm mor be thwybied fod meddyliau a chalonaau o fe ei diriogaeth a'i lywodraeth ef. Pa ach neb ofni y fath gyfraith, pan nad oes ond y troseddwr ei hun a all ddwyn t iolaeth am y weithred? Yn wir, fe fu rh ffwriadodd ddwyn bywyd eu tywysog, ond ddaliwyd gan eu cydwbybod eu hunain, a yrwyd i adrodd a chyfaddef eu meddyl drygionus cyn y gallasai neb arall eu huddo (mor gyssegredig yw personau i eneiog Duw)! Ond nid oddi wrth awd dod dyn na'i gyfraith yr oedd hyn; i oddi wrth arswyd Duw yn cydio yn eu cydwbybod am dori ei gyfraith ef: yr hon wir sydd nid yn unig yn rhwymo breich deiliaid rhag ladd, ond eu calonau he rhag mellidithio brenhinoedd yn ystod oedd y meddwl. Hon yw y gyfraith sy yn rheoli yng nghydwbybodau y gwaethr ddynion: genfa ydyw â'r hon y mae L yn dofi y pechaduriaid gwylltaf, ac ffrwyd mor dŷn fel nad allant mewn modd ei hysgwyd o'u penau. Digon brawf mai o Dduw y tarddodd.

DOSE. II.

2il. Y mae purdeb difrycheuldy gorchymynion y Beibl, yn brawf mor gadarn o'u dwyfol darddiad. Duw yw y Sa

xliii. 15. Efe yn unig sydd yn berth sanctaidd: "Y nefoedd nid ydynt n ei olwg ef;" *Iob* xv. 15. Efe a ddichon d ynfydrwydd," hyd yn oed "yn erbyn gylion" (*Iob* iv 18), y rhai y mae yn llyd a feddylir wrth y nefoedd yn y lle a yd o'r blaen; o blegid er na phechasant d, etto y mae yn bossibl y gallent bechu y gwnaeth rhai o'r un gradd) pe na t yn cael eu cadw rhag hyny trwy ras rhaol. Ac megys mai Duw yw yr unig on sanctaidd, felly yr Ysgrhythyr yw ng lyfr sanctaidd; y mae ym mhob un ei gamgymmeriadau i'w diwygiol wrth: "Ofn yr Arglwydd sydd lân, yn par- yn dragywydd;" *Salm* xix. 9. Hyny gair yr Arglwydd sydd lân, a elwir yn yd (neu ofn) Isaac, am ei fod yn wrth- ych ei ofn: *Gen.* xxxi. 42. Y mae y yn lân; a chraffwch, y mae yn parhau ragywydd; hyny yw, fe fydd, ac fe'i felly bob amser.

mae gwaddod a gwaelodion i'w cael yn feniadau duwiolaf y goreu o ddynion, a y safont ennyd dan sylw llygad man- ond y mae y Beibl yn cael ei osod o golwg a barn pob math o ddynion, etto wyd yn gyfiawn roddi yn 'ei' erbyn yr nurdeb lleiaf. Y mae mor lân a phur, mae yn gwneuthur eneidiau aflan yn "Sancteiddia hwynt yn dy wirionedd; sydd wirionedd;" *Ioan* xvii. 17. Fe eth a fyddo yn fudr ynddo ei hun d ein dillad a'n cyrph yn lân; ond i'r peth a buro ac a lanhao ein heneid- d ei hunan yn gwbl ddihalog. A dyna mae y Beibl. Nid oes ynddo ddim a y cnawd, neu a rydd danwydd i un- chwant. Na: y mae yn rhoddi pob d i'r cleddyf, ac yn gwân trwy lwyn- holl bechaduriaid, mawrion a bych- *Rhuf.* viii. 6). "Canys syniad y cnawd, olaeth yw; a syniad yr Ysbryd, byw- thangnefedd yw." Fel mai da y dy- d Athenagoras, Ni all un dyn a elwir ristian fod yn ddrygionus heb fod yn athiwr. O herwydd nid yw y Beibl, broffesedig ei ffydd a'i ymarweddiad, niatau iddo gosfeidio un athrawiaeth yn ffals, nac ymarferiad sydd yn llygr- ac anogataidd. Dyma beth nad oes ristianogaeth yn unig a all ymogoneddu. Yr oedd y cenhedloedd yn cael eu in i lawer o ffeidd-dra, hyd yn oed u crefydd a'r duwiau a addolent. Nid d eu bod mor anifeilaidd ac aniaol buchedau, pan mai duwiau meddwon an oeddynt yn eu gwasanaethu; a oedd dirgelion eu crefydd mor erchyll, fel na feiddient adael i bawb yn gy- a eu gwybod, am fod eu harogl yn rhy- drygsawrus i'w ddiodes gan neb i synwyrâu heb eu cwbl golli, a'u eliau anneallus heb eu llwyr dywyllu

trwy farn Duw arnynt. Ond nis gall y Cristion fwrw y bai am un o'i bechodau ar ei Dduw, yr hwn nid ydyw yn tentio neb i ddrwg, ond sydd yn perffaith gasau gwaith anwired, a'i weithredydd hefyd, nac ar ei Feibl, yr-hwn sydd yn damnio pob pechod i bwl uffern, a phawb a fydd yn byw ynddo (*Rhuf.* ii. 9): "Trallod ac ing ar bob enaid dyn sydd yn gwneuthur drwg; yr Iudew yn gyntaf, a'r Groegwr hefyd: eithr gogon- iant, ac anrhydedd, a thangnefedd, i bob un sydd yn gwneuthur daioni; i'r Iudew yn gyntaf, ac i'r Groegwr hefyd." O! pwy a allai fod yn awdwr y llyfr bendigaidd yma, ond y bendigedig Dduw? Os darfu i un creadur ei wneuthur, yr oedd efe naill ai yn creadur drygionus ai yn un oedd yn sanct- aidd. Ond yn gyntaf, nis gall un creadur drygionus fod yn awdwr o hono, nac angel na dyn. Yn sicr, ni fuasent byth yn cymmer- yd cymmaint o boen i dynu i lawr eu teyrn- as dywell eu hunain. Dyna yr amcan mawr sydd yn y Beibl o'i ddechreu i'w ddiwed; a phe byddai yn ffrwyth eu hymenydd hwynt, diammeu, fel y mae pawb yn caru ei blentyn ei hun, y buasent hwythau wedi dangos mwy o gariad ato nag a ddarfu idd- ynt hyd yn hyn. Y mae y lliid anghym- modol a ddangosodd Satan a'i blaid o anwir- iaid yn y byd, ym mhob oes at yr Ysgrhyth- yran, yn arwydd digon amlwg nad oddi wrthynt hwy y tarddasent. Na, na: ni ddichon dyrchafu sancteiddrwydd yn y byd gydsefyll â chynnydd achos yr ysbrydion aflan a dynion drygionus. Ni feiddiodd y diafol, er hyfed yw, erioed hōni hawl i'r dryll sanctaidd a nefol yma. Ond pe gwnai, y mae y disglair brydferthwch sanct- eiddrwydd sydd yn pelydru oddi wrtho yn ddigon i beri i bob un fyddo yn ei synwrau anghredu fod yr ellyll du hwn yn dad iddo. Y mae yn dra naturiol i bob creadur genhedlu ei gyffelyb; a pha gyffelybrwydd sy rhwng goleuni a thywyllwch, hawdd ydyw barnu. Nis gall un creadur sanctaidd chwaith fod yn awdwr o hono, pa un byng ai angel ai dyn. A allwn ni feddwl y bydd- ai i greaduriaid a'r wreichionen leiaf o gar- iad Duw, neu o ofn ei fawredd yn aros yn- ddynt, feiddio gosod ei enw gogoneddus ef yn ffugiol wrth eu gwaith, a thwylo y byd a'r fath gabled a chelwydd anferth, a dy- wedyd, Fel hyn y dywed yr Arglwydd, pan mai nid Duw ond hwy eu hunain ydyw yr awdwyr? A allai y digywilydd-dra a'r drygioni rhyfygus hyn darddu oddi wrth ddyn sanctaidd neu angel? diammeu, nis gallai. Ac ym mhellach, a feiddiai un cre- adur sanctaidd roddi y fath somedigaeth ar y byd, ac yna bygwth lliid a dialedd ar y rhai a lefarant yn enw Duw heb eu danfon gan- ddo fel y mae yr Ysgrhythyr yn mynegi? Fe lyngcodd y ddaear Corah, a'i dorff ddryg- ionus, am gymmeryd arnynt feddu awdur-

dod oddi wrth Dduw i aroglarthu yn gystal a'r offeiriad; ac yn sicr ni buasai yn arbed Moses ei hun, pe buasai efe yn llefaru yn enw Duw yr hyn ni chafodd ganddo ef, ond oedd wedi ei ddychymmygu ganddo ei hunan. Fel hyn, ni a welwn nas gall un creadur, da na drwg, angel na dyn, fod yn awdwr o'r Beibl; felly, nid oes neb yn ol ond Duw i'w arddel; a hyn y mae efe yn ei wneuthur trwy wyrthiau digon i argyhoeddi hyd yn oed atheist, mai o Dduw y tarddodd.

PENNOD VIII.

Priodollder neu addasrwydd yr Ysgrhythrau i chwilio y galon.

Yr ail brawf i amlygu dwyfol darddiad yr Ysgrhythrau, a gymmeraf oddi wrth yr effeithiau goruwchnaturiol a barant. Ni ddigheon dim fod yn achos o effaith uwch ac amgenach na'i natur ei hunan. Gan hynny, os gallwn gael fod effeithiau sydd uwch law cyrhaedd gallu un creadur wedi deilliaw oddi wrth yr Ysgrhythrau, yna bydd yn amlwg fod y Beibl ei hunan yn oruwchnaturiol—nid yn air o eiddo un creadur, ond o eiddo Daw ei hun. Yr hyn a ddywed y Salmwydd am y taranau (uchel lef natur yn y cymylau) a allwn gymmhwyso at lef Duw sydd yn llefaru o'r nef yn y Beibl: Llef yr Arglwydd sy mewn grym, ac mewn pryderfwrthych; y mae yn dryllio y cêdrwydd—brenhinoedd a theyrnasoedd. Y mae yn gwasgaru y filamau tân. Fe ddarfu i'r merthuron sanctaidd âg un ystenaidd o'r dwfr ysbrydol yma, ddiffodd filamau angerddol yr elfen wyllt hono, lle y tafodd eu herlidwyr hwynt. Gwna i anialwch y byd diffaeth a drygionus grynu; cedyrn galonau y pechaduriaid balchaf i fod fel dail y coed, pan eu hysgydwir gan wynt; ac fe ddwg loesion yr enedigaeth newydd ar y rhai na ddarfu i'w calonau erioed o'r blaen arswydo rhag y trosseddau mwyaf erchyll. Y mae yn dinnoethi y coedydd, ac yn hela pechaduriaid allan o'u llochesau a'u noddfeydd celwydd, lle y rhedant i ymguddio rhag gwaeadd a chri dialedd dwyfol. Ond i lefaru yn fwy neillduol a gwahanredol: y mae pedwar o effeithiau a berir gan y gair ar galonau dynion, ac ydynt oll yn profi ei ddwyfol darddiad.

Iaf. Y mae yn y gair awdurdod calon-dreiddiol, fel y mae yn chwialu ac yn chwilio i gydwybodau dynion: fe edrych i negeswrtaeth ddirgelaf y galon, ac a fynega i ni yr hyn a wnelom yn ystafell ein gwely, fel y gwnaeth Eliseus am frenin Syria: 2 Bren. vi. 12. Fe ddaw lle na ddigheon gwarant un brenin awdurdodi ei swyddwr i chwilio, sef i mewn i'r galon. Yr ydym yn darllen fod

Crist wedi dyfod at ei ddisgyblion, a drysau yng nghauad, ac wedi sefyll yn e canol: *Ioan* xx. 19. Fel hyn y gwna gair, (pan fyddo pob drws yng nghauad, f na ddigheon un dyn wybod am yr hyn fydd ar led yn y fynwes), fe ddaw i mewn y mhen y pechadur heb ofyn ei genad, ac a sefyll yng nghanol ei fwriadau a'i gynghorion ddirgelaf, gan ddywedyd wrtho yn ei wneud fel Eliseus wrth Gehazi, "Ouid aeth llygad gyda thi, pan wnaethost y peth yma a'r peth arall? Mor fynych y mae pregethiad y gair yn egluro dirgelaf calon pechadur ac yn dattod ei dyblygion hi: fel pe buasai y gweinidog wedi bod yn sefyll wrth ei ffenestr ef ac yn gwel ei helynt gartref; neu ryw un adrodd i traeon wrth y pregethwr! Mi a wn am na chredant i'r gwrthwyneb, ond bod gweinidog wedi cael hysbysrwydd o'u camau drwg, ac yn anneli ei ymddiddan at bronau hwy, pan oedd yntau mor ddieir i'w hymddygiadau a phe buasant yn bod yn America, ac yn unig yn saethu ei gwyddon fel y neb a darawodd Ahab, yr hwn a dynodd mewn bwa ar ei amcan heb nelu at berson un dyn. O ba le y digheon priodoldeb yma ddeilliaw ond o Dduw, hwn sydd yn ei hawlio fel ei briodol anghyfraudwy ei hun (*Ier.* xvii. 1). "Mys yr Arglwydd sydd yn chwilio y galon." Y mae Duw yn y gair, ac am hyn y mae yn medru ei ffordd rhwng cyssylltiâu y llurig, er ei ddanfôn ar autur allafwa dyn. Pe gellai un creadur gael dyfod i'r ystafell ddirgel hon, y galon; y afol, gan ei fod yn ysbryd ac o'r fath o craff a threiddiol, fyddai y tebycaf i fod un hwnw; ond y mae yntau wedi ei allan o hon, er yn wir y gall efe ysbïo i'r tafell nesaf ati. Yn awr, os Duw yn un a all chwilio y galon, yna rhaid yw y gair a wna yr un peth, yn tarddu o wrth y Duw hwnw, ac nid oddi wrth yr arall. Pwy arall a all wneuthur agoriad y clo yma, heb law yr hwn a w'yr yr holl ranau o hono? Pe byddech y clo i fynd swm o arian mewn cist, ac neb o'r holl fyd, ond un gyda chwi i'w hunan, yn gwybod am y lle dirgel y cadw och yr agoriad ynddo; os cawsai yr agoriad yma ei gymmeryd ymaith, a'r gist ei hysbïo a'i hanrheithio, nid hir y byddech yn nad gwaithpwy ydoedd. Felly pan y byddoch yn cael eich calon wedi dattod ei chwmeddyliau dirgelaf ynddi wedi eu gager eich bron yn y gair, chwi ellwch hawdd benderfynu fod Daw ynddo. Y mae yr agoriad a wna hyn o'i wneuthur ef, yr hwn yw yr unig un, heb law eich hwn a w'yr am gyfrinach eich calon, ac a w'yr ddirgel ymdeithiau eich tu mewnol ddirgelaf. Pwy ond efe a all ddanfôn ysbïo'r mor iongyrchol i'ch lloches gudd, lle y mae

orau o dywyllwch yng nghadw allan o
y byd? Y mae dau fath o ddirgelion
ad-guddia y gair.

f. Yr hy. a wŷr calon dyn ei hun, ac
un creadur heb law efe. Fel hyn, fe fy-
dd Crist i'r wraig o Samaria yr hyn ni
bai ei chynmyddion roddi yn ei herbyn;
r hyn hi a farnodd ei fod yn brophwyd,
Yr Duw. Ac oni allwn ninnau farnu fod
ysgrythyr yn air Duw, gan ei fod yn
eud yr un peth?

il.) Y pethau hyny nad yw calon dyn ei
yn eu gwybod. Dywedir, "Mwy yw
y na'n calon; ac efe a wŷr bob peth;"
1^o can. iii. 20. Y mae efe yn gwybod mwy
lanom, na nyini am danom ein hunain.
Onid yw y gair yn chwilio gwaelod y
n, ac yn dwyn i fyny oddi yno y brynt-
a chafodd llygad y gydwybod erioed o'r
n olwg arno, ac nad allasai hi byth ei
od chwaith heb gynuoorthwy y gair
ef. vii. 7): "Nid adnabuaswn i dra-
nt, oni bai ddywedyd o'r ddeddf, Na
chwanta." Ac os ydyw y gair yn cael
y'r hyn nas gall calon dyn ei hun
u arno, onid yw hyny yn brawf fod
y ynddo? Yn wir, dyma fel y mae yr
postol yn ymresymu yn 1^o Cor. xiv. 25,
i son am allu y gair a bregethir i agor
lon: "Felly y gwneir dirgelion ei galon
n amlwg (medd efe), ac felly gan syrthio
wyneb, efe a addola Dduw, gan ddy-
yd fod Duw yn wir ynnoh.

PENNOD IX.

holder y gair i ddeffroi a brawychu y gydwybod.
Yr arall a ddengys y gair ar ysbryd-
dnyion, a'r hyn sy brawf o'i ddwyfol
diad yw, ei awdurdodol weithrediad ar
dybod i'w hargyhoeddi a'i brawychu.
ell ydyw y gydwybod nad oes dim offer
el a ddichon ei ysgwyd, ond a fyddo o
athuriad Duw. Nid oes un awdurdod
r iddi ymostwng ond yr un sy'n llyw-
ethu y nefoedd a'r ddaear. Yr hwn a
rfoyo y cryf arfog, y mae yn rhaid ei
yn gryfach nag ef; a'r hwn a feistrolu y
wybod, y mae yn rhaid ei fod yn fwy na
ac felly y mae Duw yn unig; 1^o Ioan. iii.
Yn awr, gan fod y gair yn abli ysgwyd
y llio y gallu hwn o eiddo yr enaid sydd
wrthod plygu i neb ond Duw, prawf yw
o Dduw y deilliodd; a bod y gair yn
gos y fath awdurdod ar y gydwybod, sy
mmheul. Onid ydym ni yn ei weled
eunyddiol yn ceryddu y pechaduriaid
haf, nes y byddont yn cwyfnan ac yn
eddi dan ei hargyhoeddiadau fel plant-
tan y wialen? Ie, onid yw yn eu lladd
ollol, nes ydynt yn syrthio yn feirwon, ar

waith Duw yn gollwng un daran o'i gyfraith
ar eu penau. "Adfywiodd pechod a min-
nau a fu'm farw," medd Paul: *Rhuf.* vii. 9.
Efe, yr hwn oedd o'r blaen yn ddyd hoew,
ac mor helaeth arno, yn ol ei dyb, o rau ei
gyflwr ysbrydol, a Iob o ran pethau allanol,
pan oedd ganddo ei ddiadelloedd a'i finte-
oedd, ei feibion a'i ferched, iechyd a llwydd-
iant, a llaw Duw etto heb gyffwrdd â lwy:
ond pan ddaeth y gyfraith i'w gyhuddo hyd
adref o'i bechod, hi a ddiosgodd ei gydwy-
bod mor noeth ag oedd Iob wedi hyny yn ei
gyflwr allanol. Y mae llygad y dyn yn awr
yn agored i ganfod mor noeth a gwag o
saneteiddrwydd ydyw: ie, ei groen gwynu o
fanylwrwydd Phariseaidd, ar harddwch pa un,
yr ymserchodd mor bell gynt, fel pe buasai
rhyw ail Absalom, heb wrthuni arno, y mae
yn awr yn ei farnu fel anharddwch cas; a'i
hunan yn greadur ffeiddiaf o achos y cor-
nwydydd a'r llinorod sydd yn ei orchuddio.
Ie, y fath awdurdod oedd y gair wedi ei
gael arno, fel y gosododd ef yn grynedig
uwch ben y pydew diwaellod, yn ddiobaith o
hono ei hun a'i gyfiawnder goreu.

A oes gan unrhyw greadur fraich debyg i
hon o eiddo y gair? Neu, a ddichon un-
rhyw lyfr, ysgrifenedig trwy synwyr dyn,
beri i'r galon grynu wrth yr adroddiad o
hono fel y gwna hwn? Gwelwn hyd yn oed
y fath wr a Ffelics ar y fainge wedi cael ei
dafu i grynsfa, tra yr oedd careharor tlawd
wrth ei frawdle yn pregethu y gair yma
iddo. Yr anghenfilod hyn o ddyunion oedd
wedi troedio yng ngwaea Crist, ac yn ddiys-
tyrwyr o'i athrawiaeth, fel y cyfrifent ei
phroffeswyr hi yn ffyliaid ac ynyfdion: pwy
ond Duw a allasai beri iddynt ddyfod yn
ddychnrynedig eu meddyliau, wrth bigiad
dirgelaidd a roddwyd iddynt dan bregeth
Pedr, a gwaeddi allan yn y gynnulleidfa
gyhoeddus, "Ha wyr frodyr, beth a wnawn
ni?" Onid yw hyn yn dwyn ynddo argraff
Duwdod, mor amlwg a phan holltodd Moses
y graig â dim ond gwialen fechan yn ei law.

Cwest. Ond fe allai y dywedwch, Os oes
y fath awdurdod yn y gair i gyffroi y gyd-
wybod, pa fodd y mae yn digwydd fod
cynnifer o bechaduriaid hynod yn eistedd
mor dawel ac yn cysgu mor swrth dan ei
swn? Hwy a'i darllenent gartref, ac a'i
gwrandawant lle ei pregethir gyda nerth yn
gyhoeddus; ac etto, mor bell ydynt oddi
wrth deimlo dim o'r fath ddaeargryn yn eu
cydwybodau, fel y maent o hyd yn aros yn
ddideimlad ac yn ddiideall; ie, gallant
watwor y pregethwr am ei boen, ac ys-
gwyd ymaith yr holl fygythion a gyhoedd-
wyd cyn gnyated ag y darfyddo y bregeth,
mor hawdd ag yr ysgwyd yr adargi y dwfr
oddi wrtho pan ddelo allan o'r afon.

At. Iaf. Yr wyf yn ateb fod llawer o
bechaduriaid sy'n ymddangos mor gwellweir-
gar yn methu byw cyn ddiwyred ag y medd-

yliech chwi eu bod. Gall llyfr fod wedi ei rwymo yn hardd ac wedi ei oreuro; etto, â dim ond ystraeon aethus yn argraphedig o'i fewn. Ni wna pechaduriaid addef i ni yr holl geryddon dirgelaid a 'ddyry cydwybod arnynt o'r gair. Os bernwch chwi am Herod wrth wychder ei wledd, gellwch feddwl nad oedd efe yn fyr o lawenydd; ond ar amser arall ni a welwn fod ysbryd Ioan yn rhodio yn ei gydwybod. Ac felly y mae y gair yn blino llawer un, er eu bod yn ymddangos i ni yn rhai iach eu calon. Yn nghanol eu chwerrhin y mae yn flin ar y galon: chwi welwch y melln yn eu hwyneb, ond y mae y taranau sydd yn rhuo o fewn eu cydwybod allan o'ch clyw chwi.

2il. Mae yn ddigon i brofi dwyfoldeb y gair, ei fod yn gadael y fath argraff ar gydwybodau rhai, er i ereill ddiange. Mae un dystiol-aeth gadarnhaol yn llefaru yn uwch at brofi mater, na llawer o rai nacael at ei wrthbrofi. Nid offeryn yw y gair a weithia trwy rym ei rinwedd naturiol ei hun; ond trwy rym argraffiad Ysbryd Duw, yr awdwr o hono; a'r grym hwnw y mae efe yn ei roddi ar waith yn ol ei ewyllys ei hun, fel ag y mae un gair yn peri i un grynu, ac yn gadael y llall (ar yr un fainge, fel allai) mor ddigynhwrff dano ag yw y golofn y mae yn pwyso arni. Megys y dywedir am ddwy mewn melin; felly mewn pregeth, un a gymmerir a'r llall a adewir; un a ddarostyngir a'r llall a galedir: nid oddi wrth ddim analluogrwydd yn y gair, ond rhydd ddsbarthiad y Duw a'i piau: fe wna ei neges gyda'r hwn y danfonir ef ato, ac nid gyda neb arall. Fel y byddo dyn yn taraw â chleddyf—â'i wegil neu â'i fin, ddyrnod ysgafn neu drom—yn ol hyny y bydd iddo dori neu beidio gwneuthur archoll mawr neu fychan. Mae y gair yn trywanu y gydwybod, yn ol fel y byddo yn argraffedig gan rym a gallu dwyfol. Darfu i'r tri llange rodio yn y tân, heb gael eu deifio ganddo: fe ddifawyd ereill yng ngenau y ffwrn. A ddywedwn ni, Nid yw y tân yn boeth, o herwydd i rai gael eu llosgi ac na chafodd y lleill? Y mae rhai heb gymmaint a sawr y gair ar eu cydwybodau, er fod ffamau y bygythiad yma yn ehedeg o ddeutu y clustiau; ond y mae ereill yn cael ei gosod ar dân yn hollol gan ei ddychrynyfeydd.

3ydd. Annheimladrwydd haiarnaidd rhai dan ddyrnodiau y gair, nid yw yn beth a ddylid ei gyfrif i wendid y gair, ond i gyfiawn farn Duw, drwy yr hon y mae yn ymddial arnynt am bechu yn erbyn ei argyhoeddiadau; o herwydd, yn gyffredin, rhai o'r fath hyny sydd â'u cydwybodau mor anhawdd i'w trywanu. Gan fod melldith o grinder oddi wrth Dduw wedi disgyn arnynt, nid rhyfedd bod eu barnau wedi eu tywyllu a'u cydwybodau wedi eu serio. Yr oedd yn gymmaint amlygiad o awdurdod Crist (ac

felly y barnodd ei ddisgyblion), pan ddwydd y ffigysbren â dau neu dri o eiriau phe buasai wedi peri i un sych a chrial flaendarddu a blaguro. Y mae gallu Ddymmaint yn caledu calon Pharaoh ag meddallhau calon Iosiah.

PENNOD X.

Priodolder cysurol y gair i gydwybodau archolledig.

3. GALLU y gair i gysuro a chođi i fy ysbryd cystuddiedig. Y mae cydwybod garchar o eiddo Duw ym myuwes y pe adur; a'i ryddhâd o hono ni ddichon y gael oddi eithr drwy awdurdod yr hwn wnaeth y warant ac a'i rhoddodd i meyn. Yn wir, brenin gwan yw hwnw na fedd g char i roddi troseddwr ynddo, ond a all arall ei dori yn agored. Nid dyma y f un yw hwn lle y gesyd Duw bechaduri mewn dalfa. "Ysbryd cystuddiedig (m Solomon) pwy a'i cyfyd?" *Diar.* xviii. Pe gallai un creadur, yna yn sicr byd y diafiad mor abl i wneuthur hyn a n Ond gwelwn nas gallasant hyd heddyw g ffordd i ysgwyd ymaith y gefynau y ced hwy ynddynt gan Dduw; eithr rhuo y ma dan annhraethol boenydiad dialedd Dd. Ac nid yw y rhai sydd yn analluog i well eu harchollion eu hunain, yn debyg i ond meddygon gwael i wellhau ereill. wir, hwy a addefant y peth tu hwnt medr a'u gallu: "Pa ham yr ydwynt yn y ofyn â mi (ebe Satan wrth Saul) gau i'r glwydd gilio oddi wrthyt a bod yn ely ti?" *1 Sam.* xxviii. 16. Oddi wrth yr yst iaeth ddychrynydd o lid Duw am bechoi tardda cyfyngder cydwybod drallodes. Yn awr, nid oes neb a ddichon symmud h ond un a fedr sicrhau yr enaid yn ddily faddeuol drugaredd Duw; ac y mae hyn gorwedd mor ddwfn yng nghanol Duw, nad oes ond efe a all ei gael allan, a dwy newydd i mewn i'r enaid. Ac am hyny, oes fodd i'r gair a wna hyn fod yn deill oddi wrth neb arall ond Duw. A bod y nid yn unig yn gallu gwneud hyn, ond he yn llenwi yr enaid â llawenydd amhraeth wy a gogoneddus, sy wirionedd mor sicr nad oes angen i ni esgyn i'r nef am fw gadarnhâd; y mae yr Ysbryd hwnw a ro odd y gair wedi ei selio ar galonau ane gredinwyr. Yn wir, addefa yr holl saint o'r ffynnonau hyn o iachawdwr iaeth y tyn eu cysur a'u heddwch: "Yn amler fy me yliau o'm mewn, dy dddidanwch di a law ycha fy enaid;" *Salm* lxxxiv. 19. Ie ddywed i ni, nid yn unig ei brofiad ei hu ba le y cafodd efe ei lawenydd, ond fod ei hefyd wedi cael yr eiddynt hwythau al o'r un llestr (*Salm* cvii. 17): "Ynyfydio

gid eu camweddau a gystuddir." A pha h ynte a'u hesmwythâ hwynt? A wna holl bethau gwych ac ammeuthyn a ellir cael ar fôr neu dir y tro i beri difyrweh meddylliau a'u hesmwythau o'u gofid? wnânt; o herwydd eu henaid a ffeiddiau o bwyd; a daethant hyd byrth angu: n. 18. Pa feddyginiaeth sy ganddynt, neu ffordd i'w chymmeryd er eu hesythâd? Yn ddiau, ni feddant un ond at lefain a dagrau: "Yna y gwaeddasar yr Arglwydd yn eu cyfyngder; ac efe hachubodd o'u gorthrymderau;" *adn.*

A pha agoriad a gymmerodd Duw i'r drws eu carehar? Y mae yn canlyn (n. 20): "Anfonodd ei air ac a'i hiachd hwynt." Os dywedwch chwi mai am der allanol y meddylir yma, mi dybygynte yn sicr yr addefwch y deil yn gadach fyth mewn perthynas i flinder tu wno. Pa beth ond gair o enau Duw allau ysbryd tralodedig, pan y mae hyd oed y corph yn curio ac yn nychu, nes efaro Duw air wrtho er iachâd?

Hogoneddus a grymus bethau a ddywedir danat ti, ac a weithreir drwt ti, O cetaidd air! Yr wyt yn rhagori ar holl enydd y byd, ac yn peri i'r enaid a gaf ond profi o'th gysuron cryfion, yn ebydd ddiffasu ar bob mwyniant anianol fel h gwag a gwyntog. Mor bur a nerthol llewyrch y llawenydd a ennywir genyt ti mynwesau y saint, fel y diffydd efe â'i ydr bob pechadurus anianol lawenydd, gys y gwna yr haul i'r tân ar yr aelwyd. Yr wyt ti yn haeddu arswyd angy, fel nad i'r mo hono. Yr wyt yn gorchfygu ei nau hefyd fel na theimlir mo honynt. Yr wyt yn sathru ar seirff ac ysgorpionau, nid oes ganddynt allu i frathu na niweidio hâi sydd yn dy greu. Y diafliaid a'th waenant di ac a ffoant rhagddot; gollyng-eu gafaelion wrth yr olwg arnat, a gadant y cydwybodau a ddaliastent cyhyd i eu gallu a'u gormes i ti i'w meddiannu i ber gysuron. Yr wyt ti yn diffodd mau uffern ei hun, ac yn peri i'r enaid a lwyd ennyd o'r blaen yn rhwym gan euwydd i'r ffwrn danllyd o wg Duw, rodio gysurus ac heb niwed arno yng nghanol caeddylliau am dano. Yr wyt ti yn dwyn ef i waered i'r ddaear, ac yn rhoddi i'r id crediniol olwg ar y Ierusalem nefol pe byddai yn rhodio yn ei dedwydd heddd hi. Ië, yr wyt ti yn ei groesawu â'r danteithion ag sy gan dy saint (er eu bod fwy helaeth gyda hwy) yn y gogoniant i borthi arnynt, nes y byddo weithiau yn glofio mai yn y corph y mae, i.e. er ei fod i boenau a gofidiau. Cymmaint a hyn a fodd y saint, a mwy nag a all fy mhîn i u tafod hwythau osod allan; fel ag y lwn ddywedyd wrth y neb sydd etto yn mheu tarddiad yr Ysgrhythrau, megys y

dyn dall a iachaodd Crist wrth y Phariseaid (*Ioan ix. 39*): "Yn hyn yn ddiau (medd efe) y mae yn rhyfedd na wyddoch chwi o ba le y mae efe, ac efe a agorodd fy llygaid i." Felly yma, yn hyn y mae yn rhyfedd, i.e. yn gywilyddus, na wŷr dynion o ba le y mae y gair, gan ei fod yn alluog i wneuthur hyn i gyd. Er pan y mae y byd mewn bod, ni chlybuwyd fod gair creadur unig yn gallu symmud mynyddoedd o euogrwydd, a llenwi eneidiau pechaduriaid â llawenydd a thangnefedd, er gwaethaf uffern ac anghrediniaeth y creadur ei hunan, dan bwys pa un megys careg fedd drom y bu yn gorwedd wedi ei gladdu a'i selio.

PENNOD XI.

Gallu y gair i ddychwelyd eneidiau at Dduw.

4. SONIWN am waith trôedigaeth trwy y gair, yr hyn nid oes neb ond Duw sydd yn Dduw pob gras a ddichon ei ddwyn i ben. Pan ddaeth disgyblion Ioan at Grist i gael hysbysrwydd pwy ydoedd, pa un ai y Mesiah, ai nid ê (*Mat. xi. 4*), nid yw Crist yn dywedyd wrthynt na'r naill na'r llall, ond yn eu hanfon i gymmeryd eu hatteg oddi wrth y pethau rhyfedd a wneid ganddo: "Ewch (medd efe) a mynegwch i Ioan y deillion yn gweled eilwaith, a'r cloffion yn rhodio, a'r cleifion gwahanol wedi eu glanhau, a'r byddariaid yn clywed; y mae y meirw yn cyfodi, a'r tlodion yn cael pregethu yr eifengyl iddynt;" neu yn ol y Groeg, yn cael eu hefengyleiddio; hyny yw, y maent yn cael eu troi i wir natur yr eifengyl, a gweithredu ynddynt gan yr Ysbryd hwn sydd yn anadu yn yr eifengyl. Amcan Crist trwy yr holl esamplau hyn oedd rhoi o flaen eu ffydd, brawf a welid â llygaid, mai efe, yr hwn y gwneid y fath wyrthiau ganddo, ydoedd y person yr oeddynt yn ymofyn am dano. A'r hyn sydd yn gorphen y rhes yw gallu y gair i droi dynion at Dduw. Fe'i gosodir yn olaf, nid am ei fod yn lleiaf; ond yn hytrach am ei fod y rhyfeddod mwyaf o'r cwbl, ac yn cynnwys y lleill oll ynddo. Pan ddychwelir eneidiau, y mae y deillion yn cael eu golwg: "Yr oeddych chwi gynt yn dywyllwch, ond yr awrhon goleuni ydych yn yr Arglwydd;" *Eph. v. 8*. Y mae y cloffion yn rhodio, pan roddir y serchiadau (traed yr enaid) mewn rhydddeb, ac y caffont rym i redeg ffyrdd Duw gyda hyfrydwch. Y mae y gwahan-gleifion yn cael eu glanhau pan ymadewir â chwantau ffaidd ac y sancteiddir eneidiau aflan: ac felly am y lleill. Yn awr, er i'r gwyrtiau cyntaf ballu, etto gan fod hwn, y mwyaf hyd yn hyn, yn dilyn y gair, y mae yn dwyn ynddo y fath brawf o'i ddwyfoldeb

na ddichon rheswm ei hunan mo'i wrthwyn-
ebu. Ai peth tu hwnt i allu yr angel cad-
arnaf yw gwneuthur y sydyn lleiaf o las-
wellt y maes—llawer mwy tu hwnt i'w allu
yw creu y creadur newydd yn y galon, yr
ardderchocaf o weithredoedd Duw.

Yr hyn, gan hyny, a ffurfia y galon fel
hyn o newydd, ac a wna y creadur mor an-
niebyg iddo ei hun gynt, ag yw yr oen i'r
blaid, a'r ŷeh i'r llew (y naill yn llariaidd a
diniwed, a'r llall yn ffyrnig ac ysglyfaethus),
y mae yn rhaid mai o Dduw y tarddodd;
a chyfryw gyfnewidiadau ydynt ffyrwth
beunyddiol y gair. Cynnifer a adwaenoch,
gynt dan lywodraeth eu chwantau, yn taflu
pentewynion o'u deutu ar wedd wallgofus,
yn meddiant eu pechodau, fel cynnifer o
gythreuliaid, ac yn cael eu hyrddio draw ac
yma ganddynt, etto, wrth wrandaw un
bregeth efengylaidd, ai ni welsoch y rhai
hyn wedi eu dull newidion yn gwbl, a chyda'r
dyn yn yr efengyl y bwriwyd y cythraul
allan o hono, yn eistedd wrth draed yr Iesu
yn eu hiawn bwyll, yn wlo yn chwerm am
eu helynt o'r blaen, ac yn casau eu hoff
chwantau gynt yn fwy nag y buont yn eu
caru erioed? Yr wyf yn gobethio y gall
rhai o honoch chwi sydd yn darllen y llin-
ellau hyn, ddywedyd cynmairt a hyn am
danoch eich hunain, fel y gwna yr apostol
am dano ei hun, ac ereill o'i frodyr: "Yr
oeddyn ninnau hefyd gynt yn annoethion,
yn anufudd, yn cyfeiliorni, yn gwasanaethu
chwantau ac amryw feluswedd, &c. Eithr
pan ymddangosodd daioni a chariad Duw
ein Hachubwr—yn ol ei drugaredd yr ach-
ubodd efe nyni trwy olchiad yr adenedig-
aeth," &c.; *Tit.* iii. 3. Ac a ellwch chwi (y
rhai ydych wir llythyr Crist, wedi ei ysgrif-
enu nid âg inge, ond Ysbryd y Duw byw,
yn llechau cnawdol eich calonau) fod etto
mewn ammheuaeth ai o Dduw y tarddodd y
gair, sydd fel hyn yn alluog i'ch dwyn at
Dduw? Pa gyhyd y gallai dyn eistedd wrth
draed philosophydd, cyn profi y fath awdur-
dod orchymynol yn dilyn ei wersi ef o foes-
oldeb, i dynu ymaith ei hen galon lawn o
chwantau (fel y môr o aueirif ymlusgiaid), a
rhoddi un newydd sanctaidd yn ei lle? Y
mae rhai yn wir yn eu hysgol hwynt wedi
cael glanhau ychydig arnynt oddi wrth y
gwaddo o bleserau anianol, megys Polemo,
yr hwn a aeth yn feddw i wrandaw Plato, ac
a ddychwelodd dan ei addysgiadau yn ddyn
sobr. Ac nid rhyfedd, os ystyriwn y fath
drais sydd yn cael ei gynnyg gan y pechodau
amlwg ac anifeilaidd hyn, hyd yn oed ar
oleuni cydwybod naturiol, y goleuad lleiaf
hwnw a appwyntiodd Duw i lywodraethu
nos y byd cenhedlig. Ond cymmerwech y
philosophydd goreu o honynt oll, a chwi
ellwch gael pechodau o nyddiad ychydig
meinach (y fath ag yw drygau ysbrydol a
pechodau calon), y rhai a weithredir y tu ol

i'r llen, yn ystafell gudd y tu mewnol ddy-
yr oedd y rhai hyn mor bell o fod yn ysba
i'w harfau buddugol, fel na ddaethant erioed
o fewn golwg iddynt. Ond y mae y gair y
sathru ar yr uchelderau yma o ddrygau y
brydol; ac ni adawa un o'u hamddiffy-
feydd heb ei chymmeryd. Fe erlidia becho
a Satau i'w corsydd a'u noddfeydd, ac
gloddia chwantau y pechadur fel pryfa
allan o'u tyllau lle y daearant. Nid ydyw
galon yn noddfa ddiogel i bechod eiste-
yddi: fe'i cymmer y gair ef oddi yno (1
Ioab oddi wrth gymr yr allor) i'w ddfesth
Y llygredigaethau hyny a ddiangasant rhi-
cleddyf y moesolwr, a'r ethnig gonest, m
hyd oed y rhai hyn yn syrthio trwy f
cleddyf y gair. Nis gall roddi esampl w
am allu y gair i ddychwelyd dynion, a
thruw osod o'ch blaen y buddugoliaeth
rhyfeddol a gafodd ar galonau dynion p
ddaufonwyd yr apostolion allan gyntaf
bregethu gan Grist, ac fel pe byddai, i dd
chreu ar gyssylltiad yr oruchwylia
efengylaidd. Pa le bynag y daethant, hwy
gawsant y byd mewn arfau yn eu herbyn;
dywysogdu, y diafol, yn flaeuor ar eu byddi
oedd, i'w gwrthsefyll hyd y gallent; etto
fath fuddugoliaethau digyffelyb a enilla-
ant! Onid oedd yn rhyfedd iddynt—h
dynu un cleddyf ond yr efengyl dragwyd
ol, i droi y byd â'i wyneb i waered, fel yr ad
efodd eu gelynyon eu hunain? Hwy a d
ystyrasant gestyll y diafol; bwriasant
cloddiau i lawr, pa le bynag y daethant:
gorchfygasant y cenhedloedd gwylltton hyn
a ddaliasai y diafol yn ei heddychol feddia
gynnifer mil o flynyddoedd, nes ymwrtho
asant â'u heilunaddoliaeth, yn yr hwn
cawsant eu magu a'u meithrin ar hyd
dyddiau, ac y derbyniasant Arglwydd new-
ydd; hwnw yw, yr Iesu croeshoeliedig.
hyn ar dystiolaeth ychydig o ddynion gwla
aidd, wedi eu llwytho â'r gwaradwyddiad
ffieiddiaf a allai synwyr dyn ddychymmyd
neu falais dyn ynghyd, i ddiwyno eu henn
au a gwneuthur eu hathrawiaeth yn adg
i'r byd. Y mae hyn, meddaf, yn fath o c
uchafiaeth ddigyffelyb, fel nas gellid ei chr
drwy ddim llai na braich yr Hollalluog,
enwedig os bwriwn i mewn ddau neu dri
amgylchiadau, i beri i'r ystyriaeth yma seir
yn amlycach.

1af. Gwaeledd y personau a roed ar wai
i bregethu yr athrawiaeth yma: gwael o r
eu cyflwr a'u gradd, gan eu bod o'r gwael
a'r iselaf ym mhlith y bobl; a llawer o ho
ynt mor wael o ran eu cyrhaeddiadau dea
twriaethol ag oeddynt o ran eu gwisgiad a
hymddangosiad allanol, heb gynnorthw
oddi wrth ddysgediaeth ddynol i helaeth
eu doniau ac addurno eu hymddiddanio
Dynion anghymmhws iawn yn wir i'r fa
anturiaeth, pe buasai pwys a llwyddiant
gwaith yn ymddibynu ar eu cyrhaeddiadau

hunain; yr hyn a barodd i'w gelynyon fydd synu o ba le y cawsant eu doethineb, a y gwyddent yn dda mor isel oedd eu chaw, ac mor anaddas oedd eu dygiad i ny tuag at roddi iddynt un fantais tuat y fath anturiaeth uchel: *Act. iv. 13.* Yn sicr, nis gallai y dynion hyn gyfranu wy—trwy ddim oedd yn eiddynt eu hun—at y llwyddiant rhyfeddol a ganlynodd llafur, nag a allai chwythiad mewn cyrn rddod at osod caerau Iericho yn gydwas—i â'r llawr, neu seiniad offer cerddoriaeth Josaphat at orchfygu y fath fyddin liosog elynion: 2 *Cron. xx. 22.* Fel ag y mae rhaid ei gyfrif i anadl Duw, trwy yr hwn darfu iddynt swnio udgorn yr efengyl, ac y ysbyrd peraidd ef oedd yn hyfryd ddenu lonau eu gwrandawyr. Hyn a barodd iddynt allu gwneuthur y fath weithredoedd rthol.

2il. Os ystyriwn natur yr athrawiaeth a rhoeddasant ac a ganmolasant i'r byd, yr oedd nid yn unig yn ddiethlwr a newydd lligon i wneuthur y gwrandawyr yn ochel—r o honi, ond mor wrthwynebol i duedd tur lygredig dyn, fel nad oes un meddwl i hochr yng nghalon pechadur. Nid rhydd yn wir fod cwpanaid lysieuog Mahomet edi myned i lawr mor lithrig, gan ei bod or felus a bodddhaol i archwaeth anianol yn. Buan yr ennillir ni i briodi fel gwir—nodd yr hyn a fyddo yn boddio y enawd: hawdd yw ein perswadio i roddi ein hun—ni i ddwyllaw y fath opiniynau ag sydd yn rnyg eu hoedl i'n chwantau, fe, yn addaw oddlonrwydd iddynt. Yn wir, nis gallwn feddu cymmaint wrth weled Cristionogaeth hun yn cael ei choffeido yn gyffredinol a narod, pan y gosodir hi ger bron dynion ag ngwisg buteinnaidd Rhufain, â hardd—ch anianol am dani yn lle ei grym a'i hurdeb priodol. Ond cymmerwch athraw—iaeth yr efengyl yn ei naturiol odidogrwydd, yn iddi syrthio i ddwyllaw y cymmysgwyr yn, yna y mae yn gyfryw nas dichen calon nianol ei hoffi, am ei bod yn gosod y fwyall r wreiddyn pob pechod ac yn bygwth pawb cymmer ei blaidd. Ni ddiodefa hi i un rhydd osod ei rhiniog wrth ei rhiniog hi. Gall hyn beri i ni droi (fel Moses gynt at y rth) i edrych ar y rhyfeddod fawr yma. Athrawiaeth yn cael ei chredu a'i choffeido, r ei bod yn ynfyrwydd hollol gan reswm nianol; yn dysgu i ni fod yn gadwedig rwy gyfiawnder un arall; yn ddoeth â loethineb un arall; i ymddiried yn hwnw negys Duw, a fu ei hun yn blentyn; i ddis—gwyl ymwared rhag gallu pechod a Satan, rwy un a syrthiodd ei hun dan lid i dynion. O! y fath agendor o wrthdadaleuon o eiddo beswm sy raid camu drosti cyn y gall dyn ldyfod i ymwasgu â'r athrawiaeth hon! Ac etto hi gafodd y fath groesaw, fel na daeth deiliad un brenin wrth swm ei dab—

wrdd ef, i roddi eu hunain yn rhif-restr ei fyddin, erioedd yn finteioedd anlach nag oedd y niferi o gredinwyr a gafodd yr apostolion yn ymgynyng i ddyfod dan feddydd, y llw milwraidd a roddent i'w dychwylwr.

3ydd. Un peth yn chwangeg: ystyriwch leied o gysur daearol oedd y gair yma a bregethasant yn ei roddi i'w dderbynwyr; a chwi a ddywedwch fod Duw ynddo mewn gwirionedd. Pe buasai troi yn Gristion yn ffordd i gynnyddu yn y byd; neu fod yn ddisgybl iddynt yn ennill ffafwr brenhinoedd a thywysogion, ac yn rhoddi pobl ar y ffordd i ddringo bryn anrhydedd, nid rhyfedd fuasai gweled cynnifer yn ymgrymu i'r fath haul ar ei godiad. Ond Och! nid ydyw yr efengyl a bregethasant yn dwyn dim o'r gwobrau hyn yn ei dwyllaw—dim afalau aur i'w tafu ar y ffordd er eu denu ym mlaen. Y mae Crist yn peri i'w ddisgyblion ef blygu, nid i gymmeryd i fyny goronau i'w penau, ond croes i'w gwarau: "Os myn neb ddyfod ar fy ol i, ymwaded âg ef ei hun, a chyfoded ei groes a chlanwyed fi;" *Mat. xvi. 24.* Nid oes iddynt freuddwydio am gael trysor y byd, sydd allan o'u meddiant, ond ymbarotoi i ymadael â'r hyn a feddant. Yn sicr, pan yr oedd yr apostolion yn ei phregethu, yr oedd hi yn arwain, nid i bal—asau brenhinoedd i gael dyrchafiad, ond i garcharau a daardai, ac i arteithiau a chrogbrenau. Yn awr, i weled creaduriaid truaen yn anghofio mor bell eu holl fudd bydol, meddiannau, a pharch, plant eu lwyn—au, a gwagedd eu mynwesau, fel ag i'w sathru dan draed, fe, llawen groesawu y marwolaethau creulonaf a fedrai eu gely—nion ddychymmygu, a diolch i'w herlidwyr am y ffafwr o fod yn gyfranog o arteithiau eu brodyr, fel pe buasant yn myned i rannu ys—bail ac nid i'w gwneuthur yn ysbail. Mae hyn yn brawf eglur fod awdurdod nefol yn yr athrawiaeth hono, ar allor ac ar amddiff—yniad pa un yr oeddnt mor foddllawn i gael eu haberthu. Ond er i broffes o'r efengyl fod mor ddrud iddynt, etto pe buasai hi ond caniatáu i'w ddisgyblion amcanu at eu hamrhydedd eu hunain, ac ymbleseru yn y bri a ennillent trwy eu dioddefiadau, ac yn y meddyliau y cai eu heuwau eu hysgrifenu a'u darllen mewn dalenau o glod wedi dar—fod eu dydd, y mae yn bossibl y galledid cael rhai o ysbryd Rhufeinaidd a fuasai yn dioddef cymmaint. Neu, pe buasai yn dysgu y caent esgyn yn eu tanlyd gerbyd o ferthyrdod, i dderbyn gogoniant y nef fel pwrceas eu hamynedd a'u glewder, gallasai hyn galedu rhyw Babydd hunanol yn erbyn arswyd y marwolaethau creulonaf a gyfarfu—ant; ond nid yw yr efengyl yn caniatáu un o'r rhai hyn; ond yn dysgu i ddynion ym—wadu â phob clod, ac ysgrifenu eu hunain yn weision anffuddiol, ar ol gwneuthur eu goreu a dioddef y gwaethaf a allai llid eu gely—

ion roddi arnynt, er mwyn achos Duw. Yr holl ystiriaethau hyn wedi eu plethu ynghyd a wuant raff gref i dynu pwy bynag a be-truso yn yr achos i grediniaeth gadarn o ddwyfol darddiad/yr Ysgrhythrau.

PENNOD XII.

Pa ham y gelwir gair Duw yn gleddyf yr Ysbryd, a'r pwngc a godir oddi ar hyny.

WEDI myned drwy y rhan gyntaf, oedd yn rhoddi ger ein bronau yr arf ei hunan, a gyflwynir at wasanaeth y Cristion, sef gair Duw, y mae ail ran y testyn yn dyfod yn awr dan ein hystiriaeth; a hyny ydyw y dychymmyg dan ba un y canmolir yr arf yma, a'r ffugr (*metaphor*) sy fel gwisg iddo, pan ei gelwir yn "gleddyf yr Ysbryd."

Ac yma gellir gwneuthur ymofyniad deublyg.

1. Pa ham y cyffelybir gair Duw i gleddyf?

2. Pa ham y priodolir y cleddyf hwn i'r Ysbryd ag y dŵg ei enw ef arno—"cleddyf yr Ysbryd."

Am y cyntaf, caed hyn wasanaethu:—Gan fod y cleddyf o ddefnydd cyffredinol a gwastadol ym mhlith milwyr, ac yn arf â pha un y maent nid yn unig yn amddiffyn eu hunain, ond hefyd yn gwneuthur y difrod mwyaf ar eu gelynyon, y mae yn gosod allan yn dra chlyfaddas ragorol ac anheborol ddefnydd y gair, â'r hwn y mae y Cristion yn amddiffyn ei hun, ac hefyd yn niweidio, i.e. yn tori i lawr ei elynion.

Am yr ail, Pa ham y priodolir y cleddyf yma i'r Ysbryd. Y mae rhai yn barnu am y didoliad hwn nad yw ond yr un a phe buasai yn ymadrodd cyssylltiedig; cleddyf yr Ysbryd, yr un a chleddyf ysbrydol; ac nad oes dim chwaneg yma nag sydd yn yr ymadrodd hwnw o eiddo yr apostol: "Arfau ein milwriaeth ni nid ydynt gnawdol, ond nerthol;" hyny yw, ysbrydol: 2 *Cor.* x. 4. Gwir yw, am mai ysbryd yw y diafol, âg arfau ysbrydol y mae yn rhaid ei wrthwyn-ebu; a chyfryw yw y gair, cleddyf ysbrydol. Ond ni dybygwn nad yw hyn yn cyrhaedd i iawn ystyr y lle; a bod y gair *Gr.*, *pneuma*, i'w gymmeryd yn bersonol am yr Ysbryd Glân.

1af. Efe yw ei awdwr. Arf ydyw, a huiodd ac a ffurfiodd ei law ef yn unig: nid oddi ar einging un creadur y daeth: "Dynion sanctaidd Duw a lefasant megys y cynnhyrfwyd hwy gan yr Ysbryd Glân;" 2 *Pedr.* i. 21.

2il. Yr Ysbryd yw unig wir ddeonglwr y gair. Ar hyn y mae ymadrodd hysbys Bernard: "Y mae yr Ysgrhythrau yn gofyn eu darllen â'r un Ysbryd ag a'u llefarodd; a tharwy hwnw yn unig y deallir hwynt."

Yr hwn a wnaeth y clo yn unig a all roddi i ni agoriad a fyddo cynmhwyys iddo, ac egyr ei ystyr. "Nid oes un brophwydol iaeth o'r Ysgrhythyr o ddeongliad priod: 2 *Pedr.* i. 20. A pha ham hyny? Y mae yn canlyn, am mai nid oddi wrth un ysbryd priodol i ddyd y daeth ar y cyntaf: "Cany nid trwy ewyllys dyn y daeth gynt," &c. *adn.* 21. A phwy ŵyr feddwl yr Ysbryd gystal ag efe ei hun?

3ydd. Yr Ysbryd yn unig a ddichon ro i'r gair ei rym a'i effaith yn yr enaid. E swydd ef, fel y dywedais, yw argraffu gwir ioneddau ar y meddwl. Oddi eithr iddo e osod ei bwys ar y gwirioneddau a ddarllen wn ac fel a wrandawn, i'w cynmhwysio atom ac fel pe byddai, i dori eu gwir ddelw ar ein meddyliau a'n calonau, ni adawant fwy o argraff nag a wnai sel ar y graig. Anwada fydd y meddwl, a phetruso wna y galon, e y cwbl o'n hymgais ni ein hunain a ereill i'r gwrthwyneb. Nid gwaith y disgyblion yn rhwyfo, ond dyfodia Crist atynt, a dawelodd yr ystorm ac a' dygodd i'r lan. Nid ein holl astudiaeth a' hymofyniad ninnau a ddichon sefydlu meddwl na heddychu y galon mewn crediniaeth o'r gair, hyd nes delo Ysbryd Duw "A ydych chiwi yn awr yn credu?" medd Crist wrth ei ddisgyblion: *Ioan.* xvi. 31. Och! mor fynych y buasai yr un pethau y swnio yn eu clustiau ac yn curo wrth e drysau am dderbyniad, ond heb gael lle hyr yr awr y rhoes yr Ysbryd ei fys i mewn dynu y bollt! Y mae Davenant ar y *Colossiaid* yn rhoddi i ni hanes o waith Gerson am wr duwiol o'i gydnabyddiaeth ef a guwyd ac a faeddwyd yn dost gan amnheuo mynych, mor bell ag i alw mewn cwestiw un o erthyglau y ffydd; ond a ddygwyr wedi hyny i'r fath oleuni eglur a thystio aeth lawu o'i gwirionedd, fel nad oedd y amnheuo mwy yn ei chyleh na'i fod ei hun yn fyw; a'r sierwydd yma (medd Gerson ni chafodd efe oddi wrth unrhyw reswm ne ddadl newydd o'i hochr, ond trwy fod Ysbryd Duw yn ei ddarostwng ac yn caethiw ei ddeall balch ac yn llewyrchu arno mewn modd rhyfeddol.

Y geiriau wedi eu hagog fel hyn a ddygant i ni yr addysg a'r penderfyniad pwys yma.

Athr. Mai y gair ysgrifenedig, neu o mynwech chiwi, yr Ysgrhythyr, yw y cleddyf â'r hwn y mae Ysbryd Duw yn galluogi saint i orchfygu eu holl elynion.

Ni wna yr Ysbryd ddim erddynt heb gair, ac nis gallant hwy wneuthur dim bwrpas heb yr Ysbryd. Y gair ydyw cleddyf, ac Ysbryd Crist yw y frâch syd yn ei drin, yn a thros y saint. Holl fude ugoiliaethau mawrion Crist a'i saint yn byd, â'r cleddyf hwn yr emillir hwynt Pan y mae Crist yn dyfod yn erbyn ei elyn

le, y mae y cleddyf hwn ar ei glun: Gwregysa dy gleddyf ar dy glun, O Gadh" (*Salm* xlv. 3); ac iddo y cyfrifir ei orhafiaeth arnynt, "Ac yn dy harddwch orchog yn llwyddiannus, o herwydd gwirnedd" (*adn.* 4); hyny yw, gair y gwirionell. Yr ydym yn cael fod Crist yn dal th seren yn ei law (*Dad.* i. 16); yn arddo y gofal manwl a gymmer efe am ei bl, yn enwedig y gweinidogion, y rhai ynt nod i saethau yn anad neb. A fodd y mae yn eu hamddiffyn ond â'r ddyf llym dau-finiog hwn sydd yn dyfod an o'i enau? Dyma y rhagorfraint a aeth i ran y credadyn gwaelaf yn yr lwsy trwy y cyfammod gras: ni feddai lla ei bath dan y cyfammod cyntaf. Yr ddd ganddo ef ar ol ei gwmp gleddyf tannid i'w gadw allan o baradwys; ond ni ddai yr un o'r fath cyn ei gwmp i'w gadw ag pechu, ac felly rhag ei droi allan o'r ar cyflwr dedwydd hwnw. Na; fe'i llawdyd ef i sefyll ar ei amddiffyniad ei n, a thrwy ei wylidwriaeth i fod yn osedd bywyd iddo ei hun. Ond yn awr, y le gair Duw yn sefyll rhwng y saint a ob perygl. Hyn a ymddengys yn amlyc, os nodwn allan y gelynyon penaf sydd saint ryfela â hwynt, gan ddangos y modd naent oll yn syrthio o flaen y gair, ac yn byn eu dyrnod marwol oddi wrth yr un ddyf yma, megys y laddodd Abimelech eng mab a thraigain Ierubbaal â'r un gair: *Barn.* ix. 5.

PENNOD XIII.

y dangosir y modd y gorchfygir erlidwyr gwirnedd Duw a'i eglwys trwy y cleddyf yma.

CYNTAF yw yr erlidwr gwaedlyd sydd yn wythu celanedd yn erbyn y saint, ac yn hymlid â thân a ffagoda. Y mae y fath rhedaeth o gewri wedi bod erioed; a hwy ydynt cyhyd ag y byddo gan Satan garydd yn fyw yn y byd, y rhai, pan fyddo eu gallu, er mwyn dal i fyny deyrnas dyll eu tad, ni phetrusant sathru dan eu ed y ser hyny, goleuni pa rai sydd yn oddi i'r byd weled eu herchyll ddrygioni ynt, ac felly yn dwyn perygl ar awdurdial diafol yn meddyliau dynion. Oddi yma cafodd y rhyfeloedd gwaedlyd hyny eu bli, y ffilmiau creulawn o ferthyrdod eu myn, a galanastra ei arfer mor fynych ar saint; ynghyd â llawer dyfais gyfrwys iestig o artheithiau; fel y byddai i'r rhai diwed hyny aros mewn poenau, a chael eu l hyny hwy yng nghrafange angeu; fel y mlent eu hunain yn meirw, megys y dyddodd un yn gasaidd a chreulawn! Yn r, pa ysgolion a ddefnyddia Duw i tingo y mynyddoedd yma o falchder? Pa

le y mae yr arfau sy gan bobl Dduw i wrthwynebu a gorchfygu yr anghenfilod yma o ddynion, sy fel hyn yn gwaradwyddo Duw a'i fyddinoedd? A fyny ti wybod pa le? Yn ddiau, y maent i'w gweled yn nhŵr Dafydd, a adeiladwyd yn dŷ arfau. Gair Duw wyf yn feddwl; yna y mae yn crogi y tarianau a'r bwcedau, y cleddyfau a'r picellau, â pha rai y mae yr ymladdwyr hyn i Dduw wedi amddiffyn eu hunain yn wrol, ym mhob oes yn erbyn cynddaredd erlidwyr, ac hefyd wedi buddugoliaethu yn anrhydeddus ar eu grym a'u gallu cadarnaf. Allan o'r afon yma y codasant eu ceryg llyfnion, â pha rai y tarawsant i lawr y cewri hyn. Y mae y fath yma o elynion yr eglwys yn cael eu gorchfygu ddwy ffordd; naill ai trwy eu truedigaeth ai eu colledigaeth. A gair Duw yw y cleddyf a wna y ddau orchwyl. Mae ganddo ddau fin (*Heb.* iv. 12), ac felly fe dŷr â'r ddwy ochr.

DOSB. I.

Iaf. I'r etholedigion, y rhai, dros amser a thrwy anwybodaeth a rhagfarn, ydynt un â gelynyon y saint, yn ymbleidwyr mor brysus, ac yn erlidwyr mor waedlyd a neb o'r haid. Y mae gair Duw yn gyllell aberth i rwygo eu calonau yn agored, ac i ollngw allan waed poeth a phwdr eu natur, a'u gwnaeth mor gynddeiriog yn erbyn eglwys Dduw; hefyd i'w parotio, trwy effeithiol ras, yn offrwrm cymmeradwy gan Dduw, megys y dengys yr apostol yn rhagorol yn *Rhuf.* xv. 16. Dyma y modd y bu ar leiddiad ein Harglwydd bendigedig: mor rymus y gweithiodd un bregeth i Pedr, gyda hwy, nes y darfu iddynt yn ebrwydd chwydu i fyny eu gwaed, wedi myned mor glaf o hono ag y buont erioed am dano. Wrth un pigiad gan flaen y cleddyf hwn, ni a'u cawn yn gwaeddi am i Dduw eu harbed; i'e, yn taflu i lawr eu harfau erlidgar, ac o'u llwyr fodd yn rhoi eu henwau i mewn yn rhestr ei fyddin ef, yr hwn a laddasant gyda'r fath greulondeb ychydig ddyddiau o'r blaen. Felly y cafodd ynghylch tair mil o honynt, ar yr un tro, eu bedyddio yn ei enw ef: *Act.* ii. 41. I'e, Paul ei hun, yr hwn a allaf alw (fel y mae Erasmus yn galw Awstin cyn ei ddychwelriad), "y morfil mawr," a wnaeth gymmaint o flinder i eglwys Crist: pa fach a gymmerodd Duw i'w daraw yndo, ond y gair? Ni bu gan Grist erioed elyn mwy lliidiog ar y ddaear nag oedd y dyn hwn. Yr oedd ei galon wedi ennynu felly gan gynddaredd yn erbyn y saint, nes oedd y ffrwd boeth yn llifo allan o'i enau, fel o safn ffwrn danllyd, yn chwythu celanedd i'w herbyn pa le bynag yr elai: *Act.* ix. 1. Yn awr, pa arfau heb law pregethiad y gair a ddanfonodd Crist i gymmeryd castell calon y dyn gwaedlyd hwn? Yn Iaf, Y mae Crist ei hun yn ddigyfrwng yn ymafyl yndo, gan bregethu iddo o'i bulpud nefol, y fath bregeth daranllyd ag a

fwriodd i lawr y marchog balch hwn, ac a'i danfonodd yn rhwym mewn cadwynau o ddechrynn, yn garcharor i'w fan hono, lle yr oedd efe yn meddwl rhoddi ereill mewn dalfa. Ac yna fe adawodd ei Ysbryd i ddwyn ym mlaen waith ei ddechweliad, trwy gymhwyso a gwasgu y gair at ei galon; ac mor rymus y gweithiodd arno, efe a ddywed i ni ei hun, "Pan ddaeth y gorchymyn yr adfywiodd pechod, a miunau a fum farw;" *Rhuf.* vii. 9. Hyn yw pan ddaeth y ddeddf trwy argyhoeddiadau yr Ysbryd i chwalo yn yr enaid a gwanu ei gydwybod; yna, fe adfywiodd y chwantau hyn yw oedd yn gorwedd fel llew cysglyd, ac a ruanant yn awr mor ofnadwy yn ei gydwybod ddefroedig, fel y tarawyd ef megys yn farw gan y dychryn. Gwelodd ei hun yn greadur truan condemnedig; a diamhebu y darfuasai am dano yn y llewyg hwnw o fraw ac anobaith, oni buasai i hyfryd newyddion rhad ras gael eu cymmhwyso mewn pryd gan yr un Ysbryd, a thrwy yr un gair, i'w godi yn fyw drachefn i obaith a chysur. Fel hyn y cafodd hwn, gelyn gorwyllt a chreulawn i'r saint, ei ddal a'i ddofti trwy frawiau y gyfraith, a'i gyfnewid a'i adnewyddu drwy dynerwech a thrugaredd yr efengyl, nes aeth mor annhebyg iddo ei hun ag yw oen diniwed i flaidd rheibus. Y mae yn barotach yn awr i roddi ei fywyd ei hun i lawr er amddiffyniad yr efengyl, nag oedd o'r blaen i ddwyn bywydau y rhai a'i proffesent.

DOSE. II.

2il. Y mae erlidwyr y saint yn cael eu gorchfygu pan y dinystrir ac y difethir hwynt. Yn wir os parhânt yn anedifeiriol, ac i ymgaledu yn erbyn gwirioneddau a gweision Duw, dyna y diwedd sydd iddynt o'i i'w ddisgwyl. Y maent yn debyg i anifeiliaid afresymol, y rhai a wnaed i'w dal ac i'w difetha" (2 *Pedr* ii. 12); a hwy a allent wybod ym mlaen llaw sierwydd eu dinystr; ac hefyd pa beth a'i dwg i ben; a hyn yw gair Duw. Gwel *Dad.* xi. 15: "Os ewyllysia neb wneuthur niwed iddynt, y mae tân yn myned allan o'u genau hwy, ac yn difetha eu gelymion; ac os ewyllysia neb eu drygu, fel hyn y mae yn rhaid ei ladd ef." Y mae yn cael ei lefarn am y rhai a feiddiant wrthwynebu ac erlid fyddlawn bregethwyr yr efengyl; y mae tân yn dyfod allan o'u geneuau hwy i'w difetha. Er i erlidwyr gael eu hewyllys ar gyrph y saint i'w cigyddio a'u llogsi; etto fe fydd y gair a bregethiant yn ddinystr iddynt hwythau. Y mae hwnw yn byw ac yn aros yn ol i dalu dyledion y saint; ac i'w dial ar eu gelymion. Llawn fwriad Duw ydyw, mai fel hyn y mae yn rhaid, ac y cânt eu difetha. Y gair sydd i roddi iddynt yr ergyd angeuol. Fe addefodd Julian gymmaint a hyn, tra yr oedd yn gwaedu o'i farwol

archoll. Er mai oddi ar fwa un o wŷr Persi y daethai y saeth yn y frwydr, etto gwybu y adyn mai braich goruchuddynol oedd wedi ei danfon. *Vicisti Galilæ*, ebe efe; "Treul aist fi, O! y Galilead!" Yr oedd ei gydwybod yn tystio iddo, mai ei lid yn erby gwirionedd Crist—y Galilead—a dynasai farn arno. Ac fe ddarfu i lawer un heb la Julian addef yr un peth dan law cyfiawder. Y mae wyneb gair Duw, a ddar iddynt wrthwynebu, wedi ymddangos o blaen fel yn argaffedig ar eu dialeddau. C y mae gan y cleddyf yma—y gair—gy haeddiad pell! Y mae wrth ddwyfron p gelyn i Dduw a'i saint o fewn y byd. I er na fedrant hwy weled yn bresennol o le y daw y perygl arnynt (gan mor gedry galluog, a diogel ydynt, yn ol eu tyb), et gan fod y gair wedi cyhoeddi eu dedf eisoes, fe egr Duw yn ei anser ei hun ry ddrws neu gilydd i ollwng eu distryw nynt. Pan oedd y prophwyd i ddadgan a ddinystr y Philistiaid, yr hwn oedd ar dd fod, craffwech ar ei ddaroganiad (*Zeph.* 5); "Gwae breswylwyr glan y môr; y mae Gair yr Arglwydd i'ch erbyn." Fel pe c wedasai, pobl andwyol ydych; y mae holl fyd yn rhy wan i'ch achub, o herwy y mae Gair yr Arglwydd i'ch erbyn. mae bygythiad y gair fel mellen neu ar boeth, yn deifio pa le bynag yr elo; a'i fedith a ysa wreiddyn a chwbl. Hyn a b odd i saith genedl Canaan syrthio i safn Israeliaid, fel firwyth addefd i safn y net ysgydwo y pren. Yr oedd Gair yr Ar glwydd yn rhoi melldith arnynt wedi m ed o'u blaen, i wneuthur eu gorfodaeth sier a hawdd. Fe wyddai Balac hyn dyna yr achos y buasai efe yn rhoddi cy maint am yehydig eiriau o enau Balaar regi Israel yn enw Duw. Y gwirionedd y er ein bod yn barod i edrych ar benad iaid y byd a'u byddinoedd fel y rhai sy yn rheoli materion y byd; etto nid yd oll ond megys gwybedyn ar yr olwyn. G Duw sydd yn dwyn y feistrolaeth yn y cy a wneir ar chwareufa y byd: "Mi a' th os ais ar y cenhedloedd, ac ar y teyrnaoedd ddiwreiddio ac i dynu i lawr, i adeiladu, i blannu;" *Ier.* i. 10. Yn wir, tir Duw yr holl ddaear; a phwy sydd ganddo awd dod i adeiladu ar ei dir ef, neu dynu i la ond efe ei hunan? Ac yn ei air y mae w rhoddi ei feddwl, pa beth a fŷn ei wneuth i'w elynion ac o blaid ei saint; ac am hy megys y mae y trugareddau a estynir saint yn cael eu derbyn a'u cydnabod grasol gyflawniadau o'r addewid, felly n y barnau a dywelltir ar eu gelymion i'w c rif fel cyflawniadau o fygythion y gair elwir o'r achos hwnw, "Y farn ysgrif edig." Megys y dywedir yn *Salm* cx 9, "I wneuthur arnynt y farn ysgrif edig."

PENNOD XIV.

ngosiad pa fath gleddyf buddugoliaethus yw Gair Duw ar y cyfeiliornwr a'r heretic.

2. GELYN arall i'r Cristion sefyll i'w erbyn yw y cyfeiliornwr; ac y mae hwn mor byddus a'r llall. Nag e, yn yr ystyriaeth a y mae i'w arswydo yn llawer mwy. Ni yr erlidiwr ond lladd y corph, eithr neges cyfeiliornwr yw gwenwyno yr enaid. Vell i ddyng gael ei ladd trwy y cleddyf nwy na chael ei ddal yn fyw (yn ol ymmodd yr apostol) yn y fagl yma o eiddo y fol, yr hon a esyd y rhai hyn a ddfanfond ganddo i faglu eneidiau yn ddirgelaid, yn fynych lle byddo yr amhueaeth i'f am danynt. Pan oedd Paul wedi thio i safn yr erlidiwr, fe fedrai er hyny ynhau a gorfoleddu am ei fod wedi diangeig y llall: "Mi a ymdrechais ymdrech i, mi a orphenais fy ngyrfa, mi a gedwais fydd; o hyn allan rhoddydd coron cyfnder i'w chadw i mi;" 2 *Tim.* iv. 7, 8. Vellwch fel y mae y gŵr sanctaidd yma yn li ei fanerau mewn gorfoledd, fel pe bui y frwydr wedi ei hynladd, a'r dydd di ei ennill; pan oedd ymladd druan ddyng, osod ei ben i lawr ar y blocyn, dan law nyddwr Nero waedlyd, fel y gellwch led yn *adn.* 6; "Myfi yr awr hon a erthir." (Ymadrodd yn bwrw y mae yn byg at ddull y farwolaeth yr oedd efe ar i'w dioddef). Ond fe allai y dywedwch, achos mawr oedd ganddo y prydd hwn i eddi buddugoliaeth, a'i faterion mewn wedd mor enbyddus ac alaethus? Hyn a rodd ei orfoledd, yr oedd wedi cadw y dd; ac yr oedd y cysur o hyny yn drym a ganddo fil o weithiau nag oedd y gofid oddi ei fywyd i lawr. Pe buasai wedi radu y ffydd trwy ofnusrwydd, neu ei ddu ymaith trwy ryw gau athrawiaeth, fuasai wedi colli ei enaid wrth golli hono; d gan ei fod wedi cadw y ffydd, gwyddai d oedd ond yn ymadael a'i fywyd i gael gwel gan Dduw, na'r uu oedd yn cael ei wyn oddi arno gan ddyng. Ni a ddarllenai yn *Dad.* ix. am "locustiaid," a chanant "gyffonau tebyg i ysgorpionau, ac oedd colynau yn eu cynffonau hwy;" n. 10. Y mae Mr. Mede yn barnu mai Saraceniaid a feddylir wrthynt, y rhai fu fflangell ac yn bla mor drwm i ymberaeth Rhufain, yr hon oedd newydd erbyn y grefydd Gristionogol. Barn yr ysgrifenydd dysgedig am y colynau yn cynffonau yw, mai eu hathrawiaeth Farnmetanaidd felddigidig sydd i'w ddeall rthynt; a'r hon y darfu iddynt wenwyno eidiau pa le bynag y daeth eu cleddyf gordol. Y mae yn debyg er fod cleddyf yfel yn llaw gelyn gwaedlyd a chreulawn a farn drom ar genedl, etto fod lledaniaid cyfeiliornadau mellidgedig yn drymach;

dyma y colyn yng nghynffon y farn. Nid wyf yn ammheu na allai llawer o dduwion syrthio drwy gleddyf y gelynyon hyn yn y fath flinfyd cyffredin; ond y rhai oedd heb sel Duw arnynt yn unig a gafodd deimlo y colyn yn y gynffon, trwy gael eu gwenwyno a'u herchyll dwyll; ac am hyny y rhai hyny yn unig a ddywedir eu bod yn cael niwed: *adn.* 4. Ni a allwn gael ein lladd trwy gleddyf gelynyon a bod heb gael niwed; ond nis gallwn yfed eu gau athrawiaeth a dyweddy felly. Yn awr, Gair Duw yw y cleddyf trwy ba un y mae yr Ysbryd yn galluogi y saint i'w hamddiffyn eu hunain yn erbyn y gelynyon hyn; i.e. i ymlid a gorchfygu y dorf ddichellgar yma. Ni a ddarllenwa am Apolos (*Act.* xviii), ei fod yn "gorchfygu yr Iuddewon yn egniol;" yr oedd yn eu taraw i lawr a phwys ei ymresyniad. Ac o ba arfdy y cafodd efe y cleddyf oedd mor llwyddiannus? Gwelwch *adn.* 28: "Gan ddangos drwy yr Ysgrhythyrau, mai Iesu yw y Crist;" ac am hyny dywedir ei fod yn "gadarn yn yr Ysgrhythyrau;" *adn.* 24. Gŵr cadarn o nerth, ac mor fedrus, trwy ei wybodaeth hyddysg o'r gair, fel na allai yr Iuddewon cyfeiliornus sefyll o'i flaen a'r cleddyf yma yn ei law, mwy nag y gall plentyng a dagr bren sefyll yn erbyn cawr yn llawn arfog. Pan yw Paul yn rhybuddio Timotheus i sefyll yn ofalus ar ei amddiffyniad yn erbyn cyfeiliornwr oedd yn rhwydo cynnifer ym mhob man; nis gall feddwl am well cyfarwyddyd iddo i ymgadw o'u gafael na thrwy ei anfon at yr Ysgrhythyrau, a pheri iddo gau ei hun i fyny ynddynt fel mewn tref gaerog (2 *Tim.* iii. 14); "Eithr aros di yn y pethau a ddyysgaist;" ac yn yr adnod nesaf y mae yn egluro ei feddwl, pa addysg oedd yn ei olwg trwy ddyweddy wrtho, iddo "er yn fachgen wybod yn Ysgrhythyr Lân, yr hon oedd yn abl i'w wneuthur ef yn ddoeth i iachawdwr iaeth;" ac yn ganlynol yn ddoethach na'i holl elynion, os ymlynai yn astud wrthi hi. Arfau rhai ereill, y mae yn bossibl i ni ymlwytho â hwy trwy droi a threiglo llawer o awdwyr; ond y mae yr hwn a gafodd afael yn y cleddyf yma, a'i ddysgu gan yr Ysbryd i'w drin, yn ddigon da ei ddarpariaeth at ddal brwydr a'r cyfeiliornwr cadarnaf a fedd y diafol o'i ochr. A dim ond hwn, fe allodd gwragedd gweiniaid ddarfogi doctoriaid mawrion o'u hastudiol resynau; un ymadrodd eglur o'r Beibl oedd yn ddigon i ddyrysu eu holl gelfydd ddadleuaeth. Yn debyg i'r modd y diwynyddiwyd Abimelec y rheolwr mawr hwnnw, gan y wraig a dafodd ddarn o faen melin ar ei ben. Yn yr ystord yma y ceir yr arfau hyny, a ddywed Paul sydd mor "nerthol trwy Dduw yn bwrw dychymmygion i lawr" (2 *Cor.* x. 4, 5), neu ymresyniadau; wrth y rhai y mae un hen awdwr yn barnu mai dadleuon y

philosophyddion Groegaidd a feddylir. Yn wir, y mae y neb y byddo ganddo y Gair o'i ochr, a medrusrwydd duwiol i'w ddefnyddio, yn cael mantais o'r fwyaf ar ei wrthwynebw'r a ddel i'w erbyn mewn arfogaeth arall, er medrusfed ymladdwr a fydd; fel dyn â chleddyf da yn cyfarfod gelyn â dim ond brwynen yn ei law. Y mae ar bob cyfeiliornad arswyd y Gair, a mwy o ofn cael ei holi gan hwnw nag sydd ar leidr o gael ei brofi o flaen barnwr manwl. Y mae dwyn opiniynau hereticiaid i'r goleu yn ddigon i'w baeddu, medd Hieron: dadlwygwech hwynt, neu dygwch y Gair a hwythau wyneb yn wyneb, ac fel Cain hwy a ostyngant eu penau yn eu cywilydd. Dyma yr unig dânbrawf¹ sier, i brofi wrthi opiniynau a ddrwgdybir. Os gallant rodio ar y gyfraith danllyd yma heb niwed, heb eu cerydd, chwi ellwch eu derbyn fel gwirioneddau dilys; ac nid yn amgen. Dywed Paul am rai na "ddioddefant athrawiaeth iachus," 2 *Tim.* iv. 3. Och! pa fodd y gwnânt, pan nad yw eu meddyliau hwy yn iachus? Y mae yn rhy lym ganddynt. Ni all traed afiach gan y gymnalwst rodio ond ar ffordd feddal a ymroddo danynt. Felly rhaid i'r rhai hyn gael athrawiaeth a gydgoridiai â'u mympwy, yr hyn ni wna y Gair, ond yn hytrach eu barnu; a hyn, hwy feddylant, a wna efe yn ddigon buan pan ddel y dydd mawr; am hyny yn awr yr ymngelant gymmaint rhagddo, fel na phoenai hwynt cyn eu hamser. Yn y modd yma, y Cwaceriaid, y mae ganddynt eu cynllwynfa i redeg iddi oddi ar ffordd y Beibl; wrth frawlde pa un hwy a wyddant y condemnid eu hopiniynau yn ddiammheu; ac am hyny hwy a appeliant at arall, lle y gallent gael gwrandawriad mwy tyner; a hwnw yw y goleuni oddi mewn; neu mewn Cymraeg eglur, eu cydwylbod naturiol; barnwr y gwyddys yn dda ei fod yn llygredig ac yn hawdd ei wro â gwobrw'y i ddywedyd yn fynych yr hyn a ddymunai chwantau dynion. Och! greaduriaid trauin, y fath gyfnewidiad athrist a wnaethant! Gadael y Gair, sydd yn rheol union o ffydd, yn ddiwyll, ac yn ddigel-wydd fel Duw ei hun, i ymddiried am eu tywysiad eu hunain iddynt eu hunain! Arweinydd mwy anwybodus, hurt, ac ansfyddlawn, ni fedrasai y diafol ei hunan ddewis iddynt. Y neb sydd yn ddysgawdrw iddo ei hun, medd Bernard, fe fydd yn sier o gael ynsfyd yn feistr. Ac fe ddywed Solomon, ie, un mwy na Solomon—Duw ei hun trwy Solomon—"Ffordd yr ynsfyd sydd uniawn yn ei olwg ei hun; ond y neb a wrandawo ar gyngor sydd gall;" *Diar.* xii. 15. Callaf

¹ Math o brawf a arferid gynt ar y neb a dybid yn euog o ddrwgweithred. Os cerddai dan orchudd ac yn droednoeth dros naw o sychau poethion heb gael niwed, fe'i cyfrifid yn ddiueog; os amgen, yn euog.

ynte yw hwnw a gymmero air Duw y gynghorwr iddo. Y Pabydd hefyd, y mae ganddo yntau ei ddyryslwyn a'i loches wrt ei gefn—hynafiaeth a thraddodiadau, lle ffy am noddfa rhag gwyneb yr Ysgrhyth fel Adda i fysg prenau yr ardd, pan ddaw Duw dan rodio ato. Fel pe byddai unrhy hynafiaeth mor ddilys ag oraclau Duw hun, neu unrhyw draddodiadau dynol y gydbwys â'r Ysgrhyth. I enwi ond un y chwang—y Sosiniad—y mae hwn yn y gastellu yn ei reswm balch ei hun, ac y cymmeryd y fath rwyg arno, fel y myn i'r Ysgrhythr ddyfod at ei reswm, fel gallai roddi ei ystyr arni yn lle plygu i threfniad hi. Y mae yn rhaid iddo gacrefydd ac Ysgrhythr a attebo i'r darlunio a dynir gan ei reswm, oiid e, ni fyn un honynt. Dyma wreiddyn lawer o gyfe iornadau a heresiau anferth, fel y rhai dywed Tertulian am danynt, a fyne forthwlyo Cristionogaeth ar einging doethion cenhedlig. Pa beth yw hyn, o myned âg aur i'w bwysyo yng nghloriant y canwyllwr, ac edrych am yr haul wr oleuni y lleuad? Duwinydd diweddar ddywed fod heresiau yn gyffredin yn tardoddi wrth falchder, anwybodaeth, neu gyrrws ddadleuaeth rheswm. Yr olaf o'r rh hyn, dybygidd, yw y graig y darfu i Paul hun graffu ar rai yn cael eu dryllio arni, yn "cyfeiliorni o ran y ffydd;" 1 *Tim.* v. 21. Ac am hyny y mae efe mor gareddig yn cynghori Timotheus i ymgadw rhag bâte peryglus yma, a llywio ei lestr wrth Gair, *adm.* 20: "O Timotheus, cadw yr h a roddwyd i'w gadw atat," &c. Wrth hyn a roddwyd i'w gadw ato, nid wyf fi deall ond yr un peth a ffurf yr ymadroddion iachus, y mae efe yn ei annog i'w chadw yn yr ail epistol; *pen.* i. 13.

Gwrth. Ond yr ydym yn gweled hereticiaid yn dyfynu Ysgrhythr o blaid eu cyfe iornadau anferthaf, ac yn tynu y cledd yma er eu hamddiffyniad yn gystal a'r rh uniawn gred. Pa fodd ynte y mae yn offi yn ac yn beiriant mor nerthol yn erby cyfeiliornad?

At. Pa beth ni faidd dynion o benau cyrrws, calonau llygredig, a gwynebau hyfi ei wneuthur er dwyn y mlaen eu hymblediad drygionus; pan unwaith y byddant wepleidid cyfeiliornad, neu ryw ffordd bechawrus? Y mae Corah a'i gynulleidfa annuoiol yn beiddid dywedyd fod yr Arglwydd, e mysg, a bod ganddynt hawl i'r officiriaeth gystal ag Aaron ei hun, oedd wedi eneinio â'r olew sanctaidd: *Num.* xvi. Ac nid yw Sedeciah, y gwenieithwr maw hwnw, yn ofni tadu ei gelwydd ar Dduw gwirionedd ei hun (1 *Bren.* xxii. 11): "E a wnaeth iddo gyrr heigr, ac a ddywe odd, Fel hyn y dywedodd yr Arglwydd â'r rhai hyn y corni di y Syriaid, nes i ti

a hwynt;" ac er nad oedd Duw wedi dydd dim o'r fath beth. Nid rhyfedd yntegweled ereill yn gosod eu hil fastardaidd th ddrws Duw, ac yn gwaeddi fod gan ynt Ysgrhythyr o'u hochr. Trwy i digwydd-dra yma hwy a allant dwyllo eneidhygoel i goelio yr hyn a ddywedant; fel all hocedwr ysbeilio pyrswau y rhai anbodus, trwy ddangos iddynt rywbeth ysg i sel fawr y brenin wedi ei wneuthur i ei law ei hun. Iô, fe all Duw ddiodesf lynt hudo ereill, o ddeall a chyrrhaeddau uwch, fel cyfiawn farni arnynt am thryfela yn erbyn goleuni eu cydwybod-eu hunain. Megys y caledwyd Pharaoh fwy trwy wyrthiau gau y swynwyr yn ynn cydsynio â chais Moses. Ac felly bleidwyr anghrist (2 *The*. ii. 10, 11); rhai "am na dderbyniasant gariad i gwirredd, fel y byddent gadwedig; am hyny lanfonwyd gan Dduw iddynt amrffusedd barn, fel y credent gelwydd." Ond eneidt syml a chwiliant am wirionedd yn osagedig, ac heb amcanion ereill yn eu hymniziad am dano, ond adnabod ewyllys iaw, ac ufuddhau iddo; hwy a gânt ar eu er weddiâu at Dduw, oleuni tra eglur ynwynu iddynt o'r Gair, i'w harwain yn iogel heibio i'r dyfnybllau o gyfeiliornau damniol; tra y mae ereill ág ochr dyll y cwmml yma atynt, ac felly yn rthio iddynt. "Dechreuad doethineb yw n yr Arglwydd; deall da sydd gan y rhai wnânt ei orchymynion ef;" *Salm* cxi. 10. llwynog, hwy a ddywedant, pan wasger a galed arno, a red yn gyfrwys gyda'r cwn n hela fel un o honynt; ond yna draefn y mae y sawyr cryf nas gall ei adael ol, yn ei wneuthur yn amlwg. Felly reticiaid, i guddio eu cyfeiliornadau, hwy u gwrthiant i mewn ym mysg gwirioneddau Ysgrhythrol; a thrwy eu hymddangosdau teg, a'u deongliadau gau, gwnânt dynt ymdangos fel rhai o'u nifer; ond s gallant bereiddio eu hopiniynau pwdr, l na bydd eu sawyr ddrewedig yn cael ei rogl a'i adnabod gan y rhai a allant arfer i synwyrâu. Ni bu heretic erioed ar ei unill wrth appello at yr Ysgrhythyrau. Yr yn a ddywed Crist ar achos arall (*Mat*. xvi. 52); "Paw a'r a gymmerant gleddyf ddfifethir â chleddyf;" fe ddeil yn wir own am bob hereticiaid; y cleddyf hwnw, Gair, a godant hwy er eu hamddiffyniad, ydd yn wastad yn eu rhoddi yn eu cywildd a'u celwydd.

PENNOD XV.

Bin trwydd gelyn sydd yn fyddin gusan o lygr-edigaethau a chwantau oddi mewn; ynghyd a gailu cleddyf yr Ysbryd i'w gorchiygu.

3ydd. EIN chwantau ein hunain yw y

fyddin nesaf sydd i'w gwrthsefyll. Felly po bellaf yr elom, gwaethaf yw y gelyn a gyfarfyddwn. Y mae y rhai hyn yn fwy i'w hofni na'r lleill oll ynghyd. Mewn rhan am eu bod oddi mewn i ni, yn dylwyth ein tŷ, chwantau ein mynwes ein hun, yn codi i'n herbyn; ac mewn rhan am eu bod yn dal cwsmeriaeth â gelyn oddi allan—y difol ei hunan—yr hwn megys y cuodd efe ddyn ar y cyntaf â'i asen ei hun, felly y mae yn parhau i wneuthur i ni y niwed mwyaf â'n cnawd ein hun. Y mae tâu ein chwantau yn eiddom ni; ond efe yn gyffredin bia y fflam; am mai ei demtasiynau ef yw y fegin sydd yn eu chwythu i fyny. A phan gyfarfyddo y fath dân â'r fath wynt cryf i'w yru ar led, i ba le y cyrrhaedd? O! mor anhawdd yw ei attal a'i ddiffodd! Y mae mor hawdd bwrw lleng gyfan o gythreuliaid allan o'r corph ag un chwant allan o'r enaid; i.e, yn hawddach. Y mae yn fwy hoff gan Satan ei letty yn y galon nag yn y tŷ; ac y mae yn anhawddach ganddo ei adael. Fe aeth yn fwy ewyllysgar allan o'r dyn i'r moch (*Mat*. viii. 31); am ei fod yn gobeithio trwy adael ei gorph, ac ymfoddolou dros dro ar dŷ gwaelach (y moch wyf yn feddwl), y byddai hyny yn ffordd iddo gael llawnach meddiant o eneidiau pobl yr ardal. Ac yn wir felly y cafodd, gan i Grist adael i'w reolaeth ef yn dra chyfiawn, y rhai oedd yn blino mor fuan ar ei gyfeillach fendigedig ei hun. Yn awr, y Gair yw yr unig arf (fel cleddyf Goliath) nid oes mo'i fath am dori i lawr, a thori ymaith, y gelyn ystyfnig yma. Fe ddichon gair Duw feistrolu ein chwantau pan fyddant yn eu grym a'u rhwysg. Os yw y chwant yn fwy gorwyllt un amser na'r llall, dyna y pryd, pan fydd gwaed ieuengctyd yn berwi yn ein gwythienau. Y mae ieuengctyd yn nwydwyllt, a chwant y pryd hwnw yn enyn yn angerddol. Y mae yn haul yn dringo yn uwch uwch, ac ni feddyliwn fod llawer rhyngom a'r nos. Felly rhaid ei bod yn fraich gre a dyno wr ieuange oddi wrth ei chwantau, un sydd â'i archwaeth yn fwyaf bywiog at flasu mwyniant anianol. Y mae ganddo rym a chryfder i sugno mwy o hyfrydwch y cnawd nag a ddichon henaint methodig; ac y mae ym mbellach (yn ol ei feddwl) allan o gyrrhaedd ergyd angen, na hen bobl sydd ar derfynau y bedd, ac yn dwyn arogl y ddaear i'w canlyn; i ba un y byddant yn sier o ymollwg ar fyrder. Ond os cyferfydd gair Duw â'r gŵr hoyw yma yn ei holl wychder, uwch ben ei wledd o fwyniant anianol, a sisial ond ychydig sillaffau yn ei glust, rhoddi ond pigiad i'w gydwybod â blaen ei gleddyf, efe a wna iddo ffoi oddi wrthynt oll mewn cymmaint brys ag y ffôd brodyr Absalom oddi wrth eu gwledd, pan welsant eu brawd Amnon wedi ei ladd wrth y bwrdd. Pan yw Dafydd yn rhoddi cyngor i'r gŵr

ieuange rhag afiechyd ei chwantau (nid un, ond y cwbl), pa fodd i lanhau ei holl yrfa a'i lwybr, y mae yn peri iddo yn unig "ymolchi yn yr Iorddonen hon" (*Salm* cxix. 9); "Pa fodd y glanhâ llange ei lwybr? Wrth ymgadw yn ol dy air di." Fe'i gelwir yn "wialen ei nerth ef;" *Salm* cx. Trwy wialen yn llaw Moses, fel y gwyrddom, y gwnaeth Duw y gwyrtiaid mawrion hyny i ddwyn plâu ar yr Aiphtiaid, a gwaredu yr Israeliaid; trwy hono y dofodd efe Pharaoh falch, gan beri iddo ef a'i bobl o'r diwedd ollwng Israel o'u gafael; ïe, mewn ystyriaeth, eu gwrthio o'u maysg, a bod mor awyddus am eu lle ag oeddynt o'r blaen am eu cymdeithas. Trwy hono yr agorodd efe ffordd i Israel yng nghanol y môr, ac y gorchuddiodd yr Aiphtiaid yn ei donau. Trwy hono yr holltodd y graig. A thrwy y wialen yma—ei air—y mae yn gwneuthur gwyrtiaid mor fawr a'r rhai hyn ar eneidiau dynion. Trwy hon y mae yn taraw eu cydwybodau, yn hollti creigiau eu calonau celyd, yn gwahanu tonau eu chwantau, ac yn rhyddhau pechaduriaid trauin oddi dan law pechod a Satan. Methu o hyd yr oedd Awstin ag ymddadrys oddi wrth ei chwantau nes y clybu y llais hwnw, *Tolle lege, tolle lege*—cymmer a darllen; yr hyn a barodd iddo (fel y dywed yn ei *Llyfr Cyffes*) yn ebrwydd gymmeryd y Beibl i fyny; a phan gyntaf y darllenodd yr un lle hwnw y trowyd ei lygaid ato (*Rhuf.* xiii), fe ysgydwodd holl alluoedd ei enaid fel daeargryn nerthol, nes agor drysau carchar ei galon yn y fan. Cadwynau y chwantau hyny nas gallai ei rym a'i allu o'r blaen eu llifo ymaith, yn awr a syrthiasant ymaith, ac yntau a ddull newidiwyd yn rhyfeddol. Y pechodau ag yr oedd arno o'r blaen ofn eu gadael, yn awr ei lawenydd oedd eu hymlid ymaith. Ni bu dyn erioedd, wrth ei gyffes ei hun, yn fwy o gaethwas i'w chwantau, nac yn rhwym wrthynt â chryfach cadwyn o hoffder nag oedd efe. Dywed ei fod yn ymdreiglo yn nhom ei ffaidd chwantau, fel pe buasant wely o bêrlyisiau, neu yr enaid gwerthfawrocaf. Etto yr un gair hwnw a ddaeth gyda'r fath rym awdurdodol ato, fel y rhwygodd hwynt allan o afael ei galon, ac y trôdd ei gariad yn gasineb greddfoll atynt; er y buasai o'r blaen yn haws ganddo ddiodeff tynu ei galon o'i fynwes, na thynu y rhai hyn o'i galon. Ac megys mai y gair yw yr arf trwy yr hwn y mae efe â llaw gref yn gwaredu pechaduriaid druain oddi dan awdurdod diafol a pechod i gyflwr o ryddid, felly fe wna ddefnyddio o hono i amddiffyn ei saint rhag yr holl ystymydd canlynol o demtasiynau a gyfyd Satan, wrth geisio ail ennill y deyrnas a gollodd. Yn wir, y teyrnas oedd a ennillwyd trwy y cleddyf, trwy y cleddyf y mae yn rhaid eu cadw. Fe ddywed Dafydd, y modd yr oedd ef yn cadw gyliadwriaeth,

ac yn sefyll ei dir yn erbyn ei elyn (*Salm* xvii. 4); "Tuag at am weithredoedd dion, wrth eiriau dy wefusau yr ymgedv rhag llwybrau yr ysbeilydd," fel pe dywasai, A fyned di wybod pa fodd y mae, mod i yn diange oddi wrth y ffyrdd a'r ferion drygionus y mae dynion yn gyffre yn cymmeryd rhyddid i'w ddilyn? Rl i mi ei gyfrif i ddaionus air Duw; dyma nghyngorwr i, a thrwyddo y'm cedwir i y ffyrdd byrntion, i'r rhai y mae ereill ddefnyddiant y gair er eu hamddiffyniad cael eu llusgo gan Satan—dinystrwydd dyryw. A allwn fyned yn erbyn Satan a phe od gyda gwell arf nag a ddefnyddiodd Criorchfygu y temtiwr? Yn wir, gwnaeth C hyny mewn ffordd o esamp, i ddangos pa fath arfau a ddylem wisgo i'w wrthsef O herwydd pe gwelsai hyny yn dda, fe asai Crist ág un pelydr o'i dduwdod dan yr ysbyrd aflan i lawr wrth ei droed, i hawdd ag y gwnaeth hyny wedi hyny rhai a ddaeth i'w ddal ef. Ond fe ddeydd odd yn hytrach guddio ei fawrhydi dwy a gadael i Satan ddyfod yn nes ato, fe byddai iddo ei orchfygu a'r Gair, a rho i'w saint trwy hyny brawf o ddefnyddio y cleddyf oedd efe ar ei adael iddynt er hamddiffyniad yn erbyn yr un gelyn. osodir y diafol allan drwy y lesiathan (*Lxxvii.* 1) hwnw y mae Duw yn bygwth gospi â'i gleddyf caled. Bwrw y mae bygythiad mewn cyfelybiaeth at y pysg yn mawr hwnw—y morfil—yr hwn nid yn ofni un pysgodyn fel y cleddyf-bygan yr hwn y mae y difawr mawr hwnw cael ei ladd mor fynych; o herwydd w cael un pigiad gan ei gleddyf efe a brystua'r lân ac a ymgura i'w herbryn nes trenga. Felly y diafol, difawr mawr eneiau, sydd yn chwareu ym môr y byd y fel y lesiathan yn y dyfroedd, ac yn llyng y rhan fwyaf o ddynolryw, heb allu yndd i'w wrthsefyll; y mae yntau yn cael orchfygu trwy y Gair. Pan y bydd iddwnelo â Christian wedi ei arfogi a'r cleddyf yma, a'i ddsygu pa fodd i'w drin, y pi hwnw, ac nid cyn hyny y mae yn cyfarfâg un a all ei wynebu.

PENNOD XVI.

Y pedwerydd gelyn a'r olaf sydd i'r Cristion wrthsefyll—byddin losog o gystuddiau, ynghl â'r oruchafiaeth a ennillir arnynt trwy y cleddyf yma, y gair.

Yn bedwerydd, Gelyn arall a gyferfydd Cristion ydyw byddin wedi ei gwneuthur fyny o lawer mintai o gystuddiau, oddi mae ac oddi allan; y naill weithiau, a'r llall br arall, yn ymosod arno; ïe, yn fynych, i gyfan o honynt yn cyd-dywallt eu hergydi arno. Hyn oedd cyflwr Paul; "Oddi all

r oedd ymladdau; oddi fewn ofnau;" *Cor.* vii. 5. Yr oedd efe yn dioddef ymrych cryf o gystuddiau allanol, a chernodau oddi fewn i'w fynwes ar yr un pryd; ac a thrist yn wir yw yr helynt pan fydd dinas ar dân oddi mewn, a gelyn yn curo ar ei murau yr un pryd. Etto, hyn yn fynych yw boelbren y goreu o'r saint—cael gwialen Duw ar eu cefnau, a cheryddon oddi wrth Dduw ar eu hysbrydoedd ar unwaith: "Pan gopit llyn a cheryddon am anwiredd, dattodit i'w gwyfyn ei arderchogrydd ef;" *Salm* cxxix. 11. Y mae Duw weithiau yn cerddu a' chroesau allanol, ond yn gwenu newn llewyrchiadau tumewnol; ac yna y mae yn fflangellu megys â gwialen o flodau peraidd; y mae y naill yn melysu ac yn ysgafnhau y llall. Bryd arall, fe ddenfyn groes a gwg yn gynnwysedig ynddi. Y mae yn fflangellu â chystudd allanol; ac fel tad digllawn, gyda phob gwialenod a ddyry i'w blentyn yn dywedyd wrtho, am y bai yma y mae hon, ac am hwn acw y mae y llall; yr hwn sydd yn chwaneigad dirfawr at lymder y cerydd; i.e. hwn yw y cwlwm ar y fflangell—gweled ei dad wedi anfodloni cymmaint wrtho. A phan fyddo y Cristion druan yn gorwedd fel hyn dan law gystuddiol Duw, neu dan ei geryddon gwgus, nid hir y gedy Satan lonyddwch iddo, neu y bydd yn fyr o dafu ei halen neu ei winegr i'r archollion a wnaeth Duw yn ei gnawd neu ei ysbryd; fel y byddai iddo trwy hynny ei arwain ym mhellach i brofedigaeth, os caiff ond ei ewyllys. Yn wir y mae Duw yn fynych yn danfon lliaws o amryw gystuddiau i lettya gyda rhyw un Cristion, fel y mae yn dŷn arno eu croesawu hwy oll a'u derbyn yn amyneddgar. Ac (oddi eithr y neb a wŷr y gwasanaeth a wna gair Duw i'r Cristion, a'r cynnorthwyon a dddwg i mewn iddo) fe allai ddyrysus unrhyw ddyw cyn dirnad pa fodd y mae ei ysbryd yn cael ei gynnal, a'i ffydd heb ei llwyr ddifa a'i llyngcu ganddynt i anobaith. Ond gair Duw, hwn sy'n dwyn ei holl draul ef. Hwn yw ei gynghorwr a'i gysurwr. Fe ddywed Dafydd i ni yn groyw, mai hwn a gadwodd ei fywyd ef: "Oni bai bod dy ddedd yn hyfrydwch i mi, darfuasai yna am danaf yn fy nghystudd;" *Salm* cxix. 92. Y gair oedd ei Abisag ysbrydol ef; oddi wrtho yr oedd ei enaid yn cael ei holl gynnhesrwydd. Pe cawsai holl fwyniant y byd ei dryy arno, oer fuasai ei galon ef er hynny, oni buasai i'r gair orwedd yn ei fynwes i'w ddwyn i wres tyner o dufewnol heddwch a chysur; *adn.* 50 o'r un *Salm*: "Dyma fy nghysur yn fy nghystudd; canys dy air di a'm bywhaodd i." Nid y goron mewn disgwyliad (er y meddylir mai cyn dyfod i'r orsedd yr ysgrifenydd y *Salm* hon), ond y gair yn ei galon i oedd yn dwyn ei gysur iddo. Y mae gair o addewid i'r enaid tlawd ar y fath amser yn fwy angen-

rheidiol nag yw dillad cynnhes i'r corph ar hin oer. Pan fwriwyd Adda yn ei ryndod allan o baradwys i awelon oerion y byd helbulus, lle y byddai yn sicr o gyfarfod â digon o flinderau oddi wrth ei gydwybod ei hun oddi fewn, a chroesau oddi allan; yr oedd Duw wedi rhoddi iddo air o addewid i amddiffyn ei enaid, cyn dysgu iddo wneud peisiau i guddio ei gorph, fel y gellwch weld wrth gymharu *Gen.* iii. 15 âg *adn.* 21. Fe wyddai Duw yn gwbl dda mor anheborol angenrheidiol oedd gair o addewid i'w gadw rhag myned eilwaith yn ysglyfaeth i ddiabol; a rhag cael ei lyngcu i fyny gan yr olwg ar y drygau a'r gofidiau, i ba rai yr oedd wedi taflu ei hunan a'i hiliogroeth; ac am hynny ni adawodd mo hono dros ddiwrnod yn noeth o flaen pwys eu hymgyrchiadau; ond yn ddiaros y mae yn rhoddi cleddyf yr addewid yn ei law, fel y gallai amddiffyn ei hun âg ef, a diddanu ei galon athrist yng nghanol ei holl flinderau. Fe ddywedodd un gwr dwiol, ar ol i Dduw wneuthur y lle melus hwnw, *Mat.* xi. 28, yn foddion i'w waredu o garchar euogrydd, a'i ddwyn i fwynhau heddwch a chysur tufewnol, y byddai yn well ganddo fod heb fywyd, diod, goleu, awyr, daear, bywyd a chwbl, na bod heb yr un Ysgrhythr ddidanus hon. Os yw dim ond un addewid fel twysen o fŷd wedi ei rhwbio yn llaw ffydd a'i chymmhwysu gan Ysbryd Crist yn gallu rhoddi y fath bryd helaeth digonol i enaid newynllyd a nychlyd, O! pa bris a roddwn ni ar faes helaeth y Beibl sydd cyn llawned o addewidion ym mhob modd mor gysurrol a hon! Y mae cariad yn ddyfeisgar, ac yn gosod y pen ar waith i ddychymmygu enwau ar y neb a hoffwn yn fawr—y fath enwau ag a fyddo yn dadgan y bri sy genym arnynt ac hefyd yn cryfhau ein hoffder atynt, trwy fod eu teitlau yn arwyddocaol o'r rhinweddau a feddyliwn sydd ynddynt. Felly y mae llawer o bobl dduwiol wedi canmawl yr addewidion wrthym ni mewn enwau o urddas. Rhoddion llythyr cymym i'r saint; bronau Duw, yn llawn laeth o ras a chysur; planc y saint i nofio arno i'r nef. Yn wir, gallem ddiog y byd o'i holl dlysau a'u crogi wrth glust yr addewid, sef cyfrif i'r addewidion yr holl ragoriaethau yr ymfrostia y byd o honynt. Y mae mwy o gyfoeth a thrysorau i'w cael mewn un addewid nag a dâl holl aur ac arian yr India: addewidion mawr iawn a gwerthfawr ydynt: 2 *Pedr.* i. 3. Drwydddynt hwy, fe ddechion y credadyn tlawd honi hawl i'r nef a'r ddaear ar unwaith; canys y mae i dduwioldeb addewid o'r bywyd sydd yr awr hon ac o'r hwn a fydd. Ond y rhagoriaeth y canmolwn hwynt o'i herwydd yma, yw y gwasanaeth rhyfeddol a wnânt, a'r cynnorthwa a ddygant i enaid tlawd yn nydd ei gyfyngder mwyaf. Y rhai hyn yw yr ystordai o ysbrydol ddar-

pariaeth, â'r hwn y mae ein Ioseph ni, ein hanwyl Arglwydd Iesu, yn porthi ac yn cadw yn fyw ei frodyr yn amser newyn. Y cwch o felusder ydynt, lle y mae yr enaid crediniol yng ngauaf ac'yd (pryd na byddo dim i'w gael ym rhyllith y creaduriaid), yn cael llechu yn dawel a byw yn helaeth ar yr ystôr o gysuron sydd yno yng nghadw. Mewn gair, y porthladdoedd prydferth a'r angorfa gyfleus, lle y try yr enaid temtedig ei lestr fregus, a'r lle y caiff orwedd yn ddiogel hyd nes y chwalo y cymmylan, ac y tawelo yr ystôr a gyfyd byd, pechod, a Satan i'w erbyn. Ie, pan fyddo anghau ei hun yn nesau ac na byddo gan y diafol ond un cais chwaneig am y gamp, un ysgarmes yn ôl i gael neu gollu y fuddugoliaeth am byth; y pryd hyny, ffydd yn yr addewid a ddwng enaid y Cristion allan o amddiffynfa ei gorff (ar ôl yr amgylchyniad tost) â baner yn eheffan, ac â llawen floedd gorfoledd i'r nef, heb dael ond ei gnawd ar ôl dan law anghau; a hwnw hefyd mewn sicr oibaith o ymwaredd iddo oddi tan ei awdurdod ef cyn y byddo hir, yn nydd yr adgyfodiad ac adferiad pob peth.

PENNOD XVII.

Cyhuddiad o ryfif hynod a chreulondeb mawr yn erbyn Eglwys Rhufain am ddiarfogi y bobl o'r cleddyf yma, yr Ysgrhythrau.

Defn. 1. Ai y gair ydyw cleddyf yr Ysbryd â pha un y mae yn gorchfygu ei elynion? Yna gallwn yn gyfiawn gyhuddo Eglwys Rhufain o greulondeb at eneidiau y bobl, wrth eu diarfogi o'r arf hwn, â pha un yn unig y gallant amddiffyn eu hunain yn erbyn eu gelynyon sydd yn ceisio am eu tragwyddol ddiynstr. Gwir yw, y maeganddynt ryw ddail ffygys, â pha rai yr ewyllsiant gysgodi yr arferiad gwylyddus yma. Mynent i'r byd greu mai mewn tosturi at y bobl y gwnânt hyn, rhag iddynt dori eu bysedd ac archolli eu hunain â'r arf yma. Yr ydym yn gwled (meddant) y fath nifer o gyfeiliornadau a heresiau sydd yn heidio yn y byd trwy gamgymeriadau y cyffredin; i.e., Pedr ei hunan hwy feiddiant ei wysio fel tyst o'u hochr, yr hwn a ddywed fod rhyw bethau anhawdd eu deall yn epistolau Paul, "y rhai y mae yr anwastad a'r annysgedig yn eu gŵyrdroi, megys yr Ysgrhythrau ereill, i'w dinystr eu hunain;" 2 Pedr iii. 16. Ac am hyny, y Beibl, sy mor beryglus i bobl gyffredin ymyraeth âg ef, barnant mai y ffordd fwyaf diogel ydyw ei gadw allan o'u cyrhaedd; fel y cadwn ni gleddyf neu arf miniog oddi ar ffordd y plant, er cymmaint fyddo eu cri am dano. Gwelwch y fath faeg hardd a dynant dros law mor fudr. Ond a ddarfau i Pedr, am fod

rhai annysgedig ac anwastad yn gŵyrdroi Ysgrhythrau, wahardd iddynt hwy neu ry rai ereill, er gwaned fyddont, ddarllen y Ysgrhythrau. Buasai hyn yn dwyn yndd bwys yn wir. Ond i'r gwrthwyneb yr ym yn cael: o blegid yn yr adnodau nesau y cyngor a rydd efe i Gristionogion, rhai eu harwain ymaith trwy amryfusedd yr a nuwiol yw, cynnyddwch mewn gras a gw bodoeth ein Arglwydd a'n Iachawdwr Iesu Grist. Goleuni yw y cerbyd sydd yn dwy dylanwadau yr haul i'r ddaear: felly Crist sydd yn dwyn dylanwadau ei ras i'w gallyn i'r enaid. A pha fodd yr oedd Pedr y meddwl iddynt gynnyddu mewn gwybodaeth o Grist, os na fynai iddynt ddarllen Beibl, yr unig lyfr sydd yn dysgu hyny y iawn? Eithr y Pabyddion a fyneant gan e pobl ddyysgu gwybodaeth o Grist trwy e pregethiad hwy, ac nid trwy yr Ysgrhythrau, â pha rai nis gallent gyfeillachu mor dd berygl.

1af. Pa fodd y gwyddant yn sicr fod y hyn a bregethant hwy yn wir, os na bydd Beibl ganddynt, at ba un megys y gwir fae prawf y gallant ddwyn eu hathrawiaeth i'r phrosi? Dyma fel y gwnaeth y Bereaid phregeth Paul (*Act.* xvii. 11), cystal pregethwr, mi feddyliwn, a neb a feddant hwy thau.

2il. Pe caniatem eu bod yn pregethu gwir, a allant hwy sicrhau na chaiff eu geiriau hwy mo'u gŵyrdroi a'u camddeall gan eu gwrandawyr? Ac os na allant, pa hysur y goddefir hwy ynte i bregethu mewn iaith gyffredin, pan y mae gair Duw o herwydd yr un rheswm yn waharddedig i'w ddarllen gan y bobl yn iaith eu gwlad? Yn ddiar yr wyf o'r un farn a'r gwr ddysgedig a ddywedodd, "Os na chaiff Duw ei hun genad lesaru mewn iaith gyffredin, llawer llai reswm a welaf fi i fonach gael; ac felly i bobl fod heb wybod dim yn y byd ar Grist?" Mr. Mede ar *Ier.* x. 11. Na: gwir reswm pa ham y gwaharddant ddarllen y Beibl yw, nid i'w cadw rhag cyfeiliornadau a heresiau, ond i'w cadw rhag cael fod y rhai a wthiant hwy eu hunain arny. Y fath sothach ag sydd ar werth ganddyn hwy, nid a'i byth oddi ar eu llaw yn hwylyd oni bai eu bod fel hyn yn cadw eu siop y dywyll. Yr hyn a barodd i un o'u penfoc iaidd gwyno mor chwerw o achos direidi Luther hwnw, a anafodd eu marchnad, ga ddywedyd, Oni buasai hwnw y gallasen berswadio yr Ellmyn (pobl Germani) i fwyt gwair. Fe wna ryweth y tro gan ddy dall. Nid wyf fi yn rhyfeddu fod eu pot wedi eu meithrin fel hyn mewn anwybodaeth, yn cofeiddio eu hofereidd mor barod, a yn credu eu dychymmygion ffugiol mor by derus. Mae yn rhaid i'r dall naill ai eisiedd yn llonydd ai myned lle y gwelo y arweinydd yn dda. Yr ydym yn darllen au

ddin gyfan, ar ol unwaith eu taraw â allineb, yn cael eu tywys allan o'u ffordd un ddim ond un dyn â llygaid yn ei ben (*Bren.* vi). Ond y mae hyn yn beth i'w feddu fod dynion a wyddant yr Ysgrhythr (fel y gŵyr llawer o'u blaenoriaid hwy), dynion a addefant ei dwyfol darddiad hi, a beiddio mor hyf a digywilydd ag attal y wthyr hwn a ddanfonodd y Duw mawr at ibion dynion; a nacau iddynt (oddi eithr chydig a welant hwy yn dda) gael edrych no, er ei fod wedi ei gyfarwyddo a'i anfon an Dduw ei hun, nid at un blaid neu fath bobl, ond at bob dyn lle y delo (*Rhuf.* i. 2 *Cor.* i. 1. Dyna ddarn o ddigywilydd-a nas gellir cael ei gymhar. I ba ddi-n a y gwneir cyfreithiau, ond i'w rhoddi ar rhoedd; neu y cafodd y Beibl ei ysgrifenu, ond i'w ddarllen a'i wybod gan ddyn. Yr yf yn sier fod yr apostol, â'r awdurdod; yr ysgrifennodd ei epistolau drwyddo, yn gorchymyn eu darllen yn yr eglwysi: *Col.* 16. Ac a ddarfu i weinidogion yr eglwysi hyny eu cadw a'u celu o olwg y bobl ag iddynt eu gŵyrdroi a myned yn heret-icid? Y mae yn rhy wir fod rhai yn awswyro yr Ysgrhythrau i'w dinystr eu rhain; ac felly y mae rhai o ddiffyg gofal rth fwyta yn tagu eu hunain â'u bara. A id i bawb o achos hyny newynu rhag ofn i'w tagu? Mae rhai yn archolli eu hunain yn cyfeillion â'u harfau, a raid i'r holl fyddin i'w cyfeilio gael eu diarfogi, a dim ond chydig o'r swyddogion penaf yn cael can-tâdi wisgo cleddyf? Yn ddiu, os ydyw on yn ddadl ddigon cref i selio y Beibl i'w tagu cael ei ddarllen, mae achos ei gadw, nid i unig rhag y fath waelaf a mwyaf di-lysg, ond hefyd rhag y dysgawdwy'r a'r if ddoctoriaid; o blegid y mae yr heres- u bryntaf wedi magu yn y penau gwych- r. Y mae cyfeiliornadau anferth wedi rddu oddi wrth gyfrwys ddadlyddiaeth riu, yn gystal ag oddi wrth anwybodaeth etius, fel mai diwedd y cwbl fydd hyn, id oes i'r annysgedigion ddarllen y Beibl, herwydd y gallant ei drawswyro drwy an- wybodaeth; nac i'r dysgedigion, o herwydd gallant ei ŵyrdroi â'u cyfrwysdra. Fel yn ni a welwn, pan fydd dynion beilchion ond yn ddoethach na Duw, y mae eu medd- lion anneallus yn tywyllu nes y collant syn- yr a rheswm dynion

PENNOD XVIII.

Yn erbyn Eglwys Rhufain etto am gyfrif annigon- olrwydd i'r Ysgrhythrau.

Defn. 2. Y mae hyn yn disgyn yn ddwys rhy rhai a gyhuddant yr Ysgrhythrau anctaidd o annigonolrwydd, fel pe na baent

yn cynnwys y cwbl sydd yn angenrheidiol i iachawdwriaeth. Y fath gabledd erchyll yw hyn a gwaradwydd i'r Duw mawr, ei fod yn anfon ei bobl i'r maes, ac yn rhoddi y fath gleddyf pren yn eu llaw, nad yw yn ddigonol i'w hamddiffyn hwynt, a thori eu ffordd trwy alluoedd eu gelynyddion i'r nef, lle y mae yn gorchymyn iddynt deithio? A fyddai i un brenin tirion a garai fywydau ei ddeiliaid roddi arfau iddynt a fyddai yn an- addas i wrthsefyll y fath elyn ag sydd yn dyfod i'w herbyn, os gŵyr pa fodd i'w hadd- urno yn well? Nag è, a roddai efe iddynt y fath arfau egwan ac annigonol er eu ham- ddiffyniad, ac yna gorchymyn iddynt ddefn- yddio arfau ereill? Eu danfon yn gywil- yddus fel defaid i'r cigyddle fyddai hyn; ac nis gallai arwyddo dim ond fod ganddo ewyllys iddynt oll gael eu difetha gan eu gelynyddion. Ac onid yw Duw ei hun yn mawr ganmawl y cleddyf yma, y gair, wrth ei bobl, pan y dywed wrth Timotheus, "ei fod yn abl i'w wneuthur ef (fel Crision) yn ddoeth i iachawdwriaeth" (*2 Tim.* iii. 15); ac fel gwr Duw neu weinidog yr efengyl yn berffaith, "wedi ei berffeithio i bob gweith- red dda;" *adn.* 17. Iè, onid yw efe yn ein gwahardd i ddefnyddio dim arfau ereill ond a gawn ni yn yr Ysgrhythr? At y gyfraith ac at y dystiolaeth y mae yn ein danfon (*Esa.* viii. 20); ac y mae yn ei gyfrif yn ym- wrthodiad â'n hufudd-dod iddo ef os awn i le arall ond at ei air ysgrifenedig ef am gy- farwyddyd neu amddiffyniad. "Onid â'u Duw yr ymofyn pobl; dros y byw at y meirw?" Yna y canlyn, "At y gyfraith ac at y dystiolaeth; oni ddywedant yn ol y gair hwn, hyny sydd am nad oes oleuni ynddynt." Fe dybygid ynte nad yw Duw yn cyfrif ein bod yn ymofyn âg ef, oddi eithr ein bod yn ei geisio ef yn y gyfraith a'r dystiolaeth, ac yn dwyn y cwbl a glywom i'w brofi yma. Yr hyn a fwriadwyd gan Dduw i'w bobl (fel llestr tref i'r farchnad) yn rheol i fesur pob athrawiaethau wrtho, yn sier y mae hwn wedi cael ei wneuthur yn gywir a di- fai. Ond y mae y byd, erbyn hyn yn gwy- bod pa le y mae annigonolrwydd yr Ys- grythrau yn bod. Y maent yn llawn ddigonol i amcanion Duw, ond nid i amcan- on y pab. Y maent yn abl i addurno pob gwir Gristion â digon o ddoethineb i gadw ei enaid. Ond y mae y pab yn cael dolur am nad ydynt mor ddefnyddiol i gadw y goron dreblar ei ben ef, ac nad ydynt yn trefnu iddo seiliau at amddiffyn ei awdur- dod arglwyddiaidd â'r anfaledigrwydd y mae yn ei hōni megys duw, ynghyd âg athrawiaethau ereill a ddelir ganddo. A dyma yr unig fyrdra a all efe roddi yn er- byn yr Ysgrhythrau; ac i wneud hyny i fyny, y mae y dorf o draddodiadau wedi cael eu dwyn i mewn i'r eglwys; y cwbl wedi eu dysgu i siarad iaith dymuniad y pab-cyn.

gweled goleuni. Ac er mwyn ennill cymmeriad i'r tystion hyn, dyma y ddyfais a lunoiodd eu penau cyfrwys gyda help y diafol (sy ganddo hen gefnigen i'r Ysgrhythyr, er pan waredodd yr addewid ei garcharor Adda o'i law ef), mynasant gyhoeddi yr Ysgrhythyrau yn annigonol ac ansicr: "Y dernyn lleiaf o wirionedd dadguddiedig," fel y mae un o honynt yn ddigywilydd yn ysgrifenu; ac felly, yn rhaid iddynt wrth eu clytiad hwy i'w gwneuthur yn gyflawn. Yn gymhwys fel y trinwyd yr ymherawdwr Alecius gan Andronicus, yr hwn a roddodd y gair allan ei fod yn wan ac annigonol i ddwyn pwys y llywodraeth ei hunan; ac felly y cafodd yn gyntaf gyfran o'r awdurdod gydag ef, ac yna awdurdod arno i'w dasfu o'i orsedd. A pha un a wnaeth eu traddodiadau hwy yn deach a'r Ysgrhythyr, gall y byd farnu. Pan clo traddodiadau i fyny, y mae y gair ysgrifenedig yn sicr o fyned i lawr: "Gwnaethoch orchymyn Duw yn ddirym (meddai Crist wrth y Pharisaeid) trwy eich traddodiad eich hun;" *Mat. xv. 6.* Dymchwelasoeh ei awdurdod yn meddyliau dynion, y rhai a adwaenent y gair, i roddi clust i'ch traddodiadau chwi.

PENNOD XIX.

Yn dangos drygioni mawr y rhai a godant y cleddyf yma i amddiffyn unrhyw bechod.

Defn. 3. Y mae hyn yn gwneuthur y rhai hyn yn euog o ddrygioni anferth, y rhai, yn lle defnyddio y cleddyf yma i'w hamddiffyn yn erbyn pechod a Satan, a'u codant yn hyf i'w hamddiffyn eu hunain yn eu harferion drwg a ffaidd. Fel hyn yr heretic: fe gymmer y gair i gyflawnhau ei ddaliadau pwr, gan ei draws gymhell yn mhlaid ei ffordd ef i ddwyn tystiolaeth yn ei erbyn ei hun. A llawer adyn drygionus allwn gyfarfod, y rhai, i gadw cerydd draw, a feiddiant ymofyn nodedd i'w harferion drygionus allan o'r gair, yr hwn sy ganddynt ar flaen eu tafod, ac a ddaliant i fyny i dori y dyrnod a geisir roddi iddynt. Dywedwch wrth gnawdolddym am ei fuchedd nwyfus anifeilaidd, a chwi gewch weithiau yn ateb, Nid oedd Solomon mor fanwl a phetrusgar, yr hwn a ddywed, "Nid oes dim yn well i ddyndan haul na bwyta ac yfed a bod yn llawen." Fel pe buasai Solomon, ie, Duw ei hun oedd yn ei gyfarwyddo, yn meddwl llenwi cwpan draflwngc y meddwyn iddo, ac yn gyfaill i loddestwy ac yfwrw gwin; pan nad yw bwyta, ac yfed, a bod yn llawen, yn ngenau Solomon yno, ond yr un peth a gwasanaethu yr Arglwydd mewn llawenydd a hyfrydwch calon, am amltra pob dim yng ngenau Moses: *Deut. xxviii. 47.* Mor erchyll ddrygionus yw calon dyn, fel mai y

rhanau mwyaf melus a chysurus o'r gair a ŵyrdroir yn fwyaf gan lawer er boddhâd i'w chwantau. Y cyhoeddiadau o rydd ras Duw, a wnaed i'r diben o doddi calonau pechaduriaid, a'u tynu oddi wrth eu chwantau at Grist, mor fynych y camddefnyddir y rhai hyn i'w cynio a'u caledu yn eu pechodau, a'u cadw oddi wrth Grist! Yr esamplau o gwympiadau duwiolion a goffeir i'r diben o beri i'r rhai sydd yn sefyll wyllo, ac i gynnal gobraith am drugaredd yn fyw yn y rhai a gwmpasant, pan y maent mewn perygl o gael eu llyngcu gan anobaith. O! fel y trawsywyrir hwy gan lawer! y rhai a orweddant fel moch yn ymdreiglo yn y dom, ac a dybiant fod pob peth yn dda am fod y fath saint enwog wedi syrthio mor frwat, ac etto wedi dyfod i ddiwedd mor dda; a'u pechodau wedi eu maddeu, a'u heneidau wedi eu cadw! Y ffyniant a gafodd edifeirwch hwy'r mewn ychydig, ie, ychydig iawn o esamplau Ysgrhythyrol: s'yn ydyw meddwl y fath ddefnydd a mantais a wna Satan o honynt, i erfyn amser gan y pechadur, a pheri iddo aros yn Sodom ei bechodau. Y mae yr unfed awr ar ddeg, medd efe, etto heb ddyfod; pa ham yr edifarhei di cyhyd cyn bod achos? Pa ham y rhaid i hwnw droi allan yn y boreu a all ddyfod trwy ei daith yn dda ddigon awr cyn y nos! Y mae y lleidr edifeiriol, yr hwn, fel y dywed un, a aeth yn lladradaidd oddi ar y groes i'r nef, yr wyf yn ofni, wedi bod yn achlysur, ond achlysur tra diniwed ar ran Duw, i ddwyn llawer pechadur diniwed i'r crogbren; ie, a da, os nad i le o ddienyddiad mwy maith mewn byd arall. O! gochelwch hyn, bechaduriaid, os ydych yn caru eich eneidiau! Ai nid digon yw i chwi gael eich chwantau, heb i chwi hefyd sugno eich calondid allan o'r gair, a defnyddio enw Duw yn ffugiol i'ch dal i fyny? Mae y diafol, yn wir, yn camddefnyddio yr Ysgrhythyr yn y modd yma (*Mat. iv. 4.*) gan feddl wrth hyny y cai gan Grist wraudaun yr barotach ar ei gais melleddiged: ac a ddilyni di ei lwybr ef? Wrth hyn, ti wnei un pechod yn ddau, a'r olaf yn waethaf. Yr oedd meddwi yn bechod ofnadwy yn Belsassar; ond yr oedd traflwngcu o lestri y cyssger yn llawer gwaeth. Nid oes un pechod yn fychan, ond y mae y pechod lleiaf yn cyrhaedd i gabledd pan y gwneir ef ar rith o sail Ysgrhythyrol. Prin y gall y diafol ddymuno achlysur mwy i ymgoneddu ar Dduw na thrwy ei archolli ef fel hyn a'i gleddyf ei hun. Pan welodd Julian, y gwrthgiliwr, y philosophyddion cenhedlig yn cael eu trechu mewn dadl trwy ddynol ddysg rhai o'r Cristionogion, dywedodd, "Fe'n daliwyd a'n hadenydd ein hunain; gan edrych arno fel gwaradwydd mawr iddynt gael eu curo wrth eu harf hunain, fel eu cyfrifent." Y gair yw cleddyf Ysbyrd Duw.

rhag cywilydd, na chaniata i Satan eithur ei ymfrost yn erbyn dy Dduw, istion, o'th herwydd di; yr hyn a wna os gall dy berswadio i archolli ei enw â n ei arf ei hun. Yr hwn sydd yn cyrdd dadl o'r Ysgrhythrau Sanctaidd, i'w nio o blaid unrhyw opiniwn neu arfer redig, pa beth y mae yn ei wneuthur, l ceisio cael gan Dduw ymladd yn ei yn ei hun? Iê, y mae yn saethu ato â th o'i gawell ei hun. Os oes dyn ar wyn-y ddaear a neilldua Duw fel nôd i'w lid naf, dyma fe, yr hwn sydd yn cysgodi ei ygoni dan aden yr Ysgrhythrau Sanct-d, ac felly yn gwneuthur Duw yn amffynydd eu pechod.

Defn. 4. Er annogaeth. Yn gyntaf, i fenhio Duw am roddi i ni y cleddyf hwn er lamddiffyniad. Yn ail, i astudio y gair y gallom drin yr arf yma yn erbyn ein ynion cedyrn.

PENNOD XX.

nogaeth i ddiolchgarwch am y cleddyf, y gair, rwyf ba un ein galluogir i sefyll ar ein hamddiffyniad yn erbyn ein gelynyon cadarnaf.

1. CYNHYRFER a chyfröer ni i fendithio yw am y cleddyf yma a ddarparodd efe i mor rasol, fel y gallom wrthsefyll ein holl ynion gwaedlyd. Pe byddai gan wr yrnas yn ei feddiant, ond heb gleddyf i dw ei goron, nid hir y gallai ddisgwyl ei wynhau. Byd yw hwn nad oes dim byw chadw dim a feddom ynddo yn ddiogel b help arfau. Yn enwedig ein heneidiau, yn noethion a diarfog, nis gallant fod yn liogel, am eu bod yma yn safn perygl, ac s gallant fyned i'r lle o wynfyd a dedyddwch a barotowyd iddynt yn y nef, ond wy barthau eu gelynyon. Pan oedd Israel a teithio o'r Aipht tua thir yr addeidd, nid oedd ond ychydig neu neb a ymddiriedai dynt fyned trwy eu gwlad, ond pawb yn di mewn arfau i'w herbyn. Fe gaiff y ristian ei daith i'r nef yn fwy helbulus a peryglus. Nid yw Satan ddim llonyddaech, i'r byd annuwiol ddim caredieach, nag y dydent arferol a bod wrth bobl Dduw. O! fath drugaredd yw hi fod genym y cleddyf na wrth ein hoehr i'n rhoddi allan o bergl oddi wrthynt oll! Y mae hwn yn dy w di, Gristion, fel yr oedd y wialen yn aw Moses. Beth pe byddai llu o ddiafiaid dy ol, a môr o bechodau o dy flaen, yn huo arnat; â'r cleddyf yma, a llaw o ffydd yn drin, ti elli dori dy ffordd trwy donau y ail, ac allan o gyrhaedd y lall. Yn diau, y mae yr Ysgrhythr yn drugaredd nfeidrol fwy na'r haul yn y ffurfafen; haws gellir hebgor hwnw o'i gylch na'r Beibl o'r

eglwys. Pe collem yr haul, ni chaem ond ein taraw oddi wrth ein gorchwylion bydol, a bod mewn perygl o golli bywyd ein cyrph, trwy gamgymmeryd ein ffordd a syrthio i'r twll yma ac i'r pwll arall; ond pe byddem yn amddifad o'r gair, safai gwaith yr iachawdwriaeth, neu fe'i dilynid i ychydig bwrpas; a byddai ein heneidiau yn sicr o gamsynied am y ffordd i ddedwyddwch, a chwymo yn anocheladwy i uffern wrth feddwl myned i'r nef, oddi eithr i wyrthiau gyfryngu i ragflaenu hyny.

Ond yn fwy neillduol, bendithia Dduw am y tair trugaredd hyn, mewn perthynas i'r Ysgrhythrau.

1af. Am eu cyfieithiad i'r ieithoedd cvffredin.

2il. Am weinidogaeth y gair.

3ydd. Am yr effaith a gafodd y gair, a'r weinidogaeth o hono ar dy galon.

DOSB. I.

1af. Bendithia Dduw am gyfieithiad yr Ysgrhythrau. Y gair yw ein cleddyf; a phan y cyfieithwyd, fe'i tynwyd allan o'r wain. Och! pa ddefnydd a fedrasai y Cristion tlawd wneud o'r cleddyf yma pan oedd mewn gwain o Roeg a Hebraeg, ac yntau heb dafod yn ei ben ond yn; heb ddeall ond un iaith yw fy meddwl, yr hon a ddysgodd ei fam iddo? Yn ddiaw, fe allasai syrthio i wylo gydag Ioan, wrth yr olwg ar y llyfr seliedig, am na allasai ei ddarllen ynddo: *Dad. v. 4.* O! bendithia Dduw am aifon, nid angylion, ond dynion, wedi eu haddurno trwy fendith Duw ar eu hastudiaeth a'u llafur diffin, â gallu i dreiglo ymaith y maen oddi ar enau y ffynnon hon! Athrist fyddai gweled dfrwr y bywyd wedi ei ddwyn atoch ar draul eu hysbrydoedd a'u nerth hwy, yn cael ei dywallt ar y ddaear, a'i ddibrisio mor bell, fel mai prin y rhoddir ef genych yn yn rhifres y trugareddau y diolchwch i Dduw am danynt! O! na ato Duw! nis gall chwaith mo'r bod os darfu i chwi brofi meluser un addeidd, neu adnabod grym un o'i ddwyfol wirioneddau yn argraphedig ar eich calonau. Y mae Melchior Adams yn mynegi am Bugenhagius (un o'r gwyr oedd yn cynnorthwyd Luther i gyfieithu y Beibl), pan ddygwyd y gwaith i hapus ddiweddiad, ei fod wedi ei gynhyrfu felly gan hoff ystyriaeth am y drugaredd anghymharol a ddaethai yn hyny i eglwys yr Almaen, fel y gwahoddi ei gyfeillion bob blwyddyn i wledd ddirifol, ar y dydd y gorphenwyd y gwaith, yr hon a alwent "Gwledd cyfieithiad y Beibl." Pan ddarfu i'r Frenhines Elizabeth—ein Deborah Frytanaidd—agor y carcharau ar ei dyfodiad i'r goron, fel yr arferir ar y fath amserau i ddangos haelioni a thosturi, dywedodd un yn gall ac yn ystyriol wrthi, fod etto rai gwyr da heb eu rhyddhau o garchar; ac a ddymunodd iddynt hwythau hefyd gael bod

yn gyfranog o'i brenhinol ffafir; gan feddwl y pedwar efengylwr a Phaul, y rhai ni chaent genad i rodio allan yn yr iaith Saesneg tra yr oedd ei chwaer yn llywodraethu. I hyn yr atebodd hitiau, y gofynid iddynt a fynent hwy en rhyddid; hyn a ymddangosodd yn fuan, ac felly gollyngwyd hwythau o garchar, a chawsant genad o hyny hyd heddyw i lefaru wrthych yn eich iaith eich hunain yn eich addoliad cyhoedd; y, ac i ymweled â chwi yn eich cartrefi hefyd. Yn awr, y mae y diwrnod dedwydd wedi dyfod, ac er's talm wedi gwawrio, yr hwn y dywedodd Tyndal dduwio am dano wrth ddysgawdwr Pabaidd—diwrnod y byddai gweithiwr tlawd yn gallu darllen yr Ysgrhythrau, ac yn cael gystal rhyddid i gyfeillachu â hwy ag un dysgawdwr o honynt! Diwrnod dedwydd yn ddiau ydyw i eneidiau dynion. Yn awr, Gristion, pan fydech yn garcharor i ragluniaeth Duw, ac yn cael dy gadw gartref gan ei law gystuddiol ef, y mae gair Duw genyt, i fod yn gyfaill i ti ar dy ben dy hun; ac felly er nad wyt yn cael eistedd gyda'th frodyr a'th chwiorydd wrth fwrdd dy dad yn ei ordinhadau cyhoedd, etto nid wyt yn hollol heb dy bryd. Y mae yn debyg nad wyt yn gallu tori atat dy hun gystal ag y byddai y gweinidog yn arfer tori i ti; er hyny, y mae yn drugaredd ddirfawr fod i ti ryddid i bigo tameidiau allan o'r gair er cyfarwyddyd a chysur cyf-amserol i ti, yn ol y cymmliorth a gei gan Ysbryd Duw, ar dy ddeisyfiad gostyngedig am hyny. Rhyfeddol y gynnalaieth a gafodd y saint allan o'r llyfr sanctaidd yma, pan fyddent yn amddifad o foddion ereill! Y mae Duw yn rasol wedi trefnu i'r gwirioneddau mwyaf defnyddiol ac angenrheidiol i'r saint cystuddiedig, fod yn crogi fel y gallaf ddywedyd ar ganghenau isaf pren y bywyd yma, o fewn cyrhaedd Cristion tlawd nad yw ond o faintioli cyffredin mewn gwybodaeth. O! meddyliwch, a meddyliwch drachefn, am yr amserau blinion hyny, pan oedd cleddyf gwaedlyd erlidwyr wedi ei dynu i gadw pobl Dduw rhag dyfod yn agos i'r pren yma; ac yna chwi a ddeuwch i ddirnad yn well am eich braint bresennol. Ië, edrychweh yn ol ar yr amserau hyny o anwybodaeth Pabaidd, pan oedd y seler win yma wedi ei chloi i fyny yn yr ieithoedd gwreiddiol; ac nad oedd un mewn tref gyfan i'w gael a feddai agoriad i'w dadgloi i eneidiau tlodion yn eu llewygfeydd a loesion eu hysbrydoedd, fel ag i allu cryhaedd dim o'i chysuron melus, i adfywio eu heneidiau llesmeiriol; ac yna yn sicr chwi a fendithiwech Dduw, a ganiataodd i chwi ddyfodiad mor rhydd at y gwin hwn, pan nas gall ereill gael dyfodiad atoch, i gyfranu eu doniau i chwi.

DOSE. II.

2il. Bendithiwech Dduw am weinidogaeth

y gair, yr ysgol gyhoedd a agorodd efe i bobl; fel y gallent ynddi ddyysgu trin yr a yma o'r eiddynt. Ffrwyth brwnt sydd y tyfu ar y difyn gwybodaeth a gafodd rh o'r gair, pan yw en chwyddo i dylb a eu cyrhaeddiadau en hunain, fel ag i d dbriso gweinidogaeth y gair, megys gwaif afreidiol. Yr oedd y Corinthiaid yn gl o'r clefyd hwn; ac y mae yr apostol y llafurio i'w wellau trwy gerydd llym: "Y ydych chiwi yr awrhon wedi eich diwalli yr ydych chiwi yr awrhon wedi eich cyfoethochi, chwi a deyrnasasoch hebddom ni 1 Cor. iv. 8. Nid oedd Paul, dybygid, on gw'r gwael yn awr gyda'r gw'r uchelddys yma. Amser a fu, pan ddelai Paul i'r dre yr oedd yn ŵr a groesawid. Nid llawenac fyddai i'r plentyn sugno o weled ei fam y dyfod adref, ac nid taerach y llefai am ga ei osod wrth y fron, nag y gwnaent hwytha am fod yn gyfranogion o'i weinidogaeth e Ond yn awr, fel plentyn wedi sugno e ddigon, hwy a frathent y fron hono y oeddynt ennyd o'r blaen mor awyddus ar faeth oddi wrthi, fel pe na byddai arny eisieu pryd byth mwyach. Mor uchel y oedd eu hedyn cŵyr o falchder wedi eu cod uwch law y meddwl o'u bod mewn ange am chwaneg o'i weinidogaeth ef. Ac oni yw balchder llawer yn ein dyddiau ninnu wedi eu dwyn cyn belled i ddiystyrwech weinidogaeth y gair, er fod eu gwybodaeth ym mhell o fod cymmaint a gwybodaeth y Corinthiaid? Gwyliwch rhag y pecho yma. Y mae pla Miriam, ië, gwaeth, crame a gwahanglwyf ysbrydol, yn glynu yn am lwg, mor dŷu a gwregys am y lwynau wrth y rhai a ddibrisiant yr ordinhad hon, na ydynt yn peri i bawb ofni dyfod yn agos i'r pebyll. I ba gyfeiliornadau anferth y maen wedi eu gadael i syrthio, trwy yr hyn y mae Duw yn gosod nôd arnynt? Ië, ym mh chwantau anianol y mae y broffes gadarn i fu gynt gan lawer o honynt, yn awr wedi e llyngu i fyny yn llwyr? Os unwaith: tybia dyn nad oes achos mwyach iddo fynu i ysgol yr Ysbryd, efe a gaiff weled, pw bynag fydd, ei fod ar y ffordd i'w ddfuddi ei hun o addysg yr Ysbryd gartref: "N ddiffoddweh yr Ysbryd; na ddirmygwel brophwydoliaethau;" 1 *Theo.* v. 19, 20. Y maent wedi eu cydgyssylltu, yr hwn a ddir mygo un, fe gyll y ddau. Os yw yr ysgol haig yn rhy falch i ddyysgu gan yr un sydd dan y meistr (*usher*), y mae yn anheilwng; o gael ei ddyysgu gan y meistr ei hun. Ond yr wyf yn troi atoch chwi, eneidiau gostyngedig, sydd etto "yn eistedd wrth drae yr Iesu yn eich iawn bywll;" dywedwch y gwir yn ddiragrith, onid ydych yn cael tã da am eich poen? A feiddiwech chwi ddy wedyd am eich ymlyniad wrth weinidogaeth y gair, fel y dywedodd un adyn (er mai un dysgedig oedd Politianus wrth ei enw) an

darlleniad o'r Beibl, "Na threuliodd efe er erioed i lai o ddiben?" A ydych i yn cyfrif yr amser a roddasoch i ndaw y gair ym mysg yr oriau sydd i eu colli a'u camdreulio? Mi feddyliaf ydych. Yr wyt yn cadw dy gynadaeth â'r gair gartref, os Cristion ydych, ac yn bwyt llawer tamaid melus mewn l, wrth fyfyrion yn ddirgelaidd arno; a yw hyn yn dy foddloni, neu yn peri i yfrif pregethiad y gair yn bryd dros digon? Sier wyf y gwyddai Dafydd odd i iawu dreulio amser wrtho ei hun al ag un arall; etto, yn ei alludiaeth, fel yr oedd newyn yn ei wasgu, o eisieu ordinhâd gyhoedd! Ac yn sier, nis wn feddwl ddarfod iddo anghofio dwyn eibl gydag ef i'r anialweh, gan ei fod yn y gair fel yr oedd: "Sychedodd fy dan danat, hiraethodd fy nghuawd am at, mewn tir cras a sychedig heb ddwfr," 1 Sam. xliii. 1. Pa ham, Dafydd, beth yw yr er dy fod yn cwyno fel hyn? Onid yw yr genyt i'w ddarllen yn ddirgel? Onid di ollwng dy lestr i lawr, a thrwy fyfyr-dynu wrth dy angen allan o ffynnon y? Pa ham ynt e dywedi dy fod "mewn sychedig heb ddwfr?" Meddwl am ei wrth yn gymmhariaethol yr oedd; nid lly dadebriad mwyaf mclusa a fwyhaedd i gyfeillach ddirgel â'r gair ddim i'w mharu â'r hyn a gawsai yn gyhoeddus. A ellweh chwi feto plentyn claf am ddy-oddo eistedd gyda'i frodyr wrth fwrdd ei, er nad yw yn cael ei anghofio, na'i el heb rywbeth i'w fwytia yn yr ystafell lle ae yn garcharor? Am y cyssegr, a gweled h a gogoniant Duw megys cynt, yr oedd eth Dafydd, ac nis gallai fyw hebddynt. ae Duw yn bygwth dwyn "newyu am ndaw y gair;" Amos viii. 11. Craffwch, newyn am ddarllen y gair, ond am ndaw y gair. Os na fydd y gair yn cael regethu, er i'r Beibl fod genym i'w ddar-gartref, etto y mae yn newyn; ac felly ylem ei gyfrif: "Gair yr Arglwydd oedd thfawr yn y dyddiau hyny; nid oedd edigaeth eglur;" 1 Sam. iii. 1. Fe welai ristianogion cryfaf eisieu yr ordinhâd mewn amser. Ni a welwn, mewn tref ngylehynir gan elynion, er fod ynddi yd ldirin, etto pan fydd raid iddynt falu ymborth â melinau llaw yn eu tai, y galedi y byddant ynddo yn fuan. Ac y bydd ar y saint mwyaf eu tyfiad pan ont i fod heb chwang o'r gair i'w hen-aw fyw arno nag a fedrant falu â'u yrdodau a'u llafur eu hunain, yna hwy elant eisieu y gweinidog, ac mai trugar-yn ddiau yw cael un wrth ei swydd i iddynt drwy yr wythnos. Ac os na all ristianogion cryfaf hebgor y swydd yma, am yw etto yn berffaith, pa fyd fydd ar y gwanaf, sydd mewn cymmaint o angen

am y gweinidog i gyfranau y gair, a phlant bychain am helpu mammaeth i dori eubwyd iddynt? Eu gadael hwy i ddefnyddio y gair eu hunain, tebyg yw i osod torth gyfaun o flaen nifer o fabanod, a pheri iddynt helpio eu hunain. Och! cynt y torant eu bysdedd â'r gyllell nag y torant eu newyn â'r bara.

DOS. III.

3ydd. Bendithia Dduw am effaith y gair ar dy enaid. A ddarfau i'w flaen erioed bigo dy galon, a'i fin dynu gwaed o'th chwantau, a thori ymaith unrhyw aelod pwdr o gorph pechod? Diolch i Dduw am y tro. Ti ddirolehit i feddyg am agor dolur, neu dori ymaith ryw ran pwdr o'th gorph; er iddo dy rodidi mewn dirfawr boen wrth wneuthur hyny. Ac yr wyf yn gobeithio dy fod yn barnu i Dduw wneuthur amgenach cym-mwynas na hyn i ti. Solomon a ddywed, "Ffyddlawn yw archollion y caredig; ond cusanau y digasog ydynt dwyllodrus;" *Diar.* xxvii. 6. Yr archollion yma a rydd Duw ydynt ffyddlawn archollion cyfaill; ond cusanau pechod, oddi wrth elyn y maent yn dyfod. Y mae archollion Duw yn iachau; a chusanau pechod yn lladd. Yr Italiaid a ddywedant, fod "Gwin, gwragedd, a chwarcu, yn difa dyn dan chwerthion." Y mae yn wir am bob pechodau hyfydol; ac megys y mae pechod yn lladd y pechadur trwy ddigriwch, felly y mae Duw yn achub eneidiau truan trwy eu rhoddi i wyl o gwaedu gan archollion ei air. Enaid dedwydd ynt e wyt ti a gafodd y fath gyfnewid; diange o freichiau hudolaidd dy chwantau, a fuaent yn dy gusanu i farwolaeth, a syrthio i ddwylaw Duw ffyddlawn, yr hwn wrth yr holl waed a dÿn o honot, nid yw yn bwriadu i ti fwy o niwed na chadw bywyd dy enaid. Pa mor bell y gallest deithio heb gyfarfod â'r fath gyfaill, a'r fath gar-edigrwydd! Nid oes un cleddyf arall o fath hwn yn y byd, yn iachau wrth glwyfo; na braich arall a allai drin y cleddyf yma i wneud y fath waith âg ef, heb law Ysbryd Duw. Ni wna y fwyell ddim nes y cyfyd llaw y gweithiwr hi i fyny; ac nis gall pawb, fe allai neb arall, wneuthur â'i arfau y peth a wna efe ei hun. Nid oedd neb a allai wneuthur y fath orchestion â chleddyf Scandenberg ag ef ei hun. Yn ddiau, ni ddichon neb wanu y gydwybod, archolli yr ysbryd, a thori i lawr y chwantau a ym-guddiant yno yn eu llochesau, ond Duw ei hun. Ac nid yw efe yn gwneuthur hyn i bawb a ddarllenant ac a wrandawnt y gair; yr hyn a ddylai beri i'r drugaredd gael ei mawrhau etto yn fwy: "Yr oedd llawer o wragedd gweddwon yn Israel, pan anfonodd Duw ei brophwyd at hono o Sarepta." A pha ham ati hi? Ai nid oedd un meddwyn, tyngwr, neu anghredadyn, heb law tydi yn y gynnulleidfa, ar yr amser y

miniodd Daw ei air i'th gyrhaedd di, ac yn rasol i bigo dy galon? O! llefa mewn syndod am y drugaredd arbenig hon, Arglwydd, pa fodd y mae, dy fod ar fedr eglurhau dy hun i mi, ac nid i'r byd?

PENNOD XXI.

Annogaeth i astudio y Gair.

2il. Bydded i hyn eich cyffroi chwi i astudio y gair, fel y galloch wrth hynny gael cydnabyddiaeth gyfeillgar âg ef. Am hyn y cafodd y Bereaid y clod o fod yn foneddigeiddiach na rhai ereill; "chwiliasant beunydd yr Ysgrhythrau;" *Act. xviii. 11.* A ddarfu i Ddau adael ond un llyfr i ofal ac astudiaeth ei eglwys, ac a gaiff hwnw fod heb ei ddarllen? A ellir dywedyd wrthym fod y fath drysor mawr yn y mwn-glawdd yma, a ninnau yn parhau mor dlawd o wybodaeth, yn hytrach na chymmyrd ychydig boen i gloddio am dano? Fe fydd i rŵd ein haur a'u harian, a gesglir trwy fwy o lafur nag a ofynir yma, godi yn erbyn llawer yn y farn, a dywedyd, Chwi a allech drafferthu a sŵdanu am danom ni sydd yn awr yn rhwd ac yn llwch; ond gallech roddio dros faes y gair, lle y mae trysor anlygredig yn gorwedd, a'i adael yno, yn hytrach na gadael eich diogi. O! pa le y ceir, yn mha fynwes y llettya sel yr hen seintiau gynt at y gair? Oni ddarfu iddynt hwy ei brisio uwch law meini gwerthfawr a pherlau? Oni ddarfu iddynt ymdaith dros ôr a thir i gael golwg arno—rheu yr arian o'u pwrs, a'r dillad oddi am eu cefnau, i brynu ychydig ddalenau o hono—ac ym-adael â'u gwaed o'u gwythienau, yn hytrach nag a'r trysor a gawsant ynddo? Ac a aeth llwng y farchnad yn awr mor fychan, fel na ddymuni gydnabyddiaeth âg ef, pan ei cynnygir i ti yn llawer is? Rhaid naill ai eu cyfrif hwy yn ffylliaid, am brynu y wybodaeth o hono mor ddrud, neu chwydchi am ei gwrthod pan y gellwch ei chael mor rhad. Ond rhag i chwi feddwl fy mod yn eich gosod ar waith afreidiol, deallwch fod angenrhaid dihegbor am wybodaeth ysgrhythrol; a hwnw yn ddeublyg, sef fel y mae yn orchymynedig, ac hefyd fel moddion defnyddiol.

1af. Y mae yn angenrhaid am orchymyn, "Chwiliwch yr Ysgrhythrau;" *Ioan v. 39.* Yn wir, pe na buasai un gair pendant am y ddyledswydd yma, fe allai yr ystyriaeth o'u hysgrifeniad, a diben eu hysgrifeniad, wneuthur y ddyledswydd yn amlwg. Pan wneler cyfraith gan frenin neu lywodraeth i'w ddeiliaid ufuddhau iddi, y mae y cyhoeddiad yn unig o honi yn rhwymo y bobl i ddal sylw arni. Ac ni wasanaetha i ddeil-

iad a doru y gyfraith, ddywedyd nas gwai efe fod y fath gyfraith mewn grym. oedd y cyhoeddiad o honi yn ei rwyymofyn ar ei hol. Pa ddiben arall sydd osodwyr cyfraith wrth gyhoeddi eu cyfraiau ond i beri i'r bobl wybod eu dywedyd? Y mae Crist yn rhwymo dan igaeth wrth anwybodaeth dynion, i caniateir moddion o wybodaeth: "yw y ddannedigaeth; ddyfod goleuad, a charu o ddynion y tywyllwch;" *iii. 19.* Ni fynant wybod y rheol, am oes ganddynt ewyllys i roddio wrthi. awr, os yw anwybodaeth o'r gair yn ca gondemnio, lle byddo ei oleu yn tywyna yn sicr y mae yn gorclhymyn i ni ein llygaid, fel y byddo ei belydr yn wybus i ni; o herwydd rhaid fod cyfraith cael ei thori, cyn bod barn gondemnio cael ei dadgan. Y paganiaid yw y rhferuir heb y gair ysgrifenedig; ond am at ti sydd yn byw o fewn ei sŵn, fe'th ferwrtho, pa un byuag a wnei ai ei wybopeidio: 2 *Thess. i. 8.* Ac os ceir dyferwrtho, yna yn sicr yr wyt yn rhwym i gdy addysgu ynddo. Fe fu y gair unwy yn nwyllaw yr Iuddewon: "Iddynt hwy ymddiriedwyd am ymadroddion Du *Rhuf. iii. 2.* Ac a feddyliwch chwi y t ent yn iawn gyflawni yr hyn a ymddiriedwyd am dano, wrth eu cloi yn ogel yn yr arch, a pheidio edrych iddynt? Yn sicr ni ellwch lai na medd Ddau fwrriadu cist arall, sef eu mynwhwynt, lle y benaf y mynai iddynt gae cadw. Fe'u rhoddwyd mewn ymddiriedwyd hwy, ac yn awr i ninnau meg rbydd tad ei lythyr cymmyr i'w fab i'w gyflawni; nid i'w daslu ym mysg e purau diddefnydd, ond i'w ddarllen a s arno yn fanwl a gofalus, fel na byddo a gymmhwsyr ynddo yn cael ei adael ei gyflawni. Y mae yn cael ei alw, "Y f a roddwyd unwaith i'r saint;" *Iuda hyny yw, a roddwyd i'w hastudiaeth a eu gofal.* Pe buasai rhai o honom yn pan oedd Crist yma yn y cnawd, ac y (wrth ymadaw â'r byd) yn gadael rhyw peth i ni, dan orchymyn pennodol wneuthur er ei fwyn ef wedi iddo fyne nef, oni fuasem yn gydwybodol yn cyfl ewyllys olaf ein Hiachawdwr, meg gwnaeth Ioan, i ofal yr hwn y gadawo fam, a'r hwn am hyny a'i cymmerod adref i'w dŷ ei hun? Wele yma beith wedi ei roddi mewn ymddiried yn nwy saint; "Y ffydd a roddwyd un iddynt." Hyny yw, unwaith am byth chadw ganddynt a'i throsglwyddo o un hedlaeth i'r llall, tra parhau y byd. Fe os wyt ti yn rhoddi dy hun yn nifer y e y mae yn perthyn i ti fel i'r lleill ei emeryd adref gyda thi, ac edrych ar drigo ynot mewn cyfoethogrwydd,

dai i'r fath bendefiges a orchymynwyd un gyfaill mor garedig.

Y mae y gair yn angenrheidiol fel ion. Y mae yn cynnwys holl gynghor er dwyn pechaduriaid druain i fywyd yddol; yr hyn nid yw yn un llyfr ond yn ol y graddau y byddo ei athrawu wedi eu benthycio allan o hwn. Os hwili yr Ysgrhythyr, ac eistedd yma draed yr Ysbryd (sydd yn cymmhwysu golheigion i'r nef wrth y llyfr hwn) pa yfarfyddi â meistr arall? Yng ngwaith y ceî di eiriau y bywyd tragwyddol? Edir am Apolos (oedd yn ŵr cadarn o Ysgrhythrau) ddarfod i "Acwila a cilla agor iddo ffordd Duw yn fanyl" *Act. xviii. 26*. Y mae agor yn ar- o bod testyn ganddynt. Yr ystyr yw, a agorasant yr Ysgrhythyr yn fanylach

Dyma ffordd Duw i'n harwain at y, i.e. yr unig ffordd. Mewn teithiau gallwn gollti y ffordd iawn, ac etto o'r diwedd i'r lle yr oeddym yn ei, er nad cyn gynted; ond nid oes un l a'n dwg ni at Dduw heb law ffordd r. Nis gallwn chwaith radio yn y ffordd s byddwn yn anwybodus o honi. Mewn au ereill, fe all dyn fod ar y ffordd, a dyfod yn ddiogel adref, er nas gwyr r yr ffordd iawn y mae; ond nis gallwn les oddi wrth y ffordd hon os byddwn yn anwybodus o honi; o herwydd nad a wneuthur dim mewn ffydd. O! ym- a ynte i astudio y llyfr hwn, pe byddit artyn uwch ben pob un arall. Pa beth r hyn a ddymunit ddysgu? Ai y wir daeth o Dduw? Ti eelli ddarllen gwaith losophyddion i gyd, ac ar ol darfod, fod addysg i ffurfio iawn farn am dano. oedd y goreu o honynt oll ond anifeil- yn eu gwybodaeth uchaf o Dduw. Yn fe adawodd Duw i'r byd doeth redeg i gamsyniadau nyfyd, tra yr oeddnt o'u nineb eu hunain yllunio crefydd iddynt unain; fel, wedi eu profi hwy oll yn id, y gallai eu danfon hwynt, a'r byd i i ddysgu y wers yma mewn ysgol arall, weinidogaeth yr efengyl; yr hyn nid dim arall ond agoriad a chymhwysiad gair: *1 Cor. i. 21*; "O herwydd yn nineb Duw nad adnabu y byd trwy thineb mo Dduw, fe welodd Duw yn trwy ffolineb pregethu gadw y rhai yn credu." A fynit ti ddyfod i'r wir daeth am bechod? Am hwn hefyd es farn gywir i'w chael o un lle arall; r yn unig sydd yn chwabu holl gorph od, ac yn darllen i ni gyflawn lith o rniad⁴ ar ei ranau mân a dirgel. Y mae yn dadguddio cornwyd y galon, yr hyn

Y mae meddygon yn chwabu neu yn difynio er mwyn gweled eu gosodiad, a rhoddi g i rai ieuainge. At hyn y mae yr ymadrodd wrw,

y mae miloedd yn marw o hono; a thrwy anwybodaeth o'r Ysgrhythrau heballu byth wybod beth yw eu crefyd. Os na thora chwant allan mewn cramenau a gweliâu i'w gweled yn yr ymarweddiad, y mae y philoso- phydd yn ei gyhoeddi yn ddyn glân. Plâ y galon, er ei fod yn haint hen a chyffredin, etto ni chafwyd allan erioed, ac ni thraeth- wyd am dano ond gan y llyfr sanctaidd yma; ac y mae hwn yn ei drin yn llawn, i.e. yn mynegi pa le, ac oddi wrth bwy y cawson yr haint yma; sef oddi wrth Adda, trwy yr hwn y llygrwyd y byd, ac y trôwyd ef yn lletty y plâ. Pwy o ddoethion y byd a freuddwydiodd erioed am yr âch yma? Y mae dyn druan, hyd nes y mynega y Beibl y peth iddo, yn gorwedd yn y pydew o bechod, ac heb wybod pwy a'i taflodd yno! Mewn gair, a fynit ti dy helpio allan? Y mae yn rhaid i ti ynte fod yn rhwymedig i'r Ysgrhythyr am wneuthur y gymmwynas dirion yma erot. Y mae dy llynyd di yn rhy fyr i gyrhaedd, ac yn rhy wan i'th dynu oddi yno. Os na ymefi yn y rhaff hon o gariad, a ollwng Duw i waered atat yn ei air, y mae dy gyflwr yn ddiobaith. Ac yn awr, wedi gosod einioes ac angeu o'th flaen, yr wyf yn dy adael i'th ddeusiad dy hun. Os wyt etto yn bwriadu gwrthod gwybod- aeth o'r Hollalluog, ac i'th enaid droi i fôr tragwyddoldeb heb y *chart* yma i'th gyfar- wyddo, heb ofalu pa un ai nosio ai suddo a wnei; ym mha borth y tiri mewn byd arall—y nef ai uffern; yna parotoa i gym- meryd dy letty ym mhlith y damnedigion, a chaleda dy galon ddewr, os gelli, yn erbyn y ffilamau diddiwedd sydd wedi eu hennyn i'r holl rai "nid adwaenant Dduw, ac nid ufuddhânt i'w efengyl;" *2 Thes. i. 8*. Ac er dy ddychryn, gwybydd, pa mor dywyll bynag wyt yn awr o'th fodd yn aros, y cei ryw ddydd ddeall yr Ysgrhythrau er chwane-egu dy boenau. Yma yr wyt yn cau allan eu goleu; ond yno fe dywyna yn ei rym i'th wyneb y pryd y byddai yn beth esmwyth- dra i ti pe medrit anghosio ddarfod i ti erioed glywed am y fath lyfr a'r Beibl. Eithr yno, yn erbyn dy ewyllys, ti a ddygi y coffa am dano i uffern gyda thi, fel y bydd i'th ddibrisiad o hono yn y byd fod yn parhau dywallt newydd ddychryn fel tân a brwm- stan i'th gydwybod euog. O! y fath syn- dod alaethus a'th leinw y pryd hwnw, o her- wydd dy nyfydrwydd a'th wallgofrwydd yn gwerthu dy enaid am ychydig esmwythdra a diogi! Uffern oddi tanodd a gynnhirfa o'th achos, i gyfarfod â thi ar dy ddyfodiad yno: "Hi a gyfyd y meirw i ti;" *Esa. xiv. 9*. A'r paganiaid druain a gyfarfyddi yno, heidiant o'th gwmpas a gwatwarant di, gan ddywedyd, "A wahanwyd dithau fel nin- nau? a aethost ti yn gyffelyb i ni?" A ddi- fethwyd di am dy anwybodaeth, yr hwn oedd âg agoriad gwybodaeth wrth dy wregys,

ac a allesit mor hawdd gael dy ddsygu yn ffordd y bywyd? Nis gallwn ni, ethniciaid druain, mo'r achwyn ar Dduw am gam garchariad, er na chlywsom erioed am y fath beth ag efengyl; o herwydd na rodiasom yn gyfatebol i'r ychydig oleu oedd genym; ac y gallasem wybod mwy am Dduw, oni buasai i ni dywyllu ein meddyliau anneallus trwy rodio yn groes i'r hyn a wyddom. Ond erioed ni buom yn y fath draul i ddannio ein hunain a chwi sydd wedi gwrthod gair Duw, a thori trwy ei holl fygythion a'i addewidion i ddyfod yma."

PENNOD XXII.

Amryw ddiangŷiau a gwrtheddadleuon cawdol, a ddyg rhai i'w hesgusodi rhag astudio yr Ysgrhythrau, yn cael eu symmad.

Gwrth. Ond chwi a ddywedwch, Pe b'ai genym amser i'w hebgor, fel y mae gan ereill, ni fyddem mor anghydnabyddus â'r Ysgrhythrau; ond Och! y mae genym gymmaint i'w wneuthur, a'n dwylaw mor llawn gan ein gorchwylion bydol, fel yr ydym yn gobethio yr esgusoda Duw ni, er nad ydym mor wybodus o'i air ag ereill.

DOSB. I.

At. Ai dyma yr esgus wyt yn wir yn meddwl ei arfer, pan fyddech o flaen y fainge, wedi dy alw i roddi ateb i Grist dy farnwr ar y mater yma? Onid yw dy galon yn crynu o'th fewn, wrth feddwl pa fodd y dengys efe ei ŵg, ac y teifi dy ddiffyniad hwn i'th wyneb gyda lliid a dirmyg? A ddarfu i'r fath ddigder eistedd megys ar rudd yr addfwyn Iesu pan ar y ddaear, a'r fath farn ofnadwy gael ei dadgan o'i wefusau tirion, yn erbyn y rhai a wnaent eu tyddynod a'u hychain fel esgus teg am beidio dyfod i'w swper ef, gan roddi dedfryd na chaent byth brofi o hono? O! pa beth ynte a ddywed efe wrth y fath esgus a hwn, wedi esgyn i'w ogoneddus frawdle, nid i wahodd ond i farnu pechaduriaid! A allodd Duw gael calon ac amser i ysgrifenu a danfon y llythyr cariad yma atat, a thithau heb gael un i'w ddarllen a'i ystyried! Y dyn claf heb amser i edrych ar gyfarwyddyd y meddyg! Y drwgweithredwr condemniedig heb amser i edrych llythyr ei frenin sydd yn cynnyg iddo bardwn rhad! Adyn tlawd! a raid i'r byd gael dy holl amser, a'th lyngau i fynu yn fyw? Barn cyn waethed ag a ddaeth ar Corah! A wyt ti yn fath gaethwas i'th elw, fel ag i rwymo dy enaid wrth drothwy Mammon, a pheidio cynmeryd mwy o amser er achub dy enaid nag a gauiatâ y meistr ei'nidd hwn i ti? Bydded dy arian gyda thi i ddistryw! Alacthus yw

cyflwr yr enaid hwnw sydd wrth ewda y fath chwant gwael. Y mae hyn bell oddi wrth wellau y mater fel nad ond yn cuddio un pechod âg un arall. a roes i ti genad fel hyn i lwytho dy lu ormodol â thrafferthion y byd? Onid yw perchlen dy amser? Ai nid i'w r allan iddo ef y mae wedi ei roddi yn dy di? Y mae yn caniatâu i ti yn wir gydeg o hono at isorchwylion y bywyd h ond a feddyliodd efe erioed droi ei allan o'r cwbl? Y mae hyn fel pe by forwy, ar ol cael cenad i roddi i m ychydig o'u heiddo eu hunain, yn llenllong, ac heb adael lle i iddo y marsiau sydd yn talu traul y fordaith. A gyn efe hny yn ddiiddig ganddynt? Ne pe byddai gwas pan ofyno ei feistr pa yr esgeulusodd y gorchwyl a orchymyr iddo ei brysuro, yn rhoddi ateb, ei feddwl, ac am hyny nad allai ei wneud. Pa ham na buasech chiwi yn darllen fy n ac yn myfyrio arno? a ddywed Crist dydd hwnw. A feiddi di y pryd hwnw mor ddiagywilydd a dywedyd, Arglwyd oeddwn wedi ymlwytho yn ormodol âg on, ac wedi fy meddwi â chariad y byd am hyny nis gallwn? Wele, os hwnw lleidr sydd yn dy ysbeilio o'th amser, di o'i afael ar frys rhag iddo dy ysbeilio enaid. Nis gall Satan ddymuno mawr fwy arnat; efe a'th gafodd yn sicr ddi yn ei flagl. Y mae ganddo fwy o lei ymfh am danat i'w na oedd gan Pharaoh y rael: "Rhwystryw, rhwystryw ef y ialwch y byd, ac ni ddiange o'm llaw i. dywedai cyfaill wrthyt dy fod yn cynnifer o weision a bolerwy ag a'th ant di; oni wrandewi ar ei gynghor, a y fath allan o'th dŷ yn hytrach na'u byth i'th fwyta dy hun allan? Ac feiddi mor ofalus am dy enaid? A g di y fath dorf o achosion bydol ag a f i fyny bob meddyliau am Dduw a'r nef? sicr, rhaid i ti naill ai ymadaw â'r rhai neu yntegollwng ymaith yn ddirgel dy o am iachawdwriaeth. Ond pa ham y s gymmait am y rhai hyn? Nid yw hy gyffredin ond gorchudd dros ddiogi dy pe meddent galonau, hwy a allent gael a i gyfeillachu â'r gair. Medrant gael a i fwyta a chysgu, i chwareu ac ymddif ond dim i Dduw a'i air. Pe gwnânt caniatâu i'w heneidiau at ddarllen y grythrau, y darnau gweddill hyny o a a dreuliant mewn difyrwch, segur i darllen firaethwag lyfrau, hwy a allent hir roddi dangosiad da o'u cynnydd r gwybodaeth ysbrdydol. Pwy sydd galw alwad mwy trafferthus na'r milwr, a enwedig penaeth y llu, at yr hwn y pawb yn cyrchu? Y fath un oedd Iosetto, cafodd orchymyn pendant i astud Ysgrhythyr: "Nac ymadawed llyfr y

hon o'th enau, eithr myfyria ynddo d a nos;" *Ios. i. 8.* A raid i Iosuah, nghanol swm udgyrn a chynnhwrf l, gael amser i fyfyrio ar gyfraith ; ac a fydd i'th weithdy, dy aradr, neu dig achosion cyffredin dy alwedigaeth, ddhau di oddi wrth yr un ddyledswydd? t ti yn meddwl fod yr ystafell yn fath i'th weithdy, a'r amser a dreulir gyda yn lleidr i'th feddiannau tymmorol? e Duw, yr wyf yn sicr, yn bwriadu yn w bobl, fel y gwelir yn y lle a enwyd: a y llwyddi yn dy fyfyrdd, ac yma y ffyni."

DOSE. II.

2. Ond ni fedraf i ddarllen; pa y chwiliaf yr Ysgrhythrau?

Y mae yn beth athrist, yr wyf yn f, fod rhieni, i ba rai yr ymddiriedodd feithriniaeth eu plant, heb ofalu mwy u heneidiau nag a wna yr estrys am ei u, gan eu gadael mewn diofalwch ac of. Pa beth y mae y rhai hyn yn ei thur ond eu tafu i safn y diafol, wrth anfon i fyd pechadurus heb wybodaeth u w a'i air, i fyned yn ysglyfaeth i bob nt a'u cyferfydd? I uffern y mae yn l iddynt nofio, oni ddengys Duw fwy o ri atynt nag a ddarfu i'w rhieni gwaed-

Ond a gaiff esgeulusdra dy rieni fod dadl dros dy anwybodaeth di? Ai ni i yn dosturiol wrthyt dy hun, am eu w yw yn greulawn? Yn ofn Duw, perier di i gyflawni eu diffyg hwy trwy dy ydrwydd dy hun. Yr wyf yn gobethio yfrifi yn gywilydd i ti ddyssu mewn un, yr hyn a ddylesid ei ddyssu i ti n mebyd. Pe buasai dy rieni heb gu i ti gelfyddyd i gael dy fywoliaeth rol, a fuaist am hyn yn byw yn garn, yn hytrach nag ymroddi (er yn ddiwr) at ryw alwad? Er dy galonidd, y llawer wedi dechreu yn ddiweddar, a y fendith Duw ar eu diwydrwydd, wedi d trwy anhawsder y gwaith. Pe bait nghanchar, fe fyddai yn well genyt gu gwers dy wddf na chollti dy fywyd o yg hyny. Yn awr, er nad yw gallu i llen y gair yn hollol anheggorol er iachwriaeth dy enaid, etto y mae gwybod- o'i wirioneddau cadwedigol felly; ac dig o foddion neillduol sydd yn well at aedd hyn na darllen. Ond os wyt yn analluog i hyn, ni wna hyn yn esgus ly anwybodaeth, cyhad ag y bydd genyt i dderbyn addysg drwy ereill. Fel y Duw weithiau yn ad-dalu y diffyg o un vyr trwy gwyreinrwydd un arall, felly e yn bossibl y bydd i'th analluogrwydd au i ddarllen gael ei wneud i fyny drwy cryf i ddal yr hyn a glywi ei ddarllen ei bregeth. Yr oedd rhai o'r merthyr- n gedym yn yr Ysgrhythrau, a cyn abl i diffyn y gwirionedd yn erbyn doctoriaid gedig, er eu bod heb fedru ar lyfr. Un,

yn mysg ereill, yn wr anlythyrenog, etto a ddygai bob amser ryw ran o'r Beibl i'w ganlyn; a phan gyfarfyddai â Christion a allai, fe geisai ganddo ddarllen rhyw gyfran o hono iddo, trwy yr hyn y cyrhaeddodd y fath radd o wybodaeth a ffydd ag a'i gwnaeth yn ddoethach na'i wrthwynebwy, ac yn ymdrechwr glew o blaid y gwir, i e, i wrthsefyll at waed.

DOSE. III.

Gwrth. 3. O! medd un arall; er y gallaf ddarllen, etto yr wyf o ddeall mor fyr fel yr wyf yn ofni na allaf wneuthur dim o ddirgelion mor ddwfn ag a gynnwysir yn y Beibl.

At. Gochel rhag bod yr wrthdadaid yma yn tarddu o galon ddiog, sydd yn ceisio yr esgus teg hwn, i'th esmwythau o ddyledswydd yr wyt yn ofni a fydd yn flinderus. A ddarfu i ti erioed wneuthur cais, ac ymosod ar y gwaith, gan arfer yn gydwybodol yr holl foddion a allent fod yn fuddiol i'th addysgu ym meddwl Duw? Os nad do, na ddyro fai ar dy ben gwan ond ar dy galon ddyrgionus. Pan aethost gyntaf yn brentis, pa allu oedd genyt yn dy gelfyddyd? A ddarfu i ti anobeithio a diange ymaith? Naddo, eithr trwy ddiwydrwydd ti a ddysgaist ei dirgelion mewn ychydig flynyddoedd, fel ag i'th gynnal dy hun yn gysurus arni. Ac oni fydd i'th ddiwydrwydd yn dysgu hono gondemnio dy ddiogi i astudio y gair, yr hwn sydd yn abl i ddwyn gwell bywoliaeth i'th enaid nag a ddichon dy gelfyddyd ddwyn i'th gorph?

Ond, enaid tlawd, os yw yr hyn a ddywedi yn tarddu yn wir oddi wrth dy ddwfn deimlad o'th wendid dy hun, yna ystyria yr annogaeth ddyblyg hon.

1af. Y mae Duw yn abl i agor ei air i ti. Yn wir nis gall neb fyned i mewn i'r wybodaeth o hono heb fod yn rhwymedig i'w Ysbryd am ddadglo i drws. Pe byddai genyt gryfach pen, ac amgenach doniau nag a elli hōni fod, ni fyddid heb ei gynnorthwy ef ond tebyg i'r Sodomiaid deillion o amgylch tŷ Lot, yn ymbalfalu, ond heb allu cael y ffordd i'r wir gadwedigol wybodaeth o hono. Y mae yr hwn sydd heb yr iawn agoriad mor bell oddi wrth fyned i'r tŷ, a'r hwn sydd heb yr un; i e, mewn rhyw ystyr, ym mhellach; o blegid yr hwn sydd heb yr un, a eilw ar yr un sydd tu mewn; tra y mae y llall dan ymddiried i'w agoriad ffals, yn ffwdanu oddi allan i ychydig ddben. Y Phariseaid, y rhai oedd ynt mor hyddysg yn yr Ysgrhythrau, ac wedi cael yr enw am enwog ddoctoriaid y gadair, a elwir "Tywysogion y byd hwn" (1 *Cor. ii. 8*), am eu bod yn glodfawr a pharchus ym mhllith y bobl; etto, darfu i'r rhai hyn fethu gweled y gwirionedd hwnw oedd o'u blaen agos ym mhob dalen i Moses a'r prophwydi, y rhai a chwiliant yn feunyddiol. Y gwirionedd arbenig am Grist wyf yn feddwl, am yr hwn y mae

Moses a'r prophwydi yn llefaru. Ac ar yr un pryd, y bobl a gyfrifent mor wael, i.e. yn felldigedig, fel rhai heb wybod y gyfraith, gallai y rhai hyn ei ganfod er eu bod hwy yn methu. Nid oes neb mor wybodus, nad all Duw ei ddallu a'i ynfydu; na neb mor ddall ac anwybodus na's gall ei Ysbryd agor ei lygaid. Yr hwn trwy ei ymsymmudiad ar y dyfroedd yn amser y greadigaeth, a ddygodd y pentwr didrefn lhwng i'r llun hardd a welwn; ac allan o'r cymmysgedd tywyll a luniodd y ffurfafen ogoneddus, ac a'i haddurnodd â chynnifer o ser disglaer; efe a ddichon ymsymud ar dy enaid tywyll dithau, a'i oleuo, er iddo fod yn awr mor wag o wybodaeth, ag oedd hwy'r dydd cyntaf o oleuni. Y mae yr ysgolfeistr weithiau yn anfon y bachgen adref, ac yn peri i'w dad ei roddi at ryw gelfyddyd arall, am nas gall, er ei ddyfais, wneuthur ysgolhaig o hono. Ond os Ysbryd Duw fydd y meistr, ti a ddygi, er mor hurt ydwyt: "Agoriad dy eiriaa a rydd oleuni; pair ddeall i rai annichellgar;" *Salm* cxix. 130. Cyn gynted ag y rhodder enaid o fewn ysgol yr Ysbryd, fe gynydda mewn dysg. Am hyny, fe'n gorchymynir i galonogi y rhai sydd yn eu digalonni eu hunain: "Cadarnhewch y dwylaw llesg, a chryfhewch y gliniau gweiniaid;" *Esa.* xxxv. 3. Pa ham? pa newydd a ddygwn iddynt? "Yna yr agorir llygaid y deillion, a chlustiau y byddarion a agorir. Yna y bydd prif-ffordd, a ffordd; a ffordd sanctaidd y gelwir hi; yr halogedig nid ä ar hyd-ddi; canys hi a fydd i'r rhai hyny: a rodio y ffordd, pe byddent ynfydion, ni chyfeiliornant;" *adn.* 5, 8.

2il. Po ddyfnaf fydd dy deimlad o dy wendid, addasaf fyddi i ysgol Duw. Ysgolhaig balch a meistr gostyngedig byth ni chytunant. Y mae Crist yn ostyngedig ac addfwyn; ac felly yn gwrthwynebu y balch, ond yn rhoddi gras i'r gostyngedig. Er nas gall ddioddef y balch, etto gall gyd-ddwyn â thi sydd yn wan a hurt, ond dy gael yn ostyngedig a diwyd; megys y gwelwn yn y dysgyblion, i'r rhai ni wrthododd ddysgu yr un wers drosodd a throsodd, nes y dywedent o'r diwedd: "Yr wyt ti yn awr yn dywedyd yn eglur;" *Ioan* xvi. 29. Nid duwinydd mawr oedd yr eunuch pan oedd yn ei gerbyd yn darllen Llyfr y prophwyd Esaias; etto, am ei fod yn ei wneuthur â chalon onest, cafodd Phylip ei anfon i'w addysgu.

PENNOD XXIII.

Yn cynnwys pedwar o Hyfforddiadau ʼr Cristion wrth drin y cleddyf yma, er ei amddiffyniad yn erbyn y gelyn a ragenwyd yn gyntaf, sef yr erlidiwr.

Cwest. OND fe allai y dywed rhai, Yr ydych wedi dywedyd digon i roddi i ni wybod

y fath arf angenrheidiol yw y cleddyf i amddiffyn ein heneidiau; ac mor ddyddiol ydyw yn holl ymladdfeydd y Cristion â phob rhai o'i elynion. Ond gobei yr ydym na adewch mo honom ar hyn; o gynghor a ddisgwyliwn yn awr genycol fodd y mae i ni, weiniaid, drin y cleddyf hwn, i'n hamddiffyn ein hunain a thre yr amryw elynion y rhoisoch alarwn i ni disgwyl; rhai o ba nifer, er ein mawr dchrwn, a welwn eisoes yn y maes i'n herb a pha mor fuan y gall y lleill ymddannis gwyddom. Pa lesad a wna cleddyf yn ein hochr, Beibl yn ein llaw, i.e. ein geir os na hyfforddir ni pa fodd i gadw drwydynodiau hwynt, a pheri iddynt deimlhwys ef?

At. Y mae eich cais yn rhesymol; ac mwy o foddlonrwydd i chwi, caf drefnu hyfforddiadau, yn ol math yr amryw elydd sydd i ymladd â hwy; o herwydd y mae hymgychiadau o wahanol natur, ac gofyn gwrthwynebiad addas i'w ffordd ruthriad.

DOSB. I.

Nyni a ddechreuwn gyda'r erlidiwr. fyufti ti, Gristion, sefyll yn erbyn ei rudiad ffrowylyt, pan fydd yn crogi allan faner waedlyd, gan chwythu celanedd erbyn eglwys a phraidd Crist; os na allant iddo sathru ar eu holl ogoniant a halogi eu cydwytodau, a gwadu y ffwrth ei chwant a'i orchymyn arglwyddiaid ef. Yna,

1. Bydded yn ofal blaenaf genyt, i seiliau ysgrythyrol am dy egwyddorion arferion sydd yn cyffroi cyundaredd yr lldiwr i'w erbyn. Y mae yn angenrheidiol i ddyd fod wedi ei wneuthur yn ddiysgof farn am y peth a ddwg ei fywyd i ber a phob mwyniant hoff sydd yn ei ganu. Y mae yn ddigon i wanbau calonedd gwrol pan y bydd yn ymladd mewn mawr ac heb wybod gwahaniaeth rhwng gelyn a chyfeillion; ac i leithio ysbryd y Cristion mewn amser dioddef, os na bydd yn ddigon yn ei farn, ac yn ddiysgog yn yr egwyddorion y mae i ddioddef o'u herwydd. Edrygan hyny, am gael y peth allan o gwestiyn dy feddwl dy hun, am yr hyn y geir yr erlidiwr di i gwestiwn. A hyny yn fwy mai ystryw erlidwyr bob amser oedd, a fodd o hyd, hacru hyd eithaf eu gallu wyneb ha y gwirioneddau a'r arferion am ba rai y gwestiwn Crist yn dioddef; fel y rhoddi liw o gyfiawnder ar eu creulonderau gwaellyd, ac y paront i'r byd goelieu eu bod dioddef fel drwgweithredwyr. Yn awr elli byth sefyll dan bwys eu cyhuddiad troddi eithr fod genyt sierwydd yn dy gwybod, dy fod yn dioddef er mwyn cyfiawder. Ond os bydd dy feddwl yn rhydd; nghylch dy achos, fe fydd yn hawdd ysychu ymaith y budreddi a daflant ar

nlawenhau ar y cysur a ddwg dy gyd-
 od i ti er enllibiaon dy elynion. "Nid
 eb yn druenus o herwydd barn ereill,"
 1 Selvan. Y mae un sen gan feddwl
 ei hun yn archolli yn waeth na gwarad-
 iadau yr holl fyd heb hyny. Pan gaf-
 y Thessaloniaid unwaith foddlonrwydd
 wirionedd dilys athrawiaeth Paul (o
 dd daeth yr efengyl atynt "mewn sic-
 l mawr;" 1 *The*s. i. 5), yna gallent agor
 eys yn llawen i'w derbyn, er i gystudd
 lidiau ddyfod i'w chanlyn: *adn.* 6.

DOSE. II.

Defnyddia yr Ysgrhythrau hyny sydd
 ysgu i ni ofni Duw yn fwy, a dyn yn
 Y mae pob dyn yn fwyaf anhawdd
 fod syrthio yn nwyllaw yr hwn y mae
 ofni fwyaf. Felly os cafodd Duw dy
 yd penaf, ti a ddewisid neidid i dân
 iaf yr erlidwyr yn hytrach na thynu
 yn dy ben: "Tywysogion a'm herlid-
 i't heb achos; er hyny fy nghalon a
 ai rhag dy air di;" *Salm* cxix. 161. Yr
 Dafydd, y mae yn debyg, wedi rhoddi
 faint dyn a bygythiad gair Duw yn y
 an; ac ar ol gweled mai llaw Duw
 tu hwnt i gymmhariaeth y 'drymaf, y
 yn crynu rhag hono, ac yn anturio y
 thaf a allai y llall wneuthur iddo. O
 ydd hyn, rhag ein brawychu gan
 chiad mawr a bygythion, y mae yr Ys-
 yrr mor fynych yn iselu gallu dyn, ac
 gosod allan ei gynddaredd eithaf yn
 mor salw a diystyr, fel nad oes achos
 ei waethaf, os gwyddom pwy yw Duw:
 idiwch chwithau a'r dyn yr hwn sydd
 padl yn ei ffroenau; canys ym mha beth
 neir cyfrif o hono;" *Esa.* ii. 22. "Nac
 ch rhag y rhai a laddant y corph, ac
 llant ladd yr enaid; eithr yn hytrach
 ch yr hwn a ddichon ddistrywio enaid
 corph yn uffern;" *Mat.* x. 28. Y mae
 ant ofn bwbachod; ond gallant chwara-
 r tân; ac nid llai plentynaidd yw pechu
 gwg dyn gwael (a gwisg fwgwd o ddy-
 na ac erchylldra ymddangosiadol, ond
 dd allu i'n niwiedio, heb law a rydd ein
 idd ein hunain iddo), a chwerau â thân
 n, i'r hwn y gall Duw ein bwrw dros
 . Yn ddiâu tebyg yw hyn i ofni y tân
 tiedig ar y pared, a bod heb ddim o'i
 n y ffwrn, lle y mae yn wir yn llosgi.
 eth oedd John Huss waeth er y cap
 roes ei elynion ar ei ben, tra yr oedd
 do dano helm o obaith, nas gallent hwy
 thynu ymaith? Neu pa faint nes i
 a oedd yr un merthyr duwiol am iddynt
 orchymyn ei enaid i ddiabol? Dim nes
 yw rhai o'u brodoriaeth ddrygionus eu
 in i'r nef, am eu bod wedi eu seintio
 nghalendar y pab. Y mae rhai, medd
 methon, yn "anathema ar air;" megys
 er, ac ereill o ffyddlawn weision Crist,
 dithiodd y pab. Ond beth a ddywed

Dafydd? "Melldithiant hwy, ond ben-
 dithia di;" *Salm* cix. 28. Yr hwn sydd
 ganddo air da Duw, nid rhaid iddo ofni gair
 drwg y byd. Nid yw cyfarthiad eôn yn
 peri newid gwedd y lleuad; ac nid oes achos
 i wyneb y Cristion ymliwio o herwydd cyn-
 ddaredd erlidwyr.

DOSE. III.

3. Bydd sicr o roddi dy chwant i fyny i
 gleddyf yr Ysbryd, cyn i'th fywyd fod mewn
 perygl oddi wrth gleddyf yr erlidwyr. Nid
 tebyg yw hwnw o fod yn hael o'i gnawd
 dros Crist (gan elwir ef i ddioddef dan law
 dyn) os yw yn arbedus o'i chwantau, ac heb
 allu dioddef min cleddyf yr Ysbryd pan
 ddel i'w marwhau. A eelli di fod yn ewyll-
 ysgar i roddi dy einios dros Crist, ac etto
 cadw yn dy fynwes, o afael cyfiawnder, elyn
 sydd yn ceisio dwyn bywyd Crist? Y mae
 erlidwyr yn temtio yn gystal ag yn poen-
 ydio: *Heb.* xi. Hwy a addawant anrhyd-
 edd y llys, gystal ag y bygythiant galedi y
 carchar, a phoenau y tân difaol. Felly, os
 bydd dy gariad at y byd heb ei farwhau,
 hawdd yw dirnad pa ddewisid a wnei; yr
 un ag a wnaeth Demas; ti a goffeidi y byd
 presennol, ac a adewi Crist ar ganol y maes.
 Neu pe bait, trwy wroldeb naturiol, yn
 sefyll i fyny dan ddiodeffiad, ie, hyd at
 roddi dy gorph i'w losgi yn hytrach na
 gwadu y wir grefydd wyt yn broffesu; etto,
 os byddai rhyw chwant wedi ei feithrin
 genyt, ni chait yn y diwedd fwy o ddiolch
 gan Dduw nag a gai y neb a offrymai anifail
 aflan dan y gyfraith. Y mae yn bossibl i
 un farw yn achos Crist, ac etto heb fod yn
 ferthyr iddo ef. Rhaid yw i galon dioddef-
 wr fod yn sanctaidd, yn gystal a'i achos;
 i'th ymddygiad fod yn rasol wrth ddiodeff,
 yn gystal a'r achos y diodeffi o'i herwydd.
 Hwnw yn unig yw merthyr Crist sydd yn
 diodeff drosto megys y diodeffodd efe ei
 hun. O blegid gadawodd i ni, nid yn unig ei
 wirionedd i'w ddal hyd at waed, pan elwir
 am hyny, ond ei esampl hefyd i'w ganlyn
 gan ein diodeffiaidau: 1 *Pedr* ii. 20; "Os a
 chwi yn gwneuthur yn dda, ac yn diodeff,
 y byddwch dda eich amynedd; hyn sydd
 rasol ger bron Duw. Canys i hyn y'ch
 galwyd hefyd; o blegid Crist fyntau a ddi-
 oddefodd drosom ni, gan adael i ni esampl
 fel y canlynem ei ol ef. Yr hwn pan ddi-
 fenwyd, ni ddifenwodd drachefn; pan ddi-
 oddefodd, ni fygythiodd," &c. Dyma waith
 anhawdd yn wir; cadw yr ysbrydoedd yn
 oer hyd yn oed yn y tân; ac yn rhydd oddi
 wrth ddigder a dial tuag at y rhai a fyddo
 yn ddirugaredd yn ein tafu i'r fflamau di-
 faol! Ond y mae y neb sydd drwy ras yn
 gallu gwneuthur hyn yn goncwerwr an-
 rhydeddus. Fe barai cig a gwaed alw am
 dân o'r nef, yn hytrach na thrugaredd, i
 syrthio ar y rhai a'i trinant mor greulawn.
 Y mae yr hwn a all faddeu i'w elyn yn rhy

galed iddo, ac wedi cael y llaw uchaf arno. O herwydd nid yw dynodïau ei elyn ond yn briwo ei gnawd ef; eithr yr archollion a rydd cariad a wanant yr enaid a'r gydwybod. Yr oedd yn rhaid i Saul addef fod Dafydd, a erlidiai mor greulawn, yn well gŵr nag ef ei hun: "Cyfiawnach wyt na mihi;" 1 *Sam.* xxiv. 17. A'r bobl oedd mor wyllt am gael croesoelio Crist, a aethant ymaith o'r dienyddiaeth yn glaf o'r hyn a wnaethant, "gan guro eu dwyfronau;" fel pe buasai pob peth heb fod yn dda, a wnaethpwyd yn erbyn dyn mor dda: *Luc* xxiii. 48. Yn awr, pan fydd rhyw ddau beth gwrthwyneb yn ymryson, hwnw yw y trechaf sydd yn cadw ei natur ei hun, ac yn troi y llall i ryw debygloiaeth iddo ei hun; megys y gwelwn dân yn bwrw ei wres ei hun i'r dwfr, ac yn peri iddo ymroddi a thebygu iddo. Felly ysbryd caredig sanctaidd, trwy faddeu i elyn, oni thycia i droi calon ei elyn ato mewn cariad; er hyny y mae yn troi cydwybod ei elyn yn ei erbyn ei hun, ac yn peri iddo gondemnio ei hun, a chyfiawnhau y sawl y mae yn ei erlid ar gam.

DOSB. IV.

4. Cadarnhâ dy ffydd ar yr addewidion hyny sydd yn perthynu yn neillduol i'r fath gyflwr. Hon yw goruchafiaeth y saint ar y byd, sef eu ffydd. Felly y profodd Dafydd; pan oedd Saul yng ngolwg dyn wedi ei gael dan ei draed, ac wedi ei ymlid o fyw mewn llys, i lechu am ei fywyd yn ogofydd yr anialwch; trwy ffydd, er hyny, fe orfoleddodd ar ei elyn balch, ac a ganodd mor hyfryd yn ei ogof a'i ddaeargell a'r aderyn llonaf yn y goedwig: "Parod yw fy nghalon, O! Dduw, parod yw fy nghalon; canaf a chanmolaf;" *Salm* lvii. 8. Yr oedd corph Saul yn cael byd brasach; ond nid oedd ei galon yn barod fel un Dafydd; ac am hyny ni allai darawar beroriaeth Dafydd. Yr oedd milo feddyliau ac o ofnau yn aflonyddu ei ben a'i galon; a Dafydd yn byw heb ofn na gofal; i.e. pan oedd ei elynion yn y maes yn hela am ei fywyd. Fe fydd i ffydd yn yr addewid, fel olew y weddw (2 *Bren.* iv), nid yn unig dy roddi allan o ddyled i bob ofnau a gofalon bydol, y rhedaist iddi trwy dy flinderau, ond rhoddi i ti fodd i fyw yn gysurus hefyd; i.e. mewn llawenydd anhraethadwy a gogoneddus.

Y mae dau fath o dristwch sydd yn gyffredin yn gwasgu drymaf ar eneidiau grasel yn eu dioddefiadau dros Grist.

1af. Y maent yn dueddol i ymfino yng nghylch eu personau eu hunain, a'u materion teuluaid.

2il. Am achos Crist y maent yn dwyn tystiolaeth iddo; rhag i hwnw aflwyddo.

Yn awr, y mae digon o ddarpariaeth yng nghadw yn yr addewidion i esmwythau calon y Cristion o'r ddau faich yma.

1af. Chwilia ac ystyria yr addewidion

hyny sydd yn perthyn i ti dy hun, fe oddefwr dros Grist; ac edrych a elli un agen heb ei chau i ollwng yr awel lammheuaeth i'th feddwl, i aflonydd heddwch, ac annhrefnu dy lawenydd mae yr addewidion mor aml, ac wellunio mor addas at bob gofyniad y genaid ddynuno boddlonrwydd yn ei gael y mae yn gofyn astudiaeth a gofias casglu; am fod Duw wedi dewis gwael ei addewidion yma ac acw, heb drefnu hytrach na'u dosbarthu, a gosod pob mawr gwlwm wrthyt eu hunain; i'r diben, gallwn feddwl, o'n tynu i gydnabydd â'r Beibl i gyd; ac na adawom un gohono heb ei chwilio; ond craffu yn farno o'r naill ben i'r llall. Ac na fydd heddwch presennol yr eglwys beri i ti rif hyn yn waith afreidiol. Y mae y mae yn casglu ei lysiau yn yr haf, y rhai o be ni ddefnyddir hyd y gauaf. A phagynted y gall erledigaeth godi, nis gwydd Y mae yr eglwys bob amser wedi cael, a gaiff etto, ei chyfnewidiadau o haf a gae, weithiau fe ddaw yn auaf cyn ei gwyd, ac yna pwy yw y dyn tebycaf i ei rwystro? Yn ddiâu, yr hwn a ddeiodd y gair yn llawen yn rhywydd te eglwys, ond ni thrysorodd erbyn hyn. Yn awr, beth yw dy ofn? o ba le y tardd digalondid? A wyt yn frawychus adgasrwydd carchar? Neu a yw ar tâu a dirywiad yn dy ddychrynu? Gydd, er dy gysur, os yw dy nerth yr wan i'th ddwyn drwyddynt, na elwi honot byth i'r fath ymgyrch boeth, a gwanhawdd. Y mae yr addewid yn sic hyn: "Ni âd eich temtio uwch law yr a alloch;" 1 *Cor.* x. 13. Y Duw sydd hyfforddio y llafurwr mewn synwyr (xxviii. 26) â pha oferyn i ddyrnu ei ffydd y byddo ei galedwch neu ei feddalwch âd i olwyn yr erlidiwr ddyfed dro sydd yn anabl i'w dioddef. Y mae Dd rhoddi y rheswm yma yn bendant a waith yn arwain Israel o amgylch (ar dwyn o'r Aipt) yn hytrach na thrwy y Philistiaid, y ffordd nesaf o lawer blegid, dywedodd, rhag i'r bobl edifa pan welant ryfel, a dychwelyd i'r Aipt *Ecsod.* xiii. 17. Gwelwch yma, fel y Duw yn ystyried eu gwendid; nid ydd etto yn abl i ddiodeff rhyfel; ac am ni chânt eu profi âg ef, nes eu cryfhâ ddiodeff. Ond os dy alw a gei i'r nymyladd â'r profiadau gwaedlyd tanlyd y mae yr addewid yn dwyn holl a thraul y rhyfel yn gyfan gwbl oddi law di: "Pan y'ch rhoddant chwi i na ofelwch pa fodd neu pa beth a lesa canys rhoddir i chwi yn yr awr ho beth a lesaroch;" *Mat.* x. 19. Ac ad "Ysbryd eich Tad sydd yn llefaru yn Nid oes un genau nas gall Duw ei wne

ymadroddus, nac un cefn mor wan nas roddi nerth ynddo. Ac y mae wedi gw bod gyda thi, pa le bynag y'th ddygo elynion; dwfr a thân ni chânt wahanu i'got a'i gyfeillach felus ef. Y mae yr ewidion hyn yn fath glustog dan benau int, fel y professedd llawer o honynt na fu iddynt erioed orwedd yn esmwythach huan eu trinin yn greulonaf gan eu geln didrugaredd. Y mae un eu dyddio thyr "o hyfryd berllan ei garchar;" un yn rhoddi gyda'i henw, "Eich cyfeilles dig, cyn llawened ag un ar daith i'r nef." bell fuont o dosturiu wrthynt eu hun yn eu dioddefiadau, fel mai eu gofid yaf oedd na allasant fod yn fwy diolchgar lauynt. Ac o ba le y cawsant eu nerth? a le y tarddodd eu llawenydd? Onid wrth Ysbryd Duw, oedd yn cymwys y'r addewidion atynt?

1. Am y blinder yr wyt yn rhoddi dy iddo yng nghylch eglwys ac achos Crist, it weled, ar ryw dro, yn orthrymedig gan elyn; er fod Duw yn cymmeryd dy llys da (sydd yn peri dy ofnau) yn gar-iawn; etto nid oes achos i ti boeni dy am beth nad oes modd iddo byth ddi-dd. Fe all yr arch ysgwyd, ond nid hio. Fe all llong yr eglwys gael ei tu gan donau, ond nid suddo; o blegid ae Crist ynddi, ac fe ddefny mewn pryd hadw. Nid oes ynte achos i ni (pan fyddo storm yn curo drymaf) ei aflonyddu, fel wnaeth y disgyblion â bloeddiadau ein ghrediniaeth, fel pe byddai y cwbl wedi i. Y mae ein fydd ar y fath amser yn mwy o berygl suddo nag achos ac rys Crist. Fe osodwyd y rhai hyny trwy ddewid allan o gyrhaedd dynion a diafi-

Efengyl dragwyddol yw yr efengyl: xiv. Nef a daer a ânt hebio; ond â un iot o hon hebio: *Mat. v.*; "Gair yr lwydd sydd yn aros yn dragwydd;" *1 Petr. i. 25.* Ac fe fydd byw i rodio dros au ei holl elynion; i'e, i weled angladd oll fyd; pan y caiff yn y dydd mawr ei du am byth yn ei adfail ei hun. Ac am eglwys, fe adeiladwyd hono ar graig angynol: "Pyrth uffern nis gorchfygant" *Mat. xvi. 18.* Hi fu yn fynych yn y t, ond erioed ni foddwyd mo honi; an-ych allan o'r tân, ond byth heb ei difa; hiau wedi ei llyngau i fyny yn ol rhes-; ond fel Ionah gan y morfil, cafodd ei w i fyny drachefn, megys llwyth rhy m i'r cylla cryfaf a fu gan un erlidiwr ed. Y mae y gred o hyn wedi dwyn y thron duwiol i'w bedd yn llawen, er int nosio iddo yn eu gwaed eu hunain; y gwyddent mai yr eglwys a enuillai y l o'r diwedd; a'u bod yn gadael ereill hol i ganlyn am y fuddugoliaeth yn y t, tra y dygid hwy eu hunain oddi ar y t i orfoleddu yn y nef. I'e, fe ragddy-

weddod rhai, trwy ysbryd prophwydoliaeth, yr amser pennodol pan y byddai i'r gwir-ioneiddau a erlidid, ac a gleddid y pryd hwnw gyda'r fath warth a dirmyg, gael ail gyfodiad hapus, a buddugoliaeth ar eu beilchion elynion. Ioan Huss a wysiodd ei elynion i ateb iddo ym mhen can mlynedd, gan ymgyuro yn hyn, er eu bod hwy y pryd hwnw yn llosgi gŵydd (ystyr ei enw ei hun), y deuai alarch yn ei le a lanwai yr awyr â'i beroriaeth, yr hyn a gyflawnwyd yn Luther; athrawiaeth yr hwn a aeth ym mhell ac yn agos, ac a ennillodd galonau llaweroedd ym mhob man. Hilenius hefyd, duwinydd arall o'r Almaen, pan oedd mewn carchar drewllyd (lle y bu farw am rygu briwiau y mynachod yn rhy drwm), a esmwythaodd ei ofid ar hyn, y byddai i un arall godi ar ei ol ef (gan enwi y flwyddyn 1516), yr hwn a ddinystriai deyrnas y mynachod (direidi pa rai nid oedd efe ond wedi ei geryddu yn dyner), ac na fyddent alluog i wrthsefyll ei rym, na chymmaint a'i rwymo â chadwyn; hyn hefyd a gyflawnwyd yn Luther; o herwydd fe'i cadwyd megys yn wyrthiol o ddwyllaw ei elynion gwaedlyd, er na fu mwy o syched erioed am waed un dyn.

PENNOD XXIV.

Cyfarwyddiadau i'r Cristion pa fodd i drin cleddyf y gair, er ei amddiffyniad yn erbyn camsyniadau a chyfeiliornwyr.

2. Gelyn arall sydd yn dyfod yn erbyn y Cristion yw yr heretic, neu y cyfeiliornwr; yr hwn sydd i'w ofni yn fwy na'r llall, o gymmaint ag y mae yn fwy drwg ymadael â gwirionedd Duw na'n bywyd; cael ein llygru yn ein meddyliau, na'n poeni yn ein haelodau; mewn gair, cael damnio ein heneidiau gan Dduw, na lladd ein cyrph gan ddynion. Pe buasai y merthyron yn ofni angeu yn fwy na heresi, ni fuasent yn neidio i dân yr erlidwyr yn hytrach na chydysynio â'u hathrawiaeth. Yn awr, fel y gallech godi y cleddyf hwn o eiddo yr Ysbryd (yr unig arf i'th amddiffyn) gyda goruchafiaeth yn erbyn y gelyn enbydus yma, dyro dy ymgais dyfalaf mewn arferiad o'r moddion goreu, i gael allan wir feddwl yr Ysbryd yn ei air. Y cleddyf hwn yn llaw un arall ni wna y tro i'th amddiffyn; na, rhaid ei fod yn dy law dy hun, neu ti a gollu y lles o hono. Nid yw y geiriau a'r ymadroddion noeth ond y plisgyn; y meddwl ar ystyr yw y perl y dylit fel marchnatâwr call ymofyn am dano. Rhedeg pennod drosti heb gyrhaedd meddwl Duw ynddi, a sibrdw gweddi drosti mewn iaith anadnabyddus, ydynt ddau beth cyffelyb. "Yr hwn sydd ganddo glust, gwrandawed beth y mae yr

Ysbryd yn ei ddywedyd wrth yr eglwysi;" *Dad.* ii. 7. Yr ydym i ymwrandaw am feddwl yr Ysbryd yn y gair, wrth ei wrandaw neu ei ddarllen. A'r hwn sydd ganddo glust i'r Ysbryd, ni fydd ganddo glust i'r cyfeiliornwr.

Yn awr, er ymofyniad am ystyr a meddwl y gair, fe all yr hyfforddiadau hyn, mi a obeithiaf, fod yn beth cynnorthwy i ti.

DOSB. I.

1af. Gochel ddyfod at yr Ysgrythyrau â chalon ansactaidd. Os byth y gwybyddi feddwl Duw yn ei air, yr Ysbryd sydd raid ei ddangos. Ac a feddyli y bydd iddo ef sydd mor sanctaidd, dy gymmeryd erbyn dy law domlyd i'th arwain at y gwir? Na, y mae dy farn wedi ei phennddi: "Ni ddeall yr un o'r rhai drygonus;" *Dan.* xii. 10. Yr angel a gymmerodd Lot i'r tŷ, fe darawodd y Sodomiaid â dallineb, fel yr ymbalfalent am y drws ac heb ei gael. Ac felly y mae y rhai hyn yn debyg o gael eu trin, a ddeuant at y gair â chalonau halogedig. Oddi allan y mae y cŵn; nid yn unig oddi allan i'r nef yn y diwedd, ond oddi allan i'r wir wybodaeth o Dduw yn y byd. Y mae gair Duw gan yr annuwiol; ond gan yr enaid grasol y mae meddwl Crist: *1 Cor.* ii. 16. Am hyn y mae yr un apostol yn annog: "Na chyd-ymffurfiwch â'r byd hwn; eithr ymnewidiwch trwy adnewyddiad eich meddwl; fel y profoch beth yw daionus, a chynmeradwy, a pherffaith ewyllys Duw;" *Rhuf.* xii. 2. A pha beth yw y swm o hyn, ond os mynwn gael gwirionedd i aros gyda ni, a bod yn gydnabyddus â meddwl ac ewyllys Duw, y bydd raid i ni barotoi calon sanctaidd yn llety iddo? Y rhai hyn yn gyffredin sydd yn cael eu dal yn gaeth gan gyfeiliornwyr, oedd o'r blaen yn garcharorion i'w chwata. *Gwel 2 Tim.* iii. 6; "Yn dwyn yn gaeth wrageddos llwythog o bechodau." Pan yw Dafydd yn deisyf deall yn y gair, y mae yn gwneuthur ei fwriad i fyw yn sanctaidd yn ddadl am y rhodd: "Dysg i mi, O Arglwydd, ffordd dy ddeddfau, a chadwaf hi hyd y diwedd. Gwna i mi ddeall, a chadwaf dy gyfraith; i'e, cadwaf hi â'm holl galon;" *Salm* cxix. 33, 34.

DOSB. II.

2il. Paid a gwneuthur dy reswm dy hun yn rheol i fesur gwirioneddau ysgrythyrol wrthi. Ai cymmhwys yw hwnw i brofi dadguddiadau y gair, ac yntau yn cael ei ddyrysu a'i hurtio gan gynnifer o ddirgelion mewn natur? Onid yw y gair yn dadguddio y fath bethau i ni, ag sydd nid yn unig uwch law synwra y corff, canys ni welodd llygad ac ni chlywodd clust mo honynt, ond hefyd uwch law edrychiad rheswm, am na ddaethant erioed i galon dyn? *1 Cor.* ii. 9. Yn wir, y mae yr holl wirioneddau efengylaidd yn siarad mewn iaith ddiethr i reswm; ni

ddichon efe eu deall, oddi eithr i ffod yn ddeonglydd. Y mae yr Ysgrythau yn debyg i'r Môr Coch, trwy yr hwn aeth yr Israeliaid, mewn ffydd, yn ddiog ond yr Aiphitiaid, pan ei cynnygiasant eisieu yr arweinydd yma, a foddwyd.

â credadyn gostyngedig trwy ddwfn ddigelion y gair yn ddiogel, heb suddo i gysyniadau peryglus; tra y mae meibion balderi a adawnt ffydd, ac a gymmerant reswm yr arweinydd, yn boddli, fel y gwelwn, me llawer o gyfeiliornadau damniol—Ariae Morganiaeth, Sosiniaeth—ac nis gwn beth. O'r groth hon y tarddodd y cyfeiliornadau mwyaf enbyddus sydd wedi eu taro ar y Beibl. Ynddi y magwyd heres Saduceaidd pan wadent yr adgyfodiad. Oeddynt yn addef llyfrau Moses fel gair Duw, ac etto yn gwadu yr adgyfodiad sy yn cael ei amddiffyn ynddynt; am ei fod o'lw eu rheswm yn beth mor amhossus bod i'n cyrph, ar ol cynnifer o newidiadau glai a llwch, sefyll i fyny mewn byw Chwerthin am ben hyn yr oedd eu rheswm fel y mae geiriau ein Harglwydd yn egddangos: *Mat.* xxii. 29; "Yr ydych cyfeiliorni, gan na wyddoch yr Ysgrythau, na gallu Duw."

DOSB. III.

3ydd. Pan fyddoch yn ymofyn â'r gochel ddyfod ato â barn wedi rhagwyrho unrhyw blaid neu opiniwn. Nid tebyg fy hwnw o ddal y glorian yn wastad, sydd â'i ffordd wedi ei llwgrwobrwo ym mlaen llaw. M'lygad afiach yn gweled pethau o'r un llyg ag y byddo natur ei afiechyd: felly meddwedi ei ragderfynu, y mae am roddi ei ys ei hun ar y gair, ac yn colli y gwirionedd herwydd tyb rhy dda am ei opiniwn ei hun. Och! y mae gormod yn darllen yr Ysgrythyrau, nid yn gymmaint i ymofyn addysgu i ymofyn cadarnhâd yn yr hyn a gymmaint eisoes i fyny. Y maent yn dewis opinyau, fel Samson ei wraig, am eu bod w'n eu bodd: ac yna deuant i ofyn caniatâd y gair. Fel hyn y darfu i'r Iuddeuon yn gataf ymrwymo â'u heilunod, ac yn golcynghor gau Dduw pa beth a wnaent: *Eccl.* xiv. 4. Cyfiawn farn Duw yw, na wel y cryw wirionedd, er ei fod yn gorwedd o'ubla ond y rhoddir hwy i fyny i galon annoe i greu fod y gair yn cydreddeg â'u dychymygon (*adn.* 4, 5): "Myfi yr Arglwydd atebaf yr hwn a ddelo yn ol amlder ei dychymygon, i ddal tŷ Israel yn eu calonau." A pha bryd y mae dyn yn cael ei ddal yn galon, os nad pan fyddo yn cael ei faglu ei ddychymygon ynfyd a weuodd ei feddwl cyfeiliornus.

DOSB. IV.

4ydd. Dos at Dduw mewn gweddi agoriad i ddadgloi dirgelion ei air. Nid synfeddyliwr, ond y gweddiwr, a gaiff af ar y trysor hwn o wybodaeth ysgrythy

th wylo y cafodd Ioan agoryd y llyfr sel-
giddo : *Dad.* v. 5. Y mae Duw yn
ych yn dwyn gwirionedd at law y Crist-
mewn attebiad i weddi, yr hwn a hir-
viliodd efe am dano yn ofer trwy lawer o
n ac astudiaeth : "Y mae Duw yn y
oedd yn dadguddio dirgeledigaethau ;"
n. ii. 28. A pha le y dadguddia efe
rgeledigaethau ei air ond wrth orsedd
s ? "O'r dydd cyntaf y rhoddaist dy
on i ddeall (meddai yr angel) ac i ymgys-
dio ger bron dy Dduw, y gwrandawyd
eiriau ; ac o herwydd dy eiriau (hyny yw,
weddi) y daethum i ;" *Dan.* x. 12. A
beth oedd neges y genad yma at Daniel
agor yr Ysgrhythyr yn helaethach iddo,
yr ymddeingys wrth gymharu *adn.* 14
adn. 24. Yr oedd y gwr sanctaidd hwn
li cael peth gwybodaeth trwy ei astud-
th yn y gair ; gosododd hyn ef i weddio,
fe gyrchodd gweddi angel o'r nef i roddi
o fwy o addysg. Os byth y deallwn
dwl Duw, y mae yn rhaid i ni fod yn
yledwyr am hyny i Ysbryd Duw : "Pan
el efe, sef Ysbryd y gwirionedd, efe a'ch
ys chwiri i bob gwirionedd." Ac y mae
Ysbryd yn firwyth eiriolaeth Crist : "Mi
weddi'af ar y Tad, ac efe a rydd i chwi
iddanydd arall." Yn awr, y mae yn gofyn
l ein gweddiau ni yn cydfyned â'i eir-
iaeth ef. Tra y mae ein harchoffeiriad yn
gldarthu tu mewn i'r llen, yr ydym ni i
yn gweddio oddi allan am yr un peth ag
nae efe yn eiriol oddi mewn. Bellach, i
fywiocau di i weddio gyda thaerni mwy
resog am arweiniad yr Ysbryd Glân i'rh
wys i wirionedd.

af. Bydded i arswyd yr Ysgrhythyr
ay sydd yn gosod allan enbydrwydd cyf-
ornadua a gau-athrawiaethau syrthio ar-
fel, fel na feddyliech dy fod ar neges ys-
n pan yn gweddio rhagddynt ; neu mai
ter bach yw, pa un a gei dy erfyniad ai
dio. Un o brif ystrywiau Satan ydyw
lu pris cyfeiliornadau ym meddyliau dyn-
e, i'w gwneuthur felly yn fwy gwerthad-
y. Y mae llawer yn meddwl na chânt
u mor ddrud am gyfeiliornad mewn barn,
am bechod mewn ymarferiad. Iê, y mae
n rai y fath eangder, fel y tybiant y gall
n fod yn gadwedig trwy bob math o gref-
d. Egwyddor yn sicr-duedd i wneuthur
y hai a'i daliant yn ddiolaf ac esgeulus yn
e dewisiad. Ni bydd prinder cwsmeriaid
y pechod hwnw y meddylia dynion na
nt dalu ond ychydig neu ddim am dano.
ll rhai dynion feddwi wrth gael diod yn
nd, er na wnaent hyny pe gwyddent y
ddai raid iddynt fyned yn ddwfn i'w pwr
alu y cyfrif. Pa fodd y mae buteindra
y aml ym mysgr yr offeiriad Pabaid, ond
ei fod yn cael ei gyfrif ganddynt yn
chod mor fychan ? Ac mi ddymunwn na
ddai cyfeiliornad a heresi (y rhai ydynt

buteindra y meddwl) yn cael eu bychanu yn
ein plith ninnau. Ond gwae i'r dynion
hyny sydd, i brysuro marchnad y diafol, yn
tentio ac yn denu pobl i bechod, trwy ei
brisiu yn is nag y gwnaeth gair Duw. Os
unwaith y gwisgir arswyd pechod oddi ar y
gydwybod, nid rhyfedd yna os gwelwn
ddynion yn neidio arno cyn hyfed a'r llyff-
aint yn y chwedl ar y boncyff, pan ei gwel-
sant yn gorwedd mor llonydd ar waelod yr
afon. Y mae ofn yn gwneuthur y corph yn
fwy agored i haint ; ond y mae yn cadw yr
enaid rhag yr haint o bechod.

Yn awr, fel y byddo dy arswyd yn fwy
rhag yfed gwenwyn unrhyw athrawiaeth
lygredig ac afiach, myfyried dy feddwl ar
yehydig Ysgrhythyrau, y rhai a ddangosant
ei naturiaeth adgas a damniol. *Yn Gal.* v.
20, gelwir heresi yn un o weithredoedd y
cnawd ; ac fe'i cyfrifir ym mhlith y pechod-
au y ceuir eu gweithredwyr allan o'r nef-
oedd : "Ni chaiffy rhai sydd yn gwneuthur
y cyfryw bethau etifeddu teyrnas Dduw."
Yn 1 *Tim.* iv. 1, fe'i gelwir yn athrawiaeth-
au cythreuliaid. Ac os oddi wrth y cythraul
y tarddant, i ba le yr arweiniant ond i
uffern ? Y mae y cyfryw ag sydd yn wrth-
wyneb i egwyddonol sylfaenol yr efengyl,
yn anghyttunol â mwynhâd o gariad a ffiafr
Duw : "Yr hwn nid yw yn aros yn nysg-
eiaeth Crist, nid yw Duw ganddo ef ;" 2
Ioan 9. A phwy, meddwech chwi, a gaiff y
dyn nad yw Duw ganddo ? Pe na byddai
un ysgrythyr arall i'w dwyn yn erbyn y
rhyw hwn o bechod, ond yr un hono (2 *Pedr*
ii. 1), gallai fod yn ddigon i wân lwynau yr
heretic, a pheri i'w liniau guro y naill wrth
y llall, fel yr eiddo Belsassar wrth yr olwg
ar yr ysgrifen ar y pared : "Bydd gau-
athrawon yn eich plith, y rhai yn ddirgel
a ddygant i mewn heresiau dinstriol, a chan
wadu yr Arglwydd, yr hwn a'u prynodd
hwynt, ydynt yn tynu arnynt eu hunain
ddinstyr buan." Felly, os oes gan ddy
ewyllys i gael y blaen ar bechaduriaid er-
eill, a bod yn uffern yn gynt na hwy, ni raid
iddo ond agor ei hwyliu i wynt athraw-
iaeth gau, a bydd yn debyg o wneuthur
taith gyflym i uffern ; o herwydd y mae y
rhai hyn yn dwyn ar eu hamddiffynwyr
ddinstyr buan. Iê, y mae Ysbryd Duw, i
roddi eu halaethus gyflwr yn fwy amlwg, yn
dwyn i mewn dair o'r esamplau mwyaf ofn-
adwy o ddialedd dwyfol a dywalltwyd er-
ioed ar neb rhyw bechaduriaid, sef tafiad yr
angylion gwrthgiledig o'r nef i uffern ;
boddiaid yr hen fyd ; llosgiad Sodom a Go-
morrah, trwy wlawio uffern (fel pe buasai)
o'r nefoedd arnynt. Y mae yn dwyn y rhai
hyn, meddaf, fel esamplau a gwyntlon o'r
dialedd hwnw a ddisgyn yn ddiawmheu ar
y fath yma o bechaduriaid. Erbyn hyn, mi
obeithiaf y byddi wresog yn dy weddi rhag
y gelyn enbydus hwn.

(2il.) Pan fyddo dy galon wedi ei meddianu a'r arswyd o gael dy arwain i unrhyw opiniwn llygredig, yna cadarnhâ dy ffydd oddi wrth yr ysgrythyrau cysurol hyny sydd yn sicrhau na chaiff un Cristion gwirioneddol ei adael i syrthio yn barhaol i unrhyw gyfeiliornad damniol. Y mae Crist o ran gallu a ffyddlondeb yn cyflawni ei swyddau prophwydol a brenhinol, yn gystal a'i swydd offeiriadol. Yn ddiau, nid y gofal lleiaf a gymmer efe am ddeall ei bobl, arweinydd eu holl ddy, a'r gynneddf y mae yn gweithredu arni gyntaf yn ngwaith tröedigaeth. Y mae i ti, gan hyny, sail mor gref i gredu y gweryd efe di oddi wrth egwyddorion damniol, ag oddi wrth arferion damniol. Mantais fechan fyddai cael ein cadw rhag un gelyn, a'n gadael yn agored i ewyllys a gallu un arall. Y mae Crist yn murio o amgylch ei bobl: "Ffos ddofn (medd Solomon) yw genau gwragedd dieithr; y neb y byddo yr Arglwydd yn ddog wrtho, a syrth yno;" *Diar.* xxii. 14. Ac felly y mae genau cyfeiliornwyr sydd yn dyfod âg athrawiaethau dieithr, opiniynau puteinaidd. Ac i bwy y cloddiwyd y ffos yma? Ac yn wir, os edrychwn ar fwriad Satan, magl ydyw a osodwyd yn benaf i ddal y sant—fe ddyuniunai "dwylllo, pe byddai bossibl, i'e, yr etholedigion." Ei ymgais mwyaf sydd am ledi ei fanerau yn y deul hon i Dduw: a halogi y rhai a olchodd Duw. Ond os edrychwn ar amcan Duw, ffos ydyw y mae efe yn dioddef iddi gael ei chloddio i ragrithwyr a gau-broffeswyr, y cyfryw ag na ymwasgant erioed o'u calon â Christ a'i wirionedd. Dyma y rhai a ffeiddir gan Dduw, ac am hyny a adewir i fyned yn ysglyfaeth i'r rhai hyn sy'n hela am eneidiau trwy eu hathrawiaethau pwrdr. "Am na dderbyniasant gariad y gwirionedd, fel y byddent gadwedig; am hyny y denfyn Duw iddynt amryfusedd cadarn, fel y credont gelwydd; fel y barner yr holl rai nid oeddynt yn credu i'r gwirionedd, ond yn ymfoddloni mewn anghyfiawander;" *2 Thes.* ii. 10—12. Y rhai hyn, fel y ceirw crwydredig a saethir, tra y mae y rhai sydd oddi mewn i'r palis yn ddiogel; neu fel y maesdrefi a gymmerir gan y gelyn, tra y mae y ddinas gaerog yn ddiangol rhag ei gynddaredd. Y cyntedd o'r tu allan sydd yn cael ei adael i'w fathru dan draed: *Dad.* xi. 2. Ac yn y lle a enwyd o'r blaen yn yr *Epistol at y Thessalonaiad*, er ei fod yn rhoi rhagrithwyr i fyny i gael eu twyllo gan gau athrawon, fel Ahab gan y gau brophwydi; etto y mae yn llefaru yn gysurus wrth y duwionol (*adn.* 13), ac yn dangos fod yr un arfaeth ag a'u happwyntiodd hwy i iachawdwriaeth, wedi darparu iddynt hefyd goffeidol y gwirionedd, fel y moddion angenrheidiol i'w harwain iddi: "Eithr nyri a ddylem ddiolch yn wastad i Dduw drosoch chiwi, frodyr caredig gan yr Arglwydd, o

blegid i Dduw o'r dechreuad eich ethol chiwi i iachawdwriaeth, trwy sancteiddiad yr Ysbryd a ffydd i'r gwirionedd." Ac os meddiannodd Duw y pen trwy wir egwyddorion a'r galon drwy ei sancteiddiol ras, fe'u ceid allan o ewinedd Satan. Dos, gan hyny, a dadlew yr addewid er dy gadwraeth. Y addewid wedi ei defnyddio drwy ffydd wrth orsedd gras fydd y feddyginiaeth oreu y erbyn haint cyffredin yr amseroedd hyn. Paid a phetruso am dy neges pan y mae y addewid yn peri i ti fyned a llwyddo. Mae y drugaredd wedi ei chaniatau cyn i ti e gofyn: yn unig, fe fyn Duw i ti, trwy weddi, roddi i mewn dy hawl iddi cyn cae meddiant o honi. Ac er dy gynnorthwyo gosodais i lawr rai addewidion melus o natur yma, pa rai, os creffi arnynt, a allan dy addurno â seiliau i'th ffydd, ac hefyd y dadl mewn gweddi yn yr achos yma: *Mat.* xxiv. 24; *Ioan* viii. 12; a x. 29; *1 Cor.* xi. 19; *Phil.* iii. 15; *1 Ioan* ii. 19, 20.

DOSB. V.

5ed. Cymmbara ysgrythyr âg ysgrythyr. Gau athrawiaethau fel gau dystion ni chyt tuant a'u gilydd. Gellir eu galw yn llang am mai llawer ydynt. Ond un yw y gwirionedd; y mae yn gydryw oll. Y mae y naill ysgrythyr yn hyfryd gydseinio â llall. Oddi yma y mae, er fod amryw yw grifenwyr â llaw yn y Beibl sanctaidd, a rhai hyny mewn amryw oesoedd ar ol e gilydd, etto, dywedir mai un genau oedd ganddynt: "Megys y llefarodd trwy ena ei sanctaidd brophwydi, y rhai oedd o ddechreuad y byd;" *Luc* i. 70. Un genau oedd gan y cwbl, am eu bod yn cydgorio mo hollol a'u gilydd. Y ffordd oreu i wybod hollol Duw yn un testyn, yw ei osod wrth un arall. Y mae y gemydd yn cymmeryd un diemwnt i dori y llall; felly dylem nin nau gymmeryd un lle o'r Beibl i ddeongl un arall. Y mae ysgrythyrau, wrth eu cymmharu, fel drychau wedi eu gosod gyf erbyn a'u gilydd, yn bwrw goleu y naill a y llall (*Nehem.* viii. 8): "Hwy (y Lefaid), ddarllenasant yn eglur yn y llyfr, yn nghyfraith Duw, gan osod allan y synwy fel y deallent wrth ddarllen. Y mae Trem elius yn darllen yma fel hyn: Hwy a rois ant iddynt ystyr yr hyn a ddarllenasant wrth yr Ysgrythyr ei hunan. Yn awr wrth gymharu ysgrythyr âg ysgrythyr cymmer ofal i ddeongli manau tywyll wrth y rhai mwy hawdd ac eglur, ac nid y rhai eglur wrth y tywyll. Y mae cyfeiliornadau yn ymlusgo i'r lle mwyaf cysgodol a thywyll, ac yno gwnânt eu noddfa. Y mae rhyw bethau anhawdd eu deall, y rhai y mae yr annysgedig yn eu gŵyrdroi., Nid rhy fedd eu bod yn tramgwyddo mewn lleoedd anhawdd a thywyll, gan eu bod yn troi eu cefnau ar y goleu a ddyry ysgrythyrau mwy eglur, i'w harwain drwodd yn ddiogel: "Y

eb a aned o Dduw nid yw yn pechu; eithr mae yn ei gadw ei hun a'r drwg hwnw d yw yn cyflwrdd âg ef;" 1 *Ioan* v. 18. yma le tywyll a gipir gan rai; ac oddi rtho, penderfynant fod cyflwr perffaith oddi wrth bob pechod yn gyrrhaedd y yn y bywyd hwn. Ond y mae lliaws o sgrhythrau eglur yn tystio yn erbyn y fath penderfyniad: 1 *Bren.* viii. 38, 46; *Diar.* c. 9; *Preg.* vii. 20; *Iob* ix. 20; *Phil.* iii. 2; 1 *Ioan* i. 8—10, gyda llawer ereill; fel mae yn rhaid mai mewn ystyr derfynol idas yr ydym i ddeall, "Nad yw y neb a aned o Dduw yn pechu." Nid ydyw yn pechu yn barhaol: neu yn gymmharol, nid yw yn pechu fel y gwna y dyn anianol; a'r drwg hwnw nid yw yn cyflwrdd âg; hyny yw, nid yw yn cyflwrdd â chyrrhdiadau naturiaethol, fel y dywed Cajen, nid yw yn bwrw ei natur ei hun iddo, l y mae y tân wrth gyflwrdd â haiarn neu ped, yn eu troi i'w naturiaeth ei hun. Y ae y rheol yma o gymmyrd ysgrythrau dar i ddadgloi rhai tywyll yn gysson a saf-lwy ym mhob achos. A balediged fyddo uw, er iddo, i ddoft ein balchder, roddi i own rai pethau anhawdd i fyned trwylynt, etto y mae y gwirioneddau angen- teidiol i iachawdwriaeth yn hawdd a hyr- rch, Ie, i'r deall gwanaf. Y mae yr Ys- ryd Glân wedi doeth drefnu yr Ysgrythyr- , fel y mae ynddynt fanau eglur ddigon i bri newyn; a manau tywyll ddigon i ddar- stwng balchder: *Austin de Doc. Ch.*

DOSB. VI.

6ed. Ymgynghora â'th ffyddlawn arwein- yr, a osododd Duw uwch dy ben yn ei glwys. Er na ddylai pobl rwympo eu ffydd rth lawes y gweinidog, etto, dylent eisio y gyfraith o'i enau ef, "o herwydd enad Arglwydd y lluoedd yw efe;" *Mal.*

7. Y mae Crist yn cyfarwyddo ei fynnod i eu diogelwch, fel na thröent i draws- vybrau cyfeiliornad, ac na syrthiont i ddwy- w gau athrawon (y cymdeithion dichell- ar hyny) a'i gynghor yw iddynt fyned "ar yd ol y praidd, ac ymborthi ger llaw pebyll bugeiliaid;" *Can.* i. 8. Fe w'yr y diafol n rhy dda, os bydd y bugail oddi ar y ordd, nad hir y bydd efe yn dal y defaid. ac y mae yr amseroedd hyn yn rhoi prawf thrist nad yw yn camgymmyrd. Pa bryd y bu serchiadau pobl yn fwy oer at eu gwein- logion? A pha bryd y bu eu barnau yn wy dan rym cyfeiliornadau? O ba fath, ddtolwg, y mae y rhai a fagldd i gyfeiliorn- dau enbydus yn y diweddar annedwydd mseroedd? Onid rhai o'r nôd du yma, gan uwyaef, ydynt? Onid y fath bobl ag a yrandawant ar estron (Pabydd fe allai) nas wyddent am ei fuchedd na'i egwyddorion, yn hytrach nag ar y gweinidogion a osod- odd Duw i wlyio dros eu heneidiau, megys hai y bydd raid iddynt roddi cyfrif? Ie, y

rhai trwy faith brawf mewn bywyd ac ath- rawiaeth a gafwyd yn ddefnyddiol a ffydd- lawn? Yn ofn Duw ystyriwch hyn: nid eich gweinidogion (yn gyffredin) yn eu pul- pudau a'u gweinidogaeth, ond y tylwyth di- chellgar yma sydd yn ddirgel wedi dwyn i mewn heresiau dinystriol, ac wedi lefeinio y fath dalp mawr o bobl yn y wlad âg athraw- iaeth sur afiachus. Os mynit, gan hyny, dy gadw rhag cyfeiliornad, gwna ddefnydd megys o gleddyf y gair yn dy law dy hun, felly hefyd o'r medrusrwydd duwiol a rodd- odd Duw i'th ffyddlawn weinidogion er dy amddiffyniad. Disgwyl dan eu gweinidog- aeth gyhoeddus, gan weddio am ddwyfol help iddynt, ac am fendith o'u llafur i ddis- gyn arnat tithau. Os ar un amser y byddi mewn petrusder am y genadwri a glywi, dos at y genad: ac (os yw yn ateb i'w enw ac yn ffyddlawn weinidog yr efengyl) mi feidd- iaf addaw i ti ddyfodfa hawdd a chroesaw calon ato; yn unig, dos er mwyn addysg, ac nid i godi gwrthddadleuon; i ymofyn bodd- lonrwydd i'th gydwybod, ac nid i foddio ryw ysta o wag fanylrwydd. Ein Iachawd- wr ei hun, yr hwn oedd i'mor ewyllysgar i roddi boddlonrwydd i'w ddisgyblion yng nghylch yr athrawiaeth a bregethasai yn gy- hoeddus, fel yr agorodd hi iddynt yn fwy helaeth o'r neilldu; etto pan ddaethant â chwestiynau manwl ac anfuddiol, gwelodd yn dda roddi sen i attal y fymppy hono, yn hytrach na'i maethu trwy ateb i foddlon- rwydd: "Ni pherthyn i chwi wybod yr am- serau na'r prydiau;" *Act.* i. 7. A thro arall, "Os mynaif iddo aros hyd oni ddelwyf, beth yw hyny i ti, canlyn di fyfi. Y mae yn tynu Pedr oddi wrth gwestiwn anfuddiol, i edrych ar ddyleds wydd angenrheidiol: *Ioan* xxi. 22.

PENNOD XXV.

Cyfarwyddiadau pa fodd i drin y cleddyf yma, er tori i lawr a gorchfygu chwantau ein mynwesau ein hunain, a thematasiynau oddi allan.

3. GELYN arall sydd i ni ei wrthsefyll yw byddin o chwantau a lettyant o fewn i'n mynwesau, a chandynt Satan yn ben, i'w harwain i'n herbyn. A phwy, os ydyw yn credu fod ganddo enaid i'w gadw neu i'w gollu, a all fod yn anewyllysgar i ymladd yn erbyn y cydfrad melltigedig yma gan ddi- affiaid a chwantau! Dywedwyd am y Rhufeiniaid, pan yr ymladdent â phobl er- eill, eu bod yn ymladd am anrhydedd a bri, ond yn erbyn y Carthageniaid am bywyd a'u bod. Felly yn y rhyfel yn erbyn pechod a diafol, y mae y rhai hyn mewn enbyd- rwydd. Dyma y rhyfel ardderchocaf o'r cwbl. Ardderchog—yn gyntaf, am ei fod

yn gyflawn. Mae yr hyn a ddywed un am y rhyfeloedd a lusia penaduriaid y byd y naill yn erbyn y llall, yr wyf yn ofni, yn rhy wir; sef, Mai anfynych y mae yr achos dros ba un yr ymarfogant, mor anlwg, nad oes rhyw le i betrusder yng nghlywybod y neb sydd yn eu cymmyrd mewn llaw. Ond yma fe'u rhoddir allan o bob ammheuaeth. Heb gamarfer yr enw, fe ellir galw hwn, "Y Rhyfel Sanctaidd;" o herwydd y mae yn erbyn yr unig elyn a fedd Duw yn y byd, yr hwn sydd ei hunan ar y maes, ac wedi gosod i fyny ei frenhinol faner i'w erbyn, at ba un y gwahodda holl ddynolryw (rhai trwy lef cydwybod naturiol, ac ereill trwy uchel sain ei sefengyl) i roddi ufudd-dod iddo ef, ein Creawdwr a'n Llywydd, a'i gyn-northwyo yn erbyn y cedyrn; nid am fod arno eisieu ein help, ond am ei fod yn disgwyl ein dyledswydd, ac yn well ganddo wobrwyo ein fyddlondeb na chospi ein gwrthryfel-garwch. Fe fu rhai, a yrwyd i ladd eu hunain gan gywilydd, am fod eu tywysog wedi colli y fuddugoliaeth trwy eu llwfrdra hwy. O! pa gywilydd ynte a leinw ein hwynebau ryw ddydd, os byddwn! ni trwy llwfrdra neu anfyddlondeb wedi gwneuthur a allem er peri i bechod a Satan orfoleddu ar Dduw ei hun! Ond ym mhellach, y mae yn rhyfel ardderchog o ran anhawser a chaledi. Y mae i ni elyn cadarn ac ystyfnig, y fath ag a brawf ein medr a'n grym i'r eithaf. Erioed ni orchfygodd un ofnus yn y rhyfel hwn. Ni chyll pechod ond wrth y fodfedd; a'r hyn a ennill, anhawdd ganddo ei ollwng. Y rhai a ddilynant y rhyfel yma dynaf, hwy a'i cânt yn waith bywyd o leiaf. O! chwi sydd yn caru gweithredoedd ardderchog ac yn hela am anturiaethau na faidd ond ambell un dewr eu cymmyrd mewn llaw; wele yma yr hyn a chwiliwch am dano. Ymladd â dynion, a rhuthro i gestyll, nid ydynt ond chwareu plant wrth yr ymgyrch hwn, lle y mae diaffiaid a chwantau i'w gorchfygu. "Gwell yw y diog i ddigofaint na'r cadarn; a'r neb a reola ei ysbryd ei hun na'r hwn a ennill ddinas;" *Diar.* xvi. 32. Gwell, am ei fod yn gorchfygu gwaeth gelyn; un sy lawer mwy cadarn a galluog. Och! ni fu ond ychydig o gleddyfwyr yn y byd (gwyr oedd mor enwog am eu buddugoliaethau) na ddarfu iddynt fyw a marw yn gaethion i bechod, dan ostwng eu gwarau yn llwfr i dynu cerbyd haiarn rhyw ffaidd chwant, ar yr un pryd ag yr eisteddent yn wych i gael eu tynu mewn gorfoledd gan y rhai a gymmerasant yn gar-charorion mewn rhyfel. Megys y cafodd Hannibal ei guro yn ei wlad ei hun, er ei fod yn fuddugoliaethus yn ei deithiau pell-enig; felly y mae gormod o'r rhai hyn sy'n enwog o herwydd eu gwrolwaith ar led y byd, yn cael eu curo yn resynol a'u mathru yn gywilyddus gan eu llygredigaethau eu

hunain gartref, yr hyn a'u gwna yn llawer mwy anenwog mewn byd arall. Ond na frawycher chwi, O chwi saint, wrth y swm am rym a rhif eich gelynyon; mwyaf fydd eich buddugoliaeth ac amledd eich caethion i addurno eich gorfoleddus gerbyd. N lesgâed eich calonau chwaith wrth weled y Cesariaid buddugoliaethus yn cael eu hysbeilio gan y gelyn yma o'r urddas a ennillasant oddi ar ereill: ac yn meirw mewn cadwynau ac yn gaethion i'w chwantau, e byw yn goncwerwyr ar ddyinion. Cofiwch er eich cysur nad oes ond y byd di-fydd, y fath ag sy heb arfau ysbrydol ac yn estroniaid i Dduw, yn cael eu gadael fel hyn i fydded yn ysglyfaeth i bechod a Satan. Ond, mae genych chwi Dduw o'ch ochr, sy'n rhe i chwi gleddyf cyssegredig ei air er eich amddiffyniad; arf y gwyr Satan eisoes ar ei fin, ac am hyny y mae yn crynu pa brybynag y tyno fydd ef allan. Yr hwn wnaeth y lesiathan yma (fel y dywedir am llall yn *Iob* xl. 19) a all beri i'w gleddyf hwn nesau ato ef, a chalonn dyf holl chwantau dithau hefyd. Ond yr wyf yn ymattal, ga mai fy ngorchwyl yma yw, nid eich anno, ond eich cyfarwyddo i drefnu eich ymladd â'ch gelyn hwn; a hyny hefyd yn unig trwy ddyngu i chwi drin yr arf yma, gair Duw i'r diben o wrthsefyll cynnygiadau i bechod oddi mewn, neu dentasiynau iddo oddi allan gan Satan.

DOSB. I.

1af. Cymmer beth poen i gasglu allan o gair yr amryw luniau trwy ba rai y mae yr Ysbryd Glân yn gosod allan wrthru pechod, fel y byddo yn fwy adgas a ffaidd gan dy feddyliau. Wrth osod y rhai by ynghyd, gelli weled ei wir lun a'i agwedd (wedi ei dynu gan law fedrus a fyddlawn ac nad ydyw mor hardd ag y dywed Satan ei fod wrth dy demtio iddo. Y mae dyn yn cofleidio pechod ar air Satan, ac yn ei ddebyn i'w fynwes (fel Jacob ei wraig i'w wely), cyn gwled ei wyneb na gwybod y iawn pa beth ydyw; ac am hyny, megys gwelodd efe yn y boreu mai nid y Rahdeg a addawsid oedd ganddo, ond Lea lygadwlyb, felly yn rhy ddiweddar, p'ddihuno ei gydwybod, y gwel y pechod ddarfod iddo gael ei dwyllo a'i somi yn rheymol am yr hyn a ddisgwylodd. Fe gyerydd â gwaeth na'r purdan yn lle paradwy. Yn awr, Gristion, fel y gallech weled y amlycach lun hagr yr anghenfil yma, pechod dal sylw yng ngair Duw ar y pedwar pechodall mewn perthynas iddo.

(1af.) Ei ach a'i ddechreuad. (2il.) Y enwau a roddir iddo. (3ydd.) Ei natur (4ydd.) Ei briodolr neu effeithiau.

(1af.) Ach a tharddiad pechod. Pwy y ei dad, ac oddi wrth bwy yr hanodd? Mae y Duw Sanctaidd yn ei ddiarddel. Mae mor hawdd i dywyllwch darddu o

ul, ag i Dduw, Tad y goleuni, fod yn ddrw pechod. Pob rhodd ddaionus a erfiaith, oddi wrtho ef y mae: *Iago* i. 17. "O! bechod, o ba le y daethost? Nid greadur ef ydwyf; ni ddarfu iddo ef na wneuthur na gogwyddo neb erioed i'th hio. Yn sicr, pe byddai o hono ef, efe carai. Y mae pawb yn caru ei blentyn, dued fyddo: yn llawer mwy y mae Duw caru yr hyn sydd yn eiddo iddo ef. Ni cawn ef yn edrych yn ol ar waith pob dinod o'r greadigaeth, ac ar y cwbl yn y wedd, dan ymhyfrydu yn ei waith: *Wela, da iawn oedd;*" *Gen.* i. 31. Ond a bechod, gwelwch ei farn yn *Diar.* vi. 16; *id.* ii. 6, 15; *Deut.* vii. 25, lle y mae yn negi ei ffeiddiad a'i gasineb o hono. I'di yma y tardd yr holl blâau a'r barned-ueithau ofnadwy a daranir i'w erbyn allan safn danllyd ei sancteiddiaf gyfraith; ie, mae nid yn unig y gwaith, ond y gweith-lydd hefyd, o anwiredd, yn nôd i'w gas-eb ef: *Salm* v. 5. Felly, pe byddai Duw awdwr pechod, byddai yn gasawr ei hun.

Wrth ddrws pwy ynte y gesyd Duw y sterdyn hwn? Yn ddiâu, wrth ddrws tan (*Ioan* viii. 44): "O'ch tad diafol yr ych chwi, a thrachwantau eich tad diafol fynwch chwi eu gwneuthur." A thraefyn yn yr un lle: "Pan y mae yn dywedyd lwydd, o'r eiddo ei hun y mae yn dywed-; canys y mae yn gelwyddog, ac yn dad do." Basterddyn yw pechod sydd yn galw diafol yn dad ac yn fam hefyd; o herwydd hono ei hun, o'i ewyllys rydd ei hun (y u lle y cafodd ei ymddwyn) y darfu iddo genhedlu; ac wedi iddo ei genhedlu, efe rhoddodd at ddyd i'w fagu. A gwelwch dyrchafiad! dyn, a grewyd i fwynhau a goneddu ei Wneuthurwr mawr, yn awr dwyn yn ei freichiau, ac yn rhoddi sugn awn, mab ei uffernol feistr! Och ddyd! fath godwm a gefaist! Peth rhyfedd na ddai yr adgof o hiliogaeth pwy oeddyt, yn daraw i ddychryn wrth weled dy en- d gwerthfawr yn cael ei ddarostwng i'r th galedwaith ag yw cyflawni chwantau ysbryd mellidgedig hwnw. Byth na roerwn ar y ddewines, am adael i'mpiau tan sugno ar ei choroph, tra y gallwn logi n heneidiau i un o'i chwantau.

DOSB. II.

2il. Yr enwau trwy ba rai y mae y gair a goganu pechod. A sicr, nad yw Duw yn menwi dim. Os melus fydd y peth, ni lywed efe ei fod yn chwero: os da, ni lw efe mo hono yn ddrwg; o herwydd y mae yn rhoddi gwae ar ben y neb a wnelo lly: *Esa.* v. 20. Paid a disgwyl cael mel a y llestr pan ysgrifeno Duw "gwenwyn" y caead. Gallwn ddywedyd am bechod aewn perthynas i hyn, megys y dywedodd bigail am ei gwr, fel y mae ei enw yn yr sgrhythr, felly y mae yntau: os yw Duw

yn ei alw yn ymfydrwydd, yna nid oes doeth- ineb i'w gael ynddo. Y mae y diafol yn wir yn dysgu dynion i guddio arferion hyll âg enwau hardd; coelgrefydd, rhaid ei galw yn dduwioldeb; cybydd-dod yn gynnildeb; balchder mewn gwisgiad yn daclusrwydd; dirywiaeth yn rhyddid; a gwallgofrwydd yn llawenydd. A digon angenrheidiol yw y ddyfais yma i beri i'r ddysglaid gâs fyned i lawr gyda llai o wrthwynebiad. Y mae rhai wedi gwneuthur pryd llawn ar gwg march, neu furgyn o'r fath dan well enw, er y buasai eu cylla yn ei wrthwynebu pe gwy- buasent pa beth ydoedd. Gan hyny, megys y byddai erlidwyr gynt yn gwisgo y Crist- ionogion yng nghrwyng y fath amfeiliaid ag a'u gwnaent yn ysglyfaeth mwyafr dymunol gan y bwystfilod y tefid hwy iddynt; felly y mae Satan a'n calonau drwg yn gosod pechodau o'n blaen dan enwau a barant i ni eu blysiu, neu o leiaf a ddygent ymaith y ffeiddiad a ddangosai ein cydwybodau yn angen i'w herbyu. Ond a ymfoddloni di, enaid truan, i gymmeryd dy dwyllo mor hawdd; a lysg y tân yn llai, os ymhyfhei i roddi dy fys ynddo, am fod dyhiryn sydd am dy dwyllo, yn dywedyd na niweidia efe mo honot? Gwrandaw yn hytrach pa beth a ddywed Duw y gwirionedd am bechod, a'r enwau a roddodd efe arno; a thi a gei fod y pethau a arswydir genym ni, neu a gaseir, a ofynir, neu a ffeiddir trwy y byd i gyd, yn cael eu benthycu i'w cyfaddasu at bech- od; chwdiad cwn, gwenwyn seirff, drewdod beddau pydredig, tomenau a geudai, yr heint- iau a'r doluriau mwyafr marwol, y cancer, y gwahanglywff a'r pla a briodolir iddo: 2 *Pedr* ii. 20; *Luc* iii. 7; *Rhuf.* iii. 13; 2 *Tim.* ii. 17; 1 *Bren.* viii. 38. Ie, chwilir uffern am ymadrodd i'w osod allan: cafodd ei gy- ffelybu hyd yn oed i dân uffern: *Iago* iii. 6. A chan fod yr ymadroddion hyn yn rhy fyr i osod allan ei lawr erchylldra; am hyny, fe'i gelwir wrth ei enw ei hunan, fel y gwaethaf a ddichon Duw ei roddi arno, "pechod tra phechadurus;" *Rhuf.* vii. 13. Yn awr, pa beth a wneir i'r hyn y mae y Duw mawr yn ei ffeiddio, ac yn ei lwytho â'r fath enwau o anfri, i ddangos ei ffeidd- iad o hono? Beth? Pob calon rasol a benderfyna yn fuan y dylai ei erlid â thân ac â chleddyf, hyd oni chyflawner arno y farn ysgrifenedig yn ei holl ddynystr.

DOSB. III.

3ydd. Naturaeth pechod fel y mae y gair yn ei amlygu. Gwelwch yn 1 *Ioan* iii. 4. "Anghyfraith yw pechod." Ychydig o eir- iau, ond â digon o bwysau ynddynt i lethu y neb a'u gweithredo i uffern; ie, i lethu pechod ei hun i farwolaeth yng nghalon y Cristion, os caiff ond ei wasgu â'r ystyr- iaethau hyn.

(Iaf.) Cyfraith pwy ydym yn dori wrth bechu; nid cyfraith rhyw dywysog bychan

(ac etto y mae y cyfryw i amddiffyn ei fri yn ymddial ar droseddwr), ond un y Duw mawr, enw gogoneddus yr hwn sydd ym mhob priodolled yn cael sarhâd a gwaradwydd ar law pechadur : i.e, y mae efe hyd yn oed yn ymgeisio am ddinystro bod a bywyd Duw. O blegid y mae yr hwn a fynai ysbeilio Duw o'i anrhydedd yn elyn i'w hanfod ef, am fod hanfod Duw wedi ei blygu ynghyd â'i ogoniant, fel na ddichon fyw hebddo. Y mae y rhai hyn yn ddiâu, uwch law cyrhaedd braich fer y pechadur ; ond dim diolch iddo ef, gan fod ei bechod yn annelu atynt, er nad yw yn gallu anfon ei ergyd at y nôd.

(2il.) Pa fath gyfraith yw hi : nid un greulawn wedi ei hysgrifenu â gwaed ei greaduriaid, fel y mae deddfau rhai gorthrymwr a osodant ordinhadau wrth eu chwant eu hunain, ac nid at les y deiliaid. Ond y mae y gyfraith yma yn gyfiawn ac yn dda, ac o'i chadw y mae bywyd. Fel nad oes y fath beth a llym osodiad trethu diachos, i'n cyffiroi i godi yn ei herbyn : "Pa anwiredd (medd Duw) a gafodd eich tadau chwi ynof fi, gan iddynt ymbellhau oddi wrthyf ?" *Ier.* ii. 5. Yr oedd yr hwn a fwriai ymaith ei wraig i roddi iddi lythyr ysgar, gan hysbysu yr achos o'i hymadawiad â hi. Felly y mae Duw yn ymostwng i ymresymu â phechaduriaid, ac yn gofyn pa fai a allant roddi yn ei erbyn ef neu ei lywodraeth, gan eu bod yn ei adael. Ond Och ! nid oes dim rheswm i'w roddi, mwy na pha ham y tyr anifail allan o borfa fras felus i rugle diffaeth, neu ffordd fudr, lle nad oes ond newyn i'w gael.

(3ydd.) Ar gais pwy y mae y creadur truan yn troseddu daionus gyfraith Duw, sef ar gais cythraul meiddigedig, sydd yn elyn Duw ac yn elyn i'ninnau. Yn awr, i blentyn, ar ddeisyfiad gelyn penaf ei dad ac yntau hefyd, godi arfau gwrthryfel yn erbyn tad tirion a charedig, sy chwanegeid at aruthredd ac annaturioldeb y weithred. Hyn wyt ti, Gristion, yn ei wneud pan wyt yn troseddu cyfraith Duw. Ac erbyn hyn, mi dybygwn fy mod yn gweled dy waed yn codi ac yn berwi ynot o ddiogofaint, tra y mae dy Dduw yn pwyntio at dy bechod ac yn dywedyd wrthyf, Hwn, O ! fy mhlentyn, ydyw y gelyn a fynai ddwyn ymaith fy ngogoniant a'm bywyd, trwy dy law di, yr hwn o ran rhwymau natur a gras, wyt yn ddyledwr o'r hyn oll a ydwyt, i fyw â marw er dal i fyny fy anrhydedd. Ai nid wyt mor barod i syrthio ardy bechod a'i lusgo i'w ddienyddiad, ag oedd gweision Ahasferus i ddal Haman a gorchuddio ei wyneb, fel mab angeu, pan gyntaf y dangosodd eu brenin ei wng i'w erbyn ? *Esth.* vii. 8. Yn sicr, pe byddai ond cariad Duw wedi ennynu yn gref yn ein mynwesau, ni a boerem y tân i wyneb pwy bynag a feiddiai ein tentio i bechu yn ei erbyn.

DOSB. IV.

4ydd. Priodoldeb neu effeithiau pechod amlygir gan air Duw. Ymfoddlonaf ar o'i effeithiau. Y mae yn (1af.) Yn halogi (2il.) Yn aflonyddu. Ac yn (3ydd.) Yn damnio.

(1af.) Y mae yn halogi. Fe'i gelwir : "halogwydd enwad ac ysbryd ;" *2 Cor.* v. 1. Y mae yn diwyno yddau. Dywedir i yr holl fyd yn gorwedd mewn drygionï ; anifail yn ei dom a'i dail, neu furgyn brae llyd yn ei byrdiad : *1 Ioan.* v. 19. Dyma gwahanglwyf sydd yn halogi dyn, a'r lle mae yn byw ynddo hefyd. Pa ham y da fonodd Duw y dylif yn amser Noah, ond olchi ymaith y ghenhedaeth ffaidd hono od ar wyneb y ddaear ? Ond am nad yw llet pla y byd yn ddigon glân, y mae yn cael gadw i buredigaeth mwy cyflawn trwy d yn y dydd olaf. Meddwl, Gristion, m hardd oedd dyn hyd oni fagodd pechod li orod arno ; a'r fath ogoniant llewyrch oedd ar yr holl greadigaeth cyn i bechod anadl gwenwynig ei dywllu a'i ddeifio ; yna, bwrw amcan y fath beth ffaidd a'r fa wenwyn cryf ydyw, sy nid yn unig w taenu ei lid trwy gorph ac enaid dyn, o wedi cael effaith mor arswydus ar holl a sawdd a threfn y greadigaeth weledig, na adferir hi byth i'w harddwch cyntaf, h nes y caffo, fel hen ddarn dryllig a rhydd o arian, ei thoddi a'i phuro trwy losgiad ffredinol. Ac onid ydyw dy enaid etto galaru wrth feddwl ac bechod ? Hwy ddywedant am rai creaduriaid (y pân¹ un) y byddant feirw yn hytrach na myn i'r llaid i ddiwyno eu croen gwych. Ac fydd i ti, Gristion, anurddo dy hun yn llaid o bechod, a hyny wedi i Grist â'i wa bwreasu i ti lanhâd trwy ei Ysbryd : *1 ato* Duw ? A oedd mor ffaidd gan Esec grasu ei deisen â thom dyn wrth ordeini Duw ? fel y gwaeddodd allan, "O Arglwy Dduw, wele, ni halogwyd fy enaid," & *Esec.* iv. 14. A a fydd unrhyw chwant affa na chyffelybir mo hono i ddim gwel g Dduw ei hun, yn damaid melus a dymu genyt ti, Gristion, sy wedi cael eistedd wr fwrdd Crist, a gwybod am y danteithion sy yno ? Mi dybygwn y gwaeddi yn hytra gyda'r prophwyd, O Arglwydd, ni halwyd, neu o leiaf, na haloger fy enaid i ymborth ffaidd hwn.

(2il.) Y mae yn aflonyddu. Fe doru pechod heddwch yr enaid, i.e, heddwch byd. Y mae yn dwyn terfysg i'w ganly ac yn gwneuthur pob lle y del iddo yn e teddle rhyfel. Mae byddin o ddrygau wr ei sodlau i aros lle y llettyo. "Oni wr yn dda, pechod a orwedd wrth y drws *Gen.* iv. 7. "Ni bydd heddwch, medd Nuw, i'r rhai annuwiol ;" *Esa.* lviii. 5 Yma, ni a welwn, y mae llaw Duw wrth

¹ *Ermin* yn Saesneg.

nt, yn barnu y pechadur i ddiodeff
th cydwybod boenydiol. Pwy a ddich-
drodd y boen a deimlir gan gydwytod
iddol. Clywch un yn rhuo ac yn llef-
allan, "Nid oes iechyd yn fy nghnawd,
erwydd ydwyf ddigllonedd; ac nid oes
wch i'm hesgyrn o blegid fy mhechod;"
xxxviii. 3. Un arall, "Dygais dy ofn,
r ydwyf yn petruso;" *Salm lxxxviii.*
Un arall yn waeth fyth, "Mwy yw
awiredd nag y gellir ei faddeu;" *Gen.*
3. A phedwerydd, mor analluog i ddi-
cri ei euogrwydd, fel y rhedodd i'r
str ac yr ymgrogodd, i gael myned o'i
alaethus: *Mat. xxvii. 5.* Ac Och! y
feddyginiaeth a gaiff hwnw i'w boen,
yn tafu ei hunau i dân uffern am es-
thdra? Ac megys y mae pechod yn
ar heddwech tu mewnol yr enaid, felly
d ar heddwech allanol y byd. Beth arall
pechod sydd wedi rhoddi y byd mewn
sg, a gosod yr holl creaduriaid yn
nau eu gilydd? "O ba le y mae rhy-
dd ac ymladdau yn eich plith chwif?
oddi wrth hyn, sef eich melus chwant-
y rhai sydd yn rhyfela yn eich aelodau
i?" *Iago iv. 1.* Hwn sydd yn gosod y
nydd agosaf mewn anghydfod chwerw;
anio y tŷ uwch eu penau, fel nas gall
a gwraig, rhieni a phlant, gyd-drigo dan
n gronglwyd. Y mae Dalilah yn brad-
ei gw'r i ddwylaw ei elynion gwaedlyd,
bsalom yn codi yn erbyn bywyd ei gar-
dad. Hwn yw yr hustyngwr sydd yn
duo caredigion ac yn peri i'r rhai a yf-
oedd felus genym gydgyfrinachau â hwy,
ais am ein dinystr ac ymgynghori yn er-
ein bywyd. Mewn gair, y fath danivr
pechod, fel y mae y filamau a ennyrnir gan-
yn ehedeg, nid yn unig o'r naill dŷ cym-
og i'r llall, ond o'r naill wlad i'r llall.
gall holl ddwfr y môr sy rhwng teyrn-
theyrnas ddiffodd y rhyfeloedd y mae
eu hennyn; fe gyfyd syched yn y rhai
l yn byw yn un pen i'r byd am waed a
sor y rhai sydd yn y pen arall, fel nad
y ddaear ond megys ymladdle ceiliogod,
fawr i'w weled arni ond ymryson a
l y naill y llall. Ac ai hwn yw y lletty-
r gelli gael ar dy galon ei groesawu o
n dy fynwes.

ydd.) Y mae ganddo effaith ddamniol.
buasai yr holl niwed a wna pechod yn
yn unig o fewn hyn o fyd, fe fyddai yn
on drwg; ond wrth ystyried ein byr-
iad yma, byddai yn beth esmwythdra i
wl y caem ddarof âg ef a'r bywyd hwn
byd. Ond cael ein herlid ganddo yma, a'n
nio o'i blegid hefyd i dragwyddol boenau
yn byd arall, y mae hyn yn anniodefol!
dybygwn y dylai y lle hwnw (*Mat. xxv.*
"Ewch oddi wrthyf, rai mellidgedig, i'r
dragwyddol," beri i ni eistedd i lawr ac

ystyried a yw pechod mor bleserou neu ddy-
munol, a'i fod yn werth gorwedd mewn
poenau diddiwedd er mwyn ei gaffael a'i
fwynhau dros ychydig ddyddiau a misoedd
boreuol, sydd yn diweddu agos cyn gynted
ag y dechreuant. Ti wyddost yn barod,
bechadur, y goreu o'th bleserau pechadurus,
ond nid y gwaethaf o'th gosp. Y mae hon
mor fawr fel y mae ein hiaith ni yn rhy wan
o lawer i'w gosod allan, er arfer ymadrodd-
ion benthyciol oddi wrth y pethau a'n braw-
ychant ni yn fwyaf yn y bywyd hwn. Och!
pa beth yw y tân a'r brwmstan a welwn ni,
ac a ofnwn yma mor fawr, at hwnw sydd yn
llosgi yn y llyn uffernol? Yn ddiâu, ne-
mawr mwy nag yw y tân paentiedig ar y
pared, at hwnw sydd yn llosgi ar ein hael-
wyd ni; y mae hwn wedi ei wneuthur yn
benaf er ein budd a'n cysur; ond y tân sydd
yn uffern—pa un ai defnyddiol ai nad e,
diddefnydd i ni wybod—nid yw i un diben
arall ond i boeni pechaduriaid ynddo. Tân
ein ceginau ni, y mae awel fechan o wynt yn
ei gynneu, ac ychydig ddwfr yn ei ddiffodd;
ond "anadl yr Arglwydd, fel afon o frwstan,
sydd yn ennyn hwnw;" *Esa. xxxi. 33.* A
pha le y cawn ni lestri dwfr digon i ddiffodd
y tân a ennynou Duw? Hwy ddywedant fod
arogli y ddaear yn iachus i'r corph; ac nid
llai iachus i'r enaid fydd cymmeryd-arogli y
pydew brwmstan yma i mewn, drwy fyfyr-
dod mynych. Pe buasai llawer wedi disgyn
i uffern yn y modd yma, yn amser eu bywyd,
ni buasai eu heneidiau, y mae yn debygol, yn
syrthio yno pan lithrodd eu cyrph i'r bedd.
O! Gristion, myfyria weithiau ar y manau
hyn yn y Beibl, sydd yn gosod allan gyflwr
y damnedigion, a'u poenau trymion yn
uffern. Dyma wir dŷ galar; ac y mae
cyrchu iddo drwy ddiffrifol fyfyrdd yn
foddion arbenig i beri i'r byw "ei osod at
ei galon;" *Preg. vii. 2.* Ac wrth ei osod at
dy galon, fe fydd llai o le i ofni y tefi dy
hun trwy anedifyrwech, i'r lle alaethus hwn;
pan y mae i ti gynnyg mor deg o drigfan yn
mhalas dedwyddol y nef, ar dy fydd a'th
edifeirwech.

PENNOD XXVI.

*Rhai atleion ysgrhythyrol wedi eu haddasu at
ddadleuon ciffredin y temtiur, a pha rai y mae
yn arferol o ddenu i bechod; a'r atleion hyn yn
cael eu dwyn at law y Cristion, er ei ddiffyniad.*

2. Darpara i ti atleion ysgrhythyrol i ffals
resymidiadau Satan, â pha rai y rhydd efe liw
hardd ar ei gynnygiadau aflan, i gael dy
gydsyniad yn haws. Y mae efe yn ddichell-
gar—mae achos i tithau fod yn ochelgar. Y
mae efe nid yn unig yn gosod nôd o bechod
ger bron, ond hefyd yn ei roddi dan orchudd
teg, ac yn cymhell yr enaid â dadleuon i

gofeidio ei gynnyg. A phan ddel pechod fel hyn yn gawraidd allan, nid arfogaeth Saul, ond llyfnion geryg yr afon; nid dy wroldeb dy hun, ond dwyfoldeb dadleuon ysgrythyrol a ddichon dy gadw di, neu gwmpo dy elyn. Yn awr, ti a gei yn y gair ateb parod i'th enau at wrthsefyll holl gyfrwys ddadlyddiaeth Satan. A dyma fod yn Apollos yn wir, cadarn yn yr Ysgrythyr- au; pan allom gau safn y diafol, a thagu ei fwledi trwy ddal i fyny air mewn pryd rhyngom a'r demtasiwn.

Ni bydd gan hynny allan o le i roddi ychydig o esamplau at wneuthur y cyfarwyddyd yn rhwyddach i'w arferu yn llaw Cristionogion gwiniadaid.

DOSB. I.

1af. Weithiau, fe ogleisia Satan yr enaid yn y modd yma. Beth, ddyn? a wna un pechod y fath niwed i ti os rhoddi le iddo? Nid yw un mán-geni yn gwrthuno yr wyneb; nis gall un pechod chwaith wrthuno dy enaid dithau, a dim yn chwaneig nid wyf yn ei erfyn. Pe parwn i ti ymdreiglo yn mhob bryntni, fe fyddai yn achos i ti fflieiddio y cynnyg; ond pa ham y byddi mor ofnus rhag bod un brycheuyn i'w weled ar dy wisg? Y mae ar bob tlws ei fai; a chan y sant sancteiddiaid ei wenddi.

I wthio y cynnyg moesgar a moddus hwn yn ol, ystyria, fe ddywed y gair wrthyt nad oes un pechod ar ei ben ei hun. Y mae yn amhossibl cofleidio neu oddef un pechod a bod yn rhydd oddi wrth ereill. O herwydd

(1af) Y mae y neb a ymroddo i un pechod yn bwrw dirmyg ar yr awdurdod a wnaeth yr holl gyfraith; ac ar y cyfrif yma yn tori y cwbl: "Pwy bynaig a gadwo'r gyfraith i gyd oll, ac a ballo mewn un pwngc, y mae efe yn euog o'r cwbl;" *Iago* ii. 10. A'r rheswm a gawn yn y geiriau nesaf, "Canys y neb a ddywedodd, Na odineba," a ddywedodd hefyd, "Na ladd." Ac os ti ni odinebu, etto a leddi, yr wyt ti yn tros-eddu y gyfraith. Nid ei fod yn euog o'r cwbl yn ddosbarthedig, ond yn gasgledig, fel yr iawn sylwodd Estius. O herwydd y mae y gyfraith yn un darn cyssylltedig; os gwneir cam âg yn gorchymyn, y mae yr holl gyfraith yn gyfranog o hono, fel y mae y corph i gyd yn dioddef trwy archoll a roir i un rhan. "Dw a lefarodd yr holl eiriau hyn;" *Ecsod.* xx. 1. Y maent yn ddeg gair, ond un gyfraith.

(2g) Trwy oddef un pechod, yr ydym yn diarfol ac yn difuddio ein hunain o ddadl gydwytbodol i'n hamddiffyn rhag unrhyw bechod arall. Y neb a fedr fyned yn erbyn ei gydwytbod yn y naill, ni fedr ddadleu cydwytbod yn erbyn y llall. Canys os yw awdurdod Duw yn ei gadw draw oddi wrth un, fe wna oddi wrth y cwbl: "Pa fodd y gallaf wneuthur y mawr-ddrwyg hwn, a phechu yn erbyn Duw?" medd Ioseph. Diammheu

mai yr un a fuasai ei ateb, pe parafeistres iddo ddywedyd celwydd drost ydoedd yn awr pan y denodd ef i or gyda hi. Buasai y nawfed gorchymyn ei rwymo, yn gystal a'r seithfed. Am y mae yr apostol yn annog, "na roddo ddiadfol;" *Eph.* iv. 27. Gair sydd yn ddein bod, wrth ymroddi mewn un demta yn colli ein tir; a'r hyn a gollom ni y efe yn ei enuill—ac ni raid ei do ef i ddefnyddio mantais. Gwedi un cael y wimbill bach i mewn, fe fe gweithiwr yru holl fawr ar ei ol. Fe i un pechod ledol rhywfaint ar dy dithau, fel yr ä y nesaf i lawr yn daws

(3ydd.) Goddef un pechod, ac fe'thwng Duw di i rai ereill. "O ba herv Duw hefyd a'u rhoddes hwy i fyny i adid;" *Rhuf.* i. 24. Y cenhedloedd rhoddasant eu hunain i fyny i eilunaiaeth: *adn.* 23, ac fe'u rhoddodd Duw i fyny i chwantau fflaidd ereill. Pan chreuodd Iudas chwareu y lleidr, y ma ammaheus genyf a oedd ei fwriad i drofradwr; na, cosp oedd ei fradwriaeth a laddrad. Fe oddefodd ei hun mewn pe dirgel; a Duw a'i rhoddes i fyny i un anlwg ac erchyll. Ond

(4ydd.) Pe caniatäem y medrit—er na yn bossibl i ti—gymmyrd un pechod fynwes, a chau allan y lleill oll, etto fe wed y gair wrthyt, Yn gyntaf, Dy fo was i'r un pechod hwnw—"Ei weisio ydych, i'r hwn yr ydych yn ufuddh *Rhuf.* vi. 16. Ac yn ganlyniol, gweisio afol, teyrnas yr hwn a geisiwch ei fyny, er na bo ond trwy gadw yr un eyma yn erbyn yr Arglwydd ein Gwneuthur. Ac ni wasanaetha yn esgu i ti wedyd, Nad yw dy fwriad felly. Ma bossibl mai cybydd-dod yw dy becho mai dy fudd wyt yn amcanu ato, nid pl gyda'r diafol yn erbyn Duw. Er nad yw dy ddiben pendant di, sydd yn pe etto, diben y pechod a wneir genyt y diben Satan sydd yn dy roddi ar wait felly y bydd yn cael ei roddi yn dy erb o'r diwedd. Nid yw y milwyr cyffredi arferol o edrych ddim uwch na'u cy hyn sydd yn eu tynu hwy i'r maes; et maent yn gwneuthur eu hunain yn frad trwy gynnorthwyo y neb sydd yn eu wain yn mlaen yn erbyn eu brenin; a wasanaetha iddynt ddywedyd, mai ar cyflog yr oeddynt hwy yn ymladd, ac ni gael ef o'i orsedd. "Ahab a ymwertho wneuthur drwg yng ngolwg yr Arglwydd *1 Bren.* xxi. 20. Ac etto nid ydym yn llen ddarfod iddo wneud un cyfammod dant â'r diafol; ond yr ystyr yw, e wnaeth yr hyn oedd mewn effaith yn haedd i hyu. Efe a wyddai, os pechu yr ä ei enaid yn däl am hynny; ac fe'thwng gael ei chwant, er ei fod yn gydnabyddu

ac am hyny mewn effaith yr oedd yn
 tu ei enaid i fwynhau ei bechod. Yn
 belli weled yn y gair nad oes fodd i ti
 was i unrhyw bechod, ac i Dduw
 "Ni ddichon neb wasanaethu dau
 dd...Ni ellwch wasanaethu Duw a
 on;" *Mat.* vi. 24. Wrth mammon yr
 n meddwl un chwant pennodol, sef
 l-dod. Cystal y gall un corph fod yn
 dau enaid, ag un enaid ddau feistr.
 s gan un enaid ond un cariad, ac ni
 n dau fod mewn uchafiaeth gyda
 "Mi a glywais yn wir am adyn a
 dodd, fod ganddo un enaid i Dduw,
 r diafol hefyd. Ond os oes ganddo
 id yn uffern, yr wyf yn ofni y bydd
 o un arall i'r nef; a chofia y bydd
 hod mor sicr o'th ddwyn yno, a mil.
 r hwyllwr chwî, ni chaiff na godineb-
 nac eilun-addolwyr...etifeddu teyrnas
 " Gwel res o nodau: 1 *Cor.* vi. 9.
 Nid yw yn unig yn cau allan y neb
 n bob un o'r rhai hyn, ond yn rhyw
 onynt. Y mae yn sicr y bydd pawb
 ond nid yw pawb yn marw o'r un
 ac mor sicr a hyny y demnir pob pech-
 lidifeiriol; ond y mae un yn cael
 mmo am un pechod, ac arall am un
 etto y cwbl yn cyfarfod o'r diwedd
 un uffern.

DOSEB. II.

le allai dy fod yn cael dy demtio i
 t, trwy fod cyfle i'w wneuthur yn
 l, lle na bydd raid i ti gollu dy air da
 nmill dy bleser. Dyma y fagl y dal-
 roed y dyn ieuange disynwyr ynddi;
 vii. 19: "Nid yw'r gwr gartref,"
 i y butain wrtho; yr oedd y goror yn
 y; gallent yfed eu dyfroedd lladrad heb
 el eu dal. Och! y mae gormod o rai
 wir gan gywylydd y byd rhag curo wrth
 s wyneb, yn hawdd eu perswadio i
 s, os gallant ond llithro i mewn trwy
 cudd. Saul ei hun, er fod arno gy-
 l i fyned at ddewines yn ei wisg fren-
 am ei fod wedi peri i'r byd farnu bod
 ganddo y pechod hwnw, trwy roddi
 yw i farwolaeth, etto nid yw yn ofni
 l at un dan ymddieithrio. Am hyny,
 yr oedd chwanegiad mawr at bwys
 d ein Harglwydd gan y diafol, ddar-
 do ddyfod ato yn yr anialwch, a cheisio
 ond ei addef ef yn ddirgel, i.e., yn
 achol, lle na fedrai neb adrodd chwedl-
 a yr hyn a wneid rhyngddynt; felly
 d hefyd at ogoniant y fuddugoliaeth
 n a gafodd ein Harglwydd ar Satan
 wbl. A pha fodd y cafodd efe hi, ond â'r
 f hwn, y gair? Cymmer dithau yr
 t i fyny, Gristion, i'th amddiffyn dy
 n erbyn yr un gelyn.

(2.) Fe ddywed y gair i ti fod Duw yn
 s o'th bechod dirgelaf. "Gosodaist
 uwireded ger dy fron, ein dirgel bech-

odau yn ngoleuni dy wyneb;" *Salm* xc. 8.
 Y maent mor amlwg iddo ef a'r peth aml-
 af i ni ar hanner dydd. Nage, y mae efe
 nid yn unig yn eu canfod a'u hadnabod, ond
 yn eu gosod o'i flaen megys nod i saethu ei
 ddialedd ato: "Yn mhob lle y mae llygad
 yr Arglwydd, yn canfod y drygionus a'r dai-
 onus;" *Diar.* xv. 3. Ac megys y mae efe
 yn gweled pan gauech ddrws dy ystafell
 i weddio yn y dirgel, ac y gwobrwyda dy ffydd-
 londeb; felly y mae hefyd pan eloch i'r dir-
 gel i bechu, ac fe gospa dy ragrith. Yn awr,
 os yw "Brenin yn eistedd ar orsedd barn,
 yn gwasgaru â'i lygaid bob drwg;" *Diar.* xx.
 8; pa faint mwy ei rym fyddai llygaid Duw,
 pe ei gwelid yn edrych arnom, i ymlid
 ymaith y gogwyddiad dirgelaf i bechu sydd
 yn ymgynhyrfu o'n mewn! Gwell pe
 gwelai yr holl fyd di, na Duw, yr hwn sydd
 yn cael cam trwy dy bechod, ac y mae am
 hyny yn perthyn iddo mewn cyfiawnder
 ddial ei gam arnat. Nis gall efe adael i un
 ddiange yn ddigosp, am mai barnwr cyfiawn
 yw; ond y mae rhai pechodau yn galw am
 ddwyfol ddial yn fwy diattreg nag ereill;
 ac am hyny fe ellir eu cyfrif yn bechodau
 gwaeddfawr. Ac y maent, naill ai trwy
 sefyllfa a gallu y troseddwr, yn gyfryw na
 faidd dyn mo'u cospi; neu ynte, wedi eu
 gwneuthur mor ddirgel, fel na ddichon dyn
 dyn eu chwilio allan; megys gwaith Cain
 waedlyd yn lladd ei frawd. Dywedir,
 "Gwaed dy frawd sydd yn gwaeddi arnaf
 fi o'r ddaear;" *Gen.* iv. 10.

(2il.) Fe ddengys y gair i ti ysbŵr sydd
 genyt o fewn dy fynwes; cydwybod wyf yn
 feddwl, sydd yn dy ddilyn, ac yn dyst i'th
 holl ddichellion cyfrwys; a'r hyn a wél, fe'i
 ysgrifena i lawr, am ei bod yn cadw llys coff-
 adwriaeth. Nid oes fodd i ti bechu mor
 gyflym, fel na ysgrifena efe ar dy ol; ac y mae
 y pin sydd ganddo i roddi pechodau i lawr
 mor flaenllym, fel y tyr hyd yn oed i galon
 ac enaid y troseddwr. Dywedir am y cen-
 hedloedd, fod eu meddyliau "yn eu cy-
 huddo;" *Rhuf.* ii. 15. Ac nid oes un peu-
 yd yn y byd i'w gyffelybu i gydwybod
 gyhuddol: "Ysbryd gwr a gynnal ei glefyd
 ef; ond ysbryd cystuddiedig pwy a'i cyfyd?"
 (neu a'i dwg!) *Diar.* xviii. 14. Pwy? nid
 dynion nac angylion. "Nid oes un llygad,"
 medd Bernard, "a frawycha y pechadur euog
 yn fwy na'i lygad ei hun; nid oes un gwyneb
 y mae ei gais yn fwy, a'i allu yn lai, i'w
 ochelyd." Y mae y fath adyn truan yn
 yn debyg i Regulus, a gauwyd mewn baril
 llawn o bigau dur; pa ffordd bynag y gor-
 weddo, "archollion yw ei ran." O! darllen
 yr esamplau alaethus hyny am Cain, Saul, a
 Iudas, gyda rhai ereill yn nghofrestr y Beibl
 sydd wedi bod dan yr artheithiad hwn; a
 thi a arswydi rhag pechu lle y mae cydwybod
 yn sefyll ger llaw.

(3ydd.) Chwilia y gair, a thi a gei weled

bod Duw yn gyffredin wedi dwyn i gywil-ydd yn y byd yma y rhai oedd fwyaf yn addaw cêl iddynt eu hunain wrth bechu. Un o enwau Duw yw "Dadguddiad dirgel-edigaethau" (*Dan.* ii. 47); ac yn mysg dirgeligion ereill, nid yw yn anghofio dwyn i'r goleu y fath yma o "ddirgelion y tywyll-wch" (1 *Cor.* iv. 5); pechodau a lunir mewn gweithdy mwy tywyll nag ereill, a hyny yn fynych yn y byd hwn. Yn wir, y mae priodoledd ei Hollwybodaeth yn cael ei tharaw yn drwm drwy bechodau dirgel. Yn rhai hyn y mae dynion yn dangos y fath dybiau gwael sydd ganddynt am Dduw, fel pe buasai efe Dduw y dydd, ac nid y nos. Ac am hyny, i amddiffyn y briodoledd hon, ac i daraw ei harswyd i galonau dynion, y mae efe yn cloddio y llwynogod allan o'u tyllau, lle yr ymddaeasant, ac yn dynoethi eu pechodau i olwg y byd; y rhai a dybiasant na chaffai neb eu gwybod, ond hwy eu hunain a'u cymdeithion yn y drwg. Y cyfryw effaith a gafodd yr amlygiad o ddirgel bechod Ananias a Sapphira; "a bu ofn mawr ar yr holl eglwys, ac ar bawb oll a glybu y pethau hyn;" *Act.* v. 11. Edrych, gan hyny, y modd y somodd Duw ddynion, pan arferent eu dyfais ddyfnaf i guddio eu pechodau o'wydd y byd. Nid oedd meibion Iacob yn brin o ddyfais i gelu eu pechod annaturiol yn erbyn eu brawd. Y fath chwedl daclus a hygoel a ddygasant at yr hen ŵr eu tad! yr hwn a goeliodd y cwbl, ac ni ymofynnodd ym mhellach! Mor bur oedd-ynt yn eu plith eu hunain, er cynnifer oedd yn y brâd! Peth rhyfedd na ddarfu neb o honynt ei sibrwd allan ryw dro neu gilydd! Cyhyd y bu yn cysgu cyn ei ddad-guddio! A'r fath ragluniaeth ryfeddol oedd dwyn eu drygioni i'r amlwg! Felly Gehazi yntau, fe chwareuodd ei ran yn gyfrwys ddigon, fel y gallai un feddwl; yr hyn a'i gwnaeth mor hyf i ddyfod o flaen ei feistr, a dywedyd celwyd mor ddirgywilydd yn ei wyneb, heb feddwl dim ei fod yn hysbys o'i bechod. Etto, fe ddaliwyd hwn; a chyda'r dillad a gawsai gan Naaman trwy gelwydd, cafodd ddilledyn arall gan Dduw i'w wisgo yn arwydd o'i bechod. Fe'i gorchuddiwyd â gwahan-glywf; gwisg, nid fel dillad ereill, i guddio ei gywilydd, ond i'w ddadguddio. I'r byd i gyd—gwisg fwy parhaus na'r ddeubar dillad a gawsai gan y Syriad; o herwydd fe barhaodd hon iddo hyd ei fywyd, ac nid oedd wedi ei threulio erbyn hyny chwaith, ond i'w wisgo gan ei blant ar ei ol: 2 *Bren.* v. 27. Mewn gair, er duwioled fyddo gŵr, os â efe i geisio cadw ei hun rhag y cywil-ydd o ryw bechod, trwy ystryw gudd o ddrygioni, y mae yn cymmyrd y ffordd un-iawn i ddwyn arno ei hun y peth y mae yn chwennych ei gadw draw. Fe dywalltwyd gwaed Urias yn unig oddi ar ddyfais bechadurus i gadw gair da Dafydd, oedd yn

myned dan draed, os elai ei ynfyrwydd. Bathseba yn chwedl gyhoedd. A phala-iant fu i'r ystryw yma ganddo? Oeh, o ddynt! allan y daeth y cwbl er ei gyw mwy. Hyn a ymrwymodd Dduw i'w noethi; caiff Dafydd wybod fod Duw dynor o'i anrhydedd ei hun, ag ydyw o'i air da: "Er i ti wneuthur mewn d-wch; etto, myfi a wnâf y peth hyn ger holl Israel, a cher bron yr haul;" 2 *xii.* 12. Iê, fe aeth Dafydd ei hun a diwedd yn glaf o'i ystryw ei hun; a oedd ei astudrwydd ar y cyntaf i guddio bechod ddim mwy nag oedd ei barodrwydd wedi hyny i'w addef. Ac am hyny, ef yn *Salm* lxi., yn sefyll, fel pe buasai, i llen lliain wen, ac yn dwyn ei benyd o'i yn holl eglwys Duw, tra y bo yr Ysgryau yn cael eu darllen yn eu cynulleidfahyd ddiwedd y byd.

DOSB. III.

3ydd. Fe allai dy fod yn cael dy den bechu trwy esampl ereill. Yn wir, er yw esampl ond dadl anghelfydd, etto y rym mawr gyda llawer, yn enwedig pwy y personau a enwir o blaid rhyw be-naill ai yn nifer fwyaf, neu yn rhai a g-ir yn bobl oreu. Pan yn nifer fwyaf, ennilliant yn ebrwydd galonau ffleis-phenau gweiniaid i'w canlyn; fel y pysgod meirwon a gwellt ysgafn gyda'. O herwydd, gyda'r cyfryw, cywilydd yn taraw y dyrnod trynaf; ac y mae l-o gymdeithion mewn pechod, yn c-ymaith y cywilydd—lle yr â pawb yn n-ion, ychydig a wrident—y rhai hyn hytrach sydd yn agored i gywilydd, a ant fod yn neillduol, ac ni wnânt ar lleill. Fel Micea, a aeth yn watwarg am na chanaei ei bibel at glust Ahab, a chydunai mewn barn â holl gynulleid gapelwyr gwenieithgar ef. Neu, os l-ant yn rhai enwog am wybodaeth a c-ydd, yna mynych y meglir rhai nad y-o'r fath waethaf—yr hyn a ddylai t-bawb o sefyllfa uchel, neu uchel mewn fod yn ochelgar iawn ynghylch yr opi-au a'r arferion a gofeiddiant. Ymfrostr-a wna y diafol pan allo gael gan y c-rododi eu llaw wrth ei bapur. Buan y-s y wlad hyn, ac y dangosir eu hesam-pled i dynu ereill i mewn. Pa ham? y hwn o'r farn yma, y mae yn dal fel hy-y yn gwneuthur fel acw—gobeithio fod ych barch i hwnw.

Yn awr, yn yr achos yma, ymgyn-g-di â'r gair, ac fe'th ddwg yn ddiang-udentasiwn.

(Iaf.) Y mae y gair yn erchi i ni d-esamplau dynion, pwy bynag' fyddont profi wrth y gair. Ai eu barn a grybw- "At y gyfraith ac at y dystiolaeth ddywedant yn ol y gair hwn, hyny syd-nad oes oleuni ynddynt;" *Esai.* viii. 20.

PENNOD XXVII.

Dau Hyfforddiad chwawegol pa fodd i ddefnyddio y gair er ein hamddefnyddiad yn erbyn Temtasiynau i Bechod.

3. Cuddia y gair yn dy galon. Hyn oedd gan Dafydd i gadw niwed draw (*Salm* cxix. 11): "Cuddiais dy ymadroddion yn fy nghalon fel na pechwn i'th erbyn." Nid y Beibl yn ei law i'w ddarllen; nid y gair ar ei dafod, i siarad am dano, nac yn ei ben i gael gwybodaeth o hono; yn eiddi guddio yn ei galon, a broffod efe yn effeithiol yn erbyn pechod. Nid bwyd yn y ddsygl, ond yn y cylla, sy'n maethu; nid physygywriaeth yn y gwpan, ond wedi ei lyngcu, a arloesa y corph. Yn awr, am y galon, er bod y gair yn cael ei arfer yn y Beibl am holl gynneddfau yr enaid, etto y gydwybod a'r serchiadau a feddylir wrtho yn fynychaf.

DOSB. I.

1af. Am y gydwybod; "Os ein calon a'n condemnia, mwy yw Duw na'n calon, ac efe a wŷr bob peth;" 1 *Ioan* iii. 20. Hyny yw, os yw ein cydwybod yn ein condemnio yn gyfiawn, yn sicr y mae ein cyflwr yn alaethus; am y gŵyr Duw fwy am danom na nynt am danom ein hunain; ac y gall eife ein cyhuddio o bechodau na welodd cydwybod mo honynt

Yn awr, llafuria, gan hyny, Gristion, i guddio y gair yn dy galon—hyny yw, dy gydwybod; caffed orsedd yno, i'th gadw mewn duwiol arswyd.

(1af.) Edrych ar y gair fel gair âg awdurdod ddwyfol yn argraphedig arno; y rheol a roddir gan y Duw mawr i ti, ei wael greadur, i rodio wrthi. Hyn, wedi ei argraphu ar y gydwybod, a barai i ti grynu wrth y meddwl am bechod: yr hwn yw dagra y bradwr, sydd yn ceisio at Dduw ei hun, trwy y dirmyg y mae yn ddangos i'w gyfraith ef. Ac os cafodd rhai lleiddiaid oedd wedi bwriadu gwanu brenin, yn brawychu felly gan ychydig belydr o fawrhydi, saethedig oddi ar ei rudd marwol ef, fel y pallodd eu grym i wneuthur yr erchylly gais; pa faint mwy grymus sydd raid i arswyd mawrhydi y Duw mawr fod, pan ei saethir o'r gair i gydwybod y pechadur, i'w attal rhag arfer dim bradwriaeth yn erbyn ei Wneuthurwr? "Tywysogion a'm herlidiasant heb achos; er hyny fy nghalon â grynai rhag dy air di;" *Salm* cxix. 161. Fel pe dywedasai, gwell genyf fi fod dan eu digder lwy, am fy sancteiddrwydd, na thynu dy air di yn fy mhen, trwy bechod.

(2il.) Edrych ar air Duw megys y gyfraith wrth ba un y'th fernir yn y dydd mawr: "Duw a farn ddirgeloeidd dynion yn ol fy etengyl i;" *Rhuf.* ii. 16. Yna fe ddarllenir llyfr dy gydwybod, ac fe'i cymmherir â hwn; ac yn ol hyny y cyhoeddir y ddedfryd, o fywyd neu farwolaeth, gan Grist dy Farnwr. Gelli wybod ym mlaen llaw y

n y goleu a fo gan wŷr yn ei lusern y nwn ef; wedi colli hwn, ni a'i gadawn. Yn awr, wrth yr Ysgrhythyr hon ni a n nad oes dim goleu gan hwnw sydd y gair i wirio ei farn, fel na wŷr efe le y mae ei hunan yn myned; na u chwaith, i ba le yr arweinir ni gan-

Drachefn, ai arferiad un arall sydd yn ei osod o'th flaen yn gopi i ti ysgrifenu ol? Pa beth a ddywed y gair?—"Na n liaws i wneuthur drwg;" *Ecsod.*

2. Nid esamplau yw ein gwarant ni, y gorchymyn; ac nid digon chwaith o'n had i ddyng fod ganddo rai o'i flaen yn bechod. Fe ddadleuodd Adda, yn wir, y wraig a roddasai yr afal iddo, ond ni sododd hyny mo hono rhag talu y cyfoda hi; y mae yn wir mai hi oedd y af yn y camwedd; etto, cawsant gydddef y gomp. A fwyte di wenwyn, am un arall mor hyf a'i brofi o'th flaen? Sier, nis gall ei esampl ef wneuthur y wlyn yn llai marwol i ti, sydd yn bwyta ol.

1.) Fe ddywed y gair i ti nad yw y i o'r saint yn iawn-droedio bob anser, yn rhy fynych ar wŷr: "Mewn llawer thau yr ydym ni bawb yn lithro;" iii. 2. A'r hwn sydd yn ddarostyngi y wyro ei hun, fe all dy gam-arwain tu. Am hyny, y mae Paul—gŵr mor viol a neb—wrth alw ereill ar ei ol, yn iddynt ei ddilyn ef a'u llygaid yn agor a weled a oedd efe yn canlyn Crist: "ddwech ddilynwyr i mi, megys yr wyf i i Grist; 1 *Cor.* xi. 1. Nid yw bywyd caidd y sant goreu ar y ddaear, ond cyfiad amherffaith o'r rheol berffaith yn y gair, ac am hyny rhaid ei brofi y gair. Oddi yma, un o nodau union-yw edrych at y ffordd, yn hytrach na'r deithwyr: "Sarn y cyfiawn yw dychwel-boddi wrth ddrwg; y neb a gadwo ei d, a geidw ei enaid;" *Diar.* xvi. 17. "ofyn a'r gair a wna efe, pa un ai da ai g yw y ffordd; os gwel mai drwg yw, nid yddi er mwyn cyfeillach un arall, pe ai efe sant. Yn wir, y mae Duw yn def i rai gamu yn wŷrgam, er profi ll. Fel hyn y mae heresia yn dyfod, y byddo y rhai cymmeradwy yn eglur;" *1 *Cor.* xi. 19. Ac yn *Deut.* xiii. 3: "Na ndaw ar eiriau y prophwyd hwnw, neu breuddwydydd breuddwyd hwnw; canys arglwydd eich Duw sydd yn eich profi i, i wybod a ydych yn caru yr Arglwydd Duw a'ch holl galon."*

1. Hyn rhoddais ychydig o esamplau, a ba rai y gwelwch fod y cleddyf hwn y gair—yn un ysgwydedig, fel hwnw yn y cerubiadaid; ac y gellir ei droi bob d, i gadw y Cristion rhag pob pechod, arhyw esgus pa bynag.

modd y bydd arnat yn y dydd hwnw, os na elli yn awr sefyll o flaen y gair yn cael ei agor gan weinidog tlawd, a'i gymmhwyso gan dy gydwybod dy hun, pa fodd yr ymdarewi pan yr agorir ef gan Grist? Y mae dy gydwybod yn awr oddi wrth y gair yn dy gondemnio, ond nid yn ddi-feddyginiaeth; o herwydd trwy i ti gael fydd ac edifeir-wch mewn pryd, fe all dedfryd y llys cartref yma gael ei galw yn ol, ac fe fydd i'r gair—oedd o'r blaen yn dy fwrw i angeu—dy ryddbau a'th gyfiawnhau di. Ond yn y dydd mawr hwnw, fe fydd terfyniad i'th achos am byth. Os ä y farn yn pryd hyny i'th erbyn, ti fyddi yn dragwyddol golledig. Dim galw y farn yn ol ni bydd i'w ddisgwyl, na chlymmain ag oedi y dihenydd—ond fel yr elo y gair o enau y Barnwr, gwyneb y pechadur a orchuddir, i'w draddodi yn ebrwydd i ddwylaw y poenwr. Ac a feiddi di yn awr, O ddyn! goesawu unrhyw chwant, tra mae y crogbren megys o'th flaen, a'r cadwynau tragwyddol yn barod, i ba rai y mae gair Duw yn condemnio pob pechadur? A fedri di ddarllen dy ddedfryd, ac etto caru dy bechod, sydd yn ei thynu yn anocheiadwy ar dy ben?

21. Fe arferir y gair *calon* yn fwyaf mynych yn y Beibl am yr ewyllys a'r serchiadau; “Fy mab, moes i mi dy galon;” *Diar.* xxiii. 26; hyny yw, dy gariad. Felly *Deut.* x. 12: “Ei garu ef, a gwasanaethu yr Arglwydd dy Dduw a'th holl galon.” A chuddio y gair fel hyn, Gristion, yn dy galon, a fyddai yn feddyginiaeth wych rhag y gwenwyn o bechod. Y mae cadwynau cariad yn gryfach na chadwynau ofn. Fe fu cariad Herod at Herodias yn rhy galed i'r ofn oedd yndo at Ioan. Yr oedd gan Ioan beth gafael ar ei gydwybod, yr hyn a attaliodd ei ddwylaw dros dro; ond ei anwylyd oedd yn dal ei serchiadau, ac fe fedr y galon ollwng y dwylaw yn rhyddion; ei gariad ati hi a barodd iddo ysgwyd ymaith y parch ato ef, ac o'r diwedd drochi ei ddwylaw yn ei waed. Y neb a gaethiwr yn unig gan y gorchymyn, ac a rwydir i'w ymddygiad da gan y cadwynau o ddychryn a rydd y bygythiad ar ei gydwybod; fe all gael yn rhydd o'r rhai hyn—ac yna fe ysgwyd ymaith ei ufudd-dod hefyd. Ond y neb a garo y gair, a phurdeb ei reolau, ni ddichon droi yn fradwr. Pan becho y cyfryw, fe wna archoll mor ddofn yn ei galon ei hun ag yn y gyfraith; ac am hyny y mae yn crynu rhag anfoddio Duw (*Salm* cxix. 120): “Hoffais dy dystiolaethau; dychrynodd fy nghaudd rhag dy ofn.” O! ofn bendigaid yw hwnw sydd yn tardu oddi ar gariad.

Yn awr, i emyn dy galon â chariad at y gair, ystyria, mai y rhybuddiwr ffyddlonaf, a'r diddanwr pereinidaf ydyw, a feddi yn y byd.

(Iaf.) Y rhybuddiwr ffyddlonaf; fe ddy-

wed i ti yn grow am dy holl feiau; ddiodefa i bechod orphwys arnat; eith eirio a wna at y gelyn sydd yn hel fywyd yr enaid gwerthfawr. Fe ddadgr yr holl fwriadau a'r cynllwynion sydd Satan a'th hoff chwantau i'th erbyn. a barodd i Dafydd ei garu mor a (*Salm* xix. 11): “Ynddynt hwy hef rhybuddi dy was.” Heb law ei holl mwynasau ereill, y mae yn dy ryl io am bob perygl, ac yn dangos i ti y f i'w ochelyd. O! fel y dylai hyn beri hofi! A bentrodd Ahasferus y fatl rhydedd mawr ar Mordecai, am fod un yn offeryn i gadw ei fywyd ef, trwy o guddio bradwriaeth a lueisid i'w en. Pa faint mwy y dylit ti anrhydeddu a daionus air Duw, sydd mor fynych achub dy fywyd o ddwylaw dy elynion brydol, ac yn dy rybuddio yn feunyddi fodd i ochel maglaw pechod, heb yr hyn mhossibl fyddai i ti eu canfod, na bo ddiangol oddi wrthynt? A ddarfui ddineb a chariad Abigail, yn y cynglor a odd hi i Dafydd—trwy yr hyn y cadwy rhag tywallt gwaed yn ei wylltineb—effe felly arno fel y cymmerodd hi i'w fy yn wraig iddo am ei charedigrwydd? ai ni fydd i'r cynglor a roddodd y gair ei wneuthur yn llawer mwy hoff genyt (2il.) Y gair yw dy ddiidanwr pereinidaf. Pan fyddo yr enaid druan yn cael ei w gan euogrydd, ac yn ymladd â dych feydd digder dwyfol am ei bechodau, a fath gysurwyr gofidus yw pleserau a sorau y byd y pryd hyn! Leied a ddi un creadur gyfranau at esmwythâd y fatl Dim mwy nag un a fyddo yn sefyll llaen, ac yn gweled ei gyfaill yn boddio môr, ond na w'yr pa fodd i'estyn iddo cymmhorth. Y gair yn unig a ddi rodio ar y tonau hyn, a dwyn cynnori i'r enaid. Y mae hwn yn abl i adfer enaid, a'i godi i fyny o waelodion y môr. i'r enaid fod, fel y morwyr hyny (*Act.* x) heb wybod beth i wneuthur, etto fe s gair i fyny, megys Paul yno, ac a lefar pe buasai yn y modd yma wrtho, O er ti a ddylesit wrandaw arnaf fi, a bod ymadaw a'th borthladd, trwy bechu yn byn Duw, i ddyfod i'r sarhâd hon a'r go etto, bydd gysurus; gwna fel hyn ac fel edifarhâ am dy ffolineb, a thro yn brysu dy Dduw yng Nghrist, ac ni bydd colled dy einioes. “Y mae maddeuant gyda I fel yr ofner ef.” A'r un modd ym ni blinderau ereill, y gair sydd yn dw mewn gysur y Cristion; pan roddo y iddo fustl, y mae hwn yn dwyn gwin; fyddo yn cael dim ond croesau a gofidiau y byd, y mae hwn yn siriol i ac yn llo ysbyrdoedd. Yma y mae efe yn cael y oedd oerion, sydd yn diffodd ac yn llin ei holl dristyd. A chwi wyddoch y.

sor y cyfrifir ffynnon mewn gwledydd esog. Yn sicr, Gristion, pan ystyriech nifer trafhwngc melus wyt wedi gael o nonau iachawdvwriaeth, ti a lefi gyda ydd (*Salm* cxix. 93): "Byth nid anghofdy orchymynion; causy â hwynt y'm cheaist." Nid wyf yn rhyfeddu gweled elyn yn ceisio cau dy ffynnon i fyny, o'r yr wyt i dynu dy gysur; ond iddo allu perswadio di dy hun i wneuthur hyny, i beth rhyfedd.

DOSE. II.

ydd. Dadleu yr addewid yn erbyn pechwrth orsedd gras. Yr hwn sy ganddo raith o'i ochr (meddwn), fe all gyfreithio orenin. A'r hwn sy ganddo addewid o'i e; fe all, gyda gostyngedig hyder, ddwyn awl ym mlaen gyda Duw. Megys y mae lweliâu yn canlyn gwythienau y corph, i ni ysbrydoedd iddynt; felly, gyda gormynion yn y gair, mae addewidion i fyw y Cristion, a'i nerthu i'w ddyledswydd. es gorchymyn i weddio? Y mae hefyd ewid i'w alluogi i weddi (*Zech.* xiii. 10); *f.* viii. 26. A ydyw Duw yn gofyn ein n? "Efy mab moes i mi dy galon;" *r.* xxiii. 36. Yr addewid a ddywed: hoddaf i chwi galon newydd;" *Ezec.* vi. 26. A ydyw efe yn gorchymyn i ni rhau ein llygredigaethau? Ac onid yw hefyd yn addaw, "Nid arglwyddiaetha bod arnoch chwi;" *Rhuf.* vi. 14. Yn i fwynhau yr addewid yma, rhaid i ti dadleu yn grediniol wrth orsedd gras. r hyn a orchymyn y gyfraith, y mae oddi'r ffydd yn ei erfyn ac yn ei dderbyn." ych, gan hyny, am alw gyda Duw ar dy dd. Yn gyntaf, Amgylchyna y nef; ac i gorchfygu yno, paid ag ofni na orch- di bechod ac uffern. Duw sydd bell- i ddwyn traul y rhyfel, nid tydi—yr a sydd yn dy roi ar waith, fe'th dddwg ryddo. Yr oedd Dafydd yn ŵr a fedrai i ei arf yn erbyn y gelyn yma, gystal ag arall; etto, ni feiddiaid addaw iddo ei hun ddiant nes cael Duw o'i blaid (*Salm* cxix.): "Cyfarwydda fy nghamrau yn dy air: na lywodraethed dim anwiredd arnaf." l os meddyli ladrata buddugoliaeth trwy ddewrder dy hun, disgwyl gael curfa. A ugaredd i ti gael dy drin felly; o herld fe all baeddiad ddyysgu i ti ostyngedd- ydd am yr amser a ddaw, ond fe chwani- i buddugoliaeth at dy falchder. A dbugoliaeth ddiles yw hono, pan fyddo un hod yn dwyn yr ysbail a ennillaist oddi an arall. Fe gymmerodd Jehosaphat yr awn ffordd i lwyddo; yr hwn, er fod gan- yn yn agos i fil o filoedd o wŷr, heb law d yn cadw ei amddiffynfeydd, a aeth elyny i ymofyn nawdd Duw; fel pe bu- ai heb un dyn o'i blaid (*2 Cron.* xx. 12): id oes genym ni nerth i sefyll o flaen y afa fawr hon sydd yn dyfodd i'n herbyn;

ac ni wyddom ni beth a wnawn: ond arnat y mae ein llygaid." Pe buasai un o fath Alecsander neu Cæsar uwch ben y fath lu, mi warantaf y buasai yn gwybod beth i wneuthur; ac y buasai yn hyderus o ysgubo y cwbl o'i flaen. Ond Jehosaphat— dyn isel, grasol—oedd wedi ei ddyysgu yn well. Yr oedd efe yn gwybod na thycia llud dim, oni bydd Duw y lluoedd o'u hochr; ac na fedr y gwrolaf gael na llaw na chalon yn nydd brwydr, heb ei genad ef, yr hwn a wnaeth bob un o'r ddau. Ni fyddi dithau, Gristion, chwaith yn abl i ddefnyddio dy ras mewn awr o brofedigaeth, heb ras newydd oddi wrth Dduw, i gynhyrfu a chryfhau yr hyn a dderbyniaist eisoes. Ac os wyt yn disgwyl hyn oddi wrtho ef, y mae yntau yn disgwyl clywed oddi wrthyt tithau. Ac nid yw yn un arwydd bod Duw yn an- ewyllysgar i roddi yr hyn a addawodd, am ei fod heb dalu dyled yr addewid, nes rhoddi y cwyn am dani wrth orsedd ras. Na: ffordd a gymmer Duw yw hon, yn unig i ddiogelu ei ogoniant ei hun wrth roddi; ac hefyd i chwaneu ein cysur ninnau wrth dderbyn mewn ffordd o weddi; a ffordd addas ydyw i gyrhaedd y ddau ddiiben.

PENNOD XXVIII.

Y modd i Gristion drin y cleddyf hwn—y Gair— er ei ddiffyniad mewn unrhyw drallod mawr, allanol neu du meunol. Ac un Hysforddiad yn cael helaethu arno.

4. Yr wyf yn dyfod yn awr i roddi ychydig help mewn ffordd o gyfarwyddyd pa fodd y mae i'r Cristion drin y cleddyf hwn, y gair, er ei amddiffyniad yn erbyn y pedwerydd gely- yn, a'r olaf, ond nid y lleiaf. Ac y mae hwn yn fyddin liosog o gystuddiau—oddi allan yn rhuthro, ac oddi mewn yn gwasgu. Nid yw y Cristion yn y byd yma yn sefyll fel y gwelwch rai tai, sydd yn cael eu cadw a'u cysgodi gan goedydd a bryniau, fel nad yw y gwynt yn curo ond ar uu ochr iddynt. Na, y mae efe yn agored i ystormydd a thymmestloedd o bob parth. Ni a ddar- llenwn am wynt auarferol, a darawodd ar unwaith wrth bedair congyl y tŷ, lle yr oedd plant Iob. Yn ddiâu, fel hyn y mae cyst- tuddiau y Cristion yn ei amgylchynu ef; ni bydd un gongyl heb daraw arni; ac yn fyn- ych iawn fe ddaw taraw o bob ochr ar un- waith; croes yn ei feddiannau, nychod yn ei gorph, a thralld yn ei ysbryd, ar yr un amser. A phan fyddo cynnifer o foroedd o helbulon yn cydgyfarfod, nid gwaith hawdd yw i galon y Cristion druan sefyll heb dori yng nghanol grym eu tonau hyn. Er mai gwir iawn yw hyn, mai nid oddi wrth ddim diffyg o gynnalïaeth a chysur yn egyptyddor- ion yr efengyl, y tardd y tristyd a'r terfysg- oedd sydd yn annhrëfnu cymmaint ar fedd-

yliau y saint duwiof; ac weithiau yn eu llenwi â braw a chyni; ond yn hytrach oddi wrth eu hanfedrusrwydd hwy i wneuthur cymmlhwysiad o'r efengyl, yn eu hamryw angenion—fy ngwaith presennol yw rhoddi gyhydig eiriau o gynghor i'r Cristion gwan, pa fodd y mae iddo drin y cleddyf hwn, y gair, er ei amddiffyniad a'i gysur mewn unrhyw gystudd oddi allan, neu gyfyngder ys-bryd oddi mewn. Ac yma ni chaf ddyfod at achosion neillduol—byddai hyn yn ormod meithder, ac nid mor addas yma—ond ymfoddlonaf yn unig ar rai rheolau cyffredinol, a ellir eu cyfaddasu at bob achosion. Yn awr, am rab gynaliol a chysurof y gair—hono yr wyf yn ei feddwl, sydd yn benaf wedi ei darparu er cysur i'r enaid yn ei holl anghysuron—y mae yn gynnwysedig yn yr addewidion; y rhai yn unig, o'u hiawn ddeall, a'u defnyddio, a'th wnânt di yn Cristion cysurus. Ac os mynit ti ddefnyddio yr addewidion, fel ag i beidio cael dy fathur gan Satan, mewn unrhyw gyfyngder a ddelo arnat, ac i allu codi dy ben mewn gobaith cysurus a hyder uwch law y cystuddiau a fyddo yn euro arnat, yna craffa ar yr hyn a ganlyn, mewn ychydig reolau cyffredinol a ddarparwyd er dy gynnorthwy.

Iaf. Bydded yn ofal blaenaf a phenaf genyt, i gael dy hawl a'th ran yn yr addewidion allan o ammheuaeth. O blegid dyma y colyn ar ba un y bydd y ddadl fawr yn troi rhyngot ti a Satan, mewn dydd o drallod; oddi eithr i'r peth fod wedi ei benderfynu cyn i hwnw oddiweddyd. O! y mae yn athrist i Cristion tlawd fod yn sefyll wrth ddrws yr addewid, ar dywyll nos trallod, dan ofni codi y glicied; pan y dylai fod yn dyfod mor hyf am achles, a phlentyn i dŷ ei dad: "Tyred, fy mhobl, dos i'th ystafelloedd, a chau dy ddrysau arnat: llecha megys ennyd bach, hyd oni elo y llid heibio;" *Esa. xxvi. 20.* Yr hwn sydd â'i hawl i'r addewid yn amlwg, trwy y gair, i'w gydwybod, ni chymmer yn hawdd ei daeru allan o'i gysur. Ni ymadawai Naboth â'i etifeddiaeth, er na gwên na gŵg brenin; eithr safodd i amddiffyn ei hawl hyd anghau. Ac felly y bwr-iadau Iob: "Oni threngwyf, ni symmudaf fy mherfheithrwydd oddi wrthyf;" *Iob xxvii. 5.* Dyma ei dystiolaeth am y nef; ac am hyny fe arferodd Satan ei ystryw eithaf i beri iddo ei thafu ymaith; ond er dim ni allodd. Yr oedd ei hawl yn oleu, ac ni chymmerai efe mo'i resymu allan o honi gan Satan; na, nid yw yn ofni chwaith ei gwirio ger bron Duw ei hun, pan oedd Duw, o ran ei ragluniaeth, debycaf o fod yn ei ddiarddel ef, ac yn ei drin fel gelyn; "Ti a wyddost nad ydwyf annuwiol;" *Iob x. 7.* Nid yw yn dywedyd nad oes ynddo bechod; ond mewn gostyngedig applliad at Dduw, y mae yn amddiffyn ei gyflwr, "Nad ydoedd annuwiol. A hyn a gadwodd gerbyd ei

obaith ar ei olwynion, ar hyd amser gystudd; fel na chafodd ei lwyrr ddymchwelyd, er ei fod weithiau megys yn siglo.

DOSB. I.

Cwest. Ond pa fodd y gwybyddaf a genyf hawl i'r addewidion?

At. (Iaf.) Ymofyn a uuwyd ti â Ch trwy ffydd, ai nad do. Nid cyttir yw addewidion, i foch dirio ynddo; ond rho defaid Crist, i'w braidd ef bori arni. "Os eiddo Crist ydych, yna hâd Abraham ydych, ac etifedidion yn ol yr addewid;" *C. iii. 29.* Cynnysgaeth yw yr addewid, ac gellir ei chael ond trwy briodi person Crist. A ffydd yw y gras trwy yr hwn y rhydd enaid ei gydsyniad i gymmeryd Crist, fe mae yn cael ei gynnwys yn yr efengyl elwir am hyny yn dderbyn Crist: *Ioan. i.* Nid oes dim ammheu na chefaist dy fyni, wahodd gan weision Crist; ac na ofynwyd i dros Crist, gwestiwn cystfelyb i'r un a ofwyd i Rebecca ynghylch cymmeryd Isaac briod: "A äi di gyda'r gŵr hwn?" "ddarfu iddynt allan o'r gair osod ei hawd garwch o'th flaen, pwy ydyw, a pha beth mae yn ei ddwyn gydag ef. Ti a glywas yr ammodau ar ba rai y mae yn dra bod lawn i'th briodi, a'th gymmeryd fel ei a wylid i'w fynwes. Megys,

(1.) I ti ymwrthod â phob carwyr ere a fu yn hōni dim hawl ynot; o blegid ddirodded efe neb yn gydeirchiad, neu yn gygyfranog äg ef yn dy serchiadau. Rhai cael enwau Baalim allan o enau Israel, yna y mae Duw yn eu dyweddio äg ef ei hys *Hos. ii. 17.*

(2il.) Dy fod yn foddolawn i'w gyfrain yn gystal a'i gariad. Ni fyn Crist fod i Briod, lle na chaiff fod yn Ärglwydd hefyd.

(3.) Dy fod yn ei gymmeryd ef er gw ac er gwaeth; ä'i groes i'w ganlyn, yn gys a'i goron; i ddirodded drosto, yn gystal äg deyrnasu gydag ef. Yn awr, pa groesaw gafodd y cynnyg hwn gyda thi?—a wyt ar yr amlygiad a roddir, mewn chwennyr iad i berson Crist? A yw efe mor d hawddgar a gwerthfawr yng ngolwg y enaid, fel yr ennywyd ynot ddymunid, angerddol ar ei ol? A wyt ti yn ewyllysg i ymlid ymaith dy hoff chwantaug gynt, er fwyn ef?—a neidio allan o freichiau dy hys bleserau pechadurus, a'th fwyntiaut aniam i gael dy dderbyn i'w fynwes ef? A wyt mor foddolawn i'w lywodraeth ef ag i ri woddau ei gariad? Mewn gair, a wyt wedi serchu arno, fel na elli fyw hebdd na'th fwynhau dy hun oddi eithr i ti allu fwynhau ef? Y mae dy galon wedi chlwyfo ä'r picellau a dafodd ei gariad a hawddgarwch ef i mewn iddi; ac efe yn unig sydd yn meddu y balm a'i meddyginiaeth hi. Ceisied ef bellach y peth a fyno odo ar dy law, ni bydd dim a orchymyno yn ormod. Os eirch efe i ti adael tad a thŷ d

ti a'i gwnei i fyned ar ei ol ef, pe byddai en arall y byd. Os dywed efe fod yn id i ti golli dy barch, a bod yn dlawd yn yd er ei fwyn ef, y mae dy ymroddiad i dda gwydag ef, yn hytrach na theyrnasuo iddo; i.e. i farw drosto yn hytrach na byw iddo. Tyred, ti fendigedig yr Arglwydd, yro am danat freichledau yr addewidion; na yr arwyddion cariad yr wyf i roddi i law Crist, dan addaw priodas i ti yn ei ef. Tydi yw yr enaid hapus, os oes ar y ddaear, a ddyweddia Crist âg ef ei i. Paid a nychu yn hwy yn dy ofnau hrediniol. Er dy gysur, gwybydd nad ar Crist yw dyrysu serchiadau eneidiau, ar ol ennill eu cariad, eu gwrthod a'u gwymaith.

DOSB. II.

2il.) Ymofyn pa effaith y mae yr addewidion yn gael ar dy enaid. Y mae pawb dym meddu hawl i'r addewidion yn cael eu lnewidio drwyddi. Megys y tywalltodd an ei hâd gwenwynig i galon Efa trwy lewid, "Ni byddwch feirw ddim;" *Gen.* 4, fel yr ymddygodd hi yn ebrwydd ar bod, ac yr ymdebygodd hi i'w natur ddi-ef; yn ddyrygonus fel yntau. Felly y mae Duw yn defnyddio addewidion yr angyl, a elwir o'r achos yma yn hâd an-gredig, i genhedlu ei lun a'i ddelw; nghalonau ei etholedigion (2 *Pedri* i. 4): "Addewidion mawr iawn a gwerthfawr: trwy y rhai hyn y byddech gyfranogion duwiol anian." Hyny yw, y byddech ranogion o'r fath duediadau a chyn-dfau nefol, sanctaidd, ag a'ch gwnânt chwiydebyg i Dduw ei hun. Y mae addas-ddd yn addewidion yr efengyl, a rhin-idd, pan eu cymmhwysir gan Ysbryd w, i buro y galon, yn gystal ag i heddu y gydwylbod. "Yr awr hon," medd st wrth ei ddisgyblion, "yr ydych chwylân trwy y gair a leferais i wrthych;" *Mat.* xv. 3. Gosod, gan hyny, dy law ar dy on, a dywed y gwir yn ddi-gel. A fu yr addewidion yn rhinweddol i beiri cyfnewid- sancteiddiol ynot? Pa dduwiol duedd t yn gael yn dy galon, yn amgen nag o'r en, er pan wyt gydnabyddus â'r addewid- ion? Y mae rhai yn defnyddio addewid- megys nawdd i bechod, yn hytrach na ll yn ei erbyn. Megys y mae pechod yn ameryd achlysur trwy y gorchymyn i tho yn y galon anianol bob math o dra- cant, felly y mae llawer ynynyhyfau trwy addewid, i bechu yn fwy cofn. Fel medd- yn ymfrostgar, a yfant wenwyn mewn ller ar eu meddyginiaeth rhagddo. Yn at, pa ffordd y mae yr addewid yn gweith- rdy galon? Os nad yw sel yr addewid y gadael argraff o ddelw Duw arnat, nid y hi yn selio i ti ddim daioni. Os nad yw yn magu sancteiddrwydd ynot, nid yw yn thi dy lawenydd. Mewn gair, os nad

yw yr addewid i ti yn hâd o ras, nid yw yn dystiolaeth am ogoniant. Ond os gelli gael, ei bod yn gadael argraph Duw arnat, yna y mae yn dy sierchau o gariad a ffiafr Duw atat.

DOSB. III.

(3ydd.) Ymofyn pa beth yw agwedd dy galon tuag at y gorchymyn. Mae yn bos- sibl bod yr addewid yn felus i'th archwaeth; a'th fod yn troi hon fel clamp o sugr dan dy dafod; ond onid yw dy ddannedd yn troi yn erbyn y gorchymyn fel pe byddai fustl neu wermod? Ti wnei wên ar yr addewid; ond pan y'th roddir mewn cof am dy ddyleds- wydd i'r gorchymyn, yna fe allai bod dy wedd yn newid, a gwg i'w weled ar dy rudd, fel pe byddai Duw ryw feistr llymdost, yn yssigo cefnau ei weision â beichiau trymion; ac y medrit ddymunio o'th galon, pe byddai cen- ad i ti i'w gael, i dori gorchymyn yn awr a phryd arall, heb ffurfetio dy hawl i'r addewid. Ond am nad oes gobaith o hyny, yr wyt mor dirion wrthyt dy hun ag i roddi i ti dy hun genad i ymgrymu i ryw eilun o bleser, neu elw a osodaist i fyny yn dy galon, ac yn gobethio y bydd Duw yn drugarog wrthyt, am nad wyt yn hyf arno ond yn unig yn y peth a'r peth. Os yw yr esgid hon yn ateb i'th droed, y nôd yma yn wir ddarlun o dy galon—yr hyn na ato Duw ei fod—nid oes i ti un rhan ym myn- wes yr addewid. Y mae genym addewid gysurus yn *Salm* l. 15, ond y mae gosgordd o'i hamgylech, rhag i un adyn anafudd dynu ei ffrwyth peraidd (*adn.* 16): "Ond wrth yr annuwiol y dywedodd Duw, Beth sydd i ti a fynegech ar fy neddfa, neu a gymmereich ar fy nghyfammod yn dy enau? Gan dy fod yn casau addysg, ac yn tafu fy ngeiriau i'th ol." Ond ar y llaw arall, os gwir yw, mai nid wrth y gorchymyn sanctaidd yr wyt yn ddi-g, ond wrthyt dy hun, am nad wyt yn gallu ufuddhau iddo yn fwy per- ffaith; mai nid blin genyt gadw, ond blin i ti dori cyfreithiau Duw; ac er bod dy droed yn rhy fynych yn llithro, mai glynu wrth- ynt y mae dy galon; ac na elli orwedd lle y syrthiaist, ond mai codi yw dy gais, i fyned ymaith yn fwy bywiog a gwageleg; er dy gysur, gwybydd, enaid tlawd, fod y parch diffuant yma sydd genyt i'r gorchym- yn yn arwydd tra chysurus o wirionedd dy hawl i'r addewid. Pan allai Dafydd wirio ei gariad i'r gorchymyn, nid oedd yn am- mheu ei hawl i'r addewid. Yn *Salm* cxix. 113, y mae efe yn tystio ei serch diragrith at ddeddf Duw, "Meddyliau ofer a gaseais: a'th gyfraith di a hoffais. Craffwch, nid yw yn dywedyd ei fod yn rhydd oddi wrth fedd- yliau ofer, ond eu bod yn gas ganddo; nid gwell ganddo eu cymdeithas nag a fyddai gan ŵr haid o ladron a dorai i'w dŷ. Ni ddywed efe chwaith ei fod yn cadw y gyf-raith yn gyflawn, ond ei fod yn ei hoffi, i.e.

pan oedd yn methu rhoddi ufudd-dod manwl iddi. Ac oddi wrth y dystiolaeth hon, a ddug ei gydwybod am ei gariad i'r gyfraith, y mae yn gweithredu ei ffydd yn yr addewid, yn loew ac yn gadarn, yn y geiriau nesaf: "Fy lloches a'm tarian ydwyf; yn dy air y gobeithiaf;" *adn.* 114.

DOSB. IV.

(4ydd.) Os wyt yn ammheu dy hawl i un addewid, prawf a elli ganfod bod i ti ran mewn un arall; yr hyn, os gelli, y mae lle i ti benderfynu, fod genyt hawl yn hono hefyd yr oedditi yn ammheu yn ei chylch; ie, ac yn y lleill i gyd. O herwydd megys y mae cyssylltiad grasau, lle ceir un y mae y cwbl: felly addewidion hefyd, etifedd un, y mae ganddo hawl i'r cwbl. Fe allai pan ddarlleuech yr addewid hono: "Gwyn eu byd y rhai pur o galon, canys hwy a welant Dduw;" *Mat.* v. 8, bod y gweddill o lygredd, sy heb ei lwyr farweiddio o'th fewn, yn dy frawychu rhag ei chymmhwysio atat dy hun, fel dy gyfran di. Ond am yr addewid sydd gymmydoges iddi (*adn.* 6): "Gwyn eu byd y rhai sydd arnynt newyn a syched am gyfiawnder; canys hwy a ddiwellir." Y mae yn bossibl bod ynot y fath deimlad o'th euogrwydd, a'th ddiffyg o saneteiddrwydd, ag sydd yn peri i ti addef, os bu dyn mewn clefyd poeth erioed yn chwennych diod, neu un wedi hanner newynu yn dymuno bywyd, yna dy fod dithau yn erfyn am gyfiawnder Crist i gyfiawnhau dy berson, ac am ras Crist i saneteiddio dy natur. Fel nad elli lai na gweled bod yr addewid yma yn lefaru wrthyt ti. Ac os yw hon yn perthyn i ti, yna y mae y gyntaf a'r lleill oll i'w chanlyn. O blegid canghenau ydynt yn yr un cyfammod; ac nid yw Duw yn ei roddi yn fân ddrylliau, ond yn gyfan, gyda yr holl ganghenau sydd yn tyfu arno, yn gyfran i gredinwyr: oddi yma y gelwir hwy yn etifeddion yr addewid: *Heb.* vi. 17. Nid etifeddion ambell addewid, ond yr addewid; hyn yw, y cyfammod, sydd yn cynnwys ynddo ei hun holl addewidion yr efengyl. Megys y mae gafael mewn llaw gŵr, er nad yw ond un aelod, yn rhoddi gafael ar ei holl gorph ef, am ei bod yn un â'r aelodau ereill; ac wrthi hi y gellir tynu y lleill; felly, os oes genyt tithau afael ar ryw un addewid, y mae y cwbl genyt; ac oddi wrth yr un hono ti elli gasglu dy hawl i'r lleill. Ac megys y gelli di ollwng y gwin i gyd o lestru trwy un twll, felly fe all enaid tlawd dynu cysur yr holl gyfammod iddo ei hun, trwy un addewid a fyddo efe yn gallu ymaffyd ynddi, a'i chymmhwysio. "Nyni a wyddom," medd Ioan, "ddarfod ein symmud ni o farwolaeth i fywyd, o blegid ein bod yn caru y brodyr;" *1 Ioan* iii. 14. Bywyd tragwyddol yw hufennoll fendithion y cyfammod. Yn awr, wrth deimlo yr un gras hwn o gariad—yr ammod a gysylltir â'r addewid yma—yn

gweithio o'i fewn, fe all Cristion tlawd bod ei fod mewn cyflwr o fywyd a dedwyf wch. A pha ham? Am fod yr holl rai ereill yn yr enaid sydd yn meddu hwn meg gwirionedd; nid yw Crist i'w ranu yr rhai hyn; ac yn ganlynol, y neb a ddichiawn gymmhwyso yr addewid yma, y n ganddo hawl i'r cwbl.

PENNOD XXIX.

Pump o hyfforddiadau ar yr un achos.

DOSB. I.

Hyffordd. 2. CYMMER beth poen (w ddarllen yr Ysgrhythrau) i ddosbarthu addewidion at eu priodol achosion. Yn Duw yn gweled yn dda brofi ei saint amrywiaeth lliosog o demtasiynau: "A ddrygau a gaiff y cyfiawn;" *Salm* xxx. 19. Ac y mae amrywiaeth o addewidion a fwriadwyd i weini iddynt gysur, a fyc yn addas i'w hamryw ofidiau. Gardd fe yginiaeth ysbyrdol yw y Beibl, lle y llysieuyn i iachau pob rhyw ddolur. Ac fyddai o ddefnydd rhyfeddol i'r Cristion pe casglai rai o bob math, yn enwedig y rhai a brofodd yn effeithio yn fwyaf ar ei galon (y gall ddywedyd am danynt gydag Origyn "Dyma ysgrhythyr sydd yn eiddof fi"); yna ysgrifenu y cyfryw i lawr, fel y gwn physygwr ei gyfarwyddiadau at y dolur hon ac arall wrthyt eu hunain. Onid yw ddigon i gywilyddio y Cristion, weled golhaig yn gwybod am bob llyfr yn ei lyfrgell fawr, ac am ba beth y mae yn traethu fel y gall yn hwylus fyned at yr un a fyddo defnyddio y materion ynddo fel y byddo achos? Nid oes ganddo yntau, fel Cristion ond un llyfr i'w fawr astudio, a hwnw hwnw fod o'r maintioli mwyaf, etto yn abl i'w wneuthur yn ddoeth i iachawdwriaeth, hefyd yn gysurus ym mhob cyflwr; ac o ddylai efe fod yn gydnabyddus, os nid yw cwbl, etto â rhai addewidion o bob math fel y gallu gyrchu atynt am gyfarwyddychysur yn nydd ei gyfyngder? A'r amcangyfrif goren i'r gwaith yma yw, pan fydddech chi dawl arnat yn mynwes iechyd a llwydiant. Y mae y meddyg yn casglu ei ddwyf ym y gwanwyn i'w defnyddio yn y gaeaf. A'r morwr yn darparu ei offer yntau yn porthladd cyn troi allan i'r môr. Ac yn annoeth fydd i'r Cristion ystorio ei hun addewidion mewn iechyd erbyn clefyd, mewn heddwech erbyn peryglon i ddyfod. Hwyr yw i ddyfod feddwl am redeg adref ymyfyn am ei gochl pan fydd ar y ffordd wedi ei ddal gan y gawod: "Y call a geir fydd y drwg, ac a ymgudd; ond y ffyliaid änt rhagddynt ac a gospir;" *Diar.* xxii. 3.

DOSB. II.

3ydd. Dal sylw ar eangder yr addewid

Y mae y cyfammod gras yn cwmpasu Cristion gwan yn gystal a'r cryf: "Os ant, etifeddion hefyd;" *Rhuf.* viii. 17. Nid plant o'r oedran yma a'r maintioli arall, d os plant. Y mae gan Grist yn ei deulu ant o bob maintiolaeth; rhai yn fychain, ill wedi tyfu i fynu. Os wyt yn blentyn, yn y cryd, y mae yr addewid yn etifedd- th i ti: "Holl addewidion Duw ynddo ydynt i e, ac ynddo ef Amen;" 2 *Cor.* i. "Nid oes dim damnedigaeth i'r rhai dd yng Nghrist Iesu;" *Rhuf.* viii. 1. welwch yma mai cyflwr dyn, a'r berthynas mae yn sefyll ynddi, sydd yn rhoddi hawl addewid. Y mae rhai saint yn derbyn wy o ras oddi wrth Grist nag ereill; ac ly yn fwy galluog i ddefnyddio yr addewid- ion na'u brodyr sydd yn wanach, trwy yr n y mae ganddynt yn bresennol fwy yn fod i mewn oddi wrth yr addewid. Ond l oes ganddynt fwy o ran yng Nghrist i'r lleill; ac yn ganlynol y mae hawl y istion gwan i'r addewid mor ddilys a hawl cryf. A ddywed y troed, am fy mod yn lod iselaf o'r corph, ni sieryd y tafod drosof, u ni ofala y pen am danaf? Ni a adawn fod yn un o'r radd wanaf ac isaf o Grist- nogion; er hyny, yr wyt yng Nghrist, fel y ae y troed yn y corph. Ac y mae Crist eidi gwneuthur darpariaeth yn yr addewid babw sydd yn un âg ef. Yr ydym yn rthuno yr addewidion pan roddom hwynt edrych yn wrydraws, â llygaid ar un sant, eb un ar y llall; pan y maent yn perthyn r holl saint: "Yr hwn sydd yn credu yn Mab, y mae ganddo fywyd tragwyddol;" *Jan.* iii. 36. Pwy ydys yn feddwl yma? i hwnn yn unig sydd yn credu uwch law nmheuaeth? Nag e, dybygwn. Yr hwn dd yn erchi i ni dderbyn y gwan yn y ydd, ni bydd iddo ei hunan ei wrthod.

DOSB. III.

4ydd. Myfyria lawer ar yr addewidion. eth yw yr achos bod y Cristion tlawd mor allodedig dan ei gystudd presennol, ond fod yn meddwl mwy am ei flinder nag am addewid? Y mae yn yr addewid y peth ddadebrai ei ysbryd pe gallai ond sefydlu feddyliau arni. Pan lyno y plentyn an- nad unwaith wrth y fron, ac y dechreuo ynu y llaeth ato, yna fe dderfydd ei gerain, e fe syrth i gysgu â'r fron yn ei safn. Felly paid y Cristion âg achwyn am ei ofid pan caiff afael yn yr addewid, ac archwaeth ei elusder ar ei galon: *Salm* xciv. 19; "Y nlder fy meddyliau o'm mewn, dy ddi- danwch di a lawenycha fy enaid." Pan o haid o wenyn allan o gwch, y maent oll oewn terfysg yn ehedeg yma ac acw heb refn, hyd nes o'r diwedd y cychir hwynt llwaith, ac yna tarawant at eu gwaith yn eddychol fel o'r blaen. Ac felly yn ddiau bydd i'r Cristion ei chael gyda'i galon ei- un. Duw yn yr addewid yw cwch yr enaid;

gollynged y Cristion ei feddyliau oddi yno, ac ebrwydd yr ymderfysgant, gan ehedeg i fyny ac i waered yn ddychrynedig o her- wydd y cystudd, neu y brofedig eth sydd yn bresennol yn ei fino; hyd nes y gall ad- feddwl a sefydlu ei galon drachefn ar yr addewid; ac yna y mae yn ail gael ei hed- wch a'i dawelwch gynt. Am hyn y mae Ysbryd Duw yn galw yn ol feddyliau blin- derog y saint cystuddiol; ac yn eu tynu ymaith rhag tremio ar yr hyn sydd yn eu cythryblu at Dduw, lle yn unig y gallant fod yn esmwyth a thawel: *Salm* xxxvii. 7; "Distawa yn yr Arglwydd a disgwyl wrtho." Ac y mae Dafydd wrth gael ei enaid (fel y golomen pan oedd yn ehedeg uwch y dyfroedd) heb orphwysfa yn ei gymmhell yn ol i'r myfyrdod am Dduw a'i addewid fel yr unig arch i'w gadw: *Salm* cxvi. 7; "Dychwel, O! fy enaid, i'th orphwysfa." Y mae calon y Cristion o'r wedd hono, a esyd ei feddyliau mwyaf cartrefol a safadwy arni. Meddyliau diflanedig, di- barhau, byddant ddfyfr neu brudd, nid yd- ynt yn effeithio fawr ar yr enaid nac yn newid ei dymmer i lawenydd na thristwch. Nid yw na'r gwenwyn yn lladd na'r ymborth yn maethu, a fyddo heb aros yn y corph. Na; dyna y pryd y mae y cystudd yn myn- ed i'r galon, ac yn chwervei ysbryd y Crist- ion i ofnau aflonydd o thrwm brudd-der; pan fydd ei feddyliau yn mwydo yn ei ofid o ddydd i ddydd; pan y bydd fel y wraig yn yr efengyl, "wedi cyd-grymu gan ysbryd gwendid;" fel nad yw yn gallu codi ei galon oddi wrth y meddwl am ei groes yn ei flin- der, i fyfyrion ar un addewid a'i llonai. Y mae y fath rai yn ddiau i'w cael, a gedwir yn garcharorion mor gaeth gan Satan, a'u prudd galonau eu hunain, fel nad oes un myfyrdod cysurus yn cael cenad i siarad nac aros gyda hwynt. A thrachefn ar y llaw arall, dyna y pryd y mae yr addewid yn gweithio yn effeithiol; pan fyddo yn rhwym ar galon y Cristion; pan fyddo yn deffro gyda hi ac yn rhodio gyda hi. Nid oes un boen y mae yn deimlo, na pherygl y mae yn ofni, yn gallu ei dynu oddi wrth y fron yma; ond megys y "cerddodd Samson ym mlaen dan fwyta mel," felly yntau dan ym- borthi ar felusder yr addewid. Dyma Grist- ion a gân pan fydd arall yn cwyno; a dreulia amser ei gystudd yn moliannu Duw, tra y mae ereill (sydd â'u meddyliau yn ymdywallt ac yn gwyllto yng nghylch eu croes) yn rhy gyffredin yn ei dreulio mewn achwyniadau diles am eu blinfyd, a murmur tuchanllyd sydd yn bwrw anfri ar Dduw ei hun. Bydd- ed gan hyny yn ofal genyt, Gristion, i ym- arfer â'r ddyledsdydd hon o fyfyrdod. Bydded i ti nid yn unig newid gair neu ddau â'r addewid, fel y gwna un â'i gyfaill a fydd yn myned heibio i'w ddrws, ond ei gwahodd i mewn (megys y gwnaeth Abra-

ewn trefn i'w ddadleu o flaen y fainge. an hyny, pan fydddech wedi cael golwg ar addewid, a'th galon yn ymserchu ar ei rysorau, yna prysura at orsedd gras, a aena hi o flaen Duw. Felly Dafydd : *alm* cxix. 49 ; "Cofia y gair wrth dy was, y'r hwn y peraist i mi obeithio."

DOSE. v.

6ed. Wedi dadleu yr addewid, gweithreda fydd ar allu a fyddlondeb Duw am y flawniad o honi ; a hyny yn erbyn teimlad rheswm a godant i fyny i'th ddiagonaloni. Tegid fel y bydd dy fydd ar y rhai hyn, wan neu yn gref, felly y bydd y melusr a dyni o'r addewidion yn ychydig neu llawer. Y mae diogelwch y saint yn gorodd yn nerth a fyddlondeb Duw, rhoddwr addewid ; ond y mae cysur presennol a rphwysdra enaid cystuddiedig, yn cael ei wyn i mewn trwy fod fydd yn gorphwys Dduw fel y cyfryw. Yn ganlynol, er fod holl rai crediniol allan o berygl, pan yn cyflwr mwyaf athrist a all ddigwydd llynt, etto y mae gormod o honynt dan nau a phrudd-der ysbyrd, am fod eu fydd gweithredu yn wanaidd ar Dduw cadarn ; ofnus ac yn ammheus ar Dduw fyddw'n : "Pa ham yr ydych yn ofnus, O chwi ychydig fydd?" *Mat.* viii. 26. Chwi a llywch yr agen a ollngodd y dwfr i mewn uddo eu hysbrydoedd ; ychydig fydd oedd nddynt. Nid yr hyn ydyw Duw ynddo un, ond yr hyn a fydd ein hamgyffred esennol am Dduw, sydd yn heddychu ac cysuro enaid mewn mawr gyfyngder. Os did dyn yn ofni i'r tŷ syrthio ar ei ben ewn ystorm, er iddo fod yn ddiysgog fel graig, etto ni esmwytha hyny ei feddwl, s y coelia ei fod felly. Fe byddai dyn n nawdd cyfaill fyddlawn ; os bydd ei ner hyny yn llawn o ofnau a drwgdybiau gwrthwyneb—y bydd iddo o'r diwedd ei ael a'i wrthod, y mae yn rhaid fod byw hwn yn anghysurus, er mai yn ddiachos. a weli ynte y fath beth o bwys yw cadw fyny rym a bywiogrywydd dy fydd ar ddernid a gwirionedd yr addewidion ; ac wyt yn dymuno hyn, anfon ymaith teimlad a rheswm o fod yn gynghorwyr i

Pa fodd y bu Abraham heb ysgogi yn fydd, er annhebyced i ddyfod i ben oedd addewid ? Y mae yr apostol yn amlygu : Nid ystyriodd ei gorph ei hun ;" *Rhuf.* iv.

A pha beth a barodd i Zacharias betso ? Fe gymmerodd deimlad yn gynghor- ; a meddyliodd ei fod yn rhy hen i'r fath wydd tra rhyfedd fod yn wir. Dyma nwyn i fydd, ac i'n cysur yn ganlynol ewn dydd o drallod. Rhy dueddcl ydym Thomas i ddwyn ein fydd ar benau ein sedd ; a pheidio ymddiried i Dduw yn bellach nag y gall ein llaw o deimlad gyr- edd. Nid pell y gall teimlad gyrhaedd ; nid llawer pellach y gall llygad cibddall

rheswm ganfod. Y mae Duw yn fynych ar ei ffordd i gyflawni addewid, a dwyn newyddion hyfryd i'w weision trallodedig, pan y bydd teimlad a rheswm yn barnu eu cyflwr yn ddiobaith. Y mae y tri hyn, teimlad, rheswm, a fydd, yn wahanol, ac ni ddylid eu cymmysgu. Gwyddom rai pethau wrth synwyr teimladol, y rhai ni ddeallwn y rheswm am danynt ; megys y maen-tynu yn dwyn yr haiarn ar ei ol ! pryd nas gallwn ddywedyd pa ham y metel gwael hwnw ac nid aur. A'r un modd am y nodwydd yng nghwmpawd y morwr yn troi at y gogledd yn hytrach nag un pwynt arall. Rhai pethau a ddeallwn wrth reswm, nad yw ein synwrau teimladol yn gallu eu dirnad ; megys fod maintoli yr haul yn fwy na chwmpas y ddaear ; yr hwn y barnai y llygad y gellid ei guddio agos â het. Ac y mae pethau ereill yn eglur i fydd, er eu bod yn chwth a dyrus i deimlad a rheswm hefyd. Yn yr ystorm ddychrynllyd hono (*Act.* xxvii), pan oedd teimlad a rheswm yn barnu fod "pob gobaith y byddent gadwedig wedi ei ddwyn oddi arnynt" (*adn.* 20), fe wyddai Paul wrth fydd "na byddai colled am einioes un. Cymmerwch gysur ; canys yr wyf fi yn credu i Dduw mai felly y bydd, yn ol y modd y dywedwyd i mi ;" *adn.* 25. Pan darawodd yr angel ystlys Pedr, ac y dywedodd wrtho am gyfodi yn fuan a'i ganlyn ef, ni chafodd teimlad a rheswm genad i wrthddadleu am ammhossiblwydd y peth, pa fodd y cerddaf a minnau mewn cadwynau ? neu i ba ddioben pan y mae porth haiarn ar ein ffordd ? Ond codi a wnaeth, a dyna ei gadwynau yn syrthio ; canlynodd ef, a dyna y porth haiarn yn ymagor iddynt o'i waith ei hun. Na ddywed, Gristion tlawd, Y mae yn ammhossibl dioddef y cystudd yma, neu fyned trwy y brofedigaeth acw. Canlyned fydd yr addewid, ac fe ddattoda Duw gylm- au rheswm a theimlad. Y mae Luther yn peri croeshoelio y gair hwnw—"pa ham." Ufuddhâ i'r gorchymyn, a phaid a gofyn rheswm pa ham y mae Duw yn ei erchi. Ac y mae cymmaint o achos peri i'r Cristion mewn cystuddiau a themtasiynau trymion, groeshoelio y gair "pa fodd." Pa fodd yr âf trwy y blinder yma ? y safaf yn y rhuthr acw ? Ymaith â'r pa fodd yma. Oni rodd- odd y Duw mawr a fyddlawn i ti addewid- ion ddigon i esmwythau dy galon o'r ofnau a'r gofalon afreiddid hyn ? pan y dywed wrthyt, "Ni'th roddaf di i fyny, ac ni'th lwyr adawaf chwaith. Digon i ti fy ngras i. Nis gall dim ein gwahanu ni oddi wrth gar- iad Duw, yr hwn sydd hyn ? Nghrist Iesu ;" ynghyd â llawer yn chwanea o ymrwymiad- au cysurus o enau pur wirionedd, i sefyll rhyngot a phob niwed. Pa ham ynte yr ymfini yng nghylch y mynyddoedd o an- nhebygoliaeth ac anhawsdra, a gyfyd teiml- ad a rheswm cnawdol i fyny, i dywyllu y

cysur o'th waredigaeth i ddyfod? "Cau y ffenestri i fyny, ac fe fydd y tŷ yn oleu," fel y dywed y ddiareb Iuddewig. Na farna wrth deimlad ond wrth ffydd, am y Duw anfeidrol; ac yna ni'th frawychir gan y bwbachod hyn. "Gwaith grymusaf y dealltwriaeth yw credu pethau annhebygol, fel mai gwaith grymusaf y serch yw caru pethau y mae poen a gwaradwydd yn eu caulyn," medd Parisensis. O herwydd megys yr ydym yn yr olaf yn ymwadu â'n tueddiadau anianol, sydd yn unol â chig a gwaed; felly yn y blaenaf, yr ydym yn ymwadu â'n rhesymiaidau anianol, sydd am ddadleu yn erbyn grym a gallu Duw.

PENNOD XXX.

Yn terfynu y traethiad ar y darn yma a chyngor i weinidogion; i ba rai y gorchymynwyd y cleddyf hwn yn enwedigol.

Defn. I WEINIDOGION. Yn eich dwylaw chwi y rhoddwyd y cleddyf hwn—y gair—mewn modd enwedigol; i chwi yr ymddiriedwyd am y weinidogaeth o hono. Nid ydyw Duw wedi ei adael at yr antur i bawb, fel y gall y neb a fyno bregethu yr efengyl. Gwaith i bawb, nid yw waith i neb. Gan hyŷy, y mae efe wedi gosod i fyny alwad barhaol a gweision yn ei eglwys, i fod dan y gorchwyl hwn, ac hefyd dan rwyman i roddi cyfrif am dano: 2 *Cor.* v. 19; "Wedi gosod ynom ni air y cynmod." Fel y mae brenin yn gosod y neb a welo yn dda yn genhadwr iddo. "O Timotheus, cadw yr hyn a roddwyd i'w gadw atat;" 1 *Tim.* vi. 20. Gwelwch, a chrynwch wrth y siars a roddwyd yn eich dwylaw. Negeswyr y Duw mawr ydych, i ymddiddan â phechaduriaid truaïn am dragwyddol heddwch, tuag at ei ddwyn i ben yn ol rheolau yr efengyl. Ei isweithwyr ydych, i adeiladu ei deml yng nghalonau dynion; ac i osod pob maen wrth gyfarwyddyd ei air. Ei oruchwylwyr hefyd, i roddi i'w deulu o rhanau mewn pryd; a'ch holl gyfluniaeth i fod allan o'i drysordy ef. Mewn gair, ei fugeiliaid ydych, i arwain a phorthi ei braidd; a hyny yn ei borfeydd breision ef yn unig. Yn awr, os bydd yr heddwch heb ei ddwyn i ben, sicr yw y gelwir y negeswr i holiad pa le y mae y bai yn gorwedd. Os bydd y tŷ heb ei adeiladu, neu yn adfeilio, gwae i'r gweithiwr diofal. Os bydd y teulu yn newynu, pa esgusa wna y goruchwylwr? Os bydd y defaid yn crwydro, neu yn meirw o'r haint, gan bwy y gofynir tâl am y golled ond gan y bugail diles?

Bellach tuag at i chwi iawn lenwi y lle cyhoedd hwn, nodaf yn unig ddwy ddyledswydd sydd yn gorwedd arnoch mewn perth-

ynas i'r gair a roddwyd yn eich dwylaw; i'w chyflawni yn eich ystafell, a'r llall y eich pulpud.

DOSEB. I.

Iaf. Yn eich ystafell, ymarferwch â ga Duw. Yr hyn a ellir ei gyfrif yn y Crisïon cyffredin yn ddyfalwch i ddarllen chwilio y Beibl, gellir ei farnu yn ddiogel wrth yn y gweinidog. Y mae astudïo Ysgrhythrau nid yn unig yn rhan o'n galw gyffredinol (fel ereill), ond o'n galwad neill duol hefyd; yn yr hon y dylem fod yn ddyf o'r naill ben i'r wythnos i'r llall. Fel yr y llafurwr allan yn ddibaid â'i gaib a'i rai i wneuthur ei orchwyl beunyddiol yn maes, felly y mae yn perthyn i weinidog fynes a chloddio ym mwnglawdd yr Ysgrhythr. Nid darllen pennod yn awr phryd arall sydd iddo ef fel y bydd achosio bydol yn caniatáu, neu ddwyn ychydig amser oddi ar ei astudiaidau ysgolheigaidd ereill i edrych i'r Beibl ar gip ac ymada ar hyny, ond rhaid ei fod yn orchwyl gan ddo i barhau a llafurio ynddo. Pe bydd gyfarwydd yn y cwbl a ysgrifennodd Plat Aristotle, a'r lleill o dywysogion dyno ddysg; ac yn gallu cynnwys y celfyddydau oll yn dy ddealltwriaeth, ond yn anghyrfnefn â gair cyflawnder, ti fyddit annysgedi yn ol barn Paul; mor anaddas i fod y weinidog ag yw un a ddarllenodd y gyraith drosti i fod yn physygwr, heb wyb am y gelfyddyd yma. Nid fy mwriad yn maethu gwag-dyb y meibion anwybodaeth hyny a gyfrifant ddysegeidiaeth ddynol y afreidiol o addurn i weinidog. Yn ddiat heb hon, ni aem yn fuan i'n hen drosgl-iait anwybodus yn ol. Mi a ddarllenais am y Bada, a gynghorai Francis i. o Ffraince (hyny pan oedd Budddeus ddysegiad yn bresennol) i droi heibio ei frenhinol fwriad o osod i fyny broffeswyr ieithoedd yn ei brifysgol gan daeru mai yr iaith Roeg oedd ffynonol pob heresiau. Ond fe gafwyd allan na oedd y gŵr ei hun yn deall un gair o Roeg. Yn wir, nid oes ond ychydig, neu neb, yn yr siarad yn erbyn dysg, oddi eithr y rhan feddant gymmairt o honi ag i rodd iddynt wybod ei defnydd. Ni feiddiaf i beri i weinidogion (fel y gwnaeth rhai phan aticiaid) lësgi ei llyfrau i gyd ond y Beibl Na, ond mi a'u hannogwn hwy i'w brisio uwch law eu holl lyfrau ereill, ac i duedd pob astudiaeth arall i'w haddurno â gwybodaeth ysgrhythrol. Fel y wenyneis sydd yn ehedeg i bob cŵr o'r ardd, ac yn dwyn yr holl fêl a gaffo oddi wrth bob blodeuwr ynddi i'w chwch; felly y dylai gweinidog reddeg dros ei holl lyfrau ereill, a defnyddio y materion ynddynt er ei gynnorthwyo uwel ben hwn; megys y darfu i'r Israeliaid offwrwm yr arian a'r tlysau a fenthyciwyd gan yr Aiphitiaid, at wasanaeth y babbell. "Y mae ymadroddion da philosophyddion (ebe

yn addurnau i Gristionogion. A sicrgellir benthycio hyd yn oed ganddynt y fath dlysau a weddant i glust Crist- onod eu puro a'u nawseiddo drwy yr fe syl. Fel hyn yr oedd yn achos y "for- gaethgludid; ar ol eillio ei phen, ei hewinedd, a newid ei dillad," fe allai o Israel ei chymmyrd i'w fynwes: xxi. Crefydd a dysgeidiaeth a gyd- wiasant. Fe fu y goleu a ddygodd mus i'r ysgolion yn gynnorthwyol i Luther yn yr eglwys. Ond i ddy- llyd at yr annogaeth mewn llaw. O! led i ni sydd yn weinidogion yr efengyl, i ein hunain i astudio y gair. Nid yd- ni, megys y dywedodd un yn gym- ys, ond brodyr ieuengaf i'r apostolion. dawyd doniau gweinidogaethol iddynt gan Grist, fel etifeddiaeth gan dad i'w hynaf a'i etifedd. Ond rhaid i ni weithio ein bywoliaeth. Yr oeddynt hwy yn eu gwybodaeth o'r gair, fel Iacob ei gig at eu llaw heb hela; ond os mynwn ni nod meddwl Duw, rhaid i ni ei olrhainall- n ddyfal. Ond cofiwn gymmyrd gweddi ni bob amser. Yr wyf yn sicr mai a siars Paul i Timotheus, "Glŷn wrth llen;" 1 *Tim.* iv. 13. Bydd ddyfal dy lyfr, O! Timotheus. Ac yn *adn.* "Myfyria ar y pethau hyn, ac yn y eua hyn aros;" a chraffwch pa ham, "fel rddo dy gynnydd yn eglur i bawb;" y yw, fel y byddo yn amlwg i'rh wran- yr dy fod yn bregethwr cynnyddgar. pa fodd y cynnyddai y bobl, oni wna y nidog; a pha fodd y cynnydda efe, y ff i mewn yn feunyddiol fwy nag y yn ei dywallt allan? Y mae yn rhaid weinidog hwnw fod yn gwario ei ystôr, heb ddim yn dyfod i mewn oddi wrth ach barhaus yn ei ystafell. Oni fwyty mmaeth fwy nag un arall, gall yn fuan yn ei hun a'r plentyn i ddarfededigaeth. ys gan hyny na fynem weled yr eneid- wrth ein bronau yn nychu o eisieu llaeth, i ein hunain yn ddisfygiol yn ein gorch- bydded i ni ymegnio am i'n hennill fod yfatteb i'n traul. Astudia a gweddia; yddia ac astudia drachefn. Na feddwl fod dy waith am yr wythnos pan ddar- lylo y Sabbath. Cymmer dy anadl am dig, a dychwel at dy lafur; fel yr hau- r eistedd ym mhen y tir i orphwys en- y, ac yna a gyfyd i fyned o flaen ei aradr hefn. Y mae i ni achos i fod yn fwy rain o'n hamser nag ereill, am fod ein al ynddo yn llai; nid oes neb yn dy lyf nad oes iddo ran ynddo. Yr ydym ladron at eneidiau ein pobl pan na fydd- yn eu hwsmonaethu yn y modd goreu er- les: "Y mae pob peth yn eiddoch chi; pan bynag ai Paul, ai Apolos, ai Cephas;" loch chi er gwasanaeth eich ffydd. A tad dan rwyman i hwsmonaethu ei dda

a'i amser, er darbod dros ei blant? Ac oni ddylai tad ysbrydol feddu cariad mor natur- iol at ei bobl? Pe baent hwy ond yn deall y fath lafur trwm sydd yn y gwaith i feddwl a choroph, hwy a roddent fwy o dosturi ac o galondid i'w gweinidog ynddo. Cynnhyrfed Duw i hyny eich calonau chi, a fendith- iodd efe â gweithwyr ffyddlawn. Byddwch gynnorthwywyr iddynt yn eu llafur drosoch trwy eu hesmwythau o'u gofalon bydol drostynt eu hunain. Fe all rhai pobl ddiolch iddynt eu hunain nad yw eu harlwy ddim gwell; am eu bod yn achos o afonyddiad y gweinidog yn ei waith, ac o'i osgoad oddi wrtho; o herwydd trwy wasgu arno yn ei fywoliaeth, y maent mewn ystyr yn ei gym- mhell i droi yn fyddolddyn. Ac y mae yr amser a ddylai efe dreulio yn darparu bara i'w heneidiau hwy, yn cael ei roddi allan i ennill bara i gyrph ei dylwyth.

DOSE. II.

2il. Yn y pulpud, hwn fyddo dy unig gleddyf; a thrin ef mewn ffyddlondeb. Cofia genadwri pwy sy genyt, a thraetha hi, Yn (1af.) Mewn purdeb. Yn (2il.) Gyda hyfder.

(1af.) Mewn purdeb: a hyny mewn ystyr- iaeth driphlyg. Yn bur oddi wrth gyfeil- iornad; yn bur oddi wrth ddrwg nwydau; yn bur oddi wrth ysgafnder ac oferedd.

(1.) Yn bur oddi wrth gyfeiliornad. Paid a'i gyfrif yn ddigon bod dy destyn yn Ys- grythyr, ond bydded y cwbl o'rh bregeth hefyd yn gyfryw; fy meddwl yw, yn unol â'r Ysgrythyr. Cenhadwr ydwyf, ac felly yn rhwym wrth hyfforddiadau dy feistr. Gochel dywallt dy freuddwydion a'rh ddych- ymmygion gwael dy hun yn enw Duw: "Yr hwn y mae ganddo fy ngair, llefared fy ngair mewn gwirionedd" (*Ier.* xxiii. 28); hyny yw, yn bur, heb ei gymmysgu a'i an- urddo â'i freuddwydion ei hun: dyma y modd y mae yn esbonio ei hun, "Beth yw yr ŷs wrth y gwenith," medd yr Arglwydd. Us ydyw y cwbl ond a fyddo yn bur air Duw; a pha beth a dâl y fath gymmysg? Y mae lle i'r fath un ofni rhag i Dduw o'r nef roddi y celwydd iddo tra y mae yn y pulpud. O! paid a gosod argraff Duw ar dy fetel dy hun. Oes uchelder yw hon, a llawer sydd yn rhy anhawdd eu boddloni ar wirioneddau eglur y Beibl. Ac y mae rhai, i foddio eu harchwaeth frysig, wedi ehedeg at y fath opiniynau uchel, nes aethant allan o olwg ar y Beibl, ac y dygasant eu hunain ac ereill i'w canlyn i gyfeiliornadau enbydus. Bydd sicr fod dy bwng yn wir- ionedd cyn ei osod o flaen dy bobl. Os myni chwareu y meddyg ymfrostgar (*mount- ebank*), paid a chymmyrd dy chwareule yn y pulpud. Na wna brawf ar eneidiau dy wrandawyr drwy draddodi iddynt yr hyn a tyddo yn ammheus, ac heb eu profi yn ffwrn y gair. Gwell i ti eu porthi âg athrawiaeth

iachus, pe byddai ond â bara haidd, nag wrth geisio dysglaid bellenig, i ti gyfarfod â bresych gwylltion a ddwg anghau i'w crochan.

(2.) Yn bur oddi wrth ddrwg nwydau. Lle anwedus yw y pulpud i dywallt anfoddogrwydd a digder. Gochel y tân dieithr yma. Rhaid i wr Duw fod yn llariaidd a mwyn; a'i eiriau mewn mwyneidd-dra doethineb. Yr olew a bair yru yr hoel heb hollti y bwrdd. Nid ydyw y gair byth yn treiddio yn fwy rhwydd i'r galon na phan fyddo yn disgyn yn fwyaf tyner: "Marchoga yn llwyddiannus, o herwydd gwirionedd a lledneisrwydd;" *Salm* xlv. 4. Bydd mor llym ag y gelli wrth bechodau dynion, ond i ti fod yn dyner at eu heneidiau. Os wyt yn cymmyrd gwialen cerydd yn dy law, gâd iddynt weled mai cariad, ac nid digder, sydd yn rhoddi y ddyrnod. Y mae mammaethod yn ofalus rhag poethi eu llaeth, am y gwyddant y bydd iddo fagu gwaed drwg yn y plentyn a'i sugno. Goreu yn wir y tardd pregeth allan o galon wresog; ond os â poethni annhymmerus i'w chanlyn, hi a fagu waed drwg yn meddyliau y gwrandawyr: a rhagfarn at y person a bair iddynt daslu y llaeth i fyny. Diau nad ydyw i'w dywed-y yn erbyn sel mewn gweinidog, cyhyd y byddo oddi uchod, yn bur ac yn heddychol. Cadw dy holl wres i Dduw, ac na threulia mo hono yn dy achos dy hun. Rhyfeddol oedd llarieidd-dra Moses yn yr ystyriaeth yma. Amharch mawr a gafodd efe; a hyn gan y rhai yr oedd iddo leiaf o le i'w ddisgwyl—gan Aaron a Miriam (*Num.* xii. 3), ond ni thafodd efe y sen yn ol; ei achos ei hun ydoedd, a digon oedd bod Duw yn clywed. Ond pan wneid trosedd uniongyrchol yn erbyn Duw, gallai y gwr llariaidd hwn fod yn llawn o dân: "Pwy sydd ar dŷ yr Arglwydd? deued ataf fi;" *Ecsod.* xxxii. 26. Hwnw a all gymmyrd y rhyddid mwyaf wrth geryddu am bechodau yn erbyn Duw, sef yr hwn a gymmer y rhyddid leiaf yn ei achos ei hun, ag sy ganddo fedd yn barod i gladdu pob sarhad y mae efe ei hun yn ddiodef.

(3.) Yn bur oddi wrth ysgafnder ac oferedd. Y mae gair Duw yn beth rhy gyssegredig a phregethu yn waith rhy barchedig i gellwair â hwynt, fel y gwna rhai; nid yw pregeth ganddynt ond ffræthder synwyr-gall, ac araeth wych a disylwedd. Pa beth yw hyn i'r gorchwyl o bregethu? Rhy debyg ydyw eu pregeth i faban plant bach, yr hwn, os cymmerwch y gwisgiad ymaith, ni bydd yn werth dim. Diosgwch ymaith yr araeth hon, tynwch ymaith y dywediad trwsiadus, ac yna ni bydd dim yn yr ymddiddan. Os meddylw'n wneuthur lles, rhaid i ni ddyfod, nid yn unig mewn gair, ond gyda nerth. Ni chyffry Satan er mil o'r fath ffaglau clindarddach. Tyn gan

hyny y cleddyf o'th wain wych dy hu tharaw â'i fin noeth. Dyma yr unig ff i ti wanu cydwybodau dy wrandawr, thynu gwaed o'u pechodau. Nid wyf yn dywedyd yn erbyn gwneuthur defn o'r doniau a gyfranodd Duw i neb: na erbyn llunio ac addasu ein hymyddiddan y byddo yn fwyaf tebygol o weithio i me serchiadau a meddyliau y bobl, trwy y byniad y mae yn gael gyda'r glust. Y hyn yn ddyledsdydd: "Am fod y pregeth wr yn ddoeth, chwiliodd am eiriau cymiadwy;" *Preg.* xii. 9, 10. Nid rhyw gmysgedd trwsogl a didrefn yn cael ei osod anweddaidd ger bron cynulleidiau, rhag goginiaeth swga beri gwrthod y bywd. Mae yr apothecari yn cymmysgu ei ddedyginiaeth, fel y gallu ei ddyd clahyfed gyda llai o wrthwynebiad, os gyda phieth pleser; ond etto fe gymmer rhag gwanhau ei heffaith rinweddol y ei gwneuthur yn rhy foddhaol i'r archwyl Megys mai geiriau cymmeradwy oedd felly yn union hefyd, "geiriau gwirionedd adn 10.

(2i.) Megys yn bur, felly hefyd gyda der rhydd. O! gochel gaethiwo gair i i'th chwant dy hun, nac i ewyllys neb a pe byddai y mwyaf yn dy blwyf: "Yr ych yn disgwyl mewn goruchwylwyr gae yn ffyddlawn;" *1 Cor.* iv. 2. A thua yr hwn sydd yn ei roddi ar waith y ffyddlondeb pregethwr yn sefyll. Peth annhebyg yw i oruchwylwyr, wrth ranu borth, allu boddio holl weision y tŷ: ffydd diolch y fath swyddwyr pan wnelor gwaith yn oreu. Gwaith anorphenol ac lesol yw ceisio boddio dynion. Ni geiriau dyn dy esgryn. Physygyr doet gais wellau, ac nid boddhau, ei ddyd. Yr hwn sydd yn ei glefyd yn senu o wydd chwervwder y feddyginiaeth, fe ryd ti ddiolch am dani wedi dyfod yn iachus. Mae yr apostol yn myned heibio i far dynion fel peth diystyr, rhy ysgafn o b i'w rwystro ef ar ei waith: "Geny bychan iawn yw fy marnu genych chi adn. 3 o'r lle a enwyd uchod. Fel pe wedasai, Fe wybyddir yn y dydd mawr, ddelo fy meist'r i gyfrif â mi, a fuom ff lawr ai nid do; ac y mae yn ddiogon bu mi gael rhyddhau fy enw, pan fyddo ef amddiffyn ei enw ei hun. Diammheu ei ynd demtasiwn gref i Miceah, pan oedd ad Ahab trwy hudoliaeth yn ceisio ddwyn yn ei genadwri at feddwl y bres ond craffwch ar ei ateb gonest, "Fel byw yr Arglwydd, yr hyn a ddywedo yr glwydd, hyny a lefaraf fi." Y mae rho meddwl mai Miceah oedd y proph hwnw a ymddieithrodd ac a gyhoeddodd farn yn erbyn Ahab am ollwng Benhad yn rhydd; ac mai o'r carchar yr oedd cael ei alw yn bresennol; o blegid y m

renin yn peri ei ddwyn ef yn ei ol at Am-
n, y tywysog : 1 *Bren.* xxii. 26. Os felly,
r oedd gan Miceah gyfle i gael ei ryddid, a
afr y brenin i'w ganlyn ; etto, i'r daeardy
r aeth yn ei ol yn hytrach na darostwng y
air i chwant Ahab. Yr oedd Paul dduw-
l yntau o'r un meddwl, "Yn yr hon (sef
r efengyl) yr ydwyf yn goddef cystudd
yd rwymau fel drwgweithredwr ; eithr
air Duw nis rhwymir." Fel pe dywedasai,
"Si pharant byth i mi gaethiwo hwnw nac
ng ngharchar nac wrth y blocyn. Diam-
sheu y gallasai Paul fod yn rhydd pe yr
mfoddlonasai i'r gair fod yn rhwym ; ond
r oedd efe yn rhy ffyddlawn i brynu ei
yddhâd â charchariad y gwirionedd, trwy
distawrwydd pechadurus. Os bu erioed
n amser o brofedigaeth i weinidogion, ac
agen eu cyffroi i gadw gair amynedd Duw,
mae hyny yn ein hoes ni—dyddiau diw-
ldaf gwaddodlyd y byd, am y rhai y pro-
hwydwyd na wna dynion ddiodef athraw-
eth iachus. Yn awr, gan hyny, y mae yn
ofyn mawrfrydigrwydd ysbyrd mwy nag
ll cig a gwaed ei roddi iddynt. Nid yw
n llawer o brawf i weinidog lefaru y gwir-
ionedd yn hyf ym mhlith ei gyfeillion, ond
m mhlith y rhai a'i diystyrant ac a lidiant
wrth y genad am draddodi ei genadwri.
Iyn a wnaeth gyffes ein Harglwydd mor
gonedus : "Yr ydwyf yn gorchymyn i ti
er bron Duw, yr hwn sydd yn bywhau pob
eth, a cher bron Crist Iesu, yr hwn dan
Pontius Pilat a dystiodd broffes dda : gadw
honot y gorchymyn hwn yn ddifeisus, yn
diargyhoedd, hyd ymddangosiad ein Har-
glwydd Iesu Grist ;" 1 *Tim.* vi. 13, 14. Ger
bron Pilat yr oedd, gelyn gwaellyd iddo ef
i'r gwirionedd yr oedd yn dwyn tystiolaeth
iddo. Gan hyny, da y dylai ein pobl ein
goddef, pan lefarom yn hyf yn enw Duw,
r, er i ni ddyfod ar eu traws ac i'n cenad-
wri wneuthur chwalfa yn eu cydybodau.
Y mae hyny yn perthyn i'n swydd ni : "Mi
'th roddais di yn dŵr ac yn gadernid, i
wybod ac i brofi eu ffyrdd hwynt ;" *Ier.* vi.
27. Os bydd gwarant yn llaw swyddwr i
chwilio eich tŷ, ni ddylech ddigio wrtho am
wneuthur ei waith ; o herwydd na feiddiwech
sefyll rhyngddo efa digder y brenin, pe
byddai iddo esgeuluso y peth.

EPHESIAID VI. 18.

"Gan weddio bob amser â phob rhyw weddi a deis-
yfiad yn yr Ysbryd, a bod yn wylidwrus at hyn
yma, trwy bob dyfal-bara, a deisyfiad dros yr holl
saint."

DARFU i ni o'r diwedd osod y Cristion ger
eich bron yn ei arfogaeth ; ac yn awr nid

oes dim yn eisieu i'w wneuthur yn ymladd-
wr medrus ac yn gongewrwr, ond presen-
noldeb ei Gadben i'w arwain ym mlaen, a'i
ddwyn ymraith gydag anrhydedd trwy ei
ddoeth dymysiad. Yr hyn fel y gallo ei
gael, y mae yr apostol yn ei osod ar weddi,
"Gan weddio bob amser, &c. Fel pe dy-
wedasai, Gristion, y mae genyt yn awr arfoga-
eth Duw ; ond gochel anghofio galw Duw
yr arfogaeth hon i'th gymmhorth, trwy
weddi ostyngedig, rhag, er hyn i gyd, i ti
gael y gwaethaf yn yr ymladdfa. Yr hwn
sydd yn rhoddi i ti arfau yn unig a all dy
ddysgu i'w trin, a'th alluogi i orchfygu wrth
eu trin. Nid wyf heb wybod fod rhai yn
gwneuthur gweddio megys arf, ac yn ei gyfr-
rif fel darn o'r llawn arfogaeth. Y gwirion-
edd yw, nid oes ond gwahaniaeth bychan, ym
mha ystyr bynag ei cymmerwn, pa un ai fel
darn o'r arfogaeth ai fel dyledswydd a modd-
ion angenrheidiol at drin ein harfogaeth.
Y ffordd olaf hon a ddilynaf fi : mewn rhan
am nad yw yn cael ei gyffelybu i un darn o
arfogaeth ddefnyddiol, fel y mae y lleill oll ;
ac hefyd, am ei fod yn ymddangos megys
wedi ei gyssylltu, nid a'r geiriau o'r blaen
yn unig, ond a'r hyn oll a ddywedwyd yng
nghylch yr arfogaeth ; ac wedi ei chwaneu
fel dyledswydd gyffredinol, sydd a'i heffaith
yn cyrhaedd yr holl ddarnau a rag-grybwyll-
wyd ; ac fe ellir ei ddarllen ynghyd â phob
darn. Cymmerwch wregys gwirionedd,
"Gan weddio â phob rhyw weddi," &c.
"Gwisgwch ddwyfroneg cyfiawnder," gan
weddio â phob rhyw weddi, &c. ; a'r un
modd am y lleill. Fe ryda arfogaeth y
Cristion oddi eithr ei lanbau a'i leowi âg
olew gweddi. Yr hyn ydyw yr agoriad i'r
awrlais, hyny ydyw gweddi i'n grasusau ; y
mae yn eu dirwyn i fyny ac yn eu gosod i
gerdded. Yn y geiriau, sylwch

1. Ar y ddyledswydd orchymynedig,
Gweddi ; ynghyd â diben ei happwyntiad,
sef i fod yn gynnorthwy i'n holl rasmusau, ac
yn foddion i ddwyn ym mlaen ryfel yn er-
byn pechod a Satan.

2. Cyfarwyddyd i weddio, lle y'n hadd-
ysgir pa fodd i gyflawni y ddyledswydd hon,
mewn chwech o benau gwahanol.

1af. Amser gweddi. "Gan weddio bob
amser."

2il. A pha fath weddi : "A phob rhyw
weddi a deisyfiad."

3ydd. Yr egwyddor du mewnol o ba un y
mae yn rhaid i weddi darddu : "Yn yr Ys-
bryd."

4ydd. Y wylidwriaeth i'w gosod yng
nghylch y ddyledswydd o weddi : "Bod yn
wylidwrus at hyn yma."

5ed. Y dianwadalwch difin i'w arfer yn
y ddyledswydd : "Trwy bob dyfal-bara."

6ed. Eangder y ddyledswydd ; neu y per-
sonau dros ba rai yr ydym i weddio : "Dros
yr holl saint."

PENNOD I.

Defnyddioldeb ac angenrheidrwydd gweddi er amddiffyniad y saint yn eu mitwriaeth; ac un rheswm am y pwngc.

Ni a ddechreuwn gyda'r cyntaf—y ddyledswydd yn gyffredinol, ynghyd â'i chyssylltiad â'r holl ymddiddan blaenorol am yr arfogaeth, yr hyn a gynnwysir yn yr ymadrodd, "Gan weddio." Hyny yw, addurnwech eich hunain âg arfogaeth Duw; ac unwech weddi â'r holl rasusau hyn er eich amddiffyniad yn erbyn eich gelynyion ysbrydol. Felly y pwngc a dardd oddi yma ydyw hyn:—

DOSB. I.

Athr. Fod gweddi yn ddyledswydd angenrheidiol i'w chyflawni gan y Cristion, a'i harfer gyda phob moddion ereill yn ei filwriaeth ysbrydol. Dyma yr udgorn arian, â sain pa un y mae efe i roddi alarm i'r nef, a galw Duw i'w gymmhorth: *Num. x. 5.* Ni syrth gelynyion y saint nes y cyfodo Duw, ac y mae Duw yn aros cael ei godi gan eu gweddiau hwy (*Salm lxxviii. 1*): "Cyfododd Duw, gwasgarer ei elynion." Gweddi, y mae yn ddyledswydd gyffredinol, ac yn foddion i'w harfer ym mhob achosion ac anturiaeth. Y peth ydyw bara a halen i'n bwrdd, hyny ydyw gweddi i'r Cristion ym mha beth bynag a wnelo—ei fwyniant a'i brofedigaethau. Y mae bara a halen ar y bwrdd bob pryd; ac ym mha gyflwr bynag y byddom, nid oes i ni adael gweddi yn anghof. Fel yr ydym yn taraw ein holl dameidiau mewn halen, ac yn eu bwyta gyda bara; felly y mae i ni arfer pob gras, tymmeru pob mwyniant, cymmysgu pob dyledswydd, a gwrthsefyll pob brofedigaeth gyda gweddi. Arferiad gwastradol y saint yn eu holl beryglon a'u cyfyngderau (pa un bynag ai oddi wrth elynion oddi mewn ai oddi allan, pechodau diafiiaid, ai dynion) ydoedd ffoi at orsedd gras, a thynu clawdd o weddi yn eu cych, gan gyfrif hon yn unig agwedd ddiogel i sefyll ynddi ar eu hamddiffyniad. Pan allodd Duw Abraham o Haran i wlad ddieithr, lle y crwydrodd o fan i fan ym mysg estroniaid; a'r rhai hyny heb allu llai na bod yn amheus o hono (wrth ystyried y nifer oedd yn ei ganlyn), a'r amhweaeth yma yn dwyn llawer o beryglon ar y gwr duwiol hwn, oddi wrth y brenhinoedd o amgylch: yn awr, y mae lle i ni sylwi pa ffordd a gymmerodd Abraham er ei amddiffyniad: yn ei symmudiadau o le i le, chwi a gewch mai y peth hynod a goffeir am dano yw, ddarfod iddo adeiladu allor, a galw ar enw yr Arglwydd: *Gen. xii. 7, 8; xiii. 3, 4.* Dyma y gwrthglawdd a gododd ac y cauodd ei hun ynddo. Ar ol iddo trwy weddi fwrw ei hun i freichiau Duw am nodded, yna y mae yn cyfrif ei fod yn ei gastell. Ond pa raid oedd i Abraham roddi ei hunan mor fynych i'r drafferth hon?

Onid oedd addewid Duw wedi sicrhau idd wrth ei gychwyn, y bendithiai efe ei fenditl wry, ac y melldithiai ei felddithwyr? A onid oedd ganddo ffydd i greu y bydd Duw yn Dduw geirwir i gyflawni yr hyn addawsai? Yr ydym yn addef y dda. Ond nid oedd nac addewid Duw na chrediaeth Abraham o honi, yn rhoddi idd rhyddid i gau allan ei ddyledswydd o weddio. Y mae yr addewid wedi ei rhoddi fel sail ffydd, a ffydd fel braich gynaliol mewn gweddi; ond ni fwriadwyd y naill na'r llall i'r rhyddhau oddi wrth ein dyledswydd i'n cadw rhag llafur y gwaith. Ac yn ymddygiad Abraham y gwnaeth y saint ei ioad. Yr ysbail fawr a gawsant oddi ar e gelynyion, ym maes gweddi yr oeddynt yn ennill. Os gwna Moses anfon Iosuah i dyffryn yn erbyn Amalec, fe fydd ei hunan ar y bryn yn ymdrechu â'r nefoedd trwy weddi, tra y mae y llall i waered yn ymlad â'r gelyn: ac eglur yw iddynt ennill y maes trwy weddi Moses, yn fwy na thrwy gleddy Iosuah. Iehosaphat, pan cedd ganddo y agos i filo floedd o wyr wedi eu byddino, he law milwyr ei gestyll, oedd oll yn fedru mewn arfau, etto, ni a'i cawn ef mor afael gar mewn gweddi a phe buasai heb ddyn o ochr: "Ni wyddom ni beth a wnawn; on arnat ti y mae ein llygaid;" *2 Cron. xx. 12.* Yn awr, os oedd y gwyr enwog hyn, pan oeddynt i ymlad ond â chnawd a gwaed-dynion fel hwy eu hunain, er hyny yn cyrchu eu cymmorth o'r nef, ac yn gwneud y fath ddefnydd o rym cynnorthwyo gweddi, a hyny pan nad oedd cynorthwyo on ereill yn eisieu, rhag eu cael yn esgeulus dyledswydd anheborol, a moddion tyciannol er eu hamddiffyniad; pa faint mwy y gweddi i'r Cristion mewn pwngc o ddyledswydd a doethineb hefyd, gymmeryd yr un ffordd yn ei ryfel ysbrydol yn erbyn tywysogaethau ac awdurdodau! O herwydd y mae grasusau y saint, yn eu trefn oreu, yn llawer llai galluog, heb weddi, i sefyll yn erbyn Satan nag oedd y rhai hyny gyda'u parotoad milwraidd i wrthsefyll grym dynion fel hwynt eu hunain. "Gwyllwch a gweddi-wch (medd Crist), fel nad eloch i brofedigaeth;" *Mat. xxvi. 41.* Gadael y bwch hwn yn agored a roddodd i'r gelyn Satan gyfle i ruthro arnynt; y blegid gwelwn, drwy beidio derbyn y cynghor, eu bod oll, er mai dynion duwiol oeddynt, wedi cael eu curo yn waradwyddus. Y rhan fwyaf, i'w hachub eu hunain, a ffoisant yn ddiagonal, gan adael eu Harglwydd yn nwyllaw ei elynion; a'r un a feddyliodd ddangos mwy o wroldeb na'i gyfeillion, a gafodd yn y diwedd ddyfnach archoll a gwardwydd na neb trwy wadu ei Feistr, yr hwn ar yr un pryd a arddelai yn wyneb angeu, ie, digofaint ei Dad. Ac y mae i'w gofio mai megys y cawsant eu harwain i brofedigaeth trwy eu gwaith yn

uluso gweddi, felly iddynt gael eu gwar-
o honi drachefn trwy weddi Crist, yr
yn drugaroga roddasai efe ym mlaen llaw
stynt (*Luc* xxii. 32): "Mi a weddiais
sot, na ddiffygiai dy fydd di." Ond yr
sydd uwch law y cwbl, yn canmawl y
ledswydd hon wrthym, yw arferiad Crist
un, yr hwn, heb law ei ymarfer beunydd-
a fyddai yn llawer helaethach ynddi ar
achosion pwysfawr, lle yr oedd i gyfar-
â gwrthwynebiad oddi wrth Satan a'i
rynau. Ar ei fedydd, pan oedd ar ddeu-
eu ei weinidogaeth gyhoeddus, ac i fyned
ewn iddi trwy ffynig ruthriadau Satan,
hwn yr ydoedd i ymladd megys law-law
ol ei ddeugain niwrnod o ympryd, yr
m yn ei gael efar weddi (*Luc* iii. 21); a'r
ddi hono yn cael ateb ebrwydd, y nef yn
ryd, a'r Ysbryd yn disgyn arno gyda'r
hon, "Ti yw fy anwyl Fab; ynot ti
boddlonwyd;" *adn.* 22. Ac yn awr,
w ef yn teithio ym mlaen yn eofn i gyf-
od ei elyn oedd yn disgwyl am dano yn
amialwch. Drachefn, pan oedd yn bwr-
rhoddi awdurdod i'w apostolion, a'u
fon i bregethu yr efengyl, yr hyn a
ldai efe a dynai y llew yn gynddeiriog
n o'i ffau, a digder y byd hefyd, ar y
i hyn ei genhadon; y mae yn gyntaf yn
od ei ddisgyblion i weddio (*Mat.* ix. 38),
yna yn treulio y nos i gyd ei hun yn yr
gwaith cyn eu danfon allan: *Luc* vi. 12.
i uwch law y cwbl, pan oedd i ymladd
rwydr olaf â thywysog y byd hwn; ac
yd i ymdrechu â digofaint ei Dad, yn awr
arfog i'w erbyn o achos pechod dyn yr
ebasai drosto; a chadw neu goll i ei
rnas gyfryngol yn ymddibynu ar lwydd-
t yr anturiaeth fawr hon: O! fel yr oedd
y pryd hyn yn ymgynhyrfu mewn
weddi! Dywedir, "Efe a weddiodd yn
falach;" *Luc* xxii. 44. Fel ymdrechwr
d yn ymeginio yn mhob gwythien o'i
ph, felly y rhoddodd yntau ei holl rym
gwaith "trwy sefain cryf a dagrau, at yr
n oedd abl i'w achub ef oddi wrth farw-
eth" (*Heb.* v. 7), ac ei gwrandawyd; fel
y ennillodd y dydd er ei ladd yn y fan.
y ysbail y fuddugoliaeth fawr hon y mae y
dinwyr yn awr yn ei ranu ac i'w fwyn-
i i bob tragwyddoldeb. A pha beth yw
n i gyd ond i ddangos angenrheidrwydd
efyniant gweddi? Heb hon, dim buddug-
aeth, er fod genym arfogaeth: ond y naill
la'r llall a'n gwnânt yn gongewerwyr ar y
cbl.

DOSB. II.

Yn awr, i fyned ym mlaen a dangos pa
m y mae gweddi yn foddion mor angen-
idiol gyda'n harfogaeth arall er ein ham-
iffyniad.

Y rheswm cyntaf a gymmerir oddi wrth
dordeiniad y ddyledswydd hon â phob
moddion ereill er cadwraeth y Cristion, a

hyn y trwy ddyfol appwyntiad. Yr hwn
sydd yn peri i ni gymmeryd "gwregys gwir-
ionedd a dwyfroneg cyfiawnder," &c., y mae
yn erchi hefyd nad esgeulusom y ddyled-
swydd hon. Yn awr, yr hyn a gyssylltodd
Duw nid oes i ni wahanu. Mae effeithioldeb
moddion a gydordeiniwyd yn gorwedd yn
eu cyssylltiad, fel nerth llw, sydd, nid yn y
rhes yma a'r adain draw, ond yn yr holl
gorph ynghyd. Ac os rhyfyga rhyw ychydig
resau ymladd â'r gelynyon eu hunain, beth
allant ddisgwyl ond eu curo gan eu gelyn-
ion, a'u cospi gan eu cadben hefyd? Na
ddyweded neb eu bod yn arfer y moddion
a'r moddion — os oes un mewn gwir-
fodd yn cael ei esgeuluso, y mae y gadwyn
euraidd o uffudd-dod wedi ei thori; ac nid
da dim ond da cyfan. Megys, i wneuthur
gweithred yn dda, y mae yn ofynol fod yr
amryw ranau a'r achosion yn cydfyned;
felly i wneuthur Cristion da, y mae yn rhaid
gofalu yn gydwylbodol i arfer yr holl fodd-
ion appwyntiedig. Mae yn rhaid iddo gyf-
lawn ddilyn yr Arglwydd; nid mae yma, a
thwlc acw, yn ei gwys. Nid y lleiaf o ddi-
chellion Satan yw myned rhwng y naill
ddyledswydd a'r llall, rhag i'r dyn gyssylltu
ei fyddinoedd, a bod yn unfurff yn ei ym-
gais. Ychydig sy cyn ddyhired na arferant
ddim moddion; ac nid llawer cyn ffyddloned
i Dduw a hwy eu hunain ag i arfer y cwbl
yn gydwylbodol. Un a ymhona ei fod yn
ddiragrith, gan apelio at Dduw, fod ei
feddwl yn onest a'i galon yn dda; ond am
ddwyfroneg cyfiawnder, y mae hi yn rhy
drom iddo ef i'w gwisgo. Un arall a ym-
ddengys yn dra manwl a chyfiawn, fel na
wnai gam â'i gymmydog, na wnai, o geiniog,
er llawer o bunnau; ond am ffydd yng
Nghrist, nid yw yn ymfyn yn ei chylech.
Arall yntau a wna ymfrost o'i ffydd a'i
obaith, fel pe na byddai mewn ammheuaeth
o'i iachawdwriaeth; ond am air Duw, a
ddylai fod yn had ac yn faeth iddi, nid oes
arno ofal am ei ddarllen gartref na'i wran-
daw yn gyhoeddus. A phedwerydd, y mae
ganddo hyn i'w ddyweyd drosto ei hun: ei
fod yn wrandawr dyfal; ei le yn yr eglwys,
prin y ceir yn wag; ac yn ei dŷ y mae y
Beibl yn fynych yn ei law: ond am weddi,
ei ystafell, pe gallai siarad, a ddygai dystiol-
aeth i'w erbyn mai anfyrech, os un amser, ei
harferai. Yr hanner gwaith yma a dryn yn
llwyr ddinystr i lawer enaid. Gofynnodd
Samuel i Iesse, "Ai dyma dy holl blant?"
Er nad oedd ond bachgenyn ar ol, rhaid ei
gyrchu cyn eistedd i lawr. Felly y gallaf
finnau ddywedyd wrth lawer sydd yn dra
diwyd a pharod mewn rhai dyledswyddau a
moddion. Ai dyma y cwbl y rhoddodd
Duw orchymyn i ti am danynt? Os bydd
ond un yn eisieu, bydd y fendith yn eisieu
hefyd. Ac megys mai y mab hwnw oedd ar
ol o eiddo Iesse, yr oedd Duw yn bwriadu

ei goroni, felly y mae i ninnau achos i feddwl mai y ddyledswydd a'r moddion a esgeulusir yn fwyaf yw y moddion a wnaid Duw goroni & i neillduol fendith ar ein hymnegniad ffyddlawn.

PENNOD II.

Yr effaith sy gan weddi ar holl rასusau y Cristion, yr hyn a rydd yr ail raswm am y pŵng.

Yr ail a gymmeriodd wrth yr effaith sy gan weddi ar ein holl rასusau; a hyny mewn ystyriaeth ddeublyg. Hi a gynnorthwya i egluro gwirionedd gras, a phrysuro ei dyfiad.

DOSE. I.

1af. Bydd y ddyledswydd hon o'i chyflawni yn fynych ac mewn modd ysbrydol, yn foddion i amlygu gwirionedd ein grasusau. Ac nid peth o ychydig bwys yw hyn i'r Cristion, pan fyddo iddo a wnelo & r'tentiwr; o herwydd ei ymgais ef sydd am gael y Cristion i amhheuaeth, o ran gwaith gras o'i fewn, a thrwy hyn dymchwelyd hyd yn oed sylfaen ei obaith ef, a'i roddi i sefyll yn ei ymgniaidau. Ychydig awydd fydd gan hwnw i fyned yn mlaen sydd yn ofni nad yw yn ei iawn ffordd. Mi a glywais y gall rhai cynghoriaid wneuthur defnydd o gelwydd yn eu materion, er mantais fawr i'w hamcanion, er na byddo yn cael ei gredu ond dros ychydig. Ac y mae yr hwn sydd yn dysgu iddynt y gelfyddyd hon yn ei harfer yn llawer mwy ei hun er rhwyddhau ei fwriadau yn erbyn y Cristion. Am nas gallai efe gadw Crist yn y bedd, fe gododd gelwydd i attal crediniaeth o'i adgyfodiad yn y byd. A phan nas gallu rwystro tarddiad gras, fe rydd ddyrgair i'r gwaith wrth y Cristion, fel pe na byddai y cwbl ond twyll ei galon ei hun, yr hyn yn ddiaw y mae y creadur druan yn ddigon tueddol i'w goelio. Ac felly, er bod yr ofn yn ddi-sail, etto gan ei fod yn cael ei goelio, y mae yn peri cyfyngdra mor dost i'w feddyliau a phe byddai yn wir. Nis gallasai Iacob alaru mwy am Ioseph, pe buasai yn wir wedi ei ladd, nag y gwnaeth, pan nad oedd dim o'r fath beth. Ac nis gall adyn drygonus yn hawdd fod dan fwy o' fraw a dychryn nag y mae rhai saint gwerthfawr wedi ei deimlo am yr amser y bu celwydd Satan, oedd yn enllibio gwirionedd eu gras, yn cael ei goelio ganddynt.

Yn awr, mewn gweddi y mae y Cristion yn sefyll mewn mantais fawr i gael allan wirionedd ei gyflwr; a hyny ar gyfrif deublyg:—

(1af.) Y mae Duw yn gyffredin yn cymmeryd y cyfle yma pan fyddo ei bobl yn tywallt eu beneidiau ger ei fron, i agor ei galon iddynt a rhoddi ei dystiolaeth o blaid eu personau a'u grasusau hefyd. Y mae

gan Dduw ei oriau selio hefyd, ym mh y mae ei Ysbryd yn dyfod ac yn dwyn iolaeth i gyflwr a gras ei blant: ac y hon o weddi yn un o'r penaf. Pa le y fu i Dduw urddasu Iacob mor rhyfed teitl newydd hwnw o aurhydedd, "Ti wir Israel," ond ar faes gweddi? P oedd yr awr ddedwydd y euodd yr wrth ddrws Daniel i roddi iddo wybo yr oedd Duw yn ei garu? Onid pan efe yn euro wrth ddrws y nef trwy ei w (Dan. ix. 23)? "Yn nechreu dy weddia aeth y gorchymyn allan, ac ni a ddaet i'w fynegi ti; canys anwyl ydwyt ti." bryd y cafodd y wraig o Ganaan olwg fyfdd, nid yn unig ei bod yn wir ond h yn gref: "Ha wraig, mawr yw dy ffyn. Onid pan oedd ei hysbryd mor daer na gweddi? Ie, pa bryd y clywodd Crist hun y llaf wyrthiol hono o'r nef, "Hw fy anwyl Fab," ond pan oedd ei le myned i'r nef mewn gweddi: Luc iii. 2

(2il.) Y mae gweddi yn rhoddi praw wirionedd gras yr enaid hwnw sydd y chyflawni mewn modd ysbrydol. Mae bryd Duw, pan fyddo yn dwyn tystiolaet wirionedd gras y Cristion, yn arferol o dystio & i'w ysbryd-ef ei hun (*Rhuf.* viii. "Y mae yr Ysbryd hwn yn cyd-dystiolaet & n hysbryd ni." Yn awr, y dystiolaet ddwg ysbryd dyn ei hun iddo, sydd wrth weithrediaidau bywiog y creadur n ydd o'i fewn, y cyfryw ag yw diragrydd, tristwch duwiol am bechod, cael at sancteiddrwydd ac ereill o'r natur y Ac nid yw y rhai hyn a grasusau ereill ffordd yn dangos eu hunain yn amlycaet olwg y Cristion nag mewn gweddi. Yn mae diragrithrwydd yn ymdangos yn syrwydd yr enaid i gyfaddef ei holl bechod yn rhydd ac heb ei gymmhell; ac yn heb eu lleihau na'u celu; pan na byddo coffr gudd ynghell yr enaid i gloi i f un math o bechod anwyl. Ar ol i Dafydduwiol, yn *Salm xxxii. 1*, gyhoeddi "Gwyn ei fyd y neb y maddeuwed ei ddedd...ac ni byddo dichell yn ei ysbryd; mae yn *adn. 5*, yn rhoddi yr esampl hon ddiragrithrwydd ei hun, ddarfod iddo ad ei bechod, ac na chuddiodd ei anwiredd; hefyd mor dda y llwyddodd wrth hyny: thi a faddeuast anwiredd fy mhecho Drachefn, "Yma y mae y Cristion yn rhediad i'w galon sydd yn doluriol gan c am bechod. Gweddi yw y sianel i ba u mae duwiol dristwch yn ymdywallt, ac rhedeg mewn dagrau heilltion, tra y mae Cristion yn cyhuddo ac yn barnu ei hun: ei feiau adgas, gyda dwfn gywilydd a hun ffieiddiad. Mewn gair, yma y mae caru yr enaid at sancteiddrwydd yn fflamio all mewn dymuniadau taer a gwresog am heb allu cymmeryd pall, ond yn ymdorig hiraeth am dano. Fel hyn, gwelwn fod:

yd gweddi yn brawf o ras, ac hefyd foddion i dynu y gras hwnw i ymarfer- l, trwy yr hyn y gwneir ei wirionedd yn nlycach. Y mae ysbryd gras a gweddiau a cael eu cydgyssylltu (*Zech.* xii. 10); a'r af yn arwydd o'r blaenaf. Pa beth yw weddi ond anadliad allan y gras hwnw a adlwyd i mewn i'r enaid gan yr Ysbryd an? Pan anadlodd Duw i ddyd anadl- ioes, efe a aeth yn enaid byw. Felly, an adlodd Duw i'r creadur anadl bywyd brydol, y mae yn enaid erfyniol. "Wele, mae yn gweddio," medd Duw am Paul, wrth Ananias: *Act.* ix. 11. Fel pe dywed- ai, Paid a'i ofni ef; enaid gonest ydwy; eili ymddiried iddo, o herwydd y mae yn weddio. Yr un peth yw gweddio i'r cre- ur newydd, a llefain i'r baban naturiol. I raid wrth ddyg nac esampl i'r plentyn weddi, ond addysg natur, y mae yn dyfod byd dan waeddi. Nid gwrs yw gweddio ddysgir trwy fuffiau a rheolau celfydd, d yn tarddu o egwyddorion gwir fywyd ydd.

DOSB. II.

2il. Megys y mae yn foddion i amlygu, i y hefyd i gynnyddu gras. Y Cristion er- niol yw y Cristion cynnyddol; tra y mae hwn sydd yn anfynych, neu yn ddiog ewr gweddi, yn gwario y cwbl. Y mae debyg i un yn byw yn uchel, ac yn gyru bydig neu ddim masnach ym mlaen i ateb draul.

Yn awr, y mae gweddi yn foddion i gyn- ddu gras y ddyw ffordd hon:—

(1af.) Fel y mae yn tynu y reddf o ras i ymarferiad. Ac megys y mae ymarferiad i gwneuthur lles dwbl i'r corph, felly hyn enaid. Yn gyntaf, y mae ymarferiad yn lpio i dreulio neu weithio allan y dryg- ws hyny sydd yn gwasgu ar yr ysbryd- dd. Dyn a fyddo yn syflyd ond ychydig, a welwn a ä yn dew afiach ac a gaur i ny gan ffler, o'r hyn y mae ymarferiad yn dwlwthy y corph. Gweddi ydwy maes y rdistion lle y mae ei rasmus yn cael eu *inio*—y mae fel y gwynt i'r awyr yn ys- bo yr enaid; ac fel y fegin i'r tân yn walw y lludw oddi ar y glo. Nid ydwy y rdistion yn byw ond mewn bro afiachus tra a y byd hwn. Un pryd, y mae ei dden- dau yn nychu ac yn pylu ei gariad at rist; bryd arall, y mae y blinderau sydd o ei gyfarfod ynddo yn gwanhau ei ffydd a yr addewid. Pa fodd yn awr y caffai efe ared o'i aml anhwy, pe na byddai ganddo seidd o ras i gyrchu ati? lle, os unwaith y gir yr enaid i hwyl dodeddig, y mae fel i wedi ei roddi mewn chwys tyner, yn fuan i anadlu allan ei afiechyd ac yn dyfod i'w wn dymmer drachefn. Mor fynych y wn y Salmydd duwiol ar ddechreu ei weddi yn llawn o ofnau ac ammheun; ac hyny, cyn rhoddi i fyny, yn cyrhaedd i

gyfeillach felus â Duw, a thawelwch yn ei ysbryd ei hun! Yn *Salm* xiii, y mae yn dechreu fel un yn y fath gyflwr, a'i fod yn meddwl na edrychai Duw yn dirion arno byth mwy: "Pa hyd, Arglwydd, y'm hanghofi? ai yn dragywydd?" Ond erbyn iddo ymarfer ychydig mewn dyledswydd, dyna ei anhwy yn gwisgo ymaith, y niwl yn chwalu, a'i ffydd yn tori allan fel yr haul yn ei rym: "Minnau a ymddiriedais yn dy drugaredd di; fy nghalon a ymlawenycha yn dy iachawdwriaeth: canaf i'r Arglwydd." Dyma ei ffydd yn gosod bwrdd, gan ddis- gwyl cael gwledd arno cyn byddo hir; i'e, y gwr oedd y muned o'r blaen yn ammheu a gaffai efe byth newydd da o'r nef, yn awr mor gadarn mewn ffydd, a'i fod yn lloni ei hun â gobaith am y drugaredd oedd yn sicr ganddo y deuai o'r diwedd. Fe ddechreu- odd Abraham gyda deg a deugain; ond yr oedd ei ffydd yn ennill tir ar Dduw bob cam, nes tynu i lawr bris bywydau y Sodom- iaid i ddeg.

(2il.) Y mae ymarferiad yn magu chwant i'r ymborth sydd yn angenrheidiol er cryf- der; ac felly yn achos o les canlynol. Mae y gareg sydd yn minio pladur y llafurwr yn ei helpio i dori i lawr y gwair. Nid oes neb a ddaw mor awchus at y gair, ymborth y saint i gryfhau eu gras, a'r Cristion sydd yn cymmeryd gweddi yn ei ffordd i'r ordinhad. Po cryfaf fyddo y gwres naturiol, cryfaf fydd chwant y dyn i'w fwyd. Yr un fath yw cariad yn yr enaid a gwres naturiol yn y corph; po mwyaf y caro enaid y gair, cryf- af fydd ei awydd ar ei ol. Yn awr, megys y mae ymarferiad yn cynnhyfu gwres nat- uraliol y corph, felly y mae gweddi yn cy- ffroi y gwres ysbrydol hwn o gariad at y gair ym mynwesau y saint. Cornelius sydd esampl ragorol o hyn; ni a'i cawn ef yn ddyfal ar weddi yn ei dŷ; a dyna weledig- aeth yn peri iddo anfon am Pedr i bregethu yr efengyl iddo—gwobr dda i'w dduwiol- frydedd. A gwelwch yr awydd cryf oedd gan yr enaid erfyniol hwn i'r gair. Y mae yn ebrwydd ar hyn yn anfon cenhaden am Pedr; a chyn ei ddyfod, y mae yn casglu cynulleidfya ynghyd—yn ddiammheu pawb o'i gydnabyddiaeth a allai efe gael, ac yn eis- tedd gyda chalon hiraethlawn i ddisgwyl am y pregethwr. Cyn gynted ag y gwelodd ei wyneb, dyna ef yn syrthio wrth ei draed, gan ei dderbyn ef gyda'r fath barch a phe buasai angel o'r nef. Yn ebrwydd y mae yn gosod Pedr ar waith; e ry gall rhai fedd- wl iddo gollu yn ei foesau, wrth ei roddi i lafurio ar ol y fath daith hir, cyn ei loni â rhyw damaid a llymaid melus: ond yr oedd y gwr da mor newyulldus am glywed y gen- hadwri ganddo, fel nas gallai yn hawdd lon- yddu ei enaid i aros yn hwy; ac fel dyn mewn gwir eisieu, y mae yn barod i gydio mewn unrhyw wirionedd a osodir o'i flaen,

boed mor chwerw ag y byddo (*Act. x. 33*): "Yr awr hon, gan hyuy, yr ydym ni yma oll yn bresennol ger bron Duw, i wrandaw yr holl bethau a orchymynwyd i ti gan Dduw." A phan oedd y bregeth drosodd, mor flasus a melus ydoedd y prydy; yr oedd yn anhawdd ganddo feddwl ymadael â Phedr cyn cael chwaneu ganddo; gan hyny, y mae yn daer arno i aros gydag ef rai dyddiau. Ni wnaeth un bregeth ond codi blys am fwy. O! mor annhebyg yw y rhai hyny a ddeuant i bregeth yn llawn o ddadwrdd y byd, i Cornelius, sydd yn codi o weddi i ddisgwyl am y pregethwr.

DOSEB. III.

2il. Y mae gweddi yn gynnorthwy i'n grasusau, fel y mae yn gosod yr enaid yn agos at Dduw. Mewn gweddi, dywedir ein bod yn nesau at Dduw: *Iago iv. 8*. Yn dyfod o'i flaen ef (*Salm c.*), ac yn cael dyfodfa at y Tad (*Eph. ii. 18*). Fel un sydd yn dwyn erfyniad at frenin, y mae yn cael ei alw yn ystafellydd. Un o'r sefyllfaoedd agosaf at Dduw ydyw a ddichon creadur ei gyrhaedd y tu yma i'r nef, yr hyn a arwyddocawyd wrth allor yr arogl-darth oedd yn sefyll mor agos, i.e., y tu mewn i'r llen. Gelwir gweddi yn orseddfainge y gras; yr ydym wrth weddio yn dyfod at orsedd Duw ac yn rhoddi ein herfyniad yn llaw Duw sydd yn eistedd ar ei orsedd mewn urddas brenhinol. Yn awr, fel y mae gweddi yn nesâd mor agos at Dduw, y mae ganddi effaith ddeublyg er cynnydd gras y saint.

(1af.) Trwy y ddyfodfa agos yma at Dduw rhoddir yr enaid yn fwy mewn duwiol arswyd ac ofn, o ran y mae yn canfod llygad pur a threiddiol Duw yn craffu arno. Gwir yw, y mae Duw yn wastad ger llaw i ni; gweddiwn neu beidiwn, nis gallwn fyned allan o'i wŷdd: ond byth nid ydyw yr enaid dan y fath amgyffrediadau o'i bresennoldeb, a phan y byddo o flaen Duw mewn gweddi. Yn awr, y mae efe yn llefaru wrth Dduw, megys genau wrth enau; ac wrth ystyried mor sanctaidd y Mawrhydi y mae a wnelo âg ef, y mae yn rhwym i ymddwyn mewn parch a chryndod ger ei fron. A pha beth a all effaith naturiol yr ofn sanctaidd hwnw fod ond gofal am ryngu bodd Duw? Ac y mae y gofal hwn yn maethu pob gras; yn eu dwyn yn ei freichiau fel mammaeth y plentyn, ac yn cadw gwregys gwirionedd yn dyn am y lwynau. O! medd yr enaid, rhaid i mi naill ai rhoddi heibio gweddi, ai rhoddi heibio lledrith a thwyll ger bron Duw. Fe gryfhâ hefyd ddwyfroneg cyfiawnder; amhossibl yw i Gristion rodio yn benrhydd y dydd, a bod yn hyf a chyfeillgar gyda Duw y nos. Bydd y neb sy'n gweini i frenin yn ofalus rhag dwyn dim yn ei gylch a fyddo yn adgas i'w lygand; i.e., yn ofalus rhag i ddim ddyfod i'w glust ef, a allai ei ddwyn dan gwmmwl yn ei feddyl-

iau a pheri iddo golli ei le; ac y mae gan y llys rai yn gweithio danynt bob ar os gallant. Nid yw y Cristion heb y wrthwynebwr, o blegid y mae Sata ei ddeheulaw i'w gyhuddo wrth Dduw bob cam dro. Dyma y gwr sy mewn gyda thi, medd efe, er mor ddefosiynol mewn gweddi, gall wneuthur hyn a'r pan fyddo y ddyledswydd drosodd; ac hyny os oes rhwymau ar neb yn y byd fwy nag ereill i rodio yn fanwl, dyna hyn rhai sydd yn gweini ger bron Duw y ddyledswydd hon. Y mae brenhinoedd fwy eu manyldra am eu gweinyddwyr am ereill sydd yn sefyll ym mhellach o wrthyn. Pan ddangosodd Dafydd arwion o wallgofrwydd o flaen y brenin Agos gwaeddodd hwnw, "Ymaith âg ef; ai ieu ynfydion sydd arnaf fi, pan ddyg hwnw o'm blaen?" 1 *Sam. xxi. 15*. Ac a dyn marwol, yn eistedd ar orsedd lwch, ydyg uwch law ei gydgreaduriaid, yn eimeryd y fath rodres arno, fel nas gall o annhreffn mewn neb o'i flaen? Pa faint y bydd i'r Duw mawr oddef ymddygiad sanctaidd yn y rhai sydd yn sefyll mor ato, er ei fod, dros amser, yn tewi wrth eill yn eu pechodau bryntion? Hyn, yn eimamheu, a wnaeth i Cain redeg mor bry o wŷdd yr Arglwydd, am y gwyddai oedd dim sefyll mor agos at Dduw gyda fath galon halogedig ag oedd ganddo ef ei fynwes.

(2il.) Trwy ddyfodfa agos yr enaid Dduw mewn gweddi, y mae yn derbyn o anwadau melus o ras oddi wrtho. Mae y gras yn dyfod oddi wrth Dduw pob gr nid yn unig yr hedyn cyntaf o ras, ond gynydd a'i dyfiad; ac y mae Duw yn ferol o dywallt allan ei ras, mewn ffordd gymmundebl a'i bobl. Yn awr, trwy we y mae y Cristion yn cael cymmundebl a'i iawn â Duw; ac o gymmundebl y tardd o ranogiad. Megys y meithrinir y cyw trwy y cynnhesrwydd a gânt dan adeny yr iar, felly y bywioceir ac y cryfheir yr usau y saint trwy y dylanwadau melus dderbyniant oddi wrth y cymmundebl a'i hwn â Duw. Cyfelybir y Cristion i bren (*Salm i*); a dyna y prenau sydd yn fwr blodeuog ac yn dwyn y firwyth pereiddi sef y rhai sydd yn sefyll fwyaf yn yr haul. Y mae y Cristion erfyniol (fel y dywedant o bobl Rhodes) wedi ei blanu yn agos i'r haul y mae yn sefyll yn agos at Dduw, a Duw agos ato yntau yn mhob dim y galwo arno. Ac am hyny chwi ellwch ddisgwyl cael y firwyth yn beradd ac addfed, pan na bydd gan un arall (sydd yn sefyll mdegus yn cysgod, ac ym mhell oddi wrth Dduw trwy fod yn esgeulus neu yn anfynych mewn gweddi) ond ychydig firwyth i'w gael arno a hwnw yn sur ac anaddfed: "Y rhai blanwyd yn nhŷ yr Arglwydd, a flodeuau"

ng nghynteddoedd ein Duw: ffurwythant to yn eu henaint; tirlfion ac iraidd fydd- at;" *Salm* xcii. 13, 14.

PENNOD III.

Gwyddiant gweddi gyda Duw. Y trydydd rheswm am y pwngc.

TRYDYDD rheswm pa ham y dylai Crist- n gyssylltu gweddi â phob moddion ereill gymmerir oddi wrth dyciant gweddi gyda uw. Nid peth mawr a wna ef er y Cristion eb weddi; ac nid oes dim yn rhy fawr inddo ei wneuthur erddo, ar ei ddeisyfiad. weddi, pan fyddo o'r iawn ryw, fel bwa nathan, nid ydyw byth yn dychwelyd yn ag. Erioed ni chollwyd gweddi fyddlawn y y môr. Nid oes un marsiandwr yn mas-achu gyda'r fath sicrwydd a'r Cristion er- niol. Y mae rhai gweddïau yn cael taith wy nag ereill; ond yna hwy a ddeuant o'r wedd â llwyth cyfhothoach adref. Mewn asnach, dyna yr ennillwr mwyaf, yr un dd yn gallu aros hwyaf heb ei arian. elly y Cristion sydd yn gallu aros gyda'r nynedd mwyaf am attebiad i'w weddi. yth ni chywilyddir y cyfryw enaid o'i lligwyliaid. Mae yr adewid fel tŷ sicr- id (*assuring office*) i ddiogelu iddo yr hyn a oddodd allan: 1 *Ioan* iii. 22. O! pwy all fod allan nerthol areithyddiaeth gweddi edadyn! "Y mae y gair bach, Fy Nhad," edd Luther, "pan darddo yn floesg o'r dlon, yn trechu ffraethder Demosthenes a icero, ac areithwyr penaf y byd." Yr yd- n yn darllen am gipio y nef trwy drais: *At.* xi. 12. Pa fodd y bydd hyn yn fwy ag mewn gweddi: "Yr ydym yn curo wrth lrrws y nef nes cael trysorau trugaredd yn gored," medd Tertulian. Ac yn yr un aethawd, y mae yn son am y modd yr oedd Cristionogion yn myned i weddio: "Fel yddin i amgylchu tref, a'i chymmeryd trwy thr." Yna y mae yn chwaneu: "Mae trais hwn wrth fodd Duw." Yn sicr, pe a byddai, ni chaffai y Cristion ddim o'r th gymmhorth ganddo yn y gwaith, na wobr wedi ei wneuthur. Ond y mae yn el y ddau. Duw roddodd gymmhorth i iacob orchfygu (*Hos.* xii. 3): "Yn ei nerth cafodd allu gyda Duw." Hyny yw, nid yn nerth ei hun, ond yn y nerth a gafodd gan duw. Ac yna y mae yn ei anrhydeddu n yr oruchafiaeth (*Gen.* xxxii. 28): "Ni wir dy enw di Iacob, ond Israel; o blegid i faist nerth gyda Duw fel tywysog, a chyda yunion, ac a orchfygaist." Hawdd fyddai nhelaethu yma i hanes maith am y pethau lawrion y mae gweddi yn enwog o'u plegid a y Beibl: *Iago* v. 17; *Esa.* xxxviii; *Dan.* . 18; 2 *Sam.* xv. 31; *Esth.* iv. 16; *Act.* ii. 5; *Ioan* xi. 41; *Ionah* ii. 2; *Ios.* x. 12,

14; 2 *Bren.* xx. 10; *Salm* cvi. 23; *Ezec.* xxii. 30. Dyma yr agoriad sy wedi agor a chau y nef. Y mae wedi gorchfygu bydd- inoedd cryfion, ac wedi dadgloi y fath ddir- gelion ag oedd tu hwnt i allu y diafol ei hunan i'w chwilio allan. Hi a dagodd ys- trywiauw erchyll hyd yn oed yn y bru a'u hym- ddygodd, ac a wnaeth i'r offer creulondeb a ddarparaisid yn erbyn y saint, daraw yn ol ar eu dychymmygwyr, nes cael o honynt y crogbren a wnaethant i ereill. Ar ergyd y mae drysau carchar wedi ymagor; y bedd wedi rhoddi i fyny ei feirw; a'r lefiathan heb allu treulio ei ysglyfaeth, wedi ei fwrw i fyny yn ol. Y mae wedi attal cerbyd yr haul yn ei ffurfafen; i'e, a'i droi yn ei ol. A pheth sy fwy na'r cwbl, y mae wedi gaf- ael yn yr Hollalluog pan ar ei daith yn er- byn personau a phobl, ac wedi ei roddi i en- ciliad tosturiol. Yn wir, trwy y gallu sy gan weddi gyda Duw, y mae yn dyfod i drechu y lleill. Y neb sy ganddo agoriad i fynwes Duw, nis gellir ei gau allan na'i at- tal yn nrws y creadur. Yn awr, y mae gweddi yn cynhyrfu Duw ac yn ei orch- fygu, nid trwy beri cyfnwyd yn yr ewyllys ddwyfol a meddyliau newydd i godi am wneuthur er ei bobl yr hyn nad oedd yn ei fwriadu o'r blaen. Na: y mae Duw yn anghyfnwidiol; a'r daioni a wna efe mewn amser er ei bobl, efe a'i bwriadodd cyn am- ser. Ond dywedir fod gweddi yn gorchfygu gyda Duw am ei fod y pryd hyny yn rhoddi yr hyn er tragwyddoldeb a fwriadodd ei roi ar eu gwaith yn gweddio arno. O herwydd pan arfaethodd Duw yr hyn a wnai er ei saint, efe a arfaethodd hefyd iddynt weddio am dano: "Ymofynir â myfi etto gan dŷ Israel i wneuthur hyn iddynt." *Ezec.* xxxvi. 37. Mae gweddi i fod yn fydwraig ar esgoriad y trugareddau a fwriadodd ac a addawodd Duw. Yr oedd Hezechiah yn de- all hyn pan alwodd efe y prophwyd at yr eglwys yn ei gwewyr, ac y parodd iddo ddyrchu ei weddi dros y gweddill oedd i'w gael, am fod y plant, sef ymwared, yn sef- yll yn yr enedigaeth: *Esa.* xxxvii. 3. A phan ddaeth Daniel i wybod llawn gyfrif yr adewid a'r amser yr oedd i esgor ar eu rhyddhâd o gaethiwd; wrth ddirnad ei fod yn nesau, y mae yn taraw i weddio yn ddyfal, am y gwyddai nad ydyw amcan Duw o roddi yn ein rhyddhau oddi wrth ein dyledswydd o ofyn: *Dan.* ix. 3.

PENNOD IV.

Lle yr atlebir y cwestiwn hwn, Pa ham y mae Duw yn gofyn gweddi am yr hyn a addawodd o'r blaen ei roddi?

Cwest. Ond pa ham y mae Duw yn gos- od hyn ar y saint iddynt weddio am yr

hyn a fwriadodd ac a addawodd efe ei roddi?

At. Iaf. Fel y cydffurfier hwynt â Christ. Amcan Duw yn gwneuthur pob sant yn debyg i Grist: fe fwriadwyd hyn er trawgyddoldeb: *Rhuf.* viii. 29. Ac fel y mae y paentiwr yn edrych ar y person y byddo am dynu ei lun, ac yn tynu ei linellau i ateb iddo mor agos ag y gallo, felly y mae Duw yn edrych ar Grist fel y cynllun â'r hwn y cydffurfia efe y Cristion mewn dioddefiadau, mewn gras, ac mewn gogoniant. Etto felly, fel y caiff Crist y flaenoriaeth yn y cwbl. Y mae yn rhaid i bob sant ddioddef am fod Crist wedi dioddef. Ni wasanaetha i Grist gorph moethus dan ben croeshoeliedig; etto, erioed ni ddiodd-efodd neb, ac nis gallai, fel y dioddefodd ef. Y mae Crist yn sanctaidd, ac felly y caiff pob sant fod, ond mewn gradd is. Llun wedi ei dori mewn clai, nis gall fod mor gywain ag un wedi ei gerfio mewn aur. Yn awr, megys mewn pethau ereill, felly hefyd yn hyn, fe ymddengys ein cydffurfiad â Christ: fel ag y cafodd yr addewidion a wnaed iddo ef eu cyflawni ar ei weddi at ei Dad, felly y cyflawnir yr addewidion a wnaed i'r saint yn yr un ffordd o weddi: "Gofyn i mi," medd Duw wrth ei Fab, "ac mi a roddaf i ti;" *Salm* ii. A'r apostol a ddywed wrth-yn ninnau, Nid ydych yn cael am nad ydych yn gofyn." Yr oedd Duw wedi addaw cyn- naliaeth i Grist yn ei holl ymdrechion: *Esa.* xlii. 1; "Wele fy ngwas yr hwn yr ydwyf yn ei gynnal." Er hyny, y mae yn gweddio â llefain cryf a dagrau, pan oedd ei draed yn sefyll o fewn i gysgod angeu. Fe addawyd iddo had a buddugoliaeth ar ei elynion; etto y mae efe ar weddi am y rhai hyn yn awr yn y nef. Y mae Crist yn ymddwyn tuag atom ni fel brenin, ond tuag at ei Dad fel offeiriad. Yr hyn oll a lefara efe wrth Dduw sy megys ar ei liniau trwy weddi ac eiriolaeth. A'r un modd y saint, y mae yr addewid yn eu gwneuthur hwy yn frenhinoedd ar eu chwantau, ac yn goncwerwr ar eu gelynyon, ond yn offeiriad tuag at Dduw, trwy weddi ostyngedig i erfyn y pethau mawrion a gynnwys yr addewid.

2il. Fel y gallo Duw roddi daionus bethau yr addewid gyda diogelwch i'w anrhydedd. Sierhäer ond ei ogoniant i Dduw, ac fe gaiff y Cristion y peth a fyno. Y mae gwir fywyd Duw yn rhwym yn ei ogoniant. Nid yw anrhydedd creadur yn beth anhebygorol i'w hanfod. Y mae brenin yn ddyr ar oll colli ei goron a'i deyrnas. Ond nis dichon Duw fod yn Dduw oddi eithr iddo fod yn ogoneddus. Ni ddichon chwaith fod yn ogoneddus oddi eithr iddo fod yn sanctaidd, yn gyflawn, yn drugarog, ac yn ffyddlawn, &c. Yn awr, amlygiad o'i ogoniant yw ei ddiben mawr ef yng nghreadigaeth a threfniad y byd (*Diar.* xvi. 4): "Efe a

wnaeth bob peth er ei fwyn ei hun." byddai un digwyddiad yn y byd nas ga Duw yn rhyw ffordd gael gogoniant o wrtho, byddai yn achos i ammhew y l o Dduw. Ond y mae y Duw holl ddo wedi gwneuthur ac yn trefnu ei holl greuriaid, ynghyd â'u gweithrediadau, yn fath fodd fel ag y byddo ei ogoniant cael ei ddadguddio drwy y cwbl. Yn wi mae yn ei fynu oddi ar rai trwy rym, brenhinoedd eu trethi oddi ar deiliaid o ffudd. Yn y modd hwn y mae hyd yn cynddaredd ei elynion yn ei folianu: *Sa* lxxvi. 10. Ond y mae yn disgwyl i'r safod yn offerynau gwirfoddol i'w ogonedd ac fel deiliaid ffyddlawn, i dalu iddo deyrnged o fawl yn ewyllysgar, gyda chre- wen o lawenydd a diolchgarwch. I'w eddu i hyn, y mae yn rhoddi allan ei d- gareddau mewn ffordd sydd er mawr ann- aeth i'r ddyledswydd hon. Hyny yw mae yn rhoddi y daionus bethau a fwr- iodd ac a addawodd ar eu gostyngedig dde- yfiad mewn gweddi. Ac y mae y modd h- yn sierhau gogoniant Duw ddwy ffordd.

(Iaf.) Y mae y saint yn y ddyledswydd hunan o weddi, pan y cyflawnont hi me modd addas, yn gogoneddu llawer ar Dduw Gweddi, megys y mae yn foddion o ras, bibell i drosglwyddo bendithion oddi w Dduw i'n mynwesau; felly hefyd y mae foddion neu gyfrwng o addoliad, trwy hyn yr ydym yn addef ein hiselder, ac rhoddi i Dduw ogoniant ei dduwedd a'i a feidrol allu. Appeliad gostyngedig o wrth ein hanalluogrwydd ein hunain at ho alluogrwydd Duw yw gweddi. Nid oes r- yn gofyn yn nrws arall y peth sy ganddo hun gartref. A phe meddyliem Dduw analluog, äem at arall yn ei le ef. Yr yd- yn rhoddi iddo ogoniant ei ben-arglwyd- iaeth a'i lywodraeth, ac yn addef ei fod alluog nid yn unig roddi i ni yr hyn ofynwn, ond hefyd y dichon efe roddi i hawl yn, a bendith ar, yr hyn a roddo. A hyny y mae Crist yn dibenu ei weddi gyd "Eiddo ti yw y deyrnas, y gallu, a'r gogon- iant," fel rheswm pa ham y cyfeiriwn e- gweddïau at Dduw. O blegid efe yn er- yw y Pen-llywydd a ddichon roddi i ni fed- iant a hawl mewn unrhyw fwyniant. I y mae, uchel fradwriaeth ydym yn erb- coron ac urddas Duw, pan gynnnygiom fed- iaunu unrhyw fwyniant heb weddio ar- neu yntepan roddom addoliad crefyddol i heb law iddo ef. Drwy y cyntaf, yr yd- yn trais-feddiannu ei ben-llywodraeth ef, iaith y rhai hyny yn *Ier.* ii. 31, "Arglwyd ydym ni, ni ddeuwn mwy atat ti." A thr- yr ail yr ydym yn rhoddi ymaith ei deyrn- a'i lywodraeth i arall. At hyn yr oedd S- tan yn annelu pan y mynai gan Grist syrth- i lawr a'i addoli ef, fel yr addefai drwy h- mai efe oedd rheolwr y byd. Drachef

ydy m yn rhoddi iddo ogoniant ei rad
ugaredd. Mae dynion yn gofyn dyled
wy awdurdod, ond elusen trwy ymbil.
Wrth ymbil mewn gweddi, yr ydym yn
vadu haeddiant. Gwelwch farn Iob, "Yr
yn, pe bawn gyfiawn, nid atebwn, eithr
nabiliwn â'm barnwr;" *Iob* ix. 15. Gallen
langos y cyffelyb mewn perthynas i'r pri-
oroliaethau ereill. Ond caiff y prawf byr
na wasanaethu. Ac megys y mae Duw,
ystyried yn hanfodol, yn cael trwy
eddi addefaid o'i Dduwdod; felly y mae b
person yn y Drindod sanctaidd—y Tad
Mab, a'r Ysbryd Glân—yn cael eu han-
ydeddu. Trwy gyfeirio ein gweddïau at
llyw y Tad, yr ydym yn ei anrhydeddu
y ffynnon o bob gras a thrugaredd. Yr
ydym yn anrhydeddu y Mab trwy gyflwyno
i gweddïau yn ei enw ef at y Tad, gan ei
def drwy hyny yn bwrcaswr o'r trugar-
dau a erfyniwn. Ac y mae yr Ysbryd
Glân yn derbyn anrhydedd y cynnorthwy
mawr a addefwn ein bod yn ei dderbyn
di wrtho i weddio. O herwydd megys y
weddiwn ar y Tad yn enw y Mab, felly
fyd trwy gymmhorth yr Ysbryd.

(2il.) Megys y mae Duw yn cael ei an-
ydeddu drwy y ddyledswydd o weddi, pan
glân gyflawnir hi, felly y mae y Cristion
tau yn cael ei rwymo ac hefyd ei hyfryd-
deddu i foliannu Duw am, a'i ogoneddu yn
feriad y trugareddau a dderbyniu drwy
eddi.

(1.) Y mae gweddi yn rhwymo i hyn.
nddi yr ydym nid yn unig yn deisyf tru-
redd gan Dduw, ond yn addunedu mol-
onu Duw am y trugareddau a ddeisyfwn.
mae gweddïau yn cael yr enw addunedau
alm lxi. 5): "Ti, Dduw, a glywaist fy add-
edau;" hyny yw, fy ngweddïau, ym mha
y difrifol addunedais fawl am yr ymwar-
a ddeisyfais. Nid gweddi ydyw lle na
ddo adduned. Nid oes i ni feddwl
ywmo Duw a gadael ein hunain yn rhydd-
u. Y mae Duw yn ymrwmo yn yr add-
ed i'n cynnorthwyo; ond y mae rhwym-
igaeth yn canlyn ar ein rhan ninnau, sef
bydd i ni ei ogoneddu ef. Ac nid ydyw
aw yn rhoddi caniatâd i ni ofyn un drugar-
dedd oddi ar ei law ef ond ar yr ammod
na: "Galw arnaf fi yn nydd trallod; mi
h waredaf, a thi a'm gogoneddi;" *Salm*
15. Yn awr, pa fath rwymanu erfynio a
oda hyn ar galon y Cristion erfyniol i
erfnyddio y trugareddau a dderbyniu yn
actaidd, ac i dreulio gyda diolchgarwch yr
n a ennillo drwy weddi! Ni fynai y
ristion fod yn gelwyddwr wrth ddyn; a
au y bydd ei ofn yn fwy rhag ei gael yn
llyddwr wrth Dduw: "Diau fy mhobl
ynt hwy, meibion ni ddywedant gelwydd;
ly efe a aeth yn Iachawdwr iddynt;" *Esa.*
lii. 8.

(2.) Y mae gweddi yn foddion i dueddu y

galon i foliannu. Gweddi a moliant fel
y pethau o gyffelyb natur yn yr elfenau—
hawdd eu toddi y naill i'r llall. Pan y mae
Dafydd yn dechreu *Salm* gyda gweddi, mae
yn gyffredin yn ei diweddu gyda mawl.
O'r lle y caffo pethau eu dechreuad, yno y
dychwelant. O'r môr y daw dwf yr afon;
ac nid oes mynyddoedd a ettyl nad yn ol i'r
môr yr â. Yr ysbryd hwnw sydd yn ar-
wain yr enaid allan o hono ei hun at Dduw
am gymmhorth, a'i dychwel at yr un
Duw i dalu ei fawl. Nid ydym yn arfer
benthyca arian gan un, a'u talu i arall. Os
Duw a fydd dy nerth, yn sicr efe a fydd dy
gân. Nid ydyw y lleidr yn wir yn arfer di-
olch i wr am y peth a ladrataodd allan o'i
fuarth; ac felly nid rhyfedd genyf nad yw
y rhai hyny yn gogoneddu Duw am, ac â'i
drugareddau, y rhai nid ydynt yn gofyn
cenad am danynt trwy weddi. Yr hyn a
wna dynion o honynt eu hunain, hwy a'u
cyfrifant iddynt eu hunain. Trugareddau
a gamgesglir, yn gyffredin a gamdreulir, am
eu bod heb eu sancteiddio iddynt; ac felly
yn myned yn danwydd i'w chwantau. Oddi
yma y mae po mwyaf fyddo eu mwyniant,
mwyaf balchacanniolchgar ydynt. Ond trwy
weddi fe sancteiddir mwyniant y Cristion;
a'i natur wyntog sy'n chwythu ereill i falch-
der a attelir. Y mae yr un trugareddau
a geir trwy weddi yn troi yn faeth i rasusau
y saint, ac hefyd yn pydru ac yn troi i
chwantau bryntion yn y pechadur diweddi.

(3.) Fe fy Duw i'w bobl weddio am yr
hyn a fwriadodd ac a addawodd, i ddangos
yr hyfrydwch mawr a gymmer efe yn eu
gweddïau. Fel tad, er y gall efe anfon i'w
fab sydd oddi cartref yr arian a addawodd
at ei gynnalïaeth, etto y mae yn ei adael
hebddynt, oddi eithr iddo ddyfod drosodd
ar amserau pennodol i'w derbyn. A pha
ham? Nid i'w fino ei fab, ond am fod yn
hyfryd ganddo ei gyfeillach. Y mae Duw
yn ymhyfrydu cymmaint yng nghyfeillach
ei saint erfyniol, nes yw, i ragflaenu pob di-
eithrwrch ar eu rhan hwy, yn trefnu felly,
fel nas gallant esgeuluso yn ddyledswydd
heb fod yn eu colled o'r achos: "Nid yd-
ych yn cael, am nad ydych yn gofyn;" *Iago*
iv. 2. A pho helaethaf fyddont mewn
gweddi, helaethaf fydd eu bendithion. Po
mynychaf y tarwsai Ioas ar y ddaear,
llawnaf fuasai ei fuddugoliaeth ar y Syr-
iaid. Yn gyfatebol i'r saethau o weddi a
daflwn i'r nef, y bydd atebion trugareddau
yn ol oddi yno. Etto, nid oes i ni ei gyfrif
i anewyllysgarwch Duw i roddi, ei fod ef yn
peri i'w blant weddio yn fyfych ac yn hir
cyn y del y drugaredd, ond yn hytrach i'r
hyfrydwch a gymmer efe yn eu gweddïau.
Y mae yn gwneuthur hyn yn y bwriad o
roddi grasusau ei Ysbryd ar waith, llais ac
iaith pa rai sydd yn beroriaeth yng nghlust
Duw. Y gwirionedd yw, yr ydym ni yn

hyn yn rhy debyg i'r cerddorion wrth ein drysau; ceir eu clywed nes y tefir arian iddynt; ac yna rhoddant eu pibau i gadw. A phe byddai ein hangenion niunau yn cael eu cyflawni felly mewn attebiad i un weddi, fel na byddai arnom yn fuan eisieu rhodd newydd, ymaith yr Æem; ac nid ar frys y cai Duw glywed oddi wrthym.

PENNOD V.

Cerydd llym i'r holl rai diweddi; a dangosiad o'r cyflwr gresynol y mae y cyfryw ymddo.

Defn. 1. GAIR i'r rhai hyn sydd yn byw mewn llwyr esgeulusdra o'r ddyledswydd hon; creaduriaid diweddi. Y mae y fath adfeilion o ddynolryw i'w cael, a dreuliant eu hoed annedwydd fel cynnifer o foch. Byth nid edrychant i'r nef, nes y gosodo Duw hwynt ar eu cefnau; ac ni chlywir eu gwaedd mewn gweddi, nes y byddo ei gyllell wrth eu gwddf. Beth a ddywedaf wrth y cewri hyn, meibion y ddaear, sydd yn ymwrthod âg ymddarostyngiad i Dduw y nefoedd? Y gwartheg Basan hyn sydd fel Nebuchodonosor wedi ei ddull newid, â chalon dyn wedi ei gadael, ac yn byw mor anifeilaidd a'r anifeiliaid eu hunain; y rhai wrth bori nid ystyriant yr hwn sydd yn gwisgo y maes â glaswellt iddynt! A allaf fi obeithio y gwrendy y rhai hyn ar ddyw, a hwythau yn gwrthod addef Duw y nefoedd? Yn sicr y mae eich cyflwr yn alaethus. Pa beth? bod heb weddio! Beth lai a allech, na thrwy hyn o blygiad, addef fod Duw yn wneuthurwr i chi? Neu beth llai er eich eneidiau eich hunain nag ymbil am eu bywyd gan Dduw, llaw gyfiawn yr hwn sydd ar godiad i'ch erbyn? A ydych chi wedi ymroddi i dafu eich eneidiau fel hyn i safn y diafol, heb gymmiant a tharaw dyrnod er eich amddifyniad? Pe gofynasai Duw beth mwy ar eich llaw na yn hyn, buasai cadwedigaeth eich eneidiau yn ei haeddu. Ac a sefwich chi am hyn? Nid yw Duw yn ein rhoddi ni i'r draul o dalu gwerth am ein prynedig-aeth; na chymmiant a chostau y carchar; yn unig fe fynd i ti attolygu; gwna yntau dalu: "Eneidiau y rhai a geisiant Dduw, a fydd byw;" *Salm* xlix. 32. O! y fath chwaneigad fydd hyn i lynder dy boenau, pan yn uffern y dywed dy gydwybod yn dy wyneb na ddaethit yno pe buasit mewn pryd yn ymddarostwng ger bron Duw, ac yn ymbil am ei heddwch, yn y ffordd y costiodd i Grist ei fywyd i'w bwrcasu? Naill ai y mae yn rhaid i'r cythraul mud yma gollu ei feddiant ynot, neu yn ddiarnheuef a'th ddwg i uffern. A phwy a gaiff farw gyda llai o dosturi na'r drwg-weithredwr sydd yn sefyll yn ystyfnig o

flaen y barnwr, ac ni wna gymmair syrthio ar ei liniau, nac agor ei enau i c trugaredd, er i'r barnwr oedi cyboedd ddedfryd a rhoddi y llys i godi, i'r dibe edrych a ddaw ei ucheldrem i lawr, a blyga ei ysbryd balch i ofyn ei fywyd a law? Chwi a wyddoch mor ddog oedd Pan oedd Crist yn ddistaw: *Ioan* xix. "Oni ddywedi di wrthyf fi? oni wyddoch fod genyf awdurdod i'th groeshoelio d bod genyf awdurdod i'th ollwng yn rhyd Er nas gallai efe, greadur salw, wneut dim erddo nac i'w erbyn, ac am hyn oedd Crist dan ei ofn, nac yn ei ddyle gymmiant a gair. Yr oedd gwarant an Crist wedi ei selio yn y nef; ac nid oedd ynghyd â'r lleill o lidus elynion Crist, offerynau i'w chyflawni yn ol rhagderf edig gynghor Duw. Ond pa faint mw achos sydd gan y Duw mawr i fod yn d o blegid yr anufudd-dod yma, ac i ddyw yd, Ai mud a fyddi, heb weddio arnaf Oni wyddost ti fod genyf awdurdod i ach neu i ddamnio? I'th draddodi i'r poen neu i'th gadw allan o'i ddwyllaw? Neu disgwyl yr wyt ti y bydd Duw yn rhw i'th achub, pa un bynag a wnei ai gwed ai peidio? Os gwna (mi a'i dywedaf) ef wna fwy erot ti nag er ereill; Æe, nag ei Fab ei hun, yr hwn, drwy sefain cryf a fyniodd am ei achub ganddo. Y mae D wedi sefydlu trefn iachawdwriaeth; ac feddwl y bydd iddo ei chyfnwyd, ac fe ysbrychu cynghor ei ewyllys i'th foddio Yr hyn a ysgrifenodd a ysgrifenodd, ac chaiff ei diddymu. Æe, er i ereill fod cys a gweddio drosot, o dosturi at dy enaid; creadur diweddi fyddi dy hun, ti a gei fa y farwolaeth. Pe Noah, Samuel, a Dan fyddai y rhai a safent i fyny i ofyn dy fy yd, nis gwrandewid hwy drosot. Gwedd dirprwy¹ ni thyciant yn yr achos hwn. am hyn, pan ddaeth gwyr Israel at Sam gan ddeisyf ei weddïau, ac yntau wr da eu haddaw yn rhwydd (yn wir ni feiddia eu hattal pe buasant hwy heb ei ddwyn gof), craffwch ar y gocheliad y mae efe gysylltu, "Yn unig ofnwch yr Arglwy; a gwasanaethwch ef â'ch holl galon;" *1* *Sc* xii. 24. Fel pe dywedasai, Na roddwch ar waith nad ydych am ei wneuthur dr och eich hunain; ni bydd i'r drebnyiad sy i'm gweddïau i yn y nef, gadw digofa Duw rhag disgyn arnoch, os drygionus a dduw a fyddwch. Am hyn "ofnwch Arglwydd, a gwasanaethwch ef." Hyn y gweddïwch arno, ac ufuddhewch iddo. mae ofn yn fynych yn cael ei roddi: addoliad Duw (*Gen.* xxxi. 53), gelwir Duw ofn Isaac; hyn yw, y Duw yr oedd yn ofni a'i addoli. Felly *Ier.* x. 7: "Pwy ni ofna di, Brenin y cenhedloedd?" Hy yw, pwy ni'th addola di yn hytrach n

¹ Peth a wnelo un ym mherson un awll - *pro*.

oed a'r ceryg? am fod ein haddoliad i Dduw yn tarddu oddi wrth y parch a'r ofn ydd genym iddo. Cafodd Crist ei wranlaw yn yr hyn a ofnodd, neu o achos ei ofn, *Heb. v. 7*), sef ei dduwiol ofn, a ddangosodd yn y llefain cryf hwnw a riddfanodd fe at Dduw yn ei ymdrech. Ac am hyny, yhyd ag y byddoch yn ddiweddi, yr ydych yn wag o ofn Duw. A pha beth ni faidd y ath adyn ei wneuthur? Y mae at alwad Satan pe byddai yn ei ddanfôn at ddewin. Pan oedd Sâul wedi rhoi heibio ymofyn â Duw, ni a'i cawn ef yn y man yn curo wrth ldrws y cythraul, ac yn gofyn cynghor gan ddewines. O! gochelwch fyw mor agos i'r entiwir. Pe cai Satan ei ddymuniad, yn ier hyn a fyddai, fod i'r creadur fyw yn diweddi; o blegid wrth hyn fe fwriai yr nfri mwyaf sydd bossibl ar Dduw, am ei od yn peri i'r creadur ei ddibrisio yn ei holl briodoliaethau; ac wrth hyn hefyd y mae'n cael y fantais fwyaf ar y pechadur ei un. Yr wyt yn ei afael yn awr mor sier i'r ymdeithydd gan y lleidr, pan fydd wedi i dafu yn rhwym i ffos, a'i safn wedi ei enwi fel nas gall waeddi ar ereill am gynorthwy. Mewn gair, yr wyt yn anrhaith an Satan; yr hwn a all yn awr gyflawni ei hwant arnat. Y mae yr hwn sydd yn weddio yn gwahodd Duw i fwy o gyfeill-arwch âg ef, ac fe gaiff hyny yn fuan; fel gwelwn yn Paul at yr hwn y danfonodd i'w Ananias. Ond y mae yr hwn sydd yn yw mewn esgeulusdra o'r ddyledsdydd on, yn rhoi i'r diafol lawnach meddiant o ono. Tydi yw y dyn parotaf o bawb iddo wneuthur atheist.¹ Ni ryfeddwn iddo dy erswadio nad oes un Duw, gan dy fod eis-es yn ei ammharchu i'r fath raddau, fel nas all y grediniaeth am Dduw lai na bod yn rswydus i'th feddyliau. Buan y perswadwyd Herod i dori pen Ioan, am ei fod pan n fyw yn pigo ac yn poeni cymmaint ar ei ydybod. Ac y mae i'w ofni mai hawdd y dynu dithau i geisio mygu pob meddyl- iu am y bod o Dduw; oddi wrth yr hwn id yw dy gydwybod o ganus yn disgwyl lywed dim a all dy foddhau. Iê, y mae yn ebygol fod gormod o'r atheist ynot eisoes, nid e, ni feiddit nacau i Dduw y rhan hono addoliad naturiol, a delir iddo gan y rhai ydd yn gwybod leiaf am dano. Sier wyf od yr Ysgrhythyr yn gosod y basterdyn hwn anghrefydd wrth ddrws atheistiaeth. Yn *alm xiv. 1*, y mae yr nyfyd yn chwennych erswadio ei hun nad oes un Duw; ac wedi ldo gael meistrolaeth mor bell ar ei gyd- ybod ag i ddileu Duw allan o'i gredo, uan y mae yn ei adael o'i bader hefyd, *in. 2*.

Qwest. Ond fe allai y gofyn rhai i mi, a ydwyf yn meddwl fod neb yng ngwledydd

yr efengyl yn esgeuluso gweddi ar y cyfrif hwn o atheistiaeth?

At. Ydwyf yn wir; a pheth sydd fwy, yr wyf yn meddwl fod gwaeth atheistiaid i'w cael dan dywyniad disglaer yr efengyl nag yn y gongl dywyllaf o Affrica, lle y mae y dydd yma etto heb wawrio. Fel y tyf chwyn yn fwyaf drygsawrus yn y tiroedd brasaf, a ffrwythau yn addfetaf yn y gwledydd cynnhesaf, felly y tyf pechodau i'r uch- der mwyaf lle y mae haul yr efengyl fwyaf yn ei rym: "Pwy sydd ddall ond fy ngwas i?...a dall fell gwas yr Arglwydd?" *Esa. xlii. 19*. Pwy sydd yn fath atheistiaid a'r rhai sydd â'u llygaid wedi eu tynu allan gan oleu yr efengyl. Y mae byrdra gwybod- aeth yr Indiaid o Dduw yn bod o ddiffyg goleu, yr hyn o bossibl a feddyginiaethir pan ddygir goleu atynt. Ond pan yrrthio atheistiaeth barnol ar enaid, y fath ag ydyw yn gyffredin yn amser ac ardaloedd yr efengyl, am wrthryfela yn erbyn y goleuni; y mae hwn yn anfeddyginiaethol. Yma y mae megys y ganwyll wedi darfod; iê, y llygad wedi ei godi allan.

PENNOD VI.

Annogaeth i'r saint; ar iddynt fod yn helaethion yn y gwaith hwn.

Defn. 2. I'r saint; cyffröer chwi i lynu wrth y gorchwyl hwn yn ddyfalach nag erioed. Os esgeulusir hwn, adfeiliad cyffred- inol a ganlyn ar eich holl rasusau. Pan fydd porthladdoedd teyrnas wedi eu cau i fyny fel uas gall y marsiadwr fyned allan, y mae methiant yn canlyn ar yr holl fasnach wladol, fel na raid i'w eelyn daraw dyrnod, ond yn unig sefyll i edrych arnynt yn bwyta y naill y llall. Fe ddywed y Salmydd am ffrwd, "sydd yn llawenhau dinas Duw;" *Salm xlv. 1*. Yr addewid yw y ffrwd hon; ar ha un y dygir holl fywoliaeth y saint iddynt at eu drysau. Os cedwir hon yn agored, nid llawer o niwed a wna Satan iddynt; ac felly y bydd, tra y gallant anfon allan eu gweddiau ar hyd y ffrwd hon i'r nef. Ond os unwaith yr atelir y fasnach yma, yna y mae yn galed arnynt. Fe sylwir am ein cymmydogion—pobl yr Iseldir (*Netherlands*)—tra y mae gwledydd ereill yn arferol o fyned yn dlawd trwy y rhyfel, eu bod hwy wedi cyfoethogi drwyddo, am eu bod ynghyd â'u rhyfeloedd wedi helaethu eu marsandiaeth ar led. Ac os nyuit tithau, Gristion, lwyddo drwy dy holl brofedigiaethau, rhaid i ti gymmyd yr un ffordd. Er dim, na nycha dy fasnach a'r nef. Y mae Duw, i'th wneuthur yn ddyfal- ach yn dy ddyledsdydd hon, wedi trefnu pethau felly, fel y mae holl drysor yr addewid i gael ei ddwyn i mewn i ti yn y llestr yma

¹ Un yn gwaadu y bod o Dduw.

o weddi. Y mae hon yn debyg i long marsiandwr (*Diar. xxxi*), "yn dwyn dy ym-borth o bell. Pe byddai dy drugareddau o dyfiad dy wlad dy hun, gellit arbed taith i'r nef. Ond Och! greadur tlawd, pan fyddych helaethaf arnat, a'th drysor lawnaf, pe na ddeuai cynnorthwyon newydd o'r nef, mor fuan y'th ddygid gyda'r weddw dlawd i fwyta dy damaid olaf, a marw! Nid ei hychydig flawd hi yn y celwrn, na'r olew yng ngwaelod ei hystên, ond bendith Duw yn eu hamhlau a barodd iddynt ddal allan cyhyd. Felly nid dy ras, dy nerth, neu dy gysur presennol, ond gwaith Duw yn eu maethu â chyfraniadau newyddion, sydd i gadw dy fywyd dithau. Ac os peidi a gweddio, fe baid olew gras â rhedeg. "Nid ydych yn cael am nad ydych yn gofyn." A phan ddarfyddo yr ystôr, rhaid i'r ddinas ymroddi i'r gelyn. Megys, gan hyny, na fynit syrthio i ddwyllaw Satan, paid a cholli cynnorthwyon Duw, dy gyfathrachwr goreu, trwy ddiffyg dal i fyny gyfeillach garuaidd âg ef wrth orsedd gras. Yn awr, i ddilyn yr annogaeth yn well, nid annadds fyddai cynghor tuag at i ti yru ym mlaen y fasnach hon o weddi yn llwyddiannus. Y mae Satan wedi cael mor fynych ei ddymchwelyd yn waradwyddus drwy weddiâu y saint, nes yw yn crynu wrth rym yr ordinhâd fawr hon o eiddo y nefoedd. Dyma y llef, cadarn lef Duw yn ei saint, sydd yn ysgwyd y mynyddoedd hyny o falchder; yn gwasgaru ffamau eu tanllyd demtasiynau, ac yn peri iddynt fwrw allan eu cynghorion anhycianol-er eu cywilydd a'u somedigaeth: "O! Arglwydd, tro, attolwg, cynghor Ahithophel yn ffolineb;" 2 *Sam. xv. 31*. Fe wnaeth yr un weddi hon Ahithophel yn ynyd; a'r hwn a'i gosdodd ar waith hefyd; dymchwelodd gyfrwysdra dyn a diafol ynghyd. Y mae y fath arswyd wedi gafael yn Satan, wrth gofio ei gollodion ar ddwyllaw gweddi, fel na âd efe gareg heb ei throï, na dyfais heb ei phrofi, er dy rwystro yn y gwaith: "Pa beth yr ydym ni yn ei wneuthur?" ebe y Phariseaid yn achos Crist, "cans y mae y dyn yma yn gwneuthur llawer o arwyddion. Os gadawn ni ef fel hyn, fe ddaw y Rhufeiniaid, ac a ddfethant ein lle ni a'n cenedl hefyd;" *Ioan xi. 47, 48*. Nis gall Satan wadu na wnaed arwyddion mawrion drwy weddi. Fel yr ä ysbryd gweddi i fyny, y mae ei deyrnas ef yn myned i lawr. O'r hâd brenhinol y mae; nis gall efe sefyll o'i flaen mwy na Haman ar ei gwymp o flaen Mordecai ar ei godiad. Ac am hyny, gan ei fod yn debygol o wneuthur cymaint gwasan-aeth i ti, y mae genyt achos mwy i'w gadw rhag ei rutheriadau ef. Am fod y gynnau mawrion mor ddefnyddiol i fyddin a ni-weidiol, yn gystal a dinystriol i'r gelyn, fe osodir gosgordd gref o honynt bob amser o'u deutu.

Yn awr, rhuthriadau dichellgar Satan y erbyn gweddi ydynt o dri math.

1af. Os gall, efe a'th geidw oddi wrt weddi. Os ni thycia hyny,

2il. Efe a gais dy rwystro mewn gwedd Ac yn

3ydd. Os metha yr ystryw hono, efe lafuria i attal llwyddiant a dychweliad o weddi.

PENNOD VII.

Dwy ystryw, a pha rai y cais Satan attal y Cri-ion gwan rhag y ddyledswydd o weddi.

1af. Efe a amcana dy gadw rhag gweddi Ac i ddwyn hyn i ben, y mae ganddo ddichellion yn barod; llawer gwrthddad i'w chodi, a rhwystr i'w dafu ar dy fford i'r ddyledswydd; dan obeithio os na thran gwyddi wrth un, y gwna efe i ti gael codw wrth y llall, a bod yn glaf o'th naturiaet cyn ymosod yn ei chylch. A'r hyn syd waethaf, ti a gei blaid o fewn i'th fynw yn rhy barod i roddi gwrandawriad iddo; i i gymmeryd ei resymau i fyny, a dal ddadl ar droed yn erbyn ymaflyd â'r goschwyl. Ni a nodwn rai ym mysg llawer ac a roddwn ateb yn dy enau erbyn delo.

DOSB. I.

Ystryw 1. Pa beth! tydi weddio! O gwnei, ni byddi ond chwareu y rhagrithiwr; a gwel bod heb weddio, na gweddi heb fod yn ddim gwel. Iâ, fe allai y byd i'th galon ddrwgdybus dy hun sisial yr u peth, neu o leiaf roi cymaint coel i'w gyhuddiad ef, fel ag i beri i'th feddyliau sigl pa un oreu gweddio ai peidio.

Yn awr, i'th arfogi yn erbyn hyn, ystyria (1af.) Nid wyt ond yn ofni chwareu y rhagrithiwr os gweddi. Ond ti a fyddi y sic o amlygu dy hun yn atheist os na wnei a dyna ei ddymuniaid ef. Yr wyf yn gobeithio y byddi yn ddoethach nag yr esgeulus ddyledswydd adnabyddus, oddi ar amhieu aeth mai afluwyddo a wnei ynddi; a doeth ach na gorwedd mewn pechod gwybyddus iê, un mor anferthol a'i fod yn profi y ne a barhao ynddo yn atheist; a hyn dim ond rhag ofn cyfarfod â llew, neu fwbach, fe allai yn ffordd dy ufudd-dod i orchymyn anheb gorol.

(2il.) Yr wyt o herwydd dy ofn mewn llai perygl o chwareu y rhagrithiwr. Y mae rhai clefydau corphorol yn dal dynion trwy rym ofn a dychymmygion. Y mwyafrad ofn yw y tebycaf i gael y plâ neu y frech ond nid oes neb mor ddiogel rhag pechod a'r hwn sydd arno fwyaf o'i ofn. Y gwir ionedd yw, ni ddymunwn un prawf gwel o'th ddiragrithrwydd na hwn, dy fod yn

ofni dy ragrith. Cred fi, os hyn yw trallod mawr dy enaid, y mae mwy o achos i Satan ofni dy ddiragrithrwydd nag i ti ofni dy ragrith. Ac y mae yn dra thebygol mai hyn sydd yn peri iddo dy frawychu di oddi wrth weddi, am y brawychit ti gymmaint arno ef wrth weddio. Pe byddit ragrith-iwr, fel yr haera, efe a'th wahoddai di ei hunan at y gwaith; i.e, gwnai lwybr i ti yn hytrach na'th fod ar ol; a phan godit oddi ar dy liniau, fe ddiolchai i ti am dy boen, am y gŵyr na wnai Duw hyn. Y mae y rhagrithiwr yn gwneuthur mwy o wasanaeth iddo ef nag i Dduw. Nid ydych yn barnu, y mae yn debyg, fod y diafol yn rhyw elyn mawr i ymryd Iezebel; na, di-ammheu mai efe a'i rhoddodd yn ei phen, fel y byddai iddi drwyddo watwar Duw a dyn hefyd. Gwledd diafol oedd ei hym-
pnyd hi. Ond,

(3ydd.) Os wyt yn cael fod i ti fwy o achos ofni dy fod yn chwareu y rhagrith-iwr, nag a allaf fi sydd yn ddeithr i'th galon weled; ac yn wir pwy a all wybod trion hono gystal a thi dy hun? Os wyt yn ofni, meddaf, mai hwn yw y pechod tebycaf o dori i mewn arnat yn dy ddyledswydd; gwna fel Moses, a laddodd yr Aiph-
t-wr i waredu gŵr o Israel; difetha y pechod fel y gwaredych dy enaid rhag yr esgeulus-dra o ddyledswydd. Drwy yr hysbysrwydd a rydd Duw o'i ddaioni i ti, am yr ochr debycaf i'th berygl ddyfod o honi, y mae genyt fantais fawr i syrthio ar dy elyn, a dial yn llwyrach arno cyn myned yng nghylch y gorchwyl o weddi. Cais ond dy galon i gasineb at y pechod adgas hwn, ac ymroad sefydlog i'w erbyn, a chyda bendith Duw, ni bydd yn abl i'th niweidio nac i attal dy weddi rhag cael derbynaiad yn y nef.

DOSB. II.

Ystryw 2. O! medd Satan, ni feddi di ddoniau i weddio, gâd hyn i rai a allant gyflawni y gwaith yn harddach.

Yr amddiffyniad. Beth wyt ti yn feddwl wrth ddoniau? Os tafod llithrig hyawdl, yr hyn sydd gan rai fel i gallant heb fyfyr-dod, gyda llawer o ymadrodd, redeg dros holl benau gweddi mewn trefn hardd, a gwisgo pob deisyfiad âg ymadroddion addas a chynhyrfiol ni a adawn dy fod heb y rhodd hon; ond na ato Duw i'r diffyg o honi dy gadw heb weddio, na pheri i ti fyned yn llai dy gysur at y gorchwyl. Y mae y diffyg yma yn dangos yn unig na feddi gystal pen; ond nid yw yn un gradd o rwystr i'th galon fod mor rasol a'r eiddynt hwythau. A gwell o'r ddau i'r byrdra fod yn dy ben nag yn dy galon. Fe fydd dy ddeall yn wir o'r achos hwn yn fwy diffryth mewn gweddi; ond dichon dy galon fod mor ffrythlawn wrth ben yr ychydig ymadroddion anghym-malus sydd yn syrthio yn ddarnau oddi wrthyt, a'r eiddynt hwythau gyda'u haraeth

ddoniol. Ni bydd dy iaith di mor daclus a thrwsiadus; ond fe all dy enaid a'th ysbryd fod mor ddianaf, i.e, yn fwy gonest nag yd-yw llawer o'r rhai hyn sydd yn boddhau y rhai a'u gwrandawant â chynghanedd eu doniau. Y mae yn bossibl fod gan ddyngorph pwr dan ddiillad claeurwch; a than y gwychedr hyn o ymadrodd, gydwybod dlawd rwygedig. Pwy ni ddewisai gyflwr y dyn iachus mewn dillad gwladaidd, o flaen un afiach a chlwyfus yn ei wisgoedd gwych-ion—y dyn diragrith a doniau gwael, yn hytrach na chyflwr y pwdrgalon gyda'i ddoniau godigod? Ni chyfrifwn hwn yn wladwr goreu sydd yn chwareu yr ymadr-oddwr yn nhŷ y senedd, ac yn gwneuthur areithiau ffraethach nag ereill; ond yr hwn a dery gyda'r ochr oreu, ac a fydd yn sier o roi ei bleidlais at ddwyn ym mlaen unrhyw achos da. Nid areithyddiaeth y tafod y mae Duw yn ei brisio, ond yr Amen o'r galon, â pha un y mae yr enaid diragrith yn selio pob sanctaidd erfyniad. Ac fe all calon onest dy helpu i hyn; peth nas gall goleu pen ei wneuthur i'r dyn sydd yn fyr o ddiragrithrwydd. Nid harddwch ysgrifen sydd yn rhoi grym i'r weithred o rwymedigaeth, ond y person, llaw a sel yr hwn sydd wrthi; pe amgen, fe allai ysgrifenydd wneuthur yr holl wlad yn ddyledwyr iddo. Dichon doniau wneuthur ysgrifen hardd, yr hyn sydd yn bossibl i ragrithiwr, ond ffydd a diragrithrwydd a wnânt weddi o rym; a hon yn unig sydd ganddi hawl i bethau da yr addewid. Mewn gair, enaid diragrith, am y cyfryw yr wyf yn dy gymmyrd; ac os felly, er na feddi y fath ddoniau gweddi ag ereill, etto y mae genyt gymmaint o hawl yng Nghrist, y "dawn annhraethol" (2 Cor. ix. 15), a neb o honynt. Ac er dy dragwyddol gysur, gwybydd nad y doniau hyn ynddynt hwy, ond y dawn Duw yma, i ti a phob credadyn, yw yr agoriad sy raid agor calon Duw, os ceir dim trugaredd oddi yno. Iâ, y mae yn rhaid i'r dawn hwn sancteiddio eu doniau disglauer hwy, fel yr allor aur oedd arni; onid e, ffieidd-dra fyddant gan yr Arglwydd.

PENNOD VIII.

Dichell a chyfrwysdra Satan i gadw yr enaid oddi wrth y ddyledswydd yma, ar yr esgus o anhwylddeb presennol y corph.

3ydd. Y MAE gan Satan, a'r cnawd hefyd, resymau oedi i'th gadw rhag dy ddyledswydd pan ddelo yr amser y byddit arferol o'i chyflawni. A fyddi di un amser, Gristion, wrth gyfeirio at orsedd gras, yn clywed Satan a'th gnawd yn sisial yn dy gylust, Pa beth yr wyt yn myned yn ei gylch yn awr? Nid amser cymmhwys yw hwn i ti weddio;

aros am well cyfle. Yma y mae y diafol yn ymddangos yn gymmedrol. Ni ddywed efe paid a gweddio o gwbl; ond nid yn awr. Nid dyro i fyny; ond dyro heibio hyd amser mwy cyfaddas.

At. Yn awr, bydd wagelog, Gristion; y mae dy droed yn agos i fagl. Os derbyn cynghor Satan a wnei, ac aros ei amser cyfaddas ef, fe allai y bydd yn debyg i amser cyfaddas Ffelics i alw Paul, a'i wraedaw yn mhellach; yr hwn, am a wyddom, ni ddaeth byth i ben. Pan fydd y cnawd a Satan yn deisyf amser, eu diben yw lladrata amser. Hwy a'th ddenant oddi wrth ddyledswydd un tro, ar y bwriad o'th gau rhag-ddi bob tro. Rhesywyr cyfrwys yw y diafol; efe a wŷr y bydd i'gardotyn cywilyddgar, sydd yn gofyn ychydig, ei gael yn haws na'r gŵr a ofyn yn eofn rywbeth anlwg afresymol. Iephthab, yr hwn a ganiataodd ddymuniad ei ferch am ychydig fisoedd o oediad, ni buasai, y mae yn debyg, yn gwrandaw arni pe gofynasai lawn ryddhad oddi wrth adduned ei thad. Y mae enaid grasol dan adduned i alw ar Dduw; fe wŷr Satan y teflid ei gynnwg yn ol gyda ffeiddiad, pe parai iddo ar y gair cyntaf beidio a gweddio mwy, a rhoi heibio yn hollol ei gymdeithas â Duw; am hyny fe gais ymddangos yn foddolawn iawn iddo weddio. Ie, peth addas ydyw, medd efe, ni fynwn i ti droi cefn ar dy gyfaill goreu; ond nid amser mor gyfaddas ydyw yn awr. Y mae gan Satan ddwy ddadl lefn i dwylo y Cristion o'i amser a'i gyfle presennol i weddio; sef ei annhymmer bresennol i'r gwaith, neu ryw achos bydol fydd yn gofyn ei ddibenu.

1af. Ei annhymmer bresennol i weddio. Aros Gristion, medd y tentiwr, nes y byddych mewn gwell hwyl i ddyledswydd; a thi a weddii i berwyl gwell. Gwell papur glân nag ysgrifen fudr; gadael y gwaith i sefyll na myned yn ei gylch pan fyddo dy law allan.

Yn awr, y mae annhymmer deublyg, a odefnyddia Satan a'r cnawd i liwio eu hesgus âg ef.

(1af.) Anhwylddeb corph. Y mae rhyw afiechyd yn bresennol ar hwnw; ac medd y rhai hyn, Yr Ysgrythyr a ddwyed i ti fod Duw yn ewyllsio trugaredd yn hytrach nag aberth. Ac nis gellir gwadu nad yw yr Ysgrythyr yn cyrhaedd hyd at y corph; o blegid nid yw gorchymynion Duw greulawn wrth hwnw.

At. Ond tuag at dy dynu o'r fagl yma, dywed i mi y gwir, pa mor fawr yw atiechyd dy gorph? Ysgatfydd nad wyt mor glaf, fel na elli fyned yng nghylch dy orchwyl bydol, er mai dan riddfan a chwyuo peth. Ond pan ddylit weddio, yna y mae dyf ben, neu ryw fan, yn curo yn dostach nag o'r blaen. A wyt ti yn ddigon iach i fyned i'th siop, ond nid i weddio yn dy ystafell?

A elli di ymlusgo mor bell a'r farchnad, a bod heb weddio gartref? A elli di ymdrechu â'th ddolur mor bell ag i fasnachu â'r byd, ond nid i gyfeillachu â'r nef? Yn sicr nid yw pob peth yn iawn; y mae gan Dduw le i achwyn arnat. Oni all efe ddyweddy, yr wyf yn haeddu dy gymdeithas gystal a'r byd? Ond pe rhoddem dy fod yn glaf iawn, ac wedi dy gau i fyny yn gwbl oddi wrth dy negeseuon bydol, etto, a esgusoda hyn di rhag cyrchu at orsedd gras? Y mae Duw yn dy dynu allan o'th weithdy d dangos i ti y ffordd i'th ystafell; yn dy daraw oddi wrth dy fasnach fydol, fel y gallech ddilyn yr un nefol yn fwy dyfal. Gwir yw, nid wyt yn abl i weddio mewn ymadrodd maith, ac nid yw Duw yn ei ddisgwyl. Yn y fan hon y mae yr Ysgrythyr hono a fynai y diafol i ti ei channarfer, yn dra pherthynol ac addas i'th amgylchiad: ewyllsio y mae Duw drugaredd ac nid aberth. Etto yn awr, os un amser, yw y pryd i ti auon dy saeth-weddiau byrion at Dduw. Pan fo anadl ein corph fyraf, yn ydym yn anadlu yn fwyaf buan a mynych. Er nas gelli weddio yn hir, ti elli weddio llawer drwy yr ehediau serchiadol hys o'th galon i'r nef. Dylai y Cristion fod â gawell yn llawn o'r saethau hyn; y rhai, ei eu byrdra, a änt gyda nerth. Ni weddiodd Crist erioed yn ddyfalach nag yn ei ing yr yr ardd. A gweddi o'r fath yma oedd hono "Fy nhad, os yw bossibl aed y cwpan hwn heibio oddi wrthyf; etto nid fel yr ydwy, fi yn ewyllsio, ond fel yr ydwyf ti;" *Mat. xxvi. 39.* Ac ar ol byr orphwysiad i natu gael ychydig anadl, o herwydd y baich an nhraethol oedd yn gwasgu arni, y mae yn tafa yr un saeth drachefn i'r nef dair gwaith yn olynol: *adn. 44.*

Mewn gair, Gristion, er nas gelli weddio fel y byddit arferol, etto ti a elli ddymun gweddiau ereill drosot a chyda thi. Pe or chymvnr i ni alw am yr henuriaid, ie, deisyf gweddiau ereill hefyd. Mor dostur iol yw Duw tuag atom, fel pan y byddor trwy wendid yn analluog i daenu ein deisyfadau ein hunain mewn gweddi, y gallw y pryd hwnw blanta, fel Rahel, ar linia ereill; pan nas gallwn fyned ein hunain fel y byddem arferol at y gwaith. Gallw gael ein dwyn ar ysgwyddau eu gweddia hwy. ac ehedeg ar adenydd eu ffyda hw i'r nef.

PENNOD IX.

Ystryio Satan i gadw y Cristion oddi wrth weddio ar yr esgus o anhwyld presennol ei galon.

2. O! ond gelli ddyweddy, nad afiechyd dy corph, ond marweidd-dra dy galon, s

hwyl dy enaid, sydd yn dy gadw di oddi
th ddyledsdydd. Ti fynit gael hono
wn gwell hwyl; ac yna ti äit yn rhwydd
reddi.

DOSE. I.

At. Iaf. Gäd i mi ofyn i ti, Gristion, beth
y ffrwyth a gefaist, o fewn sylw dy
lon dy hun, wedi tyfu oddi ar y fath oed-
lau ac esgusodion? A ddarfu i esgeulus-
a o ddyledsdydd ar un tro dy gymmhwyso
li dro arall? Yr wyf yn coelio nad do.
wellhell diogi wrth gysgu; na syrthni
wy seگردod. Os bydd ein coes yn cysgu,
a rodiwn; ac felly daw ati ei hun. Fe
r Satan, os diengi rhag yr ysgol heddyw,
bydd yn anhaws genyt fyned iddi yfory.
tro i'r cnawd ychydig rwyg a rhyddid,
wy ymollwng fel hyn, a gwaeth y cym-
r gyfyngu arno rhag llaw. Cryn waith
y ffrwyno anifail gwyllt, wedi iddo un-
ith gael yr enfa allan o'i safn. Yr oedd
is y ddyweddi yn eistedd yn ddigon es-
vyth, pan oedd am dani, a diammheu na
nasai fod hebddi; ond wedi ei pherswadio,
wy dwyll Satan, i'w diosg, mor anhawdd
ld ganddi ei gwisgo drachefn! *Can. Sol.*
3. Ac am hyny, pa bryd bynag y bydd-
u ar droi oddi wrth y ddyledsdydd hon
u arall, ar yr achos yma, ystyria yn ddwys
hyn sy debygol i ganlyn. Un o'r ddau
th yma a ddaw, naill ai ti a weli dy bech-
y, ac a ddychweli gyda chywilydd a gofid
dy esgeulusdra. Ac onid llai blinder
y gweddio yn awr, nag yn y fath helynt
dy'n? Medrai ethnig ddywedyd, "Ni
echaf fi, i bryno edifeirwch;" ac oni
ylit ti fod yn gallach i adnabod bargaen
rwyg ar les dy enaid, na hwnw? Neu
te, fe fydd i'r esgeulusdra yma fagu un
all, a hwnw drydydd, ac felly ti äi ddyfn-
h ddyfnach i lyfr dy gydwobod, nes o'r
wedd y rhoddech i fyfny feddwl am ad-
wyddu dy gydnabyddiaeth ä Duw, am i
ei adael heibio cyhyd.

DOSE. II.

2il. Ymofyn o ba le y mae yr anhwyll
dd'arnat yn tarddu; ac ond odid ti gei
hos i'w fwrw, naill ai ar ryw gam-ymddyg-
l yn dy yrfa fel Cristion, neu ar dy es-
ulusdra o'r moddion parotoawl hyny a
ylit eu cymmyrd ar dy ffordd i'r ddyled-
ydd hon.
(Iaf.) Edrych ai ni ddarfu i ti ymyraeth ä
yw bechod yn wybyddus. Y mae gwrth-
ynebiad rhwng pechu a gweddio; mewn
naan oddi wrth euogrydd, yr hwn a wna
enaid yn anhÿf i ddyfod i wydd Duw, am
fod yn ymwybodol o fai. Y plentyn a
m-drealiodd y dydd, wrth chwaredu ar led,
lecha o'r golwg, neu ä yn lladarddaidd i'w
ely y nos, rhag ofn dwrddiad neu waeth,
un ei dad. Ac mewn rhan hefyd, fel y
ae yn annhrefnu y galon. Mae pechod a
weddio yn bethau mor wrthwyneb, fel y

mae yn amhossibl camu ar unwaith o'r
naill i'r llall. Amser drwg yw i dynu dwfr
pan fyddo y ffynnon wedi ei chau, neu ei
chymmysgu. Os bydd arfau y gweithiwr
wedi pylu neu fylchu, ni wneir un gwaith
iawn, nes eu minio o'r newydd. Dichell y
diafol ydyw hyn, annhrefnu ac anaddasu y
Cristion i'w ddyledsdydd, fel y byddo iddo
ei gadael ar ol. Ac am hyny, bydded dy
ofal blaenaf i gadw ffynnon dy galon yn
loyw ar hyd y dydd; gan gofio mai o
honi hi y mae y dymuniadau sanctaidd i'w
tynu, y rhai yr ydwyf i'w tywallt o flaen
Duw mewn gweddi. Gwylia rhag rhoddi
benthyg un o alluoedd dy enaid, i fod yn
offeryn Satan yng ngwaith bras a brwnt
pechod; onid e, ti ai cei allan o fin, pan
ddelych i'w arfer yn y gorchwyl ysbrydol
hwn. Llangoes dda ni fyn fod ei dysglau a'i
llestri yn fudron, pan y dylent fod at wasan-
aeth; ond yn sefyll yn lân ac yn loyw yn
eu lle, erbyn y byddo galw am danynt. Ac
felly y darlunir y gwir Gristion (2 *Tim.* ii.
21): "Pwy bynag gan hyny a'i glanhao ei
hun oddi wrth y pethau hyn, efe a fydd yn
llestr i barch, wedi ei sancteiddio, ac yn
gymhwys i'r Arglwydd, wedi ei ddarparu
i bob gweithred dda." Ond os wyt yn cael
fod euogrydd wedi casglu, ac oddi yno
ofn dyfod mor agos at Dduw, ag y dwg y
ddyledsdydd yma di; te, dieithrwech hefyd yn
dy galon at y gwaith, y ffordd oreu i ti yw
adnewyddu yn brysur dy edifeirwch, ac felly
dy ffydd, am drugaredd faddeuol, a gras
glanhao hefyd. Y mae ymrafaelion new-
ydd yn haws eu gwneuthur i fyfny na hen
gverylon; archollion newydd yn haws eu
hiachau na hen ddoluriau; brychau newydd
eu cael yn haws eugolchi ymaith, narhai wedi
lir sefyll. Plyg o flaen gorsedd gras. Dyfr-
hâ y ddaear, os gelli, ä'th ddaagrau; llenwa
y nef ä'th drist ocheneidiau am dy bechod;
ond er dim na fwrw heibio y ddyledsdydd
ar yr esgus yma; o herwydd nid dyna y
ffordd i wellhau y mater, ond i'w wneuthur
yn waeth. Drwg y gwnaeth Ionah, geisio ei
air da yn hytrach na dyrchafiad trugaredd
Duw; ac edrych pa fodd y cai efe anrhyd-
edd oddi wrth ei genhadwri, yn lle pa fodd y
mawrygid enw y Duw mawr, a'i danfonodd
ef. Ond gwaeth etto ydoedd, pan ddarfu i'r
drwg feddyliau hyn, y dylasai ymostwng o'u
herwydd, weithio ynddo, a pheri iddo redeg
hefyd, a gadael gwaith ei feistr. Felly,
Gristion, drwg yw dy waith dithau wneuth-
ur rhwyg yn dy yrfa sanctaidd, drwy ymyr-
aeth äg un pechod; ond ti wnei yn waeth,
os troi dy gefn hefyd ar Dduw yn yr ordin-
hâd hono, lle y dylit ymostwng o blegid dy
bechod o'r blaen. A all un pechod fod yn
esgus da am wneuthur arall? Yr wyt wedi
syrthio i bechod yn ystod y dydd; ai am hyny
ni weddia y nos? Yn sicr, gwell fyddai er-
fyn gan Dduw faddeuant am a wnaethost;

a mwy o ras, fel na wnelech y cyffelyb, neu waeth, yfory. Nid esgeulusdra o ddyledswydd yw y ffordd i'th dynu o'r pydew yr wyt ynddo, nac i'th gadw rhag syrthio i un arall. Gochel dy redeg dy hun ym mhellach i brofedigaeth. Yn awr yw yr amser i'r diafol ymosod arnat, pan wyt â'th arf o'th law. Y peth goreu sydd i ti i'w ddisgwyl yw ystorm oddi wrth Dduw, i'th ddwyn di, ei ffoadur, yn ol at dy waith; a pho cyntaf y delo, mwyaf yw ei drugaredd atat.

DOSB. III.

(2il.) Os wyt, ar ol ymfyniad ffyddlaw, yn cael nad yw dy galon yn dy gyhuddo o fod wedi dy anaddasu dy hun i ddyledswydd, trwy unrhyw bechod gwybyddus yng ngyrfa dy fywyd; ac er hyny yn parhau yn drymaidd ac anhwylyd i weddi; yna y mae yn debygol y deli dy hun yn fusgrell yn y parotodad i'r ddyledswydd. A ddarfu i ti gan hyny roddi ymgais difrifol, trwy fyfyrdodau addas, i chwythu tân dy reddfol ras, yr hwn, er nad yw wedi ei ddiffodd trwy unrhyw bechod anferth, etto a all fod wedi ei farweiddio, a'i gladdu dan ryw ludw, wrth dy fod yn rhy drafferthus gyda'th orchwylion bydol? Anfynych y mae y sugneddydd (*pump*) mor lawn ag y ceir dwfr allan ar y cais cyntaf; nid yw y galon chwaith yn gyffredin, mor ysbrydol, ar ol ein gofal mwyaf yn ein helynt fydol, a llawer llai pan fyddom ar y dynaf ynddo, fel ag i ymdywallt yn rhwydd i fynwes Duw, heb beth llafur i'w chodi a'i gweithio i fyny. Ie, yn fynych y mae ffynnonell gras mor isel, nes yw llafur unig yn rhy fychan i ddwyn y galon i fyny at hwyl gweddi; ond rhaid hefyd tywallt dadleuon i'r enaid, fel cynnifer o gelyrneidiau o ddwfr i'r sugneddydd, cyn y cyfyd y serchiadau. Dyma achos yr ymddiddanion hyny â'u calonau eu hunain, a gawn fod gwŷr duwiol yn eu harfer er eu ddwyn i hwyl rasol, addas i gymdeithasu â Duw yn ei ordinhadau: "Ey enaid, bendithia yr Arglwydd; a chwbl sydd ynof, ei enw sanctaidd ef. Ey enaid, bendithia yr Arglwydd; ac nac anghofia ei holl ddoniau ef;" *Salm* ciii. 1, 2. Fe dybygid fod Dafydd yn cael, neu yn ofni cael ei galon heb fod mewn crystal hwyl ag y dymunasai; pan yw yn dyblu y siars. Diau ei fod yn cael ei galon yn lled gysglyd; yr hyn a barodd iddo rwbio ei lygaid, ac ymysgwyd, ar ei ffordd at Dduw yn y ddyledswydd hon. Weithiau, y mae galw ac annog y galon yn rhy fychan; rhaid hefyd ei thrin yn ddwys, a'i cheryddu. Dyma y modd yr ymddygodd Dafydd tuag ato ei hun, ar dro arall (*Salm* xliiii. 5): "Pa ham y'th ddarostyngir fy enaid? a pha ham y terfysgu ynof?" Rhaid i adar trymion gymmeryd rhedfa, cyn y medront gael ar yr aden. Mae yn anhaws codi cloch fawr, na'i chanu ar ol ei chodi; ac felly y mae gyda ein calonau ninuau. Ni a'i cawn yn fwy

gorchwyl eu parotai i ddyledswydd, chyflawni hi, wedi eu cael i beth trefn. awr, a ddarfu i ti roddi ymgais am h. Os nad do, pa fodd y gelli wneuthur hyn esgu i roddi heibio y ddyledswydd o ac dy annhymher, pan wyt heb arfer y mo ion i gael dyfod yn rhydd o'th attalfa? mae hyn yn debyg i un yn ymesgusodi dy wrth wahoddiad i wledd, am ei fod ef ddaid heb ymwisgo, pan y mae y gwŷr e heb fyned ynghyd â cheisio gwneuthur hun yn barod.

DOSB. IV.

3ydd. Os gelli ateb y gofyniadau blaen, ac mewn peth uniondeb ddywed nad esgeulusaist foddion o barotod; e fod dy anhwylyd, a'th farweidd-dra calon aros; er nad yw y fath gyflwr mor gyffwrdd, etto y mae yn bossibl i Gristion fod rhodio ar y marwor hyn o fyfyrdod, pa ar un tro, a roddent ei enaid oll ar dân, rasusau yn silam; ac er hyny, dro arall, yw yn teimlo nemawr o wres oddi wrthy Ni a adawn mai hyn yw dy brofiad dith: am hyny, ystyria y gall fod Duw, a'i weithiau yn celu ei bresennoldeb bywiocnes y byddo yr enaid wedi ymalfydw â'rgwa. Ac oni fyddai yn ofid i ti gollu y fath o Pa mor fynych y cefaist dy hun ar dy chwyniad i ddyledswydd, heb un awel, llong, pan goder hwyliau gyntaf, yn ond prin wynt i'w llenwi tra y mae dân lan a chysgod coedydd, ond yn cyfarfod awel gref pan elo i'r môr agored? Ie, ni ddarfu i ti erioed gychwyn i ddyledswydd fel y disgylbion i'r môr, â'r gwynt i'th wneb, fel pe buasai Ysbryd Duw, yn lle dy gorthwyo ym mlaen, yn meddwl dy yruol, ac er hyny profi fod Crist yn rhodio cyn i'r ddyledswydd fod drosodd, a gwneutur taith lwyddiannus yn y diwedd? chanfu Abraham mo'r hwrdd a ddarpar Duw yn aberth, hyd onid oedd yn y mynydd. Yn manydd gweddi y gwelir Duw; i.e., fyddo y Cristion, fel y mae yn fynych, myned i fyny y bryn â chalon drom, ar fod etto yn methu cael golwg arno. (C hyny, paid a throi yn ol; ym mlaen â yn galonog; fe all fod yn nes atat nag wyt ti yn tybied. "Rhoddir i chiwi," m Crist, "yn yr awr hono;" *Mat.* x. 19; "dydd y llelais, y'm gwrandewaist," m Dafydd, "ac a'm cadarnheiaist â nerth enaid;" *Salm* cxxxviii. 3. Nid yw hyn peth y mae yr addewid yn rhoddi i ni sydd am danu. "Ffordd yr Arglwydd sydd gadernid;" *Diar.* x. 29. Yn gmlhws fel y mae gyda dyn, yr hwn, w gychwyn i daith, a deimla flinder a gwen yn ei aelodau; ond po pellaf yr ei, mwyaf yw ei rym, fel pe byddai nerth yn codi i'r awyr, fel y mae yn ei gerdded. Yn ddiau, ym saint yn profi hyn yn ffydd Duw (*Salm* cxix. 55, 56): "Cofiais dy enw, Arglwydd

as : a chedwais dy gyfraith. Hyn oedd
 ff; am gadw o honof dy orclymynion
 Ei feddwl yw, wrth roddi ei ymgais
 eu i'w cadw, fe gafodd hyn yn ei ffordd,
 yn abl i'w cadw yn well; ac y mae yn cyf-
 i hun wedi ennill cymmaint, fel y mae
 mffrostio o'r peth, "Hyn oedd genyf."
 y y mae y Cristion yn ennill hyn wrth
 dio yn well. Ni a allwn weled yn y
 ol am y plant hyny a ddaethant o groth-
 liffwrwyth, eu bod er mwy o gysur i'w
 ni, ar ol eu cael. Tyst Isaac, Samuel,
 oan, po mwyaf y diffrwythra a'r marw-
 dra oedd ar dy galon, i'th deimlad di,
 o lleiaf dy obaith o gael allan o'th an-
 l, mwyaf fydd y gorfoledd a ddwg pre-
 coldeb cysurod Duw i ti. Y cynnorthyw
 tel fel hyn ar dy ben, tu hwnt i'th ddis-
 liad, fe fydd yn wir Isaac, yn blentyn
 enydd a chwerthin. Ac y mae rhes-
 dwbl amlwg, pa ham y gwna Duw fel
 af.) Y mawr hyfrydwch a gymmer Duw
 yn ufudd-dod pur. "Mae ufudd-dod yn
 nag aberth;" 1 Sam. xv. 22. Gweddio
 yn ufudd-dod sydd fwy nag yw gweddio
 do ei hun. Dyma y gem yn y fodrwy
 eddi. Yn awr, gweddio mewn ufudd-
 pur, yw ymosod ar y ddyledswydd pan
 pyddo cymmorth yn y golwg, neu galon-
 yn y teimlad. Myned i ddyledswydd,
 am fod Duw yn estyn allan ei law i'n
 wain, ond am ei fod yn dal allan ei air
 gorchymyn. Megs pan orchymyno cad-
 i'w wfr deithio, pe safent hwy ar am-
 lau, a gwrthod myned, oddi eithr iddynt
 gwell dillad, eu tâl mewn llaw, neu y
 elyb, ac yna hwy deithient; ni byddai
 yn ddim prawf o'u bod yn fyddin ufudd-
 us. Ond os bydd iddynt, ar ddarlleniad
 orchymyn, godi allan yn ebrwydd i'r
 h, pe byddai a'r ganol nos, a hwythau
 arian yn y pws, na dillad ar y cefn,
 adael eu holl ofal am y pethau hyn, i'w
 ben, a gofalu yn unig am gyflawni ei
 ymyn; gellir dywyded bod y rhai hyn
 feithio mewn ufudd-dod. Felly pan
 do enaid, a'r ol arferiad ffyddlawn o
 lion, yn profi ei galon yn farwaidd a
 yr-drom, etto, mewn ufudd-dod i'r gor-
 myn, yn plygu i lawr, er teimlo ei hun
 wan, nes yw yn ammheu a fydd gan-
 nerth i lesaru gair wrth Dduw, fel y
 addai, etto yn well ganddo fod yn fud dan
 ostwng, nag anufuddhau wrth ddiange
 g ei waith, dyma enaid ufudd; ac fe all
 gwyl cyfarfod â Duw yn ei ffordd, yn
 yn iddo yr hyn nad ydyw efe yn alluog
 ddwyn i'w ganlyn. Fel y gwahan-gleif-
 y, y rhai pan aethant mewn ufudd-dod i
 hymyn Crist i ddangos eu hnnain i'r
 criaid, a iachawd a'r y ffordd, er
 oedd dim arwydd o hyny pan gychwyn-
 ant.

PENNOD X.

*Ei ddichell i ddwyn ym mlaen ryw orchwyl bydol, i
 fyned trwyddo yn gymmhwys pan ddeto awr
 weddi y Cristion; a pha fodd i'w gwrthsefyll.*

2. DYFAIS arall sydd gan Satan, i beri i'r
 Cristion roddi heibio gweddi, fel peth allan
 o amser yn bresennol, yw dangos rhyw or-
 chwyl bydol neu gilydd, fydd i'w ddwyn i
 ben; a gwrthio y fath feddyliau a'r rhai hyn
 i'w droi heibio—nid oes genyf amser yn
 awr i weddio; y mae y gorchwyl hwn i'w
 wneuthur, a'r achos angenrheidiol arall yn
 galw am danaf; am hyny, mi a'i rhoddaf
 heibio, nes y câf fwy o ryddid a hamdden.

I'th arfogi di, Gristion, yn erbyn y fath
 esgusodion o oed, mi a roddaf ychydig gyf-
 arwyddiadau.

(1af.) Gochel orlwytho dy hun â thra-
 fferthion bydol; yr hyn a wnei, os deli afael
 mewn mwy o'r byd nag a gyd-saif â'th fas-
 nach nefol, a'th alwad fel Cristion. Y mae
 Duw yn rhoddi i ti genad i dalu i'r byd yr
 hyn sydd yn eiddo y byd, ond ni fân i ti
 roddi i'r byd yr hyn sy ddyledus iddo ei hun,
 ysbeilio Mair, i fenthycio i Martha; dwyn
 oddi ar dy ystafell i dalu i'th gegin. Fe fwr-
 adodd dy alwedigaeth dymmorol i fod yn
 gynnorthyw i'th un ysbrydod; gan hyny, fe
 fydd yn bechod arnat wneuthur y peth hyny
 yn rhwystr, a roddwyd i ti fel cymmorth.
 Ac ni thâl y peth sydd ynddo ei hun yn
 bechod ddim i fod yn ddael am esgeuluso
 dyledswydd. Ychydig a wellhâ y gwas
 hwnw ar y mater, a wnai esgus wrth ei
 feistr am adael ei waith ar ol, drwy ddyw-
 edyd ei fod wedi yfed gormod, pan ddylasai
 fyned yn ei gylch. Ac nid gwell fydd dy
 esgus dithau am fyned heibio i'th amser
 gweddi, os dywedi fod genyt gymmair i'w
 wneuthur yn y byd, fel na ellit gael amser
 i weddio.

(2il.) Cais fod yn gall i bigo dy amserau i
 weddio. Ym mhethau y byd, os bydd gen-
 ym ddau orchwyl i'w dibenu yr un diwrnod,
 ni a'u lluniwn, os bydd modd, fel na rwystr-
 ont eu gilydd. Ac yn sier, fe ragflaenid yn
 gyffredin lawer o derfysg ac annhrefn yn
 ein rhodiad, pe arferem ragofal duwiol i
 gyd-heddychu yn feunyddiol, achosion ein
 hystafell a'n gweithdy; ein haddoliadau a'n
 bydol orchwylion; trwy osod i bob un ei
 gyfran o amser. Mae y prophwyd yn sôn
 am waith yr hael yn dychymmyg haelioni.
 Prin y byddem yn fyr o amser i weddio, pe
 gwnei ein calonau ond cymmhell ein penau,
 i ddychymmygu ac astudio pa fodd y gellid
 trefnu ein hachosion ereill, heb eu bod yn
 rhwystr i'n gweddiau. Y brethyn a dybia
 dyn anfedrus yn rhy fychan yn ddilledyn,
 gall gweithiwr da wneuthur un o hono, a
 gadael peth at ddefnydd arall hefyd. O! y
 mae yn gofyn llawer o fedrusrwydd, i ddi
 amser allan yn ddigolled.

(3ydd.) Bydd sier o ddal iawn farn am

weddi yn dy feddyliau. Fe edrych rhai ar bob munyd o amser a dreulir yn yr ystafell, fel wedi ei gollu yn y siop; ac nid rhyfedd fod unrhyw rith o orchwyl yn ddigon i gadw y fath yma oddi wrth weddi; gan eu bod yn ei chyfrif yn rhwystr i'w hachosion ereill. Ond yr wyf yn gobeithio, Gristion, ddarford dy ddyngu di yn well. A yw y gweithiwr yn liadd llai o ƒd, o achos hogi ei bladr? A wna gras da o flaen bwyd niwed i'r ciniaw. Na wna: ac nid yw gweddi chwaith yn un rhwystr i'r Cristion yr ei orchwyl, na'i fwyniant; ond yn rhwyddo y naill ac yn sancteiddio y llail. Fe gytuaa pawb nad oes dim sydd well at ddwyn gwaith ym mlaen na'i ddechreu—fel wrth ddirwyn cengl sidau—yn yr iawn ben. Ac yn sicr, iawn ben unrhyw orchwyl yw ei ddechreu gyda Duw, a'i alw ef i'n cymmorth. "Yn dy holl ffyrdd cydnebydd ef; ac efe a hyfforddia dy lwybrau," &c.; *Diar.* iii. 6.

(4ydd.) Po mwyaf o fylchau ac anhawserau yr elych drwydynt, i gadw dy gymmunde b â Duw, mwyaf caredig ei cymmerir ganddo. Nid oes un cyfaill â mwy o groesaw iddo genym, na'r hwn a ddaw drwy lawer o drafferthion i ymweled â ni. Ychydig gost, ac felly ychydig gariad, sydd yn ymweliad dyn segur, a ddaw i edrych am danon, am ei fod heb ddim arall i'w wneuthur. Un mewn mawr ffafir gyda Christ oedd Mair, yr hon a sathrodd y byd dan ei thraed, i gael eistedd wrth draed Crist. Hynod hefyd y nodir zel gwyr Bethsemes, er iddynt gam-y addedd yn y diwedd, hwy adawsant eu "cynauaf gwenith, i offrymu aberth i'r Arglwydd;" 1 *Sam.* vi. 13, 14.

(5ed.) Bydd onest a diduedd, yn ystyried pwys ac angenrhaid y gorchwyl hwnw a gynnygir fel esgus am beidio cyflawni y ddyledswydd hon yn dy amser arferol. Nis gellir gwadu na ddielion y fath achos angenrheidiol ddygwydd, am ba un y gall y Cristion, heb bechu, adael heibio y parchus gyflawniad o'i addoliad, hyd auser arall mwy cyfaddas. Pwy sydd yn ambeu nad all, ar ei godiad, fyned i ddiffodd tân yn nhŷ ei gymmydd, er i hyn ei gadw o'i ystafell, a'i attal rhag offrymu i Dduw ei barchus foreuol aberth o fawl a gweddi, fel y byddai arferol? Ie, er na byddo yr achos mor neillduol; os bydd (1.) Ynghylch yr hyn sydd yn gyfreithlawn ynddo ei hun. (2.) O bwys. (3.) Yn angenrheidiol i fyned ato y pryd hyny. (4.) Os bydd yn ein dal ni, heb i ni ei dynu arnom, drwy ein bai ein hunain. Ond gochelwn argraphu rhyw rith o angenrheidrwydd, ar bethau a gorchwylion, yn unig i foddio ein calonau dioglyd âg esgus taciws; fel y gallom arbed poen cyflawni y ddyledswydd, ac hefyd diange rhag sen ein cydwybod am fod heb ei chyflawni. O'r holl ynfydion, hwnw ydyw y gwaethaf, sydd yn gyfrwys i roddi siom iddo ei hun,

yn enwedig i'w enaid. Disgwylied y f un, po gwanaf yw cyfarthiad ei gydwyl yn bresennol, mai tostaf fydd ei bratll pan roddir ei safn yn rhydd. Drachefn, bydd yr achos, fel y dywedwyd, yn bw fawr ac angenrheidiol i'w alw yn breser oddi wrth y parchus gyflawniad o'r ddy swydd hon; yna, yn gyntaf, Dyrcba galan at Dduw mewn saeth-weddi, am weiniad a noddod. Dyma yr arf byr syti i'w drin er dy amddiffyniad rhag tem iwn, pryd na byddo amser i ti dynu y clyf hir o weddi reolaidd. Ti eili weddic hyn ym mhob rhyw fan, cymdeithas gorchwyl. Nid yw ymadrodd byr m ymsang yn dyrys ystyr ymresym ond yn ei harddu. Ac ni wna saeth-w fer ddyrys unrhyw orchwyl y by dithau arno, ond ei rwyddhau yn fawr. ail, Bydd ofalus i ail enmill yr hyn wyt gollu yn dy gymmunde b â Duw, o achos darfferth yn y byd. Bydd helaethach y ddyledswydd ar y cyfle nesaf. Y cref sydd yn cael ei gadw oddi wrth ei gi ddydd y farchnad, fe ä yn gynt at ei swp ac a fwyty hyny llawnach y nos. Os weh eich cysgu un noswaith gan draffid deuwl o hyd iddo y nesaf. O! na byd gan ddoethed dros ein heneidiau, am yr a gollasom un tro, a'n bod yn ei enmill y gyda mantais dro arall, drwy fod ein cal yn dyblyg ymhelaethu mewn gweddi myfyrdodau?

PENNOD XI.

Dichell Satan i ddigaloni y Cristion rhag gwe drwy haeru fod y trugareddau y mae a gofyn yn ormod iädo obeithio byth eu derbyn

Ystryl 3. Y MAE Satan weithiau yn galoni y Cristion pan ar ei ffordd ddyledswydd hon ä mawrder y pethau ganddo i'w gofyn. Yr wyt ti yn myr weddio, medd efe, ac a wia dim llai dy di na maddeuant pechod, cariad, a Duw, a bywyd tragwyddol? &c. Yn yr wyl yn eofu iawn ar eiddo un arall yn rhy dda wrthyt dy hun, os wyt yn gwyl croesaw wrth ddrws Duw ar y neges hyf. Rhoddion yw y rhai h gedwir i ryw ychydig o rai anwyl, feiddi di dybio mor dda o honot dy a'th fod yn un o honnynt?

Yn awr, i'th arfogi di, Gristion, yn e hyn, fel na chadwer di oddi wrth y dd swydd, ac nad elych ati dan betrus achos hwn, mawredd y pethau yr wyt gofyn, ystyria y pethau a ganlyn, er rb ateb llawn i'r draws-ddad hon.

DOSE. I.

Jaf. Gosod fawredd y Duw yr wyt myned ger ei fron gyferbyn ä mawredd

nd. Erchir i ni (*Deut.* xxxii. 3) "rodidi
 edd i'n Duw;" ac os un amser, yna yn
 weddio. Pe byddai i ti osod dy
 ad o flaen rhyw dywysog bach, neu
 ar salw, byddai achos i ti ystyried rhag
 y lestr yn omod. Ti ellit, o bossibl,
 ar unwaith gan y fath, fwy nag a fedd
 "Achub, fy arglwydd," ebe y wraig yn
 Samaria, etto nid oedd dim ymwared;
 achub yr Arglwydd, pa fodd yr achub-
 i!" 2 *Bren.* vi. 26, 27. Neu, y mae yn
 l, os bydd ganddo allu, y bydd diffyg
 ymadael â chymmaint ag a wna dy
 Y mae llawer Nabal yn y byd, y
 ybyddion ag a gyfrifant bob tamaid
 i gollu ond a â i lawr eu gyddfau eu
 n; i.e., rhai a warafunant i'w boliau eu
 peth angenrheidiol. Pe byddet wrth
 y fath yma, ni elli ddisgwyl ond
 w oeraidd. Ond cofia, y mae efe yn
 mawr—mawr mewn gallu—nis gelli
 goimrod. Ti elli dynu dy saeth at
 n, ac etto heb ergydio dros ei allu ef;
 edi i'th ddymuniaidau esgyn i'r radd
 efe a fydd uwch dy law; o herwydd
 dychion wneuthur yn dra rhagorol y tu
 i bob peth yr ydym ni yn ei ddymuno,
 a eu meddwl?" *Eph.* iii. 20. A ddy-
 tedi gael maddeu dy bechodau? Dymun-
 eddi di, pe byddet heb fod yn ormod;
 ddichion Duw ar unwaith ddileu y
 w, dyled mor anferth, sydd wedi bod
 o flynyddoedd yn casglu drwy barhaus
 ad o bechu, a chyda'r fath ystôr o
 n a thrugareddau ag a gefais i, a'r
 s annedwydd drwy hyn y wneuthur
 dd mwy? Dichon, y mae yn un a all
 yn helaeth, heb gam âg ef ei hun, na
 colaeth oddi wrth neb arall. Gan mai
 law ef y mae awdurdod bywyd a
 colaeth, nid yw yn attebol i neb am
 redoedd o gyfiawnder na thrugaredd
 th: "Pwy yw yr hwn sydd yn dam-
 Duw yw yr hwn sydd yn cyfiawnhau;"
 viii. Yn wir, er i ddyd faddeu i ti
 a wnaethpwyd âg ef, nis gelli feddwl
 yny fod Duw wedi dy ryddhau. Gall
 gofaint ef fod byth yn aros arnat. Ni
 on dyn rodidi ymaith hawl Duw. Pe
 ai dyn mor dirion a naddeu i'r lleidr
 sbelliodd ef, etto, nid yw yn ei allu ei
 au oddi wrth gosg y gyfraith. Ond
 brenin, gosodwr y gyfraith, a faddeu,
 neb wrth-ddywedyd. Os gweithred o
 redd a wna Duw, yr wyt tithau yn
 l yn wir, o herwydd yn ei law ef y mae
 lu. Ai rhyw chwant meistrolgar y dy-
 t ofyn ymwared rhag ei ormes? Y
 y Duw y gweddï arno yn abl i agor
 dy garchar, ac i'th wneuthur di, gar-
 wr truan, yn ŵr rhydd. Dichon rodidi
 i hyn, dy elynion, fel llwch i'th gledd-
 sofi i'th fŵa; i.e., eu difetha â tharawiad
 gada: "Yr Arglwydd a edrychodd ar

yr Aiphtiaid, ac a derfysgodd eu byddin;"
Ecsod. xiv. 24. Yr oedd ei edrychiad gan
 drymed a maen melin am eu gyddfau; buan
 y soddasant, y march a'r marchog, fel plwm
 i waelod y môr. Ac nid yw pechod a Satan
 ddim mwy o flaen Duw, nag oedd Pharaoh
 a'i fyddin. Mewn gair, ai cysur a ddymun-
 it ofyn, pe gellid ei gael? O! gwybydd,
 Creawdwr yw yr hwn yr wyt yn galw arno,
 pe byddai dy galon mor wag o gysur ag oedd
 y byd afluniaidd o oleuni: *Gen.* i. 2; etto,
 gall efe, â'i air, beri i nef newydd o lawen-
 ydd godi o'th enaid cymmysgwyd, ac i ti gamu
 mewn moment allan o dywyllwch i oleuni.
 Nid yw ei drugaredd chwaith ddim llai na'i
 allu. O! ymollwng, gan hyny, i'r môr di-
 derfyn, diwaelod, hwn drwy dy ffydd;
 edrych ar ryfeddodau Duw yn y dyfnder-
 oedd hyn; ac na sâf i resymu dy hun i
 anghrediniaeth, drwy ddim cymmuhariaeth-
 au anwedds rhwng Duw a'r creadur calon
 gyfng. "Duw yw efe, ac nid dyn." Nid
 oes un o'r diffygion hyny i'w cael yn ei
 drugaredd ef ag ydym ni, greaduriaid diallu,
 yn eu cael yn om ein hunain. Nid yn yr haul
 y mae y gwan-lesni a welwn weithiau arno,
 ond o'r cymmylau sy rhyngom ni ag ef y
 mae. Nid yw y ser fel llygad yn cau
 ac yn agor fel y meddylir; ond hyni, o
 achos eu mawr bellder a gwendid ein llyg-
 aid, sydd yn methu dal golwg yn ddiysgog
 arnynt. Nid oes chwaith i'r ofnau a'r am-
 mhenon a gynwysir gan eneidiau tentiedig,
 er anghlod i drugaredd Duw, un sail yn y
 dwyfol hanfod; ond rhyw fwbachod ydynt,
 y mae Satan yn cymmyrdd y fantasia i'w
 harswydo â hwy, trwy rym tywyllwch eu
 hysbrydoedd trallodus, a'u dychymmygion
 camsyniol. O! gan hyny, gochel anffurfio
 wyneb caruaidd hawddgar drugaredd Duw,
 sydd yn gwenu yr un modd ar bob enaid
 tlawd, edifeiriol, ac erfyniol. Gochel ddy-
 chymmygu bod y llygad hwn o eiddo Duw
 yn draws, ac yn edrych yn fwy tirion ar y
 naill na'r llall; rhag i ti wrth hyn, fradychu
 ei enw gogoneddus ef, i gael ei rwygo yn
 ddrylliau gan dy anghrediniaeth creulawn.
 Os unwaith y deui i bortreadu Duw yn dy
 feddyliau, fel un hwyr-drwm i wrandaw un
 a all droi ymaith rhag ateb dy weddiau
 a'th ddagrau, yn ddiiau wedi hyn fe fydd yn
 hawdd i Satan dy ogwyddo i wneuthur un-
 rhyw bechod i'w erbyn, am na ddisgwylu un
 drugaredd oddi ar ei law.

DOSE. II.

2il. Gosod yr addewid yn erbyn dy ofnau.
 Nid oes un drugaredd a elli ddymuno, nad
 yw wedi ei haddaw ym mlaen llaw i weddi
 ffydd. Y mae yr hyn sydd arnat ei eisieu
 wedi ei ganiatau eisoes yn y nef; yn unig y
 mae Duw yn aros dy ddyfodiad at orsedd
 gras, yno i rodidi i mewn dy hawl i'r addew-
 id, cyn iddo ef ei rhoddi allan. Y mae y
 drugaredd ym mru yr addewid, ond yn aros

am dy weddi ffyddiog, i roddi iddi ei llawn ryddhâd: "Y plant a ddaethant hyd yr enediggaeth," ebe Hezeciah. Y mae yr addewid yn feichiog; "am hyny dyrcha dy weddi dros y gweddill sydd i'w gael;" *Esa.* xxxvii. Fel pe dywedasai, Os oes diin a rydd help, gweddi ydyw. Beth mwy a all erfyniwr ddymunio wrth gyfeirio at ei frein am ryw ffafir fawr, na chael sierhau iddo, nid yn unig fod y brein o natur dyner dosturiol, ond hefyd wedi ymrwymo i roddi y peth sydd yn ei feddwl ef ei ofyn? Ac ai addewidion Duw yn unig a gaiff eu cyfrif yn ysgrafn a diwerth? Oni chlywsoch chiwi am addewid fel yma, "Gofynwch, fel y byddo eich llawenydd yn gyflawn?" A ddarfu i air ofer erioed ddiferu oddi ar wefusau gwirionedd? A ydyw efe yn gosod ordinhâd heddyw i'w galw yn ol yfory? Ai ië, a nag e yw ei eiriau? Ynte yn hytrach, ië, ac amen, heb gyfnewid? *2 Cor.* i. 20. Mae y tlodion yn arfer bod yn graff eu llygaid. Fe welodd gweision Benhadad oleuni drwy dwll bychan, ac a gasglasant oddi wrth ychydig o eiriau tirion o enau Ahab, fod trugaredd yn ennyn yn ei galon ef at eu meist, a gwnaethant frys i'w chwythu. Fe ganfu loab mysgaroedd Dafydd yn gweithio tuag at Absalom drwy ffenestr ei wynebpryd ef; ac am hyny, y mae yn gollwng i lawr ddammeg y wraig o Tecôa, fel llestr i dynu allan y drugaredd oedd yn ei galon, megys dwfr mewn ffynnon ddoen. Pa faint mwy o annogaeth sydd genyt ti, Gristion, i ddadleu â'th Dduw, yr hwn nid wyt i fwrw rhyw amcan am ei feddyliau, ond sydd genyt sierhâd addewidion eglur am dy lwyddiant! O! y fath ynfydion, ac mor hwyrfrydig o galon ydym i gredu daionus air Dnw! Os rhybiodd Moses y buasai ei frodyr yn deall y rhoddai Duw ymwared iddynt oll drwy ei law ef, am iddo ymweled â hwy, ac achub yn garedigol un gŵr o Israel o law ei orthrymwr; pa faint mwy y gall Duw ddisgwyl i'w bobl fod yn deall ei fwriadau o gariad tuag atynt, pan y mae yn agor ei galon mor amlwg o flaen eu ffydd, trwy ei addewid, ac wedi selio ei gwirionedd hi â chynnifer o esamplau, i ba rai y mae eisoes wedi cael eu llwyr gyflawni? Ac a ydym ni fyth yn darllen yr addewidion, fel yr eunuch gynt yn y lle melus hwnw (*Esa.* liii.), ac heb ddeall eu hystyr? A ydym ni etto yn eistedd mor agos i'n cysur, fel Hagar wrth y ffynnon, â'n llygad wedi eu hattal rhag ei chanfod? A fedrwn ni o hyd rodio dros yr addewidion, megys tir diles, pan y gallen ond cloddio ychydig iddynt, ddyfod o hyd i drysor a dalai ein holl ddyledion, ac a gyflawnai ein holl angenion?

DOSB. III.

3ydd. Gwyneba dy ofnau, nid yn unig â mawredd yr addewid, ond hefyd â'r gwerth prifawr ar gyfrif pa un y rhoddwyd hi. Y

mae Crist wedi talu am y peth yr wyt ddeisyf. Yr wyt ti yn wir yn gofyn e ond y mae Crist yn holi yr un peth fe ed. Trugarog yw Duw wrthyt ti, oni iawn ato ef. Am hyny, Gristion, er t gweddi i ti soddi dy hun is law y drugleiaf yn dy feddyliau dy huauan, etto yn perthyn i ti fod yn dyner o enw da haeddiant yr hwn sy mor bell uwch trugaredd fwyaf a elli ofyn, ag wyt i y leiaf. Ychydig ddiolch a rydd y T am fwrw anfri ar ei Fab, i'r hwn y mae ei hun wedi rhoddi y fath ogoniant; i rhydedd yr hwn sy mor gydbbledied ciddo ef ei hun, fel y mae pa beth sydd yn dianrhwydeddu y Mab, yn dianrhwydeddu y Tad a'i hanfonodd ef.

Yn awr, y mae tair rhagorffraint a caswyd i bob credadyn; ac nis gallwng un o honynt i golli heb ddiarhbw iddo ef.

(1af.) Y mae wedi pwrcau i ni ryddhâd weddio. Buasai yn farwolaeth i ni o ar y fath neges at Dduw, oni buasai i balmantu ffjordd â'i waed, a chael i ni fodfa rydd: *Heb.* x. 17

(2il.) Gallu i weddio, trwy bwrcast mhorth yr Ysbryd i ni, a elwir am "Ysbryd yr addewid;" *Eph.* i.

3ydd. Sier attebiad i'n gweddïau: beth bynag a'r a ofynoch i'r Tad yn f i, efe a'i rhydd i chiwi;" *Ioan* xv. 23. wir, ei waith ef yn y nefoedd yw addachos ger bron y llys, a chyflwyno e fel arian tâl am yr hyn oll a ofyn ei rhag bod dim petrusder yn erbyn e ffyniadau. Felly y mae yn rhaid i ti ai dileu yr erthygl yma o eiriolaeth allan o'th gredu, neu ynte roddi dy gwylydd am amhieu dy groesawiad Duw, pan y mae genyt y fath gyfaill y llys i siarad drosot.

DOSB. IV.

4ydd. Ni ddichon mawredd dy er beri i ti aflwyddo, am mai i'r rhai sy gofyn mwyaf y mae y croesaw n Pwy ydyw y bobl a wgir arnynt wrth gras, ond y rhai a roddant allan rym muniadau a'u taerineb mwyaf am re o'r pwys a'r gwerth lleiaf (*Hos.* vii.) ni leasant arnaf â'u calon, pan udas e gwelyau." Craffwch! nid oedd y glwydd yn cyfrif eu bod yn gweddïo eu holl swm. A pha ham, ond fod i'w aid ganddo eu hegwyddor wael am yn gwaeddi yn uchaf am yr hyn oedd ei werth, fel y mae y geiriau nesaf yn "Am fyd a melyswin yr ymgasglasari iasant oddi wrthyf." Hwyllydd gny a'r grawnwin yn helaeth; a dyma y c a wnaent eu tro, fel na flinent y n ddim yn chwaneg. Y mae Duw, ei g a'i ffafir, yn gwbl allan o'r ystori. iddynt hwy gael boliau llawnion, dy

niad ar ben; hwy a adawant roddion
 e i rai sydd yn eu caru yn well. O!
 mae Duw yn fflieiddio yr eneidiau gor-
 a'r gweddïau anianol yma! Pan
 o dynion yn degymu y mintys a'r
 yn yn eu gweddïau, ond yn gadael heibio
 iu trymaf yr addewid, y cyfryw ag yw
 yng Nghrist, maddeuant pechodau,
 newydd, gras yma, a gogoniant
 hyn; neu pan fyddont yn cyfeirio at
 enion gwael ac isel wrth weddio am y
 iu hyny sydd ynddynt eu hunain yn or-
 a gwerthfawr. Ac am hyny, paid ag
 o herwydd mawredd dy ofyniad; y
 yn well gan Dduw roddi i ti y nef na'r
 ar: gall roddi ei hunan gyda mwy o
 onrwydd i ti, sy mewn cariad âg ef, na
 wen o fara i un arall sydd yn ddichwen-
 iad tuag ato. Po mwyaf y drugaredd
 yn ofyn, mwyaf y deyrnged a'r aredreh
 yddo. Po lleiaf y mae yn roddi, lleiaf
 e yn dderbyn. Wrth ddeisyfiadau isel,
 ei gam â dau ar unwaith. Yr wyt yn
 i ti dy hun wrth aros yn fyr o'r peth-
 lit eu cael ond eu gofyn—wrth ddwyn
 e bach pan ellit gael llenwi 'un mawr.
 cid mor hardd ag y dylit yr wyt yn
 eathur â dy Dduw; o herwydd po lleiaf
 s a dderbyni ganddo, lleiaf o glod a
 hweli iddo. Y mae y pelydr oddi wrth
 h o oleuni yn cyfatfeb i'r corph y bo
 lewyrch o hono. Lle y mae gras yn
 y mae ei adlewyrchiad o glod ac an-
 edd i Dduw yn rhwym o fod yn wan a
 yll.

DOSE. V.

d. Y mae Duw mor haelionus a pharod
 gyfranu ei drugareddau, fel yr â tu
 i gymmedroldeb ei bobl yn gofyn. Y
 yn rhoddi yn gyffredin eu deisyfiadau,
 ros ben hefyd, mwy nas gall eu ffydd a'u
 yr ofyn. Fel Naaman, pan ofynodd Ge-
 un dalent, mynodd gymmhell arno
 cy. Fe ofynodd Abraham blentyn gan
 w pan oedd heb un etifedd i gynnal ei
 ar ei ol, ac y mae Duw yn addaw iddo
 a mwy na hyny, hiliogaeth liosog; ie,
 y etto, y fath had ag y cai holl genhedl-
 fel y byd eu bendithio ynddo. Iacob yn-
 ni ofynodd ond nodded gan Dduw, fel
 y llai fyned a dychwelyd yn ddiogel; a
 d a dillad ddigon i'w gadw yn fyw:
 G. xxviii. 20, 21. Wele, hyn a gaiff efe;
 y mae Duw yn ei weled yn rhy fychan,
 am hyny yn ei ddanfod ef adref yn ddwy
 fiai, er iddo fyned allan heb nemawr gan-
 ond ei ffon ymdaith. Fe weddiodd So-
 lon am ddoethineb; a chafodd gyfoeth a
 thineb yn chwaneb: 2 Cron. i. 10. Y
 wig o Ganaan a ofynodd friswionyn, megys
 n ei; ac fe roddodd Crist iddi gyfran
 ptyyn. Hi a ddaeth am iechedy i'w merch
 d dan anhwy; a chyda hyny, hi gafodd
 yd i'w henaid ei hun. Ie, rhoddodd

Crist agoriad ei drysor yn ei llaw, a chenad
 megys i gymmeryd y peth a fynai: "Bydd-
 ed i ti fel yr wyt yn ewyllysio;" *Mat. xv.*
 28.

PENNOD XII.

*Yngais Satan i rwystro y Cristion mewn gweddi,
 drwy feddyliau gwibiog, crwydredig; a'i fur-
 iad yn hyny, yn erbyn Duw, ac yntau herbyn.*

2. BWRIAD arall sy gan Satan yn erbyn y
 Cristion yw ei rwystro yn y ddyledswydd
 pan nas gallo mewn un modd ei gadw oddi
 wrthi. Mae yn anhawdd diange i weddi
 heb i'r diafol wybod pa beth yr wyt arno.
 Y mae efe yn gwylio dy symmudiadau,
 Gristion, ac wrth dy sodlau pa le bynag y
 tröech. Os byddi ar ryw waith drwg, bydd
 wrth ei benelin i'th ysgwyd ym mlaen, neu
 o'th flaen i symmud pob careg o'r ffordd
 rhag i'r bel gael ei battal, ac i ti fino ar y
 swydd o herwydd yr rhwystrau a gyfarfydd-
 ech. Pan gyntaf y dychymygodd Ahab
 yr anturiaeth o fyned i Ramoth Gilead, yr
 oedd gan Satan ei brophwydi yn barod, i
 beri iddo fyned a llwyddo. A phan dde-
 chreuodd meddyliau beilchion weithio yn
 Dafydd ei hun yn ei ogwyddo i rifo y bobl,
 dyna Satan yn dal ar y fantais, ac yn cyd-
 weithio â'r drygnaws oedd yn dechreu
 casglu, fel y chwyddodd yn fuan i'r dolur
 crawnllyd hwnw, a agorodd Duw â'r farn
 lem o dori i lawr ddeng mil a thrigain o
 wyr. Ac y mae efe mor fedrus a pharod i
 luddias gorchwyl da ag yw i yru ym mlaen
 y drwg. Pan ddelo meibion Duw i ym-
 ddangos ger bron yr Arglwydd, ni anghofia
 Satan fod yn eu mysg. Nid ydyw efe yn
 ymwrthodwr; nid ydyw yn petruso bod yn
 bresennol pan fydddech yn addoli Duw: yn
 wir efe yw y cyntaf i mewn a'r olaf allan.
 Weithiau, ti a'i cei ef yn gwthio i mewn
 gynhryfiadau o'i eiddo ei hun; weithiau,
 yn defnyddio yr eiddot tithau: pan welo
 feddwl ofer, pechod wedi ei godi gan dy
 ddychymmyg chwareus, fe ddaw gyda thi i
 ddilyn yr helwriaeth. Sier yw y bydd efe
 yn rhyw ben i holl afreolaidd weithrediadau
 dy galon; naill ai yn dad i'w cenhedlu, ai
 yn dadmaeth i'w magu.

Mae y rhai hyn mor aml ac amrywiol, fel
 y mae cyn hawsed cyfrif y mân lwch ym
 mhelydr yr haul, ag yw rhifo a didoli y
 pentwr cymmysgld yma o feddyliau gwib-
 iog a ddaw ar draws y Cristion mewn
 gweddi. Weithiau, efe a deif i mewn y
 fath ag sy halogedig, balch, a fflaidd, ie,
 meddyliau cableddus; nid o'i fod yn go-
 beithio cael croesaw i'r fath ymwelwyr yng
 nghalon y Cristion; llawer llai cael ei gen-
 ad ef iddynt breswyllo yno; ond i wneud
 annhrefn a therfysg yn ei ysbryd, fel megys

ar fraw disymmwrth mewn cynulleidfa, y rhwystrer y gorchwyl sanctaidd y mae efe arno. Weithiau, fe gyfyd feddyliau sydd ynddynt eu hunain yn dda, ond yn am-berthynasol: rhai a fawr wrthwynebid ganddo ar amser arall; ond yn awr fe'n dwg ym mlaen, am eu bod y rhai tebycaf i gael croesaw, ac yn addas ddiagon at ei fwrriad ef yn breseinnol, er eu bod yn ffrwyth da am eu bod allan o dymmor. Yr wyf yn coelio nad oes neb a wŷr am weddi ac am ei galon ynddi, nad ydyw yn gwybod mewn rhyw fesur am y fath yma o ddichellion Satan. Y mae ganddo ystryw ac anneliad dwbl ynddynt, yn erbyn Duw ei hun, ac hefyd yn erbyn y Cristion.

DOSE. I.

1af. Yn erbyn Duw. Fe wŷr y diafol yn dda fod rhan fawr o'i deyrnged yn cael ei thalu gan y Cristion ar ei liniau yn y gorchwyl difrifol hwn o addoliad dwyfol, i attal pa un ar y ffordd y mae efe yn fawr ei awydd a'i ymgais. Iē, nid ydyw yn anobeithio, os tycia ei ddyfais, peri i'r Cristion ei ddianrhydeddu ef yn fwyaf, lle y mae Duw yn edrych yn benaf am i'w enw gael ei sancteiddio. Yn wir, y mae y cyfle annedwydd i fwrw yr anfrî mwyaf ar Dduw, yn llaw y rhai a dderbynir i sefyll yn nesaf ato. Pe byddai i'r gwr sydd yn cael yr anrhydedd o goroni y brenin, ei dwyn mewn rhyw wedd anhardd, a'i tharw felly ar ei ben, neu yn lle ei goron frenhinol ei hun, dwyn yn wedi ei gwneuthur o wellt neu ryw sothach o'r fath i'r diben o beri chwerrhin; pa ddirmyg mwy a allai y fath un ddychymmygu i'w fwrw ar ei frenin? Priodoliaethau Duw yw ei goron frenhinol ef; ac nid anrhydedd fechan yw hono a rydd efe ar y Cristion, wrth ei freinio megys i osod y goron hon ar ei ben; y'r hyn a wna efe pan fyddo mewn gweddi yn rhoi iddo ogoniant ei fawrhydi a'i sancteiddrwydd, ei allu a'i drugaredd, ei wirionedd a'i ffyddlondeb, &c., gyda'r cyfryw ostyngedig barch a gwresogrwydd sanctaidd ag a fyddo yn addas i anfeidrol berffeithrwydd ei Dduwdod ef. Ond os bydd ein meddyliau mewn gweddi yn absennol oddi wrth Dduw neu yn anaddas tuag at Dduw, a'r rhai hyn ei ragoriaethau gogoneddus ef, yr ydym yn halogi ei enw yn lle ei anrhydeddu; yn ei watwar, ac nid yn ei addoli. Mewn gair, yr ydym yn tyngu ymaith ei goron yn hytrach na'i gosod ar ei ben. Yn awr, onid yw dy galon yn crynu o'th fewn, Grïstion, gan y meddwl i ti fod yn offeryn Satan i fwrw y fath anfrî a hyn ar dy Dduw a'th Frenin? Yr wyt, os yn wir Grïstion, yn deml i'r Ysbryd Glân; a gweddi yw yr aberth ysbrydol wyt i'w offrymu oddi ar allor calon isel. Ac a oddefi i Satan eistedd yn y deml hon o eiddo Duw, ac ymddyrechafu yno uwch law Duw ei hun, drwy feddyliau gweigion neu

ddyrgionus, a hyn tra yr wyt yn Duw? Pe rhodden fod brenin ar g a thorf o ddyhirod hyfion, drwy ddech y gweigion sydd yn gweini idd rhuthro i mewn i'r ystafell ac yn chw dysglau rhai bob ffordd, o'i haeddai y ion hyn gerydd llym am beidio edry well ar ol y drws? Odihadau o ad ydynt fwrdd Duw, megys yr aberthau gyfraith, a elwid yn rhan a bara Du phan fyddo y Cristion yn gweddio, y Brenin y nef yn eistedd wrth ei f Can. i. 12. Y dysgleidiau yw grasu Ysbryd yn yr enaid: yn awr, y medd gwibiog y maent hwy yn dyfod i me dyma dy rybudd iddo ymadael. Gell rych dros ryw amnharch a wneir i gen gan y fath waelaf o bobl, wrth iddo ro heol, tra y mae yn aros mewn teyrnas enig; ond pan gyfarfyddo y cyfryw hâd gan y brenin, fe wna'i hynw rw. Gochel gan hyny ddangos ffafr i'r fa lonyddwyr yr heddwch rhwng Duw enaid. Dy galon ddylai fod yn dŷ gw ni fyn Crist oddef iddi fod yn lle n nad. Naill ai rhaid i ti yru y prynw gwerthwyr hyn allan, neu fe ä yr Y allan. Yr ydym yn darllen am ffieid anghyfaneddol yn sefyll yn y lle san (Mat. xxiv. 15); yr hyn a ddeongla fod yn fanerau y Rhufeiniaid a osodw pan gymmerwyd Ierusalem. Yr oedd eidd-dra hwn yn arwain i mewn angl nedd-dra. Pa beth wyt tithau yn ei v trwy dy feddyliau gwibiog, ond gosod ffieidd-dra yn nheml dy galon? O i â'r rhai hyn, os na fnyit dy dael yn ar annedd, ac yn gwbl amddifad o bresent grasol dy Dduw.

PENNOD XIII.

Yn cynnwys yr achos blaenaf o feddyliau y mewn gweddi, ynghyd â'r feddyginiael w est. Ond fe allai y gofynwch be Pa gyngor ellwch chwi roddi i'n h rhag y rhuthriadau hyn o eiddo Sat berwad ein calonau gweigion ein h mewn gweddi? Pa fodd y gallwn gad calonau i mewn, neu y rhai hyn allan. At. Ammhossibl yn wir yw eu hatt hollol; y maent yn dyfod mor ddisym tal y gallwn gadw y gwynt o'n tŷ (a d mewn drwy bob agen, er cau y drysau gallwn gael ein calonau yn gwbl rydd wrth eu hafonyddiad. Etto ni wna h gus i ni rhag rhoddi eithaf ein gof h ymgais er attal eu tyciant. Drygn fyddo yn symmud yma ac acw yn y corpl yw o gymmaint perygl a phan gasglw lle ac aros ar ryw gymmal neu gan.

llenais am rai parthau o'r byd lle y mae
ocustiaid a'r lindys mor liosog, fel y
ent yn tywyllu yr awyr wrth ehedeg, ac
difa pob gwyrddlesni lle disgyant. Y
colion, gan hyny, pan welant y fyddin
hyn yn ehedeg uwch eu penau, a gynneuant
au yn eu meusydd, fel y byddo i'r mwg
cadw rhag disgyn. Nis gelli dithau
astro y meddyliau gwibiog hyn rhag ehed-
n yn fynych uwch dy ben; ond yn sicr, gelli
aud rhywbeth, trwy ras, er luuddias eu
osiad. A thuag at y gwaith da yma, cym-
y cyfarwyddiadau canlynol, y rhai a
iaf eu haddasu at yr achosion canlynol.

DOSB. I.

Yr achos cyntaf, ac yn wir gwreiddyn y
ll oll yw, oferedd ac ysgafnder naturiol
meddyliau, y rhai sy mor ansefydlog a'r
an byw, yr hwn, meddant, y mae yn ei
ur ysgogi, ond nid aros yn llonydd. Y
ent mor ansafadwy a'r dwfr, yr elfen
egog hono (fel y gwelwn pan dywelltir
ydyg o hono ar y ddaear) sydd yn ym-
nu yma ac acw; ac felly yn cael ei lyngu
ny yn fuan. Dyma fel y mae ein medd-
u gwag yn ymranu ar ol oferedd; ac yn
af oll pan fyddom yn ymdrin â dyled-
ddau sanctaidd. Y pryd hyny yn anad
amser y dadguddiwn ysgafnder ein hys-
doedd; ac nid y rhan leiaf yw hyn o'r
ydydd a ganlynoddd ddirywiad dyn, yr hwn
y ei gwmp a glwyfodd ei ben a'i galon
ydydd. Yn awr, er fod gras yn dwyn mewn
n iachâd i bob un o'r ddau yn y Cristion,
y, y mae rhyw wendid yn aros o hyd yn ei
id, fel nad yw yn alluog i aros yn hir
n bethau ysbrydol heb beth ymrianiad
ldwl. Adda yn ei ddiniweidrwydd a
sai hyn; ie, gallasai rodio drwy yr holl
heb gymaint ag un o'i feddyliau yn
dueddu neu yn gwyro oddi wrth yr iawn
ynt gan amrywiaeth y gwrthddrychau a
sai yn ei gyfarfod, am eu bod oll i lygaid
snaid ef yn gyfrwng disglair i gaufof
w, ac ymderfynu ynddo, fel y mae yr awyr
y awr i lygaid ein corph, drwy yr hwn y
ne yn treiddio ym mlaen o hyd at gorph
yaul. Ond och! y mae gyda ni fel gyd-
an y drylliwyd ei ben wrth ryw godwm
eydus; yr hwn, ar ol ei wellau, a gaiff
bi fod ei ymenydd mor wan, fel pan elo
y hylch mater o bwys, y mae yn analluog
lall yn graff neu yn hir arno, ond rhedeg
yae o'r naill beth i'r llall, allan ac i mewn.
Y fath wamarlywydd ac anwastadrwydd a
ngys ein calonau mewn dyledswydd; ac
yae hyn yn ddigon o fantais i Satan
wthio arno. Os bydd y llong yn ysgafn o
d fyg balasarn, ac awel gref o wynt yn
ed hefyd, O! mor anhawdd fydd peri iddi
n o yn daclus, neu ei chadw rhag dymchwel-
y. Calon wag a themtasiwn gref ynghyd
nant waith alaethus, pan safu Duw o'r
ldu, gan roddi caniatâd i Satan arfer ei

ddyfais. Gan hyny, bydd yn ofalus i gym-
meryd dy falasarn i mewn cyn troi i'r môr.
Llafuria am galon gydbwys cyn yr elych
i weddio. I'r perwyl hyny—

DOSB. II.

Iaf. Ymarfer â meddyliau sanctaidd yn
dy rodiad cyffredin. Y ffordd oreu i gadw
y llestri rhag gollwng erbyn y bydd eu
heisieu ar achos neillduol, yw eu cadw yn
llawn. Y galon a fydd yn wag ar amserau
ereill, ychydig gwell a fydd ar weddio. Po
mwyaf cyfeillgar fyddych â meddyliau sanct-
aidd ac ymddiddan blasus yn dy rodiad
beunyddiol, mwyaf tymmerus fydd dy galon
i'r ddyledswydd yma. Ysgolhaig, wrth fyn-
ych adgofio ei byngeillau, ac ymddiddan yn
eu cylch gyda'i gyfeillion, fe ddaw yn alluog
ynddynt; fel pan roddir ef ar ryw brawf y
maent ger llaw, ac yn rhedeg yn hwylus i'w
ben; tra y byddo un arall o ddiffyg y fath
ddarpariaeth, yn fyr o fater i'w feddyliau
ymborthi arno, yr hyn a bair iddo grwydro
ym mhell cyn taraw wrth yr hyn sydd
berthynasol. Y mae y rhyddid cnawdol a
roddwn i'n calonau yn ein rhodiad cyffredin
yn gwneuthur ein meddyliau yn fwy afreolus
ac anaddas i ddyledswyddau o addoliad; o
blegid y mae y cyfryw ymddygiad yn gadael
orlliw ar yr ysbryd, ac felly yn luuddias
iddo gymmeryd lliw gwell pan ddychwelo y
dyn i'w dydd Duw. Os rhodio a wnei yn
gyfeillgar gyda gwag feddyliau ar hyd y
dydd, prin y caui y drws i'w herbyn pan
elech i'th ystafell. Yr wyt wedi eu dydsu
yn hyfion; hwy a ddadleuant gydnabyddiaeth
â thi bellach, ac a ymwthiant i mewn ar dy
ol; fel plant bychain, y rhai, os chwareu-
wch â hwynt, a'u dwyn yn fynych yn eich
breichiau, hwy a waeddant ar eich ol pan
fyuech gael gwared o honynt.

DOSB. III.

2il. Meddianner dy galon âg ofn parchus
at fawrhydi a sancteiddrwydd Duw. Hyn,
os dim, a wregysa lwynau dy feddwl yn dyn,
ac a bair i ti edrych beth yr wyt arno. A
feiddi di chwareu a chellwair â'r Mawrhydi
Dwyfol yn y ddyledswydd o'i addoli—ym-
ddwyn yn blentnaidd ger bron y Duw byw,
gan edrych fel pe byddai âg un llygad arno
ef, ac â'r llall ar dy chwant—siarad un gair
â Duw, a sisial dau gyda'r byd! Ai nid yw
dy galon yn crynu rhag hyn! "Felly
gweddia," medd Bernard, "fel pe bait wedi
dy godi i fyny a'th osod ger bron wyneb
Duw ar ei orsedd ddirychafedig, lle y mae
myrdd myrddiynau yn gweini iddo." Yn
sicr, ti a ofnit yn barchus ger bron y fath
lys. Pe byddit ond o flaen barnwr, a chenynt
yn unig ond chwarter awr o amser wedi ei
ganiatau i ti er gofyn dy fywyd ar ol ei
fwrw i'w golli, a'th gondemnio, a dreulit ti
ddim o'r ychydig amser yma i lygadrythu
o amgylch y llys i edrych pa fath ddillad
sydd gan hwn, a pha addurn sy gan y llall,

Pared Duw i ni gwylyddio am ein ffolineb yn camdreulio ein hamserau gweddi. Onid dy fywyd wyt yn ei ofyn ar ddwyllaw Duw? A hwnn yn un amgenach, mi feddylw'n, nag sydd gan y drwgweithredwr i erfyn am dano ar law ei farnwr marwol. Ac a wyddost ti y caniateir i ti cyhyd a chwarter awr pan fyddech yn myned ar dy liniau? Ac a wastrefsi di amser er hyny i ddim diben ar goeg bethau? Os nad wyt yn credu fod Duw mor fawr a gogoneddus, pa ham y gweddi? Ac os wyt, pa ham nad yn well? Pa ham nad yn fwy dyfal a chryno yn dy feddyliau? A farna Duw ni am bob gair segur a siaredir genym yn ein tŷ a'n siop, wrth ein gwaith, i.e. ein chwareu a'n difyrwch? Ac ai ni bydd cyfrif am eiriau segur mewn gweddi? Ac onid geiriau segur yw y rhai hyny sydd yn tarddu o galon ddiog, calon gysglyd, nad yw yn gofalu pa beth a ddywed? Beth a dynodd angyfwrdd ddisymwth a dieithr ar Nadab ac Abihu? Onid eu tân dieithr? Ac onid gweddio dieithr yw hyn, pan fo dy feddwl yn ddieithr i'r hyn a draetha dy wefusau? Ymddyga fel hyn gyda'th dywysog os beiddi. Ped estynt erfyniad iddo â'th law, dan edrych ar neu siarad âg un arall, oni orchymynai gymmeryd y fath drêl, neu yn hytrach y fath ddyn gwallgofus, oddi ger ei fron? "Ai eisieu yufydion sydd arnaf fi, pan ddygasoch hwn i ynfydu o'm blaen i?" (1 Sam. xxi. 15), ebe Achis pan ymddygodd Dafydd yn anhrefnus. O! pe gellit ond edrych trwy dwll y clo, a gweled pa fodd y mae angylion gogoneddus yn y nef yn gweini i'w Gwneuthurwr, y rhai y dywedir eu bod yn gweled gwyneb Duw bob amser, yn sicr ti a grynit wrth feddwl am dy gyflawniad ysgafn o'r ddyledswydd hon.

3ydd. Na ddos yn dy nerth dy hun at y gwaith, ond dyro dy hun trwy fydd i arweiniad Ysbryd Duw. Y mae Duw wedi addaw parotoi, neu, fel y mae ystyr y gair, sefydlu y galon. Yn wir dyna y pryd y mae y galon yn barod pan fo wedi ei sicrhau a'i sefydlu. Y mae mor hawdd i law grynedig ysgrifennu llinell wastad, ag i'n calonau anwadadl ymgadw yn ddiysgog mewn dyledswydd. Pe bait gyda lob yn gwneuthur cyfammod â'th lygad, ac yn bwriadu cau dy glust rhag pob traws ymddiddan; pa hyd, dybygit ti, y byddit gywir i ti dy hunan, yr hwn wyt â chyn lleied awdurdod genyt ar dy feddyliau dy hun. Y ffordd oreu i ti fyddai rhoi dy hun allan o'th ddwyllaw dy hun; a gosod dy bwys ar yr hwn sydd yn gadarnach i'th gynnal nag yw dy goesau dy hun. Gweddia gyda Dafydd, "â'th hael Ysbryd cynnal fi;" *Salm* li. 12. Y mae y winwydden wrth bwysu ar y mur, yn ei chadw ei hun a'i ffrwyth; yr hon heb y fath ateg a ddygid yn fuan gan ei phwysau ei hun i orwedd yn y dom.

Yn cynnwys yr ail achos o feddyliau gwneid mewn gweddi; ynghyd â'r feddyginiath ad

2. ACHOS arall o'r meddyliau crwydro hyn mewn gweddi yw calon farwaid swrth yn y neb sydd yn gweddio. Os waith yr â y serchiadau i lawr, dyna y Cion fel dinas â'i mur wedi ei ddryllo oes dim cadw ar y meddyliau i mewn Satan allan. Creadur bywiog yw yr enaill ai rhaid i ni ei gadw ar waith, neu a'n ceidw ni er mai i ychydig ddben. debyg i'n pobl dldion; rhoddwch waith yn eu dwylaw, a hwy a arosant gartondod os gadewch hwynt yn ddiwaith, ac a'u cewch yn crwydro ac yn cardota ar y wlad. Y mae y serchiadau megys y gweithwyr, sydd yn rhoi ein meddyliau waith. Y mae cariad yn portli yr enaid meddyliau hyfryd a diddanus yng nghy ei hoff wrthdrys. Galar yn peri i fyfyrion yn athrist ar ei bla'iddolur. Fe Gristion, cyhyd ag y bo dy galon yn gwa gan y teimlad o bechod, ni bydd hamd gan dy feddyliau i wibio a chrwydro w gyfaddef pechod. Os bydd dy dymunia yn fywiog, ac yn ennyn allan gyda sel ddiol yn dy erfyniadau am y grasau a'r garedau wyt yn eu gofyn; fe fydd hyn mur o dân i gadw dy feddyliau gartref. weddi ddiog yw y weddi wibiog. Pan Israel yn son am fyned daith tridiau i'r iawlwch, "Segur, segur, ydych," medd Pharaoh, "am hyny yr ydych yn dywed Gâd i ni fyned;" *Ecsod*. v. 17. Fel pe wedasâi, Yn sicr nid oes ganddynt ychydig i'w wneuthur, onid e ni feddyl am rodio. Ac am hyny, i'w tori oddi w hyn, fe orchymynodd roi iddynt chwane waith. Ond gallwn ni mewn gwirion ddywedyd am ein calonau crwydredig, se ydynt. Yr ydym yn gweddio; ond serchiadau yn aros yn farwaid a ph ychydig sy gan y galon i'w wneuthur y ddyledswydd at osod eu meddyliau ar wad dim ond dywedyd neu ddarllen ychydig eiriau; yr hyn sydd yn dasg mor hawfel y gall dyn ei gwneuthur a hebgor feydd o'i feddyliau i gynniwair mewn arall ar yr un pryd. Ond pan fo y serchia yn effro, yn toddi i dristwch wrth gyfaddef pechod yn tori allan mewn anadliadau saiaid hiraethlawn yn y weddi, yn ddiad sefydla hyn y meddyliau. Nid yw yn brol i'r enaid fod mewn dau le ar unwaith mwy na'r corph. Ac megys y bydd serchiadau gwresog hyn attal tuedd grwyaid yr enaid, felly fe'i gwnânt hefyd anhawdd i Satan dafu i mewn ei bicel. Nid mor hawdd y disgyn y gwybed i gro anberwedig ar y tân, a phan fo yn se yn oer yn y ffenestr. Beelzebub yw un enwau y diafol; hyny yw, duw y gwynt

enw yn bwrw at yr aberthau eilundolgar lle yr oedd gwybed mor brysur. d mor hawdd y disgyn y gwybedyn hwn dy aberth, pan fo ei fillam yn esgyn gan oddi ar allor dy galon. Yn awr, i gadw serchiadau yn fywiog a gwresog mewn eddi, bydd yn ofalus i gyffroi ac ennyn y res naturiol sydd yn ddiammheu ynot, wyt Gristion, trwy ystyriaeth ddirifol dy bechodau a'th angenion, a'r trugarlau a gefaist. Tra fyddech yn edrych ar hai hyn, fe effeithia yr olwg ar y galon. i gosod yn dy fynwes, hwy a barant, fel nisg i Dafydd, wres tyner i'th enaid yn serchiadau hyny a ddylai weithredu yn ryw ranau dy weddi. Adolygiad ar dy bechodau, a'r pethau sy yn eu mwylhau, a'r i' fflononau duwiol dristwch godi yn galon. A eili di lai na galaru pan ddarhech dy amryw feiau i'th enaid euog, di ei alw i sefyll o flaen brawdle dy gyd-bod? A eili di glywed y modd y torwyd craith sanctaidd Duw, y tristawyd ei bryd, ac y lladdwyd ei Fab trwy dy awylaw gwaedllyd, a hyn yng ngwyneb ei driniaeth dosturiol ef tuag ataf, a pheidio aru? Yn sier, pe rhodiai dyn ar hyd res ar ol brwydr waedllyd, a gweled yno ph, er mai ei elynion, wedi eu trybaeddu yn gwaed, nis gallai ei galon lai na thyn y prydd hwnw, er i'w gynddaredd ym oethder y frwydr gau allan bob meddylam dosturi. Ond beth pe canfyddai neu anwyl gyfaill yn farw ar y lle, gan archollion a roisai ei law annaturiol ef, o throai ei ymysgaroedd o'i fewn. Sier hyn, os byddai yn perchen calon dyn. Ti e fwrw amcan erbyn hyn, Gristion, pa umhorth a roddai y fath ffyrddod i ti g at ddryllio dy galon am dy bechodau. ddiu, fe barai i ti dasu ymaith y dagr ddigedig hwnw a fu yn offeryn i roi yr hollion dyfnion hyny i galon Crist; a na y galar goreu o'r cwbl. Drachefn, dy enion, o'u hiawn ystyried, a roddant i'th ddymuniadau. Pe bai gwir ystâd faterion ond wedi ymaff ynot; mor enrheidol yw i ti gael cynnorthwyon o'r neu newynu a marw; fe'th wneid yn eo a sefydlog mewn gweddi; ac felly yn eill, &c.

PENNOD XV.

Ynnewys y trydydd achos o feddyliau gwiŵiog euen gweddi; ynghyd â'r feddyginiaeth.

TRYDYDD ACHOS O FEDDYLIAU CRWYDREDIG gormodedd o ofalon bydol. Nid rhyfedd y dyn hwnw yn methu mwynhau cyfarwch â Duw mewn gweddi, yr hwn syddo gymmaint o'r byd yn curo wrth ei

ddrws am siarad âg ef, tra y mae efe yn siarad â Duw. "Y mae crefydd," ebe un, "mewn mawr berygl yn y dorſ;" sef y dorſ o drafferthion bydol. Os gweddi a wna y cyfryw un, nid hir y bydd cyn i rywbeth ddyfod i'w ben i'w dynu ymaith. "Aeth Isaac allan i fyfyrto, ac wele y camelod." Buan y daw y byd i olwg y cyfryw; y mae yn rhoi allan un llaw tua'r nef mewn meddwl ysbrydol, ond yn fuan yn ei thynu yn ol; a dyna un bydol yn ymwthio o'i flaen, ac felly yn gwneuthur rhwygiad ar ei ddyledswydd ef. "Breuddwyd," medd Solomon, "a ddaw o dralod (neu drafferthion) lawer." Ac felly y daw gweddiâu breuddwydlyd; fe'u gwneir i fyny o feddyliau estronol a gwahanol ryw. Lleodd anaddas i weddi yw y gweithdy, yr ysgubor, yr ystordy; fy meddwl yw, y rhai hyn yn y galon. Mi a ddarllenais am un y dywedwyd ei fod yn llyfrgell deithiol, am nad oedd yn gadael ei ddysg gyda'i lyfrau yn ei ystafell, ond yn ei ddwyn yn ei galon pa le bynag yr elai, yn ei gof a'i farn oedd wedi derbyn yr hyn a ddarllenasai, ac felly yn ei wneuthur yn eiddo ei hun. Ac onid oes genym niunau lawer o siopau ac ysguboriau teithiol; dynion yn dwyn y rhai hyn i'r tŷ, ac allan, i'r eglwys, ac i'r ystafell? A pha fodd y gall y cyfryw weddi â chalon unol, pan y mae cynnifer yn rhanog o'u meddyliau? "Enaid sanctaidd," ebe un, "cais ar dy ben dy hun; oni wyddost ti fod genyt briod diwair?" Yn wir nid yw efe yn arfer cofeiddio yr enaid mewn torf, na rhoi cusanau ei fin yn y farchnad. Y mae Iacob yn anfon ei deulu i'r ochr arall i'r afon; ac yna y mae Duw yn rhoi cyfarfod iddo—un o'r rhai melusaf a gafodd yn ei holl fywyd. Gweddi'dd yn awr noswaith gyfan os myn, a chroesaw. Bellach, Gristion, er dy gynnorthwy yn erbyn y rhai hyn.

DOSB. I.

(Iaf.) Ymdrecha i gadw dy bellder at y byd; a'r uchafiaeth a roddodd Duw i ti arno yn ei elw a'i bleserau, neu pa beth bynag arall a all droi yn fagl i ti. Tra y mae y tad a'r meistyr yn adnabod eu lle ac yn cadw eu pellder, y mae y plant a'r gweision yn cadw yr eiddynt hwythau, trwy fod yn ufudd ac wrth alwad; ond pan ddelont i anghofio hyn, y tad yn rhy hoff ganddo y y naill, a'r meistyr yn rhy gyfeillgar â'r llall; yna hwy a ddechreuant gollu eu hawurdod, a'r lleill i fod yn hyfion ac aflywodraethus; perwch iddynt fyned, ac fe allai na syflant; gosodwch dasg iddynt, a hwy a barant i chwi ei gwneuthur eich hun. Yn ddiu dyma fel y mae yn myned gyda'r Cristion; yr holl greaduriaid ydynt weision iddo; a chyhyd ag y cadwo efe ei galon mewn sanctaidd bellder oddi wrthynt, ac y dalio ei uchafiaeth arnynt, heb gymmyrd i'w fynwes y pethau a roddodd Duw dan ei draed (*Salm*

viii. 6), y mae pob peth yn dda. Y mae yn teithio i ddyledswyddau addoliad Duw mewn trefn hardd. Gall fod yn y dirgel gyda Duw, a'r rhai hyn heb feiddio gwasgu i mewn i'w aflonyddu. Ond pan ddelom i'w hoffi, ac i fod yn rhy gyfeillgar â hwy, Och! fel y'n llwythir ganddynt! Nid ydym yn darllen am anufudd-dod yn Agar tra y bu yn llawforwyn; ond wedi i Sarah ei rhoi i fynwes Abraham, a'i derbyn yn gydgyfranog â hi ei hun mewn breintiau priodasol, yn ddiau erbyn hyn y mae hi yn dechreu gwthio draw ei meistres, ac ymddwyn ati yn ammharchus. Iê, ac Abraham ei hun, na fuasai yn petruso ei throi ymaith o'r blaen, etto yn awr, ar ol ei chymeryd i'w wely, prin y gall gael ei galon yn foddllawn i'r peth, nes i Dduw uno â Sarah yn y mater, gan beri iddo wrandaw ar lais ei wraig. Fel hyn, Gristion, arfer y byd fel gwas—y diben y gwnaethpwyd ef iddo—a thi elli fyned i weddi, fel Abraham i'r mynydd, gan adael ei weision ar ol; ti gei brofi na bydd ganddo allu i'th aflonyddu; ond os goddefi i'w elw neu bleser gyfranogi â Christ yn dy serch dyweddiol, ti a gei brofi dy galon yn hwyr-frydig i droi ymaith yr Agar yma, hyd yn oed ar ddeisyfiad Crist ei hun, pan yw yn dy alw i gymmundeib âg ef ei hun. Naill ai arfer y byd fel heb ei arfer, neu ti a weddi fel heb weddi. Y mwg a'r gwreicion sydd yn codi o fwrn, hwy a ddygir y ffordd y bo y gwynt. Os bydd dy galon dithau tuag at y byd, yna nis gelli gadw dy feddyliau rhag ymlid yno. Y pryd hyny, ac nid yn gynt, yr esgyn dy weddi fel colofn arglodarth pan fo tawelwch sanctaidd ar dy ysbryd, a'r gwynt tymmestlog yma o ormod serch at y byd wedi ei ostwng. Nid wyf am dy dynu oddi wrth ddiwydrwydd yn dy alwedigaeth fydol; nid yw hyn byth yn gwaethygu gweddi; yn unig gwylia ar dy galon rhag ei rhoi yn butain i'r byd. Dyna y cleddyf neu gyllell o iawn fetel, a blyg y ffordd yma a'r ffordd arall, ond a ddychwel i'w unionder yn ol heb sefyll yn gam. A dyna y galon o iawn wneuthuriad, ac argraff y nef arni; sef gan y dyn a all blygu at y gorchwyl isaf o'i alwedigaeth; ond yna a ddychwel i hwyl am gymmundeib â Duw; ac nid yw ei galon yn sefyll yn wryrog at y creadur, ond yn uniawn ei thuedad at Dduw a'i addoliad.

DOSE. II.

(2il.) Cadarnhâer dy fydd ar ragluniaeth Duw am bethau y bywyd hwn. Y mae calon ddrwgdybus bob amser yn feddylgar. Pa beth bynag fo dyn yn ei wneuthur, fe fydd ei feddyliau ar y peth y mae yn ofni ei golli. Pan fo llong y marsiandwr a'i llwyth wedi eu hyswirio, fel, doed a ddelo, nas gall efe golli llawer, yna y mae ei galon yn llonydd; gall fwyta ei fwyd yn esmwyth, a chysgu heb freuddwrddio am ladron môr a

llongdrrylliadau; tra y mae un arall feddiannau ar y dôu yn llawn o ofnau yn hachos. O! fel y mae y truan yma, gwr a wnelo, aed lle yr elo, yn cael ei ddilyn feddyliau aflonydd! Os clyw efe y gw yn codi ychydig, y mae yn methu cysgu ofn am ei lestr sy allan. Fel hyn yn dy y caiff enaid â'i bwys ar yr addewid ymwared da oddi wrth yr aflonydd hyny sydd yn gorlwytho un arall n gweddi. Am hyn y mae Duw yn rhoi n duol hyfforddiad i ni, i fwrw y baich oddi ar ein hysgwyddau ni ar yr eidd pan fyddwn yn myned i weddi, rhw draws feddyliau oddi wrth ein gofalon aflonyddu arnom: "Na ofelwch am dd eithr gwneier eich deisyfiadau chwi yn bys ger bron Duw;" *Phil. iv. 6.* Fe dywedasai, Gadewch i mi ofalu am gwaith chwi; a byddwch chwi astud nghylch fy ngwaith i; os â pethau allar lle o ran eich meddiannau, einwau, neu luoedd, myfi a gymmeraf y bai; ac a rogenad i chwi ddyweddy, nad oedd Duw ddigon gofalus am danoch. Pan oedd g rywiaid Israel yn myned i addoli Duw Ierusalem, fel na byddai iddynt dd meddyliau terfysgld i'w canlyn gan ofi eu teuluoedd a adawsid yn ol, fel noethion heb ŵr i ymladd drostynt os d gelyn, y mae Duw yn cymmeryd gofal wedigol eu teuluoedd arno tra byddent wrthynt: *Eesod. xxxiv. 24.* Os bydd ge ond gwas ffyddllawn, yr hwn, ni a fed iwn, a edrych at ein gorchwyl mor ofal ni ein hunain, y mae hyn yn peri i ni fo o'n tŷ gydag ysbryd rhydd a boddlawi pheidio ag ymfino yng nghylch yr he gartref tra y byddom ar led. O! cywil iwn yute os nad yw ein ffydd ar ragluni Duw yn llawer mwy ei heffaith i'n mwythau o'r baich o ofalon terfysgld.

PENNOD XVI.

Esampyl yn y pedwerydd achos; a'r olaf o fe iau gwibiof mewn gweddi; gyda'r feddygin.

4ydd. Fe dardd y meddyliau gw i hyn o ddiffyg gwylie y galon, ar r Cristion, tra y mae ar weddi. Bydde lafur a'i ymdrech o'r blaen o'r gnd byddont, etto os ni wylia arno ei hu fanwl yn y ddyledswydd, fe ddiange ei h oddi arno, ac a red i fil o wageddau d Creadur cyflim yw meddwl dyn. Y for yma chwi a'i cewch yn y nef, a'r for nesaf yn y ddaear. Fel Phylip, ar ol gyda'r eunuch yn ei gerbyd, a gipiwy ddisymmwth allan o'i olwg ac a gae Azotus, lle digon peil oddi yno. Dyma y gedy ein calonau yn ebrwydd y dd,

wydd mewn llaw, ac yr änt ar wib i gwr
 ellaf y byd yn eu gwyllt ddyhymyg.
 ä, yr hyn sydd waeth, weithiau fe fydd y
 reddwl yn crwydro ar led, ond y Cristion
 yn mynd yn mlaen ä gwaith y tafod, heb
 ymmeryd sylw bod ei feddyliau wedi myn-
 i ar gyfngoll. Fel yr aeth Ioseph a Mair
 aith diwrnod yn mlaen cyn gwybod colli
 u plentyn (a arosasai yn ol mewn cym-
 eithas arall). Dyma fel y mae y Cristion
 a colli ei galon mewn dyledswydd, ac yn
 yned yn mlaen mewn ffurfioldeb diofal
 es yw y weddi agos drosgodd cyn iddo
 raffu fod eisteddle ei galon yn wag, neu
 styried nad yw ei galon a'i ysbryd yn cyd-
 eithio äg ef ar hyd y ffordd; yr hwn, pe
 asasai ond yn ochelgar pan wÿrodd ei fedd-
 l gyntaf, a allasai ei hennill yn ol a'i
 uchub o ddwyllaw y gwageddau a'a dyg-
 lldi ymaith (fel Dafydd ei wragedd a'i blant
 ldi ar yr Amaleciaid) heb lawer o flunder
 cholled. Ac am hyny, Gristion, cadw dy
 don yn dra diesgeulus; dal sylw a yw hi
 i gwneuthur ei rhan yn y ddyledswydd,
 te tebyg yw i dant disŵn yn y gerdd. Fel
 gwneuch ä'ch plant, felly y' mae i chwi
 hos i wneuthur ä'ch meddwl plentynaid;
 gaffydd y dilynaant chwi i'r eglwys; ond
 edi i chwi eistedd, os na bydd eich llygaid
 v hofni, ymaith ä hwy, ac fe allai i chwareu
 os amser y bregeth a chwithau heb eu
 lli; i ragflaenu hyn, chwi a'u gosodwch
 ch blaen fel y galloch weled eu hagwedd
 a hymddygiad. Pe gweddiit fel hyn, gan
 affu a gwylio ar dy feddyliau, pa le, ac ar
 beth y maent, ti a gait brofi mwy o drefn
 dy ysbryd nag a feddi yn awr. Nag e,
 d yn unig craffa ar dy feddyliau mewn
 ledswydd, ond myn fwrw golwg arnynt
 ol hyny. Y mae llawer yn myned o weddi
 rhy debyg i blant o'r ysgol, na feddyl-
 iat am eu gwern nes dychwelyd yn ol;
 dawnt eu gweddi, a phob meddyliau am
 hymddygiad ynddi ynghyd ar ol. O! na
 na fel hyn rhag cywilydd. Os esgeulusi
 alw dy hun i gyfrif, ystyria y bydd raid
 i roddi cyfrif am dy waith a'th ddiolalwch
 vn ar ei ol o faen dy well; fe fyn Duw ei
 nman lwyrr chwilio y peth. Nid yw efe yn
 sod neb ar waith nad yw yn chwilio pa
 dd y mae yn cael ei wneuthur. Ac onid
 well fyddai i'r holiad fod yn dy lys bach
 rgegl di, nag i ti gael dy alw i gyfrif ger-
 on ei frawle ofnadwy ef? Llwyrr fwr-
 la, gan hyny, ymddiddan ä'th galon ar y
 vng; a pho cyntaf yr elych yn ei gylch,
 reu, y mae yn debyg, y bydd iddo gael ei
 neuthur; o herwydd y pryd hyny fe fydd
 ngylchiadau y gwaith yn newydd yn dy
 f. Na ddos ynte allan o'th ystafell nes i
 holi dy galon. Os ceir ddarfod i'th fedd-
 liau mewn gweddi gael eu cadw mewn
 esur yn rhydd a digymmysg, a'th serch-
 lau vn wresog a bywiog, fe fydd yn achos

o lawenydd i ti, ac o ddiolchgarweh i Dduw,
 ddarfod i ti ddiange o ddwyllaw cynnifer o
 wylliaid a lladron oedd yn cyullwyn am
 danat. Ond gwylia rhag rhoi clod i ti dy
 hun am dy ofal a'th wylhadwriaeth dy hun.
 Och! nid tydi oedd dy geidwad. Yr hwn
 a ostyngodd ei glust at dy weddi, efe a rodd-
 odd i ti galon i weddi, ac hefyd a'th gynnal-
 iodd yn y gwaith. Dywed yn hytrach gyda
 Dafydd, "Pwy ydwyf fi fel y cawn rym i
 offrymu i ti yn ewyllysgar?" Os ceir ar holi-
 ad ddarfod i'th galon grwydro, cymmer
 gywilydd rhag dy roi i gywilydd ger bron
 Duw. O! gwrida wrth feddwl i ti fod mor
 anffyddlaw i Dduw a'th enaid dy hun; fe,
 mor ynfyd a rhedeg i fyny ac i lawr ar bob
 neges y gyrai Satan di arno; ac yn y cyfam-
 ser, esgeuluso dy waith dy hun sydd o gym-
 maint pwys. Gelli gymmeryd achwyniad y
 ddyweddi: "Gosodasant fi i gadw gwinllan-
 oedd ereill; fy ngwinllan fy hun nis ced-
 wais;" *Can.* i. 6. Cenhadwr annoeth fyddai
 hwnw, yr hwn wedi ei anfon i'r farchnad i
 ddarparu lluniaeth, a dynid gan bob segur-
 ddyn i wario ei amser a'i arian yn ofer, ac a
 ddeuai adref y nos heb fara i'r teulu newyn-
 og. O! Gristion, onid dy neges at orsedd
 gras oedd ymofyn cynmorthwyon newydd o'r
 nef i'th enaid tlawd? Ac onid yw yn archoll
 i ti feddwl fod yn rhaid i'th enaid gael ei
 wasgu o achos dy waith di yn chwareu ym-
 aith dy amser a'th dalent gweddi, a roddwyd
 i'th law fel arian marchnad i geisio ystôr
 newydd? Iä, dy fod wedi gwneuthur cam
 ä'th Dduw trwy gymmeryd ei enw yn ofer?
 Ti ymddangosaist ar agwedd gweddïwr; ti
 godaist dy lais tua'r nef fel un y bwriadu
 gweddïo? ond fel hwnw a ddywedodd yr äi
 i'r winllan ac nid aeth, ti a droaist ffordd
 arall, ac a osodaist dy feddyliau ar waith
 mewn maes arall. Oni effeithia hyn ar dy
 galon? Gwna yn sier, a'i chystuddio hefyd.
 Ac fe fydd y cystudd ysbryd yma yn fodd-
 ion arbenig i finio dy ofal am yr amser a
 ddaw. Y beiau na nodir nis diwygir hwy
 chwaith yng ngwaith yr ysgolhaig. Y mae
 meddyliau gwibiog mewn gweddi yn debyg
 i grwydriaid; nid oes dim o'r fath ffordd
 i gael y naill o'r wlad a'r lleill o'r galon, a rhoi
 y gyfraith arnynt—y fflangell wyf yn feddwl.

Cwest. Ond O! medd y Cristion, yr wyf
 wedi arfer y moddion hyn; ac etto er gofid
 fy nghalon fe'm llwythir o hyd ganddynt.

At. Cymmer ychydig eiriau cysuroi, i es-
 mwythau dy galon ddolurus sydd yn gridd-
 fan dan y baich hwn o feddyliau crwydredig.

PENNOD XVII.

*Rhai ystyriaethau cysuroi i'r Cristion dan ormod
 iselder ysbryd, o achos meddyliau gwibiog mewn
 gweddi.*

1. Y mae cystudd dy ysbryd o'u herwydd
 yn achos o fwy o gysur i ti nag ydynt hwy o

anghysur. Dy fod yn cael dy flino gan y fath ymwelwyr aflonydd, nid yw yn fwy nag y mae y goreu o saint wedi ei brofi a'i gydnabod. Pa ham y gweddiodd Dafydd ar i Dduw uno ei galon i ofni ei enw, ond ei fod yn ei phrofi yn wibiog? Beth yw meddwl Paul wrth achwyn, "A mi yn ewyllysio gwneuthur da, y maer drwg yn brennol gyda mi," ond ei fod etto heb gael llawn feistrolaeth ar ei feddyliau afreolus. Ti a weli mai nid rhyw ddolur newydd sydd yn dy flino: ond y fath ag sy gyff. edin, nid yn unig i feibion dynion, ond i blant Duw; brycheuyn a elli ei weled ar ddilledyn sant. Ond y mae dy gystudd o'u plegid yn profi un o'r ddau beth yma, a'r ddau yn dwyn cysur i ti. Naill ai tafiadau Satan ydynt, ac nid ffrwyth dy galon dy hun; neu, os o'th galon y tarddant, etto, Ysbryd Duw yw gŵr y tŷ, a'r rhai hyn ond gormeswyr.

1af. Y mae dy gwynfan o herwydd dy ieuo gyda'r fath gymdeithion yn arwydd ddarfod eu danfon gan Satan, yn hytrach na'u gwahodd genyt ti, mai efe sydd yn eu taffu i mewn, ac nid tydi yn eu magu. Y mae ein meddyliau ni ein hunain yn gyffredin yn fwy wrth ein bodd. Nid mwy hoff gan fam ffrwyth ei choroph, na chenyum ni ffrwyth ein meddyliau. Oddi yma y gelwir ein ffyrdd, ein geiriau, a'n meddyliau ni, "Ein hewyllys;" *Esa. lvi. 13*, ac am hyny, y mae yn bossibl ddarfod eu saethu oddi ar ei fwa ef, gan fod dy galon mor ddychrynedig wrth eu gweled, ac mor archolledig o'u herwydd. Neu,

2il. Os ceir hwynt yn ffrwyth dy feddwl dy hun, etto fe ddengys cystudd dy enaid mai ysbryd a gras Duw yw gŵr y tŷ, ac nad yw y rhai hyn ond gormeswyr a chynhyrfiadau croes i'th ewyllys—y fath ag sy ffiaidd gan dy feddyliau cartrefol. Pe byddent, fel y gallaf ddywedyd, o'th dŷ a'th dylwyth dy hun, ni ddangosit y sel yma i gau y drws i'w herbyn, neu waeddi allan pan ddelont i mewn arnat. Nid yw y wraig yn llefa'in pan ddelo y gŵr, plant, neu weision, i'r ystafell ati; ond pan ddelo lladron a lleiddiaid, oddi wrth ba rai nid yw yn disgwyl dim ond creulondeb. Mae dy ymddygiad dithau at y rhai hyn, dybygid, yn profi nad ydynt o'th gydnabyddiaeth, nac yn gymdeithion hoff genyt. Gan hyny, na fydd rhy dralodus, o herwydd y mae Satan, os gall ond aflonyddu dy feddwl âg ofnau disail, yn cyrhaedd un rhan o'i ddiuen yn eu daufon. Nid yw y meddyliau drwg hyn gyda thi ond cyffelyb i feddyliau sanctaidd gyda'r drygionus. Megs nad yw y rhai hyny yn liesau iddynt lwy, am nad oes iddynt groesaw; felly, am yr un rheswm ni niweidia y rhai hyn mo honot tithau.

Hefyd, gwybydd mai gwenddiau anocheladwy dy ystad amherthiaith ydyw y rhai hyn; a chyhyd ag y byddych fyddlawn i'w

gwrthwynebu a galaru o'u hachos, y ma yn cynhyrfu Daw i dosturiat at ym hytrach na digder i'th erbyn. Un peth yw i blent wedi ei osod ar waith gan ei dad, o'i fon neu trwy ddiofalwch, ddifwyno y peth yw arno; y pheth arall, pan fyddo, trwy wen naturiol, ym methu ei wneuthur yn gyflyn ei le. Pe parai meistr i'w was ddu iddo gwpan o win, ac yntau o'i fodd taffu y gwin a'r gwpan i lawr, gallai ddi gwyl cyfiawn ŵg ei feistr; ond os trwy r grynfa, fe allai y parlys, yn ei law, y byd iddo, er ei holl ofal, gollu peth ar y ffor fe dosturiai meistr synwryol wrtho o'i wydd ei afieciayd, yn hytrach na digriachos y gwin a gollodd. Ac a roddes D eiriedhos achos i'w weision ei dybio yn fe caled? Oni addawodd efe arbed, fel gŵr fab sydd yn ei wasanaethu? O ba le y ta yr holl esugosion a wna efe dros wallau bobl, os nad o'i galon dosturiol, sydd yn deongli yn hynaws i fod yn deiliaw o ffyg medr a gallu, yn hytrach nag o ddiff ewyllys neu ddymaniaid? "Onid pentew yw hwn, wedi ei achub o'r tân?" *Zech.* Atteb Crist ydyw, o blaid Iosuah, pan o Satan yn ei gyhuddo am ei ddillad budr. "Yr ysbryd sydd yn barod, eithr y ena sydd wan" (*Mat. xxvi. 41*), oedd ei orchu ffafriol ef, dros gysgadrwydd ei ddisgybl mewn gweddi.

3ydd. Y mae gweddiau credinwyr cael eu puro cyn dyfod i ddwyllaw Dd. Yn wir, pe byddai efe yn cymmeryd ein hgrifen anwastad allan o'n llaw ni, yn goly ein gweddiau, a'n ffloineb oll, fel y mae fe fyddai digon o achos i ni fawr ofni y celyniad, ond y maent yn myned dan law cyssoydd; y mae ein Harglwydd Iesu bwrw golwg arnynt, ac yn gosod mewn tr ein holl erfyniadau candryll, a'n deisyfiad oedd wedi eu cam-gyfleu. Y mae efe golchi ymaith ein holl frychau â'i waed. gyfrugiad ef yw y gogr mân i roddi gweddiau drwyddo, y cwbl a'r sydd yn i ac o ryw arall y mae yn ei wahanu o wrth y pur. Yr hyn a fyddo o anadliad Ysbryd ei hun, y mae yn ei gyflwyno; hyn a chwaneogodd ein rhan gnawdol ni, mae yn ei guddio, fel na niwiedio ni, ni gweddiau. Hyn oedd y gwirionedd eidd ylaidd melus a blygwyd i ifny yng ngwa "yr offeiriad yn dwyn anwreidd eu petl sanctaidd;" *Ecsod. xxviii. 38*.

4ydd. Er fod presennoldeb y rhai hyn fawr ofid i ti, etto fe'u gwna Duw hwy ddefnydd neillduol i ti. Yn gyntaf, i ddarostwng, a dwyn oddi arnat bob ymfir fel nad ymtalchiech o'th gynnorthwyon eill, yr hyn a fyddit dueddol iddo, oni i fod troed cloff ay weddi i'th gadw i law Yn ail, i'th gadw yn effro a gwyladiaw yn dy yrfa Gristionogol. Wrth aflonyddwch y rhai hyn, ti a weli nad yw y rhy

n gwbl drosodd. Mae y Canaanaeid etto n y tir, er nad yw yn feistr ar y maes; etto, mae yn llechu yn ei dyllau a'i lochesau; e oddi yno y daw, fel neidr ar y llwybr, n ddisymmwrth ar dy draws, gan geisio at y sawll, i beri i ti, fel marchog, syrthio yn l, ac i ddwyn y fuddugoliaeth yn lladradd oddi arnat, er iddo anobeithio dy orchygyu mewn brwydr deg, trwy bechodau twy di-fyrbwyll. Ac yn sicr, os baidd efe od mor hyf ag ymosod arnat, pan mewn ymmundeb â Duw, mor agos i'th graig a'th astell, onid yw yn gweddi i ti, Gristion, frych o'th amgylch, rhag iddo gael mantais wy arnat, pan fyddi radd pellach oddi rtho ar dy orchwyllion bydol. Yn drydd, Fe'th wna Duw di, drwy y rhai hyn n fwy tosturiol, ac yn llai goganus at dy bodry dan wendidau mwy.

(5ed.) Yn dy ffyddlawn ymdrech â hwynt, gelli addaw i ti dy hun, o'r diwedd, fuddugoliaeth arnynt; ond disgwyl hyn yn addol, nid ar unwaith, nac iddynt gael eu roddi ar frys yn dy law di, megys y dyedododd Duw am elynion Israel. Gan hyny, al i fyny yr ymladdfa; na ddigalona o herydd eu nerthol wrthwynebiad. Gweddia, galara am na elli weddio yn well; galara e ymladd drachefn; ymladd, a chred hwynt lawr, er iddynt weithiau dy gael di dan eu traed. Fe wnaeth Duw adewid i Noah ar l y diluw, ym mha un y rhoddodd iddo arwyddiaeth ar y creaduriaid: "Eich ofn eich arswyd a fydd ar holl fwystfilod y daear;" *Gen. ix. 2*. Ond ni a welwn fod awer o fwystfilod yn ffyrnig, yn anwar, ac n greulawn at ddynolryw; etto, y mae yn tel ei chyflawni yn y modd hwn nad oes un ior ffyrnig ac afreolus a'r nad yw wedi ael, ac o hyd yn cael, ei ddal a'i ddofi trwy edr a gofal dyn; fel y dywed yr apostol (*Iago iii. 7*). Fel hyn y mae Duw wedi rhoddi—trwy adewid—i'w saint oruchaf- ieth ar bechod a Satan. Efe a'u darostwng l dau dan eich traed. Fe syrth arswyd y iant ar y cythraul balchaf, ac fe osodir eu traed ar wddf y chwant gwylltaf; er hyny, e gyst hyn ryfel boeth cyn ei ddwyn i ben.

PENNOD XVIII.

Frydydd ac olaf furiad Satan ar weddi y Cristion; ynghyd â'r rhwystr cyntaf a all attal derbyniad ei weddi yn y nef.

3. BWRIAD arall sydd gan Satan yn erbyn Cristion, yn y gorchwyl mawr hwn o weddi, yw attal ei lwyddiant ynddo. Fe fÿn fael ynot, Gristion, os gelli, y naill ffordd eu y llall. wrth fyned neu ddychwelyd. Ac nid yw on' yr un peth, pa un bynag ai wrth droi a an, ai wrth ddyfod adref, y ymmerir y llong. Nag e, o'r ddau, mwy

yw y gollod, cael ein somi o'n disgwyliad, pan fyddom yn meddwl i'n gweddïau ddychwelyd â'u llwyth gwerthfawr o drugaredau, o'r nefoedd.

Yn awr, dwy ffordd y mae yn llafurio i rwystro llwyddiant gweddi. Yn gyntaf, Y mae yn ceisio rhwystro derbyniad eu gweddïau gyda Duw, fel y bwrier hwynt, megys erfyniad allan o'r llys, ar ba un ni fÿn y brenin mo'r edrych. Yn ail, Os ni thycia yn hyn, y mae ganddo chwareu arall, ac fe ymdrinia â'r mater felly, os bydd modd, fel, er iddynt gael croesaw a derbyniad grasol gyda Duw yn y nef, etto, na chaffo hyn ei gredu gan y Cristion ar y ddaear, ond bod iddo eu rhoddi i fyny fel wedi eu colli, a pheidio a disgwyl mwy am danynt yn ol. Yn awr, er nad yw hyn yn aflwyddiant hollol a pharhaol i'r weddi, etto y mae Satan wrth hyn yn cael mantais fawr, gan ei ysbeilio o'r cysur a'r budd presennol a allai ei ffydd dalu i'w law, cyn i lawm ateb o'r weddi ddyfod.

DOSB. I.

1af. Y mae Satan yn llafurio i rwystro derbyniad ein gweddïau yn y nef. Yn awr, fe eill ein gweddïau gael eu hattal amryw ffyrdd wrth borth y nef, a'u nacau o'r derbyniad grasol y mae Duw yn arfer ei roddi. Yr wyf yn awr yn llefaru am weddïau y saint. Am weddïau yr annuwiol, un gyfraith sydd iddynt oll, cael eu bwrw allan, a chau y drws i'w herbryn. Rhaid i'r pren fod yn dda, cyn y gallo y ffirwyth a ddwg fod yn felus i archwylth Duw. Yn awr, yr annerbyniad a gyferfydd gweddi y Cristion âg ef, nid yw yn tarddu oddi wrth ddim aneuyllysgarwch yn Nuw i gyfranu ei drugaredd, na dim gwrthwynebiad i dlodion fod wrth ei ddrws. Y mae mor hyfryd gan Dduw drugarhau, fel mai i hyny y gwnaeth efe y byd, fel y byddai ganddo roddion, a thlodion i'w derbyn. Ond y mae rhwystr i lwyddiant gweddi oddi wrthym ni ein hunain. Nyni sydd yn rhoddi y ceryg yn y clo, a rwystrant i'r agoriad droi; ac felly yn wir nyni sydd yn cau drws trugared yn ein herbryn ein hunain. Nis gallai Satan ei hunan, heb gyfrwng, byth luddias croesawiad Cristion, nid oes ganddo mo'r fath awdurdod ar glust Duw, oni bai ein bod ni yn rhoddi geiriau yn ei safn, ac yn trefnu iddo gyhuddiad i'n herbryn. Y celwyddau y mae efe, fel cyhuddwr ffals, yn eu dwyn at Dduw ni niweidiant mo honom yn meddyliu Duw; ac ni wnânt mo'n gweddïau yn llai derbyniol. Ond os gwir fydd y cyhuddiad, fe wrendy Duw, er mai drwg ysbryd yw efe sydd yn dwyn y chwedl, ac mai ei anwyl blant sydd yn cael achwyn arnynt. Fe wga tad ar ei blentyn ac a'u cerydda, pan glywo am ryw rempau drwg a wnaeth, er mai gelyn a'i mynegodd ef. I roddi esampol pa ganymddygiadau mewn Cristion sydd yn lluddias gwrandawriad wrth orsedd gras.

DOSB. II.

(Iaf.) Pan na byddo y peth a erfynir yn un â meddwl Duw. Nid oes i ni ryddid i weddio ar antur am y peth a fynom. Ni osodwyd gorsedd gras i fyny fel y delem yn i dywallt ein hanwydau gwylltion anghymorraidd o flaen Duw, neu i daraw at ryw gais anfoesgar a ddigwyddo ddyfod i'n pen; onid e, diau y caffai Duw ddiagon o waith. Pe addawsai efe osod ei law wrth ein herfyniadau i gyd, bydded ynddynt y peth a fo, fe gai roddi ei law yn rhy fynych yn ei erbyn ei hun, ac ymadael â'r hyn ni byddai er ei ogoniant ei roddi. Yr oedd Herod yn rhy afraidlawn pan roddodd genad i'w anwyl ferch i ofyn y peth a fynai hi, hyd hauner ei deyrnas, ac fe dalodd yn ddrud am y tro; o blegid fe roddodd iddi ben a dalai fwy na'i deyrnas i gyd, a thori pa un a gostiodd ei goron. Ond y mae i ni a wnelom â Duw doeth, yr hwn—i gau safn pawb o'r fath geiswyr hyfion, a ofnyent yr hyn nid yw weddus i ni ddymuno, nac iddo ef ei roddi—sydd wedi gosod cyfraith gweddi, ac wedi appwyntio i ni y defnyddiau o honi: "Pan weddioch, dywedwch, Ein Tad, &c." Hyny yw, dygwch yma pa beth a ellwch ei ofyn gyda hyder o'i dderbyn. "Hyn yw'r byfder sydd genym tuag ato ef; i fod ef yn ein gwrandaw ni, os gofynwn ddim yn ol ei ewyllys ef;" 1 Ioan v. 13. Y mae ffydd heb addewid yn debyg i droed heb dir dysgog i sefyll arno. Da y deonglodd Luther ei eiriau, "Gwneler fy ewyllys; Fy ewyllys i, Arglwydd," eb efe, "am ei fod yn un â'r eiddod ti." Yn awr, yr addewid sydd yn cynnwys ynddi ewyllys Duw. Bydd sier o gasglu dy holl flodau gweddi allan o'r ardd hon, ac yna ni elli gam wneuthur. Ond gochel eu cymmysgu â dim bresych gwylltion o'th eiddo dy hun. Cofia gerydd ein Harglwydd i'w ddisgyblion, oedd am dywallt eu cŵyn dialgar mewn gweddi: "A fyni di ddywedyd o honom am ddyfod tân i lawr o'r nef a'u difa hwynt. Ac efe a ddywedodd, Ni wyddoch o ba ysbryd yr ydych;" Luce ix. 54, 55. Yr oedd ganddynt yma esampl o ochr eu gwaith; ond nid yw y grym arderchog, a'r Ysbryd anghyffredin oedd yn gweithredu yn Elias, ac ereill o'r prophwydi, ddim yn rheol sefydlog o weddi i ni. Yr oedd hyny ynddynt hwy oddi wrth Ysbryd Duw, yr hyn a all, ynom ni, fod yn deilliaw oddi wrth ysbryd diafol, fel yr arwyddoedr wrth eiriau ein Harglwydd, "Ni wyddoch o ba ysbryd yr ydych." Fel pe dywedasai, Ychydig ydych yn feddwl pwy a'ch cynhyrfodd. Chwi gawsoch eich pentewyn, nid oddi ar allor Duw, ond o aelwyd Satan. O! gochelwn fod yn genhadon diafol, wrth fyned at Dduw ar ei neges ef; dyna wir duedd ein gwaith pan weddiom yn groes i'r rheol neu heb warant. Gochel fytheirio allan dy wyniau afreolus o ddig

yno, i gael dial ar dy gaseion, fel y disgyt ion. Ac na ddyro rediad trwy anodderga wch, i'th dristwch anghymmedrol; fel I. yn nyfnder ei drallod, yn ceisio gan Ddu gymmeryd ei hoedl ymaith yn ddi-arc Ymgynghora â'r gair, "ac na frysied agalon i draethu dim ger bron Duw;" *Pro v. 2*. Yr oedd trefn Daniel yn ei lle: *Du ix. 2*. Yn gyntaf, y mae yn myned at Ysgrhythyr, ac yn chwilio am feddwl Du ynghylch yr amser yr addawsai efe i'w be ddychweliad o'u caethiwed. Ar ol cael hy a dysgu trwy hyny pa fodd i drin ei ddaw yna y mae yn amgylchu gorsedd gras; *ad 3*: "Ac mi a droais fy wyneb at yr Arglwydd Dduw, i geisio trwy weddi, &c." wyt ti yn glaf, neu yn dlawd—mewn diff o ryw drugaredd dymmorol? Dos, ac yf ofyn ar ba ammodau y mae y rhai hyn wo eu haddaw, rhag i'th ffydd dafu allan, di sylfaen yr addewid, trwy ofyniad dilai pheennodol am dauynt; onid e, fe syrth adeilad, ac fe'th roddir i gywilydd, am i ofyn mwy nag a addawodd Duw erioed.

PENNOD XIX.

Yr ail beth a all luddias croesawiad a derbyn gweddi Cristion.

(2il.) Er i ddefnydd gweddi y Cristion fod wedi ei selio ar y gair, etto, os bydd ddiben heb fod yn iawn, dyma ail ddrws i weddi gael ei hattal wrtho, er iddi fyny trwy y cyntaf: "Gofyn yr ydych, ac i ydych yn derbyn, o herwydd eich bod gofyn ar gam, fel y galloch eu treulio ar e melus-chwantau;" *Iago iv. 3*. Y mae Cristion, pan yn ei iawn dymmer, yr wyf addef, yn annetu at ogoniant Duw. Et megys y gall nodwydd a rwbiwyd wrth ffytyn, gael ei llysgwyd, a throi oddi wrth hoff bwynt, at ba un y mae yn naturiol o eddu, er y cryna hi nes dychwelyd i'w l felly y gall enaid grasol, mewn rhyw weid red neu ddeisyfiad, gael ei wyro oddi w y diben yma; wrth gael ei ysgwyd g Satan, neu ei affonyddu gan elyn nes gartref, ei llygredd anfarweiddiol. Ynddi saethydd nodedig yw y neb a dery y hwn ar bob tro. Onid ydych yn ei gyl yn bossibl i Grïstion, mewn cyfyng corph neu ysbryd, weddio am iechyd, i am ddiddanwch, gyda golygiad rhy ddy ar ei esmwythra a'i dawel fyd ei h Ydyw yn sier, ac i weddio am ddoniau chymmhorth mewn rhy wasanaeth arber gyda llygad traws ar ei enw a'i air da hun; neu am blentyn, gyda gormod o awy am i anrhydedd ei dŷ gael ei ddal i fy trwyddo ef. Ni wn i am un mor gad mewn gras a'r nad yw yn agored i'r ff ywri ysbryd. Ac fel hyn, mewn rhan

fir deall'yr ymadrodd hwnw: "Pe edrych-
yn (neu os edrychaf) ar anwiredd fy
calon; ni wrandawsai (neu ni wrendy) yr
glwydd;" *Salm* lxvi. 18. O blegid er
lyw yn dymuno ein hiechyd, ein heddb,
a'n cyfrifiad, ddim yn anwiredd, tra y
ldo y dymuniad o fewn y terfynau a
dodd Duw; etto, pan redont dros-
l, ac y beiddont orchuddio gogoniant
w, neu sefyll yn ogyfuwch âg ef, y maent
fleidddra mawr. Yr hyn sydd fwyd
hus yn y radd gyntaf neu yr ail, fe all
yn wenwyn yn y bedwaredd neu y bum-
d radd; am hyny, Gristion, hola dy hun
a gweddio, O fy enaid, pa beth sydd yn
yru ar y neges yma? Gwybydd ond dy
dwl dy hun, beth sydd yn dy roddi ar
ddio; a thi elli yn hawdd wybod meddwl
w, pa fodd y llwyddi. Sierhâ i Dduw ei
oniant, a thi a elli fyned â'r drugaredd
da thi. Pe buasai Adoniah yn gofyn Abi-
o gariad at ei pherson, ac nid yn hytr-
o gariad at y goron, y mae yn debygol
buasai Solomon yn gwahardd y briodas;
d fe graffodd y brenin doeth hwnw, mai
amcan oedd ei chael fel gris i ddringo i'r
bedd, am ba un yr oedd yn fawr ei awydd;
am hyny y gommeddwyd ei ddeisyfiad
da chymmaint gwg. Edrych pan yw dy
yniad yn ol y gyfraith, rhag bod hunan yr
gais a'th amcan; os bydd fe'i chwilir allan.
Cwest. Pa fodd yr adnabyddaf gyfeiriad
Dduw, neu hunan, mewn gweddi.
At. Fe ymddengys hyn yn gyffredin, wrth
wedd ein calon, pan fyddo Duw yn oedi,
u yn nacau y peth a geisio, enaid a all
llynddu a goddef oed neu ball yn amyn-
ldgar—son yr wyf yn awr am roddion o is-
tur, heb fod yn angenrheidiol i iachawd-
iaeth, ac felly heb eu haddaw yn bendant
y mae hwn yn rhoddi tystiolaeth oibeith-
l, fod gogoniant Duw yn pwysu yn drym-
h yn ei feddyliau, na'i ennill neu ei fodd-
d ei hun. Y mae calon hunanol am ei
ais yn ddilai, a chyda brys hefyd; rhaid
di gael y peth yn bennodol, a hyny yn
an, onid e; y mae yn diffygio, neu yn
weryla, yn syrthio mewn llewgy, neu yn
ri allan i achwyniadau tuchanillyd, heb
bed taraw ar addewidion a phriodoliaeth-
l Duw ei hunan. "Pa ham," meddant,
yr ymprydiasom, ac nis gwelaist?" *Esa.*
iii. 3. Ac o ba le y tardd y pethau hyn,
d oddi wrth ormod serch arnom ein hun-
n, yr hyn sydd yn peri i ni anghordio â g-
oniant Duw, yr hwn a all gael dyrchafiad
wy trwy ball a nacad o'r fath na phe-
m ni y peth yr ydym mor daer am dano?
e ogoneddwyd Duw yn fwy wrth nacau
rist ei hun o'i fywyd, na phe gadawsai i'r
wpan chwerver hono fyned heibio heb iddo
phrofi; yr hyn gan fod Crist yn ei ddeall
u dda, fe ymroddodd iddi gan ddywedyd
Ioan xii. 28), "O Dad, gogonedda dy enw:

—Nid fy ewyllys i, ond dy ewyllys di a
wneler." Fel pe dywedasai, ni fyuwn gadw
fy mywyd, i golli i ti y radd leiaf o'th
ogoniant. Dyma y copi y dylem oll ysgrif-
enu ar ei ol. Yn wir, os bydd ein calonau
afiach mor ystyfuig ac afonydd, fel nad ym-
foddlonant ar yr hyn a welo Duw yn dda, a
phan welo yn dda hefyd, nid cariad fyddai
ein boddio yn y fath ddymuniadau; o blegid
ni wua efe, trwy hyny, ond maethu ein
hafiechyd, yr hwn a iacheir yn well wrth ei
newyuu na'i borthi.

PENNOD XX.

*Yn cynnwys y trydydd a'r pedwerydd rhwystr a
all orwedd yn ffordd gweddi Cristion.*

(3ydd.) Fe all gweddi y Cristion aflwyddo,
pan na byddo efe yn uno arferiad diwyd o
foddion gyda'i weddi. Nid oes i ni feddwl
pwyso ar Dduw, fel y gwna rhai pobl ddiog
ar eu perthynasau cyfoethog, i fod bob am-
ser yn crefu, ond heb estyn ein llaw at
waith mewn arferiad o foddion. Y mae
Duw wedi appwyntio gweddi yn gymmhorth
i'n diwydrwydd, nid fel cochl i'u diogi.
Cardotwyr segurlyd, nid oes iddynt groesaw,
nac at ddrws Duw na dyn. Pa beth? A
godi di dy ddwyllaw at Dduw mewn gweddi,
ac yna eu rhoddi yn dy fynwes? Onid yw
Duw yn gwahardd ein helusen i'r hwn na
fyno weithio? "Gorchymynasom, Os bydd
ai neb ni fynai weithio na chai fwyta
chwaith;" *2 Thes.* iii. 10. Ac a fydd iddo
ef faethu segurdd ynot, tra y mae yn
rhoddi arnom ni ei gospi? Esbouiad da a
wnaeth Bernard ar eiriau Ieremiah (*Galar.*
iii. 41): "Dyrchafwn ein calonau a'n dwy-
llaw at Dduw yn y nefoedd." Y neb sydd
yn gweddio ac yn diwyd arfer y moddion,
hwnw sydd yn dyrchafu ei galon gyda'i
ddwyllaw at Dduw. Edrych gan hyny,
Gristion, ar i ti gymmysgu dy chwys gyda'th
ddagrau, dy lafur gyda'th weddiâu. Os nad
yw dy weddi yn dy osod ar waith, ni esyd
hi chwaith mo dy Dduw ar waith dros-
ot. Ai rhyw chwant yr wyt yn gweddio
i'w erbyn? Ac a eisteddi di i lawr yn segur
i edrych a fydd efe bellach marw ei hun?
A ladd y weddi hono un chwant, sydd yn
gadael i un arall—diogi wyf yn ei feddwl—
fyw o flaen ei lhwynneb? Megys na cheidw
Duw dy enaid, felly ni ddfetha efe dy bech-
od chwaith, oddi eithr i'th law dithau hefyd
fod wrth y gorchwyl. Gwel fel y cododd
Duw Iosuah oddi ar y ddaear, lle yr oedd
yn gorwedd dan weddio a galaru o achos
aflwydd Israel (*Ios.* vii. 10.): "Cyfod, pa ham
yr wyt yn gorwedd fel hyn ar dy wyneb?
Israel a bechodd, &c.;" (*adn.* 12): "Am
hyny ni ddichon meibion Israel sefyll yn
wyneb eu gelynyon, &c.;" (*adn.* 13): "Cyfod,

sancteiddia'r bobl." O! mor fynych y gall Duw ein hysgwyd oddi ar ein gliniau a dywedyd, Pa ham y gorweddwech chwi yma gyda eich gweddïau dioglyd? Chwi a bechasoeh trwy wrthod fy nghyngor, ac anufuddhau i'm geiriau; mi a berais i chwi wylïo yn gystal a gweddïo; pa ham na wnewch y naill fel y llall? y mae fy ngorchymyn i yn eich rhwymïo i ffoi rhag y fagl a esyd Satan i chwi, yn gystal ag i weddïo i'w herbyn; am hyny, ni ellwch sefyll yn wyneb eich chwantau. Ni feiddïai Moses fyned â gweddïa at Dduw yn mlilaid Israel oedd wedi pechu, nes iddo ddangos sel dros Dduw yn erbyn eu pechod; ac yna fe aeth ac a lwyddodd. Gwel *Ecsod. xxxii. 25, 26, a 31.* A wyt ti yn meddwl rhodio yn benrhydd ar hyd y dydd, gan ymroddi a bradychu gogoniant Duw i ddwylaw dyr chwant, ac yna trwsïo y cwbl â gweddïo y nos? Och! fe gyrrhaedd dy lyfrder a'th ddiogi i'r nef o flaen dy weddï; ac a'th roddant i gywilydd pan ddelych ar y fath neges.

(4ydd.) Fe ddichon gweddï y Cristion aflyddo o blegid rhyw gweryl dirgel a gollleddir yn ei fyuwes yn erbyn ei frawd. Tân dieithr yw digder a llid, i'w roddi at ein harogldarth. Y mae yn gyfraith ysgrifenedig ar bob porth i dŷ Dduw—yr ordinhadau wyf yn ei feddwl, trwy ba rai y mae i ni fyned i gymmundeâ Duw—bod i ni garu ein brodyr. Pan elom i wrandaw y gair, beth yw y rhybudd hwn, bod i ni "roddi heibio bob malais, cenfigen, a gogan-air; ac fel rhai bychain newydd eni, chwennychu didwyll laeth y gair." Ni lefaru yr efengyl heddwch wrth ysbyrd digllawn. Y mae digder a llid, fel sudd naww hallt ac ysol yn y cylla, yn peri i ni fwrw i fyny laeth y gair, fel nas gall aros gyda ni er ein maeth. Ai swpper yr efengyl wyt ti yn eistedd wrtho? Cariad-wledd yw hwn; ac er y gelli fwyta gyda'r dail surion o dristwech am bechod, etto nid gyda'r lefain sur o falais a drygioni. "Pan ddeloch ynghyd yn yr eglwys, yr ydwyf yn clywed fod amrafaelion yn eich mysg chwi, &c." 1 *Cor. xi. 18.* Yn awr, craffwech beth sydd yn canlyn (*adn. 20*): "Nid bwyta swpper yr Arglwydd ydyw hyn." Ni chymmuna Crist gyda chymdeithion ceccrus ac ymrysongar. Pan ddelo ymwelwyr o'r fath, y mae efe yn codi oddi wrth ei fwrdd ei hun, fel plant Dafydd oddi wrth fwrdd Absalom, pan laddwyd eu brawd Ammon: 2 *Sam. xiii. 29.* Ac am weddï, chwi wyddoch y gyfraith hono: "Gan ddyrchafu dwylaw sanctaidd, heb na digder na dadl;" 1 *Tim. ii. 8,* yn arwyddo mai amhossibl yw gweddïo mewn ffydd ac mewn digder. "Fe all ein gweddï," medd un, "gael ei rhwystro ddiwy ffordd; trwy fod yn gymmodol â rhyw bechod a wnelom yn erbyn Duw, neu, trwy fod yn anghymmodol â'n brawd a becho i'n herbyn ni." Nid oes dim ysgar

ar y rhai hyn yng ngweddï yr Arglwydd "Maddeu, megys y maddeuwn ninnau." mae ysbyrd digllawn fel y dywed yr un—yn debyg i flaen y saeth mewn arc yn gwneuthur ein gweddïau mor aneffïol i ni ag yw eli i'r clwyf, lle byddo y ddrwg yn aros.

Yn awr, y rheswm pa ham y mae mor fanwl yn y pwngce yma yw, am ei ei hun mor rasol; a chan mai cariad yw nis gall groesawu neb ond a fyddo m cariad. Yr oedd gan y paganiaid dy dderbynïai y duwiau aberth na gwasau neb, ond y cyfryw ag oeddynt debyg id eu hunain. Ac am hyny, i aberthhau cules—duw nerth—ni oddefid i un bychan coraidd ddyfod. I aberthhau —y duw llawen—ni chroesawid neb a f ai yn brudd ac athrist, am eu bod yn addas i'w naturiaeth ef. Fe ellir i gwirionedd gwerthfawr oddi wrth eu fydrwydd hwn. Y neb a fyno ryngu t Duw, rhaid iddo fod yn debyg i Dduw. awr, ein Duw ni sydd Dduw heddwch; Tad nefol, trugarog yw; ac am hyny, oes i neb groesaw ato ond y rhai sydd blant tanguefedd, ac yn drugarog fel eu O! gwylïa dy galon ynte rhag i be tân Satan—a fydd efe yn dasfu i'th ffen ar bob achlysur bychan—ymafyd yn dy bryd, i enny tan calon ynot yn erbyn frawd. Os un amser y gweli y mwg ll neu os aroglï ddim o'r tân hwn yn dy fyna chwsg nes ei ddiiffodd. Bydd yn gofalus i dasfu dwfr ar hwn wrth fyned wely, nag ar y llall sydd ar dy aelwyd fodd y gelli di roddi dy hun trwy weddï yn nwyllaw Duw y noson hono, pan y genyt wreichion o hwn yng nghudd dy fynwes? "Digio," ebe Ierome, "s wendid dynol, a gadael heibio ddigof sydd brawf o Gristion." Nag e, ym ml ach, os myni brofi dy hun yn Gristion, yn rhaid i ti wneuthur dy oreu i'w ddiiff yng nghalon dy frawd, yn gystal a'r ei dy hun. Nid digon yw i ti fod yn he ychol o galon ato ef, oddi eithr i ti fod ceisio cael ei galon ef yn heddychol â th au hefyd. "Os dygi dy rodd i'r allor, ac dyfod i'th gof fod gan dy frawd ddim yr erbyn, &c.," *Mat. v. 23.* Y mae Ierome dwyn y Cristion i mewn yma yn ymresy â Duw, pa ham na wrendy efe ei wed "Arglwydd, pa ham na dderbyni fy rho Beth yw i mi? Nis gallaf i wrthïo, os gan fy mrawd rywbeth yn fy erbyn." hwn y mae yn rhoddi atteb Duw fel h "Pa beth a ddywedi, tydi was drwg? wyf yn deall dy feddwl. Nid oes genyt meddi, ddim i'w erbyn ef. A wyt ti yn garu ef? Pa ham, gan hyny, na fynï achub ef? Dos a deisyf arno fod yn gymmodol â thi, fel yr achuber ei enaid." wyf yn fwy maith ar y pen yma, wrth

ed y fath awr, neu yn hytrach oes, o fedigaeth yr ydym yn byw yuddi, gan afaelion athrist mewn barn sy rhwng tionogion, y rhai hyny sydd wedi diferu u serchiadau y fath ddihasrwydd at eu dd ag sydd yr peri gweltau o ddigder a erwedd. Iê, gwellhâd rhyfeddol a fydd iiff ond ei attal rhag diwedu mewn dardigaeth anfeddygimaethol ar gariad, ym g rhan fawr o'r genhedlaeth hon, yn edig wrth ystyried y fath lid sydd wedi w i'r briw yma o ymrafaelion eglwysig, y ymranïadau gwladol a fagodd gyda nt; neu yn hytrach a darddodd oddi ynt, ac a dynodd y fath gleddyf alaeth-n ein mysg, a'r na fedrai, dros amryw yddoedd, gael un wain arall ond ymysedd y genedl anhapus. O! y fath geniau, soriant, a gwg y mae y rhai hyn i eu codi! Y mae y cleddyf, diolch i w, wedi ei roddi o'r diwedd yn ei wain ddwch. Ond ai nid oes genym achos i muno, pe cawsai ei sychu yn lanach wrth adw, ac na byddai y fath ysbryd anghymol a dialeddgar i'w gael ag a welir gyda er o honom, ac a ellir ei gyfarfod, ysyw, y rhwy gyffredin ym mhob man? Mae storm oddi allan drosodd, trwy ddaion v; ai nid yw yn rhy uchel o fewn i rai mynwesau? Y mae y diluw o helbulon ddol wedi llonyddu; ond ar ol i'r llanw o, onid oes llawer o'r llaid hwn, heb sôn chwanaeg—ammheuon angharedigol, erwedd, digder, ac ymddial—wedi ei l ar ein calonau? Digon i fagu pla a arall yn ein plith, oddi eithr i ffrwd o eirwch gwladol olchi ymaith yr hyn a fu y môr o ryfel a therfysgiadau ereill wrv i fyny. Ond pe na buasai dim i'w oddi wrthyt ond yr hyn a ganlyn, fe lai ein cyflwr yn ddigon athrist. Hwy wystrant ein gweddïau, o herwydd ni rbyn Duw y fath aberthau ag a gynneuir an digder.

PENNOD XXI.

ynnwys y pummed achos o afwyddiant gweddi Cristion, a diffyg ffydd: ac hefyd pa beth gweddïo mewn ffydd.

(ed) GALL gweddi y Cristion afwyddo o ffyg ffydd. Gweddi yw y bwa, yr addell yw y saeth, a ffydd yw y llaw sydd yn a y bwa, ac yn anfon y saeth yma ar es y galon i'r nef. Nid yw y bwa heb y h o ddim defnydd, na'r saeth heb y bwa lim gwerth, na'r ddau heb nerth y fraich ateb un diben. Nid yw yr addewid iaith heb weddi, na gweddi heb yr addell, na'r ddwy heb ffydd, yn tycio dim i'r tion. Felly y mae yr hyn a ddywedam yr Israellaïd, nas gallent fyned i

Ganaan o herwydd anghredinaeth, yn addas i'w ddywydd am lawer o'n gweddïau ninnau, nis gallant fyned yn dderbyniol i'r nef, am nad ydynt yn cael eu hanfon i fyny mewn ffydd. Yn awr, gellir ystyried ffydd mewn perthynas i'r person sy'n gweddïo, neu ynte i'r weddi a weddiir. Yn gyntaf, rhaid i'r person fod yn gredadyd, ond nid yw hyn yn ddiog. Rhaid hefyd fod ffydd mewn gweithrediad yn y weddi, yn gystal a'r reddf o ffydd yn aros yn y person: "Beth bynag oll a geisioch wrth weddio, credwch y derbyniwch, ac efe a fydd i chwi;" *Marc xi. 24.* Os nad yw y peth a ddeisyfwn i'w gael yn yr addewid, pechod yw gweddïo am dano: os ydyw yno, pechod yw anghredu ei dderbyn; ac nid un bychan, am ein bod wrth hyny yn halogi ordinhâd, ac yn bwrw anfri ar enw y Duw mawr hefyd.

DOSE. I.

Cwest. Ond pa beth yw gweddïo mewn ffydd?

At. 1af. Yn nacaol. Nid credu ydyw y bydd i ni dderbyn y peth hwnw yn bennodol neu yn ei ryw ei hunan bob amser ag y byddom yn ei geisio. Fe weddiodd Crist mewn ffydd, a chafodd ei wranddau: *Heb. v. 7, 8.* Nid ei gred oedd y eaf efe ei ofyniad yn bennodol; ac nis cafodd mo hono: er hyny, fe attebwyd ei weddi. Am hyny, bydd sicr o ddysgu yr iawn ffordd o *actio* dy ffydd mewn gweddi: a hono sy raid i ti ei chymmyrd oddi wrth natur yr addewid a fydech yn ei ddadleu. Megys y mae dwfr yn derbyn ei lun, crwn neu ysgwâr, oddi wrth y llestr y byddo ynddo, felly y mae ein ffydd ninnau i gael ei llunio wrth yr addewid. Os bydd hono yn bendant, megys y mae am bethau angenrheidiol i iachawdwriaeth, yna gall dy ffydd ddisgwyl yn bennodol y peth a addewir. Os amgen, ni ddylit rwymo dy ffydd wrth y peth ei hunan, ond disgwyl arian neu wrth arian; iechyd, neu gystal ag iechyd; gwaredigaeth, neu well na gwaredigaeth. Cred bendant ar addewid ammodol, heb ddadguddiad digyfrwng, yr hyn nid oes i ni ei ddisgwyl, dychymmyg ydyw, nid ffydd. Bod yn hyf ar drysor Duw heb ganiatâd sy lygredd, nid gras; o blegid yr ydym yn rhoddi mwy yn mhenderfyniad ein ffydd nag sy'n rhagosodiad yr addewid; ac wrth hyny yn tori rheolau dadleuyddiaeth a duwinyddiaeth hefyd.

DOSE. II.

(2.) Yn gadarnhaol. Gweddi mewn ffydd, yw gofyn gan Dduw, yn enw Crist, yr hyn a addawodd efe, gan bwyo ar ei allu a'i wirionedd am y cyflawniad, heb ei rwymo wrth amser, dull, na moddion.

(1af.) Mae yn rhaid i ni ofyn gan Dduw yr hyn a addawodd; os amgen, yr ydym yn dewis i ni ein hunain, nid yn gofyn; darostyngwn ewyllys Duw i'r eiddom ni, ac nid

yr eiddom ni iddo ef; yr ydym yn gwneud gweithred ffugiol, ac yna yn honi hawl i'r swm fyddo ynddi, fel dyled, yr hyn sydd yn rhyfyg erchyll. Y neb a fyddo yn hunan-addäwr, rhaid iddo fod yn hunan-dalwr.

(2il.) I weddio mewn ffydd, y mae yn ofynol i ni weddio yn enw Crist. Megys na ddichon bod ffydd ond ar addewid; felly, nis gellir dal hawl mewn un addewid ond yn ei enw ef, am eu bod wedi eu gwneuthur iddo ef ac yn cael eu cyflawni er ei fwyn ef. Fe'u gwnaethpwyd iddo ef, gan mai äg ef y gwnaethpwyd y cyfammod: "I obaith bywyd tragwyddol, yr hwn a addawodd y digelwyddog Dduw cyn dechreu y byd;"

Tit. i. 2. Ac nid oedd neb mewn bod y pryd hyn ond Crist, i'r hwn y gellid gwneuthur yr addewid. Fel mai megys y mae y pleuny yn hawlio ei etifeddiaeth yn hawl ei dad a'i pwrcasodd hi, felly yr ydym ni'nau yn cael hawl yn yr addewid, megys etifeddion i Grist, a chyd-etifeddion ä Christ. Ac megys y gwnaethpwyd yr addewid iddo ef, felly y mae yn cael ei chyflawni erddo ef, am mai tywalltiad ei waed ef oedd yr ammod ar ba un yr ymrwymodd Duw, fel dyledwr i Grist, gyflawni holl erthyglau y cyfammod i'w etifeddion ef, pan ddadleuant am danynt yn rheolaidd yn eienw ef. Gan hyn, nid digon yw dadleu addewid o flaen Duw: Maddeu, Arglwydd, yr wyt wedi addaw: rho dy ras a dy ogoniaut, fel yr addewaist; ond y mae yn rhaid i ni, os ydym yn meddwl rhoi ein hawl i mewn yn gyfreithlawn—yn ol cyfraith ffydd yw fy meddwl—ddadleu am y rhai hyn dan nodded ei enw ef. Fel yma yr oedd Daniel dduwiol yn gosod pwys ei weddi ar Grist: "Ond yr awr hon gwranda, O ein Duw ni, ar weddi dy was, a llewyrcha dy wyneb ar dy gyssegr anrheithiedig, er mwyn yr Arglwydd;" *Dan. ix. 17.*

DOSEB. III.

(3ydd.) I'r gweddio yma mewn ffydd, y mae yn ofynol bod ymorphwysiad ar Dduw trwy Grist am ateb grasol. Pe gwnai dyn y cyntaf, a phallu yn hyn, nid ydyw yn gweddio mewn ffydd, ond yn cymmeryd enw Duw a Christ yn ofer. Y weithred hon o ymorphwysiad yw yr ymaflyd yn Nuw mewn gweddi: *Esa. lxiv. 7.* Pan fyddo morwyr mewn ystorm yn tasfu allan eu hangor, a hwnw yn dyfod yn ol heb ymaflyd yn y gwaelod, fel ag i attal y llong, a'i dal yn erbyn grym y tonau, nid ydyw yn llesau iddynt. Felly hefyd y weddi ddi-afael, nad ydyw yn ymaflyd yn Nuw. Am hyn, chwi gewch, pan fyddo Cristion yn llwyddo mewn gweddi, fod ei ffyniant yn cael ei gyfrif, nid i weddi noeth, ond fel y mae wedi ei gwisgo a'i chryfhau ä'r ymorphwysiad ar Dduw (*2 Cron. xiii. 14*): "Hwy a waeddasant ar yr Arglwydd." Yn awr, gwelwch *adn. 18*: "Meibion Iudah a

orfuant, o herwydd iddynt bwyso ar glywyd Dduw eu tadau." Nid yw y ond yn dywedyd celwydd mewn gweddi nad yw yn pwyso ar Dduw ar ol gweddi. Yr hyn a dybygid ei fod yn ei roddi i De äg un llaw, y mae yn ei ddwyn oddi arno llall, yr hyn nid yw ddim gwell na gwaet Duw. Wrth weddio, yr ydym yn cymeryd arnom ddisgwyl daioni oddi wrth wrth beidio a phwyso, yr ydym yn cryhvn, ac yn mynegi nad ydym yn edrych ddiin o'r fath beth. Yn awr, y mae gan enaid yn y gorphwysiad yma, ffordd dd blyg i ymaflyd yn Nuw, fel yr angor ddau fach.

(1.) Y mae yn ymaflyd yng ngallu D Fel y darfu i Grist yn ei ing, "trwy let cryf a dagrau, offrwm gweddiau ac erfyniau at yr hwn oedd abl i'w achub oddi w farwolaeth;" *Heb. v. 7.* Mewn gweddi ydym yn agor ein hachos o flaen Duw; addef y fath greaduriaid pechadurus, gw digynorthwy ydym; ac yna yn gorchyn ein hachos i Dduw. Yn awr, megys rydd neb i gadwraeth un arall y peth a g rifa yn ddiogel yn ei law ei hun; felly ni ti ddoda neb chwaith ddim i un arall, ne berswadio o'i alluogrwydd ef i wneud y p nas gall efe ei hunau. Gwelwch gyng Eliphaz i Iob (*pen. v. 8*): "Myi a y gynghorwn ä Duw: ac ar Dduw y rhodd fy achos." Fel pe dywedasai, Pe bawn dy gyflwr, mi ddywedaf i ti y ffordd a gymerwn. Nid edrychwn yma neu acw, ei prysurwn at orsedd gras; ac wedi i mi waith agor fy nghalon o flaen Duw, nid flinwn mwyach, ond gorchymynwn fy ac iddo ef, a dadlwythwn fy nghalon o'i baic bob meddwl terfysgelyd. Oud oddi ar farn y gwnai efe hyn oll? Y geiriau ni a fynegant, "Ar Dduw y rhoda'n fy ac." Yr hwn sydd yn gwneuthur pethau maion ac anchwiliadwy; rhyfeddol, heb eidi." Yn gyntaf, efe a sylfaenai ei ffydd Dduw, megys un galluog i wneuthur peth mawrion: ac yna, gan adael ei ddeisy yn nwyllaw y fath allu, nid oedd yn ammi na chai fwrw ymaith ei holl ofal, a mw hau tawelwch meddwl, pa beth bynag fydd ei gyflwr. Yn wir, hon yw y gareg gyntaf a esyd ffydd yn ei hadeilad. Ac os bydd yn y sail, y mae yn ddiagon i wanhau yr ddy. Bydd sicr, gan hyn, o osod y m gwaelod yma gyda'r gofal mwyaf. O! i anweddadaid yw bod genym Dduw mawr ffydd fechan yn y Duw mawr hwn! D cryf, a ffydd wan ar ei nerth hollalluog. Y mae anghrediniaeth yma yn treisio ac gwneud cam hyd yn oed ä goleuni nat Canys y mae ei dragwyddall allu ef dduwdod i'w hadnabod wrth waith gwel ig y greadigaeth: *Rhuf. i. 20.* Pa beth gall efe ei ddwyn i ben, a fedrai wneud fath adeilad hardd heb ddefnyddiau, ari

eithwyr! Ymaith â'r cwestiwn hwn yn swio mor ddrwg yng nghystiau llalluog—A all efe? A all efe fadd—A all efe lanhau? Pa beth nas gall ei wneuthur, a all wneuthur y peth?

Mae yn ymaflyd yn ffyddlondeb Duw wni'r addewid. Fe'n haddysgir wrth nyn ein hunain iddo, i olygu ei ffydd, "megys i Greawdwr ffyddlawn;" *iv. 19.* Hynod fu ffydd y saint yn norphwysiad ar hyn, tra yr oedd y drulygweddiasant am dani ygorwedd o'u (*Salm lxxv. 1*): "Mawl a'th erys di yn O Dduw; ac i ti y telir yr adduned; w'n a wrandewi weddi." Ac etto, yr y diwrnod da hwn heb ddyfod, o y mae yn llefain allan, "Pethau anm gorchfygasant;" *adn. 3.* Felly, *xl. 12*, "Gwn y dadleu yr Arglywydd y truan, ac y barna efe y tlodion." *n?* pa fodd y mae efe mor hyderus (*3*)? "Y cyfiawn yn ddiau a glodfor-enw." Fel pe dywedasai, Y mae i n w o fod yn Dduw graslawn a ffydd-*th* addewid: a hyn ni fy'n gollu byth lori dy air. Gristion, gelli anturio yr eddi ar air cyhoeddus y nef. "Geir-Arglywydd ydynt eiriau purion; fel wedi ei goethi mewn ffwrn seithwaith;" *ii. 6.* Yr hwn ni oddefa gelwyddwr wrw ammod i osod troed ar ei fynydd lld, llawer llai y goddefa efe i un yll o dwyll neu anffyddlondeb gael lle ynwys sancteiddiaf ei hun.

PENNOD XXII.

*o reolau wrth ba rai y gallwn wybod a yd-
an arfer, neu yn actio ffydd mewn gweddi,
d ydym.*

st. Pa fodd y gwybyddaf a ydwyf yn ffydd fel hyn mewn gweddi?

1. Wrth dawlwech a llonyddwch dy l ar ol gweddi. Gall ffydd fyw mewn i, ond ni ddioddefa i ysturm fyw yn-
Fel y mae ffydd yn codi, y mae y tymmestlog o feddyliau blin ac an-
wn yn myned i lawr. Yn yr un radd mae ffydd yn y galon, y mae heddwch
y maent wedi eu cydgyfylltu, llon-
ch a gobaith (*Esa. xxx. 15*): "Trwy welyd a gorphwys y byddwch gad-
mewn llonyddwch a gobaith y bydd
adernid. Am hyny y mae yn cael ei
tangnefedd gan greu;" *Rhuf. xv. 13.*
yn oed lle y mae wanaf, ni äd aflon-
ch y galon heb gerydd (*Salm lxii*):
ham, fy enaid, y terfysgi ynof? ym-
d yn Nuw." Pa beth, fy enaid, ach-
fel y dylech oddi ar dy liniau! oni
a i ti dywallt dy gwyn ger bron Duw

sydd yn alluog i'th gynnorthwyo? ac oni lonydda hyny di? Gwaith ffydd yw dad-
lwytho yr enaid, mewn gweddi, o'r hlyd-
gwasgu arno. Tra y mae enaid anghredini-
ol yn dwyn yn ei gylch yr achos o'i flinder,
am ei fod heb nerth i fwrw allan ei ofidiau
a threiglo ei ofalon ar Dduw yn y ddyled-
swydd. Gristion, a wyt ti yn dwyn ymaith
yr un baich ar dy gefn, o weddi, ag oedd
genyt yn dyfod iddi? Yn sicr, yr oedd eis-
ieu ffydd i'w gael oddi ar dy war. Pe bu-
asai ffydd yno, yn rymus a bywiog hefyd,
hi fuasai yn taflu hwn oddi wrthyf ac yn dy
ddwyn di ymaith â chalon sirol. Megys
Hannah a gododd o weddi, ac a fwytaodd;
ac ni bu athrist mwy: *1 Sam. i. 18.* Ac fel
ein Harglwydd, a aeth ar ei liniau â chalon
mor drom a nberioedd, ond a ddaeth ymaith
mewn gwroldeb sanctaidd i fyned i gyfarfod
â'i angen oedd yn nesau, ac â'i elynion
gwaedlyd oedd yn awr ar y ffordd i'w ddal
ef. "Cödwech, awn," medd efe wrth ei ddis-
gyblion, "wele, nesaodd yr hwn sydd yn fy
mradychu;" *Mat. xxvi. 46.* Onid allem
wrido o feddwl ein bod yn dyfod yn llai
boddlawn ger bron Duw nag y deawn
weithiau oddi wrth greadur o ddynd? Pe
byddit yn dlawd, a chenyt gar cyfoethog yn
erchi i ti ddanfod dy blant ato ef, gan add-
aw darparu iddynt, oni esmwythiai hyn dy
feddwl o'th holl ofalon ynghylch eu cynnal-
iaeth? Ac onid yw Duw yn addaw mwy
nag a gyrhaedd hyn iddo, pan y mae yn
peri i ni beidio gofalu am ddim; ond
gwneuthur ein deisyfiadau ym mhob peth
gyda diolchgarwch, "yn hysbys ger bron
Duw;" *Phil. vi. 6.*

2. A wyt ti yn parhau i weddio, ie, pan y
mae Duw yn parhau i nacau? Gall calon
anghrediniol ddangos peth dewrder wrth
gychwyn; ond bydd yn sicr o flino ardaith hir.
Fe fwria ffydd y rhwyd i mewn drachefn a
thrachefn, tra fyddo Duw yn parhau i or-
chymyn, a'r addewid i roddi calondid. Y
mae y milgi yn hela wrth ei lygad; pan
gollo olwg ar ei wrthddrych, y mae yn rhoddi
heibio redeg; ond yr iawn fytheiad, wrth
sawyr; y mae yn hela dros glawdd a ffos, er
na chaffo olwg ar yr ysgyfarnog ar hyd y
dydd. Mae yn bossibl i galon anghrediniol
gael ei chynhyrfu i weddio ar ryw debygol-
iaeth gweledig, a gobaith teimladol o dru-
garedd yn dyfod; ond pan fyddo y rhai hyn
o'r golwg, dyna hi yn darfod. Eithr ffydd
a geidw sawyr yr addewid ac a ganlyn ar ei
hol.

3. A wyt yn gosod terfyn i Dduw? neu
ynte a elli ymddiried iddo ateb dy weddi
yn ei ffordd ei hun, heb dy gyfarwyddyd di?
Pan fyddom yn masnachu â gwr y byddom
yn amhheu ei allu neu ei ffyddlondeb, ni a
ymdrechwn ei ddal yn sicr trwy ei rwy-
m wrth ein hammodau ni. Ond os bydd gen-
ym feddwl cryf am ei olud a'i onestrydd,

ni a'i gadawn iddo ei hunan. Dyma fel y mae y dyn claf yn galw am physygyr, ac yn gofyn ei gymmhorth; ond yn ei adael ef i ysgrifenu ei gynghor ei hun. A'r marsiaidwr yn anfon ei ciddo drosodd at ei farchnatâwr, ac yn ymddiried iddo ddychwelyd y cyfryw bethau ag a ddywed ei synwyr fydd yn oreu at y farchnad. Felly yr enaid crediniol yntau, wedi agor ei galon i Dduw mewn gweddi, y mae yn ymddiried am ateb, i'w ddaioni, ei ddoethineb, a'i ffyddlondeb ef: "Am hyn hefyd, cofia fi fy Nuw," medd Nehemiah, "ac arbed fi yn ol lliaws dy drugaredd;" *Nehem. xiii. 22.* Gwelwch yma, y gwr da hwn mor hyf a bod yn gofiadur i Dduw, ond heb feiddio bod yn gynghorwr neu yn gyfarwyddwr iddo; y mae yn ymddiried lluniad yr ateb i liaws ei drugaredd ef. Oddi yma y mae yn caulyn, pa ffordd bynag y daw Duw i mewn, fod yr enaid crediniol yn ei groesawu. A ydyw efe yn gweddio am iechyd ac heb gael hyny? etto efe a fendithia Dduw am ei gynnal-iaeth dan afechyd. A ydyw efe yn gweddio dros ei blant, a hwythau er hyny yn groes iddo? etto y mae yn cael ateb ffordd arall a rydd foddlonrwydd iddo. Ar ol llawer gweddi a roisai Dafydd, yn ddiammheu, dros ei dylwyth, ni a'i cawn ef yn croesawu ateb i'r gweddiâu hyny gydag ysbryd tawel, er na ddaethai i mewn drwy y drws wyneb, sef y drugaredd a geisiodd yn y llythyren (2 *Sam. xxiii. 5*): "Er nad yw fy nhŷ i felly gyda Duw, etto, cyfammod trawgyddol a wnaeth efe â mi," &c.; a hyn, fe ddywed i ni, yw ei holl ddyuniad. Yn wir, ni ddichon credadyn fethu cael ei ddyuniad: "Efe a wna ewyllys y rhai a'i hofuant;" *Salm cxlv. 19.* Am eu bod yn ymwrthod â'r ddyuniadau hyny sydd yn wrthwynebol i ewyllys Duw. Pwy allasai weddio yn fwy gwresog dros ei blant na Iob? Yr oedd efe gyda Duw yn eu hachos bob dydd; ond er ei holl ofal crefyddol yn eu cylch, y mae yn cael newyddion athrist, ac yn clywed ddarvoud i angeu wneuthur aberth o'r rhai hyny pa rai yr offrymodd efe gynnifer o ebyrth i Dduw drostynt. Etto, nid yw yn rhoddi dim yn ynyfyd yn erbyn Duw, nac yn dywedyd mai yn ofer y gweddiodd. Na, nid oedd yr enaid hwnw wedi ei gollu, arogl yr hwn oedd yn dywalltedig ar ei enaid ei hun, yn agwedd pa un y gallai ddarllen ateb grasol, gan ei fod yn cael y fath ras cynaliol, yn ei alluogi i garu a bendithio Duw uwch ben beddau ei blant lladdedig.

4. Wrth ymddygiad yr enaid tuag at y moddion i'w harfer, er cyrhaedd y drugaredd y mae yn gweddio am dani.

1af. Os wyt yn gweddio mewn ffydd, fe a'th esyd i arfer moddion ereill heb law gweddi. Craffwch fel y mae yr apostol yn cyssylltu y rhai hyn ynghyd: "Nid yn

ddiog mewn diwydrwydd; yn wresog ysbryd; yn gwasanaethu yr Arglwyd yfal barhaumewn gweddi;" *Ruf. 12.* Megys y mae ffydd yn arfer ei ydd o weddi i ehedeg i'r nef, felly hithraed o ddyledswydd ac ufudd-dod rai y mae yn rhodio ac yn ymgynnuh y ddaer.

2il. Fe bâr ffydd i ti nid yn unig moddion, ond bod yn fanwl o ran y naarferier cael y peth a ofyni gan Dduw gweddi. Gras gweithgar yw ffydd, chymmer ei gosod ar waith gan Duw. A ydyw fi yn ffordd Duw ffydd? Ai y moddion a appwyntiodd hyn? Os nad ê, ymaith y try gan ffydd gweithio âg arfau Satan. Gall Duw fy ngweddi, medd y credadyn, heb mhorth fy mhechod. Os ydyw cyfodda i mi, nid oes achos i mi fyned i'w brynu â thwyll neu gelwydd. O iechyd er fy lles, gall ei ddafon i'w fy ngwaith yn ymgynghori â meddfall. Os da fydd llawenydd a chyraid llyngew peroriaeth Satan. Os yr amseroedd yn ddrwg, gall Dduw ngbuiddio heb i mi redeg dan odraun mawr hwn, neu eall, drwy weniath a lledrith. Pau oedd Ezra wedi gorci ei hun, a'i gyd-deithwyr i Dduw, yn a eu taith tua Ierusalem, drwy ddyddio o ymtrud a gweddi, ac wedi gwynmfrost dduwiol o'i Dduw a'i ddaio bobl, fe'i cyfrifodd yn dro anwedd ffydd a broffesodd, a dianhrwyddeddus i'w Dduw a fawrygasai i'r fath rannghlyw brenin Persia, ped aethai i byddin arfog i'w hamddiffyn ar y Ni fynai efe ddwyn ei ffydd dan y mheuaeth o fod yn hyder ddi-sail a gwag: "Cywilydd oedd genyf geisio brenin fyddin a gwyr meirch, i'n cynwyo rhag y gelyn ar y ffordd; canyrasom wrth y brenin gan ddywedyd, ein Duw sydd er daioni ar bawb a'i iant ef;" *Ezra viii. 22.*

3ydd. Os wyt yn gweithredu ffydd gweddi, hi a'th wna nid yn unig yn fan ran y moddion a arferi, ond yn oche gofalus wrth arfer y moddion a ddewis i ti. Bydd arnat ofn rhag i'r moddion yng ngoleu Duw, wrth ladrata dydd oddi arno ef. Fe'th ddysg ffydd di moddion fel ordinhâd Duw; ond i'w Dduw am y fendith. Tra y mae llaw ar yr aradr, y mae ei llygad yn y nef. Ffith y nef ac nid gwaith y llafurwr, a gynauff ffirwythlawn. Y mae y phyweithiau yn appwyntio powert i'w gwydd mewn gwin neu ddioed; nid y na'r gwin sydd yn peri iachâd, ond y pa'u gwasanaetl: hwy ydyw yn unig hwnw i'r cylla. Fel hyn y mae y drug yn cael ei throsglwyddo i ni trwy fe

yn yr arferiad o foddion; etto, na wn mai y moddion sydd yn gwneuthur, ond y fendith sydd yn gymmysgedig nt.

ld. Os wyt yn arfer ffydd mewn li, megys y byddi ofalus i ddefnyddio ion pan fo Duw yn eu trefnu, felly dy gred heibio pan fo Duw yn eu

Ni faidd yr enaid crediniol ymddir- r moddion pan fyddont ganddo; am ni faidd anymddiried i Dduw pan fydd lynt. Fe ŵyr ffydd, er fod Duw yn moddion, etto nad oes arno eu heis-

Yr haul a'r cawodydd yw y moddion fnyddia efe er twf i'r gwellt a'r llyisiau; efe a barodd i'r rhai hyn dyfu o'r r (*Gen. i. 11*) cyn bod haul na gwlaw. g a hau yw y moddion cyffredin trwy y trefnir bara i ddyn; etto efe a borth- srael â bara heb eu llafur a'u hwsmon- wry. Llongau yw y moddion i'n dwyn

oroedd; ond fe ddygodd Duw Israel y Môr Coch heb long na chwch. Fe i bod yn amser cyfyng, a thithau yn i, dy draul yn fawr, a'th fodd yn n. Gyda'r weddw yn hanes Eliseus,

yt yn gwneuthur y deisen olaf o'r lig flawd yn y celwrn. Yn ol rheswm imlad, rhaid i ti naill ai carđota, llad- neu farw. A elli di yn awr, gan weddio i Dduw, ddisgwyl ar ei addewid ef sydd

wedyd, "Ti a borthir yn ddiau?" *Salm. i. 3.* Ac ar ei ragluniaeth ef, sydd yn i ei ofal dros adar y tŏ, i'r diben o'n u y bydd iddo yn llawer mwy ddar- dros ei blant? Neu o leiaf, onid wyt

ceryddu dy galon am ei hofnau drwg- s ar ol gweddio, gan ei gorchymyn i iried yn Nuw wrth yr hwn y gwnaeth- y gŵyn? Yn ddiau, os nad oes gan dy ryw afael ar Dduw ar ol dyledswydd wy nag o'r blaen, y mae yn debygol ai dy fod heb ffydd, neu os yw genyt, dd heb ei *hactio* yn y weddi hono. Fe i wir ffydd naill ai gyru allan brudd- alon o'r fath yma, neu o leiaf ddwyn laeth yn ei erbyn.

PFNOD XXIII.

ddichell, neu ystryw, a pha un y cais Satan i ddu y Cristion erfyniol; sef sibwrdd ofnau di- ffw glust, nad yw ei weddi yn cael mo'i andaw.

DEUWN yn awr at yr ail ystryw a ar- Satan i attal llwyddiant gweddi y Crist- yr hyn a elwais yn attaliad neu af- diant iddi mewn rhan. Y mae hyn yn an yw y weddi ei hunan heb fnyed yn an ran annerbyniad gyda Duw, ond y nion heb gredu ar y ddaear, fod ei weddi el ei gwardaw yn y nef (er yn wir ei

bod), ac felly yn wir trwy ei ammheuaeth y mae yn colli y deyrnged o heddwech presen- nol, yr hwn a allasai dderbyn oddi wrth y disgwyliad am ateb cysurus iddi. Yn debyg i farsiantwr sydd yn rhoi ei long i fyny fel wedi ei cholli, pan y mae yn ddiogel ac yn dwyn llwyth gwerthfawr, ond yn gorfod aros am wynt. Y mae yntau heb wybod neu heb goelio hyn, yn ymfino ac yn ym- ofidio cymmaint a phe bai yn bod fel y mae ei ofn. Y mae dychymmyg a thyb, i.e., pan na byddo sail ac achos, yn abl i beri gwir effeithiau a chanlyniadau atrlustr i y medd- yliau dynion. Fe barodd y newydd cel- wyddog am farwolaeth Ioseph gymmait tristwech i'r hen Iacob, i.e., mwy na phe bu-asai yn gwele ei roi mewn arch, ac yn ei ganlyn i'r bedd. Fe fuasai ceidwad y carchar oddi ar ofn fod ei garcharorion wedi diange, ac yntau i roddi cyfrif am danynt, wedi lladd ei hun trwy syrthio ar ei gleddyf, oni buasai i Paul mewn pryd sefain allan,

"Yr ydym ni yma oll; na wna i ti dy hun ddim niwed." Ac yn wir, nid llai yw gallu ein hofnau anghrediniol ninnau ar ein calon- au: hwy a ysbeiliant y Cristion o lawenydd ei fywyd. Ac nid yw dyn ond rhyw dder- yn diflas o glai wedi colli hwnw. Nid gweddio, ond credu fod y weddi yn cael ei gwardaw, a wna galon lawen a gwyneb siriol. Yr oedd Hannah yn gweddio yn fynych; yr oedd yn gydnabyddus â'r gwaith er's llawer blwyddyn; etto, erioed ni chafodd ei baich oddi ar ei hysgwydd nes cael ffydd y byddai iddi lwyddo. I.e., yn chwaneq, fe wanhâ yr ofnau hyn ysbryd gweddi. Yr hwn nid yw yn disgwyl ond ychydig oddi wrth weddi, nid llawer a weddia efe. Dyna y grefft a ddilynir ddyfalaf, yr hon y mae gobaith y tâl hi oreu am y boen: "Pwy o honoch," medd Duw, "a gauai y dorau, neu a oleua fy allor yn rhad?" *Mal. i. 10.* Y mae yr hwsmon yn tafu ei hâd yn rhwydd, am ei fod yn hau mewn gobaith; a'i hâd mwyaf gwerthfawr i'r tir brasaf, am mai yno y mae yn disgwyl ei gael yn ol gyda'r cynnyrch mwyaf. Hyn a barodd i Dafydd hoffi cymmaint ar weddio fel na adawai y gwaith er dim: "Am ostwng o hono ei glust ataf, am hyny lefaf dros fy nyddiau arno ef;" *Salm cxvi. 2.* Fel mars- iandwr wrth gael ei elw melus yn tyru i mewn, y mae yn troi y cwbl a fedd yn ys- tŏr marchnad. Felly y mae Dafydd yn ym- gyssegru yn hollol i weddi: "Am fy nghar- edigrwydd y'm gwrthwynebant; minnau a arferaf weddi;" *Salm cxxxvi. 4.* Dyna yr unig arf a godaf fi er fy amddiffyniad yn erbyn eu holl saethau. Ond y mae anghred- iniaeth yn bradychu yr enaid i lawer o fedd- yliau anweddaidd am Dduw, y rhai a war- adwyddant ei enw, fel ag i leihau ei barch ef ym marn y creadur, a pheri iddo roi heibio y ddyledswydd hon, neu ei chyflawni

yn ddigalon. A hyn a gâr Satan fel ei fywyd. Pan dybio marsiandwr fod ei eiddo yn colli, buan yr â yn ddrwgdybus o'i farchnatawr, gan ammheu ei ofal, ei ffyddlondeb, neu ei allu i gyflawni ei orchwyl. Sibrud o'r fath a gawn ninnau glywed weithiau os gwrandaw ar ein calonau anghrediniol, pan na bo dychweliad mor fuan ag y dymunem i'n gweddïau. Cyhuddiad trwm oedd hwnw a ddygodd Iob yn erbyn Duw (er y bu efe byw i weled nad oedd ganddo achos; fe, ac i'w gyhuddo ei hun am gyhuddo Duw): "Yr ydwyf yn llefain arnat ti, ac nid ydwyf yn gwrandaw. Yr ydwyf yn sefyll, ac nid ystyri wrthyf;" *Iob xxx. 23.* Yr oedd y gŵr duwiol yma yn awr mor dŵfn yn llyfrau Duw, ac mor hoff ganddo ag erioed; etto, mor bell yr oedd Satan wedi ennill arno, fel y gwrandawodd ar y sŵn ffals hwnw a ddygodd efe iddo am Dduw. Yntau a gymmerodd y fantais oddi wrth y rhagluniaethau cymmylog oedd uwch ben Iob, i osod lliw ar ei enllibiau nes oedd ei gelwyddau yn dechreu cael derbyniad. Yn awr, os bu hyn yn faen tramgwydd i Iob, pa faint mwy y gelli di ofni taraw dy droed yn ei erbyn? Bydded yn ofal i ti wrthweithio Satan yn hon, ei ystryw faleisus yn erbyn Duw a thithau. Yn sicr nid mater bach a ddylai beri i ti dasfu heibio dy weddïau, a rhoi ymaith gymmaint cyfoeth ag sydd genyt yn nofio yn y llestr hwn. Y mae y nôd o ddyd halogedig ar Esau, am ymadael â'i etifeddiaeth mor ysgafn. Os credadyn ydwyf, yr wyt ti yn etifedd addewid; ac ym mysrg yr addewidion, nid hon yw y leiaf: "Y bydd i ti dderbyn pa beth bynag a ofyni yn enw Crist gan gredu." Ac onid e, onid yw yn waith rhy debyg i'w halogedigaeth ef, os ymadewi â'r darn yma o'rh etifeddiaeth. Hyn hefyd nis gelli wneuthur heb gyhuddo ffyddlondeb Duw, a roddodd i ti etifeddiaeth yn yr addewid. Ni a ganmolwn Iob yn fawr am ei ymroad gwrol dro arall: "Na ato Duw i mi eich cyfiawnhau chwi; oni threngwyf, ni symmadaf fy mherffeithrwydd oddi wrthyf;" *Iob xxvii. 5.* Pa faint mwy y dylem ni ddywedyd wrth Satan, Na ato Duw i mi dy gyfiawnhau di, tydi elyn drygonus, na'th gyhuddiad ffals yn erbyn fy Nuw; daliaf afael yn ei berffeithrwydd a'i ffyddlondeb ef hyd oni threngwyf. Fe fuasai Daniel yn ymadael â mil o'fywydau, yn hytrach na chyfrif ei weddïau yn ofer, a thrwy hyny warthruddo enw da Duw, ffyddlondeb yr hwn sy rwymedig i ddychwelyd pob gweddi ffyddiog gydag ateb grasol i fynwes y Cristion.

Onid i'ch cadarnhau ym mhellach yn erbyn y bwriad hwn o eiddo Satan, chwiliwn i ychydig o'r dadleuon â pha rai y mae efe yn gweithio ar hygoedd y Cristion, ac yn ei arwain i'r brofedigaeth yma; os nad i benderfynu yn gwbl, etto i betruso ac am-

mheu yn anghrediniol yn ei galon, gwrandawiad i'w weddi ai nid oes.

1af. Y ddadl gyntaf sy ganddo i be y Cristion, a maethu ei ofnau anghredig a gymmer efe oddi wrth y gwendidau adurus hyny sydd yn glynu wrth ei b a'i weddi.

2il. Oddi wrth ymddygiad Duw tua yn ac ar ol ei weddi.

3ydd. Oddi wrth ragluniaeth gyff Duw, sydd yn cyfranu yr un petha drygionus heb weddio, ag i'r saint weddio.

PENNOD XXIV.

Yn arfogi y Cristion rhag traws-ddadl o Satan yn erbyn ei weddïau.

1af. FE wna Satan i'r Cristion ddi arno ei hun a'i ddyledswydd, o herwy gwendidau pechadurus sydd yn glynu ynt; fel y gall wrth hyny ddarostwobaith o ddim derbyniad caredig a g ei weddi yn y nef. Beth! dy weddïau dorddus di yn beroriaeth yng nghlust I A ddiwyna yr Arglwydd ei fysedd ddyledswyddau budron di? Pe bait Samuel neu Daniel, ac yn gallu hŵni h le ym mblith y gwŵr mawr sydd yn er am y gwasanaeth arbenig a wnaeth Dduw yn eu cenhedlaeth, yna fe ellit ob cael gan Dduw wrandaw dy erfyniad. Oeh! nid wyt ti ond truenyn egwan, m anhynaws, ac ynot fwy o bechod nag o ra a ddisgwyli di gael dy wrandaw? Yn d er nad yw hon ond dadl lled ddisylw gan nad oes dim o'i phlaid yn ystyr y ammod (breintiau pa un nid ydynt wed priodoli i ychydig o'r rhai enwocaf m gras, ond yn agored i'r holl deulu, gan iachawdwriaeth gyffredinol ydyw; a ffelyb werthfawr ffydd sydd yn eiddo i b o'r saint) etto bwbach mawr ydyw, a un y brawychir llawer o honynt.

Gair neu ddau, gan hyny, i'th arfogi herbyn. Yn unig yr wyf yn rhagosod i fy mod yn ei gymmeryd am wir, dy fofgodio o achos y gwendidau pechad hyn, nid yn eu llochi; y os amgen, y ma wendid yn troi yn rhyfyg. Barnaf h nad wyf yn esgeuluso y moddion gore eu hiachâd; er, megys mewndoluriau tadol, nad yw yr holl physyggwriaeth a g meri yn dy wneuthur yn holliach. A fel hyn y mae, gwybydd er dy gysur, yw dy weddïau mor ddrygsawrus gyda I ag ydynt gyda thi. Y mae y fath bur yn pasio anynt yng nghyfyngdod C fel y mae eu sawyr ddrwg yn colli. A dy betrusoer yn codi oddi wrth wallau p adurus dy ymarweddiad beunyddiol

Gristionogol? I symmud hyn, craffa fel
 ae Ysbryd Duw wrth grybwyll am
 s, fel gŵr oedd â'i weddïau yn dra thyc-
 ol gyda Duw, yn ei ddarlunio, nid wrth
 riaeth ei ras uwch law ereill, ond wrth
 vendidau yn gyffelyb iddynt: "Elias
 l ddyd yn rhaid iddo ddioddef fel nin-
 ac mewn gweddi efi a weddiodd na
 lai wlaw; ac ni bu gwlaw;" *Iago* v. 17.
 pe dywedasai Duw, pe bawn yn chwilio
 fanwl ag yr ydych chiwi yn ofni, fe
 sai gweddi Elias ei throi yn ol, o blegid
 oedd yntau heb ei wendid. Y fath
 au a gawn yn ymddygiad anhardd Daf-
 o flaen Abimelech, neu Achis, am yr hwn
 bydd ef o wŷydd y brenin, dan y dyb o'i
 yn ddyd gwallgofus! Etto, fe gafodd ei
 di y pryd hwnw dderbyniad gyda Duw,
 yr holl ofnau anghrediniol oedd yn
 ithio ynddo: "Ceisiais yr Arglwydd,
 efe a'm gwrandawodd; gwaredodd fi
 d o'm holl ofn;" *Salm* xxxiv. 4. Dar-
 wch y teitl, a chwi a'i cechw yn *Salm*
 ydd, pan newidiodd ei wedd o flaen
 imelech; yr hwn a'i gyrodd ef ymaith, ac
 ymadawodd. Ai y gwendidau pech-
 us a ddiangant genyt yn dy weddi sydd
 y ddiagonaloni? A eelli di gael mwy mewn
 th weddïau, nag oedd yn hono gan y
 ybllion, yn ol ei hyd? Lle yr arferasai
 lleid ffydd, nes yw Crist megys yn ei
 yn ddim ffydd: "Pa ham yr ydych mor
 g? pa fodd nad oes genych ffydd?"
 e iv. 40. Iâ, y maent yn gweddi ar
 t, ac yn ei geryddu â'r un anadl:
 thraw, ai difater genyt ein colli ni?"
 gallai Crist gael allan wirionedd oedd
 nghudd (fel Saul) yn y dodrefn yma o'u
 ndidau; ac fe ganiataodd eu deisyfiad.
 r yw, efe a'u ceryddodd hwynt; ond mor
 efe a geryddodd y gwynt hefyd. Ni
 ff addewid Duw o wrandaw gweddi
 dirymu gan wendid y Cristion mewn
 ddi. Iâ, ym mhellach, er dy gysur,
 bydd, po lleiaf fo gallu y rhai hyn i
 o neu gythryblu dy ysbryd wrth ddis-
 l ateb grasol, mwyaf caredig y cymmer
 v ar dy law. Dywedir fod Abraham
 ddiogwan o ffydd, heb ystyried ei gorph
 n, na marweidd-dra bru Sarah;" *Rhuf.*
 19. Ac am hyn y caffodd glod mawr; o
 id ei fod yn hyny yn rhoi gogoniant ar-
 g i allu Duw; i'r hwn fe gredodd na
 lai eu hannbueddiad hwy yn un rhwystr.
 ddiâu fel hyn y bydd yn dra boddhaol
 Dduw os gelli dithau hyderu, heb bet-
 wrth dy annbueddiadau neu dy wen-
 u ysbrydol, a'r marweidd-dra calon sydd
 odi i fyny fel gwrthddadl fawr yn dy
 yliau yn erbyn llwyddiant dy weddi;
 rwydd wrth hyn ti a roi i Grist yr an-
 ledd o'i angeu, drwy yr hwn y pwrca-
 efe y dyfodiad rhydd yma i'th weddïau
 iniad di at orsedd ei ras, ac hefyd an-

rhydedd ei eiriolaeth sydd yn eu puro oddi
 wrth eu holl sorod ffaidd a thra phech-
 adurus.

PENNOD XXV.

*Yn cynnwys dadl deirplyg, a dŷn Satan oddi wrth
 ymddygiad Duw tuag at y Cristion, yn ac ar ol
 gweddi, i beri iddo ammheu ei dderbyniad.*

2. Y MAE Satan yn tynu ei ddadl oddi
 wrth ymddygiad Duw tuag at yr enaid
 mewn gweddi, ac ar ei hol; lle y mae tri
 pheth ganddo yn gyffredin i sefyll arnynt
 at beri blinder i feddyliau y Cristion.

1af. Ei ddistawrwydd; yr hyn a fynai
 efe i'r Cristion ddeongli fel diystyrwch a
 difaterwch Duw ato ef a'i weddi.

2il. Ei wŷg; oddi wrth yr hyn y mynai
 iddo benderfynu nad yw efe na'i ddyled-
 swydd yn dderbyniol.

3ydd. Ei fod heb roi y drugaredd yn ei
 rhyw ei hun; ac y mae hyn, efe a ddywed,
 i'r Cristion gymmaint a nacâd.

DOSE I.

1af. Ei ddistawrwydd ar ol gweddi.
 Megys y mae yr annuwiol weithiau yn
 pechu, a Duw yn tewi; yr hyn sydd yn eu
 gwneuthur yn hyf i feddwl bod Duw yn
 foddllawn iddynt hwy a'u ffordd. Felly y
 mae dyn grasol weithiau yn gweddi, a Duw
 yn tewi yma hefyd; a'r enaid druan yn de-
 chreu ofni nad yw ei berson na'i ddyled-
 swydd yn dderbyniol gan Dduw. Ac y mae
 Satan wrth wybod pa feddyliau sydd yn
 debygol o godi yng nghalon y Cristion, yn
 taraw i mewn ac o blaid ei elyn mynwesol
 ef; gan orchestu i'w gadarnhau yn ei ofnau
 anghrediniol hyn.

I'th ddad-ddryysu, a'th helpio i'allan o'r
 drain yma,

(1af.) Dysg wahanu rhwng gwrandawiad
 Duw, a'i attebiad i weddi y Cristion. Y mae
 pob gweddi ffyddlawn yn cael ei gwrandaw,
 ac yn gwneuthur swm boddhaol iawn yng
 nghlust Duw, cyn gynted ag yr ôl i fyny.
 Ond nid yw Duw yn ei hatteb yn union bob
 amser. Y mae y tad wrth ddarllen llythyr
 ei fab, sydd yn erfyn am rywbeth, ond didid,
 yn foddllawn i'r cais, a'i galon yn dydsynio
 âg ef; ac y mae y rhodd yn cael ei chaniat-
 au yn y fan. Etto, fe gymmer ei amser ei
 hun i roi attebiad a gadael i'w fab wybod
 hyn. Y mae gan dywysogion eu llyfrau coff-
 adwriaeth, lle yr ysgrifenant enwau y rhai
 a gafodd ffafr yn eu golwg, ac y maent am
 eu dyrchafu, fe allai, amryw flynyddoedd
 cyn i'w hamcan grasol ddyfod i'w gwybydd-
 iaeth hwy. Yr oedd enw Mordecai yn llyfr
 Ahasferus ryw dalm o amser cyn ei anrhyd-
 eddu. Felly y mae Duw yn cadw cof o
 enwau ei saint a'u gweddiâu: "Yr Ar-
 glwydd a wrandawodd ac a glybu; ac ys-

grifenwyd llyfr cofiad wriaeth ger ei fron ef, i'r rhai oedd yn ofni yr Arglwydd, ac yn meddwl am ei enw ef;" *Mal.* iii. 16. Ond nid ydynt hwy yn clywed oddi wrth Dduw, yn ei ateb rhagluniaethol, ysgatfydd hyd yn mhen hir amser. Fe weddiodd Abraham am blentyn, ac fe'i gwrandawyd; ond pa faint o flynyddoedd a aeth heibio cyn iddo ei gael yn ei freichiau? Yn ddiaw, cynnifer nes yr aeth i mewn at Agar (trwy gynghor ei wraig a'i wendid ei hun ynghyd) i gyrhaedd trwy ffordd gau yr hyn yr ymrwymasai Duw ei hun i'w roddi. Gochel, Gristion, rhag dy arwain i'r brofedigaeth i ammheu a yw Duw yn dy wrandaw, am nad wyt ti yn clywed yn ebrwydd oddi wrtho ef. Bydd amyneddgar, a thi a gei weled po hwyaf y bydd y drugaredd heb ei hesgor, mwyaf perffaieth y genir hi o'r diwedd. Fe roddodd Duw ateb buan i Abraham dros ei fab Ismael: "O na byddai byw Ismael ger dy fron di! Am Ismael y'th wrandawais," medd Duw: *Gen.* xvii. Yn wir fe flodeuodd, ac a ymledodd yn genedl fawr cyn i hil Isaac ond prin flaendarddu. Y fath nifer fechan oedd teulu Iacob yn ymfudo i'r Aipt! Ond pan oedd amser ymrwymiad ac addewid Duw yn tynnu i ben, yna fe dalodd lŵg am ei oediad. Nid oes neb yn ennill mwy wrth orsedd gras na'r rhai a roddant amser yn eu masnach, ac a allant aros hwyaf am daliad rhyw drugaredd.

(2.) Ystyria, pan wylt yn cael y distawrwydd mwyaf yn rhagluniaeth Duw, am y peth a geisi mewn gweddi, y mae genyt y prydd hwnw ateb uchel yn yr addewid. Na ddywed gan hyny, pwy a esgyn i'r nef i ddwyn i ti wybyddiaeth a gyrhaeddodd dy weddi yno, ac a gafodd hi wrandawiad tirion gan Dduw? Y mae Duw ei hun wedi arbed i ti hyn o lafur; ei addewid a hysbysa i ti; yr hon sydd yn sicrhau, os yw o'r iawn ryw, nad oes modd iddi gael calon Duw yng nghauad i'w herbyn: "Llawer a ddichon taer weddi y cyfiawn;" *Iago* v. 16. Mor sicr a fu y saint o hyn, fel y darfu iddynt, cyn clywed dim newydd oddi wrth ragluniaeth (am ddyfodiad y drugaredd), ddechreu byw yn llawen ar gred yr addewid noeth, a gwledda ar y gobaith o'r hyn a ddisgwyliasant ar draul a chost ffyddlondeb Duw, sydd megys sel wrth yr addewid: "Yn Nuw y clodforaf ei air;" *Salm* lvi. 4. Craffwch ar yr ymadrodd; yr oedd efe etto heb gael y drugaredd a ddymunodd, ond yn unig gair o addewid y deuai; ac wrth ystyried gallu a ffyddlondeb y Duw a addawasai, y mae efe mor llawen a phe buasai yn ei feddiant, ac yn talu ei ddiolch cyn i Dduw gyflawni ei addewid.

DOSB. II.

2il. Yr ail beth a gasgl Satan oddi wrth ymddygiad Duw at y Cristion (er mwyn

dwyn gwrandawiad ei weddi i gwestiwr ei feddyliau pryderus) yw rhyw ŵg a bygid ei fod yn aros yn ei wyneb yn er y Cristion. Nis gellir gwadu na all plei anwyl i Dduw fyned weithiau o ddy swydd a chalon ofidus, o achos yr argiadau athrist am Dduw yn gwgu sydd y eu gadael ar ei ysbryd ef. A phan fel hyn gyda'r Cristion, fe gyfrif Satan dyna ei amser ef i'w arwain i'r brofedig yma, trwy ei berswadio y gall efe dda y derbyniodd sydd i'w weddi gyda Duw iaith ei wynebpryd a'i ymddygiad ato. buasai Duw (medd efe) wedi gwrandaw weddi, a fuasai efe yn dy drin fel hyn? yn sicr, efe a'th gymmerasai yn ei freic gan dy gusanu â chusanau ei fin, yn lle sathru dan ei draed fel hyn; cawsit saet cariad o'i lygaid tostruiol i arwyddo l iadau ei ras, ac nid picellau wedi eu bl llymu a'i ddiogler i lynu yn dy enaid, yfed i fyny dy ysbrydoedd yn y modd l. A all y rhai hyn fod yn archollion cyf. Hyn yn ymddygiad un sydd yn bwriad dda i ti? Hon oedd y brofedigaeth a nhrefnodd feddyliau Iob, ac a chwerw ei ysbryd. Nis gallai gredu fod Duw ateb ei weddi, am ei fod "yn ei ddrylli gorwynt;" *Iob* ix. 17. Fel pe byddai garedd Duw yn dyfod bob amser yn y distaw, ac nid un amser yn y corwynt. yr achos yma, cymmer y gair deublyg o gynghor,

(1af.) Ymofyn a yw y dymmestl yma dyfod i ddal rhyw Ionah yn dy long; a hi yn dy gael yn pechu, neu yn mw mewn rhyw hen bechod heb edifarhau danu? Neu, a yw dy gydwybod o'i d wrandaw yn tystio dy fod yn onest yr yrfa, er dy gylchynu â llawer o wendid. Os yw hi yn dyfod o hyd i ti ar ryw d ddiange gyda Ionah, neu yrfa wibiog fe afradlawn o dŷ dy dad, yna y mae gw yn wir achos i ammheu; i'e, y mae tu h i bob ammheuaeth nas gall gweddi d byniol, yn yr agwedd yma, ddiferu o'th e Pa beth! rhedeg oddi wrth Dduw, ac anfon ato dy weddi? Ceisio trugaredd gwario ar dy chwant yw hyn. Ond os wy cael ar holiad ffyddlawn fod yr ystorn l yn dy ddal yn ffordd dyledswydd ac ai iad o'th ddiragrithrwydd (fel y dymmes gyfarfu y disgyblion ar y môr, wedi idd fyned allan ar orchymyn Crist), yna na galona. Y mae yn beth cyffrediu g Duw i wisgo yr ymddangosiad o wynebi gwgus, ac i arfer iaith arw, pan y mae ei g yn bwriadu trugaredd, ac yn myfyrio ca at ei bobl. Fe ymdrechodd Iacob, chw wyddoch, yn galed ac yn hir cyn i'r fude o liaeth ymddangos o'i ochr. Cafodd y w o Ganaan ei throedio ymaith fel ei m iaith arw; yr hon o'r diwedd a adde gan Grist fel ei anwyl blentyn, ac a gaf

neges yn llawen. Nid yw gwirionedd yn i drwg oddi wrth Dduw, a dyma yr ysiaeth a gadwodd ben Iob dro arall uwch y dwfr: *Iob xvi. 12.* Yno yr ydym yn Dduw yn ymafyl yn ei wddf, yn ei yllio yn chwlfriw, ac yn ei osod yn nôd o; ond yr oedd hyn yn dal ei ysbryd llodus i fyny, fod y cwbl wedi ei gyfar- yn ffordd uffudd-dod: "Er nad oes gam-ld yn fy nwyllaw; a bod fy ngweddi yn y;" *adn. 17.* Ac am hyn y mae yn codi ny ei hyder; "Wele fy nhyst yn y nef- d, a'm tystiolaeth yn yr uchelder....Fy yfeillion sydd yn fy ngawddio; fy llyg- a ddfiferodd ddaurau wrth Dduw;" *adn. 23.* Nid oedd y gŵr sanctaidd er y cwbl di ei frawychu oddi wrth orsedd gras, l yn parhau i edrych ar Dduw, er mai la daurau yn ei lygaid, gan ddisgwyl wyddion da o'r diwedd ar ol cynnifer o drwg; ac y mae genym ninnau sail i euthur yr un peth: "Os ein calon ni'n demnia, y mae genym hyder ar Dduw;" *Joan iii. 21.* Ac y mae hyn yn fy nwyn yr ail air o gynghor sydd genyf i ti.

(21.) Ymofyn a oes etto dan y gwg yma li wrth Dduw ysbryd gweddi yn gweithio yn fewn. Ysgatfydd nas gellio wadu nad y galon yn cael ei chyffroi drwy hyn i ru ar ol yr Arglwydd, gydag ocheneidiau griddfanau mwy dibaid i weddio gyda wy o wres a theimlad, yn hyt'ach na chael yru ymaith oddi wrth ddyledswydd. Fe y cynnialiad yma i ysbryd gweddi o'th yn dy sierchau o'r ddau beth hyn.

(22.) Nid yw y cwmwl o ŵg, sydd yn ddangos yn wyneb Duw ddim yn ei on ef. Nid yw ond llen deneu, drwy yr a y gallai dy ffydd ganfod cynnhyrfaid ei ysgaroedd ef tuag atat. Lle y mae Ys- bryd Duw ar y gwaith hwn yn yr enaid, nid yw yn beth a gyd-saif â'i wir wg. Pe ddai ei ddigder i fyny, fe â'i hyn i lawr. an y cait ef yn galw hwn, ei genhadwr lldwch, yn ol; o leiaf yn oedi ac yn attal gygnorthwy. Pan wnaethpwyd y rhwyg ethus hwnw rhwng Duw a Dafydd, yn nos Urias, ebrwydd yr aeth telyn Dafydd an o dôn; anghofodd ei ddeheulaw ganu, fe lethwyd ysbryd gweddi yn dost yn ei on. Pa le y mae y Salm i'w chael a ys- fenwyd ganddo yn y cyfrwng hwnw, yn oedd ei ras megys oddi ar ei orsedd. d wyf yn dywedyd na weddiodd efe wy yr holl amser y bu yn ymdrybaeddu y y pechod hwnw; ond nid oedd y gwedd- hyn yn addas i'w cyssylltu âg anadl- iau sanctaidd yr Ysbryd hwnw a'i cyn- yrfodd cyn ei gwmp, ac ar ol ei godiad. e am hyn, pan ddaeth efe trwy edifeir- h ato ei hun, y mae yn debyg i un yn li o glefyd trwm a ddygasai ymaith ei awyrau dros amser, yn dechreu teimlo ei n yn wan, ac mor bell yr oedd Ysbryd

gras wedi llesgau ynddo trwy ei bechod—yr hyn sydd yn peri iddo erfyn mor daer ar i Dduw "adnewyddu ysbryd uniawn o'i fewn: ac na chynmerai ei Ysbryd Sanct- aidd oddi wrtho;" *Salm li.* Y mae yr Ys- bryd yn drugaredd mor ddewisol a neillduol, fel os gelli gael gweithrediadau bywiog o'i ras ynot—a pha le y teimlir hwynt yn fwy nag mewn gweddi—yn gweithio yn yr enaid ocheneidiau annhraethadwy, nid oes i ti reswm i feddwl fod Duw yn ddig wrthyt, pe byddai yn bresennol fel tywyllwch duaf y nos ar dy enaid.

21. Fe all sierchau i ti fod ei glust yn agored i'th gri, pan yw ei wyneb yn ngludd o'th olwg. O blegid ystyria di ond pwy yw yr Ysbryd hwn sydd yn dy gynnorthwyo fel hyn mewn gweddi, ac yn trefnu i ti dy ddarmerth ysbrydol at amgylchynu gorsedd gras. Onid un yw efe sydd yn gwybod meddwl Duw, ac ni roddai law wrth yr erfyniad hwnw, na chwasaui groesaw yn y nef. Gan fod genyt ynte y cynnorthwy hwn oddi wrth yr Ysbryd, paid ag amheu dy dder- byniad gyda'r Tad. Mewn gair, yr Ysbryd sydd yn magu ynot dy riddfanau a'th och- eneidiau mewn gweddi; nid yw efe neb arali ond y Duw y gweddi arno; ac a fydd i Dduw nacau ei hun. Hyn, mi dybygwn, yw rhan, os nid y rhan benaf, o ystyr yr Ysgrhythr hono, "Ni ddywedais wrth hâd Iacob, Ceis- iwch fi yn ofer;" *Esa. xlv. 19.* Hyn yw, pa bryd bynag y cyffrowyf enaid i weddio, gan ei gynnorthwyo â'm Hysbryd i wneuth- ur hyn yn deimladwy, yn wresog, ac mewn modd sanctaidd, y mae bob amser yn ateb i'r diben. Ni ddywedodd Duw erioed fel hyn wrth neb, "Ceisiwch fi yn ofer."

DOSB. III.

3ydd. Peth arall y cymmer Satan fantasia oddi wrtho, i fagu ammheon yn meddwl y Cristion am dderbyniad ei weddi, yw nacâd o'r drugaredd a gais efe yn ei rhyw ei hun. Yr ydym yn ddigon tueddol i fagu y fath feddyliau ein hunain; ac ni bydd Satan yn fyr o borthi unrhyw naws drwg a fyddo yn cynnhyrfu ynom. Neu, os bydd i'n medd- yliau ymddangos yn heddychol â'r driniaeth hon o eiddo Duw, y mae ganddo ei ffyrdd a'i ystrywiau i godi yr ysbryd drwg yma o anfodlonrwydd ac anghrediniaeth. Ar y neges hon y danfonodd efe wraig Iob i beri iddo feddwl a siarad yn ddrwg am Dduw: "A wyt ti etto yn parhau yn dy berffeith- rwydd?" Fel pe dywedasai hi, Beth? ai wrth dy hen waith yr wyt ti, yn gweddio ac yn canmawl Duw etto? Oni weli di y fath bris sy ganddo am danat ti a'th wasanaeth? Beth a gefaist oddi wrth dy holl grefydd? Onid yw dy eiddo wedi myned—dy blant wedi eu lladd, a'u claddu yn yr un bedd— a thithau wedi dy adael yn druenyn crych- lyd gresynus—a'th fywyd heb fod yn ateb i ddim ond i beri i ti deimlo dy drueni pre-

sennol, ac ymborthi ar y croesau a gefaist? Yn wir, y mae yn gofyn treiddiad craff i natur yr addewidion a'r amryw ffyrdd a gymmer Duw i'w chyflawni, i'n galluogi i sillebu ateb allan o nacâd o'r peth a geisiwn. Etto, y fath "ddea'll da sydd gan y rhai a wnaânt ei orchymynion ef;" *Salm* cxi. 10. Hwy allant ryddhau Duw, a chyflawnhau ei ffyddlondeb, yn ei holl ym-driniaeth; er iddo, wrth ateb eu gweddïau ddewis peidio dyfod i'r drws a agorasant hwy iddo yn eu gobaith a'u meddyliau eu hunain, na sengl yn llwybr penodol eu dymuniadau hwy. Y mae y cwbl o'r *Salm* uchod yn dwyn tystiolaeth i ffyddlondeb Duw yng ngweithredoedd ei ragluniaeth, wrth ba rai, er fod llygad cnawdol anastud — o herwydd y dirgelion sydd ynddynt—yn tramgwyddo ac yn ymrwystro; y mae yr enaid grasol, er hyny, wrth graffu ac ymofyn yn fanylach, yn canfod cydgoriad melus rhyngddynt a'r addewidion, ac am hyny yn penderfynu. "Dechreuad doethineb yw ofn yr Arglwydd: deall da sydd gan y rhai a wnaânt ei orchymynion ef: y mae ei foliant ef yn parhau am byth." Y mae y rhai hyn yn gwybod peth am Dduw, felly gallant ddarllen llaw ei ragluniaeth ef, ac yn ganlynlol ei foliannu—gan wybod ei fod yn ffyddlawn—pan fyddo ereill yn barod i'w fellthio. Ond i'th helpio allan, neu i'th gadw rhag syrthio i'r brofedigaeth hon, yn y lle cyntaf dylit ystyried pa fath drugaredd y mae Duw yn nacau i ti. Onid yn ydyw o'r bendithion nad ydynt angenrheidiol i'th ddeddewdch di, fel Crision? Dyma y fath sydd ar bob rhoddion tymmorol. Nid yw teyrnas Dduw yn gynnwysedig mewn bywd a diod ac ni chei nacâd hollol, ond am y fath yma. Y mae wedi erchi i ni beidio cymmeryd pall am ei gariad a'i fafr, gras a gogoniant: "Ceisiwch yr Arglwydd a'i nerth; ceisiwch ei wyneb bob amser;" *Salm* cv. 4. Hwy yw, nac ewch ymaith heb y rhai hyn; byddwch fyw a marw wrth ddrws Duw, oni dddwg efe yr elusen yma i chwi. Wele ynte, ni a'i cymmerwn yn ganiataol mai rhodd dymmorol sydd yn cael ei phallu i ti. Yn awr, pan y'th demtir i ammheu cariad Duw, neu dderbyniad dy weddi, dymunaf arnat bwysu yr ystyriaeth deirplyg hon.

(laf.) Ystyria mor ddrwg y gall Duw gymmeryd hyn ar dy law, a hyny ar ddau gyfrif. 1. Am dy fod yn ammheu ei gariad ar fater mor fychan a gwael ag yw mwyntiant amserol y bywyd hwn, yr hyn nid yw efe yn ei gyfrif yn werth ei roddi yn yr addewid, ond yn unig fel y byddo yn wasanaethgar i fendithion ysbrydol a thragwyddol y cyfammod: "Ceisiwch yn gyntaf deyrnas Dduw...a'r pethau hyn a roddir i chwi yn ychwaneg;" *Mat.* vi. 33. Hwy yw, fel y byddo arnoch eu heisieu. Y mae

yn eu bwrw at y lleill—bendithion mwy dderchog—fel y teifi masnachwr ede phapyr, neu gengl bach o sidan, gyda sw bethau gwerthfawr a fyddo cwsmer yn br ganddo. Beth pe gofynai plentyn i'w am arian i brynu rhyw degan, neu wael sydd yn boddio ei lygad ieuang e, ac tad ei nacau o hyny? Os ai y plentyn yma, a chyhoeddi ar hyd yr heol—er gw adwydd i'w dad—nad yw ei dad yn ei g nac yn gofalu am dano, er nad oes ar y eisieu na bywd na dillad, a edrychid ar yn hardd ynddo? Hyn wyt ti yn wneuthur yn yr achos yma, Gristion, er wyt ti yn meddwl cymmaint; ac onid gan dy Dad nefol fwy o reswm i ammy dy gariad di, am ddwyn ei enw da, nag a genyt ti i ammheu ei gariad ef am ei nac Ond drachefn, fe all ei gymmeryd yn dd am i ti ddfirio ei ddoethineb ef. Ai nid un ffordd ond hon i'r Duw doeth ddang gariad, ac ateb dy weddi? Ai nis gall nacau iechyd, a rhoddi amynedd? dy ymaith dy gyfoeth a'i droi yn foddlonrwy gan dy ddsygu i ymostwng, a bendithio i am dy iselu? Yr hwn a'th wna di i hapus yn y nef, lle ni bydd nemawr o fw iant y byd hwn i'w weled, ai ni all wneuthur er dy fywyd yn gysurus a ddaer, i ryw gyfran o hono fod ar ol?

(2il.) Ystyria pa fodd y gweddïaist, gefaist y nacâd yma. Ai gofyn yr oedd peth yn bendact a dilai, ynte dan ammy ganta phlygiad i ewyllys Duw? Os yn i dant, ti gollaist y rheol; a thi dy hun yw achos ddyfod o'th weddi yn ol heb ei ne Ni all Duw wrandaw na dioddef gwedd sydd am awurdoddi. Y dyn y mae yn i'w iddo gael rhyw rodd dymmorol, os caiff hi, fe all gael melldith ysbrydol i'w ch lyn, neu y mae yn sier o groes dymmo Felly y bu y wraig o Timnath—a Da wedi hyn i Samson; yr hwn ni chymmer gynghor ei rieni, ond oedd raid iddo ei ch doed a ddelo: "Cymmer hi i mi; cany mae hi wrth fy modd i;" *Barn.* xiv Ond fe dalodd yn ddrud am ei ddewis Fe allai fod y mwyntiant hwn neu a wrth dy fodd dithau, a'th galon ania mewn cariad âg ef, a hyny yn dy oeso weddio dros fesur am dano. Och! gread truan, pe bait yn ei gael, pa beth a wneif ef? Ti osodit dy ben yn ynyf ar ei lin, a adewit iddo siglo dy ras i gysgu, ac dy fradychu i law rhyw bechod a be Ond os dywedi dy fod yn gweddio gy ysbryd plygedig, ac yn ei ofyn dan yr a mod o'i fod yn boddio Duw gystal a thith os felly, pa ham ynte yr wyt yn awr yn gwedy weddi yn ol, gan fod Duw wedi egluro ewyllys nad da i ti gael dy ddymuniaid? ni fyni di sefyll at farn hwnw yr apelliat ato? Onid oes i ti reswm i feddwl i Duw yn cymmeryd y ffordd oreu er dy l

oes un weddi yn myned i fyny, nad yw megys yn ei phwyso a'i hystyried; ac y mae ei gariad yn rhoddi ei ddoethineb waith i'w hatteb yn y modd goreu er ei niant ei hun a lles ei blentyn. Yn awr, ei fod yn firwyth y fath anfeidrol oethineb a chariad, ti ddylit ymfoddloni o, ie, diolch i Dduw am dano. Dyma y dd y gwnaeth Dafydd mewn cyfyngder wr: "Fy Nuw, llefain yr ydyf y dydd, ni wrandewi; *Salm* xxii. 2. Wele, beth yw Duw oddi wrtho yn awr, nad yw efe clywed dim oddi wrth Dduw o ran y pedigaeth a geisiodd? Ai grwnach a beio fydd Duw? Nag e, y mae yn clywed h gwbl groes, o herwydd y mae yn cyfnhau ac yn canmawl Duw: "Ond tydi i sanctaidd; O! tydi yr hwn wyt yn canneddu yn moliant Israel." *adn.* 3.

(3ydd.) Chwilia, ai ni elli gasglu rhywbeth iull Duw yn dy nacau o'th gais, a ddiu felysu y tro i ti? Mae yn bossibl y ei fod yn dy nacau, ond gyda rhyw ychiad hawddgar; a chan roddi hefyd w d dangosiad o'i ras a'i gariad, a all dy hau nad yw ei nacâd yn tarddu o ddi- Fel y gwneit ti â chyfaill anwyl, yr a, fe allai, sydd yn dyfod i fenthycio swm rian genyt. Eu rhoddi ym menthgw nis iidi, am y gwyddost na wnaent iddo les; wrth rei ateb nacau, rhag iddo ei gam- ongli, fel ffaith anghariad a disystyrwch, i harweini i mewn â rhyw iaith fwyn- lam dy ymserch difuant ato, megys dy yn ei garu, am mai hyny yw yr achos o'r id, ac y byddi barod, mewn ffordd arall, neuthur erddo fwy na hyn. Fel hyn y e Duw weithiau yn plygu ei nacâd mewn yddion mor felus o'i gariad ag sydd yn l pob drwg dybiau rhag codi yng alonau ei bobl. Pan nacawyd i Dafydd lladu teml i Dduw, fel yr oedd yn ei on i wneuthur, rhoddodd Duw iddo dyst- eth helaeth o'i garedigrwydd, ac mor nmeradwy ganddo oedd ei ewyllys da ef. Er na chai efe adeiladu teml i Dduw, etto, fod yn cymmeryd ei ddynuniad mor gar- ag, fel yr adeiladai efe dŷ iddo ef a safai byth. Felly weithiau y mae gweinidog ddawn yn gweddio yn daer ar i Dduw lithio ei lafur er dychweliad i'w bobl, n cael nacâd. Er hyny, y mae arwyddion ariad Duw at ei berson yn cael eu defn- y, gydag addewid fod ei wobr ef pa fodd ag gyda'r Arglwydd; ac felly ei weddi, w pall mewn perthynas iddynt hwy, yn hwelyd gyda heddwch i'w fynwes ei hun. e yn arall yn gweddio yn wresog, O! na chai efe weled Ierusalem yn breswylfa odd; a gwirionedd a heddwch yn blod- yn ei ddyddiau ef. Fe allai na chaniat- hyn, am fod ei ddymuniad yn myned o n yr amser penmodol, a osododd Duw yn wriad i gyflawni ei addewid i'w eglwys.

Ond y mae efe er hyny yn amlygu ei gar- iad ato, ac yn rhoddi dangosiad iddo mor fawr y mae yn prisio ei gariad ef at yr eglwys. Fel hyn y gwnaeth Duw er Dan- iel, at yr hwn yr anfonwyd angel, i roddi iddo wybod mor dderbiniol oedd ei weddi, a'i fod yn wr anwyl gan Dduw: *Dan.* x. 11. Felly mewn trugareddau tymmorol, ysgat- fydd dy fod yn dadleu â Duw am waredig- igaeth o'r helbul hwn, a'r gofid arall, ac fe'i naceir, ond daw cenhadwri gyda'r nacâd, a wna iawn yn ddyblyg, fe allai mai rhyw ddi- ferion melus o'i gariad a dywallt efe i'th fynwes; neu sicrwydd o gynnorthwyon mewn pryd i gael eu danfon i'th alluogi i ymladd dy ffordd drwyddynt, gyda hyder a buddugoliaeth. Felly y gwnaeth Duw â Phaul: "Digon i ti fy ngras i." Yr wyf yn gobeithio yn awr na ddywedi di ddim fod dy weddi yn ofer. Pan oedd Saul yn ceisio asynod ei dad, ai somedigaeth boen- us oedd iddo gael teyrnas yn eu lle? Y gwagedd duwiol a aethant at y bedd i en- einio corph yr Iesu â'u peraroglau, nid aeth eu llafur yn ofer, er iddynt ei gael wedi codi. A oedd yn ddrwg ganddynt hyny, dybyg- it ti? Beth yw holl fwyniant y byd at fen- dithion ysbyrdol a chysuron yr addewid sydd yn dyfod i'th ran di yn dy ddisgwyl- iad with Dduw? Nid cymaint ag oedd y corph marw at Iachawdw'r byw. Yr wyt yn methu cael rhyw gysur mawr o'r cread- ur, ond yn cyferfod â choneidiad oddi wrth Dduw byw.

PENNOD XXVI.

Dattodiad i'r cwestiwn, Pa fodd y gwybyddon am rhyw drugared, ai dyfod y mae i ni trwy raglun- iaeth gyffredin, ai ynte fel ateb grasol i weddi?

4ydd. Y MAE gan Satan ffordd etto i beri i'r Cristion ammheu derbyniad ei weddi, ac hefyd i ammheu pan ddolo rhyw drugared iddo ar ol gweddi, pa un a yw hi yn dyfod fel ateb grasol i'w weddi ai nid yw. Efe a ddywed fod yr annuwiol hwythau yn derbyn llawer o drugareddau tymmorol trwy law rhagluniaeth gyffredin heb weddi, a'r rhai hyny yr un fath ag y mae y gwedd- iwr yn eu derbyn. Ac yn awr, medd efe, Pa fodd y gwyllostod fod dy drugareddau yn dyfod i ti fel atebiad i'th weddi, ac nid trwy ddrws rhagluniaeth sy gyffredinol? I'th ddad-ddyrysu o'i fagl yma, y mae yn rhaid i ti wybod nad oes i ni ddisgwyl rhyw foddion anarferol i benderfynu hyn, ond ymfoddloni ar y goleu a rydd gair Duw, yr hwn sy ddigonol i benderfynu, nid yn unig hyn, ond ein holl achosion cydwybod. Y mae yn wir fod Duw weithiau yn taflu i mewn amgylchiadau o'r fath ag sydd yn dwyn eu tystiolaeth i'w canlyn, fod y dru-

garedd yn ehedeg atom ar adenydd gweddi. Megys pan oedd gwas Abraham wedi gweddio wrth y ffynnon am arweiniad a chymmhorth grasol Duw, i fyned trwy orchwyl ei feistr yn llwyddiannus, a Rebecca yn dyfod ym mlaen yn ebrwydd, a thrwy ei hymddygiad a'i gwahoddiad tirion, yn dangos ateb mor gymhwys i lun ei weddi ag yw y clo i'r agoriad a wnaethpwyd iddo. Yma yr oedd y nefoedd yn tystio, hyd yn oed i'w synwyrâu ef, fod ei weddi wedi medru y ffordd yno. Pan fyddo y drugaredd fel hyn, ar ol gweddi yn cael ei bwrw i'r fynwes, mewn modd dieithrol a disymwth, heb gymmhorth ail achosion, i.e. pan fyddo y rhai hyn oll yn gorwedd yn amlwg dan farn aneu, a'r peth yn gwbl uwch law eu cylch a'u cyrhaeddiad; yma nid oes dim yn sefyll mewn cyd-ymgais â gweddi. Fel hyn yr oedd pan iachaodd yr apostolion y dyn cloff, â'r saethiad gweddi fer i'r nef, heb gymmaint a gofyn cyngor meddyg yn yr iachad. Pan gurodd Pedr wrth y drws lle yr oedd yr eglwys yn gweddio drosto, beth oedd gweddi a rwmodd synwyrâu ei wylwyr mor dŷn yng nghadwynau cwsg, ac a wnaeth i'w gadwynau yntau syrthio ymaith heb un llaw dyner, ond llaw Duw, yn cynnorthwyo? Beth a barodd i'r porth haiarn fod mor brysur i ymagor i ddydd nad oedd ganddo un agoriad i'w ddadgloi? Diau, rhaid addef mai gweddi a agorodd ddrws y nef; a'r nef, ar weddi yr eglwys, a agorodd ddrws y carchar. Etto, nid llai gwir yw, fod drugareddau a ennillir trwy weddi yn dyfod yn fwy cyffredin heb y rhwysg a'r hynodrwydd sydd yma i'w gweld. Fel y mae gras trôedigol yn fynych yn dyfod i galonau rhai gyda llai o ddychryn a sŵn darostyngiad nag y daw i ereill, felly yn wir y daw atebion i weddi, a hyny yn fwy arferol, yn ddistawach, ac yn y ffordd gyffredin, trwy gynnorthwy ail achosion. Megys pan yw y Cristion yn gweddio am gynnalïaeth amserol y bywyd hwn, y mae Duw yn ateb ei weddi trwy fendithio ei ddiwydrwydd yn ei alwedigaeth. Y Cristion claf yn gweddio, mae ei ymborth a'i physygyriaeth yn cael eu sancteiddio drwy hyny, ac yntau yn gwellhau. Yn awr, er fod Duw wedi gadael ei hun yn rhydd i anfon ei roddion trwy ail ddawylaw; neu, pan welo yn dda, i fod yn geuhadwr ei hun, a'u dwyn mewn ffordd anaferol â'i llaw ddigyfrwng, etto, ni ddarfu iddo ein gadael yn rhyddion i droi o'r ffordd gyffredin, ac esgeuluso y moddion, dan rith edrych ani ffyrdd anaferol i gael ein dymuniadau. Yn awr, mewn perthynas i'r ffordd gyffredin yma o roddi trugareddau mewn atebiad i weddi, y mae y ddau beth hyn i'w hystyried.

(1af.) Ymofyn a wyt ti, sydd yn anfon y weddi, mewn ystâd gyfammodol. Pan fyddo Duw yn rhoddi trugaredd mewn atebiad i weddi, dywedir er fod yn "coſo ei

gyfammod;" *Salm* cv. 43, wedi ei chnharu âg *adm.* 8, a cxi. 5. Y mae ei ly yn gyntaf ar y person, gan ddal sylw ydyw, ai ei blentyn ai nad e; ac yna y ei glust yn agored i'w gri. "Llygaid yr glwydd sydd ar y cyfiawn; a'i glustiau sy yn agored i'w llefain hwynt;" *Salm* xx. 15. "Pwy wyt ti, fy mab?" ebe Isaac i Jacob, cyn rhoddi iddo y fendith. Os g Duw nad wyt ti yn blentyn iddo—ac nid efe yn bŵl ei lygaid fel yr hen Isaac, i ei dwyllo—nid yw dy weddi yn dderbiol. Ac yn wir, nis gelli di mo'r gweddi i mewn ystyr efengylaidd, yn y cytwnwyt ynddo, mwy nag y gall Duw grauw dy weddi. O blegid y mae yst gweddi yn ras gyfammodol, a hawl nghyfryngdod Crist yn fraint gyfammod ac heb y rhai hyn nid oes un weddi yn dderbiol. Nid yw Duw yn gwrandaw i'w ond y rhai sy ganddynt ei Ysbryd i weyddynt, a'i Fab i weddi drostynt; a fedd heb y rhai hyn, ond y cryfry ag s mewn ystâd gyfammodol.

(2il.) Ymofyn beth oedd trefn dy gyntaf yn y gwaith o weddio; ac hefyd wedi hyn. Dy fod allan o ystâd gyfammodol, a brynas gwrandawyd dy weddi, ac yn ganly mai nid mewn ffordd o atebiad gras weddi y daeth y drugaredd a dderbyniad. Ond y mae dy fod mewn ystâd gyfammodol yn sail rhy wan i ti benderfynu fod y w bennodol a dardd yn awr o honot yn dderbyniad. O blegid, er i'th gyflwr fod dda, fe all dy drefn a'th ymddygiad presenol fod yn ddrwg. Ti eili, er i ti fod blentyn i Dduw, fod dan euogrwydd new a halogrwydd heb edifarhau am dano. Yn yr achos yma gall Duw gau ei ddrwg ei blentyn ei hun. Y mae genyt ti yn hawl yn y rhodd, ond nid cymmhwysder rhodd. Fel Cristion, y mae genyt hawl holl addewidion y cyfammod, ac i hon gael clust Duw yn agored, ym mysg y lle ond fel Cristion dan euogrwydd neu hawl iad unrhyw bechod, heb edifarhau o'i blegid yr wyt yn anaddas i fwynhau dy freint. Nid yw Duw yn wir yn dy ddietsfeddu, fe ddiola yr addewid dro dro oddi wrth fel na chei dderbyn mo'i hardrethion nes adnewyddu dy edifeirwch a'th ffydd. Nghrist am faddeuant. Fe ddewis Dduw i ti amser mwy addas nag yw hwl amlygu ei gariad atat. Yr oedd y gwah gylyfus dan y gyfraith i sefyll draw nes lanhau; ac felly y trŷ Duw ei gefn ar weddi dithau, nes dy lanhau oddi wrth bechod. Drachefn, Gadawn dy fod Cristion, ac heb ymhalegi âg unrhyw bechod anlwg, etto, gallai dy rasusau fod heb harfer yn dy waith yn gweddio. Ti wedi aist, ysgatfydd, ond heb egniad ffydd; gwresog yn y gwaith. Fe all fod gras yn galon, ond dim yn y ddyledswydd; ac

ydda y cyfryw weddi. "Llawer a ddich-
taer weddi y cyfiawn;" *Iago* v. 16.
"Seiswch i' hefyd a chwi a'm cewch, pan
u ceisioch â'ch holl galon;" *Ier.* xxix. 13.
"olaf, Er i ti fod yn gynhyrfiol mewn
weddi, mae yn bossibl i'th galon fod heb ei
odi i fyny i bwyo ar Dduw am attebiad
ol gweddi. Dyma y pryd y gweddiwn
wn ffydd, pan ddaliwn y fath afael ar
uw, fel ag i ddisgwyl wrtho, ac ymor-
wys arno am y drugaredd a geisiwn gan-
o. Yn awr, o roddi y rhai hyn oll ynghyd,
lli ddyfod i benderfyniad am y cwestiwn
wn llaw. Os wyt mewn ystâd gyfam-
dol, ac heb fod yn gorwedd mewn un
hod gwybyddus yn ddiedifeiriol; os wyt
taer weddi, a than gredu yn Nuw, fel
i ymorphwys arno am ateb, er dy am-
chynu â llawer o wendidau ac ammheuo-
n, ddiâu ti elli, heb ryfyg, benderfynu fod
rugaredd sydd yn dy gael yn yr agwedd
laidd hon o ddisgwyl wrth Dduw, yn
od fel ateb grasol i'th weddi. Nid ydym
ofni agor llythyr pan fyddo ein henw
yr arysgrifen yn ei bennodi i ni. Chwil-
r addewidion, a thi a'u cei hwynt wedi
pennodi i ti, sydd yn gweddiio yn y modd
a, fel wrth dy enw.

PENNOD XXVII.

*Wysiad cyntaf gweddiio bob amser yn cael ei
tangos, a'i fod yn cyrhaedd i gymmaint a
ceddiio yn mhob peth; a pha ham y dylai ein
li faterion a'n gweithredoedd gael eu cychwynu
fewn i'r ddyledswydd o weddi.*

ni myned trwy y ddyledswydd o weddi yn
redinol, deunw yn awr i agor yr amryw
ghenau yn yr aunnogaeth, y rhai ynghyd
nânt hyfforddiad rhagorol i'r Cristion;
cyflawni y ddyledswydd yn well. Yn
y mae yr apostol yma yn dysgu, nid yn
g y Cristion, pa fodd i weddiio, ond hefyd
weinidog pa fodd i bregethu, am ei fod,
yn ymfoddloni ar ddywedyd wrthynt
dyledswydd, a'u gadael felly i'w medr eu
ain i'w thrin, ond er mwyn rhwyddhau
waith iddynt, yn cyssylltu y fath gyfar-
diadau, ac yn llinellu eu copi felly iddynt,
mai nid hawdd y methant yn y cyflawn-

Y mae y pregethwr hwnw sydd yn
mhell rhyw ddyledswydd, er mai nid
a sel mawr, ond heb nodi allan y ffordd
gwneuthur, yn debyg i un a ddygai
n at ddrws clôedig, ac a barai iddo fyned
ewn i'r tŷ, ond heb roddi iddo agoriad
ddadgloi; neu i un a ddanfonai liaws i'r
; ond heb roddi iddynt fenthyg un llen
rluniad (*chart*) i'w cyfarwyddo yn eu hynt.
nd i ddyfod at y cyfarwyddiadau; y
nt yn chwech. Dechreuwn gyda'r cynt-
1. Y pryd i'r ddyledswydd hon—bob
er; ac y mae i hwn ystyr driphlyg.

1af. Y mae gweddiio bob amser yn gym-
maint a phe dywedasai, "Gweddiwch ym
mhob peth;" yn ol ei ynghor mewn lle arall,
"Ym mhob peth, mewn gweddi ac ymbil,
gyda diolchgarwch, gwneler eich deisyfiadau
chwi yn hysbys ger bron Duw;" *Phil.* vi. 6.
Y mae gweddiio yn ddyledswydd gatholig, a
pha un, megys â gwregys, yr ydym i gylch-
ynu ein holl faterion. Y mae i fod fel bara a
halen ar ein bwrdd, pa beth bynag arall fyddo
genym i'n pryd bwyd, nid anghofir y rhai
hyn. Pa beth bynag a wnelom, neu a fynem
gael, bydded fach neu fawr, y mae gweddi
yn angenrheidiol. Nid oes i ni fod fel pag-
aniaid, a weddiant ar eu duwiau am rai
pethau, ond nid am y lleill; os tlodion, hwy
weddiant am gyfoeth; os cleifion, am iech-
yd; ond am bethau da y meddwl, megys
amynedd, boddlonrwydd, a rhinweddau er-
eill, hwy feddyliant y gallent dori iddynt
eu hunain yn dda ddigon, heb flino mo'r
duwiau am eu cymmorth. Yr oedd y pryd-
ydd, dybygid, o'r meddwl yma, pan ganodd
fel hyn:—

*Hoc satis est orare Jovem, qui donat et aufert:
Det vitam, det opes, annimum mi equum ipse
parabo.*

Os Duw rydd i mi gyfoeth; os f' einioes a fyrrhâ;
Nis ceisiaf ragor ganddo; mi wna'f fy hun yn dda.

O! mor talch yw anwybodaeth! Rhoad
Duw y peth lleiaf, ac fe wna y dyn y mwyaf!

Onid nid yw eu hynfydrwydd hwy i'w
ryfeddu yn gymmaint ag anghrefydd llawer
yn ein plith ni ein hunain, a broffiant
wybodaeth o Dduw, ac sydd ganddynt
oleuni ei air i'w cyfarwyddo pa addoliad i
roddi iddo. Y mae rhai mor anifeilaidd yn
eu gwybodaeth, fel mai prin y gweddiant ar
Dduw am ddim; ac ereill, nid am bob peth.
Fe allai eu bod yn edrych ar faddeuant
pechod ac iachawdwriaeth eu heneidiau, fel
ffrwyth ar ganghenau uchaf pren, allan o
gyrhaedd eu braich eu hunain; am hyny, yr
awr hon ac yn y man, hwy roddant rhyw
weddïau lled ysgeifn at Dduw am danynt.
Ond am bethau amserol sydd i'w gwled fel
yn crogi yn is, meddyliant y gallant gyr-
haedd y rhai hyn â'u diwydrwydd eu hun-
ain, heb osod yr ysgol o weddi i ddringo
atynt. Fe gwelid rhai, mor brysur ydynt
yn llunio eu dichellion, ac mor anfynych
mewn gweddi, nis gellid llai na meddwl eu
bod yn disgwyl eu diogelwch oddi wrth eu
cyfrwysdra eu hunain, ac nid rhagluniaeth
Duw. Neu pe creffid, mor galed y gweith-
iant yn eu gweithdy, ac mor ddioglyd ac
anfynych y maent ar weddi yn eu hystafell,
am fendith Duw ar eu llafur, byddai raid
penderfynu fod y gwŷr hyn yn addaw cyf-
oeth iddynt eu hunain, yn fwy trwy eu
hymdrech eu hunain na thrwy haelioni
dwyfol. Mewn gair, rhaid mai rhyw achos
mawr a fydd, i ddwyn aml un ar ei liniau o
flaen Duw mewn gweddi. O bossibl, pan

fyddo ganddynt ryw anturiaeth anghyffredin mewn llaw, ym mha un y maent yn disgwyl rhyw wrthwynebiad cryf, neu anhawsder mawr, mewn achos o'r fath caiff Duw eu clywed wrth ei ddrws, o blegid yn awr y mae eu doethineb wedi pallu, ac ni wyddant pa le i droi. Ond am ddigwyddiadau mwy cyffredin eu bywyd, meddyliaint y gallant eu rheoli wrth eu hewyllys, ac felly änt heibio i ddrws Duw, heb ofyn ei addysg na'i gymmhorth. Fel hyn y rhed un i'w fasnach, a'r llall i'w faes, heb ystyried fod dim i Dduw wnenthur yn eu gorchwylion. Os bydd taith hir o'u blaen, ar dir neu för, lle y mae peryglon a damweiniau hynod yn ymgynnyg i'w meddyliau, yna fe gaiff Duw eu cyfeillach. Ond os gartref, neu yn ymarfer ä'u gorchwylion cyffredin, nid änt i ymofyn am aden ragluniaethol Duw i gysgodi drostynt. Nid gweddio bob amser yw hyn. Gan hyny, os mynit fod yn Gristion, paid a rhanu fel hyn ä Duw, gan roddi negeseuon mwyaf dy dy fywyd iddo ef, ac ymddiried i ti dy hun am y rhai lleiaf; ond cydnebydd Dduw yn dy holl ffordd, ac na phwysa ar dy ddeall dy hun. Wrth hyn, ti a roddi iddo ogoniant ei ragluniaeth gyffredinol, yr hon y mae yn cychyru ei holl greaduriaid, a'r cwbl o'u gweithrediadau. Megys nad oes dim yn rhy fawr, i fod uwch law ei allu; felly nid oes dim yn rhy fychan i fod is law ei ofal. Y mae yn Dduw y dyffrynoedd, fel y mynyddoedd; y mae ganddo ofal am aderyn y tö ar y berth, ac am y gwallt ar ein pen. Ac nid yw hyn yn ddim lleihäd bri i'w fawrhdy gogoneddus, mwy nag oedd iddo eu gwneuthur ar y cyntaf. Nag e, yn y modd yma fe fydd i ti nid yn unig roddi ei ogoniant i Dduw, ond dy ddiogelgu dy hun; o blegid nid oes un amgylchiad yn dy holl fywyd mor fach a diystyr fel nad allai fod, pe attaliai Duw ei ofal a'i ragluniaeth, yn achlysur o bechod neu berygl i ti. Ac y mae yr hyn sydd yn dy roddi yn agored i'r rhai hyn yn galw arnat i geisio Duw yn amddiffynwr. Yn gyntaf, y mae y digwyddiad lleiaf yn ddiagon i fod yn achlysur o bechod. Y mae lle i ni weled beunydd, trwy y fath ddrws bychan y mae pechod mawr yn arfer dyfod i mewn. Ni ddarfau i lygad Dafydd ond digwydd troi ar Bathseba, a dyna droed y gŵr yn ebrwydd yn nghroglath y diafol. Onid oes achos ynte i ti weddio ar i Dduw osod gwyliaidwriaeth ar dy synwraur, pa le bynag yr elych? ac i waeddi gydag ef, "Tro heibio fy llygad rhag edrych ar wagedd?" Nid aeth Dinah ond i ymweled a'i chymmydogion, "merched y wlad;" *Gen. xxxiv. 1*, yr hyn nid oedd ond moesgarwch cyffredin, a gallwn feddwl na feddyliond hi nemawr, wrth fyned allan, am chwareu y butain cyn dyfod adref; etto, Och! ni a ddarllenwn y modd yr halogwyd hi. Y fath achos ynte sydd genyt ti, cyn

myned allan, i orchymyn dy gadwraeth Dduw, fel y cadwer di yn ei ofn o'r borhyd yr hwyer. Yn ail, nid oes un amgylchiad o'th fywyd mor fychan, fel nad e syrthio ynddo i ryw fawr berygl. Pa nit a dagwyd ä'u hynborth wrth eu bwrdd hunain? a gawsant eu briw marwol gdrawst o'u tŷ eu hunain? A wyddost ti be fydd diwedd unrhyw waith wrth ei ddechreu? Cafodd Ioseph ei ddafon gan ei ddi edrych am ei frodyr yn y maes; ac ni feylliodd un o honynt am daith hwy; etto, hyn yn achlysur athrist o'i gaethiwed megwlad ddiethir. Cafodd gweision Iob llad gan fellt o'r nefoedd, pan oeddy allan ar orchwyl eu meist. Ym mha le gelli di fod yn ddiogel, oddi eithr bod llyg Duw arnat? Fe all llithrad dy droed wradio, neu dripiad dy geffyl wrth faroch aeth, dori dy esgyrn, äe, dy wddf. O! yn y fath angen Duw sydd arnat ti i rwyddhdy ffordd o'th faen. Ai efe sydd yn cadryn ac anifail? ac a all fod genyt ti fydd ddisgwyl ei nodded, pan nad oes genyt gal i'w ofyn ganddo yn dy erfyniadau? achos sydd gan Dduw i gymmeryd gofal dy ddiogelwch di, yr hwn nid wyt yn gof dim mwy am ei anrhydedd ef.

PENNOD XXVIII.

Yr ail beth cynnwysedig yn y gweddio bob amser gweddio ym mhob cyflwr, hawddfyd ac fyd, a pha ham y mae hyn yn ofynedig.

2. GALL gweddio bob amser gynnw ynddo gymmaint a gweddio ym mhob cyflwr: hyny yw, mewn hawddfyd yn gysag mewn adfyd. Felly y mae Calvin ei ddeall:—"Y mae mewn grym meg bob amser; mewn hawddfyd yr un modd ag adfyd." Yn wir, pan fyddo Duw cystuddio, y mae yn rhoddi tymmor p nodol am weddi yn ein llaw: ond y eango arnom, nid yw efe yn ein rhyddi ni o'r dyledswydd, fel y gallom y p hyn ei rhoddi o'r neilldu, fel y gwna teitliwr ä'i gochl pan fyddo yr hin gynnhes. Nid dilledyn gauaf yw gweddio Y mae yn wir ei bod i'w gwigo y p hyny, ond nid i'w throi heibio yn l llwyddiant. Os mynwh ddal rhai weddi, y mae yn rhaid i chwi aros melltaranau—peidio myned atynt oddi ei ar ystorm neu dymmiestl. Y mae y r hyn yn debyg i rai adar na chlywir m gwaedd na'u swn, ond yn neu erbyn rh hin arw. Nid gweddio bob amser yw h h. Nid gwasanaethu Duw, ond ceisio gwne elw o Dduw; ymweled äg ef, nid fel e ail, er mwyn ei gyfeillach, ond fel gorm wr er mwyn tori rhyw angen presenn arfer gweddi, fel y dywedir am ryw bab

ethu, megys rhwyd i dynu i mewn
w rodd y byddo arnom ei heisieu;
pan ddelo y pysgodyn i law, yna ymaith
ddyledswydd. Wele, Gristion, gochel
yn i: y mae genyt ddiagon o resymau
yn i gadw y ddyledswydd hon ar droed
amser, bydded dy gyfwr y peth y byddo.
f. Gweddïa mewn hawddfyd, fel y
ddech pan weddiech mewn adfyd.
ef Dduw yn awr, fel yr addefo yntau
au y pryd hyny. A oes gyda ni groes-
i'r cyfaill hwnw, nad yw yn ymweled â
m amser ond pan ddelo i fenthyca.

1. Gweddïa mewn llwyddiant, i'th lan-
dy hun oddi wrth fod yn gweddïo
n rhagrith, pan oedditt gystuddiol. Fel
l un weddi yn awr yn dystiolaeth well
dy ddiragrithrwydd, na rhes gyfan o
ledswyddau a gyflawnir mewn adfyd.
mae yn haws canfod a gwahanu rhwng
tau wrth oleu dydd nag wrth ganwyll.
yr wyf yn sicr mai mewn hawddfyd y
yddir yn oreu onestrwydd a symlwydd
calonau ninnau mewn dyledswydd.
vn trallod, y mae gan hyd yn oed en-
au grasol eu hammheuron, mai ceisio eu
ain y maent. Ofnant mai poen a gwagw-
g wreiddyn eu cri, hyd nes y cofiont mai
yn eu cystudd y dechreusant ar y
fith, ond eu bod yn ymhyfrydu yng
ymdeithas Duw cyn i'r helbulon hyn eu
i ato.

dd. Gweddïa mewn hawddfyd, fel na
do dy hawddfyd yn fagl i ti. Yr oedd
raim a Manasseh yn frodyr, ac felly y
helaethrwydd ac anghof, ystyr eu henw.
Nid yw llwyddiant yn arfer cryfhau
f; am hyny, rhybuddir ni mor ddwys i
lyd, rhag i ni, wedi ymlenwi, anghofio
v. "Gwr mawr mewn duwioldeb," ebe
nard, "yw hwnw y mae y byd llwydd-
us yn gweni arno ac heb ei wawdio a'i
war." O! mor anhawdd i ddyn gael ei
lio ag ef heb ei feddwi ganddo! "Gwat-
us yw gwin," medd Solomon; buan y
dd waradwydd ar y neb a fyddo yn rhy
arno: ac felly llwyddiant, ychydig o
ono a'n meddwa; ac yna, nis gwyddom
peth yr ydym arno. Y mae hyn wedi
yn fynych yn awr o brofedigaeth i'r
eu o ddyinion. Ni a gawn yn y Beibl
rfod i'r saint gael eu codymau tostaf
y tir tecaf. Noah, yr hwn a welsai fyd
an yn boddi mewn dwfr, cyn gynted agos
y daeth yn iach i dir, dyna efe ei hun
boddi mewn gwin. Yr oedd calon
fydd yn sefydlog yn yr anialwch; ond
ygad trythyll yn gwibio ac yn crwydro
ar nen ei balas. Iechyd, parch, cyf-
a a phleserau, ynghyd â phob peth ag
d yn fwyniant yma, y maent yn debyg i
a melus; nis gallwn gymmeryd ychydig
onynt, gan mor foddhaol ydynt i'n har-
waeth anianol; ac nis gallwn ddiodef

llawer, am eu bod yn gryfion, yn gweithio i
fyny mewn balchder a hyder cnawdol.
Yn awr, meddyginiaeth ragerol yw gweddi
yn erbyn perygl y cyflwr hwn. Yn gyntaf,
Fel y mae yn ysbrydoli ein llawenydd i ddi-
olchgarwch. Llawenydd anianol sy wadd-
odlyd; ac felly yn troi yn ddrwg. Yn awr,
megys y mae gweddi mewn cystudd yn puro
tristwch y Cristion, wrth ei anadlu allan
mewn griddfanau sanctaidd tua'r nef, trwy
yr hyn y cedwir ef rhag achwyniadau
drwg ar Dduw a thuchanrwydd i'w erbyn:
felly yma, y mae y Cristion wrth roddi
rhediad ysbrydol i'w lawenydd mewn clod
a diolch i'w Arglwydd, yn cael ei gadw
rhag y dirywiad o lawenydd cnawdol sydd
yn bradychu yr enaid i amryw bechodau
bryntion, pe byddai heb fod yn un ei hun-
an. O'r achos yma y mae yr apostol Iago
yn gosod y bibell ddeublyg yma, i'r dym-
mer ddeuryw hon redeg ynddi: "A oes
neb mewn adfyd, gweddied: a oes neb yn
esmwyth arno, caned Salmau;" *Iago v.*
Fel pe dywedasai, gweddied yr enaid ad-
fydus rhag iddo rwnach; a'r Cristion
llawen, caned Salmau, rhag i'r llawenydd
droi yn llygredig. Hawdd gan ddyon anian-
ol fod yn ddfyfr a chellweirus pan fyddon
yn llwyddo: y Cristion yn unig sydd wir
ddiolchgar. Y Salmydd wrth son am for-
wyr yn cael eu gwaredu o ystormydd (oedd
yn eu bygwth â llongdrylliad) a ddywed,
"Yna y llawenhânt am eu gostegu!" *Salm*
cvii. 30. Ond gall hyn fod, ac etto, heb eu
bod yn ddiolchgar: am hyny, y mae yn
chwanegu ei farn dduwiol, "O na foliant
yr Arglwydd am ei ddaioni!" Yn ail, trwy
weddi y mae yr enaid yn cael ei dwyn i gyd-
nabyddiaeth â hyfrydwch uwch nag sydd
i'w gael yn y mwyniant o bethau amser-
ol; ac felly fe'i hattellir rhag rhoddi bri di-
fesur, am y gŵyr efe pa le y mae gwell i'w
cael. Y gwir achos fod dynion yn chwyddo
gan ormod tyb am bleserau daearol, yw eu
hanwybodaeth am rai ysbrydol. Yn dryd-
ydd, Y mae gweddi yn ordinhâd Duw i
sancteiddio ein cysuron daearol: "O
blegid y mae pob peth a greodd Duw yn
dda, ac nid oes dim i'w wrthod, os cym-
merir trwy dalu diolch; canys y mae
wedi ei sancteiddio gan air [Duw a
gweddi;" *1 Tim. iv. 4, 5.* Ac wedi caffael
hyn, gall y Cristion yfed o'r ffrydiau yma
yn ddiberygl. Y mae yr unicorn bellach
wedi rhoddi ei gorn i mewn i'w hiachau;
ni chaiff Satan y fath awdurdod arno ef i'w
lygru wrth eu harfer, ag y mae yn gael ar
arall sy heb ofyn bendith Duw arnynt. Y
mae gwagder a gwynt ym mhob creadur, a
fâg naws afiach yn y neb a ymbortho arno,
oddi eithr i'r fath effaith gael ei attal
drwy weddi.

4ydd. Yn dy hawddfyd gweddïa, i ddang-
os dy ymorphwysiad ar Dduw am yr hyn

wyt yn ei fwynhau. Yr wyt yn dal dy holl drugareddau wrth ewylls da. Yr hwn a roddodd i ti dy fywyd sydd yn dal dy enaid mewn bywyd: "Cuddiaist dy wyneb," medd Dafydd, "a bŵm helbulus." Yn ddi-
au, y mae yn bryd i Dduw attal ei law pan yr wyt ti am ddirymu ei hawl. Nid yw y mwyniant hwn yn dyfod ond ar ei dro, yr hwn ni chroesawir drwy weddi. Dywed Solomon i ni am adenydd sy gan ein trugar-
eddau amserol; ac os oes dim a dyr flaen-
au y rhai hyn, ac a'u hattaliau rhag ehedeg ymaith, gweddi ydyw. Buasai Duw yn
fynych yn difetha Israel, ond fe safodd
Moses yn yr adwy. Yr oedd eu trugareddau
yn fynych ar yr adain; ond ei weddïau ef
yu attal eu ehedfan. Ni adawai calon Duw
iddo sathru ar ei weddi ef—rhoddi hono i
waradwydd: na, hwy gânt fyw, ond adde-
ant mai gweddi Moses a dyciodd am eu
bywyd. Yn awr, os gall gweddi dyn duw-
iol lwyddo dros ereill, a chael estyniad i'w
bywydau, er nad oeddynt, lawer o honynt,
o'r rhai goreu, yn sicr ynte gall fod o rym
mawr gyda Duw dros y dyn ei hun. Mae
estyniad dyddïau yn cael ei addaw i'r neb a
anrhydeddo ei dad daerol; ac y mae
gweddi yn rhoddi anrhydedd o'r mwyaf
i'n Tad nefol. Os mynit gan hyn gael est-
yniad i'w oes, neu oes unrhyw drugaredd,
paid anghofio talu iddo y deyrnged hon.
Iê, a ddymunit drosglwyddo y trugareddau
a gefaist gan Dduw i'w hiliogaeth? y ffordd
oreu i ti wneud yw cloi dy feddiannau dan
law Duw trwy weddi. Pa ewylls bynag a
wnelych di, fe fyn Duw fod yn (*executor*)
drefnwr. Gall dyn ancuan a bwriadu;
ond Duw sydd i drefnu. Rhwma ef; a
dyna y gofai am dy hiliogaeth wedi ei osod
ar un a'i dwg.

5ed. Gweddiâ yn awr, fel y gelych, os
bydd raid, ddioddef colli dy lwyddiant.
Pan nas gallo gweddi dycio i gadw rhodd
amserol yn fyw gyda tli, bydd ganddi er
hyn effaith nerthol i gadw dy galon yn fyw
ar ol ei cholli. O! y mae yn athrist, pan
fyddo meddiannau dyn a'i gysur yn cael eu
claddu yn yr un bedd. Ni ddiodeffa neb y
golled am ryw fwyniant mor amyneddgar
a'r dyn oedd yn ymarfer â gweddi tra yr yd-
oedd ganddo. Pan oedd Iob yn ei gyflwr
blodeuog—ei blant yn fyw a'i holl fwyniant
yn ei law, yr oedd efe y pryd hyn yn dra
mynych gyda Duw ar y ddyledswydd hon:
"Efe a sancteiddiai ei blant bob dydd."
Nid oedd efe yn ymfendithio ynddynt, ond
yn ymofyn bendith Duw iddynt. A gwel-
wch mor gysurus y mae yn sefyll dan ei
golled: "Yr Arglwydd a roddodd, a'r Ar-
glwydd a ddygodd ymaith; bendigedig
fyddo enw yr Arglwydd;" *Iob* i. 21. Po
mwyaf oedd cri Dafydd dros ei blentyn tra
yr oedd yn fyw, lleiaf o ddagrau oedd i'w
tywallt am dano ar ol ei farw.

PENNOD XXIX.

Y trydydd peth cynnwysedig yn y [gweddi
amser] ei fod yn gymmaint a gweddi beunydd
a pha ham y dylem weddio yn feunyddiol.

3. GWEDDIO bob amser, gweddio beuny-
ydyw, pan y mae y Cristion yn dal i fyny
ddydd i ddydd arferiad ddianwadol (d-
ddyledswydd hon. Nid gwaith dydd gw-
ond gwaith bob dydd yw gweddi: "Be-
nydd y'th fendithiaf; a'th enw a foliann
byth ac yn dragywydd;" *Salm* cxlv. 2. Y
oedd hyn yn cael ei gysgodi gan yr aber-
beunyddiol, a elwir am hyn, "Yr offwr
bob dydd yn wastadol" (*Ecsod*. xxix. 38
trwy yr llyn yr arwyddocawyd ein hang-
beunyddiol o geisio trugaredd gan Dduw
drwy Grist. Pan oedd ein Harglwydd y
dysgu i'w ddisgyblion weddio, efe a baroi-
iddyt, nid gofyn bara am wythnos; n-
nac am dranoeth, ond am y dydd presenn-
"dyro i ni heddyw ein bara beunyddiol
yu dangos yn eglur ein dyledswydd i geis-
ein bara bob dydd gan Dduw. A hyn y
sicr oedd diben Duw yn rhoddi y maun
y fath fesur a'r nad oedd i lenwi eu colloe-
a'u diwallu âg ystôr am fis neu wythnos, or
i fod yn rhan gymhwys a dogu digonol o
ddiwrnod, fel y cedwid hwy felly mewn y
ddibyniad beunyddiol ar Dduw, ac yr ed-
yehent yn feunyddiol ato ef oedd yn cad-
agoriad eu bwydgel. Ac onid yw yr
angenrheidiau yn perthyn i ni a hwythau
Y mae ein cyrph mor weiniaid a'r eidd-
hwythau, ac nis gallant ymgynnal heb yr
borth beunyddiol. Ac onid arno ef yr y-
ym yn ymddibynu am luniaeth y dydd
am orplwysfa y nos? Ac nid yw y dy-
hwnw ond yn camfarnu am ystâd ei ena-
sydd yn tybio y gall efe fyw neu gynydd-
ar ei bryd ddoe heb adnwyddu ei gymmu-
deb â Duw heddyw. Fe dybiai y fam fod
plentyn sugno yn glaf, pe gadawai lony-
i'r fron am ddiwrnod cyfan. Felly y ge-
dithau farnu nad yw dy enaid yn ei le, pa-
y medri fyw am ddiwrnod heb ddeisyf yr
borth ysbrydol mewn gweddi. Os nad y
dy angenion yn ddigon i gadw cerbyd
ddyledswydd ar olwynion; etto, gallai
pechodau yr wyt o'r newydd yn eu gwneut-
ur dy yru yn feunyddiol i gyfaddef a gof-
maddeuant. Yr ydym dan orchymyn
beidio gadael i'r haul fachludo ar ein di-
ofaint yn erbyn ein brawd. Ac a feidd-
ni, sy bob dydd yn haeddu digofaint Du-
adael i'r haul fachludo cyn i'r ymrfa
hwnw gael ei wneud i fyny rhwng Duw
ninnau? Mewn gair, y mae gan bob diw-
nod ei drugareddau newyddion: "I
phalla ei dosturiaethau ef: bob bore y de-
ant o newydd;" *Galar*. iii. 23. Y mae
trugareddau newydd hyn yn peri dyled neu
ydd; ac y mae Duw yn dangos i ni ffor-
taliad, sef teyrnged o fawl. Heb hyn, n-
gallwn ddisgwyl defnydd sancteiddiedig

it. Fe nodir hwnw gan bawb yn ddynedig, sydd yn bwyta ei fwyd ac heb liolch; ac fe'i cyfrifid yn esgus ynfyd, wedai ei fod wedi rhoddi diolch ddoe, affai hyny wasanaethu am y pryd yma.

Y mae genym fwy o drugareddau sydd i ddiolch am danynt nag sydd yn y gosod ar ein byrddau. Yr ydym yn o trugareddau, yn anadlu trugareddau, rhodio ar drugareddau; nid yw ein holl l and ymndaith oddi wrth un drugaredd gael ein croesawu gan y llall. Fel y un llian, dyna un arall yn cael ei osod odd neydd. Yn awr, a yw Duw bob yn eneinio ein pen âg olew i'r, ac ai lld i ninnau ei goroni yntau â moliant lld? Nid âf i ymhelaethu ar y pwngwr fyfnych y dylai Cristion weddio mewn od: o leiaf, rhaid iddo ddwywaith, re a hwyr. Rhaid i weddi fod yn agy bore ac yn glo y nos. Nid ydym yn angos fel Cristionogion os nad ydym or ein llygaid â gweddi wrth godi, ac cau drachefn â'r un agoriad wrth or i lawr y nos. Y mae hyn yn ateb i'r boreuol a phrydnawol dan y gyfryfryn hyn, er hyny, oedd wedi ei orchyffelly, fel ag i adael lle i'r aberthau odd ereill, a allai eu sel eu cynnhysu hoddi. Gweddïa mor fyfnych ag y heb law hyny, tra na byddo i'th addu gau allan ddyledswyddau angenol dy alwedigaeth: po mynychaf, f y croesaw. Yr ydym yn darllen am lld wrth y gwaith seithwaith yn y ; ond bydd sier o beidio lladrata dim triau pennodol oddi ar dy Dduw: "Da oliannu yr Arglwydd, a mynegi y bore y drugaredd, a'th wirionedd y nosiau;" *Salm xcii. 1, 2.* Y mae Duw yn a ac yn Omega. Cymnhwys yw i ni neu a diweddu y diwrnod gyda molwr hwn sydd yn ei ddechreu a'i ddiwâ'i drugaredd. Wele, Gristion, dyma dyledswydd yn eglur o'th flaen. Fel y t gael gan Dduw lwyddo dy lafur yn y a melysu dy orphwysdra yn y nos, cyf y ddau ynghyd â'th addoliadau boreuphrydnawol. Yr hwn nid ydyw yn u am neillduo rhan i Dduw o amser y , y mae nid yn unig yn ysbeilio Duw ddo, ond y mae yn ei golledu ei hun yr lldiwrnod wedi hyny, trwy fod heb y th a allai ei weddi dynu i lawr o'r nef orchwylion. Ac y mae yr hwn a gauo gaid y nos heb weddi, yn gorwedd i cyn cyweirio ei wely. Y mae yn debyg ben ynfyd mewn gwersyllfa, a ä i orys cyn gosod y wyliadwriaeth er ei ddiwch. Duw yw Ceidwad ei bobl; ond a nwnw ddisgwyl ei gadw ganddo sy heb ymyn ei hun i gadwraeth ei ragluniaeth yfod? Y mae yr angylion, ar ei air ef, a wersyllu o amgylch trigfanau ei saint

ef; ond megys y mae y tabwrdd (*drum*) yn galw y wyliadwriaeth ynghyd, felly yn wir y mae Duw yn disgwyl genym ninnau, drwy daer weddi, ofyn ganddo eu gweindogaeth a'u gwasanaeth hwynt o'u hamgylch.

Terfynaf hyn o ymddiddan â rhybudd perthynasol yn eich arferiad beunyddiol o'r ddyledswydd hon.

Rhybudd. Gwylia rhag i'th gyflawniad gwastadol beunyddiol o weddi ddirywio i ffigurfoldeb difywyd. Yr hyn a wnawn yn arferol yr ydym yn dueddol i'w wneuthur mewn dull cyffredin ac ysgafu. Cristion gwerthfawr yw hwnw sydd yn dal i fynd ei arferiad o weddi, ac heb fyned yn ddefodol, i weddio o ddim ond arfer. Nis gellir dal i fynd ym crefydd, heb gadw dull a threfn allanol yn ei hymarferiadau; ac etto, peth tra anhawdd yw peidio myned yn ffurfiol yn y dyledswyddau hyny yr ydym yn ymarfer â hwy yn feunyddiol. Y mae llawer sydd yn daclus a dilyn iawn pan y mae ei gwisgwyl am danynt, er hyny yn ddigon swga pau fyddont yn eu dillad bob dydd. Felly ar ddydd ympryd neu Sabbath, y mae ein calonau ninnau, o bossibl, yn cael eu cynhyrfu i ryw ddirifwech ac ysbrydoldeb a fyddo yn gweddu i'r ddyledswydd o weddi, wedi cael eu dal âg arswyd megys gan yr amser mor gyssegredig, a chan bwys anghyffredinol y gwaith. Ond Och! yn ein dyledswyddau bob dydd yr ydym yn rhy ysgafn ac annhaclus. Ymosod, gan hyny, Gristion, â'th holl egni, i ddal i fynd fywyd a bywiogrwydd dy ysbryd yn dy agosâd beunyddiol at Dduw. Bydd mor ofalus i gael awch ar dy rasusau cyn gweddi, ag wyt i gael awch ar dy gylla cyn pryd bwyd. Ymgais am ddyfod mor newynllyd at y ddyledswydd yma ag i fywta dy giniaw a'th swper. Yn awr, nid oes moddion am hyn, tebyg i osod gwyladwriaeth sanctaidd ar dy galon yn holl ystod dy fywyd. Yr hwn a wylia ar ei galon trwy y dydd yw y tebycaf o'i chael yn barod ac mewn hwyl i weddi y nos, tra y mae rhodiad diotal yn magu gweddio dioglyd. Galw i'th feddwl yn fyfnych yn y dydd y gwaith sydd yn dy aros yr hwyr. Yr wyt i agosau at dy Dduw, ac fe bair hyn i ti ofni gwneuthur dim yn y diwrnod a fagai anhwylynt, neu euogrwydd, erbyn y delych i ymddangos ger ei fron. Nodedig yw geiriau yr apostol yn 1 *Pedr* i. 17. Os ydych yn galw ar y Tad, yr hwn sydd heb dderbyn wyneb yn barnu yn ol gweithred pob un, "ymddygwch mewn ofn dros amser eich ymdeithiad." Fel pe dywedasai, A ydych yn meddwl gweddio? Yna, edrychwech at holl ystod eich rhodiad, ar iddo fod yn ofn yr Arglwydd; onid è, ni bydd genych fawr o galonddid i weddio, nac o obaith cael croesaw ganddo: o blegid y mae efe yn barnu am y rhai sydd yn

gweddio, nid wrth eu gweddiau yn unig, ond wrth eu gweithredoedd hefyd a'u rhodiad.

PENNOD XXX.

Am saeth weddi—ei natur, ei defnydd rhagorol, a'i diben.

2. Y MAE yr ail gangen, yng nghyfarwyddyd yr apostol i weddio, yn caulyn, yr hon sydd yn golygu yr amryw fath o weddi sydd i'w hafer gan y Cristion. Megys y mae efe, mewn perthynas i dymmor, i weddio bob amser, felly, o ran yr amryw fath neu y rhywiau o weddi, y mae efe i weddio â phob rhyw weddi a deisyfiad. Yn awr, y mae y "pob" yma i'w ystyried ddwy ffordd. 1af. Pob math o weddi. 2il. Pob defnydd gweddi.

Dechreuwn gyda'r cyntaf; ac y mae y pen hwn yn syrthio dan amryw wahaniaethau. (1af.) Y mae gweddi yn ddisymmwrth a saethedig; neu yn rheolaidd ac mewn trefn. (2il.) Y mae yr un sy reolaidd yn cael ei chyflawni, naill ai yn unigol gan un wrtho ei hun, neu yn gydunol âg ereill. (3ydd.) Y mae gweddi gydunol naill ai yn neillduol yn y teulu, a'i yn gyhoeddus yn y gynulleidfa. (4ydd.) Y mae gweddi unigol a chydunol, neillduol a chyhoeddus, naill ai ar achosion cyffredinol ai anghyffredinol.

(1af.) Saeth-weddi, yr hon nid yw ddim arall ond dyrchafiad yr enaid at Dduw ar ryw achlysur disymmwrth a phwysig, gyda math o adroddiad byr, etto bywiog, o'n dymuniadau wrtho. Weithiau, y mae llefer-ydd yuddi; weithiau, dim ond ochenaid oddi wrth ddirgel weithrediadau calon rasol. Fe ellir saethu y picellau hyn i'r nef heb arfer bwa y tafod. Y fath yma o weddi oedd hono o eiddo Moses a swniodd mor uchel yng nglust Duw, fel y gofynnodd iddo, "Pa ham y gweiddi arnaf?" *Ecsod.* xiv. 15. Nid ydym yn darllen ddarford iddo lefaru cymmaint a gair. Ac nid amser ydoedd iddo y pryd hyn y gilio ac ymroddi i weddi yn rheolaidd ac mewn trefn, fel y byddai arferol ar amserau ereill; o blegid yr oedd y gelynyon wrth ei gefn, a phlant Israel yn ymdyru yn ei gylch, gan dychan a rhoddi eu gwaed i'w erbyn, am iddo eu denu o'r Aipht i syrthio i'r fath agi, lle nas gallent ddisgwyl dim ond colli eu bywydau, naill ai yn y môr ai trwy ddwyllaw yr Aiphtiaid. Hyn yn ddiammheu a wnaeth i Moses yn ebrwydd anfon ei erfyniadau i'r nef, trwy law rhyw saeth weddi fer, y genad sicraf a chyflymaf yn y byd; a'r hon a ddug iddo ateb buan a llwyddiannus, fel y cawn yn *adn.* 16. Fel hyn y darfu i Nehemiah hefyd

ar eiriau y brenin wrtho, anfon gweddi at Dduw, rhwng gofyniad y brenin a'i atyntau iddo: "A'r brenin a ddywed wrthyf, Pa beth yr wyt ti yn ei ddyddu? Yna y gweddiais ar Dduw y nefoedd, Ac a ddywedais wrth y brenin," &c.; *Nehem.* 4. Mor fuan yr aeth y gwr duwiol hwn nef ac yn ol, mewn llai na muned, a debyg, heb ddangos diffyg moesau, dber i'r brenin ddisgwyl ateb! Weithi chwi gewch y saint yn llunio eu dymuniad i ychydig eiriau bywiog a serchiadol rhai a ehedant gyda grym sanctiaidd gwefusau i'r nef, fel saeth o fwa. Felly hen Iacob, pan oedd yn anfon ei feibion waith i'r Aipht ac wedi darparu at eu ta gyda'r gofal callaf (trwy roddi y dau cy maint o arian ac anrheg ddewisol yn eu llaw i ddiddigio llywydd y wlad), fel y gal hefyd rwywio y nef o'u hochr, y mae yn adlu allan y saeth weddi hon: "Duw Hw alluog a roddo i chwi drugaredd ger bron gwr, fel y gollyngo i chwi eich brawd all, a Beniamin;" *Gen.* xliii. 14. A Dafydd yntau, pan glybu fod Aithophel yn nghyfwriad Absalom, a olyngodd y saeth hon i'r nef a ddaeth ar ben yr adyn hwn: "O Arglwydd, tro atelw gynghor Aithophel yn ffolineb;" *2 Sam.* xv. 31. Y fath yma o weddio oedd yn ngolwg Dafydd y dywedodd, "Seithwaith yn y dydd yr wyf yn dy glodfori;" *Salm.* cxix. 164. Nid fel pe buasai ganddo saith o oriau gosodedd i'r ddyledswydd hon bob dydd, fel y mwy y Pabyddion, er mwyn ffafrio eu saith a canonig hwy; ond yn hytrach rhif terfysig edig sydd yma am un annherfyndig; felly y mae yn cyrhaedd i gymmaint a hy—Ei fod yn dra mynych yn y diwrnod clodfori Duw, wrth fod ei galon rasol cymmeryd annaid oddi wrth bob rhaglaieth i droi tua'r nef ar y neges hwn weddi a mawl.

Yn awr, i fyned trwy y rhyw hon weddi, ni chaf ond dangos,

1. Pa ham y dylai y Cristion (heb law oriau pennodol i weddi, ym mha rai y mae yn dal cymdeithas mwy arbenig â Duw) droi at ddwrws Duw yn achlysurol, a phrysu i'w wydd yn awr ac yn y man (beth byn y bo arno) trwy yr anadiadau saethedig hys o'i galon. O blegid y mae hon yn fath weddi na raid iddi rwystro y Cristion, na annhrefnu dim ar ei orchwyllion ereill. yw efe ar daith? Fe all fyned i'r nef yn ychediadau byrion hyn, ac heb fod gam pell ach yn ol yn ei ffordd o'r achos. A yw e ar waith yn y maes? Nid yw raid i'r araf sefyll o achos hyn. Megys nad yw weiglaudd yn waeth am yr hyn a sugna y weinyon o'i bloddeu, felly nid yw achosion byd gwr ddim pellach ar ol o herwydd y defnydd ysbrydol a wna enaid grasol yn y modd yno hon ynt.

DOSB. I.

7 rheswm cyntaf a ellir ei gymmeryd i wrth Dduw; yr hwn, i ddangos ei hoffmawr yng ngweddiâu ei blant, sydd yn ael ei ddwrws yn wastad yn llydan agorfel, pa bryd bynag y bydd genym ond on, ac y byddwn mor fwy'n a thro'i i mewn nweled âg ef â gweddi, boed ddydd boed, y mae i ni groesaw. Nag e, y mae efe yn unig wedi rhoi i ni ryddid, ond yn osod yn orchymyn arnom adael iddo wed mor fynych ag y byddo yn bossibl i wrthym. Y mae yn erchi i ni "weddio ddibaid;" 1 *Theo.* v. 17. Drachefu, eth bynag a wneloch ar air neu ar weith, gwnewch bob peth yn enw ein Harwydd Iesu, gan ddiolch i Dduw a'r Tad ryddo ef;" *Col.* iii. 17. Beth yw meddwl adnodau hyn, ond bod i ni gymmeryd o achlysur a ddwg ei Ysbryd a'i raglunth ef at ein llaw, er codi ein calonau ato wn gweddi? Ac a dybiwn ni, ond i ni linio wrth droi allan y boreu, pe baem o feddwl mwy am Dduw nes y delo ein ch o weddi yn yr hwyr, y pasia hyn gydef am weddio yn ddibaid? Pan archo y i'w fab sydd yn byw oddi cartref, adael o glywed oddi wrtho mor fynych ag y ldo modd, er nad yw yn disgwyl am hir hyr oddi wrtho gyda phob cenad a ddelfordd hono, etto, y mae yn edrych am ryw byr o goffa o'i ddyledswydd; ac fe fydd yw yn dderbyniol nes y caffo seibiant wy i ysgrifenu ei feddwl yn llawn. Y e Duw yn erchi gweddio yn ddibaid a awr, fe w'yr nas galiwn fod ar ein gliwbob amser mewn difrifol gyflawniad o'r yledswydd; ond y mae efe am hyn yn gwyl clywed o hyuny yn fynychach oddi thym yn y cofon yma; pa rai y cawn dlysuron beunyddiol i'w danfon trwy ddiyddiadau rhagluniaeth; a pha rai y mae Ysbryd Glân, fel ein cenhadwr, yn sefyll barod i'w dwyn ato.

DOSB. II.

2. Oddi wrth ddefnydd rhagorol saethyddiau yn holl ystod byrwyd y Cristion. 1af. Y maent o ddefnydd rhagorol i'w sod yn erbyn picellau disymmwth y diabol, a defir ganddo i'n meddyliau. Peth yfedd fyddai pe b'ai Satan heb fod yn ysyr gyda'r goreu o saint yn y ffordd hon. I oes neb mor bur na faidd yr ysbryd an roi cais ar ei ddiweirdeb; a phan fo ei mtasynau ef unwaith wedi lliwio ein chymyng, y mae yn anhawdd eu sychu naith, cyn iddynt fyned mor ddwfn ag i ael rhyw orlliw brwnt ar ein serchiadau. I a awr, pan fo y fath bicell o uffern wedi saethu trwy dy ffenestr, y ffordd oreui ddyllallan o'r brofedigaeth yw i tithau dafu bicellau i'r nef mewn saeth-weddi dduw. Y mae ein Hiachawdwr wedi dysgu ddisgyblion drin yr arf yma: "Gweddi-

wch nad eloch i brofedigaeth." Yn awr, pan nas gelli dynu y cleddyf hir o weddi reolaidd, dos at y dagr byr o saeth-weddi; ac â hwn, os yn llaw ffydd, ti elli wân dy elyn i'r galon. Yr hwn ar un weddi fer i Dafydd a allodd ynfydu Ahitophel—oracl am gyfrwysdra—fe all somi y diafol hefyd; ac fe wna ar dy weddi ffyddiog di: "Cerydded yr Arglwydd dydi, Satan" (ebe Crist); *Zech.* iii. 2. Y mae yn bryd bellach i Satan ffoi, pan yw y nef wedi cymmeryd larwm; megys pan fo lladron o amgylch tŷ i'w ysbeilio, a'r rhai oddi mewn yn curo tabwrdd, neu yn rhoi bloedd gref am gymmhorth, hwy a redant ymaith yn ebrwydd. A phe byddai Duw er dy brofi heb ddyfod ar yr alwad gyntaf i'w waredu rhag y gormeswyr hyn, etto fe fydd i'w waith di yn gwaeddi allan (os yn wresog o'r galon) dy lanhau oddi wrth fod yn gydsyniwr â'u drygioni.

2il. Y maent yn foddion arbenig i farweiddio serchiadau y Cristion i'r byd, un o'r gelynyon gwaethaf sydd ganddo i'w erbyn; o herwydd y mae yn lliadagu yr enaid, yn tewychu ysbrydoedd y Cristion, ac yn newid hyd yn oed ei wedd. Pwy ond dyuon yn meirw sydd yn aroglu o'r ddaear, ac yn dwyn ei lliw yn eu gwynebpryd? Y mae gras yn gwanhau yn ddiasor lle y bo y galon yn aroglu yn drwm o'r byd. A pha beth yw gweddi ond dyrchiad y galon o'r byd i'r nef? Pe baem yn fwy mynych yn y dydd yn sugno i mewn, megys awyr iachus, a dylanwadau newyddion o ras oddi wrth Dduw, ni byddai yn bossibl i'n hysbrydoedd gael eu gwenwyno mor dost gan feddylfryd byd.

Pan ofynwyd i un, ai nid oedd yn rhyfeddu trefn hardd-deg rhyw dŷ gwych? Attebodd, nac wyf; o blegid yr wyf wedi bod yn Rhufain, lle y mae adeiladau gwychach i'w gweled. Felly, pan fo Satan yn dangos pleserau neu drysorau y byd i'r Cristion, er mwyn denu ei serchiadau i ynfydu arnynt, gall ei enaid grasol ateb, yr wyf wedi bod wrth borth y nef; nid oes awr o'r dydd nad wyf yn mwynhau gwell na'r rhai hyn mewn cymdeithas â'm Duw.

DOSB. III.

3ydd. Y maent yn cadw calon y Cristion mewn hwyl sanctaidd at gyflawniad mwy rheolaidd o'r ddyledswydd. Y dyn a fo mor nefolaidd yn ei orchwylyon daearol, fe fydd o hyuny yn llai bydol yn ei rai nefol. Ymadrodd melus gan wr duwiol wrth farw oedd, ei fod ar newid ei le ond nid ei gymdeithas. Y Cristion a fo yn hygyrch yn y saethweddiâu hyn, pan elo efe at weddi yn fwy rheolaidd, nid yw yn myned oddi wrth y byd at Dduw, ond oddi wrth Dduw at Dduw; oddi wrth olygiad byrach arno at un mwy sefydlog. Tra y mae yn arall yn gadael heibio ei gyfeillach â Duw ar ol ei

ymweliad boreuol, ac yn aros megys o'i wýdd hyd oni elwir ef gan ei gyflawniad arferedig. O! mor anhawdd fydd i'r fath un weddio á chalon nefolaidd! Yr hyn y llenwoch chwi eich llestr ág ef, sy raid i chwi ddisgwyl gael o hono. Os dwfwr a roir i mewn, nis gallwn heb wyrthiau feddwl cael gwin allan. Beth! a wyt ti trwy y dydd yn llenwi dy galon á daear (Duw heb fod yn dy holl feddyliau), ac a ddisgwylti di gael nefoedd allan o honi yn yr hwy? Os mynit gael tân i'th aberth prydawnol, paid a'i ddisgwyl megys yn wyrthiol o'r nef, ond llafuria i gadw hwnw sydd eisoes ar dy allor heb ddiffodd; ac nid oes un ffordd well i hyn na'i borthi á'r tanwydd yma o saeth-weddiâu.

DOSB. IV.

4ydd. Y maent o ddefnydd rhagorol i ys-gafnau unrhyw gystudd mawr a fyddo yn gwasgu ar yr enaid neu y corph. Tra y mae ereill yn eistedd yn ddigysur, yn malurio eu heneidiau, ac yn treulio eu hysbrydoedd á'u meddyliau athrist eu hunain, y mae yr edyn gan y Cristion i ehedeg uwch law ei ofdiau, ac i saethu ei enaid i'r nef, allan c dwrf a swm ei flinderau. Pa fodd y gall efe fod yn hir yn ddigysur, yr hwn pan fo dim yn dechreu ei flino, nid yw yn gadael iddo weithio a bytheitio yn ei feddwi, fel draen yn y cnawd, ond yn ebrwydd yn rhoi goll-yniad iddo trwy ryw fyfyrdod nefol, neu weddi ffyddiog at Dduw. Ni buasai yn bossibl i Iob sefyll dan bwys y newyddion trymion oedd yn dyfod ato ar gefnau eu gilydd, pe buasai ei feddyliau heb ddal ar un testyn arall ond ei gystudd. Ond gan ei fod yn gallu dyrchafu ei galon at Dduw: "Yr Arglwydd a roddodd, a'r Arglwydd a ddygodd ymaith; bendigedig fyddo enw yr Arglwydd;" fe roddodd yr un myfyrdod neu y saeth-gyfes dduwliol yma iddo es-nwythdra anghymharol. Yn wir, mewn trallodau a fo yn llym ac angerddol, nid amser ydyw am ymddiddanion hir; nis gall y creadur druan ddal allan mewn gweddi faith fel amser arall. Pan elo yr ymladdfa yn boeth, a'r fyddin i ymladd law-law á'u gelynyon, nid oes amser ganddynt i lwytho eu gynau mawrion; eu cleddyfau byrion y pryd hwnw a wnânt y gwasanaeth goreu. Yn ddiau, felly y mae yn yr achos hwn; y mae y creadur druan, fe allai, yn teimlo ei gorph yn wan, a'i ysbyrd yn orthrymedig gan brofedigaethau, y rhai a ergydia Satan arno; fel mai y cwbl a all efe wneuthur yw anadlu gweddi fer a physur; cyrchu ochenaid gan y boen y mae yn deimlo, ac yna saethu eifyniad i'r nef i alw Duw i'w gymmhorth. A gwyn ei fyd y dyn sydd á'i gawell yn llawn o'r saethau hyn. Ni a welwn fod Crist yn ei ing yn dewis gweddi yn fynych yn hytrach nag yn hir: "Os yw bossibl, aed y cwpan hwn heibio oddi wrthyf;

etto, nid fel yr ydwyf fi yn ewyllysio, fel yr ydwyf ti;" *Mat. xxvi. 39.* Y se weddi fer hon y mae yn auferon i'r nef gwaith, gydag ychydig orphwysiad rh y naill weddi a'r llall, "a chafodd ei w daw yn yr hyn a ofnodd;" *Heb. v. 7.*

PENNOD XXXI.

Cerydd i'r rhai hyny nad arferant y fath yn weddi; neu a'i gwanant mewn modd halog neu a arferant y fath yma o weddi heb y lle.

Defn. 1. Er cerydd i'r rhai sydd yn g anghydnabyddus á'r fath yma o weddi; bicell o'r fath i'w chael o fewn ei cau. Y mae eu calon yn wir yn fwa anellog, cawell yn llawn o saethau; ond fe'u sae oll heibio i'r nod hwn. Y byd yw eu gw ddrych; at hwn y gollyngant eu holl f yliau. Y mae Duw y fath estron idd fel mai prin y siaradant ág ef, neu y me yliant am dano o'r boreu i'r nos, er eu bod teithio ar hyd y dydd yn ei olwg. Ac o yw yn beth rhyfedd fod Duw, sydd mor a at ei creaduriaid, er hyny yn cael bod i bell o'u meddyliau? Pa le y gelli di fo Neu beth a all dy lygad daraw arno l gael achlysur teg i alw Duw i'th gof, a ddyrchafu dy galon ato? Y mae efe bresennol gyda thi ym mhob lle a chyfe ach. Nis gelli arfer un creadur, mwynl un drugaredd, teimlo un cystudd, na r dy law wrth un gwaith, heb gael rh goffâd, naill ai i ofyn ei gyughor, ceisio fendith, deisyf ei nawdd, neu roi id ddiolch am ei ragluniaeth rasol drosot. H yn oed yr anifail wyt yn ei farchogaeth, gallai siarad fel asyn Balaam un tro, efe geryddai dy ddidduwiaeth di, yr hwn w yn teithio dan lunio dychymmygion, h ddoi golwg at yr hwn sydd yn cadw dyn anifail. Ond y mae Duw yn llefaru u waith, fe, dwywaith, a dynion anifeik heb ddeall. Da y gallai Solomon ddywe yd: "Calon y drygionus ni thâl ond yehy ig;" gan "nad yw Duw yn ei holl feddy iau ef." Beth a all y galon hono fod werth sydd yn llawn o'r hyn nad yw y werth dim, neu o leiaf a fydd felly yn mh ennyd? O blegid yn y munydyn y bo trueiniaid hyn feirw, dyna eu holl feddyli yn darfod am danynt ac yn dyfod i ddir yn ddiau pe baech gymifer o frenhinoec ac ymherawdwyr, os yw eich meddyliau y cael eu treulio ar hyd y dydd ar ddychyn mygion dearol, heb ddyrchafu byth mo uchel ag i'ch arwain i gymdeithas á Duw nid ydych ond tebyg i'r pryfaid hyny syd yn byw yn gladdedig mewn rhyw dome ddrewllyd. Y mae yr ymborth sydd ga eich eneidiau i fyw arno yn wael a ffaidd a chyffelyb sy raid i dymmer eich eneidia

yd fod. O! pa nifer sydd yn y byd, â'u
ph wedi eu gwychu âg ysgariad, tra y
e eu heneidiau yn cofheidio y domen—eu
iau yn llawn o foethau a danteithion,
l eu heneidiau yn bwyta y pridd—y
ph, yr hwn yw y cardotyn, yn marchog-
b ar farch; a'r enaid, yr hwn yw y ty-
sog, yn cerdded ar ei draed; heb gael dim
asanaeth uwch na dal gwarthol y caeth-
s; yn gorfod treulio ei holl feddyliau a
alon ar y modd i arlwy i hwn, ac heb
l dim i'w ran ei hun! Etto, dyma y
l sy raid eu crïo i fyny fel yr unig rai
ous yn y byd, er fod rhai creaduriaid
dion i'w cael (tra y maent yn ddiyfrifiad
nerwydd eu hymddangosiad allanol) a
nhânt fwy o'r nef, ac o wir gysur trwy
mynych gymdeithas â Duw—fe allai wrth
eu troell neu wehydd—mewnundirnod,
a wŷr y lleill am dano yn eu bywyd, er
holl roddres a'u dedwyddfyd dychymmyg-
Pa gyfrif a rydd y fath rai i Dduw am
uliad eu meddyliau, blaenffrwyth eu
eidiau? O drueni! fod dieithriaid yn
y rhai hyny a allent gael eu codi i was-
eth mor uchel a myned ar negesau i'r
ac ymddiddan â Duw. Efe, yr hwn a
dodd i ddyn agwedd syth i rodio yn lle
gripio ar bedwar troed, fel rhai creadur-
â u cefn ar y nef a'u safn tua'r ddaear,
wriadodd Duw erioed i'w enaid ef ym-
wng is law iddo ei hun, fel ag i lyfu y
ch yn ymborth; ond yn hytrach fod iddo
ych at Dduw, ac ymfyfydu mewn cym-
ndeb âg ef, yr hwn yw Tad yr ysbryd-
d. Os yw yn olwg mor athrist weled
a wedi crymu trwy aflunieiddrwydd neu
luriau ei gorph, fel ag i fyned ar draed
lwyllaw, megys anifail ar bedwariaid,
er mwy athrist yw gweled enaid wedi
mu gan anwybodaeth a chwantau anian-
fel na all godi golwg o'r ddaear lle y mae
ymgreinio i gymdeithasu â Duw ei
euthurwr.

DOSB. II.

il. Y mae yn gerydd i'r rhai hyny a
thant yn wir, yn awr ac yn y man, i'r
rai o'r picellau hyn—saeth-weddiâu—
l yn y fath ddull halogedig ag sydd yn
i i Dduw a dynion grasol eu ffeiddio.
ni ddarfu i chwi erioed glywed adyn
vnt yn britho ei ymddiddan â rhyw
omysgedd rhyfedd o lwon a gweddiâu?
bytheirio llw, ac yn tafu gweddi wag
nghanol ei ymddiddan cnawdol! "Duw
ddeuo i ni; Duw a fo gyda ni; Duw a'n
o." Geiriau o'r fath sydd gan lawer; a
y a ddeuant yn rhes allan pryd nad ydynt
ystyried beth a ddywedant. Yn awr,
rai, dybygech chwi, sydd yn debyg i gyr-
dd y nef gyntaf, eu llwon ai eu gweddiâu?
nae yn anhawdd dywedyd pa un ai eu
gu ai eu gweddio yw y gwaethaf. -Y
feddyliau o'wael ac isel sydd gan y t u-

einiaid hyn am y Duw mawr, pan y gallant
fod mor hyf ar ei enw sanctaidd a pharch-
edig; yr hwn ni ddylid meddwl na son am
dano ond gydag ofn a dychryn: "Nid go-
gyhyd esgeiriau y cloff; felly danimeg yng
ngenau ffyliaid;" *Diar.* xxvi. 7; hyny yw, y
mae yn anwedus. Nid yw enw Duw yn
gymhwys i safn halogedig; nid yw yr
ymddiddan yn ogyhyd. Y mae rhoi un
troed yn uffern a'r llall yn y nef yn ormod
llam ar unwaith. Saethu un bicell yn erbyn
Duw mewn llw, ac un arall ato mewn
gweddi, pa beth yw hyn ond cellwair â'r
hyn sydd sanctaidd? Y mae crefydd â'i
llygaid yn rhy dyner i chwareu â hwy.
Allan o fwa y cythraul y saethir y fath
weddiâu a'r rhai hyn; ac nid tebyg y cyr-
haeddant byth i'r nef, oddi eithr i dynu
mellidith ar y neb a'u danfonodd i fyny.

DOSB. III.

3ydd. Cerydd i'r rhai a ymfoddlonant ar
y fath yma o weddi. Hwy a daflant gipolwg,
yn awr ac yn y man, ar Dduw mewn saeth-
weddi fer; ond byth nid ymosodant i geisio
Duw mewn modd difrifol. Ac ai hyn yw y
cwbl a geir genyt? Dim ond edrych yn
urws Duw ac ymaith yn ebrwydd. Ai nid
wyt ti yn meddwl ei fod yn disgwyl genyt
ddyfod weithiau i aros gydag ef mewn cym-
deithas i'w parhaus? Y mae yn wir fod
yr ymweliadau achlysurol hyn, pan eu cys-
sylltir â chyflawniad cydwybodol o'r lleill,
yn arwydd da o galon nefolaidd, ac o fyw-
iogrwydd mawr mewn gras lle y maent yn
aml. Megys pan fo dyn rhwng ei brydau
mor newynllyd, fel y mae yn rhaid iddo
gaei tameidiau i ddistewi ei gylla; ac etto,
pan ddell ciniaiw neu swper, y mae yn bwyta
mor lew a phe buasai heb brofi dim; dyma
brawf fod y dyn yn iachus a chryf. Ond
os bydd tamaid ar gyl yn dwyn ymaith ei
chwant fel na all fwyta nemawr neu ddim
ar ei brydau arferol, nid yw hyny yn ar-
wydd mor dda. Felly yma, os bydd Crist-
ion, rhwng ei oriau gweddi boreuol a hwyr-
ol, yn profi newyn ar ei ysbryd mor daer
am gymmundeib â Duw fel nas gall aros yr
amser gosodedig, ond fod yn rhaid iddo roi
aml saeth-weddi am dameidyn i'w loni, ac
yn dyfod wedi hyny yn llawn awch at ddyl-
edswydd yn ei awr gyffredin, y mae hyn yn
ddangosiad fod gras yn gryf ac ar gynydd.
Ond i'r gwrthwyneb, y mae gwneuthur y
rhai hyn yn esgus neu ddadl am esgeulaso
y lleill, yn brawf o ysbryd ysgafn ac afiach.
Yn sicr, ychydig yw y blâs a'r maeth wyt
yn gael yn y rhai hyn, onid e, hwy a gyn-
nhyrfent dy enaid i newynu am bellach
cymmundeib â Duw. Cyn gynted ag yr agorai
Dafydd ei lygaid yn y boreu, yr oedd ei
galon yn ehedeg at Dduw: "Pan ddeffro-
wyf, gyda thi yr ydwyf yn wastad." Ac
with rodio allan y dydd, yr oedd pob
achlysur yn ei arwain i gyfeillachu â Duw:

"Seithwaith yn y dydd yr ydwyf yn dy glodfori;" hyny yw, yn fynych; megys y dywedir, "Seithwaith y syrth y cyfiawn." Ond a oedd y golygiadau byrion hyn yn lladrata oddi ar gyflawniad mwy rheolaidd o'r ddyledswydd o weddi. Nac oeddynt. Yr ydym yn cael fod ganddo ei amserau pennodol hefyd: "Hwyr a boreu, a hanner dydd, y gweddiaf a byddaf daer;" *Salm* lv. 17. Y mae Mr. Ainsworth wrth hyn yn deall gweddiâu rheolaidd arferedig; ac fe dybygid y byddai yr Iuddewon mwyaf crefyddol yn arfer neillduo tri amser yn y dydd at y ddyledswydd hono. Y mae mor anhawdd i mi gredu fod y dyn hwnw yn fynych ac yn ysbrydol mewn saeth-weddiâu, sydd yn esgeuluso amser gweddi reolaidd, ag yw i mi gredu fod y dyn hwnw yn cadw Sabbath bob dydd o'r wythnos sydd yn esgeuluso cadw yr un y mae Duw wedi ei bennodi.

PENNOD XXXII.

Annogaeth i fynych arfer saeth-weddi, ynghyd â dau neu dri o gynnorihwyon.

Defn. 2. I'r saint. Cynnhyrfer chwï i ymarfer llawer â'r ddyledswydd hon. Mi wn nad ydych ddieithriaidd hollol iddi os ydych yn ateb i'ch enw, ac yn gyfryw ag y cyfrifir chwï, ond cydnabyddiaeth fwy agos a chyfeillgar a'r gwaith yw yr hyn y dymunwn eich arwain iddo. Y fath gelfyddyd yw, fel pe baem ond yn drinwyr medrus arni, y caem chwanegiad dedwydd at ein cyfoeth ysbrydol, a mwy o arian yn fuan yn ein pwrs (gras a chysur yn ein heneidiau wyf yn ei feddwl) nag a all y rhan fwyaf o Grïstionogion yr oes hon ddangos. Gallem trwy gelfyddyd ysbrydol droi pob peth y cyffwrddom âg ef yn aur; tynu nefoedd allan o ddaear, a gwneuthur edyn o bob creadur a rhagluniaeth a'n cyferfydd i ehedeg at ein Duw. Ni byddai ein holl fywyd ond megys un diwrnod o gymmundeib â Christ, fel y dywedwyd am yrfa un gŵr duwiol. Yna ni byddai na chyfeillion na gelynyon, cysuron na gofidiau, galwedigaethau na difyrwch, na dim arall a gyfarfyddwn yn y byd, yn abl i dori ar ein cydnabyddiaeth âg ef. Ond Och! yn awr y mae pob peth yn cyfryngu, fel cwmwl tywyll, i guddio Duw a'r nef o'n golwg. Nyni sy fel teithwyr mewn rhyw waelod neu gors isel, a'n meddyliau am y nef yn cael eu cymnylu gan y byd, fel mai prin y cawn o foreu i hwyr olwg ar y ddinas wych hono i ba un yr ydym yn myned, a thrwy hyny yn colli llawer o bleser y daith; pe iawn ddysgem y gelfyddyd hon caem y ddinas mewn ystyr bob amser o'n blaen, yn olwg hyfryd i'n llygad i'n lloni

ying ngwyneb rhwystrau ein pererindod i beri i ni gerdded yn gyflymach yn ffy sancteiddrwydd, wrth weled i ba le y mae yn ein harwain. Ni a gyfrifwn y rhai hyn hyfryd eu lle sydd yn cael llawer oleu a gwres yr haul. Yn ddiau, nid neb yn cael y fath oleuni parhaol o law ydd a heddwth i'w heneidiau a'r bobl sy'n gymnefin â'r gwaith yma. Y maent w eu planu yn yr haul, fel y dywedir am d'olion Rhodes, ac y maent dan y fantais o i gael cymmundeib mnych, os nid parhaol Duw, oddi wrth yr hwn y mae dylanwadau gras, a chysur hefyd oll yn tarddu. Ac y prenau sydd yn sefyll fwyaf yn yr hyn yw y rhai a ddwg y ffrwyth tecaf a melus yna yn sier y bobl ag sydd fwyaf gyda Duw y rhai tebycaff i ragori ar ereill meg gras a chysur. Yn a'c pob difyn a ddwy wenyuen i'r cwch wrth ehedeg i mewn allan, er nad yw yn aros yn hir ar yr blodeuyn, yn chwaneu at yr ystôr. Er yw yr enaid yn gwneuthur arosiad hir gyda Duw yn y fath yma o weddi, etto y mae adnewyddiad aml o hono yn effeithio llawer cynnydd ei ras. Ychydig o ennill er thynghiad buan a wnant bwrs trwm. Yn y cawodydd bychain a ddelontar oleu gily yn peri i'r ffd ffrwytho, ac yn llenwi y m urau. Felly yr ehediadau byrion hyn a w yr enaid i'r nef, a ffrwythlonant ac a gnyddant ras yn rhyfedd yn y galon. Yn awr, os gofyni pa fodd y deui yn fwy cynefin â'r fath yma o saeth-weddi, cynn yr ychydig eiriau hyn o gynghor.

Iaf. "Cadw dy galon yn dra diesgeulus dy serchiadau wyf yn feddwl. Y gw achos o'n bod mor anfynych yn ehedeg Dduw yn y gweddiâu achlysurol hyn y am fod pwys ein serchiadau yn mantoli ffordd arall. Y mae y dwfr yn llifo cawg lle y bo yr rmyl isaf, ac o'r ffynnylle y bo y rhediad rhywddaf. Os bydd o serchiadau yn gnawdol, at y ddaear yr aw ac ychydig a gaiff Duw o'n cyfeillach. Dywedir am Adda, "efe a ghenhedlodd fab ei ddlew ei hun" (*Gen.* v. 3); ac felly cal pob dyn. "Fel y mae y daearol, felly mae y rhai daearol hefyd; ac fel y mae nefol, felly y mae y rhai nefol hefyd." By ymdrechgar, gan hyny, am gaer a chadw dy galon yn nefol, yn enwedig edrych at y tserch hyn, dy gariad, dy ofn, a'th l wenydd.

(Iaf.) Dy gariad; os bydd y tân yma yn llosgi yn ddisglaer, mwyaf o'r gwreichid hyn a esgynant o hono at Dduw. Y mae cariad yn faethwr mawr ar y cof. Dywed am y godinebwr fod ei lygaid yn llawn o butain: ac nid llai cofus fydd cariad sanctaidd am Dduw. Fe fydd y cyfryneidd y fynych yn gosod Duw ger ei fron: "Gosodais yr Arglwydd bob amser ger fy mron" *Salm* xvi. 8. A thrwy fynych feddwl a

luw, fe ddenir y galon i ddymuniadau ar ol: "Dymuniad ein henaid sydd at dy w ac at dy goffiadwriaeth;" *Esa. xxvi. 8.* gwelwch pa beth sy'n canlyn (*adn. 9.*), A'm henaid y'th ddymunais liw nos; a'm sbryd hefyd o'm mew'n y'th fore geisiaf." mae cariad yn gosod yr enaid ar fyfyrdd, a myfyrdod ar weddi. Defnydd weddi yw myfyrdod; y mŵn a dawdd yn an ac a red i ddymuniadau sanctaidd. awdd y defnyna gwlaw o gwmmwl llawn, yr a y dryll llwythog allan ond rhoddi tân 'tho; felly y mae enaid myfyriol yn y ws nesaf i weddi: "Tra yr oeddwn yn fyfyrio (medd Dafydd), ennynodd tân, a mi lefarais a'm tafod;" *Salm xxxix. 3.* eth weddi, dybygwn, oedd hyny a saethyd o'i enaid pan yn nghymdeithas yr anwio.

(2il.) Dy ofn. Hyd yn oed annuwiolion, eu bod yn dra estronol i weddi, etto ni a wn eu clywed yn curo wrth ddrws Duw eu brow. Yn llawer mwy y bydd i ofn wiol dueddu y Cristion ar bob achos i yrchafu ei galon at Dduw. A wyt ti 'th dy alwad? Ofna fagl ynddi, ac fe'th nhyrfa hyn di yn fynych yn y dydd i yn cynghor gan Dduw pa fodd i ymddwyn gdi. A wytti mewn cymdeithas? Ofna ag gwneuthur neu dderbyn niwed, a thi fyddi yn mynych ddyrchafu dy galon at hwn yn unig a all dy gadw rhag y ddau. Is gallwn gael rhybuddiwr mwy fyddlawn dwyn ar gof o'r ddyledswydd hon, nag y ofn duwiol: y rhai oedd yn ofni yr Arwydd, y rhai hyny oedd yn meddwl am enw ef: *Mal. iii.* "Y dydd yr ofnwyf oedd Dafydd, mi a ymddiriedaf ynot." mae ofn yn peri i ni feddwl pa le y mae i diogelwch, ac yn ein harwain at ein ddfa. Oni buasai i Noah ofni ystorm, asai yr arch heb ei hadeiladu. Mae dynion b ofni na pheciod na pherygl; ac am ny, nid yw Duw yn clywed oddi wrthyt hyd y dydd. Y byd annuwiol sydd yn odio a'u cefnau ar y nef, ac heb godi lwyg at Dduw o'r bore i'r nos, gallwn ddyddyd yr achos, "Nid oes ofn Duw o flaen llygaid."

3ydd. Dy lawenydd a'th hyfrydwch yn uw: O maetha hwn! Megys y mae ofn tueddu i weddio, felly llawenydd i folanu. Yn awr, ac nid hyd yn awr, y mae galon mew'n cywair. Un amnaid bellach n ragluniaeth Duw, a chyffyrddiad o'i Ysyd, a esyd enaid o'r fath ar waith i fellthio Duw. Dynion anialon, pan fyddont eu hwyll ddfyfr a llon, yna y mae gan ynt eu caniadau, wrth eistedd yn y tŷ neu rchogaeth ar y ffordd; pa faint mwy y dd i'r enaid grasol, sydd yn rhodio yn y mlad o gariad Duw, daraw yn fynych ar delyn o fawl i Dduw: "Gwell yw dy ugarredd di na'r bywyd; fy ngwefussau

a'th foliannant;" *Salm lxiii. 3.* "Fel hyn y'th glodforaf yn fy mywyd;" *adn. 4.* A thrachefn, "Fy ngenau a'th fawl â gwefussau llafar;" *adn. 5.* Gwelwch fel y mae efe yn myned i ro. yr un nôd drachefn a thrachefn. Nis gell'r celu llawenydd mwy nag ennaint. Megys y mae hwn yn dadguddio ei hun drwy ei awogl gynnhes a pheraidd, felly y gwna llawenydd duwiol ei gyhoeddi ei hun yn y mawl a seinia i Dduw. Gan hyny, y mae yn gweddu i ti, Gristion, fod mor ofalus am dy lawenydd, ag a fyddit am y gwaed yn dy wythienau; o blegid ynddo y rhed bywyd dy fawl a'th ddiolchgarwch. Yn awr, a ddymunit faethu dy lawenydd? Sugna dithau yr addewidion, y bronau hyny o gysur. Y mae y rhai hyn yn lluniaeth o nôdd pur a meithriniaeth iachus; hwy droant yn fuan yn waed (llawenydd a heddwch wyf yn feddwl) a chyda hyn y mae yn rhaid i ysbryd diolch gunnyddu hefyd.

2il. Meddianner dy galon â meddyliau cryfion am ragluniaeth benrheolus Duw, yn dy holl anturiaethau—mawrion a bychain—y gwna efe yr hyn a fyndd ei hun yn y nef a'r ddaear, fel mai ofer fydd dy lafur mew'n unrhyw orchwyl nes y dechreuo yr olwyn benaf yma droi, sef ei ragluniaeth daraw o ochr y gwaith. O! fel y dyrchafai hyn dy galon at Dduw, ac y parai i ti fyned âg am neges o'i flaen! Fe rhoddem fod gwr yn nghylch rhyw orchwyl pwysig, a chanddo gydymaith a fedrai, o'i allu ei hun, rwyddhau neu rwystro y cyflawniad o hono, oni fyddai yn rhyfedd os rhodiai efe yn ei ochr ar hyd y dydd heb dynu cyfeillach âg ef? Hyn yw dy wir gyflwr di, Gristion: yr wyt ti a'th holl negeseuon yn gwbl wrth drefniad y Duw mawr, i'th lwyddo neu i'th luddias ym mhob anturiaeth. Oddi eithr i ti ei gael ef o'th blaid, dyna dy waith wedi ei lwyrr anafu. Ac y mae y Duw hwn yn wastad ger llaw i ti, pa un bynag ai gartref ai oddi cartref, yn dy wely ai wrth dy fwrdd. Yn sier pe credit hyn yn gadarn, ti a droit ato yn fynych yn y dydd, ac a ofnynt ei ewyllys da i rwyddhau a dwyn ym mlaen dy orchwyllion drosot.

3ydd. Edrych ar i ti gydsynio â chynhyrfaiau yr Ysbryd Glân. Megys y mae efe yn lle cofiadur i'r Cristion, i'w goffau am gyflawniad mwy arbenig o'r ddyledswydd hon o weddi, felly y mae yn rhybuddiwr hefyd, trwy osod ger bron ei feddwl amryw destynau achlysurol, i.e. yn nghanol gorchwyllion bydol, fel amnaid, mai amser cyfaddas yw yn awr i droi wyneb at Dduw mew'n rhyw saeth weddi rasol. Y mae efe fel un a agorai ddrws iddo ddyfod i wyddfod Duw. Weithiau, dwg ar gof wirionedd a ddarllenaist ac a glywaist, trugaredd a dderbyniaist, neu bechod a wnaethost. A pha beth yw ei feddwl wrth hyn i gyd, ond gwneuthur cymmwynas i ti, fel drwy y rhai

hyn y cyffroer dy serchiadau, ac y cymhellir di i ddyrchafu dy enaid at Dduw mewn saeth weddi addas i'r achos. Derbyn dithau yr amnaid ganddo, a thi a gei fwy o'i gynnorthwy a'i gyfeillach yn y ffordd hon. O blegid megys y mae yr ysbryd drwg, lle y casto groesaw i'w grybwylliaidau direidus, yn myned yn hyfach i guro wrth y drws, am ei fod yn ei gael mor fynych ac mor lawdd yn agored; felly, lle y byddo cynhyrfaidau yr Ysbryd Glân yn cael derbyniad, y mae yn wahoddiad iddo i fod yn fynychach yn ei gynhyrfaidau tirion hyn, tra y gallai dy waith yn eu hesgeuloso beri iddo gilio, a th adael i' th ysbryd dioglyd dy hun. Wedi i Grist deirgwaith roddi cais i ddefroei ei ddisgyblion cysglyd, trwy eu galw i wlyo a gweddi, a'u cael yn ymroddi i'w syrthni o hyd, dyna efe o'r diwedd yn dywedyd, "Cysgwch weithian;" *Marc xiv. 41.*

PENNOD XXXIII.

Am weddi ddirgel, ei bod yn ddyledswydd arnom, a pha ham.

Yr ail math o weddi yw hono a alwn yn rheolaidd, am fod y Cristion yn ymosod mewn trefu fwy pennodol at y gwaith, trwy neillduo rhyw gyfran o amser oddi wrth ei achosion ereill, at gymmundeib heliaethach a llawnach â Duw mewn gweddi. Ac y mae hyn naill ai yn y dirgel, ai mewn cydagweddiad âg ereill.

Ni a ddechreuwn gyda'r cyntaf, Gweddi ddirgel. Pan fyddo y Cristion yn cilio i le dirgel, allan o wydd pawb, ac yno yn tywallt ei enaid i fynwes Duw, heb neb yn dyst o'i fasnach â'r nef ond Duw ac yntau. Yma, yn gyntaf, mi brofaf hyn yn ddyledswydd arnom; ac yn ail, rhoddaf y rhesymau pa ham.

DOSB. I.

1af. Bod yn ddyledswydd ar ddyngynnall cyfeillach â Duw yn ddirgelaidd ac ar ei ben ei hun, a ganiateir, yr wyf yn coelio, gan fwy nag syn ei arfer. Mae hyd yn oed y rhai sydd yn ddiethr i gyflawniad y gwaith yn dwyn yn eu mynwes yr hyn a'u cyhudda o'u hesgeulusdra; oddi eithr bod eu meddyliau aneallus wedi tywyllu trwy hir edrych ar y goleuni, a gwrthryfela i'w eiryn, a'u bod wedi colli pob ystyriaeth am Dduwdod. Os oes math yn y byd o weddi yn ddyledswydd, yna rhaid i weddi ddirgel fod yn un. Y mae hon i'r lleill, fel y gwaelod-bren (*keel*) i'r llong, yn cydio yr holl rai ereill ynghyd. Os edrychwn i ymarferiad saint y Beibl, ni a gawn eu bod oll yn fasnachwyr mawr â Duw mewn gweddi ddirgel. Yr oedd gan Abraham ei lwyn lle y byddai yn

cilio i alw ar enw yr Arglwydd Dduw gwyddol: *Gen. xxi. 33.* Yr ydym yn Isaac yn rhodio allan i'r maes, i edrych le dirgel, lle y gallai ymroddi i'r gwaith gyda mwy o ryddid, ynghyd â dwys fyddod:" *Gen. xxiv. 63.* Nid oedd Rebec lithau yn estron i'r ddyledswydd yma, hon ar waith y plant yn ymwithio y chroth a aeth i ymfyn â'r Arglwydd (*Gen. xxv. 22*), sef i weddio yn y dirgel, yn barn Calvin. Y mae Iacob yntau yn enw am ei ymdrech â Duw, megys law yn l ar hyd y nos. Nid oedd bywyd Dafydd nemawr o ddim arall; arfer gweddi yro ef: *Salm cix. 4.* Tynwch allan ond rh faint o amser a creuliaci efe i ddade natur, ac at achosion angenrheidiol ei al gyhoeddus (y rhai ni chaent ond megys wrth sang), a chwi a gewch y rhan fw o'r hyn oedd yn ol yn cael ei osod allan fyfyrddod a gweddi, fel yr ymddengys *Salm cxix.* Ni a gawn Eliás ar weddi ferywen, Pedr ar nen tŷ, Cornelius me ystafell o'i dŷ, i.e. ein Iachawdwr bendig ig, enaid yr hwn a allasai ymattal yn hw heb amhariaeth o eisieu y pryd yma, hyny nid oedd neb yn fynychach arno bore yn blygeiniol iawn, y mae yn gweddi ei hunan (*Marc i. 35*), ac yn hwyry hefyd: *Mat. xix. 23.* A hyn oedd ei ar gyffredin, fel y gellir casglu oddi wrth *Mat. xxii. 39*, wedi ei gymharu â *Luc xxi.* Yn y modd yma y sancteiddiodd Crist ddyledswydd hon trwy ei esampl ei hun; y mae genym addewid i'r iawn-gyflawnia honi; ac nid yw Duw yn arfer add gwobr am waith nad yw yn ei orchymy "Ond tydi, pan weddiech, dos i' th ystafell ac wedi cau dy ddrws, gweddia ar dy dad hwn sydd yn y dirgel, a th Dad yr hwn a wel yn y dirgel a dâl i ti yn yr awlwg." *Mat. vi. 6.* Lle y mae ein Iachawdwr yn gymmeryd yn ganiataol y bydd i bob ple yn i Dduw fod yn mynych weddio ar ei D nefol; ac am hyny y mae yn eu calonogi y gwaith y mae yn eu gwled yn ei gyl yn hytrach nag yn eu gorchymyn a "Pan weddiech:" fel pe dywedasai, Mi nas gellwch fyw heb weddi, fel pan fyddo am droi wyneb at Dduw, "Dos i' th ystafell &c.

DOSB. II.

Ond pa ham y mae yn rhaid i'r Cristion gynnall y gymdeithas ddirgelaidd yma Duw. Yn gyntaf, Mewn golygiad Dduw. Y mae ganddo ef lygad i ganf ein dagrau dirgel, a chlust i glywed e griddfanau dirgel; am hyny, dylem eu tywallt ger ei fron yn y dirgel. Darn o go grefydd nyfyd yw rhwymo hyn yn un wrth le neu gymdeithas ddynol: "Yr wyf yn ewyllysio (medd yr apostol) i'r gweddio ym mhob man, gan ddyrchafu dduw law sanctaidd;" *1 Tim. ii. 8.* Y mae Du

y gael ym mhob man; yn yr eglwys a cartref, gyda'n teulu ac yn ein hystafell; am hyny, dylem weddio ym mhob man. I y fath gysur ydyw i enaid grasol nas llfe byth fod allan o olwg neu glyw Duw, le bynag y tefir ef; ac am hyny, byth di dan ei ofal. O blegid allan o olwg an o feddwl. Hyn a gysurodd Dafydd uniol: am ei geraint a'i gyfeillion, Och! oeddynt yn ddiagon pell; gallasai orwedd ei glaf-wely a llefain nes dolurio ei galon, biddyt hwy ei glywed; ond gwelwch y mae yn ymlonyddu yn ei gyflwr unig: O th flaen di, Arglwydd, y mae fy holl ymuniad; ac ni chuddiwyd fy ochenaid di wthyt;" *Salm xxxviii. 9.* Ychydig ldyliodd Iacob fod ganddo fab yn gar-aror yn yr Aipht, wedi ei lwytho â heiyrn lid yn myned hyd at ei enaid: ond yr ld gan Ioseph Dduw ag oedd yn agos ato holl amser ei gyfyngder, ac yn clywed ei garcharor tlawd, er na freuddwydiodd dad daearol erioed am y fath beth.

Rhagorol a gwerthfawr yw llywyth o ation, y cawn yn y Beibl ddarfod eu danfon yn nfa ar anturiaeth aml sant-unigol yn y str yma: "Y tlawd hwn a lefodd (medd fydd) a'r Arglwydd a'i clybu, aca'i gwarodd o'i holl drallodau;" *Salm xxxiv. 6.* I pe dywedasai, ysgatydd, bod arnat ofn wedd at Dduw ar dy ben dy hun yn y dir. Er dy fod yn anturio uno âg ereill hwn gweddi, ac yn gobeithio cael croesaw th fyned gyda'r fath gyfeillion duwiol, o, yr wyt yn barod i ddywydyd a edrych iw arnaf fi, neu fy ngweddi unigol i? vna; gwel fi, medd Dafydd, yr hwn wyf wydd ddyfod oddi wrth ei ddrws, lle y m yn gorwedd mewn cyflwr mor wael, a lant mor athrist, ag y bu cardotyn erioed th ddrws dyn. Yn alltud truan yn hanol gelynyon oedd yn sychedu am fy waed. Er hyny (ie, a phan oeddwn yn ngos y fath anghrediniaeth llwfr ag i afu y pared fel dyn gwallgof) myfi a ais, a Duw a'm clybu. Pwy gan hyny, o rwydd cyfyngderau allanol na gwendidau mewnol, os yw yn onest, a raid ofni myned da gostyngedig hyder at Dduw? Nag e, ym bellach, megys y mae llygad tostriol gan lhu i ganfod pan weddiom yn y dirgel, ly llygad digllawn i ganfod pan beidiom. A ddarllenais am frenin a arferai rodio an yn yr hwyr, gan ymddieithro, a randaw dan ffenestri ei ddeiliaid, i wybod iardent amdano ef, a pha beth. Yn sicr, mae llygad a chlust Duw yn gwylio arnom: "Yr Arglwydd a wrandawodd ac a bu;" *Mal. iii. 16.* A'r hwn sy ganddo r cofiadwriaeth i'w saint sydd yn ei ofni, yn meddwl am ei enw; y mae ganddo lyd ddalen ddu i roddi enwau y rhai hyny sydd yn ei gau allan o'u calonau a'u hyselloedd: "Yr Arglwydd a edrychodd i

lawr o'r nefoedd ar feibion dynion, i weled a oedd neb deallgar ac yn yngeisio â Duw;" *Salm xiv. 2.* Er fod ei eisteddfa yn y nef, etto, y mae ei lygad ar y ddaear; a pha beth y mae yn sylwiaro, ond pa un a yw dynion yn deall ac yn ceisio Duw, ai nid ydynt?

(2il.) Mewn golygiad arnom ein hunain; i brofi ein gonestrydd yn fwy. Ni ddywedaf fod gweddio yn y dirgel yn arwydd anffaeledig o ddiragrithrwydd, o herwydd fe ddichon rhagrith lusgo i'n hystafell, er cau y drws yn dŷn, megys yr ymlusgodd llyffaint i ystafell-wely Pharaoh; er hyny, nid dyma rodfa gyffredin y rhagrithiwr. Ac er y dichon calon hwnw fod yn ddrwg sydd yn mynych gyflawni dyledswydd ddirgel; etto, nid oes modd i galon hwnw fod yn dda sydd yn treulio y cwbl o'i naww grefyddol yng ngŵydd dynion, ac yn estron hollol i gymdeithas ddirgel â Duw. Pe angen, ni buasai ein Iachawdwr, wrth dynu llun y rhagrithiwr, yn gwneuthur hyn i fod yn wir edrychiad ei wynebpryd ef: "Pan weddiech, na fydd fel y rhagrithiwr; canys hwy a garant weddio yn sefyll yn y synagogau," &c. "Ond tydi, pan weddiech, dos i th ystafell;" *Mat. vi. 5.* Y mae y gorchymyn yn ein danfon i'r ystafell yn gystal ag i'r eglwys, neu yr addoliad cyhoeddus; ac nid yw hwnw ond rhagrithiwr sydd yn dewis un ac yn esgeuloso y llall; o herwydd y mae trwy hyny yn dangos nad ydyw yn gwneuthur cydwybod o'r un. Y mae yn caru yr hyn a ennilla iddo enw dyn crefyddol ym marn dynion; ac am hyny, fe rydd wisg grefyddol am dano oddi cartref, ond ar yr un pryd y mae yn byw gartref fel atheist. Gall y fath un, dros amser, fod yn sant gan y byd; ond fe'i dinoetha Duw ef o'r diwedd, ac a'i dengys o flaen llygaid pawb fel rhagrithiwr. Mae gwir garwr yn caru unweled a'i gyfaill, pan allo ei gael ar ei ben ei hun, a mwynhau cyfeillach neillduol âg ef. Ac fe ddarllenais am wr duwiol, yr hwn pan ddeuai ei awr weddi ddirgel, a godai oddi wrth ba gymdeithas bynag y byddai ynddi gyda'r esgus cymmhwys yma, "Y mae genyf gyfaill yn aros am danaf, byddwch wych." Y mae yn werth ymadael â'n cyfeillion goreu ar y ddaear, i fwynhau cymmundeub â Duw y nefoedd. Galwodd un ei gyfeillion yn lladron am eu bod yn dwyn ei amser. Nid oes lladron gwaeth na'r rhai a'n hysbeiliant o'n hamserau gweddi.

(3ydd.) Mewn golygiad ar y ddyledswydd ei hun, a'r effaith a gai triniaeth dduwiol o honi ar fywyd y Cristion. Y mae y ddyledswydd yma yn brif golofn at gynnal ein holl adeilad ysbrydol: heb hon fe ä tŷ y Cristion i ollwng defni, fel y dywed Solomon am dŷ y diog. Dan y ddaear y mae yr hyn sydd fwyaf angenrheidiol at gadw tŷ ar ei draed—ei sail wyf yn feddwl. A'r galon

sydd yn y fynwes allan o'r golwg ydyw yr hyn sydd yn cadw y dyn yn fyw. Gadewch heibio gymdeithas ddirgel, a chwi a ddisylfaenwch eich tŷ ac a wânwch dduwioledeb i'r galon. Os na thya y pren yn y gwreiddyn, buan y gwywa yn y gangen. Y neb sydd yn myned yn ol yn y gwaith yma, nis gall fod yn ennillwr mewn un arall, pa mor wresog bynag yr ymddangoso. Nid yw y cwbl heb hyn ond gwres aunnhymerus, megys pan fyddo y tu allan yn llosgi a'r tu mewn yn fferu; gall y fath un weddio er bywiocâd a chysur i ereill, ond ychydig a gaiff efe ei hun. Y gwirionedd yw, dynia y cam cyntaf at syrthiad ymaith: y mae gwrthgilwyr yn gyntaf yn ymddieithrio oddi wrth Dduw yn y dirgel; eu hyfyrdwch yn y gwaith yma yn colli fesur ychydig; yna y maent yn ei arfer yn fwy anfynych; ac ar hyn y canlyn esgeulusiad llwyr o hono: ac etto hwy a allant ymddangos yn bobl fanwl a gwresog iawn mewn ordinhadau cyhoeddus. Ond oddi eithr iddynt ennill yn ol yr hyn a gollasant mewn masnach ddirgel cyn bo hir, torant i fyny yma hefyd.

PENNOD XXXIV.

Lley dangosir ymostyngiad isel y Mawrhydi Dwyfol i ddal cymmundebed a sant unigol yn ei ystafell weddi: ac hefyd fel y mae y rhai hyny yn dwyn eu gras dan amhweaeth, sydd yn byw mewn esgeulusdra hollol o'r rhyng yma o weddi.

Defn. 1. RHYFFEDDWN yma gariad ymostyngol Duw yn fyddu mor isel ag i ddal cymmundebed a'i greaduriaid tlodion, tra y maent yn gwisgo bratiau marwoldeb; a'r rhai hyny wedi eu diwyno gan lawer halogiaid pechadurus. Ai nid digon yw pan ddelom i'r nef mewn gwisgoedd o ogoniant (addas i weini o flaen y fath frenin mawr), y cymmer efe ni y pryd hyny i'w frenhinol bresennoledeb, ac y cawn leoedd ym mysg y rhai sydd yn sefyll o'i amgylch? Ond a fydd iddo, ie, yn awr tra y mae arogl y carchar arnom, a chyn i ni ymadael yn llwyr a'n dillad bedd, ein derbyu i ddyfodfa mor agos? Pa fath gariad yw hwn, fel y'n gelwid yn feibion i Dduw, ac y caem, fel y cyfryw, ryddid i siarad ein iaith foesg a thrwsgl, a hyny er hyfyrdwch iddo ef, sy ganddo yn barhaus fawl angylion gwynfydedig a seintiau gogoneddus yn seinio yn ei glustiau? Nag e, etto ym mhellach y rhyddid hwn yn cael ei ganiatau i ni, nid yn unig pan ddelom ynghyd ac y gwelom gôr yn ein haddoliad cyhoeddus, ond yn ein nesâd unigol a dirgel hefyd. Bod i greadur tlawd, pa bryd bynag y bydd ganddo ond calon i gamu o'r neilldu, a thro'i ei wyneb at Dduw mewn congl, gael breichiau Mawrhydi mor fawr yn agored i'w goffeiddio; y

mae hyn yn beth mor aruthrol fel mai gw y gallwn ei ryfeddu na'i osod allan. Gwleml gardotyn tlawd yn siarad yn gyfe gar â brenin mawr, ac yntau, tra y mae holl wyr llys yn sefyll yn ben-noeth flaen, yn ei gymmeryd i'w freichiau, ac gadael iddo sisial gyda hyfder yn ei gluni pharai hyn i ni synu wrth y fath weired rasol, gan fawrhydi tuag at gardoty. Hyn yw baint oruchel pob sant ar y ddar; yr hwn, pan weddio, sy ganddo ryddid i nesau at orsedd Duw, a amgylchir g'angylion gogoneddus, a thywallt ei enaid i fynwes, mor hyf ag y sieryd plentynt dad hynaws. O! diolchwn i'n cyfaill brawd anwyl, yr Arglwydd Iesu Grist: hyn: efe yw yr hwn sydd yn ein dwyn bresennoledeb Duw, ac yn ein gosod gerffon, fel Ioseph ei frodyr ger bron Pharaon. Wyneb pwy a raid i'r Cristion ofni edry arno, pan y gall fel hyn siarad yn hys Duw? Cysura dy hun â hyn, pan ely a'th erfyniad at ryw wr mawr ar y ddae ac y'th waharder i ddyfod i'w wŷdd; n at ryw gar cyfoethog, ac yntau yn dy ddi-ddel; tro dy gefn ar y ddau a dos at Dduw; efe a edrych arnat, ac yn ei ffeith addef yn blentyn iddo. Y mae ge ei glust ef, a all reoli eu calon a'u pry hefyd. Darfu i weddi Iacob beri newburiad ei frawd, fel y bu iddo ef, oedd meddwl ei ladd, syrthio ar ei widd gusanu. Yr oedd gan Nehemiah archdeisyf gan frenin Persia; ac y mae fel tybiai calon auianol yn cymmeryd: mor iwyaf cwmpasog at ei chael; y mae y mae yn euro wrth ddrws y nef: "Llwydd attolwg dy was heddyw, a chaniata i ddyfod trugaredd ger bron y gwr hwn; *Neh. i. 11.* Ac yn awr, fe a i'r llys, Je yw yn cael y drws yn agored, ie, cyu tado gy o blegid y brenin a ddywedodd wrtho, "beth yr wyt ti yn ei ddymunno?" *Nehem. ii.* Gallwn, chwi weilwch, agor dau ddrws i un agoriad. Wrth weddi y gwr duw yma, dyna Dduw a dyn hefyd yn rhod eu hatteb grasol. Nis gall y Cristion: sicr fod yn hir mewn eisien, os gall o'i gweddio; fel y dywedodd un, nas gallai pab fod yn fyr o arian, tra y gallai ddin ysgrifenu yn ei law. Dim ond gwedd mewn fydd, a dyna neges y Cristion ar beth: "Na ofelwch am ddim; ond gwnele ei deisyfiadau yn hysbys ger bron Duw; thangnefedd Duw a geidw eich calon (*Phil. iv. 6. 7*) "Treigla dy sfordd at yr Arglwydd; ac efe a'i dwg i ben;" *Salm xxv. 5.* Mae biliau y saint yn cael eu derbyn i yr olwg gyntaf, pa faint bynag fyddo y sw Crist yw trinwr ein hachosion, i edrych y dâl; ac y mae efe mewn cymmeriad fydd yn mynwes ei dad; ac fe fydd, i gael croe aw i'w holl saint, ie, hyd at yr olaf o holl ynt a geir ar y ddaear.

2. Y mae hyn yn dileu allan o nifer y
int, enwau y rhai hyny na fuont erioed yn
dnabyddus â'r ddyledswydd hon. Pa
sth, sant! ac yn foddolwr ar yr hyn a gei
Dduw mewn cydgyrmydd âg ereill yn
-eglwys neu y teulu, fel ag i beidio dy-
uno cyfeillach ddirgel rhwng Duw a thi-
au. Ai nis gelli gael un neges i' th dynu i
arad â Duw dy hunan? Y mae achos am-
heu dy santoliaeth. Pau fyddo brenin yn
asio ar hyd yr heol, yna fe ddaw pawb, i'e,
ad yn oed estromiaid, yn dorſ i'w weled ef;
ad nid digon hyn gan ei blentyn, y mae
e yn myned adref gydag ef, y mae yn rhaid
do fyw gydag ef, a bod dan ei olwg heun-
id. Fe ymdyrra rhagrithwyr a rhai halog-
ig i ordinhadau cyhoeddus, ond nis gall
aid grasol fyw heb gyfeillach fwy neilldu-
âg ef.

PENNOD XXXV.

*anogaeth i'r saint ddal i fyny eu cymdeithas â
Duw mewn gweddi ddirgel; a rhai cyfarwydd-
iadau at iawn drin y gorchwyl.*

3. CYMMERWCH eich annog, O chwi saint!
ddal i fyny eich cydnabyddiaeth ddirgel â
uw. Nid wyf yn tybied, megys y dywed-
id Paul yng nghlyw Agrippa ar achos ar-
l, fod dim o'r pethau hyn a ddywedais am
ddyledswydd hon yn guddiedig rhagot, os
yt yn sant. A wyt ti yn credu mai dy
yledswydd di ydyw? mi a wn dy fod yn
edu. A wyt ti yn gweddi yn y dirgel?
is gallaf ei amheu. Ni edy Ysbyrd Crist,
dd o'th fewn, i ti fod yn estron i'r gwaith.
nd mi ddymunwn dy gyffroi i fod yn hel-
thach ynddo: "Y pethau hyn a ysgrifen-
s (medd Ioan) atoch chwi, y rhai ydych
a credu yn enw Mab Duw, fel y credoch yn
aw Mab Duw" (1 Ioan v. 13); hyny yw,
l y credoch yn fwy. A'r pethau hyn wyf
nau yn ysgrifenu atoch chwi, sydd yn
lw ar Dduw yn y dirgel, fel y galwoch yn
nychach; ac y mae arnoch angen am hyn,
ni bai eich bod yn cael byw ym mhell-
ch o gyffiniau Satan, na'r lleill o'ch brodyr.
id oes un ddyledswydd yn cael gwrthwyr-
oiad mwy gan Satan, a'n calonau dioglyd
n hunain na hon. Gall y diafol ganiatau
chwi eich gweddiau eglwysyddol, eich dy-
dswyddau teuluaid, ac ambell waith un
arfiol yn eich ystafell hefyd, ac etto
wneuthur'ei farchnad o honoch. Am hyny,
mmerwch yr ychydig gyfarwyddiadau a
nlyn er trin y gorchwyl yn well.

laf. Bydded yn waith parhaol genych.
leini ar dreigl ni chasglant fwsogl. Calon-
a anwastad ac anwadal byth ni ragorant
a hon nac un ddyledswydd arall. Gras a
id-roddir yw ysbyrd gweddi, ond y mae
marferiad beunyddiol yn ei gynyddu. Y

mae mynych gynniwair yn peri cyfeillgar-
wch, a chyfeillgarwch hyder. Ni a awn yn
hyf i dŷ y neb y byddom yn ymweled âg ef
yn fynych.

2il. Bydded yn wir weddi ddirgel; ac na
chaffed yr enw am ddim. Gwylia rhag peri
sŵn ar led am y peth a wnelych yn y dirgel.
"Dos i' th ystafell," medd Crist, "ac wedi
cau dy ddrws, gweddiâ." Bydd sicr o'i gau
mor dŷn fel na ddelo gwynt o wag ogon-
iant i mewn; yn hytrach nag i hwn gael lle,
cau ddrws dy wefusau yn gystal a' th ystafell:
gall Duw glywed, er na byddo dy enau yn
adrodd dy neges. Y mae yn wir, pan wedd-
iodd Daniel, fe agorodd ei ffenestr, ond i
ddangos ei ffydd, nid ei falchder, fel y
rhoddai i'r byd wybod leied yr oedd yn ofni
eu digofaint hwy, nid ei fod yn chwennych
eu clod. Y mae Duw yn manwl-sylwi pa
ffordd y try dy lygad, ac y mae yn ddi-
anrhydedd nas gall ei ddiodeff i ti fod yng
nghyflog gan y byd, yn disgwyl dy wob-
gan dŷn, ac nid ganddo ef ei hun. Na
choll fwyniaith Duw am weniaith dyn;
newid y nef am y ddaear yw hyn, a march-
nad ddrwg ydyw.

3ydd. Bydd rydd a di-gel. Na thyred at
Dduw yn y dirgel, i gadw yno dy ddirgelion
rhagddo. Y mae bod yn gaeth a chelgar yn
erbyn cyfraith cyfeillgarwch: "Mi a'ch gelw-
ais chwi yn gyfeillion," medd Crist, "o blegid
pob peth a'r a glywais gan fy nhad, a hys-
bysais i chwi;" Ioan xv. 15. A ydyw Crist
mor galon agored, a pheidio celu dim a wyl
efe er ein daioni? ac a fynyti ti gael un go-
gl ddirgel yn dy gell (pe gellit) heb iddo ef ei
chanfod! A wyt ti yn cyfaddef pechod?
Diosg dy enaid yn llwyr, a phaid a chellwair
â Duw. Os gwnei, y mae yn profi un o'r
ddau beth hyn; fod genyt ryw fwriad dir-
gel i bechu rhag llaw, neu dy fod yn llettya
barn gul am Dduw yn dy fynwes o ran dy
bechodau a aethant heibio; fel pe na byddai
ef yn ffyddlawn i faddeu yr hyn wyt ti yn
rhydd i'w gyfaddef. Fel rhyw blentyn
afradlawn, yr hwn, er i'w dad addaw talu
ei holl ddyledion, a maddeu iddo hefyd, etto
am fod y swm yn fawr iawn, ni faidd ddad-
guddio i'w dad yr holl wir, ond y mae yn
celu peth yn ei gyffes. Y cyntaf o'r rhai
hyn nid yw frycheuyn plant Duw, ond i'r
olaf, y maent weithiau yn syrthio, a thro-
s amser yn cael eu dal trwy ddichell Satan
a'u hanghrediniaeth eu hunain. Ond ystyr-
ia, Gristion, pa beth bynag yw dy bechod,
a pha mor fawr bynag, etto, y ffordd i gael
maddeuant yw ei gyfaddef, nid ei gelu; ni
chleir mo hono chwaith rhag Duw, er i ti
nacau ei gyfaddef. Ond y mae Duw yn
caru cyfaddefiad o'th enau di dy hun gystal,
fel pan gyntaf y dynoethed dy gywilydd
dy hun, y mae efe wedi ymrwymo yn ffydd-
lawn i'w gysgodi â chochl trugaredd fadd-
euol; "Os cyfaddefwn ein pechodau, fydd-

PENNOD XXXVI.

Am weddi deuluaidd, lle y profir mai dyledswyd y rhai sydd â gofal teulu arnynt, yw gosodoliad Duw i fyny ynddo.

Yr ail math o weddi reolaidd yw hono gyflawnir mewn cymmundeib ág ereill. A y mae hon yn ddau ryw: naill ai neilldu ai cyhoedd—gweddi deuluaidd, neu wed eglwysyddol. Dechreuaf gyda'r gyntaxa gweddi deuluaidd.

With deulu yr wyf yn meddwl cymdeithas o ryw nifer o bobl mewn perthynas â gilydd, naturiol neu wladol, yn byw da reolaeth gartrefol gwr, meistr, tad, neu fan Pa le bynag y ceir y fath gymdeithas, y mae yn ddyledswydd ar y pennaeth osod i fyny addoliad Duw ynddi; a'r rhan hon o addoliad yn enwedigol—gweddi deuluaidd. Y oedd gan yr Iuddewon eu haberth teuluaidd (*Ecclod.* xii 21), yr hwn yr oedd meistr y teulu yn ei gyflawni gartref gyda'i deulu. Y mae aberth ysbrydol o weddi a diolch yn bod hysbrydus, yr hwn y mae pob pen teulu i'w offrymu i Dduw gyda'i dylwyth. Ei ddiannedd yw capel cyfagos y Cristion, i addoliad Duw yn feunyddiol ynddo, gyda'i berthynasau. Mewn teulu y dechreuodd yr eglwys ac y mae yn cael ei chynnal etto trwy dduw ioldeb teuluaidd gwahanol. Os na edrychi at y planwydd ieuangc, y mae yn rhaid i'r berllan mewn amser fethu.

Gofm. Ond y gofyniad a fydd, Pa fodd y gellir profi fod gweddi deuluaidd yn ddyledswydd?

At. Yr wyf yn gobeithio na ofyn neb ysgrythyr bennodol yn gorchymyn hyn mewn geiriau manwl, cyn y credant ei fod yn betl sydd yn rhwymedig arnynt. Ffordd fydda hon i frwr heibio, nid yn unig y rhan yma o addoliad Duw, ond dyledswyddau ereill hefyd. Anhawdd fyddai i ni gael gair pennodol yn erchi cadw y Sabbath Cristionogol, neu fedyddio ein babanod; etto, na ato Duw i ni, gyda rhai, ysgwyd ymaith yr ordinadau hyn ar y cyfrif yma. Y mae yr hyn a ellir ei dynu trwy ganlyniad angenrheidiol o'r Ysgrythyr, yn Ysgrythyr, yn gystal a'r hyn a osodir i lawr mewn geiriau pennodol. Ac os ydych yn derbyn hyn fel yr wyf yn sicr y dylech, mi a obeithiaf allu rhoddi i chwibeth boddolurwydd.

DOSB. I.

1af. Y gorchymyn cyffredinol hwnw am weddi, a dddwg weddi deuluaidd i fod o fewn cylch ein dyledswydd: "Yr wyf yn ewyllsio i'r gwyr weddio ym mhob man;" 1 *Tim.* ii. 8. "Os ym mhob man," medd Mr. Perkins, ar y lle yma, "yna yn sicr yn ein teuluoedd, lle y mae Duw wedi ein gosod mewn perthynas mwr agos y naill at y llall. Y mae Paul yn cyfarch yr eglwys yn nhŷ Priscila ac Acwila: *Rhuf.* xvi. 5. Ac onid eglwys ryfedd fyddai rhai yn byw ynghyd, heb

lawn yw efe a chyfiawn, fel y maddeuo i ni ein pechodau;" 1 *Joan* i. 9. Drachefn, a wyt ti yn gwneuthur dy ddeisyfiadau wrth Dduw? na ddos ymaith ág un baich ar dy ysbryd, trwy ryw orchwyledd ffol, ac ofn blino gormod ar Dduw, neu ofyn yn rhy bell, cyhyd ag y byddo yr addewid o'th ochr. Ni chwynodd Crist erioedd fod ei saint yn agor eu geneuau, neu yn helaethu eu dymuniadau yn rhy lydan mewn gweddi; nag e, y mae yn erchi i'w ddisgyblion eu hagoryn lletach, ac yn dywedyd wrthynt, Na ofynasent ddim; hyny yw, dim yn gyfatebol i'r galon eang oedd ganddo ef i roddi.

4ydd. Bydded mewn iawn amser; y mae hyn yn rhoddi i bob gwaith ei harddwch. 1. Edrych rhag iddi wthio addoliad cyhoeddus o'i le. Gwych iawn gan y diafol osod ordinadau Duw yn erbyn eu gilydd. Mae yn gwyro rhai i grŷo i fyny weddi gyhoeddus, ac esgeuluso yr un ddirgel, ac ereill a fynai efe eu rhoddi allan o gariad a'r un gyhoedd, trwy ganmawl y llall—er bod digon o le i'r dduw yn yr yrfa Cristionogol. Er i Moses ladd yr Aiphtwr, etto fe geisiodd heddychu y ddau Israeliad pan oeddynt yn ymyrson. Gochel roddi i Satan y fath fantais ag esgeuluso cymmundeib y saint yn gyhoeddus, dan rith gweddio yn dy ystafell. Gosod un ordinad yn erbyn y llall yw hyn: chwibrydd ydynt, na wna anghydfod rhyngddynt. Nacâ di gyfarfod â Duw yn y cyhoedd, a thi fyddi sicr o golli ei wyneb yntau yn dy ystafell: "Y neb a dry ei glust ymaith rhag gwrandaw y gyfraith, fydd ffaidd ei weddi hefyd;" *Diar.* xxviii. 9. 2. Gwylia rhag iddi wrthladd dy ddyledswydd yn dy alwedigaeth allanol. Megys y dylit gau drws dy ystafell i weddi, felly dylit agor ffenestri dy weithdy, i ddilyn dy alwad yn y byd. Dos i'th ystafell cyn myned i'th weithdy, onid e yr wyt yn atheist; ond ar ol i ti fod gyda Duw yno, dos at dy waith a'th alwad, onid e, yr wyt yn rhagrithiwr. Yr wyt yn cynnwys enaid a chorph, ac y mae Duw yn rhanu dy waith rhwng y ddau. Y dyn nad yw yn ddyfal yn ei ddyledswydd ynghylch y ddau, nid yw gydwybodol yn yr un. Pan fyddo pob rhan yn y corph yn derbyn ei faeth ddyledus, y mae iechyd yn cael ei gynnal. Felly yma, efe yw y Cristion iachus sydd yn rhanu ei ofal yn ddoeth, at ei achosion ysbrydol a thymmorol hefyd. Na chwsg ymaith dy amser gweddi yn y boreu, gan dybio wedi hyn fod genyt esgus digonol i'w gadael heibio, am fod dy orchwyl bydol yn dy alw y ffordd arall. Na fina dy gorph â gormod lludded, na'th feddwl â llwyth rhy drwm o ofalon bydol yn y dydd, ac yna meddwl y bydd i flinder y naill ac annhrefn y llall, dy ryddhau oddi wrth weddio drachefn y nos. Gwneuthur pechod yn esgus am esgeuluso dyledswydd fyddai hyn.

gyd-weddi? A fuasent hwy yn haeddu y fath enw uchel ac anrhydeddus, pe buasent yn y modd yma yn cau Duw allan? Eu galw yn eglwys fuasai hyn, yn debyg i'r modd y geilw y Lladinwyr lwyn yn (*lucus*) lle goleu (*à non lucendo*) am ei fod yn attal goleu. Pan adeiladai neb o'r Iuddewon dŷ newydd, yr oeddynt i'w gyssegru: *Deut. xx. 5.* A'r ffordd i gyssegru tai newyddion oedd trwy weddi, fel y gellwch weled wrth ddarllen teitl y ddeddf Salm ar hugain, a ysgrifenydd ar yr achos hwn; Salm, neu Gân o Gyssegriad tŷ Dafydd. Yr oeddynt yn gwneuthur hyn, Yn gyntaf, I dystio eu diolchgarwch i Dduw am drefnu iddynt drigfa. Yn wir, nid trugaredd fechan yw cael lle i gyfannedu; tŷ cyfleus i ni ein hunain a'n perthynasau drigo yn heddychol ymddo. Y mae yn fwy nag a gafodd y saint gwerthfawr hyny (*Heb. xi. 38*) a fu yn "crwydog mewn anialwch, a mynyddoedd, a thyllau, ac ogofeydd y ddaear;" Ie, nag a gafodd Crist ei hun (*Mat. xiii. 20*): "Y mae ffauau gan y llwynogod, a chan ehediad y nefoedd nythod; ond gan Fab y dyn nid oes le i roddi ei ben i lawr." Yn ũl, Drwy hyn fe'u rhybuddiwyd i addef eu hunain yn ddeiliaid i Dduw; a'u bod yn lal eu tai, dano ef, eu meistr tir goruchel, ar yr ammod o wneuthur ymostyngiad iddo, drwy roddi eu tai fel cynnifer o gyssegroedd at ei addoliad ef, tra y caent fyw ynddynt. Dyna feddwl Molerus ar y lle.

DOSE. II.

2il. Y mae yr hyn a roddir mewn ymddiried i benau teuluoedd yn dangos mai eu lyledswydd yw gosod i fyny weddi yn eu euluoedd. Y mae gofal eneidiau ar bob bennaeth tŷ, yn gystal ag ar y gweinidog—y mae yn brophwyd, brenin, ac offeiriad yn ei dŷ ei hun; ac oddi writh bob un o'r rhai yn ei ddyledswydd hon a ymddengys. Y mae yn brophwyd i addysgu ac hyfforddi i deulu. Fe orchymynir i wragedd ddysgu an eu gwyr gartref: *1 Cor. xiv.*; yna yn er y mae yn perthyn i'r gwyr roddi addysg ldynt. Erchir i rieni hyfforddi eu plant: *Deut. ix. 19.* "Dysgwch hwynt i'ch plant an eisteddych yn dy dŷ," &c. "Maethwch wynt yn addysg ac athrawiaeth yr Arwydd;" *Eph. vi. 4.* Yn awr, y mae ldysg ac athrawiaeth yn bod trwy weddi, moliannu Duw, yn gystal a thrwy holi, &c.: Gan ddysgu a rhybuddio bawb eich gilydd ewn salmau a hymnau;" *Col. iii. 16.* waith y meistr yn gweddio gyda'i deulu dd yn addysg iddynt hwythau pa fodd i eddio pan ar eu penau eu hunain. Ei faddefiadau, ei erfyniadau, a'i ddiolchiadau yn ei ddyledswydd deuluaidd, fyddant yn ddion rhagorol i'w haddurno hwy â defnd i'w haddoliadau. Pa fodd y mae, fod wer o weision a phlant, pan ddelont i fod benau teuluoedd eu hunain, mor analluog

i fod yn eneuau at Dduw mewn gweddi dros eu perthynasau? Ond am eu bod yn eu mabod wedi byw mewn teuluoedd diweddi, a chael eu cadw mewn anwybodaeth o'r ddyledswydd hon, fel nad oes ganddynt na phen na chalonn, deall na serchiadau, addas i'r fath waith. Drachefn, y mae yn frenin yn ei dŷ, i reoli ei deulu yn ofn Duw. Megys y mae yn ddyledswydd ar y swyddog gwladol osod i fyny addoliad Duw yn ei deyrnas, felly hefyd yn ei dŷ. Dylai ddywedyd gyda Iosuah, "Myfi a'm tylwyth a wasanaethwn yr Arglwydd." A fyddai yn bechod mewn tywysog, er iddo addoli Duw ei hun yn ei balas, os na osodai i fyny addoliad cyhoedd i Dduw yn ei deyrnas? Yn sicr ynte y mae yn bechod mewn pen teulu beidio ei osod i fyny yn ei dŷ, er iddo weddio ei hun yn ei ystafell. Yn ddiweddaf, Y mae yn offeiriad yn ei dŷ ei hun; a lle y mae offeiriad, rhaid bod yno aberth; a pha aberth ym mysg Cristionogion, ond yr aberthau ysbrydol o weddi a mawl? Fel hyn y cawn fod Dafydd wedi myned o'r ordinhadau cyhoedd i gyflawni ddyledswydd neillduol gyda'i deulu: "Dafydd a ddychwelodd i fendigo ei dŷ yntau;" *1 Cron. xvi. 43.* Hyny yw, medd un ar y lle, fe ddychwelodd i addoli Duw o'r neilldu gyda hwynt, a deisyf ei fendith arnynt. Ac y mae hyn yn arwain at drydedd ddadl.

DOSE. III.

3ydd. Arfer y saint ym mhob oes oedd dwyn gofal duwiol dros eu teuluoedd. Yr oedd Iosuah rasol yn addaw drosto ei hun a'i dylwyth, y gwasanaethent yr Arglwydd. Pe buasai yn meddwl ymostyngiad tumewnol i Dduw, fe fuasai yn addaw mwy nag oedd yn ei allu gyflawni ar ran ei deulu, o herwydd ni allasai efe wthio gras i'w calonau. Rhaid i ni, gan hyny, ddeall ei feddwl, na chaffai y bai fod arno ef, os byddent heb hyny, am y byddai iddo arfer pob moddion a'r a allai i ddwyn hyny i ben. Y gosodai efe esampul dduwiol o'u blaen, ac y cymmerai ofal na chaent fyw heb addoliad Duw yn ei deulu ef. Ni a gawn Eliseus yn gweddio gyda'i weinidog—y meistr a'r gwas ynghyd: *2 Bren. iv. 33.* Y frenhines Esther, a'i morwynion, yn cadw ympryd neillduol yn ei theulu: *Est. iv. 16.* Yn awr, angharedigol fyddai meddwl ei bod yn estrones i arferiad cyffredinol o'r ddyledswydd hon; a hithau mor flaenllaw i gyflawni yr un anghyffredinol, a rhoddi ereill hefyd ar y gwaith. Yn sicr, nid y pryd hyn yr oedd y wraig rasol yma yn dechreu ei chydnyddiaeth â'r ddyledswydd, ac nid ei chymmeryd i fyny yr oedd yn unig am y tro, yn ei dwfn gyfyngder presennol. Ympryd gwangus yn wir fuasai hwnw, a lyncasai addoliad Duw yn ei theulu am y rhan arall o'r flwyddyn. Y mae crefydd Cornelius yn ei deulu yn cael ei chostâu: "Gŵr defosiynt."

ol, ac yn ofni Duw, ynghyd â'i holl dŷ, ac yn gwneuthur llawer o elusenau i'r bobl, ac yn gweddio Duw yn wastadol;" *Act. x. 2.* Craffwch, yr oedd yn ŵr defosiynol, ac yn ofni Duw, ynghyd â'i holl dŷ. Y mae ofn yn fynych yn cael ei roddi am addoliad Duw. Gelwir Duw yn "ofn Isaac" (*Gen. xxxi. 53*); hyny yw, y Duw yr oedd Isaac yn ei addoli. "Efe a ofnwch chwi, ac iddo ef yr ymgrymwrch. Ac nac ofnwch dduwiau dieithr;" *2 Bren. xvii. 36, 37*; hyny yw, nac addolwch hwynt, na weddiwch arnynt. Yn ol yr ystyr hon y gallwn farnu Cornelius yn ddefosiynol ac yn ofni Duw, ynghyd â'i dŷ. Yn sicr, gŵr oedd mor drugarog a llòni ymysgaroedd newyullyd y tlodion wrth ei ddrws nis gallai fod mor greulawn wrth eueidiau ei berthynasau o fewn i'w dŷ, a chloi i fyny ei grefydd mewn ystafell rhagdynt.

PENNOD XXXVII.

Tair gwrthdadaid yn erbyn gosod y ddyledswydd hon i fyny mewn teuluodd yn cael eu hatteb.

Gofyn. OND pa angenrheidrwydd sydd i deulu ymuno i addoli Duw ynghyd? Oni wasanaetha os gweddia pob un drosto ei hun yn ei ystafell?

At. Y mae teulu yn gorph casgledig, ac fel y cyfryw, mewn dyled o addoliad i Dduw. "Efe sydd yn gosod yr unig mewn teulu;" *Salm lxviii. 6*, ac fel sylfaenwr fe fŷn ei addef ganddynt: "Tywallt dy lid ar y teulu-oedd ni alwasant ar dy enw;" *Ier. x. 23.* Y mae y gair mewn grym yn erbyn teulu-oedd tŷaidd, yn gystal a gwladol; o blegid efe sydd yn codi y naill fel y llall i fyny. Y mae pechodau teuluaidd yn bod; a'r rhai hyn i'w haddef gan y teulu, fel pechodau gwladol gan y genedl. Mae anghenion teuluaidd, ac y maent yn gofyn cyderfyniadau y teulu. Y mae achosion a gorchwylion teuluaidd; a'r rhai hyny yn galw am rym unol y teulu, i dynu bendith i lawr ar eu cyd-lafur, er lles i'r holl gymdeithas. "Os yr Arglwydd nid adeilada y tŷ, ofer y llafuria yr adeiladwyr wrtho." Ac onid cymhwys i'r rhai a gydweithiant, gydweddio am fendith ar eu hymgais? Y mae trugarreddau teuluaidd ag y mae yr holl gymdeithas yn gyfranog o honyant; ac onid yw yn addas i'r rhai a fwyntant o'r un wledd, gyduo yn yr un gân o fawl i'r hwn a'i trefnodd? Mewn gair, y mae barnedigaethau a allant ddal yr holl deulu; a lle y mae i'w bawb ran o'r perygl, dylai pawb rhoddi benthyg eu cynnorthyw i'w attal; ac y mae llawer o ddwyllaw yn gwneuthur gwaith hwyllus. Y mae rhaff gorddeddig o lawer o reffynau yn gryfach nag y byddai yr un rheffynau bob un ar ei ben. Felly gweddi llawer ynghyd yn fwy tyciannol, am eu bod yn debyg o fod

yn fwy gwresog nag eiddo yr un rhai a wahân yn eu hystafell, er na fynwn i osod y naill weddi i gilgwrthio y llall; y mae digor o le i'r ddwy; pa ham y syrthient allan. Y mae Polamus yn ei lyfr hanes yn mynegi ni am dref yn ardal Berne, yn Switzerland yn cynnwys deg a phedwar ugain o dai, ddinystriwyd yn y flwyddyn 1584 gan ddaeargryn, oddi eithr hanner un tŷ, lle y oedd y pen teulu, a'i wraig, a'i blant, ac eu gliniau yn taer weddio ar Dduw.

Gurth. Ond O! ni feddaf fi ddonia na chymmhwysderau i'r fath waith; gwell ei adael ar ol na'i anurddo wrth e gwneuthur.

At. Dim mwy medrus a dawnus nid oedd it at dy gelfyddyd pan aethos gyntaf i'r dysgu. Dyro dy fryd ar y gwaith, rhwyng y ddyledswydd ar dy gydwybod; chwilia y Ysgrhythyr, lle y mae defnydd gweddi yn ughadw, a rheolau pa fodd i gyflawni gwaith. Astudia dy galon, a chraffa ar gyf lwr dy deulu, nes y byddo ystyriaeth o'r pechodau, eich angenion, a'ch trugaredda beunyddiol, wedi i ti eu trysori yn dy gôf, y effeithio ar dy ysbyrd. Mewn gair, ymarfe yn fynych â gweddi ddirgel; bydd daer yn am ei Ysbyrd ef, i'th alluogi yn dy wasar anaeth teuluaidd, a gwylia rhag ymlid y Ysbyrd Glân oddi wrthyt trwy ddiogel, byn oldeb, balehder, neu un math arall o becho. Yna cyfod a gweithia, a thi elli ddisgwyl y gysurus y bydd Duw gyda thi, i'th gyr northwyo, a'th gymmeradwyo yn y gwaith. Yr oedd Moses yn glaf o'r gorchwyl y galwodd Duw ef iddo; a ymysgai ei roddi heibi â'r esgus moesgar hwn. "Ni bŵm ŵr ymac roddus...tafod-trwm wyf." Ond fe attelwyd yr wrthdadaid hon yn fuan: "A dy wedodd yr Arglwydd, Pwy a wnaeth enau ddynt? neu pwy a ordeiniodd fudan...oni myfi yr Arglwydd?" *Ecsod. iv. 11.* "A hyny, dos yn awr; a mi a fyddaf gyda't enau, ac a ddysgaf i ti yr hyn a ddywedych. Yr oedd ei alwad ef yn anghlyffredinol, a gynnorthwy yn gyfattebol. Mae dy alwad, fel pen teulu, i'r gwaith yma yn gyffredinol, ac felly ti elli edrych am gynnorthwy cyffredinol. Fe allai na chei byth dy ddon â'r fath lithrigrwydd geiriau ag a fedd rh ereill; ond na âd i hyny dy ddigaloni; n yw Duw yn edrych ar odidogrwydd geiria ac amrywiaeth o ymadroddion; ond ar o estrwydd a gwresogrwydd y galon. N am ei fod yn oreurog y mae yr agoriad y agor y drws; ond am ei fod wedi ei adda at ranau y clo. Bydded ond defnydd o weddi yn ol meddwl Duw, yn rasol ac i'w â'r gair; a hwylyd galon yn ostyngedig gwresog; a diammheu y llwyddi. Ie, i'th weddi fod yn hen, o'r un gynnwys; heddyw a doe; bydd sicr ond o ddwy serchiadau newyddion gyda'th hen weddi, thi a gei dderbyniad tirion i ŵydd Duw, pa

wyt yn methu gosod dy ddeisiyadiadau yn y llun hardd y dymunit. Ni wna Duw gau y drws yn erbyn ei blentyn, am nad yw yn dyfod bob dydd mewn trwsiad newydd lun.

Gwrth. Y mae ereill a'r na ddadleuant eu gwendid eu hunain, fel eu rheswm am fod heb weddio yn eu teuluoedd. Maent yn ddigon hyderus o'u doniau eu hunain, ond yn ammheu gras ereill, a pha un a allant weddio gyda'r cyfryw.

At. Mi a ganiatâf fod y fath yn dy deulu; ond a yw hyn yn sail i adael heibio addoliad Duw? Ychydig wyt ti yn feddwl i ba le yr arwain yr egwyddor yma. Wrth hon y mae yn rhaid i addoliad Duw gael ei roddi heibio, nid yn unig yn y rhan fwyaf o dai neillduol, ond yn ein holl gynulleidfaoedd cyhoeddus hefyd. Os na elli weddio yn dy deulu, am fod un drygionus yn bresennol, yna ni elli uno mewn gweddi âg un gynulleidfa gyhoeddus, am nad oes dim sicrwydd i ti i'w gael, eu bod oll yn dduwiol. Nid oes i'r gwneidog chwaith weddio, rhag ofn bod rhyw un drwg yn y gymdeithas; ac felly rhaid i'r rhan yma o addoliad dwyfol gael ei thafu allan o'r eglwys, hyd nes y gallom gael cynulleidfa i gyd yn wir saint; a pha le y bu y fath, neu y bydd, tu yma i'r nef, nid oes neb, dybygaf, a all ddywedyd. Yn sicr, nid oedd saint y Beibl yn betrusgar yn y wedd hon. Pa mor fynych y gweddiodd Crist ei hun gyda'i ddisgyblion, er bod yno Iudas yn eu mysg? Yr wyf yn meddwl ddarfod i mi mewn lle arall brofi mai dyledswydd pawb, hyd yn oed yr annuwiol, yw gweddio; ac na rydd Duw byth y weithred o weddi yn ei erbyn fel pechod, ond ei wyrni ynddi; llawer llai y rhydd efe i'w erbyn di hwyf bechadurus un arall sydd yn cydblygu â thi. Gweddia di mewn ffydd, ac ni chaiff ei anghrediniaeth ef fod er niwed i'w ffydd, na'i falchder i'w ostyngaidrwydd. Yr wyt ti yn cyduno âg ef yn y ddyledswydd; ond heb ddal cymmundeib â'i bechod ef. Nid oes dim mwy o achos meddwl yn amgen, nag i ddywedyd pe byddai i bigwr codau ddwyn arian un arall ar amser gweddi, fod yr holl gynulleidfa yn euog o'i ladarad ef. Cymmaint gwel fyddai i ti, Gristion, ofni gweddio gyda chalon annuwiol yn dy fynwes, na chyda dyn annuwiol yn dy deulu. Nid oes dim tebygoliaeth y niweidit dy enaid dy hun wrth weddio yn ei glyw; nac y gwnei les i'w enaid yntau wrth adael heibio y ddyledswydd er ei fwyn. Fe allai, er ei fod yn anianol, ei fod yn blygedig oddi allan; a pha fodd y gwyddost nad all dy weddi di, yn enwedig ac yntau yn bresennol, wanu ei galon ef, a bod yn foddion cynnorthwyol er ei drôedigaeth? Mi a glywais a'n y fath, y gwneathpwyd yr argraffiadau teimladol cyntaf ar eu calonau yn y ddyledswydd hon o weddi. Os yw ef nid yn unig

yn anianol, ond yn watwarwr addoliad Duw, ac yn afonyddwr y gwaith, gwell i ti, gydag Abraham, droi y fath Ishmael dros y drws, na throi Duw dros y drws er ei fwyn ef, drwy nacau yr addoliad sy ddyledus iddo.

PENNOD XXXVIII.

Cerydd i'r rhai hyny sydd heb angenrhoid yn t-llu eu hun in i'r fath deuluoedd, lle ni chynnelir addoliad i Dduw.

Defnydd 1. O GERYDD i'r Cristionogion hyny sydd, heb raid, ac o ddewisiad, yn tafu eu hunain ar y fath deuluoedd, lle y mae addoliad Duw heb ei osod i fyny. A wyddost ti i ba le yr wyt yn myned? Rhedeg yr wyt, gyda Ionah, oddi ger bron yr Arglwydd; a thi elli ddisgwyl ystorm i'w orddiwes. Mae yn bossibl mai gwas wyt, a fu yn byw gynt mewn teulu duwiol, lle yr oedd genyt aml ragorfraint felus, a manteision ysbrydol; bwrdd wedi ei daenu bob dydd, cyn fynyched i'w enaid a'th gorph, heb law rhai prydiau dros ben, o ddyledswyddau anghyffredinol, a thrwyddynt yr oeddit yn mwynhau math o nefoedd ar y ddaear. Ond am ychydig esmwythâd yn dy waith, neu godiad yn dy gyflog, ti wnaethost y cyfnewid annedwydd yma, rhoddi dy hun dan gronglwyd y rhai huyn a ddysgant i ti dyngu a rhegu yn hytrach na gweddio; a lle ni elli, wrth drefn y teulu, wybod rhagor rhwng dydd yr Arglwydd a diwrnod arall, na pha un ai bod addoliad yn ddyledus i'w Wneuthurwr ai nid oes. Och! greadur truan! Pa berth? a oeddit ti gynneu mewn porfa mor fras, ac yn awr yn crwydro ar y mynydd llwm, lle nid oes dim i'w gael i'w enaid gwerthfawr? lle, megys ar fynyddoedd Gilboa, nid oes dim o'r gwllith nefol yn disgyn, â'r hwn y byddai dy enaid arferol o gael ei ddyfrhau? Yn ddiau, ti aethost o dan gysgod Duw, i boethwres yr haul. Pe buasai Duw yn wir wedi dy dasu i'r fath le, trwy ragluniaeth anocheladwy, ti allesit obeithio cadw dy wedd ysbrydol, er colli dy brydiau gynt: ond gan mai dy ddewisiad dy hyn ydoedd, y mae i'w ofni y nychi ac yr edwi yn fuan yn dy ystâd ysbrydol. Y mae culni yn debygol o grychu dy enaid, tra y mae genyt dy dameidiau breision yn dy safn. Fe â dy ysbryd yn ysgafn a thloddaidd, er y dichon dy bwrs drymhau. Ni a'th gawn cyn bo hir yn achwyn fel Naomi, ddarfod i ti "fyned allan yn llawn, ond dyfod adref yn wag." Pa fodd y beiddi di ddewis aros, lle nad yw Duw ei hun yn aros, yn ei bresennoldeb grasol? Y mae efe yn "cyfannedu yn moliant ei bobl," ac yn gwneuthur ei drigias yn y tŷ gweddi. Ac os nad yw yr Ysbryd sanctaidd yn aros, yn rhodio, yn anadlu, yn y tŷ; y mae yn rhaid

bod yr un drwg yn ymrodio yno. Gwna dy arosfa ynddo mor fyr ag yw bossibl. Gâd y meirw i drigo gyda'r meirw, y didduw gyda'r didduw; dy ddiogelwch di fydd cael mwyed i blith cymdeithion gwell. A yw yr eglwys mor brin o deuluoedd duwiol fel nad oes un o'r fath i'w gael, a egyr ddrws i'th ollwng di i mewn? Dôs, ymofyn am y cyfryw, a chynnyg wneuthur y swydd waclaf yn y tŷ hwnw, lle y gelli fwyhau dy freintiau gynt i'th enaid, yn hytrach nag aros lle yr wyt. Y mae hyd yn oed yr anifeiliaid yn griddfan wrth wasanaethu y drygionus, tra y mae yr angylion eu hunain yn foddllawn i weini i'r sauit.

Gof. Ond fe allai y dywedi, nad dy dde-wisiad, ond angenrheidrwydd, sydd yn peri. Y mae dy rieni wedi dy roi yn egwyddorwas at feistr annuwiol; neu yr wyt yn byw dan gysgod dy rieni, ac nis gelli wrtho, er eu bod hwy yn halogedig; neu gyda gŵr am yr hwn yr oeddit yn gobeithio (wrth ei ddewis) y byddai yn ymgeidd gymhwys i'th enaid; ond i'r gwrthwyneb yr wyt yn cael. Pa beth a fynech i ni wneuthur yn yr achos hwn?

At. Iaf. Galara o dano fel dy gystudd mawr. Fel hyn y gwnaeth Dafydd, pan oedd yn byw yn nheulu annuwiol Saul; llys a thylwthy yr hwn y mae efe—am anghrefydd a halogrydd—yn gyffelybu i'r Arabiaid anfoesgar, a'r Ismaeliaid erlidgar, gan ofidio am ei fod yn rhwym wrth y fath, pa rai o herwydd perthynas yr oedd yn anhawdd iddo eu gadael; ac o herwydd eu drygioni yn anhaws iddo eu goddef: "Gwae fi fy mod yn preswyllo yn Mesec, yn cyfan-nedda ym mhebyll Cedar;" *Salm* cxx. 5.

2il. Bydd o hyn yn fwy mewn cymmunde-b dirgel â Duw. Pe bait yn byw gyda rhyw gybydd a wasgai arnat am dy fol, a chenyt ond ceiniog yn dy bwrs, oni roddit hono allan am fara yn hytrach na newynu? Ni ddichon dy enaid fod mewn bywoliaeth heb gymmunde-b â Duw, ac y mae arnat angen cael tamaid chwangw mewn congl, am dy fod yn fyr o'th fara beunyddiol yn y teulu. Cymmer dy hun yr hyn nid yw ereill mor dirion a'i roi i ti; ac i'r diben hwn hwn, hwsmonaetha o hyn gwell bob deryn o'th amser. Fe fydd i ti trwy fendith Duw yn y modd yma—1. Gadw dy fywyd a'th fywiogrwydd ysbrydol. 2. Cael meddyg-iaeth yn erbyn haint yr awyr ddrws yr anadli ynddi. 3. Cael esmwythâd i'th ysbryd llwythog dan y gofidiau, gwaradwydd-iadau, a'r profedigaethau yr wyt yn sier o'u cyfarfod oddi wrth y fath berthynasau. Yr oedd gan Hannah rasol wrthwynebwrraig yn yr un teulu (Peninah wrth ei henw) a'i cythruddai hi yn dost nes peri iddi wlo; ond fe'i gyrodd hyn hi at Dduw mewn gweddi, ac yno y dilwythodd ei henaid.

3ydd. Hardda dy grefydd trwy gyflawn-

iad ffyddllawn o'th ddyledswydd at dberthynasau, er nad ydynt hwy gystal ag dymunit. A ydwynt yn was a'th feistr y annuwiol? bydd di ufudd a gostyngedi diwyd a ffyddllawn. Gâd iddo weled i feiddi ei ysbeilio o'i amser trwy ddiogi, na o'i eiddo trwy dwyll; ond dy fod hyd eitha dy allu a'th nerth yn ceisio cyflawni ei o'chwyf ef yn ddyladwy, er ei fod ef yn lleio i'th enaid drwy beidio darparu drosto. Y ydym yn gweled yn rhy fynych fod anffyddlondeb a diofalwch rhai gweision sydd yn profesu, yn gosod eu meistriaid anianol yr mhellach oddi wrth grefydd nag oeddynt o'r blaen; "Ie, yn peri iddynt ffeiddio e ddyledswyddau hi (y galleid eu hennill atyn oni buasai hyny) nes y delont o'r diwedd dybio am bob profes ac awch mewn ymarferiadau crefyddol, nad ydynt ond hug rag rithiol i guddio rhyw anonestrwydd dani. A dywedant am eu gweision, pan ofynant genad i fyned i bregeth, a disgwyl wrth Dduw yn ei ordinhadau, fel Pharaoh am y Israeliaid, "Segur, segur ydych; am hyny yr ydych yn dywedyd, Gâd i ni fyned ac aberthu i'r Arglwydd;" *Ecsod.* v. 17. Fe hyn, megys y dywed yr apostol, y mae enw Duw a'i athrawiaeth yn cael eu cablu o achos ymddygiad drwg rhai gweision sy yrdal profes o grefydd: 1 *Tim.* vi. 1. Diachefu, ai gwaraig ydwynt, a'th ŵr yn ddynt anianol, yn byw heb ofal am ei enaid ei hun na'r rhai sy dan ei gronglwyd? Gweddia di hyny mwy drosto am ei fod heb weddio gyda thi; gweddia dros dy deulu yn dy ystafell, er ei fod ef yn esgeuluso hyny yn y tŷ. Ond gyda hyn, bydd sier o ganmawr dy grefydd wrth gydwybod dy ŵr, a'i gwneuthur mor eglur ag yw bossibl i'w lygad ef trwy dy fwyneidd-dra doethineb tuag ato, a'th holl ymddygiad yn dy deulu. Y mae llythyren hardd yn denu i ddarllen llyfr. Crefydd wedi ei hargraffu yn hardd yn dy ymddygiad mwynaidd ac ufudd dithau ato ef, a'th bwyll yn dy loll faterion, pa fodd y gwyddlost nas gallant mewn amser ei ennill ef i ystyried hawddgarwch crefydd sydd yn dy wneuthur di mor weinyddgar a ffyddllawn iddo ef? Pysgotwr annoeth yw hwnw a frawycha y pysgod y mae yn dymuno eu dal. A Christian annoeth yw lithau a dramgwydda ei gŵr trwy ymddygiad anynad ac anufudd, tra y mae yn dymuno ac yn gweddio am ei dröedigaeth.

PENNOD XXXIX.

Gair o gynghor i'r rhai sydd yn bywo mewn teulu-odd lle y mae gweddi.

Defn. 2. GAIR o gynghor i chiwi a blando-dd Duw mewn teuluoedd crefyddol. Iaf. Bendithia Dduw am drefnu dy goelbren

mewn lle mor hyfryd, a thir mor ffrwythlon i'rh enaid, lle y gelli sugno i mewn wyr iachusol Ysbryd Duw sydd yn anadlu wy dy rieni duwiol, neu lywodraethwyr reill, wrth orsedd gras o ddydd i ddydd; e am nad wyt wedi dy gnyio i mewn i ryw eulu tywyll didduw, i fyw gyda chymdeithion anrasol, yn mysg pa rai y gallestid dreulio y ddyddiau heb wybodaeth o'rh Wneuthurwr; ië, a bod gyda hwy dan y felldithono sydd yn nhŷ yr annuwiol, ac yn crogi i cwmmwl du yn y bygythiad, yn barod i rymdywallt ar y teuluoedd nad ydynt yn alw ar enw Duw. Edrych o amgylch dy ymmydogaeth, a gwel pa nifer o deuluoedd sydd yn byw fel anifeiliaid, mewn cynnifer o gofeydd neu dyllau tywyll, lle nid oes i'r naill ben i'r flwyddyn i'r llall ddim o'r oleu nefol i'w weled, sydd yn tywynu i'rh yneb di bob dydd. Pa faeth neu fagwr-eth a gawsai dy enaid dan addysgiad y fath rieni neu feistriaid ag sydd yn byw eu hunin heb Dduw yn y byd. Yr oedd brenhines eba yn cyfrif y rhai hyny yn ddedwydd eddynt yn sefyll ger bron Solomon, nid yn ymmaint am y gallent weled ei ogoniant, ond clywed ei ddoethineb. O ddedwydd di! s ceafstid ras i wybod dy fraint, cael gweini feistr duwiol, bod dan rieni grasol, neu wedi dy ieuo gyda gwrsanctiaid; oddi wrth yddiau, cynghorion, ac esamplau da pa rai gelli elwa mwy na phe byddai ganddynt i'fsoeth, danteithion, a dyrchafiadau llysolomon i'w cyfranu arnat!

2il. Edrych ar i ti ddefnyddio y fantais sbrydol yma; neu fe ð'n waeth gyda thi ag ereill. Dywedir wrth Israel wrthryfel-ar, "Y cânt wybod fod prophwyd yn eu bysg." Yr ystyr yw, y cânt wybod er eu wae. Ac felly y caiff y rhai a fuont yn yw mewn teuluoedd dan y fath lywodrethwyr ag oedd yn myned o'u blaen, ac fel e bâi yn nodi allan y ffordd i'r nef trwy eu esamplau duwiol, gan ofidio a thywallt i'grau mor fynych yn eu gweddiau dros eu eneidiau gwerthfawr. Os bydd y fath yn l, hwy a gânt wybod er eu dychryn pa fath teuluoedd y buont yn byw unwaith ynddynt, ond heb feddu calon i werthfawrogi na defnyddio y drugaredd. Na ato Duw i'w heb o honoch gael pen y ffordd i'ffern allan i'r fath ddrysau, ac ynwthio i ddamnedig-eth drwy y fath foddion a osodwyd i'ch i'ffal. Beth a ettyb Cain, pan ddwâg ei dad i'ystiolaeth i'w erbyn, ac y dywed, Ar-lywydd, ni ddysgodd y mab drygionus hwn i'r eiddof erioed mo'i ddidduwiaeth genyf i; mi a'i dygais ef i'rh addoliad di, ac a llysgais iddo dy ofn, ond ni charodd mo hono; trodd allan yn llofrudd, ac wedi hyny yn wrthgiliwr; ymddygodd i ddehreu yn ddrwg yn dy wasanaeth, ac yna hedodd ymaith gan ei droi heibio yn llwyr! Pa beth a ddywed hithau, gwraig watwarus

Dafydd (yr hon, er ei bod o eppil annuwiol, a freiniwyd â gwr mor rasol) pan y cyhuddir hi am wneuthur gwatwargerdd o hono am ei sel yn addoliad Duw? Neu, pa fodd y bydd i blant yr un gŵr duwiol, a rodiodd gyda'r fath uniondeb o fewn i'w dŷ, edrych yng ngwyneb eu tad yn y dydd mawr? "Ni feiddiwech chwi, dybygaf, fy mhlant," ebe Mr. Bolton wrth farw, "fy nghyfarfod yn nydd mawr y farn mewn cyflwr diadgenhedlig." Fe fydd i bwys gweddiau a rhybuddion y fath wŷr duwiol, y pryd hwnw, suddo eu perthynasau annuwiol yn ddyfnach i'ffern nag ereill sydd yn disgyn yno allan o deuluoedd anwybodus a thywyll.

PENNOD XL.

Gair at y penau teuluoedd sydd heb addoliad i Dduw yn eu tai.

3. I chwiti sydd yn benau teuluoedd, ond hyd yn hyn heb feddu calon i osod addoliad Duw i'fyny ynddynt. Y mae arnaf ofn mai ychydig a gaiff Duw genych yn eich ystafelloedd tra y mae heb ddim yn eich teuluoedd. Nid yw yn angharedigrwydd ammheu eich gofal chwi am eich eneidiau eich hunain, y rhai ni ddangoswch ddim am eich perthynasau. Pe buasit wedi cael dim cydnabyddiaeth â Duw dy hun, ac wedi profi dim melusder mewn cymmundebe dirgel âg ef, a all- esit ti ysbeilio dy deulu o fendith mor fawr? A ellaist ti ddyfod o hyd i'r fath drysor, a'i guddio rhag y rhai sy mor anwyl genyt? Ouid oes ganddynt hwy eneidiau mor werthfawr a'r eiddot tithau? Ai nid wyt ti yn ewyllysgar iddynt hwy gael gafael ar ffordd y nef yn gystal a thi dy hun? Ië, ai nid wyt ti yn olygwr dros Dduw, i ofalu am eu heneid- iau gystal a'u cyrph? Ai nid oes arnat i'wy o ddyled i'rh blentyn neu i'rh was, nag i fochyn neu geffyl? Y mae cyrph y rhai olaf hyn yn cael edrych ar eu holau, ac a wnei di ddim yn rhagor i'r lleill? Pa fodd y gwyddost ti na all dy esampl dduwiol yn nyledswyddau addoliad Duw yn eu plith, adael y fath argraff ar eu calonau a'r ni wisgir ymaith hyd ddydd eu marwolaeth? Ai ni chlywaist erioed neb yn addef, er anrhydedd i Dduw, mai y troad cyntaf a gaw- sant tua'r nef, oedd trwy fyw yn y cyfryw deulu duwiol, lle, gydag addoliad Duw, y daeth archwaeth a theimlad dirgel o bethau Duw yn lladradaidd i'w calonau. Yn sicr, pe bai ein pobl ieuange yn fwy cydnabyddus â dyledswyddau crefydd yn eu cartrefi, fe rwyddheid llawer ar waith y gweinidog yn y pulpud; trwy hyn fe gedwid cydwybedau llawer yn dyner, a byddent yn ystyfnach i gynghorion y gair sydd yn cael ei bregethu. Ond yn awr y mae gan y diafol fantais

alaethus, trwy yr anghrefydd a'r didduw-iaeth sydd yn y rhan fwyaf o deuluoedd, i galedu eu calonau i'r fath radd nes ydynt agos yn llwyr ddideimlad. Nid rhyfedd gwelw y pren hwnw heb gynnyddu a blawyd yng nghil haul. Ac nid rhyfeddach gwelw y rhai hyny yn parhau yn halogedig a drygionus, sydd yn dyfod ond unwaith mewn wythnos dan belydr ordinhad; ac heb weled na chlywed dim mwy am Dduw nes y delo Sabbath drachefn. Och! pa debyg-oliaeth sydd y ceir y wreichionen yn fyw y pryd hwnw, a hithau heb ddim i'w chadw rhag marw ar hyd yr wythnos. Y mae un yn cymhwys gyfelybu y weinidogaeth gyhoeddus i'r saer sydd yn adeiladu y tŷ, a phenau teuluoedd i'r rhai a wnant y priddfeini. Yn awr, os ydych chiw trwy esgeuluso eich dyledswydd, yn dwyn clai yn lle priddfeini, yr ydych yn dyblu gwaith y gweinidog. Y gwirionedd yw, y mae esgeulusdra o addoliad teuluaidd yn agor dyfrddor lydan i ollwng diluw o halogrwydd i mewn i'r eglwys. Yr wyt ti yn byw yn awr heb addoliad Duw yn dy deulu; ac ysgatfydd mewn ychydig flynyddoedd, yr heidia amryw deuluoedd ereill o'th gwch (plant neu weision), ac y mae yn dra thebyg y canlynant dy esampl. Yn wir, peth rhyfedd fyddai iddynt hwy, heb gael gwell addysg, wneuthur yn amgen; ac felly y mae anghrefydd yn debygol i ymledu yn gyflym. Pan rodder dy ben di yn y llwch, ni chleddir dy halogrwydd gyda thi; na, yr wyt yn gadael ereill ar ol i'w gadw yn fyw. O! mor arswydus yw gosod sail i bechod hyd lawer cenbedlaeth! Gall y plant sy heb eu geni godi a mellidighi y cyfryw. Pe buaswn wedi clywed fy nhad yn gweddio, gall y plentyn yn awr amgen ddywedyd, neu wedi cael ei esampl ef i ymarfer âg addoliad Duw, ni buaswn yn byw fel pagan fei y gwneuthum. Wele, megys na fynech i'ch plant a'ch gweision eich cyfarfod mewn byd arall, â'u safnau yn llawn achwynion a chyhuddiadau, neu os nad yw hyn yn eich brawychu (am y tybiwch ym mhell draw) megys na ddy-munech eu cael yn blâ ac yn ffangell arnoch yn y byd hwn, na fydded eich rheolaeth deuluaidd yn anghrefyddol. Nid yw ond cyfiawn, os goddef Duw i'th was fod yn anffyddlawn i ti yn nâ y byd, pan wyt ti felly i'w enaid ef; neu i'th blant pan gynnyddant anghofio eu dyledswydd atat, gan i ti eu dwyn i fyny fel paganiaid heb ddvsgu iddynt eu dyledswydd at Dduw.

PENNOD XLI.

At y penau teuluoedd hyny sydd yn cyflawni y ddyledswydd hon.

4. Ychydig eiriau o gynghor i chwi sydd wedi gosod i fyny y ddyledswydd hon yn

eich teuluoedd; a hyny er eich hyfforddia i'w thrin mewn modd dyladwy.

DOSE. I.

Iaf. Na thybia yn ddigon i'th brofi y sant dy fod yn gweddio yn dy deulu. Chyw ellwch osod i fyny addoliad Duw yn eich t, a bod heb roi iddo orsedd yn eich calonau. Na ato Duw i chwi ymfendithio yn hyn, ymhoni bod yn saint o'i herwydd. Ond nid aethoch etto mor bell ag yr aeth rhagrithwyr. Y mae y ddyledswydd yn ddo, ond nid yw y cyflawniad allanol o honi y ddiagon o brawf fod y dyn yn dda. Y mae llawer o droadau i uffern yn nes i'r nef i hon. Edrych, gan hyny, oddi wrth y weithred at dy ddiben ynddi. Saethydd ffol y hwnw a ollwng ei saeth cyn annelu yn iawn. Y gwestiwn a ofyn Duw yw, "A wyt ti y gweddio oll arnaf fi, ie, arnaf fi?" Y mae yn bossibl y gall dy weddio gael effaith a ereill; ie, fod yn offerynol i ddryllio e calonau â'th gyfaddefiadau, ac i loni eu hwy brydoedd â'r geiriau melus a ddiferant oddi wrthyt, a thithau yn chwareu y rhagrithwyr ar hyd yr anser. Y mae yn gweddio i'th gan hyny, ystyried pa beth yw y pwys a prif ysgogiad, sydd yn gosod y ddyledswydd hon yn dy deulu i gerdded. Ai nid chwari ereill dy gyfrif yn grefyddol ydych chi? O felly, y mae genyt chwareu gwael. Gwaeth yn wir fyddai crefydd pe hyn fyddai cwbl sy i'w gael ynddi. Wedi i ti gyrhaed hyn, nis gall esmwythau cymmaint ag un bigiadau dy gdwythbod. Ond os hyn yr wyt yn hela ar ei ol, y mae yn gwestiwn pa t a wyt yn credu bod y fath le ai peidio. I bai yr ychydig egwyddorion hyn wedi gwregysu yn dŷn trwy fydd am lwynau d ieddi. Fod Duw mewn bod, a'i fod y wobrwyr i'r rhai a'i dyfal geisiant; fo nef yn barod i'r duwiol, ac uffern yn agos ei safn am y rhagrithwyr; byddent yn ddiagon i iawn hwylio dy galon yn y gwaith. I nad yw y teithiwr yn edrych llawer at y ffordd lle nad yw yn ofni perygl, etto pa fo yn myned dros bont gul, lle y gall ca gwyrdraws beryglu ei fywyd, am fod afd ddofn ar bob llaw, yn sicr efe a gais yn edrych a throedio yn wastad. Fel hyn y mae gyda thi. Gwaith mor ddirif ydy gweddio ag un y gelli fyned yn ei gylch y dy holl fywyd; fe all gau ddiben yn hwfod mor beryglus i'th enaid ag edrychir gwgyrog i'th gorph yn y llall. Nid yw rai ni wneuthur rhagor i gollu ein heneidiau na cheisio ein hunain.

DOSE. II.

2il. Gwylia rhag anurddo dy ddyledswyddau sanctaidd â bywyd ansanctaid. Os wyt yn meddwl diwyno dy ddwyllaw gwaith budr pechod yn y diwrnod, pa ha y golchi hwy â gweddio yn y boreu! Nid yw yn ateb dim diben dechreu gyda Duw a chadw cyfeillach â Satan ar hyd y dydd

edi hyny. Trefn crefyddol yn dy dŷ ac marweddiad didrefn, drwg y cyttunant. ! na wna wasanaeth Duw yn ffaidd i ddylliau dy weision a'th dylwyth. Y rhai yn caru y gwin, hwy a'i gwrthodant er hynny o gwpan front a budr. Y mae dyledwyddau addoliad Duw yn mynu parch, hyd n oed gan rai anianol; ac o'u cyflawni an rai penrydd a gwaradwyddus, hwy a nt yn ffaidd. Parodd meibion Eli i'r bobl feiddio aberthau yr Arglwydd. Trwy dy dyledwyddau crefyddol yr wyt yn gosodopi teg. O! paid a'i ysgrifenu ar bapur n llyngu! Ni welir mo honot ond am ro ar dy liniau; ac ni wna ychydig sel ruddangosiadol wrth dy addoliad oreuro iwrnod cyfan o bechu, a dreulir mewn wylltineb, segurdd, gloddest, neu ryw elynt ansanctaid arall. Dywedir fod Crist n pregethu "fel un ág awdurdod ganddo, e nid fei yr ysgrifenyddion" (*Mat. vii. 29*), id am nad oedd ganddynt hwy awdurdod bregethu, canys yr oeddynt yn eistedd yng ghadair Moses; ond am eu bod trwy rodio n anaddas i'w hathrawiaeth wedi colli y parch a fuasai eu lle a'u gwaith yn ei roddi ddynt, oni buasai hyny, yng nghydwobodu y gwrandawyr. "Dywedent, ac nis gwnaent;" ac felly gwnaethant eu hathrawiaeth yn ddiëffaith. Os mynit weddio gydag awdurdod, cadarnhâ dy dyledwydd â burdeb buchedd.

DOSB. III.

3ydd. Cadw heddwch ac undeb yn dy leulu. Nis gall teulu ymrysongar fod yn leulu erfyngar. Y mae yr apostol yn aunoegwr a gwraig i garu ac ymuno, "rhag hwystro eu gweddiâu;" 1 *Pedr. iii. 7*. Ymrysonau mewn teulu, y maent yn rhwystro ysbryd gweddi, ac hefyd yr ateb i'w gweddiâu. 1. Y maent yn rhwystr i ysbryd gweddi; Ysbryd tangnefedd a chariad yw Ysbryd Duw; ac am hyny, nid yw yn hoffi anadlu mewn awyr derfysglyd. Y ffordd i'w ymlid ymaith yn fuan yw ceuru ac ymsenu: "Na thristewch lân Ysbryd Duw" (medd yr apostol); *Eph. iv. 30*; ac fel na wnelom hyny, gwrandewch beth yw ei gynghor; "Tyner ymaith oddi wrthych bob chwerwedd, a llid, a dig, a llefain, a chablëdd, gyda phob drygioni." Wedi i'r rhai hyn fyned ymaith, yna, ac nid yn gynt, disgwyl am ei gyfeillach felus ef. Y mae mor hawdd i chwi drigo yn gysurus ynghyd â'ch tŷ ar dân, a gweddio felly ynghyd pan fyddoch chwi ar dân yn y tŷ. 2. Y mae ymrysonau yn rhwystro ateb i'n gweddiâu. Os gweddiwn mewn digder, ni châr Duw ein gwaith: "Digofaint gwr nid yw yn cyflawni cyfiawnder Duw." Y mae gwynt uchel yn curo i lawr y mwg. Fe gyffelybir ein gweddiâu i aroglarth; byth nid esgynant i'r nef nes y taweler yr ystorm yma. Os gweddiwch yn y fath drefn a hyn, fe archa Duw i chwi

ddyfod pan fyddwch yn fwy cyttân. Ni chynnorthwya yr Ysbryd yn y fath weddiâu; ac os na bydd gan yr Ysbryd law yn llunio dy weddi, ac oni chyflwynna Crist hi, yn sier ni dderbyn y Tad mo honi, o herwydd "trwyddo ef y mae i ni ddyfodfa mewn un Ysbryd at y Tad;" *Eph. ii. 18*.

DOSB. IV.

4ydd. Bydd yn dra manwl wrth ddewis y rhai a wnei yn aelodau o'th deulu. Cais, os gelli, y fath dan dy gronglwyd ag a roddant fraich gyda thi yn dy addoliad teuluaid. Er nad dy bechod yw gweddio gyda gwraig a gwas annuwiol, etto, dy bechod yw dewis y cyfryw yn berthynasau i ti, os gelli wneud yn amgen; er hyny, Och! leied y mae hyn yn cael ei ystyried, er bod dedwyddwch a chysur y teulu yn ymddibynu llawer ar hyny! Y mae ychydig degwch, anrhydedd, neu dda y byd, yn rhy fynych yn dallu llygaid, ac yn gŵyro barnau y rhai a allwn obeithio eu bod eu hunain yn rasol; fel y gallant ymieuo gyda rhai sydd yn dra anaddas i dynu gyda hwy yn ffordd a gwaith y nef. Fe wyddai Dafydd mai un o deulu drwg oedd Michal; ond y mae yn bossibl ei fod yn gobeithio ei hennill i gydgorddio ág ef yng ngwasanaeth Duw; ond ni a welwn y fath groes drom a fu hi iddo. Fe ddywed Solomon am rai a "Derfysgant eu tŷ;" *Diar. xv. 27*. Y neb a gymmer, o ran golygiadau anianol, wraig annuwiol i'w fynwes, neu was i'w deulu, yw y dyn sydd yn sier o wneuthur hyn. Ysgatfydd, pan y mynai efe weddio a moliannu Duw, yr archa ei wraig (fel un Iob) iddo regi; pan fo ar dyledwydd, hi a'i dirmyga ef yn ei chalon, ac a wawdia ei sel fel Michal yr eiddo Dafydd. Ac felly, y rhai hyny sydd, am ryw fedrusrwydd naturiol a welant mewn gwas, yn anturio ei gymmeryd, er ei fod yn ddrygionus, cânt dalu yn ddrud am eu gwaith. Y mae y cyfryw yn fynych yn dwyn plâ o halogrydd i'w canlyn sydd yn llygru y lleill; a'r hyn a faeliant i'w meistriaid â'u dwylaw, hwy a'u hysbeiliant o hono â'u pechodau sydd yn dwyn melldith Duw i'w teulu. Pa ŵr doeth a adeiladai dŷ a thrawstiau ar dân? Os yw y gwas a gymmeri yn ddrygionus, y mae tân ynddo a beryglia dy dŷ, am hyny, bydded yn ofal genyt blanu teulu duwiol. Hyn oedd bwriad Dafydd; y mae yn bossibl ei fod yn gweled drwg ei ddewisid o'r blaen: "Fy llygaid sydd ar fyddloniaid y tir, fel y trigout gyda mi; yr hwn a rodia mewn ffordd berffaith, hwnw a'm gwasanaetha i. Ni thrig o fewn ty nhŷ yr un a wnelo dwyll; ni thrig yn fy ngolwg yr un a ddywedo gelwydd;" *Salm. ci. 6. 7*. Dyna y pryd y bydd y beroriaeth yn hyfryd yn dy dyledwyddau teuluaid, pan eelli gael cydgyhanedd i'th dŷ; rhai â'u henediaid mewn cywair at y moddion crefyddol a ddylit gadw gyda hwynt.

DOSB. V.

5ed. Cadw gof am dy bechodau a'th drugareddau teuluaid, fel na ddiango y naill heb eu haddef ac ymostwng o'u plegid, na'r lleill heb eu cydnabod. Ped edrychid at hyn ni byddai i ni ddyfod at y gwaith gyda'r fath galonau sychlyd a diffrwyth, ag sydd, ysywaeth, gan y rhan fwyaf yn awr. Cymmer beth amser i wasgu y rhai hyn at dy galon. Y mae drylliad calon ynot ti sydd yn gweddio, yn beth a wna lawer tuag at fagu yr un peth yn y rhai a benliniant gyda thi. Nid oes dim a dawdd yn gynt na thrwy dywallt peth toddedig arno. Y mae gweddiwr cysglyd yn fynych yn gweddio ereill i gws. Gwylia gan hyny yn erbyn ffurfioldeb; dyna y cancr sydd yn ysu hyd yn oed calon dyledswyddau crefyddol. Cofia dy fod i'th deulu yr hyn yw y gweinidog i'r gynulleidfa; megys y mae marweidd-dra ei galon ef yn cael effaith ddrwg ar ei bobl i'w gwneuthur yn debyg iddo ei hun; felly yr eiddot tithau ar dy deulu. Yr wyt nid yn unig mewn colled dy hun yn bersonol, ond yn gwneuthur cam â'r rhai sy o'th amgylch. Megys pan fyddych yn difa dy dda, y mae dy wraig, plant, gwas, a phawb, yn waeth eu byd o'r achos; felly, pan fydech yn tagu dy galon â gofalon anghymmedrol y byd, neu ryw ffordd trwy dy gamrodiad, yn anghymmhwysu dy hun i'r ddyledswydd o weddi, y mae dy holl deulu yn y golled gyda thi.

DOSB. VI.

6ed. Craffa ar yr amserau mwyaf addas i addoliad teuluaid, pan ellir ei gyflawni gyda'r rhyddid mwyaf, a'r afonyddiaid lleiaf. Yn y boreu, dal y cyffe cyn i dorf o orchwylion bydol ddyfod arnat. Mi a ddeliais sylw mewn rhai teuluoedd lle y mae pwys o orchwylion, os oedir dyledswydd nes byddo rhyw drafferthion wedi myned drwyddynt, yna y mae hi naill ai yn cael ei chau allan, neu ei châu i mewn yn y fath brinder amser, fel nad yw y dull ysgafn musgrel o'i chyflawni nemawr gwell na'i hesgeuluso yn llwyr. I ragflaenu yr anhrefn yma, goreu yw achub y blaen ar farnhad y byd; myned at y ddyledswydd y boreu mewn pryd, ac offrymu i Dduw flaenffrwyth y diwrnod cyn i'n meddyliau gael osgoad. Yr ydym yn darllen yn *Ecsod.* xvi. 21, fod yr Israeliaid yn casglu y manna "yn y boreu; a phan wresogai yr haul efe a doddai." Mi a ddymunwn, yn enwedig i'r rhai sy ganddynt bwys o orchwylion bydol, gymmeryd eu hamser am gymmunde b â Duw yn foreu cyn iddynt dwymno yng ngwaith y ddaear, rhag iddynt y pryd hwnw gael eu meddyliau mor wasgaredig yn y byd, fel y bydd yn anhawdd eu casglu i ddisgwyliad unol a dyfal wrth Dduw yn y ddyledswydd. Drachefn, pan ddelo y nos, na oeda y gwaith nes y byddoch yn fwy cynmhwys i fyned i'ch

gwelyau nag ar eich gliniau. Os trymlha llygad nid da y gwylia yr enaid. Yn enwed ystyria dy weision sydd yn gweithio y galed ar hyd y dydd. O! na ddwg arny brofedigaeth i weddio yn gysglyd. Pe cytmerai ein calonau hwyfrydwch yn y gwaith ni a luniem ac a chwiliem am yr amser goreu i gymmunde b â Duw, fel y gwna y rhai sydd yn caru, pa fodd a pha bryd y galla gyfarfod yn fwyaf dirgel.

PENNOD XLII.

Am weddi gyhoeddus—bod Duw yn ei gofyn, a pha ham!

2. Y FATH nesaf o weddi gydunol a chyn deithasol yw yr un gyhoeddus, a wneir y a chan yr eglwys wedi cydymgynnull i adoli Duw. Wrth drin pa un mi geisiaf at pum peth hyn.

1af. Dangos fod Duw yn gofyn addoliad cyhoeddus gan ei bobl.

2il. Fod gweddi yn rhan o'r addoliad cyhoeddus y mae yn ei orchymyn.

3ydd. Pa ham y mae Duw yn gofyn addoliad cyhoeddus, ac yn neillduol gweddi gyhoeddus.

4ydd. Attebaf ofyniad neu ddau ynghylch gweddi gyhoeddus.

5ed. Mi a wnaif beth defnydd cymmhwys iadol ar y pen hwn.

DOSB. I.

1af. Fod Duw yn gofyn addoliad cyhoeddus gan ei bobl. Mae y gair *cultus* gyfieithur yn addoliad, yn arwyddo y parch a'r anrhydedd a roddwn i ryw un pwys byna yn ol ei ddyrchafiad neu ragoriaeth. Ac mae o dri math—gwladol, moesol, neu ddwyfol. Addoliad neu barch gwladol yw yr anrhydedd ddyledus a'r gwasanaeth roddwn i berson dynol, mewn lle a gall uwch ein penau, megys tywysog, tad, neu feistr. Moesol yw y bri a'r parch dyledu a roddwn i ryw un, o herwydd ei ragoriaeth o ran rhinwedd neu sefyllfa, heb fod gandd awdurdod arnom. Yn y modd yma yr anrhydeddwn ac y parchwn y saint sydd y fyw gyda ni ar y ddaear, ac hefyd yr angylion a'r saint sydd yn y nef. Addoliad crefyddol neu ddwyfol yw yr anrhydedd a'r gwasanaeth a roddwn i'r Bod hwnw, yr hwnw yr ydym yn credu ei fod yn awdwr ein bodau ac yn ffynnon ein dedwyddwch. Yn awr, y Bod hwnw yw Duw, ac efe yn unig Iddo ef, gan hyny, ac nid i neb arall y mae addoliad crefyddol yn ddyledus: "Yr Arglwydd dy Dduw a ofni, ac ef a wasanaethi ac i'w enw ef y tyngi. Na cherdwch a ol duwiau dieithr;" *Deut.* vi. 13, 14. Mae yr addoliad dwyfol hwn yn dyfod dan amryw wahaniaethau tu mewnol ac allanol.

irgel a chyhoeddus. Addoliad cyhoeddus Duw yw testyn ein hymddiddan presennol; wnw wyf yn feddwl a gyflawnir gan gynulleidfa mewn cyfarfod crefyddol, a elwir ynulleidfa y saint: *Salm* lxxxix. 5, 7. Iawn teulu y dechreuodd eglwys Dduw ar ddaear; ac felly hefyd addoliad Duw. Ond pan gynyddodd y rhifedi, fe aeth Addoliad Duw hefyd yn fwy cyhoeddus: Yna y dechreuwyd galw ar enw yr Arglwydd (*Gen.* iv. 26); hyny yw, "hwy a lechreusant yn gyhoeddus," medd Merriam. "Seth ac ereill o'r hâd dauwl a ddeueasant gynnal eu cynnulliadau sanctedd," medd Willet ar y lle. Y mae yn eith i sylwi arno ddarfod i Dduw wrth gybeddi y gyfraith ar Sinai, pan ddygodd Israel i drefn llywodraeth wladol, gymmyrdd ofal enwedigol am osod i fyny addoliad cybeddus i'w enw. Dyna ddydd eu dywedd (*Ier.* ii. 2); a'r pryd hyny fe ordeiniodd Iddall parchedig o addoliad cyhoeddus, gyda teolau manwl i'w gyflawni wrthynt. A'r holl gofal a gymmerodd ein Harglwydd Iesu yn eglwys y Testament Newydd, wrth apwyntio ordinhadau eglwysig, a swyddogion w gweini.

DOSE. II.

2il. Y mae gweddi yn rhan o'r addoliad crefyddol a rydd yr eglwys i Dduw yn ei cynnulliadau cyhoeddus, i.e., yn rhan ar-enig, ac am hyny yn cael ei roddi yn fynych am y cwbl (*Zech.* viii. 21, 22): "Ac yr preswylwyr y naill ddinas i'r llall, gan ddyedyd, Awn, gan fyned i weddio ger bron yr Arglwydd, ac i geisio Arglwydd y lluedd; minnau a âf hefyd. Ie, pobloedd awer, a chenhedloedd cryfion a ddeuant i geisio Arglwydd y lluoedd yn Ierusalem, ac i weddio ger bron yr Arglwydd." Frohwydoliaeth ydyw am y modd y byddai i redinwyr dan yr efengyl daer annog y naill llall i fyned i gynnulliadau yr eglwys (o'r on yr oedd Ierusalem yngsgod) i weddio ac addoli Duw ynghyd: "Ouid yw yn ysgrifedig (medd ein Harglwydd), Y gelwir i y nhŷ yn dy gweddi i'r holl ghenhedloedd;" *Marc* i. 17. Fe gyflawnwyd hyn mewn rhan an ymgasglodd dychweledigion i Ierusalem a nyddiau yr apostolion i addoli Duw yno. Ond fe'i cyflawnir yn berffeithiach gan eglwys Crist, a gesglir allan o bob cenedl ydd yn cadw addoliad Duw yn ei chynnullidfaoedd. Ym mysg dyledswyddau ac arerion ereill y prif Gristionogion yn eu cyfrfydydd, nid yw Luc yn anghofio hon weddi: "Yr oeddynt yn parhau yn athawiaeth ac yng nghymdeithas yr apostolion, o ym tori bara, ac mewn gweddiâu;" *Act.* i. 42. Wrth barhau yn athrawiaeth yr apostolion, y mae Mr. Perkins yn deall eu wrandawriad diwyd ar bregethau yr apostolion; wrth gymdeithas, eu cyfraniadau i'r lodion oedd yn eu cynulleidfaoedd (gwaith

addas iawn i'r lle, "o herwydd â chyfryw ebyrth y rhyngir bodd Duw;" *Heb.* xiii); wrth dori bara, gweinyddiad Swper yr Arglwydd; ac wrth weddiâu, eu herfyniadau cyhoeddus ynghyd. Ac nid yw gweddi yn cael ei gwrthio yna yn olaf, am ei bod y dyledswydd leiaf o'r nifer; ond yn hytrach am fod ganddi effaith ddilys yn y cwbl. Y gair a'r sacramentau, y rhai a ddefnyddia Duw i sancteiddio ei bobl drwyddynt, a sancteiddir i ni drwy weddi. Ac y mae Paul, ar ol dangos yn *1 Tim.* i, pa athrawiaeth sydd i weinidogion bregethau yn yr eglwys, yn yr ail bennod yn cyfarwyddo pa beth i sefyll yn benaf arno mewn gweddiâu cyhoeddus: "Cynghori yr ydwyf ym mlaen pob peth, fod ymbiliau, gweddiâu, deisyfiadau, a thalu diolch dros bob dyn; dros frenhinoedd aphawb sy mewn goruchafiaeth; fel y gallom ni fyw yn llonydd ac yn heddychol mewn pob duwioldeb a gonestrwydd." Y mae eglwys Crist erioed wedi cyfrif hon yn rhan enwedigol o'i haddoliad cyhoeddus. Tertullian, wrth son am gynnulliadau yr eglwys, a ddywed, "Yr ydym yn cydgyfarfod, fel y gallom gylchynu Duw megys â'n taer-weddiâu; y mae y trais hwn yn dra boddlawn ganddo. Af ym mlaen at y trydydd pen, i roddi peth eglurhâd pa ham y mae Duw yn gofyn addoliad cyhoeddus, neu wasanaeth unol gan ei bobl mewn cydgymanudeb; a pha ham y dyledswydd ben-nodol hon o weddi.

DOSE. III.

(1af.) Fel addefiad rhydd ac eglur o'u hymddibyniad ar, a'u hymddarostyngiad i Dduw. Mae yn dra rhesymol i ni addef y Duw a wasanaethwn, i.e., o flaen wyneb y byd; ac nid cuddio ein crefydd fel Nicodemus dan len y nos. Y mae hwn yn an-nheilwng o wasanaeth ei feistr sydd arno gywilydd gwisgo ei lifrai, a'i ganlyn felly ar hyd yr heol: "Cymmerai yr Arglwydd heddyw i fod yn Dduw i ti (medd Moses wrth Israel), ac i rodio yn ei ffyrdd ef ac i gadw ei ddeddfau, a'i orchymynion, a'i farnedigaethau, ac i wrandaw ar ei lais ef. Cymmerodd yr Arglwydd dithau heddyw i fod yn bobl briodol iddo ef;" *Deut.* xxvi. 17, 18. Y mae hyd yn oed paganiaid yn deall cymmaint a hyn, eu bod yn dyledswyr o broffes rydd a gwasanaeth gyhoeddus i'r Duw a addefant: Yr holl bobl a rodiant bob yn yn enw ei dduw ei hun; a nin-nau a rodiwn yn enw ein Harglwydd byth ac yn dragywydd;" *Micah* iv. 5. Wrth rodio yn enw Duw, eu meddwl yw, y galw-ant ar ei enw, ac yr addefant ef trwy addoliad cyhoeddus, fel y gellwch weled oddi wrth y ddwy wers flaenaf o'r bennod. Ac y mae hon yn brophwydoliaeth am ddyddiau yr efengyl. Lle y gallwn, wrth fyned heibio, ddal sylw ar ynyfdrwydd a balch-der y rhai hyny sydd yn tasu ymaith or-

dinhadau cyhoeddus a neillduol hefyd, drwy y dyb o'u cyrhaeddiadau uchel, gan adael y dyledsyddau hyn, megys càr cerdded, i'r rhai sydd etto yn blantos. Balchder ac anwybodaeth yw llettya y fath dyb hunanol a hon; ond pe baent mor berffaith ag y tybiant eu hunain, ac heb raid iddynt wrth addysg yn rhagor, etto ai ni ddylent hwy fyth addef Duw trwy roddi iddo addoliad? Y sail oddi ar ba un y mae addoliad dwyfol yn ddyledus i Dduw yw ei berffeithrwydd anuherfynol ei hun, a'n hymddibyniad ninnau arno fel awdwr ein bod a ffynnon ein dedwyddwch. Oddi yma y mae fod angylion a saint yn y nef yn ei addoli, er mai mewn ffordd sydd yn addas i'w cyflwr gogoneddus. Y mae rhai ordinhadau yn wir sydd yn berthynol i'r eglwys filwriaethus yn y byd, i ddarfod yno; ond y mae addoliad yn aros, fe, eu gorchwyl parhaus ydyw. Mae y saint ar y ddaear yn ngwasanaeth Duw o hyd, ond nis gallant addoli o hyd; am hyny, y mae ganddynt amserau pennodol. Yn awr, y mae bwrw ymaith addoliad Duw yn wadu Duw ei hun, a chymmundeb a'i eglwys yn y byd a'r nef (*Esa. lxxv. 11*): "Chwi ydyw y rhai a wrthodwch yr Arglwydd, a anghofiwch fy mynydd sanctaidd: ni roddent iddo ei addoliad cyhoeddus: ac y mae yntau yn deongli hyn yn wrthodiad o hono fel eu Duw. Weithiau, yr wyf yn addef, y mae drysau yr eglwys yng nghau gan erlidwyr; a thra y parhao y llif hwn, y mae ffyrdd Seion yn galaru: etto, y pryd hyny, dylem ofidio ar ol yr Arglwydd a'i arch. Nid oedd Dafydd dduwiol yn estron i addoliadau dirgel; etto, nis gallai lai na chwyno ei golled o'r cyhoeddus: "Hiraethodd fy nghnawd am danat, mewn tir cras a sych-edig heb ddwfr; i weled dy nerth a'th ogoniant, fel y'th welais yn y cyssegr;" *Salm lxxii. 2, 3*.

(2il.) I gynnal cariad ac undeb yn yr eglwys. Duw sydd un; ac y mae yn mawr hoffi undeb ac agosrwydd ym mhlith ei bobl. Y rheswm hwn y mae yn ei roddi, pa ham y mynai gydio lleni y tabernacl ynghyd: "Fel y byddo yn un tabernacl;" *Ecsod. xxxvi. 13, 18*. Yr oedd cydiad y lleni hyn mor dŷn wrth eu gilydd, i'r diben iddi fod yn un babel, yn arwyddocaol o gyfrwymiad a chydgyssylltiad y saint a'u gilydd mewn cariad. Yn awr, er mai drwy weithrediad tu mewol yr Ysbryd Glân y mae hyn yn benaf yn cael ei wneuthur (o blegid efe yn unig a all gyd-dymneru a chydgyssylltu eneidiau) etto y mae efe yn defnyddio eu cydgymmundeb mewn ordinhadau, fel moddion trwy ba rai y cydgyfrana efe iddynt ei ras i'w cydgyssylltu mewn cariad. Y rhai hyn yw y rhwymynau i wasgu y naill aelod at y llall yn y corph dirgeledig hwn. Ac oni welwn ni fod Cristionogion, yn debyg i aelodau y corph naturiol, yn cydymdeimlo

ac yn gofalu dros eu gilydd, cyhyd ag byddont yn gyfrwym mewn un cymmund. Ond pan dorer y rhwymynau hyn, yna gwelwn y naill aelod yn syrthio oddi wrth llall, ac ychydig ofal am, neu gariad at gilydd a geir yn eu plith. Fe welodd apostol achos da i gydio y ddau hyn yngh mewn un annogaeth (*Heb. x. 24, 25*): "Cystyriwn bawb ein gilydd, i ymagnn i gariad, &c. Heb esgeuluso ein cydgynullt ein hunain." Fel pe dywedasai, Os ni ellwch gyttuno i addoli Duw gyda'ch gilydd, ychydig gariad fydd genych at eu gilydd. Pan gafodd ffon yr Iuddeu. Hyfrydwch, ei thori, nid hir y bu y llall. Rhwymau, yn gyfa: *Zech. xi. 10, 14*. M crefydd (yn ol y Lladin a'r Saesneg) yn cael ei henw oddi wrth *religio*, rhwymo, rhwymo yn cryf ydyw. Torwch y drefn hardd gymmundeb eglwysig, a buan y syrth bobl megys yn ddarnau. Gellir dal sy y fath anwyl-serch a bâr cyfeillach a chydeithas mewn pethau o natur is. Ysgolheion a änt ynghyd i'r ysgol; rhai a fyrdidia yn yr un tŷ; plant a sugnant yr un laet gefeilliaid a fuont yn cyd-orwedd yn un groth, y mae ganddynt anwyl-serch neillduol y naill tuag at y llall. Y fath effa yte sy raid fod gan gymmundeb eglwysig y cyferfydd y rhai hyn i gyd: pan y tyriont eu bod yn myned i'r un ysgol, gweinidogaeth y gair; yn eistedd wrth un bwrdd—y sacrament; yn sugno yr bronau—yr holl ordinhaau crefyddol; ac gorwedd ynghyd yn yr un fynwes, croth yr un eglwys. Hynod y gwelwn hyn yn y prif Gristionogion; y rhai, trugymdeithas mewn ordinhadau, a lanwyd fath gariad rhyfedd at eu gilydd, fel ni prin y meddai neb ei galon yn ei fynwes hun: "Y rhai a gredent oeddynt yn yr man...ac yn parhau yn gyttûn yn y deml, yn tori bara o dŷ i dŷ, gan gymmeryd iluuaeth mewn llawenydd a synledd calon." *Act. ii. 44, 46*. Ond pan ddaeth rhwyg gymmundeb yr eglwys, yna cafodd cariad anwyd, yr hwn a drymhaodd ar Gristionogion fel yr oedd ymraniadau yn chwanc. Yn awr, gallai un feddwl, gan fod achos eadolor mor wybyddus, na byddai ei iachmor anhawdd ag yr ydym, ysywaeth, yn gael y dydd heddyw.

(3ydd.) Er diogelwch ac amddiffyniad saint yn erbyn eu gelynyon. Yr oedd Pa yn llawenyachu o herwydd trefn a chadern saint Colossa: *Col. ii. 5*. Gair milwraig yw trefn, sydd yn arwyddocau byddin; sefyll yn gryno, ac yn y fath ddull cyfmlhwys, fel y mae pob rhan yn gynorthwylol i'w gilydd er amddiffyniad. A bydd o'r fath yw y saint, pan fyddont yn sefyll mewn cydgymmundeb, yn ol rheol ddwyfol. Pan oedd ein Harglwydd bendigedig ar yna adael o'r ddaear i'r nef, pa ffordd a gymme

ld efe i adael ei ddisgyblion mewn agwedd
ddiffynol ar ol ei fyned? Ai eu danfon
bref i edrych bawb ato ei hun? Nag é,
id i Ierusalem, i sefyll yno, megys un
wrth trwy gydgyrrundeb: *Act. i.* Mae
diferyn yn cael ei gadw yn yr afon a'i
blli pan y gwahaner oddi wrthi; y milwr
ddiogel gyda'r fyddin, ac yn cael ei gipio
an ar grwydr. Cain, wrth edrych arno ei
un fel un esgymunedig o eglwys [Dduw,
is gallai lai na disgwyl i ryw fawr ddrwg
orddiwes; ac yn wir yr oedd iddo achos.
m hyny y mae yr enaid grasol, a feddylir
rth y ddyweddi, yn cael ei ddwyn i mewn
a gofyn, pa le y mae cynulleidfa y ffydd-
naid, fel gan ymuno â hon, y gallo gael
ddiffyniad yn nydd perygl (*Can. i. 7!*)
Mynega i mi, yr hwn a hoffodd fy enaid,
a le yr wyt yn bugeilio, pa le y gwnei idd-
nt orwedd ganol dydd: canys pa ham y
yddaf megys un yn troi heibio wrth dde-
dellau dy gyfeillior?"

4ydd. O herwydd yr hyfrydwch mawr a
ymmer Duw yng ngweddïau a diolchiadau
nol ei bobl. Ni raid i ni fychanu addol-
adau dirgel, er mawrhau gweddïau cy-
oeddus yr eglwys: y maent oll yn angen-
heidiol, ac yn dra boddhaol gan Dduw.
tto nid yw yn gam ág addoliadau dirgel
eb rhyw sant unigol, iddynt roddi y rhagor
aeth i weddïau cyhoeddus yr eglwys. Duw
i hun a ddywed ei fod y caru pyrth Seion,
n fwy na holl breswylfeydd *Iacob: Salm*
xxxvii. 2. Diammheu fod gweddïau y
fyddloniaid dan eu cronglwydydd eu hun-
in yn dra derbyniol ganddo; ond os ydyw
lais sant unigol mewn gweddi, mor beraidd
w glust, llawer mwy yute peroriaeth yr
glwys, sef gweddïau ei saint mewn cydlef-
nghyd. Y mae tad yn llawen weled rhyw
n o'i blant, ac fe wna groesaw iddo pan
ldelo i edrych am dano; ond llawer mwy
an ddelont gyda'u gilydd—dyna y pryd y
bydd y wledf fwyaf. Y mae diolchiadau
cyhoeddus yr eglwys yn gynllun o'r nef ei
hun, lle nad yw yr holl angylion a'r saint
yn gwneuthur ond un cyd-gynghanedd. Y
mae ffyniant rhyfedd yng nghyd-weddïau
bobl Ddnw. Pan oedd Pedr yng ngharch-
ar, dyna yr eglwys yn cydgyfarfod, ac yn ei
weddïo ef allan o ddwyllaw ei elynion. Fe
wrendy brenin ar erfyniad y bydde dwyllaw
linas gyfan wrtho, er y buasai o bossibl yn
pallu ar ddeisyfiad deiliad unigol, ie, un a
garai efe hefyd. Y mae adwedd bennodol
i weddïo gyhoeddus (*Mat. xviii. 20*): "Lle y
mae dau neu dri wedi ymgynnull yn fy enw
i, yno yr ydwyf yn eu canol hwynt." Nid
yw yn dywedyd, Myfi a fyddaf, o herwydd
dioe a diaros ydyw; Ond yno yr ydwyf yn
bresennol i'm cael, mewn gras a thiriondeb
neillduol; o herwydd fod yn hyfryd genyf
gydsyniad o'r fath. Dyna yr eglurhad a
gydd Lucas Brugens ar y lle.

PENNOD XLIII.

*Dau ofyniad ynghylch gweddi gyhoeddus yn cael
eu hatteb.*

4ydd. ATTEBAF ofyniad neu ddau mewn
perthynas i weddïo gyhoeddus.

Gof. (1af.) A yw yn gyfreithlawn i wedd-
ïau yr eglwys gael eu cyflawni mewn iaith
na ddeall y bobl?

Az. Mae holl wasanaeth yr eglwys a'i dyl-
edswyddau addoliadol i fod er adeiladaeth.
Yn awr, ni ddichon neb gael ei adeiladu
trwy yr hyn nad yw yn ei ddeall; yn gan-
lynol, nis gall fod ond—fel y geilw Beza y
gwasanaeth Lladinaidd—*Ludibrium Dei et
hominis*—Gwatwar ar Dduw a dyn i dywallt
y fath weddïau yn yr eglwys nad yw y bobl
yn gwybod dim am eu hystyr: "Os gwedd-
ïaf (medd yr apostol) â thafod dieithr, y
mae fy ysbryd yn gweddïo, ond y mae fy
neall yn ddiffwyth;" *1 Cor. xiv. 14.* Ei
feddwl yw, nad ydyw ei gynnulleidfa ronyn
callach o'i fod ef yn deall ei weddï, oddi
eithr iddo allu peri iddynt hwythau ei dde-
all hefyd. Nis gallwn gael adeiladaeth
trwy ddealltwriaeth un arall, mwy na chad-
wedigaeth trwy ffydd un arall. Pan fwr-
iadodd Duw dymchwelyd cais hyf y meib-
ion balchder hyny a fyent godi tŵr cyf-
uwch a'r nen, ni wnaeth ond cymmysgu eu
hieithoedd, fel na ddeallent ymadrodd eu
gilydd; a dyma y tro ar ben, fe safodd eu
gwaith yn ebrwydd. Ac megys nas gallent
hwy adeiladu y mur, felly nid adeilada y
dyn na'r bobl sy heb ddeall ei ymadrodd
mewn gweddi. Gwna gweinidog mud y tro
i'r bobl gystal a'r hwn sy farbariad yn ei
ymadrodd iddynt. O herwydd y mae llais
y gweinidog yn angenrheidiol yn ei wein-
yddiadau cyhoeddus, fel y dywed Awstin,
"I hysbysu ei feddwl, nid fel y clywo Duw;
o herwydd y mae efe yn clywed gweddïau
na byddo y tafod yn eu hadrodd; ond fel y
clywo y bobl ac y rhoddont eu deisyfiadau
ar waith i'w ganlyn." Fel y mae y gwein-
idog i weddïo drostynt hwy, felly y maent
hwythau i weddïo gydag yntau, yr hyn a
ddydent dystiolaethu drwy roddi eu "Amen."
o'r galon wrth ei weddï. Ond hyn nis gall-
ant wneuthur lle y byddo yr iaith yn ddi-
eithr, os coeliwn Paul, "Pa wedd y dywed
yr hwn sydd yn cyflawni lle yr anghyfar-
wydd, Amen, ar dy ddodiad diolch, gan nas
gŵyr beth yr wyt yn ei ddywedyd? *1 Cor.*
xiv. 16. "Calon y doeth a reola ei enau,"
medd Solomon: *Diar. xvi. 23.* Hyny yw,
ni ddiodefa efe, fel y dywedwn, i'w dafod
rhedeg o flaen ei synwyr; ond myn wybod
yr hyn a sieryd cyn gollwng y tafod ar ei
neges. Ac yn sicr, y mae doethineb yn
angenrheidiol yn ein gweddïau yn anad un
gwaith; am ein bod yn siarad, nid â dyn,
ond â Duw. Dywedyd Amen ar weddï nad
ydyw yn ei deall, beth ydyw ond rhoddi

aberth ffyliaid? Defnydd sanctaidd mewn gweddi yw aroglarth; y tafod yw y thuser, ond serchiadau yr enaid addolgar sy'n dwyn y tân i'r aroglarth, cyn y gallo esgyn yn arogl peraidd i ffroenau Duw. Yn awr, os bydd y deall yn fyr o oleu, i ganfod beth yw gweddi, y mae yn rhaid i'r serchiadau fod yn oerion neu yn wylltyn; a pheth anaddas yw tângwylt at offrymu aroglarth gweddi. Nid digon bod serchiadau gwresog yn yr enaid ar weddi, ond dylent fod yn gydwedd â defnydd y weddi, i.e. yn cyfodi oddi wrth deimlad o hono.

DOSB. II.

Gof. 2il. A ydyw ffurf osodedig o weddi yn gyfreithlawn i'w arfer yn yr eglwys?

Az. Os ydyw yn anghyfreithlawn y mae felly am fod gorchymyn i Dduw yn cael ei dori drwy y fath arferiad; o herwydd "lle nid oes deddf nid oes gamwedd." Yn awr, bydd yn anhawdd i'r rhai a ogranant ffurfiau gosodedig, erystal fo'u defnydd, allu dangos unrhyw orchymyn ar gofrestr y Beibl, yn gwahardd gweddio wrth ffurf, neu yn beio ar yr arferiad o ffurf, naill ai mewn geiriau pennodol, ai trwy ganlyniad angenrheidiol. Y mae, i.e. y mae yn rhaid iddo fod yn ganiataol fod yr Ysgrhythyr yn rheol berffaith, mewn perthynas i'r ddyledswydd hon o addoliad Duw yn gystal ag ereill. Ond ym mysg yr holl orchymynion a'r rheolau yn llyfr Duw, nid ydym yn cael un yr erchi i ni weddio wrth ffurf fyfyr, ac nid wrth ffurf osodedig. Fe'n dysgrif pwy i weddio arno: Duw, nid heb arall: *Salm* xlv. 20. Yn enw pwy i weddio: 1 *Tim.* ii. 5: *Eph.* v. 23. Yr ydym dan rwyngiad o ran defnydd ein gweddi—pa beth a ofynwn: 1 *Ioan* v. 14. Ac yn olaf, ym mha fodd i weddio: rhaid i ni weddio mewn deall (*Ioan* iv. 22; 1 *Cor.* xiv. 16), mewn ffydd (*Jagoi.* 6; *Heb.* xi. 6), gyda gwresogrwydd diffuant (*Ier.* xxix. 13). Mewn gair, yr hyn sy'n cynnwys y cwbl ynghyd, yr ydym i weddio yn yr Ysbryd (*Eph.* vi. 13), yn yr Ysbryd Glân: *Iudas adn.* 20. Yn awr, y neb a all wneuthur hyn i gyd, ni raid iddo ofni nad yw yn gweddio yn gyfreithlawn, ac mewn canlyniad yn dderbyniol. Ac y mae yn rhaid i ni addef y dichon hyn fod mewn un yn gweddio gyda ffurf osodedig; neu y mae yn rhaid i ni yn dra hyf gyhuddo amryw saint enwog yn y Beibl o weddio yn anghyfreithlawn. Pwy faidd ddywedyd fod Solomon yn molli Duw yn anghyfreithlawn, pan arferodd y ffurf hono a ysgrifenasai Dafydd ei dad? Neu, nad oedd Moses yn gweddio yn yr ysbryd, am ei fod yn arfer yr un ffurfiau yn gysson wrth gychwyn yr arch ac ar ei gor-phwysiad? Fel hyn chwi welwch y pethau a bennododd Duw tuag at i ni weddio yn dderbyniol; a phe buasai gweddio wrth ffurf o'r fath ganlyniad enbydus, a fuasai Duw yn peidio rhybuddio ei bobl o'r peth,

yn enwedig gan iddo ragweld y bydd i'r eglwys yn gyffredinol eu harfer yn cynulleidfaoedd, megys y gwuaethant a bedwar cant ar ddeg, neu bynthege cant ffynyddoedd. Yn fyr, y mae yn eglur na yw Duw yn ei air yn pennodi gweddi na ddull allanol un math o weddi, pa un ddylai darddu yn ddfifyfyr, ai cael ei llun yn ffurf ym mlaen llaw. Yn unig, mae yn rhoddi i ni reolau cyffredinol; dylai pob peth gael ei wneuthur mewn trefnu—na byddom rhy brysyr â'u genau, a na frysio ein calon i draethu dim ger bro Duw, a'r cyffelyb, sy gyfaddas i'r dduw ffordd: gan hyny, gallwn, i.e. dylem be derfynu fod y dduw yn gyfreithlawn. Y ganlyniol, y mae rhwymu crefydd wrth i fel ag i goudemnio y llall megys yn anghyfreithlawn, yn edrych, fel y dywed un y grifenydd dysgedig, yn rhy debyg i goe grefydd, gan fod Duw ei hun wedi gadael gydwytbod yn ddirwmiad y naill ffordd na llall. Am ragoroldeb gweddi o'r meddwl lle y mae y Cristion o helaethrwydd ei gal yn tywailt ei ddeisyfiadau ger bron Duw nid oes ond ysbryd halogedig a faidd ag safn i'w rhagon. Ond ai nid oes un ffordd fawrhau rhagoroldeb hon, ond trwy ddi'f y llall a'i chyfrif yn bechadurus? Och! ni mewn ffurf y mae y drwg, ond mewn ffurf ioldeb; a chlefyd ydyw hwnw a ellir ei gan mewn un yn gweddio heb lyfr. Gellir cad dyn yn gweddio heb ffurf ac etto dan ry ffurfioldeb. Er fy mod yn addef fod y hwn sydd yn ei rwymo ei hun wrth ffurf odedig yn wastad, yn enwedig yn ei eirchio dirgel, yn ymdangos i mi i fod yn y pery mwyaf o'r ddau i syrthio dan rym y clwy dioglyd' hwnw. Ond i ddiweddu yn fua gyda'r gofyniad hwn; o herwydd ni fwledais draethu yn llawn arno, ond goso ychydig benau ger bron, y rhai a ellw eu cael wedi eu trin yn helaethach mewn aml draethawd medrus ar y testyn, mi ddymunwn i'r rhai sydd yn petruso wrth bob ffurfiau, edrych yn graff ar y ffurfia gosodedig hyny o fendith, gweddi, a diol sydd i'w cael o fewn y Beibl, ac a arferwy gan weision Duw gyda'i foddlonrwydd e Ac yna, ystyriant a wna Duw orchymyn neu dderbyn yr hyn sydd anghyfreithlawn Yr oedd gan yr offeiriad ffurf i fendithio bobl: *Num.* vi. 23, &c. Fe arferodd Moses ffurf o weddi wrth symmud yr arch, "Cyfod, Arglwydd, a gwasgarer dy elynion, ffloed dy gaseion o' th flaen;" *Num.* x. 31. A ffurf arall wrth ei gosod i lawr: "Dy chwel, Arglwydd, at fyrdiwn miloedd Is rael" (*adn.* 36), yr hon a arferodd Dafydd hefyd yn *Salm* lxviii. 1. Yr oedd gan Asaph a'i frodyr ffurfiau o ddiolach a rodded iddynt i'w harfer yn eu gwasanaeth cyhoeddus (1 *Cron.* xvi. 7): "Yna, y dydd hwnw rhoddes Dafydd y Salm hon yn gyntaf i fol

nnu yr Arglwydd, yn llaw Asaph a'i frodr. Dyma y gyntaf a appwyntiodd efe i'w hanu yn y gwasanaeth cyhoeddus, amry anau pa un a helaethwyd yn fawr wedi yn, fel y gellwch weled wrth gymharu *alm* cv. â'r rhan gyntaf o'r gân a nodwyd chod; a *Salm* cxvi. â'r rhan olaf o honi. Wrth gyssegru y deml, fe arferodd Solomon eiriau a ysgrifenasai ei dad i fendithio Duw: 2 *Cron.* vii. 6. Fe orchymynodd Heceiah dduwiol i'r Lefaiad foliannu yr Arglwydd â geiriau Dafydd ac Asaph: 2 *Cron.* xix. 30. Diammheu y gallasai y gwr da wn foliannu yn ddifyfyr, megys y meddylir llo weddio yn achos y llythyr cabledus ddanfonwyd ato (2 *Bren.* xix. 14), etto ni ybyddod yn anghyfreithlawn arfer ffurf yn einidogaeth gyhoeddus. Iê, ein lachawdr bendigedig, esamp'l uwch law pob esamp', roddodd ffurf o weddi i'w ddisgyblion: ac arferodd ei hun yr un ffurf o eiriau dair waith drosodd (*Mat.* xxvi. 44): "Aeth ymth drachefn ac a weddiodd y drydedd aith, gan ddywedyd yr un geiriau." Ac mae y dysgedigion o'r farn mai y gyfran c Salmu a arferid gan yr Iuddewon wrth dw y Pasc oedd yr hymn a ganodd efe da'i ddisgyblion, y noson hono cyn myned lan. Gwel Beza a Gerhard ar y lle.

PENNOD XLIV.

pen hwn o weddi gyhoeddus yn cael ei ddefnyddio yn fyr.

5ed. Deuaf yn awr at y pummed peth a riadwyd i'w drin ar y pen yma o weddi hoeddus; a chymhwysiad ydyw.

DOSB. I.

(1af.) Y mae hyn yn dangos pa achos sy'n bobl Dduw—ym mha le bynag y byddet byw—i weddio am benswyddwyr da, enwedig brenhinoedd a thywysogion. Ceyrnasoedd," ebe un, "ydynt dai lleffya eglwys, ar ei phereindod yn y byd." Y h ag y byddont hwy, y cyfryw fydd ei rinaeth hithau, a'r lleffyaerwch a gaiff na isod. "Gweddier dros frenhinoedd," oedd yr apostol, "a phawb sy mewn gorthafiaeth; fel y gallom ni fyw yn llonydd yn heddychol, mewn pob duwioldeb ac estrwydd;" 1 *Tim.* ii. 2. Wrth dduwioldeb y mae yn meddwl yn enwedigol proffesio o'r gwirionedd ac arferiad cyhoedd o'r addoliad Duw. Nis gall un swyddwrldias i'r saint fyw yn dduwiol, o ran coflio y gwirionedd yn eu calonau, ac arferiaddi yn y dirgel. Gallasai Daniel a'i gyfion gael hyn, er gwaethaf Nebuchodoncr. Ond y mae tywysogion yn dwyn priadau drysau yr eglwys wrth eu gwregu, i'w hagar, neu eu cau. Pan fyddo syddog ffyddlawn yn rheoli, yua y mae

llwybrau Seion yn agored a sathredig; pan fyddo gelynyon i ffyrdd ac addoliad Duw yn meddu awdurdod, yna y maent yn galaru. Mae pyrth yr eglwys yn gauedig, a drysau y carchar yn agor i weision Crist. Yna y mae y wraig yn ffoi i'r diffaethwch, a chrefydd i ystafelloedd dirgel, fel yr ydym yn cael yn nyddiau yr apostolion, pan oedd yr eglwys wedi cyfarfod, a'r drysau yn gaued, i weddio dros Pedr. O! gweddierwch dros frenhinoedd a phenswyddwyr, o blegid megys y maent hwy yn dwyn agoriadau drysau yr eglwys, felly y mae Duw yn dwyn yr agoriad a egr eu calonau hwythau wrth ei ewyllys.

DOSB. II.

(2il.) Mae yn ceredyd y rhai a droant eu cefnau ar yr addoliad cyhoeddus. Ac y mae y rhai hyn o ddau fath; y didduw halogedig a'r ymwahanwr petrusgar.

(1.) Y didduw digrefydd; y fath ag sydd o ysbryd halogedig yn troi cefn ar yr addoliad cyhoeddus. Y mae gan yr Iuddewon ddywedriad o eiddo un o'u doethion yn fynych yn eu geneuau: "Pwy bynag sydd yn trigo mewn dinas lle y mae synagog, ac nid ä yno i weddio, dyna'r dyn a haeddai yr enw o gymmydog drwg." "Och! pa rifedi ynte o gymmydogion drwg sy genym ni yn ein plith, na cheir ond anfynych eu gweled yn y gynnulleidfa o'r naill ben i'r flwyddyn i'r llall? Y mae llawer yn byw fel pe baent wedi rhwygo y weithred a seliwyd yn eu bedydd, ac ymwrthod â phob ufudd-dod i'w Gwneuthurwr; ac am fynegi i'r byd nad ydynt yn ei ddyled o un addoliad. Gwaeth anifeiliaid yw y rhai hyn na'r mochyn yn ei gut, neu y march yn ei ystabl. Fe wnaethpwyd y rhai hyn at ein gwasanaeth ni, ac y maent yn ufudd i'r perwyl. Fe luniwyd dyn at wasanaeth ei Grëwr, yn greadur o ddihefyd grefyddol; ac wrth hyn, y mÿn rhai ddarlunio cynneddfiad natur dyn, a'i wahaniaethu oddi wrth ysgrubliad, yn hytrach nag wrth ei ddawn resymol. Ac yn wir y mae mewn rhai anifeiliaid frith wybodaeth, sydd yn edrych yn lled debyg i ddawn gymdeithasgar dyn. Ond crefydd sy beth y mae ei naturiaeth yn hollol wag o hono, ac anaddas iddo; ac am hyn, nid oes dim a drÿ ddyn yn anifail fel anghrefydd. Y mae y Talmud Iuddewig yn rhoddi gofyniad fel hyn, "Pa ham y gwnaeth Duw ddyn yr hwyr o flaen y Sabbath?" ac yn rhoddi hyn fel un rheswm, "Fel y cai yn ebrwydd roddi ufudd-dod i'r gorchymyn," sef, sancteiddio y Sabbath, a dechreu ei fywyd, fel pe buasai äg addoliad Duw, yr hyn oedd prif ddiben ei roddiad iddo. Oni allwn ni ynte ryfeddu anynedd Duw, sydd yn goddef yr ystruciniaid annuwiol hyn i fyw, y rhai, trwy y dystyrwch erchyll yma ar ei addoliad, a rodiant yn wrthwyneb i wir ddiben eu creadigaeth? Pe byddai y clychau sydd yn galw i addoliad Duw yn

rhoddi iddynt rybudd am ryw gampau, neu wylhabsant afreolus, O! gytied y caem hwy yn tyru ynghyd! Ond gweddïau a phregethau, nid ydynt at eu blas. O ba le y tardd yr anghrefydd a'r annuwiaeth yma, a ddengys llawer yn ein plith? Yn sicr, o gydwybod gyhuddol. Dywedir am Cain, "Efe a aeth allan o wýdd yr Arglwydd;" *Gen. iv. 16.* Hyny yw, medd rhai esbonwyr, o'r man yr oedd gan Dduw ei eglwys a'i addoliad ynddo, o herwydd yno y mae Duw mewn modd neillduol yn bresennol. Yn wir, y mae euogrwydd yn magu arswyd Duw. Hyn sydd yn peri i rai wneuthur a allont at wisgo ymaith y meddyliau am y Duwdod, gan eu bod mor flinderus i'w cydwybodau drwg. Yn awr, i ddyw hyn i ben, nid oes ganddynt un ffjordd ond gochel-yd y moddion a dddw Dduw a'u pechodau i'w cofiadwriaeth. Buau y gogwyddwyd Herod i dori y pen hwnw, tafod pa un oedd mor hyf i ddywedod wrtho am ei feiau. A hawdd ennill calonau halogedig i dafu ymaith y dyledswyddau hyny a wasgant yn drwm ar eu cydwybodau dolurus. Ond bliu yw cyflwr y dyn hwnw na wýr am un ffjordd i gael esmwythra, ond drwy dafu ymaith y plastr a allai iachau ei glwyf. O! druceiniaid gresynus! ni wna hyn eich tro. Pa beth? er i'r carcharor gau ei glustiau, a nacau gwrandaw ar y barnwr yr rhoddi y ddedfryd i'w erbyn, a wna hyny ei gadw rhag y crogbren. Na wna yn sicr, yn hytrach parai iddo gael ei ddafon yno yn gynt am ei ddiystyrwch ar y llys; lle y gallasai, o bossibl, gael galw y ddedfryd yn ol, pe buasai yn ymddwyn yn well, ac yn ymstwtng i ofyn ei fywyd ar law y barnwr. Gwrandawed pechaduriaid neu beidient, deuent i'w addoliad neu beidient, fe ä Duw rhagddo yn ei orchwyl. Dirmygu Duw, a throï dy gefn ar ei addoliad, nid y ffjordd ydyw i attal, ond i brysuro, dialedd dwyfol. O! gymmait gwel fyddai i ti ymbil ä'rh farwr, a disgwyl wrth byrth doethineb! Cyhyd ag y byddo dynion, er mai rhai drwg, yn ymarfer äg ordinhadau, y mae gobraith iddo, o herwydd y maent dan y moddion; ond pan fwriant y rhai hyn ymaith, dyna eu dinystr yn prysuro.

(2.) Yr ymwahanwr petrusgar; y cyfryw a'r nad ydynt yn ymgadw o'r addoliad cyhoeddus oddi ar ysbryd halogedig annuw, fel y rhai o'r blaen, ond oddi ar ryw amhheuan, pa un a allant yn gyfreithlawn ddyfod i'r addoliad yno, am fod rhyw feiau yn y gweinyddiad, neu o leiaf bethau a dybient hwy felly, ar y rhai hyn y maent yn diflasu, ac felly yn cilio draw; fe allai mai am fod y dyledswydd o weddi yn cael ei chyflawni ä ffurf osodedig, yr hyn a gyfrifant hwy yn anghyfreithlawn. Mi äf heibio i hyn, am i i mi ei drin eisoes. Neu, fe allai nad y ffurf, ond rhyw ymadroddion ynddi, sydd yn eu

tramgwyddo; ac am hyny, ni feiddier ddyfod yno. Felly y gofyniad a fydd,

Gof. A yw yn gyfreithlawn bod yn bresennol yn y gwasanaeth hwnw, neu yn y gweddïau cyhoedd, lle y mae rhywbeth yn feius.

At. I roddi ateb i'r gofyniad hwn, y mae yn rhaid i ni, yn gyntaf, wahaniaethu rhwng beiau, nid ydynt oll o'r un radd. Y mae beiau yn y defnydd, a beiau yn null a thre y weddi. Ac fe ddichon beiau yn y defnydd fod naill ai yn rhy sylfaenol, neu o radd lle heb fod yn pertlyn i sylfaen crefydd, na yn terfynu arno. Ac fe ddichon y beiau llai hyny fod wedi eu taenu trwy y weddi fel ag i'w llygru o ben bwy gilydd; neu fe yn unig mewn rhyw ychydig ymadroddio. Yn ail, Y mae yn rhaid i ni wahaniaethu rhwng cymmeradwyo beiau, diffygion, llygriadau a fyddo mewn gweddi, a bod y bresennol yng ngwasanaeth Duw, lle y mae rhyw bethau yn feius. Yn awr, yr wyf i ateb ei fod yn gyfreithlawn i Gristion fe yn bresennol yn y gweddïau hyny, lle y mae rhai pethau a dybir yn feius o ran y weddi allanol; ie, ac hefyd yn eu defnydd, mae pethau heb fod yn taraw ar y sylfaen, a rhai hyn heb fod ar led trwy holl gorff gweddïau, ond mewn rhai ymadroddion yn unig. Nyri a allwn fod yn bresennol, lle mae Duw yn bresennol yn ei ras a'i gariad. Gallwn ddilyn yr Oen yn ddiogel, pa bynag yr el. Yn awr, nid yw Duw, o ael llwgr athrawiaeth, mewn pethau pell o wrth y sylfaen, neu lwgr addoliad, mae pethau defodol ac o is natur, ddim yn bwytiaith eglwys, ac yn tyngu ei bresennol oddi wrthi, ac ni ddylem ninnau. Yn wos yw y sail o athrawiaeth wedi ei dinystru a'r addoliad ei eilunaddolgar, yn yr ael hwnw y mae Duw yn myned o'u blaen, yn galw yr holl ffyddloniaid ar ei ol, allan gynnundeb y fath eglwys. Ond lle y bydd llygriadau mewn eglwys o'r natur flaenaf lithau heb osod ar y rhai sydd yn ei chyfundeb y fath gyfreithiau ag sydd yn dangenrheidrwydd o gymmeradwyo pell anghyfreithlawn, nid pechod yw dal cyfundeb ä hi—ond pechod, ac nid un bys an, yw ymwahanu oddi wrthi. Mae rhaid goddef llawer o bethau er cynnal heu well ac undeb, a wynnau addoliad Duw pan na byddo yn ein galw eu diwygio. Nid yw ein dyfodiad chwast i'r ordinhad deongli fel cydsyniad ä'r cwbl a wneir y Un peth yw goddef, peth arall yw ymfoni. Pwy erioed a haerodd fod pawddel i gynnulleidfa, yn dangos trwy hyn eu cydsyniad ä phob ymadrodd amherfynasol yng ngweddi y gweinidog, neu ä phesboniad gywrog, neu gam oleu a rydd ar ryw destynau o'r Beibl yn ei brege. Pe byddai hyn yn bod, fe arweiniodd Harglwydd y bobl i fagl, pan barodd iddwylio rhag surdoes athrawiaeth y Phar

a'd, ac yr erchodd er hyny iddynt eu gwrandaw yn pregethu: *Mat. xxiii. 3.*

(3ydd.) Er annogaeth. Yn gyntaf, Gwna gydwybod o gyduno â'r eglwys yn ei haddoliad cyhoeddus. Na feddwl dy fod wedi dy adael at dy ryddid i wneud neu beidio, ond rhwyma y peth ar dy gydwybod fel dyledswydd, o blegid felly yn wir y mae. Chwi feddylwch mai dyledswydd y gweinidog yw gweinyddu ordinhadau; yn sicr ynte eich dyledswydd chwithau yw dyfod yno. Cystal fyddai iddo ef weddio drosoch gartref, a dyfod i'r eglwys heb gael ei bobl yno. A oes gwae iddo ef oni ddarpar efe ymborth i'ch encidiau, ac heb un i chwi os na ddeuwch i gyfranogi o hono? Pa fodd y mae i chwi reswm i dybed felly? A phan ddeloch, na thybiwch eich bod yno yn ddigon buan, ond i chwi gael y bregeth, er i chwi gollu y gweddiau a ddylent eich paratoi chwi i'r gair, a sancteiddia y gair i chwithau. Nid y ffordd i gael budd oddi wrth un ordinhâd yw esgeuluso un arall. Fe eill y gweinidog bregethu, ond Duw sy raid roi addysg i ti gael lles. Oni egyr Duw dy ldeall i ddirnad am, a'th galon i ymddwyn rwy, y gair a glywi, ni ddaw dim firwyth o hono. Yn awr, gweddi yw yr agoriad i agor calon Duw, megys mai ei Ysbryd yw yr agoriad i agor dy galon dithau. Yn ail, gwylia ar dy ddyfodiad, a'th ymddygiad, megys yn y rhanau ereill o addoliad cyhoeddus, felly yn enwedigol mewn gweddi. Yn gyntaf, Pa fodd yr wyt yn dyfod i addoliad cyhoeddus—edrych na ddelych yn dy fudrddi; fy meddwl yw, na byddwch yn edrych ar anwiredd yn dy galon. Ymolch, ac yna gweddia. Felly y bwriadai Dafydd: "Golchff fy nwyllaw mewn diniweidrwydd, ac felly yrchynaf dy allor," yn cyfeirio at yr offeiriad a ânt at y noe cyn nesau â'u haberth at yr allor: *Ecsod. xxx. 18, &c.* Fe'i cyfrifvyd yn rhyfgy mawr mewn un, ei fod yn neiddio dyfod o flaen ei dywysog âg anadl drewedig. O! ynte, y fath weithred hyfwrw i ti nesau at y Duw mawr mewn unrhyw bechod! Bydd hwn yn sicr o beri i'th andl mewn gweddi ddrewi, ac o'th wneud yn ffaith ganddo. Yn ail, Dy ymddygiad mewn gweddi; edrych ar ei fod gyda pharch ancteiddiol: (Yn 1af) gyda pharch oddi mewn. Gelwir Duw yn ofn ei bobl, am ei fod yn cael ei barchu ganddynt yn eu hagosod ato. Ofn, fe'i rhoddir am y cwbl o ddoliad Duw, am nad oes un ran o hono w gyflawni heb gryndod sanctaidd; hyn, el y crychnod i'r gerddoriaeth, a bair harddwch a chroesawiad i'n gweddiau a'n diolchadau hefyd: "Gwasanaethwch yr Arglwydd mewn ofn; llawenhewch mewn dychryn. Yn awr, i'th lenwi â meddyliau o barchus rswyd tuag at Dduw, llafuria am gael feddwl mewn awn am Dduw, fel un anfeidrol goneddus mewn sancteidrwydd, mawr-

hydi, a gallu. Mae diffyg parch at ryw un yn dyfod oddi wrth y meddyliau gwael a fyddo genym am dano, yr hyn a'i gwna yn amhossibl i enaid anwybodus fod yn gwir barchu Duw—pa mor isel bynag fyddo ei agwedd allanol—am na w'yr efe pa fath un yw Duw. Tywysog mewn gwedd-ddulliad dieithr nis adnabyddir, ac am hyny nis croesawir lle y delo, fel pan fyddo yn ddangos ei i fawrhydi brenhinol. Y saint a arferent arswydo eu calonau i barch at Dduw mewn gweddi, trwy ddwys ystyried ei deitlau o fawrhydi: *Salm lxxxix. 6.* (Yn 2il.) Parch oddi allan. Ysbryd yw Duw; er hyny, fe f'yn barch gan ein corph ni, yn gystal a'n hysbryd—cans ei eiddo yw y ddau—ac yn enwedig yn y cyhoedd. Ni byddai brenin foddlaw'n i ymddygiad difoes gan ei was yn ystafell ei wely, lle nad oes neb yn gwelod ond ef ei hun—llawer llai y goddef efe hyny yn ei bresennoldeb, lle y mae yn eistedd ar ei orsodd yng ngŵydd tyrfa o'i ddeiliaid. Yn awr, yr agwedd mwyaf addas ar y corph, mewn addoliad cyhoedd, i ddangos ein parch, yw penlinio: "Deuwch, addolwn, ac ymgrymwn; syrthiwn ar ein gliniau ger bron yr Arglwydd;" *Salm xcv. 6.* Felly Paul, wrth gymmydd ei genad â henuriaid Ephesus: "rhoddodd ei liniau i lawr, ac a weddiodd gyda hwynt oll;" *Act. xx. 36.* A'r Cristionogion oll oedd yn Tyrus, yn hebrwng Paul i'r llong, gyda'u gwragedd a'u plant, "wedi gostwng eu gliniau ar y traeth, a weddiasant;" *Act. xxi. 5.* Lle na byddo modd i wneud hyn, hwy ddylent sefyll, oddi eithr bod gwendid natur yn lluddias. Am eistedd, nid yw yr Ysgrhythyr yn ei ganmawl fel agwedd gweddi; nid yw eglwysi Crist chwaith wedi ei farnu felly. "Gweddio o eistedd, nid yw yn ol trefn yr eglwys," medd Tertulian. Am y lle hwnw (*2 Sam. vii. 18*): "Dafydd a eisteddodd ger bron yr Arglwydd," gellir ei ddarllen "arosodd ger bron yr Arglwydd;" felly y cymmerir y gair mewn lleoedd ereill; megys *Gen. xxvii. 34; Lef. xxiv. 8; 1 Sam. i. 22.* (Yn 3ydd.) Gwrandawiad a dyfalach meddwl, fel y byddont yn cyd-ganlyn gyda'r gweinidog a gwresogrwydd eu serchiau, ac yn tystio ein cydsyniad â'r gweddiau a a roddir i fyny trwy eu "Amen" o'r galon ar eu diweddiad: *1 Cron. xvi. 36; Nehem. viii. 6; 1 Cor. xiv. 16.* Onid e, y maent yn wir megys tant wedi tori mewn cydberoriaeth, yr hwn ni ddwyed gyda'r lleill, ac felly v mae yn annhrefnu y gynghanedd.

PENNOD XLV.

Am weddi anghlyffredinol—ei natur, a chan twy y mae i'w chyflawni.

Y FATH olaf o weddi—o ran agwedd ei chyflawniad—gweddi anghlyffredinol ydyw.

I fyned trwy ba un, mi a geisïaf atteb y pum gofyniad hyn. 1. Beth yw gweddi anghyffredinol? 2. Gan bwy y mae i'w chyflawni? 3. Ym mha amserau penodol y dylem ei chymmyrd i fyny? 4. Pa ham y mae gweddi anghyffredinol i'w chwanegu at y gyffredinol? 5. Pa gynghor neu gyfarwyddyd ellir ei roddi, er chyflawni y ddyledswydd hon yn dderbyniol ac yn llwyddiannus?

Gof. 1. Pa beth yw gweddi anghyffredinol?

DOSE. I.

At. Fe ellir galw gweddi yn anghyffredinol mewn ystyriaeth ddyblyg.

1af. O ran yr amser a neillduir i'w chyflawni. Y pryd hyny y mae yn anghyffredinol, pan fyddo rhywfaint mwy na chyffredin o amser yn cael ei neillduo a'i gyssegru at y gwaith hwn. Fel hyn yr ydym yn cael Jacob yn ymdrechu hyd doriad y wawr (*Gen. xxxii*), a Iosuah a henuriaid Israel "hyd yr hwyr" (*Ios. vii. 6*), y naill, y mae yn debyg, yn treulio y nos, a'r lleill y dydd, yn y ddyledswydd yma. Ac "Israel," yn eu rhyfel â Benjamin, "a wylasant ac a arosasant ger bron yr Arglwydd y dwthwn hwnw, hyd yr hwyr;" *Barn. xx. 26*. Ni a gawn Daniel dros amryw ddyddiau ynghyd â'r weddi: *Dan. x.*

2il. O ran yr hyn a gydgyssylltir â hi. Y pryd hyny y mae gweddi yn anghyffredinol, pan fyddo ympryd hefyd yn cydganlyn. Yn awr, ympryd sydd yn ymattaliad crefyddol trwy ba un yr ydym yn gadael heibio—hyd y gallom, ac y byddo yn weddus—ein holl gysuron daearol, i gystuddio ein heneidiau ac awchu ein gweddiau o hyny yn fwy. Megs yn gyntaf, ymattaliad oddi wrth faeth, pa un bynag ai bywd ai diod: *Esd. iv. 16*; *Ionah iii. 7*. Oddi wrth hyn y gelwir y cwbl yn ympryd, i arwyddocau, nid arferiad cymmedrol o ymborth—yr ydym yn rhwym i hyny bob amser—ond ymattaliad hollol, oni bydd angen natur, trwy ryw lesgedd a gwendid, yn gofyn i'r gwrthwyneb. Lle y byddo fel hyn, cymmhwys ydyw i'r ddyledswydd leiaf roddi lle i un fwy, gan mai diben ympryd yw ein cynnorthowy mewn gweddi—yr hyn nis gwna pan fyddo natur yn lesgau dano; canys ni ddichon yr enaid ehedeg, os bydd adenydd ein hysbrydoedd corphorol yn methu. Yn ail, Rhoddi heibio bob dillad costfawr ac addurniadau y corph. Nid yw gwisgoedd gwyccion ar ddydd ympryd yn gweddu ond fel addurniadau disglair ar alarwisg. "Galaru wnaethant, ac ni wisgodd neb ei harddwisg am dano;" *Ecsod. xxxiii. 4*. Ac yr oedd hyn wrth orchymyn Duw (*adn. 5*): "O blegid yr Arglwydd a ddywedasai wrth Moses, Dywed wrth feibion Israel.....Diosg yr harddwisg oddi am danat." Mewn gair, pob difyrwch naturiol, peroriaeth, peraroglu, a pha beth bynag a

lonai ac a foddia y synwyrâu, ydynt i gadael heibio ar yr achos arbenig hwn gwelwch *Dan. vi. 18*, a x. 2, 3. O blegid nad yw ymattaliad oddi wrth ymborth, a ymwadiadau ereill i'r dyn oddi allan, y rhanau addoliad ynddynt eu hunain, na yn hanffodol i natur gweddi, etto y mae yn ofynol yn y ddyledswydd neilldu hon, mewn ffordd o gynnorthwy i'w chyflawni, ac y maent yn golygu dibenion y brydol. Yn gyntaf, yr ydym trwy yr ymattaliad yma, yn addef ein hanheilyngdod i fwynhau y fath gysuron, ac y gall Duw y gyfiawn ddwyn y cwbl oddi arnom. Yn ail, Yr ydym, trwy ein hympryd a'n hyn attaliad allanol, yn dadgan grym ac awch serchiadau tu mewnol hyny sydd i fod i waith mewn gweddi anghyffredinol. Y mae dynion yn arfer dangos nwydau cryion eu henaid, trwy beidio â chynnaliathychysuron y corph. A ydyw y nwyd o driswch yn gwasgu ar ddyd? Mynych y ceuo ei weled ef yn troi oddi wrth ei ymborth Felly y Salmydd, "Fy nghalon a darawo ac a wywood fel llysieuyd; fel yr anglofiâu fwyta fy mara;" *Salm cii. 4*. Ai ofn sydd yn meddiannu y galon âg arswyd rhyw be ygl mawr, sydd yn bygwth ac yn agos at Chwi gewch y cyfryw un yn gwrthod bryd arferol. Felly y gwnaeth y morwyn y dymnestl: *Act. xxvii. 33*. Ai digddsydd yn poeni dyn? Yr oedd Ahab ddwfn yn y nwyd hon pan nacawyd ef winllan Naboth. Ac y mae yn gorwedd ei wely, "ac ni fwytaï fara;" *1 Bren. xxi*. Ai awydd am gael rhyw friaid mawr i bwydd yn meddiannu ac yn gorlenwi y galon? Ni chaniatâ hwnw mo'r amser iddo ei hysbryd at ei bryd bywd: "Melldigedig;" ebe Saule "fyddo'r gwr a fwytao fara hyd yr hwyr fel y dialwyf ar fy ngelynyon;" *1 Sam. x. 24*. Yr ydym yn cael y gôf, yn y prophwy mor ddygn yn ei waith eilunaddolgar, fel mae yn ei wasgu ei hun â newyn; ac fwyty, er i'w nerth ballu; nid ff, er ei fwydd yn diffygio: *Esa. xlv. 12*. Yn awr, mewn gweddi anghyffredinol, fe ddylai y Cristifod â'r holl nwydau hyn mewn gwedd y brydol a sanctaidd, wedi eu tynhau i'r rhan uchaf sydd yn bosibl. Dylai fod yndristwch dwfn am bechod, ofn a chryndrhag barnedigaethau Duw o'u herwydd, dder sanctaidd i'w erbyn, ynghyd â dynu iad awchus i ymddial arno, am y dianhwydd a ddygodd ar Dduw. Ac mewn gadeisyfiad hiraethlawn am heddwech â Duw ac adferiad i'w ffafr, yr hyn y darfu i bechod ei drwm golledu o hono. Yn awr gan fod gorlif nwydau naturiol yn ei ddangosi ei hun yn y dull hwn, hyd at roddi dynu i gystuddio eu cyrph, ac ymwrthod â'r hyn y mae natur yn daerac am dano; am hyn fe fÿn Duw i'w bobl, yn eu hymddarostyngiadau neillduol, wneuthur yr un peth, i b

i natur roddi gras i gywilydd. Yn drydydd, Trwy yr ymattaliad yma, oddi wrth luniaeth yn enwedig, yr ydym yn gwasgu ar gnawd nwyfus, ac yn cael mantais fwy i farwau y chwantau anianol hyny sydd yn cael eu porth a'u cynnudd oddi wrth y corph. Y mae corph llawn fel tir flaeth, i'r cyfryw chwantau dyfu yn ddrygsawrus ynddo. Pan bsgir y corph, maethir ei chwantau. Os bydd ef yn uchel, nid hawdd fydd cadw ei awydau yn isel. Pa beth arall a wnaeth Paul gospi ei gorph trwy yr ymprydau a'r gywiliadwriaethau yr oedd yn fynych ynddynt, ond meddwl cael dymrod llawnach ar y chwantau hyny oedd yn cael eu grym oddi wrtho? "Y mae yn gweddu i ni," medd Jerome, "ddofi y march hwn â ffirwyn, fel y cerddo ei lwybr yn drefnust, tan reoliad Ysbryd Duw;" *Epist. 9*. Yn wir, march pasgedig yw y tebycaf i dafu ei farchogwr; ach an fod yr Ysbryd Glân yn gwneuthur sefnydd o'r corph yn gystal a'r enaid, yn ei waith, y mae y ffirwyn hon o ympryd yn dra buddiol i'w ddofi. Yn bedwerydd, Y mae yr ymattaliad yma oddi wrth ymborth yn buddiol i awchu ein hysbrydoedd, a bywogi galluoedd yr enaid yn y ddyledswydd; rhai, yn amgen, a wesgir i lawr ac a dewchir, fel y gallwyf ddywedyd, gan lwyth y cylla. Corph llawn a wna lygad trwm, ac ysbrydoedd marwaidd, a pha beth ellir ei ddefnyddio o hyn ond gweddiau cysglyd, yn unwedig pan ydym i barhau yn hwy na chyfredin wrth y gorchwyl.

DOSB. II.

Gof. 2. Pwy ydym y rhai a elwir at y ddyledswydd hon o weddi anghyffredinol?

At. Y mae y gorchymyn yn cynnwys awb a'r sydd o oedran i ddeall natur y ddyledswydd, pan ddygwyrddo unrhyw achos anghyffredinol am hyny. Yr ydym yn cael od eglwys a gwlad yn cael eu galw ati. Y mae yn ddyled ar benswyddwr, pan fyddo chos gwladol, i alw ei ddeiliaid i'w chyfaawni yn gyhoeddus. Gwel *Ioel ii. 16*, a *Veh. ix. 1*. Ac y mae yr hwn ni phlygo i'r gwlad, yn ei wneuthur ei hun yn droseddwr yr erbyn Duw a dyn: *Lef. xxiii. 29*. Y mae yn cyrhaedd at deuluoedd: y mae Esther i'w llangesau yn cadw ympryd ynghyd: *Est. iv. 16*. Ie, y mae yn ddyledswydd ar personau unigol; ac yn cyrhaedd i'r ystafell dirgel? "Pan ymprydied di, enenia dy en, a golch dy wyneb; fel nad ymddangosch i ddyonion dy fod yn ymprydo, ond i'w had yr hwn sydd yn y dirgel;" *Mat. vi. 17, 18*. Mae amgylchiadau y lle yn dangos, mai ympryd dirgel yn yr ystafell a feddylir. Ni'u cawn oll ynghyd yn *Zech. xii. 12*: "Y gwlad a alara; dyna ympryd gwladol: "pob gwlad wrtho ei hun, teulu i'w Dafydd wrtho ei hun," dyna yn teuluaid; "a'u gwragedd wrthyt eu hunain;" dyna ympryd personol, dirgel, yn yr ystafell.

Gwrth. Ond ai nid yw y gweddio a'r ymprydo anghyffredinol yma yn waith rhy lymdost a blin i ddyddiau yr efengyl? Pa le y gorchymynodd Crist i'w bobl, dan yr efengyl, gulhau eu cyrph drwy y fath lymder a hyn? Llawenydd a mawl a weddant yn well i'n breintiau a'n rhyddid ni.

At. Y mae y fath sothach ysgafn a hyn wedi cael lle gyda rhai yn ein dyddiau penrydd diweddar. Math newydd o seintiau yw y rhai hyn, na wybu y byd ond prin am danynt cyn ein hoes lygredig ni. Mynent fod yn y nef cyn eu hamser, ac heb adael dim dagrau wrth eu llygaid, i Crist yn angheu eu sychu ymaith. Pe gallai rhai o'r rhai hyn fyw heb bechod na phoen, byddai ganddynt ryw liw dros eu dadl; er, pe felly, gan eu bod etto yn y cnawd, y byddent yn nyled eu brodyr o'r dagrau hyny, y rhai na byddai achos iddynt eu tywallt drostynt eu hunain. Y mae yr apostol, yr wyf yn sier, yn peri i ni wylo gyda'r rhai sydd yn wylo. Fel hyn yr ymprydiodd Nehemiah yn achos ei frodyr cystuddiedig yn Ierusalem, pan oedd ei achosion ei hun yn llwyddiannus ddigon, gan ei fod ym mhelydr mwyniant llys brenin Persia: *Nehem. i. 4*. Ond nid oes neb mewn cnawd marwol yn rhydd oddi wrth bechod, nac wedi ei freinio rhag gofid; am hyny gall gwsg galar weddu yma weithiau i'r goreu o saint: "Y rhai sydd yn gwsgo dillad esmwyth, mewn tai brenhinoedd y maent;" *Mat. xi. 8*. Felly y saint a ogoneddwyd sydd yn aros yn llys Brenin y nef, llawenydd yw eu gwsgiad hwy o hyd. Ond gwsg ddydd gŵyl y sant ar y ddaear yw hon: megys y mae efe ambell dro yn cael ei ddyddiau llawen, felly nid yw efe heb ei ddyddiau galar: "Y dyddiau a ddaw pan ddyger y priodfab oddi arnynt," medd Crist am ei ddisgyblion, "ac yna yr ymprydiant;" ac yn sier yr oeddynt hwy yn byw dan yr efengyl. Pe buasai ein profesywr difyr ni ger llaw Paul i weled y modd yr oedd yn cospi ei gorph, ac yn ei ddwyn ef yn gaeth mewn ymprydau mynych, y mae yn debyg y buasent yn ei geryddu am ei roed, ac yn ei gyfrif yn anwybodus o'i ryddid Cristionogol. Y gwaethaf a ddymunwn i'r trueiniaid twylliedig hyn yw, iddynt hwy sy mor fawr am lawenydd yma, fod heb gyfarfod â galar mewn byd arall. Nid yw ond arwydd drwg pan fyddo dynion yn syrthio allan â dyledswydd, o blegid ei llymder, ac yn tynu yr iau oddi am eu gyddfa, am fod y cnawd nwyfwyllt yn haeru ei bod yn drom. Y mae y rhai hyn yn deby i Ephraim, a gyffelybir i anner yn dda ganddi ddyrnu (*Hos. x. 11*), ond nid aredig—gwaith trwm newynllyd yw hwnw. Gŵyl o ddiolch, yn dwyn gwledd i'w chanlyn, hwy garant hon, ac y maent yn foddllawn i'w chadw fel dyledswydd efengylaidd; ond dydd ympryd a

gweddi, yn galw am wasgu ychydig ar y corph, nid â hwn i lawr. Ond ai nid oes yr un wledd, ond a â i lawr y gwddf ac a leinw y bol? Yn sicr nid yw y ddyledswydd fendigedig hon yn haeddu yr enw drwg a roir arni gan ddyinion o archwaeth aniaul. I'r cyfryw y mae yn wir yn iau drom, ac yn waith blin. Megys yr oedd y ddwy fuwch flith a ddygasant yr arch, yn myned dan frefu am eu lloia gymmerasid oddi wrhynt; felly y rhai hyn, ar ddydd ymryd, am eu gorchwylion a'u mwyniant bydol, oddi wrth ba rai yr attelir hwynt dros hyny o amser. Och! greaduriaid truaen! megys nad oedd yr arch ond baich i'r buchod, felly y ddyledswydd iddynt hwythau. Ond y gwir Gristion a wŷr beth yw esmwythâd calon, trwy gael ysbryd gostyngedig i addef ei bechod, a chael dadlwytho ei gydwybod o hono, mwynhau boddlonrwydd melus yn ei enaid mewn cymmunde â Duw, a dwyn hyder a heddwch adref yn ei fynwes, fe rydd hwn air ac enw arall i'r ordinhâd hon: fe ddywed i chwi fod yn well ganddo fod yn ymrydio gyda Duw nag yn gwledda wrth fwrdd brenin. Pa Gristion na fuasai yn well ganddo fod yn ymrydio gyda Moses ar y mynydd, nac yn bwyta ac yn chwarae gyda'r dorff lygredig is law y mynydd? Pwy ni chollai bryd i'w gorph i fwydo yr enaid â'r hyfrydwech a dardd o bresennoldeb Duw yn y fath ordinhâd? Pwy ni chymmerai bleser yn galaru ac yn wyo am bechod, i gael sychu ei ddaerau gan gusanau ei lachawdwr? Yn wir, i'r hwn sydd yn sefyll i sugno y boneffion (rhan allanol y ddyledswydd wyf yn feddwl) y mae yn waith sych a diflas: ond i'r hwn a yrir i'r gwindy ac a yf yno yn helaeth o gariad Duw, y mae hi yn ordinhâd dra melus a diddanol. Y mae rhan allanol y ddyledswydd, fel pen isaf ysgol Iacob, yn sefyll ar y ddaear, ac yn gadael y creadur hefyd ar y ddaear, lle y cafodd hi ef; o herwydd i ychydig y mae ymarfer corphorol yn fuddiol. Ond y mae ei phen uchaf a'i rhan ysbrydol yn cyrhaedd i'r nef, ac yn codi yr enaid grasol yno, i e, i gymmunde mynwesol â Duw. Y mae cymmaint o wahaniaeth rhwng sant a rhagrithiwr, neu ddyan anianol, yn y ddyledswydd hon, ag sy rhwng lleidr a gloir i fyny gyda cheidwad mewn carchar, ac ysgolhaig a glôdd i hunan i fyny mewn llyfrgell, i ddarllen rhyw lyfr a fyddo yn dra hoff ganddo. I'r naill y mae yn faich trwm, i'r llall yn bleser digymmharïaeth.

PENNOD XLVI.

Yr amserau i weddi anghyffredinol.

Gof. Pa rai ydyw yr amserau enwedigol sydd yn galw ar y Cristion i ymarfer â'r

ddyledswydd hon, sef y ddyledswydd o wedi anghyffredinol?

At. Yr wyf yn ateb, yn gyntaf, yn gyffredinol, unrhyw achlysur anarferol, fel digwydd, wrth drefn rhagluniaeth ym mynydd y Cristion. Nid yw y fath yma o wedi i'w harfer yn wastadol, fel gweddi gyffredinol. Y mae hon fel ymborth, y llall felly physygwriaeth; ac anaddas fyddai cynmeryd y physygwriaeth o hyd, yr hyd sydd yn dangos ffoledd y Pabyddion y eu hymprydiau a gadwant ar amsera gosodedig, boed eu helynt llwyddiannus neu aflwyddiannus, cyffredin neu anghyffredin. Na feddylier fy mod yma yn dadleu yn ebyn ymrydiau gosodedig: fe fu genym ei hymprydiau misol; ond yr oedd yr achlysur anghyffredinol o herwydd pa un eu gosodwyd yn parhau. Ond i enwi rhai amsera pennodol, sydd yn rhoddi achlysur cynmhwyys i'r Cristion arfer y ddyledswydd anghyffredinol hon.

DOSB. I.

1af. Pan fyddo efe i ymosod ar ryw arturiaeth fwy na chyffredin, lle y dicheu gyfarfod âg anhawsdra neu berygl mawr, cartyniad pa un fydd diddanwech neu drallo mawr. Dyma amser addas i fyned at y ddyledswydd hon, fel moddion er gwastata mynyddoedd o rwystrau, a choroni yr arturiaeth â diwedd da. Fel hyn y gwnaeth Esther, hi fwriadodd anturio ar y tro hyfaw o fyned heb ei galw i wŷdd y brenin, i ofywbydd ei phobl a seliasid i'r lladdfa, wrt gais Haman waedlyd. Dyma anturiaeth y dwyn anghyffredinol i'r hwyneb. Ar hyn, y mae hi yn myned yn gyntaf a Dduw trwy ymryd a gweddi, gan alw hysp y gallai am gynuorthwy gweddiau ereil hefyd; ac felly, yn groes i gyfraith Persia y mae yn ymddangos o flaen y brenin ac yn llwyddo. O herwydd yn lle colli ei bywyd fel y gofynai y gyfraith, gelwid yn ol y fardraws oedd ar fywyd ei phobl, a dymchwelwyd hi ar ben y cynllwynwr ei hunan. Yr oedd gweddi wedi dadgloi ac agor calon y brenin, fel nad oedd iddi yn awr ddiin ond gofyn a derbyn. Nid oes y fath offer yn ag yw ymdrech neillduol gweddi a rwyddhau unrhyw orchwyl arbenig, a' ddwyn i ddiwedd cysurus. Pwy allasa goelïo daethai Ezra a'i fintai o bererinion oll yn ddiogel o Babilon i Ierusalem, garfod y fath gas cyffredin iddynt ym mhokman? Yn awr, pa ystryw a lunia y blaenol hwn at diogelu ei daith ei hun a'i bobl, a diang rhag eu gelynyddion? A gais efe fyddin gan frenin Persia i'w hamddiffyn? Na, yr oedd wedi ymfrostio cymmaint yn y Duw a wasanaethent, fel y mae cywilydd arno roddi lle i'r brenin feddwl na feiddient fwrw eu gofal arno; ond at ymryd a gweddi y mae yn myned (*Ezra viii. 21*), yna y maent yn eychwyn i'w taith ac yn cael y

ffordd yn rhydd o'u blaen : *adn.* 31. Mae ein lachawdwr bendigedig wedi sancteiddio y moddion hyn trwy ei esampl ei hun. Pan oedd ar ddewis, ac anfon allan y deuddeg i bregethu yr efengyl; fel y llwyddent yn well yn eu cenadaeth, y mae yn eu hanfon dan dywysiad gweddi; ac i'r diben hyn y mae yn treulio y nos o'r blaen ei hun yn y gwaith : *Luc* vi. 12, 13. Yn awr, er nad ydyw pob Cristion yn cael ei alw, nac yn debyg o gael ei alw yn ei fywdd i'r fath orchwylion mawr a chyhoeddus ag y cafodd rhai ereill; etto, os deil efe sylwr ar amryw ddiwyddiadau yn ei sefyllfa is, a throion rhagluniaeth yn ystod ei fywyd, fe gaiff weled pethau yn ei gyfarfod a roddant iddo amuaid eglur i arfer y fath roddion. Yr wyt, o bossibl, ar fyned i alwad neu sefyllfa newydd; neu ynte yn y cyfwr yr wyt ynddo yn cyfarfod âg aml ddyrswch a phrofedigaeth. Y mae i ti daith hir neu ffordaith o dy flaen; neu a wnelych â gelyn cyfrwys cyfoethog, sydd yn debyg o dy wasgu, er fod dy achos yn dda. Dyma neges deg yn dy enau i fyned at Dduw am gyfarwyddyd, cymmhorth, a nodded. Neu, fe allai fod genyt blant, a'r rhai hyn i'w rhoddi mewn rhyw alwad neu sefyllfa newydd. Ac onid yw hyn yn anuriaeth o bwys, a chenyt tithau werth mawr i'w nosio megys yn eu llestr hwy? Oni fydd i ganlyniad y cyfnewidiad mawr hwn yn eu cyflwr, osod sail i dristwch, neu lawenydd i ti? Etto, mor ysgafn yw llawer yn hyn, fel pe na byddai nemawr mwy o bwys i'riodi plentyn, nag yw ymadael â buwch neu gefyl mewn marchnad! Och! ychydig o briodasau sy'n cael eu llunio gyda Duw; trwy ymdrech difrifol mewn gweddi am fendith yn yr achos. Y mae gwas Abraham yn rhoddi y cywilydd i lawer rhieni; efe yn daer ar weddi am lwyddiant yn ei daith wrth ymofyn am wraig i fab ei feistr; hwythau yn ddistaw yn achos eu plant. Ond nid rhyfedd fod y bobl sydd â dibenion gwael a chnawdol yn eu harwain yn y fath anuriaethau, yn anghofio gofyn cyngoi Duw yn y bwriad, trwy weddi, ac yn esgeuluso ei wahodd i roddi bendith ar y briodas.

DOSE. II.

2il. Pan fyddo y Cristion mewn tywyllwch mewn perthynas i ryw wirionedd, ac heb gael boddlonrwydd barn, er chwilio yn ostyngedig a manwl yn ei gylch: dyma amser addas i fyned at y ddyledsnydd anghyffredinol hon, fel moddion rhagorol iddo gael gwybod meddwl Duw yn y peth. Gweddï yw yr agoriad addas i ddatgloi calon Duw; ac efe yn unig a'all agor ein dealltwriaethau ni a dattod ein hammheun. Dyma y ffordd a gymmerodd Daniel; a ehabodd fwy o ddeall trwy ei ymgydd a gweddi, na thrwy ei holl ddysg; o blegid

fe anfonwyd cenad o'r nef i beri iddo fedru deall : *Dan.* ix. 21—23. A thrachefn, y mae yn llwyddo yr un modd : *Dan.* x. 12. Ac y mae yr angel yn ofalus i beri iddo wybod mai ei weddi anarferol a dynodd yr ymweliad anarferol hwn iddo; ac hefyd mor dderbyniol oedd ei gais, gan fod Duw yn ei wrandaw mor rwydd, ac yn ei ateb mor fuan: am hyn y mae yn hysbysu iddo y ddau dro ddarfod iddo lwyddo, pan gytatf y dechreuodd ymgystuddio, a bod gorchymyn wedi myned am roddi atebiad i'w weddi. Yn sicr, ni cholodd gweddi mo'i pharch yn y nef; ac y mae iddi etto gystal croesaw ag erioed; ac er mai nid angel fydd y genad i ddwyn ateb i Gristion, etto efe a'i caiff trwy law mor sicr a mwy anrhydeddus, sef yr Ysbryd Glân, swydd yr hwn yw tywys ei bobl i bob gwirionedd. Dyma y modd y daeth Cornelius i gael ei addysgu yn nirelwech yr efengyl (*Act.* x), sef trwy gael ei ogwyddo i daer geisio Duw mewn gweddi ac ymgydd anghyffredinol. Y mae yn dra thebygol fod y gwr da hwn yn y dyddiau terfysgld hyn, pryd yr oedd llawer yn wresog am yr hen ffordd o addoliad Iuddeuaidd, ac ereill yn pregethu ffordd newydd, yn sefyll mewn amhewiaeth beth i'w wneuthur. Ac fe allai hyn ei gyffroi ef i ofyn cyngor gan Dduw trwy ymgydd a gweddi, a deisyf chwaneg o oleu i'w gyfarwyddo yn ffordd y gwirionedd. Y mae hyn yn debygol wrth rediad y genadwri a ddaufonodd Duw ato, tra yr oedd ar weddi : "Anfon wyr i Ioppa, a gyr am Simon, a gyfenwir Pedr; efe a ddywed i ti pa beth sydd i ti ei wneuthur;" *adn.* 5, 6. Ac yn sicr, yn ein hamseroedd rhanedig iunau, pryd y mae cymmiant o wahaniaeth barn, pe buasai llai o ymgceru yn mhliet ein gilydd, a mwy o ymdrechgu gyda Duw am addysg ei Ysbryd, ni a fuasem yn nes i gael drws y gwir, yr hwn y mae cynnifer etto yn ymbalfalu am dano. Y mae llwybr ymrysonau yn llychlyd; dadleuaeth gymhenus a gyfyd y llwch yma, ac a'i chwyth yn fwyaf i lygaid y rhai a garlamant yn wylltfa ynddo, nes ydynt yn colli y gwir, yr hwn y mae eneidiau gostyngedig yn ei gael ar eu gliniau wrth orsedd gras. Pan oedd y digybllion yn ymsenu, ni chawsant gan Grist ond cerydd (*Luc* ix. 46): ond pan oeddynt yn taer weddio yughyd, yna fe anfonodd ei Ysbryd i'w haddysgu.

DOSE. III.

3ydd. Pan fyddo y Cristion dan unrhyw drallod mawr. Dyma amser addas, os yw yn abl i'r gwaith : "A oes neb yn eich plith mewn adfyd, gweddied;" *Iago* v. 13. Hyn yw, bydded yn fwy na chyffredin yn y gorchwyl hwn; canys y mae yn rhaid iddo, i.e. fe wna, os Cristion yw, weddio pryd na byddo mewn adfyd, yn gystal a phan y byddo. Ond yr ystyr yw, y dylai efe yn

awr weddio mewn modd anarferol gyda thaerineb a dyfalwch mwy. O blegid er ein bod yn ein holl ymbiliau i ddadgan gweithrediadau bywiog ein calonau ger bron Duw; heb yr hyn bydd ein gweddiâu yn ddiffas (a chroesaw oer fydd i weddi oer), etto y mae Duw yn arfer disgwyl, ac y mae ei bobl wedi arfer bod yn fwy serchiadol na chyffredin, pan fyddai achosion neillduol yn eu cymmhell at y ddyledswydd hon. Edr-ychwech arnynt mewn rhyw gyfyngder a thralod mawr; a chwi a'u cewch yn rhagori arnynt eu hunain, ac yn gwisgo rhyw ys-bryd tywysogaidd. Felly yr ymddygodd Iacob mewn gweddi (*Gen.* xxxii. 28), fel tywysog yn ymladd am ei goron a'i deyrnas. Fe ymdrechodd a'r angel, yr hwn nid oedd yn neb arall ond Duw ei hun: hyny yw, fe ymegtodd, megys, â phob gwythien o'i galon, ac a roddodd ei holl rhyr ar waith mewn gweddi, fel y gwnai ymdrechwr wrth ymafael â gwrthwynebwyr grymus. Yr oedd Moses yntau yn cael ei lyngu i fyngan y fath sel dros Israel, pan oedd cwmwi du o wŷ uwch ein penau am eu heilunadd-oliaeth, fel y dewisai farw ar y fan, yn hytrach na myned i wared o'r mynydd, heb y newydd cysurus o faddeuant iddynt: *Ecsod.* xxxii. 32. A Nehemiah, pan oedd wedi bod yn galaru, ac yn gweddio ger bron Duw, fe fuasai yn y fath angerdd ysbyrd, fel yr oedd dolur yn ei lygaid a'i wyneb-ryd, yr hyn a ganfu y brenin pan oedd yn gweini ger ei fron: *Nhem.* ii. 2. Drachefn mewn cystudd fe'n gelwir i weddio megys yn ddyfalach, felly hefyd yn helaethach a mynychach. Lle y dywedir yn ol ein cyf-ieithiad ni, ddarod i'n Iachawdwr weddio yn ddyfalach (*Luc* xxii. 44), y mae Lucas Brugensis yn ei ddarllen, "efe a weddiodd yn hwy;" hyny yw, fe dreuliodd fwy o amser nag arferol mewn gweddi. Teirgwaith yn ol eu gilydd yr ydym yn ei gael yn y gwaith: *Mat.* xxvi. 44. Yr oedd ei ing yn fawr, a thônau ei drallod yn gryfion; am hyny y mae yn dyblu, ie, yn treblu ei weddi, ynghyd â griddfanau dyfnion a llefau cryfion at ei Dad. Nid yw natur byth yn ym-egnio i'w heithaf, fel pan y byddo gorthrech arni: yna y mae yr arleisiau yn gweithio a'r ysgyfaint yn codi, a'r galon yn curo; felly, mewn trallod, y dlai ysbyrd gweddi weithio yn rymusach a dyfalach.

DOSB. IV.

4ydd. Pan fyddo y Cristion yn cael ei gernodio gan ryw brofedigaeth, neu ei faeddu gan ryw lygredd; a'r moddion cyffredinol heb dycio i ddiffodd y naill neu farweiddio y llall. Os na wna y dagr byr o weddi gyffredinol gyrhaedd calon chwaut, yna y mae yn bryd tynu y cleddyf yma o weddi anghyffredinol i'w erbyn. Dywed ein Iachawdwr i ni am rywogaeth o ddiadfiad nad änt allan ond trwy weddi ac ympryd:

Mat. xvii. 21. Chwi wyddoch mai achlyst yr ymadrodd oedd achwyniad gwr am ei fafloerig: "Mi a'i dygais ef at dy ddisgy-ion di, ac ni allent hwy ei iachau ef;" *ad* 16. Dyma fel yr achwyn rhai eneidiau tr-ain; y maent er ys llawer o amser yn gwr-ardaw y gair; ac yn eu gweddiâu beunyddi-wedi deisyf grym yn erbyn y cyfrychwant; ac wedi bwriadu i'w erbyn law-gwaith; a'r holl foddion hyn yn methllywddo, pa beth a allant yn chwane-g. Yma cei attebiad; dwg dy gydwyr at Gri-yn yr ordiniad barchus hon o ympryd-gweddi. Fe fu yn foddion llwyddiannus gryfhau o'r diwedd aml Gristion llesg, i yn-ddial ar elynion ysbyrdol, na cheid taw a-nynt er y lleill i gyd; ac fel ail Samson dynu tŷ y diafol ar ei ben ei hun.

DOSB. V.

5ed. Pan fyddo pechod yn amlhau yn fw na chyffredin yn yr amseroedd a'r lleoedd byddom yn byw ynddynt. Mae amserau pechu wedi bod erioed yn amserau llefain saint. Hyn a yrodd Ezra â chalonn drom gyffesu pechod ei bobl, a chwyno eu ffieldra ger bron Duw: gwel *Ezra* ix. Ac f-ddwywed Ieremiah wrth dorf ddrygionus eoes ddirywiol yntau, y byddai i'w enai-wylo mewn lleoedd dirgel o herwydd e-balehder: *Ier.* xiii. 17. Yn wir, y ma pechod weithiau yn tyfu i'r fath uchder-hyfyder, fel mai hyn yw agos y cwbl a ddi-chon y duwiol wneuthur; myned i gongl, gofidio am halogrwydd cyffredinol yr oes, fe y dywedodd un wrth Luther: "Dos frawc i'th gell, a dywed, Trugarhâ, Arglwydd: o "y seiliau a ddinystriwyd, pa beth a wna-cyfiawn?" *Salm* xi. 3. Y fath ddyddia-blin o derfysg gwladol a welodd ein llygaid pan oedd seiliau llywodraethi wedi eu di-nystrio, a gwlad a chwbl wedi eu tafu i an-uhrefn rhyfel. Pan fyddo fel hyn gyd-chenedl gyfan, pa beth a eill y cyfiaw-wneuthur? Hyn a allant ac a ddylent, fe y pryd hyny, ymprydio a gweddio. Y ma etto Dduw yn y nef i ymgeisio âg ef, pa fyddo ymwared gwlad tu hwnt i fedr a deal-dyn. Dyma amser addas appello at Dduw-fel y mae y geiriau nesaf yn rhoddi annaid "Yr Arglwydd sydd yn nheini ei sancteidd-ryfoedd; gorseddfa yr Arglwydd sydd yn y-nefoedd;" *adn.* 4. Ym mha eiriau, y mae eisteddiad Duw yn y nef, fel ei deul, yn cael ei roddi i'w calonogi, mi dybygwn, i an-son eu heirchion yno am ymwared, er mor al-aethus eu hannhrefn. Ac yn sicr, dyma y-offeryn a fu ddefnyddiol uwch law pob ur-arall i ail drefnu y genedl adfydd hon, a' gosod ar sail llywodraeth gyfreithlaw, odd-ar ba un y lithrasai mor eubydus.

DOSB. VI.

6ed. I derfynu hyn: y mae amserau o ddisgwyliad mawr, yn amserau i weddio anghyffredinol. Pan fyddai pobl Dduw yn

awn disgwyliad am nesâd trugareddau lawrion, yna hwy fyddent helaethach aewn gweddi. Fel y cân y ceiliogod yn mlaf tua thoriad y dydd, felly y saint, po gosaf y barnent gyflawniad yr addewidion wnaed i'r eglwys, dyfalaf yr arferent fod aewn gweddi. Pan fyddo gwraig feichiog i chytrif agos i fyny, yna y mae yn dyuno bod ei bydwraig ger llaw. Y mae gweddi hithau wedi cael yr enw er ys talm m ei gwasanaeth rhagorol yn derbyn trugareddau o'r bru: "Y plant a ddaethant iyd yr enedigaeth," ebe Hezeciah dduwiol: "ie yna drachefn y mae yn deisyf gweddi i prophwyd at gael esgoriad gwaredol: 'Dyrcha dy weddi dros y gweddill sydd i'w gael,'" *Esa. xxxvii. 3, 4.* Pan yr oedd Daniel wedi deall, wrth eiriau Ieremiah, fod erfyn amser y caethiwed ger llaw, sef y leng mlynedd a thrigain a rwymsai Duw i'w yddfau yr Iuddeuon am eu pechod (*Dan. x. 1*), fe ymosododd ar hyn i weddio mewn nodd anghyffredinol, ac i ymgystuddio ger bron Duw. Y mae i'ninnau le i feddwl na fydd Babilon ysbrydol—Rhufain wyf yn feddwl—yn hirhoedlog. Y mae yn llawn amser, gan hyny, i'r saint fod yn ddyfalach i'w ag erioed i dori iddi fedd â'u gweddiâu.

PENNOD XLVII.

Rhesymau pa ham y mae gweddi anghyffredinol i'w chwaneu at ein gweddiâu cyffredinol.

Gof. OND pa ham y mae gweddi anghyffredinol i'w chwaneu gan y Cristion, at ei ymbiliau cyffredin yn ei yrfa feunyddiol? *At.* Yn gyntaf, Mewn ufuddod i orchymyn Duw. Y mae efe yn erchi i ni nid yn unig weddio bob amser, ond â phob rhyw weddi hefyd: ac y mae hon yn un rhyw ym mysg y lleill. Ac na ddyweded neb o honom, Ai nid digon gweddio unwaith neu ddwy bob dydd? ond cyssegrwn ar rai achosion ddiwrnod cyfan hefyd, er y golled mewn gorchwyl a theulu. O! mor grintachlyd fyddai rhai tuag at Dduw, pe gadewid hwy yn rhyddion, i neillduo yr amser a welant hwy yn addas at addoliad Duw! Y mae y draws-ddaol yma yn swnio yn rhy debyg i un Iudas (*Mat. xxvi. 8, 9*): "I ba beth y bu y golled hon? Canys fe allesid gwerthu yr enaint hwn er llawer, a'i roddi i'r tlodion. Eithr hyn a ddywodedd efe, nid am fod arno ofal dros y tlodion; ond am ei fod yn lleidr?" *Ioan xii. 6.* Yn lled debyg, pan glywaf rai trueiniaid anianol yn lleffain rhag colli amser i ymrydio a gweddio; a chymmaint defnydd a wnaethent o'r amser hwnw, er lles i'w teuluoedd, wrth ddilyn eu galwedigaethau; yr wyf yn barod i feddwl na y gogaf a ledrithiant ei feddu dros eu teuluoedd sydd yn peri hyn; canys gall y gwyr a rwgnachant ddiwrnod i weddi, rai

o honynt, dreulio llawer yn y tafarny; ond dwyn y maent galonau anonest yn eu myn-wesau, sy'n caru ysbeilio Duw o'i ddyled, ac na waeth ganddynt er lleied o wasanaeth a wnânt iddo. Ai deiliad ffyddlawn ydyw hwnw a dâl y dreth gyffredin i'w frenin; ond os daw achosion y wlad i ofyn cyn-northwy yn rhagor, y mae yn grwgnach neu yn pallu? Nid oes un o orchymynion Duw mor drwm ag y byddai raid i neb achwyn dano; felly hyd yn oed hwn sydd â rhyw lymder yn ei ymddangosiad allanol. Yr ieuau hyny—dyledswyddau wyf yn feddwl—sydd â'u tu allan yn ymddangos galetaf, i'r rhai hyny y mae y plyg esmwythaf o'r tu mewn. Pa beth a ymddengys galetach na dioddef? Ac etto, pa bryd y ceir y saint yn llawnach o lawenydd y nef? Pa dyledswydd lymach na hon o ymrydio a chystuddio ein heneidiau? Ac etto ym mol y y llew hwn sydd yn brawychu trueiniaid anianol, y mae y Cristion yn cael y dil melusaf o gysuron enaid. Mae gwaith teml yn sicr o dâl da, os gwneir ef yn dda; er lleied fo y gorchwyl yn ei dŷ, ni chymmer Duw mo hono am ddim: ni chaiff neb gymne tân ar ei allor ef yn rhad. Ac am hyny y mae yn ffaidd ganddo gael rhai yn beiddio gofyn, "Pa lesiant sydd er i ni gadw ei orchymynion, ac er i ni rodio yn alarus ger bron Arglwydd y lluoedd?" *Mal. iii. 14.* Tra yr oedd y bai, nid yn y dyledswydd, ond ynddynt eu hunain, nad oeddynt yn cael dim mwy oddi wrthi. Fel pe byddai i was drwg ddwyn ei hun i dodi drwy risedd a gwas-traff, ac yna rhoddi ar led mai meistr caled sydd wedi ei ddifetha.

2i. I gydymagweddu â rhagluniaeth Duw, ei driniaeth a'i oruchwyliaethau tuag atom. Pan fyddo Duw yn rhoddi gwedd anghyffredinol ar ei ragluniaeth, y mae yn disgwyl i'w bobl fod yn fwy na chyffredin yn ei geisio ef. Pa beth arall yw meddwl y lle hwnw: "Yn y modd yma y gwnaf i ti Israel; ac o herwydd mai hyn a wnâf i ti, bydd barod Israel i gyfarfod â'th Dduw;" *Amos iv. 12.* Yma y mae Duw yn rhoddi alarm iddynt drwy y driniaeth anarferol oedd yn ei fwriad i'w herbyn; ac yn eu galw yn brysur i gymmeryd y rhybudd, ac ymroddi yn brysur i ddangos arwyddion edifeirwch ac ymddarostyngiad, fel agwedd addas i gyfarfod â Duw ynddo, a chadw draw ystorm ei ddigder oedd yn casglu uwch eu penau. Onid yw yn llawn bryd i wlad ymofyn arfau amddiffynol, pan fyddo llu mawr wedi cychwyn i'w herbyn? Felly y cawn yn *Esa. xxvi. 20, 21*, "Tyred, fy mhobl, dos i'th ystafelloedd, a chau dy ddrysau arnat." &c. Yma y mae Duw yn anfon ei bobl i'w hystafelloedd, fel trwy ym-ostwng a thaer weddio y caent ymguddfa yn nydd ei ddigder. A pha ham yr oedd yn rhaid hyn? "Canys wele yr Arglwydd

yn dyfod allan o'i fangre, i ymweled âg anwiredd preswylwyr y ddaear;" *adn.* 21. Y mae codiad Duw o'i fangre yn arwyddo ei fod ar fyned at ryw orchwyl arbenig. A phan fyddio y meistr yn codi, nid gweddus yw i'r gwas eistedd yn lloudd, ond codi o hono yntau a pharotoi i ddilyn ar ei ol. Y mae Duw yn dal sylw neillduol pa fodd yr ydym yn ymddwyn, ac yn ymweddu â'i orchwyliaethau ef o farn neu drugaredd: "Yn y dydd hwnw y gwahoddodd Arglwydd Dduw y lluoedd rai i ywlofain, ac i alarnad, ac i foeldd," &c.: *Esa.* xxii. 12. Hyn yw, fe'u gwahoddodd trwy lais ei ragluniaeth, yn gystal a thrwy ei brophwydi. Oni buasai bod eu chwantau wedi cau eu clustiau a'u byddaru, yr oedd ei lais mor uchel ac eglur fel na allasent lai na deall mai yn awr oedd yr amser yr oedd Duw yn disgwyl eu gweled yn ymddarostwng o'i flaen mewn sach liain a dagrau. Yn awr, gwelwch mor ddrwg y mae yn cymmyrd eu diofalwch a'u diystyrwch hyll o'i ragluniaeth. "A dadguddiwyd hyn lle i chwais gan Arglwydd y lluoedd, yn ddiau ni lanher yr anwiredd hyn, hyd oni byddoch feirw;" *adn.* 14. Nid oes un pechod yn cyffroi Duw yn fwy na hwn: "Am nad ystirian weithred-oedd yr Arglwydd, na gwaith ei ddwyllaw ef, y diystria efe hwynt, ac nis adeilada hwynt;" *Salm* xxviii. 5. "A thithau Belassar ei fab ef, ni ddarostyngiaist dy galon er gwybod o honot hyn oll;" *Dan.* v. 22. Hyn a aeth â'i fywyd a'i deyrnas. Megys y darfu i'r ymddygiad gwrthwyneb achub yr eiddo Ahab dros amser, er nad oedd ei ymddarostyngiad mor ddiffuant ag y dylasai fod. Fe ddug ei ymddarostyngiad amserol iddo les amserol: 1 *Bren.* xxi. 27, &c.

3ydd. O herwydd yr effaith fawr a gaffai y ddyledswydd anghyffredinol hon o'i chyflawni yn barchus, ar ein holl fywyd a'n hymarweddiad mewn ddiuoldeb. I gadw y corph yn iachus y mae yn ofynol cael, nid yn unig ymborth beunyddiol, ond weithiau physygwriaeth hefyd. O blegid yn y corph cryfaf, ie, er byw yn ofalus a chymmedrol, fe gesglir mewn amser y fath rym o naws afiach fel nas gall natur ei dreulio heb gymhorth moddion. Ac yn wir y mae tymmer yr enaid mor wan, a chymmaint o achos gweini iddo a'r corph. Y mae gweddi gyffredinol megys ymborth y Cristion, mor angenrheidiol iddo a'i brydiau arferol. Ond yr un anghyffredinol sydd fel physygwriaeth iddo, i lanhau a dilwytho yr enaid o'r drygnaws y mae yn gasglu, a'r hwn nis gall ei orchfygu trwy foddion cyffredinol, ac hefyd i gryfhau a bywiogi grasau y nef o'i fewn. Megys y mae Duw yn ei ragluniaeth ddoeth wedi trefnu seren o effaith fawr, i fod mewn tymmor o'r flwyddyn mewn cyssylltiad â'r haul, tuag at addfedu y cynauaf yn well yn y rhanau oerion

hyn o'r byd; felly y mae efe yn yr doethineb, er lles ysbrydol y Cristion yn byd oerllyd hwn, wedi trefnu y ddydd swydd barchus hon i'w chyssylltu rai pryiau â'n hymarferiad cyffredinol o grefyd. Ac o'i hesgeuloso yr wyf yn meddwl fllawer yn anaddfetach yn eu grasau a cysuron, na rhai o'u cyd-Gristionigion sy yn eistedd yn fynychach dan ddyllanwad yr ordinhad fywiocael hon.

PENNOD XLVIII.

Cyfarwyddiadau tuag at gyflawni ym ddyledswydd ddyledswydd barchus hon o weddi anghyffredinol.

Gof. PA gynghor neu gyfarwyddyd ellir ei roi at gyflawniad derbynol a llwyddiannus o'r ddyledswydd neillduol hon?

At. Yr wyf yn dyfod yn awr at ddiweddiad ar y pwngc yma, trwy ateb y gofyniaeth uchod. Ac un o bwys ac angenrheidrwyd ydyw; o blegid yn wir y mae yn arf mudiog, o ddefnydd rhagorol, ond perygl mewn llaw fusrrell. Yn debyg i ambephysygwriaeth, oni arloesa fe wenwyna. Yr yn tir bras lle y mae yr ŷd oreu, y mae y chwyn fryntaf. Nid oes na gras na pheilod yn tyfu i'r fath uchder yn neb ag yn rhai sydd yn mynych ymarfer â'r ordinhad bwysig hon. Ac am hyny, megys y mae i'r rhai a fo mewn llong ar fhrwd chwyrachos neillduol i edrych am ei llywio y iawn, am eu bod yn cael eu dwyn yn gyflym i'w phorthladd neu yn erbyn craig felly y mae achos bod yn dra gwagelog yng nghyflawniad y gwaith hwn; canlyniad pe un nis gall fod yn gyffredin, gan fod y ddyledswydd yn un anghyffredin. Yn awr y cynghor neu gyfarwyddyd sydd i'w roddi rhaid ei ranu dan y tri phen cyffredinol hyn. 1. Rhywbeth yn rhagarotoawl cyn y gwaith. 2. Yr hyn sydd i edrych ato yn y cyflawniad. 3. Ar ol myned drwyddo. Nis gall y ddinas fod yn ddiogel oni chedwir yr holl fur i fyny. Nid yw ond yr un peth, os gelyn a dŷr i mewn ar fyddin, pa un bynag ai i'r wyneb, yr ystlys, ai y tu cefn. Neu os collir y llong, pa un ai trwy syrthio i law y gelyn, ai trwy suddo ger llaw y porthladd.

1af. Peth cyfarwyddyd rhagarotoawl. Yn awr, y mae parotoad deublyg yn angenrheidiol; y naill a ellir ei alw yn un greddfod, y llall yn weithredol.

Y parotoad greddfod sydd o fawr bwys at gyflawniad o'r ddyledswydd hon; ac y mae yn gorwedd yn hyn, dy fod ti, Gristion, yn ofalus am aifer gofal cydwylbodol yn dy rodiad beunyddiol, a chyssondeb deffrons yn dy ymbiliau beunyddiol a chyffredinol, onid e, nid wyt yn debyg o wneuthur ond

zaith trwsgl pan ddelych at weddi anghy-
edinel.

(1af.) Fe fydd i'th esgeulusdra yn y ddy-
lswydd gyffredinol dy fawr anghym-
hwysu at hon. Pwy a gymmerai gefyl
hwn o'r borfa i redeg gyrfa? Mewn gweddi
gyffredinol, y mae yr enaid i'w roi megys
ei lawn dŷn; ei holl alluoedd i'w hegnio
eithaf ac i barhau yn hir yn y gwaith
fyd. A yw hwn yn addas i'r fath yrfa
flyn a hir, sydd â'i enaid heb gael ei gadw
ewn anadl trwy yr arferiad beunyddiol o
eddi gyffredinol, ond yn gadael ei rasau,
y yw yn meddu rhai, i gael eu tagu gan
diogi neu ffurfoldeb? Po mwyaf yr ar-
rir aelod, cryfaf â fydd. Y mae mwy o
m a bywiogrwydd yn ein llaw ddeheu, y
weithiwn â hi, nag yn yr aswy a arferir yn
ai. Fe fyddi i nychodod yn sicr oresgyn gallu-
edd yr enaid diog; yr hwn, er nas teimlech
rth eistedd yn dy gadair ddiwaith, a ym-
dengys pan y cyfodi ac y meddylï am-
ned at waith i Dduw megys cynt. Yna
cei wybod gyda Samson ddarod i ti gollï
y rym ar liniau diogi ac esgeulusdra.
Megys y mae ymprydio yn wjn rhy gryf i
ostrelau gweiniad, felly y mae yn rhy
elus i'w ddodi mewn costrelau llwydlyd.
Yn awr, yr unig ffordd i gadw costrel a
aril yn heraidd, yw peidio gadael iddynt
sefyll yn hir yn wag heb ryw wlybwr
nddynt.

(2il.) Megys y mae yn dy anghymmhwysu
r ddyledswydd barchus hon, felly y mae
n arwydd drwg hyd yn oed am dy gyflwr
sbrydol, yr hyn sydd yn beth gwaeth na'r
lall. Y mae gras yn unfurf, ac yn dangos
dangos cyssondeb gweddus yn ei weithred-
adau. Ysgatfydd y gwelwch fab brenin ar
yw ddiwrnod mawr yn wychach a gogon-
ddusach ei wisgiad nag ar ryw ddiwrnod
yffredin; ond ni chewch mo hono un amser
mewn dillad bryntion, bratiog, a char-
lotlyd; fe ymwisga o hyd fel y gweddaï i
lywysog. Y mae yn bossibl, ie, y mae yn
debygol y gwelwch y Cristion ar ddiwrnod
neu ddyledswydd anghyffredinol, yn ym-
ddangos gyda mwy o helaethiad serchiadau
mewn gweddi, a'i holl rasau wedi eu dyrch-
afu i radd uwch o ddisgleirdeb na chyffred-
in; ond ni chewch mo hono un amser â'i
wisg o ras wedi ei throï heibio. Fel y mae
yn wir Gristion, fe ddengys ei âch uchel
wrth ei rodiad beunyddiol; nis gall fyw
mewn esgeulusdra o ddyledswyddau cyff-
redin, a bwrw ymaith gymmundeŷ â Duw
yng nghorph ei amser. O! nôd du rhag-
rithiwr yw bod â'i grefydd i'w gweld yn
unig ar ryw oriau; ac yn debyg i eira
lluwhiog, yn dew yn un man, ac heb ddim yn
y llall; ymddangos o ran sel fel angylion
ar ryw dro, a byw fel atheisteïad dros lawer
wythnos wedi hyny. Yn sicr, y mae gras
yn gweithredu yn fwy cysson, ac ni cheir

mo hono mor annhebyg iddo ei hun. Byw-
oliaeth dlawd sy yn nhŷ y cybydd, na bydd
dim bywd da ar ei fwrdd ond pan wnelo
wledd, a hyny yn dra anfynych, neu gyda
hwnw a geidw ddydd gweddi ar achlysur,
ond a newyna, neu a wasga arno ei hun a'i
dylwyth yn eu hymborth beunyddiol. Wele
ynte, na feddlw myrfaeth â'r ddyledswydd
anghyffredinol hou, hyd oni ymarferech â
gweddi gyffredinol, ac y byddych yn fwy
gofalus am rodiad beunyddiol gyda Duw.

2il. Y mae parotoad mwy agos yn ofynol,
a hwn a elwais yn barotoad gweithredol.
Gwir iawn yw, fod gan y neb sy gydwybodol
a gofalus mewn ymarferiadau cyffredinol o
grefydd, fantasiau fawr ar y neb sydd yn es-
geulus neu ysgafn ynddynt; o herwydd fod
yn rhaid i'w galon fod yn nes o duedd at y
ddyledswydd anghyffredinol nag yw y llall;
fel y mae dyn sy ar ei draed â'i ddillad am
dano, yn barotach at neges ei feistr na'r
hwn sydd yn cysgu yn ei wely. Er hyny,
heb law y gofal yma yn ein rhodiad beu-
nyddiol, y mae angen cymmeryd poen ym
mhellach gyda'r galon, at ei chodi i'r fath
hwyl ag a gydwedda â'r gorchwyl difrifol
hwn. Y mae y wraig daclus er ceisio cadw
ei thŷ yn lân bob amser, yn dyblu ei man-
ylrwydd i oichi ei hystafelloedd, a glanhau ei
llestri erbyn rhyw amser arbenig, fel y bydd-
out nid yn unig yn lân ond yn ddisglær;
ac felly y dylai y Cristion. Yn awr yw yr
amser i ti gael ymadael â'r llwch a lŷn
wrthyt yn dy yrfa feunyddiol, a gloyyd dy
rasau i ddisgleirdeb niwy nag a ymddengys
yn arferol; a da y gwnei ymdrechu yn y
gwaith. Y mae y Cristion yn debyg i rai
adar trymion nas gallant gael ar yr aden
heb gymmeryd rhedfa o ganllath neu ragor.
Neu fel cloch fawr yn gofyn amser i'w chodi.
Yn awr, myfyrdod sy foddion addas i'w ar-
feru ar yr achos hwn. Acheub, os gelli, ryw
gryn gyfran o amser o flaen y dydd a neill-
duir i'r gwaith, fel y gellych ar dy ben dy
hun ymddiddan yn ddirgel â'th galon. Nis
gelliir gwneuthur hyn mewn tyrfa, ac nis
gelliir ei adael hyd amser y ddyledswydd
anghyffredinol; gormod yw y ddwy ddy-
ledswydd ynghyd. Nid ar unwaith y gall
y llafurwr hogi ei bladur a thori y gwair.
Dos gan hyny i'th ystafell; ac yn y lle
cyntaf cais dy feddyliau o'r byd, a'th enaid
mor rhydd ag y bo bossibl o'r cwbl a'r nad
yw yn perthyn i'r gwaith mewn llaw.
Byddai hyn fel sychu dalen ddu dy ddydd-
lyfr i gael lle i roi peth newydd i lawr. Yn
awr, at gael dy galon i fwy o sobrwydd difrif-
ol, a'th feddyliau i iawn drefn, cymmhwys
fyddai i ti ystyried pwys mawr y gorchwyl
sydd yn agosau. Yr wyt yn myned i sefyll
o flaen y Duw mawr, a hyny yn dra agos
mewn dyledswydd anghyffredinol, ym mha
un y sancteiddi neu yr halogi ei enw an-
rhydeddus i radd bell; ac felly yr wyt i

ddisgwyl ei wên neu ei ŵg mewn rhyw fendith neillduol neu farn ofnadwy, i fod yn ganlyniad i'th orchwyl. Gwregysa lwynau dy feddwl â rhyw ystyriaethau dwys o'r fath yma. Megys y mae ofn naturiol yn peri i'r ysbrydoedd gilio o ranau allanol, y corph at y galon; felly y byddai yr arswyd duwiol yma rhag aflwyddo mewn dyledswydd mor bwysig, yn foddion i alw dy feddylliau oddi wrth bob gwrthddrychau allanol, a'u sefydlu ar y gwaith mewn llaw: "Addolaf tua'th deml sanctaidd yn dy ofn di;" *Salm* v. 7. Fel y bo y cerfiad ar y sel, felly y bydd yr argraff ar y cŵyr. Os bydd ofn Duw wedi ei gerfio yn ddwfn ar dy galon dithau, ni raid amnheuo na wna efe argraff addas ar y ddyledswydd a gyflawni. Wele, yn awr y mae y llys wedi eistedd, a distawrwydd wedi ei orchymyn, mi a osodaf ychydig bethau ger bron i'th feddylliau redeg arnynt yn y gwaith blaenorol hwn.

PENNOD XLIX.

Holi ein calonau ynghylch ein diben yn y gorchwyl yn dra angenrheidiol.

1af. HOLA dy enaid, pa ddiben sy genyt yn dy olwg yn y gorchwyl o weddi anghyffredinol a fwriedaist. Ni red ond plentyn, neu ynyfydd-dlyn, cyn gwybod beth yw ei neges. Y diben yw y peth yr edrych dyn doeth ato cyn gosod ei law wrth un gorchwyl; a pho mwyaf pwysfawr fo yr anturiaeth, mwyaf yw yr angenrheidrwydd o hyn. Ystyria yn gyntaf, os yw dy ddiben yn ddrwg nid oes modd i'r ddyledswydd fod yn dda, am nad yw dy galon yn amlygu ei hun yn y nôd a esyd dyn o'i flaen, a'r diben y cais ato mewn dyledswydd, nid yn y cyflawniad allanol. Gellir cael yr ysbeiliwr a'r ymdeithydd gonest yn marchogaeth ar yr un ffordd; ond y mae ganddynt ddibenion annhebyg, yr hyn a'ugwahaniaetha. Felly y sant a'r rhagrithiwr a unant yn yr un ddyledswydd, a saethant megys o'r un bwa; ond nid yw eu llygaid yn edrych yr un ffordd, ac am hyny ni ddisgyn eu saethau ar yr un nôd. Fe wrthodir gweddiau y naill fel ffeidd-dra, ac eiddo y llall a dderbynyr yn rasulol. Pwy yn fwy crefyddol mewn ymddangosiad na chaethglud yr Iudewon, a gadwent ymprydiau yn rheolaidd am ddeng mlynedd a thrigain; etto, ni roddodd Duw ond ychydig o ddiolch iddynt, am nad oedd eu diben yn iawn: "Pan oeddych yn ymprydio ac yn galaru y pummed a'r seithfed mis, y deng mlynedd a thrigain hyny, ai i mi yr ymprydiasoch chiwy ympryd, i mi?" *Zech.* vii. 5. Po cyflymaf y carlamo gŵr allan o'i ffordd, gwaethaf oll. Zel yw y peth goreu, neu waethaf, mewn

dyledswydd. Os bydd y diben yn dda, y mae yn rhagorol; ond os yn ŵyrog, eith drwg. Ac nid peth bach yw meddu dib uniawn. Rhaid i'r llygad fod yn uniawn yn y pen cyn y gall edrych yn uniawn. Os bydd y dryll wedi ei gam wneuthur, by ni enfyn belen yn uniawn at y nôd. Calffals—a chyfryw yw pob calon anianol—dichon feddu ar ddiben uniawn. Yn a ystyria y bydd dy ymgais yn y ddyledswydd yn gyfatebol i'r diben a fo genyt o'th flaen. Os isel fydd dy ddiben, ni bydd dy ymgais am ddim mwy na chyrhaedd y diben hwn fel y mae un sydd yn bwriadu codi bwbychan yn ymfoddloni ar ddefnyddiau gwael clai a gwellt; ond yr hwn a feddyliodd a balas gwych, efe ddarpara bethau mwy gwerthfawr. Dyma fel yr oedd Dafydd y dra manwl wrth neillduo defnyddiau at deml: "Canys," medd efe, "nid i ddyn mae y llys, ond i'r Arglwydd Dduw. A'm holl gryfwr y parotoais i dŷ fy Nuv aur i'r gwaith aur," &c.; 1 *Cron.* xxix. 1. Y mae diben y rhagrithiwr mewn ympryd yn isel a gwael; ei air da gyda dynion, e fudd anianol, a chyffelyb sydd yn ei lygad yn ganlynol, y mae ei ymgais yn rhan allanol y ddyledswydd; edrychiad lleddais, agwed grefyddol, a'r cyfryw ymadroddion mewn gweddi a fo yn fwyaf boddus i'r rhai a' gwrandawant; am y rhai hyn y mae efe yn ymestyn. Ond yr enaid grasol a ddywed gyda Dafydd, y llys yr wyf yn ei adeiladu y ddyledswydd wyf yn gyflawni, nid i ddyn y mae, ond i'r Arglwydd Dduw; ac am hyny ei ofal penaf yw darparu defnyddiau angenach; i'w canu ddrylliog wrth gyfaddef pechod ffydd a gwresogrwydd yn ei erfyniadu; a chariad a diolchgarwch wrth gydnabod trugareddau a dderbyniwyd.

Gof. Ond pa fodd yr adwaenir diben gan un yn y ddyledswydd hon?

At. Fe all ein diben fod yn ddrwg, naill ai yn ei natur ei hun, neu ynte trwy ryw afreolaeth, pan roddom y peth uchaf yn isaf, neu yr olaf yn flaenaf yn ein dymuniadau.

1af. Am ddibenion sy ddrwg yn eu natur eu hunain, mi enwaf ddau. 1. Pan fo person unigol, neu bobl, yn ymprydio a gweddi i guddio a dwyn yn mlaen yn llyfnach ryw orchwyl drwg. Dyma ddrygioni erehyll, ffeidd-dra anghenflaidd. Beth yw hyn ond crogi arwydd yr angel wrth y drws, fel y gallont chwareu y diafol oddi mewn heb gael eu drwgdybio? Ond y mae calon dyn wedi dangos y fath ragrith dwfn, fel y baidd ddyfod a doddy ei hwyau asp dan aden Duw ei hun, a gwneuthur defnydd o hon—ei ordinhâd barchus—fel cynnorthwy at ddeor ei hamcanion traws. Y llwynog, meddant hwy, pan ddilyner yn dŷn, i'w achub ei hun, a dery i blith y cŵn, ac a hela fel un o honnynt. Felly y rhagrithiwr yntau, i guddio

well ei fwriadau drwg a red i blith y
int, ac a wna swm nor uchel yn y ddyled-
ydd hon neu arall a'r goreu o honynt oll.
en chwareu Satan ydyw, ac fe'i dysgodd
y weision, cuddio ei ddichellion drygionus
n hug oreuog ordinhaduw. Y fath
trywiau a gwrthstrywiau oedd rhwng
chem mab Hemor, a Simeon a Lefi! A'r
nmonthwy a arferodd y ddwy blaid at
lwyn en bwriadau i ben ydoedd ordinhad
Dduw. Y mae un yn gobeithio trwy ym-
twng iddi gael holl dda tlywlyth Iacob
y fachau: "Eu hysgrubliadau a'u cyfoeth
wynt, onid eiddo i ni fyddant?" *Gen.*
xxiv. 23; a'r lleill yn eu cymmhell i hyny
y gallent, pan fyddent ddolurus, eu cig-
ddio, yn ddiwrthwynebiad. Absalom yn-
u, i chwareu y bradwr yn well yn erbyn
dad, y mae yn deisyf cenad i dalu ei
dduned yn Hebron. Iesebel, wrth osod ei
agl am Naboth, fel y syrthiai yn sicrach
w gafaél, y mae yn ymostwng hyd yn oed
fflaen Duw mewn ympryd. A'r Phariseaid
yfnion a wnaent y fath ymfroft o'u hym-
yddiau, medrai Crist ddywedyd wrthynt,
ai llwyr fwyta tai gwagedd gweddwon
odd eu bryd. Ond fel y dywed un o'r tad-
au, "Y maent yn llyngau ar y ddaear yr
yn a bwysa yn drwm ar eu cylla yn uffern."
el hyn y mae y rhagrithiwr yn ail i
nghrist, yn eistedd yn nheml Dduw, ac yno
a gwneuthur ei ffeidd-dra adgas, gan droi
ty gweddi yn ogof lladron. O! crynwech
mag y drygioni mawr hwn! Y mae yn
noi orlliw porphor ar bechod pan ei gwneir
an orchudd crefydd. 2il. Pan fo dyn yn
eddwl trwy ympryd a gweddi foddloni
Duw am ei bechod, neu haeddu rhyw
laioni ar law Duw. Y mae hyn yn ddryg-
ionus a ffeidd, ac mor wrthwynebol i weddio
g yw marchnata i gardota. "Y tlawd,"
redd Solomon, "a ymbil;" *Diar. xviii. 23*.
id ydym yn arfer talu ac ymbil hefyd.
an yw Iob yn bwriadu gweddio, y mae yn
mwrthod â phob dadl o ran ei gyfiawnder
i hun: "I'r hwn, pe bawn gyfiawn, nid
id atebwn; eithr ymbiliwn â'm barnwr;"
Iob ix. 15. Nid oes fodd i ni gael budd
orsedd gras nes y rhoddom i fyny ein dadl
deddfol. Y mae Crist yn wir yn dadleu
el un cyfiawn; ac felly yn gofyn yr hyn a
ais efi i ni ar sail haeddiant, am ei fod
redi talu am dano. Ond yr ydym ni i
reddio fel pechaduriaid, ac am hyny i ofyn
t cwbl fel trugaredd; i'e, er i ni ddadleu
haeddiant Crist, o herwydd mai efe yw y
hodd fwyaf a rhyddaf o'r cwbl. Etto, y
yfyryw yw balchder calon dyn, fel y mae
n well ganddo chwareu y marchnatawr, a
newid ei ddyledswyddau am fendithion
Duw na chael ei gyfrif yn dderbyniwr rhad.
Iyn oedd tuedd yr Iuddewon cnawdol; yr
peddynt yn meddwl boddloni Duw am eu
bechod, fel Iacob ei frawd digllawn, â'r

gyroedd a'r deadellau o ddyledswyddau a
roddent yn anrhegion iddo; ac yn tybied bod
eu gwasanaeth yn myned dan ei werth onis
derbynid am daliad da. Oddi yma y maent
yn dadleu yn hyfion â Duw, "Pa ham yr
ymprydiasom, ac nis gwelaist? y cystudd-
iasom ein heneidiau, ac nis gwybuost?"
(*Esa. lviii. 3*), gan gymmiant oedd eu tyb
mawr am danynt eu hunain. O! gwylia
rhag hyn; y mae balchder yn troi ordinhad
yn eilun. Y mae Duw yn derbyn ein hym-
prydiau a'n gweddiau pan eu harferir er
darostyngiad; ond yn eu ffeiddio pan gyn-
nygiom hwynt er ein cyfiawnhad. Fe goll-
edodd y Pharisead ei hun trwy ei ymfroft
balch o'i ymprydiau mynych, tra yr ennil-
odd y publican tlawd y gamp, trwy addefiad
gostyngedig o bechod. Yr hwn a olcha ei
wyneb mewn dwfr llaca, yn lle ei wneuthur
yn lân fe'i gwna yn futrach. Yn sicr nid
yw ein dagrau goreu ni yn lân iawn; ac a
ddichon y rhai hyny ein glanhau ni sydd
eu hunain mewn eisieu o lanhad! Ni feidd-
iai Iob dduwiol roi pwys ar ei burdeb: "Os
ymolchaf mewn dwfr eira; ac os glanhâf fy
nwylaw yn lân; etto ti a'm trochi yn y
pwll, a'm dillad a'm ffeiddiant. Canys nid
gŵr fel myfi yw efe fel yr atebwn iddo, ac
y delem ynghyd i farn;" *Iob ix. 30, 31, 32*.

2il. Fe all diben, er na byddo yn ddrwg
yn ei natur ei hun, er hyny fod yn ddrwg
trwy gamosodiad; megys pan wnelom hyny
yn brif ddiben na ddylai fod ond yn is ddi-
ben genym. Y mae yr hyn a fyddai yn gyf-
reithlawn yn ei le ei hun, yn myned yn
anghyfreithlawn pan fo y diben penaf yn
cael ei wthio i lawr i roi lle i'w waelach.
Gogoniant Duw sydd i fod yn ddiben penaf,
nid yn unig ym mhob dyledswydd o grefydd,
ond yn ein holl weithredoedd cyffredin
hefyd; i'e, hyd at fwyta ac yfed; yn y peth-
au bychain hyn, dylem gyfeirio at y diben
uchel yma: gwel 1 *Cor. x. 31*. Ac achos
da sydd i'w ogoniant ef fod yn ddiben eithaf
genym; o hono y cawsom ein dechreuad; o
hono ef y mae pob peth; ac am hyny, cym-
mhws eu bod iddo ef fel yr afon yn ym-
dywallyt i fynwes y môr o'r lle y tarddodd.
Yn awr, os gweddai fod genym ddiben mor
uchel yn ein gweithredoedd o addoliad, ym
mha rai y mae a wnelom â Duw yn ddigyf-
rwng, ac oddi ar hyny ein gelwir yn offeir-
iaid, "i offrymu aberthau ysbyrdol, cym-
meradwy gan Dduw trwy Iesu Grist;"
1 *Pedr ii. 5*. Y mae gwir ddiben arall i ba
un yr appwyntiwyd ordinhadau, sef i fod
fel pibellau at drosglwyddo pob bendithion
oddi wrth Dduw i ni. Ond y mae hwn yn
ddiben is, ac i gael ei osod yn is na'r llall;
onid e, ni a wnawn ogoniant Duw yn rhag-
law neu was i'n budd personol ni, yr hyn ni
oddef Duw. Ysgatfydd ein bod mewn rhyw
drallod mawr, a hyn yn ein gosod i weddio
am ymwared. Hyd yma yr ydym ar y

ffordd. Ond dyna y pryd yr ydym yn ei chollï, pan fo ein hymwared yn fwy yn ein golwg na'i ogoniant ef. Dyna osod y deilaid yng nghadair y brenin, neu wneuthur Duw yn ystôl i'n codi ar gefn y creadur. Gochel hyn. Pa beth bynag a gaffo y blaen ar ogoniant Duw yn ein dymuniadau, y mae yn eilun a addolir genym. Gall y galon gerfo gystal a'r llaw; ac y mae delw yn y galon cyn waethed ag un wedi ei gosod i fyny yn y tŷ.

Gof. Ond pa fodd y gwybyddaf pa un ai gogoniant Duw, ai y peth da yr wyf yn gweddio am dano, wyf yn ei olygu yn benaf yn fy ngweddi?

At. Gellir deall hyn ddwy ffordd. 1. Trwy dy ymddygiad ar weddi. 2. Ar ol gweddi.

Jaf. Trwy ymddygiad dy galon yn y ddyledswydd. Os gogoniant Duw wyt yn ei olygu yn benaf, fe rydd hyn ei sawyr ar dy weddi, ac a ddwg ei effaith drwyddi oll; ti a addasi dy ddeisyfiadau i'r diben hwn. O blegid fel y mae rhyw rym dirgelaidd oddi wrth y fraich a dŷn y bwa, yn gyru y saeth, ac yn ei dwyn tua'r nôd yr annelwyd ato; felly y mae cymhelliad dirgelaidd ar yr enaid a bair iddo ymddwyn mewn gweddi yn gyfaddasol i'r diben penaf y mae yn amcanu ato; o herwydd nid oes neb am rwystro, ond cynnorthwyo ym mlaen y peth penaf y mae yn ei ddeisyf. Ni a rown mai maddeuant pechod yw y drugaredd y gweddi am dani. Yn awr, os wyt yn wir yn dymuno gogoniant Duw, gystal a'r drugaredd hon, fe uwch ei llaw hi, fe'ch ogwydda hyn di yng nghyfaddefiad dy bechod, i ymdrallodi yn fwy am y diamrhdedd a ddygaist drwyddo ar Dduw, nag am y gŵg a dynaist ar dy ben dy hun. Felly, yn dy erfyniad, ni feiddi ofyn maddeuant ar ammodau a fyddai yn groes i'w anrhydedd ef; ond ti a ddymini drugaredd yn y fath ffordd ag a siehâ ac a ddyrchafa hefyd ei ogoniant ef. Yn awr, nis gall Duw faddeu pechod adyn anedifeiriol sydd yn parhau i garu a hoffi ei chwant, heb gam anfeidrol i'w euw gogoneddus. Ac am hyn, os yw ei ogoniant ef mor fawr yn dy olwg ag y dywedi, ti a lesi mor daer am ei ras sancteiddiol, ag am ei drugaredd faddeuol; a hyny nid yn unig am nad oes fodd i ti gael maddeuant heb ras, fel y chwennych dyn claf feddyginiaeth chwera i achub ei fywyd, nid ei fod yn ei charu, ond ti a'i ceisi er mwyn dy addasu i'w ogoneddu ef.

2il. Fe ellir ei ganfod drwy dy ymddygiad ar ol gweddi, a hyny mewn achlysur. *Jaf.* Pan dderbyniech y rhodd a geisi. Os oedditi yn cyfeirio yn benaf at ogoniant Duw wrth ei gofyn, dy ofal penaf fydd ei rhoi allan er ei ogoniant ef ar ol ei chael. Tra y bydd yr hwn oedd yn ei geisio ei hun wrth weddio am dani, mor ddiolwg ar ogoniant Duw wrth ei harfer ag oedd wrth ei gofyn. Y mae yn

naturiol i bethau ddychwelyd yn ol tarddiad dechreuol. Y plentyn a gaf Hannah gan Dduw, y mae yn ei gyflwyno Dduw. A pha ham? ond am mai hyn o ei diben wrth weddio am dano? Cymmh wel 1 *Sam.* i. 11, âg *adn.* 28. Pan gaf Dafydd ei wrandaw a'i waredu, craffw beth yw ei ymroad oddi wrth hyn: "Rhoiaf o flaen yr Arglwydd yn nhir y rhai byw *Salm* cxvi. 9. A thracefn, "O Arglwydd y was di ydwyf fi, dattodaist fy rhywau," *adn.* 16. Y mae yn rhoi y drugare yn ol i Dduw trwy ei defnyddio iddo mewn buched sanctaidd. Pa fodd y meddyli fod hwn yn golygu gogoniant Duw wrth weddio am iechyd, sydd yn rhedeg yma oddi wrth Dduw cyn gynted ag y casto draed dano? Neu y llall wrth weddio: gyfoeth yn ei dreulio ar ei chwant? Pan fo y peth a geisir yn cael ei nacau. Dyn sydd yn wir yn golygu gogoniant Duw wrth weddio am ryw drugaredd, son yr w yn awr am drugareddau sy heb eu haddu yn bennodol, efe a ymostwng yn sirio ewyllys Duw mewn nacâd o honi, am y gogoniant Duw yn y cyfryw bethau ei ogoneddu hun trwy ballu yn gystal a thrwy roddi. weddiodd Dafydd ac a ymryddodd di fywyd ei blentyn claf; bu farw er hyn. Yn awr, a yw y nacâd yma yn ei roi i syrth allan â Duw? Ai achwyn ac anfoddloniwna efe? Na, nid yw y tro yn codi un y torm yn ei galon, na chwinnwl du yn wynebpryd, i'w rwystro yng ngwasanae ei Dduw; y mae yn codi, yn golehi yma ei ddragur, yn newid ei ddilad, ac yn myed yn llon i dŷ Dduw ac yn addoli: 2 *Sam.* xii. 20. Mor nerthol y gogwyddodd ewyll Duw ei ewyllys ef! Megys y mae cyrph ffurfaf yn cael eu dwyn gan y *princ mobile*, neu yn hytrach gan reolaeth Hol alluogrydd yn groes i'w gogwyddiad pi odol; felly y mae gras yn y Crïstion y goruwheireoli ei serch naturiol, ac yn ddwyn i gydsyniad âg ewyllys Duw pan yn croesi yr eiddo ei hun. Yr oedd gan ei Harglwydd serch naturiol, yr hyn a barod iddo weddio am i gwpan chwera ei ddoddefaint, os ydoedd bossibl, fyned heib iddo; etto nid felly, fel na allai yn ewyllgar gymmeryd nacâd; ac am hyny y mae yn dymuno ar ei Dad ei ogoneddu ei hun er i hyny fod trwy gymmeryd ymaith einioes ef: *Ioan* xii. 27, 28.

2il. Y peth nesaf i ti wneuthur, wedi cael dy diben yn iawn, yw chwilio y fanwl i'th galon a'th fywyd, fel y gellw agor dy gyflwr yn llawuach, a chydâ mwo deimlad, o flaen Duw. Yn awr, y mae tri phen i ti ymofyn arnynt. 1. Am y pechodau a ynaethost. 2. Am y drugareddau dderbyniaist. 3. Am y diffygion sydd arna i. Y pechodau a ynaethost. Y pet mawr sydd yn perthyn i ympryd yw gweith

diad edifei'wch, a hyn ni bydd, heb fanwl
 willio y galon: "Ceisiwn a chwiliwn ein
 rdd, a dychwelwn at yr Arglwydd;" *Galar.*
 40. Rhaid yw dal y lleidr, cyn holi ei
 hos; a'i holi, cyn ei farnu a'i gollu. Fe
 lir yn ddiammheu ddyfod o hyd i rai
 chodau heb lawer o drafferth; ond os wyt
 eddlawn i Dduw a'th enaid dy hun, ni
 nit o'th fodd i un o'r rhif ddiange. Pa
 dd y gelli di ddisgwyl maddeuant am yr
 a, pan nad wyt yn dymuno barn ar y cwbl?
 pha fodd y gelli ddywedyd dy fod yn dy-
 nuno barn ar y pechodau hyny, nad wyt yn
 isio eu dal? Y swyddwr hwnw a dder-
 yuodd warant yn erbyn haid o ladron, ac
 edy i rai o honynt ddiange yn hytrach
 ag y cyfyd i chwilio am danynt, y mae yn
 angos nad yw ond oeraidd ym mhlaidd cyf-
 wnder. Nid wyf yn dywedyd, y gelli di
 lyfod o hyd i'r cwbl; y mae yn rhyweth
 y fod, drwy dy fanylwydd, yn rhoddi
 rawf o'th onestrwydd, na fynit guddio un.
 mosod, gau hyny, yn ddirifol ar y gwaith;
 ngylcha dy galon â'th fywyd, fel y gwnai
 ynuion â llwyn lle byddai llofruddion yn
 echu. Dos yn ol at amryw dymmorau dy
 rwyd; ieuengetid, caul oed, at bob sefyll-
 a pherthynas y buost ynddynt; dy alwad,
 yffredinol a neillduol; y manau y trigaist,
 th ymddygiad ynddynt, pâr i'th gôf ddwyn
 mewn ei hen groniciâu, a darllen y pethau
 ydd yn ysgrifenedig yno. Galw gydwybod
 aewn, i ddywedyd yr hyn a wŷr hi yn dy
 ylech; ac annog hi i lefaru yn groyw, heb
 el yn yr achos. A gwylia rhag rhoddi tawr
 y tyst hwn, fel y gwna rhai barnwyr
 wyrog, ym mhlaidd rhyw achos drwg; neu
 oddi iddi orchymyn dirgel, fel Dafydd i
 oab, i fod yn dymner wityht. Bydd fodd-
 awn i galw chwilio dy gyflwr yn llwyr, a
 hael tynu ymaith bob gorchudd; o blegid
 y mae yn fynych amcanion hyllion yn cael
 u cuddio dan esgusion teg: fel y barilau
 tylor dan y glo a'r ysgyrenau coed, yn seler
 y senedd. Yn awr, wedi i ti fyned
 nor bell ag y gelli, dan ddeisyf cymmhorth
 y nef yn y peth, i'th chwilio a'th brofi, a oes
 lim pellach drygioni nas gellaist ei ganfod,
 yna, dan dy lwyth, cais droi i'th erbyn dy
 au, gyda'th eithaf o ddrylliad calon, a
 chyfiawnhau Duw yn ei farn, pe ei rhoddi
 arnat o'r herwydd. Fe fŷn Duw i ti osod dy
 wddf ar y blocyn, er nad yw efe yn meddwl
 taraw y dyrnod. Mewn gair, ymdrecha yn
 dy fyfyrdodau am roddi ar bob pechod ei
 liw ei hun, a gâd i'th feddyliau aros arnynt,
 nes y byddo tân dy ddiglonedd yn ennynt
 i'w herbyn; i'e, yn fflamio i'r fath sel dduw-
 iol i'w herbyn, ag a wna i ti roddi dy hun
 megys tan lŵ i geisio eu llwyr ddinysr.
 Dyna y pryd y byddi yn addas i ofyn dy
 fywyd dy hun, pan fyddych wedi addunedu
 marwolaeth dy bechodau.

2. Trugareddau a dderbyniwyd. Y mae

y rhai hyn genyt, o leiaf y rhai hynota o
 honynt, megys ar goslyfr, oddi eithr dy fod
 yn dra anffyddlaw. Os yw Duw yn gwel-
 ed yn dda gostrelau dagrau ei saint, yn sier
 ni ddylent hwythau anghofio ei drugareddau
 yntau. Yn awr, y mae rhai amserau neill-
 duol, ym mha rai y dylai y Cristion gym-
 meryd y cronicle hwn o drugareddau Duw i
 ddarllen ynddo. A dyma un; pan fyddo
 yn myned at y ddyledswydd anghyffredinol
 hon. Yn gyntaf, fel y moddion cryfaf i
 doddi ei galon am bechod. Trugaredd a
 ddŷd yr auferthwch mwyaf ar bechod; ac
 am hyny, rhaid iddi fod yr offeryn cryfaf i
 dori y galon am bechod. Hon y mae Duw
 yn gymmeryd i ddannod i Israel wrthryfel-
 gar: "Ai hyn a delwch i'r Arglwydd, bobl
 ynyfud ac anghall?" *Deut.* xxxii. 6. Ni all-
 asent mo'r bod cyfuwch mewn drygioni, oni
 buasai fod Duw wedi bod mor dda wrthynt.
 Pan fynai Duw dori dolur crawnllud ei bobl,
 y mae yn cymmysgu plastr o'i drugareddau
 arbenig, ac yn ei osod yn gynnhes with eu
 calonau. Yr oedd Dafydd wedi eistedd am-
 ryw fisoedd dan ddarlleniad y gyfraith, heb
 ymostwng am dywallt gwaed a godinebau;
 ond fe anfonwyd Nathan i bregethu iddo
 ar destyn yr aml drugareddau yr addurn-
 asai Duw ef â hwynt; a thra yr oedd y
 marwor hyn yn disgyn ar ei ben, dyna ei
 galon yn toddi yn ebrwydd: 2 *Sam.* xii.
 Anfynych y mae y rhew yn llwyr o'r ddae-
 ar, nes byddo haul y gwanwyn mewn peth
 nerth yn dattod ei rwymau; ond yna y
 mae yn ei roddi ar gerdded. Ni symudir
 caledwch y galon chwaith yn iawn, hyd oni
 chaffo yr enaid ei gynnhesu drwyddo a'r
 teimlad o drugareddau Duw: "Yno y cof-
 iwech eich ffyrdd a'ch holl weithredoedd y rhai
 yr ymbalagasoch ynddynt; fel yr alaroch
 arnoch eich hun am yr holl ddrygioni a
 wnaethoch;" *Ezec.* xx. 43. Pa le yr oedd
 yr "yno" hwnw? Ond pan yng nghanol y
 meddyliau am ei drugareddau ef, fel y mae
 yn eglur wrth y gwersi amgylchiadol. Y
 mae pardwn oddi wrth y brenin wedi rhoddi
 rhai i wylo, pan nad oedd yr olwg ar y
 blocyn a'r fwyell yn gallu eu cynhyrfu.
 Y mae yr olwg ar ddigofaint yn tanio y
 gydwybod; ond teimlad o drugaredd a dyn-
 er-dodda y galon, ac a blyg yr ewyllys. Yn
 ail, Fel defnydd rheidiol yn ein holl wedd-
 iau. "Mewn gweddi ac ymbil, gyda diolch-
 garwch, gwnele eich deisyfiadau yn hysbys
 ger bron Duw;" *Phil.* iv. 6. Rhaid cael y
 per-lysieuyn hwn yn ein holl offrymau. Y
 dyn sydd yn gweddio am drugaredd sydd
 arno ei heisieu, ac nid yw ddiolchgar am a
 dderbyniodd, fe all ymddangos fel un cofus o
 hono ei hun, ond y mae yn anghofus o Dduw;
 ac felly ar y ffordd i gau y drws yn erbyn ei
 weddiâu. Ni rydd Duw mo'i roddion mewn
 cod dyllog, a chyfryw yw calon anniolchgar;
 y mae yn ei ollwng o'r côf yn fuan.

3. Dy ddiffygion. Cyn yr elo y masnachwr i ffair, mae yn edrych dros ei ystôr, fel y gwypo pa bethiau sydd arno yn fwyaf eu heisieu. Yr wyt titlau yn myned i'r moddion hyn i gael y grasusau a'r trugareddau sydd arnat eu hangen; ac onid yw yn rheidiol i ti edrych i'th ystôr bresennol, a'th angenion personol a pherthynasol, heb anghofio y wladwriaeth, yn heddwch a llwyddiant pa un y mae i ti gymmaint yn sefyll? O herwydd os suddo wna y llong hon, nis gelli dithau, yn dy gell o'i mewn, fod yn ddiogel. Y mae disgwyl i'r pethau hyn oll ddyfod atat, heb eu rhwymo ar dy feddyliau trwy ragfyfyrdod, yn ormod rhyfyg i Gristion sobr ei arfer. Heb law hyny, y mae ar dy serchiadau eisieu cynnorthwy yn gystal a'th gof; i e, a mwy. Y mae yn haws i ni gofio ein pechodau a'n hangenion, na'u teimlo mewn drylliad calon: ac nid dyfod yr ydym i ddywedyd wrth Dduw ystori foel am y pethau hyn, ond i'w lledu gyda theimlad a griddfauau serchiadol ac achwyngar, o flaen yr hwn a all faddeu ein pechod, a chyflawni ein heisieu.

3ydd. Wedi i ti, ar yr holiad yma, gael ennyn dy serchiadau â'r fegin o fyfyrdod, yna cais ddadleuon o'r addewidion, i roddi grym i'th weddïau, a'u gwneuthur yn dyciannol. Yr addewidion yw sail ffydd, a ffydd, pan ei cryfheir, a'th wna di yn daer; ac y mae y cyfryw daerineb yn wastad yn llwyddo, ac yn dychwelyd yn fuddugoliaethus bob amser o faes yr ymdrech. "Llawer a ddichon taer weddi y cyfiawn;" *Iago* v. 16. Nid yw geiriau mewn gweddi ond megys pylor—yr addewid yw y belen sydd i daraw y nôd; ffydd yw y gras a all lwytho yr enaid â hi, a gwresogrydd taer sydd yn rhoddi tân, ac yn ei ollwng i fynwes Duw gyda'r fath nerth fel na all yr Hollalluóg ballu derbyniad, am yn wir nas mŷn ballu. Yn awr, fel mai milwr anghall yw yr hwn a fydd â'i belenau heb eu bwrw, neu eu haddasu at faintiolaeth ei ddryll, hyd oni ddel i'r maes; felly Cristion annoeth yw yr hwn ni ddarparu addewidion mewn trefn addas at ei gyflwr a'i angen, cyn myned yuglyd â'r fath foddion pwysfawr. Y mae Daniel yn gyntaf yn chwilio allan yr addewid, pa beth a ymrwymasai Duw i'w wneuthur er ei bobl, ac hefyd amser yr addewid; ac wedi iddo, trwy fyfyrdod ac ymofyniad, gael ei gred gadarn o honi, yna at Dduw yr aeth gyda thrais duwio, gan ddadleu, nid yn unig ei drugaredd, ond ei gyfiawnder hefyd, ar iddo eu cofio yn awr pan oedd amser ei addewid ar ben; "O Arglwydd, yn ol dy holl gyfiawnderau, attolwg, tröer dy lidiogrydd a'th ddigder oddi wrth dy ddnas Jerusalem, &c.;" *Dan.* ix. 16. Po cadarnaf fyddo dyn yn y gair, cadarnaf fydd efe mewn gweddi.

PENNOD L.

Cyfarwyddiadau i'w hystyried yn, ac ar ol ddyledswydd.

WEDI myned trwy y cyfarwyddiadau rhubarotoawl, yr wyf yn dyfod yn awr at i'w hystyried yn y ddyledswydd ei hun. am fod y rhai a roddwyd mewn lle arall weddi yn gyffredinol, yn gyfaddas at achos hwn, ni enwaf ond ychydig, a'r rhahyny yn fyr.

DOSB. I.

1. Pan fyddo amser y ddyledswydd at hyffredinol hon wedi dyfod, gwylia rhymosod arni yn yr hyder o'th barotoad, beth bynag fu dy ofal neu'th lwyddiant hyny. Y mae y cyfarwyddyd a roddo athraw enwog i weinidogion, mewn pertynas i bregethu, yn gyfaddas i Gristionion mewn perthynas i weddiö. Ercho iddynt fyfyrion am eu pregethau fel pe baent yn disgwyl dim cynnorthwy g Dduw yn y pulpud; a phan ddelent yno, fwrw eu hunain ar gynnorthwy dwyfol, pe buasant heb fyfyrion dim erioed. Fel parotoa dithau cyn dydd ymryd a gwedd fel pe na byddet i gael dim pellach cynnorthwy yn y gwaith; ond pan ddelych i gyflawni y ddyledswydd, bwrw dy hun ar gynnorthw Duw, fel pe buasit heb ymbarotodi. Nis gwn i pa un o'r ddau sydd yn gwneuaethaf, yr hwn sydd yn rhyfygu ar gynnorthw Duw heb barotoad, ai yr hwn sydd yn rhyfygu ar ei barotoad, ac heb roddi ei bwy ac er gwneuthur a allai, ar gynnorthw gras y nef. Mae y cyntaf yn dangos nad o ganddo ond meddyliau gwael am yr ordi hâd barelus yma; i e, meddyliau bychain isel am y Duw mawr, a'r hwn y mae iddo wnelo ynddi, a'r llall feddyliau rhy uch am dano ei hun. Pa beth, er dy fod ti yn awr hon, Gristion, yn teithio ym mlaen y daclus, a'th galon mewn trefu; och! gynta y gall dy barotoad oll fod ar wasgar, ac o wynion dy gerbyd, er dy boen yn eu hir yn glynu, neu wedi eu dryllio! Mae o feddyliau yn awr, dybygit, yn unol; wyddost ti pa le y byddant ym mhen ychydig o funydau, oddi eithr i'th Dduw roddbraich i'w cadw ynghyd. Ti eelli cyn hawdd ed ddal y gwynt yn dy ddyrnau, a chad meddyliau rhiwedog dy galon rhag gwibi. Mae dy serchiadau yn awr mewn pet gwresogrydd; ond a eelli di eu cadw he oeri? Oni all Duw adael i'th law wywtra yr wyt yn ei hestyn allan mewn gweddi a'th dafod i fethu, pan fynit ei arferyd? I dioddef i'th ysbryd syrthio dan leithrid disymmwth, a ffero dy holl serchiadau, ac edy dy galon mro oer a'r gareg yn dy fywes? "Gwagedd yn ddiau yw pob dy pan fyddo ar y goreu." A hyny mewn perthynas i dymmer ei ysbryd, gystal ag ar sawdd ei gorph a'i ddoniau daearol ereil.

Cor fynych y gwelwn ireidd-dra ei feddwl bywiogrwydd ei rاساسu yn diflanu ac yn wywo mewn dyledswydd ar un tro, y rhai, o arall, pan deilyngai gan Ysbryd Duw weddi ei anadliad tyner i'w bywiogi, fyddent i blodeuo ac yn rhoddi eu perarogl ar led a helaeth! O! ynte, nac ymlawenhâ yn y gigaion, a eill gael ei daraw mor fuan; nac anturia beth mor bwysfawr ag ydyw niant y ddyledswydd hon ar lestr canryll dy barotoad dy hun.

2. Gweddïa yn fynych, yn hytrach nag y faith ar yr un amser. Y mae yn an-wydd bod yn hir iawn mewn gweddï, heb y serchiadau lacau. Y mae yr orleisiau rny a wneir i gerdded yn hwy na chyffred-ar un dirwyniad, yn arfer colli tua'r wedd. Y mae y cnawd yn wan; ac os ydd ysbrydoedd y corph yn blino, y mae yn aïd i'r enaid, sydd yn cael ei ddwyn ar eu wys, fod ar ol. Ein Hiachawdwr, pan ydd yn gweddïo am ei fywyd, ni a'i cawn yn gweddïo yn fynych, yn hytrach nag yn hir ar unwaith. Y dyn ar daith hir a disgyho yn fynych, i adael i'w anifail yntio, fe all fod ar ben ei daith yn gynt ag un a'i gyr dros ben ei allu. Yn enwedig fier hÿd mewn gweddïau cymdeithasol; o'rwydd pan weddïo gydag ereill, y mae yn aïd i ni ystyried ein cyd-deithwyr yn y dyledswydd; fel y dywedodd Iacob, "Mi ddeuaf yn araf, fel y gallo y plant." Etto did wyf yn dywedyd hyn i beri i chwi roddi taliad ar Ysbryd Duw yn ei gyunorthwy-a, a ddeuant weithiau mor gryfion, fel y mae y Cristion yn cael ei ddwyn ganddynt, megys llong a'i hwyliu yn llawn o wynt, a nad oes dim achos poeni wrth y rhwyfau. Mae llong yr enaid yn myned yn hwylysaf yn yn gyflymaf. Fe gyfyd y cyfryw gyn-orthwyon y neb a fyddo yn gweddïo, a'r rhai a unant gydag ef, os yn rasol, a than yr un hwyf fywiog, megys uwch law pob blin-er. Y mae yr Ysbryd yn dwyn ysbryd-odd—serchiadau wyf yn feddwl—i'w ganlyn. Y mae enaid yn y cyfryw hwyf yn debyg i str llawn, newydd ei ollwng; y mae y ddioid rwydd yn fywiog a blasus, ond dro arall, pan talio Ysbryd Duw y cynnorthwyon hyn, y mae ei weddi yn ddiffas i'w archwaeth ei hun, os nad i ereill.

3. Bydd ofalus iawn i ddangos ffyddlon-eb yng ngwaith ymddarostyngol y dydd. Bydded dy gyfaddefiadau yn syml a llawn; y fe deimlad o'th bechodau yn ddwfn, a'th ar o'u herwydd yn ddiffuant ac efengyl-dd. O blegid yn ol a fydd dy agwedd yn rhai hyn, y bydd hefyd ym mhob rhan eall o'r gwaith. Os addeff bechod gyda deimlad, ti a weddï i'w erbyn gyda thaer-eb. Os bydd dy alar yn ddwfn, yn cyr-aedd i'th galon a'th ysbryd, yna fe dardd yr erfyniadau am drugaredd faddeuol a ras glanhaol o'r galon hefyd; bydd syml-

rwydd, gwres, a thaerineb ynddynt. Ond y dyn na thawdd yn nghyfaddefiad pechod, a rewa wrth weddïo yn ei erbyn. Os bydd ei ddragrau yn gelwyddog a bastardaidd, nis gall ei ddeisyfiadau fod yn wirioneddol. Pa ham y gofyn dynion, yn eu gweddïau, y gras hwnw nad yw eu calonau yn ei ddymunio, ond am eu bod heb deimlo niwed, na ffeidd-ïo adgasrwydd y pechodau a gyfaddefant? Drwy hyn y mae llawer yn addef eu pech-odau, yn debyg i rai cardotwyr yn dangos eu briwiau, y rhai ni fyuent gael eu hiach-au. Drachefn, y fath ag wyt mewn cyf-addefiad o bechod, a fyddi hefyd yn dy addefiadau o drugaredd; po isaf y syrthi mewn hunan-ffeiddiad am dy ddrwg dy hun, uchaf y codi yn dy fawl am ei ddaioni ef. Mae adnaid y bel yn gyfatebol i'r nerth a'i tarawodd i'r llawr. Po isaf y lleferi o lwch darostyngiad, uchaf fydd llais dy fawl am ymwared; y mae y baill yn anghwanegu y llall. Po mwyaf yw ein tru-gareddau, mwyaf yw ein pechodau; a pho mwyaf yw ein pechodau, mwyaf yw y tru-gareddau, y rhai, er hyny, y mae ein Duw da yn eu cyfranu arnom, fel ag y mae yn rhaid i'n teimlad o'r naill fod yn cyfateb i'r llall. Yn ol a fyddo argyhoeddiad am bechod, y bydd ein diolchgarwch am dru-garedd.

4. Gwna ddefnydd o'r amser cyfrwng rhwng gweddïau, trwy fyfyrdodau addas a pherthynasol; fel y gallech ddychwelyd at y gwaith gyda bywiogrwydd mwy. Myfyr-dod yw llawforwyn gweddï, i weini iddi, cyn ac wedi ei hymdrech. Y mae fel yr aradr o flaen yr hauwr, i barotoi y galon i weddi; ac fel yr ôg, i guddio yr hâd ar ol ei hau. Megys y portha yr hopran y felin âg ÿd i'w falu, felly myfyrdod, a bortha y galon â defn-ydd gweddï. Yn awr, os yw yn rheidiol i ti ystyried cyn dyledswydd, pa beth i weddïo, yna yn sicr, ar ol dyledswydd, pa fodd y gweddïaist. Fe ddichon y felin fod ar gerdded, a dim ÿd yn cael ei falu. Felly y gelli dithau addef llawer o bechodau, ac etto dy galon yn gyfan, heb ei dryllio am yr un o honynt. Ti eelli weddïo am lawer o rاساس-au, ac ymarfer ychydig neu ddim gras yn dy weddi, trwy fod dy galon yn segur ac yn ddibwys yn y gorchwyl; ac felly y perlysiau hyn heb eu tori, ac yn ganlynol heb roddi eu perarogl ar led. Edrych, gan hyny, yn ol ar y ddyledswydd a aeth heibio, a chraffa yn fanwl pa fath oedd ymddygiad dy galon ynddi. Os ceï ei bod yn ddiog, yn beurydd, yn ysgafn, neu wibiog, neu ynte dan rym, rhyw anhwyf pechadurus, bydd sicr ar dy ddychwelïad i weddi o'th gyhuddo dy hun gyda chywilydd a gofid. Hon yw yr unig ffordd i attal llaw Duw, a'i faru i'n herbyn. "Pe iawn farnem ni ein hunain, ni'n bern-id;" 1 Cor. xi. 31. "Lle yr attelir barn fe fÿn Duw roddi barn." Yn wir, nid oes

fodd i ti mewn ffydd weddio am faddeuant o'r pechodau hyn, nes y dangosech dy fod o ochr Duw, trwy ddwyn dy dystiolaeth i'w herbyn. Fe gymmerodd Moses yr iawn ffordd; rhoddodd arwydd yn gyntaf o'i sel dros Dduw yn erbyn pechod Israel, yn achos y llo aur, ac yna aeth at Dduw mewn taer weddi, am faddeuant o hono. Ni feiddiai agor mo'i enau drostynt wrth Dduw nes oedd wedi rhoddi rhediad i'w sel dros Dduw. Cymnharer *Ecsod. xxxii. 26, &g adn. 31, 32.* Ac os cymmerodd efe y ffordd hon wrth eiriol dros ereill, yn llawer mwy y dylit ti, pan wyt i weddio am faddeuant o'th bechodau dy hun.

Drachefn, Os, ar yr adolygiad hwn o'th weddi, y cei fod dy galon yn wresog yn y gwaith, a'th serchidau yn ffrydio allan at Dduw, a'i gariad ef yn ymdywllt yn ol i'th fynwes, gwylia rhag y ddim balchder dirgel dy ysbeilio o'r trysor ffeydd yma. Bydd ostyngedig a diolchgar, gan gofio mai nid ar dy adenydd dy hun y cefaist dy godi. Ac hefyd bydd ofalus i ddefnyddio y fath diriondeb a hyn, a ddengys Duw, er dy galonogi yn y gwaith, fel y dyrneidiau ŷd a oll-gwyd i Ruth yn maes Boaz. Ni fynai Duw iddynt gau dy enau, ond ei agor yn lletach, pan ddelych drachefn i weddio. A oedd dy galon yn dechreu toddi o'th fewn? O! ynte, gwaedda am fwy o ddrylliad calon. A roddodi dy Dduw edrychiad tirion arnat! Gosoded hynny di i hiraethu am ddatguddiadau llawinach o'i gariad. Pan wel y cardoty y gwr boneddig yn rhoddi ei law yn ei bwrs, fe a ofyn yn daerach. Y mae Duw yn awr yn dechreu dangos ei haelioni; ac fe ddylai hyn roddi hyder ynot tithan i ofyn yn debyg i Abraham, yr hwn fel y rhodda i yr Arglwydd le, a dynodd yn nes, gan ddefnyddio y tir a gafodd, o radd i radd, fel sail i osod erfyniad newydd ger ei fron. Gwel *Gen. xviii. 27, &c.*

DOSE. II.

3ydd. Y gair nesaf o gyfarwyddyd sydd i'r Cristion, pa fodd y dylai ymddwyn, pan fyddo y dydd o weddi anghyffredinol drosodd; ac y mae hyn yn gorwedd mewn gwyl-iadwriaeth dduwiol sydd iddo i'w gosod arno ei hun. Y neb a weddia ac ni wylia, y mae yn debyg i'r dyn sydd yn hau maes â hâd o werth, ond yn ei adael yn agored i foch ddyfod a'i durio i fyny. Neu i hwnw a gymmer boen fawr i hel arian, ond ni ofala am eu cadw yn ddiogel ar ol eu cael. Os na all Satan dy guro di yn y maes, y mae etto yn gobeithio cael y fantais arnat, pan y caiff di wedi gollwng ymaith dy fyddinoedd, y ddyledswydd drosodd, a thithan mewn agwedd ddiotal. Fe addawodd Esau iddo ei hun gyffe i ymddial ar Iacob. "Nesau y mae dyddiau galar fy nbad, yna lladdaf Iacob fy mrawd;" *Gen. xxvii. 41.* Fel hyn, medd Satan, Fe fydd dyddiau ga-

larnu ac ymprydio yn fuan drosodd, ni by efe o hyd ar ei liniau, nac yn curo ei gor bob amser i lawr âg ympryd; pan ddelf cyfle ni syrthiaf arno. Yn awr, un o ddwy ffordd hon y mae dy berygl yn deb o'th ddal, naill ai trwy iddo archolli dy ffydd neu ynte lacau dy ofal yn dy rodiad ufud gar. Ac os gall y naill neu y llall, fe ryddyrnod tost i th weddiau.

Iaf. Edrych gan hyn, ar ol y fad ddiwrnod, at dy ffydd. Gweddio heb y arfer ffydd sy debyg i saethu, heb edrych le y disgyn y saeth; a danfou llong lwyth i'r mor, a pheidio meddwl am ei dychwriad. Yr wyt mewn gweddi wedi bod i ceisio gorchfygu gyda Duw, am wrandawia a'i gymmhorth; yn awr, ymdrecha gymmai i orchfygu dy galon i ddisgwyliad tawel wrth Dduw, a hyder llawn ynddo. Wedi i leho aphat ddiweddu ei ympryd cyhoeddus, y mae dranoeth yn sefyll i fyny ac yn lefaru i hyn wrth y bobl a unasant gydag ef yn ddyledswydd ddirifrol hono. "Gwrandaw fi, O Iudah, a thriglon Ierusalem; crewelch yn yr Arglwydd eich Duw, a chwierheir; coeliwch ei brophwddi ef, a chwifwywch;" 2 *Chron. xx. 20.* Felly, wedi i'r Harglwydd ddyngu i'w ddisgwyliad weddi y mae yn nesaf yn eu hainog i roddi eu hain a'u hachosion yn llaw y Duw y gweddiasant arno: *Mat. vi.* Yn wir, heb hyn ni yw gweddi anghyffredinol ond dadwru anghyffredinol, yr ydym yn gwatwar Duw ac fe fydd i'n gweddiau ein gwatwar ninnau o blegid ni ddaw dim ffyrwyth o honnynt. I eill yr heliwr fod heb ei swper, er i'w gwreddeg a ffroeni yn dda; os, pan ddelf uwbenn yr ysglyfaeth, ni faidd gydio yndd. Yn awr, swydd ffydd yw cydio yn yr addeyid, a chymmeryd gafael ar Dduw; heb y hyn nid yw dy sŵn uchel mewn gweddi o'i difudd a dideffnydd. O! a eili di yr ddiried dy achos i'r cyfreithiwr, ar ol agoryd iddo—a rhoddi dy fywyd yn llaw physygwr, trwy ganlyn ei gyfarwyddiadau ar ol mynegi iddo dy afiechyd—ac ai feiddi di anturio dy achos yn llaw Duw, a ol tywallt dy enaid ger ei fron mewn gwedd. Dyma ynfydrwydd mawr; ie, a phecho mawr—dwyn enw y Duw mawr dan anmhenaeith trwy dy anghrediniaeth. Pa hat y meddyli di, na ddichion Hollalluogrwydd neu na wna gwirionedd a ffyddlondeb, gy northwyo? Y mae ein Hiachawdwr y trwm achwyn y cam y mae Duw yn gael i ddwyllaw y rhai y gallai efe ddisgwyl gwel "Ac oni ddial Duw ei etholedigion, sydd y llesain arno ddydd a nos, er ei fod yn hir oed drostynt! Yr wyf yn dywedyd, i chwi dial efe hwynt ar frys." Pa sicrwydd mawr a ddichion calon Cristion ddymunno, na ga Duw ffyddlawn? Etto, ychydig sydd i'w cael, ar ol eu gweddiau am ymwared, allau ddisgwyl yn gysson am danu; "Eithr Ma

y dyn, pan ddel, a gaiff efe fydd ar y ddaear?" *Luc* xviii. 7, 8.

2il. Dy rodiad ufudd. Cynghor Solomon yw, "Gwylia ar dy droed, pan fyddech yn myned i dŷ Dduw?" *Luc* xviii. 7, 8. Fy nghlynglor innau yn bresennol i ti ydyw edrych at dy droed wrth ddyfod o hono. Ti eelli yn fuan wneuthur i ti dy hun fwy o niwed nag a ddichon yr holl ddiadliad yn affern. Ni allant hwy mo'r lhuiddias dy weddian a rhwystro eu dedwyddol ddychweliad hwy i'th fynwes. Ond ti eelli yn fuan dy hun. "Wele ni fy rhawyd llaw yr Arglywydd, fel na allo achub; ac ni thrymhaodd ei glust ef, fel na allo glywêd; Eithr eich anwiredau chwi a ysgarodd rhyngochi chwi a'ch Duw; a'ch pechodau a guddiasant ei wyneb oddi wrthyh, fel na chlywo;" *Esa.* ix. 1, 2. Dyna yr hustungwr a wahana y cyfeillion agosaf; a wna i Dduw, y cyfaill goren, sefyll draw oddi wrth ei bobl a'u gweddian. Bydd mor ofalus, Gristion, ar ol ymryd, ag a fyddai gwr ar ol physygwr-aeth cryf. Anwyd a gaffier yr awr hon, rhydydd amhreffn yn dy rodiad, fe all fod o ganlyniad athrist. Cofia, megys y gadewnaist dy weddian, felly hefyd dy addunedau, o flaen Duw. Fel yr wyt yn edrych am i Dduw ateb y naill, felly y mae yntau yn disgwyl i tithau dalu y lleill. Tor dy addewid i Dduw, a dyna ti yn ei ryddhau ef i'th law dy hun, o fod yn dy ddyled o un drugaredd. Ynfydrwydd yw meddwl y gelli i rwymo Duw, a'th adael dy hun yn rhydd

PENNOD LI

Am y rhan erfyniol o Weddi, ynghyd â chuffelybrydd mewn pedwar peth, yn dal i fyny wrth weddio am drugareddau ysbrydol a thymmorol.

WEDI myned drwy y gaugen gyntaf yn y gwahaniaeth, a dangos yr amryw ddulliau o weddi; sef, ein bod i arfer gweddi saethedig a rheolaidd, ynigol a chymdeithasol, ddirgel a chyhoeddus, gyffredinol ac anghyffredinol; deun yn awr at yr ail gaugen, i ystyried amryw ddefnyddiau gweddi. Ac felly, Gweddio â phob rhyw weddi a deisyfiad, yw dwyn y cwbl o ddefnydd gweddi o fewn eylch ein dyledsyyddau, heb adael dim allan o'n gweddian a fyna Duw ei gael ynddynt. Yn awr, yr amrywiaeth yma o ddefnyddiau gweddi, mae rhai yn tybied y gallant ei gael yn naur ai y testyn, gweddi a deisyfiad; ond ni seikaf fi fy ymresymiad ar wahaniad mor fanwl. Ni a ymfoddlonwn ar y rhan- iad a wna yr apostol (*Phil.* iv. 6): "Yn mhob peth mewn gweddi ac ymbil, gyda diolchgarwch, gwneier eich deisyfiadau chwi yn hysbys ger bron Duw;" a l *The.* xvii. 18: "Gweddiwch yn ddibaid." Yn mhob dim diolchwch. Yn mhob un o'r

lleoedd yma fe gynnwysir holl ddefnydd gweddi yn y ddau hyn, deisyfiad a diolch. Y mae y rhai hyn fel ysgogiad dwbl yr ysgyfaint yn sugno yr awyr i mewn ac yn ei anadlu yn ol. Yn y rhan erfyniol o weddi, yr ydym yn deisyf rhywbeth ar law Duw; mewn diolch, yr ydym yn rhoddi mawl yn ol iddo am drugareddau a dderbyniaisom ganddo. Dechreuaf gyda'r rhan erfyniol o weddi, ac y mae yn hono dair rhan, deisyfiadau am bethau da, deisyfiadau yn erbyn drwg, a deisyfiadau am far'n. Am eirioliad, neu ymbiliaid dros ereill, ni a'i gadawn i le arall, dan y geiriau hyn, "Deisyfiad dros yr holl saint."

1af. Deisyfiadau am bethau da. Wrth hyn yr wyf yn meddwl yr ymbiliau a rydd y Cristion at Dduw yn enw Crist, am ryw ddaioni a roed mewn addewid. Yn awr, y mae pethau da yr addewid naill ai yn ysbrydol ai yn dymmorol—yn perthyn i'n hen- eiddiau a'n hiachawdwriaeth dragwyddol, neu ynte i'n cyrph a'n cyflwr amserol yn y bywyd hwn. Y fath faes helaeth a hyn sydd i'r Cristion i'w ddeisyfiadau rodio ynddo. Canys y mae i dduwioldeb "addewid o'r bywyd sydd yr awr hon, ac o'r hwn a fydd;" i *Tim.* iv. 8. Y mae y ddaear isod i'r duwiel yn wlad addewid, er nad hi yw y wlad a addawyd yn benaf. Nid addaw y nef iddo a wnaeth Duw, gan ei adael yma i'w allu ei hun am ei gynnaluaeth allanol, nac erchi iddo fyw wrth fydd am ei enaid, ond wrth ei synwyr am ei gorph. Na: y mae yr hwn a addawodd "ras a gogoniant" wedi dywedyd hefyd, "Na etyl efe ddim daioni oddi wrth y rhai a rodiant yn berfaith;" *Saln* lxxxiv. 11. Mae eu cynnaluaeth yma wedi ei ddarparu, yn gystal a'u hetifeddiaeth oddi yma. Yn awr, y cwbl a wnaaf yn y lle hwn yw, rhoddi cwmpas i'ch llaw, er cymhorth i chwi hwylio yn ddiogel pan fyddoch yn tueddu yn eich erfyniadau at unrhyw bwynt o'r addewid, pa un bynag ai am drugareddau ysbrydol ai tymmorol. Ac fel na redwyf chwi allan o'r iawn ddwfr, ar greigiau neu draethau, mi roddaf nodwydd y cwmpas, a fywun ei gymhell arnoch, i gyffwrdd â maen tynu yr Ysgrythyr. Oddi wrth ba un ni a allwn gasglu cyffelybrydd pedwar plyg i'w arfer yn ein deisyfiadau am fendithion ysbrydol, ac am y rhai sy dymmorol, ac hefyd anghyffelybrydd triphlyg. Ond yn gyntaf y cyffelybrydd mewn pedwar peth.

(1af.) Y mae yn rhaid i ti, wrth geisio y naill fel y llall, weddio mewn teimlad o'th annheilyngdod; o blegid nid wyt yn haeddu yr un. Pan yw Crist yn gweddio drosom, y mae efe yn gofyn fel dadleuwr am gyfiawnder, am ei fod wedi talu cyn ceisio; ac nad yw yn gofyn dim ond am ei lawn werth. Ond nynt, drueiniaid, cardotwyr ydym; a rhaid i ni ofyn y cwbl yn unig fel elusen,

am mai nid o'n pwrs ni y ceir arian y pryniad. Nid oedd Duw y Tad chwaith yn rhwym i roddi ei Fab, na'r Mab i'w roddi ei hun, er ein hadferiad ni, y rhai oeddym wedi syrthio trwy ein bai i ddwylaw cyfiawnder. Felly trugaredd yw yr unig ddadl a elli di, sy bechadur, ei harfer gyda Duw. Ti elli, gyda dyn sefyll ar dy deilyngdod; felly yr oedd Iacob yn holi am ei gyflog ar law Laban; ond pan y mae iddo a wnelo â Duw, y mae yn newid ei ddadl, ac yn troi yn gardotyn. "Ni ryglyddais y lleiaf o'th holl drugareddau di, nac o'r holl wirionedd a wnaethost a'th was;" *Gen.* xxxii. 10. Felly Daniel, "Nid o herwydd ein cyfiawnderau ein hun y ydym ni yn tywallt ein gweddiau ger dy fron; eithr o herwydd dy aml drugareddau;" *Dan.* ix. 18. Nid oes un feudith mor fawr nad ellir ei chael trwy y ddadl o drugaredd, nac yr un mor fechan bod ni yn ei haeddu. Gan hyny, os mynit ofyn un peth ar law Duw, addef nad wyt yn haeddu dim. Dyna y pryd yr ydym addasaf i dderbyn pethau mawrin gan Dduw, pan fyddom leiaf yn ein golwg ein hunain; ac agosaf i'r goron, pan farnom ein hunain yn annheilwng o'r grawen. Fe ddygodd y Pharisead balch ei gyfiawnder at Dduw; a chafodd ei bechod yn rhwym arno i fyned adref; dygodd y publican yntau ei bechod, a rhyddhâd a chyfiawnhâd a gafodd i ddychelyd. Dyma y modd y mae Duw yn croesi ei ddwyllaw, fel Iacob, wrth roddi ei feudithion.

(2il.) Yn y ddau achos y mae yn rhaid i ti weddio mewn fydd; o blegid y mae bendithion ysbrydol, a'r rhai tymmorol wedi eu haddaw; ac am hyny yr wyt tithau i greu y bydd Duw yn fyddlawn a manwl i gyflawni yr addewidion lleiaf, sydd yn perthyn i'r bywyd hwn, fel y rhai mwyaf pwysfawr sydd yn perthyn i'th iachawdwriaeth. Yn wir, y mae efe yn addaw bendithion ysbrydol yn eu sylwedd eu hunain; fe rydd ras a gogoniant; ond am fendithion tymmorol, fe a'u rhydd naill ai yn eu rhyw ai eu gwerth. "Ni ettyl efe ddim daioni." Ac efe sydd addas i farnu pa bryd y bydd rhyw fwyniant tymmorol yn dda i ni, a pha bryd y rhyw rodd arall yn well yn ei le. Oddi yma y mae y drefn hono yng ngweddi ein Harglwydd, i weddio yn gyntaf, "Gwneler dy ewyllys," cyn gofyn, "Dyro i ni heddyw ein bara beunyddiol." Ond yr un yw y sel sydd yn sicrhau addewidion tymmorol, ag a esyd efe wrth rai ysbrydol. Ei wirionedd a'i ffyddlondeb ydynt mor rwym i gyflawni addewidion tymmorol, yn ol eu hammod â'r lleill. Ac am hyny y dylem ymor-phwys mor hollol ar ei ofal a'i ragluniaeth, am ein cadwraeth yma, ag am ein hiachawdwriaeth yn ol hyn. Pe amgen, fe fuasai Duw yn colledu ei bobl, wrth wahardd eu gofal pryderus am bethau nad oedd yn

meddwl eu cadw dan ofal ei ragluniaeth hun. Ond sicr yw, gan ei fod yn erchi i beidio gofalu am ddim; ond ym mhob pe i wneuthur ein deisyfiadau yn hysbys ger fron ef, nad yw efe yn meddwl ein colled wrth ein hesmwythiau; ond y mynai ei wrth hyny i ni ddeall a chredu ei fod ym dwyn y gofal arno ei hun, ac y rhyw efe yn ganlyniad ei waith, gyfrif llawn o ofal a'i ffyddlondeb, yn trefnu y cwbl er ei lles buddiolaf.

(3ydd.) Y mae yn rhaid i ni uno ein hyr gais ein hunain, yn yr arferiad o bob moddio gyda'n gweddiau, pa un bynag ai am fendithion ysbrydol ai tymmorol. Nid oes gardotwr diog gael un gardod wrth e drysau ni. "Hyn a orchymynasom i chw Os byddai neb ni fynai weithio, na chfwyta chwaith;" 2 *The.* iii. 10. Ac yn sicr ni rydd Duw byth groesaw wrth ei ddrws hun i neb o fath y bobl y mynai i ni nacau wrth yr eiddom ni. Mae yn rhaid ni weddio dan geisio dyhysbyddu y llon neu fe sudda er ein gweddiau. Ai cynniaeth dymmorol wyt ti yn ddeisyf? gwedd a gweithiau, neu ti elli weddio a newynu. wyt ti yn meddwl gosod Duw ar waith, ty yr wyt ti dy hun â'th law yn dy fynwng? Y mae y ddwy ddiareb hyny yn hynod "Llaw y diwyd a gyfoethoga;" *Diar.* x. 4, *adn.* 22, "Bendith yr Arglwydd a gyfoethoga; ac ni ddwg flinder gyda hi." Yr hwn a weddia, ond a esgeulasa ddiwydrwyd nid yw ar y ffordd i gyfoethogi. A'r hwn sy ddiwyd, ond heb weddio, fe eill gyfoethogi, ond ni chaiff mo'r fendith gyda'i gyfoeth. Ond y neb a gaffo gyfoeth trwy weddio ddiiffuant mewn cyssylltiad â'i ddwydrwydd, y mae yn gyfoethog trwy fendith Duw; ac ni chaiff mo'r blinder y mae y byd olddyn yn ei drysori ynghyd â'i arian. I er na chaffo dda byd, y mae er hyny da fendith Duw, yr hon a'i gyfoethoga pa fyddo heb ddim arian yn ei lwrs. Ddrachefn, Ai rhyw fendith ysbrydol wyt ti y ei gofyn? A ddymunit ti wybodaeth fwy mhethau Duw? Na ddisgwyl iddyddisgyn i'th feddwl heb lafur. Yr oedd Daniel yn chwilio llyfrau, yn gystal ag y gweddio (*Dan.* ix. 2); yr oedd ei lygaid i awr ar ei lyfr, ac yn y man wedi eu codi i nef mewn gweddi. "Llawer a gyuniweiriant, a gwybodaeth a amlheir;" *Dan.* xii. Y mae hi i'w chael trwy redeg o'r naif foddion i'r llall. Fel y mae llong marsialdwr yn cael peth o'i llwyth mewn un portladd, a pheth mewn un arall; felly y mae Cristion yn cael peth goleu mewn pregeth peth mewn ynddiddan, peth mewn un dyledswydd, a pheth yn y llall. A'r hwn ymarfera ag un, ond trwy ddiogi a esgeulusa y lleill, ni wna ond cadw ei boen i gof y budd. Y mae Duw yn egluro ei hun weithiau mewn un dyledswydd, weithiau

mewn un arall, i'r diben o gadw y cwbl yn eu bri fel na thafom ymaith yr un.

(4ydd.) Y mae yn rhaid i'n deisyfiadau am y naill rodd fel y llall gael eu pereiddio â diolch. "Gyda diolchgarwch gwneler eich deisyfiadau yn hysbys;" *Phil.* iv. 6, a *1 The.* v. 18: "Ym mhob dim diolchweh." A wyt ti yn gweddio am ffafri Duw a'i gariad? Bendithia Dduw am dy fod lle gellir ei gael, ac nid yn uffern, tu hwnt i obaith a chymmhorth. Ai iechyd wyt ti yn ei ddymuno? Bendithia Dduw am einioes. "Trugareddau yr Arglwydd yw na ddarfu am danom ni;" *Galar.* iii. 62. Ni ddichon un cyflwr ar y ddaear fod mor ddu, nad oes rhyw lygeiddyn gwyn ynddo—rhyw gymmysg o drugaredd yn gydblededig. Tywyllweh pur, heb ddim o orlliw trugaredd, yn uffern yn unig y mae i'w gael. Na thyred ynte i weddio heb fod genyt ryw beth i ddiolch am llano hefyd. Megys y mae gan Dduw law agored i roddi, felly y mae ganddo lygad agored i weled, pwy sydd yn dyfod at ei ddwr, ac i wahaniaethu rhwng y cardotyn diolchgar ac anniolchgar. A rydd Duw chwanaeg, lle y mae yr hyn a roddodd efe eisoes wedi myned yn ofer? Yn wir y mae efe yn ddaionus i'r rhai anniolchgar a drwg, ond nid atebiad grasol i'w gweddiau yw hyn, ond gweithred o'i ragluniaeth gyffredinol; o'r hyn ni bydd iddynt fawr o gysur, pan ddell tiriondeb ei ragluniaeth mewn barn i'w herbyn i fwynbau eu pechod, a thrymhuau eu poen.

PENNOD LII.

Yn cynnwys anghyffelybrwydd a gwahaniaeth triphlyg, a ddyliad ei wneuthur wrth ffurfio ein deisyfiadau am ryw drugaredd ysbrydol ac un dymmorol.

Yn awr y canlyn anghyffelybrwydd triphlyg, a ddylem edrych ato wrth ffurfio ein deisyfiadau am roddion ysbrydol a thymmorol. Iaf. Y mae trugareddau tymmorol i'w lymuno yn benaf, er mwyn yr ysbrydol; ond y rhai ysbrydol er eu mwyn eu hunain, ac nid er mwyn ennill tymmorol. Yn gyntaf, Bendithion tymmorol i'w dymuno yn benaf, er mwyn yr ysbrydol, nid er eu mwyn eu hunain. Y mae yr ymdeithydd yn dymuno march, nid er mwyn y creadur yn gymmaint a chyffeusdra y daith y mae efe arni. Felly y dylai y Cristion, os gweddia am bethau tymmorol, eu dymuno fel cynorthwyon yn ei ffordd a'i daith i'r nef. Nid wyf yn dywedyd fod yn anghyfreithlawn gweddio am einioes, iechyd, a chysur on ereill y bywyd hwn, o herwydd y cyfaddasrwydd sydd ynddynt at ein naturiaeth, ac i gyflawni ein diffygion allanol; ond eu dymuno er mwyn yr hyn yn unig sydd isel a

salw iawn. Nid yw ddim ond cri y creadur. Y mae y cigfrain yn llefain fel hyn, a holl fwystflod y maes yn ceisio eu bywd gan Dduw. Hyny yw, y maent yn dymuno cynnialiad eu bywyddau, ac yn cwyno pan fyddont mewn eisieu o'r hyn sydd reidiol er eu cadwraeth. A chan na wnaethpwyd y creaduriaid hyn i ddim cyrhaeddiad uwch nag yw y mwynhâd o'r fath ddaioni bach ei sylwedd, y maent hwy yn dda deddf eu creadigaeth. Ond yr wyt ti yn greadur deallol, a thrwy dy enaid anfarwol, sydd o sylwedd ysbrydol, yr wyt yn gâr mor agos i angylion y nef ag ydwyf, trwy dy ran waelaf gorphorol, i'r anifeiliaid. Iê, yr wyt yn gyfathrachwr i Dduw dy Wneuthurwr, nid yn unig wedi dy wneuthur ganddo ef, fel y maent hwythau, ond iddo ef, yr hyn nid ydynt hwy. Efe yw dy ddaioni penaf di ac am hyny yr wyt yn ei ddiannrhydeddu yn ddifawr, a thi dy hun hefyd, os gelli eistedd i lawr y tu yma iddo, yn dy ddymuniaidau. *Nihil bonum sine summo bono* = Ni ddylai dim fod yn dda yn dy olwg heb Dduw, y daioni penaf. *Non placent tibi mea, sine mecum; nec tua mihi sine tecum* = Fel hyn y dylit ddywedyd a gweddio, Megys nad yw yr eiddof, Arglwydd, yn dy foddio di, heb i ti fy nghael i fy hun, felly ni wna yr eiddot tithau mo'm boddio innau, hebot ti. Yn awr, nid yw yr ysgogiad rheolaidd yma, wrth ddymuno pethau amserol, ddim i'w gael mewn un galon, ond hono y cafodd ei holwynion—galluoedd a chynneddfau wyf yn feddwl—eu gosod yn eu lle gan law dwyfol ras. Y mae dyn yn ei gyflwr llygr-edig yn ail i Nebuchodonosor wrth ei borfa; y mae ganddo galon anifail, nad yw yn chwennych dim yn rhagor na boddâd i'w blwy anianol hi. Ond pan adnewyddir ef trwy ras, yna y mae ei ddeall yn dychwel-yd ato, trwy yr hyn y galluogir ef, pan yn gweddio am bethau tymmorol, i godi ei ddymuniaidau i radd uwch, a diben ardderchocach. A yw Dafydd yn ei glefyd yn gweddio am ryw faint o chwanaegiad amser at hyd ei oes? Nid o gariad ffol at y byd hwn, na'i fwyniant anianol, y mae hyny yn tarddu; ond o ddymuniad ar ei gael yn barotach i daith aneu. "Paid â mi, fel y cryfhawf cyn fy mnyed ac na byddwyf mwy;" *Salm xxxix.* 13. A yw yn gysur ganddo obeithio y caiff aros yma yn hwy? Nid yr un o bleserau y byd anianol hwn sydd yn ennyn y llawenydd yma yn ei galon rasol, ond y cyfle a gaiff efe trwy hyny i foliannu Duw yn nhir y rhai byw. "Gobeithia yn Nuw, canys etto y molianaf ef, sef iachawdwr iaeth fy wyneb, a'm Duw;" *Salm* xliii. 5. Y mae gan y Cristion archwaeth mor deimladol ag un arall, i brofi melusder rhyw rodd tymmorol; ond trwy fod ei galon yn ysbrydol, ac felly yn gydnabyddus â mwyniant amgenach, mae yn deisyf, gyda Luther, ar i

Dduw beidio ei droi ymaith a'r plig hyn o fendithion. O! mor anaml yw y rhai a weddiant fel hyn am bethau tymmorol! Chwilena dros eu chwantau y mae y rhan fwyaf wrth weddio am danynt. "Yr ydych yn gofyn ar gam, fel y galloch eu treulio ar eich melus chwantau;" *Iago* iv. 3. Y mae un yn glaf, ac yn gweddio am iechyd, fel y gallo fyned drachefn at ei ddiod, neu but-einiaid. Un arall yn ddiblant, y mynai gael etifedd i ddal i fyny rodres a gogoniant ei dy, ond nid i feithrin un at deulu Crist yn y byd. Mynai y trydydd fod yn ŵr mwy yn y byd, ac i ba beth? Fe allai, wedi cyrhaedd mwy o allu, mai i ddial yn llwyrach ar ei elynion sy'n awr o'i afael. Ac ereill, sy heb ddwyn bwriad mor ddrygonus gyda'u haberth, nid edrychant er hyny ddim uwch na'u boddhad anianol, yn y mwyniant a ddymunent, fel y mae yn amlwg wrth eu hymddygiad ar ol ei gael. Y morwyr yn y dymnestl, "gwaeddant ar yr Arglwydd" yn eu cyfyngdor (*Salm* cvii. 28), ac wedi cael eu bywyd fel y dymunent, "yna y llawen-hânt am eu gostegu," a dyna eu neges a'u hymngais â Duw wedi darfod; arwydd eglur eu bod yn hunanol ac anianol yn eu gweddi am dawelwch, am nad ydynt yn ei ddefnyddio i ddiben ysbrydol. Yr hyn sydd yn peri i'r Salmwydd dori allan i'r dymuniad grasol hwnw, "O! na foliament yr Arglwydd am ei ddaion!" *adn.* 31. Ond llawer ffeiddiach etto yw gweddio am roddion ysbrydol, er mwyn rhyw fudd tymmorol a ddisgwylir gael oddi wilynt. Fel hyn y dymunodd Simon y swynwr ddoniau yr Ysbryd Glân, fel y byddai yn ŵr o enw a pharch. Ac onid oes rhai am gael yr efengyl i'r gymmydogaeth, i gael o honynt hwy geiniog ryw fodd oddi wrthi? Ac ereill a weddiant am gymmhorth yr Ysbryd Glân, dan lygadu eu clod eu hunain drwy hyny, gan halogi yn ffaidd bethau sanctaidd yn nilyniad eu chwant! O! wael-waith erchyll! megys pe ceisiai un addurn-wisg brenin, i gau safn ffwrn â hi? "Dyma," fel y dywedodd Awstin "gwnauthur Duw yn ystôl, i ni ddringo ar gefn y creadur."

Yn ail. Y bendithion ysbrydol hyny sydd yn hanfodol i'n hapusrwydd, ac yn anheborol angenrheidiol i'n hiachawdwriaeth, yr ydym i weddio am y rhai hyn a thaeineb diball; sef maddeuant pechod, cariad, a ffafr Duw, a grasusau sancteiddiol ei Ysbryd. Bod yn oer neu yn ddi-ofal yn ein gweddiau am y rhai hyn, sy ddrygioni mawr. Y mae yr addewid o'n plaid yn â thaeineb mwyaf: "Ceisiwch yr Arglwydd a'i nerth; ceisiwch ei wyneb ef bob amser;" *Salm* cv. 4. "Yr hwn sydd yn ewyllsio, cymmered ddwfr y bywyd yn rhad;" *Dad.* xxii. 17. *Tantum possumus in negotio religionis, quantum volumus*—"Y mae y llywydd mewn crefydd yn cyfatteb i'r ewyllys." Ond y mae

yn rhaid i'n gweddïau am fendithion tymmorol fod gydag ymddarostyngiad heb derfyn i ewyllys Duw, o herwydd eu haddaw yn anmodol. Yr addewid yw sail ein ffydd gan hyny, rhaid i oruwchadeikad ein gweddïau beidio taflu drosti. Hyn oedd pechod Israel: "Pwy a ddyry i ni gig i'w fwyta?" *Num.* xi. 18. Yr oedd Duw yn wir wedd addaw en porthi yn yr anialwch, ond ni rhoddi iddynt bob dysglaid a chwennycha eu blys afreolus. Ac am hyny, pan waeddasant am gig, yn eu hanfoddlourwydd ddaipariaeth Duw, hwy gawsant eu dymuniad, ond â chwerwder i'w ganly: "Tra yn ydoedd y bwyd yn eu safnau, diglloedd Duw a gynneuoedd yn eu herbyn hwynt, ac a laddodd y rhai brasaf o honynt;" *Salm* lxxviii. 30, 31. Fel hyn y porthwyd y rhai hyn i'r lladdfa, a'r bwyd a or-flysiasant O! gwylia rhag deisyfiadau pennodol am unrhyw fwyniant tymmorol, onid e, ti a ddeisyfi wialen i'th gefn dy hun. Rhaid oedd i Rahel gael plant, onid e, hi fyddafarw; o'r diwedd cafodd ddau; ond hi ffarfwr wrth esgor ar yr olaf. Cymmhwys oedd dywediant un wrth ei wraig, yr hon oedd yn dra awyddus am fab, ac a gafodd un o'r diwedd, ond nid un o'r rhai callaf. "Wraig;" eb efe, "ti fuost dra awyddus am fachgen; ac yn awr y mae genyt un fydd yn fachgen o hyd." Cyfiawn y gallo Duw osod rhyw argraph o'i ŵg ar y rhodde hono, a pha un yr ettyb ef ein gweddïau pennodol ni. Oeh! pa ham y byddai raid ni gael y peth a fydd raid i ni ei gollu, neu na chwam mo'i fwyhau tra y mae yn ein meddiant?

3ydd. Y mae y bendithion ysbrydol hyny sy hanfodol i ddedwyddwch y Cristion, i'w ceisio â dymuniadau diderfyn. Nid dyro ni hyn a hyn o ras, ac ni ffinaf mo hono am ddim yn rhagor. Na, y mae Duw yn rhoddi ychydig o ras, nid i gau ein geneuau ond i'w agor yn fwy am chwaneb. A etto, oeh! mor ffol resynol yw llawer yn hyn o beth! Y maent yn foddllawn ar gymmaint o grefydd ag a'u ceidw, megys halen rhag myned yn ddrygawrus, gau bechodau gwaradwyddus, yn ffroenau eu cymmydogion; neu, rhag teimlo silangell cydwybod boenydiol—yn debyg i blant ysgol, na ofalant am ddim mwy o'u gwern nag a fyddo raid i ochelyd curfa. Oeh! ni thal hyn mo' alw yn ddymunio. Dy air da oddi allan, a'tl lonyddwch oddi mewn, yr wyt ti yn eu ddymunio; a'r rhoddion ereill er mwyn cyrhaedd y rhai hyn. Y dyn a wŷr werth gra ni chyfrif ei fod yn cael digon, nes e digoner o hono mewn gogoniant. Fe gafodd Paul fwy na llawer o'i frodyr, etto, y mae yn gweddio ac yn ymestyn mor daer am chwaneb, a phe buasai heb ddim: *Phil.* iii. 13, 14. Ond am gysuron tymmorol, yr ydym i gyfyngu ein dymuniadau, a phheidio lledu

wyliau ein serchiadon yn llawn, with eu nisio. Y mae calon rasol mor ofnus rhag fel gormod o'r rhai hyn ag yw rhag cael y fychan: "Na ddyro i mi na thlodi na nyfoeth; portha fi â'm digonedd o fara;" *Gen. xxx. 8.* Yr wyf yn meddwl nad oes un gwir Gristion na roddai ei Amen yn sir-l wrth y weddi yma o eiddo Agur—yr wyf i sicr y dylai ef. Dyna y tŷ yn y lle goreu, y heb fod yn rhy uchel ar y bryn noeth-ym, nac ychwaith ar y gwaelod cleilyd. Y mae natur y rhoddion tymmorol yma yn lligon i argyhoeddi dyn deallgar mai y ffrwyg canol sydd oreu. Nid marsiand-eth y Cristion ydynt hwy i fod, ond ei lasarn (*ballast*), ac am hyny nid ydynt i'w ymuno at lwytho y llestr, ond i'w chadw a gydbwys. Nid ei ran ydynt—y nef yw hono—ond ei arian traul ar ei daith tuag i. A phwy, os bydd yn synwyrlo; a ddy-unai ddwyn mwy yn ei gylch, ar daith, ag a ettyb i dalu ei gostiau?

PENNOD LIII.

am wrth-ymbiliad, neu y modd y mae i ni ymbil yn erbyn drwg—dan bump o benau.

Yr ail gangen yn y rhan erfyniol o weddi w gwrth-ymbiliad, ym mha un yr ydym yn deisyf ar Dduw, er mwyn Crist, droi ymaith w ddrwg a deimlwn, neu a ofnwn, a osod- yd, neu a fygythiwyd, arnom. Felly, wrth-ymbiliad yw drwg. Yma mi gaf dangos yn fyr y drygau i ymbil yn eu her- yn, a'r modd y dylem ffurfio ein deisyfiad- u rhagddynt. Dau air a gynnwys ynddynt ob drwg—Pechod, neu ddiodefaint.

(1af. Pechod. Hwn yn wir yw drwg y rygau; yn erbyn pa un yn benaf y mae i ni ollwng saethau ein gweddian. Dyna yr unig beth sydd yn ddrwg yn ei natur ei hun —drwg yw diodefaint i'n teimladau ni, yn ytraeth nag ynddo ei hun. Ac y mae ein diodefaiadau yn cael eu bod â'u pwys lliidiog ddi wrth ddrwg ein pechodau. Oni buasai pechod, ni fuasai dim dioddef; a lle y mae wnw wedi marw, nid yw y llall i'w gael. Nid oes dim gofid yn y nef, am nad oes yno dim i'w pechu. Y mae y rhai hyn, fel effeiliaid, yn byw ac yn marw ynghyd. Os drwg a wnei, pechod a orwedd wrth y rws;" hyny yw, os rhoddi le i ddrwg pechod, disgwyl y drwg o ddioddef. Yn wr, mewn pechod, y mae dau' beth i ymbil w herbyn—euogrywydd a halogrywydd.

(1af.) Euogrywydd; yr hwn yw effaith naturiol a chanlyniad pob pechod. Pa bryd ynag y gwneir dim ar sy groes i gyfraith Duw, y mae yno euogrywydd yn cymmerid le, fel y mae y creadur yn dyfod yn ddar- styngedig i ŵg Duw. Ac nid yw yr euog- rywydd yma yn gwisgo ymaith gan amser,

ond yn aros yn rhwym ar y pechadur, nes y rhyddhau Duw ef drwy ei drugaredd faddeuol yn ei gweithrediad. Felly, er bod y weithred o bechod yn ddibara, ac yu myned heibio yn ebrwydd, etto, y mae y cre- adur yn rhwymedigaeth ei auwiredd, a'r gadwyn yma o euogrywydd yn ei ddal fel carcharor i gyfiawnder dwyfol, hyd oni chaffo faddeuant drwy gred fywiol a dy- chweliadol at Dduw. Yn debyg i ddrwg- weithredwr, yr hwn er nad yw, yn ebrwydd wedi y weithred, yn cael ei ddal a'i farnu, etto, y mae yn aros yn ddyledwr i'r gyfraith pa le bynag y byddo, hyd oni allo gael gwarant ryddhad. Yn awr, a oes achos i mi ddywedyd rhywbeth, i osod allan gyflwr alaethus enaid nad euogrywydd, er mwyn eich cyffroi i ymfyn am ei symmudiad? Nid oes un mynydd mor drwm ag yw euog- rwydd y pechod lleiaf i gydwybod deffrôedig. Gwell fyddai bod ysbrydion yn ymrodio yn dy dŷ, nag euogrywydd yn dy enaid. Os yw dy gydwybod yn dywedyd i ti dy fod mewn rhwymedigaeth auwiredd, nis gelli lai na bod hefyd mewn bustl chwerwder—y maent yn canlyn eu gilydd: *Act. viii. 23.* Baich yw euogrywydd nas dichon y creadur sefyll dano, na'i dafu ymaith. Y mae un yn ei gyffelybu i anifail a frathir gan gae- ynen; mynai redeg gan ei boen, ac etto y mae yn glynu ynddo. Mae hwn yn pigo ei enaid, fel draenen yn y enwad, ac ni edy iddo orphwys y dydd na chysgu y nos; y mae yn troi ar ei wely fel *Regulus* yn ei faril â blaenau hoelion drwyddo; nid oes un cwr esmwyth iddo i'w gael. Hyn a bair iddo ofni pob clefyd a ddal i'r dref, haint neu frech, rhag iddo ymafelyd ynddo, a'i ddwyn trwy angu i farn. Ei euogrywydd a wna iddo dybed pob perth yn ddyn, a phob dyn yn genhadwr dialedd dwyfol, i'w ladd ef. Y nod a osododd Duw ar Cain euog (*Gen. iv. 15*), yn ol barn amryw esbonwyr, oedd calon grynedig, yn dangos ei hun trwy ei wnebpryd hylldrwn, a'i agwedd gy- thryblus. A'r lle hwnw (*adn. 12*), "Gwib- iad a chrwydriad fyddi ar y ddaear," mae cyfieithiad y *Deg a Thrigain (Septuagint)* yn ei ddarllen fel hyn: "Ti a fyddi yn ochi ac yn crynu ar y ddaear." Nid oes na llewgy nac achreth a deif y corph i'r fath anhrefn, ag y teif pechod yr enaid.

Yn awr, wrth weddio yn erbyn euog- rwydd ac am faddeuant, sylwa ar y pethau a ganlyn:—

(1af. Gweddïa gyda theimlad dwfn a galar am dy bechodau. Y ddwliaith waethaf mewn gweddi yw eiddo y galon, pan fo hi yn ddideimlad o'r pechod a achwynir i'w erbyn, ac o'r drugaredd a ofynir. Nid oes dim a galeda galon Duw yn erbyn ein gweddi yn fwy na'n caledwch wrth weddio; ac nid oes y fath ffordd i doddi calon Duw i dosturi, a bod ein calonau yn toddi i drist-

wch. Yr hwn a fynai i ni roddi "gwin i'r rhai trwm eu calon" (*Diar. xxxi. 6*), y mae ef ei hun yn ddiau yn cadw ei lestr gwin melusaf—yr addeuol o drugaredd faddeuol wyf yn feddwl—"i fywhau calon y rhai cystuddiedig;" *Esa. lvii. 15*. Y mae deigr yn yn y llygad am bechod yn addurno y creadur yn well na gem yn y glust; a'i weddi yn fwy nag un harddwch ymadrodd. Tra bu y publican yn curo ei ddwyfron ei hun, efe a wnaeth ei ffordd i fywesu Duw; a chafodd fyned adref yn wr rhydd. Ond a fydd i dywalltad gwaed Crist ddwyn prawf o faddeuant i ti na thywellti ddim dagrau dy hun am dy bechod? Y gwirionedd yw, yma y mae yr anhawsdra yn sefyll; nid pa fodd i gynhyrfu Duw, ond pa fodd i gael calon y pechadur wedi ei thymmeru. Mwy anhawdd yw cael y creadur i deimlad o'i bechod, na chael symmud y baich gan Dduw maddeugar pan ei teimlir. Erioed ni bu meddyg calon dyner yn barotach i gau y wythien, a rhwymo archoll ei glaffdyn llesmeiriol i fyny pan fo wedi gwaedu digon, nag yw Duw trwy ei drugaredd faddeuol i esmwythau ar ysbryd tralodus pechadur argyhoeddedig. Un rheol a roddodd ef i'w weision, wrth drin eu cleision ysbrydol, yw gochelyd gwaedu pechaduriaid druain yn rhy drwm â llymder gormodol, rhag i ysbrydoedd eu fydd gael eu gwanychu yn rhy bell; "Digon i'r cyfryw ddyd y cerydd yma," &c. Yn gymmaint ag y dylech yn y gwrthwyneb yn hytrach faddeu iddo, a'i ddiddanu, rhag llyngau y cyfryw gan ormod tristwch;" *2 Cor. ii. 6, 7*.

2il. Cyfiawnhâ Dduw yn yr holl ddangosiadau o'i wng am dy bechodau. Yr wyt o bossibl yn dwyn nodau o'i gerydd yn dy gnawd mewn rhyw farn allanol; neu yr hyn sy waeth, ei ddychrynfeydd wedi ymaffyd yn dy enaid; ac fel saethau gwenwynig yn brathu ac yn poeni dy gyfwybod. Cydnebydd mai cyfiawn yw efe; a bod yr hyn oll a ddaeth arnat "yn llai na'th anwiredd;" *Ezra ix. 13*. Y ffordd i attal dyrnod marwol ei fwyell ef yw cusanu y fraich a'i cyfyd. Cyfiawnhâ ei gyfiawnder, a thi a fyddi ar y ffordd i'w drugaredd dy achub. Y mae i ti addeuol o'th ochr: "Os ymostwng eu calon ddiennwaeddedig, a'u bod yn foddllawn am eu cospedigaeth, minnau a gofiat fy nghyfammod;" *Lef. xxvi. 41, 42*. Fe gymmerodd Dafydd y ffordd hon ac a lwyddodd: "Yr wyf yn cydnabod fy nghamweddau;" *Salm li. 3*. A pha ham y mae ef mor ewyllysgar i gyfaddef ei ddrwg o flaen Duw? gwelwch *adn. 4*. "Fel y'th gyfiawnhâer pan leferych, ac y byddit bur pan farnech. Efe a fynai i'r holl fyd wybod nad oedd Duw yn gwneuthur cam âg ef yn y barnau a roddwyd arno. Arno ei hun y mae yn bwrw y bai yn hollol.

3ydd. Gwylia rhag cadw gafael yn dy

chwant wrth weddio; bydd sicr o ymwrtho â'r hyn a fynit i Dduw ei faddeu. Ni symmu ef mo'r euogrwydd, tra y croesawi di y pechod. Pa frenin a faddeuai fradwriaeth y dy sydd am barhau yn fradwr? Ynfydrwyd echerhll yw dymuno i Dduw ddileu yr hyn y wyt ti am ei dilyn. Crystal fyddai i ti siara allan, a gofyn ceriad i bechu yn ddigosp; herwydd y mae Duw yn deall iaith dy galon ac ni raid iddo wrth dy dafod i fod y ddeonglydd. Y mae rhai tywysogion wedd cam osod eu gwên er eu mawr niwed; meg y ymherawdwr Leo Armenius, yr hwn faddeuodd i'r anghenfil hwnw o anniolch garwch—Michael Balbus; ac ar yr un nos waddwyd ag y rhyddhawyd ef o'r carchar, llaithydd ganddo. Ond nid yw y Duw mawr yn agored i gamgymmeriad yn ei lywodraeth; erioed ni chafodd rhagrithiwr faddeuant yn rhith sant. Fe a'th eilw wrth d iawn enw, er i ti ddyfod ato ar ddull y edifeiriol. "Tyred i mewn, gwraig Iero boam," ebe y prophwyd; *1 Bren. xiv. 6*. Y mae rhagrith yn llen rhy deneu i ddall llygaid yr Hollalluog. Ti elli roi dy llygaid dy hun allan fel na welych di ef; ond byt nis gelli attal ei lygaid ef i'th ganfod di. Thra bo Duw yn ei garu ei hun, y mae y rhaid iddo gasau y rhagrithiwr; ac os y yn ei gasau, yn sicr ni faddeu efe iddo. Yn un yw yr hwn a gafodd faddeuant a'r d ddechell: "Gwyn ei fyd y dyn ni chyfrif y Arglwydd iddo anwiredd, ac na bo diche yn ei ysbryd;" *Salm xxxii. 2*.

4ydd. Gwna Grist yn unig ddadl. Trugaredd anadnabyddus yn y cyfammod cyntaf yw maddeuant pechod. Gwna hyn, a byd fyw; os pechi, byddi farw, oedd y cwbl o gynnwysiad; nid oedd le i ail gynnwyr wrth hwnw. Cyfammod yr efengyl yw ein huni astell, ar ba un y gallwn gael y lân ar ol ei llongddrylliad gresynol. Y mae y cyfan mod hwn wedi ei selio yng Nghrist; yr hwn yn ol y cyttundeb â'i Dad, a gymmerodd ar ei hun ateb i ofynion y gyfraith, ac a lwy gyfflanodd y gorchwyl; ar yr hyn y mae yr efengyl yn cael ei phregethu, a maddeuant yn cael ei addaw i bawb a edifarhant ac a gredant ynddo: "Hwn a ddyrchafodd Duw â'i ddeuleuaw, yn Dywysog, ac o'i Iachawdwr;" *Act. v. 31*. "Hwn a osododd Duw yn iawn, trwy fydd yn ei waed ef;" *Rhuf. iii. 25*. Megys gan hyny y mae Crist wrth eiriol dros droseddwyd, yn dwyn e waed i'w arddangos ger bron Duw fel gwert y maddeuant y mae yn ei ofyn iddynt felly y gelli dithau ddwyn yr un gwaed o'th bechodau; canys "heb ollwng gwaed nid oes maddeuant;" *Heb. ix. 22*. Y mae i graffu arno yn fwy, am fod llawer trw anwybodaeth, a rhai trwy egwyddor ddrwg yn ymgyfeirio yn eu gweddian at ddaioni thrugaredd Duw yn ddigyfrwng. Gofyn

h iddynt pa fodd y mae: t yn gobeithio
 faddeuant, a hwy a ddywedant i chwi,
 nae Dduw yn dda; ac y maent yn gobeithio
 bydd ef yn drugarog wrthynt gan fod ei
 tur mor rasol. Ond Oeh! y maent yn
 ghoſio ei fod ef yn gyfiawn yn gystal ag yn
 ngarog; ac na fydd i'w drugaredd weith-
 lu ond gyda chydſyniad cyfiawnder. Yn
 r, yr unig dâl i gyfiawnder Duw yw
 waith boddlonawl Crist: "Hwn a osododd
 uw yn iawn, trwy ffydd yn ei waed ef, i
 langos ei gyfiawnder ef—fel y byddai efe
 gyfiawn, ac yn cyfiawnhau y neb sydd o
 dd Iesu;" *Rhuf.* iii. 25, 26. Fel nad yw
 muno i Dduw faddeu dy bechod heb gyf-
 ngiad taliad Crist, yn ddim gwell na dy-
 uno iddo fod yn anghyfiawn, a maddeu i
 er colli ei anrhydedd ei hun. A pha fath
 dd dy groesaw, wrth ddyfod ar y fath
 ges, hawdd yw dirnad.

bed. Na chymmer ball yn dy ddeisyfiad
 wn; ond gweddïa gyda thaerineb. Tru-
 redd yw, nas gelli ei hebgor; y mae yn
 yw angenrheidiol na'th fod; gwell fyddai
 i fyned yn ddiſôd byth, na bod byth heb
 ddeuant. Meddwl ond ychydig am dy
 ffwr alaethus tra y mae dy euogrywydd yn
 os, a maddeuant heb ei gael, ac fe fydd yn
 llawdd i ti fod yn ofynwr llwfr ac oerlyd
 n y rhodd arbenig hon. Gwybydd ynte,
 a yr wyt heb faddeuant, dy fod yn gar-
 raror i Dduw, â'r holl blâu ysgrifenedig
 n y gyfraith yn glynu yn dyn wrthyt fel
 wregys am dy lwynau. Pob munydyn y
 ae lle i ti ofni iddynt ymaflyd ynot; wrth
 odio yn dy dŷ, eistedd wrth dy fwrdd, neu
 wedd ar dy wely. Pa le y gelli fod yn ddi-
 gel, sydd â Duw yn wrthwynebw i ti? A
 diction y bara wrthsefyll ei fwytâwr, neu
 pren fwyell y cymmyrwr? Dim yn fwy yn
 diau nis gelli dithau rhag gŵg dialeddol
 duw. Onid efe yw yr un a ddeil y diaffiaid
 ewraf mewn cadwynau? A'r un a all en-
 yn tân yn dy esgryn a'th fynwes dithau, a
 heri i ti ymdori fel calch gan losgiad dy
 ddylliau poenydiol dy hun! Onid Duw
 yfiawn yw efe, â'i uniondeb yn ei rwymo
 n ei oruchwyliaethau i dalu yn fanwl yn ol
 aeddiant y pechadur? Onid efe yw y Duw
 ragwyddol? Nid creadur salw, a allai dy
 gwth heddyw a threngu ei hun yfory, ond
 ragwyddoldeb ei hunan, o law yr hwn ni
 diction angeu roi i ti un ddiangfa. Mewn
 ysoedd daearol, pan fo y dyn farw, y mae
 i achos yn marw i'w ganlyn, am ei fod allan
 y rhaglafiaeth hwy, a chyrrhaeddiad eu
 wfs. Ond yn angeu, syrthio yr wyt ti i
 dwylaw y Duw byw, a ddilyn ei gweyli'th
 rbyn mewn byd arall hefyd. Cyn gynted
 g y bo dy enaid yn gadael y corph, yn cael
 i droi allan o'i ddaearol dŷ, dyna ef yn
 ychweled y Dduw i dderbyn ei ddedfryd.
 ac nid hir y caiff dy gorph orphwys yn y
 oedd, lle ei daearwyd, ond fe'i gelwir allan

i fod yn gyfranog â'r enaid mewn poen fel
 y bu mewn pechod. Y mae gwahaniad y
 rhai hyn yn angeu yn athrist ddiagon i'r dyn
 euog; ond eu cyfarfyddiad drachefn yn nydd
 mawr y farw a fydd yn llawer mwy alaethus.
 I ŵr a gwraig a gydunasant mewn llofrudd-
 iaeth gael eu dal a'u hanfon i wahanol gar-
 charau i aros eu dydd holiad, sydd raid fod
 yn beth a'u lleinw â brow a disgwyliad ar-
 swydyd; ond llawer mwy dychrynllyd fydd
 iddynt gael eu dwyn allan i dderbyn eu ded-
 fryd, a dioddef ynghyd ar yr un pren. Yn
 angeu, y mae corph y pechadur yn cael ei
 droi i un carchar, a'i enaid i'r llall, a'r ddau
 i gyfarfod drachefn yn nydd barn yr holl
 fyd; yna i gael eu danfon wrth ddedfryd y
 Barnwr i losgfeydd tragwyddol uffern, lle,
 wedi i'r adyn druan deimlo pwys dialedd
 cyfiawn yr Hollalluog dros fil miloedd o
 flynyddoedd, fe gaiff ei hun mor bell oddi
 wrth ddiwedd ei boenau ag ydoedd y dydd
 y dechreuasant. Yna y chwynychir marw-
 olaeth a hi a ffy oddi wrtho; bydd ei boen
 yn annioddefol ac annherfynol. Erbyn hyn,
 mi dybygwn y gallai maddeuant fod yn dy
 olwg yn werth ei gael, ac yn rhy dda i'w
 golli drwy weddïau cysglyd a dioglyd. Gan
 hyny, wedi i'th enaid gael ei dwymno yn y
 modd yma i deimlad o'r angenrheidrwydd
 anheborol o'r drugaredd hon, yna ymro i
 amgylchynu gorsedd gras, a phaid a rhoi i
 fyny nes yr agoro Duw byrth ei drugaredd
 i ti. Megys y mae mor anheborol nas
 gelli fod hebddi, felly y mae genyt adedwid
 Duw geirwir na chei fod hebddi ar ymfyn-
 iad mewn pryd a phrysurddeb am dani: "Os
 cyfaddefwn, fyddllawn yw efe a chyfiawn,
 fel y maddeuo." Gweddïau a dagrau yw yr
 arfau â pha rai y gellir gorchfygu yr Holl-
 alluog. Manasseh, yr hwn ar ei orsedd pan
 yn pechu ac yn ymddewru yn erbyn Duw,
 ni allai amddiffyn ei hun rhag ei ddyrnod;
 etto yn ei ddaeardy a'i gadwynau, pan fawr
 ymddarostyngodd o'i flaen, fe lwyddodd am
 ei drugaredd. Felly Ephraim; pan bechodd,
 efe a fu farw; ond pan lefarodd (mewn)
 dychryn, yma fe'i dyrchafwyd: *Hos.* xiii. 1.

PENNOD LIV.

*Y modd y mae i ni weddio yn erbyn halogrywydd
 pechod.*

Yr ail beth mewn pechod i'w wrth-erfyn
 yw yr halogrywydd o hono. Y neb ni ddy-
 muna lanhâd oddi wrth fudreddi pechod,
 ofer y gweddïa am ryddhâd o'i euogrywydd.
 Os carwn waith pechod, rhaid cymmyrd ei
 wobr hefyd. Gallai calon ragrithiol ddy-
 muno cael cuddio y pechod; ond y mae yr
 enaid cywir yn dymuno iachâd a glanhâd
 oddi wrtho. Yr oedd Dafydd â'i erfyniad

am galon lân, gystal a chydwybod lonydd : “Dileu fy holl anwiredau. Crea galon lân ynof, O Dduw,” *Salm* li. 9, 10. Y mae yn deisyf dwfr i buro ei galon, gystal a gwaed i daenella a heddychu ei gydwylbod. Yn awr, wrth flurfio dy ddeisyfiadau yn yr achos yma craffa ar yr hyn a ganlyn :—

1af. Bvdd sier o ddyfod dan ddwfn ffeiddio dy hun am fudreddi pechod sydd ynglyn wrthyt. Dyma y peth sydd i ddyon “wybod plâ ei galon ei hun” (1 *Bren.* viii. 38), pan fo enaid yn cael ei ddolario gan y teimlad o'i lygredigaethau, fel pe byddai ganddo gymifer o weithau cornwyddlyd yn cerdded arno; ac yn galaru arno ei hun o'u herwydd gymmait ag yr oedd Iob gan y cornwyddlyd a'r llinorod oedd dros ei gorph. Yr oedd yn orchymynedig ar y gwahan-glywys fod ar agwedd galarwr : “Ei wisg-oedd wedi rhwygo, a'i ben yn noeth, a chauad ar ei wefus uchaf; a llefain, aflan, aflan;” *Lef.* xiii. 45. A pha ham hyn oll, ond i arwyddo y teimlad dwfn o'i bechod a'i drueni? Edrychweh ar y saint yn y Beibl, a chwi a'u cewch yn y wedd yma yn ymddarostwng yn eu gweddïau, gyda'r hunan-ffeiddiad dyfnaf. Y mae Dafydd yn ei ymstyngiad yn rhoi ei hun yn ynyf, i.e. yn anifail; ni wŷr efe beth cyn waethd i ddywedyd am dano ei hun : “Mor nyfyd oeddwn, ac heb wybod! anifail oeddwn o'th faen di;” *Salm* lxxiii. 22. A Iob yn gwaeddi, “Yr wyf yn ffeiddio fy hun, ac yn edifarhau mewn llwch a lludw;” *Iob* xlii. 6. Cawn ereill yn gwrido, ac mewn cymmaint cywilydd eu gwelw yng ngwydd Duw, ag y byddai un a syrthiasai i dom neu laca i ddyfod yn y drefn hono ger bron ei frenin.

2il. Wrth weddio yn erbyn dy chwantau, edrych ar i'th galon gydfyned â dy dafod. Mewn dim ni wna ein calonau yn fwy twyllodrus â ni nag wrth weddio, nac mewn dim deisyfiadau yn fwy nag yn y rhai a roddir yn erbyn ein chwantau. Y mae y bwriad a'r dywediad yn fynych ym mhell oddi wrth eu gilydd. Ac yn wir y mae yn gofyn i ni fod yn dra chydunabyddus â ni ein hunain, cyn y gallwn gael hyd i waelod ein bwriadau. Y mae Awstin yn cyfaddef pan oedd yn wr ieuange, ac yn cael ei yrru gan argyhoeddiad ei gydwylbod i weddio ar i Dduw ei waredu ef o gaethiwed ei chwant, mai sisial dirgel ei galon er hyny oedd, *Non al-huc Domini*—Nid etto Arglwydd. Yr oedd arno ofn i Dduw ei gymmeryd ar ei air. Dyma fel yr oedd yr Iudewon rhagrithiol, “yn dyrchafu eu heilunod yn eu calonau; ac yna yn ymfyn â'r Arglwydd;” *Ezec.* xiv. 1, &c. Y mae hyn yn ddyrygioni erehyll; a chyfiawn, er mai barn drom fyddai i Dduw ateb y cyfryw yn ol dymuniad dirgel eu calonau, trwy eu rhoi i fyny i'r chwantau y maent mewn undeb â hwy. Y mae Paul wrth ddeisyf gweddïau rhai yn ei blaid, yn tystio

ei ddiragrithrwydd : “Gweddïwech drosot ni, canys yr ydym yn credu fod genym gydwybod dda, gan ewyllsio byw yn onest yr mhob peth;” *Ieb.* xiii. 18. Fel pe dywedasai, Ni feiddiwn eich rhoi i ofyn drosot wrth Dduw, pe bai fy nghalon yn fy nghyluddo o fod mewn undeb dirgelaidd ag un rhyw bechod, ac heb feddwl byw yn onest yn mhob peth. Pa fodd ynte y gelli di gan gywneb i fyned at Dduw drosot dy hun, ofyn ganddo y peth na ddymunit ei gael?

Gof. Ond pa fodd y gallwn ni wybod p un ai gonest ai rhagrithiol yw ein calonau wrth weddio yn erbyn halogwrwydd pechod.

At. 1af. Edrych a yw dy galon yn unffwr yn erbyn pob pechod; y naill chwant fel lall. Nid bale yma a chwys draw a wn gonestrwydd; ac nid myned yn eirias y erbyn un chwant ac yn oer yn erbyn y lall ond fe ä â'r gwaith drwodd. Y mae y “casau pob gau lwybr” (*Salm* cxix. 104) yn ergydio ei saethau at yr haid i gyd; a nid neillduo yn ei ddeisyfiadau un pechod gael ei ddal ac un arall i'w adael : “Na lywodraethed dim anwiredd arnaf;” *adm.* 13. Fe wyddai y Salmydd pe tarewsid ei hol gadwynau ymaith ond un, y buasai efe yn gaethwas mor sier gan Satau a phe buasai yn dwyn y lleill arno i gyd. Nid yw efe yn achwyn ar un pechod am ei fod yn un mawr ac yn dadleu dros un arall am ei fod yn un bychan. Y mae llwch a baw yn llaw a wneud y mur i fyny gystal a'r ceryg mawrion; a phechodau bychain yn gwneud ei rhan fel y rhai mwyaif i godi mur gwahan iaeth rhwng Duw a'r creadur. Y mae pob brycheuon yn hyllu y wisg; a phob ceinio, yn mwyaheu y pentwr; felly y mae pechodau bychain yn halogi yr enaid ac yn chwyddo cyfrif y pechadur; am hyny y mae ei wedd yn erbyn y rhai hyny fel y lleill. Ni a' cawn ef yn dymuno ei gadw rhag “pechod an rhyfygus;” felly hefyd ei lanhau oddi wrth ei “feiau cuddiedig;” *Salm* xix.

2il. Craffa pa un a yw dy galon yn bwr iadu ymwrthod â'r pechod yr wyt yn gweddio ar Dduw ei ddarostwng. Y mae y Cristion diffuant yn ymrwmo ei hun, yn gystal ag yn chwennych cael braich Duw yn erbyn ei bechod. Yn wir y mae gwaght mawr yn y weddi hono sy heb adduned y ddi. “Ti a glywaist fy addunedu” (*Salm* lxi. 5), hyny yw, ei weddiau, sydd i fod ag addunedau bob amser yn eu canlyn. Ai trugaredd wyt yn ofyn ganddo? Os diffuant ti addunedei ei foliannu am dani, a'i wasan-aethu â hi. Ai pechod yr wyt yn gweddio i'w erbyn? Oddi eithr dy fod yn cellwain â Duw, ti a roi adduned gystal a gweddi yn ei erbyn. “Cymmer oddi wrthlyf ffordd celwydd” (*Salm* cxix. 29), dyna erfyniad Dafydd. Yn awr gwelweh ei adduned “Dewisais ffordd gwirionedd; gosodais dy farnedigathau o'm blaen;” *adm.* 30. *Tro*

mae yn gweddio yn erbyn ffordd celwydd, mae yn dewis ffordd gwirionedd.

Ydydd. Edrych a wyt mewn awch yn yr briad o'r holl foddion appwyntiedig er rhwau y chwant yr wyt yn achwyn arno. Mae addunedau ar weddi yn dda, pan fo agniadau difrifol yn gefn iddynt; yn gen, ni wnant ond llen gudd i galon yllodrus ynguddio dani. Darfu i Samuïd yn unig weddio am allu i ymddial i'f elynion, ond ymafydd hefyd yng hollolau y tŷ. Y mae yr hwn a archodd i ti weddio yn erbyn dy chwant, wedi erchi yd i ti ochelyd ei achlysuron: "Cadw ffordd ym mhell oddi wrthi hi, ac na â at ddrws ei tŷ hi; rhag i ti roddi dy ddwech i ereill" (*Diar.* v. 8, 9), hyny yw, g i ti gael dy ddenu i mewn ati wrth yr lysur. Fel hyn y gwnaeth Ioseph; rhag i ei dynu i orwedd gyda'i feistres, fe rodd aros ei hun yn yr ystafell gyda hi: *Gen.* xxxix. Felly *Diar.* xxiii. 20: "Na d yn mysg y rhai sydd yn meddwi ar y;" ac *adm.* 31: "Nac edrych ar y gwin i fyddo coch, pan ddangoso ei liw yn y oan;" am y gall edrych beri 'chwennych. Y mae awr, a wyt ti yn gydwybodol ofalus i gadw o'r ffordd sydd yn arwain i bechod, ochelyd yr achlysur a ddichon dy fradu i'f afael y chwant yr wyt yn ymbil rhag-? Yn sicr, y neb a ewyllysio i'w dŷ heb ei chwythu i fyny ni cheidw mo'i or yn ochr y tân. Drachefn, y mae Duw, d yn erchi i ti weddio yn erbyn dy chwantau, yn dy orchymyn hefyd i gym- wydd cleddyf ei air, drwy ffyrio ynddo wasgu yn dŷn at dy galon a'th gydwyb- i'w tori i lawr a'u gorchfygu. Y modd a y gwnaeth Dafydd, fe "guddiodd y r yn ei galon fel na phechai." Yr wyt gweddio rhag cybydd-dod. O! na rydd- i Duw dy galon oddi wrtho! Wele, pa h wyt yn ei wneuthur at dy ymwared di wrth y chwant gwael hwn? Dyma ddyf parod i'th law, â'i fin yn ddiagon m i'w archolli a'i ladd, os tydi a'i trini o i'f rif. Y mae hwn yn gosod allan salwedd readur, a'r fath bechod gorwael yw cyb- d-dod; ac yn tori ymaith bob achlysuron o ymuniadau a gofalon anghymmedrol am yd, trwy ei addewidion melus ac aml am ysor byd arall, a gofal rhagluniaeth am nom yn y bywyd hwn: "Bydded eich arweddiad yn ddiariangar; gan fod yn dldawn i'r hyn sydd genych;" *Heb.* xiii. Yn awr, pa ddefnydd wyt ti yn ei wneuthur o'r aif hwn? A wyt ti yn ym- echu am galon a fo yn archwaethu ei usder? ac felly i'w ddefnyddio fel cleddyf na amddiffyn rhag y chwant hwn pan ym- do arnat? Os felly, yr oedditi yn ddi- ant yn dy weddi. Y mae calon ffuantus ymfoddloni ar ychydig weddiau dioglyd erbyn ei chwant, ond yn ofni tynu y

cleddyf hwn arno; neu os gwna, y mae yn taraw â'r gwegil, nid â'r min, neu ynt yn rhoi dyrnod mor ysgafn fel na pheryglir ei fywyd. Yn debyg i feddyg chwarentol (*mountebank*) a fydd sicr na wnelo archoll dyfnach yn ei gnawd nag a iachâ ei eli mewn diwrnod neu ddau. Yn awr, i roi mwy o awch ar dy galon wrth weddio yn erbyn dy chwantau, ymgais am ystyriaeth ddwfn y fath blâ arswydus anghymharol yw i enaid gael ei roi i fyny gan Dduw i rym ei chwantau. Hyn, os dim, a'th wna yn dra ymdrechgar gyda Duw, ac i am- gylchu ei orsedd â'r taerineb mwyaf, gan wybod mai creadur andwyol ydwyf os na lwyddi yn dy neges. Pan fo Duw yn bwr- iadu taraw hyd adref y mae yn annelu at y galon; yn rhoi y dyn i fyny i'w chwant. Dyma y modd y caledodd ef Pharaoh i gyn- dynrwydd parhaus: "Anfonaf fy holl blâau ar dy galon;" *Ecsod.* ix. 14. Hwy a ddis- gynasant nid yn unig ar yr anifeiliaid a ffrwythau y maes, nen gyrph y bobl, ond yn benaf ar ei galon ef a hwythau gan eu caledu i'w ddinyst. A dyma yn wir beth yw danfon ei holl blâau yn un. Y mae plâau ereill sydd yn cyrhaedd ond at y medd- iannau neu y corph, yn cydsefyll â chariad a ffiafr Duw; gall wanu y corph a gwenu ar yr enaid; lladd ei dda daerol a llwyddo ei fasnach â'r nef; ei dlodi yn y byd a'i gyf- oethogi mewn ffydd. Ond y neb a roddir i fyny i'w chwantau sydd gâs gan Dduw. Fe ddichon swant gael ei draddodi i Satan megys swyddwr i'w geryddu er dinyst y cnawd, ac fel y bo ei ysbryd yn gadwedig; ond nôd colledigaeth yw i ddyngael ei draddodi i Satan fel meistri, i'w chwantau gael eu llawn lywodraeth arno. Gweithred farnol o eiddo Duw ydyw, sydd yn arwyddo bod dinystyr yn agos: *Deut.* ii. 20; *2 Thes.* ii. 11. Y mae plâau allanol weithiau fel ffrwyn i enau y pechadur i'w attal rhag pechod; ond dyma yspardyn a'i gŷr yn wylltach ar ol ei chwantau. Y mae yn dwyn ymaith y teiml- ad o bechod, a dyna yr adyn yn ddeflig ei lun; nid oes a'i hettyl yn ei ffordd, ond i uffern yr â dros glawdd a ffos.

Gweddia am warediad rhag grym dy chwantau, fel cangen o gyfammod yr efengyl. Wrth y cyfammod cyntaf nid yw Duw wedi ymrwymo i syfud cam yn mhlaidd dyn. Fe aeth dyn drosodd o'i wirfodd i wersyll Satan; gadawodd Dduw a dewisodd ar- glywydd newydd, ac yn llaw hwnw y gallasai Duw ei adael heb gynnig un braich o ym- wared. Nid un rhwymiad oedd gan ddyng ar Dduw wrth gyfammod natur a'i cym- mhellodd, ond ei ras rhydd ei hun a'i cyn- nhyrfodd i fyned ynghyd â'i achubiaeth o'i drueni. A hyn a ddyg ef i ben trwy osod cyfammod newydd ar adfail yr hen. Felly, pwy bynag a fynai weddio gyda llwyddiant yn erbyn ei chwantau, rhaid iddo yn gyntaf

fod yn gyfammodwr â Duw, trwy dderbyn yr ammodau ar ba rai y mae Duw yn cynnyg ein gwaredu oddi wrth ein pechodau, a'r rhai hyn ydynt ffydd ac edifeirwch. Pan fo yr enaid fel hyn yn troi cefn ar ei bechodau i ymwsgu â Christ, y mae yn dyfod i fod yn gyfammodwr â Duw; ac efe a all mewn ffydd alw Duw o'i blaidd yn erbyn y fyddin anferth o chwantau, a diatliaid, sydd yn dyfod i'w erbyn. Cerbydau Duw ydynt eiddo ef, a holl allu y nef sydd rwyngedig yn ei gweryl: "Nid arglwyddiaethla pechod arnoch chwi;" a pha liam? "O blegid nid ydych chiwi dan y ddeddf, eithr dan ras;" *Rhuf.* vi. 14. Hyny yw, nid ydych chiwi dan gyfammod y gyfraith a wnaed âg Adda, ond dan gyfammod yr efengyl a wnaed â Christ, a thrwyddo ef â phob credadyn. O! gynnifer o weddïau yn erbyn pechod a gyfagollir o ddiffyg iawn adnabyddiaeth o ragorfaint arbenig yr efengyl! Gwneir cri mawr gan lawer, ac achwyniad wrth Dduw ar eu pechodau, dan honi eu bod yn dymuno buddugoliaeth arnynt; etto byw y maent, a chryfach gryfach y naill ddydd ar ol y llall. A pha beth yw yr achos? Och! nid ydynt mewn perthynas gyfammodol â Duw, nac yn ymofyn am y faint. A gyfyd brenin lu i ymladd dros ni w'r pwy? Yn wir os bydd caledi ar ei ddelliaid, neu rai mewn cynghrair âg ef, y mae yn barod i gymmeryd eu plaid; ond nid oes le i estroniaid ddisgwyl iddo wneud hyn erddynt hwy. Gwneir cyfammodau cyn y gofynir cynnorthyw. Y mae Duw yn gyntaf yn addaw dwyn Israel "i rwyng y cyfammod;" *Ezec.* xx. 37; ac yna *adn.* 41, y bydd efe "yn foddllawn iddynt gyda'u harogi peraid." Gwyddai Dafydd hyn yn dda, bod y byd anianol yn cael eu gadael gan Dduw i'w mathru gan bob chwant; ac am hyny pan y mae yn gweddïo ar i Dduw "gyfarwyddo ei gamrau yn ei air, ac na lywodraethai dim anwiredd arno;" y mae yn gofyn hyn fel ffafr briodol i'w rai anwyl ac agos ato: "Trugarhâ wrthyf yn ol dy arfer i'r rhai a garant dy enw;" *Salm* exix. 122.

Gweddïa, nid yn unig yn erbyn grym pechod, ond am rym duwioldeb hefyd. Dichon dyn o waelod drwg weddïo yn erbyn ei bechodau, nid o gasineb tu mewnol atynt, na chariad at sancteiddrwydd, ond am eu bod yn faich ar ei gydwybod. Coeliwch hyn am wirionedd sier, mai sel gau yw hono sydd yn ymddangos yn eirias yn erbyn pechod, ond a geir yn oerllyd at sancteiddrwydd. Dinas wrthryfelgar yw hono a geiddw ei huniawn frenin allan, er na bo wedi agor ei phyrth i'w elyn ef. Iê, ym mhellach, nid oes achos i Satan ofni na chaisff ef yr enaid hwnw yn gastell iddo drachefn (er y tybygid ei gau allan dros amser) cyhyd ag y bo yn sefyll yn wag heb

ei feddiannu gan ras sylweddol: *Mat.* 44, 45. Och! pa beth a rwystra ei ddyfodiad ef i dŷ nad oes neb ynddo gadw allan!

PENNOD LV.

Y modd y mae i ni wrth-erfyn dioddefaint, amserol, a thragwyddol.

All wrthddrych gwith-erfyniad yw dioddefaint. I ganlyn pechod y daeth hwn byd. Pechod yn wir yw yr effell hyn ond nid hir y bu dioddefaint ar ei ol. Oedd â'i afael yn sawdl ei frawd. Ebrwy, y cydiodd yn Adda, iê, ar y fan y gwnae ei drosedd; ac o hyuy hyd heddyw, y m dioddefaint yn dilyn pechod, fel y cysgod corph. Ni adawa y Cristion nes y gwaha annuwiol gyda'i bechod i fyd arall hefyd. Felly ni a ymfoddlonwn yn bresennol ranu dioddefaint i'r un sydd amserol, a'r sydd dragwyddol; gan fod y rhai hyn: cynwys yr holl waeau a ddygodd pechod blaunt dynion. Yn awr, ni bydd ngwaith yma ond yn unig cyfarwyddo Cristion pa fodd i ffurfio ei ddeisyfiad wrth weddïo yn erbyn y naill a'r llall o honny. Ac yn gyntaf, Dioddefiadau amserol, y fodd y mae iddo wrth-erfyn y rhai hyn. Mi drinaf hyn yn nacael ac yn gadarnhae y modd ni ddylai, a'r modd y gall ac y dyl weddïo i'w herbyn.

DOSB. I.

Iaf. Yn nacael. Nid oes i'r Cristion weddïo am ryddhâd oddi wrth bob dioddefiadau amserol. Nid oes un sail i weddïo fath yn yr addewid. A'r hyn nis gwelodd Duw yn dda ei addaw, ni ddylem ninna ryfygu ei ofyn. Y mae addewidion amserol, medd Melancthon, i'w deall, *cum excoptione crucis*=gydag ond un groes. Fe gafodd Duw un mab heb bechod, ond ni fyn un yn y bywyd hwn heb dioddefaint. Mae Ioan yn ei ysgrifenu ei hun, "Eic brawd a'ch cydymaith mewn cystudd;" *Dad.* i. 9. Y mae gan hwnw ormod tyb ar dano ei hun, a fynai i Dduw ei arwain y droedsych ar hyd llwybr teg i'r nef, tra mae yn edrych ar ei frodyr oll yn teithio tua'r un lle trwy y dom a'r llaid; neu feddwl nad oes angen am y cae drain yma ddioddefaint, i'w gadw ef, fel ereill, rha crwydro allan o'r ffordd gul. Nid rheitiac gwialen gyda phlant yn yr ysgol, nag ydy dioddefaint i'r saint, tra y maent dan oe yma isod. Pe byddit wedi tyfu i'r fath addfedrwydd synwyr ag i adael dy feddwl plentynaid ar ol, ni chait ti aros yn hwy yma dan y fflangell; ond tra yr wyt y agored i bechod, rhaid i ti ymostwng dan.

alen geryddol. Cystal i rai cyrph af-
sh fod heb ymborth ag heb physygrw-
rth; felly y mae mor hawdd i'r saint yn eu
stâd fregus yma, fod heb Jordinhadau, ag
y iddynt fod heb ddiodefiadau. Mewn
ir, nid yw gweddïo yn gwbl yn erbyn pob
oddefaint, ddim gwel na dymuno un o'r
rnau gwaethaf tu yma i uffern. Panddy-
dodd Duw, "Nid ymwelaf â'ch merched
n buteiniont" (*Ios. iv. 14*), nid oedd ond
wydd drwg iddynt ei fod am arbed ei wi-
n. Os cyfrifwn ni hwnw yn dad an-
eth a wna ammod â'r meistri beidio cer-
du ei fab wrth ei roddi mewn ysgol, yn
er llawer ynfytach fyddai i ti dymuno i
lluw dy freinio rhag pob croes.

2il. Yn gadarnhaol, yn ol yr hyn a gan-
a:—

(1af.) Gweddïa rhag cyfiawnder dialeddol
lid Duw yn mhob diodefiadau amserol.
l hyn y llunia Ieremiah ei weddi (*Ier. x.*
): "Cospa fi, Arglwydd, etto mewn barn;
l yn dy lid, rhag i ti fy ngwneuthur yn
iddim." A *Ier. xvii. 17*: "Na fydd yn
ychryn i mi yn nydd drygfyd." Nid
y yn troi draw rhag cerydd, ond yn erfyn
ag lliid; fel pe dywedasai, Deued dryg-
l, ond nid â' chenedwri i fynegi dy fod i
elyni mi; saetha dy bicellau—y mae fy
ynwes yn agored iddynt, ond na fyddont
saethau gwenwynllyd, wedi eu blaen-
mu gan dy ddaieidd. Heb y colyn yma,
mae pob croes yn ddiwied: ond os bydd
creadur mewn ofn, er mai heb achos, mai
di ar fwa cyfiawnder y saethir hwynt,
a y maent yn dwyn ei rym yn ebrwydd ac
a yfed i fyny ei ysbrydoedd: "Pan
spit ddynt â cheryddon am anwiredd, dat-
lit fel gwyfyn ei arderchogrwydd ef?"
Isa. xxxix. 11. Nid cymhaent oedd cyf-
gder y wraig dduwiol hono (*1 Bren. xvii.*
o achos marwolaeth ei mab, ag oddi
rth y dymnod a barodd y rhagluniaeth
christ hon ar ei chydwybod: "A ddaeth-
t i ataf i goffau fy anwiredd, ac i ladd fy
ab?" Nid oes fodd i ti gan hyn fod yn
y daer mewn gwrtherfyniad i hyn.

(2il.) Gweddïa rhag y fagl a'r brofedigaeth
ddichon trallod dy arwain iddynt. Gall
tan yn hawdd wneuthur argraph bech-
urus ar y Cristion pan fyddo yn ydwymyn,
galon wedi ei meddallhau (fel y mae ym-
rodd Iob) yn ffwrn cystudd. Cristion ar-
nig yw hwnw sydd â ffrwd ei ras yn loew
y fath ysgydwad. Yr oedd Iob yn un o
l, heb ei gyffelyb gan Dduw (*Iob i. 8*):
Heb gyffelyb iddo ar y ddaear, yn wr per-
ith ac uniawn;" er hyn, dangosodd wen-
dau yn ei gystudd, ac fe d dangosasai
waneg, oni buasai i Dduw o'i dosturi at
gwan, dynu Satan yn ol, cyn iddo ei
eddu yn rhy dost. Y mae Crist yn ein
yrgu i weddio rhag diodeffaint dan yr
w o brofedigaeth: "Nac arwain ni i brof-

edigaeth, eithr gwared ni rhag drwg;" hyn
yw, Na âd i ni gael ein harwain i bechod,
pan syrthiom i drallod; na âd i ni syrthio
i'th ddwyllaw di a'r eiddo Satan ar unwaith.
Y mae hyn yn arwydd o'n hegwyddor ras-
ol; bod yn dyncrach o'n cydwybod nag o'n
cnawd; ac ofni cystudd yn llai na'n tuedd
i ymddwyn yn anweddaidd neu ansanct-
aid tuag at y Duw sydd yn ei drefnu.
Nid cymhaint oedd cywilydd Agur i gar-
dotta, ag oedd ei ofn rhag lladratta a chym-
meryd enw ei Dduw yn ofer; ac am hyn
yn benaf y mae yn ymbil rhag tlodi: *Diar.*
xxx. 8, 9. Ni bydd dim colled o olygu
Duw yn gyntaf, a gosod ei anrhydedd ef o
flaen ein lles personol ein hunain yn ein
gweddïau. Ein gwadu ein hunain ydyw y
ffordd oreu i ni geisio ein hunain; o her-
wydd drwy esgeuluso ein hunain er mwyn
Duw, yr ydym yn ei rwymo ef i gymmeryd
ein gofal ar ei law ei hun; a dyna yr unig
ddynt dedwydd sydd â phwys ei achos ar
Dduw.

3ydd. Gweddïa rhag cystudd dros ben
mesur—na byddo y baich yn rhy drwm i'th
ysgwyddau. Y mae addewid ar hyn, a thi
elli ei dadleu mewn ffydd: "Mi a wnaff
ddiben ar yr holl genhedloedd, y rhai y'th
fwriais atynt; ond ni wnaff ddiben arnat ti,
eithr mi a'th gospaf di mewn barn;" *Ier.*
xlvi. 28. Nid yw y claf yn troseddu yn er-
byn celfyddyd y physygrwr, wrth dymuno
arno gymmesuro ei gyfferiau at wendid ei
gorph, os bydd iddo, wedi hyn, ymfodloni
ar ei ofal a'i fedrusrwydd am y peth. Yn
wir, dymuno i Dduw ystyried ein gwendid,
a pheidio gorphwys ar ei ffyddlondeb, ond
parhau yn ddrwgdybus, neu wrngach yn
erbyn ei driniaeth, fel pe byddai ei physy-
gwriaeth yn rhy chwerw neu yn rhy gryf—y
mae hyn yn bwrw anfri ar Dduw. Y mae
y physygrwr weithiau yn myned dros y mes-
ur a dybiai ei glafddynt ofnus ei fod yn ddi-
gon; ond fe ddywed wrtho, nid ydych chiwi
cyn waned ag y meddyliwch eich bod; gall
eich corph ddiodeff gronynau yn rhagor
yn y cymmysg: gadewch i mi gael fy ffordd,
ac fe fydd pob peth yn dda. Fel hyn y mae
Duw, a edwyn ein cyflwr drwyddo, yn
gwneuthur â'i bobl; a thra boddus ganddo
eu gweled yn plygu yn ewyllysgar i'w
gyngor: "Yn hyn oll ni phechodd Iob, ac
ni roddodd yn ynfyd ddim yn erbyn Duw"
(*Iob i. 22*)—ni chyfrifodd ynfydrwydd i
Dduw; felly y mae y Deg a Thrigain yn ei
ddarllen. Ystyr y lle yw, ni fwriodd Iob
farn anweddaidd yn erbyn Duw am y dryg-
au a oddefodd gan ei ragluniaeth, fel pe bu-
asai ryw fyrdra yn ei ofal neu ei ddoethineb
ef, yn ail i ambell physygrwr dibwyll a fetha
naill ai wrth dymneru, ai amseru ei phys-
ygrwriaeth i'r claf.

4ydd. Gelli, nid yn unig wrth-erfyn fel
hyn ddrwg effeithiau trallodau, ond hefyd

weddio yn grediniol am ymwared dedwyddol o honnynt oll. Y mae i gul ffordd dywylfa y saint ddiweddiad goleudog; a phob peth yn dda, meddwn, a ddibeno yn dda: "Ni a glywsom am amynedd Iob, ac a wel-som ddiwedd yr Arglwydd; o blegid tostru- iol iawn yw efe;" *Iago* v. 11. Dyma y peth y mae Duw â'i fryd arno mor sier yn holl flinderau ei saint, fel y mae yn ymlawenbau o'i blegid yn mlawn llaw: "Mysi a wn y meddyliau yr wyf fi yn eu meddwl am dan- och chwi, medd yr Arglwydd, meddyliau heddwch;" *Ier.* xxix. 11. Ac y mae yr er- fnyiad hwn yn dyfod ar amser da i'r llys, a gaffo y brenin â'i fryd ar y peth y mae yn erbyn am dano.

DOSB. II.

Yr ail fath o ddiodefaint sy dragwydd- ol, yn uffern. Dyma ganolbwynt ym mha un y mae holl linellau pechod a thrueni yn cydgyfarfod; y llyngelyn i ba un y maent oll yn ymlywallt, fel afonydd i'r môr mawr. Ac megys y mae afonydd, pan gyrhaeddont y môr, yn colli eu hamryw enwau mewn un sydd yn cynnwys y cwbl, sef cefnfor, felly holl ddrygau y bywyd hwn, pau redont yma, collant eu henwau priodol, clefyd, poenau, tlodi, &c., ac a'u gelwir yn uffern; nid fod y rhai hyn oll yn ol eu dulliau yn llythyrenol, ond mewn effaith, am fod poen y damnedigion nid yn unig yn gym- maint, ond yn aunhraethol fwy na'r cyfan. Megys nad oes yn y nef ddim arlwy bol, etto gwledd; dim gwycheder sidanau, etto pawb mewn gwisgoedd gogoneddus; fel y mae arian mewn aur, ac aur mewn perl, felly y mae y rhai hyn oll yn y nef, am fod yno yr hyn sydd o anfeidrol fwy gwerth na'r pethau mwyaf prifawr ar y ddaear. Fel hyn y mae gwaeau mawrion y bywyd hwn yn llai tu hwnt i gymmhariaeth na'r dialedd lleiaf yn uffern. Byth nis gall y creadur fod yn druenus gyflawn, nes byddo safn ddifaol y pwll uffernol wedi cau am dano. Pe byddai yr hyn a deimla efe yma yn waethaf o'i gosp, fe allai mewn ystyr gyfrif ei hun yn ddedwydd; megys y dywed Paul, o'r ochr arall, y barnai efe y Cristion yn druen- usaf o bawb, pe byddai ei obaith yn unig yma. Ond yno y mae byd y pechadur yn ddi-esmwythâd, ac yn ddi-ddiweddiad: nid oes gymmaint a diwrnod iach i roddi iddo seibiant o'i boen, ond gorwedd byth yn nhrymder ei ofid; dim newid hin, na go- baith tegwech, ond ystorm ddibaid i dywallt tân a brwmstan ar ei ben i bob tragwyddol- deb. O herwydd cyhyd a hyny y bydd, cyn y blina yr Hollalluog yn tywallt ei lid, neu y dygir ei galon i hollti pechod, ac ymgym- modi â'r pechadur. Yn awr, wrth weddio yn erbyn hyn, dylem geisio cadw yr ystyr- iaeth driphlyg hon am uffern yn ein medd- yliau, fel achos euwedigol i ni ddymuno achubiaeth rhagddi.

(Iaf.) Edrych ar uffern fel ystâd o b od, ie, yn y radd uchaf, yn gystal ag o oddefaint. Lle canol yw ddaer, rhwng ac uffern. Nid ydyw pechod yn y d ionus, na gras yn y dauwl, yn dyfod i'w llawn addfedrwydd. Gras, gan blaguryn dieithr ydyw a ddygwyd o a baradwysaidd y nef, ni chyfyd i'w uch a'i ffwrthlondeb yn llawn, nes y cael adblanu yn ei ardal enedigol ei hun. Phechod, cyw o uffern, ni ddengys ei h dra a'i anferthwech mwyaf, nes ei ddar, yn ol i'r lle o ba un y daeth. Yma y trueiniaid yn cael eu lithio i bechu ga- pleser y mae yn ei addaw: yno, pechai- fakus; o herwydd nis gall dim arall eu cy- mbell, lle y mae y tanaid yn cael ei lyn gyda'r fath saws chwerrw. Ar y ddaear mae y pechadur yn yswil, ac am gel- gwenwyn sydd yn dwr yn y galon; ond uffern fe'i poera allan mewn cableddau erbyn y nef. Mewn gair, y mae yn pe- wma gyda meddwl anwastad, ac ambell w- fwriad o edifarbau; ond yno bydd mor o obaith a Satan ei hunan, ac wedi caledu hwnt i feddalbâd. Felly dan yr ystyria- hon, ti ddylit weddio am waredigaeth r- uffern, fel na byddyeh byth yn un o'r d- ddamnedig hono, na thybiant yn ddi- g ymladd yma yn erbyn y Duw a'u gwna- ond a ddygant y rhyfel i'w canlyn i'r l- arall hefyd, ac a ddaliant yno yr anghyd i fyny gyda chasineb annhyhuddol i d- gywddoldeb. Sier yw fod cynhyrfiac pechod yma yn faich mwy gorthrymus saint na'u holl golledion a'u croesau, a'u l- yn: cyfrif cymmydogaeth yr annuwl, ychydig flynyddoedd, yn flinder mor fa- fel y gwaeddant, "Gwae fi fy mod yn pr- wylio ym Mesech, yn cyfannueddu ym mh- yll Cedar;" *Salm* cxx. 5. Rhaid ynte bod, gydag awch mwyaf eu hysbrydoedd, wrth-erfyn cyflwr mor alaethus, ym mha y byddent yn cael eu cyd-ieno â phech- a'u cyd-gloi gyda phechaduriaid aflan sydd oll mor gwbl adgas ganddynt. G- gwraig dduwlol pan ar drangedigaeth oer. "O Arglwydd, na yr mo honof i uffern blith y fath gymdeithion sfiiaidd, y gwy- ost nad oeddwn yn eu dewis ar y ddaear. Ond am y rhai a allant gyttuno â'u chwa- au, a chymdeithas yr annuwl yma, nis g- pa fodd y gallant lwy fel hyn wrth-erf- uffern, lle y cyfarfyddant â'r hyn sydd n- foddhaol ganddynt yn y byd. Mae Dafy yn *Salm* xxvi, yn gyntaf, yn tystio ei eiddiad o ffydd a chymdeithas yr annuwl. "Nid eisteddais gyda dynion coegion, chyda'r trofâu nid âf. Caseais gymulle- fa y drigionus, a chyda'r annuwlion i- eisteddaf;" *adn.* 4, 5. Yna, cawn ei dros Ddaw a'r hyfrydwech oedd ganddo weini iddo a'i foli yn ei dŷ: *adn.* 6, 7, Ar ol hyny, y mae yn tori allan i'r wed-

on (*adn.* 9): "Na chasgl fy enaid gyda hechaduriaid; na'm bywyd gyda dynion waedlyd." Fel pe dywedasai, Nid wyf o'u isfer yn fy mywyd; na'ül i mi fod o'u cyfwr yn angen. Cefais dy foliannu ar y laear; na'yr mo honof i'th gablu yn uffern. Erais drigfan dy dŷ yma; na'äd i mi drigo ydag ysbrydion aflan yn ol hyn.

(21.) Y mae uffern yn ystâd o wahaniaid ldi wrth ddedwyddol bresennokdeb Duw. weddia rhagddi dan yr ystyriaeth hon; y mae yn esgynnudod olaf, fe bythol, ddyun oddi wrth Dduw: "Eweli, rai elldigedig;" sef rhai na chewch weled o'm hwyneb tirion byth; "i'r tywyllwch thaf," am nad oes y pelydr lleiaf o'i ffufr oleuo ar y damnedigion, na'r agen leiaf i lwing gobaith o'r fath beth i mewn. Nid w poethder tân uffern mor alaethus a'r tywyllwch hwn—"Ewch ymaith;" y mae y lldith yn gynnwysedig yn eu hymadawd â Duw, ffynnon bendith: fe fyddai y wbl heb law hyn yn ddiodefol. Pe hoddai Duw ond un edrychiad tirion ar yr meidiau truenus hyny, yng nghanol y llyn w'n o dân a brwmstan, fe fyddai yn ddigon newid natur y lle; a'r llawenydd o'i blegid na abl i ddwyn ymaith y teimlad o'u poenna.

Gallai y tri llange (*Dan.* iii), rodio yng nghanol y tân, wrth fod Duw gyda hwy, fel e na buasant ond mewn llygeidyn o haul. r hyn y mae y Cristion yn ei werthfawrgi yn fwyaf yn y nef yw presennoldeb Duw (1 *The.* iv. 17): "Felly y byddwn yn astadol gyda'r Arglwydd;" ac uffern sydd yn arswydus iddo yn benaf, am fod gagenor wedi ei sicrhau rhyngddynt â Duw, fel ad oes dim cymundeib äg ef i'w gael hyd byth. O! leied sydd yn gweddio rhag uffern dan yr ystyriaeth hon! leied yn lleffyn gyda Dafydd, "Na fwrw fi ymaith oddi er dy fron;" *Salm* li. Os dyma y peth a awr ofnent iddo ddigwydd iddynt mewn yd arall, a allent hwy fyw mor foddllawn heb gyndeithas ä Duw yn y byd hwn? Na allent yn sicr.

3ydd. Y mae uffern yn gyflwr ym mha un i ddichon damnedigion byth iawn foddloni ffawnder Duw. O blegid gan fod eu dylid yn anfeidrol, a hwythau (am eu bod yn creaduriaid) yn derfynol, hwy fyddant byth yn talu, a'r ffyring eithaf byth heb ei thalu. A dyna yr unig reswm eu bod byth yng ngharchar, am nas gellir byth ddywedyd, dyma Dduw bellach wedi cael ei ofyniad. Ond Crist, Meichniydd ei bobl, a dalodd eu lli dyled ar unwaith, ac a gymmerodd yr sgrifen-law, gan ei hoelio wrth y groes, heb dael dim cyfrif ar ol i'w ofyn eilwaith, ac i ddwyn y credadyd i berygl drachefn an law cyfiawnder. Yn awr, megys y dynnai dyledwr gonest ei ryddid ar law ei ffynwr, er mwyn dyfod o hyd i fodd i dalu ä dyled, gystal ag er mwyn iddo ei hun

ddiange rhag caledi carchariad; felly y gweddia enaid gonest (a'r cyfryw yw pob saut) rhag uffern, dan olygu gogoniant Duw, a'i esmwythdra a'i ddedwyddwch ei hun. "Arglwydd (medd efe), os fy nhroi a wnai i uffern, mi fyddaf yno yn talu i ti, y mae yn wir, trwy boenau cyfiawn o fesur ychydigyn bach, ond heb allu byth dy foddloni: ond ar law Crist, gelli dderbyn yn llawn yr hyn y mae dy gyfiawnder yn ei ofyn i mi; ac hefyd fy ngwneuthur i, greadur tlawd, yn gyhoeddwr o'th fawl i dragwyddoldeb. O! na ddanfion mo honof i'th gablu ym mhlith y dorff resvno! o eneidiau damnedig ac ysbrydion drwg, wedi i ti roddi yuof ddymuniaid i uno ä'r côr o saint ac angylion sydd yn pur ddyrchafu dy enw sanctaidd a gogoneddus."

PENNOD LVI.

Yn nghylch erfyniad am farn, a'r modd i'w gystawni.

Y DRYDEDD gangen mewn gweddi erfyniol yw erfyniad barn. Math o weddi yw hon, ym mha un y mae y Cristion yn erfyn am ddialedd Duw ar elynion Duw a'i bobl. Ar neges ddifrifol athrist o'r fath yma y mae eirchion y saint yn cael eu hanfon weithiau i'r nef; ac y maent yn ffynnu mor nerthol a phan elont i geisio bendithion iddynt hwy eu hunain ac i eglwys Dduw. Ac nid rhyfedd, o blegid y mae haeddiant Crist yn eu perarogli; ac yn ganlynol y maent mor dderbyniol gyda Duw a dim rhai ereill a gyflwynant yn ei enw: "Ac fe aeth mwg yr arogldarth gyda gweddïau y saint, i fyny ger bron Duw;" *Dad.* viii. 4. A pha fath weddiau oedd y rhai hyn sydd eglur wrth y geiriau nesaf (*adn.* 5): "Ä'r angel a gymmerth y thuser, ac a'i llanwodd hi o dân, allor, ac a'i bwriodd i'r ddaear: a bu lleisiau, a tharanau, a melt, a daeargryn." Drwy yr hyn yr arwyddoecir y barnau arswydus a ddygai Duw mewn attebiad i weddiau ei saint ar fydd annuwiol: am ei fod trwy erlidiau gwaedlyd ar yr eglwys, a'i gyuddaredd yn erbyn gwirionedd Duw, wedi peri i'r saint waeddi i'r nef am ddial arno; ac y deuai dial mor anocheladwy, a tharanau, melt, a daeargrynfäau, nas dichon grym nac ystyryw y penadur mwyaf ar y ddaear mo'u gwrthsefyll. Fel hyn, megys ar daniad drylliau mawrion a osodir yn erbyn dinas, y gellwch weled ei mur neu ei thyrau yn syrthio yn gandryll; felly ar weddiau y saint, y mae barnau trymion yn sicr o ddisgyn ar elynion Duw a'i eglwys. Yn awr, gan fod llwybr y Cristion yma yn gul iawu, y mae iddo achos i fod yn dra gwagelog, rhag rhoi cam gwyrog. Y mae

efe yn y rhan hon o weddi, wrth erfyn barn, yn debyg i un yn gyru cerbyd ar ael dibyn serth; yr hwn, oni bydd ganddo law a llygad craff iawn, a eill yn fuan anafu y cwbl. Y mae y graddau uchaf o orchwylion y Cristion yn rhedeg yn nesaf i'r ymyloedd peryglaf: fel y mae y gwirioneddau dyfnaf yn hawsaf eu gŵyrdroi i'r cyfeiliornadau mwyaf diuystriol. Mi geisïaf, gan hyn, bennodi ychydig gyfarwyddiadau a allant fod fel canllaw yn y ddyledswydd, i ddiogelu y Cristion yn fwy rhag syrthio i aflwydd yn ei chylch.

DOSB. I.

Iaf. Gwylia rhag gwneuthur dy elynion personol dy hun yn wrthddrych y fath erfyniad. Nid oes genym un warant, pan wnelo rhyw un gam â ni, i alw yn nydwylt am dân o'r nef ar ei ben. Fe erchir i ni yn wir dyru marwor ar ben ein gelyn; ond marwor cariad, nid llid a dial. Y mae Iob yn rhoddi nod ddu ar dymmer ddiagar, ac yn gwadu y pechod arswydus: "Os llaw-enychais i am drychineb yr hwn a'm casâni; ac os ymgodais pan ddigwyddodd drwg iddo. Ac ni ddioddefais i ddaffod fy ngenau bechu, gan ofyn ei einioes ef drwy felldigo;" *Iob* xxxi. 22, 30. Ni feiddiaf ef ddymuno drwg i'w elyn, chwaethach ymroddi i ffurfio ei ddymuniad yn weddi, a gofyn i Dduw ei felldithio. Y mae ein tachaiddwr wedi dangos i ni ffordd fwy rhagorol (*Mat.* v. 44): "Bendithiwch y rhai a'ch melldithiant, a gweddi'ch dros y rhai a wnel i chwi." Mi wn y cyfrifir hyn yn arwydd o ysbryd mullaidd gan wyr mawrfrydig ein hoes ni: gweddi'ch drostynt! Na, eu galw i ymladd yn hytrach, a thalu y pwyth iddynt trwy dywallt eu gwaed mewn ornest. Dyma ddi-od offwrn a gâr y meibion balchder hyn ei thywallt i'w gwŷn ddiagar; neu eu danfon i waelod uffern â'u rhegfeydd erchyll. O! cryna rhag y fath ysbryd a hwn. Yr unig ffordd i dynu mellith o'r nef arnat dy hun yw erfyn melldith yn ddigofus ar arall: "Hoffodd felldith, a hi a ddaeth iddo; ni fynai fendith, a hi a bellaodd oddi wrtho. Gwisgodd felldith fel dwfr i'w fewn, ac fel olew i'w esgyrn;" *Salm* cix. 17, 18. Yr oedd Moses, mi feddylw, yn berchen ysbryd mor ardderchog a neb o'r rhai a elwir yn wrol wyr, etto, ai tyuu cleddyf ar Aaron, neu daraw i regu Miriam, a wnaeth efe pan ymddygasant mor anweddaidd tuag ato? Nag e, yn ddiâu, ond dwyn y cwbl yn amyneddgar. Iê, a phan ddangosasai Duw ei anffoddlonrwydd at Miriam, am ei chamymddygiad i'w erbyn, gwelwch fel y mae y gwr sanctaidd hwn yn eiriol ar Dduw yn ei phlaid: *Num.* xii. Dyma wr-oldeb o'r iawn ryw—gorchfygu drygioni â daioni; ac yn lle ceisio dial ar y neb a wnel gam â ni, cael y feistrolaeth ar ein llygredd ein hunain mor bell aeg i ddymuno ei

ddaioni hyny mwy. Fel hyn y gwnaeth e Harglwydd; pan ei cyfrifwyd gyda'r troeddwy, hyd yn oed y pryd hyny fe eiri odd dros y troseddwy: *Esa.* liiii. 12. Ily yw, yr oedd efe ar waith yn erfyn dros e eidiau y bobl hyny yn bennodol, ag oedd ei drin ef mor gigyddlyd, i.e., a thra oeddynt ar y gwaith o'i arteithio i ang-â'u hoffler at greulondeb.

2il. Pan weddiech yn erbyn gelyni Duw a'i eglwys, annela dy ddeisyfiadau erbyn eu bwriadau, yn hytrach na'u persc au. Felly yr apostolion, "Ac yn awr, A glwydd, edrych ar eu bygythion hwy;" *A* iv. 29. Nid, distrywia eu personau, ond ecyh ar eu bygythion; ac felly y maent yn ga ael yr achos yn llaw yr Arglwydd i'w drostynt. Felly Dafydd, yn 2 *Sam.* xv. 3. "O! Arglwydd, tro, attolwg, gynghor Altophel yn ffolineb." Yn wir, fe wnae Duw chwane; fe ddymchwelodd y brad; bradwr hefyd; ac yn yr ystyr hon, gall saint yn fynych ddywedyd gyda'r prophw: (*Esa.* lxiv. 3): "Pan wnaethost beth ofnadwy ni ddisgwylasom am danynt," ni weddiasom am danynt; trwy dywallt d'dialedd ar y personau, pan nad oeddy hwy yn gweddi ond yn erbyn eu bwriad drygionus.

3ydd. Pan yn gweddi yn erbyn perso au fyddo yn elynion cyhoeddus i Dduw eglwys, diogelaf yw gweddi yn gyffredin ac heb bennodiad: "Gwaradwydder y rhai a gasant Seion" (*Salm* cxxix. 5), am n gwyddom pwy o honynt dan rym ystyfn i rwydd, a phwy nad yw; ac am hyny n gallwn weddi yn bennodol a dilai yn erby personau neillduol. Dichon llestr etholed fod dros amser mewn gelyniaeth yn erby Duw a'i eglwys—un y mae Duw am ei gysegru iddo ei hun trwy ras, a'i wneuthur y llestr sanctaidd at wasanaeth ei dŷ. Y ydym, mi addefaf, yn cael rhai yn y Beibyl y gweddiwyd i'w herbyn wrth eu henwaf felly y gweddiodd Moses yn erbyn Cora a'i gyfeillion (*Num.* xvi), a Phaul yn erby Alecsander y gof copr: "Taled yr Arglwydd iddo yn ol ei weithredoedd" (*2 Tim.* iv. 14): ond yr oedd gan y rhai hyn, ac eill y cawn eu hanes, ysbryd ac awurdde anghyffredinol; ac nid ydynt i fod yn e amplau i ni yn yr achos yma. Galwodd Elias am dân o'r nef ar yswyddogion; ond ce yddwyd y disgyblion am chwenych gwneu yn gyffelyb heb ysbryd cyffelyb: "Ni wyddoch o ba ysbryd yr ydych;" *Luce* i. Gweddia am ddarostyngiad i holl elynio ystyfnig Duw; a gâd iddo ef annelu y saet at y nod. Cafodd Ahab ei ddyrnod, er m ar antur y taflwyd y saeth, gan un nad oed yn meddwl am dano ef. Y mae gweddia yn cael dosbarthiad yn y nef cyn y dygwelw eu hattebion. Er nad oedd y bri eglwys yn gweddi am farn ar yr ymber

awdwr, ond, i'r gwrthwyneb, am ras a rodded; etto cafodd amryw o honynt, trwy eu bod yn troi allan yn elynion adgas i Dduw a'i bobl, deimlo pwys yr erfyniadau a roddodd hi i'r nef, yn erbyn gwrthwynebwyr y gwirionedd yn gyffredinol.

4ydd. Wrth weddio yn erbyn gelynyon ysbarnig Duw a'i eglwys, gogoniant Duw a ddylem yn benaf amcanu ato; ac aflwydd iddynt hwy mewn trefn i hyny: "Cyfod, Arglwydd, a gwasgarer dy elynion." Megys y mae yr haul, wedi iddo ymlid y niwl oedd yn ei guddio o'n golwg ni, yn dangos disgleirdeb ei belydr, felly Duw, trwy ddial ar ei elynion, a'u gwasgara yn eu drwg amcanion oedd yn tueddu i dywyllu ei ogoniant ef yn y byd; y mae yntau yn arddangos ac yn amlygu disgleirdeb ei briodolaethau o flaen llygaid ei bobl. Y canlyniad mwyaf athrist sydd yn dilyn llwyddiant gelynyon Duw yn y byd, yw eu balchder a'u gabledd yn erbyn Duw, ei wirionedd, a'i eglwys. Y pryd hyny, hwy fytheiriant eu gableddau erchyll yn erbyn y nef; y pryd hyny y gwatwarant y saint tlodion, ac a'u gwahanant â chleddyf llym eu hiaith wawdus, "Pa le yn awr y mae eu Duw hwynt?" Ond pan ymaflo Duw yn nharian ei nerth, ac y gwaradwyddo y cewri hyn, meibion ddaear, trwy fwrw dinystr ar eu penau yng nghanol eu hystrywiau drygionus, pan daflo efe eu dichellion a'u hergydion, a saethasant at ei eglwys, yn ol arnynt eu bunain er eu gwae a'u dinystr, yn awr y mae yn dwyn ymaith y gwaradwydd, ac yn rhoddi ateb hyd adref i'w gofyniad, "Pa le yn awr y mae eich Duw?" Y mae wrth eu gwddf hwy; ac â'i gleddyf llym yn dial gogoniant ei enw arnynt. Pan gafodd Julian y gwrthgiliwr ei archoll marwol, ac y bu raid iddo addef llaw pwy a'i parodd trwy waeddi, *Vicisti Galilæe*—"O Iesu o Galilea, aethost yn drech na fi;" yr oedd hyn yn farn a roddodd daw ar iaith gableddus wawdus ei weision Paganauidd, "Pa beth y mae mab y saer arno yn awr?" Un o honnynt, Libanius, a darawsai hyn ar ddannedd Cristion, mewn dirmyg i'n Iachawdwr, a gafodd yn attebiad, "Y mae yn gwneuthur arch i'rh feistr di;" ac wle daeth hyn i ben yn gynt na'u disgwyliad, er eu syndod a'u gwaradwydd! Nis gall lai na bod yn ddiwrnod llawen i Cristion sydd yn priso gogoniant Duw uwch law ei einioes ei hun, pan welo hyd yn oed yr annuwiol oedd o'r blaen yn gwadu rhagluniaeth, ac yn cyfrif pob peth i ddamwain a digwyddiad, yn awr wrth yr ymddangosiadau hynod o'i allu a'i ddoethineb, yn achub ei bobl ac yn difetha ei elynion, yn gorfod addef, "Diau fod firwyth i'r cyfiawn: diau fod Duw a farna ar y ddaear;" *Salm* lviii. 11. Y dyrchafiad hwn ar enw gogoneddus Duw, a ddylai fod ac sydd yng ngolw'r pob Cristion

wrth erfyn am ddial yn ei weddiau: "Gwaradwydder a difether hwynt, fel y gwypon't mai tydi, yr hwn yn unig wyt Iehofah wrth dy enw, wyt Oruchaf ar yr holl ddaear;" *Salm* lxxxiii. 18.

DOSB. II.

Yn awr, oddi wrth y pen yma o erfyniad barn, y mae

(1af.) Defnydd o gysur i'r saint yng ngwyneb y rhegfeydd erchyll a fytheiria yr annuwiol i'w herbyn. Y mae y saint yn yr ystyr hon dan feldith. Yr annuwiol yw y blaid liosocaf yn y byd: praidd bychan yw yr eglwys, ond gyr anferth yw ei gelynyon; ac nis gall y rhai hyn ddymino yn dda iddi hi. Bydd i Cain, fel y dywed Luther, "gasau a lladd Abel hyd ddiwedd y byd;" y mae yr un ysbryd ag oedd ynddo yn aros yn ei hâd. Rai gweithiau, pan fyddo yr eglwys yn ei llwyddiant a haul heddwch allanol yn tywynu arni, hwy allant waeddi, "Hosanna," yn y dorf, fel Simeï, a allai ymgyrnu i Ddafydd ar ei ddyrchafiad, er iddo ei regu yn ei gyfyngder, "Etto, â'u geneauu y bendithiant, ond o'u mewn y melldithiant;" *Salm* lxii. 4. Ni ddichon dyn annuwiol ddymino yn dda i'r duwiol, fel y cyfryw: megys, o'r ochr arall, nas gall y duwiol hoffi'r annuwiol, fel y cyfryw: "Ac ni ddywed y rhai a ânt hebio, Bendith yr Arglwydd arnoch: bendithiwn chwï yn enw yr Arglwydd;" *Salm* cxxix. 8. Y maent yn wir yn deisyf eu dychweliad, ac yn y modd hyny yn ddymino yn dda iddynt; ond yn y ffordd ddrwg y maent etto arni, nis gallant eu bendithio. Felly gall yr annuwiol ddymino cael y saint i'w plaid hwythau, i wneuthur fel hwythau; ac yna gallant eu canmawl a'u coffeidio. Ond tra yr ymgadwo y saint yn agos at Dduw, ac y nacant redeg i'w canlyn i ormod rhyseidd, y maent yn sicr o gael eu rheg a'u melldith. Nid yw eu rhodiad duwiol a heddychol yn alluog i'w cadw rhag eu lliad a'u digloneidd: "Ni logais, ac ni logwyd i mi; etto pawb o honynt sydd yn fy melldithio i;" *Ier.* xv. 10. Ond nac ofna di, Cristion, eu rhegfeydd; nid ydynt ond anathema mewn swm, fel tân ar badell dryll heb un ergyd, rhydd glec, ond ni wna niwed. Fe'rh gysgoda bendith Duw di rhag eu melldith hwy: "Melldithiant hwy, ond bendithia di;" *Salm* cix. 28. Pan neidiodd y wiber o'r tân ar law Paul, yr oedd y barbariaid yn disgwyl iddo syrthio yn farw; ond ni ddi-gwyddodd dim o'r fath beth. Felly y mae gelynyon Duw a'i bobl o genhedlaeth i genhedlaeth wedi disgwyl i'r eglwys sy o hyd dan eu melldithion, drengu gan eu pwys: ond byw y mae o hyd er hyny, a rhodio ar feddau eu holl ddrwg-ewyllysyr. Och, drueiniaid tlodion, pa beth a dâl eich drwg-ddymuniad? Yn ddiau, fel na wna eich bendith ddaioni, felly ni wna eich mell-

dith chwaith ddrwg, nes y galloch gael gan Dduw osod ei sel a'i Amen wrthi; ac y mae hyn yn amhossibl. A ddarfu i'n Iachawdwr geryddu mor llym ddymuniad newdywllt ei ddisgyblion, oedd am ddwyn tân o'r nef ar rai a dybiasant hwy oedd yn ei haeddu! Ac a fydd iddo foddiau eich chwant digofus lliodiog chwi yn erbyn ei anwyl bobl, trwy dywallt yr hyn yr ydych chi yn rhyfygus, i.e. yn gableddus, yn ei ofyn ganddo? Ai ni wna dim eich tro chwi, ond cael Duw i'ch gwasanaeth, i ddiennyddio y rhai y rhoddwch chi farn arnynt, a'r rhai hyny yn anwyl blant iddo hefyd, ac am ddim yn y byd ond na feiddiant fod mor ddrygonus â chwi eich hunain? Ewch a pherwch i'r fam dyner drochi ei dwylaw yng ngwaed ei baban hawddgar sy newydd ddyfod o'i chroth, ac yn gorwedd wrth ei bron; neu i'r gwr fradychu a thraddodi gwraig ei fynwes i ddwyllaw llofruddion sydd yn gwyllo am ei bywyd. A fyddai y rhai hyn yn negeseuau a barai groesaw i'r neb a'u dygent at fam neu wr caruaid? Ond pe byddai angenfild i'w cael yn mhlith dynion; etto cofia mai â Duw y mae i ti a wneloch; Duw sydd â'i natur yn aughyfnawidiol, a'i gyfammod â'i bobl yn annuradwy. Rhyfedd fu taerineb Balac a Balaam arno, âg allor ar ol allor, o fan i fan, ond y cwbl yn ofer: "Etto, yr Arglwydd dy Dduw, ni fynai wrandaw ar Balaam; ond trôdd yr Arglwydd dy Dduw y felldith yn fendith i ti; canys hoffodd yr Arglwydd dydi;" *Deut.* xxiii. 5. Eriodd ni bu mwyr o sel na chwant awchlym i ddwyn bwriad i ben nag oedd yma. Gallen feddwl fod Duw wedi dywedyd digon wrth Balaam ar y cyntaf, i beri iddo ddarfod â'i gais fel peth amhossibl: "Na ddos gyda hwynt, na felldithia y bobl, canys bendigedig ydynt;" *Num.* xxii. 12. Ond yr oedd yn hoffi y gwaith ac yn caru y wob; am hyny somodd ei gydwybod trwy gadw rhan o eiriau Duw oddi wrth y cenhadon; ac nid y cwbl o eiriau Balaam a ddygasant hwythau at Balaam—mor anfoddllawn oeddynt oll i'r gorchwyl fethu! Etto, gwelwn wrth y canlyniad na wnaethant ond poeni i golli eu llafur; i.e. gwaeth, i'w colli eu hunain; o herwydd fe barodd Duw iddynt, yn feistr a gweision, yfed y felldith yr oeddynt am ei darllaw i Israel.

(2il.) Gair at yr annuwiol. Gwylwch rhag i chwi trwy eich casineb parhaol at wirionedd ac eglwys Crist godi ei gweddïau i'ch erbyn. Y mae erfyniadau dial y saint, pan eu hiawn-gyflêir o ran achos ac amcan, yn ddrylliau angeuol ac yn taraw yn farw lle disgynant: "Oni ddial Duw ei etholedigion sydd yn llefain arno ddydd a nos, er ei fod yn hir oedi drostynt? Yr wyf yn dywedyd i chwi y dial efe hwynt ar frys;" *Luc* xviii. 7, 8. Nid geiriau gweigion mo

honynt, fel rhegfydd yr annuwiol a ollyng i'r awyr, ac a ddifianant yno gyda'u han adl; ond fe'u derbynir i'r nef ac a'u dan fonir yn ol gyda tharanau a mell ar bena yr annuwiolion. Darfu i weddi Dafydd ddatod diebell gorddeddig Ahitophel, a phlethu cebystr iddo hefyd. Mae gweddïau y saint i'w hofni yn fwy (fel y dywedodd un gwr mawr ac a'i teimlodd hefyd) i byddin o ugain mil o wyr yn y maes Darfu i ympryd Esther brysuro dinyst Haman; a gweddi Hezeciah ddwyn llu anferth Senacherib i'r lladdfa, a chyrcu angel o'r nef i ddwyn y dialedd arnynt mewn un noswaith.

PENNOD LVII.

Am dalu diolch, a pha beth sydd i fod yn destyn ein diolchgarwch.

Yr ail fath o weddi yn y rhaniad olaf ym yw diolchgarwch; wrth drin pa un mi gadwaf at fy nhrefn o'r blaen. Dangosaf, iaf. Pa bethau y mae i ni roddi mawl a diolch am danynt. Yn awr, gwrthdrysych diolchgarwch a deisyfiad yw, rhywbeth a'i sy dda, ond dan olygiad arall. Yr ydym yn gofyn y peth y byddo arnom ei eisieu; yn rhoddi diolch am y peth a dderbyniasom neu am y gobaith fyddo genym o'r addewid, y cawn mewn anser dyledus eu derbyn. Felly ni a welwn fod gan y Cristion faes mor helaeth i arfer ei ddiolchgarwch ynddo ag sy ganddo i'w erfyniadau. Y mae y dyledswydd hon yn cychlynu nef a daear, ac yn eymmeryd y ddau fyd o fewn ei llinell. Megs nad yw Duw yn gwneud dim heb fod yn golygu ei ogoniant ei hun ynddo (*Diar.* xvi. 4); felly nid oes un weithred o'i eiddo tuag at ei bobl, nad yw efe yn bwriadu eu lles drwyddi; yn ganlynol, y mae y cwbl a wnel yn destyn addas o'u diolchgarwch. Oddi yma yr erchir i ni, "Ym mhob dim roddi diolch." O! y fath destyn helaethlawn a rydd Duw i'w bobl i'estyn en myfyrdodau arno! Ym mhob dim! Mae holl drefn ac ystod rhagluniaeth ddwyfol tuag at y saint yn debyg i lyfr cerddoriaeth, ac ym mhob dalen o hono gân, â'i thônau wedi eu nodi, fel y gallont ei dysgu a'i chanu i glod eu Daw. Nid oes un amgylchiad o'u bywyd y gallant ddywedyd un dauo, Yn hwn ni chwasmot un drugaredd i fendithio Duw am dani. Yn awr, fel nad yw uffuddod hannerog yn dda, felly nid ydyw diolch hannerog ond drwg drwyddo: nid fod un Cristion yn gallu cadw yr holl orchymunion neu rifo yn ddyladwy holl drugareddau Duw; llawer llai rhoddi diolch neillduol a phennodol am bob drugaredd wrth ei phen; ond fel y mae efe â'i olwg ar yr holl orchymunion (*Salm* cxix. 6), felly y mae yn dy-

muno mawrhau pob trugaredd; ac hyd eithaf ei allu, rhoddi i Dduw y mawl o'i holl ddoniau: "Beth a dalaf i'r Arglwydd am ei holl ddoniau i mi?" *Salm* cxvi. 12. Dyma enaid gonest yn wir, nid oedd efe am gladdu dim o'i ddyled i Dduw, ond galw ei enaid i gyfrif am ei holl ddoniau, nid hon neu y llall. Gall camu dros un nôd mewn cân anafu harddwch y cwbl; felly anniolchgarwch am un drugaredd a anurdda ein diolch am y lleill. Ond i ddosbarthu trugareddau Duw yn amryw restrau, fel y byddo eich gwaith yn y ddyledswydd hon yn amlycach ger eich bron :—

1af. Y mae trugareddau naill ai yn gyffredinol, ai anghyffredinol; ein rhanau arferol, neu rai anarferol, i'n gwledda yn awr a phryd arall. Ti ddylit, nid yn unig foliannu Duw am rodd arbenig a ddigwyddo unwaith mewn blwyddyn—trugaredd a ddel gyda'r fath hynodrydd fel y mae dy holl gymmydogion yn sylwi arni, megys hono a gafodd Zacharias ac Elizabeth yn eu mab a aeth yn gyhoeddus ar led y wlad (*Luc* i. 65)—ond hefyd am roddion cyffredinol a beunyddiol. O herwydd, yn gyntaf, yr ydym yn annheilwng o'r drugaredd leiaf (*Gen.* xxxii. 10), ac am hyny y mae Duw yn deilwng o fawl am y leiaf, gan ei bod yn fwy nag sy arno o ddyled i ni. Yn ail, y mae y trugareddau cyffredinol hyn yn llawer. Fel hyn y mae Ddyfdd yn mwylhau gwerth rhoddion o'r fath: "O Dduw, mor fawr yw eu swm hwynt! Pe cyfrifwn hwynt, amlach ydynt na'r tywod; pan ddeffrowyf, gyda thi yr ydywf yn wastad;" *Salm* cxxxix. 18. Fel pe dywedasai, Nid oes un mundaodyn o amser nad wyt ti yn rhoddi o'th ddaioni mi; cyn gynted ag yr agorwyf fy anrantauf y bore, y mae genyf destyn newydd, mewn trugareddau newyddion a gyfranwyd er pan hunais, i roddi fy myfyrdodau diolchgar ar waith. Y mae llawer ychydigyn ynghyd yn gwneuthur swm mawr. Pa beth lai na thywodyn, etto pa beth sy drymach na'r tywod ar lân y môr? Megys ag y mae pechodau bychain, y fath ag yw meddyliau ofer a geiriau segur, gan eu hamldra, yn tyru yn euogrydd mawr, a barant gyfrif trwm o'r diwedd; felly trugareddau cyffredinol, er eu bod yn fyr o faint rhai trugareddau arbenig (a'u hystyried ar wahân), etto, hwy ddygant hyny i mewn yn eu nifer. Pwy ni ddywed fod gwr yn dangos caredigrwydd cymmaint, i e, mwy, wrth gynnal un ar ei fwrdd â lluniaeth cyffredin, ar hyd y flwyddyn, nag wrth ei groesawu mewn gwledd fawr, ddywyaith neu dair yn yr un amser? Yn drydydd, Y mae gonestrwydd yn amlycach mewn diolchgarwch am drugareddau cyffredinol na'r anghyffredinol. Megys y mae yn arwydd o galon ddrygionus, bod y dyn yn syrthio i bechod ar bob achlysur cyffredin; felly y

mae yn brawf o nerth gras, pan fyddo yr enaid yn cymmeryd amnaid oddi wrth bob trugaredd gyffredin i fendithio ei Dduw. Y mae rhai mor rwyng yn eu hysbrydoedd, nad oes ond physygwriaeth cryf a weithia gyda hwynt; gallant lyngau cystuddiau bychain a thrugareddau cyffredin, heb ymddarostwng dau y naill, na ffoliannu Duw am y lleill. Dyna y galon rywiog, yr hon y tyeia physygwriaeth tyner gyda hi; cerwyddon ysgeifn yn ei darostwng, a thrugareddau cyffredin yn ei chodi i ddiolchgarwch.

2il. Y mae trugareddau naill ai yn rhai wedi eu dechreu, neu wedi eu dwyn i ben. Ni ddylem ni beri i Dduw aros am ein mawl hyd oni byddo efe wedi dwyn trugaredd i'w llawn dwf, ond ei foliannu ar ei chychwyniad. Dylem fod mor barod i roddi mawl am drugaredd, ag yw Duw i wrandaw ein hymbiliaeth am dani. Boreuol iawn yw Duw i gyfarfod enaid erfyngar: "Yn nechreu dy weddïau yr aeth y gorchymyn allan (*Dan.* ix. 23) "Dywedais, Cyffesaf yn fy erbyn fy hun...a thi a faddeuaist;" *Salm* xxxii. Fel hyn y dylem ninnau ateb yn ein diolchgarwch i'r arwydd cyntaf, a rydd Duw yn ei ragluniaeth o nesâd trugaredd. Os cewch ond clywed fod y brenin ar y ffordd tua'ch tref, chwi godwch at y clychau tra y mae etto yn mhell; ac ni adewch ddistawrwydd am ei fod heb gyrhaedd y tu mewn i'r pyrth. Yr adar a godant yn fore, ac ydynt barod â'u tônauf peraidd i gyfarch yr haul pan ymddangoso. Fel hyn y dylem ninnau daraw at ein telynauf mawl ar ymddangosiad cyntaf trugaredd. Y mae genym esampiau hynod yn hyn. Nid addaw a wnaeth Moses y rhoddi fawl i Dduw am yr oll o'i ddoniau ynghyd, "ar ol iddo eu dwyn yn ddiogel i Ganaan, a'u sefydlu yn fuddugoliaethus yn eu llawn orphwysfa: na, ond ysgrifenu cân yn ddiaros ar lân y môr, ac yng ngolwg yr anialwch hyll yr oeddylt i'w wynebu; a'i chanu gydag Israel yn dâl diolch am yr honsef gyntaf yma ar ol eu chychwyniad o'r Aipt. Felly 2 *Sam.* vi. 13: "A phan gychwynodd y rhai oedd yn dwyn arch yr Arglwydd chwech o gamrau, yna efe a offrymodd ychain a phasedgigion. A 1 *Cron.* xv. 26, sydd le yn cyfatfeb i hwn, ac yn son am yr un tro: "Pan gynnorthwydd Duw y Lefaid oedd yn dwyn yr arch, hwy a offrymasant saith o fustych a saith o hyrddod." Hyny yw, cyn gynted ag y canfuant, trwy gerdded ychydig gamrau, fod Duw yn gwenu ar eu gorchwyl (y gân ei fod heb wneuthur rhygyiad, fel o'r blaen ar Uzza), hwy ddangosasant eu diolch yn ebrwydd ar y fan, am hyn o ddechreuad gobethiol, am y gwyddent yn dda nad oedd un ffordd well at gael parhâd a chwanaegid o ddaioni Duw atynt, na thrwy groesawiad diolchgar o'i ymddangosiad cyntaf. Mewn

gair, dyma fel y tarawodd yr Iuddewon yn Babilon at eu caniadau diolch ar wawr gyn-
taf eu gwardigaeth : " Yna y llanwyd ein
genau â chwerthin, a'n tafod â chanu : yna
y dywedasant ym mysg y cenhedloedd, Yr
Arglwydd a wnaeth bethau mawrion i'r
rhai hyn ;" *Salm* cxxvi. 2. Nid oedd hi yn
awr ond megys dechreu llaw arnynt ; new-
ydd droi yr oedd y dwfr, a'u materion yn
dechreu ymddangos yn fwy gwengar nag y
buasant ; etto, y pryd hyn, hwy gyfarchent
eu trugaredd newydd ei geni gyda gorfoledd
a mawl. Fe allai, Gristion, dy fod ar glaf
wely, ac yn cael ychydig fywiocâd, er nad
yw nemawr wrth dy iechyd gynt. O ! ben-
dithia Dduw am hyn o godiad i'th ben oddi
ar obenydd. Gallai dy fod wedi bod o ran
dy gyflwr ysbyrdol mewn cyfyngder mawr,
megys yn mol uffern, dychrynyfeydd Duw
yn dy ddifa ; ond yn awr, dy ing yn laesu ;
ac er na wyddost fod y Diddanydd wedi dy-
fod, etto, y mae rhyw belydr o oleu dwyfol
yn tori i'th garchar, ac yn magu ychydig
obaith i ddisgwyl am chwanege. O ! na âd
i'r ernes yma o drugaredd fyned heibio heb
ei chydnabod gyda diolchgarwch. Och ! y
mae rhai yn debyg i longau mawrion, na
nofiant ond ar lanw mawr ac uchel—trugar-
edd wedi ei chwbl orphen. Os na chânt
hwy eu dymuniad yn gyfan, nis gallant
weled yr hyn a feddaut, na chael eu calonau
i gywair mawl.

3ydd. Mae trugareddau naill ai yn rhai a
dderbyniwr yn y byd hwn, ai a gedwyr hyd y
nesaf ; yn rhai mewn llaw neu mewn go-
baith. Y mae addewidion y myn Duw i ni
aros am eu cyflawniad hyd nes y delom i'r
nef. Ac am y rhai hyn y mae yn gweddu i
ni fendithio Duw gystal ag am yr hyn a
dderbyniwyd yma. Rho fawl am yr hyn
sydd yng nghadw i ti yn y nef, gystal a'r hyn
a dreulir arnat ar y ddaear. Po mwyaf yr
eangir ein calonau i ddiolch am y trysor nad
yw etto genym ond mewn gobaith, mwyaf
yr anrhydeddwn ffyddlondeb yr hwn a add-
awodd. Y mae y neb a elo i draul fawr
gyda thŷ sy ganddo mewn disgwiliad, yn
dangos cryn hyder o gael ei feddiannu ryw
ddiwrnod. A phan roddir arian o law am
fill rhyw farsiantdwr, y mae yn dangos ei
fod yn wr o allu a chymmeriad. Felly
drwy y llawenydd a ymalfa ynot, a'r diolch-
garwch a dardd o honot, am a ddywed yr
addewid y cawsai ei feddiannu yn angeu, y
gogoneddi dithau wirionedd y Duw a add-
awodd.

(4ydd.) Y mae trugareddau chwerwon, a
thrugareddau melusion, y rhai a rydd Duw
mewn gwin, a rhai mewn wermod. Yn awr,
y mae yn perthyn i ni ddiolch am y chwerwon,
yn gystal a'r melusion. Dyma weddi
Iob : " Yr Arglwydd a roddodd, a'r Ar-
glwydd a ddygodd ymaith ; bendigedig
fyddo enw'r Arglwydd." Y mae gormod

yn dueddol i feddwl nad oes dim yn dru-
garedd, ond a el i lawr yn felus, ac a edy-
ffas da ar ei ol ; ond mabandod ein hysbryd-
oedd yw hyn, a wisg ymaith, fel y tyf gra-
u yn fwy gŵraidd, a'r Cristion yn synwyr-
lach. Pwy ddyn deallus a brisia lyfr wrth
y goreurad ar ei gaead ? Yn ddiaw, nid yw
ein croesau na'n mwyniant amserol, o'u hys-
tyried ynddynt eu hunain, nac yn felldit-
nac yn fendith ; nid ydynt ond megys
caead ar y llyfr, yr hyn sydd yn ysgrifed-
edig o'u mewn a ddeongla i ni pa un ai tru-
garedd ydynt, ai nid e. Ai cystudd sydd
yn dyfod i'th ran ! Os gelli gael allan e-
fod yn tarddu o gariad, ac felly yn dibent-
mewn gras a sancteiddrwydd, trugared-
ydyw, er iddo fod yn chwerw i'th arclwaeth
di. Ai mwyniant wyt yn gael ? Os nac
yw cariad yn ei anfon, a gras yn ei ganlyn
yr hyn a ymddengys wrth ei effaith arnat
mellidith ydyw, er melused a fyddo i'th
deimlad. Y mae gwenwyn sydd felus i'w
gael, a meddyginiaeth sy chwerw. Y mae
y saint yn gyffredin yn ennill mwy trwy eu
cystuddiau yn y byd na thrwy fwyntian
gan y byd. Mynychach y goleuir eu llygaid
â'r wermod nag â'r mel, trwy driniaethau
chwerwon ac anfoddlhaol i'r teimlad, na
thrwy rai hyfryd a moethus.

(5ed.) Y mae trugareddau naill ai yn rha-
a dderbyniwr yn bersonol, neu ynte mewn
cydgyfngogaeth âg ereill ; ac y mae y rha-
hyn i'w haddef yn gystal a'r lleill. " Madd
eu, O Dduw !" eb un, " i mi fy mhechodau
pobl ereill." Felly, dywed tithau, " Diolch
i ti, O Dduw, am fy nhrugareddau pob
ereill." Ysgatfydd, Gristion, ddarfod i'th
weddio dros gyfaill claf, a'i fod wedi ei ad-
feru i'w iechyd ; dros un arall mewn cyf-
yngder ysbyrd ; a bod y Diddanydd wed
ymweled âg ef. Yna yr oedd genyt eidd-
megys ar ei long ef, ac yr wynt yn ennill
wrth ei lwyddiant ef ; ac am hyny, dyli
fendithio Duw gydag ef. Yr hwn a weddi-
dros ei gyfaill, ac ni chyduna âg ef i dal
diolch pan gaffo y drugaredd, y mae yn a-
i un a fyddo am ddwyn ei gyfaill i ddyled
on dyn ddiolaf am ei gynnorthwyo allan.)
Y mae ar dy gyfaill, Gristion, fwy o eisieu d-
gyymborth i dalu y diolch, nag i ofyn y
rhold, am mai dyna y gwaith anhwasal
Ond yn anad pob trugareddau i ereill, by-
sier nad anghofiech drugareddau eglwysig
thrugareddau gwladol.

PENNOD LVIII.

*Pedwar o gyfarwyddiadau at ffurfio ein diolch
iadau.*

Chwi glywsoch pa beth yw testyn ein mawr
a'n diolch. Deuwn yn awr at yr ail beth

addlawyd, sef gosod i lawr rai rheolau pa fodd i ffurfio ein diolchiadau.

DOSB. I.

1af. Bydd sicr fod y peth y diolchi i Dduw am dano yn un o ffirwythau yr addewid. Dyna y cwmpas yr ydym i hwylio wrtho, megys yn y rhan erfyniol, felly hefyd yn y rhan ddiolchiadol o weddi. Os nad yw o fewn i'r addewid, nid trugaredd ydyw, ac felly nid testyn diolchgarweh. Pan y mae rhai yn llwyddo yn eu drygioni, y maent mor hyf a diolch i Dduw am iddynt ffynnu mor dda. Yn awr, os yw yn bechod trwm i ddyd ymfendithio mewn ffordd ddrwg (*Deut.* xxix. 19), llawer mwy erchyll yw iddo fendithio Duw am lwyddiant ynddi. Drwy y cyntaf y mae ef yn unig yn arddel ei bechod ei hun—yr hyn yn wir sy ddrwg ddigon—ond trwy yr ail y mae am wneuthur Duw yn blaid gydag ef, ac yn ei demtio i arddel y drwg hefyd. Cymmhwys y llefarodd Bernard i'r perwyl hwn, wrth gymmharu y rhai ar y naill law a ddiolchiant i Dduw am eu ffyniant mewn drwg, a rhag-rithwyr, a ymfalchiant yn y pethau da a dderbyniant; fe ddywed, "Y mae y naill yn cyfrif eu pechod i Dduw, a'r lleill yn ei ysbeilio o ogoniant ei drugareddau;" *Preg.* xlv. ar y *Caniadau*. Nis gall Duw dderbyn dy ddiolch, oddi eithr iddo yn gyntaf gymmeradwyo dy weithred. Y mae yr hwn a dderbynio wobr yn euog o'r bai. Ac a feiddiwch chwi demtio y Sanctaidd yn y modd yma? Pe byddai y Duw y gelwch arno yn debyg i eilonod y Cenhedloedd, nid peth mawr fyddai. Wedi i'r Philistiaid arfer eu creulondeb ar Saul, y maent yn arhegu ei ben i Dagon eu Duw. Ni ddymunai y diafol well aberthau na ffirwyth pechodau dynion. Ond fflaidd gan Sanct yr Israel y fath ddiolchiadau. Nid oedd gwobr putain i'w ddwyn i dŷ yr Arglwydd: *Deut.* xxiii. 18.

2il. Bydded y cwbl o'th fawl yn offrymedig trwy Grist. "Trwyddo ef offrymwn aberth moliant i Dduw;" *Heb.* xiii. 15. "Chwydychi ydych offeiriadaeth sanctaidd, i offrymu aberthau ysbrydol cymmeradwy gan Dduw trwy Iesu Grist;" 1 *Pedr.* ii. 5. Pe medrit ti lunio molawd o'r harddaf, a'i addurno â'r araethyddiaeth wychaf, a'i dywallt gyda'r gwres a'r sel mwyaf a fyddai bossibl, ni wnai hyn i gyd ond sŵn afafar a garw yng nglust yr Hollalluog, oddi eithr ei fod trwy Grist. Nid yr anad o'i ollwng i'r awyr agored a wna beroriaeth hyfryd, ond o'i fyned trwy udgorn, neu ryw offeryn arall, lle y mae yn cael ei ffurfio yn sŵn cynghaneddol. Ysgatfydd, wrth weddio am ryw drugaredd, dy fod fel un yn ymgyssodi dan aden Crist, ac yn gofyn derbyniad yn ei enw, am dy fod yn ymwybodol o'th anneilyngdod i gael yr hyn a geisi; ond wrth dalu diolch, gan nad yw dy neges

ddim i erfyn a derbyn, ond i roddi, yr wyt felly yn disgwyl croesaw. Y mae y neb sydd yn rhoddi anrheg yn sicr o gael y drws yn agored. Gwir, pe byddai dy rodd di yn addas i'r Duw mawr. Ond pwy wyt ti, fel y byddai iddo ef dderbyn y fath anrheg o'th law? Os wyt anbaeddiannol o'r drugaredd leiaf, yna yn sicr yr wyt yn anneilwng o'r anrhydedd o fod dy offwrn diolch yn cael dderbyniad. Y mae arnat angen am gyfryngdod Crist yn y naill achos fel y llall.

3ydd. Nac aros ar bethau yn gyffredinol; ond tyred, yn dy ddiolchiadau, at yr esampul pennodol o ddaioni Duw atat. *Est dolus in generalibus*. Y mae yn arwydd o ysbryd ysgafn, os nad ffial, pan fyddo dyn yn ymfoddloni ar gyhuddiad cyffredinol yn ei erbyn ei hun, Yr wyf yn bechadur, yn bechadur mawr; ac aros ar hyn, heb deimlad neillduol o'r amryw rwygiadau a wnaethpwyd yng nghyfraith Duw. Ac nid argoel gwell ydyw yma, pan fyddo dyn yn rhoddi Duw heibio â chyfariachad o bell, am ei drugaredd a'i ddaioni yn gyffredinol, ond heb sylwi ar y rhanau pennodol sydd yn chwyddo ac yn gwneuthur i fyny y swm cyflawn. Yn awr, i'th ddwyn ym mlaen yn hyn, y mae yn rheidiol i ti graffu yn fawl ar ragluniaeth Duw yn feunyddiol, atat ti a'r eiddot; i.e. ac at eglwys Dduw hefyd. Trysora y rhai hyn yn dy galon—fel y cadwodd Mair eiriau Crist—fel y byddont yn ddefnydd diolchgarweh erbyn amser gweddi. Darbodaeth wir dda fydd hyn yn achos dy enaid. Nid wyt yn disgwyl cael yn dy gist yr arian na ddarfau i ti erioed eu cadw ynddi; ac nid hawdd y cai di yn dy galon ddiolch i Dduw am y trugareddau hyn, na thrysoraist erioed yn dy gof. Y mae i'w ofni, nad yw y dyn yn meddwl talu mo'r ddyled hono a edy ef heb ei rhoddi yn ei lyfr. Yn *Salm* cvii, ar ol i'r Salmydd annog i ddiolchgarweh, am ddaioni Duw mewn creadigaeth a rhagluniaeth, y mae ei benderfyniad i sylwi arno, "Y neb sy ddoeth, ac a gadwo hyn, hwy a ddeallant drugareddau yr Arglwydd." Fel pe dywedasai, Yr achos fod cyn lleied mawl yn cael ei roddi am y fath drugareddau mawrion yw, am fod dynion heb ddeall daioni Duw ynddynt; ac y maent felly, am eu bod heb eu cadw yn eu meddyliau, a hyn drachefn yn bod, am eu bod heb ddoethineb. Nid llyfrgell a wna ysgolhaig, ond synwyr i graffu ar addysgiadau dewisol, a'u sugno allan o'i lyfrau. Nid oes neb heb ystôr o drugareddau i foliannu Duw am danynt—y mae rhagluniaeth ddwyfol yn llyfr mawr, wedi ei ysgrifenu yn dew ac yn aml, â thrugareddau o'r naill ben i'n hoes i'r llall. Ond Och! ychydig sydd yn meddu calon i'w ddarllen, a llai yn meddu doethineb, i gasglu y rhanau dewisol o hono, i'r fath ddi-ben grasol ag yw hyn.

4ydd. Cyffroa dy rasmusoliangar. Y

mae Dafydd yn galw y cwbl oedd ynddo i fendithio Duw (*Salm* ciii.); hyny yw, holl alluoedd a grasusau ei enaid. I roddi es-ampl ond mewn dau neu dri.

(Iaf.) Gostyngeiddrwydd. Nid da y dysg dyn balch gardota, etto, fe eill hunan-gariad beri iddo blygu i'r gwaith. Ond yn talu diolch y mae yn rhwym i fod yn fwngler, am fod hyn yn ddarn mawr o hunan-ymwadiad. "Nid i ni, nid i ni, ond i'th enw dy hun dod y gogoniant." Fe lŷn anrheg y balch wrth ei law; y mae yn anaddas i roddi y goron ar ben Duw, am fod ganddo ewylllys iddi ei hun. Yr ydym yn wir yn cael y fwyell yn llaw y Phariseaid, ond naddu ei waith yn ysglodon y mae; yr oedd ar ddull un yn mawrygu Duw a'i enau, ond yn bwyta ei eiriau wrth siarad, ac yn dangos yn eglur fod ei fryd yn fwy ar ei ddyrchafu ei hun na Duw: "Diolch i ti nad wyf fi fel y publican hwn." Y mae y diolch yma yn dyfod i mewn o ran ffurf; ond y publican sy ffaidd ganddo, a'i hunan yn barchus. Chwi eillwch yn hawdd feddwl y fath giledrychiad chwantus a roddodd Haman ar Mordecai, pan oedd yn dal ei wrthaf, ond yn dymuno bod ei hun ar y cyfrwy. Och! pa fodd y rhydd y balch ei galon i Dduw, yr hyn y mae yn drachwantu iddo ei hun? "Ni ddichon neb," medd Luther, "weddio 'sancteiddier dy enw,' nes y medrx yn gyntaf sefain 'i lawr a'm henw i.'" Ymdrecha gan hyny am ras i'th fychanu dy hun, ac addef dy ddiddymdra; yna, ac nid cyn hyny, y rhoddi di i Dduw ei fawl yn ddiidwyl a chyfa. Nid oes neb mor daer yn gofyn, a'r hwn sydd yn yr angen mwyaf; na neb mor wresog yn diolch, a'r hwn sydd yn y teimlad mwyaf o'i anhellyngdod. A phwy ni farna yn ddrwg am dano ei hun, os bydd yn iawn adnabod ei hun? Pe ni'th osodasai Duw di i fyny, pa ystôr a fedrasit ti gael o'r eiddot dy hun? Yr oeddit mor llwm a dafad heb ei chnu—noeth y daethost i'r byd; ac ar dy Dduw y'th fwriwyd o hyny ym mlaen, fel plentynt tlawd ar gost y plwyf. Pa faint a ryglyddaist ti wrth y cwbl o'th wasanaeth iddo? Nid cymmaint a'r pryd lleiaf o fara. Ac a wyt ti etto yn falch? Y mae Bernard yn cydgymmharu ymddygiad Ioseph at ei feistr, âg ymddygiad eneidiau diolchgar at Dduw fel hyn: "Fe wyddai Ioseph fod ei feistr, a roddasai ei holl dda dan ei law, er hyny yn llysu ei wraig; ac am hyny, fe'i barnodd yn anniolchgarwch erchyll iddo ei dwyn hi o wely ei feistr, a fuasai mor dirion wrtho o ran ei dy. Felly," medd efe, "y mae Duw yn rhad-roddi ei drugareddau yn nwyllaw ei ei saint, ond yn llysu ei ogoniant; am hyny, y mae yr enaid grasol yn cymmyrd yn ddiolchgar yr hyn a rydd Duw, ond yn ostyngedig yn gadael y clod o honynt, yr hyn a geidw Duw iddo ei hun."

(2il.) Cariad a llawenydd. Y rhai hyn medd yr hen air, a wnânt gerddor. Yn wir, lle y mae y rhai hyn yn eu grym, y mae y gerddoriaeth oreu—y nef wyf yn feddwl lle y mae y grasusau hyn yn berffuith. Yr gyntaf, Cariad; dihwedd yw hon nas gal aros gartref; ond y mae yn rhaid iddi gae tori allan mewn mawl i Dduw. Y mae Awstin, wrth son am y nef, yn tori allafel hyn: *Ibi vacabimus et videbimus, &c* "Yno cawn ddigon o amser a llawn olwg cawn weled a charu, caru a moliannu, moliannu a chanu." Y mae cariad a diolchgarwch yn debyg i gynneddfau un naws mewn elfenau, yn hawdd eu troi y naill i'r llall. Yn nechreu *Salm* cxvi, medd Dafydd, "De genyf wrandaw o'r Arglwydd ar fy llef;" ac i eunyn ei gariad yn filam fwy, y mae efe, mewn rhai gwersi canlynol, yn mawrhau trugareddau Duw; yna y mae yn cael gafael mewn tymmer mawl, ac yn taraw ar ei dellyn (*adn.* 11), "Pa beth a dalaf i'r Arglwydd am ei holl ddoniau?" Y ddyweddi hefyd (*Can.* v.), wedi iddi unwaith ddefroir yn iawn, a dwysfyfyrion y fath gyfaill a fuasai wrth ei drws, ac iddi golli ei gyfeillach felus trwy ei hangharedigrwydd, y mae yn ymysgwyd o'i diogi, yn codi ac yn cychwyn ar ei ol. Yn awr, wedi iddi, wrth redeg ar ol ei hanwylyd, gael ei henaid i wres cariad, y mae yn tori allan i'w foli, ac yn ei ganmawl o'r coryn i'r traed. Dyna'r mawl derbynol a ddel o galon wresog; a'r hwn a fynai dwymno ei galon, rhaid iddo arfer peth ymdrech duwiol at gyunhyrfu ei egwyddor o gariad; yr hon, fel gwres naturiol y corph, a gedwir ac a feithrinir drwy fod ar waith.

(3ydd.) Cyffroa dy lawenydd. "Canaf," medd Dafydd, "â gwefusau llafar," neu â gwefusau llawen: *Salm* lxiii. 5. Nid hawdd y trig calon drist a diolchgar ynghyd—trist gan dristwch y byd wyf yn feddwl. Yr oedd y disgyblion, gan dristwch, ym methu dal eu llygaid yn agored i weddio; diau eu bod yn llawer mwy anaddas i foliantu. Hyn yn wir sydd yn gwneuthur mawl a diolchgarwch yn fwy anhawdd na gweddio; am fod ein lawenydd yma mor fynych yn cael ei ddiffodd a'i attal gan bechod a gofid yn ei orchuddio, fel mai prin y mae y tân nefol hwn yn cael llosgi yn hir yn oleu ar allor y Cristion, o'r lle y mae mawl i esgyn. Profedigaethau a thralldau, y maent yn gyru ac yn tueddu yr enaid yn fwy i weddio; ond, gan ei wendid, yn rhoddi ei delyn o foliant allan o gywair. Hannah, hi wylodd ac a weddiodd; ond ni fwytâi o'r heddoffwrn, aberth moliant, gan faint ei gofid. Y mae yn gweddi i ni, gan hyny, wyllo mwy ar ein calonau, rhag eu hanghymmhwyso, trwy unrhyw gystudd, i'r gorchwyl hwn. Gwna a'th enaid fel y gwna y cerddor a'i offeryn ar ddywdd gwlyb; ni chroga efe mo hono mewn ystafell laith

dr, ond lle y caffo o wres y tân. A wyt i dan gystudd? Na âd i'th enaid syllu yn rhy hir ar dy flinderau; ond tyn ef o fewn trogl y trugareddau sydd yn gydbblethedig â lwy. Eistedd yn agos i dân cariad Duw yng Nghrist; twymna dy galon â myfyrdod ar addewidion ysbrydol, tra yr wyt dan wasgfeuron corphorol, a thi gai brofi dy galon, lwrw fendith Duw, mewn gradd o hwyl gy-surus i'w foliannu, yn y diwrnod mwyaf ystormus a ddichou dy gyfarfod yn dy oes. Fel hyn yr oedd Dafydd yn gallu canu yn beraid yn yr ogof, "Parod yw fy nghalon, O Dduw! parod yw fy nghalon; canaf a chanmolaf;" *Salm* lvii. 7.

PENNOD LIX.

Pedair o reolau yn chwanaeg yn y ddyledswydd o dalu diolch.

5ed. Nac ymfoddlon a'r adroddiad noeth, ond dyro i bob trugaredd y pwys sy briodol iddi yn ol yr amgylchiadau mwyhaol fyddo yng nglŷn wrthi. Y mae rhagoriaeth mawr weithiau rhwng dau yn canu yr un gân; gan un, ni chewch ond y gân yn ddiaddurn; y mae y llall yn dilyn yr hediadau cywrair a'r cyfnewidiadau fyddo yn perthyn iddi, yn yr hyn y mae harddweh y beroriaeth yn sefyll. Y mae trugareddau Duw yn effeithio ar ein calonau yn ol y trwsiad a gaffont. Os rhoddwn ni am danynt eu gwisgoedd hardd, yr amgylchiadau sydd yn eu mwyhaol wyf yn meddwl, y maent yn ymddangos yn gogoneddus i'n llygad, ac yn eangu ein calonau i ddiolch am danynt. Ond o'u hystyried heb y rhai hyn, yr ydym yn myned hebio iddynt yn ysgafn. Y mae Duw ei hunan, pan fynai ddangos maint ei hoffder at ei bobl, yn ei gosod ger ei fron ei hun, nid fel y maent yr awr hon, ond megys wedi eu gwisgo a'r gogoniant a fwriadodd efe iddynt: "Megys â llawenydd priodfab am briodferch, y llawenycha dy Dduw o'th blegid di;" *Esa*. lxii. 5. Ar ddydd y bridas, fe fydd y dillad goreu yn cael eu gwisgo. Gwna dithau felly; i ennyn dy ddiolchgarwch am trugareddau, golyga hwynt yn yr amgylchiadau hyny a'u gwnânt yn fwyaf gogoneddus o'th flaen. Nis goddefai rhai ymleraid-wyr i bawb dynu eu llun, rhag eu hanbarddu trwy eu hanfedrusrwydd. Yn ddiâu, y mae mawr ysgafn yn anharddu wyneb hawddgar trugareddau Duw. Nid oes ond ambell un a all eu tynu i'r byw. I wneuthur hyn, y mae llawer o fyfyrdod a dwysder yn angenrheidiol. "Y mae gweithredoedd yr Arglwydd i'w ceisio gan bawb a'u hoffant." Y mae y paentiwr cywrair yn ystyried wyneb y dyn cyn tynu ei lun. Nid gwaith yw mawl i'w wneuthur mewn brys; da nodi y gerdd cyn ei chanu. Darllen gan hyny y

gair, a dysg gan y saint yno, pa amgylchiadau mwyhaol a ddarfu iddynt hwy graffu arnynt, wrth gydnabod eu trugareddau. Weithiau, ni a'u cawn yn gosod y pwyslais ar yr attebiad buan i'w gweddïau: "Yn y dydd y gelwais y'm gwrandewaist;" *Salm* cxxxviii. 3. Dyna argraph oedd yn chwanaegu at ogoniant y drugaredd—nid oedd ond curo, a chael; dyfod, a derbyn. Tra yr oedd yr eglwys wrth ddrws Duw, yn gweddïo dros Pedr, dyna Pedr wrth eu drws hwythau, i fynegi fod eu gweddï wedi llwyddo: *Act*. xii. Weithiau, y mae eu golwg yn lleillduol ar y gwendidau pechadurus oedd yng nghymmysg â'u gweddïau; a bod trugaredd yn dyfod er y rhai hyn, ac yn tori atynt yn eu gwan ddisgwyliad, y mae hyn wedi peri iddynt serchu daioni Duw yn llawer mwy. "Dywedais yn fy ffrwst, pob dyn sydd gelwyddog. Pa beth a dalaf i'r Arglwydd am ei holl ddoniau i mi?" *Salm* cxvi. Weithian, ar faint eu cyfyngder: "Y tlawd hwn a lefodd, a'r Arglwydd a'i clybu, ac a'i gwaredodd o'i holl dralloadau;" *Salm* xxxiv. Felly (*Salm* cxxxvi.), "Yr hwn a'n cofiodd yn ein hisel radd: o herwydd ei drugaredd sydd yn dragywydd." Yn wir, y mae yn rhaid i hyn fwyhaol gwerth trugaredd yn y meddwl. Y mae y dwfr a roddodd Duw o'r graig i Israel, yn cael ei alw yn fêl, am ei roddi yn eu dwfn angen, a'i fod felly mor felus iddynt hwy a'r mêl. Y mae arian yn aur, pan eu rhoddid i ddyn ar newynu o eisieu modd i brynu bara. Weithian, ar amlder yr arhegion, a'r arwyddion o'i diriondeb a ddengys Duw: "Ni phalla ei dosturiaethau ef: Bob boreu y deuant o newydd;" *Galar. Ier.* iii. 22, 23. "Llawer gwaith y'm cystuddiasant o'm hieuengetid: etto ni'm gorfuant;" *Salm* cxxix. 2. "Hyd yma y cynnorthwyodd yr Arglwydd nyui;" *1 Sam.* vii. 12. Y mae hyn yn rhoddi y fath bwyslais, fel nad ellir synio y drugaredd, mewn modd dyladwy, hebddo. Y mae gyrfa o bechod yn waeth nag un pechod: "Eu helynt," neu eu rhediad parhaus, "sydd ddrwg;" *Ier.* xxiii. 10. Felly rhediad trugaredd, o amser i amser, a ddengys ddaioni mwy. Y rhai a allant roddi elusen i gardotyn am dro, etto a'i current o'r drws, pe deuai yno yn fynych, gan wneud crofft o honi. Weithiau ar hynod-rwydd y drugaredd; y maent yn dal sylw ar y gwahaniaeth a wna Duw wrth ranu ei roddion: "Ni wnaeth efe felly âg un genedl; ac nid adnabuant ei farnedigaethau ef: Molwech yr Arglwydd;" *Salm* cxlvii. 20. "Arglwydd, pa beth yw yr achos yr wyt ar fedr eglurhau dy hun i ni, ac nid i'r byd?" *Ioan* xiv. 22. Gwasanaethod yr ychydig amneidiau hyn, i'th osod ar waith i chwilio am chwanaeg. Heb hyn, yr ydym yn ysbeilio Duw o'r rhan oreu o'i aberth, fel pe buasai Iuddew yn tynu ymaith y brasder,

ac yn gosod y cul ar allor Duw; neu fel y gwnaeth hwnw â'i eillun, a dynodd y wisg arian oddi am dano, ac a roddodd ei siaced lom ei hun yn ei lle. Y trugareddau wyt yn dderbyn, maent yn hardd a gwerthfawr; na ddyro dithau ryw diolch llymlyd yn dâl i Dduw am danynt. Y mae efe yn disgwyl ei gael, mewn rhyw radd, i gyfatteb i'w drugaredd: "Molwch ef am ei gadernid: molwch ef yn ol amllder ei fawredd;" *Salm* cl. 2.

DOSB. I.

Ged. Gwna wahân rhwng trugaredd a thrugaredd; boed y mawl uchaf am y rhai penaf. Arwydd drwg yw udo a chrochlefaid mewn gweddi am fyd a gwin; a bod, ar yr un pryd, yn wan ac oeraidd o ddyuniad am Grist a'i ras. Ac nid gwell yw, pan fyddo dyn yn addef daioni Duw mewn pethau amserol; ond heb ddal fawr o sylw ar roddion mwy sydd yn perthyn i fyd arall. Chwi a glywch weithiau bryfn cybyddlyd yn adrodd pa fath dymmor a thywydd gwyeh a fydd, am gnyddau fyd a ffrwythydd; y rhai hyn sydd at ei flas anianol, fel y cawl at archwaeth Esau; ond gan i'n cheir un amser, a ddengys ddim ystyriaeth deimladol am wych dymmorau gras; neu ryfedd amynedd Duw fod y fath adyn ag ef cyhyd allan o uffern; nac am ei ddaioni anfeidrol yn cynnyg Crist iddo trwy yr efengyl. Fe drŷ y rhai hyn drosodd, fel y trŷ plentyn ddalenau llyfr, nes delo at ryw bictiwr hardd; ac yno yr erys i lygad-rythu. Crist a'i ras, ynghyd â bendithion ysbrydol ereill, nis gall ef oddi wrthynt, ac ni rydd fri arnynt, oni wna't rywbeth at lenwi ei godau a'i ysguboriau. Yn awr, a gaiff y fath yma basio am ddyn diolchgar? A dderbyn Duw ddiolch hwnw am y ddaear, sydd yn gwrthod y nef—sydd yn cymmeryd fyd a gwin, dan fendithio; ond yn peri iddo gadw Crist iddo ei hun, dan ddirmygu; gan ddywedyd, gydag Esau, pan oedd ei frawd yn cynnyg anrheg, "Y mae genyf ddigon?" Y mae calon rasol o hwyl arall: "Bendigedig fyddo Duw, a Thad ein Harglywydd Iesu Grist, yr hwn a'n bendithiodd ni â phob bendith ysbrydol yn y nefolion leoedd yng Nghrist;" *Eph.* i. 3. Yn wir, y mae Duw yn rhoddi bendithion tymmorol, i'n rhoddi mewn cariad â rhai ysbrydol, i.e., âg ef ei hun sydd yn eu rhoddi, fel carwr yn anfon yr arwydd, i ennill cariad at ei berson. Drachefu, Megys y dylid gwahanu rhwng trugaredd a thrugaredd, felly hyd yn oed yn yr is-roddion, sydd yn perthyn i'r bywyd hwn, dylit ofalu am osod pwyslais dy ddiolchgarwch ar y rhan ysbrydol o honynt. Ym mhob rhodd allanol y mae ymborth i'r enwad, ac ymborth i'r ysbryd, yr hyn a foddhâ y teimlad, a'r hyn a all roddi ein gras ar waith. Ai iechyd ydyw? y mae y galon anianol yn ymserchu arno yn benaf fel y mae yn dwyn

iddo gysur ei fywyd naturiol, yr hwn yr oed clefyd yn ei ysbeilio o hono. Ond yr hy sydd yn anad dim yn lloni y Cristion, yw cyfle y mae yn ei gael i'w ganlyn at ogon eddu Duw yn ei le a'i geubedlaeth; "Eitl y moliannaf ef, sef iachawd wriaeth fy wyne a'm Duw;" *Salm* xlii. 11. Ai cyfoeth mae Duw yn ei dafu i mewn? y mae yr adanialon yn ei brisio er mwyn ei fodd ei hun fel pe na byddai wedi ei roddi i ddim dibewch nag iddo ei dreulio arno ei hun, ne gyfoethogi ei deulu. Ond y mae y dygrasol yn bendithio Duw am roddi yn ei all i roddi at angenrheidiau ereill, ac yn cyfralon helaeth yn fwy trugaredd na phwllawn. Nid bendithio ei hun yn ei helaeth rwydd a wnaeth Dafydd, ond bendithio Duw, a roddodd iddo galon i'w dalu yn oll ei achos ef a'i benthyciasai iddo: "Eitl pwy ydwyf fi, a phwy yw fy mhobl i, fel caem ni rym i offrymu yn ewyllysgar f' hyn?" *1 Cron.* xxix. 14.

7fed. Na fydded dy fawl yn ddarfodedig yn chwâ o ganu, ac yna rhoddi y delyn ar pared, nes paro diwrnod heulog arall o ryragluniaeth dra hynod i ti ei thynu i law. Nid eistedd Duw wrth fwrdd y fath garl, rydd wahoddiad iddo i wledd ddiolch uwaieth am y flwyddyn. Nid fel y gwestw y daw Duw i dŷ ei saint, ond i gyd-drigo hwynt: "Mae yn cyfanneddu yn molian Israel;" *Salm* xxii. 3. Y dydd na fendithiech di Ddaw, yr wyt yn ei droi ef dros drws. Gwaith am oes oedd hyn gan Dafydd: "Canaf i'm Duw tra fyddwyf." "Tafod ce wyddog," medd Solomon, "ni saif funy awr;" *Diar.* xii. 19. Buan y diange rhy air gan y celwyddwr, a ddengys ei dwy. Ac felly y tafod sydd yn gelwyddog yn mo iannu Duw, dros funyd awr y mae; ga gablu Duw yfory mor rwydd ag y mae y ei gaumawl heddyw.

DOSB. II.

8fed. Y mae yn gweddu i ti, nid yn un barhau, ond cynnyddu hefyd yn dy fawl, fel y chwanego y llaw y mae y llong yn uwch ar y dwfr; fel y chwanego y cnwd, y mae y ysguboriau yn cael eu helaethu; fel y chwaiego eich cyfoeth, y mae eich gwisgiad a'eu ymddangosiad yn harddach. Mewn gair fell y tyfo eich cyph, chwi fynwch eiddillad yn fwy. Y mae pob diwrnod y chwyddo llanw eich trugareddau, yn chwalegu at eich pentwr, yn nwyhau eich tryso ac yn estyn eich maintioli: "Bob bore medd y prophwyd, "y deuant o newydd *Galar.* iii. 23. Maent yn tyfu, byddech yng nghwsg na yn effro. Yn awr, meg na wnai y dilledyn a wisgaist yn benty weddu i ti wedi myned yn ŵr, felly wna y wisg o foliant chwaith, a wisgodd o enaid pan yn ddychwelwr ieuangc, wedd i ti yn awr yn hen ddisgybl. Yr wyt y ddyfuach nag o'r blaen yn lyfrau Duw,

mae efe yn disgwyl yn ol a dderbynio pob
 a. Nid ydech eich hunain yn hwsmy'n
 or ddyllion, fel na wnewch y goreu o'ch
 roedd. A osodech chwi dyddyn heddyw
 n y rhent oedd arno hanner can mlynedd
 n ol? Pa ham ynte na all Duw godi rhent
 drugareddau hefyd? Edrych yn ol,
 ristian, a gwel fel y gwellhaodd y byd ar-
 at, er pan osoada i'fyny gyntaf. Fe allai
 gelli ddywedyd gyda Iacob, "â'm ffon yr
 ethum i'm taith, ond yn awr yr ydwyf yn
 lwy fintai." Wele, edrych pa beth sydd
 enyt yn chwanegmewnlechydd, cyfoeth, don-
 u, grasusau, neu gysuron, nag a feddit gynt,
 e yna cymmihara dy ddiolchgarwch presen-
 ol â'r hyn ydoedd cyn y chwaneigiadau hyn
 e dy ystyr a'rh drysor. Oni fyddai yn
 ywilydd i ti, os caif ef heb gynyddu yn
 yfatebol i ddaioni Duw tuag ataf? llawer
 wy, os yw wedi gwywo a lleihau? Ac
 ato, mor gyffredin yw y fath esamplau o
 niolchgarwch! Po rhyddaf yw Duw o'i
 rugaredd, mwyaf tyn a chrintachlyd ydynt
 wythau o'u diolch. Pan yn ddiolch, gall-
 at fod yn ddiolchgar am bryd prin o ym-
 orth lled arw, yn fwy nag yn awr am
 a hamrywiaeth danteithiol. Pan yn gleif-
 ion, ambell lûn fer a gyrhaeddai i ychydig
 riau o orphwys mewn noswaith. - O! fel yr
 edd y drugaredd yn effeithio ar eu calonau!
 ond yn awr, gallant godi heb ddal fawr o
 nd ar ddaioni Duw, sydd yn rhoddi iddynt
 llawn orphwysdra, o nos i nos, yn ddi-
 linder. Fel hyn, gydag estyniad y dydd,
 mae cryfhâd i'r oerni. Ond onid yw yn
 eth rhyfedd gwelod dyn yn myned yn oer-
 ch yn ei gariad at Dduw, fel y mae haul
 rugaredd Duw yn codi yn uwch ac yn ty-
 ynu yn wresocach arno? O! y mae yn
 christ gwelod y golud yn cynyddu, a'r
 calon yn nychu—cael dyn yn gyfoeth-
 each o drugareddau, ac yn dlotach o ddi-
 olchgarwch.

PENNOD LX.

7 ddau gyfarwyddyd olaf yn y ddyledswydd o
 datu diolch.

9fed. Bydded dyfawl yn wirioneddol
 deiriau, meddwn, ni thalant ddyledion. Y
 mae mwy mewn diolchgarwch na llonaid
 afn o fawl gwyntog, a ei heibio gyda'i sŵn
 i hun. Y mae calon rasol yn rhy gall i
 eddwl troi Duw heibio â chân—fe rydd
 ono, ond y rhan leiaf o'i bwriad ydyw.
 Yr Arglwydd yw fy nerth â'm cân.....efe
 ogoneddaf fi;" *Ecsod.* xv. 2; neu, yn ol y
 saoneg, darparaf iddo drigfan. Iê, yma
 mae y peth yn sefyll, drud yw adeiladu;
 waith costus yw diolchgarwch. "Nid
 ffrymaf i'r Arglwydd boeth-offrymau rhad,"
 be Dafydd wrth Arafna. Mawl rhad sydd

hawdd i'w gael; ond pan droir at gostiau,
 y mae llawer yn blino ar y gwaith. Gallaf
 yr Iuddewon ganu cân, ar eu rhyddhâd o
 Babilon; ond buant yn hir cyn cael yn eu
 calonau adeiladu i Dduw drigfan: ni ddaeth-
 ai yr amser, meddant, i hyny; ond y gwir
 oedd, ni ddaethai ar eu calon hwy. Yr oedd
 ganddynt arian ac amser ddigon, i adeiladu
 eu tai eu hunain, ond nid yr un i Dduw; er
 mai sioni eu hunain yn hynod yr oeddynt
 wrth hyn—am fod Duw yn tynu i lawr, cyn
 gynted ag yr oeddynt hwythau yn adeiladu.
 Y mae rhai wedi bod o'u meddwl yn ein
 hoes ninnau; yn lle caffael preswylfod i
 Dduw, a charu ein cenedl i adeiladu syna-
 gogau, hwy a'u tynasant i lawr, ac a ddygas-
 ant y wrastian at eu tai eu hunain. Creffit-
 wyr rhagorol i dynu i lawr weinidogion, eu
 gweinidogaeth, a'u cynnalïaeth, a ddylasent
 fod at achos yr efengyl! Os dyma y ffordd
 i lwyddo, ni roes Duw ond cynghor drwg
 i'w bobl, pan ddywedodd, "Ystyriwch, o'r
 dydd y sylfaenwyd teml yr Arglwydd.....
 o'r dydd hwn allan y bendithïaf chwi;"
Hag. ii. 18, 19. Ond chwi a ofynwch, pa
 beth yr wyf yn feddwl wrth fawl gwirion-
 eddol?

DOSE. I.

(1af.) Y mae mawl yn wirioneddol pan
 fyddo o'r galon: "Y cwbl sydd ynof, bendi-
 thia ei enw sanctaidd ef;" *Salm* ciii. 1.
 Pan fyddo ei drugareddau yn magu yn ein
 calonau feddyliau uchel a pharchus am
 Dduw. Yr ydym yn darllen am "felldithio
 Duw yn y galon" (*Iob* i 5), yr hyn a wneir,
 pan lettyom feddyliau gwael, isel, anweddu,
 am ei fawredd a'i ddaioni. Ac i'r gwrth-
 wyneb, pan fyddo trugareddau Duw yn peri
 yn y galon y fath argraph ag a fyddo yn
 dangos allan yn fywiog y priodoliaethau
 hyn, dyna y dyn yn bendithio Duw yn ei
 galon, trwy adoli ei fawrhydi, parchu sanct-
 eiddrwydd, ymhyfridu yn ei gariad, a mawr-
 hau ei ddaioni. Dyma ddiolchgarwch gwirion-
 eddol. Pa beth yw canmolïaeth, neu
 glod, ond adlun y person a fyddom yn ei
 ganmawl? Yn awr, megys y mae y drych
 yn gosod ger bron lun y person fyddo yn
 edrych ynddo; felly y mae yr enaid diolch-
 gar megys yn adlewyrchu yn ol ar yr Holl-
 alluog, y priodoliaethau gogoneddus hyny a
 ddengys ef yn ei drugareddau. Fel hyn y
 mae Duw yn cael ei wpeb mewn drych
 cywir, yr hwn y mae yr enaid diolchgar yn
 ei ddal i fyny, tra y mae yn ei ganmawl.
 Ond calon anniolchgar, fel drych candryll,
 y mae yn haeru ac yn aumhrefnu wyneb
 hawddgar Duw; trwy gynywys y fath fedd-
 yliau isel am dano ag sydd yn llwyr groes
 i'w briodoliaethau gogoneddus.

(2il.) Pan fyddo ein mawl yn ufuddgar. Y
 mae Duw yn cyfrif y trugareddau hyny
 wedi eu hanghofio, y rhai ni fyddont yn ys-
 grifenedig mewn llythyrenau eglur, yn ein

bucheddau. "Anghofasant Dduw eu Hachubwr;" *Salm* cvi. 21. Tro hynod yw hwnw yn *Ios.* viii. Wedi y fuddugoliaeth ar Ai, y mae allor yn cael ei chodi er cof am y drugaredd arbenig hono; a nodwch pa beth a fŷn Duw iddynt ysgrifenu, neu gerfio, ar ei meini hi? Fe allasai un feddwl mai hanes gwaith y diwrnod fuasai y cerfiad; ond yn lle hyn, copi o gyfraith Moses roed arni, "yr hon a ysgrifennodd efe yng ngwydd plant Israel (*adn.* 32), drwy yr hyn y dangosodd Duw yn eglur mai y ffordd oreu o gofio y drugaredd oedd peidio anghofio cadw y gyfraith. Ni fedrai Saul ddadl Samuel â'i esgusodion teg, fod y bobl wedi cadw y goreu o'r anifeiliaid i'w haberthu: "A yw ewyllys yr Arglwydd," medd efe, "ar boeth-offrymau, neu ebyrth, megys ar wrandaw ar lais yr Arglwydd? Wele, gwrandaw sydd well nag aberth, ac ufuddhau na brasder hyrddod;" 1 *Sam.* xv. 22. Fel pe dywedasai, Pa beth, Saul, a wyt ti yn meddwl gwobri Duw âg aberth, tra yr wyt yn anufudd i'w orchymyn? A gymmeri di yr aderyn, a tharaw y bluen yn ei le—nacau Duw o'th galon dy hun i ufuddhau i'w air, a rhoddi iddo galon anifail yn lle iawn? Ai dyma yr offrw mae a geisiodd, neu a gymmer efe? Yn ddiaw, y mae Duw heb ei ddigoni yn ein gwleddoedd diolch, os nad yw ufuddod yn ddysglaid ar y bwrdd—heb hon, ffaidd ganddo ni a'n haberth hefyd. Fe dŷn Duw y cyfryw oddi wrth gyrr yr allor, ac a'u dwg oddi ar eu gliniau, gyda'u mawl rhagrithiol, i dalu ei ofyn mewn gwedd arall. "Os byddwch ewyllysgar ac ufudd, daioni y tir a fwyteu;" *Esa.* i. 19. Yna, ac nid hyd hyny, y bwyty Duw o'ch ebyrth, ac y cewch chwithau brofi eich mwyniant yn ei flas. "Cyfarfyddi â'r hwn sydd lawen ac a wna gyfiawnder;" *Esa.* lxiv. 5. Nid ar wahân, ond ynghyd, y mae yn rhaid eu cael; nid llawenhau heb wneuthur cyfiawnder, ac nid yr olaf heb y llall. Y mae y bygythiad yn *Deut.* xxviii. yn annelag yn erbyn Israel, nid yn gwbl am na wasanaethasant Dduw, ond am na wasanaethasant ef "mewn hyfrydwech calon am amltra pob dim;" *adn.* xlvii. Hyfryd gan Dduw fod ei drugaredd i'w gweled yn ngwynebau sihiol ei weision, wrth ei waith ef; fel y gwelo yr edrychwyr eu bod dan feistr da.

• DOSE. II.

(3ydd.) Dyna arwydd fod ein mawl yn wirioneddol, pan fyddo yn diweddau mewn gweithredoedd o drugaredd. Tra hynod yw y lle hwnw (*Ileb.* xiii. 15): "Trwyddo ef, gan hyny, offrymwn aberth moliant yn wastadol i Dduw, yr hyn yw ffrwyth ein gwefusau, yn cyffesu i'w enw ef." Yn awr, craffwch ar y geiriau nesaf: "Ond gwneuthur daioni a chyfranu, nac anghofiwech; canys â chyfryw ebyrth y rhyngir bodd Duw." Fel pe dywedasai, Na feddyliwch

roddi i Dduw ddiolch i arbed cost; bywch ewyllysgar i'r ddau, neu ddim. Dydaioni Duw i ni ein gwneuthur yn drugar at ereill. Peth aruthr yn wir fyddai dyddyn o'i fynwes dyner ef â chalon gal anelusengur. Y mae rhai plant yn wir annhebygu i'w rhieni daearol; fel m Cicero, nad oedd ynddo ddim o'i dad, o ei enw. Ond y mae plant Duw yn gyfrifogion o natur eu tad nefol. Fe ddyw philosophyddiaeth i ni nad oes dim adlaid o'r ddaear i'r nefoedd. Y mae y noedd yn tywallt yn wir ei dylanwadu; a byd isod, i'w fywiocau a'i ffrwythloni; a nid yw'r ddaear yn dychwelyd dim, i b i'r haul a'r ser lewyrchu yn well. Gwydd Dafydd yn dda nad oedd ei dda yn ddim Dduw; ond fe barodd hyn iddo ef estallan i'w frodyr, "i'r saint ar y ddaear" *Salm* xvi. 3. Yn wir, y mae Duw wedi gadael ei saint tlodion i dderbyn yr ardrethi sy'n arnom iddo am ei drugareddau. Ymdeit ydd boneddigaidd, er na chymmer ei gyfa-ddim am ei groesaw, etto, i ddangos ei deolchgarwch, fe rydd rwybeth i'w weision. Pa ddull y cyfarcha Crist ei saint yn ei ymddangosiad? Nid, "Deuwch chwi fe digedigion, chwi a gadwasoch hyn a hyn ddyddiau ymryd, ac a lanwasoch yr aw â swn eich mawl;" ond "Bum newynog, chwi a roisoch i mi fwyd; bum noeth, dilladasoch fi;" *Mat.* xxv. Y mae eluse yn iaith Paul, yn cael ei alw yn ffrwyth *Rhuf.* xv. 28. "Wedi i mi orphen hyn, selio iddynt y ffrwyth hwn;" yn arwyddocau nad yw ein holl broffes, heb y faweithredoedd da, ond dail. Y mae y rh hyn yn ffrwyth sylweddol o'n ffydd, cariad at Dduw a diolchgarwch am ei drugareddau. Ac nid yw'r gweithredoedd hyn o gariad i' cyfyngu yn unig at raniad o'th dda bydol, eu bod yn cynnwys y rhai hyn. Y m eneidiau truaïn, yn gystal a chyrph truaïn mewn angen am gynnorthwy. A ddarfudduw dy gipio di allan o Sodom, o gaeti wed satan? pa le ynte y mae dy ymysgaoedd o dosturi at y rhai sydd etto y rhwym wrth bost y gelyn? Pa foddid wyt ti yn eu harfer at achub y caethion hyn o gaethi wed gwaeth nag sy dan y Tyrciaid? Y ddadl y mae Duw yn wasgu ar Israel drin dieithriaid yn dirion, yw eu galw i g eu bod eu hunain gynt yn eu cyflwr: *Deut.* xxiii. 7. A gefaist ti, ar ol hir orwedd y naeardy tywyllwch ysbrydol ac euogrywcydwybod, godi dy ben i fyny trwy gysur yr Ysbryd, a'th dderbyn i bresennoldd Duw, fel trulliad Pharaoh i lys ei frenin. Pa fodd y gelli di dybio dy hun yn ddiolchgar, tra yr wyt yn anghofio ereill sydd yr un carchardy, yn gorwedd mewn cyflwmor ffin ac alaethus ag y buost tithau yddo? "Cyfyd goleuni i'r rhai cyfiawn y tywyllwch; trugarog, a thosturiol, a chy

yn yw efe;" *Salm* cxii. 4. Yn sier, fe eil hyn yn wir yn yr achos hwn, yn gystal un. Mewn gair, rhag i neb dybio fydd am eich caledu at y dyn oddi allan, tra wyf yn annog eich tosturi at y dyn oddi w'n; a gododd Duw di i feddu cyfoeth? ffon ymdaith o bossibl, fel un Iacob, di myned yn ddwy fintai, a wyt ti yn awr dangos trugaredd Duw at ei aelodau dion? fel Dafydd, a ymofynodd a oedd b'n yn fyw o dŷ Saul. O! mor annhebyg ym ni i saint y prif amseroedd. Hwy a lent i gyfarfod gwrthdrysych o dosturi; wer gyda ninnau a redent oddi wrthynt. wy a ystyrient eisieu y tlodion, a phald i'w cynnorthwyo; i.e., yr oeddynt yn chymygu haelioni; ninnau yn ystyried ac llunio y modd goreu i arbed ein pwrs. e oeddynt hwy yn foddllawn i ymadael â'r bl mewn achos o angenrhaidd; tra y grwgchir gyda ninnau ymadael âg ychydig o'n rmoddedd; gan wastraffu ar ein cefnau ilehion yr hyn a ddylai gynnhesu y tlodion; a difa ar weilech a chwn, yr hyn a ylai loni y newynog; i.e., gan wario mwy noswaith o ddiota, gwledd ddifesus, neu nrysonfa geerus mewn cyfraith, nag a ddir mewn blwyddyn at ddiangenu aelod Crist.

DOSB. III.

(4ydd.) Pan fyddo yn magu hyder cryfha ar Dduw am yr amser i ddyfod. Pwy dywed fod y dyn hwn yn ddiolchgar y gyfaill am ei dirioudeb am yr amser a fu, odd yn maethu drwgdybiau am dano am yr aser i ddyfod, ac ni faidd ymddiried iddo ni ei angen nesaf? Dyma dâl Israel anolchgar i Dduw am ei wyrthiau yn agor graig i'w disychedu; "Wele, efe a darawd y graig; a ddichon efe roddi barn fydd?" *Salm* lxxviii. 20. Hyn yn wir oedd harfer hwy ar hyd eu taith yn yr anialch. Am hyny y mae Duw yn eu darlunio, d wrth eu hymddangosiad pan oedd wledd ei drugareddau yn gynnhes ger eu onau; medrent y pryd hyny ddywedyd ai "Duw oedd eu craig a'u prynwr;" ond eth eu tymmer a'u hymddygiad mewn cyfyngderau. Wedi tynu y llian oddi ar y wrdd, a'r wledd o'u golwg, pa fath oedd eu rn y pryd hyny am Dduw? A sancteiddnt hwy ei enw mor bell ag i bwyso am eu niaw yfory arno ef, a'u gwleddasai hwynt loe? Na wnaent, yn ddiaw; ond cyn rted ag y teimlent eisieu bwyd drachefn, na hwy yn llefain yn anynad, fel pe nasai Duw yn meddwl eu newnu. Am rny, y mae Duw megys yn poeri ar eu awl, ac yn gwrthod eu haddefiadau rhagthiol, ond yn rhoi eu hanniolchgarwch yn lyfr: "Anghofiasant ei weithredoedd, ac ddisgwylasant am ei gynghor." O! mor hrist ydyw hyn, ar ol i Dduw groesawu laid lawer tro wrth ei fwrdd, â thrugar-

eddau a gwaredigaethau arbenig, fod y rhai hyn yn cael eu gwastraffu mor dost, fel na bydd tamaid wedi ei adael i'w roddi yn bryd i ffydd, i gadw y galon rhag llesmeirio, pa na byddo Duw yn dyfod i waredu mor fuan ag y byddom ni yn dymuno. Dyna'r dyn mwyaf diolchgar, sy'n cadw trugareddau Duw yn ei gof, ac yn medru porthi ei ffydd â'r meddyliu am yr hyn a wnaeth Duw erddo, fel ag i rodio yn gryfach o'i herwydd mewn cyfyngderau presennol. Pan oedd Iob ar y domen, ni anghofodd ef hen gymmwynasau Duw; ond beiddiai ymddiried iddo, â'r gyllell wrth ei wddf: "Pe lladdai efe fi, mi a ymddiriedaf ynddo." Y mae y neb sydd yn anymddiried i Dduw, er ei brofi gynt yn dda, yn tebygu yn hyn i'r adeiladydd ifol: *Mat.* vii. Y mae yn codi ei golofn am y trugareddau a gafodd ar y tywod; a dyna y llanw nesaf o drallod yn ei golchi ymaith.

10fed. Y mae yn rhaid i ti, nid yn unig foliannu Duw dy hun, tra byddygh ar y ddaear, ond gwneud dy oreu i drosglwyddo coffa am ei ddaioni i'r oes a ddol. Y Salm-ydd, wrth son am drugareddau Duw, a ddywed, "Ni chelwn rhag ein plant, gan fynegi i'r oes a ddol foliant yr Arglwydd;" *Salm* lxxviii. 4. Y mae plant yn etifedion i'w rhieni, yn meddiannu eu cyfoeth yn eu lle. Byddai yn annaturiol i dad, cyn ei farw, gladdu ei drysor yn y ddaear, lle na fedrai ei blant gael gafael ynddo i'w fwynhau. Yn awr, nid y trysor lleiaf yw trugareddau Duw, na'r etifeddiaeth waelaf i blant, gan eu bod yn gynnorthwyon i'w ffydd, yn ddefnydd i'w mawl, ac yn annogaeth i'w hufudd-dod. "Ein tadau a fynegasant i ni y weithred a wnaethost yn eu hamser hwynt. Ti, â'th law, a yraist allan y cenhedloedd;" *Salm* xlv. 1, 2. Ac oddi wrth hyn y maent yn cael sail i'w hyder: *adn.* 4. "Ti, Dduw, yw fy Mrenin; gorchymyn iachawd wriaeth i Iacob." Ac yn cyffroi eu diolchgarwch: *adn.* 8: "Yn Nuw yr ymfrostriwn bob dydd; ac ni a glodforwn dy enw yn dragywydd." Yn wir, megys y mae plant yn etifedion i'w rhieni, felly y maent wrth gyflawnder yn myned yn rhwym i dalu dyledion eu rhieni. Yn awr, y ddyled fawr sydd ar Gristion wrth farw yw yr hyn sydd arno i Dduw am ei drugareddau; ac am hyny, nid yw ond teg iddo rwymo ei hiliogaeth i'w thalu. Y modd hwn, ti elli fod yn moliannu Duw'n y nef a'r ddaear ar unwaith.

PENNOD LXI.

Cerydd i fyd anniolchgar; Ue y dangosir amryw fath o anniolchgarwch.

Defn. 1. Ni a glöwn y pen hwn i fyny â chymhwysiad deublyg, cerydd ac annogaeth.

laf. O gerydd. Och! pa cyn lleied nifer a geir mor onest a thalu hyn o rydd-reut fechan i Arglwydd mawr, maeuor y byd, am yr holl drugareddau y maent yn eu dal yno. Y mae rhai yn fath greaduriaid mochyn-aidd, fel pe baent â'u trwynau yn hoeliedig wrth y cafn yr ymlanwant o hono; fel nad ydynt yn defnyddio eu deall gymmaint ag i godi llygad i'r nef, a dywedyd, Acw y trig y Duw sydd yn darparu i mi, drwy yr hwn yr wyf yn byw, a chan yr hwn yr wyf yn cael fy mywoliaeth. Da fyddai pe na wyddem pa le, yn mhob un o'n trefi, y mae y fath anifeiliaid a'r rhai hyn yn annedd. Chwi a'i cyfrifech yn olwg athrist, weled dyn mewn hun-glwyf, â'i reswm a'i synwyr-au wedi eu nychu gan ei ddolur, fel nad adwaen ef ei gyfeillion agosaf, ac na chymmer ddim sylw o'r rhai sydd yn edrych ar ei ol, ac yn dwyn iddo ei ymborth beunyddiol. O! pa liaws o'r fath druceiniaid dideimlad sy gan Dduw heddyw ar ei ddwylaw? Y mae rhagluniaeth ddwyfol yn gweini bob dydd at eu hangenrheidiau; ond nid ydynt lwy yn dal sylw ar ei ofal a'i ddaioni. Y mae ereill, sy fel ysbeilwyr, i.e. cyssegr-ysbeilwyr, yn gosod ar eu penau eu hunain y goron hono o fawl sydd yn eiddo Duw yn unig. Dyma fel yr ysgrifennodd Nebuchodonosor ei enw ei hun ar ei balas, gan adael Duw allan o'r stori: "Onid hon yw Babilon fawr, a adeiledais i yn yr hon frenhiudyng nghryfder fy nerth, ac er gogoniant fy mawrhydi?" *Dan.* iv. 30. Adyn balch! onid allan o chwaredl Duw y daeth pob careg a ddefnyddiwyd at ei adeilad? Ac onid ar dir Duw y cafwyd pob tywodyn at y gwaith? Fel hyn, y mae yr hwsmon di-Dduw yntau yn rhoddi mwy o ddiolch i'w aradr a'i gertwyn deilo, nag i Dduw'r nefoedd, sydd yn coroni y fwyddyn â'i ddaioni. Y milwr balch hefyd; fe saif ar ei gleddyf, ac a faidd gymmeryd aurhydedd ei fuddugoliaeth iddo ei hun, yn lle ei chyfrif i Arglwydd y lluceodd, sydd wrth ei ewyllys yn rhoddi, ac yn dwyn ymaith galon y cedyrn. I.e. rhai'n, n hytrach nag y caiff Duw glod, a'i rhoddant i rywun arall pwy bynag. Dyma fel y darfu i'r Pab Adrian, yn ei argraff ar byrth ysgoldy mawr a gododd efe, ddiario Duw yn iaith y Beibl: "Utrecht a'm plannod, Lovain a'm dyfrhaodd, a Cesar roddodd y cynnydd." Yr hyn a barodd i un ysgrifenu danodd, "*Nihil hic Deus fecit.*" Ni wnaeth Duw, dybygid, ddim yma. Nid fy mod yn ei gyfrif yn anghyfreithlawn addef ein cymwynaswyr, fel offerynau yn llaw Duw er ein daioni, ond dileu enw Duw, y prif weithydd, i roddi enw creadur gwael yn ei le, sydd yn ddarn uchel o ddrygioni ac anniolechgarwch. Yr wyf yn caru y ifurf hono a arferodd gŵr da wrth ei gyfaill, am gymwynas; "*Bendgedig fyddo Duw am danoch; diolch i Dduw a chwithau.*" Y neb a

fyn chwaneg, y mae yn gofyn mwy ddyled. Mewn gair, y mae rhai, waethed a'r gwaethaf, yn lle mawrygu i am ei drugareddau, a'u cam dreuliant ddiannrhydedd. Nid mwy alaethus na gwy na ddefnyddir daioni Duw gan law ond i borthi a maethu chwantau. Bwy ac yfant ar gost Duw; ac yna codd chwareu y gwrthryfel i'w erbyn; nid dim arfau a wna't y tro, ond ei drugaredd au ef, iddynt. Y mae yn rhy ddrwg y deiliaid nacau talu ei ardreth; ond te coed ar dir ei feistr i ddal cyfraith erbyn, y mae hyn yn fwy anniogde. Etto, y fath erchyllwaith a hyn a wna cion drygionus bob dydd â thrugared Duw. Gwaradwyddus yw enw un Miel Balbus, am anniolechgarwch erchyll, yr hwn ar y noswaith y darfu i'r ymherawdwr roddi yn rhydd o garchar, a fu mor glawn a ladd ei achubwr. Ac oni cllawer, wedi i Dduw eu rhyddhau o garchar cystudd, yn codi eu haif bradwru Dduw, gan archolli ei enw â'u llwng, meddwod, a'u halogrwydd, cyn gynted ag y tynd barn anegu ymaith, ac y ddrws eu carchar yn agored? I ddiwed y mae ereill hefyd a fyntent eu cyfrif yn ddiolchgar; etto, nid oes yn eu mawl ond gwynt; ei anrhydeddu â'u gwefus a'i ddirmygu yn eu bucheddau. Pa sy'n fwy anhufryd, na chlywed cerddod canu un don â'i lais, ac un arall â'i law? mor anfodddhaol gan Dduw yw cael i Iacob a dwylaw geirwon Esau ynghyd. Yn ddiau, pan ystyriwyf fei y mae da Duw yn cael ei gam ddefnyddio â'i wryd gan y rhan fwyaf o ddynolryw, nis gallai na bod o feddwl hwnw a ddywedd "Y rhyfeddod fwyaf yn y byd yw amyn y haelioni Duw at y byd anniolechgar. bai brenin â chanddo elyn yn un o'i dydd, nid gyru lluniaeth a wnai efe yno, amgylchynu y lle, a gwneuthur a allai a newynu. Ond y mae y Duw mawr, a a â'i edrychiad ddistrywio ei holl elynion, yn eu dioddef, a than y draul feunyddiol cynnal. Da y gall efe orchymyn i ni f dithio y rhai a'n melldithiant, tra y mae hun mor ddaionus i'r rhai anniolechgar drwg. O! pa beth na wnai Duw ar ei g adur, pe yn ddiolchgar, gan ei fod fel yn pentyru marwor ei drugareddau ar be ei elynion? Ond na feddylwch, bechad iaid, y diengwech fel hyn byth. Yr melin Duw yn troi yn araf, ond yn malu fân; po rhyfeddaf ei amynedd a'i haeli presennol, mwyaf arswydus ac anniogde fydd y diglonedd a dardd o'i ddaioni w ei gam arfer. Nid oes dim yn fwy pwl haiarn; etto, ar ol ei hogi, y mae iddo fy dyr trwy'r byw. Nid oes dim yn llyfnu na'r môr; etto, ar ol ei fawr gynnhyrfu, oes dim yn fwy ei gynddaredd. Nid

mor felus ag amynedd a daioni Duw, dim mor arswydus a'i ŵg, pan ennyno. O'n Duw, gan hyny, cyfröer di i ystyr- pa beth a wnei. Ystrange pobl wall- fus, meddant, ydyw blino eu cyfeillion wylaf a'u perthynasau agosaf ynanad neb; siant niwed i'r rhai hyn yn fwy nag ereill. Dd pa yufydrwydd a gwallgofrwydd yw ot ti neidio â'th bechodau i wyneb Duw, ynaeth fwy erot na'th holl gyfeillion, ac a wnennd mwy i'th erbyn na'r holl elyn- a feddi yn y byd? Ond i'th gynnhryfu fwy, ystyria,

(1af.) Fod Duw yn cadw cyfrif manwl o'r ll drugareddau a dderbyni. Nis gelli ni Duw. Yr hwn a allasai ddywedyd i'r ophwyd pa le y buasai ei was Gehazi, a eth a gawsai gan Naaman, a ddywed i hau ryw ddydd, hyd at y ffyring, bob ent a dderbyniaist ganddo. Y mae gan Duw gôd i'th anwireddau di, ac hefyd lyfr drugareddau ei hun; a'r hyn a rydd efe ei lyfr, fe fyn gyfrif am dano.

(2il.) Ystyria mor llym y truiodd ef y ni hyny na dderbyntasant erioed gym- int o'i drugaredd a thi. Os ä pagauiaid fudion yn y farn, pan fyddo Duw yn frif ä hwynt am eu trugareddau, O! mor i fyddi di, sydd yn myned o ordinhadu, efengyl i ddal i fyny dy law o flaen trwr yr holl fyd! "Diesgus ydynt; o gâd a hwy yn adnabod Duw, nis gogon- lasant ef megys Duw, ac na buont ddi- hgar iddo;" *Rhuf.* i. 20, 21. Os bydd yr ung, nad oedd ddiolchgar am ei geiniog, methu codi ei ben yn nydd Duw, pa le ymddangosi di, sy genyt gynifer o tentau yn dy law i ateb am danant.

Gof. Ond fe allai y gofyni, adyn truan, beth sydd i ti wneuthur i roddi i Dduw ei drugareddau?

At. Mewn gair, nid oes i ti ond un ffordd alu i Dduw ei dreth hon; a ffordd ryfedd; sef, trwy redeg yn ddyfnach i'w ddyled thrwy'r holl roddion a gefaist etto o'i v. Gwrandaw, ynte, bechadur tlawd, pa th yw fy amean: y Duw hwnw, a rodd- d i ti fywyd a bod, a ddangosodd amyn- dlnnhraethol atat, a fu mewn traul fawr ei ragluniaeth feunyddiol wrthyt, i'th tw, i'th borthi, i'th ddilladu, a'th gynnal, hithau yn cam dreulio y cwbl, ac felly di fforffetio dy fywyd i'w gyfiawnder ef. ae efe etto yn cynyng i ti drugaredd fwy r'rhai hyn oll, sef yr Arglwydd Iesu y r'n, os bydd i ti ond dyfod ato mewn wilydd a gofid am dy bechodau, a'i dder- n fel Arglwydd a Iachawdwr, ti a fyddi pryd hyny, ac nid cyn hyny, mewn wedd i roddi i Dduw fawl ei holl drugar- dau ereill. Y neb sydd yn gwrthod hon, drugaredd benaf, nis gall byth fod yn wir iolchgar am un o'r lleill. Crist yw yr ig un a fedr roddi i ti ysbyrd o ddiolch-

garwch. Nid oes un dyn di-Grist o fewn y byd, nad yw yn ddyd anniolchgar; y mae anniolchgarwch a drwg yn anwahanol. O! y fath efengyl fendigedig yw hon, sydd yn dysgu i ni dalu dyledion trwy redeg yn ddyfnach i'r llyfr! i fod yn ddiolchgar am drugareddau llai, trwy dderbyn un sydd yn anfeidrol fwy.

PENNOD LXII.

Annogaeth i ddiolchgarwch, yn cael ei gwasgu at y saint oddi wrth amryw resymau.

Defn. 2. 2il. Er annogaeth i'r saint; nid i'ch galw chwi at y ddyledswydd hon, pa un, os ydych yn ateb i'ch enw, yr ydych yn ddiannheu yn ei harfer; ond i'ch bywiocau ynddi, a'ch rhoddi yn fwy mewn cariad ä hi.

(1af.) Ystyriwch; y mae yn ddyledswydd sydd yn gweddu yn dda i chwi; "I'r rhai uniawn, gweddus yw mawl;" *Salm* xxxiii. 1. Ni wna y wisg hon o foliant eistedd mor daclus ar neb ag ar eich cefn chwi, ac ni ddylech chwi dybied eich bod wedi eich llawn wisgo ar ben boreu, nes bo hon am danoch. Y mae sant anniolchgar yn wrth- ddywediant ynddo ei hun. Drwg ac anniolchgar yw yr efeiliaid sydd yn byw ac yn marw ynghyd. Fel y peidio un ä bod yn ddrwg, y mae yn dechreu bod yn ddiolch- gar.

(2il.) Y mae yn beth y mae Duw yn ei addaw iddo ei hun, ac yn ei ddisgwyl ar eich dwylaw; efe a'ch gwnaeth chwi i'r diben hwn. Pan arfaethwyd yn y nef eich bod, fe, eich dedwydd fod yng Nghrist, ar y cyfrif hwn y bu, fel y byddech yn enw ac yn foliant iddo ar y ddaear, mewn amser; ac yn y nef i dragwyddoldeb. Pe collai Duw hyn, fe fethai yn un brif ran o'i fwr- iad. I ba ddben y mae ef yn rhoddi pob trugaredd, ond i roddi i chwi ddefnydd cân o fawl iddo? "Fy mhöbl ydynt hwy, meibion ni ddywedant gelwydd: felly efe a aeth yn Iachawdwr iddynt;" *Esa.* lxiii. 8. Y mae yn disgwyl triniaeth deg, chwi wel- wch, ar eich dwylaw chwi. I bwy y gall tad ymddiried am ei air da, os nad i'w blent- yn? Pa le y gall brenin ddisgwyl parch, os nad ym mysg gwŷr ei llys, a'i hofi' weision? Y mae eich cyflwr chwi yn gyfryw, fel y mae'r drugaredd leiaf a feddwch yn fwy na'r cwbl a fedd ereill. Tydi, Gristion, a'th ychydig frodyr, sydd yn rhanu nef a daear rhyngoch. Pa beth sy'n meddiant Duw ag y mae yn ei attal rhagoch? Haul, lloer, a ser, a osodwyd i roddi i chwi oleu. Môr a thir sydd ä'u trysor a'u stôr at eich gwas- anaeth chwi. Nid yw ereill ond treiswyr arnynt; chwychwi yw eu hiawn etifeddion;

y maent yn griddfan o wasanaethu neb arall. Y mae yr angylion da a drwg i weini i chwi. Y drwg, yn erbyn eu hewyllys, sy raid iddynt, pan y temtiant chwi, fel gweision cegin, eich ysgwrio a gloywi eich grasau, ac agor ffordd i'ch cysuron helaethach; fel Haman, y maent yn dal eich gwrthaf, tra y codir chwi yn uwch yn ffafir eich Duw. A'r angylion da ydynt weision eich Tad nefol; a brait ganddynt eich dwyn, fel y fammaeth blentyn ei meistr, yn ei breichiau. Nid yw eich Duw yn ei gadw ei hun rhagoch; y mae efe i chwi yn rhan, tad, priod, cyfaill, a pha beth nad yw? Yr un nef ag yntau a gewch i drigo ynddi; a'r un bwrdd ac arlwy. Ei ddedwyddwch ei hun ydyw Duw; a'i hun y mae yn ei roddi i chwi i'w fwynhau. O! pa fath anrhydedd yw hyn, i'r deiliad yfed yng nghwpan ei frenin! "Ag afon dy hyfrydwech y diodi hwynt;" *Salm xxxvi.* 8. A hyn i gyd, nid yn bwrcas eich chwys chwi, llawer llai eich gwaed; fe dalwyd am y wledd gan law arall; ac y mae i chwi groesaw. Yn unig y mae yn disgwyl eich diolch i'r neb a'i trefnuodd; ar draul yr hwn y'ch croesawir. Nid oes un offrrwm dros gamwedd yn cael ei roddi arnoch chwi dan yr efengyl; offrrwm diolch yw y cwbl y mae yn ei ofyn.

(3ydd.) Y mae gan Dduw lyfr coffadwriaeth am eich gwasanaeth chwi; y mae yn sylwi yn dirion ar yr ychydig ddaioni sydd ynoch, ac a wneir genych. Nid yw'r gwasanaeth lleiaf o gariad ar ei enw a'i dŷ yn myned mewn anghof, er fod llawer o ddrwg yn ei gymmysg; y mae yn canmawl y da, yn tosturio ac yn maddeu y llall. "Cafwyd ynddo ef beth daioni tuag at Arglwydd Dduw Israel;" hyn a ddywedwyd am fab Ieroboam: 1 *Bren.* xiv. 13. Y fath dystiolaeth anrhydeddus a rydd Duw i Asa: 2 *Cron.* xv. 17; fod ei "galon yn berffaith ei holl ddyddiau;" er y gwelwn iddo roddi aml gam gwyrog. Nid oedd yr ychydig nerth oedd gan eglwys Philadelphia ddim i'w anghofio: *Dad.* iv. 8. Mor dirion y mae Crist yn amddiffyn Iosuah pan oedd Satan yn ei ghyddo am ei ddillad budron! "Onid pentewyn yw hwn, wedi ei achub o'r tân;" *Zech.* iii. 2. Ac yn rhoddi esgus dros ei ddisgyblion cysgylt: "Yr ysbryd sydd barod, ond y cnawd sydd wan." Yn awr, a gaiff Duw sylwi ar yr ychydig ddaioni yn ei saint, esgusodi eu gwendidau, canmawl a gwobrwyo eu gwasanaeth gwan; i'e, ei gadw mewn cof yn dragwyddol barchus: "y cyfiaw'n fydd byth mewn coffadwriaeth;" *Salm cxii.* ac oni haeddai ef ei fawrhau am ei berffeithrwydd annherfynol; ei foli a'i garu gan ei fod yn gwbl dda, byth yn dda, ac yn gwneuthur daioni i'w eiddo? A gaiff efe fod yn dyner o'th enw di, a thithau yn ddiystyr o'i anrhydedd ef, fel ag i gladdu ei drugareddau ef yn y bedd o anniolchgarwch.

(4ydd.) Ystyria y fath addurn i gref yw calon mewn hwyl ddiolchgar. Yr hyn yn canmawl Duw wrth o byd anghriniol, na wyddant nemawr am dano heb yr hyn a bregetha eich bucheddau ch iddynt. Y maent hwy yn darllen crefy yn ol eich argraffiad chwi o honi; ac rhoddi eu tystiolaeth am Dduw a'i ffyn yn ol a welant trwy eich ymddygiad ch. Os byddwch chwi yn afreolaidd mewn rhaiad, neu yn rwnnachlyd wrth drefn rhagiath, pa fodd y gallant hwy goelio i ffyrdd Duw mor hyfryd ag y dywedir? a roddwn glust i'r hyn a ddywed y gwas ei feistr; os bydd efe yn ei ganmawl, ac myned trwy ei waith yn siriol, fe ennill h iddo air da ym mysg ei gymmydogi Tystiolaeth nerthol i ddaioni Duw yw h a roddodd Daniel, pan ei molianodd d gwaith yn y dydd, er i hyny roddi ei fyw mewn perygl. O weled Cristion tlawd ddiolchgar am ei ran fechan; i'e, yng ngha cystuddiau, fel pe byddai ganddo goron at ei law, fe ymresymai deall cyffredin hyn—Yn sicr, y mae y dyn yma yn e rhyw felusder yn ei Dduw, a gwobr o'i wasanaethu, uwch law a wyddom ni. Yr mawl gorfoleddus saint yng nghanol flantân, wedi peri i edrychwyr fyned ad mewn cariad, nid yn unig at grefydd, o at ferthrydod.

(5ed.) Ystyriwch yr anrhydedd a rodd arnoch yn y ddyledswydd hon. Yn gweini i frenin yn beunoeth ac ar liniau, cael ei gyfrif yn fwy o anrhydedd i glwydd na byw yn y wlad, a chael gwas aeth gan ei gyd-ddeiliaid. Er ein bod y ngwasanaeth Duw ar hyd y dydd, ei mewn addoliadau yr ydym yn cael yr rhydedd o nesau ato a gweini iddo. Ragorfraint y bobl sydd fel hyn yn cael ag au ato! Hefyd, mawl yw y rhan uchaf addoliad, ac am hyny i barhau yn nedwyfyd y nef. Yno, fel y bydd grasau er wedi eu troi yn gariad a llawenydd, fe dyledswyddau ereill o addoliad, meg gwrandaw, gweddio, &c., fyddant wedi t yn ganu a molianu. Yr oedd yr offeiriath dan y gyfraith yn anrhydedd fawr; ddewisodd Duw Aaron a'i lwyth o fysg brodyr i weini wrth ei allor; fe dderbyi rodd o'u llaw hwy, na chymmerai gan frin; ond yn awr dan yr efengyl y mae i bob credadyn offeiriadaeth fwy anrhydedus am ei fod yn dwyn aberthau gw aberthau ysbrydol mawl a diolchgarwch thra yr wyt yn anrhydeddu dy Dduw wyt yn dy anrhydeddu dy hun. Y mae holl gorph yn disgleirio gan belydr y gol a roddir ar y pen.

6ed. Ystyria y gwna mawl dy wedd yn fwy derbyniol a llwyddiannus. Fe ddoganwyd llwyddiant Alecsander yn ei ryl oedd, wrth ei fod mor hael i'r duwiau yn

erthau; yn taflu thus yn ddyrneidiau i'r
n. Carl iddo ei hun yw y neb sy felly i'w
ludw. "Dychweler ffrydiau Duw yn ol
nef (ebe Bernard), fel eu tywallter yn
laethach eilwaith ar y ddacar." Chwi
weh graffu ar y saint yn eu cyfyngder-
a'u hangenion mwyaf, yn tywallt eu
reddiau ar dull mawl. Y mae Iehosaphat
anfoni ei offeiriad dan foliannu Duw i'r
aes, a Duw yn ymladd o'i blaid: 2 *Cron*
22. Dafydd yn yr ogof, "Parod yw fy
balon," medd efe, "canaf a chanmolaf."
Ily Daniel, er y fagl am ei einioes, teir-
raith yn y dydd y cyffesai o flaen ei Dduw.
Christ ei hun, pan oedd ar gyfodi Lazarus,
idd yn codi ei olwg i fyny ac yn bendithio—
Y Tad yr wyf yn diolch i ti;" *Ioan* xi. 41.
n dioddef, y mae yn canu hymn: *Marc*
7, 21. Nid hawdd y cyferfydd calon
iolchgar â nacâd: "Bydded ardderehog
iant Duw yn eu genau, a chledddy dau-
iog yn eu dwylaw;" *Salm* cxlix. 6.

EPHESIAID VI. 18.

Yn yr Ysbryd.

ATHOM yn awr at y drydedd gangen
g nghyfarwyddyd yr apostol i weddio.
egwyddor, neu y ffynnon, o ba un y
e gweddi i darddu allan o honi—"Yr
ysbryd." "Gan weddio bob amser â phob
yw weddi a deisyfiad yn yr Ysbryd, a
d yn wyladwrus at hyn yma, trwy bob
fal-bara, a deisyfiad dros yr holl saint."

PENNOD I.

n dangos pa beth yw gweddio yn yr Ysbryd.

Gof. OND pa beth yw gweddio yn yr
ysbryd?

At. Y mae esbonwyr yn gyffredinol yn
anwys yn yr ymadrodd hwn ysbryd y
b a fo yn gweddio, ac hefyd Ysbryd Duw,
idd yn cymmhwysu ein hysbrydoedd ni i
iddi, ac yn eu cynhyrfu yn y gwaith.
Dyna weddi yn yr ysbryd," medd Zanchy
y lle hwn, "sef pan fyddom yn gweddio
hysbryd, ac yn Ysbryd Duw." Yn wir,
nae yn rhaid i'r ddau gydfyned. Ni chyn-
yrfa ein hysbryd ni yn iawn heb yr Ys-
ryd Glân. Och! ni bydd ond ail i dalp o
i yn ein mynwesau nes y delo efe i'w
whau. A phan ymsymmudo efe arno, nis
lawn lai na gweddio â chalon ac ysbryd.
mae anadl Ysbryd Duw yn fywiocao!
d anadlu y mae of ynom fel un yn chwythu
y bibell neu ddefnion, nad yw ond ofieryn
rw; nag e, y mae efe yn cyffroi y galon,
yn cynhyrfu y serchiadau yn y gwaith.

Gelwir gweddi yn "dywalltiad yr enaid ger
bron Duw." Yr enaid yw llygad y ffynnon
o ba un y mae gweddi yn ffrydio, ond yr
Ysbryd yw gwreiddyn y ffynnon yma, a'r
llaw sydd yn rhoi cymmorth i dynu y dwfr
allan. Gwag fyddai hi heb ei gwreiddyn
i'w phorthi; ac ni cheid diferyn o honi heb
ryw un i'w godi. Fel hyn y mae yn rhaid
i Ysbryd Duw lenwi y galon â serchiadau
erfyngar, a'u galluogi hefyd i ymdywallt
allan. Oddi wrth y geiriau wedi eu hagog
fel hyn, ni a aroswn ychydig ar y ddau
sywl a ganlyn:—

Syl. 1. Y neb a fyno weddio yn dder-
bunyiol, rhaid iddo weddio yn ei galon a'i
ysbryd.

Syl. 2. Y neb a fynai weddio yn ei ysbryd
rhaid iddo weddio yn Ysbryd Duw.

I ddechreu gyda'r cyntaf. Y mae gweddio
yn yr ysbryd yn wrthwyneb i wasanaeth
gwefus: "Nesau y maent ataf â'u gwefus-
au, a'u calon sydd bell oddi wrthyf." Fel
godinebwraig, calon yr hon sy mor bell
oddi wrth ei phriod a'r fan lle y mae ei char-
wr yn llechu. Nid gweddi yw hono nad yw
calon y dyn ar waith ynddi. Y mae Paris-
iensis, wrth esbonio y lle hwn—*Hos.* xiv.
2—"Ni a dalwn i ti loi ein gwefusau," yn
cyffelybu gweddi i'r loi yn yr aberthau.
"Y mae ffurfiad y geiriau," medd efe, "yn
atbe i groen yr anifail, y llais i'r blew, y
dealltwriaeth i'r cig, a dymuniadau y galon
i'r brasder oddi mewn." Hyn, a hyn yn
unig, a'i gwna yn weddi yng nghyfrif Duw.
Y mae fy ysbryd yn gweddio, medd yr
apostol, 1 *Cor.* xiv. 14, ac yn *adm.* 15:
"Gweddiad â'r ysbryd, a chanaf â'r ysbryd."

Felly *Rhuf.* i. 9: "Duw yr hwn yr ydwyf
yn ei wasanaethu yn fy ysbryd." Y mae y
sain beraidd a ddol oddi wrth offer tannau,
y fath ag yw nabl, neu delyn, yn cael ei
ffurfio o fewn ceuedd yr offeryn; a pho dyfn-
af fydd y ceuedd, pereidiaf fydd y sain.
Ar astyllen wastad ni wna yr un tannau,
a'r un llaw, ddim peroriaeth. Y mae per-
eidrwydd gweddi yn dyfod o'r tu mewn i
ddyn: "Yr enwaediad ydym ni, y rhai yd-
ym yn gwasanaethu Duw yn yr Ysbryd"
(*Phil.* iii. 3); a pho dyfnaf fydd yr ochen-
eidiau a ddeuant oddi yno, pereidiaf fyth
fydd y gynghanedd. Fe ddichon fod addol-
iad oddi allan, a didduwiaeth oddi mewn,
fel y dywedodd Melancthon wrth wŷr Italy,
"Yr ydych chiwi yn addoli Duw yn y bara,
ond heb gredu ei fod yn y nefoedd." Fe
ddichon fod llawer o rodres mewn defodau
allanol, pan nad yw y dyn nac yn caru nac
yn credu yn y Duw y mae efe yn gwneuthur
moes iddo. Nid yn aelodau yr anifail yn
unig yr oedd yr anafau a wnaent yr aberth-
au dan y gyfraith yn wrthodedig; ni fynai
Duw y clywys mwy na'r cloff: *Mat.* i. 8.
Yr ydym yn darllen am waedd uchel pan
nad oedd gair yn cael ei ddyweddy (*Ecsod,*

xiv. 15); ond ni chydnebydd Duw yn weddi sydd â swm mawr yn y llais ond heb ei hawchi âg ymserch y galon. Gwahanwch yr ysbryd oddi wrth y corph, a dyna y dyn yn farw; y galon oddi wrth y wesus, a dyna drengiad ar y weddi. Yn awr, wrth driu hyn, y mae yn rhaid i mi yn gyntaf ddangos pa beth yw gweddio yn ein hysbryd; ac yna pa ham y mae hyn yn angenrheidiol.

Am y cyntaf, yr ydym yn gweddio yn ein hysbryd pan fydd y tri nôd hyn ar y ddyledswydd:—1. Pan fyddom yn gweddio gyda gwymbodaeth. 2. Pan fyddom yn gweddio i newn gwresogrywydd. 3. Pa fyddom yn gweddio mewn diragrithrwydd. Y mae y tri hyn yn gosod prif dri alluoedd yr enaid ar waith. Trwy wybodaeth y mae y deall ar waith; trwy wresogrywydd y serchiadau; a thrwy ddiragrithrwydd yr ewyllys. Y mae y rhai hyn oll yn gyd-ofynol at weddio yn yr ysbryd. Dichon fod gwymbodaeth heb wresogrywydd; ac y mae hon fel goleu y lleuad, yn oer ac heb effaith fywiocael. Dichon fod gwres heb wybodaeth; ac y mae hyn fel dewredd mewn ceffyl dall. Dichon fod gwres a gwymbodaeth etto heb ddiragrithrwydd; ac y mae hyn fel cerbyd â meirch buain a gyrwr medrus; ond o'i fod yn anonest y mae yn gyru y ffordd wrthwyneb. Felly ni wna un na'r ddau gyntaf lesau lle bo diragrithrwydd yn fyr i gyfeirio y serchiadau hyn, a'u rhoi i sefyll at yr iawn bwynt, yr hwn yw gogoniant Duw. Ychydig o ddiolch a gair hwnw am ei sel sydd yn wresog ysbryd, ond yn ei wasanaethu ei hunan, ac nid yr Arglwydd.

PENNOD II.

Yn dangos, at weddio yn yr ysbryd, bod yn ofynol i ni weddio gyda deall. Hefyd, pa ham y mae hyn yn ofynol, a pha ddeall sydd yn ofynol.

1. At weddio yn dderbiniol, y mae yn angenrheidiol i ni weddio gyda deall. Yr oedd aberth dall yn wrthodedig dan y gyfraith; yn llawer mwy y mae addoliad dall dan yr efengyl. Megys y mae gwymbodaeth yn mwylhau pechod, felly y mae anwybodaeth yn lleihau gwerth gweithred a fo yn dda. "Yr wyf yn dyst iddynt," medd Paul, "fod ganddynt sel Duw, ond nid ar ol gwymbodaeth;" *Rhuf.* x. 2. Y mae diffyg llygad yn hagrau y gwyneb glanaf, felly diffyg gwymbodaeth y weddi wresocaf: "Chwy-chwi ydych yn addoli y peth ni wyddoch; ninnau ydym yn addoli y peth a wyddom; canys iachawdwriaeth sydd o'r Iuddewon;" *Joan* iv. 22. Lle y gwelwn pa ddiffyg sylfaenol mewn arferion crefyddol yw y diffyg o wybodaeth, y fath ag sydd yn dwyn damnedigaeth o'i ol. Ond pa ham y mae gwy-

bodaeth mor angenrheidiol ac anhêbgo-tuag at weddio yn dderbiniol?

DOSB. I.

Iaf. Am nad yw ein gwasanaeth heb hyn rhesymol, gan nas gwyddom pa beth ydym arno. Y mae Duw yn galw am rhesymol wasanaeth (*Rhuf.* xii. 1), yr hyn mae rhai yn ei gyferbynu i'r aberthau sermoniol; yr oeddynt hwy yn rhoi anifiaid, a ninnau yn ol yr efengyl ydym i ein hunain i Dduw. Yn awr, yr enaid a ysbryd yw y dyn. Pa ham na roddo Duw ddeddf ar anifeiliaid i'w addoli ond am na feddant enaid rhesymol i ddeall a dal ar yr hyn a wnânt? Ac a dderbydd Duw y gwasanaeth a'r addoliad hwnw gddyn, lle nad yw yn arfer y gynneddf hon sydd yn ei wahaniaethu ef oddi wrth anifail? "Cofiwch hyn, a byddwch wyf medd y prophwyd wrth yr eilunaddolw hyn: *Esai.* xlvi. 8. Ac yn ddiu y mae hwn sydd yn addoli y gwir Dduw mewn anwybodaeth, yn anifeilaidd yn ei wybodaeth, yn gystal a'r hwn sydd yn addoli g Dduw.

2il. Am mai y deall yw cynneddf arweiniol yr enaid, ac felly y mae yn agor y ffôn at y prif waith, sef addoliad tu mewn y galon. Yn awr, y mae galluoedd ereill enaid yn methu os byddant heb hon, eu haweinydd, sydd yn dal y ganwyll iddynt. A yr anwyddau poethion hyn o sel ymddarosiadol—tristwch a llawenydd—sydd weit iau i'w gwled mewn addolwyr diwybodaeth, a'u haddoliadau deillion, nid ydynt o bastardaidd. Y mae defaid Crist, fel praf Jacob, yn ymddwyn wrth y llygad. Y mae llygad y Cristion yn cael ei oleuo i ganf mawrhydi a phurdeb gogoneddus Duw; yna y mae yn bywiogi ac yn galaru gerfron yn y teimlad o'i waeledd ei hun: "Yn awr, fy llygad a'th welodd di; am hyny mae yn ffiadd genyf fi fy hun; ac yr ydym yn edifarhau mewn llwch a lludw;" *Iob* xlvi. 6. Drachefn, trwy llygad ffydd y mae gwled daioni a chariad Duw at bechadau idruain yng Nghrist, ac ato ef yn nei duol; a'r llygad yna sydd yn effeithio ar galon i beri iddi ei garu a phwysu arno, hyn nid yw bossibl i enaid anwybodus wneuthur.

DOSB. II.

Gof. Ond chwi a ddywedwch, pa wybodaeth sydd yn angenrheidiol i'r neb a fydd weddio?

At. Iaf. Mai efe at yr hwn y mae yn atfon ei ddeisyfiad yw y gwir Dduw. Y mae addoliad crefyddol—y tu mewol a'r allan hefyd—yn berl anghyfranogol yng nghorn y Duwdod. Efe yn unig, yr hwn o hefyd ydych ei berffeithrwydd anfeidrol, a haedd ein cariad, ein parch, a'n hymddiried penus sydd i gael y fath addoliad genym. Yr hwn a biau y deyrnas sy raid iddo gael y gor-

iddo Duw yw y deyrnas a'r gallu; gan hyn, iddo ef yn unig y mae y gogoniaut o ddoliad crefyddol yn perthyn: *Mat.* vi. 13. "nglyon yw y creaduriaid uchaf eu gradd; ond y mae arnom waharddiad i addoli un o holl lu y nefoedd;" *Deut.* xvii. 3. "Pwy f'ith ofna di, Brenin y Cenhedloedd? o'erwyddi ti y gweddi;" *Ier.* x. 7. Lle y maddir ofn am addoliad crefyddol, fel yr mddengys wrth amgylchiad y fan. Y ddyg o'r wybodaeth yma a lanwodd y byd aganaidd âg eilunaddoliaeth; o blegid lle cyfaryddent â rhyw rinwedd neu ragor-eth yn y creadur, yn ebrwydd hwy a ymrymied ac a'i haddolent. Yn debyg i ddyng wladuidd, anwybodus, yr hwn pan ddaw'r llys a dybia mai y brenin yw pob un a fel mewn dillad gwychion.

2il. Y mae yn ofynol bod gwybodaeth o'r wir Dduw hwn, pa beth yw ei natur: Rhaid yw i'r neb sydd yn dyfod at Dduw, redu ei fod ef, a'i fod yn wobrwyr i'r rhai ydd yn ei geisio ef;" *Heb.* xi. 6. Yr wyf yn addef fod gwybodaeth berffaith o'r peitheirwydd dwyfol uwch law cyrhaeddiad od terfynol. Uniawn oedd ateb hwnw, an ofnydd iddo, "Pa beth 'yw Duw?" a ttebodd, "Pe gwyddwn, mi a fyddwn fy un yn Dduw." Yn wir nid oes neb yn dnabod Duw fel hyn ond Duw ei hun; er hyn, y mae gwybodaeth yn ol y gair o hono'n angenrheidiol at iawn gyflawni y ddyledwydd yma. Y diffyg o ddeall ei hollwybod-eth a'i annerfynol drugaredd yw yr achos ofer siarad, a'r dychymmyg o lwyddo'rwy hir-weddiâu, yr hyn y mae ein Har-lywydd yn achwyn arno yn y Cenhedloedd, e yn ei ragflaenu yn ei ddisgyblion, trwy un dwyn i gydabyddiaeth a'r priodoliaeth- u hyn: *Mat.* vi. 7, 8. Y mae y fath uchod'n dyfod i swnio yn hytrach nag i weddio, i roi eu cusan yn lle eu cais ger bron Duw. Anwybodaeth o'r mawrhydi uchel a gogon- dduw hwn yw yr achos pa ham y mae llawer nor anfoesol a musgrell yn eu hymddygiad, mor gras a diarswyd yn eu hymadroddion er bron Duw. Erchir i ni fod yn sobr a wyladwrus i weddiâu. Yn ddiâu y mae'n sborwydd, hyd yn oed yn ein hiaith, pan a fyddom yn gwisgo ein deisyfiadau a'r fath madroddion gostyngedig ag a fo yn brawf i'r ofn a'r arswyd i'w dduwiol Fawredd ydd yn ein hysbryd. Mewn gair, yr achos a ham y mae dynion yn meiddio neidio gogfeidiad godinebus eu chwantau, ac estyn u dwylaw bryntion tua'r nef mewn gweddi, i ba le y mae, ond am eu bod heb adnabod Duw, ei fod o'r fath burdeb anfeidrol, ag na yn efe gydgyrmeithas â gweithredwyr an- iredd? "Tybiaist tithau fy mod yn gwbl el ti dy hun;" *Salm* i. 21.

3ydd. Y mae yn rhaid i ni ddeall defnydd ein gweddiâu, pa beth a ddeisyfwn, a pha beth a erfyniwn i'w erbyn; heb yr hyn nis

gallwn—mewn ffydd—ddywedyd amen wrth ein gweddiâu ein hunain; ond gallwn yn hawdd ofyn yr hyn nid yw dda i ni ei ddy- muno, nac yn gweddu i Dduw ei roddi. Hyn a geryddodd Crist, pan oedd gwraig Zebe- deus yn rhoi ei deisyfiad chwantau am i'w dau fab fod un ar ei law ddeheu a'r llall ar ei aswy yn ei frenhinaeth. Ni roddodd Duw i ni erioed genad fel hyn i lunio ein gweddiâu wrth ein tybiau ein hunain, ond efe a'n rhwymodd i ofyn yn unig yr hyn a addawodd ei roddi.

4ydd. Gwybodaeth o'r dull pa fodd y mae i ni weddio; megys yn enw pwy, a pha gymmeddfau sydd yn ofynol yn y weddi, ac yn y gweddiwr. Ni a gynol Paul yn deisyf gweddiâu, "ar gydymdrech o honoch gyda myfi mewn gweddiâu" (*Rhuf.* xv. 31); mewn lle arall efe a ddywedyd i ni am "ymdrech gyfreithlaw;" *2 Tim.* ii. 5. Y mae rheol i weddi, a rhaid ei chanlyn neu redeg yn hyf ar antur. Hyd yn oed mewn addoliad gau, y mae ganddynt ryw reol i'w dilyn wrth alw ar eu duwiau; am hyn y darfu i'r Samariaid hanner crefyddol hyny (*2 Bren.* xvii. 26), pan oedd pla arnynt, farnu mai yr achos oedd "am nad adwaenent ddefod duw y wlad." Fe fÿn y gwir Dduw ei wasanaethu mewn iawn drefn, neu disgwylw'n rwygiad. Gair neu ddau ym mhellaeth yn gymmhwy- siad i'r gangen hon.

DOSB. III.

Defn. 1. Pa cyn lleied nifer ynte sydd yn gweddio yn yr ysbryd? Pe hyn fyddai yr unig nôd i brofi llawer wrtho, oni chaent eu troi ymaith fel gwag siaradwyr hollol? Megys yn gyntaf, y rhai o'r Eglwys Bab- aidd, lle nad yw y rhan fwyaf yn deall gair o'u gweddiâu. Os ydyw yn fath dro gwan i roi llaw wrth erfyniad at frenin, neu sen- edd, heb erioed ei ddarllen na'i ddeall, pa beth a feddylw'n ynte am y fath weddiâu direswm a'r rhai hyny a ddanfonir i'r nef heb wybodaeth o'u cynnwysiad? Ië, yn ein mysg ein hunain y mae llawer, er eu bod yn gweddio yn iaith eu mamau, etto, mor anwybodus a hwythau ynghylch defnydd eu gweddiâu; onid e, pa fodd y gallent redeg dros y credo a'r deng air deddf yn eu de- fosiwn dall yn lle gweddiâu? A oes adeil- iau mwy alaethus o ddynolryw i'w cael ym mhlith yr Indiaid na'r cyfryw? Ië, pan gydanant â'u gweinidog mewn gweddi, nid adwaenant na'r Duw at yr hwn y cyfeirir y weddi, na'r Cyfryngwr, yn enw yr hwn y mae yn cael ei danfon. Cyn y gallodd Ne- buchodonosor fendithio Duw, fe gafodd y rhodd o ddeall dyn, o'r hyn y mae rhai hyn etto yn fyr. Ai ni feddyliech elwi y gellid yn hawdd perswadio y trueiniaid hyn i ym- grymu o flaen eilun wedi ei wisgo yn hardd, neu roi eu neges at ryw angel neu sant i'w ddwyn ym mlaen, dan y dyb hygoel y caiff groesawiad tirionach trwy eiriolaeth y cyf-

ryw rai parchedig? O! y fath dywyllwch sydd hyd y dydd heddyw ar wyneb ein dyfroedd! ar ba rai pe ca'i cenhadau y pab ond cyfle i eistedd dros ychydig, gallent yn fuan ddwyn eu gwaith dymunedig i ben yn mysy y dorf o eneidiau anwybodus sydd yn llenwi ein tir. Gwelwn fod achos, nid yn unig i annog ein pobl i weddio, ond hefyd eu cyfarwyddo pa fodd; onid e, yr ydym yn eu danfon cyn iddynt ddeall eu neges, fel pe galwent ar blentyn i ddarllen cyn dysgu ei llythrenau.

Defn. 2. Y mae yn llefaru wrth bawb a fyddo ar un amser yn enau at Dduw dros ereill mewn gweddi, ar iddynt weddio fel y gall y rhai a fo yn uno â hwy lawn ddeall eu herfyniadau drostynt. Pwy sy fwyaf ei fai, yr hwn a weddia mewn iaith ddieithur, ai yr hwn a arfera y fath eiriau uchel-hediad a'r fath ymadroddion anghynnefn ag a fo yn annealladwy i hanner y gynulleidfa? Gadawn fod dy ysbryd di dy hun yn gweddio (fel y dywed yr apostol), er hyny y mae dy ddeall yn ddiiffrwyth iddynt hwy. Och! nis gallant ond sefyll ac edrych, fel y disgrbyllion pan wahanodd y cwmmlw Grist oddi wrthynt. Naill ai disgyn di i lawr o'th iaith hedegog uchel, neu dyro gynnorthwy iddynt hwy ddyfod i fyny atat. Hwy a allant yn awr ddywedyd am danat, fel y rhai hyny am Moses, "Ni wyddom beth a ddaeth o hono." Nid rhyfedd, wedi colli golwg ar y mater mewn llaw, os ä eu meddyliau i wbio ac i ddawnsio o ddeutu rhyw wrth-ddrych o'u fuffriad eu hunain. Ai gweddio yr wyt ti i gael dy ryfeddu am dy dafod llithrig, doniau mawr, neu y cyffelyb? Fe allai y gelli dderbyn dy wobr hon gan ryw rai anwybodus, ac ereill a fo mor awyddus i gael eu canmawl ar yr un cyfrif; ond ystyria y fath ddiben gwael a salw, annheilwng o lygad Cristion sy genyt o'th flaen. Pa beth? ai ordinhad sanctaidd sy raid fod yn rhwyd i ti bysgota am dy barch a'th glod? Y mae y fflangell a wnaeth Crist yn yr efengyl yn perthyn i'th gefn di. Ein Hiachawdwr bendigedig, oedd yn llawn o dân sel wrth weled ei dŷ gweddi yn cael ei droi yn dŷ marchnad. O! fel y mae ei enaid ef yn ffeiddio brynti dy ysbryd marchnata di, yr hwn wyt yn gwneud yr un peth, er mai mewn gwisg arall.

PENNOD III.

Yn dangos fod gwresogrwydd yn ofynol at weddio yn yr Ysbryd; a dau freswm am hyny.

Yr ail beth gofynol mewn gweddio ä'n hysbryd yw gwresogrwydd. Yr enaid sydd yn cadw y corph yn gynnhes tra y mae ynddo; felly cymmaint a fo o'n henaid a'n hysbryd mewn dyledswydd, hyny sydd o

wres a bywyd. Os oer fydd y weddi, ni allwn yn sicr benderfynu fod y galon yn segur, ac heb ddwyn dim o bwys y gwaith Creadur bywiog yw ein hysbryd; yr hyn a wna, fe'i gwna gyda grym, bid ddrwg bidda. Oddi yma yn yr Ysgrhythyr y mae gosod y galon a'r enaid ar rywbeth, yn arwyddo gwres ac augetdd bywyd. Fel hyn dywedir fod y gweithiwr tlawd (yn ol Saesneg) "yn gosod ei galon ar ei gyflog" (*Deut. xxiv. 15.* Y gobaith am ei ddal yn y lhwyr sydd yn peri iddo chwysu wrth e waith trwy y dydd. Rhoddodd Darius e fryd, neu ei galon ar waredu Daniel; ac y mae yn canlyn, efe a fu "hyd fachludiad haul yn ceisio ei achub ef;" *Dan. vi. 14.* Pan fo ysbryd dyn ynghylch ryw waith, efe a'i gwna yn iawn: "Os ceisi yr Arglwydd ä'th holl galon, ac ä'th holl enaid" (*Deut. iv. 29.*), hyny yw, yn wresog. Nid mewn cynnhwrf mawr ar yr ysbrydoedd corphorol y mae hyn yn sefyll; dichon dy roi ei gorph mewn chwys ar dyledswydd a'r weddi yn oer er hyny. Dyna y weddi wresog, sydd yn tardu o galon wresog a serchiadau cynnhes. Fel ager awyr, yr hwn yn gyntaf a roir ar dân yn y cwmmlw, ac yna a dŷr allan yn daran: "Gwresogodd fy nghalon o'm mewn; tra yr oeddwn yn myfyrio, enynnodd tân, a mi a leferais ä'm tafod. Arglwydd, pâr i mi wybod fy niwedd;" *Salm xxxix. 3, 4.* Yn awr, meg, mai nid un serch unigol ydyw sel, ond mudi ac awch y cwbl, felly dyna wresogrwydd mewn gweddi, pan fo yr holl serchiadau yn gweithredu yn rymus ac yn addas i amryw ranau gweddi. Mewn cyfaddefiad, pan fo yr enaid yn toddi i gywilydd a thristwech duwiol, am y pechodau y mae yn eu haddef o flaen Duw, fel ag y mae yn teinlo poen a dolur gwir oddi mewn, ac nid yn dangos rhith drymder a chalonn ysgafn. O herwydd, fel y dywed Chrysostom, "y mae paentio dagrau yn waeth na phaentio y wyneb." Dyma wir wresogrwydd: "Cwynfan yr ydywyf yn fy ngweddi, a thuchan;" *Salm lv. 2.* Fe all fod tân yn y badell ac heb ergyd allan; gwynt uchel heb wlaw ar ei ol. Yr oedd Dafydd yn tuchan ä'i lais ac yn cwynfan yn ei ysbryd. Felly mewn erfyniad; pan fo y galon ar waith mewn deisyfiadau taer am y gras y gweddiir am dano, nid rhyw ofyniadau diawydd, gweigion, ac oerllyd; ond serchus anadiadau a thoriadau calon a osodir allan weithiau with rym syched, yr hwn a dybir ei fod yn fwy poenus na newyn. Fel y brefa yr hydd, pan ei helir am ddyfroedd oerion, felly yr oedd enaid Dafydd am Dduw: *Salm xlii. 1.* Weithiau, wrth ymegniadau ymdrechlwr; felly dywedir ddarfod i Iacob ymdrechu ä'r angel; ac ymegniadau rhedegwyr: "Heb ddr (neu yn ol y Groeg, mewn ymestyniad) yn gwasanaethu Duw nos a dydd;" *Act.*

xxvi. 7. "Drylliwyd fy enaid gan awydd" (*Salm* cxix. 20), fel un yn tori gwythlen swrth ymegnio.

Gof. Ond pa ham y mae yn rhaid i ni weddio fel hyn yn wresog yn yr ysbryd?

At. 1. O herwydd y gorchymyn: "Câr yr Arglwydd â'th holl enaid, ac â'th holl nerth; a byddeddyd eiriau yn dy galon" (*Deut.* vi. 5, 6), yr hyn sydd yn cynnwys yflawniad serchiadol o bob gorchymyn a dyledswydd. Gwahanwch y rhan allanol o addoliad oddi wrth y rhan du mewol, a chwi a berwch i Dduw ei wadu. "Pwy a geisiodd hyn ar eich llaw?" (*Esa.* i. 12), medd efe wrth bobl oedd yn haelddigon o'u aberthau. Fel pe dywedasai, A erchais i erioed i chwi roi calon anifail yn aberth, a chadw draw eich calon eich hun? Pa ham yr wyt ti yn ymdrin â gweddi? A ddywedi ni, am fod Duw yn gorchymyn? Os felly, pa ham nad yn wresog, yr hyn yw prif amann y gorchymyn? Pan ddanfonych am yfr, a fyddi di yn foddllawn i un a ddwg dim ond y caud? Ac a wna Duw dderpyniad o'r croen yn lle yr aberth? Y rhan allanol o'r ddyledswydd nid yw ond megys y cwpan; dy gariad, dy ffydd, a'th ymserch, yw y gwinn y mae efe yn chwennych ei brofi.

Heb y rhai hyn, nid yw yn cael genyt ond cwpan wag i yfed o honi. A pha beth yw yn ond ei watwar?

2. I gydweddu âg enw Duw. Y darlunad cyffredin o weddi yw galw ar enw Duw. Yn awr, megys yr ydym mewn gweddi yn galw ar enw Duw, felly iawn yw bod hynny rydag addoliad addas i'w enw; onid e, yr ydym yn ei halogi ac yn annog ei ddigofaint; hyn yw prif feddwl y trydydd gorchymyn. Yn y cyntaf, y mae Duw yn trefnu na chaiff neb heb law ef, yr unig wir Dduw, ei addoli. Yn yr ail, na wasanaether ef, y gwir Dduw, âg ewylls grefydd, ond yn ol i'w ordinhadau ei hunan. Ac yn y trydydd, na wasanaether ef yn esgeulus a dibris yn ei addoliad ei hun. Nid oes un briodoledd yn Nuw nad yw yn galw am y gwresogwydd yma yn ei addoliad.

3. Iaf. Y mae yn Dduw mawr a gogoneddus; ac fel y cyfryw, y mae yn gweddu i ni mesur i'w wydd â'n serchiadau yn eu trefn ureu. A yw gweddïau cysgld yn addas i Dduw mawr eu gwrandaw? A feiddi di iariad â'r fath fawrhydi cyn i ti iawn ddefro, a bod genyt aberth parod yn ol ei feddwl? "Melldigedig yw y twyllodrus, yr lwn y mae yn ei ddeadell wryw, ac berthu yn llygredig i'r Arglwydd; canys Brenin mawr ydwyf fi, medd Arglwydd y luoedd; a'm henw sydd ofnadwy ym mhilith y cenedloedd;" *Mal.* i. 14. Gwelwch yma, yn gyntaf, fod un peth llai na'r goreu a eddwn, yn beth llygredig; efe a dderbyn chydig, os y goreu; ond ffaidd ganddo i ti gadw y goreu i arall. Drachefn, y neb a

offrymo waelach na'r goreu, grym ei serchiadau sydd dwyllodrus, am ei fod yn ei ysbeilio ef o'i eiddo, ac yntau yn Dduw mawr. Y mae yn weddus i fwrdd y tywysog gael arno y pethau goreu yn y farchnad, ac nid y gweddill salaf. Pan oedd Iacob yn amcanu anrheg i lywodraethwr y wlad, y mae yn erchi i'w feibion "gymmeryd o ddewis ffyrwythau y wlad yn eu llestri;" *Gen* xliiii. 11. Yn olaf, y mae yr arswyd a dery Duw trwy ei fawr weithredoedd hyd yn oed ar baganiaid, yn ddigon i'n cywilyddio ni sydd yn byw yn mlynw yr eglwys, ac yn dirmygu ei enw trwy ein gwasanaeth difol a difywyd.

2il. Efe yw y Duw byw. A wna gweddi farwaidd aberth addas i Dduw byw? Pa fodd y bydd efe foddllawn i'r hyn ni ddaeth erioed oddi wrtho? Na osodwch eich gweddïau meirwon wrth ei ochr ef; y weddi fywiog sydd yn eiddo ef, a thi dy hun biau y farw. Yr hyn a ddywedodd Hezechia am bersonau, a ellir ddywedyd am weddïau hefyd: "Y byw, y byw a'th fawl di." Yr angylion gogoneddus, pa rai o herwydd eu sel a elwir yn seraphiaid, ac yn fflam dân, y rhai y mae yn ddewis i weini iddo yn y nef, a'r saint isod, er eu pererindod ar y ddaear, ydynt o achau nefol, ac felly yn meddu ysbrydoedd dyrchafedig a phuredig oddi wrth syrthni eu naws ddaearol, y rhai hyn y mae yn neillduo iddo ei hun fel offeiriad i offrymu iddo aberthau ysbrydol. Po mwyaf bywiog fo dyn ei hun, mwyaf atgas yw cenad troed-drwm, neu weithiwr dioglyd ganddo. Pa fodd ynte y gall Duw, sydd yn fywyd i gyd, gydymddwyn â'th addoliadau swrth marwaidd di? Pa ham y gorchymynnodd efe dori gwddf asyn (*Num.* xxxiv. 20), ac nid ei offrymu yn aberth? Ai am ei fod yn ddig wrth y creadur? Nag e, yn sicr, ei waith ei hunan ydoedd, ac yn y llun y gwnaethai efe ef, ond i ddygu i ni mor an-foddllawn ganddo galon syrthlyd yn ei wasanaeth.

3ydd. Y mae efe yn Dduw y cariad; a chariad ni chymmer dâl ond yn ei ryw ei hun. Dyro i Dduw gariad am gariad, onid e, ni chyfrif efe dy fod yn rhoi iddo ddim. "Os cerwch fi, cedwch fy nghorchymynion;" *Ioan* xiv. 15. "A phe rhoddai gwr holl gyfoeth ei dŷ am gariad, gan ddirmygu y dirmygid hyn;" *Can.* viii. 7. Felly, os meddylia dyn gyfnewid Duw, a rhoi iddo un peth mewn gweddi yn lle ei gariad a gwresogwydd ei serch, fe'i dirmygir. Er called fo y weddi, er hardded fo agwedd blygedig y corph, er uchod fo y llais, os na bydd serchiadau y galon yn ymestyn ar ol Duw yn y ddyledswydd, ni wna ond ei gwrthod, am nad yw yn cyfatted i'r tynerwch serch y mae ef yn ei ddaugos i ni. Y mae efe yn tynu allan ei galon gyda'i bwrs, ac yn rhoi, ie, ei enaid a'i hunan, ynghyd â'i holl ddon-

iau i'w bobl; am hyny y mae yn disgwyl i'n calonau ninnau ddyfod gyda'n holl wasanaeth ato yntau. Nid rhyfedd gwelw y gwas sydd dan feistr caled a drwg heb na chalon na bywiogrwydd yn ei orchwyl; ond y mae cariad yn y meistr yn arfer rhoddi bywyd yn ei wasanaethwr. Ac am hyny ni chymmer Duw—y meistr goreu yn ddigymhar-iaeth—mo'i wasanaethu mewn dull nas cynnygir ond i'r gwaethaf ym mysg dynion.

PENNOD IV.

Yn cynnwys trydydd rheswm am y pwngc, ac hefyd yn dangos leied nifer sydd yn gweddio yn yr ysbryd.

3. I WEDDI WRESOG yn unig y mae yr addewid. Nid yw plentyn a enir yn farw yn etifedd, na gweddi ddifywyd chwaith yn etifedd i un addewid. Yr un peth ydyw gwresogrwydd i weddi ag oedd y tân i'r peraroglau yn y thuser; heb hwn, ni ddichon esgyn yn aroglarth ger bron Duw. Fe wnaeth rhai gais am daith nes trwy fôr y gogledd i'r India; ond rhewi wnaethant ar y ffordd, ac felly y digwydd i bob gweddiau syrthlyd. Esmwyth yn wir fyddai y daith i'r nef, pe gallai y rhai hyn gyrlaedd yno. Ond erioed ni fedrodd neb o'r rhai a weddiasant yn y dull yma ddangos dim o aur y wlad dda hono, pe rhoddem mai sant ydoedd. Y mae y cyfiawn yn wir wedi ei ghoeddi yn etifedd, megys yr holl addewidion, felly i hon o gael gwrandaw ei weddi; ond nid yw efe mewn agwedd gymmhws i feddiannu yr addewid hon, neu i fwyhian yn bresennol â lles o honi, tra y mae ei galon yn oerllyd a ffurfiol yn y ddyledswydd. Y mae addasrwydd yn perthyn i'r weddi yn gystal ag i'r person fyddo yn gweddio: "Llawer a ddichon taer weddi y cyfiawn." Pan fyddo Duw yn bwriadu trugaredd i'w bobl, y mae yn cyffroi ysbryd gweddi ynddynt: "Ni ddywedais wrth hâd Iacob, Ceisiwch fy wyneb i yn ofer;" hyny yw, ni ddarfu i mi erioed eu cyffroi at y gwaith, a'u dal ynddo, a gadael iddynt lasurio yn ddidyciant: "Yna yr ewch ac y gweddiwch arnaf fi, a miunau a'ch gwrandawaf: ceisiwch fi hefyd, a chiwi a'm cewch, pan y'm ceisioch a'ch holl galon?" *Ier.* xxix. 12, 13. Y mae dymuniadau egwan fel doluriau gweiniaid, yn myned drosodd ac heb ddwyn y drugaredd i esgoreddfa. Fel y mae y llawn amser yn nesau, felly y mae ysbryd gweddi yn cryfhau: "Oni ddial Duw ei etholedigion sydd yn lleffian arno ddydd a nos? Yr wyf yn dywedyd i chiwi y dial efe hwynt ar frys;" *Luc* xviii. 7. Ni chyffry neb yn y tŷ, fe allai, wrth gnoc bychan yn y drws; meddyliant mai rhyw gadotyn segurllid, neu rywun heb fod

mewn brys mawr ydyw; ond os daw cur trwm ac aml, yna hwy godant ato, ie, pbaent yn eu gwelyau: "Er na chyfyd efe rhoddi iddo am ei fod yn gyfaill; etto, herwydd ei daerni efe a gyfyd iddo;" *Luc* xi.

Defn. 1. Y mae hyn yn brawf athrist na oes ond ychydig o wir weddio yn ein plith am mai anaml yw y gweddiwyr gwresog. Rhanwn ddyinion i'w hamryw rengau; y gyntaf, yr anwybodus. A yw y rhai hyn yn gweddio yn wresog? Och! y mae y rhaid i'w calonau hwy rewi yn y gwaith: y maent yn byw yn rhy bell oddi wrth yr hau i feddu dim o'r gwres dwyfol hwn yn eu haddoliadau. Yn ail, y dyn halogedig, sy'n ymwerthu i'w chwantau ffaidd: y mae gwres hwn yn rhedeg ffordd arall. A ddichon y galon sydd yn ymlogsi gan chwantau lai na bod yn oer mewn gweddi. Rhaid i dân uffern gael ei ddiffodd cyn hwn o'r nef gael ei ennyn. Yn drydydd yr enaid dan rym meddyliau gwbiog, calon yr hwn, fel Satan, sydd yn ymrodio ar hys y ddaear, tra y mae eu llygaid, dybygid, wedi eu hoelio wrth y nef. A all hwn fod yn wresog? A ddichon y serchiadau dwymno â'i meddwl yn erwydro? Y mae gwresogrwydd yn uno yr enaid ac yn hel i mewn y meddyliau at y gwaith mewn llaw; ni ddiodd efe osgoad, ond a ettyb bob meddyliau esttronol, fel Nehemiah mewn achos arall, y rhai a fynasant ei dynu oddi wrth adeiladu "Gwaith mawr yr wyf fi yn ei wneuthur" o herwydd hyny ni allaf fi ddyfod i wared pa ham y safai y gwaith?" *Nehem.* vi. 3. Dywedir am Elias, yn ei daer weddi, "Mewn gweddi efe a weddiodd" (*Iago* v. 17), megys yng ngweledigaeth Ezeziel, yr oedd olwyn o fewn olwyn, felly gweddi o fewn i'w weddi yntau. Ond y mae yr enaid gwbiog yn ddiweddi; ei wesusau yn gwaeddi, a'i feddwl yn chwareu. Y mae ei lygad i fyny i'r nef, fel pe byddai am annelu yno; ond y mae yn saethu ei feddyliau i waered i'r ddaear. Yn bedwerydd, y dyn y mae y ddyledswydd yn faich ac yn flinder iddo; sydd yn poeni ac yn griddfan, nid yn y gwaith, ond dano; sydd yn gweddio fel dyn claf uwch ben ei orchwyl, heb gael pleser neu hyfrydwech ynddo. Gwir wresogrwydd nid yw yn blino nac yn teimlo poen. Y cresslwr pan y mae yn dwymn wrth ei waith, a'r milwr yn y frwydr, nid yw y naill yn teimlo ei flinder na'r llall ei glwyfau. Pethau cryfion ydyw serchiadau yn gallu codi i fyny gorph gwau. Am hyny y mae yr hwn sydd yn codi ei ysgwydd wrth ddyledswydd, ac yn troi ffordd yma a ffordd arall, fel dyn claf o'r naill ocler i'w wely i'r llall, am esmwythder, yn dangos fod ei hyfrydwech yn fychan yn y gwaith, ac yn ganlynol ei sel yn llai. Mae y doluriau yma i ysbryd dyn mewn gweddi (gadawn ei fod yn Gristion) yn dyfod oddi wrt

ryw anwyd a'i daliodd, ac yn profi ei fod dan affechedd trwm. Nid mwy yw y blas y mae dyn mewn iechyd yn gael ar ei fwyd, neu ei faeth oddi wrtho, nag y mae y Cristion yn gael yn nyledswyddau crefydd, pan fyddo ei galon yn yr iawn dymmer.

PENNOD V.

Rhai rhesymau cynhyrfol at ennyn ein sel a'n gwresogrwydd mewn gweddi.

Defn. 2. Er annogaeth. A ydwyd ti yn gweddio? Gweddïa yn wresog, onid e, udd wyt yn gwneuthur dim. Nid yw gweddi oer ddim mwy yn weddi nag yw tân paentiedig yn dân. Y weddi hono nad ydyw yn cynnhesu dy galon di dy hun, a wna hi, dybygit ti, gynhyrfu calon Duw? Pa beth a dâl troi y dwsel, a'r llestr wedi rhewi? Ni ddichon dyn wneud defnydd o'i law wedi iddi fferu gan oerfel; na thithau o'th ysbryd mewn dyledswydd, nes y gwresoger dy galon i ryw deimlad o'th eisieu. Yn awr, at ddwyn dy galon oer i beth gwres ysbrydol.

DOSB. I.

1af. Ystyria ragoriaeth sel a gwresogrwydd. Os Cristion, y mae ynot egwyddor sydd yn dy dueddu i hoffi pethau rhagorol; a'r cyfryw yw hwn. Bywyd ydyw rhagoriaeth, i.e. hyd yn oed mewn creaduriaid difwyd, y mae rhyw debygoliaeth bywyd; ac yn hyn y mae eu rhagoriaeth yn gynnwysedig. Nerth bywiog gwin sydd yn ei ganmawl; pa beth a dâl wedi diflasu a marw? Yn y diemwnt, y mae y gwerth yn ol y bywiog ddisgleirdeb. Mewn dwfr ffynon, yr hyn a'i gwna i ragori yw ei fywiogrwydd; am hyn ei gelwir dwfr bywiol. Felly yn llawer mwy mewn bodau ag sydd ganddynt wir fywyd. Am hyn y mae chwanel neu wybedyn yn cael eu cyfrif yn greaduriaid ardderchocach na'r haul. Po uchaf y math o fywyd fo gan greaduriaid, mwyaf dyrchafedig o hyn yw eu naturiaethau; yn anifeiliaid uwch law llysiâu, dynion uwch law anifeiliaid, ac angylion uwch law dynion. Yn awr, megys y mae bywyd yn rhoddi rhagoriaeth i'r bod, felly y mae bywiogrwydd mewn gweithrediad yn rhoddi rhagoriaeth i'r bywyd. Po ardderchocaf y byddo bywyd y creadur, mwyaf grymus yw ei weithrediau: y mae amgyffrediad angel yn gyflymach, a'i sel yn gryfach nag a geir mewn dyn. Felly, po mwyaf bywiog wyt yn dy ddyledswydd, a pho mwyaf dy sel ynddi, nesaf yr wyt yn dyfod at natur yr ysbrydion gogoneddus hyn, pa rai am eu sel yng ngwasanaeth Duw, a elwir yn fflam dân. Yr wyf yn addef, bod yn oer a thawel mewn pethau is, a'n materion rhwng gwr a gwr, sydd well na sel. Felly y dywed Solomon (*Diar.* xvii. 27), "Gwr pwyllog sydd

ymarhous (yn ol yr Hebraeg, sydd oer) o ysbryd. Ni wna camau mo'i rhoddi ar dân, ac ni wna digwyddiadau yn y byd mo'i boethi i radd fawr o lawenydd, tristwch, na digder. Pwy mwy arafaidd yn y rhai hyn na Moses? Ond rhoddwch y dyn sanctaidd hwn i weddio, y mae yn dân a charth, yn fywyd ac yn seli gyd. Yn wir, y mae yn rhagoriaeth a berthyn i'r gwresogrwydd ysbryd yma mewn gweddi, er ei fod yn llonyddu pob nwydau pechadurus. Gwresogrwydd Dafydd yn gweddio dros ei blentyn tra y bu yn fyw a wnaeth iddo dderbyn y newydd o'i farwolaeth mor dawel ac amyneddgar. Nid ydym yn clywed am ateb digllawn gan Hannah i'w gwrthwynebwraig goeglyd Penina: a pha ham? ond am ei bod wedi dysgu y ffordd i lonyddu ei hysbryd trwy weddi? Pa raid iddi hi ymryson â'i gelynes, pan y gallai, trwy ymdrechu â Duw, ei gynhyrfu ef i gymmyrd ei phlaid? Ac yn ddiâu, pe na byddai dim arall i ganmawl gwresogrwydd ysbryd mewn gweddi, y mae hyn yn ddigon, ei fod, fel telyn Dafydd, yn gallu rhoddi i lawr ysbryd drwg ein nwydau, y rhai y mae y Cristion yn edrych arnynt fel pechodau mawrion, ac yn ddiddadl yn eu profi yn flinderau trymion. Pa bryd y boddlonir di yn fwy na phan y bo dy enaid gyda'r bywiogrwydd a'r gwres mwyaf yn esgyn yn fflam dy aberth i fynwes Duw? Mae yn bossibl y deui, fel Moses, i waered o'r mynydd mewn mwy o wres; ond yn erbyn pechod y bydd, ac nid ym mhlaid hunan. Eithr y mae gweddi ffurfiol yn debyg i blastr, yn cynnwys cyfferiau da, etto, o'i roi yn oer wrth y briw, yn ei waethgu yn fwy nag yn ei iachau.

DOSB. II.

2il. Y mae Duw yn haeddu cael grym penaf dy enaid yn dy weddiau. Yn gyntaf, efe a roddodd i ti alluoedd dy enaid a'th holl serchiadau. Yn gyfatebol i'r *fold*, felly y mae y ddelw y fwrir ynddi: y cyfryw wyt tithau, ag oeddit ti yn narlunied y meddwl dwyfol. Yn awr, oni all dy Wneuthurwr alw am ei rodd ei hun? Yr hwn a wnaeth y gareg yn dalp difwyd, ac a gyfyngodd wael enaid yr anifail yn rhwym wrth ei deimlad a'i flas, efe a'th addurnodd di âg archwaeth rhesymol ac â serchiadau ysbrydol. Ac ai ni fydd i ti roddi y galluoedd goruchel hyn ar waith yng ngwasanaeth dy Dduw gan yr hwn y cefaist hwynt? Caled fyddai y tro yn wir i Dduw gael nacâd o'i rodd ei hun: "At ei eiddo ei hun y daeth (Crist); a'i eiddo ei hun nis derbyniasant ef." Felly yma, gall achwyn, At fy nghreadur fy hun y daethum: genyf y cafodd ei fywyd; ac nid wyf yn cael ganddo ond y galon farw. Beth pe byddai cyfaill yn rhoddi i ti rybudd y daw cyn byddo hir i'th dŷ, ac yn danfon o'i flauen lestr o'r gwin goreu, a wnelit ti, pan ddeuai, rwnnach ei groesawu, a'i droi hebio

â rhywbeth marw diflas? A elli di ddisgwyl gwell cyfaill i edrych am danat na dy Dduw? Mae y Salmydd yn ein galwi wasanaethu yr Arglwydd mewn llawenydd; a pha reswm sydd ganddo i'n cymmhell? "Gwybyddwch mai yr Arglwyddsy Dduw; efe a'n gwnaeth;" *Salm c.* Pwy sydd yn planu gwinllan, ac heb ddisgwyl yfed o'r gwin? Os yw Duw yn galw ein hŷd a'n gwin yn eiddo ef, y mae yn disgwyl ei wasanaethu â hwynt; ac yn llawer mwy ein cariad a'n llawenydd; o blegid yn sicr ni rydd efe genad i ni dreulio y goreu o'i roddion ar neb ond efe ei hunan. Gan hyn, pan elych i weddio, cyffroa dy serchiadau, sydd yn cysgu o bossibl ar liniau rhyw greadur fel Ionah yn ystlysau y llong: "Cyfod gysgadur, galw ar dy Dduw." Yn ail, y mae yn haeddu dy serch, am fod ei serch arnat. Y mae yn eiddigus o honot, am ei fod yn awyddus am danat. Da y gall achwyn rhag dy weddiau oer, breuddwydlyd, pan y mae ei galon ef yn fflam o gariad atat ti. Uchel a rhyfeddol ydyw yr ymadroddion â pha rai y mae yn gosod allan ei anwyl-serch at ei bobl. Pa beth bynag a wna efe erddynt, y mae gyda sel. Wrth eu hamddiffyn hwynt; megys adar yn ehedeg, felly yr amddiffyn yr Arglwydd Ierusalem; hyny yw, yn gyflym, fel y mae aderyn yn ehedeg mewn llawn brys at ei nyth, pan welo fod ei chywion mewn perygl. Wrth eu dial hwynt ar eu gelynyon; "Sel Arglwydd y lluoedd a wna hyn;" *Esa. xxxvii. 32.* Wrth wrandaw eu gweddïau, efe a'i gwna gyda hyfrydweh. Wrth faddeu eu pechodau, y mae yn barod i faddeu—yn arbod yn helaeth; pan ofynant un dalent, y mae yn rhoddi iddynt ddwy. Y mae Iacob yn deisyf cael myned a dychwelyd yn ddiogel; y mae yn rhoddi hyn a mwy nag a geisiodd, o herwydd y mae yn ei ddwyn adref yn ddwy fintai. Nid yw yn rhoddi y drugaredd leiaf chwaith heb dynu allan ei enaid a'i galon gyda hi. Hyd yn oed yn ei ragluniaethau cystuddiol, lle y tybid ei fod yn dangos leiaf o gariad, yno y mae ei galon yn llofo drosodd o hono: "Pa fodd y'th roddaf ymaith, Ephraim: trôdd fy nghalon ynof;" *Iios. xi. 8.* Yn drydydd, Y mae yn dalwr da i sel ei bobl; y mae yn wobrwyr i'r rhai sydd yn ei geisio ef: *Heb. xi. 6.* Eriodd ni chafodd gweddi wresog gresaw oer gydag ef. Fe gyrhodd gweddi Elias dân o'r nef, am ei bod yn dwyn tân ynddi i'r nef. Fe ddyrchafwyd llwyth Lefi o herwydd ei sel i'r offeiriadaeth. A pha ham? Yn sicr, ni fyddai iddynt hwy oedd mor awyddus i wneuthur cyfiawnder ar eu brodyr, fod yn llai awyddus i wneuthur cymmmod drostynt â'u haberthau. Y mae y rhan fwyaf yn colli grym a gwres eu dymuniadau trwy eu cam-osod; y maent yn wresog dros bethau na allant, a person-

au yn fynych na fynant dalu iddynt am e poen. O mor dwyman yw y cybydd yn e ymlidadi ar ol elw y byd! y mae yn dyhe ar ol llwch y ddaear, a hyny ar benau tlodion. Ond pa wobr a gaiff am ei lafur? Ar ol ei holl elwa, fel y cwn yn hela yr ys gyfarnog, y mae yn fynych yn ol o'i gais, a o'r diwedd, yn myned yn druan a newynlly i wely oer ei fedd: ac yn ddiôs, yn ei ddiweddd, ynyfod fydd: *Ier. xvii. 11.* Pa nifer wyr y llys, ar ol cynffoni fel cwn gweneithus, a llyfu poer eu meistriaid, dan ddisgwyl am ryw grwst o ddyrchafiad, a somwyd, ac gawsant i'r y diwedd wobr eu truth a'u haferion gorwael ym min bwyell y dienyddwr, neu a adawyd i farw mewn poenus hir aeth yng ngwên eu tywysog. Yr hyn a barodd i'r cardinal trachwantus hwnw addef y rhy ddiweddar, pe buasai mor ofalus yn gweini i Dduw y nef ag i'w feistr daearol na chwasi mo'i adael mor druenus yn diwedd. Mewn gair, ai nid ydym yn gwel ed y dyn coelgrefyddol yn curo ei ddwy fron, ac yn tori ei gnawd ei hun o ryw se i'w dduw o bren, na fedd na chlust i'w glywed na llaw i'w gynnorthwyo? Ac onid yw y Duw byw, dy anwyl Dad, yn haeddu dy sel di, yn fwy na'u heilunod cudion a meirwon yr eiddynt hwy? Rhag gwylyd—na fyddwn oer yn ei addoliad ef, pan y mae yr eilunaddolwr yn chwysu o flaen ei dduw bratiog. Na oddef i sel y bydolddyr wrth hela ei famnon daearol dy adael ddy yn ymlusgo ar ol, gyda rhyw wasanaeth di ofal a digalon i'th Arglwydd. Nac ofna chwaith hwriad y byd o achos dy sel; y maent hwy yn dy dybid di yn ynyfod, ond ti a wyddost eu bod hwy felly.

PENNOD VI.

Rhywfaint mewn ffordd o gynnorthwyo i gynnyrfu ein serchiadau mewn gweddi.

Gof. Ond pa fodd y gallwn ni gyrhaedd y gwresogrydd ysbryd yma mewn gweddi.

At. Yr wyt ti sydd yn gofyn fel hyn yn wir Gristion, neu nid wyt. Os nad wyt, y mae gofyniad arall i gael y blaen, Pa fodd y mae i ti, sydd yn bresennol mewn cyflwr o farwolaeth ysbrydol, gael bywyd. Rhaid bod bywyd yn yr enaid cyn y dichon fod yn y ddyledswydd. Ni wna yr holl fentyl a fedd y gwerthwr dillad ddwyn corpl marw i gynghesrwydd, na dim rhesymau (er eu cymmeryd o'r lleoedd mwyaf cynnyrffio yn y Beibl) beri i tithau weddio yn wresog cyhyd ag y byddo dy enaid mewn cyflwr marw. Dos yn gyntaf at Grist i gael bywyd; yna wedi i ti gael bywyd, bydd rhyw obaith dy gael i beth cynghesrwydd.

Ond yn ail, os wyt wir Gristion, y mae yn galw etto am eithaf dy ofal i gael, ac wedi ti gael, i gadw dy enaid mewn gwres tynerol. Megys na ddichon y gareg o honi ei hun esgyn i fyny i'r awyr; yr aderyn (er y gall wneuthur hyn, etto) nis gall aros yno'n hir heb beth llafur ac ysgydwad ar ei adnydd. Maegan y saint wreichionen o dân sefol yn eu mynwes; ond y mae angen am u gofal a'u diwydrwydd i'w chadw yn fyw. Mae rhwd yn magu o'r aur, prifyn o'r ren, gwyfyu o'r dilledyn, i'w difa mewn mser; a lludw o'r glo sydd yn diffodd y dân; i.e. ac yn y Cristion hefyd, yr hyn a era ei sel oddi eithr ei drin â gwyliadwrneth feunyddiol. Edrych gan hyny beth w dy rwystr penaf i wresogrydd mewn weddi, ac ymosod yn wrol i'w erbyn. Os yddi ddigyffro yn hyn, ti fyddi yn fwy dyffro yn y weddi ei hunan. Yr hwn a wŷr m dwll lleidiog yn y sffordd, ac nid ydyw'n ei drwsio cyn myned i'w daith, ni fedd chos i synu pan fyddo ei gerbyd ynglŷn nddo.

Yn awr, nid yr un peth yw hwn ym abawb; am hyny y mae yn angenrheidiol ti fod mor gydnabyddus â'th gyflwr dy hun g i wybod pa beth ydyw dy rwystr mawr mewn dyledswydd. Yn sicr, oni bai bod iurfafen enaid y Cristion yn cael ei hoeri an ryw darth ffyrnig sydd yn codi oddi mewn i'w fynwes ei hun, ac yn gwanhau erth gras ynddo, hi fyddai yn haf trwy y wyddyn gydag ef: byddai ei galon yn wresog o hyd, a'i serchiadau yn fywiog mewn dyledswydd. Edrych gan hyny yn anwl o ba le y mae dy oerder yn dyfod. Fe allai bod dy galon yn ymdreulio yn ormodol ar y byd yn y diwrnod; ac erbyn y os y mae dy ysbrydoedd yn ddirym, pan y yllit ddyfod o flaen Duw mewn gweddi. Os myni fod yn wresocach mewn dyledswydd, haid i ti fod yn oerach tuag at y byd. Mae ceffyl sy dan ei bwn drwy y dydd, yn naddas i'w yru yn chwimwth y nos. Pren a yddo â'i sudd ynddo, nid hawdd y llysg; ac nid yn hwylys y cymmer dy galon dithau dân mewn dyledswyddau sanctaidd, pan wyt yn lyfod atynt wedi dy fwydo yn y byd. Dihysydder di gan hyny o'th serchiadau awchus i hwn, os wyt yn meddwl eu cael yn wresg a bywiog yn y lleill. Yn awr, nid oes ordd well i hyn nag i ti osod dy enaid dan sffordd mynych am gariad Crist atat, dy erthynas âg ef, ynghyd â'r pethau mawrion a gogoneddus wyt yn eu disgwyl oddi rtho mewn byd arall. Hyn, os dim, a ycha i fyny dy gariad at y byd hwn, fel y wneir coed, o'u gosod yn yr haul, yn addas i gymmeryd tân. Ond os gadewi dy galon i fwydo mewn meddyliu gormodol o gariad at y byd, ti gei brofi pan ddelych i weddio ei bod yn debyg i gyff llawn o dwfr wrth gefn y tân, yn hir yn cynneu ac

yn hawdd ei ddiffodd. Ond fe allai bod marweidd-dra dy galon mewn gweddi yn tarddu o ddiffyg teimlad ddfn o'th angenion a'r trugareddau a fyny eu derbyn. Di-ammheu pe gellit ond gweddio mewn teimlad, y gweddi't hefyd gyda gwres. Ni raid i'r dyn newyullyd wrth ysgol i ddysgu iddo ofyn tamaid: ei fol gwag a'i gwna ef yn daer ac ymadroddus. Ai maddeuant am bechod a fyny weddio am dano? Yn gyntaf, Edrych pa ofid ysbryd ydyw i ti. Gwna â'th enaid, fel y llaw-feddyg â'r briwiau dan ei law, yr hwn a'u chwistrella hwy â rhyw ddfwr llym, i edrych pa deimlad sy ganddo o honynt. Gwasga y fath ystyriaethau at dy enaid a ga wnânt i ti deimlo eu llymder: yna, dos a chwasg ar weddi, os gelli. Yr ydym yn cael Dafydd yn gyntaf yn gwânu ei galon, ac yn achwyn o herwydd ei bechod: "Fy nghamweddau a aethant dros fy mhen; megys baich trwm y maent yn rhy drwm i mi" (*Salm xxxviii. 4*); yna, â'i galon yn glaf gan y meddyliu hyn, fel un â physygwriaeth cryf yn gweithio o'i fewn, y mae yn tywallt ei enaid mewn gweddi i Dduw: "O'th flaen di, Arglwydd, y mae fy holl ddymuniaid, ac ni chuddiwyd fy ochenaid oddi wrthyt," *adn. 9*. A wyt ti i weddio dros ereill? Yn gyntaf, dwysymdeimled dy galon â'u gofidiau hwy; a thrwy ysbryd o gyd-ddioddef, dwg dy hun dan eu beichiau, fel pe bait yn eu cyflwr. Dyna y pryd y bydd dy galon yn wresog mewn gweddi drostynt, sef pau fo gweddi yn tarddu o galon dodeddig gan dosturi atynt. Fel hyn y darllenwn, fod Crist yn ymosidio am Lazarus, cyn codi ei lygaid i'r nef yn ei achos: *Ioan xi. 33, 38*. Drachefn, y mae yn bossibl bod dy ddiffyg o sel yn deilliaw oddi wrth fyrdra dy fydd. Ffydd yw y cefn dur i fwa gweddi, hon sy'n anfon y saeth gyda grym gweddi i'r nef. Lle y byddo ffydd yn wan, nid yw y waedd yn gref. Yr hwn a elo ynghylch gorchwyl mewn gobaith gwan o lwyddo, ni wna efe mo hono ond yn llwfr; y mae yn gweithio, fel y dywedwn am gefyl marw. Gwir yw y ddiareb, "Gwan ddisgwyliad, gwan ddymuniaid." Yr ydym yn darllen am lefaen cryf a offrymodd Crist yn nyddiau ei gnawd; yn awr, craffwch pa beth oedd sail ei lef, at yr hwn oedd abl i'w achub ef: *Heb. v. 7*. Ac nid hyn yn unig, ond os edrychwch i'r weddi hono, at ba un y mae hyn yn cyfeirio, chwi a gewch ei fod yn glynu wrth Dduw fel ei Dduw. "Fy-Nuw, fy Nuw;" ei afael ar Dduw oedd yn dal ei ysbryd i fyny yn ei weddi. Felly yn yr amryw esamplau o weddiâu y saint a goffeir yn y Beibl, chwi ellwch weled y modd yr oedd ysbryd gweddi yn treio ac yn llenwi, yn syrthio ac yn codi yn ol fel yr oedd eu ffydd i lawr neu i fyny. Hyn a barodd i Dafydd fod mor daer ar Dduw yn nydd ei gyfyngder:

“Credais, am hyny y llefarais; cystudd-iwyd fi yn ddirfawr;” *Salm* cxvi. 10. Hyn a wnaeth y wraig o Ganaan mor anorchfygol daer. Er i Grist wgu a dwrddio, ei nacau a'i difrio, y mae hi er hyny yn gwasgu nesnes ato, yn casglu dadleuon hyd yn oed oddi wrth ei nacâd, fel pe byddai filwr yn saethu bwledi ei elyn arno ef yn ol: ac fe ddywed Crist i ni pa beth a ddaliodd ei hysbryd mor ddi-gryn, “O wraig, mawr yw dy ffydd;” *Mat.* xi. 28. Yn ddiweddfaf, Gallai ei fod yn tarddu oddi wrth dristwch a roddaist i'r Glân Ysbryd, yr hwn yn unig a ddichon ennyn dy serchiadau; a pha ryfeddod dy fod yn oer mewn gweddi, pan yw efe wedi ymad-ael, yr hwn oedd i gadw dy galon yn gyn-nhes wrthi? Beth yw y corph heb yr enaid, ond elai oer, a daear farw. A pha beth yw yr enaid heb yr ysbryd? Dim gwell yn wir. O! gwahodd ef yn ol at dy enaid, onid e, dyna ddiwedd ar dy weddio. Ac os dymunit ei berswadio ef i ddychwelyd, chwilia pa beth a'i tristaodd ef, a chais hwn ymaith. Fe fydd i'r hyn a barodd i'r golomen hon adael ei thrigle, ei rhwystro etto yn ei hol, oddi eithr iddo gael ei symmud.

PENNOD VII.

Y trydydd peth gofynol at weddio a'n hysbryd; sef diragrithrwydd. Dangosiad yn mha bethau y mae yn gynnwysedig, ac mor rheididol ydyw.

3. Y TRYDYDD peth gofynol at weddio a'n hysbryd, yw diragrithrwydd. Fe all fod llawer o wres, lle nad oes ond ychydig neu ddim diragrithrwydd; a thân dieithr yw hwn, poethder afiachus, nid gwres tyner naturiol y creadur newydd, sydd yn dyfod oddi wrth Dduw, ac yn gweithio i Dduw, tra y mae y llall yn tyfu o'r hunan, ac yn diweddu yn yr hunan. Yn wir, y tân a gynneuir gan hunan, ni thâl ond i dymyno bysedd ei gynneuwr, “Wele, chwi oll y rhai ydych yn cynneu tân, ac yn eich amgylchu cich hunain â gwreichionen;” *Esa.* i. 15. Y mae y prophwyd yn eu gosod allan fel yn eistedd o amgylch eu tân a wnaethant. Y mae hunan-weithrediad a hunan-gais yn wastad yn cydfyned; am hyny, y mae ein Harglwydd yn ymofyn am ysbryd a gwirionedd ynghyd (*Joan* iv. 24): “Rhaid i'r rhai a addolant y Tad, addoli mewn ysbryd a gwirionedd.”

Gof. Ond ym mha beth y mae y gwresog-rwydd diragrith yma yn gynnwysedig?

At. Y mae sel yn meddiannu y serchiadau; diragrithrwydd yn iawn osod eu hamecan, ac yn gynnwysedig yn eu purdeb a'u ffyddlondeb. Y mae y gwaed yn fynych yn boeth, pan na byddo yn fwyaf pur, a'r serchiadau yn yn gryfion pan na byddo y galon yn onest. Am hyny y mae yr apostol yn ein hannog

“i garu ein gilydd o galon bur yn helaeth i *Pedr* i. 22; ac mewn lle arall, cawn Pa yn son am “dristau yn dduwiol;” hyny yn wirioneddol. Yn awr, y mae gwirionedd y galon mewn gweddi yn ymddango pan fyddo dyn yn syml yn ei erfyniadau, hyny o egwyddorion pur, i ddibenion pur.

1af. Pan fyddo yn syml yn ei erfymiad at Dduw—mynegfys ei dafod oddi allan, olwynion ei galon oddi mewn yn cydfyned- nid yw yn rhedeg ar y pechod hwnw f wefusau, a dymunai ei galon ei arbed; na yw yn gwneuthur cri mawr am y gras hwn y byddai ddrwg ganddo ei gael. Dyma w nod y rhagrithiwr; yr hwn yn fynych i chwennychai i Dduw ei gymmeryd ar ei ai. Diwrnod alaethus a fydd i'r cyfryw, pe ddwg Duw eu cydwybodau eu hunain i'w yn dystion yn eu herbryn, na ddarfuo i'w calonau erioed gyduono yn deg â deisyfiadau eu gwefusau. Mae dichell weithiau yn cael ei harfer gan frenhinoedd, i anfon cenhadu a gosod i lawr ammodau undeb, pan i byddo dim yn mhellach o'r meddwl i heddwch. Ac y mae uwyll o'r fath i'w galyng nghalon dwyllodrus dyn, i gysgodi bwriadau dirgel o ryfel a gwrthryfel yn erby Duw, a chynnygion llyfiau am ei heddwe yn y weddi.

2il. Pan fyddo y dyn nid yn unig yn syml yn ei dymuniad, ond hyny oddi ar egwyddor bur, i ddiben pur. Nid wyf yn ammhebu na ddichon rhagrithiwr, mewn cyfaddefiafod dan flinder diffuant yn ei ysbryd o he wrydd ei bechodau, a dymuno maddeuant o galon, i'w gyffrous; etto, nid o egwyddor bur casineb at bechod, ond arswyd y ddaledd y mae yn ganfod uwch ei ben o'i ached ac nid i ddiben pur, fel y dyrchafer gogoliant a gras Duw ynddo a thrwyddo, o'r rhag iddo gael ei boeni gan gyfiawn ddi- edd Duw. Geill dymuno grasusau yr Ysbryd; etto, nid o ddim cariad atynt, ond y unig o raid; am y gwyr na chedwir n hono hebddynt o uffern. Yn debyg i ddi- claf mewn llym boen gan y gareg, neu ry ddolur tost arall, yn galw am ryw ddi- od ddrwg ganddo ei blas, am y gwyr na cha esmwythdra, oddi eithr iddo ei hyfed. O'r y mae yr enaid diragrith yn dymuno gra- nid yn unig fel physygrwriaeth, ond ei yr borth, y mae yn ei chwennych, nid yn unig fel peth angenrheidiol, ond melus hefyd i'w archwaeth. Y mae daioni a godidogryw sancteiddrwydd ynddo ei hunan yn ennyn yr enaid y fath gariad ato, nes yw fel u weddi ei ddal gan hawddgarwch gwryf, ddywed, y prioda efe hi, er bod heb ddi- i'w chanlyb ond y dillad ar ei chefn. Fel y dymunai y galon ddiragrith gael sanc- eiddrwydd, pe na byddai dim mantais i'w ganlyn ond a geir yn ei natur garuaidd hun. Cymmaint a hyn i ddangos pa bet- yw diragrithrwydd mewn gweddi.

Yn awr, y neb a fynai weddio yn gymheradwy, rhaid iddo weddio fel hyn yn ei sbryd; hyny yw, â grym diffuant ei ysbryd: "Gweddi yr uniawn sydd hoff gando;" *Diar.* xv. 8. Nadab ac Abihu a dlygasant dân, a thân a gawsant—tân dicitir i'w difa am y tân dicitbra offrymasant (*Lev.* x. 50), a'r cyfryw yw pob gwres a sel add yw wedi ei gymmeryd oddi ar allor olou ddiffuant. Taer weddi, llawer a dychon hi, ond rhaid iddi fod yn weddi y cyflawn—a'r cyfryw yw y dyn diragrith yn nig. Ac nid rhyfedd fod Duw yn sefyll ymumaint ar ddiragrithrwydd mewn gweddi, au fod gwefus gwirionedd mor brisfawr yd yn oed ym mhlith dynion. Y mae natur wedi dysgu i ddyinion wirio eu geiriau wrth ereill, drwy osod eu llaw ar eu dwyronau, fel sicrhâd fod yr hyn a ddywedant, neu a addawant, yn wir ac o'r galon. Cyfiriad o'r fath a gawn yn y publican tlawd (*Luc* xviii. 13): "Efe a gurodd ei ddwyfron, am ddywedyd, O Dduw, bydd drugarog wrthyf bechadur;" gan ddangos drwy hyny "ba le y tarddodd ei gyfaddefiad athrist. "E ddaifu i'r goleuni hwnw a fynegodd i'r aguniad fod yn rhaid addoli Duw, eu ysgu hefyd, fod yn rhaid i'r addoliad hwn deilliaw o ranau tu mewnol y galon. *In aucto quid facit aurum, &c.* Mewn gwaith anctaid, pa beth a dâl aur? Gadewch i hi, meddant, offrymu yr hyn sydd fwy gwerthfawr na'r holl drysorau, sef, celledd sanctaidd y meddwl. Y mae yn arfer yfedd, a fynegir gan Beuzo yn ei hanesion m Indiaid America: "Wrth addoli eu luwiau," medd efe, "hwy a arferant wthio oren bychan i lawr i'r gwddf, nes y cyfogent; i ddangos i'r eilun nad oeddnt yn lochesu dim dirgel ddrwg yn y fynwes. Ni fuaswn yn crybwyll am yr arfer farbaraidd hon, ond i ddangos mor ddfwn yw y farn yma yn y gydwylbod naturiol, y dylem fod yn diffuant yn addoliad Duw.

Defn. Pared hyn i ni chwilio, a ydym fel hyn yn gweddio yn yr ysbryd, ac a geir diragrithrwydd yn argrahedig ar ein gwresgrwydd. Onid yw dy weddi yn wresog, nis gall hi fod yn ddiffuant, ond hi ddichon fod â gwres ynddi, heb wirionedd. Gogr nian iawn yw hwn; os deui di trwyddo, ti eilli, heb ryfygu, roddi dy hun i lawr yn Gristion. Ond pa mor wresog bynag ydwyt heb ddiragrithrwydd, nid yw o ddim gwerth; nag e, y mae sel heb uniondeb yn waeth na bod yn oer. Nid â neb i uffern gyda mwy o gywilydd na'r dyn poeth ei sel, a thwyll tani, yr hwn sydd yn hedeg fel i'r entych, yn ei gerbyd tanlyd, ond a geir o'r diwedd yn gythraul yn mantell Samuel, ac felly a luchir fel mellen o'r nef, fel y mynasai i'w gymmydogion feddwl ei fod yn smyned. Na fydd anfoddlawn i'w chwilio; ond e, dyna ddigon i'w brofi yn bwdr, heb

chwilio yn mhellach. Os cauir y drws yn erbyn swyddwr Duw, y mae drwg yn y tŷ. Yn awr, i'w ddwyn ym mlaen yn y gwaith, ymofyn—

PENNOD VIII.

Cyfarwyddiaidau at brofi diragrithrwydd ein calonau mewn gweddi; a chynghor neu ddau tuag at gael y gras hwn.

DOSB. I.

1. PA fath yw dy ofal yn cyflawni y ddyledswydd hon o weddi yn y dirgel? Os yw dy galon yn ddiragrith, y mae yn hyfryd ganddi yr ystafell ddirgel? Y mae calon ffals am alw ereill i weled ei sel dros Dduw. Fe allai bod y dyn yn barod iawn i ddyledswydd, lle y byddo edrychwyr i'w ganmawl; ac y gall fod yn dwym ac yn awchus iawn wrth y gwaith, ond y mae efe naill ai yn estron hollol i weddi ddirgel, neu yute yn oer iawn yn ei chylch. Y mae fel llong heb ddim gwynt, am ei fod yn fyr o anadl ereill i lenwi ei hwylliau. Dyna ball ar yr achlysuron, oedd yn peri ei gyflymdra; a gwan yw ei ymlusgiad, wrth yr hyn a wnai efe yng ngwydd y bobl. Ond am y gwir Gristion, nid yw efe un amser yn profi mwy o ryddid ysbryd, a thoddiadau calon, nag wrth nesau at Dduw ar ei ben ei hun. Ioseph, pan oedd am roddi llawn ollyngiad i'w anwyl serch, fe geisiodd le dirgel i wylo; ac am hyny, aeth i'w ystafell. *Gen.* xliii. 30. Felly yr â y Cristion diffuant i'w ystafell yntau, ac y tywallt ei galon i fynwes Duw, ac y gedy i'w serchiadau o ofid am oehod, a chariad at Grist, gael eu llawn rwyng, pa rai, mewn gweddi gyhoedd, y mae yn attal y dangosiad o honynt allan o orchwydd syml, ac ofn ei weled gan ereill, yr hyn nid yw yn hela am dano. Yn awr, dywed, Gristion, pa fath yw dy dymmer? A all dy ystafell dystio drosot yn hyn o beth? Chwareu y rhagrithiwr ydyw ymegnio i'r eithaf mewn dyledswydd, pan fyddo ganddo edrychwyr, a thynu yn llac yn ei dresi, pan fyddo ar ei ben ei hun. Yn debyg i rai a ânt â'u bwyd goreu i'r farchnad, ac a gadwant y gwaethaf yn ymborth gartref; ac ereill a ollyngant et gwin goreu yn eu selerau gwerthu, ond a yfant y marwaidd a'r diflas wrth eu byrddau eu hunain.

2. Dal sylw arnat dy hun yn dy addoliadau mwy cyhoeddus, a hyny yn neillduol yn y ddau a ganlyn: 1af. Pan fyddych yn gweddio o flaen ereill. 2il. Pan fyddych yn uno âg ereill a fyddo yn gweddio.

1af. Pan fyddych yn gweddio o flaen ereill; craffa ar ba beth yr wyt yn treulid dy ofal a'w sel benaf; pa un ai ar blisg, a ai ar gnewyllyn gweddi; ar foddhau clust a llygad dynion, yute ar lwyddo gyda Duw;

ar agwedd ymostyngol dy gorph, ynte ar ymostyngiad tu mewnol dy enaid; ar wychder dy eiriau, ynte ar nerth dy ffydd; ar gynnhwrf dy ysbrydoedd corphorol yn perillais cryf, ynte ar wresogrwydd dy ysbryd yn peri serchiadau a chalon doddedig. Y gweithrediadau tu mewnol hyn gan yr enaid mewn gweddi, ydynt wir enaid gweddi; ac nid yw yr holl ofal ynghylch y lleill heb y rhai hyn ond tebyg i'r drafferth yn addurno corph marw; ni wna hyn mo'r gelain yn beraidd, na'r rhai hyny mo dy weddi dithau yn beraidd yn ffroenau Duw. Y ffydd, y cariad, y drylliad calon am bechod, a'r serchiadau tu mewnol, a fyddo ar waith mewn gweddi, sydd, fel Elias yn ei gerbyd tanllyd yn esgyn i fyny i'r nef, tra y mae y lleill, fel ei fantell, yn syrthio i'r ddaear. Ni faidd y dyn syml fod yn anweddaidd yn ei ymddygiad oddi allan, y mae yn ofalus hyd yn oed am ei eiriau a'i ddull ymadrodd, ar iddynt fod yn hardd ac addas; ni fynai chwaith weddio ei gydaddolwyr i gysgu, drwy eu ddull marwaidd, breuddwyldyd, a digyffro; ond etto, agwedd tu mewnol ei galon y mae efe yn benaf yn edrych ato, am y gŵyr yn dda nad yw efe yn y lleill ond cŵg i ereill; ac y gall fod heb damaid ei hun, os bydd ei galon yn segur yn y ddyledswydd. Ac am hyny, nid yw yn cyfrif ei fod yn gweddio yn dda, er i'w weddi effeithio ar ereill, oddi eithr iddo brofi ei enaid ei hun yn ymeang yn y gwaith. Ond am y rhagrithiwr, os gall efe ond dyfod drwy y ddyledswydd fel ag i gael mawl dynion o ran plisgyn ei orchwyl, y mae wrth ei fodd, er y dystiolaeth a allai fod o'i fewn, am farweiddra a thwyll ei galon ynddo.

2il. Pan fyddych yn plygu gydag arall a fyddo yn gweddio. A ydyw y doniau a'r grasusau fyddo yn anadlu o ereill mewn gweddi yn twymno dy serchiadau ac yn ennill dy enaid i'w canlyn tua'r nef yn eu herfyniadau—ai ynte dirgel rwnnach a chenfigen sydd yn ymgodi ynot at roddion Duw ynddynt hwy? Fe fyddai hyn yn brawf o lawer o falchder ac afiechyd yn dy ysbryd. Mae y rhagrithiwr yn falch, ac yn tybio yr holl ddwfr yn ddiles, a red heibio i'w felin ef. Ond y mae yr enaid gonest yn prisio doniau ereill; gall ddiolch i Dduw o'i waelod am danynt, a gwneuthur defnydd gostyngedig a da o honynt. Y mae y deisyfiadau grasol a anadla arall, mor fflusus ganddo, a phe byddent o'i enau ei hun. Eithr llygad y rhagrithiwr sy ddrwg, am fod yr eiddo Duw yn dda.

DOSB. II.

3. Craffa a ydyw dy wresogrwydd mewn gweddi yn unffurf. Fe eill y ffals ei galon ymddangos yn boeth iawn mewn gweddi yn erbyn rhyw bechod, ond gall gamu dros y llall; a naill ai ei dael allan o'i gyfaddefiad, ai ei drin yn dra thyrer. Fel un pleidiol,

a chwennychai gadw bywyd y carcharor mae yn ymddangos i'w erbyn, ni ddywed cwbl a w'r; ond fe a friwsiona ei dystic aeth. Felly y rhagrithiwr, o ochr ei anwchwant; y mae yn debyg i un yn tori gwa â phladur hylchog, yn cyrhaedd peth, ac y gadael y llall i sefyll, yn llym wrth i chwant, ac yn arbed y llall: eithr diragrithiwrwydd a dŷr yn deg o'i flaen: "Cyfarwydd fy nghamrau yn dy air; ac na lywodraet ed dim anwiredd arnaf;" *Salm* cxix. 13. Drachefn, Y mae y galon ffals mor anwastad yn ei herfyniadau ag yn ei gwrthfyniadau yn daer iawn am rai trugareddau, a'r rhai hyny yn gyffredin o is natur; ond yn fy oer yn ei dymuniadau am rai sydd fwy. Mae y dyn yn degymu y mint a'r cwmin y ei weddiâu—trugareddau tymmorol wyf y feddwl—ond yn esgeuloso pethau trymaf, addewid, grasusau sancteiddiol yr ysbryd gostyngeddrwydd, syniad nefol, boddlo rwydd, hunan-ymwadiad. Ychydig bae o'r rhai hyn sy lawn ddigon ganddo.

4. Dal sylw a ydyw dy ymegniadau y cyfatfeb i'w weddiâu. Y mae y galon ffals yn ymddangos yn boeth ar weddi, ond chywgech y dyn yn oer ddigon mewn gwaith. Y mae yn gwaeddi yn greulawn yn erbyn bechodau, fel pe byddai am gael eu lladd gyd ar y fan, ond pa beth a wna efe i'w law ei hun at eu dibenu? A ymesyd e ar y gwaith o farwâd? A dŷn efe ymait y tanwydd sydd yn eu porthi? A fydd e yn ofalus i ochel achlysuron pechod? ydyw tentasiynau, pan ddelont, yn ei gael ef mewn arfa ar ei wylwadwriaeth, yn bwriadu eu gwrthsefyll? Och! dim o'r fath beth; os gwna ychydig eiriau ar weddi gwaith, da; onid e, am ddim ym mhellach y mae yn rhy ddiog i fyned yn ei gylech. Ond yr enaid diragrith, nid segur yw efe o'i ol gweddi; wedi rhoddi bloedd i'r nef at gynnorthwy, y mae yn myned ei hun i'w maes, ac yn gwrthsefyll ei chwantau â'i horym, dan wlyo eu symmudiadau, a chynmeryd pob mantais a all gael i syrthio at nnynt, a throï pob trugaredd a ddaw i'w rai yn arf, i guro i lawr bob meddyliu ar bechu mwyach. Felly Ezra, *pen.* ix. 13, 14. "Am i ti, ein Duw, ein cospi yn llai na' hanwiredd, a rhoddi i ni ddiangfa fel hyn, dorem ni drachefn dy orchymynion di? O! na ato Duw, medd yr enaid grasol, i mabyth groesawu y fath feddwl. Pob addewid a wel, y mae yn ei chodi i fyny, fel cleddyd i'w amddiffyn yn erbyn ei elyn: "Gan foga genym yr addewidion hyn, ymlawenhawu;" *2 Cor.* vii. 1. Mi a derfynaf y pen hwn â ychydig gyfarwyddiadau, pa fodd y cyrhaeddwn y diragrithrwydd yma mewn gweddi.

DOSB. III.

(laf.) Cais undeb enaid â Christ drwy ffydd. Ffydd a wna buro y galon oddi wrth

hegwyddorion a'i dibenion gau mewn dyswyddau. Fe wnaeth Duw ddy'n yn unwn, a thra y safodd felly, yr oedd ei lygad droed ar yr iawn; nid oedd na'i lygad yn rych, na'i droed yn camu yn wyrog. Ond ol i Holl wrandaw ar y sarph, fe ddysgodd a efa ddyndolryw ar ei holl, symudiad yrgam y sarph, edrych un ffordd a myned rdd arall: "Gwnaeth Duw ddy'n yn unwn; ond hwy a chwiliasant allan lawer o ychymygion," *Preg.* vii. 29. O! erfyn n hyny, gyda Dafydd, ar i Dduw "adwyddu ysbyrd uniawn o'th fewn;" *Salm*

Yr hyn a ddarfu i'r ysbyrd drwg ei rdroi, yr Ysbyrd sanctaidd yn unig a ei iawn osod. Os yn y llun a'r gwneuthiad y bydd yr achos o fod dryll yn saethu gam, rhaid yw ei ail fwrw, onid e, byth saetha yn uniawn. Y mae rhagrith mewn dyledswydd yn dyfod oddi wrth ffalsidd natur lygredig dyn; rhaid gan hyny i'r lôn fod yn newydd, cyn y gall fod yn gywir. Galon newydd yw y galon syml: "Rhoddaf dynt un galon, ac ysbyrd newydd a roddaf ioch;" *Ezec.* xi. 19. Yr hwn sydd yn caru wionedd oddi mewn, a all ei roddi yno.

(2il.) Gwna i ragrith mewn gweddi ymlangos mor gas i ti ag a fyddo bossibl, ac wneuthur hyn, nid oes achos ei wisgo mewn m dillad ond ei ddillad ei hun. Ystyria ond fath bechod trwm ydyw, a'r fath ffolineb awr; ac mi dybygwn y byddai hyn yn gon i'th osod yn ei erbyn. 1af. Yr h bechod trwm. Y mae celwydd, a troddir gan un dyn wrth y llall, yn bechod a all gynnwys ynddo euogrwydd tra awr; pa beth ynte yw y celwydd hwnw, a troddir wrth Dduw mewn gweddi? Yn er, rhaid i hwn fod yn llawer erchyllach, o erwydd y mae yma gabledd yn yr anwird. Nid yw Duw yn eiriach rhoddi celwydd i'r rhagrithiwr; "Ephraim a'm hamchynodd â chelwydd; a thŷ Israel â wyll;" *Hos.* xi. 12; yr oedd eu celwyddau wrth Dduw yr un nifer a'u gweddiaw. O mynedd Duw! nad yw efe yn taraw y rhagrithiwr yn farw yn y fan, tra y mae y celwydd a ei safn—fel y gwnaeth i Ananias a Sapphira. 2il. Y fath yfydrydd mawr ydyw; hyny (1af.), fel y mae yn annhyciannol. wy ond ynyd a feddyliai ddallu llygaid Hollalluog? A eelli di guddio wyneb yr iul â'th law neu â'th het, fel na thywyno? Ior bell a hyny wyt oddi wrth allu cuddio y fwiadau dirgelaf, fel na wel Duw mo onynt. (2il.) Megys y mae yn amhosibl twyllo Duw, felly yr wyt yn rhoddi siom osturus i ti dy hun. Yr wyt yn tybied y wellhei y mater wrth dy weddio, a thithau n ei yru yn waeth. Pan ddelych i'r prawf m dy fywyd, fe fydd dy ragrith mewn weddi yn ddrntach i ti na'th bechodau erll, yr wyt yn ymboeni i drymhau dy dannedigaeth; yr wyt, fel y dywed Solo-

mon am fath arall o ragrithiwr, yn cynllwyn am dy waed dy hun; ac yn llechu am dy einioes dy hun: *Diar.* i. 18. O'r holl bechaduriaid, y rhagrithiwr sydd yn cael y blaen yn mwriad Duw, a'i barotoad o ddigofaint—parotwyd uffern indoynt hwy fel cyntafanedigion dannedigaeth. Yn *Mat.* xxi. 51, dywedir fod pechaduriaid ereill yn caeleu rhan gyda'r rhagrithiwr, fel y brodyr ieuangaf gyda'r hynaf, yr hwn yw yr etifedd.

(3ydd.) Croeshoelia dy serch i'r byd. Y mae rhagrith mewn crefydd yn tyfu oddi wrth y gwreiddyn elwercw o ryw ymserch anianol heb ei farweiddio. Cyhyd ag y byddo dy ysglyfaeth i waered, fe fydd dy lygad tua'r ddaear, hyd yn oed pan dybygi dy fod fel eryr yn esgyn yn dy weddiaw i'r nef. Y mae y galon ffals yn trin crefydd, i gael ennill y byd; fe wna y dyn ei rith dduwioledeb i wasanaethu fel careg farch, i gael myned ar gefn y creadur. Mae Duw yn ei enau, ond y byd sydd yn ei galon; a llunio y mae i gael cofiaid fwy o hono, trwy ei gymmeriad o ran ei grefydd. Mi a ddarllenais am un a gynygiodd i'w dywysog swm mawr o arian, am ddim ond cenad i ddyfod i'w ŵydd, unwaith neu ddwy yn y dydd, a dywedyd, Duw a gadwo eich Mawrhydi. Y tywysog, yn rhyfedd ganddo ei gynygi mawr, am ffafwr mor fechan, a ofynodd iddo, Pa les a wnai hyn iddo. O Syr, ebe ynte, fe wnai hyn, pe bawn heb gael dim yn rhagor ar eich llaw, fy nwyn i enw mawr yn y wlad fel un o dderbyniad mawr yn y llys; ac fe ddygai y farn hono am danaf fwy o ennill i mi, mewn ysbaid blwyddyn, nag a gostiai y pryriad. Fel hyn y mae rhai, yr wyf yn ofni, â'r enw y maent yn gael o broffeswyr mawrion, yn mhlith eu cynmydogion, yn rhywyddhau eu hamcanion anianol, a'u dyrchafiaid bydol, sydd yn gorwedd dan wraidd eu holl broffes harddwych. O! gwel nad yw hyn ond chwareu gwael, pysgota am fwyniant salw y byd hwn, â'r bach euraidd o grefydd. Fel yr wyt yn caru dy enaid, ac na fynit ei gollu dros byth, er cael dim sy raid ei gollu ar ol ei gael, marwllâ y serchiadau anianol hyny wyt yn brofi yn fwyaf tebygol i dynu dy galon oddi wrth Dduw. Nid adwaenost ti Dduw, os nad wyt yn gweled digon ynddo i'th wneuthur yn hapus, heb gynnorthwy y byd. Hyn, o'i lwyr gredu, a'th wna di yn ddiffiant yn ei wasanaeth. "Myfi yw Duw Hollalluog; rhodia ger fy mron i, a bydd berffaith," ebe Duw wrth Abraham: *Gen.* xvii. 1.

PENNOD IX.

Yn dangos mai gweddi yn Ysbyrd Duw yw y weddi gymmeradwy; a pha beth sydd ofymol at weddio felly yn yr Ysbyrd.

GWEDI myned drwy gynnwysiad, neu bwys

cyntaf yr ymadrodd hwn, "Gweddio yn yr Ysbryd," sef, ysbryd y person a fyddo yn gweddio; a dangos mai dyna y pryd y mae un yn gweddio yn yr ysbryd, sef pan fyddo ei enaid a'i ysbryd ei hun ar waith yn y ddyledswydd—pan fyddo yn gweddio gyda deall, gwresogrwydd, diragrithrwydd—awn bellach at yr ail beth cynnwysedig. Gweddio yn yr ysbryd yw gweddio yn neu drwy Ysbryd Duw: "Gan weddio yn yr Ysbryd Glân;" *Iudas 20*.

Sylw. At iawn-weddio, y mae yn angenrheidiol i ni weddio yn neu trwy Ysbryd Duw. Gweddio, gweithred y creadur ydyw, ond rhodd yr Ysbryd. At ei clyflawni y mae cydgordiad, gan yr Ysbryd Glân, âg enaid neu ysbryd y Cristion. Oldi yma y dywedir fod yr Ysbryd Glân yn erfyn ynom ni (*Rhaf. viii. 26*), ac hefyd ein bod ninnau yn gweddio ynddo ef: *Iudas 20*. Wrth y cyntaf y meddylir ei ysbrydoliaeth ef, drwy yr hyn y mae efe yn cyffroi yr enaid at y gwaith, ac yn ei gynnorthwyo ynddo; wrth yr olaf, cydweithrediad cynneddfau y Cristion. Nid yw yr Ysbryd felly yn gweddio ynddo, fel nad yw y Cristion yn rhoddi dim o'i gynneddfau ei hun ar waith, fel y mae rhai, megys y Ffiamilistiaid, yn gwag ddychymygu. Wrth drin y pwngc yma, mi roddaf gais ar y tri pheth hyn.—

1. Gwirio y pwngc, a phrofi y gwirionedd o hono. 2. Amlygu pa beth yw gweddio trwy Ysbryd Duw. 3. Cymhwyso y pwngc.

DOSE. I.

1. Gwirio y pwngc at iawn weddio fod yn angenrheidiol i ni weddio trwy Ysbryd Duw. Mae hyn yn eglur oddi wrth *Eph. ii. 18*: "Trwyddo ef y mae i ni ein dau ddyfodfa, mewn un Ysbryd, at y Tad." Craffweh ar y geiriau hyn—"mewn un Ysbryd." Megys nad oes ond un Cyfryngwr, i ymddangos ac eiriol drosom yn y nef; felly nid oes ond un Ysbryd, a all weddio ynom, a ninnau trwyddo ef, ar y ddaear. Cystal y gallwn anturio dyfod at y Tad, trwy Gyfryngwr arall heb law Crist, a gweddio trwy ysbryd arall heb law yr Ysbryd Glân. Am hyn y mae ein Harglwydd, pan oedd am ddangos ei anfoddlonrwydd i gais nwydwyllt y disgyblion, yn gwneuthur hyn trwy ddywed-yd wrthynt, "Ni wyddoch o ba ysbryd yr ydych;" *Luc ix. 55*. Fel pe dywedasai, Mae arnoch eisieu adnabod pa ysbryd sydd yn eich cynnyrfu mewn gweddio; oddi eithr bod eich gweddiau yn cael eu hanadlu yn och ac o honoch, gan fy Ysbryd i, y maent yn gas genyf fi, a'm Tad hefyd. Nid mwy yw'r angenrheidrwydd am enw Crist nag am Ysbryd Crist, mewn gweddio. Nid addas enw Crist ond i enau yr Ysbryd; y mae yn air rhy fawr i neb ei adnodd fel y dylai, heb yr Ysbryd i'w gynnorthwyo. "Ni all neb ddywedyd yr Arglwydd Iesu, c. h. trwy yr Ysbryd Glân;" *1 Cor. xii. 3*.

Ffe all un ddywedyd y geiriau, heb ddi waith neillduol yr Ysbryd o'i fewn; ac i y gallai *parrot*. Ond y mae yn gofyn bryd Duw, yn y galon a'r tafod, i ddywed fod yr Iesu yn Arglwydd, yn grediniol, gmeddyliau a serchiadau addas i fawro melynser y mater. Nid enwi Crist yn i a'r genau, mewn gweddio, a dywedyd, mwyn yr Arglwydd, a eunill i ni groe gyda Duw, ond ei ddyweyd mewn ffydd hyn ni wna neb heb yr Ysbryd. Crist y drws sydd yn agoryd i bresenoldeb Dd ac yn gollwng yr enaid, i.e. i'w fynwes; ff yw'r agoriad sydd yn dadgloi y drws; y yr Ysbryd sydd i wneuthur yr agoriad; ac i gynnorthwyo y Cristion i'w droi me gweddio, fel ag i gael dyfodfa at Dd. Chwi wyddoch ei fod yn bechod, dan y g raith, nid yn unig i offrymu aroglada dieithr, ond hefyd i ddwyn tân dieithr: x. 1. Wrth yr aroglarth, oedd yu g mysgiad o bêr lysiau, a appwyntiwyd; Dduw i'w llosgi megys arogl peraidd yr ffroenau, yr arwyddocawyd haeddiant boddlonrwydd Crist; yr hwn, wedi ddryllo gan ddiger ei Dad, a'i hoffryme ei hun yn aberth i Dduw o arogl perai Wrth y tân a roddid ar yr aroglarth, hwn oedd i'w gymmeryd oddi ar yr allor nid o un aelwyd gyffredin, yr arwyddo wyd Ysbryd Duw, trwy yr hwn yr yd i offrymu ein gweddiau a'n mawl, megys yr offrymodd Crist ei hun trwy yr Ysbr tagrwyddol. Dadleu haeddiant Crist me gweddio, ac nid trwy yr Ysbryd, tebyg y ddwyn yr iawn aroglarth, ond tân dieithl ac felly ni bydd ein gweddiau ond m adgas, nid arogl peraidd, yn ei ffroenau y Ef.

DOSE. II.

2. Af rhagof i egluro beth ydyw gwedd trwy Ysbryd Duw. I agor hyn yn w gwybyddwn fod Ysbryd Duw mewn d ffordd yn cynnorthwyo mewn gweddio.

yw trwy ei ddoniau, a'r llall trwy ei ras. Iaf. Y mae Ysbryd Duw yn cynnorthw mewn gweddio trwy ei ddoniau. Yn awr doniau hyn yr addurnia efe dlyn â hw weddi, ydynt naill ai anghyffredinol ai cyffredinol. Doniau anghyffredinol yr Y bryd oedd yn cael eu tywallt yn y prif a seroedd, trwy ba rai y galluogwyd yr ap tolion ac ereill yn wyrthiol i weddio gystal a phregethu yn ddiragfyfyrdod, mew iaith na ddygsant erioed. Y ddawn he fel y mae esbonwyr yn barnu, a feddy gan Paul yn yr ymadrodd hwnw: "M weddiaf a'r Ysbryd ac a weddiaf a'r de hefyd" (*1 Cor. xiv. 15*); hyn yw, efe ddefnyddia y ddawn anghyffredinol hon addaswyd at febyd yr eglwys Gristionog; ac a beidiodd wedi hyn fel ereill o gyffel natur. Dawn gyffredinol yr Ysbryd mew gweddio yw y rhodd arbenig hono sydd

luogi dynion yn ddifyfyr i ffurfio eu ddylliau a'u dymuniadau i eiriau cyni-awys ger bron yr Arglwydd. Y mae y awn yma yn gyffredin, ac yn cael ei chyfnu yn fynych ar rai nad ydynt o'r dynion neu; gall y rhagrithiwr feddu mwy o hon a g'ambell i wir Gristion. Dawu ydyw lld yn gyffredin yn cyfateb i raddau lloedd naturiol, amgyffred parod, dymmyg ffurthlawn, tafod hwylys, a fder ysbryd, y rhai oll ydynt ddoniau yr bryd, ac yn cyfaddasu dyn i hon. Yn r ni a welwn y gall y pen fod yn iraidd galon yn bwdr; ac i'r gwrthwyneb, y on yn iachus a didwyll lle y mae y pen lled dddidawn.

2il. Y mae yr Ysbryd yn cynnorthwyo wn gweddi trwy ei ras. Ei ddoniau sydd peri yr ymadrodd oddi allan; ond ei ras ymserchiad oddi mewn. Trwy ddoniau Ysbryd fe ddichon dyn ddal elustiau, i.e. effeithio llawer ar galon ei wrandawr; l trwy ras yr Ysbryd yn cynnhyrfu enaid wn gweddi, y mae yn effeithio ar ei galon hun a chalon Duw hefyd; a dyma y dyn lld yn wir yn gweddi yn yr Ysbryd. Y le gan y llall ddawn, ond gan hwn y mae bryd gweddi. Yn awr, y mae gras deug yn angenrheidiol at weddio fel hyn yn Ysbryd:—1. Gras yr Ysbryd i sanctdio y person a fo yn gweddio. 2. Gras vnnhyrfu a chynnorthwyo y person sanctdioedig yma yn ei weddi. Trwy y cyntaf nae yr Ysbryd yn trigo yn yr enaid; a yw yr ail yn cynnhyrfu yr enaid.

(1af.) Y mae yn angenrheidiol at weddio hyn yn yr Ysbryd, fod gras yn sanctdio y person. Cyn i ddyng gael ei adwyddu a'i sancteiddio trwy yr Ysbryd an, nis gall nag amgyffred na dymuno thau yn eu lle: "Y dyn aniol nid yw derbyn y pethau sydd o Dduw; syniad nawd sydd elyniaeth yn erbyn Duw." A a fodd y gall y fath un weddio yn dderniol? Yn gyntaf, gan hyny, y mae yr bryd yn adnewyddu y creadur trwy roddi fewn reddfau goruwchnaturiol ei rasmusau i'r sancteiddiol, yr hyn a'i gwna ef yn eadur newydd. Trwy y rhai hyn y mae dyfod i fyw ac aros o'i fewn, ac yna y le yn cynnhyrfu ei rasmusau ei hun a weithld yndd. Y mae yr enaid yn y corph a gweithredu a'i gynnhyrfu; yr ydym yn ellen am "fyw yn yr Ysbryd," a "rhodio yr Ysbryd;" Gal v. 25. "Os byw yr yn yn yr Ysbryd, rhodiwn hefyd yn yr bryd." Y mae rhodio yn gofyn fod bywedi ei roi o'r blaen. Gweddio, gwrnw, neu wneuthur unrhyw waith sanctaidd wn modd sanctaidd, dyna rodio yn yr bryd. Y mae rhyw weithrediaidau yn r o eiddo Ysbryd Duw ar eneidiau nad ynt wedi eu sancteiddio fel hyn; lle-rcchiad ei oleuni cyffredin, gras attaliol, a

chynnorthwyo hefyd. Y modd hyn fe alluogir aml ragrithiwr i weddio mewn ymadroddion rhagorol; ond ni alluogodd efe ragrithiwr erioed, nac un dyn ansancteiddiedig i gyflawni y rhan du mewnol o weddi, i alaru yn ddiffuant am behod, sychedu am Grist a'i ras, neu sefain Abba Dad, yn grediniol. Y mae y rhai hyn yn weithrediaidau bywiol o eiddo y creadur newydd, ac yn tarddu oddi wrth ysbryd gras yn dywalltedig yn yr enaid; o ba un y mae yn canlyn yr ysbryd yma o weddiau: *Zech.* xii. 10.

(2il.) Megys y mae gras greddfoll yn ofynol i sancteiddio y person, felly hefyd gras gweithredol i'w gynnorthwyo mor fynych ag y gweddio. Fe all Ysbryd Duw fod yn awos mewn enaid trwy ei ras greddfoll, ac etto nacau iddo gymmhorth gweithredol i'r ddyledswydd hon neu arall; ac yna y mae y Cristion druan yn sefyll fel llong ar ddwfr heb un awel yn chwythu. O herwydd megys ag y mae gras yn wan weithiau i'w brofi ei hun, felly hefyd i weithio o hono ei hun. Oddi yma y mae fod gweddiau y saint weithiau mor wan yn eu llwyddiant, am nad yw yr Ysbryd yn gweithredu ynddynt. Samson ar ol tori ei wallt, a aeth yn wan fel dyn ar all. Felly y Cristion, pan nacau Ysbryd Duw ei gynnorthwyo, ni weddia yn well na dyn aniol. Gweithiwr rhydd yw Ysbryd Duw; "a'th hael Ysbryd (yn ol y Saesneg, a'th rydd Ysbryd) cynnal fi;" *Salm* li. 12. Nid yw efe fel carcharor yn rhwym wrth ei rwyf, yn rhaid iddo weithio pryd y mynon ni; ond fel brenin pan y gwel yn dda, efe a ddaw allan ac a ymddengys i'r enaid; a phan wel yn dda efe a gilia ac ni fyn ei weled. Pa beth sy ryddach na'r gywynt? Ettonis gall y brenin mwyaf ar y ddaear beri iddo godi wrth ei ewyllys. I hwn y cyffelybri Ysbryd Duw: *Ioan* iii. Y mae efe nid yn unig yn rhydd i anadlu lle y mynon yn yr enaid hwn ac nid yn hwn acw—ond y pryd y myno hefyd.

PENNOD X.

Yn dangos pa gynnorthwy a rydd yr Ysbryd Glân mewn gweddi i wir Gristion yn fwy na dyn arall.

Gofyn. Ond y gofyniad yma a fydd, pa gynnorthwy a rydd Ysbryd Duw mewn gweddi i'r gwir Gristion yn fwy nag i arall?

At. Yn gyntaf yn gyffredinol. Y mae y cynnorthwy a rydd Ysbryd Duw mewn gweddi, i'r Cristion uwchlaw arall yn gorwedd yn ddwfn; fe'i treulir ar y tu mewnol ddyng, a'r rhan du mewnol o'r ddyledswydd. Fel ag y gall dyn ddyfod i wybod a yw efe ei hun yn gweddio yn yr Ysbryd, ond nid mor hawdd y gall farnu am arall. Yn awr

y mae y cynnorthyw arbenig hwn yn sefyll yn y tri pheth a gaulyn.

1af. Y mae yr Ysbryd yn gweithio byw-hâd yn yr enaid ; ac felly yn rhoi cynnhyrfiad yn y serchiadau. Erioed ni bu un weddi ffurfiol o wneuthuriad Ysbryd Duw. Pan ddol efe, y mae yn anser bywoliaeth ; y mae serchiadau y Cristion yn llanu o'i fewn wrth ei lais, fel y plentyn yng nghroth Elisabeth wrth gyfarchiad Mair y Forwyn. Neu, fel y mae y tannau dan law y cerddor yn cynnhyrfu ac yn rhoi sain gynganeddol, felly y gwna serchiadau y duwiol hefyd wrth ddirgel gyffyrddiad yr Ysbryd. Y mae yn cyffroi ofn y Cristion trwy ei lenwi â'r fath ystyriaeth o fawredd Duw, ei salwedd a'i ddiddymdra ei hun, ag sydd yn gwneud iddo arswydo a pharchu y Mawrhydi dwyfol y mae yn nesau ato, a thyllwallt pob erfyniad gyda chryndod sanctaidd ar ei ysbryd. Y fath arswyd oedd ar ysbryd Abraham, pan oedd yn ei weddi dros Sodom yn addef y mawr orchwyl yr anturiasai arno : "Dechreuais lesaru wrth fy Arglwydd, a mi yn llwch ac yn lludw ;" *Gen. xviii. 27.* Y mae yn cyffroi serchiadau galarus y Cristion, a'i anadl dwyfol y mae yn codi cymnyllau ei bechodau gynt ; ac wedi iddo orchuddio yr enaid myfyriol â'r cofia athrist am danynt, y mae mewn gweddi yn tori y cwmml, ac yn toddi y galon i gawodydd tyner o alar efengylaidd. Ceir y Cristion yma yn ocheneidio ac yn griddfan, yn wlo ac yn galaru fel plentyn a gurwyd, er ei fod yn gweled y wialen wedi ei rhoi heibio gan ei Dad nefol, ac nad yw yn ofni dim llid oddi wrtho o'u hachos. Fe ddywed yr apostol fod yr ocheneidiau a achosir gan yr Ysbryd yn y saint yn rhai "annhraethadwy ;" *Rhuf. viii. 26.* Ni ellir eu traethu hyd yn oed gan y dyn ei hun ; yr hwn, gan nas gall osod gofid ei galon allan mewn geiriau, sydd raid iddo weithiau ei ddanfon i'r nef yn y llais aneglur yma ; llais sydd er hyny yn dra dealladwy yno, ac yn fwy peraidd yng nghlustiau Duw nag y gall y beroriaeth fwynaf fod yn yr eiddom ni. Mewn gair, y mae yn ennyn serchiadau addas i bob rhan o weddi, gan alluogi yr enaid grasol i gyfaddef pechod â chalon ddolurus, fel pe b'ai yn teimlo cynnifer o gleddyfau yn ei frathu, i ymbil am drugaredd a gras mewn teimlad tu mewnol o'i angenion, ac hefyd mewn hir-aeth taer am gael eu cyflawni ; ac i foliannu Duw â chalon wedi ei heangu a'i chodi ar adenydd cariad a llawenydd. Fe ddichon doniau wneuthur gwaith gwych o ran ffurfiad a gosodiad y geiriau, fel y gall cerfiwr lunio delw hardd yn ei llawn lun, a graddau addas i bob rhan, ac etto nid yw ond rhith a delw gwir weddi, o ddiffyg y rhywbeth hwnw oddi mewn a ddylai roi bywyd a gryn ynddi. Hyn nis gall ond Ysbryd Duw ei ddwyn i ben.

2il. Megys y mae Ysbryd yr Arglwyd yn cynnhyrfu serchiadau y Cristion meg weddi felly y mae yn eu rheoli a'u cytwyddo. Pwy yn wir ond efe a ddiol drin a gyru yn eu lle y meirch gwyllt hyn ? Yn yr ystyriaeth yma y dywedid fod "yn cynnorthywo ein gwendid ni ; ca ni wyddom ni beth a weddiom, meg dylem ;" *Rhuf. viii. 26.* Och ! yr ydynd dueddol i dynu y bwa yn rhy dŷn me rhai erfyniadau, a thrwy ein gwendid rhy lac mewn ereill ; ar un tro, ni a saeth tu hwnt i'r nod, gan weddio yn bennodol yr hyn a ddylem ei ofyn yn ammodol ; arall, ni a daflwn heibio iddo trwy wed am yr hyn ni addawodd Duw, neu yn hunanol am yr hyn a addawyd. Y mae Ysbryd, meddaf, yn hyn yn cynnorthyw gwendid y Cristion : "Canys y mae efe ol ewylls Duw yn erfyn dros y saint ;" *1. 27.* Hyny yw, y mae efe felly yn dal aw eu serchiadau, ac yn eu cyfarwyddo fe maent yn cadw eu lle a'u trefn, heb neid allan i boethder unweddaidd a dymuniad afreolaidd. Efe sydd yn sisial ei addyddynt, pa bryd i roi i'w serchiadau eu llarediad, a pha bryd i'w tynu i mewn ; y mae yn dysgu iddynt gyfraith gweddi fel g ymdrech yn gyfreithlawn na chollont gamp. Yn gymmlhwys fel yr oedd yr Ysbryd yn y pethau byw, i gyfarwyddo eu symudiad, am ba rai y dywedir : "Aent b un yn union rhag ei wyneb, i'r lle y bydd yr ysbryd ar fyned, yno yr aent ; ni throë pan gerddent ;" *Ezec. i. 12.* Felly yr Ysbryd sydd yn cynnhyrfu y saint mewn gweddefe a'u ceidw rhag neidio o'r llwybr, yna thrwy, i fyned rhag eu blaen dan dynu deisyfiadau wrth ei reol ef.

3ydd. Y mae efe yn llenwi y Cristion eofnder duwiol, a hyfder gostyngedig meg gweddi. Y mae pechod yn gwneuthur gwyneb Duw yn ddychryn i'r pechod. Dacw Adda euog yn ffoi rhagddo ; a'i resw yw, "Dy lais a glywais yn yr ardd ; a mi ofnais ;" *Gen. iii. 10.* Os oedd meibion Iac wrth gofio eu creulondeb at eu brawd Iosep yn syrthio i ddychryn ger ei fron, a ni wylaidd fel nas gallent ei ateb ; pa fai mwy ei ddytyswch a raid i'r pechadur foc nesau at Dduw mawr, pan ddol i'w gof pechodau ysgeler a wnaeth i'w erbyn ? Y awr, y mae yr Ysbryd yn esmwythau cal y Cristion o'r dolur yma trwy sicrhau iddo nad yw calon Duw yn myfyrio dim i'w ebyn, ond yn rhydd faddeu ei gamwedd ; i'w peth sy fwy, ei fod yn ei gymmeryd yn awyl blentyn iddo. Ac fel na bo i'r Cristion aros mewn amheuaeth o'r peth, y mae y ei selio â chusan cariad ar ei galon, gan adanyo argraff o gariad tadol Duw ; fel y mae y Cristion yn dyfod i feddu meddylliau cariad am Dduw, yn gallu ei alw yn Dad, disgwyl croesaw plentyn ar ei law. Dyn

ysbryd mabwysiad y mae yr apostol yn i am dano (*Rhuf.* viii. 15), sydd yn ymlid iaiith o'r enaid bob ofn ac arswyd caeths tuag at Dduw : " Ni dderbyniasoeh ys- yd caethiwed drachefn i beri ofn; eithr rbyniasoeh ysbryd y mabwysiad, trwy hwn yr ydym yn llefain, Abba, Dad. A *M.* iv. 6; " O herwydd eich bod yn feib- n, yr anfonodd Duw Ysbryd ei Fab i'ch onau chwi, yn llefain, Abba, Dad."

PENNOD IX.

Ydd i'r rhai hyn y wnant wawd o dderbyn yr Ysbryd, a gweddio drwy yr Ysbryd. Hefyd, prawf a ydyw yr Ysbryd ynom ai nid yw.

DOSB. I.

Defn. YN gyntaf, gwyliwch ym mhob dd rhag cablu yr Ysbryd Sanctaidd, o ei waith sancteiddiol a glanhaol hwn ei saint. O herwydd y mae rhai dyn- mor erchyll ddrygonus, fel y beiddiant wdio a gwatwar y rhai a ddangosant fan- ra yn eu bucheddau, a sel, yn addoliad w, â iaith o'r fath hon :—"Dyma y bobl y e yr Ysbryd ganddynt; ië, ië, sydd yn eddio trwy yr Ysbryd." A gwaeth etto, wyf yn crynu wrth ei adrodd, y mae rhai di galw eu gweddio trwy yr Ysbryd yn eddio drwy y cythraul. Fod gan bob enaid sol Ysbryd Duw yn trigo yuddo, y Beibl idywed i ni, *Rhuf.* viii. 9 : " Od oes neb b Ysbryd Crist ganddo, nid yw hwn yn do ef." Fod Duw wedi addaw ei Ysbryd ynnorthwyo ei saint mewn gweddi, sydd ammbheul; ac mor sicr a hyny, nad oes weddi yn dderbyniol ganddo ond a an- ir trwy ei Ysbryd. Yn awr, oni ellit ti bod, adyn hyf, pa ysbryd sydd yn dy roi ar waith, pan y gelli wneud gwawd o rbyn yr Ysbryd, a gweddio drwy yr Ys- d? Pwy ond diafol a allai dy gynnhyrfu tlu Ysbryd Duw? Ond pa ham y rhy- dwn fod gweithrediadau yr Ysbryd Glân ei bobl yn cael eu cablu a'u dirmygu, pan ydym yn gweled fod Ysbryd Duw, oedd gweithio mor nerthol yng Nghrist ei b, yn cael ei gablu yn faleisus gan y Pha- said drygonus, fel pe buasai ddieflig : *L.* xii. 24. Ond gwybydded y cyfryw, er dychryn, fod gwneuthur gwawd o'r Ys- d, neu briodoli ei waith ef i ddiabol, os dais yn dyfod yn agos at y pechod yn yn yr Ysbryd Glân, yr hwn ni faddeuir. *el adn.* 32 : " Pwy bynag a ddywedo yn yn yr Ysbryd Glân, nis maddeuir iddo, yn y byd hwn, nac yn y byd a ddaw." yn y mae ein Harglwydd yn ei lefaru, herwydd eu gwaith yn priodoli yr hyn a aeth efe trwy Ysbryd Duw i ysbryd y ol.

il. Prawf a oes genyt Ysbryd Duw, ai

nid oes. Y mae cyflwr diweddi yn gyflwr alaethus i fyw yuddo. Yn awr, nid oes modd i ti weddio yn dderbyniol, oddi eithr dy fod yn gweddio yn yr Ysbryd; ac nid oes modd i ti weddio yn yr Ysbryd oddi eithr bod yr Ysbryd ynot.

Gof. Ond pa fodd y gwybyddaf a yw Ysbryd Duw genyt ai nid yw?

At. 1. Mi a atebaf yn nacaol, wrth ba beth nis gelli benderfynu fod yr Ysbryd genyt. 2. Yn gadarnhaol, wrth ba beth y gelli. 1af. Ni elli, am fod genyt yn awr a phryd arall rai cynnhyrfiadau da oddi wrth yr Ysbryd Glân o'th fewn. Fe geir yr ys- bryd drwg yn fynych yn annog cynnhyrf- iadau drwg, mewn eneidiau lle nad yw yn cael aros. Cynnhwrf brwnt a wna efe lawer tro yn mynwes sant; etto, nid oes iddo drigfan yno, o herwydd nad yw yn cael bod mewn llonyddwch. Am hyny y clywir ef yn dywedyd yn y lleoedd sychion hyn, "Mi a ddychwelaf i'm tŷ" (*Mat.* xii. 14); hyny yw, i'r rhai sydd etto yn eu cyflwr anianol, lle y gall rwygo a rheoli fel gŵr a fyddai yn hollol ben yn ei dŷ ei hun. Yn ddiu, y mae yr Ysbryd Glân fel hyn yn fynych yn ymsymmud yng nghydwybodau a serchiad- au rhai anianol, gan eu cynghori, eu cer- yddu, a'u hannog; fel y mae trwy ei gyn- nhyrfiadau ryw serch byr disylwedd yn cael ei godi ynddynt yr hyn sydd dda; ond yn ebrwydd y mae y cwbl yn cael ei lethu ac yn myned i'r dim, a'r Ysbryd trwy anghroesawiad yn cael ei ymlid ymaith. 2. Nid trwy ddoniau cyffredin yr Ysbryd; gol- euni, argyhoeddiad, gras ataliol, a chyn- northwyo i gyflawni y rhan allanol o ddyl- edswyddau crefydd; ië, hyd at beri syndod weithiau yn y rhai a'u clywant. Y mae y rhai hyn yn ddoniau yr Ysbryd; ond nid yn gyfryw ag a brofant fod yr Ysbryd yn trigo yn yr hwn sydd yn eu meddu. Y maent yn debyg i'r disgleirdeb a welir yn goreuro y cymmylau ar foreugwaith cyn i'r haul ymddangos; prawf fod yr haul yn agos ond ei fod etto heb godi er yr holl loywder yma. Felly y doniau hyn, y maent yn belydr oddi wrth Ysbryd Duw, ac yn dangos fod teyrnas Dduw wedi dyfod yn agos at y cyfryw un; ond nid ydynt yn brawf fod Ysbryd Duw wedi dyfod i'r enaid hwnw a'i feddiannu fel ei dŷ a'i deml. Neu y maent yn debyg i'r gwystlon a ddenfyn mab i un y mae yn ei cheisio yn briod (at ennill lle mwy yn ei serch) ond os ofer fydd y garwriaeth gofynir y cwbl yn ol. Y mae llawer wedi derbyn y don- iau hyn oddi wrth Ysbryd Duw, heb iddi fyned yn briodas rhwng Crist a hwythau; ac oni elwir am danynt yn ol yn y bywyd hwn, fe fynir cyfrif am danynt yn y dydd mawr.

DOSB. III.

2il. Yn gadarnhaol, trwy ba beth y gelli benderfynu fod Ysbryd Duw genyt; a hyny

mewn dau arwydd neillduol, er y gallwn yma liosogi.

(1af.) Os wyt wedi dy adgenhedlu trwy yr Ysbryd. Mewn creadur newydd yn unig y mae Ysbryd Duw yn trigo. Cylyd ag y bo dyn yn aros yn ei gyflwr cnawdol, anianol, y mae yn wag o'r Ysbryd: "Anianol, heb fod yr ysbryd gaudynt;" *Iud.* 12. Y mae y geiriau hyn yn bwrw at y cyfrywna feddant ond enaid rhesymol; y maent heb un egwyddor o fywyd amgenach nag a rydd natur i bawb. Y mae Paul yn arfer y gair i nodi dyn yn ei gyflwr naturiol, yn wahanedig oddi wrth un arall sydd yn meddu egwyddor o fywyd goruwchnaturiol oddi wrth yr Ysbryd Duw: "Dyn anianol nid yw yn derbyn y pethau sydd o Ysbryd Duw;" *1 Cor.* ii. 14. Ond yma y gofyniad fydd, pa fodd y café wybod a adgenhedlwyd fi? I hyn mi atebaf, y mae gan bob enaid adgenhedledig natur a thuedd dduwiol, tebyg i Ysbryd Duw sydd yn ei adgenhedlu: "Yr hyn a aned o'r Ysbryd sydd ysbryd" (*Joan* ii. 6); hyny yw, y mae yn ysbrydol; yr ymadrodd cryno yn cael ei roi yn lle ei gynwysiad, i fywahu grym y geiriau. Y mae ganddo enaid wedi ei godi mor bell uwch law dynion naturiol, ag ydynt hwy uwch law natur yr anifaail. Pan adferwyd deall dyn i Nebuchodonosor, ni phorodd efe yn hwy gydag anifeiliaid y maes, ond fe ddychwelodd i'w orseddfa a'i fywyd breiniol. Felly y mae yr enaid a adgenhedlwyd yn dychwelwyd i'r duedd uchel a nefol hyny oedd gan ddyn yn ei gyflwr sanctaidd dechreuol. Yn awr, Duw a'i bethau sydd yn myned a'i feddyliau. Y mae ganddo lygad newydd i ganfod gwagedd lle yr oedd o'r blaen yn edrych am sylwedd; blâs ac archwaeth newydd sydd yn peri iddo boeri allan y pleserau pechadurus hyny megys gwenwyn, a fuaunt unwaith ei dameidiau melus; a chyfrif pob mwyniant daearol—o'r blaen ei unig wledd—yn dom a sothach mewn cymhariaeth i Grist a'i ras. Nis gall wneud ei bryd arnynt, mwy nag y gallai ar fywd cŵn: "Y rhai sydd yn ol y cnawd, am bethau y cnawd y maent yn synied; eithr y rhai sydd yn ol yr Ysbryd, am bethau yr Ysbryd" (*Rhuf.* viii. 5); neu y maent yn blasu pethau yr Ysbryd. Chwilia gan hyny pa fath yw dy archwaeth; o gael hyn allan t. elli wybod pa fath yw dy fywyd, pa un ai ysbrydol ai naturiol.

2il. Os wyt yn cael dy arwain gan yr Ysbryd. Efe ydyw arweinydd y saint; "Y sawl a arweinir gan Ysbryd Duw, y rhai hyn sydd blant i Dduw;" *Rhuf.* viii. 14. Megys y mae y enaid yn y corph i'w ysgogi a'i gyfarwyddo, felly y mae yr Ysbryd yn eu henaidd hwynt: "Ymafaist yn fy llaw ddeheu. A'th gynghor y'm harweini," medd Dafydd: *Salm* lxxiii. 23, 24. Yr un wedd ag y mae y plentyn yn cael ei ddwyn

ym mlaen yn llaw ei dad, felly y Cristio trwy arweiniad llaw yr Ysbryd. Yn awr y mae arweiniad Ysbryd Duw yn cynnwys ynddo y tri pheth hyn. 1. Teimlad o hanallu a'n hanwybodaeth ein hunain. Neb a dybio ei fod yn gwybod ei ffordd, y plentyn gwerdded ni chymmer arweinydd; plentyn ganw a'r dyn dall sydd yn galw a hwn. Fe darawyd Saul yn ddall yn gyntaf ac yna y mae yn rhoi ei law i'w dywyd. Damascus: *Act* ix. Ymofyn gan hyny ynaeth Duw di yn deimladwy o'th anwybodaeth a'th analluogrwydd dy hun. Y mae dyn wrth natur yn falch a hunandybu yn ymddiried llawer i'w ddeall ei hun, y yn sefyll ar ei nerth ei hun, yn gâs ganddo fod neb ammheu ei ffordd, neu yn ei dybio yn wan i'w cherdded ei hun: "Y doest sydd yn ofni ac yn cilio oddi wrth ddrychioni; ond y ffol sydd ffrom a hyderus." *Diar.* xiv. 16. Dywedwch wrth enaid y brydol-ddoeth ei fod allan o'i ffordd, y mae yn ofni ei hun, yn gwrandaw ar gynghor ac yn troi yn ol. Ond y ffol, a chyfryw y pob dyn anianol, y mae yn syrthio allan i gynghorwr a'i argyhoeddwr, ac yn hyderu o'i lwybr, fel pe byddai yn gwybod y ffordd i'r nef gystal ag y gŵyr y ffordd o'i dyddi farchnad. Y peth cyntaf a wna yr Ysbryd yw disgyn y dyn oddi ar ei dyb fawr a dano ei hun, fel y gwneled ef trwy hyny y barod i gymmeryd ei ddyysgu a'i drin. "I wŷr fredyr," meddai y dychwelwyr hyny: "ol i Dduw bigo eu calonau i ollwng allan gwynt yma o falchder, "beth a wnawn ni." *Act.* ii. 37. Dyma eu hysbryd yn awr y plygu; boddllawn ydynt i gael eu cyfa wyddo, a digon isel a gostyngedig i blenty eu harwain. 2. Y mae yr hwn a arwein gan arall yn myned dan reolaeth ei arweinydd o ran y ffordd y mae iddo ei rhodi. Ymofyn gan hyny a yw Ysbryd Duw f hyn yn llywio dy enaid yn ei ogwyddiadau a'i weithrediadau. Os wyt yn cael dy a wain gan yr Ysbryd, yr wyt yn rhodio y ol yr Ysbryd ac yn ei lwybr ef. Yn awr ti a wyddost rodfa yr Ysbryd; Ysbryd gwirionedd yw efe, ac i wirionedd y mae y tywys. Gair Duw yw ei lwybr ef; os na wyt yn rhodio wrth y rheol hon, nid efe y dy arweinydd. Dywed gan hyny, pa awdu dod a rheolaeth y mae y gair yn gael arnat. A wyt yn myngynghori âg ef ac yn gwranda arno? Neu a yw efe i ti, fel yr oedd Miceas i Ahab, yn un y mae arswyd gofyn ei gynghor? Nen pan wnei, a wyt ti yn gallu dafu o'r tu ol i'th gefn, ac anturio tori faes i ddilyn dy amcanion trachwantus ne gybyddlyd? Os nad yw gair o hono y gorwedd ar dy ffordd, yn ddiagon i'th atnau nid Ysbryd Duw sydd yn dy arwain, ti ei fod yn sier. 3. Y mae arweiniad yn a wyddo boddlonrwydd ac ewyllysgarwch dyma y gwahaniaeth rhwng arwain a gyr

Fe ddichon y galon anianol gael ei gyru gan geryddon ac argyhoeddiadau yr Ysbryd fel anifail gan sllangell ac ysbardyn; ond y mae yr enaid grasol yn canlyn yr Ysbryd fel plentyn ei dad sydd yn ymafïd yn ei law; i.e. fel un yn gwaeddi ar ol ei dad am gael dyfod i'w ganlyn: "Lle y mae yr Ysbryd, yno y mae rhyddid." Y mae yr Ysbryd yn wir yn tynu, ac y mae yr enaid hefyd yn rhedeg ar ei ol: "Mair a ddewisodd y rhan lla; nid ei gwrthio a wnaed arni yn groes i'w dymuniad. Fe gyffelybir ufudd-dod y saint i aberth: "Rhoddwch eich cyrph yn aberth byw," &c. (*Rhuf.* xii. 2); ac nid derbynïol, ond aberth ewyllysgar. Fe wna Ysbryd Duw yr enaid yn ewyllysgar yn nydd ei nerth: "Af gyda'r gŵr hwn," meddai Rebeccah (*Gen.* xxiv. 58); yr oedd hi mor foddlaw'n i gael Isaac ag oedd yntau i'w chael hithau. Y mae yr enaid grasol yn atteb galwad yr Ysbryd, fel y graig adsain yn atteb y llais: "Ceiswch fy wyneb: dy wyneb a geisiaf, O Arglwydd."

PENNOD XII.

Annogaeth i'r rhai sydd etto heb yr ysbryd o ras a gweddi, ynghyd â rhai cyfarwyddiadau tuag at ei gael.

MAE y defnydd yma o brawf yn galw am air dwbl o annogaeth:—1. I'r rhai hyny a geir, ar holiad, yn amddifad o'r Ysbryd. 2. I'r rhai sydd yn cael, wrth y rheolau prawf, fod Ysbryd Duw ynddynt.

DOSB. I.

1. I chwi sydd etto heb gael Ysbryd Duw. O! ymdrechwch am gael y gwestwr nefol hwn i ddyfod ac aros yn eich calonau. Gwell fyddai dy fod heb feddu ysbryd dyn na'th fod yn amddifad o Ysbryd Duw. Os nad yw yr Ysbryd Sanctaidd ynot, gwybydd yn sicr fod yr ysbryd drwg; ac nid oes un ffordd i ti droi y gwestwr blin yna dros y drws ond trwy gael Ysbryd Duw i mewn. Gelli wybod pa le y bydd dy drigfan dragwyddol, ai yn y nef ai yn uffern yn ol hyn, wrth yr ysbryd sydd yn llywio dy enaid yma. Os nad yw Duw yn meddiannu dy enaid fel trigfan i'w Ysbryd ar y ddaear, y mae yn arwydd nad yw efe yn parotoi un drigfan i dy enaid yn y nef, ond yn dy adael i gael dy groesaw mewn byd arall gan yr hwn yr wyt ti yn ei groesawu yma. Wele y modd y mae dy enaid yn crogi uwch ben y pwll uffernol! Pa ffordd a elli di gymmeryd i ragflaenu y trueni diddiwedd sydd yn dyfod arnat? A sefi di i fyny fel Haman i ymbil am fywyd dy enaid? Och! nis gelli weddio, er bod dy fywyd yn sefyll ar hyny: yr wyt yn fyr o Ysbryd Duw a ddylai fod yn magu ynot ocheneidiau a griddfanau. Rhaid i ti gael bywyd cyn y gelli anadlu.

Mae gweddi, chwi welwch, nid yn waith natur, ond yn rhodd gras; nid yn beth sydd yn tarddu o ewyllys a doniau dyn, yn cael ei gyrhaedd gan fedr a dyfais ddynol, ond yn cael ei ddydsu a'i anadlu gan yr Ysbryd Glân. O flaen brawdle dyn, dichon tafod areithiwr lyfnhau yr achos, nes trwy hyny ei ennill; am fod areithyddiaeth â math o rin ynddi sydd yn swyno clustiau dynion, y mae yn cael ei alw, "yr areithiwr hyawdl" (*Esa.* iii. 3), neu yn ol yr Hebraeg, yr un medrus mewn swyn. Fel hyn y gallodd Abigail, gydag araeth fywn-lefn swyno nwydau Dafydd, a throï ei gleddyf yn ol i'w wain, pan oedd wedi ei dynu i ladd ei gwr a'i deulu. Ond geiriau, er mor fywn-ber y byddont, Och! ni wna'th mor beroriaeth yng nghlust Duw; heb ei Ysbryd sanctaidd ynddynt, ni thyciant ddim gwell iddo ef nag y darfu i weddiau a dagrau Esau, gyda'r hen Isaac am y fendith. Yr un wialen, yr hon a wnaeth wyrthiau yn llaw Moses, ni wnaethai y fath beth yn llaw un arall, am ei fod heb yr ysbryd oedd gan Moses. Yr un geiriau mewn gweddi oddi wrth ysbryd dyn ei hun ydynt weiniaid a dirym, i.e. diflas a sfiadid, y rhai, ond eu tywallt gan Ysbryd Duw mewn un all, ydynt nerthol gyda Duw a thra derbynïol ganddo. Mae gan frenhinoedd eu trinwyr bwyd, ac ni fwy'tant ond a drinir ganddynt hwy: y Duw mawr, yr wyf yn sicr ni dderbyn yr aberth hwnw, nad yw ei Ysbryd ef ar waith yn ei barotoi a'i offrymu. Mae y gweddiâu a lyngeir ac a folir gan ddyonion weithiau yn sfiadddra mawr gan yr Arglwydd, yr hwn sydd yn gweled fod y galon yn ddrwg ac yn hollol wag o'i Ysbryd a'i ras. Ac o'r ochr arall, y gweddiâu a ddfiriir ac a gas-fernir gan ddyon, hwy allant fod yn dra boddhaol gan Dduw. Yr oedd Eli yn tramgwyddo wrth Hannah, ac yn ei chymmeryd hi am wraig feddw; ond yr oedd Duw yn ei hadnabod yn well, mai nid llawn o win ydoedd, ond wedi ei llenwi â'r Ysbryd mewn gweddi; ac am hyny yn rasol caniatoedd ei dymuniad. Call y gwnaeth y Groegwr hwnw, yr hwn, wedi ei benodi yn genadwr at frenin estronol, a ddysgodd iaith y wlad fel y tyciai yn well gydag ef, trwy draddodi iddo y genadwri yn ei iaith ei hun. O! cais dithau Ysbryd Duw, fel y gelych weddio ar Dduw yn iaith y nef; ac yna diau y llwyddi. Yn awr, os mynit gael yr Ysbryd.

DOSB. II.

1af. Llafuria am ddwfn deimlad o'th gyflwr truenus tra yr wyt heb yr Ysbryd. Rhyw greadur diflas a di-nodd ydywt (fe ŵyr Duw), analluog i un ddyledswydd, ac anaddas i ddim cysur. Mae yr Ysbryd yn fynych yn cael ei gyffelybu yn y gair, i ddwfr, gwlaw, a gwllith. Yn awr, megys y mae y ddaear yn sych ac yn ddiffwrwyth heb y rhai hyn, felly calon dyn heb Ysbryd Duw.

O! bydded i hyn wasgu yn ddwys ar dy feddwl. Pan fyddo y meusydd yn cael eu deifio gan sychder, y mae dyn ac anifail yn cwyno; fe, a'r ddaear ei hun wedi agenu gan wres, yn agor ei safn sychedig ac yn dangos ei hangen tra mawr am gawodydd tyner o'r nef i'w hadfywio. Ac a oes genyt ddim teimlad o'th gyflwr alaethus? Pa un waethaf, dybygit ti, bod y ddaear yn haiarn ynte dy galon di yn gared? Bod i'r ffrwythau ac anifeiliaid y maes golli o eisieu dwfr, neu ynte dy enaid di o ddiffyg yr Ysbryd? O! pe gellid ond dy gael i deimlad a galar am dy ddiffyg, byddai gobaith o gael ei gyflawni: "Tywalltaf ddyfroedd ar y sychedig a ffrydiau ar y sychdir: tywalltaf fy Ysbryd ar dy had;" *Esā. xlv. 3.*

2il. Pan fyddych yn ymlosgi oddi mewn gan y teimlad o'th gyflwr diras a di-ysbryd, dos a thaer ddeisyf y rhodd hon gan Dduw. Yr wyt yn myned yn awr mewn amser da; a gelli obeithio am lwyddiant. Fe allai i ti cyn hyn weddio am yr Ysbryd; ond mor ysgafn ac ysmala, fel yr oeddit yn tristau yr Ysbryd wrth weddio am dano; ond yn awr, yr wyt yn gweled dy angen o hono, a'th fod yn andwyol oddi eithr i ti ei gael ef; ac am hyn, yr wyf yn gobeithio na cheui yn awr mo'r drws yn erbyn dy weddiau dy hun, trwy fod yn erfyuwr oerllyd; a hyny, onis gwnei, yr wyt yn sicr o'i ddwyn ef yn ol gyda thi. Mae Crist ei hun yn dy sicrhau o hyn—cymmer y gair o'i enau: "Os chwy-chwi gan hyny, y rhai ydych ddrwg, a fedrwech roi rhoddion da i'ch plant chwi; pa faint mwy y rhydd eich Tad o'r nef yr Ysbryd Glân i'r rhai a ofyno ganddo;" *Luc xi. 13.* Gall tad nacau ei blentyn chwareus o fara i'w dafu dan ei draed; ond nid ei blentyn newynllyd sydd yn llefain am dano i gadw ei fywyd. Felly, fe all ac fe wna Duw nacau yr hwn a ofyno am yr Ysbryd, i ymfalchïo yn ei ddoniau; ond nid yr enaid truan sydd wedi ei wasgu gan ei ddiffyg o ras, yn llefain mewn ymddarostyngiad a thaerineb, "Arglwydd, dyro i mi dy Ysbryd; onid e, yr wyf yn newynu ac yn trengu." Nag e, gâd i mi ddywedyd wrthy, byddai dy lefain cryf a'th weddiau taerion am yr Ysbryd yn dystiolaeth felus i ti ei fod genyt eisoes o'th fewn.

3ydd. Plana dy hun dan bregethiad y gair. Dyma gerbyd yr ysbryd yn yr hwn y marchoga; am hyny ei gelwir gweinidog-aeth yr Ysbryd. Darfu i'r sarph, yr ysbryd drwg hwnw, ymddirwyn i mewn i galon Efa drwy ei chlust; ac y mae yr Ysbryd Sanctaidd yn gyffredin yn dyfod i mewn trwy yr un drws: fe'i derbynir trwy wrandawiad ffydd. *Gal. iii. 2.* Mae y rhai sy'n hwrw ymaith wrandawiad y gair i gael cyfarfod â'r Ysbryd, yn ail i ddyw a droai ei gefn ar yr haul i gael ei lewyrch i'w wyneb. Nid yw y tlodion yn aros gartref i'r cyf-

oethogion ddwyn eu helusenau i'w tai; ond hwy ânt at eu drysau, i ofyn a disgwyl am gardod. Da y gweddai i ti, greadur tlawd ddisgwyl wrth byrth doethineb; ac nid disgwyl i'r Ysbryd fod yn rhedegwas ar dy ol di. Os y meistr a ddaw i dy yr ysgol haig llechgar, i'w chwipio i'r ysgol y bydd hyny.

4ydd. Gochel wrthwynebu yr Ysbryd pan fyddo yn nesau atat yn y gair. Mae efe weithiau yn curo; ac ar ol cael nacâd, yn troi oddi wrth ddrws y pechadur. Mae byr hefyd yn beryglus. Efe, yr hwn a addawodd ddyfod i mewn, os nwni a agorem, ni wnaeth addewid o ddyfod drachefn, er i ni ei draws-ymlid ymaith. Mae yn wir yn fynych yn dyfod drachefn ar ol aml ball; ond weithiau, i ddangos ei ryddid, ni ddaw ddim: nag e, y mae, fel y gallaf ddywedyd, yn gadael clo ar y drws o galedwch ac anghrediniaeth barnol, na ddichon agoriad un gweinidog ei agor. Fel hyn y gwnaeth Crist â'r rhai y oedd mor foesgar yn eu hesgusodi eu hunain wrth eu gwahoddyddyr: "Ni chaiff un o'r gwyr hyny a wahoddyddwr brofi o'm swper i;" *Luc xiv. 24.* A ydyw yr Ysbryd yn curo wrth ddrws dy galon mewn rhyw ordinhâd? Fe allai dy fod yn teimlo ei geryddon dirgel, trwy ei fod yn cyfarwyddo bys y gweinidog yn ddisynniwch i gyffwrdd â'th ddolur. O! edrych pa fodd yr ymddygi tuag ato. Na chweryla â'r pregethwr, fel pe byddai gan hwnw ryw fic i'th erbyn; a'i fod yn dyfod fel ysbïwr i edrych oethlder dy enaid. Na wrthwyneba dy argyhoeddiadau; gochel fygu cynnyrfiadau yr Ysbryd Sanctaidd yn dy obenydd y nos; yn hytrach, maetha a defnyddia hwynt. Nid trugaredd fechan ydyw, fod yr Ysbryd, wrth farchogaeth heibio yn ei gerbyd, yn galw wrth dy ddrws di, ac yn rhoddi i ti rybudd mor drugarog, yr hwn ond ei dderbyn yn garuaid, a ddichon agor y ffordd i gyfammod heddwch rhwng Duw a thithau, i ddiweddu yn dy wir dychweliad yma, a'th iachawdwriaeth yn ol hyn. Yr oedd yn chwanegiad at y ffaf a roddodd Duw i'r wraig o Sarepta, fod llawer o wragedd gweddwon ereill, a'r rhai hyny yn Israel ar yr un amser; ac i'r prophwyd gael ei anfon ati hi, ac nid atynt hwy. Felly y mae yn mwyhau y drugaredd sydd yn cael ei hestyn i tithau, fod llawer o o bechadurid ereill yn y gymulleidfa; ac etto yr Ysbryd heb gael ei anfon atynt hwy, ond atat ti; fod ei saethau yn ehedeg dros eu penau hwynt, ac yn cael eu saethu i mewn i'th ffenestr di, gyda chenadwri ddirgel o'r nef i gyffroi dy gydwybod gysglyd, a denu dy serchiadau oddi wrth bechod at Crist. Diau ddyfod teyrnas Dduw yn agos atat. Derbyn ei gynygiadau hyn yn garedig, a thi a gei chwanege o'i gymdeithas.

5ed. Cymdeithasa â'r saint sy gandynt

Ysbryd Duw o'u mewn. Y rhai a ddymunent ddysgu rhyw iaith bellenic, hwy gyfeillachant â phobl y wlad hono sydd yn ei siarad yn naturiol. A fyny tithau fod âg Ysbryd Duw genyt, ac felly dysgu ymddiddan â Duw yn iaith y nef? Ymgysyllta â'r bobl y bydd i'w hanian nefol beri iddynt son am Dduw a phethau Duw. Gwir yw nis gallant beri deilliad a chyfraniad o'u hanian ysbrydol hon; ond y mae yn wir hefyd y dichon Ysbryd Duw wneuthur anadliad eu hymddiddanion grasol yn fywyd ac yn fywiogrwydd i ti. Tra yr wyt gyda'r cyfryw, yr wyt mewn cydymdaith â'r Ysbryd. Ioseph a Mair a geisiasant Grist ym mysg ei genedl, gan farnu mai tebycaf oedd iddynt ei gael yn eu plith hwy. Ac y mae yn fwy tebygol o lawer i ti gael Ysbryd Crist yn mhlith ei saint, ei geraint ysbrydol, nag ym mhlith estroniaid. Daeth Ysbryd Duw ar Saul pan oedd gyda'r prophwydi; wrth eu clywed hwy yn prophwydo ac yn moli Duw, ei ysbryd yntau a gynhyrfwyd i wneuthur yr un peth. Pwy ŵyr na bydd i'th galon gael ei thwymuo wrth eu tân hwynt, ac na bydd i berarogledl eu grasusau dy ennill i garu sancteiddrwydd? Ond yn bendifaddeu, gwylia rhag cymdeithas yr halogedig, sydd yn erchyll am ddi-fodd gwaith yr Ysbryd. Pan y mae Dafydd yn ymroddi i Dduw ac am fywyd sanctaidd, y mae yn ymwrthod â'r annuwiol: "Ciliwch oddi wrthyf, rai drygionus; canys cadwaf orchymynion fy Nuw;" *Salm* cxix. 115. Mae y garddwr yn treinio o gylch ei blanhigion ieuainig, i gadw yr anifeiliaid draw. Od oes ynot y radd leiaf o flaguriad neu flaendarddiad Ysbryd y gras, megys na fynit i hyn gael ei gnoi na'i bori ymaith, felly na ddewis ddynton o ysbryd halogedig yn gyfeillion: y maent yn debyg i wynt y gogledd, a chywyth y gwlaw ymaith. Pan fyddo Ysbryd yr Arglwydd wedi bod yn ymsymud ar yr enaid, y mae y cymylau yn dechreu ymgasglu yn ei fynwes, a rhyw obaith am gawod o edifeirwch i'w ganlyn: yna daw cymdeithion annuwiol ac a ymlidiant o'u blaen yr holl gymylau hyn, hyd oni byddo y galon yn gwbl ddi-arwydd o'r hyn a allesid gynt obeithio ei weled.

PENNOD XIII.

Annogaeth i'r saint, na thristaont yr Ysbryd; a'r modd y tristeir ef mewn perthynas i'w gynorthwyo mewn gweddi.

2. I'r saint. Yr hyn sy genyf atoch chwi yw gair o ddeisyfiad, na thristaoch, neu na ddi-fodoch yr Ysbryd sanctaidd yn eich mynwesau. Os sant, nis gelli di ateb i fyw yn hir heb weddi. Gweddio chwaith hyd adref, nis gelli hebdo ef. Pan gilio

efe, ebrwydd yr anghofia dy law ei gorchwyl — y fath fferdot a feddianna dy enaid, fel na bydd genyt nemawr o chwennychiad i weddio; o herwydd efe sy'n dy gynhyrfu i'r ddyledsyydd. Ac os ymlusgi ati, ni chynhesi yn y gwaith; o blegid nid oes ond ei anadl dwyfol ef a wna i'th ir-goed losgi, ac i'th serchiadau gynneu. Ni wna y dillad gynhesu y corph, nes y cynheso y corph hwynt; ac ni ddichon y corph eu cwnhesu hwynt, oddi eithr i'r enaid, sy'n ffynonell y bywyd, ei gynhesu yntau. Os bydl y galon heb gynhesrwydd, nis gall fod gwresogrwydd yn weddi; ac heb Ysbryd Duw, sydd yr un i enaid y Cristion ag yw ei enaid ef i'w gorph, nis gall gwres tyner yn yr enaid. O! gwylia gan hyny rhag ei dristau ef: rhag iddo yntau, wedi ei an-foddio, ballu ei gynnorthwy i ti. Yn awr, fe ddichon Ysbryd Duw gael ei an-fodddhau gan ddyon duwiol dair ffordd, fel ag i beri iddo nacau ei gynnorthwy arferol mewn gweddi.

1af. Trwy ryw bechod yn cael ei ddirgel-lochesu yn y galon: "Pe edrychaswn ar an-wiredd yn fy nghalon, ni wrandawsai yr Arglwydd;" *Salm* lxxvi. 18. Yn awr, pan fyddo Duw yn gwrthod gwrandaw, y mae yn sicr fod yr Ysbryd yn gwrthod cynnorthwyo; o herwydd nid yw Duw byth yn gwrthod gweddi y byddo ei Ysbryd yn ei chyfansoddi, a'i Fab yn ei chyflwyno. Mae pechod mor atgas gan yr Ysbryd sanctaidd, fel y dengys efe ei an-fodddhâd, pa le bynag y caffo ei groesawu. Os mynweh i'r golomen bur hon aros gyda chwi, byddweh yn sicr o gadw ei lley yn lân. A ddarfu i ti ymhalogi trwy unrhyw bechod gwybyddus? Na feddwl cael ei help ef mewn gweddi, nes ei brofi mewn edifeirwch. Efe a'th ddwg i'r olefha cyn dy ddwyn at yr allor. Mae y cerddor yn arfer sychu ei offeryn, a syrthiodd i'r dom, cyn ei roddi at ei enau. Os mynit gael gan Ysbryd Duw anadlu yn dy enaid mewn gweddi, na wna gynnyg o hono yn domlyd gau bechod heb edifarhau am dano.

2il. Trwy fynych wrthwynebu a throi heibio ei gynhyrfiadau. Megys y mae yr Ysbryd yn cynnorthwyo mewn gweddi, felly y mae efe yn annog i weddi. "Efe yw cof-iadur a rhybuddiwr y saint: "Efe a ddwg ar gof i chwi yr holl bethau" (medd Crist); *Ioan* xiv. 26. Galwodd Duw am Iacob i Bethel (*Gen.* xxxv. 1), felly y mae yr Ysbryd yn annog y Cristion i ddyledsyydd. Y cyfryw drugaredd ag a dderbyniaist; cyfod, molianna dy Dduw am dani, tra y mae yn newydd yn dy gof, ac yn gynhesu ar dy galon; y mae y cyfryw brofedigaeth yn gorwedd o dy flaen; dos a gweddia na'th arweinier iddi. Mae dy Dduw yn aros am danat ac yn disgwyll dy ddyfodiad; dyma amser cyfaddas i ti dynu o'r neilldu i gynnal

cymdeithas âg ef, a thalu ymostyngiad iddo. Yn awr, pan fyddo y Cristion yn ysgwyd ymaith y cynnhyrfaidau hyn, ac heb dderbyn yr amnaid a ddryr efe; ond o bryd i bryd yn esgeuloso ei gyngbor ac yn colli yn ei gydnabyddiaeth â Daw, er ei rybuddion hyn, y mae yn cael ei ddwys anfodddhau. Ydyw, ac o achos y dirmyg y mae yn ei gael, y mae yn rhoddi heibio alw ac yn gaelael yr enaid dros amser, hyd oni byddo i'w absennoldeb a'r canlyniad athrist o hyny, ei ddwyn i weled ei ynyfdrwydd, a pheri iddo groesawu ei gynnugiadau yn fwy caruaid am yr amser i ddyfod. Fel hyn y gadawodd Crist y ddywedd, pan na fynai godi o'i gwely wrth ei alwad; a rhaid iddi gerdded llawer cam blinedig cyn cael golwg arno mwy: *Can. Sol. v. 2-8*. Mae yn gyfiawn i D. I. I. godi pris ei drugaredd pan fyddom ni yn ei gwrthod ar gynnwys is. Teirgwaith y mae Crist yn galw ar ei ddisgyblion cysgilyd i wyllo a gweddio, rhag eu myned i brofedigaeth; ond mewn cswg y mae yn eu cael bob tro y daw atynt: pa beth wedi hyny? Yn ddiun, y mae yn peri iddynt gysgu bellach (*Mat. xxvi. 45*), fel pe dywelasai, Cymmerwch eich ffordd, ac edrychwch pa beth fydd y canlyniad. Yn wir, buan y gwelsant, er eu gofid, o blegid hwy oll a syrthiasant yn ebrwydd i'r brofedigaeth hono, y darfuasai i'w meistr mewn pryd mor adlas at eu cyffcoi hwynt at ei rhagfianu trwy weddi. A hyn a'u deffrôld hyd adref.

3ydd. Trwy ymfalechio yn ac ar y cynnorthwyon y mae yn eu rhoddi. Mae balchder yn bechod a wrthwysba Daw, pa le bynag ei cyferfydd: o herwydd y mae yn bechod sydd yn ymyron â Daw ei hun am y wal. Mae yn bryd i'r Ysbryd droi ei gefn, pan osoder ei dŷ uwch ei ben: y mae yn ei gymmeryd fel rhybudd iddo ymadael, pan fyddo yr enaid yn ei godi ei hun i'w cisteddfa. Os na chaffei efe anrhydedd y gwaith, ni fyn efe fod â llaw yddo. Yn awr, y mae y dyn balch yn gwneuthur yr Ysbryd fel is-was iddo ei hun: y mae yn defnyddio ei ddoniau ef at ei godi ei hun i'w fyny. Tair ffordd y mae balchder yn ei ddangos ei hun mewn gweddi; a rhaid ei wrthsefyll yn y cwbl, os mynwn gael cyfeillach yr Ysbryd:—

(1af.) Pan fyddo y creadur yn cyfrif gwaith yr Ysbryd iddo ei hun, ac yn gosod ei enw ei hun ar y ddyledswydd, lle y dylai addef Daw; yn debyg i Caligula, a osododd lun ei ben ei hun ar ddelw Iupiter. Yn lle bendithio Daw am ei gynnorthwyon, y mae yn ei foli ei hun, gan uchel dybio am ei ddoniau ei hun, ac ymloni yn yr helaethiad oedd ganddo mewn ymuroddion a serchiadau yn y ddyledswydd. Lladrad amlwg yw hyn: pechod y dylai pob enaid grasol grynu rhagddo. Mae ysbeilio eglwys yn ysgelderder mawr. O! beth yate yw ys-

beilio yr Ysbryd? “Byw ydwyf (medd Paul), etto nid myfi;” *Gal. ii. 20*. “Mi a lafuriais yn helaethach na hwynt oll; ac nid myfi chwaith, ond gras Daw yr hwn oedd gyda mi;” *1 Cor. xv. 10*. Fel hyn y dylesit ti, Gristion, ddywedyd:—Mi a weddiais, etto, nid myfi; myfi a lafuriais ac a ymdrechais, nid myfi chwaith, ond Ysbryd Daw yr hwn oedd gyda mi. Na fola mo honot dy hun, ond yn isel yn y llwch, rhyfedda ras, a rhyngiad bodd Daw, sydd yn helpio y fath greadur tlawd a thi. Dyma Dafydd: “Pwy ydwyf fi, a phwy yw fy mhobol i, fel y caem ni rym i offrymu yn ewyllysgar fel hyn? canys oddi wrthyt ti y mae pob peth, ac o'th law dy hun y rhoisom i ti;” *1 Cron. xxix. 14*. Mae y goruchwylwr hwnw yn haeddu ei droi o'i swydd sydd yn ymfrostitio o arian ei feistr fel yr eiddo ei hun.

(2il.) Pan elom i ddyledswydd mewn hyder ar y doniau a'r gras a dderbyniasom gynt, ac heb gydnabod ein hymddibyniad ar D. I. I., trwy ymreiglo arno am gynnorthwy adnewyddol ar ol ein hymbarotoad. Ac megys y mae yn rhaid i ni weddio yn yr Ysbryd, felly y mae yn rhaid i ni ofyn am dano, fel y gallom weddio trwyddo: “Pa faint mwy y rhydd eich Tad o'r nef yr Ysbryd Glân i'r rhai a ofyno ganddo?” *Luc xi. 13*. Ac nid gofyn unwaith am byth wna y tro: ti eili fod yn cael ei gynnorthwy y boreu, a bod hebllo y nos, oddi eithr dy fod yn gofyn drachefn yn ostyngedig am dano. Cawia wyddoch y modd y triniwyd Samson, pan ddywedodd, “Af allan y waith hon fel cynt;” *Barn. xvi. 20*. Oeh! druan wr, yr oedd yr halynt wedi newid; yr oedd yn wan fel dwfr; yr oedd yr Ysbryd wedi cilio, a'i nerth wedi myned i'w ganlyn. Fe fyn Daw i ti, O Gristion! wybod fod agoriad dy galon yn crogi wrth ei wregys ef, ac nid wrth yr eiddot dy hun, fel y gellit ei hazor a'i helaethu wrth dy ddymaniad. Cydnebydd D. I. I., a'i Ysbryd a'th gynnorthwya; ond ymddiried i'th ddeall dy hun, a dyna ti yn sicr o godwm. Pan fyddo balchder yn mlaen, y mae cywilydd ar ol; os bydd balchder yn nechreud y ddyledswydd, bydd cywilydd yn ei diwedd.

(3ydd.) Pan bwysom ar ein gweddian, yn lle yn gwbl ar eiriolaeth Crist am wrandawial a derbynriad. Balchder tra amlwg yw hyn, a difriad mawr ar anrhydedd Crist. Mae Daw yn wir yn derbyn neu yn cymmeradwyo y saint mewn gweddi; etto, nid am eu gweddi, ond er mwyn Crist. Yn awr, gellwch fod yn sicr na fydd i'r Ysbryd, cenadwr Crist, byth roddi ei gymmhorth i ysbeilio Crist o'i ogoniant. Pan fyddo efe yn dy helpio i weddio, pe gwrandewit ar ei lais, ti eili ei glywed yn dy alw allan o honot dy hun, a'r hyder yn dy weddian, i bwysio yn gwbl ar gyfryngod

Crist. Os gwnei gam â Christ. vr wyt yn sicr o dristau ei Ysbryd.

PENNOD XIV.

Y ddyledswydd o wylïo yn cael ei hagar; a phaham y dylai ddilyn ein gweddïau.

"A bod yn wylïadwrus at hyn yma;" *Eph. vi. 12.* Y MAE y geiriau hyn yn cyflwyno i ni y bummed gangen yng nghyfarwyddyd yr apostol am weddi. Gellir ei galw yn wylïadwriaeth, neu lu gosgordd, i warchadw gweddi. Y mae gweddi i'r saint, fel y gynau mawrion i fyddin, o ddefnydd mawr i'w hamddiffyn, ac o rym nid llai i niweidio eu gelynyon; ac am hyn y gofyn gosgorddllu cryfach o'u hamgylch, rhag eu cymmyrd oddi arnynt, neu eu troi i'w herbyn gan eu gelynyon.

DOSE. I.

Yn awr, y gosgordd-lu y mae Ysbryd Duw yn bennodi yma i'r ordinhâd fawr o weddi yw gwylïo: "gan fod yn wylïadwrus at hyn yma." Y mae gwylïo priodol, ac ammhriodol, llythyrenol, neu ynte trawsfudol. Gwylïo, mewn ystyr llythyrenol, sydd yn ymglyffroad o eiddo y corph—yn briodol nis gellir dywedyd ei fod yn gwylïo, ond am yr hyn sydd yn ddarostyngedig i gysgu, ac felly y mae y corph, nid yr enaid. Gwylïo fel hyn mewn gwedd grefyddol, yw nacau cwsig i'n cyrph; fel y gallom dreulïo y cwbl, neu ran, o'r nos, mewn ymarferiadau dauwlol. Fel hyn yr oedd yr Iuddeuon yn cadw nos y Pasc yn sanctaidd: *Ecsod. xii. 42.* Ein Hiachawdwr a dreulïodd y nos yn fyfnych mewn gweddi: *Mat. xiv. 23, 26, a 38.* Ni a gawn Paul yn troedio yn llwybr ei feistr: "mewn gwylïadwriaethau, mewn ymprydïau;" *2 Cor. vi. 5.* Llauer tameid yn o felus-fwyd ysbrydol, a gafodd enaid Dafydd dduwlol, pan fyddai ereill yn cysgu yn eu gwelyau: "Megys â mer ac â braser y digonir fy enaid; pan y'th gofiwyf ar fy ngwely; myfyriaf am danat yn ngwylïadwriaethau y nos;" *Salm lxiii. 5, 6.* I enaid duwlol, ac ar achosion neillduol, tra y goch-elir coel-grefydd, ac yr edrychir at iechyd, diammheu bod gwylïo fel hyn i weddiâu, nid yn unig yn weddus, ond yn hyfryd. Medd Awstin: "Y mae gwylïadwriaethau yn troi yn wleddoedd ysbrydol, os na byddant niweidiol i iechyd, ac os treulir hwynt mewn darllen, gweddïo, a chanu Salmu." Enaid dedwydd a all fel hyn ymlithro yn y tywyllwch i freichiau ei Anwyld, a gwylïo yn dduwlol, tra y mae ereill yn gwylïo i ddyrygioni, neu yn ymlenwi â phleserau bryntion. Y Cristion yw y dyn; enaid yr hwn a lenwir, fel enau Gideon, â gwlith a dylanwadau y nefoedd uwch law ereill.

Ond yn ail, Y mae gwylïo i'w gymmyrd, mewn ystyr drawsfudol, am wylïadwriaeth yr enaid. Hyn yn benaf a olygir yma, ac

mewn ysgrythyrau ereill, lle ein gorchymynir i wylïo: *Marc xiii. 35; 1 Thes. v. 6; 1 Pedr v. 8; Dad. xvi. 15,* a llawer yn chwangeg. Yn awr, ni a ddeallwn yn well pa ddyledswydd a osodir ar y Cristion, dan y gair hwn, gwylïo, os ystyriwn pa beth yw gwylïo corphorol; y mae yn cynnwys dau beth, bod yn effro ac yn gweithio. Pan fyddo dyn yn deffroi yn y nos, i ddilyn rhyw orchwyl, y mae y cyfryw un yn wir yn gwylïo. Dyn a fyddo heb gysgu yn y nos, etto i ddim diben, o ran dim gorchwyl sydd ganddo i'w gyflawni, gellir dywedyd ei fod yn effro, ond nid ei fod yn gwylïo; canys y mae hyn yn perthyn i ryw wasanaeth a fyddo i edrych ato. Y modd hyn y dywedir am y bugellaid, eu bod "yn gwylïed eu praidd liw nos" (*Luc ii. 8*), ac am y disgyblïon yn "gwylïed gyda Christ," pe gallasant eistedd i fyny i weini arno y nos o flaen ei ddiodefaint: *Mat. xxvi. 40.* Felly, i'r Cristion wylïo mewn ystyr ysbrydol, rhaid i'r enaid fod yn effro o gwsg pechod, yn nos y byd hwn, fel y gallo gadw cadwraeth yr Arglwydd, a gwneuthur y gwaith a osodir arno megys Cristion. Yn awr, gan fod gweddi yn un prif orchwyl sydd ganddo i'w ddilyn, a bod yn gwbl ddyfal ynddo, am hyn y mae gwylïo a gweddïo mor fyfnych yn gysylltiedig: *Mat. xxvi. 41; Marc xiii. 33; Col. iv. 2; 1 Pedr iv. 7.* Wrth drin y ddyledswydd hon o fod yn wylïadwrus i weddi, dangosaf—1. Pa ham y mae yn rhaid i'r Cristion wylïo i weddi. 2. Ym mha bethau y mae y ddyledswydd o wylïadwriaeth, mewn perthynas i weddi, yn gynnwysedig. 3. Mî gaf osod ei orchwyl gwylïo i'r Cristion, drwy roddi iddo ychydig gynghor a chynnorthwy tuag at ei barhaus gyflawniad o'r ddyledswydd hon o wylïadwriaeth; o herwydd nid gwaith dros amser ydyw, ond dros ei holl fywyd.

1. Pa ham y mae yn rhaid i'r Cristion wylïo i weddi?

DOSE. II.

1af. O herwydd mawr bwys y ddyledswydd o weddi. Nid yw y Cristion yn cyfarfod yn ei holl fywyd âg un gorchwyl o ddwyser a phwys mwy nag yw hwn o weddi, a hyn y mae perthynas i Dduw, neu iddo ei hun. Yn gyntaf, Mewn perthynas i Dduw. Gweithred o addoliad crefyddol ydyw gweddi; ynddi y mae i ni yn ddigyfrwng a wnelom â'r Duw mawr, at yr hwn yr ydym yn nesau. Yn awr, y mae crefydd mor dynyr a'r llygad; nid peth ydyw i chwareu â hi, nac i'w thrin heb ystyriaeth a gofal mawr. Y mae gweddi yn waith rhy gyssegredig i'w gyflawni rhwng cysgu a deffro—â llygad trwm, neu â chalon hepianus. Am hyn y mae Duw yn cwyno: "Nid oes a alwo ar fy enw, nac a ymglyf i ymatelyd ynof;" *Êsa. lxiv. 7.* Nid yw efe yn ei chyfrifl ty weddi, lle byddo y galon heb

ymgyfodi a deffro. Mewn un ffordd nis gallwn roddi aurhydedd, neu ddianrhydedd, mwy i Dduw nag mewn gweddi. O! ynte, y modd' y dylem ni wylïo i'r ddyledswydd hon! Drachefn, mewn perthynas i ni ein hunain; am fod ein hymddygiad mewn gweddi yn sicr o ddwyn ei effeithiau i holl ranau ein buchedd. Fel y byddo dyn yn y ddyledswydd hon, felly y mae yn debygol i fod yn y lleill oll. Os diofal mewn gweddi, yna ysgafn wrth wrandaw, a phenrydd yn ei rodiad; caiff brofi ei fod yn atwyddo er ei holl ffyniant, yn cael ei faglu yn ei holl fwyniant; yn cael ei faeddu gan bob profedigaeth, a'i anhrefnu gan bob cystudd a'i cyferfydd. A'r rheswm am hyn oll ydyw, am mai oddi wrth Dduw y mae ein holl nerth, i wneuthur a dioddef. Yn awr, y mae Duw yn cyfranu ei gynnorthwy i'w blant mewn ffordd o gymmudeb â hwynt; y maent yn gofyn, ac y maent yn derbyn; yn ceisio, ac yn cael; yn curo, a thrysor trugaredd yn cael ei agor iddynt. Gweddi yw y ddyfr-ffordd, ar hyd yr hon y mae ffrwd dwyfol ras, bendith a chysur, yn liffo oddi wrth Dduw, y ffynnon, i lestri eu calonau hwynt. Argeuwch y ddyfr-ffordd, a dyna y ffrwd yn cael ei hatal. Os ni wna y cylla dreulio yr ymborth, y mae yr aelodau oll yn colli eu maeth. Os palla y fasnach yn y siop, tlawd a fydd y fywoliaeth yn y tŷ.

2il. Y mae gwyliadwriaeth o bwys mor fawr i weddi, ag yw gweddi i'n holl ddyledswyddau ereill. Ni ddiichon un ddyledswydd gael ei chyflawni yn dda heb weddi, na gweddi heb wylïo; o blegid nid gweddi, ond gweddi o anadiad sanetaidd ysbrydol, a fydd yn effeithiol; a hyn nis gall fod pan fyddo y Cristion oddi ar ei wylïadwriaeth. Os ceir ef yn hepiâu, a'i rasmusau mewn hun, nid yw efe yn fwy addas i weddio, nag yw dyn a fyddo mewn cwsg i weithio. Pa waith bynag a fyddo gan ddyw, y mae cwsg, pan ddell, yn rhoddi diwedd arno. Cwsg yw gwastadydd mawr y byd; y mae yn gwneuthur pawb yn gyffelyb. Y gŵr cryf, tra yn ei gwsg, y mae mor ddiallu i amddiffyn ei hun rhag gelyn ag yw y plentyn. Y cyfoethog a'r tlawd, yn eu cwsg, cyffelyb ydynt; nid yw y gŵr mawr yn mwynhau ei etifeddiaeth, ddim mwy na phe byddai heb- ddi. Ac felly y Cristion, tra y byddo ei rasmusau yn cysgu, nid yw ond tebyg i un arall sydd heb ddim gras—fy meddwl yw, o ran yr arferiad presennol o honyt—efe a weddiâ felly y gwnai dyn anianol, heb fwynhau Duw, ddim mwy na hwn yn y ddyledswydd. O! mor alarus o beth yw hyn! Ac etto, mor dueddol ydym i roddi lle i'r cysgad- rwydd hwn mewn gweddi! Mae yn llithro ar yr enaid heb yn wybod iddo, fel y gwna cwsg ar y corph. Mae y galon wedi dange cyn i'r Cristion ond prin ddirnad. O hyny mwy yw yr angen i ni wylïo ar yr achos.

3ydd. Am fod Satan y fath wylïwr yn erbyn gweddi, y mae hyny yn galw am i'r Cristion wylïo i weddio. Pa le y dylai y wylïadwriaeth gryfaf gael ei gosod, ond lle y gwna y gelyn ei ymosodiad glewaf? Gweddi yw y gwrthglawdd y mae yn curo arno, gan ymgeisio â'i holl rym i guro y Cristion allan o hono, am y gŵyr yn dda mai oddi yma y daw yr ergydion a wna y niwed mwyaf iddo. Ei ruthrau ereill yn erbyn y Cristion a wneir ar y bwriad o "rwystro ei weddïau;" 1 *Pedr* iii. 7, fel y rhuthra gelyn ar un cwr o ddinas, i dynu y milwyr o fan arall, lle y mae efe yn benaf yn bwriadu dyfod i mewn. Yn wir, nid yw yr euaid byth yn syrthio yn gwbl i'w ddwy- law ef, nes y tafo i fyny y ddyledswydd hon: "Gweddi'wch fel nad eloch i brofedigaeth." Ambell waith, ar ol i'r ddinas gael ei chymeryd, y mae y gelyn yn cael ei guro yn ol gan y rhai a fyddo yn y castell, ar ben uchaf y ddinas. Mae gweddi yn debyg i gastell o'r fath; nid oes gan y Cristion, weithiau, ddim wedi ei adael ond ys- byrd gweddi; ac â hwn y mae yn curo y diafol yn ol allan o'r holl leoedd a ennillodd, ac yn wasgu o'i ddwyllaw ei fuddugoliaeth- au newydd gaffael.

PENNOD XV.

Yn dangos ym mha bethau y mae dyledswydd y Cristion o wylïed i weddio yn gynwysedig.

YR ail beth a addewais oedd dangos pa fodd y mae i'r Cristion arfer ei wylïadwriaeth mewn perthynas i'r ddyledswydd hon o weddi. Cymmerwch hyny dan y tri phen canlynol:—1. Y mae efe i wylïo cyn gweddi. 2. Mewn gweddi. 3. Ar ol gweddi.

DOSB. I.

1. Y mae efe i arfer ei wylïadwriaeth cyn gweddi; a hyny

1af. Trwy wylïo am yr amser cyfaddas i weddio. Nis gallwn fod bob amser ar ein gliniau. Y mae modd i ui fod yn gwasanaethu Duw trwy gydol y dydd; ond nid yn ei addoli felly. Dyledswydd yw hon sydd yn gofyn rhyw brydiau gosodedig i'w hym- arfer. Yn awr, y mae yn ddyledswydd ar- nom wylïo am amser gweddi, fel y gwna y marsiandrwr am awr y cyfnewid-dŷ—y mae yn trefnu ei achosion ereill fel na byddo mewn un modd golli hono. Fel hyn y dylai y Cristion ymgnio i drefnu ei achosion yn- tau, fel na chaffo ei addoliadau eu cau allan na'u cyfyng-wasgu o ran amser, trwy ei annarbodaeth ef, nac ychwaith ormesu ar ei ddyledswyddau rheidiol ereill. Llauer plentyn glân a gollir drwy enedigaeth an- hlymmig, a llauer dyledswydd dda sydd yn cael ei hanafu trwy ei chyflawni allan o am- ser.

2il. Y mae efe i gadw gwyliadwriaeth fanwl arno ei hun yn ei holl rodiad. Yn gyntaf, Trwy ochelyd pob peth a ddichon hlogi ei gydwybod, ac felly ei anaddasu i gymmundeſ â Duw. Fel hyn yr oedd i'r offeiriad wylio arno ei hun rhag cyffwrdd â dim aflan. Yr oedd Duw trwy hyn yn dangos y mŷn efe i'r rhai hyn fod yn sanctaidd yn eu bucheddau, a nesant ato ef yn nyledswyddau ei addoliad. Yn ail, Trwy ofal duwiol i graffu ar, a chadw mewn cof droion hynotaf rhagluniaeth Duw tuag ato; ac hefyd agwedd ac ymddygiad ei galon ei hun tuag at Dduw yn yr holl amser cyfrwng rhwng gweddi a gweddi. Y mae y diffyg o'r rhan hon o wyliadwriaeth yn achos o'n bod mor sychlyd a diafael yn nghyflawniad y ddyledswydd. Nid rhyfedd fod hwnw yn fyr o faterion yn ei weddi y nos, ac yn rhedeg drosti mewn modd disylwedd, a esgeulusodd drysori yr hyn a basiodd rhwng Duw ac yntau ar hyd y dydd. Er nad yw y gweinidog ar waith yn llunio ei bregeth ar hyd yr wythnos, etto, wrth sylwi yn ei ymarferiadau ereill ar yr hyn a ddichon fod yn ddefnyddiol iddo yn y gwaith hwnw, y mae yn cael gafael mewn aml amnaid a fydd yn gynnorthwy iddo pan el yn ei chylech. Y cyfryw gynnorthwy a gaiff y Cristion at weddi, drwy gadw cof o hynod ragluniaethau Duw tuag ato, ac o'i ymddygiad ei hun danynt; fe fydd i'r rhai hyn ei addurno â defnyddiau rheidiol i'r gorchwyl. Y mae y pŵrs yn llenwi tra y mae y buchedd yn pori, neu yn cnoi eu cil; ac felly yn rhoddi llaeth yn helaethach pan eu godreir y nos. Yn ddiau, yn debyg i hyn, y Cristion hwnw sydd raid iddo fod yn fwyaf blith a helaeth yn ei erfyniadau wrth orsedd gras, a fu yn llenwi ei galon ar hyd y dydd â myfyrdodau addas a chynnorthwyol i'r ddyledswydd. A ddymunai efe fendithio Duw? Y mae ganddo wrth law, yn nghoflyfr ei feddwl, y cynaliaethau, y gwaredigaethau, a'r cynnorthwyon a gafodd gan Dduw; tra y mae un arall wedi colli y cwbl, o ddiffyg eu nodi i lawr yn y dalenau hyn. A' â efe i gyfaddef pechodau y diwrnod; ebrwydd y geilw i gŏf, "Ym mysg y rhai hyn, a'r rhai hyn, mi a anghofiais fy hun, ac a leferais yn fyrbyyll â'm gwefusau; yn y mwyniant draw gwelais fod fy nghalon yn anghyammedrol—dyma ddyledswydd a adowewais heibio; a dacw un y bŷm ddiotal ac esgeulus wrth ei chyflawni." Yn awr, y fath gynnorthwy rhyfeddol sydd gan y cyfryw, uwch law un arall, sydd yn rhodio ar antur, i gael ei enaid i hwl doddedig, ym-ostyngol! Y mae y llygad yn effeithio ar y galon; presennoldob y gwrthddrych yn cynhyriu y serch. Y mae golwg ar elyn yn cyffroi digofaint, felly golwg ar gyfaill anwyl yn cynhyrfu cariad, ac yn rhoddi dyn mewn lion syndod disymmrwth, er na

buasai efe, fe allai, yn meddwl am dano, oni buasai iddo ei weled. Pa fodd y gallant hwy alaru yn yr hwy ar mae bechodau y diwrnod, y rhai nid ydynt-yn eu cofio mwy na Nebuchodonosor ei freuddwyd? Yn drydydd, Trwy yr arferiad mynych o saeth-weddiâu. Nid yw hwnw yn gwylio i weddio, nad yw un amser â'i feddwl ar Dduw, ond pan fyddo ar ei liniau; o herwydd trwy hir-ymarfer yn ei anghydnabyddiaeth â Duw, y mae yn ei anghywmhwysio ei hun i bob nesâd mwy arbenig at Dduw. Mae hir ympryd yn gwanhau y chwant i fwyd. Caiff y Cristion brofi, po mynychaf y bywioger ei ysbryd â'r llymeidiau bychain hyn, a'r aml brawf byr yma, o'r nef, mwyaf a all efe ei yfed pan ddelo at ei bryd o weddi foreuol a hwyrol. O herwydd yn y modd hwn fe'i cedwir rhag ymserch fydol, sydd yn trwm lwfrhau y galon; a chaiff hefyd ei dymmrn a'i barotai at gymmundeſ mwy neillduol â Duw. Y mae y rhodfeydd byrion hyn, o'u mynych arfer, yn cadw yr enaid mewn anadl at daith hwy.

DOSB. II.

2. Rhaid iddo wylio mewn gweddi. Nid digon yw gwylio y plentyn i'w gael i'r ysgol, ond rhaid i lygad y meist'r ei wylio yn hefyd. Bod yn segur yn yr ysgol sydd cyn waetha a segura allan o honi. Da yw dy waith, Cristion, i wylio arnat dy hun o flaen gweddi, ac edrych am beidio esgeuluso y ddyledswydd; ond, a droi di dy gefn yr awr hon wrth ddrws yr ysgol? Diau, os felly, ni fydd dy holl ofal o'r blaen ond i ychydig ddiben. Yn gyntaf, Rhaid i ti wylio dy ddyd oddi allan, a'i ddefiroi o gwsg a diogi. Os bydd y corph mewn gweddi yn llygad-trwm, rhaid bod yr enaid yn droed-trwm. Y mae y pin yn syrthio o law yr ysgrifenydd, pan syrthio efe i gysgu. "Gwyliwch a gweddiwch," medd Crist wrth ei ddisgyblion; gwyddai nas gallent wneuthur y gwaith hwn dan hepian. Etto, y fath nifer a welwn ni, ar amser gweddi, yn ein cynulleidfaoedd, mor bell oddi wrth wylio—yn yr ystyr hon—fel y maent yn gwahodd cwsg i ddyfod arnynt, drwy osod eu huanid mewn agwedd ddioglyd! Yn sicr, gyfeillion, y mae gymmundeſ â Duw yn werth cadw ein llygaid yn agored. Ychydig y mae y cysgaduriaid hyn yn ei feddwl pa fath ddirmyg a fwriant ar Dduw a'i ordinhâd. Rhyfedd genyf fod neb yn gallu cysgu yn addoliad Duw, ac heb freuddwydio am dân uffern. Ond nid digon yw cadw y llygad yn effro, os gadewi iddo wibio: "Tro heibio fy llygad rhag edrych ar wagedd," medd Dafydd, "a bywhâ fi yn dy ffyrdd;" *Salm* cxix. Yn ail, Rhaid i ti wylio dy enaid mewn gweddi. Gwylia ar ei amcanion a'i ddibenion, rhag ei fod yn annelu heibio i'r nôd; edrych hefyd pa nerth a grym a ddyry dy enaid at y gwaith. Y mae ein gweddiâu yn aſwyddo

wrth saethu yn fyr, yn gystal ag ar ŵyr. Mewn gair, rhaid i ti gadw dy galon yn dra diesgeulus o ddechreu i ddyledswydd i'w diwedd; onid e, hi a ymlithra oddi arnat yn ddiarwybod i ti. Och! mor fynych y mae ein heneidiau yn dechreu ymddiddan â Duw, mewn gweddi, ac yn ddisymmwth yn syrthio i ddadwrdd â'r byd! Yn awr, yr ydym yn wresog wrth y gwaith, a'n serch- iadau â llawn gri yn tyn-ddilyn ar ol Duw; ond yn y man yn colli y sawyr, ac yn oeri yn y gwaith. Yr oedd Dafydd dduwiol yn deimladwy o hyn; ac am hyny y cawn ef, ar ganol y ddyledswydd hon, yn erfyn help gan Dduw i alw ei galon wibiog yn ol: "Una fy nghalon i ofni dy enw;" *Salm* lxxxvi.

DOSB. III.

3. Y mae y Cristion i wlyio ar ol gweddi. Iaf. Trwy alw ei enaid i gyfrif am y ddyledswydd, pa fodd ei cyflawnwyd ganddo. Y mae Duw ei hun, ar ol gorphen ei weithredoedd o greadigaeth, yn edrych yn ol arnynt: "A gwelodd Duw yr hyn oll a wnaethai;" *Gen.* i. 31; hyny yw, fe gymmerodd olwg ar ei orchwyl, fel y gwnai celfyddydwr ar ryw ddarn o'i waith. Y mae wedi rhoddi y ddawn i ninnau oll i fedru adystyried ein gweithredoedd, ac y mae yn edrych am i ni ei defnyddio; i.e., y mae yn achwyn ar y rhai nad ydynt yn ystyried eu ffyrdd a'u gweithredoedd. Y mae aml ddyledswydd yn ymddibynu ar hyn. Yr hwn nid edrych yn ol, pa fodd y gweddiodd, a all efe ymddarostwng am y pechodau oedd yn nglŷn wrth ei weddi? Ac a faddeu Duw yr hyn nid oes ar y dyn chwant ei wybod tuag at ddangos ei edifeirwch am dano? Neu a wellhâ efe y beiau hyny, yn y weddi nesaf, y rhai nis canfu yn y weddi o'r blaen? Na wna; yn hytrach fe'u chwanea. Ni raid i ni ddyfrhau chwyn; os cânt ond eu gadael yn llonydd, dyna ddigon at eu tyfiant. Felly yr enaid diog, buan y ceir ef wedi tyfu yn wyllt, a'i orchuddio â'r pechodau hyny mewn gweddi, y rhai o'r diwedd a dagant rym ysbryd gweddi o'i fewn. Yn ail, Trwy sylwi beth yw canlyniad ei weddi. Fel y mae efe i edrych yn ol, i weled y modd y gweddiodd, felly ym mlaen hefyd, i sylwi pa atebiad y mae yn ei gael o'i weddi. Gweddi-fo heb edrych beth a ddaw o'n gweddi, sydd ffolineb mawr, a phechod nid bychan; tebyg i blant yn taflu ceryg i afon, heb ddisgwyl eu gweled byth mwy. Beth yw hyn ond cymeryd enw Duw yn ofer, a chellwair âg ordinhâd sydd yn sanctaidd a chyssegredig? Etto fel hyn, ysywaeth, y mae llawer yn curo wrth ddrows Duw, fel plantasog segur wrth yr eiddon ninnau, ac yna yn diange at y byd, megys hwythau at eu chwareu, ac heb feddwl dim mwy am eu gweddiau. Neu fel Pilat, a ofynodd i Grist, Beth yw gwirionedd? ac ar hyny a aeth allan at yr

Iuddewon, gan anghofio yr hyn a ofynodd Nid y fath neges wael oedd gweddiog gar Dafydd: "Yn fore, Arglwydd, y clywi f' llef; yn fore y cyfeiriaf fy ngweddi atat, ac yr edrychaf i fyny;" *Salm* v. 3. Yn gyntaf, y mae yn ofalus am annelu yn uniawn y saeth hon o weddi, wrth ei hanfon â chenadwr i'r nef, "Cyfeiriaf fy ngweddi atat." Yna nid llai yw ei ofal am graffu pa le y disgyl ei saeth, a pha ateb a roddir iddi, edrychaf i fyny; yr hyn a gymwys yr un peth a' ymadrodd hwnw (*Salm* lxxxv. 5): "Gwranda- dawaf beth a ddywed yr Arglwydd;" hyny yw, "wrthlyf fi," yn ateb i'r weddi a wnaethai efe yn y geiriau nesaf o'r blaen "Dangos i ni, Arglwydd, dy drugaredd; a dod i ni dy iachawdwriaeth." Wedi i'r marsiandrwr anfon ei long i'r môr, y mae yr ymofyn yn y gyfnwida ar ei hol, i gael gwybod a gyrrhaeddodd hi ei phorthladd, a yw hi ar ei ffordd yn ol, a pha fath yw ei llwyth. Wedi i'r llaforwr fwrw ei hadydy i'r tir, fe rydd dro agos bob dydd i weled pa fodd y mae yn dyfod i fyny. Hyn, Gristion, yw bod yn wylidwrus i weddiog, dis- gwyl am atebion gweddi. Yr oedd Mordecai, yn ddiammheu, wedi anfon i fyny aml weddi dros Esther; ac am hyny, y mae yn disgwyl wrth borth y breinin, gan edrych pa ateb a roddai Duw iddynt yn ei rag- luniaeth.

PENNOD XVI.

Gwylidwrriaeth y Cristion yn cael ei gosod iddo o amgylch gweddi; neu gynghor pa fodd i'w gosod.

Y TRDYDD peth a addeuwais oedd helpio y Cristion i osod ei wylidwrriaeth, neu roddi iddo rai cyfarwyddiadau pa fodd i gadw ei galon mewn agwedd wylidwrus. Cymmer- wech hyn yn y pethau a ganlyn.

DOSE. I.

1af. Na achlesa un pechod gwybyddus yn dy fynwes. Mae gan bechod ddau effaith gwrthwyneb ar y gydwybod, a'r ddau yn al- aethus ddigon. Mae nail ai yn gor-frawychu y gydwybod, ai yn ei syfrdanu a'i hurtio; y mae yn tori ar heddwch yr enaid, neu yn dwyn ymaith ei deimlad—yr olaf yw y mwyaf cyffredin. Os caiff y diafol ond rhwbio dy arleisiau â'r opiwm yma, ti a fyddi mewn perygl o syrthio i'r hun-glywyl o gydwybod ddeimlad, yna ychydig ym- gais fydd genyt am weddio. Neu os cael yr effaith arall a wna arnat, fe fydd dy ofn mor fawr ag yw dy dywydd yn awr yn fychan i weddio.

2il. Gochel bob gormod ymserchiad ar y creadur. Dyn meddw sydd, o bawb, yn anghymhwysaf i wlyio; cyn gynted ag yr eisteddo yn ei gadair, dyna hwnw yn cysgu.

yn awr, y mae pob afreolaeth yn y serch yn ddwdod ysbrydol. Mae Crist yn cyssylltu ddau ynghyd: "Edrychwch arnoch eich unain, rhag i'ch calonau yn amser drymtu drwy lythineb a meddwdod, a gofalon bywyd hwn, a dyfod y dydd hwnw ar- och yn ddisymmwrth;" *Luc* xxi. 34. Cyng- or ydyw rhag meddwdod ysbryd, fel na lelai dydd yr Arglwydd o hyd iddynt yn apian; ac o'r ddau, meddwdod y serch yw gwaethaf. Dyn meddw yn ei gorph y nos, mae yn sobr erbyn y boreu; ond dyn dan ymlwyth o ofalon neu ymserchiad bydol, mae yn codi mor feddw ag ydoedd wrth wedd; a pha fodd y gall y fath un wyl- i weddio? Am hyny yr ydym yn cael y lau hyn yn fynych ynghyd: "Gwylw'n a' ddwn sobr;" 1 *The*s. v. 6. "Byddwch wr, a gwyliadwrus;" 1 *Pedr* iv. 7. Pa- th bynag fyddo yr ymserchiad, y mae ei nghymmedrolder yn dwyn yr enaid i an- ymmer, ac yn ei anaddasu i weddio. Ai istwch ydyw? y mae ein Iachawdwr yn el ei ddisgyblion "yn cysgu gan dristwch" *Luc* xxii. 45), pan ddylasant fod yn gwyl- io yn gweddio. Ai cariad ydyw? hyn a ododd Samson i gysgu ar linian Dalila. i fedd calon dyn ddigon o le i Dduw a'r byd efd; ni wna serchiadau bydol gryfhau dai ysbrydol; y galon a fyddo yn ymdeulio ewn galar o herwydd croesau bydol, ni dd ei ffrwd ond gwan pan ddylai y dyn ylo am ei bechodau. Os bydd gofalon y d hwn yn llenwi y pen a'r galon, ychydig ngais fydd yno am ddisgwyl wrth Dduw i libenion ysbrydol. Nid rhyfedd i'r meistr el ei was yn cysgu yn y dydd, pan ddylai d ar ei waith ef, os yn eistedd i fyny loddesta y bu efe trwy y nos.

DOSB. II.

3ydd. Gwrthwyneba y syrthni ysbrydol vn, pan gyntaf yr ymlusgo arnat. Haws w cadw cwsg draw ar ei ddynesaid, na'i gwgd ymaith wedi iddo gael meddiant a wymo y synwyrâu. Y mae yr hun-glywf na yn dyfod yn lladradaidd arnom, fel y os yn nesau o fesur ychydig; gan hyny, yn ganfyddech ei ddyfodiad, ymgynhyrfa, l y gwnai dyn, sydd ganddo orchwyl i'w neuthur, neidio i fyny o'i gadair, i ysgwyd naith ei syrthni. Yn awr, ti elli sylwi ar ychydig arwyddion hyn o'r haint yma yn fod arnat. Yn gyntaf, Annhueddrwydd anewyllysgarwch i ddyledswydd. Os cei vn, y mae yn profi dy fod yn dechreu yned yn llygad-trwm. Pan yw gras ar lihun, nid rhaid wrth lawer o eiriau i wa- odd y Cristion ger bron Duw: "Pan ddy- edaist, Ceisiwch fy wyneb; fy nghalon a lywedodd, Dy wyneb a geisaf;" *Salm* cvii. 8. Oddi wrth dy agwedd swrth, ti ti benderfynu fod rhyw fygdarth wedi codi tdi ar dy lygredigaethau, i drymhau a yly dy galon at y gwaith. Un a redai at

y drws, pan yn effro, ar gnoc cyntaf ei an- wyl gyfaill, i'w ollwng i mewn; fe eill, rhwng cysgu a deffro, adael iddo sefyll yn rhy hir. Hyn oedd cyflwr y ddyweddi, ac a barodd iddi golli cymdeithas ei hanwylyd; prawf amlwg o'i bod mewn hun-glywf, oedd ei bod mor hwyrfydig i ddyledswydd; o blegid dyna y drws y buasai Crist yn ei chyfarfod ynddo. Yn ail, Ffurfioldeb mewn gweddi sydd yn arwydd sier fod rhyw haint gysglyd yn crogi wrthlyt. Gras yn effro, y mae yn llawn bywyd a bywiogrwydd; o leiaf, fe dadguddia ei hun drwy wneuthur yr enaid yn ddwfn deimlad yw o'i farweidd-dra a'i bylui. Y mae yn profi y dyn yn effro, pan y mae yn adrodd ei freuddwyd a'i helynt yn ei gwsg; ac felly yr enaid yn effro, pan yw, gyda theimlad a galar, yn cyfaddaf ei farweidd-dra. Yn drydydd, Goruchafiaeth meddyliau gwibiog. Mewn cwsg, y mae dychymmyg a thybiau yn rhedeg ac yn rhwysgo yn ddireolaeth. Os yw dy feddyl- iau yn cael crwydr-wibio ac ymwasgaru ar ol ofer bethau, yn amser gweddi, a hyny heb gerydd genyt, y mae yn brawf fod dy ras, os ydyw ynot, heb fod yn iawn effro.

DOSB. III.

4ydd. Arfer ddyfalwch cydwybodol wrth dy alwedigaeth neilludol rhwng prydiau gweddi. Y rhai a eisteddant i fyny i wyllo, rhaid iddynt gael rhyw waith i'w cadw yn effro; nid yw seguryd ond un radd oddi wrth gwsg. Nis gallaf fi gredu y bydd i'r neb a segura ddiwrnod gael ei galon yn effro i weddio erbyn y nos; o herwydd y mae y cyfryw wedi byw y dydd hwnw mewn es- geulusdra o ddyledswydd sy mor angen- rheidiol a hon; a salw a fydd myned at un ddyledswydd oddi wrth yr esgeulusdra o un arall. Y mae yn wir genhedlaeth o ddy- ion, sydd dan rith gwyllo a gweddio yn wastadol, yn cilio i'w mynachdai ac yn ym- wrthod â phob galwad fydol, fel pe byddai mor hawdd ymddiosg o'r byd ag yw newid eu dillad, a gwisgo cwewll a gwn crefyddol. Ond y mae y byd wedi cael allan fod y lle- oedd hyn yn gyffredin, nid yn gymmaint yn dai i weddio, ag yn ffauau i wleda ynddynt ar eu hysgylfaeth. Pobl sydd yn ymbsgi mewn seguryd a digonedd o fara, y mae yn debycach iddynt gael eu hysu gan loddest a chnawdolfryd na chan sel a duwiofryd. Y mae yr awyr pan fo yn llonydd yn tewychu ac yn llygru; y mae ysbrydoedd ein cyrph yn cael eu pylu trwy ymorphwys; ac y mae ar yr enaid gymmaint o eisieu chwimiad ac ymarferiad ag un o'r rhai hyn. Mewn gorchwylion ysbrydol, nis dichon ddal allan heb aml ddyssbaid; am hyny y mae Duw wedi trefnu ein galwedigaethau neilludol fel adgyfnerthiad i'n dyledswyddau ysbrydol, yn unig bydded ein gofal am beidio bod yn ormodol ynddynt. Dichon yr un peth ein bywiocau a'n gwanhau; ein deffroi a'n gosod

i gysgu. Nid oes dim atteg well i'n dyled-swyddau crefyddol na chyflawniad flydd-lawn o'n galwedigaethau neillduol; na dim attalfa gwaeth ar ysbryd gweddi na hyn, pan ei dilynir yn anghymmedrol. Y mae yr un olew yn porthi y lamp ac yn ei boddi, os tywelltir ef i mewn yn ormodol. Del-iwch y ganwyll un ffordd ac y mae y gwŷr yn maethu y fflam; trowch hi â'r pen arall i fyny, ac y mae yn ei diffodd.

5ed. Cadw deimlad o'th angenion ysbrydol. Megys y mae llawnder yn tueddu y corph i gysgu, felly tyb am lawnder ysbrydol yr enaid. Pan fo y bol yn llawn, dymunai yr esgyrn gael gorphwys; y mae ar y dyn fwy o chwant cysgu na gweithio. Ond y dyn a fo yn cael ei wasgu gan newyn y mae ei gylla gwag ef yn ei gadw yn effro. Os unwaith y dechreui gymwys tyb dda am danat dy hun, a'th newyn ysbrydol gael ei bylu (gan y meddwl am helaethrwydd a digonolrwydd dy ras) yn ddiâu ar hyn ti a ymlonyddi i gysgu dan suo cân y goludog wrth dy enaid: "Gorphwys, fy enaid, y mae genyt dda lawer wedi ei roi i gadw dros lawer o flynyddoedd." Esampl athrist i'r perwyl hwn yw y Corinthiaid: 1 Cor. iv. 8; "Yr ydych chiwi yr awrhon wedi eich di-wallu, &c.; chiwi a deyrnasasoch hebddom ni;" nid yw Paul yn awr ond gŵr bach gyda ef i; amser a fu nis gallech fod heb ei lafur yntau; nid taerach oedd y plentyn newynog am y fron nag oeddych chiwi: m ei weinidogaeth ef; ond yn awr y mae eich cylla yn llawn, yr ydych vn ddigonol, ac a ellwch fyw hebddo. Etto, Duw a ŵyr, llawnder o wynt balchder oedd yno, nid o ras sylweddol. Natur gras yw helaethu y galon, a gwneuthur lle i chwaneig; ond y mae balchder yn gorlenwi yr enaid ac yn ei gau i fyny. Y mae Duw wedi hir gadw llys agored yw Mhrydain; ni chafodd seler win ei ordinhadau mo'i chloi rhagom; yr ydym wedi cael rhydd genad i yfed, a hyny yn helaeth o'i meluswin. Ond Och! onid yw yn alarus gweled y fath liaws sydd yn feddw gan falchder ysbrydol, yn lle wedi eu llenwi â gras, ar ol mwynhâd cyhyd o honynt! Y maent mor feddw nes yw rhai wedi rhoi cais ar ddryllio ystyllod y llestri sydd yn dal y grwin hwn; y cyfryw yw y rhai sydd yn crio i lawr bob ordinhadau, ac a fynent wthio i lawr weinidogion a gweinidogaeth; i.e, a allant fyw heb na phregethu cyhoedd na gweddio dirgel chwaith. Ereill, heb fod mor wyllt feddwon a'r rhai hyn, ydynt er hyny wedi syrthio i gysgu dan rediad y gwin; y maent wedi colli eu bywiogrwydd cyntaf yn, a'u cariad at yr ordinhadau; y maent yn eistedd danynt â llygaid cysglyd a chalonau trymlyd. Wele, Gristion, os mynit tithau gadw dy enaid yn effro at yr ordinhâd hon neu arall, cymmer ofal rhag colli dy deimlad o'th angenion. Cardota

sydd orchwyl i'r tlawd; pan ddechreui i lybio dy hun yn gyfoethog, byddi mewn perygl o droi y gwaith heibio, neu o fod y wsmala ynddo.

DOS. IV.

6ed. Dos yn fynych o'r neilldu i faeth rhyw fyfyrdodau at ddeffroi yr enaid. Anfynych y cysgwn pan fyddom feddygar, yn enwedig os bydd yr hyn y bo o meddyliau arno yn beth o bwys a gwerdigionol i ddwyn ymaith a meddiannu y bryd. Yn wir, y mae meddyliau segur, ysgeflu, heb gynnwys dim i ddal gafael yn yr ystyriaeth, yn foddion parod i osod dyn mewn cwsig (cwsig corphorol wyf yn feddwl). Cristion hwnw a fo yn esgeuluso myfyr yn fynych ar bethau ysbrydol, ac yn gada i'w feddyliau redeg ar hyd y dydd ar ol heyntoedd bydol, anianol, mi a ryfeddwn iddo gael ei galon yn effro yn yr hwyr i wedd mewn modd ysbrydol. Dyro genad i mangan hyny, dy anrhegu âg ychydig destyn i'th fyfyrdodau aros arnynt; a hwy a fyddant fel y belen bres a arferai rhai athronwyr eu dal yn eu llaw, rhag iddynt gysgu yn rhy hir; neu fel yr alarm a esyd rhai fyny dros nos i'w galw yn foreu at y gorchwyl.

Myfyria ar ddyfodiad Crist i farn. Y siet, nid lawdd y cysgi tra y bo yr udgof hwn, a eilw holl ddynolryw i farn, yn swm yn dy glustiau. Yr achos pa ham y modynion yn cysgu mor swrth mewn diofa wech yw, naill ai am eu bod heb gredu by neu o leiaf heb fyfyrio arno mor ddirif fel ag i'w ddisgwyl. Y gwas a fo yn di-gwyl ei feistr, ni bydd foddolawn iddo ei galon yn ei wely pan y delo; na, efe a eistedd fyny i agor iddo ar ei alwad. Y mae Crist wedi mynegi i ni y daw, ond nid y pryddaw, fel na byddai i ni un amser roi e dillad heibio na rhoi y ganwyll allan "Gwylwch, gau hyuy, am na wyddoch y awr y daw eich Arglwydd;" Mat. xxiv. 4. Y mae yn wir arwyddion nacael ynghyl ei ddyfodiad i'r farn gyffredinol, wrth bar y gallwn wybod nad yw efe etto yn dyfoc megys cwmp Babilon, galwad yr Iuddeon, a phrophwydoliaethau ereill sydd et i'w cyflawni; a chyn hyny nis daw efe. Onid oes dim o'r rhai hyn i roi lle i ni berdefynu nad yw efe etto yn dyfod i'n dwyni ymaith trwy angu, a'n galw i'n baneillduol ger bron ei frawdle. Yr wyt ti ieuang; nis gelli am hyny ddywedyd i raid i ti etto farw. Och! mesura y beddi yn y fynwent, a tli a gei rai o honynt o' hyd; y mae yr ieuang a'r hen o fewn dyrod pladur angu. Yn wir y mae yr hen ymned tuag at angu; y mae eu hoedran y galw am dano; ond ni all pobl ieuatun, rwystro angu i ddyfod atynt. Yr wyt yn gyfoethog; a esgusoda hyn di? Y cyfoethogion yn wir a allant gael ereill i ddw-

u yn eu lle yma, pan alwo eu brenin
nt i ryfel; ond "nid oes bwrw arfau yn
yfel hwnw?" *Preg.* viii. 8. Solomon a
wed, rhaid i ti yn bersonol sefyll yma.
yt ti yn gryf a chadarn? Nis gelli am
y ddywedyd y bydd angeu yn hwy ar
h yn dy dori di i lawr. Y mae efe yn
megys yn ysglodioni rhai trwy gleyfydau
hlyd; y maent yn marw fesur y darn;
ll, y mae yn eu rhwygo i fyny mewn nos-
th fel pren mewn tymmestl. O! meddwl
hyn, a'th gysgadrwydd a gilia oddi
nyt.

(iii.) Ystyria fod y diafol yn effro yn was-
l. Ai amser ydyw i'r rhai yn y ddinas
gu pan y mae y gelynyon allan yn gwylio,
e allai yn dringo y muriau? Y mae ein
chawdwr yn ei gyumeryd yn gamriataol:
e gwybuasai gŵr y tŷ pa wyliadwriaeth
auai y lleidr, efe a wylasai, ac ni adawsai
ldio ei dŷ drwodd;" *Mat.* xxiv. 44. O
nosweithiau y flwyddyn, ni fuasai efe y
l hwnw yn cysgu. A fuasai Saul yn
u yn ei wersyllfa, pe gwybuasai fod
ydd mor agos? Neu Siser a yn gorwedd
phwys, pe gwelsai efe y morthwyl a'r
l yn llaw Jael i bwyo ei arlais ef?
mae Hannibal wrth y pyrth," oedd yn
gon i ddefroi holl ddinas Rhufain, a'u
v at eu harfau; ac ai nid yw fod y diafol
h dy ddrws dithau yn ddigon i'th gadw
n o'th wely o ddiogi a diofalwch? Pa
wrnod yn yr holl flwyddyn sydd heb fod
lymmor gan Satan? Pa sefyllfa neu gyf-
ach sy genyt nas dichon efe i gwneuthur
fagl i'th enaid? Pa aelod o'th gorph,
gynneddf o'th enaid, nad yw mewn
ygl o gael ei gamarfer ganddo ef? Onid
genyt lettywr o fewn dy fynwes sydd
gwylio am agor y drws iddo ef? Ac
l oes cydgyngoriad parhaus rhyng-
nt? "O! mor fynych," fel y dywed
nard, "yr ydym yn cael ein curo â'u ffion
hunain! ac fel y gwna y lleidr a'r ym-
hydd weithiau, y mae efe yn ein rhwymo
gardysau ein hunain!" Ai ni fydd i ni
wastadol wylio i weddio, pan y mae efe
gwylio i demtio? Ai ni fydd i ni ddal i
y ein cydnabyddiaeth â Duw a Christ,
cyfathrachwr yn y nef, fel y gwna efe
enawd sy mewn cyngurair âg ef?

*Ujugent homines, surgunt de nocte latrones;
et ipsum servus non expergiseris?*

Y nos fe wylia'r lladron,
Am ddwyn yr einoes wan;
Ac ai ni wyl i dithau,
I gadw hyn o ran?

ystyria hefyd, y mae yr annuwiolion yn
o ac yn gweithio yn galed dros Satan â'u
antau. Y philosophydd a wriddodd am
y gof ar ei draed, â'i forthwyl yn ei law,
ei fod ef wrth ei lyfr. O! ai ni ddylai
a beri i'r Cristion gwylyddio?

(ydd.) Ystyria mor ddefffrous y mae

plant y byd yn dilyn eu helynt bydol. Onid
ydynt hwy yn codi yn foreu, ac yn myned
i'r gwely yn hwy, gan warafun hyd yn oed
yr amser a dreulir i loni natur a chwsg y
nos; mor ymroddgar ydynt yn eu hamcan-
waith anianol! Fe graffodd yr athronydd ar
hyn, ac a gywilyddiodd am adael i'r gof fod
wrth ben ei einging yn foreuach nag yr oedd
ef wrth ei lyfr. O Cristion! y mae lle i ti
wriddo llawer mwy o weled yr holl dref i
fyny, a chyn brysuro a gwenyn o amgylech
gardd, un yn ehedeg ffordd yma, a'r llall
ffordd arall; a'r cwbl i ddwyn rhywfaint yn
chwaneg o elw diflanedig y byd hwn i'w
cwch, allan o'r hwn y bydd angeu cyn bo
hir yn eu mygu, ac yn peri gorfod arnynt
adael yr hyn a gasglasant gyda chymmaint
poen i ereill—fe allai eu gelynyon penaf. A
hyn tra yr wyt ti, Cristion, yn cysgu ymaith
dy amser gwerthfawr, er dy fod yn sicr o
ddwyn dy ennill gyda thi i'r byd arall, a
mwynhau yno firwyth dy lafur byr gyda
thragwyddol ogonedd! Nag e, ystyria mor
ddefffrous yw yr annuwiolion i ddal gafael ym
mhob cyfle i ddilyn eu harferion yn y tywyll-
wch. Y godinebwr a wylia am y cyfnos i
gyfarfod â'i anwylderch; ac ai nis gwyl i
dithau i weddio, fel y llanwer dy enaid â
chariad ysbrydol mewn cymdeithas â'th
Dduw? Y mae y lleidr i fyny ganol nos i
ysglyfaethu; ac ai ni thori dithau ychydig
ar dy gyssu i gael gafael mewn trysor cyf-
oethocach nag sydd i'w gael yng nghofrau
y brenhinoedd cyfoethocaf y gall y byd ym-
ffrostio o honnynt? A gynmer y rhai hyn
y fath boen i foddio eu chwantau, a thithau
ddim i anrhydeddu a mwynhau dy Dduw?
O! y fath gwylydd ydoedd i'r disgyblion
cysglyd, na allent wylio i weddio gyda'u
meistr, pan oedd Iudas y bradwr hyf mor
ddefffrous a bod i fyny ganol nos i'w frad-
ychu i ddwylaw ei leiddiaid!

(4ydd.) Ystyria mor fyr yw yr amser y
gofynir i ti wylio: "Oni ellych chwi wylid
un awr?" medd Crist: *Mat.* xxvi. 40. Cyn
bo hir, Cristion, fe'th elwir di oddi ar dy
wyliadwriaeth; ac yna ti gei orphwys yn
gwbl, er nad cysgu. Dim ond dros hyn o
fywyd byr y gosodir di ar y gorchwyl an-
hawdd hwn; ac a ydyw hyn yn rhy hir?
Nid yw ereill yn ei gyfrif felly. O! mor
fuan y mae diwrnod, blwyddyn, fe, oes, yn
darfod wrth chwareu a phechu! Achwyn-
iad mawr y cyfryw yw, fod amser yn fyr;
dymuient pe gallent flaendori ei adenydd,
neu dynu ymaith y pwysau oddi wrth yr
awrlais hwn sydd yn peri iddo brysuro heibio
mor gyflym. A ydyw amser mor fyr a melus
i'w dreulio mewn pechod? Ac a ddichon
iddo fod yn hirfaith genyt ti i'w wario
mewn crefydd? Pa ham y byddai awr yn
yr ystafell yn hir gan y Cristion, pan y mae
dydd a nos yn y dafarn yn rhy fyr gan y
meddwyn? Ond uwch law y cwbl, ystyria

ai nid yw yn well gwylio a gweddio yma ar y ddaear, dros ychydig ddyddiau, na dihuo a rhuo yn uffern dan boenau didor a diderfyn.

(5ed.) Ystyria yn ddirifol y fath golledwr mawr a fuost eisoes yn dy fasnach nefol o ddiffyg gwylio. Y mae gyda'r Cristion yn ail i ryw farsiadwr anofalus, a edrych ar ryw un golled o swm go fawr, a ddi-gwyddiddo (rhai cannoedd, fe allai, ar ergyd); wrth hyn fe waedda y caiff ei andwyo; ond nid yw yn sylwi ar y ceiniogau a'r sylltau y mae yn eu gwario yn ofer, nac yn ystyried ei golled o herwydd ei ddiolfalwch beunyddiol. Yma y mae ei gyfoeth yn toddi yn ddisylw heb yn wybod iddo; a phe gallai efe gyfrif ei holl fân golledion yn y ffordd hon, deuai i weled eu bod yn cyrhaedd i fwy na'r llall. Fel hyn y mae y Cristion weithiau yn cael ei flino (ac nid heb achos) am ryw bechod mawr y syrthiodd iddo; ond etto, heb sylwi ar ei esgeulusdra o'r ddyledswydd hon heddyw, a'i gyflawniad anofalus o'r llall bryd arall; y blâs oerlyd sy ar ei weddi yn awr, o eisieu parotoad, a'r ffrwyth bychan a ddaw o'r llall o ddiffyg gwyliaeth ar ei hol. Trwy hyn y mae efe yn myned yn isel arno, er mai gyda disgyniad esmwyth o radd i radd; a phe gallai ddwyn yr amryw symiau o'i golledion oll ynghyd, hwy a wnant swm mawr a chyfrif athrist, oddi eithr ei fod gyda'r colledion hyn wedi cael colled arall (y drymaf oll), sef o dynerwch ei gydwybod. Yn awr, Gristion, onid oes arnat ti chwant llwyddo o'r diwedd? Ac a fydd cynnydd ar eiddo gŵr diofal? A aethost ti erioed heibio i faes y diogyn, ac heb ei gael wedi ei orchuddio â drain? Pe cymmerit ti ond dy gyngori i'w wneuthur yn orchwyl i ti wlyo ar dy galon yn feunyddiol pa fodd y gweddiech, a pha fodd y rhodiech ar ol bod mewn gweddi, ti a gait gyfnewidiad dedwydd yn dy helynt ysbrydol. Fe fydd y manylwydd hwn ar y cyntaf yn afrwydd fel dillad newydd; ond fe wisg hyn ymaith bob dydd, a rhwyddineb hyfryd a ganlyn pan welych dy ennill yn pen-tyru atat wrth hyn. Y gŵr a fo yn gweled ffrwyth da ei ddiwydrwydd yng nghymydd ei gyfoeth, ni chenfigena wrth esmwythfyd y diogyn, pan ei gwelo yn myned heibio i'w ddrws yn ei garpiau. Un gŵr cyfoethog, a gasglasai lawer trwy fendith Duw ar ei ddiwydrwydd, a ddywedai ei fod ar ei gychwyniad cyntaf yn y byd yn cael ychydig trwy lawer o drafferth, ond wedi hyn yn cael ei ennill mawr â thrafferth fechan. Tithau, Gristion, a'i cei yr un fath yn dy fasnach ysbrydol; dy drafferth fwyaf fydd ar y cyntaf, ond dy elw mwyaf yn y diwedd, a'th drafferth yn llai trwy fod arferiad a phrofiad yn gwneuthur ffordd duwioldeb megys yn naturiol i ti, ac felly yn rhwydd ac yn hyfryd.

(6ed.) Y fath golled fydd i ereill dy ti heb wlyo. Y mae yr hwn sydd yn yng nghanol pobl, ac heb edrych at ei gliau, yn colledu ei gymmydogion yn gydag ef ei hun. Fel hyn y dichon Crist niweidio lawer drwy beidio cadw ei iadwriaeth ei hun. 1. Y mae hyd yn dy esampl yn niwed i ereill; o blegid y y dolur cysglyd yma yn heintus; dichon ymarweddad penrhydd wneuthur felly, fel y mae un yn dysgu dylfydd oddi wrth y llall. Nid bendith fechan byw ym mysg Cristionogion bywiog, y byddo eu hawyddfryd a'u ffyddlondeb ffyrdd Daw yn wiw eu dilyn. Y mae yn bywiogi eu cydymdeithwyr. Y ymddygiad nefol y meistur duwiol yn northwy i'r holl deula. 2. Yr wyt yn dy addasu dy hun at wneuthur dy ddyledswydd. Fe orchymynir i ni wlyo dros gilydd mewn cariad, fel rhai yn dwyn gŵr am lwyddiant ein brodyr. Yn awr, anaddas yw hwn i wlyo dros ereill sy ei wlyo ei hun! Neu ynte i annog ef i gariad a gweithredoedd da, pan y mae ei hun yn sefyll mewn cymmaint o aram yr yspardyn ei hunan! A all cysgu ddeffro un arall sy felly?

(7fed.) Ystyria i'w gwyliaedwrus (drosot ti. Edrych arno yn ei raglunio, y llygad hwnw nad yw yn cysgu y nos, yn huno y dydd, yw dy warcheidwad hâu di. Ystyria ef yn ei eiriolaeth. Y efe yno mewn gweddi drosot, gan wlynddi gyda phob dyfal-bara. Ei alwai orehwyl yn y nef ydyw; canys "y mae byw bob amser i eiriol dros ei saint." Ystyria ef yn ei Ysbryd. Pa beth yw efe cenad Crist, wedi ei anfon fel ein noddy gymmeryd gofal y saint yn ei absenuef? Mewn gair, ystyria ef yng ngweidogaeth yr efengyl, a osodwyd i fyny i'r gddiben hwn i wlyo dros eich eneidiau y mae gorchymyn i bob Cristion yn ni duol fod yn gweidwad ar ei frawd. 1. o'i iawn ystyried, a'th wnaid di, yn gyllynddeffrus am ddyrchafu ei ogoniant sy mor ofalus yn darparu er dy ddiogel di. Pa beth a gyffirdd Dafydd yn gwmaint yn erbyn Nabal, ond yr aufr i a'i iwyd arno yn ei weision, gan y gŵr y bu efe mor wasanaethgar iddo? "Diau," m efe, "gadw o honof fi yn ofer yr hyn oedd gan hwn;" 1 Sam. xxv. 21. 2. F wnaid di o hyn yn fwy gwyliaedwrus dy enaid dy hun; os oes cymmaint o on rwydd ynot a'th fod yn ofni tristan Dduw, sydd yn dangos y fath dyner drosot. Pa dristwch mwy i dad hynaw gweled ei blentyn yn ddifeddi am ei l hun ar ol ei ofal a'i gost ef yn ei gyl. Llawen fydd o weled yr arian a rodd iddo yn myned ar gynydd trwy ei ddiwydrwydd ef; ond y mae yn doriad calon i

fo y cwbl yn cael eu gwario a'u gwas-
u ymaith trwy ei gamdriniaeth.

PENNOD XVII.

Trwy bob dyfal-bara.

y geiriau hyn, "trwy bob dyfal-bara,"
nwys y gangen gyntaf yng nghyfar-
lyd yr apostol am weddi, yr hon yr âf
ddi yn fyr yn y pedwar pen canlynol.
rwy roddi cynnwysiad yr ymadrodd
o dyfal-bara." 2. Trwy roi y rheswm
am y mae i ni weddio gyda phob dyfal-
3. Bwriaf i mewn rai ystyriaethau
neddu at y ddyledswydd. 4. Terfynaf
r o gynghor a chyfarwyddyd, er cyn-
wyl i'r Cristion gwan yn y gwaith.

DOSE. I.

Am gynnwysiad yr ymadrodd. Y
yma ddyfal-bara, ie, pob dyfal-bara,
tel ei ofyn mewn gweddi. Ymofynwn
Pa beth a feddylir wrth ddyfal-bara.
Pa beth wrth bob dyfal-bara. 1af. Mae
dyfal-barhâd yn ofynedig. Gwreiddyn
r *proskarterêsis* a arferir yma, yw *kartos*
a *kratos*, nerth a gorchafiaeth; ac y
yn arwyddo dilyniant grymus a phar-
ar yw orchwyl, nes bo yr anhawdser-
edi eu gorchfygu oll, a'r gwaith ar ben.
harferir am lafur-boen a dyfalwch cwn
yn hela, y rhai a ddilynant yr helfa nes
o'r diwedd afael yn yr ysglyfaeth. Fe'i
nhwysir hefyd at weision traed, a red-
newn lludded mawr ar ol eu meistrïad,
dynt wrth eu llaw ar daith. Yn yr
ythyr, fe'i cymmhwysir yn fynych at y
ddswydd o weddi; megys *Act. vi. 4;*
iv. 2; Rhuf. xii. 12; ac y mae yn ar-
lo yr amynedd, y gwroldeb, a'r parhâd
sydd i'r Cristion ddangos wrth gyn-
ddyledswydd hon o weddi.

est. Ond ai yr un ydyw gweddio bob
r yn nechreu y wers, a'r gweddio yma
bob dyfal-bara? Os nad e, ym mha
y mae y gwahaniaeth?

Nis gellir meddwl fod yr apostol wrth
yfarwyddiadau am weddi yn eu taflu
didrefn; ac mewn ysbaid mor fyr yn
drodd yr un cyfarwyddiadau mewn
u ereill. Y mae y lleili oll ar wahân,
y cymmerwn y rhai hyn. Y mae Calvin
barnu mai hyn yw y gwahaniaeth:
th y gweddio bob amser;" medd efe,
ogir ni i weddio mewn hawddfyd yn
l ag adfyd, ac nid rhoi heibio yr arfer-
r ddyledswydd hon y pryd na bo yr un
ngenion allanol yn ein gwasgu ati. Ond
y gweddio trwy bob dyfal-bara, y mae
u cynghori i beidio diffygio yn y gwaith,
parhau yn ddyfal a dianwadal yn ei
r, er na byddom yn ebrwydd yn cael yr
y gweddiom am dano." Wrth weddio

bob amser, cymmhellir ni i'r arferiad beun-
yddiol o'r ddyledswydd hon, gan beidio es-
geuloso ei phrydiau fel y delontarnon. Wrth
weddio trwy bob dyfal-bara, annogir ni i ddal
i fyny yn erbyn anghysuron, o ran rhy wer-
fyniad neu ddeisyfiad pennodol a fo genym
wrth orsedd gras, a glynw wrth y gwaith er
na byddom yn cael attebiad buan. Felly y
mae y cyntaf yn erbyn esgeulusiad o'r ddy-
ledswydd yn ei phrydiau gosodedig; a'r llall
yn erbyn diffygiad yn ein hysbrydoedd mewn
perthynas i ryw erfyniad neillduol a fo gen-
ym. Y mae modd i ni gadw ein hystod
barhaol o weddi, ac etto bod heb ddyfal-bara
mewn gweddi am y drugaredd hon neu arall
a attalia Duw dros amser er profi ein gras.

DOSE. II.

2il. Yr wyf i ddangos pa beth a feddylir
wrth bob dyfal-bara. (1af.) Wrth bob dyfal-
bara y meddylir y fath barhâd ag a fo yn
dal allan hyd y diwedd, hyd oni bo Duw yn
rhoi i ni yr hyn y gweddiwn am dano, neu
yn cymmeryd ymaith destyn ein gweddi,
megys y gwnaeth yn achos Dafydd trwy
farwolaeth ei blentyn claf; 2 *Sam. xii. 16.*
Y mae yn bossibl i enaid barhau yn hir, etto,
blino o'r diwedd pan welo amser yr attebiad
yn cael ei hir oedi; Duw heb ymdangos, a
dim newydd am ei ddyfodiad, ar ol anfon
aml genadwri i'r nef yn yr achos. O! y mae
yn anhawdd dal ein "dwyllaw i fyny," gyda
Moses, "nes machludo yr haul;" *Ecsod.*
xvii. 12. Y mae Crist yn achwyn mor an-
fynych a phrin fydd y fath ffydd i'w chael,
pan fo efe yn hir oddef cyn tafu i mewn y
drugaredd y gweddiwyd am dani: "Eithr
Mab y dyn pan ddel, a gaiff efe ffydd ar y
ddeaer?" *Luc xviii. 8.* A gaiff efe gym-
maint ffydd ag a fo yn cadw ei bobl mewn
gweddi, gan ddisgwyl am ei ddyfodiad er eu
hymwared?

(2il.) Wrth bob dyfal-bara y meddylir par-
hâd o'r holl ddyn mewn gweddi. Rhaid, nid
yn unig barhau i ddal i fyny y cyflawniad
allanol o weddi, ond parhau i egniol arfer
galluoedd tu mewnol ein heneidiau, a'n
grasusau yn y ddyledswydd. Y mae y fath
beth a dal y ddyledswydd i fyny, a'r galon i
lawr wrth ei chyflawni. Dichon ffydd, sel,
a grasusau ereill yr enaid fod ar goll, neu
yn gweithredu ond yn wanaidd; yn debyg
i fyddin heb adael y maes, ond eu powdr a'u
pelenau oll wedi darford. Yno y maent yn
sefyll, gan ddangos gwyneb da, ond ychydig
neu ddim a allant wneuthur at niweidio y
gelyn na'u hamddiffyn eu hunain. Fel hyn
y mae llawer mewn cystuddiau yn dal i
weddio, heb roi etto y ddyledswydd heibio
a diangc o'r maes; ond Och! y mae eu ffydd
yn nychlyd, a'u calon yn grynedig; ychydig
o fywyd a bywiogrwydd sydd i'w gwled yn
y cyflawniad. Dyma ryw fath o bara, ond
nid y pob dyfal-bara hwn, sydd uwch law y
cwbl yn gofyn parhâd gras yn ei weithred-

ia dau yn y ddyledswydd. A'r un peth yma yr ydym yn cael ein hannog iddo gan yr apostol mewn lle arall (*Rhuf.* xii. 12), "yn dyfal-barhau mewn gweddi." Y mae rhai yn ddyfal, ond heb barhau; os gwelant y drugaredd yn dyfod, hwy a dynant yn rymus; ond os bydd eu carbyd o weddi ar osod, ac ar ol tŷn neu ddau, y drugaredd heb ddyfod, y mae eu fydd yn blino, a gadawant y gwaith i sefyll. Y mae ereill yn parhau, ond heb ddyfalwch; dilyn ar weddio y maent, ond gweddio eu hunain i fferdd; y maent yn myned yn ddifywyd a dymgais yn y gwaith, fel pe na baent yn disgwyl cael dim oddi wrtho. Rhaid i ni gyssylltu y ddau yghyd, neu fod heb les oddi wrth un.

2. Af rhagof at yr ail beth a addawyd, sef dangos pa ham y rhaid i ni weddio gyda pob dyfal-bara: cymmerwch hyn yn y pedwar pen hyn:—1af. Mae wedi ei ddwys orchymyn (1 *Thes.* v. 17): "Gweddiwch yn ddibaid;" hyn yw, heb ddiffygio. Felly ein Iachawdwr (*Luc* xviii. 1): "Efe a ddywedodd ddammeg wrthynt, fod yn rhaid gweddio yn wastad ac heb ddiffygio." Craffwch, nid y gallent, ond fod yn rhaid iddynt. Y mae yn wir yn rhagorfraint uchel i ni, ac yn ymbygiad isel yn y Ddu goruchel fod yn rhoddi cenad i ni orwedd wrth ei ddrws, a goddef i gri ein gweddiâu fod yn parhaus swnio yn ei glustiau. Ni charem ni, yr wyf yn sier, fod cardotwyr yn curo wrth ein drysau ddydd a nos. Ond mor anfeidrol dda yw Duw, fel y mae efe nid yn unig yn caniatu i ni yr hysfda hwn, ond hefyd yn ei orchymyn, fel y byddai i ofn troseddiad ein gyru ym mlaen, os ydyw ofn colli y rhagorfraint yn rhy wan. 2il. Y mae y para yma mewn gweddi yn cael ei ganmawl yn fawr. Yn wir, parhâd sydd yn coroni pob gras, ac yn harddu pob dyledswydd. Nid ar ein fydd a'n gobaith yn unig, ond ar gadw ein hyder a gorfoledd ein gobaith yn sier hyd y diwedd, y mae Duw yn edrych arno: *Heb.* iii. 6. Nid sel ymddangosiadol a chyflymdra ein hysgogiad yn ffydd Duw, ar ein cychwyniad cyntaf y y mae Crist yn ei ganmawl, ond parhâd enaid da ei anadl, yn dal yn mlaen nes gorphen yr yrfa: "Os aroswech chiw yn fy ngair i, disgyblion i mi ydych yn wrth;" *Ioan* viii. 31. Felly mewn gweddi, nid hyrdiau byrion rhyw sel anwastad, sydd yn dechreu gweddio (fel y dywedant am y Ffrangcod yn dechreu ymladd), yn ail i daranau a mellt, ond oddi eithr i'r ymgyrch cyntaf enuill y dydd, y maent yn llwfrhau a'u hysbrydoedd yn darfod: na, nid y metel meddal hwn a'i fin yn troi mor hawdd, y mae Duw yn ei garu mewn gweddi; ond awyddfyrd wedi ei dymmheru a'i finio felly âg ymroad, a'i gwna i dori trwy bob oed ac anhawsder: hwn y mae Duw yn ei fawr-ganmawl. Iiwn a ddygodd yr enw tywysog i Iacob,

gan mor fawrfrydig yr ymddygodd efe ddyledswydd hon; fe ddaliodd yn ei drech â Duw hyd doriad y dydd; a'r hyn, nis gollyngai ef nes iddo ei fendu 3ydd. Hyn yw y peth y mae Duw y olygu yn ei oediadau, a phob ymddangos nacâd. Pa ham y gwna efe fel hyn a'i i'r ynn ddiâu i roddi eu grasusau ar braw roddant hwy yr ymgyrch i fynd o'r cael ambell gurfa yn ol, neu ynte a ymlant hwy o hyn yn wrolach. Mae efe tewi i beri iddynt hwy waeddi yn uw yn camu o'r neilldu, i beri iddynt chwam dano yn fwy awchus. Mae yn geryg attal o flaen olwynion eu gweddi brofi eu metel, pa fodd y tynant pan ffont ar eu heithaf, a'r drugaredd heb ddwrth eu deisyfiad. Yn awr, dau beth enwedigol y mae Duw yn eu bwriadu tbarhâd ei bobl mewn gweddi.

(1af.) Ei ogoniant ei hun. (2il.) Eu hwythau: y ddau hyn ni chânt eu gwah.

(1af.) Ei ogoniant ei hun. Pa achlytecach a ddichon y Cristion gael yn ei fywyd i anrhydeddu Duw, na thirwy ei gywirdeb a dal yn ddiysgog yn ei ffyloudeb i Dduw, pan y mae yn ymddatmegs yn ei esgeuluso, i.e. yn ei adael? sier ni buasai Duw yn rhoddi Iob i'r flinder, nac yn gadael iddo weddio ac cyhyd am ganlyniadau grasol ei ragluniaef, ond er ei ogoneddu ei hun yn ffydd amynedd ei ffyddlawn was: "Chwi a glsoch am amynedd Iob, ac a welsoch ddiw yr Arglwydd," medd yr apostol Iago: *1* v. 11. Yn ddiâu, nis gallasem glywed e maint am ei amynedd, oni buasai i ni glod cymmant am ei flinderau. Pe caws rhai hyn ddiweddiad cynt, buasai yn mwythder mwy iddo ef, ond nid yn anrheidd mwy i Dduw. Dyma y peth oedd boddio Duw, ac yr oedd yn cael mawrynddo, fod Satan a'i holl ddyfais a'i ddellion yn methu peri i Iob roddi i fwyddio; llawer llai taraw i felldithio Dduw yn oed pan oedd Duw yn ei ddryllig gorwynt, ac yn ymddangos fel heb ei ystied ef na'i weddiâu. Mwyaf boddhaol i ni pan fyddo ein gweddiâu yn cael y dderaf: pan fyddont yn y nef ac yn ol ddechru âg ateb yn ebrwydd; ond y mae fwy gogoniant i Dduw pan osodo efe borattaliad (*embargo*), fel y gallaf ddywed ar ein gweddiâu, fel nad oes un ateb i ni dyfod o'r nef; a ni er hyn yn anfon chweg ar eu hol, fel Iacob yn anfon Beniar ar ol ei fab arall oedd y pryd hyn yn gharar yn yr Aiplt. Pan fyddo yr en-truan heb gael ei ysgwydd wrth y ddydswydd gan ddim a'i anghalonogo; ond dal yn daerach yn ei ddeisyfiadau, er c'aml nag, dybygid: dyma yn wir roddi ygoniant i Dduw. Dedwydd yw yr hwn welodd, etto a gredodd yn y modd hwn.

2il.) Mae Duw, trwy fod ei bobl yn hir-hau mewn gweddi cyn i'w atebiad sol ef ddyfod, yn bwriadu iddynt hwy nid bychau. (1.) Mae yn arferol o'riddi iddynt am eu hymaros: po hwyaf eu ar, mwyaf helaethlawn y drugaredd pan lo. Y fath drugaredd a ddelo fel ateb-i weddiâu hir-barhaol, fel ei cyffelybir i y llafurwr yn y cynauaf, yr hwn sydd wobr helaeth am ei ymaros trwy y ddynt: "Yneiawn bryd y medwn oni ddi- iwn;" *Gal. vi. 9.* Mae y fron yn llenwi y mae y fam yn cysgu. Mae Duw weith- yn ymdangos fel un yn cysgu, ac yn hofio ei blant truan sydd yn llefiân ar- ond darparu y drugaredd hyny yn llawn- y mae efe iddynt. (2.) Y cyfryw dru- reddau ag a geir drwy yr anhawsderau- ras, a mwyaf sydd yn dyfod gyda'r ama- adau melusaf o gariad dwyfol: "Ha, fig, mawr yw dy ffydd;" *Mat. xv. 23.* Chaniatawyd i'r druanes hon ei deisyfiad fuan ag i rai ereill; ond ni bu ar ei led o hyny, o blegid ynghyd âg iachâd blentyn, yr hyn oedd swm ei neges, hi a dd hefyd dystiolaeth o enau Crist ei am wirionedd a rhagoriaeth ei gras. ei galw ar y cyntaf yn gi, cafodd o'r edd ei haddef yn anwyl blentyn. (3.) Y yw drugareddau a fo yn ffrwyth gedd- parhaol, fe'u derbynyr yn gyffredin mwy o lawenydd a diolchgarwch nag i; mewn rhan am fod dymuniadau y tion yn fwy eu hawch a'u hangerdd a hirymaros a dyfal-weddiö am danynt, felly yn profi mwy o'u melusder, fel y dyn a fyddo yn newynog, ar ol hir-bryd i yr aradr, yn archwaethu ei fwyd yn nag un arall a fyddo heb ysgafnhau ei wrth lasur na gorchwylwaith. Ac d am fod y drugaredd yn rhoddi somed- th i aml ofnau y Cristion oedd wedi codi i eu hirarosiad. Pan fo Duw yn hir yn d, yr ydym yn dueddol i ammheu a ddaw byth, ai ni ddaw: "Ai yn dragywydd y w yr Arglwydd heibio? Ac oni bydd boddlawn mwy? A ddarfuo ei drugar- ef dros byth? a balla ei addewid ef yn oesoedd?" *Salm lxxvii. 7, 8.* Gwelwch nifer o feddyliau athrist oedd yn casglu lch calon y gwr da hwn: y rhai, er nad lynt yn dymchwelyd ei gerbyd gweddi, oeddynt yn attal ei olwynion, ac yn iddo yru â chalon drom. Yn awr, i garedd dori oedd o'r fath gwmniwl yll, rhaid iddi fod yn dwyn y fath ogon- i'w chauly ag a orchlygo yr euaid â enydd, ac a'i gorlanwo o ddiolchgarwch. arnedigaethau hyny sydd fwyaf yn synu n brawyachu pechaduriaid, y rhai a nant wedi hir heiddwch a llwyddiant; dybiant hwy y perygl drosodd, chwera- marwolaeth wedi myned heibio. ys yn achos Haman, yr hwn a dda-

fonwyd i'r crogbren ar gefn ei ymffrost am ei wahoddiad i wledd y frenhines: y tro chwithig hwn yn ei helynt a'i gwnaeth yn angen denbylg iddo. Felly, trugareddau a fyddo yn dal y Cristion, ar ol iddo hir-bar- hau i weddiö, ac heb allu gweled un arwydd eu bod yn dyfod, O! fel y llanwant ei galon â diolchgarwch! Yr oedd yr eglwys wedi gweddiö yn ddiaball dros Pedr yn y carebar; ond yno yr oedd efe hyd y noswaith pan oedd Herod ar ei ddwyn allan i'w ddienn- yddio, y mae yn debygol. Yn awr, pan ddaeth efe ei hun â'r newydd lawen idd- ynt, fod eu gweddiâu wedi eu gwrandaw tra yr oeddynt yn ddyfal ar y gwaith, dywedir, hwy a synasant: *Act. xii. 16.* (4.) Maent yn gyffredin yn cael eu harfer a'u defnyddio yn fwy sanctaidd. O herwydd y mae Duw yn cadw ei bobl yn hir i weddiö am ryw drugaredd yn fynych i'r gwir ddiben yma, i barotoi a thymmeru eu calonau, fel pan gaffont hi y byddont yn gwybod yn well pa fodd i'w defnyddio, er ei ogoniant ef a'u lles eu hunain. Nid oes neb yn fwy gofalus am iawn-drin meddianau helaeth na'r rhai a fu yn y llafur mwyaf i'w cael. Hannah a weddiödd yn hir am fab, ond nid oedd yn cael un: parodd hyn iddi chwanequadduned at ei gweddi: "Os gan edrych yr edrychi ar gystudd dy law-forwyn, ac a'm cofi; ac nid anghofi dy law-forwyn, ond rhoddi i'th law-forwyn fab; yna y rhoddaef ef i'r Ar- glwydd holl ddyddiau ei einioes;" *1 Sam. i. 11.* Dedwydd oedd i'r wraig hon na chaf- odd hi ei dymuniad yn gynt. Pe cawsai hi ef ar y cyntaf, fe allai na roisai hi mo hono byth yn ol i Ddaw. Mae yr Arglwydd weithiau yn oedi rhoddi rhyw drugaredd i ni, yn unig i'n cael ni yn ddyfuach dan rywmau i'w gosod hi allan drosto ef pan ei caffom. (5.) Y fantasia olaf i'r Cristion o barhâd mewn gweddi sydd, pan fyddo y drugaredd yn cael ei nacau yn y diwedd; a hono yw hyn, fe'i galluoig ac fe'i tueddir ef i oddef y nacâd yn addfwynach ac yn ras- lonach nag un arall. Y neb sy mor fyr ei anadl fel nas gall aros a disgwyl wrth Dduw am ryw drugaredd, nid yn hawdd y plyga hwnw i nacâd. Ond y neb a ymgadwo mewn ysbryd gweddi am dani, pan ddelo Duw i'w chymmyrd oddi arno, fe fydd yn fodd- lawn, gan ei fod yn gweled Duw yn dangos yn awr ei ewyllys yn amlwg yn y peth. Dafydd a Iob ydynt esamplau llawn-addas am hyn. Arfer barhaus Iob oedd gweddiö dros ei blant: a pha fodd y mae yn ym- ddwyn ar ol eu colli? Ai ffirio ac ym- ddigio y mae efe? Ai mellidithio Duw am wneuthur aberth o honynt, ar ol iddo ofirymu cynnifer o aberthau drostynt? Na, y mae yn ymostwng yn dawel i'w ewyllys sancteiddiol ef: nid yw yn agor mo'i enau i'w oganu, ond i'w foliannu. Felly Dafydd, pan fu farw ei blentyn, dros yr hwn y dal-

iodd i weddio yn daer tra y bu byw, i ddangos mor foddllawn ydoedd i drefniad rhaglun-iaeth ddwyfol, efe a ymolchodd ac a newid-iodd ei ddillad, ac a ddaeth i dŷ yr Arglwydd ac a addolodd: 2 *Sam.* xii. 20. Y mae gweddi yn llesol iawn i esmwythau y galon: y mae yn chwysu allan y nwydau afiach hny, y rhai wedi eu cau o fewn i ereill, ydynt yn arfer tori allan pan ddelo Duw i'w croesi hwynt yn eu hewyllysiau.

DOSE. III.

3. Wedi dangos pa ham y dylem barhau mewn gweddi, yr wyf yn awr i geisio gwastgu y ddyledswydd adref. Mae Crist wedi llefaru danmeg wrth ei ddisgyblion yn gwbl yn yr achos hwn, i ddangos fod yn rhaid gweddio yn wastad ac heb ddi-ffygio: *Luc* xviii. Yn sicr ynte y mae yn haeddu annogaeth. Yn awr, i gymhell yr annogaeth, cymmerwch i'ch ystyriaeth y pum pen a ganlyn:—

1af. Tyciant parhâd mewn gweddi. Mae hyn yn cael ei nodi gyda phwys yn y gofyn-iaid hwn gan ein Iachawdwr yn y ddam-meg uchod: “Oni ddial Duw ei etholedig-ion sydd yn llefain arno ddydd a nos, er ei fod yn hir oedi drostynt?” *adm.* 7. Fel pe dywedasai, A ellwch chi feddwl y denfyn Duw ymaith gyda nacâd ei rai etholedig ei hun, sy mor agos ac anwyl ganddo? a hyn ar ol iddo wneuthur llawn brawf o'u fydd a'u hamynedd, yn disgwyl cyhyd wrtho am attebiad? “Yr wyf yn dywedyd i chi (medd Crist) i dial efe hwynt ar frys.” Y mae dynion yn arfer ceisio boddio hen gws-meriaid a fyddo yn glynu yn eu *shop*, pa rai bynag ereill a droant heibio. Felly y gwna Duw i'r rhai fyddo yn parhaus fasnachu âg yntau wrth orsedd ei ras: “Y rhai a ddis-gwyliant wrth yr Arglwydd, nis gwarad-wyddir hwynt.” Mae Dafydd, er ein calon-ogiad, yn ofalus i ni wybod mor dda y llwyddodd ef ar ol ei hir ddisgwyliad wrth ddrws Duw (*Salm* xl. 1): “Disgwyliais yn ddyfal am yr Arglwydd; ac efe a ymostyng-odd ac a glybu fy llefain.” Yn ol yr Hebr-aeg, yn disgwyl, “disgwyliais;” hyny yw, arosais yn hir yn disgwyl, ac o'r diwedd fe ddaeth. Ond yr oedd Dafydd, meddi, yn anwyl was; a eill ereill ddisgwyli llwyddo mor dda ag ef. Gwel *adm.* 3: “Llawer a welant hyn.....ac a ymddiriedat ynddo.” Braint y cyfammod yw attebiad gweddiau: nid clw digyfran i un neu ddau, ond rhydd-fraint i holl ddinasyddion Seion hyd ddi-wedd y byd: “Efe a edrych ar weddi y gwael, ac ni ddiystyrodde eu dymuniad. Yn awr, craffwech ar yr hyn a ganlyn:—“Hyn a ys-grifenir i'r genhedlaeth a ddel;” *Salm* cii. 17, 18.

2il. Bydd dy barhâd mewn gweddi yn nelp i dystiolaethu am dy gyflwr o ras. Mynych y dinoethir y rhagrithiwr yma: “A eilw efe ar Dduw bob amser?” *Iob*

xviii. 10. Fe ddaw llawer i *shop* gweithi ac a ymafant yn ei arfau i weithio di-ychydig, ond a'u rhoddant i lawr yn fur ac ni fyntent er dim eu rllawm wrth grefft, a gwasanaethu prentisiaeth ynd Felly y bydd calon ffuantus yn ynhela-ddyledswydd hon yn awr ac yn y man; a y mae yn blino ar y gwaith o'r diwedd, euwedig os bydd yn rhaid disgwyl yn am ateb. Ni a gawn fod Saul yn gwedd-ond gan nad yw Duw yn ateb, y mae troi o'r diwedd i ymgeisio â'r diafol. I sylw pa effaith y mae distawrwydd Duw, wg, a'i ymddangosol nacâd, yn ei gael ar galon; a thi eili wrth hyny wybod tymn dy ysbryd. Ai pylu dy awch i weddio, n ynte ei lymhau y maent? Ai tramgwyd yr ydwyt wrthynt, a throï dy gefn ar ddr Duw, fel rhai cardotwyr ystyfng oddi wr yr eiddom minnau, pan na ddelo y gard wrth eu cais, âg achwyniadau yn dy safu anfoddogrwydd yn dy galon dan fwria rhoddi y gwaith i fyny? Neu, a ydynt peri i ti ymroddi yn fwy gwrol i'r gwaith, yn eunyn dy serchiadau yn fwy tanbaidd Dduw a'r ddyledswydd? yn debyg i wr caru, sydd â'i gariad yn chwaneagu wrth gwth yn ol, a'i daerineb yn cryfhau wrth gael ei attal a'i wrthwynebu. Yn ddiau, fel hyn y mae, a'th barhâd dyfal me gweddi yn bod am fendithion ysbrydol, Grist a'i rasmus sanctaidd, ti eili bend-fynu fod rhinwedd dwyfol, a grym mawr hono wedi myned oddi wrth Grist i mewn dy enaid: “Ha wraig, mawr yw dy fydd.”

3ydd. Ystyria yr ynfyrdrwydd mawr ddiiffygio mewn gweddi: tro fol ac afr-ymol ydyw. Fe allai dy fod yn dy brofi wedi colli Duw, yn gweddio am gysur, o dim yn dyfod; am fuddugoliaeth ar ry brofedigaeth oddi allan, neu lygredd od mewn, ond yn cael dy faeddu gan y dd-er dy holl weddio; yr wyt yn guntaf yn e-ffygio yn dy ddyledswydd, yna yn ei rhoi i tyny. Y fath ffolineb hynod yw hy Am fod trugaredd, heb ddyfod gyda ph brys atat ti, yr wyt am ddiange rhagdo dyna yn ddiau dy waith wrth roddi heil gweddio. Pan fyddo y pysgodwr yn met yn ei dynfa, nid tafu ymaith y grefft a w efe, ond taraw i drwsio ei rwydau. O! thro heibio dy weddio, ond gwellhâ yn weddio; edrych drwy ba dwll y diangodd pysgodyn, y collaist dy drugaredd; dyl dy ddiwydrwydd, ac fe fydd pob peth ynd yn y diwedd. Os yw y boen yn parhau t y mae y plastr ar y briw, a dybi di y paid ol ei dynu ymaith? Pa beth yw y drug-edd a fynyit gael, ai ni raid iddi ddyfod o'r Duw? Yn awr, a ddyry Duw y drugare i ti sydd yn gywrthod ei gynghor taug at chael? Onid gweddi, a hyny gyda phob d-fal-bara, y mae efe yn cyfarwyddo ei bo i'w chymmyrd? Beth pe yr anfonid t

physygrwr at un claf, ac iddo yntau roddi y
 ymmysg yn llaw y genad, a dywedyd, Fe
 ydd yn dro o amser cyn y deuaif fi at y
 ygrwr; ond erchwch iddo gymmeryd dogm
 helaeth o hwn mor fynych ag y teimlo ei
 hun yn boenus, yn feunyddiol hyd oni ddel-
 wyf, ac fe ddaw yn iach. Yn awr, y
 nae y claf yn dechreu canlyn cyfarwydd-
 adau y physygrwr; ond wrth ei fod yn hwy
 yn dyfod nag yr oedd efe yn chwenyuch, a'i
 fod yn teimlo ei ddolur yn parhau, y mae yn
 ei dasfu ymaith, ac ni chymmer chwanea-
 g hono. Mae y physygrwr o'r diwedd yn cy-
 hwyn, ac ar y ffordd yn clywed am hyn; y
 nae yn troi ei gefn, ac ni ddaw ato; felly
 y mae y dyn truan yn marw o achos ei ffwrth
 fol ei hun. Yn sicr, yn yr hyn sy genym
 newn llaw, y mae Duw, am resymau a wŷr
 efe ei hunan yn oreu, yn aros dros dro cyn
 lyfod at ei weision tentiedig a gwagedig er
 eu hymwared; ond y mae wedi gadael gor-
 phymyn os bydd neb o hynant yn goddef
 lim drwg (dyna ystyr y gair *kakopatheî* yn
Iago v. 13), gweddied; ymrodded i ymarfer
 yr ddyledswydd hon; i.e. parhâed mewn ar-
 eriad ysbrydol, diball o honi. hyd oni ddelo;
 y mae yn sicrhau i ni y daw efe yn ddiagon
 buan i'n hachub. Yn awr, pa fath ffolineb
 yr taflu ymaith y moddion hyn a arch-
 odd efe mor bennodol i ni eu dilyn! Yn
 sicr, pe na byddai dim arall, y mae hyn yn
 ddiagon i beri i Dduw droi yn ei ol, pan ar
 ei ffordd o drugaredd i wneuthur i ni les.
 4ydd. Ystyr ia ei fod mor bechadurus ag
 ydyw yn ffol i roddi y ddyledswydd hon i
 fyfny. Ti a doraist ymaith ofn, os wyt yn
 attal gweddi ger bron Duw: *Iob* xv. 4. Y
 mae yn drosedd mawr i un yr ymddriedwyd
 castell iddo gan ei dywysog, ei roddi i fyfny
 yn anwraidd i ddwyllaw ei elynion ef; yn
 enwedig os bydd ganddo ddarpariaeth tuag
 at ei amddiffyn. On awr, onid yr Duw
 weddi darparu yn ddiagonal tuag at alluogi y
 Cristion i gadw i fyfny y ddyledswydd hon yn
 erbyn holl luoedd byd ac uffern—cystudd-
 au a phrofedigaethau—a ddichon ruthro
 arni? Mae brenhinoedd yn dra gofalus am
 gryfhau ac ystorio cestyll a fyddo ar y ter-
 ynau yn anad ereill, am fod mwy o daraw
 rnynt. Mae gweddi yn ddyledswydd â
 rhymmaint o wasgu gan Satan arni ag
 un, ac amryw anhawsderau ereill yn ei
 ffordd, fel mai nid peth bach yw i Gristion
 ddal yn ddyfal a dianwadal ynddi. Y
 nae Duw wedi ystyried hyn, ac wedi dar-
 paru cynnorthwy yn gyfatebol. Mae yn
 hodd i Ysbryd i gynnorthwyo y Cristion
 gan mor anl ei wendidau) o ran mater a
 nodd i weddi, yr hwn, os croesawir ef, ni
 bydd yn fyr o roddi help iddo yn y gor-
 chwyl. Ac megys y mae yr Ysbryd yn barod
 i erfyn ynddo, y mae Crist yntau mor barod
 yn y nef i erfyn drosto, yr hwn sydd yn an-
 fon hefyd addewidion gwerthfawr yr efeng-

yl (fel cenadau i dref warchiaëdig) i sicrhau
 i'r enaid fod cynnorthwy yn dyfod iddo o'r
 nef, bydded y cystudd neu y brofedigaeth
 sydd yn ei amgylchynu mor fawr ac ar-
 swydus ag y byddo. Yn awr, i ddiffygio
 yn y gwaith, a thrwy roddi y ddyledswydd
 i fynu agoryd pyrth dinas ei enaid, i Satan
 ddyfod i mew n gorfoleddu yn ei gabledau
 ammharchus ar Dduw. O! pa enaid grasol
 sydd yn meddu ond gwreichionen o ffydd-
 londeb heb ei diffodd, nad yw yn crynu wrth
 y meddwl am y fath weithred fradwrs?
 Nis gallwn dasfu gweddi ymaith, heb fod yn
 taflu rhyw anfri a sarhâd ar Dduw; o blegid
 fel y dywed un yn dda, Mae pob coll gwir-
 ioneddol yn y creadur, yn tarddu oddi wrth
 ryw goll dychymmygol y mae efe yn cam-
 dybio ei fod yn Nuw. Mae dynion yn gyn-
 taf yn barnu yn anaddas am Dduw; ac
 yna yn ymddwyn yn anaddas ac anuffod
 tuag ato. Yn awr, yr achosion o ba rai y
 mae y diffygio yma mew n gweddi yn deill-
 iaw, ydynt oll yn ddrwg a chwerw, fel yr
 ymddengys yn y man.

5ed. Megys y mae yn ynyd a phechadur-
 us, felly y mae o ganlyniad peryglus i ni eiu
 hunain ddiffygio a phallu gweddi. (Iaf.)
 Y ffordd uniawn ydyw i dynu rhyw drallo
 colynog arnom; a dyma y goreu a all ddy-
 fod o hono. A ydwyti yn was i Dduw ac
 yn ffio rhag ei wyneb? Disgwyl ysturm i
 dy ddwyn yn ol at dy orchwyl. A ydwyti
 ti yn blentyn ac yn diange o'r ysgol i chwarae-
 eu? Edrych am gael dy anfon yn ol gan
 dy Dad nefol, â gwialen ar dy gefn. 2il.
 Dyro heibio weddio, a thi a ddechreu bechu.
 Mae gweddi, nid yn unig yn foddion i
 lwyddo am drugaredd, ond hefyd i rag-
 flaenu pechod: "Gweddiwch, fel nad eloch
 i brofedigaeth;" *Mat.* xxvi. 41. Mae y
 lleidr yn dyfod pan fyddo y canwyllau yn
 niffodd a'r teulu oll yn eu gwelyau. Ni
 fynai y disgyblion eu cadw yn effro gan
 Grist; ac mor fuan y gyrwyd hwynt ar ffo,
 pan ddaeth y tentiwr! Pan fyddo y gwr
 lly yn cilio mew n anffodogrydd, ac yn
 troi ei gefn ar y llys, y mae yn haws ei en-
 nill i ymddygiad anffyddlawn tuag at ei
 frenin. Mae anffodogrydd yn meddal y
 galon i dderbyn argraphiadu pechadurus
 oddi wrth y tentiwr: "Ti a doraist ymaith
 ofn; yr ydwyti yn attal gweddi ger bron
 Duw;" *Iob* xv. 4. Yr oedd athrawiaeth
 Eliphaz yn wir, er fod ei gymhwysiad yn
 feius. Pan roddodd Saul heibio ymgeisio â
 Duw, fe aeth, yn ei dymmer anffodog, i ym-
 ofyn â dewines. Mae pechodau o weithred-
 iad yn dra mynych yn gosh a rydd Duw ar
 ddynion am bechodau o esgeulusiad. Yr
 hwn a adawo ddyledswydd, y mae lle iddo
 ofni cael ei adael i wneuthur camwedd.
 Yr hwn sydd yn troi ei glust oddi wrth y
 gwir, y mae ar y ffordd i gael ei roddi i fyfny
 i greu celwydd: 2 *Tim.* iv. 4. Yr hwn a

dafo weddi ymaith, rhyfedd fydd oni cheir ef cyn bo hir wedi ei dafu i bechod brwnt.

DOSB. IV.

Y pedwerydd peth a'r olaf a addawyd, oedd gair o gyngor er help a chyfarwydd i'r Cristion yn y gwaith anlwydd hwn o dlyfal-barhâl mewn gweddi. Hyn, mi dybygwn, a gyflawnir yn oreu trwy osod ger eich bron yr anrwy achosion o syrthio oddi wrth y ddyledswydd, neu ddifflygio ynddi; ac felly addasu'r cyfarwyddiadau yn gau-lynoel. Nid gyda'r feddygiaeth yr iacheir pob afiechyd; ac nid yw meddygiaeth gyffredinol chwaith mor effeithiol a'r rhai sy'n perthyn yn bennodol i'r drygnaws a fyddo yn achos o'r afiechyd. Yn awr, yr achosion o ballu parhau mewn gweddi ydynt amrwyiol.

Iaf. Yr achos weithiau yw diffyg ysgogydd neu egwyddor barhaol a bywiol, i'n cadw a'u dal yn ddianwadal wrth y gwaith. Pan fyddo y pwysau i lawr, saif yr awrlais, am fod yr hyn a roddai ysgogiad i'r olwynion wedi darfod. Weithiau, y peth sy'n gosod y creadur ar weddio, nid uudd-dod syml i'r gochymvn ydyw, ond chwant i ryw drugareidd neillduol; ac os ceir hono, dyna y pysgodyn wedi ei ddal, trôir y rhwyd o'r neilldu; neu os gweddia efe dro hir, ac heb ei chael, y mae yn blino ar y gwaith ac yn ei ollwng i lawr. Bydd sicr, gan hyny, Gristion, o weddio mewn ufudd-dod: rhwymer y ddyledswydd ar dy gydwybod, ac nid hawdd fydd ei hysgwyd ymaith: "Na ato Dduw (mæld Samuel) i mi beidio gweddio dros-och;" 1 Sam. xiii. 23. Ychydig galonddil oedd efe yn ei gael oddi wrth y rhai yr oedd yn gweddio drostynt i barhan yn y gwaith; ond yr oedd ufudd-dod i'r Dduw yr oedd yn galw arno yn peri iddo ddal wrtho. Dyma gae cryf yn wir i gau y galon i mewn: nis gullwn dori drwy y cae hwn heb deimlo y drain yn ein lystlysau. Nid ydyw enaid grasol yn arswydo dim yn fwy nag enog-rwydd. Dywedwech iddo fod yn bechod iddo beidio gweddio: ac yr ydych yn dywedyd digon. Pa beth! er nad yw Dduw yn ateb fy ngweddi, nid oes i'w ddistawrwydd ef wrth fy ngweddi beri i mi ddistewi gweddio: y mae gweddi yn parhau yn ddyledswydd fyth. Nid ydyw Dduw yn rhwng i ateb yn ebrwydd pan weddiom ni; ond yr ydym ni yn rhwng i weddio, atbed neu beidio: "Hyn oll a ddnetli arnom (mied yr eglwys), etto ni'th anghofiasom di, ac ni buom anffyddlaw yn dy gyfammod;" Salm xlv. 17. Cofia Gristion, gwas cyfammodol wyt; ac un peth sydd arnat, fely cyfryw ei wneuthur, yn gweddio ar dy Dduw yn ddibaid: 1 Thes. v. 17. Hyn a'th arfoga yn erbyn unrhyw gymhelliaid a gymygio y tentiwr i'r gwrthwyneb. Mae y carddottyn yn encio am dro wrth ddrws y gwr boneddig; ac oni estynir iddo, ymaith yr a; ond y gwas yn y tŷ er iddo fod yn newynog,

nid yw yn troi ymaith yn ebrwydd oddi wrth ei feistr am uad yw yn cael ei giniaw cyn gynted ag y dymunai.

2il. Weithiau, y mae yr amharhâl yma mewn gweddi yn dyfod oddi wrth fatchelder. "Wele y drwg hwn sydd oddi wrth yr Arglwydd," meddai Jehoram, "pa ham y disgwyliaf wrth yr Arglwydd mwy?" 2 Bren. vi. 33. Y fath ysbryd uchel oedd yma. Nid yw bacheler yn caru gweini, ond cael gweini arno. Hwnw yn yr efengyl, yr oedd cardotta yn gywilyddus ganddo (Luc xvi. 3), llawer mwy felly sefyll yn hir wrth y drws i grefu. Yn awr, er fod hwn yn glefyd y mae y sant yn rhyddach oddi wrtho na dynion ereill, etto, y mae gwaddol ddigon yn aros o'i fewn ef, i anhrefm ac anhwylio ei ysbryd, oni bydd efe bonydd yn ei arloesi a'i garthu allan. Gan hyny, ni bydd allan o le adael ychydig o ystyriaethau emidi-ostyngol yn eich dwylaw, y rhai y gellwch fod yn eu mynych gymmeryd, yn enwedig pan deimloch ddim o duchan y pechod hwn o'ch deutu, ac y dechreuw eich calonau anffodloni, am fod Dduw yn peri i chiw aros cyhyd am ryw drugaredd y gweddier am dani.

(Iaf.) Ystyriwch beth ydyw gweddio. Myned i greffu ydyw am elusen, nid i ofyn dyled. Yn awr, a ydyw yn gweddi i ti, yn y fath gwflwr tlawd, ac o ddeutu y fath waith, fod mor frysio: a diaros gyda'th Dduw? Os gelli di fyw heb fod yn rhwymedig i Dduw, pa ham ynte y deui di fyth at ei ddrws? Os ni elli, pa ham yna na ddisgwyl di yn fwy amyneddgar am ei fodd ef? A wuai efe gam â thi, pe byddai yn dy ffonodio oddi wrth ei ddrws? Pa ham ynte na byddit ti yn fwy diolchgar am ei genud i ddisgwylt yno, er nad ydwyt yn ebrwydd yn cael dy wasanaethu?

(2il.) Ystyria pwy yr wyt yn gweddio arno. Onid Mawrhydi uchel a gogoneddus y nef a'r ddaear ydyw? Ac onid dyma un ran o'r rhwysg y mae efe yn disgwyl cael ei wasanaethu ynddo gan ei greaduriaid tlodion? Pa hyd y bu Mordecai yn eistedd wrth borth y brenin cyn cael yr hyn yr oedd yn disgwyl am dano? Onid yw yn ddigon buan i'r gwas eistedd wrth ei giniaw ar ol gweini ar fwrdd ei feistr? Onid coegeidd brwnt fyddai i'r gwas achwyn fol ei feistr yn eistedd yn rhy hir, ac yn gofyn gormod o weini ar ei law? Dyma i'w ein calonau ni, pan fyddom yn ei feddwl yn beth mawr aros amser Dduw am ryw drugaredd. Onid Dduw cyfiawn, sanctaidd, yw efe? Yn sicr, nid ydyw yn gwneuthur â thi un cam, o beri i ti weddio, a hyny yn hir, am drugaredd nad wyt yn ei haeddu pan ddol o'r diwedd. Onid yw efe yn ddoethach na thi, i allu gosod amser ei drugareddau? "Ai er dy fwyn di y gawedwr y ddaear? neu y symmudir y graig allan o'i lle?" Job xviii. 4. A fynyit ti gan Dduw ddymchwelyd trefn ei

agluniaeth, sydd yn addas wrth ei feddwl f, i foddio dy ysbryd anymarhous di? Yn ier, dyma gyhuddo Duw yn ynfyd o ryw ai yn ei lywodraeth. Mewn gair, onid Duw fyddllawn yw efe, er iddo fod heb dyfod mor fuan i'th gymmhorth ag y dyuunit ti ei gael? Pa le y cefaist ti ei genad ysgrifenu dy ddiwrnod di wrth ei addewidion, a phefnodi amser eu taliad? Gwir i fod wedi addaw ateb gweddiau ei blant; ond fe gelodd amser cyflawniad ei addewid, r y diben o'u cadw hwynt mewn agwedd disgwyllgar. Ac am hyny, nid yw efe yn ori ei addewid wrth oedi rhyw drugaredd; ond yr wyt ti yn anghofio dy ddyledswydd wrth beidio disgwyl. Nid yw Duw yn anfyddllawn, ond yr wyt ti yn anffyddiog ac nghrediniol.

(3ydd.) Onid oes rhai cystal a thithau wedi gweddio, a hyny cyhyd a thithau, cyn erbyn ateb? ac etto hwy heb ymddwyn el hyn? Edrych ar genhedlaeth y rhai a'i eisient, a thl i a gei weled fod Duw wedi rofi eu hamynedd hwynt; yn gystal a'r iddot tithau. A sefaist ti wrth ddrws Duw n hwy nag y gwnaeth llawer o'rh frodyr? Sofia Iob, Dafydd, a Haman; y fath flinerau anl aeth dros eu penau! y fath newddion athrist a glywsant! y fath ofidiau laethus a oddefasant, cyn i'r wawr dori, ac ragluniaeth ddwyfol glaer lewyrchu! A aid i Dduw godi sarn i ti rodio wrthyt dy un yn droedsych, tra y mae y rhai hyn, a biloedd yn chwaege, wedi gorffod rhoddi lawer cam blin drwy siglenydd dyfnion ralled, cyn cyrhaedd i lwybr teg. Pan arzeiniodd Duw Israel ym mhell o amgylch, an eu gwneuthur yn daith deugain mlynedd iddynt o'r Aipht i Ganaau, balchder nawr a fuasai i ryw un yn eu plith ofyn i Dduw ei arwain ef yno ar hyd ffordd ferach a'i holl frodyr. Nid oedd Dafydd yn dyuno chwaneg ar law Duw na chael yr un ywoliaeth a'i frodyr ysbrydol: "Trugarhâ wrthyf, yu ol dy arfer i'r rhai a garant dy nuw;" *Salm* cxix. 132. Nag e, onid yw Crist ei hun, esampl tu hwnt i bob esampl, n disgwyl, a hyny yn hir, hyd yn oed yn y ef ei hun, am attebiad i'w weddiâu? Y mae efe wedi bod yno eisoes ym mhell dros l o flyneddoedd yn erfyn dros ei eglwys, ac n erbyn ei elyunion; ac nid yw efe etto wedi erbyn ei lawnddymuniad, eithr y mae yn arhau yn disgwyl hyd oni chaffo efe y aill i'w fynwes, a'r lleill yn droedfaingc ldo. Pwy wyt ti, i gyuuwys y fath dybchel am danat dy hun, fel y mynit i Dduw eri i bawb aros, gan fasnachu ar goel, a hi dy hun yn unig am arian parod?

(4ydd.) Ystyria ai ni ddarfu i ti erioed eri i Dduw aros arnat ti, cyn y gwardewit i gwyn; er ei fod yn erfyn, nid er ei les ei uu, ond yr eiddot ti. A ddisgwyliodd Duw wrthyt ti yn dy gyflwr aniaul, fel y

gallai o'r diwedd fod yn rasol wrthyt, ac a feddyli di yn ormod ddisgwyl wrtho ef yn awr mewn gweddi?

3ydd. Y mae yr amharhâd yma mewn gweddi yn tarddu oddi wrth anghrediniaeth. Mae y dyn yn gweddio, mae Duw yn ddistaw; dim ateb yn dyfod. Yn awr, medd Satan, yw fy amser i niweidio y creadur yma; ac am hyny, fe rydd gais ar ei berswadio, nad oes dim trugaredd i'w ddisgwyl oddi wrth Dduw. Pe buasai Duw yn meddwl dyfod, medd y temtiwr, fe fuasai yma cyn hyn. Y mae cynnifer o ddyddiau a misoedd yn awr wedi myned, a dim arwydd o'i agosâd; yr wyt wedi disgwyl yn rhy hir, i gael dim ond siom yn y diwedd; dyro i fyny, a chymmer rhyw ffordd arall. Y modd yma yr ymddygodd at ein Iachawdwr; nid oedd un gelyn i'w weled ar y maes dros ddeugain niwrnod, yna y mae efe yn ymddangos. Dyma ei ffordd ef gyda'r saint hefyd; y mae yn sefyll draw, gan ddisgwyl eu bod hwy yn meddalu i gyd-syniad, wrth hir sefyll at ddyledswydd, a gobeithio fod eu darpariaeth milwraidd yn myned yn isel, yna fe gais gyd-ymddiddan, a'u tynu oddi ar ddisgwyl wrth Dduw, drwy dafu amryw ofnau ac amhueon i'w meddyliau, ynghylch gallu, trugaredd, a gwirionedd Duw. Fel hyn y mae y Cristion truan o'r diwedd yn petruso, ac yn amheu pa un oreu ai gweddio ai peidio; neu, os yw yn dal i fyny y ddyledswydd, etto, ei galon i lawr ynddi, y mae yn gweddio yn wanaidd, a chyda math o anobaith; fel y weddw dlawd, oedd yn parotoi ei dynnaid olaf o flawd, dan feddwl am ddim ond marw ar ol ei fywta: *1 Bren.* xvii. 12. Fel hyn y mae yntau yn gweddio, ond dan edrych am ddim ond marwolaeth a thrueni i ganlyn hyny. O! dyna weddio athrist, heb disgwyl dim daioni gan Dduw wrth y gorchwyl. Nychwr enaid yw y pechod o anghrediniaeth, y mae efe i weddi fel y gwyfyn i'r brethyn; yr hwn a frath ymaith yr edafedd, ac a'i maluria i'r dim. Y mae yn difa grym yr enaid, fel na all edrych gyda hyder i fyny at Dduw: "Ceisio yr oeddynt ein hofni ni, gan ddywedyd, Eu dwylaw hwy a laesant;" *Neh.* vi. 9. Gan hyny, gwrthwyneba Satan yn gadarn yn y ffydd; na oddef byth i'th galon alw i gwestiwn, allu, trugaredd, neu wirionedd Duw; ni fyddai waeth i ti ofyn, a ddichon efe beidio bod yn Dduw. Y mae y priodoliaethau hyn o eiddo y natur ddwyfol i'th ffydd, yn debyg i'r maen i Moses, yr hwn a osododd Aaron a Hur iddo eis-tedd arno; hwy a gynnaliant dy ysbryd rhag diffygio neu flino yn y gwaith, er i Dduw beri i ti ddisgwyl hyd fachludiad haul. O! y mae yr agwedd ddisgwylgar yma yn nawr foddio Duw, a byth ni dddwg yr enaid i gywilydd. Mair a arosodd wrth y bedd, er na chafodd mo'i Harglwydd yno;

cafodd o'r diwedd olwg ddedwydd arno. "Gadewch i minnau," medd un ar y lle, "geisio Crist mewn ffydd; ac fe fydd gyda ni, er na fedrwn ni yn ebrwydd ei ganfod ef."

4ydd. Y mae rhai heb barhau mewn gweddi, am fod eu llygad ar ryw wrthddrych arall, i ddisgwyl cymmhorth, heb law Duw. Nid rhyfedd fod hwn yn rhoddi heibio weddio, sydd yn meddwl fod ganddo llyn arall i'w fwa. Tra y mae dyn anianol yn gweddio am ymwarded, y mae ganddo ef yn ei ben ryw ddyfeision ereill, pa fodd i ym-ysgwyr o'r dyrynsu i mae wedi ei ddal ynddo; ac ar y rhai hyn y gesyd efe fwy o bwys nag ar Dduw y mae yn gwedd o arno; am hyn, o'r diwedd fe âd heibio weddio, i droi at y rhai hyn. Ond enaid a fyddo yn edrych am oll a chwbl oddi wrth Dduw, ac heb weled un ffordd i ymachub ond drwy alwr Dduw i'w gymmhorth, hwn a ddywed, fel Pedr wrth Grist—pan ofynodd efe i'w ddisgybliu a fynent hwythau ei adael ef, fel y gwnaethai ereill—"Arglwydd, at bwy yr awn ni? genyt ti y mae geiriau bywyd tragwyddol;" *Ioan vi. 68.* Nis gwn i am un drws arall i guro wrtho, medd yr enaid tlawd, ond dy ddrws di. Ni fedd y creadur mo'r peth i'w roddi, ond ti a feddi; am hyn, byth ni throaf fi oddi wrthyt ti. "Ni wyddom ni beth a wnawn," meddai Iehosaphat dduwiol, "ond arnat ti y mae ein llygaid;" *2 Cron xx. 12.*

5ed. Mae yn tarddu oddi wrth ddiffyg ymfodddhâd tu mewnol, a ddylai fod gan greadur yn Nuw, a chymmundeb âg ef. "A ymlawenycha efe (y rhagrithiwr) yn yr Hollalluog? a eilw efe ar Dduw bob amser?" *Iob xxvii. 10.* Ni eilw efe bob amser arno, am na bu efe un amser o'i galon yn ymlawenyachu ynddo. Hawdd genym ollwng ein gafael o'r peth ni bu erioed genym foddhâd mawr o'i fwynhau. Y mae yr enaid syml wedi ei rwymo wrth Dduw gerfydd llinynau y galon: y mae ei gymmundebydd wedi ei seilio mewn cariad—a chariad "sydd gryf fel angen.....dyfroedd lawer ni allant ei ddi-ffodd;" *Can. Sol. ix. 6, 7.* Dichon fod gan estron neges, a'i dwg ef i dŷ rhyw ŵr; ond hyn drosodd, dyna y gydnabyddiaeth yn darfod; eithr cyfaill, fe ddaw i eistedd gyd-âg ef, a'r hyfrydwch y mae yn ei gael yn ei gymdeithas nis gedy iddo hirbeidio ei gydnabyddiaeth. Cais gan hyn y serchiadau ond unwaith wedi eu gosod ar Dduw, fel dy ddaioni penaf; ac fe fydd i'r wreichionen neu y gareg mor fuan anghofio ef ffordd at eu canolbarth, a thithau dy ffordd at dy Dduw mewn gweddi. Y mae y rhagrithiwr yn aifer gweddi fel yr arferwn physgywriaeth, nid am ei fod yn caru ei blas; a'r enaid duwiol yn ei arfer fel ymborth; y mae yn felus i'w archwaeth. Y mae Dafydd, o herwydd y boddlonrwydd enaid a gafodd

yn mhresenoldeb Duw, yn gwaeddi, "Neu au at Dduw sydd dda i mi;" *Salm lxxiii. 28* fel un wedi profi rhyw win peraid, neu damaid melus, a esyd ei law wrth ei gylla—lle y mae yn ei fwynhau—ac a ddywed wrth y rhai ger llaw, O! y mae yn dda iawn! Byth nid ymedy y cyfryw enaid âg ef; na, efe a ddywed, fel y ffigs-bren y nammeg Iotham (*Barn. ix. 8, &c.*), a ym adawaf fi â fy melusder, a'r ffrwyth da a gefais mewn cymmundebydd â'm Duw? Na wnaef byth!

PENNOD XVIII.

Sydd yn traethu am yr Ysbryd cyffredinol a ddylai annud yn ein gweddiau dros ereill; ynghyd â galarnad am y prinder o hono, ac unnogeth ato.

"A deisyfiad dros yr holl saint;" *Eph. vi. 18.*

Y MAE y geiriau hyn yn cynnwys y chweched gansen, a'r olaf, yn nghyfarwyddiad yr apostol am weddi; a hono yn dangos mor helaethfawr y ddyledswydd, neu pa mor bell ar led y dylai ein gweddiau ymestyn: "Deisyfiad dros yr holl saint."

Ond beth? a fynai efe i ni weddio dros neb ond y saint? Ni ddichon hyn fod yn fwrriad yr apostol, gan ei fod mor wrthwyn-ebol i feddwl Crist, gan yr hwn y cafodd ei geiadwri. Y mae Crist yn erchi i ni weddio dros ein gelynyon; ac y mae efe hefyd yn esaml i ni am hyn, i.e., y mae Paul ei hun yn rhoddi yr un athrawiaeth (*1 Tim. ii. 1*): "Cynghori yr ydwyf fod gweddiau a deisyfiadau dros bob dyn;" hyn yw, dros bob math o ddynion, ffyddloniaid ac anffyddloniaid, cyfeillion a gelynyon. Felly ynte ni enwir y saint yma fel y cyfan-gyfaddas a'r unig gyfranogion o'n gweddiau; ond fel y rhyw a'r fath benaf o ddynion, y dylem mewn modd arbenig eu dwyn yn ein gweddiau at Dduw. Y rhai hyn, os gwnawn ond eu cofio, nid hawdd fydd i ni anghofio gweddio dros ereill hefyd; o herwydd, fel y dywed Awstin, "Y mae nifer y saint yn cael eu chwanegu bob amser allan o nifer yr annuwiolion." Wrth weddio dros Babilon, yr ydym yn gweddio dros Ierusalem. Po mwyaf a weddiir allan o'u pechodau, mwyaf a weddiir i Grist. Ni a gawn adeiladu ein traethawd ar y testyn hwn ar y tri sylfaen a gaulyn:—

1. Rhaid i ni ddangos ysbryd cyffredinol mewn gweddi, trwy weddio dros ereill yn gystal a ni ein hunain.

2. O bawb a gosom yn ein gweddiau, rhaid peidio anghofio y saint.

3. Wrth weddio dros y saint, rhaid i ni fod yn ofalus i gynnwys a chylchu i mewn yr holl saint.

DOSB. I.

1. Dylai y Cristion feddu ysbryd cyffred-

inol mewn gweddi. Y mae hon yn ddyledswydd o elw cyffredin, yn mha un y mae ereill i gyfranogi gyda ni ein hunain—yn debyg i'r dwfr-beiriannau a fyddo yng nghadw at wasanaeth yr holl dref, pan fyddo unrhyw dŷ ar dân. Y mae ysbryd gweddi yn drysor cyffredin, er ei fod yng nghadw mewn ychydig ddwyllaw. Ni all pawb weddio; am hyny, dyldid gweddio dros bawb. Y mae hyn yn ddyledswydd, meddaf, ar y saint; nid rhodd o foesgarwch, a allwn ei rhoddi, neu ei hattal, yn ol ein bodd ein hunain. Yr ydym yn pechu, ac yn troseddu deddf gweddi, os gadawn hyn yn ol: "Na ato Duw," medd Samuel, "i mi bechu yn erbyn yr Arglwydd, drwy beiddo a gweddio drosoch;" 1 Sam. xii. 23. Mae Paul yn addef ei hun yn ddyledwr i'w frodyr yn yr ystyr hon. "Diolch a ddylem i Dduw yn wastadol drosoch;" 2 The. i. 3. Mewn lle arall, y mae yn profesu ei fod yn "diolch i Dduw yn wastadol, gan wneuthur cofia am danant;" 1 The. i. 2. Mor ystyriol oedd efe o bwys y ddyledswydd, fel y mae yn diolch i Dduw am roddi iddo galon i'w chyflawni.

Iaf. Y mae yn un diben pa ham y rhoddir ysbryd gweddi i ni. Y mae doniau yr Ysbryd i'w harfer yn ol meddwl a bwriad y rhoddwr. Os gŵr a gymlyn-rodia dŷ a thir i un arall, ond gan adael hyn a hyn oddi ar y tir i'w dalu at gynnal y tlodion, y mae hwnw yn fforffedu y gymlyn-rod, a adawo ewyllys y marw heb ei chyflawni. Y mae Duw yn golygu lles ereill yn yr holl ddoniau a rydd efe i ryw saint neillduol; y ffordd i gollu ein rhodd yw ei chudd-gadw, a pheidio ei rhoddi allan yn ol bwriad y rhoddwr. "Eglurhâd yr Ysbryd a roddir i bob un er lleshâd;" 1 Cor. xii. 7. Pa fodd y mae i ni lleshau ereill drwy ddawn yr Ysbryd, os nad wrth weddio drostynt? Yr Ysbryd hwnw sydd yn ein cyffroi i weddio drosom ein hunain, fe fydd iddo, oni ddi-foddwn ef, ein danfon ar yr un neges dros ereill; i.e. mewn rhai achosion, dros ereill yn fwy na throsom ein hunain—am eu lles ysbrydol hwy, o flaen ein lles tymmorol ein hunain; am les cyffredin y wladwriaeth o flaen lles neillduol ein personau ein hunain. Megys y gwelwn yn Moses, yr hwn ni fynai roddi heibio weddio dros Israel, i gael ei godi yn fawr ar eu dyfethiad hwy. Yn wir, y cynnyg hwnw a wnaeth Duw (*Ecsod.* xxxii. 10): "Gâd i mi lonydd, a mi a'th wnâf di yn genhedlaeth fawr," nid ydoedd ond er prawf, a ddewisai Moses ei ddyrchafiad ei hun o flaen daioni y bobl, ac yr oedd Duw yn cael ei fawr-foddio wrth ei hunan-ymwadiad.

2il. Y mae cyfraith cariad yn rhwymo hyn fel dyledswydd arnom. Fe'n gorchymynir i garu ein cymmydog fel ni ein hunain. Y mae y "fel" yma yn arwyddo cymmeintioli

o ran math, er nad o ran gradd; o ran modd, er nad o ran mesur. Rhaid i mi garu fy nghymmydog mor wirioneddol, er nad mor gryf, a mi fy hunan. Yn awr, pa fodd y dangoswn ni wir gariad atom ein hunain, onid ydym yn gweddio drosom ein hunain? Y mae ein Hiachawdwr yn deongli ein cariad at ein gelyn wrth ein gweddio drosto (*Mat.* v. 44): "Cerwch eich gelyniön; gweddiwch dros y rhai a wnel niwed i chiwi." Gallwn roddi cardod i'n gelyn, ac heb ei garu; y mae yn haws tynu allan ein pwrs, na "thynu allan ein henaid i'r newynog," vn ol ymadrodd y prophwyd: *Esa.* lviii. 10. Mewn gweddi yr ydym yn tynu allan ein heneidiau. "Os bydd dyn yn siarad neu yn gwneuthur dim un amser, gyda symledd, gellir disgwyl hyny pan fyddo yn cyfeirio ei ymadrodd at Dduw mewn gweddi," medd Lucas Brugenis ar y lle. Am hyny, y mae Duw yn dewis y dystiolaeth hon o weddio dros ein gelyniön, fel y sicraf am ein cariad atynt. Yn ddiau, yr hwn sydd yn dymuno yn dda yn unig iddo ei hun, gellir yn gymmhws ei gyfrif yn mysg gwehiliön dynol-ryw. Y mae yn ei iawn-gyffelybu y fath hunan-garwr i'r draenog, sydd yn ymguddio yn ei fânlew ei hun, ac yn troi ei wrychyn at bawb ereill.

Defnydd. Y mae hyn yn dangos helaeth-rwydd calon haelionus Duw. Fe rodia i'w blant, nid yn unig genad i ofyn drostynt eu hunain, ond dros ereill. Nid dyma arfer dyn; nyri a'i cyfrifem yn ormod hyfder i ŵr ofyn drosto ei hun, ac ereill hefyd. Pe byddai i dlawd, ar ol cael ei gardod, daraw i ofyn dros ei holl gymmydogion, pa le y cai efe y gw'r a'i croesawai? Ond wele yma anfeidroldeb daioni Duw, sydd yn rhoddi iddo genad i ddyfod â phiser ein cymmydog gyda'r eiddom ein hun at ei ddrws; i.e. yn ei orchymyn, ac yn ei gymmyd yn angharedig pan redom i weddi yn ein hachos unigol ein hunain, gan adael y meddwl am angenion ereill o'n hol. Pa ham y sefi di, Angestion, yn ammheu a gyflawna Duw dy eisieu di dy hun, pan y mae efe yn erchi i ti eiriol dros ereill hefyd?

DOSB. II.

2. Gellir codi yma alarnad am gulhi ein hysbrydoedd mewn gweddi. Y mae rhai yn wir mor bell oddi wrth weddio dros ereill, fel na ddysgasant ddangos cymaint trugar-edd iddynt eu hunain; i.e. yn byw yn y fath gyflwr o ddiethrwech i Dduw, nas gallant yndo weddio drostynt eu hunain, na thros eu perthynasau anwylaf. O! gynnifer o dadau diweddi a fedd ein gwlad, sydd yn greulawn wrth eu cnawd eu hunain!—gŵyr wrth wragedd eu mynwes! Gofynwch a ydynt yn eu caru? Hwy a atebant, eu bod fel eu heneidiau eu hunain, a chwi ellwch eu coelio; o herwydd nid ydynt yn ymddwyn ddim gwaeth tuag atynt na'u hen-

eidiau eu hunain. Y mae amser yn dyfod, pan wybyddant y buasai un weddi o'r galon wedi ei chofrestru, dros eu perthynasau, yn dywedyd mwy am eu cariad a honant tuag atynt, na'r holl gyda'u o arian a lanwasant iddynt. Ereill, os dangosant ychydig serch naturiol at eu enawd a'u perthynasau teulu-aidd eu hunain, etto llawn waith ydyw gan eu cariad fyned dros eu rhiniogau eu hunaid, i ymfyn am lwyddiant ereill. O! leied yw eu teimlad o boenau eu cymmydogion! Mor anfynych y taenant hwynt, gyda dim teimlad calon o flaen Duw! Neu, os yw y golwg yn effeithio ar y meddwl, wrth edrych ar helbulon eu cymmydogion agosaf atynt; etto, leied sydd yn dangos y fath ysbryd cyffredin, fel ag i ddyn ar eu culonau ofidiau y rhai fyddo ym mhellach oddi wrthynt, a'u coffau yn ffyddlawn ger bron yr Arglwydd! Yr oedd Paul dduwiol yn cydymdeimlo â, "ie, mewn mawr ymdrech dros, y rhai "ni welsent ei wyneb ef yn y cnawd;" Col. ii. 1. Hyd yn oed ym mysg y rhai sydd yn Gristionogion, O! y fath adfeiliaid sydd o'r ysbryd cyffredin hwn! Y mae achwyn mawr gan ddynton yn y byd am eu colledion mawrion yn yr amseroedd diweddar o derfysg; ond yr wyf fi yn meddwl mai y saint yw y colledwyr mwyaf, sydd wedi colli cymmaint o'u cariad. Un a ddywed fod y byd wedi cael ei ddifetha unwaith â dwfr, o achos poethder chwant; ac y caiff ei ddifetha etto â thân, o achos oerder cariad. Y mae cariad i'r enaid, fel y gwres naturiol i'r corph; y mae yn peri grym a nerth i gyflawni pob gorchwylion bywyd. Ond Oeh! fel y mae y gwres tyner hwn wedi colli ym mysg Cristionogion, yn yr henaint sydd wedi dyfod ar y byd! Hyn a rag-fynegwyd er ys talm gan ein Harglwydd (*Mat. xxiv. 12*): "Fe a oera cariad llawer;" ac nid rhyfedd, pan yw hunan-gariad, y tân ysbeiliu hwnw, yn ennyn mor boeth. Fe'i rhagfynegwyd hefyd gan yr apostol (*2 Tim. iii. 2*): "Yn y dyddian diweddaf bydd ddynton â'u serch arnynt eu hunain." A'r fath fyddin ddu sydd yn caulyn y cadben hwn o bechod, fe ellir gweled yno. Os unwaith y caiff hunan fod yn nod uchaf dyn, dyna ddiwedd ar garu a gweddio dros ereill. Ni ddichon cariad drigo mewn tŷ mor gyfyng ag yw calon yr hunan-garwr: ie, y mae yn wrthwyneb gwbl iddi: "Cariad, nid yw yn ceisio yr eiddo ei hun;" *1 Cor. xiii. 5*. Ond i droi yr alarnad yn annogaeth; llafuria am ysbryd cyffredin mewn gweddi. A oes neb, O ddynt! mewn diffyg o drugaredd Duw gyda thi dy hun? A fynit ti fod neb yn gadwedig mewn byd arall, neu yn cael darparu iddynt yn y byd hwn, heb law tydi? Yn awr, wrth gofio ereill, fe rydd Duw genad i'th gariad ddechreu gartref, er na fŷn efe iddo ddiweddu yno. Edrych i'th deulu; a elli di eu hanghofo hwynt ddiwrnod, os wyt yn dy gofio

dy hun? A fydd i gredadyn droi yn waet na'r diffydd? Y mae hwnw yn darpar dros ei deulu; ac y mae genyt ti oleu sydd yn dywedyd i ti, nad yw dy holl ddarparu dros tynt ond oferi, oddi eithr i Dduw ddywedyd. Amen. Wedi i ti dalu dy ddyled iddyn hwy, ymladaened dy gariad etto; a chymmer dy gymmydogion i fyny i'th feddylian O! ystyria beth sydd yn myned yn mlae yn yr heolydd a'r gummydogaeth; pa nife elliit yn fuan eu cael yno, yn tywallt eu hien eidiau fel diod-offrwm i Satau—duw y byd hwn—trwy eu ffeidd-dra erchyll? O gweddia ar i Dduw attal eu llaw waeddyd cyn iddynt ddifetha eu hunain yn ddi-adfer Yna dyro dro pellach yn dy fyfyrlo dau, edrych ar gyflwr ac agwedd cyffredin; genedl; edrych pa drugareddau sydd yn ysgrifenedig â phin euraidd rhagluniaeth a ei thaleen, a thâl dy ostyngedig ddiolch yna, pa arwyddion o farnedigaeithau sydd i'w caufod yn nesau ar wyneb yr amser oeddi, a rhed i'r adwy cyn i'r lliid ddechreu A ddadlennod Abraham mor daer dro Sodom, ac yntau ei hun yn ddigon pell o berygl y gawod? Ac ai ni wnei dithau drody genedl dy hun, pan wyt yn debyg cyrthio gyda hi, os syrth hi yn dy ddyddiau; neu dy liliogaeth o gael y gwae, os fydd i'r cwmmwl uwch ben gael ei wasgaru drwy weddïau y ffyddloniaid? Drachefn na fydded i'r môr sydd yn gwahanu rhyngot a pharthau ereill y byd, beri i ti feddwnad oes i ti ddim a wnelech yn eu dedwyddwch na'u trueni hwy. Anfon dy ddymuniaidau dros y môr maith, a ddygent ddefnydd i'th ddeisyfiadau, fel lloug y marsiantwr e llwyth o bell. Edrych ar eglwysi Crist ar led; ie, ar yr Indiaid truan, ac adfeilion ereill o ddydol-ryw, sydd yn gorwedd lle y tafodd pechod Adda hwynt fel niman, heb i'r efengyl etto roddi un cyunyng arnynt eu hadferiad, a thaeua eu cydwr galaru ger bron yr Arglwydd. Y mae Drake, ac amryw o'n morwyr, yn enwog am amgylchu y ddaear mewn ychydig o flynyddoedd; t a elli hyny, yn dy weddïau bob dydd; a gwneuthur taith fwy ennillfawr hefyd o honi nag a wnaethant hwy.

DOB. III.

(3ydd.) Cymmer ddau neu dri o ystyriaethau cynhyrfiol, i'th osod yn fwy effro ar y gwaith hwn.

(1.) Nis gelli weddio mewn ffydd drosot dy hun, os drosot dy hun yn unig. Fe ddysgodd yr Arglwydd Iesu y darn yma o elusengarwch, yn y ffurf o weddi a roddodd iddynt: "Pan weddioch, dywedwch, Ein Tad." Y mae Tad yn air o ffydd a hyder, "Ein Tad," yn arwyddo cariad ac ewyllys da—dau ras angenrheidiol mewn gweddi. Yr ydym yn byw drwy ffydd; a ffydd yn gweithio trwy gariad; nis gall bod iawn weddi heb ffydd, na ffydd heb gariad. Y

nae Crist yn anfon hwn yn yr efengyl (*Mat. v. 23*), oddi wrth yr allor, i ymgynodi â'i frodyr, cyn offrw m ei rodd; a pha nam? ond fel y hyddai mor barod ac ewyllsgar i weddio dros ei fraud a throsto ei min. Oni bydd genym gariad i weddio dros ein brawd, nis gallwn ddisgwyl croesaw wrth weddio drosom ein hunain.

(2il.) Yn angen, nid ydych yn gwirio y llystiolaeth â'r gair da a rydd Duw am ei blant. Y mae efe yn mynegi am danynt eu bod yn fendith i'r bobl a'r lleoedd o'u deunau: "Israel yn fendith o fewn y tir;" *Esai. cix. 24*. Hwy a gyffelybir i fyfnonn sydd yn lles cyffredinol i wasanaethu tref gyfan; ac attal neu gymmysgu pa un sydd yn niwdd i bawb a fyddo yn cael eu dwfr o honi: *Diar. xxv. 26*. Yn awr, un ffordd yn yr ion y mae y duwilion yn dra gwasanaethgar i ereill sydd wrth yr hawl a feddant yn Nuw, a thyciant eu gweddïau gydag ef: "Trwy fendith y cyfiawn y dyrchafer y ddinas;" *Diar. xi. 11*; hyny yw, trwy eu gweddïau taer, sydd yn tynu bendith arni i'r nef. Y mae Duw yn bendithio yn awlurdodol, trwy orchymyn: "Gorchymynodd y fendith, sef bywyd yn dragywydd;" *Salm xxxiii. 3*. Y mae y saint yn bendithio "wrth weddio am fendith." Fel hyn y bendithiwech feibion Israel, gan ddywedyd wrthynt, bendithiel yr Arglwydd di, a chadwed li;" *Num. vi. 23*.

(3.) Y mae Duw yn rhoddi bri mawr ac amlwg ar weddïau y saint dros ereill. Yn gyntaf, Y mae yn gwneuthur pethau mawrion ar eu deisvfiad hwynt dros ereill. Mor fynyeh y trôdd Moses yn eu hol y plâu oedd Duw yn eu tywallt ar yr Aiph! bob tro yn wir ag y bu gan Pharaoh galon i ofyn ei weddïau. Mor isel y tynodd Abraham y cynnygiad am arbediad Sodom! hyd at ddeg o gyfiawnon! Pe gallasai y lle drygionus hwnw ddangos ond hyny o nifer, ni chwaisai mo'i droi yn lludw. Yn ail, Pan na thycio eu gweddïau hwynt am drugaredd i genedl, nid oes dim arall a lwydda. Am hyny y mae Duw, i ddangos ei fwriad sier, a'i arfaeth anniddymadwy i gospi Israel, yn dywedyd wrthynt, "Pe safai Moses a Samuel ger fy mron, etto ni byddai fy serch ar y bobl yma;" *Ier. xv. 1*; wrth hyny, yn arwyddo fod eu cyflwr yn ddiobaith. Os na allai gweddïau y fath wyr duwiol attal y gawod o ddogofaint oedd yn crogi uwch eu penau, llawer llai y medrent hwy, â'u grym a'u dyfais eu hunain, ei chwala ymaith. Yn wir, pan y mae Duw wedi ymroddi yn ffordd dial, y mae yn eu tynu hwynt oddi ar weddio (*Ier. vii. 19*): "Na weddia dros y bobl hyn: canys ni'th wrandawaf;" ac yn hyn hefyd y mae yn dangos y fath gyfrif mawr sy ganddo o weddïau ei bobl, wrth ei fod yn antoddlawn iddynt fyned i'r boen yn ofer. "Na weddia dros y bobl hyn;" fel pe dy-

edasai, Gweddiant hwy os mynant, mi allaf yn ddioidf wrthod eu cynnyg hwy; ond ni fywn i ti weddio mewn amser annerbyniol, ac am yr hyn nid oes ynof feddwl ei roddi. Yn drydydd, Pan na byddo gweddïau y saint yn llwyddo am drugaredd i ereill, y byddont yn bennodol yn ei cheisio, y mae Duw y pryd hyny yn gofalu na chaffont yr achos lleiaf i amhieu fod y nacâd yn dyfod oddi wrth ddim amharch sy ganddo iddynt hwy na'u gweddïau; ac am hyny, y mae efe weithiau yn rhoddi y peth a ddeisyfant, ond yn newid y derbynydd. Yn y modd yma y rhoddodd efe yn helaeth i Abraham, yn Isaac, yr hyn a ballodd efe yn achos Ishmael. Weithiau drachefn, yr hyn a nacao efe hwynt o hono i ereill, y mae yn ei ganiatau iddynt eu hunain; fel hyny, gweddi Dafydd dros ei elynion a ddychwelodd i'w fynwes ei hun.

DOSE. IV.

Yn awr, wrth weddio dros ereill, (1.) Cais galon a fyddo yn ddwys ystyriol o gyflwr a helynt y rhai yr wyt yn gweddio drostynt. Y mae Duw yn hoffi drugaredd yn fwy nag aberth. Tynu ein beneidïau allan, wrth roddi elusen, sydd yn garedigrwydd i'w tynu allan ein pwrs. Felly mewn gweddi, edrych am dywallt dy enaid allan, onid e, fhuantwr ydwynt; yr wyt yn gwneuthur cam â Duw, ac hefyd â'r neb yr wyt yn gweddio drosto. Cyn i Grist weddio dros Lazarus, efe a ymgynhyrfodd yn ei ysbryd (*Ioan xi. 33*): "Wele, fel yr oedd yn ei garu ef," meddai y bobl o'i amgylch, wrth fod yn dystion o'r ocheneidïau a grychodd, a'r dagrau a dywalltodd. Y pryd hyny y gweddi di yn wresog dros ereill, pan fyddo dy galon wedi ei thwmno i gydymdeimlad â hwynt. Dichon cyfreithiwr ddangos mwy o areithyddiaeth wrth ddadleu achos dyn; ond brawd, neu gyfaill anwyl sydd â theimlad o'i gyflwr ar ei galon, a fydd sier o ddangos y serch cryfaf.

(2.) Gofyn fendithion ysbrydol yn dy weddïau dros ereill, o flaen rhai tymorol. Ai cyfaill claf sy genyt i ymbil drosto? Os iechyd yw y cwbl a eifvni iddo, nid wyt ti yn ffyddlawn i dy gyfaill; fe all gael hyny, a bod yn waeth o'r achos. Gofyn Crist, gras a gogoniant iddo; dyna fel y bydd dy waith i berwyl da. Yn sier, hyn yr oedd ein Harglwydd yn ei olwyn yu ei ffordd yn iachau y claf o'r parlys: *Mat. ix. 2*. Cyn ei iachau ef o'i glefyd, "Cymmer gysur," medd Crist, "maddeuwyd i ti dy bechodau." Y newydd gwertlifawr am faddeuant y mae yn ei ddwyn iddo yn gyntaf, fel rhodd anfeidr-ol fwy ei gwerth nag aelodau na bywyd—gan roddi cerydd felly yn ddistaw i'w gyfeillion, oedd yn fwy eu gofal am iechyd i'w gorph nag am iachawdwriaeth i'w enaid. Ai y wladwriaeth yr wyt yn gweddio drosti? Golyga fwy nag ymwared oddi wrth faruau

a phlâu allanol. Gallai yr Israeliaid anianol ddywedyd, "Rhoddwch i ni ddfwr i'w yfed;" *Ecsod. xvii. 2*; ond nid oeddynt yn cofio eu pechod, i ofyn edifeirwch a madd-euant am hwnw—cri y creadur oedd yno. Fe all anifail groch-frefu am ddfwr; ond am drugaredd a gras y mae erfyniad saint.

(3.) Na ddigaloner di yn dy weddïau dros ereill, er i ateb fod heb eu cyrhaedd hwynt yn fuan. Yr wyt yn gweddïo dros blentyn cyndyn, neu gyfaill sydd yn anrasol; a hwythau etto yn parhau yr un fath. Gwylia rhag i ti feddwl yn ebrwydd eu bod tu hwnt i ras, a rhoddi y gwaith i fyny. Nid oedd Samuel yn gweled ond arwydd bychan o wellhâd ar y bobl yr oedd yn gweddïo drost-ynt; etto, gwrandaew ei ddywedïad, "Na ato Duw i mi beidio a gweddïo drosoch;" *1 Sam. xii. 23*. Mi a glywais am rai, a gawsant eu dywarthlu, ie, a'u claddu, cyn eu bod wedi marw, gan eu perthynasau gormodol eu brys. Na fydd yn greu lawn fel hyn wrth eneidiau dy geraint a'th gynmydigion; na ddywartha hwynt allan o'th weddïau; na chladd hwynt fel gwrthodedigion yn dy feddyliau, am dy fod yn methu canfod dim arwydd o fywyd ysbrydol ynddynt, er i ti ymestyn ar eu heneidiau mewn gweddïo lawer gwaith. Ti a weli fod eu heneidiau etto o fewn eu cyrph; a thra y byddont felly, nid yw yn rhy ddiweddar i Dduw anadlu ynddynt anadl gras. Drachefn, ai dros y genedl yr wyt yn gweddïo. Na alw i mewn dy ystôr—sef dy erfyniau—er na byddych yn cael, yn dy fasnach â'r nef, y fath dreigl buan yn ol ag a ddymunit. Nid yw llafur y tad yn colli, os derbyn ei fab y lles o hono. Y mae efe, ysgatfydd, yn marw cyn i'r llong a anfonodd allan gyrrhaedd yn ei hol; ond y mae ei blentyn yn byw i gael elw yr anturiaeth yn arian i'w bwrs. Fel hyn y mae un genhedlaeth yn hau gweddïau dros yr eglwys; ac an arall yn medi i'r drugaredd y gweddïwyd am dani.

PENNOD XIX.

Yn dangos, wrth weddïo dros ereill, mai y saint sydd yn benaf i'w cofio; a pha ham.

Y MAE yr ail bwngc gosodedig yn canlyn. Wrth weddïo dros ereill, dylem mewn modd arbenig gofio y saint. Y mae yr apostol yn rhoddi hyn o awgrym, wrth eu pennodi hwynt yn lle pawb, fel y rhyw a'r rhestr penaf o ddyunion, dros ba rai y mae i ni weddïo, ac y mae yn cydweddu yn dda âg athrawiaeth Paul mewn lle arall. Yn *Gal. vi. 10*, gorchymynir i ni, "tra yr ydym yn cael amser cyfaddas, wneuthur da i bawb, ond yn enwedig i'r rhai sydd o deulu y ffydd." Yr wyf fi yn cyfrif y ffordd hon o weddïo yn un o'r ffyrdd penaf i wneuthur daioni

iddynt. Pa gymmwynas well a wua o'i i'w gyfaill claf, na myned at y meddyg drosto? Wrth weithredoedd ereill o elusen, y ydym yn rhoddi ychydig o'n pwrs ein hunain; ond wrth weddïo dros y saint tlodion yr ydym yn agor trysordy Duw iddynt. Fyddai i un gyfarfod cardotyn, a thafllu iddallan o'i bwrs ychydig geiniogau, ond i un arall ddywedyd wrtho, ni feddaff fi ddiarian o'r eiddod fy hun i'w rhoddi, ond ni âf i'r llys, ac a ddywedaf am eich cyflwangenus wrth y brenin fy meistr; hawd a fyddai penderfynu pa un o'r ddau sydd y gwneuthur i'r dyn tlawd y gymmwynas fwyaf. Dichon Cristion tlawd, er na feddfe, fel y dywedodd Pedr wrth y gŵr clofnac arian nac aur i'w rhoddi, yn y mod yma wneuthur mwy dros arall, na'r hwsydd yn feddiannydd o'r pwrs trymaf. Y mae ymddygiad Arafna yn nodedig (*2 Sam. xxiv. 22*), lle y cawn ei gynnyg haelionus. Dafydd: "Cymmered ac offrymed fy arglwydd frenin yr hyn fyddo da yn ei olgwlele yr ychain yn boeth-offrwm," &c. Y oedd hyn yn llawer, ac yn brawf fod e galon yn haelionus a rhoddar, fel y mae yn canlyn, "Hyn oll a roddodd Arafn megys brenin, i'r brenin;" etto, yr oedd un peth a roddodd yn cyrhaedd i fwy na hyn gyd; a hyn y oedd ei weddïo o'r galon an dderbyniad i Dafydd: "A dywedodd Arafn wrth y brenin, yr Arglwydd dy Dduw fyddo bodd lawn i ti." Fe allasai wneuthur y pethau ereill i gyd o ofn. Y mae deiliac weithiau yn rhoddi i'w frenin, am y gŵyr; gall efe gymmeryd, rhodded neu beidio; ond wrth weddïo drosto, yr oedd yn dangos e serch ato o'r galon.

DOSB. I.

Y mae amryw resymau pwysfawr am ddyledswydd hon. 1. Oddi wrth Dduw. 2. Oddi wrth Satan. 3. Oddi wrth y saint y gweddïr drostynt. Ac 4. Oddi wrth y saint a fyddo yn gweddïo.

1. Oddi wrth Dduw. (1.) Gwrthddrych au arbenig ei gariad ef ydynt; y mae e galon ef wedi ei gosod arnynt, ei feddyliau a'i ragluniaeth ef ydynt ar waith yn barhau o'u plaid. Y mae ereill yn wir yn cyfranngodi o'i haelioni dwyfol; ond hwy allan ddiolch i gymdeithiad a chymmydogaeth y saint am hyn. Pan fyddo y garddwr yn dyfrhau ei wely o berlysiâu, y mae peth yn rhedeg i lawr i'r rhes-lwybrau; ond oni be y per-lysiâu, fe arbedai y defnydd hyn. Pan unwaith y casto Duw ei holl deulu o saint adref ato ei hun i'r nef, ceir gweled yn fuan beth a wua efe â'r lleill o'r byd. Y mae Duw yn rhoddi nawdd yr un rhaglun iaeth i'r naill ac i'r llall, ond nid gyda'r un ymserch, nac i'r un diben. Y mae efe yn "Achlubbyd pob dyn, yn enwedig y ffyddloniaid;" *1 Tim. iv. 10*. Y mae yn achul y saint gyda bwriad i achub; y mae yn

chub y drygionus dros amser, i'w dinystrio am byth; y mae yn eu hachub o glefyd neu anbydrwydd presennol, fel yr addfodent i uffern—fel yr arbedwn ni ein coed ieuainge dyfu yn fwy, ac yna eu tori i lawr i'r tân. Yn awr, pa beth a wneir i'r rhai y mae Duw yn dadgan y fath gariad atynt? Nis gallwn ai na gweddio drostynt. Wrth hyn, ni a yddwn yn cyduno â Duw, ac yn dangos ein bodd yn ei ddewisad ef. (2.) Y mae Duw wedi eu gwneuthur hwynt yn etifeddion riadol o'i holl adlewidion—ac adlewidion i'w sail gweddi. Yr ydym i weddio dros ereill, er iddynt fod yn annuwiol; am nas wyddom na ddichon fod gan Dduw fwriad i'w ailgweddi i'wneuthur iddynt les. Ond lle y mae gras, dyna arfaeth yn ei hagog ei hun. Dyna y ffynnon o etholiadol ras—oedd hyd yn hyn yn rhedeg dan y ddaear—yn awr yn orï allan, fel y gellir bellach, gyda hyder lawnach, weddio dros y cyfryw un. Pan y mae Paul yn erfyn gweddïau, ni a'i cawn, i alonogi ei gyfeillion yn y gwaith o'i blaidd, n tystio iddynt ei ddiragrithrwydd (*Heb.* iii. 18): "Gweddïwch drosom ni; canys r ydym yn credu fod genym gydwybod da, gan ewyllysio byw yn onest ym mhob oeth." Fel pe dywedasai, Chwi a weddïwch ros un na rydd Duw sen i chwi am ei enwi. Lalondid mawr i farsianidwr anturio ei eiddo llan, yw cael eu rhoddi ar lestr da. (3.) Iwynt hwy yw yr unig genhedlaeth sydd n anrhydeddu Duw yn y byd. Yn wir, y mae Duw yn ei anrhydeddu ei hun ar ereill, n eu chwantau presennol, a'u damnedigaeth ddyfod. Y mae yn peri i'w "cynddaredd i foliannu" ef yma (*Salm* lxxvi. 10), a'i ynddaredd yntau yn dywalltiedig arnynt wythau (*Iob* xxi. 30), a'i molianna ef yn ol yd, ond dim diolch iddynt hwy am hyn i yd; o blegid gwnânt eu heithaf at osod anrhydedd Duw yn y dom. Eithr y saint ydnt bobl a roddant anrhydedd i Dduw bob mser, nid o orfod, ond o wirfod; eu nam-iaith hwynt yw bendithio enw Duw, n eu holl orchwylion, "a pha un bynag i yn bwyta ai yn yfed," dyma eu diben a'u ymgais hwynt, "gwneuthur pob peth er ogoniant i Dduw." Yn awr, ni a ddylem, r y cyfrif hwn, weddio dros y saint uwch uw ereill. Y peth cyntaf y dysg ein Hiachwddwr ni i weddio am dano yw, "ar i enw Duw gael ei sancteiddio;" mewn trefn i yny, fe'n dysg ni, yn y geiriau nesaf, i weddio dros ei eglwys a'i saint, fel yr unig ni a'i sancteiddia: "Deued dy deyrnas."

DOSB. II.

2. Oddi wrth Satan—ei lid mawr ef sydd n erbyn y saint. Y mae yn ei haddef; am yny, y mae yntau yn eu casau, ac yn poeri n a brwmstan atynt. Lle y mae Duw o un chr, chwi ellwch fod yn sicr o gael y diafol r ochr arall. Yn wir, hwynt hwy yw yr unig fintai sydd yn sefyll ar eu ffordd. Am

y rhai drygionus, y mae yn cymmeryd ei fod ef ei hun yn cael codiad, pan ddyrchafer hwynt yn y byd; y mae y tad yn cael anrhydedd, pan ddyrchafer y plentyn; eithr y mae codiad y saint yn darogan ei gywmp. Y mae hyn yn peri iddo gyfeirio ei holl rym, drwy brofedigaeth neu erledigaeth, at eu handwyo hwynt. Y rhai hyn yw y ser a fynai efe eu sathru dan ei draed. Y cyntaf a laddwyd yn y byd ydoedd i saint; ac fe fydd i Cain ladd Abel hyd ddiwedd y byd. Yn holl ymrysonau a therfysgoedd pobloedd, y rhai hyn yw y bobl sy dan y gyrdd; am hyny, hwy sy reitïaf iddynt wrth ein gweddïau.

3. Oddi wrth y saint y gweddïr drostynt. (1.) Hwy a fawr ddymunant gweddïau. Dichon annuwiolion, mi addefaf, ddymunio hyn hefyd, ond ar hynntau, mewn llewygfa o ofn neu ddychryn. Fel hyn yr oedd Pharaoh yn anfon gyda mawr frys am Moses, pan oedd plâau Duw yn ei dŷ a'i feusydd. Yr oedd yr Iuddewon enawdol yn deisyf ar Samuel weddio drostynt (*1 Sam.* xii. 19), fel na byddent feirw; ond hyny a fu pan oeddynt mewn dychryn o herwydd y taranau a'r gwlaw mawr. Iē, y mae Simon y swynwr ei hun, dan ei fraw wrth eiriau Pedr yn deisyf ei weddïau, "fel na ddelai dim arno o'r pethau a ddywedasai;" *Act.* viii. 24. Ond ar amserau ereill nid oedd a fynai y trueiniaid hyn nac â'r saint, na'u gweddïau. Pharaoh, yr hwn ar ryw dro, oedd yn daer am weddio Moses o'i blaidd, ni a'i cawn ef, dro arall, yn ei ymlid ef o'i wydd, gyda bygythiad rhaig dyfod byth mwy yn agos ato. Ond am y saint, ni a'u cawn hwy—ac nid yr isaf yn eu mysg chwaith—yn dra chwannog ac awyddus am weddïau cynnorthwyol eu brodyr. Yn wir, po mwyaf eu gras, mwyaf awyddus ydynt am help eu brodyr. Po cyfoethocaf y crefftwr, mwyaf a esyd efe ar waith drosto. Paul ei hun nid yw gywilydd ganddo ofyn y rhodd hon gan y sant gwaelaif: "Yr wyf yn attolwg i chwi, frodyr, er mwyn ein Harglwydd Iesu Grist, ac er cariad yr Ysbryd, ar gyd-ymdrech o honoch gyda myfi mewn gweddïau dros of fi at Dduw;" *Rhuf.* xv. 30. A glywsoch chwi erioed gardotyn wrth eich drws, neu garcharor wrth y porth, yn erfyn yn fwy taer? "Er mwyn yr Arglwydd Iesu, ac er mwyn yr Ysbryd;" os teimlasoch erioed ddim gwresogiad yn eich calonau oddi wrth waed Crist, neu gariad yr Ysbryd yn eich diddanu, ymdrechweh, ymafaelwch gyda mi, nes y byddom ynghyd wedi cael y fuddugoliaeth, wedi llwyddo gyda Duw am y drugaredd hon. (2.) Megys y mae y saint yn awyddus am weddïau; felly, ni a'u cawn yn hyderu cael gweddïau o'u plaid; ie, yn ymgysuro ym mkaen llaw, wrth y disgwyliaid am yr hyn a dderbyniaid drwyddynt. "Mi a wn y digwydd hyn i

ni er iachawdwriaeth trwy eich gweddi chwi;" *Phil.* i. 19. "Yn wyf yn gobeithio trwy eich gweddiâu, y rhoddir fi i chwi;" *Phil.* i. 22. Creffwch yn gyntaf, ar orchwylled Paul; y mae yn soddi ac yn boddi ei weddiâu ei hun, ac yn tystio ei gred am yr eiddylt hwy. Yn ail, ar ei hyder; nid yw efe yn amhleu na weddient, nac yn petruso am ffurwyth da o'u gweddiâu i'w fynwes; fel pe dwelasai, Os fyddloniaid ydych, chwi a weddiwch drosaf. Felly yr ydym yn tori ein hymddiried, ac yn soni ein brodyr, os anghofion hwynt. Yn drydydd, Y saint vw y dyledwyr gonestaf o bawb; hwy a dalant i chwi yn eich bâth eich hunain. Y neb a dlangoso garedigrwydd i saint, y mae yn sicr o giel Daw yn dalwr; o blegid eu ffurdd hwy yw troi eu dyledion drosodd ar Dduw, gan ammodi âg ef am dalu yr hyn sydd arwyt i ddyn. Yr oedd Onesiphorus wedi bod yn gymmwynaswr tirion i Paul; a pha beth a wna Paul erddo yntau? I weddi y mae yn myned, gan ddyuno ar Dduw dalu ei ddeddion: "Rhoddef yr Arglwydd drugaredd i dŷ Onesiphorus; canys efe a'm llonodd i yn fynych, ac nid oedd gwilydd ganddo fy nghadwyn i;" 2 *Tim.* i. 16.

DOSB. III.

4. Oddi wrth y saint a fyddo yn gweddio. Nid oes un ddeddswydd wedi ei gorehmun gan Dduw, nad yw efe yn talu yn dda i'r Cristion wrth ei chyflawni, ac yn gael hnw yn golledwr a'i hesguluso. Y mae digon yn y ddeddswydd hon yr ydym yn son am dani, i w gwneuthur yn hawddgar a dymunol yn ein golwg. Y mae y goreu o saint wedi ei chyfrif yn fraint fawr cael derbyniad i'r urdd ardderehog hon. Y mae Paul "yn diolch i Dduw, mor ddibaid yr oedd ganddo goffa am Timotheus, ddydd a nos, yn ei weddiâu;" 2 *Tim.* i. 3. Ond ym mha beth y mae y drugaredd yn gynnwysedig, o gael calon i weddio dros ein brodyr?

1af. Trugaredd fawr yw cael bod yn offerynol at ras neu gysur neb rhyw saint; a llawer mwy bod yn offerynol at ogoneddiad Duw. Hyn y mae calon rasol yn ei fawbrisio, er costio iddo yn ddrud ei ddwyn ym mlaen. Yn awr, wrth weddio, er na byddo ond dros sant unigol, yr wyt yn cael y ddwy fraint (2 *Cor.* i. 11): "A chwithau hefyd yn cydweithio drosom mewn gweddi; fel, am y rhoddiad a roddwyd i ni o herwydd llawer, y rhodder diolch gan lawer drosom." Y mae Paul, wrth ddeisyf eu gweddiâu, yn gwasgu ei ddeisyfiad â dadl ddeublyg. (1.) Oddi wrth dyciant cydweddiâu. Pan fyddo ugain yn tynu wrth raff, y mae nerth a grym pob un yn effeithio tuag at ei thynu. Felly mewn gweddi, lle byddo llawer yn cyduno, y mae pawb yn cynnorthwo. Y mae Dduw yn edrych ar ffydd a gwresogrwydd pob un yn y ddeddswydd; ac yn eysfeirio ei ateb

at bawb. (2.) Oddi wrth gyghanedd cyddiolchiadau. Po llawnaf y cydgor meiniol, melusaf y beroriaeth yng nghlust Duw. Y mae cydweddiâu yn peri cyd-ddioleadau. A'r neb a gydymuna i weddi, ac wna i dalu diolch, sydd debyg i un a gy northwoa ei gyfaill i ddedd, ond ni chymer ddim gofal am ei dym allan.

2il. With weddio dros ereill, ni a chw egwn ein llawenydd ein hunain. Pan y odd Paul y gweddiâu taerion a hauasai (1 *The.* i.) dros y saint yn Thessalonica, dyfod i fyny yn eu ffydd a'u gwresogrwydd hwynt, y mae efe yn llawen dros b fel am drugaredd anghymharol wedi ei chyfranu arno ei hun (1 *The.* iii. 9. "Canys pa ddiolch a allwn ni ei ad-dalu Dduw am danoch chiwi am yr holl lawenydd â'r hwn yr ydym ni yn llawen o achos chiwi ger bron ein Duw ni?" Yr oefe wedi bod yn eu dyfrhan hwynt weddiâu; y mae Daw yn rhoddi iddo gy nydd ar eu gras hwynt; oddi ar hyn y mae ei gysur yn flodeu-lawm, a'i galon mor d llawen, fel na wŷr efe pa ddiolch i Dduw ddigon am y drugaredd a gawsai efe ddi ei dwylaw hwynt. Yn ddiâu, yr achos hwn nad ydym yn emill mwy odli wrtasusau ein brodyr ydyw, am nad ydym rhoddi mwy allan mewn gweddiu drostynt.

3ydd. Fe fyddai hyn yn dystiolaeth ddi amhleuol i brofi ein hunain yn saint, galleu ond gweddio o'r galon dros y rhydd yn gyfryw. Cariad at y brodyr roddir yn fynych fel nôd o wir saint. Yn awr, nid oes un weithred i ddangos ein cariad at y saint, yn sefyll yn rhyddach oddi wrth amheuaeth o ragnith, na hon o weddio drostynt. A ddywedi di dy fod yn ca y saint, am dy fod yn mynych-gyrehu i plith? yn dangos tirondeb at eu persona yn sefyll i fyny i'w hamddiffyn yn erbyn rhai a'u gwaradwyddant? neu, am dy fod gallu dioddef gyda hwynt? Y mae hyn yn rhagorol, os ynddiffuant; etto, mor hawdd ydyw i wag ogoniant, neu ryw ddib cawddol arall, ymgymysgu â'r rhai hyn. Ond os gelli galg dy galon yn y ddingel, nad yw un o'r teuntasiâu hyn yn ca y fath fantais i'w lygru, yn yndywallt wrth Dduw drostynt, gyda dwfa ystyriaeth theinlad o'u pechodau, a'u hangenion a gofidiau, fe ddywed hyn iwy am wirionedd dy gariad, na'r holl bethau ereill heb hyn.

PENNOD XX

Cymmhwysiad y pwnge.

Defnydd. A DDYLEM ni weddio dros y saint o faen pawb? Gwae ynte i'r rhai hyn sydd, yn lle gweddio drostynt, yn barot i wneuthur yscail o honynt (*Isa.* lxi. 11)

lle gweddio drostynt, a allant eu rliegu, yfed at eu haflywydd; ysgatfydd nid dan gwir enw o saint, ond megys wedi eu wymo mewn croen arth o enw *Puritan, fanatic*, neu ryw enw arall o ddirmyg, a yfseisiwyd i guddio eu malais hwy, ac fel gallont felly eu cnoi a'u llarpio. Math o bl yw y saint nad oes neb yn eu caru, ond rhai sydd yn gyfryw eu hunain. Sylw yw hwnw o eiddo Jerome, "Byddwch iant, ac yna chwi a weddïwch dros y saint." Mae y duwiol yn ffeidd-dra gan yr anwio—sect ydyw y mae ym mhob man lywedyd yn ei herbyn. Dechreu y gynnen ar y cyntaf oedd rhwng Cain ac Abel; y mae wedi ymdaenu felly dros yr holl d; un genhedlaeth yn cymmeryd y pastau i fyny, ar ol i'r llall fyned i lawr a'u dael. Amilear a gymmyu-rododd ei sineb at y Rhufeiniwyr i'w fab Hannibal, a fu farw; felly y mae y dygasedd yn erbyn y saint yn cael ei drosglwyddo o genhedlaeth i genhedlaeth. Nid oes dim diffodd eu lliid, na gostegu ar y ewyrl. Ni wna holl rinweddau moesol mo'r saint yn nmeradwy; y rhai hyn, pe ceid hwynt ewn ereill, a gyfrifid yn hawddgar; etto, ddedd efe mor ddoeth, llariaidd, mwynlled, a haelionus ag y bo, y mae ei fod yn ristion yn rhyw "ond" fyth, a anaf a y bl yn meddyliau yr annuwiol fydd. "Gŵr yw Gaius Sejus; ond drwg yn unig am fod yn Gristion," oedd iaith y bobl yn oes Tertulian. Buasai Gaius Sejus yn ddyn da mdynt, oni buasai yr unig beth oedd yn wreuthur yn dda. Nid oes dim agosydd perthynas a ddichon wisgo ymaith cas. Gormod gwaith oedd i Michal wyno ei hysbryd gwatwarlyd; na, y mae gwawdio ei gŵr yn ei wneub, am ei sel r bron yr Arglwydd: 2 *Sam.* vi. 20. Ewn gair, nid oes budd a gaffo yr annuwl oddi wrth gymmydogrwydd y saint—er d hyny yn fwy nag ychydig—yn ddiog i ri iddynt hwy ddarfod â'u cas. Ei bobl y yr unig feichiwiwr a gymmer Duw i dw cenedl—pan mewn dalfa ganddo—lan o garchar. Hwyt-hwy yw yr achos fendithion i'r teuluoedd, trefydd, a gwledld, y maent yn byw ynddynt; er hyny, nod at ba un yr annelir eu saethau gwenynllyd. Wele yr holl ddinas yn erbyn ot! neb yn eu mysg hwynt i gymmyrd ei aid (*Gen.* xix.); mor gywir a phur yw yr annuwl i'w hochr eu hunain! Fe ddyed Tertulian i ni am ryw wŷr paganaidd, dd mewn bodd at eu gwragedd, er eu bod i drythyll a phenrhydd; ac yn byw gyda wynt tra yr oeddylt felly, cyn eu dychwelld at Gristionogaeth; ond pan uuwaith y ffeidiasant y ffydd, ac a'u gwnaethpwyd wyh hyny yn ddiawir, hwy a'u bwriasant naith. Tadau a allent oddef ymddygiadan afudd a gwrthryfelgar yn eu plaut, pan

gafodd y rhai hyn eu dychwelyd a'u diwygio, hwy a'u troisant dros y drws. Fel y byddai dyn yn cael ei wellhau yn enw Crist, yr oedd yn myned yn droseddwr. A da fyddai, pe na byddai hyn ond pechod y paganaidd yn unig; ond trwy brawf alaethus yr ydym yn cael nad oes dim creulonaeth gelyuon i'r gwir Gristion o fewn y byd, na'r rhai svdd ar yr un enw ag yntau. Yr erledigaethau llymaf ar yr eglwys a godwyd gan y rhai oedd yn yr eglwys. O! y fath gyfrif arswydus yn y dydd mawr a fydd i'r cyfryw, sydd yn professu enw Crist, ac yn casau ei anian ef yn y saint!—svdd yn galw Crist yn Arglwydd, etto yn erlid ei weision goreu, ac yn difetha ei ddeiliaid ffyddlonaf! Y rhai hyn yw y bobl a gânt deimio, uwch law pawb ereill, eithaf llid tanllyd Duw yn y dydd y dadleuo efe achos ei bobl, ac yr ymddialo ar eu gelyuon.

Defn. 2. Cymmerwch eich annog at y ddyledswydd hon o weddio dros y saint. Nis gellwch wreuthur peth a gymmer Duw yn fwy caruaid ar eich dwylaw. Mae efe ei hun yn rhoddi yr erfyniad hwn yn eich geneuau: "Gofynwch i mi y pethau a ddaw am fy meibion;" *Esa.* xlv. 11. Mae gwyr y llys yn ffurfio eu herfyuniadau yn ol bodd eu brenin: hwy a edrychiant rhag gofyn yr hyn y byddo efe yn anfoddlawn i'w rodidi; ond pan ganfyddant ei fod o ochr rhyw wr neu orchwyl, yna y maent yn awyddus i gyflwyno yr erfyniad. Yr oedd Ioab yn gwybod beth yr oedd arno, wrth anfon y wraig o Tecoaht at Dafydd, gydag erfyniad wedi ei amblgy mewn damme; olvgus, dros Absalom mab y brenin. Gwyddai fod calon y brenin yn gref ar ei ol ef; ac fell na fyddai y cymmyg yn annerbyniol; ac onid yw calon yr Arglwydd wedi myned ar ol ei saint? Rhaid yw, gan hyny, fod dy weddi drostynt yn dyfod mewn amser da, pan y caiff galon Duw wedi ei gosod ar y peth yr wyt ti yn ei ofyn. Hyn a barodd i Dduw ddangos cymmaint bodd at Daniel: *pen.* ix. 22, 23. Yn awr yn eich gweddïau dros y saint, ym mysg pethau ereill a erfynioch iddynt, nac anghofwch y rhai hyn.

1af. Gweddïwch am eu bywydau. Maent y fath feudith lle maent yn byw, fel mai anfynych y cwympant nad yw y ddaear yn siglo danynt. Arwydd gyffredin o ddrwg yn nesau yw, pan fyddo Duw yn cymmeryd y duwiolion ymaith trwy farwolaeth. Nid oedd gan Ieroboam ond un mab, yn yr hwn y cafwyd peth daioni: rhaid oedd i hwnw farw, ac yna dinvstr teulu ei dad yn canlyn (1 *Bren.* xiv. 7, &c.); pan fu Awstin farw, syrthiodd dinas Hippo yn fuan i ddwylaw y gelyuon. Os ymaith yr ä y gwr doeth sydd yn cadw y ddinas, nid rhyfedd os yw ei diwedd yn prysuro. Mae Duw yn agor ffordd i ollwng ei farnedig-aethau ar y byd, trwy gymmyrd ei saint

allan o'r byd. Pan fyddo efe yn ystafellu ei blant yn y bedd, y mae ystorn ger llaw: *Esa. xxvi. a lvii.* Y mae yn achos dwysberthynol ynte, chwi a welwch, i ni wneud ein heithaf i'w cadw yn ein plith, yn euwedig pan y mae eu nifer mor fychan ac anaml eisoes, fel y gallwn ddywedyd, fel y prophwyd gynt am Israel, "Ydym fel casgliadau ffrwythydd haf; fel lloffion grawnwin y cynauaf gwin;" *Micah vii. 1.* Yn wir, pe gwelem hwynt yn dyfod i fyny mor aml yn yr ieuainc, ac y maent yn syrthio yn yr hen, gallem ddywedyd, Y mae bendith yndynt. Byddai y rhai hyn megys hadyd gobethiol o leiaf i'r genhedlaeth nesaf. Ond pan wneler bwlech llydan, ac ond yehydig i'w lenwi, y mae hyn yn ddrwg-argoelus. Ar farwolaeth Moses, fe safodd Iosuah i fyny yn ei le, ac aeth Israel ym mlaen yn llwyddiannus; ond pan fu farw Iosuah, acy cyfododd cenhedlaeth na welsai y rhyfeddodau a wnaethai Duw er ei bobl, ac a aethant felly yn wrthryfelgar, yna buan yr aethant ar lwy'r feth: *Barn. ii. 9, 10, &c.*

2il. Am eu rhyddid a'u llonyddwch: "Dymunwch heddwch Ierusalem; llwydded y rhai a'th hoffant;" *Salm cxxii. 6.* Ierusalem oedd lle eu haddoliad cyhoeddus; yno yr esgynai y llwythau yn dystiolaeth i Israel, i foliannu enw yr Arglwydd: *adn. 4.* Felly, wrth heddwch Ierusalem y meddylir y fath amserau tawel, yn y rhai y mae pobl Dduw yn cael mwynhau ei buraddoliad heb aflonyddwch. Mae yr eglwys yn barhaus yn cael ei chyfnegwidiadau; weithiau tegwch, ac weithiau dryghin, ond ei gauaf yn gyffredin yn hwy na'i haf. Ië, ar yr un pryd ag y mae haul heddwch yn peri dydd ar un rhan o honi, y mae rhan arall wedi ei thoi drosti gan nos erledigaeth. Heddwch dinamyn dros yr holl eglwysi sydd yn ammeuthyn mawr; a lle y byddo mewn rhan yn cael ei fwynhau, y mae rhyw gwmwl annhirion neu gilydd yn fuan yn cyfryngu. Am hyny, gosodir allan heddwch yr eglwys wrth "osteg dros hanner awr;" *Dad. viii. 1.* Pan roddodd Duw i'r Iuddeuon truan adfywiad ar ol caethiwed maith, drwy gynhyrfu calon Cyrus i ganiatau rhyddid iddynt fyned ac ail adeiladu tŷ Dduw, mor fuan y cododd ystorn ac a'u curodd oddi wrth eu gwaith! Mae un brenin yn eu helpio ym mlaen, un arall yn eu hattal yn y gorchwyl. Cafodd yr eglwys efengylaidd ysbaid hyfryd o heddwch i gael ei lianadl: "A chan rodio yn ofn yr Arglwydd, ac yn niddanwch yr Ysbryd Glân, hwy a amlhawyd;" *Act. ix. 31.* Ond pa hyd y parhaodd? Tawelwch byr oedd hyn, yn myned o flaen tymmestl o erledigaeth sy'n ei gorddiwes: *pen. xiii.* Fel hyn y mae rheolwyr cyfrwysgall y byd wedi trin y saint, fel y tybient fod eu lles anianol eu hunain yn gofyn; un tro i'w llochi, dro arall i'w llethu. Nid oes

un math o bobl yn y byd all ddisgwyl llaewyllys da gan y byd na'r saint; eu huddiogiogelwch gan hyny yw ennill Duw i sef o'u plaid.

3ydd. Gweddïa am eu cariad a'u hundym mhlith eu gilydd. Nid yw cleddyf erliidiwr (diolch i Dduw) wrth wddf eglwys yn ein mysg ni; ond ai nid yw Crionogion gleddyf yng nghleddyf ym mysg eu gilydd? Mae y cwestiwn wedi ei fyych ofyn yn ein dyddiau. Pa ham na bu gair a bregethwyd mor fyny, eglur, nerthol, ag a gafodd ein cenedl erioed fwynhau, yn fwy effeithiol i ddychwelyd annuwiol ac i adeiladu y saint? Ni ddwedaf mai dyma yr unig achos; ond i feiddiaf ei bennodi fel un, ac nid y lleiaf y mysg achosion, sef yr ymranïadau a rhwygiadau alaethus ym mysg y rhai wnânt broffes o'r gwirionedd. Yn gynta Am y saint; nid rhyfedd nad yw eu cynydd yn fwy dan y gair; o herwydd mewn cariad y mae corph Crist i gael ei ailadu: *Eph. iv. 16.* Tra y byddo lluched ar y corph, nid oes dim maethu arno. Y apostolion eu hunain, tra yn ymgecu, y ydig fudd a gawsant oddi wrth brege Crist, na'r sacrament ei hun yn cael ei weyddu iddynt gan Grist. Fe fuasai un y meddwl hwn yn fath bryd, y gallasant y nerth o hono (fel cynnifer Eliás) fynedaith bell. Ond Och! gwelwn waned ydy ar eu codiad oddi wrth y bwrdd; un y gwadu ei feistr, a'r lleill mewn dychryn y ei adael: mor anaddas oeddynt yn y fady dymmer i dynu budd ysbrydol o'r modd goreu! Drachefn, am yr annuwiol, nid rhyfedd nad yw y gair yn llwyddo mwy gda hwynt, tra y mae yr ymranïadau a tramgwyddiadau sydd wedi codi ym mysg rhai a alwant eu hunain yn saint, weillenwi eu calonau â rhagfarn yn erbyn gwirioneddau sanctaidd a ffyrdd Duw. Mae Crist yn gweddïo am undeb ei bobl: "Fel y credo y byd (medd efe) mai tydi a' haufonaist i;" *Ioan xvii. 21.* Pa beth a fynyachach yn safn aml adyn balogedig na hyn? Nyai a'u credwn pan ddelont oll o'un meddwl, ac a ddeuwn atynt pan allon gyttuno a'u gilydd—pwy a gâr wthio ei ben i dŷ ar dân? Fe ddylai hyn, mi feddylw gyffroi pawb sydd yn dymuno yn dda i efengyl, i weddio, a hyny yn ebrwydd adundeb i'w calonau ymranedig. Poeth ddadleuon ni wnânt y tro: gweddi, os dim a'i dwg i ben. Fe ddywed Pliny am fath berlau a elwir yn unioniaid, fod eu natur eimai yn y môr y megir hwynt yn cyfranog yn fwy o'r awyr nag o'r ddaear. Duw y heddwch yn unig a ddichon ein heddychi ni: os byth y byddwn ddoeth i gyttuno rhaid i ni fenthyca ein doethineb oddi uchod: hon yn unig sydd yn bur a heddychlawn.

PENNOD XXI

yn dangos mai nid rhai, ond yr holl saint sydd i ni weddio ac erfyn drostynt; a pha ham?

TRYDYDD pwngc gosodedig ydyw hwn. Wrth weddio dros y saint, rhaid yw gweddio drostynt oll. Nid wyf wrth hyn yn meddwl, fel y Pabyddion, dros y byw a'r meirw. Ioddiion ydyw gweddio i weini arnynt yn i ffordd; yn angeu y maent ar ben eu iuth. Mae gweddïau yn anfuiddiol dros y ehadur marw, ac yn afreidiol dros y saint hudodd. Yr annuwiolion yn y cyflwr wnw ydynt is law, a'r saint uwch law ein weddïau. Pan ddarfyddo yr einioes, y mae pren wedi syrthio, ac yno y bydd efe. Yr dym yn darllen am gyfnewidiad a gaiff y gorph ar ol angeu. Cyrph pydron a allant, ond eneidiau budron ni allant, gael eu gopneddu ar ol angeu. Os yn aflan yr ânt lan o'r corph, felly y cyfarfyddiant âg ef yn yr adgyfodiad. Yr amser i weddio drostynt sydd yn awr, tra y maent yn byw yn eich mysg neu byth; o blegid y mae marwlaeth ac uffern yn dyfod ynghyd i'r pechdur. Cyn gynted ag y gwtliwyd enaid ruenus y goludog allan o'i gorph, dyna fe'n gwaeddi yn uffern (*Luc xvi. 22*): "Y godog a fu farw ac a gladdwyd; ac yn uffern fe a gododd ei olwg, ac efe mewn poenau: ond fe ddywed Abraham wrtho fod gagenor mawr wedi ei sicrhau, i luddias tramwy pwngc y nef ac yntau. Yn awr, pa beth w hwnw ond deddf anniddymadwy, drwy a hyn y mae yr annuwiol yn seliedig dan digofaint tragwyddol. Os na dderbyn wnw weddïau oddi wrthynt; yna nis gwna ddi wrth ereill drostynt. Ac megys y mae'r annuwiol y tu hwnt i'n help; felly y mae y saint yn gwbl uwch law ein help; megys y maent yn eu porthladd tawel. Mae weddio yn arwyddo bod diffyg; eithr y mae y saint a ymadawsant yn berffaith, am yny yn cael eu galw yn "ysbrydoedd y gyfiawn y rhai a berffeithiwyd;" *Heb. xii. 3*. Ni rhaid i ni ofyn am faddeuant iddynt, o blegid y mae Duw yn eu rhyddhau, maent yn gyfiawn; nac am ddim cynorthwy i gyfiawn un diffyg, y maent wedi i perffeithio; nac am symmud dim poen ddi arnynt, o blegid yr Ysbryd a ddywed, "Gwyn eu byd y rhai sydd yn marw yn yr arglwydd, fel y gorphlwyysont oddi wrth eu afur;" *Dad. xiv. 13*. Ond yr oedd dy-nymmygwyr y ddyfais hon yn bwriadu, y mae yn debygol, elw i'w pyrsau eu hunain, yn hytrach na lles i eneidiau ereill; athraw-eth ysbeilus ydyw, i ddwyn porth i felin y sb. Ond i adael hyn, y saint byw, eich ydymdeithion yma mewn cystudd, sydd i cael help eich gweddïau; ac o'r rhai hyn y mae y frodriaeth gyfan i gael ei chylchu o fewn ein coffâd. Y Pabyddion a soniant i'w awer am drysor sy gan yr eglwys: yn ddi-

au, dyma wir drysor yr eglwys, ei ystôr gyffredin o weddïau, drwy yr hyn y mae ei holl aelodau yn dal masnach â'r nef, y naill dros y llall. Paul a ddywed y fath galon eang oedd ganddo ef, hyd yn oed dros y rhai ni welsant ei wyneb yn y cawd: *Col. ii. 1*. Cymmerwch ychydig resymau dros y pwngc.

1af. Mae arnom garu yr holl saint; yn ganlyniol, gweddio drostynt oll. Cariad mewn sant, y mae yn ddarlun o gariad Duw tuag atom ni; ac nid ydyw cariad Duw yn edrych yn gam ar un sant mwy nag un arall. Nid delw o waith Duw yw hono nad yw yn debyg iddo ei hunan. Dichon natur wro yn ei chenedliadau; ond ni wro Duw yn y gras a genhedlo efe ym mynweau ei saint. Nid yw y creadur newydd byth heb ei wir natur. Os yw Duw yn caru pawb o'i blant, yna tithau a geri bawb o'th frodyr: neu nid wyt yn un o honynt. Pan y mae Paul yn canmawl Cristionogion am y gras hwn o gariad, mae hyn gyda sylwad ar ei gyffredinedd (*Eph. i. 15*): "Wedi clywed am eich fydd yn yr Arglwydd Iesu, a'ch cariad tuag at yr holl saint." *Felly Col. i. 4; a Phil. i. 5*. Yn awr, os ydym yn eu caru oll, nis gallwn lai na gweddio drostynt oll. Honi ein bod yn caru rhyw un, ac heb weddio drosto sydd anghyssouiaeth. A ddi-chon gwr llŷs fod yn caru ei gyfaill, ac heb yngan gair wrth ei frenin o'i blaid, pan y gallai ei fawr lesu drwy hyn? Y mae cariad yn cymmhell ei berchen i wneuthur y cymmwnasau goreu allo i'w wrthddrych. Mair a dywalltodd yr enaid mwyaf gwerth-fawr a feddai hi ar Grist. Gweddi, os o'r iawn gyfansoddiad, yw yr enaid gwerth-fawrocaf a elli dithau gyfranu ar y saint. Na chadw mo hono i ryw ychydig sydd o'th gymdeithas neillduol di, neu o'th gyda-byddiaeth neillduol: ond gâd i'w arogl per-aidd lenwi holl dŷ yr eglwys: Gweddia dros y cwbl.

2il. Rhaid gweddio dros yr holl saint am fod Crist yn gweddio drostynt oll. Y mae efe yn dwyn eu henwau oll ar ei ddwyfroneg. "Ac nid wyf yn gweddio dros y rhai hyn yn unig, eithr dros y rhai hefyd a gredant ynof fi trwy eu hymadrodd hwynt;" *Ioan xvii. 20*. Nid yw efe yn gadael un o'r rhif allan o'i goffâd. Yr oedd y brawd hynaf yn offeiriad i'r holl deulu; felly Crist ein Brawd hynaf ni, i holl deulu y credinwyr. Yn awr y mae eiriolaeth Crist yn gynddrych i ni ffurfio ein gweddïau wrtho. Nis gallwn ni yn wir weddio dros y cwbl, fel y gwna efe. Y mae efe yn gweddio drostynt, nid yn unig yn y cyfan-gorph, ond dros bob aelod ar ei ben: "Mi a weddïais drosto, medd efe wrth Pedr: *Luc 22*, ie, nid yn unig dros bob person wrth ei enw, ond dros eu hangenion a'u hachosion neillduol hwynt; Mi a weddïais na ddiffygiat dy fydd di. Y

mae Crist yn edrych at y gras hwnw, oedd yn bennodol mewn dwysaf berygl, ac yn ei ddiogelu trwy ei eiriolaeth. O! y fath drugaredd anhraethol yw hyn i Gristion; ei fod ef yn bennodol yn cael son am dano yn y nef, a phob diffyg neu brofedigaeth sydd yn ei boeni ef yn cael sylwi arno, a darparu i'w erbyn trwy gyfryngod Crist! Yn y modd yma yn wir nis gallwn ni weddio drostynt oll; o herwydd na adwaenom ond ychydig o'u personau; ac ond ychydig o gyflwyn a helynt y rhai a adwaenom. Nid oes achos elwaith am i ni eu hadnabod: y mae ein pleidair a'u llais cyffindinol yn cael ei gymmeryd mor garedig, a phe baem yn medru manwl bennodi pob un, a phob peth. Y mae Daw yn gwybod meddwl yr Ysbyrd Glân yn ein gweddïau ni ar y ddaear, am yr un pethau ag y mae Crist yn canlyn am danynt yn ei eiriolaeth yn y nef.

3ydd. Rhaid i ni weddio dros yr holl saint; onid e, nis gallwn weddio dros un. (1af.) Nid oes fodd i ni weddio yn wirioneddol dros un, ac nid dros y cwbl. Y neb sydd yn gweddio dros un sant, ac heb ddv-mnno yn dda i un arall, nid yw yn gweddio dros yr un hwnw fel sant, ond dan ryw ystyriaeth arall, megys pebl, cydymaith, plentyn, neu y cyffelyb—sant wedi ei wisgo â'r fath amgylchiadau. Y neb a garo ddyn megys dyn, a garo bob dyn, am fod yr un natur ddynol ym mhawb, ac felly y mae yr un anian ym mhawb o'r saint. (2il.) Nis gallwn weddio yn dderbyniol dros un, oni weddiwn drostynt oll; ac felly ni a wnawn gam â'r rhai y gweddiwn drostynt wrth adael ar ol y rhai y dylem eu cofio gyda hwynt. Ni fynai Ioseph wrandaw ar ei frodyr i ollwng Simeon yn rhydd, hyd oni ddygasant hwy Benjamin hefyd i waered ato. Os mynit tithau groesaw at Dduw, wrth weddio dros neb, dwg dy holl frodyr ger ei fron yn dy ddeisviadau; na âl un yn ol: "Ai dyma dy holl blant?" meddai Samuel with Iesse yn 1 *Sam.* xvi. 11. Ni fynai efe cagedy i lawr hyd oni chyrchwyd y llengyn Dafydd i gyflawui y nifer. Ysgatfydd dy fod yn daer mewn gweddi dros y Cristionogion sydd yn agosaf atat; ond ai nid wyt yn anghofio ereill sydd ym mhellach oddi wrthy? Yr wyt yn cofio am eglwys Dduw sydd yn dy wlad; ond a ydyw helbulon eglwysi pellenig yn cael lle yn dy galon? Beth pe gofynai Duw i ti yn awr, Ai dyma dy holl frodyr? Ai nid oes neb i'w cofio heb law y rhai hyn sy dan sylw dy lygad? Ai nid oes genyf fi blant, a chenyt tithau frodyr mewn manau ereill o'r byd i feddwl am danynt? Rhaid oedd i'r Iuddewon yn Babilon beidio ag anghofio Ierusalem, o herwydd ei mawr bellder: "Cofiwch yr Arglwydd o bell, a deued Ierusalem yn eich cof chwi;" *Ier.* li. 50.

PENNOD XXII.

Cymmhwysiad.

Defn. 1. O! y fath fasnachwr cyfoethoc yw y sant sy ganddo eiddo yn cerdded mewn cynnifer o ddwyllaw. Yn y nef, y mae Crist yn ddyfal mewn gweddi o'i blaid; y ddaear, ei frodyr. Pa beth sy'n ddiffyg hwn? Mae gan Grist y fath le yng nghal ei Dad, fel nas gall efe ei nacau o ddim; chau y saint y fath le yng nghalon Crist, f na wna yntau mo'u nacau hwythau. Felly y mae marchnadaeth y Cristion yn myne ym mlaen yn hwylyus yn y ddau fy Meddwl am hyn, Gristion, er dy gysur, y le bynag y mae plentyn i Dduw yn byw a y ddaear, y mae genyt ti yno orchlywydd farchnata â'r nefoedd er dy ennill. Bydd ed hyn yn atteg i'th fydd wrth anfon i'fyn dy erfyniau neillduol dy hun, gan wybod dy fod yn gweddio mewn cymmundeab a chymdeithas âg ereill, ie, pan fydddech ar dy beddy hun yn dy ystafell: disgwyl ateb i'fyn na'th weddi dy hun. Mae yn anghariadol deb beidio gweddio dros ereill, ac yn falch der bed heb ddisgwyl lles oddi wrth weddi au ereill.

2il. Mae yn dysgu i ni pa mor ymofynga y dylem fod yng nghylch helynt ein brodyr a chyflwr yr eglwys, fel y gallen felly weddio drostynt gydag ymysguroedd mwy teimladwy o'u diffygion. Mae Nehemiah pan gwodd am rai oedd wedi dyfod o India yn ymofyn hant ei frodyr yno (*Nehem.* i. 2) ac oddi wrth yr hanes athrist a gafodd am eu blinder a'u gwaradwydd, y mae efe mewn gofid clwerw; hwnw y mae yn eiddywllt mewn erfyniau a dagrau drostynt i fynwes Duw: *adm.* 4. Pa fodd y gallasai efe wneuthur hyn gyda'r fath deimlad, oni buasai iddo yn gyntaf gael hysbys rwydd o'u cyflwr helbulus? Yr ydym lawer o honom yn gofyn yn fynyeh, Pa newydd ac yn darllen llyfrau hanesion, pellenig chartrefol: ond ai fel Atheniaid ai fel Cristionogion; i lenwi ein penau, ynte i effeithio ar ein calonau; i'n haddurno â defnydd dadwrdd a siarad gyda'n cymmydogion wrth ochr y tân, ynte â defnydd gweddi o flaen ein Duw?

3ydd. Llafuria am gael calon helaeth mewn gweddi dros yr holl saint. Dywedir yn 1 *Bren.* iv. 39, roddi o Dduw i Solomon ddeall mawr iawn, a helaethdra calon, fel y tywod sydd ar fin y môr. Wele yma drugaredd fwy nag oedd hyny i Solomon! Mae calon helaeth mewn cariad ysbrydol yn well na synwyr helaeth! gwnend yn dda, yn well na'i wybod. Nid oes dim sy fryntach nag ysbryd luananol; na luanolrwydd gwaeth na hwnw a fyddo yn cael ei ollwng allan mewn gweddi. Gallai pagan feio ar yr Atheniaid hwnw oedd ar sycheder yn gweddio dros ei ddinas ei hun, "O!

au, gwlawia ar feusydd yr Atheniaid;"
 nd yn anglofio fod ar ei gymmydogion
 isieu gwlaw yn gystal ag yntau. Yr oedd
 mryw o'r paganiaid yn mawr-barchu y
 hinwedd hwn o garedigrwydd. Cymmer-
 uch un esampl yn lle y cwbl; yr ydoedd
 n ddeddf ym mysg y Rhufeinwyr na ddeu-
 i neb yn y nos at babell yr ymherawdwr
 an boen uarwolaeth. Ond un noswaith,
 afwyd rhyw filwr yn sefyll yn agos at
 abell yr ymherawdwr, âg erfyniad yn ei
 w i'w gyflwyno iddo; ac am hyny yr yd-
 edd yn ebrwydd i'w ddiennyddio. Ond yr
 ymherawdwr wrth glywed y trwst o'r tu
 newn i'w babell, a lefodd allan, Os drosto
 hun y mae ei erfyniad, bydded farw;
 nd os dros ryw un arall, arbedwch ei
 rwyd. Erbyn ei holi, fe gafwyd mai dros
 dau o'i gydfilwyr yr oedd ei erfyniad, y
 mai oedd wedi eu dal yn cysgu ar eu gwyl-
 . Felly, diangodd y dyn rhag marw, a'i
 yfeillion rhag eu cosp lwythau. Yr oedd
 tro hwn o garedigrwydd mor foddhaol gan
 y wysog daearol, fel y dirymodd efe y gyf-
 lith er ei fwyn! O! ynte, mor dderbyniol
 dd gan ein Duw trugarog ein bod yn
 riol dros ein cyd-Gristionogion! Ond i'ch
 mog yn fwy i ymarfer â'r ddyledswydd
 i ei lled a'i helaethrwydd llawn, sef dros
 holl saint, ystyriwch,

(1af.) Y bydd i'r gweddio yma dros yr
 oll saint brofi bod eich cariad at y saint
 ddiifant. Dyn wrth weddio drosto ei
 m neu ei berthynasau, nid yw yn sefyll yn
 fath fantais i weled gweithrediadau pur-
 ras, a pan fyddo yn gweddio dros y cyf-
 rw ag sydd heb yr ymddibyniad cnawdol
 na arno. Pan wyt yn gweddio drosot dy
 un, mewn eisieu neu glesydd, pa fodd y
 yddost ti ei fod yn chwaneu na chri an-
 uol y creadur? Ai dros dy deulu yr wyt
 i gweddio? Fyth y mae gan dy gnawd
 fran yn y gwaith; ac fe all fod yn help i
 symbylu, os nad yn brif gymhyrfydd i
 osod ar gychwyn. Ond pan fyddo dy
 lon yn dwys-guro gan y teimlad o feichiau
 ywrai ereill, sy heb ddim ynddynt i'w
 unhyrfu i'w coho, ond eu Cristionogaeth;
 phan el i yn y dirgel ddadleu gyda Duw
 ostant, mor deimladwy a phe byddit ar dy
 ges dy hun; yn ddiaw y mae yma ysbryd
 asol yn anadlu.

(2il.) Megys y dywed hyn am wirionedd
 ras, felly y gwna hefyd am ei nerth a'i
 fiant. Llygredd yw cyfyngydd ein calon-
 ni; nid o'r radd oreu o Gristionogion yr
 dd y rhai hyny y dywed Paul am dan-
 t, eu bod yn ceisio yr eiddynt eu hunain:
 Gal. ii. 21. Fel y byddo y galon yn tyfu
 ewn gras, y mae yn eangu ac yn mwynd
 fwy ei gofal dros ereill. Po uchaf yr
 o gwr i'r bryn, helaethaf yr olygfa o'i
 en. Un yn sefyll ar lawr, nis gall edrh
 h dros y gwrych nesaf; y mae ei olwg

yn cael ei attal o fewn gwal ei fuarth ei
 hun. Felly yr ysbryd anianol nid yw yn
 meddwl ond am ei eiddo a'i les ei hun; ni
 theimla y dwfr nes y delo ato i'w gaban ei
 hun: tra y mae gras yn codi yr enaid i fyny;
 a pho fwyaf o ras a fyddo gan dlyn, mwy-
 af y pair iddo edrych oddi wrtho ei hun
 drosodd i helynt ei frodyr. Mae y cyfryw
 un yn cyfranogi o natur y cyrph nefol sy'n
 tywallt eu dylanwadau i waered ar y byd
 oll. Yn enwedig, fe dystiolaethai hyn fod
 dy ras yn gryf ei weithrediadau, os byddai
 angylechiadau o'r fath yn cydganlyn. (1.)
 Pan fyddo y dyn ei hun yn nofio mewn hel-
 aethrwydd o bob mwyniant, ac yn gallu y
 pryd hyny roddi heibio ei lawenydd ei hun,
 i wlo a galaru dros a chlyda'r saint cystu-
 tuddiol, er maint fyddo eu pellder oddi
 wrtho. Dyma fel y gwnaeth Nehemiah
 dros ei frodyr yn Ierusalem, pan oedd efe
 ei hun mewn nyth cynnhes, yng nghanol yr
 holl fwyniant a allai llys y fath frenin
 mawr ei roddi. Nid peth arferol yw i neb
 ond y rhai o ras mawr deimlo cortynau gof-
 fidiau yr eglwys drwy wely o fan-bluf y
 maent eu hunain yn gorwedd arno. Rhyw
 Ddafydd dduwiol a raid i hwnw fod, a all
 godi Ierusalem uwch law ei lawenydd penaf.
 (2.) Ar y llaw arall, pan allom, yn nyfnder
 ein gofidiau a'n trallodau personol ein hun-
 ain, gadw ystafell helaeth yn ein gweddiau
 i saint ereill; y mae hyn yn arwydd o feur
 mawr o ras. Yr ydoedd yn brawf fod nerth
 a chalonidid y Rhufeiniaid yn fawr, pan all-
 ent hebgor amryw lengau, i'w haufon i'r
 Yspaña, yn gynnorthwy i'w cyfeillion yno,
 tra yr oedd Hannibal a'i fyddin arswydus
 ger llaw i'w pyrth eu hunain. Bod yn gallu
 rhoddi benthyg gweddiau cynnorthwyol i
 saint ereill mewn cystudd, neu i eglwys
 Dduw ar led, pan wyt dy hunan mewn tar-
 aw dwys gan dy ofidiau dy hun, svdd yn
 arwyddo ysbryd grasol iawn. (3.) Pan all-
 om yn ein gwasgfeuon dderbyn y newydd-
 ion am drugareddau neb rhyw saint ereill
 gyda llawenydd a diolchgarwch, y mae hyn
 yn gofyn gras mawr yn wir i allu sefyll yn
 wyneb dwy brofedigaeth mor wahanol ar yr
 un amser. Mae llwyddiant ereill yn rhy
 fynych yn magu cenfigen ac anfodlonrwydd
 yn y rhai sy hebbdo. Os wyt gan hyny yn
 gallu molianu Duw am ei drugareddau
 i ereill, tra y mae y dagran yn dy lygaid am
 dy drallodau dy hun; dyma dymmer anghy-
 ffreidin; nid cig a gwaed erioed a'i magodd
 ynot, ti elli fod yn sicr.

I benderfynu hyn â gocheliad. Er ein
 bod i weddio dros yr holl saint, etto y mae
 rhai yn galw am goffad mwy neillduol gen-
 ym. 1. Y rhai sy'n agos atom o ryw gar-
 enydd arall, megys drwy rwymanu natur yn
 gystal a gras: *Philemon* 16, "Brawd an-
 wyl, yn enwedig i mi; eithr pa faint mwy
 i ti yn y cnawd, ac yn yr Arglwydd hefyd."

Gwir yw, fod rhwymyn yr ysbyrd yn sanct-eiddiach na rhwymyn y cnawd; etto, pan fo rhwymyn y cnawd yn blethedig gyda'r llall y mae yn chwaneu cryfder i'r serch, ac felly dadl at y ddyledswydd. Am hyny y dywed Paul wrth Philemon, "Pa faint mwy i ti?" Fe all cariad ddechreu gartref, er nad ydyw i ddiweddu yno. Drachefn, drwy berthynas, cymdeithas, a chymmundeb cartref, pa un bynag ai gwladol ai crefyddol; y mae y rhwymau hyn yn rhoi cymmelliad at y ddyledswydd; y meist'r dros y gweision, a'r gweision dros y meist'riaid; y gweinidog dros ei bobl, a'r bobl dros eu gweinidog. Y neb a newyna ei deulu, nid yw yn debyg o wledda ei gymmydogion; y gŵr taio'g wrth ei gymmydogion, nid yw yn debyg o fod yn rhy dirion at ddiethriaid. Felly yr hwn nid yw yn gweddio dros y rhai sydd yn sefyll drwy y fath berthynasau mor agos ato, nid yw ond annhebygol iawn i fod yn helaeth yn ei ymbiliau dros ereill. 2. Y rhai a fo mewn cyfyngder. Pwy bynag a anghof-iwch, cofiwch y rhai hyn. Os bydd un claf yn ein teulu, ni a ddanfonwn ei dameidyn i hwnw cyn tori i neb a fyddo wrth y bwrdd. Amser cymmhwys i gariad ydyw y pryd hwn. Cyfaill at galedrnod, y mae mor gyfaddas a thân at ddiwrnod o auaf. Cyfeillion Iob a ddewisant yr iawn amser i ymwelwedd ag ef; ond ni chymmerasant yr iawn ffordd i wneuthur defnydd da o'u hymwel-iaid. Pe treuliasent mewn gweddi drosto yr amser a dreuliwyd mewn dadleuon tanbaid i'w erbyn, hwy a fuasent er mwy o fudd iddo ef, a mwy o fodd i Dduw. Drachefn, dyma y pryd y mae y temtiwr yn brysur. Y mae y llew hwn yn rhodio allan yn nos cystudd, gau obeithio drwy wlyo y pryd hwnw gael y Cristion yn ysglyfaeth. Ai ni fydd i ninnau wlyo i weddio drosto? Drachefn, dyma yr amser y mae Duw yn gyflymaf yn ateb gweddiâu. "Y dydd y llefais y'ngwrandewaist" (*Salm cxxxviii. 3*); hyny yw, yn nydd cystudd. Yn wir, yn awr yw yr amser pan y bydd Ysbryd Duw mewn modd neillduol yn ein cymmhell i weddio; a pha bryd y mae i ni anfon ein llythyrâu ond pan fo y llythyrwas yn galw? Efe, yr hwn sydd yn dy gymmhell i weddio, a gymmer gymmaint o ofal am roi dy erfyniadau mewn llaw, a gweled ateb yn cael ei roi yn ol. 3. Y cyfryw o'r saint ag sydd o sefyllfa a defnydd cyhoeddus. Yr ydych yma yn gweddio dros lawer wrth weddio dros un. 4. Y cyfryw ag sydd yn bennodol wedi dymuno a'ch rhwymo i'w cofio wrth orsedd gras. Ym mysg dyledion, y mae rhai pennodedig i'w talu yn gyntaf. Yr wyt yn ddyledwr i'th holl frodyr, ac arnat eu cofio yn dy weddiâu; ond yn fwy enwedigol y rhai hyny i ba rai yr wyt yn bennodol wedi addaw hyn. Y mae hyn fel pe byddai yn rhwymiad dan dy law wedi ei roddi er sicr-

wydd chwane'gol y teli y ddyled non i gyfaill. Pwy bynag a anghofiech, co hwnw. A ddarfu i gydwybod y pentrulli ei gyhuddo ef am beidio cofio Ioseph, oe wedi ei rwymo i eiriol gyda Pharaoh dros pan ddychwelid ef i'r llys? "Yr wyf fi cofio fy meiau heddyw," medd efe: *Ge. xli. 9*. Yn llawer mwy y mae genyt ti ac i gyffesu dy feiau, yr hwn wyt yn angh-coffau y rhai hyny ger bron yr Arglwyf sydd yn ddirifol wedi gofyn hyny ar law. Bod wedi addaw talu swm o arian, phallu, ni byddai yn anonestrwydd mwy. Ti eili golledu ei enaid ef yn drymach wr ei somi o'th weddi, nag a fyddai y niw i'w dda bydol wrth ei fod heb dy arian. Fodd y gwyddost ti nad yw y drugaredd sy arno ei heisieu yn cael ei hattal i aros i'w weddiâu di ddyfod i'r nef am dani? Faint saint ereill weithiau yn cael drwy eu gwedd-âu drosom, yr hyn nid ydym ni drwy eiddom ein hunain, sydd eglur oddi wrth *Iob ii. 48*.

EPHESIAID VI. 19, 20.

"A throsof finnau, fel y rhodder i mi ymadroddwyr agoryd fy ngenau yn hyf, i hysbysu dirgelwch yr efengyl: dros yr hon yr wyf yn gen mewn cadwyn."

PENNOD I.

Yn dangos ei bod yn ddyledswydd dymuno gweddiâu ereill, a pha ham; yn dangos hefyd nad gneuthur hyn yn anfrï i gyfryngdod Crist drosom; gyda chymmhwysiad byr.

Y MAE yr apostol, ar ol gosod allan y ddyledswydd hon o weddi i ei llawn gwmpwr, a chymmydd hon o holl saint o fewn ei chylo yn dyfod yn awr i gymmhwysu y rheol gaffredin hon, ac i ofyn rhan ei hun yndd. "A throsof finnau." Pan y mae yn erio'iddynt weddio dros yr holl saint, nid yw e yn sicr yn cau mo hono ei hun allan, ac y tau yn un—nid y lleiaf—yn y nifer. Yn geiriau,

1. Y mae yma annogaeth, neu ddeisyfi Paul drosto ei hun, ac ynddo ef dros hysbysu dirgelwch yr efengyl: "a throsof finnau." 2. Cynnwysiad ei ddeisyfiad. "Fel y rhodder i mi ymadrodd." Nid y mynai e eu cyfyngu a'u terfynu yn eu gweddiâu wrth deisyfiad hwn yn unig; ond ei osod y m fel pwng arbenig iddynt sefyll ato.

3. Y diben pa ham y mae yn dymuno hyn: "Fel yr agorwyf fy ngenau yn hyf, hysbysu dirgelwch yr efengyl."

4. Dadl ddeublyg, i gefnogi a chymmhwysu deisyfiad hwn. Iaf. Oddi wrth ddywed: "dros yr hon yr wyf yn genad syl. Oddi wrth ei gyflwr helbulus preseg nol. "yn genad mewn cadwyn."

Am y cyntaf ei ddeisyfiad: "A throsof finnau."

Nodwn yma, Iaf. Fod ar bobl eisieu llysgu iddynt eu dyledswydd at eu gweinidog, yn gystal a thuag at ereill. Er yn wir nad oes un ddyledswydd anhaws i'r gweinidog ei wasgfu, nac i'r bobl ei gwrandaw; iddo ef ei phregethu yn ddoeth a gostyngedig, ac iddynt hwythau ei derbyn yn ddiagtarn.

DOSE. I.

2il. Y mae nid yn unig yn ddyledswydd arnon weddio dros ereill, ond hefyd ofyn gweddïau ereill drosom ein hunain. Os yw Paul yn troi yn gardotyn, ac yn deisyf ar ereill ei gofio, yna pwy nad oes arno eisieu hynny? Y mae hyn wedi bod yn arferiad parhaol gan y saint. Weithiau, y maent yn galw i mewn gynnorthwy eu brodyr ar achosion neillduol i weddio gyda hwynt. Felly Daniel (*pen. ii. 17, 18*), pan oedd yn gofyn deongl breuddwyf y brenin, y mae yn gwneuthur defnydd o Hananiah, Misael, ac Azariah, ei gyfeillion: "Yna yr aeth Daniel i'w dŷ, ac a fynegodd y peth i'r rhai byn, fel y ceisient drugareddau gan Dduw y nefoedd yn achos y dirgelwch." Ni roddai Daniel ateb i'r brenin nes cael yn gyntaf ateb gan Dduw; ac am hynny, i weddi y mae yn myned. Diammheu nad oedd efe yn anghofio y neges hwn yn ei ystafell pan wrth ei ymbiliau dirgel; ond heb law hynny y mae yn galw cynnorthwywyr i uno gydag ef mewn gweddi gymdeithasol. Y mae yn unfon am danynt i'w dŷ, lle y mae yn debygol iddynt weddio ynghyd er bywiogi serchiadau eu gilydd, a rhoi grym i'w herlyniad wrth ei gydgyrmbhell yn y modd awn. Am hynny, y mae efe yn *adn. 23* yn addef y drugaredd fel ateb i'w cydweddïau: "Tydi Dduw fy nhadau yr ydwyf fi yn holi ch iddo, am beri i mi wybod yn awr yr hyn a geisiasom genyt." Fe gyfiawnhâ hyn arferiad y saint, pan fyddo iddynt mewn chyw wasgfa drom o brofedigaeth neu gystudd, alw rhywrai ereill o'r ffyddloniaid i roi braich gyda hwynt wrth y gorchwyl awn. Weithiau, ni a'u cawn yn deisyf gweddïau eu brodyr drostynt, pan nad oes gyfle iddynt eu cael gyda hwynt. Fel hyn y mae Esther yn gosod yr Iuddewon yn Susan i weddio drosti hi: *Esth. iv. 16*. Felly y mae Paul mewn amryw o'i epistolau yn lymuno i'r saint ddwyn ei enw gyda hwynt at orsedd gras: *Rhuf. xv. 30*; *2 Cor. i. 10, 11*; *Col. iv. 3*; *Philom. 22*. Ac nid heb achos mawr; o blegid,

(Iaf.) Y mae Duw wedi ei gwneuthur yn ddyled oddi ar y naill sant i'r llall. Yn awr, bod heb chwennych taliad o'r ddyled hon a roddodd Duw ar ein brodyr, y mae yn bychanu y drugaredd a daioni ein Duw. Pe byddai cymmyrrodd wedi ei adael i ni gan gâr, oni fyddai yn ddirmyg ar ei gared-

igrwydd peidio galw ar yr etifedd sydd i'w thalu? Yn sicr y mae Duw yn cyfrif ei fod yn gwneuthur caredigrwydd â ni yn hyn; ac am hynny y mae lle iddo ei gymmeryd yn angharedig ein bod heb ofyn am y rhodd. Nid ydym yn arfer colli dyled o eisieu ei gofyn; ac nid un o'r rhai lleiaf sy genym allan ydyw hon.

(2il.) Llauer ydyw yr addewidion grasol sydd wedi eu gwneuthur i'r fath weddïau o eiddo y ffyddloniaid y naill dros y llall: "Os gwel neb ei frawd yn pechu pechod nid yw i farwolaeth, efe a ddeisyf ac efe a rydd iddo fywyd;" *1 Ioan v. 16*. Ond chwi a ddywedwch, pa fodd y diehon gweddi un gael maddeuant i un arall? Yr wyf yn ateb, nid oes neb yn cael maddeuant o herwydd ffydd un arall, rhaid i hon fod yn y person ei hun. Ond y mae taer weddi grediniol y naill, yn foddion rhagorol i gael y gras o edifeirwch a ffydd i un arall, drwy yr hyn y gall efe ddyfod i brofi maddeuant. Felly yn *Iago v. 16*: "Cyffeswch eich camweddau bawb i'ch gilydd; a gweddiwch dros eich gilydd, fel y'ch iachäer." Yn awr, wrth fod heb ddeisyf gweddïau ein brodyr yn y rhan hon, yr ydym heb ddefnyddio yr addewidion hynny sydd â'u diben priodol i'n calonogi i alw am gynnorthwy ereill. Y mae hyn fel pe byddai y cyfryw ranau o'r Ysgrhythyr yn hawdd eu hebgor, o ran dim eisieu sy arnon ni am danynt. Pe gwlech chwi ddarn o dir heb gael un amser ei hau na'i drin, chwi allech yn dda ddywedyd, y mae y tir yn dlawd, neu ei berchen yn hwsmon drwg. Naill ai y mae yr addewid yn wag a diddefnydd, neu yr ydym ni sy heb ei defnyddio yn drinwyr gwaeth ar ran ein heneidiau. Ond nis gallwn ddywedyd felly am yr addewid, os ystyriwn y ffrwyth a'r fantasiau fawr a fedodd y saint oddi wrthi yn mhob oes. Oni chafodd Daniel ddadguddiad o ddirgelwch mawr fel atebiad i weddïau ei gyfeillion gydag ef ei hun? Oni ddiangodd cyfeillion Iob oddi wrth farn drom oedd yn crogi uwch eu penau drwy ei eiriol-aeth ef? Y fath ymwarded gwyrthiol a gafodd Pedr drwy weddïau ychydig saint oedd ynt wedi casglu ynghyd ar ei ran! Na ddygwch gan hynny anair i'r addewid hon, gan fod y fath sypiâu melusion a'r rhai hyn i'w dangos wedi eu casglu oddi arni.

DOSE. II.

(3ydd.) Wrth esgeuluso hyn yr ydym yn euog o ddiffodd ysbyrd gweddi, yr hyn a ellir ei wneuthur ynom ein hunain, ac mewn ereill hefyd.

1. Nyni a allwn wrth hyn ei ddiffodd ynom ein hunain; mewn rhan am ein bod yn esgeuluso ddyledswydd. Fe erchir i ni "gyffesu ein camweddau bawb i'n gilydd;" ac i ba ddiben, ond i gael y lles o weddïau ein gilydd? Yr un Ysbyrd ag sydd yn dy gyffroi di i weddio drosot dy hun, a'th gyn-

nhyrfa hefyd ar amryw achosion i osod ereill i weddio drosot ; yr hwn, oni wnei, yr wyt yn mygu ei gymhyrfadan ef, ac felly yn enog o bechod. Drachefn, yr wyt yn diffodd ysbyrd gweddi ynot dy hun, trwy dy ysbeilio dy hun o'r cynnorthwy a allesit gael yn dy weddïau trwy eu gweddïau hwynt, o blegid y mae yr Ysbyrd yn trosglwyddo ei ras bywhiaol i ni yn yr arferiad o offerynau a moddion. Yr hwn nid yw yn gwrandaw ar bregethiad y gair, y mae yn diffodd yr Ysbyrd, am fod hyny yn foddion yn llaw Duw i ennyn gras y saint. Felly yr hwn nid yw yn dymuno gweddïau ereill, y mae yn diffodd ysbyrd gweddi ynddo ei hun, am y dichon yr ymarferiad o'u gras hwynt mewn gweddi drosot ti gyrchu i lawr chwaneaog o ras yn dywalltedig ynot.

2. Ti elli fod yn gyfranogwr at ddiffoddïad yr Ysbyrd mewn ereill, am dy fod yn attal gweithredïad y grasusau hyny ynddynt a allasai fod ar waith mewn gweddi drosot, pe buasai yn mvegi iddynt am dy gyflwr. Fe ddiffoddir tân wrth dynu ymaith y cynnwd yn gystal a thrwy dafu dwfr arno. Wrth ddadguddio i'rh frodyr dy angenion a'th dlymuniadau, yr wyt yn portli ysbyrd gweddi ynddynt, gan eu bod yn cael defnydd newydd i weithio arno. Wrth osod ger eu bron yndriniaethau tirion Duw tuag ataf, yr wyt yn nodi iddynt gân o foliant. Pa sawl griddfaniad ac ochenaid a gawsai Duw mewn gweddi oddi wrth dy gyfeillion, oni buasai i ti gadw i mewn dy brofedigaethau a'th feichiau rhag eu gwybyddiaeth hwynt? A pha fath gydsain o lawenydd a mawl a fuasai ganddynt, oni buasai i ti gelu dy drugareddau oddi wrthynt?

(4ydd.) I ddadgan ein dwfn deimlad o'n gwendid ein hunain, a'r angen sy arnom o gynnorthwy ereill. Y mae eneidiau gosyngedig yn ofnus am eu grym eu hunain. Y rhai sydd yn meddu ond ychydig, hwy a ddymunant gael rhai yn gyfranogion gyda hwynt yn eu marchnadaeth ; ond pan dybiant eu cyfoeth eu hunain yn ddigouol, yna gallant drin wrthynt eu hunain : "Yr ydych chiwi yr awrlou wedi eich diwallu ; yr ydych chiwi wedi eich cyfoethogi ; chiwi a deyrnasasoch hebddom ni," medd Paul wrth y Corinthiaid hunandybus. Amser a fu pan oeddych yn meddwl fod arnoch angen pregeth Paul wrthyth, a'i weddi drosoch ; ond yn awr yr ydych yn frenhinoedd hebddom ni. O! gyunnifer sydd a allasent yn yr amser a fu ddeisyf gweddïau pob Cristion a gyfarfyddent ; nid oedd ond eu cynwion a'u diffygion i'w clywed ganddynt, a'r rhai hyny yn peri iddynt eifyn cynnorthwy gweddi gan bawb a adwaenent, at gael eu llygredigaethau i lawr, a'u grasusau i fyny ! Ond yn awr y maent wedi rhoi heibio cardota ; ydynt, ac yn teyrnasu yn eu teyrnas ddychymmygol o hunan ddigonolrwydd. Yn

sicr, megys mai prawf o ddiffyg cariad y ein bod heb weddio dros ereill, felly prawnad oes diffyg balchder yw ein bod heb ddymuno gweddïau gan ereill.

(5ed.) I raglaenu bwriadau Satan i'n hebyn. Fe w'yr ef yn dda y fath fantais sydd ganddo ar y Cristion pan fo ar wahân oddi wrth ei gyfeillion ; am hyny efe a gais hweithaf ei allu rwystro cyssylltiad ei weddio unig ef, a'r cydgyunorthwy a allai ei frody estyn iddo. Yr oedd nerth Samson yn go wedd, nid mewn blewyn unigol o'i wallt, on yn ei gudyn cyfan ; felly diogelwch y sain mewn cymmundeb, ac nid mewn neilldued a chrefyddolrwydd unig. Och ! gyunnifer wrth gelu eu profedigaeth oddi wrth ereill sydd wedi cael eu gofidïau yn ymgryfha arnynt ar ol eu holl ymgais unigol eu hunain, a'u hmdrechion yn y dirgel i'w hebynt ! Yn debyg i un pan fo ei dŷ ar ddi yn ymgeisio ei hun i'w ddiffodd, ond he allu ; ac felly yn rhedeg y perygl o golli cwbl a fedd o ddiffyg galw mewn pryd at gynnorthwy ei gymmydogion.

(6ed.) Y mae y cariad sy arnom i'n brodyr yn ei ofyn. Y mae y saint yma yn hyspelle nad oes neb yn eu caru ond hwy eu hunain ; am hyny, da fyddai iddynt wneuthu yu fawr o'u gilydd. Yn awr, y mae hyn ddeisyf eu gweddïau yn dwyn ynddo ddangosiad triphlyg o gariad atynt.

1. Yr ydym wrth hyn yn addef gras Duw yn ein brodyr ; pe angen, tybygid, ni rodd em no honynt ar y fath waith. Y neb ddymunog gan gyfaill gyflwyno ei ersfyniad law y brenin ar ei ran, y mae yn dangos ei fod yn ei gyfrif ef yn un mewn cymmeriad ac iddo ryw dderbyniad yn y llys. Yn awr pa dystiolaeth anrhydeddusach a allwn ni ddwyn i arall na'i addef yn blentyn Duw yn un â chrosawïad i'w weddïau yn y nef. Gorchymyrrh i ni "flaenori ein gilydd yn rhoddi pârç ;" *Rhuy.* xii. 10. Yn awr nid oes un ffordd y gallwn wneuthur hyn y fwy na thrwy ddefnyddio eu cynnorthwy wrth osedd gras, i wneuthur cofia am dan ger bron yr Arglwydd.

2. Yr ydym wrth hyn yn rhoi ein brodyr yn gyfranogion yn y drugaredd y byddon ni yn deisyf arnat weddio am dani. Pe byddai rhyw farsïandwr yn anfon eiddo gwerthadwy i Twrci neu yr Ysbaen, ac yr gwybod y try ef allan cwmill mawr, fflaifawr fyddai iddo gymmeryd ereill i fod yr gyfranogion ag ef yn yr anturiaeth ; a pha ffordaith a ddwg elw yn debyg i hon o weddi? Ac y mae pob un a fo yn gyfranog yn y ddyledswydd yn gyfranog hefyd yn y drugaredd. 3. Yr ydym wrth hyn yn eu cadarnhau hwynt yn yr hyder o'n parodrwydd ninnau i weddio drostynt hwythau. Yn mhla beth y mae cymmydogaeth dda yr sefyll, ond mewn parodrwydd i newid cymmyrnasau y naill i'r lall ? pan fo y peth sy

yn nhŷ y naill gymmydog at wasanaeth y llall? Yn awr, pwy a all fod yn hyf neu yn rhydd gyda'i gymmydog, i gymmeryd ymmwynas ganddo ef nad yw yn ewyllys-gar i dderbyn y cyffelyb? Byddwch chwi yn estronol at eich cyfaill, a chwi a'i dysgwch ef i fod felly atoch chwithau. Nid oes llin yn anwylo y saint mewn cariad yn fwy na chalon agored y naill at y llall. Ni ddylai fod gan gyfaill un gell yn ei fynwes na bydd genad i'w gyfaill gael yr agoriad iddi.

DOSB. III.

Gwrth. Ond ai ni allwn ni wrth ddeisyf weddïau ein cyd-frodyr, ormesu ar swydd gyfryngol Crist?

At. Na; sicr yw na buasai Crist yn gorchymyn peth a fyddai yn gam âg ef ei hun. Y mae gwahaniaeth mawr rhwng ein deisyfiad ar Grist i weddio drosom, a'n deisyfiad yr ein cyd-frodyr. Yr ydym yn deisyf ar Grist gyflwyno ein personau a'n gweddïau, gan ddisgwyl derbyniad i'r naill a'r llall rwy ei waed a'i eiriolaeth ef; ond nid dim i'r fath beth oddi wrth weddïau ein brodyr. Yr ydym yn unig yn dymuno arnynt hwy fel cyfeillion ddyfod gyda ni at orsedd gras, yno i gyflwyno ein gweddïau mewn cyd-gymmundeb, gan ddisgwyl derbyniad i'w gweddïau hwy a ninnau, nid oddi wrthynt hwy, ond oddi wrth Grist, gan bwysu ar Grist i ennill croesaw i'r eiddynt hwy a ninnau ar law ein Tad nefol.

Gwrth. 2. Ond pa ham ynte na allwn ni ddeisyf gweddïau y saint sy wedi marw, i'r un perwyl ag yr ydym yn dymuno gweddïau y rhai sydd yn fyw gyda ni!

At. 1. Nid oes genym na gorchymyn nac esampal am hyn yn y gair. A'r hyn sydd lldiwahoddedig yno mewn dyledswyddau o ddoliad, y mae yn waharddedig. Nid oes ni fod yn ddoeth uwch law yr hyn a ysgrifenyd. Peidio arfer y moddion a orleiniodd Duw sydd yn bechod mawr; a hyn oedd trosedd Abaz: *Esa.* vii. 12. Ond lyfeisio ffyrdd neu foddion mwy nag a orleiniodd Duw sy lawer gwaeth. Y mae yn ldrwg ddigon i ddeiliad beidio cadw cyfreithiau y brenin; ond yn llawer gwaeth ddo ryfyo ffurfio cyfraith o'i ben ei hun. Y mae y cyntaf yn anufudd, ond y mae y llall yn fradwr.

2. Nid oes genym ni un ffordd i hysbysu ein meddyliau a'n dymuniadau i'r saint a ymadawsant. Pa ham y gweddiwn ni arnynt hwy na allant glywed yr hyn a ddywedom? Neu pa le y mae y genad a ddwg ein meddyliau ni atynt? Neu pa air yn y Beibl a ddywed eu bod hwy yn clywed yn y nef yr hyn a weddiom ni ar y ddaear?

3. Rhagorfraint Crist ydyw bod yn unig orchwylydd yn y nef dros ei saint ar y llaear. Wrth bwy o'r angylion nac o'r saint y dywedodd Duw, "Eistedd ar fy neulaew?" Yng nghyntedd nesaf allan y

deml ni a gawn yr holl gynnulleidfa yn gweddio; ond i'r sanctaidd sancteiddiolaf, nid oedd neb yn myned i mewn ond yr arch-offeiriad gyda'i berarogl. Y mae pob saint yn offeiriad i offrymu gweddïau drosto ei hun ac ereill ar y ddaear, ond Crist yn unig fel ein Harchoffeiriad sydd yn eiriol drosom yn y nef. Yr angylion a'r saint mewn gogoniant, diammheu eu bod yn ewyllysio yn dda i'r eglwys isod; ond swydd Crist ydyw derbyn arogldarthu gweddïau ei saint milwriaethus, a ddanfonant hwy o'r cyntedd allanol yma isod i'r nef, a'i offrymu i Dduw gyda'u holl ddeisyfiadau hwynt, fel mai troi Crist allan o'i swydd fel offeiriad yw rhoi ar neb yn y nef heb law efe i weddio drosom.

DOSB. IV.

Defn. 1. Y mae yn gerydd i'r rhai hyny na chwasant erioed etto ar eu calonau ofyn gweddïau dros eu heneidiau eu hunain. Yn sicr y maent yn estroniaid mawr iddynt eu hunain, ac yn anwybodus o werth yr hyn a gollant. Megys y dywedodd Crist wrth y wraig o Samaria: "Ped adwaenit ti ddawn Duw, a phwy yw yr hwn sydd yn gofyn, tydi a ofynasit, ac efe a roddasai." Pe gwyddai trueiniad pwy ydyw y saint, pa fath anwyliad gan Dduw, ac mor dyciannol eu gweddïau gydag ef, ni byddent foddlawn i gael eu gadael allan o'u coffad. Ni adnabum i neb erioed nad oeddnt yn meddwl hyn yn werth ei ofyn, pan gyntaf y dechrenai Duw weithio arnynt; i'e, dim ond deffroi eu cydwybodau. Y mae yn naturiol i bobl mewn cyfyngder erfyn am gynnorthwy. Gwas neu blentyn, pan fo meist'r neu dad wedi anffodloni, a churfa yn cael ei bygwth; os gwyddant am neb mewn cymmeriad gyda hwynt, ac yn debycach i lwyddo nag ereill, a hwy yr ymbiliant ar iddynt fod yn erfynwyr yn eu plaid. Pan fo newyn ac eisien yn gwasgu ar y tlodion; yna os bydd ganddynt gymmydog a all fod yn gymmwynaswr iddynt i siarad â'r plwyf drosynt, fe gaiff hwnw yn fuan glywed oddi wrthynt. Yn awr, pe byddai teimlad o'u hangenion ac o flinderau ysbrydol, ai ni fyddent mor daer yn deisyf gweddïau dros eu heneidiau ag ydynt yn awr i ofyn bara yn achos eu cyrph? Etto, chwychw'i sydd yn ofni Duw ac yn byw yn mysg y cyfryw, gwnewch chwi eich dyledswydd er nad oes ganddynt hwy galonau i ofyn hyny ar eich llaw. Gweddiwch dros eu heneidiau di-deimlad. Pan fo eich cyfaill yn glaf ac allan o'i wybodaeth, ni aroschw chwi heb yru am y meddyg nes delo efe ato ei hun, a bod yn alluog i wneuthur hyny drosto ei hun. Y mae angen i chwi brysuero o hyny yn fwy at Dduw yn achos y fath yma, rhag eu myned ymaith yn y parlys mud hwn sydd ar eu cydwybodau ac felly bod tu hwnt i weddio drosynt.

2. I'r rhai hyn ag sydd yn gofyn gweddïau pobl Dduw, ond yn rhagrithiol; ac y maent yn gyfryw ag sydd yn gosod ereill ar waith, eithr heb weddïo drostynt eu hunain, arwydd sier o galon bwdr. Yn y dull yma y galwodd Pharaoh yn fynych am Moses i weddïo drosto ef a'i wlad; ond nid ydym yn darllen ddarfod iddo erioed droi ei wyneb ei hun at Dduw, eithr tybiodd mai digon oedd iddo ef anfon arall ar ei neges. Ond enaid grasol a fydd yn sier o gyfarfod y neb a osodo efe ar y gwaith: "Yr wyf yn attolwg i chwi, (medd Paul, *Rhuf.* xv. 30), ar gydymdrech o honoch gyda myfi, mewn gweddïau drosof fi at Dduw." Nid oedd efe yn taflu yr iau oddi ar ei war ei hun i'w gosod ar warau ereill; ond yn cyd-dynu â hwynt. Heb hyn, fe all y rhai a fo yn gweddïo drostot, weddïo y drugaredd ymaith oddi wrthyt.

3. I'r rhai sydd yn dymuno gweddïau ereill, etto yn unig mewn rhyw wasgfa drom. Os bydd eu cerbyd wedi glynu mewn rhyw laid dwfn o drallod, yna hwy a anfonant mewn mawr frys am rywrai i'w tynu allan â'u gweddi; ond ar dro arall y maent yn newid eu meddyliau am y saint â'u gweddïau, ie, ac am Dduw ei hun. Wedi i'r llyffiant unwaith ymadael, nid yw Moses yn cael clywed dim mwy oddi wrth Pharaoh, nes delo pla drachefn i adnewyddu ei gof. Nid yw Moses yn clywed cri Pharaoh nes clywo Pharaoh gryglais y llyffaint. Hwy a ddywedant am y coral ei fod yn feddal yn y môr lle y mae yn tyfu, ond yn galed pan ei cymmerir allan; felly y mae cydwobodau llawer yn feddal ac yn dyner tra yn mywdo mewn cystudd, ond yn galed a chadarn pan fo hwnw wedi ei symmud. Pharaoh, ar ol galw mor fynych am Moses i weddïo, nis gallai yn y diwedd oddef yr olwg arno, ond ei rybuddio rhag dyfod i'w wyneb byth mwy. O gwylia rhag hyn! Pan unwaith y daeth yr adyn i'r gradd hwnw, ac i newid ei dôu mor aruthr nes lymldi ymaith y gŵr oedd wedi meichnio, a'i achub mor fynych o law dialedd dwyfol, nid hir oedd ganddo i fyw; o blegid efe a symmudodd yr unig argae, ie, ac a gododd i fyny yr unig ddyfrddor i ollwng distryw i mewn ar ei ben ei hun.

4. I'r cyfryw ag a ddymunant ar ereill weddïo drostynt, mewn gwagonedd i gael eu cyfrif yn rhai crefyddol. Gochel hyn; etto, na chyhudda bawb o herwydd rhagrith rhai; ac na amddifada dy hun chwaith o les gweddïau ereill gan ofn dychymmygol, rhag i ti chwareu y rhagrithiwr wrth hyn. Gwylia ar dy galon, ond na âd heibio y ddyledswydd. Os ymdagodd rhai â'u gardysau eu hunain, a betrusi di wisgo dy rai di o'r achos hwnw? Neu am fod rhyw rith gardotwyr yn myned o amgylch y wlad dan ddaugos eu briwiau, na ddymunent gael eu

hiachau, a beidi di o achos hyn y a myned dan dy archeoll at y llawfeddyg?

PENNOD II.

Dyledswydd y bobl o weddïo dros weinidogion y efengyl; gydag amrywio rhesymau dros hyn.

ODDI wrth ddeisyfiad yr apostol, gallwr ddal sylw fod gweinidogion yr efengyl mewn modd enwedigol i gael eu cofio yng ngweddïau y saint; a hyn

DOSE. I.

1. Mewn golygiad ar Dduw, cenhadwri yr hwn y maent yn ei dwyn. Ar ei waith ef y maent, a'i neges ef a draethant. Os na weddïwch drostynt, y deongliad fydd, nad ydych yn dymuno yn dda i'r gorchwyl sydd ganddynt drosto ef mewn llaw. Y maent nid yn unig yn dyfod oddi wrth Dduw, ond gyda Christ: "Ninnau, gan gydweithio, ydym yn attolwg i chwi na dderbynioch ras Duw yn ofer;" 2 *Cor.* vi. 1. Y mae Crist a'r gweinidog yn myned i'r pulpudd ynghyd; y mae mwy na'r dyn yno—meistr a gwas, ac eill dau ar waith.

Drachefn, Am fendith llafur y gweinidog, oddi wrth Dduw y mae. Nid y llaw sydd yn planu y planhigyn, neu yn hau yr bad, ond bendith Duw a rydd y cynnydd: 1 *Cor.* iii. 6. Pan gafodd Melancthon gyntaf ei ddychweliad, yr oedd goleu yr efengyl yn llewyrchu gyda'r fath belydr eglur a nerthol i'w feddwl ei hun, fel y meddyliodd y cefi ddychwelyd pawb y pregethai iddynt: tybiodd ei bod yn amhossibl i'w wrandawyr wrthsefyll y gwirionedd, yr hwn yr oedd efe yn ei ganfod gyda'r fath eglurdeb. Ond fe'i cafodd wedi hyn y'r gwrithwneub, yr hyn a barodd iddo ddywedyd, "Mi a wela yn awr fod yr hen Adda yn rhy galed i Melancthon ieuangc." Duw sydd yn dwyn yr agoriad wrth ei wregys, a ddechion yn unig agor calonau; a gweddi yw yr agoriad i gael at hwn. Pan oedd Crist yn bwriadu anfon allan ei ddisgyblion i bregethu yr efengyl, y mae yn eu gosod yn ddisrifol ar weddïo: *Mat.* ix. 38. Aml ydyw yr addewidion a roddodd efe i weinidogion yr efengyl er eu hamddiffyniad, y ceidw efe y ser hyn yn ei ddeheulaw; pe amgen, hwy a fuasant ar lawr, ac wedi cael eu sathru dan draed er ystalm. Er eu cynorthwy a'u llwyddiant yn y gwaith, medd efe, "Mi a fyddaf gyda'th enau, ac a ddyysgaf i ti yr hyn a ddywedych" (*Ecsod.* iv. 12): "Ewch, pregethwch: myfi a fyddaf gyda chwi hyd ddiwedd y byd;" *Mat.* xxviii. I ba beth y mae yr addewidion hyn, ond i'w saethu yn ol mewn gweddïau at y Duw a'u rhoddodd!

DOSE. II.

2. Mewn golygiad ar y gweinidogion eu

hunain. Nid oes yn yr holl fyd wrthddrych mwy i dosturi a gweddi, nag yw gweinidogion ffyddlawn Crist: os ystyriwch

1af. Bwys eu gwaith. Gwaith teml yw; ac y mae hwnw yn bwysfawr, yr hyn a barodd i Paul (y gwr cryfaf ei ysgwyddau o bawb o'i frodyr) waeddi allan, "Pwy sydd iddigonol i'r pethau hyn?" 2 Cor. ii. 16. "Gwaith mawr yr ydwyf fi yn ei wneuthur," meddai Nehemiah, yn pen. vi. 3. Ond beth oedd hwnw wrth hwn? Nid oes un gwaith mwy peryglus camymddwyn ynddo na hwn. Alaethus ddigon yw disgyn i uffern oddi tan y pulpud; bod yn clywed yr efengyl, ac etto cyfrgoli: ond O! mor dra alaethus fydd syrthio allan o hono am anffyddlondeb yn y gwaith. Yr ystyriaeth o hyn a wnaeth i Paul ymgynhyrfu felly: "A ni yn gwybod ofn yr Arglwydd, yr ydym yn perswadio dynion;" 2 Cor. v. 11.

2il. Gwaith llafur ydyw: "Adnabyddwch y rhai sydd yn llafurio yn eich mysg, ac yn eich rhybuddio;" 1 Thes. v. 12. "Y rhai sydd yn poeni yn y gair a'r athrawiaeth" (1 Tim. v. 17), y rhai sydd yn llafurio hyd boen. Y neb a bregetho fel y dylai, fe gaiff ei brofi yn waith, nid yn chwareu; nid yn waith awr tra yn llefaru yn y pulpud, ond yn faich a orwedd yn ddwys ar ei ysgwyddau ar hyd yr wythnos; yn llafur a dreuliau y rhanau bywydol; ac a ddifa yr olew sydd i bortli lamp natur; y fath llafur aewn gair ag a wna yn fynych i henaint gyfarfod ieuengtyd. Yr oedd yr Iuddewon yn tybio fod Crist yn agos i ddeg a deugain oed, pan nad oedd ond ychydig gyda deg ar ugain: Ioan viii. 57. Mae rhai yn rhoddi hyn yn rheswm am hyn, fod Crist wedi truanu ei gorph trwy ei llafur yn pregethu, yn ymrydio, yn gwylio, ac yn gweddi, fel yr oedd ei wynebpryd ef wedi heneiddio ac yn peri iddo edrych yn hŷn nag ydoedd. Galwedigaethau ereill, lawer o honynt, nid ydynt ond megys ymarferiad i natur; y maent yn chwythu ymaith y lludw oddi wrth ei glo, ac yn rhoddi help i'w dadlwytho o aml nawsgormodol sydd yn gwasgu arni. Pwy a fwyty ei fwyd yn iachach, ac a gwsq yn felusach na'r arddwr? Ond y mae gwaith y gweinidog yn gwanhau natur: y mae bwyta hefyd a gweithio yn anhawdd iddo. Fel y ganwyll, y mae efe yn ymdreulio wrth lewyrchu. Pa waith bynag a gyfrifir yn galetach nag un arall, ni a'i cawn wedi ei fenthycha i osod allan llafur gweinidogion y gair. Fe'u gelwir yn filwyr, yn ywlwyr, ac yn llafurwyr; ie, y mae eu gwaith yn cael ei osod allan trwy ddoluriau gwraig wrth esgor. Y mae gan rai o honynt llafur-boenau haws eu dwyn nag ereill, y rhai sydd yn cael llwyddiant mwy na'u brodyr yn y weinidogaeth; ond pwy all ddywedyd y gloesion a deimla eu heneidiau hwy, y rhai sy mewn gwewyr trwy ystod

eu gweinidogaeth, ac yn esgor yn y diwedd ar blant meirwon?

3ydd. Gwaith ydyw a wrthwynebir gan uffern a daear.

(1af.) Gan uffern. Erioed ni charodd y diafol waith y deml. Yr hwn oedd yn sefyll ar ddeheulaw Iosuah i'w wrthwynebu ef (Zech. iii. 1), a saif hefyd wrth benelin y gweinidog i'w aflonyddu, a hyn yn ei lyfrgell a'i bulpud hefyd. "Ewyllysiason ddyfod atoch (medd Paul, yn 1 Thes. ii. 18), eithr Satan a'n lluddioddi." Pwy all adrodd yr holl ddyfeisiau sy gan Satan i dynu y gweinidog oddi ar, neu i'w rwystro yn ei waith! Yn awr, y mae yn ei ddigaloni, nes y mae yn barod gyda Ionah i ddiange oddi wrth ei orchwyl; bryd arall, y mae efe am ei chwythu i fyny gyda balchder. Rhaid oedd hyd yn oed i Paul ei hun gael symbwl yn y cnawd, i gadw balchder allan o'i galon. Weithiau, y mae yn ei derfysgu â gwylltineb, ac yn lefeinio ei sel i surui ac anubrugarogrydd, dyma'r chwaeth ddrwg oedd ar y disgyblion pan fynent alw am dân o'r nef ar y rhai oedd yn sefyll yn eu ffordd. Weithiau, y mae yn fferu eu sel hwynt ac yn brawychu eu hysbrydoedd i lwfrdra a hunan-ofal: yn y modd yma yr oedd Pedr am gysgodi ei hun pan y gwadodd ei feistr, a phan ar dro arall y rhagrithiodd gyda'r Iuddewon i geisio ennill eu bodd hwynt.

(2il.) Fe'i gwrthwynebir gan y byd an-nuwiol. "I fod yn weinidog (meddai Luther), yr un peth yw ag i ddyu dynu llid a chynddaredd y byd yn ei ben." Y modd y llwythir y rhai hyn â gwaradwyddiaid! Nid yw y baw hwn yn gorwedd mor dew yn un lle ag ar wisg y gweinidog. Y fath enwau adgas y bu y goreu o ddynion, yr apostolion eu hunain, danynt! Ac esmwyth fyddai pe na tharewid hwynt ond â'r tafod: eithr chwi a gewch ym mhob oes, fod erlidwyr â'u syched yn fwyaf am eu gwaed hwynt. Yr erledigaeth yn Actau xii, a ddechreuodd gyda lladid Iago â'r cleddyf. Haws oedd i saith mil ymgudd yn amser Iezebel nag i un prophwyd. Meini trymion yw y rhai hyn, a phawb am roddi tro arnynt, er nas gall neb wneud hynny heb archolli eu bysedd eu hunain. Agos ym mhob ystorm wladol, y rhai hyn a gymmerir i fyny i'w bwrw dros y bwrdd, fel yr achos o'r drwg. Cynnwif sydd o'r tyb nad oes dim yn eu cadw rhag gweled dyddiau dedwydd, ond fod y rhai hyn a'u swydd yn sefyll! O ddedwyddwch truenus! nad oes modd i'w brynu ond trwy fathru y rhai sydd yn dwyn newyddion da heddwch ac iachawdwriaeth atynt oll! Dedwyddwch cyffelyb fyddai hyn i hwnw a gafodd y defaid yn y chwedl, pan eu perswadiwyd i fynu lladd y cwn oedd yn cadw y bleiddiaid draw; neu ail i hwnw a gaffai teithwyr ar y môr, wedi taslu eu

llong-lywydd dros y bwrdd. Mewn fair, y fath ddedwyddwch ag a gafodd yr Iuddewon pan oedd Crist wedi ei gymmeryd oddi ar eu ffordd trwy ddwyllaw gwaedlyd. Hwyr a'i lladdasant ef i gadw eu hunain rhag i'r Rhufeinwyr ddifetha eu dinas; ond trwy hynny o foddion, hwy a'u dygasant hwynt ynghyd â dinystr anfeddyginiaethol, ar eu penau eu hunain.

(4ydd.) Y peth sydd yn chwaneu pwys at hyn i gyd yw, fod y dynion syddi ddwyn y baich trwm yma, ac i ymdrechu â'r anhawsderau a'r peryglon hyn, yn gyfryw nad oes ganddynt gryfach ysgwyddau nag ereill; o blegid dynion ydynt sydd yn ddarostyngedig i'r un fath wendidau a'u brodyr. Yn awr, ai ni fyddi i hyn oll eich toddi i dosturi tuag atynt, a'ch tosturi eich anfon i weddi drostynt? A gânt hwy sefyll yn ngwyneb angeu a pherygl, lle y mae pelenau Satan yn ehedeg mor aml, a chwithau heb glywed arnoch fyned i'r boen o godi bron-glawdd o'u blaen, er eu hamddiffyn, trwy eich gweddïau?

DOSE. III.

3. Mewn golygiad arnoch eich hunain. Gall cariad atoch eich hunain ddaedleu am i chwi weddio drostynt.

1af. Ystyriwch fod y weinidogaeth yn swydd wedi ei gosod i fyny yn bennodol er eich mwyn chwi. Ni fwriadwyd mo honi erioed er dyrchafu ychydig ddynion uwch law eu brodyr, ond er gwasanaeth eich ffydd chwi. Y rhoddion a roddes Crist i ddynion (*Eph. iv. 8*—hyny yw, eu swydd a'u doniau hwynt i'w chyflawni), er adeiladaeth corph Crist y maent oll: ac ai ni weddiwch dros y rhai sydd o'r naill ben i'r flwyddyn i'r llall ar waith drosoch chwi? Pe byddai genych ond plentyn neu was ar led o ddeutu eich gorchwylion bydol, oni anfonech chwi weddi ar ei ol? Felly y gwnaeth Iacob dduwiol pan oedd ei blant yn myned ar ei neges ef i'r Aipt: "Duw Hollalluog (meddai efe) a roddo i chwi drugaredd ger bron y gwr;" *Gen. xliii. 14*. Aini wnewch chwi gymmaint a hyn dros eich gweinidog gwan—gweddio, Duw Hollalluog a elo gyd-ag ef, pan fyddo yn ei lyfrigell, i barotri, a phan fyddo yn y pulpud i draddodi yr hyn a barotôdd, ar gyfer ein heneidiau.

2il. Mae camymddygiad y gweinidog yn beryglus iawn i'r bobl; am hyny, gweddïwch drostynt rhag i chwi gael eich arwain i brofedigaeth trwy eu cwympiadau hwynt. Pechodau dysgawdwyr ydynt ddysgawdwyr pechod. Os y fammaeth fydd afiach, y mae y plentyn mewn perygl o sugno yr afiechyd oddi wrthi, am ei fod yn gorwedd wrth ei bron. Os bydd y gweinidog wedi ei lyrgu gan gyfeiliornad, peth rhyfedd fydd oni chymmer llawer o'i bobl yr haint oddi wrtho. Ac os penrhwydd a gwaradwyddus a fydd efe yn ei fuchedd, y mae yn debyg i ryw ffynnon

gyffredin, wedi ei chymysgu a'i diwyno a'r dref oll yn tynu ei dwir o honi. Y oedd y diafol yn annelu at chwaneu n Phedr, pan geisiodd genad i ymasfyd codwrn âg ef (*Luc xxii. 31*): "Simon, Simon, wel Satan a'ch ceisiodd chwi i'ch mithio. Gwyddai y byddai ei godwm ef yn debygo o godi sodlau llawer ereill. Mae arferiad gweinidog yn gwneuthur mwy o swm na athrawiaeth; y rhai a aughofiant ei bregeth hwy a gofiant ei esampl, ac a'i coffant ar ei hachlysur, i'w hesgusodi a'u hamddiffyn eu hunain: "Pedr a'i neillduodd ei hun: a' Iuddewon ereill a gydragrithiasant âg ef;" *Gal. ii. 12, 13*. Yn ddiâu, gyfeillion, nid yw eich gweinidogion ond dynion, ac o wneuthuriad dim cryfach na chwi eich hunain, ac yn rhaid iddynt ddiodesff fel dynion ereill. Od oes un yn eu plith yn ei dybio e hun yn ddiogel rhag lithro i gyfeiliornad neu syrthio i bechod, y mae hwn yn hyfach nag y rhydd un addewid o'r gair genad iddo fod. Y mae arnynt gymmaint o anger eich gweddïau a neb; a'r rhai hyny yn fwy af sydd leiaf yn ofni eu perygl.

3ydd. Wrth weddio dros y gweinidog yr ydych ar y ffordd debycaf i gael budd oddi wrth ei weinidogaeth. Enaid o'r fath fe all ddyfod mewn disgwyliad am gyfrat ar ei ddysgl; y mae ei bryd bywyd ef weddiarad am dano. Y gwestwyr hyny y rhai a anfonant i'r nef, o flaen eu dyfodiad i ordin-hâd, yw y tebycaf o gael y croesaw goreu. Yr hwn sydd yn gwrandaew pregeth, ac nid yw wedi gweddio dros y gweinidog a llwyddiant ei lafur, y mae yn eistedd wrth ei fwyd cyn gofyn bendith; y mae yn chwareu y lleidr hefyd at ei enaid ei hun, tra y mae yn ysbeilio y gweinidog o'r cynnorthwy a allasai ei weddiau ddwyn iddo o'r nef. Gwasg-wch ar y fammaeth, a chwi a nywch y plentyn: po leiaf y gweddïr dros y gweinidog, lleiaf, y mae lle i ofni, fydd budd y bobl oddi wrtho.

4ydd. Wrth weddio dros y gweinidog, nid yn unig chwi a gewch y gair a bregetho yn fwy effeithiol i chwi eich hunain, ond chwi a gyfranogwch hefyd yn y lles a wnelo ei weinidogaeth ef i ereill. Megys y mae modd i fod yn gyfranogion o bechodau rhai ereill, felly y mae hefyd o orchwylion sanctaidd ereill. Y neb a gryfha mewn modd ddwyllaw pechadur yn ei arferion drygionus, y mae yn gwneuthur ei bechod ef yn eiddo iddo ei hun; ac fe gaiff gyfranogi yn y cyflog dyledus i'r gwaith pan ddlo dydd y cyfrif. Felly yr hwn a gryfha ddwyllaw y gweinidog yn ei waith sanctaidd, pa un bynag ai trwy weddi, cefnogiad, ai cynnorthwyad iddo o'i angenion, y mae yn gyfranogwr gydag ef yn ei wasanaeth, ac ni chaiff ef adael allan yn y wobr: *Mat. x. 40*. Darllenwn yno am wobr prophwyd yn cael ei roddi i Gristionogion is o raddau. Y

rhai sydd yn dwyn cyfran gyda'r gweinidog yn ei lafur, trwy unrhyw wasanaetholrwydd ato, hwy a gânt gyfran yn y wobr. Pan ddelo Duw i wobrwyo ei brophwydi fu yn fyddlawn yn ei wasanaeth; yna caiff Obadiah, a'i cuddiodd rhag cynddaredd eu herlidwyr; yna caiff Onesiphorus, a lonodd eu hymysgaroedd; i.e. yna caiff yr holl fyddloniaid a fu yn taer weddio am rwydd-rediad yr efengyl yn eu gweinidogaeth, eu galw i gyfranogi gyda hwynt yn y wobr. Yr hwn sydd gauldo ond y bymthegfed ran o long, y mae yn berchenog, yn gystal a'r hwn sy gauldo chwane; a phan fyddo y fordaith drosodd, y mae yn derbyn ei gyfran o'r emuill yn ôl maint ei ran. O! y fath galonogiad yw hyn, bod yn meddu eiddo yn y llestr yma, i.e. ac i anturio yn fwy dwfn nag erioed wrth orsedd gras ym mhlaidd gweinidogion diystredig Crist, gan fod addewid y nef genym i'n sier-deligolledu o ran y cwbl a fwrion ar wyneb y dyfroedd yn yr achos hwn.

PENNOD III.

Lle y dangosir pa beth y mae gweinidogion fyddlawn yr efengyl yn dymuno gweddiau am dano; cynnwysiad triphlyg yn neisystad yr apostol pan y mae yn dymuno ar fod i ymadrodd gael ei roi iddo; ynghyd â rhai nodiadau byrion cddi wrth hyny.

MAE y drydedd gangen yn rhaniad cyffredinol y geiriau yn canlyn, yr hon sydd yn cynnwys y peth y mae yr apostol yn ddeisyf gan eglwys Eplesus, neu yr hyn y mae yn dymuno ar iddynt ei ofyn gan Dduw ar ei ran ef—"Fel y rhodder i mi ymadrodd."

DOSB. I.

Sylwch yma yn gyntaf, Ar ysbrydolrwydd ei ddymuniaid: nid ydych efe yn eu gosod i weddio am bethau anianol, unrhydedd neu gyfoeth y byd; na, nid yw efe gymmaint ag yn crybwyll am ei angenion a'i angenrheidiau allanol, y rhai, ac yntau yn garcharor, nid yw yn debygol ei fod yn anghydnabyddus â hwynt. Ond angenion ysbrydol yw y rhai y mae efe yn griddfan fwyaf danynt; am hyny y mae yn deisyf elusen o'u gweddiau yn hytrach na'u pyrsau.

2il. Sylwch ar berthynasrwydd cyffredin yr hyn y mae yn deisyf gweddiau am dano: "Fel y rhodder i mi ymadrodd. Nid rhagorfrant bersonol yw hon a wna'i dueddu yn unig at ei les neilldu ef ei hun; ond a'i gwna ef yn ddefyddiol i ereill; a'i haddasa ef at ei orchwyl cyhoeddus yn yr eglwys. Yma, gallwn gasglu y sylw a gaulyn:—

Mae calon gweinidog fyddlawn yn rhedeg yn fwy ar ei waith nag arno ei hun; ei ddymuniaid penaf ef sydd am allu cyflawni ei swydd weinidogaethol, yn y modd mwyaf

dyladwy. Diammheu yw fod Paul yn llefaru o helaethrwydd ei galon; yr hyn yr oedd ei galon lawnaf o hono, sydd yn dyfod allan gyntaf, a'r peth yr oedd yn fwyaf ei ofal yn ei gylch. Fel pe dywedasai, Os rhoddwch i mi ran yn eich gweddiau, bydded hyn eich deisyfiad, "Fel y rhodder i mi ymadrodd." Pa le bynag agos y cawn ef yn deisyf gweddiau, nid yw efe yn anghofio hyn—"Gweddiwch drosom, ar fod i air yr Arglwydd redeg a chael gogouedd;" 2 *The*. iii. 1. "Gan weddio drosom, ar i Dduw agor i ni ddrws ymadrodd, i adrodd dirgelwch Crist;" *Col.* iv. 3. Rhyfeddol ydyw yr ymadroddion trwy ba rai y mae y gwr sanctaidd hwn yn mynegi mor ymrwymedig oedd ei galon yng ugwaieth yr Arglwydd. Yn *Rhuf.* i. 9, y mae efe yn tystio, fod hyd yn oed ei enaid a'i ysbryd ynddo: "Yr hwn yr ydwyf yn ei wasanaethu yn efengyl ei Fab ef." Erioed ni hiraethodd neb yn fwy am ddyrchafiad yn yr eglwys nag efe am bregethu yr efengyl i'r eglwys (*adn.* 11) "Yr wyf yn hiraethu am eich gweled, fel y gallwyf gyfranu i chwi ryw ddawn ysbrydol." Y mae yn profussu ei hun yn ddyledwr i bob math o ddynion: y mae gauldo galon a thafod i bregethu i bawb oedd yn barod i'w wrandaw: "Dyledwr wyf i'r Groegiaid ac i'r Barbariaid hefyd; i'r doethion ac i'r annoethion hefyd;" *adn.* 15. I.e. parod oedd efe i bregethu yr efengyl yn Rhufain ei hunan (*adn.* 14), lle y byddai raid iddo sefyll yn safu angeu a pheryg. Hyn oedd yn meddiannu ei feddyliau, fel taflodd er ei fwyn bob neges fyddol o'i ôl. Am gyfoeth y byd, y mae yn profussu nad a'i efe ddim i grafu am dano: "nid ydwyf yn ceisio yr eiddo chwi, ond chwychwi;" 2 *Cor.* xii. 14. Yr oedd gauldo farsaniadiaeth ardderchocach yn ei olwg; gwel oedd gauldo en pregethu hwynt i Grist, na'u harian i'w bwrs. Ac am eu parch a'u cariad, er eu bod yn ddyled gyflawn iddo, etto, y mae yn eu troi o'r neilldu, ac ym mlaen yr a efe ar ei orchwyl, er na roddant hwy mo'r diolch iddo am ei boen: "Mysf yn ewyllysgar iawn a dreuliaf ac a ymdreuliaf, er fy mod yn eich caru yn helaethach, ac yn cael fy ngharu yn brinach;" *adn.* 15. Ei ddyledswydd ef atynt hwy, fe a'i gwna; a rhyngddynt hwy a'u dyledswydd hwythau ato ef. Y fammaeth a dŷn allan ei bron i'r plentyn er ei fod yn anynad, am ei bod yn edrych am ei gwobr, nid gan y plentyn, ond gan ei dad neu ei fam. Fe wobrwya Duw y gweinidog fyddlawn, er naddiolcha ei bobl iddo am ei lafur. Mewn gair, nid oedd hyd yn oed ei einioes o ddim gwerth gauldo, pan ei cydbwysid a'i orchwyl: "Ond nid wyf fi yn gwneuthur cyfrif o ddim, ac nid gwerthfawr genyf fy einioes fy hun, os gallaf orphen fy ngyrfa trwy lawenydd, a'r weinidogaeth a dderbynais i-gan yr Ar-

glwydd Iesu;" *Act. xx. 24.* Ac nid ydyw heb reswm cryf y dylai gweinidogion edrych at eu dyledswydd o flaen pob achosion tymmorol: gweision Duw ydynt, a rhaid i was edrych at ei orchwyl pa beth bynag a ddaw o hono ef ei hun. Ni fwyta'i gwas Abraham nes gorphen ei neges; ac wedi llwyddo, nid arosai efe chwaith i golli amser ar ol hyny, ond prysuro yn ol y mae yn ddiwed at ei feistr: *Gen. xxiv.* Da y dywedodd hwnw oedd ar waith yn dwyn fŷd i attal newyn yn ninas Rhufain; pan fynasai meistr y llong iddo aros am hin deg, attebodd, "Rheidiol i ni forio, nid rheidiol i ni fyw." Felly rheidiol ydyw i'r gweinidog gyflawni ei weinidogaeth; nid rheidiol ei fod yn wr o gyfoeth a bri: y mae gwerth anghymmharol eneidiau yn gyfryw ag a ddylai beri i ni anturio ein cwbl oll yn dymmorol, er dwyn ym mlaen eu tragwyddol iachawdwriaeth hwynt. Yr hwn a ennillo eneidiau sy ddoeth, er iddo golli ei fywyd ei hun yn y gwaith.

DOSE. II.

Ond deawn at ymfyniad manylach i'r geiriau, pa beth y mae yr apostol yn ei feddwl wrth ymadrodd, yr hyn y mae yn dymuno ei gael yn rhoddiad. Lle cyfattedbol i hwn a gawn yn *Col. iv. 3, 4.* A gallwn feddwl am dri pheth yng ngolwg yr apostol yn ei ddeisyfiad hwn.

1af. Wrth ymadrodd, fe allai ei fod yn golygu rhyddid i bregethu yr efengyl; ar fod ei enau heb gael ei gau gan yr erlidiwr, yr hwn yr oedd yn garcharor ganddo eisoes. Yn ganlynol, y mae yn dymuno arnynt weddio drosto, fel na chymmerid ef yn llwyr oddi wrth ar ei waith.

Sylwch (1af.) Y fath flinder trwm yw i wir weinidog yr efengyl gael ei nacau o ryddid i bregethu yr efengyl. Cyhyd ag y gallai Paul bregethu, er mai mewn cadwyn, nid llawer y mae'n ymfino; ond cau ei enau, gweled eneidiau truan ar ddarfod am danynt o eisieu y bara hwnw sy ganddo ef i'w roddi ger eu bron, a chael ei attal rhag hyny sydd yn myned at ei galon: "O gweddiwch (medd efe), fel y rhodder i mi ymadrodd." Os na chaff ef efre bregethu, ni fynai efe chwaith fyw; o blegid ar y cyfrif hwn yn unig yr oedd efe yn dymuno bywyd, sef eu cynnydd hwynt yn y ffydd;" *Phil. i. 25.* O! mor bell ydynt hwy oddi wrth feddwl Paul, i'r rhai y mae pregethu yn flinder trymach na chael eu cadw oddi wrth eu gwaith! Mor anfynech y caem weled rhai yn y pulpud, oni bai fod hyny yn ddyfeisffordd angenrheidiol i ddwyn eu hardreth i mewn yn niwedd y flwyddyn.

DOSE. III.

Sylwch yn (2il.) Mae rhyddid i'r efengyl ac i'r gweinidogion sydd yn ei chyhoeddi, yn bethau i weddio am danynt mewn modd enwedigol;—

(1.) Am fod yr efengyl yn cael ei gwirwynebu a'i chās-dduo gan Satan a'i offerynau. Pa le bynag yr agoro Duw ddrws i efengyl, yno fe gyfyd Satan ei wrthglochiau: "Agorwyd i mi ddrws mawr a grym ac y mae gwrthwynebwyr lawer;" i *Col. xvi. 2.* Cyn gynted ag yr agoro Duw ffestri ei farchnatty, y mae y diafol ar wa'i'w cau, neu rwystro rhydd-farchnadaeth efengyl. Gweision rhai ereill a gânt loyddwch i weithio yn *shop* eu meistr; o am weision Duw, y mae gan bawb ei gar i'w thafu atynt hwy wrth fyned heib. Pan ddechreuodd Paul bregethu yn The salonica, yr oedd yr holl ddinas yn ebrwy mewn cynnhwrf a therfysg: "Y rhai sy yn aflonyddu y byd a ddaethant yma hefyd;" *Act. xvii. 6.* Yn ddiau, yr oedd gwir yn dyweddiad; os caiff yr efengyl ond rhywdeh, hi a aflonydda y byd, neu a'i trydwyneb i waered—hi a wna gyfnewidiad, o un dedwydd. Hyn a w'yr y diafol; ac ar hyny y mae yn arswyddo rhag ei nesad.

(2.) Am ei bod y drugaredd werthfawrocaf y dichon Duw fendithio gwlad a h Gwyn fyd y bobl sydd yn meddu y fath rodd: efengyl y deyrnas yw hi; y mae y dyrchafu pobl hyd y nef. Gwell y galle hebgor yr haul o'i gylch na phregethiad yr efengyl o'r eglwys. Eneidiau a lent gael y ffordd i'r nef, er i'r haul fod he lewyrchu iddynt; ond heb oleuni y gwirionedd nis gallant roi cam uniawn tuag at "Rhodiwch (medd Crist), tra fyddo genych y goleuni;" *Ioan. xii. 35.* Gwaith iachawdwriaeth nis gellir ei wneuthur wrth oleu canwyll deall naturiol, ond wrth oleuni dyddadguddiad efengylaidd. Rhaid i'r haul hwn gyfodi cyn y dichon dyn fyned allan i'r gwaith hwn.

(3.) Mae yng ngallu Duw gadw rhyddid i'w efengyl a'i genadon, er gwaethaf diafol a'i offerynau; am hyny, yn ddiau y mae Paul yn eu hanfon hwynt, nid i'r llys i eriofyn ei ryddid ef, ond i'r nef. Yr oedd Nero yn garcharor mwy diogel gan Dduw, nag oedd Paul ganddo ef. "Wele, rhoddais gen dy fron ddrws agored, ac ni ddichon neb ei gau;" *Dad. iii. 8.* Yn Ephesus yr oedd gwrthwynebwyr lawer, fel y clywsom; etto, yr oedd y drws yn cael ei gadw yn agored. Crist sydd yn dwyn agoriadau drws yr eglwys wrth ei wregys: "Yr hwn sydd ganddo agoriad Dafydd; yr hwn sydd yn agoryd, ac nid yw neb yn cau;" *Dad. iii. 7.* "Ar ei ysgwydd ef y mae agoriad tŷ Dafydd;" *Esa. xxii. 22.* Tŷ Crist ydyw yr eglwys; a sier yw y ceidw y meistr agoriad ei ddrws ei hun.

(4.) Mae gan weddio nerth mawr gyda Duw at gynnal ac adferu rhyddid i'w efengyl a'i genhadon, y mae hi wedi cyrchu ei weision adref o alltudiaeth; y mae wedi eu dwyn hwynt o'u daeardd. Nis gallai y

archar ddal Pedr, pan oedd yr eglwys ar weddi drosto. Y mae wedi effeithio yn nerthol ar helynt yr eglwys pan ar y traisaf. Byd athrist ydoedd ar yr eglwys yn amser Nero, pryd y gosododd Paul ar y saint weddio dros frenhinodod a'r rhai mewn wduddurd; ac er na atebwyd y gweddiau ryny yn Nero, etto nid wyf fi yn ammheu na chwastan eu hatteb yn Constantine, ac mherawdwy'r Cristionogol ereill, dan aden renhinol pa rai y cafodd eglwys Crist ei achlesu a'i hamddiffyn.

(5.) Yn olaf, Gweddiwch am ei rhyddid; o herwydd pan elo yr efengyl ymaith, nid yn unig yr a, ond hi a ddwg ymaith eich rugareddau ereill i'w chanlyn. Tynir y rogleni i lawr, pan symmudo y brenin ei ys. Lle na chaffo y gweinidog ryddid i bregethu y gwirionedd, nid hir y caiff y bobl ryddid i'w broffesu. Pan aeth hi yn ldrwg ar Iago yr apostol, nid aeth hi yn ldrwg ar yr eglwys yn Ierusalem: *Act. xii.*, 2. Ac nid hir y gall y fath le ddisgwyl ynwynhau ei heddwch allanol; pan symmudo Duw ei efengyl, i wneuthur ffordd i waeth ymdeithio y mae hyny; fe, i'w holl blaau i farnau trymion: *Ier. vi. 8.*

DOSE. IV.

2il. Pan y mae yr apostol yn dymuno ar i ymadrodd gael ei roddi iddo, fe all fod yn neddwl, ar fod gair yn cael ei roddi iddo 'w bregethu, yn ol yr hyn a addawodd Crist *Mat. x. 19*: "Rhoddir i chwi yn yr awr hono pa beth a lefaroch." Oddi wrth hyn, gallwn sylwi,

(1af.) Nid oes gan weinidogion ddim gallu yn heiddo eu hunain i'w gwaith. O! mor dir y gallant eistedd, yn troi ac yn trosi eu lyfrau, ac yn curo eu hymenyddiau, nes y lelo Duw i'w cynnorthywo! ac yna—fel sefa Jacob, *Gen. xxvii.*—y mae yn diwyddo o'u blaen. Os Duw ni ollwng i waeredd ei gynnorthwy, yr ydym megys yn ysgrifenu â phin heb ddim inge. Os oes ar neb yn y byd angen rhodio yn ymddibynol ar Dduw yn fwy nag ereill, y gweinidog yw fe.

(2il.) Sylwch mai y rhai enwocaf am doniau a gras, sydd yn cynnwys y meddliau gwaelaf am danynt eu hunain, ac sydd yn fwyaf adnabyddus o'u hannigonolrwydd yn hunain. Paul ei hun nid yw gwilydd ganddo adael i Gristionogion wybod, os Duw ni enfyn i mewn iddo ef, nas gall efe anu allan iddynt hwy. Nis gall efe lefru gair wrthynt nes ei dderbyn oddi wrth Dduw: "Nid o herwydd ein bod yn ddiogonol o honom ein hunain i feddwl dim megys o honom ein hunain; eithr ein digonodd ni sydd o Dduw. Yr hwn hefyd a'n gwaeth ni yn weinidogion cymmhwys y Testament newydd;" *2 Cor. iii. 5, 6.* Dyna y gweinidog cymmhwys, yr hwn y mae Duw yn ei gymmhwysu.

(3ydd.) Deliwch sylw, y dichon y Cristion gwaelaf, trwy ei weddiau fyddlawn, roddi help i'r gweinidog at wneuthur ei bregeth, "Gweddiwch," medd yr apostol, "fel y rhodder i mi ymadrodd;" fel y caffwyf gan Dduw yr hyn a ddylwn draddodi i ereill. O! y fath offeryn defnyddiol ydwy Cristion erfyniol! Fe ddichon gynnorthwyo, nid yn unig ei weinidog ei hun, ond ereill hefyd, hyd yn oed dros y byd i gyd. Yr oedd Paul y pryd hyn yn Rhufain; ac y mae yn anfon am weddiau mor bell ag at y saint yn Ephesus.

DOSE. V.

3ydd. Wrth ymadrodd, fe all fod yn meddwl dawn ymadrodd; hwylyswydd a hylithrwydd i draddodi i ereill, yr hyn yr oedd yn gallu ei ddirnad yn ei feddwl ei hun, am ewyllys Duw. Y mae llawer o weision enwog Duw wedi bod yn dra theimladwy o, ac yn derfysgelyd o blegid eu hattaliaeth ymadrodd a'u hamharabledd. Yn awr, fe ddichon hyn ddeilliaw oddi wrth achos naturiol, neu oruwch-naturiol.

(1af.) Naturiol; megys, (1.) Oddi wrth ryw goll yn y peiriannau ymadrodd; yr hyn a feddwl rhai oedd achos o achwyniad Moses (*Ecsod. iv. 10*): "Ni bum wr ymadroddus; eithr safn-drwm a thafod-drwm ydwyf;" ac yr oedd yn ei ddigaloni rhag cael ei anfon ar neges Duw. Ond fe all Duw wneuthur i fyny y golled o barabledd tafod a'r nerth dwyfol a fyddo yn dilyn yr hyn a draddodir—y Moses hwn, oedd mor safn-drwm, yr oedd er hyny "yn nerthol mewn geiriau" (*Act. vii. 22*), nes oedd yn peri i galon gadarn Pharaoh grynu, er fod, ysgatfydd, attaliaeth ar ei ymadrodd. Yr oedd Duw yn wir wedi addaw bod gyda'i enau ef; etto, y mae yn debygol na ddarfu iddo symmud ei wendid naturiol ef; o blegid ni a'i cawn ar ol hyn yn achwyn o'i herwydd. Gan hyny, ni ddylai y cyfryw golliaidau naturiol beri digalondid i'r gweinidog, na rhagfarn yn y bobl, ond yn hytrach bydded efe yn fwy gofalus ar fod sylwedd yn yr hyn a draddodo; a hwythau am wrandaw yn fwy dyfal a chysson. (2.) Oddi wrth gof gwan. Y neb a fyddo yn darllen mewn argraph drwg, lle y mae llawer o lythyr-enau yn anamlwg, nis gall ddarllen yn rhigl a hwyly; ond rhaid iddo yn fynych sefyll, i ystyried beth sydd nesaf. Llyfr neu dafallen oddi mewn yw y cof, allan o ba un y mae y gweinidog yn darllen ei bregeth heb fodd i'w weled. Os bydd y nodiadau a'r myfyrodau a fyddo genym i'w traddodi, heb fod wedi eu hargraphu yn deg ar ein cof, nid rhyfedd os bydd y tafod yn fynych ar sefyll; oddi eithr i ni siarad yn ofer. Os bydd attalfa ar yr hopran, ni ddichon y felin falu; os bydd y bibell a fyddo yn porthi y ddyfr-gist wedi tagu, fe welir hyny wrth geisio gollwng dwfr o honi. Pan fydd Duw

wedi cynnorthwyo yn y llyfrgell, y mae arnom ei eisien i gryflau ein cof yn y pulpud. (3.) Oddi wrth ofn; os bydd y galon yn llesmerio, nid rhyfedd fod y tafod yn petruso. Hyn, y mae yn debygol, oedd wrth waidd esgus Ieremiah (*pen. i. 6*): "O Arglwydd Dduw, wele, ni fedraf ymadroddi; canys bachgen ydwyf fi." Hyn yw, Yr wyf yn fyr o ysbryd a chalondid gŵr, i ymdrechau a'r gwrthwynebiadau hynny a fydd yn sier o'm cyfarfod yn y gwaith. Mai hyn oedd ei wendid, a ymddengys oddi wrth y ffordd a gymmer Duw i'w iachau: "Na ddywed, Bachgen ydwyf, canys ti a'ai at y rhai oll y'th anfonwyf; Nac ofna rhag eu hwynebau hwynt: canys yr ydwyf fi gyda thi i'th waredu;" *adn. vii. 8*.

(2il.) Goruwch-naturiol, lle nad oes un o'r colliadau hyn; ond y gweinidog wedi ei lawn-addurno, ac yn y parodrydd mwyaf at ei waith; etto, os gwna Duw ond attal y ffrwd, dyna y gwaith i gyd yn sefyll. Nid yn unig "parotoad y galon," ond hefyd "ymadrodd y tafod, oddi wrth yr Arglwydd y mae;" *Diar. xvi. 1*. Duw sydd yn cadw agoriad y genau, fel agoriad y galon; ni ddaw gair allan, ond glynu rhwng y danredd a wna, oni rydd Duw iddo o'lyngdod. Efe a agorodd enau yr asyn, ac efe a gauodd ar enau y prophwyd annuwiol hwnw, ei feistr: *Num. xxii*. Clywch ef yn addef wrth Balac (*adn. 38*): "Wele, mi a ddaethym atat: gan allu a allaf fi lefaru dim yr awr hon? Y gair a osodo Duw yn fy ngenau, hwnw a lefaraf fi." Erioed ni bu dyn yn fwy awyddus nag efe i lefaru; sef yr hyn a ennillasai iddo ei gyffrog, gwobr anghyfiawnder; o blegid yr oedd yn ei garu yn anwyl; ond yr oedd Duw wedi rhwyngu ei dafod ef. Iê, hyd yn oed dynion ddiol, pan ddymnent lefaru y gwirionedd, a hyn dros Dduw, nis gallant draddodi i ereill yr hyn a fyddont wedi ei ddirnad yn eu myfyrdodau eu hunain. Am hyn y gweddia Dafydd, "Agor fy ngwefusau, a'm genau a fynegant dy foliant." Y mae Duw yn dywedyd wrth Ezeziel, y parai efe i'w "dafod llynu wrth dafod ei enau." Ni chai efe mo'u ceryddu hwynt, er iddo ddymuno hynny: *Ezec. iii. 26*.

DOSB. IV.

Defnydd 1. A yw gweinidogion yn ymdibynu ar Dduw am ymadrodd? Y mae yn hyn lais atoch chwi, fy mrodyr yng ngwaith yr Arglwydd, na wneloch ddiin a bâr i Dduw attal eich geneuau pan ddeloch i'r pulpud. Iaf. Gochelwch rhag bod unrhyw bechod yn marw-logsi yn eich myn-wesau. A eili di goelwio y bydd i Dduw dy gynnorthwyo di yn ei waith, a thithau yn gallu rhoddi benthyg dy law at waith y diafol? Onid oes le i ti yn hytrach ofni iddo grogi march-glo wrth dy enau, a'th daraw yn fud, pan elych at y gorchwyl!

Yr ydych yn cofio yr hanes am Origen, mo'dd, ar ol ei godw'n mawr, y distawyd e hvd yn oed yn y pulpud; o herwydd wrth ddarllen y gair hwnw, "Pa beth sydd i ti, fynegech ar fy neddfau, neu a gymmreel ar fy nghyfiammod yn dy enau?" *Salm l. 16* ni oddefai tystiolaeth ei gydwybod am e bechod iddo lefaru dim yn mhellach. O y mae yn athrist, pan fyddo y pregethu yn ei destyn yn taraw wrth ei bechod ei hun, ac yn rhoddi dedfryd i'w erbyn ei hun wrth ei ddarllen. Os mynit ti gael Duw i'th gynnorthwyo, bydded genyt sel, ac edifiarliâ. Pan fyddo yr udgorn wedi ei lân sychu, yna y gwna yr Ysbryd sanctaidd, t'elli obeithio, ail anadlu drwyddo.

2il. Gochel rhag dy ddyfod yn yr hyde ar dy barotoad dy hun. Y mae Duw wedi dadgan yn erbyn y rhyw hwn o falchder "Nid trwy nerth y gorellyfya gŵr;" *1 Sam. ii. 9*. Ychydig fara, gyda bendith Duw, all ddiogion lliaws; a gall darpariaeth mawr fynydd yn fuan i'r dim, oni rydd Duw ei fendith wrth ei dori. Nid bod dy bregethu y dy ben, neu nodau yn dy lyfr, a'th alluogdi i bregethu, oddi eithr i Dduw agor dy enau. Cydnebydd gan hynny Dduw yn dy holl ffyrdd, ac na phwysa ar dy ddeall dy hun. Y mae chwyddiad yn y galon yn gystal a'r yn y mur, yn myned o flaen cwmp. A ddarfau i wŷr Ephraim gyffroi yn gymmain am i Gideon ladrata buddugoliaeth heb allu am eu cynnorthwyo hwynt? *Barn. viii. 1*. Pa faint mwy y gall Duw ddiogio, pan electi i'r pulpud, heibio i'w ddrws ef, heb ofn am ei gynnorthwyo?

Defnydd 2. I'r bobl. Gochelwch rhag chwi gau geneuau eich gweinidogion. Hyn a ellwch wneuthur,

Iaf. Trwy ryfeddu eu doniau, a mawrygu eu personau; yn enwedig pan fyddo hyn yn cydfyned âg anniolchgarwch i'r Duw sydd yn eu rhoddi, pan fyddoch yn mawrygu i'r dyn, ond heb fendithio Duw am dano. Y mae gan dywysogion lygad drwg ar y deiliaid hynny sydd yn rhy boblogaidd. Ni fydd Duw yntau adael i'w greadur sefyll yn eolen, nac i'w anrhydedd gael ei golledu drwy ddyrchafiad ei offeryn. Nid boddlaw'n gau y fuan weled y plentyn yn cymmyrd at y fammaeth yn fyw nag ati hi ei hunan. O mor ynfyd ydym, nas gallwn garu heb dra serchu! na pharehu, heb addoli hefyd! Y neb a fyno gadw ei flodeu-glw'n (*possi*) yn aroglus a pheraidd, rhaid iddo aroglu, a'r roddi i lawr yn fuan; nid ei gadw yn rhy hir yn ei law nac anadlu gormod arno-dyma y ffordd i'w drybaeddu yn ebrwydd Tynu yn rhy dŷn yw y ffordd gyntaf i dori; y mae amni drugaredd deg yn cael, yn y modd yma, ei llethu a'i gwasgu i farwol aeth trwy ormod traserel, neu ymserchid yn cydfyned â bychuanu ereill—y mae doniau un yn cael ei cryio i fyny, i groi yn arall.

lawr. "Myfi wyf eiddo Paul, minnau yn eiddo Apollos." Fel hyn yr oedd disgwyblion y naill a'r llall yn mawrhau eu pregethwyr, i gynnal ymbleidiad.

2il. Chwi ellwch annoŷ Duw i attal ei gynnorthwy, drwy fod yn disgwyl y budd oddi wrth ddyu, ac nid oddi wrth Dduw, fel pe na byddai raid dim ond ymwisgo, a myned i wrandaw hwn a hwn, a dyna chwi yn sicr o gael bendith dan ei weinidogaeth ef. Y mae hyn yn tebygu i'r rhai hyny yn *Iago*, a ddywedant, "Ni a awn i gyfryw ddiinas, ac a ennillwn;" fel pe na byddai gwrandaw effeithiol yn ddim mwy na myned at y baril, a gollwng gwin neu ddiod yn eich seler eich hun. Y mae yn gvfiawn i ti gael y llestr wedi rhewi—y gweinidog wyf yn ei feddwl, wedi cyfyngu arno, a'i alluoedd wedi eu caethiwo, am dy fod yn dyfod ato ef, megys at Dduw, ac yntau ddim ond offeryn tlawd. O! na ddywed wrth y dyn, Moes i mi ras, Moes i mi gysur; fel Rahel yn gofyn plant gan ei gŵr; ond dds at dy Dduw am y rhai hyn, yn dy wrandawiad ar ddyu.

3ydd. Trwy wrthryfela yn erbyn y goleuni a fyddo yn llewyrchu arnom dan y weinidogaeth. Y mae Duw weithiau yn attal genau y gweinidog, am fod y bobl yn attal eu calonau. Pa ham y rhedai y firwd yn ddiles, ac yn ofer hyd y llawr? Crist ei hun ni wnaeth lawer o wyrthiau; ni allai efe, medd Marc (*pen. vi. 5*), yn ei wlad ei hun, o herwydd eu hanghrediniaeth hwynt. "Uniondeb Duw ni oddefai roddi y peth sanctaidd i'r cŵn," medd Bruggensis ar y lle. Cyfiawn yw i Dduw gymmeryd ymaith y weinidogaeth, neu attal genau y gweinidog, pan ddiystyro y bobl ei gynghor, ac y byddo ei air yn waradwydd ganddynt. Sicr wyf mai digalonidid trwm yw i weinidog bregethu yn hir i bobl a fyddo yn gwrthddywedyd; ac nid argoel dda iddynt hwythau. Y mae llaeth y fam yn cilio weithiau o flaen marwolaeth y plentyn. Y mae Duw yn rhwymo i fyny ysbryd ei genhadon, mewn ffordd o farn (*Ezec. iii. 26*): "Mi a wnâf i'th dafod lynu wrth dafod dy enau, a thi a wneir yn fud, ac ni byddi iddynt yn geryddwr; canys tŷ gwrthryfelgar ydynt.

PENNOD IV.

Yn dangos beth yw dirgelwch, ac ym mha ystyr-iaethau y mae yr efengyl yn gyfryw.

Y MAE y drydedd gangen yn nosbarthiad y geiriau, yn gosod ger ein bron y diben pa nam y mae yn gofyn eu gweddïau ar i ym-drodd gael ei roddi iddo; y geiriau hyn sydd yn ei egluro: "Trwy agoryd fy ugenau yn hyf i hysbysu dirgelwch yr efengyl;" a le y gallwn sylwi ar y tri pheth hyn. 1. Natur oruchel yr efengyl, "dirgelwch" yd-

yw. 2. Ym mha beth y mae gwaith gweinidog yr efengyl yn gynnwysedig, "i hysbysu dirgelwch yr efengyl." 3. Ynno y mae iddo gyflawni y gorchwyl hwn; "Trwy agoryd fy ugenau yn hyf."

1. *Sylwch.* Dirgelwch yw yr efengyl. Y mae rhai yn tynu y gair Groeg *mysterion*, oddi wrth *myeo*, dysgu rhywbeth cuddiedig, perthynol i grefydd; ereill oddi wrth *myzo* neu *myo*, cau y genau; am fod y rhai a hegwydd-orid, neu eu derbynid i fod yn bresennol, yn nefodau a dirgelion crefydd y Paganïaid, ac a elwid *mystoi*, dan waharddiad i'w dad-guddio i'r rhai oeddynt *amyetoi*, neu heb eu hegwyddori. Am hyny, yr oedd ganddynt ddelw o flaen y deml, yn dal ei bws ar ei safn, i'w dwyn ar gof, wrth fyned i mewn ac allan, am gadw yn ddirgel yr hyn a wnelid oddi mewn. Yn wir, yr oedd y dirgelion yn ei heilunaddoliadau mor fryntion a ffaidd, nad oedd dim ond eu celu a allai eu cadw rhag cael eu ffeiddio a'u casau gan y rhan fwyaf sobr o ddynolryw. Ac nid anghymmhwsys i ni graphu, yr hyn yr wyf yn cael ysgrifenydd dysgedig eisoes wedi sylwi arno: Fod Ysbryd Duw wedi gwneuthur dewisiad mor fynych o'r gair hwn, yn y Testament Newydd, i ddatgan yr athrawiaeth sanctaidd o wirionedd ac iachawdwr-iaeth a gynnwysir ynddo, ac yntau wedi cael ei gamarfer mor frwnt gan yr eilunaddolwyr paganaidd hyny. Yn sicr, y mae hyn yn dangos fod y rhai hyny yn rhy betrusgar, a farnant ei fod yn beth anghyfreithlawn arfer yr enwau, neu y pethau hyny a gafodd eu camarfer gan baganiaid neu cilunaddolwyr. Gwel esgob Saunderson, ar 1 *Tim. iii. 16*. Ond i ddychwelyd at y gair *mystery*, dirgelwch; y mae yn arferol genym, mewn iaith gyffredin, am ryw gyfrin-beth naturiol, gwladol, neu grefyddol, a fyddo yn gorwedd allan o lwybr dealltwriaethau cyffredin. Yn yr Ysgrhythrau, fe'i harferir yn fynyachaf am ddirgelion crefyddol; ac y mae yn cael ei gymmeryd mewn ystyr ddrwg a da.

1af. Mewn ystyr ddrwg (2 *The. ii. 7*): "Y mae dirgelwch yr anwiredd yn gweithio eisoes;" wrth yr hyn y meddylir cyfodiad dirgelaidd llywodraeth anghrist, oedd â'i sylfaeni wedi dechreu eu gosod hyd yn oed yn nyddiau yr apostolion. Nid yw cyfeil-iornad ond diwrnod ieuengach na gwirionedd. Pan gyntaf y cafodd yr efengyl ei phregethu gan Grist a'i apostolion, ebrwydd y gweithiodd cyfeiliornad ei llaw, i ddal gafael yn ei sawdl, a gwthio dani. Dirgelwch o ystryw ac anfadwydd ydyw holl gyfan-gorph Anghristiaeth. Y mae dirgelwch wedi ei ysgrifenu ar dalcen "Putain Babilon;" *Dad. xvii. 5*; a dyled Causabon fod yn un gair yn argraphedig ar feitr y Pab; os felly, teg ei fod yn addef ei enw ei hun: "Na ddeled fy enaid i'w cyfrinach hwynt.

2il. Mewn ystyr dda; weithiau, am ryw gangen bennodol o wirionedd efengylaidd. Fel hyn y mae gwrthodiad yr Iuddewon, a galwad y Cenhedloedd yn cael ei alw yn dirgelwch: *Rhuf.* xi. 25. Felly newidiad rhyfeddol y rhai a fyddant ar y ddaear yn niwedd y byd: 1 *Cor.* xv. 51. Hefyd enawdoliaeth, adgyfodiad, ac esgyniad Crist, ynghyd â pethau ereill: 1 *Tim.* iii. 9. Dro arall, y mae holl gorph yr efengyl, o ran yr athrawiaeth o homi, yn cael ei alw yn "dirgelwch y ffydd;" 1 *Tim.* iii. 9. O ran purdeb gorchymnion, a rheolau am fywyd sanctaidd, y mae yn ddirgelwch dau-ioddeb. O ran ei awdwr, ei destyn a'i nod, y mae yn cael ei alw yn "Dirgelwch Crist;" *Eph.* iii. 4. Fe'i dadguddiwyd ganddo ef; y mae yn traethu am dano ef, ac y mae yn arwain ato ef. Ac yn ddiweddar, mewn perthynas i'r wobwr wynfydedig y mae yn ei haddaw i bawb a'i cofleidiant yn ddiffuant, fe'i gelwir yn "dirgelwch teyrnas nefoedd;" *Marc* iv. 11. Yr efengyl hon yw y dirgelwch gogoneddus yr ydym yn awr i son am dano. Ac yn yr ail le, deurn i ddangos ym mlia ystyriaeth y mae yn ddirgelwch, neu pa ham ei gelwir felly gan Ysbryd Duw.

DOSB. II.

1af. Am mai trwy ddadguddiad dwyfol yn unig ei hadnabyddir. Y fath gyfrin ydyw, na buasai synwyr dyn byth yn ei gael allan. Y mae llawer o ddirgelion mewn natur; y rhai, trwy lawer o chwalu a chwilio a wnaethpwyd yn amlgw o'r diwedd; megys rhinwedd meddyginiaethol llysiâu, a'r cyffelyb. Ond dirgelwch yw yr efengyl, ac yn cynnwys ynddi y fath ddirgelion, ag oeddynt goruwch pob cyrhaeddiad, fel y dywed Calvin. Pa ddyw neu angel a allasai feddwl am y fath ffordd i gymmodi Duw â dyn, ag sydd yn cael ei gosod allan yn yr efengyl? Mor amhosibl a fuasai iddynt ddechymygu pa fath amcanion o gariad oedd glöedig yn nghalon Duw tuag at ddyw syrthiedig, hyd oni ddarfu iddo ei hun agor ei ddirgel gynghor ei hun? Neu, pe buasai Duw yn rhoddi iddynt ryw amnaid o'r bwriad oedd ganddo am adferiad dyn, a allasant hwy byth gymmaint a meddwl am y fath ffordd ag a ddwg yr efengyl i oleuni? Yn ddiau, megys nad oedd ond Duw a allasai lunio y ddyfais, felly nid oedd ond efe a allasai ei dwyn i'r amlgw; am hynny, y gelwir yr efengyl yn "ddadguddiad y dirgelwch, yr hwn ni soniwyd am dano er dechreuad y byd;" *Rhuf.* xvi. 25.

2il. Am fod yr efengyl, ar ol ei dadguddio, yn cynnwys gwirioneddau uwch amgyffrediad deall dynol. Y maent, i olwg rheswm, yn debyg i'r modd y mae yr haul i lygad y corph; mor dra rhagorol, fel y maent yn trechu ac yn llygad-ddallu yr amgyffred mwyaf treiddiol; y maent yn rhy oruchel i gymmeryd eu holi a'u profi gan reswm dyn-

ol. Bod tri o Bersonau yn y Duwdod, ac etto, ond un hanfod dwyfol, yr ydym yn credu, o herwydd eu bod wedi eu dadguddio; ond y neb a ehedo yn rhy agos i'r goleuni hwn, gan dybied y gall gynnwys y gwirionedd dirgeledig yma o fewn i'w reswm cul, buan y caiff brofi methiant yn ei anturiaeth hyf. Bod Duw a dyn wedi ymuno ym mheron Crist, sydd yn dra sier wedi amlygu y yr efengyl. Ond Oeh! y mae lliuyn ein dealltwriaeth ni yn rhy fyr i fesur y dyfnder mawr hwn. "Yn ddiddadl." medd yr apostol, "mawr yw dirgelwch duw oldeb; Duw a ymddangosodd yn y enawd;" 1 *Tim.* iii. 16. Y mae yn wirionedd diddadl; pawb yn ei gyffesu; etto yn fath wirionedd nas gall ein deall coes-fyr ni ei rodio. Nad oes un enw ond enw yr Iesu, "drwy'r hwn y gallwn fod yn gadwedig;" ydyw prif bwngce yr efengyl; ond pa nifer o ddirgelion sydd wedi eu plygu ynghyd yn yr un gwirionedd hwn? Pwy, wrth weled y maban Iesu yn gorwedd yn y preseb, ac wedi hynny yn cael ei fagu yn isel gan saer, ac o'r diwedd yn cael ei ddiennyddio fel drwg-weithredwr, a allasai ddechymygu—fel y dywed un—fod y fath amcan gogoneddus am iachawdwriaeth dyn yn hogian ar y fath fachar gwneiniaid? Ond pwy a feiddia ei gyfrif yn beth afresymol credu, ar dystiolaeth Duw, fod hynny yn wir, nas gallwn ei wneuthur allan trwy ein deall ein hunain? Y mae rhai pethau yr ydym yn eu dirnad trwy reswm, nas gallwn trwy un o synwyrâu y corph; megys bod yr haul yn fwy na'r ddaear, a rhai pethau a ddirnadwn trwy synwyrâu y corph, nas gallwn trwy reswm; y mae ein llygad yn gweled fod y maen tynu yn tynu haiarn ato, ac nid aur; ond pa ham y gwna felly, yno y mae rheswm yn pylu ac yn hurtio. Yn awr, os nad ydym yn amhheu gwirionedd y pethau hyn mewn natur, er fod ein synwyr—o olwg—yn cael sion yn y naill, a'n rheswm yn y llall, a fydd i ni, mewn crefydd, amhheu a ydyw hynny yn wirionedd, sydd wedi difaru o enau a phlin Duw ei hunan, am ei fod tu hwnt i'n dealltwriaeth gwan ni? "A fynit tu weled rheswm," medd Awstin, "am yr hyn oll a ddywed Duw! Edrych i'th ddeall dy hun, a thi a gei yno reswm pa ham nad wyt yu gweled rheswm."

DOSB. III.

3ydd. Mae yn ddirgelwch, o ran anamllder y rhai y dadguddir hi iddynt. Y mae dirgelion yn cael eu sisial yng nghlustiau rhy ychydig, ac nid eu cyhoedd-ddangos i bawb: "I elwi y rhoddwyd gwybod dirgelwch teyrnas Dduw;" *Marc* iv. 11. Pwy ydyw y rhai hynny, "chwi?" ond ychydig ddisgyblion oedd yn credu yn ei enw; y rhau fwyaf o'r byd oeddynt erioed yn ddeithriaid i'r dirgelwch hwn. Cyn amser Crist, nid oedd ond o fewn cylch bychan o dir, gwlad

Iudea; er y pryd hwnw, fe ddaeth ar led i'r byd cenhedledig; ac y mae wedi bod yn ymdaith yma a thraw er ys cryn ddeunaw gan mlynedd—anamled yw y rhai sydd yn gydnabyddus âg ef y dydd heddyw! Yn wir, lle y byddo ei oleu ddiaglar yn hir-dywynu, y mae llawer yn cael gwybodaeth ythyrenol a thybiol o hono—peth rhyfedd yddai fod dynion yn rhodio yn hir yn yr iaul, heb gael melynu rhywfaint ar eu rwynebau ganddo. Ond nid yw y wybodaeth ysbrydol ac achubol o'r dirgelwch hwn yn cael ei rhoddi ond i ychydig; o blegid nid yw nifer y saint ddim yn fawr, o'i gymharu â'r byd dirâs.

4ydd. Mewn perthynas i fath y bobl y nae yn fynychaf yn cael ei gyfranu iddynt —y fath ag sydd, yn ol rheswm yn annhebrcaf o dreiddio i ddim dirgelion mawrion; y rhai a ddiystyrir gan y byd doeth, a'i uchel addau, fel ysgubion gwael: "Nid llawer o rai doethion yn ol y cnawd, nid llawer o rai galluog, nid llawer o rai boneddigion, a alwyd: Eithr Duw a etholodd ffio-bethau y byd, fel y gwaradwyddai y doethion: a gwan-bethau y byd a etholodd Duw, fel y gwaradwyddai y pethau cedyru;" 1 Cor. i. 26, 27. Os bydd genym ni gyfrinach, nid ydym yn arfer dewis rhai o benau gwneiniaid i phenbylaidd i'w ddadguddio iddynt. Ond lyma ddirgelwch y mae mabanod yn ei leall, a gwyr doethion heb ei ddirnad. "I ni yr ydwyf yn diolch, O Dad, am i ti guddio y pethau hyn rhag y doethion a'r rhai deallais, a'u dadguddio o honot i rai bychain;" Mat. xi. 25. Y bobl oedd mor ddirmygus gan y Phariseaid beilchion, fel y rhai heb wybod y gyfraith (Ioan vii. 49), i'r rhai nyu yr oedd yr efengyl yn cael ei dadguddio; tra yr oeddynt hwy, doctoriaid y gadair, yn cael eu gadael yn anwybod o honi. Mynych y mae yn cael ei dadguddio i'r tlodion, a'i chuddio oddi wrth dywysogion a brenhinoedd—mynych yr â Crist heibio i balasau, i droi i mewn i'r bwth gwael. Herod, a fuasai o fanylgais cyhyd yn chwenych gwael Crist, nis gallai gael dim ganddo (Luc xxiii. 8); ond i'r druanes hono o Samaria, â'i dwfr-lestr yn ei llaw, fe ymostyngodd i roddi pregeth; do, agorodd iddi wirioneddau iachusol yr efengyl. Pilat, ar y fainge, fe gollodd Crist; a'r lleidr truan, ar y groes, a'i cafodd ef, a'r nefoedd i'w ganlyn. Gwragedd crefyddol, fe aed heibio iddynt, ac a'u gadawyd i gollu gyda'u sel ddall; tra yr oedd ywntiniaid a phublicanod yn cael eu dychwelyd ganddo.

DOB. 1V.

5ed. Y mae yn ddirgelwch, os edrychir ar y fath wybodaeth sydd ganddynt hwy eu hunain o hono.

(1af.) Nid yw eu gwybodaeth ond mewn rhan ac yn annherffaiath; y mwyafr o'r hyn a wyddant nid yw ond y rhan leiaf o'r hyn

nas gwyddant. Y mae yr efengyl yn debyg i ddarn gwyth o addurnwe wedi ei blygu i fyny; hwn y mae Duw wedi bod yn ei ddad-blygu er yr addewid gyntaf a wnaed i Adda, gan ei agor bob oes yn lletach nag o'r blaen. Ond cynt y bydd y byd ar ben nag y bydd y dirgelwch hwn yn gwbl adnabyddus. Yn wir, megys y mae afon (a dorodd allan, fe allai ar y cyntaf, o dwll ffynnon fach) yn cynnyddu ac yn ymledu fel y nesau yn agosach i'r môr; felly y mae y wybodaeth o'r dirgelwch hwn yn ymledu y naill oes yn fwy na'r llall; ac ymledu a wna etto fel y dynesa y byd i fôr tragwyddoldeb, i'r hwn y mae yn rhaid iddo ddisgyn o'r diwedd. Nid oedd yr efengyl i'w gweled ond fel ffynnon fach yn amser Adda, oedd â'i Feibl i gyd yn gynnwysedig mewn un addewid. Hyn a gynnyddodd yn aber erbyn amser Abraham; a'raber hon a chwyddodd yn afon yn nyddiau y prophwydi; ond pan ddaeth Crist yn y cnawd, yna llifodd gwybodaeth mewn grym. Dywedir fod y lleiaf dan oruchwyliath yr efengyl yn fwy na'r mwyafr cyn amser Crist. Felly mewn cymhariaeth âg amserau tywyllach y gyfraith y mae y wybodaeth sy gan Cristionogion yn bresennol yn fawr; ond o'i chymharu â'r wybodaeth a fydd ganddynt yn y nef, nid yw ond bechan megys toriad y wawr.

(2il.) Y mae yn aneglur a thywyll. Gwirioneddau efengylaidd, ni adwaenir mo honynt yn eu gogoniant a'u harddwch cynuwynol ond mewn gwisgiad gyffelybiaethol. Dywedir yn wir ein bod "â gwyneb agored yn edrych ar ogoniant yr Arglwydd;" ond etto "megys mewn drych" y mae. Yn awr, chwi a wyddoch fod y drych yn dangos i ni ddelw y gwyneb, ac nid y gwyneb ei hun; felly nid ydym yn gweled y gwirioneddau fel y maent, ond fel y dicheon ein llygaid gwneiniaid ni oddef y wybodaeth o honynt. Yn wir y mae drych yr efengyl yn eglurach nag oedd drych y gyfraith; yr ydym yn gweled gwirioneddau trwy len deneuach; y mae bedydd yn eglurach nag enwaediad, Swpper yr Arglwydd na'r Pâs; mewn gair, y Testament Newydd na'r Hen; etto, nid oes dim o'r nef wedi cael ei ddadguddio yn yr efengyl heb fod megys wedi ei gyfieithu i'n hiaith ddaearol ni, am ein bod yn analluog tra yma isod i'w ddeall yn ei iaith ei hun. Pwy a wŷr, neu a ddicheon ddirnad, pa beth yw llawenydd a chysuron y nef, fel ag i allu siarad am danynt yn eu priodoliaeth eu hunain? Ond pa beth yw gwledd, ni a wyddom; ni a ddeallwn beth yw teyrnas; gallwn ddirnad yn dda am gyfoeth a thrysorau; yn awr, y mae y nef yn cael ei gosod allan drwy y pethau hyn, sydd yn fwyaf eu bri gan feddyliau dynion yn y byd hwn. Yn y nef y mae gwledd, etto heb fwyd; cyfoeth heb arian, teyrnas heb laeswisgoedd, teyrnwialen, na choron, am ef bod

yn anfeidrol uwch na'r rhai hyn. Am hyn y dywedir, "Nid amlygwyd etto beth a fyddwn;" 1 *Ioan* iii. 2. Dichon fod genym amgyffrediaidau dynion am y rhai hyn mewn cymmuhariaeth â'r rhai oedd dan y gyfraith; etto plentynaid ydynt mewn cymmuhariaeth âg amgyffrediaidau y saint a ogoneddwyd. Am hyn, megys y dywed Paul iddo roddi heibio bethau bachgenaidd, pan y tyfodd i wybodaeth amgenach o'r efengyl, felly efe a ddywed hefyd wrthym am y wybodaeth amnherfaith oedd etto ganddo, "y dilêir yr hyn sydd o ran, pan ddole yr hyn sydd berffaith;" 1 *Cor*. xii. 10, 11.

6ed. Y mae yr efengyl yn ddirgelwch mewn golygiad ar yr effeithiau gwrthwyneb y mae yn ei gael ar galonau dynion. Llygaid rhai y mae yn eu hagar, ereill y mae yn eu dullu; a phwy mor ddeillion a'r rhai a ddallwyd gan y goleuni? Rhai, pan glywiant yr efengyl, a ddwysbigir yn eu calonau; prin y gallant oddef nes y darfyddo y bregeth heb waeddi allan, "Beth a wnawn ni, fel y byddom gadwedig?" Ereill a galedir ganddi, a'u cydwrbodau a serir i ddiuideimadrwydd mwy. Wrth bregeth Paul (*Act*. xvii) "rhai a watwasant;" ar ereill yr oedd wedi effeithio fel y gylusanant wrtho. Pa fath athrawiaeth ddirgeliaidd yw hon sydd yn gosod un i wawdio a'r llall i wlo; sydd yn arogl bywyd i rai ac o farwolaeth i ereill!

7fed. Y mae yn ddirgelwch o ran yr effeithiau gwych-ryfedd y mae yn gael ar y duwiol; a hyny mewn golygiad ar eu barnau a'u harferion hefyd. Megys y mae yr efengyl yn ddirgelwch i'w gredu, felly y mae yn eu galluogi i gredu dirgelion rhyfedd; i gredu yr hyn nid ydynt yn ei ddeall, a gobethio yr hyn nid ydynt yn ei weled; y mae yn eu galluogi i gredu fod Tri yn Un, ac Un yn Dri; fod Trindod o Bersonau yn y Duwdod, ac Undod o Hanfod; Tad dim hyn na'i Fab, a Mab dim is na'i Dad; Ysbryd Glân yn deilliaw oddi wrth y ddau, etto yn gydradd â'r ddau. Y mae yn dysgu iddynt gredu fod Crist wedi ei eni mewn amser, a'i fod hefyd o dragwyddoldeb; ddarfod ei gynnwys ym mru y wryf, ac etto nad yw uef y nefoedd yn ddigonol i'w gynnwys; ei fod yn Fab Mair ac yn Graewdwr iddi hi oedd yn fam iddo; ddarfod ei eni yn ddibechod, ac etto iddo farw yn gyfiawn am bechod. Y maent yn credu fod Duw yn gyfiawn yn cospi Crist, er ei fod yn ddimiwed; ac yn cyfiawnhau credinwyr edifeiriol er eu bod yn droseddwyr. Y maent yn credu eu bod eu hunain yn bechaduriaid mawrion, ac etto fod Duw yn eu gwled yng Nghrist heb frycheuyn na chrychui.

Drachefn, y mae yr efengyl yn ddirgelwch duwioldeb; felly y mae yn galluogi y duwiolion i weithredu pethau mor ryfedd a'r rhai y maent yn eu credu; i rodio yn ys-

bryd un arall, i weithredu trwy nerth un arall, i fyw wrth ewyllys un arall, a chyfeir at ogoniant un arall. Y maent yn byw trw Ysbryd Crist, yn gweithredu â'i nerth, y cael eu llywio gan eu hewyllys, ac yn amcan at ei ogoniant. Y mae hi yn eu gwneuthu mor addfwyn a llariaidd fel y gall plenty eu harwain at unrhyw beth a fo dda; et mor wrol na ddiehon tân a ffagodaau modychrynu i bechod; hwy a allant garu e gelynyon, ac etto er mwy Crist gallant gau au tad a mam. Hi a'u gwna yn ddiwyd y eu galwedigaeth fydol, ac ar yr un pryd h a'u galluoga hwynt i ddiystyru y cyfoeth gawsant trwy fendith Duw ar eu llafur. Y maent yn dysgu oddi wrthi fod pob peth y eiddo iddynt hwy; erhyny, ni feiddiant gymmeryd oddi ar yr annuwiol na cheiniog na chawnen trwy orthrech neu ysbaill; hi a'u gwna mor ostyngedig, fel y cyfrifant bawlo'u blaen eu hunain mewn amhydedd; a etto, i roi y fath fri ar eu cyflwr eu hunain fel na fynai y tlotaf yn eu plith newid sef yllfa â'r penadur mwyaf yn y byd. Y maent yn peri iddynt ddiolch i Dduw am iechyd ac am glefyd hefyd; i fod yn llawen pan gânt eu dyrchafu, ac mor llawen pan gânt eu darostwng; hwy a allant weddio am fywyd, ac ar yr un pryd ddymunio marw. Onid yw yr athrawiaeth hono yn ddirgelwch sydd yn llenwi bywyd y Cristion â chynnifer o ddammegion?

PENNOD V.

Y rheswm pa ham y mae yr efengyl yn cael ei dibrisio a'i herlid, ac hefyd pa ham y mae dynion anianol yn gweithio mor drwsyl mewn pethau crefyddo yn cael ei dangos oddi wrth natur oruchel gwir eiddau efengylaidd.

Defn. 1. Y MAE hyn yn rhoi rheswm pa ham y mae yr efengyl, ynghyd â'i chynnwgiion mawr, yn cael ei dibrisio a'i gwrthoeth gan y byd annuwiol. Yr achos yw, bendithion yr efengyl ydynt ddirgelwch, ac yn cael eu cynnyg yn y fath ffordd fel nad yw calonau anianol yn blasu mo honynt, nac yn ganlynol yn eu blysiu byth; er fod y pethau y mae hi yn eu cynnyg yn gyfryw ag a garent hwy yn dda ddigon, pe baent ond i'w cael mewn ffordd unol â'u hamecanion anianol hwy. Y mae yr efengyl yn cynnyg golud ac amhydedd; pwy nad yw yn neidio at y rhai hyn? Y mae yr efengyl yn agor mwnglawdd o olud anchwiliadwy, ond mewn dirgelwch; y mae yn dangos iddynt ffordd i fod yn gyfoethogion mewn ffydd, yn gyfoethogion tuag at Dduw, yn gyfoethogion i fyd arall, tra yn dlodion yn hwn. Fe aeth ein Harglwydd ynghyd â dysgu i'r gw'r ieuange yn yr efengyl y ffordd i fod yn gyfoethog, nid trwy brynu mwy o dir, ond

trwy werthu yr hyn oedd ganddo; eithr efe ni fynai ganlyn ei gynghor. Y mae yr efengyl yn cyvnyg pleserau a hyfryd gysurion, a'r rhai hyn y mae y byd anianol yn eu caru yn dda ddigon; ond Och! nid ydynt wrth fodd eu harchwaeth wael anianol trwy, am mai pleserau ydynt mewn dirgelwch; pleserau mewn galaru am bechod, a marwiau pechod, nid pleserau yn ei gyflawni; pleserau mewn cymmundeib â Christ yn ei ordinhadau, nid gyda chwlmwm o gymleithion da yn y tafarndy; pleserau i lygad ac archwaethi ffydd, nid i'r teimlad anianol, borthi eu heneidiau, nid i besgi a brasau eu boliau. Mewn gair, y mae yr efengyl yn gasgliad o olygiadau ardderchog a dewisol. Yn sicr ynte, y rhai ydynt y rhan fwyaf sobr o'r byde, gwyr anllythyrenog, ac yn caru dysgeidiaeth dda, sydd â'u heneidiau yn crefu am ymborth deallol, ac yn prisio gwerau yn fwy na gwledd, fe fydd y rhai hyn yn cael eu boddhau yn wych yn y gwirioneddau a ddwg yr efengyl i'r goleu, gan eu bod yn ddirgelion godidog, nad oes eu cyffelw b i'w cael mewn un llyfr arall. Etto, Och! ni a welwn fod yr efengyl cyn belled oddi wrth foddhau y fath â'r radd hon o ddyoni a neb rhai ereill. Pe buasai ni yn llawn o flodeu areithyddiaeth, o brofadan fferyllol, o ddychymmygion philosophaidd, neu o ddyfais reolau llywodraeth, O! mor awchus y buasant yn ei choffeidd! Ond doethineb ydyw mewn dirgelwch: "Doethineb yr ydym ni yn ei llefaru ym bysg rhai peiffaith; eithr nid doethineb y byd hwn, na thywysogion y byd hwn, y rhai sydd yn difannu; eithr doethineb Duw mewn dirgelwch;" 1 Cor. ix. 6, 7. Bradwardine, oedd yn ysgolhaig mawr, cyn ei lariaiddio gan ras yr efengyl a ddiystyrai epistolau Paul, fel yr addefodd wedi hyny, am ei fod heb ddangos cywreirwydd athronyddol ynddynt.

2il. Y mae hyn yn rhoi rheswm pa ham y mae yr efengyl a'i phroffeswyr, nid yn unig yn cael eu diystyru, ond eu casau a'u herlid. 1. Am yr efengyl, dirgelwch ydyw nad yw y byd yn ei adnabod, ac am hyny y mae yn ei wrthwynebu. Anwybodaeth yw mam erledigaeth: "O Dad, madden iddynt, canys ni wyddant pa beth y maent yn ei wreuthur." Y gelynydd mwyaf a fu gan yr efengyl erioed oeddynt, nid y rhai anfucheddol a chyhoedd halogedig, er fod y rhai hyn yn ldrwg ddigon, ond y rhai coel grefyddol a hwyll grefyddol. Dyna y bobl sy wedi dangos y ffyrnigrwydd a'r gynddaredd fwyaf yn erbyn yr efengyl. Paul a ddywed yn y bobl grefyddol oedd yn ei erlid yn greulawn: Act. xiii. 50. Neb ni bu yn fwy anbaidd yn erbyn y gwirionedd na Paul ei hun, yr hwn oedd yn Pharisead manwl, ond yn elyn gwaedlyd i Grist. Y fath achos ynte sydd genym i weddio am gyunydd gol-

euni yr efengyl! Po mwyaf yr adnabyddir yr efengyl, mwyaf caredigol y croesawir hi.

Drachefn, proffeswyr yr efengyl, pa ham y mae y fath gasineb ac enllib arnynt, ond am eu bod yn gyfrangoiou o natur ddirgel-aidd yr efengyl, ac am hyny eu gwerth heb ei adnabod? Y maent o waedoliaeth uchel, ond mewn dirgelwch; nis gellwch wybod eu hachau wrth eu magwraeth allanol, eu peisarfau, na'r ardrethion sydd ganddynt i yw arnynt, wrth ba rai y mae y byd yn barnu am fawredd personau a theuluoedd. Na, y mae eu tu allan yn wael, tra y maent o fewn yn ogoneddus; ac y mae y byd yn eu prisio wrth yr hyn a welant ac a adwaen-ant o'u tu allan, ac nid wrth eu grasau tu mewnol; y maent yn pasio trwy y byd fel tywysog a ymddieithriai yn nillad gwr tlawd, a'u croesawiad sydd gyfatebol. Pe buasai Crist yn ymddangos yn ei wisgoedd o ogoniant a mawrhydi pan oedd yma yn y byd, yn sicr nid aethai efe allan o hono trwy y fath anegu dirmygus a chrenlawn; fe fuasai y byd yn crynu wrth ei ystod droed, fel y gwelwn y gwaaeth rhai o honynt pan na ddarfau ond llewyrch o'i Dduwdod belydrn arnynt. Pe byddai y saint yn rhodio ar y ddaear yn y gwisgoedd a wisgant yn y nef, caent yna eu hofni a'u mawrygu gan y rhai sydd yn awr yn eu gwatwar a'u dirmygu. Ond megys na chawsai Duw ei fwriad i ben yn nyfodiad cyntaf Crist, pe buasai efe yn ymddangos yn y modd hwn; felly ni cha'i chwaith yn ei saint pe b'ai y byd yn eu hadnabod fel y cânt rhyw ddiwrnod. Am hyny y mae yn gweled yn dda eu gadael dan gudd ym mratiau eu tloidi a'u gwendidau ereill, fel y gall felly arfer eu grasusau dioddefus, ac hefyd gyflawni ei lid ar yr anwiliolion am eu lid i'w herbyn.

3ydd. Y mae yr efengyl yn ddirgelwch. Hyn a ddengys i ni reswm pa ham y mae dynion anianol mor drwsgl pan ânt i ymhel â phethau crefyddol; y fath anwybodaeth a ddangosant wrth geisio siarad am wirioneddau efengyllaidd! Megys hurtyn gwledig wrth frasnaddu dadleuyddiaeth neu ddadwrdd am y celfyddydau cywrair, felly hwythau am bethau nefol! Ai nid ydym yn gweled y cyfryw ag a allent roi ateb call a sylweddol mewn pethau bydol, am wirioneddau yr efengyl hwy a siaradant fel plant neu fabanod? Iê, hyd yn oed y rhai sydd ganddynt beth gwybodaeth am yr Ysgrhythrau, mor sych a difas yw eu hymddiddanion am bethau ysbrydol! Fel dammeg yng ngenau ffyliaid (*Diar.* xxvi. 7), felly hwythau yn ymosod at ryw ddyledswydd grefyddol. Gosodwch hwy i weddio, i wrandaw y gair, neu i fyfyrto ar yr hyn a glywsant, crystal fyddai i chwi roi anafu gweithiwr yn llaw yn na fu erioed o'r gelfyddyd. Nis gyddant pa fodd i'w trin; hwy a ânt yn chwithig yuglyd â'r gwaith,

ac a naddant y cwbl yn ysglodion. Y mae gan bob celfyddyd ei dirgelwch, a chrefydd uwch law celfyddydau ereill, nas gŵyr neb pa fodd i'w drin ond y rhai a ddysgwyd ynddo.

PENNOD VI.

Amryw ddyledswyddau yn cael eu gwasgu ar y saint, oddi wrth natur ddirgelaidd yr efengyl.

Defn. 2. ER annogaeth i adau fath.

Iaf. I'r saint sydd yn cael eu dysgu yn y dirgelwch hwn.

DOSE. I.

Iaf. Bydd ddiolchgar ddarfod i Dduw erioed ei ddadguddio i ti. O! pa fath drugaredd yw hon, fod genyt fywyd ac anllygr-edigaeth wedi eu dwyn i oleuni! fod dy glustiau yn clywed y fath hyfryd sain; erioed ni ddaeth y fath newyddion hyfryd i'r dref ag a ddyg yr efengyl. Y fath genedl druanaid oedd hon o'r eiddom ni cyn i ddydd yr efengyl dori arnom! Bendithia Dduw am fod dy goelbren wedi syrthio lle y mae yr haul wedi codi. Cafodd yr efengyl yn wir ei phregethu yn foreu yn y byd; fe'i clybu Adda hi yn fuan ar ol ei gwmp; etto, efengyl fer ydoedd, yn gynnwysedig i gyd mewn un addewid, a hono yn dywyll. Ond yn awr y mae y cŵn aur hwnw wedi ei guro yn Feibl cyfan, yn efengylawn llythyr, ac nid mewn cysgodau. Yr ydych chiwi yn clywed yr efengyl, nid yn cael ei phregethu mewn gwisgiad o ddefodau fel y cafodd yr Iuddeuon hi dan oruchwyliaeth blentynaid Moses, ond efengyl yn ei gwedd ei hun; tynewyd ymaith y llen-gudd oedd yn gorchuddio gwyneb bardd gwirioneddau yr efengyl. Yr ydych chiwi yn ei clywed hefyd wedi ei rhyddhau o ddwyllaw angurist, gan yr hwn y cafodd ei charcharu am oes-oedd; yr ydych yn byw, nid yn yr amserau tywyll hyny pan oedd gwirioneddau efengyl-aid yn cael eu llygru â gwael gymmysg bynciau ysgolwyr ffelgraff, a gwageddau coelgrefyddol, pan yr oedd nawy o geryg yn cael eu rhoi i dori dannedd pobl nag o fara i borthli eneidiau. Y mae pibellau yr efengyl yn awr yn rhedeg gan wiu, nid ddwywaith neu dair yn y flwyddyn, ar ryw wyliau gorwych, ond yn barhaol bob Sab-bath, yr ydych yn cael eich digonedd o'i gwirioneddau melusaf. Onid trwm a fyddai os ceid y rhai hyny yn fwy diolchgar am wawr wanaidd yr efengyl (nad oedd y pryd lwnw ond yn rhyw led ymddangos) na chwyehwi am ei chanolddydd goleu? Ie, chwyehwi, sydd yn byw i weled Haul y Cyfiawnder â'i esgyll meddyginiaethol wedi eu taennu drosoch? Ond yn enwedigol bendithia di Dduw am hyny o oleuni a bywyd

ysbrydol a dderbyniaist trwy yr efengyl. Fw-naeth Duw fwy erot yn hyn nag er mil-oedd o'th gydwladwyr, a'r rhai hyny nid y gwaelaf chwaith. Hyd y dydd hwn ni rodd-odd Duw i'th gymmydogion anianol lygad-weled, na chalonau i ddirnad y dirgelwch hwnw sydd yn cael ei agor i ti. A deli d ddiolch i'r neb a ddysgodd i ti dy gelfydd-ydd fyddol, drwy yr hon yr wyt yn enni-bywoliaeth fechan i'th gorph? O! ynte, y fath ddyled o fawl sy arnat i'th Dduw, y hwn trwy dy hyfforddi yn y dirgelwch hwr a ddysgodd i ti y ffordd i achub dy enaid. Hyfryd gan udganwyr seinio lle cânt yn atteleblais cryfaf, a hyfryd gan Dduw gyfrant ei drugaredd i'r rhai a ddadseiniant ei gloch uchaf.

DOSE. II.

2il. Dirgelwch yw yr efengyl, am hyny na orphwys yn dy gyrbaeddiadau presennol. nac o ran dy wybodaeth fel y mae hi yn ddirgelwch fydd, nac o ran dy ymarferiad fel y mae hi yn ddirgelwch duwioldeb.

(Iaf.) Nac ymorphwys yn dy wybodaeth bresennol. Y mae yn debygol y gwyddost lawer wrth yr hyn a wyddit gynt; ond ychydig a wyddost wrth yr hyn y mae i ti le i'w wybod. Rhai llyfrau fe ellir eu dysgu wrth eu darllen unwaith; ond dirgelwch yw yr efengyl a gymmer fwy nag ystod dy fywyd i'w ddeall. Y mae dirgelion yma yn amlhau; yr wyt yn cloddio lle y mae y dwf yn chwyddo fwyfyr i'th gyfarfod po pellaf yr elych. Ni ddywed Duw ei ddirgelion oll ar unwaith; ond "ychydig yma, ac ychydig acw," a dynion "a gynnwëiriant, a gwybodaeth a amlheir;" *Dan. xii. 4.* Nid mewn un porthladd y cymmer llwg y marsiaidwr ei llwyth oll i mewn, ond hi a hwylia am dano o'r naill i'r llall; ac nid ar yr un pryd, nac mewn un ordinhâd, yr ymgyfoethoga y Cristion â'r cwbl o'r trysor nefol hwn. Y neb a wir garo ddysg ni rydd mo'i ddilyniad i fyny ar ol cael ychydig o fâs wybodaeth, ond yn hytrach wedi cael y sawr i wybod mor felus yw dysgeidiaeth, efe a ddilyn mewn awydd llawnach ar ol yr hyn y mae yn fyw o hono. Y gŵr o radd mewn dysg a astudia yn ddyfalach na'r newyddian, am ei fod yn gwybod mwy am ddysg, fel ag y mae wrth hyny yn deall ei ddiffyg yn well; o herwydd po uchaf yr esgno i fryn dysgeidiaeth, helaethach o hyny yw yr olwg o'i flaen; tra y mae y llall a saif yn y gwaelod, yn meddwl y gŵyr efe y cwbl yn ei ddyrmaid bach.

(2il.) Yn dy ymarferiad, fel y mae yn ddirgelwch duwioldeb. Na fydded i ychydig ras wneuthur dy dro pan y gelli gael chwangeg. I'r perwyl hwn—1. Na chymmhara dy hun â'r rhai sy ganddynt lai na thi dy hun, ond edrych ar y rhai sy yn hell o'th flaen. Y mae edrych ar y rai is na ni yn rhoi achlysur i falchder; "Nid wyf fel y publi-

can hwn," medd y Pharisead; ond edrych ar rai amgenach na ni ein hunain a feithrin ostyngeddwrwydd, ac a fydd yn ysbardyn hefyd i ddiwydrwydd. Buddugoliaethau Miltiades ni adawent i Themistocles—oedd yn ŵr ieuange—gysgu. Felly, cynnydd rhai mewn gras, pe gwnait tithau ond eu cadw yn dy lygad, ni adawai lonyddwch i ti sydd yn llerciau mor bell ar ol hyd nes y goddi-weddit hwynt. Fe allai i ti gael gradd o fuddugoliaeth ar dy wylltneb, fel nad wyt y fath fedlemyn mewn cynddaredd a rhai; ond ai ni chlywaist y fath ŵr llariaidd oedd Moses, a allai oddef tuchanau y lliaws, fe, cenfigen ei frawd a'i chwaer, ac etto heb i'w galon gymmeryd tâu? Y mae ynot rywtaint o ymsechiad da tuag at Dduw, ond mor bell ydwynt yn fyr o awyddfryd Dafydd, calon yr hwn oedd yn rhedeg at ei Dduw cyn gynted ag yr agorai ei lygaid yn y boreu! "Pan ddeffrowyf, gyda thi yr ydwyf yn wastad." Teirgwaith, fe, seith-waith yn y dydd y molianai efe ei Dduw. Y mae genyt beth amynedd; ond a ddysgaist ti ysgrifenu ar ol copi Iob? Nid wyt yn ddiffydd; ond a wyt ti yn debyg i Abraham, yn gadarn mewn ffydd i ddilyn Duw, pan na wyddost i ba le yr arwain efe di? 2. Y gras sy genyt fe ä yn fuan yn llai, oddi eithr dy fod yn chwanegu ato. Yr wyddi ar ffrwd gyflym; os dy rwyf a gyll ei ddyrnod, dyna ti yn syrthio yn ol. Nid oes dim o'r fath beth mewn crefydd ag yw duwioldeb ar ei sefyll. Rhai dynion yn eu masnach fydol a allant ddywedyd yn niwedd y fwyddyn, nad ydynt wedi ennill na cholli. Ond uis gelli di ddywedyd hyny yn niwedd yn diwrnod; yr wyt erbyn y nos yn well neu yn waeth nag oedd ti yn y boreu. 3. Amcan yr efengyl yw rhoddi gras mewn mesurau helaeth; y mae Crist yn rhoi bywyd, a hyny yn helaethach: *Ioan* x. 10. Ac a gaiff y fynnion fod mor helaethlawn, a'n dwfrlestr ninnau mor gulfach? I ba beth y mae Duw yn agor ei law mor lydan yn yr addewid, ond i helaethu ein dymuniadau, a chryfhau ein hymgeisadau ni? 4. Po mwyaf o ras a gaffech, hawddaf fydd chwanegu ato. Y mae ysgolhaig yn cyfarfod ä dyrys-wch mwy wrth sugno yehydig ddysg ar y cychwyn, nag wrth yfed llawer mwy ar ol hyny.

DOSE. III.

3ydd. Cyd-ddygwch ä gwendidau eich gilydd. Chwi a welwch mai dirgelwch yw yr efengyl; gan hyny, na ryfeddwch am heb eu bod heb ddyfod yn ebrwydd yn feistriaid yn y gelyfddydd. Y mae Crist yn cyd-ddwyn ä gwendidau y saint; da y gallai y saint gyd-ddwyn ä'u gilydd. Mor anhyldysg oedd y disgyblion yn eu gwybodaeth! Cyhyd y buant wrth un weis cyn ei dysgu! A ydych chiwi yn awr yn credu?" meddai Crist: *Ioan* xvii. 31. Yr oedd efe wedi

goddef gyda hwynt yn hir, a mynych fyned dros yr un peth cyn iddo dreiddio i'w meddyliau. Etto, Oeh! prin y gallwn feddwl yn dda am, neu ddal cymmundeb gyda y rhai nad ydynt o'n barn ni ym mhob peth, ac nas gallant ganfod pethau mor eglur a ni ein hunain. Yn sicr yr ydym yn camgymeryd natur yr efengyl, fel pe na byddai ynddi ond pyngciau llawn anlwg. Bendigedig fyddo Duw, o ran egwyddorion angenrheidiol i iachawdwriaeth, er eu bod o natur uchel a dirgelaid, etto y maent yn anlwg ac yn sicr yn cael eu cyhoeddi yn y gair: "Yn ddiddadl, mawr yw dirgelwch duwioldeb;" 1 *Tim.* iii. 16. Y mae duwioldeb yn ddirgelwch, etto heb ddadl. Am y prif byngciau a'r ymarferiadau o hono, nid oes croesddadl yn mysg y ffyddloniaid; etto, y mae rhai pyngciau pellach oddi wrth ranau bywyd crefydd ä chylymaw ynddynt, heb fod yn hawdd eu dattod; a hyn sydd yn peri peth gwahaniaeth barn. Ond nid pob gormodedd, na diffyg, a wna anghenfil; megys chwech neu bedwar bys ar y llaw, ond gormodedd neu ddiffyg yn rhyw brif ran; felly nid yw pob camgymmeriad yn gwneuthur dyn yn anghenfil mewn crefydd. Cofiwch fod yr efengyl yn ddirgelwch, a chwi a gyd-ddygwch yn well äg anwybodaeth eich gilydd. A phan fyddo cariad unwaith wedi gostwng y llwch a gododd nwydau drwg a rhagfarn i'n llygaid, nynei a fyddwn y pryd hwnw yn sefyll mewn mantais well i gael allan y gwirionedd.

Drachefn, Cyd-ddygwch ä gwendid yn y rhan ymarferol o grefydd. Y mae duwioldeb mewn ymarferiad yn gystal ag mewn athrawiaeth, yn ddirgelwch. Nis gall y gweision i gyd mewn siop ddim gweithio yn gyffelyb; y mae rhai yn fwy trwsogl nag ereill—yn ol graddau eu doniau a'u hymarferiadau—felly nid o'r un uchder y mae pawb o'r saint. Y mae gan Crist rai plant yn ei deulu yn cael eu harwain wrth llynyau; fel y mae ganddo ereill yn cerdded yn gryffion heb y fath help. Y mae rhai yn gweithredu yn fwy oddi ar egwyddorion pur yr efengyl—cariad ac ysbryd mabwysiad—ereill etto heb wisgo ymaith eu hofnau a'u dychrynfeydd deddfol. Y mae rhai wedi dringo yn uwch i fyny i fryn ffydd, ac yn meddu eglurach golygiadau am eu cyflwr ysbrydol, ereill yn nes i'r gwaelod; a'r rhai hyn—gan nad yw eu haul ond newydd godi—yn cael eu gorchuddio ä llawer cwmwl o ofnau ac ammhewion aflonyddus. Mewn gair, y mae rhai wedi diange ym mhellach allan o'u drwg-nwydau, wedi cael mwy o feistrolaeth ar eu llygredigaethau nag ereill o'u brodyr; tosturia wrth dy frawd gwan, a chymmer ef gerfydd ei law, i'w dynu ym mlaen, ond na ddiystyra ef; dichon Duw beri iddo ef, y gwan, sefyll, a goddef i tithau syrthio. Nid yw Crist yn diffodd y llin

sydd yn mygu; pa ham y gwnaem ni? Y mae i'r Cristion gwan groesaw at ei Dad nefol, yn gystal a'r cryf; pa ham na byddai iddo felly at ei frodyr? Ond Och! y mae y ddiareb yn rhy wir yma: "Haws siarad â'r meist'r na'r gwas; a'r tad na'r plentyn: Uwch y gwas na'r meist'r." Y rhai a allant fod cyn hyfed gyda Duw, ni feiddiant fod mor eofn gyda'u cyd-weision a'u brodyr.

DOSB. IV.

4ydd. A yw yr efengyl yn ddirgelwch? Yna, Gristion, hiraetha am y nef; yno, ac yno yn unig, y llawn wybyddir y dirgelwch hwn. Y pethau mawrion a lefarwyd am yr eglwys efengylaidd, a barasant i lawer o saint a phrophwydi, cyn amser Crist, ddy-muno gweled yr amseroedd dedwydd hyny, pan roddid y fath ddadguddiedigaethau. Pa faint mwy y dylem ni hiraethu am y nef, lle y caiff y dirgelwch hwn ei lawn agor, a phob cell o'r drysorfa hon ei dadgloi; lle y mae cynnifer o dlysau gwerthfawr hyd heddyw heb eu gweled gan un sant ar y ddaear! Yna y dywedir, "Gorphenwyd dirgelwch Duw;" *Dad. x. 7.* Yma yr ydym yn derbyn ein dysg o fesur ychydig ac ychydig! yn debyg i un yn darllen llyfr fel y delo o'r wasg, o fesur y bapuren; yno ni a'i gwelwn oll ynghyd. Yma yr ydym yn cael ychydig oleu oddi wrth y bregeth yma, ac ychydig mwy oddi wrth y nesaf; ac fel hyn y mae ein hystôr yn cynnyddu, geiniog ar ol ceiniog: peth heddyw a mwy yfory; ond yno ni a gawn y cwbl ar unwaith. Yma yr ydym yn dysgu trwy lawer o boen ac anhawser, yno heb na blinder na thrafferth. Yma, y mae poethder yn dallu ein meddyliau, nes yr ydym yn camgymeredd cyfeil-iornad am wirionedd, a gwirionedd am gyfeil-iornad; ond yno bydd y cymmylau hyn wedi chwalu yn ddim. Yma, y mae gwendid doniau naturiol yn cadw llawer yn y tywyll, ac yn eu hanaddasu i ddirnadd rhai gwirioneddau y mae ereill o'u brodyr yn cael eu harwain iddynt; ond yno y cryf ni ragflaena y gwan; yr ysgolhaig a gaiff wybod cymaint a'i feistr; y bobl gymmaint a'u gweinidog. Yma y mae yr ymdaeru a'r ymyrson ym mysg y duwiol, yn gadael y gweiniad mewn ansierwydd mawr yn eu meddyliau am aml wirionedd; ond yno hwy a gydnant oll; yr hyn oedd yn gysur gan y gŵr duwiol hwnw ar ei wely angeu, ei fod yn myned i'r lle y mae Luther a Chalfin wedi ymlhedychu. Yma yr ydym yn cael ein haffonyddu ein hymofynion ar ol gwirionedd; un pryd y mae achosion rheidiol y bydd yn ein tyndu ymaith; bryd arall, eiddilledd a gwendidau ein cyrph yn ein hattal; ond yn y nef ni ofyn ein cyrph ddim o'r mabiaeth hwn; ni bydd raid i ni ddarparu na gwisg i'r cefn, na bwyd i'r bol. O angeu dedwydd, a'n hesmwythei ni o holl ddoluriau ein cyrph, a brwydrau ein hen-

eidiau! Ti yw yr unig feddyg-was, a wn yr holl saint yn iach o'u deuryw achwynior Pan ddelo yr awr wynfydedig hono, yn codwch eich penau mewn llawenydd, a herwydd eich arwain a wna i'r man dedwyddlawn hyny lle y cewch weled Crist nid draw ym mhell, nac â llygeidyn dydd trwy ysbien-ddrych ordinhâd, neu adwedid ond â llygad wedi ei ogoneddu, ei wely yn ei wir berson, ac heb golli yr olwg ar byth mwy. Nid archwaethu o'i gariad; gei mewn tamedidyn o fara sacramentaidd, a llymeidyn o win; ond gosod dy enau wrth y ffynnon, ac yfed dy lawn draflwngc o' ffynwes. Nid clywed a gei niwyach y fath le gogoneddus yw y nef—fel y byddit arfer ol o glywed ei gosod allan, trwy wael ar eithyddiaeth dyn marwol, yn pregethu i ti yr hyn nis gwyyddai efe ei hun ond ychydig am dano—ond ti a gei rodio dy hun yn heolydd y ddinas ogoneddus hono, a'th lawn feio dy hun pan fyddych yno, wrth gofio y fath feddyliau isel oedd genyt ti, a'th wein idog hefyd, am dani; pan ar y ddaear y oedditi ti yn myfyrto, ac yntau yn pregethu ar y testyn hwn. Un munedyn o olwg ar y gogoniant hwnw a ddysg i ti fwy nag a allasai byth yr holl agoriadau a'r llyfrau a ysgrifenywd am dano. Ac ai nid wyt ti etto yn llefain allan, Pa hyd y bydd, O Arglwydd sancteiddiaf a chywiraf, cyn i ti ffynw yno? Ai nid yw pob awr yn ddiwrnod, diwrnod yn fis, mis yn flwyddyn, fe, yn oes hyd nes y delo yr amser i ben? Fel y mae Bernard ar y geiriau hyny (*Ioan xvi. 16*) "Ychydig ennyd, ac ni'm gwelwch; a thra chefn ychydig ennyd, a chwi a'm gwelwch," yn tori allan yn dra chynnyrffiol, "Ar glwydd sancteiddiol! ai ychydig y gelwi d yr amser, yn yr hwn ni chaf dy weled. O! yr ychydig hwn! ychydig yn hir ydyw."

PENNOD VII.

Annogaeth i chwilio i ddirgelwch yr efengyl, ynghyd â rhai cyfarwyddiadau at hyny.

CYMMERWCH eich annog, chwychedi sydd etto yn ddiethriaid i'r dirgelwch hwn, ymofyn am wybodaeth o hono; fe, ymgeis iwech am gydnabyddiaeth gyfeillgar âg ef. I'ch cymmhell i hyny, mi a wnâf ddefnydd yn unig o'r ddwy ddaol a ganlyn.

DOSB. I.

1. Ystyriwch awdwr y dirgelwch hwn

2. Ei sylwedd cynnwysedig.

1. Ei awdwr. Rhaid fod y llyfr hwn yn werth ei ddarllen, sydd â Duw yn awdwr o hono; y mae y dirgelwch hwnw yn haeddu ein gwybyddiaeth, sydd yn darddiad o' ddoethineb a'i gariad anfeidrol ef. Y mae rhyw ogoniant dwyfol yn argraffedig at wyneb holl weithredoedd Daw; nid oes

modd fod y fath weithydd celfydd wedi gosod ei law wrth waith anwi: "Mor lliosog yw dy weithredoedd, O Arglwydd! gwnaethost hwynt oll mewn doethineb;" *Salm* civ. 24. Ond nid oes un gogoniant i'w weled ym mhob darn o'i waith ef. Yr apostol Paul a ddywed i ni, mai "arall yw gogoniant yr haul, ac arall yw gogoniant y lloer;" a bod "rhagor rhwng seren a seren mewn gogoniant;" 1 *Cor.* xv. 41. Yn awr, ym mysig holl weithredoedd Duw, da y gellir cyfrif prynedigaeth dyn yn ddarn rhagoraf. Y byd ei hun a osodwyd i fyny, i fod megys chwareu-fwrdd i *actio* arno y darn hwn o ragluniaeth; ym mha un y mae amryw ddoethineb Duw yn ymddangos mor gywraïn, fel y mae yr angylion yn manwl-chwilio iddo, ac yn ei ddyfal ryfeddu: *Eph.* iii. 10; 1 *Pedr.* i. 12. Y mae gweithredoedd Duw yn haeddu ein sylw craffus, a'r rhai hyny yn fwyaf, yn y rhai y mae efe wedi tyngu y darlun egluraf o hono ei hun. Gan hyny, y mae dirgelwch yr efengyl, uwch law pob peth arall, yn gofyn ei chwilio genym; am ei fod yn unig ddrych, yn yr hwn y mae gogoniant Duw, a gwyneb agored, i gael ei weled.

2. Ystyriwch gynnwysiad yr efengyl; sef Crist, a'r fiordd o iachawdriaeth trwyddo. Y fath ddibenion gwael ac isel sydd i bob dirgelion daearol! un i'n gwneuthur yn gyfoethogion, yn arall i'n gwneuthur yn fawr ac yn anrhydeddus; ond dim un i'n gwneuthur yn sanctaidd yma, nac yn ddedwydd oddi yma. Hyn a ddysgir yn unig trwy y wybodaeth o Grist; yr hwn sydd yn cael ei ddadguddio yn yr efengyl, ac yno yn unig. Diammheu mai dernyn gwych yn ei ryw oedd anian-draethayd Solomon, yn yr hwn yr oedd efe yn llefaru am yr holl "brenau, o'r cedrwydd hyd yr isop; am anifeiliaid, am ehediaid, am ymlusgiad, ac am bysgod;" 1 *Bren.* iv. 33; etto, y mae un ddalen o'r efengyl o anfeidrol mwy gwerth i ni nag a fuasai y llyfr mawr hwnw; i.e. yn werthfawrocach o gymmaint ag y mae gwybodaeth am Dduw yng Nghrist yn rhagori ar wybodaeth am anifeiliaid ac ehediaid. Ac y mae genym achos i'w chyfrif yn drugaredd, fod y llyfr hwn wedi ei golli, a'i ddwyn allan o'n golwg; yr hwn y buasem dueddol i'w chwilio yn fwy na'r Beibl; nid am ei fod yn well, ond yn fwy cyfaddas at ein tueddiadau naturiol ni. Ond i enaid grasol, a oleuwyd â gwybodaeth gadwedigol, nid oes un llyfr fel y Beibl. Fe gafodd Paul ei fagu yn ysgolhaig; nid oedd efe yn fyr o'r dysg hwnw sy'n glod i ddynion gan y byd: etto, cyfrifai y cwbl yn dom, ac yn fwyd eôn mewn cymmhariaeth âg ardderchogrwydd gwybodaeth Iesu Grist ei Arglwydd: *Phil.* iii. 8. Da y gallai efe ei alw yn fwyd eôn; o herwydd fe ddi-chon dyn ymborthli ar hyd ei fywyd ar ddyg dynol, a marw yn gi, mewn ystyr ys-

grythyrol, yn y diwedd. Dywediad Bon-aventure ydoedd, mai gwell ganddo ef golli ei philosophyddiaeth i gyd, nag un erthygl o'i ffydd. Ni a ddarllenwn am y rhai hyny (*Act.* xix. 19) cyn gynted ag y dychwelwyd hwynt, hwy a losgasant eu llyfrau rhodres-waith; ac nid er eu colled y bu y tro, o blegid yr oeddint wedi cael cydnabyddiaeth âg un llyfr oedd yn werth y cwbl. O'r holl greaduriaid yn y byd hwn, goleuni, goleuni yr haul yw yn ddiammheu y rhagoraf. Pe byddai llygad hwn y hyd wedi ei roddi allan, y ddaer a fyddai yn ogof, neu fedd, ym mha un y'n cleddid ni yn fyw. Pa beth oedd yr Aiphtiaid, tra buant dan y pla o dywyllwch, ond ail i gynnifer o ddynion meirwon? Yr oedd ganddynt gyfeillion, ond ni allent eu gweled; tiroedd ar led yn y wlad, ond nis gallent eu mwynhau. Yn awr, yr hyn yw yr haul i'r byd teimladol, hyny yw Crist yn yr efengyl i'r byd deallol, sef eneidiau. Heb y goleuni hwn o wybodaeth o Dduw yng ngwyneb Crist, pa beth a ddichon yr enaid ei wneuthur, neu ei fwynhau yn iawn? Y mae enaid dyn o fonedd uchel a brenhinol; o blegid Duw yw tad yr ysbrydoedd; ond y mae y teitlyn hwn yn cyfarfod â'i Dad yn y tywyllwch, ac nid yw yn ei adnabod. "Yn y byd yr oedd efe, a'r byd a wnaethpwyd trwyddo ef; a'r byd nid adnabu ef;" *Ioan.* i. 10. Ac megys y mae o fonedd uchel, felly y mae wedi ei fwriadu i ddiben ardderchog, sef i ogoneddu a mwynhau Duw ei Wneuthurwr. Yn awr, o eisieu y wybodaeth o Grist, nis gall y naill na'r llall; eithr y mae yn iselu ei hun at galed-waith pechod, a mwyniant teimladol y creadur, yn lle Duw, i'r hwn y cafodd ei greu ar y cyntaf. Yn debyg i fab rhyw frenin mawr, yr hwn, heb wybod ei achau brenhinol, sydd yn taflu ei hunan ymaith mewn priodas i ferch rhyw gardotyn. O! ynte, fel y dylem ni fawr brisio a dyfal-chwilio y dirgelwch hwn, sydd i'n dwyn i'r wir wybodaeth o Dduw, ac i'r fiordd adgaffael ein ein rhan ynddo ef, a dedwyddwch gydag ef! Yr oedd dedwyddwch dyn ar y cyntaf yn gynnwysedig yng nghariad Duw ato, a'i debygoliaeth yntau i Dduw. Y mae yr efengyl yn dangos fiordd i ddyn gael ei adferu i'r ddau. Y cyntaf, hi a'i gwna, fel y mae yn ddirgelwch ffydd drwy ddadguddio Crist a'i iawn, er ein cymmod â Duw; a'r olaf, fel y mae yn ddirgelwch dwiolddeb, ac yn offeryn a ddefnyddia Crist, yn llaw ei Ysbryd, i greu dyn o'r newydd; ac fel y mae megys y cûn i adgerfio delw Duw arno âg ef.

DOSB. II.

Ond pa fodd y gallwn ni gael ein harwain i'r wybodaeth gadwedigol o'r dirgelwch hwn?

Iaf. Na feddwl ei gaffael trwy nerth dy reswm a'th ddoniau naturiol. Nid peth i'w

ddysgu ydwy fel dirgelion ereill mewn natur, neu gelfyddydau dynol; y rhai y mae y gwŷr a'r synwyr craffaf a'r ymenydd cryfaf yn dyfod yn gyntaf i ben a hwynt. Ni ddarfuo i neb gamgymeryd mwy, na chyfeiliorni yn waeth, yn eu tybiau ynghylch gwirioneddau efengylaidd, na'r ysgolheigion mwyaf, meibion rheswm, a gwŷr clodfawr am eu doniau a'u dysg. Yr achos o hyn a all fod, mewn rhan, eu balchedd a'u hunanhyder; i'r hyn y bu Duw erioed, ac y bydd byth yn elyn. Ac hefyd am fod dirgelion yr efengyl heb gydweddu a chydfyndeg âg egwyddorion rheswm a doethineb anianol; ac felly, y mae yn digwydd fod y rhan ddoethaf o'r byd, fel eu cyfrifir, yn gyffredin wedi gwrthod egwyddorion ardderchog ffydd efengylaidd, fel y rhai ffol ac afresymol. Dywedwch wrth yr Ariad doeth, fod Crist yn Dduw a dyn mewn un person, ac efe a chwardd, fel y gwnaeth y rhai hynny ar Paul, pan soniodd efe am adgyfodiad y corph (*Act. xvii. 32*), am fod agoriad ei synwyr ef, a rhwyllau y clo hwn, heb gyfatteb i'w gilydd. Pan glywo hunan-haeddwr am gyfiawnhâd trwy ffydd, ac nid trwy weithredoedd, y mae yn methu ei lyngcu. Y mae yn beth mor ffîol i'w dyb ef, fod i ddyn gael ei gyfiawnhau trwy y cyfiawnder a weithia un arall, ag i ddyn fyw wrth y bwyd a fwyty un arall, a bod yn gynnhes wrth y dillad a wisg un arall. Dywedwch wrtho, er sancteiddied y mae wedi byw, fod yn rhaid iddo ymwadu â'i waith ei hun, a bod yn ddyledus i haeddiant un arall; a'r un peth a fyddai i chwi ei gynghori i werthu ei diroedd, a cheisio ei fywoliaeth trwy gardota wrth ddrws un arall. Ymadroddion caled yw y rhai hyn ganddynt; tramgwyddo a wna't wrthyt, a myned ymaith, neu ymgeisio am ŵyrdroi sylmrydd dadguddiad yr efengyl at eu synwyr eu hunain. Gan hyn, ymarodda i ddyfod—pan fyddych yn darllen yr efengyl—nid i ddadleu a'ith Wneuthurwr, ond i greu yr hyn y mae efe yn ei ddadguddio fel ei feddwl. Na alw ddirgeledigaethau dwyfol i gyfrif ger bron dy ddeall pŵl. Beth yw hyn ond y deilliad yn mynu bod yn farnwyr ar y brenin? Pan fyddych wedi rhoddi heibio falchedd dy reswm, yna y byddi yn addas i'ith dderbyn i ysgol Crist; ac nid cyn hyn.

Gwrthddadl. Ond a raid i ni beidio a bod yn ddynion, pan ddelom i fod yn Gristionogion?

Ateb. Na, nid peidio a bod yn ddynion yr ydym, ond peidio a bod yn ddynion beilchion, pan roddem heibio yr hyder yn ein deall ein hunain, i ymfoddloni yn noethineb a gwirionedd Duw. Y mae rhoddi cred ddiymholiad yn ffol ac afresymol, pan fyddo dyn yn ei gofyn genym; am y dichon efe dwylo, neu gael ei dwylo, yn yr hyn a ddyweddo. Ond pan fyddo Duw yn llefaru,

y mae yn bob rheswm yn y byd i ni greu bod yr hyn a ddywed efe yn wir, er na allwn amgyffred yr hyn y mae yn ei ddywed yd; o herwydd ni a wyddom nas gall efe sydd yn ddoethineb annherfynol, gael e dwylo; ac na wna efe, sydd yn wirionedd a ffyddlondeb, ein twylo ninnau.

DOSB. III.

2il. Y mae yn rhaid dy gael yn ddisgyl i Grist. Nid yw dynion yn arfer dysg estroniaid a ânt heibio i'r drws, neu a ddeuant i mewn i'w siopau ar dro, yn niregelwcl eu celfyddyd a'u galwad; ond eu gweision a'r cyfrwy ag a fyddont yn foddolawn i ymrwymo gyda hwynt. Nid yw Crist chwaith yn addaw dadguddio dirgelion ei efengyl, heb ond i'r rhai a roddant eu henau, i fod yn weision a ddisgyblion iddo. "I chwi y rhodded gwybod dirgelwch teyrnas Dduw eithr i'r rhai bydd allan, ar ddamnegion y gwneir pob peth;" *Marc iv. 11*. Pan fyddych unwaith wedi rhoddi dy law wrth ysgrifenu dy rwyddiad, Crist yn awr yw dy feistr; y mae efe yn dy gymmeryd fel un o' deulu a'i ofal; ac felly efe a edrych at dy fagwraeth a'ith ddygiad i fyny. Ond am y rhai nad oes ganddo afael ar eu calonau a'i serchiadau—hwy a ddeuant, fe allai, i'r ordinhâd, ond pan fyddo y bregeth drosodd, a ddychwelant at eu hen feistr yn ol—pechod yw eu gwaith arferol, a Satan yw eu harglwydd; a oes argeol fel hyn y dysg Crist iddynt ei gelfyddyd? Y mae dirgelwch anwiredd, a dirgelwch duwioldeb, yn anghytân—nis gellir dysgu y naill, nes dad-ddysgu y llall.

3ydd. Os mynit ti ddyysgu y dirgelwch hwn er iawn fudd, nac ymfoddlona ar wybodaeth pen o hono. Y mae gan yr efengyl olygiad ar y pen ac ar y galon, ar y deall a' ewyllys. I'r deall y mae yn ddirgelwch ffydd; i'r galon, ac o ran ei heffaith ar y fuchedd, y mae yn ddirgelwch duwioldeb. Yn awr, y ddau hyn ni ddylid eu gwahanu. "Yn dala dirgelwch y ffydd mewn cydwyl od bur;" 1 *Tim. iii. 9*. Dyma y mauna, i chrochan aur hefyd i'w gadw ynddo—gwirionedd yng nghadw mewn cydwylod bur. Fe ddichon gwybodaeth dy wneuthur yr ysgolhaig, ond nid yn saint; yn iachus o farn, ond nid yn rasol. Beth pe gallest t ysgrifenu agoriad ar yr holl Feibl, a gwrth brofi o'r Ysgrythyr yr holl gyfeiliornadau a'r heresiau a gafodd erioed eu taenu ar led pa les a fyddai hyn i ti, tra byddai dy chwantau dy hun yn dy gelwyddo, i.e. ac yn dy lwyrr-waradwyddo dithau? "Pe gwyddwn y dirgelion oll, ac heb genyf gariad ni wyf fi ddim;" 1 *Cor. xiii. 2*. Y neb a chwanea gwybodaeth, ac ni chais ras gyda' wybodaeth, a chwanea o'fid iddo ei hun, i.e. o'fid tragwyddol. Byddai yn esmwythâd gamddefnyddwyr yr efengyl yn uffern, pe gallent ddileu y cofia am dani o'u cofiadwr

iaethau, ac anghofio y gwyddent erioed am y fath wirioneddau. Gan hyny, yn dy wybuddiaeth am wirioneddau efengylaidd, ymgais yn enwedigol am y ddau beth hyn.

(1af.) Am weled dy hawl ynddynt.

(2il.) Am deimlo eu grym a'u heffeithioldeb hwynt.

DOSB. IV.

(1af.) Dy hawl ynddynt. Yn hyn y mae mër a sylwedd gwybodaeth efengylaidd. Ar ol i ti gael allan pa beth a wnaeth ac a oddefodd Crist dros bechaduriaid trauin, na orphwys heb allu dywedyd gyda Phaul, "Yr hwn a'm carodd, ac a'i dodes ei hun drosof fi;" *Gal. ii. 21.* Pan ddarllenych unrhyw addewid werthfawr, ti a ddylit ofyn i'th enaid, fel y gofynodd yr eunuch i Phylip am y lle hwnw yn *Esa.*, "Ai am danaf fi y mae yn llefaru, ai am ryw un arall?" Ai myfi yw y dyn y maddeuwyd iddo? Ai myfi yw y tlawd yn yr ysbryd y mae teyrnas nefoedd wedi ei haddaw iddo? Ai un yng Nghrist Iesu ydwyf fi, nad oes iddo ddamedigaeth? Mor anesmwyth oedd y ddau garcharor hyny (*Gen. xl.*) nes y deonglodd Ioseph eu breuddwyddion, i roddi iddynt wybod pa beth a ddigwyddai iddynt! Gair Duw a benderfyna i tithau, pa un a gaiff dy ben ei ddyrchafu i'r crogren yn uffern, ynte i lys y Brenin yn y nef. Yn awr, wrth ei ddarllen, neu glywed ei bregethu, hyn yw y peth y dylit glustfeinio am dano, ac ymofyn am ei wybod, pa le y mae yn gosod allan dy gyfrau i ti, pa un ai yn yr addewid, ai yn y bygythiad. Dyna wledd felus yn cael son am dani yn yr efengyl; ond a wyf fi yn un o westryw Crist a gânt eistedd wrthi? Y mae trigfanau wedi eu paratoi yn y nef; ond a allaf fi gael, fod un wedi ei gymmeryd i mi yno?

(2il.) Ymgais am brofiad ynot dy hun o rym ac effeithioldeb gwirioneddau yr efengyl. Pan fwytaodd ein rhieni cyntaf y firwyth annedwydd hwnw a fu yn wenwyn iddynt, ac i holl ddynol-ryw ynddynt, dywedir iddynt "wybod eu bod yn noethion." Diammheu y gwyddent hyny o'r blaen; ond yn awr hwy a'i gwyddent gyda chywilydd; hwy a'i gwybuant, ac a ymofynasant am wisgoedd i'w gorchuddio—pethau nad oedd arnynt o'r blaen eu heisieu. Nid wyf fi ddim ond bwrw cyffelybrwydd at y lle. Y mae llawer yn gwybod pa beth yw pechod; ond heb wybodaeth enaid-deimladol; hwy a wyddant eu bod yn noethion, ond nid oes arnynt gywilydd o'u noethni; nid ydynt yn gwled dim eisieu o gyfiawnder Crist i'w cuddio, ac o'i ras i'w meddyginiaethlu. Llauer a wyddant fod Crist wedi marw, ac am ba beth y bu efe farw; etto, nid yw marwolaeth Crist ond gwirionedd marw iddynt hwy; nid yw yn peri marwolaeth eu chwantau, a fu yn farwolaeth iddo ef. Hwy a wyddant ei gyfodi; ond gor-

wedd y maent eu hunain er hyn, yn braenu ym medd eu llygredigaethau. Hwy a wyddant ddarvoud i Crist esgyn i'r nef, ond nid yw hyn yn tynu eu heneidiau hwy ar ei ol. Rhyw philosophydd, pan ofynwyd iddo, pa beth a gawsai efe wrth ei philosophyddiaeth, a atebodd, "Hi a ddysgodd i mi ddiystyru yr hyn y mae ereill yn ei fawrygu, a goddef yr hyn y mae ereill yn methu ei oddef." Pe gofynid, Pa beth a gefaist tithau wrth wybod dirgelwch yr efengyl? Yn ddiau, ni ellit roddi cyfrif addas o'th gydnabyddiaeth â hi oddi eithr i ti allu dywedyd, Mi a ddysgais gredu yr hyn ni allasai cig a gwaed byth ei ddsygu i mi, a gwneuthur yr hyn ni ellais erioed, hyd oni chefais gydnabyddiaeth â'i gwirioneddau nefol hi. Hyn yw gwybod y gwirionedd, "megys y mae yn yr Iesu;" *Eph. iv. 21.* Pe byddai gŵr claf wedi yfed rhyw ddiod, yr hon, os hi a weithia, a achub ei fywyd ef; os amgen, a fydd yn sic yn angu iddo. O! mor anesmwyth a fyddai efe, nes gwybod pa effaith a gâi hi arno! Pa foddion na ddefnyddiai efe i beri iddi weithio? Os ni weithia gwirioneddau yr efengyl yn effeithiol arnat ti, er dy adnewyddiad a'th sancteiddiad, dyn colledig ydwyt; yn ddiammheu hwy a fyddant yn arogl marwolaeth i ti. O! ynte, pa fodd y gelli di fod yn esmwyth, nes eu profi yn newid dy galon, ac yn tebygoli dy fuchedd i'w naturiaeth nefol eu hunain? Fel hyn yr oedd Paul yn ymgaisio am adnabod grym adgyfodiad Crist yn ei fywiocau ef i fywyd sanctaidd yma; heb yr hyn nis gallai efe gyrrhaedd adgyfodiad llawen yn ol hyn: *Phil. iii. 10, 11.* Y mae yr efengyl yn ddrych; ond nid tebyg i'r drychau y gwelwn ein hwynebau naturiol ynddynt; dangos yn unig pa fath yw ein hwynebryd a wna y rhai hyny, a'i adael fel ag yr oedd; ond hi a wir-newidia wedd yr enaid, o goniant i ogoniant: *2 Cor. iii. 18.*

PENNOD VIII.

Yn dangos mai dyledswydd y gweinidog yw gwneuthur yr efengyl yn gyhoedd: a pha ham; ynghyd âg atebion i rai gofyniadau yn ei chylch.

Y MAE natur oruchel yr efengyl wedi cael ei gosod allan; dirgelwch ydyw. Yr ail gaingc yn y geiriau sydd yn awr yn canlyn; sef, yr hyn sydd yn ddyledswydd ar y gweinidog mewn perthynas i'r efengyl; a hyny yw hysbysu a chyhoeddi y dirgelwch hwn i feibion dynion; yn y geiriau hyn, "I hysbysu dirgelwch yr efengyl." Yma y mae gwaith y gweinidog yn cael ei osod allan. Y mae efe gyda'r eglurder a'r amlgyrwydd mwyaf ag y byddo modd i'w harfer, i agor y dirgelwch hwn, a'i arddangos ger bron y bobl. Crafiwch, yr efengyl yw ei destyn;

a'i hysbysu yw ei ddyledswydd. Dyna fel y mae gwarant-lythyr y gweinidog yn cerdded: "Ewch i'r holl fyd, a phregethwech yr efengyl i bob creadur;" *Marc xvi. 15.* Ni a glywn bobl weithiau yn dywedyd, Y mae y pregethr yn myned heibio i'w destyn; ond nid yw efe yn myned heibio i'w neges, os yr efengyl fydd ganddo yn ei chyhoeddi. Pa beth bynag yw ei destyn, hyn a ddylai fod ei ancan. Ei orchwyl gorchymynedig yw hysbysu am yr efengyl; felly, os traddoda efe yr hyn nid yw yn tueddu at hyn, y mae yn gadael ei hyfforddiadau. Nid oes dim ond y pregethiad o'r efengyl a ddichon ateb i'r diben, er mwyn pa un yr ordeiniwyd gweinidogaeth yr efengyl; a hwnw yw iachawdwriaeth eneidiau. "O herwydd yn noethlineb Duw, nad adnabu y byd trwy ddoethineb mo Dduw, fe welodd Duw yn dda trwy ffolineb pregethu gadw y rhai sydd yn credu;" *1 Cor. i. 21.* Yr oedd llyfr mawr y greadigaeth wedi bod ddigon o hyd yn agored o flaen llygad y byd; etto, byth nis medrent ddyfod i'r wybodaeth gadwedigol o Dduw, er yr holl ddoethineb ddwyfol sydd ysgrifenedig â bys Duw yn mhob tu dalen o hono. Am hyny, gwelodd Duw yn dda anfon ei weision, fel, trwy bregethiad yr efengyl, y dygid eneidiau truan i greu yug Nghrist, a thrwy greu i gael eu cadw. Nid oes un athrawiaeth ond yr efengyl a ddichon gadw enaid; na'r efengyl hithau, oddi eithr ei hysbysu.

DOSE. I.

1. Nid oes un athrawiaeth ond yr efengyl a ddichon gadw enaid. Dichon Galen eich dysgu i gadw eich iechyd, os chwí a ddilynwch ei reolau. Littleton, ac ysgrifenywyr cyfreithiol ereill, a ddysgant i chwí y modd i gadw eich tiroedd. Plato a'i frodyr philosophaidd a ddysgant i chwí pa fodd i gadw eich gair da ym mysg dynion, trwy fuchedd weddaidd a diniwed. Eu hathrawiaeth a all fod yn foddion i'ch cadw rhag llawer o bechodau bryntion a hyllion, trwy yr hyn y gellwch ennill clod gan eich cymmydigion ar y ddaear, ac fe allai gael llai dialeddau yn uffern: lle y mae Fabricus a'i fath, yn cael oerach lle na Chataline dra ysgeler, a'i gyflylyb. Ond yr efengyl yn unig a ddichon ddangos i chwí y ffordd i gadw eich eneidiau rhag uffern, a'u dwyn i'r nef. Ond i ba beth y soniaf am y rhai hyn? Nid oes gan ddeddf Duw ei hun—y foesol wyf yn feddwl—ddim modd i'ch achub. Ni fuasai Duw byth yn myned i'r fath draul ddirfawr, trwy dywalltiad gwaed ei fab, i osod i fyny ddeddf arall, sef deddf ffydd, pe buasai hono yn ateb i'r perwyl: "Canys os o'r ddeddf y mae cyfiawnder;" i.e. neu y dichon fod, "yna y bu Crist farw yn ofer;" *Gal. ii. 21.*

Gof. Pa ham ynte y mae gweinidogion yn pregethu y ddeddf?

At. Os ydynt yn ei phregethu fel y dylent, y maent yn ei phregethu mewn gwasanaeth-olrwydd, nid mewn gwrthwynebrwydd i'r efengyl. Y neb a wŷr pa fodd i iawn waliaethu rhwng y ddeddf a'r efengyl, diolched i Dduw, a gwybydded ei fod yn ddlwinydd yn wir. Rhaid i ni ei phregethu fel rheol, nid fel cyfammod bywyd. Sanct-eiddrwydd, o ran ei ddefnydd a'i sylwedd, yr un yw ag ydoedd erioedd. Nid yw yr efengyl yn diddymu y gyfraith yn yr ystyr-iaeth hon; ond yn rhoddi mawr gryfhâd i'w holl orchymynion hi. Drachefn, Nyni a allwn ac a ddylem bregethu y gyfraith, fel y moddion rheidiol i yru eneidiau allan o honynt eu humain at Grist yn yr efengyl. Yr efengyl yw y rhwyd, yu yr hon y mae i ni ddal eneidiau, a'u tynu allan o ddyfnder eu cyflwr truenus. Ond pa fodd y cawn ni hwynt i mewn iddi? Byth, oddi eithr i ni yn gyntaf guro yr afon â phastynau y gyfraith—ei bygythion wyf yn feddwl. Y mae pechaduriaid yn eu chwantau, fel pysgod yn eu llochesau; nid oes dim cael arnynt allan, ond trwy ddwys bwyo eu cydwybodau â bygythion y ddeddf: "Y ddeddf a ddaeth i mewn fel yr amlhâi camwedd;" *Rhuf. v. 20;* sef yu y gydwybod trwy argyhoeddiad, nid yn y fuchedd trwy weithrediad ac ymarferiad. Y mae y ddeddf yn dangos pa beth sydd yn bechod, ac hefyd pa beth ydyw pechod; fy meddwl yw, y mae hi yn mynegi pan fyddom yn gwneuthur pechod, ac hefyd pa fath beth adgas ac enbydus ydym yn ei wneuthur wrth bechu; y modd yr ydym yn cyffroi Duw, ac yn ei dynu i'r maes i'n herbryn â'i holl rym. Yn awr, y mae hyn yn anghurheidiol, i barotoi ffordd tuag at i'r pechadur groesawu yr efengyl. Rhaid i'r nodwydd fyned i mewn o flaen yr edau y gwniir y brethyn â hi. Rhaid i lyn-flaen y gyfraith bigo y gydwybod, cyn y tynir y pechadur, âg addewidion yr efengyl, at Grist. Nid yw y maes yn addas i dafu yr hâd iddo, nes i'r aradr ei ddryllio; na chalon dyn chwaith yn barod i dderbyn trugaredd yr efengyl, nes ei dryllio gan ddychrynfeydd y gyfraith.

DOSB. II.

2il. Nid yw yr efengyl ei hun yn achub, oddi eithr ei bod yu adnabyddus: "Os cuddiedig yw ein hefengyl ni, yn y rhai colledig y mae yn guddiedig;" *2 Cor. iv. 3.* Lle nad yw Duw yn anfon goleu, nid yw efe yno yn bwriadu cariad. Mewn clefydau corphorol, dichon y meddyg lwyddo er iachâd, er nad yw y claf yn gwybod pa gyfferiau y mae yn eu harfer; ond rhaid i'r enaid adnabod ei feddyginiaeth, cyn y gallo gael dim lles meddyginiaethol oddi wrthi. Yn *Luc i. 77,* y mae loan yn cael ei anfon i roddi "gwybodaeth iachawdwriaeth, er maddeuant pechodau." Dim gwybodaeth, dim maddeuant. Rhaid dyrchafu Crist ar

drostan yr efengyl, yn gystal ag ar ben y groes; fel y gallom ni, â llygad ffydd, gael golwg arno, ac felly ein gwneuthur yn iach (*Ioan* iii. 24): "Trowch eich wynebau ataf fi, fel y'ch achuber;" *Esa*. xlv. 22. Dyn, â'i olwg ganddo, fel all arwain dyn arall, dall o ran ei gorph, i'r lle y dymunai efe fyned; ond y neb a chwennycho fyned i'r nef, rhaid iddo gael llygad yn ei ben ei hun, i weled ei ffordd, neu ynte byth ni ddaw efe yno. "Y cyflawn a fydd byw trwy ffydd" (*Hab*. ii. 4), nid trwy ffydd un arall—ffydd fenthyceiol sy ffydd anfuddiol. Yn awr, y mae ffydd gadwedigol yn ras sydd yn canfod ei wrth-ddrych; y mae yn sierwydd y "pethau nid ydys yn eu gweled" (*Heb*. xi. 1); hyny yw, nad ydys yn eu gweled â llygad y corph. "Mi a wn," medd Paul, "i bwy y credais;" 2 *Tim*. i. 12. Am hyn y mae ffydd yn cael ei mynych-bennodi yn wybodaeth neu adnabyddiaeth: "Hyn yw y bywyd tragwyddol; iddynt dy adnabod di yr unig wir Dduw a'r hwn a anfonast ti, Iesu Grist;" *Ioan* xvii. 3. Yn awr, pa fodd y gellir adnabod Crist a bywyd tragwyddol, nes y byddo yr efengyl yn adnabyddus, sydd yn ei ddwyn ef, a bywyd trwyddo, i oleuni? 2 *Tim*. i. 10. A pha fodd y gwneir yr efengyl yn adnabyddus, os nad trwy ei gweinidogion? Mor bell a hyn y mae yr apostol yn gyru yr hoel: "Pa fodd y galwant ar yr hwn ni chredasant ynddo; a pha fodd y credant yn yr hwn ni chlywsant am dano? a pha fodd y clywiant heb bregethwr?" *Rhuf*. x. 14. Felly y mae hyn o orchwyl mawr yn gorwedd wrth ddrys y gweinidog; y mae arno ef hysbysu dirgelwech yr efengyl.

Gwrth. Ond pa achos pregethu sydd yr awr hon? Gwaith oedd hwn i'r rhai oedd i blanu eglwys. Y mae yr eglwys yn awr wedi ei phlanu, a'r efengyl wedi cael ei hysbysu; gellir hebgor y llafur hwn.

At. Nid at blanu yr efengyl yn unig y bwriadwyd gweinidogaeth yr efengyl; ond i ddwyn ym mlaen ei thyfiant hefyd. Wedi i Paul blanu, y mae Apolos yn dyfod ac yn dyfrhau â'i weinidogaeth yntau: 1 *Cor*. iii. 16. Ar ol i'r sylfaen gael ei gosod, ai nid rheidiol adeiladu y tŷ? ac i hyn y rhoddodd Crist weinidogion i'w eglwys: "I berffethio y saint i waith y weinidogaeth, i adeilad corph Crist;" *Eph*. iv. 12. Nid yw yr adeil-glywd i'w thynu i lawr, nes y byddo yr adeilad wedi ei orphen; ond yn hytrach y mae i gael ei chodi uwch, uwch, fel yr elo yr adeilad i fyny. Y modd hwn yr aeth yr apostol ym mlaen yn ei weinidogaeth, o byngciau is at rai uwch, o wirioneddau sylfaenol at rai goruwch-adeiladol: *Heb*. vi. 6. Yr oedd eglwys enwog wedi ei phlanu yn Thessalonica; etto, yr oedd rhyw ddiffygion ar eu ffydd, y rhai yr oedd Paul yn hiraethu am ddyfod i'w chyflawni: 1 *Thes*. iii. 10. Yn sier, y mae y rhai sydd yn tybio

yr angen cyn lleied am bregethu, yn anghofio mai dirgelwech yw yr efengyl, a chyfryw ddirgelwech nad ellir byth ei draethu yn gyflawn gan y gweinidog, na'i ddsygu gan y bobl. Nid ydynt chwaith yn ystyried cynuifer o geibwyr sydd gan Satan ar waith yn barhaus i gloddio dan yr efengyl, fel ag y mae hi yn ddirgelwech ffydd, ac yn ddirgelwech duwioldeb hefyd. Onid oes ganddo ei hâd-werthwyr, sydd yn wastadol yn taenu ar led athrawiaeth lygredig? Yn sier, ynte, y mae achos i'r gweinidog ffyddlawn ragod eu bwriadau, trwy hysbysu y gwirionedd, fel na byddo ei bobl yn fyr o lysieuyn meddygol i'w cryflau yn erbyn eu gweunwyn hwynt. Ai nid oes llygredigaethau o fewn i fynwesau y rhai goreu, a themtasiynau beunyddiol oddi wrth Satan a'r byd, i dynu y rhai hyn allan, fel y maent yn wastadol mewn perygl, ac yn fynych yn cael eu maeddu yn dost? Mewn gair, onid yw gras yn blanedig mewn tir oerlyd, ac yn rhaid iddo fod wrth faeth o weinidogaeth yr efengyl? Onid ydynt yn gweled fod yr hyn a geffir ar un Sabbath trwy bregethiad y gair, yn cael ei drwm-nychu, os nad ei golli erbyn y nesaf? Yn ddiâu, y mae ein calonau yn debyg i dir teneu, sy rhaid iddo gael cawod yn dra mynych, onid e, y mae yr ŷd arno yn melynau ac yn gwywo. O! i'r fath rosydd diffrwyth y dirywiai yn fuan yr eglwysi mwyafl blodeuog, oni bai fod y cymnyllau hyn yn defnyu arnynt! Y Cristionogion at ba rai yr oedd Pedr yn ysgrifenu, oeddynt o radd uchel, nid newyddianod; ond rhai wedi eu selio a'u gwreiddio yn y ffydd; etto, er hyn, parhau oedd raid i'r apostol yn ei lafur. "Nid esgeulusaf eich coffau bob amser yn y pethau hyn, er eich bod yn eu gwybod, ac wedi eich sierhau yn y gwirionedd presennol;" 2 *Pedr* i. 12.

DOSE. III.

Defnydd Iaf. I'r gweinidogion—er cerydd i rai, ac er calonogiad i ereill. Y mae yn ceryddu,

(Iaf.) Y pregethwr gwag-ogoneddgar, sydd, yn lle hysbysu dirgelwech yr efengyl, yn dringo y pulpud ar y neges o'i ddangos ei hun; sydd yn chwythu i fyny ei bregeth—fel rhai cigyddion eu cig—â rhyw wychder gwyntog o ymadroddion, ac yn llumio ei ymddiddan yn hytrach i ogleisio eu clustiau, nag i lesau eu heneidiau; ac am eu hanfon adref danganmawl y pregethwr am ei ffraethder a'i ddoniau, yn hytrach na than fawrygu Crist am ei ragoroldeb a chyfoeth ei ras. Y modd hwn, ysywaeth, y mae llawer, a ddyfent fod yn oruchwylwyr dros Crist, yn chwareu y marsiandwyr dros eu bri eu hunain. Y maent wedi eu hanfon i garu encidiau dros Crist; a dywedyd y maent hwythau un gair drosto ef, a dau drostynt eu hunain. Y mae hyn yn ddrygioni mawr, yr hwn y mae Paul dduwiol yn ymlanhau o

hono: "Nid mewn rith gybydd-dod, Duw yn dyst; nac yn ceisio moliant gan ddyinion;" 1 *The*. ii. 5, 6. O! mor anfynech y dychwelir dynion trwy y fath bregethau! Yr ymhonwyr gwag-ogoneddgar hyn, hwy allant fod fel Rahel, yn deg; ond y mae eu gweinidogaeth yn debygol i fod yn ddi-frwyth.

(2il.) Pregethwyr aneglur, nad ydynt yn gwneuthur dirgelion yr efengyl yn hysbys, ond yn gosod llen dros y gwirioneddau a fyddo yn eglur ynddynt eu hunain, trwy eu hymddiddanion dyryslad a thywyll arnynt. Hyn oedd aſwydd yr ysgolwyr gynt, oedd yn annhrefnu ac yn gerwino gwirioneddau rhwyddaf yr efengyl a'u gofynion dyryslanwl a'u hymadroddion caledion; y rhai, yn angen, a allides eu dirnad gan ddealltwriaeth cyffredin. Yr hyn a ddywedir am rai esbonwyr, fod y manau a drinasant yn eglur nes eu hesbonio ganddynt hwy—gellir ei ddywedyd am rai pregethwyr; yr oedd eu testyn yn eglur nes darfu i'w hymddiddan aneglur hwynt ei dywyllu. Pa gam mwy a ddichon pregethwr wneuthur a'i wrandawyr na hyn? Y mae ar y pregethwr agor yr Ysgrhythrau; ond y mae y rhai hyn yn rhoddi yr agoriad y ffordd wrthwyneb, ac yn eu cloi i fyny rhaeg eu gwybyddiaeth. Y maent i ddal drych yr efengyl o flaen eu pobl, fel y gallont weled pa fodd i wisgo eu heneidiau, fel priodas-ferch erbyn dyfodiad ei phriod. Ond ar ol iddynt hwy anadlu ar eu testyn, dyna dywyllni arno, fel nas gallant weled eu hwyneb ynddo. Nid y dwfr dyfnaf ydwy hwnw sydd yn dewaf a mwyaf lleidiog; ac felly nid y bregeth fwyaf dyfuddwys ei sylwedd yw hono a draethir mewn ymadrodd tywyll ac anamlwg. Nyni a'i cyfrifwn yn anaf mewn llafar, pan fyddo dywedyd dyn heb fod yn groyw-eglor; nis gwn ynte pa fodd y doed i'w gyfrif yn rhinwedd i ni fod yn aneglur yng ngosodiad allan ein meddyliau. Po dyfnaf a llawnaf a fyddo y cerddiau y sel, amlycaf a fydd yr argraph a wna hi ar y cŵyr; po cyflawnaf y byddo dyn yn deall peth, goreu y gall ei draddodi yn ddealladwy ger bron ereill. Megys y mae llefariad bloeg toredig yn deilliaw oddi wrth attalfa yn y peirianau ymadrodd; felly y mae adroddiad tywyll a dieglur o'n meddyliau yn brawf o goll yn ein hamgyffrediaid; oddi eithr ei fod yn tarddu o hunan-ymgais am ehedfan yn ein hymadroddion y mhell uwch law cyrhaeddiad dealltwriaethau cyffredin; ac y mae hyn yn waethaf o'r cwbl.

(3ydd.) Pregethwyr moesau yn unig—ffrwd pregethiad pa rai nid yw yn rhedeg mewn llwybr efengylaidd. Dyledsdyddau moesol a gymhellant; a pechodau yn erbyn y ddeddf foesol a oganant. (Ni feiddiaf finnau chwaith eu beio am hyny; nid yw credo y Cristion yn ddirymu y gorchlymyn-

ion. Y rhan fwyaf o un o bregethau cyntaf ein Hiachawddwr a dreuliodd yn cymhell dyledsdyddau moesol: *Mat.* v. Ac erioed ni bu mwy o angen gyru yr hoel hon i'r pen nag yn ein dyddiau ni, pan y mae Cristionogaeth wedi cael y fath archoll ar ei bri, trwy ymddygiad anfoesol llawer o'i phroffeswyr.) Ond yr wyf yn annelu fy ngherydd atynt am hyn; nad ydynt yn pregethu y ddeddf mewn modd efengylaidd, nac yn gwneuthur hyny yn brif ddiben eu gweinidogaeth, yr hyn y derbyniasant eu swydd i'w gyflawni; a hyny yw, i hysbysu dirgelwch yr efengyl: "I efengylu anchwiljadwy olud Crist ac i egluro i'w bawb beth yw cyndeithas y dirgelwch, yr hwn oedd guddiedig o ddechreuad y byd yn Nuw, yr hwn a greodd bob peth trwy Iesu Grist;" *Eph.* iii. 8, 9. A barodd hyny i'r hen dad ddibrisio llyfrau Cicero, er ei fod, oni bai hyny, yn eu mawrygu am eu ffrathineb, yn unig am eu bod heb eu perarogli âg enw hyfryd Iesu Grist? yn sicr ynte, y mae yn ddiwiniad trwm ar waith a phregethau y rhai hyny, nad ydynt yn dadguddio nemawr o Grist a dirgelwch yr efengyl trwy holl ystod eu gweinidogaeth. Y mae y wae yn cael ei dadgan, nid yn unig yn erbyn y gweinidog nad yw yn pregethu, ond yn erbyn hwnw hefyd nad yw yn pregethu yr efengyl: "Gwae fydd i mi, oni phregethau yr efengyl;" 1 *Cor.* ix. 16. Gwers o foes-ddysg, nis gwna ddyinion yn ddoeth i iachawdwriaeth. Da fyddai pe gellit bregethu dy gymmydog meddw yn sobr, a'r afradlawn yn gymmedrol; ond nid yw hyn ddim mwy nag a wnaeth Plato i'w gâr Ptolemy. Dychon hyn eu troi yn ddyinion, oedd o'r blaen yn anifeiliaid; ond rhaid i ti eu cael i fod yn saint, yn adanedigion, eu pregethu allan o honynt eu hunain, yn gystal ag allan o'u harferion bryntion; oddi wrth ymddiried yn eu cyflawnder, yn gystal ag oddi wrth y cariad at eu pechodau—onid e, yr wyt yn eu gadael yn fyr o'r nef. Wele ynte, myga, ie, tania hwynt allan o'u drygioni moesol a bygythion y gyfraith; ond na orphwys nes i ti eu cael i gydnabyddiaeth a Christ, a'r ffordd o iachawdwriaeth drwyddo ef. Mewn gair, pregetha dyledsdyddau moesol gymmaint ag a fynech, ond mewn tueddiad efengylaidd. Dangos iddynt nas gallant wneuthur y rhai hyn heb ras oddi wrth Grist; o ddiffyg yr hyn nid oedd rhinweddau y Paganiaid ddim ond pechodau wedi eu goreuro. "Trwy fydd," ebe un, "y mae dyfod at weithredoedd, nid trwy weithredoedd at fydd." Rhaid i'r pren fod yn dda, cyn y byddo ei ffrwyth yn dda: "Heb of ff, ni ellwch chwi wneuthur dim." Ac yna, argyhoedda hwynt, pan fyddont fanylaf mewn dyledsdyddau moesol, nad hyn a wna y tro yn gyfiawnder iddynt ger bron Duw. Y wisg sy raid iddynt gael i guddio eu hen-

eidiau â hi, os na fynant ymddangos yn noethion yn ei olwg, nid y fantell o waith cartref ydwy; nid eu cyfiawnder tu mewnol a weithredir ganddynt neu ynddynt eu hunain, ond cyfiawnder Crist a weithredodd efe drostynt.

PENNOD IX.

Annogaeth i weinidogion ffyddllawn; a'r modd y mae i'r bobl, yn gystal a'r gweinidog, hysbysu dirgelwch yr efengyl.

Y MAE yma le i air o galonogiad melus i weinidogion ffyddllawn Crist. Ysgatfydd, ehwif fuoch yn hir ar waith dros Grist, âg ond ychydig ffrwyth i chwi weled o'ch llafur; y mae eich nerth wedi ei dreulio; y mae canwyll eich oes wedi llosgi agos at y canwyllbren, ond eich pobl yn parhau yn gnawdol a chyndyn; nid oes un haul a'u melyna, un ddaol a'u cynnhyrfa; bryntion ydynt, ac felly y mynant barhau; i uffern y mynant fyned, ac nid oes un llidart a'u hettyl; yr wyt ti wedi gwneuthur yr hyn a ellit i'w diwygio, ond y cwbl yn ofer. Y mae hyn yn athrist yr wir, iddynt hwy yr wyf yn ei feddwl, eu bod yn myned i uffern wrth oleu canol-ddydd, tra y mae yr efengyl yn dangos iddynt pa le y mae pob cam o'u gyrfa bechadurus yn eu harwain. Ond y mae genyt ti achos cryf o gysur a heddwch tu mewnol, ddarfod i ti wneuthur yr hyn a ddisgwyl Duw ar dy law di. Cofia, dy waith di yw hysbysu dirgelwch yr efengyl; ac er eu perygl hwynt bydded, os ni chofleidiant hi. Ni osododd Duw erioed arnat ti ddychwelyd y rhai y mae yn dy anfon atynt. Na, cyhoeddi yr efengyl yw dy dyledswydd di, a'i derbyn yw yr eiddynt hwythau. Yr oedd Abraham yn addaw i'w was fod yn rhydd oddi wrth ei lŵ, os y wraig ni chanlynai ef, pan y gwnai efe ei cheisio yn briod i'w fab (*Gen. xxiv. 8*), ac felly y gwna Duw dy ryddhau di oddi wrth eu gwaed hwythau, a'i osod wrth eu drws eu hunain. "Os rhybuddi y drygionus, ac yntau heb droi oddi wrth ei ddrygioni, efe a fydd marw yn ei ddrygioni; ond ti a achubaist dy enaid." *Ezec. viii. 19*. Nid yw Duw yn barnu am waith ei weision wrth eu llyddiant yndo, ond wrth eu ffyddlondeb yn traddodi ei genhadwri ef: "Er nad ymgasglodd Israel, etto, gogoneddus fyddaf fi yng ngolwg yr Arglwydd;" *Esa. xlix. 5*.

2il. I'r bobl. Megys mai gwaith y gweinidog yw hysbysu dirgelwch yr efengyl yn ei bulpud; felly eich dyledswydd chwi yw gwneuthur yr un peth yn eich bucheddau. Dylai bywyd y Cristion fod yn argraphiad o bregeth y gweinidog; efe a ddylai bregethu bob dydd, i lygaid ei gymmydogion, y dirgelwch hwnw y mae y gweinidog

yn ei bregethu, unwaith neu ddwy mewn wythnos, i'w clustiau. Megys y mae *deial* a wnaed yn gywir yn cydfyned â'r haul, a llun a dynwyd yn dda yn tebygu i'r wyneb ei darluniwyd wrtho; felly y dylai dy ymarweddiad dithau debygoli i'r efengyl wyt yn ei phroffesu. Na ddyro i neb achos i ddywedyd, fel y dywedodd un am ryw Gristionogion penrhyddion, "Naill ai nid yw hon yn efengyl, neu nid yw y rhai hyny yn efengylaidd." Pa beth sydd a wnei ti â rhyw arferion budron a bryntion, yr hwn wyt yn hōni bod yn cael dy addysgu yn y dirgelwch goruchel a sancteiddiaf hwn? Drwg y cyttuna dy enw Cristionogol di â buchedd Baganaid. Os wyt yn goddef neb nad yw o'ch broffes i redeg o'th flaen, i'e, nac i fod yn un-gamrau â thi mewn unrhyw weithred rinweddol, a gwir anrhydeddus, yr wyt yn dy gwilyddio dy hun, a'r efengyl hefyd. Y fath gwilyddio fyddai cael hyd i un mewn rhyw ysgol wael, wladaidd, a ddylai fod yn addas i holi graddwr yn y Brif Ysgol! Yr wyt ti wedi dy ddwyn i fyny mewn dysg mor uchel a nefolaidd, fel na ddichon unrhyw grefydd arall yn y byd dangos ei bath; ac am hyny, fe ddyla dy fuchedd fod yn gymmesurol i'th addysg. Cerydd llym oedd hwnw i'r saint yng Nghorinth, pan ddywedodd yr apostol, "Yr ydych yn rhodio yn ddydol" (*1 Cor. iii. 3*); hyny yw, fel dynion anianol; a'r neb a rodio y modd hwn yn ddydol, nid pell iawn yw oddi wrth rodio yn anifeilaidd; o herwydd y mae dyn wedi myned yn anifeilaidd yn ei ddeall; a gwaeth yw byw fel anifail, na bod yn anifail. Yn sicr, Gristionogion, os nad yw yr enw arnoch yn ddiachos, yr ydych yn gyfranogion o anian uwch na dynol; eich traed chwi a ddylent sefyll lle y mae penau pobl ereill; chwi a ddylech fyw cyn belled uwch law y byd anianol ag yw gras uwch law natur, a'r nef uwch law y ddaear. Ni buasai Crist yn ymostwng goris anglyion, ond i godi eich calonau a'ch bucheddan chwi goruwch dynion. Ni buasai efe byth yn ymddarostwng i gymmeryd y natur ddydol, ond ar y bwriad o'n gwneuthur ni yn gyfranogion o'r anian ddwyfol; nac ychwaith yn rhodio ar y ddaear, ond i wneuthur ffordd i godi ein calonau ni i'r nef. Na ddywed gan hyny, ni ddichon cig a gwaed oddef y fath gam, neu ymatl rhag y fath bleser boddhaol; yr wyt ti naill ai yn fwy na dyn, neu yn llai na Cristion. Ni ddadguddiodd cig a gwaed erioed mo'r efengyl i ti; ni dderbyniodd cig a gwaed erioed mo Grist; mewn gair, ni chaiff cig a gwaed byth etifeddu teyrnas Dduw. Os wyt yn Gristion, yr wyt wedi dy fedyddio i ysbryd yr efengyl; y mae genyt anian nef-anedig; ac fe a'th alluoga hono di i wneuthur chwaneg nag a ddichon cig a gwaed. Ai nid oes genyt ddymuniaid am

weled ereill yn cael eu dychwelyd trwy yr efengyl? A fynit ti ddiange yn lladradaidd i'r nef wrthyt dy hun, ac heb gael neb o'th gymmydogion i'th ganlyn? Yn awr, pa fodd yr ennulli di hwynt i dyb dda am yr efengyl, ond trwy y fath fuchedd garuaid ag a wna ei chamawl hi wrth eu cydwyb-odau hwynt? Y mae yn gyhuddiad er ys talm yn erbyn Cristionogaeth, ei bod yn fwy adnabyddus yn nalenau llyfrau nag yn muceddau Cristionogion; oddi yma y mae fod llaweroedd yn cael eu caledu yn eu hannuwioldeb a'u rhagfarn at yr efengyl. Pysgodwr annoeth yw hwnw a ddychryna ymaith y pysgod y mae efe yn dymuno eu cael o fewn ei rwyd. O! na rwystra, a thram-gwyddiadau dy fuchedd, y rhai y dymunit eu dychweliad trwy bregethiad yr efengyl. "Y mae," medd un, "lawer o siarad yn y dyddiau hyn, fel pe byddai amser tröedig-aeth yr Iuddewon ger llaw;" ond, medd efe, "Y mae bucheddau Cristionogion pen-rydd yn bwrw y fath anfri ar y dirgelwch nefol hwn, fel y gellir tybied yr amser ym mhell yn ol. Yn wir, purdeb ymddygiad Cristionogion yw y dynfa oreu at ennill ereill i garu crefydd. Pe byddai gan golomonod Crist fwy o ber-lyisiau gostyng-eidd-rwydd, cariad, amynedd, a grasusau nefol ereill, yn eu hadenydd, wrth ehedeg o am-gylch yn y byd, buan y dygent fwy o gyfeillion adref gyda hwynt i gloerau yr eglwys. Dyma yr aur a ddylai fod yn arwisg i denil eglwys Crist, ac a barai i ereill fod mewn cariad â'i thegwch. Hyn a fu yn un o'r moddion tyciannus er cynnydd afrifed dychweledigion yn y prif amseroedd. Y pryd hyn yr oedd dirgelwch yr efengyl yn cael ei hysbysu, nid yn unig trwy bregethiad nerthol yr apostolion, ond hefyd trwy fuchedd aduwiol Cristionogion. Gwelwch y modd yr oeddynt yn byw (*Act. ii. 46*), a'r ffirwyth gwynfydedig o hyny (*adn. 47*): "Yn cael ffafir gan yr holl bobl: A'r Arglwydd a chwane-godd beunydd at yr eglwys y rhai a fyddent yn gadwedig." Fe fuasai chwant ar bawb agos, ond y diafol—sydd yn caru byw yn nhân cynnhen, ac yn dygn gasau pob daioni—gael rhoddi eu henwau i mewn i'r fath gymdeithas nefolaidd. Ond pan dywyllodd yr aur hwn, yna dechreuodd yr efengyl gollu ei gair da yn y byd, ac yn gan-lynoch ei helfa. Daeth dychwelwyr yn an-amlach i mewn, pan ddechreuodd profesywyr yr efengyl oeri yn eu sel, a llacau ym man-lyrwydd eu bucheddau.

PENNOD X.

Hyfder yn ddyledswydd mewn gwainidog: ym mha fodd y mae i'w arfer: a pha fath hyfder y rhaid iddo fod.

MAE y drydedd gangen yn dangos i ni y modd y mae i weinidog hysbysu dirgelwch

yr efengyl: "Trwy agoryd fy ugenau yn hyf." Rhaid i ni yma ymofyn,

1. Pa beth yw yr hyfder hwn y mae y apostol yn dymuno gweddiâu am dano.

2. Ym mha fodd y mae i'r gwainidog ddangos yr hyfder hwn wrth bregethu yr efengyl.

3. Pa fath hyfder ydyw hwnw a ddylai efe ei ddangos.

4. Rhai cynnorthwyon at gaffael hyfder.

DOSB. I.

1. Pa beth a feddylir wrth "agoryd fy ngenau yn hyf?" Mae y geiriau Groeg (*an-parrësia*), yn cynnwys y ddaau beth hyn laf. Llefaru y cwbl a'r sy ganddo dan orchymyn oddi wrth Dduw i'w draddodi. Y mae hyn yn awng yn ystyr y gwreiddair. Y modd hwn nid oedd Paul yn ymattal rhag mynegi holl gynghor Duw: *Act. xx. 27*. Nid oedd efe yn celu ymadroddion y Sanct-aidd, fel y dywed Iob. 2il. Llefaru gyda rhyddid a gwroldeb ysbryd, heb fod dan ofn na chaethiwed i neb, pe byddent yn lliaws ac yn alluog. Yn awr, hyn a brofir yn gyntaf, wrth lefaru yn yr awng, ac nid mewn conglau, yn ol dichellwaith hereticiaid a gau ddysgawdwyr, y rhai yn ddirgel a ddygant i mewn heresiau dinystriol: 2 *Pedr. ii. 1*. Yn ail, Trwy lefaru yn eglur: y mae yn brawf o beth ofn yn y galon pan fo y geiriau yn dywyll ac aneglur, fel nad yw yn hawdd dirdad barn neu dyb y pregethwr wrth ei eiriau, gan mor gynnil ac amheus y mae yn eu trefnu. Y mae ar y gwainidog lefaru y gwir yn rhydd ac yn eglur; fel hyn yr oedd yr apostol yn ei drin: "Gan fod genym gyfryw obaith, yr ydym yn arfer hyfder mawr;" 2 *Cor. iii. 12*.

DOSB. II.

2. Y modd y mae i'r gwainidog ddangos yr hyfder hwn wrth bregethu yr efengyl laf. Trwy gyhoedd-wirio gwirioneddau yr efengyl. Nid ei le ydyw mygu gwirionedd rhag ofn neu wyneb ueb. Gelwir gwainidogion yn dystion: y mae ar dyst lefaru yr hyn a w'yr, er i hyn fod mewn llys agored, ger bron y gw'yr penaf. Yr oedd gan Paul dafod rhydd i ddywedyd y gwir, ie, yn y carchar: er ei fod ef mewn rhwymau, etto, fe ddywed i ni, "Gair Duw nis rhwymir;" 2 *Tim. ii. 9*. Y mae rhai gwirioneddau a änt i lawr yn hawdd: fe rydd y gwaethaf yn y gynnulleidfa ddi-olch i'r pregethwr am ei boen ar rai pyng-eiaid; ond y mae gwirioneddau sydd yn an-fodddhaol—gwirioneddau sydd yn croesi tyb rhai, fe allai, yn y gynnulleidfa: i bregethu y rhai hyn, y mae yn gofyn ysbryd hyf a rhydd. Pan oedd Crist i bregethu o flaen y Phariseaid, nid ofnodd efe bregethu yn erbyn eu cyfeiliornadau hwynt. Pe buasai rhyw bregethwr gochelgar yn ei le, buasai yn dewis ryw destyn a fuasai heb fod yn dram-gwydd i'w clustiau tyner hwynt. Y mae

gwirioneddau a wna't y pregethwr yn agored i watwaredd a dirmyg; etto, heb fod i'w celu. Fe bregethodd Paul yr adgyfodiad, er i rai yn y gynulleidfa ei watwar an ei boen: *Act. xvii. 32.* Mae gwirioneddau sydd weithiau yn dwyn y gweinidog i berygl—gwirioneddau sydd â'r groes wrth eu cefu. Y fath wirionedd a hynp oedd hwnw a fraethodd Esay ynghylch gwrthodiad yr Iuddewon: "Eithr y mae Esaias yn ymbyfhau ac yn dywedyd, Cafwyd fi gan y rhai nid oeddnt yn fy ngheisio;" *Rhuf. x. 20.* Yr oedd hyn yn debygol o wylltio ei gyd-wladwyr, a dwyn eu dyrnau am ei glustiau. Ni a ddarllenwn am air amynedd y mae arnom ei gadw (*Dad. iii. 10*), gair sydd yn zofyn bod amynedd lled fawr gan y gwr a'i pregetho, a chan y bobl a'i profeso; o herwydd y dichon iddo eu dwyn i flinder, a hynw cleddyf yr erlidiwr allan i'w erbyn. Nid yr un ydyw hwn bob amser. Gair amynedd yn amser yr apostolion oedd y gwirioneddau a gyfeirient yn erbyn Iuddeuiaeth a Phaganiaeth: dan yr ymherawdwr oedd yn Ariaid, Duwdod Crist ydoedd: ac yn amser Luther, yr athrawiaeth o gyfiawnbâd, ynghyd â gwirioneddau ereill a ddaliwyd ganddo yn erbyn Eglwys Rhufain.

2il. Hyfder wrth geryddu pechod, a chyhoeddi y farn yn erbyn pechaduriaid anedifeiriol. Gorehymynir iddynt ddyrchafu eu llais fel udgorn, a mynegi eu pechodau i dŷ Iacob: *Esa. lxxviii. 1.* "Pregetha y gair, bydd daer mewn amser ac allan o amser; argyhoedda, cerydda, annog, gyda phob hirymaros," &c.: *2 Tim. iv. 2.* Rhaid iddo argyhoeddi, a dal at hyn, tra y daliont hwy at bechu. Ni phaid y ci a chyfarth tra y byddo y lleidr yn y buarth. Gweinidog heb yr hyfder hwn, mae yn debyg i rygenn (*file*) heb ddannedd, cylllell heb fin, neu wylledydd yn rhy ofnus i danio ei wn i alarmu y y ddinas pan fyddo perygl yn agos. Nid oes dim yn fwy anweddaiidd na gwled pobl yn hyfion i bechu, a'r gweinidog yn ofnus i argyhoeddi. Dywedir am Tacitus ei fod wedi cymmyrd yr un rhyddid i ysgrifenu bucheddau yr ymherawdwr ag a gymmerasant hwythau i'w bucheddu. Felly y dylai y gweinidog wrth geryddu pechod, pwy bynag a'i gwnelo; nid pechod y cardotyn, gan arbed y gwr boneddig; ac nid pechodau y rhai halogedig, gan gamu dros broffeswyr. Yr un fath oedd gan Grist, pwy bynag a gamwedda, hwy gaent ei glywed. Ysgrifenyddion a Phariseaid, hwy a'i cawsant ganddo hyd adref; ac nid yw efe yn arbed ei ddisgyblion ei hun chwaith: "Dos yn fy oli, Satan," medd efe wrth Pedr. "Beth sydd i mi a wnelwyf â thi, wraig?" wrth ei fam ei hun am ei chais amhrydlawn.

DOSE. III.

3. Pa fath hyfder sy raid fod gan y gweinidog?

1af. Hyfder argyhoeddiadol: "Morgryfion ydyw geiriau uniondeb," medd Iob; ac mor ddirym ydyw geiriau gweigion er eu hergydio â llais taraully! Geiriau mawrion gyda dadleuon disylwedd, wrth geryddu cyfeiliornad neu bechod a barant chwerrthin yn fnyychast na dagrau. Allan o reswm y gwelai Ffestus anton carcharor, heb hysbysu yr achwynion i'w erbyn: *Act. xxv. 27.* Mwy allan o reswm ydyw condemnio cyfeiliornad yn y pulpud, ac heb ei brofi felly; neu arferiad, ac heb arddangos y drwg o hono. Yr apostol a ddywed am rai fod yn rhaid cau eu safnau: *Tit. i. 11.* Dadleuon dwys-gyrhaeddol sy raid eu cael i gau safn: ceryddon gweigion, cynt yr agorant safnau y rhai ceryddedig yn lletach nag y cauant hwynt. Mae Ysbryd Duw yn ceryddu yn argyhoeddiadol: "Pan ddel, efe a argyhoedda y byd o bechod" (*Joan xvi. 8*), ac felly y dylai y gweinidog. Hyn yw pregethu yn arddangosiad ac yn eglurhâd yr Ysbryd.

2il. Hyfder doeth. Mae ar y gweinidog geryddu pechodau pawb, ond heb nodi personau neb. Paul, pan ydoedd yn llefaru ger bron llywydd anniwair ac anghyfiawn, fe'i cyrhaeddodd i'r byw, ond ni enwodd mo hono yn ei bregeth: *Act. xxiv.* Gwnai cydwybod Ffelic hyn heb i'r pregethwr yngan: fe ddychrynodd er na ddywedodd Paul mai am dano ef yr oedd yn meddwl.

3ydd. Hyfder addfwyn: "Geiriau y doethion a wrandewir mewn distawrwydd;" *Preg. ix. 17.* Boed y cerydd mor llym ag a fynech; ond rhaid i'th ysbryd fod yn addfwyn. Mae gwylltineb yn codi gwaed yr hwn a geryddir, ond tosturi a dry ei ymysgaroedd. Olew ar flaen yr hoel a wna iddi yru yn haws; hebdo, hi allai hollti y bwrdd. Nid oes i ni gyhoeddi lliid mewn lliid, rhag i bechaduriaid feddwl ein bod yn dymuno eu trueni, ond yn hytrach gyda'r fath ddynerwch ag a rydd iddynt weled mai nid gwaith boddhaol genym ydyw crafu eu harchollion; ond ein bod yn ei wneuthur, fel na byddom trwy ddistawrwydd creulawn a meddalwch ffol yn euog o'u dinystr, yr hyn y mae ein calonau yn dymuno ei ragflaenu. Mae Ieremiah yn swnio alarm barn ac yn rhybuddio y bobl am dralloed bliu yn nesau; etto, ar yr un pryd y mae yn apelio at Dduw, ac yn ei ddieuogi ei hun o greulondeb tuag atynt: "Ni phrysursais rhag bod yn fugal ar dy ol di; ac ni ddymunais y dydd blin, ti a'i gwyddost: yr oedd yr hyn a ddaeth o'm gwefusau yn un-iawn ger dy fron di;" *Ier. xvii. 16.* Fel pe dywedasai, Mi a draddodais fy nghanadwri wrth gyhoeddi barn, canys ni feiddiwn beidio, ond mi a'i gwnaethum gyda chalon dosturiol: mi a fygythiais ddinystr, ond a ddymunais heddwch. Felly Daniel; efe a wnaeth yn deg a gonest â'r brenin; ond o flaen ei genadwri galed y mae yn tystio yn

serchiadol ei gariad a'i ffyddlondeb iddo: "Fy Arglwydd, deued y breuddwyd i'th gaseion, a'i ddeongliad i'th elynion;" *Dan.* iv. 19.

4ydd. Hyfder gostyngedig: y cyfryw hyfder ag sydd yn cael ei fagu o ymddiried yn Nuw, nid o honom ein hunain, na'n doniau na'u gallu, ein cryfder na'n gwroldeb. Y mae Paul yn hyf; etto ni a'i cawn yn crynu ac mewn ofn; yn hyf, mewn hyfder ar Dduw: "Ni a fuom hyf yn ein Duw, i lefaru wrtheych chwi efengyl Duw trwy fawr ymdrech" (1 *Thes.* ii. 2), ond yn llawn ofn yn y teimlad o'i wendid ei hun; "Mi a fum yn eich nysg mewn gwendid, ac ofn, a dychryn mawr;" 1 *Cor.* ii. 3.

5ed. Hyfder gwresog. Rhaid i'n cerwyddon am bechod ddyfod o galon gynnes. Ysbryd Paul a gynhyrfwyd yndo wrth weled y ddinas wedi ymroi i eilunod: *Act.* xvii. 16. Ieremiah a ddywoid i ni fod gair Duw fel tân o fewn ei esgyrn; a thori allan a wnaeth fel ffiam o ffwrn. Mae y gair yn forthwyl; ond ni thyr y galon gallestr wrth ei roddi arni yn ysgafn. Y brenin Iago a ddywedodd am weinidog yn ei amser ef, "Y mae yn pregethu fel un âg angeu wrth ei gefn." Dylai gweinidogion ddadgan barn, megys pe byddai wrth gefn y pechadur, yn barod i ddal gafael yndo. Ceryddon neu fygythion oerllyd, y maent yn debyg i ruad taranau o bell: nid yw yn brawychu fel y gwna ymdoriad taran uwch ein pen. Mi a ddywedais fod yn rhaid i hyfder gweinidog fod yn addfwyn a thosturid, etto, nid i bylu ei sel. Gall y meddy felysu ei belen, nes bod yn haws i'r claf ei llyngcu, ond nid i'r fath radd ag i wanhau grym ei gweithrediad.

DOSE. IV.

4. Addawsom gynnyg rhai cynnorthwyon at gaffael yr hyfder hwn.

1af. Ofn sanctaidd at Dduw. Yr ydym yn ofni cymaint ar ddyw am ein bod yn ofni cyn lleied ar Dduw. Mae y naill ofn yn iachau o'r llall, fel tân yn tynu allan. Fan fyddo eich bys wedi llosgi, chwi a'i deliwech wrth y tân; pan fyddo arswyd dyn yn eich brawychu, trowch i fyfyrion ar lid Duw. Dyma y plastr a roddodd Duw wrth arddyrnau Ieremiah i'w iachau o'r cryd oedd arno o ofn dyn: "Nac arswyda eu hwynebau, rhag i mi dy ddistrywio ger eu bron hwynt;" *Ier.* i. 17. Os rhaid ein distrywio neu ein dryllio (dyna ystyr wreiddiol y gair), gwel cael hyn gan ddyw na chan Dduw: yr hyn a ddryllio dyn, gall Duw ei gyfanu drachefn: "Pwy bynag a gollo ei einios er fy mwyn i a'i efengyl, hwnw a'i ceidw hi;" *Marc* viii. 33. Ond os Duw a'n dryllia, y mae tu hwnt i allu dyn gasglu y darnau ac ail wneuthur yr hyn a anafodd Duw.

2il. Ymgastella o fewn gallu ac addewid

Duw am gynnorthwy ac amddiffyniad. Y gwan galon ar y maes agored, fe ddaw yn wrol a diofn pan gaffo o fewn muriau cryfion ac amddiffinyfeydd. Yr oedd Ieremiah ar roddi ei arfau i lawr, a diange rhag y per yglon oedd i'w wynebu wrth weinidogaeth i bobl lidiog a gwrthryfelgar. Gwrandawel y modd yr oedd ei feddyliau yn rhedeg, a fod gair yr Arglwydd yn waradwydd ac y watwargerdd iddo beunydd: "Yna y dywedais, Ni soniaf am dano ef, ac ni lefaru yn ei enw ef mwyach;" *Ier.* xx. 9. Yr awr, pa beth a'i cadwodd rhag y fload digalon yma? "Ond yr Arglwydd sy gyda mi, fel un cadarn ofnadwy;" *adn.* 11. Bellach, y mae yn cymmeryd calon ac yn myned ym mlaen gyda'i waith yn ddiarswyd. Och! y mae ein llygaid ni ar ein perygl, ond heb graffu ar y muriau anweledig a ddawodd Duw eu gosod o'u hamgylch. Yr oedd gwas y prophwyd mewn dychryn dwys wrth weled llu y gelynyon mor agos: ond y prophwyd, wrth ganfod y llu nefol yn osgordd o'i amgylch, nid oedd yn prisio mo honynt oll mwy na brwynen. Os nad ydyw Duw yn alluog ddigon i'th amddiffyn, pa ham yr ai di ar ei neges? Os wyt yn credu ei fod, pa ham yr wyt yn ofni llefaru drosto, tra y mae yn ddigon galluog i'th waredu!

3ydd. Cadw gydwybod rydd. Nis gall hwnw fod yn argyhoeddwr hyf sy heb fod yn fucheddwr cydwybodol. Rhaid i'r fath un siarad yn isel rhag ofn deffro ei gydwybod euog ei hun. Mae yn ail iun yn saethu gyda dryll rhydlyd budr—ei geryddon yn ei daraw yn ol yn drwm. Ansacteidrwydd yn muchedd y pregethwr, rhaid iddo naill ai cau ei safn ef rhag ceryddu, neu gan clustiau y bobl rhag derbyn yr hyn a ddywedo. O! y fath swm afrywiog a wna y fath gloch agenog yng nghlustiau ei wrandawyr! Dymuniad pob un, os rhaid iddo gael ei guro, yw cael hyn gan law y cyfiawn: *Salm* xci. Cynghor da gan ddyw drwg, y mae ei wynt drewllyd yn ei ddiwyno wrth ei roddi. Braidd nad oedd yn rhaid i'n Iachawdwr erchi i'r bobl wrandaw ar y Phariseaid, am fod eu personau yn waradwydd i'w dywediadau: *Mat.* xxiii. 2, 3. Y mae hyd yn oed pobl dda yn rhy dueddol i droi eu cefnau ar yr ordinhâd o herwydd gwarth y dyn sydd yn ei gweini—eu gwendid a'u bai hwynt yw hyn; ond gwae y rhai hyn wrth ddrygioni pa rai y maent yn syrthio i'r brofedigaeth hon. Mae yn dangos fod cylla cryf a iachus gan y dyn a all fwyta ciniaw o ddwyfaw cegin-wraig fudr; a deall cryf iachus gyda chwant bywiog i'r gair, a allo daraw ati a gwneud pryd llawn o hocio, heb ddim gwrthwynebiad alarllid, o blegid camymddygiadau y pregethwr.

4ydd. Ystyria mai y ffordd oreu i ragflaenu yr hyn a ofni yn fwyaf, ydyw arfer hyfder ac eofnder sanctaidd yn dy weinidog-

acth. Ai peryglu dy fywyd a ofni? Nid oes y fath ffordd i'w ddiogelu a thrwy fod yn ffyddlawn i'r hwn a biau yn gwbl ei drefnu. Yn llaw pwy, dybygiti ti, y mae dy amserau? Yn ddiau yn llaw Dauw. Dy gallineb goreu ynte fydd cadw ei fodd ef; o herwydd pan fyddo dy ffyrdd yn rhyngu ei fodd ef, fe ddichon beri i'rh elynion fod mewn heddwch â thi. Gwaith diddiwedd a diddefnydd hefyd yw boddio dyn; pe mynit, nis gellit foddio pawb; a phe gallet, nid oes achos, ond i ti foddhau un a ddichon droi eu calonau oll, neu rywmo eu dwylaw. Goreu y llwydda y neb sy ffyddlawn. Yr oedd ar Ionah ofn ei waith: O! ni feiddiai fyned i'r ddinas fawr gyda'r fath genadwri drom. Dywedyd wrthynt y difethid hwynt oedd y ffordd i'w rhoddi ar waith i'w ddifetha ef am y fath newydd. Ond mor agos fui golli ei fywyd wrth ddiange i'w gadw! Ieremïah, fe allesid meddwl, oedd wr tra thebyg i golli ei fywyd wrth ei bregethu hyf: etto, cafodd amgenach nawdd yn y diwedd na phregethwyr llyfauion yr oes. Pa fodd byn-ag, gwell marw yn anrhydeddus, na byw yn waradwyddus. Ai dy enw yr wyt yn dyner o hono? Os hyf ac eofn fyddi, rhaid i'r gair a bregethi fod yn waradwydd ac yn watwargerdd i ti beunydd, fel gynt i Ieremïah. Yn ddiau, ti elli gael dy watwar gan rai, etto, fe'th berchir gan fwy; i'e, y rhai a ysgydwant eu penau arnat, y mae ganddynt yn eu cydwybod yr hyn a wna iddynt dy ofni. Y pregethwyr gwenieithus (sy'n derbyn wyneb yn y gyfraith) yw y rhai a fyddant ddiystyr yng ngolwg y bobl: *Mal.* ii. 9.

DOSE. V.

5ed. Ystyria, os nad wyt yn awr yn hyf dros Grist yn dy weinidogaeth, nas gelli fod yn hyf o flaen Crist wrth ei frawdle? Yr hwn sydd yn ofni agor ei enau dros Grist, yn sicr bydd arno gwylydd edrych yn ei wyneb y pryd hyn: "Rhaid i ni oll ymddangos ger bron brawdle Crist," &c.; 2 *Cor.* v. 10. Yn awr, pa ddefnydd a wna Paul o'r meddwl dwys ddirifol hwn? "A ni gan hyny yn gwybod ofn yr Arglwydd, yr ydym yn perswadio dynion;" *adn.* 11. Nid doethion ydyw y rhai sydd yn herio y barnwr trwy weniethio i'r carcharor. Meddwl dirifol am y dydd hwnw wrth fyned i bregethu a barai i ni gau pob ofn gwag allan o'r pulpud. Peth bychan iawn yw i ni gael ein barnu gan ddyan am ein hyfdra; ond alaethus cael ein collfarnu gan Grist am ein llwfrdra. Dydd barn dyn sy'n bresennol, fel ei gelwir gan Paul (1 *Cor.* iv. 3); pawb yn gallu beio y pregethwr a rhoi eu barn arno, oni fydd wrth fodd eu clustiau merwinllyd; ond fe fyn Crist ei ddydd barn yntau i'w barnu hwythau, sydd yn awr yn neidio i farnu ereill; a hawdd fydd i'w farn ef ddididymu yr eiddynt hwy. I'e, a'r rhai sydd yn awr yn trwm feio dy hyfdra yn

ceryddu, fyddant y rhai cyntaf i dy gyhuddo am dy ddistawrwydd tra phechadurus. Y gwas drwg, sydd yn wych ganddo reoleiddiaid esgeulus ei feistr (fel y caffo ei ben yn rhydd i ddilyn ei ddylhirwch), fe achwyna arno wrth y crogbren. Yn fynych fe'i clywir yno yn gosod ei bechod a'r diwedd alaethus y mae yn ei ddwyn iddo wrth ddrws ei feistr, gan ddywedyd, Pe buasai efe yn fy ngheryddu ni buasai i'r swyddog fy nghollfarnu: pe gwnaethai efe ei ddyledswydd, ni buasai heddyw ar y crogwr wneuthur ei grog-swydd. Fel hyn y dichon rhai, y dydd olaf, gyhuddo eu gweinidogion anffyddlawn, a dywedyd, Pe buasant hwy wedi mynegi iddynt eu perygl, na buasant wedi rhedeg iddo; pe buasant yn hyf i geryddu eu pechod, na buasant yn byw mor ddigywilydd dan ei arfer, nes iddo eu dwyn i warth a thrueni tragwyddol.

6ed. Ystyria mor hyf y bu Crist yn ei weinidogaeth. Bu raid i'w wir elynion roi iddo ef y dystiolaeth hon: "Ni a wyddom mai uniawn yr ydwyti ti yn dywedyd, ac nad wyt yn derbyn wyneb, eithr yn dysgu ffordd Dauw mewn gwirionedd;" *Luc* xx. 21. Nid eiriachai efe y balchaf o honynt, ond a'u ceryddai yn eu hwyneb, gan ddad-gan barn Dauw i'w herbyn. Pan yng nghanol ei elynion, ni frawychwyd mo hono gan eu golygon uchel a'u bygythion creulawn; ond fe addefodd y gwirionedd penodol hwnw a farnasant hwy yn drosedd bywyd arno: *Mat.* xxvii. 11; *Ioan* xviii. 37. Oddi yma y dywed Paul, "Yr hwn dan Pontius Pilat a dystiodd broffies dda" (1 *Tim.* vi. 13); ac y mae hyn fel y ddadgryfaf ganddo at daer annog Timotheus i fod yn ffyddlawn yn ei weinidogaeth. Pa gynnhyrfiad mwy i wroldeb a ddichon milwr gael, na gweled ei gadben o'i flaen yn sefyll yn galonog a digryn lle y mae y bwledi yn ehedeg yn amlaf? Y fath flaenoriaid dewrwyeb, nid ydynt yn arfer magu sawdwyr gwan-galon. Nid oes fodd i ninnau fod yn ddiysbryd, os byddwn dan ei addysg ef a'i Ysbryd yn gweithio ynom. Pan welodd yr archeoffeiriad a'r henuriaid hyfdra Pedr ac Ioan, dan eu gwŷs ger eu bron hwynt, hwy wybuant yn fuan pa le y cawsant yr ysbryd tra mawrfrydig hwn; o herwydd dywedir, "Hwy a'u hadwaenent, eu bod hwy gyda'r Iesu;" *Act.* iv. 13.

7fed. Gweddia, ac erfyn weddiau, am yr hyfdra sanctaidd hwn. Y modd hwn y daeth yr apostolion i'w feddu. Nid a'u mawrfrydigrwydd naturiol uwch law ereill y cawsant hwy eu hyfdra (chwi welwch y fath filwyr gwyeb oeddynt ynddynt eu hunain, wrth eu hymddygiad digalon pan ddaliwyd Crist; pan ddiangasat oll mewn braw, gan ei adael ef i ymdaraw drosto ei hun): ond plentyn gweddi ydoedd. Nid ei fagu o honynt a gafodd, ond ei roddi iddynt o'r nef

ar eu gostyngedig erfyniad. Gwelwch hwy yn taer weddio am dano (*Act. iv. 29*): "Yn awr, Arglwydd, edrych ar eu bygythion hwy, a chaniatâ i dy weision draethu dy air di gyda phob hyfder." Deliwch sylw, nid gweddio yn erbyn dioddef y maent, ond am hyfder i bregethu, costied a gostio iddynt. Nid ydynt yn dymuno eu hegsusodi rhag y frwydr, ond eu harddgi â gwrolleb i sefyll ynddi; gwell ganddynt gael eu codi uwch law ofn dioddef, na chael rhydd-fraint rhag dioddef: ond i Dduw roddi iddynt hyfder i wneud eu dyledswydd a sefyll at eu harfaw, dyna ddigon ganddynt. Yn awr, gwelwch mor fuan y mae Duw yn caniatâu eu gofynion: "Ac wedi iddynt weddio, siglwyd y lle yr oeddynt wedi ymgynnull ynddo; a hwy a lanwyd oll â'r Ysbryd Glân; a hwy a lefarasant air Duw yn hyderus;" *adn. 31.* Dyna y gras a ddymunasant wedi ei dywallt i'w mynwes yn helaethach nag erioed. Os bydd ar y milwr chwant ymladd dros ei frein, diamniheu y caiff efe arfau ond eu gofyn. Os hyn yw dy ddymuniad syml dithau, ni onmedd Duw mo'th gais. Gwelwch hwynt yn anfon ereill at Dduw, ar ynegas hwn drostynt yn *Col. iv. 3*, ac yma yn y testyn. Yn sicr, ni ddichon pobl ddeisyf gan Dduw i'w gweinidog ddim sydd yn fwy angenrheidiol iddo ef a hwythau. Mae yn ddyledswydd anhawdd iddo ef, ond angenrheidiol i chwi. Nis gall efe fod yn weinidog ffyddlaw, oni faidd draddodi y cwbl o'i genadwri. Wedi i'r ymherawdwr Mauritius ymofyn ynghylch tuedd Phocas, efe a ddywedodd, Os un ofnus ydyw, lofrudd ydyw. Yr hwn sy'n ofni wynebau ei bobl yw y tebycaf i fod yn lofrudd i'w heneidiau. Felly y gweddiwech drosoch eich hunain wrth erfyn am y rhodd hon i'ch gweinidog.

PENNOD XI.

Gweinidogion yn cael eu galw yn genadau: eu hurddas a'u dyledswydd oddi wrth hyny yn cael eu dangos.

"Dros yr hon yr wyf yn genad mewn cadwyn."

DAETHOM o'r diwedd at y pen cyfredinol olaf yn y geiriau; y ddadl â pha un y mae yr apostol yn cryfhau ei ddeisyfiad, er eu hannog yn fwy effeithiol i gosio am dano yn eu gweddïau. Mae hon yn ddeublyg. 1. Oddi wrth ei swydd: "Dros yr hon yr wyf yn genad. 2. Oddi wrth ei amgylchiad cystuddiol: "cenad mewn cadwyn."

1. Ei swydd. Gan fod cenadau yn negesywyr llywodraeth, yn cael eu hanfon ar led gan y breuin ynghylch gorchwylion mawrion y deyrnas, y mae yn gweddu i bob deiliad cywir ddymunio rhywydd-deb a llwydd iddynt yn eu cenadaeth. O'r achos hwn

y mae Paul wedi ei anfon yn genadwr gan y Duw mawr, yn dymuno fel apostol y cenhedloedd gael gweddïau yr eglwys am lwyddiant dedwydd ar ei genadwri.

DOSB. I.

Deliwch sylw: Y mae gweinidogion yr efengyl yn genadau Duw. Nid yw yr apostol yn priodoli yr enwad iddo ei huu yr ddiggyfran, fel pe na buasai neb yn gyfryw ond efe ei hun; o herwydd mewn lle arall y mae yn son am ereill yn y swyddogaeth: "Yr ydym ni yn genadau dros Grist" (*2 Cor. v. 20*); hyny yw, nyuni apostolion, sydd yn awr yn y lle ac ar negeseuaeth yr efengyl, a'r cyfryw hefyd ag a aufonir ar ein hol ni ar yr un neges hyd ddiwedd y byd. Awdurdodiad anghyffredinol yr apostolion, a hwnw sy gan weinidogion cyffredinol, yr un yw o ran sylwedd; ond eu bod hwy yn cael eu hanfodiad o enau Crist yn ddiggyfrwng, ac anfoniad perthynol i'r byd oll, tra y mae gweinidogion cyffredin yn ei dderbyn trwy yr eglwys, gan awdurdod yn deilliaw oddi wrth Grist, ac yn cael eu sefydlu o fewn cyfhoedd pennodol, i aros fel cenadau trigianol yn y lleoedd yr anfonir hwynt iddynt. Wrth drin y pwngc hwn, ni a chwiliwn i'r tri pheth a ganlynt:—

1. Pa ham y gelwir gweinidogion yn genadau.

2. Pa ham y mae Duw yn dewis cyfhoeddi ei efengyl drwy genadau.

3. Pa ham y mae yn defnyddio dynion gweinidog, ac nid angylion gogoneddus, i fod yn genadau drosto yn y negeseuaeth hwn.

1. Pa ham y gelwir gweinidogion yn genadau: ac y mae hyny i arddangos, *1af. Bri. 2il.* Dyledswydd eu galwad.

1af. Y Bri. Mynai Duw trwy y fath enwad fagu cyfrifiad parchus o alwad y gweinidogion yng nghalonau pawb o'r rhai eu hanfonir atynt. Mae hyn yn fwy angenrheidiol at lwyddiant eu cenadwri nag y meddylir yn gyffredin. Mi a wn yn dda am yr hyn a lefara gweinidogion ar y pen hwn, y tybir hwynt ynddo yn hytrach yn hunanwyr, nag yn wyr o blaid yr efengyl. Mae dynion yn dueddol i'w ddeongli fel ffrwyth eu balchder ac ymgais ganddynt am ryw fawredd allanol a rhwysg bydol y maent am ei gyrhaedd trwy y fath enwad mawrwyh. Yr oedd Paul ei hun yn ystyriol o hyn; ac am hyny yn *1 Cor. iv.*, wedi iddo yn yr adnod gyntaf alw am y parch oedd ddyledus i alwad gweinidog; "Felly cyfrifed dyn nyuni megys gweinidogion i Grist, goruchwylwyr ar ddirgeddigeithau Duw," y mae yn rhoddi gocheliad, yn *adn. 5*, "na farment ddim cyu yr amser hyd oni ddelo yr Arglwydd. Yna y gwybyddir oddi ar ba ysbryd yr ydym ni, weinidogion, yn mawrhau ein swydd, ac yn gweithredu yn ein galwad; ac hefyd gan ba ysbryd y maent hwy yn cael eu cynhyrfu, sydd yn

dirfio ac yn dirmygu ein galwad a'n personau hefyd er ei mwyn.

DOSB. II.

Yn awr, urddas cenhadau yr efengyl a ymddengys mewn tri pheth.

1af. Yn mawredd y Brenin oddi wrth yr hwn y maent yn dyfod.

2il. Mawredd y Person yn lle yr hwn y maent yn sefyll.

3ydd. Rhagoroldeb y genhadwri a ddygant

1af. Mawreda y Brenin oddi wrth yr hwn y deuant. Y mae cenhadau yn cael eu parch yn ol gradd y meist'r a fo yn eu danfon; po mwyaf fo y brenin, mwyaf anrhydeddus yw ei genad. Yn awr, y mae gweinidogion yr efengyl yn dyfod oddi wrth y Duw mawr, Brenin y brenhinoedd, ac Arglwydd yr arglwyddi, trwy yr hwn y teyrnasant, a than yr hwn y maent yn dal eu holl dywysogaethau; dyma eu meist'r yn enw yr hwn y deuant. Am hyn y mae Moses wrth draddodi ei genhadwri i Israel yn erchi iddynt roddi mawredd i'r Duw hwnw, enw ac ewyllys yr hwn yr oedd efe yn gyhoeddi: *Deut.* xxxii. 3. Y mae galluogion y byd wedi cael prawf drud mor ddwys y mae Duw yn cymmeryd iddo ei hun yr ammharch a wneir i'w weision. Pa beth a ddygodd teyrnas flodeuog Israel i ddinyst'r, ond eu gwaith yn gwatwr ei genhadau, ac yn gwawdio ei brophwydi! Hyn a fu, "nes cyfodi o ddigofaint yr Arglwydd" i'w herbyn, "fel nad oedd iachâd;" 2 *Cron.* xxxvi. 16. Nis gallwn ddirmygu y genad a pharchu y meist'r a'i hanfonodd: *Luc* x. 16. Ychydig sy mor hyf a dywedyd gyda'r brenin balch hwnw, "Pwy yw yr Arglwydd, fel y gwrandawn i ar ei lais?" (*Ecclod.* v. 2), ond y mae llawer yn beiddio dywedyd, pwy yw y gweinidog, fel yr ufuddhawn i'w genhadwri, yr edifarhawn wrth ei alwad, y crynw'n wrth ei bregethiad? Och! y maent yn anghofio fod awdurdod Duw ganddynt am eu cenhadaeth; ac felly y maent yn ceisio at Dduw ei hun, â'u hystlysdrynod, wrth ddiystyru ei genad.

2il. Mawredd y Person yn lle yr hwn y maent yn sefyll. Nid yw gweinidogion ond cenhadau rhaglawaidd, Crist ei hun a gafodd y swydd gyntaf, am hyn y gelwir ef angel, neu genhadwr y cyfammod (*Mat.* iii. 1), ac "apostol ein cyffes;" *Heb.* iii. 1. Oddi wrtho ef y mae gweinidogion yn derbyn eu hawdurdod: "Rhoddwyd i mi bob awdurdod yn y nef, ac ar y ddaear. Ewch gan hyn, a dysgwch yr holl genhedloedd;" *Mat.* xxviii. 18. Felly 2 *Cor.* v. 20; "Yr ydym yn erfyn dros Grist, cymmoder chwi â Duw." Fel pe dywedasai yr apostol, nid ydym ni ond yn traddodi y genhadwri hono, yr oedd Crist ei hun i'w thraddodi oni busasai ei fod wedi cael ei alw i'r nef ar achosion ei eglwys; ac am hyn y gadawodd efe

ni—ei raglawaidd— i ddwyn ym mlaen y weinidogaeth a ddechreuodd efe ei hun pan ydoedd yma isod. Yn awr, y fath anrhydedd ydyw i greadur tlawd sefyll i fyny yn lle Crist, i ddwyn at bechuriaid tlodion y genhadwri hono a ymddiriedwyd yn gyntaf iddo ef!

3ydd. Rhagoroldeb y genhadwri a ddygant. Y mae tri math o genhadaethau yn y byd, a barant dderbyniad parchus i'r cenhadau a fo yn eu dwyn at unrhyw wladwriaeth; cenhadaethau am heddchw; cenhadaethau am briodas; a chenhadau am fasnach neu farchnadyddiaeth.

DOSB. III.

(1af.) Cenhadaethau heddchw. Prydferth yw eu traed, ac urddasol eu personau, y rhai a ddygant newyddion da o heddchw i'w canlyn; yn enwedig pan fo y pedwar peth hyn yn cydfyned yn eu cenhadwri, y rhai a geir oll yn negeseuaeth yr efengylwr.

1. Pan fo cenhadwr yn dyfod oddi wrth ryw frenin galluog, sydd â'i rym i'w arswydo, a'i luoedd yn anwrthwynebol. Cenhadwr oddi wrth y fath frenin, at bobl noeth ddiarfog am heddchw a chyttundeb, O mor groesawus ei ddyfodiad! Y cyfryw frenin yr ydym ni yn dyfod oddi wrtho; nid yw efe yn cynnyg heddchw am na all gynnal rhyfel, neu am fod arno eisieu ein cyfeillach. Y mae ar bechuriaid angen ei fodd ef; ond nid ofna efe eu hanfodd hwy. Erioed ni allent ergydio un o'u saethau cyfuwch a'r nef, ond y cwbl yn disgyn i lawr ar eu penau hwy eu hunain. Y neb a boera yn erbyn y gwynt, pa beth a gaiff ond ei boer yn ol i'w wyneb ei hun? A pha beth a ddisgwyl ymladdwr â Duw, ond ei arfau yn ol ar ei ben ei hun? Y mae brenhinoedd byd yn ceisio am hedd pryd nas gallant ymladd; na thybia felly am Dduw; y mae ei offer dinystr yn barod ganddo, ei luoedd arfog ym mhob lle, digon i dynu i lawr ei elynion balchaf. Nid oes creadur mor fychan nad yw yn cynnwys llu digon cryf i ddoei y brenin uchaf yn y byd. Y pryf o dan droed Herod, wrth orchymyn Duw, a ymeisf ynddo ac a ysa ei galon. O! gyda pha ofn a chryndod y dylai cenhadau y Duw hwn gael eu derbyn! Pan ddaeth Samuel y prophwyd i Bethlelem, henuriaid y dref a ddychrynasant wrth ei gyfarfod, ac a ddywedasant, "Ai heddychlawn dy ddyfodiad?" 1 *Sam.* xvi. 4.

2il. Pan fo y fath frenin galluog yn anfon ei genhadau heddchw at bobl a fyddont eisoes wedi teimlo effeithiau ei rym, ac yn nychu dan yr archellion dyfnion a ddygodd eu rhyfel arnynt. O! fel y rhedent i agor pyrth eu dinas i'r fath genhadwr! Mor ewyllysgar yn ddiaw ag yr agorodd Noah y ffenestr i dderbyn y golomen oedd yn dwyn y ddeilen olewydden ar ol y diluw mawr. Dyma y cyflwr alaethus y mae gweinidogaeth yr

efengyl yn cael dynolryw ynddo. Y fath drueni y dyg ein rhyfel â'r nef ni iddo! Ai nid ydym yn teimlo saethau dialedd dwyfol yn glynu hyd yn oed yn ein calonau a'n cydwybodau—barn Duw wedi ymalyd ym mhob cynneddf o'n heneidiau ac aelod o'n cyrph! Ai nid yw yr holl greaduriaid dan arfau i'n herbyn, ac uffern oddi isod yn agor ei safu ysol arnom, yn barod i'n llyngeu i ddistryw tragwyddol! Ac a ydym ni etto mor ddewrgas fel nas gallwn roi i'w genhadau yn lletty yn ein tref ond carchar, na chroesaw i'r geuhadwri heddwch, ond anfri a dirmyg!

3. Pan fo gan y genad ammodan heddwch a fyddo yn amhydeddus. Aur, meddwn, fe ellir ei brynu yn rhy ddrud; ac felly heddwch rhwng un wlad a'r llall. Megys pan gynnygodd Nahas yr Amoniad heddwch i wŷr Iabez Gilead, ond ar ammod iddo gael tynu llygad deheu pob un o honynt, a gosod hyny yn waradwydd ar Israel; yr hyn a wrthodasant gyda diglonedd cyfiawn, gan ymroddi i farw yn amhydeddus yn hytrach na byw yn waradwyddus. Y mae yn arfer gyda llawer o freshnoedd y byd, wneuthur eu gofnion yn ol hyd eu cleddyf; pan fo eu gallu yn fawr y mae yn anhawdd cael heddwch ar ammodau esmwyth. Yn awr, fe ddylai hyn, dybygid, wneuthur gweindogion yr efengyl a'u cenhadwri yn anhraethol dderbyniol gan bechaduriaid. Er eu bod yn dyfod oddi wrth y Duw mawr, a ddichon ofyn fel y myno (o herwydd pwy a ddywed wrtho, pa beth wyt yn ei wneuthur?), ac fe allai nid yn unig alw am ein llygad o'n pen, ond rhwygo ein calon hefyd o'n corph; etto, y mae yn cynnyg heddwch ar y fath ammodau graslawn, fel pe cawsom eu tynu na allasem byth eu ffurfio i fod gymmaint er ein lles ag y rhyngodd bodd iddo efo'i ras ei hun eu pennodi. Nid oes dim o fewn y cyfammod heddwch wedi ei gadw gaunddo iddo ei hun heb law y sierhâd o'i ogoniant ei hun yn ein hiachawdwriaeth ni. Gwelwch ychydig o'r hyn y mae yn ei gynnig i bechaduriaid druin, ac yn ei ofyn ganddynt yn ol. Y mae cynnyg selio *act* o ebargoffiad i faddeu a chladdu mewn anghof bob anfri a wnaed i'w goron a'i urddas yn amser ein gelyniaeth i'w erbyn. Felly y mae yr addewid: "Mi a faddeuaf eu hanwreiddau, ac ni chofiaf hwynt mwyach." Ac nid yn unig efo faddeu yr hyn a aeth heibio, ond efo a dderbyn ein personau i'w ffafr am yr amser a ddaw. Fe ddichon brein achub bywyd drwgweithredwr, ond etto ei fwrw am byth allan o'i lys; eithr y mae efo yn addaw dyfodfa i'w bresennoldeb: "Trwy yr hwn hefyd y cawsom ddyfodfa trwy ffydd i'r gras hwn, yn yr hwn yn ydym yn sefyll;" *Rhuf.* v. 2. Ydyw, y mae yn addaw adferu pechadur i'r cwbl a gollodd trwy ei wrthryfel. Y mae bradwriaeth

yn diwyno y gwaed, yn diraddio o anhydedd, ac yn aurheithio yr etifeddiaeth. Y mae Duw yn cynnyg tynu ymaith y cwbl o'r feildith a ddaeth ar y pechadur am e wrthryfel, a'i adferu i'w fri dechreuol. Y mae yn rhoddi iddynt "allu i fod yn feibion" (*Joan* i. 12), ac fel ei feibion y mae yr eu gwneuthur yn "etifeddion;" a hyny nid yn unig i'w Gabul—rhau fawlyd ym isod—ond i'r nef ei hun, etifeddiaeth yn y goleuni, ogoneddus anhraethol; e herwydd y mae i dduwioldeb addewid o'r bywyd hwn ac o'r hwn a fydd. Yn awr, gwelwn yr hyn y mae yn ei ddisgwyl ar law y pechadur, nid i bwreus ei ras hwn â phridwerth o'n pwrs ein hunain; na, fe wagaodd wythienau ei Fab i dalu hwiw; ond y mae yn gofyn genym—1. Roddi arfau ein gwrthryfel i lawr (o blegid diarhydedd fyddai iddo ddal cyflafaredd â ni tra bo genym y cleddyf hwn yn ein llaw â pha un yr ymladdasom i'w erbyn). 2. Derbyn maddeuant a chymmod ar law rhad ras, gan roddi y clod am dano i drugaredd Duw yn unig fel yr achos cynnhyrfiol, ac uffuddod boddlonawl Crist fel yr achos haeddiannol. 3. Ar i ni dyngu ffyddlondeb a chywirdeb iddo am yr amser a ddaw. Gweddeidd-dra y cynnygion hyn a addefir ryw ddydd gan y rhai sydd yn awr yn eu gwrthod; addefir gyda chywilydd ac alaeth diderfyn pan fo Crist yn eu hymlid i uffern â'i farn anniddymadwy.

4. Pan fo brenin yn ddiffuant yn ei gynnigion o heddwch, ac yn rhoi sierwydd llawn am gyflawniad o'r hyn y mae yn ei addaw. Rhaid i hyn beri croesaw mwy drachefn i'r cenhadwr. Ym mysg dynion, nid yw cyfammodau heddwch yn fynych ond megys caudlen olygus i ryfel. Lleiaf y bwriadant yr hyn a honant fwyaf. Ond pan ddel cenhadwr awdurdodedig i roi sierwydd a boddlonrwydd llawn yn erbyn pob ofnau ac amheuan a ddichon gyfodi yn mynwesau yr wrthblaid, y mae hyn yn chwaneu at werth y cwbl o'r blaen. Yn awr y mae y Duw mawr wedi ymddarostwng yn rhyfedd at foddloni calonau ewerylus pechaduriaid druin. Y mae euogrywydd wedi gwneud dyn yn ddrwgdybus o Dduw; ei anfyddlondeb ei hun i Dduw yn peri iddo amheuan ffyddlondeb Duw iddo yntau. Mor fuan y gallodd Satan gael gan Efa amheuan gwirionedd Duw! "Ai diau ddyweddyd o Dduw?" medd efo; ac "ni byddwch feirw âdim;" a dyna hi yn ebrwydd wedi ei hysgwyd o'i chred i'w Chreawdwr i goelio ei dinystrwydd. O! mor hawdd ynte yw iddo feithriu yr amheuan hyny sydd yn awr yn magu yn naturiol yn ein calonau anghrediniol ni! Mor fynych y byddwn yn rhoi y peth i ddad! A faddeu Duw bechodau mor fawron ac aml? A allaf fi anturio credu? Yn awr, y mae Duw yn rhoi cyfarwyddiad-

au o'i air i'w genhadau, at ddistewi pob amheuaeth a phetrusder a defir i mewn gan Satan, neu a ddichon gyfodi o'n calonau drwgdybus ein hunain. "Y mae y Beibl drwyddo oll ar hyn," medd Luther, "am chwalo ein hammheuon, a sicrhau ein go-baith." Gan Paul hefyd y mae ymadrodd ryw beth yn debyg: "Pa bethau bynag a ysgrifenyd o'r blaen, er addysg i ni yr ysgrifenyd hwynt; fel trwy amynedd a diddanwch yr Ysgrhythrau y gallem gael go-baith;" *Rhuf.* xv. 4. Y mae llawer dyfais gan ddynion i foddloni meddyliau eu gilydd ynghylch gwirionedd eu haddewidau a'r sicrwydd o'u cyflawniad. Weithiau, hwy a roddant eu sel yn gadarnhaol wrth yr ysgrifen. Fel hyn y mae Duw yn rhoi sel lydan y sacramentau, a sel gyfrin ei Ysbryd, i sicrhau i'r credadyn y cyflawna efe y cwbl a addawodd yn ei air. Weithiau, gelwir tystion i mewn er sicrhâd mwy an y cytundeb. Y modd hwn fe alwodd Ieremiah dystion ar y pryniad a wnaeth o faes ei gâr: *Ier.* xxxii. 10. Gwelwch dystion יְרֵמְיָהוּ y nef ac ar y ddaear, yn barod i dystio gwirionedd yr hyn a addawodd Duw, ac oll yn gyt-tun yn eu tystiolaeth: 1 *Ioan* v. 7, 8. Os na wna y rhai hyn i gyd y tro, yna cymmerir llw, ac y mae hwn yn arfer rhoi terfyn ar bob ymryson. I hyn hefyd y mae Duw yn grasol ymostwng, nid am fod angen ar addewid Duw am sicrhâd ei lw i'w gwneuthur yn sicrach, o herwydd y mae mor amhossibl i Dduw fod yn gelwyddog wrth addaw ag wrth dyngu; ond i gryfhau ein ffydd ni, sy mewn eisieu y fath ategion a hyn i'w dal a'i chadarnhau, fel y crybwyllir yn felus yn *Heb.* vi. 17, 18. Dyma floaduyn pennodol y dichon gwir gredadyn sugno mêl o hono, i fyw yn gysurus yn y gauaf caletaf a hwyaf o drallod a ddaw i'w ran: "Yn yr hyn, Duw yn ewyllysio dangos yn helaethach i etifeddion yr addewid ddi-anwadwlch ei gynghor, a gyfryngodd trwy lw; fel trwy ddau beth dianwadal, yn y rhai yr oedd yn amhossibl i Dduw fod yn gelwyddog, y gallem ni gael cysur cryf," &c. Yn awr, po mwyaf y sicrwydd a alluoga Duw ei genhadau i'w gynnyg i bechaduriaid am yr iachawdwriaeth a bregethant yn ei cym, mwyaf anferth bechadurus yw anghrediniaeth ac anedifeirwch y rhai a'i gwrthodant. Pan ddaeth Titus Vespasian i Ierusalem, a gweled y trueni annhraethol a oddefasai yr Iuddeuwon gwarchuaedig gan y tair drygfarn hyn—ceddyf, haint, a newyn, a fuasai cyhyd mewn grym yn eu mysg, dywedir iddo dori allan fel hyn:—"Dieuog wyf fi o'r holl waed hwn a dywalltwyd, ac o'r caledfyd a oddefodd y bobl hyn; hwy a'i dygasant trwy eu cyndynrwydd ar eu penau eu hunain." O! pa faint mwy y dichon cenhad-Crist olehi eu dwylaw uwch ben pechaduriaid anedifeiriol, i ba rai y maent wedi cyn-

nyg cymmod a heddwch yn enw Duw mor fynych, ond ni fynent wrandaw?

DOSB. IV.

2il. Y cyfryw genhadau ag a ddeuant i wneud cyfathrach trwy briodas rhwng gwlad a gwlad. Dyma un ran fawr o genhad-aeth y gweinidog. Hwy a anfonir i roi i'r byd wybod pa ewyllys da sydd gan Dduw y nef at bechaduriaid tlodion, ei fod yn fodd-lawn i roddi ei unig Fab a'i etifedd yn briod iddynt, os boddllawn fyddant hwythau i'r cytundeb a'r briodas. A chwaneg, y mae y Tad a'r Mab a'u hymserch ar y gorchwyl. Priodas ydyw, y meddylodd Duw ei hun gyntaf am dani i'w Fab; y mae yn dardd-iad o gynghor ei ewylls ei hun. A phan drinwyd y bwriad mawr hwn rhwng y Tad a'i Fab cyn seiliad y byd, fe hysbysodd y Mab i'w Dad ei fawr serch; do, gan wirio yr anwylded mawr oedd yn ei fynwes at ddynolryw; o herwydd mor foreu a hyny y llawenychoedd yng nghyfanneddle y ddaear, a'i hyfrydwch oedd gyda meibion dynion. Yn ganlynol i hyn, pan ddaeth cyflawnder yr amser, cymmerodd ei daith o'r nef i'r ddaear, fel trwy briodi ein natur, y gallai fyned mewn cyfathrach agos â phersonau credinwyr. Dyma y gyfathrach y mae cenhadau Duw wedi dyfod atoch i ymdrin yn ei gylch. Y Beibl yw eu tystlythyr, sydd yn cadarnhau dan ysgrifenlaw a sel Duw ei hun, wirionedd yr hyn oll a gynnigiant yn ei enw ef. Yno chwi a gewch lun y Ty-wysog nefol hwn y maent yn deisyf eich serchiauau iddo, fel trwy edrych arno yr hoffech ei berson yn well. Yno y mae breichledau gwych yr addewidion, a pha rai y mae i'w genhadau, yn ei enw ef, anrhegu yr holl enidiau ewyllysgar hyny a groesawant y cynnyg, ac a roddant eu cydsyniad i'w gymmeryd ef fel eu Harglwydd a'u Priod. Iê, y mae ganddynt awurdod i gyhoeddi y gostegion, gan addaw priodas yn ei enw ef, yr hyn a gyflawna efe iddynt yn y dydd mawr: "Mi a'ch dyweddiais i un gŵr, i'ch rhoddi megys morwyn bur i Grist;" 2 *Cor.* xi. 2. Yma, sefchw a mawrygwch, chwi blant dynion, yr ymostyngiad isel hwn yn y Mawrhydi Dwyfol! O! iddo fyned erioed i galon y Duw mawr i briodi ei Fab a'i greadur! ac nid â'r teulu anrhydeddusaf o'i greaduriaid chwaith! Canys ni chymmerodd efe naturiaeth angyllion, ond dynolryw; a hon, nid yn ei phrif harddwch, ond pan oedd wedi syrthio a'i diraddio o'i gogoniant dechreuol. I dywysog o waed uchel gymmeryd llances dlawd o renge y cardotwyr, sydd yn beth na chlywodd y byd etto am dano; ond cymmeryd un o'r bwthyn gwaelfaf ni fyddai yn beth mor ryfedd a'i chymmeryd o garchar, neu oddi wrth y frawdle, wedi ei chollfarnu am fradwriaeth yn erbyn ei frenhinol berson. Etto, fel hyn y mae yma; y mae yr Arglwydd yn cynnyg dyrch-

afu pen ei creadur gwrthryfelgar o garchar, lle y mae yn gorwedd dan farn anghu, am frâd erchyll yn erbyn ei goron a'i urddas, i'w gymmeryd i'w fynwes yn briod iddo! Yn ddiau nis gwn pa un fywaf i'w ryfeddu, trugaredd Duw yn ymwedd â ni, ynte ein balchder a'n ffloneb ni sydd mor osgoelyd ac anghydn i dderbyn y cynnyg. Er i Abigail addef ei hun yn unheilwng i fod yn wraig i Dafydd, etto yr oedd hi yn rhy gall i sefyll yn ei goleu ei hun, trwy ollwng y fath gyfle ar ei chodiad i lathro heibio, nad oedd hi yn debyg o'i gael drachefn. Am hyny, dywedir, "Hi a frysiodd, ac a aeth ar ol cenhadau Dafydd." Ond Och! fel yr ydym ni naill ai yn gwrthuon nacau, ai yn ffol ymesgusodi, ac yn dal cenhadau Duw mewn petruder o ddydd i ddydd!

DOB. V.

3ydd. Y cyfryw ag a ddeuant â chenhadau am farchnadyddiaeth a masnach. Pe rhoddem fod gan frenin yn ei deyrnas bethau da o'r fath nas gallai cenedl ger llaw ymgynnal hebddynt na'u cael o un lle arall. Pe danfonai hwn genhadwr at y bobl hyn, a chynnyg iddynt fasnach rydd, fel y gallent ddyfod mor fynych ag y mynent, a chymeryd o bethau da ei wlad ef. Mor llawen y cofeidd y fath genhadwri! Y mae dedwyddwch dyn ar y ddaear yn sefyll mewn masnach a marchnadaeth rydd â'r nef; a lle llwm, tlodaidd, yw y byd hwn; nid oes yma ddim i'w gael y gall enaid anfarwol fyw arno na chael boddlonrwydd oddi wrtho. Yn y nef yn unig y mae yr hyn sydd yn eisieu arno i'w gael; y bwyd sydd i'w borthi, a'r dillad i'w wisgo ydynt oll o dwf y wlad nefol hon. Pechod cyntaf dyn a anafodd ei holl farchnadaeth â'r nef. Pan wrthryfelodd Adda, dechreuodd rhyfel yn ebrwydd, a phob masnach âg ef a attaliwyd; am hyny, yn ein cyflwr naturiol, dywedir ein bod "yn mhell ac heb Dduw yn y byd." Yr effeithiau alaethus o'r gollod hon sydd i'w gwelod yng nghyflwr diymgeledd enaid dyn, a fu un-waith wedi ei wisgo yn harddwych â chyfiawnder a sancteiddrwydd, ond sydd yn awr yn noeth gywilyddus, heb feddu cerpyn i guddio ei gywilydd âg ef. Yn awr, y mae Duw yn anfon ei genhadau i gynnyg heddwch; a chyda hyny, ryddid i adnewyddu y cymmundeb cyntaf âg ef: "O deuwch i'r dyfroedd, bob un y mae syched arno; i'e, yr hwn nid oes arian gaiddo; deuwch, prynwch, a bwytwch; i'e, deuwch, prynwch win a llaeth, heb arian, ac heb werth;" *Esa.* lv. 1. Y mae yn gwahodd pawb i droi yn farchnatwyr â'r nef: "Deuwch i'r dyfroedd;" ymadrodd yn cyffelybu yr efengyl i dref borthladd, neu borthfan ynddi, lle y mae y criwr yn galw y bobl i gyrechu a phrynu yr eiddo a fo yno wedi ei ddwyn i dir. Yma y mae Duw yn gosod cyfoeth ei ras ar led, ac ar werth, "heb arian, ac heb werth!"

Rhaid fod hwnw yn fasnach ennillfawr, a fo yn dwyn elw mawr i mewn heb roi allan lawer o gost. Yma y mae holl gyfoeth y nef i'w gael, a dim gofyn am arian yn y pryniad! A ellwch chwi glywed am y perl gwerthfawr hwn, a pheiddio troi yn farchnatwyr am dano? Neu a ddichon eich eneidiau ymgynnal wrth eich crach-gelfyddyd fydol? O! "pa ham y gweriwech arian am yr hyn nid ydyw fara?" Nid yw yn angenrheidiol i chwi fod yn gyfoethog yn y byd; ond y mae yn angenrheidiol cael Crist a'i ras. Yn eich holl boen a'ch llafur am bethau y byd hwn, nid ydych ond rhyw antur farchnadwyr; y mae yn amheus pa un ai eu cael hwynt ai colli eich llafur a wnewch. Nid oes un rheol na modd sier a ellir ei ddyngu i fyned yn gyfoethog yn y byd; y mae rhai yn dlawd, os oes ereill yn gyfoethog o bob celfyddyd. Ond yn y farchnadaeth hon am Grist a'i ras, y mae swydddy wedi ei godi i roi diogeliam y cwbl o'ch anturiaeth: "Eich calon, y rhai a geiswch Dduw, a fydd byw. Y rhai sydd yn newynu am gyfiawnder a ddiwellir.

(2il.) Gelwir gweinidogion yn genhadau mewn golygiad ar eu dyledswydd yn gystal a'u hurddas. Lle y mae bri y mae baich; y mae lleoedd o anrhydedd yn lleoedd o ymddiried a gwasanaeth. Llauer a garant yn dda glywed am urddas y gweinidog. Gyda Diotrefes, y maent yn chwennych y blaen; ond a fynent eu hesgusodi oddi wrth y llafur sydd yn ei ganlyn. Nid oes neb â dwysach ymddiried dan ei ddwyllaw na gweinidog y gair. Y mae yn faich o'r trymaf, yn bwys a barodd i'r apostol grynu o dano: "Mi a fâm yn eich mysg mewn gwendid, ac ofn, a dychryn mawr;" *1 Cor.* ii. 3. Iddynt y rhoddwyd "gweinidogaeth y cymmod;" *2 Cor.* v. 18. Os bydd y cymmod rhwng Duw a phechaduriaid heb fyned ym mlaen, fe fydd y cenhadwr yn sier o'i ddwyn i gyfrif am y modd y cyflawnodd efe ei swydd. Ond chwang am ddyledswydd y gweinidog rhag llaw.

PENNOD XII.

Pa ham y mae Duw yn anfon cenhadau: pa ham nael ydyw yn ymtrin â phechaduriaid mewn ffordd ddwyffwrng: a pha ham y mae yn defnyddio dynion, nid angylion.

Yr ail beth a befnodasom i roi cyfrif o hono yw, pa ham y mynai Duw anfon cenhadau at ei creadur gwael?

Yr wyf yn ateb yn gyntaf yn nacodl. 1. Nid am fod arno eisieu ewyllys da dyn. Breuhinoedd daerol, y mae eu helyntoedl yn gofyn iddynt gynnal cydnabyddiaeth â'u cymmydogion; am hyny y danfonant genhadau i gael heddwch, neu gadw cyfeillach

Ond gall Duw amddiffyn ei goron heb gyngdrair â neb. 2. Nid am fod arno rywmau i'w wneuthur. Y mae deddf cenhedloedd, i.e. deddf natwr, yn gofyn i frenhin-oedd gynnyg heddwch cyn dechreu rhyfel. Ond y Duw mawr ni ellir ei rywmo, oddi eithr iddo rywmo ei hun. Pan bechodd Adda, yr oedd Duw yn rhydd, ac ar ei law ddewis pa un a wnai efe gyfammod newydd â dyn, ai dial arno am ei anffyddlondeb i'r cyntaf.

Ond yn gadarnhaol. Ni ellir rhoi cyfrif arall am hyn, ond ewyllys da, a rhad ras Duw. Pan ddaeth Crist—y prif genhadwr—i'r byd, gwelwch yr hyn a'i dygodd yno: "O herwydd tiriondeb trugaredd ein Duw; trwy yr hon yr ymwelodd â ni goddiad haul o'r uchelder;" *Luc* i. 78. Tiriondeb trugaredd yn wir; o herwydd yr oedd bywyd dyn o dan droed Duw, a dim ond ei bur drugaredd i'w achub. Nid oedd niwy o rywmau arno i gynnyg ymheddychu â'i creadur, nag ar freniu ymheddychu â bradwr collfarnedig. Pa le bynag y delo cenhadau Duw, ar neges trugaredd y deuant: "Arglwydd Dduw eu tadau a anfonodd atynt hwy trwy law ei genhadau, gan foreugodi ac anfon; am ei fod yn tosturio wrth ei bobl;" 2 *Cron.* xxxvi. 15.

Gof. Os myn Duw gynnyg heddwch i'w creaduriaid truaïn, pa ham y gwna efe hyny drwy genhadau, ac nid trwyddo ei hun yn ddigyfrwng?

At. Ffrwyth tynerwch dwyfol yw hyn. Y mae pechod wedi gwneud presenoldeb Duw yn arswydus: nid hawdd yw i ddyw yn awr ei oddef. Y fath ddechryn y taflwyd Adda iddo pan glywodd ddim ond llais Duw yn rhodio tuag ato, ac nid yn rhuthro arno, yn yr ardd: *Gen.* iii. 8. Cafodd Israel hwythau y prawf o hyn (*Ecsod.* xx. 19); a buan y cawsant ddigon ar bresennoldeb Duw; ac am hyny dywedasant wrth Moses, "Llefara di wrthym ni; ond na lefared Duw wrthym rhag i ni farw;" *adn.* 20.

Gof. Ond os myn Duw ddefnyddio cenhadau, pa ham na anfonai efe ryw angel gogoneddus o'r nef i ddwyn y genadwri hon yn hytrach na dynion gwael a gweinïaid?

At. Y mae yr apostol yn rhoddi y rheswm hwn: "Y mae genym y trysor hwn mewn llestri pridd, fel y byddai godidogrwydd y gallu o Dduw, ac nid o honom ni (2 *Cor.* iv. 7); neu yn ol y Groeg, mewn llestri cregyn. Megys y ceir perl drudfawr mewn cragen, felly y mae trysor gwerthfawr yr efengyl i'w gael mewn dynion gwael-freulyd, fel y byddai i odidogrwydd y gwaith fod o Dduw. Po salaf yr offeryn, mwyaf gogoneddus yr ymddengys ei allu dwyfol ef, wrth ei ddefnyddio i'r fath ddiben mawr a godidog. Gweled un yn archolli un arall â chleddyf minig o dwys, ni byddai mor ryfedd; ond ei archolli â phlun yn ei law, gwyrt

fyddai hyn. Gweled dynion yn cwmpo i lawr, ac yn crynu wrth leferydd angel, nid rhyfedd fyddai; ond gweled Felics yn crynu ar ei fainge, tra y pregethai carcharor tlawd wrth y frawdle i'w faruwr, y mae yn hyn ryfeddod deublyg. Yn gyntaf, Fod creadur mor wael ag oedd Paul, ac yn garcharor hefyd, yn beiddio mor hyf; ac hefyd fod gwr mor fawr a Felics, wedi cael dyrnod gan ei eiriau, fel pe buasai mellten wedi ei daraw. Pwy ni fawryga rym Duwdod yng ngwendid yr offeryn? Pe rhoddasai Duw angylion yn y gorchhwyl hwn, buasai mewn perygl o gyfrif effeithiolrwydd y gwaith i allu a doniau yr offeryn, ac o roddi cred i'r genadwri o herwydd y genad sy mor anrhydeddus. Ond yn awr, wrth fod rhai sydd yn creaduriaid gweinïaid, fel ni ein hunain, pan y gwneir dim trwyddynt, rhaid i ni ddywedyd, O'r Arglwydd y mae hyn, ac nid o'r offerynau. Y fath achos oedd gan Dduw yn y modd hwn i ddarparu at ddiogelwch ei ogoniant ei hun, ni a welwn wrth y duedd sydd ynom i wneud eilunod o doniau dynion, lle y byddont mewn gradd ddisglaer a rhagorol. Pa beth a wnaethem pe angylion fuasai y cenhadau? Yn ddiaw, anhawdd fuasai ein cadw rhag eu haddoli; fel y gwelwn y buasai Ioan ei hun yn gwneuthur, oni buasai iddo gael ei attal drwy waharddiad mewn iawn bryd gan yr angel: *Dacl.* xix. 10.

2il. Wrth fod gweinidogion yn ddyinion, y mae ganddynt fantais, aml ffordd, uwch law angylion i'r gwaith. Yn gyntaf, Fel y mae y genadwri yn perthyn yn fwy iddynt nag y gallai i angylion; felly, fel nas gallant dwyllo ereill heb gam i'w hiachawdwr-iaeth eu hunain. Pa ddadl gryfach am ofal gwr na'i fudd ei hunan? Yn sicr, fe edrych y llywydd hwnw pa fodd yr hwyllia efe y llong sy ganddo ran yn ei llwyth. Yn ail, y mae yn eu serchiadau gydymdeimlad tyner, trwy brawf o'r temtasiynau hyny sy gan eu brodyr i ymladd â hwy; hyn, nis gallai angel ei feddu; a thrwy hyn y maent yn gallu llefaru yn fwy teimladol at gyflwr dynion ereill nag y gallai angel. Felly y mae byrdra dyn o araethyddiaeth angel yn cael ei gyflenwi â'i ymserchid a'i gydymdeimlad naturiol sydd yn tarddu oddi wrth brofiad. Fe w'yr beth yw cydwybod drallodus mewn un arall, trwy fod wedi teimlo ei churfa yn ei fynwes ei hun, fel y dywedodd Duw wrth ei bobl, ar ol eu bod yn alltudion yn yr Aipt: "Chwi a wyddoch galon y dieithr;" *Ecsod.* xxiii. 9. A phwy a drinant eneidiau truaïn yn fwy tyner na'r rhai a wyddant fod yr un eisieu arnynt eu hunain? Yn drydydd, Mae y dioddefiadau sydd yn cyfarfod gweinidogion er mwyn yr efengyl, o fudd mawr i'w brodyr. Pe angylion fuasai y cenhadau, nis gallasant selio gwirionedd yr athrawiaeth a bregethasent â'u

gwaed. Yr oedd rhwymau Paul yn hysbys yn y llys a'r wlad hefyd: "Yn gymmaint ag i lawer o'r brodyr fyned yn hyderus wrth fy rhwymau i, a bod yn hyfach o lawer i draethu y gair yn ddiogel;" *Phil.* i. 14. Gallai yr angylion seiuio yr efengyl â llais uwch, ond dynion yn unig sy ganddynt biseriau i'w dryllio (cyrph breuol) wrth ddiodef dros yr efengyl, trwy yr hyn y mae gogoniant ei gwirioneddau, fel y lamp yn llaw milwyr Gideon, yn pelydru ar lygaid eu gelynyon mwyaf, er gwaradwydd i'w hwynebau, a braw i'w calonau.

PENNOD XIII.

Annogaeth i wrandaw ar genhadau Duw, yn cael ei chymhell trwy amryw ddadleuon.

Defnydd 1. A yw gweinidogion yn genhadau? Mae hyn yn dangos fod gweinidogaeth yr efengyl yn swydd briodol i rai, nid yn waith cyffredin i bawb. Cenadwr, ni a wyddom, sydd un a chanddo ei awdurdodiad a thyst-lythrau oddi wrth ei frenin i'w dangos am ei wasanaeth. Nid cyfarwyddyd dyn mewn achosion gwladol a'i gwna yn genadwr; nid ei fedr yn y gyfraith a wna ddyn yn swyddog, ond eu galwad i'r lleoedd hyn. Doniau chwaith nis gwnânt ddyn yn weinidog, ond ei alwad: "Pa fodd y pregethant onis danfonir hwynt;" *Rhuf.* x. 15. Y rheolau a roddir gan Ysbryd Duw ynghylch derbynriad y gweinidog i'w swydd, ni byddent oll i ddim diben, pe byddai yn rhydd i ddeiwiaid pob dyn ei wneuthur yn bregethwr: "Na ddod ddwyllaw yn ebrwydd ar neb" (1 *Tim.* v. 22); hyn yw, na dlerbyn neb i'r weinidogaeth heb brawf da o hono. Ond pa ham y byddai raid neillduo neb i'r gwaith a allai pob un ei wneuthur?

Defn. 2. O annogaeth. 1af. I'r bobl. 2il. I'r gweinidogion.

DOSB. I.

1af. I'r bobl. Cynnyrfer chwi yn ofn Duw i ymwrandaw â'r genadwri a ddwg y cenhadau hyn. Pa beth yw eich meddwl am y neges y deuant atoch yn ei gylch? A fynwch chwi gael cymmod â Duw, ai ni fynwch? Ymroddwch i gael Crist i'ch mynwasau trwy ffydd, neu ynte peidiwch âg ef. Nid ydym ni ond cenhadau: yn ol y mae rhaid i ni droi at ein Meistr sydd yn ein danfon, i roddi cyfrif pa fodd y mae ein negeseuath yn llwyddo. A awn ni a dywedyd, Arglwydd ni a fuom gyda'r bobl yr anfonaiist ni atynt; ni a draddodasom dy genadwri yn ol yr adlysg a gawsom: dywedasom wrthynt hefyd fod tan a chleddyf, distryw a damnedigaeth yn dyfod arnynt oddi eithr iddynt edifarhau a dychwelyd

wrth dy alwad. Ni a osodasom fywyd a marwolaeth o'u blaen hwynt, ac nid ymat-taliasom rhag mynegi holl gynghor Duw er eu hiachawdwriaeth, ond ni chredent air a ddywedem. Yr oeddym ganddynt fel rhai yn cellwaer ac yn adrodd breuddwyd nos, ac nid geiriau gwirionedd a sobrwydd. O! na ato Duw i hyn fod yn dystiolaeth ganddynt i'w dwyn ger bron Duw am eu negeswriaeth. Ond i geisio gwasgu pwys eich cenadwri a'ch ateb iddi yn fwy at eich meddlyfryd, ystyriwch

(1af.) Rhyfeddol gariad Duw yn anfon ei genhadau hyn atoch. Nid brenin ydyw yn anfon at un o'i gydradd, ond Duw at ei greadur gwrthryfelgar, at yr hwn y gallasai anfon, nid cenadwr i ymheddu, ond llu o farn-edigaethau i'w erlid a'i ddifetha. Ac nid anfon y mae at wrthryfelwyr wedi ymgau mewn gwersyllfa gadarn, na chwaith yn y maes mewn grym i wrthsefyll ei gadernid ef, ond at ei garcharorion, sydd â'u traed a'u dwylaw yn rhwym ganddo—atoch chwi, a'ch penau Bradwrs ganddo wrth fin ei fwyell! Nid dim angen arno am eich bywydau sydd yn peri iddo ewyllysio eich cadwedigaethi. Y mae brenin weithiau yn arbed ei ddeiliaid gwrthryfelgar, am fod arno eisieu eu dwylaw i ymladd drosto, ac mai gwanychu hyn a wnae efe wrth dywallt eu gwaith. Ond gall Duw eich colli chwi heb golled i'w hun; er darfod am danoch chwi, nid llaisai gyfoeth ef. Yn *Luc* vii. 30, dywedir fod y Phariseaid yn eu herbryn eu hunain yn ddistyru cynghor Duw: chwychedi, nid Dduw gaiff y niwed.

DOSB. II.

(2il.) Ystyriwch y fath amhbarch amod-oddefol sydd yn cael ei roddi i Fawrhydi y nef, trwy wrthod ei gynnygion o ras. Y mae gofynion gwyr mawr yn orchymnion; pwy a faidd nacau i frenin yr hyn a ofyno? Ac a feiddi di, ddyrneidyn bach o lwch, ymddewru yn erbyn dy Wneuthurwr? Mae wedi ei nodi yn erbyn un dim llai na brenin fel balch-waith anniodefadwy, "Efe a wnaeth yr hyn oedd ddrwg yng ngolwg yr Arglwydd ei Dduw, ac nid ymostyngodd efe o flaen Ieremi y prophwyd, yr hwn oedd yn llefaru o enau yr Arglwydd;" 2 *Cron.* xxxvi. 12. Ond pa beth! a raid i frenin ddyfod i lawr o'i orsedd, ac ymostwng o flaen prophwyd tlawiff un o'i ddeiliaid ei hun hefyd? Rhaid, pan y mae yn cynnychioli person y Brenin hwnau, i'r hwn y mae efe ei hun yn dleidiol. Myn Daw iddo grynu ac ymostwng, nid i Ieremi, ond i Ieremi "yn llefaru o enau yr Arglwydd." O! ystyriwch hyn, chwi, sy'n ei dybio yn beth plentynaidd a diysbryd wylo dan bregeth, neu ymostwng wrth gerdd gweinidog: mae eich ymddygiad dan y gair a bregethir yn dangos pa fath yw eich meddyliau am Dduw ei hun. Pan waeth

Hanun ddirmyg ar genhadau Dafydd (2 Sam. x. 4) a'u gwaradwyddo, y brenin a'i cyfrifodd yn anfri iddo ei hun : "Enw yr Arglwydd a gyhoeddaf fi (medd Moses), rhoddwch fawredd i'n Duw ni ;" *Deut.* xxxii. 3. Pa fodd y rhoddent hwy fawredd i Dduw tra yr oedd Moses yn pregethu iddynt ? Ei feddwl yn sier ydyw trwy roddi gwrandawriad gostyngedig ac ufudd-dod parod i'r gair oedd efe yn ei draddodi yn enw Duw.

(3ydd.) Ystyriwch fel y mae calon Duw yn y gwaith a'r neges y daw ei genhadau arno. Pan fyddo brenin yn anfon cenhadwr ar negesyddiaeth y mae yn mawr ddymino ei llywdiant, gan ddisgwyl llawer o anrhydedd oddi wrtho ; os caiff ei wrthwynebu yn hwn, rhaid i hyn ei gyffroi a'i gythruddo yn ddwys. Nid oes dim y mae Duw â'i galon yn fwy arno na dyrchafu Crist a'i ras trwyddo yn iachawdwriaeth pechaduriaid gwael. Hyn, am hyny, a elwir ei gynghor ef (*Heb.* vi. 18), ac ewyllys yr Arglwydd : *Esa.* liii. 10. Gwyddai gwas Abraham mor fawr yr oedd ei feistr yn dymuno gwaig i'w fab a'i etifedd o fysg ei berthynasau ; ac am hyny y mae yn gwasgwyl hyn at Laban, a'ly ddaidl ddwysaf o'r cwbl : "Od ydych chi gwneuthur trugaredd a ffyddlondeb â'm feistr, mynegwch i mi : ac onid e, mynegwch i mi ;" *Gen.* xxiv. 49. Fel pe dywedodd, "Wrth hyn y gwelir eich caredigrwydd at fy feistr. Felly yma ; os ydych chi ymddwyn yn garuaidd tuag at Dduw, mynegwch hyn i'w genhadau trwy gyttuno â'm feistr, pan ar y ddaear, yn orchwyl neu yn bethau yn perthyn i'w Dad, yr hwn y mae yn rhaid ei wneuthur, doed a ddelo : "Oni wyddoch fod yn rhaid i mi fod ynghylch y pethau a berthyn i'm Tad?" *Luc* ii. 49. Efe a wyddai na ddaethai byth yma ond i gyflawni y gorchwyl hwn, ac nas gallai edrych yn wyneb ei Dad wedi myned yn ol, oddi eithr i hwn fod wedi ei orphen. Gan hyny, fel y byddai hwn yn llwyddo a gwaith yr efengyl yn myned ym mlaen, neu ynteyn cyfarfod âg attalfa yng nghalonau dynion, yn ol hyny y ceid ef yn alarus neu yn ilawen. Pan wrthodid yr efengyl, ni a'i cawn ef yn tristau am galedrwydd eu calonau : *Marc* i. 5. Pan ddaeth ei ddisgyblion ato, gan ynegi mor fuddugoliaethus yr oedd cerbyd yr efengyl yn rhedeg, dywedir, "Yr awr hono yr Iesu a lawenyhodd yn yr Ysbryd;" *Luc* x. 21. Pan oedd yn ymadael â'r byd, yr oedd ei feddyliau ar waith pa fodd y dygid yr efengyl ym mlaen, ac na chawsai iachawdwriaeth pechaduriaid yn attalfa trwy ei ymadawiad ef ; am hyny y mae yn awdurdodi ei apostolion i'r gorchwyl : "Rhoddwch i mi bob awdurdod : Ewech... pregethwch yr efengyl i bob creadur." 18, yn awr yn y nef y mae yn disgwyl am ei

llwyddiant hi, ac yn ymwrandaw pa lwyddsydd i'w weision ar eu neges. Yn awr, pa fath bechod anferth ydyw i ti, trwy dy anedifeirwch wrthsefyll Duw yn ei brif fwriad ! A ydych chiw yn wir yn meddwl ymddwyn yn garuaidd at ein Meistr, ar neges yr hwn yr ydym yn dyfod.

DOSE. III.

4ydd. Ystyriwch bwys a chanlyniad y genadwri a ddwg y cenhadau hyn atoch : nid rhyw goeg neges ysgafn yw yr hyn yr ydym arno : "Wele, rhoddes o'th flaen heddw yw einioes a daioni, ac angeu a drygioni;" *Deut.* xxx. 15. "Gwrandewch, a bydd byw eich enaid;" *Esa.* lv. 3. "Yr hwn nid yw yn credu, y mae digofaint Duw yn aros arno ef;" *Ioan* iii. 36. Nid dyfod yr ydym i'ch denu â gwen rhyw dywysog daearol a ddechion addaw anrhydedd heddyw, a cholli ei goron ei hun yfory. Nid trysorau neu bleserau y byd yw abwyd ein bach ; ond yr ydym yn dwyn i chi newydd am nefoedd a fydd yn eiddoch mor sier a'ch bod chiw yn awr ar y ddaear, os chwychiw i dderbyniwch y cynnyg. Nid eich brawychu yr ydym â gwg dyn marwol sydd â'i anadl yn ei ffroenau, nac â phoenau munudol yr arteithglwyd a'r crogbren, sydd yn parhau prin ddigon o hyd i'w teimlo, ond â llid dddarfod y Duw sydd yn byw byth. A'r hyn yr ydym yn ei addaw neu yn ei fygythio yn enw Duw, y mae yn sefyll mewn parodrwydd a bwriad i'w gyflawni : "Efe a gyflawnia air ei was, ac a gwblhâ gynghor ei genhadau;" *Esa.* xlv. 26.

5ed. Ystyriwch ar ba ammodau y mae yr efengyl a'i gweinidogion yn aros yn eich plith. Y mae amser pan eilw Duw ei genhadau adref, gan roddi heibio ddadleu fel hyny â phobl. A diwrnod alaethus sy raid i hwnw fod ; o blegid pan ymadawant, barnau a phlâau a ddeuant : pan ddiweddo yr ymddiddan am heddwch, y mae rhyfel yn dechreu : "Eliseus a fu farw...a minteioedd y Moabaid a ddaethant i'r wlad;" 2 *Bren.* xiii. 20. Wedi i'r prophwyd unwaith fyned, dyna y gelyn yn dyfod. Daw yr angel yn cipio Lot allan o Sodom ; a lleied o hin dda a gawsant ar ol hyny ! *Gen.* xix. 23, 24. Yr Iuddewon a wrthodasant yr efengyl drwy anghrediniaeth (ac ar hyny yr apostolion a droisiant at y cenhedloedd : *Act.* xiii. 46), ond anrhaith a dynystr a dynasant arnynt drwy hyny, yr hyn yn gyflwm a ddaeth arnynt ar adenydd yr eryr Rhufeinaidd. Hwy a'u barnasant eu hunain yn annheilwng o fywyd tragwyddol ; a Duw a'u cyfrifodd yn annheilwng hefyd o fywyd tymmrol. Os unwaith y geilw Duw ei genhadau adref, nid gwaith hawdd fydd eu cael yn ol, a'r ymddiddan am heddwch drachefn ar droed, ar ol ei dori i'w ffedw. Mae prawf mynych wedi ei roddi mai nid esmwyth y cymmer Duw ei ddiystyru yn yr hyn y mae efe yn ei

gyfrif yn arwydd tra arbenig o'i ewyllys da at bobl. Gwell bod cenhadau heb ddyfod, na'u dyfod a'u myned ymaith heb gael eu neges: "Hwy a gânt ymbyd (medd Duw) fod prophwyd yn eu mysg;" *Ezec. ii. 5.* Hyny yw, cânt ei wybod er eu gwae: fe ofyn Duw dâl am boen ei weinidogion. Y mae gweinidogion yn marw, neu yn cael eu symmud oddi wrth eu pobl; a llawen ganddynt gael gwared o honynt; ond nid ydynt wedi darfod â hwynt nes byddont wedi rhoddi cyfrif i Dduw am dant.

Yn ail, I weinidogion yr efengyl. Yr ydych yn gwelod eich galwedigaeth frodyr; edrychwch ar i chwi gydymweddau â'ch gwasanaeth anrhydeddus hwn.

PENNOD XIV.

Y modd y dylai gweinidogion gyflawni swydd cenhadau.

1. NAC anurddwch eich urddas trwy arferion budr ac anweddaiidd. "Urddas i'r anurddasol, addurn ydyw yn y dom," medd Salviau. O! na osodwch fri eich galwad yn y dom, drwy un math o ymddygiad brwnt ac ansactaiidd. Yr oedd Paul yn mawrhau ei swydd; na wneuch chwithau ddim a baro i ereill ei bychanu a'i difro. Yr hyn a wna ereill yn ddrwg, a'ch gwna chwi yn waeth: "Oni ddewisais i chwy-chwi y deuddeg? ac o honoch y mae un yn ddiarafol;" *Ioan vi. 70.* Gelwir chwi yn anglyon; ond os annuwiol, diafliaid ydych. Yr ydym yn darllen am wobr prophwyd (*Mat. x. 41*); gwobr mwy, dybygid, nag a fydd i'r disgybl cyffredin. Ac ai ni fedd-ylwch y bydd cosp prophwyd yn uffern mor nodedig a'i wobr yn y nef? Dywedodd un, Pe byddai unrhyw wedi ei eni heb bechod gwreiddiol, gweddai mai y gweinidog fyddai hwnw; pe gallai rhywun fyw heb bechod gweithredol, gweddai mai y gweinidog fyddai; a phe byddai y fath beth a phechod ansylweddol (*venial*), yn y gweinidogion y gweddai ei fod. Y maent hwy yn weision Duw yn fwy nag ereill: ac ai ni ddylent fod yn fwy sanctaiidd nag ereill. A wyt ti yn gymmlhws i fod yn genhadwr sy heb fod yn ddelliaid da—i fod yn weinidog sy heb fod yn Gristion da?

2. Cadw yn fanwl at dy reolau gosodedig. Mae yr hyn a ddwyed cenhadau wedi ei ragosod iddynt. Bydd sier gan hyny o gael dy neges yn eile, cyn dy fyned i'r pulpud i'w thraddodi: "Mi a dderbyniais gan yr Arglwydd yr hyn a draddodais i chwi," medd yr apostol: *1 Cor. xi. 23.* Mae Duw yn erchi i'r prophwyd, "Gwrandaw y gair o'm genau i, a rhybuddia hwynt oddi wrthyf fi;"

Ezec. iii. 17. Rhaid ei fod oddi wrtho ef; neu, nid yw yn iawn. O! gwylia rhag gosod yr argraff frenhinol ar dy fettel gwael dy hun. Na ddos at y bobl â "fel hyn y dywéd yr Arglwydd," a chenyt ond dychymmygion dy ben dy hun. Nid oes un celwydd mor uchel a hwnw a ddywedir yn y pulpud. Ac megys nad oes i ti lefaru yr hyn na orchymynodd efe i ti, felly nid oes i ti gelu yr hyn y'th orchymynwyd i'w draddodi. Mae yn gymaint perygl tynu dim allan a rhoddi dim i mewn at ein cenhadwri. Yr oedd Iob yn ymgysuro yn hyn, "Ni chelais ymadroddion y Sanctaidd;" *Iob. vi. 10.* Ac y mae Paul yn hyn yn glanhau ei ddwyllaw oddi wrth waed eneidiau: "Yr ydwyf yn tystio fy mod i yn lân oddi wrth waed pawb oll; canys nid ymatellais rhag mynegi i chwi holl gynglor Duw;" *Act. xx. 26, 27.* Craffwch, attolwg, nad yw efe yn dywedyd ei fod wedi mynegi holl gynglor Duw: na, pwy fedr hyny ond Duw ei hun? Mae yr apostol yn dywedyd, "Mewn rhan yr ydym yn prophwydo:" y mae (*terra incognita*) tir anadnabyddus yn yr Ysgrhythyrau—dirgelion na'lawm ganfyddwyd erioed: ac nis gallwn fynegi y cwbl heb wybod y cwbl: ond ei ddywediad yw, "Nid ymatellais rhag mynegi;" pan gyfarfyddai â gwirionedd, ni fyddai yn camu draw i'w oehel, fel y gwnaawn ni wrth weled dyn yn yr heol na byddom yn chwennych siarad âg ef, ni a gilw'n i ryw dŷ neu *shop* nes ei fyned heibio. Nid oedd yr apostol sanctaiidd yn ofni lefaru yr hyn a wyddai ei fod yn feddwl Duw: fel y cawsai efe gan Dduw, felly y caent hwy ganddo ef. Nid oedd efe yn ei bregethiad yn balcio yr hyn oedd yn fuddiol iddynt ei wybod. Caleb, un o ysbiwyr Canaan, nis gallai roddi hanes llawn am bob lle pennodol yn y tir; ond fe wnaeth y sylw goreu a allai; ac yna y mae yn dwyn gair yn ol i Moses, "fel yr oedd yn fy nghalon," medd efe (*Ios. xiv. 7*), tra yr oedd ereill yn ddiffaith yn celu yr hyn a wyddent am eu bod heb ewyllys i'r daith. A hyn a ddygodd y dystiolaeth iddo ef o enau Duw ei hun, ei fod wedi ei gyflawn ddilyn: *Num. xiv. 24.* Felly yr hwn sydd yn ymroddi yn ddyfal i chwilio yr Ysgrhythyrau, ac yna yn dwyn gair at ei bobl, fel y mae yn ei galon, gan bregethu yr hyn a ddysgodd iddynt, heb ddarn-bigo ei gydwybod, nac attal y peth a wŷr gan ofn neu chwant: dyma y dyn sydd yn cyflawni ei weinidogaeth, ac a gaiff y ganmoliaeth, "Da, was da a ffyddlawn."

3. Na thybia mai digon yw i ti draddodi dy genadwri oddi wrth Dduw; ond dangos awyddfryd drosto wrth negeseua yn ei achos. Pe byddai cenadwr, ar ol cael gwrandawiad ac adrodd ei neges yn oeraiidd, yn ymroddi i bleserau y llys yr anfonwyd ef ato, ac heb feddwl na gofalu llawer pa

tteb a gaiff, na pha fodd y mae gorchwyl ei feistr yn llwyddo, yn sicr nis gallai hwn ldywedyd ei fod wedi gwneuthur dyled-wydd cenhadwr ffyddlawn: na, rhaid i'w pen a'i galon hefyd fod ar waith, pa fodd i'w roddi bywyd yn y gorchwyl, a'i ddwyn gyntaf i ben da. Ni wnai gwas Abraham na bwyta nac yfed nes gwelod pa ffordd y gweithiai ei gynnyg, a pha fodd y gwnaent i feistr: *Gen. xxiv.* Fel hyn y dylai gweinidogion roddi i'r rhai y maent wedi eu anfon atynt weled eu bod mewn difrif, a bod eu calonau yn ddwys yng ngorchwyl eu cenhadaeth. Pan fyddo eu pobl yn langos parch i'w personau, er y dylent yn ddiolchgar dderbyn eu mwyneidd-dra hwn, etto y maent i'w roddi iddynt wybod mai nid hyn yw y peth y deuant er ei fwyn, nac a'u bodllona, ond bod iddynt wneuthur yn dirion a'u Meistr y maent yn negeseua drosto, a'u hanfon yn ol gyda'r newydd llawen o'u medifeirwech a'u derbyniad o Grist. Hwy a dylent ddwys ymgeisio am eu hiachawdwr-aeth hwynt, gan geisio ar yr un pryd eu yneru â mwyn ddeisyfiadau cariad; bryd rall, eu cylchynu â bygythion; fel, os i'w ffyn y mynant fyned, y byddo ganddynt y ystiolaeth hon i'w canlyn:—Fod eu dinystr honynt eu hunain, ac nid yn dyfod arnynt ddiffyg eich gofal chwi a'ch tynerwech at u heneidiau. Nid digon eich bod yn bregthwyr uniongred, ac yn traethu gwirionedd; fel ac lawyddfryd y mae Duw yn geisio ar eich dwylaw. Mae efe ei hun mor gryf ei mserchiad ar iachawdwriaeth pechadur-iedu tlodion, fel y mae yn ffaidd ganddo fod chwi sydd ar ei neges hwn ei draddodi yn erllyd heb ddangos eich ewyllys da i'r peth. Mae Crist wrth honni ei was i wahodd westwyr i swper ei efengyl yn erchi iddo i "Cymmhell hwynt i ddyfod i mewn;" *Luc. xiv. 23.* Ond pa fodd? Yn sicr, nid eiddo y darfu i'r Ysphaenywyr gymmhell yr undiaid, pan yrent hwynt i'w bedyddio, fel y gyrwn ni anifeiliaid i'w dyfru, â ffyn a pheryg. Nid ydym i'w pwyo i mewn, trwy rfer trais a chreulondeb ar eu cyrph, ond trwy rym dadleuaeth ysbrydol yn effeithio ar eu calonau yn nerthol bregethiad y gair. *Percutit ut faciat voluntarios, non salvet vitos,* medd Bernard. Pan fyddo Duw yn traw cydwybodau dynion â dychrynyfeydd ei bygythion, i'w gwneuthur yn ewyllysgar y mae: ni achub efe mo honynt yn erbyn eu ewyllys.

4. Na fydded i neb na dim dy ddenu i'w frawychu oddi wrth gyflawniad ffyddlawn o'th swydd. Nid oes i genhadau fod na wyr cyflog gan frenin estronol. Y mae wnw yn annheilwng i wasanaethu brenin mewn galwad mor anrhydeddus, na faidd lael ar ei frenin ei amddiffyn a'i wobrwyo. Nid hir y bydd y fath yn yn ffyddlawn i'w wydd, nac yntau i'w weinidogaeth, uad yw

yn gorphwys yn foddllawn ar addewid Duw i'w nodd i'w wobrwyo. O! mor rhwydd yr â hwn i'w geisio neu i'w achub ei hunan, neu wellau arno ei hunan, er i hyn fod trwy ei anffyddlondeb i Dduw! Pell oedd Paul oddi wrth y baweidd-dra hwn: y mae wedi gosod esampl ardderchog i'r rhai oll a fyddant genhadau i Dduw hyd ddiwedd y byd: "Megys y cyfrifwyd ni gan Dduw yn addas i ymddiried i ni am yr efengyl, felly yr ydym yn llefaru, nid megys yn rhyngu bodd i ddynion, ond i Dduw, yr hwn sydd yn profi ein calonau ni; o blegid ni fuom ni un amser mewn ymadrodd gwneithus, fel y gwyddoch chwi, nac mewn rhith cybyddod; Duw yn dyst;" 1 *The. ii. 4, 5.*

5. Bydd dirion wrth a thyner ofalus dros dy gyd-ddeiliaid. Onid syn fyddai y peth pe byddai cenhadwr wedi ei anfon oddi yma i Twrci neu Ysphaen, yn lle nodd i chefnogi marsiadwyr Lloegr yno yn eu masnach, yn rhwystro eu marchnadaeth, ac yn arfer holl allu ei sefyllfa i'w niweidio a'u drygu! Yn ddia ni anfonodd y brenin mo hono i fod yn wrthwynebwyr, ond i fod yn noddwr a chymmwynaswr i'w ddeiliaid ffyddlawn yno. Y mae ar y gweinidog, fel cenhadwr Duw, gefnogi y saint yn eu masnach nefol, eu cymmhorth â'i gynghor, a'u hachlesu rhag y dirnyg a fwrw eu cymmydogion annuw- iol arnynt am eu daioni. O! mor drwm ydyw os try efe ei weinidogaeth yn eu her- byn! os â efe i wanbau eu dwylaw hwynt, a chryfhau dwylaw y drygionus yn y pul- pud, neu allan o hono trwy ei bregethiad neu ei ymddygiad! Gwell fyddai iddo pe rhwymid maen melin am ei wddf, a'i daflu i'r môr nag iddo fel hyn rwystro y rhai bychain hyn. Moses, taraw yr Aiphtwr a wnaeth efe, ond achub yr Israeliaid: pa gyf- rif a roddant hwy i Dduw o'u cenhadaeth, sydd hyd yn oed yn y pulpud yn taraw yr Israeliaid a'u tafodau, gan edliw eu puredd iddynt, ac yn llochi yr Aiphtiaid!—yr anwir a'r halogedig yn eu cynulleidfaoedd, wyf yn feddwl—trwy yr hyn y maent yn ymfen- dithio, fel rhai yn myned i'r nef, pan y mae eu traed (Duw a Wyr) yn rhodio y ffordd sydd yn sicr o arwain i uffern.

PENNOD XV.

Cyffyrddiad byr a phump o sylwadau oddi wrth fod Paul mewn cadwyn.

Yr ail ddadl sydd ganddo i'w cyffroi i gofio am dano yn eu gweddïau, yw ei gyflwr hel- bulus presennol: "Dros yr hon yr wyf yn genad mewn cadwyn." Wrth glywed am genhadwr a chadwyn, gallem ar y cyntaf ddisgwyl mai cadwyn o auri ydoedd am ei wddf, ac nid cadwyn o haiarn am ei goes neu ei fraich; etto, yr olaf a feddylir yma. Yr

oedd Paul y pryd hwn yn garcharor yn Rhufain; ond mewn math o gadwraeth rydd, fel y meddylir gan ddeonglwr oddi wrth yr ymadrodd hwn, mewn cadwyn, nid mewn cadwynau. Peth arferol yno oedd i garcharor gael ei roddi i gadwraeth milwr, gyda'r hwn y ca'i rodio ar led, ond â chadwyn am ei fraich ddelaun yn rhwym wrth ei wyliedydd; carcharor o'r fath, dybygid, oedd y gŵr sanctaidd hwn y pryd yma. Yr oedd Paul—yr oen—yn garcharor gan Nero, y llew; ac am hyny yr oedd mewn eisieu o weddtau yr eglwys drosto, ac yn eu deisyf. Y mae amryw sylwadau nodedig i'w tynu oddi wrth yr ymadrodd byr hwn. Cyffyrddwn â hwynt yn ysgafu, ond heb ymhelaethu arnynt.

DOSB. I.

1af. Creffwch ar y driniaeth y mae yr apostol gwynfydedig hwn yn ei gael gan fyd anniolchgar; taraw cadwyn am dapo fel pe buasai ddyhiryn neu leidr. Y mae yn pregethu rhyddid i bechaduriaid druan, ac yn cael dalfa iddo ei hun yn lle cyffog; y mae yn cyhoeddi ymwared i'r caethion, ac yn cael ei drin fel caethwas am ei boen. Gallai un synu pa beth a allent gael i gyhuddo gŵr mor ddiniwed a da, ag oedd yn ceisio bob amser i gael cydwybod ddirwystr tuag at Dduw a dynion; etto, gwelwch y fath gyhuddiad a wnaeth Tertulus i'w erbyn (*Act. xxiv*), fel pe ni buasai y fath adyn enbydus ag ef yn yr holl wlad. A Phaul ei hun a ddywed ei fod "yn goddef cystudd hyd rywman, fel drwgweithredwr;" 2 *Tim. ii. 9*. Yr oedd pethau trymion lawer yn cael eu gosod i'w erbyn. Oddi wrth hyny,

Nodwn 1. Fod y goreu o ddynion yn fynych yn goddef, gan gael eu cyfrif yn rhai brynton a drygonus. Ni bydd ar elynion y saint eisieu eu dysgu i dduo eu henwau a'u hachos. Rhaid i Grist ei hun gael ei gyfrif gyda'r troseddwy, a dim llai na chabledig gael ei osod i'w herbyn. Nid digon gan erlidwr fod yn greulawn, ond hwy a fynant gael eu cyfrif yn gyfiawn wrth fod yn greulawn: "Condemnasoch a lladdasoch y cyfiawn;" *Iago v. 6*. Dyma lofruddiaeth erchyll wedi ei wneud yn ol trefn a rhith cyfiawnder. Y maent yn gyntaf yn condemnio, ac yna yn lladd. Ac yn ddiâu y mae lofruddiaeth ar y fainge yn waeth yng nghyfrif Daw na chyflafan gan ysgelerddyn ar y ffordd fawr. Wel, y mae diwrnod pan y caiff achos Paul, a'r lleill o'r saint gorthlymedig, wrandawiad tecach nag a allant gael yma; ac yna fe ymddengys mewn lliw gwell nag fel ei tynwyd â glöyn du eu gelyntion. Caiff enwau y duwoliôn adgyfodiad yn gystal a'u cyrph. Y maent yma yn cael eu claddu â'u gwynebau yn isaf; eu diniweidrwydd a'u dinagrithrwydd dan lawer o anair celwyddog; ond yna y troir pob peth i'w le. A da y gall y saint

aros am eu glanhâd, cyhyd ag y mae Du ei hun yn aros, am awddiffyniad i'w lyodraeth ei hun ar y byd oddi wrth eiri caledion y rhai annuwiol.

DOSB. II.

2. Craffwch ar wir achos dioddefai Paul. Ei awyddfryd dros Dduw a'i wionedd ydoedd: "Dros yr hon yr wyf genad mewn cadwyn;" hyny yw, dros efengyl, yr hon yr wyf yn ei phroffesu a phregethu. Fel y merthlyr, yr hwn pa ofynwyd iddo pa fodd y daethai i'r carchar a ddangosodd ei Feibl ac a ddlywedod "Hwn a'm dygodd i yma." Dichon erlidwr hōni y peth a fyaant, ond at grefyddu duwioledeb y saint y mae eu gwg. Yr oedd Paul yn ōr gonest ym maru ei gywladwyr, tra yr oedd efe o'u tyb hwy, y rhodio yn eu ffordd hwy, ac yn gwneud fwy y gwnaent hwy; ond pan addefodd ei hun yn Gristion, ac y pregethodd efengyl Cris hwy a'i criasant ef i lawr yn ebrwydd; hen gyfeillion a aethant yn elynion newydd iddo, ac yr oeddynt oll â'u dynnau o ddeut ei glustiau. Nid yw yr annuwiolion on caethweision y diafol, ac yn rhaid iddyr wneuthur a archo efe iddynt. Yn awgwrionedd a duwioledeb yw yr hyn sydd y dryllio ei deyrnas ef; gan hyny, pan fo rhai hyn yn ymddangos yn macheddau saint, yna y mae yn galw allan y byd annuwiol, fel y geilw brenin ei ddeiliaid i'w maes i ymladd drosto. Ac felly y mae yn rhy aulawdd cyrhaedd i'r nef heb ryfel. "Pawb a'r sydd yn ewyllysio byw yn dduwiole yng Nghrist Iesu, a erlidir;" 2 *Tim. iii. 12*. Fe'u herlidir oll, ryw ffordd neu gilydd; a heb yn fwy na'r pregethwr. Y mae ef yn rhoi ei law yn nyth y caewn, a rhaid iddo ddisgwyl cael ei bigo. Y mae ef yn sathru ar ben y sarph, a rhyfedd onid ymgyfyd i'w frathu. Ond na fydded i hyn eidd blino; nac ofnwech ddim a ellwech ei oddef yn unig edrychwch am ba beth yr ydych chi goddef. Y mae croes Crist wedi e gwneuthur o goed peraidd, y mae cysuroi arbenig i'r rhai sydd yn dioddef o achos cyfiawnder. Pan oedd un Sabina—merthlyr es Gristionogol—yn llefain ac yn cwynfanddan ei gwewyr trwm wrth esgor ar blentyn gofynai rhywrai iddi, pa fodd y goddefai hi y poenau hyny yr oedd ei herlidwyr yn eu darparu iddi, os oedd hi yn diffygio wrth y rhai hyny? "O!" ebe lithau, "yr wyf yn awr yn dioddef am bechod; y pryd hwn y mi a gaf ddioddef dros Grist."

DOSB. III.

3. Daliwch sylw mor dŷn y mae Paul yn glynu wrth y gwirionedd. Ni fynymadael âg ef, er iddo ei ddwyn i ffinder. Gwell ganddo i'r erlidwr ei garcharu am bregethu y gwirionedd, nag iddo ef garcharu hwn trwy ddistawrwydd ofnus. Y mae wedi bwrw y draul, a phenderfynu sefyll at ei

roffes, costied a gostio iddo. Yn ddiau nid w y grefydd hono yn werth ei choffeidio, yn ddichon ddwyn ein costau wrth oddef yn hachos; ac nis gall neb wneud hyn yn fawn i y Cristion. Nid yw hwnw chwaith yn werth yr enw o Gristion na faidd gywmeru addewid Crist, y caiff ei ddigolledu yn y ef, yn lle ei draul wrth oddef er ei fwyn i'w ddaear. Ac etto, Oeh! mor anhawdd ydych chi dilyn o ffydd i wneuthur hyn! Haws w' dygwr wrth enw nag ymostwng dan groes y Iesu. Y mae llawer a hoffant grefydd i ddyf haf, pan fo yr hin yn deg a chynhnes i'w led y wlad, ond pan ddelo y gauaf, ceuir drysau, ac nid oes neb i'w weled ynddo ac o'i amgylch.

DOSB. IV.

4. Dalwch sylw fel y mae Paul yn cybedd adrodd ei ddiodeffiadau wrth yr eglwys. Yn awr yn garcharor, y mae efe i anfon ei lythyrau at yr eglwys hon, ac feill, i hysbysu iddynt ei helynt. Oddi wrth hyn, creffwch,

(1.) Nad yw diodeffiadau dros yr efengyl a achos o gywilydd. Nid yw Paul yn wrido wrth fynegi mai dros yr efengyl y mae efe mewn cadwyn. Iddynt hwy a roisai i gadwyn arno yr oedd y cywilydd yn rthyn, ac nid iddo ef oedd yn ei gwisgo. Fe lleidr a'r llofrudd y mae achos iddynt i wilyddio dywedyd am ba beth y maent i dioddef, ond nid oes i'r Cristion sydd yn i oddef ar achos da: "Os fel Cristion, na dded gywilydd arno; ond gogonedded lluw yn hyn o ran;" 1 *Ped'r* iv. 16. Nid yd ddi Crist ei hun yn ei gyfrif yn ddianedd i wilydd fod ôl ei archollion i'w gweled wedi i adgyfodiad. Babyllas, merthyr Cristionol, a fynai gael claddu ei gadwynau gydag y

Yr oedd yr apostolion "yn llawen am eu frif hwynt yn deilwng i ddiodeff am i arch o achos ei enw ef;" *Act.* v. 41. Ac i nad yw yn gywilydd diodeff o achos yr efngyl, yna yn sicr nid yw yn gywilydd ei roffesu a byw yn ol ei rheolau sanctaidd. i gaiff yr annuwiol ymgoneddu yn ei gyllydd, a thithau gywilyddio am yr hyn yd yn ongiant i ti? A gânt hwy wneud i waith y diafol ar ganol dydd goleu, a thithau ofni dy weled yn gwneud daioni! i to Salviana a dlywed i ni, yn ei ddydd i ef (mor ddrygonus oedd y byd, a'r fath i rmyg oedd ar sancteiddrwydd) fod llawer i cadw bauer Crist yn eu llawgell, ac yn i rddio eu crefydd rhag cael eu cyfrif yn i rmyngus.

DOSB. V.

5. Craffwch ar y diben pa ham y mae yn i roddi am ei ddiodeffiadau. i Fel y caent wybod y gwir achos yr i d yn diodeff o'i herwydd. Yr oedd i ynon Paul yn rhoi pethau trymion i'w i byn, a'r rhai hyny a allent ehedeg mor i lag Ephesus. Pan fo y saint yn diodeff

y mae Satan yn dra dyfal i'w gwaradwyddo, a rhoi gau-fynag ar led am yr achos o'n blin i derau fel pe na byddai yn dda. Yn awr, er i nad oedd Paul yn prisio ond ychydig pa beth a ddywedai y byd annuwiol am dano, etto yr oedd yn dymuno bod yn ddefel yn meddyliau yr eglwysi; ac am hyny y mae i yn hysbysu iddynt yr achos o'i garchariad.

2il. I gryfhau eu ffydd a chysuro eu calon i au. Diammheu fod cadwyn Paul yn myned at eu heneidiau hwynt, a bod ei gystudd ef i yn dristwch iddynt hwy. Hyn a wyddai i efe, ac am hyny y mae yn anfon gair gyda i Tychicus—y genad oedd yn dwyn yr epis i tol—pa fodd yr ydoedd arno yn ei rwyngau, fel na chollett ormod o ddagrau yn ei achos i ef, oedd â'i galon mor llon a llawen yn ei ddiodeffiadau: "Fel y caech wybod ein helynt ni, ac fel y diddanai efe eich calon i chwi;" *adm.* 22. Fel hyn y gwelsom, ambell i waith, dad tynergalon ar ei glaf wely, â'i i boen ei hun a'r meddyliaid am angeu yn i agosau, heb ei flino yn gymmaint a'r olwg i ar ei blant yn ymofidio mor drwm o'i her i wydd; ac am hyny, gan aughosio ei ofidiau i ei hun, y mae yn troi â gwynebryd siriol i i'w cysuro hwy. O! y mae yn olwg ddy i munol gweled y saint a fo yn rhyddion yn i gofidio dros eu brodyr cystuddiol; a'r di i oddefwyr hwythau yn dyfod yn gysurwyr i'r rhai rhyddion. Nid yw crefydd byth yn i ymddangos yn ogoneddusach na phan fo y i rhai hyny yn ei chanmawl sydd yn diodeff i drosti; ac nid oes un ffordd iddynt ei chan i mawl yn fwy na thrwy sirioldeb sanctaidd, i gostyngedig o ysbryd, yn eu diodeffiadau. i Yr oedd y llythyrau cysuro a anfonodd y i merthyrion o garchar yn nyddiau Mari i waedlyd, yn rhyfedd gryfhau eu brodyr i drwy yr holl deyrnas, ac yn eu haddasu i hwynt i'r carchar. Y mae diodeffwyr yn i pregethu gyda mantais fawr uwch law i ereill; y maent yn siarad, nid wrth hanes, i ond o'u profiad eu hunain.

3ydd. I arwymo eu gweddïau o'i blaid. i Y mae y saint diodeffol wedi bod erioed yn i dra chwennyhgar o weddïau. Ni a gawn i Paul yn gosod yr eglwysi oll ar waith dro i to. "Gweddïwch, gweddïwch, gweddïwch," i oedd y diweddïad cyffredin i lythyrau Mr. i Bradford o garchar. A'r rheswm mawr am i hyny yw, o blegid y mae cyflwr diodeffus i yu gyflwr profedigaethus. Pan fo dyn yn i chwareu yr erlidiwr, y mae y diafol yn cofio i bod yn demtiwr. Efe a ddilynodd Grist ei i hun i'r anialwch, ac a fedr y ffordd at ei i saint yn y carchar. Weithiau, efe a brawf, i os gall eu meddalw hwynt âg argraphiadau i ofn, neu beri iddynt drugarhau wrthynt eu i hunain; ac ni bydd yn fyr o rai a roddant i fenthyg eu dagrau at doddi eu calondid, a i gwauhau eu hymroddiad. Fe allai mai i gwrraig a phlant fuddant, neu gyfeillion a i chymmydogion sydd yn ewyllysio yn dda

iddynt, ond yn cael eu drwg ddefnyddio gan Satan i osod magl o'u blaen hwynt wrth ddangos eu traserch atynt. Diamheu fod y bobl dda hyny yn amcanu yn dda i Paul, y rhai oeddynt â dagrau a deisyfiadau yn ceisio ei gadw o Ierusalem, lle yr oedd oeddid wedi prophwydo y deuai efe i flinder: *Act. xxi. 11, 12.* Ond yr oedd gan Satan fwriad yn erbyn Paul drwy hyny; a gobeithio yr oedd, nid yn unig y torent ei galon ef, ond y diryment ei galonddid â'u dagrau. Pan nas gall ofnogi y Cristion i ddiange rhag y groes, yna efe a gais suro a chwyddo ei ysbryd â rhyw ddigder dirgel-aidd yn erbyn y rhai sydd yn ei gosod arno. O! nid gorchwyl hawdd ydyw cymmyrd drwg, a bod ei ddymuno yn ol ar y neb a fo yn ei fwrw arnom. Y mae coledd cariad at yr hwn sydd yn dangos câs a llid atom ni yn waith anhawdd. Os na all Satan suro yr enaid â dig yn erbyn yr erlidiwr, yna efe a gais ei chwythu i fyny â thyb mawr am dano ei hun, sydd yn beiddio dioddef dros Grist, tra y mae ereill yn crebachu i mewn eu penau, ac yn ceisio ymgadw o fewn eu cragen eu hunain. O! rhyw bryf tân yw y balchder yma a all fyw mewn tanllwyth o erledigaeth! Os oes neb rhyw sant mewn eisien o ostyngeddwrwydd llawer o saint, hwnw yw efe sydd yn cael ei alw i ddioddef. Y mae ymfrostio yn ei ddioddefiadau dros Grist yn gweddu yn dda iddo: *2 Cor. xii. 9; Gal. vi. 14.* Ond ymfrostio ynddo ei hun o'u herwydd sydd yn beth gwrthun a châs. Onid oes eisien llygad cyflym, a llaw

ddiysgog, ar hwnw sydd i yru ei gerbyd i hyd ael y fath ddibyn enbyd?

Mewn gair, megys y mae cyflwr dioddef yn llawn o brofedigaethau, felly y mae nerth y Cristion i'w ddwyn drwyddynt y ddiogel heb fod yn ei gadwraeth ei hun. Rhaid i Dduw gynnorthwyo, neu fe fydd ysbryd y gwrolaf yn fuan ddiffygio: "Y mhob peth y'm haddysgwyd, i fod yn llaw ac i fod yn newynog, i fod mewn helaeth rwydd, ac i fod mewn prinder;" *Phil. i. 12.* Dyma wers anhawdd yn wir i'w dysgu. Pwy oedd ei feistr! Gwelwch *adn. 13.* "Yr wyf yn gallu pob peth trwy Grist i'w hwn sydd yn fy nerthu." Yn awr, fel mae nerth y saint i ddioddef, nid ynddynt eu hunain ond yng Nghrist; felly gweddynt yw y moddion goreu i'w gyrchu i mewn i eu cynnorthwy; o herwydd trwyddi hyn maent yn addef eu hanallu eu hunain; y felly y clod yn sier o ddychwelyd i Dduw heb un cydymgeisiwr am dano. Yr oedd Paul yma yn yr agwedd hon o feddwl mwy na hyny drachefn, o herwydd megys y mae yn cyffesu nas gall efe wneuthur dim heb gynnorthwy Crist i'w alluogi a'i gryfhau, felly nid yw yn beiddio ymorphwyl ar ei weddiau unigol ei hun tuag at ei galon, ond yn galw i mewn rym cynnorthwyol i frodyr sanctaidd, i gydymdrechu â'r nef yn ei blaid, fel tra y byddai ef yn y glân y dioddef yn achos yr efengyl, y byddo hwythau gyda'u gilydd ar fryn gweddi y dyrchafu eu dwylaw a'u calonau yn ei blaid a'i achos.

DIWEDD.







